This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.

+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.

+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.

+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at `http://books.google.com/`

WIDENER LIBRARY
HX 5PWK 3

Digitized by Google

9276.3

Harvard College Library

FROM THE BEQUEST OF

THOMAS WREN WARD

TREASURER OF HARVARD COLLEGE
1830–1842

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

MAR 22 1897
LIBRARY.

Part 4. [D—DD] 14s. Net.

A Dictionary
of
The Welsh Language.

By the
Rev. D. Silvan Evans, B.D.
Rector of Llanwrin, Montgomeryshire; and Chancellor of Bangor Cathedral;
and
J. Henry Silvan Evans, M.A. Oxon.

Geiriadur Cymraeg.

Gan y
Parch. D. Silvan Evans, B.D.
Rheithor Llanwrin; a Changhellor Eglwys Gadeiriol Bangor;
a
J. Henry Silvan Evans, A.C.

Carmarthen:
W. SPURRELL & SON.
LONDON: SIMPKIN, MARSHALL & CO.; BERNARD QUARITCH.
MDCCCXCVI.

Digitized by Google

CHIEF ABBREVIATIONS.

a. adjective.
ac. adjective common gender.
adv. adverb.
af. adjective feminine.
al. aliter, otherwise, another reading.
am. adjective masculine.
art. article.
cf. confer, compare.
con. conjunction.
contr. contraction.
corr. corruption.
cp. (degrees of) comparison.
dim. diminutive.
f. feminine.
gl. gloss.
im. imitative, onomatopoetic.
int. interjection.
m. masculine.
modf. modification.
pl. plural.
pr. pronoun.
pr. prep. pronominal preposition.
pr. rel. pronoun relative.
prep. preposition.
ppt. perfect or past participle.
pt. participle.
pt. a. participial adjective.
q.v. quod vide.
s. substantive.
sc. substantive common gender.
s.cl. substantive collective.
sf. substantive feminine.
sf-m. substantive feminine, but sometimes masculine.
sg. singular.
sgl. singulative.
sm. substantive masculine.
sm-f. substantive masculine, but sometimes feminine.
s.pl. substantive plural.
s.v. sub voce.
v. verb.
va. verb active or transitive.
vn. verb neuter or intransitive.

A.B. Four Ancient Books of Wales (1868).
A.S. Anglo-Saxon.
A.V. Authorised Version (of the Bible).
Br. Breton, Armoric.
B.M. British Museum.
C. Cornish.
Cynn. Cynnwysiad.
C.A. Ceinion Alun (John Blackwell).
C.A.C. Ceinion Awen y Cymry.
C.B.SS. Cambro-British Saints, 1853.
C.C. Cyfreithiau Cymru (8vo ed. 1841)
C.G. Coll Gwynfa (Dr. W. Owen Pughe).
C.P. Cynghor Priodawr (Dr. W. Owen Pughe).
C.Q.M. Cambrian Quarterly Magazine, 1829—1833.
C.S. common or colloquial speech.
C.V. Cornish Vocabulary (in G.C.).
C. y C. Canwyll y Cymry (Rhys Prichard, ed. 1858).
C. y G. Corff y Gainc (Dafydd Thomas, *Dafydd Ddu o Eryri*).
Diff. Diffyniad Ffydd Eglwys Loegr (Morus Cyffin, ed. 1849).
D.P.O. Drych y Prif Oesoedd (Theophilus Evans, ed. 1740).
E., Eng. English.
E.A.V. English Authorised Version (of the Bible).
E.C. Eos Ceiriog (Huw Morus).
E.D. Einioes Dyn (Dr. W. Owen Pughe).
Esg. Esgob.
Ga. Gaelic.
G.B.C. Gorchestion Beirdd Cymru, 1773.
G.C. Grammatica Celtica (Zeuss), ed. Ebel, 1871.
Ger. German.
Gr. Greek.
H.C., Han. Cym. Hanes Cymru (Th. Price, *Carnhuanawc*).
Heb. Hebrew.
Hom. Homiliau (1606).
H. y Ff. Hanes y Ffydd (Charles Edwards, ed. 1856).
H.G. Hu Gadarn (Dr. W. Owen Pughe).
Ir. Irish.
L. Latin.
L.L. Low or Late Latin.
L.W. Leges Wallicae (Wotton's ed. 1730).

Digitized by Google

CH

f. the fourth letter and the third consonant the Welsh alphabet, is a guttural spirant (χ), and both an immutable radical and a ondary letter. As a radical it is invariably lowed by *w*, and the trigraph *chw* might ll be represented by one symbol. In the ken language of South Wales, *chw*, as an tial, has partly been softened into *hw;* but ely in other positions. The same pecu- rity frequently obtains in the medieval tings of that part of the Principality; and this tendency such modifications as *ym- elyd* and *ymhoelyd* for *ymchwelyd* must be ributed. A similar change occurs in late rnish. Most languages are softer in the th and rougher in the north of the countries which they are spoken. Dr. Davies notes s difference in the treatment of *chw* which vails in the two portions of the country; t the cause of it lies much deeper than that ich he seems to suggest.

rro Ch Demetæ, Anglorum remuli, leviuscule proferut *Whaer*, pro *Chwaer;* *Wharae*, pro *Chwarae*, ut Mal ap pan ymwhelo cart.—*Rudimenta* (1809), 29.

Irish, the sound which corresponds to that the Welsh *ch*, is generally expressed by *gh*, in *lough* (=Welsh *llwch*); and in Gaelic, ich is followed in Lowland Scotch, by *ch*, in *loch;* but the Welsh *ch* is a stronger tural.

hen secondary, *ch* is the aspirate mutation c, and may occupy any position which *c* y do.

, with very few exceptions, lengthens the wel which immediately precedes it, both monosyllables and polysyllables; as *bach*, *h*, *gwich*, *coch*, *puch*, *cwch*, *rhych;* *achos*, *yd*, *dichell*, *cochi*, *uchel*, *sychu*. The exions are very few, and seldom occur; as (the name of the letter), *fflach*, *llach*, *mòch* *mox*), *tych*. Cf. *Llythyraeth yr Iaith raeg*, §§ 38, 72.

-on, -oedd, *sf.* a current of air; a puff wind; a blast, a gust, a gale, a breeze.

f baw braint chwiflaw brwnt *chwa*.
Madog Dwygraig: M.A. i. 489.

th angel marwolaeth ar edyn y *chwa*,
a danllyd anadlu i'w gwersyll ei bla.
Samuel Roberts: Caniadau Byrion, x. 4.

chwythu'r *chwaoedd* peraidd
ros Ynys Ceylon boeth,
hob golygfa'n llonaidd,
n unig dyn sy noeth.
Robert Owen: Gweith. 288 (cf. 272).

wn glynoedd hedd a llennyrch cudd,
r hwyl ramantawl crwydro wnaf,
wibiaf drwy wasgodion gwŷdd,
le ysgafn chwareu *chwaon* haf.—*Telynegion*, 42.

a o wynt, a gust or puff of wind; a blast wind.

lle y gwelaist yn dyfod allan o'i safn ef fel *chwa o wynt*, n, a thymmestl.—2 *Esd.* xiii. 27.

Y mae'r pryf copyn . . . yn llafurio tros lawer o ddyddiau yng nghyd i wau ei we, ac yn y man, pan ddarffo iddo, fe ddaw *chwa o wynt*, neu ryw beth arall, ac a'i tyr hi'n gandryll.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. II. iii. 42.

Nid oedd un chwa o wynt, there was not a breath of wind.—*Dyfed.*

Chwad, *sm.* a quick gust, jerk, or start (*P.*); a slap, a pat.

Chwado, *v.* to beat, thrash, or cudgel.—*S. W.* Cf. *Chwatio.*

Chwaedd, -au, *sm.*=*Chwaeth.*

Chwaeddu, *v.*=*Chwaethu.*

Mal y bai iddo ef trwy ras Duw brofi [**chwaeddu*] marfolaeth dros bawb.—*Esgob R. Davies:* Heb. ii. 9.

Chwaeg, *sf.* [chwa] a gust, a taste, a relish. —*P.*

Chwaen, -au, chweiniau, *sf.* that which comes suddenly or unexpectedly; chance, hap, accident; a very short time, an instant, a breath; an event or incident; an attack, fit, stroke, or bout (of illness); a gust; a start; a sudden act, action, impulse, or motion.

A blyghau a oruc Bown. a gwneuthur *chwaen* Ffrangheid ffrwythlawn. yssigaw y vynwgyl. a llad y benn.
Bown o Hamtwn, ¶ 67.

Sef a orugant pawb or teulu gostwng eu penneu. rac adolwyn y un vynet y dial sarhaet Gwenhwyfar. a thebygolyaeth oed gantunt na wnaei neb *chwaen* ky ehofnet a hynny.—*Mabinogion*, 197.

Tri anferthwch gwledd: meddwdod; ymrysonau; a chrochwerthin am ben bychanigion o *chweiniau*.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 269.

Da y hadwaen deyrn chwyrn *chwaen*
Drech enw ymlaen drychan mlynedd.
Iorwerth Llwyd: M.A. i. 507 (cf. 458, 481, 518).

Duw a'n ceidw rhag dirieid-*chwaen;*
Down i'w blaid, a Duw'n y blaen!
Dafydd ab Gwilym, ccxl. 3.

Pybyr *chwaen*, pawb adwaen pwy,
Glân arf Deifr-darf Glyn Dyfrdwy.
Iolo Goch: G.B.C. 79.

Gorsedda Nos, cyntefig ar bob peth . . .
Y Demogorgon, nesaf Son a *Chwaen*
A Therfysg ac Annhrefniad llawn o gur.—*W. O. Pughe:* C.G. ii. 1011 (cf. 957 (cf. iv. 586, 782, 984, 1084; xi. 768).

Pob *chwaen*, llywiad, nad wyt yn gwel'd ei bri.
Robert Owen: Gweith. 272.

Mor ddiflas clywed llais y sawl
Heb riniau serch a hapiant gwrdd
Trwy *chwaen* neu gyfoeth, urdd neu hawl,
I dreulio'r ddifyr awr i ffwrdd!—*Telynegion*, 25.

Chwaen amrant, the twinkling of an eye.

D. Pa gyhyd y bu Duw yn gwneuthur pob pethau corfforolion? A. *Chwaen amrant*, ac yna bod a byw, goleu a gweled.—*Barddas*, i. 254.

Ar y chwaen, forthwith, immediately, directly, at once.

Ar y chwaen yr ymddiddanodd ag wynt.
W. Salesbury: Marc vi. 50 (cf. viii. 10.

Chwaen dda, good luck, good chance.

Yn llon cyfrana ei *chwaen dda*, i ddyn
Disyniawl gyfaill.—*W. O. Pughe:* C.G. ix. 748.

Chwaen dost, a severe or sad event.

Chwaen ddrwg, a bad turn or incident; a mischance, ill chance.

Digitized by Google

Chwaen hyll, a dire chance; a dreadful thing.

Chwaen o annwyd, a fit or attack of cold.

Chwaen o glefyd, an attack of illness.

Chwaen Ddu, *Chwaen Goch*, *Chwaen Hen*, *Chwaen Wen*, place-names in Anglesey.

Chwaenad, *sm.* a happening or occurring.—*P.*

Chwaenol, *a.* incidental, casual.—*P.*

Chwaenu, *v.* to come abruptly; to happen or chance.—*P.*

Chwaer, *pl.* chwiorydd, †chwioredd, *sf.* [C. *hoer*, *hoar*, *hwir*, *hoer*, *hôr*; Br. *c'haor*; Ir. *suir*; *siur*, *seithar*; L. *soror*] 1. a sister.

A chynnic a wnaethant wynteu idaw yr vn a vynnynt oe teir *chwioryd* yn briawt.—*Mabinogion*, 226 (cf. 35, 291).

Erchi idaw awnaeth anuon Esonja y *chwaer* y Briaf.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 5 (cf. 6, 8, 12, 17).

Ponyt cennat y dhau vrodaur priodi y dhwy *chwioredh*.
Lucidar, ł73 (cf. 74).

Gan debygu bot yn waeth dy diwed noth *whioryd* ereill.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 68.

Elenus uab Priaf ae dwy *chwiored* Cassandra ac Andromacca.—*Dares Phrygius*: Ll.C.H. ii. 39.

Ni char Eiddig, ddig ddogni,
I'w *chwaer* ymddiddan â chwi.—*D. ab Gwilym*, cclvii. 11.

Yna y priodes y brenhin Dauyd hwnnw Dam Em *chwaer* y vrenhin Lloeger.—*Brut y Tywysogion*, 224 (cf. 226).

Kanys y nei uab y *chwaer* oed.
Ystoria de Carolo Magno, col. 453.

Nid amgeledd ond *chwaer*.—*Diareb.*

A *chwaer* dy *chwiorydd* ydwyt.—*Esec.* xvi. 45.

Am hyny yd anfonawdd y *chwioredd* ef ataw.
W. Salesbury: Ioan xi. 3.

Chwaer faeth (*pl.* chwiorydd maeth), a foster-sister.

Chwaer yng nghyfraith (*pl.* chwiorydd yng nghyfraith), a sister-in-law.

Dy *chwaer yng nghyfraith* a ddychwelodd at ei phobl.
Ruth i. 15.

Chwaer yn y gyfraith, a sister-in-law.

A'r Brenin Sion o Loegr a grwydrodd i Gymru at ei wraig a'i *chwaer yn y gyfraith*.—*Iolo Mss.* 65.

Chwaer efell, a twin sister.

Hanner chwaer, a half sister; a sister by one parent only.

Y Chwaer-Ynys, the Sister-Island=Ireland.

Mae aflonyddwch ac anghydfod rhyfeddol yn barhäus ym mhlith trigolion y *Chwaer-Ynys*.
Seren Gomer, viii. 221 (cf. 29).

Heb sylwi ar ymddygiad y Pabyddion yn y *Chwaer-Ynys*.—*Ioseph Harris:* Gweith. 63 (cf. 64).

2. sister, as a term of endearment.

Dywet vy *chwaer* heb y Peredur pa diaspedein yssyd arnat.—*Mabinogion*, 203 (cf. 204, 206, 215).

Dygaist fy nghalon, fy *chwaer* a'm dyweddi. . . Mor deg yw dy gariad, fy *chwaer* a'm dyweddi!
Can. Sal. iv. 9, 10 (cf. 12; v. 2).

3. a sister, a woman of the same faith or society.—*Rhuf.* xvi. 1.

¶ Pughe gives the plural as '*chweirydd*, but mostly *chwïorydd* from *chwïawr*, and *chweiorydd* (chwai);' but no other plural than *chwiorydd* or *chwioredd* is known to occur. *Chwaeriorydd* is occasionally heard in the spoken language, which may be simply a corruption of *chwiorydd;* and *chwaiorydd*, given by Davies as being sometimes used, is the same as Pughe's *chweiorydd*, and is but a slightly variant spelling of the same word.

Chwaerfaeth, -od, *sf.* a foster-sister. An improper compound (for *chwaer faeth*), like *brawdmaeth*, *mabmaeth*, *mammaeth*, *merchfaeth*, *tadmaeth*.

Ar corr ar gorres a weleist yn llys Arthur. correit dy dat ti ath uam oedynt. a *chwaeruaeth* itt wyf ynneu.
Mabinogion, 204.

Chwaerol, *a.* sisterly; like or becoming a sister.

Chwaeroliaeth, -au, *sf.* a sisterhood; the office or duty of a sister.

Chwaeroriaeth, -au, *sf.* [=chwaeroliaeth] a sisterhood.

Y mae i ni eto ddal sulw ym mhellach, fod menywod hefyd yn Eglwys Rufain yn chwennych dangos eu hunanymwadiad. . . Canys hwynt-hwythau a ymgasglant yn finteioedd ac yn *chwaeroriaethau*, ac a wnânt adduned i fyw yn sengl, ac a ddilynant ffurf o ddisgyblaeth.
Sim. Thomas: H. y Byd a'r Amser. 198, 199.

Chwaeru, *v.* to be active or moving; to operate.—*P.* This explanation seems to be founded on the (groundless) supposition that *chwaer* is connected with *chwai*. In the following quotation, the instance given by Pughe, the word appears to be a form of *chware*.

Ny dirper pebyll ny ssyll pali
Nep a rwy garwy yn uwy noti
Pei *chwaerei* y but yr barddoni
Nebawd nossweith y byddŵn nessaf iddi.
Hywel ab Owain Gwynedd: M.A. i. 275.

Chwaeth, -au, *sm-f.* taste; savour; relish; gustation. Formerly frequently written *chwaith*, and the adv. *chwaith* is often found as *chwaeth*.

A ryuedu a wnaeth na rygassei eiryoet y ryw *chweith* a blas y gywssei ar y golwyth hwnnw.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 373.

A phawb ryw safwyrber blas a *chweith* arnynt.
Llyfr Ancr, 94.

Osglawc blaen derw chwerw *chweith* onn.—*A.B.* ii. 258.

Ni digawn dyuot odyno *chweith* melystra.—*St. Greal*, ł19.

A chael hefyd, gwynfyd gwŷr,
Chwaith ar araith yr Eryr.—*Rhys Goch Eryri.* (*D.*)

Y mae yn dangos sylw treiddgar, teimlad crefyddol, a *chwaeth* goethedig.—*Dr. Lewis Edwards:* Traeth. Llen. 670.

Yr oedd y lanfa wedi ei chau i mewn, a'i haddurno â *chwaeth* mawr.—*Idrisyn:* Dalenau, 211.

Diffyg *chwaeth* yw yr achos o arferu geiriau ac ymadroddion isel mewn darluniadau.—*Caledfryn:* Gram. Cym. 197.

Yr oedd y gwaith hwn yn hollol at ei *chwaeth*.
Beirniadur Cymreig, i. 171.

Chwaethiad, -au, *sm.* a tasting or relishing; gustation.

Chwaethol, *a.* gustatory; gustful, palatable, tasty, savoury.

Chwaethu, *v.* to taste; to savour.

Yn wir y dywedaf i chwi, fod rhai o'r sawl sy yn sefyll yma, a'r ni *chwaethant* [*flasant, phrofant] angeu nes iddynt weled Mab y dyn yn dyfod yn ei deyrnas.
W. Salesbury: Matt. xvi. 28 (cf. Luc xiv. 24).

Chwaethwch [*bleswch, profwch] a gwelwch mor dda yw'r Arglwydd.—*Ll. G. Gyfredin* 1567 (Salm. xxxiv. 8).

Chwaethus, *a.* tasteful, tasty; palatable, gustful, sapid.

Chwaethusrwydd, *sm.* tastefulness; gustfulness, sapidity.

Chwaf, -oedd, *sf.* [cf. *chwa*] a breeze, a gentle gale.

Tra crwydra Ifan gar y llwyn,
Llawn awydd clywed meinlais mwyn,
Nabyddus, gyda'r *chwaf*.—*Robert Owen:* Gweith. 252.

Digitized by Google

Chwaff (ă), -iau, *sm.* [cf. *chwap:* C. *whaff*, a blow: cf. Prov. Eng. *waff*] a moment, an instant; 'a quick gust.'

Chwaff, *adv.* instantly, immediately, in a moment.

Mi a'i gwnaf ef chwaff, I will do it instantly; I will do it at once.—*Gwent.*

Chwai, *cp.* chweiach, chweiaf, *a.* quick, brisk, swift, speedy, alert, active.

Nid o *chwai* dafod y daw mwyaf doethder.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 7 (cf. i. 423).

Mal cynydd, chwarëydd *chwai*,
Am lwdn gwyllt a ymlidiai.
Dafydd ab Gwilym, xlvi. 15 (cf. ccxxx. 24).

Gan y Cymry gynt yr oedd breuanau a droai yn *chwai*, wedi y gosodid i gerdded.—*Davies*, s.v. 'Breuan.'

Ar doriad y wawrddydd ar foreu o Fai,
A'r adar yn neidio trwy'r coedydd yn *chwai*.
Daniel Ddu, 217.

Chweiaf aden o dy fwth gennadon.
W. O. Pughe: C.G. iii. 248.

Chwail, *s.pl.* [E. *quail;* Br. *kaol;* Fr. *caille*] quails.

O chawn y petris a'r *chwail*
O'u anneddau mewn addail.—*Sion Cent.*

Chwain, *sg.* chwannen, *s.pl.* [Br. *c'hoenn*, sg. *c'hoanen:* see *Chwannen*] a flea.—*M.A.* i. 488, 490.

Tri pheth ni fydd neb well o'u cael: *chwain* yn ei wely; drain yn ei iwd; a chymmwynasson Sais.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 255.

Gwedy y goualu or *chwein* ar annesmwythder.
Mabinogion, 146.

Dewi ni ymlid Iwain;
Ys chwech fwy na chwech o *chwain*.
Dewi Wyn: Bl. Arf. 196.

Tri pheth a iawn wneir ar frys: ffoi rhag pla; dianc rhag ymrafaelion; a dal *chwain*.
Eurgrawn Cymraeg (1807), 25.

Chwain y ddaiar, the turnip fly, the turnip black-beetle.

Chwain y môr, } sand-hoppers: also called
Chwain y traeth, } *morchwain*.

Chwain y gof, } sparks or flakes that fly from
Chwain yr efail, } red-hot iron when hammered.

Llysiau y chwain, } fleawort (*Cineraria*): also
Llewyg y chwain, } called *chweinllys*, q.v.

Chwaith, *adv.* [C. *whath, wheth;* Br. *c'houz;* Ir. *fos;* Ga. *feathast*] neither; much less; nor . . . either; nor . . . on the other hand. The word is often written *ychwaith*, with the stress on the last syllable.

Ef a aeth anobeith ynot ual y tybyeist na wnaei Duw a thi *chweith* trugared.—*St. Greal*, ¶ 34 (cf. 22).

Ni cheisiais wall ar f' anrhaith;
Pe ceisiwn, ni chawswn *chwaith*.—*D. ab Gwilym*, cii. 25.

Na hithau, na chwithau *chwaith*.—*L. G. Cothi.*

Gochelwch ar ymadrodd dyngu i ddim ond i'r Creawdwr; na thyngu *chwaith* i gyflawni anuniawndeb.
H. Perri: Egl. Ffr. xxxii. 7.

Nid yw hyny gyseon â'n crefydd ni, ac ni weddai fod *chwaith* i'n lledneisrwydd a'n gwladeiddrwydd ni.
M. Cyffin: Diff. iv. 2.

Nid ynt *chwaith* yn gwneuthur dynion yn addas i dderbyn gras.—*Ll. G. Gyfredin* (Erth. 13).

A dinam yw fy mamiaith,
Nid gwledig, na chwithig *chwaith*.—*Gronwy Owain*, 160.

Ni leisiant *chwaith* â'u gwddf.—*Salm.* cxv. 7.

Na enwer *chwaith* yn eich plith.—*Eph.* v. 3.

Nid ydynt yn eu gwneuthur mewn ffydd . . . nac yn llawen *chwaith*.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 7.

Na phryd hyny chwaith, nor then either.

Chwal (ā), -ion, *sm.* a spread; a dispersion; a scattering; broken up.

Ar chwal, spread, scattered, dispersed; in a state of dispersion; scatteringly; in a scattered or dispersed manner.

Chwilio'r iaith *ar chwal* yr oedd.—*Edm. Prys.*

Chwalion, scatterings, scatterlings.

Chwal (ā), *a.* spread, scattered; loose; light; friable; easily crumbled or pulverized; crumbling.

Tir *chwal*, rhyn, a thywodlyd, goreu iti haidd a phys ynddo.—*Rhisiart Sion Huw* (1591).

A phan fo sych dwg dail *chwal* ar yr egin, a gwasgar ef.
Cato Cymraeg (Y Greal, 200).

Pridd chwal, friable or light soil; loose earth. —*S. W.*

Chwaladwy, *a.* that may be dispersed, spread, or scattered; easily crumbled.

Chwalcys, *s.pl.* [E. *whelk;* A.S. *weolc*] whelks; species of small molluscs.

Digiaw am danaw dynion a chwilcais
Mal am *chwalcys* yngwimmon.
Madog Dwygraig: M.A. i. 486.

Chwalder, -au, *sm.* the state of being spread, scattered, or dispersed; dispersedness.

Chwalderu, *v.* to spread, scatter, or disperse; to break in pieces; to batter; to demolish.

Gwedyd iddynt, â nerth hyll,
Chwalderu cestyll mawrion,
Rhoi'n gelanedd ar y llawr
Laweroedd mawr o alon.—*Rhys Llwyd Brydydd.*

Chwaldod, *sm.* [chwal] idle talk or chat, tattle, chatter, prattle, tattlery.

Chwaldodach, *s.pl.* nonsensical talk, babblings.

Tri pheth anferth i glust Cymro: rhinc llif yn ei hogi; bonllef yspryd Mallt y Cwd; a *chwaldodach* Sais.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 254.

Chwaldodgar, } *a.* fond of or given to gossip or
Chwalgar, } idle talk, tattling, gossiping.

Chwaldodi, *v.* to prattle, tattle, prate, or chatter, to talk idly, to babble.

Chwaldodog, } *a.* full of prattle, tattle, or idle
Chwaldodus, } talk; gossipy; prattling, babbling; rattlepated.

Blin yw gwrando dyn *chwaldodog*,
Anwybodus, a chelwyddog;
Dyn â'i glust yn swn ei ffoledd;
Ar y drain bydd hwnw'n gorwedd.
Hen Bennill (Brython, iii. 27).

Chwaldodwr, wyr, *sm.* a tattler, chatterer, babbler, prattler, jabberer, or gossiper.

Chwaldota, *v.* to prate, prattle, tattle, babble, or chatter.

Chwaledig, *a.* [chwal] spread, scattered, dispersed.—*M.A.* i. 518.

Chwalfa, fëydd, *sf.* a spread, dispersion, or scatter; a scattering; a confusion; a rout.

Hynod yw hyn, mai i'r bedd a'r ddaiar yr ä'r cnawd, a'r anadl cnawdol i'r *chwalfa*; y corff a brofir yn ffwrn y bedd, yr enaid a ymlyn wrth yr yspryd.
Morgan Llwyd: Cyfarwyddyd, ¶ 5.

Didolir holl blant Adda, bydd yno *chwalfa* chwith.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 361.

Terfysgwyd yn y fan y march a'i farchog;
Un *chwalfa* wyllt yn awr yw'r llu byddinog . . .
Yn ol, ym mlaen, ar gylch, ar draws eu gilydd,
Yn *chwalfa* wyllt.—*Nicander:* Moses, x.

Digitized by Google

Yn ebrwydd yn ol y *chwalfa* hon, ciliodd y cynghreirwyr o bell, i fyned i'w taleithiau eu hunain.
Gwyliedydd, vi. 164.

Chwalff, -au, *sm.* a shapeless piece, a fragment, a piece, a lump.

Yn chwalffau, piecemeal, by pieces, in fragments, in pieces.

Un, â'i gnawd *yn chwalffau*, a'i waed yn ffrydio fel pistyll.
Theo. Evans: D.P.O. 261.

Chwalffo, *v.* to mangle, to cut bunglingly; to fall off in pieces or fragments.

Chwaliad, -au, *sm.* [chwalu] a spreading, scattering, dissipating, or dispersing; dispersion, dissipation; a demolishing or shattering; demolition; a breaking up.

Nycha eilun o *chwaliad*
Goreu fri gwr, a'i fawrhâd.—*Robert Owen:* Gweith. 121.

Chwaliedydd, -ion, *sm.* one who or that which spreads, scatters, or strews; a disperser, scatterer, or spreader; a demolisher.

Chwalpen, -od, *sf.* [E. *whelp?*] a good-sized person or thing.—*S. W.*

Chwalpen o lodes, a good-sized girl, a strapping lass.—*S. W.*

Chwalu, *v.* [chwal] 1. to spread, scatter, strew, dissipate, or disperse; to disentangle; to cause to crumble, to demolish, to batter, to shatter; to pulverize.

Igkaer pedryuan pedyr y *chwelyt.*—*Taliesin:* A.B. ii. 181.

Chweli hwynt fel *chwalu* mwg.—*Salm.* lxviii. 2 (cf. i. 4).

Pa fodd na bai'r moroedd yn *chwalu* wyneb y ddaiar yn dywod.—*Dafydd Lewys:* Golwg, xvii. 9.

Am hyny cystuddiwyd ef a'i ddilynwyr gan yr Eglwyswyr Pabaidd, a *chwalwyd* hwynt.
Ch. Edwards: H. y Ffydd, 124.

Chwalwyd y wal wedi hyny, a chafwyd ynddi ddau benadur a thri hanner penadur.—*Gwyliedydd*, vii. 262.

Ar hynt y rhuad-wynt rhydd,
Cadarn, *chwalodd* frig coedydd.—*Dafydd Ionawr*, 67.

Daiar a chwiliodd drwy ei chalon,
Chwalai a chloddiai ei choluddion.—*Gronwy Owain*, 120.

Chwelir ei mynyddau mawrion,
Syrthiant yn efnynau mân.
Iolo Morganwg: Salm. ii. cxix. 4.

Chwalu gwair, to spread or ted hay.

Chwalu gwlan, to spread and disentangle wool; to make wool ready to be combed; to dress wool.

Chwalu caerau, to demolish walls.

Chwalu a chwilio, to sift and search; to analyze and investigate; to rummage.

2. to talk idly, prattle, tattle, or babble.

Chwalu chwedlau, to spread or disseminate tales; to tattle, prate, or gossip; to talk idly; to blab.

Chwalurio, *v.* to scatter; to demolish.

Chwalurion, *s.pl.* [chwal: formed in imitation of *malurion*] things scattered, strewed, battered, or thrown about; scatterings.

Erbyn goleu gwynddydd,
Gwelid y cefnfor yn ei nerth yn llonydd,
A'i wyneb llydan gan y cyrff yn dryfrith,
Y gwŷr a'r meirch, *chwalurion* dwyfol felltith.
Nicander: Moses, x.

Chwalwr, wyr, *sm.* a scatterer, strewer, or disperser; a demolisher.

Daeth y *chwalwr* i fyny o flaen dy wyneb.—*Nah.* ii. 1.

Chwalwr chwedlau, a spreader or disseminator of tales; a blab.

Chwan, *sm.* [apparently a back-formation from *chwaneg*] 'an impulse, a tendency' (*P.*). The word does not occur.

Chwanecâu, *v.* [chwaneg] to increase, to augment, to add; to multiply.

Y rei hynny a rodes ef y Duw ar seint yn dragywydawl. gan eu *chwaneckau* yn uawr o dir a dayar a breineu a noduaeu a rydit.—*Ust. Bren. Bryt.*: Ll.C.H. ii. 102.

Er *chwaneccau* da udhunt. ac er cadw eu da. y gwnant wy hynny olh.—*Lucidar*, 176.

Gwrandaw ar glerwriaeth orwag ac ofergerdd, i leihau synwyr, ac i *chwanecäu* pechawd.—*Y Greal*, 225 (cf. 326).

Chwanedig, *a.* [chwanegedig] 'augmentative' (*P.*); added, augmented.

Chwanedigaeth, -au, *sf.* [for *chwanegedigaeth*] addition, augmentation.

Am hyny y rhodd ef y *chwanedigaeth* hyn.
H. Perri: Egl. Ffr. (ed. 1595), xvi.

Chwaneg, *a.* more; greater in quantity, degree, amount, or number; additional.

Ni ddywedwn ni ddim *chwaney.*—*M. Cyffin:* Diff. iv. 2.

A pha awdurdod *chwaneg* am unrhyw beth a ddygwyddodd yn y dyddiau gynt na bod coflyfrau neu groniclau'r oesoedd yn tystio hyny?—*Theo. Evans:* D.P.O. 7.

Chwaneg na (*nag*), } more than; in addition
Chwaneg i, } to; above.

Nicanor . . . a ddanfonodd *chwaneg i* bum-cant o ryfelwyr i'w ddal ef.—*Esgob Parry:* 2 Macc. xiv. 39.

Yn chwaneg, in addition, additionally; added; more.

Os chwychwi a chwennych weled peth *yn chwaneg* o'm barddoniaeth, gadëwch wybod pa ddarnau a welsoch.
Gronwy Owain, 170.

Chwaneg, -ion, *sm-f.* more; a greater quantity, amount, or number; an addition; an additional.

Chwaneg ni chawn er chwennych.
Dafydd ab Gwilym, xlix. 10.

Rhag i *chwaneg* nag un fyned at wr o ddeg punt y flwyddyn, neu ddau at wr o ugain.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 141 (cf. 192).

Chwanegedigaeth, -au, *sf.* addition, augmentation.

Y mae yr apostol yn y geiriau hyn . . . yn orchafus yn dangos fyn'd clod y Rhufeinwyr y pryd hyny ym mhell ar fyd; ac am hyny y rhodd ef y *chwanegedigaeth* hyn.
H. Perri: Egl. Ffr. (ed. 1807), xvi.

Chwaneghau, *v.*=*Chwanecäu.*

Chwanegiad, -au, *sm.* addition, augmentation; an appendix or appendage; the act of adding or increasing.

Chwanegiad sydd yn arwyddocäu arddigonedd neu ormoddedd, yr hyn a fydd trwy *chwanegiad* llythyren neu sill mewn gair, neu *chwanegiad* gair neu fwy mewn ymadrodd. *Chwanegiad* llythyren neu sill mewn gair sydd dair ffordd.
Robert Davies: Ieith. Cym. iv. v. 2.

Chwanegiadau, additions.

Yna cadarnhau un awgrym ar bymtheg yn rhai cyffredin o'r dechreuad, a *chwanegiadau* a fu at hyny o rif o bryd i gilydd hyd amser y Bardd Glas.—*Barddas*, i. 136.

Chwanegiadol, *a.* additional; additive; supplemental; augmentative.

Chwanegion, *s.pl.* additions; addenda.

Am ddiwygiad yr hen a chyfleithiad y *chwanegion* newydd, wedi barn cydwybod ar ffyddlondeb f'ymgais, rhaid gadael yr affaith a'r arwydd sy ar ansawdd gwaith dan farn y ddwylyw gyffredin.
Elis Wynn: Rhagymadrodd Ll. G. Gyffredin 1710.

Yn 1695, daeth allan ei argraffiad newydd a diwygiedig o Anacreon, bardd Groeg, yr hwn a adargraffwyd yn 1710, gyda llawer o *chwanegion* a gwelliadau. Yn 1701, cyhoeddodd argraffiad o Horas, yr hwn a adargraffwyd gyda *chwanegion* yn 1725.—*Cwmwl*, i. 129.

Digitized by Google

Chwaneglen, -i, -au, *sf.* [chwaneg+llen] a sheet or list added or attached to another document; a schedule; a supplement.—*W.*

Chwanegol, } *a.* additional, adscititious, ad-
Chwanegiadol, } ditive; supplemental.

Perthynasau chwanegol, additive ratios.

Chwanegolion, additions; appendices; addenda.

Yn chwanegol i, }
Yn chwanegol at, } in addition to.

Y mae yma genym, yn *chwanegawl at* lawer un arall, brawf nad oedd y Cymry o'r oesoedd cyn y Diwygiad oddi wrth Babyddiaeth mor anwybodus ag y myn rhai haeru eu bod.—*Iolo Morganwg.*

Chwanegu, *v.* to add; to add to; to increase; to augment; to put to; to supplement.

Gwynedd uch Conwy lle y cynnydda . . .
A *chwanegu* breint ger bro Assa.
Dafydd Benfras: M.A. i. 319.

Fel hyn y gwnelo y duwiau, ac fel hyn y *chwanegont.*
1 *Bren.* xix. 2. (cf. 2 Sam. iii. 9, 35; xix. 13).

Chwanegu ar, to add to; to increase.—1 *Sam.* xii. 19; 1 *Bren.* xii. 11, 14; 2 *Cron.* xxviii. 13.

Y mae'r cyfryw anwybod ag sydd o wirfodd calon dyn, yn bytrach yn *chwanegu ar* y pechod, ac *ar* ddrwg gyflwr y pechadur.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. i. 3.

Dyma *chwanegu ar* araith, a mwyhau gwirionedd y peth amgenach nog ydoedd ar wir iaith.
H. Perri: Erl. Ffr. xvi.

Chwanegu at, to add to; to increase; to augment.—*Iob* xxxiv. 37; *Esa.* xxiv. 1.

Na *chwanegwch at* y gair yr ydwyf yn ei orchymmyn i chwi.—*Deut.* iv. 2 (cf. xii. 32; xxix. 19; Matt. vi. 27).

Y mae genyf lawer i *chwanegu at* y sylwadau hyn.
Seren Gomer, viii. 40.

Chwanegwr, wyr, *sm.* one who adds to or augments, an augmenter.

Mae yn ymddangos yn debygol, nad oedd efe ond estynydd neu *chwanegwr* yr hanes.—*Gwyliedydd*, xii. 22.

Chwanegydd, -ion, *sm.* he who or that which adds to, an augmenter; a continuator.

Chwannen, *pl.* chwain, *sf.* [C. *hwannen;* Br. *c'hoanen*, *c'hoénen*] a flea. See *Chwain.*—1 *Sam.* xxiv. 14; xxvi. 20.

Tri pheth y sy yn ymborth ar waed: *chwannen;* rhyfelwr cyflog; a Sais.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 253.

Nid mwy no'r *chwannen* or erchwyniawg.
Madog Dwygraig: M.A. i. 485.

Hyd nas galler brigyn i grogi *chwannen* o geulan Hafren hyd yn afon Tywy.—*Iolo Mss.* 185.

Cymmer fwyniant y peth sy genyt, tra bo y cybydd yn blingo y diawl am lai na chroen *chwannen.*—*Diareb.*

Magl chwannen, fleawort (*Cineraria*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 79, 215.

¶ For the change of *ai* into *a*, compare *rhiain, rhianedd; gwraig, gwragedd.*

Chwannog, *a.* [chwant: C. *whansec;* Br. *c'hoantek*] having a strong desire or inclination; desirous; ambitious; covetous, avid; apt, inclined, given, or disposed (to); ambitious.—*M.A.* iii. 152, 181.

A thranoeth Agamemnon a wyssywys y bobyl ygyt. ac a diwadawd na bu eiryoet *chwannawc* yr amherodraeth honno.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 24 (cf. 10).

Gwr ieuanc drythyll oedwn i yno. ac rac vy *chwannocket* y vrwydyr y tervysgeis y rygtunt.—*Mabinogion*, 147.

Kanys *chwanawc* oed y warandaw petheu enryfed.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 166 (cf. 74).

A chwynu bedw yn *chwannog.*—*D. ab Gwilym*, c. 13.

Bit *chwannawc* ynvyt y chwerthin.—*A.B.* ii. 246.

Hawdd y gwel llygad *chwannog.*—*Iolo Mss.* 157.

Nid ydych chwi mo'r dynion a fynech mor *chwannog* gael eich cymmeryd.—*M. Cyffin:* Diff. iv. 21.

Chwannog i fara, diog i hela.—*Diareb.*

Bychan teyrnas i *chwannog.*
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 544 (cf. 72, 125).

Chwannog, fal blaidd, i haidd hir,
Ac i redyn a grodir.—*Huw Arwystli*, i Faedd.

Dau achos pendifaddeu sy'n peri i ddynion fod yn *chwannog.* . . Hawdd yw dirnad yr achos pa ham yr ydys mor *chwannog* i'r pethau bydol hyn.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 77.

Dafydd Llwyd, ofydd y llu,
Oedd *chwannog* i ddychanu.—*Llywelyn ab Gutyn.*

Y *chwannocaf* i gael breiniau
Yw'r ysgawnaf ei feddyliau.—*Iago ab Dewi.*

Chwannog i elw, greedy of gain.—*Diar.* i. 19 (cf. xv. 27).

Chwannog i ymladd, apt to fight; inclined to fighting; pugnacious.

Chwannog i gyfoeth, desirous or greedy of wealth; covetous of riches.

Alexander gwr hirwyn kadarn. a llygeit tec. a gwallt melyn man. a geneu adfwyn. a llef hynaws. buan oed. a *chwannawc* oed *y gyuoeth.*—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 13.

Dyn chwannog, an ambitious man; a covetous or avaricious person, a miser.

Pa le yr ydym ni yn gweled cospi dyn balch, neu *ddyn chwannog*, neu ddyn traws, neu dyngwr, neu ddyn celwyddog, neu segurwr!
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 232 (cf. 103).

Aradr chwannog, a plough that inclines too much to the left hand, and cuts too broad a plit.

Chwannogion, ambitious ones; covetous persons.

Yn chwannog, with avidity; willingly, readily.—*Ioan* vi. 21.

Chwannogaeth, -au, *sf.* appetence; covetousness, avarice, cupidity.

Chwannogi, *v.* 1. to incline or dispose; to make covetous or ambitious.

Chwannogi aradr, to regulate a plough so as to incline it towards the unploughed soil. Cf. *Anchwannogi*, the reverse process.

2. to become lustful or craving; to become ambitious.—*P.*

Chwannogol, *a.* exciting desire or inclination; incentive.

Chwannogrwydd, *sm.* tendency, proneness, disposition, propensity; covetousness, cupidity; ambitiousness.

Ahab, am droseddu yn erbyn y degfed gorchymmyn, drwy *chwannogrwydd* ac anfodlonrwydd, a ddyfethwyd.
Robert Llwyd: Llwybr Hyff. 392 (cf. 75, 101, 103).

Chwannwch, } *sm.* [chwant] concupiscence,
Chwannwg, } lust, ardent desire.

Chwant, -au, *sm.* [C. *whans;* Br. *c'hoant;* Ir. *saint, sant;* Ga. *sannt*] desire; longing; inclination; appetite; lust; concupiscence.

Kynnhebig yw *chwant* bydawl i olwyn benn. gwr yn y ieuegtit yn ennill campeu. a chlot. ac yn ymroddi oll y gynghorvynt. a *chwant.*—*Ipotis*, § 13.

Ai gwir dy fod yn gwra
(Ochenaid tost!) o *chwant* da?
Dafydd ab Gwilym, lxvi. 3 (cf. xxxii. 8).

Nyni a ddilynasom ormod ar amcanion a *chwantau* ein calonau ein hunain.—*Ll. G. Gyffredin.*

Dycid *chwant* tros beiriant pwyll.—*Diareb.*

Digitized by Google

Marwhâ fy *chwantau*, darostwng fy ngwyniau, a diddyfna fi oddi wrth y byd hwn.—*Moses Wiliams:* Llawlyfr, ii.

Holl bechadurus *chwantau* 'r cnawd.
Ll. G. Gyffredin (Cat.).

Chwant chwyddedig i anrhydedd;
Chwant aflwyddaidd i feluswedd;
Chwant diwala i fudrelwa:
Trindod byd yw'r tri *chwant* yma.
Llun Agrippa (1779), 152.

Chwant bwyd, desire for food, hunger.—*Matt.* xii. 3; xxi. 18.

Gat beth o *chwant bwyt* arnat. . . Or bwytey heb *chwant yr bwyt* arnat. rewi a wna y gwres annyanawl.
Meddygon Myddfai, i. 188.

Chwantau cnawdol, carnal desires, fleshly lusts.—1 *Pedr* ii. 11 (cf. 2 Pedr ii. 18; 1 Ioan ii. 16).

Chwantau ieuenctid, youthful lusts.—2 *Tim.* ii. 22.

Chwant ar, } desire or inclination for; lust of;
Chwant am, } a craving for.

Fe gynnydda ynddo fawr *chwant ar* bethau nefol.
Ed. Iames: Hom. i. 5.

Y mae gofalon y byd hwn, a hudoliaeth golud, a *chwantau am* bethau ereill, yn dyfod i mewn, ac yn tagu'r gair.
Marc iv. 19.

Chwant i, desire to or for.—*Phil.* i. 23.

Mae arnaf chwant myned, I have a good mind to go; I am inclined or disposed to go.

Chwant a dichwant, inclination and declination, terms applied to the regulating of the plough: cf. *Chwannog*, *Chwannogi*, and *Anchwannogi*.

Chwanta, *v.* to lust, to covet, to list.

O *chwanta* Eua efnys hawl.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 280.

Chwantach, *sm.* concupiscence, lust; pleasure.

Bradwyr, rhai gwaedwyllt, rhai bolchwydd, rhai yn caru *chwantach* yn fwy nag yn caru Duw.
W. Salesbury: 2 Tim. iii. 4.

Chwantio, *v.*=*Chwantu.*

Chwantaidd, *a.* of the nature of lust; concupiscent, lustful.

Chwantlyd, *a.* given to lust; lustful, concupiscent; covetous, avaricious.

Fal hyn y gellir dywedyd am y Pab Alissander y Chweched, hwn oedd Hispanwr o enedigaeth, ei fod ef yn ysgelerdawd i'r Gristianogaeth; yn gybydd-dra *chwantlyd*; yn ddiawleiddrwydd . . . ac yn drawslywodraeth gormesawl.—*H. Perri:* Egl. Ffr. vi. 4.

Chwantrwydd, *sm.* covetousness; lust, inordinate desire.

Chwantu, } *v.* to covet; to lust after; to
Chwantio, } desire eagerly; to desire.

Nid yw'r gwaethaf yn gweithredu
Llawer drwg y mae'n ei *chwantu*.—*Iago ab Dewi.*

Na *chwanta* ddim o ddaoedd byd a welot nac a glywot am danynt.—*Iolo Mss.* 203.

Os credwn mai gwirionedd yw
Gair mawr y Duw galluog,
Pwy *chwantai* 'n ynfyd iawn ei wŷn,
Fod fyth yn ddyn goludog?
Iolo Morganwg: Salm. ii. cxxxiii. 5.

Os denodd glendid hon di i *chwantio* corff merch, nid rhaid iddi ond codi bys ar un o swyddogion ei thad . . . a hwy a drosglwyddant iti fenyw yn ddiattreg.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 29.

Chwantus, *a.* [chwant: Br. *c'hoantuz*] lustful, lusting, concupiscent, concupiscible; covetous.

Ac o hyny allan, yn rhith merch lân, hyd na wrthodid gan ddyn meddw, a gwr ieuanc *chwantus* gwaedwyllt.
Chwedl Diawl y Dwndwr.

Chwantusrwydd, *sm.* concupiscence, lustfulness; cupidity.

Chwantwr, wyr, *sm.* one who covets or desires; one who lusts.

Chwaol, *a.* [chwa] gusty, puffy, windy; explosive.

Chwap, -iau, *sm.* [cf. *chwaff*; E. *whap*] a sudden stroke or blow; a knock, blow, or slap; an instant, a moment.

A dod *whap*, megys clap cledd.—*D. ab Gwilym*, cxcvi. 51.

Chwap, *adv.* instantly, immediately, directly, at once, in a moment.

Mi a warantaf y twylla hi bawb, ac y dalla hi'r cynghoriaid, a'r milwyr, a'r holl swyddogion gwledig ac eglwysig, ac a'u tyn hwy yma yn finteiodd *chwap*, a'r mwgwd symmudliw ar eu llygaid.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 106 (cf. 52, 92, 108).

Dyna fo chwap, there it is at once.

Dere yn ol chwap, come back soon, return immediately.—*S. W.*

Chwapiad, -au, *sm.* a striking.—*P.*

Chwapio, *v.* to strike smartly; to beat.

Chwar (ā), } *v.* [C. *hwary*, *choary*, *huare*; Br.
Chweir, } *c'hoari*] 3rd pers. sing. present and future of *chware* or *chwara*=*chwareu*, *chwareua*, *chwery*.

Chwara, -on, *sm.* play, sport, pastime.

Chwara, *v.*=*Chware*, *Chwareu.*—*P.*

Rac ual ym cotidy yn llys Ogyruann
Chweris oe hadaw hi adoed kynrann.
Hywel ab Owain Gwynedd: M.A. i. 275.

Chwara, ac na friw; cellwair, ac na chywilyddia.
Diareb. (M.A. iii. 152.)

Chwarae, *v.*=*Chware*, *Chwareu.*

Oe genetyl nyd chwetyl *chwarae*
Ae blant os gwytant ys gwae.
Prydydd Bychan: M.A. i. 389.

Coeliwr dig, er cael awr daw,
Rhan oedd mi ai rhown iddaw;
Rhag dryced weddw dynged wae,
Ei gwr chwerw y gŵyr *chwarae*.
D. ab Gwilym, xx. 49 (cf. ccxxxiii. 15).

Yno y mae'r lleiathan, yr hwn a luniaist i *chwarae* ynddo.—*Esgob Parry:* Salm. civ. 26.

Llefain yw bref oferfardd;
Llwyr wae; ni *chwarae*, ni chwardd!
D. ab Gwilym, ccxxxiii. 15.

Chwarae, -on, *sm.*=*Chware*, *Chwareu.*

Chwarau, pl. chwareuon, *sm.*=*Chwareu.*

Chwarăwr, wyr, *sm.*=*Chwareuwr*, *Chwarëwr.*

Chwardd, -au, *sm.* laughter, a laugh.

Efe wrth hyn yn ddig, i chwi
Yn achaws *chwardd*, a ŵriodd ei Ddyn hoff
Ac hefyd yr holl fyd, yn rhaib i Bech
Ac Angeu.—*W. O. Pughe:* C.G. x. 489.

Chwarddedigaeth, -au, *sf.* the act or action of laughing; laughter; ridicule.

Chwarddiad, -au, *sm.* a laughing; laughter.

Chwarddiad dwfr dan ia.—*Diareb.* (M.A. iii. 152.)

Ni haeddai y fath haeriad plentynaidd gwell triniaeth na *chwarddiad*.—*Seren Gower*, iv. 234.

Chwarddu, *v.* to laugh; to rejoice. The infinitive is more usually *chwerthin*, q.v.

Ny dialaf vy ordin. ny *chwardaf* y chwerthin.
Aneurin: God. 436.

Digitized by Google

Arglwyd heb Idawc beth a *chwerdy di.*—*Mabinogion*, 149.

Pwy ni *chwardd* pan fo hardd haf?
D. ab Gwilym, cci. 16 (cf. 13; cxxviii. 27.

Man lle *chwardd* y bardd yn ber.
Dafydd Llwyd Matthew.

Yna y *chwardawd* Bown. ac y *chwardyssant* pawb oe gedymdeithon. a breid na dygwydyssant yr llawr rac *chwerthin.*—*Bown o Hamtwn*, 141.

Chwerddid bryd wrth a garer.—*Diareb.* (M.A. iii. 152.)

O Geredigion! pwy a *chwardd*
Yn ol y newydd am dy fardd?—*Tegid:* Gwaith, 216.

Am hyny y *chwarddodd* Sarah rhyngddi a hi ei hun.
Gen. xviii. 12 (cf. 13, 15; xvii. 17).

A *chwarddant* am lwyddiant a ymladdwr.
Ed. Richard: Bugeilgerdd, ii. 6.

Chwarddu lle rhaid, lle gallwn fod yn gun;
Ond iawn amddiffyn holl ffyrdd Duw at ddyn.
Robert Owen: Gweith. 266.

Chwarddus, *a.* exciting laughter; ridiculous, laughable.

Chwarddwr, wyr, *sm.* a laugher; one who laughs at or ridicules; an amuser.

Na boch heb fardd na *chwarddwyr;*
Na boch gaeth, na neb o'ch gwŷr.—*Sion Tudur.*

Chware,
Chwareu,
Chwarae,
Chwary, } -on, *sm.* [cf. s.v. *chwar*] a play, game, sport, diversion, or pastime; a just or tilt. Cf. *Gware, Gwareu.*

Allan o dieithyr y dinas y daethant y chware amryfaylon *chwaryeu.* . . Ar gwraged y ar y muroed ar bylcheu yn edrych ar y *chware.*—*Ystr. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 203.

Sef kyfryw *chware* a wneynt. . . Pawb ual y delei a ovynnei pa *chware* a wnewch chwi uelly.
Mabinogion, 15 (cf. 157, 154).

Chware Cymro, digrifwch; *chware* Sais, angeu.—*Diareb.*

Cyntaf yw . . . nad elont i dafarnau, a'r lle bo *chwareon* anghyfreithlawn . . . ac na wnelont eu hunain nac ymarfer â *chwareuon* anneddfolion megys cardiau a disiau, ac na chwareont y cyfryw *chwareuon* am nac arian nac am unrhyw dda neu ged ac ynnill yn y byd.
Barddas, ii. 110 (cf. 150).

Tripheth a arwain ddyn i dlodi: *chwareuon;* glythineb; a phuteindra.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 72.

Da chware! well done!

Chware teg, fair play.

Chwareu teg i ereill yn gystal ag i Daliesin.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 295.

Er mwyn cael *chwareu teg* i farnu yn ei gylch.
Seren Gomer, viii. 370.

Cam chware, unfair play, foul play.

Chware brwnt, foul play.

Chwareu gwr a gorwydd, a tournament.

Pan yr oedd pob gwr o waed a bonedd yn cael ei addysgu yn filwr o'i febyd, nid oedd dim mwy naturiol na *chwareu gwr a gorwydd,* neu chwareu gwŷr Troia, trin y cleddyf deuddwrn, neu lafota y ffon ddwybig.
U.C.W. Magazine, iii. 161.

Chwareu pel farch, the game of polo.

Chwareu trwn,
Chwareu twrn, } a tournament, a tilting match.

A'r Siarl y Maen hwnw a wnaeth drefn gyntaf ar *chwarau trwn* . . . ac o hyny ydd aeth *chwarae trwn* yn ben urddas ac yn brif-orchest ar bob camp chwarau.—*Iolo Mss.* 76.

Chwareu damwain, a game of chance, lottery.

Yn y peth yma yr ydym mor esgeulus a phe na byddai'r cwbl ond *chwareu damwain.*—*Nicander:* Dysga Farw, 16.

Chwareu dynwaredol, a dramatic play; drama.

Chwareu hud a lledrith, a play of illusion and phantasm; dramatic performance or entertainment; drama.

Chware,
Chwareu,
Chwarae, } *v.* 1. to play; to sport; to disport; to gambol; to game; to play or act.

A wypei *chware* a ffonn a tharyan yn da. ef a wybydei ymlad a chledyf. . . Kyfodwch weisson heb ef y *chware* a ffynn. ac a tharyaneu. Ac yna y *chware* a ffyn nyd aethant. Dywet eneit heb y gwr pwy oreu or gweisson dybygy di a a *chware.* . . Peredur a gyfodes a mynet y *chware* ar gwas melyn.—*Mabinogion*, 201 (cf. 193, 230, 235).

Ni chyrch hon goed y fron fry,
Ni chân a'i cân, ni *chwery;*
Ni chair Morfudd i *chwarae,*
Na chair! caru Mair y mae.
D. ab Gwilym, xxxi. 13 (cf. ccxxxi. 26; ccxxxiii. 16.

Yn y lle yd oedem yn *chware* ac yn amrysson am lamhystaen.—*Mabinogion*, 260.

Ympenn gwers pan aeth pawb allan y *chware.* agori kibuaen aoed yn tal y penntan a oruc y wreic.
Mabinogion, 116 (cf. 15, 153).

Rhai i'r twmpath chwareu, ac i ddawnsio; rhai i *chwareu* pel droed.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 127.

Yr hwn osodaist di, lle mae
Yn cael ei *chwarae* ynddo.—*Edm. Prys:* Salm. civ. 26.

A hwy a alwasant am Samson o'r carchardy, fel y *chwareuai* o'u blaen hwynt . . . Ar y nen yr oedd yng nghylch tair mil o wŷr a gwragedd yn edrych tra ydoedd Samson yn *chwarae.*—*Barn.* xvi. 25, 27.

Eryr or wybyr ay wyr *whareu.*—*Myrddin:* M.A. i. 153.

Eisteddodd y bobl i fwyta ac i yfed, ac a gyfodasant i *chwareu.*—1 *Cor.* x. 7 (cf. Ecs. xxxii. 6).

A heolydd y ddinas a lenwir o fechgyn a genethod, yn *chwarae* yn ei heolydd hi.—*Esgob Parry:* Sech. viii. 5.

Chwareu ei ran, to play one's part.

Y mae y rhai sydd wedi myned ymaith, wedi darfod *chwareu eu rhan.*—*Nicander:* Dysga Farw, 12.

Chwareu llaw wen, to play a safe game; to prevaricate.

Chwareu ffon ddwybig,
Chwareu y ffon ddwybig, } to play at quarter-staff; to play fast and loose; to prevaricate.

Ni ddysgais erioed *chware ffon ddwybig.*
Gronwy Owain, 190.

Chwareu hudoliaeth, to play tricks by sleight of hand; to juggle.—*S.*

Chware ei chware yn fedrus, to play one's game well; to act one's part well.

Chwareu y gwr,
Chwareu y dyn, } to play the man; to act manfully.

Ni chân dy wr *chwareu dyn.*
Dafydd ab Gwilym, cclvii. 7 (cf. ccv. 8; ccxxxi. 26).

Chwareu mi trech, to play roughly, or at horse play.

Chwareu ar un, to befool a person; to make game of one.

2. to move; to cause to move irregularly; to shake, to totter; to play; to wave.

Mae'm march yn din-deneu, a'r llif dros y dolau,
Yn *chwareu* pentanau Pont Einion.
Edw. Richard: Bugeilgerdd, i. 24.

3. to work (as yeast), to ferment.

Chwaread,
Chwareuad, } -au, *sm.* a playing, a play; a working, fermentation.

A'r plant annelant i fod yn eilydd
I'w tadau yn eu *chwareuad* dedwydd.
I. G. Geirionydd: Geirionydd, 109.

Chwarel, -au, *sm.* [E. *quarrel;* O.Fr. *quarrel,* mod. *carreau;* L.L. *quadrellum*] 1. a quarrel, a square-headed crossbow bolt; a bolt, a dart, a javelin. See *Cwarel,* another form of the same word.

Digitized by Google

Tri mwy yw'r goglais tra mawr giglau
Tri phenyd galar rhac tra phoenau
No chwerw alaeth bron gan *chwarelau* dur.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 451.

Pan ddêl osgel [*al.* gwasgar] i'r esgyrn,
Angau a'i *chwarelau* chwyrn,
Dirfawr fydd hoedl ar derfyn.—*D. ab Gwilym*, cxix. 54.

2. a pane of glass, a quarrel, a square.

Chwarel, -au, -i, -ydd, *sm.* [L.L. *quadraria*; E. *quarry*, Prov. *wharrel*; Fr. *carrière*] 1. a quarry.

Efe ei hun a drodd oddi wrth y *chwarelau* oedd yn Gilgal.—*Barn.* iii. 19 (cf. 26).

Yma wrth hyn y mae'n rhaid ein cyweirio ni, a'n naddu, a'n gwneuthur yn gymhwys i waith y Deml: yma, meddaf, yn *chwarel* a maenglawdd y byd hwn.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. ii. 25.

Chwarelau llechau, slate quarries.

Chwarel cerryg, a stone quarry.

Chwarel, -au, *sm.* 1. a kernel or moving lump under the skin, a gland.

2. a lump from the curdling of milk in the breast.

3. the curdling of milk, the milk fever.—*P.*

Chwarelaidd, *a.* like a dart; moving like a kernel.—*P.*

Chwareliad, -au, *sm.* the motion of a dart, a darting; moving like a gland.

Chwarelog, *a.* having darts; glandular, glandulous.

Chwarelu, *v.* to move as a dart, to dart, to fling a dart; to kernel; to curdle.

Llaeth yn chwarelu, milk becoming curdled.

Chwarelu, *v.* to quarry; to dig out of a quarry.

Chwarelwr, wyr, *sm.* a quarryman.

Chwaren, -au, *sf.* See *Chwarren*, &c.

Chwareu, -on, *sm.*=*Chware*.

Chwareu, *v.* See *Chware*, &c.

Chwareuad, -au, *sm.*=*Chwaread*.

Chwareuaeth, -au, *sf.* a diversion, merriment, or amusement; a playing or acting; histrionism.

Chwareubeth, -au, *sm.* a play-thing, a toy.

Glendid—ti gain *chwareubeth*, anwyl dwyll!
Iago Trichrug: Y Bedd.

Chwareudy, dai, *sm.* a play-house, a theatre.

Offeiriad a ofynodd i chwareuydd pa fodd yr oedd eu *chwareudai* hwy mor llawn, a'r eglwysydd mor wag.
Cylchgrawn Cymraeg (1793), 21.

Cyffelyb ydyw y byd hwn i *chwareudy*, dynion ydyw y chwareuyddion, a'u bucheddau ydyw y chwareuyddiaeth.
Gw. Mechain: Gwaith, ii. 100.

Gwelir yno [yn Laodicea] yn awr un *chwareudy*, chwareufa, dyfrffos, a llawer o adeiladau ereill. . . Tybiais yn werth fy sylw ddeall fod y *chwareudy*, sydd eto yn aros, wedi ei godi yn fuan gwedi yr amser yr ysgrifenodd St. Ioan Lyfr y Dadguddiad.—*Gwyliedydd*, v. 366.

Wrth wedd ac ystum hwn y chwarddai torf
Yn y *chwareudy*, gyda baullef groch.
Iago Trichrug: Y Bedd.

Chwareues, -au, *sf.* a female player; an actress.

Chwareufa, faoedd, fäu, fëydd, *sf.* a place for plays or games; a theatre.

Mis Awst molwynog morfa . . .
Amlach das na *chwareufa* —*Engl. y Misoedd:* M.A. i. 15.

Augustus . . . a osododd allan bedair gwaith ar hugain chwareuon a champau *chwareufëydd*.
Elis Lewis: Drexelius, 53.

Ai nid oedd serch at ddifyrwch y *chwareufa*, yn un o'r achosion penaf i ddistrywio ysprydolrwydd y Laodiceaid.
Gwyliedydd, v. 366.

A'r bobl, fal y doedodd Socrates, yn gwneuthur gwawd a gwatwar cyhoedd am eu penau nhwy yn y *chwareufäau*, o blegid eu cynhenau a'u sectau.—*Morus Cyffin:* Diff. iii. 5.

Aethym i'r *chwareufa* mewn tref arall.
Gwyliedydd, vii. 17.

Gosodwyd un o'r colofnau i fyny yn y *Chwareufa* fawr, a'r llall ar Fryn Mawrth.—*Cylchgrawn*, i. 269.

Chwareufan, -au, *sf.* a place for games; a theatre; a circus.

Pan y darfu i Salome ac Alecsas gasglu y milwyr yng nghyd i'r *chwareufan* cwmpasog yn Iericho.
Hugh Jones: Iosephus, 606.

Chwareufaol, *a.* relating to a theatre; theatrical; dramatic; histrionic.

Chwareufwrdd, fyrddau, *sm.* a platform for playing or acting; a stage.

Chwareuwyr ydym yn awr ar *chwareufwrdd* y byd hwn.
Nicander: Dysga Farw, 12 (cf. 4', 154).

Y *chwareufwrdd* sydd yn porthi y glust a'r llygad. . . Duwinyddiaeth, yr hon, yn ddiymwad, o'i gwisgo yn addas, a dywynai gyda disgleirdeb mwy ysplennydd na'r drychau anllad a ymddangosant ar y *chwareufwrdd*, er eu brith addurno â'r teganau gwychaf. . . A phe byddai i mi glywed araith barhäus ar destun tebyg i'r rhai a drinir ar y *chwareufwrdd* . . . yr wyf yn hyderus y byddai, nid yn unig yn fwy anhyfryd, eithr yn gwbl warthus a gwrthodedig.—*Gwyliedydd*, v. 333.

Chwareufwrdd amser, the stage of time.

Chwareugan, -au, } *sf.* a dramatic poem,
Chwareugerdd, -i, -au, } a drama; a play.

Yn y *chwareugan* hon mae Cassandra'r brophwydes, yr hon a ddygasid yn gaethes gan Agamemnon adref i Argos o Gaerdroia, yn prophwydo y llofruddiad ef gan ei wraig Clytemnestra.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 191 (cf. 186).

Holwyd hwynt hefyd yn *chwareugerdd* testun-drist Sophocles, a elwir Edipus Tyrannus.—*Seren Gomer*, viii. 219.

Un o brif ddefnyddiolderau astudio *chwareuganau* y beirdd Groeg, yw dysgu pa fodd i gyfansoddi pregeth.
Haul, C.C. xii. 330.

Nid yw y bardd brodorol hyd yn hyn wedi dysgu gwneyd *chwareugerdd*.—*H. Elvet Lewis:* Ceiriog, xi.

Chwareugar, *a.* playful, sportive; blithesome.

Hardded yw goleuni'r heulwen!
Gwên y bore'n hyfryd iawn!
Tes *chwaregar* yn yr wybren,
Haf a'i serch o'n cylch a gawn.
Iolo Morganwg: Salm. II. cxxxi. 1.

Os siaradent am ryw ddigrifwch, byddai ei ymadroddion mor fwyiog a *chwareugar*.—*Gwyliedydd*, i. 324.

Lle bo cyrchfa dynion hawddgar,
Crwth a thelyn, camp *chwareugar*,
Pob llawenydd mwyn diniwed;
Dyna'r man y caraf fyned.—*Hen Bennill.*

Chwareugarwch, *sm.* playfulness; sportiveness.

Chwareule, -oedd, *sm.* a place for play or for games; a playground; a theatre (in a loose sense); arena.

Y mae efe yn ddigon o *chwarae-le* a drych iddo ei hun.
Iosua Tomos: Buch. Grist. 12.

Cauodd arnynt yn y Circus, math o *chwareule* crwn, a muriau uchel o'i amgylch.—*S. Lloyd:* Amseryddiaeth, 421.

Chwareuol, } *a.* sportive, playful; blithesome,
Chwareol, } blitheful, blithe; dramatical.

Chwareuoldeb, } *sm.* playfulness, sportiveness;
Chwareoldeb, } blithesomeness.

Chwarëus, *a.* playful, blithe, blithesome, sportive; humorous.

Y geneu gweddus a fu *chwareus*
A fu ryfygus yn oer ei agwedd.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 537.

Digitized by Google

Amneidiaw a chwerthin a geirieu digryf *chwareus*.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 289.

Ac yno, em y genedl,
Goganus, *chwarčus* chwedl,
Tori fy llygaid terwyn
Ar dy hyd, f' anwylyd fwyn!
D. ab Gwilym, xlviii. 15 (*cf.* lxxxviii. 25).

Chwarčus yn awr, nid *chwarčus* ym mlwyddyn.
Diareb. (M.A. iii. 152.)

Nid *chwarčus* ond colwyn.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 22.

Chwarčusrwydd, *sm.* playfulness.

Chwareuwr, wyr, } *sm.* a player; an actor; a
Chwarčwr, wyr, } gamester.

Yr oedd corfforiaethau y trefydd uchod, a llawer o drefydd ereill, yn talu y costau, sef cyflogau y *chwareuwyr*, a gwella y gwisgoedd a'r defnyddiau angenrheidiol iddynt at eu gwaith.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 198.

Chwareuwraig, wragedd, *sf.* a female player; an actress.

Chwarčwriaeth, -au, *sf.* play; gaming.

Chwarčydd, } -ion, *sm.* a player; an actor;
Chwareuydd, } a gamester.

Hwaryeu y *chwaryydyonn*.—*Campau Charlymaen*, ¶ 8.

Ymdrwsi eto â'th dympanau, ac a ai allan gyd â'r *chwareuyddion* dawns.—*Ier.* xxxi. 4.

Y mae yn ddaliad sulw cyflawn . . . mai chwareufa yw'r bywyd dynol, ac mai dynolryw yw'r *chwarčyddion*, y rhai sydd â'u hamrywiol ranau wedi eu gosod iddynt gan feistr y chwareufa.—*Ios. Rees:* Hunan-Adnabyddiaeth, 30.

Chwarčyddes, } -au, *sf.* a female player;
Chwarčuyddes, } an actress.

Chwarčyddfa, } -oedd, -on, fëydd, *sf.* a place
Chwareuyddfa, } for play or games; a theatre.

Mewn rhai manau cyflogid cerddor dros y tymmor haf, i ganu i dorf o ynfydion gwammal a ymdyrent i ryw lannerch deg, ar fynydd, neu ryw gyttir arall, i gynnal math o gyfarfod annuwiol, a elwid Twmpath chwareu, neu *Chwareuyddfa* gampau.—*Drych yr Amseroedd* (1820), 45.

Hwy a ddygasant yr adyn hwn i'r *chwareuyddfa*, ac a'i gosodasant ef ar sedd uchel.—*Gwyliedydd*, v. 79.

Dilys yw fod yr apostol yma yn cyfeirio at ddrychau cyhoedd y *chwareuyddfëydd*. . . Yn y *chwareuyddfëydd* hyn gosodid trueiniaid o ddynion i ymladd, nid ag anifeiliaid yn unig, ond hefyd y naill â'r llall.—*Gwyliedydd*, vi. 231.

Chwarčyddiaeth, } -au, *sf.* play; acting;
Chwareuyddiaeth, } stage-playing, histrionism.

Dyma *chwareuyddiaeth* olaf y chwareufwrdd.
Nicander: Dysga Farw, 154.

Os dioddefwn ac os cymmeradwywn gelwydd mewn *chwarčyddiaethau* er ein difyrwch, nid hir y bydd nes y myn le yn ein gorchwylion mwyaf pwysfawr.
Gwyliedydd, iv. 185.

I bob oedran, diddan daeth,
Ryw addas *chwareuyddiaeth*.—*Tegid:* Gwaith, 125.

A dewr chwedyn eu hymdrechiadau,
Ar ddwthwn ei *chwarčyddiaethau*.
I. G. Geirionydd: Geir. 109.

Chwarčyddol, } *a.* relating to games; dra-
Chwareuyddol, } matic; theatrical.

Gwnaethpwyd yn ddrych, hyny yw, drych *chwareuyddol*.
Gwyliedydd, vi. 231.

Ymddengys fod yr holl *gyfansoddiadau chwarčyddol* . . . y pryd hyny yn yr iaith Ladin.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 197.

Chwarf -au, *sf.* [cf. *chwerfan*] a whirl, a fusee.—*P.*

Chwarfan, -au, *sf.*=*Chwerfan*.

Chwarel gawg chwirligwgon,
A'i cherflo'n grech *chwarfan* gron.
Gruffydd Hiraethog, i Faen Melin.

Chwarfynnwr, wyr, *sm.* [chwarf+gynnwr] a fusilier.

Y *chwarfynnwyr* Cymreig ar drawd drwy Gymru.
Baner Cymru, Awst 24, 1892.

Chwariaeth, -au, *sf.* play; a game.

A pharai eu *chwariaethau* lawer gwčn,
Y llanciau chwai a foddient y gwŷr hen.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 155.

Chwarian, *a.* [chwar-e] slow; leisurely; gentle, placid, soft, calm, mild.

Kyfuarchaf o echlyssur byt
Am dyweit y *chwaryan*.—*Myrddin:* A.B. ii. 222.

Mae efe yn *chwarian* i ddigio a pharod i faddeu.
Marchog Crwydrad.

Ef yn *chwarian* ydyw'n tarian a'n dawn tirion.
W. Midleton: Salm. xlvii. 9.

Ei thawel hynt a gyrcha *chwarian* rawd
O chwyrnu ar ei hechel fwyth.
W. O. Pughe: C.G. viii. 190.

Nid oedd y waith gyntaf ond ymgiprys *chwarian*.
Theo. Evans: D.P.O. 257.

Nid oeddwn yn meddwl fod un diben i rywun *chwarian* fel efe i wneyd cynnyg.—*Haul*, C.C. xv. 80.

Yn chwarian, slowly; leisurely; gently.

Cerdded yn chwarian, to walk slowly or leisurely; to go with a soft pace.

Chwarien, *a.*=*Chwarian*.

Cerddediad *chwarien* (araf). . . Myned (cerdded) yn araf neu'n *chwarien*.—*Walters*, s.v. 'Pace.'

Chwariena (ë), *v.* to go or move slowly; to grow slower or softer; to become soft and gentle; to loiter or linger; to slacken.

Chwarienach (ë), *v.* to be slow or calm.—*P.*

Chwarienaidd, *a.* somewhat slow; of a slow nature; sluggish.

Chwarieniad, } -au, *sm.* a becoming slow; a
Chwarienad, } slackening; a becoming calm or tranquil; tranquillization.

Chwarienu (ë), *v.* to become slow, gentle, or calm; to tranquillize.

Chwarienus (ë), *a.* slow; tranquil, calm.

Chwarienwr, wyr, } *sm.* one who is slow; a
Chwarienydd, -ion, } lingerer or loiterer.

Chwario, *v.* to play; to act; to sport, to gambol; to wave; to shake.

My a *hwaryaf* yn gyntaf heb y Charlymaen. . . Gan gannyat Charlymaen mi a *chwaryaf*. . . Minheu a *hwaryaf* weithon, heb y Gwilym o Oreins.
Campau Charlymaen, ¶ 10 (*cf.* 8, 17).

Aha was heb y Peredur. ny *chwaryci* weisson vy mam a mivi velly. Minneu a *chwaryaf* a thitheu ual hynn.
Mabinogion, 199 (*cf.* 235).

Fe grynodd Theomemphus, fe *chwariai* ei liniau'ng nghyd.
W. Williams: Theom. i. 57.

A *chwarient* eu telynau yng nghyd â'r saint yn un.
W. Williams: Hymnau, ccxciii. 1.

Uwch yr Arabiain ddwfn y *chwariai* frig.
W. O. Pughe: Pal. 14.

Yr oen y trefna'th loddest heddyw i dranc,
Pe gwyddai'th fryd, a *chwariai*'n llon ei branc!
Robert Owen: Gweith. 268.

Chwariwr, *pl.* chwarwyr, *sm.* a player; a gamester; one who sports or amuses.

Chwarren, -au, *sf.* 1. a gland; a kernel; a concretion in the flesh.

Efe a gaiff iachâd o'r *chwarren* a'r gwlybwrwst.
Meddygon Myddfai, ii. 794.

Digitized by Google

Yr oedd rhinwedd yn hon [ffon faglog S. Curig] i iachāu dafadenau, y *chwarren*, y manwynon, a phob rhyw chwydd yn y gwddf a'r ceseiliau.—*Theo. Evans:* D.P.O. 275.

Ar y tu allan i'r coesau y mae cnwc o flew melyn, a thanynt gilchwyrn neu *chwarren*, lle cedwir math o olew.
Gwyliedydd, i. 426.

Yr wyf eisioes wedi sylwi fod math o *chwarrenau* yn yr holl anifeiliaid o rywogaeth y wenci, sydd yn rhidio sylwedd aroglus. . . Y mae y sylwedd a gedwir yn y *chwarrenau* hyn . . . yn arogli yn hyfryd iawn.
Y Ddaiar a'r Creaduriaid, i. 389 (cf. 390).

2. a boil, ulcer, or sore.

Dealler wrth yr hanes blaenorol, bod llaweroedd yn marw heb i *chwarrenau*, neu gornwydydd, dori allan ar eu cyrff.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 391.

Nid anfynych y dygwyddodd, pan fyddai y llawfeddygon yn arteithio y *chwarrenau* celyd â chyllyll, neu yn eu golosgi â phoethlyn, i'r trueiniaid ddianc oddi arnynt, a rhedeg yn noethion i'r heolydd.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 389.

3. an eruptive disease or plague; a plague or pestilence. Cf. *haint y nodau*, and *cornwyd*.

Mor ddigariad, mor aflawen,
Ydyw marw'n llyn o'r *chwarren*.
Rh. Prichard: C. y C. cx. 61 (cf. 52, 59, 77, 78, 80).

Fe ddarfu i wr dysgedig y tu draw i'r môr yn amser y *chwarren*, osod celyrnaid o ddwfr yn agored i'r awyr dros noswaith . . . ac erbyn y boreu yr oedd haen deneu o ryw hufen ar ei wyneb.—*Daf. Lewys:* Golwg, iv. 23.

Chwerw benwynwyn gwrthwyneb,
Chwarren fach ni eiriach neb.—*Ieuan Gethin.*

Chwarrenaidd, *a.* like a gland, glandular, gland-like, adenoid.

Chwarreniad, -au, *sm.* a forming into glands; glandulation; a kernelling.

Chwarreniaeth, -au, *sf.* glandular state; glandulation; adenology.

Chwarrenig, *sf.* a small gland, a glandule.

Chwarrenog, *a.* full of glands, adenous, glandulous; covered with botches.

Chwarrenol, *a.* ralating to glands; glandular.

Yn y rhai sydd yn byw ar gig, a sylweddau maethlon cyffelyb, y mae [y cylla] yn fychan ac yn *chwarrenol*.
Y Ddaiar a'r Creaduriaid, i. 222.

Chwarrenu, *v.* to form into glands; to concrete; to generate pustules.

Chwart, -au, *sm.* [L. *quartus*; L.L. *quarta*; E. *quart*] 1. a quart.

Pedair ffiolaid a wna un paeol, sef *chwart*. Pedwar *chwart* neu baeol a wna un galwyn.—*Meddygon Myddfai*, 295.

Cais *chwart* o winegr coch, a phwya ddyrnaid o gennin drwy'u barfau a'u dail.
Meddygon Myddfai, ii. 275 (cf. 191, 245, 274, 368).

Mewn rhai manau yn Switserland, dyry buwch gymmaint a deuddeg *chwart* o laeth yn y dydd.
Cylchgrawn, ii. 108.

2. a quarter (of a yard).

Llathen a chwart, a yard and a quarter.

Chwarter, -au, -i, -ion, *sm.* [E. *quarter*] a quarter, a fourth part.

Mae i Syr Risiart, yn dri *chwarter*,
Lewod i orfod yn un arfer.
L. G. Cothi, i. xix. 27 (cf. v. i. 53).

Hiraeth am y mab maeth mau
A'i tores yn *chwarterau*.—*Rhys Goch Glyndyfrdwy.*

Yn y perwyl hyn arferwch un o haiarn, â modfeddi, hannerau, a *chwarteri*, wedi nodi ar ei hochrau.
W. O. Pughe: C.P. 34 (cf. 33).

Llwm iawn a fydd arnom y *chwarter* cyntaf.
Gro. Owain, 209.

Chwarter blwyddyn, quarter of a year.

Pa beth, dybygech, a gefais ganddo eisoes, mewn un *chwarter blwyddyn*?—*Gronwy Owain*, 226.

Dydd pen y chwarter, quarter-day.—*W.*

Chwarteriad, -au, *sm.* a quartering.—*W.*

Chwarterog, *a.* quartered.

Chwarterol, *a.* quarterly; relating to a quarter.

Cyfarfod chwarterol, a quarterly meeting.

Cyhoeddiad chwarterol, a quarterly publication.

Chwarterolion, quarterlies.

Chwarteru, *v.* to quarter; to divide into four equal parts; to disjoint.

Chwartor, -ion, -au, *sm.* a quarter.

Chwartorio, *v.* to quarter; to cut into four pieces; to cut up; to disjoint.

Deued tân, a chrog, a dannedd anifeiliaid, a dryllio fy esgyrn, a *chwartorio* fy aelodau, ac ysgigo fy nghorff, a holl boenau uffern arnaf i gyd ar unwaith, os caf fi fwynhau y trysor nefol yma.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. x. 18.

Chwarth, *sm.* 'a quick turn of the voice, a laugh.'—*P.* Cf. *Chwardd*, *Chwerthin.*

Chwartharn, -au, *sm.* [cf. *chwarthor*] a quartern, a gill, the fourth part of a pint.—*Dicts.*

Chwarthol, -ion, *sf.* [=gwarthafl] a stirrup.

Eto fe ddywed rhai, ei fod efe heb gwbl ymdderchafu, ond ei fod megys ag un droed yn y *chwarthol*.
Theo. Evans: D.P.O. 250.

Chwarthor, -ion, -au, *sm.* [L.L. *quarterium*; E. *quarter*] a quarter; the fourth part (of anything).

Ony deuant y kynydyon, paret y breyr blygaw yr hyd a llithyet y kwn ar y kic, a achymeret y cwn ar croen, ar afu ar *chwarthawr* ol, achadwet yr kynydyon, adyget y kwn gantaw at dref. . . Pwybynhac aladho hyd ar tir dyn arall, roddet *chwarthawr* y perchennawc y tir y llather arnaw onyt hyd brenhin uyd can ny byd *chwarthawr* yn hyd brenhin.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 736.

Nachaf y uorwyn yn dyuot a gwas y gyt a hi. a chostrel ar y geuyn yn llawn o ued gwerth. a *chwarthawr* eidon ieuanc. ac y rwng dwylaw y uorwyn yd oed talym o uara gwyn.—*Mabinogion*, 251.

Chwarthor rhag a chwarthor dylwr, a fore quarter and a hind quarter.

O deuant wynteu kyn defnetyau ykyc rodher *chwarthaur* yr nep pyeufo etyr . . . e *cuartaur dylur* y pop perchen penhecen e perchennauc e tyr ar *chuartaur rac* y pop perchen kella.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 286.

Chwarthorau y lleuad, the quarters of the moon.—*W.*

Y chwarthor cyntaf, the first quarter.—*W.*

Chwarthor awr, quarter of an hour.—*W.*

Chwarthor esgid, quarter of a shoe.—*W.*

Chwarthoriad, -au, *sm.* a quartering.

Chwarthorio, *v.* to quarter; to disjoint.

Chwarthorio, tori (rhanu) yn bedeirran neu yn chwarthorion—*Walters.*

Chwarthorol, *a.* quarterly.

Chwarthu, *v.*=*Chwarddu*, *Chwerthin.*

Gafr *chwarth* yn gyfuwch wrtho.—*Guto'r Glyn.*

Chwarw, *a.* playful, sportive, playsome.

Lluchient beraroglau odd
Y wydden dirf, yn *chwarw*, nes ednant nos
A nwyfus ganai ei dyweddi.—*W. O. Pughe:* C.G. viii. 601.

Digitized by Google

Chwarw, *sm.* play, disport, amusement, diversion.

Chwarwen, -au, *sf.*=*Chwerfan.*—*Gwent.*

Chwarwfa, fäu, faoedd, *sf.* a theatre.—*P.*

Chwarwr, wyr, *sm.* a player; one who sports; one who diverts or amuses.

Dau heliwr calonog, hy, enwog eu hanian;
Dau *chwarwr* pel cefnog, dro bywiog a buan.
Dafydd o'r Nant: Cyfr. y Beirdd, 131.

Chwarwriaeth, -au, *sf.*=*Chwareuaeth.*.

Chwarwyad, -au, *sm.* a playing; a disporting; diversion.

Chwarwyfa, -oedd, -on, fëydd, *sf.* a place of entertainment; a theatre. Cf. *Chwareufa.*

Perthynol i chwareon dynwaredol neu i'r *chwarwyfa;* chwarwyfaol, chwarëyddiol.—*Walters,* s.v. 'Dramatic.'

Chwarwyfaol, *a.* theatrical; dramatic; histrionic.—*W.*

Chwarwyo, *v.* to play; to disport; to game; to act.

Pa sut i farw? O! gwaeth no meddwaint yw,
I wael farwolion mewn cellweirus fodd,
Chwarwyaw ar ofnadwy fin y byd
Tragwyddawl yn ddi ofn.—*Iago Trichrug:* Y Bedd.

Chwarwyol, *a.* playful, sportive, gamesome.

Chwary, -on, *sm.* play; disport, diversion. See *Chware, Chwareu.*

Chwary, -au, *sm.* play, sport, pastime.—*Ll.C.H.* 203.

Athra yttoedunt odieityr y gaer yny *chwaryeu* hynny. yd oed y gwraged mwyaf agerynt ar van y gaer yn edrych arnadunt.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 324.

Chwarÿaeth, -au, *sf.*=*Chwareuaeth.*

Chwarÿaeth anghyfreithlon neu anghymmedrol ydynt achosion o fawr draul amser.
Samuel Williams: Amser, 83 (cf. 84).

Chwarydd, -ion, *sm.* a player; a gamester; an actor. Cf. *Chwareuydd.*

Gochel fod yn *chwaryddion,* ac na wnelir bargeinion anghyfreithlon.—*Morys Clynog:* Athrawaeth Grist. 44.

Allan yr ydych yn *chwarydd* mawr, yn rhodreswr, yn afradlon, yn yfwr, yn dramwywr tafarnau, ac yn buteiniwr.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 277.

Chwaryddes, -au, *sf.* a female player; an actress.

Chwaryddfa, -oedd, -on, fëydd, *sf.* a theatre; a playground.

Yn nheyrnasiad Theodosius yr Ail, un Moses o Crete a chwarodd allan ran gau Iachawdwr ar *chwaryddfa* 'r byd, gan roddi allan mai ef oedd yr ail Moesen.
W. Lewes: Dwy Daith, 75.

Chwaryddiad, -au, *sm.* a playing or acting; gaming.

Chwaryddiaeth, -au, *sf.* play; sport, pastime, amusement, diversion; histrionism, stage-playing; gaming.

Ni chân Eiddig *chwaryddiaeth.*—*D. ab Gwilym,* lxxxix. 13.

Tair prif-gamp dyn ffol: glythineb; *chwaryddiaeth;* ac ymddadlu ag un a fo llai nog ef ei hun mewn gwybodaeth.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 229.

Yn y flwyddyn 1403, y bu ymgystadlu *chwaryddiaeth* rhwng chwech ugain o wŷr Morganwg a chynnifer un o wŷr Gwent; a gwŷr Morganwg a ddygasant y bel yn y *chwaryddiaeth.*—*Iolo Mss.* 66.

Bydded i ni ac i'th holl bobl ymgadw y dydd hwn oddi wrth bob *chwaryddiaeth* a difyrwch bydol.
Dr. Edward Wynn: Trefn Ymarweddiad (1723–4), 79.

Nid yw oll ond *chwaryddiaeth* troell ymdrechgar naturiaeth.—*Morgan Llwyd:* Ymroddiad, v. 3.

Na chymmer ddifyrwch mewn *chwaryddiaeth;* canys nid yw hyny yn cyttuno â duwioldeb.
Huw Owen: Dilyniad, i. xix. 4.

Y mae *chwaryddiaeth* . . . yn dreisiwr ac yn wastraffwr o'n hamser.—*Sam. Williams:* Amser, 83 (cf. 84).

Chwaryddol, *a.* dramatic; histrionic; playful.

Chwat, -iau, *sf.* [cf. E. *whap, thwack, whack*] 1. a slap; a pat, a gentle blow.—*S. W.*

2. a sort or kind.

Chwat o dwla mawr, a big bulky fellow.—*S. W.*

Chwatio, *v.* to slap; to pat; to beat; to thwack.—*S. W.*

Chwaw, -iau, *sf.* [cf. *chwa*] a blast, a breeze, a squall.—*H. Salesbury* (Arch. Brit. 215).

Chwaw, chwyth gwynt. *Chwawio,* chwythu.—*O. V.*

Yfory, blin chwefrin *chwaw,*
Echwith drwst, a chwyth drostaw.
Robert Owen: Gweith. 121.

Chwaw o wynt, a squall of wind.—*W.*

Chwawiad, -au, *sm.* a puffing or blowing.—*Arch. Brit.* 215.

Chwawio, *v.* to blast, blow, or puff.—*Arch. Brit.* 215.

Chwawiog, *a.* gusty, squally, stormy.

Chwawiogrwydd, *sm.* the condition of being gusty or stormy.—*P.*

Chwawiol, *a.* relating to gusts or squalls; squally; blustering.

Chwe, *a* [contr. of *chwech,* q.v.] six. It is followed by the aspirate of *c, p, t;* it often coalesces with the word which it qualifies; and perhaps it should properly be used only before a consonant initial (cf. *Esa.* vi. 2); but such is not always the case in practice. It is sometimes followed by the singular and sometimes by the plural.

Sef eu ysaraet *chue* byu a *chue* ugeyn oaryant kan y arderchauael. yguerth eu *chue* byu a *chue* ugeyn myu kan y arderchauael.—*Cyfreithiau Cymru,* i. 28.

Ef a las ae *chwe* meib.—*Mabinogion,* 193.

Chwe diwrnod y gweithi, ac y gwnei dy holl waith. . . Mewn *chwe* diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaiar, y mór a'r hyn oll sydd ynddynt.—*Ecs.* xx. 9, 11.

Y cwbl wyf fi yn ei gael ydyw yng nghylch *chwe* phunt neu saith yn y flwyddyn.—*Gronwy Owain,* 209.

Heuel Da . . . a deuenus atau *chweguyr* o pop kemut.
Cyfreithiau Cymru, i. 2.

Ef a welei dwy vanaches yn dyuot. a chostrel yn llawn o win gan y lleill. a *chwethorth* o vara cann gan y llall.
Mabinogion, 206 (cf. 193).

Dyuot Kasswallawn am eu penn a llad y *chwegwyr.*
Mabinogion, 41.

Chweb, *a.* strong? (Cf. *Diar.* xxx. 30).

Llew *chweb,* ni thry neb yn ol.—*Sion Cent.*

Chweban, -au, *sm.* [chwe (chwech) + ban] a stanza of six lines or verses, a sextain.

Chweban, } *a.* 1. consisting of six lines (in
Chwebanog, } poetry).

O'r golofn hon o gwbl, neu mewn rhan, y mae'r Cynghog yn dyfod a elwir ar Ddosparth Caerfyrddin Cyrch a Chwta, sef pennill *chweban* Gorchan a Ban Cyrch ar ei ddiwedd.
Cyfrinach y Beirdd, 84.

Englyn proest *chweban.*—*G. Mechain:* Gwaith, i. 61.

2. having six poetic feet, hexametrical.

Chwebanogion, hexameters.

Digitized by Google

Chweblwydd, *a.* sexennial, of six years, six years old.

A chyn ureisget oed a mab *chweblwyd*.—*Mabinogion*, 21.

Chweblwyddol, *a.* sexennial.

Chweblynyddol, *a.* lasting six years; happening once in six years; sexennial.

Chwech, *a.* [C. *wheh, hweh* (and other variants); Br. *c'houech, c'houeac'h;* Ir. and Ga. *se;* Mx. *shey;* L. *sex;* Gr. ἕξ] six.

Canys a wneuthur ohonaw ef y *chwech* pechawt marwawl yn yr un, am hynny y treiglawdh ef y *chwech* oes yn ol y anghau.—*Lucidar*, ¶ 24.

Ny byd an taered ni an *whech* wrthi hi e hunan.
Mabinogion, 18.

Yn *chwech* diwarnawt y gwnaeth Duw nef a daear.
Ebostol y Sul.

Chwech adain ydoedd i bob un.—*Esa.* vi. 2.

Chwech ar hugain, six and twenty, twenty-six, 26.

Chwech ugain, six score, one hundred and twenty, 120.

Chwech ugain a deg, six score and ten, one hundred and thirty, 130.

Chwech a thrugain, six score and six, sixty-six, 66.

Yn hwnnw y mae *chwech* marchawc *a thrugeint* a phumcant o varchogyon vrdawl.—*Mabinogion*, 233.

Chwech mil, six thousand.

Chwech, -au, *sc.* 1. six, the number six.

Llyna *chuec* chuerv erbin braud.—*A.B.* ii. 44.

A *chwech* o nadunt a gymerth uy march ac am diarchenwys inneu. a *chwech* ereill o nadunt a gymerth vy arueu ac ae golchassant y mywn rol yny yttoedynt gyn wynet ar dim gwynnaf. Ar trydyd *chwech* o nadunt a dodassant llieineu ar y byrdeu. ac a arlwydassant vwyt. ar podwyryd *chwech* a diodassant vy llutedic wisc. . . Ac eisted a orugam yna. ar *chwech* o nadunt a gymerth vy march ae gorugant yn diwall oe holl ystarn. yn gystall ar ysweineit goreu yn Ynys Prydein.—*Mabinogion*, 164—5.

Y *chwech* ereill a ymchoelant yn gyrn buelyn.
Ystt. Bren. Bryt.: LI.C.H. ii. 149.

Moes *chwech* i minnau, fy chwaer.
Dafydd ab Gwilym, lxxxvi. 6.

Tri *chwech* arbenig y sydd; sef *chwech* oes y byd; a'r *chwech* cherwyn maen a droes yr Iesu y dwr oedd ynddynt yn win yn neithiar Ieuan Efangylwr; a *chwech* thremyn dyn.—*Barddas*, i. 396.

Ac yr oedd gwr corffol, â *chwech* o fysedd ar bob llaw iddo, a *chwech* o fysedd ar bob troed iddo.—2 *Sam.* xxi. 20.

Dwyn chwech am un, to yield six for one; to bring forth or produce sixfold.

Chwech o ddynion, six men.

2. (short for *chwecheiniog*) a sixpence.

Talu yr hen chwech, to quit old scores; to pay one in his own coin; to give one tit for tat.

Chwech a chwech, six and six; six shillings and sixpence.

Chwechadeiniog, *a.* having six wings, six-winged.

Y llygeidiog Gerubiaid a'r *chwechadeiniog* Seraphiaid.
Athrawiaeth yr Eglwys, 233 (cf. 232).

Chwech a dimai, sixpence halfpenny (6½d.).

Chwechaint, *sm.* [chwech] sextile (in astronomy).

Gosodent idd
Y welw loer ei swydd, i ereill bump
Eu hed planedawl a thremiadau mwys
Mewn *chwechaint*, pedraint, triaint, ac mewn gwrth
O nawd niweidiawl.—*W. O. Pughe:* C.G. x. 655.

Chwechan, *sm.* a sixpenny piece, a sixpence.

Chwechanfed, *a.* six hundredth, hundred and sixth.

Yr hyn oedd yng nghylch y *chwechanfed* a'r drydedd flwyddyn ar ddeg ar ol geni Crist.—*M. Cyffin:* Diff. ii. 6.

Y chwechanfed, the six hundredth, the hundred and sixth.

Chwechant, *s.* [chwech+cant] six hundred.

Pedeir mil o vlynyddoedd a *chwechant* a phedeir blynedd a seithawr.—*Ipotis*, ¶ 11.

Yna gossot a wnaethant hwynteu drwy deudec bydin o varchogyon a phedyt yn herwyd Rufeinawl deuawt o chwegwyr a thrugeint. a *chwechant* a chwemil. ym pop bydin.—*Ystoria Bren. Bryt.*: LI.C.H. ii. 223 (cf. 220).

Chwechant, *a.* six hundred.

Uwch yw ach Wiliam no *chwechant* cadair.
L. G. Cothi, 1. xxii. 25.

Chweched, *a.* sixth.—*M.A.* i. 541.

Y *chweched* a diwreida muroed Iwerdon.
Ystt. Bren. Bryt.: LI.C.H. ii. 147 (cf. 132).

E *huechet* yw e penguastraut.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 28.

Y *chweched* yw. Duw Gwener y merthyrwyt Ystyphan verthyr.—*Ipotis*, ¶ 19.

Chweched i dramwy *chwechad* yn adwy.
D. Benfras: M.A. i. 318.

Yr hwyr a fu, a'r bore a fu y *chweched* dydd.—*Gen.* i. 31.

Y chweched, the sixth.—*C.C.* i. 274, 276, 714.

Megys y mae llyfr cyntaf yr Homiliau, a cesodwyd allan yn amser Edward y *Chweched*.—*Ll. G. Gyffredin* (Erth. 35).

Dwyn ffrwyth ar ei chweched, to yield six for one; to yield fruit sixfold.

Chwechedran, -au, *sf.* a sixth part.

Chwechedwaith, *sf.* the sixth time or turn.

Chwecheiniog, -au, *sf.* [chwe (chwech)+ceiniog] a sixpence.

Syrthiodd eu gwerth i *chwecheiniog*.
Gwyliedydd, vi. 107 (cf. 108).

Chwech cheinawc yw gwerth llo uenyw or pan anher hyt kalan Racuyr.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 708 (cf. 712).

Chwecheiniogau, sixpenny pieces or coins, sixpences.

Llyfr chwecheiniog, a sixpenny book.

Pris chwecheiniog, price sixpence.

Chwechfed, *a.* sixth.

Chwechwet yw lhadh celain.—*Lucidar*, ¶ 25.

Whechryw gariad y sydd yn y byd; nid amgen, un yw cariad nefawl . . . *chwechfed*, cariad gymmydawl.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 100.

Am hwyl y *chwechfed* dydd llafarai Ner . . .
Am hyny ar y *chwechfed* dydd, ar hwyr
Y *chwechfed* mil o flwyddau, cyflawnhâf
Lwyr gread dyn.—*W. O. Pughe:* Ceinion Awen, 148.

Y *chwechfed*, olaf ddydd y cread mawr,
Ddwyreai gyda hwyr a bore gân.
I. D. Ffraid: Coll Gwynfa, vii. 549.

Y chwechfed waith, the sixth time or turn.

Chwechochrog, *a.* having six sides, hexahedral; cubic.

Chwechongl, **Chwechonglog**, *a.* having six angles, hexagonal.

Chwechyn, *sm.* a sixpenny piece, a sixpence.

Pan roddo fy mam chwecheiniog i mi i fyn'd i'r ffair, Gwilia, medd hi, ei wario na'i roddi am ryw beth llai na'i werth: hawdd genyf finnau bron bob amser . . . gael o honof werth fy *chwechyn*.—*Gwyliedydd*, v. 246.

Digitized by Google

Chwed, *sm.* 'the faculty of utterance or speech; a saying or expression.'—*P.* The word, if a word at all, does not occur, and it was probably deduced by Pughe from *chwedl* (†*chwedyl*); but it may be compared with *gwed*, *gwedyd*, just as *chware* and *gware* are convertible forms.

Chwedeg, *a.* [chwe (chwech)+deg] sixty.

Chwedegfed, *a.* sixtieth.

Y chwedegfed, the sixtieth.

Chwedegfed, *sc.* the sixtieth part.

Chwedegol, *a.* sexagenary, pertaining to the number sixty.

Chwedegolion, sexagesimals; sixties.

Chwedegwaith, *a.* of sixty times; sixtyfold.

Chwedelcwr, wyr, *sm.* [chwedl] a talker, a babbler, a prattler.

A rhai a ddywedent, Pa beth sy ym mryd y siaradwr [°dywedydgar, *chwedelcwr*] hwn ei ddywedyd.
W. Salesbury: Act. xvii. 18.

Chwedi, } *adv.* and *prep.* [corr. of *gwedi* or
Chwedy, } *gwedy*] after; afterwards; since; then. It occurs only after *a* and *na*. See s.v. *Cynt.*—*Matt.* xxvii. 29; *Marc* vii. 14.

A chwedi } [=a gwedi, ac wedi] and after; and
A chwedy } afterwards; and then; and since.

Yn oet degmlwydh ar hugeint. na chynt na *chwedy*.
Lucidar, ‖ 113.

A chwedi y dau ddydd hyny yn ddirgel arfered feistrolaethau a'i gywreindeb fal y [bo] perthynasawl.
Meddygon Myddfai, ii. 720.

A chwedi hynny lladd Gwrthefyr Fendigaid.
Iolo Mss. 44 (cf. 3, 5).

A chwedi ein hamgylchu â'r holl brofedigaethau oddi fewn ac oddi allan . . . *a chwedi* ein gosod ein hunain yn llyn yng nghanol caledi crefydd.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 174.

Y mae Eglwys Dduw wedi ei gosod mewn lle uchel amlwg, ar ben bryn, *a chwedi* ei hadeiladu ar wadnau a sylfeini yr Apostolion a'r Prophwydi.
Morus Cyffin: Diff. iv. 26.

A chwedi dyfod i ŵydd Awstin, ni bu gwiw gan y gwr ysgog o'i gadair mwy na phe buasai wedi ei hoelio wrthi.
Theo. Evans: D.P.O. ii. 3 (259; cf. 279).

A chwedi i'r offeiriadau eu ceryddu . . . hwy a'u rhoddent i fyny i ddiafol.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 82.

Chwedl, -au, *sm-f.* [C. *whethl, hwedhel;* Br. *kel, kéel, keal, quehezioù;* Ir. *sgeol;* Ga. *sgeul*] 1. a saying, a sentence; a common saying; a proverbial expression.

Chwedlau y doethion, the sayings of the wise. —*Iolo Mss.* 251—261.

Ni ddoedsf, ni fynaf fi
Chwedl onid Duw a Chadi!—*D. ab Gwilym*, cxcix. 67.

Goreu *chwedl*, gwirionedd.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 40.

Tra bûm â'm llaw yn rhydd (*chwedl* pobl Mon), neu heb briodi, byw yr oeddwn fel gwŷr ieuainc ereill.
Gronwy Owain, 162 (cf. 226, 282).

Brân a gânt *chwedl* yn nyffryn,
Wrth chwiliaw am ei gronyn:
Nid dysg dysg heb ei ddilyn.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 98 (cf. 99).

2. a story (true or false); a tale; a fable; a fiction.

Ar *chwedyl* hwnn a elwir. Breudwyt Maxen Wledic.
Mabinogion, 92.

Ar *chwedyl* hwn a elwir *chwedyl*. Iarlles y Ffynnawn.
Mabinogion, 192 (cf. 12).

Efe a gymerth hynny yn lle *chwedyl*. ac a dywawt y mynnei wybot beth oed hynny yn ehegyr.—*St. Greal*, ‖ 22.

Eu saith *chwedl* i'r genedlaeth
A gadwai mab gwedi maeth.—*L. G. Cothi*, III. xxxiv. 29.

Treulïasom ein blynyddoedd fel *chwedl*.—*Salm.* xc. 9.

Nid oes na llateiaeth, nac athrod, na chelwyddau, na *chwedlau*, i yru rhai benben, nad arnaf fi y bwrir y rhan fwyaf o honynt.—*E. Wynn:* Bardd Cwsg, 58 (cf. 102).

Chwedlau y gwragedd yn y felin.—*Diareb.* (M.A. iii. 152.)

Gwylied neb goelio pob gair a *chwedl* a glywo.
Huw Owen: Dilyniad, I. iv. 1.

Dyma'r fath *chwedlau* ofergoelus (gyda channoedd ychwaneg o'r un cyffelyb) a gredid yn amser Pabyddiaeth yng Nghymru.—*Theo. Evans:* D.P.O. 280.

Wedi gyru'r fath *chwedlau* a'r rhai'n ym mhenau breninoedd a thywysogion, hwythau a laddasant brophwydi Duw,
M. Cyffin: Diff. i. 3 (cf. iv. 22).

Mi a'i gyrais â *chwedl* parod ganddo.—*Gro. Owain*, 290.

Yr wyf yn awr yn myned i adrodd *chwedl* mawr (ond eto *chwedl* o wir) na chyhoeddwyd eto yn ein hiaith ni.
Theo. Evans: D.P.O. 184.

O fwyn *chwedl* anfon i chwi
Rhyw damaid mae'n rhaid imi.—*Daniel Ddu*, 108.

A glywaist ti *chwedl* fach y Dryw
Yn ei nyth lle'dd oedd yn byw?—*Iolo Mss.* 260.

Y mae yn debygol mai oddi wrth y Rhufeiniaid y derbyniwyd y *chwedl* hon. . . Y mae yn amlwg hefyd i'r *chwedl* estronaidd hon, ar ol ei mabwysio gan ein hynafiaid, gael ei chorffoli â hen draddodiadau ac hanesion ein cenedl.
Carnhuanawc: Han. Cym. 2.

Chwedl gwrach, } an old woman's fable; a
Chwedl hen wrach, } tale of a tub.—*W.*

Chwedlau hen wrach ehud-lorf.—*Gronwy Owain*, 109.

Chwedl wir, a true story.

Chwedlau gwrachïaidd, old wives' (old women's) fables.—1 *Tim.* iv. 7.

Am yr hwn y mynegwyd *chwedl wrachïaidd* o oes i oes.
Gwyliedydd, v. 232.

Chwedlau yr aelwyd, fireside tales or stories.—*Gwyliedydd*, xi. 86, 117, 151, 182, 238, 267, 340, 369.

Chwedlau pen gwlad, common or current stories, popular tales; town-talk.

Chwedlau gwneuthur (*sg.* chwedl wneuthur), fictitious tales; devised or concocted stories; devised fables; feigned words; fables.—2 *Pedr* ii. 3.

Os pleserau dychymmygol, a hardd-deg ddyfeisiadau a *chwedlau gwneuthur* a'i boddhâ ef yn benaf, yna yr mae yn yr enaid duedd ysgafn a gwag.
Josiah Rees: Hunan-Adn. 57.

Nid oes air o wirionedd yn hyn; dim ond *chwedl gwneuthur* a dychymmyg y monachod er mwyn elw. . . Ym mhen cant a hanner o flynyddoedd ar ol hyny, y monachod a'i gwnaethant hi yn gymmeradwy wrth y *chwedl gwneuthur* uchod.—*Theo. Evans:* D.P.O. 281 (cf. 149).

Chwedlau Iuddewaidd, Jewish fables.—*Tit.* i. 14.

Coeg chwedl, } an idle tale; a worthless or
Gwag chwedl, } frivolous story; vain-speak-
Chwedl wag, } ing.

Darllen y mae'r gwŷr hyn yn eu heglwysi y pethau y gwyddant hwy eu hunain mai celwyddau a *choeg chwedlau* ydynt.—*M. Cyffin:* Diff. v. 5.

Adrodd chwedl, to tell a tale; to relate a story.

Arwain chwedlau, to tell or carry tales.

Chwedl a rhamant, fable and romance.

Chwedl oer, } a sad or dismal story; bad news,
Oer chwedl, } sad news.

Chwetyl oer y euruab Ywein
Ae gyfoeth a doeth oc dwyn.
Prydydd Bychan: M.A. i. 387.

Chwedl ben bys, a made-up or groundless story.

Chwedl dychymmyg, } a fabulous tale; an
Chwedl ddychymmygol, } invented story.

Digitized by Google

Chwedl drws, a story related from door to door or house to house; a common talk.

Bûm *chwedl drws* i gryf a thlawd,
I'r meddw'n wawd i'w harfer.
Edm. Prys: Salm. lxix. 12.

Chwalu chwedlau: see *Chwalu.*

Hel chwedlau, to gather tales or stories; to gossip; to go about gossiping.

Yr oedd y llechgi brwnt yn ddiswydd ddigon i ddyfod yma . . . i *hel chwedlau.*—*Gro. Owain*, 327.

Trychu chwedl, to speak brokenly.

Mae hi yn dywedyd chwedlau, she is telling tales or stories; she is gossiping.

Adrodd chwedl, to tell a tale or story.

Arweiniwr (*arweinydd*) *chwedlau*, a tale-bearer; a tell-tale; a tale-teller.

Gwir y bo dy chwedl, may your story prove true; may what you say come to pass.

3. news, tidings, report, intelligence, account; rumour; what is reported as true.

A oes *chwedleu* o newyd gennyt ti. . . Dywet ti dy *chwedleu* heb yr Arthur.
Mabinogion, 245 (cf. 29, 50, 77, 104, 178, 237).

Rydibit attamne *chuetil* dyfridauc.
Myrddin: A.B. ii. 22 (cf. 23).

Hwynt a glywssant *chwedleu* ereill rylad ugein mil oc eu Freinc.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 410 (cf. 448).

Gnawt gouyn *chwedel* y ddoeth.
Gwerneg ab Clydno: M.A. i. 392 (cf. 202).

Yna y *chwedyl* a aeth at Math uab Mathonwy. Trymuryt a goueileint a gymerth Math yndaw. . . Arglwyd heb y Gwydyon ny orffowyssaf uyth yny gaffwyf *chwedleu* y wrth uy nei.—*Mabinogion*, 77.

Ar *chwedyl* hwnnw a aeth yn gynbellet ac yny wybu Moradrins brenhin Sarras hynny.—*St. Greal*, ‡ 22.

A gwedy kaffel o Veli y *chwedyl* hwnnw. sef a wnaeth ynteu ef ae lu y nos honno. eu pydyaw hwynteu y mywn glyn dyrys aoed ar eu ford.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 76 (cf. 74, 86, 94, 103, 116, 150).

Medylyaw a wnaeth nat ymchoelei vyth draegevyn y wlat. yny gaffei *chwedleu* hysbys ywrth y gyueillt.
Amlyn ac Amig, col. 1090.

Teg pob *chwedl* heb wrthwyneb.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 102.

Nid oedd neb, hyd y cyrhaeddodd y fath *chwedl* galarus, onid oedd ei natur yn gerwino ac yn cyffroi wrth glywed son am weithred mor giaidd.—*Theo. Evans:* D.P.O. 263.

Gnawd i ddyn ofyn *chwedleu.*—*Diareb.*

Brysia, na hir rodia ryd,
Dwg ein *chwedleu* da genyd!
D. ab Gwilym, ccvi. 35 (cf. cxxviii. 39; cxci. 20).

Chwedl drwg, } evil tidings; bad news; evil
Drwg chwedl, } report.

Nid ofna efe rhag *chwedl drwg.*
Salm. cxii. 7 (cf. Ier. xlix. 23).

A phan glywodd y bobl y *drwg chwedl* hwn, galaru a wnaethant.—*Ecs.* xxxiii. 4.

Llawen chwedl, joyful tidings, good tidings, good news.

Yawnhaf yw hwnnw heb y Pwyll. kymryt enw y mab y wrth y geir a dywawt y uam pan gauas *llawen chwedyl* y wrthaw.—*Mabinogion*, 24.

Y dydd hwn sy ddydd *llawen chwedl.*—2 *Bren.* vii. 9.

Chwedl newydd, fresh news; tidings, news.

Or maint a dyfu ar eu edryt
A duc oe gadau *chwedlau newyt.*—*Meilir:* M.A. i. 191.

Ofni rhag y chwedl a glywir yn y wlad: a'r naill flwyddyn y daw *chwedl newydd*, ac ar ol hyny *chwedl newydd* y flwyddyn arall.—*Ier.* li. 46 (cf. Esec. xxi. 7).

¶ Formerly *chwedl* was, with very rare exceptions, treated as a masculine; but now, except in imitation of earlier usage, it is always considered a feminine.

A double plural sometimes occurs in the modern language. Cf. *negesau*, *negeseuau*, and *negessuon.*

O gylch dechreu mis Medi, 1664, bu i mi ac ereill o'm cymmydogion . . . glywed drwy *chwedleuon* bod y cornwyd wedi dychwelyd i Holand.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 382.

E chwyddai gobaith hoff fy mynwes lawn,
Gael denu llu y pentref ar brydnawn
O gylch fy nhân, i adrodd iddynt hwy
Chwedleuon pleser na feddiannir mwy.
Th. Lloyd Jones; Ceinion Awen, 158 (cf. 155).

Rhyw fath debygion tybiaf gael oc ein
Chwedleuon neithwyr, yn dy freuddwyd hwn.
W. O. Pughe: C.G. v. 122 (cf. iv. 283).

Dygwyd i mewn gant o *chwedleuon* a hanesion difyrus.
Haul, 2 C.C. viii. 318.

Chwedla, *v.* to talk; to chat; to gossip.

Chwedlai, eion, *sc.* a tattler, a prattler; a gossip.

Chwedlaidd, *a.* fabulous; fictitious.

Y mae Hu Gadarn yn cael ei ddarlunio yn y trioedd *chwedlaidd*, fel un enwog iawn mewn doethineb, cyflawnder, a heddychlondeb.—*D. Peter:* Hanes Crefydd, 14.

Chwedlŏig, *a.* [chwedla] much given to talk or prattle; gossiping, chattering, babbling; loquacious, talkative.

Chwedleua, *v.* [chwedlau] 1. to talk, to converse; to discourse; to confabulate; to commune.

Ar hynny nachaf un or mackwyeit yn dyuot yn ol Gwalchmei y *chwedleua.*—*Mabinogion*, 285.

Ni châr galar ormodd *chwedleua* ac ymadrodd.
Cyfrinach y Beirdd, 40.

Efe a gusanodd ei holl frodyr, ac a wylodd wrthynt, ac ar ol hyny ei frodyr a *chwedleuasant* ag ef.
Esgob Morgan: Gen. xlv. 15.

Gweddîwn ar Dduw . . . ar ini allel *chwedleua*, meddwl, credu, byw, a myned oddi yma, yn ol eu gwir athrawaeth.
Edward James: Hom. i. 12.

Nid oes dim yn helpu'r cof yn fwy na meddylied, ysgrifenu, neu *chwedleua* am y pethau hyny ag y dymunech eu cofio.—*Iosiah Rees:* Hunan-Adn. 81.

Yn fy erbyn y *chwedleuai* y rhai a eisteddent yn y porth.
Salm. lxix. 12 (cf. 26; lxxiii. 8; lxxvii. 12).

Ac ychydig eu *chwedleua* hwynt o achos eu hoerfel.
Meddygon Myddfai, ii. 802.

2. to chat, to chatter, to gossip.

Chwedleuach, *s.pl.* trifling fables, frivolous stories, idle gossip.

Eich llyfrau ofer yn llawn gwegi, *chwedleuach*, coegni, a chelwydd, a chwanegent yn hytrach fy ngofid i, ac a barent fwy tristyd i'm calon.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 421 (cf. 190).

Chwedleuaeth, -au, *sf.* a familiar talk, conversation, confabulation, chat; a gossiping.

Chwedleuaidd, *a.* fabulous; mythic; fictitious.

Y mae yr hanesion hyn, y rhai a haerant darddiad o Gaerdroia, mor *chwedleuaidd*, ac mor anghysson ag hanesyddiaeth awdurdodol . . . fel na fyddent yn haeddiannol o sylw yn y dyddiau hyn o eglurder hynafiaethol, oddi eithr am y derbyniad cyffredinol a gawsant yn yr oesoedd gynt.
Carnhuanawc: Han. Cym. 1 (cf. 353).

Chwedleufawr, *a.* full of gossip; gossiping, garrulous, talkative.

Os o'r wybren [bydd defnydd dyn], ysgawn, ac anwadal, a geiriolus *chwedleufawr* y bydd.—*Barddas*, i. 388.

Chwedleugar, *a.* disposed to (much) talking; fond of conversing; talkative, loquacious, garrulous; addicted to gossiping.

Pob ynfyd a wna *chwedleugar*, rhaid gwr doeth i dewi.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 55 (cf. 52, 275).

Digitized by Google

Pe gwelai *chwedleugar* annoethineb ei ddadwrdd, ef a gadwai ei dafawd i oeri ei gawl.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 52 (cf. 55, 263).

Dyn chwedleugar, a person fond of gossip; one given to gossiping; a blabber.

Chwedleugarwch, *sm.* addictedness to talking or gossiping; garrulousness, loquacity.

Chwedleuo, *v.* 1. to talk, to converse, to confabulate, to chat.

2. to chatter, tattle, or gossip.

3. to bring news or tidings; to report.

Mal y bont. kymheruedwyr y rot ti ae kenedyl wy mal y gallont *chwedleuaw* ytti. a gwybot medwl eu kenedyl.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. 128.

Chwedleuog, *a.* full of chat or gossip; gossiping; talkative, garrulous.

Yn fedrus mewn *chwedleuog* ddysg,
Difyrai'r oriau maith.—*Tlysau Barddoniaeth Seisnig*, 39.

Chwedleuol, *a.* relating to tales or fables; pertaining to chatting or gossiping; confabulatory; garrulous.

Chwedleuwr, wyr, } *sm.* a talker, a confabu-
Chwedleuydd, -ion, } lator, a discourser; a chatterer; a gossip.

Tri dyn goreu pa bellaf y bônt: gwenieithwr truthgar; athrodwr cynhengar; a *chwedleuwr* celwyddgar.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 88.

Chwedliad, -au, *sm.* a conversing or discoursing, conversation.

Chwedliaeth, } -au, *sf.* news, tidings, intelli-
Chwedyliaeth, } gence.

Crwytraw yr ynys a wnaeth Peredur. y geissaw *chwedylyaeth* y wrth y uorwyn du.—*Mabinogion*, 236.

Y *chwedylyaeth* a aeth ar Erot vrenhin.
Buchedd Mair, § 17 (cf. 11).

Ymysc hynny wynt a glywsont *chwedylyaeth* y wrth Riannon ac am y phoen.—*Mabinogion*, 22.

Chwedlig, -ion, *sf.* a short tale or story.

Y mae *chwedlig* debyg i hon ym mhlith Chwedlau y Tylwyth Teg gan y Brodyr Grimm.—*Ystên Sioned*, 92.

Chwedlofydd, -ion, *sm.* [chwedl+ofydd] a mythologist.

Gofynir i'r *chwedlofyddion* pa beth a welodd y ddau ddyn hyn, neu pa beth y tybiasant iddynt ei weled.
Ystên Sioned, 14.

Chwedlofyddiaeth, -au, *sf.* a system of myths; mythology.

Chwedlofyddol, *a.* mythological.

Y mae chwedloniaeth Groeg a Rhufain, ym mhob ystyr, yn dwyn llawer mwy o debygolrwydd i Arwr-addoliad *chwedlofyddol*, nag y gwnai crefyddau boreuol y cenedloedd dwyreiniol.—*Credoau y Byd*, i. 561 (cf. 566).

Chwedlofyddu, *v.* to mythologize.

Chwedlog, *a.* full of talk, loquacious, garrulous, talkative; full of tales; fabulous.

Chwedlawc trwydedawc traeth dyd
Terned y gwned nwys med mat
Tebic heul haf huenyd soned gan mwyhaf.
Taliesin: A.B. ii. 194 (M.A. i. 58).

Iawn—*chwedlawg* mab.—*Diareb* (M.A. iii. 162.)

Chwedlogrwydd, *sm.* garrulity; fabulousness.

Chwedlon (ō), -au, *sf.* a myth.

Y mae'n rhyfedd meddwl mor bell yr ymledaenodd *chwedlonau* yr hen amseroedd o'r gwledydd y cawsant eu cychwyn ynddynt.—*Credoau y Byd*, i. 562.

Y mae y mwyafrif o honom ar hyn o bryd yn synu i'n tadau yng Nghymru lynu cyhyd o amser wrth ofergoelion a *chwedlonau*.—*Llan*, Medi 30, 1892.

Chwedlonaidd, *a.* of a mythic character; mythical; fabulous.

Mewn oesoedd *chwedlonaidd*, yr oedd iaith yn llawnach o'r elfen farddonol.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 206.

Chwedloniaeth, } -au, *sf.* mythology.
Chwedloneg, }

Y mae Hamilton yn gwneuthur hyd yn nod i *chwedloniaeth* Rhufain a Groeg blygu i'r gwasanaeth pwysig o brofi geirwiredd y Bibl.—*Traethodydd*, xxviii. 69.

Y mae *chwedloniaeth* yr hen fyd yn un o feusydd mwyaf dyddorol ymchwiliaeth ddynol.
Credoau y Byd, i. 560 (cf. 559—564).

Bod iaith farddonol, yn ei harliwiau cryfion a'i theimladau bywiog, yn cyffwrdd â therfynau tiriogaeth *chwedloniaeth*, sydd amlwg.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 204 (cf. 199—207).

Hyd yr ydys yn gwybod, nid oes dim, neu ond y peth nesaf i ddim, wedi ei ysgrifenu yn Gymraeg yng nghylch y rhan y mae milod yn ei chwareu yn *chwedloniaeth* cenedl y Cymry.—*Ystên Sioned*, 50.

Neithdar, diod y duwiau anfarwol, yn ol *chwedloniaeth* y Groegiaid a'r Rhufeiniaid.
I. D. Ffraid: Coll Gwynfa, 390.

Ni chadd [y diafol] un o enwau'r hen *chwedloniaeth*.
Cymru, iii. 100.

Un o gyfeillion cynhes y Cymry ar y Cyfandir ydyw ef; câr ein mynyddoedd a'n chwedlau, medr ein hiaith, a cha ein hen wlad yn aml le mawr yn ei erthyglau dysgedig ar ieitheg a *chwedloneg*.—*Cymru*, iv. 35.

Chwedlonol, *a.* mythological, relating to mythology.

Ymddengys i ni fod ymwrthod â'r naill fel y llall yr un mor ehud, o herwydd eu bod wedi eu hamgylchu ag awyrgylch *chwedlonol*. . . Am fod rhyw gymmaint, mwy neu lai, o elfenau *chwedlonol* yn amlwg ynddynt.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 201 (cf. 207).

Sylwir yma ar y feirniadaeth ddiweddar ar y canau *chwedlonol*. . . Y mae y ddau awdwr hyn yn crynoi y canau yn ddau ddosparth, y rhai a alwant y *Chwedlonawl* a'r Hanesiol.—*Beirniad*, Rh. 46, 142.

Yr oedd yn anghenrheidiol bod yn hyddysg yn y gwreiddeiriau, yn y cyfeiriadau daiaryddol, hanesyddol, a *chwedlonawl*.—*Brython*, iii. 104.

Chwedlonydd, -ion, } *sm.* a mythologist.
Chwedlonwr, wyr, }

Yr oedd yn naturiol i'r *chwedlonwyr* . . . adrodd ystoriau difyr.
R. I. Prys: Hanes Llenydd. Gymreig, 268 (cf. 281, 283).

A'r un *chwedlonydd* doniol a genedlodd Arthur yn anghyfreithlawn, trwy swyngyfaredd Myrddin.
R. I. Prys: Hanes Llenyddiaeth Gymreig, 269.

Chwedlu, *v.* to fable.

Chwedlwall, -au, *sm.* catachresis (in rhetoric).

Chwedlwall, *a.* faulty in speech; loose in discourse.—*P.*
Na bôm yn *chwedlwall* o weithred arall,
Na bôm ry anghall, erbyn angeu.—*Gr. Ynad Coch.* (*P.*)

Chwedlwr, wyr, } *sm.* 1. a talker, a dis-
Chwedlydd, -ion, } courser; a reporter.

2. a fabulist; a fabler.

Chwedlwraig, wragedd, *sf.* a female talker or chatterer; a gossip.

Chwedran, -au, *sf.* [contr. of *chwechedran* or *chweched ran?*] a sixth part, one-sixth.

Cymmer bunt o gwyr heb weithio, hanner punt o rosyn, a *chwedran* punt o dus, a phunt a hanner o wer myharen.
Meddygon Myddfai, ii. 42.

Chwedy, *adv.* and *prep.*=*Chwedi*.

Chwedyn, *adv.* [contr. of *chwedi* (*gwedi* or *gwedy*) *hyn*] afterwards; after that; then, since. It occurs only (like *chwedi* or *chwedy*) after *a* and *na*.

Digitized by Google

Gwella'i fuchedd wrth fodd Duw,
A *chwedyn* byw heb bechod.
Rhys Prichard: C. y C. xc. 123.

Berw y cyfan yn dda ar dân araf, a *chwedyn* ei hidlo, a'i yfed y bore a'r nos.—*Meddygon Myddfai*, ii. 140.

Ysgatfydd gan lawer o ddynion a theuluoedd na weddïasant ond ychydig gynt a *chwedyn*.
Sam. Williams: Amser, 147.

Chwedd, *sm.* 'the faculty of utterance.'—*P.* Cf. *Chwed, Gwed.*

Chweddl, -au, *sf.*=*Chwedl.* This, with its derivatives, is the usual colloquial form in the dialect of S.W.

Chwefrawr mis chweiris *chweddyl*
Diargel mawr—marw Gruffut vap Hywel.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 291.

Chwedl am daw dolur ei gofiain
Chweddl dirfawr dirfarch gyfrwynein
Chweddl rhyhir rhyhydr ei ysgain
Chweddl agarw marw mawrfab Owain.
Seisyll Bryffforch: M.A. i. 338.

Ni wyddwn mo'r chweddl, I had no notion or suspicion (of what was to occur); all of a sudden; suddenly, unexpectedly.—*S.W.*

Hen chweddl, an old tale or story.

Chwefr, *a.* [L. *severus*] severe, austere, rigorous, harsh, violent.

Chwefr, *sm.* severity, violence.

Chwefrad, -au, *sm.* a raging.—*P.*

Chwefraidd, *a.* rather severe; sharp, harsh.

Chwefrdan, *sm.* comfrey?

Gwreid y *chwefyrdan* a gwreid y tauol. a llysseu Cadwgawn. ac emenyn. a hen ulonec. a brwmstan . . . hynny yseyd da rac y crugyn.—*Meddygon Myddfai*, i. 26.

Chwefredd, *sm.* severity, austerity, sharpness.

Chwefrin, *a.* severe, rigorous, sharp, harsh, violent, raging.

Einyoes drang llew gyfrang llawr
Anyan *chwefrin* dan Chwefrawr.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 291.

Llit vrwysc tan chueivrwysc *chwevrin* yw Ieuan.
Casnodyn: M.A. i. 423.

Chwerthid bryd o bryder *chweurin*.
Elidir Sais: M.A. i. 345 (cf. 65, 179).

Twrf tarf tan *chwefrin* drin dremynu.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 444.

Mis Chwefror *chwefrin* creignant,
Gnawd eiry gwyn ar fryn a phant.—*Englynion y Misoedd.*

Chwefrog, *a.* severe, violent, raging, furious.

Mor gynddeiriawg, *chwefrawg*, chwyrn,
Yn codi 'n fflamau cedyrn!—*Powysion*, ii. 144.

Chwefrol, *a.* severe, violent.

Chwefrol, *sm.* [chwefr? C. *Hwevral*] February.

Ni saif eira fis *Chwefrol*
Mwy nag wy ar ben trosol.—*Hen Bennill.*

Trosblana goed ieuainc yn wythnos ddiweddaf y lleuad, gwedi ei dyfod i'r Hwrdd, neu'r Fantol, neu'r Forwyn; a hyny ym mis Medi, neu fis Hydref, neu fis Tachwedd, neu fis *Chwefrol*. Plana dy winwydd yn *Chwefrol*, neu Fawrth, neu fis Medi.—*Rhisiart Sion Huw* (1591).

Mis Chwefrol, the month of February.

Chwefror, *sm.* [chwefr? Br. *C'houévrer, C'houévreur*] February.—*C.C.* i. 272, 562, 566, 708, 712.

Mis Chwefror, the month of February.

Mis Chwefror anaml ancwyn;
Llafurus pal, ag olwyn.—*Englynion y Misoedd:* M.A. i. 14.

Twrwf torredwynt mawr mis *Chwefrawr* chwyrn.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 330 (cf. 291).

Ionawr a dery i lawr,
Chwefrawr yspail cawr.—*Iolo Mss.* 224.

Gwell iti'th fam ar elor
Na thywydd teg yn *Chwefror:*
Difiannedig iawn y bydd
A ddêl cyn dydd ei dymmor.—*Hen Bennill.*

Chwefrawr chwyth neidr o'i nyth.—*Diareb.* (M.A. iii. 152.)

Os ym mis *Chwefror* y tyf y pawr,
Trwy'r flwyddyn wedyn ni thyf ef fawr.—*Iolo Mss.* 225.

Cyfrifir mis *Chwefror* fel y mwyaf ansiriol o fisoedd y flwyddyn.—*I. G. Geirionydd:* Geirionydd, 431.

¶ Of the Welsh names of the months six are undoubtedly native (*Mehefin, Gorphenaf, Medi, Hydref, Tachwedd, Rhagfyr*); and five are unmistakably borrowed from Latin (*Ionawr, Mawrth, Ebrill, Mai, Awst*). *Chwefror* or *Chwefrol* is the only one with regard to which there can be any reasonable question. It was usual at one time to derive it from L. *Februarius* (in the inscriptions sometimes written *Febrarius*); but as Latin *f* is not known to become *ch* or *chw* in Welsh, a L.L. *Vebrarius* has been assumed; and as this supposed form is not known to occur, it is improbable that the Welsh word could have been derived from it. Cf. *Chwefri* or *Chwefrwy*, the name of a river in Breconshire.

Chwefru, *v.* to affect severely; to be violent.

Gorwyn blaen mynyded hydyr oervel gaeav
Crin cawn crwybyr a ved
Chwefris gwall yn alltuded.
Llywarch Hen: M.A. i. 122 (A.B. ii. 252).

Chwefris mis mysseing diennig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 518.

Chwefrydd, -ion, *sm.* a severe, austere, surly, or violent one; a chider.

Gorwyn blaen auall amgall pob dedwyd
Wheueryd y arall
A gwedy karu gadu gwall.—*Llywarch Hen:* A.B. ii. 253.

Chweg, *cp.* chweced, chwecach, chwecaf, *a.* [C. *hwec, hweg, whec;* Br. *c'houek*] 1. sweet (to the taste), dulcet, luscious.

Mel a uo *chwechach* naw mod no mel kynteit.
Mabinogion, 121.

Osglawc blaen derw chwerw chweith onn
Chwec evwr chwerthinat tonn.
Llywarch Hen: A.B. ii. 258.

Chweg medd pan yfer, chwerw pan daler.
Diareb. (cf. M.A. iii. 152.)

2. pleasing (to any of the senses), sweet, pleasant, delectable, agreeable.

Tec a *chuec* y dywedi.—*Llyfr Du:* A.B. ii. 57.

Chweg wrth *chweg* wrth chwedl ei fawred
Chwerw wrth chwerw wrth chwant cywryued.
Cynddelw: M.A. i. 208 (cf. 251, 252).

O vot bryd a bronn o brydest *chwec*.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 272 (cf. 154, 421).

Kyvredec a *chuec* a chueru hir ennhyt.
Cynddelw: M.A. i. 248 (cf. 122, 251, 490).

Cloch aberth y serchogion,
Claer, *chweg*, a theg yw ei thôn!—*D. ab Gwilym*, cxiv. 35.

Araf iaith asserw, dichwerw *chweg* awen.
Gronwy Owain, 28.

Gwartheg arall yn adnau,
Pan fo *chwecaf* ni bydd tau.—*Diareb.* (M.A. iii. 158.)

Peris ei gof ym ofal,
Por *chweg*,—pand oedd deg ei dal!
D. ab Gwilym, ccxxxvii. 37 (cf. xcviii. 23).

Pruddhaodd difrod dy ardalau *chweg*.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 158.

Heddyw yr wyf yn rhoddi
Y lle *chweg* yn eich llaw chwi.—*I. G. Geirionydd:* Geir. 58.

Mae'n haf, a chwardd y bore teg,
A'r awel hwyr anadla'n *chweg*.—*Telynegion*, 10.

Aroglau *chweg* anadla breilw'r ardd
Ar fore hefin i adloni bardd.
Blodau Ieuainc, 82 (cf. 81, 83).

Digitized by Google

Chwegaidd, *a.* of a luscious taste, sweetish.

Chwegiad, -au, *sm.* dulcification.

Chweglys, } *sm.* [chweg+llys] beet (*Beta*).
Chweclys, }

Beata, } melged, sewlys, y *chweclys.*
Beta, } *Meddygon Myddfai,* 283.

Chwegnur, *sm.* [chweg+nur] glycerine.

Y mae y *chwegnur* yn ddymunol i'r golwg, yr arogl, a'r archwaeth.—*Gwaith Eisteddfod* 1868, 456.

Chwegnwyddau, *s.pl.* groceries.

Wedi i'r diffynydd dderbyn gorchymmyn i dalu am *chwegnwyddau* neillduol a dderbyniasai.
Gwalia, Rhag. 7, 1892.

Chwegnwyddwr, wyr, *sm.* [chweg+nwydd] a grocer.

Dygwyd ym mlaen gynghaws gan *chwegnwyddwr,* er codi iawn am golli gwasanaeth ei chwaer.
Gwalia, Awst 10, 1892.

Ymddangosai . . . i wneyd cais . . . am drwydded *chwegnwyddwr.*—*Baner Cymru,* Medi 21, 1892.

Chwegol, *a.* of a sweetening tendency, dulcifying, sweetening.

Chwegr, -au, *sf.* [C. *hweger*; L. *socrus*; Gr. ἑκυρά] a mother-in-law.

Ni char gwraig *chwegr* na llysblant.
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 545.

Anrhydedda dy chwegrwn a'th *chwegr.*—*Tobit* x. 12.

Ac Orpah a gusanodd ei *chwegr.*
Ruth i. 14 (cf. ii. 11, 18, 19, 23; iii. 1, 16).

A garo ei gwr, cared ei *chwegr.*—*Diareb.* (M.A. iii. 147.)

Chwegronos, *s.pl.* [chweg+grawn] all-spice.

Gwenith India, pob math o rawn Ewropaidd . . . pupyr, *chwegronos.*—*Gwyddoniadur Cymreig,* iii. 273 (cf. 278).

Chwegrwn, gryniaid, *sm.* [C. *hwigeren*; L. *socer*; Gr. ἑκυρός] a father-in-law.—*Ecs.* xviii. 1, 5, 7, 8, 12, 14, 15, 17, 24, 27.

Ny mennws gwrawl gwadawl *chwegrwn.*
Aneurin: God. 82 (A.B. ii. 65).

Tair aelwyd a ddyly wneuthur iawn tros na bo arglwyddoddev: tad; brawd hynav; a *chwegrwn.*
Cyfreithiau Cymru, ii. 530 (cf. 400).

O gyffredin gynghor ef ac gedymdeithyon y kymerth kennat y *chwegrwn* ac wreic.—*Amlyn ac Amig,* col. 1091.

Yna aflonydu a oruc y brenhin ieuanc ar gyuoeth y dat drwy nerth y *whegrwn.*—*Brut y Tywysogion,* 222.

Ni weles dda yn nhŷ ei dad, a hoffes dda yn nhŷ ei *chwegrwn.*—*Diareb.* (M.A. iii. 169.)

Merch dy chwegrwn, thy father-in-law's daughter (=thy wife).

Na chred fyth *ferch dy chwegrwn.*—*Diareb.* (M.A. iii. 165.)

Chwegrwydd, *sm.* sweetness; fragrance.

Chwegu, *v.* to sweeten, to dulcify.

Chwegwaith, *a.* [chwe (chwech)+gwaith] six times.

Chwegwaith, *sc.* six times or turns.

Chwegwraidd, *s.* [chweg+gwraidd] sweet root; liquorice (*Glycyrhiza glabra*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 179.

Chwegwryw, *a.* hexandrian, hexandrous, having six stamens.

Y genedl chwegwryw, the class hexandria.—*H. Davies:* Welsh Bot. 32.

Y llwyth chegwryw, the order hexandria.—*H. Davies:* Welsh Bot. 67, 94.

Chwegyfochr, } *a.* [chwe (chwech)+cyf-
Chwegyfochrog, } ochr] having six equal sides, cubic, cubical.—*W.*

Chwei, *int.* a word formed in imitation of the neighing of a horse.

Ar bob sain yr udgorn fe ddywed efe '*Chwei.*'
Dr. T. Briscoe: Llyfr Iob, xxxix. 25.

Chweiad, -au, *sm.* [chwai] a giving velocity to, a moving quickly; impulsion.—*P.*

Chweider, } *sm.* activity, briskness, agility.
Chweiedd, }

Chweifrwysg, *a.* [chwai+brwysg] wild, impetuous, or violent.

Llit vrwysc tan *chueivrwysc* chwevrin yw Ieuan.
Casnodyn: M.A. i. 423.

Chweina, *v.* [chwain] to look for fleas; to catch fleas.

Chweinfagl, *sf.* [chwain+magl] fleawort (*Cineraria*)=*Magl chwannen.*

Chweiniad, } -au, *sm.* [chweina] a catching or
Chweinad, } killing fleas; flea-catching.

Chweinial, *v.* to leap about as fleas.

Pe caid y nos, pe caid nef,
A deng-awr, wrach ddidangnef,
Un awr mewn gwâl *chweinial* chwyrn
Ni chwsg, am nad iach esgyrn.—*D. ab Gwilym,* cviii. 15.

Chweiniog, } *a.* 1. full of or abounding with
Chweinllyd, } fleas; breeding fleas.

A phan edrychwyt y dyle nyt oed arnei namyn byrwellt dysdlyt *chweinllyt.* a boneu gwrysc yn amyl trwydaw.
Mabinogion, 146.

2. fidgety, restless (as if troubled with fleas); itching; impatient.

O mor *chweinllyd* annioddefgar yw llawer!
Morgan Llwyd: Tri Aderyn, 72.

Chweinllydrwydd, *sm.* the state or condition of being full of fleas; abundance of fleas.

Chweinllys, *sm.* [chwain+llys] fleawort (*Cineraria*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 79, 179.

Herba pulicaris, y *chweinllys,* llysiau'r chwain, llewyg y chwain.—*Meddygon Myddfai,* 286.

Chweinllys arfor, marine fleawort (*Cineraria maritima*).

Chweio, *v.* [chwai] to give velocity to; to quicken; to accelerate; to hasten; to become brisk or active.

Chweiol, *a.* apt to quicken; accelerating.

Chweithach, *adv.* [comp. of *chwaith*] much less, so much the less, still less; not to speak of; not to say; rather; especially; on the other hand.

Ar gyfreith a ddyweit may gwir yw hynny pe byw y fam nas gellit y *chwaethach* gwedy y marw hwyrach y gellir nae alltudaw nae gwadu.—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 736.

Na digrifwch nac ymdidan nac ymchoelyt o honat dy wyneb attaf i yn *chwaethach* a uei vwy no hynn or bu yrom ni.—*Mabinogion,* 7 (cf. 108, 150).

Llawer mursen oedd yno, na wyddai pa sut i agor ei gwefusau i siarad, *chweithach* i fwyta.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 23 (cf. 79).

Chweithach hyn yw ein haddysg a'n hathrawiaeth ni.
Morus Cyffin: Diff. iv. 16.

Ni wasanaetha mo'ch tro yn yr achosion hyn pe bai genych bymtheg synwyr, *chweithach* pump.
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 152.

Lle gwelais innau, ar y golwg cyntaf, fwy nag a all calon dyn ei ddychymmyg, *chweithach* tafod ei draethu, o arteithiau a dirboenau.—*E. Wynn:* Bardd Cwsg, 74.

Digitized by Google

Chweithach na (*nag*), rather than; much less than; in preference to.

Hyny a wnaeth i mi . . . ddewis eich annerch a'ch anrhegu yn Gymraeg, *chweithach nag* mewn un iaith arall.
M. Cyffin: Diffyniad, Rhag. (cf. vi. 8).

Chwel, -ion, *sf.* [=chwyl: cf. *dychwel, adchwel*] a turn; a course.

Kan kafas y *whel* uch eluyd
Mal vcheneit gwynt wrth onwyd.—*Taliesin:* A.B. ii. 200.

Rys rwysc *chuel* ryuel rwyf naf deyrn
Rwym kedyrn cat worssaf.
Phylip Brydydd: M.A. i. 376 (cf. 377).

Man y maent mewn cylch parhäawl
Y gwawl a gwyll ar *chwel* ac adchwel dro.
W. O. Pughe: C.G. vi. 7.

Chwelan, *a.* changeable, fickle, unsteady.

Pan fo y galarnad yn llai nag yw'r achaws; mal y gwna dynion *chwelan* diofal.—*H. Ferri:* Egl. Ffr. xxxii. 4.

Chweledigaeth, -au, *sf.* a rotatory motion; a revolution.

Chweliad, -au, *sm.* a turning, a rotation.

Chwelidydd, } -ion, *sm.* [chwalu] he who or
Chweledydd, } that which overturns; a disperser, spreader, or disseminator.

Yngwaith y Waederw chwerw *chwelidyt.*
Meilir: M.A. i. 191.

Chwelidydd chwedlau, a disseminator of tales or stories; a blab, a blabber.—*W.*

Chweliedydd, -ion, *sm.* [chweliad] that which causes rotation or turning; a rotator.

Chwelog, *a.* having turns; rotate.

Chwelpyn, *pl.* chwelpod, chwelpynod, *sm.* [E. *whelp?*] a good-sized one.

Chwelpyn o fachgen, a good-sized boy.—*S. W.*

Chwelwr, wyr, *sm.* one who turns or changes.

Chwelyd, *sm.* a turn back, a return, a detour.

Chwelyd, *v.* to turn; to overturn.

O fan y *chweli* gwn, a gwn y man
Yr elit.—*W. O. Pughe:* C.G. xii. 676 (cf. vii. 19).

Chwelydr, -au, *sm.* that which turns or overturns; the mould-board of a plough.

Chwemydrog, *a.* [chwe+mydr] hexametrical, hexameter.

Chwen (*ĕ*), *sf.* [E. *whim?*] a whim, an odd fancy; humour.

Rhai sy'n chwerthin am fy mhen,
Am fod yn sobr, heb fawr *chwen.*
Rhys Prichard: C. y C. lvii. 12.

Mab wy'n chwennych yn fy *chwen,*
I draethu pennill mwyn o'm pen.
Ifan Gruffydd: Blodau Dyfed, 326.

Y Pab yw'r unig un anffaeledig,
A hwn o'i ryfyg sy'n dal fath chwithig *chwen.*
Ifan Thomas Rhys: Diliau'r Awen, 26.

Ond gweli, pan elot i'w chwilio'n dy *chwen,*
Mai yn y gwrthwyneb daw'th freuddwyd i ben.
Seren Gomer, xv. 57.

Chweneng, *a.* [chwe (chwech)+deng=deg] six and ten, sixteen. An irregular, tentative formation.—*Barddas,* i. 96.

Chwennych, } *v.* [chwant] to desire; to wish;
Chwennychu, } to covet; to long for or after; to lust after.

Llefrith a *whennych* rei—*Mabinogion,* 123 (cf. 264).

Kanny *chwenych* neb dim mwy noc a brynno. megys na *chwenych* y troet vot yn llygat. nar llaw vot yn glust neu y gwr vot yn wreic. kannys pe *chwenychynt* wy mwy no dylyet ny cheffynt wy gyfulawn lewenyd.
Llyfr Ancr, 73 (cf. Lucidar, § 138).

Ynteu yssyd yn *whenychu* uyn dehol ineu.
Ystt. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 89 (cf. 118).

A *chwennychit* ti ei gweled? ebe'r gwr gwyn. *Chwennychwn,* ebe Einion, yn fwyaf o holl bethau a gwynfydau'r byd.—*Iolo Mss.* 177.

A *chwennychu* bwyt a beir, a chadarnhau y kylla.
Meddygon Myddfai, i. 139.

Chwaneg ni chawn, *er chwennych.*—*D. ab Gwilym,* xlix. 10.

Ni *chwennych* morwyn fynach baglawg.
Diareb. (M.A. iii. 167.)

Od yw neb yn *chwennych* swydd esgob, gwaith da y mae yn ei *chwennych.*—1 *Tim.* iii. 1.

Na *chwennych* dŷ dy gymmydog, na *chwennych* wraig dy gymmydog.—*Ecs.* xx. 17.

Chwennychadwy, *a.* that may be desired, wished, or coveted.

Chwennychedigaeth, -au, *sf.* the action of desiring or wishing.

Chwennychgar, *a.* desirous, wishful; longing; disposed, addicted; coveting, covetous; anxious.

Hwynt a fyddant astudawl a myfyrllyd, a myfyrgar, a *chwennychgar* a fyddant i fod yn unig ac ar eu penau eu hunain. . . Hwy a fyddant astud o feddwl, a chofaduriaid da, ac anhawdd eu gwasanaethu, a chenfigenus a *chwennychgar,* ac a wnânt yn ddrwg, achaws gwendid a bair nas gallant yn dda fal y chwennychant.
Meddygon Myddfai, ii. 802 (cf. 801).

Chwennychiad, -au, *sm.* a desiring, wishing, longing, or coveting; a desideratum.

Ni welodd Duw fod yn dda dafu cymmaint o oleuni arni, ag a foddhâ *chwennychiadau* afionydd ac ymofyngar yr enaid am ei hadnabod.
Ios. Rees: Hunan-Adnabyddiaeth, 15.

Chwennychol, *a.* wishful, desirous, longing; coveting, covetous; desirable; pleasing.

Kygkorvynt yw pechawt *chwenychawl.* a drwg yw.
Ipotis, § 12 (cf. 13).

Chwennycholdeb, *sm.* the quality of being wishful or desirous; wishfulness; appetency; desirableness.

Chwennychu, *v.*=*Chwennych.*

Chwennychwr, wyr, *sm.* a desirer, wisher, or coveter; one who longs after.

Chweochr, -on, *sm.* [chwe (chwech)+ochr] a six-sided figure, a hexahedron; a cube.—*P.*

Chweochr, } *a.* having sides, six-sided, hexa-
Chweochrog, } hedral; cubic.

Gan nad ydyw y ddaiar yn cynnwys braidd cynnifer o fodfeddau *chweochrog.*—*Seren Gomer,* viii. 54.

Chweochraidd, *a.* six-sided, hexahedral.

Chweochri, *v.* to make six-sided or hexahedral.

Chweochriad, -au, *sm.* a making or becoming hexahedral.

Chweochrol, *a.* six-sided, hexahedral.

Chwepyn, *sm.* [chwap] a sudden pat or blow; an instant. See *Chwap, Chwipyn.*

Dos yn chwepyn, go instantly or directly; go at once.

Chwephlyg, *a.* [chwe (chwech)+plyg] sextuple, sixfold.

Chwephlyg, -ion, *sm.* that which is sextuple or sixfold.

Chwephlygion Origen, the Hexapla of Origen.

Chwerafal, -au, *sm.* [chwerw+afal] bitter apple, bitter gourd.

Digitized by Google

Chwerfan, -au, *sf.* [chwarf] a fusee; a whirl for a spindle or for a pulley; a pulley.

Yn mhlith y lledluniau mwyaf dyddorol yr oedd y rhai canlynol . . . brenin y palas gogledd-orllewinol yn ei gerbyd yn ymladd â'r gelyn; gwarchaead castell, yn yr hwn yr arddangosid ystwc yn glymedig wrth *chwerfan*.
Brutus: Ninefeh, 255.

Gwerthyd a chwerfan, spindle and whirl, parts of a common spinning-wheel.

Chwerfan dro, a pulley.—*W.*

Chwerfell, *sf.* [chwerw: cf. *chwerfwr*] cucumber (*Cucumis sativus*).

Cochlearia, chwerfwr, y *chwerfell*, golofan.
Meddygon Myddfai, 283.

Chwerfiad, -au, *sm.* [chwarf] a whirling.—*P.*

Chwerfol, *a.* tending to whirl round, whirling.—*P.*

Chwerfu, *v.* to whirl, to turn round rapidly.

Chwerfwr, *sm.* [cf. *chwerfell, chwerwddwr*] cucumber (*Cucumis sativus*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 179.

Cymmer y *chwerfwr*, a elwir yn Lladin cwcwmbri, a llysiau Mair, a phybyr mewn gwin, ac yf hwn naw pryd yn wag.—*Meddygon Myddfai*, ii. 173.

Chwerfysgu, *v.* [chware (*or* chwerw)+mysgu ?] to play tumultuously together; to make a confusion.

Tri si [*al.* chwe] chatvarchawc Eidyn euruchawc
Tri llu llurugawc tri eur deyrn dorchawc . . .
Tri chysneit kysnar *chwerfysgynt* [*al.* chwerw vysgynt] eegar.—*Aneurin*: God. 182 (A.B. ii. 68).

Chweriad, -au, *sm.* a playing about.—*P.*

Chwerian, *a.* 1.=*Chwarian.*

Kyuarchaf o echlyssur byt
Ym dywet yn *chweryan*.—*Myrddin:* A.B. ii. 223.

Pan dynasont y wisg yma, ni cheisiasont ddim o'i thynu yn araf deg, yn *chwerian*, ond yn ammharchus.
Drych Cristianogawl (1584), 32.

In the subjoined quotation *chweriau* should probably be read *chwerian:*

Astrus chwedl ry chweiris i Gymry
Ystryw chwerw nid *chweriau* i ryle.
Gwalchmai: M.A. i. 202.

2. brisk, lively, active. This meaning probably originated in misapprehension.

Ac yna creiriau a phaderau ac
Amrywion ysgrifiadau swydd, gan wynt
Yn *chwerian*.—*W. O. Pughe:* C.G. iii. 538.

Chwerian, heinif.—*W. O. Pughe:* C.G. 368.

Chwerig, *a.* [chware: cf. *chwarian, chwariena*] 1. leisurely, slow, gentle.

Gwisgaw a wnaeth Gwalchmei ymdanaw. a cherdet racdaw yn *chweric* ar gam y varch. parth ar lle yd oed Peredur.
Mabinogion, 213.

2. playful, playsome, sportive; dramatic.

Gwedd chwerig, an actor-like form or appearance.—*Dr. Th. Williams.* (*D.*)

Chwaryddion chwerig, dramatic performers, stage-players, actors.

Ac yn y moddion hyn y rhedodd pethau mor rhyfeddol i'r ynfydrwydd eithaf yn Smyrna, ym mhlith yr Iuddewon, a'r fath fawredd nad oedd fath ar *chwaryddion chwerig* abl i ddangos allan y fath watworgerdd a haerllugrwydd a oedd yno'n gydrychiol.—*W. Lewes:* Dwy Daith, 132.

¶ Lady Ch. Guest's translation of the quotation given under the first sense is misleading. Gwalchmai rode leisurely ('yn chweric') and at a walking pace of his horse ('ar gam y varch') to the place where Peredur was; and not 'hastily,' as the two expressions are rendered in that work.

Chwerio, *v.* [chware] to play or sport about; to disport.—*P.*

Chweriol, *a.* playing about; sportive.—*P.*

Chwerllys, } *sm.* [contr. of *chwerwlys*] worm-
Chwerlys, } wood (*Artemisia*).

Chwerlys yr eithin, wood-sage (*Teucrium scorodonia*).

Chwermwd, } *sm.* [E. *wormwood*] wormwood
Chwerwmwd, } (*Artemisia*).

Tri thwf nis gwelir ond ar dir iachus: y dderwen fendigaid; *chwerwmwd;* ac ysgaw.—*Trioedd y Llafurwr.*

Nis cafodd ond y bustl i yfed ar y groes,
Y finegr a *chwermwd*, pan tan y chwerwaf loes.
W. Williams: Theomemphus (1764), v. 57.

Chwern, *a.* fem. of *Chwyrn,* q.v.

Chwerryn, -au, *sm.* a gland. See *Chwarren.*

Chwerthin, *v.* [chwardd-u] to laugh.

Sef a oruc yr iarlles *chwerthin*.—*Mabinogion*, 185.

Cefais werth, gwnaeth ym' *chwerthin*,
Can-swllt a marc, cwnsallt min.
Dafydd ab Gwilym, ccii. 13.

Oddi yno ni aethom lle clywem drwst mawr, a churo a dwndrio, a chrio a *chwerthin*, a bloeddio a chanu.
E. Wynn: Bardd Cwsg, 31 (cf. 32, 39, 91, 108).

Chwerthin yn uchel, } to laugh loudly or aloud.
Chwerthin yn groch, }

A pheth bynnac a dywettei Peredur wrthi. *chwerthin* a wnay hitheu yn *vchel*. mal y clywei pawp or llys.
Mabinogion, 237.

Chwerthin gwatwar, to laugh to scorn; to ridicule; to deride; to mock; to make fun of; to treat with mockery or contempt.

Chwerthin am ben, to laugh at; to laugh to scorn; to ridicule; to make fun of.

Tri *chwerthin* ffol: *am ben* y drwg; *am ben* y da; ac *am ben* nis gŵyr beth.—*M.A.* iii. 85.

Iawn a chymhwys oedd *chwerthin am* ei *ben*.
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 31.

Mae pawb o'r merched mwynion
Yn *chwerthin am* ei *ben*.—*Ystên Sioned*, 49.

Chwerthin am ben un nes cywilyddiaw o hono, to laugh one out of countenance.

Glas chwerthin, to laugh a little; to simper, to smirk.

Glas chwerthin digius engiriawl chwerw a oruc Gereint.
Mabinogion, 274.

A *glas chwerthin*, gwedd hinon,
Gwen gain, hawdd, a gawn gan hon!
Dafydd ab Gwilym, ccxv. 39.

Chwerthin yn iachus (*o wir ewyllys calon, â'i holl galon*), to laugh heartily.

Chwerthin dan ei gadach, to smirk; to laugh in one's sleeve; to laugh slily.

Chwerthin yn ei lawes (*ynddo ei hun, rhyngddo ac ef ei hun, yng nghil ei foch, dan ei ddannedd, yn ei ddwrn, yng nghil ei ddwrn, yn ei fynwes*), to laugh in one's sleeve; to laugh privately or unperceived.

Mi wn eisys y bydd rhai yn barod i *chwerthin yn eu dwrn*, a dywedyd, Nid yw hyn ddim ond ffilloreg.
Theo. Evans: D.P.O. 148.

Dan chwerthin, laughing; laughingly; with laughter.

A thracheuyn y doeth ef *dan chwerthin*.—*St. Greal*, ‖ 196.

A dywedut deueir *dan chwerthin* a wnaeth wrthaw.
Ystt. de Carolo Magno, col. 429 (cf. 417, 449, 450).

Daniel a ddywedodd *dan chwerthin*, Na thwyller di, O frenin.—*Bel a'r Ddraig*, 7.

Digitized by Google

¶ *Chwerthin* generally forms its finite tenses from *chwardd-u*, which is seldom found in the infinitive.

Y march ieuanc a ffrom-*chwerthwys*.—*Iolo Mss.* 175.

Myfi a wylaf, a thithau a *chwerthy*.
Dr. Ioan Dafydd Rhys: Gram. 66.

Chwerthwch, chwerthwch, ebe rhyw ddyn wrth y siaradydd. *Chwarddodd* yntau yn groch.—*Gwyliedydd*, vi. 240.

Chwerthin, *sm.* a laugh, laughter; laughing.

Na chyffroa ti yg gorwac *chwerthin*.
Ystr. Bren. Bryt.: LI.C.H. ii. 167 (cf. 154, 183).

Ny chwardaf y *chwerthin*.—*Aneurin:* God. 436.

Mi a ddywedais am *chwerthin*, Ynfyd yw.—*Preg.* ii. 2.

A mi yn dyfod allan o'r gilfach ryfeddol honno, mi glywn gryn siarad; ac am bob gair y fath hyll grechwen a phed fuasai yno bumcant o'r cythreuliaid ar fwrw eu cyrn gan *chwerthin*.—*E. Wynn:* Bardd Cwsg, 78.

Nerth ynfyd yn ei *chwerthin*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 13.

Croch chwerthin, loud laughter, great laughing.

Chwerthin gwatwar, *Chwerthin gwatwarus*, } ridicule; derision.—*W.*

Chwerthinbair, *a.* causing or exciting laughter; ridiculous.—*W.*

Chwerthineb, *sf.* ridicule.

Chwerthineb ydyw maen prawf gwirionedd. . . Dymchwelwch *chwerthineb* trwy ddifrifoldeb, a difrifoldeb trwy *chwerthineb*.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 208.

Chwerthinebus, *a.* ridiculous; ludicrous.

Chwerthinedd, *sm.* laughableness.

Chwerthingar (*n-g*), *a.* apt to laugh; given or addicted to laughing; risible.

Nis gellir esgusodi y fath gyfansoddiadau a'r dernyn uchod mewn rhyddiaith, am y dyncsa y darluniadau yn ormod at ddigrifiaith; a thueddant i gynhyrfu y galluoedd *chwerthingar*.—*W. Jones:* Barn a Darfelydd, 16.

Chwerthingarwch, *sm.* addictedness to laughter; a laughing disposition; risibility.

Chwerthiniad, } -au, *sm.* a laughing; laugh-
Chwerthinad, } ter; a laugh; derision.—*Preg.* vii. 6.

Yn angcyuartal eu *chwerthinat*. ac yn dhideimlawdyr eu tristit.—*Lucidar*, § 80.

Chwerthiniad byr, cwta, uchel, fel y gwyddoch, fyddai *chwerthiniad* Dewi Wyn. Yr wyf fel pe bawn yn ei glywed y mynyd hwn yn chwerthin un o'i *chwerthiniadau* byrion, cyflym, uchel.—*Brython*, iii. 32.

Er *chwerthiniad* gariad gael,
A'i munud ar ei meinael.—*D. ab Gwilym*, clxxxvii. 37.

Chwerthiniad y dannedd, a laughing from the teeth outwards; excessive laughter.

Gwisg gwr, a *chwerthiniad y dannedd*, a'i gerddediad, sydd yn dangos yr hyn sydd ynddo ef.—*Eccl.* xix. 30.

Ac o'r llys gwerin yn *chwerthiniad*,
Ac o'r twr cannwr heb gael cennad.—*L. G. Cothi*, i. ix. 41.

Chwerthinial, *v.* to be continually laughing; to laugh in a silly manner.

Ymattal rhag *chwerthinial* ysgoewan, gwammal, penegored, rhag gloddest a chellwair annhrefnus, siarad yn uchel, gwatwar, a'r cyfryw weithredoedd.
Elis Wynn: Rh.B.S. 100.

Chwerthinio, *v.* to cause laughter.—*P.*

Chwerthinllyd, *a.* given or addicted to laughing, apt to laugh; joyful.

Dysg yw hyn i rieni ddwyn eu plant i fyny yn ofn yr Arglwydd, nid i fod yn *chwerthinllyd* ac yn gablwyr o'i brophwydi ef.—*Daniel Rowland:* Pregethau, vii. 90.

Chwerthinog, } *a.* apt to laugh; of a laughing
Chwerthiniog, } disposition; laughing; merry; playful.

Wherthinawc tu creic Ner nyt ystereic.
Taliesin: A.B. ii. 141.

Yn ddyn glaerwen ysplenydd,
Yn lloer deg, unlliw â'r dydd!
A'i chlaer-win fin *chwerthinog*,
A'i grudd fal rhosyn y grog.—*Dafydd ab Gwilym*, xxv. 3.

Rhoddais fy nghas ar iaith hen-was *chwerthinog*,
Ymrenais erioed â morwyn siaradog.—*Bleddyn Sion.*

Duw, gwel, dioerfel wyd arfawg, i'n tir,
A'n tarian *chwerthinawg*.—*W. Midleton:* Salm. lxxxiv. 11.

Plant dan Fenus, dynion digrif,
Llawen, hawddgar, ac annifrif,
Caru cerdd *chwerthiniog*, anllad,
Gwych eu llais, a da eu harogliad.
Morgan Llwyd: Gwyddor Uchod.

Mae'r dyn difyr *chwerthinog* allan o'i gof ei hun.
Morgan Llwyd: Tri Aderyn, 31 (cf. 34).

Chwerthinogrwydd, *sm.* risibility; laughableness.—*W.*

Chwerthinol, } *a.* tending to laughter; laugh-
Chwerthiniol, } able.

Chwerthinus, *a.* laughable, risible; ridiculous; given to much laughter.

Tri brodyr ffolineb: diymdawr; geneurwth; a *chwerthinus*.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 273.

Chwerthinusrwydd, *sm.* laughableness, risibility; ridiculousness.

Chwerthinwatwar, } *v.* to ridicule; to make
Chwerthinwawdio, } game of; to laugh at.

Chwerthinwawd, *sm*, ridicule.—*W.*

Chwerthinwr, wyr, } *sm.* a laugher; one
Chwerthinydd, -ion, } given to (much) laughter.

Chwerthlef, -au, *sf.* a loud laugh, a horse-laugh; a roar of laughter.

Ac yno wylo ac udo, a chan mil o gythreuliaid yn eu gwatwor â chroch *chwerthlef* ysgyrnygldy.—*Iolo Mss.* 191.

Chwerthwr, wyr, *sm.* one addicted to laughter, a laugher.—*P.*

Chwerw, -on, *a.* [C. *hwero, wherow;* Br. *c'houerô;* Ir. *serb, searh;* Ga. *searbh;* Mx. *sharroo*] bitter; sharp, severe.

Llyna gwedy dangos ytti pa delw ydwyt yn galedach nor maen. ac yn *chwerwach* nor prenn.—*St. Greal*, § 19.

Chwerw en trin a llain en emdullyaw.—*Aneurin:* God. 58.

Ynteu Peredur . . . ae kyrchawd yn llityawedrut engiryawl *chwerw* awydualch.—*Mabinogion*, 220 (cf. 258, 281).

Hir y cnoir tamaid *chwerw*.—*Iolo Mss.* 254.

Ni cheir y melus heb y *chwerw*.—*Diareb* (M.A. iii. 167.)

Os o'r geri fydd y cymmysg, *chwerwon* a surion fyddant.
Meddygon Myddfai, ii. 802.

Y rhai a osodant *chwerw* am felus, a melus am *chwerw*.
Esa. v. 20.

Dagrau chwerwon, bitter tears.

Chwyrn digruthyr *chwerwon dagreu*.
Rhiserdyn: M.A. i. 432.

Dwfr chwerw (*pl.* dyfroedd chwerwon), bitter water.—*Num.* v. 18, 24 (cf. Ecs. xv. 23).

Geiriau chwerwon, bitter words.—*Salm.* lxiv. 3.

Llef chwerw, a bitter cry.—*Esth.* iv. 1 (cf. Gen. xxvii. 34).

Chwerwad, -au, *sm.* a making or becoming bitter.

Chwerwaidd, *a.* of a bitter quality; somewhat or rather bitter; bitterish.

Ni chwardd neb gan *chwerwaidd* nych.
Rhys Jones: Gwaith, 36.

Digitized by Google

Chwerwan, *sm.*=*Chwerwyn* (in botany).

Chwerwder, } *sm.* bitterness; sharpness; tart-
Chwerwdod, } ness.—*Iob* vii. 11; ix. 18; x. 1; xxi. 25.

Ef a roes ar groes grysseu gollet brec
Y wnet y redec bu chwec *chwerwder.*
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 475.

Dryc annian yw ardhangos ar wyneb ac ymdhygiat gwarthaedic, *chwerwder* marwolaeth medhwl.
Ymborth yr Enaid, ¶ 10.

Chwerwder marwolaeth yn ddiau a aeth ymaith.
1 *Sam.* xv. 32.

Chwerwdost, *a.* bitterly severe; very bitter; exceedingly severe.—*Matt.* xxvi. 75.

A gwedy bot brwydyr *chwerwdost* ar Saeson heb allel godef kynwrwf y Brytanyeit, yd ymchoelassant ar ffo.
Brut y Tywysogion, 42.

Chwerwddig, *a.* bitterly angry; exceedingly wrathful.

Pwy gân, i ddyn lân o liw,
Gywydd dan hoew-wydd heddiw;
Nac anghlod, mwy nog englyn,
I Eiddig, *chwerwddig* ddyn?—*D. ab Gwilym,* cxxviii. 43.

Chwerwddwr, } *sm.* cucumber (*Cucumis sa-*
Chwerddwr, } *tivus*).—*Hugh Davies:* Welsh Botanology, 179.

Ffrwythau'r wlad yn enwedig yw'r rhai'n . . . cymmysg yd, afalau euraid, *chwerwddwr,* ffigys, manna, peraroglau, afalau gronynog, ffenigl, y fedwen chwerw, ac winwyn.
W. Lewes: Dwy Daith, 60.

Chwerwddyfrllys, *s.cl.* cucumber.

Chwerwedd, *sm.* bitterness; acerbity, sharpness.

Beth bynac a bechawdh drwy dhynawl vreuoliaeth. ef a vadheuir ydhaw drwy *chwerwedh* ei angau.—*Lucidar,* ¶ 93.

A dattot wrthaw *chwerwed* y uedwl ual hyn.
Ystat. de Carolo Magno, col. 464.

Y mae callineb yn amlhau *chwerwedd.*—*Eccl.* xxi. 12.

Tyner ymaith oddi wrthych bob *chwerwedd.*—*Eph.* iv. 31.

Achos ager y berw amgylch y galon a *chwerwedd* y bustl mewn dyn.—*Meddygon Myddfai,* ii. 801.

Wele, yn fy ngorphwys, fy *chwerwedd* sy chwerwaf.
M. Cyffin: Diff. iv. 23.

Gwreiddyn chwerwedd, the root of bitterness.—*Heb.* xii. 15.

Chwerweidd, -dra, *sm.* bitterishness.

Chwerweiddiad, -au, *sm.* a becoming or growing bitter or bitterish; a making bitterish.

Chwerweiddiol, *a.* tending to embitter.

Chwerwi, *v.* to make bitter, to embitter; to acerbate; to become or grow bitter; to snarl or growl.

Velhy y *chwerwa* ac y poena chwerwa elyniaeth y lhailh.
Lucidar, ¶ 142.

Gellwch brofi hyn . . . trwy ladd y neidr, a'i manwl chwilio, trwy yr hyn y perwch i'r dynion *chwerwi* yn fawr iawn.—*Cylchgrawn,* i. 38.

Chwerwiail, *s.cl.* [chwerw + gwiail] wormwood (*Artemisia*).

Chwerwlid, *sm.* [chwerw+llid] bitter anger, wrath, or enmity.

Bu dioual ny bu diofit
Gan golofyn Kymry camp ddiodit
Pan wu yn ryuel gat chwel *chwerwlit.*
Phylip Brydydd: M.A. i. 377.

Chwerwlys, -iau, *sm.* [chwerw+llys] wormwood (*Artemisia*).

Chwerwlys flys heb flas dewisig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 518.

Chwerwlys yr eithin, wood-sage, wood-germander (*Teucrium scorodonia*).

Abrosianwm, *chwerwlys* yr eithin, llysiau'r bystwn.
Meddygon Myddfai, 281.

Chwerwlys arfor, } sea-wormwood (*Artemisia*
Chwerwlys y môr, } *maritima*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 77, 179.

Chwerwlyslyn, *sm.* a decoction of wormwood, wormwood ale.—*Dicts.*

Chwerwmwd, *sm.*=*Chwermwd.*

Chwerwol, *a.* tending to make bitter; tending to become or grow bitter; embittering.

Chwerwon, *s.pl.* [chwerw] bitters.

Ond y *chwerwon* amlycŏynt
Eu rhiniau hagron bellach yn eu grym.
W. O. Pughe: Dadeni.

Chwerwyn, *sm.* [chwerw] 1. that which is bitter; a bitter; a bitter herb; wood-sage.—*H. Davies:* Welsh Bot. 179.

Cymmer hen fioneg, a gwer bwch, a gwer dafad, a chwyr melyn, a chymmer y *chwerwyn,* a phriellau, a mortyra nhwy'n dda.—*Meddygon Myddfai,* ii. 130.

Chwerwyn yr ardd, } common feverfew (*Pyr-*
Chwerwyn gwyn, } *ethrum parthenium*).

Cais ddyrnaid o rosmari, a dyrnaid o isob, a dyrnaid o'r geidwad, a dyrnaid o'r *chwerwyn gwyn,* a dyrnaid o ffunel cochon, a'u pwyo'n dda.—*Meddygon Myddfai,* ii. 147.

Cais y *chwerwyn gwyn,* a'r *chwerwyn llwyd,* a'r rhisgl nesa' i'r pren o'r onen.—*Meddygon Myddfai,* ii. 312.

Febrifuga, tormwyth, *chwerwyn gwyn,* yr amranwen.
Meddygon Myddfai, 285.

Chwerwyn y cwn, horehound (*Marrubium*).—*Iolo Morganwg.*

Chwerwyn llwyd, common wormwood (*Artemisia absinthium*).

Philochares, *chwerwyn llwyd,* llwyd y cwn, llwyd y galchen.—*Meddygon Myddfai,* 291.

Chwerwyn y môr, sea wormwood (*Artemisia maritima*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 77.

Scriphiwm, *chwerwyn y môr.*—*Meddygon Myddfai,* 293.

Chwerwyn y twyn, } wood-sage, wood-ger-
Chwerwyn pentwyn, } mander (*Teucrium scorodonia*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 56, 179.

Cymmer *chwerwyn y twyn,* a'r murlys, a bran gwenith, a thom buwch, a halen, a berwa nhwy mewn aesel gwin neu osai.—*Meddygon Myddfai,* ii. 41 (cf. 713, 722).

Cymmer ychydig o fioneg, a chymmysg ef â dyrnaid o ruw pwyedig, a dyrnaid o *chwerwyn pentwyn* yn bwyedig.
Meddygon Myddfai, ii. 343.

2. (*f.* chwerwen), a bitter or sharp one, a tartar.

Ysgrifenwyd ato ef, a gwrthododd; ysgrifenwyd eilwaith, ac efe a drodd yn *chwerwyn* arnynt.
Gwallter Mechain: Gwaith, iii. 466.

Dal chwerwyn, to catch a tartar.

Chwesill, } *a.* [chwe (chwech) + sill] of six
Chwesillaf, } syllable; having six syllables.

Anghen y gyhydedd drosgl yw ban *chwesill.* . . A'r tair gyhydedd hyn, sef yr un bedeirsill, a'r un bumsill, a'r un *chwesill,* a elwir y mangolofnau.—*Cyfrinach y Beirdd,* 82.

Chwesillog, } *a.* consisting of six syllables;
Chwesillafog, } having or containing six syllables.

Chwetheg, *a.* [=chwe a deg: cf. C. *whettag;* Br. *c'houezec;* Ir. *sedeag;* L. *sedecim*] six and ten, sixteen.

Chwethegfed, *a.* sixteenth.

Chwethro, *a.* [chwe (chwech) + tro] sextuple sixfold.

Chwethroawl, *a.* sextuple, sixfold.

Digitized by Google

Chwethroed, } *a.* [chwe+troed] consisting
Chwethroediog, } of six (poetic) feet, hexametrical.

Hexameter, gwers *chwethroed.*—*Davies*, s.v.

Chwĕu, *v.* [chwa] to grow sharp or sour.

Chweugain, } *a.* six. score, one hundred and
Chweugaint, } twenty, 120.

Punt yw gwerth gwestua brenhin *chweugeint* yg kyueir bara; trugeint y kueir enllyn; a trugein dros y lyn.
Cyfreithiau Cymru, i. 768.

Beth yw galanas breyr diswydd? Ae chwe byw a chwe ugeinmuw? *Chweugein* muw yw yr alanas ar chwe buw yw yr sarhaet celein.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 692.

Tri arglwydd, *chweugein*-mlwydd gynt,
Gwaed iddo i gyd oeddynt.—*L. G. Cothi*, III. xv. 23.

Ystyrid eu crwyn, yn ol cyfreithiau Hywel Dda, yn y degfed cant, yn werth *chweugain* ceiniog.
Gwyliedydd, iii. 73.

Chweugain punt, six-score pounds, £120.

Chweugain, } *pl.* chweugeiniau, *sm.* 1. six
Chweugaint, } times twenty, six score, one
Chweugant, } hundred and twenty.

Ac ympob bydin or naw chwegwyr a *chweugeint* a chwechant. a chwemil.—*Ystoria Bren. Bryt.*: Ll.C.H. 220.

Drwy'r bais, a'r dur o'r Basil,
Ugain myrdd a *chweugain* mil.—*L. G. Cothi*, II. viii. 59.

Uwch ydd ä gwrda o ddau gyweirdant
Nog o wŷr milain *chweugain* a chant.
L. G. Cothi, I. xxii. 21.

Neu *chweugain* o farchogion.—*L. G. Cothi*, I. xxxiv. 23.

Un-post ac un-pen, fal Cystenin,
Yw ef ar *chweugant* o farchogion.
L. G. Cothi, I. xviii. 117.

2. (*sf.*) the sum of six-score or 120 pence, ten shillings.

Amober merc maer *chuegeynt*. Amober merch penkenedel *chueugeynt* a punt. Amober merch vckellur *chuegeynt*.
Cyfreithiau Cymru, i. 94 (cf. 288).

Offer gof *chweugaint* atal.
Cyfreithiau Cymru, i. 682 (cf. 282, 496, 512).

Lle bo nid rhydd iddo erchi dros *chweugain* o rodd neu o dda.—*Barddas*, ii. 118.

Nawdd yw, na bo i wr wrth gerdd erchi dros gwerth *chweugain* o dda yn y byd.—*Y Greal*, 347.

Pencerdd, ei rodd yw pedwar ugaint, a rhydd iddo erchi *chweugaint*.—*Y Greal*, 350.

Rhyw goron neu *chweugein* a fyddai yn ddigon genyf fi wario am lyfrau Arabaeg.—*Gronwy Owain*, 171 (cf. 190).

Gwell ceiniog fach trwy ffordd ddigamwedd,
Na'r *chweugain* aur trwy drais a ffalstedd.
Rhys Prichard: C. y C. clxi. 2.

Bernir hebog clwyldro, os bydd yn berffaith wyn, ac wedi ei ddysgu yn dda, yn werth tair a *chweugain*, neu fwy.—*Gwyliedydd*, vii. 118.

Dwy *chweugain* a wna bunt.—*C.S.*

Fy hunan e's neithiwr i glydwych dŷ gwladwr. . .
Am fenthyg, dan anghen, rhag a ball rhyw ddibcn,
I'm *chweugain* o'i goden,—e'i gwadodd.—*Daniel Ddu*, 270.

Pump a chweugain, five (pounds) and ten (shillings).

Chwi, *pr.* [C. *why, hwei, hwi, chui*; Br. *c'houi, hô, huy*; Ir. *sibh, sib, si*; Ga. *sibh*; Mx. *shiu*; L. *vos*] 1. you, ye: the second personal pronoun plural (masc. and fem.).

Ys iawn a beth yw y *chwi* diolwch yr gwr a uu y gyt a *chwi*.—*Mabinogion*, 7.

Gwnewch *chwi* a wneloch.
Mabinogion, 140 (cf. 115, 126. 147, 190, 292).

O *chwi* nefoedd, synwch wrth hyn.—*Ier.* ii. 12.

Rhoddaf i *chwi* galon newydd, yspryd newydd hefyd a roddaf o'ch mewn *chwi*; a thynaf y galon garreg o'ch cnawd *chwi*, ac mi a roddaf i *chwi* galon gig.
Esec. xxxvi. 26.

Chwi eich hunain, } ye or you yourselves.
Chwi eich hun, }

A'r arogldarth a wnelech, na wnewch i *chwi eich hunain* ei fath ef.—*Ecs.* xxx. 37.

Ac o honoch *chwi eich hunain* y cyfyd gwŷr yn llefaru pethau gwyrdraws.—*Act.* xx. 30 (cf. 2 Cor. xiii. 5).

2. commonly used (as a 'pronomen reverentiae') in the ordinary language for the second person singular (*ti*), like *you* in English, but not quite to the same extent.

Chwi a'i cewch â ffonod ar eich cefn.
Diareb. (M.A. iii. 181.)

Chwithau Asmodai, mae yn gof genym oll eich gwasanaeth mawr *chwi* gynt; nid oes neb lewach am gadw ei garcharorion tan glo, na neb mor ddigerydd a *chwi*. . . Nid oedd wiw i *chwi* ddisgwyl gan un gweithiwr nac astudiwr llafurus.—*Elis Wynn*: Bardd Cwsg, 108.

Chwi eich hun, } you yourself; your own
Chwi eich hunan, } self.

'Yn wir, Syr,' meddai'r codog, 'ni fynaswn i er a feddaf, fod arnoch eisieu dim a'r a allwn i, at ymddangos heddyw yn debyg i *chwi eich hunan*.—*Elis Wynn*: Bardd Cwsg, 34.

¶ Sometimes the prep. *i* coalesces with the first and second personal pronouns in both numbers; as *imi, iti, ini, ichwi* (=*i mi, i ti, i ni, i chwi*); and sometimes the last vowel is elided; and in that case *ichwi* becomes *iwch* (often erroneously written *i'wch* or *iw'ch*).

Myn f'arglwydd! mae dwy swydd deg
Iwch ei hun; ond oes chwaneg.—*L. G. Cothi*, III. xxxi. 7.

Gwnewch *iwch* galon newydd, ac ysbryd newydd.
Esg. Morgan: Esec. xviii. 31.

Duw a roddo *iwch* iechyd i weled ei orphen.
I. B. Hir: Gwaith, 202 (cf. 210).

Chwi, -on, *sm.* 'a swift turn, a whirl.'—*P.*

Chwiawr, *s.* [cf. *cychwiawr*] a fellow or equal? The word does not appear to occur without the prefix *cy-*. Pughe gives it as a fem. noun with pl. *chwiorydd*, and defines it as 'one who turns, or moves about briskly; a sister:' but for this there does not seem to be any authority.

Chwior, Estimant *Sororem* significare, quia in pl. dicimus *Chwiorydd*. Ego nunquam legi.—*Davies*, s.v.

Chwib, -au, *sf.* a pipe, a tube; a whistle.

Chwythu y chwib, to play on the pipe or flute.

Chwythu'r chwib, chwarae ar y chwibanogl.—*Walters*.

Chwiban, -au, *sm.* [chwib: C. *wiban*; Br. *c'houiban*] 1. a whistle, a whistling; a trill; a shake.

Cloch aberth, clau a *chwiban*.—*Dafydd ab Gwilym*, xlv. 28.

Chwiban y gwynt, the whistle or whistling of the wind.

2. (*sf.*) a whistle, a small pipe.

Chwiban i faban, arad i wr.—*Diareb.*

Chwiban, *v.* to whistle; to hiss.

Mi gerddwn dan *chwiban* at Ned o'r Dre', druan,
Cawn hwn wrtho'i hunan mewn caban main cul.
Edward Richard: Bugeilgerdd, i. 21.

Cerdd i chwiban ysgadan, go and cry herrings. —*Dyfed.*

Y mae'r pwnc gan hyny wedi ei benderfynu, ac aed Cuvier, Owen, a'r cyfryw, i '*chwiban ysgadan*,' os mynant hwy.—*Ystên Sioned*, 55.

Cerdd i chwiban Lladin, go and chant Latin: a Protestant gratuitous advice to a Roman Catholic,—a taunt which may have had its origin about the time of the Reformation.

Digitized by Google

Mae y gwynt yn chwiban, the wind whistles.

Mae cân y wig yr un â chynt,
A byth yr un *chwibana'r gwynt.*—*Telynegion*, 23.

Chwibanad, } -au, *sm.* a whistling, a whistle;
Chwibaniad, } a hissing.—*M.A.* ii. 266.

Ae chyndrycholder y laweryon natred a tystir o aruthyr *whibanat.*—*Ystat. Bren. Bryt.:* LI.C.H. ii. 153 (M.A. ii. 266).

Ac ual y harganuu Rolant hwy y dechreuwys *chwibanat*.
Ystat. de Carolo Magno, col. 431.

Ba ryw ddim a fu berach
Blethiad ei *chwibaniad* bach.—*D. ab Gwilym*, ccxix. 13.

Y drydedh boen yw pryuet anuarwawl o seirph a dreicieu aruthr o olwc a *chwibanat.*—*Lucidar*, 101.

I wneuthur eu tir yn anghyfannedd, ac yn *chwibaniad* byth.—*Ier.* xviii. 16 (cf. xxv. 9; li. 37).

Chwibaniad seirff, the hissing of serpents.—*Doeth.* xvii. 9.

Chwibanell, -au, *sf.* a flageolet.

Chwibaniedydd, -ion, *sm.* a whistler.—*W.*

Chwibanllyd, *a.* apt to whistle or to hiss; that hisses or whistles; whistling; hissing.

Seirff chwibanllyd, hissing serpents.

Chwibanog, } *a.* whistling; quavering; hiss-
Chwibianog, } ing.

Y Rhobin rhydog siriol, serchog,
Bardd *chwibanog* ar y berth,
Per yw'th ganiad llawn o gariad,
Nwyf ennyniad yn ei nerth.—*Thomas Morgan.*

Y mae y Canolfor, yr Iorddonen, ac hyd yn oed cór *chwibianog* gwigoedd Carmel, yn cael eu gosod dan waharddiad tra byddai efe yn darlunio erchylldod dialedd dyneiol y nef ar ddinas a phobl wedi eu diofrydu i ddinystr.
G. Mechain: Gwaith, i. 537.

Chwibanog, -au, *sf.*=*Chwibanogl.*

Canasam *chwibanog* iwch, ac ni neidiesoch.
W. Salesbury: Matt. xi. 17.

Chwibanogl, -au, *sf.* [C. *wibonoul*] a whistle; a flute, a flageolet; a pipe.—*Dan.* iii. 5, 7, 10, 15.

Chwaer Cuhelyn, befr-ddyn bach,
Chwibanogl chwe buanach.
D. ab Gwilym, cxiv. 41. (cf. clxxiv. 22).

Heolydd cyfain a welid yn annhrigiannol . . . ffenestri yn *chwibanoglau* i'r gwynt, o ddiffyg dwylaw i'w cau.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 392.

Megys mynu o honaw ef i'r holl freninoedd, a'r tywysogion, pwy bynnag ydynt, a pha le bynnag y maent, fod yn weision *chwibanogl* iddo ef.—*M. Cyffin:* Diff. iv. 13.

Chwibanogl adar, a fowler's whistle or call.

Tebyg i ganiad y forforwyn, yr hwn yw distryw y morwyr: neu fel *chwibanogl yr adarwr*, yr hon yw marwolaeth yr adar.—*Robert Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 170.

Chwibanogl fynydd, } the curlew: also called
Chwibanogl y mynydd, } *gylfinhir*, which is now
Chwibanoglig fynydd, } the usual appellation.

Pa dyd bynhac y dalyo yr hebogyd crychyd, neu bwnn, neu *chwibonogyl uynyd* tri gwassanaeth a wna y brenhin idaw.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 650.

Chwibanogli, *v.* to play on a flute or pipe; to pipe; to play the flageolet.

Chwibanogliad, -au, *sm.* a playing on the pipe, flute, or flageolet; a piping.

Chwibanoglig, *sf.* [dim.]=*Chwibanogl* (*fynydd*).

Tri gwassannaeth a dyly y brenhin eu gwnneuthur yr hebogyd ydyd y caffo *whibonoglyc vynyd*, neu grychyd, neu y bwn, oe hebogydyaeth.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 366.

Chwibanol, *a.* whistling; hissing.

Chwibant, *sm.* a whistling or hissing?

O dyna y byd pyscawt yn y mor. yr hwnn atalwedic o *chwibant.*—*Ystat. Bren. Bryt.:* LI.C.H. ii. 153.

Chwibanu, *v.* to whistle; to hiss.—1 *Bren.* ix. 8.

Nadredd yn niwedd y nant
Uwch ei ben a *chwibanant.*—*D. Llwyd Gorlech.*

Chwibanu am, } to hiss or whistle to or for.—
Chwibanu ar, } *Esa.* v. 26; vii. 18; *Sech.* x. 8.

Chwibanwr, } wyr, *sm.* a whistler; a piper;
Chwibianwr, } one who hisses.

O thry i'th ogylch, iaith ddrud,
Treiglwr, *chwibianwr* traglud.
Dafydd ab Gwilym, lxxii. 21.

Gwas i was *chwibanwr.*—*Diareb.* (M.A. iii. 158.)

Chwibanydd, -ion, *sm.* 1. a whistler; a piper; one who or that which hisses. 2. (in ornithology) the bullfinch.

Chwibell, -au, -i, *sf.* a pipe, a tube.

Chwibellwydd, *s.pl.* [chwibell+gwŷdd] syringa; pipe-trees, lilac.

Syringa, pibellwydd, pibwydd, *chwibellwydd.*
Meddygon Myddfai, 293.

Chwibenydd, -ion, *sm.*=*Chwibanydd.*—*W.*

Chwibiad, -au, *sm.* a trilling, a quavering.

Chwibiander, *sm.* a hissing disposition.

Ac ym pen y llew y coronheir. y dechreu a darestwng y *whibiander.*—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 263.

Chwibianu, *v.*=*Chwibanu.*

Rhai wedi myned yn llyffaint; rhai yn ddreigiau; rhai yn seirff, yn nofio ac yn *chwibianu*, yn glafoerio ac yn ymdolcio mewn merbwll drewllyd.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 81.

Chwibianai amryw donau, a chanai lawer o ganiadau.
Gwyliedydd, vi. 240 (cf. 241).

Chwibio, *v.* to trill, to quaver.

Chwibiol, *a.* trilling, quavering; of a trilling quality.

Chwibl, *a.* sharp, tart, sour, acid; flat, insipid.

Chwiblad, -au, *sm.* a making or becoming tart.

Chwiblaidd, *a.* of a sharp quality or taste; tartish.

Chwibledigaeth, -au, *sf.* a turning sour, tart, or acid; acidification.

Chwibledd, *sm.* tartness, sharpness, acidity; flatness.

Chwibleian, -od, -edd, *sf.* [cf. *chwimleian*] 1. 'a nymph who appears and disappears;' a sibyl.

Ui a Wendyd wenn mawr adrasdil gogan
Chwipleian a chwedleu atkas.—*Llyfr Coch Hergest*, 580.

Disgogau *chwibleian* cyfan chwedlau
Dyddiau arwyddion brithfyd ddiau.
Myrddin: M.A. i. 150.

Nid ai i'r tŷ er dim a geisient ganddi, ond i ffordd drachefn fel *chwibleian* nas gwyddid i ba le.—*Ystên Sioned*, 2.

2. a nymph; a goddess of the mountains, forests, waters, or meadows.

O wedyd hyn, o law ei gwr ei llaw
Yn lleddf a dynai, ac yn ysgafn fal
Chwibleian, ai o fynydd ai o goed,
Dyfrysiai idd y llwyni, ond mwy gwymp,
Mal duwies, oedd no Delia gynt ei hun.
W. O. Pughe: C.G. ix. 367.

Chwiblen, *sf.* [chwibl] sour, tart, or flat drink; small beer.

Chwiblni, *sm.* tartness, acerbity.

Chwibloer, *a.* [chwibl+oer] sour and cold; of a flat taste, insipid.

Digitized by Google

Chwiblsur, *a.* sharp and sour; harsh and haggard.

Fel y gwelwch chwi gywion yr iâr yn crynu rhag barcut *chwiblsur*, egr, yn gwibio oddi fry arnynt.
Theo. Evans: D.P.O. 37.

Chwibol, -au, *sf.* [chwib] a tube, a pipe.

Ag areitheg ryw wyth-oed,
Chwibol o fawn chwe blwydd oed.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 190.

Chwibolaidd, *a.* having the form of a tube; tubular.

Chwibolawg, *a.* furnished with a tube or pipe; tubular.

Pont chwibolawg, } a tubular bridge.
Pont chwibol, }

Chwibolen, -au, *sf.* a small pipe or tube, a tubule.

Chwibon, -iaid, *sm.* [chwib: Br. *c'huibon*, stork] the stork. Apparently it originally meant the curlew. See Davies, *s.v.*

Chwibon, gylfinhir.—*O.V.*

Yno yr eryr ac
Y *chwibon* ar glogwyni ac ar frig
Y cedrwydd nythant.—*W. O. Pughe:* C.G. vii. 489.

Ym mhlith coelion y Rhufeiniaid, yr oedd dyfodiad y *chwibon* yn arwyddo undeb a chyfundod.
Anianyddiaeth Ysgrythyrol, 86 (cf. 85).

Yr eryr cryf
A'r *chwibon* yno ar glogwyni crog
A brig y cedrwydd praff eu nythod wnânt.
I. D. Ffraid: Coll Gwynfa, vii. 514.

Dos idd y diffaith; sylwa *chwibon* ieuanc yr anialwch; llefared ef i dy galon; dyga ei riant hen ar ei adenydd, sefydla ef mewn diogelwch; ac a ei diwalla â bwyd.
W. O. Pughe: É.D. iv. 3.

Y chwibon gwyn, the white or common stork.

Y *chwibon gwyn* yw y rhywogaeth fwyaf adnabyddus.
Anianyddiaeth Ysgrythyrol, 84.

Y chwibon du, the black stork.

Mae y *chwibon du*, yn ei dueddiadau mewn amryw bethau, mor wahanol i'r gwyn ag ydyw yn ei liw.
Anianyddiaeth Ysgrythyrol, 86.

Chwibwrn, *a.* [gwib?] reeling; light-headed, dizzy, giddy. Cf. *gwibwrn*, another form of the same word.

Y bendro chwibwrn, the reeling giddiness of the head; cracked brain.

Mae ef yn wyllt chwibwrn, he is stark mad.

Meddw chwibwrn, reeling drunk.

Chwibwrn, *sm.* a reeling about; light-headedness.—*P.*

Chwid, -ion, *sm.* a quick turn; a turn; a coil; a twist; a sleight.

Y neidr ffel, pa ryw bynnag *chwidion* ni
Ammheuai neb.—*W. O. Pughe:* C.G. ix. 86.

Chwid, -iau, *sm.* [im.] a small tremulous noise; the note of birds, a twitter, a twittering.

A *chwid* yr adar achlân,
A llys irgoed llais organ.—*Edward Dafydd.*

Ac ym mid *chwid* iach adar.—*Sion Thomas Philip.*

Chwidial, *v.* [chwid] to twitter; to warble.

Hoew *chwidial* mewn gwial gwŷdd,
Heb boen, yr ydwyt beunydd.—*Llanover Ms.*

Adar ym mid yn *chwidial*.—*Ann Dafydd.*

Chwidl, *a.* giddy, turning round, reeling.

Troi yn chwidl, to turn quickly, sharply, or giddily; to whirl about.—*Lleyn.*

Chwido, *v.* 'to move quickly;' to play tricks, to juggle.

Chwidog, -ion, *sm.* a juggler; a sorcerer.

Chwidog, *a.* full of tricks; juggling.

Chwidogaeth, -au, *sf.* jugglery, juggling; sleight of hand; sorcery.

Chwit chwit *chwidogeith*
Gochanwn gochenyn wyth geith.
Aneurin: God. 856 (A.B. ii. 90).

Chwidogi, *v.* to practice jugglery, to juggle.

Chwidogl, *a.* unsteady, inconstant, shifting.

Magl drws yw, mwygl, dyrys, hen,
Mal *chwidogl* gorn malchweden.
Hywel Dafydd ab Ieuan, i'r Clo Pren.

Chwidogol, *a.* juggling.

Chwidr, *a.* giddy, fickle, flighty, crazy, hair-brained, rash, wild, unsteady; precipitate.

Yr oedd hwn mor *chwidr* a phrysur yn fforddio'r lleill, nad oedd e'n cael mo'r ennyd i ateb trosto ei hun.
E. Wynn: Bardd Cwsg, 65 (cf. 42).

Odid y canfu adyn
Chwidrach, anwadalach dyn.—*Gronwy Owain*, 6.

A'r wennol *chwidr* aeth drwy'r llen,
A'r 'sgrifen a dywyllodd.
Rowland Vaughan: Llyfr Carolau, 171.

Ond gan gamgydiaw dulliau, pera aml
O droion *chwidr*, a mewn breuddwydion mwy.
W. O. Pughe: C.G. v. 119 (cf. ix. 770).

O'r rhwyddaf im' y rhoddech
O'r lladron *chwidron* naw chwech.—*Gronwy Owain*, 47.

Chwi *chwidron* lifeiriaint, rai chwai a gorddyfnion.
Cylchgrawn, i. 184.

Chwidra, *v.* to be flighty, fickle, or giddy; to act rashly; to whiffle.

Ni chei beunydd un dydd da,
Ni chei edrych na *chwidra*.—*Thomas Prys.*

Chwidrad, -au, *sm.* a fickle motion; a moving unsteadily; a becoming giddy.

Chwidredd, *sm.* giddiness; fickleness; wildness; precipitancy.

A chyda'r fath *chwidredd* engyrth yr aethant, fel ag y treiddiasant yr afon heb ddim ond penau y llengwyr allan o'r dwfr.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 327.

Chwidrfrys, *a.* precipitant, giddy; over-hasty.—*P.*

Chwidro, *v.* to move giddily; to become giddy; to go or dart backwards; to whiffle, to trifle; to precipitate.

Chwimmwth y gwelwch yma,
Chwidraw a neidiaw a wna.—*Th. Prys*, i Gwch.

A ffwrdd â hwynt, gan eres *chwidraw*, mal
Pe am gorelwi.—*W. O. Pughe:* C.G. vi. 676.

Chwidrog, *a.* full of wild motion; full of quirks; giddy; precipitant.

Chwidrol, *a.* flighty, giddy; precipitate.

Chwidrwr, wyr, *sm.* one who darts about; a flighty, giddy, fickle, or hairbrained person.

Chwidryn, *sm.* a giddy or crazy fellow; a fickle one; a whiffler, a trifler.

Chwidw, -on, *sm.* [chwid: cf. *chwidog*] 'a sorcerer;' a juggler?

Chwidaw, a sorcerer.—*H. Salesbury* (Arch. Brit. 215).

Chwidwen, -od, *sf.* 1. a sorceress.—*P.* 2. a coquette.—*Dicts.*

Chwidwena, *v.* to coquette, to flirt.

Chwidwenwr, wyr, *sm.* a flighty man; one who coquets.

Digitized by Google

Chwif, -iau, *sf.* [cf. *gwif*, *chwyf*, *chwiw*] a whirl, a turn; a move, a motion.

¶ *Chwif* and *chwyf* appear to be variants of the same word.

Chwif, -iau, *sf.* a whistle.

Chwif, a whistle.—*H. Salesbury* (Arch. Brit. 215).

Chwiflad, iaid, *sm.* one who moves about; a stroller, wanderer, vagrant, or vagabond.

Byt a uyd bryt wrth dillat
Kyghaws arglwyd maer *chwiuat*
Gwaellaw bard hard effeiryat
Diuannwawr gwyr lletawr gwat.
Gwasgargerdd Myrddin (Ll.C.H.).

Chwiflad, *a.* waving; flying.

Ar y muriau hyn y planwn ni ei llumanau *chwiflad*.
Seren Gomer, iii. 340.

Chwiflediog, *a.* that flies about; vagabond.—*P.*

Chwifledydd, -ion, } *sm.* a rambler, wanderer,
Chwiflwr, wyr, } strayer, or roamer.

Chwiflo, *v.* to fly about; to wander, ramble, or roam; to wave.

Prif baw braint *chwiflaw* brwnt chwa.
M. Dwygraig: M.A. i. 489.

Pan y byddo yn ewyllysio symmud o un lle i'r llall . . . efe a dyn allan yr edeuon o'i ddidenau, a hwy, yn *chwiflo* yn y gwynt, a lynant wrth y llwyn, y goeden, neu y mur, cyfagos iddo.—*Gwyliedydd*, iv. 334 (cf. viii. 31).

Chwiflog, } *a.* apt to move, fly, or stray about;
Chwiflol, } full of motion; wandering, vagrant, strolling; waving.

Chwifleian, -od, *sf.*=*Chwimleian*, *Chwimpleian*.

Chwiff (ŷ), -iau, *sf.* [im.] a whiff, a puff; a hiss; a sibilation.

Chwiffell, } -au, *sf.* a whistle, flute, or pipe.—
Chwiff, } *O.V.*

Chwiffiad, -au, *sm.* a whiffing; sibilation.

Chwiffio, *v.* to whiff; to puff; to smoke; to hiss; to quaff.

Os meddwyn wyt, yn arfer *chwiffio*
Gwin, a chwrw, a thobacco,
Llef am ras ar Dduw yn fuan
I orchfygu meddwdod afian.
Rhys Prichard: C. y C. lvii. 1 (cf. 10; cxxxvi. 30).

Gwneir tri defnydd o'r ffwgws.—Y mwyaf cyffredin o lawer ydyw ei *chwiffio*, ac am hyny gelwir ef weithiau yn fyglys, ym mhlith y Cymry.—*Cylchgrawn*, i. 237.

Nis gall neb cydnabyddus ag afiechyd ammheu fod *chwiffio* anghymmedrol . . . yn dra niweidiol i'r corff a'r meddwl.—*Brython*, iii. 196.

Arfered *chwiffio* myglys am ddeng mlynedd ar hugain, bydd agos mor hawdd i hwnw fyw heb wefus a byw heb bibell.—*Adolygydd*, ii. 95.

Trwy gyfrwng y ffroenau, cofier, y byddai pobl yn *chwiffio* yn Ewrop ar y cyntaf.—*Brython*, ii. 196.

Chwiffio cwrw, to quaff beer.

Gwae fo cryf i *chwiffio cwrw*,
Ac i gymmyeg diod loew.—*Rhys Prichard:* C. y C. lvii. 32.

Chwiffiol, *a.* whiffing, puffing; sibilant, hissing.

Chwiffiwr, wyr, *sm.* one who whiffs, a whiffer, a puffer; a smoker; one who hisses.

Aeth y Cæar o Rwssia cyn belled a thori trwynau y sawl a gymmerent drewlwch; a gwnai llywodraethwyr Mahometaidd ddirboeni pob *chwiffiwr*.—*Brython*, ii. 196 (cf. iii. 198).

Chwiffiyn, *sm.* something weak and unsubstantial; a trifle.—*N. W.*

Chwiffiw, *sm.* what is weak, light, or unsubstantial; a mere shadow, a phantom; a trifle; a weakling, a piddler.—*S. W.*

Yr hen chwiffiw! the old fribble!

Rhyw chwiffiw o ddyn, a mere phantom of a man; an apology for a man.

Rhyw chwiffiw fel yna, such a trifle as that.

Chwig, *sm.* clarified whey, a kind of drink made of whey with sweet herbs, by fermentation.—*P.*

Chwig, diod a wnair o'r afalau; gwinegr a wnair o ffrwyth afalau surion; maidd sur.—*O.V.*

Chwig, clarified whey.—*Henry Salesbury* (Arch. Brit. 215).

[*Whig*, whey kept for drinking. If suffered to become sour, aromatic herbs are steeped in it.
Cumberland Glossary (E.D.S.), s.v.]

Chwig, *a.* fermented; sour, sharp.—*P.*

Chwigl, -au, *sm.* an acid or tartar.—*P.*

Chwiglen, -od, *sf.* a sharp one; a tartar.—*P.*

Chwigwg, *sm.* whey-drink.—*P.*

O bydd crach arnat, gwna swgan o wraidd hylyf wedi eu berwi mewn *chwigwg*, a dod ef wrth y crach.
Llanover Ms. 4.

Chwigwg, *a.* sour, acid, sharp.

Chwigyn, *sm.* fermented whey-drink.—*P.*

Chwil, -od, *sf.* [C. *hwilen;* Br. *c'houil;* Ir. *cuil*] a beetle; a chafer.

Yna y doant kylyon mawr a *chwilot*. ac y bwytant yr holl wyd.—*Prophwydoliaeth Sibli*, § 11.

Chwil gan nos.—*Diareb.* (M.A. iii. 152.)

Cawell teirmil o *chwilod*.
Dafydd ab Gwilym, lxv. 31 (cf. clix. 45).

Y *chwil* gynt a ehedodd mewn perllan, yn yr hon yr oedd amryfeilon ffrwythau boneddig.—*Y Greal*, 325.

Yma neb peth byw
Ni ddelai, ednant, milyn, *chwil*, na phryf.
W. O. Pughe: C.G. iv. 769.

Chwil y bwm, } the dung-beetle, bumble-bee,
Chwil y bwmp, } bum-bee, or humble-bee.

Mae *chwil y bwm* yn canu,
Cawn dywydd teg efory:
Nid oes fawr goel ar *chwil y baw;*
Gall fod yn wlaw serch hyny.
Hen Bennill (Ystên Sioned, 89).

Chwil y baw, } the dung-beetle or tumble-
Chwil y dom, } dung.

Chwil y bawai, the may-bug or cockchafer.

Chwil, *a.* 1. whirling, twirling, reeling.

Meddw chwil, reeling or topingly drunk.

Yn llys Dinbych y dydd o'r blaen, dywedai y maer . . . fod dau o heddgeidwaid y dref yn *feddw chwil* o ddeutu un ar ddeg o'r gloch un noson yn ddiweddar.
Tywysogaeth, Chwef. 20, 1880.

2. prefixed to some words it has an intensive force: thorough, highly, very.

Chwil, -ion, a search or scrutiny.

Gan wedyd hyn, am bob twyn llaith ai sych,
O isel lusgaw fal niwl du, parhäi
Ei *chwil* nos, pa le cyntaf caffai efe
Y sarff.—*W. O. Pughe:* C.G. ix. 171 (cf. x. 442).

Gwarant chwil, a search-warrant.

Chwilach, *s.pl.* gleanings, pickings; fragments; frivolities.

Chwilast, } eist, *sf.* [gast] one who pries
Chwiliast, } about; a gadder.

Digitized by Google

Chwilbawa, *v.* [chwil-io+baw] to trifle away time under the semblance of searching for or doing something; to piddle.—*S. W.*

Chwilbob, *a.* [chwil+pob-i] highly or thoroughly baked; well-baked.

Cais gig wedi ei fingo, a thor e'n dafelli bychain fel golwython *chwilbob*, a dod wrth y dolur.
Meddygon Myddfai, ii. 268.

Chwilbobi, *v.* to bake highly.

Chwilboeth, *a.* scorching or burning hot, very hot, piping; hot-spurred, hot-headed, violently enthusiastic.

Tafod annoeth yn dân *chwilboeth*.—*Iolo Mss.* 227.

Y rhai anllad a mwythus a gânt eu mygu â phyg *chwilboeth* a brwmstan drewllyd.
Huw Owen: Dilyniad, i. xxiv. 3.

Peth rhyfedd nad yw eu siopau . . . yn myned yn *chwilboeth* am eu penau.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 173.

Mae o yn chwilboeth greision, it is a burning hot cinder.—*P.*

Chwilboethedd, *sm.* wild, violent, or hot-headed enthusiasm; frenzy.

Fel enghraifft o *chwilboethedd* annheyrngar, darllener a ganlyn.—*Gwalia*, Ion. 12, 1892.

Chwilboethiad, iaid, *sm.* a wild, furious, or hot-headed enthusiast; a firebrand.

Ystyria . . . ef yn wrthwynebydd cryf a pheryglus, a gall y pleidleisio beri i'r *chwilboethiaid* ag ur eu llygaid yn lletach nag arfer.—*Gwalia*, Gorph. 6, 1892.

Chwilcais, *sm.* a hunting or searching after. See s.v. *Chwalcys*.—*M. A.* i. 486.

Chwilcath, *sm.* [chwil+cath? cf. *chwiltath*, of which *chwilcath* may be a corruption] one that pries, a prier, a prying fellow.

Gwar gwrcath, gwydn *chwilcath* chwai.
D. ab Gwilym, ccxxx. 24 (cf. 77).

Pam nad â'r hen *chwilcath* i'r byd arall, fal y cawn ddyfod yna yn ei le, i ddial fy llid ar chwiwgwn fal Βρυσκω ac ereill? Melus yw dial. P'le mae'r *chwilcath*?
Ni chlywaf fi son am ei ddrwg na'i dda.
Lewis Morys (Llythyr, Rhag. 24, 1753).

Chwilcath, *v.* to search for or hunt after; to pry; to search here and there.

Chwilcena (*ĕ*), *v.*=*Chwilena*.

Ef a allai y cyferfydd y llyfr yma ar brydiau â rhyw fath o ddynionach anneallus; y rhai ni cheisiant well swydd nog ymroi i chwilio am y bai yma a'r bai acw, ar hyd corff y llyfr yma; ar eulun dynion a fëynt yn *chwilcenna* am lau ar ddillad marchog urddol.
Dr. I. D. Rhys: Gram., Rhag. 7.

Chwildarw, deirw, *sm.* [chwil+tarw? Br. *c'houïl-derô*] the dragon-fly: also called *gwaell y neidr* and *gwas y neidr*.

O'r holl wybed . . . nid oes un yn dangos mwy o harddwch ac amrywiaeth na'r gwaell neidr, neu y *chwildarw*.
Gwyliedydd, iv. 169.

Chwildro, -ion, *sm.* a rapid or dizzy turn; a quick rotation, a twirl, a whirl.

Troi yn chwildro, to turn round rapidly or dizzily, to twirl, to spin.

Chwildroad, -au, *sm.* a turning or revolving rapidly; a twirling; a revolution.

Chwildroi, *v.* to turn rapidly or dizzily; to twirl or whirl; to spin.

Ffurfafen draphen a droe,
Uchel-drum nef a *chwildroe*.—*Gro. Owain*, 80.

Oll *chwildröyni* fry ac hwnt
Tros gil y byd ym mhell i Fangre eang,
A Gwynfa yr Ynfydion gelwid hon.
W. O. Pughe: C.G. iii. 540.

Chwildröus, *a.* giddy, dizzy; thoughtless.

Yn ol y ddull hon y dywedwn am y byd, *sef*, ei fod . . . yn elyn i'r cynnyrchiawl; distrywiwr pob mawr beth; cynhyrfwr pob peth gwael; preswylfa pererinion; marchnadfa'r *chwildröus*; ac yn yafa pob peth llygradwy.
H. Perri: Egl. Ffr. xii.

Chwilduedd, -au, *sm.* a prying or curious disposition.

Gocheler *chwilduedd* a newyddian gyda phethau crefydd.
Beirniadur Cymraeg, i. 137.

Chwilddu, *a.* quite black, very black.

Chwilen, *pl.* chwilod, chwilenod, *sf.* [chwil] a beetle, a chafer.

Chwilen hed uwch heolydd,
Ac yn y dom cyn y dydd.—*Sion Tudur*.

Gwyddys y gwna rhai *chwilod* oddef eu llosgi yn araf wrth dân, heb symmud un cymmal yn y cyfiwr hwn.
Gwyliedydd, iv. 334.

Nid yw yn anghenrheidol dywedyd bod llawer math o *chwilenod*. . . Fe ddywed anisnyddion fod uwch pedwar ugain math o *chwilenod*. . . Os sylwir ar wneuthuriad y *chwilenod*, fe geir bod eu hesgyrn yn allanol.
Gwyliedydd, viii. 205.

Oni chlywir ambell *chwilen*
Yn ehedeg heibio'n chwyrn.—*D. Davis:* Telyn Dewi, 29.

Daw lluoedd o *chwilenod*, a phryfed y glust i oleuni.
Cylchgrawn, ii. 122.

Chwilen ddu, the black beetle or cockroach.

Chwilen gorniog, the great horned beetle.

Chwilen y dom, *Chwilen wyllt*, } the dung-beetle.

Chwilen Mai, the may-bug or dung-beetle.

Gelwir hi gan rai *chwilen Mai*, *chwilen y bwmp*, y colbi.
Gwyliedydd, viii. 205.

Chwilen y bwmp (=chwil y bwm), the dung-beetle or bumble-bee.

Y chwilen glust, *Y chwilen clust*, } the earwig: also called *pryf clust*, *pryfyn clust*, and *pryf clustiog*.

Gofal mamol y *chwilen glust*.—*Cylchgrawn*, i. 95 (cf. 96).

Chwilen ruo=*Chwilen y bwmp*.—*Penllyn*.

Chwilen waed, the black beetle.

Chwilen des=*Chwilen y bwmp*.

Mae chwilen yn ei ben, he has a bee in his head or his brains; he has a bee in his bonnet.

Chwilena, *v.* [chwilen] to search here and there (as if for beetles); to pry about; to pick; to pilfer, to filch, to practise petty theft.

Megys haid o frain yn myned allan o'u nythod i *chwilena*, ac i gipio'r had oddi ar wyneb y maes.
Theo. Evans: D.P.O. 69 (cf. 63).

Cadw o honof fy nwylaw rhag *chwilena* a lladrata, a'm tafod rhag dywedyd celwydd, cableiriau, na drwg absen.
Ll. G. Gyffredin (Cat.).

Mi a fynwn wybod a ddarfu i chwi erioed *chwilena*, a darnguddio, neu ledrata rhyw fân bethau oddi ar eich cymmydog.—*Robert Llwyd:* Llwybr Hyff. 359.

Nid digon gan Rhys oedd *chwiliena* eiddo deiliaid y brenin.—*Gwyliedydd*, v. 232.

Neu chwannog chwai lwynog yn *chwilena*.
Dewi Wyn: Bl. Arf. 68.

Chwilenai, *pl.* chwileneiod, *sc.* one who pries about; a pilferer.

Chwilenu, *v.*=*Chwilena*.

Wrth fân *chwilenu* hyd fryniau'r fro,
Yr oedd Satan fyth o'i ddeutu fo.—*Blodeugerdd*, 242.

Digitized by Google

Chwilenwr, wyr, *sm.* a pilferer; a picker; a prier.

A dewr yn allt, dorwyn wr,
A chalonog *chwilenwr*.—*Rhys Goch Eryri:* G. B.C. 90.

Nid hawdd i *chwilenwr* guddio yr hyn a fenthycia yn lledradaidd oddi ar arall.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 226.

Chwiler, -od, *sm.* the chrysalis, aurelia, or pupa of an insect.

Os cyffyrdda y pryd hyn dafod y ceffyl ag un o'r wyau, fe bair hyny i gauad yr wy agor, a'r *chwiler* bychan a lŷn wrth dafod y ceffyl, ac a yrir oddi yna gyd â'r bwyd i'w gylla.—*Gwyliedydd*, iv. 305 (cf. 304).

Gelwir hwy gan rai yn *chwilerod*.—*Gwyliedydd*, iv. 304.

Ar ol goxphen y belen, mae y llindysen yn troi i'w chyfhwr nesaf, sef yn *chwiler*, pan y gorphwysa oddi wrth ei llafur.—*Gwyliedydd*, x. 140 (cf. 139).

Chwileryn, *pl.* chwilerod, *sm.* 1. a chrysalis; a maggot or grub.

Magu *chwileryn* ym mynwes.—*Diareb.* (M.A. iii. 164.)

Meithrin *chwileryn* gwyn gwâr
I'm mynwes o serch meinwar—*D. ab Gwilym*, xxxviii. 19.

Y symmudiadau hyn a lidiant fwy neu lai ar y parthau amgylchiadol i'r nyth, a hyny a ychwanega y crawn, er maeth a chynnaliaeth y *chwileryn*.—*Gwyliedydd*, iv. 304.

2. a swelling, a blister, a weal, a pimple.—*P.*

3. a little busy-body: applied to a little child that is continually prying into every corner. —*S.E.W.*

Chwilfa, fëydd, faoedd, *sf.* a searching or seeking about; a pry; a search, a research, a scrutiny.

Mae'r wyllys yn myn'd er hyny ym mlaen mewn hunan, sef yn ei *chwilfa* ei hunan, ac fe fyn brofi y gwaelod canol.
Morgan Llwyd: Ymroddiad, i. 14.

Chwilfatan, **Chwilfatach**, *v.* to pry about; to pilfer, to pick.—*Gwent.*

Chwilfeddw, *a.* reeling or topingly drunk.

Chwilfriw, *a.* [chwil+briw] broken small; broken into shatters, fragments, or pieces; all to pieces; shattered, smashed.

Lle y byddai eu haelodau yn gymmysg blith draphlith â thalpau *chwilfriw* yr adeilad!
Theo. Evans: D.P.O. 103.

Yn chwilfriw, all to pieces; to pieces; in pieces; into shatters.

A'r cerryg a friwyd *yn chwilfriw* gan y tân.
Iolo Mss. 5 (cf. 65, 182).

Ar bwy bynnag y syrthio, efe a'i mâl ef *yn chwilfriw*.
Matt. xxi. 44.

Myfi . . . a'i drylliwn ef *yn chwilfriw*.
Theo. Evans: D.P.O. 117.

Mae'r puteiniaid a'u cymdeithion, a myrddiwn ereill o hen geraint a chyfeillion gynt, wedi syrthio allan *yn chwilfriw*.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 96.

Y rhai ni chynhyrfir yn awr wrth wrando, a felir *yn chwilfriw* ryw ddydd wrth ddioddef.
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 63.

Chwilfriw, -iau, *sm.* a broken or shattered piece, a small fragment.

Yr oedd ei phen yn *chwilfriwiau*.—*Gwyliedydd*, vii. 353.

Chwilfriwiad, -au, *sm.* a breaking in pieces; a shattering, a smashing.

Chwilfriwo, **Chwilfriwio**, *v.* to break in pieces; to dash into fragments or pieces; to shatter; to smash.

Hi a ffrydia yn rhaiadr gwyllt dros yr ystanc, ac a dreigla ac a *chwilfriwa* pa beth bynnag a saif ar ei ffordd.
Theo. Evans: D.P.O. 57.

Lladdwyd y ceffyl, a *chwilfriwiwyd* y drol.
Gwyliedydd, vii. 333 (cf. 324).

Chwilfrydedd, **Chwilfrydigrwydd**, *sm.* [bryd] curiosity, curiousness, inquisitiveness.

Penderfynais foddhau fy awydd penaf, a thrwy yfed o ffynnon gwybodaeth, dori syched *chwilfrydedd* a chywreinrwydd.—*Rasselas*, viii.

Chwilfrydig, *a.* curious, inquisitive, prying.

Ef allai mai at y duedd *chwilfrydig* sydd yn y natur ddynol, y mae'r diafol yn cyfeirio y rhan fwyaf o'i demtasiynau, er y cwymp yn Eden hyd yn awr.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 224.

'Pa beth a wna hwn?' ydoedd ymofyniad y dysgybl *chwilfrydig*.—*Anianyddiaeth Ysgrythyrol*, 139.

Chwilfyddyn, *sm.* a particle, a bit, a morsel, a fragment.—*Mawddwy.*

Chwilfwnwg, **Chwilfynwg**, *sm.* [mwnwg] the neck-joint or scrag of a carcase.

Chwilfwnwgl, **Chwilfynwgl**, *pl.* chwilfynyglau, *sm.* [chwil+mwnwgl] a neck-joint, on which the head moves.—*P.*

Nes fyddit i dori un o bedwar pîler dy gorff, neu gogwrn dy *chwilfwnwgl*, neu asgwrn dy forddwyd, cyn dy ddyfod o'r fan lle'r wyt ti hyd y man lle'r wyf fi.
Araith Gwgan (Cydymaith Diddan (1821), 51).

Chwilgar, *a.* apt or disposed to search or inquire; inquisitive, inquiring, searching; curious; scrutinizing.

Y *chwilgar* a gaiff ei hun ym mhlith dysgedigion.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 10.

Ti'r *chwilgar* doeth, sy'n gyru'th fryd
Drwy feithder mawr gwybodau'r byd,
O! dywed! beth a'i gelwir Ef,
Gwneuthurwr mawredd hardd y nef?
Iolo Morganwg: Salmau, i. lvii. 1.

Y mae [y gigfran] yn ddiwyd, *chwilgar*, a hyf.
Gwyliedydd, vii. 14.

Tri nod lleidr: tafawd holgar; llygad *chwilgar;* ac wynebpryd brawychus.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 81.

Holiedydd manwl ydyw,
Chwilgar, a chyrhaeddgar yw.
I. G. Geirionydd: Geir. 104.

Chwilgarwch, *sm.* inquisitiveness; curiosity (to learn what is not known), curiousness.

Tosturiai'r prydydd wrth ei anwybodaeth, carai ei gywreindeb a'i *chwilgarwch*, a difyrai ef o ddydd i ddydd ag addysg a newyddion.—*Rasselas*, vii. (cf. xvi).

Chwilgi, *pl.* chwilgwn, *sm.* a prying or searching dog; a prying fellow; a busybody.

Y tiroedd a'r trethi a dorodd ein dyri,
A chwmni'r hen *chwilgi* ein huchel-gan.
Edward Richard: Bugeilgerdd, ii. 29.

Nes i *chwilgwn* llym o annwn, oll ymunaw,
O bair tân, i beri twrf, mawr gynhwrf, mŏr o gwynaw.
Tegid: Gwaith, 51.

Yr hen chwilgi brwnt! O you nasty old pilfering dog!—*P.*

Chwilgorn, gyrn, *sm.* a whirling cylinder or horn.—*P.*

Chwilgorn gwddf, the neck-bone.

Chwilgorn y gwynt, *Chwilgorn y waen*, *Chwilgorn llwyd*, the lapwing or peewit. Cf. *cornchwigl*, *cornicyll*, *corn y wich;* all referring to the tuft of feathers, resembling a horn, on the bird's head.

Chwilgorn y twyn, *Chwilgorn y mynydd*, the golden plover: also called *cwtiad llwyd.*

Chwilgorn, *a.* reeling, wheeling, staggering.

Chwilgorn feddw, *Meddw chwilgorn*, reeling drunk, topingly drunk.

Myned i'r Eglwys ar fore Sul yn *chwilgorn feddw*.
Gronwy Owain, 208.

Digitized by Google

Ym mhlith y meddwon, neb mwy llon ei gerdd,
Na neb yn *chwilgorn feddw* mwy nog ef.
Iago Trichrug: Y Bedd.

Mae efe yn feddw chwilgorn, he is reeling or topingly drunk.

Chwilgrwt, grytiaid, *sm.* a stripling, a hobbledehoy.—*C.S.*

Chwiliach, *v.* to search or pry about; to pilfer.

Chwiliad, -au, *sm.* a searching, a seeking after; a search, investigation, inquiry, or scrutiny.

Mae yr hanes uchod yn dra rhyfeddol, ac yn haeddu ychwaneg o *chwiliad* iddo.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 397.

Gan gydnabod wedi manwl *chwiliad*, nas gallaswn ragori arno.—*W. O. Pughe:* C.P. 42.

Llysoedd y chwiliad, courts of inquisition.

Yn y fl. 1260 y dychymmygwyd carcharau creulon mewn amryw wledydd, yn enwedig yn Rhufain, Yspaen, a Phortugal, a elwid *Llysoedd y Chwiliad* neu'r Ymofyniad.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 80.

Chwiliadlys, -oedd, *sm.*=*Chwil-lys.*

Chwiliadlysol, *a.* inquisitorial.

Chwiliadlyswr, wyr, *sm.* an inquisitor.

Chwiliadol, *a.* searching, inquiring, investigating, scrutinizing, exploratory.

Chwiliadwy, *a.* searchable, scrutable, investigable.

Chwiliai, *pl.* chwilieiod, *sc.* a prier; a searcher.

Chwiliai ystlom, a prier into filth.—*P.*

Chwilied, *v.* to search; to examine; to investigate.

Ni byddai gweision ffyddlon Crist Iesu yn *chwilied* am un difyrwch i borthi'r cnawd.
Huw Owen: Dilyniad, 1. xxii. 4.

Gwelir lluoedd mawr o honynt yn ehedeg oddi gartref yn y boreu i *chwilied* am eu bwyd.—*Gwyliedydd*, ix. 367.

Chwiliedydd, -ion, *sm.* a searcher, an investigator, a scrutator, a seeker.

Chwilio, *v.* [chwil: C. *whelas*, *whele;* Br. *c'houilia*] to search, to seek, to look for; to investigate, to scrutinize, to examine.—*Ioan* v. 39.

Tair ffordd sydd i *chwiliaw* calon dyn.—*Barddas.* (*P.*)

Perys William *chwilliaw* yr holl manachlogoed or a oed yny deyrnas.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 519.

Ar unbennes ae *chwilywys* ygkylch y eis ac ymbob kyueir idaw rac kael ohonaw vrath neu dyrnawt.
Ystoria de Carolo Magno, col. 442.

Goreugwaith pob gwybod,
Chwiliaw ei galon a'i hadnabod.—*Iolo Mss.* 262.

Wrth ystyrio yr achos yn well, a'i *chwilio* yn fanylach.
M. Cyffin: Diff. iii. 7.

Ymofyn, a *chwilia*, a chais yn dda.—*Deut.* xiii. 14.

Chwilio am, to search for or after.—*Iob* xxxix. 29.

Brân a gânt chwedl yn nyffryn,
Wrth *chwiliaw am* ei gronyn.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 98.

Chwiliai ef yr uchelion,
Y môr, a thir, *am* wyrth Ion.—*Gro. Owain*, 52 (cf. 31, 32).

Chwilio am haul ganol dydd wrth oleu canwyll.—*Diareb.*

Dyfal chwilio, } to search diligently or as-
Chwilio yn ddyfal, } siduously.—*Salm.* lxiv. 6; lxxvii. 6.

Beth, ar ol eu *dyfal chwilio*, a'u manwl chwalu, o cheir gweled yn y diwedd, nad yw yr holl bethau hyny gan mwyaf ond pethau newydd!—*Morus Cyffin:* Diff. v. 2.

Chwilio allan, } to search out; to find out.—
Chwilio i maes, } *Iob* xxxvi. 26; *Salm.* xliv. 21; lxiv. 6.

Bod yn ystyrgar i ymrynu yn geudodawl â'r gwirionedd, a'i *chwilio i maes* o'i bwyll cyssefin ei hunan.
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 286.

O ryfeddol ac anfeidrol ddaioni, ag sydd yn abl i *chwilio allan* fywyd o farwolaeth!
Daniel Rowland: Pregethau, iv. 15.

Manwl chwilio, to search carefully or diligently.—1 *Pedr* i. 10.

Chwiliog, -ion, *sm.* one possessed with the spirit of prophesying or divination; a seer; a magician, a diviner.—*D.*

Chwiliogaeth, -au, *sf.* 'the act of prying; divination;' sorcery.—*P.*

Chwilioges, -au, *sf.* a female diviner or soothsayer, a divineress.

Yr wyf yn ateb fod Sawl mewn perygl, ac yn anesmwyth yng nghylch y canlyniad o hono, yn gofyn cynnorthwy *chwilioges*, trwy ei swyngyfaredd, i alw i fyny yspryd Samwel.—*Seren Gomer*, v. 11.

¶ Apparently *chwiliog* and *chwilioges* are Cornish words, from a form corresponding to W. *coel*. In the Cornish Vocabulary, Augur is glossed by *chuillioc*, and phitonissa by *cuillioges*. Davies (followed by Richards, Pughe, and others) has inserted both in his Dictionary as words occurring in the 'Liber Landavensis,' which, as understood by him, is no other than the 'Vocabularium Cornicum,' first published by Zeuss, *G.C.* 1065. Cf. Norris, *Ancient Cornish Drama*, ii. 339.

Chwilior, *sm.* a searcher; a prier.—*P.*

Chwiliores, -au, *sf.* [Br. *c'houiliorez*] a hornet.—*D.*

Chwilioryn, -od, *sm.* a maggot.

Chwiliwr, wyr, *sm.* a searcher, an investigator, an inquirer, a seeker, a scrutinizer; an inspector; a prier.—*Ier.* xi. 20.

Ond Duw nid *chwiliwr* calon.—*Iolo Mss.* 255.

Chwil-lys, } -oedd, *sm.* 1. a court of inquisi-
Chwilys, } tion; the inquisition.

Y mae Vergerius yn profi fod y *chwilys* mewn deng mlynedd ar hugain wedi dinystrio pymtheg can mil.
Cylchgrawn Cymraeg (1793), 212.

Y Rhufeinaidd lewaidd lys,
A chaled farn y *Chwil-lys.*—*G. Mechain:* Gwaith, 1. 217.

Efe a gafai ei farnu yn euog o drosedd yn erbyn y Pab a goruchel arglwyddi y *Chwil-lys.*
G. Mechain: Gwaith, ii. 80 (cf. 75, 81).

Llaw goleuni yn lle gelyniaeth
Dirymai'r *chwil-lys.*—*Dafydd Ddu Eryri:* C. y G. 41.

Sef yw hyny, na fyddai rhydd-did i un o honynt, eithr byddai carcharau erchyll y *Chwil-lys* melltigedig yn barod iddynt oll, yn daledigaeth am eu gorchestion a'u gwaed.
Ioseph Harris: Gweith. 64.

Arweiniwyd hwynt gan egwyddor wyrgam i sefydlu y peiriant erchyll o greulondeb llawn-rhwysg eglwysig—y *Chwil-lys.*—*R. Roberts:* Daearyddiaeth, 148.

Y mae y *chwil-lys* yn parhau hyd y dydd hwn.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 214 (cf. 210, 211, 212, 213).

Llidiodd y swyddog hwnw yn erchyll yn erbyn Luther; a bygythiodd arno holl ddychrynfëydd y *Chwil-lys* Pabaidd.
Gwyliedydd, i. 197.

Yn Barcelona a manau ereill y mae y *Chwil-lys* wedi cael ei ddiddymu.—*Seren Gomer*, iii. 123.

2. a court of inquiry or scrutiny (in a favourable sense).

Yna fe daena fal dydd
Ei dyner hardd adenydd:
Ac o'i ddeutu'r Gloew-bur glân
A fesura'r Nef seirian,
Lon uchelion y *Chwil-lys*,
Y dirfawr oleu-wawr lys.—*Dafydd Ionawr*, 161.

Digitized by Google

Chwil-lysol, *a.* inquisitorial.

Pa Gymro, a haeddai yr enw, ac yn meddu barn ddiduedd, a all edrych, heb gyffroi, ar ymdrechiadau *chwil-lysol* rhai o hil Gomer am gyfyngu gwybodaeth ein cydwladwyr at bethau crefyddol yn unig!
Gwyliedydd, vii. 214.

Chwil-lyswr, wyr, *sm.* an inquisitor, a member of the court of inquisition.

Dywedai yntau y byddai i hyny gael ei benderfynu gan y *chwil-lyswyr* sanctaidd.—*Gwyliedydd*, xii. 145 (cf. 144).

Cefnogai y *chwil-lyswyr* y castiau drygionus hyn hyd eithaf eu gallu. . . Os ceid y cyhuddedig yn euog ym marn y *chwil-lyswyr*, neu gan dystion, neu ar ei addefiad ei hun, dedfrydid ef yn ol maint y trosedd.—*Credoau y Byd*, i. 565.

Meddyliwn am Paul, neu Pedr, neu Ioan, yn *chwil-lyswyr*, yn ceisio troi y byd trwy losgi pechaduriaid, ac ar yr un pryd yn cadw puteindy llawn o foethau, o dan yr enw 'llys sanctaidd.'—*Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 211.

Chwilmanta, **Chwilmantach,** **Chwilmantan,** *v.* to search here and there; to seek curiously; to search every hole and corner; to rummage; to pry.—*C.S.*

Gwnaeth seren newydd y Dr. Herschel lawer o ystŵr yn y byd, a braidd y cyhoeddwyd ei hanfodiad, nad aeth lluaws o ddynion o wahanol wledydd i *chwilmantach* yr wybren i edrych am blanedau newyddion.—*Seren Gomer*, viii. 39.

Chwilog, *a.* that twirls about, whirling.—*P.*

¶ In *M.A.* i. 321, *Chwilog* occurs as a personal name; and there is a place of this name in Carnarvonshire.

Chwilog, -od, *sm.* the lesser guillemot (in ornithology).

Chwilor, -ion, *sm.* an inquisitor.

Gosodwyd *chwilorion*, meddygon, a chladdwyr, ym mhob dosparth o'r ddinas.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 386.

Chwilota, *v.* [chwilod (*sg.* chwil): Br. *c'houiléta*] 1. to catch beetles; to search for beetles.

2. to pry; to search often; to seek here and there; to rummage; to pilfer.

Gwna yr hult *chwilota* yn ffrwd fas ei feddwl ei hun.
W. O. Pughe: E.D. v. 1.

Chwilio a chwilota, to search and rummage.

Chwilotai, eion, *sc.* a prier; a busybody.

Chwilotwr, wyr, *sm.* a prier; a pilferer.

Ffriw cythrel panel mewn pân, a chlytiawg *Chwilotwr* pob cwpan.—*Sion Tudur.*

Chwilserth, *a.* precipitate; facetious; satirical.

Fal hyn y gellir galw gwr hyfribwyll yn Gato; gwr cyflawn yn Aristides; gwr doeth yn Selef; ymffrostiwr yn Thraso; cenfigenwr yn Zoilus; beiwr *chwilserth*, rhodresgar, yn Fomus; gwrthdeyrn yn Nero; a dyn bolgar, rhumenbuch, yn Epicurus.—*Henri Perri:* Egl. Ffr. xiv. 2.

Chwiltath, *v.* [freq. of *chwilio*] to search often; to pry about; to search for some small objects; to seek.

A glywaist ti chwedl y Gath
Am y llygod yn *chwiltath*?
Gnawd i bob rhyw ei gydfath.—*Iolo Mss.* 260.

'Pa beth sydd yna'n *chwiltath*?'
Tyngais i'm cyffais mai cath.—*D. ab Gwilym*, clviii. 43.

Chwiltath, *sm.* 'something so small that can only be found by close searching;' any small trifle; a bauble.

Chwiltethyn, *sm.* [dim. of *chwiltath*] 'the least thing that can be found;' a very small thing; a particle; the merest trifle.

Cofia! ni ad Dial *chwiltethyn* ar ei ol na fyddo dan nod Cyflawnder.—*Diareb.*

Chwilydd, -ion, *sm.* [chwil-io] a searcher; an investigator.

Yna un o'r afancwn a agosaodd yn ochelgar at y drylliad, gan fyned a dychwelyd fel *chwilydd*, ac o'r diwedd efe a aeth ar y drylliad.—*Gwyliedydd*, iii. 72.

Chwilyn, -od, *sm.*=*Chwilen.*

Blaguryn, *chwilyn*, blodyn, perth,
Ynt dystion odd ei ryfedd nerth.—*Caerfallwch.*

Chwim, *a.* quickly moving; agile, active, brisk, quick, nimble; speedy; light.

Cymmer hi rhag cam ar waith,
Yn *chwim* yr eloch ymaith.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 110.

Rhydd naid yn *chwim*, a chlyw, neu tybia y clyw,
Swn rhywbeth fal yn suaw wrth ei sawdl.
Iago Trichrug: Y Bedd.

Ffŵent yn drwm o flaen eu *chwim* erlidwyr.
Nicander: Brennus, iv.

I un a droediai ddôl a bryn
A cham mor *chwim*, yn hoewaf merch,
Py daeth y fath newidiad syn!
A! holer hyn gan Feddrod serch!—*Telynegion*, 7.

Pwy *chwimach*, fy wiocach fydd?
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 67.

Tra ar dy ben yr eistedd bythol oleu,
Ac ar dy rudd, pelydron *chwim* yn chwareu.
O. W. Jones: Myrddin Wyllt, xxiv.

Rhyfedd, rhyfedd fod tafodau'n medru symmud mor *chwim*.—*Owen M. Edwards:* Bala i Geneva, 178.

Chwim awyr iach y môr rhydd,
A'i lenydd a'ch adlonant.—*I. G. Geirionydd:* Geir. 103.

Yr ysgafn droed mewn dawns neu hynt,
A *chwim* gorelwai'n ddiddan wedd,
A'r tegwch pryd a weddai gynt,
Sy'n nan ar darf yng nghell y bedd.
Gwyliedydd, vii. 350.

Chwim, -iau, *sm.* 1. motion; impulse.

Heb *chwim*, oes dim mewn damwain!
'Nac oes,' medd rhai. Wyf o'r rhai'n.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 428.

Nid oes ronyn o chwim ynddo, he is quite motionless; it is absolutely immovable.—*Gwent.*

Ar chwim, on a sudden, suddenly.

Ar chwim doai arnat gur
Tost, pwl dy lygaid, ac yn chwiwiaw mewn
Syfrdandawd.—*W. O. Pughe:* C.G. ii. 790.

2. something fleeting and evanescent; a whim, a freak, an odd fancy.

Deallaf weithion, bynnag beth yw'r ffrost,
Nad ydyw cyfaill ond trem haul ar bost,
Ac nad yw cyfeillgarwch byd ond *chwim*,
Neu megys gwagnod yn arwyddo dim.
Blodau Ieuainc, 84.

Chwimder, **Chwimdra,** *sm.* agility, nimbleness, briskness, quickness.

Y maent oll yn cyttuno yn newrder eu hyspryd, bachogrwydd eu pig, teryllidra eu llygaid, *chwimdra* eu hediad, a chryfdwr eu haden a'u hyspagau.
Gwyliedydd, vii. 115 (cf. 116).

Chwimiad, -au, -on, *sm.* a moving or stirring; motion, movement.

Chwip, gan droion chwyrn olwynion
A'u *chwimiadon*, chwai ymhedant.
I. G. Geirionydd: Geir. 105.

Chwimiedydd, -ion, **Chwimiwr**, wyr, *sm.* one who moves; a mover; a stirrer.

Chwimio, **Chwimied,** *v.* to move; to be in motion; to stir.

Daeth i'r berllan yn dân dig,
A *chwimiodd* pob dychymmig.—*Sion Cent?*

Och! am yd ni *chwimiai* un.—*Lewys Mon*, i'r Maen Melin.

Bloeddiais er's hanner blwyddyn,
Ni *chwimiais* y chwe-mis hyn.—*I. B. Hir*, *hf.*

Digitized by Google

Rhoddodd ei enaid i law Dduw, ar ol i'w gorff ef ddioddef angerdd y tân dri chwarter awr heb *chwimio*.
Ch. Edwards: H. y. Ff. 145.

Yr hyn a'm cloffodd, fel nas gallwn *chwimied* o'r unlle well na phythefnos.—*Rhisiart Morys* (Eurgrawn Mon, i. 3).

O'i orchymmyn, i wyraw ni *chwimiodd*,
Da fu y rheol, edifarhaodd.—*Gro. Owain*, 68.

Policarp a ddywedodd . . . y byddai i'r Duw hwnw a roddes iddo galondid hyd yn hyn, roddi iddo amynedd hefyd i ddioddef angerdd y tân heb *chwimio*.
Theo. Evans: D.P.O. 339.

Oddi ar y ddaisar yma *chwimiant*, ac
Hyd lwyr laith ofer-grwydrant yma.
W. O. Pughe: C.G. iii. 504.

Ac yn ddilai dylai dyn
Chwimiaw 'n ol deg gorchymmyn.
Pedr Fardd: Mêl Awen, 107.

Byth na chwimiwyf [=byth na chyffrwyf], may I never stir.—*N. W.*

Chwimiog, *a.* 'having power to move;' full of motion; brisk; agile.

Chwimiol, *a.* motive, moving; brisk, active, stirring.

Chwiml, -au, *sm.* motion.—*P.*

Chwimlad, -au, *sm.* a moving or stirring; motion.

Chwimleian, -od, *sf.* [cf. *chwibleian*, *chwimpleian*]=*Chwibleian*.

Oian a parchellan a parchell guin
Rymdywod *huimleian* chuetil am echrin.
Myrddin: A.B. ii. 23 (M.A. i. 135).

Disgogan *chwimleian* chwedleu o ddyfyd.
Myrddin: M.A. i. 152.

Oian a parchellan a pharchell dyhed
Run dyuueid *huimleian* chwetyl enryuet.
Myrddin: A.B. ii. 23.

Chwimlo, } *v.* to move; to be in motion; to
Chwimled, } stir (in any degree).

Prin y gallaf chwimled, I can scarcely move or stir.—*C.S.*

Chwimllyd, *a.* whimsical, fickle, freakish, capricious.

Chwimllyd yw'r byd ar ei ben,
Chwerw, a sur, a chrasaren.—*Ieuan Tew.*

Chwimmwth, *a.* [chwim+mwth] light and quick in motion; quick, nimble, brisk, speedy, active, swift.

A phan weles ef Walchmei yn dyuot. ef a gyuoydes yn *chwimwth* y vyny.—*St. Greal*, § 118.

Yn ehut *hwimwth* y dodes dros y ben am y vynwgyl.
Bown o Hamtwn, § 38.

Na cham serch, ni chemais i
Yn *chwimmwth* un braich imi.—*D. ab Gwilym*, xii. 41.

Ef a fydd ffel, ac yn *chwimmwth*, ac annoeth ei ystryw a'i ddychymmyg.—*Meddygon Myddfai*, ii. 801.

Hwylus yw, o fawr lesâd,
A'i throediog *chwimmwth* rodiad.
I. G. Geirionydd, Geir. 104.

Chwimmythder, } *sm.* quickness or celerity of
Chwimmythdra, } motion; nimbleness, briskness, quickness, celerity, velocity.

Chwimp, -au, -iau, *sm.* 'a turn, a hap;' a whim, a freak, a freakish humour; a capricious fancy or conceit.

Llawenydd chwaer ddedwydd *chwimp*,
Da anrheg deg yw dy dymp.
Ieuan ab Rhydderch ab I. Llwyd.

Tost yw'r *chwimp* na chaid impiwr
O'r byd ar gelfyddyd gwr,
A fedrai impiaw awen
Ar foncyff prif-fardd hardd hen.—*Gwilym ab Sefnyn.*

Tori fy nghrimp, cael *chwimp* chwith.
D. ab Gwilym, cclii. 21 (cf. cccv. 36).

Nid yw eu helynt hwy yn hyn o beth ddim onid gwatwarwch, a *chwimp* paganaidd, ac ynfydrwydd.
Morus Cyffin: Diff. ii. 17.

Megys y gallwn innau elfyddu rhyw beth, o deuai *chwimp* o'r fath honno i'm pen.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 226.

A phan darawo'r *chwimp* yn eu penau.
Th. Williams: Ymadroddion Bucheddol, 143.

Er, ysgatfydd, na chyfrifir hyn ond megys *chwimp* o rodres gan gantorion mwy syber.
Ieuan Glan Geirionydd: Geir. 432.

Chwimpleian, -od, *sf.* [chwimp+lleian]=*Chwibleian*, *Chwimleian*.

Oian a parchellan a pharchell dyhed
Rym dyweid *chwimbleian* chwedel anrhyfed.
Myrddin: M.A. i. 135.

Chwimpus, *a.* whimsical, freakish, capricious.

Chwimpyn, *sm.* a whim; a capricious fancy or conceit; a freak.

Blingar ar imp ei *chwimpin*
Crechwen-fain g'oedd, a'i floedd flin.
Dafydd ab Gwilym, cxii. 23.

Chwimsi, ïau, *sm.* [E. *whim*, *whimsey*] a sort of capstan, generally worked by horse power.

Gormod o awydd sydd arnynt i osod ar gân yr hyn a wyddant, i gael hamdden i ddysgu yr hyn na wyddant; ac felly parhânt drwy eu hoes, fel ceffyl mewn *chwimsi*, yn troi byth a hefyd yn yr un man.
J. Rhys (Cymmrodor, ii. 172).

Chwin, -ion, *sm.* activity; toil.—*P.* Probably evolved from *chwinsaf* or *chwinsang*.

Chwinsa, *sm.*=*Chwinsaf*.

Chwinsaf, } -au, *sm.* [A.S. *œfensang*, mod. E.
Chwinsang, } *evensong?*] 1. evensong, vespers.

2. the time of evensong or vespers; the evening; the close of the evening.

Reit yw ymi heb ef vynet y wassanaethu arnaw ef y *chwinsaf*. Dos heb ynteu ac annerch y gennyf i ef. a dywet idaw mi a af y ymwelet ac ef y *chwinsaf*.—*Mabinogion*, 277.

Ha wrreic y neb pieu y gelein ti ae gwely yma y *chwinsaf*.—*Mabinogion*, 116.

Pan wo nos i *chwinsaw* de vinet ti i twillaw egwilwir gwir Groec eni delint ar talim odiwrth illu im erbini val icafwiv idiwetha.—*Brut Gr. ab Arthur* (A): M.A. ii. 94.

A gwedy hynny mi ae briwaf mywn morter. ay sud yn ehelaeth a uyryaf yn y tunelleu gwin. a ffan vo Garsi *ychwinsa* yn swperu dechreu nos. mi a wassanaethaf arnaw ae gedymdeithon or gwin hwnnw yn ehelaeth didlawt.
Bown o Hamtwn, § 27.

Chware chwinsaf, a merry night or dance: also called *noswaith lawen* and *twmpath chware*.—*P.*

[The country lasses dance in the churchyard after evensong.—*Overbury*, 1613.]

Chwintan, -au, *sm.* [E. *quintain*, †*quintaine*, *whintaine:* Fr. *quintaine;* L.L. *quintana*] a quintain: 'a hymeneal game thus acted: A pole is fixed in the ground, with sticks set about it, which the bridegroom and his company take up, and try their strength and activity in breaking them upon the pole.'—*P.* The word is not Welsh, nor does the game appear to be of Welsh origin. The ordinary and colloquial form of the word is *cwinten*, as given by Walters.

Saethu cwinten, to run at quintain.—*W.*

With the view of giving it a more decided Welsh form or appearance, it has sometimes been written *gwyntyn* (as if connected with *gwynt*, wind).

Digitized by Google

Y mwyaf arswydus o bob anhawsder a ddyfeisiwyd i'w rhwystro yn y blaen, oedd y *Gwyntyn;* yr hwn a wnelid o bost syth, ar ben yr hwn yr oedd trosol yn troi oddi amgylch yn hawdd ar begwn.
Hynafion Cymreig (1823), 111 (cf. 119, 134).

Salesbury's orthography is *chwintyn*:
Chwintyn i daro wrthi, a quyntyne.

Chwiog, } *pl.* chwiogod, *sf.* a cake; a muffin;
Chwiogen, } a manchet; cake-bread, sugar-bread. 'In Mon, it is a wafer made of milk, flour, and sugar, used by the Romanists in thé communion, and made more particularly on new-year's day.'—*P.*
Chwiogen farlys ulaidd, a'i chrasu dan y lludw.—*S. W.*

Chwiogen grai, an unfermented cake.—*S. W.*

Chwiongl, -au, *sf.* [chwi+ongl (*P.*)] 'a sudden turn;' cunning, craft, intrigue.

Ac ef a ddyallawdd eu dichell [**chwiongl*] wy.
W. Salesbury: Luc xx. 23.

Ar *chwiongl* yn y conglau,
A'i llabir gwaed mewn llwybr gau.—*Seren Gomer,* iii. 316.

Chwiorawl, *a.* having activity or life.—*P.*

Chwiori, *v.* to move or turn briskly; to whirl.—*P.*

Chwiorydd, }
Chwioredd,† } *s.* pl. of *Chwaer,* q.v.

Nid oes neb a'r adawodd dŷ, neu froder, neu *chwiorydd,* neu dad, neu fam, neu wraig, neu blant . . . a'r nis derbyn ar y canfed yr awr hon y pryd hyn: tai, a broder, a *chwioredd,* a mamau, a phlant, a thiredd, gydag erlidiau.
W. Salesbury: Marc x. 29, 30.

Yr hen wragedd, mal mamau, y rhai iefainc mal *chwioredd.*—*Esg. R. Davies:* 1 Tim. v. 2.

Anyd yw ei *chwioredd* oll y gyd â nyni?
W. Salesbury: Matt. xiii. 56 (cf. xix. 29; Luc xiv. 26).

Mae achreth, hiraeth, a haint,
I'w *chwiorydd* a cheraint.—*Huw Morus:* E.C. i. 8.

Chwip, -iau, *sm.* a quick turn; a sudden motion; a flirt.

Gyda chwip y dydd, with the early dawn; at the peep of day.—*S. W.*

Chwip, *a.* quick; sudden, instant, immediate.

Chwip, *adv.* quickly, instantly, immediately.

Bydd di gynnil ar dy geiniog;
Chwip yr â, hi ddaw yn ddiog.—*Diareb.*

Y llanw *chwip* a dreia.—*Huw Roberts Lên?*

Mae rhai yn credu gallant,
Trwy'u gwaith a'u gweddi eu hun . . .
Gael dianc poenau uffern,
A dringo *chwip* i'r nef.
Rhys Prichard: C. y C. xii. 11 (cf. cvi. 40, 66).

Duw a'm rhagfaena innau *chwip;*
Caf weled trip i'm gelyn.—*Edm. Prys:* Salm. lix. 10.

Chwip, -iau, *sf.* [from E. *whip*] a whip.

Fal y mae certweiniwr yn curo ei feirch â'i *chwip* ne'i ffangell, ac yn eu baeddu'n dost, pryd na thynant . . . felly Duw a'n curiff, ac a'n ffiangelliff ninnau pan na wnelom yr hyn a ddylom.—*Huw Lewys:* Perl (1594), 46.

O herwydd y sel hon yr ymlidiodd ein Iachawdwr Christ, â ffiangell neu *chwip,* y prynwyr a'r gwerthwyr allan o'r deml.—*Ed. James:* Hom. i. 193 (cf. iii. 61).

Ni chyflyma gwŷr y *chwip* ddim. . . Y mae'r cerbydwr yn eithaf parod i glecian ei *chwip.*
O. M. Edwards: Tro yn yr Eidal, 89, 90.

Chwipiad, -au, *sm.* a moving briskly, nimbly, or suddenly; a whisking; a whipping.

Chwipio, } *v.* to move quickly, speedily, or
Chwipo, } briskly; to whisk; to whip.

A'r cythraul sy'n wr cethrin
I'w *chwipio* dan floeddio'n flin.—*Th. Prys.*

A'r Apostolion, er darfod eu *chwipo* a'u ffiangellu hwy y dydd o'r blaen . . . eto hwy a ddaethant drannoeth yn foreu i'r deml.—*Ed. James:* Hom. ii. 7.

Chwipsur, *a.* very sour or tart; as sour as vinegar.—*S. W.*

Chwipyn, *sm.* 'a sudden turn,' an instant.

Chwipyn, *a.* quick, instant, immediate.

Yn chwipyn, instantly, immediately, quickly, at once, forthwith.

Ac ar hyny, dyma'r sawdwyr eu gyd, un ac arall, yn neidio'n *chwipyn* ar eu traed.
Theo. Evans: D.P.O. 86 (cf. 107).

Tra yr elai'r llwynog yn llechwrus i'r buarth i ddwyn yr oen, yr hwn, pan ei dygodd i'w gydymsaith, llimprodd hwnw ef *yn* bur *chwipyn.*—*Brython,* ii. 201.

Chwipyn, *adv.* quickly, immediately, instantly, at once, forthwith.

Tyred, Arglwydd Iesu, tyred *chwipyn.*
Morgan Llwyd: Cyfarwyddyd i'r Cymry, ‡ 12.

Yr wyf yn ofni y collwn yr hen feddiant a'n marchnad yno yn glir, oni phalmantwn *chwipyn* ryw ffordd newydd yn dramwyfa iddynt.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 103 (cf. 19, 55).

Oddi eithr eu bod yn . . . llosgi ambell bentref yn awr a phryd arall, ac yno *chwipyn* ar gerdded.
Theo. Evans: D.P.O. 78.

Fe fydd ein heneidiau *chwipyn* wedi eu dadlwytho oddi wrth yr holl dueddiadau drwg hyny ag sydd mor fynych yn ein gwneuthur yn glaf, yn ddiorphwys, ac yn aflonydd.
Iosua Tomas: Buch. Grist. 162.

Nid yw pellen bywyd undyn
Ond ber a brau, yn darfod *chwipyn.*
Rhys Prichard: C. y C. lxxxix. (b) 6.

Chwired, -au, *sf.* [chwi (*sm.*)+rhed (*P.*): cf. Ga. *cuireid;* E. *quirk*] 'a sudden start or turn;' craft, cunning, deceit; a shift, a subterfuge; a quirk.

Chwiredu, *v.* to act craftily, cunningly, deceitfully, or evasively; 'to play sly tricks.'

Chwiredus, } *a.* cunning, crafty, deceitful, sly,
Chwiredol, } artful, tricksy, evasive.

Chwiredwr, wyr, *sm.* a cunning or crafty person; a trickster.

Chwiredyn, *sm.* a tricking or crafty fellow, a sly tricker.

Chwirligwgan, } *sf.* [E. *whirligig*] a whirli-
Chwirligwgon, } gig.

Cerys Bwll, megys am eigion y trai,
Troad *chwirligwgon.*—*Gruffydd Hiraethog.*

Ac agwedd *chwirligwgon*
A grawn pysg ar wyneb hon.—*Sion Tudur.*

Mi a glywais un â'm clustiau yn dywedyd weled o hono efe lwdn gafr yn cymmeryd (rhag ei ddala) y llyn hwn arno; a phan gyntaf ag yr aeth i'r dwfr, efe a droes, fel y gwelech chwi *chwirligwgan,* hyd oni foddodd.—*Brython,* iii. 385.

Chwisgi, *sm.* [Ir. and Ga. *uisge-beatha*] whiskey.

Yr oedd ganddynt hen gist i ateb yr un diben, a'u holl ymborth oedd ychydig flawd ac ychydig *chwisgi.*
Cylchgrawn, ii. 15.

Chwistlen, } *pl.* chwistlod, chwistlenod, *sf.* the
Chwistl, } shrew, shrew-mouse, or field-mouse: also called *llyg, llygoden goch,* and *llygoden y maes.*

Y mae math arall o *chwistlen,* ychydig yn fwy o ran maintioli na'r gyntaf.—*Gwyliedydd,* vii. 273.

Chwistrell, -au, -i, *sf.* [im.] a syringe, a squirt.

Berw y cwbl yng nghyd, gan eu cymmysgu yn ofalus yr holl amser tra berwont, a dod mewn *chwistrell* yn glauar, a'i yru'n y clust ar wlan oenen ddu.
Meddygon Myddfai, ii. 90 (cf. p. 296).

Troeglwyddwyd cawl yn gymmysgedig â gwin . . . i fyny i'r coluddion, gyda *chwistrell.*—*Cylchgrawn,* ii. 7.

Digitized by Google

Chwistrelliad, -au, the action of syringing or squirting.

Chwistrellu, } *v.* to syringe, to squirt; to in-
Chwistrello, } ject.

Tarawodd rhai ef [Andronicus] ar ei ben â chlwpaod, rhai a lanwasant ei ffroenau â dom, ereill â chwistrellau yn *chwistrellu* yn ei wyneb sugn tom dynion ac anifeiliaid, ereill yn gwanu ei ystlysau â berau.
Elis Lewis: Drexelius, 152.

Chwistrellog, *a.* syringing, squirting.

Chwistrellydd, -ion, } *sm.* one who uses a
Chwistrellwr, wyr, } syringe; one who injects.

Chwistringo, *v.*=*Chwystringo.*—*W.*

Chwit, -iau, *sm.* [im.: Br. *c'houitel*] 1. a whistle or whistling.—*Gododin,* 856.

2. [cf. *chwid, chwidial*] a twitter (as of a swallow).

Na *whit* gwennol lon foreuol,
Yn y lwfer uwch y tân.—*D. Davis:* Telyn Dewi, 30.

3. (*f.*) a whistle, a small wind instrument.

Chwit chwat, *a.* [formed by reduplication of *chwid;* like Eng. bibble-babble, chit-chat, riff-raff, and the like] fickle, inconstant, changeable, unsteady; flighty; wavering; shilly-shallying; silly; flitting.

Pob *chwit chwat* yn lladrata
Pennillion prydyddion da.—*Sion Tudur.*

Yr hwn sy'n teithio môr a thir,
Er caffael gwir gyfeillion,
Gwilied ei fod yn rhy *chwit chwat,*
Rhag taro at elynion;
Gan fod bleiddiaid, lawer laid,
Yn awr fal defaid dofion.—*Ystên Sioned,* 111.

Nid yw ef yn *chwit chwat* meddal,
Deil yr un mewn dwr a thân:
Mae'n ei feddiant drysor gwerthfawr,
Calon a chydwybod lân.—*Caledfryn:* Caniadau, 233.

Nid yr adar yn unig a ddadebrir ar y tymmor hwn: gwelir yr ystlum yn *chwit chwat* o amgylch yr ysgubor.
Cylchgrawn, ii. 122.

Dyn chwit chwat, a fickle person, a whiffler.

¶ Dr. Pughe's entry is: 'Chwitchwat, *sm.* [chwid—chwad] a sly pilferer.' The expression, which is adjectival, is by no means uncommon in some parts, and is usually written, and is always pronounced, as two distinct words with the stress on the last. Sion Tudur, in the first of the preceding quotations, refers to some fickle or brainless persons who were in the habit of appropriating to themselves the compositions of superior poets. They were pilferers or plagiarists; but *chwit chwat* does not convey that meaning at all.

Chwittafad, *sm.* small drink or beer.

Gildiais yn ddinidr ddihaint,
Gildiad mal goleuad saint:
Gildiad, nid *chwittafad* hallt,
Gildwyn ar fy nyn goldwallt.
Dafydd ab Gwilym, ccxiii. 3.

Chwith, *a.* 1. left; sinister, not right; left-handed.

Y llaw chwith, the left hand.

Ereill a ddodant yr ebillion bob un ail pen y bys, un at y llaw ddeau, a'r llall at *y llaw chwith.*—*Barddas,* i. 146.

Yna cododd Satan, diawl yr Hug, oedd nesaf i Luciffer ar ei *law chwith.*—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 105.

Y tu chwith, the left side; the reverse side; the wrong side.

Ar y pen hyny o'r ebill a fo drwy'r garfen y pillwydd, y *tu chwith,* y gwneir rhynt ei rif, ac felly ar bob un ei rif.
Barddas, i. 148.

Y ochr chwith, the left or sinister side.

Lleden chwith, a turbot.

Bedo chwith, Bedo the left-handed.

Bedo Chwith biau adail,
Hywel y fron hael fu'n ail.
L. G. Cothi, IV. xxvii. 5 (cf. xxv. 3; xxvi. 3).

Dafydd *Chwith* ab Gruffydd ab Caradog.—*Achau.*

2. sinister, awkward, untoward; unpleasant; sad; unusual, unaccustomed; strange; amiss.

Teyrnas yth law lid Gereint nyd *chwith.*
Ll. ab Llywelyn: M.A. i. 286.

A *chwithed* hyny gantho oni holltes gan yr amgerth.
Barddas, i. 48.

Gwaeth na gwynt helynt hydref,
O'm chwyth,—y mae yn *chwith* ef!
D. ab Gwilym, xxvii. 23 (cf. clviii. 14).

Gwaith mawr, ond gwaith salw a *chwith,* yw adrodd helynt y Cymry.—*Theo. Evans:* D.P.O. 3.

Chwith ydyw pob peth a eler yn *chwith* yn ei gylch.
Diareb.

Nid *chwith* y pryd hyny i'r forwyn arferu
O'i bodd ymdrybaeddu a chrafu'n ei chrys.
Edw. Richard: Bugeilgerdd, ii. 26.

Ond fod hen flaidd o olwg *chwith*
Yn d'od i'w plith ar droion.—*Daniel Ddu,* 136.

Bydd yn chwith iddo, it will be awkward or strange for him; he will repent it.

Cymmeryd peth yn chwith, } to take a thing
Bod yn chwith gan un beth, } amiss; to be offended at a thing; to take umbrage.

Chwedl chwith, a sad tale; sad or mournful news or tidings.

Gwae finnau fyth! mae'n *chwedl chwith* glywed yr hanes yna!—*Gro. Owain,* 310 (cf. 174).

Mae yn chwith am dani, she is greatly or sadly missed.

Mad enaid! *chwith am dani,*
A phrudd hwn ei phriddo hi.—*Gro. Owain,* 50 (cf. 19, 66).

Chwithau, *pr. pl.* [pron. *chwi* and the suffixed syllable *-tau,* which is found affixed to all the personal pronouns (cf. Lat. *-met* and *-te,* added to the personal pronouns). It gives prominence to those persons in comparison with another or others. It has a conjunctive and sometimes an antithetic force; and in some cases it cannot well be expressed in English without some circumlocution] 1. you also, you too, and you, you (emphatically); you (on the other hand); you (as opposed to, contrasted with, or distinguished from others); yourselves.

Yn llawen heb yr Arthur a gwnewch *chwitheu.*
St. Greal, § 6.

A *chwitheu* dowch yr llys.
Mab. 292 (cf. 24, 66, 67, 72, 115, 118, 137).

Mi adlyaf dref tat gyt a *chwitheu.*—*C.C.* ii. 736.

Ac velly gwnewch *chwitheu* y hwn.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. 163 (cf. 158, 222).

Chwithau y seiniau synioch am dangnef.
Madog Dwygraig: M.A. i. 482.

Nini a gadwn dedfeu Duw. a *chwitheu* gorwac orchymynneu dyn gorwac. Nini a gredwn y Duw Dat ar Mab ar Yspryd Glan. ac ae hadolwn. *chwitheu* a gredwch ac a adolwch y diawl.
Yst. de Carolo Magno, col. 393 (cf. 394, 459, 472).

Digitized by Google

A *chwithau* a fywhaodd efe.—*Eph.* ii. 1 (cf. 22).

Pa bethau bynnag oll a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch *chwithau* iddynt hwy.
Matt. vii. 12 (cf. xx. 7; xxv. 9).

2. used (like *chwi*) in addressing the second person singular (*tithau*). Cf. *Chwi* 2.

A *chwithau*, rhwng banau'r byd,
A'm rhif i'm heuraw hefyd.—*L. G. Cothi*, 1. xx. 25.

Pan soniwyf fi am geffyl, soniwch *chwithau* am gaseg.
Diareb. (M.A. iii. 188.)

'*Chwithau* Asmodai, mae yn gof genym oll eich gwasanaeth mawr chwi gynt.' . . '*Chwithau* Asmodai, pensaeth Anlladrwydd, beth a dalech oni bai Ddiogi a Seguryd?'
E. Wynn: Bardd Cwsg, 108 (cf. 32, 35, 55, 57).

Yr wyf yn mawr ddiolch iddo ef a *chwithau* am eich caredigrwydd.—*I. B. Hir:* Gwaith, 210.

Chwithder, **Chwithdod,** **Chwithdra,** *sm.* awkwardness, untowardness; strangeness; astonishment; unpleasantness; sadness; an unpleasant feeling; a strange or queer sensation; a feeling of regret or bereavement; flatness, insipidity.

Chwithaf o bob chwith yw *chwithder* meddwl.—*Diareb.*

Mi a'u rhoddaf hwynt i'w symmud i holl deyrnasoedd y ddaiar, yn felltith, ac yn *chwithdra*, ac yn chwibaniad, ac yn warth ym mysg yr holl genedloedd.—*Ier.* xxix. 18.

Wedi myned o'r olygfa drosodd, clywai y gwr a'r wraig ryw gymmaint o *chwithdod* a difiasder yn dyfod drostynt.
Ystên Sioned, 13.

Bydd y *chwithdod* a'r golled yn fawr ar ei ol yn esgobaeth Bangor.—*Haul*, 2 C.C. viii. 157.

Chwithiad, -au, *sm.* a making sinister; a becoming awkward or strange; strangeness.

Yna gadai ef, mal pe
Bussai ei orphwysiad, *chwithiad* hun.—*Diwygiwr*, iv. 204.

Chwithig, *a.* 1. sinister, sinistral, left, left-handed.

O'r holl bobl hyn yr oedd saith gant o wŷr yn *chwithig*.
Barn. xx. 16.

2. sinistrous, awkward, strange; untoward, uncouth; inauspicious; unlucky; unpleasant, sad, disagreeable; perverse; bad; wrong.

Perthyna i bob iaith eu dull ymadrodd cyffredin, yr hwn a ymddengys yn *chwithig* neu galed mewn iaith arall.
Gwyliedydd, vi. 2 0.

Chwythodd, a throdd o *chwithig*
Fyrdd o ddail yn ei fawr ddig.—*Dafydd Ionawr*, 67.

Edrych yn chwithig, to look askance.

Y sawl o'r Brytaniaid ag oedd â'u llygaid yn agored, a *edrychasant yn chwithig* ar y fath lu gormesol o farbariaid arfog yn tirio heb gennad.—*Theo. Evans:* D.P.O. 99.

Dyn chwithig, a dangerous man; a bad or vile fellow.

Tu chwithig, the wrong side.

Chwithigrwydd, *sm.* sinistrality; awkwardness, uncouthness, untowardliness; ugliness; chagrin; villany.

Rhwng *chwithigrwydd* ac ammhrydlonwch yr hwyliad.
Elis Wynn: Rhag. Ll. G. Gyffredin 1710.

Chwithlyd, *a.* dull and inclined to be chilly (as to the weather); somewhat insipid or flat.

Mae hi yn chwithlyd heddyw, it is rather chilly to-day.—*S. W.*

Chwithni, *sm.* = *Chwithdod, Chwithder.*

Daeth rhew glew i'n gwlad i'n irad oeri,
A *chwithni* yn ei chwyth-nad.—*Cyfrinach y Beirdd*, 150.

Chwitho, *v.* to be astonished at hearing or seeing anything strange and shocking; to feel awkward or unpleasant; to be in a dilemma; to be astonished or amazed; to be unpleasantly affected; to be annoyed; to be flat or insipid.

Chwithodd a synodd arnaw weled ellyll.—*R.*

Chwitho ar un, to be dismayed.

Mae y ddiod wedi chwitho, the drink has become stale or insipid.—*S. W.*

Chwithol, *a.* sinistrous; perverse.—*P.*

Chwithrwd, *sm.* a hissing, a hiss.

Mae ei *chwithrwd* cyfuwch ag y gellir ei glywed o gryn bellder.—*Anianyddiaeth Ysgrythyrol*, 99.

Chwithrwd seirff, the hissing of serpents.

Chwithrwd, *v.* [chwyth? or im.?] to make a noise; to rustle; to hiss (as a serpent).

Chwithrwydd, *sm.* 1. sinistrality, awkwardness; annoyance.

Ac Einigan yn gweled hyny, mawr y bu *chwithrwydd* iddo.—*Barddas*, i. 48.

2. an apparition, spectre, or phantom.—*S. W.*

Yn ol y drych a dynid ar yr aelwyd o'r *chwithrwydd* hwn, rhyw haid oeddynt o gwn bychain, a chi mawr yn eu blaenori, rhyw lawer yn fwy na chenedl y bytheuad.
Brython, iii. 22.

Chwiw, -iau, *sm.* 1. a quick or sharp turn; a whirl; a sudden fit; a sudden disappearance.

Chwareu chwiw, the play of hide and seek, in which the one who hides himself calls out '*chwiw*,' when ready for the search to be made.

Ar chwiwiau, by fits.

Ar chwiwiau a rhuthrau, by fits and starts.

2. a fit or attack of any disorder.

Chwiw o annwyd, a fit of cold.

Mae rhyw chwiw arno, he has a fit or attack of some illness.

3. shortness of breath.—*Arch. Brit.* 215.

4. a fever.—*P.*

5. (cf. E. *whew*) a widgeon.

Chwiwbigo, *v.* [chwiw+pigo] to pilfer, to pick, to filch.—*W.*

Chwiwder, *sm.* flightiness, levity, instability.

Mynych y daw yn wall arnaw chwerthin ac ymgroesanu, am nas gwypo gan *chwiwder* a gwylltineb y cyfnywydd gwaedryar.—*Meddygon Myddfai*, ii. 799.

Chwiwdwll, dyllau, *sm.* 'a hole to run in and out of; a retreat;' a lurking-hole, a hiding-place.

Chwarren laith a'i gwaith yn god,
A *chwiwdwll* yn ei cheudod.—*Huw Machno*, i'r Gibwst.

Chwiwell, -au, -iaid, *sf.* [chwiw] 1. a lively, brisk, or active one.

2. (in ornithology) a widgeon, a whew or whewer (*Annas Penelope*).

3. (in ichthyology) the female salmon, the spawner: also called *gwiwell*, *hwyfell*, and *hwyddell*; and in some parts it is the salmon in the last stage but one of its development.

4. a lively, sprightly, or flighty girl: also called *gwiwell*.—*Gwent.*

Chwiwgast, geist, *s.* fem. of *Chwiwgi*, q.v.

Digitized by Google

Chwiwgi, *pl.* chwiwgwn, *sm.* [chwiw+ci] a prying dog; one that is apt to thieve, a pilferer; a rogue, a rascal.

Byddwch bybyr a nerthol, O Frytaniaid; yr ydym yn ymladd ym mhlaid yr achos goreu yn y byd; i amddiffyn ein gwlad a'n heiddo a'n rhydd-did, rhag carnladron a *chwiwgwn.*—*Theophilus Evans:* D.P.O. 45.

Ofni yr ydwyf fod rhyw *chwiwgi* wedi difrodi fy llythyr.
Gronwy Owain, 335.

Ai ti yw'r *chwiwgi* melyn,
A fagwyd yng Nghilrhedyn,
A gadd oddef heyrn yn ddig
O achos cig dau fochyn?—*Hen Bennill.*

Na charia mewn gyrfa'n gaeth
Mwy'r *chwiwgi* i'th marchogaeth.
Dewi Wyn: Blod. Arfon, 217.

Y chwiwgi bach! you little rogue (familiarly spoken to a child).

Chwareu y chwiwgi, to play the rogue.

Chwiwgïaidd, *a.* roguish, knavish.

Chwiwiad, -au, *sm.* a rapid or sudden motion; a turning about; a pilfering.

Fel *chwiwiad* esgyll elyrch
Is haul cannaid, caiâ eu cyrch.
I. G. Geirionydd: Geirionydd, 89.

Chwiwiaid, *s.pl.* 1. widgeons. 2. the female salmon.

Chwiwian, } *v.* 1. to turn or dart about; to
Chwiwan, } fly here and there; to disappear
Chwiwio, } suddenly; to pilfer, to filch, to commit petty thefts.

Fe fyddai yn fwy dewisol o lawer i ddynion i wasgaru a dattod oddi wrth gymdeithas eu gilydd, a byw ar neilldu fel y mae pryfed yn gwneuthur, wrth yspeilio a *chwiwio* ar eu gilydd, na byw yng nghyd, fel y rhaid iddynt yn y fath gyflwr o anghyfiawnder.—*Iosua Tomas:* Buch. Grist. 133.

Yn y chwa, 'r rhai hyny'n *chwiwio,* y meirch
Mewn mawr-chwydd yn prancio.
Caledfryn: Caniadau, 138.

2. [=chwyfio] to flutter; to wave.

Mae gwychion frith fanerau yn *chwiwio* yn y gwynt.
I G. Geirionydd: Geir. 297 (cf. 196, 298).

Chwiwiata, *v.* [chwiwiad] to pilfer, to pick, to filch, to purloin.

Pa rai yn benaf yw y pechodau a waherddir yn yr wythfed gorchymmyn? . . . Pob rhyw ledrad, a chyssegryspeiliad. . . *Chwiwiata* pethau bychain.
Griffith Jones: Hyfforddiad, 168.

Chwiwiol, *a.* apt to twirl; frisky; volatile.

Chwiwladrad, } -au, *sm.* small theft, petty
Chwiwledrad, } larceny; a pilfering, a picking, a filching.

[Dedfrydwyd] un arall, a gafwyd yn euog o *chwiwledrad,* dros dri mis.—*Seren Gomer,* iv. 187.

Chwiwladradaidd, } *a.* of the nature of petty
Chwiwledradaidd, } theft; pilfering; apt to steal or purloin.

Chwiwladrata, } *v.* to commit small theft, to
Chwiwledrata, } pilfer, to filch, to pick.

Chwiwladrones, -au, *sf.* a female pilferer.

Chwiwleidr, ladron, *sm.* a pilferer, a filcher, a petty thief, one who pries about to steal, a purloiner.

Pan dybiodd y *chwiwladron* fod y llong wedi sefyll ar y traeth, heidiasant yno, fel gwenyn ym mis Mai.
Cawrdaf: Meudwy, f. 26).

Chwiwleidryn, *sm.* one who pries about to steal; a petty thief, a pilferer, a filcher.

Chwiws, *s.pl.* widgeons.

Y mae yma hwyaid a cholomenod gwyllt ion, *chwiws,* bronddu y twynau, giach, &c.—*Gwyliedydd,* iv. 182.

Chwiwyll, -iaid, *sm.* a lively person; a flighty fellow.—*Gwent.*

Chwychwi, *pr. pl.* [chwi+chwi] 1. the reduplicative and antithetic form of *chwi:* you or ye (with emphasis); you yourselves (*vosmet*).

Ac yma y dywawt ef *chwchwi* a welsawch yr hynn ydoedewch yn y damunaw. *chwchwi* eissyoes Galaath Paredur a Bwrt. nys gwelsawch chwi yn gyngwplet ac y gwelwch rac llaw.—*St. Greal,* § 68.

Yr Arglwydd a'ch chwanega chwi fwyfwy, *chwychwi* a'ch plant hefyd.—*Salm.* cxv. 14.

Chwychwi holl weithredoedd yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd.—*Ll. G. Gyffredin* (Benedicite, fq.).

Chwychwi yn awr, bendefigion, sy'n meistroli yma, gorchymmynwch chwi gan hyny iddynt.
Theo. Evans: D.P.O. 277.

Chwychwi benaethiaid Annwn, tywysogion y Fagddu anobaith!—*E. Wynn:* Bardd Cwsg, 85.

Ae *chwichwi* tyghetuenneu pa le y kerdwch chwi dros awch gnotaedic hynt.—*Y st. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 67.

O *chwychwi* benhyrddod, pwy bynnag ydych, a'r dyhiraf a'r lleiaf eich ystyr o'ch holl genedl.
Dr. I. D. Rhys: Gram., Rhag. 8.

Eithr *chwychwi* nid felly y dysgasoch Grist.—*Eph.* iv. 20.

Chwychwi drafaelwyr môr a thud,
Y byd i gyd a'i gyrau.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 68.

Chwychwi eich hunain, } you yourselves, ye
Chwychwi eich hun, } yourselves, your own selves.

Chwychwi eich hunain ydych dystion i mi.—*Ioan* iii. 28.

2. used (like *chwi* and *chwithau*) in addressing the second person singular (*tydi*): you, you yourself.

'Syre,' ebr yntau, 'gwybyddwch mai fi, ac nid chwi, yw'r Bardd Cwsg; ac a ges lonydd yma er's naw cant o flynyddoedd gan bawb ond *chwychwi.*'—*E. Wynn:* Bardd Cwsg, 55.

Chwychwi, Ddafydd, a haeddech uchel glod am roddi o honoch anghraifft mor wiw i'ch cyfeillion.—*Walters.*

Chwychwi, a'ch cyffelyb, ni chredwch ddim o air Duw, ond yr hyn a weloch chwi yn dda.
Robert Llwyd: Llwybr Hyff. 160.

Chwychwi eich hunan, } you yourself, your own
Chwychwi eich hun, } self.

Chwychwi yw ein penaeth, you are our captain.—*W.*

¶ The change of *i* into *y* in this and the other reduplicative personal pronouns is euphonic. *Chwychwi* is sometimes erroneously written *chwchwi, chychwi,* and *chychwy.*

Chwychwithau, *pr. pl.* the antithetic and conjunctive extension of *chwi:* ye or you yourselves (also, indeed, on the other hand); your own selves. Also used in addressing the 2nd pers. sing. Cf. *Chwi, Chwithau.*

Mawr y mae gwell y bwystuileit no chwi. y rei yssyd yn adnabot. ac yn moli eu Creawdyr. ac eu Harglwyd. *hwchwitheu* dynyon a wnaethpwyt ar ffuryf Duw ehun. ac ar y werthuawr drych nys etwenwch.—*Buchedd Mair,* § 32.

The corresponding singular *tydithau* is of more frequent occurrence.

Heddyw, *tydithau* haeddol
Sydd ddewraf, hydraf o'u hol.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 42.

Chwyd, -ion, -au, *sm.* ejected matter, ejection; vomit, vomiting, spew.

Chwyt yw cymryt gormodh bwyt neu dhiawt ony orpho y atuer dracheuyn a hynny trwy chwydu.
Ymborth yr Enaid, § 9.

Chwyd awyr, a gelatinous substance often found in wet meadows; star-shoot, star-jelly (*Tremella meteorica*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 115, 180.

Y waret dafadennau kymer *chwyt awyr* ac ir wynt, a hwy a ddiflannant.—*Meddygon Myddfai.* (H.D.)

Digitized by Google

Chwydalen, *pl.* chwydalau, *sf.* a watery blister; a blister.

Codi yn chwydalau, to rise in blisters, to blister.—*S. W.*

Chwydalu, *v.* to raise blisters; to blister.

Chwydaw, *v.* [cf. *chwido, chwidog,* &c.] to gesticulate; to trick.—*P.*

Chwydawiaeth, -au, *sf.* gesticulation, buffoonery, antic tricks.—*P.*

Chwydawydd, -ion, *sm.* one full of antics or tricks, a buffoon, a merry Andrew.

Chwydedigol, *a.* vomitory, vomitive.—*W.*

Chwydfa, -oedd, fëydd, *sf.* 1. a place of vomiting or ejection.

2. vomit, vomiting, ejected matter.—*M.A.* i. 489.

Megys y mae y ci yn dychwelyd at ei *chwydfa;* felly y mae y ffol yn dychwelyd at ei ffolineb.
Diar. xxvi. 11 (cf. Esa. xix. 14; xxviii. 8).

Rhaid i ni ollwng trwy'n geneu'r peth pan ei gwelom ar y llawr sy ffieiddiach genym na buriau neu *chwydfa.*
Elis Wynn: Rh.B.S. 83.

Chwydiad, -au, *sm.* a vomiting, vomition.—**Chwydad,** *M.A.* i. 286.

Ymchwel cwpan deheulaw yr Arglwydd atat ti, a *chwydiad* gwarthus fydd ar dy ogoniant.
Hab. ii. 16 (cf. 2 Pedr ii. 22).

Sylwedd a daflesid o goluddiad y ddaiar gan *chwydiad* tanllyd y pyllau a'r simneiau llosg.—*Cawrdaf:* Meudwy, 208.

Chwydiedydd, -ion, *sm.* one who vomits.—*W.*

Chwydlawn, *a.* full of vomited matter; nauseous, disgusting.

Rhag diddawn *chwydlawn* chwedlau . . .
Rho ffrwyn yn dy enau.—*Seren Gomer,* iii. 52.

Chwydlyd, *a.* causing vomiting, vomitive, sickening, nauseous, loathing; subject to vomiting; glutted; disgusting.—*W.*

Casgl gigleu chwedlau *chwydlyd* gornettwr.
Madog Dwygraig: M.A. i. 490.

Cas yw bloedd ac yspleddach a chwedlau
Y *chwydlyd* ddynionach.—*Pedr Fardd:* Mêl Awen, 18.

Chwydlyn, -au, *sm.* a vomit, a puke.

Chwydog, *a.* inclined to vomit; cloyed, glutted.

Mae y farchnad yn chwydog heddyw, the market is glutted to-day.—*S. W.*

Y mae yr yd wedi myned yn chwydog, there is a glut of corn.—*W.*

Chwydr, -oedd, *sm.* [chwyd] ejected matter, what is vomited.—*P.*

Chwydrach, *s.pl.* rubbish, ejected stuff.—*Gwent.*

Chwydredd, -au, *sm.* ejected or vomited matter; corruption; rottenness.

Chwydredd y ser, (=chwyd awyr) star-jelly, *Chwydredd ser,* star-shoot (*Tremella meteorica*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 115.

Chwydu, *v.* to vomit, to spue, to eject; to throw up; to puke.—*M.A.* i. 61.

Yf dwfyr twym, a hynny a beir *chwydu* yr aflachuster a uo yth gylla.
Meddygon Myddfai, i. 188 (cf. 130, 133, 135, 136).

Pei cai dwyll fias ar ei frynti, efe a *chwydai* ei berfedd allan.—*Dosth. y Cymry:* M.A. iii. 52.

Am hyny yr ydwyf yn ymweled â'i hanwiredd yn ei herbyn, fel y *chwydo* y wlad ei thrigolion.
Lef. xviii. 25 (cf. 28; xx. 22; Iob xx. 15).

Mi a'th *chwydaf* di allan o'm geneu.
Dad. iii. 16 (cf. Diar. xxv. 16; Ier. xxv. 27).

Lle yr oedd cenfaint o foch meddwon melltigedig yn *chwydu* ac yn llyncu, yn llyncu ac yn *chwydu* llysnafedd erchyll fyth heb orphwys.
E. Wynn: Bardd Cwsg, 83 (cf. 62, 98).

Chwydu allan, to vomit out.

Chwydus, *a.* apt to vomit; that causes vomit; sickening.

Chwydwr, wyr, **Chwydydd,** -ion, *sm.* one who vomits or ejects; a spuer, a puker.

Chwydd, -au, *sm.* [=chŵydd: C. *hwedh;* Ir. *siat;* Ga. *seideadh*] a swell, a swelling; increase; protuberance.

Rac *chwyd* a dolur ygglinyeu: briw rut, a mel a halen. a dôt wrthaw; a hynny a weryt yr *hwyd.*
Meddygon Myddfai, i. 113.

Pan fyddo yng nghroen ei gnawd *chwydd,* neu gramen, neu ddisgleirder.—*Lef.* xiii. 2 (cf. 28; xiv. 56).

Yn fy nghalon ni bu falch *chwydd,*
O Arglwydd, na dim tynder.—*Edm. Prys:* Salm. cxxxi. 1.

Chwydd gwyn, white swelling.—*Lef.* xiii. 10, 19.

Codi yn chwydd, to swell; to become swollen or protuberant.

¶ *Chwydd* (with its derivatives) is the only word in the initial combination *chw* in which the *w* coalesces with the succeeding vowel to form a diphthong, rhyming with *blwydd, rhwydd, swydd,* and the like. In all other cases the *w* has the force of a consonant. A similar peculiarity belongs, to some extent, to the combination *gw,* the force of which in most cases is consonantal; but in *gŵydd, gwyl* (gŵyl), *gŵyr, gwyth,* &c., the *w* is a vowel forming a diphthong with that which follows it.

Chwyddadwy, *a.* that may swell or be swollen.

Chwyddaint, *sm.* swelling; intumescence; inflation.

Chwyddall, Chwyddallu, *sm.* [chwydd+gall, gallu] magnifying power (of a telescope).

Pan yn agos i'r amser pennodedig, cyfeiriwyd yspïadur mawr, gyda *chwyddall* o chwech ugain, at y llecyn; ac wrth sylwi drwyddo, yr oedd Mars a'r Lleuad yn ymddangos yn nesu yn gyflym at eu gilydd.—*Seren Gomer,* xx. 173.

Chwyddedig, *a.* swelled, swollen; turgid, tumid; inflated, puffed up; pompous, bombastic.—*Num.* v. 21.

Yna yd aruaethawd yn *chwyddedic* o valchder, ac o draha yr anosparthus bobyl ar ynvyt giwtawt kyweiraw hyntoed ynvydyon o Dyfet y Geredigyawn.—*Brut y Tywysogion,* 126.

Fel rhwygiad *chwyddedig* mewn mur uchel ar syrthio.
Esa. xxx. 13.

Geiriau chwyddedig, swelling words, bombastic words or expressions.—2 *Pedr* ii. 18 (cf. Iudas, 16.

Iaith chwyddedig, inflated or bombastic language; bombast, fustian.

Chwyddedigaeth, -au, *sf.* swelling, tumefaction, turgidity, inflation; bloatedness.

Chwyddi, *sm.* a swelling, a protuberance.

Yr oedd llygad du, os nid dau, gan [hwn], a *chwyddi* ar un foch.—*Haul,* C.C. ix. 207.

Dywedir yn fynych am *chwyddi* ar ryw ran o'r corff, ei fod wedi chwyddo yn dwyeg.—*Cronicl Cymru,* rh. 171.

Chwyddiad, -au, *sm.* swelling; inflation; a **Chwyddad,** puffing up.

Digitized by Google

Chwyddiadur, -on, *sm.* a magnifier, a magnifying glass.

Chwyddiaith, *sf.* bombastic, inflated, or turgid language; bombast, fustian.

Chwyddiaith sy gynnwysedig mewn gwthio gwrthddrych cyffredin a gwael o'i le priodol, gan geisio ei godi i sefyllfa oruchel; neu drwy geisio codi gwrthddrych sydd ynddo ei hun eisoes yn oruchel, tu hwnt i bob terfynau natur a phriodoldeb.
Caledfryn: Drych Barddonol, 124 (cf. 125, 126).

Gallant arddangaws cywirdeb barn heb dywyllni, a phrydferthwch darfelydd heb *chwyddiaith* na gormodedd.
W. Jones: Barn a Darfelydd, 19.

Chwyddiant, *sm.* swelling; protuberance.

Chwyddiannus, *a.* swelling; apt or inclined to swell.

Os bydd *chwyddiannus* dy aelodau, golch hwynt â sug neu wysgell y ffeidlys, sef yr hylithr.—*Llanover Ms.* 4.

Chwyddieithol, *a.* bombastic, turgid, tumid, inflated.

Chwyddnod, -au, *sm.* crescendo (in music).

Defnyddir dau o addurnnodau yn gyffredin, sef y siglnod a'r *chwyddnod*. . . Ysgrifenir y *chwyddnod* uwch ben y nod neu y nodau y bo i effeithio arnynt. . . Gosodir y *chwyddnod* mewn gwahanol ddulliau.
J. Mills: Gram. Cerdd. 7 (cf. 8, 191).

Chwyddo, *v.* 1. to swell, to tumefy; to increase; to grow or become larger.—*Num.* v. 22, 27; *Act.* xxviii. 6.

Tri thir a *chwyda* heiniar
Cesail bryn pant a thalar.
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 546.

Mae'r iechydwriaeth fel y môr,
Yn *chwyddo* fyth i'r lan.
W. Williams: Hymnau (1811), dcclxv. 5.

Y llyffant du yn ymladd â'r pryf copyn, cyn gynted ag y clywo ef ei hun yn dechreu *chwyddo*, ymlusga at ei erlyriad neu lydan y ffordd, ac felly adferir ef.
Elis Lewis: Drexelius, 227.

2. to be puffed up or elated; to grow big.

Gwybodaeth sydd yn *chwyddo*.—1 *Cor.* viii. 1 (cf. iv. 19).

Chwyddo y mae, heb wybod dim.—1 *Tim.* vi. 4.

Os caiff hon blanu ei phawl syth ynddynt, a'u *chwyddo*, nid rhaid unon yr ymostyngant i godi'r groes.
E. Wynn: Bardd Cwsg, 104.

Chwyddog, *a.* swollen, turgid, tumid; swelling, rising, heaving.

Mae cariad pur fel *chwyddawg* fôr cangfaith
Wrth ymgreuloni, hyawdl yw ei araith.—*O. Wynn Jones.*

Y wylaidd drem, a'r *chwyddog* fron,
Fradychai'r gwestai mwyn.—*Tlysau Bardd. Seisnig*, 41.

Chwyddogrwydd, *sm.* tumidity, turgidness.

Chwyddol, *a.* swelling; inflating.

Rhai hyn, nes tew oedd gwyll y wydden win
Fagwyawg, allan mwlon *chwyddawl* a
Ymlithrai.—*W. O. Pughe:* C.G. vii. 368 (cf. 333).

Chwyddwydr, -au, *sm.* [chwydd+gwydr] a magnifying glass, a magnifier.

Da fyddai i chwi gofio, fod blaen nodwydd, pan edrychir arni trwy *chwyddwydr*, ym mhell o fod yn wastad neu lyfn, ac yn llym.—*Ios. Harris:* Gweith. 128.

Y *chwyddwydr* a ddengys fyrddiynau o filynod ym mhob gwlybwr. . . Dosperthir milynod yn ddwy ran, sef, y rhai a welir â'r llygad, a'r rhai ni chanfyddir heb edrych arnynt trwy y *chwyddwydr*.
Gwyliedydd, v. 334 (cf. 335; ii. 13; vi. 109, 152).

Wrth edrych arnynt trwy y *chwyddwydr*, ceir eu bod yn cynnwys gweddillion lluosog o'r milionos.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 301.

Chwyf, -ion, *sm.* [=chwŷf] motion; action; stir; agitation; fluctuation.

A phob cenedl bryf cyfrwng gwan a chryf
Or a ddeilyf *chwyf* chwyl a dderllydd.
M.A. i. 541 (cf. 346).

Chwyrn ei *chwyf* yn troi o gylch.
W. O. Pughe: C.G. xii. 658.

Mewn dynol waith, pan ymdrafferthu wneir,
Er *chwyfion* fil, a braidd un diben geir.
Robert Owen: Gweith. 267.

Ar chwyf, in motion; agitated, moved; moving; waving; fluctuating, hovering.

Y mae rhyw gymmaint o awydd yn anghenrheidiol gadw bywyd *ar chwyf*.—*Rasselas*, viii.

Hoedda nwyf *ar chwyf* ei chân lon.
W. O. Pughe: Bardd, iii. 2.

Awelan flydd y bore oedd *ar chwyf*.—*Diwygiwr*, iv. 204.

Chwyf a chwyf, motion and motion; moving by degrees or step by step; slowly and gently.

Maen chwyf, a rocking-stone, logging stone.

Chwyfadwy, *a.* that may be moved; moveable, agitable.

Chwyfaidd, *a.* of a moving tendency.

Chwyfain, *a.* abounding with or full of motion; fluctuating, waving.—*P.*

Chwyfaint, *sm.* plenitude of motion.—*P.*

Chwyfallu, -oedd, *sm.* [chwyf+gallu] a mechanical power.

Y chwyfalluoedd, the mechanical powers.

Chwyfan, -au, *sm.* motion; a stirring; agitation.

Maen chwyfan, *Maen y chwyfan*, a stone of motion, a rocking-stone.

Chwyfan, *v.* to move, agitate, or stir; to fluctuate, waver, or hover.

Chwyfiad, -au, **Chwyfiant**, *sm.* a moving or stirring; motion, agitation; fluctuation.

Ysgydwent y bore eirf llachar, noethedig,
Anadlent gynddaredd dan *chwyfiad* eu Lloer.
R. Owen: Gweith. 245.

Chwyfiannus, *a.* waving; moving to and fro.

Gwelwn goruwch y gwaliau'n *chwyfiannus*
Faniar Cyrus, oddi fewn i'r caerau.—*Cylchgrawn*, ii. 141.

Chwyfiedig, **Chwyfedig**, *a.* moved, stirred; put in motion; waving.—*Cylchgrawn*, i. 345.

Chwyfiedigaeth, -au, *sf.* a state of agitation or fluctuation; motion, movement.

Chwyfiedydd, -ion, *sm.* a mover; one who puts in motion; one who agitates.

Chwyfio, **Chwyfo**, **Chwyfu**, *v.* to move; to agitate; to stir; to fluctuate; to wave; to be in motion; to play; to flutter.

Gorwac bechadur gleudur gledyf
Gwthrus y eir a chweir ny *chwyf*.—*Casnodyn:* M.A. i. 430.

Ef a vyd pedwar diwarnawt ardec heb welet heb glybot. heb vwyta heb yuet heb allel *chwyfu* na throet na llaw.—*St. Greal*, § 38.

Casaf rholbren wyd genyf,
Corn cod ni chyfod na *chwyf*.—*Dafydd ab Gwilym.* (*D.*)

Mae 'y nyn â mi 'n uniaith,
Ac ni *chwyf* ei geneu chwaith.
Dafydd ab Edmwnt: G.B.C. 118.

Hi a *chwyfiwyd* mewn uchafiaeth.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 73.

Chwyf palmwydd heirdd ar Lebanon.—*D. S. Evans.*

Rhedaint tanbaid idd y sawl
A borant man y *chwyfant* gregawl gyrs
Uwch glanau Cishon.—*W. O. Pughe:* Palestina, 12.

Digitized by Google

Yr oeddwn innau yn *chwyfio* fy llawlïan fel cydnabyddiad ymadawol o'u teyrngarwch.—*Idrisyn:* Dalenau, 210.

Myn dy lywethau troellog sydd
Yn *chwyfo* yn yr awel rydd.—*Telynegion*, 8.

Chwyfo wrth, to move against.

Ac ny *chwyfawd* y llewot *wrthaw*.—*St. Greal*, ‡63 (cf. 187).

Chwyfiol, } *a.* motive, moving; apt to agitate;
Chwyfol, } waving; moving to and fro.

Chwyfog, } *a.* full of motion; waving; moving
Chwyflog, } to and fro.

A choedydd *chwyflawg* ddawnsiant ar y bryn.
Blackwell: Ceinion Alun, 152.

Chwyfwr, wyr, } *sm.* a mover; one who stirs
Chwyfiwr, wyr, } or agitates; one who puts
Chwyfydd, -ion, } in motion.

Chwyfyddiaeth, -au, *sf.* [chwyfydd] the doctrine of motion, or of bodies in motion; kinematics; mechanics.

Trwy *chwyfyddiaeth*, trechaf foddion,
Agerddawl beiriannau gyrddion,
E roddir hynod arwyddion
O'r doniau fu gan rai dynion.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 321.

Chwyl, -iau, -ion, *sf-m.* [=chwŷl: allied to E. *while*, A.S. *hwil*, and to *wheel?*] a turn; a turning; a course; a revolution, a rotation; a while; an event.

Y gwreid ar keigeu a symudant *chwyl*.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 155.

Ac ar y *chwyl* honno eu torri aorugant.—*St. Greal*, ‡163.

Yr haf, ni chelaf fy *chwyl*,
Ni chaf fyned i'w chyfyl.
D. ab Gwilym, clxiv. 17 (cf. clxxxix. 32).

Mair a Dewi, a Mordëyrn,
Y rhai a wŷl fy *chwyl* chwyrn.—*D. ab Gwilym*, ccix. 13.

Yn hyny o *chwyl* y daeth brawd maeth urddasol i Ddafydd ab Owain Gwynedd, ac a ddywaid fel hyn.
Araith Gwgan.

Try annoeth i'r trueni,
A *chwyl* ei dwyll gochel di.—*Iolo Morganwg:* Salm. i. 223.

Y ddaiar a orphenodd yn ffyddlon ei thasg am hyn o *chwyl*.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 354 (cf. 180, 575).

Chwyl y byd hwn, the course of this world.

Canistâ . . . fod i *chwyl y byd hwn*, trwy dy reolaeth di, gael ei drefnu mor dangnefeddol, fel y gallo dy Eglwys di dy wasanaethu yn llawen ym mhob duwiol heddwch.
Ll. G. Gyffredin (5 S. wedi'r Drindod).

Weithiau yn *chwyl y byd hwn* fe welir rhyw Herod yn cymmeryd arno addoli'r dyn bychan.
Nicander: Dysga Fyw, 33.

Chwyl naturiaeth, the course of nature.

Chwyl y flwyddyn, the course of the year; the revolution of the year.

Yn chwyl deng mlynedd, in the revolution or course of ten years.

Talu y chwyl, to return like for like; to retaliate.

A gwedi gwneuthur dirfawr bla yno, a llawer o anrheithiau, i cerddwa Gruffudd parth ac Arwystli ac i destrywyws ac i lladdawdd y gwerin, ac i lloscos y tei, ac gwragedd ae morwynion a ddug yng ceithiwet ac y felly i *talws y chwyl* i Drahaiarn.—*Buchedd Gr. ab Cynan:* M.A. ii. 594 (cf. 133).

Pob chwyl, every time; at all times.

Credu a charu *pob chwŷl*
Crist Creawdr ymerawdr mil.
Gruffydd Vnad Coch: M.A. i. 518.

Chwyl, *adv.* while, whilst; as long as, during the time that.

Chwyl (*tra, tro*) *y pery yr hinon*, while the fine weather lasts; as long as the fine weather continues.

Chwyldaith, deithiau, *sf.* a circular course or motion; a rotation, a revolution; a circuit; an orbit.

Mygr fwyn gaer, magwyr fer,
Maith o *chwyldaith* uchelder.—*D. ab Gwilym*, xcv. 21.

Y rhai hyn ydynt o ddau fath: y cyntaf yn *chwyldaith* flynyddol o amgylch yr haul, mewn rhod hirgylchawl, yn agos i gan milfil o filltiroedd oddi wrtho.
Gwyliedydd, vii. 251.

Chwyldeithio, *v.* to revolve, to turn round.

Yn y modd hyn chwyldroa yn ddiorphwys ar ddiddym, gan *chwyldeithio* ar yr un pryd, yng nghyd â'i llawforwyn y lloer, yr hon a *chwyldeithia* o'i hamgylch hithau unwaith bob mis, mewn rhod hirgylchawl, yn agos i ddau cant a hanner o filoedd o filltiroedd oddi wrthi.
Gwyliedydd, vii. 251.

Chwyldro, -ion, *sm.* a circular turn; a revolution; a rotation; a gyration; a vortex.

Pan mae'r cylchoedd ym mha rai y cyflawnant eu *chwyldroion* blynyddol, yn esgynedig i lawer can buna.
Myfyrdodau Hervey, 355 (cf. 398, 400).

Teimla flaen-droediad haeddiannol, disymmwth, yn rhoi iddi *chwyldro*.—*Dewi Wyn:* Bl. Arf. 75.

Y Chwyldro Ffrengig, the French Revolution.

Ni ddyrchafodd newyddianiaeth ei phen hyd y blynyddoedd a ganlynent y *Chwyldro Ffrengig*.
Gwallter Mechain: Gwaith,

Hebog chwyldro, the gerfalcon.

Yr *hebog chwyldro* yw y mwyaf [o'r hebogiaid]. . . Yr *hebog chwyldro* a Marthin, ac ereill, a nythant yn Ucheldiroedd yr Alban. . . Y mwyaf dychrynllyd i'r adar yw yr *hebog chwyldro*.—*Gwyliedydd*, vii. 116 (cf. 115).

Chwyldroad, -au, revolution, rotation, circumgyration, circumrotation, gyration.

Deuaf bellach at fy nhestun, gan ddechreu gyda *chwyldroadau* y ddaiar.—*Gwyliedydd*, vii. 251.

Wele draw uthr *chwyldroad*.—*Cawrdaf:* Gweith. 13.

Dyma un o'r *chwyldroadau* mwyaf rhyfedd mewn hanesyddiaeth.—*Seren Gomer*, iii. 123.

Y Chwyldroad Ffrengig, } the French Revolu-
Chwyldroad Ffrainc, } tion.

Nid wyf yn gweled bod Myrddin yn cyfeiliorni wrth gyssylltu y *Chwyldroad Ffrengig* â'r chwyldroad a amcanwyd yn y Lythyreg Gymreig. . . Fe erthylodd y *Chwyldroad Ffrengig* ar anghenfilod erchyll.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 460.

O ddeutu dechreuad y *Chwyldroad Ffrengig*, ymdeithiodd yn neheu-orllewindir Ffrainc.—*Seren Gomer*, v. 354.

Y mae Ifan Ofergoel, a Bodo Benwan o Gwm Chwedlau, yn dywedyd yn sicr, na bu y fath ymddangosiadau yn yr wybren, ond o flaen Brad y Cyllyll Hirion, Rhyfel America, *Chwyldroad Ffrainc*, a byd o derfysg, gwaed, a galanasdra.
Gwyliedydd, viii. 48.

Y Chwyldroad, the Revolution (of the 17th century).

Fe lwyr ddynoethwyd cyfundrefn Ymneillduaeth unwaith, a pharodd y *Chwyldroad* yn amser Siarl I.
Gwyliedydd, xiii. 23.

Chwyldroadol, *a.* revolutionary; circumgyratory.

Chwyldroawl, *a.* circumrotatory; revolutionary.

Chwyldröedig, *a.* turned or wheeled round; circumvolved.

Chwyldröedigaeth, -au, *sf.* circumvolution; circumrotation, revolution; revolutionism.

Chwyldröedigol, *a.* circumrotatory, revolving.

Chwyldroi, *v.* to revolve, to rotate; to whirl.

Pan fu i'r chwyl hwnw *chwyldroi* penau llawer mewn gwledydd ereill, heb eseuluso Lloegr a Chymru.
G. Mechain: Gwaith, ii. 180.

Efe yw echel fawr y nef, o amgylch pa un mae y byd a gyfanneddwn ni, a rhodau eangach, yn *chwyldroi* eu rhedfâu gosodedig.—*Myfyrdodau Hervey*, 318 (cf. 400).

Digitized by Google

Chwyldröwr, wyr, **Chwyldröydd**, -ion, **Chwyldröedydd**, -ion, *sm.* one who moves about rapidly; a whirler; a revolutionist.—*W.*

O dan ormes y *chwyldrowyr* . . . cleddid y meirw heb na gweddi na defod,—*Cylchgrawn*, ii. 114 (cf. i. 345).

Chwylfa, -oedd, fëydd, *sf.* 1. an orbit. 2. a revolution.

Chwylfaol, *a.* revolutionary; rotatory.

Os na chydsyniai y senedd â hyn, gorfyddai arnynt cyn bo hir ymfoddloni i drefniadau *chwylfaol*, megys i ddeddfau buddugoliaethwr.—*Gwyliedydd*, viii. 125 (cf. 124).

Chwylgnaw, *sm.* a mumping fast.—*P.*

Chwylgnoad, -au, *sm.* a mumping.—*P.*

Chwylgnoi, *v.* to mump, to chew quick.—*P.*

Chwylgylch, -au, -oedd, *sm.* an orbit.

Chwylgylch yw y cylch neu y llwybr a lunia planed wrth chwylo, troi, neu dreiglaw o amgylch yr haul, neu a lunia lleuad o amgylch ei phrif blaned. Gelwir ef hefyd cylchlwybr, cylchdaith, cylchdro, trogylch, a sidelldaith. . . Edrychwch ar *chwylgylch* y ddaiar, a chwi a ganfyddwch gylch bychan yn arddangos y *chwylgylch* yn yr hwn y cyflawna y lleuad ei misol daith o amgylch y ddaiar.
Elfenau Seryddiaeth, v.

Chwyliad, -au, *sm.* a turning or moving round, rotation, revolution, circuition.

Chwyliadau dydd a nos sy'n dangos mawredd Duw.
R. Owen: Gweith. 237 (cf. 278).

Chwylo, *v.* to revolve, to rotate; to turn or wheel round; to run a course; to bustle about; to work; to hover about.

Eu rhawd a *chwylid* gyntaf o gan law
Y cynsymmudydd.—*W. O. Pughe:* C.G. vii. 582.

Adar yn chwylaw, birds hovering about.—*P.*

Chwylor, -au, *sm.* the ridge of a hill or mountain; an eminence where the water divides, and flows in different directions.—*S. W.*

Pen y chwylor, the highest point or summit of a mountain; the turning point.

Chwylus, *a.* rotatory, rotary.

Chwylwib, -iau, *sf.* a rotary motion; a whirl; an orbit.

Chwylwibiad, -au, *sm.* a wandering or strolling about; circumerration; a whirling.

Chwylwibio, *v.* to wander or stroll about; to whirl around.

Chwylwibiol, *a.* wandering or strolling about; erratic.

Chwŷn, *sm.* a motion, a stir, a move.

Chwŷn a chwŷn, motion and motion; step by step; gently and slowly; slowly.

Chwyn (*ŷ*), *s.cl.* and *pl.* weeds (literally and figuratively).

Oes awen na cherdd heb us na *chwyn*.
L. G. Cothi, III. xix. 32.

Y *chwyn* yn tyfu wrth bob dwfr, ac yng nglan yr afon, a dynir o flaen pob gwellt.—*Eccl.* xl. 16.

Tyfed ysgall yn lle gwenith, a bulwg [**chwyn* niweidiol] yn lle haidd.—*Iob* xxxi. 40.

Nid yw'r lleill ond *chwyn* ac efrau.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 32.

Methed y gwenith, e dyf y *chwyn*.—*Diareb.*

Rhag bod yn un o'r chwerwon *chwyn*,
Sy'n tyfu'm mhlith y gwenith gwyn.
D. Ddu Eryri: C. y G. 324.

Mewn amser tyfodd *chwyn* eilunaddoliaeth gyd â had Cam.—*Ch. Edwards:* Hanes y Ffydd, 45.

Chwyn drygsawrus a dyfant y lle y bu prenau cyflawnder gynt.—*Ier. Owen*, 115.

A'r barth perllanog llawnwyn,
Heb ddwyn ond *chwyn* a hesg.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 49.

Tori y chwyn, to clear from weeds.

Chwyn hallt, marsh samphire, jointed glasswort (*Salicornia*): also called *llyrlys*.—*H. Davies:* Welsh Bot. 1. 180, 209.

Chwyn, *sm.* a chaos or confused mass. Probably the same as the preceding.—*Henry Salesbury* (Arch. Brit. 216).

Chwynan, *sf.* [chwŷn] a whirler; a fly-wheel.

Chwyniad, **Chwynad**, -au, *sm.* [chwyn] a weeding, a freeing from weeds.

Chwyniedydd, -ion, *sm.* a weeder.

Chwynig, *a.* [chwyn] weedy; confused.

Crwydredig, *chwynig*, a chwith.—*Lewis Daron.*

Chwyno, *v.* [chwŷn] to move or stir about.

Chwynog, *a.* [chwyn] weedy, abounding with weeds.

Y Môr Chwynog, the Weedy Sea=Red Sea (*Yam Suph*).

Rhyfeddodau yn nhir Ham, pethau ofnadwy wrth *y môr chwynog*.—*Dr. Th. Briscoe:* Salmau, cvi. 22 (cf. 7, 22; cxxxvi. 13, 15).

Chwynogion, *s.pl.* vulgar ones, the vulgar.

Traeth rieu goleu haelon
Nyth y ogyfeirch o *chwynogyon*.
Taliesin: A.B. ii. 163 (M.A. i. 38).

Chwynogl, -au, *sf.* a weed- or weeding-hook, a grubbing hoe.

Chuynkokel fyrlyg [atal].—*Cyfreithiau Cymru*, i. 298.

Efe yw'r *chwynogl* o Frycheiniog;
Ef a chwyn werin Fechain oriog.—*L. G. Cothi*, i. xv. 45.

Burwy diawl, yn dwyn bâr dyn,
Braith *chwynogl*, brath â chonyn.—*W. Lleyn*, i'r Neidr.

Chwynogli, *v.* to cut away or extirpate with the weeding-hook; to grub weeds; to weed.

Chwynogliad, **Chwynoglad**, -au, *sm.* a grubbing of weeds; a hoeing.

Chwynoglydd, -ion, *sm.* one who uses the weeding-hook; a weeder.

Chwynu (*ŷ*), *v.* [chwyn] to weed; to grub up or free from noxious plants; to thin (plants).

A *chwynu* bedw yn chwannog,
Mân ei gwallt, er mwyn y gog.—*Dafydd ab Gwilym*, c. 13.

Par *chwynu* dy yd gwedi Gwyl Ieuan; sef achaws yw hyny, os *chwyni* di ef bymtheg diwarnod neu wythnos cyn Gwyl Ieuan, ef a dyf dri llyseuyn yn lle yr un.
Cato Cymraeg (Y Greal, 200).

Am hyny ni *chwyna* efe na'r drain na'r ysgall allan o'i winllan.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. II. i. 8.

Chwynwch eich gardd eich hun yn gyntaf.
Diareb. (M.A. iii. 181.)

Chwynu allan, to weed out.—*W.*

Chwynu, *v.* [chwŷn] to move; to have vital action; to quicken.

O deruyd llygru o wreic ueichawc y beichogi pan uo gwyn trugeint gwedy *chwyno* yndi talet hanher y alanas o tat; os kyn *chwynu* trayan y alanas.
Cyfreithiau Cymru, ii. 200.

Chwynyn, *sm.* a single weed, a weed.

Ysgellyn sydd *chwynyn* o'r fath waelaf.
Joseph Harris: Gweith. 341.

Digitized by Google

Chwyrn, *m.* } *pl.* chwyrnion, *a.* moving rapidly
Chwern, *f.* } (often with the subaudition of a whirring or whirling noise); rapid, fleet, nimble, quick, fast, speedy; active, stout, strenuous, vigorous, impetuous.

Colled gwr arwr aruawc *chwyrn* yg cad
Yg cadarnwisc heyrn.
Prydydd Bychan: M.A. i. 379 (cf. 300, 315, 330, 336).

Lle *chwyrn* llwybr tefyrn, lle beirw Teifi.—*D. ab Gwilym,* ccxxxi. 24 (cf. cxix. 54; cxxv. 54; ccxxx. 87).

Y Tad o'r dechreuad *chwyrn* . . .
A lywia'r byd.—*Sion Cent.*

Pan fo *chwyrn* cedyrn yn codi i ymladd,
Amlwg drygioni.—*Gruffydd Phylip.*

Mis Hydref hydraul echel,
Chwarëus hydd, *chwyrn* awel.—*Gutyn Owain* (M.A. i. 15).

Ac yno hi a droid yn *chwern,* fal y dienyddid y Christion trwy loeson annhraethadwy.—*Theo. Evans:* D.P.O. 344.

Hwy a dybiasant mai y tân, neu y gwynt, neu yr awyr buan, neu gylch y ser, neu ddwfr *chwyrn,* neu oleuadau y nefoedd, oeddynt dduwiau yn llywodraethu y byd.
Doeth. xiii. 2.

Y garreg yn bur gywrain,
Gyd â nerth, o'i law gerth gain,
Yn *chwern* yr aeth, dan chwyrnu,
Yn bellen i dalcen du
Yr ynfyd arwr anferth.—*Dafydd Ionawr,* 110.

Cyn attal rhwysg y difrod *chwyrn,*
Dinasoedd cedyrn yswyd.—*D. Ddu Eryri:* C. y G. 371.

Oni chlywir ambell chwilen
Yn ehedeg heibio'n *chwyrn.*—*D. Davis:* Telyn Dewi, 29.

O gelloedd wybren y disgyna'n *chwyrn*
Y curwlaw nerthus ar y mynydd ban.
Daniel Ddu, 51 (cf. 53, 56, 60).

Gair chwyrn, a hasty or harsh word.

Am *air chwyrn* cymmerwch iawn,
Myn degwch mwy na digawn.
Tudur Aled (Flor. Poet. Brit. 13).

Sain chwern, the aspirate (or nasal) sound (of *c, p, t*).

Arferiad y *sain chwern.* . . Ar ol y rhagenw meddiannawl my, neu fy, y bydd y *sain chwern* yn nechreu geiriau.
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gym. i. ii. 2.

Ffrwd chwern, a rapid stream.

Chwyrn, *sm.* a quick force or motion; a whirl; a whizz; a snort; a snarl.—*P.*

Chwyrnad, -au, *sm.* a whirling; a snarling or gnarling; a snoring, a snorting; a whizzing.

Chwyrnaidd, *a.* rather rapid, quick, or fast.

Hwy a neidiant yn *chwyrnaidd* ar eu hysglyfaeth.
Gwyliedydd, iii. 237.

Chwyrnain, *a.* of a rapid turn; whizzing.—*P.*

Chwyrnder, } *sm.* rapidity, fleetness, velocity,
Chwyrndra, } celerity; activity, impetuosity;
Chwyrnedd, } strenuousness, stoutness.

Y pryd hyny cryfhawyd y ffrwd yn annisgwyliadwy; a llifodd ar yr olwyn gyd â'r fath *chwyrndra,* nes y dygodd y trueiniaid drosti.—*Gwyliedydd,* xiii. 63.

A phob un, trwy *chwyrnder* ei chwyldro, a chwelid yn ddrylliau.—*Myfyrdodau Hervey,* 398 (cf. 400).

Chwyrned, *sm.* a rapid action; a snarling; a bickering, wrangling, or quarrelling.—*P.*

Chwyrnell, -au, *sf.* a whirl; a whirligig.

Anaf wenwynig . . .
Llun *chwyrnell,* llai no chornwyd.
Tudur Aled, i'r Gibwst.

Tithau'n egwan dy anwyd,
Mewn glwth, ellyll mein-gul wyd,
Yn chwyrnu megys *chwyrnell,*
Gormodd bw! gwr meddw o bell.—*Iolo Goch.*

Chwyrnelliad, -au, *sm.* a whirling; a whizzing.

Yn ol y gosodiad o'r blaen y mae yn ymddangos yn amlwg, os ystyrir y ddaiar fel canolbwnc y bydoedd, y rhaid fod y bydoedd hyny yn chwyrnellu gyda'r cyflymdra mwyaf ofnadwy: ond y mae caniatäu y fath *chwyrnelliad* yn anghyson â bodolaeth y cyfryw fydoedd yn y sefyllfa y maent.—*Beirniadur Cymreig,* i. 51.

Chwyrnellog, *a.* whirling; turning like a whirligig.

Cyrff, filoedd o weithiau yn fwy na'n daiar ni, yn ehedeg gyda'r buander o ddeng mil ar hugain o filltiroedd mewn awr, gan gario gyda hwynt osgorddlu o fydoeddy *chwyrnellog,* ac yn parhau yn eu gyrfeydd cyflym yn ddiymattal am filoedd o flynyddoedd.—*Dosparth Heulawg,* ii. 157.

Chwyrnellu, *v.* to turn rapidly; to whirl; to hurl; to shake or toss violently; to move with a whizzing or whirling noise; to whiz.

Ac o'r arfdy uffernol sydd ganddo, efe a esyd ymladdfëydd yn eu herbyn, o bai rai y pair efe i gafodydd o saethau, a'r rhei'ny cyn amled a'r cenllysg, *chwyrnellu* o bob tu eu clustiau hwynt, fel na wypont pa ffordd i droi eu hwynebau.—*Ier. Owen,* 120.

Ystormus, boethwyllt, ddeiflog wynt,
Chwyrnellai'r tonnau ar eu hynt.—*Ieuan Gwynedd.*

Chwyrnfor, -oedd, *sm.* a strong eddy of the sea; a vortex, a whirlpool.

Chwyrniad, iaid, *sm.* a snorer or snorter; a snarler.

Bit wlyb rych. bid uynych mach
Bit gwyn claf. bit lawen iach
Bit *chwyrnyat* colwyn; bit wenwyn gwrach.
Llywarch Hen: A.B. ii. 246.

Y ci oedd yn trotian gyntaf . . . a phan y byddai yn arafu, *chwyrniad* a wasanaethai i brysuro ei gamrau.
Gwyliedydd, vii. 230.

Chwyrnllyd, *a.* apt to snarl, growl, or gnarl; snarling, growling; snorting; snoring.

Corgi chwyrnllyd, a snarling cur.

Chwyrnog, *a.* snarling, gnarling; snoring.

Ci *chwyrnawg,* halawg ei bais.—*Diareb.* (M.A. iii. 151.)

Chwyrnogl, -au, *sf.* a rattle.

Chwyrnogl mewn gwddwg, the rattles in the throat.

Chwyrnogli, *v.* to rattle; to whiz.

Chwyrnogliad, }
Chwyrnoglad, } *sm.* a rattling; a whizzing.

Chwyrnol, *a.* whirring, whizzing, whirling; hurling.

Chwyrnolad, *v.* to snore, to snort; to roar.

Pa beth ynte yw hyn ond tradewrder, ac ynfydrwydd, a gorphwyll, ac mewn gwirionedd gwir ddirmyg ar Dragywyddoldeb, i wr orwedd i lawr mewn esmwythdra ar wely plu i gysgu yn ddiofal tan chwyrnu a *chwyrnolad,* ac i lettyu gelyn marwol!—*Elis Lewis:* Drexelius, 220.

Chwyrnolad, } -au, *sm.* a snoring, a snorting;
Chwyrnoliad, } a roaring.

Chwyrnolawd, *sm.* a snoring or snorting.

Chwyrnoli, *v.* to snore, to snort; to rattle.

Chwyrnolydd, -ion, *sm.* a snorer, a snorter; a rattler.

Chwyrnor, -ion, *sm.* a whirler; a hornet.

Chwyrnores, -au, *sf.* [C. *huirnores;* Br. *c'houiliorez*] a hornet.

Chwyrnu, *v.* 1. to move with rapidity; to whiz in motion; to whir. Cf. s.v. *Chwyrn.*

2. to snarl, to gnarl; to growl; to roar.

Ei ruad fydd fel llew; efe a rua fel cenawon llew: efe a *chwyrna* hefyd, ac a ymeifl yn yr ysglyfaeth.—*Esa.* v. 29.

Un wyneb tra ysgeler at y nefoedd, yn cyfarth, yn *chwyrnu,* ac yn chwydu ffieidd-dra melltigedig tuag at y Brenin nefol; wyneb arall teg tua'r ddaiar.
E. Wynn: Bardd Cwsg, 111 (cf. 83, 97).

A phan ddelir ef, arfera *chwyrnu* agos yn wastadol.
Gwyliedydd, ii. 265 (cf. v. 43).

Rhuthrodd, bygythiodd y gwynt,
A *chwyrnodd* yn groch arnynt.—*Dafydd Ionawr,* 67.

Chwyrnu ar, to snarl at.

Digitized by Google

3. to snore, to snort.

Ac y gyt ac y gwyl ef hihi yn dyuot. kymryt idaw ynteu y vot yn kysgu. a *chwyrnu* yn uchel a wnaeth ef.
Bown o Hamtwn, 113.

Ac os dygwydd iddo *chwyrnu* peth drwy ei hun, ac anesmwytho'r enaid â cherydd, troir ef ar y tu arall, at ryw londer a esmwythao ar ei gystudd.
Ch. Edwards: H. y Ffydd, 279.

Chwyrnwr, wyr, } *sm.* a snorer, a snorter; a
Chwyrnydd, -ion, } snarler; a growler.

Chwys, *sm.* [C. *hwes, hŵes, whys;* Br. *c'houés, c'houéz;* L. *sudor*] 1. sweat, perspiration; exudation.—*M.A.* i. 136.

A thrydyllu y helmeu a briwaw y paeledeu ac essigaw yr arueu a orugant. yny oed eu llygeit yn colli eu lleuuer gan y *chwys* ar gwaet.—*Mabinogion*, 282 (cf. 255, 283).

Trwy *chwys* dy wyneb y bwytêi fara.
Gen. iii. 19 (cf. Esec. xliv. 18).

Du oedd y clai, wedi ei gyweirio trwy ddagrau a *chwys*.
E. Wynn: Bardd Cwsg, 59.

Chwys gwaedlyd, bloody sweat or perspiration.—*Ll. G. Gyffredin* (Litani).

Haint y chwys, } the sweating sickness.
Yr haint chwys, }

Hefyd *haint y chwys*, a ymwelodd â'n hynys naw o weithiau mewn yspaid seith-ddeng o flwyddau, sef rhwng 1480 a 1552.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 395.

Y plag chwys, } the sweating plague, the
Plag y chwys, } sweating sickness.

Yn y flwyddyn 1348, y bu'r *plag chwys* yng Nghymru, ar y Normaniaid a'r Saeson . . . ac ni bu braidd Gymro yn glaf o'r achos, onid y sawl a oedd o'r naill hanner yn Sais.
Iolo Mss. 65.

Tyllau y chwys, the pores.

2. (in botany). Cf. H. Davies, *Welsh Botanology*, 49, 55, 180.

Chwys Arthur, meadow-sweet (*Spiraea ulmaria*).

Herba prati, *chwys Arthur*, erwaint, melus y waun.
Meddygon Myddfai, 286.

Chwys yr haul, sundew (*Drosera*).

Chwys Mair, buttercups (*Ranunculus bulbosus*).

3. that which produces perspiration; a sudorific, a diaphoretic, a sweater.

Cymmeryd chwys, to take a sudorific.—*C.S.*

Chwysadwy, *a.* perspirable; that may sweat.

Chwysbair, *a.* sudorific, diaphoretic, sudoriferous.

Chwysbair, beirion, beiriau, *sm.* a sudorific, a diaphoretic.

Chwysdarth, -oedd, -ion, *sm.* effluvia.

Mogodd gwr a gwraig ieuanc cyfrifol yng Nghaerodor, yn ddiweddar, o herwydd y *chwysdarth* a godai oddi wrth badellaid o olosged a osodasent yn eu hystafell, i'r diben i'w thwymno.—*Seren Gomer*, iii. 30.

Chwysdwll, dyllau, *sm.* a pore.

Cymmaint ag sydd o *chwysdyllau* ym mhob rhan o'n cyrff ni, a'u cyssylltu yng nghyd, cymmaint a hyny o ffenestri sydd i farwolaeth i ymlusgo i mewn iddynt.
Elis Lewis: Drexelius, 232.

Chwys yw y tawch-leithder sydd yn tarthio allan o'r mân dyllau, sef y *chwysdyllau*, yng nghorff dyn ac anifail.
Th. Charles, s.v. 'Chwys.'

Yr hwn, dan dy ddail diaddurn, ac ym mhlith *chwysdyllau* dy gangen . . . sydd yn darparu y gwlybwr.
Myfyrdodau Hervey, 202.

Mae dyfodiad cynnulleidfa i addoldy, neu dŷ arall, yn peri fod ymgyrch yr anadl a'r *chwysdyllau* yn cydweithredu i godi yr archwa yn dra annïoddefol. . . Ê sugnir i mewn eu drygsawr a'u hafiendid drwy y *chwysdyllau*.
Seren Gomer, iii. 265.

Chwysdy, dai, *sm.* a sweating-house, a sudatory.

Chwysdyllog, *a.* having pores, porous, full of pores.

Chwysfa, -oedd, fëydd, *sf.* a sweating-room, a sudatory, a sweating-bath; a sweating.

Chwysfa wedi'r grynfa gron.—*Sion Phylip.*

Erbyn edrych, ni fedrai un o'r brodyr eu gostwng ar ol eu codi; a chafodd y llall *chwysfa* gythreulig wrth drin ei ellyllon ei hun.—*Adolygydd*, i. 294.

Chwysgar, *a.* diaphoretic, sudoriferous.

Chwysgell, -au, -oedd, *sf.* a sweating-room.

Chwyshaint, heintiau, *sm.* a sickness attended with sweating; a sweating sickness.

A thi a waredir drwy Dduw; a da yw yn amwyn rhag y *chwyshaint*.—*Meddygon Myddfai*, ii. 690.

Chwysiad, -au, *sm.* a sweating, perspiration; exudation.

Chwysig, *a.* apt to sweat; sweaty.—*M.A.* i. 40.

Chwysigen, -au, *sf.* [L. *vesica:* C. *gusigan, gyzigan;* Br. *c'houezegel*] 1. a bladder: also called *gwysigen*.

Tri theneu anescor ynt: pilyonen yr emennyd, a glasgolud, a *chwysigen*.—*Meddygon Myddfai*, i. 153 (cf. 140, 141).

Eiddig gyw sarrig go sur,
Lledben *chwysigen* segur.—*D. ab Gwilym*, lxviii. 31.

Isob i'r ddwyfron, y tryw i'r coludd, y tormaen i'r *chwysigen*, yr huddigl i'r cylla.—*Meddygon Myddfai*, ii. 325.

Chwythant trwy y pren nes llenwi y croen, fel y gwna plant â *chwysigen*.—*Gwyliedydd*, iv. 369 (cf. iii. 374).

Y mae ganddynt hefyd *chwysigen* i ddal awyr.
Cylchgrawn, ii. 59.

Ymddryllia fel *chwysigen* lawn o wynt.
Anianyddiaeth Ysgrythyrol, 137.

Y mae ennynfa yn cymmeryd lle yn y coluddion, yr arenau, a'r *chwysigen*, yn lled aml.—*Gwyliedydd*, x. 141.

Chwysigen fwg, puff-ball, earth-smoke (*Lycoperdon*).—*N.W.*

2. a blister, a vesicle or vesicule.

Hwy a hyloesgwyd, fel yr ymddangosodd arnynt frychau ar y cyntaf, ac wedi hyny *chwysigenau* bychain.
Gwyliedydd, iii. 374.

Chwysigenaidd, *a.* like a bladder; of the nature of a blister.

Chwysigeniad, -au, *sm.* a blistering; a raising a blister or bladder; vesication.

Chwysigenog, *a.* full of blisters, having blisters, blistered, blistery, vesicular, vesiculous.

Chwysigenol, *a.* relating to blisters; blistering, vesicular; apt to blister; blistery.

Gwres *chwysigenol*, tandde, ennynfa.—*Walters.*

Chwysigenu, *v.* to blister, to rise in blisters, to vesicate; to become blistery; to cause to blister.

Pan ddodwyd teneu-wisg ddu ar y croen, ni *chwysigenwyd* y croen mwy.—*Gwyliedydd*, iii. 374.

Chwysigenwraidd, *s.cl.* bladderwort, hooded milfoil (*Utricularia*).—*H. Davies:* Welsh Botanology, 4, 180.

Chwysigenwraidd cyffredin, common bladderwort (*Utricularia vulgaris*).

Chwysigenwraidd lleiaf, lesser hooded milfoil (*Utricularia minor*).

Chwysigl, -au, *sf.* a blister.

Cylion y chwysigl, blister flies, cantharides.—*W.*

Digitized by Google

Chwysiglen, -au, *sf.* a blister.

Chwysiglog, *a.* blistery, blistered; vesicated; puffed.

Bara chwysiglog, light bread, puff-paste.

Chwysiglydd, -ion, *sm.* that which produces blistering, a vesicant, a blister, a blistering plaster or fluid.

Dodi *chwysiglydd* wrth (ar) ryw ran o'r corff.—*Walters.*

Chwyslyd, *a.* sweating; sweaty; apt to sweat or perspire; sudatory.

Yr haint chwyslyd, the sweating sickness.

Oed Crist 993, bu newyn mawr yng Nghyfoeth Meredydd, a llawer o farw ar ddynion o haint y Saeson, sef *yr haint chwyslyd*.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 499.

Chwyslydrwydd, *sm.* sweatiness.

Chwysog, *a.* full of sweat, sweaty.

Chwysogl, *s.cl.* } sharp dock (*Rumex acutus*):
Chwysoglen, *sf.* } also called *trython* and *tafol Mair*.—*H. Davies:* Welsh Bot. 35, 180.

Chwysol, *a.* perspirative, perspiratory, sweating.

Chwystringo, *v.* to whip, flog, lash, or scourge.

Yr awr hon os nyni nis canllynwn ef, yno ef ychydig a'n cur, ac a'n *chwystringa* ni â gwialen, fal weithiau â thlodi, weithiau â chlefydon, ne ddoluriau, ne ryw wrthwyneb arall.—*Huw Lewys:* Perl (1594), 33.

Chwysu, *v.* 1. to sweat, to perspire; to exude.

A Lawnslot a roes y cledyf ar amdo ar y weli. ar dyrnawt a dechreuawd *chwysau* ar hynt.—*St. Greal*, i 233.

Dod arnot ddillad yn dda mal y *chwysot*.
Meddygon Myddfai, ii. 566 (cf. 569, 781, 794).

Chwysu gwaed, } to sweat blood.
Chwysu y gwaed, }

2. to weep (as stone floors do before dry weather).—*S. W.*

Chwyswr, wŷr, } *sm.* one who sweats or perspires; a sweater.
Chwysydd, -ion, }

Chwyth, -ion, *sm.* [C. *hweth, wheth;* Br. *c'houez;* Ir. *gaoth, gaith, seid;* Ga. *gaoth, seid*] 1. breath; a breathing; a puff or blast; a blow, a blowing; a gale.

Mae yn perthyn i sillaf dri pheth; nid amgen, nifer y llythyrenau, acen, a *chwyth*.—*Dosp. y Saith Gelfyddyd.*

Ef a roddodd ynom *chwyth*,
Ef y sydd i'n cynnal fyth.—*I. B. Hir:* Gwaith, 112.

Tra bo *chwyth* ni all fyth fod
Ar undyn fwy o ryndod.—*Tegid:* Gwaith, 171 (cf. 182).

Ond ydyw yn rhyfeddod
Bod dannedd merch yn darfod;
Ond, tra bo yn ei geneu *chwyth*,
Ni dderfydd byth mo'i thafod.—*Hen Bennill.*

Ni chanaf serch tra ynof *chwyth*
I riain byth ond hyny.—*Sion Hywel o Landaf.*

2. breath; life.

Rhed am dy *chwyth*, gwna waith dy Dduw,
Dwg ffrwyth yn rhin o'r goreu'i ryw.
Rhys Prichard: C. y C. cvi. 66.

Anadl chwyth, the breath of life.—*Gen.* ii. 7.

3. that which is blown; a blow.

Chwyth cylion, fly-blows, the oviposition of flies.

Chwyth trwyn, the mucus discharged from the nose, snivel, snot, blow.

Chwythad, -au, *sm.* a breath; breath; blast.

Yn erbyn hwnnw y kyfyt gwynt y dwyrein. ac o enwir *whythat* ef a gribdeila y dryded geig.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 148.

Ni choeliaf fi hyny byth tra fyddo *chwythad* ynof.
Robert Llwyd: Llwybr Hyff. 19.

Fal ydd amgena lais offeryn cerdd ar lais a swn troed yn cerdded, neu *chwythad* anadl.—*Cyfr. y Beirdd*, 17.

Chwythad anadl ei ffroenau, the blast of the breath of his nostrils.—2 *Sam.* xxii. 16 (cf. Salm. xviii. 15).

Chwythad udgorn, the blast of a trumpet.

Ar hyn dyma *chwythad yr udgorn* diweddaf
Yn siglo holl anian i'w sylfaen iselaf.
I. G. Geirionydd: Geir. 251.

Chwythain, *a.* having breath; windy.—*P.*

Chwythaint, *sm.* wind; respiration.—*P.*

Chwythawd, } *pl.* chwythodau, *sm.* a blowing;
Chwythod, } a breathing; a breath; a blast or blow.

Pan gasglwyd y dyfroedd drwy *chwythod* dy ffroenau di, hwy a safasont mal cwmwl.
H. Perri: Egluryn Ffr. xxxvii. 2.

Y mae naw chwythod mewn cath, a cat has nine lives.—*C.S.*

Chwythbib, } -au, *sf.* a blow-pipe; a blast-
Chwythbibell, } pipe.

Chwythbren, -au, -i, *sm.* a tube used for blowing a fire; a blowing tube; bellows.

Chwythedd, *sm.* windiness; inflation.

Chwythell, -au, *sf.* a whistle; a whiffle.

Chwythelliad, -au, *sm.* a whistling; the call of a whistle; a shrill sound.

Chwythellu, *v.* to whistle; to blow or blast.

Chwythgorn, gyrn, *sm.* a musical wind instrument (originally) made of horn; a cornet, a shawm; a horn.

Canu yn llafar ac yn rhwydd,
O flaen yr Arglwydd Frenin,
Ar yr udgyrn, a'r *chwythgyrn* pres;
Fal dyna gyffes ddibrin.—*Edm. Prys:* Salm. xcviii. 6.

Chwythi, *s.pl.* respiratory organs? The word may be=*gwythi, gwythienau.*

Da yw'r edlyn hwn rhag hen beswch, a rhag y colic, ac i helaethu y cymhibau, a *chwythlau* ereill ynger y gwaed, o dodir halen yng nghyd ag ef.—*Meddygon Myddfai*, ii. 793.

Chwythiad, -au, *sm.* a blowing; a blasting; a blast.

A nerth dychrynllyd ei *chwythiadau* gwrdd.
Daniel Ddu, 52.

Chwythiedydd, -ion, *sm.* a blower.

Chwythig, *a.* having wind; inflated.—*P.*

Chwythigell, -au, *sf.* a blown bladder.

Chwythigen, -au, *sf.* a bottle.

Chwythlais, leisiau, *sm.* a hissing sound; a hiss or hissing.

Barna Michaelis mai yr ŵydd a feddylir wrth y gair, oddi wrth ei *chwythlais*, neu ei hysiad, pan gynhyrfer hi.
Th. Charles, s.v. 'Cogfran.'

Chwythlyd, *a.* 'full of blowing or puffing;' puffy, flatulent; windy.

Chwythlydrwydd, *sm.* flatulence, puffiness; windiness.

Chwythryn, -au, *sm.* [chwyth+rhyn] something very light and trivial; a particle, a jot, a tittle, a whit.

Dangoswyd mewn rhifynau ereill o'r un cylchgrawn, tu hwnt i'r *chwythryn* lleiaf o ammheuaeth, mai gwaith bardd y bymthegfed ganrif ydyw.
Llyfryddiaeth y Cymry, 515.

Digitized by Google

Chwythryntyn, *sm.* [dim. of *chwythryn*] the smallest particle; the least tittle; a jot.—*C.S.*

Chwythu, *v.* to blow; to breathe.

Oed Crist 1106, *chwythawdd* y gwyntoedd y tywod yn aruthrawl dros wyneb tir Galedin hyd onid aeth yn for dwfn lle y buassei'r traethau a'r tywynau.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 537.

Yr hwnn a *chwyth* oe froeneu y veint wybren yny tywyllo wyneb yr holl ynys.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 148.

A phan wybuwyt eu medwi wynteu y dechreuit kymyscu y tan ar glo am benn yr ystauell. a *chwythu* y megineu. yny vyd y ty yn burwenn am eu penn.—*Mabinogion,* 32.

Y corn athrodes di Vryen
Ae arwest eur am y en
Chwyth yndaw oth daw aghen.
Llywarch Hen: A.B. ii. 262.

Nid hawdd *chwythu* tân â blawd yng ngeneu.
Diareb. (M.A. iii. 170.)

Y mae y gwynt yn *chwythu* lle y myno.—*Ioan* iii. 8.

Y gwynt a *chwyth* ym mhob gwlad.—*Baruch* vi. 61.

Ni all oddef i'r gwynt *chwythu* arnom.
Robert Llwyd: Llwybr Hyff. 128.

Meidr y cythraul *chwythu*'r tân uffernol o'r cynnud crinion i'r coed ir.—*Ch. Edwards:* Han. y Ffydd, 343.

Chwythu gan y gwynt, to be blown by the wind; to wave in the wind.

Llyna y gwelit y sawl ystondard yn dyrchauel. ar sawl baladyr unyawn. ar pensedeu yn *chwythu gan y gwynt* hyt na wnaeth Duw yn dyn a allei rif arnadunt.
Yst. de Carolo Magno, col. 437.

Chwythu bygythiau a chelanedd, to breathe threatenings and slaughter.—*Act.* ix. 1.

Chwythu mewn udgorn, } to blow a trumpet;
Chwythu udgorn, } to sound a trumpet.

Chwythwch yr udgyrn ar gopa Baalsephon.
Blackwell: Ceinion Alun, 155.

Chwythu allan, to blow out; to breathe out.

Mynegir am un cyfarfod, lle y bu raid *chwythu allan* y canwyllau.—*Gwyliedydd,* vi. 212.

Chwythu i fyny, to blow up; to puff up.

Chwythwyd fi *i fyny* gan falchder melltigedig.
Gwyliedydd, v. 172.

Chwythwm, ymau, *sm.* a sudden blast or gust of wind; a gust, a squall.

Gwynt ffalwm ddelo'n *chwythwm*
I droi'r ty â'i wyneb fyny.—*Hen Ganu Gwasail.*

Chwythwr, wyr, *sm.* a blower, a blaster.

Chwythydd, -ion, *sm.* he who or that which blows; a blower.

Chwythymog, *a.* [chwythwm] gusty, squally.

Chwythymol, } *a.* gusty, blasty, squally;
Chwythymus, } stormy.

Myn rhai mai gwynt cryf *chwythymus* ond poeth iawn yd-oedd, yr hwn a gyfodai lwch ac a'i lluchiai i wyneb Ionah.
John Davies: Prophwydi Byrion, 87.

Chwythyn, *sm.* a sudden but short blast of wind; a small blast; a puff, a gust.

Digitized by Google

D

D, *sf.* the fifth letter and the fourth consonant in the Welsh alphabet, has the same power as the English *d*; and is (in common with *b* and *g*) subject to two modifications. As an initial it is changeable into *dd* and *n*; as *dafad*, a sheep; *ei ddafad*, his sheep; *fy nafad*, my sheep. It undergoes the same mutations in composition; and before *t*, and sometimes in other positions, it is hardened into *t*, or assimilated to it; as *rhad*, *rhatach*, *rhataf*; *troi*, *dattroi*; *tynu*, *dattynu*.

D lengthens the vowel immediately preceding it; as *tad*, *cred*, *llid*, *bod*, *drud*, *cwd*, *byd*. The conj. *od*, and the adj. *od*, are exceptions; but the latter is long in composition, as *odid*, *odidog*; and the quantity of the monosyllable is probably affected by confusion with that of the Eng. *odd*.

Da, *a.* [C. *da*, *dah*; Br. *da*; Ir. *deagh*, *deich*, *dagh*, *dag*; Ga. *deagh*] 1. good.

Arglwyd heb hi grassaw Duw wrthyt. antur *da* y titheu heb ef.—*St. Greal*, ‡ 196.

Ac y gyt a hynny ymladwr *da* oed.—*Mabinogion*, 93.

Da yw Duw, a hir yw byth.—*Diareb.* (M.A. iii. 153.)

Da 'n ieuanc, *da* 'n hen wrth feudwyaid,
Da 'n fychan, *da* 'n fawr wrth Frytaniaid,
Da yn wr, *da* 'n fab cadwyn euraid,
Da 'n fyw yn rhoi can, *da* 'n farw y caid.
L. G. Cothi, III. xxii. 65.

Da i wr ydyw arian.—*W. Lleyn:* G.B.C. 286.

A Duw a welodd y goleuni, mai *da* oedd.
Gen. i. 4 (cf. 10, 12, 18, 21, 25, 31).

Tegid ab Baran a fu frenin call a bardd *da*.—*Iolo Mss.* 7.

Da oedd hwn dyddiau henwr,
Da, o bu *da* yn y byd wr.—*Watcyn Clywedog.*

Nid *da* lle gellir gwell.—*Iolo Mss.* 62.

Dyn da (*pl.* dynion da), a good man.

Gwr da (1), a good man.

Gwr da yw hwnw, ac â chennadwriaeth *dda* y daw efe.
2 *Sam.* xviii. 27.

Gwr da sy gymmwynasgar, ac yn rhoddi benthyg.
Salm. cxii. 5.

(2) a man of quality; a gentleman; a noble; a person of renown or celebrity; good sir.

Often in M.W. written (erroneously) in one word: *gurda*; pl. *gwyrda*.

Gwreic yssyd da itti y chael. a merch yssyd imi gwiw y bob *gwr da* yn y byt.—*Mabinogion*, 101 (cf. 7, 202).

Ac yna y dywad Yspysianys: Oio, *wr da*!
Ystori Teitys (Brython, iii. 41).

Diolch i chwi, y gwr da, I thank you, good sir; I thank you, gentleman.—*C.S.*

Ewyllys da, good will; benevolence.—*Luc* ii. 14 (cf. *Deut.* xxxiii. 16).

Gair da, a good word; good report; reputation; character.—*Act.* x. 22; 3 *Ioan* 12.

Mae gair da iawn iddo, he has a very good word; he is very well spoken of; he is very well reported (of); he bears a very good character.

Iechyd da, good health.

Da i ddim, good for nothing.

Da i beth ydyw? what is it good for?

Gweled yn dda, } to think or see good; to
Gweled fod yn dda, } seem good (to); to be pleased; to please.—*Luc* i. 3; *Act.* xv. 25, 28.

Os gwelwch (*fod*) *yn dda*, } if you think or see
Os bydd dda yn eich golwg, } good; if it seems good to you; if it pleases you; if you please.

Os gwelwch yn dda, dygwch fy ngwerth.—*Sech.* xi. 12.

Da (*yw*) *genyf eich gweled*, } I am happy,
Mae yn dda genyf eich gweled, } glad, or pleased to see you.

Kerdet wrth vy negesseu heb hi a *da yw gennyf dy welet* ti.—*Mab.* 11 (cf. 94).

Da iawn oedd *genyf* y fath gyfleusdra i fyned i Fon.
Gronwy Owain, 162.

Ac ef a ofynnawd aoed *da gantunt* hwy hynny.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 14.

Da genyf dy deg annerch.—*Tegid:* Gwaith, 101.

Os da gan Dduw, if it pleases God; if God pleases.

Os da gan Duw mi ae racvedylyaf yn da.—*St. Greal*, ‡ 10.

Gwneuthur yn dda (1), to do well.—*Marc* vii. 37.

(2) to make good; to perform or fulfil; to maintain.

Efe a *wnaeth yn dda* ei fygythion yn ei air yn eu herbyn hwynt.—*Ieremi Owen*, 20.

Natur (*anian*) *dda*, good nature.

Da ei natur (*anian*), good-natured.

A glywaist ti chwedl Cynan
Wledig, sant *da ei anian*?—*Iolo Mss.* 253.

Dydd da, good day (in accosting a person).

Arglwyd heb yr ysgolheic *dyd da* ytt.
Mabinogion, 55 (cf. 62, 65, 70).

Dydd da iti, 'r ferch foneddig,
Sy'n rhodio ar hyd y goedwig.—*Llanover Ms.*

Dydd da, 'r gwrola' hyd Ron,
Dewr grymus o dir Garmon.—*L. G. Cothi*, IV. xxi. 1.

Dydd da fo i'r gwcw loew lân.—*Owain Gruffydd.*

Dydd da, rhwydd helynt iti.—*Daniel Ddu*, 282.

Blwyddyn newydd dda, a happy new year.

Pethau da, good things.—*Doeth.* viii. 9.

Traethodd fy nghalon *bethau da*.
Edm. Prys: Salm. xlv. 1.

Cymmeryd yn dda, to take well; to take in good part.

Dymuno yn dda, to wish well.

Ni allodd y Rhufeiniaid ond *dymuno yn dda* iddynt.
Theo. Evans: D.P.O. 89.

Mae hwn yn dda dros ben, this is exceedingly good.

Da ddigon, good enough; well enough.

Yr yttoed gwedy y phebyllu a llenneu o sidan oll. ac yn y pebyll yd oed gwely *dadigawn* y adurnyat o lenneu goreureit.—*St. Greal*, ‡ 49 (cf. 19, 39).

Digitized by Google

Hywel Dda, Hywel the Good.

Achaws daed ei gyfreithiau y gelwir ef *Hywel Dda*.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 487.

Da, *sm.* 1. good; goodness; that which is good; a blessing.

Duw a rodo *da* ytt heb y Gwawl a graessaw Duw wrthyt.
Mabinogion, 15 (cf. 21, 27, 62, 245).

Ych rwyd ewyllys chwi am gynnic ych *da* ymi ysyd gymeredic y gennyfi.—*Amlyn ac Amig*, col. 1087.

Deuwch, gan hyny, a mwynhäwn y *da* sydd.—*Doeth.* ii. 6.

Y rhai o herwydd cynnefindra y mae ganddynt synwyr wedi ymarfer i ddosparthu drwg a *da*.
Heb. v. 14 (cf. Rhuf. vii. 18; ix. 11; xii. 9).

Dyn a ran *da* yn ei raid;
Duw a ran *da* i'r enaid.—*Guto'r Glyn.*

Da Duw i chwi am eich mwynder a'ch cariadoldeb.
Barddas, i. 400.

Da am *dda* sydd dra rhesymol.—*Iago ab Dewi:* Dyrifau.

A gaffo Dduw a gaiff *dda*.—*Sion Cent.*

Pob *da* oddi wrth y Creawdwr; pob drwg oddi wrth y creadur.—*Diareb.*

Gwneuthur da, to do good.

Gwnawn dda i bawb.—*Gal.* vi. 10 (cf. Salm. xxxiv. 14).

Da a drwg, good and evil.—*Gen.* ii. 9; iii. 5.

Gwneuthur (*talu*) *da dros* (*am*) *ddrwg*, to do good for evil.

Talu drwg dros dda, to recompense evil for good; to do evil for good.—*Ier.* xviii. 20.

Gwna fwy o ddrwg nag o dda, it does more harm than good.

2. *sm.* and *s.cl.* (*pl.* -oedd), property, possession, substance; goods; wealth; stock; chattels; cattle.

Pop *da* heb perchenau ydau e syd dyfeyth brenyn.
Cyfreithiau Cymru, i. 78.

A dim oc awch *da* nys mynnaf. ac nyt reit ym wrthaw.
Mabinogion, 223 (cf. 208).

Ac yna Agamemnon a ganhatwys udunt eu holl *da*.
Dares Phrygius: Ll.C.H. 38.

A bot sened Ruuein yn blinaw o dreulaw eu *da* ac eu swllt mor wastat a hynny yn kerdet mor a thir.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 121.

Er cael *da* y gwyrda gwych,
Ceisio ydd wyf yno'n fynych.—*L. G. Cothi*, iv. xxiv. 39.

Er chwaneccau *da* udhunt. ac er cadw eu *da*. y gwnant wy hynny olh.—*Lucidar*, § 76.

Wrth hynny ny dylyir roi na chyfnewitiaw tir yr *da*.
Cyfreithiau Cymru, ii. 380.

Holl *dda* ei feistr oedd dan ei law ef.
Gen. xxiv. 10 (cf. Ecs. xxii. 11; Iob xx. 21, 28).

Lle y byddo llawer o *dda*, y bydd llawer i'w ddifa.
Preg. v. 11 (cf. 1 Cor. xiii. 3).

Gwyr y wlad a fynnasant Hywel yn ei ol, a myned gydag ef yn erbyn Rhisiart, a lladd ei wŷr, a diffeithiaw eu tiroedd, a dwyn eu *dŏoedd*, a pheth nas gallasant ei ddwyn ei losgi, yn yd, ac yn wair, ac yn dai.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 536 (cf. 541).

Dod o'th olud a'th *ddaoedd* arllad gyfarwys i Dduw a'i dylodion.—*Barddas*, i. 288.

Ti am cyflenwaist i o *dhaoedh* dy synnwyr di Arglwydh.
Lucidar, § 124 (cf. 46, 62, 135).

Pwy'r Efa dda am *ddaoedd*?—*L. G. Cothi*, iv. xv. 41.

A phobl gymmysg lawer a aethant i fyny hefyd gyd â hwynt; defaid hefyd a gwartheg, sef *da* lawer iawn.
Ecs. xii. 38.

Da byw, *Da bywiol*, *Da bywol*, } live stock; living goods or property: such as cattle, horses, sheep, and the like.

Da marwol, *Da marw*, } inanimate stock or property: as money, chattels, clothes, trees, and the like.

Tri lleidr crogadwy y sydd: lleidr *da bywawl*, a ddaler un llwdn ar ei liw gantaw; a lleidr *da marwawl* a ddaler gwerth pedair ceinawg cyfraith gantaw, neu a fo mwy; a lleidr *da bywawl* a ddaler croen ar ei liw gantaw, ac ni ddiheurer am y llwdn o gwbl.—*Leges Wallicae*, iv. 176.

Da cyffro: see *Cyffro, Cyffröedig.*

Da digyffro: see *Digyffro.*

Da gwahanedig, divisible stock; property that may be divided into separate shares: such as money, corn, wine, oil, and other things in general which consist in number or measure.

O dderfydd i ddyn golli *da gwahanedig;* nid amgen, ariant, neu ddillad, neu ysgrubl, cyd collai efe y tri pheth hyn yng nghyd, ac na chaffai efe namyn un o'r rhai hyny wrth y damdwng, ni farn cyfraith iddaw ef, cyn collai efe luosogrwydd o'i dda, gaffel namyn a fu wrth y damdwng; canys *da gwahanedig* yw.—*Leges Wallicae*, v. v. 52.

Da diwahan, *Da diwahanedig*, } property which cannot be divided; indivisible stock.

O dderfydd i ddyn ddamdwng *da diwahan* yn llaw dyn arall, a chaffel dryll o honaw, a dryll arall heb ei gaffel . . . ni ddylir caffel y cwbl o honaw. . . Sef yw *da diwahan*, bei collai dyn eidon, a chaffel y croen wrth y damdwng, ddylyu o honaw y cwbl o'r eidon.—*Leges Wallicae*, v. v. 51.

Da bath, *Da bathol*, } monetary property; specie; coin; money.

Dillad a thân rhag annwyd,
A *da bath* lonaid y byd.
L. G. Cothi, iii. vii. 15 (cf. xxviii. 24).

Dau *dda* a lenwis dwy ddôl,
Da byw wythwaith, *da bathol*.—*L. G. Cothi*, iii. xiii. 25.

Da byw a da bathol, live stock and coined specie.

Da a defaid, cattle and sheep.

Gwel dithau, ebe Beibiaw, y maint y sydd o *dda a defaid* genyf fi yn pori yn dy faes di!—*Iolo Mss.* 193.

Nid oes yn wir ddim hanes neillduol o blegid pa ddrygau a wnaeth y Brithwyr a'u cyfeillion dros rai blynyddoedd ar ol eu herlid y waith hon, oddi eithr eu bod yn lledrata gyr o *dda a defaid*, a lloegi ambell bentref yn awr a phryd arall.—*Theo. Evans:* D.P.O. 78.

Da a cheffylau, cattle and horses.

Da blithion, milch cows.

Da duon, black cattle.

Ar y banc mewn rhedyn tewon,
Rhwng y defaid a'r *da duon*.—*D. Davis:* Telyn Dewi, 104.

Da cadw, cattle kept for another owner; cattle taken for agistment or pasturage.

Da cyrnig, horned cattle.

Da hyspion, barren cattle.

Da bach (1), small or young cattle. (2) sheep as distinguished from bovine animals.

Da carnol, hoofed animals.

Ny byd eneit vadeu y neb y dalyer *da carnawl* gantaw er marw y warant neu nallo dyuot ido or dichawn ef ymdiheuraw trwy detryt gwlat nas duc ef y da yn lledrat.
Cyfreithiau Cymru, ii. 392.

Da plufog, *Da pluog*, } feathered animals, domestic fowls, poultry.

Os ffyna da blewog, ni ffyn y *da plufog*.—*Diareb.*

Mawr ddinystr yn fynych a wna hi [y gath goed] ym mhlith yr ŵyn, y mynod, yr ysgyfarnogod, a'r *da pluawg* gwyllt a gwâr.—*Gwyliedydd*, v. 204.

Da byd, *Da y byd*, *Da bydol*, } the world's goods; worldly goods; the good things of the world.—1 *Ioan* iii. 17.

A Chain lofrudd, brawd Afel, a fynai glod o *dda byd*.
Barddas, i. 54.

Dyn a *da'r byd* a dderfydd,
Da nefawl tragwyddol fydd.—*Gutyn Owain.*

Ni all *da'r byd*, ennyd awr,
Estyn einioes dyn un-awr.
W. Lleyn (Flores Poet. Brit. 24).

Mae profiad . . . yn dangos nad yw trefnu ein *da byd* ym mlaen llaw ddim yn peri i ni farw'n gynt.
Nicander: Dysga Farw, 110.

Digitized by Google

Y rei a wasannaethei udunt oe wyn a mynneu. a gwlan. ac holl *da bydawl*. teir rann pob blwydyn.
Buchedd Mair, § 2.

Ac felly am na chafas y pagan y *da bydol* wrth ei ewyllys, dyru ei felltigedig weision a orug ef, a gorchymmyn iddynt ddwyn Silfestr geir ei fron ef yn rhwym.—*Ystori Silfestr.*

Da amserol, temporal good; temporal property, goods, or substance.

Os esmwyth yma gantunt eu *da amserawl*. y mae esmwythach raclhaw o lawer y da tragywyddawl.
Lucidar, § 58 (cf. 46).

Da, *adv.* well, good; well done.

Dywedodd ei arglwydd wrtho, *Da*, was da a ffyddlawn.
Matt. xxv. 21 (cf. 23).

Ac os dwg efe ffrwyth, *da*.—*Luc* xiii. 9.

Da y prophwydodd Esaias am danoch chwi.
Marc vii. 6 (cf. 37).

Da da, very well; very good.

Da, *int.* (sometimes of approval and sometimes of entreaty) well; well done; I pray thee or you; pray.

Da ddyn! well done man!

Da yr eneth! that is a good girl!

Da fachgen! that is a good boy!

Da chwi, *Da chwithau*, } I pray you; I beg of you.

Ymgeleddwch, *da chwithau*, ychydig o'r papurau rhyddion yna. . . Ymwrolwch, *da chwithau*, am danynt.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 224.

Byddwch amyneddgar, *da chwi*.—*Gronwy Owain*, 313.

Gyrwch y Delyn gynta' galloch, *da chwithau*.
Gronwy Owain, 264.

Da chwi, meddai y trydydd, rhowch olwg arni.
Seren Gomer, xi. 14.

Bwytêwch, *da chwi;* cymmerwch, fel y mae y croesaw sydd; mae chwaneg yn y cae.—*Nicander.*

Da di, *Da dithau*, } I pray thee; prithee; that is a good fellow, my good fellow.

'Madyn anwyl,' ebai'r Blaidd, 'paid, *da dithau*, â bod mor anesmwyth.'—*Brython*, ii. 201.

Gwnewch hyn, da chwi, do this I pray you; do this I beg of you.

Da iawn, very well; well and good.

Dab, *sm.* a contraction of *Dafydd* (or *Dai*) + *ab*, sometimes found in pedigrees, and formerly not uncommon in the colloquial language. See *Ab, d.*

Yn Ogof *Dab* Siencyn y cafwyd y bêr a'r crochan mwyaf sydd yn Ngwaed Ir (Gwedir yn ymyl Llanrwst).
Papyrau E. Lhwyd (Brython iii. 430).

A chan fod rhai o honynt yn cael eu galw *Dai* yn lle Dafydd, ac yn cydio yr *ab* â'u henwau, yr oeddynt yn cael eu galw y *Dabiaid*.—*Brython*, ii. 109.

Dabre, *v.* come; come hither; hasten.

A thitheu heb ef wrth was y uarch. kyfrwya vy march yn da a *dabre* ac ef yr ffordd. a dwc vy ysparduneu gennyt.
Mabinogion, 10.

Weldyma Walchmei dy damunet ti. *dabre* attaw a gwna idaw lewenyd.—*St. Greal*, § 109 (cf. 29).

Ac wrth hynny paratoa lyghes a *dabre* y gymryt teyrnas Ynys Brydein.—*Yst. Bren. Bryt:* Ll.C.H. ii. 125.

Dabre genhiw nym gwatter . . .
Dabre de genhiw ir dinas . . .
Dabre genhiw imtino.—*Llyfr Du:* A. B. ii. 56, 57.

Eithyr na *dabre* di yno Gonners bilein.
Yst. de Carolo Magno, col. 414 (cf. 435, 450).

Ymhoel tu ar maes, a *dabre* y ymwan a mi.
Bown o Hamtwn, § 62.

Iesu a dywot wrthaw yn ymdidangar. *dabre* heb ef. a chyssylltwn y prenneu a gogyhydwn.
Buchedd Mair, § 33 (cf. 8).

Dabre y gyt a ni yr Duw, ac yr bendith hynny o seint.
Buchedd Dewi: C.B.SS. 111.

Dabre, fy nghyfnesaf, i eisteddfa buchedd dragywydd.
Hengwrt Ms. 350.

Debre 'r nos ger llaw'r rhosydd,
Dan frig y goedwig a'r gwŷdd.
D. ab Gwilym, xvi. 37 (cf. cclvi. 30).

Dos a gwerth cymmaint oll ag y sy iti, a dyro i'r tlodion . . . a *debre*, dilyn fi.—*W. Salesbury:* Marc x. 21.

Dabre [*esgyn, dring] i fynydd yma.
Th. Huet: Dad. iv. 1 (cf. xvii. 1; xxi. 9).

Dabre ac edrych (=tyred a gwel), come and see; come and look.

Mi a glywais un o'r pedwar cnifail yn dwedyd, mal be bai trwst taranau, *Dabre* [*dyred] *ac edrych*.
Th. Huet: Dad. vi. 1 (cf. 3, 7; iv. 1).

¶ Like *tyred*, *dyred*, *dyre*, and *dere*, *dabre* is found only in the second person of the imperative mood. *Dabred* and *dabredu* are assumed infinitive forms, but they are not known to occur.

Dabred, } *v.* [rhed ?] to come, to pass on, to
Dabredu, } hasten.—*P.*

Dabrediad, -au, *sm.* a passing on.—*P.*

Dabredol, *a.* tending to move or pass.—*P.*

Dabru, *v.* [contr. of *daebru*]=*Dadebru.*

Ac yn honno *dabru* corn gwlad dan osteg deugein-nydd.
Barddas, ii. 86.

Dacw, *adv.* [dy- + acw ?] there is or are; yonder is or are; lo there or yonder; behold yonder; see there. *Dacw* has the force and government of an active verb in the imperative mood, and points to an object within view (actually or ideally) at some distance. *Doco* and *dyco* are variants of the same word.

Dywedai'r ferch, nid dedwydd,
Deca' o ddyn, 'Fal *dacw* ddydd!'
D. ab Gwilym, lix. 15 (cf. ccxxxi. 29).

Dacw 'r llwyn o fedw gleision,
Dacw 'r llwyn sy'n tori'm calon.—*Hen Bennill.*

'Ond *dacw*,' ebr ef, 'rai o hen sil y Ddraig fawr Luciffer.'
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 88.

Dacw lofrudd ar ei aswy,
Dacw leidr ar ei dde.—*W. Williams:* Hymnau, ccccxc. 2.

Dacw Dom, cloch drom, clywch, draw yn rhuo,
Mae'n rhywyr ymadaw.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 118.

Gan nerth yr ergyd *dacw* 'r ewyn gwyn
Yn tori'n gandryll, ac yn cilio'n ol.
Daniel Ddu, 53 (cf. 56, 147, 148, 311).

Dacw y bardd, hardd ei urddas,
Yn ei glog o sidan glas.—*Cawrdaf:* Gweith. 55 (cf. 56).

Dacw hi, there she is; behold her.

Dad-, a prefix which mostly occurs before verbs, with substantives and adjectives derived from them; and answers to Eng. *un-* in *undo*, *undress;* to *dis-* in *disclose*, *disestablish;* to *re-* and *retro-* in *reveal*, *retract*, *retrograde*. In some words it has the same force as *ad-* (q.v.), as in *dadferu* (=*adferu*), to restore; *dadennill* (=*adennill*), to regain. *Dad-* is considered by Davies and others to be a compound of *dy-* and *ad-*; but in some words it has rather the force of *di-* + *ad-*.

Dadadeiladu, } *v.* [dad- + adail] to pull down
Dadadeilio, } or destroy a building; to undo what has been built.

Dadaddurno, *v.* to divest or deprive of ornaments or decorations; to unharness; to loose from harness or gear.

Dadaddurno march, to unharness a horse.—*W.*

Digitized by Google

Dadafaeliad, -au, *sm.* a letting go a hold; a loosening, a letting go.

Dadafaelu, } *v.* to let go or loose a hold; to
Dadafael, } ungrapple.—*W.*

Dadangori, *v.* to weigh anchor, to raise the anchor.

Dadangoriad, -au, *sm.* a weighing of an anchor.

Dadalw, *v.* [galw] to recall, to call back; to revoke.

Dadalwad, -au, *sm.* a recall, a revocation.

O'r diwedd daeth llythyrau *dadalwad* yno, a chludwyd y Bassa mewn cadwynau i Gaergystenyn, ac ni soniwyd am ei enw mwyach.—*Rasselas*, xxiv.

Dadanhudd, -iau, *sm.* [anhuddo = enhuddo: cf. *An-* 3] 1. a disclosure, a discovery; a recovery; a reclamation; the process of uncovering; development; manifestation.—*M.A.* i. 194, 233, 286, 314, 318, 342, 409, 426.

Ac undyn ydyn'; ni'm oedaint am fudd,
Ac un *dadanhudd* am fudd fyddaint.
Dafydd ab Gwilym, xiii. 35.

Dyfod lys Dafydd y bûm i gael budd;
A'i rudd *dadanhudd* a adwaenem;
Dyfod i'w ofwy gynt i Raiadr Gwy;
Ac yn ei ofwy gwin a yfem.—*L. G. Cothi*, iv. xvii. 25.

Galar serch a fydd o achos caru merch, ac yn cael pall ac angheriad ganthi; neu yn ofni hyny; neu yn dwyn serch dirgel, heb allu *dadanhudd* arno tuag eti.
Cyfrinach y Beirdd, 40.

Tri phrif *ddadanhudd* Duw: a ellir o lwyr nerth; a wneir o lwyr gariad; ac a ŵyr lwyr wybodaeth. Ereill a wedant: Tri phrif *ddadanhudd* Duw: Tadolaeth; Mabolaeth; ac Ysprydolaeth.—*Barddas* i. 182 (cf. 298, 304).

Cael braint cân o *ddadanhudd*,
A chler, er yn amser Nudd.—*Gro. Owain*, 53 (cf. 289).

2. 'a term for a peculiar suit at law for the recovery of patrimony, formerly in the possession of an ancestor of the claimant, founded on the circumstance of the custom of covering the fire previous to retiring to rest, generally in modern times with a large turf, by which a smouldering fire is kept up, and uncovering it in the morning;' a claim of recovery.

Tri ryu *datanhud* y syd *datanhud* ar ac eredyc a *datanhud* karr a *datanhud* burn a beych. . . Ar *dadanhudyeu* hynny ny dylyir eu barnu y nep ony byd rod ac estyn y gan yr argluyd gynt ary tyr.
C.C. i. 170 (cf. 466, 488, 538, 540, 754, 756).

Os drwy *datanhud* y llawl a bot yno *datannud* arall kyn noc ef ny eill yr eil *datannud* gyrru y kyntaf. Ony byd ynteu *datannud* yno kyn no hwnnw . . . ny eill yr vn ohonunt gwadu y gilyd.—*C.C.* ii. 380 (cf. 106, 130, 140, 144, 276, 278, 280, 282, 422, 740, 1113).

Dadl dadanhudd, } a suit for the recovery of
Cwyn dadanhudd, } patrimony.—*C.C.* ii. 386.

3. a suitor who claims to rekindle the fire of his ancestor's hearth; a claimant to a right of inheritance.

Ni ddichawn yr ail *ddadanhudd* wrthladd y cyntaf, ac ni ddichawn un ammhriodawr wrthladd ammhriodawr.
Leges Wallicae, ii. xiv. 7 (cf. 9).

Dadanhudded, *sf.* a disclosure; elucidation.

Dadanhuddiad, -au, *sm.* a disclosing, a discovering; reclamation; investigation; manifestation.

Ail lyfr Cyfraith Hywel Dda oedd yn cynnwys cyfreithiau gwlad o bob rhyw, megys ysgar, meichniaeth, briwo anifeiliaid, briduw, anudon, ammod, nawdd eglwys, a'i breiniau, dadleu, tiroedd, eu terfynu a'u rhanu, *dadanhuddiad* dadl, ach ac edryd, obediw, pencenedlaeth.
G. Mechain: Gwaith, ii. 134.

Dadanhuddo, *v.* to uncover; to disclose; to discover; to educe; to reclaim; to investigate a title.

Puebenac aceako teyrnos gan gureyc or pan anhuder etan eny *dadanudher* tranohet.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 88.

Deleu o hanau ef dyuot y *datanhudau* er aeluyt a anhudus ef neu e tat kyn noc ef.—*C.C.* ii. 142 (cf. 738).

Anhuddwyd aelwyd; Duw a welo
Dodi un heddyw a'i *dadanhuddo*.—*L. G. Cothi*?

Ar datanhudyeu hyny ny dylyir eu *datanhudau* namyn or mab yn lle y bu y tat gynt neu yn y lle y bu y ryeny ehun gynt kany dylyir datanhud o ach ac edryu.
Cyfreithiau Cymru, i. 170 (cf. ii. 738).

Dadanhuddwch hwynt [llyfrau Cymreig] o gaethiwed, a lludw, a llwch, a phylor, a mwg, a mwnws, a lluthrod.
Dr. I. D. Rhys.

Dadanhuddol, *a.* apt to disclose; tending to discover; reclaimed; disclosed.

Datannudawl hawl yw hywled Owein.
Casnodyn: M.A. i. 426.

Dadanhuddwr, wyr, *sm.* a discloser; one who claims a right to property or inheritance; a claimant to a patrimony.

Dadannel, *sm.* [annel] the state of being unbent; an unstretched state.

Bwa ar ddadannel, a bow in an unbent state, an unbent bow.

Dadanneliad, -au, *sm.* a relaxing from a strain; an unbending.

Dadannelog, *a.* unstrung; unbent.

Dadannelu, *v.* to unbend (a bow); to cease from bending or stretching.

Dadansoddi, *v.* [ansawdd] to analyse; to separate (a compound) into its elements.

Nid hir y bu fferyllwyr heb ddarganfod ffyrdd i'w *dadansoddi* a'u didol.—*Gwaith Eisteddfod* 1888, 449.

A'u hymgais cyntaf fyddai tynu i lawr a *dadansoddi* neu ysgaru rhwng y naill bobl a'r llall.—*Haul*, 2 C.C. viii. 30.

Dadansoddiad, -au, *sm.* an analysing; analysation; an analysis.

Er mwyn dangos natur cynghrair y pleidiau, dodwn yma *ddadansoddiad* o honynt.
Amddiffynydd yr Eglwys, 1880, 152.

Dadansoddiad a chyfosodiad, analysis and synthesis.

Dadansoddol, *a.* analytical.

Dadansoddwr, wyr, *sm.* an analyst or analyser.

Dadarfiad, -au, *sm.* a disarming, disarmament.

Dadarfogi, } *v.* [arfogi, arfu] to disarm, to un-
Dadarfu, } arm.

Dadarfogiad, -au, *sm.* a disarming or unarming, disarmament.

Dadasio, *v.* to unsodder; to loosen what has been welded; to disjoin.

Dadawchiad, -au, *sm.* a blunting.

Dadawchu, } *v.* to blunt; to deprive of edge
Dadawchio, } or sharpness.

Dadblan, *a.* [plan, planu] that is displanted; unplanted.

Dadblaniad, -au, *sm.* a displanting.

Dadblanu (*a*), *v.* to displant; to root out.

Dadblanu, diwreiddio, tynu planigyn o'r gwraidd.
Walters.

Dadblyg, *a.* unfolded; unbent.

Digitized by Google

Dadblygedig, *a.* unfolded, unbent; developed.

Dadblygiad, -au, *sm.* an unfolding; an unbending; development.

Trwy *ddadblygiad* graddol y daeth yn greadur rhesymol. *Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 640.

Y mae *dadblygiad* y meddwl yn golygu dau beth—Bodolaeth galluoedd neu elfenau yn y meddwl, ac amgylchiadau i dynu y galluoedd hyny allan. *Adolygydd,* ii. 91 (cf. 88).

Bydd y ffordd genedlaethol dra dymunol hon yn ffaith wirioneddol, a'i dylanwad ar *ddadblygiad* Columbia Brydeinig, a pharthau gorllewinol ereill Canada, nis gall lai na bod yn fawr yn y dyfodiant cyfagos.—*Llawlyfr Canada,* 33.

Dadblygol, *a.* unfolding, unbending; developing, developmental.

Dadblygu, *v.* to unfold; to unbend; to relax; to develop; to disclose; to explicate.

Ystyriwn y goleuni a daflasant, pan eu *dadblygwyd* yn ddiweddar, hyd yn oed ar haniad ein cenedl ein hunain. *Blackwell:* Ceinion Alun, 233.

Dadblygwr, wyr, } *sm.* one who unfolds or
Dadblygydd, -ion, } unbends; an explicator.

Dadboeni, *v.* to relieve or assuage pain.

Dadboeniad, -au, *sm.* a relieving from pain.

Dadboenol, *a.* tending to ease pain.

Dadbrawf, brofion, *sm.* a second taste or relish; a disproof, confutation, refutation, or disproval.

Dadbriodi, *v.* to unmarry.

Dadbrofadwy, *a.* disprovable, refutable, confutable.

Dadbrofedig, *a.* disproved, refuted.

Dadbrofi, *v.* to disprove, to confute, to refute.

Nid ydoedd yn gyfartal i'r gorchwyl o *ddadbrofi* twyllresymiad ei wrthwynebwyr.—*Gwyliedydd,* xiv. 51.

Dadbrofiad, -au, *sm.* a disproving; confutation, refutation, disproof.

Dadbrofiant, *sm.* refutation, confutation.

Dadbrofiedydd, -ion, } *sm.* a disprover, a con-
Dadbrofwr, wyr, } futant.

Dadbryn, *a.* that is bought or purchased again; that is bought back; repurchased, redeemed.

Dadbryn, *sm.* a repurchase.

Dadbrynadwy, *a.* that may be repurchased; redeemable.

Ddadbrynedig, *a.* repurchased; redeemed.

Dadbrynedigaeth, *f.* } -au, *s.* a buying back;
Dadbryniad, *m.* } repurchase; redemption.

Fel y gallai Efe yng nghnawdoliaeth dyn gwblhau dirgelwch ein *dadbryniad.*—*M. Cyffin:* Diff. ii. 2 (cf. 17).

Dadbrynedigol, *a.* redemptive.

Dadbryniedydd, -ion, } *sm.* one who repur-
Dadbrynwr, wyr, } chases; a redeemer.

Dadbrynu, *v.* to repurchase, to buy back; to redeem.

Dadbwythiad, -au, *sm.* an undoing of a stitch or stitches; an unstitching.

Dadbwytho, *v.* [pwyth] to undo a stitch or stitches; to unstitch; to rip.

Dadbyniad, -au, *sm.* [pwn] a disburdening; an unloading.

Dadbynio, *v.* to disburden.

Dadchwaeth, -au, *sm.* a distaste; a disrelish.

Dadchwaethiad, -au, *sm.* a depriving of taste, savour, or relish; dislike.

Dadchwaethol, *a.* tending to disrelish.

Dadchwaethu, *v.* to deprive of taste or relish; to distaste.

Dadchwaethus, *a.* tending to cause a distaste or disrelish; distasteful.

Dadchwaliad, -au, *sm.* [chwalu] a putting together what is scattered or dispersed.

Dadchwalu, *v.* to gather up again.

Dadchwant, -au, *sm.* disgust, dislike.

Dadchwantu, *v.* to cause distaste; to dislike.

Dadchwedl, -au, *sm.* detail or relation recapitulated; a repeat.

Dadchwedliad, -au, *sm.* a saying over again; recapitulation.

Dadchwedlu, *v.* to recapitulate.

Dadchwegiad, -au, *sm.* a depriving or divesting of sweetness.

Dadchwegol, *a.* that tends to make unsweet or disagreeable.

Dadchwegu, *v.* to deprive of sweetness; to make unsweet.

Dadchwel, -ion, *sm.* [chwel] a motion backward; retrogression; retrogradation; return.

Dadchweladwy, *a.* reversible.

Dadchweledig, *a.* reversed, turned to the contrary.

Dadchweliad, -au, *sm.* retrogressiou, retrogradation; reversion; reduction.

Dadchweliad . . . ydyw dwyn neu ddadchwelyd rhifau o un enw i rifau ereill o enw arall yr un gwerth. *Annerch Ieuenctyd Cymru* (1815), 197.

Dadchwelog, *a.* retrograde, retrogressive.

Dadchwelyd, *v.* to retrocede, to retrograde, to go or move backwards; to reduce.

Dadchwennych, } *v.* to cease, leave off, or re-
Dadchwennychu, } linquish desiring or wishing; to disincline.

Dadchwennychiad, -au, *sm.* a ceasing or relinquishing to desire; disinclination.

Dadchwennychol, *a.* tending to eradicate a desire or inclination; disinclining.

Dadchwerwad, -au, *sm.* [chwerw] a freeing from bitterness.

Dadchwerwi, *v.* to divest of bitterness, to disembitter.

Dadchwerwol, *a.* divesting of bitterness, disembittering.

Dadchwiblad, } -au, *sm.* a depriving of
Dadchwibliad, } acerbity or sourness.

Dadchwiblo, *v.* to deprive of acerbity, acidity, or sourness.

Dadchwif, -ion, *sm.* a motion backwards, a retrogression.

Dadchwifiad, -au, *sm.* a moving backwards; a roving or rambling back.

Dadchwifio, *v.* to move back or backwards; to retrograde.

Digitized by Google

Dadchwil, -ion, *sf.* a research.

Dadchwiliad, -au, *sm.* a searching over again; a researching; a research; an analysis.

Dymunem hyspysu fod y traethawd yn rhanedig i dair pennod; y gyntaf, ar athrylith a barddoniaeth; yr ail, yn cynnwys *dadchwiliad* i weithiau y bardd; a'r drydedd, ar ei athrylith.—*Adolygydd*, ii. 413.

Dadchwilio, **Dadchwilied**, *v.* to search again; to research.

Dadchwiliwr, wyr, *sm.* one who makes researches.

Dadchwimiad, -au, *sm.* a moving back; retroaction.

Dadchwimio, *v.* to move back; to retroact.

Dadchwimiol, *a.* moving back or backwards; retroactive.

Dadchwimiwr, wyr, *sm.* one who moves back.

Dadchwiw, -iau, -ion, *sf.* a whirl back.

Dadchwiwiad, -au, *sm.* a whirling or revolving back; retrogression.

Dadchwiwio, *v.* to whirl back; to move suddenly back.

Dadchwiwiedydd, -ion, *sm.* he who or that which makes a retrograde course; a whirler backwards.

Dadchwydd, *sm.* subsidence of a swelling or tumour; 'a dispersed tumour.'

Dadchwyddiad, -au, *sm.* the subsiding of a swelling; the act of dissipating or dispersing a swelling.

Dadchwyddo, *v.* to disperse or dissipate a swelling or tumour; to cause a swelling to subside.

Dadchwyddol, *a.* tending to disperse or dissipate a swelling.

Dadchwyf, -ion, *sm.* a motion backward.

Dadchwyfiad, -au, *sm.* a moving back or backwards; retrogradation.

Dadchwyfo, *v.* to move back; to retrograde.

Dadchwyfol, *a.* moving backward; retroactive.

Dadchwyl, -ion, *sf.* a reversed course.

Dadchwyliad, -au, **Dadchwyliant**, *sm.* the act of moving or revolving back; retrogradation.

Dadchwyliedydd, -ion, *sm.* one who makes a retrograde motion.

Dadchwylo, *v.* to retrocede.

Dadchwylus, *a.* apt to retrocede.

Dadchwys, *sm.* [chwys] perspiration abated.

Dadchwysiad, -au, *sm.* a ceasing to perspire.

Dadchwysol, *a.* apt to stop sweat or perspiration.

Dadchwysu, *v.* to abate perspiration.

Dadchwyth, *sm.* a blowing back.

Dadchwythiad, -au, *sm.* a blowing back; a renewing of blast; respiration.

Dadchwythu, *v.* to blow again; to blow back.

Dad-, prefixed to a word beginning with *t*, becomes *dat-* by assimilation; and in some cases a similar change takes place before *d*, as in *dattod* (dad-+dodi). Before other initials it generally remains unaffected; but Pughe, apparently to avoid the necessity of the hyphen, writes *dat-* before *d* (*dd*); as *dat-ddaiaru* for *dad-ddaiaru*.

Dad-ddaiariad, **Dad-ddaeariad**, -au, *sm.* disinterment, exhumation.

Dad-ddaiaru, **Dad-ddaearu**, *v.* to unearth, to disinter, to exhume.

Dad-ddaiarol, **Dad-ddaearol**, *a.* tending to liberate from the earth.

Dad-ddal, *v.* to desist from holding.

Dad-ddallu, *v.* to cure of blindness.

Dad-ddanfon, *v.* to send back.

Dad-ddanneddu, *v.* to deprive of teeth.

Dad-ddansawdd, soddion, *sm.* want of order, incongruity; an analysis.

Dad-ddansoddi, *v.* to analyse.

Dad-ddansoddiad, -au, *sm.* analysation, analysis.

Dad-ddansoddol, *a.* analytical.

Dad-ddarymchwel, *v.* to recur; to recur frequently.

Dad-ddarymchweliad, -au, *sm.* a recurring often.

Dad-ddarymchwelyd, *v.* to recur often; to return a second time.

Dad-ddarymred, *v.* to crawl back; to wander loiteringly back.

Dad-ddarymrediad, -au, *sm.* a crawling back; remigration.

Dad-ddedwyddiad, -au, *sm.* a depriving of happiness; a discomforting.

Dad-ddedwyddo, *v.* to discomfort.

Dad-ddedwyddol, *a.* tending to make unhappy; discomforting.

Dad-ddeddfiad, -au, *sm.* the act of annulling or repealing a law or statute.

Dad-ddeddfu, *v.* to annul or repeal a law; to re-enact.

Dad-ddefnyddiad, -au, *sm.* a making void of substance or material.

Dad-ddefnyddol, *a.* tending to make void of substance; immaterialized.

Dad-ddefnyddu, *v.* to make immaterial.

Dad-ddefodi, *v.* to abolish a custom, usage, or ceremony.

Dad-ddeilio, *v.* to shed the leaves.

Dad-ddenu, *v.* to allure, entice, or draw back.

Dad-dderbyn, *v.* to cease receiving.

Dad-ddewis, *v.* to choose over again.

Dad-ddieithro, *v.* to familiarize.

Dad-ddigio, *v.* to appease.

Dad-ddillio, *v.* to unfold; to expand.

Digitized by Google

Dad-ddilliedydd, -ion, } *sm.* one who unfolds
Dad-ddilliwr, wyr, } or expands.

Dad-ddilliog, *a.* unfolded; expanded.

Dad-ddillynu, *v.* to deprive of prettiness, smartness, or gaiety.

Dad-ddinasu, } *v.* to deprive of citizenship;
Dad-ddinasyddu, } to disfranchise; to disfranchise a city.

Dad-ddireidio, *v.* to break off a bad habit; to leave off a mischievous course or habit.

Dad-ddirgelu, *v.* to reveal (a secret), to disclose, to divulge; to discover.

Dad-ddirprwy, -on, *sm.* a revoked power or commission.

Dad-ddirprwyaeth, -au, *sf.* the revocation of a deputed power or commission.

Dad-ddirprwyo, *v.* to annul a deputation or commission; to disauthorize.

Dad-ddirwyn, *v.* to unwind; to wind off; to undo; to disentangle.

Dad-ddirwyniad, -au, *sm.* an unwinding.

Dad-ddirwyo, *v.* to annul a fine or penalty.

Dad-ddodi, *v.* to place back, to replace; to displace.

Ef *dadodes* arlluyd pwys ar lles rieu.
Aneurin: Gododin, 813.

Dad-ddodiad, -au, *sm.* a replacing; a displacing.

Dad-ddodrefnu, *v.* to disfurnish, to unfurnish; to strip of furniture.

Dad-ddogni, *v.* to dissatisfy; to render inadequate.

Dad-ddoleniad, -au, *sm.* the action of straightening what is curved.

Dad-ddolenu, *v.* to uncurve; to recurvate.

Dad-ddonio, *v.* to deprive of a gift, talent, or grace.

Dad-ddosparthiad, -au, *sm.* a depriving of order or arrangement; disorganization.

Dad-ddosparthu, *v.* to disorganize; to deprive of order or system.

Dad-ddringo, *v.* to come down after climbing; to scramble back or down.

Dad-ddrychiol, *a.* looking backward.

Dad-ddrychu, *v.* to look back.

Dad-ddullio, *v.* to make of another shape or figure; to disfigure.

Dad-ddwyn, *v.* to bring back; to restore.

Yna cofiwyd a *dad-ddygwyd* ar arfer hen-ffordd beirdd Ynys Prydain.—*Barddas*, i. 134.

Dad-ddwyso, *v.* to lighten what is condensed, pressed down, or become heavy.

Dad-ddwysol, *a.* tending to lighten.

Dad-ddyblyg, -ion, *sm.* a fold turned back; the being unfolded.

Dad-ddyblygol, *a.* recurvate; doubled back.

Dad-ddyblygiad, -au, *sm.* an unfolding, the opening of folds.

Dad-ddyblygu, *v.* to unfold; to open folds; to expand.

Dad-ddychlamiad, -au, *sm.* a starting or leaping back; a recoiling; resilience.

Dad-ddychlamu, *v.* to start or spring back.

Dad-ddychludiad, -au, *sm.* a carrying off from a heap or collection.

Dad-ddychludo, *v.* to carry off or separate what is heaped or collected together.

Dad-ddychweledig, *a.* returned, reverted, turned back.

Dad-ddychweliad, -au, *sm.* a turning back, reverting, or returning.

Dad-ddychwelyd, *v.* to turn back, to revert, to return.

Dad-ddyfysgiad, -au, *sm.* a becoming or making separate; a becoming uncompounded or unmixed.

Dad-ddyfysgu, *v.* to become unmixed; to make separate.

Dad-ddygnu, *v.* to desist from toil.

Dad-ddyliflad, -au, *sm.* a flowing or running back; refluence.

Dad-ddylifo, *v.* to flow or run back; to reflow.

Dad-ddylifol, *a.* apt to run or flow back; refluent.

Dad-ddymgyrchiad, -au, *sm.* a desisting from resorting, collecting, or congregating.

Dad-ddymgyrchu, *v.* to desist from resorting together or congregating.

Dad-ddynyddiad, -au, *sm.* an untwisting or untwining.

Dad-ddynyddol, *a.* tending to untwist or untwine.

Dad-ddynyddu, *v.* to untwist, to untwine, to unwind.

Dad-ddyrysiad, -au, *sm.* an untangling, disentangling, unravelling, or loosening.

Dad-ddyrysol, *a.* tending to disentangle, untangling.

Dad-ddyrysu, *v.* to disentangle, to untangle, to loose from intricacy; to unravel.

Ac megys na ddichon undyn *ddad-ddyrysu* y dirgelwch sydd yn yr undeb a'r cwlwm tyn sydd yn myned rhwng yr enaid a'r corff yn y groth; felly nid oes undyn a ddichon adrodd pa fodd y gwneir ysgar rhwng yr enaid a'r corff.
Ieremi Owen, 51.

Dad-ddysgu, *v.* to unteach; to unlearn.

Dysg lygredig sydd raid ei *ddad-ddysgu*, a'i ddattod oll, cyn cael cwlwm y gwir ddysgyblion.
Morgan Llwyd: Tri Aderyn, 29.

Dad-ddysgu, dysgu un yn amgen nag y dysgodd.
Walters.

Chwiliwch eich dodrefn, ac edrychwch beth sy genych i'w *ddad-ddysgu*.—*Ios. Rees:* Hunan-Adn. 145.

Mi a ddad-ddysgaf i ti dy ddrwg foesau, I will unteach thee thy ill manners.—*W.*

Dad-ddywediad, -au, *sm.* the action of unsaying or recalling a word or expression; a withdrawing what has been said; recantation.

Dad-ddywedyd, *v.* to unsay, to retract, to withdraw, to recant.

Digitized by Google

Dadebriad, -au, *sm.* resuscitation, revivification; **Dadebrad,** tion; restoration of life or consciousness; reanimation; a revival; awakening.

Trydedydd bu *dadebriad* Hu.— *Barddas*, i. 222.

Dadebrol, *a.* resuscitative, revivifying, reviviscent.

Dadebru, *v.* to resuscitate, to revive, to revivify, to animate; to recover life or animation; to to recover; to be revived; to awake.—1 *Bren.* xvii. 22; 2 *Bren.* xiii. 21; *Galar.* i. 11, 16, 19.

Megys ffynnawn o dhwfr melys yn *dadebru* lhauurwyr sychedic. velhy y mae geiriæ dy enau bendicedic yn lhonydhu vy enait i.—*Lucidar*, i 135.

Wedi iddynt *ddadebru* o'r gwin, ni ddaw yn eu cof beth a wnaethant.—1 *Esd.* iii. 23.

Braint yw i'r rhaith honno *dadebru* corn gwlad.
Barddas, ii. 86.

Dadebrwr, wyr, **Dadebrydd,** -ion, *sm.* a resuscitator; a reviver; an awaker.

Dadebu, *v.* [ebu] to recant, to recall, to unsay, to revoke, to call back.

Wrth y gair yma, of n, mae i ni ddeall y gwir Dduw, yr hwn drwy yru braw ar Isaac, a'i goluddiodd megys â ffrwyn, neu luddawydd; fal na *ddadebai* y fendith a roesai i Iaco.—*Henri Perri:* Egl. Ffr. iv.

Dadechwyn, -ion, *sm.* a loan that is returned.

Dadechwyn, *a.* being lent or borrowed back.

Dadechwyniad, -au, *sm.* a returning a loan; a lending back.

Dadechwyniedydd, -ion, **Dadechwynwr,** wyr, **Dadechwynydd,** -ion, *sm.* one who returns what is lent; a returner of a loan; a retaliator.

Dadechwyno, *v.* to return a loan.

Dadechwynol, *a.* returning that which is lent.

Dadedfryd, *sm.* a restoring or returning.

Dadedfryd, *v.* to restore again; to restore.

Dadedfrydwr, wyr, *sm.* one who restores, a restorer.

Dadedrych, *v.* to look again; to look back.

Gwedy hyny y gosodes ef ei ddwylo drachefn ar ei lygaid ef, ac y parawdd iddo edrych drachefn [**ddadedrych*].
W. Salesbury: Marc viii. 25.

Dadedw, *sm.* what is recovered from a faded or withered state.

Dadedw, *a.* recovered from a withered state; having renewed life.

An deilas blaen bedw
An datrith *dadedw*
An maglas blaenderw.—*Taliesin:* A.B. ii. 141.

Dadedwi, *v.* to be recovered from a withered or faded state.

Dadedwiniad, -au, *sm.* a recovering from a faded or withered state.

Dadedwino, *v.* to recover from a faded state; to resuscitate.

Dadedwinol, *a.* resuscitative; reviviscent.

Dadefryddiad, -au, *sm.* a recovering from lameness or blemish.

Dadefryddu, *v.* to recover from a disabled state; to recover from lameness; to cure of maimedness.

Dadegluriad, -au, *sm.* a making obscure or indistinct.

Dadegluro, *v.* to obscure; to deprive of clearness or lustre; to make indistinct.

Dadeglurol, *v.* tending to obscure.

Dadegnïad, -au, *sm.* a ceasing from exertion or toil; relaxation.

Dadegnïo, *v.* to cease from toil or exertion.

Dadegnïol, *a.* tending to relax toiling.

Dadegru, *v.* to divest of acidity or staleness; to recover briskness.

Dadeiddigeddu, Dadeiddigo, *v.* to cause to cease from jealousy; to cease to be jealous.

Dadeidduniad, -au, *sm.* a ceasing from wishing or desiring.

Dadeidduno, *v.* to cease from wishing or desiring.

Dadeiliad, -au, *sm.* the action of undoing what is wattled or plaited.

Dadeiliedydd, -ion, **Dadeiliwr,** wyr, *sm.* one who undoes a wattling; one who destroys what is built.

Dadeilio, *v.* to undo what is wattled or plaited; to undo.

Dadeisiwed, *sm.* relief from want.

Dadeisiwo, *v.* to relieve from want.

Dadenhudd, -iau, *sm.* [dad- + enhudd] = *Dadanhudd.*

Dadenhudded, *sf.* a disclosure; elucidation.

Dadenhuddiad, -au, *sm.* = *Dadanhuddiad.*

Dadenhuddiad afon, the development of a river.

Dadenhuddiad afon ydyw ei hyd o'i tharddiad i'w gencu, yn cynnwys ei holl ddolenau a'i throadau.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 249 (cf. 250).

Dadenhuddo, *v.* = *Dadanhuddo.*

Dadenhuddol, *a.* = *Dadanhuddol.*

Dadenhuddwr, wyr, *sm.* = *Dadanhuddwr.*

Dadeni, *sm.* [dad- + geni] renaissance; regeneration; new birth, second birth; rejuvenescence; revival; restoration.

Detyf dy dad daeoni ath glyn
Dadeni haeloni Heilyn.—*Llyw. ab Llywelyn:* M.A. i. 301.

Dydi a bair, air wryd,
Didwn ben, *dadeni* byd.
D. ab Gwilym, clxii. 5 (cf. clxiii. 29).

Ni cheir awen *ddadeni*
Mwy ar waith yn ein iaith ni.—*Hopcin Tomas ab Einion.*

Trwy len i ffyddlonion blant
Arwyddion a arweddant
Adanedd dydd *dadeni.*— *W. O. Pughe:* Manion.

Eisteddfod dadeni, a renascent or regenerating bardic convention; a convention of restoration.

A'r tair *Eisteddfod Dadeni* y gelwir un Ifor Hael ym Maesaleg, ac un Llywelyn ab Gwilym yn y Ddôl Goch yn Emlyn, ac un Marchwiail.—*Iolo Mss.* 96.

Pair dadeni, the cauldron of renovation.

Ac yna y dechreius y Gwydyl kynneu tan dan y *peir dateni.*—*Mabinogiou*, 39.

Perllan clod y gwirodydd,
Pair dadeni pob rhi rhydd.—*D. ab Gwilym*, cxxxviii. 27.

Taliesin! clyw o fedd! clau o foddion
O *bair dadeni* dydaenant weithion.
W. O. Pughe: Bardd, iii. 2.

Dadeni, *v.* to regenerate; to renovate; to be born again or anew; to be reproduced.

Darogan Mertin dyuot breyenhin
O Gymry werin o gamhwri
Dywawd derwyton *dadeni* haelon
O hil eryron o Eryri.—*Llywarch ab Llywelyn:* M.A. i. 304.

Digitized by Google

Bydynt derwyddyon prydyon Prydein
Nes gwaew yn adein nyt attygit
A bei gwnawn or dawn a *dadeuit*
Penkerd o digerd ny ddigonit.
Phylip Brydydd: M.A. i. 377.

Mawr ddiolchwn i ti, drugarocaf Dad, ryngu bodd yt' bod *dadeni* [°ail genedlu, dadennill] y plentyn hwn â'th Yspryd Glân.—*Ll. G. Gyffredin* 1567 (Bedydd).

Can ddarfod yr awr hon, garedigion frodyr, *ddadeni* a dodi y plant hyn yng nghorff cynnulleidfa Crist, diolchwn ninnau i Dduw am ei ddaioni hyn.
Ll. G. Gyffredin 1586 (Bedydd).

Y mae yn dda genyf glywed fod Mona Antiqua Restaurata yn cael ei *dadeni* drwy law mor gelfydd.
I. B. Hir: Gwaith, 203.

Dadennill, } *v.* to regain, to repossess, to
Dadynnill, } recover, to reobtain, to reclaim.

Oed Crist 1068, digwyddes anghydfod yng Ngwynedd, sef Meredydd ac Ithel, meibion Gruffydd ab Llywelyn a ddugasant gad ar faes yn erbyn Bleddyn a Rhiwallawn; er *dadennill* Gwynedd.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 517 (cf. 516, 532, 537).

Hywel ab Edwin, yn yr amser hyny, a geisiodd *ddadynnill* ei deyrnas. . . Wedi marw Hywel, ef a amcanasant Rydderch a Rhys, meibion Rhydderch ab Iestyn, adynnill Deheubarth.—*Iolo Mss.* 20.

Dadennilliad, } -au, *sm.* a regaining reposses-
Dadynnilliad, } sion, repossession.

Dadennylu, *v.* [=dadannelu] to unbend; to relax.

Poed yn ol *dadennylu*
Ar ddau ben y radd y bu.—*Gruffydd Hiraethog*, i Fwa.

Dadennylu bwa, to unbend a bow.

Dadennyn, } *v.* [ennyn] to rekindle; to rouse
Dadennynu, } again.

A diolwch y Duw ac y Iago ae dugassei hyt yno. kany allassei kyn nohynny uynet. ar Galiscyeit a bregethassei Iago ae disgyblon udunt. a ymchoelassei ar anffydlawn genedyl paganyeit. a *datennynhwys* o rat y bedyd trwy law Turpin archescob.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 383.

Dadennyniad, -au, *sm.* the action of extinguishing what is kindled; extinction.—*P.*

Dadennynol, *a.* tending to quench or extinguish; extinguishing.—*P.*

Daderbyn, }
Daderbynio, } *v.* to receive back or again.

Daderbyniol, *a.* receiving back.

Daderbyniwr, wyr, *sm.* one who receives back.

Dadergyd, -ion, *sm.* a repulsion.

Dadergydiad, -au, *sm.* the action of repelling; a throwing back.

Dadergydio, *v.* to throw or fling back; to repel or repulse.

Dadergydiol, *a.* apt to repel, repelling.

Dadergydiwr, wyr, *sm.* one who throws back; a repeller.

Dadergyr, *sm.* a push back; a retort.

Dadergyriad, -au, *sm.* the action of driving or pushing back again; a retorting.

Dadergyrio, *v.* to drive back; to repel, to repulse.

Dadergyriol, *a.* tending to drive back; repelling.

Dadesgobi, *v.* to unbishop.—*W.*

Dadesmwythiad, -au, *sm.* the action of making uneasy.

Dadesmwytho, *v.* to make uneasy; to cease to give ease; to cause irritation.

Dadeuogi, *v.* to clear of guilt; to pronounce unguilty.

Dadeuogiad, -au, *sm.* the action of clearing from guilt.

Dadeuogol, *a.* tending to clearing of guilt.

Dadewyllysio, *v.* to cease from willing, desiring, or wishing.

Dadfach, *sm.* the state of being unhooked.

Ar ddadfach, unhooked; unhinged.

Dadfachelliad, -au, *sm.* the action of ungrappling; a disentangling.

Dadfachellu, *v.* to cease grappling; to disentangle.

Dadfachiad, -au, *sm.* the action of unhooking or unhinging.

Dadfachu, *v.* to unhook, to unhinge, to unhitch; to ungrapple.

A chan *ddadfachu* y rhaff oddi wrth yr ystên, hi a ollyngodd ei hunan i lawr.—*Gwyliedydd*, v. 255.

Dadfaddegu, *v.* to unbuckle; to unfasten.

Dadfaglu, *v.* to free from a snare or trap; to unsnare; to disentangle; to free.

Dadfagwyo, *v.* to separate clusters.

Dadfaich, feichiau, *sm.* a lessened or lightened burden; an inconsiderable burden or load.

Pe gwnaethai un o naddynt e fuasai'r *dadfaich* yn ysgafnach ac yn hyfforddach i'm hysgwyddau amdrymion i gan henaint, gofal, ac amryw heinniau damweiniol i oedran.—*Dr. Th. Williams* (Y Greal, 62).

Dadfario, *v.* to unbar or unbolt; to unfasten.

Hydraidd *dadfariai* adref
Gloiau y graig â'i law gref.—*Hwfa Mon:* Gwaith, 359.

Dadfalchïo, *v.* to cease to be proud; to become humble.

Dadfanol (*ă*), *a.* tending to clear of spots or marks; to render immaculate.

Dadfancawio, *v.* to unbind, to untie, to unlace.

Dadfantellu, *v.* to dismantle.

Dadfanu (*ă*), *v.* to take out spots.

Dadfarannol, *a.* disappearing; evanescent.

Dadfarannu, *v.* to disappear; to vanish.

Dadfarn, -au, *sf.* a reversed judgment or sentence.

Asbarn mwy *dadfarn* ai dadfer yn iawn
Na wnaeth crawn crynoder.—*Cynddelw:* M.A. i. 209.

Llys dadfarn, court of repeal; court of cassation.

Dadfarniad, -au, *sm.* a reversing a judgment; revocation of a sentence.

Dadfarnol, *a.* reversing a judgment or sentence.

Dadfarnu, *v.* to reverse a judgment; to revoke a sentence; to rejudge; to recant; to recall.

Yn anwfyn yn dwfyn yn dyfynder yd uarn
Nyd bart ae *daduarn* beirt ae dadfer.
Cynddelw: M.A. i. 229.

Na chymmoder ef ond gan esgob y lle, neu'r archesgob, wedi iddo edifarhau, a *dadfarnu* ar gyhoedd ei gyfryw amryfusedd.—*Canonau Eglwysig*, 4 (cf. 139, 140).

Dadfarnwr, wyr, *sm.* one who reverses a judgment or revokes a sentence; one who rejudges.

Digitized by Google

Dadfarweiddiad, -au, *sm*, resuscitation.

Dadfarweiddio, *v.* to resuscitate, to reanimate, to revivify.

Dadfarweiddiol, } *a.* resuscitative, reanimating,
Dadfarwhaol, } reviviscent.

Dadfarwhâd, *sm.* resuscitation.

Dadfarwhau, *v.* to resuscitate, to revive.

Dadfawdd, *sm.* emersion, emergence.

Dadfechnïad, -au, *sm.* the action of clearing or exonerating a bail or surety.

Dadfechnïo, *v.* to exonerate a bail; to recall or redeem a pledge.

Dadfeddiannol, *a.* tending to dispossess; tending to deprive of possession.

Dadfeddiannu, *v.* to dispossess; to deprive of.

Dadfeddiant, iannau, *sm.* dispossession; disseizin.

Dadfeddwad, *sm.* a recovering from intoxication; a getting or becoming sober.

Dadfeddwi, *v.* to recover from intoxication; to sober.

Cysgu nes dadfeddwi, to sleep one's self sober.

Efe a *gysgodd nes dadfeddwi* o hono neu hyd oni *ddadfeddwodd*.—*Walters.*

Dadfeiad, -au, *sm.* exculpation.

Dadfeichiad, -au, *sm.* a disburdening; a relieving of a burden or load.

Dadfeichio, *v.* to disburden, to unburthen.

Dadfeichiol, *a.* unburdening, disburdening.

Dadfeiliad, -au, *sm.* a falling to ruin; a falling down; a decaying; decay.

Dadfeilio, *v.* to fall to ruin; to decay, to waste away.

Ni adawodd Duw mo hono
I *ddadfeilio* 'n llygredd bedd.—*Ieuan Gwynedd.*

Dadfeiliog, *a.* ruinous, decayed.

Dadfeio, *v.* to clear from fault or blame.

Dadfeiol, *a.* clearing from fault.

Dadfer, -ion, -au, *sm.* [see *Adfer*] what is brought back; that which is restored; restoration, restitution.

Hil-Maelgwn Maelgynig ener
Marw mawrdraig mawrdrwg y *dadfer*.
Cynddelw: M.A. i. 209 (cf. 229).

Ar ddadfer, in a restored state or condition; restored, brought back.

Dadfer, *v.*=*Dadferu, Dadferyd.*

Dadferedigaeth, -au, *sm.* restoration.

Dadferiad, -au, *sm.* restoration, restitution.

Dadferol, *a.* restorative; redditive.

Dadferth, *sm.* 1. restoration.

Ar ddadferth, in return; by way of restoration.

2. revival, reanimation.—*P.*

Dadferth, *v.* to restore, to return; to give back.

Os yng nghad ddosparthus a'i delid, a gwelid gwir ar hyny gan farn llys, ei *ddadferth* yn ol idd ei genedl am Gymro cymmraint a gaid *ar ddadferth* am danaw.
Iolo Mss. 187.

Dadferthol, *a.* restorative; resuscitative, reviscent.

Dadferthu, *v.* to restore; to revive, to resuscitate, to reanimate.

Dadferu, } *v.* to restore; to give or bring
Dadferyd, } back; to return; to make restitu-
Dadfer, } tion.—*M.A.* i. 209, 229, 232.

Yny vyw ny vytei ouer
Yny varw y vart ae *daduer*
Teilwg ym talu a roter
Treth volawd traethawd nawd nawsber.
Cynddelw: M.A. i. 232 (cf. 223).

Neud adwen i'm prifnenn prydaf
Neud i Dduw mal y *dadferaf*
Doethineb Selyf selwyd i'm naf.
Dafydd Benfras: M.A. i. 317.

Llawen uu Briaf a gobeithaw o achaws y gorderchat hwnnw y *datuerei* gwyr Groec Esonia.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 11.

Sef achaws au gelwid y Gwrddfeichiaid am nas gellid nag ynnill na gortrech arnynt am un o'r moch a gedwynt, eithr eu *dadfer* a wnaent ar eu llawn gynnydd i'r rhai au pieuffynt.—*Trioedd:* M.A. ii. 73.

Dadferwr, wyr, *sm.* a restorer.

O bydd *datferwyr* a ddylyo dosparth dadyl derfyn yawn yw bot wrth a ddywettoent cyn barnu o gyfreith. . . Ony bydd *datferwyr* cyfreith a farn y gyngwarchadw terfynu.
Cyfreithiau Cymru, ii. 742.

Dadflaeniad, -au, *sm.* a depriving of point; a blunting.

Dadflaenu, *v.* to deprive of point; to blunt.

Dadflasiad, -au, *sm.* a depriving of taste or savour.

Dadflasu, *v.* to deprive of taste; to make tasteless or insipid.

Dadfliniad, -au, *sm.* a recovering from fatigue; a refreshing.

Dadflino, *v.* to rid or relieve of fatigue or weariness; to refresh.

Mehefin y cyntaf, ni orphwysasom yn llonydd, i *ddadflino* 'n hunain, yn ol yr hynt i Fethlehem.
W. Lewes: Dwy Daith, 46.

Caniatâ i ni gysgu felly y nos hon . . . fal y gallo ein haelodau lluddedig ni gael eu *dadflino*.
Dr. Edward Wynn: Trefn Ymarweddiad (1723-4), 56.

Dadflinol, *a.* refreshing; tending to relieve of tiredness.

Dadflisgiad, -au, *sm.* [blisg] a casting off the shell; a taking off the shell.

Dadflisgo, *v.* to cast or throw off the shell; to unhusk.

Dadflodeuad, -au, *sm.* a casting off the blossoms or flowers; an unblossoming; defloration.

Dadflodeuo, *v.* to drop blossoms or flowers; to strip off flowers.

Dadflynghau, *v.* to divest of sullenness or harshness; to become mild or gentle.

Dadflysio, *v.* to cease longing or craving.

Dadfoddi, *v.* to emerge; to rise up.

Dadfoddiad, -au, *sm.* emersion.

Dadfoddol, *a.* emergent; tending to emerge.

Dadfoddloni, *v.* to dissatisfy; to displease.

Dadfoddloniad, -au, *sm.* dissatisfaction; a displeasing.

Dadfoddlonol, *a.* dissatisfactory; displeasing.

Digitized by Google

Dadforawl, *a.* that is imported; importing; imported.

Dadforolion, imports; articles imported.

Dadfori, *v.* [môr] to import.

Dadforiad, -au, *sm.* importation.

Dadforiadau, importations; imports.

Y mae ei *dadforiadau* yn cynnwys cynnyrchion trefedigaethol, yn enwedig perlysiau, coed, yd, nwyddau gwlan a chotwm, a nwyddau metel.
Gwyddioniadur Cymreig, iii. 258 (cf. 256—280).

Dadforion, *s.pl.* imports.

Er y fl. 1878 y mae gwerth y *dadforion* neu'r nwyddau a ddygwyd iddi o Brydain Fawr wedi cynnyddu.
Llawlyfr Canada, 13.

Dadfraenu, *v.* to render free from putrescence; to cease to be putrid; to become fresh.

Dadfrawd, *sf.* a repealed sentence.

Dedfryd gwr goreu y barnaf
Dadfrawd gwedi a ganaf.—*Dafydd Benfras:* M.A. i. 317.

Dadfreiniad, -au, *sm.* [breinio, braint] a divesting or depriving of a privilege; disfranchisement.

Dadfreinio, *v.* to deprive of a privilege or franchise; to disfranchise.

Dadfreiniol, *a.* tending to divest of a privilege or prerogative.

Dadfreuo, *v.* to make tough.

Dadfrïad, -au, *sm.* a dishonouring.

Dadfrïo, *v.* to deprive or rob of honour; to dishonour, to disparage.

Dadfrïol, *a.* disparaging, dishonouring.

Dadfrigiad, -au, *sm.* a cutting off the top or tops; decapitation.

Dadfrigo, *v.* [brig] to cut or lop off the tops or upper branches.

Dadfrochi, *v.* to assuage turbulence; to tranquillize; to become unruffled.

Dadfrwysgiad, -au, *sm.* a sobering; a becoming free from intoxication or drunkenness.

Dadfrwysgo, *v.* to become sober; to sober.

Dadfrydiannol, *a.* having a tendency to become uninflamed.

Dadfrydiannu, **Dadfrydio,** *v.* to deprive of heat; to assuage heat; to become uninflamed; to abate throbbing.

Dadfrydiant, *sm.* defervescence.

Dadfrythu, *v.* to assuage or quell a tumult.

Dadfuarthiad, -au, *sm.* an unfolding; a letting or turning out of a fold.

Dadfuarthu, *v.* [buarth] to unfold (a flock); to let or turn out of a fold or pen.

Dadfyddaru, *v.* to free from deafness; to restore the sense of hearing.

Dadfyddiniad, -au, *sm.* a breaking up or disbanding of an army.

Dadfyddino, *v.* to disband an army; to disband.

Dadfyddino byddin, to disband an army.

Dadfygydu, *v.* [mwgwd] to unmask.

Dadfynwesu, *v.* to unbosom.

Dadfferu, *v.* to dissolve; to disintegrate.

Dadffinio, *v.* to divest of bounds; to remove bounds.

Dadffoddi, *v.* to extinguish, to put out.

Dadffoddiad, -au, *sm.* extinction, extinguishment.

Dadffoddol, *a.* extinguishing.

Dadffrwyno, *v.* to unbridle.

Dadffrwythiad, -au, *sm.* a making fruitless.

Dadffrwytho, *v.* to make fruitless or unfruitful; to make abortive; to enfeeble; to deprive of vigour or power.

Dadffrydiad, -au, **Dadffrydiant,** *sm.* a flowing, running, or streaming back; a reflux.

Dadffrydio, *v.* to flow or run back; to ebb.

Dadffrydiol, *a.* flowing or running back; defluent; ebbing.

Dadffurfiad, -au, *sm.* a deforming or disfiguring; deformation, disfiguration.

Dadffurfio, *v.* to deform, to disfigure.

Dadffurfiol, *a.* deformed, disfigured.

Dadgadarnhâd, *sm.* disaffirmance.

Dadgadarnhaol, *a.* disaffirming; negative.

Dadgadarnhau, *v.* to disaffirm; to annul.

Dadgadwyniad, -au, *sm.* an unchaining.

Dadgadwyno, *v.* to unchain; to set free from chains or slavery; to disenthral; to unshackle.

Dadgadwynol, *a.* unchaining; disenthralling.

Dadgaddugo, *v.* to divest of darkness; to clear up.

Dadgaeadu, **Dadgauadu,** *v.* to take off a lid or cover; to uncover.

Dadgaeniad, -au, *sm.* decortication.

Dadgaenu, *v.* to take off a surface, crust, or skin; to decorticate.

Dadgaeriad, -au, *sm.* a dismantling.

Dadgaerol, *a.* dismantling.

Dadgaeru, *v.* to dismantle a fort or castle; to raze a wall of defence.

Dadgaethiwo, **Dadgaethu,** *v.* to disenthral; to free from slavery or servitude; to set free.

Dadgangenu, *v.* to divest of branches or boughs.

Dadgamiad, -au, *sm.* a stepping back.

Dadgamu, *v.* to step backward; to retrace one's steps.

Ni feiddiai o'r ddwy fyddin,
Er cenllysg trwm o blwm blin,
Er ing dwys, er angeu du,
Gymhell troed i *ddadgamu.*—*Tegid:* Gwaith, 116.

Dadgan, **Dadganu,** *v.* [cân, canu] to declare, to pronounce; to say, to tell; to express; to set forth; to relate, to narrate; to recite, rehearse, or sing what has been previously composed; to say by heart; to recapitulate; to recount.—*M.A.* i. 26, 77; ii. 321.

A llyma y gyfranc ual y bu ae *datkanu* oll o Bwyll udunt.
Mabinogion, 7 (cf. 51, 190).

Digitized by Google

Gwedy galw attaw y kytemdeythyon *datkanu* udunt a oruc yr hyn rywelsey.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 103.

Ar hynny nachaf ueird yn dyuot y *datkanv* kerd y Arthur. *Mabinogion*, 160.

Am hynny beich mawr gwrthrwm yw ynni eu *datkanu* hwy. mal y *dadkan* Galafrus yn odidawc. *Ystr. de Carolo Magno*, col. 108.

A *datkan* y chwedyl ef hyt yna.—*Mabinogion*, 256.

Ar gwas a gerdawd racdaw. ac a *datkanawd* y Ecuba yr hynn a orchymynyssei Achelarwy idaw.—*Dares Phrygius:* LI.C.H. ii. 26 (cf. 4, 6, 10, 11, 17, 21, 25, 26, 27, 37).

Can nas dylai na phrif fardd na derwydd amgen na'i *dadgan* ar osteg gan lafar gorsedd.—*Iolo Mss.* 184 (cf. 213).

Dadgenwn fawl i Dduw'n gyttûn,
Bendigwn Gun gogoniant.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 113.

Priodoldeb iaith gyflawn yw perffaith adrodd meddwl, a gwir lunio ystyr a phwyll a chrebwyll, a diwall *ddadgan* amcan, bwriad, a dychymmyg.—*Cyfrinach y Beirdd*, 14.

A glywaist ti chwedl y mau
Gwedi *dadgan* pob chwedlau?—*Iolo Mss.* 261.

Y nefoedd sydd yn *dadgan* gogoniant Duw.—*Salm.* xix. 1.

Erioed ni chlywais neb yn *dadgan*
Fawr o'i hynod feiau ei hunan.—*Hen Bennill.*

Gwŷr y llys biau *ddadganu* pob dadl yn gofiawdr, cyn barnu, a gwedy hyny y brawdwyr i farnu ac i *ddadganu* y ddadl a'r farn pan fo rhaid.—*Leges Wallicae*, iv. xxiv. 2.

Nid oes yr awran yn cadw meddiant ond fy modryb Dylluan hurt, neu frain rheibus . . . i *ddadgan* campau y perchenogion presennol.—*E. Wynn:* Bardd Cwsg, 23.

Gofyned y dadgeiniad gennad y prydydd cyn y *dadgano* ei gywydd, neu ei awdl.—*Y Greal*, 358.

Dadgan gwyrthiau Duw, Wr gorau ei drugaredd. *Gronwy Owain*, 102.

Dadgan a mynegi, to declare and pronounce.—*Ll. G. Gyffredin.*

Dadgan clod un, to resound one's praise.

Dadgan, -au, *sm.* a recital, rehearsal, or recitation; a declaration.

A glywaist ti chwedl Ffagan,
Gwedi dangos ei *ddadgan*!—*Iolo Mss.* 256.

Dadganadwy, *a.* that may be declared or recited; declarable.

Dadganawl, *a.* recitative; chanting; declaratory, declarative.

Dadganedig, *a.* declared; recited.

Dadganedigaeth, -au, *sf.*=*Dadganiad.*

Yn y chymherued hagen y mae petheu da. a phetheu y mae yr hynn y welir y wedu yr *datkannedigaeth* hwnn drw.—*Purdan Padrig*, § 2.

Dadganedd, *sm.* recitation, rehearsal; relation.

Ac yd oed vlin a ryhir y *datganed.*
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 321.

Dadganiad, -au, *sm.* declaration; expression; a recitation; a reciting, recital, or repeating; a pronouncing.

Yny vo byrrach y *datkanyat* adaw Freinc.
Ystoria Charles, 4.

Darfu i'r Duw Unig-ddoeth . . . fedru cael ffordd i osod ei dystiolaeth ei Hun yng ngeneuaw yr awduron paganaidd, ac i beri iddynt hwy eu hunain, yn ddiarwybod, osod eu gwrthsclíad yn eu hysgrifeniadau goreu wrth ei *ddadganiadau* dwyfol Ef ei hun.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 58 (cf. 78, 87, 183).

Y mae y byd dan amryw ddyledion i Eglwys Rhufain, ac er nas gall y *dadganiad* o hyn fod yn gwbl gymmeradwy, eto yn hyn, megys ym mhob peth arall, ceisiaf gadw at y gynraith.—*Carnhuanawc:* Han. Cym. 213.

Tri pheth a gydfreiniant ymadrawdd, ac ei teilyngant: ehudrwydd parabl; a chywreindeb synwyr; ac anianawl ddeall y *dadganiad.*—*Trioedd Cerdd:* M.A. iii. 194.

Dadganmawl, **Dadganmol,** *v.* to dispraise; to censure.

Dadganmoliad, -au, *sm.* a dispraising.

Dadganmoliaeth, -au. *sf.* dispraise; censure; blame.

Dadgannerthiad, **Dadgynnorthwyad,** -au, *sm.* a depriving of support or assistance; a withdrawing of support.

Dadgannerthol, *a.* tending to deprive of assistance.

Dadgannorthwyo, *v.* to withdraw help or assistance.

Dadganol, *a.* [dadgan] recitative.

Dadganu, *v.* [canu]=*Dadgan.*

Dadganwr, wyr, **Dadganydd,** -ion, **Dadgenydd,** -ion, *sm.* a reciter, a rehearser; a declarer, an utterer; a relater or relator.

Gwir a dywat y *datkanwr* a gyffylybwys dynyon y wlat honno y vwystuileit.—*Purdan Padrig*, § 8.

Diddan ydyw cân, a *dadgenydd* mwyn,
A manol gerdd prydydd.—*I. B. Hir:* Gwaith, 50.

Dydd gwyl Sior y Trydydd y canai mewn cynnydd
Bob hynod *ddadgenydd* am newydd iawn oes.
D. Ddu Eryri: C. y G. 345.

Dadgarcharu, *v.* to free or liberate from prison, to disincarcerate; to liberate.

Dadgarcharwr, wyr, *sm.* one who liberates from prison.

Dadgarddu, *v.* to recall from exile.

Dadgarregu, *v.* 1. to clear away or remove stones; to clear of stones. 2. to unpetrify.

Dadgasglu, *v.* to spread a heap, or what has been gathered together; to disperse, to spread.

Dadgenglu, *v.* [cengl] to ungird.

Dadgeiniad, iaid, *sm.* [dadgan] a reciter, a rehearser; one who recites or sings the compositions of others; a minstrel; a relater.

Gyraf *ddadgeiniad*, Dafydd!
A mydr hwn am dy yw rhudd.—*L. G. Cothi*, v. ii. 55.

Dadgeiniad a ddyly wybod darllen Cymraeg, a'i hysgrifenu yn gyflawn; ac ef a ddyly wybod holl ddosparthau a dosparthiadau cerdd dafawd.—*Y Greal*, 356 (cf. 357, 358).

Y delyn fwyn ac y *dadgeiniaid* pereidd-lais a chwaneg-asant lawer at ein diddanwch.—*Seren Gomer*, iv. 58.

Dadgeiniad cadair (*pl.* dadgeiniaid cadair), a chair reciter; a reciter of songs exhibited before a chair or convention.

Rhyw arall ar gerddawr tafawd y sydd, sef hwnw *dadgeiniad.* Dau ryw *ddadgeiniad* y sydd; nid amgen *dadgeiniad cadair* a *dadgeiniad pen pastwn. Dadgeiniad cadair* yw'r un a ddadgano gerdd a ddangoser yng nghadair, a dadgan hengerdd y bo gofyn, a defodau a breiniau beirdd a cherdd-orion a fônt warantedigion o gadair a barn gorsedd, a dadgan pob galw a dosparth cadair a gorsedd, a phob gair trefn a darnod a chyfarch.—*Llanover Mss.*

Dadgeiniad pen pastwn (*pl.* dadgeiniaid pen pastwn), a reciter resting on his staff, or beating time with it.

Dadgeiniad pen pastwn yw a fetro ddadgan cerdd dafawd yn gyflawn ar gof a llafar, ac na fetro gerdd o'i waith ei hun, na'r dosparthau a'r dosparthiadau y sydd ar gelf-yddyd prydyddiaeth, ac na fetro a ddyly *dadgeiniad* dy-ledawg eu medru. . . Ei swydd a'i le yw sefyll yng nghanol y neuadd, ac yno curaw y mesur â'i ffon, a chanu ei gerdd gyda'r dyrnodiau. . . Ar *ddadgeiniaid pen pastwn* y dodir cychwedl eisteddfod dros yspaid undydd a blwyddyn.
Y Greal, 357, 358.

Dadgladdedigaeth, -au, *sf.* disinterment; a digging up.

Dadgladdiad, -au, *sm.* a disinterring or unburying; disinterment.

Dadgladdu, *v.* to disinter, to unbury; to dig up; to unearth.

Digitized by Google

Ef a dharlleir. *datcladhu* or cythreulieit lhawer or rhai hynny. ac eu bwrw wynt or cyscer ympelh y maes.
Lucidar, § 94.

Ni soniaf fi ddarfod i Stephan Bab a Sergius *ddadgladdu* corff Fformosus.—*H. Perri:* Egl. Ffr. viii.

Dadgladdwyd y bedd, the grave was dug open.

Dadglo, *sm.* the state of being unlocked.

Ar ddadglo, unlocked; unfastened.

Mae y drws ar ddadglo, } the door is unlocked;
Mae y drws yn nadglo, } the door is not locked.

Dadgload, -au, *sm.* an unlocking; an unfastening.

Dadgloadur, -on, *sm.* a picklock.

Offeryn i agor cloion, *dadgloadur*.—*Dr. W. Richards.*

Dadgloawl, *a.* tending to unlock or unfasten.

Dadgloddiad, -au, *sm.* the action of filling up a pit or trench.—*P.*

Dadgloddio, *v.* 1. to fill up a trench or ditch.—*P.*

2. to dig or trench anew; to unearth, to disinter.

Yng nghorff Eglwys Llanbabo, ceir beddfaen St. Pabo, yr hwn a *ddadgloddiwyd* yn ddamweiniol gan glochydd yn nheyrnasiad Siarls II.—*Llan*, Chwef. 24, 1893.

Dadgloi, *v.* to unlock, to unfasten; to lay open.

Rhoddant rybudd, ar yr un pryd, i adar y gauaf, ei bod yn amser iddynt ddychwelyd, bod rhewogydd y gogledd wedi *dadgloi*, a daiar yn rhydd o'i chadwynau.
Cylchgrawn, ii. 122.

Bu'n eiddoch brophwydi, â'u geneu'n *dadgloi*
Dirgelion y nefoedd, a Duw 'n eu cyffroi.
Daniel Ddu, 182.

Dadgolfachu, *v.* to unhinge.

Dadgluro, } *v.* [cluro] to make clear, to ex-
Dadglurio, } plain, to expound, to elucidate.

Yma gellir dangos a *dadglurio* pechod ein tad cyntaf ni, a'r ffrwythau, a'r mawr drueni sydd wedi dyfod drwy'r pechod hwnw.—*Morys Clynog:* Athr. Grist. 17.

Dadglymu, } *v.* to untie, to unbind; to
Dadgylymu, } loosen; to disentangle; to dissolve.

Pe gorchymmynai, neu attal ei rym, *dadgylymid* y cyfansoddiad cyffredinol.—*Myfyrdodau Hervey*, 369.

A chafodydd y *dadglymaist* hi.
Dr. T. Bricsoe: Salmau, lxv. 11.

Dadglŏedig, *a.* unlocked.

Dadgorffori, *v.* to disincorporate; to dissolve.

Dywedir iddo geisio gorfodi y frenines . . . i arwyddo gorchymmyn am *ddadgorffori* y senedd.—*Cwmwl*, ii. 12.

Dadgorfforiad, -au, *sm.* disincorporation; dissolution.

Dadgorfforiad y senedd, the dissolution of parliament.

Dadgrafiad, -au, *sm.* erasement, obliteration.

Dadgrafu, *v.* to erase, to obliterate, to efface.

Dadgraffu, *v*, to ungrapple; to unrivet.

Dadgraffu hoel, to unrivet a nail.—*W.*

Dadgrasu, *v.* to divest of crispness; to unparch.

Dadgroeni, *v.* to peel off the skin; to skin, to peel.

Dadgroni (*ŏ*), *v.* to undam, to let out.

Dadgrychu, *v.* to divest of wrinkles, to unwrinkle, to unrumple, to unruffle.

Dadgrymiad, -au, *sm.* a straightening or unbending.

Dadgrymu, *v.* to unbend, to straighten, to make erect; to become straight.

Dadgrynhau, *v.* to divest of rotundity; to become straight.

Dadgudd, -ion, *sm.* the state of being revealed; revelation; that which is revealed or disclosed; a disclosure.

Gwae ui uod llawryt llawen vt gwendoryf
Gwyndeyrn heb *datcut*
Lloegyr ormes rotes eur rut
Rotyat gra dillad Gruffut.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 291 (cf. 318).

Tri chudd a thri *datcudd* Y[nys] Pr[ydain].
Trioedd: M.A. ii. 11.

A hwnnw uu y trydyd matcud pan cudywyt. ar trydyd anuat *datcud* pan datcudywyt.—*Mabinogion*, 42.

Pan ddeloch yng nghyd, wrth fal y bo gan bob un o hanoch psalm, neu fod ganto ddysgeidaeth, neu fod ganto dafod, neu fod gantho *ddadgudd*, neu fod gantho esponiad.
W. Salesbury: 1 Cor. xiv. 26.

Ar ddadgudd, in a revealed state or condition; revealed, disclosed.

Dadguddiad, -au, *sm.* 1. a revealing, revelation; a disclosing or disclosure; revealment.—*Rhuf.* ii. 5; viii. 19; xvi. 25.

Yn ol *y dadguddiad* a'r addewid yma, a wnaethpwyd y pryd hyny, cyffelyb yw, mai yr un ag a wnaeth yr addewid y gwnaeth hi yn dda drachefn.—*Ieremi Owen*, 53.

Y mae yn rhaid fod holl *ddadguddiadau* Duw o hono ei hun yn unol â'u gilydd.—*Cylchgrawn*, i. 6.

2. that which is revealed; a revelation; the Apocalypse, the Revelation.

Dadguddiad Iesu Grist, yr hwn a roddes Duw iddo ef, i ddangos i'w wasanaethwyr y pethau sydd raid eu dyfod i ben ar fyrder.—*Dad.* i. 1.

Llyfr y Dadguddiad, the Book of Revelation, the Apocalypse.

Y dadguddiad dwyfol, the divine revelation.

Peth dymunol iawn fyddai cael *dadguddiad dwyfol*. . . Y mae goleuni natur yn rhoddi lle i ddisgwyl am *ddadguddiad dwyfol*.—*Gro. Lewis:* Drych Ysgr. 4.

Y mae *Dadguddiad dwyfol* yn anghenrheidiol.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 1.

Y Dadguddiad, the Revelation, the Apocalypse.

Derbyniodd Ioan *y Dadguddiad* yn ynys Patmos.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 282.

Dadguddiad Sant Ioan y Difinydd, the Revelation of St. John the Divine.—*B.C.*

Dadguddiadol, *a.* apocalyptic; revealing.

Gwres o baradwys yw'r gwir ysprydol,
Nid yw guddiedig, ond *dadguddiadol*.
D. Ddu Eryri: Corff y Gainc, 51.

Dadguddiadwy, *a.* revealable.

Dadguddiedig, *a.* revealed; disclosed.

Oni ddywedwn ni, gyd ag E.C. gynt, fod dwy ewyllys yn Nuw, sef, ewyllys *ddadguddiedig*, ac ewyllys ddirgel.
Ioan Wallter: Dwy Bregeth, 42.

Crefydd ddadguddiedig, revealed religion.

Dadguddiedigaeth, -au, *sf.* the act of revealing; a making manifest; revelation.

Y mae yn cynnwys gweledigaethau a *dadguddiedigaethau* ym mha rai y mae llawer o dystiolaethau tufewnol nad ydynt yn ysprydoledig.—*Gwyliedydd*, xiii. 21.

Y mae'r Apostol yn cyfaddef . . . bod yn agos iddo â thra-ymdderchafu tros fesur o herwydd godidawgrwydd ei *ddadguddiedigaethau*.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 41.

Canys fel dynion yn unig, heb dderbyn *dadguddiedigaethau* pennodol o un math ar y cyfryw bynciau, yr ysgrifenasant hwy gyd â golwg ar y pethau hyn a'r cyffelyb.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 62.

Digitized by Google

Dadguddiedydd, -ion, *sm.* a revealer; a discloser; a divulger.

Dadguddiedydd dirgeledigaethau, a revealer of secrets or mysteries.

Dadguddio, *v.* to reveal; to disclose; to divulge; to expose.—*Dan.* ii. 22, 28, 47.

A hwnnw uu y trydyd mateud pan cudywyt. ar trydyd anuat dateud pan *datcudywyt.*—*Mabinogion,* 42.

Llyna y tri anuatkud pan *datkudywyt.* a Gwrtheyrn Gwrtheneu a *datkudyawd* esgyrn Gwerthеuyr Uendigeit yr serch gwreic. Sef oed honno Ronnwen baganes. ac ef a *datcudyawd* y dreigeu. Ac Arthur a *datkudyawd* penn Bendigeituran or Gwynn vrynn.—*Trioedd:* Ll.C.H. i. 300.

Yn y *datgudyer* y brenined cladedic ygkaer Lundein.
Ystt. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 148.

Pwy a *ddadguddia* wyneb ei wisg ef?—*Iob* xli. 13.

Dadguddio dirgeledigaethau, to reveal secrets; to unfold mysteries.

Y mae Duw yn y nefoedd yn *dadguddio dirgeledigaethau.*
Dan. ii. 28 (cf. 22).

Dadguddio cyfrinach, to reveal, disclose, or divulge secrets; to reveal or disclose a secret.

Ond am waradwydd, a balchder, *dadguddio cyfrinach,* a dyrnod trwy dwyll: am y pethau hyn y ffy pob cyfaill ymaith.—*Eccl.* xxii. 22 (cf. xxvii. 17; 2 Macc. xiii. 21).

Dadguddiol, *a.* revealing, disclosing; apocalyptic.

Dadguddiwr, wyr, *sm.* a revealer; a discloser; a discoverer; one who brings to light.

Er rhoddi o'r Yspryd Glân iddynt enwau anrhydeddus a bri urddasol; sef goruchwylwyr tŷ Duw, *dadyudduwyr* ei ddirgeledigaethau ef, cyfranwyr ei drysor.
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 142.

Dadguddydd, -ion, *sm.* a revealer; a discloser; a divulger.

Mewn gwirionedd y gwn mai eich Duw chwi yw Duw y duwiau, ac Arglwydd y breninoedd, a *dadguddiydd* dirgeledigaethau, o herwydd medru o honot ddadguddio y dirgelwch hwn.—*Dan.* ii. 47.

Dadgydiad, -au, *sm.* a disuniting, disjunction.

Dadgydio, *v.* to disjoin, to disunite, to dissever.

Dadgydiol, *a.* tending to disjoin; disjunctive.

Dadgyfaniad, -au, *sm.* a divesting of integrality; disruption, disintegration.

Dadgyfanneddiad, -au, *sm.* a ceasing to inhabit; a quitting a habitation; depopulation.

Dadgyfanneddol, *a.* tending to divest of inhabitants; depopulating.

Dadgyfanneddu, *v.* to leave off inhabiting; to deprive of inhabitants; to depopulate.

Dadgyfansawdd, soddion, *sm.* the state of being disorganized or decomposed.

Dadgyfansoddi, *v.* to decompose; to disorganize.

Dadgyfansoddiad, -au, *sm.* decomposition; disorganization.

Dadgyfansoddiaeth, -au, *sf.* the state of being decomposed; decomposition; disorganization.

Dadgyfansoddol, *a.* tending to disunite the component parts; decomposing; disorganizing.

Dadgyfanu, *v.* to disintegrate; to dissever; to disincorporate.

Dadgyfartaliad, -au, *sm.* a rendering disproportionate.

Dadgyfartalu, *v.* to disproportion.

Dadgyflogi, *v.* to annul a contract for hire; to annul a covenant.

Dadgyfluniad, -au, *sm.* disorganization; a divesting of conformation; deformation.

Dadgyflunio, *v.* to disorganize; to divest of conformation or connection of parts; to disfigure.

Dadgyfluniol, *a.* disorganizing; tending to divest of conformation.

Dadgyfnerthu, *v.* to withhold assistance; to deprive of help.

Dadgyfoethi, *v.* to deprive of property or territory; to despoil; to plunder.

Pan oedd oed Crist yn fil a phedwar cant a phedwar blwydd ar ddeg y *dadgyfoethwyd* fonachlog Penrhys achos cymmhleidio ag Owain Glyndyrdwy.—*Barddas,* i. 92.

Dadgyfoethiad, -au, *sm.* despoliation.

Dadgyfrwyo, *v.* to unsaddle.

Dadgyfrodeddu, *v.* to untwine, to untwist.

Dadgyffesiad, -au, *sm.* recantation, retraction.

Y mae y gair wedi myned ar led yn gyffredin, bod disgwyliad i ddau wr o'r urddas mwyaf yn yr Eglwys Babaidd yn yr Iwerddon (esgobion tybygid) wneuthur *dadgyffesiad* cyhoeddus o gyfeiliornadau Eglwys Rhufain.
Gwyliedydd, v. 127.

Dadgyffesu, *v.* to recant, to retract.

Dadgyffesol, *a.* retroactive, recanting.

Dadgynglyniad, -au, *sm.* disjunction.

Dadgylchiad, -au, *sm.* an unhooping.

Dadgylchu, *v.* to unhoop; to cease from circling or surrounding.

Dadgylchynu, *v.* to divest of what surrounds or encirles.

Dadgylymu, *v.*=*Dadglymu.*

Dadgymmaliad, -au, *sm.* a disjointing, disjunction; dislocation; dismemberment; a quartering.

Dadgymmalu, *v.* to disjoint; to dislocate; to dismember; to quarter; to break the joints; to become disjointed.

Felly holl gorff y Christion a ddirdynid ac a *ddadgymmalid* ar un waith gyda phoen ddirfawr.
Theo. Evans: D.P.O 344 (cf. 197).

'Yr wyf fi,' medd ef, 'ïe, yr hyn yr wyt ti yn ei ofyn a ydwyf fi. Pam ynte y *dadgymmali* di fi ar gam?'
Charles Edwards: Han. y Ffydd, 78.

Mae yn rhaid iddynt oll gael eu rhwymo yng nghyd fel na byddo iddynt *ddadgymmalu.*—*Gwyliedydd,* xiv. 48.

Mae y byd wedi ei *ddadgymmalu.*
Dr. Lewis Edwards: Traeth. Llen. 9.

Dadgymmysgiad, -au, *sm.* the action of separating things mixed.

Dadgymmysgu, *v.* to separate what has been mixed.

Dadgynllwyniad, -au, *sm.* the action of breaking up an ambuscade.

Dadgynllwyno, *v.* to break up an ambush; to leave off lying in wait.

Dadgynnorthwyo, *v.* to withdraw aid or support; to deprive of help.

Digitized by Google

Dadgysgodi, *v.* to deprive of shelter or shade; to render unsheltered.

Dadgysgodiad, *sm.* a deprivation of shelter.

Dadgyssoni, *v*, to make dissonant; to render inharmonious or discordant.

Dadgyssylltedig, *a.* disconnected, disjoined, disunited, separated.

Dadgyssylltiad, -au, *sm.* disconnection, disjunction; separation; disunion; dissolution; dissociation.

Y mae amryw, drachefn, o'n cydwladwyr yn barnu mai drwg y drygau yn y wlad hon, yw yr undeb rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth, ac mai yr unig feddyginiaeth wrth reswm yw *dadgyssylltiad*.
Dr. Lewis Edwards: Traeth. Llen. 16.

Mae y gweithwyr yn gofyn am gael dyn da, un a aiff hyd eithaf ei dennyn dros *ddadgyssylltiad* ac ysgraglywiaeth i'r Werddon.—*Gwalia*, Medi 5, 1888.

Dadgyssylltiad y senedd, dissolution of parliament.

Dadgyssylltiadol, **Dadgyssylltol**, **Dadgyssylltiol**, *a.* disjunctive, disconnecting, disuniting, separative, separating.

Dadgyssylltu, *v.* to disjoin, to disconnect, to separate, to disannex; to dissolve; to dissociate.

Ac am y gwledydd hyny lle y maent wedi eu *dadgyssylltu*, nid ydym yn cael eu bod yn rhagori llawer ar Loegr.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 16.

Dadgyssylltwr, wyr, *sm.* one who disjoins or separates; a separatist.

Dadgystadlu, *v.* to cease from competition.

Dadgystuddio, *v.* to free from affliction; to comfort.

Dadgyweiriad, -au, *sm.* disorganization, disarrangement.

Dadgyweirio, *v.* to disorganize, to disarrange, to put out of order.

Dadgyweiriol, *a.* apt to disorganize, disarrange, or confuse.

Dadhadu, *v.* to divest of seed.

Dadhalogi, *v.* to free from pollution or defilement.

Dadhalltu, *v.* to divest of saltness; to become fresh.

Dadhanfod, *v.* to divest of being or existence; to annihilate.

Dadhanfodol, *a.* annihilating.

Dadharddu, *v.* to divest of beauty or comeliness; to disembellish.

Dadheddychol, *a.* peace-breaking.

Dadheddychu, *v.* to divest of peace or tranquillity.

Dadheidio, *v.* to cease from swarming.

Dadheigio, *v.* to part or separate a shoal.

Dadheintiad, -au, *sm.* disinfection.

Dadheintio, *v.* to free from disease or contagion; to disinfect.

Dadheintiol, *a.* disinfecting.

Dadhelaethu, *v.* to reduce extent; to straiten.

Dadheneiddio, *v.* to divest of age; to renovate; to become young.

Dadhiraethu, *v.* to cease to long; to console.

Dadhoffi, *v.* to cease from loving or liking; to dislike.

Dadholi, *v.* to examine over again; to examine anew; to re-examine.

Dadhualu, *v.* to unfetter, to free from shackles, to unshackle.

Dadhudo, *v.* to entice or allure back.

Dadhuddiad, -au, *sm.* the action of uncovering or disclosing; development.

Yn y cyflwr newydd hwn, y mae bodolaeth yn myned drwy dri gradd o *ddadhuddiad*.
Adolygydd, i. 164 (cf. 169, 170, 171).

Dadhuddo, *v.* to uncover; to develop.

Dadhuliad, -au, *sm.* an uncovering.

Dadhulio, *v.* to remove a cover; to uncover; to clear.

Dadhunad, -au, *sm.* an awakening.

Dadhuno, *v.* to leave off sleeping; to awake; to arouse from sleep.

Dadhunol, *a.* awakening.

Dadhwyliad, -au, *sm.* disarrangement.

Dadhwylio, *v.* to disarrange, derange, or disorder.

Mae diodydd a llynoedd cryfion yn ddrwg iawn ar les y pen; ac os ymollyngir gyd â hwynt, hwy a *ddadhwyliant* y corff a'r meddwl.—*Ieremi Owen*, 106.

Dadiain, *sm.* [iain?] 'a renovated condition,' renovation.

Dadiain cain cynnydd dydd diwaethaf.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 461 (cf. 447, 465).

Mab Gruffudd didyb udd *dadiain*.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 356 (cf. 462, 471).

Pair dadiain [cf. *pair dadeni*], the cauldron of renovation or renascence.—*P.*

Dadiain, *a.* renovated, renewed; renascent, reanimated.

Pryduawr Lywelyn pryd dyn *dadyein*
Prydus diesgus esgar dilein. . .
A lluoet yg gwisgoet yn ymosgrein
Ar llimyn [llinyn] ar dynn ar dv kelein
A llinon rac bron rac bro Eurgrein.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 321.

Dadiasu, *v.* [ias] to divest of a power or quality that pervades or affects.

Dadieuad, -au, *sm.* [iau] the action of unyoking.

Dadieuo, *v.* to unyoke; to loosen.

Dadieuo (gollwng) anifeiliaid gwaith.—*Walters.*

Dadieuwr, wyr, *sm.* one who unyokes or loosens.

Dadireiddiad, -au, *sm.* divesture of moisture or succulence.

Dadireiddio, *v.* [ireiddio] to divest of moisture, juiciness, or succulence.

Dadireiddiol, *a.* tending to divest of moisture or succulence; apt to become dry.

Dadl, -au, *sf.* [cf. Br. *dael* (pl. *dadlou*); Ir. *dál*, *dail*] 1. a debate, dispute, or controversy; contention, strife; a subject of conversation, inquiry, or disputation; a matter in debate; a case (in law), a plea; a suit; a question.—*C.C.* i. 20, 28, 62, 158.

Dadl (*gl.* concio). *Datl* (*gl.* foro).
Oxford Gloss. i. 8; ii. 38 (Zeuss, G.C. 1054, 1055).

Digitized by Google

Gwedy llawer o gynheneu a *dadleu* y tagnevedwyt drwy gedymdeithon.—*Ystor. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 71.

Llyma oll heb y Teirnon a menegi y *dadyl* oll.
Mabinogion, 21.

Ac Ecuba a ymadrodes a Phriaf am *dadyl* Achel.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 26.

Ni chymmydd dedwydd â *dadlau.*—*Iolo Mss.* 257.

O deruyd bot *dadlev* erug deuden am tyr a dayar ac ene dyd kentaf dyweduyt or haulur uot hunnw en dyd dywethaf ydau acen dyd coll a chaffael.—*C.C.* ii. 126 (cf. fq.).

Llawer gwir, lle'r awn o gyd,
I *ddadl*, drwg ei ddoedyd.—*Gruffydd ab Hywel ab Tudur.*

Heb na digter na *dadl.*—1 *Tim.* ii. 8.

Myfi a wnaf allan o air Duw y *ddadl* gyffredinol hon.
Ed. James: Hom. ii. 111.

Mynwn gael *dadl* am ennyd,
A barn, yng nghylch cryfion byd.—*Gronwy Owain*, 105.

Rhyw ingus *ddadl* fu rhyngom,
A ffrwd lleferydd rhy ffrom.—*Daniel Ddu*, 431.

Dal dadl, } to hold a discussion or disputa-
Dala dadl, } tion; to maintain an argument; to argue.

Yr un agwedd a phe bai un o'r rhai ni fedrant ddywedyd Lladin pur gywir . . . yn *dal dadl.*—*M. Cyffin:* Diff. v. 9.

Mewn dadl, in dispute, in question; disputed, debated; disputable, debatable.

A phan ddelai yr amser gosodedig, deuai y brenin i'r tir oedd *mewn dadl.*—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 137 (cf. 525).

2. a place for debate, consultation, or discussion; a court.

A gwedy gwneuthur oet *dadleu* o nadunt ar lan Dulas y draethu o hynny. a doethon o bop parth yn edrych py beth oreu a dylyit ygkylch hynny.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 240.

Dadlaesiad, -au, *sm.* a ceasing to be drooping or trailing; a curtailing,

Dadlaesol, *a.* tending to draw up; curtailing.

Dadlaesu, *v.* to cease to droop or trail; to curtail; to tuck up.

Dadlaethu, *v.* [llaeth] to wean.

Tripheth nid da myned yn eu cylch mewn brys: rhyfela; gwleddoca; a *dadlaethu.*—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 81.

Dadlai, *pl.* dadleion, *sc.* a debater or disputant.

Dadlaith, *sm.* [llaith] a thaw; a thawing or melting (as ice or snow); the state of being thawed.

Dadlaith, *v.*=*Dadleithio.*

Mae hi ar ddadlaith, it is on the point of thawing.—*S. W.*

Mae hi wedi dadlaith, it has thawed.—*S. W.*

Dadlam, -au, *sm.* [llam] a rebound, a recoil, a step back; resilience.

Rhoi dadlam, to rebound.

Dadlamiad, -au, *sm.* the action of rebounding, recoilment, resilience.

Dadlamol, *a.* resilient, leaping or starting back, rebounding.

Dadlamu, *v.* to rebound, to bound or start back, to recoil.

Llurygawc oed namyn treillaw aoruc y saeth a *datlamu* drachefyn yar y arueu.—*Brut y Tywysogion*, 148.

A *datlamhv* y saeth yar gevyn vn or keiriw yny uu adan vron y brenhin.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 533.

Dadlamwr, wyr, *sm.* one who leaps, starts back, or rebounds; a recoiler.

Dadlanastrad, } -au, *sm.* [llanastr] a gather-
Dadlanastriad, } ing together what is spread or in confusion.

Dadlanastru, *v.* to gather up or heap what is spread or strewed; to tidy.

Dadlareiddiad, -au, *sm.* a becoming divested of mildness or meekness.

Dadlareiddio, *v.* to become divested of mildness or meekness.

Dadlareiddiol, *a.* having a tendency to be divested of mildness.

Dadlathrad, } -au, *sm.* a reflection of a
Dadlathriad, } glittering or gleaming.

Dadlathrol, *a.* reflecting a glitter.

Dadlathru, *v.* to reflect a glitter.

Dadlawch, *sm.* [llawch] a state divested of protection or aid.

Dadlawd, *sm.* disputation, discussion, argumentation.—*W.*

Dadldraith, dreithiau, *sm.* a polemical discourse or tract.

Dadlechol, *a.* ceasing to hide or conceal.

Dadlechu, *v.* to cease from hiding; to be unconcealed.

Dadlediad, -au, *sm.* a narrowing or straitening; a divesting of expansion.

Dadledu, *v.* to draw up what is spread; to divest of expansion; to straiten or narrow.

Dadleddfiad, -au, *sm.* a divesting of obliquity or flatness.

Dadleddfu, *v.* to divest of obliquity or flatness; to sharpen up.

Dadlefaru, } *v.* to recant, recall, or unsay.
Dadlafaru, }

Dadlehâd, *sm.* a displacing or displacement.

Dadlehau, *v.* to displace; to remove from a state, condition, or office.

Dadleithiad, -au, *sm.* a thawing or melting; a resolving into liquid; dissolution.

Pa fath *ddadleithiad* a thawdd y sydd yn awr yn ei galon edifeiriawl?—*Sion Trefredyn.*

Dadleithio, } *v.* to thaw or melt (as ice or
Dadlaith, } snow); to become humid or moist again; to dissolve.

Arddiad a barotoa y porth tyfol i dreiddio gwraidd llysiau, wrth ddarostwng tyfolion i ansawdd pydrawl, a *dadleithio* ireidion.—*W. O. Pughe:* C.P. 40.

Dadleithiol, *a.* thawing, melting; tending to produce moisture again.

Dadleniad, -au, *sm.* an unveiling or unfolding; development.

Dadleniadol, *a.* unveiling, unfolding, developing.

Dadlenu, *v.* [dad-+llen] to unveil, to unfold; to develop.

A phe dygwyddai'r fath beth ag i ryw ddadguddiwr godi'r llen i gyd i fyny, a *dadlenu* ger gwydd ein llygaid holl ddyfnion weithrediadau Natur a Rhagluniaeth, diammheuol yw y byddai i'r olygfa ryfedd beri i ni fwy o ddyryswch nag eglurder.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 5 (cf. 62, 66).

Yr hug a wahardd i'r drygau oerddu,
Odid a lunia, gael eu *dadlenu.*
Ieuan Glan Geirionydd: Geir. 69.

Y mae yma un gwall bychan, trwy fod y cyferbyniad wedi ei golli rhwng y lloer yn codi mewn cymylog urdd, a'i gwaith yn y man yn *dadlenu* yn llawn ei digyffelyb wawl.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 77.

Digitized by Google

Dadlenwad, -au, *sm.* depletion.

Dadlenwi, *v.* to deplete, to empty out, to empty.

Yn chwantus, bueilgyrn *dadlenwent*,
Am heddwch llawen ymddiddanent.—*Y Greal*, 179.

Dadlenwol, *a.* depletory, depletive.

Dadleol, *a.* displacing, removing.

Dadlesâd, *sm.* a divesting of good or advantage.

Dadlesaol, } *a.* tending to divest of good or
Dadlesol, } benefit.

Dadlesâu, *v.* to divest of good, benefit, or advantage.

Dadlesgâd, *sm.* a divesting of weakness.

Dadlesgaol, *a.* divesting of debility; strengthening.

Dadlesgâu, *v.* to divest of weakness; to remove debility; to recover strength.

Dadlesmeiriad, -au, *sm.* a recovering from a a swoon or fainting fit.

Dadlesmeirio, *v.* to recover from a swoon or fainting fit; to be revived.

Dadlesmeiriol, *a.* tending to recover from a fainting fit.

Dadlesteiriad, -au, *sm.* a clearing from obstruction or hinderance.

Dadlesteirio, *v.* to remove obstruction.

Dadlesteiriol, *a.* tending to remove obstruction; deobstruent.

Dadlesu, *v.* to deprive of benefit or advantage.

Dadleu, -on, -au, *sm.* [dadl] 1. a debate, dispute, or controversy; disputation; argument; argumentation; a debating, arguing, disputing, or pleading.

Dadleu mawr a uu gan y gwyr a oed allan am dyuot Bedwyr a Chei y mywn.—*Mabinogion*, 127.

Dadleu mawr mynych ac engi ar lygoden.
Diareb. (M.A. iii. 153.)

Dadleu gwedi barn.—*Diareb.* (M.A. iii. 153.)

Yn drydydd yr argyhoeddir ac yr atebir y rhesymau a'r *dadleuau* a wnair i amddiffyn delwau ac eilunod . . . ac felly cau ar y cwbl.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 23.

Dadleuon, debates, disputes, controversies; pleadings; pleas.

Bellach dychwelwn at y peth oedd genym yn llaw cyn syrthio o honom at y *dadleuon* a'r ymgecraeth yma.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 333.

Oddi yma y mae mwy na hanner y *dadleuon* duwinyddol ac eglwysig yn tarddu.
Dr. Lewis Edwards: Traeth. Llen. 614.

Ef allai eich bod yn treulio yr amser mewn syrthni wrth y tân, neu ynte mewn *dadleuon* gwag ac ofer gyda'ch tylwyth.—*Cylchgrawn*, i. 5.

Reginald de Grey a flinodd bobl Tegengl ag amrywiol *ddadleuon*.—*Carnhuanawc:* Hanes Cymru, 710.

Llys y Dadleuon Cyffredin, the Court of Common Pleas.

Cynnygiodd drachefn yn *Llys y Dadleuon Cyffredin*, a bu yr un mor anffodus yno.—*Adolygydd*, i. 138.

2. (*pl.* -oedd, -on) a place of debate, disputation, or pleading; a court; a tribunal; a council.—*C.C.* ii. 34, 36.

Yny oed euo a luneitheu negesseu y deyrnas. ac dosparthei y *dadleuoed*.—*Ystoria Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 74.

Ny bwyf trist yth *datleu*.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 330 (cf. 435).

Ac ny doeth gan y Brytanyeit yr *dadleu* hwnnw vn araf.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 140 (cf. 151).

Ac gwedy marw Madawc tervysc a kyvodes y rwng y deuvap am e kyvoeth . . . ac eyssyoes Membyr a vynnawd dwyn y enny ef ar perffeythdawt ac wrth hynny ef a wnaeth *datleu* o eskus gwneuthur llunyeth ar tagnheved yr rygthunt. ac yn y *datleu* hwnnw y perys ef llad Mael y vrawt.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 120 (cf. 369).

Wyth awr a rodei ef yng gwedieu a dysc ac Ysgruthyr. wyth ereill y lywodraeth y kor ae *dadleuoed*.
Brut y Saeson: Ll.C.H. ii. 386.

Gwedy y delei adref y deyrnas. dyuynnu yr holl bobyl y gyt y genedyl ef. a chenedyl y Coranyeit yr vn *dadleu*. ar uedwl gwneuthur tagneued y rygtunt.
Mabinogion, 96 (cf. 34, 82).

Membyr eissoes a wnaeth *dadleu* ae vrawt ar vessur tagneuedu ac ef.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 62.

Dadleu, *v.* 1. to debate, dispute, argue, or reason; to plead; to contend.—*Salm.* xxxv. 1; xliii. 1; lxxiv. 22; cxl. 12.

Ac wrth hynny nyt oet iawn *dadleu* a miui ygkam nac yn enwir.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. 92.

A fo caled yng nghynghaws, *dadleued* ar bob achaws.
Diareb. (M.A. iii. 146.)

Yn eigion ei bur-fron ber
Holodd, *dadleuodd* lawer.—*Dafydd Ionawr*, 86.

Y rhai pe *dadleuasent* eu mater ger bron y Scythiaid, hwy a gawsent eu gollwng yn ddieuog.—*2 Macc.* iv. 47.

Dadleu dadl un, } to plead one's cause; to
Dadleu cwyn un, } defend a person.—*Ier.* l. 34; li. 36; *Diar.* xxii. 23; *Mic.* vii. 9.

Dadleu dros, to plead for; to contend for.—*Esa.* i. 17.

Dadleu gyda (*gydag*), to plead with; to plead for; to plead in one's behalf.—*Galar.* iii. 58.

2. to contend, wrangle, or quarrel; to tattle.

Dechreu'r ffrwgwd diweddar oedd *dadleu* ac ymdaeru fuasai rhyngddynt.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 31.

Dadleuad, -au, *sm.* a debating, disputing, or arguing; disputation; pleading.

A glyweisti a gant Lliaus
Mab Nuyvre milur hynavs
Dadleuad ar bob achaus.—*Engl. y Clywed:* M.A. i. 174.

Ni a allwn wneuthur cyfrif ddarfod i'n hachos ni er ys dyddiau gael digon o *ddadleuad* a diffyniad.
M. Cyffin, i. 8.

Mynegodd amryw bethau am y cyfryw *ddadleuad*.
Carnhuanawc: Han. Cym. 704.

Ar ychydig eiriau, y cwbl o *ddadleuad* Pawl yw hyn.
Ed. Iames: Hom. i. 29.

Dadleuadau, pleadings; disputations, debates.

Dadleuadol, *a.* controversial, disputative.

Dadleuadwy, } *a.* debatable, disputable, con-
Dadladwy, } trovertible.

Dadleuaeth, -au, *sf.* disputation, controversy; advocation, advocacy; polemics.

Pe bai ynddynt lai o *ddadleuaeth* grefyddol . . . a mwy o sylwadau ar ryfeddodau anian a chelfyddyd; tueddent fwy at feithrin y Gymraeg.—*Blackwell:* Cein. Alun, 244.

Nid ymddengys iddynt erioed ddychymmygu y byddai eu geiriau rywbryd, yn nhreigl amser, yn debyg o beri *dadleuaeth* yng nghylch eu hystyr, eu cyssondeb, eu geirwiredd.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 130.

Dyma anghraifft o'r gwrthddywediadau gwrthun ag y mae rhai dynion da yn syrthio iddynt mewn *dadleuaeth*.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duw. 301.

Dadleudy, dai, *sm.* [dadleu+tŷ] a hall or court of pleadings; a judgment-hall; a court of justice; a forum. *Dadleudy* is the rendering of *πραιτώριον* in the following passages: *Matt.* xxvii. 27; *Ioan* xviii. 28, 33; xix. 9; *Act.* xxiii. 35. It is supposed that *dadlt* (glossed *curia*) in one of the Oxford Glosses

Digitized by Google

(Zeuss, *G.C.* 1052) is intended for *dadlty* (*dadldy*), a compound which would have the same meaning as *dadleudy*.

Ni chyfarfyddwn ddim ag ef yn y farchnad, neu yn y *dadleudy*, llai o lawer yn y dafarn.—*Ed. James:* Hom. ii. 10.

Dadleuedig, **Dadledig,** *a.* debated, disputed, controverted, argued.

Dadleues, -au, *sf.* a female disputant or controversialist; a female advocate.

Dadleufa, -oedd, fëydd, *sf.* a place of disputations or pleadings; a forum, a court; the bar.

Mewn senedd a *dadleufa* nid oes un cynnygiad mewn grym nes ei gefnogi.—*Gwyliedydd*, ii. 87.

Ei frawd . . . a addysgwyd yn y gyfraith, ac a anrhydeddwyd â galwad i'r *ddadleufa* gan Gymdeithas y Deml Ganol.—*Seren Gomer*, xi. 1.

Dadleugar, *a.* disputatious; disputative; captious.

Gall fod mewn yspryd ymrafaelgar, a *dadleugar*, yn ymryson ag ereill.—*Th. Charles*, s.v. 'Dadl.'

Barna . . . mai Groegiaid dysgedig a *dadleugar* yn benaf oedd y rhai hyny.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 660.

Dadleugarwch, *sm.* proneness to dispute, debate, or argue; captiousness.

Dadleuo, *v.*=*Dadleu*, *Dadlu*.

Heb law hyn, y maent yn *dadleuo* llawer.
Carnhuanawc: Han. Cym. 16.

Dadleuol, *v.* controversial, polemical; disputative.

Yr oedd yr ysgol-ddiflnwyr dysgedig yn eu hysgrifeniadau *dadleuol* yn dwyn ym mlaen resymau 'dros ac yn erbyn' haeddiant dyn.—*Nicander:* Dysga Fyw, 61.

Ymddengys y rhan fwyaf o'r milwyr mor amrosgo yn eu harfau *dadleuol* ag ydoedd Dafydd yng ngwisgoedd Saul.
Seren Gomer, vi. 38.

Dadleuwr, wyr, **Dadleuor,** -ion, **Dadleuydd,** -ion, *sm.* 1. a debater, disputant, disputer, or arguer; a controversialist; a pleader, an advocate; a polemic.

Y vlwydyn rac wyneb y bu uarw Sulyen vab Richmarch mab y Seint Padarn mab maeth yr eglwys, a gwedy hynny athro arbennic gwr oed aeduet y geluydyt, ymadrodwr dros y genedyl, a *dadleuwr* kymedrodwyr.
Brut y Tywysogion, 166.

Caniatâ hyn, Arglwydd, er anrhydedd ein *Dadleuwr* a'n Cyfryngwr, Iesu Grist.—*Llyfr Gweddi Gyffredin.*

Pan fydder yng nghylch barnu ereill, arferant eu geneuau eu hunain, a *dadleuwyr* cyflogedig, i ddangos eu diniweidrwydd.—*Ch. Edwards:* Han. y Ffydd, 77.

Hwy a wybuant . . . fod eu cymhorth beunydd yn egwanhau, a bod arnynt anghenrhaid am *ddadleuydd* ym mhlaid eu hachos.—*M. Cyffin:* Diff. i. 6.

Yr wyf yn deall fod fy *nadleuwyr* i yn bwriadu sefyll llawer ar awdurdod a hawl y frenines.—*Cylchgrawn*, i. 193.

Yn ddiweddar y *dadleuydd* cyfreithiol cnwog hwnw . . . a dorodd ei wddf.—*Cwmwl*, ii. 192.

2. in the Laws, the parties who litigate are called *Dadleuwyr*, as well as *Cynhenusion* and *Pleidiau*.—*C.C.* fq.

Ni ddichawn efe ddadganu y farn trwy gyfraith rhwng *cynhenusion* (al. *dadleuwyr*).—*L. W.* iv. cxxvi. 6.

Dadleuwraig, wragedd, *sf.* a female disputant, polemic, pleader, or advocate.

Dadleuwriaeth, **Dadleuoriaeth,** **Dadleuyddiaeth,** -au, *sf.* a pleader's avocation or profession; pleading, advocation, advocacy; disputation.

Dadleuyddes, -au *sf.*=*Dadleues*.

Dadleuyddol, *a.* controversial, polemical.

Cymmaint yw tyniad *dadleuyddol* Seren Gomer.
Seren Gomer, vi. 38 (cf. 39).

Dadlewino, *v.* to brighten, to clear up, to become fair, to grow lighter; to relume.—*S.E.W.*

Dadlewych, **Dadlewyrch,** *sm.* [llewych, llewyrch] reflected light; reflection or refraction of light.

Dadlewychiad, **Dadlewyrchiad,** -au, *sm.* a returning of light, reflection; refraction.

Dadlewychol, **Dadlewyrchol,** *a.* refrangible, reflective, reflecting.

Dadlewydd, *sm.* the close of day; the evening.—*S.E.W.*

Dadlewygiad, -au, *sm.* a recovering from a fit or swoon.

Dadlewygol, *a.* tending to recover from a fainting fit.

Dadlewygu, *v.* to recover from a fainting fit or swoon; to revive.

Ar hynny *datlewygu* a oruc yr iarlles.
Mabinogion, 195 (cf. 281, 289).

Dadlewynu, *v.* to brighten, to clear up, to become clear.

Mae yn dadlewynu, it begins to clear up or brighten (after a dark rainy day or a storm).—*Iolo Glossary.*

Dadlfa, -oedd, fëydd, *sf.* a place of pleading or disputation; a forum, a court. Cf. *Dadleufa*.

Heb mair, heb cyghellaur, heb cyhoith *dadlma* y meun gulat.—*Liber Landavensis*, 113.

Pwybynhac adel y *dadylua* yr arglwyd a hawl arnaw a dechreu y holi os y gyghor y da kyn rodi atteb colledic uyd.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 26.

Dadliad, -au, *sm.* a disputing or debating; disputation.

Ar ol i'r uffernol ffau
Lidiog, wneyd croes *ddadliadau*.—*D. Ionawr*, 53.

Dadliadaeth, -au, *sf.* advocation, advocacy.

Dadlid, *sm.* [llid] anger or wrath assuaged.

Dadlidiad, -au, a divesting of anger or wrath; an appeasing or assuaging.

Dadlidio, *v.* to cease from anger; to become pacified, appeased, or assuaged.

Dadlitia, 'r diwyd latai,
Hwnt o'r Mars, dwg hynt i'r mai.
Dafydd ab Gwilym, xi. 1 (cf. lxi. 54).

Er Duw, fab ysgwïer da,
Du diledach, *dadlidia*.—*Ieuan Deulwyn*, i Lywelyn Ddu.

Dadlidiog, *a.* appeased, pacified.

Dadlidiol, *a.* tending to appease.

Dadlif, -au, *sm.* a reflux, a refluence.

Dadlifiad, -au, *sm.* a reflowing, a flowing back.

Dadlifiant, *sm.* a reflux; a flowing back.

Dadlifo, *v.* to flow or run back.

Dadlifol, *a.* refluent, flowing or running back.

Dadlithriad, **Dadlithrad,** -au, *sm.* a sliding or slipping back, a backsliding; a relapse.

Dadlithro, *v.* to slide, slip, or fall back; to backslide, to relapse.

Dadlithrwr, wyr, *sm.* a relapser, a backslider.

Dadliwiad, -au, *sm.* a discolouring, discoloration.

Digitized by Google

Dadliwio,) *v.* to discolour; to stain; to tinge;
Dadliwo,) to alter the colour.

Dadliwiol,) *a.* discolouring; altering the colour
Dadliwol,) or complexion.

Dadlochi, *v.* to divest of patronage or protection.

Dadlochol, *a.* tending to divest of protection.

Dadloewad, -au, *sm.* a clearing anew.

Dadloewawl, *a.* tending or apt to clear again.

Dadloewi, *v.* to clear again; to become clear again.

Dadlog, -au, *sf.* [dadl] a place of debate or disputation; a forum, a court (of law).

Datlocou (*gl.* fora).
Oxford Gloss. ii. 38 (Zeuss, G.C. 1055; cf. 820, 849).

Dadlogi, *v.* [llogi] to annul a covenant or agreement; to disannul a contract.

Dadlogiad, -au, *sm.* the action of disannuling a covenant or contract.

Dadlongi, *v.* [llong] to transship.

Dadlongiad, -au, *sm.* transshipment.

Y mae rhai manteision yn perthyn i deithred Canada o'r Llynau i borthladdoedd y *dadlongiad*.
Llawlyfr Canada, 17.

Dadlor, -ion, *sm.*=*Dadleuwr.*

Dadlores, -au, *sf.* a female disputant; a female advocate.

Dadlu, *v.* [dadl] to debate, dispute, argue, or reason; to plead; to contend.—*M.A.* i. 180, 578.

Wedi i'r hawlwr draethu ei gwyn, ac ateb o'r amddiffynydd, holi y tystion, a chyflawn *ddadlu* o bob plaid, trwy rybudd y rhingyll, yr ai yr ynad llys, ynad cwmmwd, a'r offeiriad, o'r neilldu i ystyried yr achos.
G. Mechain: Gwaith, ii. 177 (cf. 138).

Dadludiad, -au, *sm.* a deglutinating.

Dadludio, *v.* [glud, gludio] to unglue, to deglutinate.

Dadludiol, *a.* ungluing, deglutinating.

Dadluddediad, -au, *sm.* [ludded] a divesting from fatigue; a refreshing.

Dadluddedol, *a.* refreshing; tending to untire.

Dadluddedu, *v.* to divest of fatigue or tiredness, to untire, to refresh.

Dadluniad, -au, *sm.* deformation, disfiguration.

Dadlunio, *v.* to alter the form; to deform, to disfigure.

Dadluniol, *a.* tending to deform, disfiguring.

Dadluniwr, wyr, *sm.* one who disfigures, a deformer, a defacer.

Dadlwr, wyr,) *sm.* [dadl] a debater, disputer,
Dadlydd, -ion,) arguer, or controversialist; a pleader, an advocate. Cf. *Dadleuwr.*

Dadlwriaeth,) -au, *sf.* disputation, discus-
Dadlyddiaeth,) sion; pleading, advocacy; the art of pleading.

A llyna y tri lle y seif *dadylwryaeth* absen dros pleideu y gorsedawc ar brawdwyr adyly y warandaw.
Cyfreithiau Cymru, ii. 386.

Wiliam Ruffus a ragderfynodd neu appwyntiodd *ddadlwriaeth* neu gynadl i'w chadw yn Llundain rhwng y Christ'nogion a'r Iuddewon. . . Y brenin a dderbyniodd eu hanrheg . . . gan dyngu . . . os hwynt-hwy a orchfygai yn y *ddadlwriaeth*, y troai ef ei hunan i fod yn Iuddew.
W. Lewes: Dwy Daith, 163.

Dadlyddiaeth sydd athrawiaeth yn dysgu ymddadleu a rhesymu yn ddichlyn ystrywgar.
Dosparth y Saith Gelfyddyd.

Aeth hir ofal â Threfawr;
Aeth ei *ddadlwriaeth* i lawr.—*Guto'r Glyn.*

Dadlwriaethol, *a.* controversial, polemical, disputative.

Dadlwythiad, -au, *sm.* the action of unloading or disburdening.

Dadlwytho, *v.* [llwyth] to unload or unlade; to disburden or unburden; to discharge.

Dadlwythwyd hwynt, a chwiliodd Wilhelm a minnau am y blwch lle yr oedd y pylor.—*Cylchgrawn*, i. 336.

Enfys, a liwiwyd ag amrywiaeth o liwiau ar y cwmwl a *ddadlwythwyd*.—*Myfyrdodau Hervey*, 440.

Dadlwytho llong, to unlade a ship.—*Act.* xxi. 3.

Dadlwythol, *a.* disburdening, unloading.

Dadlwythwr, wyr, *sm.* one who unloads.

Dadlydd, -ion, *sm.*=*Dadlwr, Dadleuwr.*

Dadlyddiaeth, -au, *sf.*=*Dadlwriaeth.*

Dadlyfrhaol, *a.* tending to divest of timidity or cowardice; encouraging.

Dadlyfrhau, *v.* [llwfr] to become divested of timidity or cowardice; to give courage; to encourage.

Dadlygriad, -au, *sm.* a divesting of corruption or pollution.

Dadlygrol, *a.* tending to divest of corruption.

Dadlygru, *v.* to divest of corruption; to depurate.

Dadlymhâd, *sm.* a blunting.

Dadlymhaol, *a.* tending to blunt.

Dadlymhau, *v.* to divest of point or sharpness; to make pointless; to blunt.

Dadlymhuniad, -au, *sm.* a recovering from a swoon or fainting fit.

Dadlymhuno, *v.* [dad-+llym+huno] to recover from a swoon or fainting fit; to revive.

Hi a welai yr ellyll a welsai hi o'r blaen yn bendefig hardd-bryd urddasol, yn anghenfil anfeidrol ei anferthwch, a llewygu gan ei ofn y gwnaeth hi, ac Einion a'i hamgeleddes hi onis *dadlymhunes*.—*Iolo Mss.* 179.

Mae y llysiau yn dadlymhuno, the herbs revive.

Dadlymhunol, *a.* recovering from a swoon.

Dadlymhurtio, *v.* to recover from a state of stupefaction; to come to one's self.

Dadlythyriad, -au, *sm.* [llythyr] obliteration, defacement, effacement.

Dadlythyrol, *a.* obliterating, effacing.

Dadlythyru, *v.* to erase letters; to obliterate; to efface, to deface.

Ar ein gwaith yn ymadael o'r ogof ryfeddol hon, canfuom arysgrifen Roeg ar graig wrth y drws; eithr yr oedd wedi ei *dadlythyru* mewn rhan gan amser, fel nas medrem yn iawn ei darllen.—*Brython*, ii. 210.

Dadlywiad, -au, *sm.* a ceasing from guiding or steering.

Dadlywio, *v.* to deprive of a guide.

Dadmer, *sm.* [mer, meru] a thaw.

Dadmer,) *v.* to thaw, to melt or liquefy (as
Dadmeru,) ice or snow); to dissolve.

Mae'r gaer, a'r muriau . . . a'r to, ar *ddadmer*.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 49.

Daiar hen, drwy wahanu,
Yn *dadmer* i'r dyfnder du.—*Dafydd Ionawr*, 177.

Digitized by Google

Dadmeriad, -au, *sm.* a thawing, a melting; dissolution, liquefaction.

Dadmerol, *a.* thawing, melting.

Dadmerth, *v.* [cf. *dadferth*] to revive or resuscitate; to recover.

Dadmerth o lewyg, to recover from a swoon.—*S.*

Dadnabod, *v.* [=adnabod] to know; to recognize.

Yd oedit yn *dadnabot* twill Edrich yn llyr y brenhin.
Brut y Saeson: M.A. ii. 503.

Dadnaid, neidiau, *sf.* [naid] a rebound, a leap back; resilience.

Dadnawdd, *sm.* divesture of patronage or protection.

Dadnaws, *sm.* indisposition.

Dadnawseiddio, *v.* to become uncongenial; to become divested of naturalness; to indispose, to disincline.

Dadnawseiddiol, *a.* tending to divest of natural propensity.

Dadnawsiad, -au, *sm.* indisposition.

Dadneidiad, -au, *sm.* [dadnaid] a rebounding.

Dadneidio, *v.* to rebound, to bound or leap back, to resile.

Dadneidiol, *a.* resilient, rebounding.

Dadnerthiad, -au, *sm.* deprivation of strength or vigour; enervation, debilitation.

Dadnerthol, *a.* enervating, debilitating.

Dadnerthu, *v.* to deprive of strength or vigour; to enervate, to debilitate.

Dadnewid, } *v.* to change again or anew; to
Dadnewidio, } rechange, to re-exchange.

Dadnewidiad, -au, *sm.* a rechanging.

Dadnewidiol, *a.* changing again, rechanging.

Dadnewyddiad, -au, *sm.* a renewing; renewal, renovation, regeneration.

Dadnewyddol, *a.* renewing, renovating.

Dadnewyddu, *v.* to renew or renovate.

Ac wrth heni drwi e gwinvidedic wr hwnw e *dadnewitwid* [*al.* atnewydwyt] fit e gwir gristnogaeth emplith e Britanieid.—*Brut Gr. ab Arthur* (A): M.A. ii. 249.

Dadnidrad, } -au, *sm.* a disentangling, disen-
Dadnidriad, } tanglement.

Dadnidro, *v.* to disentangle; to free.

Dadnidrol, *a.* disentangling.

Dadniweidiad, -au, *sm.* a making harmless or innocent.

Dadniweidio, *v.* to make harmless or innocuous.

Dadniweidiol, *a.* tending to divest of harm.

Dadnodi, *v.* to obliterate a mark or marks.

Dadnodiad, -au, *sm.* obliteration.

Dadnoddi, *v.* to deprive of protection.

Dadnoddiad, -au, *sm.* a divesting of protection.

Dadnoddol, *a.* depriving of protection.

Dadnoethi, *v.* to divest of nakedness; to cover what was exposed or bare.

Dadnoethiad, -au, *sm.* a divesting of bareness.

Dadnwyfiad, -au, *sm.* enervation.

Dadnwyfo, *v.* to divest of vigour; to enervate.

Dadnwyfol, *a.* depriving of vigour, enervating.

Dadnwytho, *v.* to divest of whims, freaks, or oddities.

Dadnychu, *v.* to relieve of languishment, pining, or vexation.

Dadnyddiad, -au, *sm.* an untwining or unweaving; a becoming untwisted.

Dadnyddol, *a.* tending to untwist; unweaving.

Dadnyddu, *v.* to untwist, to untwine; to unweave.

Dadobeithio, *v.* to despair.

Dadoddef, }
Dadoddefu, } *v.* to suffer or bear again.

Dadoeri, *v.* to divest of cold.

Dadofalu, *v.* to divest of care or solicitude.

Dadofidio, *v.* to leave off grief; to relieve of grief.

Dadofwyad, -au, *sm.* a revisiting, revisitation.

Dadofwyo, *v.* to revisit, to visit again.

Dadofwyol, *a.* revisiting, visiting anew.

Dadogwyddiad, -au, *sm.* disinclination; a becoming erect.

Dadogwyddo, *v.* to disincline; to straighten; to become erect.

Dadogwyddol, *a.* disinclining; making erect.

Dadoleu, } *v.* to light anew, to relight, to
Dadoleuo, } enlighten again, to re-illuminate; to rekindle.

Dadoleuad, -au, *sm.* a lighting anew, re-illumination; a rekindling.

Dadoleuol, *a.* lighting anew, re-illuminating.

Dadoliad, *m.* } -au, *s.* [ol] obliteration, effac-
Dadoliaeth, *f.* } ment; forgiveness.

Dadolio, *v.* to obliterate, efface, or expunge; to forgive.

Dadoload, -au, *sm.* [golo] an uncovering, a developing; development.

Dadolŏedd, *sm.* development.

Dadoloi, *v.* to uncover, to reveal; to develop.

Dadolrhain, } *v.* to trace anew or again, to
Dadolrheinio, } retrace.

Dadolrheiniad, -au, *sm.* a retracing.

Dadolrheiniol, *a.* retracing.

Dadolwch, ychau, *sm.* [iolwch] satisfaction, expiation, amends; appeasement; reconciliation; deprecation.

A gwedy gorffen y salym y dechreuis [Dauid] adeilat temyl yr Arglwyd yn *dadolwch* am y bechodeu.
Efangel Nicodemus, § 8.

Dedwydd a gar *dadolwch.*
Llywelyn Fardd: M.A. i. 357 (cf. 173).

Ny wrthyd Mab Duw *dadolwch*
Dadolwch llachar.—*Cynddelw:* M.A. i. 227 (cf. 51, 59, 99).

Digitized by Google

Llys vry hy hoywblwyf
Llen gne de diglwyf
Llwyd rwyd rwyf delwyf drwy *dadolwch*.
Casnodyn: M.A. i. 431 (cf. 280, 330).

Yna y dygwydawd Ioachym yn *dadolwch*. or hwechet awr or dyd hyt bryt gosper.—*Buchedd Mair*, ł 4.

Dadolychiad, -au, *sm.* a making amends, satisfaction, or expiation; deprecation.

Dadolychol, *a.* appeasing, expiatory, satisfactory, atoning; deprecatory.

Dadolychu, *v*, to appease; to give satisfaction; to make amends or atonement; to deprecate.

Gwaith dedwydd yw *dadolychu*
Cyn cystwng clwyf cyfrwng claddu.
Elidir Sais: M.A. i. 351 (cf. 165).

Dadolychwr, wyr, *sm.* one who appeases, atones, or expiates; an appeaser; a deprecator.

Dadollwng, *v.* to loosen anew; to relapse.

Dadollyngiad, -au, *sm.* a loosening anew; a relapsing.

Dadorbwylliad, -au, *sm.* a recovering of the senses; convalescence.

Dadorbwyllo, *v.* to recover the senses; to recover from distraction; to divest of flightiness; to convalesce.

Dadorchestiad, -au, *sm.* a striving or contending again.

Dadorchestol, *a.* striving again; emulating anew.

Dadorchestu, *v.* to strive, contend, or emulate anew.

Dadorchudd, *sm.* development.

Dadorchuddiad, -au, *sm.* an uncovering or unveiling; a laying open to view; a laying bare; development; disclosure.

Yr ydoedd pobl Llanelwy yn ystod oriau y gwasanaeth a'r *dadorchuddiad* wedi cau pob masnaschdy, ac wedi myned i dalu eu teyrnged o barch i goffadwriaeth yr esgob. . . Yr oedd yr areithiau, fel dydd y *dadorchuddiad*, heb yr un cwmwl.—*Haul*, 2 C.C. viii. 173.

Dadorchuddiadol, *a.* uncovering, unveiling.

Ar ddiwedd y seremoni *dadorchuddiadol* canwyd yr hen emyn, 'Dyma Feibl fy anwyl Iesu.'—*Haul*, 2 C.C. viii. 173.

Dadorchuddio, *v.* to uncover; to unveil; to disclose to view; to develop.

Hwy a *ddadorchuddiasant* y llech hon, ond gan iddynt fethu â'i symmud, hwy a roddasant enw y Pasha arni.
Brutus: Ninefeh, 19.

Diwrnod mawr yn hanes crefydd Cymru a hanes y Beibl Cymreig ydoedd dydd Gwener, yr 22ed o Ebrill, 1892, pan y darfu i'r Esgob Edwards, nawfed olynydd ar hugain yr Esgob Morgan yn esgobaeth hynafol Llanelwy, *ddadorchuddio* cofgolofn i'w ragflaenydd anfarwol.
Haul, 2 C.C. viii. 172.

Dadorchuddiol, *a.* uncovering; unveiling; developing.

Dadorchuddiwr, wyr, *sm.* one who uncovers or unveils; one who develops.

Dadorchwylio, *v.* to labour; to work over again.

Dadorddwyo, *v.* to cease swaying, domineering, or tyrannizing.

Dadoresgyn, } *v.* to reconquer; to conquer
Dadoresgynu, } anew; to recover by conquest.

Dadoresgyn, -ion, } *sm.* a reconquest, a
Dadoresgyniad, -au, } second conquest.

Dadoresgynol, *a.* reconquering.

Dadoresgynydd, -ion, *sm.* one who reconquers.

Dadorfod, *v.* to overcome again or anew.

Dadorfodiad, -au, *sm.* a vanquishing anew; a compelling again.

Dadormeilio, } *v.* to cease to vex, oppress, or
Dadormesu, } molest.

Dadormeiliad, } -au, *sm.* a ceasing from op-
Dadormesiad, } pressing, molesting, vexing, or troubling.

Dadorphwylliad, -au, *sm.* a recovering from distraction; convalescence.

Dadorphwyllo, *v.* to recover the senses; to recover from distraction or insanity.

Dadorphwyllog, *a.* restored to one's senses; convalescent.

Dadorseddiad, -au, *sm.* a dethroning, dethronement; deposition.

Dadorseddog, *a.* dethroned, unthroned.

Dadorseddol, *a.* dethroning; divesting of royalty.

Dadorseddu, *v.* to dethrone, to drive from a throne.

Dadorseddwr, wyr, *sm.* a dethroner.

Dadorthoad, -au, *sm.* an uncovering.

Dadorthoawl, *a.* uncovering.

Dadorthoi, *v.* to take off a covering; to uncover; to expose.

Dadorthrechu, *v.* to leave off oppressing; to desist from vanquishing.

Dadorthrymu, *v.* to cease or desist from oppressing or tyrannizing.

Dadosgli, *v.* to strip or lop off branches; to prune.

Dadosgliad, } -au, *sm.* a lopping or stripping
Dadosglad, } off branches.

Dadosglog, *a.* having the boughs or branches cut off; branchless.

Dadosgoad, -au, *sm.* a desisting from flinching or starting aside.

Dadosgoawl, *a.* ceasing to flinch; unflinching.

Dadosgoi, *v.* to cease to flinch.

Dadosgorddi, *v.* to divest of a train; to deprive of a retinue.

Dadosodawl, *a.* displacing; disarranging.

Dadosodiad, -au, *sm.* a displacing, displacement.

Dadrangiad, -au, *sm.* dissatisfaction.

Dadrangu, *v.* to dissatisfy; to displease.

Dadostegu, *v.* to break silence; to cease to be silent.

Dadran, -au, *sf.* [rhan] a subdivision, a section.

Rhai'n *ddadranau* tonnau tân;
Rhai'n ddrwg o'r hen ddarogan.
Sion Tudur, i'r 12 Arwydd.

Dadraniad, -au, *sm.* a subdividing, subdivision; a dividing the second time.

Dadranol, *a.* subdividing.

Dadranu, *v.* to subdivide; to divide into smaller parts.

Digitized by Google

Dadranydd, -ion, **Dadranwr**, wyr, } *sm.* one who subdivides.

Dadred, *sf.* [rhed] recurrence, reflux; recourse.

Myned ar ddadred, to go or move back; to retrograde.—*Diareb.*

Dadredeg, *v.* to run back; to retreat; to retrograde; to flow back.

Da y gwyddost, heb fostiaw,
Redeg a *dadredeg* draw.—*Thomas Prys.*

Tithau, Iorddonen lathraidd lam,
Pam y *dadredaist* dithau'n d'ol?
Edm. Prys: Salm. cxiv. 5.

Dadrediad, -au, *sm.* a running back; a recurring; retrogradation, retrogression; recourse; a flowing back.

Y rhai'n, drwy gael ysprydoliaeth natur, ynt yn adnabod eu meddyginiaeth priodol eu hunain, ac a wnânt *ddadrediad* atynt yn ddioed ar bob achosion.
Elis Lewis: Drexelius, 227.

Dadredol, *a.* running back, retrogressive; recurrent; refluent.

Dadredwr, wyr, *sm.* one who runs back; one who retrogrades or retreats.

Dadredd, *sm.* [rhedd] a torn, disjointed, or scattered state.

Dadredd, **Dadreddu**, } *v.* to tear to pieces; to disjoint; to scatter about (as a hen does corn, mould, and the like).—*Iolo Glossary.*

Pob twrch a *ddadredd*, rhaid deallus i ddattod.—*Diareb.*

Dadreddiad, -au, *sm.* a tearing asunder or to pieces; a scattering.

Dadreibiad, -au, *sm.* a disenchanting, disenchantment.

Dadreibio, *v.* to disenchant; to unbetwitch.

Dadreibiol, *a.* disenchanting.

Dadreibiwr, wyr, *sm.* a disenchanter.

Dadreidiad, -au, *sm.* a rendering unnecessary.

Dadreiddio, *v.* [rheiddio] to repenetrate.

Dadreithiad, -au, *sm.* [rhaith] a depriving of right; an outlawing, proscription.

Dadreithio, *v.* to abrogate a law; to deprive of right; to outlaw, to proscribe.

Dadreithiol, *a.* outlawing, proscriptive, proscribing.

Dadresio, **Dadresu**, } *v.* [rhes] to put out of rank; to disarrange.

Dadrestru, *v.* to throw out of rank or into confusion; to disarrange.

Dadrew, **Datrew**, } *sm.* the state of being unfrozen; the condition of being thawed or dissolved (as frost or ice).

Hi a archodd yn gyntaf *ddatrew* ar Faelon.—*Iolo Mss.* 84.

Dadrewi, **Datrewi**, } *v.* to unfreeze; to dissolve (as ice).

Cyd bai hawdd *datrewi* rhew,
Bydd anhawdd datrywiaw rhyw.—*Iolo Mss.* 254.

Dadrin, **Dadrinio**, **Dadrino**, **Datrino**, } *v.* [rhin] to divulge or reveal a secret; to disclose secrets; to explain a mystery; to divulge, reveal, or disclose.—*M.A.* iii. 7.

A bradychu Arthur gan Iddawc Corn Prydain a *ddatrinwys* ei rin ef.—*Trioedd:* M.A. ii. 62.

A Beli Mawr a'u gwnaeth yn un ar bymtheg, a'r drefn honno arnynt, efe a'u *datrines*, ac a wnaeth nas dylid fyth wedi hyny cyfrinach ar wybodau llythyr.—*Iolo Mss.* 204.

Yr hon gyfrinach nis gellir ei *datrin* heb awen.
Cyfrinach y Beirdd, 8.

Nis gellir eu *datrin* yn amgen nag i fardd dan ddamdwng adduned bywyd ac angeu.—*Barddas*, i. 98 (cf. 142, 154).

Y gwynfydolion ni welynt eu digon, am nas cedwynt ar gof y gwirionedd cyntaf; a chan amcanu mwyhau gwynfyd dygynt gyrch ar y ceugant, ar oddeu *datrinaw* a geffynt yno.—*Iolo Mss.* 46 (cf. 261).

Dadrin cyfrinach, to divulge a secret.—*Barddas*, ii. 116.

Dadrin, **Datrin**, } -iau, *sm.* disclosure; revelation; a divulging.

Tri anaddwynder ni waeth cythraul nog a'u gwnelo: *datrin* cyfrinach; ansyberwyd parth ag a rotho letty . . .: ac anniolch lle delawr yn y tro ato ar westeiaeth.
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 281.

Dadriniad, -au, *sm.* a divulging, revealing, or disclosing.

Dadriniaeth, **Dadriniedigaeth**, } -au, *sf.* a development of a secret or mystery; revelation, disclosure.

Dadriniol, *a.* divulging, revealing, disclosing.

Dadriniwr, wyr, *sm.* a divulger or revealer of a secret or mystery.

Dadrisgad, **Dadrisgiad**, **Dadrisglad**, } -au, *sm.* [rhisg, rhisgl] a stripping off the bark, decortication.

Dadrisgo, **Dadrisgio**, **Dadrisglo**, } *v.* to strip off bark of; to decorticate; to peel; to husk.

Dadrisgol, **Dadrisgiol**, } *a.* that decorticates; that peels, peeling.

Dadrith, -iau, *sm.* change of form, shape, or appearance; metamorphosis; a phantom.

Dadrithiad, -au, *sm.* a taking a new form; a changing into another form; transformation.

Dadrithio, **Dadritho**, } *v.* to change the form or appearance; to transform; to change back (into a former shape or appearance); to disappear; to evanesce.

Py rith y mae hi. Yn rith bleidast heb ynteu. . . Sef a oruc Arthur gyrru ym Prytwenn y long ar uor. ac ereill ar y tir y hela yr ast. ac chylchynu uelly hi ae deu geneu. ac eu *datrithaw* o Duw y Arthur.—*Mabinogion*, 132.

An deilas blaen bedw
An *datrith* an datedw.—*Taliesin:* M.A. i. 30.

Ac y trewis ynteu hi a hutlath. ac y *datrithwys* hi yn wreic ieuanc deccaf a welsei neb.—*Mabinogion*, 58.

Dadrodd, -ion, *sf.* a returned gift; a gift or present restored.

Dadroddi, *v.* to give back, to restore, to return.

Gan *ddadroddi* dyro ei wystl iddo pan fachludo yr haul.
Deut. xxiv. 13.

Yr un agwedd fyddai disgwyl gan y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion adnewydda Teml Duw, a'i *dadroddi* i ni yn Dŷ gweddi, o ogof lladron.—*M. Cyffin:* Diff. vi. 6 (cf. ii. 8).

Hwy a'i *dadroddant* i ti yn ffyddlon. Y mae llawer o honynt nis *dadroddant*, oni fyddi ymogelgar.
Ch. Edwards: Han. y Ffydd, 111.

Dadroddiad, -au, *sm.* a giving back, redditon, restitution.

Dadroddol, *a.* redditive, returning, restoring.

Dadroddwr, wyr, *sm.* one who gives back or returns; a restorer.

Dadroi, *v.* to give back, to restore, to return.

Digitized by Google

Dadrwydiad, -au, *sm.* a disengaging from a net; disentanglement.

Dadrwydo, *v.* to free from a net; to disentangle; to disengage.

Dadrwydol, *a.* disentangling, disengaging.

Dadrwyddhâd, **Dadrwyddiad,** -au, *sm.* a rendering difficult or uneasy; obstruction.

Dadrwyddhau, **Dadrwyddo,** *v.* to cause obstacles; to obstruct; to render unprosperous; to make difficult or uneasy.

Dadrwyfiad, -au, *sm.* a rowing back.

Dadrwyfo, *v.* to row back or backwards; to row contrariwise.

Dadrwyfol, *a.* rowing back.

Dadrwym, -au, *sm.* the state of being unbound or loosened; defeasance.

Dadrwymedigaeth, -au, *sf.* the act of unbinding or loosening.

Dadrwymiad, -au, *sm.* an unbinding, untying, loosening, or liberating.

Dadrwymo, *v.* to untie, unbind, or loosen; to disengage; to disband.

Dadrwymol, *a.* unbinding, untying; setting free.

Dadrwymwr, wyr, *sm.* one who unbinds or loosens.

Dadrwysgo, *v.* to divest of power, authority, or sway; to cease swaying.

Dadrwysiad, -au, *sm.* a divesting of impulse; enervation.

Dadrwyso, *v.* to divest of impulse; to enervate; to deprive of vigour.

Dadrwystrad, **Dadrwystriad,** -au, *sm.* a divesting of obstruction; disengagement, disentanglement, disembarrassment.

Dadrwystro, *v.* to cease to obstruct or encumber; to disencumber; to disengage, to disentangle; to extricate.

Dadrwystrol, *a.* tending to disembarrass or disentangle; disencumbering.

Dadryddhâd, *sm.* a releasing anew.

Dadryddhau, *v.* to release anew.

Dadrys, *v.* [dad-ddyrysu] to disentangle; to extricate; to free; to unravel.

Dadrys, dadrys fy nghadwynau,
Gad i'm hyspryd fyn'd yn rhydd.—*W. Williams.*

Crib ddadrys: see *Crib.*

Dadrys gwallt, to disentangle the hair; to comb the hair.

Dadrysiad, -au, *sm.* disentanglement.

Dadryw, -iau, *sm.* deteriorated or degenerate kind; degeneracy; departure from kind.

Efe a gymmerth ar dyb y gallai honno ymgyfaddef ag ef, a bod yn ail briawd iddaw; ond efe ni fynai *ddadryw* a llwgr ar ei waed, a difwynaw ei epil o gael plant o heni, a dodi Uedryw a lledach ar ei genedl.—*Iolo Mss.* 188.

Dadryw, *a.* degenerate; debased.

Dadrywiad, -au, *sm.* a degenerating, degeneration.

Dadrywiedig, *a.* degenerated.

Cyflwr dadrywiedig, a degenerate state, degenerateness.

Dadrywiedigaeth, -au, *sf.* degeneration; degeneracy.

Dadrywio, *v.* 1. to degenerate. 2. to denaturalize; to make of a different kind or genus; to deprive of kind or nature.

Dadrywio rhyw, to change kind, to alter nature, to denaturalize; to make the Ethiopian change his skin.

Bydd anhawdd *datrywiaw rhyw.*—*Iolo Mss.* 254.

Dadrywiol, *a.* degenerating; causing to degenerate.

Dadsaethiad, -au, *sm.* a shooting back.

Dadsaethol, *a.* shooting or darting back.

Dadsaethu, *v.* to shoot back; to dart back.

Dadsaf, -ion, *sm.* the state of standing or stopping; a stay, stop, or stoppage; a bound or limit.

Tri *datsaaf* gwaet yssyd: gwaet o benn hyt gwll; gwaet o gwll hyt wregys; gwaet o wregys hyt lawr.
Cyfreithiau Cymru, i. 456.

The corresponding term in other passages of the Laws is *argae.*

Dadsafiad, -au, *sm.* a stopping or stoppage.

Dadsafol, *a.* tending to stop or obstruct; staying, stopping.

Dadsang, -au, *sf.* a tread backward.

Dadsangiad, -au, *sm.* a treading backward; a retreading.

Dadsangol, *a.* treading backward; retreading.

Dadsangu, **Dadsengi,** *v.* to tread over again; to tread backward; to retread.

Dadsain, seiniau, *sf.* reverberation of sound; an echo, a resound, a resonance.

Sef oruc Gereint yna datlywygu o *datsein* y diaspat.
Mabinogion, 289.

Gwelais dyrawr awr arwyd *dadsain.*
Cynddelw: M.A. i. 204.

Yn y rei nyt ocs synnwyr na deall mwy noc yn *datsein* yr cuyd.—*Buchedd Mair,* § 28.

Dadsardio, *v.* to cease from reproving or chiding.

Dadsarhâd, *sm.* amends for an affront or injury.

Dadsarhau, *v.* to make amends for an affront.

Dadsarrugo, *v.* to divest of asperity of temper or surliness.

Dadsathrol, *a.* treading backward.

Dadsathru, *v.* to tread backward; to retread, to tread over again.

Dadsefydliad, -au, *sm.* disestablishment.

Dadsefydledig, *a.* disestablished; unsettled.

Dadsefydlog, *a.* disestablished; unfixed.

Dadsefydlu, *v.* to disestablish; to unsettle.

Dadseiniad, -au, *sm.* [dadsain] reverberation of sound; a resounding, an echoing.

Dadseinio, *v.* to reverberate sound; to resound, to echo, to ring again; to be echoed; to sound.

Ual y clywit cwbwl or fforest ar macs yn *datseinyaw.*
St. Greal, § 191.

Digitized by Google

Holl Israel a floeddiasant â bloedd fawr, fel y *dadseiniodd* y ddaiar.—1 *Sam.* iv. 5.

Nes oedd y dyffryn yn *dadseinio* oll.
Theo. Evans: D.P.O. 86.

Taro â dwylo'r delyn
Yn glau, *dadseinied* pob glyn.
I. B. Hir: Gwaith, 69 (cf. 103).

Dadseinied grymus anthem gref
Organau'r nef ogoned.
Ll. ab Gwilym Ddu: Gardd Eifion, 29.

Dadseiniol, *a.* reverberant, resounding, echoing, reverberating, resonant.

Dadseirchio, *v.* to unharness; to disarray.

Dadserchu, *v.* to divest of affection; to cease to love.

Dadsideru, *v.* to unfringe; to strip of ornaments.

Dadsomi, **Dadsiomi,** *v.* to undeceive; to free from disappointment.

Dadsomiad, **Dadsiomiad,** -au, *sm.* the act of undeceiving; a freeing from disappointment.

Dadsomiant, **Dadsiomiant,** *sm.* freedom from deception or disappointment.

Dadsori (ŏ), *v.* to divest or free from displeasure; to cease to be displeased.

Dadsoriad, -au, **Dadsoriant,** *sm.* a freeing from displeasure, disgust, or anger; a softening of anger.

Dadswyniad, -au, *sm.* disenchantment; the breaking off charms or spells.

Dadswyno, *v.* to uncharm or disenchant; to free from fascination or delusion.

Dadswynol, *a.* disenchanting, uncharming.

Dadsylfaenu, *v.* to undermine, sap, or subvert.

Nis gallwn lai na meddwl eu bod trwy hyny yn *dadsylfaenu* pob moesoldeb.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 652.

Dadundeb, *sm.* disunion, disunity; variance; separation.

Daduniad, -au, *sm.* a disuniting, disjunction; separation.

Daduno, *v.* to disunite, to disjoin; to separate.

Dadunol, *a.* disuniting, disjoining, disjunctive; separative.

Dadunoldeb, *sm.* disunity, disjointedness.

Dadurddiad, -au, **Dadurddiant,** *sm.* a deprivation of orders, degrees, or rank; degradation.

Dadurddo, *v.* to deprive of orders or degrees; to degrade.

Dadurddol, *a.* depriving of orders or degrees; tending to degrade; degrading.

Dadwaddoli, *v.* [gwaddol] to deprive of a dower or portion; to disendow.

Dadwaddoliad, -au, *sm.* disendowment; a depriving of dower or portion.

Dadwaddolog, *a.* disendowed.

Dadwain, *pl.* dadweiniau, *sm.* a state void of support; a reserve.—*P.*

Py *ddatwein* [*al.* datweir] y sydd yn eur lliant.
Taliesin: M.A. i. 36 (A.B. ii. 134).

Dadwain, *a.* [gwain] unsheathed.

Cledd dadwain, an unsheathed sword.—*Iolo Glossary.*

Dadwarchâd, *sm.* a ceasing to guard or to besiege; a raising a siege.

Dadwarchaol, *a.* ceasing to invest or lay siege to (a place).

Dadwarchău, *v.* to cease to guard or to besiege; to raise the siege.

Dadwasgodi, *v.* to unshelter.

Dadwasgodiad, -au, *sm.* an unsheltering.

Dadwasgodol, *a.* unsheltering; unsheltered.

Dadwasgol, *a.* ceasing to press.

Dadwasgu, *v.* to divest of pressure; to cease to press.

Dadwead, -au, *sm.* an unweaving or unknitting.

Dadwedd, *sm.* a faded or withered appearance; witheredness; decadence.

Gwlad yddym ys agro ei maswedd
Mal dail o flaen gwydd *dadwedd.*
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 394 (cf. 580; A.B. ii. 47).

Dadweiniad, -au, *sm.* an unsheathing; a drawing from the scabbard or sheath.

Dadweinio, *v.* to unsheathe, to draw from the scabbard.

Dadweinio cleddyf, to unsheathe a sword.

Dadweiniol, *a.* unsheathing.

Dadweithio, *va.* to undo what has been done or worked; to undo.

Dadweithiol, *a.* unworking; undoing.

Dadwenwyniad, -au, *sm.* the act of expelling or counteracting poison.

Dadwenwyno, *v.* to expel poison; to give an antidote to.

Dadwenwynol, *a.* expelling or counteracting poison; antidotal.

Dadwersylliad, -au, *sm.* a breaking up a camp; a striking of tents; decampment.

Dadwersyllu, *v.* to break up a camp; to remove a camp.

Dadweu, **Dadwau,** *v.* to unweave; to unknit; to undo what has been woven or knit; to undo.

Dadweuad, -au, *sm.* the action of unweaving or unknitting.

Dadweuol, *a.* unweaving, unknitting.

Dadwib, -iau, -ion, *sf.* retrogradation; a stroll or wandering back.

Dadwibiad, -au, *sm.* a wandering, strolling, or darting back.

Dadwibio, *v.* to dart or fly back; to wander or stroll back.

Dadwibiol, *a.* moving or strolling back.

Dadwiniad, -au, *sm.* a fading, decaying, or languishing; languishment; consumption.

Dadwino, *v.* [cf. *dedwino, edwino*] to fade, languish, wither, pine, or decay; to vanish; to consume or be consumed; to grow dim.

Galarodd a diflannodd y ddaiar, llesgaodd a *dadwinodd* y byd.—*Esa.* xxiv. 4.

Dadwinodd fy llygad gan ofid.—*Salm.* xxxi. 9.

Digitized by Google

Dadwirio, *v.* to divest of truth or veracity; to prove to be untrue.

Dadwisg, -oedd, *sf.* undress; disarray.

Dadwisgad, -au, *sm.* an undressing, unrobing, or disarraying.

Dadwisgo, *v.* to undress, unrobe, or disarray; to strip.

Digon gwir fod y daran a chwyrn-daflodd Demosthenes at ben Phylip yn para i ruo hyd yn bresennol, a bod ei hawdledd, er ei *ddadwisgo* o ysgogiad a llafar-ddawn, ei anafu gan amser . . . yn ddigon grymus i gynneu heddyw yn ein mynwesau ni y tàn a ddiffoddwyd gan law oer angeu yn y mynwesau a annerchwyd gyntaf.
Samuel Roberts: Gweith. 614.

Dadwisyo llong, to unrig a ship.—*W.*

Dadwladeiddio, *v.* to divest of rusticity; to become divested of rusticity.

Dadwlitho, *v.* to dry up dew.

Dadwnelyd, *v.* to undo or unmake. *Gwnelyd* and *Dadwnelyd* are not found in the infinitive mood.

Tri daioni gwaredigol a barant nef i enaid dyn; sef y daioni a wnel o wirfodd a serch, ac nas *dadwnel* o'i fodd, gan ddeall ei gyngyd, ac na bo etifar arno yn ei fywyd wneuthur y daioni hyny. .. . A thrydydd daioni a wnelai o wirfodd a serch ei galon . . . ac nas *dadwnelai* efe y pethau daionus hyny ar air na gweithred, nac ymddwyn na dymuniad.—*Barddas,* i. 312.

Dadwneuthur, *v.* to undo, to unmake.

Pa fodd ydd adnabydder gwneuthuredig? Wrth *ddadwneuthur* a ellir arnaw; sef a ellir ei *ddadwneuthur,* rhaid ac angben yw gwneuthurydd i'r *dadwneuthuredig* hyny; sef pethau nas gwnaethpwyd erioed . . . nis gellir *dadwneuthur* arnynt; ac yn un wedd, nis gellir *dadwneuthur* amser, am nas gwnaethpwyd erioed. . . Nid gwneuthuriad un peth nis gellir deall *dadwneuthur* ac anfodoldeb arnaw.
Barddas, i. 246.

Nid ydym ni yn bwrw ymaith iau'r ufudd-dod, nac yn cyffroi teyrnasoedd, nac yn gwneuthur, nac yn *dadwneuthur* breninoedd.—*M. Cyffin:* Diff. iv. 16 (cf. 15).

Y peth a wnelont heddyw, mae rhyw yspryd yn ei *ddadwneuthur* yfory.—*Morgan Llwyd:* Tri Aderyn, 21.

Dadwneuthuriad, -au, *sm.* an undoing or unmaking; disorganization.

Dadwneuthurol, *a.* undoing; disorganizing.

Dadwneuthuryd, *v.* to undo, to unmake.

Dadwneyd, **Dadwneud,** *v.* to undo, to unmake; to disorganize.

Naf, Awdwr y Nef odiaeth,
F'all wneud, f'eill *ddadwneud* a wnaeth.
Dafydd Ionawr, 82.

Dadwnïad, -au, *sm.* an unsewing; the ripping of a seam.

Dadwnïedydd, -ion, *sm.* one who unsews.

Dadwnïedyddes, -au, *sf.* one who unsews.

Dadwnïo, *v.* [gwnïo] to unsew.

Dadwoddeu, *sm.* a reversing of a purpose, intention, or design; revocation.

Ni bydd *dadwoddeu* dedwyddyd mab dyn
Gan Fab Duw oi wynfyd.—*Elidir Sais:* M.A. i. 349.

Dadwrdd, *pl.* dadyrddau, *sm.* [dwrdd, twrdd?] a stir, bustle, bluster, disturbance, or tumult; murmur; uproar or hubbub; clamour.—2 *Bren.* xix. 28 (cf. Esa. xxxvii. 29).

Nac anghofia lais dy elynion: *dadwrdd* y rhai a godant i'th erbyn sydd yn dringo yn wastadol.
Salm. lxxiv. 23 (cf. Diar. xxiii. 29).

Diddadl yw y bydd hwnw cadwedig heb y rhedegain yma i bregethau, a'r *dadwrdd* ynfyd hwn am yr Ysgrythyrau.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 27 (cf. 52, 187, 190).

Lle mae *dadwrdd* gwrdd geirddadl
Rhwng puteiniaid a haid hadl.—*Gro. Owain,* 56.

Dadwrdd, *v.* to make a noise, stir, uproar, or disturbance; to hurry and bustle; to bluster; to clamour; to prate; to rumour or whisper.

Pan fyddo gweithwyr tlodion, crefftwyr, a'r cyffelyb . . . yn chwareu, yn gloddest, yn tyngu, yn llygadrythu, yn ymddyfoli, yn ymyfed, yn ymgynhenu, ac yn *dadwrdd.*
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 185.

Wedi dadebru hwy a floeddiant fel dynion allan o'u cof, gan *ddadwrdd* yn erchyll yn erbyn pob trefn a phrydferthwch.—*Theo. Evans:* D.P.O. 146.

Maent yn dadwrdd, it is rumoured.—*N. W. W.*

Dadwregysedig, *a.* ungirt.

Dadwregysiad, -au, *sm.* the act of ungirding; the loosening of a girdle.

Dadwregysu, *v.* to ungird; to loose from a girdle; to unbind.

Dadwreiddiad, -au, *sm.* an eradicating, eradication, extirpation.

Dadwreiddiedig, *a.* eradicated, uprooted, extirpated.

Dadwreiddio, *v.* to pull or tear up by the roots, to eradicate, to root out, to extirpate.

Rhaid llafurio yn ystig i gynnull atom ffrwyth y ddaiar, ac i *ddadwreiddio* 'r dyrysni.
Ch. Edwards: Han. y Ffydd, 341.

Cydfwriadodd lluoedd Austria a Russia yn ddiweddar i roddi ymgais ar yru y caethiwol Dwrc o Ewrop, a *dadwreiddio* ei awdurdod ar y taleithiau Groegaidd.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 26.

Cymmaint grym y gwir, na ddichon na nerth dynion, na phyrth uffern, mo'i *ddadwreiddio.*
M. Cyffin: Diff. i. 8 (cf. iv. 17).

Dadwriad, -au, *sm.* emasculation.

Dadwrio, *v.* [gwr] to emasculate, to unman.

Dadwrido, *v.* to recover from blushing.

Dadwriol, *a.* emasculative.

Dadwrith, -oedd, *sm.* [gwrith] change of form or appearance; disappearance; that which is evanescent; a phantom.

Ef gwrith ef *datwrith* ef gwrith ieithoed.
Taliesin: A.B. ii. 143 (M.A. i. 30).

Dadwrithiad, -au, *sm.* 'a depriving of appearance;' a taking a new form or appearance; a changing into another form; transformation.

Dadwrithio, *v.* to change the form or appearance; to transform; to change back (into a former shape or appearance); to evanesce, to disappear.

Dadwrygiad, -au, *sm.* a divesting of vigour; debilitation, enervation.

Dadwrygio, *v.* to divest of vigour; to debilitate, to enervate.

Dadwrygiol, *a.* debilitating, enervating.

Dadwylltio, *v.* to divest of wildness; to tame; to cease to be wild.

Dadwynebiad, -au, *sm.* a taking away of the surface or outside.

Dadwynebu, *v.* to remove the surface, top, or outside; to skim.

Dadwyrain, **Dadwyre,** *sm.* exaltation; exaltedness; elevation; ascendancy.

I Brydain yna y daw *dadwyrain.*
Taliesin: M.A. i. 75 (A . ii. 210).

Digitized by Google

Cynt yd awn am dawn am *dadwyrain*
Cerdorion amryw am rod Owain.
Cynddelw: M.A. i. 204 (cf. 29, 184, 207, 338).

Rybo Duw rebydd *ddadwyrain*.
Llewelyn Fardd: M.A. i. 356 (cf. 193, 374, 415).

Dadwyrain, } *v.* to raise, to exalt; to rise, to
Dadwyre, } arise; to ascend.

Py *dadwyreith* mwc
Pyt echenis drwc.—*Taliesin:* A.B. ii. 145.

Dadwyriad, -au, *sm.* [gwŷr] a straightening.

Dadwyro, *v.* to divest of bias or obliquity; to straighten.

Dadwystlad, -au, *sm.* the redeeming of a pledge or pawn.

Dadwystlo, *v.* to redeem or discharge a pledge or deposit; to take out of pawn.

Dadwystlog, *a.* unpledged, unpawned.

Dadwythiad, -au, *sm.* assuaging of wrath or anger.

Dadwytho, *v.* to leave off anger.

Dadwythol, *a.* assuaging wrath or anger.

Dadymaddasu, *v.* to disqualify one's self; to become unfit or disqualified.

Dadymafaeliad, -au, *sm.* a letting go one's hold or grasp; a loosening.

Dadymafaelu, } *v.* to loosen or let go one's
Dadymafaelyd, } grasp or hold.

Dadymarbed, *v.* to desist from saving one's self.

Dadymarddelwad, -au, *sm.* dereliction.

Dadymarddelwi, *v.* to desist from avouching or claiming to one's self.

Dadymbleidio, *v.* to disconnect one's self from a party, sect, or faction.

Dadymchwel, -ion, } *sm.* 1. an overthrow
Dadymchweliad, -au, } or overturning, subversion, eversion.

2. epanados (in rhetoric), the repetition of a sentence in an inverse order.

Am *ddadymchweliad*. *Dadymchwel* yw ffugr, pan adroddir yr unrhyw sain yn nechreu ac yng nghanol bannod; neu yng nghanol ac yn niwedd bannod.
H. Perri: Egl. Ffr. xxix. 1.

Dull arall ar *ddadymchweliad* y sydd, pan adroddir geiriau wyneb y gwrthwyneb.
H. Perri: Egl. Ffr. xxix. 2 (cf. 3, 4).

Dadymchwel, *v.*=*Dadymchwelyd.*

Modd y gallo drwy hyny *ddadymchwel* y ffydd, llygru y gwirionedd, a thori undeb eglwys Christ.
Theo. Evans: D.P.O. 216 (cf. 200).

Dadymchweladwy, *a.* subvertible.

Dadymchweledig, *a.* subverted, overthrown, overturned, reversed, upset.

Dadymchweledigaeth, -au, *sf.* subversion, overturning.

Dadymchweliad, -au, *sm.* an overthrowing, subverting, or overturning; subversion; revolution.

Yr oedd gweithfaoedd Ffrainc, cyn y *dadymchweliad*, yn dra llwyddiannus.—*R. Roberts:* Dacaryddiaeth, 157.

Dadymchweliad y mynachlogydd, the dissolution of the monasteries or abbeys.—*W.*

Dadymchwelog, *a.* subverted, overthrown, upset.

Dadymchwelwr, wyr, *sm.* a subverter, overturner, or overthrower.

Ystyried *dadymchwelwyr* y Gymraeg ganlyniadau tebygol eu rhyfyg.—*Blackwell:* Ceinion Alun, 238.

Dadymchwelyd, *v.* to subvert, overturn, or overthrow; to upset; to overwhelm; to reverse; to return; to turn or translate.

A henny oll a *datemchweleis* inheu o Gymraec en Lladin.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 390.

Owain a gafodd ysgymmundod; eithr fe a rocs iawn i Owain ab Morgan, ac yna y *dadymchwelwyd* yr ysgymmundod.—*Iolo Mss.* 14.

A'r deg a thrugain a *ddadymchwelesont* y gyd â llewenydd.
W. Salesbury: Luc x. 17.

Pan *ddadymchwelid* rhyw rai gan ereill, hwy a gasëid.
Hugh Jones: Iosephus, 574.

Yr hyn nid yw fuddiol i ddim ond i *ddadymchwelyd* y gwrandawyr. . . Ac y maent yn *dadymchwelyd* ffydd rhai.
2 *Tim.* ii. 14, 18.

Dadymchwelyd, *sm.* apostrophe (in rhetoric), a diversion of speech; 'a changing the course of a speech, and addressing a person who is dead or absent, as if present,' or a changing of the third person into the second.

Am *ddadymchwelyd*. *Dadymchwelyd* yw ffugr, pan ddygwyddo i'r-areithiwr droi yn ddisymmwth o'i ymadrodd blaenorawl i ymadrodd arall; sef, yn ol darfod iddo ymddiddan am ryw un, neu ryw beth, y mae yn ddiattreg yn ysmudo o'r trydydd dynsawd i'r ail.
H. Perri: Egl. Ffr. xxxvi.

Dadymchwerwi, *v.* to divest one's self of bitterness; to become mild.

Dadymchwyddo, *v.* to divest one's self of swelling; to become free from swelling.

Dadymdaeru, *v.* to cease to dispute, debate, or wrangle.

Dadymdeithio, *v.* to travel or journey back; to retrograde.

Dadymdorchi, *v.* to become unfolded or uncoiled; to unwreath.

Dadymdrefnu, *v.* to disarrange one's self; to become disarrayed.

Dadymddangos, *v.* to disappear, to vanish.

Dadymddangosiad, -au, *sm.* a becoming invisible; vanishment, disappearance.

Dadymddangosol, *a.* vanished.

Dadymddilladu, *v.* to disarray or unclothe one's self.

Dadymddiried, *v.* to cease trusting; to divest of confidence.

Dadymfyddiniad, } -au, *sm.* a becoming dis-
Dadymfyddinad, } banded; a disbanding.

Dadymfyddino, *v.* to become disbanded.

Y mae llythyrau a dderbyniwyd . . . yn chwanegu, nad oedd eu colledion ar y tir ddim llai yn y rhyfel-dymmor diweddaf . . . a'u bod eyn hyn, yn ol eu harfer, tybygid, wedi *dadymfyddino*.—*Gwyliedydd*, iii. 29.

Dadymffrostio, *v.* to cease boasting or vaunting.

Dadymgrymu, *v.* to straighten one's self; to become erect.

Dadymguddiad, -au, *sm.* a revealing or unconcealing of one's self; a becoming unhidden or unshrouded.

Dadymguddio, *v.* to disclose or unconceal one's self; to become unhidden.

Digitized by Google

Dadymgyflogi, *v.* to become disengaged; to free one's self from a mutual covenant.

Dadymgymmysgu, *v.* to become uncompounded or unmixed.

Dadymgyrchu, *v.* to cease to resort.

Dadymgyssylltu, *v.* to disjoin one's self; to become disjoined or severed.

Dadymlechu, *v.* to cease to hide one's self; to become unhidden.

Dadymloni, *v.* to become cheerless.

Dadymlygru, *v.* to become undefiled or unpolluted.

Dadymofidio, *v.* to cease vexing or repining.

Dadymorchestu, *v.* to cease to vie or emulate.

Dadymranu, *v.* to cease to be parted or separated.

Dadymrwymo, *v.* to disengage one's self; to become liberated.

Dadymryson, } *v.* to cease to contend, wrangle,
Dadymrysoni, } or quarrel; to leave off disputing or debating; to become reconciled.

Dadymsenu, *v.* to cease to reproach mutually.

Dadymsoddi, } *v.* to emerge; to come out of
Dadymsuddo, } a liquid in which the subject has been immersed; to come to the surface.

Dadymylu, *v.* to take off the margin or brim.

Dadynnill, *v.*=*Dadennill.*

Dadyrddain, } *v.* [dadwrdd] to make a noise,
Dadyrddu, } clamour, or bluster; to murmur; to whisper or rumour.

Dadyrddiad, -au, } *sm.* a making a noise,
Dadyrddiant, } bluster, or clamour; a murmuring.

Dadyrddol, } *a.* blustering, clamouring, clamor-
Dadyrddus, } ous; murmuring.

Dadyrddusrwydd, *sm.* noisiness, clamorousness.

Dadyrddwr, wyr, *sm.* a blusterer, a clamourer, a murmurer, a grumbler, a growler.

Dadysgrif, } *pl.* dadysgrifau, *sf.* a tran-
Dadysgrifen, } script, a copy.

Dadysgrifeniad, } -au, *sm.* a transcription; the
Dadysgriflad, } act of copying or transcribing; a transcript, a copy.

Y mae genyf fi *ddadysgrifadau* o hen gopïau awduraidd o waith yr hen fardd [Llywarch Hen], ond y mae ynddo lawer o eiriau nad wyf fi yn eu deall.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 248.

Dadysgrifenol, } *a.* transcriptive; relating to
Dadysgrifol, } or being a copy.

Dadysgrifenu, }
Dadysgrifo, } *v.* to transcribe, to copy.

Od oes yna ddim a dâl ei ddarllen neu ei *ddadysgrifenu*, y mae iwch gyflawn groesaw hyd yr amser hwnw.
I. B. Hir: Gwaith, 224 (cf. 168, 174, 203, 206, 210, 234).

Dadysgrifenydd, -ion, } *sm.* a transcriber, a
Dadysgrifenwr, wyr, } copyist.

Dadysprydu, *v.* to divest of spirit; to dispirit.

Dadystrywio, *v.* to leave off tricks; to cease to practise cunning.

Dadystumio, *v.* to unbend; to straighten.

Dadystwytho, *v.* to divest of pliancy; to become stiff or rigid.

Dadystyrio, *v.* to cease thinking, considering, or reflecting.

¶ Dr. Pughe has some hundreds of words beginning with the prefix *dad*, which occur neither in the written nor in the spoken language. A similar remark might be made with regard to words beginning with *dam*, *dar*, *di*, *dy*, and other prefixes. There can hardly be any limitation to the formation of such compounds.

Daddal, -au, *sf.* [corr. of *dadl*] a debate, dispute, disputation, or contention.—*S.E.W.*

Daddalu, *v.* to debate, dispute, or argue.

Daddoli, *v.* [addoli] to praise, to celebrate.

Daddoliant, *sm.* commendation, praise.

Daddolwch, *sm.* praise, panegyric, encomium.

Daear, -oedd, *sf.* See *Daiar*, the usual orthography adopted in this work. Both forms are old, but *daiar* seems to be the older. *Daiar* (represented by *dayar*, *y* being used for *i*) is the usual spelling in the *Mabinogion*, but *daear* sometimes, but rarely, occurs in some other portions of the Red Book (*Ll.C.H.*); and the same variation will be found in the *St. Greal*. All the earlier editions of the Bible have *daiar;* and *daear*, the present orthography, was adopted about the middle of the 18th century. Dr. Davies gives *daear* as a leading word in his Dictionary, and adds the following note and quotations in support of that orthography:

'*Daear* esse legendum, non *daiar* aut *dauar*, docent hæc:
'Cyfled ei chae ar *ddaear*.—*D.G.* i'r Lloer.
'Y mae pryfed y *ddaear*.—*L.G.*'

But in other places in the same work, as well as in his other writings, his orthography is *daiar*. Both forms may be considered legitimate. Cf. *haiarn*, *traian*, *haiach*, *daioni*, formerly more usually written *haearn*, *traean*, *haeach*, *daeoni*. The poets often alter the orthography to suit the rhyme.

Dăed, } *a.* [comp. of *da*] as good, so good,
Daed, } equally good; how good. *Dăed* is the regular equal degree of *da*, but *cystal* or *mor dda* is often used for it. The poets make it sometimes a dissyllable and sometimes a monosyllable according to the exigence of the metre.

Ym marddair mawrddawn gyssefin
Adrawdd ei *ddaed* aerdrin ni allwn
Ni allai Dalicssin.
Dafydd Benfras: M.A. i. 308 (cf. 217).

Gorawenu a wnaeth ynteu wrth decket yr eur. a *dahet* gweith y kawc.—*Mabinogion*, 50 (cf. 174, 207).

Ar bobyl a adawssit yn vyw yno a vu drwc ganthunt y varw rac y *daet* gwr.—*St. Greal*, § 57.

Dewisaf, oedd gyhoedd ged,
Ei ddianc, rhag ei *ddăed!*—*D. ab Gwilym*, cl. 27.

Ni wyddwn innau addef
I Dduw a dyn ei *ddaed* ef.
L. G. Cothi, III. vi. 53 (cf. iii. 11; II. iii. 2; v. i. 68).

Y ddiod fedd *ddăed* fu.
Dafydd ab Gwilym, xxiii. 16 (cf. cxci. 48).

Digitized by Google

Ny bu yn yr oessoed. kywydwr kystal ac ef. ac rac *daet* y kanei y gelwit duw y gwaryeu.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 82.

Och fi! *ddäed* oedd ei fin!
Dafydd ab Gwilym, ccxxxvi. 44.

O Dduw teg! a'i *ddäed* dyn,
A welai neb Lywelyn.—*Iolo Goch.*

Däed ei weithred i lu bedydd.—*M.A.* i. 540.

Däed a hacled oedd hwn.—*W. Lleyn.*

A *däed* ydoedd ef fal ei deidiau.
W. Lleyn: G.B.C. 278 (cf. 281).

O did fyth, a *daed* y fan,
Ei dwyllaw i fyn'd allan.—*Sion Tudur.*

Duw a'i dug, a *däed* oedd,
Fry'n iefanc i fro nefoedd.—*I. B. Hir:* Gwaith, 103.

Mynych iawn y mudant, heb fedru fawr aros yn y naill, gan *ddäed* ganddynt dywysoges ystrŷd arall.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 23.

Ni wyddwn i ddäed oedd, I did not know how good it was.

Daer, -au, -ydd, -oedd, *sf.* [contr. of *daear*? C. *doer* (C.V.), *doar*, *dôr*; Br. *douar*] 1. earth, the earth. See *Daiar.*

Y holl cyfreith didi, ac idythir, hac idi *dair*, ryd o bop guasanaith breeninn bydaul . . . ha dy gur ha dy guas ythir hay *dayr* dy luyd dyuuner dygauayl.
Liber Landavensis, 113.

A phann vo [y lhew] yn marw cnoi y *dhaer* a wna, a gelhwng dacrau oe lygeit.—*Cyfraith Arfau.*

Am nas govynnawd y mae kwbwl or *daeryd* gwedy ymgyffroi yn ryuel.—*St. Greal*, ¶ 79.

Dim achos i ni ofni; pawb o hanon ni dan y *ddaer* ym mhell cyn hyny.—*Iolo Mss.* 194.

O ddynion blin, oni wyddoch, oni chlywch, oni fanegwyd i chwi o'r dechreuad, oni ddeallwch seiliad y *ddaear*?
Ed. James: Hom. ii. 79.

Bid ar y *ddaer* tangnefedd rhad,
Ewyllys mad i ddynion.—*Emynau yr Eglwys.*

2. earth, the hole or hiding-place of a burrowing animal; a den, burrow, or cave.

Daer cadno, *Daer llwynog*, } the earth or hole of a fox.

Aeth y cadno i'w ddaer, the fox has gone to his earth; the fox has earthed.—*S. W.*

¶ *Daer* (=*daear* or *daiar*) is of common occurrence in modern verse, but it is usually written *dae'r.*

Daer, *a.* [contr. of *dyhair* (dy-+hair)?] dilatory, slow, tedious.—*P.*

Daerawd, *sm.* [daer, *sf.*]=*Daiarawd.*

Can deryw darfuam o'i laith
Can *daerawd* darfu gydymdaith.—*Cynddelw:* M.A. i. 213.

Nid adfarn certau nid gau *daerawd* [*al.* daearawd].
Meilir: M.A. i. 189.

Betrawd an *daerawd* pob deurut prydus
Pryderwn yn achlut.—*Llyw. ab Llewelyn:* M.A. i. 297.

Daerawd, odau, *sm.* 'a closing in, a fitting, or fixing to; a claiming.'—*P.*

Daered, -au, *sf.* [daer?] 1. a mortuary.

Ny dele e claf kemennu dym namen e *daeret* yr ecluys ac ebediw yr argluyt ae deleedyon.
C.C. i. 84 (cf. 18, 106, 254; ii. 90, 366).

Efe a ddyly ddegwm y teulu, ac a ddyly eu *daered.*
Leges Wallicae, I. xiii. 10 (cf. xvi. 12).

Arian daered, *Arian daeredau*, } a mortuary money or payment.

Rann gwr a gymer yr ygnad llys o *aryant dayret.*
Cyfreithiau Cymru, i. 644.

Brawdwr llys a dyly rann gwyr o *aryant daereteu.*
Cyfreithiau Cymru, i. 368.

2. income, revenue; finances.

Yn llys Ywein hael hu anred y wir
Hydyr y dir ae *daered.*
Cynddelw: M.A. i. 224 (cf. 431, 510).

Myn na lleuessir dir oe *daered*
Men y llauassaf oes darymred.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 360 (cf. 10, 58).

Cyllid neu *ddaered* cyffredin y wladwriaeth. Nid yw cyllid a *daered* ond enwau ereill ar drethi.
Seren Gomer, xvi. 33.

Daeredu, *v.* to pay mortuary; to contribute to the revenue.

Yn un uluyd arugeint y dyly kymryt tir y gan y arglwyd a lluydaw idaw a *daeredu* ual gwr o hynny allan.
Cyfreithiau Cymru, ii. 210.

Daeredwr, wyr, **Daeredydd**, -ion, } *sm.* 1. a collector of revenue, a revenue-man.

Yr haf os yn aryant y telir hwnnw deunaw aryant vyd y tal a cheinnawc yr swydogyon sef yw y rei hynny y *daeretwyr* ae kynullo.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 534 (L.W. 177).

2. a financier.

Daergri, ïau, *sf.* [daer+cri] a confined doleful cry.

Daerhwch, hychod, *sf.* [=daiarhwch] a female badger.

Llaes *ddaerhwch* llysiau ddiwraidd.—*Rhys Llwyd.*

Daeriad, -au, *sm.* a rendering appertinent or appertaining to.—*P.*

Daerodawl, *a.* tending to fix to.—*P.*

Daerodi, **Daeru**, } *v.* to make to belong or appertain to; to assign to; to decree.—*P.*

Y gelein ueinwen a oloir hediw
A dan brid a thywawt
Gwae fy llaw llam rym *daerawt.*
Llywarch Hen: A.B. ii. 269 (cf. 270).

Gwirawd am *daerawd* am daw gan rebut
Am rybuch oe wenllaw
Pennyadur cad ked wallaw
Penn cor penkert wyf itaw.
Cynddelw: M.A. i. 234 (cf, 226, 244, 293).

A dyfnwys a mi maith garennyd
Ac ym *daerawd* y draul o dra newyd.
Gwalchmai: M.A. i. 196 (cf. 264).

Gortin mawr am dawr am *daerhawd* . . .
Gwenglaer vch gwengaer yt ym *daerhawd.*
Llywel ab Owain Gwynedd: M.A. i. 278.

Daerol, *a.* [=daiarol] earthly, terrestrial.

Ar y veint teilygdawt honno ydoed Ynys Prydein megys y racvlaenei yr holl ynyssed o amylder eur ae aryant ac alafoed *dayrawl.*—*Ystr. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 202.

Daerawl pechodawl im goel a Duw
A deweint duhuned.—*Elaeth:* M.A. i. 162.

Ny welir y gytwedu y dynyon ny hanffont o dim *daerawl.*
Buchedd Mair, ¶ 29.

Daeth, *v.* [dy-+aeth (*D.*): C. *dueth*, *duth*] the 3rd pers. sing. pret. of the verb whose future is *daw*, and infinitive *dawad* or *dawed*, usually represented by *dyfod* (q.v.): (he or she) came, has come, or is come (*vĕnit*). *Doeth* and *deuth* are common medieval forms of the same word; but *daeth* is now the usual form.

D. Paham na *dhaeth* ef yngcnawt cynn diliw. M. Ai dywedaf. pai *doethawdh* ef cynn diliw. ef a dhywedit . . . nai pan *daethoedh* ef yn y lhe wedy diliw. . . Pai *daethoedh* ef yna. ef a dhywedai yr Idheuon mae y dhedhyf ai dyscyssai hwynt yn dogyn. . . Hanner nos y *daeth* ef oe eistedhuau brenhinawl.—*Lucidar*, ¶ 30 (cf. 83).

Ac ar hynny att y kwn y *doeth* ef.
Mab. 2 (cf. i. 4, 6, 7, 9, 12, 14).

Ac amser a *doeth* y vynet y gysgu.—*Mabinogion*, 17.

Yr pan *dathoedynt* dros uor Iwerdon. nyt ymwelsei ac wynt hyt yna.—*Mabinogion*, 139.

Ac Arthur a *doeth* y Gamalot drachevyn.—*St. Greal*, ¶ 7.

Yna y rodet y march yr mab. ac y *deuth* hi att y gwastrodyon.—*Mabinogion*, 22.

Naw cant mlyned oed oet Crist, pan *deuth* Igmwnd y ynys Von.—*Brut y Tywysogion*, 18 (cf. 16, 44).

Cyd *daeth* ef nid aeth yn warthegawg.—*Madog Benfras.*

Digitized by Google

Ac ar vrys y *doeth* y adoli y Mab.—*Buchedd Mair*, ¶ 16.

Y dug a *ddoeth* drannoeth draw
O ael gwent a'i lu gantaw.—*L. G. Cothi*, II. xi. 32.

Weithion ydd oedd hi yn dywyllwch, ac ni *ddaethoeddoedd* Iesu atwynt.—*W. Salesbury:* Ioan vi. 17.

A'i osod mewn ysnoden,
Fal y *daeth* o foled wen.—*D. ab Gwilym*, XXXV. 31.

Gwell gwr a *ddaeth* ym mhen y flwyddyn na'r gwr ni *ddaeth* byth.—*Diareb.* (M.A. iii. 160.)

Ni *ddaeth* fy awr i eto.—*Ioan* ii. 4 (cf. i. 7, 11, 17, 31, 39).

A ddaeth ef yma? Daeth: has he come here? He has come.

Daeth yma ddoe, he (she) came here yesterday.

¶ This tense is not, as stated by Pughe, familiarly used for the imperfect; but he generally employs the imperfect for it.

Daf, *a.* [=da] good. See *Da.*

Traethaf yt fardd *daf*
Cyd cyfanned o gof a'th gaf
Diymgyd a byd bydaf
Bryd ar hunaw.—*Bergam o Faelor:* M.A. i. 554.

Ac ar Dduw y gweddïaf,
A'i fron yn don, Frenin *daf.*—*Sion Cent.*

Gwraidd *daf* ac iraidd dyfiad,
Gallu un, hil Gollwyn had.—*Iolo Goch.*

Daf Gwmmwd tros dwf gwymon,
Menai, lle aml mwnai Mon.—*Gruffydd Gryg.*

Difai Awdur *daf* ydoedd,
A'n beiau ni ei boen oedd.—*Owain Gwynedd.*

Wyneb a'n dwg i ben *daf.*—*Robert Leiaf.*

I wir *ddaf* air ei Ddofydd
Didraws ufudd-dod a rydd.
Robert Owen: Gweithiau, 275.

Bugail na bardd, dyfn-fardd *daf*,
Na boddus mwy ni byddaf.—*Iago Trichrug.*

Daf, -oedd, *sm.* 1. good; that which is good; property.

Dos i'r eigion, dwys rwygaf,
A'th hil, a'th hepil, a'th *ddaf.*—*Sion Cent.*

Os cei ei *ddaf* i'th afael,
Gwae di a gei gwedi ei gael.—*Bedo Aeddren.*

A ninnau a gawn ein rhaid o Awen o Dduw, o lynu wrth y *dafoedd* a'r dwyfol yn ddiffuant, ac o wir gariad ar bob daionus.—*Barddas*, i. 240.

O ddellni i'r dyfodawl! tirion *ddaf*,
Mal cadwai pawb y cylch a drefnodd Naf.
Robert Owen: Gweith. 268.

2. the Good Being, the All-Good. Cf. *Matt.* xix. 17.

Duw Tri, Duw Celi, coeliwn, *Daf*, Eli,
Dwyf eilwaith da folwn.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 285.

Dafad, *pl.* defaid, *sf.* [daf? C. *dauat* or *davat* (C.V.), *davas;* Br. *davad, danvad:* Ir. and Ga. *damh*, ox: cf. L. *dama*] 1. a sheep, a ewe. It is the name of the species as well as that of the female of that species.

E moch yr gur ar *deueyt* yr greyc; ony byt namen eneyll onadunt eu rannu yn deu hanner: ac os *deueyd* a geyuyr auyt e *deueyt* yr gur ar geyuyr yr greyc.
Cyfreithiau Cymru, i. 80.

Megys *deueit* ymplith bleideu.
Ystat. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 48.

A heussawr yn cadw y *deveit* ar benn gorsedua.
Mabinogion, 115 (cf. 225).

Ni charaf, mwy no'r *ddafad*,
Gwrwgl byr gwargul, a bad.—*L. G. Cothi*, III. v. 59.

Diwedd hen cadw *defaid.*—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Mor wirion ydwyt, *ddafad* fwyn!—*Daniel Ddu*, 262.

Defaid a geifr, } sheep and goats.—*Matt.*
Defaid a geifrod, } XXV. 32, 33.

Rhyfel a ddygwyddwys gynt rhwng y *geifrod* a'r *defaid.*
Iolo Mss. 173, 174.

Llwdn dafad, a sheep.—*Deut.* xiv. 4.

Defaid a gwarthey, sheep and cattle.—*Gen.* xxi. 27.

Perchen defaid, an owner of sheep, a sheep master.—2 *Bren.* iii. 4.

Porth y defaid, the sheep gate.—*Neh.* iii. 1.

Defaid Gwenhudwy, the sheep of Gwenhudwy; a name or epithet given to the waves, the sea being called *Maes Gwenhudwy.*

Tri enw addurn y Môr: *Maes Gwenhidwy*, Llys Neifion, a Ffynnon Wenestr.—Tri enw addurn y Tonnau: *Defaid Gwenhidwy*, Dreigiau'r Heli, a Blodau'r Eigion.
Iolo Mss. 89.

Haid o *ddefaid Gwenhudwy*,
A naw hwrdd yn un â hwy.—*Rhys Llwyd.*

The *hwrdd* (ram) is the ninth wave, which in popular belief is larger than the others: see *Ton.* The Neapolitans call small waves *pecore* (=*defaid*), and larger ones *cavalloni* (=*meirch:* cf. *meirch mordwy, cesyg*, and *morgesyg:* see s.v. *Caseg*).

2. (fig. generally in pl.) sheep, flock.—*Salm.* xcv. 7; *Ioan* x.

Y *deuait* a golhes yw yr etholedigion. a dhaeth Christ oe prynnu ae angau ef. megys y dywedir. Mi a ossotaf vy enait i dros vyn *deuait* . . . nyt ydychi om *deuait* i.
Lucidar, ¶ 78.

3. a wart. See *Dafaden.*

Dafad wyllt, a cancer, epithelioma.

Dafadaidd, *a.* like a sheep, sheepish.

Dafaden, -au, *sf.* 1. a wart; scirrhus.

Pwy bynnac a uynno tynnu *dafattennau.* dodet wrthunt llygat y dyd wedi briwer gyt a thrwnc ki.
Meddygon Myddfai, i. 64 (cf. 18, 165).

Golch y *dafadenau* â dwr o'r bedyddfaen, lle y bedyddiwyd y seithfed fab i yr un gwr a gwraig o briod.
Meddygon Myddfai, ii. 813 (cf. 215, 763).

Yr oedd rhinwedd yn hon i iachäu *dafadenau*, y chwarren, y manwynon, a phob rhyw chwydd yn y gwddf a'r ceseiliau.—*Theo. Evans:* D.P.O. 275.

Llawn dafadenau, full of warts, warty.—*W.*

Dafaden ddlof, } a wart.
Dafaden wâr, }

Dafaden wyllt, a cancer, epithelioma.

Nid ydyw fy awdurdod traddodiadol yn unair â'r awdwr uchod parth y dull a'r priodoldeb o swyno'r *ddafaden wyllt.*
Brython, iv. 393.

2. a young or small sheep; a sheep (in fond language).

Yn Cyprus ymlidiai y Blaidd
Ddafaden a borai ar oror;
A hithau ddiangodd, o braidd,
I deml, eiddo Pôlucs a Chastor.—*Nicander.*

Dafadenan, *sf.* a little wart.—*W.*

Dafadeniad, -au, *sm.* a making or becoming warty.

Dafadenog, *a.* warty, full of warts; scirrhous.

Y dall, neu yr yssig, neu yr anafus, neu y *dafadenog*, neu y crachlyd, neu y clafrllyd, nac offrymwch hwy i'r Arglwydd.—*Lef.* xxii. 22.

Llyffant du dafadenog, a warty toad; a toad. Sometimes used as a term of abuse.

Llyffaint dafadenog duon,
Tyrchau daiar, dynion blinion;
Ond er cynddrwg eu naturiaeth,
Help sydd mewn ail-enedigaeth.
Morgan Llwyd: Gwyddor Uchod (1765), 155.

Ni ymddygodd un dyn erioed mor giaidd annhrugarog wrthym a'r *llyffant du dafadenog* o Granbrook.
I. B. Hir: Gwaith, 235.

Digitized by Google

Dafadenu, *v.* to cover with warts; to become warty; to become cancerous.

Dafadlys, *sm.* wartwort, sun spurge (*Euphorbia helioscopia*).—*W.*

Dafadog, *a.* warty, full of warts.

Dafates, -au, *sf.* [dafad] a flock of sheep.

A phan deuant ym bronn y gaer. yny uyd *dauattes* uawr a welynt heb ol. a heb eithaf idi.—*Mabinogion*, 114.

Agorai efe ei lyraid, a gwelai faes,
Rhan âr, a medel o ysgubau ar
Ei warth, y llall *dafates* arno a
Chorlanau.—*W. O. Paghe:* C.G. xi. 428.

Dafatty, tai, *sm.* a house or pen for sheep, a sheepcot; a sheepfold.

Ac yno y kyuyt kenedyl yn y teyrnas a elwir Capadocia. a theyrnas Pampilia a geithiwant. yn amser hwnnw am nat yntredant drwy drws y *dauatty*.—*Prophwydoliaeth Sibli*, § 10.

Dafn, *pl.* dafnau, defni, *sm.* 1. a drop of any liquid; a drop; a particle.

Ef a wybyt pa sawl maen a uo yndaw neu y gyniuer *dafyn* dwfyr auo yn y ffiol.—*Ystat. de Caro'o Magno*, col. 494.

Pryderun gyfnod dyuod Douyt
A *dafneu* oe greu ar y groguyt.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 324.

Llanwaf dy fol heb ddiffyg *dafn*,
Lleda dy safn yn llydan.—*Edm. Prys:* Salm. lxxxi. 10.

Ac o honunt yn gwanegu mân dagreu carueidhserch megys manwlith mis Mei, neu van *ddafneu* ariant byw.
Ymborth yr Enaid, § 23.

Mi a vynnagaf ytt hynn yn wir. na bu o amser Adhaf hyt ar Noe *dhafn* glaw.—*Lucidar*, § 23 (cf. 105).

Elin Gethin fu'n wylaw
Ddefni gwlith yn *ddafnau* gwlaw.—*L. G. Cothi*, I. vi. 41.

Ymserth gwraig sydd megys *defni* parhäus.
Diar. xix. 13 (cf. xxvii. 15; Preg. x. 18).

Dafnau gwaed, } drops of blood.
Dafnau o waed, }

Edrych yr oedwn ar yr eira. ac ar y uran. ac ar y *dafneu o waet* yr hwyat a ladyssei y walch yn yr eira.
Mabinogion, 213 (cf. 214).

Oh, calon pwy ni ddyfera *ddafnau gwaed* wrth wrando ac ystyried y pethau hyn!—*Edward James:* Hom. i. 173.

2. the yarn of the woof (in weaving), the web or weft: the same as *bwrw*.

Y mae pedwar edefyn ar hugain ym mhob dafn, there are four and twenty threads in every throw.—*C.S.*

Dafnedigaeth, -au, *sf.* [L. *damno, damnatio*] damnation, condemnation.

Gwelir yn eilwg y gellir cadwedigaeth bywyd ar a greto iddaw, a *dafnedigaeth* ar a'i anghreto.
Dafydd Fychan: Efengyl Nicodemus.

¶ *Dafnedigaeth*, as a borrowed word, is more in accordance with the genius of the language than *damnedigaeth*, the word used in the authorized version of the Scriptures; but the native *barnedigaeth* is preferable to both.

Dafniad, } -au, *sm.* a dropping; a trickling.
Dafnad, }

Dafnog, *a.* having drops; full of drops.

Dafnol, *a.* dropping, trickling, drizzling.

Dafnu, *v.* to drop; to trickle.

Daifn fy neigr, dwfn fynegais,
Dwfr fy mhen hyd ar fy mhais.
Dafydd ab Gwilym, xviii. 21 (cf. clxxiv. 21).

Dafna bob grod gyntaf gallod;
Gyda lliw'r can *dafna* 'th arian.—*Rhys Llwyd.*

Dafon, *sm.* the Good Being, the All-good. Cf. *Daf* 2.

Crist, Rhion, *Dafon* difeth, Creawdur
Cariadawl ei achreth,
Mab Mair, dianair eneth,
Pab byd, yn peri pob peth.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 285.

Dafwy, *sm.* [Daf] one of the Divine names.

Dofydd, Celi, a *Dafwy*,
Duw Ner, ac nid Muner mwy.—*Rhys Brydydd.*

Daffar, -au, *sm.* [par, peri? C. *daffar*, pl. *daver*] a duty or obligation; a reward or recompense; an opportunity or convenience; a provision or preparation.

Kynn cysdud dacar cyn [*al.* hynn] affan
O *daffar* diffynnei e vann.—*Aneurin:* God. 305.

Duw am difero om *dafaren*
Duw dwc ui atad y mawrdad meu.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 330 (cf. 201).

Yn affan poethvan peithauc druydet
Yn *daffar* taervar tan amgyffret.
Cynddelw: M.A. i. 248 (cf. 249, 298, 578).

Val kievrein Ywein awyd *daffar*.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 365 (cf. 420, 499).

Rhag tynged nid oes *daffar*.—*Englynion y Misoedd* (Ms.).

Hawdd *daffar* o drefn.—*Diareb.*

O'u hiawn arfer, ac o'u cyflawn *ddaphar*, y ceir clod a mawl.—*Cyfrinach y Beirdd*, 33.

Tri *daffar* ymborth dyn: aryddiaeth; maeronaeth; a chyfnewidiaeth. Neu fal hyn: llafuriaeth; helwriaeth; a chyfnewidiaeth.—*Trioedd Cyfarwyddyd.*

Daffar, *v.* 'to be obliged to, to be bound in duty, to be incumbent upon;' to recompense, to reward, to make amends; to provide, to prepare; to appoint, to institute, to arrange.

Dycid Duw, *daffar* o law.—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Gwedi hyny *daphar* cynnadlau ac amrysonau cadair a cherdd dafawd a'i pherthynassau; a gwedi a'u darffer, myned gan gynghor a rhin a barn ar a gaffed ger bron y gadair a'r orsedd.—*Iolo Mss.* 213.

Tri gobrwy rhagorion addwynder: bodd Duw; bodd dyn; a bodd calon a chydwybod a'i *daffair*.
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 279.

Dager, } -au, *sf.* [according to Prof. Skeat, of
Dagr, } Celtic origin: C. *dagger;* Br. *dag, dager;* Ir. *daigear;* Old Ga. *daga*. The Fr. *dague* is also said to be Celtic] a dagger, a poniard, a dirk.—*Barn.* iii. 16, 21, 22.

Aeth dig oer waith *dagerau*.—*D. ab Gwilym.* (*D.*)

Nac ofna fwa, fab gwrda gwyn,
Na saeth waed atgordd, na saith, yd Wateyn;
Na defod Ffrancod, na dyfyn, na thrais;
Na Dug o'r Galais, na *dager* gelyn.
L. G. Cothi, I. xvii. 45 (cf. xv. 36).

Ar hynny llidio a wnaeth gwŷr Gwent, a thynu *dagerau*, a haeru i wŷr Morganwg ddwyn eu heiddo'n arian ac yn ddillad arnynt.—*Iolo Mss.* 66.

Y grog lwyd, â'i *ddagr* a'i gledd,
A fwriai gryf i orwedd.—*L. G. Cothi*, IV. xvi. 3.

Dagr garnwen, gethren gythrawl,
Neddai ddu a naddai ddiawl.—*Iolo Goch.*

Efe a'i brathodd â'i *ddagr* â'i law aswy yn ei boten.
Simon Lloyd: Amser. 118.

Dageran, -au, *sf.* a small dagger or poniard, a dudgeon.—*W.*

Dagr, *pl.* dagrau, deigr, *sm.* [C. *dager* (pl. *dagrow*), *dagren;* Br. *daer* (pl. *daerou*); Ir. *daer, dér;* Gr. δάκρυ, δάκρυον; L. *lacrima* or *lacryma*] 1. a tear.

Gollechaf perif peridydd
A beris *deigir* mab Dauit.
Meigant: M.A. i. 161 (cf. 273, 329).

Digitized by Google

Am rym llym y lleinn fy *nagrau*.
D. Benfras: M.A. i. 313 (cf. 330, 333).

A phan welas Tanwen mam y gweisson y bydinoed . . . bryssyaw a oruc hitheu drwy ergrynedigyon gameu . . . a noethi y dwy uron drwy *dagreu* ac igyon.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 74.

Dau gur afael *deigr* Ofydd.—*D. ab Gwilym*, cxliii. 7.

Tros fy ngran, ledchwelan lif,
Try *deigr* am wr tra digrif!
Dafydd ab Gwilym, cxxviii. 7.

Ar escob drwy *dagreu* ae kyuodes.
Brut y Saeson: Ll.C.H. ii. 391.

Ac o honunt yn gwanegu mân *dagreu* carueidhserch meggys manwlith mis Mei. . . Ar *dagreu* hynny a elwit gwlith yr Yspryt Glân.—*Ymborth yr Enaid*, § 23 (cf. 26).

Dan wlaw hagr o lawn *ddagrau*
Gyferbyn â'r mwynddyn mau.—*D. ab Gwilym*, xcvi. 13.

Mae tonnau *dagrau* digron i'm hwyneb
Am hynaws gâr ffyddlon.—*Gro. Owain*, 116.

Gollwng dagrau, } to shed tears; to weep.
Tywallt dagrau, }

A than *ellwng y dagreu* dyuot racdi yr ystaucll.
Mabinogion, 206.

Pan gigleu Peredur yr ymadrawd hwnnw dan *ollwng dagreu* ef a dywawt y gwnaei ef hynny ual yd oed hi yn y lunyaw.—*St. Greal*, § 59.

Kerydu yr iarll a wnaeth hi yn vwy no meint drwy *ollwng dagreu*.—*Amlyn ac Amig*, col. 1109.

Dagrau hidl, } copious, abundant, or stream-
Dagrau hidlaid, } ing tears.

Gwae ui heb hi . . . a chan hynny ellwng y *dagreu* yn *hidleit*.—*Mabinogion*, 269.

A gwedy y Amic gaffel kennyat y gan y brenhin a gwyr y llys. trwy *dagreu hidleit* o bop parth. kychwyn a wnaeth racdaw.—*Amlyn ac Amig*, col. 1096 (cf. 1094).

Hidl yw ei dagrau, her tears flow incessantly.

Dagrau o lawenydd, tears of joy.

Seith lawenach pe gallei oed yr arglwydes. trwy ollwng y *dagreu o lewenyd*.—*Amlyn ac Amig*, col. 1104.

Llawn dagrau, } full of tears, tearful, lachry-
Llawn o ddagrau, } mose.

b. with a double plural.

Ynyssolyon *dagreuoed* a gwplaa yr ynys.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. 146 (cf. 149).

Och maint o *daccreuoedh* truain y mae ffynnawn dy huolder di yn cymhelh arnafi eu gelhwng.—*Lucidar*, § 136.

A chyffroi a oruc Llywelyn wrth y *dagreuoed*.
Brut y Tywysogion, 340.

Yna trwy vwrw uchenedyeu praff. a gellwng *dagreuoed* hidleit yd erchis Amlyn idaw vynet y gyt ac ef yr coet yr oedynt yn scuyll yny ymyl.—*Amlyn ac Amig*, col. 1098.

Mi ach goganwn am awch *dagreuoed*.
Yst. de Carolo Magno, col. 476 (cf. 488).

Na hidler *deigrion* erot, gwâr
Flodeuyn hanfod!—*W. O. Pughe:* Cein. Awen, 136.

2. in botany. Cf. H. Davies, *Welsh Bot.* 20, 136, 180.

Dagrau Addaf, bladder-nut (*Staphylea*).

Dagrau Mair, cowslip, paigle (*Primula veris*).

Dagreuad, -au, *sm.* a shedding of tears, lachrymation.

Dagreuaidd, *a.* lachrymose, lachrymal.

Dagreuant, aint, *sm.* a shedding of tears, lachrymation.

Y mynediaid a aent ac wylaint
Gan anfon eu hadau yn *nagreuaint*.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 570.

Dagreuo, *v.* to shed tears; to weep.

Coed berth, yn llwyni,
A *ddagreuent* noddion per o arogl.
W. O. Pughe: C.G. iv. 279.

Dagreuog, *a.* tearful, lachrymose.

Dagreuog, -ion, -au, *sm.* a lachrymatory, a lachrymary vessel.

Dagreuol, *a.* lachrymal; relating to tears; weeping.

Wrth hynny anuon llythyreu a wnaeth y Brytanyeit hyt yn Ruuein a *dagreuawl* gwynuan yndunt.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 120.

Dyn wyf o'th serch, wenferch wawl,
Digroewaidd gwyw *dagreuawl*.—*D. ab Gwilym*, xviii. 27.

A dywedut a oruc wrth y gledyf ual hynn o ymadrodyon *dagreuawl*.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 486.

Breuddwydion dydd dwyfoldeb prudd, ai drwy
Ei dawel fron *ddagreuawl* iâs, a chan
Fwy mwyth alaethau swynid enaid nych.
W. O. Pughe: Palestina, 28.

Nis nabu wèn cyfaill erioed i'w sirioli,
Ny defnyn *dagreuawl* ar ddwyrudd Tosturi.
D. S. Evans: Telynegion, 20.

Dagru, *v.* to trickle in tears; to shed tears.—*P.*

Dagrlawn, *a.* full of tears, tearful; moist with tears; lachrymose.

Dacrlon (*gl.* uidus = uvidus).
Oxford Gloss. i. 8 (Zeuss, G.C. 1054: cf. 167, 827).

Dangos, *v.* [cf. Gr. δείκνυμι, δεικνύω] to show, to exhibit; to disclose, to make known, to discover; to explain; to expose; to lead or direct to.

Ar klymeu a gancy ar e delyn a *dangosynt* i vot en telyniawr.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 301.

A yttiw Lawnslot yma yn un lle. Yttiw unben heb yr Arthur. ae *dangos* idaw a oruc.—*St. Greal*, § 1 (cf. 11).

Ac ef a *dangosses* yr ysparduneu yr march.
Mabinogion, 9 (cf. 17, 29).

Nid da *dangos* bai â bys budr.—*Diareb.*

Pe bai cyrn ar ben pob ffol, fe gaid arian yn dda am *ddangos* gwr moel.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 51.

Yspys y *dengys* y dyn
O ba radd y bo'i wreiddyn.—*Tudur Aled.*

Iawn y *dangosawdd*, nid anghysson.
Gro. Owain, 120 (cf. 61).

Dangos ei hun, to show one's self.—*Matt.* viii. 4.

Dangos beth, show some; give me some.

Dangos y ffordd, to show the way.—*Neh.* ix. 19.

Dangos, -au, -ion, *sm.* a show or exhibition; that which is shown or exhibited; an exhibit; a demonstration.

Armes Ros bla *ddangos* blyc.
Prydydd Bychan: M.A. i. 380.

Gwedi dadgan y dysgoganau a'r cofanon, galw am *ddangos;* ac yno bardd a fo gantho a chwennycho ei ddangos, a'i dengys i'r gadair. . . Gwedi'r *dangosau*, gwrandaw hawl a braint gan a'i dyco ger bron.
Iolo Mss. 213.

Cas barn heb *ddangosau*.—*Diareb.*

Os hwynt-hwy . . . a gânt weled yn hyspys, fod yr holl *ddangosion* henafiaeth . . . wedi ymysgwyd allan o'u dwylaw hwy.—*M. Cyffin:* Diff. i. 12.

Myned i'r dangos, to go to the show.—*N.E.W.*

Rhagenw dangos, demonstrative pronoun.

Hoc (y *rhagenw dangos*) oedd yn arwyddocäu y bara gwenith.—*Morus Cyffin:* Diff. iii. 6.

Dangosadwy, *a.* that may be shown or exhibited; demonstrable.

Ac hyn yn ffawd ini, er amddiffyn, yn *ddangosadwy*, y ddosparth.—*Cyfr. y Beirdd*, Rhagdd. 15.

Dangosäu, *v.*=*Dangos*.

Ym mhlith y lluniau oll, a *ddangosëwch*,
Pa ham y prif nis gwelwn?—*Iago Trichrug:* Y Bedd.

Digitized by Google

Dangosawl, *a.* exhibitive; indicative; demonstrative.

Dangoseb, -ion, *sf.* that which shows or exhibits; a specimen, example, or model.

Amrywiol o sumau neu *ddangosebion* adroddedig a gyflëir yn wersi dechreuol yn y daflen isod.
J. W. Thomas: Elfenau Rhif. 12 (cf. 36, 37, 38, 46).

Dangosebiad, -au, *sm.* exemplification; illustration.

Dangosebiad cyfrifiadol a rhifol, hyd yn filfil, o gynnifer ag a ffurfir o ddesebion, a roddir isod yn gyferbyniol.
J. W. Thomas: Elfenau Rhif. 40 (cf. 41, 42, 43).

Dangosedig, *a.* shown, exhibited; demonstrated.

Dangosedigaeth, -au, *sf.* the action of showing or exhibiting; exhibition; demonstration.

Dangosedigol, *a.* exhibitory; demonstrative; apodictical; indicative; showing; representing.

Rhagenwau dangosedigol, demonstrative pronouns.

Dangoseg, -au, *sf.* an index, an indicator.

Dangoseg llyfr, the index of a book.

Dangosfa, faoedd, fëydd, *sf.* a show, an exhibition.

Dangosiad, -au, *sm.* a showing or exhibiting; exhibition; demonstration; something to show (as proof or evidence); an exhibit; a show; a proof; an example.

Tri pheth a wna ysgrifenydd da: tragwyddawl goffedigaeth am wŷr ardderchawg; a rhoi *dangosiad* i'r etifeddion ar eu hol; a gwneuthur i'w enw ei hun barhau byth.
Trioedd Moes: M.A. iii. 193.

Chwi a gewch, os byw fyddwch, ychwaneg o *ddangosiad* o hyny eto.—*Gronwy Owain*, 310.

Yr oedd yma hefyd *ddangosiad* pa fath ddelw ac argraff fyddai ar ei feddyliau wedi iddo ddyfod yn fwy oedranus.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 281.

Dangosiad gwagogoneddus, an ostentatious show. —*W.*

Dangosiad am arian, a receipt for money.—*C.S.*

Dangosiadol, *a.* demonstrative; exhibitory; showing; indicative; ostensible, apparent, seeming.

Efe hefyd a drefnis awgrym celfyddyd erddygan arwest herwydd llafar, a thant, a megin, fal mae'n *ddangasiadol* ar gof cyfrinach beirdd Ynys Prydain.—*Barddas*, i. 96.

Y bydoedd mawrion fry, a'u heuliau oll,
O *ddangosiadawl* ddrwg yn ymddwyn da.
Thomas Lloyd Jones: Ceinion Awen, 178.

Rhagenwau dangosiadol, demonstrative pronouns.

Y *rhagenwau dangosiadawl* ynt y rhai canlynawl.
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gym. II. ii. 2.

Y *rhagenwau dangosiadol* sydd yn nodi allan y gwrthddrych am yr hwn y mynegir mewn ymadrodd.
Robert Davies: Ieith. Cym. II. ii.

Dangosiadus, *a.* showy, ostentatious.

Dangosiedydd, -ion, *sm.* he who or that which shows; an exhibitor; a demonstrator.

Dangoswr, wyr, *sm.* one who shows; an exhibitor; a director.

Dangosydd, -ion, *sm.* one who exhibits or shows; an exhibitor; an indicator.

Llys lluossyd lle *dangossyd* Lladin gysson.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 472.

Dai, *pl.* daion, *sm.* [cf. L. *Deus;* Ir. *Dia*] 1. a name of the Deity; God.

Dai, God.—*Edward Lhwyd:* Arch. Brit. 216.

Oni bai y *Dai* ag a dyn,
Ni ddaethai yr afanc byth o'r llyn.
Hen Bennill am yr Afanc (Brython, iii. 385).

Y goreugwyr a'r gwragedd,
Da am ŵyn, myn *Dai*, a'u medd.
Llywelyn ab Hywel (1480), am Wyn.

God, Duw, *Dai*, Dwyw, Hen Ddihenydd.
Evan Lewes's Ms. Dict. (1705).

2. that which is good; good, goodness.

Da pob *dai*, pe'r diawl a'i gwnai.—*Catwg.* (Llanover Ms.)

Daiar, -oedd, ierydd, } *sf.* [see *Daear*, *Daer*] 1.
Daear, -oedd, ërydd, } earth, the earth, the world on which we dwell.

Yna ti a glywy dwryf mawr. a thi a tebygy ergrynu y nef ar *dayar* gan y twryf.
Mabinogion, 167 (cf. 73, 94, 103, 105, 125).

A gwedy darffei idaw dreiglaw llawer o wladoed y *dayar* or diwed y deuei ar vlaenwed goruchelder anryded.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. 41.

Direid new. direid *daear.*—*Elaeth:* A.B. ii. 35.

O bedair rann y byt y cafas y enw. y dhangos y cyflownai y genedyl ef y *dhaear.*—*Lucidar*, § 17.

Duw biau y *ddaiar* a'i chyflawnder
Byd y *daiarydd* a'i breswyl nifer.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 561.

A mwy na chwbl wir dir *daearydd.*—*M.A.* i. 540.

Yn y dechreuad y creawdd Duw y nefoedd a'r *ddaiar.* Y *ddaiar* oedd afluniaidd, a gwag. . . A'r sychdir a alwodd Duw yn *ddaiar.*—*Esgob Morgan:* Gen. i. 1, 2, 10.

Ac mi a welais nef newydd, a *daiar* newydd: canys y nef gyntaf, a'r *ddaiar* gyntaf a aeth heibio.
Esgob Parry: Dad. xxi. 1.

Y *Ddaiar* yw y nesaf at Wener, a'i phellder o'r Haul yw 82 myrddiwn o filltiroedd. . . Y Lleuad sydd adlawiad i'r *Ddaiar.*—*Y Greal*, 230.

Nef a daiar, heaven and earth.—*Matt.* v. 18; xxiv. 35.

A thygu a wnaeth hitheu y *nef a daear* bot yn vwy y karei hi euo noe heneit e hun.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 65.

A'r ddwy dywarchen ydd ä pawb iddynt, sef y *nef* a'r *ddaear.*—*Barddas*, i. 394.

Ar y ddaiar, on the earth; on earth.—*Matt.* vi. 10.

Dim *ar y ddaiar* yw dyn.—*Iolo Goch.*

O'r ddaiar, of the earth; earthy, earthly.—*Ioan* iii. 31; 1 *Cor.* xv. 47.

Daiar grŷn, a trembling earth, an earthquake.

Crynfa y ddaiar: see *Crynfa.*

2. a land, a country, a region.

Odyna ydwyf inheu eithyr mod yn ryuedu na rydheeist di uyn *dayar* i ygan y Sarascinyeit ar gyniuer *dayar* a darestygheist.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 382.

Y ddaiar addawedig, the promised land.

Achup y teir gwialen a oruc. ac eu tynnu. A phan y tynnwys o eneu Adaf y kawssant kyfryw arogleu. val y tebygynt yna eu bot yn y *daear adawedic.*
Efangel Nicodemus, § 5 (cf. 6).

3. earth, land, ground, soil.

Ar *dayar* yg gyfeiryeu arnei yn holldi.
Yst. de Carolo Magno, col. 419.

Y mywn kist uaen clad wynt. a chud y mewn y *daear.* . . ac yn y lle hwnnw y peris cladu y *dayar.*
Mabinogion, 97, 98 (78, 112, 132, 155).

Dyw Gwener y kavas Elen Luyddyawg y grog. ryddarcedd yr Iddewon y chyddyaw yn y *ddayar.*—*Ipotis*, § 19.

Er heneiddio ci wreiddyn ef yn y *ddaiar.*
Iob xiv. 8 (cf. 19).

Y Bedd sydd imi ar bar,
A diwedd oes, a *daiar!*—*D. ab Gwilym*, cclxii. 29.

Digitized by Google

Y gwr marw, e gâr morwyn
Ddaiar dy fedd er dy fwyn.—*Tudur Aled:* G.B.C. 229.

Nid trwm ond *daiar.*—*Diareb.*

Ni'th ollyngaf i afon,
I'r dwr mwy, er *daiar* Mon!
Drio ab Ieuan Du: G.B.C. 182.

Dyfnder daiar, depth of earth, ground, or soil.—*Matt.* xiii. 5; *Marc* iv. 5.

Tir a daiar, land and soil; landed property; land (as distinguished from other property). A common formula in the Welsh Laws, and also in the *Mabinogion.*—*M.A.* ii. 118.

Teyr punt pop bluydyn a dyly y kan e brenyn eny kauaruus ac ugeynt o pop punt or a del yr brenyn am dadeleu *tyr a dayar.*—*Cyfreithiau Cymru*, i. 14 (cf. 6; ii. 392).

Ny buost ti hawlwr *tir a dayar* eiryoet.
Mabinogion, 44 (cf. 5, 15, 80).

Bellach son am drin *tir a daiar.*
Cato Cymraeg (Y Greal, 197).

Llafurio y ddaiar, to till or cultivate the ground.—*Gen.* iii. 23.

Aeth dan y ddaiar, he went under ground.

4. earth, considered as one of the primary elements.

Tair prif elfydden y sydd: *daiar*; dwr; a goleuni: sef o'r *ddaiar* pob corffolaeth cadarn; ac o'r dwr pob ymmod; ac o'r goleuni, sef y tân, pob bywydoldeb. . . Tri chynnefnyddion pob peth: tân, sef goleuni; dwr; a *daiar.* Sef cyntaf o bob defnydd y bu tân, a mymrynau goleuni; ail, dwr, ac yn hyny gwahanu pethau; trydydd, *daiar*, ac yn hyny corffoli pob peth, a phob amgen cymmysg. Tri chynelfyddion y sydd: dwr, y dechreu; gwedi hyny y mae *daear*; a diweddu yn y tân; ac wedi hyny annarfod.
Barddas, i. 340 (cf. 372—378, 382, 384, 386, 388, 390).

Saith deunydd dyn. *Daiar*, ac o hano y mae y corff. . . Llyma saith gynnefnyddion byd. Cyntaf, *daiar*, ac o hano pob corff a chaled, a phob saw cadarn.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 109 (cf. 132).

5. earth, the hole or lurking-place of a burrowing animal (as a fox, badger, and the like).

I'r llwynogod y mae *daierydd* [°ffeuau], ac i adar y nef y mae nythod.—*W. Salesbury:* Luc ix. 58 (cf. Matt. viii. 20).

6. (fig.) the earth, the inhabitants of the world. —*Gen.* xi. 1; *Salm.* c. 1.

Bendithied y *ddaiar* yr Arglwydd.
Ll. G. Gyffredin (Benedicite).

O *ddaiar, ddaiar, ddaiar*, gwrando air yr Arglwydd.
Ier. xxii. 29.

Daiaraidd, *a.* earthly, terrene, terreous.

Daiarawd, *sm.* a coming to the earth; the act of depositing in the earth; a putting in the ground; a consigning to the earth; interment, burial.

Hy darfu yn neithiawr ni bu priawd
Gan Dduw py amgen plwyf pydu *daearawd.*
Meigant: M.A. i. 159.

Draw, yma, dyreda 'i rawd
Idd ei oris *ddaiarawd.*
Iago Trichrug (Gwyliedydd, iii. 221).

Daiarawr, *a.* earthly, terrene.

Llynguawr *daearawr* deruyn a garaf
A gereis ych hanlyn.—*Dafydd Benfras:* M.A. i. 322.

Daiarbellafiant, } **Daerbellafiant,** } *sm.* [daiar+pell] apogee.

Daiarbellafiant, y pwynt hwnw ym mha un y mae'r haul neu blaned bellaf oddi wrth y ddaiar.
Dosparth Heulawg, ii. 181.

Attyniad mwyaf y lleuad ar y dyfroedd, sy pan y bo hi yn ei daiarnesafiant; a'r lleiaf, pan y bo hi yn ei *daiarbellafiant*, neu yn ei fan bellaf oddi wrth y ddaiar.
Elfenau Seryddiaeth, xvi.

Daiarblant, *s.pl.* children of earth, earthlings, mortals.

Erbyn Arglwyd yrom gyvlwyd yr ymgeled
Y *ddaearblant* yrdang nwyfyant yr dangneved.
Gruffydd Gryg: M.A. i. 525.

Daiarbryf, -ed, *sm.* an earthworm.

Yno y clywir y bydolddyn a'r *daiarbryf* truenus, a wnaeth y ddaiar yn nefoedd iddo, aur yn dduw, ac yn ddaioni penaf iddo, yn llefaru yn chwerwder ei galon.
Sam. Williams: Amser, 119.

Daiardon, *sm.* the surface of the earth; the sward.

Daiardon, wyneb y ddaiar.—*O.V.*

Caer gron ar wasgar *daiar don.*
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 50.

Daiardor, -au, *sm.* [daiar+dor-i] a rupture of the earth; an earth-fissure; a landslip or landslide.

Ar daear a oed y danunt a oed yn llosgedic. ac yn torri yn agenneu a *daeardorreu.*—*St. Greal*, ‡ 91.

Pais durdew pwys *daiardor*,
Palment mwy no mynwent môr.—*D. ab Gwilym*, ccv. 47.

Tair clud anghen y sydd: newyn yng ngwlad; *daiardor* neu lifeiriaint; a gortrech estron.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 285 (cf. C.C. ii. 480).

Daiardrig, *a.* inhabiting the earth; dwelling on land; earthly.

Daiardwll, dyllau, *sm.* a hole in the earth or ground; a burrow.

Daiardwrch, dyrchod, *sm.* 1. an earth-hog; a badger.

2. (=twrch daiar) a mole.

A'u harfer hwynt yw dewis twll, a wnaethpwyd gan lygoden faes, neu lygoden Ffrengig, neu *ddaiardwrch*, a'r cyffelyb.—*Gwyliedydd*, iii. 301.

Daiardy, dai, *sm.* an earth-house, an underground house or dwelling; a dungeon.

Ac y cladwyt Llyr y mywn *dayardy* a wnaeth e hun y dan auon Sorram.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 69 (cf. M.A. ii. 118).

A chesglir hwynt fel y cesglir carcharorion mewn *daiardy.*
Esa. xxiv. 22 (cf. Ier. xxxvii. 16; xxxviii. 6, 10, 11, 13).

Y rhai a fyddo yn hir yn gorwedd mewn *daiardy* tywyll trist, a lesmeiriant pan ddelont i'r awyr heulog.
Ch. Edwards: Han. y Ffydd, 221.

Yn y cyfamser, darfu i offeiriad ieuanc Gwyddelig ymweled â *daiardai* y Chwil-lys.—*Gwyliedydd*, vii. 309.

Daiarddewin, -iaid, *sm.* a geomancer.—*Dicts.*

Daiarddewines, -au, *sf.* a female geomancer.

Daiarddyfrog, *a.* terraqueous, consisting of land and water.

Mae pob un sydd yn gwybod dim am ansawdd y byd *daiarddyfrog*, yn gwybod fod y grym mwyaf o foroedd o lawer yn y parthau deheuol o'r byd.
Simon Lloyd: Amseryddiaeth, 34.

Daiarddysg, *sf.* knowledge of the earth, geology.

Daiaredigaeth, -au, *sf.* consignment to the earth or ground; earthing; interment.

Daiareg, *sf.* geology.

Hegel, wedi cael awgrymiad, mae yn debyg, oddi wrth *ddaiareg*, a farnai fod yn rhaid i feddyliddrych gael amser i weithio ei hun allan.—*Adolygydd*, i. 164.

Yr hyn a ddysgir gan *ddaiareg* ydyw, fod llywodraeth berffaith yn cyrhaedd trwy holl bellder amser, fel y mae seryddiaeth yn dysgu fod yr un llywodraeth yn cyrhaedd trwy holl bellder lle. Y mae pob gwers mewn *daiareg* yn dangos trefn yn cael ei dwyn allan o annhrefn. . . Am y wybodaeth werthfawr hon yr ydym yn ddyledus i *ddaiareg.*
Dr. Lewis Edwards: Traeth. Llen. 591 (cf. 590, 592).

Daiaregaeth, } **Daiaregyddiaeth,** } -au, *sf.* geology. See s.v. *Daiaryddiaeth.*

Heb ddadguddio iddynt y mymryn lleiaf o'r hyn a ddadguddiwyd ar ol hyny trwy foddion naturiol i Kepler a Newton mewn seryddiaeth, i Lyell a Buckland mewn *daiaregyddiaeth.*—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 62.

Digitized by Google

Daiaregol, *a.* geological.

Yn 1831, rhoddodd Cymdeithas *Ddaiaregol* Llundain ei bathodyn aur iddo, am ei fod yn ddarganfyddwr mawr a gwreiddiol mewn daiareg Seisonig.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 292.

Daiaregwr, wyr, } **Daiaregydd**, -ion, } [daiareg] *sm.* a geologist.

Y mae dechreu yn rhywle, hyd y nod i yspeidiau dychymmygol y *daiaregwyr*.—*Adolygydd*, i. 181.

Yn nesaf mewn trefn ym mhlith *daiaregwyr*, y mae Werner, athronydd Almaenaidd. . . Yr oedd *daiaregwyr* wedi sylwi yn flaenorol fod cregyn i'w cael, nid yn blith draphlith, heb reol na threfn, ond yn ddosparthedig. . . Gwel y darllenydd gan hyny pa beth yw egwyddor fawr y dosparthiad a wneir o greigiau gan *ddaiaregwyr*.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 292.

Daiaren, } **Daearen**, } *sf.* [dim. of *daiar* or *daear*] the earth; the ground.—*Iob* xvi. 18; xxviii. 5.

Llan Llydaw gan llytued uohenn
Llan Benguern bennaf *daearenn*.—*Cynddelw:* M.A. i. 245.

Lewis, ail Elïas hen,
A ddeiryd i'r *ddaiaren*.—*L. G. Cothi*, iii. xxv. 13.

Nid gwala gan gybydd meddiannu y *ddaiaren*.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 6.

Hwn â chymylau toes y nen,
A gwlaw'r *ddaiaren* gwlychodd.—*Edm. Prys:* cxlvii. 8.

A phan yw y corff yn marw, ac yn dychwelyd drachefn i groth ei hen fam y *ddaiaren*, y mae yr yspryd yn fyw o hyd.—*Ieremi Owen*, 50.

Er syrthio'r dywarchen i'r ddu oer *ddaiaren*,
Hi gyfyd fel heulwen, yn llawen o'i llwch.
Ed. Richard: Bugeilgerdd, i. 7.

Daiarfa, faoedd, fëydd, *sf.* a place on earth; an earthly abode or habitation.

Gwynt tan awyr llwyr llawr *daearfa* mwyn
Gwnaeth un Mab Maria.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 532.

Daiarfedd, -au, *sm.* an earthly grave or tomb.

Neud trais trawslorf o ael tiredd Meig
Myned eurfalch ddraig mewn *daearfedd*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 453 (cf. 156).

Daiarflaidd, fleiddiau, fleiddiaid, *sm.* the earth-wolf.—*Dicts.*

Daiarfoch, *sg.* daiarfochyn, *s.pl.* badgers.

Gosodant ef a'i holl ddodrefn mewn gorchudd o groen *daiarfoch*, a gosodant ef ar drosol. A thaenant frethyn glas ar yr allor aur, a gorchuddiant hi â gorchudd o groen *daiarfoch*.—*Num.* iv. 10, 11 (cf. 12, 14).

Efe a wnaeth do i'r babell-len o grwyn hyrddod wedi eu lliwio yn goch, a tho o grwyn *daiarfoch* yn uchaf.
Ecs. xxxvi. 19.

Bydd y *daiarfoch* yn cysgu yn ystod y dydd yn eu tyllau, ac yn cerdded o gwmpas y nos i chwilio am ymborth.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 308.

Daiarfochyn (*f.* daiarhwch), a badger: also called *broch*, *pryf llwyd*, *pryf penfrith*, and *gwilfrai*.

Mae y *daiarfochyn* cyffredin o faint ci canolig.
Anianyddiaeth Ysgrythyrol, 24.

Daiarfyd, *sm.* the terrestrial world, the mundane sphere.

Gwel, ddyn, adeilad hyfryd,
O'r llawr i'r nen yn unyd,
Daiarfyd dirfawr!—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 48.

Darfu, do, *daiarfyd*, i mi
Y mae tragwyddol-fyd.
Iewan Brydydd Hir: Gwaith, 111.

Daiarffau, ffeuau, *sf.* a den, burrow, or opening in the earth; the grave.

Ae dygyn gymmwrn ae duoerffwrn ae *daearffeu*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 469.

Daiargais, *a.* earth-seeking.

Daiargan, *sm.* earth-shine, earth-light.

Gelwir y llewyrch hwn *daiargan*, ond yn fwy cyffredin, 'yr hen leuad yng nghofi yr un newydd;' neu ynte dywedir, bod y lleuad newydd yn dal yr hen yn ei breichiau.
Elfenau Seryddiaeth, xiv.

Daiargar, *a.* earth-loving, earth-seeking, clinging to earth; earthly-minded.

Gwan iawn yw golwg meddwl dyn
A ddellir gan hunanol wŷn;
Ni wel ei dyb *daiargar* ef
Un cam o'r ffordd a'i dwg i'r nef.
Iolo Morganwg: Salm. ii. xxv. 4.

Daiargell, -au, -oedd, *sf.* a cell or cavity under ground; a dungeon.

Pridd mall yw'r cwbl o'i gallu,
Parchell y *ddaiargell* ddu.—*Rhys Llwyd*, i'r Wadd.

Wedi i'r ammheuedig gyrhaedd y llys, gosodid ef mewn *daiargell*, o dan gadwynau trymion.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 211.

Daiargi, gwn, *sm.* earth-dog, a terrier.

Ym mhlith yr helgwn, rhoddwyd i'r *daiargi* goesau byrion, i'w alluogi i ymrwyfo trwy brysglwyni, a mynedi mewn i dyllau mewn creigiau a daiar ar ol pryfed gwyllt-ion. . . Rhoddwyd i'r *daiargi* ffroen dda, a llygaid gweiniaid.—*Gwyliedydd*, v. 18 (cf. 45).

Y *daiargi* . . . a ddefnyddir gyda haid o fytheuaid.
Gwyddoniadur Cymreig, ii. 347.

Daiarglas, -au, *sm.* [clas] an enclosed ground; an enclosure.

Teyrnet yntaw ynteu *dayarglas*
Ry allas rwyf anaw.—*Cynddelw:* M.A. i. 259.

Daiargoel, -ion, *sf.* geomancy.

Daiargoel, un o'r pedwar math o ddewiniaeth y crybwyllir am danynt gan Varro.—*Credoau y Byd*, i. 566.

Daiargoelig, *a.* geomantic.

Daiargreiddig, *a.* [daiar+craidd] geocentric.

Mae llc *daiargreiddig* planed yn dynodi ei chyflead mewn pe'i gwelid o ganolbwynt y ddaiar. . . Bydd hydred *daiargreiddig* Gwener yn y Sarff, ond ei hydred heulgreiddig yn y Llew. . . Byddai hydred *daiargreiddig* Mawrth yn y Pysg; ond byddai ei hydred heulgreiddig y pryd hwnw yn yr Hwrdd.—*Elfenau Seryddiaeth*, xx.

Daiargronell } (ŏ), -au, *sf.* [cron, f. of *crwn*] a **Daiargronen** } terrestrial globe.—*Elfenau Seryddiaeth*, vi.

Daiargryd, -iau, *sm.* [daiar+cryd] a trembling or quaking of the earth, an earthquake.

Yn ei amser ef y bu *daiargryd* mawr, oni holltwys y mynyddau a'r creigiau, ac y troes yr afonydd o'u gwalau, a rhedeg drwy holltadau'r ddaiar.—*Iolo Mss.* 6.

Daiargryn, *sm.* [daiar+cryn] an earthquake. It generally borrows the plural from *daiargrynfa*.

Yr un flwyddyn y bu *daeargryn* mawr hyd holl Ynys Prydain.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 523.

Ar ol y gwynt, *daiargryn;* ond nid oedd yr Arglwydd yn y *ddaiargryn:* ac ar ol y *ddaiargryn*, tân.
1 *Bren.* xix. 11, 12 (cf. Am. i. 1).

Ac wele, bu *daiargryn* mawr.
Matt. xxviii. 2 (cf. xxvii. 54; Act. xvi. 26).

Ac yn yr awr honno y bu *daiargryn* mawr, a degfed ran y ddinas a syrthiodd; a lladdwyd yn y *ddaiargryn* saith mil o wŷr.—*Dad.* xi. 13 (cf. 19; vi. 12; viii. 5; xvi. 18).

Y *ddaiargryn* fawr yn Lisbon, yn y flwyddyn 1755.
Cylchgrawn, i. 136 (cf. 166).

Ymwelwyd ag Ierusalem a'r gymmydogaeth mor ddiweddar a'r flwyddyn 1836 gan *ddaiargryn* drom. . . Crybwyllir *daiargrynfâau* ym mhlith y trallodion ag oeddynt i flaenori dinystr Ierusalem.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 313.

Mawrth 2, 1825, ymwelwyd â'r ddinas hon [Algiers] a'i chymmydogaeth â *daiargryn* tra arswydus, yr hwn a barhaodd, heb fawr seibiant, dros y pum niwrnod canlynol.
Gwyliedydd, iii. 189 (cf. 32, 255).

Digitized by Google

¶ In the W. Bible it will be seen that *daiargryn* is in some passages treated as feminine (*y ddaiargryn*), and in others as masculine (*daiargryn mawr*). In the former case it should, apparently, be written *daiar grŷn*, which is the more common colloquial pronunciation.

Dyma'r byd y mae taranau,
Mellt a chenllysg, *daiar grŷn;*
Yn y wlad 'r wy'n myned iddi,
Nis caf weled yno'r un.
W. Williams: Hymnau (1811), cclii. 1.

Daiargrynedigaeth, -au, *sf.* a trembling of the earth, an earthquake.

Cyfyd cenedl yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas, ac e fydd y nodau, a newynau, a *daiargrynedigaethau* mewn amrafael fanau.
W. Salesbury: Matt. xxiv. 7.

Daiargrynfa, fëydd, faoedd, fäu, *sf.* an earthquake.

A *daiargrynfäau* mawrion a fyddant yn amryw leoedd.
Luc xxi. 11 (cf. Matt. xxiv. 7; Marc xiii. 8).

A phan weler *daiargrynfëydd*, a chynhwrf pobl yn y byd.
2 *Esd.* ix. 3 (cf. Esth. xi. 5).

Yr ydys yn tebyg fod yr iasau dychrynllyd o *ddaiargrynfäau*, y rhai yr ŷm ni weithiau yn eu teimlo, yn dygwydd oddi wrth y tân sydd tan y ddaiar.—*Ieremi Owen*, 44.

Y mae *daiargrynfäau* yn cael effaith buan a rhyfedd ar y ffynnonau hyn.—*Cylchgrawn*, i. 123.

Wedi eu dychrynu gan *ddaiargrynfa*, hwy a amlhasant eu haberthau.—*Gwyliedydd*, vii. 2.

Y mae yn agored . . . i ddifrodiadau *daiargrynfëydd* a llosg-fynyddoedd.—*Dosparth Heulog*, ii. 164.

Trwy lawer o *ddaiargrynfäu* a ddygwyddasent yng nghylch yr amser hwnw.—*Ed. James:* Hom. ii. 67.

Daiargrynol, *a.* earthquaking, earth-shaking.

Daiargyrch, *a.* apt to seek the earth or ground; earth-seeking.

Cimwch *daiargyrch*, cymhar llwynoges,
Llun agweddi ffiam farwar.—*Rhys Goch Eryri:* G.B.C. 97.

Daiarhwch, hychod, *sf.* a female badger.

Daiariad, -au, *sm.* an earthing; a covering with earth; a burying in the earth; a becoming earth.

Daiarlan, -au, *sf.* an enclosed ground; a burial-ground, a grave-yard.

Pan el y ffun o'r geneu gwael,
A'r corff i gael *daiarlan:*
Felly dychwel; fal dyna'r dydd
Y derfydd ei holl amcan.—*Edm. Prys:* Salm. cxlvi. 4.

Daiarlawr, loriau, } *sm.* 1. the face or surface
Daiarllawr, lloriau, } of the earth.

A Duw yw vy llyw lle mae doethder mawr
A *dayarllawr* gwawr gwawt a dirper.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 475.

2. a ground-floor.

Diben y tai hyny oedd hyn: yr oedd y parthau *daiarlawr* i fod yn lle i gynnal llys cyfraith, a llys arglwydd, a llys plwyf.—*Edward Gamais.*

Daiarlen, -i, -au, *sf.* a sheet representing the earth; a map.

Y mae y tabl cywrain hwn wedi ei wneyd ar gynllun y *ddaiarlen.*—*Gwyddoniadur Cymreig*, ii. 344.

Daiarlif, -au, -oedd, *sm.* a land-flood.

353 Y colled morfëydd Gwynedd a Cheredigion achos morlif aruthrol, a *daiarlif* trwm ar ei gefn, ac y colled llawer o bentrefydd dinesig.—*Iolo Mss.* 42.

Daiarlun, -iau, *sm.* a picture of the earth; a globe; a map.

Daiarllyd, *a.* earthy; earthly, terrestrial; of an earthly nature.

Daiarllys, *sf.* peony (*Paeonia officinalis*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 180.

Daiarnesafiant, } *sm.* perigee. Cf. s.v. *Daiar-*
Daiarnesiant, } *bellafiant.*

Daiarnesafiant, y pwynt hwnw ym mha un y mae'r haul neu'r lleuad agosaf at y ddaiar.—*Dosparth Heulawg*, ii. 181.

Daiarofydd, -ion, *sm.* one versed in geognosy.

Daiarofyddiaeth, -au, *sf.* knowledge of the earth, geognosy—*Dicts.*

Daiarofyddol, *a.* geognostic.

Daiarog, *a.* earthy, fully of earth.

Daiarogan, -au, *sm.* [daiar+gogan] geomancy.

Daiaroganus, *a.* geomantic.

Daiarol, *a.* earthly, terrestrial, belonging or pertaining to the earth; mundane; earthy.

Yt y mae kenat treiglaw awyrolyon lwybreu a gellwg eu dylyet y *daearolyon* ac vffernolyon dei.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 52.

Megys y gwnaeth Duw didi yn gyuoethoccaf o vrenhined *dayarawl.*—*Yst. de Carolo Magno*, col. 382 (cf. 501).

Gwedy y gyuodi ef o veirw ydh aeth y baradwys *dhaearawl* ygyt ac Eli ac Enoc.—*Lucidar*, § 38 (cf. 57, 96).

Dyn daiarol, earthly man, man of the earth; an earthling.—*Salm.* x. 18 (cf. 1 *Cor.* xv. 47, 48).

Corff daiarol, a terrestrial or earthly body.

Yno y dechre pob byw perchen *corff daiarol.*
Barddas, i. 262.

Y mae hefyd gyrff nefol a *chyrff daiarol:* ond arall yw gogoniant y rhai nefol, ac arall y rhai *daiarol.*
1 *Cor.* xv. 40.

Pethau daiarol, earthly things, things of the earth.—*Ioan* iii. 12.

Daiaroldeb, *sm.* earthliness.

Sef o Dduw yn ymgyfymgyd â'r marw, sef á *daiaroldeb.*
Barddas, i. 256.

Yr hanes, er mor floeddfawr yw,
Nid *daiaroldeb* dyn a'i clyw.
Iolo Morganwg: Salm. i. lvii. 4.

Daiarolder, *sm.* earthliness.

Daiaroli, *v.* to make earthly; to make like earth.

Daiarolrwydd, *sm.* earthliness.

Daiarolyn, *pl.* daiarolion, *sm.* an inhabitant of the earth, an earthling; a mortal; a frail creature.

Ai yn gyntaf *daiarolyn* y'th aned di, ac o flaen y bryniau y'th luniwyd?—*Dr. T. Briscoe:* Llyfr Iob, xv. 7 (cf. xi. 12; xiv. 1; xxxviii. 26).

Daiarolion, earthly beings, inhabitants of the earth, earthlings; mortals.

Seren y Dwyrain, uwch trem *daiarolion*,
Noda orweddfa gwaredawl Fab Rhad.
W. O. Pughe (Seren Gomer, viii. 58).

Chwi yn Nef, chwi oll
Y *daiarolion* unwch i ei fawrhau
Ef cynt, ef ol, ef canol, ac heb dawl.
W. O. Pughe: C.G. v. 173.

Daiaroni, *sm.* geography.

Gwedi eu symmud i'r ysgol uwch, dysgid darllen, ysgrifenu, rhifo, *daiaroni*, seroni, hanes, amaethiaeth, anianaeth (yn enwedig llysieuaeth), cerddoriaeth, a'r gelfyddyd o ddarlunio.—*Cylchgrawn*, ii. 18.

Daiaru, *v.* 1. to earth; to lay in the earth; to cover with earth; to inter, to bury.

Darfu *daiaru* dewredd!
D. ab Gwilym, ccxxxiv. 26 (cf. lxxxix. 43).

Digitized by Google

Gwnaetham gwyn yn dwyn y du,
Do, Weuryl, o'i *daiaru!*—*L. G. Cothi*, v. iv. 25.

A gwaew draw llas Hector llwyd,
Oedd ddewr, ac a *ddaiarwyd.*—*Tudur Aled:* G.B.C. 235.

Ni ofnai neb ban fai'n iach;
Ni *ddaiarwyd* ei ddewrach.—*Hywel Reinallt.*

Daiarwyd, gwawd eurdeg wedd,
Nis *daiarwyd* nes d'orwedd.
W. Lleyn: G.B.C. 298 (cf. 99, 219).

Gwas ffyddlon i Fammon fu;
Oedd erwin ei *ddaiaru!*—*Ieuan Brydydd Hir:* Gwaith, 87.

2. to earth; to burrow; to run to his earth (as a fox, &c.); to hide in the earth.

Maent yn dra lluosog yn yr Aipht, Syria, a Gogledd Affrica, yn *daiaru* yn y twynenydd, neu ym mysg yr adfeiliadau.—*Anianyddiaeth Ysgrythyrol*, 11.

Daiarydd, **Daearydd,** -ion, *sm.* a geographer.

Ni a allwn gyfrif Homer y Groegwr ym mhlith y *daearyddion* cyntaf. . . Mae *daearyddion* yn anghyttuno o berthynas i rifedi trigolion y ddaear.
Robert Roberts: Daearyddiaeth, 1.

Gesyd Ptolemy y *daiarydd* dri llyn mawr yng nghanol Marmarica anial.—*Cylchgrawn*, i. 262 (cf. ii. 87).

Daiaryddiaeth, **Daearyddiaeth,** -au, *sf.* geography.

Daearyddiaeth sydd gelfyddyd yn dysgrifio amrywiol ranau y ddaear, sef, ei moroedd, mynyddoedd, afonydd, llynau, ynysoedd, &c.—*R. Roberts:* Daearyddiaeth, 1.

Dichon y bydd i mi gyffwrdd â rhai pethau perthynol i'w destun ef [Seryddiaeth] wrth wneuthur ychydig sylwadau ger eich gwydd ar *Ddaearyddiaeth.* Nid yw y gair *Daearyddiaeth* yng Ngeiriadur y gwiwglodus Dr. W. O. Pughe.—*Gwyliedydd*, vii. 215 (cf. 316, 351).

Heb anghofio ychwaith yr ychwanegiadau a'r gwelliadau a wnaed mewn gwyddoniaeth anianyddol o bob math er pan yr ysgrifenodd yr Awdwyr sanctaidd, a'r darganfyddiadau a wnaed er y pryd hyny mewn *daearyddiaeth*, seryddiaeth, physigwriaeth, daearegaeth, amseryddiaeth, &c.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 61.

Dylai pawb ymestyn at feddu cymmaint o wybodaeth am elfenau amaethyddiaeth, meddygiaeth, y gyfraith, a *daiaryddiaeth*, ag a allont gyrhaeddyd heb esgeuluso dyledswyddau ereill.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 17 (cf. 279, 411).

Dosperthir *daiaryddiaeth* yn dair cangen, yn ol y gwahanol olygiadau a gymmerir ar y ddaiar.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 230.

Daiaryddiaeth anianyddol, physical geopraphy.

Y mae *daiaryddiaeth anianyddol* yn traethu ar agweddau naturiol y ddaiar.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 240.

Daiaryddol, *a.* geographical.

Yma, hefyd, mae
Y trawsdeyrn bach, nad oedd ei dir yn werth
Ei nodi ar y *ddaiaryddawl* len.—*Iago Trichrug:* Y Bedd.

Daiaryddwr, wyr, *sm.* a geographer.

Yr hwn oedd yn well *daiaryddwr.*
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 412.

Daiawn, *sm.* [da] good, benefit.—*P.*

Daiawn, *a.* good, beneficent.

Ni wnai rhai'n, mal drain yn druanach neb;
Ni fu ddau wyneb fyw *ddaionach.*—*Thomas Prys.*

Daif, *pl.* deifion, *sm.* a singe, nip, or blast; a blasting or nipping.—*P.*

Daigr, *pl.* deigrau, deigron, *sm.* a tear. See *Dagr*, *Deigr.*

Fy Awen, wyla—wyla gyda mi
Ar hyn o dro; mae'r drych yn gofyn *daigr.*
Daniel Ddu, 52.

Deigrau Mair (=Dagrau Mair), cowslip, paigle (*Primula veris*).—*Meddygon Myddfai*, 290.

Mae meillion yn y gwair, a blodau per a gair,
Briallu mwyn yn dew ar dwyn, a chnwg o *ddeigrau Mair.*
Dafydd o'r Nant.

Dail, *sg.* deilen, dalen, *s.pl.* 1. leaves; foliage, leafage.

Ae uarch a oed kyn lasset a *deil* y ffenitwyd.
Mabinogion, 147.

Nyd hawt ny nawt neb ynyeil
Nyd hyn hoes dyn noc oes *deil.*
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 297 (cf. 246, 292, 394).

Gweuais iddi dŷ gwiail,
Gwedi 'i doi i gyd â *dail.*
Dafydd ab Gwilym, lxxxiii. 5 (cf. 1-42).

Mwyn *dail* yr haf mewn dolydd.—*Dafydd Llwyd Mathew.*

Os rhyfeddi, ddyn, fod einioes y tadau cyn y diluw cyhyd, ystyria eu bod yn llestri newydd ddyfod o law'r Gwneuthurwr perffaith; a bod eu hymborth yn iachus, sef, *dail* a ffrwythau.—*Ch. Edwards:* Han. y Ffydd, 45.

Ni fu ail am *ddail* i'w ddydd,
I ranu eu carennydd.—*I. B. Hir:* Gwaith, 90.

Un naws â *dail* einioes dyn.—*Gronwy Owain*, 117.

Dail coed, the leaves or foliage of trees.

Dail pren, the leaves of a tree.—*Dad.* xxii. 2.

Dail y goedwig, the leaves of the forest.

Dail y ffigysbren, the leaves of the fig-tree, fig-leaves.—*Gen.* iii. 7.

Dail chwerwon, bitter leaves, bitter herbs.

Dail surion, sour leaves, sour herbs.—*Ecs.* xii. 8.

Tŷ dail (=deildy), a house of leaves, a bower, an arbour.

Rhoddaist flodau a rhyddail,
Rhesau gwych ar *deiau dail.*—*D. ab Gwilym*, cclx. 13.

2. as the special name of some plants. Cf. Hugh Davies, *Welsh Bot.* 130, 131.

Dail ceiniogau, marsh pennywort, white-rot (*Hydrocotyle vulgaris*): also called *llysiau y geiniog.*—*N. W.*

Dail crach, *Dail crafu,* dandelion (*Leontodon*).—*S.E.W.*

Dail y cwrw, laurel, bay-tree; laurel leaves, bay leaves (*Laurus nobilis*).

Dail y clas, 'argilla.'—*Meddygon Myddfai*, 282. See s.v. *Clas.*

Dail cyrn=*Dail y gron.*

Dail y fenddiged, *Dail bendigaid,* tutsan, parkleaves (*Hyperi-cum androsaemum*).

Dail bysedd y cwn, *Dail ffion ffrwyth,* *Dail ffion y ffridd,* the leaves of the fox-glove; foxglove (*Digitalis purpurea*).

Dail y geiniog, common navelwort (*Cotyledon umbilicus*).—*S. W. W.*

Dail y dargod, *Dail melfed,* great mullein, high taper (*Ver-bascum thapsus*). See *Dargod.*

Dail y dindost, persicaria.—*Meddygon Myddfai*, 284, 290.

Dail y gron=*Cron*, *Cron doddaid.*

Dail y gron lleiaf: see s.v. *Cron*, sf.

Dail Ifan, *Dail Ieuan,* mugwort (*Artemisia vulgaris*).

Dail llosg tân, broad-leaved pondweed (*Potamogeton natans*).—*S. W. W.*

Dail meiwon, thorn-apple (*Datura stramonium*).—*Meddygon Myddfai*, 288.

Digitized by Google

Dail y parlys, palsy-wort, cowslip (*Primula veris*).

Os bydd y crynialwst arnat, cymmer wysgell blodau'r plwys, sef blodau *dail y parlys*.—*Llanover Ms.* 4.

Dail y pumbys, } common cinquefoil (*Poten-*
Dail pumbys Mair, } *tilla reptans*).—*Meddygon Myddfai*, 291.

Dail pen bron, common navelwort (*Cotyledon umbilicus*).

Dail siärad, yellow rattle, rattle-box (*Rhinanthus crista galli*).

Dail tafod y fuwch, viper's-bugloss (*Echium vulgare*).

Os bydd neidr wedi dy frathu, dod wrth y dolur swgan o *ddail tafod y fuwch*, sef gwiberllys.—*Llanover Ms.* 4.

Dail tafod y gwragedd, leaves of the aspen tree or trembling poplar (*Populus tremula*).—*N.E.W.*

Dail tafol, dock leaves, leaves of the dock plant (*Rumex*).

Dail y tryfan, butter-bur (*Petasites vulgaris*).

Dail y twrch=*Dail y fenddiged*.

Dail y tanllosg, hart's-tongue (*Scolopendrium*).

Dail y trew, sneezewort yarrow, goosetongue (*Achillea ptarmica*).

Dail yr ysgyr, wall-germander? 'chamærops.' *Meddygon Myddfai*, 283.

3. leaves (of a book).

Dail llyfr, the leaves of a book.

4. very thin plates, scales, laminæ.

Dail aur, leaf-gold; gold leaves.

Dail yr ysgyfaint, the lobes of the lungs.

Daill, *pl.* deilliau, *sm.* that which is produced or brought forth; product; issue.

Cyfraner y rhif rhoddedig â'r *daill* hwnw, ac os bydd gweddill, cyfraner o â'r *daill* nesaf i'r diweddaf, ac os bydd y *daill* hwnw yn fwy nag y gweddill, rhodder goddim yn y deff neu gynniferiant.
J. W. Thomas: Elfenau Seryddiaeth, 45 (cf. 46).

Lluosoger 72,426 wrth 72,426, a'r *daill* fydd y gwyneb-fesur yn droedfeddi.—*Seren Gomer*, xv. 177.

Dain, *a.* fine; beautiful; delicate; nice; pure; pleasing, agreeable.

Myned mae, adduned *ddain*,
Lles yw, tua llys Owain.—*Iolo Goch:* G.B.C. 75.

Dwfr o'i fron (Iesu wiw-sain)
A ddoeth yn ol ei waed oedd *ddain*.
Iolo Goch, i'r Offeren.

Can ysgafned oedd ei gwsg
O ddyli iach ac araul darddion, mal
Y taenid gan *ddain* odwrdd chwyf y wawr
Ar ddail a gofer.—*W. O. Pughe:* C.G. v. 4.

Dains, *pl.* deinsiau, *sm.* [E. and Fr. *dance*] =*Dawns*.

A phan ddaeth ef, a dynesäu at y tŷ e glywai gynhanedd a charolau [*gerdd, gydlais, a *dains*, ganu, a chware dawns].—*W. Salesbury:* Luc xv. 25 (cf. Marc vi. 22).

Daint, *s.* a pl. of *Dant*, q.v. In North Wales *daint* is frequently used for the singular.

Llygad am lygad, a *daint* am *ddaint*.
W. Salesbury: Matt. v. 38.

Daint y llew (=dant y llew), dandelion.

Kymryt suryon y coet, a *deint y llew*. a danhogen, a gwin coch.—*Meddygon Myddfai*, i. 34 (cf. 13, 19).

Dainteithion, *s.pl.*=*Danteithion*.

Dainteithiol, *a.*=*Danteithiol, Danteiddiol*.

Daionaidd, *a.* [daiawn] of a good tendency; good in some degree.—*P.*

Daionawl, *a.* tending to be good; beneficent.—*P.*

Daionedd, *sm.* goodness; beneficence; benefit.

Cynnorthwya, nodda ni,
Er gogoniant, mwyniant medd,
Dy enw, â *daionedd*.—*W. Midleton:* Salm. lxxix. 9.

Deuddeg ffrwyth yr Yspryd Glân: Cariad perffaith. Llywenydd. Heddwch. Goddefedd. Ymarosrwydd. *Daionedd*. Cymmwynasedd. Gwaredd. Ffydd. Moddusdra. Cymgadwriaeth. Diweirdeb.—*Morys Clynog:* Athr. Grist. 56.

Mae dawn a grym dan y gro,
Mae *daionedd* mad yno.—*Edward Dafydd*.

O achlesa hon fal *daionedd* anfonedig i ti o nef.
W. O. Pughe: E.D. iv. 1.

Daioni, *sm.* [da: cf. *daiawn*] goodness; good; benefit; profit.

A Lawnslot a welas y mab yn gyflawn o bop *daeoni*.
St. Greal, § 2.

Hynny a oed idaw oe pryt ae dewret ae haelder ae *dayoni* ae vilwryaeth ae glot.
Ystt. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 42 (cf. 100, 108, 138).

Pwybynac a vo endaw *daeoni* anianawl nyt ad Duw arnaw wastat anghanoctyt. . . Kanys *daeoni* anianawl a oed endaw.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 300.

Gann Dhuw y mae pob *daioni*. a phob glendyt gantaw.
Lucidar, § 70 (cf. 11).

Goreu deuaut *daioni*.—*M.A.* i. 172 (cf. iii. 157).

Duw a phob *daioni*.—*Iolo Mss.* 62.

Er daioni, for good.—*Rhuf.* viii. 28.

Er daioni i ni, for our good; for our benefit.—*Deut.* vi. 24.

Er mwyn daioni, for goodness' sake; for goodness.—*Salm.* xxv. 7.

Pa ddaioni a wna hyny? what good will that do?

Ni chaf mo'r daioni oddi wrtho, no good will accrue to me from it; I shall get no benefit from it.

Dyn da ei ddaioni, a man of good assiduity; an industrious man.—*P.*

¶ Abstract nouns in *-ioni* or *-oni* seldom have a plural.

A'r *daonïau* hyn a farner ac a freinier gan Dduw yn ol maint y gallu, a'r serch, a'r hawsder, a'r dymuniad, a'r gwirfodd, yn ogyfuwch a'r *daonïau* gweithredol a wnelai hynny o alluau, a serch, a moddion, a lle, ac amser.
Barddas, i. 314.

Daionus, *a.* good (objectively); good, beneficent, benevolent, beneficial, kind, gracious.—*Salm.* cxliii. 10.

Rhag myned ar goll a fai *daionus*, a rhag na chaffai a fai *daionus* ei le.—*Trioedd:* M.A. ii. 68.

Cof am *ddaionus* o gamp, dichwain, a gwybod.
Barddas, i. 260 (cf. 240).

Da ydwyt a daionus, Thou art good (in Thyself), and doest good (to others).—*Salm.* cxix. 68.

Daionusder, *sm.* goodness; beneficence.

Y mae efe yn iachäu claf a chlwyfus; ac am y gwna efe o ddaioni ydd ydych yn dwyn cwyn a chyhudd yn ei erbyn ger fy mron, ac heb son am dano amgen na *daionusder*.
D. Fychan: Efengyl Nicodemus, i.

Tri enaid golychwyd: gwrionedd; *daionusder*; a phryd-ferthwch.—*Barddas*, i. 334 (cf. 272; ii. 100).

Daionusrwydd, *sm.*=*Daionusder*.

Dair, *pl.* deiri, *sf.* an effusion; a song.—*P.*

Digitized by Google

Dais, *pl.* deision, *sm.* [Ir. *toisc* (Cormac's Gloss. 156)?] a wish to obtain; a desire, a wish.—*P.*

Daith, *pl.* deithion, *sm.* a blaze; a flash.—*P.*

Dâl, *pl.* dail, *sf.* a leaf; a lamina.

Prin y gwela G.O. achaws iddo ormesu, gan ddodi eto chwedlau ar *ddâl* y Seren, yn erbyn dadliad Manred Gymined.—*Seren Gomer*, iv. 147.

Ail waith adchwelu, dygai yn ei phig
Ddâl yr olewwydd, arwydd hedd.
W. O. Pughe: C.G. xi. 863.

Dal / **Dala** / **Daly** (*â*), *v.* [Br. *dalc'h*, *dalout*] 1. to hold; to hold fast; to support, maintain, sustain, or uphold; to keep; to bear; to lay. (Conj. *-io.*)

Ef a daethoed marchawc arall y lys Arthur. ac a rodes modrwy eur uras yn drws y porth yr *dala* y uarch.
Mabinogion, 197.

Gruffut ged ddilut a *dalyo* Powys.
Llygad Gwr: M.A. i. 342.

A chymryt hanner dy gyuoeth y gantaw oc *dala* y danaw.
Yst. de Carolo Magno, col. 466.

Dal yr hyn sydd genyt, fel na ddygo neb dy goron di.
Dad. iii. 11.

Dal llys, to hold a court.

Arthur a deuodes *dala llys* yg Kaer Llion ar Wysc. ac y *delis* ar untu seith pasc. a phump nadolic.
Mabinogion, 244.

Dala lletty, to take or engage lodgings; to occupy as lodgings.

Ar lle hoffaf a theccaf gantunt yn y dref y *dalyassant letty* yndaw. . . . A wyrda heb ef pa darpar yw yr einwch chwi yma. *Dala lletty* heb wynteu. a thrigyaw heno.
Mabinogion, 292 (cf. 276).

Dal cenfigen, to bear envy.

A blwydyn uelly a treulwys ef yno yny oed y crydyon yn *dala kynuigen* a chyghoruynt wrthaw.—*Mabinogion*, 52.

Nid caredig gan Dduw un a *ddalio genfigen*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 6.

Dal llid, / *Dal bâr*, to bear anger or wrath.

Llydan wrawl *dal llit* yn aereu.—*Rhiserdyn:* M.A. i. 435.

Na *dala uar* casuar cas hetwch.—*Cynddelw:* M.A. i. 227.

Dal ofn, to be seized with fear; to be in fear or dread; to be afraid.—*M.A.* ii. 251.

Dala ofyn a wnaethant a dechreu ffo.—*Mabinogion*, 147.

Dala pen rheswm, to hold a conversation; to converse, to talk, to chat.

Dal yng nghof, to bear in mind; to remember.

Dal gwg, to bear a grudge, ill-will, or ill-feeling.—*Marc* vi. 19.

Pan oedd Phœbus unllygeidiog ar gyrhaedd ei eithaf bennod yn y Deheu, ac yn *dal gwg* o hirbell ar Brydain Fawr.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 51.

Dal cyngwystl, to lay a wager; to lay, to bet.

Mi a ddaliaf â chwi y peth a fynoch, I will bet with you anything you please.—*C.S.*

Ni ddaliaf fi ddim â chwi, I will bet nothing with you.—*C.S.*

Dal ei dir, to hold, keep, or maintain one's ground.

Dal yr aradr, to hold, drive, or guide the plough; to plough.

Er mwyn gwawr llwyn o gar llaw,
Daliwn aradr â'm dwylaw.—*Dafydd ab Gwilym*, clv. 19.

Dal tir, to hold land; to rent land.

Yr a del o da o *dala tir*.—*M.A.* i. 418.

Yr wyf yn *dal* rhyw ychydig o *dir*.
Gronwy Owain, 165 (cf. 190).

Aelawd dewr i *ddal tiroedd*.—*L. G. Cothi*, iv. xi. 39.

Dal yn dyn, to hold fast; to hold hard.

Y rhai oeddynt yn gweithio ac yn *dala yn dyn* gydag esgob Rhufain.—*Ed. James:* Hom. ii. 64 (cf. 63).

Dal ei anadl, to hold one's breath.

Dal dy law, hold thy hand; hold!

Dal sylw, to take notice; to notice or observe; to behold; to pay attention.

Yn ddiammheu mae yn gwneuthur un defnydd da o honynt oll . . . sef *dal sylw* ar gyfansoddiad eu cyrff.
Ed. Samuel: Grotius, iv. 6.

Dygwydd a wnaeth y Llew *ddal sylw* arnaf yn ymocio fy nghetyn.—*Gronwy Owain*, 320.

(*b*) to hold (as a vessel).—*Ioan* ii. 6.

Dal dwfr, to hold water.—*Ier.* ii. 13.

(*c*) to hold (as a tenet or opinion); to maintain.

A gyfaddefwn ni fod ein Heglwys yn *dal* prynedigaeth gyffredinol . . . neu ynte, a ddywedwn ni ei bod hi yn bwrw hud ar lygaid ei disgyblion!
Ioan Wallter: Dwy Bregeth, 33.

2. to catch; to capture, seize, apprehend, or arrest; to lay hold of; to detain; to take.—*Luc* v. 5, 6, 9, 10.

Kyrchu a wnaeth Brutus bebyll y brenhin ae *daly* ac erchi y garcharu.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. 48.

Hyt hynn mi a *deleis* bymthec brenhin. . . Mi a adawaf yttitheu yn diheu. ar uy ffyd nat a y kadeu hynn y wrthyf yny darffo ym *dala* Garsi vrenhin.
Yst. de Carolo Magno, col. 444.

Ac yna y dywot yr toruoyd. megus y *daly* lleidyr y doethawch chwy ym *daly* i. a chledyfeu ac ffusteu. a pheunyd yd oedwn yn eiste yn y temyl ac ych dyscu. ac nam *dalyassawch*. . . Ac wynteu a dugant Iessu gwedy *daly* hyt at Cayphas.—*Y Groglith*, § 5.

Kyghor yw gennyf ellwng dewrwyr am y benn ae *dala*. yny wypych diheurwyd am hynny. ac ynteu a ellynghawd gwyr am benn Peredur oe *dala*.—*Mabinogion*, 237.

Yna ef a beris eu *daly* ac eu karcharu yng karchar drwc.
St. Greal, § 59 (cf. 182).

Dos, a rhwym y gwynt mewn gefyn,
Dal dy gysgod sy'n dy ganlyn.—*I. B. Hir:* Gwaith, 29.

Dal lleidr, to catch or arrest a thief.

Dal un â'i ladrad yn ei law, / *Dal ar y weithred*, 'to take with the manner.'—*S.*

Dal mewn rhwyd, to take or catch in a net.

Dal annwyd, to catch cold.

Ceisio dal, to try to catch; to catch at.

Dal ar (1), to give heed or attention to; to take notice of; to notice or observe.—*Act.* xvi. 14. (2) to catch at; to carp at.

3. to hold, last, or continue.

Ac yna un or myneych a dywawt wrthaw panyw llef a oed yn *daly* ar dyuot drwy un or bedeu yny vynnwent.
St. Greal, § 11.

Deuwch, a byddwn diwyd,
Deulu beirdd, tra *dalio* byd.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 242.

Dal allan, to hold out; to persevere.

Dala ar (1), to hold on; to continue; to persevere.

Dala ar ymddiddan, to continue a conversation; to hold or carry on a conversation.

A gwedy daruot bwyta. *dala ar ymdidan* ar gwr gwynllwyt a oruc Gereint.—*Mabinogion*, 252 (cf. 258).

Dala ar ymladd, to continue the fight or fighting.

Tri diweir deulu Ynys Prydein . . . a *dalyassant* yr ymlad pythewnos a mis gwedy llad eu harglwyd.
Trioedd: Ll.C.H. i. 305.

4. to effect; to be affected with; to catch.

Y lety eu er escubaur ebrenryn rac *dale* muc *ar* y adar.
Cyfreithiau Cymru, i. 24.

Digitized by Google

Dal at, to persevere in; to be persevering; to stick or adhere to.

Dal wrth, to adhere or stick to; to continue at; to persevere in.

4. to hold, stop, or restrain.

Dielw o serch, deuliw'r ser,
Dal, dal dy anwadalder!—*Dafydd ab Gwilym*, lxi. 21.

Dal ei dafod, to hold one's tongue; to hold one's peace.

5. to put a team to the plough or harrow for agricultural work. The time during which the team is in the field is called *daliad*.

Dal, *sm.* something of which one may lay hold; hold; custody, arrest; heed.

Ym mhen ennyd, dyma Gwmbrus y Cyrtiau yn *nal* rhwng dau ddiawl.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 98.

Nid oes dim dal arno, there is no heed to be given to him; he is so fickle that he cannot be relied upon or trusted.—*S. W.*

Dal, *v.* [C. *dallethy, dalleth, dallath*] to begin, to commence.

O'r awr y delisai, from the hour he began.—*Ed. Lhwyd:* Arch. Brit. 234.

Dala, *v.*=*Dal.*

Dalbren, -au, -i, *sm.* a holdfast; a stanchion; a supporting timber; a catch.

Dalbren pwll llif, the bearer of a saw-pit.

Dalen, *pl.* dalenau, dail, *sf.* [dâl] 1. a leaf; a folio; a lamina.—*M.A.* i. 165.

Ac ny byd un *dalen* ar y pren ny darffo yr gawat eu dwyn.—*Mabinogion*, 167 (cf. 168, 172, 180).

Mynygla'r coed hyn o fewn i ddau hyd heiddyn at y pen, yn grynion, a thrwch ewin, neu *ddalen* gawl, yn ddyfnach nag wyneb y pren.—*Barddas*, i. 142.

A'i *ddalen* ni wywa.—*Salm.* i. 3.

Fe fydd ei *ddalen* ef glas, ac ni phaid â dwyn ffrwyth.
Ed. James: Hom. i. 45.

Dalenau llyfr, the leaves of a book.

Y gwnsallt o bali odidawc ydoed. ny phwyssei pedeir *dalen* y sallwyr.—*Ystr. de Carolo Magno*, col. 437.

A thrithwll drwy'r meinder, a thrwyddynt ddodi llinyn i ddiogelu plagawd neu bapyr a ddoder yn *ddail* i droi am y rhol gynnifer *dalen* ag a fyner, neu a fo achos; ac yng nghyd â'r *dail*, yn uchaf arnynt, *ddalen* sidan liwy na'r *dail* papyr, i droi am y cwbl yn orwisg am yr ysgrifen.
Barddas, i. 126.

Darfu i Ioan Clement . . . rwygo a bwrw i'r tan swrn o *ddalenau* allan o lyfr Theodoret . . . yn yr hyn *ddalenau* yr oedd yr esgob yn dangos . . . nad yw naturiaeth y bara yn y cymmun yn myned ymaith.—*M. Cyffin:* Diff. v. 4.

A bid ei phraff argraffu
Ar dalcen y *ddalen* ddu.—*Gronwy Owain*, 41.

Nis gellir darllen ond ychydig *ddalenau* heb weled fod yr awdur yn feistr ar y dull yma o gyfansoddi.
Dr. Lewis Edwards: Traeth. Llen. 139.

Ymyl y ddalen, *Lledymyl y ddalen*, } the edge of a leaf or page, the margin.

Fal y gellir ei weled gwedy ei nodi ar *ledymyl y ddalen* yn ei lyfr brith ef.—*Ed. James:* Hom. ii. 111.

Dalenau prawf (*sg.* dalen brawf), proof-sheets.

Mi a welais yn ei dŷ ef. . . yr holl *ddalenau prawf* a ddaethant o'r wasg yn y gwaith hwnw.
Rhisiart Morys (Y Greal, 282).

Wyneb dalen, one side of a leaf, a page.

Un wyneb i'r ddalen, one side of the leaf; one side or phase of a case or question.

Dalen dor, *Dalen drws*, } the leaf of a door.—1 *Bren.* vi. 34.

Dalen bwrdd, the leaf of a table.

Dalenau hanesyddiaeth, the pages of history.

Y bobloedd hyn, a'u duwiau oll,
Er amser mawr, ynt ar lwyr goll;
Dalenau hanesyddiaeth gwiw
Yw'r unig le, lle maent yn byw.—*Seren Gomer*, x. 21.

Troi dalen newydd, to turn over a new leaf; to begin a new and reformed life.

Dalenau yr ysgyfaint, the lobes of the lungs.

Dalen aur, *Dalen o aur*, } a gold leaf; a leaf of gold.

Gwna hefyd *ddalen o aur* coeth.
Ecs. xxviii. 36 (cf. xxxix. 3).

2. as a special name in botany.

Dalen dda, spurge (*Euphorbia*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 181.

Dalen ddu, winter-green (*Pyrola*).—*Meddygon Myddfai*, 285.

Dalen gryman, ribwort plantain (*Plantago lanceolata*).

Dalen meiwon: see *Dail meiwon* (s.v. *Dail*).

Dalen oreu yn y byd, the best leaf in the world; a name given in some parts to the periwinkle (*Vinca*).

Dalenaidd, *a.* like a lamina or leaf; foliated.

Daleniad, -au, *sm.* the leafing of plants; foliation; a beating into a leaf or thin plate.

Dalenig, -ion, *sf.* a little leaf, a leaflet, a foliole.

Bwrw fod *dalenig* o femrwn yn rhychwant o led, eithr cyhyd ag yr amgylchai ac y cylchynai y globyn, sef y ddaiar oll.—*Elis Lewis:* Drexelius, 118.

Dalenog, *a.* leafy, leaved, foliaceous; foliated; laminar.

Dalenol, *a.* relating to leaves; foliated.

Dalenu, *v.* to unfold or produce leaves; to leaf; to foliate.

Dalfa, faoedd, fëydd, *sf.* a hold; a place to catch or capture; custody, arrest, durance, or restraint; capture, seizure; a reservoir.

Y Paun o'r Llwyfenni au cymmell i'r *ddalfa*.
Taliesin: M.A. i. 552.

Cyn cyrchu'r *ddalfa*.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 537.

Hawdda' gwaith heddyw ei gael
I'r *ddalfa*, o'r ddwy Elfael.—*L. G. Cothi*, iv. xx. 17.

A Pharaoh . . . a'u rhoddes hwynt mewn *dalfa* . . . a buont mewn *dalfa* dros amser.
Gen. xl. 3, 4 (cf. 7; Num. xv. 34).

Dalfa gadarn, a stronghold.

Megys y dygwydda wrth warchäu rhyw *ddalfa gadarn* gref.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 40.

Dalfa o ddwfr, a reservoir of water.

Is law hyn o le y mae bagad o *ddalfaoedd o ddwfr*, ac amryw dalwynebau capelau.—*W. Lewes:* Dwy Daith, 54.

Mewn dalfa, under arrest; in custody.

Daeth i'r ddalfa o'r diwedd, he was caught at last.

Daliad, -au, *sm.* 1. a holding; a bearing; a catching, seizing, or arresting; capture, seizure; retention, detention; tenure.—*M.A.* i. 429.

Daliad cwlwm cariad coeth.—*D. ab Gwilym*, xlix. 23.

Hyd na roes Duw Ion, o'i rad,
O'r *daliad* wared eilwaith.—*Gro. Owain*, 100.

Digitized by Google

2. that which is held; a tenet, an opinion, a dogma.

Os rhyw un a ddygir, trwy'r Ymofyniad byr ac ammherffaith hwn, yn ddiduedd i chwilio ei *ddaliad* a dderbyniodd efe, ond odid, ym mabandod ei reswm . . . erfyniaf arno roddi gogoniant i Dduw trwy rwydd gyfaddef ei gamsyniad.—*Ioan Wallter:* Dwy Bregeth, 43 (cf. 33, 34).

Dylem edrych na fyddom yn ei wneuthur ef yn gyfrifol am *ddaliadau* y rhai a broffesent eu bod yn ei ddilyn.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 643.

A thueddir ni i ymofyn am resymau sylweddol i wrthbrofi eu *daliadau*.—*Seren Gomer*, vi. 39.

3. see *Dal* (v.) 5.

Daliaden, -au, *sf.* a support; a holder.

Daliadur, -on, *sm.* a holder, a stand, a support.

Llusern a oleuir idd ei osod, nid o dan lestr, ond ar *ddaliadur*.—*J. Williams:* Or. Byw. (Matt. v. 15: cf. Marc iv. 21; Luc viii. 16; xi. 33).

Daliedigaeth, -au, *sf.* the act of holding, bearing, catching, stopping, or retaining; capture, seizure, arrest, detention, retention.

Ar nos honno Pandrasus trwy dyrvawr drystyt ac goveylyeint o achaws y ffoedygaeth e hunan a *dalyedygaeth* y vrawt. kynnullaw y waskaredyg lw a wnaeth y gyt.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 92.

Daliedydd, -ion, } *sm.* a holder; a supporter;
Daliwr, wyr, } a catcher, arrester, or seizer; a detainer, a restrainer.

Daliedydd bon canwyll, that which holds or saves the end of a candle; a save-all.—*W.*

Dalus, *a.* [dal] lasting, durable; wearing well.

Defnydd dalus, a durable material or stuff.

Daly (*ă*), *v.*=*Dal*, *Dala*.

Sef a wnaeth hwnnw kadarnhau y dinassoed ar kestyll. gan vedwl *daly* yn erbyn Arthur.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 314 (cf. 318).

Daly fy llaw ith law a lywych yn iawn
A hyd ffyrdd uniawn im harweddych.
Madog ab Gwallter: M.A. i. 405 (cf. 13).

Daly y tant i'r dulwyd hen.—*Pum Llyfr Cerdd.* 115.

Dalyn, *sm.* that which holds or supports; a supporter; a brace, a ligature.

Y mae dalyn dan ei dafod, he is tongue-tied.—*S. W. W.*

Dalyn bacas, a strip of an otherwise footless stocking, which runs over the upper side of the foot, and is fastened to one or more of the toes.—*S. W.*

Dall, *pl.* deillion, *a.* [C. *dall;* Br. *dall;* Ir. and Ga. *dall*] blind.—*Matt.* xv. 14.

Ac yr amser hwnw yd anuones Girioel bap Awstin y Ynys Prydein y bregethu yr Saeson y rei a odynt *dall* o baganawl aruer.—*Yst. Bren. Bryt.:* LL.C.H. ii. 237.

Gwr kymwys kynnwys kanwyll *deillyon*.
Canodyn: M.A. i. 430 (cf. 333).

Dall i bawb yw dull y byd—*Thomas Prys*.

Deuwell oedd pettwn *dall* ym'!
Dafydd ab Gwilym, viii. 8 (cf. lxi. 35).

Dall uu tyghetuen pan rodes itti dawn a chlot.
Mabinogion, 232.

Nid oes neb cyn *ddalled* a'r neb ni fyno weled.
Diareb. (M.A. iii. 171.)

Dall fyddar, blind and deaf.—*M.A.* iii. 153.

Dyn dall (*pl.* dynion deillion), a blind man, a blind person.

Bûm yng nglŷn, megys *dyn dall*,
Bedeir-oes mewn byd arall.
D. ab Gwilym, ccx. 5 (cf. ccviii. 14; ccxxvi. 14).

Rhowch glust yn garedig i gwyn y *dyn dall*.
Daniel Ddu, 123.

Mae'n gywilydd i *ddyn dall* alw dyn *dall* arall yn *ddall*, a mwy cywilydd i un a fo cwbl *ddall* alw y *coegddall* yn llygadgam.—*Ed. Iames:* Hom. i. 188.

Benyw ddall, } a blind woman, a blind female.
Dynes ddall, }

Mwgwd y dall, blind-man's buff.

Chwareu mwgwd y dall } (1), the play of blind-
Chwareu mam gu ddall } man's buff. (2) to play at blind-man's buff.

Tywysogion deillion, blind guides or leaders.

Tywysogion deillion, y rhai ydych yn hidlo gwybedyn, ac yn llyncu camel.—*Matt.* xxiii. 24 (cf. xv. 14).

Dall ddygwydd, blind chance.

Ni fydd onid o *ddall ddygwydd* glogyrnach rhwyiog.
Cyfrinach y Beirdd, 116.

Tyngedfen ddall, blind fate or destiny.

Mor ddall a'r wadd, as blind as a mole; as blind as a beetle; as blind as a bat.

Beth sydd i'r dall a wnelo â drych? blind men cannot judge of colours.

Ffrwyn ddall, a bridle with goggles, blinkers.

Dall i, blind to; ignorant of.

Dall geni, }
Dall cynhenid, } blind-born, blind from birth.

Dall, *pl.* deillion, deilliaid, *sc.* a blind person.

Brenin fydd unllygeidiawg ym mysg y *deilliaid*.
Diareb. (M.A. iii. 150.)

Pwy ddyd *ddall* i arwain *deilliaid*?
Pwy ddyd fud i gyfarth bleiddiaid?
Rhys Prichard: C. y C. clv. 38.

Ffyliaid, a *deillion*.—*Matt.* xxiii. 17 (cf. 16, 19, 26).

Dallan, *sc.* a blind one, a blindling.

Bwbach dallan, the play of blind-man's buff.

Chwareu bwbach dallan, to play at blind-man's buff.

Dallanedig, *a.* blind-born.

Dallbleidiaeth, -au, *sf.* [dall+plaid] blind adherence to or advocacy of some party, creed, or opinion; bigotry.

Nid yw yn werth treulio amser i geisio ymresymu â dynion ag sydd wedi amdoi eu hunain â'r fath gaddug dudew o *ddallbleidiaeth* rhagfarnllyd.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duw. 275.

Beth bynnag a haerir gan y gwŷr doeth hyn yn erbyn *dallbleidiaeth* y rhai sydd yn cadw at yr hen ffydd, fod Duw personol ar wahan oddi wrth natur yn bod, yr ydym yn meddwl nad pell yw llawer o honynt hwy oddi wrth *ddallbleidiaeth*, fel dysgyblion yr athroniaeth Almaenaidd. . . Ac os *dallbleidiaeth* yw credu fod Duw yn bod, gwell genym fod o dan warth y cyfryw nodweddiad, na bod heb un Duw.—*Adolygydd*, i. 175 (cf. 177).

Dallbleidiog, *a.* full of bigotry, bigoted.

A chaniatäu y buasai tyner dosturiaethau trawsfeddiannydd *dallbleidiog* rywfaint yn llai creulawn.
Myfyrdodau Hervey, 228.

Dallbleidiol, *a.* bigoted, bigot.

Mae yn barnu hefyd am y blaid arall, yr hon a ymwrthodai â phob enw dynol, gan ymffrostio eu bod yn 'eiddo Crist,' mai hon oedd y fwyaf *dallbleidiol* o'r cwbl.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 660.

Dallbleidiwr, wyr, } *sm.* a blind or narrow-
Dallbleidydd, -ion, } minded enthusiast, a bigot.

Dallbleidwyr cas, er elw i gyd,
A ysgarent frodyr anwyl fryd.—*Gwyliedydd*, iii. 253.

Yn y canrifoedd blaenorol . . . ystyrid pob dyn a wnaeth ei ol ar y byd, yn *ddallbleidiwr* penboeth.
Adolygydd, i. 178.

Dallder, *sm.* blindness.

Dyma'r *dallder* arferwyd,
Delwau oedd well na Duw lwyd.—*Gr. ab Ieuan*.

Digitized by Google

Dalledigaeth, -au, *sf.* a blinding; the action of making blind.

Dalles, -au, *sf.* a blind female.

O achaws y ffals gret yssyd genthi hi y mae yn *dalles*. ac vyth ny wyl hi yny gretto yr gwr yr wyflnneu yn credu idaw.—*St. Greal*, ‡ 224.

Nid da'r llun hwn, er ei lles,
Na'i ddull, onid ar *ddalles*.—*Llywelyn ab Gutyn*.

Dalliad, -au, *sm.* the action of blinding.

Dallineb, *sm.* blindness, a blind state.

Tarawsant hefyd y dynion oedd wrth y drws â *dallineb*.
Gen. xix. 11.

A hwythau yn llygadrythu fyth ar y peth sy'n eu dallu fwyfwy, ac yn eu hanrheithio yn eu *dallineb*.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 22.

Dallineb meddwl, blindness of mind.

O dri phrif gynneddfau dyn y bydd ei dreigl yn abred: o syrthni a'i *ddallineb meddwl* y syrth yn annwfn.
Barddas, i. 240.

Dallineb calon, blindness of heart.—*Eph.* iv. 18.

Gormod *dallineb* a chaledrwydd *calon* fyddai hyny.
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 67 (cf. 36).

Dallneidr, nadroedd, nadredd, *sf.* the blind-worm or slow-worm.

Dallt, *sm.* [=deallt, deall] understanding; reason; intelligence.—*N. W.*

Beth y mae'r gair comfforddus yma Iesu yn ei ddwyn ar *ddallt* i ni?—*Dr. J. Davies:* Llyfr y Res. II. i. 5 (cf. vi. 26).

Dallt, *v.* to understand, to apprehend; to comprehend.

Am gadw o honof dy ddeddf di,
Mwy na'm rhieni *delltais*.—*Edm. Prys:* Salm. cxix. 100.

Nid wyf yn eich dallt, I do not understand you.—*N. W.*

Dalltwr, wyr, *sm.* one who understands or comprehends.

Dalltwriaeth, -au, *sm.* understanding; comprehension; intelligence; intellect.

Y mae yn aros yn ein naturiaeth ni, reswm, *dalltwriaeth*, ewyllys, a nwydau.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 5 (cf. 6, 361, 365, 380).

Yr ydym mor ynfyd a hyny, ac yn wag o *ddalltwriaeth*.
Elis Lewis: Drexelius, 228.

Dalltwriaethol, *a.* relating to the understanding; intellectual.

Dalltwrus, *a.* intelligent; intellectual; skilful.

Dallu, *v.* [dall] 1. to blind; to deprive of eyes or sight; to become blind.

A lluchaden eur a *dalla* y rei a edrychont.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 154.

Ef a vynnassei rei ac Elret o Winsestyr yn dywyssawc arnadunt y *dallu* ef.—*Brut y Saeson:* Ll.C.H. ii. 388.

Ac velly o gwbyl y *dallwyt* eu tywyssawc.
Ystr. de Carolo Magno, col. 499.

Yn ebrwydd wedi hynny y daliodd Iago ei frawd Ieuan ac ai dug yng ngharchar ac ai *dallawdd* a heyrn llosg o dân.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 493.

2. (fig.) to blind, to darken.

Y mae llawer, wedi i Satan *ddallu* eu llygaid a chaledu eu meddyliau, yn tybied na chwir byth am danynt i roddi cyfrif am eu drygwaith.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 71.

Dallu y meddwl, to blind the mind.—2 *Cor.* iii. 14; iv. 4.

Dallymgais, geisiau, *sm.* a blind seeking or endeavouring; a blind attempt or endeavour.

Tri gwrthrym pob gwybodaeth, a chelfyddyd, a doethineb: anymgais; gorymgais; a *dallymgais*.
Barddas, i. 320.

Dallymgeisio, *v.* to seek or endeavour blindly; to beat about in the dark.

Dam, [dy- + am *or* di- + am: Br. *dam*] a prefix in composition. 'Verbs formed from it have a kind of neutral or passive action; as *to be about;* and this characteristic is relatively preserved in nouns and adjectives.'—*P.* Such is not the case: *dam-* leaves to the verbs to which it is prefixed, whether transitive or intransitive, their original character, with the addition of *about, round*, or *around* (*circum-*) superadded. Substantives and adjectives formed from such verbs preserve the same meaning. Cf. *Am-*.

¶ See note on *Dad-* s.v. *Dadlystyriv.*

Dam, *prep.* about, round, around.

Mi amfranc *dam* ancalaur. . .
Mi amfranc *dam* anpatel.
Codex Juvencus (A.B. ii. 2; Arch. Brit. 221).

Ha diguadef braut *diam* y cam a diconher dy escop Teliau.—*Liber Landavensis*, 113.

Nid amgen na'u braint yn rhydd a'u tirocdd yn rhad, fal y bu iddynt a chanddynt yn oes oesoedd, herwydd cyfreithiau a defodau breiniau cenedl y Cymry, ai arglwyddi llys, ai boneddigion o frehyriaid, ai gwreng, ai eillion, *dam* y bónt.—*Iolo Mss.* 223.

¶ The prepositional use of *dam* is very rare and quite obsolete.

Damaerwyo, *v.* [aerwyo] to form a skirt or border; to make fringes; to border with fringe.

Damarch, eirchion, *sf.* [arch] the action of inquiring about; a salutation.

Damarwain, *v.* to lead about.

Damarweiniad, -au, *sm.* a leading about; circumduction.

Damarweiniol, *a.* leading or conducting about.

Dambell, *a.* [dam- + pell: cf. *ambell*] being one here and there; scarce, rare; few; occasional.

Damblygiad, -au, *sm.* an inwrapping or infolding; infoldment; involution; a furling.

Damblygol, *a.* bending or folding about; infolding, inwrapping.

Damblygu, *v.* to fold, roll, bend, or wind around; to involve, envelop, infold, involve, or inwrap; to embrace; to repeat, to multiply.

Tra yttoed yr ysgymun hwnnw yn y *damblygu* hi y rwg y ureicheu hi a gymerth dyruawr ofyn dan y chlaer uron. yny aeth y heneit oe chorf.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. 212 (cf. 154).

Kyrchu a wnaethant y kiwtawtwyr bydinoed y Saeson. a newityaw *damblygedigyon* durnodeu gan dineu llawer o greu a gwaet.—*Ystr. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. 160.

Damborth, -ion, *sm.* sustenance, support.

Damborthi, *v.* to sustain, support, or uphold.

Damborthiad, -au, *sm.* sustentation; a giving support.

Dambrynu, *v.* to be purchasing; to redeem, to purchase.—*P.*

Dambryniad, -au, *sm.* a purchasing or redeeming.—*P.*

Dambwyad, -au, *sm.* a beating about.

Digitized by Google

Dambwyll, -ion, *sm.* meaning, sense, reason; consideration.

Swydd pob brenin, tystiaw gwirionedd a wypo i'r nas gwypont; a wnelo hyn, ys brenin efe yn nheyrnas y bo iddaw; a theyrnas i mi teyrnas nef, sef gan Dduw Dad a'i caf achaws myned o honof yn dyst yng nghymhlaid gwirionedd; ac yn hyn o beth y mwyaf o dyst, ys mwyaf ef o frenin yn nheyrnas nef; ac nid mwy o dyst nebun nag a ddoto ei einioes dros a wypo'n wirionedd; minnau yn gwneuthur hyny, yn *nambwyll* hyny, ys diau brenin myfi.
Dafydd Fychan: Efengyl Nicodemus, ii.

Dambwyllo, **Dambwyllău**, *v.* to devise, invent, scheme, or contrive; to consider; to reason.

Dambwyllärnt a raid o hyn.—*W. O. Pughe:* C.G. ii. 53.

Dambwyo, *v.* to beat about or around.

Dambwyol, *a.* beating about or around.

Damcan, -ion, *sm.* a theory.

Damcaneb, -ion, *sf.* a theorem.

Damcanedigol, *a.* theoretic; speculative.

Damcaniad, -au, *sm.* [amcan] 1. a conjecturing or theorizing; speculation. 2. a theory.

Damcaniadol, *a.* theoretical; speculative.

Damcaniadu, *v.* to theorize.

Damcaniaeth, -au, *sf.* a theory.

Caiff fy narllenwyr wneyd hyny, a barnu a yw efe yn gwneyd tegwch â'r pwnc, ac a yw ei *ddamcaniaethau* yn gywir ai peidio.—*Cymru*, iv. 191.

Damcanol, *a.* theoretical; speculative.

Damcanu, **Damcan**, *v.* to theorize; to speculate; to go by theory; to intend.

O ebill i ebill yny bôt wedi tori'r cyfan o'r gerdd neu'r araith a fo'n *damcan*.—*Barddas*, i. 144.

Damcwydd, -au, *sm.* [cwydd-o] chance, accident; fate; casualty.

A glywaist ti chwedl yr Wydd,
Gwedi gweled pob *damcwydd*?—*Iolo Mss.* 261.

Am dri achos y gellir dwyn bywyd oddi ar fywydolion; sef, ar a laddo ddyn o fryd ac amcan; ac ar a laddo ddyn yng nghyfamwain, ac o ansawdd gan *ddamcwydd*.
Barddas, i. 350 (cf. 352).

Swydd ofydd yw mwyhau a gwelläu gwybodau daionus, ym mraint awen, a phwyll, a *damcwydd*; sef hyny, gorfod anesgorawl.—*Barddas*, ii. 28.

Damcwyddo, *v.* to happen, to chance.

Tair ffordd y *damcwydd* ar ddyn fod yn enciffaddeu.
Barddas, i. 350.

Damchwa, -oedd, chwëydd, -on, *sf.* 'an overturn;' that which is overwhelming; a surrounding blast; a steam or stench.

Weithiau yn synio gan y rhaiadrydd dyfroedd yn disgyn ar y tanau ac yn eu diffodd; ac yn y man gwelid *damchwa* o dân yn tori allan, ac a losgai'r dwr yn sych.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 72.

Dyblyeh y tân a'r berw, oni bo'r peiriau yn codi yn *ddamchwëydd* tros eu penau.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 87.

Damchwain, **Damchwaen**, chweiniau, *sf.* [dam-+chwaen] accident, chance; casualty; an unexpected case or event; an adventure. See *Damwain*, &c.

Damchwein oed uot hen uanachlawc yn Lloegyr nys teckaei yny oes ef.—*Brut y Saeson:* Ll.C.H. ii. 387.

A phei meirw ueym ni yny keis hwnn mwy o anryded oed yni hynny noc an meirw y mywn *damchwein* arall or byt.—*St. Greal*, § 5 (cf. 2, 4, 19).

Damchwein truan heuyt ar daroed marw yr hynafgwyr yn llwyr.—*Ystoria Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 128.

Arglwydi heb ef llyma *damchweinyeu* ryued.
St. Greal, § 3 (cf. 120).

Damchwaol, *a.* overwhelming; overturning; steaming; suffocating.

Damchwău, *v.* to overwhelm.—*P.*

Damchweiniad, -au, *sm.* a happening or chancing; accident.

Y ddull gyntaf ar aralleg sydd, pan roir dwy unrhith neu unwedd drofaeg ymadrodd, o'r hyn lleiaf, yn yr un synwyreg, neu amgenach mwy o honynt, yn ol *damchweiniad* yr araith.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xv. 1.

Damchweinio, *v.* to happen, to chance; to come or occur by accident or chance.

Ac uelly y *damchweina* pan adawer y vrenhinyaeth yr bilaen creulawn.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 123 (cf. 121).

Ac ef a *damchweinyawd* udunt duw llungweith dyuot hyt yn ymyl croes a oed ynkysswllt dwyfford.
St. Greal, § 12 (cf. 5).

Ac y *damchweinwys* kyuaruot onadunt a gwr y Vadoc vab Ririt.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 546.

Ar ol hyny y *damchweiniodd* i laweroedd gael benthyg gwychder gan ddillad gwiw-wisgaid.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, i.

Damchweiniol, *a.* accidental, casual, incidental.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xvi.

Damchwyl, -ion, *sf.* [chwyl] 'a whirl round;' a revolution.

Damchwyliad, -au, *sm.* a revolving; a turning or going round; revolution, rotation.

Damchwylus, a. revolving, rotatory.

Damdaith, deithiau, *sf.* a journey about or around; a perambulation.

Damdeithiad, -au, *sm.* perambulation.

Damdeithio, *v.* to journey or travel about; to perambulate.

Damdeithiol, *a.* perambulatory.

Damdoad, -au, *sm.* a covering or enclosing all around; circumclusion.

Damdoawl, *a.* covering all around.

Damdoi, *v.* [toi] to cover all around.

Damdorchawl, *a.* twisting about or around.

Damdorchi, *v.* to twist about or around.

Damdorchiad, -au, *sm.* a twisting around; a wreathing or turning about.

Damdori, *v.* [tori] to break or cut all around; to amputate.

Damdoriad, -au, *sm.* a breaking or cutting around; amputation.

Damdramwy, **Damdramwyo**, *v.* to journey or travel about; to perambulate; to traverse; to wander about.

Damdramwyad, -au, *sm.* perambulation.

Damdrechu, *v.* to surpass, conquer, or overpower all around.

Damdreiglo, *v.* to move or wander about; to revolve.

Damdreiglad, **Damdreigliad**, -au, *sm.* a moving around or about; circumvolution.

Damdreilliad, -au, *sm.* circumrotation.

Damdreillio, *v.* to go or move about; to circumvolve, to rotate.

Damdremiad, -au, *sm.* a looking around or surveying; observation.

Damdremio, *v.* to look about or around; to survey; to observe.

Digitized by Google

Damdremiol, *a.* looking around, surveying.

Damdreulio, *v.* to wear away on every side; to consume round about; to corrode.

Damdro, -ion, *sm.* a turn round; a meander.

Damdroad, -au, *sm.* a turning around; circumvolution.

Damdroawl, *a.* turning about, rotating.

Damdroi, *v.* to turn round; to circumvolve, to rotate.

Damdrosi, *v.* to drive about; to convey around.

Damdruthio, *v.* to flatter all around.

Damdrwsio, *v.* to dress or deck around.

Damdrychiad, -au, *sm.* a cutting around; amputation.

Damdrychu, *v.* to cut around; to amputate.

Damdrymhau, *v.* to be or become heavy on every side; to make heavy all around.

Damdrystio, *v.* to bluster about or on all sides.

Damdueddu, *v.* to incline on all sides.

Damdwng, *sm.* [dam- + twng] 1. that which is under oath, or under sworn terms; appraisement; sworn or appraised value. In the Laws, the value of everything on which no legal worth had been fixed was to be decided by *damdwng*, or appraisement on oath. False appraisement was punishable as perjury.

Os y anaf ac vriw a hawl, rodet tyllwed am yr eneit; a thalet idaw ynteu y eissiwet ae vriw wrth y *damdwng;* a hynny wrth nat oes werth kyfreith arnaw. Ac am bop peth ny bo gwerth kyfreith arnaw *damdwg* a geffir.
C.C. i. 110 (cf. 300, 310, 448, 500, 730).

2. sworn allegiance or fealty; a vow or engagement on oath; an oath (of secrecy).

Hwnw a saif ym mraint Cymro cynhenid o fonedd ym mraint ei oresgynydd; a boneddig pob un o'i epil llin a chyflin, o y pryd ydd aeth dan *ddamdwng* yn wr gwlad ac arglwydd.—*Iolo Mss.* 75.

Yna y dacth Owain ab Morgan yn ei erbyn ac ai gyrres ar ffo, ac a ddug holl wyr Gwyr dan *ddamdwng* iddaw. . . Dyfod a llynges hyd yng Nghaerllion ar Wysg a orug Edgar, a gyrru llywodraeth ar Owain ab Hywel Dda, ai ddwyn yn wr *damdwng* iddaw.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 493 (cf. 520).

Gellir cnwi a dangos y llythyrenau i'r neb a fyner o'r byd heb yngan y llafar a ddylid iddynt yn nawdd cyfrinach, heb *ddamdwng* arno.
Barddas, i. 66 (cf. 96, 138, 140, 142).

Damdwrdd, *sm.* [twrdd] a noise all around; a tumult, disturbance, noise, or confused stir.

Oedd gwrdd y *damdwrdd* diymdor a gad
O'i fwriad yn farwor.
Edward Dafydd: Cyfrinach y Beirdd, 147.

Damdwrdd, Damdyrddu, *v.* to make a confused noise; to bluster.

Damdwrdd, trwst, goruad, murmur; hefyd, trystio, nadu.
O.V.

Damdwy, -on, *sm.* [twy-o] a castigation.

Damdwyad, -au, *sm.* a castigating or correcting.

Damdwyo, *v.* to castigate, chastise, or correct.

Damdwyol, *a.* castigatory, correcting.

Damdyfiad, -au, *sm.* a growing around; vegetation on all sides.

Damdyfu, *v.* to grow around or about.

Damdyngedig, *pt. a.* bound by oath; made or confirmed on oath; sworn.

Dyfod a wnaeth y Saeson o Wlad yr Haf . . . a dwyn ysbail anfeidrawl yn yd, a gwartheg, a defaid, a daoedd o bob rhyw a geffynt, a llosgi a thorri tai, a diffeithiaw yn aruthrawl, yn erbyn heddwch ac oedd drefnedig a chadarn a *damdyngedig* rwng Tywysawg Morganwg a Brenin ac Ieirll y Saeson.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 512.

Damdyngediyion, persons bound by an oath.

A'r deg nod awgrym cyssefin hyd y dydd heddyw dan gadw cyfrinach adduned a damdwng; ac nid neb o ddyn namyn y *damdyngediyion* a'u gŵyr.—*Barddas,* i. 142.

Damdyngiad, -au, *sm.* an appraising; valuation upon oath; appraisement.

Damdyngu, Damdwng, *v.* to value or appraise on oath; to swear to a thing; to claim or challenge on oath; to appraise.

O deruyd y dyn *damtwg* peth a gwerth kyfreith arnaw a bot yn uwy y *damtwng* nor gwerth kyfreith; ygneit a dylyant edrych ae cam y *damtygwyt,* ac os cam gwneler arnaw kyfreith anudon, sef yw hynny, naw vgeint camlwrw.—*C.C.* ii. 118 (cf. 34, 110, 642, 576, 652).

Ny dyly dall *damdwg;* kanny ellir *damdwg* yn absen: ac na wyl ynteu y peth a *damdwg.*
C.C. ii. 64 (cf. 62, 124, 266, 556).

Pwy bynnag a fyno *ddamdwng* yr eiddaw, fal hyn y mae iddaw ei *ddamdwng:* os peth marwawl a *ddamdwng, damdynged* â'r llaw aswy ar y peth a *ddamdyngo,* a'r llaw ddeheu ar y crair, a thynged felly. Os anifail a *ddamdwng, damdynged* â'r llaw aswy iddaw ar y glust ddeheu i'r anifail, a'r llaw ddeheu ar y crair.
Leges Wallicae, III. iii. 39 (cf. 36).

Damdyngwr, wyr, *sm.* one deposing upon oath; an appraiser.

Damdyrddiad, -au, *sm.* a making a tumult or disturbance on all sides; a blustering.

Damdyrddol, *a.* noisy or blustering all round.

Damdyrddu, *v.* to be noisy or blustering all around.

Damdyriad, -au, *sm.* aggregation.

Damdyru, *v.* to aggregate; to heap or pile around.

Damdywallt, *v.* to pour about or around; to circumfuse.

Damdywalltiad, -au, *sm.* a pouring around; circumfusion.

Damdywyniad, -au, *sm.* a shining around.

Damdywynol, *a.* shining or illuminating around.

Damdywynu, *v.* to shine or illuminate around.

Damdywys, *v.* to lead about.

Damdywysiad, -au, *sm.* a leading about or around; circumduction.

Damdywysol, *a.* leading about.

Damddadlu, *v.* to argue or dispute about (something); to converse.

Damddal, *v.* to hold in; to inclose.

Damddifadiad, -au, *sm.* a making destitute; a rendering forlorn.

Damddifadu, *v.* to make destitute, forlorn, or wretched.

Damddiffyn, *v.* to defend on all sides; to protect.

Damddiffyniad, -au, *sm.* a defending, a protecting; a warding off or guarding; protection.

Digitized by Google

Damddiffynol, *a.* defensive, protective.

Damddilladu, *v.* to clothe or invest about; to wrap up.

Damddyblygiad, -au, *sm.* a folding or wrapping all around; embracement.

Damddyblygol, *a.* folding or wrapping around; in a folded state.

Damddyblygrwydd, *sm.* the state of being folded or wrapped around; multiplicity.

Damddyblygu, *v.* to fold, double, or wrap around; to double, to multiply, to repeat.

Ys ef oed enw honno Tonnwen . . . a gwedy y dyvot trwy ergrynnedygyon kameu hyt y lle yd oed y map yn sevyll bwrw y breychyeu a oruc am y wunugyl a *damdyblygu* damunedygyon kussaneu.

Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 149.

Damddychweliad, -au, *sm.* a returning or reverting; a coming back; reversion.

Damddychwelog, *a.* reversionary.

Damddychwelyd, *v.* to revert; to return; to reverse.

Dameirchiad, -au, *sm.* a greeting, salutation.

Dameirchio, *v.* [arch, erchi] to address, greet, or salute.

Gwedi myned o honynt, e ddaeth yr hebog ati, ac a'i *dameirchwys* fal hyn.—*Iolo Mss.* 175.

Dameirchiol, *a.* salutatory, greeting.

Damfachu, *v.* to grapple around, to hook about.

Damfordwyad, -au, *sm.* a sailing round, circumnavigation.

Damfordwyo, *v.* to sail round, to circumnavigate.

Damfordwyol, *a.* sailing round, circumnavigatory.

Damfordwywr, wyr, *sm.* a circumnavigator.

Damfwriad, -au, *sm.* calculation.

Damfwriol, *a.* calculative.

Damfwrw, *v.* to cast about; to calculate.

Damffrwd, ffrydiau, *sf.* a surrounding stream; a stream or flood going round; circumfluence.

Damffrydiad, -au, *sm.* a flowing around; a running about in a torrent.

Damffrydio, *v.* to flow round; to be circumfluent.

Damgaeriad, -au, *sm.* [caer] circumvallation.

Damgaerol, *a.* surrounded with a wall, circumvallate.

Damgaeru, *v.* to wall round, to circummurate, to circumvallate.

Damgel, *a.* [cel] hidden, concealed, secret.

Damgel, cudd, cel, cncil.—*O.V.*

Damgeledd, -au, *sm.* cherishment, comfort.

Damgeleddiad, -au, *sm.* a cherishing, a comforting.

Damgeleddol, *a.* cherishing, comforting.

Damgeleddu, *v.* to cherish, to comfort.

Damgeniad, -au, *sm.* diversification, variegation.

Damgenu (*ė*), *v.* to diversify, to vary.

Damgloddiad, -au, *sm.* a trenching around; circumvallation.

Damgloddio, *v.* to dig or trench about; to circumvallate.

Damgludiad, -au, *sm.* a carrying about.

Damgludo, *v.* to carry about, to convey around.

Damgludol, *a.* carrying about; carried round.

Damglymiad, -au, *sm.* the act of binding around.

Damglymu, *v.* to bind round or about.

Damglywed, *v.* to hear about or around; to feel an impulse.

Damgnoi, *v.* to bite or gnaw round; to eat or fret about.

Damgreinio, *v.* to crawl about; to creep along.

Damgrwydrad, -au, *sm.* a wandering about; circumerration.

Damgrwydro, *v.* to wander, stray, or stroll about.

Damgrymu, *v.* to bend or bow about.

Damguddiad, -au, *sm.* a hiding or covering on all sides; a hiding; occultation.

Damguddiedigaeth, -au, *sf.* the state of being obscured or hidden; occultation; obscuration.

A'r lloer dan *ddamguddiedigaeth* y ddaiar.

Meddygon Myddfai. (*P.*)

Damguddio, *v.* to hide or conceal; to overshadow; to obscure.

Damguddiol, *a.* hiding, concealing; obscuring; overshadowing.

Damgyfalu, *v.* to make even on all sides; to level all around.

Yna y *damgyfelir* y mynyddoedd a'r dyffrynoedd, hyd na bo hydrach un nac arall o honynt.—*Havod Ms.*

Damgyfyngrwydd, *sm.* straitness, strait, distress.

Y marchogyon goreu a oedynt yn y *damgyvyngrwyd*.

St. Greal, i 222 (cf. 219).

Damgyffred, -ion, *sm.* comprehension, apprehension.

Damgyffred, **Damgyffredu**, *v.* to comprehend, to apprehend, to conceive.

Damgyffrediad, -au, *sm.* a comprehending; comprehension, apprehension.

Damgyffroad, -au, *sm.* agitation on all sides; agitation, stir; emotion.

Damgyffroawl, *a.* agitating all around; agitative; stirring, moving; emotional.

Damgyffroi, *v.* to agitate all round; to move or stir.

Damgylchedigaeth, -au, *sf.* a surrounding or circumscribing, circumscription; succession.

Ef a dangosses yr hyn a haedwys ef gyr bron y llu yn gyntaf y kyrchawd yr tir or llogeu a chyrchu a chadarnhau castell gwyr Groec. a *damgylchedigaeth* y gwyluaeu. a rodedigaeth yr arwydon.—*Dares Phrygius:* LI.C.H. ii. 19.

Damgylchiad, -au, *sm.* a surrounding, encompassing, or circumscribing; circumscription; circumference.

Damgylchol, *a.* surrounding, encompassing.

Digitized by Google

Damgylchu, *v.* to surround, to encompass, to environ.

Damgylchyn, -au, *sm.* a compass; a round; a circuit; an orbit.

Gemini a ebryfygant eu gnotaedigyon *damgylchyneu.*
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 155.

Damgylchynedig, *pt. a.* surrounded, encompassed; circumscribed.

Ac gwedi dyvot megys e dywetpwyt uwchot hyt en plith bydin er amerawdyr. en *damgylchynedic* o eu gelynion e syrthiasant e trywyr heny.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 348 (cf. 334).

Yn *damgylchynedic* o nerth ac ysprydawl gynhorthwy.
Yst. de Carolo Magno, col. 486 (cf. 405).

Damgylchiad, -au, *sm.* a surrounding or encompassing; environment, encompassment.

Damgylchynog, *a.* surrounded, encompassed, environed.

Damgylchynol, *a.* surrounding, encompassing.

Damgylchynu (*ŷ*), *v.* to surround, encompass, encircle, or environ; to circumscribe.

Ef a atnewydwys muroed Llundein. o anriuedic tyroed ae *damgylchynwys.*—*Mabinogion,* 93.

Yna y gelvyt Iosep wrth yr allawr. ar dwfyr a roded idaw. yr awr y llewawd. y *damgylchynawd* ef y dwfyr seith weith.—*Buchedd Mair,* § 11.

A phan welas y Cristonogyon hynny eu *damgylchynu* a wnaethant o bop parth.
Yst. de Carolo Magno, col. 396 (cf. 382, 466).

Ar hynny pob un a gyrchawd y gilyd onadunt. ac argau a *damgylchynnu* Galaath ae gedymdeithyon a orugant.
St. Greal, § 59.

Ac yd ymdangosses y vorvorwyn udunt a *dangylchynu* eu llogeu.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 53 (cf. 57, 58, 153).

Yna gwyr Groec a *damgylchynassant* y gaer ae llu.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 34 (cf. 67, 134, 137).

Nyt oed hagen eythyr Coryneus yn y llu gwas dewrach no hwnnw. ac eyssyoes y *damkylchynwas* llawer oy elynyon ef ac y llas yna ef ac ysef oed y gwas Twrn.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 111.

Damgylchynydd, -ion, *sm.* he who or that which surrounds; an encompasser, a circumscriber.

Damgynniweiriad, -au, *sm.* a frequenting or resorting (to a place); a hovering about.

Damgynniweirio, *v.* to be hovering about; to be frequenting; to frequent on every side.

Damgynnull, *v.* to assemble, to congregate; to gather together; to meet.

Braint i ddeuddeg o gywiriaid gwlad a chenedl *ddamgynnull,* heb arf, heb osawd, o byddant wrth lysdanc.
Barddas, ii. 86.

Damgyrchyn, -au, *sm.* a surrounding; circumvention?

Or *damcirchinucu* (*gl.* ambages).—*Codex Juvencus,* 56.

Damgyrhaedd, } *v.* to reach or extend in
Damgyrhaeddyd, } every direction; to extend about.

Damgystlynu (*ŷ*), *v.* to become allied or united; to unite.

A'r ddifrawd honno a *ddamgystlynes* a'r Saeson, ac o'r diwedd myned yn Saeson.—*Trioedd:* M.A. ii. 69.

Damlaith, *v.* to moisten; to dissolve; to resolve. See s.v. *Cwyrel.*

Damlas, -au, *sm.* [glas] the green sward or turf.

Damlas, tonlle, tonfarth, glasdon.—*O.V.*

Damlediad, -au, *sm.* a dilating around; dilatation, expansion, distension.

Damledol, *a.* expansive, dilating.

Damledu, *v.* to dilate or expand around; to distend, to dilate.

Damlenwad, -au, *sm.* a filling on every side.

Damlenwi, *v.* to fill around or on all sides.

Damlewych, } *sm.* glitter, splendour, lustre,
Damllewych, } shine.

Damlewych, tywyn haul.—*O.V.*

Damlewychedig, } *a.* illumed, glittered;
Damllewychedig, } clear; transparent.

Arglwyd heb ef digawn yw *damllywychedic* ytti.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 124 (cf. 333).

A gwedy y gyhoeddedicka *damllywychedic* dwyll honno ny beidawd neb or Kymry ymdiret yr Ffreinc.
Brut y Tywysogion, 226.

Damlewychiad, } -au, *sm.* a shining around;
Damllewychiad, } illumination; elucidation.

Damlewychol, } *a.* effulgent; illuminative;
Damllewychol, } elucidative.

Damlewychu, } *v.* to shine or glitter around;
Damllewychu, } to effulge; to illuminate; to elucidate, to explain; to show clearly; to show.

Ac yna y *damlywychwys* Mab Duw y drugared hyt na mynei bot kenedyl y Brytanyeit yn llychwin o dywyllwch pechodeu.—*Yst. Bren. Bryt:* Ll.C.H. ii. 107 (cf. 41, 150).

Bendigedic vo enw yr Arglwyd. kanys *damllewychawd* y santeidrwyd y holl bobyl yr Israel.—*Buchedd Mair,* § 12.

Megys y deuthant y gormessoed hyny ni ae *damllewychwn* rac llaw.—*Brut y Bren.:* M.A. ii. 82.

A'i farnau iddynt ni's *damlewychawdd.*
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 572.

Yma gellir *damlewychu* faint daioni . . . sydd iddo.
Morys Clynog: Athr. Grist. 35.

Damlifiad, -au, *sm.* a flowing around; circumfluence.

Damlifo, *v.* to flow about or around; to circumfuse.

Damlifol, *a.* flowing round, circumfluent; ambient (as a fluid).

Damliwio, *v.* to colour on all sides; to colour, to tint.

Damluniad, -au, *sm.* a forming or shaping; formation; conformation.

Damlunio, *v.* to form or shape.

Damlwybrad, } -au, *sm.* a wandering, roving,
Damlwybriad, } or strolling about.

Damlwybro, *v.* to move, rove, or wander about.

Damlygiad, -au, *sm.* explanation, elucidation, illustration.

Damlygu, *v.* to explain, to elucidate; to set forth; to exhibit.

Damlyniad, -au, *sm.* a clinging or adhering round.

Damlynol, *a.* [glŷn, glynu] clinging or adhering around.

Damlynu, *v.* to adhere or cling around; to stick on all sides.

Damllewychu, *v.*=*Damlewychu.*

Dammaethiad, -au, *sm.* cultivation.

Digitized by Google

Dammaethol, *a.* agricultural; cultivating.

Dammaethu, *v.* to practise husbandry or agriculture; to cultivate.

Dammal, *a.* [mâl] finely pulverized; impalpable; fine, elegant.

Lliain dammal, fine linen.—*S.E.W.*

Dammal, *v.* to make fine or small; to smooth, polish, or refine.—*O.V.*

Dammeg, -ion, *sf.* [dam-+eg (aeg)? cf. *ammeg, adammeg*] a parable.—*Num.* xii. 8; xxiii. 7, 18; xxiv. 3, 15, 20, 21, 23; *Matt.* xiii.

Rhydd yw canu *dammeg;* ac annoethion a gamddeallant *ddammeg,* ac a'i gwnânt yn gelwydd, o'i barnu yn wir o ryw pendant. . . O chân ef *ddammeg,* gofaled ei bod yn ei hystyr y cyfryw ag y gwelir mai *dammeg* ydyw.
Iolo Mss. 219 (cf. 154-183).

O chwant caffael rhoi i chwi
Ddammeg i'w hadrodd imi.—*Gronwy Owain,* 105.

Mewn dammegion, in parables, by parables; parabolically, allegorically.—*Matt.* xxii. 1.

Ar ddammeg (*pl.* ar ddammegion), by parable; in a parable; parabolically.—*Luc* viii. 4, 10.

Traethu dammegion, to speak or utter parables.—*Esec.* xx. 49 (cf. Salm. lxxviii. 2).

Dammegaeth, -au, *sf.* parabolical or allegorical speaking or writing; allegorical expression; allegory; allegorization.

O cheir y cyfryw chwedlau mewn cân yn y byd a gânt yr hen feirdd, dealler nad oes yn hyny amgen na *dammegaeth* ar ryw neu ei gilydd o wirionedd galledig.—*Iolo Mss.* 218.

Dammegiad, -au, *sm.* a speaking in parables; allegorization.

Dammegol, *a.* parabolical, allegorical, figurative.

Yr ail ddull sydd, a elwir yn briodawl Grwmeg, neu ddychymmyg *dammegawl,* pan fo'r araith mor dywyll ag nas gellir ond yn anhawdd iawn gasglu ei deall a'i deongliad.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xv.

Ystoriau *dammegawl* a ddychymmygwyd yn yr hen amseroedd er dysgu doethineb; eithr annoethion a gamdroasant yr ystyr, onid aeth yn anneallus o beth.
Iolo Mss. 219.

Atebiad *dammegol* Ioas, brenin Israel, i her Amasïah a gynnwysir yn y geiriau a grybwyllwyd.
Ioseph Harris: Gweith. 341.

Eglurer yma deithi a theilyngdod amrywiol y ddwy ddosparth yn *ddammegol*—cyffelyber hwynt i ddwy goedwig wahanol.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 168.

Y mae ynddo hefyd draethawd *dammegol* am y chwil, yr eryr, y llew, y cadnaw, y frân, y ddafad, a'r llygoden.
Gwynionydd: Enwogion Ceredigion, 32.

Cân ddammegol, } a poem in the form of a
Cân ddammeg, } parable; an allegorical poem.

Cân ddammegol a fydd ar ddull ac o rywogaeth hanesgerdd; ys ef ei hamcan yw adrodd dygwydd o grebwyll a dychymmyg ar gyfrith hanes . . . eithr gofaler na bo achos credu mai hanes wir-ddygwydd yw *cân ddammeg;* rhag twyllo gwirionedd.—*Cyfrinach y Beirdd,* 37, 38.

Dammegu, *v.* to speak in parables; to use parables; to allegorize; to represent or express figuratively.

Sef fal hyn y *dammeger* geni Duw o'r manred, heb ddechre, heb ddiwedd.—*Barddas,* i. 250.

A'r adar ym mhlith y cangau, oeddent yn *dammegu* ei gynghorion pruddlyd, ac amrafael deyrnasoedd danaw.
H. Perri: Egl. Ffr. xv. 2.

I wneyd hyn yn fwy eglur, *dammegwn* ychydig.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 491.

Dammegwr, wyr, } *sm.* one who speaks in
Dammegydd, -ion, } parables; an allegorizer; a writer of allegories or apologues.

Gwr oedd Fadawc a wyddai laweroedd o gelfyddodeu a gwybodau, ac ni chaid ei gystal yn ei amser, a goreu o brydydd a *damhegydd* ar a wyddid am danynt yng Nghymru.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 579.

Wrth ddarllen dammegion, os mynwn eu deall, rhaid cadw ein golwg yn neilluol at y prif bwnc a fynai y *dammegwr* ei sefydlu.—*Ioseph Harris:* Gweith. 337.

Dammodi, *v.* to covenant; to contract.

Dammodiad, -au, *sm.* a covenanting, stipulation.

Dammodol, *a.* conditional; covenanted; obligatory.

Damnadwy, *a.* [damno] damnable.—*W.*

Damnawdd, *sm.* protection all round.

Damnedig, *a.* [damno] damned; condemned; sentenced to everlasting punishment; damnable.

Hyd hyn y clywsoch pa beth ydym ni o hanom ein hunain, gwaelion, pechadurus, *damnedig.*
Ed. James: Hom. i. 23 (cf. 38, 100, 113).

Gehenna . . . yr hwn y mae Christ ei hun yn ei arfer gyntaf, i arwyddocâu lle y rhai *damnedig.*
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. ix. 9.

Nid oes un creadur a fedr ddychymmygu na gosod allan y filfed ran o'r wasgfa dan yr hon y bydd y dyrfa *ddamnedig* yn cael eu gyru oddi wrth Dduw, ffynnon pob dedwyddwch.
Geo. Lewis: Drych Ysgr. 118.

Damnedigaeth, -au, *sf.* [damnedig: L. *damnatio*] damnation; condemnation; condemnation to everlasting punishment in the future state.—*Luc* xxiii. 40; *Ioan* iii. 19; *Rhuf.* iii. 8; viii. 1.

Mae fe'n dangos fod gair neu feddwl drwg yn haeddu *damnedigaeth.*
Ed. James: Hom. i. 18 (cf. 20, 56, 113, 118, 122).

Onid oes eto arwyddion eglurach a hynotach o *ddamnedigaeth* na'r rhai hyn?
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 35 (cf. 59, 128, 133).

Gweinidogaeth damnedigaeth, the ministration of condemnation (*E.V.*).—2 *Cor.* iii. 9.

Damnedigaeth diafol, the condemnation or judgment of the devil.—1 *Tim.* iii. 6.

Damnedigion, *s.pl.* the damned; those condemned to eternal punishment.

Bydd y *damnedigion* yn parhau i bechu yn oes oesoedd. . . Ac nid oes un Cyfryngwr wedi ei drefnu i sefyll rhwng y *damnedigion* a Duw.
Geo. Lewis: Drych Ysgr. 120 (cf. 118, 119).

Damnedigol, *a.* damnatory, condemnatory; damnable.—*W.*

Damneidiad, -au, *sm.* [cf. *amnaid*] a beckoning.

Damneidio, *v.* to beckon; to nod.

Damneidiol, *a.* beckoning; nodding.

Damniaid, *s.pl.* the damned; those doomed to eternal misery.

Ac fel y gwaeddai'r diawliaid gan eu poen eu hunain, gwnaent i'r *damniaid* eu hateb hyd adref.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 75 (cf. 74, 90, 91, 99).

Damnio, } *v.* [L. *damno,* later sometimes *dampno,*
Damno, } hence C. *dampnys;* Br. *dampnaff* (Cath.), *dampna*] to judge; to condemn; to damn; to sentence to eternal punishment.—1 *Bren.* viii. 32; *Diar.* xii. 2; *Ioan* iii. 17, 18; *Rhuf.* viii. 34; 1 *Cor.* xi. 32; *Tit.* iii. 11; 2 *Pedr* ii. 6.

Can na ddanfonawdd Duw ei Fab i'r byd, i farnu [**ddamno*]'r byd, anyd er iachäu'r byd trwyddaw ef. Yr un a gred ynthaw ef, ni fernir: a'r un ni chred, a farnwyd eisioes.
W. Salesbury: Ioan iii. 17, 18 (cf. Rhuf. viii. 34).

Digitized by Google

Heb ofni nac angeu na thragwyddol ddamnedigaeth. O herwydd ni ddichon angeu eu gwahanu hwy oddi wrth Grist, nac un pechod *ddamno* y rhai a ddiogelwyd ynddo ef.—*Ed. James:* Hom. i. 122 (cf. 111, 155, 173; ii. 8, 25, 110).

Y mae efe yn addo *damnio* a wnel anwiredd.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. v. 6.

Hon a *ddamniodd* fwy o ddynion na chwi i gyd.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 109 (cf. 95).

Rhuo gan wŷn, rhegi wna,
A *damio* 'r holl fyd yma.—*Gronwy Owain*, 76.

¶ It is to be regretted that *dammio* and *damnedigaeth* have been introduced into the Welsh version of the Bible, not only because they are exotic terms, and therefore meaningless to many readers, but also because they are misleading; and the native words *barn*, *barnu*, and *barnedigaeth* would in all cases convey the meaning of the originals. At the time the Welsh version was made, *damnation*, in English, was not, as at present, almost exclusively confined to the sense of eternal punishment; but since its adoption into Welsh it has always carried that meaning, though it nowhere in the Scriptures necessarily conveys that signification. Bp. Morgan, and even Salesbury, fond as he was of introducing foreign and unnaturalized words, generally employ the native terms. It is fortunate that *barnedigaeth* (the word used by both Salesbury and Morgan) has been retained at 1 *Cor.* xi. 29, where the English A.V. (following those of Tyndale, Cranmer, and Geneva) has *damnation*, from which very serious practical results have often followed. An older and more assimilated form of *damnedigaeth* is *dafnedigaeth*. Bp. Morgan has both *damno* and *damnio;* but since the appearance of Bp. Parry's revision (1620), the latter has become the recognized form. The derivatives *damnedig* and *damnedigaeth* are from *damno*. None of these words are found in Salesbury's Dictionary (1547), nor do they occur in the Welsh part of Dr. Davies's Dictionary (1632).

Damniol, *a.* damning, that damns; damnatory; condemnatory; damnable.

Er barnu fod eu hegwyddorion yn *ddamniol*, pwy yn ein mysg ni lawenychai pe caffai le i gredu y bydd y sawl a'i hamddiffyno gadwedig yn y diwedd!
Ios. Harris: Gweith. 408.

Felly carodd, gan dosturio
Yn rhad wrth hunan-*ddamniol* ddyn.
Gwilym Hiraethog: Caniadau, 250.

Pechod damniol, damning sin.

Damnoddi, *v.* [noddi] to protect on every side; to guard all round; to give refuge, protection, or defence.

Duw *damnaut* eiryoes einyoes Einyawn
Mawruab ytnyued mawrged gyflawn.
Cynddelw: M.A. i. 232.

Damnoddiad, -au, **Damnoddiant,** *sm.* protection on all sides; refuge, protection.

Damnoethi, *v.* to expose all around.

Damnoethiad, -au, *sm.* exposure on all sides.

Damnyddol, *a.* wreathing or twisting about.

Damnyddu, *v.* to wreathe or twist about or around.

Damobrwyo, *v.* to reward all round.

Damobrwyol, *a.* retributive.

Damorchuddio, *v.* to cover on all sides; to cover over; to overwhelm.

Damrafaelio, Damrafaelu, *v.* to quarrel all round; to be contentious or quarrelsome.

Damrafaelus, *a.* contentious, quarrelsome.

Damraniad, -au, *sm.* a dividing or separating; division, separation.

Damranu, *v.* to divide or separate on all sides; to divide or separate.

Damred, -ion, *sf.* [rhed] a circulation; a course.

Pan na bo Toddaid ar ddechreu pennill, eithr ar ei ddiwedd, nid rhaid wrth y cyfryw gyfochel a hyn, gan fod y Toddaid yn cwblhau'r gerdd, a'r gerdd herwydd cwrs a *damred* canu.—*Cyfrinach y Beirdd*, 151.

Damred, Damredeg, Damredu, *v.* to run about or around; to circulate; to ambulate; to traverse, to perambulate.—*C.G.* iv. 751.

Dymgais â'm gwlad o'i hamgylch,
Damred a cherdded ei chylch.—*D. ab Gwilym*, cclx. 31.

Damredwr, wyr, **Damredydd,** -ion, *sm.* one who goes or moves about; an ambulator.

Damrith, -iau, -ion, *sm.* an outward form, shape, or figure; appearance; guise; that which presents itself to the mind.

Rhaid eu bod yn gyflwyr unolwg â'r meddwl . . . yn berffaith gydliw â'r ystyrbwyll, a'r crebwyll, a'r golygiad o *ddamrith* awen a meddwl.—*Cyfrinach y Beirdd*, 12.

Damrithiad, -au, *sm.* a making or becoming apparent; assumption of a form or shape; appearance.

Damrithio, *v.* to become apparent; to assume a shape or form; to appear.

Damrithiol, *a.* apparent; seeming, appearing.

Damrodawl, *a.* rotatory, circumrotatory, wheeling.

Damrodi, *v.* to move or wheel round; to rotate.

Damrodiad, -au, *sm.* circumrotation, rotation.

Damroddawl, *a.* distributing, distributive.

Damroddi, *v.* to distribute about, to give all around.

Damroddiad, -au, *sm.* a distributing about; distribution.

Damrwygiad, -au, *sm.* dilaceration.

Damrwygo, *v.* to tear all around; to lacerate on every side; to dilacerate.

Damrwymiad, -au, *sm.* the act of binding round.

Damrwymo, *v.* to bind round or about.

Damrwymol, *a.* binding around.

Damryfeiliad, -au, *sm.* diversification, variegation, variation.

Damryfeilio, *v.* to variegate, to diversify, to vary.

Damryfeilus, *a.* diverse, variegated, variant.

Damryfusiad, -au, *sm.* disagreement, variance.

Damryfuso, *v.* to disagree; to be at variance.

Damryfusol, *a.* disagreeing, discordant.

Damryson, Damrysoni, *v.* to contend, to dispute, to strive; to quarrel.

Digitized by Google

Damryweddu, *v.* to alter in appearance; to variegate, to diversify.

Damrywiad, -au, *sm.* variation in kind; diversification.

Damrywio, *v.* to vary or alter in kind; to diversify or variegate.

Damrywiol, *a.* varied, diversified, diverse.

Damsang, -au, *sf.* [sang, sangu] a treading about; a tread, a trample.

Damsang, } *v.* to tread, to trample; to tread
Damsangu, } under foot; 'to dance about.'

Eu dur yng nghalonau yn tewi â'i ddarstain,
A meirch, eu marchogion yn *damsang* tan draed.
Robert Owen: Gweithiau, 282.

Fel y sathra meirch rhyfelwyr
Tan eu traed bob math o filwyr,
Felly *damsang* angeu diriaid
Y breninoedd fel begeriaid.
Rhys Prichard: C. y C. cvi. 31.

Damsangiad, -au, *sm.* a treading, a trampling.

Damsangol, *a.* treading, trampling.

Damsain, *v.* [damsang] to tread or trample.

E ddarfu i mi flino dy Yspryd, dirmygu dy awdurdod, *damsain* dy ddaioni dan draed, a chlwyfo fy nghydwybod fy hun.—*Iosua Tomas:* Buchedd Grist. 355.

Damsathru, *v.* to tread about; to trample around.

Damuned, -au, *sf.* See *Dymuned, Dymuno, Dymuniad,* &c., which are now the more usual forms.

Damurddiad, -au, *sm.* dignification.

Damurddo, *v.* to dignify; to exalt in rank.

Damwain, *pl.* damweiniau, *sf.* [dam-+chwaen] accident, casualty, chance, hap, fortuity; incident; an event; fortune, luck.

Nyt hir ettwa yd ym y gyt. a llawer *damwein* a digawn bot.—*Mabinogion,* 18 (cf. 19, 20, 22).

Ac or dihagei neb or *damwein* tyghetuenawl hwnnw. y bodynt ar y dyfred gyr eu llaw. Ac velly breid oed or dihagei neb yn dianaf or ryw *damwein* direidi hwnnw ac ef.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 48, 284.

Ac o deruyd *damweinyeu* ny aller eu teruynu ae oblegyt byt ae oblegyt eglwys yn yr eistedusaeu ereill oe eu hanawster ac eu pedrusder. yn y teir eistedua pennadur hynny y trychir ac teruynir yn deduawl.
Yst. de Carolo Magno, col. 407 (cf. 413, 432).

Gwedy daruot e kyvraue ar *damweyn* hwnw.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 293 (cf. 175).

Edrych *damweineu* a cherdet y fford y mynnwyf.
Mabinogion, 284 (cf. 285).

A phan gigleu brenhin Lloegyr y *damwein* hwnnw ofynhau a wnaeth gynhal ryfel a vei vwy.
Brut y Tywysogion, 280.

Ni wyr neb beth yw ei *ddamwain.*
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 546.

Damwein oedd hyn i ni.—1 *Sam.* vi. 9 (cf. xx. 26).

Amser a *damwain* a ddygwydd iddynt oll.—*Preg.* ix. 11.

Damwain pob hely.—*Diareb.* (M.A. iii. 153; cf. 166.)

Wrth chwareu disiau, os teifl un ddau chwech weithiau, fe allai mai *damwain* a fydd.—*E. Samuel:* Grotius, i. 12.

Y ddau olaf, gan sathru tan draed dymmestloedd pob *damwain* dygwyddedig, a ymarfogent â bwriad diysgog i ddioddef pob gwrthwyneb a thrychineb fel eu gilydd.
Iago ab Dewi: Llonyddwch, 13.

Damwain ddu, good fortune, good luck, luck.

Pan debycko dyn vwyhaf gael llonydwch a *damwein du* o honaw nessaf vyd idaw yna y deruysgu.
Yst. de Carolo Magno, col. 431.

Dygasedh yw anuynnu lhes neu *dhamwain da* i aralh.
Ymborth yr Enaid, § 7.

Ni wŷl o ddrwg un wala,
Na thrain lle bo *damwain da.*—*Gronwy Owain,* 110.

Damwain ddrwg, } ill luck, mischance, mis-
Drwg ddamwain, } fortune, mishap, ill chance, evil accident.

Ar ddamwain, by chance, by accident, accidentally, casually, incidentally, haply.—*Gen.* xxviii. 11; *Luc* x. 31.

Gwae'r Sais a'i clyw onid *ar ddamwain.*—*Iolo Mss.* 282.

O ddamwain, by chance or accident, accidentally.

Rac ofyn dyuot eilweith *o damwein* y ryw ormes honno.
Mabinogion, 96.

Pa dhelw yntau y lhosgassant yr ecclwyse neu adeiliadse *o dhamwain.*—*Lucidar,* § 66.

Nis gellir na da na drwg namyn *o ddamwain.*
Barddas, i. 248.

Cyn no hyny nid oedd cynghanedd gydsain eithr *o ddamwain.*—*Iolo Mss.* 214.

A'r hwn sydd, megys y dywedwn, nid *o ddamwain,* eithr o anghenrhaid.—*Ed. Samuel:* Grotius, i. 2.

O wir ddamwain, by mere chance or accident.

Ni ellir mewn modd yn y byd ragweled beth a ddygwydd *o wir ddamwain.*—*C.S.*

Wrth ddamwain, by chance, accidentally, casually, by hap.

A dygwyddodd *wrth ddamwain* fod y rhan honno o'r maes yn eiddo Boaz.—*Ruth* ii. 3.

Damwain ddall, blind chance.

Damwain angeuol, a fatal accident or occurrence.

Nid yw y cwbl ond damwain a dygwydd, it is all chance and accident; it is all a lottery.

¶ In M.W. *damwain* is usually masculine, but now feminine: cf. *Preg.* ii. 14.

Damwain, *v.*=*Damweinio.*

Damwedd, -au, *sf.* chance, accident, casualty. Apparently the same as *damwain,* q.v.

Doethineb a gwybodaeth pendant yw Duw; wrth lwyr ddiddymiant anwybyddiaeth ac annoethineb; ac wrth hyn nis gellir o *ddamwedd* ba bynnag yr hanfod-ddygwydd nas gŵyr.—*Barddas,* i. 206.

Damweiniad, -au, *sm.* a chancing or happening.

Damweiniadol, *a.* accidental, casual; happening.—*M.A.* i. 7, 86.

Damweiniaeth, -au, *sf.* an accident, casualty, or chance; lottery; an occurrence.

Coelbren damweiniaeth, a lottery ticket.

Damweiniedigol, *a.* tending to be accidental.

Damweinio, } *v.* to happen, to chance, to
Damwain, } befall, to fall out, to come to pass, to occur; to come about by chance.

Mi af heb y Lawnslot yr lle y mynno vyn *damweinyaw.*
St. Greal, § 138.

A gwedy colli y gledyf y *damweinwys* idaw kaffel bwell deuwynebawc.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 55 (cf. 56, 57, 77, 84, 88, 162).

Ar dyghetuen a welas *damwheinaw* y uudugolyaeth y Lud.—*Mabinogion,* 99 (cf. 33).

Ny *dhamweinia* dim o dha yr rai drwc. ac ny dhaw dim o dhrwc y rhai da.
Lucidar, § 61 (cf. 65, 66, 74, 108, 114, 119, 124).

Neu o *damwain* iddo, ysgatfydd, briodi, eto nid ydyw hyny briodas mo honi yn eu dysg hwy.
Morus Cyffin: Diff. v. 5.

Ni *ddamweiniodd* i mi weled Ieuan Fardd, o Goleg Merton.—*Gronwy Owain,* 172.

Ef a ddamweiniws ei ddyfod, it happened that he came.—*Arch. Brit.* 234.

Digitized by Google

Damweiniol, *a.* accidental, casual; fortuitous, adventitious; eventual.

Tri rhyw dha a rodhes Duw y dhyn, sef yw y rhai hynny, da anianiawl, a da *damweiniawl*, a da ysprydawl. . . Da *damweiniawl* yw yr hynn a dhel o dhamwain.
Ymborth yr Enaid, ¶ 12.

Nid gwahaniaeth *damweiniol* a mympwyol sydd yma.
Dr. Lewis Edwards: Traeth. Llen. 604.

Ansawdd damweiniol: see *Ansawdd.*

Yn ddamweiniol, accidentally, casually, by accident or chance.

Prynwr damweiniol, a chance customer.

Llofruddiaeth ddamweiniol, chance-medley.

Damweinioldeb, *sm.* accidentalness, casualness, fortuitousness, adventitiousness.

Damwel, *a.* [gwel, gweled] evident, manifest, clear, plain.

Yna dywedai Pilad wrth Annas a Chaiffas, *Damwel* i mi mai nid gwir a wedasoch; canys Ioseb a gymmerth Fair yn briod iddaw yng ngofyn cyfraith. . . *Damwel* i mi gan hyny mai Brenin tydi.
Dafydd Fychan: Efengyl Nicodemus, ii.

Damwibiad, -au, *sm.* a whirling or flying about; a wandering.

Damwibio, *v.* to fly or whirl about; to rove or wander around.

Damwregysiad, -au, *sm.* a surrounding with a girdle.

Damwregysu, *v.* to surround with a girdle; to girt around or about.

Damwyn, -ion, *sm.* [variant of *damwain*] accident, chance, hap, fortune.

Damwynio, } *v.* to happen, to chance, to befall,
Damwyn, } to come to pass, to occur.

Dechreuws Dews hyd na'm dyhudd dim
Damwyniaw yn gythrudd.—*Dafydd Benfras:* M.A. i. 313.

Llyma bwnc a *ddamwyniodd* wythnos a diwrnod cyn y Nodolig, mil a thrichant a thair blynedd ar ddeg gwedi geni Crist, yn y dref a elwid Alest.
Hanes Gwidw (Brython, iii. 241).

Damwyniol, *a.*=*Damweiniol.*

A chyda hyn dosparthu tôn, acen, meidr, a mesurau *damwyniawl* i ymadrodd a'i rhanau.
Dr. Gr. Roberts: Gram. 10.

Damyriad, -au, *sm.* a driving about or around; a pursuing after.

Damyru, *v.* [gyru] to drive around or about; to pursue after.

Dân, *sm.* 'a production, which attracts the senses; a fine object; a lure; a charm.'—*P.* The simple word is not known to occur; but *diddan* (dy- + dân), *diddanu, diddanwch, denu,* and other words, appear to be formed from it.

Dân, *s.* See *Danas, Danys.*

Gafr ddân (*pl.* geifr dân), a doe, a hind.

Dan, *prep.* [mutation of *tan,* q.v.] 1. (of position) under; beneath, below, underneath.

Y mae hi'n rhagori, ac yn blaenori ar bob iaith arall *dan* haul ac wybren.—*Cyfrinach y Beirdd,* 14.

Cadell, y mab hynaf, a gafas Dalaith Dinefwr, sef Dyfed a Cheredigion *dan* eu terfynau.—*Iolo Mss.* 30.

A'r lloer *dan* guddiedigaeth y ddaiar.
Meddygon Myddfai, ii. 720.

Dan ba gymmaint o flinderau,
Dan ba ddirfawr erchyll donnau,
Y mae ereill oll yn soddi,
Oedd â'u meddwl ar ddrygioni!
Ieuan Brydydd Hir: Gweith. 31.

Dan y ddaiar, under the earth; under ground.

Dan y nef, under heaven, under the heaven.

Yr oedd yn trigo yn Ierusalem, Iuddewon, gwŷr bucheddol o bob cenedl *dan y nef.*—*Act.* ii. 5.

Dan haul, } under the sun.—*Preg.* i. 3, 9,
Dan yr haul, } 14; ii. 18, 19, 20, 22.

Dan obaith, in hope; hoping.—*Rhuf.* viii. 21.

Dan ammod: see *Ammod.*

Dan olwg, under the eye (of); in the sight (of); in view; under survey, observation, consideration, or notice.

A chan i ni ymegnïo fel hyn i dalu ein dyledswydd yn hyn o orchwyl pwysfawr, megys *dan olwg* Duw . . . y mae genym obaith da am a gyflwynir yma.
Ll. G. Gyffredin, Rhag.

O'r llyfr hyny y tynais i y maint oll agos y sydd yn hyn o lyfr, oddierth rhai o'r pennillion addysg wrth bwyll mesur *dan olwg.*—*Llywelyn Sion:* Cyfr. y Beirdd, 10.

b. Dan with the infinitive forms a present participle, and is nearly synonymous with *gan* in that position.

Dyuot a oruc pob un tu ae gilyd onadunt *dan* daraw yngkedernit eu taryaneu.—*St. Greal,* ¶ 146.

Ef a aeth ymeith yn gewilydus druaneid *dan* wylaw ac ymelldigaw yr awr y ganet.—*St. Greal,* ¶ 17.

Yr ydwyf yr awr hon hefyd *dan* wylo yn dywedyd, mai gelynion croes Crist ydynt.—*Phil.* iii. 18.

Dwyn ei geiniog *dan* gwynaw.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 109.

Dan gerdded, walking; walking along.

Dan ganu, singing; singing along; with song, with singing.

Myned dan ganu, to go singing along.

Gallaf wneuthur hyny dan ganu, I can do that singingly; I can do that and sing at the same time; I can do that with ease.

c. with the suffixed personal pronouns: *danaf, danat, danad; dano, danaw* (f. *dani, danei*): pl. *danom, danoch, danynt, denynt, danaddynt.* See *Am* 3.

Codi dani: see s.v. *Codi.*

2. (of time) till, until; to; as far as; up to.

Dan eleni, till this year.

Dan Nadolig, till Christmas.

Dan heddyw, until this day; unto this day.

Dan hynny, till then, until that time.

¶ This secondary form (*dan*) is now rather more usual than the primary *tan;* but the initial mutations are those of *t* (*tan*).

Danadl } (*sg.* danadlen, danaden, dynaden, *f.*),
Danad } *s.pl.* nettles; the nettle (*Urtica*).—
Dynad } *Hugh Davies:* Welsh Botanology, 89,
Dynaid } 181.

Yr aelwyd hon neu'n cudd *dynad,*
Tra vu vyw ei gwarcheidwad.
Mwy gorddyvnasai eirchiad.
Llywarch Hen: M.A. i. 106 (cf. 104).

Yn y dydycu hynny yd ymhoelir eur or liliwm ar *dynhaden.*—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 146.

Hwy a ruent ym mhlith perthi: hwy a ymgasglent dan *ddanadl.*—*Iob* xxx. 7 (cf. Diar. xxiv. 31; Esa. xxxiv. 13).

Mewn haf y mae llawer hagr a gerwin, a budr ac anferth, fal y bydd anferth yr olwg ar lawer peth, hagr a gerwin dywydd, anferth ysgrêch adar rheipus, a phoenus ddioddefiad oddi wrth nadredd, drain, a *dynaid.*
Cyfrinach y Beirdd, 18.

Digitized by Google

Cymmer y *dynaid* blodeuwyn . . . a chadw y *dynaid* yn y tŷ'n sychon, fal y galler eu cael yn y gauaf.
Meddygon Myddfai, ii. 471.

Y *ddynhaden* sydd lysewyn tanbaid, twym, a sych. . . Cymmer had y *dynaid*, a gwna'n bylor, a berw yn dda mewn dwr ffynnon. . . Hefyd, cais had y *ddynhaden*, a bwrw yng nghyd â phupur.—*Meddygon Myddfai*, ii. 793.

Onis erddir, onis llafurir, onis trinir, ac onis trwsir, yn lle gwenith fe a dyf ysgall, ller, a *danadl*.
Moruu Cyffin: Diff. iv. 22.

Danadlen ddall (*farw*, *fud*), dead-nettle, blind-nettle (*Lamium*).

Agripalma, babanllys, *dynhaden ddall*, torloes.
Meddygon Myddfai, 281.

Danadlen farw goch, red dead-nettle or archangel (*Lamium purpureum*): also called *marddanadlen*.

Danadlen farw wen, white dead-nettle or archangel (*Lamium album*).

Danadlen farw felen, yellow dead-nettle (*Lamium luteum*).

Danadlen fwyaf, *Danadlen ysgar*, } great nettle (*Urtica dioica*).

Danadlen leiaf, small nettle (*Urtica urens*).

Danadlen belaidd, Roman nettle (*Urtica pilulifera*.

Danadl poethion, *Danadl duon*, } sting nettles, stinging nettles (*Urtica urens*).

Danadl gwynion, (*sg.* danadlen wen), serpentine cucumber, cucumer anguinus, cucumerasinis. —*D.*

Dynaid gwynion, cucumerasinis. — *Meddygon Myddfai*, 283.

Dynaid cochion, red nettles.

Cais y tanclys, a brig y gwarch lys', a brig *dynaid cochion*.—*Meddygon Myddfai*, ii. 679 (cf. i. 12).

¶ Antiqui scribunt *dynad*.—*D.*

Danadlog, **Danadog**, } *a.* full of nettles, abounding with nettles.

Danadlwydd, **Danadwydd** } (*sg.* -en, *f.*), *s.pl.* nettle-trees.—*Dicts.*

Danas, **Danys**, } *s.pl.* [prob. from L. *dama*, L.L. *damus*: cf. C. *da* (C.V.); Br. *dam*, *demm*; Ir. and Ga. *damh*; Fr. *dain*, *daine*; It. *daino*, *daina*] deer; fallow deer.

Bwch danas, *Bwch danys* } (*pl.* bychod danas, bychod danys), the male of the deer; a buck.

Y mynydd uchel, a'r bryn glas,
Yw llwybr y *danas fychod*.—*Edm. Prys*: Salm. civ. 18.

Gafr ddanas, *Gafr ddanys* } (*pl.* geifr danas, geifr danys), the female of the deer; a doe.

¶ Pennant (*British Zoology*, ed. 1768, i. 38), on the authority of Edward Lhwyd (*Phil. Trans.* No. 334), has the following note: 'One of the Welsh names of this animal (*geivr danus*, or *Danish goat*) implies that it was brought from some of the *Danish* dominions.' This is not probable.

Dandwn, *sm.* a feeling or groping.—*P.*

Dandwn, *v.* to feel about, to grope.—*P.*

Danfon (*ō*), *v.* [dy- + anfon: C. *danvon* or *danfon*] to send; to dispatch; to convey.

Yna y *danuonet* y bop lle y geissaw y kyfryw uab hwnnw.
Ysl. Bren. Bryt.: LL.C.H. ii. 141.

Treul atteb attaf a *danuonynt*.—*Cynddelw*: M.A. i. 216.

Danvoned itaw ditan perchi.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 272.

Ai dyn fwyn a'u *danfones*?
D. ab Gwilym, xlii. 24 (cf. 21; xii. 37).

Ac yna y *danuoned* mab y brenhin or lhys anrhydedhus yn ol y gwas alhtut.—*Lucidar*, § 28.

Danfon, atolwg, gyd â'r hwn a *ddanfonych*.—*Ecs.* iv. 13.

Duw yn fwyn a'i *danfonodd*;
Duw a'i rhoes, a da wr oedd.—*Llywelyn Sion*.

A'r Edgar hwnw a *ddanfones* at dywysogion Cymru ag arch iddynt ymweled ag ef yng Nghaerlleon Gawr. . . A Gweithfoed a *ddanfones* ateb i Edgar.—*Iolo Mss.* 90.

Danfon am, to send for.

Danfonadwy, *a.* that may be sent; missile.

Danfonawl, *a.* sending, missive, missionary.

Danfonedig, *a.* sent; dispatched.

Danfonedigion, those that are sent; missioners.

Danfonedigaeth, -au, *sf.* a sending; a mission.

Danfonedigol, *a.* sending; conveying; missionary.

Danfoniad, -au, *sm.* a sending; a conveying; a mission.

Danllewychu, *v.* = *Damlewychu*.

Daniog, *a.* [dàn, danas] relating to or consisting of the genus deer.

Bwch daniog = *Bwch danas*.

O'r naill du i'r afon yr oedd ceirw cochion, ac ewigod, ac elanedd brithion yn chwareu; goris hyny yr oedd iyrchod ac iyrchellau llawdrwynion yn carlamu; gar llaw hyny yr oedd *bychod daniawg* a geifr yn bonllymu ac yn neidiaw.
Breuddwyd Gruffydd ab Addaf (Y Greal, 342).

Dannedd, *s.* a pl. of *Dant*.

Danneddiad, -au, *sm.* the breeding or cutting of teeth (in infancy); dentition, teething; denticulation; indentation; serration.

Danneddog, *a.* 1. having (great) teeth, toothed, dentate.

Baed *danhedawc* a nessa yr crang ac a walhaa yn y mieri tew ac a lymhaa y danned yng kedernyt y deyrnas.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 125.

Gosodaf di yn fen ddyrnu newydd *ddanneddog*.
Esa. xli. 15.

Y ci a orweddo ar wair mewn preseb, nid oes yn ei allu ei bori ef ei hun; ac y mae yn rhy wenwynllyd *ddanneddog* i adael i'r ych gyffwrdd ag ef.—*G. Mechain*: Gwaith, ii. 27.

2. indented, notched, jagged, rugged; serrate, dentated; biting.

Ereill ydynt mewn llafur a lludded mawr yng nghanol tymmestloedd dychrynllyd ar wynebau *danneddog* a brigwyn tonnau y dyfroedd dyfnion.—*Brutus*: Brutusiana, 173.

Craig ddanneddog, a jagged or rugged rock.

Danneddol, *a.* relating to the teeth; dental.

Danneddu, *v.* 1. to breed or cut teeth; to furnish with teeth.

2. to indent, to notch, to jag.

3. to show the teeth; to grin; to wrangle, jangle, or altercate.

Yr oeddynt yn danneddu â'u gilydd, they showed their teeth at one another; they wrangled together.

4. to seize with the teeth; to bite.

Danneddwyn, *m.* *pl.* danneddwynion, **Danneddwen**, *f.* } *a.* having white teeth, white-toothed.

Nid oedd feddw dyn *danneddwyn*,
Nid wyf lesg, nid yfai lyn.
Dafydd ab Gwilym, lxxxi. 25 (cf. ccvii. 32).

Digitized by Google

Dannod, -ion, -au, *sm.* [annod ?] an upbraiding, a twitting, a reproach.

Nawd yw rac ran o *dannod*
Nwyf rieu glwyf rwy o glod.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 296 (cf. 555).

Gair *dannod* yw am un a fethodd.
Diareb. (M.A. iii. 156.)

Ai *dannod*, ac ymdynu
Tros dwr, wr trahäus du?
Gr. Gryg (D. ab Gwilym, cxxiv. 25).

Cellweiriant am ei yspryd a ffoes fry,
Ac ar ei oer lwch syrth *dannodion.*—*Blodau Ieuainc*, 28.

Dannod, *v.* to upbraid, to twit, to reproach.

Na *ddannoded* fy arglwydd i mi anwiredd.
2 *Sam.* xix. 19 (cf. Barn. viii. 15; Marc xvi. 14).

Gwellăed ei feiau, fel na allo ei wrthwynebwr gael achosion ar ol hyny i *ddannod* [*edliw] iddo y fath feiau.
Ed. James: Hom. i. 190 (cf. iii. 162, 176, 177, 181, 230).

A ched ddirwgnach ydoedd,
Parod, heb ei *dannod* oedd.—*Gronwy Owain*, 50 (cf. 73).

Hi a geryddodd y dynion digalon, gan *ddannod* iddynt y gwaradwydd o fod yn esmwyth.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 25.

Dannodiad, -au, *sm.* an upbraiding or twitting.

Dannodiaeth, -au, *sf.* an upbraiding, twitting, or reproaching; reproach, ignominy.

Y rhan fwyaf wrth ddwyn tystiolaeth i ryw un, a gymmysgant *ddannodiaeth* ei henw.
Charles Edwards: Hanes y Ffydd, 79.

Dannodol, *a.* upbraiding, twitting.

Dannodwr, wyr, } *sm.* one who upbraids,
Dannodydd, -ion, } twits, reproves, or reproaches; an upbraider, a twitter.

Dannoedd, }
Dannodd, } *sf.* [dant] toothache, odontalgia.

Or mynny na dêl y *dannoed* itt byth y gyniuer gweith yd ymolchych. kyffro dy glusteu oe mywn ath uyssedd.
Meddygon Myddfai, i. 62 (cf. 30, 42, 52, 61).

Meddyginiaeth brofedig rhag y *ddannoedd*. . . . Hyn a brofwyd yn fynych genyf, ac a welais fy hunan yn wared parodol rhag gwaew'r *ddannoedd*.
Meddygon Myddfai, ii. 453 (cf. 7, 48, 393, 452, 804, 806).

Y mae yn ddarostyngedig, bob dydd, i amryw drueni, peryglon, colledion, damweiniau, dannodiaeth, gwradwydd, anair, tlodi, clefyd, aflechyd, y tostedd, y cryd, y *ddannoedd* . . . a mil o ofidiau.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 87.

Dannoedd waed, a gum-boil.

Llysiau y ddannoedd, masterwort (*Imperatoria ostruthium*).

¶ No other form than *dannoedd* is known to Meddygon Myddfai, and to the earlier lexicographers: *dannodd* seems to owe its origin to a fanciful etymology.

Dannog, *sf.* [dant] wood betony (*Betonica officinalis*). See *Dannogen, Llysiau dwyfoy*, and *Cribau Sant Ffraid.*

Llyma y llyssev hynny; y iewyd, y tryw, y greulys uendigeit . . . a *dannavc* Sanffret, a gwreid yr erwein.
Meddygon Myddfai, i. 12.

Dannogen, *sf.* [dannog] betony (*Betonica*).

O agori ar y greadur ac yna kymryt y deuparth or *danhogen* ar trayan or wiolet; ac emenyn hallt; ac eu maedu ygyt. ae dodi wrthaw.
Meddygon Myddfai, i. 5 (cf. 19, 34).

Betonica, crîbau Sanffred, y bitain, y biton, y feddyges lwyd, *dannogen.*—*Meddygon Myddfai*, 282.

Dannogen y dwr, water betony, water figwort (*Scrophularia aquatica*).—*H. Davies:* Welsh Botanology, 181.

Betonica aquatica, *dannogen y dwr*, y feddyges ddu.
Meddygon Myddfai, 282.

Dannogen y coed, wood betony (*Betonica officinalis*).—*Llysieulyfr Teulwaidd*, 267.

Dannwydd, *sf.* [=dannoedd] toothache, odontalgia.

Mae sant neillduol i bob clefyd, megys duwiau i'w iachäu hwy. S. Roch a S. Anthoni i'r frech fawr. Ir gloesion, S. Cornelius; ac i'r *ddannwydd* S. Apolin.
Ed. James: Hom. ii. 95.

Danol, *sf.* coltsfoot (*Tussilago farfara*). The same as *carn yr ebol.*—*Walter Davies:* Agriculture of S.W. i. 611.

Dansang, *v.* [dan+sang-u] to tread or trample under foot; to tread, to trample.

Dansawdd, soddion, *sm.* [dy-+ansawdd ?] 'an abstracted state or principle;' an abstract.

Ar ddansawdd, in the abstract, abstractedly.

Dansial, *v.* [=dansang: cf. *dains*] to tread under foot, to trample, to tread.

Hi a *ddansielwyd* dan draed meirch, ac a'i bwytawys y cwn hi.—*Marchog Crwydrad*, i. 5.

Mi a doraf i lawr y gwelydd, y fal y methrer [*dansieler] hwy dan draed.—*Ed. James:* Hom. i. 108 (cf. iii. 272).

Sengi ar (dansial) sodlau un arall, to tread on another's heels.—*W.*

Dansial allan, to tread out.—*W.*

Dansoddedigaeth, -au, *sf.* abstraction.

Dansoddi, *v.* [dansawdd] to abstract; 'to reduce to principles.'

Heb law y gallu i gyffredinoli, y mae dyn yn feddiannol hefyd ar allu arall cyferbyniol, yr hwn sydd o natur uwch, ac yn ei arwain at wirioneddau uwch, sef gallu i *ddansoddi*, neu neillduoli. . . Nid rhanu yw *dansoddi*. . . Wrth *ddansoddi* yr ydym yn *dy-ansoddi*, hyny yw, yn neillduoli yr ansawdd.—*Dr. Lewis Edwards:* Traeth. Llen. 605.

Dansoddiad, -au, *sm.* [dansawdd] abstraction.

Wrth sylwi ar ryw ran i'r goeden, megys deilen neu gangen, nid ydym yn gwneuthur dim mwy na rhanu: ond wrth sylwi ar ansawdd y goeden, megys gwyrdd, uchel, cadarn, y mae yno *ddansoddiad*. . . Dyma y ddwy brif ffynnonell o'r rhai y mae mynegiadau yn tarddu, sef cyffredinoliad a *dansoddiad*.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 605, 606.

Dansoddiaeth, -au, *sf.* abstraction; 'arrangement of principles.' In the subjoined quotation the word seems to be intended for physics.

Anianaeth, neu *ddansoddiaeth*, sydd ran arall ehelaeth o arddansoddiad.—*Cylchgrawn Cymraeg* (1793), 203.

Dansoddiant, *sm.* abstraction.

Dansoddol, *a.* abstract; abstractive.

Trwy gyssylltu y gwrthddrych â rhyw feddyliddrych mwy cyffredinol neu *ddansoddol* yr ydym yn ffurfio barn am dano, ac yn gallu gwneyd mynegiad o'r farn honno mewn geiriau.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 606.

Geiriau dansoddol, abstract terms.

A *geiriau dansoddol* y gelwir y rhai hyn er eu troi yn sylweddeiriau. . . Ar yr un pryd dylid sylwi y gellir cyffredinoli *geiriau dansoddol;* ond arosant yn *ddansoddol* ar ol hyny. Meddyliem hefyd mai i'r *geiriau dansoddol* y perthyn y perwyddiaid.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 605, 606.

Y maent yn golygu nad Moses a roddodd y deg gorchymmyn, am na allasai gwaharddiad o ddelwaddoliaeth gymmeryd lle hyd ryw oes ddiweddarach, pan y daeth dynion, drwy gynnyddu yn ol graddau dadhuddiad, i afael a dirnadaeth eglur o ddrychfeddyliaeth *ddansoddol* y Duwdod.—*Adolygydd*, i. 170.

Enwau dansoddol, abstract names or nouns.

Dadsoddoldeb, *sm.* abstractness, abstractedness.

Dant, *pl.* dannedd, daint, *sm.* [C. *dans* (pl. *dannet, deins*); Br. *dant* (pl. *dent;* Ir. *dead;* Ga. *deud;* L. *dens*] 1. a tooth.

Gurth pop vn or *dannet* buch ac vgeyn o aryant.
Cyfreithiau Cymru, i. 312 (cf. 504, 698).

Digitized by Google

Cymmer y *dynaid* blodeuwyn . . . a chadw y *dynaid* yn y tŷ'n sychon, fal y galler eu cael yn y gauaf.
Meddygon Myddfai, ii. 471.

Y *ddynhaden* sydd lysewyn tanbaid, twym, a sych. . . Cymmer had y *dynaid*, a gwna'n bylor, a berw yn dda mewn dwr ffynnon. . . Hefyd, cais had y *ddynhaden*, a bwrw yng nghyd â phupur.—*Meddygon Myddfai*, ii. 793.

Onis erddir, onis llafurir, onis trinir, ac onis trwsir, yn lle gwenith fe a dyf ysgall, lller, a *danadl*.
Morus Cyffin: Diff. iv. 22.

Danadlen ddall (*farw*, *fud*), dead-nettle, blind-nettle (*Lamium*).

Agripalma, babanllys, *dynhaden ddall*, torloes.
Meddygon Myddfai, 281.

Danadlen farw goch, red dead-nettle or archangel (*Lamium purpureum*): also called *marddanadlen*.

Danadlen farw wen, white dead-nettle or archangel (*Lamium album*).

Danadlen farw felen, yellow dead-nettle (*Lamium luteum*).

Danadlen fwyaf, *Danadlen ysgyar*, } great nettle (*Urtica dioica*).

Danadlen leiaf, small nettle (*Urtica urens*).

Danadlen belaidd, Roman nettle (*Urtica pilulifera*.

Danadl poethion, *Danadl duon*, } sting nettles, stinging nettles (*Urtica urens*).

Danadl gwynion, (*sg.* danadlen wen), serpentine cucumber, cucumer anguinus, cucumerasinis. —*D.*

Dynaid gwynion, cucumerasinis. — *Meddygon Myddfai*, 283.

Dynaid cochion, red nettles.

Cais y tanclys, a brig y gwarch[lys], a brig *dynaid cochon*.—*Meddygon Myddfai*, ii. 679 (cf. i. 12).

¶ Antiqui scribunt *dynad*.—*D.*

Danadlog, } *a.* full of nettles, abounding with nettles.
Danadog, }

Danadlwydd } (*sg.* -en, *f.*), *s. pl.* nettle-trees.—
Danadwydd } *Dicts.*

Danas, } *s. pl.* [prob. from L. *dama*, L.L. *damus*: cf. C. *da* (C.V.); Br. *dam*, *demm*; Ir. and Ga. *damh*; Fr. *dain*, *daine*; It. *daino*, *daîna*] deer; fallow deer.
Danys, }

Bwch danas } (*pl.* bychod danas, bychod danys),
Bwch danys } the male of the deer; a buck.

Y mynydd uchel, a'r bryn glas,
Yw llwybr y *danas fychod*.—*Edm. Prys*: Salm. civ. 18.

Gafr ddanas } (*pl.* geifr danas, geifr danys),
Gafr ddanys } the female of the deer; a doe.

¶ Pennant (*British Zoology*, ed. 1768, i. 38), on the authority of Edward Lhwyd (*Phil. Trans.* No. 334), has the following note: 'One of the Welsh names of this animal (*geivr danas*, or *Danish goat*) implies that it was brought from some of the *Danish* dominions.' This is not probable.

Dandwn, *sm.* a feeling or groping.—*P.*

Dandwn, *v.* to feel about, to grope.—*P.*

Danfon (*ā*), *v.* [dy- + anfon: C. *danvon* or *danfon*] to send; to dispatch; to convey.

Yna y *danuonet* y bop lle y geissaw y kyfryw uab hwnnw.
Ystat. Brenn. Brytt.: Ll.C.H. ii. 141.

Treul atteb attaf a *danuonyat*.—*Cynddelw*: M.A. i. 216.

Danuonaf itaw ditan perchi.
Gwgon Gardd Brycheiniog: M.A. i. 272.

Ai dyn fwyn a'u *danfones*?
D. ab Gwi

Ac yna y *danuonad* mab y hu
yn ol y gwas alhtut.—*Lucidar*,

Danfon, atolwg, gyd á'r hwn
Duw yn fwyn a'i *danfonodd*:
Duw a'i rhoes, a da wr oedd.

A'r Edgar hwnw a *ddanfones*
arch iddynt ymweled ag ef yn
Gweithfoed a *ddanfones* ateb i E

Danfon am, to send for.

Danfonadwy, *a.* that may

Danfonawl, *a.* sending,

Danfonedig, *a.* sent; dispat

Danfonedigion, those that a

Danfonedigaeth, -au, *sf.*

Danfonedigol, *a.* sending;
ary.

Danfoniad, -au, *sm.* a send
a mission.

Danllewychu, *v.*=*Damlewy*

Daniog, *a.* [dân, danas] relat
ing of the genus deer.

Bwch daniog=*Bwch danas*.

O'r naill du i'r afon yr oedd ceirw co
elanedd brithion yn chwareu; goris hy
ac iyrchellau llawdrwynion yn carlamu
oedd *bychod daniawg* a geifr yn bonllyn
Breuddwyd Gruffydd ab Ad

Dannedd, *s.* a pl. of *Dant*.

Danneddiad, -au, *sm.* the breed
of teeth (in infancy); denti
denticulation; indentation;

Danneddog, *a.* 1. having (great)
dentate.

Baed danhedawc a nessa yr crang ac a
tew ac a lymhaa y danned yng kedernyt
Brut Gr. ab A

Gosodaf di yn fen ddyrnu newydd

Y ci a
ei bori
i adael

orweddo ar wair mewn presep,
ef ei hun; ac y mae yn rhy wenwy

2. indented, notched,
dentated; biting,

Ereill
tyn
wy

ydynt mewn
nestloedd dyfn
tonnau y dy

Cr
Da
Da
ni
2. t
3. t
j
y

Digitized by Google

=*Deintlys.*—*W.*

. *sm.* a tooth-brush.—*W.*

pen-mouthed, babbling.

an open-mouthed person, a

r.

the teeth; to bite.—*N.E.W.*

=*Tynwyddyd.*

Danas.

rw, *sf.* [C. *dâr* (pl. *deru*, *derv*, *derf*; Ir. *dair*, *duir*, ; Ga. *darach*; Gr. δρῦς] le oak.

eun

n. *Mabinogion*, 78 (cf. 79, 129).

dar. ac yn y cheigheu y gwna Ll.C.H. ii. 150.

oes Noe hen;

wen a *dâr.*

L. G. Cothi, I. ix. 77.

—*Guto'r Glyn.*

didor] drychin.

Hen: A.B. ii. 254 (cf. 256).

giar

—*Iolo Mss.* 260.

11; cxlviii. 49; cclx. 15).

iii. vi. 45 (cf. 3; xiii. 12.

ab Gwilym.

n.

G. Cothi, VII. viii. 47.

B. Hir: Gwaith, 89.

443, 446, 447, 448,

ound.

1. in some words it denoting *on*, *upon*, *per-*, *super-*; as in *rostwng.*

); as in *darogan*, *dar-*

ly negative force (*di-*+ *arhuno.* Cf. *Ar.*

bove, over.

him; *darnom*, above us;

fal] the oak-apple.

te, to doubt.

a doubt; suspicion,

mhob man, gan ddyrchu

mheu.

R. Davies: 1 Tim. ii. 8.

yd, -iau, *sm.* a cycle or circuit?

ob cadair gyfaenad dylid dadgan dysgogan beirdd dain; sef hyny, y cof a'r cadw ar wybodau, a chelf- u, a dosparthau, a threfnau, a breiniau, a defodau Ynys Prydain: dylid hefyd ddadgan Cofanon, *Dar-pryd* Mabon ap Medron; sef enwau a chof am feirdd, a hrydyddion, a sywedyddion, a doethion Ynys Prydain.

Iolo Mss. 213.

Digitized by Google

Dydgweith yd aeth y wreicda allan y orymdeith. y deuth y dy hen wrach oed yn y dref heb *dant* yn y phenn.
Mabinogion, 101 (cf. 28).

A tharaw pagan a wnaeth ar warthaf y helym. a holldi yr holl arueu ae benn ynteu hyt y *danned*.
Ystt. de Carolo Magno, col. 434 (cf. 428).

Ac eissoes gwedy delont o deissyfyt *deint* y llad. . . Yr ych mynydawl a gymer bleid. ae *danned* a wynhaa yg gweith Mor Hafren.
Ystt. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 151 (cf. 146, 153).

Rac bydêri: kymryt trwnc hwrd. a bystyl llasswot a sud yr onn: ac eu gwascu yn y glust. ac y adan y *deint*.
Meddygon Myddfai, i. 31 (cf. 42).

Ac odyna yn y byrrgrwn destlusiwys eneu ydoed manwynion *dhanhedh*.—*Ymborth yr Enaid*, § 23.

Pryfet o nef a dygwydawd ar weith gwad a deu *dant* y bop un.—*Brut y Tywysogion*, 16.

Da *daint* rhag tafawd, daw dydd,
Yng nghilfach safn anghelfydd.
Iolo Goch (cf. M.A. iii. 152).

Llygad am lygad, *dant* am *ddant*.
Ecs. xxi. 24 (cf. Matt. v. 38).

Beth amgen yw ei helynt ond megys estyn ei law yn safn y llew, a dal arth erbyn ei *daint*?
Robert Llwyd: Llwybr Hyff. 68.

Y mae *dannedd* mân gan Brudd-der.—*Daniel Ddu*, 162.

Dannedd blaen (*sg.* dant blaen), the foreteeth; the incisive or cutting teeth; the incisors.

Dannedd malu, molar teeth, grinders.

Dannedd sugno, sucking-teeth, milk-teeth; the first set of teeth in mammals.

Dant llygad (*pl.* dannedd llygaid), an eye-tooth; a canine or laniary tooth.

Meddyg dannedd, a dentist.

Codi dant, to give a relish; to provoke appetite.

Cael dannedd, } to breed or form teeth, to
Magu dannedd, } teeth.

Glendid dannedd, cleanness of teeth; scarcity of food; famine.—*Amos* iv. 6.

Dangos y dannedd, to show the teeth (defiantly); to snarl; to threaten or defy.

Nid yw hyn oll ond *dangos dannedd* heb allu'r mo'r brathu.—*Elis Wynn*: Bardd Cwsg, 86.

Noethi dannedd, to show the teeth snarlingly; to snarl or gnarl.

Noethodd y bwci ei *ddannedd* yn ysgyrnygl yd arno.
Ystên Sioned, 86.

O anfodd eu dannedd, } in spite of their
Er gwaethaf eu dannedd, } teeth.

Er hyny yn y diwedd y mae yn rhaid iddynt (*o anfodd eu dannedd*) ddiweddu lle y dechreuasant.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 88.

Dant ac ewin, } tooth and nail; by
Ewinedd a dannedd, } biting and scratching; with might and main; by all possible means.

'Arhöwch, ni ddarfu i ni â chwi felly,' ebr Pab Iulius; ac ati hi, *ewinedd a dannedd*, eilwaith yn gynddeiriog.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 90.

Celwydd yn dy ddannedd, you lie in your teeth or throat; you tell a great or glaring falsehood.

Dala dant } *ag un*, to wrangle or jangle with
Dala'r dant } a person.

Taflu yn nannedd un, to cast in one's teeth; to retort reproachfully; to insult in the face.

Gofyn gwaethaf dannedd un, to defy one in his teeth.

Traul daint ac ystlys, the expense of food and clothing.

Os hytheu aey canada y treulyau ef ny dyhukyr dym ydy o *treul deynt ac ystlys*.—*C.C.* i. 88 (L.W. 83).

Rhincian dannedd, to gnash or grind the teeth.—*Matt.* viii. 12; xiii. 42, 50; xxii. 13; xxiv. 51; xxv. 30.

Crynu dannedd, to make the teeth chatter; to gnash the teeth.

Am y dhwy boen hyny y dywedir. yno y bydh wylaw a *chrynnu dannedh*. canys y mwc a gyphry y lhygaid y wylaw. ar oeruel a bair yr *dannedh grynnu*.—*Lucidar*, § 101.

Fal yr oedd yn cychwyn i wrth y gwely dan *grynu dannedd* a dodi llef.—*Hanes Gwidw* (Brython, iii. 244).

Ysgyrnygu dannedd, to grind or gnash the teeth.—*Salm.* cxii. 10; *Marc* ix. 18.

Lle bydd wylofain ac *ysgyrnygu dannedd*.
Ed. Iames: Hom. ii. 20 (cf. i. 173).

Rhincian neu *ysgyrnygu dannedd* (fel y gŵyr pawb) sydd yn dyfod oddi wrth oerni ac annwyd mawr.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. ix. 13.

Ysgyrnygu dannedd ar un, to gnash the teeth on a person.—*Iob* xvi. 9; *Salm.* xxxv. 16; xxxvii. 12; *Act.* vii. 54.

Dolur dannedd, } pain in the teeth, toothache,
Gwŷn daint, } odontalgia.

2. a tusk; a fang.

Dannedd baedd, the tusks or teeth of a boar.

3. a tine; a cog; a spike; a prong.

Dannedd og } (*sg.* dant og, dant oged), the
Dannedd oged } tines or teeth of a harrow.

Disglair gribin ewinrew,
Dannedd og rhywiog o'r rhew.
Dafydd ab Gwilym, clxxiv. 23.

Dreiniach, fal pigau draenog,
Hyd ên ddu, fal *dannedd og*.—*Gro. Owain*, 21.

Dannedd cribin, } the tines or teeth of a
Dannedd rhaca, } rake.

Dannedd olwyn, } the cogs or teeth of a wheel.
Dannedd rhod, }

Dannedd crib, the teeth of a comb.

4. (in botany).—*H. Davies*: Welsh Botanology, 10, 74, 181, 182.

Dant y llew, } dandelion (*Leontodon*). It bears
Daint y llew, } a name of similar import in almost every European language; but the reason of it has hardly been satisfactorily explained. See Dr. Prior, *British Plants*, 62.

Rac teirthon gryt: kymryt *deint y llew*, a mŵc y dayar ac eu taraw ar dwfyr y bore.
Meddygon Myddfai, i. 13 (cf. 19, 34).

Dens leonis, *dant y llew*.
Meddygon Myddfai, 284 (cf. 283).

Dant y llew cyffredin, common dandelion (*Leontodon taraxacum*).

Dant y llew y waun, marsh dandelion (*Leontodon palustre*).

Dant y llew lleiaf, hawkbit (*Hedypnois*).

Dant y ci, cock's-foot, cock's-foot grass (*Dactylus glomerata*). In some parts of S.W. the name is given to couch-grass or quitch (*Triticum repens*).

Agrostis, *dant y ci*.—*Meddygon Myddfai*, 281.

Dant y pysgodyn, saw-wort (*Serratula tinctoria*).

Dantaeth, *pl.* danteithion, *sm.* [dant] what appertains to the tooth; a dainty.—*P.*

Na fydd annigonol o ddim *dainteith*, ac na ruthra i fwyd.
Eccl. xxxvii. 29.

Digitized by Google

Dantaidd, *a.* pertaining to the tooth; toothsome; pleasing to the taste, dainty, delicate, delicious.

Pan fo gwr synwyrol ar ei siwrnai yn myned heibio i'w letty, er bod yn cynnyg iddo fwydydd o'r *dainteiddiaf*, eto efe a ymgeidw rhagddynt.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. iii. 31.

Danteiddiad, -au, *sm.* a making dainty, palatable, or delicious.—*P.*

Danteiddrwydd, *sm.* daintiness; deliciousness.

Danteithfwyd, } -ydd, -au, *sm.* [dantaidd+
Danteiddfwyd, } bwyd] dainty food; dainty dishes; a dainty.

Am hyn da y dywedir: Ymborth diandlawd a *danteiddfwyd* yw gweithdy anlladrwydd.
Robert Llwyd: Llwybr Hyff. 69.

Ar un diwarnod, gwedi ymginiawa yn foethus, daeth chwant ar y gwr wybod pa *ddanteithfwyd* goreuryw oedd yn y ddysgl gwarcharedig.—*Iolo Mss.* 160.

Pa le y mae fy holl felusgerdd a'm canu, a'm holl dai gwychion, a'm holl wleddoedd a'm *dainteithfwyd* costfawr.
Dr. Davies: Llyfr y Res. I. viii. 12 (cf. II. i. 16).

Ystyriant ef yn *ddanteithfwyd.*—*Cylchgrawn,* i. 182.

Danteithiol, }
Danteiddiol, } *a.* [dantaidd] dainty, delicious.

Pe bai'r cyfryw ddyn, meddaf, yn ddisymmwth, ar darawiad llygad, yn cael ei osod mewn palas teg, helaeth, cyfoethog, yn llawn o bob math ar oleuadau disglair, a thân gwresog, ac aroglau peraidd, a bwydydd *dainteiddiol*, a gwelyau esmwythglyd, a difyr felusgerdd . . . pa beth a wnai'r dyn tlawd hwn, meddwch chwi?
Dr. J. Davies: Llyfr y Res. I. x. 17.

A phob peth *dainteithiol* a gwych a aethant ymaith oddi wrthyt.—*Esgob Parry:* Dad. xviii. 14.

A'r aeron a chwennychodd dy enaid, a aethant ymaith oddi wrthyt, a phob peth *danteithiol*. a gwych a aethant ymaith oddi wrthyt.—*Dad.* xviii. 14 (ed. 1851).

Yr hwn gan fyw ym mhob cyfoeth a digrifwch yn y byd hwn, a chan ymddigrifo beunydd mewn *dainteiddiol* fwydau a dillad gwychion, a ddibrisodd Lazarus dlawd.
Edward James: Hom. i. 117.

Danteithion, } *s.pl.* dainties; dainty food or
Danteiddion, } dishes; delicacies.

Am Asser, bras fydd ei fwyd ef, ac efe a rydd *ddainteithion* brenhinol.—*Esgob Morgan:* Gen. xlix. 20.

Na ddeisyf ei *ddanteithion* ef . . . ac na chwennych mo'i *ddainteithion* ef.
Esgob Morgan: Diar. xxiii. 3, 6 (cf. Ier. li. 34).

Na ddeisyf ei *ddanteithion* ef. . . Na fwyta fwyd y drwg ei lygad: ac na chwennych ei *ddaintethion* ef.
Esgob Parry: Diar. xxiii. 3, 6.

Na ad i mi fwyta o'u *danteithion* hwynt.
Esgob Parry: Salm. cxli. 4 (cf. Ier. li. 34).

Wrth y geiriau hyn, a'u cyffelyb, y dangosir yn oleu, y caiff y rhai bydol, bob un ei neillduol a'i briodol boenau, am eu glythineb, am eu *daintethion* a'u ammeuthyn foethusfwyd, am eu trais a'u traha, a'r cyffelyb.
Dr. Davies: Llyfr y Res. I. ix. 15 (cf. viii. 8).

Ac i'r perwyl yma y dywed y Brenin Doeth, am rhai a ddeisyfiant win a *danteithion*. . . Y neb a lanwo ei fol o *ddanteithion*, ac er hyny a fynai orchfygu yspryd godineb, a gyffelybir i ddyn yn ceisio diffoddi ffiam o dân ag olew.—*Robert Llwyd:* Llwybr Hyff. 69 (cf. 100).

A chwedi i bob un,o saig i saig, folera cymmaint o'r *danteithion* ag a wnaethai wledd i ddyn cymmedrol dros wythnos, yna bytheirio oedd y gras bwyd.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 30.

Ni welir bellach mo'r *danteithion* hyny heb i mi symmud pawl fy nhid.—*Gro. Owain,* 191.

¶ Most editions of the Bible have *danteithion* and *dainteithion*. Morgan and Parry, as will be seen, have both forms; but whether the word be formed from *dant* or from *daint*, *dainteithion* (as well as *dainteithiol*) can hardly be considered as strictly correct.

Dantfelus, *a.* having a sweet or dainty tooth; having a lickerish palate; dainty.

Dantlys, *sm.*=*Deintlys.*—*W.*

Dantrugl, -au, *sm.* a tooth-brush.—*W.*

Dantrwth, *a.* open-mouthed, babbling.

Dyn dantrwth, an open-mouthed person, a blab, a babbler.

Dantu, *v.* to use the teeth; to bite.—*N.E.W.*

Danwyddyd, *sm.*=*Tynwyddyd.*

Danys (*ā*), *s.pl.*=*Danas.*

Dâr, *pl.* deri, derw, *sf.* [C. *dâr* (pl. *deru, derow*); Br. *dero, derv, derf;* Ir. *dair, duir, darach, derg, darog;* Ga. *darach;* Gr. δρῦς]
1. an oak; the male oak.

Dar a dyf y rwng deu lenn
Gorduwrych awyr a glen.—*Mabinogion,* 78 (cf. 79, 129).

Ym pen hwnnw y planna *dar.* ac yn y cheigheu y gwna y nyth.—*Yst. Bren. Brgt.:* Ll.C.H. ii. 150.

Iddynt oes Moesen, a hyd oes Noe hen;
A dwy-oes deu-bren, derwen a *ddâr.*
L. G. Cothi, I. ix. 77.

Y *ddâr* fawr o ddaiar Fon.—*Guto'r Glyn.*

Gorwyn blaen *dar.* didar [*didor] drychin.
Llywarch Hen: A.B. ii. 254 (cf. 256).

A glywaist ti chwedl y Grugiar
Wrth y barcut ym mlaen *ddâr?*—*Iolo Mss.* 260.

Rhuad blin doriad blaen *ddâr.*
D. ab Gwilym, lxix. 34 (cf. cx. 11; cxlviii. 49; cclx. 15).

Hŷn fo Llywelyn o'r llys
No derwen o'r Wen Ynys;
No'r *ddâr* (honno yw'r dderwen),
No'r hydd a ai yn rhy hen.
L. G. Cothi, III. vi. 45 (cf. 3; xiii. 12.

O'r *ddâr* y ceir y dderwen,
Ac o'r hydd y ceir carw hen.—*Owain ab Gwilym.*

Pulstwn, a'i fam Alswn wen;
Hwn yw'r *ddâr;* hon yw'r dderwen.
L. G. Cothi, VII. viii. 47.

Pwy a ddadgan, darian dur,
Un o wyrthiau hen Arthur,
Neu Urien dien fal *dâr,*
Neu Faelgwn, gawr rhyfelgar?—*I. B. Hir:* Gwaith, 89.

2. (fig.).—*M.A.* i. 437, 441, 443, 446, 447, 448, 449, 454, 459, 460, 461.

Dâr, *sm.* a noise or din; a sound.

Dar (*ă*), a prefix (dy-+ar), 1. in some words it is enhancing or intensive, denoting *on, upon, over; high, great, very; per-, super-;* as in *darbwyllo, darganfod, darostwng.*

2. *fore* or *before* (*prae, pro*); as in *darogan, darbod, darparu.*

3. a weakening or partly negative force (*di-+ar*); as in *dargysgu, darhuno.* Cf. *Ar.*

Dar, *prep.* on, upon; above, over.

Darno, darnaw, above him; *darnom*, above us; *derni*, above her.—*P.*

Darafal, -au, *sm.* [dâr+afal] the oak-apple.

Darammheu, *v.* to hesitate, to doubt.

Darammheu, -on, *sm.* a doubt; suspicion, hesitation.

Mi a fynaf i'r gwŷr weddïo ym mhob man, gan ddyrchu dwylo purion, heb ddigter na *daramnmheu.*
Esgob R. Davies: 1 Tim. ii. 8.

Darampryd, -iau, *sm.* a cycle or circuit?

Ym mhob cadair gyfaenad dylid dadgan dysgogan beirdd Ynys Prydain; sef hyny, y cof a'r cadw ar wybodau, a chelfyddydau, a dosparthau, a threfnau, a breiniau, a defodau beirdd Ynys Prydain: dylid hefyd ddadgan Cofanon, *Darampryd* Mabon ap Medron; sef enwau a chof am feirdd, a phrydyddion, a sywedyddion, a doethion Ynys Prydain.
Iolo Mss. 213.

Digitized by Google

Daramred, *v.* to walk about; to run up and down; to resort; to embroider.—*P.*

Daramred, rhodiaw.—*O. V.*

Daramred, -ion, *sm.* circulation.

Daramrediad, -au, *sm.* a circulating; a running about.

Daramredol, *a.* running about; discursive.

Darball, *sm.* [pall] failure; blight (in corn).

Yr hyn a gedwaist a fydd genyt o palla y byd, neu o ddyfod llosg neu *ddarball* ar yr yd; neu o daw cynhauaf annhirion.—*Cato Cymraeg* (Y Greal, 194).

Mae gwymon yn cadw tir yn lân oddi wrth chwyn. Tybir ei fod yn cadw gwenith rhag y *darball;* mae yn ddiau y bydd iach y gwenith ar dir wedi ei wrteithio â gwymon, pan fyddo *darball* ar wenith arall.

Aneurin Owen: Amaethyddiaeth, 30.

Darbant, *a.* [pant] low, not high or elevated, deep.—*O. V.*

Darbeniad, -au, *sm.* a making perpendicular or upright.

Darbenol, *a.* perpendicular, upright.

Darbenu, *v.* [pen] to make perpendicular; to raise up; to raise a perpendicular.—*P.*

Darblygiad, -au, *sm.* a folding or doubling over.

Darblygol, *a.* folding over; involving, enclosing.

Darblygu, *v.* to double or fold over; to involve.

Y mae'r prydydd yn *darblygu* y peth a wnai'r gwr.

H. Ferri: Egluryn Ffraethineb (1595), vi. 4.

Darbod, -au, *sm.* [bod] provision; preparation; intention.—*Coll Gwynfa,* v. 771.

Yna Duw o'i rad a'i ddirfawr gariad a ddodes *ddarbodau* moliannus yn eu hamcanau, a doethion o wŷr dedwyddon yn eu plith.—*Iolo Mss.* 47.

Darbod, *v.* to provide; to prepare; to use foresight; to have regard to; to consider.

Od oes neb heb *ddarbod* dros yr eiddo, ac yn enwedig ei deulu, efe a wadodd y ffydd.

1 *Tim.* v. 8 (cf. Rhuf. ii. 18).

Pa ham y cuddi d' wynebpryd?
O *darbod* hyd ein blinder.—*Edm. Prys:* Salm. xliv. 24.

A pha faint mwy y gwna Duw hyn, medd Christ, ac yntau yn ein caru ni, ac yn *darbod* o'n cyflwr ni yn drugarog iawn.—*Dr. Davies:* Llyfr y Rcs. II. ii. 30.

Eu swydd hwy hefyd a'u dled yw dwyn eu plant i fyny yn rhinweddol, a *darbod* na bo iddynt gwympo i lindagau Sathan, nac i un aflendid. . . Felly hefyd y dylyai feistraid a rheolwyr *ddarbod* nad arferer na phuteindra nac aflendid ym mhlith eu gwasanaeth-ddynion.

Ed. James: Hom. i. 175 (cf. iii. 119).

Y mae yn eglur fod yr holl fyd tan reolaeth a rhagddarbodaeth y nefol Ragluniaeth; o blegid ni a welwn fod nid dynion yn unig, sydd â rheswm ganddynt, eithr adar, a phryfed gwylltion, ac anifeiliaid, yn y rhai y mae megys rhith dealltwriaeth, yn *darbod* ac yn gofalu am yr hiliogaeth sy'n hanfod oddi wrthynt.—*Ed. Samuel:* Grotius, i. 10.

Gwyddom fod rhai yn dramgwyddedig iawn wrth y chweched erthygl, yr hon a *ddarboda* fod rhybudd priodas i gael ei ddarllen deirgwaith o flaen bwrdd amgeleddwyr y tlodion.—*Diwygiwr,* iv. 309.

Darbodaeth, -au, *sf.* provision; providence; preparation; foresight, forecast; precaution.

Hollalluog Dduw, rhoddwr pob dawn daionus, yr hwn o'th ddwyfol *ddarbodaeth* a osodaist amryw raddau yn dy Eglwys.—*Ll. G. Gyffredin.*

Gwnaed pob *darbodaeth* er mwyn parotoi ymborth, oddi wrth brinder y trigolion.—*Brutus:* Ninefeh, 197.

Darbodawl, *a.* provisional; provident.

Os na fethlir ﬁ,
Ac ei gynghorion dyfnaf droi oddi ar
Eu nod *darbodawl.*—*W. O. Pughe:* C.G. i. 184.

Llywodraeth ddarbodawl, provisional government.

Darbodiad, -au, *sm.* a providing or preparing; provision, preparation.

Darbodoldeb, *sm.* the state of being provisional; circumspection.

Darbodus, *a.* provident; favourable; heedful; economical.

Darbodus a leinw ei gell â chyfreidiau.

Doeth. y Cymry: M.A. iii. 94.

Ni a atolygwn ac a erfyniwn i ti, edrych o honot yn *ddarbodus* ar ein grasusaf Arglwyddes, y Frenines.

Llyfr Gweddi Gyffredin (1567).

Ewch, ac annerchwch y cyfreithiwr *darbodus* hwnw, a gynnygiodd wrth farw ﬁl o bunnau am gydwybod dda.

Elis Wynn: Bardd Cwsg, 94.

Darbodwr, wyr, *sm.* a provider; one who is provident or discreet.

Darborth, -ion, *sm.* sustenance; provision.

Darborthi, *v.* to maintain or sustain; to support with food.

Darborthiad, -au, *sm.* a maintaining, sustaining, or supporting.

Darborthol, *a.* tending to support or sustain.

Darborthwr, wyr, *sm.* a maintainer, a supporter.

Darbwyad, -au, *sm.* [pwyo] verberation.

Darbwyll, -ion, *sm.* [pwyll] persuasion; reason; consideration; intelligence.

Gellid dynodi llawer o ranau o awdl ardderchog 'Cwymp Llewelyn' ac 'Ymdrech Caswallon,' yn brofion o alluoedd ein hiaith i ddarlunio anian a damweiniau, ac yn glodus i awen a *darbwyll* eu hawdwr enwog.

Blackwell: Ceinion Alun, 227.

Mae hyn o *ddarbwyll* yn fy mhen,
Nad yw y pren soniedig
Er gweini unrhyw ddwyfol ddysg
Am enaid ysgaredig.—*Iago Trichrug.*

Nid oes na phwyll na darbwyll i'w gael arno, he is open to neither reason nor persuasion; there is no reasoning with him; he will not be reasoned with or persuaded.—*S. E. W.*

Darbwyll, *v.*=*Darbwyllo.*

Darbwylladwy, *a.* persuadable, persuasible.

Darbwylledigaeth, **Darbwylliaeth,** -au, *sf.* the act of persuading; persuasion; argument; the state of being persuaded.

Darbwylliad, -au, *sm.* a persuading, persuasion; a reasoning, argumentation.

Yr oedd yn y *darbwylliadau* hyn ﬂoedd o hadau y frwydr oedd yn agosäu.—*Gwyddoniadur Cymreig,* iii. 165.

Darbwyllineb, *sm.* persuasiveness, persuasibility.

Darbwyllo, **Darbwyll,** *v.* to persuade; to convince by argument or entreaty.

O'n pabell fach aed llafar hedd,
Gan *ddarbwyll* dynion, ym mhob gwedd,
I garu'n Duw, sy'n gryf o'n rhan,
A charu'n gilydd ym mhob man.

Iolo Morganwg: Salm. i. xv. 3 (cf. II. lxxiii. 4).

Mynant ein *darbwyllo* mai yn amser y Maccabeaid yr ysgrifenwyd llyfr y Prophwyd Daniel.

Nicander: Dwyfol Oraclau, 44.

Nid yw yn debyg y medrid *darbwyllo* neb i fyned o un gongl o Gymru i'r llall, pe na byddai ond un eglwys yn galw am dano.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Duw. 292.

Nis gall fod dim yn fwy afresymol na cheisio *darbwyllo* y byd i gredu, yn ol egwyddorion hollddwiaeth, fod pawb yn yr un oes yn debyg i'w gilydd.—*Adolygydd,* i. 171.

Edrych a fedri di ei ddarbwyllo, see if you can persuade or convince him.

Digitized by Google

Darbwyllog, *a.* open to persuasion.

Darbwyllus, **Darbwyllawl,** *a.* persuasive, persuasory.

Darbwyllusrwydd, *sm.* persuasiveness, persuasibleness.

Darbwyllwr, wyr, **Darbwyllydd,** -ion, *sm.* a persuader; a reasoner, an arguer.

Darbwyo, *v.* to beat repeatedly or continually.

Darbwys, -au, *sm.* preponderance.

Darbwysiad, -au, *sm.* preponderation; a weighing down or outweighing.

Darbwyso, *v.* to preponderate; to outweigh.

Darbwysol, *a.* preponderant; outweighing.

Darbwysydd, -ion, *sm.* that which preponderates; that which weighs down.

Darbwywr, wyr, *sm.* one who beats; a castigator.

Darchefn, *adv.* [corr. of *drachefn=trachefn*] in opposition; back; again; once more, or another time.—*P.*

Darchwant, -au, *sm.* cupidity; concupiscence.

Darchwantol, **Darchwantus,** *a.* concupiscent, lustful, eagerly desirous.

Darchwantu, *v.* to desire eagerly, to lust.

Darchware, **Darchwareu,** -on, *sm.* pastime, play, sport; amusement.

Darchwaread, **Darchwareuad,** -au, *sm.* a playing, a sporting; amusement.

Darchwareol, **Darchwareuol,** **Darchwarĕus,** *a.* playful, playsome, sportive, gamesome, merry.

Darchwarĕwr, wyr, **Darchwareuwr,** wyr, **Darchwarĕydd,** -ion, *sm.* one who plays or sports; a player; a gamester; an actor.

Darchwennych, **Darchwennychu,** *v.* to desire greatly or ardently; to covet greatly.

Darchwennychol, *a.* coveting or desiring greatly.

Darchwiliad, -au, *sm.* a searching about; a prying.

Darchwilio, *v.* to pry about; to search here and there; to search minutely.

Darchwiliwr, wyr, *sm.* a prier; a searcher.

Darchwydd, *sm.* intumescence, swelling.

Darchwyddo, *v.* to swell; to dilate.

Darchwyl, -ion, *sm.* [chwyl] a career.

Darchwyliad, -au, *sm.* a going or moving round a course.

Darchwylio, *v.* to turn or move round.

Darchwyliog, *a.* circuitous, circling.

Dard, **Dart,** -au, *sm-f.* [Br. *dared;* Fr. *dard;* It. *dardo:* a word of Germanic origin; A.S. *darad.* See Brachet s.v. 'Dard'] a dart; an arrow.—*D. ab Gwilym,* clxxxii. 54.

Troians vn or Brytanyeit a ymwanawd yn erbyn Malffront pagan. a chan hwnnw yd oed pedwar par o *dardeu* asgellawc ac ar lemhaf or rei hynny ef ae byrywwys oe lawn nerth. ac a want y daryan ae luruc ae hen arueu trwydunt. ac ae brathwys ynteu yn y uordwyt yny byd y *dart* ar y ehedec drwydaw.

Ystt. de Carolo Magno, col. 453 (cf. 439, 452, 454).

Ymddiried y mae Edwart
I wr â'i ddwrn ar ei *ddart.*
L. G. Cothi, III. xxi. 39 (cf. v. i. 62; iii. 39).

Aur oedd ei dai, a'i rudd *dart,*
Wrth drasau ei thad Risiart.
Owain Gwynedd: G.B.C. 257.

Dardaen, **Dardan,** *sm.* [taen, tan] extent, extension, expansion; a spread.

Cyrch a *dardan* yr holl diroedd ar ein helw a'n henw.
Iolo Mss. 185.

Dardwyll, **Dardwyllo,** *v.* to deceive; to baulk or disappoint; to tantalize.—*S.E.W.* (*Iolo Glossary*).

Dardynu, *v.* [tynu] to draw out, to extract.

Cymmer ddyrnaid o ruw, a'r geidwad, a rhosmari, a rhisg y pren cerdin . . . a chymmer win egr drwy waddod, a dod am ben y llysiau mewn distyll, a *dardynu* ennyf.
Meddygon Myddfai, ii. 687.

Darddadl, -au, *sf.* a debate, a dispute, a discussion.

Darddadliad, -au, *sm.* disputation, discussion.

Darddadlu, *v.* to debate, dispute, or argue.

Darddadlwr, wyr, **Darddadlydd,** -ion, *sm.* one who debates or disputes, a disputant, a debater.

Darddangos, *v.* to show, to exhibit; to present.

A gwedi caffael hon, yr hen awduron a gymmysgynt yn eu coelbrenau beth o'r naill a pheth o'r llall o'r ddwy goelbren uchod a *ddarddangoswyd,* sef Coelbren y Beirdd a Choelbren y Meneich.—*Barddas,* i. 132.

Darddal, *v.* [dal] to hold on; to keep up; to repeat the same thing.—*S.E.W.*

Darddal ar yr un peth o hyd, to be continually dwelling on the same thing; to harp always on the same string.

Darddal ar yr un chwedl, to repeat the same tale over and over again; to be always repeating the same story.

Darddal, -ion, *sm.* quit-rent, chief rent, fee-farm rent.—*Iolo Glossary.*

Darddaliad, -au, *sm.* a holding or restraining.

Darddaliwr, wyr, *sm.* one who holds in, a restrainer.

Darddanfon, *v.* to send away, to dismiss.

Darddanfoniad, -au, *sm.* dismission, dismissal.

Darddanfonol, *a.* dismissing, sending off.

Darddawd, ddodion, ddodiaid, *sm.* [dawd, dodi] a prefix, a prepositive.

Darddeddfiad, -au, *sm.* [deddf] legislation.

Darddeddfol, *a.* legislative, law-giving.

Darddeddfu, *v.* to impose laws, to legislate.

Darddefodi, *v.* to set or make a custom.

Darddefnyddiad, -au, *sm.* a substantiating.

Darddefnyddu, *v.* to substantiate.

Darddelw, *sm.* predicate; avouchment.

Darddelwad, -au, *sm.* predication; avouchment.

Darddelwi, *v.* to predicate; to assent or avouch.

Darddeniad, -au, *sm.* fascination.

Darddenol, *a.* fascinating, captivating.

Darddenu, *v.* to fascinate, to charm, to captivate.

Digitized by Google

Darddenwr, wyr, *sm.* one who fascinates, allures, or entices.

Darddethol, *a.* well-chosen; choice, elect, chosen.

Darddethol, Darddetholi, *v.* to elect, to choose, to select.

Darddetholiad, -au, *sm.* the act of electing or choosing; election.

Darddewis, Darddewiso, *v.* to choose, to elect, to select.

Darddewisiad, -au, *sm.* the act of choosing; election.

Darddewisol, *a.* very select; delectable.

Darddiffyn, Darddiffynu, *v.* to protect; to shield; to guard.

Darddiffyniad, -au, *sm.* protection, defence.

Darddiffynol, *a.* protective, defensive.

Darddiffynwr, wyr, **Darddiffynydd,** -ion, *sm.* a protector, a defender.

Darddilyn, *v.* to follow after; to follow at a distance; to pursue.

Darddilyniad, -au, *sm.* a following or pursuing after; a pursuit.

Darddilynol, *a.* following after; pursuing; subsequent.

Darddilynwr, wyr, *sm.* a follower; an adherent.

Darddisgyn, *v.* to descend, to alight, to come down.

Darddisgyniad, -au, *sm.* a coming down or descending; descension.

Darddisgynol, *a.* descending, alighting.

Darddisgynwr, wyr, **Darddisgynydd,** -ion, *sm.* one who descends; a descendant.

Darddodedigaeth, -au, *sf.* a prefixing, prefixion.

Darddodedigol, *a.* prefixing, prepositive.

Darddodi, *v.* to prefix; to put before; to prepare; to impose.

Darddodiad, -au, *sm.* a prefixing; preposition.

Darddodiant, *sm.* a prefixion.

Darddodwr, wyr, **Darddodydd,** -ion, *sm.* one who prefixes; a proposer; an imposer.

Darddogni, *v.* to proportionate.

Darddoniad, -au, **Darddoniant,** *sm.* an endowing, a gifting, endowment.

Darddonio, *v.* to endow, to gift.

Darddoniol, *a.* gifted, endowed; gifting.

Darddosparth, -au, *sm.* a division; a demonstration or elucidation; a system or arrangement.

Darddosparthiad, -au, *sm.* systemization, elucidation, demonstration.

Darddosparthol, *a.* explanatory, elucidative; systematical.

Darddringiad, Darddringad, -au, *sm.* a climbing; ascension.

Darddringo, *v.* to climb up, to climb.

Darddringol, *a.* climbing, ascending.

Darddringwr, wyr, *sm.* one who ascends or climbs, a climber.

Darddull, -iau, *sm.* description, delineation; a picture.

Darluniad o gybydd-dod
Yw'r *darddull* hynod hwn.—*Iago Trichrug.*

Darddulliad, -au, *sm.* delineation, description.

Darddulliawl, *a.* delineating, descriptive.

Darddullio, *v.* to delineate, to describe, to depict, to portray.

Y dyfyniadau nesaf fydd o'r un mwyaf cynghaneddol o feirdd yr oes, Dewi Wyn o Eifion; fel hyn y *darddullia* raiadr.—*Blackwell:* Ceinion Alun, 226.

Darddulliwr, wyr, *sm.* a delineator, a describer.

Darddwyrain, *v.* to soar aloft.

Darddwyre, *sm.* [dwyre] a soaring aloft.

Darddwyreog, Darddwyreol, *a.* soaring, hovering, soaring aloft.

Darddwys, *a.* very dense, compact, or solid.

Darddwysiad, -au, *sm.* the act of making dense or solid.

Darddwyso, *v.* to make dense or solid.

Darddychryniad, -au, *sm.* intimidation.

Darddychrynu, *v.* to intimidate.

Darddychwel, *a.* recurring, returning.

Darddychweliad, -au, *sm.* 'a recurring, or coming round: the *Epanodos*, a figure in rhetoric, in which the same sound or word is repeated twice in several sentences.'—*P.* This seems to be the same as Perri's *Dadymchwel* or *Darymchwel: Egluryn Ffraethineb*, xxvii.

Darddychwelyd, *v.* to recur, to return.

Darddyfod, *v.* to become; to be, to exist.

Darddyfodiad, -au, *sm.* a coming to pass; a coming or happening; an existing.

Darddyfodol, *a.* coming; future.

Dareb, -ion, *sf.* [eb, ebu] a proverb or adage.—*P.*

Dareb, Darebu, *v.* to utter proverbs; to be proverbial or adagial; to make a proverb of.—*P.*

Ac yna ymgyrchu o'r ddau wr yn wychr greulawn yni dores eu gweywyr yn hyd eu dyrnau, ac eu cleddyfau hyd eu clowynau, mal y *dareb* eu cadernid yn ystoriau gwŷr Ithufain.—*Gr. ab Arthur.* (*P.*)

Darebiad, -au, *sm.* a making a proverb; a rendering proverbial.

Darebol, *a.* proverbial, adagial.

Darebydd, -ion, *sm.* a proverbialist.

Dared, *sm.* [dâr] a noise or din; acclamation.

Daredrych, *v.* to observe; to survey.

Daredrychiad, -au, *sm.* a surveying.

Daredrychol, *a.* observant; watchful.

Daredrychwr, wyr, *sm.* one who looks, observes, or surveys.

Daredd, *sm.* [dâr] 1. a tumultuous noise.—*P.*

2. (cf. *cynddaredd*) franticness, madness, extreme passion.

O bydd llerth arnat, hyny yw, *daredd*, cymmer sug llysiau'r wennol.—*Llanover Ms.* 4.

Digitized by Google

Daregnlad, -au, *sm.* exertion.

Daregnlo, *v.* to exert; to strive.

Daregnlol, *a.* tending to exert or strive; striving, exerting.

Darennyn, } *v.* to conflagrate; to set on
Darennynu, } fire.

Darennyniad, -au, *sm.* conflagration; combustion.

Darennynol, *a.* combustible; conflagrative.

Daresgyn, *v.* to subdue, to bring under; to conquer.

A gyru'r Gwyddelod a wnaethant, ac ar y gwledydd a *ddaresgynasant* rhodded iddynt i bob un ei deyrnedd.
Iolo Mss. 197.

Darestwng, *v.*: see *Darostwng*, *Darostyngiad*, &c., now the more current forms.

Darestyn, *v.* to extend, to expand.

Darestyniad, -au, *sm.* a stretching out or extending; extension, expansion.

Darestyniad gwybodaeth, extension or diffusion of knowledge.—*Iolo Morganwg.*

Darestynol, *a.* expansive; stretched.

Darfachu, *v.* to grapple; to hook on; to hitch.

Darfaddeu, *v.* to remit; to pardon, to forgive.

Darfaddeuad, -au, *sm.* a remitting, remission; a pardoning.

Darfaddeuant, *sm.* forgiveness, pardon.

Darfaddeuol, *a.* pardoning, forgiving.

Darfalannu, *v.* [balannu] to shoot out, to germinate.

Darfalant, *sm.* germination.

Darfaniad, -au, *sm.* [man] impression.

Darfanu (*ă*), *v.* to impress, to mark.

Darfardd, feirdd, *sm.* [dâr+bardd?] a bard of the oak (groves)?

Neud mai, neud erfai, *darfeirdd* iraeth,
Neud meinwyrdd coedwyrdd, wŷdd weuyddiaeth.
Dafydd ab Gwilym, ccxxix. 1.

Darfathru, *v.* to tread or trample on, to tread down.

Darfawl, *sm.* [mawl] panegyric, eulogium, praise.

Darfeddwad, -au, *sm.* [meddwi] intoxication.

Darfeddwi, *v.* to intoxicate.

Darfeddwol, *a.* intoxicating.

Darfeilio, *v.* to build up, to erect.

Darfelydd, -ion, -iau, *sm.* [mal: cf. *dyfalu*] the delineating power; imagination; the imagination or fancy; imagery.

Darfelydd yw y gair Cymraeg goreu am y gair Seisnig imagination. . . Nid yn unig y mae *darfelydd* yn creu syniadau tebyg i wrthddrychau, ond helaetha gylch ei weithrediadau yn ddiderfyn.
W. Jones: Barn a Darfelydd, 6 (cf. fq.).

Yn ofer yr eheda *Darfelydd*, oni lywydda Pwyll, â'i law gadarn, ei fynediadau.—*Seren Gomer*, xvii. 9.

Yr oedd ei alluoedd personol, a'i *ddarfelydd*, a'i iaith, fel dyn neu fel bardd, yn ei feddiant yn ddigyfnewidiad.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 217 (cf. 216).

Y meddwl a lafuria, fel pe bai, i ddirnad y *darfelyddion* dyrchafedig hyn.—*Seren Gomer*, xvii. 229.

Nid oes un o glefydau y *darfelydd*, atebodd Imlac, mor anhawdd ei wellâu a'r cyfryw ag y sy gymhlith ag arswyd euogrwydd.—*Rasselas*, xlvi. (cf. x).

Darfelyddiad, -au, *sm.* a forming or representing an idea in the mind; imagination.

Darfelyddol, } *a.* relating to the imagination
Darfelyddus, } or fancy; imaginative.

Darfelyddu, *v.* to imagine; to fancy.

Iaith yw [y Gymraeg] yn medru dyfalu pob pwyll a chrebwyll, a phob amcan er [a'r] a ddichon meddwl dyn ei selweddu a'i *ddarfelyddu:* a hyn yn llwyr berffaith, heb na llediaith na chymmysg estroniaith.
Cyfrinach y Beirdd, 11.

Darfelyddwr, wyr, *sm.* 'one who conceives ideas,' one who forms ideas.

Darfenu (*ĕ*), *v.* [menu] to make an impression, to impress.

Ni *ddarfenai* ddwfr anoer,
Ar wynt-hwy mwy na'r nant oer.—*Huw Arwystl.*

Darferiad, -au, } *sm.* custom, usage, habit.
Darferiant, }

Darferol, *a.* customary, usual.

Darferu, *v.* to accustom, to use.

Darferwr, wyr, *sm.* one who accustoms or uses.

Darfethiad, -au, *sm.* a failing; a failure or miscarriage.

Darfethol, *a.* deficient; failing.

Darfethu, *v.* to fail, to miscarry.

Darfiniad, -au, *sm.* a sharpening or edging.

Darfinio, *v.* to sharpen, to edge.

Darfiniol, *a.* sharpening, that edges.

Darfod, *v.* [bod] to cease to be or exist; to come to an end or conclusion; to be ended; to be finished or done; to be gone; to cease; to end; to be spent, completed, or ended; to finish; to conclude; to make an end of; to have come to pass; to happen; to have been; to be past; to be over; to perish.

Seith ugein haelon a aethan y gwllon
Yg Coed Keliton y *daruuan.*—*Llyfr Du:* A.B. ii. 5.

A chynn *daruot* idaw ymgyweiryaw yn y gyfrwy. neur ry adoed hi heibyaw.—*Mabinogion*, 10 (cf. 72, 77).

A gwedy *daruot* gwneuthur pob peth o hynny. ef a ouynnawd Lawnslot yr mab. a deuei ygyt ac ef y lys Arthur.—*St. Greal*, § 2.

Efe a ddeall y peth a fo da . . . a phob bod, a phob anfod, a phob *darfod* . . . efe a wel a ddylai fod, ac a ddylai ddyfod, ac a ddylai adfod, ac a ddylai *ddarfod*, ac a ddylai gydfod, ac a ddylai orfod.—*Iolo Mss.* 195.

Dyuot a oruc . . . yr lle yd oed Arthur a dywedut *daruot* yr brein lad y deulu.—*Mabinogion*, 158 (cf. 44, 45, 53).

Y cledyf a *daruu* yr wrteith.
Mabinogion, 127 (cf. 170, 176, 183, 293).

Darfu, megys ar derfyn,
Y dydd, felly *derfydd* dyn.
Guto'r Glyn (Flor. Poet. Brit. 15).

Di gwynid, dioer, yn llwyr
Be *darffai* yt', byd orffwyr,
A *ddarfu* ym', mau lym lid,
Nod mwy ofn, neud mau ofid!—*D. ab Gwilym*, cxiv. 21.

A fyno Duw *derfid.*—*Diareb.* (M.A. iii. 146.)

Yn yr un modd ag y *darfuasai* i'r Apostolion eu rhoddi.
M. Cyffin: Diff. i. 5.

Gosteg a roir ac ust draw;
Dwrf rhaiadr, *darfu* rhuaw.—*Gronwy Owain*, 89.

O lymaid i lymaid y *darfu* y cawl.—*Diareb.* (M.A. iii. 174.)

Darfod â (*ag*), to have done with; to finish or have finished with.

Ni *ddarfum* i â chwychwi eto.—*Gronwy Owain*, 284.

Ar ddarfod, almost ending or finishing; on the point of ending, finishing, ceasing, or perishing; on the point of death.

Y mae'r bywyd hwn *ar ddarfod*;
Y mae'r llall o'i ol i ddyfod.—*I. B. Hir:* Gwaith, 31.

Digitized by Google

Darfu, it is done or finished; it is over; he has done or finished.

A daeth llef uchel allan o deml y nef, oddi wrth yr orseddfainc, yn dywedyd, *Darfu*.—*Dad.* xvi. 17 (cf. xxi. 6).

Darfu am dano (*f.* am dani), there is an end of him; it is all over with him; he perishes or has perished; he is no more.

Dechreu y cenedloedd yw Amalec; a'i ddiwedd fydd *darfod am dano* byth.—*Num.* xxiv. 20 (cf. xvii. 12; Iob xxix. 13; Esa. vi. 5; xxvii. 13; lxvii. 1; Matt. viii. 25).

Gwedi darfod, having finished, ended, or concluded; after finishing, ending, or concluding; having completed; having made an end of; having done.

Ac yna *gwedy daruot* y dangued galw o Vendigeituran y mab attaw.—*Mabinogion*, 38 (cf. 210).

A *gwedy daruot* hynny ymgynullaw a wnaeth Brutus ae lu y gyt.—*Yst. Bren. Bryt.*: Ll.C.H. ii. 49.

Ac *wedi darfod* swper.—*Ioan* xiii. 2.

A ddarfu i chwi ei weled? did you see him? have you seen him?

Pethau i ddarfod, things to come to an end or to perish; perishable things.

¶ *Darfod*, which is both an auxiliary and a principal verb, and both transitive and intransitive, follows the conjugation of *bod*; but there are occasionally some deviations, especially in the older language. The *f* in some of the tenses often becomes *ff*, and *deryw* and *darwedd* are sometimes used for *darfu*. See Davies, *Rudimenta*, 120, 121, 122.

Or *darffei* bot brwydyr y rygtunt.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 49 (cf. 48).

Ac y peidynt ac ymlad o bop parth yny *darffei* y bawp vwytta.—*Mabinogion*, 90 (cf. 91, 232, 279).

O *darffei* im namyn da. mi a vynnwn y wybot o honat ti.
St. Greal, § 8 (cf. 146).

Ac erbyn echwyd neur *daroed* idaw llad trayan y llu heb argywedu neb arnaw ef.—*Mabinogion*, 217 (cf. 41, 229).

A phan *daroed* udunt tynnu y arveu y amdanaw. nachaf yn dyvot ymywn attaw y deu gefynderw.
St. Greal, § 2 (cf. 16).

Neur *daroed* idaw yna. gadu dros gof ac ysgaclussaw kynghoreu Amic.—*Amlyn ac Amig*, col. 1096.

Daroedd, ni bu wisgoedd waeth,
I daeliwr o hudoliaeth.—*D. ab Gwilym*, viii. 9 (cf. cc. 51).

A phan weles ei gyfeillion ereill y pethau a *ddaroedd*, ydd oedd yn ddrwg dros ben ganthwynt.
W. Salesbury: Matt. xviii. 31.

Herod, fal y *daroedd* iddo wneuthur llw drwg, a gyflawnodd ei lw yn waeth.
Ed. Iames: Hom. i. 97 (cf. 46, 66, 103, 130, 144).

Ac ny byd un dalen ar y prenn ny *darffo* yr gawat eu dwyn.—*Mabinogion*, 167 (cf. 267).

Megys y *darffo* o'r terfysc hwnnw.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 250.

Bard yman y mae neu cheint a ganho
Kanet pan *darffo*.—*Taliesin*: A.B. ii. 129 (M.A. i. 34).

Hyd oni *ddarffo* i mi gloddio o'i amgylch.
Luc xiii. 8 (cf. Esa. xxiv. 13; xxxiii. 1; 1 Cor. xv. 54).

A *deryw* am Keduyv a Chaduan.—*Llyfr Du*: A.B. ii. 3.

A hynny a *deryw*.—*Mabinogion*, 207 (cf. 199, 210, 217).

A chanys *deryw* dy rydhau di mi a ymchoelaf dracheuyn.—*St. Greal*, § 120.

Gwedy daruot dechreu y twrneimant. kystal yw hynny a *dereu* y twrneimant.—*St. Greal*, § 34.

Oer wyler am a *dderyw*,
Gwae mor oer i Gymru yw!—*I. B. Hir*: Gwaith, 91.

Nis *deryw*, ynys dirion,
Loes a fu waeth i lwys Fon.—*Gronwy Owain*, 117.

Can *deryw* darfuam oi laith
Can daerawd darfu gydymdaith.
Cynddelw: M.A. i. 213 (cf. 202, 212, 213, 240, 247).

Rhyfeddod yw modd y *deryw*
Serch hoew Wenddydd at ei phrydydd.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 237.

Deryw y chwedl, the tale is ended.—*W.*

O deryw y gainc deryw y chwareu, no longer pipe no longer dance.

Darfod, *sm.* extinction; end.

Os nid o Dduw a wna efe fal hyn, eithr o gyfaredd a swynau, ys dir ammharhâd iddynt a *darfod* ar fyr arnynt ac am danynt.—*Dafydd Fychan*: Efengyl Nicodemus, iv.

Felly'r gwŷr hyn a welant ddinystr a *darfod* am eu hachos hwy, yng ngair Duw.—*Morus Cyffin*: Diff. iv. 26.

Darfodadwy, *a.* that may come to an end; that may be made an end of, or done away; perishable; subject to decay.

Darfodedig, *a.* 1. ceased to be; past; ended, ceased; perished; wasted away; consumed.

Amser darfodedig, past or preterite tense.

Mo. Pesawl amser sydd i ferf? Gri. Pump hefyd, s. un presennol, tri *darfodedig*, ac un arddyfodawl. . . Mo. Mae'r tri amser *darfodedig*? Gr. Y cyntaf yw'r *darfodedig* ammherffaith. . . Mo. Mae'r ail *darfodedig* amser? Gr. Hwnw a elwir *darfodedig* perffaith. . . Mo. Mae'r trydydd *darfodedig* amser? Gr. Hwnw yw'r *darfodedig* mwy no pherffaith.—*Dr. Gr. Roberts*: Gram. 137 (cf. 138—168).

2. evanescent, vanishing, perishing; consuming, wasting; perishable.

Angau yw ymwahanu a pheth *daruodedic*.
Ymborth yr Enaid, § 14.

Ni a osodasom ein gobaith mewn pethau *darfodedig*.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. i. 20.

A chan fod eu gwneuthurwr hwy yn farwol, mae'n rhaid bod y pethau y mae ef yn ei wneuthur, yn *ddarfodedig*.
Ed. Iames: Hom. ii. 143.

Darfodedigaeth, -au, *sf.* 1. the state of being ended or having ceased.

2. a wasting, wearing, or pining away; consumption.

Clywais fod *darfodedigaeth* derfynol oddi wrth Arglwydd Dduw y lluoedd ar yr holl dir.—*Esa.* xxviii. 22 (cf. x. 23; Lef. xxvi. 16; Deut. xxviii. 22).

Darfodedigaeth llygaid, failing of eyes.—*Deut.* xxviii. 65.

3. consumption, phthisis.

Rhai, yng nghanol eu digonoldeb, a lifant ymaith gan *ddarfodedigaeth*.—*R. Llwyd*: Llwybr Hyffordd, 116.

Bu farw y tair chwaer garuaidd hyn o'r un clefyd,—y *ddarfodedigaeth*.—*Cylchgrawn*, ii. 75 (cf. i. 23, 82, 83).

Darfodedigol, *a.* consumptive, phthisical.

Darfodedigrwydd, *sm.* transiency, transitoriness, evanescence, perishableness.

Darfodhau, *v.* to perish; to cease; to cause to perish or cease.

Cybelled ag y gallai *ddarfodhau*
O dduwiau ac ansoddau nefawl ter.
W. O. Pughe: C.G. i. 153.

Darfodiad, -au, *sm.* a coming to an end; a finishing, ending, or conclusion; consumption.

Darfodiad terfynedig a lifa drosodd mewn cyflawnder.
Esa. x. 22.

Darfodol, *a.* evanescent, vanishing, transitory.

Darfodoldeb, **Darfodolrwydd**, *sm.* transitoriness, transcientness, evanescence; perishableness.

Darfodus, *a.* tending to an end; evanescent; perishable.

Darfodydd, -ion, *sm.* a finisher or ender.

Darfoddiad, -au, **Darfoddiant**, *sm.* a much pleasing or cheering; cheerfulness, complacency.

Digitized by Google

Darfoddio, *v.* [boddio] to please much; to cheer; to be cheerful.

Darfoddol, *a.* complacent; cheerful.

Darfoethi, *v.* to nourish tenderly.

Darfoethiad, -au, } *sm.* a fondling; indul-
Darfoethiant, } gence.

Darfoethus, *a.* much fondled; very dainty.

Darfoethusrwydd, *sm.* the state of being reared tenderly or over-fondled.

Darfoledigaeth, -au, *sf.* laudation, eulogism.

Darfoledd, } *sm.* laudation, praise, pane-
Darfoliant, } gyric, eulogy.

Darfoli, *v.* to eulogize, praise, celebrate, panegyrize, or extol.

Darfoliannol, } *a.* encomiastic, laudatory,
Darfoliannus, } eulogistic, panegyric.

Darfoliannwr, wyr, }
Darfoliannydd, -ion, } *sm.* a panegyrist, eulogist, encomiast,
Darfolwr, wyr, } praiser, or extoller.

Y mae y *darfoliannydd*, yn ei araith ar goffadwriaeth Cystaint Chlorus . . . yn dyweyd yn arbenigol.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 164.

Darfoliannu, *v.* to praise, eulogize, panegyrize, or extol.

Darfoliant, iannau, *sm.* eulogy, encomium, praise.

Darfoll, *sm.* [cf. *arfoll*] a kind reception; entertainment.

Darfolledigaeth, -au, *sf.* a hospitable reception; entertainment.

Darfolli, *v.* to receive kindly; to entertain.—*M.A.* i. 261.

Darfolliad, -au, } a kind reception; entertain-
Darfolliant, } ment.

Darfollwr, wyr, *sm.* a hospitable receiver; a treater.

Darfrad, -au, *sm.* [brad] treachery, perfidy.

Darfradu, *v.* to act treacherously; to betray.

Darfradus, *a.* treacherous, perfidious, false.

Darfradwr, wyr, *sm.* a treacherous man, a traitor.

Darfrath, -au, *sm.* a thrust or stab; a wound.

Darfrathu, *v.* to stab, to vulnerate.

Darfreiniad, -au, *sm.* [braint] a conferring a privilege; dignification.

Darfreinio, *v.* to grant a privilege; to privilege; to dignify.

Darfreiniol, *a.* privileged.

Darfreiniwr, wyr, *sm.* one who confers a privilege or dignity.

Darfrio, *v.* [bri] to confer honour.

Darfrithiad, -au, *sm.* [brith] variegation.

Darfritho, *v.* [britho] to variegate.

Darfrithwr, wyr, *sm.* a variegator.

Darfriwo, } *v.* [briwo] to bruise; to fracture;
Darfriwio, } to break; to pound.

Darfrochi, *v.* [brochi] to ruffle; to be ruffled; to chafe; to bluster.

Darfrochwr, wyr, *sm.* a boisterous man, a blusterer, a ruffler.

Darfrodiad, -au, *sm.* embroidering; embroidery.

Darfrodio, *v.* [brodio] to embroider.

Darfrodiol, *a.* embroidering.

Darfrodiwr, wyr, *sm.* an embroiderer.

Darfrudiad, -au, *sm.* [brud] a foretelling; prognostication, prediction.

Darfrudio, *v.* to foretell, to forebode, to prognosticate.

Darfrudiol, *a.* presaging, predictive; ominous.

Darfrudiwr, wyr, *sm.* a prognosticator, a predictor.

Darfrydiad, -au, } *sm.* a heating; inflamma-
Darfrydiant, } tion.

Darfrydiannol, } *a.* tending to inflame; apt to
Darfrydiol, } be inflamed; inflammatory.

Darfrydiannu, } *v.* to affect or irritate with
Darfrydio, } heat; to inflame; to throb.

Darfrysiad, -au, *sm.* a making great haste or speed.

Darfrysio, *v.* to make great haste; to hasten, to speed.

Darfrysiol, *a.* hastening; tending to hasten.

Darfrythiad, -au, *sm.* a making a tumult, riot, or uproar.

Darfrythol, *a.* tumultuous, riotous.

Darfrythu, *v.* [brwth] to raise a tumult or uproar; to riot.

Darfryw, *a.* [bryw] very vigorous or energetic.

Darfrywio, *v.* to invigorate; to make brisk or lively.

Darfrywiol, *a.* invigorating.

Darfwythiad, -au, *sm.* a blandishing, blandishment.

Darfwytho, *v.* [mwyth] to blandish, to fondle; to soothe.

Darfydiant, *sm.* a residing or dwelling.

Darfydio, *v.* to exist; to dwell.

Darfydiol, *a.* abiding, residing, resident.

Darffull, *sm.* [ffull] haste, hurry.

Dargadw, *v.* to preserve, to keep; to secure.

Dargadwol, *a.* preservative, securing.

Dargaead, -au, *sm.* [cacad, cau] an overcasting or overspreading.

Dargaeniad, -au, *sm.* a spreading over or sprinkling; stratification.

Dargaenu, *v.* [caen] to overspread, to cover over; to stratify.

Dargaeol, *a.* overcasting, overspreading.

Dargaethiad, -au, *sm.* [caeth] a confining; restriction.

Dargaethol, *a.* restrictive, restraining.

Dargaethu, *v.* to restrict, to restrain.

Dargais, geisiau, *sm.* an effort, an attempt.

Dargamiad, -au, *sm.* a bending over.

Digitized by Google

Dargamu, *v.* to bend, to curve; to bend back.

Darganfod, *v.* [canfod] to discover, to find out; to perceive.

Yna y *dargannu* Rolant gwaet Oger yn ffreuaw allan. ac yn kolli oll.—*Ystt. de Carolo Magno*, col. 433 (cf. 434).

Ym mhen eithaf y goedwig hon ef a *ddarganfu* ddyffryn gwastadwyrdd.—*Y Greal*, 342.

Uranus . . . a *ddarganfuwyd* gan Herschel yn 1781.
R. Roberts: Seryddiaeth, 11.

Y Portugiaid a ddychwelasant gwedi *darganfod* Brasil.
R. Roberts: Dacaryddiaeth, 355.

Y mae y dyn ci hun . . . yn *darganfod* y pethau hyny yn eglurach.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 23 (cf. 20).

Tu â'r cyfnod pan ag yr oedd Columbus yn hwylio o Ewrop i *ddarganfod* byd newydd i goron yr Yspaen (1492) . . . cymmerodd helyntion rhyfeddol le yn yr Eidal.
Brutus: Brutusiana, 425.

Trwy wydr-ddrychau *darganfyddir* rhai o'r ser sefydlog sydd yn eithafoedd yr eangder mawr.
G. Mechain: Gwaith, ii. 263.

Darganfodadwy, *a.* discoverable; perceptible.

Darganfodiad, **Darganfyddiad**, } -au, *sm.* discovery; disclosure; perception.

Os iawn a rhesymol yw casglu oddi wrth *ddarganfyddiadau* daiaregwyr mai Duw yw Creawdwr y ddaiar; ac os iawn a rhesymol yw casglu oddi wrth *ddarganfyddiadau* seryddol yng nghylch cyssondeb ysgogiadau 'r bydoedd ffurfafenol mai gwaith bysedl Duw ydyw y nefoedd.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 216 (cf. 19, 20, 215).

Y mae hyn yn tarddu i raddau oddi wrth luosawgrwydd y *darganfyddiadau* diweddar yn y byd anianyddol.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 586.

Darganfodwr, **Darganfyddwr**, } wyr, *sm.* a discoverer; one who finds out.

Cymmerwyd anifeiliaid o Ewrop yn groes i'r Atlantig gan *ddarganfyddwyr* y Byd Newydd.—*Adolygydd*, ii. 170.

Dargannu, *v.* [cannu] to blanch or bleach.

Dargantiad, -au, *sm.* [cant] perimeter.

Dargantu, *v.* to form a rim round.

Dargasgliad, -au, *sm.* 1. a heaping or piling together; a collection. 2. 'the *periagoge* in rhetoric.'—*P.*

Dargasglu, *v.* to collect or heap; to gather or collect.

Dargau, *v.* [cau] to cover over or closely; to envelop.

Dargeiniad, -au, *sm.* [ceinio] the act of looking with sharpness; a kenning or glancing about.

Dargeinio, *v.* to ken, to glance.

Dargeiniol, *a.* perspicacious.

Dargeisiad, -au, *sm.* a diligent seeking or endeavouring; perseverance.

Dargeisio, *v.* [ceisio] to seek or endeavour diligently; to attempt; to request.

Y mae sail i dybio na *ddargeisiwyd* cymmaint ag un pennill ar orchest y beirdd, na thuwddgyrch cadwynawg, na chyhydedd hir, gwedi yr eisteddfod honno [1819].
Gwalltèr Mechain: Gwaith, ii. 171.

Dargeisiol, *a.* attempting, trying, striving, persevering.

Dargeliad, -au, *sm.* a hiding, concealing, or overshadowing; concealment.

Dargelog, *a.* hid, concealed, overshadowed.

Dargelwch, *sm.* concealment; seclusion.

Dargestu, *v.* [cest] to bulge; to puff or swell out.

Dargeulo, *v.* to curdle, to coagulate.

Dargiliad, -au, *sm.* retrocession.

Dargilio, *v.* to retrocede; to retreat.

Dargiliwr, wyr, *sm.* one who retreats.

Dargipiad, -au, *sm.* a quick snatching; a taking off quickly.

Dargipio, *v.* [cipio] to snatch quickly; to snap up; to snatch.

Dargipiol, *a.* snatching quickly.

Dargipiwr, wyr, *sm.* a snatcher, a snapper.

Darglais, gleisiau, *sm.* a bruise on the skin.

Dargledru, *v.* to do with laths or lattice.

Dargleinio, *v.* [cleinio] to crawl or creep along.

Dargleiniol, *a.* creeping or crawling along.

Dargleisio, *v.* to make black and blue; to bruise.

Darglodi, *v.* to bestow praise, to panegyrize, to extol.

Darglodiad, -au, *sm.* a praising or extolling.

Darglodus, *a.* encomiastic, panegyrical.

Dargloddiad, -au, *sm.* the action of entrenching; an entrenchment.

Dargloddio, *v.* to entrench; to place within a trench.

Dargloddiol, *a.* entrenching.

Dargludiad, -au, *sm.* a carrying or transporting; conveyance.

Dargludo, *v.* to transport, convey, or carry.

Dargluddiad, -au, *sm.* an overwhelming; a covering over.

Dargluddio, *v.* to overwhelm; to cover over.

Dargluddiol, *a.* overwhelming.

Darglwm, glymau, *sm.* a knot, a node, a tie.

Darglybod, *sm.* 'a feeling an impulse from the faculty of hearing, feeling, tasting, or smelling; conception.'—*P.*

Darglymiad, -au, *sm.* a knotting or tying.

Darglymol, *a.* nodal; knotty.

Darglymu, *v.* to knot, to tie.

Darglywed, *v.* 'to feel an impulse; to be inclined to perceive or to feel.'—*P.*

Dargnif, -ion, *sm.* [cnif] turmoil, toil.

Dargnifio, *v.* to toil greatly; to toil.

Dargnith, -ion, *sm.* [cnith] a percussion; a pat.

Dargnithio, *v.* 'to pat upon,' to percuss.

Dargnoad, -au, *sm.* a gnawing; a nibbling.

Dargnoawl, *a.* gnawing; nibbling.

Dargnoi, *v.* [cnoi] to gnaw; to nibble.

Dargochi, *v.* to redden; to blush.

Dargochiad, -au, *sm.* a reddening; a blushing.

Dargod, -au, *sm.* [cod] a tumour; a swelling; 'a tumour or abscess formed in the breast from the milk fever.' See s.v. *Cwyreli.*

Digitized by Google

Dail y dargod, } great mullein, high taper
Llysiau y dargod, } (*Verbascum thapsus*).—*Hugh Davies*: Welsh Bot. 23, 180.

O'r tu allan y mae [sircyn y melinydd] yn llesol iawn yn rhith sugaethen i esmwythäu *dargod*, a'r lledewigwst.
H. Davies: Llysieuaeth Gymreig, 235.

[*Dargod*, a tumour (*Sil.*); a tumour in a cow's udder so called, for which the leaves of the mullein are esteemed very good, and hence they are called *dail y dargod* and *llysiau'r dargod*.—*Llanover Ms.*

Mullein, or White Mullein . . . Fr. *moleine*, the scab in cattle. . . The term *malandre* was applied to other diseases of cattle, to lung diseases among the rest, and Marcellus Empiricus explains it as 'morbus jumenti quo tussit.' The hig-taper, being used for these, acquired its names of mullein, and bullock's lungwort.—*Dr. Prior:* Popular Names of British Plants (ed. 1870), 161.]

Dargodawl, *a.* rising over; ascensive.

Dargodi, *v.* [codi] to rise or raise uppermost; to rise up.

Dargoddi, *v.* [cawdd, coddi] to offend or annoy greatly; to oppress, oversway, or overrule.

Dargoddiad, -au, *sm.* annoyance; oppression.

Dargoelio, *v.* to believe or credit slightly; partly to believe.

Dargoelus, *a.* slightly believing.

Dargoethi, *v.* to purge of dross; to purify.

Dargoethiad, -au, *sm.* purification, purgation.

Dargoethol, *a.* purifying, purificative.

Dargofiad, -au, } *sm.* a reminding; commemor-
Dargoffâd, } ation; a memoir.

Dargofiant, iannau, iaint, *sm.* a memoir.—*Gwyliedydd*, xii. 324.

Dargofio, *v.* to call to mind; to remember, to recollect.

Dargofiwr, wyr, *sm.* one who intimates or reminds; a memorialist.

Dargofus, *a.* apt to call to mind; commemorative.

Dargoffa, } *v.* to call to mind; to remind; to
Dargoffâu, } record.

Dargoffaol, *a.* commemorative.

Dargoll, -ion, } *sf.* a complete or total loss; a
Dargolled, -ion, } great loss; destruction.

Cyferbyn â'r amseroedd hyn y bu Morien . . . yn ammheu bedydd, ac aberth Corff Crist; ac achos hyny y bu casineb ac ymrysonau ac ymladdau nid bychain; ac Hud Morien a fu un o dri hud *ddargoll* Ynys Prydain. Cyntaf oedd Hud Urb Luyddawg o Lychlyn, a ddug agos bawb a fedraint wrth arf a rhyfel o Ynys Prydain, a'u dwyn ar *ddargoll* yng ngwledydd y Môr Marw.—*Iolo Mss.* 42.

Dargolledigaeth, -au, *sf.* a great or total loss; destruction; deprivation.

Dargolledol, } *a.* causing a great loss; de-
Dargolledus, } structive; injurious.

Dargolledu, *v.* to cause a great loss.

Dargosi, *v.* to rub or scratch slightly; to tickle.

Dargospi, *v.* to castigate; to punish.

Dargospiad, -au, *sm.* punishment.

Dargrafu, *v.* to scrape, rub, or scratch slightly.

Dargraffiad, -au, *sm.* an impression; a making an effect upon.

Dargraffol, *a.* tending to impress; impressive.

Dargraffu, *v.* [craffu] to make or cause an impression; to impress; to stamp or print.

Dargrapio, *v.* to touch, scratch, or rub lightly.

Dargrasu, *v.* to parch, to dry up.

Dargrebwyllawl, *a.* tending to give a faint idea or slight notion; fanciful.

Dargrebwylliad, -au, *sm.* [crebwyll] a slight conception.

Dargrebwyllo, *v.* to trace faintly in the imagination; to fancy.

Dargrebwyllydd, -ion, *sm.* one who slightly conceives or fancies.

Dargredu, *v.* to induce slight belief; to believe to some degree.

Dargreiddiad, -au, *sm.* permeation, penetration.

Dargreiddio, *v.* [craidd] to penetrate, to permeate; to glide or pass through.

Dargreiddiol, *a.* penetrative, permeating.

Dargreiniad, -au, *sm.* [crain, creinio] a crawling along; prostration; decumbence; decumbiture.

Dargreinio, *v.* to crawl along; to lie prostrate.

Dargreiniol, *a.* crawling along; prostrate, prone; recumbent.

Dargrethu, *v.* [creth] to dispose or incline; 'to imbibe a quality.'

Dargrochi, *v.* [croch] to become hoarse; to make hoarse.

Dargroni (ŏ), *v.* [croni] to collect, heap, or amass; to dam up, to stop.

Dargrothi, *v.* to swell or bulge out.

Dargrothiad, -au, *sm.* a bulging out; a forming a rotundity.

Dargrwydrad, -au, *sm.* a wandering or roaming; peregrination.

Dargrwydro, *v.* to ramble or wander; to peregrinate.

Dargrwydrol, *a.* wandering, roaming, moving about; peripatetic.

Dargrybwyll, } *v.* partly to mention or recall;
Dargrybwyllo, } to hint or intimate slightly; to suggest; to connect in idea, to associate.

Ni all synwyriadau gael eu *dargrybwyll*. . . Gall synwyriadau *ddargrybwyll* meddylddrychau a theimladau. . . Mae rhai meddylddrychau na all dim eu *dargrybwyll*. Mewn rhif a mesur, ni all dim *ddargrybwyll* i'r meddwl y gwna dau a dau bump, neu dri. . . Mewn athroniaeth ni ellir *dargrybwyll* i'r meddwl y gall dim gynnyrchu peth, a bod terfyn ar cangder lle ac amser.
Adolygydd, i. 314 (cf. 315—324).

Dargrybwyll, -ion, } *sm.* a slight hint or
Dargrybwylliad, -au, } intimation; a suggestion; association.

Mae amryw *ddargrybwylliadau* yn anwahanol gyssylltiedig â'u gilydd.—*Adolygydd*, i. 314 (cf. 315—324).

Dargrybwylliad meddylddrychau, association of ideas.

Y gallu drwy ba un y mae un meddylddrych yn achosi neu adgynnyrchu meddylddrych arall, a elwir *Dargrybwylliad Meddylddrychau*. . . Yn brescennol, gan mai ar y gallu a nodwyd uchod, sef *Dargrybwylliad Meddylddrychau*, y bwriadasom sylwi, ar ol rhwyddhau y ffordd mor bell a hyn, awn atynt.—*Adolygydd*, i. 314 (cf. 315—324).

Digitized by Google

Dargrybwyllawl, } *a.* tending to give a
Dargrybwylliadol, } slight idea, hint, or intimation; suggestive; associating (in idea), associative.

Chwythodd awel *ddargrybwyllol* oddi ar ddrych yr hen ysgawen, agorodd ddorau holl ystafelloedd y fynwes, chwiliodd gornelau llwydion dyfnderoedd y galon, ysgubodd lwch maith ebargofrwydd oddi ar lechau dirgeledig yr yspryd.—*Adolygydd*, i. 313 (cf. 319, 324).

Wele y meddwl yn syllu drwy y llygaid ar un eithafnod, ond yn cael ei daflu mewn eiliad gan rym deddf cyferbyniaeth *ddargrybwylliadol* i eithafnod arall.
Adolygydd, i. 320 (cf. 323).

Dargrychu, *v.* [crychu] to wrinkle or crinkle; to frizzle; to curl; to ruffle; to rumple; to roughen.

Dargryniad, -au, *sm.* conglobation, conglomeration.

Dargrynoad, -au, *sm.* aggregation, collection, accumulation.

Dargrynoawl, *a.* tending to collect or aggregate; aggregative, collective.

Dargrynoi, *v.* [crynoi] to collect, to accumulate, to gather together.

Dargrynu, *v.* [crwn] to conglomerate, to conglobe.

Dargrysiad, -au, *sm.* acceleration.

Dargrysio, *v.* to accelerate, to hasten.

Dargrysiol, *a.* hastening, accelerative, quickening.

Darguchiad, -au, *sm.* a frowning or lowering.

Darguchio, *v.* [cuchio] to frown, to lower.

Darguchiol, *a.* frowning, lowering.

Darguddiad, -au, *sm.* seclusion; concealment.

Darguddio, *v.* to seclude; to conceal; to lurk.

Hithau *darguddiodd* degved ran o'r rhodd
Hyd na chwblhauodd [*al.* chwplaodh] yr holl balva.
Yr Awdl Fraith: M.A. i. 92.

Darguddiol, *a.* tending to seclude or conceal.

Darguliad, -au, *sm.* a narrowing or straitening.

Dargulo, *v.* to tend to straiten or narrow.

Darguriad, -au, *sm.* reverberation; a beating.

Darguro, *v.* to reverberate; to beat.

Dargurol, *a.* reverberating; beating, beating back.

Dargwsg, *sm.* light sleep, a slumber.

Pwy bynnag sydd yn byw mewn swrth *ddargwsg*, ac ni wrandawo ac ni roddo glust i ddim ag a ddyweter wrtho yng nghylch y bywyd a ddaw . . . y mae'r cyfryw un allan o bob gobaith gallu ei ynnill i roi ei fryd ar wasanaethu Duw.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. II. vi. 7.

Tydi sy'n crwydro, 'n fawr dy wall,
Yn *nargwsg* dall cydwybod,
I'r goleu bellach tro dy daith;
Gad ffiaidd wsith dy bechod.
Iolo Morganwg: Salm. I. clxxvi. 2 (cf. II. ccv. 4).

Dargwsg, *v.* to slumber or doze.

Yn *dargwsg* mewn lle dirgel.—*Dafydd ab Gwilym.* (*D.*)

Dargwyddiad, -au, *sm.* a falling; a tumbling.

Dargwyddo, *v.* [cwyddo: cf. *dygwyddo*] to fall; to fell; to tumble.

Dargwyddol, *a.* tending to fall; falling.

Dargwymp, *sm.* [cwymp] a fall; a lapse.

Dargwympiad, -au, *sm.* a falling.

Dargwympo, *v.* to fall; to lapse; to cause to fall; to fell.

Dargwympol, *a.* causing to fall; falling; felling.

Dargwyno, *v.* to complain; to murmur.

A'r defaid a *ddargwynasant* achos y camwedd yma, a'r afies a ddioddefynt; ond ni chawsant fael o'u cwyn.
Iolo Mss. 174.

Dargydiad, -au, *sm.* adjunction, a joining.

Dargydio, *v.* to join, conjoin, or connect.

Dargydiol, *a.* conjoining, uniting.

Dargydiwr, wyr, *sm.* one who conjoins, connects, fastens, or unites; one who lays hold of.

Dargyfaddaw, *sm.* [cyfaddaw] a threat, a menace.

Dargyfaddaw, *v.* to threat, to menace.

Dargyfaddawiad, -au, *sm.* a threatening or menacing.

Dargyfaddef, *v.* partly to own, confess, or acknowledge.

Dargyfaddefiad, -au, *sm.* a partly owning or acknowledging; a partial confession.

Dargyfaddefol, *a.* partly owning, acknowledging, or confessing.

Dargyhoeddi, *v.* to expose or advertise publicly; to reprehend.

Dargyhoeddiad, -au, *sm.* a public exposure; reprehension.

Dargyhoeddol, *a.* tending to expose, detect, or publish; reprehending.

Dargylchol, *a.* surrounding, encompassing.

Dargylchu, *v.* to circumscribe; to surround or encompass.

Dargylchyniad, -au, *sm.* a surrounding or encompassing.

Dargylchynol, *a.* circumferential.

Dargymmysg, } *v.* to mix, mingle, or blend;
Dargymmysgu, } to compound.

Cymmer helogan, sef perllys yr hêl . . . a llydan y ffordd, a phwya'n dda oni bônt fâl mâl, a dod atynt fêl, a gwyn wi gwedi ei lanhau, a chan gwenith, ac yna eu *dargymmysg* yn dda da, gan eu darllaw a'u trafod yng nghyd.
Meddygon Myddfai, ii. 551 (cf. 552).

Dargynheniad, -au, *sm.* [cynhen] a quarrelling or bickering.

Dargynhenol, *a.* quarrelling; striving.

Dargynhenu, *v.* to quarrel; to bicker.

Dargynhyrfu, *v.* to agitate; to disturb.

Dargynnull, } *v.* to collect; to aggregate; to
Dargynnullo, } accumulate; to assemble.

Dargynnull, -ion, *sm.* a collection; an aggregate.

Dargynnullawl, *a.* collective; accumulative; aggregative.

Dargynnulliad, -au, *sm.* collection; aggregation; accumulation.

Dargynnwys, } *v.* to contain or comprise; to
Dargynnwyso, } condense or condensate; to render compact.

Yma mae'r prydydd yn darblygu y peth a wnai'r gwr; ac yn *dargynnwyso* ofn y galon at yr arf, y ddarymsawdd, i arwyddocäu y gwr, oedd yn gyru ofn arnynt.
H. Perri: Egl. Ffr. (1595), vi. 4.

Digitized by Google

Dargynnwysiad, -au, *sm.* a condensing; condensation.

Dargynnwysol, *a.* that contains; condensate.

Dargynnwyswr, wyr, *sm.* one who condenses, a condenser.

Dargynnwysydd, -ion, *sm.* he who or that which condenses; a condenser, a condensator.

Dargynnyddiad, -au, *sm.* an increasing; augmentation.

Dargynnyddol, *a.* augmentative; increasing.

Dargynnyddu, *v.* to augment, to increase.

Dargynnyg, -ion, *sm.* an offer; an attempt; an effort.

Dargynnyg, Dargynnygio, *v.* to offer; to attempt; to make an effort; to adventure; to hazard.

Dargynnygiad, -au, *sm.* an attempting, trying, or offering; a making an effort.

Dargynnygiol, *a.* attempting; adventuring.

Dargynnygiwr, wyr, *sm.* one who attempts.

Dargynnyrchiad, -au, *sm.* a growing up or increasing.

Dargynnyrchiol, *a.* tending to increase or produce; fructiferous.

Dargynnyrchu, *v.* to increase; to fructify.

Dargyrchu, *v.* to resort or repair to; to have recourse.

Dargyrhaedd, Dargyrhaeddyd, *v.* to reach, to extend; to reach or extend to.

Dargysgiad, -au, *sm.* [cysgu] a slumbering or dozing.

Dargysgodi, *v.* to adumbrate; to shade.

Dargysgodiad, -au, *sm.* adumbration.

Dargysgodol, *a.* adumbrant; shading.

Dargysgol, *a.* slumbering, drowsy; slumberous.

Dargysgrwydd, *sm.* drowsiness, somnolence.

Dargysgu, *v.* to slumber; to sleep lightly; to doze; to take a nap; to nod.

A phe rhon i mi â *dargysgu* yn y gwaith athrwm hwn, yn rhywle, y mae Horatius yn fy amddiffyn fod yn gyfreithlawn mewn gwaith mawr o gysgu peth.
Dr. Thomas Wiliams (Y Greal, 66).

Dargysgwr, wyr, *sm.* a slumberer; a drowsy person.

Dargyspelliad, -au, *sm.* concentration; a rendering compact.

Dargyspellu, *v.* to concentrate.

Dargyssodi, *v.* to combine; to connect.

Dargyssodiad, -au, *sm.* combination; composition.

Dargyssodol, *a.* tending to combine; plastic.

Dargyssodydd, -ion, *sm.* a combiner, a composer, a compositor.

Dargyssoni, *v.* to render harmonious or consistent, to harmonize.

Dargyssoniad, -au, *sm.* a harmonizing.

Dargyssylltiad, -au, *sm.* a joining together; conjunction, connection.

Dargyssylltol, *a.* conjunctive, connective.

Dargyssylltu, *v.* to conjoin, to unite.

Dargyssylltwr, wyr, *sm.* one who conjoins.

Dargystadledd, *sm.* proportionateness, proportionality.

Dargystadlu, *v.* to proportionate.

Dargystadlydd, -ion, *sm.* one who proportions or adjusts.

Dargystuddiad, -au, *sm.* a tormenting, a torturing, excruciation.

Dargystuddio, *v.* to afflict greatly; to excruciate, to torment.

Dargystuddiol, *a.* very afflictive; excruciating.

Dargystuddiwr, wyr, *sm.* one who sorely afflicts; a tormentor.

Dargystwy, -on, *sm.* a castigation, a correction.

Dargystwyad, -au, *sm.* correction, castigation; emendation.

Dargystwyo, *v.* to castigate, to chastise.

Dargystwyol, *a.* castigatory; emendatory.

Dargywain, Dargyweinio, *v.* to convey, to carry; to transmit.

Dargyweiniad, -au, *sm.* a conveying or carrying; transmission.

Dargyweiniol, *a.* conveying, bearing.

Dargyweiriad, -au, *sm.* correction, reparation, emendation.

Dargyweirio, *v.* to correct, to amend.

Dargyweiriol, *a.* corrective, emendatory.

Dargyweiriwr, wyr, *sm.* a corrector, a rectifier.

Darhedeg, *v.* to hover on the wing; to fly about.

Darhediad, -au, *sm.* a hovering.

Darhedol, *a.* hovering, soaring.

Darheidiad, -au, *sm.* [haid] a swarming.

Darheidio, *v.* to swarm about; to throng.

Darheidiol, *a.* swarming; thronging.

Darholeb, -au, -ion, *sf.* [hawl, holi] a problem.

Y mae *darholeb* bywyd yn cael ei galw yn bwll tro.
Drych, Chwef. 22, 1871.

Darhoniad, -au, *sm.* assertion.

Darhonnawl, *a.* assertive, positive; dogmatic.

Darhonni, *v.* [honni] to assert; to dogmatize.

Darhun, *sm.* a slumber; a nap.

Syrthio (myned) yn nargwsg neu yn *narhun* (mewn dargwsg neu mewn *darhun*), dargysgu, *darhuno*.
Walters, s.v. 'Slumber.'

Darhunad, Darhuniad, -au, *sm.* a slumbering, a dozing; a napping.

Darhuno, *v.* to slumber, to doze, to sleep lightly; to nap.

Darhunol, *a.* slumbering, slumberous.

Darhunwr, wyr, *sm.* a slumberer.

Dariad, -au, *sm.* [dâr] a making a noise or din.

Dariasol, *a.* [ias] pervasive; stimulant.

Dariasu, *v.* to pervade; to affect.

Digitized by Google

Darladaeth, -au, *sf.* [llad] benevolence; grace; benediction.

Darladiad, -au, *sm.* a making or becoming benevolent.

Darladol, *a.* benevolent, bounteous, gracious.

Darladu, *v.* to bless; to confer a blessing; to act benevolently.

Darladd, *v.* [lladd] to beat, to buffet, partly to kill.—*S.E.W.*

Darlafaru, *v.* [llafaru]=*Darlefaru.*

Darlam, -au, *sm.* [llam] a hop, a jump, a caper.

Darlamiad, -au, *sm.* a hopping, jumping, or capering.

Darlamol, *a.* hopping, jumping, leaping, capering.

Darlamu, *v.* to hop, jump, leap, or caper.

Darlamwr, wyr, one who hops; a jumper.

Darlathru, *v.* to polish, to smooth.

Darlead, -au, *sm.*=*Darllead, Darlleniad.*

Darleain, *v.*=*Darlleain, Darllain, Darllen.*

Darlechiad, -au, *sm.* a skulking, a lurking.

Darlechol, *a.* skulking, lurking.

Darlechu, *v.* to skulk, lurk, or hide.

Darlechwr, wyr, *sm.* a skulker, a lurker.

Darlediad, -au, *sm.* expansion; extension.

Darledol, *a.* expansive, expanding.

Darledu, *v.* to expand, to dilate, to spread out.

Darleddfu, *v.* [lleddf] to incline or bend; to lean downwards, to droop; to grow languid; to soften.

Darleisiad, -au, *sm.* a resounding; resonance.

Darleisio, *v.* to resound, to echo.

Darleisiol, *a.* resounding, resonant.

Darleithio, *v.* to make humid, damp, or moist; to moisten; to become moist or humid.

Darlenwad, -au, *sm.* superabundance.

Darlenwi, *v.* to superabound.

Darleodraeth, -au, *sf.*=*Darlleodraeth.*

Darlesol, *a.* [lles] advantageous, profitable.

Darlesu, *v.* to benefit; to cause advantage.

Darlethiad, -au, *sm.* suppression; a smothering; an overlaying.

Darlethol, *a.* tending to suppress; overlaying.

Darlethru, *v.* to slope; to incline; to make oblique or slanting.

Darlethu, *v.* to suppress; to overlay.

Darlewychu, *v.*=*Darllewychu.*

Darlidiad, **Darllidiad**, -au, *sm.* a raging, a chafing; inflammation.

Darlidio, **Darllidio**, *v.* [llidio] to inflame the passions; to chafe, to enrage, to inflame; to become greatly enraged.

Sef y dywaid y golomen ei bod yn angharu trutheiniaw; a *darllidiaw* a wnaeth yr holl gymdeithon, a gorchurasant hi yn anaeleu, ac a'i troisant hi allan yn nyfnder y tywyllnos garwhinog, i rynu a dychrynu oni ddaeth y wawr.—*Iolo Mss.* 173.

Darlidiol, **Darllidiol**, *a.* infuriating; very angry or enraged.

Darlifiad, -au, *sm.* a flowing, fluxion.

Darlifion, *s.pl.* fluxious (in algebra).

Darlifo, *v.* to flow; to stream.

Darlifol, *a.* flowing; fluent.

Darlith, -iau, *sf.* [llith=L. *lectio*] a lecture.

Darlith ar Ddilechdid, neu Ffraethineb Ymadrodd.
Seren Gomer, xii. 361.

Darlith ar Awsaflaeth. . . A draddodwyd yng Nghymdeithas Cymreigyddion Caerludd, Nos Iau, Ebrill 7fed, 1831.—*Gwyliedydd*, ix. 109 (cf. 144, 173, 178; vii. 213).

Darlith ar Ddyled y Wlad.—*Seren Gomer*, xvi. 1, 33.

Gellir golygu mai ystyr y gair *darlith* yw, addysg yn cael ei weinyddu drwy ddarllen neu trwy draddodi. *Darlithiau* y gelwir gwersi beunyddiol athrawon colegau yn gyffredin. . . Anhawdd yw dangos y gwahaniaeth sydd rhwng araith, a phregeth, a *darlith*; ac eto, fe deimlir fod gwahaniaeth rhyngddynt.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 348 (cf. 349).

Lle y mae y *ddarlith* athrofaol yn diweddu, y mae y bregeth yn dechreu.—*Adolygydd*, iii. 197 (cf. 173, 180).

Darlithiad, -au, *sm.* a lecturing.

Darlithio, *v.* to lecture, to prelect.

Arferai Schlegel, pan ydoedd tua deuddeg a thrigain oed, *ddarlithio* yn ddifyfyr yn Lladin.
Beirniadur Cymreig, i. 96.

Darlithiol, *a.* relating to a lecture or to lectures; lecturing.

Darlithiwr, **Darlithwr**, *pl.* darlithwyr, *sm.* a lecturer, a prelector.

Y gwasanaeth hwnw a elwir yn ddarlith, a'r gweinidog yn *ddarlithiwr*.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 348 (cf. 349).

Petrusodd y *darlithwr* am fynyd, pan y rhoddes Rasselas goden o aur yn ei law.—*Rasselas*, xviii.

Darlithwriaeth, -au, *sf.* a lectureship.

Darlithydd, -ion, *sm.* a lecturer.

I'r hwn y mae dau o feibion . . . un yn *ddarlithydd* ar feddygiaeth ym Mhrifysgol Llundain.—*Brython*, ii. 72.

Darliwiad, **Darlliwiad**, -au, *sm.* a tinting, a light colouring.

Darliwio, **Darlliwio**, *v.* to give a tint or hue to; to tint, colour, or paint.

Hi a ddylai fwrw ei llawn olwg ar amcan a dychymmyg a fo gan y bardd a'r athraw dan olwg; a lluniaw'n olcubwyll sylfon a sylwedd y gerdd, ac yn dwyn ei llawn nerth a'i gallu er darnodi a *darlliwio* pob pwyll ac ystyr.
Cyfrinach y Beirdd, 13.

Darliwiol, **Darlliwiol**, *a.* that gives a tint or colour; colouring.

Darlochawl, *a.* protective.

Darlochi, *v.* to afford protection; to cherish.

Darlochiad, -au, *sm.* protection.

Darloesi, *v.* to pour over or upon; to empty over.

Darloesiad, -au. *sm.* a pouring out upon; suffusion.

Darlonawl, *a.* cheering, gladdening.

Darloni, *v.* [llon] to cheer, to gladden, to exhilarate.

Darloniad, -au, *sm.* a cheering or gladdening; exhilaration.

Darlosg, *sm.* a slight burning; a singeing or scorching.

Darlosgawl, *a.* singeing, scorching.

Darlosgi, **Darlosg**, *v.* to burn slightly; to singe or scorch.

Darlosg tir gwyllt, to clear wild ground.—*S.E.W.*

Digitized by Google

Darlosgiad, -au, *sm.* a singeing or scorching.

Darluchio, *v.* [lluchio] to cast or throw about; to sprinkle.

Darluddiad, -au, *sm.* obstruction, hinderance.

Darluddio, *v.* to obstruct, to impede.

Darluddiol, *a.* obstructive, hindering.

Darlun, -iau, *sm.* [llun] a portrait, picture, or likeness; a figure; a drawing.

Tri choel beirdd Ynys Prydain: cof a llafar gorsedd; arwydd a *darlun;* a llythyr ac ysgrif.—*Barddas,* ii. 70.

Cynnwysa ein *darlun* olygiad o'r Deml Gron, adeilad fechan o harddwch nodedig.—*Cylchgrawn,* ii. 16.

Yn fuan cafodd yr enrhydedd o dynu *darluniau* Tywysog Cymru a Dug Caerefrawg.—*Gwyliedydd,* viii. 258.

A wnewch chwi fod mor ostyngedig ac ufudd . . . a rhoddi *darlun* cywir o honoch eich hunan yn Seren Gomer. . . Rhoddem ni unrhyw dâl rhesymol am y Seren honno, er cael i'n meddiant eich *darlun.*—*Seren Gomer,* iv. 302.

Y mae yn gofyn galluoedd barddonol cryf, a llygad craff, i dynu *darlun* â maint ynddo.
Caledfryn: Drych Barddonol, 12.

Darlunfa, -oedd, -on, *sf.* 'a place for drawing, a drawing school;' a place or apartment for pictures.

Darluniad, -au, *sm.* delineation, description; a pictorial representation; a portraying or depicting; portraiture; representation; a drawing, a picture, an illustration.

Yma fy nghalon a ddechreuodd waedu, a gorfu imi fyned ym mlaen â rhan arall o'i *ddarluniad.*
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 21.

Rhoddir yn y bennod hon *ddarluniad* byr o wlad yr Aipht.—*Sim. Lloyd:* Amseryddiaeth, 69 (cf. 75).

Fel un allan o lawer, cymmerer y *darluniad* o'r march yn llyfr Iob.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 162.

Mae'r geiriau uchod yn cynnwys *darluniad* o driniaeth llawer mwy trahäus a chreulon nag alltudiaeth.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 48 (cf. 43).

Y mae *darluniad* pyrth uffern yn grillian ar eu bachau, yn cael ei gyfrif ym mhlith campau Milton.
Blackwell: Ceinion Alun, 226 (cf. 227).

Mae Homer a Virgil yn tra rhagori ar bawb yn eu *darluniadau* barddonol.
Gutyn Padarn: Gwaith Prydyddawl, 131.

Meddwl ymofyngwr a foddlonir oreu â *darluniad* cywir o bethau.—*Josiah Rees:* Hunan-Adnabyddiaeth, 5.

Hwn, wrth eistedd ryw ddiwrnod yn ystafell Wilson, a lanwyd â'r fath orhoffder tuag at un o'i *ddarluniadau* arbeiawl, fel y cynnygiai roddi iddo un o'i brif ddarluniau ei hun am dano.—*Gwyliedydd,* viii. 258.

Darluniadol, *a.* descriptive; pictorial; that is delineating or depicting; illustrative.

Er y dengys y bardd, bob amser, ei fedrusrwydd ym mha ddullwedd bynnag y cyfansoddo; eto, drwy y dull *darluniadol* y daw mwyaf o deithi yr awen i'r golwg.
Caledfryn: Drych Barddonol, 9 (cf. 10).

Y trydydd cymhwysder at y diben a enwyd ydyw gallu *darluniadol,* neu fod dull a swn yr ymadroddion yn cyfateb i'r synwyr a drosglwyddant.—*Blackwell:* Ceinion Alun, 226.

Nid ellir dywedyd bod barddoniaeth *ddarluniadol* yn gangen ar ei phen ei hun.
Gutyn Padarn: Gwaith Prydyddawl, 131 (cf 129).

Ai gormod rhyfyg fyddai i ni feddwl ddarfod i gwr ei fantell gyffwrdd â'r philosophydd, a'i gyfarwyddo i lefaru geiriau ag oeddynt *ddarluniadol* o un cyflawnach nag Aristides!—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 48.

Fel pe buasai y tawelwch . . . wedi ei fwriadu nid yn unig er rhwyddhau ymledaeniad ei grefydd ef, ond hefyd i fod yn *ddarluniadol* o'r effeithiau daionus ac heddychol, y rhai yr oedd i'w dwyn ym mhlith dynion.
Gwyliedydd, iii. 4.

Cân ddarluniadol, a descriptive poem.

Beibl darluniadol, a pictorial or illustrated Bible.

Darluniadoldeb, *sm.* descriptiveness.

Darluniadwy, *a.* describable.

Darluniaeth, -au, *sf.* 'the act of drawing, designing, or composing;' delineation, description, portraiture; painting.

Ym mhen rhyw yspaid, aeth drosodd i'r Eidal, i ddiwyllio ei athrylith; ac yno y bu yn arferyd ei orchwyl dros dro: eithr eto heb adnabod ei greth gynnwynol ei hun, er ei fod ar achlysuron yn arferyd â *darluniaeth* arbeiawl.
Gwyliedydd, viii. 258.

Darluniaidd, *a.* resembling a picture; picturesque.

Darluniawd, *sm.* portraiture; delineation.

Darluniawdr, iodron, *sm.* one who depicts or portrays; a portrayer, a delineator.

Darluniedigaeth, -au, *sf.* delineation; a depicting or drawing; description.

Darluniedigol, *a.* delineating, portraying, depicting; descriptive.

Darluniedydd, -ion, *sm.* a delineator, a portrayer; an artist; one who or that which depicts; a describer.

Yma terfynwn fywgraffiad un o'r dynsodion disgleiriaf yn ei ddosparth a gynnyrchodd ein Tywysogaeth ni . . . yr hwn y mae ei enw ym mhlith y rhai mwyaf uchelradd o'r *darluniedyddion* arbeiawl o bob gwlad ac oes.
Gwyliedydd, viii. 260 (cf. 257, 258, 259).

Darlunio, *v.* to portray, depict, delineate, or draw; to describe; to represent.

Eglwys fyt a chreuyt a chred a chymun
Ual wrth Duw eu hun y *dyrlunhyed.*
Llywelyn Fardd: M.A. i. 360.

Moddedigaeth araith a *ddarluniwyd* o'r dechreuad, o blaid achos prinder ac anamlder geiriau.
H. Perri: Egl. Ffr. (1595), i.

Y gorchymmynion mocsol ydynt gopïau o'r sancteiddrwydd a'r cyflawnder sydd yn Nuw, ac a *ddarlunia* ef ar eneidiau dynion.—*Ch. Edwards:* H. y Ff. 57.

Ni fuasai dyn cyffredin wrth edrych ar yr olygfa a *ddarlunir* gan y bardd yn gweled dim ond yr haul yn llwyd ei wedd. . . Yng 'Nghywydd y Farn' y mae Goronwy Owain yn *darlunio* dychryn y diafol ar ddyfodiad Mab y Dyn yn y dydd olaf.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 160.

Ac y mae'r Iesu ei Hun yn *darlunio* cyflwr dynion dan effaith pechod, mewn cyffelyb eiriau.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 37.

Hanesion diweddarach a *ddarluniant* nifer y preswylwyr yn llawer llai.—*Cylchgrawn,* ii. 15.

Darluniodraeth, -au, *sf.* the art of delineation, portraying, or designing; the pictorial art.

Darluniog, *a.* having pictures, portraits, or illustrations; delineated, illustrated, figured.

Darluniol, *a.* descriptive; pictorial; illustrative.

Prydyddiaeth ddarluniol, descriptive poetry.

Darluniwr, wyr, *sm.* one who delineates or depicts; a delineator, an artist, a portrayer; a drawer; a describer.

Reynolds, y penaf o gystlwn y *darlunwyr,* a fu'r penaf o athrodwyr y Cymro.—*Gwyliedydd,* viii. 259.

Darlunlen, -i, *sf.* a painted sheet or canvas; a painted scene; a map.

Y mae trefydd ar y rhai y gwna daiaryddion ond ychydig sylw, ac enwau y rhai a argreffir mewn llythyrenau bychain ar y *ddarlunlen,* os cânt le yno mewn unrhyw ddull.
Cylchgrawn, ii. 87.

Os na dderbyniwch y Beibl mewn yspryd baban, chwi a ammheuwch ac a grwydrwch nes cael eich hunan mewn môr o ansicrwydd, heb un *ddarlunlen* i'ch cyfarwyddo, na chwmpawd i ddangos y ffordd, na phorthladd i gyfeirio ato.—*J. Mills:* Hyfforddwr, 132.

Digitized by Google

Darlunlen y ddaiar, a map of the earth.—*W.*

Darlunlen gwlad, a map of a country.—*W.*

Darlunydd, -ion, *sm.* a delineator, portrayer, artist, or painter.

Darlunyddiaeth, -au, *sf.* the art of delineating, depicting, or drawing; the pictorial art; painting.

Darlwybrad, -au, *sm.* a tracing a path; a making out a road.

Darlwybro, *v.* to trace out, to trace, to track.

Darlwyddiant, *sm.* prosperity.

Darlwyddo, *v.* to cause to prosper or succeed.

Darlwyddol, *a.* prospering; prosperous.

Darlwythiad, -au, *sm.* a loading, burdening, or charging.

Darlwytho, *v.* to lay on a load, to load, to burden.

Darlwythol, *a.* tending to load.

Darlyfniad, -au, *sm.* a polishing or smoothing.

Darlyfnol, *a.* tending to polish, polishing.

Darlyfnu, *v.* to give a polish, to smooth.

Darlynciad, } -au, *sm.* a gulping; deglutition;
Darlyncad, } a belching, eructation.

Darlyncol, *a.* swallowing, gulping.

Darlyncu, *v.* to eructate, to belch.

Darlyniad, -au, *sm.* adhesion.

Darlynol, *a.* adhering, adhesive, adherent.

Darlynu, *v.* [glynu] to adhere, cleave, cling, or stick (to).

Pob rhyw beth a'r y sydd yn *darlynu*, ac yn gobwyso, neu'n perthyn at beth arall, darymsawdd yw o duddrych y peth hyny.—*H. Perri:* Egl. Ffr. vi. 2.

Diogel ydyw, nad yw hwn bechod gwreiddiol, yn *darlynu* wrth ein naturiaeth, fel y mae rhyw fath ar bechodau creill.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 166.

Ei berchi ef am ei sancteiddrwydd, a'i foliannu ef am ei fendigedigrwydd, a *darlynu* arno ef tra fôm byw.
Rowland Vaughan: Ymarfer Duwioldeb, 27.

Darlythyr, -au, *sm.* superscription.

Darlythyrol, *a.* pertaining to superscription; superscribed.

Darlythyru, *v.* to superscribe.

Darlywiad, -au, *sm.* a guiding, directing, or superintending.

Darlywio, *v.* to guide, direct, or superintend.

Darlywiol, *a.* directive, directing, guiding, superintending.

Darllain, *v.* [prob. a contr. of *darlleain*] to read; to peruse.

A gwedy gwelet o Bandrassus y llythyr hwnnw ac *darllein* rac y vron. galw attaw a orue y gyghorwyr.
Ystoria Bren. Bryt.: LL.C.H. ii. 44.

Darllain yn vyvyriol, ystyria'n dosturiol, ac anrhydedha'n dhedhfol.—*Ymborth yr Enaid*, § 22.

Ac yna *darllein* y llythyr a orugant y barwnyeit.
St. Greal, § 3 (cf. 16, 50).

Ar neb ny wypo honno. *darllein* yr ymadrawdd a wna. ac nys dyeill.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 493.

Pylgain y *darllain* deir-llith;
Plu yw ei gasul i'n plith.—*D. ab Gwilym*, ccxix. 15.

Darllain dy bylgain y bûm.—*Hywel Swrdwal.*

Wedi *darllain* hyn efe a ymroes yn wr duwiol iawn.
Iolo Mss. 208.

Hyd nes darfydder *darllain*. . . Wyneb y nod rhif yw'r cyntaf idd ei *ddarllain*.—*Barddas*, i. 136.

¶ *Darllain* ('darllein') is the oldest form, but it is found only in the infinitive; the conjugations and derivatives are those of a later form, *darllen*, but now the more usual orthography.

Pan y *darllener* un ochr o'r ebill, ei throi fal y ceir yr ochr arall idd ei *darllain* . . . a gwedi *darllain* un ebill, myned at y nesaf is ei llaw.—*Barddas*, i. 146.

Darllais, lleisiau, *sm.* [llais] talk; rumour, report.

Darllais gwlad, common report.

Darllaw, *v.* [llaw: cf. *darllofi*] 1. to make, form, or prepare by the hand; to manufacture; to prepare.

Wedi rhyfel bargod Owain Glyn Dwr, gwaharddodd y brenin adael i bapur a phlagod gael eu dwyn i Gymru, nac ychwaith eu *darllaw* yno.—*Iolo Mss.* 206.

Gwedi hyny gwnaethpwyd plagawd crwyn a'u *darllaw* gan gelfyddyd.—*Barddas*, i. 162 (cf. 146).

2. to make ale, beer, and the like; to brew. (The current use.)

Coffer mai y gwanwyn a'r hydref yw'r tymmorau goreu i *ddarllaw*.—*Gwyliedydd*, viii. 311.

Darllaw cwrw, to brew ale or beer.

3. to mash; to steep; to moisten and mix.

Cais amcan o sebon du, ac arall o fêl, a thrydydd o gan gwenith, a'u *darllaw* yng nghyd; a dod wrtho.
Meddygon Myddfai, ii. 557 (cf. 551).

Darllaw gwlaw, to brew for rain.

Darllaw, -iau, *sm.* 1. that which is made by the hand; manufacture.

Gwedi hyny cafwyd celfyddyd ar grwyn lloi, a chrwyn geifr, a chrwyn defaid, ac o henynt gwneuthur plagawd; a goreu ar bob *darllaw* ydyw mewn llyfrau.—*Barddas*, i. 44.

2. a brew, a brewing.

Darllawdy, dai, *sm.* a brewhouse, a brewery.

Syrthiodd merch . . . i drwpa o ddwfr berw yn y *darllawdy*.—*Seren Gomer*, vii. 453.

Darllawfa, -oedd, *sm.* a brewing place; a brewery.

Darllawiad, -au, *sm.* a brewing; the act of making liquor.

Darllawiad o gwrw, a brewing of ale.

Darllawydd, -ion, *sm.* a brewer.

Darllawyddiaeth, -au, *sf.* a brewer's trade or business.

Darllawyddol, *a.* relating to a brewer's trade, business, or occupation.

Darllead, -au, *sm.* [darlleo, darllëu] a reading, lection.

Darlleadwy, *a.* readable; legible.

Darlleain, *v* [llëu]. See *Darllëu*, &c.

Darlleawd, odau, *sm.* a reading, lection.

Darlleawdr, odron, *sm.* a reader; a public reader; one who gives readings.

Y trossyawdyr yssyd yma yn menegi yr *darlleodron* mae drwc a doluryus yw ganthaw na wybu pale yn yr ynys honn yr oed lys brenhin Peleur.—*St. Greal*, § 255.

Iulian Apostata . . . yr hwn (yn ei feddwl) oedd mor ddoeth ag y gwnaethpwyd ef yn *ddarlleawdr* yn yr Eglwys o Nicomedia.—*Marchog Crwydrad*, i. 5.

Darlleawr, orion, *sm.* a reader, a lector.

Digitized by Google

Darllëedigaeth, -au, *sf.* a reading, lection.

Darllëedigaeth doethion dysgedig, the reading of the learned wise men.

Yno y mae perthynawl i'r gorseddawg gadw y gynhen mywn cof dileddf yny fo dosparth yn yd [yn nydd?] y gyfraith am y frawd gynghaws o gyfraith ysgrifenedig, neu o'i chyffelybrwydd priodawl drwy *ddarllëedigaeth* doethion dysgedig yng nghyfraith ac awdurdawd a fônt alwedigion o blaid y gorseddawg a'r ni bônt bleidiau.
Leges Wallicæ, iv. ccxv. 4.

Darllen, *v.* [=darllain, darlleain: cf. *llën*] to read; to peruse.

Ni bydd doeth ni *ddarlleno*.—*Diareb.* (M.A. iii. 166.)

Efe a gymmerth lyfr y cyfammod, ac a'i *darllenodd* lle y clywai y bobl.—*Ecs.* xxiv. 7.

Gwrandäwn a *darllenwn* yn barchedig yr Ysgrythyr Lân, yr hon yw ymborth yr enaid.
Ed. Iames: Homiliau, i. 2 (cf. 1, 5, 8).

Pwy a *dderllyn* y Gwasanaeth?—*Gronwy Owain*, 318.

Wrth *ddarllen* Cymraeg rhodder i bob llythyren ei chyflawn sain ym mhob amgylchiad, megys yn yr egwyddor.
Ioseph Harris: Gweith. 282.

¶ There is a tendency in N.W. to pronounce the *e* short in this word and its derivatives; but in all such cases that vowel is long (*ë*).

Darllen, -ion, *sm.* reading; lection.

Hyd oni ddelwyf, glŷn wrth *ddarllen*.—1 *Tim.* iv. 13.

Darllenadwy, *a.* readable; legible.

Darllenawd, -odau, *sm.* a reading; lection.

Darllenedigaeth, -au, *sf.* the act or art of reading; reading.

Darllenfa, -oedd, fëydd, *sf.* a place for reading; a reading-desk.

Dywed [Awstin] nad oedd yn oddefol eu darllen o'r un *ddarllenfa* â'r lleill, ond mewn rhan is o'r Eglwys.
Gwyliedydd, xiii. 21.

Darllenfan, -au, *sf.* a place for reading.

Darllengar (*n-g*), *a.* given or disposed to reading; fond of reading; reading.

Ni phetrusent fod yn awduron, cyn belled ag yr annogid hwynt gan awydd *ddarllengar* yr oes.
G. Mechain: Gwaith, ii. 297.

Darlleniad, -au, *sm.* 1. reading, lection; per-
Darllenad, usal.

Y mae arfer y gwŷr hyn o siarad llawer am ryw fath ar ddirgel athrawiaeth, ac am lawer amryw fath ar ddysg a *darlleniad* sy ganddynt.—*Morus Cyffin:* Diff. v. 7.

Yn lle pillwydd y bydd peithenen elech, ag erni'r *darllenad*, a'i thori â chethren ddur, neu â challestren lem.
Barddas, i. 154.

Ac na ddarllenwch hi heb weddïo beunydd ar Dduw ar iddo ef gyfeirio eich *darlleniad* chwi i ddiwedd da.
Ed. Iames: Hom. i. 8.

Gallwn sylwi fod pregethiad neu *ddarlleniad* gair Duw yn cael ei osod allan megys y prif foddion allanol er trŵedigaeth pechadur.—*Gwyliedydd*, xiii. 5.

Darlleniadau amrywiol, various readings,
Gwahanol ddarlleniadau, variants.

Darlleniadau amrywiol: wrth hyn y deallir yr anghreifftiau o wahaniaeth a ganfyddir mewn gwahanol ysgrifllyfrau Hebraeg a Groeg o'r Ysgrythyrau. . . Pan y siaredir am *ddarlleniad gwahanol*, ni olygir yn gyffredin ddarlleniad yn amrywio oddi wrth y testun gwreiddiol ysprydoledig. . . Pan y darganfyddwyd ar y cyntaf fod *darlleniadau amrywiol* yn bodoli yn y copïau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, cynnyrchwyd nid ychydig o fraw . . . Y mae tarddiadau y *gwahanol ddarlleniadau* yn amrywiol.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 349.

2. the legend on a coin or medal.

Darlleniadur, -on, *sm.* a lectionary.

Darlleniadur, llyfr o wersi i'w darllen yn y gwasanaeth crefyddol mewn eglwysydd.—*Credoau y Byd*, i. 573.

Darlleniaeth, -au, *sf.* reading; the act of reading; the art of reading.

Ni a sylwn ar un gangen bwysig eto a berthyn i iawn *ddarlleniaeth* . . . sef, llywodraethiad y llais.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 353.

Darllenog (*ë*), *a.* of much reading; well-read; reading.

Os gellir cymhwyso un enw mwy cyfaddas nag arall i'r oes hon yng Nghymru, yr oes *ddarllenog* ydyw.
Gwyliedydd, i. 1.

Darllenol, *a.* relating to reading; legible.

Darllenoldeb, *sm.* legibility.

Darllenwr, wyr, (*ë*), *sm.* a reader; a per-
Darllenydd, -ion, user; a lector.

Hyn a ddywedais am ofn darllen o blegid anwybod y *darllenydd*.—*Ed. Iames:* Hom. i. 9.

Os mynwch fod yn wrandawyr ac yn *ddarllenwyr* buddiol o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, rhaid i chwi, yn gyntaf, ymwadu â chwi eich hunain.—*Edward Iames:* Hom. ii. 297.

Er mawr hyfrydwch a diddanwch i'r *darllenyddion* a'r clywaduriaid.—*Cyfrinach y Beirdd*, 26.

Os derbynir hyn o wael draethawd yn gymmeradwy gan un radd o ddeg o'i *ddarllenyddion*, yna byddaf wedi cael cyflawn foddlondeb o'm llafur. . . Gan nad ydwyf yn disgwyl i'r graddau uchod o *ddarllenyddion* fy esgusodi mwy nag awduron ereill a fuont mor aflwyddiannus a syrthio dan eu barnedigaethau, cyrchaf heibio eu brawdle.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 3.

Cyfarwyddyd am y pethau uchod a foddhäi amryw o'ch *darllenwyr*.—*Gwyliedydd*, i. 492.

Y mae bod yn *ddarllenwr* da yn nod teilwng i bob Cymro.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 350.

Darllenyddiaeth, -au, *sm.* a reading; the art of reading; a readership.

Ef allai yr edrychir ar hyn gan rai fel peth hollol ddianghenrhaid, ac nad ydyw manylu arno mewn *darllenyddiaeth* ond tebyg i hollti blewyn, neu hidlo gwybedyn.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 350 (cf. 353).

Darlleodraeth, -au, *sf.* [darlleawdr] a readership.

Darlleol, *a.* relating to reading; legible.

Darlleoldeb, *sm.* legibleness.

Darllëu, *v.* [llëu, lleain, lleaw (=L. *leyo*):
Darlleain, cf. *llëen*, *llën*] to read; to per-
Darlleaw, use.

A phan *darllewyt* y llythyr doluryaw a wnaeth Bendigeituran o glybot y poen a oed ar Vranwen.—*Mabinogion*, 34.

Ac y dichawn pawp wybot or ae *darlleo*. neu ae gwarandawo na oruc ef dim yn orwac.—*Ystoria Charles*, 18.

Athdrwy y geluydyt honno y dyeill y lleodron yn yr eglwys pwyll yr ymadrawd a *darlleont*.
Yst. de Carolo Magno, col. 493.

A deu lyfyr yn ach llaw yn eu *darlleaw*.
Taliesin: A.B. ii. 123.

Ac yr awr y *darlleawd* ef yr hynn aoed yn y llythyreu ef a gymerth y gennat y gan bawp or wlat.
St. Greal, 238 (cf. 30).

Efe a *dharlheir* am Ieuan Vatydhiwr resymiaw oe enait ef. ac ef ynghroth y vam.—*Lucidar*, § 71 (cf. 101).

Ac yna Lionel a dywawt y gwnaei ef nas *darlleei* neb ynteu y dyd hwnnw.—*St. Greal*, § 2.

Megys y *darlheuir* yn diodhefaint yr Arglwydh.
Lucidar, § 109.

Ym mhob lle y *darllëir*.—*Ieuan ab Rhyddferch ab I. Llwyd.*

Hyspys yw'r neb a *ddarlleuo*, a'r rhai a wrandawant eiriau y brophwydoliaeth hon.—*Thomas Huet:* Dad. i. 3.

Darllëwr, wyr, *sm.* [darllëu] a reader; a
Darllëydd, -ion, peruser; a lector.

Am y defnydh barned y *darlheydh*.—*Ipotis*, § 20.

A rac gadael yn ol yma'n stori mor odidawg wely *darlheydh* hygar er dy fwyn.—*Ymborth yr Enaid*, § 22 (cf. 29).

Yn ol i'r *darllëydd* beidio, mae'r gwenidawg penaf yn gwneuthur annogaeth, gan eu hannog i ganlyn pethau honest.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 275.

Digitized by Google

Un peth gan hyny sy raid i ni rubuddio'r *darllëydd* o'i blegid.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. i. 2 (cf. ii. 14).

Yn gyntaf yn ol sefydliad y Gymdeithas yn 1781, gwnawyd ef yn un odd y ddau *ddarllëwr*.
Seren Gomer, iv. 2.

Darllewychiad, } -au, *sm.* a shining; a throw-
Darlewychiad, } ing or casting a lustre; illumination.

Darllewychol, } *a.* resplendent, glittering,
Darlewychol, } shining with brilliancy.

Darllewychu, } *v.* to shine around; to throw
Darlewychu, } a lustre; to illuminate.

Darllëyddiaeth, -au, *sf.* a readership.

Darllofi, *v.* [darllaw] to use the hand or hands; to manufacture; to handle.

Nid cyweithas bod mwy nag a wedais ym maint y coed deunydd, fal na bönt ry drymion, ac anghyweithas eu dwyn a'u darllaw (*darllofi*).—*Barddas*, i. 146.

Darllunio, *v.*=*Darlunio.*

Y mae'r Ysgrythyr yn *darllunio* cyflwr y cyfryw ddynion drwy bethau ag sydd lwyr ammhosibl.
Ieuan Brydydd Hir: Pregethau, i. 143.

Darllys, *sm.* [dâr+llys] mistletoe (*Viscum album*).

Rhufawn Fardd a wnaeth ddosparth a braint ar gyfar trefgordd, a Melgin ab Einigan Gawr a wnaeth awgrym ar iaith ac ymadrodd gyntaf; a chae a rodded i bob un am ei ben, sef â'r *darllys* awelfar.—*Barddas*, i. 114.

Darmain, einiau, *sm.* [cf. *armain, armes*] a prognostication or prediction; a foretoken.

Darmain, *v.* to prognosticate, forebode, presage, or foretell.

Gauaf sy'n lladd y gwiail,
A dug o goedydd y dail;
A'i chwithig wynt yn chwythu,
A'i ruad arth, a'i rew du;
Mawr ei sain, yn *darmain* dig;—
Ffei arnaw, Iuddew ffyrnig!—*D. ab Gwilym*, cclviii. 36.

Darmerth, -oedd, *sm.* [cf. *armerth*] a preparation; provision; provisions.

Tryded ormes oed yr meint uei y *darmerth* a'r arlwy. a barattoit yn llyssoed y brenhin. kyt bei arlwy vlwydyn o vwyt a diawt. ny cheffit vyth dim o honaw. namyn a treulit yr vn nos gyntaf.—*Mabinogion*, 94 (cf. 13, 97, 98).

A llawer o wyrda a oed darestyngedic idaw y gyt ar ueint *darmerth* a chyniret mylyoed a meirych megys yd oed dyrys eu datkanu.—*Ystoria Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 201.

Cannhyad Duw ys diheu y uod
Yth gannerth kyn *darmerth* daruod.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 294 (cf. 240, 504).

Gruffydd Gryg, ddirmyg *ddarmerth*,
Grugiar y gerdd somgar serth.
Dafydd ab Gwilym, cxxv. 1.

Darmerth, neu Arlwy Gweddi, a ddychymmygwyd er mawr Dderchafiad Duwioldeb, ac i chwanegu Gwybodaeth ac Awydd yr annysgedig ewyllysgar i iawn wasanaethu'r gwir Dduw.—*Robert Holland:* Enw llyfr (1600).

Darmerthedd, *sm.* preparedness.—*M.A.* i. 32.

Darmerthiad, -au, *sm.* a preparing or providing; provision.

Darmerthol, *a.* preparatory, preparative.

Darmerthu, *v.* to prepare, to provide.—*God.* 944.

Y seith lauanat deg wlat *darmerthat*.
Taliesin: A.B. ii. 161 (M.A. i. 23).

Darmerthu gwledd, to prepare a feast.—*W.*

Darmes, -au, -ion, *sf.* [cf. *armes*] oppression, tribulation, trouble, affliction; loss.

A Galaath yna a ovynnawd yr manach a oed yn y edrych. a debygy di heb ef a vyd iach ef. kanys gormod *darymes* oed yr byt kolli gwr kystal ac efo mor diystyr a hynny.—*St. Greal*, § 9.

Yn lle gwir heb hi mawr a *darymes* yr byd yw hynn.
St. Greal, § 6.

¶ See note s.v. *Armes*.

Darn, -au, *sm.* [C. and Br. *darn;* Fr. *darne*] a piece; a part; a patch.

Na chysg yn eu mysg; myn y mur a'u tai
Yn un o'u *darnau* fal y dyrnir.—*L. G. Cothi*, i. viii. 23.

Os chwi a chwedleuwch â hwynt am ychen, neu am wartheg, neu am ddefaid, neu am *ddarn* o dir, neu'r cyffelyb, hwy a fedrant wrando arnoch.
Dr. Davies: Llyfr y Res. ii. vi. 3.

Am yr hyn y mae Pab Rhufain yr awron yn barnu ac yn bwrw ar goll y *darn* mwyaf o'r byd, heb wrando erioed eto ystyriaeth eu hachos hwynt.
M. Cyffin: Diff. iii. 1 (cf. ii. 8; vii. 6).

Tor ef yn *ddarnau*, a thywallt arno olew.
Lef. ii. 6 (cf. i. 12; viii. 20).

Beth yw teiliwr a ddwg *ddarn* o frethyn, wrth wr mawr a ddwg allan o'r mynydd *ddarn* o blwyf?
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 28 (cf. 31).

Darn o arian, } a piece of silver.—*Matt.* xvii.
Darn arian, } 27.

Hwy a roddasant iddo bob un *ddarn o arian*.—*Iob* xlii. 11.

Fel y delont yn ostyngedig â *darnau arian*.
Salm. lxviii. 30.

Darn o ddiwrnod, a part of a day.

Ac darfyddo ciniawa yn ddigonol a dreuliant y *darn* arall *o'r diwrnod*, a rhan fawr o'r nos hefyd, mewn chwarcuon.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 189.

Darn o waith, a piece of work.

Yn ddarnau, in pieces; to pieces; piecemeal.

Rhwygo yn ddarnau, to tear to pieces.

Darn yn narn, } piece by piece; piecemeal; in
Bob yn ddarn, } fragments.

Darnaid, neidiau, *sf.* [naid] a hop, a jump, a leap.

Darnedigaeth, -au, *sf.* the action of cutting or breaking into pieces.

Darneidiad, } -au, *sm.* a hopping, a vaulting.
Darneitiad, } a leaping.

Darneidio, } *v.* [darnaid] to hop, to jump
Darneitio, } about, to vault.

Darneidiol, *a.* hopping; apt to jump up.

Darnen, -i, -au, *sf.* [darn] a small piece; a fragment, a piece, a bit.

Eidwyll a welai wisg Eidiol yng nghwr y llwyn; ac efe a wybu'r man lle'dd oedd abwy drewllyd; yna tori *darneni* o honaw, a'u dodi ym mhlygiadau llewys Eidiol.
Iolo Mss. 162.

Darngudd (*n-g*), *a.* [darn+cudd] that is in a secret way; sly.

Darnguddiad, -au, *sm.* a partly hiding or concealing; a sly action; a purloining.

Darnguddio, *v.* [darn+cuddio] partly to conceal (what should not be concealed); to purloin.

Rhyw wr â'i enw Ananïas . . . a werthodd dir, ac a *ddarnguddiodd* beth o'r gwerth.
Act. v. 1, 2 (cf. 3; Tit. ii. 10).

Ai rhoi hyder yn henafiaeth y gelwch chwi rwygo, *darnguddio*, anafu, a llosgi llyfrau yr hen Dadau sanctaidd?
Morus Cyffin: Diff. v. 4.

Darnguddiol, *a.* purloining.

Darnguddiwr, wyr, *sm.* a purloiner; a plagiarist.

Darniad, -au, *sm.* a cutting in pieces.

Darnio, *v.* to cut to or in pieces; to cut up; to break or hew in pieces.—*Barn.* xix. 29; xx. 6.

Tynnu afalau torri canghennau
Oerfel i'w dyrnau am ei *darniaw*.
Madog Dwygraig: M.A. i. 487.

Mae'r tywysog Moloc wedi gostegu peth o'r Gogledd, a *darnio* miloedd ar draws yr ysplentydd.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 97.

Digitized by Google

Darniog, *a.* in pieces or patches; composed of pieces; pieced, patched.

Ereill a seiliant eu gobaith o iechydwriaeth ar eu hedifeirwch *darniog*, neu mewn rhan.—*Charles Edwards:* Am Orphwys ar Grist (Llyfr y Res. (ed. 1684), 376).

Darniol, *a.* relating to pieces or fragments; composed of pieces.

Darniwr, wyr, *sm.* one who cuts or breaks in pieces; a breaker.

Darnod, -au, *sm.* [nod] a distinctive or special mark; a distinction; a characteristic.

Cymmered y bardd gwbl a thrylwyr *ddarnod* a sylw ar ansodd y geiriau herwydd eu gwraidd a'u tyfiant.
Cyfrinach y Beirdd, 12.

Dyfaler ef yn ddu, neu yn felyn, neu yn wineu, fel y bo herwydd ei liw, o bydd rhagorliw arno, ac am ei fodrwyogrwydd, a'i daniad ar groen harddwyn, a'r cyffelyb *ddarnod* arno.—*Cyfrinach y Beirdd*, 23.

Darnodadwy, *a.* distinguishable; definable.

Ym mhen undydd a blwyddyn gwedi marw Einigan y gweles Menw ab y Teirgwaedd dair gwialen yn tyfu o encu Einigan, ag arnynt yn gyfliwyn gwybodau deg llythyren, a'r modd y trefnawr ynddynt bob gwybodau iaith ac ymadrawdd, ac ar iaith ac ymadrawdd bob gwybodau *darnodadwy* arnynt.—*Barddas*, i. 48.

Darnodawl, *a.* distinctive; special, specific; noted; characteristic.

Darnodi, *v.* to note or mark distinctively; to distinguish; to describe; to define; to characterize.

Ni ddylid fyth *ddarnodi* gwr boneddig yn siarad yn wladeiddiaith, ac yn wladeidd-dwyll.
Cyfrinach y Beirdd, 22 (cf. 13).

Diau y rhyfedda rhai wrth ein gweled yn terfynu ei fywgraffiad heb *ddarnodi* ei wendidau.
Gwladgarwr, iv. 229.

Darnodiad, -au, *sm.* a distinguishing, distinction; description.

Darnofiad, -au, *sm.* supernatation.

Darnofio, *v.* [nofio] to swim or float on the surface; to swim or float.

Darnofiol, *a.* supernatant.

Darnu, *v.* [darn]=*Darnio.*

Newidio gwewyr pan gyffröid,
Darnu ei wewyr wedi'r newid.—*L. G. Cothi*, III. iv. 29.

Daroddef, } *v.* [goddef] to suffer, to endure;
Daroddefu, } to bear.

Daroddefedigaeth, -au, *sf.* the act of suffering or enduring; sufferance, endurance.

Daroddefiad, -au, *sm.* 1. a suffering or enduring; a surrendering; permission.

2. the figure *epitrope* in rhetoric, 'by which a permission, either seriously or ironically, is granted to an opponent, to do what he proposes to do.'

Daroddefol, *a.* suffering, passive; permissive.

Daroddefus, *a.* suffering, enduring, passive.

Daroedd, *v.* See *Darfod.*

A phan ddaethont i'r wlad a *ddaroedd* i Dduw ei haddo iddynt, nid adeiladent ac ni wnaent ddinasoedd, trefydd, na thai.—*Ed. James:* Hom. i. 46 (cf. 66, 97, 103, 130, 144; ii. 174, 184, 254, 282, 301).

Darofn, -au, *sm.* [ofn] great fear, dread.

Rhyfel a ddygwyddwys gynt rhwng y geifrod a'r defaid; a'r defaid mewn *darofn* ac anghalondid a feddyliasant mai galon ffyrnig y geifrod oeddynt y bleiddiaid.
Iolo Mss. 173.

Darofyn, *v.* [gofyn] 1. 'to intimate, to hint.' —*P.*

2. to intend, design, or purpose.

Darofyn [*al.* darofum] darogan.
Taliesin: M.A. i. 74 (A.B. ii. 208).

Mae yn darofyn myned, he intends to go; he talks of going.

Darofyn, *sm.* a slight intimation.

Darofyniad, -au, *sm.* a purposing, designing, or intimating; intimation.

Darofynol, *a.* having a design.

Darogan, -au, *sf.* [gogan: cf. *dysgogan;* Ir. *doaurchanim, tairchanim*] a prediction, prognostication, presage, foretelling, foreboding, or prophecy; vaticination.

Bithaud kyffredin vy *darogan.*—*Llyfr Du:* A.B. ii. 5.

Ac ena e kymyrth Alan vrenin. holl lyvreu *darogan* Merdyn Emrys. a *darogan* er Eryr a brofwydawd egkaer Septon. ac o gathleu Sibilla. a dechreu ac edrych heny o *daroganeu* a oruc i geissiaw gwybot a oed wir a dwawt er angel. A fan weles Alan y *daroganeu* oll en un ac emadrawd er angel. et annoges i Gatwaladyr vynet i Ruvein.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 387 (cf. 329).

Darogan yw idaw kaffel etiued o honat ti.
Mabinogion, 101 (cf. 192, 226, 242, 307).

Kaer Septon. Y lle y bu yr eryr yn dywedut *daroganeu* tra adeilwyt y gaer.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 64 (cf. 155, 166, 207, 251).

A *darogan* eu merthyrolyaeth ae cyffroes ar dagreuoed.
Yst. de Carolo Magno, col. 476.

Trahir dielir dir *darogan.*
Casnodyn: M.A. i. 428 (cf. 240, 270, 332, 344).

Darogan Mertin dyuod breyenhin
O Gymry werin o gamhwri.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 304 (cf. 31, 417, 443).

Trech Duw na drwg *ddarogan.*—*Iolo Mss.* 255.

Telid Duw iddynt am hynawsedd eu *darogan!*
Gronwy Owain, 238.

At yr hyn y gellir ychwanegu y *ddarogan* oedd gynt yn Hystaspes a'r Siblau, yn rhagfynegu y llosgid y byd.
Ed. Samuel: Grotius, i. 22 (cf. v. 1).

Bardd darogan, a prophet bard; a seer.

Yn dy wymp gynteddau nis
Deffroa *bardd darogan* delyn, chwaith
Ni swyna cân.—*W. O. Pughe:* Palestina, 4.

Darogan, } *v.* to predict, prognosticate, fore-
Daroganu, } bode, foretell, foreshow, portend, foretoken, vaticinate, or prophesy; to augur.

Hwnn hagen a *daroganwys* y corr ar gorres it ta uu drwc Kei wrthynt. a thitheu ae dieleist.—*Mabinogion*, 215.

Darogana fi hyn cad ym hob meyn.—*Taliesin:* M.A. i. 49.

Ac wrth henny e kauas ef er enw hwnw wrth i *darogan* ef o Verdyn trwy e dreic i vot en vrenhin.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 286 (cf. 171).

Cred i Dduw nad Derwyddon *darogant*
Ban torrer Din Breon braint.
Meigant: M.A. i. 161 (cf. 192, 206).

A hynny a gymrawod y Freinc. ar *darogan* eu hangeu.
Yst. de Carolo Magno, col. 483.

Oni bai fod yr hedydd
Ar gân yn *darogan* dydd.
Dafydd ab Gwilym, clviii. 71 (cf. cvii. 14).

A'r gydwybod yn gwasgu arno sydd yn *darogan* pethau blin yn wastadol.—*Doeth.* xvii. 11.

Yr hwn oedd wedi ei addaw a'i *ddarogan* cyhyd o amser o'r blaen.—*Ed. James:* Hom. iii. 34.

Arferodd Duw weithiau weinidogaeth prophwydi cenedlig i *ddarogan* rhai pethau nad allai fod achos sicr yn y byd, ond ewyllys Duw, i'w peri. . . Cyfryw oedd y daroganau a ddarllenir yn Virgil, yn y pedwerydd o'i ganiadau.—*Edward Samuel:* Grotius, iv. 9.

Y mae'n *darogan* ac yn tybied fod pethau creulon aruthrol yn dyfod yn ei erbyn.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. i. 17.

Darogan gwlaw, to prognosticate rain.

Darogan drygau, to forebode evils.

Darogan yn dda, to augur well.

Digitized by Google

Daroganair, ciriau, *sm.* a word of prediction; a foreboding word or expression; a prognostic.

Cyntaf daroganaf o'm *daroganair*
Cwynfan Brynn Melarth cad gyflefair.
Heinin: M.A. i. 552.

Drych nod brain a phiod ffair,
Draig unwedd *daroganair.*
Dafydd ab Gwilym, clxxxii. 35.

Daroganiad, -au, *sm.* prediction, prognostication, vaticination.

Ym mhlith ei gydwladwyr, meddiannai [Myrddin] enwogrwydd nid yn unig am ei *ddaroganiadau,* ond hefyd am ei ddoniau barddonawl.—*Carnhuanawc:* H.C. 22 (cf. 24).

Daroganog, *a.* presageful, presaged, predicted.

Daroganol, **Daroganus,** *a.* predictive, foretelling, prognostic, foreshowing, boding, prophetic; ominous.

Yr hwn, neu ei yspryd, a gyfodwyd mewn gwirionedd, yn ddioed, cyn i'r ddewines gael amser i arferyd unrhyw swynion, trwy allu Duw, yn ei ddull gogoneddus, gan ddwyn yr ymddangosiad o'r fantell *ddaroganawl* ym mha un yr oedd y rhwygiad a arwyddocaodd rwygiad y deyrnas oddi wrth deulu Saul.—*Gwyliedydd,* x. 291.

Daroganu, *v.*=*Darogan.*

Daroganwr, wyr, **Darogenydd,** -ion, **Daroganor,** -iaid, -ion, *sm.* a prognosticator, predictor, vaticinator, or foreteller; a diviner, an augur; a prophet.

Ni ryorug Duw dyn fal tydy
A ddaroganer a gymmery
O bob darogan dawn a geffy
A ddarogenais a gynnyddy
A ddaroganwyf a gynhely
Wyt *ddaroganwr* gan a wely.
Dafydd Benfras: M.A. i. 309.

Kyuarchaf ym llallogan
Vyrdin gwr doeth *darogenyd.*—*Myrddin:* A.B. ii. 218.

Duw nef . . .
Dri ac Un, yw'r *d'roganwr.*—*Dafydd ab Edmwnt.*

Na chaffer ynot . . . a arfero ddewiniaeth, na phlanedydd, na *daroganwr,* na hudol.—*Deut.* xviii. 10.

Darogwyddiad, -au, *sm.* inclination; a becoming oblique or slanting.

Darogwyddo, *v.* to incline, to lean.

Darogwyddol, *a.* inclining, leaning.

Daron, *sm.* 'the thunderer, an epithet for the Deity, among the ancient Britons; also a proper name of men.'—*P.*

¶ There is no evidence to show that *Daron* was ever used as a name for the Deity; nor is there any ground for assuming that either *Daron* or *Daronwy* signifies a 'thunderer,' except the similarity between *daron* and *taran,* two words which have no necessary connection. According to some *daron* denotes *chief* or *superior.* At the extreme western point of Carnarvonshire there is a stream called *Daron,* which falls into the sea at Aber Daron, opposite to Bardsey Island, from which *Lewis Daron,* a poet of the latter part of the 16th century, took his surname.

Daronwy, *sm.* 'the thunderer; also a proper name of men.'—*P.*

¶ As a personal name the word occurs in *A.B.* ii. 147 (=*M.A.* i. 62); *M.A.* ii. 17. In *Barddas,* i. 410, *Daronwy* is given as one of the old names of the month of March. It is also found as a place-name in Anglesey.

Darostwng, **Darestwng,** **Darystwng,** *v.* [gostwng, gestwng] 1. to subdue, to subject, to subjugate, to bring under; to humble, to abase, to lower; to bring down; to put down, to quell.—*Deut.* viii. 3, 16; xxi. 14; xxii. 24, 29.

A challon marchawc urdawl a dyly bot yn ffenedic diymadaw ac ef y *darestwng* gelyn y arglwyd.
St. Greal, ‡ 26 (cf. 196).

Ac wrth hynny iawnach a dylyedussach oed eu kywarsagu ac eu *darestwg* y genhym ni noc eu hardyrchafel.—*Ystr. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. 241 (cf. 4, 72, 74, 91, 101, 109, 112, 144, 146, 151, 154, 161, 233).

Ac velly ny byd na chastell na dinas nac ardal nys kaffom ac nys *darestyghom* yn mev uy hun.
Ystoria de Carolo Magno, col. 421.

Ac yna y medylyawd Heralt vrenhin Denmarc *darestwg* y Saeson.—*Brut y Tywysogion,* 44.

Gweitheu y *darystygei* Eidol ac y bydei hyttraf Heingyst. Gweitheu ereill y *darystygei* Heingyst. ac y bydei uchaf Eidol.—*Ystr. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 162 (cf. 167).

Aeth Llywelyn vab Iorwerth. a Howel vab Gruffud y gyt a Ieuan vrenhin Lloegyr hyt yn Ruuein y *darostwng* y brenhin y Ieuan vrenhin Lloegyr.—*Ll.C.H.* ii. 406.

Cyt *darostyngo* Duw pob peth dan vedhiant ydhaw ef.
Lucidar, ‡ 17 (cf. 41).

Anostwng yw annymchwel medhwl o drudaniaeth y *dharostwng* y welh neu y bennach noc ef.
Ymborth yr Enaid, ‡ 5.

Tri pheth a *ddarestwng* gwr: gwraig ddrwg; trefn ddrwg; a gair drwg am dano.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 258.

Tri phendod trefn a wnaeth cr gweithredu pob peth: *darostwng* y drwg; derchafu'r da; ac amlygu pob a nsawdd o barth anghen a braint.—*Barddas,* i. 180.

Efe a *ddarostyngodd* bob dim tan ei draed ef. . . Y mae yn amlwg ei fod efe wedi ei ddieithro, yr hwn a *ddarostyngodd* bob peth tano. Ac wedi *darostwng* pob dim iddo, yna y Mab ei hun hefyd a *ddarostyngir* i'r hwn a *ddarostyngodd* bob dim tano ef.—*Esgob Morgan:* 1 Cor. xv. 27, 28.

Darostwng ei hun (1), to humble one's self.—*Phil.* ii. 8.

(2) to lower or degrade one's self.

Darostwng gwrthryfel, to quell a rebellion or insurrection.

Darostwng ei anwydau, to subdue one's passions.

2. to submit, to homage, to obey.

Ar Dunawt hwnnw pan geisawd Awstin darestygedigaeth y gan yr escyb idaw ef. ac annoc udunt pregethu y gyt ac ef yr Saeson. ynteu a dangosses drwy amryfaelon arqumenheu ac awdurdodeu yr yscrythur lan. hyt na dylyunt wy *darestwg* idaw ef. kanys archescob a oed udunt e hunein.—*Ystr. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 237.

¶ *Darostwng* has been the usual form for the last three centuries; but in M.W. the second vowel is generally *e,* sometimes *y,* but seldom *o.* The same remark applies to the derivatives.

Darostwng, *sm.* abasement.

Darostyngadwy, *pt.a.* subduable; vanquishable, &c.

Darostyngedig, *pt.a.* subdued, subjected, subject; vanquished; liable.

Ac ettwa y rann a drigyassei gantunt or ynys nyt y vn brenhin yn *darestygedic* y darestygynt. namyn y tri creulawn.—*Ystr. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 236 (cf. 53, 71, 78, 92, 100, 107.

Yno hevyt y dothoedynt y try brenyn a oedynt *darestyghedic* ydau nyt amgen Creudu brenyn yr Alban a Gwerthaed brenyn Gwyned a Brythael brenyn Dyvet. Ar rey hynny megys pawb ar rodes kyghor yn newyd y kyrchu gwyr Ruveyn kyn kaffael o nadunt un dynas nac un kastell ar dir Ynys Prydeyn.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 174.

Anuvudh yw pob peth ydhaw yntau. or a oedhynt *dharostyngedic* ydhaw gynt.—*Lucidar,* ‡ 25 (cf. 32).

Y mae ysprydoedd y prophwydi yn *ddarostyngedig* i'r prophwydi.—1 *Cor.* xiv. 32 (cf. 34; Eph. v. 24).

Digitized by Google

Achub a orugant eu kedernit a galw porth o bob tu udunt, a gwahawd attunt y Brytanyeit a oedynt *darestygedigyon* udunt yn eu medyant, ac eu pennaetheu.
Brut y Tywysogion, 66.

Darostyngedigaeth, **Darestyngedigaeth,** **Darystyngedigaeth,** -au, *sf.* the act of subduing or subjecting; subjection, subdual, subjugation; humiliation; obeisance, homage.

Eu bryt oed eu gwarchae ae kymell drwy newyn y wedawl *darystygnedigaeth* udunt.—*Ystt. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 94 (cf. 73, 75, 78, 92, 97, 105).

Ac y trigyawd Peredur teir wythnos yn peri teyrnget a *darestygedigaeth* yr uorwyn ar kyuoth wrth y chyghor.
Mabinogion, 209.

A gwedy gwelet or pab hwnnw y grefydus damunet ef ae *darystygedigaeth*. sef y danuones attaw deu wr grefydus fydlawn dysgodron a seiledic yn y lan gatholic fyd y bregethu idaw.
Ystt. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 100 (cf. 108, 120, 145, 237).

Y trydydd yw, bod ein hympryd ni yn dystiolaeth ac yn dyst ger bron Duw o'n hufudd *ddarostyngedigaeth* ni i'w oruchel Fawrhydi ef.—*Ed. James:* Hom. ii. 175.

Darostyngedigaethol, *a.* tending to subdue; subjecting.

Darostyngedigol, *a.* tending to bring under; subjugating; humbling, humiliating.

Darostyngiad, -au, *sm.* subjection, subdual; humiliation, abasement; submission.

Y brawd o radd isel, llawenyched yn ei oruchafiaeth; a'r cyfoethog, yn ei *ddarostyngiad*.
Iago i. 9, 10 (cf. 2 Cor. ix. 13; Gal. ii. 5).

Daethant i undeb mor wirioneddol ac mor agos yn yr ymgnawdoliad, fel yr oeddynt mewn un person yn yr un sefyllfa o *ddarostyngiad*, ac y maent heddyw yn yr un sefyllfa o dra-dyrchafiad.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duwin. 57.

Darostyngiedydd, -ion, *sm.* a subduer; a vanquisher.

Darostyngol, **Darostyngiadol,** *a.* tending to subdue or subject; subduing, subjecting; subjected, subject, subdued; humiliating; humbled, abased.

Ef a dybiodd mai'r ffordd ddoethaf yn ei gyflwr *darostyngol* hwn, i iachäu yr aelod anafus, oedd gwneuthur y defnydd goreu o'r deall a'r cywreinrwydd a roddodd yr Hollalluog iddo.—*Joseph Harris:* Gweith. 33.

Gellir chwanegu, eu bod yn genedl *ddarostyngol* i ddeddfau llywodraeth ddinesig.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 288.

Darostyngu, *v.*=*Darostwng.*

Darostyngwr, wyr, **Darostyngydd,** -ion, *sm.* a subduer, a subjugator; a vanquisher, a conqueror; a queller; a humbler or abaser.

Darpar, -ion, *sm.* [par (peri: L. *paro*); C. *darbar*] 1. a preparation, a provision; an intention; a preparative; material.

I erchi rhad a *darpar* i'r brenin i welläu cyfreithiau a defodau Cymru.—*Leges Wallicae*, 1. p. 6.

Dechreuis dywedut yr hyn a deuei rac llaw y wyr Troea. os Priaf a ymgadarnhaei yn y *darpar* ac anuon llyges y Roec.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 9 (cf. 35, 36, 208).

Ac yr hynny eissoes ny pheidyssant yr amherawdyr ae lu ae *darpar*.
Ystt. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 103 (cf. 218, 219, 229, 254).

Riannon am y wled ar *darpar* yssyd yma.
Mab. 14 (cf. 29, 98, 252, 292).

Dywedwch i mi bellach ond ofnadwy yw'r *darpar* yma tu ag at ddydd farn?—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. 1. v. 14.

E fydd tostur fy nghalon pan feddyliwyf faint sydd o blant trwy dir Cymru, odidawg eu hathrylith, a *darpar* gwyr ardderchawg, yn methu . . . cael o'u mebyd eu hyfforddi mewn dysg.
Dr. Gr. Roberts: Athraw. Grist., Rhag. 2.

Darpar yw genyf, it is my intention.

Gwedy yd adolwyf ved yr Arglwyd. *darpar yw gennyf* vynet at gyndrycholder Hu Gadarn vrenhin Corstinabyl.
Ystoria Charles, 5.

Ar ddarpar, in preparation; preparing.

Hywel ab Gruffydd ab Cynan, yn gweled ei frodyr *ar ddarpar* ymladd, a aeth rynggddynt.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 560.

Darparion i fordaith, preparatives for a voyage.

Darpar gwr, intended husband.

Darpar gwraig, intended wife.

Darpar bardd, a bard in embryo.

Mae genyf *ddarpar bardd* arall eto, ond nis gwn pa sut i'w alw.—*Gro. Owain*, 217.

2. the preparation or eve (of a festival).

A'r dydd hwnw oedd y *Darpar*, a'r Sabbath oedd yn nesäu.—*W. Salesbury:* Luc xxiii. 54.

Dydd darpar, a preparation-day.

Ac yn y fan honno y dodesont wy'r Iesu, o achos *dydd Darpar* yr Iuddaeon, can ys bod y fonwent yn agos.
W. Salesbury: Ioan xix. 31.

Can ei bod hi yn *ddydd Darpar*, ys ef yw, o flaen y Sabbath [*Rhagsabbath].—*W. Salesbury:* Marc xv. 42.

Darpar, *v.*=*Darparu.*

Pe y buasai Crist yn *darpar* y cyfryw helynt o'r dechreuad . . . pa le y buasai ynte y Ffydd Gristionogol y pryd hyn?—*M. Cyffin:* Diff. vi. 2.

Chwychwi oll y rhai a brioded, neu y sydd yn *darpar* cymmeryd glân ystâd priodas arnoch, gwrandëwch.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Priodas).

Y gelyn hen, y sarff mewn bâr,
Sydd in' yn *darpar* galar.—*Tegid:* Gwaith, 244.

Darparadwy, *a.* that may be prepared or provided; preparable.

Darparedig, *a.* prepared; provided; ready.

Gwled *darparedic* oed udunt erbyn eu dyuot yn Arberth.
Mabinogion, 45 (cf. 8, 12, 14, 17).

Darparedigaeth, -au, *sf.* the act of preparing; preparation; provision.

Darparedigol, *a.* preparative; preparatory.

Darpariad, -au, *sm.* a preparing or providing; preparation; provision.

Darpariadau, preparations; provisions.

Deallant y *darpariadau* wybrenol, fel yr addawont y gwlaw y maent eisoes yn ei ddirnad.
Ch. Edwards: Han. y Ffydd, 82.

Wedi penderfynu ar y *darpariadau* hyn, efe a ddaeth i'n pebyll i swpera.—*Brutus:* Nineteh, 267.

Darpariadol, *a.* preparatory; preparative; provisional.

Ymadrodd darpariadol, a preparatory discourse.—*W.*

Darpariaeth, **Darparaeth,** -au, *sf.* preparation; provision.

Y mae'r Apostol yn ein hannog i dafiu ymaith weithredoedd y tywyllwch . . . y rhai ydynt oll wasanaethwyr i'r bai yma, a *darpariaethau* i dywys ac i arwain i'r brwnt bechod cnawdol yma.—*Ed. James:* Hom. i. 160.

Arglwydd nef nodded *ddarparaeth*
Argledr hwn ith arglwyddiaeth.
Elidir Sais: M.A. i. 348.

Nid y gwrthddrychau allanol sydd yn cynnyrchu y gallu; ond y mae y *ddarpariaeth* anghenrheidiol yn bod o'r blaen.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 653.

Darpariedydd, -ion, *sm.* a preparer; a provider; a furnisher; a preparative.

Darparol, *a.* preparative, preparing, providing.

Bydd i bob enaid ei *ddarparawl* gorff.
Iago Trichrug: Y Bedd.

Digitized by Google

Darparu, *v.* [darpar: C. *darbary;* Br. *darbari*] to prepare; to provide; to prepare for; to procure; to furnish; to intend.—1 *Cor.* ii. 9.

Nyt esgynnod yg gallon dyn y peth a *darparawd* Duw yr neb ae karo.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 489.

Ac velly yd erchis y bawb *darparu* llyges ae hanuon y Roec.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 7 (cf. 8, 10, 29, 31).

Yr hynny hyt hediw yd wyf i yn *darparu* gwled ytti.
Mabinogion, 182 (cf. 128).

Fe *ddarpara* ei galon cyn rhyfygu dywedyd wrth Dduw. . . Gan feddwl wrth hyny rhybuddio'r bobl i *ddarparu* eu clustiau i wrando. . . Fal hyn y *darparodd* y Prophwyd Dafydd ei galon. . . Pan fytho'r galon gwedy ei *darparu* fal hyn, mae'r llaferydd a draethir o'r galon yn beraidd.
Ed. James: Hom. ii. 281, 2 (cf. 15, 107, 165, 246, 265).

Ar *ddarparu* byw yn ddigon taclus.—*Gro. Owain*, 214.

Trin llwch trwyn, a llechu, *darparu* dwr poeth.
Edward Richard: Bugeilgerdd, ii. 31.

Yn ein gwlad yn awr mae'r adar
Yn *darparu* canu cynnar.—*Hen Bennill.*

Darparwch, *sm.* provision.

I ba beth y soniwn mor amgeleddus y gwnaeth Duw *ddarparwch* tros ei eglwys yn yr anialwch.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 109.

Darparwr, wyr, **Darparydd,** -ion, **Darperydd,** -ion, *sm.* a preparer, a provider; a procurer.

Ioan Fedyddiwr . . . *darparydd* ffordd yr Arglwydd ein Iachawdwr Christ.—*Ed. James:* Hom. i. 16.

Darparwyl, -iau, *sf.* [darpar+gwyl] a preparation festival; a preparation-day preceding a high festival or holiday.

A'r dydd hwnw oedd *ddarparwyl*, a'r Sabbath oedd yn nesäu.—*Luc* xxiii. 54 (cf. Matt. xxvii. 62; Marc xv. 42; Ioan xix. 31).

Darre, *v.* to effuse; to appear; to blush.—*P.*

Llwybrant om nwyfyant vch nor nwyure
Neur arwet dyuret yn eu dyfyrlle
Gwisc gwyndeil gwyeil gwet a *darre*
Neud adneu cogeu coed neud attre.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 292.

Darsangfa, faoedd, fëydd, *sf.* a trodden place; a treading or trampling; that which is trodden.

Ac yntau yn *ddarsangfa* ewn a moch.
Llythyr Serch (Y Taliesin, i. 77).

Darsangu, *v.* to trample, to tread upon.

Darseiniad, -au, *sm.* a ringing or resounding.

Darseinio, *v.* to ring, to resound.

Gorchestion mawrion bellach gwnelid, nes
Darseiniai Uffern, yr hudoles a
Eisteddai wrth y drws.—*W. O. Pughe:* C.G. ii. 758.

Darseiniol, *a.* ringing, resonant.

Darstain, **Darystain,** einiau, *sm.* a resound, a resonance; a ringing, resounding, or tinkling; reverberation; a sharp noise.

Eu dur yng nghalonau yn tewi â'u *ddarstain.*
Robert Owen: Gweith. 282.

Darstain, **Darystain,** *v.* to ring, to resound, to re-echo, to peal; to tinkle.

Tri o ynnau yt', Reinallt,
A rof i *ddarstain* yr allt.—*T. Prys*, i R. ab G. ab Bleddyn.

Cau gelwyddog wefusau rhai'n
Y sydd yn *darstain* crasder.—*Edm. Prys:* Salm. xxxi. 18.

Nid llai *darsteinid* chwaith ei glust gan groch
Niweidiol drwst.—*W. O. Pughe:* C.G. ii. 970.

Darsteiniad, -au, *sm.* a ringing or resounding; reverberation.

Darsteinio, **Darysteinio,** *v.*=*Darstain, Darystain.*

Darsteiniol, **Darysteiniol,** *a.* ringing, resounding, resonant; tinkling.

Darsteiniwr, **Darysteiniwr,** wyr, *sm.* a ringer; one who causes a resounding.

Darswydiad, -au, *sm.* a terrifying or intimidating; intimidation.

Darswydo, *v.* to intimidate, to terrify.

Darswydol, **Darswydus,** *a.* intimidating, terrifying, frightening; awful.

Darswyddiad, -au, *sm.* a superintending; superintendence.

Darswyddo, *v.* to superintend; to oversee or overlook.

Darswyddol, *a.* superintendent.

Darswyddwr, wyr, *sm.* a superintendent, an overseer.

Darswyniad, -au, *sm.* an enchanting or charming; incantation.

Darswyno, *v.* to enchant, to charm.

Darswynol, *a.* enchanting, charming.

Darswynwr, wyr, *sm.* an enchanter, a charmer.

Darsylw, *sm.* [sylw] an observation.

Darsylwad, -au, *sm.* a noticing, observing, or remarking; an observation.

Yr hyn a arwyddhâ
Ei fonedd, a *darsylwad* Nef ar oll
Ei ffyrdd.—*W. O. Pughe:* C.G. iv. 681.

Darsylwadol, *a.* observant, observing, noticing, kenning.

Darsylwedd, -au, *sm.* essence; substance.

Darsylweddiad, -au, *sm.* a making into an essence.

Darsylweddol, *a.* essential, material.

Darsylweddu, *v.* to make into an essence.

Darsylwi, *v.* to observe, oversee, or overlook; to notice; to discover.

Darsylwyd dwy ynys o fewn y cylch hwnw, y rhai ydynt y tir mwyaf deheuol a welwyd hyd yn hyn.
Eurgrawn Mon, 1825, 206 (cf. 207).

Darsylwais, clywais, canys y fath dorf
Ni thawel ffoai trwy yr ergryn ddwfn
Gan ball ar ball.
W. O. Pughe: C.G. ii. 1044 (cf. iii. 70; iv. 1096).

Darsylliad, -au, *sm.* a looking earnestly; a gazing; observation.

Casglwyd oddi wrth *ddarsylliadau*, a wnaed gan Syr W. Herschel ac ereill, fod lleuadau Iau bob amser yn troi yr un gwyneb at y blaned.—*Dosparth Heulawg*, ii. 48 (cf. 28).

Darsylliol, **Darsylliadol,** *a.* looking earnestly or steadily; gazing; observing.

Darsyllu, *v.* to look earnestly; to stare, to gaze; to observe carefully.

Darsyllwr, wyr, **Darsyllydd,** -ion, *sm.* one who gazes; a gazer; an observer, an observator.

Wedi i'r *darsyllydd* myfyrgar sylwi ar amrywiol ymddangosiadau y nefoedd . . . y mae yn naturiol iddo ofyn, O ba le y mae'r ser, a welir yn codi yn raddol o'r terfyngylch dwyreiniol, yn dyfod?—*Dosparth Heulawg*, i. 34.

Dart, -au, *sm-f.*=*Dard.*

Daru, *v.* [dâr] to tinkle, to clank.—*P.*

Daruwch, *prep.* [uwch] above, over. See *Aruwch.*

Digitized by Google

Darwain, *v.* [cf. *arwain*] 1. to lead, to guide, to conduct.—*M.A.* i. 204.

A phan wybu'r Brenin Coch hynny, myned yn eu herbyn, eithr ni bu nes iddaw o hynny, canys y Cymry ai *darweinasant* i'r mynyddoedd, ac yna, heb gad ar faes, y lladdasant hanner ei wŷr.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 529.

Coronog faban, medd doethion dwyrain,
A dry dros foroedd i diroedd deain,
I ddwyn tair coron, cariad *ddarwain*,
Ac i ddwyn urddas i Ynys Prydain.
Iolo Mss. 266 (cf. 275).

Llyn dwr drwy bob lle'n *darwain*,
A thrwy'r mur, a thori'r main.—*Rhys Pennardd.*

Darweinia di'r Awenydd, gain anian,
Gân enwawg a chelfydd.—*Rhisiart Powel:* Tymmorau, 3.

2. to administer.—*P.*

Darwain, *sm.* a lead; a ministration.—*P.*

Darware, } *v.* [gware, gwareu] to play, to
Darwareu, } disport, to sport.

Mynet a oruc y mab ar orwyd penn lluchlwyt . . . a deu vilgi uronwynnyon vrychyon tu racdaw. . . Yr hwnn a uei or parth asseu a vydei or parth dcheu. ar hwnn a uei or parth deheu a uydei or parth asseu. mal dwy uorwennawl yn *darware* yn y gylch.—*Mabinogion*, 102.

Darware, }
Darwareu, } -on, *sm.* play, disport, pastime.

Darwaread, } -au, *sm.* a playing, sporting, or
Darwareuad, } disporting.

Darwareol, } *a.* playful, playsome, sportive,
Darwarĕus, } disporting.

Darwedd, } *v.* [gwedd] to persuade, to in-
Darweddu, } duce; to lead (by persuasion); to prevail; to bring to bear; to lead, to conduct, to guide.

Efe a gynhullawdd attaw gyfeillion ac a weithiawdd o'u cyfnerth oni chafas ffordd i'r Castell a dwyn Nest o drais ac anfodd, ac i Bowys a hi, ac ai cadwawdd yno er a wnelai ei dâd a'r Brenin Harri er ei *ddarwedd* i roddi'r wraig yn ei hól i Gerallt.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 538.

Duw Yspryd Glân a folir am ei waith yn santeiddio'r byd, drwy nerth a gallu, a phurdeb ewyllys; yn ei droi o ddrwg at ddaioni, a'i ddwyfoli drwy ddwyn ar feddwl i ddyn pob daioni a santeiddrwydd; a'i *ddarwedd* i fywyd y ffydd yng Nghrist.—*Cyfrinach y Beirdd*, 34 (cf. 41).

Boed i ni wrando'i lafar lef,
Sy'n ddysg o'r nef i'n *darwedd*,
I rodio ffyrdd, pob ennyd awr,
Tywysog mawr tangnefedd.
Iolo Morganwg: Salmau, i. xvi. 6.

Dyma yw y dirion awd,
Yr oer, y dawel, eithr lle *darwedda* taw
I ednant nos.—*W. O. Pughe:* C.G. v. 41.

Cais ei ddarwedd ef i'r peth hyn a'r peth, try to persuade him to do so and so.—*Gwent.*

Darwedd, -ion, *sf.* persuasion; inducement; direction.

Ni wnaent nac o barch nac o ofn, nac o serch nac o gas, nag o bwyll, nag o *ddarwedd*, nag o ddig, nag o drugaredd yn y byd, namyn a fyddai iawn a chyfiawn herwydd deddf Duw, ac ansawdd daioni, a gofynnion cyfiawnder.
Trioedd: M.A. ii. 74.

Ac ar hyn o *ddarwedd* y gwelir dau beth o anghenedd yl hanfod; sef byw, a marw; da, a drwg; Duw, a chythraul.—*Barddas*, i. 206.

Darweddadwy, *a.* persuadable, persuasible.

Darweddawd, *sm.* persuasion.

Darweddedigaeth, -au, *sf.* the act of persuading, persuasion.

Darweddog, *a.* persuaded, induced, inclined.

Darweddol, *a.* persuasive; inducing.

Darweddu, *v.*=*Darwedd.*

Darweiniad, -au, *sm.* a leading, a bringing on, guidance; direction.

Darweiniant, *sm.* guidance, leading, conduct.

Tair llath fesur deall: barn arall; pwys a gwrthbwys; a *darweiniant* gan serch.—*Barddas*, i. 296.

Darweinio, *v.* to lead, to guide, to conduct; to conduce.

Darweiniol, *a.* leading, guiding, conducive.

Darweiniwr, wyr, *sm.* a leader, guide, conductor, or director.

Darweithiad, -au, *sm.* supererogation.

Darweithio, *v.* to do more than duty requires.

Darweithiol, *a.* supererogatory.

Darwel, -ion, *sm.* [gwel] perception; conception.

Nis gellir dosparth a rheithiad ar oll o'r pennillion a ddichoner ar y mesurau hyn; yn amgen na barn a sylwedd a *darwel* bardd awen-bwyll, ystyrbell, wrth ddeall ac athrylith awen-graff.—*Cyfrinach y Beirdd*, 72.

Darwel, *a.* perceptive, perceptible; perspicacious; manifest.

Darweled, *v.* to perceive; to discover.

Darweledigaeth, -au, *sf.* the act of perceiving or discovering; perception.

Darweliad, -au, *sm.* a perceiving; perception.

Darwellâd, *pl.* darwelladau, *sm.* improvement.

Felly'r gwirionedd: pob un a'i câr ar ei dafod, a phob un a'i llygra trwy yru arnaw'r budredd a garo fe ei hun, ar oddeu *darwellâd* iddaw.—*Iolo Mss.* 164.

Darwenawl, *a.* [gwên] smiling.

Darweniad, -au, *sm.* a smiling.

Darwenu, *v.* [gwenu] to smile.

Darwenent, O! dirioned adfywiad
I f'awen eu clywed.—*Robert Owen:* Gweith. 286.

Darwib, -iau, *sf.* [gwib] a strolling, wandering, or rambling; a hovering.

Darwibiad, -au, *sm.* a wandering, a strolling; a hovering.

Darwibio, *v.* to wander, stroll, or ramble; to hover about.

Darwibiol, *a.* wandering, strolling; hovering.

Darwibiwr, wyr, *sm.* one who wanders or hovers about; a stroller.

Darwiriad, -au, *sm.* asseveration, assertion.

Darwirio, *v.* [gwir] to asseverate, to assert.

Darwiriol, *a.* asseverating, assertive, positive.

Darwiriwr, wyr, *sm.* an assertor.

Darwyden, } -i, *sf.* ringworm: also called
Darwden, } *tarwyden*, *tarwden*, and *taroden*.

Cymmer falwed, a phicia nhwy'n aml â nodwydd, oni ddelo fal dwr o honynt, ac â'r dwr hyny golch y crach neu'r *darwydeni*, ac ar hyny dod ddail y gwinwydd yn rhwymedig.—*Meddygon Myddfai*, ii. 27.

Rhag *darwden*.—Cymmer wraidd tafol cochon, a hallta nhwy, yna dod nhwy mewn aesel, a rho ias berw iddynt, a golch y *ddarwden* â'r llynor.—*Meddygon Myddfai*, ii. 44.

Y ddarwyden fawr, lepra.

Yr hwn yw achos pob tarddant, a chrach, a chornwydon, a'r manwynon, a'r *ddarwyden fawr*.
Meddygon Myddfai, ii. 795 (cf. 595).

Digitized by Google

Darwydd, -on, *sm.*=*Derwydd.*

Darwydden, *pl.* darwydd, *sf.* [dâr+gwŷdd] an oak-tree, an oak.

Yna cael astellor *ddarwyddcn* wrm-loew o'm blaen, a lliain meinwyn arni.—*Araith Gwgan.*

Darwystlo, *v.* [gwystl] to gage, pledge, or pawn.

Darymchwel, -ion, *sm.* [ymchwel] 1. a reversion.

2. in rhetoric, the *epistrophe*, a figure of speech in which each sentence or clause ends with the same words. It also may include the *epiphora.*

Darymchwel yw, pan adroddir y cyffelyb sain neu air yng nghlöedigaethau neu ddiweddion y brawddegau. Deufath *ddarymchwel* y sydd.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xxvii. 1 (cf. 2).

Darymchwel, } *v.* to revert; to recur; to
Darymchwelyd, } fall or turn back.

Darymchweliad, -au, *sm.* a reverting or recurring; reversion; revolution.

Dywedant i'r ddaiar fod rhyw oesoedd aneirif yn myned drwy ryw fath o *ddarymchweliadau* annarluniadwy, wrth ddynesu at ei pherffeithrwydd presennol.
Adolygydd, i. 181.

Darymdaith, deithiau, *sf.* the state of being sojourning or travelling.

Darymdeithiad, -au, *sm.* a sojourning, a travelling.

Darymdeithio, *v.* to sojourn, to travel.

Darymdeithiol, *a.* sojourning, travelling.

Darymddal, *v.* [dal] to persevere; to continue.

Darymgais, geisiau, *sm.* an effort or exertion.

Darymgeisiad, -au, *sm.* a making an effort; exertion.

Darymgeisio, *v.* to make an effort; to exert one's self; to endeavour.

Darymgeisiol, *a.* exerting, endeavouring.

Darymlyn, } *v.* [glŷn, glynu] to adhere, to
Darymlynu, } cohere.—*Iolo Glossary.*

Darymollwng, *v.* [gollwng] to let go; to leave off; to abandon.

Gwedi hyny, o amser i amser, ac o ychydig arfer i ddim, *darymollyngwyd* â'r brif orwisg gyfunlliw.—*Iolo Mss.* 217.

Darymraniad, -au, *sm.* a becoming divided or separated; separation.

Darymranol, *a.* tending to separate or divide.

Darymranu, *v.* to become divided or separated; to divide, to separate.

Darymred, -ion, *sm.* [rhed, rhedeg] 1. a motion to and fro; a moving or passing in continued succession; an excursion, a ramble, a jaunt.

Ni'm câr rhianedd ni'm cynnired neb
Ni allaf *ddarymred*
Wi o angau na'm dygred.
Llywarch Hen: M.A. i. 115 (A.B. ii. 261).

Myn na lleuessir dir oe dacred
Men y llauassaf oes *darymred.*
Llywelyn Fardd: M.A. i. 360.

2. a running, flowing, or flux; diarrhœa, laxness, looseness.

Ac wrth hynny y bu varw rei onadunt wynteu gan dwywawl dial o *darymret.*—*Yst. de Carolo Magno,* col. 499.

Darymred gwaedlyd, }
Darymred gwaed, } bloody flux, dysentery.

Ac e dderyw, bod tad Publius yn gorwedd yn glaf o gryd, a *darymred gwaedlyd.*—*W. Salesbury:* Act. xxviii. 8.

Haint y galon, clefyd y gwaed, y bîb waed, y *darymred* (y gorddin) *gwaed,* gwaedlif.—*Walters,* s.v. 'Bloody Flux.'

Darymred, *v.* 1. to move or go to and fro, or hither and thither; to go backward and forward; to run or move about; to pass onward; to frequent.

Gorwynawc drythyll gortyuyn dy uyned
Gwrthdrych lys Leissyawn y ystlyned
Llys y daw deon yw *darymred.*—*Cynddelw:* M.A. i. 217.

Ni allav *ddarymred.*—*Llywarch Hen:* M.A. i. 127.

Y mae hyny yn gymmaint gorwagedd ac oferedd . . . a phettai un yn *darymred* i fyny ac i wared ar hyd ac ar draws yr heol ar ol pluen a fai yn hedeg yn y gwynt.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. iii. 8.

O *ddarymred* ar hyd y ddaiar, ac o ymrodio ynddi.
Dr. Th. Briscoe: Llyfr Iob, i. 7.

2. to bring in repeatedly or habitually; to prepare or supply.

Pedair ar hugnint a gaiff gan bob swyddawg a *ddarymreto* fwyd a llyn yn y llys pan elont yn eu swydd.
Leges Wallicae, I. xiv. 7.

Darymrediad, -au, *sm.* 1. a moving or running about; a going hither and thither; discursion. 2. diarrhœa, laxness.

Darymredol, *a.* 1. running to and fro, backward and forward, or hither and thither; moving about; discursive. 2. diarrhœtic, laxative, purgative.

Darymredydd, -ion, *sm.* one who moves or runs about; a perambulator.

Darymrith, -ion, -iau, *sm.* semblance, likeness; appearance.

Darymrithiad, -au, *sm.* a putting on an appearance; a seeming.

Darymrithio, *v.* to be in appearance or semblance; to appear or seem to be; to appear, to seem.

Darymrithiol, *a.* seeming, appearing.

Darymroad, -au, *sm.* a becoming resigned; a giving up; resignation.

Darymroawl, *a.* resigning; apt or disposed to give up.

Darymroi, *v.* to be or become resigned; to give up.

Darymsang, -au, *sm.* a pressure; a treading, a trampling.

Darymsangiad, -au, *sm.* a trampling or treading; depression.

Darymsangol, *a.* trampling, treading; pressing; depressive.

Darsathrad, } -au, *sm.* a trampling or tread-
Darsathriad, } ing upon.

Darsathrol, *a.* trampling, treading.

Darsathru, *v.* to trample, to tread.

Darymsawdd, soddion, *sf.* [ymsawdd: cf. *ansawdd*] a qualifying addition to a word or name; an adjunct.

Pob rhyw beth y gellir dywedyd am dano ei fod mewn peth arall, sy o duddrych hyny yn *ddarymsawdd.* Mal pan ddywedir, fod gwybodaeth yn yr enaid: gwybodaeth yw'r *ddarymsawdd;* a'r enaid yw y sylfon cadarn. Yr un modd pan ddywedir, fod pysgod yn y môr; yr allwedd yn y clo; dwr yn y crochan; tafod yn y pen; lliw yn y corff; glendid yn y gwr: y pysgod o duddrych y môr sy *ddarymsawd.* . . . Mae golud, clod, gair mawr, anair, tlodi, gwisgoedd, o duddrych dyn yn *ddarymsoddion.*
H. Perri: Egl. Ffr. vi. 1, 2 (cf. 3, 4, 5).

Digitized by Google

Darymsoddawl, *a.* adjunctive.

Y gair lloer yw'r arwydd *darymsoddawl*, a osodwyd yn lle'r gwr a'i rhoai yn ei arfau; ac o ran hyny o duddrych ystyriawl oedd y sylfon cadarn.
H. Perri: Egl. Ffr. vi. 3 (cf. v. 1).

Darymsoddi, *v.* to become adjunct, united, or connected.

Darymsoddiad, -au, *sm.* adjunction.

Darysgipiad, -au, *sm.* [cipio] a sudden snatching.

Darysgipio, *v.* to snatch suddenly.

Darysgipiol, *a.* snatching suddenly.

Darysglyfiad, } -au, *sm.* [ysgylfu, ysglyfu] a
Darysgylfiad, } snatching away; depredation.

Darysglyfol, } *a.* snatching, depredating, preda-
Darysgylfol, } tory.

Darysglyfu, } *v.* to snatch a prey; to depred-
Darysgylfu, } ate; to spoil.

Darystain, *pl.* darysteiniau, *sm.* See *Darstain*, *Darsteinio*, &c.

Darystwng, *v.* See *Darostwng*, &c.

Das, *pl.* dasau, deisi, deisydd, *sm.* a heap, a pile; a stack, rick, or mow. The word occurs also as *tas*, f.

Mae yt' lawer o dir; mae yt' lawer *das*.
L. G. Cothi, iv. xix. 34.

Gwell gwaith crymman na bwa
Amlach *das* na chwareufa.
Engl. y Mioedd: M.A. i. 15 (cf. 300, 542).

Ac efe a gynneuodd dân yn y ffaglau . . . ac a losgodd hyd yn oed y *dasau*, a'r yd ar ei droed.
Barn. xv. 5 (cf. Ecs. xxii. 6).

Yr hwn a goleddo ei dir, a wna ei *ddas* yn uwch.
Ecci. xx. 28.

Das yd, } a stack of corn, a corn rick.
Das o yd, }

Achos hyny lloaged llawer iawn o dai, ac ysguborau, a *deisydd yd.*—*Iolo Mss.* 43 (cf. 67).

Dasau o yd eisieu oedd.—*Ieuan Du'r Bilwg.*

Das gwair, a hay rick.

Cymmaint caredigrwydd a rhwng yr hen fuwch a'r *das gwair.*—*Diareb.*

Das mawn, } a turf pile, a heap of peat.
Das tywarch, }

Das rhedyn, a fern mow.

Dasgub, -ion, *sf.* [=ysgub] that which sweeps; a besom.

Dasgubion, sweepings, refuse: the same as *ysgubion.*

Ydd ys y'n cablu, ac ydd ŷm yn gweddïo: y'n gwnaethpwyd ni fal carthion [**dasgubion*] y byd, yn greifion pob peth, hyd hyn.—*W. Salesbury:* 1 Cor. iv. 13.

Dasgubell, -au, -i, *sf.* [cf. *ysgubell*, from *ysgub*] a besom or broom: the same as *ysgubell*, the usual word.

Dasgubell rodd, a gift besom; explained to signify the keys of the primitive *coelbren* (q.v.).

Beth yw *dasgubell rodd*? A. Goriadau'r goelbren gyssefin. Pa ddangos ar oriadau'r goelbren gyssefin? A. Y *ddasgubell rodd.* Pa beth amgen! A. Cyfrinach y *ddasgubell rodd.*—*Barddas*, i. 164.

Dasgwrn, *pl.* dasgyrnau, *sm.* [das+cwrn] a conical heap or pile; a cone; a rick or stack.

Dasgyrniad, -au, *sm.* [dasgwrn] a heaping, stacking, or piling; accumulation.

Dasgyrnol, *a.* being in a pile, heap, or rick; conical.

Dasgyrnu, *v.* to heap, pile, or cumulate; to stack or rick.

Dasgyrnu, *v.* [dy-+asgwrn] to grin, snarl, or gnarl.—*P.*

Dasiad, -au, *sm.* [das] a heaping or piling; a ricking.

Dasmal, } *v.* to feel with the hand or fingers;
Dasmalu, } to finger; to search for by feeling; 'to touch gently;' to fumble; to tickle.

Dasmal am dano, search or feel for it.—*S.E.W.*

Dasmal, *sm.* a feeling gently or softly; a gentle touch; a touch.

Tri pheth a ddangosant ynnïoldeb dyn yn o gwbl: y tri pheth cyntaf y tery olwg arnynt; y tri *dasmal* cyntaf; a'r tri pheth cyntaf y son ef am danynt.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 223.

Dasmaliad, -au, *sm.* a touching or feeling softly; a tickling.

Dasmalu, *v.*=*Dasmal.*

Dasol, *a.* [das] being in ricks or stacks; cumulative.

Dasu, *v.* to pile or heap up; to stack, to rick.

Dasu gwair, to stack or rick hay.

Daswl, *pl.* dasylau, *sm.* a pile; a conical heap; a stack, a rick.

Daswrn, *pl.* dasyrnau, *sm.* a conical pile or hèap; a pile, a heap; a rick, a stack.

Dasyliad, -au, *sm.* a heaping or piling; a stacking or ricking.

Dasylu, *v.* to form into a conical heap; to pile, to heap; to rick or stack.

Dasyrniad, -au, *sm.* a stacking, ricking, heaping, or piling.

Dasyrnol, *a.* being in a pile, heap, stack, or rick; conical.

Dasyrnu, *v.* to heap or pile; to rick or stack; to make (corn or hay) into stacks or ricks.

Dat-, *px.* [mutation of *dad-*] used before words beginning with *t*, and in some cases with *d:* see *Dad-*.

Datgan, Datguddio, Datrin, &c. See *Dad-*.

Dattaen, *sm.* [taen] a renewed spreading or sprinkling.

Dattaeniad, -au, *sm.* a spreading or sprinkling anew.

Dattaenu, *v.* to spread or sprinkle anew or again.

Dattaith, teithiau, *sf.* [taith] a journey back, a return journey; a renewed journey.

Dattal, -ion, *sm.* [tâl] a repayment.

Dattaliad, -au, *sm.* a repaying, repayment, reimbursement.

Dattaliedydd, -ion, *sm.* one who repays; a reimburser.

Dattalu, *v.* to repay, to pay back, to reimburse.

Dattanio, *v.* [tân] to quench a fire.

Digitized by Google

Dattaraw, *v.* [taraw] to strike back again; to repulse.

Dattarawiad, -au, *sm.* a striking back again; a driving back; repercussion; repulsion.

Dattardd, -ion, *sm.* [tardd] a checked eruption or budding; deciduousness.

Dattarddiad, -au, } *sm.* a stopping from break-
Dattarddiant, } ing out, springing, or erupting.

Dattarddol, *a.* tending to stop or check budding; to cease from budding.

Dattarddu, *v.* to cease from budding or sprouting; to cease to erupt.

Dattarth, -au, -oedd, *sm.* dissipated vapour.

Dattarthu, *v.* to clear of vapour.

Dattawd, todion, todiau, *sm.* solution; a loosening or disentangling.

A llyma *ddattawd* y gorchest.—*Barddas*, i. 216.

Fe wasanaetha y rheol uchod am unrhyw niferoedd o bethau ereill, a ellir eu cyflëu felly, yr hyn nas dichonir ei wneyd oni oddefant y *dattodiau* uchod yn ddidoriadau.
Seren Gomer, xv. 176.

Dattawd, *v.* [dawd, dodi]=*Dattod*.

Dattawdd, *v.* [tawdd, toddi] to redissolve, to dissolve a second time.

Dattawdd, *sm.* 'a second melting;' a redissolving; dissolution.

Gwawr ddydd Meirionydd mawr anawdd
I'm nwyf gwyn bryd nyf cyn *dattawdd*.
Iorwerth ab y Cyriog: M.A. i. 505 (cf. 444).

Datteithiad, -au, *sm.* a journeying back; retrogradation.

Datteithio, *v.* to journey or travel back; to retrocede, to retrograde.

Dattoad, -au, *sm.* [toad, to] an unroofing.

Dattod, *v.* [dawd, dodi] to loose, unloose, loosen, unbind, or untie; to undo, to unmake; to unknit, untwist, untwine, or unwreathe; to disentangle, to extricate; to solve or dissolve; to unfold; to open.—*M.A.* i. 490.

Dattod y croen a wnaethpwyd.
Hanes Taliesin: Mabinogion, iii. 325.

O *dattodir*, hir yw hwn,
Yr eiliad aur a welwn.
D. ab Gwilym, xxv. 11 (cf. cxciv. 6; ccxix. 3).

A thrwyddo ef yr ordeiniodd yr Hollalluog Dduw *ddattod* y byd, a galw yn ei flaen i'w barnu fyw a meirw.
Ed. James: Hom. iii. 147.

Yr hwn a wnaeth y ddau yn un, ac a *ddattododd* ganolfur y gwahaniaeth rhyngom ni.—*Eph.* ii. 14.

Dattod rhwymau, to loose bands or bonds; to unfetter.—*Salm.* cxvi. 16 (cf. Iob xii. 18).

A rwymi di hyfrydwch Pleiades? neu a *ddattodi* di *rwymau* Orion?—*Iob* xxxviii. 31 (cf. xxx. 11).

Dattod cylymau (1), to undo or loose knots.

(2) to solve or resolve doubts or difficulties.—*Dan.* v. 16.

Y mae un *cwlwm* eto heb ei *ddattod*.
Robert Llwyd: Llwybr Hyff. 24.

Dattodadwy, *a.* that may be loosened; dissoluble.

Dattodedig, *a.* loosened, untied; disentangled; resolved.

Dattodedigaeth, -au, *sf.* the act of loosening, &c.; dissolution; disentanglement.

Dattodi, *v.*=*Dattod*.

Dattodiad, -au, *sm.* a loosening, unbinding, undoing, or untying; unravelling; extrication, disentanglement.

Dattodiedydd, -ion, } *sm.* one who loosens,
Dattodwr, wyr, } unties, unbinds, or dis-
Dattodydd, -ion, } entangles; a resolver.

Dattoddedigaeth, -au, *sf.* the act of melting or dissolving anew.

Dattoddi, *v.* [toddi] to melt or dissolve anew.

Dattoddiad, } -au, *sm.* a melting or dissolving
Dattoddiant, } anew.

Dattoi, *v.* [toi] to take off a roof or covering; to unroof.

Dattoi tŷ, to unroof a house.

Dattorchi, *v.* to unwreathe, to untwine.

Dattoredigol, *a.* refractive.

Dattori, *v.* [tori] to break anew or again; to refract.

Dattoriad, -au, *sm.* refraction.

Dattoriad goleuni, refraction of light.

Dattoriadol, *a.* refractive, refracting.

Dattoriedydd, -ion, *sm.* a refractor.

Dattraethiad, -au, *sm.* recapitulation.

Dattraethiedydd, -ion, *sm.* one who recapitulates.

Dattraethol, *a.* recapitulatory.

Dattraethu, *v.* to recapitulate.

Dattraigl, } *pl.* dattreiglau, *sm.* a retrograde
Dattreigl, } movement, retrocession.

Dattraill, treillion, *sf.* a revolution; a turn back; retrocession.

Dattramwy, -on, *sm.* a migration to a former place; a removal back again.

Dattramwyad, -au, *sm.* a travelling or moving back; remigration; retrogression.

Dattramwyo, *v.* to move back again; to regress, to return, to remigrate.

Dattrefn, *sf.* disorder, discomposure.

Dattrefniad, } -au, *sm.* a discomposing, a put-
Dattrefnad, } ting out of order.

Dattrefnu, *v.* to put out of order, to discompose.

Dattrefnwr, wyr, *sm.* one who puts out of order or discomposes.

Dattreiddio, *v.* to penetrate again, to repenetrate; to repass.

Dattreiglad, } -au, *sm.* a receding or revolving
Dattreigliad, } back; retrogradation.

Dattreiglo, *v.* to turn or roll back; to retrograde.

Pwy a *ddattreigla* i ni y llech oi ddar ddrws y fonwent?
W. Salesbury: Marc xvi. 3.

Dattreilliad, -au, *sm.* a revolving or turning back; retrocession.

Dattreillio, *v.* to retrocede; to ramble back.

Dattrethu, *v.* to take of rates or taxes.

Digitized by Google

Dattro, -ion, *sm.* a contrary turn or twist; a turn back or backward.

Dyro *ddattro* ynddo.—*C.S.*

Dattroad, -au, *sm.* a contrary turning or twisting.

Dattroawl, *a.* tending to turn back or to untwist; tending to recurve; recurving.

Dattroediad, -au, *sm.* [troed] a retracing; the act of moving back; remigration.

Dattroedio, *v.* to pace back; to retrace one's steps.

Dattröedigaeth, -au, *sf.* the act of turning back; the act of untwisting or untwining; disentanglement; a reversed conversion.

Dattröedydd, -ion, *sm.* one who or that which untwists, untwines, or unwreathes; one who distorts.

Dattroi, *v.* [troi] to turn back or backwards; to turn away or from; to untwine, untwist, or unwreathe; to unfold; to distort, to wrest, to pervert; to reverse; to revert.

Gwisged dyn ac anifail sachlen, a galwed ar Dduw yn lew, a *dattröed* pob un oddi wrth ei ffordd ddrygionus.
Esgob Morgan: Ionah iii. 8.

Gwrthenw a fydd pan *ddattröer* y synwyr.
Pum Llyfr Cerdd. 116.

Tri anhawsder byd: dadwallgofi balchder; dadlygru calon cybydd; a *dattroi* meddwl henddyn.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 260.

A llai achos o lawer sydd iddynt gwyno am i ni ymadael oddi wrthynt, neu geisio ein *dattroi* ni drachefn i'w crefydd a'u crediniaeth hwy.—*M. Cyffin:* Diff. vi. 23 (cf. 16; i. 10).

Parodd Lucius Scipio, y penaeth Rhufeinig, i'r gwarth hwnw ag yr oedd Antiochus wedi amcanu ei fwrw ar y Rhufeiniaid, trwy eu gorchfygu, gael ei *ddattroi* arno ei hun, trwy y fuddugoliaeth wrth fynydd Sipylus.
Simon Lloyd: Amseryddiaeth, 359.

Dattrws, *sm.* [trws] an undress, deshabille.

Dattrwsiad, -au, *sm.* a disarraying or unrobing.

Dattrwsiadu, *v.* to disarray, to disrobe, to undress.

Dattrwsiadus, *a.* being in deshabille.

Dattrwsio, *v.* to disarray, undress, or disrobe.

Dattrwsiwr, wyr, *sm.* one who disarrays.

Dattrwyddedu, *v.* to abrogate a license or privilege; to disfranchise.

Dattuddedu, } *v.* to disarray; to uncover, to
Dattuddio, } denude.

Dattuddediad, } -au, *sm.* a disarraying; a dis-
Dattuddiad, } closing; denudation.

Dattueddiad, -au, *sm.* an unbiassing.

Dattueddu, *v.* to unbias; to uprise.

Dattwytho, *v.* [twyth] to deprive of elasticity; to lose elasticity.

Dattyb, -iau, *sm-f.* [tyb] an opinion reversed.

Dattybio, *v.* to reverse an opinion.

Dattynhâd, *sm.* a loosening of tension; a slackening.

Dattynhau, *v.* to make less rigid or tense; to relax; to slacken; to abate cohesion.

Dattynu, *v.* to draw or pull back; to relax; to loosen; to take from.

Dattyrru, *v.* [tyrru] to scatter a heap or pile.

Dattywyniad, -au, *sm.* a reflection of rays; refraction.

Dattywynu, *v.* to reflect rays; to refract.

Dattywys, } *v.* to lead or conduct back; to
Dattywyso, } reconduct.

Dattywysiad, -au, *sm.* a leading back, a reconducting.

Dathl, *a.* celebrated, renowned, famous, eminent, distinguished.

Mab Dayry dalei lyw ar vor deheu
Dathyl oed y glot kyn noe adneu.
Taliesin: A.B. ii. 198 (M.A. i. 169).

O brofiad glwys o dramawr gariad myg!
O dyst *dathl*, cynllun gwiw! yn fy ngweddhau
I unfath gais, ond byr o dy ddawnhâd,
Pa fodd y caffaf, Addaf?—*W. O. Pughe:* C.G. ix. 942.

Dathl Twyll Goleu, the name of a warrior under Arthur.—*P.*

Caer Dathl or *Caer Dathal* occurs as a place-name in some of the Mabinogion (59, 63, 65, 69, 74, 79, 107), and also in one of the poems of Cynddelw (*M.A.* i. 206).

Dathliad, } -au, *sm.* celebration; a celebrating
Dathlad, } or extolling.

Wrth gorn bob ych yr oedd baner, ac arnynt y geiriau hyn:—*Dathliad* priodasawl Mr. a Mrs. Fychan.
Gwyliedydd, xii. 250.

Dathlog, *a.* celebrated, renowned, famous.

Dathlu, *v.* to celebrate; to extol.

Cymmerwyd sylw neillduol o'r cyfryw ddygwyddiad yn nyddiau yr hygof frenin Sior III., a *dathlwyd* ei ddegfed flwyddyn a deugain ef fel Iubili nodedig, drwy orfoledd cyffredinol dros yr holl deyrnas.—*Gwladgarwr,* v. 268.

Y mae dwy Eglwys, yr un blwyfol, ac un arall newydd ei hagoryd yn Rhos y Brithdir i *ddathlu* coffadwriaeth Doctor Morgan.—*Cymru,* iv. 287.

Dathoedd, *v.*=*Daeth,* the current form.

Ac ynteu a vanagawd udunt megys y *dathoed* ef yno.
St. Greal, § 2 (cf. 3, 142).

Ac uelly y buant yny yttoed y gweisson ieueinc a *dathoed* y gyt ac wynt yn wyr llwydon.
Mabinogion, 91 (cf. 42, 139, 192, 266).

Ac arueru o Philoten yn dywyssawc udunt yr hwnn a *dathoed* y Droea y gyt ar gwyr a *dathoedynt* yn y llong a elwit Argo.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 16 (cf. 4, 9, 28).

Gouynnwys Hu idaw pwy oed. ac o ba le pan *dathoed.*
Campau Charlymaen, § 6.

A dywedut o honaw ynteu nat yr kyrchu a brydychu y *dathoed.*—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 47 (cf. 118).

Yna yd ysgynnawdd y oruchelder y nef. or lle y pann *dathoedd.*—*Ipotis,* § 20.

Kenadeu a *dathoedynt* attaw y venegi dygwydedigaeth y brenhin.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 173 (cf. 131, 231, 238).

Myn vyngcret heb y Galaath ny *dathoedywn* i yma pany bei y vorwyn racko.—*St. Greal,* § 48.

Dau, *m.* } *a.* [C. *dew;* Br. *dou, daou;* Ir. *dá,*
Dwy, *f.* } *do, de;* Ga. *da;* Gr. δύο; L. *duo*] two. See *Dwy.*

Dou pimp . . . *dou* punt . . . *dou* eterinn.
Oxford Gloss. iv. 22 (Zeuss, G.C. 1060).

Yna amgenu eu pryt a wnaethant. a chyrchu y porth yn rith *deu* was ieueinc.
Mabinogion, 71 (cf. 84, 87, 90, 111, 172).

Goreu dwy wlad ger *dau* lawr.—*L. G. Gothi,* iv. xx. 27.

Cynt y cyferfydd *dau* ddyn na *dau* fynydd.—*Diareb.*

Trwy *ddau* beth dianwadal.—*Heb.* vi. 18.

Dau ar bymtheg, seventeen.
Dau ar bymtheg ar hugain, thirty-seven.

Digitized by Google

Dau ar hugain, } two and twenty, twenty-
Dau ar hugaint, } two.

Dau a deugain, } two and forty, forty-two.
Dau a deugaint, }

Dau a thrigain, sixty-two.

Dau gant, two hundred.

Dau ar ddeg, two and ten, twelve (seldom used, except pedantically by those who object to *deuddeg*).

Dau hanner, two halves.

A chwnsallt ymdanaw ef ac ymdan y uarch *deu hanner* gwynn a phurdu.—*Mabinogion*, 158 (cf. 172, 187, 188).

¶ *Dau*, like the other numeral adjectives, is usually followed by the substantive in the singular. The use of the plural in that position, always comparatively rare, is now archaic.

Deu ychen Gwlwlyd wineu. . . *Deu* ychen bannawc.
Mabinogion, 121.

Fal y *ddau* ychen hen hy.—*D. ab Gwilym*, cxiii. 15.

Manawydan uab Llyr y vrawt y gyt ac ef. a *deu* vroder un uam ac ef.—*Mabinogion*, 26.

Efe a ganfu *ddau* frodyr. . . Ac wedi myned rhagddo oddi yno, efe a welodd *ddau* frodyr ereill.—*Matt.* iv. 18, 21.

Dau softens the initial consonant of the word which it qualifies, except occasionally in a few instances before *c*, *p*, *t*; as *dau cant*, *deucant* (now usually *dau gant*, *deugant*), *dau parth* (2 *Bren.* ii. 9); *dau tu* (*Phil.* i. 23). After the article it assumes the soft sound; as *y ddau ddyn*, *y ddau beth*, *y ddau gyfaill*, *y ddau dyst*.

Dau, *pl.* deuoedd, *sm.* two; both; twain.

Neut oed seith mlyned kyn no hynny yr pan welsei ef na dyn na mil eithyr y pedwar dyn y buassynt y gyt yny golles y *deu*.—*Mabinogion*, 55.

Ofer *dau* wrth Ifor daer.
Dafydd ab Gwilym, v. 8 (cf. cxlviii. 51).

Deued Powys a Deau
Hyd ar ddwy Went i dai'r *ddau*.
L. G. Cothi, iv. xxv. 47.

Gwell na'r *ddau* yw y neb ni bu erioed. . . Gwell yw *dau* nag un.—*Preg.* iv. 3, 9.

Y *ddau* ereill sydd gyffredinol yn perthyn i ympryd cyhoeddus ac i ympryd neillduol.—*Ed. James:* Hom. ii. 176.

Dau a dau, two and two.—*Barddas*, i. 134.

Ill dau, } they (them) both, they (them)
Ill deuoedd, } two, the two, both of them.

A hynny rwng eu deu gorf *ell deu*. . . Segur y digawn pwb o honawch vot eithyr gadu y ryngtunt wy *ell deu*.
Mabinogion, 5 (cf. 84, 142, 305).

Yr bot y deu gorff yn yr vn ysgrin, nyt oed gyfyngach udunt *ell deu*.—*Amlyn ac Amig*, col. 1114.

Ac ynggwely Arthur y kysgassant *ell deuoed* y nos honno. Ac yn eu hymyl wynteu Lawnslot a Gwalchmei a orwedassant *ell deuoed* y gyt.—*St. Greal*, § 6.

Oblegyt y ffrwyth hwnnw y cawssant wy *ell deu* eu hangheu.—*St. Greal*, § 51 (cf. 160).

A hwy a aethant *ill dau* rhagddynt. . . A hwy *ill dau* a safasant wrth yr Iorddonen.—2 *Bren.* ii. 6, 7 (cf. 8, 11).

Ein dau, } we both, both of us, we two.
Ein deuoedd, }

A ni felly, anhy oedd,
Yn deall serch *ein deuoedd*.—*D. ab Gwilym*, lxv. 13.

A rhoi nos, yn y rhan oedd,
Yn dywyll i ni'n *deuoedd!*—*D. ab Gwilym*, civ. 67.

Eich dau, both of you, you both, you two.

Pa ham y byddwn yn amddifad o honoch *eich dau* mewn un dydd?—*Gen.* xxvii. 45.

Eu dau, they (them) two, they (them) both, both of them.

Ar antur yf Lloer yntau,
Yfont a dunont *eu dau*.—*Gronwy Owain*, 19.

Y ddau, the two, both, the one and the other.

Yr hwn a wnaeth *y ddau* yn un.—*Eph.* ii. 14.

Un o'r ddau, one of the two, either.

Pa *un o'r ddau* hyn a ddlyem ei gredu oreu?
Ed. James: Hom. iii. 137.

Gobeithio yr wyf y byddwn i yn *un o'r ddau* hyny.
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 276.

Dau o ddynion, two men.

Daudafodiog, *a.* double-tongued, two-tongued.

Felly y caiff y pechadur *daudafodiog* ammharch.
Eccl. vi. 1 (cf. v. 9, 14).

Dauddyblyg, *a.* [dau+dyblyg] reduplicate, double; twice as much; twofold.—*Esa.* xl. 2; lxi. 7.

Y rei a wnant mwc o *deudyblic* fflam.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 149 (cf. 181).

Os gwadu a wna roet wat llad keleyn yn *deudyblyc*.
Cyfreithiau Cymru, ii. 22 (cf. 420).

Ac yn y wed honno gwneuthur *deudyblic* aerua o nadunt.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 45.

Rolant a wisgwys ymdanaw luruc *deudyblic* da. ac odyna a dodes am y benn helym Alier vrenhin.
Yst. de Carolo Magno, col. 445 (cf. 447, 451, 452).

A'r rheswm o hyn sy *ddauddyblyg*.
Dr. Davies: Llyfr y Res. 11. i. 20 (cf. ii. 12).

Ac mae fe'n cadarnhau hyny â llw *dauddyblyg*.
Ed. James: Hom. i. 51 (cf. 97; ii. 80, 129, 148).

A'r Arglwydd a chwanegodd yr hyn oll a fuasai gan Iob yn *ddauddyblyg*.—*Esgob Morgan:* Iob xlii. 10.

Dauddyblyg ei feddwl, double-minded; unstable, unsettled, wavering.

Gwr *dauddyblyg ei feddwl* sydd anwastad yn ei holl ffyrdd.—*Iago* i. 8.

Calon ddauddyblyg, a double heart.—*Salm.* xii. 2.

Dauddyblygiad, -au, *sm.* reduplication; the act of doubling again.

Dauddyblygol, *a.* reduplicative.

Dauddyblygu, *v.* to reduplicate, to double again, to redouble.

Daueiriog, *a.* equivocal; double-tongued; deceitful.—1 *Tim.* iii. 8.

Bit anniweir *deueiryawc*.—*Llywarch Hen:* A.B. ii. 246.

A lleidr annoniawg a dyn *dau eiriawg*
A glwth a diawg dial Cymraw.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 398.

Gliniau gwydd, gelyn y gog!
Diriaid yw a *daueiriog*.—*Dafydd ab Gwilym*, c. 6.

Eddewid gwragedd *daueiriawg*.—*Diareb.* (M.A. iii. 155.)

Oni bai ofn bod yn *ddaueiring*, mi ddywedwn ei bod hi yn rhy fuan i ysgrifenu cto.—*Gronwy Owain*, 308.

Daueiriogrwydd, *sm.* the quality of being double-tongued; equivocalness; duplicity; deceitfulness.

Daufiniog, *a.*=*Deufiniog*.

Dauwynebog, *a.* having two faces, two-faced; deceitful.

Kad meirch y danuitt ve *dev wynepauc*.
Llyfr Du: A.B. ii. 22 (M.A. i. 135).

Dyma Ragrith, yn olaf oll, yn arwain cadfa luosocach na'r un o'r lleill. . . Yng nghynffon y llu *dauwynebog*, ninnau aethom i olwg y llys.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 85.

A pheth am y cast a wnaeth y diffeithiwr *dauwynebog* â Dido druan?—*Gronwy Owain*, 295.

Digitized by Google

Bwyell ddauwynebog, a two-edged axe.

Dyuot a wnaeth Corineus at Locrinus dan dreiglaw *bwyell dewwynebawc* yn y law dcheu.
Yst. Bren. Bryt: Ll.C.H. ii. 61 (cf. 55).

Gwiolydd ddauwynebog,) pansy violet, heart's-
Y ddauwynebog,) ease (*Viola tricolor*): also called *llysiau y Drindod* and *trilliw*.—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 22, 182.

Dauwynebwr, wyr,) *sm.* a two-faced or
Dauwynebydd, -ion,) deceitful person.

Dauwynebydd Dafydd deg!
Gr. Gryg (D. ab Gwilym, cxxii. 4).

Daw, *v.* [C. *dyff*] the 3rd pers. sing. fut. of *dawad* or *dawed*: (he or she) will come (*veniet*). Cf. *Daeth*.

Ny *daw* gormes y Ynys Prydein o le arall.
Mabinogion, 97.

Nym *daw* nym dyvyd a uo trymach.—*Aneurin:* God. 872.

Ar niuer a weleist di yn y dref oll o wyr a meirch ac arueu a *daw* yr twrneimeint. ar wreic vwyhaf a garho a *daw* y gyt a phob gwr . . . ac ny *daw* e hun yno.
Mabinogion, 252.

D. A *dhaw* dim o dhamwain. M. Na *dhaw*.
Lucidar, § 66.

Ni *ddaw* da o dra dichell.—*Iolo Mss.* 258.

Gweniaith ni *ddaw* o'm genau.—*D. ab Gwilym*, lii. 15.

Ni *ddaw* drwg i un na *ddaw* da i arall.
Diareb. (M.A. iii. 167.)

A ddymuno ddrwg idd ei gymmydog, iddo ei hunan y *daw*.—*Iolo Mss.* 167.

Gan ddyfod y *daw*, nid oeda.—*Hab.* ii. 3.

Y byd a ddaw, the world to come; the future state.

Gan ganiatäu i ni yn y byd hwn wybodaeth am dy wirionedd, ac yn *y byd a ddaw*, fywyd tragywyddol.
Llyfr Gweddi Gyffredin.

Yr amser a ddaw, the time to come; the future time; the future.

Y fuchedd a ddaw, the life to come, the future life.

I ddywedyd yn gyffredinol am y poenau sydd yng nghadw erbyn *y fuchedd a ddaw*.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. ix. 3.

Y dydd a ddaw, the day to come; the future day.

Llaesa boen *y dydd a ddaw*,
Lles yw i'th enaid beidiaw.—*D. ab Gwilym*, cxlix. 23.

Ar *y dydd a ddaw*, hwy a goronir.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 130 (cf. 392).

Daw, *pl.* dawon,) *sm.* [C. *dof;* Br. *daf, deuf,*
Dawf, *pl.* dofion,) *dof, dan, déan*] a son-in-law.

Daun (*gl.* cliens).—*Oxford Gloss.* ii. 38 (Zeuss, G.C. 1065).

Dyrcheuwch y ffyrch y dan vyn dwy ael a dygwydawd ar vy llygeit hyt pan welwyf defnyd vyn *daw*. . . Ymendigeit annwar *daw* hanbyd gwaeth byth yd ymdaaf.
Mabinogion, 118 (cf. 119).

Ac ympen yspeit ygkylch diwed oes Lyr y gorcsgynnwys y *dofyon* y ran or kyuoeth a ganhalassei ef yn wrawl drwy hir o amser.—*Ystoria Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 66.

Yna yr aeth Lot allan, ac a lefarodd wrth ei *ddawon* . . . ac yng ngolwg ei *ddawon* yr oedd efe fel un yn cellwair.
Gen. xix. 14 (cf. Barn. xv. 6; xix. 5; Neh. xiii. 28).

Ni chaniataodd Ioan i'w *ddawf* Llywelyn yr un Magna Charta.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 41.

Daw gan chwaer, a sister's husband, a brother-in-law.

Yna Moradrins a dyvynnawd y gyfoeth y gyt ef a Naciens Goch y *daw y gan y chwaer*.—*St. Greal*, § 10 (cf. 50).

Yghyfrwg hynny y deuth Grufud uab Rys Tewdwr brenhin Deheubarth o Iwerdon. . . A hwnnw a drigyawd amgylch dwy vlyned gweitheu y gyt a Geralt, ystiwart Castell Penuro y *daw gan y chwaer;* a honno oed Nest uerch Rys uab Tewdwr gwreic Geralt Ystiwart: gweitheu ereill gyt ae gereint.—*Brut y Tywysogion*, 118 (cf. 210, 226).

Dawad,) *v.* [daw] to come. See *Dyfod, Daw,*
Dawed,) *Daeth*.

Cennad i *ddawad* yn nes
I fynegi fy neges.—*D. ab Gwilym*, cliii. 41.

A *dywed* yn y diwedd
At yn Tad iw wlad ai wledd.
Gruffydd Vnad Coch: M.A. i. 517.

Na fydd farnwr rhwng cyfeillion,
Ond cais *ddwad* â hwynt yn fodlon,
I gyttuno bob ychydig,
O deg a theg, yn ddiddig ddiddig.
Iago ab Dewi (Flores Poet. Brit. 92).

Er *dawed* i arduedd
Penrhyn Twyr, er hynt o hedd.—*W. O. Pughe:* H.G. 40.

Ond gwel! yr elawr foirch yn llawn o blu,
Yn *dawed* yn arafaidd.—*Iago Trichruy:* Y Bedd.

Yr wyf yn *dawed* gyda gwawl a cherdd,
Bu hir eich disgwyl am fy mantell werdd.
Blodau Ieuainc, 64.

Gwedi hyny mi a *ddawaf* â mwy haelioni yn fy llaw i'ch gobrwyo.—*Iolo Mss.* 169.

Dawed hyny yn wastad i'ch cof chwi.
Ed. Iames: Hom. ii. 297 (cf. 120, 293).

Dawed dy wŷr gad am gad â ni ar y tir dof.
Iolo Mss. 186.

Yr henaduriaid a ddywedant, er i'r Twrciaid amcanu yn fynych i symmud y garreg, eithr o amser i amser y *dawai* yn ol i'r un lle drachefn.
W. Lewes: Dwy Daith, 47 (cf. 30).

Gwelwch fod S. Ierom yn dangos nad ydoedd y gwychder ym mhlith yr Iddewon onid arwydd i arwyddocäu pethau a *ddawent*.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 138 (cf. 264; iii. 166, 188).

A *ddewi* di gyda mi?—*Iolo Mss.* 168.

Ac felly hwy a *ddawant* i'r eglwys ac a'u dangosant eu hunain.—*Ed. Iames:* Hom. i. 54 (cf. 8, 48, 83, 107, 121).

A hyn i gyd o gyflawn awen y *dawant*.
Cyfrinach y Beirdd, 12 (cf. 72).

Y *dawa* felly da i ddyn.—*W. O. Pughe:* C.G. iii. 252.

Drwy donnau *dawai* 'r Daniaid,
A Brithwyr, blingwyr un blaid.
Dewi Wyn: Bl. Arfon, 152 (cf. 92).

¶ Early instances of *dawed* (=*dyfod*) are very rare; but *dawad* (or more colloquially *dwad*) is the common infinitive in most parts of the country, though generally avoided in the literary language; and from *dawad* or *dawed* most of the conjugations are made. *Dyfod* is used only in the infinitive, no inflected forms being derived from it. See Davies, *Rudimenta*, 122; Rowland, *Welsh Grammar*, §§ 311, 312.

Dawawd, *sm.* a coming, an advent.

O gysgawd *dawawd* da yr awr y medreis
Ymadrawt a Duw mawr.—*Einion Wan:* M.A. i. 336.

Dawcan,) -od, *sf.* [dawg: L. *daucum, daucus;*
Dawcen,) Gr. δαῦκον] a plant of the parsnip or carrot kind.

Haua dy had *dawcenod* tua diwedd Chwefrol neu ddechreu Mawrth, ar gynnydd y lleuad.—*Rhisiart Sion Huw.*

Dawcan goch, a carrot.

Carota, moron, *dawcan goch*, ciwig yr ardd.
Meddygon Myddfai, 283.

Dawd, *pl.* dodion, *sm.* [cf. *dodi, dattod:* L. *datum*] that which is given, placed, or deposited; a datum; a deposit.

Dodion, data.—*Dicts.*

Dawed, *v.*=*Dawad*.

Dawedadwy, *a.* that may come; future.

Amser dawedadwy, time to come; future time; future tense.

Mae dau ansawdd i *amser dawedadwy*. . . Geill y *dawedadwy* cyntaf adrawdd gweithred gynnrychawl, gan ei bod yn ddechreuawl yn y gwahaniad rhyngddi ac un arall a aeth heibio; a chan hyny arferir yr amser hwn yn gyffredin i ddangaws gweithred gynnrychawl y modd mynegadwy, pan na bydd yn gofyn dangaws y cynnrychawl ar wahan oddi wrth y *dawedadwy*.
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gym. iii. i. 3 (cf. 5, 6).

Digitized by Google

Dawedadyn, *sm.* a comer, a settler.—*P.*

Dawededig, *a.* that is come to pass; past.

Dawediad, -au, *sm.* a coming, an advent.

Ef a dynodd allan eneidiau'r patrieirch a'r tadau bendigedig, a'r eneidiau santaidd oeddent . . . yn aros dan edrych am ei *ddawediad* santaidd ef.
Morys Clynog: Athraw. Grist. 18.

Yna dadguddir yr anwir, hwn a ddyfethir gan yr Arglwydd, ac a ddilëir gan ddisgleirdeb ei *ddawediad* ef.
Seren Gomer, iii. 136.

Dawedol, *a.* coming; future.

Mawr ogoniant y
Goruchaf cenynt, ac ewyllys da
Dawedawl ddynion, mewn trigfanau hedd.
W. O. Pughe: C.G. vii. 213.

Dawes, -au, *sf.* [daw] a daughter-in-law.

Dawf, *pl.* dofion, *sm.*=*Daw.*

Dawg, *sm.* [cf. *dogn*] a portion or allotment. —*P.*

Dawg, *sm.* [L. *daucum, daucus;* Gr. δαῦκον] the carrot.

Dawg gwyllt, wild carrot (*Daucus carota*).

O bydd y bolwst arnat, yf wysgell had y *dawg gwyllt*, a iach fyddi.—*Llanover Ms.*

Dawl, *pl.* dolion, *sm.* [Ir. *dál:* cf. *doli*] a part, a piece, a portion. Cf. Zeuss, *G. C.* 27, 1063.

Dawn, *pl.* doniau, *sm.* [L. *donum;* Ir. *dán*] 1. a gift, a free gift, a present.

Nyt mi a gerynt namyn vy rodyon am deuodeu am *donyeu*.—*Ystr. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 67.

Tra ym donwy Duw *dawn* arderchawg.
Gwalchmai: M.A. i. 199 (cf. 274).

Ni ddiangwn ni rhag cospedigaeth Duw yn y byd hwn trwy sychder a newyn, a thrwy dynu oddi wrthym bob budd a *dawn* bydol.—*Ed. James:* Hom. ii. 9 (cf. 42).

Ystyria ychydig pellach *ddawn* dy brynedigaeth, yr hyn sydd fwy o lawer na'r holl *ddoniau* o'r blaen.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. vii. 11 (cf. 14).

Er pan y'm parthwyd yn annwn oddi wrth y marw, drwy *ddawn* Duw a'i fawr haelioni.—*Barddas*, i. 226.

Dawn Duw yw bywyd tragywyddol.
Rhuf. vi. 23 (cf. v. 15, 16, 17).

Chwiliwn, o chawn y *dawn* da,
Hyd rwndir daiar India.—*Gronwy Owain*, 31.

2. a gift, a favour; grace; benefit; a virtue; honour.

Ac i Duw o'i *dawn* yd archaf i arch iawn.
Gwalchmai: M.A. i. 201.

Cŏr newydd a wnaethpwyd ger llaw iddi gan Illtud drwy *ddawn* a serch Tewdrig.—*Iolo Mss.* 10.

Yr Orsedd wrth gerdd dafod a gynneilwyd yn y Bewpyr . . . dan nawdd a *dawn* Syr Rhisiart Bassed.
Cyfrinach y Beirdd, 1.

Rhoddwr pob *dawn* daionus.—*Ll. G. Gyffredin.*

Doniau Duw, the gifts of God.—*Salm.* ciii. 2; cxvi. 12.

Pob doniau ereill o'i ddioddefaint ef, all other benefits of his passion.—*Ll. G. Gyffredin.*

3. a gift, mental endowment, faculty; talent; quality.

Ef a rodes Duw idaw amylder o synhwyr a doethineb. a *donyeu* yn erbyn y uot yn dengmlwyd arhugeint ual y gelwit ef ympob gwlat yn eil Selyf o achaws y doethineb.
Amlyn ac Amig, col. 1088.

Gweddw crefft heb ei *dawn*.—*Diareb.* (M.A. iii. 159.)

Lle ny bo *dawn* ni byd dysc.
Llywarch Hen: A.B. ii. 249 (M.A. i. 124).

Yn gyflawn o'r *dawn* a'r dysg.—*D. ab Gwilym*, xx. 9.

Bendigaid fyth fo'r Arglwydd mau,
Am *ddoniau* ei ddaioni.—*Edm. Prys:* Salm. lxviii. 19.

Lle na bo dysg ni bydd *dawn*.—*Iolo Mss.* 256.

Y mae amryw *ddoniau*.—1 Cor. xii. 4 (cf. 1, 28, 30, 31).

A rowch chwi'm mysg eich dysg a'ch *dawn*
Ryw gynghor iawn rhag Angeu?
Elis Wynn: Pardd Cwsg, 68.

Dawn ymadrodd, the gift of speaking.

Doniau ysprydol, spiritual gifts.—1 *Cor.* xiv. 1, 12.

Doniau gwyrthiol, miraculous gifts.

Doniau da (*sg.* dawn da), good qualities; good parts.

Byddi'n llawn o bob *dawn da*.—*Gronwy Owain*, 16.

Dawnbwyd, *pl.* dawnbwydau, } *sm.* 'in the
Dawn bwyd, *pl.* dawnau bwyd, } Laws payments in kind which were rendered by the lord's vassals; the contributions from free vills were denominated *gwestfa*;' 'meat-gavel;' 'donative food.'

Y gwestua haf y telir pedwar *dawnbwyt* heb aryant heb ebrann heb gwrwf . . . dros dri *dawnbwyt* y haf y telir y uuch . . . —Deu *dawn bwyt* a dyly y brenhin y gaffel y gan y bilaeineit. —Whech *dawnbwyt* a cherwyneit gwrwf o naw rywant arwyr o galan gayaf hyt galan Mei a telir.—Messur *dawnbwyt* yw baccwn tri byssyc ynny hysgwydeu ae ynny heis ac ynny chlunyeu.—Ny thelir dros *dawnbwyt* y gwannhwyn namyn aryant.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 532, 534 (cf. 198, 770).

Teir dylyet a ddyly arglwydd yw wr heb wneuthur anghyfreith yn y erbyn. . . Cyntaf yw y westfa oe faenolydd breynyoc . . . ae *dawney bwyt* gan y daeogeu.
Cyfreithian Cymru, ii. 604 (cf. 644).

Dawnbwyd haf yw ymenyn a chaws.
Leges Wallicae, ii. xxix. 6 (cf. 4, 5, 7, 10, 11, 13).

Dawnedig, *pt. a.* gifted, endowed; benefited; enriched.

Dawnedigaeth, -au, *sf.* a giving, conferring, or endowing; endowment.

Wrth y gair yma, yspryd, y ddëellir y llywodraeth a wna Yspryd Duw ar ei ddewisawg, drwy eu harail hwynt â'r unrhyw *ddawnedigaeth*, sef ffydd, gobaith, cariad, a'r ffrwythoedd sy'n tarddu ac yn tyfu o naddynt.
H. Perri: Egl. Ffr. ii.

Dawnfaith, *a.* great or liberal in gifts.

Gwr *dawnveith* gobeith reith reidussion.
Casnodyn: M.A. i. 430.

Dawnfawr, *a.* greatly or highly gifted.

Dawnferth, *a.* enriched or embellished with gifts or graces.

Llawr du oer yw llai'r [lle'r?] deall
Lletty Iorwerth *ddawnferth* ddull.—*Sefnyn:* M.A. i. 504.

Dawngar (*n-g*), *a.* gift-seeking; virtuously disposed; gracious; enriching.

Dawnged (*n-g*), -au, *sf.* a tribute, contribution, or donation.

Tair gwleddoedd gyferddawn a fyddant yn nawdd beirdd Ynys Prydain, ac iddynt bawb ei rodd o'r tair *dawnged*, sef mël, peillon, a blith.
Barddas, ii. 82 (cf. i. 354).

Dawnglod (*n-g*), *a.* fame-conferring.

Myrdin dec *dawnglot* bennaf
Kanys yth eir y credaf
Owein pa hyt y para.
Cyfoesi Myrddin: A.B. ii. 227 (cf. 226).

Dawngoeth (*n-g*), *a.* of refined gifts, qualities, or endowments.

Dangos o'th radau *dawngoeth*
Nad wyd fursen, Ddwynwen ddoeth!
Dafydd ab Gwilym, lxxix. 47.

Dawngyrch (*n-g*), *a.* virtue-seeking.

Yth *dawn gyrch* gynnyrch gynneddyf Emreis wrd
O orddwy Franc a Seis.—*Einion Wan:* M.A. i. 336.

Dawnhâd, *sm.* a giving, conferring, or endowing.

Dawnhau, *v.* to gift, endow, bestow, or confer.

Ein rhoddion idd ein rhoddiaid caniatäwn
Yn hawdd, a hael *ddawnhau* o hael *ddawnhâd*.
W. O. Pughe: C.G. v. 338.

Digitized by Google

Dawni, } **Dawnu,** } *v.* to gift, to endow, to enrich.

Ac ina in *dawnc* daun goruolet
Guidi bod in hir in huir vridet.
Myrddin: A.B. ii. 26 (M.A. i. 137).

Dawnig, *a.* gifted; favoured; virtuous.

Ebr Mair ddiwair, ddianaf, wir *ddawnig*,
'Hyn oll a addewaist gwnaed Duw 'n llwyddedig.'
Edm. Prys.

Dawno, *v.* to fare; to get on; to thrive.

Pa sut yr ydych yn dawno? how do you fare? how goes it with you?—*C.S.*

Dawnol, *a.* gifted, talented, endowed.

Dawnol fydd pawb o'th dynion,
A gwynfyd ym myd fydd Mon.
Gro. Owain, 16 (cf. Wks. 200).

Dawnorfod, *a.* conquering by gifts or liberality.

Nyd oes ym Dauyt *dawn oruod* ar bawb
Arbennigyawl hebod.—*Gwilym Ryfel:* M.A. i. 274.

Dawns, -iau, *sm.* [E. *dance;* Fr. *danse;* Br. *dans:* of Germanic origin] a dance.

Ynni dalm a wnai delyn,
O flaen *dawns* ni flina dyn.—*Iolo Goch.*

Yna y llawenycha y forwyn yn y *dawns*, a'r gwŷr ieuainc a'r benafgwyr yng nghyd.
Ier. xxxi. 13 (cf. 4; Salm. cxlix. 3; Galar. v. 15).

A'r holl wragedd a aethant ar ei hol hi, â thympanau ac a *dawnsiau.*—*Ecs.* xv. 20 (cf. Barn. xi. 34; 1 Sam. xxi. 11).

Hwynt-hwy, a'r holl wlad o amgylch, a'i crocsawasant ef â choronau, â *dawnsiau*, ac â thympanau.—*Iudeth* iii. 7.

Mae clod i *ddawns* a pheraidd gân.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 68.

Yr oriel, cyrchfa'r *ddawns* yn nyfnder nos,
Arfollir yno'r osgordd gein-falch dlos.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen y Cymry, 168.

Chwareuyddion dawns, a company of dancers.—*Ier.* xxxi. 4.

Blaenor y dawns, the leader of the dance.—*W.*

Tynu (*arwain*) *un trwy'r dawns*, to lead one a dance.—*W.*

Dawnsiad, -au, *sm.* a dancing.

Dawnsio, *v.* to dance.

Os merched Silo a ddeuant allan i *ddawnsio* mewn dawnsiau.—*Esgob Morgan:* Barn. xxi. 21 (cf. Preg. iii. 4).

Herod a addawodd trwy lw i'r llances a *ddawnsiodd* ger ei fron ef, y rhoddai iddi beth bynnag a ofynai.
Ed. Iames: Hom. i. 97 (cf. 193).

Os ceri ganu a *dawnsio*, cei yma dy wala.
E. Wynn: Bardd Cwsg, 29 (cf. 23, 32, 60).

Meddwl y maent y dylent dreulio eu hamser ar ddisiau, a *dawnsio.*—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 190 (cf. 137).

Gyda myrddiwn o gyfeillion,
Dawnsiodd yn yr hwyr awelon.
Blackwell: Ceinion Alun, 204.

Dawnsio haf, } *Dawnsio yr haf,* } to dance May; to dance round a May-pole on May-day; to go Maying.

Ryw bryd ym mis Ebrill . . . cyttuna deg, pymtheg, neu ugain, mwy neu lai, o bobl ieuainc plwyf neu ardal, i fyned oddi amgylch ar y dydd cyntaf o Fai, i *ddawnsio haf.*
Gwyliedydd, i. 306.

Dawnsiwr, wyr, *sm.* a dancer.

Tri rhyw o ddynion a gyll eu harafwch yn debyg i rai allan o'u pwyll: helwyr; *dawnswyr;* ac ymladdwyr.
Trioedd Moes: M.A. iii. 192.

Prif swyddogion y trysordy hwn yw meistriaid y seremoniau, herwyr, achwyr, beirdd, areithwyr, gwenieithwyr, *dawnswyr*, teilwriaid, pelwyr, gwnïadyddesau, a'r cyffelyb.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 26.

Y *dawnswyr* goreu yw y dynion gwaethaf.
Gemau Doethineb, 114.

Dawnswyr haf, May-dancers.

Dyma yn fyr ddarluniad go fras o *ddawnswyr haf* yn yr ardal yr wyf yn byw ynddi.—*Gwyliedydd,* i. 307.

Dawnswraig, wragedd, *sf.* a female dancer, a dancing woman.

Dywedir am ddiwedd y *ddawnswraig* Salome, iddi syrthio trwy yr ia, ac i'r ia wahanu ei phen oddi wrth ei chorff.
Th. Charles, s.v. 'Herod Antipas.'

Dawnsydd, -ion, *sm.* 1. a dancer.

Dawnsyddion, Dancers, fanatics who appeared in the Low Countries at the end of the 14th century.

Dawnsyddion, sect a gyfododd yn yr Iseldiroedd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.—*Credoau y Byd,* i. 574.

Dawnsyddes, -au, *sf.* a dancing woman.

Dawnu, *v.* [dawn]=*Dawni.*

Dawnus, *a.* gifted, talented, mentally gifted; endowed with abilities or good qualities; intelligent; virtuous.

Cristus bwyf *dawnus* yn y donio
Cristnogaeth vaeth am digaetho.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326 (cf. 412, 507).

Deunaw o gampau *dawnus*
A roed ar Wgawn ab Rhys,
Ac un gamp ddrwg ar Wgawn
Yn difwynaw'r deunaw *dawn.*—*M.A.* iii. 45.

O'th gawdd, pwynt anhawdd, pand *dawnus* fuom
Dy ddyfod atom, Duw dioddefus!
D. ab Gwilym, ccxli. 39 (cf. xlii. 32).

Tri pheth canmoledig ar wraig: ei hwyneb yn *ddawnus;* ei hymddiddan yn synwyrus; a'i harferon yn ddaionus.
Trioedd Moes: M.A. ii. 192.

Dawnus wyt, dien ei sail,
Prydferth heb neb rhyw adfail.—*Gronwy Owain,* 16.

Gwisg yn ei ieu'nctid goron ddestlus,
Ac yn ei henaint bydd ior *dawnus.*—*Iolo Mss.* 268.

Mwy teilwng o feirniadyddion *dawnus* a fuasai chwilio tystiolaethau yn fanwl cyn penderfynu.
Carnhuanawc: H.C. 259.

Dawnusrwydd, *sm.* giftedness.

Dawnwych, *a.* well gifted or endowed; accomplished.

Dawodedig, *pt. a.* come, come to pass.—*P.*

Dawodedigion, *s.pl.* comers; settlers.—*P.*

Dawodi, *v.* [dawawd] to come; to draw near.—*P.*

Dawodiad, -au, *sm.* a coming, an advent.

Dechreua [Gwyl y Nadolig] gyda'r *Dawodiad* ar y dydd olaf o Dachwedd, a pharhâ hyd yr Ystwyll.
Credoau y Byd, ii. 412.

Dawr, *v.* [C. *der, dur, duer;* Br. *deur*] it concerns; it affects; it regards; it interests; it imports; it matters; it behoves: the 3rd pers. sing. pres. of the inf. *dori* (which is formed from it); generally used impersonally, and with a negative. It is also written *tawr.* See *Dori.*

Ni'm dawr, it concerns me not; I do not care.

Beird wiscawc Vadawc o vot awr hebot
Y hybarch Grist *nym dawr.*
Casnodyn: M.A. i. 424 (cf. 527).

Nyt mawr ym *dawr.*—*Taliesin:* A.B. ii. 195.

Ny didawr ny *dawr* cwt vo.—*Llefoed:* A.B. ii. 305.

Ni *ddawr* hi ddaiaru hwn,
O'i ddaiaru ni *ddorwn.*
D. ab Gwilym, lxxxix. 43 (cf. xxx. 43; clxxxviii. 23).

Morfydd yn y dydd *ni'm dawr.*
D. ab Gwilym, lxxi. 6 (cf. xcix. 50; cxxiv. 8, 59).

Ni *ddawr* croesan pa gabl.—Ni *ddawr* yr iâr fod y gwalch yn glaf.—*Diareb.* (M.A. iii. 167.)

Digitized by Google

Gwae'r dyn ni *ddawr* pan ddêl.—*Gutyn Owain.*

Tra fo'm cell i'm castellu,
Ni'm dawr a fo i lawr o lu.—*Gro. Owain*, 57.

Am a'i prydawdd, o *dawr* pwy,
Sef a'i prydes Goronwy.—*Gro. Owain*, 104.

Nis gwn, ac ni'm dawr chwaith, I do not know, nor do I care.

Dawyllysgarwch, *sm.* good will, benevolence; grace.

Ydd ŷm hefyd yn gweddïaw yn oestadawl y trosoch, ar fod i'n Duw eich teilyngu i'w alwediqaeth, a chyflawnu oll *ddawyllysgarwch* [°rad] ei ddaioni ef, a gwaith ffydd.
W. Salesbury: 2 Thess. i. 11.

De, *a.* [contr. of *deheu* or *deau*] right; correct.

Cennyn can ein Duw neud *de*.
Cyfryw atreg cof atre.—*Gwalchmai:* M.A. i. 203.

Beird llafar lluc *de*
Eu gwawt nym gre.—*Taliesin:* A.B. ii. 151.

Y llaw dde, the right hand.

Y dde (=y llaw dde), the right hand, the right.

Ar ei *dde* eisteddai delw eirian ei
Ogoniant, ei unig Fab.—*W. O. Pughe:* C.G. iii. 69.

Y dde a'r aswy, the right and the left (hands).

O dde, rightly; in the right way; properly.

Dechreu gwaith o dde, to go the right way to work.

De, *sm.* south, the south; the point on the right hand of a person facing the east.

Doed gogledd, *de*, a'r dwyrain bell,
I glywed y newyddion gwell.
W. Williams: Hymnau, clxxix. 7.

Anedlais ar y *De*, a blodau fyrdd
A ymdorasant o'r gwasgodau gwyrdd.
Blodau Ieuainc, 64.

Ergydlym wŷr o'r gadle,
Ar y daith yn ol i'r *De*.—*Gwynionydd:* Caniadau, 20.

Môr y De, the South Sea.

Ynysoedd Môr y De, the South-sea Islands.

Y prif ynysoedd y sydd ym *Môr* mawr y *De* ydynt y canlynol.—*R. Roberts:* Daearyddiaeth, 582.

Gwynt y de, the south wind.

Y de-ddwyrain, the south-east.

De-ddwyreiniol, south-eastern, south-easterly.

Y de-orllewin, the south-west.

De-orllewinol, south-west, south-western, south-westerly.

Pegwn y de, *Y pegwn de*, } the south pole.

Y De, the South: in N.W. often used for South Wales.

Tra thelyn a thyn ei thant,
De a Gwynedd cydganant.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 242.

De, *a.* south, southern, austral.

Ail Chemos, serth erchylldawd meibion Moab,
O Aroar hyd Nebo, anial ran
O *ddeaf* Abarim.—*W. O. Pughe:* C.G. i. 428.

Affrica . . . sydd yn sefyll o ddeutu y cyhydedd, ar du *de* Ewrop.—*R. Roberts:* Daearyddiaeth, 313.

De, *v.* See *Dëu.*

De, -au, *sm.* action; impulse; a separation or parting.—*P.*

Llawr nef dref dreidyaw
Aelaw elwch
Llys vry hy hoywblwyf
Lle gne *de* diglwyf.—*Casnodyn:* M.A. i. 431.

O! anhawdd *de*, tra megys cwsg dy dranc:
Ond och! dy bechod du!—*Caerfallwch.*

De, *a.* 'separated, parted, divided;' pervaded.

Caradwy Lywy lewych ystre
Can y daw ym bot om bod yn *de*.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 292.

¶ *De* is used as an affix in some words; as *creudde, eurdde, tandde, trymdde*, and *ysgardde;* but its precise force is not very clear. According to Davies, '*de* is a particle added to the end of words, either for ornament's sake only, or for enhancing or altering the signification a little.' As a prefix, *de* is, in the older language, sometimes used for *dy*.

Dead, *sm.* a parting; separation.—*P.*

Gwar am kar am ken uy ren reinyat
Gwir hir mor de hir eu marw *deat*.
Llywelyn Ddu ab y Fastard: M.A. i. 416.

Deadell, -au, -oedd, *sf.*=*Diadell.*

Deaeth, *sf.* separation, division.

A nodes beirdd enwedig,
A ddaeth oll o *ddeaeth* ddig.—*L. G. Cothi.* (*P.*)

Deail, *v.* [de=dy-+ail, eilio] to wreathe, weave, or wattle.

Dail glas yn *deail* gloew-serch
A gefais gan feinais ferch.—*Ieuan Dyfi*, i'r Cae Bedw.

Mae ef yn deail ei chwedl yn dda ddigon, he weaves his tale well enough.

Deain, *a.* [de=deheu] southern, austral, south.

Coronog Faban, medd doethion *deain*,
A dry dros foroedd o dir y Dwyrain.
Iolo Mss. 275 (cf. 278).

Tiroedd deain, southern lands.

Coronog Faban, medd doethion Dwyrain,
A dry dros foroedd i *diroedd deain*.—*Iolo Mss.* 266.

Deaint, *sm.* store, treasure.

Goreu deaint daioni, the best store or treasure is goodness.—*Diareb.* (*P.*)

Deall, *sm.* [de+gall] 1. understanding, intellect.

Y Tat yw y cof. y Mab yw y *deallh*. ar Yspryt Glan yw yr ewylhys.—*Lucidar*, § 4 (cf. 8).

Tair ffynnon *deall:* eonder; nwyf; ac ymgais.
Cyfrinach y Beirdd, 47.

Ac ef Vrenhin nef am nodho rac guall
Y ddaun ac *ddeall* am diwallo.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326 (cf. 413).

Lluniwr pob *deall* uniawn,
A llyfr cyfraith y iaith iawn.
Dafydd ab Gwilym, cxxviii. 13.

Ym mhob enaid y mae *deall*. Ym mhob *deall* y mae meddwl. Ym mhob meddwl y mae naill ai drwg ai da.
Diareb. (M.A. iii. 178.)

Yn y talcen y mae y *deall*.—*Barddas*, i. 392 (cf. 388, 390).

Cais ddoethineb, cais *ddeall*. . . Cais ddoethineb; ac â'th holl gyfoeth cais *ddeall*.—*Diar.* iv. 5, 7.

Heb ddeall, without understanding.—*Salm.* xxxii. 9; *Ier.* v. 21.

Rhoi ar ddeall, to give to understand.

Dwyn ar ddeall, to make one understand; to give one to understand; to convince.

Dyfod ar ddeall, to become understood; to become known; to come to one's knowledge.

Gwedi caffael gwybodaeth o'r ffydd yng Nghrist, fe *ddaeth* ysgrifenu ar groen *ar ddeall* yng Nghymru, fal ag y mae yn awr.—*Barddas*, i. 148.

2. meaning, import, signification.

Hyn yw *deall* y weledigaeth.—2 *Esd.* xiii. 25 (cf. x. 40).

I ddangos i chwi yn oleu beth yw ystyr a *deall* y geiriau yma.—*Ed. James:* Hom. ii. 184.

Y mae S. Ioan, yr hwn a wyddai ei feddwl ef oreu yn y peth hyn, yn esponi ei eiriau ef i'r *deall* hwnw.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. v. 7.

Digitized by Google

Deall, *v.* 1. to understand; to apprehend, to comprehend; to perceive, to discern.

Ac ual y bu y kyfrangeu hynny y peris Turpin eu hysgrifenv yn Lladin. ac ual y *daallei* bawb wynt. . . Ac y dichawn pawp wybot or ae darlleo. neu ae gwarandawo na orue ef dim yn orwac. namyn perued y wiryoned wedy eu *dyall* o ysprydawl gyghoreu a berthynant ar uolyant Crist.
Ystoria Charles, 18.

Pa ffurf y *deuelhir* y Drindawt yn un Duw. . . Drwy y tan y *deuelhir* y Tat. drwy y goleuni y *deuelhir* y Mab. drwy y gwres y *dyelhir* yr Yspryt Glan.
Lucidar, ¶ 4 (cf. 16, 88).

Deallwn syniwn trwy synwyr ber [*al.* ver]
Dielwed fydd dyn y dydd y ganer.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 399.

Gwrandẽwch chwi oll arnaf, a *deallwch*.—*Marc* vii. 14.

Tremiadau tramwyedig,
A chall yn *deall* eu dig.—*Gronwy Owain*, 37.

Tair cainc hyweddiant iaith: a *ddẽellir;* a hoffir; ac a gredir. . . Tair hyweddiant celfyddyd: ar a'i hoffo; ar a'i *deallo;* ac ar a'i dirper.—*Cyfrinach y Beirdd*, 44.

Ein tadau ni *ddeallasant* dy ryfeddodau yn yr Aipht.
Esgob Morgan: Salm. cvi. 7.

Wrth y rhai y *dẽellir* ffyddlon bregethwyr yr efengyl.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 146.

2. to interpret, to make intelligible, to explain.

Goreu kynghor oed yni am a glywssam ac a welsam heno mynet y geissyaw ryw wr crevydus a wypei *deall* ynn yn breudwytyon.—*St. Greal*, ¶ 36.

Dealladwy, *a.* intelligible, apprehensible.

Er mwyn gwneyd ein barn yn fwy *dealladwy*, cymmerer cyffelybiaeth fel hyn.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duwin. 552.

Dealledig, *a.* understood, comprehended; intelligible; intelligent.

Dealledigion, intelligible things; intelligent beings.

Dywedwch wrthyf ba hanu y byd, a phob gweledigion o bethau, a phob clywedigion, a phob teimledigion, a phob *dealledigion*, ac o ba beth y daeth ac a'u gwnaespwyd!
Barddas, i. 248.

Dealledigaeth, -au, *sf.* comprehension, understanding, apprehension.

Dealledigol, *a.* intellective; intellectual.

Deallgar, *a.* 1. intelligent, knowing, understanding; wise, prudent.

Tri pheth goreu o bob peth i bob dyn: awen *ddeallgar;* iechyd corff; a chydwybod lân.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 226.

Nid pobl *ddeallgar* ydynt.—*Esa.* xxvii. 11.

Bwriwn ynte fod lluaws o greaduriaid *deallgar* yn preswylio'r byd arall, y rhai ydynt oll yn taer hiraethu ar ol gwybodaeth o'r gwirionedd.
Iosua Tomas: Buch. Grist. 17.

2. intelligible, comprehensible.

Yn y Llythyr yma y mae efe yn arferyd iaith gynnefin a *deallgar* i'r bobl y mae efe yn ysgrifenu atynt.
Theo. Evans: Pregeth, 11.

Deallgarwch, *sm.* intelligence, understanding; intelligibleness; aptness to understand.

Trwy dy ddoethineb a'th *ddeallgarwch* y cefaist gyfoeth i ti.—*Esec.* xxviii. 4.

Llygaid cyfartal, duon neu leision, *deallgarwch* a arwyddocânt.—*P.*

Na safed y gwŷr hyn ormod yn eu goleuni eu hunain, ac na hyderant yn eu *deallgarwch*.
R. Llwybr: Llwybr Hyffordd, 343.

Dealliad, -au, *sm.* intellection.

Deallol, *a.* relating to the understanding or intellect; intellectual; intellective; intelligent.

Beth ydyw yr holl greadigaeth weledig, ar wahan oddi wrth ei chyssyllitiad â'r Creawdwr, a'i pherthynas â bodau *deallol?*—*Dosparth Heulawg*, i. 146.

Gallesid meddwl . . . y bussai pob athronydd Cristionogol, beth bynnag, yn barod i dalu pob dirmyg *deallawl* ar y fath dywyllwch paganaidd.—*Adolygydd*, i. 163.

Deallt, *sm.*=*Deall.*

Pwy bynnag y bo iddo lygaid cymhwys, cyfartal, gleision ne dduon, ef a ddyly fod yn dda ei *ddeallt*.
Llythyr Alestotlys (Brython, iii. 5).

Deallt, *v.* to understand; to comprehend.

A hyn nis cânt mewn man arall yn y byd, mor fyr, mor drefnus, mor eglur o'i *ddeallt* ag yn y llyfr yma i chwi. . . Fal y gallo y plant a'r gwragedd ei *ddeallt*.
Dr. Gr. Roberts: Athraw. Grist., Rhag. 4.

Dealltiad, -au, *sm.* intellection.

Dealltol, *a.* intellective, intellectual.

Dealltwr, wyr, *sm.* one who understands or comprehends; an intellectualist.

Dealltwri, *sm.* intelligence; skill, skilfulness.

Dealltwriaeth, -au, *sf.* understanding, comprehension; intellect; intelligence; skill.—*Esa.* xl. 14.

Bywyd, yr hwn, o'n holl weithrediadau a'n *dealltwriaethau*, yw'r penaf, a roddwyd ar echwyn yn rhad i ni gan Dduw.
Ios. Tomas: Buchedd Grist. 130.

Nid oedd genyf yr amser hwnw ddim blas ar Gymraeg na phrydyddiaeth, na *dealltwriaeth* na chelfyddyd yn y byd ynddynt chwaith.—*Gronwy Owain*, 269.

Dealltwriaethol, *a.* relating to the intellect or understanding, intellectual.

Cyfarfyddir â hwynt yn heidiau yn y trefydd mawrion, lle yr ânt i wrandaw y Saeson, o blegid nad oes pregethu digon '*dealltwriaethol*' iddynt hwy, yr epaod diaynwyr, yn addoldai y Cymry.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 520.

Dealltwrus, *a.* intelligent, knowing; skilful.

Pwy bynnag o ddyn ydwyt, meddwl hyn a chydnebydd, os rhoes Duw i ti natur mor ardderchawg, synwyr i ddewis, yspryd *dealltwrus*, ac enaid anfarwol . . . ddarfod i'th Wneuthurwr osod i ti waith hefyd a gorchwyl i arferu'r doniau a'r galluoedd hyny.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 1.

Y mae'r call a'r *dealltwrus* yn disgwyl gan ereill barch a goruchafiaeth.—*Huw Owen:* Dilyniad, 1. ii. 2.

Deallu, *v.*=*Deall.*

Deallu barddlyfr da a ellynt.
Llywelyn Goch: M.A. i. 515.

Nis gallwn hebgor heniaith y Brytaniaid o'r cynfyd, o herwydd ei bod yn dra anghenrheidiol er mwyn *deallu* yr hen lyfrau chronic, ac ereill hen awduriaid.
Dr. T. Wiliams (Y Greal, 62).

A nad ych chwi yn syniaw etwa nac yn *deallu?*
W. Salesbury: Marc viii. 17.

Deallus, *a.* 1. intelligent; understanding; knowing; well-informed; wise, prudent, discreet.—*Salm.* xlvii. 7.

Tri goruchafiaeth dedwydd: bod yn *ddeallus* mewn daioni; yn serchog tuag at bob daioni; ac yn llwyddiannus ym mhob daioni.—Tri goruchafiaeth diriaid: *deallus* mewn drwg; serch at bob drwg; a llwydd ym mhob drwg.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 261.

Rhaid fydd i'r holl fyd o fodau *deallus* ymddangos mewn barn.—*Ios. Harris:* Gweith. 161.

Pell amcan y *deallus.*—*M.A.* i. 544.

Y ffol, tra tawo, a gyfrifir yn ddoeth; a'r neb a gauo ei wefusau, yn *ddeallus.*—*Diar.* xvii. 28.

Dyn deallus, a person of understanding; an intelligent person.

2. (=dealladwy) intelligible.

Yr oeddynt yn alluog i ysgrifenu yn ramadegol a *deallus* yn iaith y Groegiaid.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 623.

Deallwr, wyr, *sm.* one who understands or comprehends; one of quick apprehension.

Dadleu ni allaf ac ni ellais
A diallu wyf a *deallwr* clwyf.
Gr. ab D. ab Tudur: M.A. i. 480.

Deallwr, a dau wellwell,
Distaw a mul, oes dim well!—*Huw Cae Llwyd.*

Deallydd, -ion, *sm.* one who understands; an intellectualist.

Digitized by Google

Dean, -iaid, *sm.* [L. *decanus;* Br. *dean*] a dean.

Y *dean* rhwyddlan a'i rhydd.—*Guto'r Glyn.*

Cusan y *dean* a dâl
Cant einioes rhag haint anial . . .
Arwydd einioes urddunïant
Yw dwyn sel y *dean* sant.—*Guto'r Glyn*, i'r Dean Cyffin.

Deaniaeth, -au, *sf.* a deanery.—*S.*

Deau, *s.* and *a.*=*Deheu.*

Deawd, *sm.* [de] separation; a taking from or extracting.—*P.*

Blwydyn en erbyn urdyn *deawd* [*al.* deuawt].
Aneurin: God. 228.

Deawl, *a.* having a tendency to separate.—*P.*

Deawr, *v.*=*Dyor.*

Debed, *v.* to go away, to depart, to go.

A fo â'i fryd ar *ddebed* (gerdded),
Ni wna dda cyn ei fyned.—*Diareb.* (M.A. iii. 146.)

Adwy a dodet ny *debit.*
Gorchan Maelderw: A.B. ii. 97 (M.A. i. 61, 84).

Debre, *v.*=*Dabre.*

Debre gyt a my hyt en enys Prydein.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 212 (cf. i. 203).

Debre di yr enwog
Fechdeyrn gwych dyledog.—*W. Wynn.*

Debryd, *a.* [de+pryd?] reparative; beautifying.—*P.*

Debrydiad, -au, *sm.* reparation.

Debrydu, *v.* to put into repair; to beautify.

Debydd, *v.*=*Dybydd* (from *dyfod*).

Can ys o hyny y *debydd* i bawb ei hoffi.
Cyfrinach y Beirdd, 40.

Dectant, *sm.* a ten-stringed instrument.

Molwch yr Arglwydd â'r delyn: cenwch iddo â'r nabl ac â'r *dectant.*—*Salm.* xxxiii. 2 (cf. xcii. 3; cxliv. 9).

Dectref, -i, -au, *sf.* 1. a district containing ten householders, a tithing.

Pen (*penaeth*) *dectref*, a tithing-man.—*W.*

2. a district containing ten towns or cities: a translation of *Decapolis.*

Ac ef aeth drachefn ymaith o ffiniau Tyrus a Sidon, ac a ddaeth hyd Fôr Galilea trwy berfedd y *Dectref* [*Decapolis].
W. Salesbury: Marc vii. 31 (cf. v. 20; Matt. iv. 25).

Dectreflys, -oedd, -au, *sm.* a tithing-court.

Dectrefol, *a.* relating to a tithing.

Degtrefwr, wyr, } *sm.* a tithing-man.
Dectrefydd, -ion, }

Dectro, *a.* [deg+tro] having ten turns or twists; decuple, tenfold.

Decheu, *a.* [corr. of *deheu* (cf. *cychyd* for *cyhyd*, *echon* for *ehon* or *eon*): C. *dychow*] right; proper, fit; dexterous, skilful.

Dyn decheu (=dyn deheu), a dexterous person.

Y llaw ddecheu (=y llaw ddeheu), the right hand.

Decheu o bob llaw, both-handed, ambidextrous.

Dechre, *sm.*=*Dechreu.*

Dechreu, } -on, *sm.* [Br. *dezrou*] a beginning;
Dechre, } a commencement; an origin, an original; initiative.

Ni bydd hyn ni bydd iau
Nog yn y *dechreu.*—*Taliesin:* M.A. i. 22 (A.B. ii. 159).

A *dechreu* nos kyscu ychydic a orug hi.—*Mabinogion*, 279.

Ac erchi udunt uvudhau wrth y gynefawt ar gyfreith oed ossodedic yr y *dechreu* yndi.
Ystl. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 132 (cf. 219).

Y gosper yw diwedh y dydh ar peth a orphenner. y boreu yw y *dechreu.*—*Lucidar*, § 8.

Tri anghen pob hanfod wrth fywyd: *dechre* yn annwn; treigl yn abred; a chyflawnder yn y nef, sef cylch y gwynfyd; ac heb hyn o dripheth nis gellir unpeth namyn Duw.
Barddas, i. 172.

Tri pheth nis gellir na maint na mesur arnynt: y ceugant; parhâd; a Duw; am nas gellir eithafoedd ar un nac arall o henynt; na *dechreu* na diwedd na chanol arnynt.
Barddas, i. 212.

O'i ansawdd ef y mae pob peth, ac o hanaw y *dechre* ar bob peth, ac ynddo yr annechre.
Barddas, i. 218 (cf. 292, 352).

Mae *dechreu* i bob peth; ond nid oes diwedd ond i ryw beth.—*Diareb.* (M.A. iii. 185.)

Nid yw hi ond *dechreu* 'r drwg
Rhwng Gwen lliw'r mwg a minnau.—*Diareb.* (*P.*)

Yn y dechreu, in the beginning; originally; at first.

Megys yr oedd *yn y dechreu*, y mae yr awr hon.
Llyfr Gweddi Gyffredin.

Y dechreu a'r diwedd, the beginning and the end.—*Dad.* i. 8 (cf. xxi. 6; xxii. 13).

O ddechreu y byd, from the beginning of the world; since the world began.—*Matt.* xxiv. 21.

Ac *o dechreu byt* hyt yna yd oed blwydyn eissieu o petwar ugeint mlyned ac wyth cant a phum mil.
Brut y Tywysogion, 2.

O'r dechreu, from the beginning; from the first; originally.—*Matt.* xix. 8.

Dechreu nos, the beginning of the night, the nightfall.

O ddechreu nos hyd ddewaint, from nightfall to midnight.—*Llywarch Hen:* A.B. ii. 286.

O'r dechreu i'r diwedd, } from beginning to
O'r dechreu hyd y diwedd, } end.

Yna datkanu idaw y ansawd *or dechreu hyt y diwed.*
Amlyn ac Amig, col. 1091.

[I never saw an etymon offered of the word *dechreu;* yet I think it is as visible as the summer's sun, that it is compounded of *dy* and *creu* (to create), *e* and *y* being promiscuously used by the antients; and what can more properly signify *to begin*, than a verb derived of another that denotes the beginning of the universe!
Gronwy Owain, 203.]

Dechreu, *v.* to begin; to commence; to originate; to initiate; to go or set about.

Ac o hynny allan *dechreu* kadarnhau kedymdeithas y ryngtunt.—*Mab.* 8 (cf. 5, 9, 11, 15, 17, 20, 158).

Ac yna yr eil weith y *dechreuaspwyt* y twrneimant.
St. Greal, § 163.

A *dechreu* erchi idaw a wnaeth anuon Esonia y chwaer y Briaf.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 5 (cf. 7, 10, 22, 25).

O'r tripheth hyn y *dechreuwyd* dodi gwybodau ar drioedd.
Barddas, i. 30.

Y peth yn ddeallus a *ddechreuir*, yn ddaionus y diweddir.
Marchog Crwydrad, i. 2.

Yna *dechreuodd* y macs galluocaf a chynddeiriocaf fu crioed ar y ddaiar. Pan *ddechreuwyd* gwyntio cleddyf yr Yspryd, *dechreuodd* Belial a'i luoedd uffernol wrthgilio; yn y man *dechreuodd* y Pab lwfrhau. . . A dyna'r pryd y *dechreuodd* y Pab a'r swyddogion daiarol ereill lechu a llewygu.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 47.

Dechreuad, } -au, *sm.* a beginning; a com-
Dechread, } mencement; origination; an origin.—*Eccl.* x. 12, 13.

Yn *nechreuad* Arthur ar ford gron oedd hynny.
Hanes Taliesin: M.A. i. 17.

Dechreuad ffordd baradwys,
I dynu pawb dan eu pwys.—*D. ab Gwilym*, ci. 5.

Sef ydd ânt bob pethau at eu *dechreuadau* a'u cyntefigiaethau.—*Barddas*, 386.

Dy enw di sydd heb *ddechreuad* ac yn dragwyddol.
Ed. Iames: Hom. i. 49 (cf. 101; ii. 29).

Digitized by Google

Yn y dechreuad, in the beginning.—*Gen.* i. 1; *Ioan* i. 1, 2.

Er y dechreuad, from the beginning.

Yn ef fal hyn y mae'r cyfarwyddyd herwydd hen gof a llythyr, a chof llafar gorsedd, cadwedig gan gadeiriau *er y dechreuad*.—*Barddas*, i. 140.

Dechreuadol, } *a.* beginning, commencing;
Dechreadol, } incipient; original; primitive, pristine; initial.

Pechod dechreuadol, original sin.

Pa ham, ynte, nad yw y Scotistiaid a'r Thomistiaid yn cyttuno yn well . . . yng nghylch *pechod dechreuadol* yn y wynfydedig Fair, ac yng nghylch addunedau?
Morus Cyffin: Diff. iii. 6.

Dechreuedig, } *a.* begun, commenced; having
Dechrëedig, } a beginning; initiated.

Lhesgedh yw mwyglder medhwl yn gwalhygyaw gwneuthur da, neu yn blinaw rhac gorphenn y da *dechreuedic*. . . Mewyt yw blinder wrth orphenn y da *dechreuedic*.
Ymborth yr Enaid, §11.

Fel, yn ein holl weithredoedd, *dechreuedig*, annherfynedig, a therfynedig ynot ti, y moliannom dy sanctaidd enw.
Ll. G. Gyffredin.

Dechreuedigaeth, } -au, *sf.* a beginning, a
Dechrëedigaeth, } commencement; origination; initiation.

Dechreuedigol, *a.* inceptive, beginning.

Dechreunos, -au, *sf.* the beginning or early part of the night; the dusk, the nightfall.

Bid rhof ddydd, yn nhrefydd Rhos,
A Chaer wineu *ddechreunos*.—*L. G. Cothi*, v. iii. 61.

Am ba sawl un y clywsom ni son, eu myned yn iach i'w gwelyau *ddechreunos* a wyddai neb, a gafwyd yn farw drannoeth?—*Elis Lewis:* Drexelius, 220.

Edrych a wnelych y nos,
A chau'r annedd *ddechreunos*.—*Gruffydd ab Ieuan.*

Dychrynu 'ng nghylch *dechreunos*,
Dirywio wnaent draian nos.—*Rhys Cain*, i'r Gwyddau.

Dechreuol, } *a.* beginning, commencing; incip-
Dechreol, } ient, inceptive; original; initial; primordial, primitive, pristine.

Y Drefn gyffredin, o'i *dechreuawl* lun,
Gadwyd yn Anian, a'r un modd mewn Dyn.
Robert Owen: Gweith. 270.

Pechod dechreuol, original sin.

Megys y madheuir y *pechotæ dechreuawl* yn y betydh. velhy y madheuir y pechotæ gweithredawl yn y gyffes.
Lucidar, §81.

Am cin bod ni yn geni mewn *pechod dechreuawl*, yr hwn ydym yn ei etifeddio gen ein tadau.
Morys Clynog: Athraw. Grist. 50.

Mor fawr ydyw cin ammherffeithwch ni drwy lygredigaeth *pechod dechreuol*.—*Ed. James:* Hom. i. 36 (cf. 33, 64).

Llythyren ddechreuol, an initial letter, an initial.

Ar honno tyr *lythyrenau dechreuol* yr enw.
Cylchgrawn, i. 14.

Dechreuor, -ion, *sm.* a beginner; an originator.

Nis gellir dechre ar ddim heb *ddechreuawr*.
Barddas, i. 218.

Dechreuwr, wyr, } *sm.* a beginner, a com-
Dechreuydd, -ion, } mencer; an originator; a beginner or tyro.—*Hom.* iii. 236.

Ded, a prefix, which seems to be a modification of *dad*, having sometimes, like that particle, an intensive and sometimes a weakening force.

Dedfryd, -au, *sf.* [bryd: cf. *edfryd*] 1. a verdict, sentence, or judgment; adjudication.

Tri *detfryt* sydd: *detfryt* arglwyd rhwng y ddeu wr neu un or naw nyn y credir eu geir ar wahan; *detfryt* processos ygrifenedic rhwng deu ynat a ymwystlo; *detfryt* gwlad y ddosparth hawl, ny bo y chyfryw ynghyfreith.
C.C. ii. 654 (cf. 328, 652; i. 480, 536, 588, 592).

Yt wyf dann *deduryd* wyd oleith.
Cynddelw: M.A. i. 215 (cf. 233, 246, 263, 312).

Diau nad *dedfryd* anhaeddiannol ydoedd i'r hwn a gyflawnasai gynnifer bradwriaeth a chynllwyniad yn erbyn y Brytaniaid.—*Carnhuanawc:* Hanes Cymru, 238.

Fel pe byddent yn meddu cymhwysderau gwyrthiol i roddi *dedfryd* ar bob achos heb gymmeryd trafferth i'w ddeall.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 155.

Dydd dedfryd, the day of doom.

Deduryd dyt gwynuryd gwyn wanas
Dragon—dreic Prydein ae hurtas.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 300.

Dan ddedfryd marwolaeth, under sentence of death.

2. evidence, testimony.

Iawn yw yna i'r ynghad farnu fod yn *nedfryd* y mach pa ar y mae mwch efe, ai ar beth mawr ai ar beth bychan, a hyny wrth lw y mach.—*Leges Wallicae*, II. iv. 14.

Dedfrydiad, -au, *sm.* a sentencing; adjudication.

Dedfrydog, *a.* sentenced, under sentence; doomed.

Dedfrydogion, persons under sentence, convicts.—*Newyddiaduron.*

Dedfrydol, *a.* sentencing, adjudicating.

Dedfrydu, *v.* to sentence; to pronounce judgment upon; to doom; to adjudge.

Dedfrydwyd hwy i dri mis o garchariad.
Seren Gomer, iii. 90 (cf. 58, 154, 327).

Gan fod ammheuaeth a oedd efe yn ei iawn bwyll ai peidio, efe a *ddedfrydwyd* i wythnos o garchariad.
Gwyliedydd, xiii. 159.

Dedlid, *sm.* [=dadlid] anger or wrath assuaged.

Dy ganred dy ged dy gyfwyrain
Dy gynnif dylif *dedlid* gymain.—*Gwalchmai:* M.A. i. 199.

Dedlidiad, -au, *sm.* a divesting of anger; an appeasing or assuaging.

Dedlidio, *v.* to cease from anger; to become appeased, assuaged, or pacified.

Dedlidiol, *a.* tending to appease or assuage.

Dedryd, -au, *sf.* [dedfryd]=*Dedfryd.*

Tair dadl y dylit eu barnu gan *ddedryd* a rhaith gwlad, yn erbyn haerllydrwydd.
C.C. ii. 520 (cf. 328, 334, 356, 392, 398).

Dedryd y deudeg didras.—*L. Mon.*

Dirwyai, yspeiliai, a charcharai drwy *ddedryd* Llys y Seren y neb ni thyngai mai da y gwnai.—*Adolygydd*, ii. 530.

Dedrydu, *v.*=*Dedfrydu.*

Dedwin, *a.* [dy-+edwin] fading, evanescent, withering; faded, faint.

Dedwinad, } -au, *sm.* [cf. *dadwiniad*] a fad-
Dedwiniad, } ing, decaying, withering, or
Dedwiniant, } languishing; evanesance; languishment.

Dedwino, *v.* [cf. *dadwino*, *edwino*] to fade, fade away, wither, languish, pine, or decay; to vanish; to grow dim; to consume.

Dedwinol, *a.* evanescent, fading, passing away.

Dedwinedd, *sm.* evanescence, fadingness.

Dedwinoldeb, *sm.* evanescence, vanishment.

Dedwydd, *a.* [cf. Br. *detuid*, found in some old proper names] happy; blissful, blessed; fortunate, prosperous; felicitous; moral, virtuous, pious, good; wise, discreet.

Detwyd Douyd rwy goreu.
Taliesin: A.B. ii. 158 (cf. 258).

Digitized by Google

A gwedy hynny ef a lywyawd y gynoeth yn prud ac yn doeth. ac yn *detwyd* hyt tra barhaawd y oes.
Mabinogion, 94.

A vydh *detwydh* y neb ny chyuarpho gwrthwyneb ac ef yma.—*Lucidar*, ‡60.

Pwyntiwr *dedwydd* y gwŷdd gwiw.—*D. ab Gwilym*, cclx. 8.

A glywaist ti chwedl y Derwydd
A weles ansawdd gwledydd!
Odid o fil un *dedwydd*.—*Iolo Mss.* 259 (cf. 254, 256, 257).

Lluossauc y daun y *detuyd*.
Cyuddelw: M.A. i. 246 (cf. 117, 263, 345).

Gweleis y glas ac vrtas vrtedic haelon
Ym plith *dedwytyon* doethyon dothwyf.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 271 (cf. 195).

Detwyd pawb wrth ae llocho.—*Tyssilio:* A.B. ii. 238.

Pob *dedwydd* Duw a'i arail.—*Iolo Mss.* 259 (cf. 260, 261).

Tri pheth serchawg eu gweled: diriaid yn myned yn *ddedwydd;* cybydd yn myned yn hael; a phechadur yn myned yn santaidd.—*Trioedd Moes:* M.A. iii. 191 (cf. 232).

Tri pheth anniddan eu gweled: cyfoethawg hael yn myned yn dlawd; *dedwydd* yn myned yn ddiriaid; a defodau gwlad a chenedl yn myned waethwaeth.
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 224 (cf. 231, 239, 258, 261).

Dysg *ddedwydd* â gair; dysg ddiriaid â gwiail.
Diareb. (M.A. iii. 155.)

Nid rhaid i *ddedwydd* ond ei eni, a'i fwrw i'r berth fieri.
Diareb. (M.A. iii. 171; cf. 169.)

Dedwydd o enaid ydwyt,
Llaw Dduw a'n dyco lle'dd wyt.
Gronwy Owain, 53 (cf. 93).

Tri pheth a gaiff dyn *dedwydd:* cariad perffaith; a bywyd heddychlawn; a llawenydd nefawl.
Trioedd Moes: M.A. iii. 190.

Gwell am y pared â *dedwydd* nog am y tân â diriaid.
Diareb. (M.A. iii. 159; cf. 153.)

Dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn.
Act. xx. 35 (cf. xxvi. 2).

Yr Ynysoedd Dedwydd, the Happy or Fortunate Islands; the Islands of the Blessed.

Ond bydoedd ereill gwelid hwy ger llaw;
Yn fydoedd ereill gwelid hwy, neu ryw
Ynysoedd dedwydd, megys gerddi gwiw
Hesperia enwog gynt, maesdiroedd teg
A llwyni, a blodeuog ddolydd cain;
Ynysoedd dedwydd iawn!
I. D. Ffraid: Coll Gwynfa, iii. 669.

Arabia Ddedwydd, Arabia Felix.

¶ Pughe gives *dedwydd* as an abstract noun (as well as an adjective), which he thus defines: 'Recovery of intelligence; attainment of knowledge; an intelligent state; discreetness; collectedness; a state of bliss.' To this he adds the following curious note:

This word originated in the bardic philosophy, which represents the human soul as in progression through all modes of existence, from a lapsed state deprived of all knowledge, to the summit of intelligence, which alone is the perfection of happiness.

Like most other adjectives, *dedwydd* occasionally stands for a concrete noun, but never for an abstract.

Dedwyddgall, *a.* happy and wise.

Llin llyw cynnefin llew cynniliad
Llywelyn arall *dedwyddgall* dad.
Llywelyn Goch: M.A. i. 516.

Dedwyddiad, -au, *sm.* a making happy, beatification.

Dedwyddo, } *v.* to make happy or blessed; to
Dedwyddu, } beatify.

Dedwyddol, *a.* making happy; tending to happiness; blessed; happy.

Gan roddi iddynt amynedd dan eu dioddefiadau, a *dedwyddol* ymwared o'i holl gystuddiau.—*Ll. G. Gyffredin.*

Dedwyddolion, the happy; the blessed.

Ond yn Ynysoedd *Dedwyddolion*
Yn rhodio'r wyt wrth fodd dy galon.—*Telynegion*, 46.

Dedwyddoli, *v.* to make happy; to beatify.

Dedwyddus, *a.* tending to make happy; happy; beatific.

Dedwyddusrwydd, *sm.* happiness, felicity.

Dedwyddwch, } *sm.* happiness, felicity; bles-
Dedwyddyd, } sedness, bliss.

Pa achaws y kyffroassawch chwi vivi eiryoet yar vyg gwastat *dedwydyt.*—*Ystoria Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 67.

Ni bydd dadwoddeu *dedwyddyd* mab dyn.
Elidir Sais: M.A. i. 349.

Tri ardymmyr *dedwyddyd:* doethineb; tangnefoldeb; a dwyfoldeb.—*Trioedd Doeth.:* M.A. iii. 267 (cf. 259, 268).

Os tydi a ddamuna *ddedwyddyd*, arwain dy fywyd fal y bo Duw o'i ddaioni yn wyllysol idd ei roi ef i ti.
Marchog Cruydrad, i. 6.

Pwy a ddichon adrodd faint yw *dedwyddwch* etholedigion Duw! . . . Nid yw eu *dedwyddwch* yn ymddangos yn y byd yma.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 129, 130.

Llwydda hwy â phob *dedwyddwch*.—*Ll. G. Gyffredin.*

Beth wrth hyny oedd eich *dedwyddwch* chwi!
Gal. iv. 15 (cf. Rhuf. iv. 6).

Merch ffel, uffernol elyn
Heddwch a *dedwyddwch* dyn.—*Gro. Owain*, 110 (cf. 68).

Caniatâ . . . ar ol y fuchedd hon, bod iddi fwynhau llawenydd a *dedwyddyd* tragywyddol.—*Ll. G. Gyffredin.*

Ni chaf is law ffurfafen
Ddedwyddyd ym myd, em wen!—*Gro. Owain*, 33 (cf. 31).

Tri enw cymherthynas a ddoded ar un daioni cyssefin: doethineb; *dedwyddyd;* a dwyfoldeb.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 268.

Dedwyn, *a.* [gwŷn] 'having recovered the disposition or passion; being appeased or tranquillized.'

Dyvrys gwanec dygwrthryn gro
Gwst eidyl moch *detwyn.*—*Llefoed:* A.B. ii. 306.

Didolc ydyw'r gwr *dedwyn*,
Diwall hap, o deall hyn.—*Owain Gwynedd.*

Dedylliad, -au, *sm.* a sucking; a drawing.

Dedylliog, *a.* sucking; suckling.

Dedyllu, *v.* to suck; to suckle; to draw.

Ae y llo a dele emdeyt naucam a *dedellu* groesyn oe phedeyrthet.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 270.

A'r llo a ddyly ymdaith naw cam, a *dedyllu* groesyn o'i phedair teth.—*Leges Wallicae*, III. v. ‡2, 5.

Dedyllyn, -od, *sm.* a suckling.—*Dicts.*

Deddestl, *sm.* 'a comforter' (*R.*); 'that gives comfort.'—*P.*

Deddf, -au, *sf.* [L. *datum*] 1. that which is laid down and established; a statute, an ordinance, a law; an established rule; an established custom or usage; a rite, a ceremony. —*Rhuf.* vii. 1—23.

Kyfreith a *dedyf* gristonogawl ae gwahardei.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 137.

Gwyrthuawr briodawr briawd *detfeu.*
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 272 (cf. 57, 283, 291).

Fy nghadair am pair am *deddfon*
Am araith drwyadl gadair gysson.
Taliesin: M.A. i. 66 (cf. 73, 315).

Llewenyt y dyt y *detyf* ae mawl.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 321 (cf. 164, 326, 331).

Tair *deddf* gyssefin a ddoded ar fardd: cadw ei air; cadw ei rin; a chynnal heddwch a thangnef.
Barddas, ii. 32.

Efe a wnaeth gyfreithiau a *deddfau* cyflawn a daionus er lles ei wlad.—*Iolo Mss.* 12 (cf. 13).

Er drychauel y vynydh y rhai a oedhynt veirw yn y poeneu yn y tri amser *dedhyf.* ac amser cyn *dedhyf.*
Lucidar, ‡28 (cf. 40, 41, 97).

Tri defnyddion barn: *deddf* o gyflawnder; trugaredd o gariad; a chydwybod o bwyll a deall ar y ddau gyntaf.
Barddas, i. 310.

Digitized by Google

Anghen a dyr *ddeddf*.—*Diareb.* (M.A. iii. 147.)

Dyma *ddeddf* y gyfraith a orchymmynodd yr Arglwydd. *Num.* xix. 2.

Pa ham y mae'n arfer *deddfau* ereill ac anrhydedd amlygawl?—*Morus Clynog:* Athraw. Grist. 47 (cf. 33, 63).

Deddf farnedig, an established law; a statute of judgment.—*Leges Wallicae.*

¶ In the N.T. *deddf* and *cyfraith* are used indiscriminately, even in the same chapter, to translate *νόμος*; but they are not always convertible terms. In the following and similar instances *cyfraith* would be less appropriate than *deddf*.

Pan wnaeth efe *ddeddf* i'r gwlaw, a ffordd i fellt y taranau.—*Iob* xxviii. 26.

Yr hwn a osodais y tywod yn derfyn i'r môr trwy *ddeddf* dragywyddol.—*Ier.* v. 22 (cf. Diar. viii. 29).

Deddfau Duw, the laws of God.

Deddf ei Dduw sydd yn ei galon ef.—*Salm.* xxxvii. 31.

Y ddeddf foesol, the moral law.

Deddf anian, *Deddf natur*, } the law of nature.

Deddfau y meddwl, the laws of the mind; the laws of thought.

Deddf dysgyrchiad, the law of gravitation.

Deddf attyniad, the law of attraction.

Buwyd am gryn amser yn methu cyssoni rhai o ysgogiadau y blaned Uranus â'r hyn a wyddid am *ddeddfau attyniad*. . . Beth oedd i'w wneuthur? ai gwadu *deddfau attyniad*?—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 135.

Deddf cariad, the law of love.—*Lucidar*, § 41.

2. (cf. *delw*) likeness, form, fashion, manner, resemblance.

Lle y mae argae ar Gymro dinam
Detyf Dunawd ap Pabo.—*Bleddyn Fardd:* M.A. i. 371.

Ar ddeddf, according to the law (of); according to the likeness or fashion (of); like.

Klywaf uyg callon tonn val tande
Yn llosgi yrdi *ar detyf* kynne.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 292 (cf. 300).

Deddfawd, *pl.* deddfodau, *sf.*=*Deddfod.*

Deddfedig, *pt. a.* instituted; enacted; ordained; institutional.

Tair swyddau *deddfedigion* bardd: cynnal hedd a thangnef man y bo; dangos addysg ar wybodau a defodau dosparthus a moliannus, gan eu gwellâu a'u mwyhau; a chadw cof dosparthus ar a'i dirper parth gwybodau a dosparthau gwlad a chenedl.—*Barddas*, ii. 32.

Deddfedigaeth, -au, *sf.* institution; enactment; legislation.

Deddfedigol, *a.* legislative; done by enacting; legalized.

A gwedi myned wrth farn a rhaith gwlad yn y dygynnull y cadarnhäed y cyfreithiau ac au rhodded yn *ddeddfedigawl* ar holl wlad Gymru.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 486.

Deddfiad, -au, *sm.* a legislating, legislation; enactment; a decreeing.

Mal pe rhwysgäi
Rhagarfaeth ar eu myn, y trefnai trwy
Lwyr *ddeddfiad* neu ragwybod mawr.
W. O. Pughe: C.G. iii. 125.

Deddfle, -oedd, *sm.* [deddf+lle] one's place, position, or character in the eye of the law; one's legal position.

Myned i ddeddfle pechadur, to become a legal substitute for a sinner; to satisfy the requirement of the law for the transgressor.

Nac oedwn ymofyn am gydnabyddiaeth brofiadol . . . o'r Un a ymddangosodd yn y cnawd gyferbyn â'r tymmor yma, i gymmeryd ein *deddfle*, ac i ddwyn cyflawnder tragwyddol i mewn.—*I. G. Geirionydd:* Geirionydd, 434.

Fe ddaeth i'n *deddfle* ni yn ddiau,
Yn ol bwriadau'r nef.—*Gwilym Padarn.*

Deddfliyfr, -au, *sm.* a statute-book, a law-book.

Y mae'r mesurau a basiwyd yn sicr o fod yn warth oesol i *ddeddfliyfrau* Prydain Fawr.—*Brython*, i. 120.

Deddfod, - au, *sf.* a statute, decree, or ordinance; a canon; a rite or ceremony.

Cedwch yn wastadol yr hen *ddeddfodau*.
M. Cyffin: Diff. vi. 15.

Och fi, na chawn unioni'n glau
Fy llwybrau at dy *ddeddfod*.—*Edm. Prys:* Salm. cxix. 5.

Ac eto hwy eu hunain, heb aros am gymmanfa-gynghor, a dorasant orchymmynion Duw, a *deddfodau* yr Apostolion.
M. Cyffin: Diff. vi. 1 (cf. i. 16; v. 10).

Deddfodau eglwysig, ecclesiastical ordinances, rites, or ceremonies.

E ddarfu i ni ddosparthu yn hyn o lyfr . . . beth yw ein coel am Dduw'r Tad, am Dduw yr unig Fab Iesu Grist, am Dduw yr Yspryd Glân, am yr Eglwys, am y Sacramentau, am y Weinidogaeth, am yr Ysgrythyrau Glân, am *Ddeddfodau Eglwysig*, ac am bob darn o'n crediniaeth yng Nghrist Iesu.—*Morus Cyffin*: Diff. vii. 1.

Deddfodi, *v.* to enact, to ordain, to decree, to institute.

Deddfodol, *a.* ritual, ceremonial; institutional.

Deddfol, *a.* 1. legal; legitimate; lawful; established.

Arver a wnaeth Willim Goch a gorderchwraged heb gaffel vn etived *dedvaul*.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 533.

Telid gwawd tafawd etifedd *deddfawl*.
Madog Dwygraig: M.A. i. 481.

Morwyndawt ffawt ffyd dyd *dedvolaf*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 474 (cf. 310, 471).

Dybu yr gwared gwr *detuawl*
Grist yg knawd an brawd bu breinyawl.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 280 (cf. 329, 354, 367).

Gwr *dedvawl* gwrawl bieu'r goron.
Casnodyn: M.A. i. 430 (cf. 364).

Pwy bynnac heb ef a allei gael lloneit dysgyl o waet morwyn wyry o vedwl ac o weithret. ae bot heuyt yn verch y vrenhin yn *dedyfawl* o vrenhines. a hynny oe breich deheu ac ae hirei hitheu a hwnnw hi a gaffei iechyt.
St. Greal, § 59.

Ny cheif coron med yr ebystyl ar nyt ymlado yn *deduawl*.
Ystt. de Carolo Magno, col. 394 (cf. 407).

2. conformable to law; regular, orderly, ordinate; moral; good; civil; law-abiding.

Degwm ag offrwm teulwng nis talant
Deddfolion ddynion a ddyfalant.—*Taliesin:* M.A. i. 26.

Na wna gyfeillach ond â *deddfolion*.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 7.

Tri pheth y bydd dyn i Dduw: yn *ddeddfawl;* yn gariadgar; ac yn ymaniangar.—*Barddas*, i. 316.

Gweinidogion sobr, a phregethwyr poenus, bywiog . . . a orfuant o'r diwedd naill ai gadael y weinidogaeth, neu wlad eu genedigaeth, a myned tu hwnt i'r môr i ymofyn am loches yn yr anialwch, ym mysg yr Indiaid diddysg o America; y rhai a gawsant hwy yn fwy *deddfol* a mwynaidd na'u herlidwyr creulon oedd gartref.—*Ier. Owen*, 26.

Dyn deddfol, a law-abiding person; a moral man.

Tri chyfnerthiaid *dyn deddfol:* Duw; cydwybod ei hun; a mawl pob doeth.—*Barddas*, i. 182.

3. legal; adhering to the law of works (as distinguished from free grace); resting on works for salvation.

Tra byddo diwydrwydd *deddfol* yn ddiennill, ac yn blino yn fuan, yn gyru mewn cylch llwm, digynnydd, y mae yr Yspryd Glân, fel Diddanydd ac Ymgeleddwr ei bobl, yn tywys i bob gwirionedd.—*Trysorfa Ysprydol* (1799), i. 165.

Digitized by Google

Dyn deddfol, a legal man, 'one who rests on the works of the law for salvation.'

Y mae y *dyn deddfol* hefyd yn ddiffygiol mewn gwybodaeth am ddeddf Duw.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 392 (cf. 391).

Yspryd deddfol, a legal spirit.

4. ceremonial, ritual, formal.

Deddfolaeth, } au, *sf.* morality; legality.
Deddfoliaeth, }

Yr ydys yn llefain yn groch arnom heddyw ym mhob man . . . nad oes genym na dysg, na dawn rhinwedd, na chyfreithiau, na moesau, ac nad ym yn gwneuthur ystyriaeth am *ddeddfolaeth*, nac am drefn.
Morus Cyffin: Diff. i. 5.

Deddfoldeb, } *sm.* legality, lawfulness, legiti-
Deddfolder, } mateness, legitimacy; conformity to law; morality.

Goreu *deddfoldeb deddfoldeb* o grefydd.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 93.

Tri pheth gwerthfawrocaf i ddyn: iechyd; rhyddyd; a *deddfoldeb*. . . Tri pheth nis gellir *deddfoldeb* dwyfawl hebddynt: maddeu gelyn a chamwedd; haelioni meddwl a gweithred; a glynu wrth gyfiawnder ym mhob peth.
Barddas, i. 316 (cf. 202).

Yna y cafwyd yn wyddoniaid o Gymry cynhenid o fonedd a *deddfoldeb* dri gwr, a'u henwau Plennydd, ac Alawn, a Gwron.—*Iolo Mss.* 49.

Nac yngan ond er helaethu gwybodaeth,
A phob *deddfoldeb* ar lywodraeth.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 8.

Tri pheth nis gellir na dwyfolder na *deddfolder* hebddynt: maddeu gelyniaeth a chamwedd; haelioni; ac ymddwyn yn gyfiawn ar bob achos.—*Barddas*, i. 316.

Y mae *deddfoldeb* yn cyfodi oddi ar falchder y galon, ac yn ymnoddi y tu cefn i anwybodaeth.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 391 (cf. 392).

Deddfoldeb yspryd, legality of spirit; a spirit of reliance on the works of the law (for salvation).

Sylwïwyd ar ddau rwystr arbenig ar y ffordd i hyn yma; sef, *deddfoldeb yspryd*, yn cadw enaid mewn pellder oddi wrth Ddaw, tan deimlad o euogrwydd ac annheilyngdod; hefyd, annhrefn yspryd ac analluogrwydd.
Trysorfa Ysprydol (1799), i. 164 (cf. 165).

Deddfoli, *v.* to legislate; to legalize; to legitimate; to enact; to institute; to make moral.

Ac yr Robert hwnnw y bu uab Gwilym bastar y enw. o orderch a elwit Arlot. ae *deduoli* a gafas drwy lys Ruuein.
Brut y Saeson: Ll.C.H. ii. 393.

Tri pheth lle nas *deddfoler* a barant wae yn y diwedd: serch; cas; a chydwybod.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 261 (cf. 92).

Deddfolrwydd, *sm.*=*Deddfoldeb.*

Deddfres, -au, -i, *sf.* [deddf+rhes] a code of laws.

A ydyw hyny yn profi eu bod yn hoffi cyfundrefn *deddfres* Lloegr?—*Carnhuanawc:* H.C. 706 (cf. 738, 752).

Mae i bob teyrnas ei ffurflywodraeth bennodol ei hun, ei *deddfres*, a'i chyfreithiau wrth y rhai y llywodraethir hi.
Adolygydd, i. 517.

Deddfroddi, *v.* to give or enact laws; to legislate.

Gwell wytt vn edmyc treissyc nor tri
Mordaf Nut Ryderch yn *detyfroti*.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 281.

Deddfroddiad, -au, *sf.* legislation.

Deddfroddol, }
Deddfroddiadol, } *a.* lawgiving, legislative.

Yn ol y ffurf uchod, ni ddichon y llywodraeth godi arian ar y deiliaid at un achos, heb ganiatâd y corff *deddfroddol*, yr hwn a ddewisir gan y bobl.—*Seren Gomer*, Ebr. 23, 1814.

Yn yr adnod sy'n fwyaf neilltuol dan sylw yma, golygir Iudah fel yn meddu teyrnwialen a deddfwr yn anad ei frodyr, sef llywodraeth gyfiawniadol a *deddfroddiadol*.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 92.

Deddfroddwr, wyr, *sm.* a lawgiver, a legislator.

Y Pïophwyd ag oedd i fod megys Moses, yn Wneuthurwr gwyrthiau, yn Ddysgawdwr, yn *Ddeddfroddwr*, ac yn Rhagfynegwr, oedd ein Cyfryngwr bendigedig.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 104.

Er yr anrhydeddir rhai dynion, megys Moses, Lycurgus, â'r teitl o *ddeddfroddwr*, eto nid oes ond un gosodwr cyfraith.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 392.

Rhaid iddo ysgrifenu fel deonglwr Natur, a *deddfroddwr* dynolryw.—*Rasselas*, x.

Deddfu, *v.* to enact laws, to legislate; to institute, to establish, to enact.

Gwedi ynnill o Ruffydd ab Llywelyn lywodraeth holl Gymru, efe a ymroddes ar ddaioni tuag at ei wlad ai genedl drwy amddiffyn rhag estron a rhag anrhaith ac aflywodraeth, a *deddfu* a fai deg a chyfiawn, a gwared rhag cam.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 508.

Bydded hyspys . . . ein byd ni Rhobert Iarll Caerloew . . . yn *deddfu* yn hawl a braint y llythyr dangos ac edring yma.—*Iolo Mss.* 223 (cf. 59).

Pan *ddeddfodd* gylch ar wyneb y gorddyfnderau. . . Pan *ddeddfodd* efe sylfeini'r ddaiar.
Dr. T. Briscoe: Diar. viii. 27, 29.

Deddfwr, wyr, *sm.* a legislator, a lawgiver.

A goreuon ar bob *deddfwyr* y buant y triwyr hynny.
Trioedd: M.A. ii. 68.

Nid ymedy y deyrnwialen o Iudah, na'r *deddfwr* oddi rhwng ei draed ef, hyd oni ddêl Silo.—*Gen.* xlix. 10 (cf. Num. xxi. 18; Barn. v. 9, 14; Salm. lx. 7; cviii. 8; Esa. xxxiii. 22).

Deddfwriaeth, -au, *sf.* legislation; a legislature; jurisprudence.

Er eu bod yn mudo tuag at uniondeb mewn *deddfwriaeth*, teimlasant fod y swydd yn rhy bwysig iddynt ei dal.
Adolygydd, ii. 533.

Deddfwriaethol, *a.* legislative.

Deddfydd, -ion, *sm.* a legislator; a legist, a jurist.

Deddfyddes, -au, *sf.* a legislatrix.

Deddfyddiaeth, -au, *sf.* legislation; jurisprudence.—See s.v. *Achyddiaeth.*

Deddyw, *v.* an irr. perf. of *Dyfod*=*daeth:* cf. *eddyw* and *ethyw* for *aeth.*

Mawr dilyw *detyw* am dirion vrtyn
Llywelyn llyw dragon.—*Einion Wan:* M.A. i. 334.

Mawr anrhydedd a'm *deddyw*,
Mi a gaf, o byddaf byw,
Hel â chwn, nid haelach ior,
Ac yfed gydag Ifor.—*Dafydd ab Gwilym*, ii. 29.

Dafydd ei ddydd a *ddeddyw*.
Madog Benfras: Md. D. ab Gwilym.

Deddyw o'i phen lw diddim.
Dafydd ab Gwilym, clxxxviii. 15.

Def, *a.* [=de, deheu] right (as opposed to left).

Ar y trydydd dydd di swrth
Oddi wrth y meirw cododd,
Ac esgynodd ef i'r nef,
Ar law Duw *ddef* eisteddodd.—*Llanover Ms.*

Y llaw ddef (=y llaw dde, y llaw ddeheu), the right hand.

Def, -ion, -on, *sm.* a right; one's right, own, or due.

Wynt kenynt nas kelynt pa hon
Keblynt or kwbyl an *defon*.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 283.

Methwyd ei hyspeiliaw o helaethrwydd ei thrysorau, a'i *defion* cyntefig.—*Seren Gomer*, xv. 163 (cf. 302).

Mae ganddynt gymdeithasau anrhydeddus yn fawr eu dwndwr am eu *defion*, eu gwladgarwch, a'u parodrwydd gweithredawl i gydymddyrchafu pob peth da a buddiawl i'r genedl.—*Diwygiwr*, i. 369 (cf. 252).

O'r gwroniaid hyny y llifodd eu gwaed yn gornentydd yn yr ymdrechion dros eu *defion*.
Seren Gomer, xv. 271 (cf. 270).

Defaid, *s.* pl. of *Dafad.*

Defawd, *pl.* defodau, *sf.*=*Defod.*

Digitized by Google

Defeidfa, -on, -oedd, } *sf.* a place of or for
Defeidiog, -au, } sheep; a sheep-market.

Ac y mae yn Caerusalem wrth y *ddefeidiawg* [*ddefeidfa, farchnad defaid] lyn a elwir yn Ebreo Bethesda, ac iddo pemp porth.—*W. Salesbury:* Ioan v. 2.

Defeidle, -oedd, *sm.* a sheep-walk, a sheep-farm.—*Meirion.*

Defeidwr, } wyr, *sm.* one who breeds or
Defeidiwr, } rears sheep; a sheep-master; a shepherd.

O gweli'r paun, gwyliwr pwr,
Iddo fadyn *ddefeidiwr*
Cadr cais ei hel adref,
Hudol Gwen o'r Ddôl oedd ef.
Dafydd Nanmor: G.B.C. 91.

Ti a weli pwy fodd y mae *defeidwyr*, morwyr, a chrefftwyr, trwy drafael a labr y maent yn tyfu mewn cyfoeth.
Marchog Crwydrad, i. 6.

Defeidrawd, rodau, } *sf.* a sheep-walk.—*Dicts.*
Defeidred, -ion, }

Defeidydd, -ion, *sm.* [defaid] a shepherd.

Defeidydd gosgordd, a shepherd of a tribe.

Tri *defeidydd gosgordd* Ynys Prydain: Colwynn *defeidydd gosgordd* Brân ap Llyr Lledlaith yn Morganwg; Pybydd Moel *defeidydd gosgordd* Tegerin Llwyth Llwydiarth yn Môn; a Gwesyn *defeidydd gosgordd* Goronwy ab Ednywain brenin Tegeingl yn Rhyfoniog; ac o'i enw ef y gelwir Gwesyn ar fugail defaid.—*Trioedd:* M.A. ii. 71.

Defeita, *v.* [defaid] to hunt after sheep; to collect sheep together.

Defeita bawb yma bu,
Ac wyna, a goganu.—*Dafydd Llwyd ab Ll. ab Gruffydd.*

Defeitty, tai, *sm.* a sheep-pen, a sheep-cote, a sheep-fold.

Lloc, caeor, corlan, ffald, cail, gail; dafatty, *defeitty;* buarth.—*Walters*, s.v. 'Fold.'

Defiad, -au, *sm.* [def] 'a fixing as a due; a making as one's own; a privileging.'—*P.*

Defig, *a.* [def] 'enjoying, owning; privileged.' —*P.*

Defin, *a.* [def] 'that is enjoyed; privileged.' —*P.*

Defiys, -oedd, *sm.* the court of common pleas.

Defn, *sm.* 'what is used to form; material, substance, or stuff.'—*P.*

Defni, *s.pl.* [dafn] drops, droppings. See *Dafn.*

Dyfnach y rhed no *defni*,
Dafnau dwfr rhag d'ofn di.—*Iorwerth Fynglwyd.*

A chynnau o dan a *defni* brwmstan.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 398 (cf. 488, 504).

Wrth laesu y dwylaw y gollwng y tŷ *ddefni.*—*Preg.* x. 18.

Defni y bargod, the droppings of the eaves.

Defni, *v.* to drop, to trickle.

Rac bot yn aruthr gennyt gymryt yn dy enau y gwaet a welut yn *defni* oe ystlys ef.—*Lucidar*, 144.

Defnïad, -au, *sm.* a dropping, a trickling.

Defnigyn, -au, *sm.* a small drop or particle.

Gochel roddi, yn oferddyn,
I waith maswedd un *defnigyn.*—*Henri Evans o'r Gelligaer.*

Defnïo, *v.* [defni] to drop, trickle, or drizzle. —*P.*

Defnïog, *a.* trickling, drizzling, dropping.—*P.*

Defnïol, *a.* apt to drop or trickle.—*P.*

Defnydd, -iau, -ion, *sm.* [C. *defnydh;* Br. *danvez;* Ir. *damhna*] 1. that of which anything is made; substance, matter; material, stuff; an element; a constituent. See *Deunydd.*

Anuon hyt y fforest a elwit Ida y dorri *defnydyeu* ac y wneuthur llogeu yn gyntaf ac y gellit.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 8.

A pha *ddefnydd* y gwnaeth Duw bob corfforolion o bethau bywydolion?—*Barddas*, i. 254.

Tri *defnyddion* iaith ac ymadrodd: llythyr; sill; a gair. —Tri *defnyddion* ymadrodd: gair: pwyll; a chystrywen.
Barddas, i. 114 (cf. 24).

Tri *defnyddion* pob peth: daiar; dwr; a nwyfre.
Barddas, i. 376 (cf. 310, 382, 390).

Haws yw cael saer na *defnydd;* ac anaml saer, amlach *defnydd.*—*Iolo Mss.* 186.

Odid na cheid *defnyddion* tuag at y cyfryw ddiben.
Iolo Morganwg: Cyfr. y Beirdd, Rhagdd. 15.

Deallais, wrth sylwi, mai cywain *defnyddion* yr oedd y genedl hon o fywion i adeiladu castell.
G. Mechain: Gwaith, ii. 289.

A'r *defnyddiau* [*elfenau] gan wir wres a doddant.
2 *Pedr* iii. 10 (cf. 12).

Fe ddaw gyd â swn erchyll, gan lais udgyrn, a thrwst dyfroedd, a chynhwrf y pedwar *defnydd.*
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. v. 14.

Cywydd o dda *ddefnydd* yw,
A chadarn iaith serch ydyw.—*Tegid:* Gwaith, 101.

A *defnyddiau* dwfn addysg.—*Gro. Owain*, 32.

Coed defnydd, timber fit for use; timber.

Bu gymmaint prinder y *coed defnydd*, fal nas gellid modd tai.—*Iolo Mss.* 186.

2. essence, substance.

Ef yu'r Tat ef yu'r Mat muyaf
Ef yu'r Mab ef yu'r pap pennaf
Ef yn Yspryd Glan gloywaf y *defnyd.*
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326.

3. fashion, form and appearance.

Dyrcheuwch y ffyrch y dan vyn dwy ael a dygwydawd ar vy llygeit hyt pan welwyf *defnyd* vyn daw.
Mabinogion, 118 (cf. 119).

4. matter, subject; the thing treated or spoken of; subject-matter.

Dioer heb ef *defnyd* wylaw a thristit yssyd im. ac y holl genedyl y Brytanyeit.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 240 (cf. 15, 93).

A chyt bey mawr *defnyd* llewenyd y Vrutus or rykaffael o honaw e wudugolyaeth honno.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 111.

Defnydd ac achos cwyn, the matter and cause of suit or plaint.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 450 —474.

Defnyddiau (in the Laws), requisites; deeds, witnesses, and everything necessary to support a claim.

Ac erchi y paup deuot ay *devnidev* kanthau e did hunnu hit ar e tir. . . A guedi er eisteter ena e mae yaun yr haulur kenic y *devnidieu* yam e testion ay keidveit a deueduit y vot ef en paraut ae *defnydyeu* ganthaw ual y bedewis. Ac ena e may yaun ir amdifinnur gurtheb ac essev ateb a dere deueduit y vot ef en paraut ay *defnetyeu* kanthau.
Cyfreithiau Cymru, i. 150.

Dim i'r defnydd, nothing to the point or purpose.

Nid ydyw . . . ond dywedyd rhyw beth rhag tewi â son, ac er hyny bod heb ddywedyd *dim i'r defnydd.*
Ed. James: Hom. ii. 82 (cf. 141, 227).

5. use; service; purpose; effect.

Adaw a oruc pawb nerth megys y bei y allu ae *defnyd* yn y wassanaeth.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 208.

Ystafelloedd yr offeiriaid; a'r *defnydd* a wneid â hwynt.
Esec. xlii. (Cynn.)

Er mwyn y cyfryw *ddefnyddion* duwiol a hyny.
Ed. James: Hom. ii. 108 (cf. 71, 161).

Gwneuthur defnydd o beth, to make use of a thing; to use a thing.

Ei dywysaw mewn cebystyr o rawn du o nerth ei law ddeau ei vraich ai gorf am ben hyny a *gwneuthur* ei *ddefnydd* o hono.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 472.

Gwnaeth Duw y *defnydd* mwyaf o hono yn ei dŷ.
Th. Charles, s.v. 'Moses.'

Digitized by Google

O fawr ddefnydd, of great use or service.

I ba ddefnydd y mae? of what use is it?

6. cause; reason.

Ys mau gan *ddefnydd* ymddifanw a Duw
Am edewis hebddaw.—*Gr. Ynad Coch:* M.A. i. 396.

Wrth hynny y mae Duw yn kyffroi gwyr Rufein yn an herbyn y rodi *deunyd* ini y vwrw lleged a seguryt y wrthym.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 327.

Bei gwypwn ninheu *defnyd* yn y byt y dylyut titheu bot yn borth idaw ef. mi a vydwn wrth dy gynghor am danaw heb y Manawydan.—*Mabinogion*, 54.

Defnyddfawr, *a.* 1. consisting of much matter, material, or substance; material; substantial; important, weighty; very useful or serviceable.

Yr wyf yn cyfaddef fod yn rhydd ac yn gyfreithlon tyngu ger bron swyddog . . . mewn achosion o bwys a *defnyddfawr*.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 162 (cf. 296).

Barddwawd fel y gwnai beirddion
Defnyddfawr o wlad fawr Fon.—*Gronwy Owain*, 2.

Pe cai y fath rimynwyr melltigaid eu hewyllys, ni welid fyth yng Nghymru ddim amgenach a mwy *defnyddfawr* na'u difias rincyn hwy eu hunain.—*Gronwy Owain*, 170.

2. using much material, substance, or stuff.

Defnyddfawr pob anghywraint.—*Diarrb.* (M.A. iii. 153.)

Defnyddgar, *a.* 'substantial, essential;' useful, serviceable.

Defnyddgarwch, *sm.* usefulness, utility, serviceableness.

Defnyddgoed, *s.pl.* timber fit for use, useful timber; timber (as distinguished from trees).

Onid gwaith llafurus, dybygwch chwi, yw cymmynu a naddu y cyfryw *ddefnydd-goed*, mor llawn o fon-geinciau, a chwarrenau?—*Robert Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 375.

Defnyddiad, -au, *sm.* a using; conversion to use; employment; usage; application; utilization.

Defnyddiad yr addewidion.—*Haul*, C.C. xiv. 77.

Defnyddiadol, *a.* material; useful.

Defnyddiadu, *v.* to materialize; to make material; to realize. In the following quotation (given by Pughe), the only known instance of its occurrence, the word may be a plural noun.

O bob da *defnytadoet*
O bob defnyt deifnyawc oet.—*Cynddelw:* M.A. i. 254.

Defnyddiadwy, *a.* that may be used, usable.

Defnyddiaeth, -au, *sf.* matter; material; materialism; materiality.

A pha bethau, parth *defnyddiaethau*, y gwnespwyd bodolion o fyw a marw ar bethau dan olwg, a chlyw, a theimlad, a deall, a rhŷn, a chrebwyll dychymmyg dyn?
Barddas, i. 250.

Defnyddiawd, *sm.* the act of forming matter.

Defnyddiawdr, iodron, **Defnyddiawdwr**, wyr, odwyr, } *sm.* a materialist.

Y mae y *defnyddiodwyr*, ebai y serydd, yn dirio y gall fod teithi mewn defnydd nad ydym ni gydnabyddus â hwynt.
Rasselas, xlviii.

Defnyddiedig, *pt. a.* used, employed.

Defnyddio, *v.* 1. to use; to make use of; to dispose of.

Oni ddeuant drannoeth, *defnyddied* efe y cig, a llithied y cwn, a chadwed y croen a'r hyddgyllen i'r cynyddion. Ó deuant hwyntau cyn *defnyddiaw* y cig, rhodder iddaw ef chwarthawr y tir, a *defnyddient* hwyntau y cig y ffordd y mynoent.—*Leges Wallicae*, III. v. 11 § 4 (cf. 11).

Defnyddio i'w hurddo hi,
Defnyddiau cerdd dwfn erddi!—*D. ab Gwilym*, cxix. 45.

Myfi a greais y gof yr hwn a chwyth y marwor yn tân, ac a *ddefnyddia* arf i'w waith.—*Esa.* liv. 16.

Odid, o iawn *ddefnyddio*, nas gellid trefn a rheolau ar feirdd a barddoniaeth a fyddai'n well . . . pei ymroddid i hyny.—*Iolo Morganwg:* Cyfr. y Beirdd, Rhagdd. 15.

Y mae yn rhaid *defnyddio* moddion priodol i oleuo yr oes sydd yn codi am weithrediadau yr hen gewri gynt.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 476.

2. to form substance; to form.

Dynyaton *defnytyeist* yth oteu
Dynyawl dyn donyawc wyf uinnheu.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 330.

Defnyddiodraeth, } -au, *sf.* materialism, the **Defnyddiolaeth**, } doctrine of materialists.

Oddi wrth y bras ddarlun uchod, mae yn amlwg nad gwirionedd y gyfundraeth o *ddefnyddiodraeth*, yr hon sydd yn cael ei choleddu gan gynnifer o drigolion bro a bryn yn y dyddiau presennol.—*Gwyliedydd*, xiii. 267.

Defnyddiog, *a.* consisting of matter or substance; material; substantial; utilized.

Defnyddiol, *a.* 1. relating to or consisting of matter; material; substantial.

Mae'r eglwys neu'r deml *ddefnyddiol* yn lle gwedy ei osod a'i appwyntio . . . i bobl Dduw i ymgynnull iddo.
Ed. James: Hom. ii. 2 (cf. 13, 19, 43).

Dywed rhai hyd y pryd hwn y dichon mai *defnyddiol* yw, y rhai er hyn a gredant ei fod yn anfarwol. . . Y mae rhai, atebai Imlac, yn wir wedi dywedyd mai *defnyddiol* yw yr enaid.—*Rasselas*, xlviii.

2. useful; subservient, serviceable.

Yr athrawiaeth a gynnwysir ynddo sydd *ddefnyddiol* a buddiol.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, Rhag. 4.

Yn y gwledydd poethion, lle mae adar o'r fath hyn yn *ddefnyddiol* iawn.—*Cylchgrawn*, i. 157.

Nid ydym yn honni mai Bardd y Drindod fu y mwyaf *defnyddiol* o feirdd Cymru.—*Adolygydd*, ii. 424.

Mordaf a Nudd, hen Gymry *defnyddiawl*.—*Dewi Wyn*, 93.

Dyn defnyddiol, a useful person.

Defnyddioldeb, } *sm.* materiality, materialness; **Defnyddiolder**, } usefulness, utility.

Tri phrif *ddefnyddioldeb* pob peth gan Dduw: er a fai mwyaf yr achos; y mwyaf y lles; ac a fai fwyaf y cariad.
Barddas, i. 308.

O ran *defnyddioldeb* a lles, byddai 20 pwys o haiarn yn fwy ei werth nag 20 pwys o aur.—*Gwyliedydd*, vii. 374.

Defnyddioldeb mynyddoedd. . . Y mae hanesyddiaeth ein hynafiaid yn amlygu eu *defnyddioldeb* i raddau goruchel iawn.—*Efangylydd*, iii. 272.

Defnyddioli, *v.* to make useful, to utilize; to materialize.

Defnyddiolrwydd, *sm.* = *Defnyddioldeb.*

Defnyddiolwr, wyr, *sm.* a materialist.

Y mae y *defnyddiolwr* yn gwadu hanfodiad gwahanol defnydd a meddwl. . . Y prif *ddefnyddiolwyr* ym mhlith yr hen athronwyr Groegaidd oeddynt Democritus ac Epicurus.—*Credoau y Byd*, i. 575, 576.

Defnyddiwr, wyr, *sm.* one who makes use (of), uses, or utilizes; a user; an employer.

Defnyddu, *v.* to form matter or substance; to materialize.

Defnyddwydd, *sm.* timber for use; wooden material.

Tithau albrysiwr, tuthia,
Tafledydd *defnyddwydd* da.—*D. ab Gwilym*, xcix. 47.

Croeshoeliwyd fy serch i, ac nid oes ynof fi neb rhyw dân yn chwennych *defnyddwydd* bydol.
Ch. Edwards: H. y Ff. 62.

Defnyn, -au, *sm.* [dim. of *dafn*] a small drop, one drop; the least drop; a drop; a single particle.

Digitized by Google

Yna y dechreuodd hi ferwi y pair yr hwn wedi dechreuid ei ferwi nid allid torri y berw dan ben undydd a blwyddyn ac oni geffid tri *defnyn* bendigedig o rad yr Yspryd. . . . Yn agos i ben y flwyddyn y damweiniodd neittio a disgyn o dri *defnyn* or dwr rhinweddol o'r pair ar fys Gwion Bach. . . . Y dwr i gyd oedd wenwynig eithr y tri *defnyn* rhinweddol hynny.—*Hanes Taliesin:* M.A. i. 17 (Mab. iii. 322).

Llanwyd fy mhen â gwlith, a'm gwallt â *defnynau* y nos. *Can. Sal.* v. 2 (cf. Iob xxxvi. 27; Esa. xl. 15).

Cosyn heb un *defnyn* dwfr,
Cosyn ar lun picyn pefr.—*Gronwy Owain*, 48.

Defnynau gwaed, drops of blood.—*Luc* xxii. 44.

Defnyniad, -au, *sm.* a dropping, a trickling; a distilling.

Defnynog, *a.* full of drops; dropping, drizzling, trickling.

Defnynol, *a.* tending to drop or trickle; dropping, trickling.

Defnynu (*ŷ*), *v.* 1. to drop, to trickle; to distil; to fall in drops.

Y ddaiar a grynodd, a'r nefoedd a ddyferasant, a'r cymylau a *ddefnynasant* ddwfr.
Barn. v. 4 (cf. Iob xxxvi. 28; Diar. iii. 20).

2. (fig.) to drop.

Fy athrawiaeth a *ddefnyna* fel gwlaw.—*Deut.* xxxii. 2.

Defod, -au, *sf.* [def] an established custom, manner, usage, or rule; custom, usage, use; a rite or ceremony; manner; habit; fashion.

Eissyoes kymeint vu vy llewenyd o achaws Lawnslot ae geuyndyrw ac na doeth cof im dim y wrth y *deuot* honno.
St. Greal, § 2 (cf. 39).

Glewlwyt Gauaelawr oed yno hagen ar ureint porthawr y aruoll ysp a phellennigyon . . . ac y uenegi moes y llys ae *deuawt* udunt.—*Mabinogion*, 162 (cf. 115).

A Dauyt *deuawd* Ul Kessar.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 298 (cf. 326, 332, 346).

O hyny y mae'r *ddefawd* o gynnal gorsedd (cadair) cerdd dafawd yng nghyrch a gorsedd golychwyd.
Barddas, i. 260 (cf. ii. 24, 34).

Tri pheth y dylai Gymro eu caru o flaen dim: cenedl y Cymry; *defodau* a moesau y Cymry; ac iaith y Cymry.
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 252 (cf. 225, 263).

Goreu *defawd* daioni.—*Iolo Mss.* 252.

Deuot yw dyuot Owein
A goresgyn hyt Lundein
A rodi y Gymry goeluein.
Cyfoesi Myrddin: A.B. ii. 227 (M.A. i. 144).

Defod a ellir ar bob peth a fo wrth bwyll; a *defod* a braint ar bob peth a fo wrth bwyll ac ansawdd; a lle bo pwyll, ansawdd, a gorfod, yna deddf.—*Iolo Mss.* 59.

B'le mae cynnal glân *ddefodau*
Iawn a didwyll fy hen dadau?—*Daniel Ddu*, 240.

Braint a defod: see *Bardd, Braint.*

Defod ac arfer, custom and habit.

O ran defod, *O ddefod*, } for fashion's sake; out of ceremony.

Defodaidd, *a.* ceremonious; precise, formal.

Defodedig, *pt. a.* instituted or established as a custom.

Defodedigol, *a.* institutionary, institutional.

Defodi, *v.* to be customary, accustomed, or usual; to institute as a custom; to establish as a rule; to use or accustom.

Arthur a *deuodes* dala llys yg Kaer Llion ar Wysc.
Mabinogion, 244.

Eweythyon yd edys en *devody* am pob lledrat a maur a bychan llw deudegwyr ac eu hanner en wyr not.
Cyfreithiau Cymru, i. 242.

Defodiad, -au, **Defodiant**, } *sm.* institution; institutional state.

Defodlyfr, -au, *sm.* a book of rites or services; a ritual.

Y mae y flaenoriaeth bendant a roddir i'r defodau dwyreiniol ar y defodau a'r cyflawniadau Lladinaidd, yn cael ei egluro gan y ffaith fod yr Eglwys Brydeinig, ym mhob un o'r golygiadau hyn, yn ddwyreiniol, nid yn Lladinaidd, gan ddilyn yr hyn a olwid *Defodlyfr* St. Ioan.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 178.

Defodog, *a.* accustomed, usual, in use; ritual.

Defodol, *a.* customary, accustomed, usual, customable, habitual; ceremonial, ritual.

Llyma Lafar Gorsedd Beirdd Ynys Prydain . . . sef ydyw hyny, son *defodawl* am freiniau a defodau Beirdd Ynys Prydain, fal y bu gynt, yn amser y prifeirdd, a thywysogion y Cymry; ac nis gellir braint prifardd ar y neb na wypo hyn o drefn ar feirdd a barddoniaeth, herwydd y gofyn *defodawl* y sydd ar fardd a gwr wrth gerdd wrth fraint a defod beirdd Ynys Prydain,—*Iolo Mss.* 49.

A rhai o'r Ffrancod a ymgadarnhasant yn eu cestyll, a genhadhäasant i'r Cymry eu cyflawnder, sef eu tir yn rhydd, a'u braint yn rhad, a'u cyfreithiau yn *ddefodawl*.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 530.

Efe a geidw i ni *ddefodol* wythnosau y cynhauaf.
Ier. v. 24.

Y gyfraith ddefodol, the ceremonial law.

Trwy y pethau hyn, a'r cyffelyb, y mae yn hollol amhosibl iddynt i gadw y *gyfraith ddefodol*.
Dr. Geo. Lewis: Drych Ysgr. 471.

Defodoldeb, **Defodolder**, **Defodolrwydd**, } *sm.* customariness; habitualness; ceremoniousness; addictedness to custom or ceremony.

Defodoliaeth, -au, *sf.* ritualism, ceremonialism.

Defodolig, *a.* ritualistic; ritual, ceremonial.

Defodolwr, wyr, *sm.* a ritualist, a ceremonialist.

Defodrwydd, *sm.* customariness; habitualness.

Defodwr, wyr, *sm.* one addicted to customs or usages; a ceremonialist, a ritualist.

Defog, *a.* [def] having right or usage.—*P.*

Defol, *a.* relating to right or rights; rightful.

Defosiwn, *pl.* defosiynau, **Dyfosiwn**, *pl.* dyfosiynau, } *sm.* [L. *devotionem*; E. *devotion*] devotion.—*Act.* xvii. 23.

Os *defosiwn* y galon yw gweddi.
Edward Iames: Hom. ii. 281.

Yno y gwelem rai yn sisial siarad . . . ereill yn ddyfal yn eu *dyfosiwn*.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 39.

Caiff y gloddestwr ei weled Ef yn ogoneddus, yr hwn unwaith a fu byw mewn ymbryd a *defosiwn*.
Nicander: Dysga Fyw, 88.

Defosiynol, **Dyfosiynol**, } *a.* devout, devotional.—*Act.* x. 2, 7; xxii. 12.

Fel y bo, trwy dy nodded di, iddi gael ei gwaredu oddi wrth bob gwrthwyneb, ac yn *ddefosiynol* ymroi i'th wasanaethu di mewn gweithredoedd da.
Ll. G. Gyffredin (22 S. wedi'r Drindod).

Pan glywant y newydd llawen am yr adgyfodiad, maent yn ceisio tynu meddyliau dynion ymaith rhag myfyrio'n *ddefosiynol* arno.—*Nicander:* Dysga Fyw, 409.

Cymmerwn ychydig o esamplau ereill o droad mwy duwiol a Christ'nogol allan o ysgrifenydd deallus a *defosiynol*.—*Ios. Rees:* Hunan-Adnabyddiaeth, 126.

Deff (*e*), -ion, *sm.* quotient.

Cyfraner y rhif rhoddedig â'r daill hwnw, ac os bydd gweddill, cyfraner o â'r daill nesaf i'r diweddaf, ac os bydd y daill hwnw yn fwy nag y gweddill, rhodder goddim yn y *deff* neu gynniferiant. . . A pha bynnag ai goddim ai rhifnod a fyddo yng ngweddill y tro diweddaf, rhodder o ar y dde i'r rhifnodau yn y *deff*; ac oni fydd yn y *deff* gynnifer o leoedd olynol ag o weithiau yr ymluoswyd y seileb, cyflawner y diffyg hyny â chwaneg o un lle â goddimau.
J. W. Thomas: Elfenau Rhif. 45 (cf. 48, 49, 50).

Digitized by Google

Deffiniad, -au, *sm.* a definition.

Wrth y geiriau hyn o S. Awstyn mae'n eglur ei fod yn fodlon i *ddeffiniad* neu ddescribiad arferol Sacrament.
Edward James: Hom. ii. 266.

Gall dynion ereill ymddifyru â *deffiniadau* cywrain, neu gymhwylliadau dyrys.—*Rasselas*, xxii.

Beth oedd terfyn a *deffiniad* y cyfryw bresennoldeb dwyfol?—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 84.

Deffinio, *v.* [L. *definio:* W. dy+ffinio] to define.

Y ffydd hon (fal y geilw [**deffinia*] Pawl hi) yw sail y doniau yr ydym ni yn edrych am danynt, ac yn gobeithio eu derbyn oddi ar law Dduw.—*Ed. James:* Hom. i. 43.

Deffol, *v.* [corr. of *dethol*] to choose, select, or pick.

Cymmeriad . . .
O Phylip a *ddeffolais.*—*Ieuan Tew Ieuaf.*

A Rhys ar ei ol, a'i waew'n un olwyn . . .
Yn *deffol* Seison breision fal brwyn.
L. G. Cothi, III. iii. 49.

Deffol, *a.* chosen; choice, select.

Y gwr *deffol* â gair diffug.—*Hywel Cilan.*

Deffoledig, *a.* chosen, selected, picked; choice, select.

Mae in' ged . . .
A phleidiau *deffoledig.*—*Hywel Cilan.*

Deffoliad, -au *sm.* a choosing, a selecting; selection.

Deffraw, *a.* [dy-+ffraw: cf. *effraw* or *effro*] =*Deffro.*

Deffraw, *v.*=*Deffro, Deffroi.*

Deffro, *a.* [dy-+effro] awake, wakeful.

Cadw un yn neffro, to keep one awake.

Gorwedd yn neffro, to lie awake.

Deffro, } *v.* to wake, awake, or awaken; to
Deffroi, } rouse or arouse.

Deffroi a wnaeth yr amherawdyr. A phan *ddeffroes*, hoedel nac einyoes na bywyt nyt oed idaw am y vorwyn a ry welsei trwy y hun.—*Mab.* 85 (cf. 246, 247, 275, 277, 279).

Ac yna *deffroi* a oruc a throi or ystlys py gilyd. A Gwalchmei yna a oed wedy *deffroi* o achaws y vreudwyt ynteu. ac ef a glywei Ector wedy ymdroi. a govyn a oruc ef y Ector a yttoed ef yn kysgu. Nac yttwyf arglwyd heb ynteu. kanys mi a *deffroeis* yr awr honn o achaws breudwyt a weleis.—*St. Greal*, ¶ 36.

Gan leuein honno y *dyffry* y moroed.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 154 (cf. 53, 147).

A gwedy hynny y gogwydhawdh y corph yn y bedh. a *dephroi* o veirw.—*Lucidar*, ¶ 37 (cf. 18).

Llyw Prydain prydydd a'th *ddeffry*.
D. Benfras: M.A. i. 309 (cf. 226, 297, 349).

Yno'n *deffro*'n ael dydd.—*Dafydd ab Gwilym*, ccxlix. 29.

Deffro, fy ngogoniant; *deffro*, nabl a thelyn: *deffroaf* yn fore.—*Salm.* lvii. 8 (cf. Barn. v. 12; 1 Bren. xviii. 27).

Megys asio llestr pridd y mae yr hwn sydd yn dysgu y ffol, ac megys un yn *deffro* un o drymgwsg.—*Eccl.* xxii. 7.

Deffröwch, os madws, a gofelwch am eich iachawdwriaeth.
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 394.

Yn y boreu pan *ddeffröech*, dyrchafa dy feddyliau at Dduw.—*Ios. Harris:* Gweith. 115.

Rhwng cysgu a deffro, half awake and half asleep.

Deffroad, -au, *sm.* 1. an awaking, awakening, waking, or wakening, awakement; a rousing or stirring.

Y mae'r eisteddfodau diweddar wedi peri cryn *ddeffroad* yn y byd barddonol.—*Gwyliedydd*, v. 64.

2. an awakening or revival.

Fe gymmerodd *deffroad* mawr le trwy ddiwygwyr enwog Llangeitho a Threfecca, ym mysg gwerin Cymru.
Traethodydd, xlix. 242.

Tarddodd yr enwad hwn drwy *ddeffroad* yn yr Eglwys yng Nghymru. . . Yr ydym yn defnyddio y gair *deffroad* yma yn hytrach na'r gair cyffredin Cymreig diwygiad. . . *Deffroad* ydoedd yn arwain i gyfnewidiad buchedd a diwygiad moes.—*Haul*, 2 C.C. ix. 177.

Deffroadwy, *a.* that may be awakened or roused.

Deffroawl, *a.* awakening; rousing, arousing, stirring.

Deffröedig, *a.* awakened, waked; aroused.

Deffröedigaeth, -au, *sf.* an awakening, awakement; a rousing or bestirring.

Deffroi, *v.*=*Deffro.*

Deffröus, *a.* awakening; arousing from sleep; wakeful; rousing, stirring, exciting.

Mal y *deffröus*
A llariain edn a odla nos tan gel
Cysgodion tewion yn perori mawl.
W. O. Pughe: C.G. iii. 41.

Bod yn glustfyddar wrth y wialen a'r gair, ymgaledu a diofalhau, a myned ym mlaen mewn pechod tan raglunaethau *deffröus* a syn, sydd farn ofnadwy. . . Eich ceryddon *deffröus* a gânt eu diwedd hefyd.—*Sam. Williams:* Amser, 206 (cf. 150, 203, 205, 206, 207, 222).

Ymadroddion deffröus, awakening discourses. —*W.*

Deffröusrwydd, *sm.* the quality of being awakening or stirring.

Deffröwr, wyr, *sm.* an awaker or awakener; one who rouses or excites.

Deg, *a.* [C. *dec, deg;* Br. *déc, dég;* Ir. *deich, deag;* Ga. *deich, deug;* Gr. δέκα; L. *decem*] ten.

Yna y deuth gwyr Groec ae llyges gantunt. . . Euriphilus a *dec* llog.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 14.

Deg nod awgrym llafar parth iaith ac ymadrodd a fu gan genedl y Cymry yn oes oesoedd cyn eu dyfod i Ynys Prydain.—*Iolo Mss.* 209.

Cymmer i ti *ddeg* darn.—1 *Bren.* xi. 31 (cf. 35).

A'r *deg* corn o'r freniniaeth hon fydd *deg* brenin.
Dan. vii. 24 (cf. 20; Dad. xiii. 1).

Deg ar hugain, } thirty.
Deg ar hugaint, }

Kyt bei rwyf *dec* erydyr *ar hugeint* yndi.—*Mabinogion*, 111.

Talet ydhy cydyon a talo ugeynt ac arall a talo *deg ar ugeynt.*—*Cyfreithiau Cymru*, i. 88.

Deg a deugain, } fifty.—1 *Bren.* xviii. 4.
Deg a deugaint, }

Achil a *dec* llog *a deugain.*
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 14.

Rodhet e gur lw *deg* wyr *a deugeyn* ar gureyc lu *deg a deugeyn* o guraget.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 86.

A phedwar prif porth ar *dec a deugeint*, a their prif gaer ar *dec ar hugeint.*—*Trioedd:* Ll.C.H. ii. 309.

Deg a thrigain, } three score and ten, seventy.
Trigain a deg, }

Y deg a thrigain, the seventy (disciples).—*Luc* x. 17 (cf. 1).

Cyfieithiad y deg a thrigain, the Septuagint version (of the O.T.), the Septuagint.

Pob un o'r ddau a arferir yng Nghymraeg wrth gyfieithu'r Ysgrythyrau yn ddiwahaniaeth, megys yr arferai y *deg a thriugain* yn eu cyfieithiad Groeg.—*Ed. James:* Hom. ii. 23.

Ymddengys fod *Cyfieithiad y LXX*, fel y gelwir, yn hyspys i ysgrifenwyr y Testament Newydd, am eu bod, yn gyffredin, yn rhoddi y rhanau hyny o'r Hen Destament ag y maent yn cyfeirio atynt, yng ngeiriau *Cyfieithiad y LXX.*
Simon Lloyd: Amser. 337 (cf. 336, 338).

Deg a phedwar ugain, ninety.

Deg cant, ten hundred.

Deg mil, ten thousand.

Digitized by Google

Y deg gorchymmyn, the ten commandments, the decalogue.

Y deg cymmaint, ten times as much.

Deg gwell, ten times better.—*Dan.* i. 20.

Deg, -au, *sm.* and *pl.* ten.—*M.A.* i. 221.

Gosod y rhai hyn arnynt hwy, yn dywysogion ar filoedd, yn dywysogion ar gannoedd, ac yn dywysogion ar *ddegau* a deugain, ac yn dywysogion ar *ddegau*.
Ecs. xviii. 21 (cf. 25; Deut i. 15).

Cyfarfu ag ef *ddeg* o wŷr gwahangleifion.
Luc xvii. 12 (cf. 17).

Un ar ddeg, eleven.

Un ar ddeg ar hugain, one and thirty, thirty-one.

Tri (f. *tair*) *ar ddeg*, thirteen.

Ac ual yd oedynt yn eisted uelly wynt a welynt *teir* llong *ar dec* yn dynot o deheu Iwerdon.
Mabinogion, 26 (cf. 86, 244).

Pedwar (f. *pedair*) *ar ddeg*, fourteen.

Pedwar (f. *pedair*) *ar ddeg ar hugain*, thirty-four.

Degau (1), tens.

A chwedi hyny rhif yn ol y *degau*.—*Barddas*, i. 106.

Deg o ddegau, *Deg deg*, } ten times ten.

Deg un yw *deg; deg deg* yw cant; *deg* cant yw mil.
Barddas, i. 108.

Deg a phedwar ugain, *ninety*.

Degau ac ugeiniau, dozens and scores.

(2) tens, dozens (indefinitely).

Wrth y degau, by dozens, by the score.

Degaid, eidiau, *sm.* a decade.

Degaid o flynyddoedd, a decade of years.

Degban, -au, *sm.* [deg+ban] a stanza of ten lines.

Degban, **Degbanog**, } *a.* consisting of ten lines; having ten parts.

Degeidiad, -au, *sm.* a forming into decades, or portions of tens.

Degeidio, *v.* to form or divide into decades.

Degeidiol, *a.* decadal, relating to or consisting of decades.

Degfed, *a.* tenth.

Dyly ynat varnv vn vrawt yn rat nainyn tayr hawl or kantref bygylyd a hawl hyt y *decvet* geynyawc ac attauel ar a varno kyffraith.
Cyfreithiau Cymru, ii. 304 (cf. 328, 580).

Ef a rodes *decuet* rann y deyrnas yr eglwysseu.
Brut y Saeson: Ll.C.H. ii. 385.

A'r dyfroedd fuant yn myned ac yn treio, hyd y *degfed* mis; yn y *degfed* mis, ar y dydd cyntaf o'r mis, y gwelwyd penau y mynyddoedd.—*Gen.* viii. 5.

Y *degfed* fydd cyssegredig i'r Arglwydd.—*Lef.* xxvii. 32.

Degfed ar hugain, thirtieth.

Degfed a deugain, fiftieth.

Degfed a thrigain, seventieth.

Degfed, *sc.* the tenth; a tenth (part).

Degiad, -au, *sm.* a decimal.

Degiadau, decimals.

Degiadaeth, -au, *sf.* decimal arithmetic.

Degiadol, *a.* decimal.

Degiadolion, decimals.

Degle, *pl.* deglywch, *v.* [dy-+clyw, clywed] hear! hark! listen! holloa! holla! ho! hoa! soho! Found only in the imperative (sing. and pl.).

Degle 'n nes, dwy glun esyth,
Diflas wyt, dan daflu syth.
Gr. Gryg (D. ab Gwilym, cxxii. 31).

Degle, fab caredig-lwyd,
Tra fych, cymmanfa tref wyd.
Guto'r Glyn: Iolo Mss. 315.

Yr holl bobloedd, er eich llcs,
Dowch yn nes i wrando;
A *deglywch* chwi bawb yng nghyd
Sydd yn y byd yn tario.—*W. Midleton:* Salm. xlix. 1.

Ar air, *degle* arwyrain!
A Naf a gyrch i nef gain.—*W. Wynn:* Cywydd y Farn.

[*Degle*, audi, ausculta, vel heus, ehodum. Et est secund. sing. imperat. quasi *dyglyw*.—*Davies:* Rudimenta, 138.]

Degnodiant, *sm.* decimal notation.

Degol, *a.* relating or belonging to ten; consisting of ten; decimal.

Deseb *ddegol*, hon yna yw y ddeseb gyffredin sy fewn arferiad.—*J. W. Thomas:* Elfenau Rhif. 42.

Degolion, decimals.

Degoli, *v.* to decimate; to tithe.

Degoliad, -au, *sm.* decimation.

Degoliaeth, -au, *sf.* a tithing; the district of a tithing-man.

Degolwr, wyr, **Degolydd**, -ion, } *sm.* a decimator; a tither.

Degplyg, *sm.*=*Decplyg*.

Degryn, -au, *sm.* [dagr] a single drop, a tear.

Degryniad, -au, *sm.* a dropping or trickling.

Degrynol, *a.* dropping, trickling.

Degrynu, *v.* to fall in drops, to drop, to trickle.

Degsill, **Degsillog**, } *a.* consisting of ten syllables, having ten syllables.

Anghen y gyhydedd wen yw ban *degsill*.
Cyfrinach y Beirdd, 88.

Degsill, -au, *sf.* a ten syllable verse.

Degtant, *sm.*=*Dectant*.

Degu, *v.* to decimate.

Degwm, *pl.* degymau, *sm.* [L. *decuma*, *decima*] 1. a tithe; tithes.

Ef a dele trayan *degum* e brenyn. Ef a dele *degum* e teulu.
Cyfreithiau Cymru, i. 18 (cf. 52, 638).

Sef ynt y seith hynny; *degwm;* ac offrwm a daeret; a chymyn marw; ac yspeil allawr; a sarhaet gradwr; a threis gole ar wr eglwyssic.
Cyfreithiau Cymru, ii. 366 (cf. 328, 580).

Ef a ossodes y *degemeu* ar kanuedeu y Ruuein.
Brut y Saeson: Ll.C.H. ii. 386.

Degwm ac offrwm teilwng nis talant.
Taliesin: M.A. i. 26.

Ni chyll pren teg ei *ddegwm*,
Er llef gwanwynt oer llwm.—*D. ab Gwilym*, cxxxii. 39.

Talwn (pa ham nas telir)
Offrwm a *degwm* o dir.—*Iolo Goch*.

Dygwch bob bore eich aberthau, a'ch *degymau* wedi tair blynedd o ddyddiau.—*Amos* iv. 4 (cf. Lef. xxvii. 30, 31, 32).

Yr oeddynt yn gyflymach i dalu eu *degymau* o bethau bychain nag i wneuthur pethau mwy a orchymmynasai Dduw.—*Ed. James:* Hom. i 70 (cf. ii. 173).

2. the tenth part (of anything), a tithe, a tenth.

Yna y gwrthebawd hi idaw ef ac y dywawt bot yn vwy *degwm* y charyat hi arnaw ef. noe garyat ef oll arnei hi.
Amlyn ac Amig, col. 1096.

Ar *degwm* a dihengis a degemwyt eilweith. . . *Degwm* Normandi a argyweda.
Brut y Saeson: Ll.C.H. ii. 395 (cf. 146).

Digitized by Google

Degymadwy, *a.* tithable.

Degymiad, -au, *sm.* 1. a tithing; a taking or paying of tithes. 2. decimation.

Degymol, *a.* relating to tithes; tithed.

Degymu, *v.* [degwm: L. *decimo*] 1. to tithe.—*M.A.* i. 43.

Tri dyn y *degemir* udunt: offeirat; ac ygnat; a managwr. *Cyfreithiau Cymru*, ii. 328 (cf. 580).

Gwedy ei dyfot o Ruuein ef a berys *degymmu* ei holl gyuoeth.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 477.

Ef a *degemei* yn gywir or hynn teckaf ar y helw. *St. Greal*, ‖ 52.

Gan *ddegymu degyma* holl gynnyrch dy had, sef ffrwyth dy faes, bob blwyddyn.—*Deut.* xiv. 22 (cf. 1 Sam. viii. 15, 17; Matt. xxiii. 23; Luc xviii. 12).

2. to decimate.

A sevyll or gwyr arvauc yn amgylch y meibion. ac ev cledyfev noetheon yn ev llaw. a *degymmv* y meibion a llad y decvet tra gellit ev *degymmv*.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 510.

A gwedill y genedyl a *degemir*. *Yst. Bren. Bryt.:* LI.C.H. ii. 146 (cf. 395).

Degymwr, wyr, } *sm.* 1. a tither; one who
Degymydd, ion, } tithes or collects tithes. 2. a decimator.

Deng, *a.* [modf. of *dey*] ten. *Deg* is used both as an adjective and a substantive, but *deng* only as an adjective. The latter is mostly used before words beginning radically with *b*, *d*, *g*, *m*, *n*, or a vowel; and governs the nasal sound of *b* and *d*, the medial of *g*, and the radical of *m*; as *deng mlynedd* (=deg blynedd), *deng niwrnod* (=deg diwrnod), *deng wr* (=deg gwr), *deng mil* (=deg mil), *deng enaid* (=deg enaid). The use of *deng* for *deg*, except in a comparatively few cases, is now less used than formerly.

Triged y llances gyd â ni *ddeng* niwrnod o'r lleiaf. *Gen.* xxiv. 55.

Wrth dy ystlys y cwymp mil, a *deng* mil wrth dy ddeheulaw.—*Salm.* xci. 7 (cf. Barn. iii. 29; iv. 6; xx. 10, 34).

Deng wythnos a thriugain a derfynwyd ar dy bobl. *Dan.* ix. 24.

Hwy a grogasant *ddeng* mab Haman. *Esth.* ix. 14 (cf. 12).

Wedi trigo o Abraham *ddeng* mlynedd yn nhir Canaan. *Gen.* xvi. 3.

Adolwyn kygreir a wnaeth *dec* niwarnawt ar hugein. *Dares Phrygius:* LI.C.H. ii. 29.

Deng air=*Dengair*.

Dengair, *s.pl.* and *cl.* the ten commandments, the decalogue.

Hyn i gyd, henwn un gair,
A dyngaf myn y *dengair*.—*D. ab Gwilym*, xii. 55.

Efe a fynegodd i chwi ei gyfammod a orchymmynodd efe i chwi i'w wneuthur, sef y *Deng-air;* ac a'u hysgrifenodd hwynt ar ddwy lech faen.—*Deut.* iv. 13 (cf. x. 4).

Y dengair deddf, the ten commandments of the law, the decalogue, the ten commandments.

Ym penn y deugeinuet dydh ydh escynnawdh ef y dhangos galhu o bawb ar a gyflawnhao y *dengair dedhyf* drwy y pedwar euangel escynnu yr nef ar y ol yntau. *Lucidar*, ‖ 40 (cf. 97).

Sef yw hynny erbynnyaw y *degheir dedyf* ae cadw ynn ffydlawnn. A chynntaf or dedyf *degeir* yw. Na vit ytt geu dwyeu.—*Llyfr Ancr*, 141 (cf. 142, 143).

Medylya beth a dylyych y gadw. nyt amgen nor *dengeir dedyf*.—*Amlyn ac Amig*, col. 1088.

Or diffic cristonogaeth yn un or dinnassoed ereill. neu y *degeir dedyf* o bechodeu y bobyl. *Ystoria de Carolo Magno*, col. 406.

Yna yr Offeiriad, gan droi at y bobl, a draetha yn eglur y *Deng Air Deddf* oll.—*Llyfr Gweddi Gyffredin* (Cymm.).

Dengmain, *s.pl.* [deg+main, pl. of *maen*] ten stones; the (two) stones on which the ten commandments were written.

Adolwg a wnaf im dewin doethaf
Nam gyrro i'r eithaf er i wrthiau
Er myfyr *degmain* er i wylofain
Er ei goron ddrain ai wiw gadeir.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 517.

Dengmlwydd, *a.* consisting of ten years; ten years old.

Bechannigen wenn wann y gogwyt
Bychan y mae hyn no dyn *degmlwyt*.
Hywel ab Owain Gwynedd: M.A. i. 278 (cf. 298, 308).

Dengmlwydd oed, ten years of age, ten years old.

Dengnyn, *s.pl.* [=deg dyn] ten men, ten persons.—*D. ab Gwilym*, ccxxxv. 19.

Dengwaith, *s.pl.* ten times, ten turns.

Yr holl ddynion y rhai a welsant fy ngogoniant . . . a'm temtiasant y *dengwaith* hyn.—*Num.* xiv. 22.

Dengwaith, *adv.* ten times.—*D. ab Gwilym*, xci. 21.

A'ch tad a'm twyllodd i, ac a newidiodd fy nghyflog i *ddengwaith*.—*Gen.* xxxi. 7 (cf. Neh. iv. 12).

Dengwaith bellach y'm gwaradwyddasoch.—*Iob* xix. 3.

Un *ddengwaith* a wna ddeg; deg *ddengwaith* a wna gant; cant *ddengwaith* a wna fil; mil *ddengwaith* a wna fyrdd. *Barddas*, i. 106.

Dengwaith ar hugain, thirty times.

Dengwaith a deugain, fifty times.

Dengwaith a thrigain, seventy times.—*Matt.* xviii. 22.

Cymmaint ddengwaith, ten times as much.

Dengwr, } *s.pl.* [=deg gwr] ten men.
Dengwyr, }

Bwyt *degwyr* ar ugeint a daw attat yr yspytty. *Mabinogion*, 103 (cf. 60).

Moses . . . a gasglodd y *dengwr* a thriugain o henuriaid y bobl.—*Num.* xi. 24.

Y dengwyr, the decemviri.

Dengwriad, iaid, *sm.* [deg+gwr] 1. a head or captain of ten men. 2. a decemvir, one of the decemviri (in ancient Rome).

Dengwriaeth, -au, *sf.* a decemvirate.

Swydd ac urddas y dengwyr a lywodraethent gynt ym mysg y Rhufeiniaid, y *ddengwriaeth*. *Walters*, s.v. 'Decemvirate.'

Dengwriol, *a.* decemviral; belonging or relating to the decemvirs.

Dengyn, *a.* [cf. *dygn*] clownish, rustic, rude, boorish, barbarous; obstinate; inflexible.

Dwys *dengyn* ed emledyn aergwn. *Aneurin:* Gododin, 77.

Nid oedd lwyr *dengyn* dyn Rhieddon. *Taliesin:* M.A. i. 73 (cf. 155, 156, 157, 160).

Haetassei wawr glyw glod *dengyn* gyuet
Gwirawd uet gwir oet ynn. *Cynddelw:* M.A. i. 225 (cf. 242, 245, 256).

Deu unben *dengyn* dwys eu cussyl. *Golyddan:* M.A. i. 158 (cf. 160, 578).

Ac unbyn *dengyn* dengwlad iddaw. *Dafydd Benfras:* M.A. i. 311 (cf. 303, 397).

Na wnaed syn *ddengyn* yn nydd drycinog,
Dros amcanu dedwydd,
Myned, er ffoled fai'r ffydd,
Na dyfod heb lys Dafydd. *Deio ab Ieuan Du:* G.B.C. 168.

Digitized by Google

Deheu,) *a.* [C. *dehou, dyhou, dyow, dychow;*
Dehau,) Br. *dehou;* Ir. *deise, deas,* †*des, dess;*
Deau,) L. *dexter;* Gr. δεξιός] 1. right (as opposed to left); dextral.

Yr hwnn a uei or parth asseu a vydei or parth *deheu.* Ar hwnn a uei or parth *deheu* a uydei or parth asseu.
Mabinogion, 102.

A thrannoeth ar awr brim. ef a wisgawd Lawnalot am y droet *deheu* idaw yspardun oreureit.—*St. Greal,* § 2.

Yn vrten reen yn rann *deheu*
Yn wrawl kedawl kyda seinhyeu.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 331.

A gwaell eur yn y llenn ar yr ysgwyd *deheu* idaw.
Mabinogion, 155.

Y llaw ddeheu, the right hand.—*Gen.* xxiv. 49; *Matt.* vi. 3.

O sarhaa caeth ryd llader y *llau deheu.*
Cyfreithiau Cymru, i. 238.

Yna troi y lwybyr bychan a wnaethant ar y *llaw deheu* udunt.—*St. Greal,* § 36.

A chymryt y maen yn y llaw asseu. ac waew yn y *llaw deheu.*—*Mabinogion,* 226.

Ac agoryat mawr yn y *law deheu.*
Yst. de Carolo Magno, col. 384.

Ei rodd aur a'm eurodd i,
O'i *law ddeau* Wyl Ddewi.—*L. G. Cothi,* iv. xxvi. 37.

Ar y ddeheu, on the right, on the right hand.

Y fraich ddeheu, the right arm; the right side.

A phenn y goes asseu yr march yn purgoch. ar *vreich deheu* idaw hyt y mynwes y garn yn purwyn.
Mabinogion, 158 (cf. 156, 214).

Y tu deheu,) the right side; the right
Y parth ddeheu,) quarter.

Yn rynnawd yn y coet ef a gyferuyd gwahanfford a thi. ar y *tu deheu* itt.—*Mabinogion,* 166.

Or *tu dehau* ydhaw y vynydh yw ac yn y ogoniant. ac or tu assau yw y waeret yn y dhaear.—*Lucidar,* § 116.

Yr ochr ddeheu,)
Yr ystlys ddeheu,) the right side.

A thorri teir assen yndaw. vn yn yr *ystlys deheu.* a dwy yn yr ystlys asseu.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 58.

A'r dyfroedd oedd yn disgyn oddi tanodd o *ystlys deheu* y tŷ.—*Esec.* xlvii. 1 (cf. 2).

2. (*cp.* deheued, deheuach, deheuaf) right; proper; dexterous; auspicious, propitious.

Y ffordd *ddeheuaf* a diogelaf a fedraf fi ei dirnad i hyn, yw edifeirwch o'n calonau am ein pechodau o'r blaen, a gwelläu ein buchedd o hyn allan.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 249 (cf. 138).

Eto buasai rhyfeddach genyt *ddeheued* yr oedd y Fall fawr yn dynoethi'r briwiau, ac yn ateb eu coeg esgusion hyd adref.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 95.

Dod ym' dy nawdd, a hawdd hynt,
Duw hael, a *deau* helynt.—*Gronwy Owain,* 87.

Buasai yn ddeheuach iddo wneuthur hyny, it would be fitter for him to have done so.

Dyn deheu, a dexterous or skilful person.

Gwneuthur yn ddeheu, to act rightly or properly.

O ddeheu, rightly, correctly, properly.

Gwir urenin Kymry kymreisc donyeu
Gwrawl hawl boed hwyl *o deheu.*
Llygad Gwr: M.A. i. 345.

3. south, southern, austral.

A hwy a aethant i du *deheu* Iudah.
2 *Sam.* xxiv. 7 (cf. 2 Cron. xxviii. 18).

Y Deau Dir=y Deheudir, South Wales.

Colofn cerddau'r *Deau Dir.*
Gr. Gryg: Md. Dafydd ab Gwilym.

Gwynt deheu, south wind.

Eiry mynyd *gwynt deheu.*—*Tyssilio:* A.B. ii. 238.

Gwlad ddeheu, a south country.

Deheu,) *sm.* 1. the south; the point or place
Dehau,) on the right hand of a person stand-
Deau,) ing with his face toward the east or rising sun. See *De.*

Clwyf dygyn *deheu* a goglet
Clywed y uyned y uet.—*Llyw. ab Llywelyn:* M.A. i. 297.

Or dwyrein ir *deheu.*—*Gwyddno:* M.A. i. 166.

Wynt a welynt vwc mawr parth ar *deheu* ym pell y wrthunt heb drossi dim gan y gwynt.—*Mabinogion,* 133.

Terfynir yr Aipht . . . o du y *deheu* gan Ethiopia yn Affrica. . . Trwy ganol pa un y mae afon Nilus yn rhedeg o'r *deheu* i'r gogledd.—*Sim. Lloyd:* Amser. 69 (cf. 78, 79).

Dehau a gogleddau gwlad.—*W. Wynn:* C. y Farn.

Ar ddeheu, on the south; to the south; southward.

Ac yno y mywn mynwent *ar deheu* y dinas y cladwyt yn enrydedus gyr llaw y mur.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 229.

Tua'r deheu, toward the south, southward, southernly.—*Bren.* vii. 25.

Ac ar y maen hwnw y mae y delw honno . . . yn seuyll ar y traeth ae wyneb y *tu ar deheu.*
Yst. de Carolo Magno, col. 384.

Gwynt y deheu, the south wind.

Deheu-ddwyrain, south-east.

Deheu-ddwyreiniol, south-east, south-eastern.

Deheu-orllewin, south-west.

Haid o'r Hefiaid oedd y Gibeoniaid a'r Sichemiaid, y rhai oedd yn preswylio yn y *deheu-orllewin* o fynydd Hermon.
Sim. Lloyd: Amseryddiaeth, 47.

Gwynt y deheu-orllewin, the south-west wind.

Deheu-orllewinol, south-west, south-western.

2. the south; a southern region, country, or place.

Ac Abraham a aeth oddi yno i dir y *deheu.*
Gen. xx. 1 (cf. xii. 9; xiii. 1; xxiv. 62).

Brenin y deheu, the king of the south.—*Dan.* xi. 5, 11, 25, 40.

Brenines y deheu, the queen of the south.—*Matt.* xii. 42.

Môr y Deheu, the South Sea.

Aed ei fellt i'r *Deheu Fôr.*—*G. Mechain:* Gwaith, i. 148.

b. the South=South Wales.

Ac y kynhalyawd Ryderch uab Iestin llywodraeth y *Deheu.*—*Brut y Tywysogion,* 38 (cf. 36).

Gwreic a dyccer yn lathrut . . . ny cheiff herwyd gwyr Gwynned onnyt tri eidon herwyd gwyr y *Deheu* hi a gaffei gynt y hegwedi yn hollawl.
Cyfreithiau Cymru, i. 518 (cf. ii. 584).

Hywel ab Edwin . . . a'i frawd Meredydd a ddaethant i Gymru â llu cadarn o Wyddelod, ac a laddasant Rhydderch, ac fal hyny cawsant hwy lywodraeth y *Deau* eill dau.
Iolo Mss. 20 (cf. 21).

Owain, dëyrn y *Deau,*
Ofned o icirll fwy no dau.
L. G. Cothi, II. ii. 53 (cf. iv. xxv. 47; v. v. 61.

A chyttunaw a wnaethpwyd rhoddi cyfran yn llywodraeth y *Dehau* i Rys ab Owain. . . Wedy marw Bleddyn ab Cynfyn, Trahaearn ab Caradawc ei nai a wladychawdd yng Ngwynedd; ac yn y *Deau* Rhydderch ab Caradawc ei ewythr ef.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 520.

Math uab Mathonwy oed arglwyd ar Wyned. a Phryderi uab Pwyll oed arglwyd ar vn cantref ar hugeint yn y *deheu.* sef oed y rei hynny. seith cantref Dyuet. a seith cantref Morganhwc. pedwar cantref Keredigyawn. a thri Ystrat Tywi.—*Mabinogion,* 59 (cf. 60, 63, 64).

Y *Deau* yn fardd diwyd,
Goleua, hardda o hyd.—*Daniel Ddu,* 427 (cf. 306).

Digitized by Google

Deheu a Gwynedd, South and North Wales.

Yn awr neu byth i *Ddeheu a Gwynedd* fod yn uniaith.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 452.

Rhys galon Emrys Glyn Nedd,
Dwg enw *Deau a Gwynedd*.
Deio ab Ieuan Du: G.B.C. 175.

3. *sf.* (*pl.* deheuoedd), the right hand, the right.

A gwedy gwelet or Brytanyeit y gwyrda aduwynon enrydedus hynny yn arwein oliwyd yn y *deheuoed* yn arwyd tagnefed a hedwch. sef a wnaethant kyuodi yn enrydedus yn eu herbyn.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 113 (cf. 190).

Gwedy kaffel or Brytanyeit pen e mynyd en e lle wynt a dangosassant eu *deheuoed* udunt. Ac en erbyn henny e Saeson en wrawl a ossodent eu bronoed en eu gwrthwynep.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 306 (cf. 144).

Koffewch awch *deheuoed* y rei yn gyfrwys ynysawl ymladeu kyn uo hynn a darestygassant dec teyrnas ar hugeint wrth vym medyant.—*Ystoria Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 227.

A phan welas Achelarwy ry dygwydaw llawer o dywysogyon Groec gan *deheu* Ector. a medylyaw a wnaeth Achelarwy ony ledit Ector y dygwydei riuedi a vei vwy o wyr Groec gan *deheu* Ector.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 23.

Or diwed gwedy gwisgaw y vrenhinawl wisc am y brenhin a theckau y ben o goron y teyrnas. ac *deheu* or deyrnwialen. ef a ducpwyt yr eglwys benaf.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 201 (cf. 149, 208).

Os ä Caersalem o'r cof mau,
Anghofied *dehau* ganu.—*Edm. Prys:* Salm. cxxxvii. 5.

Ar ddeheu, on the right, on the right hand.

Ar trydyd dyd a gyuodes o ueirw. ac aeth drachefyn *ar deheu* Duw.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 401 (cf. 459, 471).

Yn y lhe y gossotir y rhai gwirion. megys deueit *ar dhehau* Christ.—*Lucidar*, § 116.

Ar het ar dyhet *ar deheu* ri
Yr yueis y win o ualch uuelin.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 303.

Ar ddeheu ac ar aswy, on the right and on the left.

Ac yna Galaath a dynnawd y gledyf ac a gurawd pawb *ar deheu ac ar assw* yn gymeint ac yr oed bawp yn ryuedu.
St. Greal, § 59.

Deheubarth, -au, *sm.* [deheu+parth] 1. the south part or division of Wales, South Wales. This is the earliest use of the word, and originally the name included the whole of South Wales, and some adjacent parts of England.

Megys y caffey teir rann Kymry nyt amgen Gwyned Pwys a *Deheubarth* audurdawt kyureith yn eu plith vrth eu reit yn wastat ac yn parawt.
C.C. i. 340 (cf. 176, 218, 340, 346, 404, 468, 574, 620).

Arth o *Deheubarth* a dirchafuy.—*Myrddin:* A.B. ii. 25.

Pwy bynnac a sarhao y gilyd o werin y pedeir gwlat hyn, *Deheubarth*, Gwyned, Powys, Lloegyr; talet pedeir bu a phetwar vgeint aryant.
C.C. ii. 306 (cf. 50, 173, 204, 306, 364).

Sev yn Mhowys a Gwynedd un brawdwr swydd; ac yn ngwledydd *Deheubarth;* nid amgen, Ceredigion, a Dyved, a Morganwg, a Gwent, lliaws brawdwyr braint.
C.C. ii. 566 (cf. 584).

Gwynedd a Deheubarth, and *Gwynedd, Powys, a Deheubarth*, are often used to denote the whole of Wales.

Kany ellir heb hynny dygyuori Gwyned a Phowys a *Deheubarth* y geissaw y uorwyn.—*Mabinogion*, 60.

Penteyrnedd, yr hynaf o'r tri thywysog taleithiog; sef rhai Gwynedd, a Phywys, a *Deheubarth*.—*Iolo Mss.* 33.

Lle y gwahoddes efe [Gruffydd ab Rhys] ataw bawb a ddeuant yn heddwch o Wynedd, a Phowys, a *Deheubarth*, a Morganwg, a'r Mers.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 558.

Yno y goruu ef y vlwydyn honno y dibobles ef Lan Badarn. ac y kynhelis ef llywodraeth *Deheubarth*.—*Brut y Tywysogion:* Ll.C.H. ii. 266 (cf. 267-270, 294, 320-8, 330, 354, 360, 362, 375, 382).

Kyrchaf yn gynttaf kyntet *Deheubarth*.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 292 (cf. 73).

Dwy vlyned wedy hynny y bu diffeith holl *Deheubarth*.
Brut y Tywysogion, 42 (cf. 40, 48, 118).

Oed Crist 1077, daeth Rys ab Tewdwr o Lydaw ac a ddodes hawl ar dywysogaeth *Deheubarth* megis etifedd cyflawn.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 251.

Llyr ab Baran . . . efe yrodd y Rhufeiniaid o *Ddeheubarth*, a'r Gwyddelod o Wynedd.—*Iolo Mss.* 8.

b. When South Wales was divided between contending princes, *Deheubarth* came, for some time, to denote the western part of it, or *Dyfed*, the eastern being called *Gwent* or *Morganwg*, and sometimes *Gwent a Morganwg;* and *Dyfed* and *Deheubarth* are occasionally mentioned together, though the former always formed part of the latter. *Dyfed* was never limited to the present county of Pembroke, as some appear to think.

Efe o ddodes Saeson yn eu mysg er dysgu iaith y Saeson iddynt a'r awr honn Saeson ydynt, ac yn ormes *Dyfed a Deheubarth.*—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 546.

Yn amser y tri brodyr hyn y bu yr eisteddfod fawr ym Marchwiail, ac yno prydyddion Gwynedd, a Phowys, a *Deheubarth*, a Morganwg.—*Iolo Mss.* 96.

Edgar a geisiodd ddeuddeg o ddoethion y wlad i farnu'r peth . . . sef deuddeg o wlad Hywel, sef *Deheubarth*, a deuddeg o wlad Morgan, sef Morganwg.
Iolo Mss. 14 (cf. 15, 21, 22, 23, 32, 33).

c. South Wales (in its widest sense), comprising the six southern counties, with that of Monmouth, the latter being always considered a part of Wales. This is the current use of the term. See *Cymru*.

Atoch chwi y mae fy llais, O drigolion Gwynedd a *Deheubarth!* arnoch yr wyf yn gwaeddi.
Morgan Llwyd: Gwaedd, 16.

Yr oedd yn y *Deheubarth* un gwr, yr hwn pe gallesid cael ei gyweithiad, a oedd alluog i hyfforddi yn orphenol yr amgylchiad hyny.
Carnhuanawc: Hanes Cymru, 777 (cf. 424, 448).

Rhwng fy mhoen fy hun a'm cydweithwr o *Ddeheubarth*, y mae llawer o eiriau ac Ysgrythyrau wedi eu rhoddi i mewn yn hwn, a ddiangasai yn y llall.
Ch. Edwards (Llwybr Hyffordd (1682), 475).

Ymarferais â rhai geiriau a geir ar arfer lled gyffredin yn y Wenhwyseg, sef iaith pedeir sir ddwyreiniol *Deheubarth* Cymru.—*Iolo Morganwg:* Salmau, 1., Rhag. 6.

¶ In the older language the word has no article, though many recent writers (apparently confusing *Deheubarth* with *Deheudir*) use it.

Deuddeg swydd sydd yng Nghymru, chwech o honynt yn *y Deheubarth*, a chwech yng Ngwynedd.
R. Roberts: Dacaryddiaeth, 229.

2. a southern country or region; a southern part of any country; the south. In this sense the word is usually qualified, contextually or otherwise.

Yr Hethiad, yr hwn oedd yn preswylio o ddeutu Hebron a Beer-seba, yn *nehenbarth* Canaan.
Sim. Lloyd: Amser. 46 (cf. 44, 79).

Mae yr ynys neu y cyfandir cang hwn yn gorwedd yn *nehenbarth* Asia.—*R. Roberts:* Dacaryddiaeth, 577.

Deheubarth Cymru, South Wales.

Deheubarth Cymru Newydd, New South Wales.

Deheubarth America, South America.

Ynysoedd perthynol i *Ddeheubarth America*.
R. Roberts: Dacaryddiaeth, 576.

Deheubarth Affrica, South Africa.

Deheubartheg, *sf.* 1. the southern dialect; the language or dialect of South Wales (as distinguished from *Gwyndodeg*, the dialect of North Wales). This is the proper use of the term.

Digitized by Google

Doethyw y Dewi *deheuparthec* beir
Y dial ual diweir dwyn y warthec.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 272.

Wyt berchen awen ben, baun hoendeg,
Wyt ynad diwad *Deheubartheg.*—*Gronwy Owain*, 28.

2. the language or dialect of South-west Wales (as distinguished from *Gwenhwyseg*, the dialect of Gwent, or South-east Wales); the Demetian dialect. See *Deheubarth*, 1, *b*.

Tair llafarwedd y sydd ar y Gymraeg: y Wenhwyseg; y *Ddeheubartheg;* a'r Wyndodeg. A chyflawn ar gerdd ymarfer â phob un o'r tair yng nghymmysg, blith draphlith, yn ol barn ac awdurdod y prif feirdd.
Cyfrinach y Beirdd, 45.

Y mae'r Wenhwyseg yn . . . amlach ei geiriau, yn fwy rheolaidd ei chyfansoddiad, yn fyrach, cryfach, a gloewach ei hymadroddion na'r Wyndodeg na'r *Ddeheubartheg.*
Iolo Morganwg: Salmau, i., Rhag. 7.

Deheubartheg, y *Ddeheubartheg.*—*W.*

¶ The appropriate designation of the dialect of South-west Wales is *Dyfedeg* or *Dyfedaeg*. *Deheubartheg* includes, or ought to include, the dialect of the whole of South Wales; that is, both the *Gwenhwyseg* or Silurian, in the east, and the *Dyfedeg* or Demetian, in the west.

Deheubarthes, -au, *sf.* a South Wales woman.

Ymryson rhwng dwy chwaer, *Deheubarthes* a *Gwyndodes*, yng nghylch eu gwahanol oleuadau.
Pedr Fardd: Môl Awen, 52 (cf. 53, 54).

Deheubarthol, *a.* relating to a southern region or district; southern, southerly; relating to South Wales, South-Walian.

Deheubarthwr, wyr, *sm.* a South Wales man, a South-Walian; a southerner, a southron.

Ac yna y bu distryw y *Deheubarthwyr* gan Offa vrenhin.
Brut y Tywysogion, 6.

Deheuberthig, *a.* relating to a southern division or region; southern, southerly; South-Walian, pertaining to South Wales.

Pob swyddog sy i'r marchog mawr
Deheuperthig, ond porth awr.—*L. G. Cothi*, 11. ii. 29.

Y copi ydh escriuennais o honaw oedh ar vemrwn o hen lhaw wastat rwym yscriuenn. wedy'r orgraphu yn geluydhlawn ardherchogwaith. yn gogwydho ychydicyn tuar iaith *dheauperthic* Cymru.—*Dr. Th. Williams* (Lucidar, 429, *n.*).

Deheuder, **Deheudra**, **Deheuedd**, *sm.* dexterity, dexterousness, expertness, skilfulness, aptness, adroitness, skill.

Ni chaiff neb ddysgu, nac mewn ysgol gyhoedd, nac mewn tai neillduol, ond y fath a gennader gan esgob yr esgobaeth . . . wedi ei farnu 'n addas, yn gystal o ran ei ddysg a'i *ddeheudra* yn athrawiaethu.
Canonau Eglwysig, 77.

Deheudir, -oedd, *sm.* [deheu+tir] 1. a southern land or region; the south (of any country); the southern part of a region.

Y meirch duon sydd ynddo a ânt allan i dir y gogledd; a'r gwynion a ânt allan ar eu hol hwythau; a'r brithion a ânt allan i'r *deheudir.*—*Sech.* vi. 6 (cf. vii. 7).

Yn *neheudir* y dyffryn hwnw ef a welai newydd-gaer arddcrchawg ag amryfeilion dyrau amlwg.
Breuddwyd Gr. ab Addaf (Y Greal, 342).

2. the South; South Wales (the usual meaning of the word when not otherwise qualified).

Tua'r *Deheudir*, dir du!
Gr. Gryg (D. ab Gwilym, cxxvi. 65).

Fal hyn, wedi'r gofal hir,
Y daw whedl i'r *Deheudir.*
Gwilym ab Ieuan Hen: G.B.C. 147.

Er clod i'r ddau gwr hyny y gellir coffäu, mai yn Eryri y meithrinwyd hwyaf gwyl-dan rhydd-did Cymruaidd yn y Gogledd, felly, yn Ystrad Tywi y llewyrchodd ei belydr diweddaf yn y *Deheudir.*—*Carnhuanawc:* H.C. 725.

Deheudir Cymru, South Wales.

Deheudir Cymru Newydd, New South Wales.

Nid oes ond pump neu chwech mlynedd er pan y mae y cyfreithiau perthynol i'r alltudion wedi cael eu gwneuthur mor gaeth yn y wlad hon, ag yn *Neheudir Cymru Newydd.*
Cylchgrawn, i. 120.

Deheudir Ewrop, the South of Europe.

Ceir hwn yn Ffrainc, a *Deheudir Ewrop*, a rhanau Deorllewin Rwssia.—*Gwyliedydd*, vii. 273.

Deheudir America, South America.

Deheudir America yw Peru, lle mae taleithiau eang oddi yno i Fôr y Deheu.—*Ch. Edwards:* H. y Ff. 42.

Nid oes i *Ddeheudir America* agoriadau mawrion i'r tir.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 271.

Deheudir Affrica, South Affrica.

Dyma yr hanes a ysgrifenodd teithiwr yn ddiweddar yn *Neheudir Affrica.*—*Cylchgrawn*, i. 8 (cf. 7, 41).

Deheufor, -oedd, *sm.* [deheu+môr] a southern sea; the South Sea.

Gan ddeffro'r *deheufor* hyll
O'i dawel annedd dywyll.—*Dafydd Ionawr*, 177.

Deheuig, *a.* dexterous, adroit, skilful, expert; appropriate, proper; dexter; southern.

Lle deheuaf budd lle *deheuig* glwys
Lle a gwin da dwys llu Gwyndodig.
Gronwy Gyriog: M.A. i. 527.

Deheuigrwydd, *sm.* dexterity, dexterousness, adroitness, expertness, skilfulness.

Deheulaw, *pl.* deheuddwylaw, *sf.* the right hand.—*Ecs.* xv. 6, 12. See *Dwylaw.*

A chredu iddaw ddioddef ym prenn croc . . . ae vot yn eistedd ar *ddeheulaw* Duw Dad Hollgyvoethawg.
Ipotis, ¶ 16.

Hwy a roddasant i mi ac i Barnabas *ddeheu-ddwylaw* cymdeithas.—*Gal.* ii. 9.

Anhwylied fy *neheulaw.*—*Gronwy Owain*, 59.

Deheulaw y Mawredd, the right hand of the Majesty.—*Heb.* i. 3.

Deheulaw, *a.* right-handed; dexterous, skilful, expert.

Deheulys, *sm.* [deheu+llys: C. *dehoules*] southernwood (*Abrotanum*).

Deheuo, *v.* to right; to put on the right; to go, tend, or move to the south; to be dexterous.—*P.*

Deheuol, *a.* south, southern, austral.

Mae yr arddrych ogleddol yn cynnwys mwy ddwywaith o dir, na'r arddrych *ddeheuol:* hyn a roddes rym i'r dychymmygion o gylch cyfandir *deheuol*, i gyfartalu â'r un gogleddol.—*R. Roberts:* Dacaryddiaeth, 2.

Ar hyn, y mae aneirif o golofnau dwfr yn esgyn i'r awyr allan o'r eigiawn *deheuawl.*—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 559.

Yr ydym gwedi gweled y dalaith *ddeheuol* o Gymru oll, gwedi dychwelyd idd ei iawn berchen.
Carnhuanawc: Hanes Cymru, 448.

Ei therfyn *deheuol* oedd gwlad Sehon. . . Y rhan *ddeheuol* o Gilead a ddygwyddodd i Gad.
Simon Lloyd: Amser. 77.

Deheuoldeb, **Deheuolder**, **Deheuolrwydd**, *sm.* the state, quality, or condition of being southern or austral.

Deheurwydd, *sm.* dexterity, adroitness, expertness.—*M.A.* ii. 129.

Cyn disgyn oddi ar ei farch, fe a laddai yn gyffredinol ddau neu dri o'i ddeiliaid ffyddlonaf, ag ergyd ei waewffon; i ddangos i'r cennadon dieithrol ei *ddeheurwydd* mewn rhyfel.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 13.

Deheuwlad, wledydd, *sf.* a south country, a southern region.

Cariad y *ddeheuwlad* hon,
Rhai a'i haeddodd â rhoddion.—*Deio ab Ieuan Du.*

Digitized by Google

Deheuwr, wyr, *sm.* a southerner, a southron; a South-Walian, a man of South Wales.

Y *Deheuwyr* a oesodes ar y brynneu or neilltu udunt.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 159 (cf. 152).

Y vlwydyn wedy hynny y llas Anarawt uab Grufud gobeith a chedernyt a gogonyant y *Deheuwyr* y gan deulu Kadwaladyr.—*Brut y Tywysogion*, 162.

Achaws hynny y bu ryfel teisban rwng y *Deheuwyr* au brenin . . . ac ni rodded fyth wedi hynny i frenin y *Deheuwyr* ei air yn air ar y wlâd.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 474.

Pwylla, heddycha, bob ddau,
O'r diwedd wŷr y Deau;
A doen' hwyntau'r *Deheuwyr*
I'th raid, pan fo waith ar wyr.—*L. G. Cothi*, 11. iv. 31.

Deheuwynt, -oedd, *sm.* the south wind.

Ac yna y kyuyt gogledwynt yn y herbyn. ar blodeu a greawd y *deheuwynt* a gribdeila.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 145 (cf. 84).

A chyn amlet yr redey y tywarchen or gwaet a chet bey dysyvyt *deheuwynt* yn llynghu eiry yr mor.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 175.

Yn ei nerth y dug efe *ddeheuwynt*.
Salm. lxxviii. 26 (cf. Iob xxxvii. 17.

Hynt y llym *ddeheuwynt* llosg.—*Gro. Owain*, 31.

Dehongl, *v.* and *s.* See *Deongl*, &c.

Dehol, *v.*=*Deol*.

Dehor, *v.*=*Deor*.

Deial, -au, *sm.* [E. *dial;* Ir. *diail;* L.L. *dialis*] a dial.—*S. W.*

Efe a drodd y cysgod ar hyd y graddau, ar hyd y rhai y diegynasai efe yn *neial* Ahaz, ddeg o raddau yn ei ol.
2 *Bren.* xx. 11 (cf. Esa. xxxviii. 8).

Megys yr aeth cysgod y *deial* ddeg o raddau yn ol.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 436.

Deial, a phwy a'i deongl?
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 199 (cf. 203).

Nodwydd deial, the gnomon or pin of a dial.—*W.*

Deierin, *a.* [daiar] earthly, terrestrial; earthy.

En ty *deyerin* cadwyn heyernin
Am ben vyn deulin.—*Aneurin:* God. 440.

Bet Rywawn ry icuanc *daerin*.
M.A. i. 81 (cf. A.B. ii. 32).

Eurglet kymynet kymynei benn
Eurdorchogyon dewr *deyerin* lenn.
Cynddelw: M.A. i. 231 (cf. 92, 230).

Gwr a wnaeth yn llawn llenwi cibau
O'r dwfr *deierin* yn win gwineu.
D. Benfras: M.A. i. 313 (cf. 333, 433).

Deifiad, -au, *sm.* a singeing, a scorching; a nipping or blasting; a blast.

Os bydd newyn yn y tir, os bydd haint, *deifiad*, neu falldod . . . gwrando di o'r nefoedd.—2 *Cron.* vi. 28.

Deifiedig, *a.* scorched, singed, blasted.

Mellt Seisnig, *deifiedig* fodd
Truenus, a'i trywanodd.—*Rhys Jones:* Gwaith, 155.

Deifio, *v.* [daif] to singe or scorch; to nip or blast; to become singed or scorched.

A llu o bryfed yn eu briwaw
A llid boethfan dân yn eu *deifiaw*.
Dafydd Benfras: M.A. i. 310.

Ar hynny y diegynnawd or nef. post o dan y rynghunt ell deu yn gyn aruthret ac y *deifyawd* eu taryaneu.
St. Greal, 146.

Y rhai ni finiasai y tân ar eu cyrff, ac ni *ddeifiasai* flewyn o'u pen.—*Dan.* iii. 27 (cf. 2 Bren. xix. 26; Esa. xxxvii. 27).

Ei deg rudd, lle gwelwyd gwrid,
A *ddeifiodd* rhyw ddu ofid—*Blackwell:* Cein. Alun, 104.

Deifiog, *a.* scorched, singed, blasted; nipped.

Tra fu wen yn ymsenu
A'r wrach fforchog *ddeifiog* ddu,
Rhedais, ni pheidiais â ffo,
O'r tŷ allan, rhag twyllo.—*D. ab Gwilym*, clxv. 27.

Deifiol, *a.* scorching, singeing, blasting; nipping.

Ond wrthi ei hunan, fal un mewn anobaith,
O flaen y chwa *ddeifiawl* ei gwrid a ffoes ymaith.
Telynegion, 20.

Gwynt deifiol, a scorching wind.

Deifiwr, wyr, *sm.* one who scorches, singes, or blasts; a burner.

Cadgno i gilio gelyn,
Erchyll gneifiwr, *deifiwr* dyn.—*D. ab Gwilym*, cxxxiv. 23.

Ti sydd ryfelwr, lladdwr llu,
Yn gyru fal gwynt gerwin;
A *deifiwr* hyll yn difa'r hedd,
A gorwedd mewn gwaed gwerin.
Samuel Jones: Cyfr. y Beirdd, 164.

Deifniad, -au, *sm.* 'origination; a producing; a causing to imbibe; a rearing up.'—*P.*

Deifniedydd, -ion, *sm.* an originator, a maker, a creator.

Cyfrifa di yn iawn; y llall oddi wrth
Ai Dyn ai Angel y *Deifniedydd* mawr
Yn ddoeth y celai.—*W. O. Pughe:* C.G. viii. 80.

Deifnio, *v.* [defn, defnydd] 'to originate; to produce matter; to bring up; to be accustomed;' to constitute; to produce.

Pen teyrn heiyrn heid oi law
Pen teyrnwalch balch twlch ei *ddeifniaw*
Pen teyrnaidd flaidd flaengar ganthaw.
Gruffydd Vnad Coch: M.A. i. 397.

Deifniog, **Deifnog**, *a.* constituent, material, substantial, essential; accomplished, erudite, learned; gifted; bounteous, generous, liberal; productive.

Mochnant diheuchwant erchwynawc gwledic
Gwlad Vrochuael Ysgithrawc
Dyfynuet a orchut *deifnyawc*
Detyf hael mad ausael Madawc.—*Cynddelw:* M.A. i. 216 (cf. 210, 214, 224, 231, 239, 250, 254).

Tri *deifnogion* teyrnedd: angen gwlad a chywlad; pwyll doethion; a dedvryd rhaith gwlad a chymmrawd.
Cyfreithiau Cymru, ii. 488.

Men yd las Trahaiarn yn Gharn fynyt
Y dau dywyssawc *deifniawc* dedwyt.—*Meilir:* M.A. i. 191 (cf. 201, 285, 336, 341, 344, 365, 415, 510, 540).

Tyb y *Deifniawg* H. Davy yw, mai yn amryfeilion fanau y tyfesynt lwyni arnynt yn ddigyffraw, y tyfynt y preniau tu allan i ymylau y coed yn gadarnach nog y rhai ereill, am eu bod yn noeth i hin a haul fanu arnynt.
Cylchgrawn, i. 28.

Cerddau deifniog, elegant or elaborate poems.

Kerteu dwfyn *deifnyawc* y sy utut.
Cynddelw: M.A. i. 233.

Gwlith deifniog, genial dew.

Bendigwch Dduw ddurrew a rhew crimpiawg
Oerfel a glasrew a glwyswlith *deifniawg*.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 564.

Deifniog, **Deifnog**, *pl.* deifnogion, deifniogion, *sm.* 1. (of persons), a generous or liberal one.—*Mab.* 302.

Cwyn dwyn *deifnyawc* oe dechreu
Cof meith anghyfreith angheu.
Prydydd Bychan: M.A. i. 387.

b. an accomplished, erudite, or gifted person; one who accomplishes or invents; an inventor or originator. Cf. *Cynofydd*.

Tri *deifniawg* Ynys Prydain: Gwalchmai mab Gwyar; Llecheu mab Arthur; a Rhiwallon wallt Banhadlen.
Trioedd: M.A. ii. 3.

Tri *deifnogion* cerdd a cheudawd cenedl y Cymry: Gwyddon Ganhebon, a wnaeth gerdd dafawd gyntaf o'r byd; a Hu Gadarn a ddodes gyntaf ar gerdd dafawd gynnal cof a cheudawd; a Thydain Tad Awen, a ddodes gelfyddyd gyntaf ar gerdd dafawd, a dosparth ar geudawd; ac o'r a wnaethant y triwyr hynny y cafad beirdd a barddoniaeth; a dodi yn nosparth braint a defawd y pethau hynny y gan y tri beirdd cynteflgion, nid amgen, Plennydd, ac Alawn, a Gwron.—*Trioedd:* M.A. ii. 71 (cf. 69).

Digitized by Google

2. (of things) a constituent; material; the substance of which anything is made.

Tri *deifnogion* bywyd: ymmod; gwybod; ac awen.—Tri *deifnogion* gorwyddawd: awen gynhenid; cymhwyll hywaith; ac eisiwed (anghen) anesgorawl.—Tri *deifnogion* celfyddyd: addysg gan athraw a'i metro; deall greddfol a'i cymhwyllo; a gorddyfnawd awen gymhar-bwyll.—Tri *deifnogion* awen: gwybod neu ddeall; serch ynnïawl; a chyfarchwel.—*Barddas*, i. 374 (cf. 370).

Deifnogaeth, *sf.* a constituent or essential quality; materiality, a material essence; origination; quality; essentiality.

Tri *deifnogaeth* barn gyviawn: pwyll ystyrbell; deddvoldeb gymmrawd ar gyvreithiau; a chydwybodawl raith ynad a theyrnedd.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 488.

Tri deifnogion Ynys Prydain: Gwalchmai ab Gwyar; a Llecheu ab Arthur; a Rhiwallawn Wallt Banhadlen: ac nid oedd nas gwypyn ei ddefnydd a'i *ddeifnogaeth*, ai o ryw ai o rann, ai o ansawdd, ai o gyfansawdd, ai o ddychymmod, ai o ddychymmyg, ai o anian ai o aniad y byddei.
Trioedd: M.A. ii. 69.

Deifr, -au, *sm.* a regimen or rule; the law of lyric metres.—*P.*

I gadarnhau y 24 mesur y gwnaed y 24 *deifr*.
Llyfrau Cerddwriaeth. (*P.*)

Goreu oedd Ifor a'i gorff syth, ein rhi
Yn rhoi *deifr* ar esyth;
Ar a fu, gu gwehelyth,
A'r y sydd ac a fydd fyth.—*Dafydd ab Gwilym*, xiii. 9.

¶ *Deifr* is also the Welsh form of *Deira*, formerly the name of the country between the Humber and the Tyne. *Deifr a Brynaich*, Deira and Bernicia. See *M.A.* i. 221, 269, 441, 445, 460; *Gododin*, 50, 198. In the preceding quot. from D. ab Gwilym, the word may possibly denote the people of Deira.

Tri unben *Deifr a Bryneich;* Gall ab Dysgyfedawg, a Diffedel ab Dysgyfedawg, ac Ysgafnell ab Dysgyfedawg . . . a gwedi eu myned wrth gerdd y rhoddwyd arnynt unbenaeth *Deifr a Brynaich.*—*Trioedd:* M.A. ii. 64.

Wrth esgobdy Caer Efroc y perthynwys *Deifyr a Brynaich* ar gogled oll val y gwahanai *Hymyr.*
Brut Tysilio: M.A. ii. 196.

Deifr, *s.* a pl. of *dwfr*, the same as *dyfroedd*, waters.

Ar ail dwfr gynnail *deifr* ar gynnwrf.
Mab Cryg: M.A. i. 556.

Weithiau y codai'r *deifr* yn fryn;
Weithiau fel glyn pannylent.—*Edm. Prys:* Salm. civ. 8 (cf. 25; lxxvii. 16; lxxxviii. 17; cv. 41).

Ewch, ewch â'i air, chwi'r gwyntoedd,
A threiglwch, *ddeifr*, yng nghyd,
Nes, megys môr ar gyhoedd,
Y lledo dros y byd.—*Robert Owen:* Gweith. 289.

O'r diwedd, uwch *deifr* duon,
Pallodd dyrnod tafod hon.—*Caledfryn:* Caniadau, 47.

Adar deifr (=adar dwfr), water fowl.—*M.A.* i. 136.

Deifregwawd, *sm.*=*Difregwawd.*

Deifrgi, *pl.* deifrgwn, *sm.* [=dyfrgi] an otter.

Ceisiaw Griffri *ddeifrgi* ddwfrgwymp.
Mab Cryg: M.A. i. 556.

Deifriad, -au, *sm.* a setting in regimen, order, or arrangement.—*P.*

Deifriaith, *sf.* measured or metrical language.

Wrth glywed tecced ton englynion
O waith prif *deifriaith* y prydyddion.
Iorwerth Beli: M.A. i. 476.

Deifrio, *v.* to put in regimen or in metre.—*P.*

Deifriol, *a.* having regimen or rule.—*P.*

Deifwynt, -oedd, *sm.* a scorching wind.

Deigr, *pl.* deigrau, deigron, *sm.* a tear; a drop. See *Dayr*, *Daigr.*

O gyvryssed gwraged gwyth a wnaethant
Llawer mam ac *deigyr* ar y hamrant.—*Aneurin:* God. 548.

Llawer *deigr* hylithr yn hwylaw ar rudd
Llawer ystlys rhudd a rhwyg arnaw.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 396.

Fel y bo i ni riddfan a galaru tros ein pechodau, fel y bo i ni mewn *deigrau* [*dagrau] eu tywallt hwy ger bron Duw.
Ed. James: Hom. iii. 101 (cf. 62, 154).

Ni fydd uchenaid heb ei *deigr.*—*Diareb.* (M.A. iii. 166.)

Ond distaw hidlai *ddeigron* gwâr i lawr
Un o bob llygad, sychai hwynt â'i gwallt.
I. D. Efraid: Coll Gwynfa, v. 158.

Tywallted gwawr ei *deigron* maws
Ar y gweddillion hyn.—*Blodau Tewaine*, 70.

Deigr, *s.pl.* tears, tear-drops.

Digroew lif, *deigr* wylofain,
Am Farged y rhed y rhai'n.—*Gronwy Owain*, 50 (cf. 32).

A dygai'r llef y *deigr* llaith
I'r golwg, 'n awr ac eilwaith.
Blackwell: Ceinion Alun, 104.

Deigrad, } -au, *sm.* lachrymation; a shedding
Deigriad, } of tears.

Deigraidd, *a.* like a tear or drop, as a tear.

Deigren, *sf.* a tear, a tear-drop.

Deigren Mair=*Dagrau Mair, Deigrau Mair.*

Belliwm, priellau Mair, *deigren Mair*, samwl.
Meddygon Myddfai, 283.

Deigrddillwng, *a.* shedding or dropping tears, tear-falling.

Neud divwg *deigyr dillwg* digllawn.
Cynddelw: M.A. i. 234.

Deigro, } *v.* to shed tears; to trickle; to
Deigrio, } drop.

Deigrog, } *a.* tearful, full of tears, shedding
Deigriog, } tears, lachrymose.

Deigrol, }
Deigriol, } *a.* lachrymal, pertaining to tears.

Llwyd yw fy ngrudd, a *deigrawl* li
Sy'n dafnu drosti'n helaeth.—*Telynegion*, 18.

O herwydd eu bod yn dyhysppyddu ac esmwythäu y llestri *deigrol.*—*Cronicl Cymru*, Meh. 1, 1867.

Deigryn, *pl.* deigrynau, deigr, *sm.* a tear, a tear-drop, a drop.

Ond tawel gronai *deigryn* gwâr i lawr
O naill olygyn.—*W. O. Pughe:* C.G. v. 137.

Gweddi yw pwn uchenaid glaf,
A *deigryn* dreigla i wared.—*Gwyliedydd*, iii. 317.

Deigryniad, -au, *sm.* lachrymation; a trickling.

Deigrynog, *a.* lachrymary, lachrymal.

Deigrynog, -au, *sf.* a lachrymatory.

Deigrynol, *a.* apt to shed tears, lachrymose; tearful.

Minona a ddaeth allan yn ei thegwch; gyda golwg prudd, a llygad *deigrynawl.*—*Gwyliedydd*, ix. 246.

Deigrynu, *v.* to fall in drops or tears; to trickle; to distil; to drizzle.

Deigryniad, -au, *sm.* effusion, effluxion, effluence, efflux, effluvium; a flowing.—*P.*

Deigrynol, *a.* effluent, outflowing, emanant; issuing or flowing (from); effusive.—*P.*

Deigynu (*ў*), *v.* [daig] to effuse; to emanate; to flow, issue, or proceed (from).—*P.*

Carasswn *ddeigynnu* [*al.* ddiseynnu] yg Catraeth gessevin
Gwert med yg kynted a gwirawt win.—*Aneurin:* God. 762.

¶ *Deigynu* and derivatives are doubtful words, the reading in the Gododin being uncertain, and it is not known to occur elsewhere.

Digitized by Google

Deilad, -on, *sm.*=*Deiliad* (2).

Deilbleth, -au, *sf.* a wreath or chaplet of leaves, a garland.

Yr eneth wridgoch i'm cyfarfod doed,
Chwim lamed yntau'r llencyn ysgafn droed,
A thelyn faws, *deilbleth*au, cân, a gwi,
I'r heuledd deuwch, myned raid i mi!—*Blodau Ieuainc*, 65.

Deilcawl, *s.cl.* [dail+cawl] cabbage.

O myni farw, bwyta *ddeilcawl* yn Awst.—*Diareb.*

Deildew, *a.* [dail+tew] thick with leaves, full of leaves or foliage.

Pan ddêl, yn ol rhyfel rhew,
Pill doldir y pall *deildew*.—*D. ab Gwilym*, cxvi. 15.

Deildorch, dyrch, dorchau, *sf.* a garland, wreath, or chaplet.

Yn un llaw, hwy ddalient *ddeildorch* neu dalaith.
Brutus: Ninefeh, 219.

Deildy, dai, *sm.* [dail+tŷ] a bower, an arbour.

Rho ddail a gwiail ar goed,
A'th degwch i berth dewgoed,
A doldir yn llawn *deildai*,
A thrydar mân adar Mai.
D. ab Gwilym, cclviii. 61 (cf. lxxxv. 20).

A *deildy* serch i ferched
Ar dal glyn, ir adail gled.
D. ab Gwilym, cxii. 7 (cf. xlix. 22).

Arweinia dithau hyd y taena gel
Dy *ddeildy*.—*W. O. Pughe:* C.G. v. 403 (cf. 394; iv. 55).

O tyred, awn i'r *deildy* cudd
A leda ddail yng ngwres y dydd . . .
I adrodd calon lawn.—*Blodau Ieuainc*, 68 (cf. 70).

Arweinia, yna, at dy *ddeildy* gwyrdd.
I. D. Ffraid: Coll Gwynfa, v. 439 (cf. 352, 442).

Chwi ddolydd teg, a meusydd brwys,
A *deildai* glwys Llanofer,
Mor llon pa fodd blodeuwch chwi,
A mi mor llawn o drymder!—*Telynegion*, 17.

Deilen, *pl.* dail, *sf.* [dail: C. *delen;* Br. *delien;* Ir. *duille, duillein, duilleog;* Ga. *duille;* Mx. *duillag*] a leaf.—*Gen.* viii. 11.

A wdosti arwyd pet *deilen* ysyd.—*Taliesin:* A.B. ii. 146.

Yn gwarandaw rhif yn ddifreg,
Offeren dan *ddeilen* deg.
Dafydd ab Gwilym, lxxxiv. 21 (cf. xlv. 24).

A phan doeth Seint Greal attat ti ny wyr Duw gael un *deilyen* arnat.—*St. Greal*, § 19.

Y *deilen* hoŭn neus kenniret gwynt
Gwae hi oe thynghet
Hi hen eleni y ganet.—*Llywarch Hen:* A.B. ii. 260.

A allai fod (felly ei fam)
Deilen na nodai Wiliam!—*Gronwy Owain*, 52.

Sech yw'r *ddeilen* ar y brigyn,
Buan iawn i'r llaid y disgyn;
Ond y meddwl call a ddarllen
Wers o addysg ar y *ddeilen*.
Blackwell: Ceinion Alun, 204.

Deilen ddu dda, knotty-rooted figwort (*Scrophularia nodosa*): also called *gornerth* and *goreunerth*.—*H. Davies:* Welsh Botanology, 61, 182, 194.

Deilen gron=*Dail y gron, Crondoddaid.*

Deilen ar dafod, a ligature on the tongue.

Mae deilen ar ei dafod, there is a ligature on his tongue; he is tongue-tied.

¶ Canon Robert Williams (*Lexicon Cornu-Britannicum*, s.v. '*Delen*') has the following note: 'In modern Welsh, *dalen*, pl. *dalenau*, is the leaf of a book, and *deilen*, pl. *dail*, is the leaf of a tree.' Such is not the fact. *Dail llyfr* is quite as common as *dalenau llyfr*, and more so in many parts of the Principality; and *dalen*, for a vegetable leaf, is in constant use. See *Dalen.*

Deilgoed, -ydd, *s.cl.* foliaceous or leafy trees.

A phob blodau gwŷdd a gwaen yn llawn harddwch o gylchon, ac adar caneugar ym mhob llwyn ac ar bob colfen *deilgoed* a dolgwm.—*Iolo Mss.* 164.

Deilgoes, -au, *sf.* a leaf-stalk.

Deilgoll, *a.* leaf-shedding; leafless.

Lle rhaid im' yfed o fudr-nant na wenis yn wyneb haul erioed a rylif dan gysgodwydd *deilgoll* ar achlai waelod.
Iolo Mss. 174.

Deilgwymp, *sm.* the fall of the leaves; the fall: an old name for November.—*Barddas*, i. 414.

Deilgyll, *s.pl.* hazel full of leaves, leafy hazel.

Deilgyll gwyrdd-risg a'm gwisgai,
Da fyd ym' yw dyfod Mai!
D. ab Gwilym, cxliv. 47 (cf. lxxvii. 13).

Deiliach, } *s.pl.* [dail] mixed leaves; leaves of
Deilach, } no great virtue; herbage, grass.

Mor ddiwyd yw'r wenynen fwyn
Y gwanwyn ar y gweunydd,
Yn sugno'n ber, a gwyn ei byd,
Y *deiliach* hyd y dolydd.—*Gwyliedydd*, v. 156.

Gellir gweled, os edrychir yn y nos, yn fynych rifedi aneirif o honynt ar y gwylaeth, a *deiliach* ereill cyffelyb iddynt.—*Gwyliedydd*, iv. 42.

Deiliad, -au, *sm.* [dail, deilio] foliation, leafing; vernation.

Deilyadon dyfrynt am defry hiraeth
O hiruod dreic Kymry
Yth weryd hydyr wrhyd hy
Yth achles wales wely.—*Llyw. ab Llywelyn:* M.A. i. 297.

Impiwr wyd i'm pur adail,
Impiad, gwiw *ddeiliad* gwe ddail.
Dafydd ab Gwilym, clxii. 21.

Deiliad, iaid, *sm.* [dal] 1. a subject, one who owes allegiance to a sovereign.

Yna ydd oeddynt yn arglwyddiaw yn enwir ac yn erbyn *deiliaid* Trahaearn.—*Buchedd Gr. ab Cynan:* M.A. ii. 587.

Rhag briw y ddwyliw ar *ddeiliaid* digam,
Duw, egor dy lygaid!—*Hywel Dafydd ab Ieuan.*

Efe [Darïus] a wnaeth wledd fawr i'w holl *ddeiliaid*.
1 *Esd.* iii. 1.

Dywedasont . . . os byddai wiw gan y brenin i'w cymmeryd dan ei amgeledd, nid oedd ganddynt hwy ond gadael bendith Dduw am dano, a bod yn *ddeiliaid* cywir i goron Loegr.—*Theo. Evans:* D.P.O. 17 (cf. 41).

Diben holl gyfreithiau Duw ydyw dedwyddwch ei *ddeiliaid*.—*Iosua Tomas:* Buchedd Grist. 29.

Mae brenin Persia yn arddelw awdurdod direswm ar fywydau ei *ddeiliaid*.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 12 (cf. 13).

Deiliaid coron Prydain, subjects of the British crown.

Deiliaid brenin, the subjects of a king.

Dibrinaf *ddeiliaid brenin*.—*Gronwy Owain*, 46.

2. a tenant, one who holds land under another; a holder; a vassal (in feudal times).

A dywedyd ei fod yn disgwyl ar fyr o ddyddiau gweled Owain Glyn Dwr yno, am ei fod wedi danfon allan ei holl *ddeiladon* a'i weision, a llawer ereill o ffyddloniaid iddo . . . i ddala Owain.—*Iolo Mss.* 98.

Deiliad dan ddeiliad, an under-tenant.

Rhydd ddeiliaid, freeholders.

Deiliadaeth, -au, *sf.* [deiliad, dail] foliage, leafage; foliation.

Ceisio heiniar i garu
Am briod fyth i'm bryd fu,
Rhwng *deiliadaeth*, gwawd-faeth gudd
Y marwfis, o serch Morfudd.
Dafydd ab Gwilym, xxx. 11 (cf. clxxxvi. 9).

Gwisgwyd i'th iad *ddeiliadaeth*,
Ddail llymion yn goron gaeth.—*Sion Cent.*

Linnæus a ddyweda mai *deiliadaeth* y bedw yw yr arwydd orcu o dymmor hau haidd yn Sweden.
Aneurin Owen: Amaethyddiaeth, 19.

Digitized by Google

Deiliadaeth, -au, *sf.* 1. the state or condition of a tenant; tenure; tenancy; tenantry; the state of being a subject; subjects (collectively).

Eve a beris gwahanu y pedeir awr ar ugeint y syd yn y dyd yn deir rann. nyt amgen yr wyth awr a dreuliai ef yn ysgriuenu. ac yn darllein. ac yn gwediaw. yr wyth ereill y bydei yn ymgynghor am *deiliadaeth* y deyrnas. y trydyd wythawr y gorfwysei ei gorf.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 480.

Mawr diwael eddyl er dy wleddeu
Er *deiliadaeth* nef er dy lydwau.
Dafydd y Coed: M.A. i. 533.

Gwag aelwyd heb fwg, a gwaeth fydd heb dân,
Gwag gwladan lydan heb *ddeiliadaeth.*
L. G. Cothi, VIII. x. 95.

Aeth moliant cyfoeth Maelawr,
Aeth ein *deiliadaeth* i lawr.—*Gutyn Owain.*

Caeth ddeiliadaeth, servile or feudal tenure.

Yn y flwyddyn 1397 bu ymryson rhwng y deiliaid a'r arlwyddi ym Morganwg, o blegid y rhwym yr haerai'r arlwyddi fod ar y deiliaid i ymladd ym mhlaid yr arlwydd; a'r deiliaid yn haeru nad oedd *caeth ddeiliadaeth* cynhenid arnynt.—*Iolo Mss.* 65.

2. homage, allegiance.

Gweddi yw'r *ddeiliadaeth* a dâl creadur i'w Greawdr, gan gydnabod ei fod yn cwbl ymgynnal arno Ef.
Edw. Samuel: Athrawiaeth yr Eglwys, 9.

Yno cawsant feddiant o'r wlad heb fawr rwystr, o herwydd fod rhai o ddynion penaf yr Ynys wedi cymmeryd llw o *ddeiliadaeth* i'r brenin.—*Carnhuanawc:* H.C. 724.

Deiliades, **Deilades,** -au, *sf.* a female tenant.—*S. W.*

Deiliadol, *a.* subjective.

Os darluniwn yn *ddeiliadol* y weithred trwy ba un y mae dyn yn dyfod yn bechadur.—*Diwygiwr,* i. 361.

Deiliant, *sm.* [dail] foliation, leafing; foliage, leaves.

Henaint o *ddeiliant* ddilyn,
A ddaw heb wybod i ddyn.—*Rhys ab Cynfrig Goch.*

Deiliar, *a.* [dail] foliaceous, leafy, leaved.

Marchwiail derw *deilyar*
A dyn vyn troet o garchar
Nac addef rin y lauar.—*M.A.* i. 130.

Ond gynted ag y doent
Oddi tan eu *deiliar* nen i olwg gwawr
Gwanwynol ddydd.—*I. D. Ffraid:* Coll Gwynfa, v. 166.

Deiliawd, *sm.* foliation, leafing; foliage, leafage.

Deilio, *v.* [dail] to bring or put forth leaves; to produce or bear leaves; to leaf.

Dolydd, a choed yn *deiliaw,*
A chog lwyd, a 'chydig wlaw.
D. ab Gwilym, cxcviii. 5 (cf. clvii. 15).

Gweddw am hon yn y bronydd
Yw'r gog, a'r bedw, a'r gwŷdd,
A cherdd bronfraith, o chuddiwyd
Is y lan, ac eos lwyd;
Os marw yw hon is Conwy,
Ni ddylai Mai *ddeiliaw* mwy!—*Dafydd Nanmor.*

Y gwair yn blaguro,
Dolydd gwlad yn *deilio.*
Edward Dafydd: Cyfr. y Beirdd, 82.

Deiliog, *a.* leafy, leaved, foliaceous, foliate, foliaged; green with foliage or leaves.

A phan doeth ef odieithyr y dref ef a doeth dan brenn ffigys *deilyawc* teckaf or a welsei neb eiryoet.
St. Greal, ¶ 19.

Hi a aeth i bob mynydd uchel, a than bob pren *deiliog.*
Ier. iii. 6 (cf. 13; ii. 20; xvii. 2).

Dy wely yw'r llawr *deiliog,*
Dy organ a fydd cân cog.—*D. ab Gwilym,* lxxx. 7.

Ond o bob *deiliog,* brigog bren,
Cadarnaf, dewraf, yw derwen.
Edward Dafydd: Cyfr. y Beirdd, 145.

Dy feichiog *ddeiliog* ddolydd
Ffrwythlon megys Saron sydd.—*Gro. Owain,* 16.

Deiliogrwydd, *sm.* leafiness, leafage.

Deilios, *s.pl.* leaflets, folioles, little or delicate leaves.

Ond hefyd rhaid cael gwynt, a gwlaw, a gwlithos,
Yr awel ar ei hynt anadla'r *deilios.*—*Haul,* C.C. xi. 52.

Deiliwr, *pl.* deilwyr, *sm.* [dal] a holder, a tenant; a subject.

Pa ddelw mae i'r gwas ymddwyn tu ag at ei feistr, a'r *deiliwr* tu ag at ei arglwydd?
Morys Clynog: Athr. Grist. 42.

Deilw, -on, *sm.* [dal?] the small of the leg; the ankle; the pastern.

Deilwaith, *sm.* [dail+gwaith] foliage (in architecture), foliage-work.—*W.*

Deilwydd, *s.pl.* [dail+gwŷdd] trees in foliage.

Deilliad, -au, **Deilliant,** *sm.* procession, emanation, derivation; a proceeding or issuing (from); a result.

Deilliadol, *a.* derivative.

Geiriau deilliadol, derivative words.

Yn lle y treigliadau hyn, arferai W. S. y nod y cyd-glwm (-) i arwyddo lleddfiad y llythyren wreiddiol i ei modd *deilliadawl.*—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 208.

Deilliaid, *sg.* dall, *s.pl.*=*Deillion.*

Er cymmaint dadwrdd y fath *ddeilliaid* coegdyb.
Cyfr. y Beirdd, Rhagdd. 8.

Deillio, **Deilliaw,** *v.* [daill] to proceed, to emanate, to come (from), to issue; to derive; to be derived; to result.—*Ioan* viii. 42; xv. 26.

A goreu eu llun y gar llaw,
O dywyllwg yn *deilliaw.*—*Dafydd ab Gwilym.* (*D.*)

Ac o hyn godidog Gymraeg a *ddeillia,* a godidog ymadrodd.—*Cyfrinach y Beirdd,* 13.

A chredaf yn yr Yspryd Glân . . . yr hwn sydd yn *deilliaw* o'r Tad a'r Mab.—*Credo Nicea.*

Am hyn y dywedir ei fod ef yn *deilliaw* oddi wrth y Tad a'r Mab.—*Ed. James:* Hom. iii. 107 (cf. 106).

Deilliog, *a.* having an origin; emanated, proceeded, derived, issued.

Deilliol, *a.* proceeding, emanating, issuing, deriving; derivative.

Deincod, **Dincod,** *sm.* [daint+cawdd (*D.*): daint+cawd, codi?] toothedge, the tingling sensation in the teeth caused by grating sounds, and by the touch of certain substances; the teeth on edge.

Pond da bod *deincod* dincau gwres gyfedd
Ynghylch ei dannedd ai diennes.
Madog Dwygraig: M.A. i. 487.

Y tadau a fwytasant rawnion surion, ac ar ddannedd y plant y mae *dincod.*—*Ier.* xxxi. 29 (cf. 30; Esec. xviii. 2).

Codi dincod, *Peri dincod,* to set the teeth on edge.

Codi dincod ar ddanedd, to set the teeth on edge.

Deincodyn, *pl.* deincod, **Dincodyn,** *pl.* dincod, *sm.* the pip, kernel, or seed of an apple, and similar pulpy fruit.

Holl ddyddiau ei Nazareaeth ni chaiff fwyta o ddim oll a wneir o winwydden y gwin, o'r *dincod* hyd y bilionen.
Num. vi. 4.

Deincryd, *sm.* [daint+cryd]=*Deintgryd.*

Deiniad, -au, *sm.* [dain] an alluring or charming, a pleasing.

Deiniar, -au, *sf.* [dain] a fine open tract of fertile country.—*Iolo Morganwg.*

Yn trin âr mewn *deiniar* deg.—*Llawdden.*

Digitized by Google

Deinio, *v.* [dain] to please, charm, or allure; to beautify.

Ysgwyd a roddais i Byll
Cyn noi gysgu ni bu doll
Deiniaw i haddav ar wall.—*Llywarch Hen:* M.A. i. 118.

Deiniog, *sf.* [daint] betony (*Betonica*).

Psychotrophon, bittain, dannogen, y *ddeiniog*.
Meddygon Myddfai, 291.

Deiniol, *a.* beautiful, fine, attractive.

Deinniog, } *a.* [daint] toothed, having teeth,
Deiniog, } dentate, dentated; engrailed.

Ar brenin a ddonfones Syr Robert fab Hamwn *Ddeiniog* tywysawg y Corbwyl yr hwn oedd gefnderw iddaw, a chydag ef ddeuddeg o farchogion rhyfelgar a llu mawr o wyr at Iestin yn gynhorthwy yn erbyn Rhys ab Tewdwr.
Ieuan Brechfa: M.A. ii. 527.

Deinnogiaid, *s.pl.* [daint] dentals.—*Ms.*

Deinofyddiaeth, -au *sf.* [dain+ofyddiaeth] the science of the beautiful, esthetics.—*Dicts.*

Deinofyddol, *a.* esthetic.

Deinol, } -au, *sm.* [daint?] a deep craggy
Deinor, } valley; a dingle; a gully.—*Iolo Morganwg.*

Deinsio, *v.* [E. *dance*] to dance.

Ys cancsam ichwi bibau, ac ni *ddeinsiesoch*.
W. Salesbury: Luc vii. 32 (cf. vi. 23).

Deintaidd, *a.* dainty, delicate, delicious.

Deintbig, -au, *sm.* a tooth-pick.—*W.*

Deintedd, -au, *sm.* a dainty, a delicacy.

Oedd un-ty'n fwy o *ddeintedd*,
Adar mân, seidr, a medd?—*Gutyn Owain.*

Deinteiddiol, *a.* [deintaidd] dainty; delicate.

Mi a debygwn fod y llys yn lle hoffaidd, ac aroglau *deinteiddiol*.—*Marchog Crwydrad*, i. 8.

Deintgraff, -au, *sm.* [dant (*pl.* daint)+craff] a tooth-forceps.

Deintgryd, } *sm.* [daint+cryd] a chattering,
Deincryd, } grinding, or gnashing of teeth.

Man y mae *deincryd* man y mae anwyd
Ac eiry ac ia.—*Taliesin:* M.A. i. 99.

Guae a goduy Duu druy syberuyt
Traha ae syrth ym poen yn pell *deincryd*.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 323.

A phawb mewn *deincryd* a phawb mewn penyd.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 517.

Rhai creill annheilwng, yn ymroddi i ddaiarolion bethau, a fwrw ef yn y tywyllwch eithaf, yno y lle y mae wylofain a *deintgryd*.—*Dammegion* (Y Greal, 366).

Mae i'm bryd, rhag *deintgryd* dig,
O radau Duw aredig.—*D. ab Gwilym*, cc. 15 (cf. cxciv. 1).

Deintiad, -au, *sm.* dentition.

Deintiaeth, -au, *sf.* a dainty.

A'th gig yw *deintiaeth* y gwan.
Ffowc ab Edm. Prys, i'r Oen.

Deintiaidd, *a.* dainty, delicate, delicious.

Deintiedig, *a.* denticulated; dented; toothed.

Deintio, *v.* [daint] to teeth; to gnaw; to bite; to nibble.

Y mae gogan ac enllib yn lladd y llwrf a'r euog, ond ni *ddeintia* ar galon y cyfion dewrwych.
Huw Owen: Dilyniad, III. xlvi. 3.

Deintiog, *a.* having teeth, toothed; denticulated.

Deintiol, } *a.* pertaining to the teeth; pro-
Deintol, } nounced by the teeth; dental.

Cynddeiriogrwydd nwydau ehudwyllt, yn tarddu, nid o frathiad *deintiol*, ond o ffynnonell llygredigaeth gwreiddiol.
Gwyliedydd, iii. 16.

Deintolion, dentals (=*d, dd, n, s, t, th*).

Yn ol eu hansawdd y gelwir hwynt yn doddedigion, mudion, a golafariaid, o barth sain; a gwefusolion, *deintolion*, a gorchfannolion, o barth dull eu llafariaeth. . . *Deintolion* a leferir ar y dannedd.
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gym. 1. i. 3.

Ni chyfnewidir llythyren wefusol i un *ddeintiol*, nac un wefusol na *deintiol* i un oruchfantol.
Blackwell: Ceinion Alun, 226.

Llythyren ddeintiol, a dental letter, a dental.

Deintlwch, *sm.* dentifrice, tooth-powder.

Deintlys, *sm.* and *cl.* coralwort (*Dentaria*).

Deintlys cenog, toothwort (*Lathraea squamaria*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 134, 135, 182.

Deintolch, -ion, *sm.* [daint+golch] a wash for the teeth.

Deintrod, -au, *sf.* [daint+rhod] a cog-wheel.

Deintrugl, -au, *sm.* a tooth-brush.—*W.*

Deintur, -iau, *sm.* [daint] a tenter, a machine for stretching cloth.

Da yr orgraffa Gruffudd,
Deintur gras, o'r daint i'r grudd.
L. G. Cothi, IV. xxii. 35.

Drwg yr hawg, heb drugarhau,
Dyn o tyr y *deinturiau*.—*Dafydd ab Edmwnt.*

Oni welwn ninnau y rhan fwyaf o ddynion, pan fo iechydwriaeth tragywyddol eu eneidiau mewn dadl, yn trin eu llwch, ac yn eu ymestyn eu hunain i eithaf eu cyrhaedd, fel ped fai ar y *deintur*?—*Elis Lewis:* Drexelius, 215.

Bach deintur, a tenter-hook.

Bod ar y deintur, to be on the tenters; to be on the tenter-hooks.

Deinturio, *v.* to tenter, to hang or stretch on tenters.

O'i dwyn yn un dawn yn' oedd,
Y *deinturiwyd* ein tiroedd.—*Huw Cae Llwyd.*

Deintwaith, *sm.* dentils (in architecture).

Deintws, *sm.* a small tooth.

Mae lles ar wên mor iesin,
A *deintws* mwyn-dlws a min.—*Sypyn Cyfeiliog.*

Deintwst, *sf.* [daint+gwst] toothache.

Er amled gweis Ab Ieuan,
A'u ffyddlon ffwdan hwy,
Gall ef eu colli'n fuan,
Gan *ddeintwst*, boenus glwy'.—*Seren Gomer*, xv. 370.

Dannoedd, y ddannoedd, *deintwst*, y *ddeintwst*, dôlur y dannedd.—*Walters.*

Deintydd, -ion, *sm.* a dentist.

Deintyddiaeth, -au, *sf.* dentistry.

Deiol, -au, *sf-m.* [E. *dial:* see *Deial*] a dial.—*N. W.*

Y mae o'r tu ol iddynt awrwydr yn cerdded, neu *ddeiol* yn mesur oriau wrth rediad dwfr . . . a llyfr yn llydan agored.—*Elis Lewis:* Drexelius, 206.

Nodwydd y *deiol*, bys y *deiol*.—*Davies*, s.v. 'Gnomon.'

Mae genyf *ddeiol* haul wedi ei gwneuthur. . . Byddaf dra diolchgar i ryw un o gywrain rifyddion yr Eurgrawn am eglurhâd pa fodd y gallaf osod y *ddeiol* i ddangos amser yn gywir wrth ddrws fy nhŷ annedd fy hun.
Eurgrawn Mon, 1826, 87.

Deiriad, -au, *sm.* [dâr] a dinning.

Deirio, *v.* to stun with noise, to din.

Deiriog, *a.* dinning, stunning.

Deirton, *sf.* [L. *tertianus*] a tertian, a tertian ague, the ague. More accurately *teirton* or *teirthon.*

Megys am y rhai a fônt glaf o'r *ddeirton* [°cryd], pa beth bynnag a fwytaont neu a yfont, y maent, er melused a fytho, yn ei flasu cyn chwerwed ag yw'r wermod.
Ed. Iames: Hom. i. 2 (cf. 72; ii. 197).

Digitized by Google

Deirthon, *sf.*=*Deirton, Teirthon.*

Mae y lle gan hyny yn afiach iawn; ac yr oedd yr ychydig breswylwyr budron agos â bod yn fudion gan y *ddeirthon*, neu'r cryd.—*Brutus:* Ninefeh, 107 (cf. 113).

Deiryd, *v.* [daer ?] to pertain, belong, or relate (to); to be related or akin (to).—*M.A.* i. 434, 455, 462, 473, 491.

A *deirit* ytti y brenhin Arthur heb hi.—*St. Greal,* ‡ 104.

Ni *ddeiryd* cenedl y cynnogn i'r brenin, cyd gwato y brenin y mach.—*Leges Wallicae.*

A thitheu a aethost y amdiffyn yr unbennes yr honn ny *deirydei* ytt o dim.—*St. Greal,* ‡ 41.

Y beirdd gorseddogion a wisgant bob un ei freichrwy ar ei fraich ddeau o'r lliw a *ddeiryd* idd ei achen a'i radd.
Iolo Mss. 62.

Y gwr hael goreu o hyd,
I ddau ereill a *ddeiryd;*
I Frân ab Llyr, pan fu'r iaith,
Arall ydoedd Lyr Llediaith.—*L. G. Cothi,* VIII. ix. 21.

Y Samariaid yn awr yn gwadu eu carennydd â'r Iuddewon, i ba rai y maent yn cymmeryd arnynt mewn llwyddiant eu bod yn *deiryd.*—*Mynegai y Beibl,* C.C. 170.

I'r tân y *deiryd* hwnw.
L. G. Cothi, III. xii. 42 (cf. xxxii. 22).

O gyfan bedair rhan byd,
Dwy-ran i mi y *deiryd.*—*Gronwy Owain,* 47 (cf. 78).

Deiseb, -au, -ion, *sf.* [dais: cf. *deisyf*] a petition; a request.

Anfonwch *ddeisebion* taer a dibaid i'r senedd.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 405.

Gobeithiwyf y deffry ein cydwladwyr, ac y danfonant *ddeisebion* at y boneddigion awdurdodawl hyn, nes cael eu cais.—*Seren Gomer,* xv. 14.

Yr oedd *deisebau* i'r Senedd o'r gwerth a'r pwys mwyaf cyn estyn yr etholfraint.—*Cymru,* iv. 336.

Gallasem fod wedi cael y tugel, ac amryw bethau ereill a ofynir yn y *ddeiseb.*—*Diwygiwr,* iv. 366.

Deisebol, *a.* petitionary; supplicatory; containing a petition or request.

Deisebu, *v.* to petition; to supplicate.

Tybiwn y rhaid i fasnach waethygu cyn hir, a bod caledi yn ein hymyl, os na bydd i'n cydwladwyr ddeffroi, fel y gwna trigolion amrywiol o brif drefi y deyrnas, i *ddeisebu* am i'r doll ar yd gael ei symmud yn llwyr.
Trysorfa Gynnulleidfaol, ii. 284.

Deisebwr, wyr, } *sm.* a petitioner; a suppli-
Deisebydd, -ion, } ant.

Mae y *deiselwyr* yn ei erbyn o Gymru dros dri chant a thrigain o filoedd.—*Haul,* 2 C.C. ix. 223.

Deisiad, -au, *sm.* [das] a piling or heaping; a ricking or stacking.

Deisio, *v.* [das] to pile up; to rick or stack.

Deisiog, *a.* full of heaps, ricks, or stacks; heaped, stacked.

Deisiol, *a.* relating to ricks or stacks.

Deisiwr, *pl.* deiswyr, *sm.* one who piles or heaps up; one who stacks or ricks.

Deisyf, -ion, -iau, *sm.* [dais: cf. Gr. δέησις] an entreaty, a petition, a request.

Cadeir beir beryf
Kannyad Duw gennyf
Cadyr *deisyf* heb dissut.
Cynddelw: M.A. i. 258 (cf. 308).

Ac yntau (ar ei *deisyf* hi) a wnaeth imi grys o anlladrwydd.—*Marchog Crwydrad,* i. 3.

Deisyf,
Deisyfu,
Deisyfed,
Deisyfyd, } *v.* to beseech, request, entreat, implore, supplicate, desire, or petition; to beg (of); to require.

A hyt pan safoch yndi gan gyrchu awch gelynyon. yssyd yn awch aros yn y dyffryn hwn gan *deisyfyt* y gennwch awch dylyet. Ac na thebygwch y mae rac eu hofyn wy y kyrcheis i y dinas hwnn. namyn o tebygu an herlit ni o honunt hwy. ac yn *deissyfyt* kaffel o honam aerua diruawr eu meint o honunt. . . *Deissyfwn* wynt ac yn lew kyrchwn wynt.—*Ystoria Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 222 (cf. 394).

Pob vn yn aruawc ual y *deissyuei* ehun.
Yst de Carolo Magno, col. 428 (cf. 450).

Trwy frys oi lys lwys ddwys *ddeisyfu.*
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 444.

En kynebyc i henny ninheu a *deisyvwn* teyrnget y ganthunt hwnteu or Ruvein. . . Ac wrth heny pa ny bernwch chwi bot en iawn i minheu *deisyveit* teyrnget o Ruvein.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 327—8.

Gwedy kyflehau pawb y eisted herwyd y *deissyfei* y deilygtawt.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. 202 (cf. 35, 182, 206).

Y genedyl honno a *deissyuawd* Henri vrenhin, ac adolygassant idaw kaffel lle y preswylynt yndaw.
Brut y Tywysogion, 82.

Y drygionus sydd yn *deisyf* rhwyd y drygionus.
Diar. xii. 12.

Am hyny yr ydym yn ocheneidio, gan *ddeisyfu* cael ein harwisgo â'n tŷ sydd o'r nef.—2 *Cor.* v. 2 (cf. 20).

Ystyriwch hefyd y modd y gyrodd Abraham y llawforwyn allan o'i dŷ pan *ddeisyfodd* hi arno wneuthur felly.
Ed. Iames: Hom. iii. 177 (cf. 183).

Dewísaf, gan Naf, i mi
Oedd *ddeisyf* iddi oesi.—*Gronwy Owain,* 52.

¶ In most editions of the Bible there is an inconsistency in the use of these verbs. The infinitive forms are *deisyf* and *deisyfu,* but some of the conjugations (*deisyfiais, deisyfiodd, deisyfiasant,* &c.) postulate an infinitive in *-io* (*deisyfio*), which does not occur.

Deisyfed, *v.*=*Deisyf, Deisyfu.*

Deisyfedig, *pt.a.* requested, besought.

Deisyfedig, *a.*=*Disyfedig.* Cf. *Ll.C.H.* ii. 36, 176.

Deisyfedigaeth, -au, *sf.* the act of requesting or beseeching; supplication.

Ac wrth hynny oy war *desyvedygneth* ef ufudhau a oruc y Pab hwnnw.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 195.

Deisyfiad, -au, *sm.* a requesting or beseeching; supplication; a request, entreaty, petition, or prayer; a desire.

Bod yn anghyfrwys, ddwys *ddeisyfiad.*
Dafydd ab Gwilym, ccxlv. 79.

Gwna â ni oll, nid yn ol ein *deisyfiadau* a'n rhyglyddon, ond yn ol ein hanghenion ni a'th drugareddau anfeidrol di.—*Moses Wiliams:* Llawlyfr, 70.

Atad fy *neisyfiad* sy.—*Dafydd Ionawr,* 52.

Edrych ar weddi dy was, ac ar ei *ddeisyfiad* ef.
1 *Bren.* viii. 28 (cf. 30, 38, 49, 54).

Y rhai hyn a ddylech chwi beunydd eu lladd, wrth ymosod yn erbyn eu *deisyfiadau* hwy.
Ed. Iames: Hom. iii. 82 (cf. 246; ii. 196, 224).

Gweddi a deisyfiad, prayer and supplication.—*Eph.* vi. 18.

Deisyfiaeth, -au, *sf.* a supplication, request, or petition; solicitation.

Drygwyllys a'u paradhaodd i mi ar *ddeisyfiaeth* Ffolineb.
Marchog Crwydrad, i. 3.

Deisyfiedydd, -ion, }
Deisyfydd, -ion, } *sm.* one who beseeches,
Deisyfwr, wyr, } begs, or supplicates; a suppliant, a beseecher, an implorer; a petitioner.

Deisyfol, *a.* suppliant, beseeching, entreating, imploring; petitionary, supplicatory.

Deisyfu, *v.*=*Deisyf.*

Digitized by Google

Deisyfyd, } *a.*=*Disyfyd.*—Cf. *Ll.C.H.* ii. 35,
Deisyfaid, } 46, 90, 95, 122, 135, 138, 149, 151, 159, 175, 179, 183, 186, 213, 216, 224, 228, 232, 236, 240, 242, 255.

Eres yw gennyf mor *ddeissyuyt* yd wyt yn mynet.
Mabinogion, 270.

A chymrawu a orug Charlymaen am y damwein *deissyuyt* hwnnw.—*Campau Charlymaen*, § 8.

Ny wybuant hwy hagen dim or collet *deisyfyt* a deuth y Chyarlys.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 410 (cf. 386, 471, 482).

Nachaf y wrth y mor a oed yn ysgythredic yn y penn issaf yr neuad. gwynt *deissyuyt* yn dyuot ar uon rot melin.
Ystoria Charles, 8 (cf. 9).

Ymserthu yw ymdorri drwy *deisyfyt* gyphro medhwl mewn anadhwynion ymadrodhion serthion.
Ymborth yr Enaid, § 10.

Deisyn, -au, *sm.* [tais? cf. *teisban*] 1. a hank or skein.

2. twenty-four bundles of hatchelled flax.—*H. Salesbury* (Arch. Brit. 216).

Del (ĕ), *a.* 1. obdurate, stiff, untoward, pert, saucy, cross, peevish, morose, hard; wily.

Ni bu faer yng Nghaer anghywirach,
Ni bu serdiant waeth na neb gaethach;
Ni bu haid ddiawliaid *ddelach* eu gwahodd,
Ni bu ieir un fodd, na brain feddwach.
L. G. Cothi, v. vi. 49.

Gwr du i dafiu gair *del.*—*Thomas Prys.*

Ar ei law ddeheu yr oedd Tynged yn eistedd, ac â golwg ddu *ddel*, yn darllen anferth lyfr oedd o'i flaen.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 60.

Y llwynog *del* a fynai'r fael,
A'u dal i gyd, fel y dylen' gael.—*Huw Morus:* E.C. i. 194.

Am gaglu aur yn daer wŷr *del*
Mae'u meddwl uchel awchus.—*Elis ab Elis.*

2. pretty, neat, nice, fine. The word, in this favourable sense, is in common use in North-west Wales, and no other meaning is there given to it.

Del, *sm.* metal; a metal.

Yn gain tu hwnt amgyffred caffai efe
Y lle, wrth ar y ddaiar ddim, ai maen
Ai delid nid un fath pob rhan, ond oll
Un fath yn llawn o ffrain wawl, mal odd
Y tân yr haiarn gwynias; os *del*, rhan
Yn aur a welid, rhan yn arian gloew.
W. O. Pughe: C.G. iii. 644.

Dêl, *v.:* see *Delyd.*

Delbren, -au, -i, *sm.* 1. a short stick, a cudgel. —*P.*

2. a stick fastened to a dog's tail.

3. [dulbren? cf. E. *beetle-head*] a numskull, a stupid, a dolt; an idle, lazy fellow.

Delc, *a.* [cf. *del*] saucy, churlish, rude.

Y diawl cethin, *delc*, aethus.—*N.* i Eiddig.

Delder, *sm.* [del] 1. obduracy, harshness, stiffness, obstinacy, stubborness, churlishness; pertness.

Ai dy *ddelder* sy'n peri
Ac ofn myn'd gefn-gefn â mi?—*Edm. Prys.*

2. prettiness, neatness.

Delfaen, *sm.* [del+maen] 'the kellus, or delvin, a slaty substance resembling a white soft stone, found in the tin mines.'—*P.*

Delfaen, fain, feini, *sm.* [del+maen: cf. *delid*] a mineral.

Gwedi myned o hyfrydwch newydd-deb drosodd, arferwn ddifyru fy oriau wrth chwilio y planigion a dyfent yn y dyffryn, a'r *delfeini* a gasglwn o'r creigiau.—*Rasselas*, xxi.

Delfaeneiddio, } *v.* to mineralise, to impreg-
Delfaenu, } nate with mineral matter.

Delfeinig, } *a.* mineral; relating to minerals.
Delfeinin, }

Delfryd, -au, *sm.* [delw+bryd] a mental image, an idea; a notion, a concept.

O fedru ymddiddan yn areithiawl, siarad yn barabl-ddoeth, ymchwedleua yn foddhäus, o ddigorni *delfrydau* yr enaid, o ddiblygu meddyliau y galon ar eiriau gweddawl, hygoel, hyfedr, a hyfryd, yr adnebyddir bod dyn yn greadur cyfeilladwy.—*H. Perri:* Egl. Ffr., Rhag. 4.

Nid yw lai sicr, pan feddylioch am fera, fod eich meddwl yn feddiannol ar y *delfryd* o fera, na bod y bera ei hun yn sefyll. Pa le neu ofod a gymmer y *delfryd* o fera yn fwy na'r *delfryd* o ronyn o yd? neu pa fodd y gall un o'r ddau *ddelfryd* oddef drylliad?—*Rasselas*, xlviii.

Delfrydaidd, *a.* ideal, imaginary.

Delfrydiaeth, -au, *sf.* idealism.

Delfrydig, } *a.* ideal; mental; intellectual.
Delfrydol, }

Nid yw ffurf *ddelfrydig* lai sylweddol na maint defnyddiol; eto nid oes i ffurf *ddelfrydig* ymestyniad.
Rasselas, xlviii.

Ceinder delfrydig, ideal beauty.

Delfrydio, } *v.* to idealize; to form ideas or
Delfrydu, } conceptions.

Delfrydoldeb, }
Delfrydigrwydd, } *sm.* ideality.

Delfrydolwr, wyr, *sm.* an idealist.

Paul, y mwyaf cymmedrol, y mwyaf annibynol, a'r mwyaf dysgedig, o'r holl apostolion, yn *ddelfrydolwr*, yn ddychymmygwr, yn freuddwydiwr, ac mewn canlyniad i'r un drychfeddwl sefydlog hwn ag sydd yn berffaith anesponiadwy, y newidiwyd, nid yn unig ei gymmeriad ef ei hun, ond hyd yn nod ffurf a gwedd hanner y byd gyda hyny.—*Traethodydd*, xxvii. 273.

Delfysg, } *sm.* [del (delid)+mysg] an
Delfysgedd, } amalgam; a mixture.

Delfysgu, *v.* to amalgamate; to mix.

Delff, -od, *sm.* [cf. *delw*] a heavy, stupid fellow, a dolt, a numskull, a thickskull; a rude fellow, a churl.—*M.A.* i. 519.

Gofid tost, fal rhwym gefyn,
Yw gado'r *delff* gyda'r dyn!
Dafydd ab Gwilym, lxxvi. 23 (cf. cxxxiii. 33).

Syganai'r *delff* coeg enau,
Aruthr o ddig, wrth y ddau.
Dafydd ab Gwilym, cxlii. 35 (cf. clxxiv. 39).

Delffaidd, *a.* oafish, stupid, doltish, blockish; churlish, boorish.

Ond dyn *delffaidd* sydd ddisynwyr, ac fel llwdn asyn gwyllt y genir daiarolyn.—*Dr. T. Briscoe:* Llyfr Iob, xi. 12.

Delffeiddiad, -au, *sm.* a becoming doltish or stupid; a making stupid or churlish; stupefaction.

Delffeiddio, *v.* to become stupid, oafish, or doltish; to make oafish; to stupefy; to become churlish.

Delffeiddiol, *a.* stupefactive.

Delffeiddrwydd, *sm.* stupidity, doltishness; churlishness, boorishness.

Delffo, *v.* to become doltish or stupid; to look like an oaf or idiot; to be stupefied or confounded.

Adolphus, wedi *delffo*, a redodd
O'r frwydr mewn gwallgo'.—*D. Davis:* Telyn Dewi, 146.

Delgan, *sm.* [delc] an oaf, dolt, or churl.

Ni chair ir air na charu,
Na chân gan y *delgan* du.—*N.* i Eiddig.

Digitized by Google

Delid (ë), -au, *sm.* [del ?] metal; a metal.

Gwneynt eu peiron av erwynt heb tan
Gwneynt eu *delidau* yn oes oesseu.
Taliesin: A.B. ii. 130 (M.A. i. 34).

Llwyfenyd tired ys meu eu reufed . . .
Ys meu y *delideu* ae gorefrasseu.
Taliesin: A.B. ii. 195 (M.A. i. 59).

At bedwar gwynt rhoent bedwar Cherub mwth
Y *delid* seinfawr wrth eu mant.
W. O. Pughe: C.G. ii. 542 (cf. iii. 646).

Yr adwyn mwyaf gwerthfawr, pur, ac estynadwy yw [yr arian], o bob *delid*, nesaf at yr aur.
Th. Charles, s.v. 'Arian.'

Ceir y *delid* hwn weithiau yn ddarnau sylweddol.
Beirniadur Cymreig, i. 110 (cf. 111).

Tafi ar y ddaiar *ddelid*, ac i gerryg yr afon aur Ophir; yna y bydd yr Hollalluog yn *ddelid* i ti.
Dr. T. Briscoe: Llyfr Iob xxii. 24, 25.

Delidaidd, *a.* metallic; like a metal, metalliform; metalline.

Pe delid rhyw glawr i dderbyn yr ager hwnw, ceid gweled yr aur pur *delidaidd* yn ymddisgleirio arno.
Beirniadur Cymreig, i. 111.

Delidfaen, fain, feini, *sm.* a mineral.

Planigion yr ardd, bwystfilod y coed, *delidfain* y ddaiar, a goruchion yr wybren, rhaid iddynt oll ymuno i gyflenwi ei feddwl ef ag amrywiaeth anhyspyddadwy.—*Rasselas*, x.

Delidfeinig, } *a.* mineral; pertaining to or im-
Delidfeinin, } pregnated with minerals.

Delor (ë), -au, *sf.* [cf. *telor*, *telori*] the woodpecker.

Delor a ddwg drwg i'w nyth.—*Diareb.* (M.A. iii. 153.)

Delor y derw, the green woodpecker: also called *cnocell y coed* and *cymmynwr y coed.*

Delor fraith, the greater spotted woodpecker.

Delor fraith leiaf, the lesser spotted woodpecker.

Delor y cnau, the nut-hatch or nut-pecker.

Delusg, *s.*=*Dylusg.*

Delw, -au, *sf.* [*delu* (Cod. Juv. 80): Ir. and Ga. *dealbh;* O.Ir. *delb;* C. *del*] 1. an image; a statue; likeness, semblance; form; manner.

Ac y mon colofyn y neuad y gwelei gwr gwynllwyt y mywn cadeir o asewrn eliphant. a *delw* deu eryr arnei o rudeur.—*Mab.* 84 (cf. 153, 154, 156, 174, 184).

Ae gorff a irwyt ac ireideu gwerthuawr. ac y dodet y mywn *delw* o efyd a wnaethoedit ar y uessur ae veint e hun. ar *delw* honno a dodet ar *delw* march o efyd.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 251 (cf. 5, 138).

Yna y dechreuawd y *delveu* a oed ar y pilereu kanu eu kyrn.—*Ystoria Charles*, 8.

Dylai fawl, myn *delw* Fair!
Dafydd ab Gwilym, xviii. 38 (cf. xxxv. 4).

Wrth edrych ar ei *delw* hardd,
Ei llygaid, ac ei gwên;
Meddyliwn am flodeuyn gardd
Cyn henaint oedd yn hen.—*Tegid:* Gwaith, 192.

Y gyfraith, yr hon sydd ganddi gysgod daionus bethau i ddyfod, ac nid gwir *ddelw* y pethau.—*Heb.* x. 1.

Delw Duw, the image of God.—*Gen.* i. 27.

Delw y Duw anweledig, the image of the invisible God.—*Col.* i. 15.

Delw ac argraff, image and inscription, image and superscription.—*Matt.* xxii. 20.

Delw safedig, a statue.

Yn gyntaf, fo luniodd eu *delwau safedig* hwynt, ac a'u gosodes yng nghenol dinas Babilon.
Marchog Crwydrad, i. 5.

Sefyll fel delw, to stand like a statue.

Edrych fel delw, to look like a statue.

Pa ddelw, in what manner; how.

Pa delw y gellit dy lad ditheu.—*Mabinogion*, 76 (cf. 2).

Ena e may yaun er egnat edrich *pa delu* e dele ef i quadu.
Cyfreithiau Cymru, ii. 112.

Pa delw y dyly dyn credv y Duw.—*Llyfr Ancr*, 141.

Ef a dhamweinia weithau y vleidhiau yssu dyn. a throssi y gic yn gic yr blaidh. ac yssu or arth y blaidh. ac yssu or lhew yr arth. *pa dhelw* yna y cyuodai y rhai hynny y dhyn.
Lucidar, 114 (cf. 20, 35, 42, 56, 66, 73).

Pa delw heb hitheu y gellir menegi yr hynn ny allo bot.
Ystoria Charles, 2.

Dangos ym hynny heb y kawr. *pa delw* y mae tri yn vn.
Yst. de Carolo Magno, col 401 (cf. 402, 403, 490, 493).

Ba ddelw na bai ddialedd
Am un a fai mewn ei fedd?—*L. G. Cothi*, i. v. 1.

Pa ddelw y cadwn ni y trydydd gorchymmyn?
M. Clynog: Athr. Grist. 40 (cf. 39, 45).

Pa ddelw sydd arnoch? in what manner are you? how are you?

Pa ddelw bynag, in whatever manner; however; at all events; at least.

Pa ddelw bynag, mae rhyw elyniaeth rhwng y ddau wr uchod.—*Gro. Owain*, 190 (cf. 218).

Pa ddelw bynnag, pe trocnt y llywodraeth uffernol tros ei cholyn, gyr di hwynt yno yn sydyn.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 64.

Delw (=ar ddelw), in the manner or fashion of; like; how.

Delw ym doeth anoeth ym doeth anaw
Delw yt oetwn vart y ueirt ganllaw
Canlles am rotes ruteur wallaw
Delw yd oreu Duw y dewissaw
Dewised y Duw y dwyn attaw
Delw y doeth ataf alaf oe law
Delw yt oet wrthyfy yt wyf wrthaw.
Cynddelw: M.A. i. 231 (cf. 190, 215, 235, 335).

2. an image (as an object of worship); an idol. —*Dan.* iii. 1–18.

Eu *delwau* hwy ydynt o aur ac arian, gwaith dwylaw dynion.—*Salm.* cxv. 4.

Dyma'r dallder arferwyd,
Delwau oedd well na Duw lwyd . . .
A rhoi addoliant ar ddeulin
A ddylai Grist i *ddelw* grin.—*Gruffydd ab Ieuan.*

Credu *delwau* cariadawl,
Ac i swynion dynion diawl.—*Owain ab Gwilym.*

Gwagelwch eilunod, hyny yw, medd Tertulian, y *delwau* eu hunain.—*Ed. James:* Hom. ii. 24 (cf. 21–156).

Delw gerfiedig, a graven image.—*Ecs.* xx. 4; *Esa.* x. 10; xxi. 9; xlii. 8, 17; xliv. 9.

Delw dawdd (*pl.* delwau tawdd), a molten image.

Gwaradwyddwyd pob toddydd trwy y ddelw gerfiedig: canys celwydd yw ei *ddelw dawdd.*
Ier. x. 14 (cf. Num. xxxiii. 52; Salm. cvi. 19).

Addoliad delwau, the worship of images or idols; image-worship, idolatry.

Gwneuthur delw o un, to make an idol of a person; to idolize a person.

Delwad, -au, *sm.* a shaping, forming, fashioning, or portraying; formation.

Deus Duw *delwat* gwledic gwaed neirthyat.
Taliesin: A.B. ii. 118 (cf. 99, 212).

Oet kymrwyn y *delwad*
Pan douce peir trachwres trochyad.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 279.

Gwaed cyn delwad, } the embryo in utero before
Etifedd cyn delwad, } it becomes a fœtus.

Tri gwerth kyureith beichogi gwreic: vn yw *gwaet kynn delwat* wyth a deugeint a tal or collir trwy greulonder.
Cyfreithiau Cymru, i. 444 (cf. ii. 38).

Delwadol, *a.* formative, plastic.

Digitized by Google

Delwaddolaidd, *a.* idolatrous; tending to or comprising idolatry.

Delwaddoles, -au, *sf.* an idolatress.

Delwaddolgar, *a.* addicted to worship images or idols; idolatrous.

Delwaddoli, *v.* to worship images or idols, to practise idolatry; to idolatrize.

Delwaddoliad, -au, **Delwaddoliant,** *sm.* the worshipping of images or idols; idolatry.

Mewn gwirionedd yr ydoedd y cwbl oll yn arwain at *ddelwaddoliad*, ofergoel, a rhagrith.
Ed. James: Hom. i. 67 (cf. 55, 70, 71, 114, 158, 159).

Gwrthladd di gadernid pob gwrthwynebwyr; yn bendifaddeu hwnw o Rufain, a *delwaddoliant* Anghrist, ac annuwiaeth.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 462.

Delwaddoliaeth, -au, *sf.* idolatry, image-worship.—*Gal.* v. 20.

Yr hon eglwys nyni a wyddom barhau o honi hyd yn hyn yn bur ac yn berffaith, ac yn forwyn wyryf ddiwair (fel y dywedodd Tertulian), heb na llwyr *delwaddoliaeth*, na bai gwarthus yn y byd arni.—*M. Cyffin:* Diff. vi. 15.

Yn awr fe bregetha delwau eu hathrawaeth hwy yn wastad, i'r rhai a fónt yn edrych arnynt, hyny yw, *delwaddoliaeth.*—*Ed. James:* Hom. ii. 113 (cf. 117-131).

Delwaddolog, *a.* having image-worship or idolatry.—*P.*

Delwaddolwr, wyr, **Delwaddolydd,** -ion, *sm.* an idolater; a worshipper of images or idols; an idolist.—*Eph.* v. 5.

Ac fe wnaeth Cynghor arall hefyd, yr hwn a elwir Cynghor Toletum y ddeuddegfed, ordeinhâd a chyfraith yn erbyn delwau a *delwaddolwyr.*—*Ed. James:* Hom. ii. 69.

Delwaddolwr, delwaddolydd, eilunaddolwr, eilunaddolydd, addolwr (addolydd) delwau neu eilunod.
Walters, s.v. 'Idolater.'

Delwaidd, *a.* like an image or statue; lifeless; stupid; ghastly.

Gyru ym mlaen y mae fo fuddugoliaeth yr hunan *delwaidd*, sef teyrnas y tywyllwch.
Morgan Llwyd: Ymroddiad, 123.

Delwant, *sm.* imagery; resemblance.—*P.*

Delwawg, *a.* having an image; idolatrous.—*P.*

Wrth ei grog, *ddelwog* ddylaith,
Darfu'r hell gyllell ei gwaith.
R. ab G. Ddu: Gardd Eifion, 56.

Delwawl, *a.* like an image or figure.—*P.*

Delwdorwr, wyr, *sm.* an image-breaker, an iconoclast.

Yn yr ystyr yma, gelwir nid yn unig yr Eglwysi Diwygiedig, ond rhai eglwysi dwyreiniol hefyd, yn *ddelwdorwyr.*
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 414.

Delwedigaeth, -au, *sf.* the act of portraying, fashioning, or forming; a making a resemblance.—*P.*

Delwedd, -au, *sf.* [delw] an image; a picture formed in the mind; a similitude or resemblance; imagery.

Gwedi iddo gaffael digon o *ddelweddau* gwladawl, os myn efe ddringaw yn uwch na barddoniaeth deuluaidd, dylai feddu gwybodaeth am rwysg a mawredd, bonedd a breninoldeb.—*Th. Lloyd Jones:* Cein. Awen, Rhag. 6.

Gwibiwn y mynyddoedd a'r anialdiroedd am *ddelweddau* a chyffelybiaethau; a darluniwn yn fy meddwl bob pren yn y goedwig, a phob blodeuyn yn y dyffryn.—*Russelas,* x.

Mae'n deilwng o sylw fod agos holl ffigurau a *delweddau* y prophwyd hwn wedi eu cymmeryd (fel yr oedd yn naturiol disgwyl) oddi wrth amgylchiadau bugail ac amaethydd.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 218.

Delweddiad, -au, *sm.* a portraying, a picturing; a making an image, resemblance, or likeness.

Delweddol, *a.* relating to imagery; descriptive.

Delweddu, *v.* to portray, to picture; to describe; to modify.

Yr achos pa ham yw, am nas gall gwr a'i raffol, neu bin, ysgrifenu, neu *ddelweddu* y munudiau ymmodawl a'r ymddygiad, sydd raid i'r areithiwr, wrth ymadrodd, eu dangos, yn ol dirdeb y nwydau, ac arwyddocâd y brawddegau.—*H. Perri:* Egl. Ffraethineb, xlv. 2.

Delwgell, -oedd, *sf.* [delw+cell] a room or chamber of images; a 'chamber of imagery.'

A weli di, fab dyn, yr hyn y mae henuriaid Israel yn ei wneuthur yn y tywyllwch, bob un o fewn ei *ddelwgelloedd?*
Esec. viii. 12.

Delwi, *v.* 1. to become as a statue; to appear like an image or statue; to become pale or wan; to be confounded or ashamed; to look lifeless.

Onid oeddwn, neidiwn i,
Yn y dolur yn *delwi!*
Dafydd ab Gwilym, ccliii. 17 (cf. viii. 1).

Gwelwn Luciffer yn duo ac yn *delwi.*
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 96.

Gwen lliw'r od, mae . . .
D'olwg muchudd i'm *delwi!—Llywelyn ab Ednyfed.*

O'i herwydd . . .
Deliais hiraeth i'm *delwi.—Ieuan Deulwyn.*

Da, na hedd Duw, ni haeddant,
Dilon yr, *delwi* a wnânt.—*Gro. Owain,* 95.

Er dichon fod ei chalon wan
Yn *delwi* dan y du-lid.—*Blackwell:* Cein. Alun, 199.

Delwig, *a.* [delw] well-formed, shapely.

Delwigaeth, -au, *sf.* comeliness, good form.

Delwigaidd, *a.* of a comely shape or form; **Delwigus,** well-formed.

Delyd, *v.* [dêl] to come: an irr. verb (synonymous with *dyfod*), which does not occur in the infinitive. Its theme is the 3rd pers. sing. fut. (*dêl*), from which the inflections are made. It is used principally in the conditional moods. See Davies, *Rudimenta,* 126—128; Rowland, *Welsh Grammar,* §§311, 312.

A *del* yn waredawc iawn yw y gymryt. ac ar ny *del* yn vuud. kymheller o nerth cledyfeu.—*Mabinogion,* 6.

Delit yth gof ditheu weithyon.—*St. Great,* ‡ 2.

Ni ddof oddi wrth nai Ddafydd
Yni *ddêl* y nos yn ddydd;
Yni *ddêl* naw o Ddulyn,
Yni *ddêl* o Wynedd un,
Yni *ddêl* dros ddwr Mynyw
Y du bach a'r bwbach byw.—*L. G. Cothi,* III. xiii. 55.

Gŵyr dyn pan el, nis gŵyr pan *ddêl.—Diareb.*

A *ddêl* o win i'r dinas,
Ef a ddaw heb law ei blas.—*L. G. Cothi,* IV. xviii. 23.

Deled dy deyrnas.—*Matt.* vi. 10.

Yn iach cân i'r rhianedd,
Dêl i'r rhai'n dal wŷr a hedd.—*Gro. Owain,* 44 (cf. 38, 65).

Dell, *sm.* a separation; a rift, a cleft.—*P.*

Wyf kell wyf *dell* wyf datweirllet [*al.* darw becrlled].
Taliesin: A.B. ii. 115 (M.A. i. 27).

Oedd . . . *dell* pell gwell gwiw lliw ffriw ffrost.
Dafydd Nanmor.

Delli, **Dellni,** *sm.* [dall] blindness, cecity, want of sight.

Pan deuth o Freinc franc o erchi
Yechyd rac clefyd rac clwyf *delli.*
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 272.

Dywllun y mudais o'm *delli* i Gaer,
Gwell oedd im' fy nhrogi.—*L. G. Cothi,* v. vi. 17.

Gyrru Iago ab Idwal ar ffo a wnaethpwyd, ac y cymmerth Hywel ab Ieuaf y deyrnedd arnaw achaws *delli* ei dad.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 493.

Cenedlyn yn ei *ddellni* addola bren a maen.
Seren Gomer, vi. 183.

Digitized by Google

Dellt, *s.pl.* 1. splinters, laths; lath; lattices, lattice.

Aeswr *dellt* am bellt a adawei.—*Aneurin:* God. 208.

Cyfylfin cai ufelfellt,
Cadwa' dydi i'th dŷ *dellt.*
D. ab Gwilym, cxxxiv. 29 (cf. ccxxxiii. 69).

Tri chyfiawn farchawg oedd yn llys Arthur. Un oedd Blas mab tywysog Llychlyn yr eil Cadawc mab Gwynlliw filwr ar trydydd oedd Padrogl paladr *ddellt.*
Trioedd: M.A. ii. 18.

Ai *dellt* aur yw dy wallt di!
Dafydd Nanmor: G.B.C. 157.

Mam Sisera a edrychodd trwy ffenestr, ac a waeddodd trwy y *dellt.*—*Barn.* v. 28 (cf. 2 Bren. i. 2).

Mi a edrychais trwy fy *nellt.*
Diar. vii. 6 (cf. Can. Sal. ii. 9).

Dellt ffenestr, the lattice of a window.

Ffenestr ddellt, a lattice window.

Gwaith dellt, lattice work.

2. splinters, shivers, shatters, pieces.

Ar ganol nos hwy glywent naid
Rhyw fwystfil diriaid hyllig
Yn syrthio arnynt, i'w rhoi'n *ddellt*
A'i ddannedd melltigedig.—*Daniel Ddu,* 139.

Delltaidd, *a.* like lattice; lathy; like a splint or splinter; flaky.

Dellten, *pl.* dellt, delltenau, *sf.* a splint, splinter, or lath; a lattice; a flake, a lamina; a ledge.

Gyrai ddoe, agwrdd ddial,
Gwaew'n fil o *ddellt* gan flaidd Ial;
Dellten o'i gethren gythrudd,
Darn grin, a dorai'n y grudd.—*Tudur Aled:* G.B.C. 234.

Ystlysau oedd iddynt, a'r ystlysau oedd rhwng y *delltenau:* ac ar yr ystlysau oedd rhwng y *delltenau,* yr oedd llewod, ychen, a cherubiaid; ac ar y *delltenau* yr oedd ystôl oddi arnodd.—1 *Bren.* vii. 28, 29.

Delltenaidd, *a.* like a splint, splinter, or lath; flaky.

Delltenaid, -au, *sm.* a splinting; a latticing; lamination; a parting in flakes or scales; exfoliation.

Yr oedd math o *ddelltenaid* wedi cymmeryd lle ar wyneb y cawg gwydr.—*Brutus:* Ninefeh, 218.

Delltenog, *a.* latticed; splintered; laminated, flaky.

Cerryg delltenog, flaky stones.

Delltenol, *a.* apt to part in splinters; lattice.

Delltenu, *v.* to splinter; to laminate; to flake; to become flaky.

Asgwrn yn delltenu, a bone parting in scales or splinters.

Delltiad, -au, *sm.* a splitting, a splintering; a parting in flakes or scales; lamination; a latticing.

Delltu, } *v.* to lattice; to make into lattices;
Dellto, } to split, to splinter; to flake.

Delltwaith, *sm.* lattice work.

Ar wedd delltwaith, wrought like lattice.

Delltwr, wyr, } *sm.* one who makes lattices or
Delltydd, -ion, } lattice work; one who splits or splinters; a splitter.

Aer daradyr cadyr *delltwr* coedyd on
Annwyldoeth fab Gruffud.—*Rhiserdyn:* M.A. i. 432.

Deml, -au, *sm.* [dy-+emyl=ymyl] an outskirt.—*P.*

Denedigaeth, -au, *sf.* [denu] allurement, enticement, inducement, fascination.

Denedigol, *a.* enticing, fascinating, alluring; seductive.

Denfydd, -iau, *sm.* [cf. Br. *danvez*] a colloquial metathesis of *defnydd:* so *denfyddio, denfyddiol,* for *defnyddio, defnyddiol.*

Dengar (*n-g*), *a.* enticing, fascinating; attractive, engaging, pleasing, winning.

Dengarwch, *sm.* allurement, enticement; the quality of being engaging or winning; attractiveness; seductiveness.

Deniad, -au, *sm.* an alluring or enticing; allurement, enticement; inducement; temptation.

Mae holl leisiau'r greadigaeth,
Holl *ddeniadau* cnawd a byd,
Wrth dy lais hyfrydaf tawel
Yn distewi, a myn'd yn fud.
W. Williams: Hymnau, dcxcv. 1.

Deniadol, } *a.* attractive, engaging, winning;
Denol, } alluring, enticing.

Lle *denawl* dynion hirbrydig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 519.

Moesau deniadol, engaging or winning manners.

Dennerch, *v.* [dy+annerch] to greet, salute, or address?

Cyfum goluth bun ban ym *denneirch* [*al.* dyneirch] o bell
Pwyllid erof ar ni lefais.—*Gwalchmai:* M.A. i. 195.

Denog, *a.* enticed, allured, captivated.

Denu (*ë*), *v.* [dân: cf. *diddan*] to allure, entice, attract, or inveigle; to induce; to seduce; to cajole; to fascinate or charm.—*M.A.* i. 42.

Os pechaduriaid a'th *ddenant,* na chyttuna.
Diar. i. 10 (cf. xxviii. 10; Hos. ii. 14).

Yr ydym ni yn hyfforddach i'n *denu* nag i *ddenu:* i'n *denu* i ddrwg gan ereill, nag i *ddenu* ereill i dda.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 345 (cf. 422).

Pa sawl cybydd henffel a *ddenais* i yma!
E. Wynn: Bardd Cwsg, 104 (cf. 107).

Fe a ddarfu i Babau Rhufain yn ffyrnig iawn *ddenu* dan law wŷr digon cymhen, ac nid annysgedig ychwaith, i gynnorthwyo yr achos efrydd hwn.—*M. Cyffin:* Diff. i. 6.

Geiriau denu, enticing or persuasive words.—1 *Cor.* ii. 4.

Denus, *a.* enticing, alluring; attractive, engaging; persuasive.

A chog serchog, ddoniog, *ddenus,*
Yn canu'n lwys lais cariadus.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 228.

Denwr, wyr, *sm.* an enticer, an allurer, an inducer, a persuader; a seducer.

Gynt yr oeddwn . . .
Yn *ddenwr* gwawd, yn ddinych,
Yn dda'r oed, yn ddewr wych.—*D. ab Gwilym,* ccxxvii. 3.

Deod, } *v.* [deawd, dëu] to take or put off,
Deodi, } strip, or divest; to doff; to dismantle; to extract.

Discynnu a oruc Gereint a *diot* arucu y gwyr lladedic. ae dodi yn eu kyfrwyeu.—*Mabinogion,* 271 (cf. 73).

Ar pedwyryd chwech a *dioglassant* vy lludeticwisc. a dodi gwisc arall amdanaf.—*Mabinogion,* 164 (cf. 141).

Y brenhin ar vrenhines a *dioglassant* eu brenhin wisgoed yam danunt.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 202 (cf. 71, 75, 133, 152, 153, 168).

¶ For the sake of distinction *deod* seems preferable to *diod,* the form in *Ll.C.H.*

Digitized by Google

Deongl, **Deongli,** **Dehongl,** **Dehongli,** *v.* to interpret; to explain or unfold the meaning of; to explain, expound, or explicate.

Breuduit a uelun neithwir ys celuit ae *dehoglho.*
Llyfr Du: A.B. ii. 5.

A gwedy dihunaw or iarll. dyvynnv a orue attaw doethyon y gyvoeth. a datkanu udunt y vreudwyt. ac erchi y *dehonggyl* wrth na wydyat ef a arwydockaci hynny.
Amlyn ac Amig, col. 1085.

A ffan defroes Arthur datkanu i vreudwyt i wyrda a oed en i gylch. sef val e *dehonglasant.* dywedut mac Arthur a arwydokaci e dreic a dothoed y wrth e gorllewin.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 333.

Helenus ynteu a *dehogles* rac llaw distryw o wyr Groec Gaer Droea.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 7.

Breuddwydiasom freuddwyd, ac nid oes a'i *deonglo:* a Ioseph a ddywedodd wrthynt, Onid i Dduw y perthyn *deonglí?—Esgob Parry:* Gen. xl. 8 (cf. xli. 8, 12, 13, 15, 24).

Nyni a gawsom y Messïas, yr hyn o'i *ddeongl* yw, Y Crist.—*Ioan* i. 41.

Pan ddechreuodd Paul gyntaf bregethu a *deongli* yr efengyl yn Athen, galwyd ef yn ymadroddwr duwiau newydd.
M. Cyffin: Diff. v. 2 (cf. i. 1).

Na chymmerwch arnoch ei *deongl* hi a'i hagoryd ym mhellach nag y byddoch yn ei deall hi yn oleu.
Ed. Iames: Hom. i. 8 (cf. ii. 89, 303; iii. 169).

Deongl breuddwydion, *Dehongl breuddwydion,* to interpret dreams.—*Dan.* v. 12.

Yna y bu lawen yr iarll am *dehongyl* y vreudwyt yn y wed honno.—*Amlyn ac Amig*, col. 1085.

Deongl deongliadau, to make interpretations.—*Dan.* v. 16.

¶ The orthography of *deongl* or *dehongl* is somewhat unsettled. Bp. Parry always spells it without the *h*, and Bp. Morgan generally. The derivation is obscure. Iolo Morganwg proposes the following explanation:

Deongl, to define the angles of a figure (a mathematical term); to lay down or delineate the angles; to interpret, to illustrate, &c.

Deongl, **Dehongl,** -au, *sm.* interpretation; explication, exposition.

Ac amgen no hynny y tebygei Arthur ehun uot y *dehogyl.*
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 211 (cf. 174).

Deonglad, -au, *sm.*=*Deongliad.*

Ac nyt velly y tybygassei Arthur bot y *dehoglad.*
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 334.

Trwy esgeulusdra y rhai a ddylasent ddysgu i'r bobl ei iawn arfer hi, a thrwy *ddeongladau* ofer a ddychymmygasai ddynion.—*Ed. Iames*: Hom. ii. 172 (cf. 110; i. 40, 81, 155).

Deongladwy, **Dehongladwy,** *a.* interpretable, explicable, explainable.

Deonglawd, **Dehonglawd,** *sm.* interpretation, explication.

Deongledigaeth, **Dehongledigaeth,** -au, *sf.* the act of interpreting, explaining, or expounding; interpretation; exegesis.

Deongli, *v.*=*Deongl.*

Deongliad, **Dehongliad,** -au, *sm.* an interpretation; explication, exposition, explanation.

A chan nad yw'r agoriad, â'r hwn yr agorir i ni ffordd i deyrnas Dduw, ddim amgen onid gair yr efengyl, a *deongliad* y gyfraith a'r Ysgrythyrau Glân, dywedyd yr ydym, yn ddiffaddeu, lle ni bo'r gair hwn, nad oes yno mo'r agoriad ychwaith.—*M. Cyffin:* Diff. ii. 8 (cf. iv. 27).

Dygwyd y doethion, yr astronomyddion, o'm blaen, i ddarllen yr ysgrifen hon, ac i fynegi i mi ei *deongliad;* ond ni fedrant ddangos *deongliad* y peth. Ac mi a glywais am danat ti, y medri ddeongl *deongliadau*, a dattod cylymau.
Dan. v. 15, 16 (cf. 7, 8, 12, 17, 26; ii. 4—45).

Deongliadaeth, -au, *sf.* interpretation, exegesis, hermeneutics.

Nis gellir siarad yn briodol am *ddeongliadaeth* ysgrythyrol . . . cyn tua chanol yr ail ganrif o oed cin Hiachawdwr. . . Yr oedd *deongliadaeth* ysgrythyrol yn cymmeryd cyfeiriadau gwahanol ym mhlith yr Iuddewon.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 427 (cf. 417—429).

Deongliadol, **Dehongliadol,** *a.* interpretative, explicatory, explicative, exegetical.

Hwn oedd safle *deongliadol* holl esponwyr y canoloesoedd.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 428.

Mewn ffordd ddeongliadol, by way of interpretation, interpretatively.—*W.*

Deonglwr, wyr, **Dehonglwr,** wyr, **Deonglydd,** -ion, *sm.* an interpreter, an explicator, an expounder.

Gan na thawant â dywedyd . . . bod yn gymmeradwy genym ni, adael i bob math ar ddyn fod yn offeiriad, fod yn athraw, fod yn *ddehonglydd* yr Ysgrythyr Lân.
M. Cyffin: Diff. ii. 7.

Y mae yn rhaid cyfaddef fod dau o'r *dehonglwyr* godidocaf o'r cynfeirdd . . . yn rhoddi gwahanol ystyrion i'r geiriau.—*Carnuhanawc:* Hanes Cymru, 21.

Deonglwraig, **Dehonglwraig,** wragedd, *sf.* a female interpreter or explicator.

Casandra kymedrawl oed. a geneu bychan. a llygeit eglur. a *dehogylwreic* oed or hyn a delei rac llaw.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 13.

Deonglyd, **Dehonglyd,** *v.*=*Deongl, Dehongl.*

Llun y llong, a'i *ddeonglyd,*
Arch No, a'i nawdd tra bawdd byd.—*Gronwy Owain*, 38.

Deol, *v.* [de+hol?] to banish, to exile; to expel, to drive away; to separate, part, or divide; to divorce.

A pheri dy *dehol* ditheu mi ae gwnaf.—*Mabinogion*, 177.

Gwrtheyrn . . . a beris llad Custennin Uychan . . . a *dehol* y deu uroder.—*Trioedd:* Ll.C.H. ii. 298.

Ac y *deholes* y brenhin Robert archescob Keint. A holl Ffreinc a gynghorassynt *dehol* rei ereill.
Brut y Saeson: Ll.C.H. ii. 395.

Deuth Bran y Ffreinc yn gyflawn o dolur. a phryder. a goual am y *dehol* yn waratwydus o dref y dat y alltuded.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 73 (cf. 42, 75, 78, 80, 89, 102, 105, 109, 120, 131, 250, 389, 394, 396, 398).

Gwneler barn yn ebrwydd arno ef, pa un bynnag ai i farwolaeth, ai i'w *ddeol*, ai i ddirwy o dda, ai i garchar.
Esra vii. 26 (cf. Galar. ii. 14).

Yr amser hyn y *deoles* y Brenin Edward Dosti Bencynnadl y gogledd o'r deyrnas.—*Iolo Mss.* 21.

Hael meidryawl nym *dehawl* om vn diheu.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 331 (cf. 158).

A'r gynghanedd bengoll a *ddeholwyd*, ac a gaethiwyd yn yr eisteddfod ddiwaethaf.—*Pum Llyfr Cerdd.* 76.

Efe a roddes ei fryd ar drefnu ffordd i ddwyn y rhai a *ddeolwyd* adref.—*Ier. Owen*, 52.

Duw nefol a'm *deoles.*—*Gronwy Owain*, 59.

Deol lleidr, to banish a thief.—*C.C.* ii. 112.

Deol, *sm.* exile, banishment.

Ar ddeol, in exile; exiled, banished.

Gwedy marw y dat. y digyvoethi ae alltudaw oe genedyl yn gymeint ac na diodefynt idaw gardotta yn y gyuoeth ehun. ac vot ynteu yrwng dyd a nos or pan vuassei *ar dehol* yn keissyaw iarll Aluern.—*Amlyn ac Amig*, col. 1091.

Ereill yn dal barn ar y pethau a wnelai Einigan, bwrw mai cythraul oedd, a'i yru *ar ddeol.*—*Barddas*, i. 52.

Achaws dwyn llorf corf canmil
I'r ddaear gynt *ar ddĕol.*
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 452.

Gwr deol, an exile, a banished person.

Deoladwy, *a.* that may be banished; separable.

Na bydd, lliw gloew-wydd glau,
Grynwraidd am gryn eiriau,
'Y myd, wrth dy brydydd mwy,
Diwladaidd *deoladwy!*—*D. ab Gwilym*, lxi. 61.

Digitized by Google

Deolawd, *sm.* banishment, exilement; separation, divorce.

Deoledig, *pt.a.* exiled, banished, separated.

Deoledigion, exiles, banished persons.

Yr herwyr a dagneuedwys. ar *dyholedigyon* a wohodes ar eu dylyet.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 390.

Gwr deoledig, a banished person, an exile.

Deoledigaeth, -au, *sf.* banishment, expulsion; separation.

Deoliad, -au, *sm.* a banishing, banishment; expulsion; separation.

Un llith o fendith i fad,
A'r diles air *deoliad.*—*Gronwy Owain,* 95.

Dedfryd angeu oedd y canlyniad; ond oddi wrth air o eneu y prif ustus, mae'n debyg mai *deoliad* am ei oes a ddygwydd i'w ran.—*Eurgrawn Mon,* 1826, 92.

Mae weithian rai miloedd o ddynion gwynion yn y sefydlfa hon, rhai gwedi gorphen blynyddoedd eu *deoliad* yn dewis aros ynddi.—*R. Roberts:* Daearyddiaeth, 582.

Deoliad, iaid, *sm.* an exile, a banished person; a convict.

Ar ei ddychweliad i Frydain [efe] a ddysgriflodd y lle yn addas i lunio sefydlfa i alltudo *deoliaid* iddi.
R. Roberts: Daearyddiaeth, 580 (cf. 581, 582).

Deolog, *a.* banished, exiled; separated, divided.

Deolwr, wyr, } *sm.* one who exiles or expels,
Deolydd, -ion, } a banisher; a separatist.

Deolwraig, wragedd, *sf.* a female banisher.

Deolwraig ar fynaig fwyn,
Daffithlen mewn diffeith-lwyn.—*D. ab Gwilym,* cxiv. 33.

Deon, -au, *sm.* [da? cf. *daf* (=da), *dafon*] 1. one of the Divine names, probably signifying the Good Being, the All-good. Pughe (deriving the word from *de*) renders it 'the distributor, or divider; the giver; he that sets aright.'

Ior, Por puraf, Iaf iawn weithiau, *Deon,*
Yn deall calonau,
Huon, Ion, goreu'i ddoniau,
Duw, Dofydd mawr, Ionawr, Iau.
Sion Cent: Iolo Mss. 285.

Dy enw Huon, dy enw *Deon,*
Dy enw Ion daionusaf.—*Dafydd Ddu Hiraddug.*

Hanpych well Dauyt dawn gaffael fal turn
Teyrnged or Israel
O Duw *Deon* archauael
Ac o dyn hawl erwyn hael.—*Gwilym Ryfel:* M.A. i. 274.

Duw, Ion, Dwyf, *Deon,* boed diwair genau
Ar ganon a'i llefair;
Arall enw a rhoi'r llawn-air,
O, I, ac W, yw y gair.—*Ieuan Rudd* (Barddas, i. 20).

Coronog faban, goreu dawn *Deon,*
A ddyfu o nef er nawdd dynion,
Yn arwedd ei addysg yn Oen tirion,
Ac yna a las gan lu Iuddewon.—*Iolo Mss.* 265.

O voli peir *deon* pyr dawaf
O dor cor coelic kynnelwaf.—*Cynddelw:* M.A. i. 262.

Tri yw Duw Keli kolovyn *Deon.*—*Casnodyn:* M.A. i. 430.

Llawer aer llawes con
Y triwyr duon a'r tri *Deon,*
A doro'r dafawdwst ar yr eidion.
Hen Englyn Swyn. (*P.*)

Nawdd merthyri Duw *Deon* tragywydd.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 399.

Gorffowys rat *Deon* garyat dienguryawl.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 467 (cf. 462).

2. a benevolent or generous chief, leader, or ruler; a lord, a chief.

A gwawd gwedi gwirawd gwin
Ac aur llathr yn llaw *deon.*
Cynddelw: M.A. i. 211 (cf. 209, 215, 217).

Canys dir hepcor dewrdor *deon.*
Cynddelw: M.A. i. 220 (cf. 253, 261).

Un am clwyf ar cletyf rutyon
Un a vu a dyvu *deon* . . .
Un a vu haelaf o haelon Kymry.
Cynddelw: M.A. i. 233 (cf. 67, 70, 159).

Dynyadon *deon* dyly am y dwyn
Dolur kwyn ae kyffry.—*Einion Wan:* M.A. i. 334.

3. (*pl.*) guests, visitors; strangers; foreigners.

Poet yn gystal yth *deon* ath niuer ath gatwridogyon y bo y gwell hwnn.—*Mabinogion,* 105.

Nyd ar an perchis an peirch y weithon
Or *deon* diheueirch.—*Cynddelw:* M.A. i. 229 (cf. 86).

Deon a yrreis dygyhyssed
Diarswyd ar vrwydyr arvau gochet.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 265.

A glywch chwi *deon* a dywedir.
Cynddelw: M.A. i. 217 (cf. 283, 365).

Kedwyr o du myr o du morlann
Vchel yn cadw eu ryuel nyd ymgelan
Deon Meiryonnyt eluyt eiluann
Daw gantut eu but parth ac attann.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 362 (cf. 312, 392).

Deon, -iaid, *sm.* [L. *decanus;* Br. *déan;* Fr. *doyen,* †*deien*] a dean.

Naf Mon, gloew *ddeon* arglwyddïaidd.
Dafydd ab Gwilym, ccxxviii. 44 (cf. 24).

Nyni . . . a roisom . . . ryddid, cennad, gallu, ac awdurdod gyflawn, rydd, a chyfreithlon, i'r dywededig Arglwydd Esgob Llundain, rhaglaw y Gymmanfa ddywededig, ac i'r Esgobion ereill, *Deoniaid,* Archddiaconiaid . . . a cholegau.
Canonau Eglwysig, Rhag.

Darllenodd y *deon* annerchiad cydlawenychol y seneddr.
Gwyliedydd, xiv. 288.

Y mae tri dosparth o ddyrchafiadau eglwysig yn Lloegr, i ba rai y mae y teitl o *ddeon* yn perthyn.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 416.

Deon yr Archau: see *Archau.*

Deon eglwys gadeiriol, the dean of a Cathedral Church.

Deon gwahanfreintiau, }
Deon gwahanlysoedd, } dean of peculiars.

Y deon a'r cabidwl, dean and chapter.—*Canonau Eglwysig,* 126.

Deon gwladol, }
Deon gwledig, } a rural dean.

Deondy, dai, *sm.* a deanery, the residence of a dean.

Deoniaeth, -au, *sf.* 1. a deanery; the office or dignity of a dean; a deanship.

2. a deanery; the district or jurisdiction of a (rural) dean.

Yr oedd clerigwr ym mhob un o'r *deoniaethau* hyn, yr hwn a elwid yn ddeon; clerigwr â bywoliaeth ganddo yn y *ddeoniaeth* a fyddai yn gyffredin.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 416.

Deoniaethol, *a.* relating to a deanery; decanal.

Deor, } *v.* [de+gor-i] 1. to hatch; to incubate;
Deori, } to sit on eggs (as a fowl); to produce from eggs; to brood.

Na fydd iddi hi o hyn
Nag wy *deor* nag aderyn.—*D. ab Gwilym,* cxcviii. 85.

Yna y nytha y dylluan, ac y dodwa, ac y *deora,* ac a gasgl yn ei chysgod.—*Esa.* xxxiv. 15 (cf. Ier. xvii. 11).

O! gythreulig orthrymder, a *ddeorwyd* yn uffern chwerwed a fu i amryw deyrnasoedd!
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 14.

Cyfrif y cywion cyn eu *deor.*—*Diareb.* (M.A. iii. 181.)

Iâr yn deor, a hen hatching.

Iâr yn gori yw iâr yn eistedd ar wyau: pan y bydd y cyw wedi dyfod o'r wy, bydd yr wy wedi *deor.*
Cronicl Cymru, rh. 222.

Deor drygioni, to hatch mischief.

Digitized by Google

2. to take out of the shell; to cast the shell; to take out, off, or away; to shell; to extract; to extricate; to produce.—*M.A.* i. 62, 85, 86, 87.

Y tywyssawc a elwit Mener a doeth attaw. ac a *dehores* korff Troilus racdaw ac ae brathawd ynteu.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 30.

Deor ffa, to shell beans.

Deor, **Dehor,** **Dyhor,** *v.* [de- (=dy)+or] to prevent, stop, or hinder; to impede, to obstruct.

Tri tharw cad Ynys Prydain: Cynfar Cadgadwg ab Cynwyd Cynwydion; a Gwenddoleu ab Ceidiaw; ac Crien mab Cynfarch: sef y rhuthrynt ar eu galon yn ail i darw, ac ni ellid ai *dehoraint.*—*Trioedd:* M.A. ii. 69.

I hwn a ddwg ymaith dy gochl, na ohardd [°lestair, rwystra, *ddeor*] ddwyn dy bais hefyd.
W. Salesbury: Luc vi. 29.

Deor, *sm.* a hatching; a taking out of the shell; a casting off the shell.

Iâr ddeor, a brood-hen.

Deoraid, eidiau, *sm.* a hatch, a brood, a hatched brood.

Deoraid o gywion, a hatch or brood of chickens.

Deorain, *v.* to hatch, to brood.

Deorawd, *sm.* a hatching, incubation.

Deorawg, *a.* having a hatch or brood; incubated.

Deorawl, *a.* hatching, incubative; sitting on eggs.

Deoriad, -au, *sm.* a hatching, incubation; a casting off the shell, a shelling. 2. a hatch or brood.

Deoriar, ieir, *sf.* [deor+iar] a brood-hen, a sitting hen.

Deorllyd, *a.* inclined to sit or incubate, broody.

Iâr ddeorllyd, a hen inclined to sit or brood, a broody hen.

Deoti, *v.* [deawd] to separate; to take from; to extract.—*P.*

Maen-ddeoti, lithotomy.—*P.*

Der (ë), *a.* sullen, dogged, stubborn, obstinate, froward, churlish, snarling.

Llundain ddig filain *dder.*—*Thomas Prys.*

Triged ef, y taer gyw *der*
Wan-galon, yn y Giler.—*Thomas Prys.*

¶ Pughe marks *der* and derivatives as short, but the vowel is long (*dêr*).

Der, [dy-+er] an intensive prefix, having in most words the same force as *er:* with the suffixed pronouns=for, for the sake of.

Derddo, for his sake, on his account, for him.

Derddi, for her sake, on her account, for her.

Dera (ë), -on, *sf.* [der (*P.*): L. *Dirae?*] 1. a fiend, a fury, a demon, a devil; the evil one.

Crechwen oer mewn crochan ia,
Câr eiddiorwg, cyw'r *ddera!*—*D. ab Gwilym*, clix. 37).

Llyncud . . . gig y *ddera.*—*Rhys Goch Eryri:* G.B.C. 95.

Cnoi'r ddor fal y cny'r *ddera.*—*R. Leiaf*, i'r Ab.

Hi ni wna dda, *ddera* ddall,
Ni erys a wna arall.—*Gro. Owain*, 110 (cf. 109).

Gorthrechwr a maeddwr Mon,
Dera oedd i'w Derwyddon.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 100.

¶ Iolo Morganwg has the following mythic note on this word:

The old bardic idea was that the *Dera* usurped the occupation of Cylch y Ceugant, and that he would suffer none but himself to occupy it, destroying all other beings;—that God, being more powerful, is able to dispossess him, and, with Himself to occupy it, creates beings highly susceptible of happiness, to enjoy it with him to all eternity, on condition of joining with Him to resist evil. The common proverb is hence derived—'Myn y diawl y cwbl iddo ei hunan, fal y cybydd: mae Duw, fal yr haul, yn rhoi rhan i bob un arall.'—*Barddas*, i. 212.

2. the staggers, a disease of horses, and some other animals.

Y neb a wertho farch, efe a ddyly ei ddilysu rhag y *ddera* dri bore, a rhag ysgyfain dri mis, a rhag llynmeirch flwyddyn.—*Leges Wallicae*, III. v. ¼ i. 38 (C.C. I. 264).

Deraidd, *a.* apt to be obstinate or dogged.—*P.*

Derbyn, *v.* [cf. *erbyn*, of which *derbyn* seems a later form] to receive; to accept; to admit; to take. (Conj. *-io.*)

Y rei a aeth y Ystrattywi Marodud vab Ryderch ay *derbynnawd* yn enrydedus. . . Ac ef ay *derbynnwys* yn enrydedus.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 541, 542.

Nid yw pawb yn *derbyn* y gair hwn. . . Y neb a ddichon ei *dderbyn*, *derbynied.*—*Matt.* xix. 11, 12.

Derbyniodd y cynnyg; ac . . . efe a deyrnasodd naw mlynedd yn Syria.—*Simon Lloyd:* Amser. 400.

Rhoi a derbyn, *Rhoddi a derbyn,* to give and take; to give and receive.

A lle bo *rhoi a derbyn* gwybodaeth dan rin, un dyn a gymmer oddi ar ei linynau a fo achos, a hwnw a'u hetyb yn ol yn yr un modd.—*Barddas*, i. 158.

Derbyn wyneb un, to accept one's face; to accept or regard one's person; to show one favour; to be partial. Originally a Hebraism. —*Iob* xiii. 8, 10; xxxii. 21; xxxiv. 19; xlii. 8, 9; *Diar.* xviii. 5; xxiv. 23.

Annwn ni *dderbyn wyneb.*—*Gronwy Owain*, 76.

Derbyn wynebau, to accept or regard persons; to be partial.—*Mal.* ii. 9.

Heb dderbyn wyneb, without respect of persons. —1 *Pedr* i. 17.

Di dderbyn wyneb, not accepting the person; without respect of person or persons; impartial; uncompromising.

Derbyn llythyr, to receive a letter.

Derbyn, *sm.* a receipt or reception.—*P.*

Derbynfa, -oedd, *sf.* a place or vessel into which something is received; a receptacle.

Hyny yw, yn llygru corff ac enaid dyn, ac yn ei wneuthur ef o deml yr Yspryd Glân, yn domen front, ac yn *dderbynfa* holl ysprydion afian.—*Ed. James:* Hom. i. 157.

Derbyniad, -au, *sm.* a receiving; reception; acceptance; admission.

Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob *derbyniad.*
1 *Tim.* iv. 9 (cf. i. 15; Rhuf. xi. 15).

Derbyniadau, receptions; receipts.

Derbyn cysur, to receive comfort.

Y mae iddo dderbyniad mawr yn y byd, he is well received in the world.

Derbyniad, iaid, *sm.* a receiver.

Derbyniadol, *a.* acceptable; receptive.

Cyflawnder cydwybodol, iselder enaid llon,
Yw'r pethau *derbyniadol* a fynaf ger fy mron.
Iolo Morganwg: Salmau, I. xlix. 3.

Derbyniadwy, *a.* receivable; acceptable.

Digitized by Google

Derbyniawd, *sm.* reception; acceptance.

Derbyniawdr, iodron, *sm.* a receiver; an accepter.

Derbynied, *v.*=*Derbyn, Derbynio.*

Sef achos oed *derbynnyeit* lledradev y ev gyuoeth a wnay ac ev canmawl.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 543 (cf. 545).

Derbyniedig, *pt. a.* received; accepted; admitted.

Derbyniedigaeth, -au, *sf.* the act of receiving or accepting; reception; receivedness; recipiency.

Derbyniedigol, *a.* receptive.

Derbyniedigrwydd, *sm.* receivedness.

Derbyniedydd, -ion, *sm.* a receiver; an accepter.

Derbynio, *v.*=*Derbyn.*

Derbyniol, *a.* acceptable; receivable, acceptive.

Pan oedd Sioned ym Morganwg ar ei thro, rhoddwyd a ganlyn, ym mhlith pethau *derbyniol* ereill, yn ei Hystên.
Ystên Sioned, 3.

Anrheg dderbyniol, an acceptable gift or present.

Derbynioldeb, } *sm.* acceptableness; received-
Derbyniolder, } ness.

Derbyniwr, wyr, } *sm.* a receiver, a recipient;
Derbynydd, -ion, } an accepter; one who takes in or receives.

Pregethu i'r *derbynwyr* anweledig ras Duw oddi fewn.
Ed. James: Hom. ii. 272.

Gwaeth y *derbyniwr* na'r lleidr.—*Diareb.*

Nid y derbyniwr a biau dewis, beggars must not be choosers.

Derch, *a.* elevated, exalted, high; dignified.

Och, mor llawn o ystyr goleu
Yn awr yw geiriau'r prophwyd *derch,*
'Gwna it' gwynfan tost a galar,
Fel am unig fab dy serch.'
Ioseph Harris: Md. Ieuan Ddu.

Derchafael, Derchafu, &c.: see *Dyrch-.*

Derdri, *sm.* [der: cf. *dera*] the evil one, the devil, the deuce; a goblin.—*M.A.* i. 456.

Pan y gwelais ar glais glan,
Y ci ffol a'r ceffylan,
Tybiais i (oedi ydoedd
Dewrdra âb) mai *derdri* oedd.
Ieuan Du'r Bilwg, i L. Goch y Dant.

Tebig, pan fwyf heb ddigiaw,
I *dderdri* wyf ar ddwr draw.—*L. G. Cothi,* 111. v. 51.

Tywysog yw'n tywyso gwg,
Tu hollawl y tywyllwg,
Y *derdri*'n fawr ei daerdra,
Ac yn erbyn pob dyn da.
Cywydd Enwau y Fall (Llanover Ms.).

Dwg duth didawl, druth dadl dri, dewr Dudur,
Dros dir didwyll *derdri.*—*Eglwryn Ffraethineb,* xxvi. 4.

Dere, *v.* [dy-+rhe: cf. *dyred, tyred*] come (thou), come on, come along, come here. Used only in the imperative singular.—*S. W.*

O'r goreu, ebe'r gwr boneddig; *dere* gyda mi, mi yw dy feistr.—*Iolo Mss.* 160.

Dere, Iesu, i'r ardaloedd,
Lle teyrnasa tywyll nos.
W. Williams: Hymnau, ccccxxvii. 1.

Dere i mewn, a gwel y byd sydd iti.—*Araith Gwgan.*

O *dere,* meinwen hardd ei ffriw,
Bydd dyner, deuliw'r hinon.—*Morgan Pywel.*

Dere, dere i mewn yn wrol,
Ti ynnilli fraint dragwyddol.—*Taith y Pererin* (1720), 48.

Dere yn nes, come nearer, draw nearer.

Dere'n nes (ebe hi wrth yr hebog), herwydd deall wyf mai boneddig urddasol wyd.—*Iolo Mss.* 176.

Dere'n nes i'r fynwes fau,
Anwylaf Awen olau.—*Daniel Ddu,* 4.

Dere yn ol, come back, return.

Cofia lewndid ac ymgeledd
Tŷ dy Dad, a *dere'n ol.*—*Daniel Ddu,* 358.

Dere yma, come hither, come here.

Dere yn glau, come quickly.

Derfoes, -au, *sf.* [der+moes] a froward or churlish manner or disposition.

Bardd derfoes dig, an angry bard of froward manner; an angry churl of a bard.—*Edm. Prys.*

Deri, *s.pl.* [dâr] 1. oak-trees, oaks; 'female oak-trees.' In S.W. *deri* as well as *derw* is used of all oak-trees indifferently.

Yn diwed hwnnw y lloegant y *deri* drwy y llwyneu.
Ystat. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 148.

Yna y kymerassant hwy blodeu y *deri.* a blodeu y banadyl. a blodeu yr erwein.—*Mabinogion,* 73.

Gorwyn blaen kelli gogyhyt
Ygwyd a deil *deri* dygwydyt
A wyl a gar gwynn y uyt.
Llywarch Hen: A.B. ii. 254 (M.A. i. 123).

Fal rhyfelfryd gwyd gwynt ar *dderi.*
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 448.

Nid oes gelfan min llannerch . . .
Na llatai ddifai ddwyfol,
A gaf fi mewn *deri* dôl.—*D. ab Gwilym,* cclviii. 33.

Goreu o bob coed eu parhâd *deri;* hawsaf eu gweithio cŷll, neu helyg, neu wern.—*Barddas,* i. 152.

Casgl ddail y *deri* ym mis Awst neu fis Medi.
Meddygon Myddfai, ii. 797.

2. (*sf.*) an oak-grove, -wood, or -forest. In this sense it forms many place-names, with or without a qualifying epithet.

Deriad, -au, *sm.* [der] a froward acting.—*P.*

Derig, *sf.* mountain avens (*Dryas octopetala.*—*Hugh Davies:* Welsh Bot, 134, 182.

Derio, *v.* [der] to act frowardly, rudely, coarsely, churlishly, or sullenly.

Derlewyn, *sm.* [llewyn] a radiance or splendour.

Derlin, *sm.* [dâr+llin] heart of oak.

Cad tu man llachar derlyw *derlin.*
Taliesin: M.A. i. 38 (A.B. ii. 163).

Derlwyn, -i, *sm.* [dâr+llwyn] an oak-grove.

Derlys, } *sm.* [dâr (derw)+llys] germander
Derllys, } (*Teucrium*): so called from the
Derwlys, } fancied likeness of its leaves to those of the oak.—*Hugh Davies:* Welsh Botanology, 56, 182.

Derlys y dwr, } water germander (*Teucrium*
Derlys y dwfr, } *scordium*).

Y mae hi o'r un natur â *derlys y dwr.*
H. Davies: Llysieuaeth Gymreig, 179.

Derlys y fagwyr, wall germander (*Teucrium chamaedrys*).

Derlys y goedwig, wood germander, wood sage (*Teucrium scorodonia*): also called *chwerwlys yr eithin, chwerwyn y twyn,* and *triagl y Cymro.*

Derllydd, *a.* being poured or spread; poured, effused.—*P.*

Digitized by Google

Diwethaf ym bu buduawr wasgar
Dafyd glot *derllyd* arllwybyr Casnar.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 365 (cf. 195).

Escut am olut am dileywyd rwyd
Yscwn am eylwyd molyant *derllyd*.
Iorwerth Fychan: M.A. i. 415.

Derllyddiad, -au, *sm.* depletion, a pouring or emptying.—*P.*

Derllyddol, *a.* pouring, emptying, spreading.

Derllyddu, *v.* to pour, to empty; to spread.

Dyrllydei vedgyrn eillt Mynydawc.
Aneurin: God. 363 (cf. 147, 348).

Arth a llew *derllys* oleu bylleu.
Taliesin: M.A. i. 31 (A.B. ii. 211).

Derllydid fy nedf fy newisaw.—*Gwalchmai:* M.A. i. 195.

Gwaud volaud val y *derllytwyd*.
Cynddelw: M.A. i. 233 (cf. 294).

Cenawon Euein cyngrein cydneid
Wynt a *dyrllytant* yn lle honneid
Glud men yt ant gloyw heyrn ar neid.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 266.

Bolchlafyn lud am dud a *derllyto*.
Llygad Gwr: M.A. i. 343.

Derllys, *sm.* [dâr+llys] = *Derlys*.

Dernyn, -au, *sm.* [dim. of *darn*] a small piece; a piece, a fragment.—*Marc* ii. 21.

Cefais, beth bynnag, rhai o'r *dernynau* crybwylledig.
Cyfrinach y Beirdd, Rhagdd. 5 (cf. 6).

O dir ni roir iddynt un *dernyn* am dâl.—*Daniel Ddu*, 181.

Dernyn o arian, a piece of silver.—1 *Sam.* ii. 36.

Dernynach, *s.pl.* small or trifling pieces; small fragments; dribblets; scraps.

Dernynol, *a.* fragmental, fragmentary.

Deru, *v.* [der] to act frowardly or churlishly.

Derw, *s.pl.* [dâr: C. *derow* (sg. *dar*); Br. *derô;* Ir. *darach*, *darog;* Ga. *darach*] 1. oaks, oak-trees; oak-wood; 'male oaks.'

Derw buanawr racdaw crynei nef a llawr . . .
An maglas blaen *derw* o warchan Maelderw.
Taliesin: A.B. ii. 141 (cf. 34).

Derw ieuainc hyd yr awyr,
O'u bon oll heb un yn ŵyr.
L. G. Cothi, III. xviii. 17 (cf. 6).

Cywilyddiant o achos y *derw* a chwennychasoch.
Esa. i. 29 (cf. ii. 13; Eccc. xxvii. 6; Sech. xi. 2).

Ef a dyf *derwen* llc y plenid
Uwch law y *derw* uchel a dorid.—*L. G. Cothi*, III. iv. 52.

Gelwais swrn, a'm goles arno,
Gawr drwy'r graig, a'r *derw*, a'r gro.
Tudur Aled: G.B.C. 234.

Dywed Linnæus fod pedwar ar ddeg o rywiau o *dderw*.
Gwyliedydd, viii. 307.

Derw cadeiriog, spreading or stately oaks.

Llwyn derw, an oak-grove.

Llwyn derw 'r ieirll yn y dwyrain,
Llwyn Rhys yr un-llun â'r rhai'n.
L. G. Cothi, III. xviii. 27.

Cist dderw, an oaken chest.

Arch dderw, an oaken coffin.

Estyll derw, oaken planks.

2. (*sf.*) an oak-grove, an oak-wood. *Derw* in this sense enters into many place-names: cf. *Deri*.

Er hyny ar groen hwnw, o Ffair Rhos i'r *Dderw*,
Nid oes ond blew garw'n blaguro.
Edward Richard: Bugeilgerdd, ii. 24.

Derwaidd, *a.* of the nature of oak; oaken.

Derwen, *pl.* deri, derw, *sf.* [derw: C. *derven;* Br. *deruenn*] 1. an oak, an oak-tree (*Quercus*).

A chymeint y angerd ac y tynnei *derwen* oe gwreid megys gwialen uechan.—*Ystr. Bren. Bryt.:* LL.C.H. ii. 58 (cf. 213).

Gwreiddiodd Rhosser fal *derwen*,
O Fynyw dros afon Dren.—*L. G. Cothi*, VII. ix. 39.

Efe a wnaeth gil golychwyd gyntaf yng nghoedydd Glyn Ebron, gan chwiliaw ac olrhain y coedydd, hyd oni chafas efe *dderwen* fawr o freninbren gangenfawr, gyrhaeddbell, gacadfrig, wasgawdlen, a thani y gwnaeth ef gór a chyrch golychwyd.—*Barddas*, i. 258.

Hi a gladdwyd is law Bethel, dan *dderwen*.
Gen. xxxv. 8 (cf. 4).

Y *dderwen* fwyaf ei maintioli, yr ŷm ni yn cofio clywed am dani, oedd 'Breninbren y Ganllwyd.'
Hugh Davies: Llysieuaeth Gymreig, 182 (cf. 90, 183).

Derwen anwyw, *Derwen fythwerdd*, } evergreen oak (*Quercus ilex*).

Derwen goesog, common British oak (*Quercus robur*).

Derwen ddigoes, *Derwen ddigoesog*, } sessile-fruited oak (*Quercus sessiliflora*).

Ffon dderwen, an oaken stick or staff.

Pren derwen, an oak-tree.

Derwen ieuanc, a young oak, an oakling.

2. (transferred to other plants).

Derwen Caersalem, *Derwen Gaersalem*, } oak of Jerusalem (*Chenopodium botrys*).

Querculus, *derwen Gaersalem.*—*Meddygon Myddfai*, 292.

Derwen y ddaiar, germander (*Teucrium*).

Derwen fendigaid, common vervain (*Verbena officinalis*).

Quercula benedicta, y *dderwen fendigaid*, cas gan gythraul.—*Meddygon Myddfai*, 292.

O byddi claf o'r manwynnon, cymmer isgell neu ferwyn y *dderwen fendigaid.*—*Meddygon Myddfai*, ii. 798.

Derwgoed, *s.pl.* 1. oak-trees, oak-wood.—*C.C.* ii. 578.

Dy frodyr, rhyswyr yw'r rhai'n,
Derwgoed plwyf a gwlad Eurgain.
Gutyn Owain: G.B.C. 214.

2. an oak-wood, an oak-grove.

Llawen nos Iau lluniais oed,
Lle dirgel ger llaw *derwgoed*.
D. ab Gwilym, clix. 1 (cf. xcvi. 39).

Mae'n ei gylch, gyda mân goed,
Llwyn dirgel yn a *derwgoed.*—*Rhisiart Phylip.*

Derwin, *a.* [derw] oaken, made of oak.

Yn i fwyf gynnefin a *derwin* wyt
Ni thorraf am car fy ngharennyt.
Meilir: M.A. i. 191 (cf. 34, 159, 231, 426, 433).

Barilau derwin, oaken barrels.

Estyll derwin, oaken planks.

Bryn Derwin, oak-hill: a place-name.

Ac yna yd aruolles Llywelyn ae wyr yn diofyn ym *Bryn Derwin.*—*Brut y Tywysogion*, 340 (cf. M.A. i. 344).

Derwlwyn, -i, *sm.* a grove of oaks, an oak-grove.

Tri chyw'r un eryr yn trychu cynllwyn;
Tri *derwlwyn* addwyn yn cynnyddu.
L. G. Cothi, I. xiii. 69.

Derwlys, *sm.*=*Derlys*, *Derllys*.

Derwr, wyr, *sm.* [der+gwr] a churl, a surly fellow.

Derwydd, -on, *sm.* [derw: Br. *drouiz* (pl. *drouized*); Ir. *draoi* (gen. *druadh*)=magician; L. (pl.) *druides*, *druidae;* Gr. δρυΐδης] 1. a druid, one of the priests and wise men of ancient Britain and Gaul. The word in this sense is simply historical, and all the positive information which we possess with respect to the

Digitized by Google

ancient druids is derived from Roman and Greek sources, especially Caesar; for the oldest Welsh writings, with very trifling exceptions, date no further back than about the 12th century, at least in the state in which they have come down to us.

2. a learned man, a sage, a philosopher. As the druids of the ante-Christian period were the depositaries of learning and wisdom, the name was occasionally in medieval times applied to men of light and leading without any reference to their creed, and possibly some of them may have arrogated the title to themselves. This seems to be the meaning of the word in the writers of the 12th, 13th, and 14th centuries; and no trace of druidism is necessarily found in their poems. It was a revival of the name, not of the tenets and practices; just as the modern Eisteddfod confers upon aspirants the distinction of *derwydd*, as well as *bardd* and *ofydd*, the only difference being that the modern *derwydd* must usually be a minister of religion. The division, whether actual or theoretical, of the literati into three classes, *bardd*, *ofydd*, and *derwydd*, belongs to a later date. It is highly probable that the bards of the 12th and succeeding centuries, who assumed the name of *Derwyddon*, knew no more about druids and druidism than we do in the last decade of the nineteenth.

Derwyddon doethur darogenwch i Arthur.
Taliesin: M.A. i. 31.

Dysgogan *Derwyddon* tra mor tra Brython.
Taliesin: M.A. i. 75.

Addwyn i Ddragon ddawn y *Derwyddon*.
Taliesin: M.A. i. 38.

Dysgogan *Derwyddon* maint a dderfydd
O Fynaw hyd Lydaw yn ei llaw a fydd.
Golyddan: M.A. i. 158.

Cred i Dduw nad *Derwyddon* darogant
Ban torrer Din Breon braint.—*Meigant:* M.A. i. 161.

Och Duw na dodyw
Dydbrawd can deryw
Derwydon weini nad.—*Gwalchmai:* M.A. i. 202.

Ath folant feirdion *Derwydon* dor
O bedeiriaith dyfyn o bedeir or.—*Cynddelw:* M.A. i. 205.

Nis gwyr namyn Duw a dewinion byd
A diwyd *Derwydon*
O eurdorf eurdorchogion
Ein rif yn Riweirth afon.—*Cynddelw:* M.A. i. 212.

Dysgogan *derwyton* dewrwlad y esgar.
Cynddelw: M.A. i. 221.

Kynan darogan *derwyton* dy daw
Ef dy diw o Urython.—*Llyw. ab Llywelyn:* M.A. i. 289.

Dywawd *derwyton* dadeni haelon
O hil eryron o Eryri.—*Llyw. ab Llywelyn:* M.A. i. 304.

Bydynt *derwyddyon* prydyon Prydein
Nes gwaew yn adein nyt attygit.
Phylip Brydydd: M.A. i. 377.

Enir ab Ithel, a elwir Enir Fardd, a fu frenin doeth iawn a bardd da; efe a wnaeth drefn dda ar ddoethineb, ac a roddes fawr barch i feirdd a *derwyddon*, fal yr aeth ef a hwynt yn ben ar y byd am ddoethineb a gwybodaeth. *Derwyddon* yn yr amser hyny y gelwid gwŷr wrth ddysg a ffydd.—*Iolo Mss.* 5.

Tegid ab Baran, a fu frenin call a bardd da; efe a wnaeth drefn dda ar ddysg a gwybodaeth . . . ac a wnaeth gynghorfa beirdd a *darwyddon*, fal y buasai gynt.
Iolo Mss. 7 (cf. 275, 278).

Yn amser Beli Mawr ab Manogan a'u doded ar addysg a gwybodau teuluaidd, ac ar swydd a chelfyddyd teuluŵr o fardd cadeiriog, nid amgen na *Derwydd;* sef *Derwyddon* y gelwid y beirdd teulu ym mhrif amseroedd cyfannedd Ynys Prydain.—*Barddas*, i. 88.

Tri syrth y sydd o'r Prifeirdd; nid amgen na Bardd pendant o gyssefin gaffaeliad, neu Brydydd. . . Yr ail o'r Prifeirdd yw Ofydd, ac arno y mae gwybod wrth lên llythyrog, sef darllen ac ysgrifenu, a medru rhyw gelfyddau a fônt er lles i feirdd ac i fyd. . . Yn drydydd o'r Prifeirdd yw *Derwydd*, ac arno y mae athrawiaethu wrth bwyll, ansawdd, a gorfod, a dewis a welo'n wirionedd, o gyssefin addysg a defodau a barn y prydyddion. . . Ac am ddysg a gwybodaeth wrth bwyll, ansawdd, a gorfod, penaf o'r beirdd yw *Derwydd.*—*Barddas*, ii. 12 (cf. 28, 44, 66).

Tri rhyw Prifeirdd y sydd: Bardd braint, neu Brifardd pendant, wrth fraint defod, a llafar gorsedd; a'i swydd yw llywodraethu: Ofydd, wrth awen, ymgais, a dichwain; a'i swydd yw awenyddu; a *Derwydd*, wrth bwyll, ansawdd, a gorfod; a'i swydd yw athrawiaethu.
Trioedd Braint a Defod.

Ni ellir *derwydd*, medd *derwydd*. —*Diareb.*

Ar ol sylwi ar y cyfan o'r hyn a ellir ei gasglu ym mhlith y Beirdd Cymreig, a thraddodiadau Cymru, mewn perthynas i Dderwyddiaeth, a'r cyfan a ellir ei bigo allan trwy fanwl chwilio awdwyr pellenig, a chymharu hyn oll â'r gweddillion maenol ac ereill ar glawr, braidd y gellir dywedyd ein bod yn meddiannu mwy o wybodaeth am grefydd a defodau y *Derwyddon* nag am eiddo y cynddiluwiaid.
Carnhuanawc: Hanes Cymru, 41 (cf. 15—18).

In the subjoined quotation *Derwyddon* is used for the Magi, or Wise Men of the East (*Matt.* ii.):

Newyd anaw ny mawr glywant dynyadon
Guir y rat gwas porthyant heb wr adon
Dygwerthydyd pob vchis rac *derwydon*
Nudris ny widyn llarychwel gwelet mabon
Dydugant thus ac eur delus o Ethiopia.
Taliesin: A.B. ii. 174 (M.A. i. 42).

In a tractate on Blazonry, written about four centuries ago, Aristotle is called *Derwydd:*

Achos arall y dywaid y *Derwydd* Alystotlys. . . Ac felly y mae awduriaid a *derwyddon* yn ei farnu.—*Llanover Ms.*

¶ *Derwydd* is a rotundison (rhyming with *-ydd*); but some recent writers seem to mistake it for a sparsison (*-ŵydd*). Pughe's derivation is *dar*+*gwydd*, a compound which would naturally signify superior knowledge; but he explains it as meaning 'one who has knowledge of, or is present with; a theologian; a druid.' This word, there can be little doubt, is connected with *derw* (δρῦς); for most of the classical writers who refer to the Druids, mention the high veneration in which they held that tree, and the mistletoe growing upon it.

On the subject of Neo-Druidism, reference may be made to *Barddas*, 1862; *Iolo Mss.* 1848; Pughe, s.v. 'Derwydd,' and Preface to *Llywarch Hen*, 1792; Edward Williams (Iolo Morganwg), *Poems*, 1794; Ed. Davies, *Celtic Researches*, 1804, and *Mythology of the Druids*, 1809.

Derwydd, *s.pl.* [dâr (derw)+gwŷdd] oak-trees, oaks.

Quercus, derwen, darwydden, deri, *derwydd*, derw.
Meddygon Myddfai, 292.

Derwyddaidd, *a.* like a druid.

Derwyddes, -au, *sf.* a druidess, a female druid.

Derwyddfardd, feirdd, *sm.* a druid-bard.

Tair cangen celfyddyd barddoniaeth: cyntaf, prif-fardd. . . . Ail, ofydd. . . Trydydd, *derwyddfardd*, a hwnw a fydd o fardd gorseddog graddedig, a gwarantedig o ddoethineb, a gwybodau, ac o dafawd i ddangaws barn a phwyll ar wybodau.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 296.

A dodi gwnedd i bob un o'r tair gradd, nid amgen, glas i Brifeirdd, gwyrdd i Ofyddfeirdd, a gwyn i'r *Derwyddfeirdd.*—*Barddas*, i. 34 (cf. ii. 26).

Dowch chwithau â'ch hymnau heirdd,
Ddiwair addfwyn *Dderwyddfeirdd.*—*Gronwy Owain*, 83.

Wylai'r Awen uwch ben bardd,
Wareidd-fwyn, uwch *derwyddfardd.*—*Tegid:* Gwaith, 27.

Digitized by Google

Derwyddiaeth, *sf.* druidism.

Yr ydym yn darllen fod *Derwyddiaeth* yn hanfodi mewn mwy o burdeb yn Ynys Prydain nag ar y Cyfandir.
Carnhuanawc: H.C. 15 (cf. 17, 18, 31).

Ai hon yw'r noson, teimlaf iasaeth,
A roddo ddiwedd i *Dderwyddiaeth?*—*Tegid:* Gwaith, 24.

Derwyddol, *a.* druidical, druidic.

Dechreua y bardd gyda mynegu yr amrywiol rithiau dan ba rai yr hanfodasai; a'r sawl y mae rhai yn barnu eu bod yn arwyddocäu yr athrawiaeth *dderwyddol* o drawsfudiad eneidiau.—*Carnhuanawc:* H.C. 20 (cf. 21, 27, 29, 31).

O'r pryd hyny allan, ymddangosodd y grefydd *dderwyddol* mewn dull rheolaidd.
D. Peter: Hanes Crefydd, 8 (cf. 13).

Yr oedd yn rhaid bod meini y cylch cynghrair, yn ol y ddeddf *dderwyddol,* yn yr un gyflwr ag y daethent o'r gloddfa.—*Cylchgrawn,* ii. 6 (cf. i. 317).

Melwas . . . oedd, medd hen chwedl, enw *derwyddawl* ar ddyn.—*Tegid:* Gwaith, 15.

Derwyddonawl, *a.* druidical.—*P.*

Derwyddoni, *sm.* druidism.—*P.*

Derwyddoniaeth, *sf.* druidism.

Llyma Lyfr y Barddas, sef *Derwyddoniaeth* Beirdd Ynys Prydain, a dynais i, Llywelyn Sion o Langewydd, o'r hen lyfrau.—*Barddas,* i. 224.

Llyma *Dderwyddoniaeth* Beirdd Ynys Prydain.
Barddas, i. 204.

Tair cangen addysg Beirdd Ynys Prydain: Barddoniaeth neu Brydyddiaeth. . . Ail yw *Derwyddoniaeth;* ac ar dderwydd y mae dysgu wrth bwyll, ansawdd, a gorsedd, herwydd y bo trefn, a deddfoldeb, a rhiniau dwyfoldeb yn gofyn. Trydydd yw Ofyddiaeth.
Barddas, ii. 42 (cf. 44, 66).

Deryw, *v.* an irr. perf. of *Darfod,* q.v. It is sometimes written *derw.* The pl. *derynt* (given by Davies) is of rare occurrence.—*Mab.* 13, 60, 72, 73, 75, 157, 176, 178, 179, 287.

Gur y gaur dyraur *deryu* yg kreulan . . .
Kan *deryu* dor glyu glot diogan hael.
Cynddelw: M.A. i. 240 (cf. 202, 212, 247).

Kanys *derw* ymi ymffydyaw ac ef ar ymlad.
Yst. de Carolo Magno, col. 444.

Neur *deryw* y wyr Ruuein blinaw weithyon.
Yst. Bren. Bryt.: LI.C.H. ii. 125 (cf. 92).

Cwyn yw can *deryw* ni'm deiryd gortho.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 455.

Diolwch y Duw neur *deryw.* ym wneuthur kymeint a hynn.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 423.

Deurudd loew angel melyn,
Dwred aur, *deryw* y dyn!—*D. ab Gwilym,* ccxxxvi. 51.

Amser Saeson a *dderyw,*
Mudaw o Sais, madws yw.—*L. G. Cothi,* i. xxiv. 33.

Y dref wenn yn y dyffrynt
Llawen y bydeir wrth gyuanrud [*al.* gyvamug] kat
Y gwerin neur *derynt.*
Llywarch Hen: A.B. ii. 285 (M.A. i. 110).

Des, -au, *sm.* system, order; rule.

Gwn gerddau, *ddesau* ddisaw,
A champau, a moesau masw.—*Ieuan Ith. ab Ieuan Llwyd.*

Deseb, -au, -ion, *sf.* system.

Rhifiaeth, a olyga wyddor a chelfyddyd yn gystal, ond nid y *ddeseb* oll; eithr a gymhwysir at y rhan gyffredinaf mewn arferiad.
J. W. Thomas: Elfenau Rhifyddiaeth, 1 (cf. 40—76).

Deseb yr haul, the solar system.—*Elfenau Seryddiaeth,* v.

Desebol, *a.* systematical.

Desgl, -au, *sf.*=*Dysgl.*

Disgwylwraig *desgl* saig y saint.—*D. ab Gwilym,* li. 30.

Desgyn, *v.* [dy-+esgyn] to ascend, to rise, to mount. See *Esgyn,* &c.

A chyd na bo gwael cynghanedd gymmysg o sain a chroes cydbwys, a'i hawdl yn gyfansoddedig, sef yn *ddesgynedig,* yn unrhyw fan ar gerdd, amgen nag ar y fraich neu'r ban olaf o gwpl neu bennill.—*Cyfrinach y Beirdd,* 26.

Desgyneb, *sf.* a climax; a figure in rhetoric so called.—*P.*

Desgynedigaeth, -au, *sf.* } ascension; the act
Desgyniad, -au, *sm.* } of rising up.—*P.*

Desgynol, *a.* ascending, rising.—*P.*

Destl, *a.* neat, nice, delicate, trim, spruce, fine; dainty.

Ystola wedd *destl* a wisg.—*L. G. Cothi.* (*D.*)

Naf eryr teyrn rac tempestyl kedeyrn
Cadwei dud y dan *destyl.*—*Llyw. ab Llywelyn:* M.A. i. 294.

Destlad, } -au, *sm.* a making neat, nice, or
Destliad, } tidy; a putting in trim.

Destlaidd, *a.* rather neat or tidy.

Destlfawr, *a.* very neat, fine, or nice; elegant.—*M.A.* i. 389.

Destlog, *a.* having neatness or primness; neat, nice.

Destlu, *v.* to make neat, nice, trim, or spruce.

Destlus, *a.* neat, nice, fine, trim, tidy, tasteful.

Cyweirio brathau yn *ddestlus.*—*D.*

Ac yna y teir morynnyon a arwedassant Oger y dan oliwyden . . . ac odyna a olchyssant y vratheu yn *destlus* ac ae dodassant y gysgu.—*Ystoria de Carolo Magno,* col. 435.

Dau ystlys gwas *destlus* gwiw.
Dafydd ab Gwilym, clxxxviii. 16.

Ac y dann hynny tenerion hirwnion draet a chynngrynion vysed arnunt gwyn *destlussion.*—*Ymborth yr Enaid,* ¶ 23.

Gwisg yn ei ieuenctid goron *ddestlus,*
Ac yn ei henaint bydd Ior dawnus.
Iolo Mss. 277 (cf. 268, 272).

Canfyddir yr ysgolhaig yn symledd *destlus* a phrydferth yr ymadroddion.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 660.

Destluslathr, *a.* neat and elegant, elegantly fine or neat; exquisitely or highly delicate.

Ac odyna tenerder yr holh ysprytawl gnawt *destluslathr* cymmeredic or Yspryt Glân a gwynvydedic enedigaeth o Vair Wyry.—*Ymborth yr Enaid,* ¶ 23.

Destluslwys, *a.* sacredly or purely elegant.

A rwng y deu rudhelhion lygeit ydoed yn cyrchu byrrgrwn *destluslwys* eneu. . . Ac odyna yn y byrrgrwn *destluslwys* eneu ydoed manwynion dhannedh.
Ymborth yr Enaid, ¶ 23.

Destlusrwydd, *sm.* neatness, niceness, nicety.

Tordyn yw tra gorthrymder y galon gann ormodh *destlusrwydh.*—*Ymborth yr Enaid,* ¶ 9.

Detheu, *a.* [=deheu: cf. *decheu*] dexterous, skilful, skilled, ingenious.

Yma gorwedd wedi marw,
Yn dra *detheu* mewn arch dderw.—*D. Davis.*

Dyn detheu iawn, a very dexterous or skilful person.

Dethol, } *v.* [dy-+ethol: L. *delectus?*] to se-
Detholi, } lect, to choose, to elect; to pick, to pick out.—*Esa.* i. 29.

Detholeis o les o Leissyawn uy rwyf
Yn rwytualch am y dawn.
Cynddelw: M.A. i. 242 (cf. 329, 371, 414.

Ac yno y perys Godwin dyvynnv paub or tywysogeon hyt yg Kaer Wint vrth *dethol* brenhin. . . Llyma auch brenhin chwi heb ef. . . A hwn a *detholaf* vi yn vrenhin.
Brut y Saeson: M.A. ii. 511.

Duw a roes rydtit udhunt y *dhethol* y da mawr. a thal am wrthot y drwg.—*Lucidar,* ¶ 19 (cf. 51, 77).

Ac eilweith y ryuelawd y Kymry. ac a *detholassant* Madawc uab Llywelyn yn dywyssawc udunt.
Brut y Saeson: LI.C.H. ii. 402.

Lloegr yn *dethol* llugyrn doethion.—*Gronwy Owain,* 101.

Yr oedd Matthew, Ioan, Pedr, a Iudas, o gyfeillach y deuddeg a *ddetholasai* yr Iesu yn dystion o'i fuchedd a'i athrawiaethau.—*Edward Samuel:* Grotius, iii. 5.

Digitized by Google

Dethol, *a.* select, chosen, picked, selected, choice.

Yna y kynnullwys Arthur a oed o gynifywr yn teir ynys Prydein . . . ac a oed o gicwr *dethol.*—*Mabinogion,* 136.

Ior *dethol* ar y doethion.
Dafydd y Coed: M.A. i. 493 (cf. 242, 295, 324).

Ar ol y *dethol* ydd aid, nos a dydd,
Obry at deunydd llew'r Brytaniaid.
L. G. Cothi, 1. xxvi. 51.

Gwr cywirgoeth doeth *dethola*f o Uon.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 368 (cf. 337, 406, 479).

Daethym i ddinas *ddethol,*
A'm hardd was ieuanc i'm hol.—*D. ab Gwilym,* cxlii. 1.

Perffaith yw dy waith, Duw Ion,
Dethol dy ffyrdd a doethion.—*Gronwy Owain,* 79 (cf. 67).

Mae rhai yn dywed ddarfod i Grist gyssegru drwy nerth ei allu Dwyfawl . . . rhai yn dywedyd mai drwy nerth pum gair *detholedig* . . . y cyssegrodd Efe.—*M. Cyffin:* Diff. iii. 6.

Detholion, selections.

Dethol, *v.*=*Deol.*

A gwedy llad y neill y *detholes* y llall o Rufein ymeith.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 117.

Detholadwy, *a.* that may be selected.

Detholedig, *a.* selected, chosen, elect; choice.

A glywaist ti chwedl Dirynig,
Milwr doeth *detholedig?*
Digawn Duw da i unig.—*Iolo Mss.* 256.

Am na weleis heb ef yr ys seith mlyned undyn onyt pedwar dyn *ditholedic* a thitheu yr awr honn.—*Mabinogion,* 55.

Detholedigion, choice things, selections.

Y detholedigion, the chosen or elect.

Yr Arglwyd o vyrhaa y dydyeu hynny o achaws *y detholedigyon.*—*Prophwydoliaeth Sibli,* ¶ 16.

Detholedigaeth, -au, *sf.* the act of selecting, choosing, picking, or electing; selection; election.

A gwedy dyvot paub onadunt ygyt hyt yr escopty ger bron y vrenhines: ymdidan a orugant llawer am y *detholedigiaeth.*—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 511.

Detholiad, -au, *sm.* a selecting or choosing; selection.

Detholiadau, selections.

Detholiadol, *a.* selective; discriminative.

Detholiaid, *s.pl.* choice ones, chosen persons; the chosen or elect.

Efe yw'r dethawl fry o'r doethiaid,
A'r doetha' eilwaith o'r *detholiaid.*
L. G. Cothi, 1. xxvi. 49.

Detholwr, wyr, } *sm.* one who selects or chooses,
Detholydd, -ion, } a selector, a chooser.

Dĕu, *v.* to come; to arrive.—*P.* The verb is not known to occur in the infinitive, but it seems to be one of the irregular forms, in common with *daw, daeth, dêl,* to conjugate *dyfod,* which is not inflected.

Dĕu, *v.* [de] to separate, to part, to divide; to become separated or divided.

Kynteuin kein ar ystre
Pan vrys ketwyr y gatle
Mi nyt af anaf am *de.*
Llywarch Hen: A.B. ii. 257 (M.A. i. 127).

Gweleis le am *de* am danaw heddiw
Hawd y gallaf wylaw.
Gruffydd ab Gwrgeneu: M.A. i. 374.

Nid angau Freuer a'm *de* heno
Am damorth brodyrdde
Dihunav wylav vore.—*Llywarch Hen:* M.A. i. 110.

Deuad, -au, *sm.* [dĕu] a coming; arrival; approach.

Deuad, -au, *sm.* [dau] a dyad.—*P.*

Deuair, *a.* [dau+gair] 1. consisting of two words or expressions. 2. consisting of two lines (in poetry).

Cywydd deuair: see *Cywydd.*

Deuryw *gywydd deuair* y sydd; *cywydd deuair* fyrion, a *chywydd deuair* hirion.—*Pum Llyfr Cerdd.* 66.

Deuair, *s.pl.* two words or expressions.

Oger ae gwant . . . ac a dywawt *deueir* letneis.
Yst. de Carolo Magno, col. 430.

Dyred, na ddywed *ddeuair,*
Lle mae a garaf, lliw Mair!—*D. ab Gwilym,* lxxii. 13 (clxvii. 7; clxx. 21; clxxx. 25; ccxx. 35).

Deuair oedd raid eu deall;
Gair mam, gair llysfam yw'r llall.—*Tudur Aled.*

Deuau, *s.* a pl. of *dau,* two.

O bob mil, ac ednant Nef,
A phryf, o seithiau, *deuau* doynt i mewn.
W. O. Pughe: C.G. xi. 734.

Deuawd, odau, *sm.* [dau] a duet or duetto.

Deuban, *a.* doubly fulled or milled (as cloth).

Deuban, *sm.* cloth doubly fulled or milled; doubly thick material.

Gwisg a ddanfones Iesu
Is dail it' o osai du,
A dwbl gwell no *deuban,*
Mawr ei glod, o'r mwrai glân.—*D. ab Gwilym,* cxxx. 9.

Deubar, *s.pl.* a pair, a couple, two of a kind or sort.—2 *Bren.* v. 23.

Deubar o ychen, two head of oxen.

Deubar o ychen diball
Wrth un aradr, cadr, call.—*D. ab Gwilym,* lxxiv. 21.

Deubar, *a.* consisting of two pairs, couples, or sets; being two of a sort; double.

A'u plant hwy oedd yn llefaru y naill hanner o'r Asdodiaeg, ac heb fedru ymddiddan yn iaith yr Iuddewon, ond yn ol tafodiaith y *ddeubar* bobl.—*Neh.* xiii. 24.

Deubarth, *s.pl.* two parts or divisions. See *Deuparth.*

Deubarth, *a.* consisting of two parts or divisions; bipartite.

Deubarthadwy, *a.* bipartile, bipartible.

Deubarthiad, -au, *sm.* bipartition, bisection; bifurcation.

Deubarthol, *a.* of two divisions or sections; bipartient.

Deubarthu, *v.* to bisect; to cut or divide into two equal parts.

Deubedog, *a.* [dau+ped] two-footed, bipedal, biped.

Deubedog, -ion, -od, *sc.* a two-footed animal, a biped.

Deuben, *s.pl.* two heads; two ends; a pair. Cf. *Deupen.*

Deuben o feirch, } two head of horses, a pair
Deuben o geffylau, } of horses.

Deuben, } *a.* [pen] 1. two-headed, bice-
Deubenog, } phalous, bicipital, biceps. 2. long-headed, far-seeing.

Deubeniaid Meirionydd, the long-headed men of Merioneth.—*C.S.*

Deubeth, }
Deupeth, } *s.pl.* two things or objects.

Cariat yw nebun vywyt yn cyssylhtu *deubeth* ynghyt, neu yn eudhunaw eu cyssylhtu.—*Ymborth yr Enaid,* ¶ 14.

Deubeth yt' a debygais.—*D. ab Gwilym,* cclvii. 25.

Digitized by Google

Y mae'n debyg mewn *deubeth*
I flaen ffiam felen ei phleth.
Dafydd Nanmor: G.B.C. 158.

Ac o herwydd bod *deubeth* yn anghenrheidiol i'r perwyl hwnw, am hyny y dosperthir y llyfr hwn yn ddwy ran.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. i. 1 (cf. iv. 2, 4; x. 1; ii. ii. 8; iv. 26).

Gweled deubeth o'r un, to see two things of the one; to see double.—*Diareb.*

O hyny y dyfydd rhyddineb, a dewis, a gallu tawl, i ddyn, fal y dichon weithredu yr un a fyno a'r [o'r] unrhyw *ddeubeth.—Barddas*, i. 210.

Deubi, *v.* an irr. future of *Dyfod* (q.v.): the same as *dybi, dybydd, deubydd, dyfi. Deubo*, a second future of the same verb.

Haelon am nacco nis *deubi* a rotho.
Taliesin: M.A. i. 34 (cf. 58, 72, 75).

Rac Prydain poen Owein ai *deubit* . . .
Edmyccawr hyd frawd ffawd ai *deubydd.*
Meigant: M.A. i. 161 (cf. 33, 111, 158).

Deublyg, -ion, *sm.* [plyg] a double; a fold, a plait. See *Dyblyg.*

Yn fy neublyg, in my double.

Yn ei deublyg, in her double.

Deublygion, doubles.

Deublyg, *a.* double, twofold; bifarious.

Mae yn ddeublyg, it is double.

Deublygiad, -au, *sm.* a doubling, duplication.

Deublygiaeth, -au, *sf.* duplicature; reduplication.

Deublygiant, *sm.* duplication, reduplication.

Deublygol, *a.* duplicate, doubled, reduplicative.

Deublygrwydd, *sm.* doubleness.

Deublygu, *v.* to duplicate, double, or fold.

Deucan, **Deugan**, *a.* two hundred.

A awn ni, a phrynu gwerth *deucan* ceiniog o fara?
Marc vi. 37.

Deudafodiog, *a.*=*Daudafodiog.*

Deudneudiaith, *sf.* [from *deud* and *gneud*, the Venedotian pronunciation of *dyweud* or *dweyd* and *gwneud* or *gwneyd*, and *iaith*] the dialect of North Wales, so called sometimes by those who speak the *Deheubartheg* (the Silurian and Demetian, especially the former).

Diwyd nadwr *Deudneudiaith*,
A swn drwg y sy'n ei draith.
Iolo Morganwg, i'r Greal (1805—7).

Y mae'r gangen hon [y Wenhwyseg] o'n hiaith yn burach yn ei geiriau a dull ei hymadroddion na'r Ddeheubartheg, sef tafodiaith Caerfyrddin, Penfro, a Cheredigion; a mwy fyth felly na'r *Ddeudneudiaith*, sef iaith Gwynedd, er bod barn i'r gwrthwyneb wedi myned allan yn rhyw fodd ne'u gilydd, heb sail yn y byd ond bost y *Deudneudwyr* i'r cyfryw farn.—*Iolo Morganwg.*

Deudneudwr, wyr, *sm.* a sportive name sometimes given to one who speaks the language or dialect of North Wales, as distinguished from the southern dialect, or *Deheubartheg;* a Venedotian. See *Hwntwys.*

Y mae'r *Deudneudwyr* wedi gwrthrywio'r Gymraeg yn ofnadwy.—*Iolo Morganwg.*

Deudod, -au, *sm.* [dau] a dyad; a binary.

Deudreigl, *a.* having two inflexions, mutations, or cases.

Enw deudreigl, a noun of two inflections, a diptote.

Llythyrenau deudreigl, letters of two mutations =*b, d, g.*

Deudreigliaid, *s.pl.* 1. diptotes. 2. letters of two mutations.

Deudro, -ion, *sm.* two turns, two twists.

Deudro, *a.* consisting of two turns or rounds; double, doubled.

Deudroed, **Deutroed**, *s.pl.* two feet, the two feet; the feet.—*A.B.* ii. 121.

A dyuot a oruc y llew rwng *deutroet* Owein dan y bwrd.
Mabinogion, 188 (14, 51, 59).

Y rei gwedy elont yn dadle a adawant *deudroet* a chlust a lloscwrn.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 151.

Ni chafas *deudroed* hoed hwy
Er ym oed.
D. ab Gwilym, lxiii. 6 (cf. i. 81; cliv. 40; clxxxix. 29).

Blin a thrwm heb law na throed,
Ef ddaw adref â'i *ddeudroed.—Tudur Aled.*

Y mae dau droed i'r Arglwydd . . . a'r *ddeudroed* hyny yw trugaredd a gwirionedd; ac y mae Duw yn gosod y *ddeudroed* hyn ar galonau y rhai a ymchwelant ato ef, ac y mae yn rhaid i bob pechadur a dro yn ddiffuant at yr Arglwydd, ymafiyd yn dyn yn y *ddeudroed* yma. . . Am hyny, i gael bod yn gadwedig, y mae yn rhaid iddo gwympo i lawr yn ostyngedig, a chusanu'r *ddeudroed* hyn.
Dr. Davies: Llyfr y Res. ii. iv. 2.

Ar ddeudroed, on foot, afoot.

Deudroed, **Deutroed**, *a.* two-footed, biped, bipedal.

Deudroediog, **Deudroedog**, *pl.* deudroedogion, *sc.* a two-footed animal, a biped.

Ni fedrwn lai na gweled yn yr ymdrech hon ddarluniad rhy gywir o amryw ymdrechiadau a welir, ac a glywir son am danynt yn y byd; a hyny rhwng y *deudroedogion* a ymhonnant fod yn arlwyddi y grëedigaeth.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 289.

Deudrwch, *a.* [dau+trwch] doubly thick.

Kyndylan callon gwythhwch
Pan disgynnei ym priffwch cat
Kalaned yn *deudrwch.—Llywarch Hen:* A.B. ii. 280.

Deudyllog, *a.* [twll] having two holes, apertures, or openings; biforate.

Deuddaint, **Deuddant**, *a.* [dant] having two teeth or tines; bidental; bidentate.

Deuddeg, *a.* [dau+deg: C. *dewdhec, dowdhec;* Br. *daouzék;* Ir. *dadheag;* Ga. *dadheug;* Gr. δώδεκα; L. *duodecim*] twelve.

Ac yna yd aeth ef yn y geluydodeu. ac y dechreuawd dangos y hut. ac yd hudwys *deudec* emys. a *deudec* milgi bronnwyn du bob un o honunt. a *deudec* torch. a *deudec* kynllyuan arnunt . . . a *deudec* kyfrwy ar y meirch.
Mabinogion, 61.

Deudec Gwenabwy vab Gwen.—*Aneurin:* God. 405.

Y veint ef oed *deudec* kyuut yny hyt.
Yst. de Carolo Magno, col. 398, 410, 415, 416.

A'r dydd yw fu o'r *deuddeg*
Diwrnod, teilyngdod teg.—*D. ab Gwilym*, cliv. 49.

Deuddeg llwyth Israel, the twelve tribes of Israel.—*Gen.* xlix. 28; *Matt.* xix. 28.

Mae'r *deuddeg llwyth* yng Nghaeaw,
Mae pob llwyth yn wyth neu naw.
L. Glyn Cothi, iii. x. 17.

Y deuddeg apostol, *Y deuddeg ebystyl*, the twelve apostles.—*Dad.* xxi. 14.

Kenedyl Duw heb y Chyarlys . . . y rei a borthwn ni beunyd tri ardec onadunt yn enw yr Arglwyd ar *deudec ebystyl* oc an deuawt.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 395.

Fal y mae Crist a'i *ddeuddeg ebystol* yn barnu'r holl fyd, felly bydd y brenin a'i ddeuddeg wŷr doethion yn barnu'r wlad.—*Iolo Mss.* 12.

Deuddeg ebystyl diddan.—*Gronwy Owain*, 94.

Digitized by Google

Deuddeg mis, twelve months.

Deuddeg ar hugain, thirty-two.

Deuddeg a deugain, fifty-two.

Deuddeg a thrigain, seventy-two.

Deuddeg, -au, *sc.* and *pl.* twelve; a dozen.

Yn Elim yr ydoedd *deuddeg* o ffynnonau dwfr.
Num. xxxiii. 9 (cf. Ios. iv. 3).

Deuddeg o Beniamin . . . a *deuddeg* o weision Dafydd.
2 *Sam.* ii. 15.

Deuddeg o ddynion, twelve men, a dozen persons.

Deuddeg ar y gloch, } twelve o'clock.
Deuddeg o'r gloch, }

Y deuddeg, the twelve (=the twelve apostles). —*Marc* x. 32; xiv. 17, 20; *Luc* vi. 13; viii. 1; *Ioan* vi. 70, 71; xx. 24.

Aed o weddi y *deuddeg*,
Ac o wyrth Duw, yn graith deg.
L. Glyn Cothi, iv. xxii. 47.

A'i weled ef gan Cephas, yna gan y *deuddeg*.
1 *Cor.* xv. 5.

[*Dau ddeg*=twenty.]

Deuddegban, *a.* consisting of twelve lines.—*Cyfrinach y Beirdd*, 87, 88.

Deuddegban, -au, *sm.* a stanza of twelve lines.

Deuddegfed, *a.* twelfth.—*Dad.* xxi. 20; *Esth.* iii. 7, 13; viii. 12; ix. 1.

Deudecuet eu e medyc teylw.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 40.

Ar hynny nachaf y iarll yn dyuot y ymwelet a Gereint ar y *deudecuet* marchawc urdawl.—*Mabinogion*, 277.

Ar *deudecuet* dyd o Vei y bu uarw.
Yst. Bren. Bryt.: LI.C.H. ii. 255 (cf. 400).

Ym penn y *deudecuet* diwarnawt.
Ystoria de Corolo Magno, col. 386.

Bu uarw Kadwaladyr Uendigeit uab Kadwallawn uab Catuan brenhin y Brytanyeit yn Rufein y *deudecuet* dyd o Vei.—*Brut y Tywysogion*, 2.

Deuddegfed, *sc.* twelfth; a twelfth part or portion.

Mi a af ar vyn *deudecuet* yn rith beird arglwyd y erchi y moch.—*Mabinogion*, 60.

Hyd yn lled degfed neu *ddeuddegfed* modfedd.
Barddas, i. 142.

Y deuddegfed (f. *y ddeuddegfed*), the twelfth.

Deuddegol, *a.* relating to twelve, duodecimal.

Deuddegolion, duodecimals.

Deuddegplyg, } -ion, *sm.* that which con-
Deuddengmhlyg, } sists of twelve folds or leaves; duodecimo.

Deuddegplyg, } *a.* twelve-fold, duodecuple;
Deuddengmhlyg, } duodecimo.

Llyfr deuddegplyg, a duodecimo book, a book in twelves; a duodecimo.

Deuddegran, *a.* consisting of twelve shares or parts.

Deuddegsill, *a.* consisting of twelve syllables.

Anghen y gyhydedd hir yw ban *deuddegsill*.
Cyfrinach y Beirdd, 90.

Deuddegsill, -ion, *sf.* a verse of twelve syllables.—*P.*

Deuddegwaith, *a.* and *adv.* twelve times.

Deuddeng, *a.* twelve.

Deuddeng awr (=deuddeg awr), twelve hours.

Yn y dydd mae *deuddeng awr*.—*Thomas Owain.*

Deuddeng mlwydd, twelve years.

Deuddeng mlwydd oed, twelve years of age.—*Luc* ii. 42; viii. 42.

Deuddeng mlynedd, twelve years.

Deuddeng mrodyr (=deuddeg o frodyr, deuddeg brawd), twelve brothers.—*Gen.* xlii. 13.

Yna y doeth cof idaw kynghoreu y dat. ac y dywawt wrth y *deudeng mrodyr* maeth.
Amlyn ac Amig, col. 1069 (cf. 1115).

Deuddeng mis, } twelve months.—*Dan.* iv. 29.
Deuddeg mis, }

Y deuddeg arwydd: see *Arwydd*.

Yno y gellwch ddarllen am Baal, Moloch, Chamos, Melchom, Baal-Peor, Astaroth, Bel, y Ddraig, Priapus, y sarff bres, *y deuddeg arwydd*, a llawer o bethau ereill.
Edward Iames: Hom. i. 66.

¶ *Deuddeg*, like *deg*, is both an adjective and a substantive; but *deuddeng*, like *deng*, is an adjective only. *Deuddeng* affects the succeeding initial in the same way as *deng*, q.v.

Deuddengfenyw, *a.* dodecagynian.—*H. Davies*: Welsh Bot. 47.

Deuddengmlwydd, *a.* consisting of twelve years.

Deuddengmlwydd oed, twelve years of age, twelve years old.

Deuddengwaith, *a.* and *adv.* twelve times.

D. Pa sawl gwaith ydh ymdhangosses ef. M. *Deudhecwaith.*—*Lucidar*, § 39.

Deuddengwr, *s.pl.* twelve men.—*Deut.* i. 23; *Ios.* iii. 12; iv. 2, 4.

Yna galw ataw y *deuddengwr* hyn a orug Pilad.
D. Fychan: Efengyl Nicodemus, ii.

Deuddengwryw, *a.* dodecandrian.

Y deuddengwryw, dodecandria.—*Hugh Davies*: Welsh Bot. 45.

Deuddengwyr, *s.pl.* twelve men, twelve persons.

Nachaf *deudegwyr* aeduet eu hoet enrydedus y gwed.
Yst. Bren. Bryt.: LI.C.H. ii. 204.

Deuddengradd, -au, *sf.* and *pl.* twelve orders.

Deuddengradd nef, the twelve orders of heaven.

A gwyllt a gwar mor a dayar mawr ardwyat
A *deudegrad* nef a dioddef da a wydyat
Yr y haelder yr y niver vy Ner neirthyat
Bot yn diwed yr trugared yn tro garyat.
Casnodyn: M.A. i. 430 (cf. 247).

Deuddeiliog, *a.* [dail] bifoliate.

Deuddrwg, *sm.* two evils; a double misfortune.

Dêl iddaw, rhyw addaw rhwydd,
Deuddrwg am ei wladeiddrwydd!
Dafydd ab Gwilym, cxvi. 43.

Deuddeintiol, *a.* [deuddaint] bidental.

Deuddryll, *a.* [dryll] in two pieces, broken in two.

Guaedfreu gwaew dîheu *deudryll*
Gwaedryd gwae veirt am Byll.—*Cynddelw*: M.A. i. 254.

Eissyoes y dyrnawt a disgynnawd ar y march yny vyd y march yn *deudryll*.—*St. Greal*, § 47.

Ac a oed oe daryan yn y law. a dorres yn *deudryll*.
Yst. de Carolo Magno, col. 422.

Deuddull, } *a.* having two forms, biform,
Deuddulliog, } biformed.

Deuddyblyg, *a.*=*Dauddyblyg*.

Deuddydd, *s.pl.* two (successive) days; the space of two days (*biduum*).

Magna uab yn uyw ae uarw *deudyt*.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 271.

Digitized by Google

Gwedy gwneuthur y castell y bu *deudyd* yn aros dyuoedigaeth Goffar.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 56 (cf. 110).

Maelienydd *ddeuddydd* a aeth
Yn wan, weithian yn waethwaeth.
L. G. Cothi, i. xii. 17 (cf. vi. 59).

Chwi a wyddoch mai gwedi *deuddydd* y mae y pasc.
Matt. xxvi. 2 (cf. Marc xiv. 1).

Deuddwrn, *s.pl.* two fists or hands.

Ac eu *deudwrn* ymauel yg gwallt y benn ae dynnu gantaw yr llawr.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 412.

Dwy-ddarn wydr, *deuddwrn* ydynt,
Delwau o ia, dwylaw ynt.—*L. G. Cothi*, v. i. 57.

Deuddwrn, *a.* requiring the two hands (to grasp or handle), two-handed.

Cledd deuddwrn, a two-handed sword.

Chwareu â *chledd deuddwrn.—M.A.* iii. 197.

Deuddyn, *s.pl.* two persons.

Ar rwym a wneyit yna rwng *deudyn* a wnaethpwyt y rwng Gereint ar uorwyn.—*Mabinogion*, 262 (cf. 303).

Lle glwys bron, lle golas brig,
Lle *deuddyn* er llid Eiddig.—*D. ab Gwilym*, lxxviii. 9 (cf. xix. 39; xliv. 52; lxxxvii. 22; clxxxv. 9, 12).

I'r hon sanctaidd ystâd y mae'r *ddeuddyn* presennol hyn wedi dyfod yr awr hon i ymgyssylltu.
Ll. G. Gyffredin (Priodas).

Nid oedd ymddiddan *ddeuddyn*
Ond dy glod yn neutu glyn.—*Robin Ddu ab Siancyn.*

Pe bai *deuddyn* dall a byddair yn rhodio ar hyd ffordd sathredig.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 371.

Deuddyn un enaid oeddynt.—*Gro. Owain*, 50.

Deueiriog, *a.*=*Daueiriog.*

A garo ual Dewi *deu eiryawc* na vid.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 270.

Deuenw, } *a.* [enw] having two names, bi-
Deuenwol, } nomial, binominal, binominous.

Deufan, -au, *s.pl.* [dau+ban] two divisions; two lines; a couplet.

Caner yn ddiommedd *deufan* unodl, neu gwpl, ar y gyhydedd fer, neu ar un o'r tair byraf, mewn cynghog, neu glogyrnach, neu lamgyrch.—*Cyfrinach y Beirdd*, 27.

Deufan, } *a.* having two divisions; of two
Deufanog, } parts or lines.

Pennill deufan, a stanza of two lines; a couplet.

Deufanogion, couplets.

Deufath, *s.pl.* [math] two sorts or kinds.

Pa beth gan hyny y mae Duw yn ei wneuthur i geisio ynnill y *ddeufath* hyn!—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. ii. iv. 3.

Deufath, }
Deufathol, } *a.* of two sorts or kinds; double.

Y dull hon sydd *ddeufathol:* ammherffaith a pherffaith.
H. Perri: Egluryn Ffr. xxxvii. 1.

Yr ofn a fydd ar yr enaid rhag pob un o'r *ddeufath* angylion hynny.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. v. 11.

Deufath ddarymchwel y sydd.
Henri Perri: Egl. Ffraeth. xxvii. 1.

Deufed, *a.* [dau] second.

Ym mis Tachwed y mae tri. yr unuet ar bymthec. ar *deuvet* ar bymthec. ar deunawuet.
Meddygon Myddfai, i. 93 (cf. 90).

Y deufed, the second.

Y deufed ar bymtheg, the seventeenth.

Y deufed ar hugain, the twenty-second.

Deufettydd, *sm.* [deufed+dydd] the second day; the second day (of the week).

Deufin, *a.* [dau+min] having two edges, two-edged.

Yr uy llat y a llafneu *deuuin.*
Hywel ab O. Gwynedd: M.A. i. 278 (cf. 448).

Cleddyf deufin (=cleddyf deufiniog), a two-edged sword.

A, Dafydd! dy *gledd deufin*,
A'th waew rhudd, a wnaeth yr hin.
L. G. Cothi, ii. vi. 23.

Yn eu geneu bydd cerdd bob awr
Ein Duw, a'i fawr ryfeddod;
Ac yn eu dwylaw bydd i'w drin
Y *cleddyf deufin* parod.—*Edm. Prys:* Salm. cxlix. 6.

Deufin, *s.pl.* [=dau fin] two edges.

Mae *deufin* i'r mau dafawd
I dori gwŷdd, deri gwawd.—*Guto'r Glyn:* Iolo Mss. 316.

Cilied Deifr, caled *deufin.—D. ab Gwilym*, cxxxiv. 28.

Deufiniog, *a.* [deufin] two-edged.

Ac yn y law yd oed kyllell *deuiniawc.—St. Greal*, i 73.

Aerllafn *daufiniawg* eurllythr.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 450.

Cleddyf deufiniog, a two-edged sword.—*Salm.* cxlix. 6; *Diar.* v. 4; *Heb.* iv. 12; *Dad.* i. 16.

Dyfyn clod *deufiniog gledd.—Madog Benfras.*

Deufis, *s.pl.* two months; the space of two months.

Deufis yn nwylan Dyfi
Ni allwn fod hebot ti.
Dafydd ab Gwilym, iii. 7 (cf. ccxi. 3).

Deufisol, *a.* occurring every two months, bimestrial.

Deufodd, *s.pl.* two means or ways.

A ffynodd, mewn *deufodd* da,
Gwn yt' air, genyt wra!—*Dafydd ab Gwilym*, cxcvi. 2.

Deufor, *s.pl.* [dau+môr] two seas.

Treidyom ni a mi a Morgant
Treu *deuwor* kyngor kyngharant.
Casnodyn: M.A. i. 429.

Nabuchodonosor . . . a dyngodd i'w deyrngadair a'i freiniaeth . . . y lladdai efe â'r cleddyf holl breswylwyr gwlad Moab, a meibion Ammon, a holl Iudea, a'r rhai oll oedd yn yr Aipht, hyd oni ddelir i derfynau y *ddeufor.*
Iudeth i. 12.

Ac wedi i ni syrthio ar draethell *deufor*, a gwthio y llong, y pen blaen a lynodd heb allu symmudo.
Esgob Morgan: Act. xxvii. 41.

Deuforgyfarfod, *a.* where two seas meet (διθάλασσος).

Lle deuforgyfarfod, a place where two seas meet.

Ac wedi i ni syrthio ar *le deuforgyfarfod*, hwy a wthiasant y llong.—*Act.* xxvii. 41.

Deuforgyfarfod, *sm.* the meeting of two seas.

Hefyd, annhrefn yspryd ac annalluogrwydd; neu'r *ddau forgyfarfod* hyn yn digaloni ac yn gwanhau'r meddwl.
Trysorfa Ysprydol (1799), i. 164.

Deuforgyhwrdd, *a.*=*Deuforgyfarfod.*

A gwedy dygwyddo o hanwynt mewn lle *deuforgyhwrdd*, y gwthiasont y llong y mewn.
W. Salesbury: Act. xxvii. 41.

Deufraich, *s.pl.* [braich] two arms, the two arms.

A *deufraich* fy nyn difrad
I'm cylchwyn, ym medwlwyn mad!
D. ab Gwilym, xlix. 45 (cf. l. 94; lv. 26; clxxviii. 12).

Deufwy, *a.* and *adv.* [dau+mwy] double the quantity, size, or amount; double; twice as much; doubly, twice.

Gwahawdd *deufwy*, drwy y dref,
Un oedran, a wnai adref.—*L. G. Cothi*, vii. viii. 23.

Dinidr dagrau am danaw
Defni glud *deufwy* no glaw.—*Sefnyn:* M.A. i. 504.

Caru bun, cyd y curiwyf,
Yn fwy neu *ddeufwy* ydd wyf!—*D. ab Gwilym*, xxx. 1.

Dwr a ddoeth o'm deurudd i,
Deufwy na ffrydiau Dyfi.—*Owain ab Gwilym.*

Deufwy na'r neb a'i dyfod.—*Hywel Cilan.*

Digitized by Google

Deufwy cerid, mwy yr enwid, am ei rinwedd.
Gro. Owain, 68.

Ac y brenin cyndyn gwnai
Y pechawd *ddeufwy* yn Bethel ac yn Dan.
W. O. Pughe: C.G. i. 509.

Gylch haul a lloer eu llofnau glwys
Yn nyfroedd gloew yr eigion;
A deuant o ddyfnderau'r don
Drachefn yn *ddeufwy* gwynion.—*Telynegion*, 47.

Deufyd, *s.pl.* two worlds, states, or conditions; the present world and the world to come.

Pryt gein ar *deuvyt* gynnar Davyd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 465.

Deugain, *a.* [dau+ugain] forty.

Yna y deuth gwyr Groec ae llyges gantunt. . . Toas o Twlws a *deugein* llog ygyt ac ef. . . Proteselaus a *deugein* llog. . . Pulibeces o Larisa a *deugein* llog. . . Geneus o Cipro a *deugein* llog. Petroclus o Venesia a *deugein* llog. ac Apenor a *deugein* llog.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 14 (cf. 62, 63, 68).

Deugain niwrnod, } forty days.—*Gen.* vii. 4,
Deugain diwarnod, } 12, 17, 24; viii. 6.

Fe a wnaeth i holl ffynnonau y dyfnderoedd dori allan, ac a egorodd ffenestri'r nefoedd, fel y glawiodd hi ar y ddaiar dros *ddeugain diwrnod*.—*Ed. Iames:* Hom. i. 168.

Deugain mlynedd, forty years.—*Deut.* viii. 2, 4.

Deugain mlynedd i heddyw
Yr wyl y beirdd ar ol y byw.—*L. G. Cothi*, i. ii. 11.

Deugain mlynedd yr ymrysonais â'r genedlaeth hon.
Salm. xcv. 10.

Deugain mlwydd oed, forty years of age; forty years old.—*Act.* vii. 23.

Deugain oed, forty years old.—*Act.* iv. 22.

Deugain mil, forty thousand.—*Ios.* iv. 13; *Barn.* v. 8.

Y dyd hwnnw . . . y llas *deugein mil* o gristonogyon.
Yst. de Carolo Magno, col. 387 (cf. 389, 391).

Deugain mil o wŷr cedyrn nerthol yn ymladd mewn maes.
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 240.

Deugain ond un, } forty but one, thirty-nine.
Namyn un deugain, } —2 *Cor.* xi. 24.

Y *namyn un deugain* Erthyglau Crefydd.
Llyfr Gweddi Gyffredin.

Deugain, } *pl.* deugeiniau, *s.* forty; the num-
Deugaint, } ber forty.

Odyna yd anuonet *deugeint* yn erbyn *deugeint*. ac y llas y Sarassinyeit.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 394 (cf. 386).

Megys ydoed yr amherawdyr Arthur yn y llys a elwit Camalot nos Sadwrn Sulgwynn. oet yr Arglwyd Iessu Grist. pedeir blyned ardec a *deugeint* a phedwar cant.
St. Greal, i 1.

Deugeinfed, *a.* fortieth.—*Num.* xxxiii. 38; *Deut.* i. 3.

Ef a gyrchodd yn ufydd
Y tir y *deugeinfed* dydd.—*L. G. Cothi*, VI. iii. 15.

Yn y *ddeugeinfed* flwyddyn o deyrnasiad Dafydd y ceisiwyd hwynt.—1 *Cron.* xxvi. 31.

Deugeinfed, *sc.* the fortieth.

Ac ar hynny y doeth y Iarll ieuanc ar y *deugeinuet* o uarchogyon urdolyon.—*Mabinogion*, 256 (cf. Ll.C.H. ii. 68).

Kyn nybei namyn ar y *deugeinuet* o wyr cadarn.
Yst. de Carolo Magno, col. 398.

Deugeinmlwydd, *a.* consisting of forty years; of forty years.

Deugeinmlwydd oed, forty years old.

Deugeinnydd, *s.pl.* forty days; the space of forty days.

Gwleddoedd gwared gwlad a chenedl a fydd dan osteg *deugeinnydd*.—*Barddas*, ii. 88.

Deugeinwaith, *a.* and *adv.* forty times.

Deugloriog, *a.* [clawr] having two valves, bivalve, bivalvular, bivalvous.

Deuglust, *s.pl.* [clust] two ears, the two ears.

Dyuot Kaw o Brydein y eillaw y uaryf. kic a chroen hyt asgwrn ar *deuglust* yn llwyr.—*Mabinogion*, 142 (cf. 123).

Sef a wnaeth Corineus gochel y saeth ac ysclyfyeit y bwa o law Ymbert. ac ar bwa briwaw y benn yny oed y emennyd am y *deuglust*.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 54.

Deugorn, *a.* having two horns, two-horned, bicorn, bicornous.

Efe a ddaeth hyd at yr hwrdd *deugorn* a welswn i yn sefyll wrth yr afon.—*Dan.* viii. 6 (cf. 20).

Deugorn, *s.pl.* two horns.

Yna y cyfodais fy llygaid, ac a welais, ac wele ryw hwrdd yn sefyll wrth yr afon, a *deugorn* iddo; a'r ddau gorn oedd uchel.—*Dan.* viii. 3.

Deugorniog, *a.* two-horned, bicornous.

Deugorff, } *a.* having two bodies, bicor-
Deugorffog, } poral; bicorporate, bicorporeal;
Deugorffol, } double-bodied.

Deugorff, *s.pl.* two bodies.

A dwy gerdd serth, dig yw'r son,
A *deugorff* ffynedigion!—*Dafydd ab Gwilym*, cxxiii. 41.

Deugyfys, *s.pl.* [dau+cy+bys?] two corresponding fingers; the same finger of each hand.

Y mab bychan a dalho ar wylaw; irer y *deugyuys* a mêr hyd. a anuynychach yd wŷl.—*Meddygon Myddfai*, i. 73.

Or mynny wybot pa wed y dêl y dyn a gleuycho ae y uyw, ae y uarw oe gleuyt kymer y llyssewyn a elwir y uedyges a briw wynt a rwyn wrth y *deugyuys*, ac os y uyw y da y claf, yn y lle ef a gwsc, ac ony dichawn kyscu ef a uyd marw.—*Meddygon Myddfai*, i. 55.

Deugysswllt, *a.* diadelphian; having the stamens united in two bodies by their filaments.

Y genedl ddeugysswllt, the class diadelphia (in botany).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 67.

Deuhanner, } *a.* consisting of two halves or
Deuhannerog, } divisions.

Y waew a oreu yn *deuhanner*.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 322 (cf. 232).

Oet glew Maredut oet gloewner esgud
Yn ysgwyd *deu hanner*.—*Prydydd Bychan:* M.A. i. 383.

Drws deuhanner, a folding door, a valve; a door divided horizontally in the middle, so that the upper and lower halves may move independently.

Deuhanner, -au, *s.pl.* two halves; two equal portions.

Or tyrr llog ar tir esgob *deuhanner* vyd yr enill rwg y brenhin ar esgob.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 554.

Deuhanneru, *v.* to divide in two.

Deuholltog, *a.* cleft in two, bifid.

Deulaeth, *a.* consisting of two kinds of milk (that is, sweet milk and butter milk).

Yn iach weithian i lefrith a phosel *deulaeth;* ni welir bellach mo'r danteithion hyny heb i mi symmud pawl fy nhid.—*Gronwy Owain*, 191.

Deulafnog, *a.* [llafn] having two blades; divided into two plates; bilamellar, bilamellate.

Deulais, *a.* having two sounds; relating to or consisting of two voices or sounds; diphthongal.

Deulais, leisiau, leisiaid, *sm.* two sounds or voices; a diphthong.

Deulawr, loriau, *sm.* two floors or stories.

Wrth guraw dwylaw rhwng *deulawr*, a sant,
Yno 'r ddau gant yn rhoddi gawr.
Dafydd Nanmor: G.B.C. 155.

Digitized by Google

Deulawr, *a.* having two floors; two-storied.

Deuled, *a.* [dau+lled] of double width or breadth.

Arfer ambell un ebillwydd *deuled*, sef eu moddi fal y gellir *deuled* neu ddeu-linell llythyrau tor ar bob wyneb o'r traws drythor.—*Barddas*, i. 124.

Brethyn deuled, broadcloth.

Deuled, *s.pl.* two widths.

Deuleisiad, iaid, *sm.* a diphthong.

Deulin, *s.pl.* and *cl.* [dau+glin] two knees, the two knees, the knees.

Gossot ar y marchawc yg gwarthaf y benn . . . yny dygwyd y marchawc ar y *deulin*.—*Mabinogion*, 255.

Yn Llongborth gwelais vrwydrin
Gwyr ynghyd a gwaed hyd *ddeulin*.
Llywarch Hen: M.A. i. 102 (cf. 80, 308).

A gwaedlin am *deulin* yn gwanecu.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 269 (cf. 347).

Fe ddywedir am Iago, a gyfenwir y Cyflawn, ei fod efe cyn fynyched yn gweddïo, yn gymmaint a chaledu ei *ddeulin* megys carreg. . . . Cystenyn Fawr . . . a barodd osod ei ddelw ar ei fath o aur ac arian, mewn dull ac agwedd gwr ar ei *ddeulin*.—*Theo. Evans:* D.P.O. 319.

Tal y ddeulin, } the prominence of the knee
Pen y ddeulin, } (when the limb is bent in kneeling); the knees.

O penn y dwygoes a *thal y deulin* y waeret yn las.
Mabinogion, 146 (cf. 148).

Ystyrych pan dreisych dros ffin
Ystwng pawb hyd *ben ei ddeulin*.
Elidir Sais: M.A. i. 346.

Ar dal ei ddeulin, } on his knees.—*St. Greal*,
Ar ben ei ddeulin, } § 100.

Ny dely eyste en e neuat namyn *ar tal y deulyn* y gueneuthur nekesseu urth e brenyn.—*C.C.* i. 46.

A chrymu *ar dal y deulin* y droet y brenhin.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 23 (cf. 135).

Yna dygwydaw *ar dal y deulin* y erchi trugared.
Ystoria Charles, 2.

Deuliniad, -au, *sm.* a kneeling.

Deulinio, *v.* to kneel, to kneel down.

Deuliw, *sm.* and *pl.* [dau+lliw] 1. two colours, hues, or tints. The poets often use *deuliw* and *deune* with reference to objects which have but one colour, as *eira*, *ôd*, *nyf*, *ewyn*, *gwawn*, *haul*, *ser*, *dydd*, *tes*, *haf*, and the like; the meaning being that the colour or complexion of the subject of praise or admiration is twice as beautiful, fair, or pure as that of the object with which the comparison is made. Cf. *Dafydd ab Gwilym*, viii. 11; xviii. 9, 16; xxii. 4; lxi. 21, 28, 53; lxiv. 40; lxvii. 13; cx. 52; cxvii. 18; clvi. 64; clxix. 3; clxxxvii. 24; cxc. 42; cxci. 21; cci. 19; ccvii. 30. Similarly are used, *gorlliw*, *eiliw*, *gorne*, *unne*, *deuwedd*, *lliw*, *gne*.

Oerni angau dan wraidd f' asau,
Mi'm mhen tridiau dan fy ngolau,
Am fun yn fau, *deuliw* blodau.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 251 (cf. 230, 250).

Da lios, *deuliw* ewyn,
Brysia, dos, ber yw oes dyn.—*Gronwy Owain*, 42.

2. two parties; the respective parties.

Y ddeuliw, the two parties, both parties.

Deuliw, *a.* of two colours, hues, or tints; bicoloured.

Deled y Rhosyn *deuliw*
Yn llwyni mewn gerddi gwiw.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 68.

Deuliwiog, *a.* having two colours or hues; bicoloured.

Deulun, *s.pl.* [dau+llun] two forms; a pair or couple.

Deulun o feirch, a pair of horses.

Deulun, *a.* of two forms.

Deulygad, *s.pl.* two eyes, the two eyes.

Creest Deus dilywygus y *deulygat*.
Casnodyn: M.A. i. 429.

Deulygadur, -on, *sm.* a binocle.—*Dicts.*

Deulygeidiog, *a.* having two eyes; binocular.

Deulythyrol, *a.* consisting of two letters, biliteral.

Deunaw, *a.* [dau+naw] eighteen.

Ymchoelut a wnaeth y kenadeu o Germania a *deunaw* llog yn llawn o etholedigyon varchogyon aruawc gantunt.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 135.

A *deunaw* hoel o eur coeth penllydan yn hardhav kylch y bogel.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 443.

Pob man blaenau Morganwg,
A *deunaw* llys hyd Waun Llwg.—*L. G. Cothi*, i. xxiv. 21.

Efe a fu fyw naw ugain a saith o flwyddi, ac a briodes *ddeunaw* gwraig.—*Iolo Mss.* 7.

Deunaw ceiniog, eighteen pence.

Deunaw oed, } eighteen years old,
Deunaw mlwydd oed, } eighteen years of age.

Deunaw mlwydd, eighteen years.

Deunaw mlynedd, eighteen years.

Yr oedd gwraig ag ynddi yspryd gwendid *ddeunaw mlynedd*.—*Luc* xiii. 11.

Deunaw ar hugain, } thirty-eight.
Deunaw ar hugaint, }

A *deunaw* mlwydd *ar hugaint* oed y dyd y llas.
Yst. de Carolo Magno, col. 491.

Deunaw a deugain, } fifty-eight.
Deunaw a deugaint, }

Deunaw a thrigain, seventy-eight.

Deunaw, -au, *sm.* and *pl.* eighteen.

Draw y gwnaeth yn Nhredrëyr
Dai 'n swrn fal *deunaw* o sŷr.
L. G. Cothi, iii. xv. 11 (cf. iv. xvii. 43).

Arglwydd llwydd cyn llladd y *deunaw*.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 396.

Y *deunaw* hyny, ar y rhai y syrthiodd y tŵr yn Siloam.
Luc xiii. 4.

Deunaw o ddynion, eighteen persons.

Deunaw (short for *deunaw ceiniog*), eighteen pence.

Deunawad, aid, *sm.* [deunaw: cf. *blwyddiad*, *misyriad*] a steer, a yearling.—*Iolo Glossary.* See *Dyniawed*, the more usual form.

Deunawfed, *a.* eighteenth.

Ym [mis] Awst y mae deu. y *deunawuet*. ar ugeinuet. Ym mis Medi y mae deu. yr unuet ar bymthec. ar *deunawuet*.—*Meddygon Myddfai*, i. 93.

Yn y *ddeunawfed* flwyddyn i Iehoaphat.—2 *Bren.* iii. 1.

Y ddeunawfed ganrif, the eighteenth century.

Deunawmlwydd, *a.* consisting of eighteen years.

Deunawmlwydd oed, eighteen years of age.

Megais hon, ddirmygus swydd,
Do'n aml o *oed deunawmlwydd*.
Dafydd ab Gwilym, lxxvii. 31.

Deunawol, *a.* relating to eighteen.

Deune, *s.pl.* and *cl.* [dau+gne] two hues, tints, or colours; double the colour (of). See *Deuliw*.

Deune haul Dyno Helyg.
Mab Clochyddyn: M.A. i. 510 (cf. 454).

Digitized by Google

Deune 'r haul, nid awn er hyn,
Wyth-liw dydd, o'th loew dyddyn!
Dafydd ab Gwilym, lviii. 51.

Dyn fal corfedw yn edwi,
Deune ton, am danat ti!—*D. ab Gwilym*, xviii. 15.

Deune 'r haf, dwyn y rhiain
I drais, unlliw blodau'r drain!—*D. ab Gwilym*, lxvii. 13.

Glwys-fodd,—wi! o'r rhodd yr haf!
Deune geirw, dyn a garaf.—*D. ab Gwilym*, cci. 19.

Gobaith y cawn *ddeune* man-wawn.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 236 (cf. 232).

Deune, *a.* of two tints or hues; of varied hues or colours.

Deuneng, *a.* [dau+deng] twenty. The word has never been in use; but it has been proposed as part of a new system of numeration. —*Barddas*, i. 96.

Deunifer, *s.pl.* two numbers; two retinues.

Deunydd, -iau, -ion, *sm.* variant or by-form of *Defnydd*, q.v.

Llawdden a'r fwyall eiddaw
Ni ad wŷdd *deunydd* lle daw.—*Guto'r Glyn:* Iolo Mss. 316.

O Fair! llawer teg a fydd
O ddyn yn ddrwg ei *ddeunydd*.—*Bedo Brwynllys.*

Ereill a ddywedant mai *deunydd* pob peth yw hwnw.
Barddas, i. 270.

Megys pe dywedent nad yw yr Ysgrythyrau i *ddeunydd* yn y byd.—*M. Cyffin:* Diff. iv. 26.

O ddyn! cofia dy *ddeunydd*.
L. Morys: Diddanwch Teuluaidd, 154.

Rhaid bod y cyfryw eiriau yn gwbl berffaith eu *deunyddion* herwydd bonedd ac ansawdd y Gymraeg.
Cyfrinach y Beirdd, 12.

Cadw dy rin o fewn i'th fin,
Ac nid edrydd neb ei *ddeunydd*.—*Iolo Mss.* 227.

Deunydd, *s.pl.* [=deuddydd] two days.

Os dyn a bech ac a wna yng ngham yn erbyn arall, dir arnaw ymgiliaw o'n teml a'n llanau ni, hyd ym mhen y *deunydd* a deugain.—*D. Fychan:* Efengyl Nicodemus, iii.

Deunyddgarwch, *sm.* usefulness, utility.

Ni allaf lai na dal sylw, mai nid yn unig ei bregethiad odidog a rhyfeddol ef, ond ei garedigrwydd, ei ddaioni, a'i *ddeunyddgarwch* hynod ef, mewn achosion ereill, a annogodd y bobl i ymgynnull ato.—*Ier. Owen*, 9.

Deuochr, *s.pl.* [dau+ochr] two sides.

Deuochr, } *a.* having two sides; two-sided;
Deuochrog, } bilateral; ambidextrous.

Deuochrad, }
Deuochriad, } -au, *sm.* a making bilateral.

Deuochri, *v.* to render two-sided.

Deuochrol, *a.* two-sided, bilateral.

Deuodi, *v.* [deuawd] to double.—*Barddas*, i. 80.

Deuoedd, *s.pl.* [dau] two, twain. See *Dau.*

Ill deuoedd, they both, both of them, they two.

Deuog, *a.* binate; double.

Deuol, *a.* [dau] dual; binary.

Deseb *ddeuol*, seileb neu nifer coelion honna yw dau.
J. W. Thomas: Elfenau Rhif. 40.

Y rhif deuol, the dual number.

Arferir hefyd weithiau yr hyn a elwir *rhif deuol*.
Isaac Jones: Gram. Cym. iii. i. 3.

Rhifyddiaeth ddeuol, binary arithmetic.

Deuol, *a.* [dëu, daw] future, coming, ready to come.—*P.*

Deuoldeb, *sm.* duality.

Deuoli, *v.* to double.

Ac am ereill, *deuoli*, a thrioli, neu bedroli llythyrau mân.
Barddas, i. 78.

Deuoliaeth, -au, *sf.* dualism.

Ychydig ganrifoedd cyn Crist, darfu i egwyddorion *deuoliaeth* y paganiaid ymlusgo i mewn i'r grefydd Iuddewig.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 79.

Deuolig, *a.* dualistic.

Y mae paganiaeth, yn ei holl ffurfiau, yn hanfodol *ddeuolig*, ac yn gwbl analluog i gymmodi y dwyfol a'r dynol . . . a'u gilydd.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 79 (cf. 81).

Deuolwr, wyr, } *sm.* a dualist, a believer in
Deuolydd, -ion, } dualism.

Deuparth, *s.pl.* [dau+parth] two parts out of three; two-thirds; a double portion. (Comp. Lat. *agri partes duae*, and the like.)—*M.A.* iii. 67, 68.

Ys ethyw gennyf *deuparth* vy oet. a *deuparth* y teu ditheu.
Mabinogion, 104.

Deuparth gwaith ei ddechreu.—*Deuparth* parch ei arfer.—*Deuparth* bonedd yw dysg.—*Diarebion* (M.A. iii. 153).

Mab y gas yr hwn sydd gyntafanedig a gydnebydd efe, gan roddi iddo ef y *ddeuparth* o'r hyn oll a gaffer yn eiddo ef.—*Deut.* xxi. 17 (cf. 2 Bren. ii. 9; xi. 7).

Deuparth addysg ym mhenglog.—*Iolo Mss.* 252.

Bernir fod yr enedigaeth-fraint, yn neulu Abraham, yn cynnwys hawl i *ddeuparth* o eiddo y tad.
Simon Lloyd: Amser. 56.

Deuparth a thraian, two-thirds and a third; two portions out of three.

O guil Yeuan hit e kalan talu e cic ar croen en lle e *deuparth ar trayan* ar er eneit.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 112.

Y neb a sarhaho effeirat teulu diodeuet kyfreith sened ac am y sarhaet deudeg mu a telir idaw y *trayan* a geiff ef ar *deuparth* yr brenhin.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 638 (cf. 364).

O agori ar y greadur ac yna kymryt y *deuparth* o'r danhogen *ar trayan* or wiolet.—*Meddygon Myddfai*, i. 5.

Y neb a dotto rwyt y mywn avon nys pieiffo *trayan* y pysgawt a geiff ef ar *deuparth* y perchen yr auonn.
Cyfreithiau Cymru, i. 552 (cf. 548).

Dyn deuparth gwybod, a man of bipartite knowledge, natural and literary.—*Iolo Glossary.*

Deuparthog, *a.* consisting of two-thirds; having two shares or portions out of three; double.

Tri llwdyn ny ddyrcheif eu gwerth ac ny ostwng: arbennic y moch, sef yw honno rhyssywin; na baedd cenfeint; a hwch dawn bwyt a daler yr arglwydd; ac yna *deuparthawc* fydd yr eneit ar y cic hyt wyl Ieuan y moch eilwaith; o wyl Ieuan y moch allan dec ar ugeint a dal; ac yna y bydd *deuparthawc* y cic ar yr eneit.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 644.

Deupediog, } -ion, -od, *sc.* a two-footed animal,
Deupedog, } a biped.

Deupen, *s.pl.* two heads; two ends.

A maen carbunculus or ysgwydh y gilydh yn cynnal *deupen* y lhinyn.—*Ymborth yr Enaid*, § 26.

Yna trin yr esyth awgrymedigion neu lythyredigion, a mwnwgl ar bob un o *ddeupen* yr aseth, yn grwn ei amgylch, lled bys ar hydwedd yr aseth.—*Barddas*, i. 134.

A ninnau megys yn sefyll yn y canol yn bwrw ac yn ystyried pa un drymaf o'r *ddeupen*.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. vi. 3.

Deupeniog, } *a.* two-headed, biceps, bicephal-
Deupenog, } ous, bicipitous; double.

Mi a ddialaf fy nhad yn *ddeupeniawg*.—*Bown o Hamtwn.*

Ac odyna ym penn y pythewnos wedy talu yr eglwys pob peth yn *deupeiniawc* yd cuth Altymor ar y ansawd gynt.
Yst. de Carolo Magno, col. 500.

Gruffydd ab Cadwgan Ddu, arlwydd Llansantffraid Fawr ac Aberogwr, a ddug maes du, tri eryr *deupenog* ariant.—*Iolo Mss.* 34.

Deuperthig, *a.* [deuparth] siding with both parties; ambidexter, ambidextrous.

Rhyfedd iawn, ebe fe, yw genyf, faint yr ydym yn groesawi, ac yn coleddu, ac yn gorymdawr, am rodiedigion, a gwylliaid, a lladron, a gwŷr *deuperthig*.—*Araith Gwgan.*

Digitized by Google

Deupeth, *s.pl.* two things; two objects. See *Deubeth.*

Gwna vn o *deupeth* a mi.
Amlyn ac Amig, col. 1102 (cf. 1113).

Y *deupeth* hynny wynt a doethant.—*St. Greal*, § 50.

Deupi, *v.*=*Deubi.*

Cyn safont yn y drws tlws nis *deupi.*
Myrddin: M.A. i. 137 (cf. 161).

Deupo, *v.*=*Deubo.*

Ys *deupo* car kyrd kyvnot
Y wlat nef adef atnabot.
Aneurin: Gododin, 297 (cf. 224, 307).

As *deupo* casnar kar kyngreinyon.—*Cynddelw:* M.A. i. 220.

Deur, *a.* [corr. of *dyhair*] slow, inactive, dilatory.

Dyn deur iawn, a very slow person.—*S. W.*

Deuran, *s.pl.* two parts, portions, or shares.

Deuran, } *a.* consisting of two parts, bi-
Deuranog, } partite.

Deuraniad, -au, *sm.* bipartition; bisection.

Deuranol, *a.* of two parts or shares; bipartite.

Deuranu, *v.* to divide into two parts; to divide in two; to bisect.

Nis gellir hyny o gadernyd anesgorol ond ar anghynnifer dyniadon wrth eu *deuranu.*—*Barddas*, i. 90.

Deurinweddog, *a.* didynamian; having two long stamens and two short ones on the same flower.

Y genedl ddeurinweddog, the class didynamia (in the Linnæan system).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 56.

Deurith, *s.pl.* two appearances or aspects.

Nid un y sydd i un *deurith*, ac ym mhob rhith y mae achos iddo.—*Barddas*, i. 228.

Deurith, } *a.* of two aspects; of two sorts,
Deurithiol, } species, or kinds.

Deurith gyforddwyn cydawl y sydd; sef, cyforddwyn cyfan, a chyforddwyn rhyw.
H. Perri: Egl. Ffr. xiv. 3 (cf. xix).

Rhan sy *ddeurithiawl.*—*H. Perri:* Egl. Ffr. xiv. 1.

Deurudd, *s.pl.* [dau+grudd] the two cheeks, the cheeks.

Coohach oed y *deurud* nor ffuon cochaf.—*Mabinogion*, 117.

Ei chlustiau yn llydain, ei *deurudd* yn druain, a'i lliw fal ysgefain.—*Trioedd Mors:* M.A. iii. 194.

Golchynt eu *deurut* dewr weisyon o gad.
Cynddelw: M.A. i. 220 (cf. 108, 200, 295).

Elphin deg sych dy *ddeurudd.*
Taliesin: M.A. i. 83 (cf. 201, 232, 287, 296).

Dyfelais bryd fy myd main,
Ei *deurudd* fal haul dwyrain.—*D. ab Gwilym*, viii. 45.

Oe befrloew gochion gannhait lwysion *dheurudh.*
Ymborth yr Enaid, § 22.

Dros ei *deurudd* i'w chuddiaw,
Llyweth yn ddwy-bleth a ddaw.—*D. ab Gwilym*, xxxv. 15.

Y ddeurudd, } the cheeks, the two cheeks.
Y deurudd, }

Marw fu Wiliam, mawr f' alaeth,
A phrudd yw 'r *deurudd*, od aeth!—*I. B. Hir:* Gwaith, 95.

Deuryw, *s.pl.* 1. two kinds, sorts, or species; both kinds.

Nis gellir *deuryw* ar un cyfoll.—*Barddas*, i. 198.

Dauryw cariat yssydh, nyt amgen, cariat serchawl trygiedic tragywydhawl.—*Ymborth yr Enaid*, § 14.

Digon gwir yw bod y *ddeuryw* hyny yn Gristionogion.
Morus Cyffin: Diff. iii. 7.

Efe a ddywedodd am y *ddeuryw* hyn fel am ymchwydd tonnau y môr.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 540.

Dan y ddeuryw, in both kinds.

Pan ddêl y bobl i gymmuno, fe ddylid rhoi'r Sacrament iddynt *dan y ddeuryw.*—*Morus Cyffin:* Diff. ii. 14 (cf. iv. 27).

2. two sexes or genders.

Deuryw, *a.* 1. of two kinds, species, or sorts; double.—*M. A.* i. 481.

Deuryw awen y sydd; sef un o Dduw; ac un arall o o ddiawl.—*Cyfrinach y Beirdd*, 31.

Yn gymmaint ag yn ol *deuryw* ddechreuad cynhwrf ac ewyllys dyn, y mae deublyg ac amryfael waith ac effaith yn goferu ac yn dyfod oddi wrtho.
R. Lloyd: Llwybr Hyffordd, 319.

Deuryw grefyddwyr y sydd; nid amgen, preladiaid, fal abadau a phrioriaid; darostyngedigion, fal brodyr a menych; a chrefyddwyr ereill.—*Pum Llyfr Cerdd.* 100.

Y *ddeuryw* ddefnyddiau uchod a arferir i gyfansoddi yr holl hanedigion cyffredin.
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gym. i. iii. 2.

Deuryw feddwl diorwag,
A pharhäus gof, a phwrs gwag.—*Gronwy Owain*, 57.

2. of two sexes or genders; bisexual; epicene; of two kinds.

Enw deuryw, } an epicene noun.
Enw deurywiol, }

Deurywiog, *a.* of two sexes, bisexual; hermaphrodite, hermaphroditic.

Deurywiol, *a.* of two kinds; of two genders or sexes; bisexual; epicene.

Deusill, *s.pl.* two syllables.

Deusill, } *a.* consisting of two syllables, dis-
Deusillog, } syllabic.

Gair deusill, a word of two syllables, a dissyllable.

Yna y bydd y pwys ar y sill gyntaf o air *deusill.*
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gym. i. iii. 3.

Deutroed, *s.pl.*=*Deudroed.*

Llun eryr . . . yn dwyn sarff y rwg y *deutroet.*
Ystr. de Carolo Magno, col. 418.

Deutu, *s.pl.* and *sm.* [dau+tu] two sides; both sides; the compass or environage; the space around anything; environs.

Areglyt devnyt dioteviant llavn
Llyvn i *deutu* llym ei hamgant.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 266.

Cyn rhoi pridd i'w *ddeutu.*—*D. ab Gwilym*, cxxxii. 70.

Moch vyd ym Prydein pryder achuant
Ac am *deutu* Lloegyr llavar yt guynant.—*M.A.* i. 181.

Yn *neutu* glyn Nant y Glo.—*D. ab Gwilym*, lxiii. 40.

O ddeutu (1), on both sides (of); about, round, around.

O ddeutu yr afon, on both sides of the river; on either side of the river; about the river.

Lle yr oedd preniau helyg plan
O ddeutu glan yr afon.—*Edm. Prys:* Salm. cxxxvii. 2.

O ddeutu y dref, about the town; around the town.

O ddeutu y bwrdd, around the table; about the table.

O'm deutu, o'th ddeutu, o'i ddeutu (f. *o'i deutu*), *o'n deutu, o'ch deutu, o'u deutu*, about me, about thee, &c.

A Chymru *o'i ddeutu* ddaeth
I gael y fuddugoliaeth.—*Gronwy Owain*, 72.

O'r ddeutu, on both sides; about, around, round.

Yna cododd Luciffer fawr ei hun o'i gadair eirias, ac wedi troi wyneb hygar (neu hagr) *o'r ddeutu.*
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 107 (cf. 81).

Y mae yn gyfyng arnaf *o'r ddeutu.*—*Phil.* i. 23.

Digitized by Google

(2) about; near to; nearly, approximately.

O ddeutu blwyddyn, about a year.

O ddeutu y Pasc, about Easter.

O ddeutu cant o ddynion, about a hundred men.

O ddeutu deg punt, about ten pounds.

Deutu, *adv.* about, every way; from both sides.

Mil fry'n amliwiaw y fron,
Teir-mil *deutu* i Armon!—*L. G. Cothi*, IV. xxi. 19.

Deutu, *prep.* on both sides; about, round, around.—*Myv. Arch.* i. 50.

O Dduw! ys da o ddeuwr
Sy'n anneddu *deutu* 'r dwr.
L. G. Cothi, III. v. 1 (cf. VII. x. 37).

Deuth, *v.* an old form of *Daeth*, q.v.

Deuwaeth, *a.* doubly worse; twice as bad.

Angeu i'r Deheu, *deuwaeth* no thrais môr,
Fu ar yr elor ei farwolaeth.—*L. G. Cothi*, VIII. x. 83.

Deuwedd, *s.pl.* [dau+gwedd] two forms or appearances; twain, both.

O'i mwyn aur a'i medd,
O'i da ill *deuwedd*.—*L. G. Cothi.* (*D.*)

Aed Elin am win a medd,
Ewch â dwyoes eich *deuwedd*.—*Gutyn Owain:* G.B.C. 216.

Eu *deuwedd* hwy a dawant,
Uch'neidio, dan wylo, wnânt.—*Dafydd Ionawr*, 67.

Dydd ermoed, *deuwedd* eiry mân.
Dafydd ab Gwilym, xviii. 29.

Deuweddog, -ion, *sc.* a bigamist.

Deuweddogaeth, -au, *sf.* bigamy.

Deuwell, *a.* and *adv.* twice better, twice as good, doubly good.—*M.A.* i. 484.

Deuwell yw'n llys blodeuog
Ucho'n y coed, a chân cog.—*D. ab Gwilym*, lxxx. 33 (cf. vi. 3; viii. 8; lxi. 14; cxxxii. 21).

Deuwell oedd, heb dwyll heddiw,
Digio llew na'r deg ei lliw.—*Gruffydd ab Ieuan.*

Deuwr, *s.pl.* [dau+gwr] two men.

A gwr du mawr a wely ym penn yr orsed. ny bo llei o dim no *deuwr* o wyr y byt hwnn. . . A ffonn yssyd idaw o hayarn. a diheu yw itti nat oes *deuwr* yn y byt ny chaffo eu llwyth yn y ffonn. . . Ar ffonn hayarn a dywedassei y gwr y mi uot llwyth *deuwr* yndi.—*Mabinogion*, 166.

Clywed draw, trwy'r cloiau tranc,
O'r Tŵr i'r *ddeuwr* ddianc.
Gwilym ab Ieuan Hen: G.B.C. 147.

Ei ddewis ydd wyf o *ddeuwr* deilwng
O dalaith Dinefwr.—*L. G. Cothi*, III. iv. 11.

Deuwryw, *a.* [dau+gwryw] diandrian, diandrous.—*H. Davies:* Welsh Bot. 2.

Y genedl ddeuwryw, the class diandria (in the Linnæan system).

Deuwynebog, *a.*=*Dauwynebog.*

Deuystyr, *s.pl.* two meanings or acceptations.

Deuystyr, *a.* of two meanings, of a double meaning; equivocal.

Dew, -iau, *sm.* [see *Duw*] an old spelling of *Duw*, or rather an attempt to bring that word nearer to the Lat. *Deus;* and the form appears to be one of the innovations of Salesbury, though he has *Duw* and *Dyw* as well.

Iesu o Nazaret, gwr provedic gan *Ddew* yn eich plith a gweithredoedd-nerthawl, a' rryveddodae, ac arwyddion, y rei y wnaeth *Dew* drwyddaw ef yn eich canol chwi. . . Wedi ei roddi gan dervynedic gyccor, a' rac wybodaeth *Dew*, a grogesoch ac a laddesoch: yr hwn a gyvodes *Dew* i vynydd.—*W. Salesbury:* Act. ii. 22—24 (cf. 32, 33, 36, 39, 47).

Dew, -oedd, -on, *sm.* 1. fog, mist; gloom; dusk; heaviness; sickliness; melancholy.

2. hot blasting air, a sultry calm.—*Gwent* (Iolo Glossary).

Dewaint *sm.* [dew?] the time between midnight and cockcrow or *pylgaint* (=12 p.m. to 3 a.m.); midnight, the dead of night.

Yn *dewaint* ym pylgeineu
Llewychawt vy lleufereu.
Taliesin: A.B. ii. 158 (cf. 165, 182).

Nid angau Freuer a'm gwna haint
O ddechreu nos hyd *ddewaint*
Dihunav wylav bylgaint.
Llywarch Hen: M.A. i. 110 (cf. 122, 127).

Ni wddant pan ysgar *dewaint* a gwawr.
Taliesin: M.A. i. 46 (cf. 160, 162).

Am roto Douyt dedwyt *dewaint*
Awen gan awel pan del pylgeint.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 270 (cf. 332).

Nawt Duw mawr dengwawr *dewaint*
Gyda nawt naw mil o seint.
Phylip Brydydd: M.A. i. 376 (cf. 244, 579).

Ac yn y modd hyn y cyfrifid amser gynt, a rhanau'r dydd; a dywedynt wythran dydd, a theirawr ym mhob rhan, a chyfrif yn y modd yma, sef yr awr gyntaf, neu'r ail, neu'r drydydd awr, o'r *dewaint*, y pylgaint, yr anterth, &c., &c.; ac fal hyn am bob un o'r wyth rhan.
Barddas, i. 422 (cf. 420).

Dewaint . . . sef yr amser cyn y pylgain.—*Davies*, s.v.

Dewid, -ion, *sf.* [cf. *addewid*] a promise; a vow.—*M.A.* i. 87, 510.

Dywedaf, i'm *dewidion*,
Fuchedd hoff o achoedd hon.—*T. Derllysg.*

Dewil, -iau, *sm.*=*Dewaint.*—*Iolo Glossary.*

Dewin, -iaid, -ion, *sm.* [L. *divinus* (from *divus*); O.Fr. *devin:* q.d. W. *duwin*] 1. a divine, a prophet; one possessed of foreknowledge or foresight.

Boet im dy rat. gwyeil Iesse
A rat Iessu llathyr y blodeu
Mawr gwyrth yn y vryt o Duw donyeu
Ef oed ygnat. ygnat oed ef *dewin* diheu.
Taliesin: A.B. ii. 174.

A Duw meiddad Duw dofyddad *Dewin* trugar.
Taliesin: M.A. i. 42.

Namyn Duw nyt oes *dewin*.—*Llywarch Hen:* A.B. ii. 252.

Namyn Duw nid oes *tefin*.—*Iolo Mss.* 255.

Canys wyd frenin ar ddeau *ddewin*,
Hyd y gorllewin, llywiawdr mawredd.—*Iolo Goch.*

Duw *dewin* gwertheuin gwyrtheu
Dywallaw atan rann oth radeu.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 330 (cf. 278).

Adolwg a wnaf im *dewin* doethaf
Nam gyrro i'r eithaf er i wrthiau . . .
Er i goron ddrain ai wiw gadeir.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 517 (cf. 369, 396).

Amyl nawd Duw y *dewin* adyen
Amled hed o rinwed y ren.—*Casnodyn:* M.A. i. 426.

Brenin Cred, Ri diledryw,
Brenin i bob brenin byw . . .
Yn Dyst cywir, geirwir, gwâr,
A *Dewin* holl lu daiar.
Iago ab Dewi (Flores. Poet. Brit. 52).

A gair Duw'n agoriad in',
Gair Duw, a goreu *dewin*.—*Gronwy Owain*, 88.

Y Dewin o Nazareth, the Prophet or Divine Person of Nazareth.—*L. G. Cothi.* (*P.*)

2. a diviner, magician, soothsayer, augur, wizard, or sorcerer. (Now the usual meaning.)

Gwrtheyrn a dywawt wrthaw. Vyn *dewinyon* a archassant im geissaw mab heb dat idaw. ac a gwaet hwnnw iraw y gweith. Ac uelly y dywedynt y safei y gweith. . . Arglwyd heb ef par dwyn dy *dewinyon* rac vym bronn i. . . A gwedy dwyn y *dewinyon* rac y uron ef. Ynteu a ofynwys vdunt beth oed yn llesteiryaw yr gweith seuyll. . . Ac ny allwys y *dewinyon* atteb o dim. . . Yna y dywawt Myrdin eilweith wrth y *dewinyon*.
Yst. Bren. Byt.: Ll.C.H. ii. 143 (cf. 141, 246, 247).

Digitized by Google

Och! am Fyrddin *ddewinion*,
I fwrw im' hud fry am hon.—*Ieuan Dyfi*, i Ferch.

A'r brenin Nebuchodonosor dy dad a'i gosododd ef yn benaeth y *dewiniaid*.—*Dan.* v. 11 (cf. i. 20; ii. 27; iv. 7, 9).

Y mae eu beddau i'w gweled yno hyd heddyw, yn adnabyddus wrth enw Beddau'r *Dewiniaid*.
Theo. Evans: D.P.O. 113 (cf. 111, 112, 177).

Nid hawdd coelio bod yn oed Iannes a Iambres yn *ddewiniaid*, yn ol ystyr y gair gan Sefnyn.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 255 (cf. 256).

Y dewinion o'r dwyrain, the Magi or Wise Men of the East (*Matt.* ii.).

Gwedy yspeit dwy vlyned y doethant y *dewinyon or dwyrein* y Gaerusalem ac anreccyon mawr ganthun. . . Yna y gelwis Herot y *dewinyon*. ac y gouynnawd pa bryt yd ymdangosses y seren udunt. . . Gwelet a wnaeth ef vot y *dewinyon* a aethoed y geissaw y mab heb diwad. ac yn y dwyllaw.—*Buchedd Mair*, § 17 (cf. 18).

Dewin llaw, *Dewin wrth edrych llaw*, } a palmister, a chiromancer.—*S.*

3. a wise or learned man, a sage; a seer; a bard. Cf. *Derwydd* (2).

Goreu dau a gâr *dewin*
Yw dy dad, a diawd win.—*L. G. Cothi*, i. xxxiii. 51 (cf. iv. xii. 52; vii. vii. 64).

4. a divine or theologian.

Ioannes *Dewin* am gelwis i Merdin.
Bellach pob brenin am geilw Taliesin.
Hanes Taliesin: M.A. i. 19 (cf. 25, 26, 34).

Nid oes genyf ddim yr awron i'w wneuthur ond ysgrifenu a phregethu Seisoneg; a darllen llyfrau dewiniaeth: ac felly yn lle Ieuan Fardd, mi af yn Ieuan *Ddewin*.
I. B. Hir: Gwaith, 224.

Theologus, difeinydd, *dewin*, a ymhonno o wybod dewinyddiaeth.—*Davies*, s.v.

Dewin, *a.* divine; theological; prophetic.

Archaf rec yn dec a digeryt wyf . . .
Y Duw gessefin *dewin* Dofyt
Ac y Dewi wynn wedi Douyt.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 271 (cf. 25).

Trugaredd ath fo oth feinin gaerwedd
O garu Duw *ddewin*.—*Elidir Sais:* M.A. i. 346 (cf. 540).

Anreithwyd Mab Duw *dewin* holl wybod
Llwybyr chang y myddin.—*Einion Wan:* M.A. i. 335.

Dewindab, **Dewindeb**, } -ion, -au, *sm.* divination; magic, sorcery.

Dewindabaeth, **Dewindebaeth**, } -au, *sf.* divination, magic, sorcery, enchantment; prognostication.

A gwedy darffei idaw dreiglaw llawer o wladoed y dayar or diwed y deuei ar vlaenwed goruchelder anryded. ac ny thwyllwys eu *dewindabaeth* wynt kanys doeth eu *dewindabaeth*.—*Ystr. Bren. Bryt.*: Ll.C.H. ii. 41.

Yn nessaf y hynny y lladawd yr archescop Ffidorel eu dewin wy a dwyllod y *dewindabaeth* wynt y aghev.
Yst. de Carolo Magno, col. 481.

Gwedy daruot idi eulenwi y vann honno or byt oe *dewindabaetheu*. odyno hy a aeth hyt yn Ethyopia gwlat y blomonyeit.—*Prophwydoliaeth Sibli*, § 1 (cf. 16).

A Chalcas drwy y *dewindabaeth* ef a gauas bot yn iawn wynt.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 16 (cf. 38).

Ar dewinion a diwawt idaw vot e vorwin in veichiawc ar vab a ladei i vam ae dat ac ni thwillasei eu *dewindebaeth* wint erioet.—*Brut Gr. ab Arthur* (A): M.A. ii. 85.

Dewinio 'dd wyf, nid ä'n ddig
Dewindabaeth dawn debig.—*D. ab Gwilym*, cxliii. 5.

Ac ef a orugpwyd, a nyni yn myned i weddiaw, bod i nebun fachgenes, ag ynddi yspryd *dewindabaeth*, gyhwrdd â ni.—*W. Salesbury:* Act. xvi. 16.

O wythen dysg weithion daeth
Dawn debyg *dewindabaeth*.—*Dewi Wyn:* Bl. Arf. 203.

Dewindabaeth adar, augury.—*W.*

Dewindabol, *a.* divinatory.

Dan dybiau *dewindabawl*,
Gwnaed ym Mon gynnud y mawl.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 203.

Dewindabu, **Dewindebu**, } *v.* to divine; to predict or prognosticate.

Divino, dewinio, *dewindabu*, brutio, dywedyd dewiniaeth.—*Davies*, s.v.

Dewindeb, *sm.* divinity.—*S.*

Dewines, -au, *sf.* 1. a divineress, an enchantress, a sorceress, a witch; a prophetess.

Felly y bu farw Saul, am ei gamwedd . . . ac am iddo ymgynghori â *dewines*.—1 *Cron.* x. 13.

Dewines Endor, *Y ddewines o Endor*, } the witch of Endor.

Nid oedd y *ddewines o Endor* yn disgwyl y mymryn lleiaf y cyfodai Samuel wirioneddol i ymddiddan â Saul.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 255.

2. a charming, bewitching, or enchanting woman; an enchantress, a charmer; a divine one. Cf. *Dewin* (1, 3).

Cref y megaist ef megys Dwyfes,
Ar dy fron hygu fry frenines;
Oddi yno y buost, y *ddewines*,
Ti a ffoist ag ef tua Ffeles.—*Iolo Goch*, i Fair Forwyn.

Dewiniad, -au, *sm.* a divining, divination.

Y dyb hon oedd sail *dewiniad* trwy y meirw.
Seren Gomer, v. 11.

Dewiniaeth, -au, *sf.* 1. divination, augury; witchcraft.

Ni wnaeth clau *ddewiniaeth* cler
Ddafydd brophwyd ddiofer
Un delyn, ddiddan angerdd,
Onid o rawn, gyflawn gerdd!
Dafydd ab Gwilym, cxxxix. 13.

I Wynedd nid oedd ddim *dewiniaeth*
O waith rhyw deulu, eithr hudoliaeth.
L. G. Cothi, viii. x. 73.

Nid oes swyn yn erbyn Iacob, na *dewiniaeth* yn erbyn Israel.—*Num.* xxiii. 23 (cf. xxii. 7; xxiv. 1).

Ei *dewiniaeth* hi a fuasai gosod cydweithredydd i ddynwared Samuel.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 255 (cf. 256, 257).

Mae gwrthwynebu ei laferydd ef megys pechod *dewiniaeth*.
Ed. James: Hom. i. 104.

Dewinio dewiniaeth, to use or practise divination; to divine divinations.—*Esec.* xiii. 23; xxi. 21, 23.

Yspryd dewiniaeth, a spirit of divination; a familiar spirit.—*Lef.* xx. 27; *Act.* xvi. 16.

Ceisiwch i mi wraig o berchen *yspryd dewiniaeth*. . . Y mae gwraig o berchen *yspryd dewiniaeth* yn Endor.
1 *Sam.* xxviii. 7.

Gau ddewiniaeth, lying divination.—*Esec.* xiii. 6.

Dewiniaeth llaw, palmistry, chiromancy.—*S.*

Dewiniaeth wyneb, physiognomy.—*S.*

Dewiniaeth adar, augury.

Dewiniaeth ymysgar, divination by the entrails.

2. divinity, theology. See *Duwiniaeth*, *Duwinyddiaeth*.

Ac yn y modh hwnnw y teruyna Lucidarius. neu Egluryn. yn yr hwnn y cynnwysir lhaweroedh o bynciau arbennic gorchestol y mewn *dewiniaeth*.
Dr. T. Williams: Lucidar, 429, n.

Gwyddor *dewiniaeth* Gildas Brophwyd.—*Iolo Mss.* 195.

Dewiniaethol, *a.* relating to divination, divinatory; oraculous.

Dewiniaetholrwydd, *sm.* the quality or state of being divinatory; oraculousness.

Dewiniaidd, *a.* resembling a prophet or seer.

A dywynnig yw a *dewiniaidd*.—*Dafydd y Coed:* M.A. i. 494.

Digitized by Google

Dewinio, } *v.* to divine; to use or practise di-
Dewino, } vination; to prophesy, prognosticate, foretell, or predict; to guess.

Gwedy *dewinaw* o nadunt a chaffel diheurwyd or peth hwnnw.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 41.

Ar fedr yr arglwydd Bledri
Dewiniwyd rhan dau neu dri:
I Sion *dewiniais* innau
Gynnydd iarll a dug neu ddau.
L. G. Cothi, III. vi. 15 (cf. II. v. 26; VII. viii. 35).

Mal Merddin, pan *ddewinwyf,*
Emrys yn y Mars a wyf.—*L. G. Cothi,* II. iii. 43 (cf. v. 26).

Dewinol, } *a.* 1. divinatory; oracular, oracul-
Dewiniol, } ous.

Blodau doniau *dewinawl*
Ofyddion hoew-lon eu hawl.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 104.

2. of a divine nature, divine; theological.

Lloryf brenhinawl doeth *dewinawl*
Gorllewinawl garllyw unyon.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 471.

Drwy 'i draethodau campus yntau,
Y mae doniau trwm *dewinawl.*—*Caledfryn:* Caniadau, 60.

Dewiniedydd, -ion, } *sm.* a diviner, a magician;
Dewiniwr, wyr, } a foreteller, a prognos-
Dewinwr, wyr, } ticator.

Af, fal Merddin *Ddewiniwr*
I goed, lle ni'm cenfydd gwr.—*I. B. Hir:* Gwaith, 96.

Dewinydd, -ion, *sm.*=*Duwinydd.*

Dewinyddiaeth, -au, *sf.* theology. See *Duwinyddiaeth,* and cf. s.v. *Dewin* (4).

Theologia, *dewinyddiaeth,* ymadrodd a gwybodaeth am bethau dwywawl.—*Davies,* s.v.

Dewinyddol, *a.*=*Duwinyddol.*

Dewis, *v.* [de (deheu)+gwys-io: cf. *aswys:* C. *diwys, dewys, dewes;* Br. *diuz, diuza*] to choose, to select; to elect; to pick out; to prefer.

Ac os o uaru a beu ed escarant ranet e claf ay peryglauer ekyt ac ef a *deuysset* er yac.—*C.C.* i. 84.

Llyma vy atteb i ytti. pei caffwn dewis ar holl wraged a morynyon y byt. mae ti a *dewisswn.*
Mabinogion, 12 (cf. 89, 150, 237).

Priaf ynteu a anuones Alexander a Deiphebus yr wlat a elwit Poenia y *dewis* marchogyon.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 7 (cf. 58).

Ac ereill o honunt a *dewissei* kadw eu diweirdeb.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 119.

Dewis yr wyf, ar ungair,
Dyddgu i'w charu, o chair.—*Dafydd ab Gwilym,* XX. 59.

Cas a gaffo *ddewis,* ac a *ddewiso* y gwaethaf.—*Diareb.*

Ac fe allodd *ddewis* iddo ei hun a'i wŷr, fal y mynai; a *dewis* a wnaeth ef y frodir bras iddo ei hun a'i wŷr.
Iolo Mss. 15.

Duw a wnaeth i'r Deau nawdd,
Duw Iesu a'i *dewisawdd;*
Ac o'i rhyw'n benaig y rhawg
Y *dewiswn* dywysawg.—*L. G. Cothi,* I. i. 61.

O'r rhai y *dewisaf* i chwi ambell un.
Ed. James: Hom. ii. 12.

Dewis, -ion, *sm.* a choice; the thing chosen or selected; preference; the act of choosing.

Ac ys ef y rodaf inneu ar awch *dewis* chwi.
Mabinogion, 178.

Tri braint cyflwr dyn: cydbwys drwg a da, ac yna cymhariaeth; rhyddid wrth ddewis; ac o hyny barn a *dewis;* a chynnechre gallu, ym mraint barn a *dewis;* gan eu rhaid cyn dim arall o wneuthur.—*Barddas,* i. 176.

Pan ranwyt y kauas Corineus *dewis* ac y dewisswys y ran honno.—*Yst. Bren Bryt.:* Ll.C.H. ii. 58.

Ym mhob *dewis* y mae cyfyngder.—*Diareb.* (M.A. iii. 178.)

Cymmerwch eich *dewis* o honynt.—*Gro. Owain,* 218.

O ddewis, of choice; of one's own choice.

O'i ddewis ei hun, of one's own choice.

Y dewision, the choicest.

Dewis, *a.* choice, select, chosen; excellent; preferable.

Dial Duw arnaf heb hi onyt *dewissach* gennyf vy agheu oe law ef noc o law neb.—*Mabinogion,* 270.

Dewissach uu gantaw rodi cat ar uaes noe warchae yn dybryt yn y gaer.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 392.

Llyma heb y gwarandawr y gware *dewissaf* gennyf o honunt.—*Ystoria Charles,* 13 (cf. 2).

Dewisaf, gan Naf, i ni
Oedd ddewisyf iddi oesi.—*Gronwy Owain,* 52.

Dewisach genyf, I had rather; I prefer.—*M.A.* i. 325.

Dewis (yw) genyf, I had or choose rather; I prefer.

Dewyssach yw gennhyf ynheu e wlat vechan honn en ryd no holl teyrnassoed ereyll adan keythywet.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 233 (cf. 290).

Dewis fyddin Saul, 'Saul's selected band;' the choice army of Saul.—1 *Sam.* xiii.

Dewisadwy, *a.* chooseable, eligible, fit to be chosen.

Dewisaidd, *a.* of a choice nature or character; choice, select; desirable.

Diwyw aesawr hydr wr *dewisaidd* dwrdd.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494.

Gwedy hyny ni aethon . . . o swydd i swydd, o ystafell i ystafell, lle gwelson ni bob man gwedy ei gyflenwi o gyfoeth *dewisaidd,* fal na ellid damuno mwy.
Marchog Crwydrad, i. 10.

Dewisddyn, -ion, *sc.* a choice or chosen person.

Dewisseis vun ual nad attrec gennyf
Yawn yw dewissaw *dewistyn* dec.
Hywel ab Owain Gwynedd: M.A. i. 277.

Weithian mewn mis, *ddewisddyn,*
Nid oes ond un Sadwrn yn'.
D. ab Gwilym, CXXIX. 23 (cf. CCLVI. 5).

Dewisedig, *pt. a.* chosen, selected, elected.

Dewisedigion, chosen ones, the elect.

Y mae rhes o fynyddau yn rhedeg drwy Ddeheubarth o'r dwyrain i'r gorllewin, ag arnynt dwmpathau neu wyddfaoedd, a elwir Twmpathau Arthur, neu Neidiau Arthur; yr hwn, meddir, a'u cododd, gan osod *dewisedigion* o'i filwyr mewn lleoedd cyfaddas arnynt i wylied ymgyrch gelynion o fôr ac o dir.—*Ystên Sioned,* 3.

Dewisiad, -au, *sm.* a choosing or selecting; selection, election; a choice.

Da yw Iesu *dewisiad,*
A da oedd ei fam a'i dad.—*D. ab Gwilym,* CCXL. 11.

Rhinwedd yw cariad os mesurir â *dewisiad* addas.
Ios. Harris: Gweith. 110.

Eich dewisiad chwi ydoedd, it was your choice.

Dewisig, *a.* choice, elect, select.

Kyriedus Arglwyd bwyf karedic vry
Yn y vro *dewissic.*
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 472 (cf. 151, 518).

Dewisle, -oedd, *sm.* a choice or chosen place.

Dewisle Lywy loyw gydteithi
Glaer gloew y dwyre o du gweilgi.
Hywel ab Owain Gwynedd: M.A. i. 275.

Dewiso, *v.*=*Dewis.*

Derllydid fy nedf fy *newisaw*
Y' Nghadelling fro Dysiliaw.
Gwalchmai: M.A. i. 195 (cf. 277, 342).

Delw yd oreu Duw y *dewissaw*
Dewissed y Duw y dwyn attaw.
Cynddelw: M.A. i. 231 (cf. 277, 310).

Digitized by Google

Dewisog, *a.* chosen, elect, select, choice.

Wrth y gair yma, Yspryd, y dëellir y llywodraeth a wna Yspryd Duw ar ei *ddewisawg*, drwy eu harail hwynt â'r unrhyw ddawnedigaeth.
Henri Perri: Egl. Ffraethineb, ii.

Antenor ynteu a anogcs gwyr Troea ae gedymdeithon na chymerynt ofyn cr ymlad yn wychyr a gwyr Groec ac a uenegis y echydic o *dewisogyon* a wnathoedit ac ef y Groec.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 8.

Y dewisogion, the chosen or elect.

Dewisogaeth, -au, *sf.* election, selection.

Dewisol, *a.* choice, chosen, select; excellent, exquisite, superior; desirable; preferable; pleasing.

Myned a wnaeth Rhodri yn eu herbyn a llu *dewisawl* o'r Cymry gydag ef.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 478.

Dysgwn yma gan S. Paul, *dewisol* lestr Duw, fod ar bob perchen enaid . . . ufudd-dod a gwarogaeth i'r awdurdodau goruchaf.—*Ed. Iames:* Hom. i. 140 (cf. 66, 108).

Ei gapteniaid *dewisol* a foddwyd yn y Môr Coch.
Ecs. xv. 4.

Pobl ddewisol, chosen people.—*Dan.* xi. 15.

A gwna dy *ddewisol bobl* yn llawen.—*Ll. G. Gyffredin.*

Mor ddewisol a chedrwydd, 'excellent as the cedars.'—*Can. Sal.* v. 15.

Dewisoldeb, **Dewisolrwydd**, *sm.* choiceness, selectness; preferableness; desirableness.

Dewiswr, wyr, **Dewisydd**, -ion, *sm.* 1. one who chooses or selects; a chooser, an elector, a selector.

2. a choice or chosen person.

A lleng o wyr a meirch o *dewiswyr* y gyt ac wynt.
Amlyn ac Amig, col. 1112.

Dewr, -ion, *a.* [C. *dour*] brave, valiant, courageous, intrepid, bold, fearless, dauntless, stout.

Nys gwney bellach. ony barn dy vilwryaeth dy uot yn drech ac yn *dewrach* no mi.—*Mabinogion*, 99 (cf. 259, 268).

Sef oed yn eu bryt y nos kyn y brat. dewis y nifer *dewraf* yn Troea.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 31 (cf. 1, 2).

Dos ragot heb hi y lys Arthur yn lle mae gorev y gwyr. a haelaf. a *dewraf*.—*Mabinogion*, 195 (cf. 227, 229).

Dwyn attaw whechan wr or gwyr *dewraf* idaw a oruc.
Ystt. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 71 (cf. 79, 122).

A chreitheu a gwelioed rygassai y uot yn *dewr*.
Ystt. de Carolo Magno, col. 463 (cf. 423).

Rhys ab Einydd a fu frenin *dewr*.—*Iolo Mss.* 13.

Nid *dewr* neb ond ein teyrn ni.—*D. ab Gwilym*, ii. 44.

Eu rhai *dewrion* a waeddant oddi allan.—*Esa.* xxxiii. 7.

Hwy a allant fod mor lewion ac mor *ddewrion* ag y mynont.—*Ed. Iames:* Hom. iii. 258 (cf. 273; i. 174).

Udd gwrawl, haeddai gariad,
Por *dewr*, a ddirprwy ei dad.—*Gro. Owain*, 36.

Cyn ddewred gwr ag a aned erioed i'r byd, as brave a man as ever existed.

Dewr, -ion, *sm.* a brave one, a valiant person; a hero.

Tri *dewrion* llonydd, Geraint a Gweirydd;
O'r tridyn trydydd ydyw ef Dafydd.
L. Glyn Cothi, i. xxxvi. 21.

Gorfydd *dewr* ar bob dichwain.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 99.

Yno y bloeddia y *dewr* yn chwerw.—*Seph.* i. 14.

Dewraidd, *a.* tending to be valiant, brave, or stout.

Dewrder, **Dewredd**, **Dewrdra**, *sm.* valour, bravery, courage, intrepidity, prowess, dauntlessness, fearlessness, fortitude; heroism.

A ryued oed gan bawb or ae gwelei *dewrder* y gwr ae gryfder ae gedernit.—*Ystt. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 55.

Ac en er amser hwnnw ed oed yno gwas yeuanc a elwyt Karawn, ac nyt oed vonhedyc. ac eyssyoes en llawer o emladeu clotvawr oed oe *dewred* ac oe dawn.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 301 (cf. 348).

Ac yna y gwelit deu unbenn deyrneid gyweirdoeth ygyt gwedy y Duw eu kanhysgaedu o amryuaelyon donyeu. a haelyoni a *dewred* a phryt a doethineb.
Amlyn ac Amig, col. 1095.

Llyna y gallei bawp o honunt dangos y *dewred* ae allu ar digoni.—*Ystt. de Carolo Magno*, col. 450 (cf. 471, 476).

Yn Elfael, dir Mael y medd,
Am daro y mae *dewredd*.
L. G. Cothi, iv. xxviii. 13 (cf. viii. x. 52).

Nis gellir gwrthwynebu Cupid heb *ddewrder*.
Ios. Harris: Gweith. 111.

Yn ei ddewredd, in his prime.

A rynnawd y wrthunt y gwelwn wr penngrych melyn *yn y dewred*.—*Mabinogion*, 164 (cf. 45, 266).

Dewrddyn, -ion, *sm.* a brave or valiant person.

Llwfr iawn y'm bernir o'th serch,
A *dewrddyn* yw dy ordderch.
Dafydd ab Gwilym, clxxvii. 27.

Dewres, -au, *sf.* a brave woman.

Dewrfawr, *a.* great and valiant, bravely or boldly great.

Dauyt uab Ywein bwyf vn uryd a thi
Yth *dewruawr* anwylyd.—*Gwilym Ryfel:* M.A. i. 274.

Dewrgais, geisiau, *a.* boldly or courageously attempting, courageously seeking.

Llawer gwaith, er lliw ewyn,
Y cerddais, yn *ddewrgais* ddyn.
Dafydd ab Gwilym, ccxlviii. 9.

Dewrglod, *a.* famous for valour.

Doeth dewrgoeth *dewrglod* ganhymdeith.
Cynddelw: M.A. i. 215.

Dewrgoeth, *a.* brave and elegant.

Dewrgoeth lluyduawr yn llu arallwlad
Dinydyr gad gynydv.—*Bleddyn Fardd:* M.A. i. 369.

Dewrhâd, *sm.* a becoming bold or courageous.

Dewrhau, *v.* to encourage; to become brave or bold; to take courage.

Un o swyddau cariad yw diddanu gŵr daionus dieniwed, nid gan eu gorthrymu hwy â chamachwynion, ond eu *dewrhau* a'u canmol a'u cyffro â gobrwyon i wneuthur daioni, ac i bara mewn daioni.—*Ed. Iames:* Hom. i. 86.

Dewrineb, *sm.* = *Dewrder*.

Dyled i ti yw, am hyny, O fab yr adfyd! gadarnhau mewn pryd dy feddwl gan *ddewrineb* ac amynedd.
W. O. Pughe: E.D. i. 6.

Dewrlon, *a.* heartily pleased or cheerful.

Arddwyd fy mron *ddewrlon* ddwys,
Iawn angerdd serch, yn un-gwys.
Dafydd ab Gwilym, xxx. 15.

Dewrwalch, weilch, *sm.* a dauntless hawk; a valiant hero.

Dewrwalch teyrneit urenhineit uro
Donnyawc yw uy llyw llafyngoch Gymro.
Llygad Gwr: M.A. i. 343.

Llawn dawn *dewrweilch* Llundain dirion, impiau
Dewr weddau Derwyddon.—*Gronwy Owain*, 101.

A'u swydd am danat fydd son,
Dewrwalch y Cymmrodorion.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 46.

Dewrwas, weis, *sm.* a young hero; a hero; a man of courage or intrepidity.

Gro a gut deurut *dewrwas* gwael y varw
Yn y vawrglod gaffael . . .
Gruffut hil Maredut hael.—*Bleddyn Fardd:* M.A. i. 371.

Arswyddawl *ddewrweis* oeddynt, a holl waith
Y llwythau'n drwm arnynt.
R. ab G. Ddu: Gardd Eifion, 55.

Dewrwr, wyr, *sm.* a brave man; a hero.

Megys y *dewrwr* y dywedi.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 282 (cf. 347, 362).

Digitized by Google

Kyghor yw gennyf ellwng *dewrwyr* am y benn ae dala.
Mabinogion, 237.

Gwalch dewrualch o lin Dewdwr
Ac am walch dewrualch *dewrwyr*.
Prydydd Bychan: M.A. i. 381 (cf. 232, 259).

Balch eryr *dewrwyr* doryf anosco.
Llygad Gwr: M.A. i. 343 (cf. 118, 170).

Dewrwych, *a.* brave and noble; gallant, heroic, chivalrous.

Er mor ddrygionus oedd brenin Saul . . . eto'r oedd ei ddeiliad Dafydd, y goreu i gyd o'i holl ddeiliaid ef, a'r *dewrwychaf* oll yng ngwasanaeth ei dywysog a'i wlad mewn rhyfeloedd, yr ufuddaf a'r caredicaf mewn heddwch.
Ed. James: Hom. iii. 253.

Naddu llun eilun i wr
Dewrwych, portreiad arwr.—*Gronwy Owain*, 3.

Nid oes math yn y byd ar bechod, nad yw yn ei rym ac yn prifio ar bob ymdrech yn gryf ac yn *ddewrwych*.
Lewis Anwyl: Nefawl Ganllaw, 1.

Dewrwychder, } *sm.* gallantry, bravery, valour,
Dewrwychedd, } prowess, heroism.

Dewryn, *sm.* a bold or daring one; a bold little fellow; a sharp one, a tartar.

Hap Duw, ddewryn! good luck, bold one! —*Diareb.* (M.A. iii. 161.)

Dala dewryn, to catch a tartar.

Chwi a gwrddwch â dewryn ynddo, you will catch a tartar in him.

Dews, *sm.* [L. *dyas;* Gr. δυάς] the number two.

Dyas, Rhif dau. Y *dews*.—*Davies*, s.v.

Dews, *sm.* the Latin word for God (*Deus*), occasionally found in some of the medieval poets: see *M.A.* i. 41, 88, 159, 188, 252, 308, 360, 577. Salesbury has *Dews* in the Welsh column of his Dictionary, of which he gives *Deux* as its equivalent. In the subjoined expressions, common in some parts of South Wales, the origin and meaning of *dews* are not clear.

Dyfod i ddews, to come to light or use (said of a thing that has been lost); to be found.

Dyfod ag un i ddews, } to bring a person to
Dyfod ag un at ddews, } his senses; to master or manage a person; to make one understand that he cannot have his own way (in a certain case).

Di-, *px.* [C. *di;* Br. *di;* Ir. *di*] 1. a privative particle, mostly prefixed to substantives, which, like the suffix *-less* in English, it generally converts into adjectives; as *diachos* (achos), causeless; *dibechod* (pechod), sinless; *difai* (bai), faultless; *diwerth* (gwerth), worthless. See *An-*. Its force may also, in many cases, be expressed by *dis-* *in-*, *un-*, *without*, *void* or *devoid of*, *destitute of;* and there is hardly any limit to the extent in which it may be used.

2. In some words, comparatively few, *di-* is used for the intensive and iterative *dy-;* as *diben*, *diddan*, *dieithr*, *dilyn*. This change, inconvenient as it may be, is rendered necessary by the pronunciation, which prevails in every part of the Principality. Pughe, and those who strictly adhere to his system, use *dy-* in all such cases.

3. When *di-* is followed by a vowel, some place a diæresis over the *i*, as *dïal*, *dianaf*, *dïau*, *dïesgus*, *dïolch*, *dïofal;* but this is quite unnecessary, as the *i* of the prefix does not combine with the succeeding vowel to form a diphthong, except in the case of the borrowed words *diafol*, *diafl*, *dieifl*, *diawl*, and their derivatives. But some of these and similar words, in certain combinations, require the mark of separation, for otherwise they may be liable to mispronunciation; as *annïau*, *diddïal*, *annïalgar*, *diddïolch*, *annïolchgar*, *annïogel*, *annïoddefol*.

4. When *di* stands apart from the word or phrase which follows, it should be considered a preposition, though not usually recognized as such; as, *di ben draw*, *di dderbyn wyneb*, *di gred a bedydd* (=digred a difedydd), *di feddwl drwg*, *di droi yn ol*, *di alw yn ol*.

Diofal ydyw'r tal tau,
Dibryder rhag bod bradau;
A *di* garc wyd, a *di* gur;
A *di* ddal, a *di* ddolur;
A *di* nag ydwyd i neb,
A *di* anaf fo d' wyneb.—*L. G. Cothi*, iv. xxii. 51.

Yr hwnn Ferthwryd a fynnwys gynhorthwy gan Ithelwlf ei frawd ac a ddaeth a llu dirfawr i Fôn gan ddiffeithiaw gwlad y ffordd y cerddynt, fal y gwnai'r Paganiaid *di gréd a bedydd*.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 478.

Di ynnill, a *di* annerch,
Di galon i son am serch.—*Rhys Jones:* Gwaith, 304.

A brasder, lawnder *di lai*,
Yn nolydd glanau Elai.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 96 (cf. 96, 199).

Di, *pers. pron.* [mut. of *ti*] thou, thee.

Os gwrthodi *di*'r byd, *di* ddoi i mewn i'r peth o'r hwn y gwnaed y byd.—*Morgan Llwyd:* Disgybl a'i Athraw, 62.

Di, *prep.* [C. *do;* Br. *da;* Ir. *do*, *du;* Ga. *do*] to, unto. An old and now obsolete form. Cf. *idd.* See Zeuss, *G.C.* 695.—*Capella Glosses*, 2, 56, 104.

Ar hit ir ford bet *di* ar ir allt ad dexteram iniaun *di* lin dir luhinn maur trus i ford *di* foss. ar hit ir foss *di* uinid *di* Garth Bacat dir luhinn ex alia parte Garth Bacat *di* Guartha Nant Hela . . . ar hit ir foss bet Pull Mouric *di* guairet guers trui i Pull *di* Brinn i carrec *di* Penniguern.
Llyfr Teilo, 262.

Diaber, *a.* [di-+aber] without an outlet or outfall; without a stream.

Yg kyflaundal kyrt yg kyflaunder but
Ny bwyad *diaber*.—*Cynddelw:* M.A. i. 232 (cf. 229).

Diabred, *a.* that is without a course; unprogressive, obstructed, frustrated.—*P.*

Pedrydawc deyrn uch cyrn coned
Cenif nis dygif [*al.* dygis] yn *diabred*.
Meilir: M.A. i. 191 (cf. 241).

Diabred, -au, *sm.* [di-+abred] 'a cessation from progression; obstruction, frustration.'—*P.*

Diacon, } -iaid, *sm.* [Gr. διάκονος; L. *diaconus;*
Diagon, } C. and Br. *diagon;* Ir. *diacónach*,
Decon, } *deacánach*, *deocánach*] a deacon. The word has hardly been naturalized, as the trisyllabic *diacon*, the form in common use, is generally stressed on the first syllable.

Effeirat yw newyd urdaw. ac ym kyffes o doy a uo nes. mi ath wnaf am cledeu yn *diagon* idaw.
Bown o Hamtwn, § 21.

Gwedu darnod y gras, kyuodi a oruc y *diagon* a wassanaythei ar Dauyd y wassanaethu a'r bara gwenwynic gantaw.—*Buchedd Dewi:* C.B.SS. 19.

Gyda'r esgobion a'r *diaconiaid*.
Phil. i. 1 (cf. 1 Tim. iii. 8, 10, 12, 13).

Digitized by Google

Ni orchymmynir i Esgobion, Offeiriaid, a *Diaconiaid*, trwy gyfraith Dduw, nac i addunedu buchedd annyweddiaeth, nac i ymgadw rhag priodas.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Erth. 32).

Felly hefyd bod y *deconiaid* yn honest. . . Bod *deconiaid* yn wŷr un wraig.—*W. Salesbury:* 1 Tim. iii. 8, 12.

Y gweinidog isaf ei radd yn yr Eglwys yw y *diacon*. . . Nid oedd rydd i un *diacon* gyssegru y bara a'r gwin, nac i bregethu chwaith heb gennad yr esgob.
Theo. Evans: D.P.O. 291 (cf. 293, 206).

Yn y flwyddyn 1745, e'm hurddwyd yn *ddiacon*.
Gronwy Owain, 162.

Diacones, Diagones, Decones, -au, *sf.* [Gr. διακόνισσα; L. *diaconissa*] a deaconess.

Yr oedd ganddynt hefyd *ddiaconesau* yn y Brif Eglwys, a hyny yn amser yr Apostolion. . . *Diaconesau* oedd Mair, Persis, a Phœbe. . . Yr ateb yn fyr yw, na ryfygodd yr hen *ddiaconesau* bregethu erioed.—*Theo. Evans:* D.P.O. 291.

Diaconiaeth, Diagoniaeth, Deconiaeth, -au, *sf.* [L. *diaconatus;* Ir. *deacánachd*] diaconate, deaconship, deaconry.

Diach, *a.* [ach] without a pedigree; ignoble.

Diachar, *a.* [achar] unamiable, unlovely; unsparing; terrific.

Gwyr a aeth Ododin chwerthin wanar
Disgynneis em bedin trin *diachar*.—*Aneurin:* God. 65.

Oed mor *diachar* yt wanei escar.—*Taliesin:* M.A. i. 87.

Diachor wosgort wosgrynyad
Diachar llachar lluchyad y laspar.
Cynddelw: M.A. i. 221.

Diachles, *a.* defenceless, unsuccoured, helpless.

Diachlesiad, -au, *sm.* a making defenceless, a depriving of protection.

Diachlesu, *v.* to deprive of protection.

Diachludd, *a.* unobscured, without concealment.

Mawr gwriawr gorwyr Maredudd
Traws gyngaws gyngor *diachludd*.
Dafydd Benfras: M.A. i. 314.

Diachluddiad, -au, *sm.* a disclosing, or discovering; detection.

Diachluddo, *v.* to disclose.

Diachor, *a.* [achor] not to be surrounded, encircled, kept in, or repressed; irrepressible, irresistible, unrestrainable.

Tri dillyn *diachor* droch drymluawc
Teir llyghes yn aches arymes kyn brawt.
Tri diwedyd kat am dri phriawt.
Taliesin: A.B. ii. 150 (cf. 76).

Ardwyreaf hael hawl *diachor* draig
Aerdarf arynaig aerdorf angor.
Cynddelw: M.A. i. 205 (cf. 221).

Oed mor *diachor* yt ladei
Esgar gwr haual en y bei.—*Aneurin:* God. 676 (cf. 826).

Addfwyn gaer y sydd ar lydan lynn
Dinas *diachor* mor ai cylchyn.
Taliesin: M.A. i. 67 (cf. 23, 70).

Gwrt uytin veityeid yn tewdor
Gwyr Weirnyawn gwrhyd *diachor*.
Cynddelw: M.A. i. 256.

Ai un hynt gwynt ai un dwfr mor
Ai un ufel tan twrwf *diachor*.—*Taliesin:* M.A. i. 46.

Diachor ysgor ysgwyt turnit
Kadyr wychawc varchawc mynawc mwynlit.
Phylip Brydydd: M.A. i. 377.

Er hyn oll yr oedd yno addfwynder anolo, buchedddiad o buredd crefyddolrwydd cadarn, diniweidrwydd *diachor*, edmygiant eglur, a ffrwysedd ffyddiog.
Drych, Meh. 21, 1883.

Diachos, *a.* causeless, without cause, having no cause.

Y felltith *ddiachos* ni ddaw.
Diar. xxvi. 2 (cf. i. 11; Iob i. 9; ix. 17; xxii. 6).

Byw felly, fel y tystiolaetho pawb ag sydd yn adnabod ei honestrwydd ef, fod yn ei enllibio ef yn *ddiachos*.
Ed. Iames: Hom. i. 191.

Diachris, *a.* [achris] not shaded, darkened, clouded, or covered; uncovered, naked.

Diachris cartwys cert Vorad
Diechrys llwry llwyrwys llwyprad.
Cynddelw: M.A. i. 221.

Diachub, *a.* not to be saved; irremediable.

Diachubol, *a.* not tending to save.

Diachudd, *a.* not secluded or enveloped, unobscured; uneclipsed.

Diachuddiad, -au, *sm.* a rendering unsecluded.

Diachuddio, *v.* to disclose; to uncover; to bring to light.

Diachulaidd, *a.* not narrow; not stingy, mean, or penurious.

Difreg Hopcyn dêg didaiogaidd dwr
Da wiw uchelwr *diachulaidd*.—*Dafydd y Coed:* M.A. i. 494.

Diachwyn, *a.* without complaint, uncomplaining.

Diachwyngar, *a.* not given to complaining; uncomplaining.

Diachwynol, *a.* not apt to complain; uncomplaining.

Diad, -au, *sm.* [=dead] separation; a parting.

Na bu gystal dyn y danad Dofydd
Ac y bu Ddafydd cyn ei *ddiad*.
Dafydd Benfras: M.A. i. 316.

Diadail, *a.* [adail] without a building or structure.

Diadanedig, *a.* unregenerate.

Diadbryn, *a.* not redeemed; unredeemed.—*W.*

Diadbrynol, *a.* being unredeemed.

Diadchwaeth, *a.* without a relish.

Diadchwel, Diadchwyl, *a.* not to be returned; without recurrence, unrecurring.

Diadell, Deadell, -au, -oedd, *sf.* [diad=dead] 1. a flock; a herd.

Y *diadellau* defaid hefyd a anrheithiwyd.—*Ioel* i. 18 (cf. Gen. xxx. 40; Deut. vii. 13; xxviii. 4; 2 Cron. xxxii. 28; Can. Sal. i. 7; Mic. v. 8; Seph. ii. 14).

O mor dirion, y Fon fau,
Dillad dy *ddiadellau!*—*Gronwy Owain*, 16.

Yr Arabiaid hefyd oedd yn dwyn iddo ef *ddiadelloedd*.
2 *Cron.* xvii. 11 (cf. Gen. xxix. 2; xlvii. 17).

Diadell o ddefaid, a flock of sheep.—*Gen.* xxix. 2; *Can. Sal.* iv. 2; vi. 6.

Y maent yn gymhwys fel *diadell o ddefaid* diniwed mewn porfa fras.—*Sam. Williams:* Amser (1784), 167.

Diadell o eifr, a flock of goats.—1 *Bren.* xx. 27; *Can. Sal.* iv. 1; vi. 5.

Diadell o ŵyn, a flock of lambs.—2 *Cron.* xxxv. 7.

b. (fig.)—*Ier.* xiii. 17, 20.

Y mae Taliesin . . . yn cyhoeddi gwae i'r offeiriad, yr hwn ni chadwai ei *ddiadell* yn ofalus rhag surdoes Awstin ac ereill o'r offeiriaid pabaidd.—*Theo. Evans:* D.P.O. 255.

Yn llinyn yno llanwent
Hapus gylch Powys a Gwent,
Diadell trwy'r Deheudir,
Rhaid oedd, a thrwy bob rhyw dir.—*Gro. Owain*, 47.

2. a band or cohort. (An uncommon use of the word.)

Ac ydd oedd neb gwr yn Caisareia a ei enw Cornelius, capten y *ddiadell* [°giwdawd, fyddin] a elwid *diadell* yr Ital.
W. Salesbury: Act. x. 1.

Digitized by Google

¶ *Deadell* has of late become common, but the older form is *diadell;* and *deadell*, first introduced by Pughe, is only about a century old. Nothing is gained by the change.

Diadellaidd, *a.* like a flock or herd; gregarious.

Diadelliad, -au, *sm.* a going in flocks; a flocking; a herding.

Diadellog, *a.* gregarious; assembling in flocks or herds; having flocks.

Y buri gan adawu man mor brin
O braidd i lewa ŵyn neu fynod mân
Ar fryniau *deadellawg.*—*W. O. Pughe:* C.G. iii. 478.

Diadellu, *v.* to flock; to form or collect flocks or herds.

Diadellwr, wyr, *sm.* a keeper of a flock or herd; a herdsman.

Cyn gynted ag y cafwyd corff Margaret, aeth bugeiliaid a *deadellwyr*, can gynted eu traed a'r ewigod, i chwilio y wlad ym mhell ac yn agos . . . am y llofrudd.
Gwyliedydd, xii. 345.

Diadenedig, *a.* unregenerate.

Nid yw efe yn gwneuthur cyfrif o'r byd, sef o ddynion anghrefyddol a *diadenedig.*
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 425.

Diadfail, *a.* without decay or ruins; not subject to decay; in repair.

Naf nef eurwlad *ddiadfail.*
Llywelyn Goch: M.A. i. 534 (cf. 541).

Diadfair, *a.* [cf. *adfeirio, edifar*] free from blame; unblamable, faultless.

Canys caru Duw *diatveiriaf* gueith
Eilueith rac cyfreith y kyvriuaf.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326.

Diadfeilio, *v.* to stop decaying.

Diadfeiliog, *a.* undecayed.

Diadferiad, -au, *sm.* want of restoration; non-restoration; the being not returned.

Diadferiad, *a.* without restoration.

Diadferol, *a.* without restoration; unrestored, unreturned.

Diadflas, *a.* void of relish or taste; without distaste or twang.

Diadfyd, *a.* without adversity.

Diadfyw, *a.* unrevived, not reanimated.

Diadfywiol, *a.* not reviving or reanimating.

Diadgais, *a.* without attempting again; without reattempting.

Diadgas, *a.* not disagreeable or odious.

Diadgenedledig, *a.* unregenerated.

Nyni, wedi ein troi drwy reswm a'r Gair, a ddilynwn yr unig a'r *diadgenedledig* Dduw drwy ei Fab ef Iesu Grist.
Charles Edwards: Hanes y Ffydd, 65.

Diadglaf, *a.* having no relapse or illness.

Diadgof, *a.* without remembrance or recollection.

Diadgofiol, *a.* not remembering; unremembered.

Diadgwydd, } *a.* without falling back; with-
Diadgwymp, } out a relapse.

Diadlaes, *a.* not trailing or drooping; unfailing.

Diawdlyn da *diadlaes*,
Mewn cyrn fy arglwydd mewn caes.
Iolo Goch, i Esgob Llanelwy.

Diadlais, *a.* without echo or resonance.

Diadlam, *a.* [adlam] 1. without a resort, home, or residence; homeless.

O deruyd y wr ar gylch help atlam idaw namyn ar gylch, neu uonhedic kanhwynawl *diatlam* gwadu mach, a barnu reith arnaw a mynu o honaw ef gwybot py le y rodo y reith o gyfreith.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 112.

2. that cannot be repassed; irrevocable; irremediable.

Seithwyr ffyryf ffo *diadlam*
Seith gynt ny gymmerynt gam.—*M.A.* i. 418.

Mae'n fingul, mae'n fongam, mae'n wargul, mae'n wyrgam,
Mae llwybr *diadlam* anhylam yn hon.
Ed. Richard: Cân y Bont, ii. 3.

Y Wal *Ddiadlam* y gelwir hon; canys pan ddeler unwaith trwyddi, yn isch fyth ddychwelyd.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 61 (cf. 64, 68).

A'i anadl *diadlam* dwfn
Yn megino mwg annwfn.—*W. Wynn:* Cywydd y Farn.

Maent yn fynych yn cael cennad i fyned i'r awyr, ac o gwmpas y ddaiar, i demtio dynion i'r ffyrdd dinystriol sy'n tywys i'r *diadlam* garchar tra ysgethrin hwn.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 89 (cf. 113).

Er mwyn cyflawni a gwneuthur deddf dragywyddol a *diadlam.*—*Sam. Williams:* Amser, 195.

Bydd hadl y wal *ddiadlam*
Y rhawg, a chwyddawg a cham.—*Gro. Owain*, 92.

Cymmeryd y naid ddiadlam, } to take the ir-
Neidio y naid ddiadlam, } revocable leap or step; to pass the Rubicon.

Diadlif, *a.* without a reflux or ebb.

Diadnabod, *a.* without acquaintance; unacquainted. See *Diarnabod.*

Diadnabyddus, *a.* unacquainted; unknown, obscure.

Y vlwydyn gwedy hynny y danuonet neb un genedyl *diadnabyddus*, herwyd kenedlaeth a moesseu, ny wydit py le yd ymgudyssynt yn yr ynys dalym o vlwynyded, y gan Henri vrenhin y wlat Dyfet.—*Brut y Tywysogion*, 80.

Diadnaid, *a.* without resilience; not to be retraced; irrevocable.

Diadnair, *a.* [adnair] without reproach, reproachless; unspotted, immaculate.

Trindaut dibechawt Duw bych diwahan
Am ri rwydlan am kan kenffych
Mab *diadneir* Meir mor vynych ym byd
Aeth saeth seith brivwyd ffyd am ffurvych.
Casnodyn: M.A. i. 427 (cf. 323, 472).

Duw *diadnair* a Mair mae'r cynghorion
A wnaf rhag lladron dynion dannod.
Mab Cryg: M.A. i. 555.

Diadnawf, *a.* not to be swum back.

Diadnerth, *a.* without support or reinforcement; unsupported.

Diadolwch, *a.* without entreaty.

Diadran, *a.* without subdivision; undivided.

Diadred, *a.* without recurrence, unrecurring.

Diadrodd, *a.* not to be related; unspeakable.

Mawr gawdd *diadrawdd* daw i'w edrych.
Madog ab Gwallter: M.A. i. 404.

Diadrwym, *a.* unrestricted, unrestrained.

Diadsawr, *a.* without disagreeable scent, smell, or odour.

A hyny a wna'r dannedd yn lân, ac yn wynion, ac yn *ddiadsawr.*—*Meddygon Myddfai*, ii. 553.

Diadwaith, *a.* without a second work; not wanting to be worked again; not to be repealed, revoked, or undone.

Cyfraith *ddiadwaith* ydoedd.—*Sypyn Cyfeiliog.*

Digitized by Google

Diadwedd, *a.* without retrospection.

Diadwerth, *a.* undepreciated.

Diadwy, *a.* without a breach or gap.

Diadwyth, *a.* 1. without harm, mischief, or malignity; harmless.

Ffridd ydyw'r ffordd *ddiadwyth*,
Ef ä'r ffridd yn fawr ei ffrwyth.
L. Glyn Cothi, III. xviii. 31.

Odid cael, yn *ddiadwyth*,
Na dyn na phren yn dwyn ffrwyth.—*Gr. Llwyd ab Dafydd.*

Od oes un aderyn diddrwg, *diadwyth*, i'w gael ym mhlith holl lwyth adeiniog yr awyr, gallesid, ar dir teg, ddisgwyl taw y golomen a fuasai yr aderyn hwnw.—*Ystên Sioned*, 72.

2. (in botany) *sm.* lamb's lettuce, corn salad (*Valeriana locusta*): also called *gwylaeth yr oen.*—*H. Davies:* Welsh Bot. 5, 183.

Diadwythig, *a.* not hurtful, harmful, or noxious; uninfectious.

Diaddas, *a.* improper, incompetent.

Diaddasu, *v.* to render improper; to disqualify.

Diaddaw, *a.* without promise; unpromised.

Diaddefol, *a.* unconfessed, unowned.

Diaddfed, *a.* immature, unripe.

Diaddfedwch, *sm.* unripeness, immaturity.

Ym mhen dyddiau duodd fodau *diaddfedwch*.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 102.

Diaddfwyn, *a.* not mild or meek; unkind.

Ni charaf ddyn, dremyn dro,
Ddiaddfwyn, heb dda iddo.—*D. ab Gwilym*, clxxix. 7.

Diaddoliad, *a.* without worship or adoration, unworshipped, unadored.

Diadduned, *a.* without a vow.

Diaddunedol, *a.* unvowed.

Diaddunedu, *v.* to do away with a vow.

Diaddurn, *a.* without ornament; not adorned, embellished, or decorated; unadorned, undecorated, plain, simple.

Mal yr hardda gwisg *ddiaddurn* wraig brydferth yn oreu, felly ymddygiad gweddus yw penaf tegwch doethineb.
W. O. Pughe: E.D. i. 2.

Mae ymadroddion un yn fwy *diaddurn* a syml, ymadroddion un arall yn gryfach a mwy ehedegog.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 217 (cf. 130).

Diaddurn, *sm.* moschatel (*Adoxa moschatellina*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 183.

Diaddurniad, -au, *sm.* a deprivation or stripping of ornament.

Diaddurno, *v.* to deprive of ornaments or embellishments; to disembellish; to make plain.

Diaddurnol, *a.* disembellishing; undecorated.

Diaddwyn, *a.* not honest, virtuous, or honourable; unbecoming, indelicate, indecorous.

Diaddwyniad, -au, *sm.* a becoming indelicate or indecorous.

Diaddwyno, *v.* to make dishonourable or indecorous.

Diaddwynol, *a.* tending to be dishonest, indelicate, or unbecoming.

Diaddysg, *a.* without instruction or education; uneducated, unlearned, uninstructed, illiterate.

Chwedlau *diaddysg* gymmysg trachymmysg.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 11.

Diaddysgu, *v.* to divest or deprive of learning.

Diaedd, *a.* [aedd] without noise or tumult.

Diael, *a.* without a brow, border, or skirt.

Diaeleu, *a.* without grief or sorrow, griefless.

Diaelaw, *a.* without produce; not rich.

Diaele, *a.* [cf. *anaele*] irremediable, incurable.

Gorwyn blaen coll geir Digoll bre
Diaele uyd pob ffoll
Gweithret cadarn cadw aruoll.
Llywarch Hen: A.B. ii. 253 (M.A. i. 123).

Diaelod, *a.* without a member.

Diaelodi, *v.* 1. to dismember; to disjoint.

Oed Crist 1122, y llas Ithel ab Rhirid gan ei ewythr Meredydd ab Bleddyn, a Chadwallawn ab Gruffydd ab Cynan a dynnawdd lygaid ei ewythredd Gronw, Rhirid a Meilir, meibion Owain ab Edwin, a gwedi hynny eu *diaelodi*, ac ym mhen ychydic wedi hyny efe au lladdawdd.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 554.

2. to cut off or expel a member (of a society); to excommunicate.

Diaelodiad, -au, *sm.* 1. a dismembering or disjointing. 2. expulsion (of a member or fellow); excommunication.

Diaelwyd, *a.* without a hearth; homeless.

Diaelwydd, *a.* without success, unsuccessful.

Diaer, *a.* without battle or slaughter.

Diaer, *a.* [aer=E. *heir*] heirless.—*N. W.*

Diaered, *a.* immortal.—*P.*

Am swynwys i Vath
Kyn bum *dineret*
Am swynwys i Wytyon
Mawnut [*al.* mawrnwr] o Brython.
Taliesin: A.B. ii. 142 (M.A. i. 30).

Diaerfa, *a.* without battle or slaughter.

Arawn vab Kynvarch a dywawt val hyn. . . Nyt dym kenhyf ar ry gwnaetham o emladeu yr holl vrenhined a oreskynasam ni hyt hyn. os gwyr Ruvein a gwyr Germani a dyangant en *diaerva* y genhyn ninheu.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 330.

Diaerog, *a.* not used to battle.

Dy goui dyhen Vrython
Gwydyl kyl *diaerogyon*
Medut medwon.—*Taliesin:* A.B. ii. 303 (M.A. i. 33).

¶ *Diaerogyon* in this passage may be the same as *diueroyyon* at p. 68 in *A.B.*, and the variant in *M.A.* i. 67.

Diaerol, *a.* unwarlike; not used to war.

Diaeron, *a.* without berries or fruit.

Diaeth, *a.* without pain or horror.

Diaethlyd, *a.* not poignant or smarting.

Diaethol, *a.* not painful, unpainful, giving no pain.

Diaethu, *v.* to divest of poignancy, pain, or horror.

Diafael, *a.* without a hold or gripe; slippery; not careful.

Diafaelog, *a.* having no hold or gripe.

Diafaelu, *v.* to let go a hold.

Diafar, *a.* not grieving, not sorrowful; free from grief or sorrow.

Lle mae seint yn sant *diauar*.—*M.A.* i. 420.

Diafiach, *a.* not unwell or ill, not diseased; sane, healthy.

Nid llyfnach *ddiafiach* ddysg
Na chroen y gwrboen garw-bysg.—*Iolo Goch.*

Diafiachol, *a.* of a healing tendency.

Digitized by Google

Diafiachu, *v.* to free from disease; to make well or healthy.

Diafiachus, *a.* not disordered; sane.

Diafiaeth, } *a.* without pleasure, enjoyment,
Diafiaith, } joy, or gaiety.

Diafiaethu, } *v.* to deprive of joy, enjoyment,
Diafieithu, } or pleasure.

Diafiaethus, } *a.* without joy, gaiety, pleasure,
Diafieithus, } or blandishment.

Diafiechyd, *a.* without disease or disorder; free from illness, pain, or indisposition.

Erbyn gymmen wenn wynfyd enrhydedd
I'r wledd a'r fuchedd *ddiafiechyd*.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 455.

Diafi, *pl.* dieifl, diafliaid, *sm.* [see *Diafol*, *Diawl*] the devil; a devil, a demon.

Bod o'r hynaf-wragedd yr un ffunud mewn ymddygiad fel y gweddai i sancteiddrwydd; nid yn enllibaidd [**ddiafiaid*], nid wedi ymroi i win lawer, yn rhoi athrawiaeth o ddaioni.—*Tit.* ii. 3 (cf. 2 Tim. iii. 3).

Gan y *diafi* ydd ã'r afian,
A *dieifl* a'u teifl yn y tân.—*Gronwy Owain*, 98.

Dyn ieuanc wyf dan awyr,
At ßais trafaelais trwy fŷr,
I dir Cent, i awyr cas
Seisoniaid, *diafliaid* diflas.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 53.

Gyr byth, â phob gair o'i ben,
Dripharth o'th *ddieifl* bendraphen.—*Gro. Owain*, 78.

Diflanna'r *dieifl* elynion,
Un ni saif dan iasau hon.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 116.

¶ *Diafl* and *dieifl*, as well as *diawl*, are monosyllables.

Diaflaidd, *a.* devilish, diabolical.

Nid yn ddieflig, neu yn *ddiafiaidd*, sef yn debyg i'r diafol.
Thomas Charles, s.v. 'Diafol.'

Diaflan, *a.* not unclean or polluted; undefiled, unpolluted; clean.

Diaflanhaol, *a.* tending to divest of defilement or pollution; cleansing.

Diaflanhau, *v.* to make undefiled; to cleanse.

Diaflednais, *a.* not indelicate, rude, or coarse; modest, delicate.

Cyrch, yr edn *diafiednais*,
Cychwyn, wan benlöyn lais.—*D. ab Gwilym*, clxxxix. 1.

Diaflendid, *a.* without uncleanness, defilement, or pollution.

Diafles, -au, -od, *sf.* [diafl] a she-devil, a devil in petticoats.

Diafles, *a.* [afles] without disadvantage.

Diaflesol, *a.* not disadvantageous.

Diaflesu, *v.* to rid of disadvantage.

Diaflonydd, *a.* not unquiet; not unruly.

Diaflonyddu, *v.* to make quiet.

Diaflun, *a.* not deformed or disfigured.

Diafluniaidd, *a.* not disfigured.

Diaflunio, *v.* to divest of deformity.

Diaflwydd, *a.* without misfortune; prosperous.

Diaflwyddiant, *sm.* success, prosperity.

Diaflwyddo, *v.* to divest of misfortune; to make successful.

Diaflym, *a.* [llym] not blunt or edgeless.

A gwyar a uaglei ar ddillad
A dulliaw *diaflym* dwys wrth gad.—*Taliesin:* M.A. i. 52.

Diaflymiad, -au, *sm*, accumination.

Diaflymol, *a.* tending to do away with bluntness.

Diaflymu, *v.* to divest of bluntness; to sharpen.

Diafn, *sm.* [afn] want of courage, fortitude, resolution, or perseverance; a failing; reluctance, disinclination.

Clywais ryw ddiafn ar fy nghalon, I felt a sort of fainting on my heart.—*S.E.W.* (*P.*)

Diafniad, -au, *sm.* a feeling a reluctance; disinclination.

Diafnol, *a.* having reluctance or disinclination; disinclining.

Diafnu, *v.* to fail; to desist or shrink (from); to feel a reluctance or disinclination; to feel indifferent.

Yr wyf yn clywed fy hun yn diafnu, I feel myself to be reluctant or disinclined; I feel myself failing.—*S.E.W.*

Diafol, *pl.* diefyl, *sm.* [Gr. διάβολος; L. *diabolus*; C. *diawl*, *diauol* (C.V.); Br. *diaoul*; Ir. *diabhal*; Ga. *diabhol*] the devil; a devil.

Ny dotynt dros uor etwaeth
Pobyl anhyuaeth Nanhyuer
Gwytyl *dieuyl* duon
Ysgodogion dynion lletfer.
Meilir: M.A. i. 192 (cf. 184, 579).

Ny helir Twrch Trwyth nes kaffel Gwynn uab Nud. a ry dodes Duw aryal *dieuyl* annwuyn yndaw rac rewinnyaw y bressen.—*Mabinogion*, 124.

Apulenius heb ef a dyweit pan draetho o Duw ar seint. bot ryw genedyl o yspryt yn presswylaw rwg y lleuat ar ddayar. ar rei hynny a alwn ni *diefyl* gogwydedic.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 143.

A llyna a dyweit y Sarascinyeit tra yttoed yn y vywyt. rywneuthur o honaw y delw honno yn y enw ehun. ac o rin geluydyt gyrru yndi lleg o *diefyl* ae hinseilaw arnunt.
Yst. de Carolo Magno, col. 384 (cf. 386, 394, 440).

Drwy y chymryt or *diefyl* ae dwyn y uffern yn gorfforawl.—*Amlyn ac Amig*, col. 1109.

Ar *dieufyl* heb ef yssyd yn dwyn eneit Marali y uffern.
Yst. de Carolo Magno, col. 490 (cf. 444, 497).

Ef a glywei drablud yn y capel. ac a glywei barth yn dywedut yn issel ar llall yn dywedut yn uchel. ac a adnabu ar eu dywedwydyat. bot rei onadunt yn engylyon ar lleill yn *dieuyl*. ac a glywei y *dieuyl* yn herwyd a debygei ef yn medyannu eneit y marw.—*St. Greal*, ‡ 76.

E Gwr a brynnws e kristonogion da oll yr creu i gallon a geithiwet *diefyl* ufern.—*Brut. Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 357.

A vydh y *dieuyl* yn pregethu y dhynion yn wastat. . . Ae tywyssawc hwy a dhyry un aralh or *dieuyl* yn lhe hwnnw.—*Lucidar*, ‡ 90 (cf. 42).

Yr hwn sydd yn gwneuthur pechod, o *ddiafol* y mae; canys y mae *diafol* yn pechu o'r dechreuad. I hyn yr ymddangosodd Mab Duw, fel y dattodai weithredoedd *diafol*. 1 *Ioan* iii. 8 (cf. 10; Matt. iv. 1—11).

Gwedi eu rhoddi i Sathan y *diafol* dros amser.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 18 (cf. 101, 215; i. 55, 194; iii. 26, 56).

Y mae *diafol* yn gwneuthur cynghrair â'r drygionus.
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 416 (cf. 364).

Y *diafol*, arglwydd du-fwg,
Ti, du ei drem, tad y drwg.—*Gronwy Owain*, 73.

Diafol a Satan, the Devil and Satan.—*Dad.* xii. 9; xx. 2.

¶ In the N.T. the word in the original always occurs in the singular, and is preceded by the article, except in three passages (1 *Tim.* iii. 11; 2 *Tim.* iii. 3; *Tit.* ii. 3), where it is used in the plural number and adjectival sense; but in the Welsh version it never has the article, and is treated like a proper name.

Digitized by Google

There being but one chief or prince of the fallen angels (ὁ διάβολος), the word has properly no plural; and the *diefyl* of the older writers, like the later *diawliaid*, may be considered as equivalent to *cythreuliaid*, or demons. See *Cythraul*. Pughe, in the preceding quotation from Meilir, alters *dieuyl* (=*diefyl*) of the original into *dieifyl*, a form for which there does not appear to be any authority.

Diafrad, *a.* without waste; unwasting; unwasteful.

Diafradlawn, *a.* not wasteful, lavish, or prodigal; unwasted, unlavished.

Diafradloni, *v.* to desist from wasting or being prodigal.

Diafradu, *v.* to cease to lavish or waste.

Diafrdwyth, *a.* [afrdwyth] unimpassioned; not vehement.

Diafrddwl, *a.* free from anxiety or solicitude; not sad or pensive; unperplexed, undisturbed; bold, fearless.

Dilwfyr gwych gweithfutig dragon
Digrawn eur digrifwch dynyon
Diafyrdwl yn aer yn Aruon diwet
Rwyf Gwynet rwysc Lleon.
Hywel Foel ab Griffri: M.A. i. 393.

Diafrddwl feddwl fyddwn ym Mon
Pei yn fyw y delai i Dal y Bolion.
Dafydd Benfras: M.A. i. 315 (cf. 526).

Ac ymlad ac wynt a oruc gwyr Tro a chyrch *diafyrdwl*.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 91.

Nyt aryneigya yr ellyll gerd. na chythreulyaeth. namyn gwastat *diafyrdawl* yd aruer.
Yst. de Carolo Magno, col. 486.

Diafreol, **Diafreolus,** *a.* not irregular, not disordered; regular, orderly.

Diafreoli, *v.* to divest of disorder; to make regular.

Diafrif, *a.* 1. not innumerable, not numberless; not vague or indefinite.

2. (=difrif) serious, earnest, sincere.

Y Groegiaid gynt yn hyfad ac yn *ddiafrif* (a'i coleddent, a'i mawrhäent, ac a ranent iddi folawd gweddus a chanmoliant gwaddolyd) a'i galwent hi Ψυχαγωγόν, sef Tywysog yr enaid.—*H. Perri:* Egl. Ffr. (1595), i.

Diafrwydd, *a.* not difficult, hindered, or entangled; unobstructed.

Diafrwyddiad, -au, *sm.* a divesting of obstruction or hinderance; facilitation.

Diafrwyddo, *v.* to divest of obstruction, hinderance, or difficulty; to facilitate.

Diafrwyddol, *a.* facilitating, not obstructive.

Diafryw, *a.* not degenerate, undebased.

Diafwl, *sm.* [see *Diafol*] the devil.

Diafl, & diafol, & *diafwl*, Diabolus.—*Davies*, s.v. 'Diafl.'

¶ I know of no other instance of this form except in those lexicographers who copied Dr. Davies; but Davies does not give it in the Latin-Welsh part under 'Diabolus.' The *diafyl* and *dieifyl* of Pughe are equally unknown to me; and there is no evidence or probability of their occurrence.

Diaffaith, *a.* without accession or help; void of effect, effectless, fruitless.

Diagen, *a.* without a cleft, split, or opening.

Diagenol, *a.* not cleaving or splitting.

Diagenu, *v.* to close up clefts or cracks.

Diager, *a.* without steam; without vapour.

Diagon, -iaid, *sm.* See *Diacon*, &c.

Diagor, **Diagoriad,** *a.* without an opening; without a key.

Diagori, *v.* to close or shut up.

Diagr, *a.*=*Dihagr.*—*D. ab Gwilym*, i. 2.

Diagro, *a.* [agro] not melancholy, sad, pensive, or sedate.

Kyuarchaf ym *diagro* urawt
A darllewys lyuyr Cado
Pwy wledych wedy euo.
Myrddin: A.B. ii. 226 (M.A. i. 143).

Diagwedd, *a.* without form, manner, or habit; shapeless; without appearance; unseemly.

Fe'th aned yn noeth . . .
Yn ddirym i wneuthur lles,
Ym mron heb wres *diagwedd*.—*S. S. Hywel.*

Diagweddiad, -au, *sm.* a divesting of habit, method, or ability to act.

Diagweddol, *a.* unhabituated; immethodical; having no ability.

Diagweddu, *v.* to divest of method.

Diagwst, *sm.* an intentionally perverted or minced pronunciation of *diawl.*—*C.S.*

Diangadwy, *a.* [dianc, diangu] that may escape.

Diangedig, *pt. a.* escaped.

Rhai o'r gwŷr hyny yn *ddiangedion* [ddiangedigion] a ddywedasant wrth eu hymerawdr nas gellid na gobwyll na gobaith y gellid y llaw uchaf a gorfod ar Garadawc ab Brân cyhyd ag y safaint y coedydd a'r llwyni caeadbell yng nghyfoethau Caradawc a'i Gymry.—*Iolo Mss.* 185.

Diangeu, *a.* [angeu] deathless, immortal.

Diangeuo, *v.* to render deathless or immortal; to become immortal.

Diangeuol, *a.* tending to immortality.

Diangfa, fäu, fäau, *sf.* [dianc] escape; deliverance; a way of escape; a retreat.

I'r Arglwydd Dduw y perthyn *diangfäau* rhag marwolaeth.—*Salm.* lxviii. 20.

Am i ti, ein Duw, ein cospi yn llai na'n hanwiredd, a rhoddi i ni *ddiangfa* fel hyn.—*Esr.* ix. 13 (cf. 1 Cor. x. 13).

Dianghadr, *a.* [cadr] not weak or impotent.

A gwayw dan vronn a gwaed gwirion gwerin bryniat
Ar byt paladyr yn *diangadyr* am dwy angad.
Casnodyn: M.A. i. 429.

Dianghall, *a.* [anghall] not unwise or indiscreet.

Dianghar, *a.* not unlovely or unamiable.

Dianghawr, *a.* not ungenerous or illiberal.

Dianghen, *a.* [anghen] without want, necessity, or need; needless, unnecessary.

Da iawn a fyddai genyf ddyfod i fyw ym Mon, os gallwn fyw yn ddiwall *ddianghen*.—*Gronwy Owain*, 177.

Dianghenol, *a.* unnecessary, needless.

Dianghenrhaid, **Dianghenrheidiol,** *a.* not necessary, without necessity, needless, unnecessary.

Un o ddibenion eich cyhoeddiad yw puro y Gymraeg oddi wrth y sothach Saesneg o glytir yn *ddianghenrhaid* wrthi gan ein gwladwyr, yn rhy gyffredin.
Ios. Harris: Gweith. 28.

Digitized by Google

Dianghenrheidio, *v.* to make unnecessary; to divest of necessity; to become unnecessary.

Dianghenu, *v.* to furnish or supply with necessaries; to supply or relieve wants or necessities.

Oni ddanfonodd Duw ei angel atynt, nid yn unig i'w cysuro, eithr i'w *dianghenu* hefyd?
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 109.

Can hen a *ddianghenodd*,
I'r un ni bu nag o rodd.—*Gronwy Owain*, 50 (cf. 191).

Dianghlod, *a.* free from dispraise or reproach.

Dianghoeth, *a.* not unrefined; not impure.

Dianghoethedd, *sm.* freedom from impurity.

Dianghoethi, *v.* to free from impurity; to purge from what is impure; to refine.

Dianghof, *a.* being unforgotten; not forgetful; memorable.

Wrth weled dy dynged *diangho'*—
Llywelyn! ti a elli wylo.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 3.

Dianghofio, *a.* to cease to be forgetful or unmindful; to recall to mind.

Dianghofiol, *a.* tending to refresh the memory, or to recall to mind.

Dianghraifft, } *a.* without example or pre-
Dienghraifft, } cedent; unexampled, unprecedented, unparalleled.

Dianghyflaith, *a.* not of a strange language or dialect; not barbarous.

Dianghymmes, *a.* not immoderate.

Dianghymmorth, *a.* without want of support or assistance; not unassisted.

Dianghysson, *a.* not inconsistent, incongruous, or discordant; undiscordant.

Dianghyssoni, *v.* to rend undiscordant.

Diangiad, -au, *sm.* an escaping; an escape.

Diangol, *a.* [dianc] that has escaped; that has been liberated; that is delivered, or preserved; escaped; safe; free (from); unhurt.

Diangol rhag brad y'm cadwai
Dan egyll dail, mentyll Mai.
Dafydd ab Gwilym, cxliv. 15.

Gweddill a ä allan o Ierusalem, a'r rhai *diangol* o fynydd Sion.—2 *Bren.* xix. 31 (cf. ix. 15; Esa. xxxvii. 32).

Yr hwn a'n cedwaist yn *ddiangol* hyd ddechreu'r dydd heddyw.—*Llyfr Gweddi Gyffredin.*

Duw o'r nef a'i dyco yn *ddiangol!*—*Gro. Owain*, 289.

Myned (*dyfod*) *yn ddiangol*, to escape; to go (or come) without hurt, injury, or impediment.

Ac felly y dygwyddodd *dyfod* o bawb i dir *yn ddiangol*.
Act. xxvii. 44.

Diangol oddi wrth, escaped from; free or safe from; exempt from.

Os chwi ni ellwch fod yn *ddiangol oddi wrth* y gwyniau hyn.—*Ed. James:* Hom. i. 194.

Mi a welaf, er nad ydynt *ddiangol oddi wrth* bob cystuddiau, eu bod er hyny yn *ddiangol oddi wrth* gystuddiau niweidus.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 131 (cf. 358, 376).

Bwch diangol: see s.v. *Bwch*.

Diangor, *a.* [angor] without an anchor, anchorless; not at anchor.

Diangori, *v.* to weigh anchor.

Wedy daroedd i Paul a'r rhai oedd gyd ag ef *ddiangori* y wrth Paphus, y daethant i Perga.
W. Salesbury: Act. xiii. 13.

Diangrwydd, *sm.* escapement; safety; deliverance.

Diangwr, wyr, } *sm.* one who escapes, an es-
Diangydd, -ion, } caper; one who is delivered.

Diangu, *v.* = *Dianc*.

Diaidd, *a.* [aidd] without zeal or warmth; destitute of ardour.

Eiry mynydd buan blaidd
Ystlys diffeithwch a draidd
Gnawd neb anaf ar *diaidd*.
Englynion Eiry Mynydd: M.A. i. 551.

Diwraidd draig mewn dewredd drud
Dieidd graig da oed ei gred.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 450.

Diail, *a.* [ail] without a second or equal; incomparable; unmatched.

I *ddiail*, er ei goddoli,
A gâr hon ddim o'i gwr hi!—*D. ab Gwilym*, ccliv. 9.

Diailenedig, } *a.* not born again; unregen-
Diailanedig, } erated.

Nid oes un dawn wedi ei weithredu yn rymus yn y credadyn ni bo ei rith a'i gyffelyb i'w gweled yn y *diailenedig*.
Sion Trefredyn.

Diailgenedledig, *a.* unregenerated.

Diailgenedliad, *a.* without regeneration or reproduction.

Diaill, *a.* [aill] with no other; without another; not otherwise.

Aur yn y naill, *diaill* dau,
Arwydd yw i'r llaw orau.—*Dafydd ab Gwilym*, iv. 17.

Diaillt, *a.* without another; unmatched.

Diainc, *a.* [ainc] without greed, greediness, or craving.

Diais, *a.* [ais] having no ribs, ribless; without laths or splints.

Dial, -au, *sm.* [C. *dial, dyal;* Ir. *dioghail, digal;* Ga. *dioghail, diol*] vengeance; revenge; punishment.

A chymer gedernit y ganthaw na bo amovyn na *dial* vyth am danaw.—*Mabinogion*, 16 (cf. 18, 110, 249).

Ac or rei hynny oll yn gyntaf y Bryttanyeit ae gwledychwys o vor rud hyt ar vor Iwerdon hyt pan deuth *dial* y gan Duw arnadunt am eu syberwyt.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 41.

Dealled doethon dyfod *dialon*.
G. ab D. ab Tudur: M.A. i. 480.

Dial serch i'm dal y sydd.—*Dafydd ab Gwilym*, cclxii. 8.

Hwyraf *dial*, *dial* Duw; llwyraf *dial*, *dial* Duw.
Iolo Mss. 172.

Dydd dial, } the day of vengeance.—*Esa.*
Diwrnod dial, } xxxiv. 8; lxi. 2; lxiii. 4.

Dyddiau dial yw y rhai hyn.—*Luc* xxi. 22.

Am hyny nid erbyd efe yn *nydd dial*.
Diar. vi. 34 (cf. Ier. xlvi. 10).

Hwy a oddiweddir yn ddisymmwth yn *nydd dial*.
Ed. James: Hom. ii. 192.

Dial Duw, the vengeance of God: sometimes used as an imprecation.

Dial Duw arnaf heb ef nos galanmei yw heno ony wybydaf i pa dileith yssyd yn dwyn yr ebolyon.
Mabinogion, 20 (cf. 129, 270, 272).

Dwyn dial, to bring vengeance.

Wele fi yn *dwyn dial* arnat ti.—*Ed. James:* Hom. ii. 186.

Y mae efe yn bygwth *dwyn dial* am danynt drwyddo ei hun.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 204 (cf. 165, 210).

Dial Rhodri, the revenge or retaliation of Rhodri; a victory so called, obtained by the Welsh over the Saxons and Danes in the year 880.

Pedwar ugein mlyned ac wyth cant oed oet Crist pan vu weith Conwy y *dial Rodri* o Duw.—*Brut y Tywysogion*, 16.

Digitized by Google

Dial, *v.* to avenge; to revenge.

A phadiw bynnac y mynnynt hwy y rodi hi vot yn digawn gantaw ef or gallei *dial* y sarhaedeu ar y elynyon.
Dares Phrygius: LI.C.H. ii. 24 (cf. 3, 8).

A minneu a *dialaf* hynny arnaw . . . ac ny bydaf vyth lawen yny darffo ym y *dial*.—*St. Greal*, 197.

Pan aeth niuer deg wlat a seith ugeint y Iwerdon y *dial* paluawt Branwen.—*Mabinogion*, 43 (cf. 57, 110, 299, 301).

Delw Fair a'i *dial* efo,
Duw eilwaith a'i *dialo!*
L. Glyn Cothi, 1. vi. 63 (cf. 16, 49, 55).

Gwell gochel mefl na'i *ddial*.—*Diareb.* (M.A. iii. 160.)

Oni *ddial* Duw ei etholedigion?—*Luc* xviii. 7 (cf. 5).

Dial ar, to revenge on or of; to take revenge on; to avenge on; to be avenged on or of.—*Luc* xviii. 3.

Yn ol *dial ar* alon,
Rhial hardd yw'r rheol hon.—*Gronwy Owain*, 73.

Dial llid, to wreak vengeance or wrath.

Ai lloeg a *ddial* fy *llid*!—*D. ab Gwilym*, clxxiii. 76.

Dial gwaed, to avenge blood.—*Dad.* vi. 10; xix. 2.

A rybudyaw pawb y vot yn barawt y ymlad a Desider. ac y *dial* eu *gwaet*.—*Amlyn ac Amig*, col. 1112.

Mi a af yr awr honn y *dial gwaet* yr Arglwyd.
Yst. de Carolo Magno, col. 445 (cf. 489).

Dial cam, to avenge a wrong or injustice.—*Act.* vii. 24.

Sef achaws y gelwit wy yn eruedogyon. wrth *dial* eu *kam* oc eu bed.—*Trioedd:* LI.C.H. ii. 304 (cf. 301).

Ac a *ddial cam* ar rai gwammal,
Ac a dyr daiar gwedi'r dial.—*L. G. Cothi*, viii. iii. 61.

Glân yw'r arglwydd mawl-rwydd mau,
Yn *dial cam* y Deau.—*Iolo Goch:* G.B.C. 79.

Dial sarhâd, } to avenge an insult, affront, or
Dial sarhäed, } outrage.

Or byd neb ky ehofnet. ac amwyn y gorulwch hwnn. a mi. a *dial sarhaet* Gwenhwyfar. deuet ym ol yr weirglod.
Mabinogion, 197 (cf. 34, 255, 259).

Dialaeth, -au, *sf.* [dial] vengeance, revenge.

Goruawr glyw glewyd *dialaeth*
Gorulwg aryf aeruetawc bennaeth.
Cynddelw: M.A. i. 222 (cf. 307, 347).

Weithian y *dialaethau*
A gawn yn frwd ac yn frau.—*Ll. ab M. ab Ednyfed.*

Dialaeth, *a.* [alaeth] without sorrow, wailing, or lamentation.

Dattod mantell i'm deutu,
Dialaeth y fammaeth fu.—*Dafydd ab Gwilym*, cvi. 27.

Dialaethu, *v.* to cease grieving or lamenting.

Dialar, *a.* without mourning or lamenting; without grief; unafflicted; unlamented.

Buyf guas Duw gwesti *dialar*
Kyn buyf anghenauc anghenwar.
Cynddelw: M.A. i. 249.

Dialawr, orion, *sm.* an avenger.

Ef *dialawr* ar werth ei dreth beunydd.
Golyddan: M.A. i. 158.

Dialaru, *v.* to cease lamenting.

Dialarus, *a.* not lamenting; unlamented; unafflicted.

Dialbren, -au, -i, *sm.* the tree of vengeance, a gallows.

Dialechdid, *sm.* [*dialectica;* Gr. διαλεκτική] dialectic, logic.—*D.*

Twrw'n ei lais, taran o lid,
Loew wychder *dialechdid*.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 158.

Dialedigaeth, -au, *sf.* the act of avenging; avengement; punishment, penal retribution.

Dialedd, -au, *sm.* 1. vengeance; revenge; retributive justice.

I wneuthur *dialedd* ar Faelgwn Gwynedd.
Taliesin: M.A. i. 23.

Dialedd, drwy fy ngweddi,
A ddêl, Gwen, i'th dalcen di!—*D. ab Gwilym*, ccxxv. 19.

Gwedi dyfod diwedd ar y *dialeddau* hynny, fe ddodes Gadwaladr Ynys Prydain a'i choron yn nawdd ac adnau Alan brenin Llydaw.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 469.

Am ddial *dialeddau* Israel, ac ymgymhell o'r bobl, bendithiwch yr Arglwydd.—*Barn.* v. 2 (cf. xi. 36).

Di frys y denfyn Duw fry
Y *dialedd* lle dyly.—*Dafydd Llwyd Gorlech.*

Lle nid oes na garw-loes gur,
Na *dialedd*, na dolur.—*Tudur Aled* (Flor. Poet. Brit. 26).

Chwi a glywsoch pa *ddialedd*, a pha flinder ac aflwydd, a gwympodd o achos delwau ar holl Gred.
Ed. Iames: Hom. ii. 76 (cf. 198; i. 169).

Darllain yr ydym pa *ddialeddau* trymion a ddioddefodd yr Iuddewon gan y Rhufeiniaid am y pechod hwn.
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 145 (cf. 256, 348, 464).

Ciwed yw hon nas ceidw hedd,
Dilys y caiff ei *dialedd*.—*Gronwy Owain*, 84.

Dialedd a syrth fel diluw
Ar ddyn na charo ei Dduw.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 65.

2. immensity; an enormous amount or quantity.

Andro ei hun sydd ag arno *ddialedd* o eisieu lle, yn lle Llangefni.—*Gronwy Owain*, 232 (cf. 234, 335).

Uchel yw ochain, a llif a llefain,
Yma'n y Dwyrain a Mon diredd;
A gwaed ac udaw, a gwenwyn gwynaw,
A newydd wylaw yn *ddialedd*.—*L. G. Cothi*, viii. x. 45.

Mae ganddo ddialedd o bethau, he has an immensity of riches; he has an amazing quantity of things.

Dialeddgar, *a.* avengeful, revengeful, vindictive; spiteful.

Dialeddgarwch, *sm.* vindictiveness, revengefulness.

Dialeddiad, -au, *sm.* an avenging, avengement.

Dialeddog, *a.* vengeful, revengeful; avenged; punished.

Dialeddol, } *a.* vindicatory, vindictive, avenge-
Dialeddus, } ful, revengeful; avenging; penal, punitive.

Am hyny, yn y bywyd yma, y gwelwn o flaen ein llygaid rai celwyddog, rhai meddwon, rhai puteinwyr, rhai tyngwyr, rhai carliaid bydol, rhai gloddestwyr, a thorgegau, wedi eu taro i'r llawr gan *ddialeddus* law'r Arglwydd.
Robert Llwyd: Llwybr Hyffordd, 174.

Y mae yn addas i ni gael gweled arlun o gyflawnder *dialeddol*, cyn ein cymmeryd i freichiau trugaredd dragywyddol.—*Gwyliedydd*, iv. 107.

Dialeddusrwydd, *sm.* vengefulness, revengefulness, vindictiveness.

Dialeddu, *v.* to avenge; to revenge.

Buan y *dialeddwyd* ar y Rhufeiniaid am y gwaed a dywalltasont.—*Theo. Evans:* D.P.O. 43.

Gyflawnder Nef! O clyw ni'n crefu
Nawdd o lwyddiant i *ddialeddu*.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 16.

Dialeddwr, wyr, *sm.* an avenger; a revenger; a punisher.

Dialfa, -on, fëydd, *sf.* a place of revenge; a place of penal retribution.

Dialfawr, *a.* very avengeful; highly revengeful or vindictive.

Tri ehorth am borth am byrth Saeson
Tri ehouyn diouyn *dialuoryon*.—*Cynddelw:* M.A. i. 220.

Digitized by Google

Dialgar, *a.* revengeful, vindictive.

Nid yw awdwyr Llyfrau'r Breninoedd na'r Chronicl ddim yn arferyd un ymadrodd *dialgar* am Ahab, na Manasseh, na Sennacherib, na Nebuchodonosor.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 133 (cf. 142).

Dialgarwch, *sm.* revengefulness, vindictiveness.

Pe gwelai *ddialgarwch* ei ddiawligrwydd, efe a elai i ddiawl yn hytrach nog ymroi iddo.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 52.

Y mae'r ystyriaeth hon yn ein gorfodi i edrych ar yr ysgrifenwyr sanctaidd fel dynion yn traethu'r gwirionedd yn noeth fel yr oedd, mewn yspryd rhydd oddi wrth deimladau o ragfarn a chasineb a *dialgarwch.*
Nicander: Dwyfol Oraclau, 133.

Dialiad, -au, *sm.* an avenging, avengement; a revenging; revenge.

Dialog, *a.* [dial] revengeful, vindictive; avenging.

A'r dwthwn hwnw caiff yr Aiphtiaid weled
Nad oes a all o'm llaw *ddialog* wared.
Nicander: Moses, v.

Dialon, *a.* [alon] without harmony, unmusical.

Dialu, *v.*=*Dial.*

Am wneuthur o'r Philistiaid trwy ddial, a *dialu* dial trwy ddirmyg calon, i'w dinystrio am yr hen gas. . . Wele fi yn estyn fy llaw ar y Philistiaid.—*Esec.* xxv. 15, 16.

Dialu gwaed, a dal gwg,
Lluoedd ymlid, lladd amlwg.
Gwalltcr Mechain: Gwaith, i. 197.

Dialus, *a.* vengeful, avenging, revengeful, apt to revenge; retributive.

Ni raid dim unon nad mwy doeth y nerthodd Duw
Ei lid *dialus* no chael ei luddhau
Fal hyn.—*W. O. Pughe:* C.G. x. 1012.

Dialw, *a.* without call, uncalled.

Efe a ddaw yn ddialw, he comes uncalled.

Di alw am dano, uncalled for.

Dialwad, *a.* without vocation or calling.

Dialwch, *sm.* vengeance; revengefulness.

Dialwr, wyr, } **Dialydd,** -ion, } *sm.* an avenger; a revenger.

Arglwydd Ddew y *dialwr,* Dew y *dialwr,* ymddangos yn ddysglaer.—*Ll. G. Gyffredin* 1567 (Salm. xciv. 1).

Tri chas cyhoedd cenedl: a latho ddyn o'i gydgenedl; lleidyr; a thwyllwr: sev a'u gelwir velly, am y bydd iawn i *ddialwr* y genedl eu cyhoeddi gan gorn gwlad yn llys, ac yn llan.—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 532.

O enau maibion yn dyfnu gwnaethost foliant
I ladd dy elyn a *dialwr* chwant.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 560 (cf. 158, 509).

Nid gnawd *dialwr* diofn.—*Diareb.* (M.A. iii. 170.)

Yr Arglwydd sydd *ddialydd* ym mhob cyfryw beth.
Ed. Iames: Hom. iii. 194 (cf. 161).

Rhag ofn iddynt ryw amser gael Diwygwr a *Dialwr* o hono Ef yn ei achos ei hun.—*M. Cyffin:* Diff. vii. 7.

Y mae efe yn *Ddialydd* Hollalluog.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 110.

Dialydd y gwaed, the avenger of blood.

Byddant i chwi yn noddfa rhag *dialydd y gwaed.*
Ios. xx. 3 (cf. 5, 9; Deut. xix. 6, 12).

Dialydd llid (1), an avenger for wrath.—*Rhuf.* xiii. 4.

(2) one who wreaks wrath.

Dialyddiaeth, -au, *sf.* the action of avenging; avengement.

Duw laddo *dialyddiaeth,* cynnydded
Cain addien frawdoliaeth.—*Seren Gomer,* iii. 23.

Dialyniaeth, *sf.* [dial] avengement; retaliation.

Urien a wnaeth *dialynyaeth* y gewilyd.
Taliesin: M.A. i. 50 (A.B. ii. 292).

Diall, *a.* [gall, gallu] without power, powerless.

Diallanol, *a.* [allan] not exterior or outward.

Diallfryd, *a.* not ferocious or savage.

Dialltraw, *a.* without a sponsor.

Dialltud, *a.* not an exile or stranger; not banished or exiled.

Dialltudedd, *sm.* the state or condition of not being banished.

Dialltudo, *v.* to bring from exile or banishment.

Tair fordd y *dialltuder* dyn.—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 528.

Dialltudol, *a.* not banishing or exiling; not banished.

Diallu, *a.* without power, powerless; effectless; impotent; helpless.—*C.C.* ii. 184.

Nid oes un gair *diallu* herwydd Duw.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 562.

Dadleu ni allaf ac ni ellais
A *diallu* wyf a deallwr clwyf.
Gr. ab D. ab Tudur: M.A. i. 480.

Gwaith yr henddyn gwan *diallu,*
Yw gweddïo Duw ar ffynu.
Th. Owain: Hawdd ei Hebgor.

Efe a wnaeth dŷ wrth yr hen D♥r Gwyn at gynnal cleifion a hen *diallu.*—*Iolo Mss.* 66.

Goleuni a nerth certh, cu,
I'r deillion a'r *diallu.*—*G. Mechain:* Gwaith, i. 266.

Diallu, *v.* to be unable or powerless; to fail.

A diellfyd fwyf can *diellais.*
Gr. ab D. ab Tudur: M.A. i. 480.

Dialluedd, *sm.* inability, incapacity.

Dialluog, *a.* unable; invalid; incapacitated.

Diallwol, *a.* imbecile, impotent.

Diamadaw, *a.* [=diymadaw ?] without parting or separating ?

Ni bydd a Mab Duw *diamadaw*
A fo mynwes byd yn ei bydiaw.
Dafydd Benfras: M.A. i. 310.

Diambell, *a.* [ambell] not infrequent, not rare; not scarce, plenteous, abundant.

Lle meddwaint ceraint, carant caerau;
Lle meddwon dynion doniawg foesau;
Lle cyfrwydd hyrwydd heiliau *diambell;*
Lle ceir gwin diell o dunnellau.—*L. G. Cothi.*

Diambellu, *v.* to make plenteous.

Diamcan, *a.* without design, aim, or purpose; aimless, pointless, purposeless; random; injudicious.

Naill ai nid ydynt yn meddwl am Dduw oll, ac yn gadael eu hunain i gael eu troi a'u taflu oddi amgylch wrth ewyllys Ffortun gibddall *ddiamcan.*—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 116.

Diamcaniad, -au, *sm.* inattention.

Diamcanol, *a.* undesigning.

Diamcanu, *v.* to cease designing, aiming, contriving, or intending.

Diamcanus, *a.* without design, judgment, or foresight; improvident; undexterous.

Diamdlawd, *a.* [di-+amdlawd] without indigence or poverty; not stinted; plenteous, abundant, fully sufficient.

Bu varw William Bastart duc Normandi a brenhin y Saeson ar Kymre ar Yscotticit gwedy llawer o uudugolaethev a gorvodedigaethev yn ymladev calet. a rodeon gwyrthvaur *diamdlavt.*—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 522.

Digitized by Google

A phan vu barawt pob peth y vwyta yd aethant. a gwassanaethu yn *diamdlawt* arnadunt a orucpwyt.
St. Greal, i 7 (cf. 204).

A phob deng niwrnod y rhoddid gwin o bob math, yn *ddiamdlawd*.—*Neh.* v. 18.

Ein gwlad sydd eang ddigon, ffiwch a *diamdlawd* o bob peth buddiol i gynnaliaeth dyn.
Theo. Evans: D.P.O. (1740), 96.

¶ *Diamdlawd*, is sometimes erroneously written *diandlawd*, a word which would have the opposite meaning. This error has crept into many editions of the Bible, including those of 1588 and 1620.

Amdlawd yw bod yn hollol dlawd, yn dlawd o bob tu. *Diamdlawd* yw helaethrwydd o bob tu, llawnder, digonedd, helaethlawn, diwall.—*Th. Charles*, s.v.

In the Prayer Book of 1567 and 1586 the form is *dyandlawd*, which in point of meaning differs but little from *diamdlawd*.

Can ys golud gwir wybodaeth, a' nevawl ddoethinep y osodwyt yma yn agoret y ni, y gymryd o hanaw yn *ddyandlawt*.—*Ll. G. Gyffredin* 1567: Rhag. i'r Salmau.

Diamdo, *a.* without a winding-sheet, shroudless.

I bydru fi dodwch heb gwynfan na galar,
Diamdo, dienw, ac unig fy ngwedd.
Th. Ll. Jones: Ceinion Awen, 198.

Diamddiffyn, *a.* without defence, defenceless; undefended.

Yr hon, er ei bod er ys talm o amser yn *ddiamddiffyn* oddi wrth ddynion, ïe, er bod pawb yn ei gwatwar, a'i difenwi, a'i diystyru, sydd yn parhau agos ym mhob gwlad trwy'r byd, hyd y dydd heddyw.—*Ed. Samuel:* Grotius, i. 14.

Diamddiffynedig, *a.* undefended, unprotected.

Diamddiffynfa, *a.* without a place of defence; defenceless, unprotected.

Fel y byddwn ni wedi ein gadael yn *ddiamddiffynfa* na chadwraeth i syn fyfyrdodau cynddeiriog ein meddwl ein hun.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 97.

Diamddiffynol, *a.* without defence; indefensible.

Diamddwll, *a.* unobscured, unclouded; clear.

Diameth, *a.* [ameth] unfailing; faultless; true.

Erioed i'm dyfu dyfal dreth angau
Un diau *diameth*.
Hoedl breyr breuawl o beth.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 355.

Am hyn gwar uorwyn liw gwawr uore
Khywaf uyg callon tonn val tande
Yn lloegi yrdi ar detyf kynne
Diameth osgeth o wisc eurde.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 292.

Diamgais, *a.* without ambition, ambitionless; disinterested.

Tri nod dwyfolder: cariad *diamgais;* ufudd-dawd gwrawl; a thawedigrwydd serchog.—*Barddas*, i. 300.

Diamgall, *a.* not circumspect, unwary.

Diamgant, *a.* without a rim or border; not surrounded, encircled, or environed.

Diamgeledd, *a.* destitute of help or relief; succourless, helpless.—*Salm.* cxli. 8.

Y dyddiau sanctaidd hyn . . . a ddangosant yn amlwg pa ofal sydd gan yr Arglwydd dros ei bobl dlodion, cystuddiol, a *diamgeledd*.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 205.

Diamgeleddol, **Diamgeleddus**, *a.* devoid of help, succour, or comfort; not succoured, unhelped.

Diamgeleddu, *v.* to deprive of help, succour, cheer, or comfort; to make comfortless or cheerless; to discomfort.

Diamgelwch, *sm.* want of circumspection, indiscretion, improvidence.

Diamgen, *a.* [amgen] not otherwise; no other.

Tri pheth a geir yng nghyd yn *ddiamgen:* ymgais, ymgar; ac ymgael.—*Trioedd Doeth.:* M.A. iii. 210.

Diamgenaeth, *a.* without difference or variation.

Diamgudd, *a.* unobscured; not darkened, clouded, or enveloped; unenveloped.

Diamgyffred, *a.* beyond comprehension; not conceived or conceivable; incomprehensible.

Er na ddichon un creadur hyspysu pa beth yw Duw, o herwydd *diamgyffred* yw, yn trigo yn y goleuni, yr hwn ni ellir dyfod ato; eto fe ryngodd bodd i'w Fawrhydi ef ei ddadguddio ei hun i ni yn ei air cyn belled ag y gallo ein dealltwriaeth wan ei ddirnad yn oreu.
R. Vaughan: Ymarfer Duwioldeb (1675), 2.

Diamgyffredadwy, *a.* incomprehensible, inconceivable.

Diamgyffrediad, -au, *sm.* want of conception or comprehension, incomprehension.

Diamgylch, **Diamgylchedig**, *a.* not surrounded, encircled, or environed.

Diamgylchadwy, *a.* not to be circumscribed or encircled.

Diamhafal, *a.* without parallel, not paralleled, incomparable.

Diaml, *a.* not many, not numerous; unabundant; infrequent.

Diaml o aur nis talai.—*Dafydd ab Gwilym*, ccxxxv. 37.

Diamliw, *a.* without a spot, without spots, unspotted, spotless, immaculate; untainted; unblemished; pure.

Ac er mwyn dywedyd o'n hynafiaid ni gynt . . . nad oedd ganddynt fodd i fyw ond ar gig a gwaed yr Oen *diamliw*, sef ein Harglwydd Iesu Grist.
Morus Cyffin: Diffyniad, iv. 17.

Diamlwg, *a.* not manifest, apparent, or conspicuous; indistinct, obscure.

Diamlygu, *v.* to make indistinct or obscure.

Diammaeth, *a.* without dainty; destitute of dainties.

Och leas dy vedvaeth
Neut ym *diammaeth*
Hoet pa adoet pan dygir clot urno
Puy draetho guir.—*Myrddin:* M.A. i. 148 (A.B. ii. 232).

Diammaethu, *v.* to render unsavoury or insipid; to render not dainty.

Diammharch, *a.* not without respect or reverence.

A thra bo, eitha' wir barch,
Yn udd yma'n *ddiammharch*.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 148.

Diammheu, *a.* without doubt, unquestionable, indubitable; certain; evident.

Diamheu yw gennym na welsam eiryoet vilwryaeth yn vn wreic kymeint ac ynot ti.—*Mabinogion*, 19.

Ac wrth vy arwein i. ar yr elor yn *diamheu* velly yd oedwn inheu.—*Ystoria Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 183.

A *diameu* yw bot yn deilwng y kyfryw vrenhin a thydi y eisted yn y gadeir arglwydiawl honno.
Ystoria Charles, 5 (cf. 3).

A llyna yn *diamheu* y dwy eistedua a erchis y deu ebostol y Grist ar y deheu ac ar y asseu.
Yst. de Carolo Magno, col. 406 (cf. 397, 461).

Diammheu mai goreu gwr,
A da oedd ei Fedyddiwr.—*D. ab Gwilym*, ccxlii. 11.

Ac y mae'n ddilys *ddiammheu* genyf nad yw hyn ond y gwir pur loew.—*Theo. Evans:* D.P.O. 7.

Canys *diammheu* y bydd y peth yr hyn a lefodd efe drwy air yr Arglwydd.—*Esgob Morgan:* 1 Bren. xiii. 32.

Diammheu ddyfod teyrnas Dduw atoch chwi.
Luc xi. 20 (cf. i. 1).

Digitized by Google

Yn ddiammheu, doubtless, without doubt, indubitably, unquestionably, certainly.

Ni all neb, *yn ddiammheu*, amgen na choelio cymmaint a chyfryw dystiolaethau.—*Ed. Samuel:* Grotius, ii. 8 (cf. 10).

Mae yn ddiammheu genyf, I have no doubt; I am fully persuaded.—2 *Tim.* i. 5, 12.

Diammheuad, -au, *sm.* a rendering indubitable; a being made certain.

Diammheuaeth, -au, *sf.* the state of being indubitable, indubitableness, unsuspiciousness; certainty.

Ni wn ai goreu im' d'ochelyd;
Mae arnaf ofn nad wyt ond yspryd:
Eto, er gwaned yw dynoliaeth,
Gwell na ffo yw *diammheuaeth*.
Thomas Owain: Hawdd ei Hebgor.

Diammheuaeth, *a.* free from doubt, without doubt, unquestionable, indubitable; certain.

Yr ydym yn rhwymedig i weddïo mewn ffydd, â llawn sicrwydd a hyder, ac yn *ddiammheuaeth*.
Ed. Samuel: Athr. yr Eglwys, 10.

Menyw fwyn yw gwaith perffeithiaf
Dwylo glân y Duw goruchaf;
Perl a harddwch creadigaeth,
Rhosyn byd yn *ddiammheuaeth*.—*Daniel Ddu*, 235.

Diammheuder, *sm.* indubitableness; certainty.

Nid ydyw dilyrwydd a *diammheuder* barn yn brawf o'i bod yn iawn ac yn wirionedd.—*Iolo Morganwg*.

Diammheuo, *v.* to free from doubt; to render indubitable, unquestionable, or certain.

Diammheuol, *a.* indubitable, unquestionable, undoubted, indisputable, incontestable, incontrovertible, certain.

Ni choeliant yn unig y pethau sydd wir *diammheuol*, eithr hefyd y pethau a ddamweiniant yn debyg i wir.
M. Cyffin: Diffyniad, iv. 17.

Y mae yn ffaith *ddiammheuol* fod Duw wedi caru y byd.
Dr. Lewis Edwards: Traeth. Duw. 35 (cf. 77).

Gorfodir ni, ynte, o anghenrheidrwydd i gredu bod yn y bardd gyfeiriadau *diammheuol* at ffeithiau'r Efengyl.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 41 (cf. 5, 127).

Yn ddiammheuol, indubitably, undoubtedly, doubtless, without doubt, certainly.

Diammhëus, *a.* unsuspicious; unsuspecting; unquestionable, indubitable, certain.

Ac felly bob yn ychydig fe fydd i'r gwresogrwydd sanctaidd hwnw, a ddylasai ei wroli ef yn nyledswyddau eglur a *diammhëus* crefydd, ffiamychu i ymryson creulon.
Iosua Tomas: Buch. Grist. 297.

Oddi wrth yr hyn y tardda gobaith *ddiammhëus*.
Ed. Samuel: Grotius, ii. 13.

Diammhorth, *a.* not unsupported, not without assistance; not unsupporting.

Diammhur, *a.* [pur] not impure; pure, unadulterate, genuine, true; chaste.

Cynhes oedd ei amcanion,
Mor frwd ei *ddiammhur* fron.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 90.

Oedd imi un *ddiammhur* a ranai
I'r enaid fawr gysur;
Oedd un, dan bob gwrthun gur,
A fwyn welai fy nolur.—*Daniel Ddu*, 157.

Diammhuredd, *sm.* incorruption.

Diammhuriad, -au, *sm.* depuration.

Diammhuro, *v.* to depurate, to free from impurities.

Diammhwyll, *a.* without distraction, undistracted.

Diammhwylledd, *sm.* undistractedness; rationality.

Diammhwyllo, *v.* to become undistracted; to recover reason.

Diammhwyllog, *a.* undistracted.

Diammod, *a.* without covenant or agreement; unconditional; unconditioned.

Rhai a haerant nad yw Eglwys Loegr yn dal i Grist farw dros bawb yn gyffredinol . . . eithr dros ryw nifer neu rifedi neilldiol, y rhai y diogelwyd eu hiachawdwriaeth yn *ddiammod* ac yn anffaeledig o'r dechreuad.
Ioan Wallter: Dwy Bregeth, 32 (cf. 44).

Diammodi, *v.* to annul a covenant, agreement, or contract.

Diammodiad, -au, *sm.* the act of annulling a covenant or contract.

Diammodol, *a.* unconditional; uncovenanted; absolute.

Y mae etholedigaeth yn *ddiammodol*.
Dr. Geo. Lewis: Dryeh Ysgrythyrol, 50.

Diammoeth, *a.* without dainty or dainties.

Diammraint, *a.* not without privilege, not unprivileged.

A gwest yn Efrei gwst *diamreint*
A gotef paluawd dyrnawd trameint.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 270.

Diamrafael, *a.* without contention or strife.

Diamrafaelgar, **Diamrafaelus**, *a.* not contentious or quarrelsome; not given to wrangling.

Diamrafaelio, *v.* to cease wrangling or contending; to reconcile.

Diamrosgo, *a.* not unwieldy; compact.

Diamrosgöedd, *sm.* a being not unwieldy.

Diamryfeilio, *v.* to be unvaried.

Diamryfus, *a.* without error or mistake; not faulty; not excessive.

Handid uy arglwyt kyfrwyt kyfrwys
O ryw diamryw *diamryuys*.—*Llywelyn Fardd:* M.A. i. 358.

Diamryfusedd, *sm.* freedom from error, mistake, or excess; moderation.

Diamryson, *a.* without contention, strife, contesting, or quarrelling; indisputable, incontestable.—*C.C.* i. 600; ii. 84.

Ac wrth hynny yn *diamrysson* nat ahei ef yr hedychu.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 35.

Kanys *diamrysson* uydei y dygwydei y neill o honom ni.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 160.

O derfydd amryson y rhwng dau ddyn am dir, a rhoddi o'r arglwydd groes yn y tir yny fai *diamryson*, a gwneuthur o un o honynt adail, efe a ddyly golli ei adail, ac ni ddyly golli ei dir.—*Leges Wallicae*, v. vii. 3 (cf. 4).

Mi ym detyf wyf *diamrysson*
Or prif ueirt ym prif gyfeillyon.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 263 (cf. 247).

Diamrysongar, *a.* not apt to contend or dispute; peaceful.

Diamrysoni, *v.* to free from contention, dispute, or strife; to terminate a dispute; to reconcile.

O bit amresson e ruc duy uaynaul or nau maenaul essit en Aruon eu *diamressoni* or seyth e duy heb neb o le arall.
Cyfreithiau Cymru, i. 106.

O bydd y pleidiau yn anghyttunaw o herwydd hyny . . . dyly yr yngnad eu *diamrysoni*.—*Leges Wallicae*.

Diamrysonol, *a.* not tending to dispute; incontestable; uncontested.

Digitized by Google

Diamryw, *a.* not of various kinds; unmixed; uncompounded—*M.A.* i. 358.

Diamrywiaeth, -au, *sf.* homogeneousness, homogeneity.

Diamrywio, *v.* to become unmixed or homogeneous.

Diamrywiol, *a.* homogeneous; unmixed; pure.

Diamsathr, *a.* not trodden about; untrodden; unfrequented.

Llyma a vynnwn i arglwydd. heb ef. gadu ym adeilat ystauell yn ymyl y twr. canys *diamsathir* yw.
Doethion Rhufain, ¶ 33.

Diamwedd, *a.* 'unconformable, incongruous;' without variation or alteration; uniform.

Dull arall ar Ddadymchweliad y sydd, pan ddysperthir y rhanau cyn eu dadgan; ac yn ol hyny eu trefnu, a'u mynegu yn *ddiamwedd.*—*H. Perri:* Egl. Ffr. xxix. 4.

Diamweddiad, -au, *sm.* disconformity; inconsistence; incongruity.

Diamweddol, *a.* disconformable, unconformable.

Diamweddu, *v.* to want agreement or consistency; to be unconformable.

Diamwel, *a.* not seeing or observing around; not circumspect, incautious; indiscreet; heedless.

Ac unwaith heb gel
Yr ymddug Abel
A Chain *ddiamwel.* (*P.*)

Diamwelediad, -au, *sm.* want of circumspection or discretion.

Diamwes, *a.* without indulgence or enjoyment.

Diamwesol, *a.* not indulgent.

Diamwesu, *v.* not to indulge; to cease to indulge.

Diamwys, *a.* [amwys] unequivocal, unambiguous; without a double or doubtful meaning.

Darluniad o gybydd-dod
Yw'r darddull hynod hwn;
Gwirionedd pur *diamwys*
Yw'r oll a gynnwys, gwn.—*Iago Trichrug.*

Mewn perthynas i ddygiad y Cwmwl ym mlaen, sicrhëir, yn y modd mwyaf *diamwys,* y caiff fod yn gyhoeddiad amhleidgar.—*Cwmwl,* i. 1.

Diamwysol, *a.* not tending to be ambiguous.

Diamynedd (*ȳ*), *a.* without patience, impatient; hasty, precipitate.

Diamynedd y'm gwneddyw,
Diriaid im' ddiweiried yw!—*Dafydd ab Gwilym,* ccxv. 49.

Ar y cyfrif hyny a aiff yn fwy cynddeiriog a *diamynedd.*
Iosua Tomas: Buch. Grist. 55.

Diamyneddgar, *a.* impatient.

Os felly, pa ham y byddai f' yspryd yn *ddiamyneddgar?*
Dr. T. Briscoe: Iob, xxi. 4.

Diamyneddgarwch, *sm.* impatience.

Diamyneddus, *a.* impatient.

Medion [Merion] gwr coch cyfartal ei faint oedd, ag aelodau crynion gwrawl iddaw; a drygianus, a chreulawn, a *diamyneddus* oedd.—*Ystori Dared,* 53.

Dianach, *a.* without impediment; unexceptionable; unobjectionable.

Dianad, *a.* unexceptionable; incontrovertible.

Dianadl, *a.* without breath, breathless; lifeless.

Y maent yn chwennych llun delw farw *ddianadl.*
Doeth. xv. 5.

Meddiant erfyniant, ond hyd, a lled bydded,
Ddianadl yn gorwedd, a'n harfaeth dibened.—*Y Greal,* 186.

Dianadliad, -au, *sm.* a being without respiration or breathing; breathlessness.

Dianadlog, *a.* having no breath, breathless.

Dianadlu, *v.* to cease to breathe, not to breathe.

Dianaf, *a.* without blemish, flaw, or defect; blemishless, faultless; unhurt, uninjured.—*C.C.* ii. 422.

O dyna ny bu *dianaf* Menw uyth.—*Mabinogion,* 135.

Ac velly breid oed or dihagei neb yn *dianaf* or ryw damwein direidi hwnnw ac ef.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 48 (cf. 73).

Dïau y cymmer Nêr nâf
Y ddau enaid *ddianaf.*—*Gr. ab D. ab Tudur:* M.A. i. 479.

Cnwd da iawn, cnawd *dianaf,*
O'r ddaiar hen a ddaw'r haf.
Dafydd ab Gwilym, cci. 9 (cf. ccxxxi. 35).

Teg pob *dianaf.*—*Diareb.* (M.A. iii. 177; cf. 174.)

Odid un dyn *dianaf.*—*Engl. Eiry Mynydd:* M.A. i. 545.

Y *ddianaf* fun ddinerth.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 6.

Diangodd y llwynog adref yn ddiogel *ddianaf.*
Brython, ii. 201.

Dianafiad, -au, *sm.* a being unhurt; a being faultless or blemishless.

Dianafod, *a.* [anafod] without maiming or injuring; without a maim or bruise; unhurt, uninjured, scathless.

Caiff rheswm ei hurddas, y deyrnas, a'r diwrnod,
A hir boed gref dan nawdd nef yn *ddianafod.*
Gwallter Mechain: Gwaith, i 323.

Dianafol, *a.* not tending to hurt or injure.

Dianafu, *v.* to divest of blemish; to heal a hurt or injury; to keep safe or unhurt.

Duw nef a'n *dianafo!*
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 436 (cf. 193).

Dianafus, *a.* uninjured, unhurt; unblemished; sound.—*C.C.* ii. 642.

Dianair, *a.* reproachless, irreproachable; free from detraction; free from blame; blameless.—*M.A.* iii. 75.

Dianair yw dy wyneb,
Dillyn yn', ni'th dwylla neb!—*D. ab Gwilym,* cliii. 37.

Mab Mair, *dianair* eneth,
Pab byd yn peri pob peth.
Sion Cent: Iolo Mss. 285 (cf. 318).

Dianaw, *a.* without harmony or music.—*P.*

Dianc, } *v.n.* [dy- + ang] 1. to escape; to flee
Diangu, } (from); to pass safe or unnoticed; to run away; to be delivered or preserved.—*Gen.* xix. 17, 19, 20, 22.

Sef a wnaeth Bonffei yna dyuot attei ae didanu. a dywedut wrthi y parei ef idi *diagh* y nos honno.
Bown o Hamtwn, ¶ 27.

Ef a ellir rac hynny *dianc* yn hawd.
Mab. 76 (cf. 118, 168, 249, 253).

Ac or *dihagei* neb or damwein tyghetuennawl hwnnw. y bodynt ar y dyfred gyr eu llaw.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 48, 283.

Tri thrwyddedawg dichwain y sydd: celvydd anianawl a wnelo nid llai no gorchest ar gelvyddyd, er lles brodoriaeth; anghyviaith a *ddiangawr* o long a doro yn mor; a brydd, sev a wareto Gymro yn mhyd angeuawl.
Cyfreithiau Cymru, ii. 548.

Penndaran Dyuet a oed yn was ieuanc gyt ar seithwyr a *dihengis* yr coet.—*Mab.* 41 (cf. 40, 66, 108, 139, 299).

O daw, pe rhon, a *dianc*
Oddi yno er ffrwyno Ffranc.—*D. ab Gwilym,* lviii. 35.

Dianc ar Glwyd a boddi ar Gonwy.
Diareb. (M.A. iii. 153.)

Ni allant *ddianc* gan na lladron na gwilliaid.
Baruch vi. 57 (cf. 55).

Digitized by Google

Y vlwydyn rac wyneb y *diegis* Maredud uab Bledyn oe garchar.—*Brut y Tywysogion*, 80.

Efe a *ddianc* o ddwylo hil Llywarch,
Fal y *diengis* Ionas o fola'r morfarch.—*Iolo Mss.* 281.

Tebyg yw i gysgod dyn ei hun, yr hwn po mwyaf y rheder ar ei ol, cyntaf y *dianc* yntau.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. iii. 12.

Y tro cyntaf crioed yr aethym i'r ysgol, *dianc* a wnaethym gyd â bechgyn ereill, heb wybod i'm tad a'm mam.
Gronwy Owain, 167.

2. *v.a.* to cause to escape; to deliver, to rescue; to preserve.

Duw a'm diango, God preserve me.

Dos ditheu yn llawen heb y Galaath. a Duw ath *diangho* rac drwc.—*St. Greal*, ‖ 12.

Creawdyr nef ath *diangho*.—*Tyssilio:* A.B. ii. 238.

Duw am *diangho* rac gwneuthur kyfryw a hynny.
St. Greal, ‖ 146.

O'r Deau Mair a'i *dianc*.—*Dafydd ab Gwilym*, xcix. 6.

Yno gwaeddasont ar yr Arglwydd yn eu cyfingder, ac ef ei *diangawdd* [*rhyddhaodd] o'u gwasgfäu.
Ll. G. Gyffredin 1567 (Salm. cvii. 6).

Oddi wrth y cyndynrwydd angeuol hwnw, yr Arglwydd o'i drugaredd a'n *diango* ni bawb a'r sy'n perthyn iddo ef.
Dr. Davies: Llyfr y Res. I. ii. 14.

¶ *Diangu* does not seem to occur in the infinitive, but the inflections and derivatives are formed from it.

Dianc, *pl.* diainc, *sm.* escape; a flight; a retreat.

Ny bydh cywilydh ar neb er hynny namyn bocsach yw gantunt e *dianc*. . . Velhy y cytlawenhaa yr angelion ar saint am eu *diainc* wyntau.—*Lucidar*, ‖ 137.

A ffo yn gewilydyus a oruc Pandrassus a gwyr Groec y gyt ac ef y bob mann or y tebyckynt caffel *dianc*.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 44.

Yna y bu drist y iarll am golli Ardric, ac y buwyt lawen o bop parth am *dianc* y mackwy arall.
Amlyn ac Amig, col. 401.

Tri gwaith fuddug a wnânt *ddianc*.—*Barddas*, i. 188.

Diandlawd, *a.* corr. of *Diamdlawd*, q.v.

Wedi hyny ffraethineb a'i dodrefnodd yn *ddiandlawd*, a chymheniaith a'i mawrygodd yn urddasol.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, i.

Dianferth, *a.* not unsightly or ugly.

Dianfodd, *a.* without unwillingness; not unwilling, not against the will; willing.

Dygipiai efe
Ei llaw, ac i dwyn gwyrdd ei nen uwch ben
Arweiniai hi *dianfodd*.—*W. O. Pughe:* C.G. ix. 1014.

Dianfoddog, *a.* not displeased or discontented.

Dianfoddol, } *a.* not apt to be displeased; not
Dianfoddus, } displeasing.

Dianfoes, *a.* not without manners, decorum, or morality; not unmannerly.

Dianfoesgar, *a.* not uncivil or ill-bred; not indecorous or unmannerly.

Dianfon, *a.* without a mission; unsent.

Gweleis pan gerdeis gordwfyr avon Rin
Gwyl riein *dianvon*.—*Gr. ab Meredydd:* M.A. i. 463.

Dianfudd, *a.* not unprofitable.

Dianfwyn, *a.* not unkind or disagreeable.

Dianffawd, *a.* without ill-luck, mischance, or misfortune; without mishap; without an unfavourable accident.

Dianhael, *a.* not ungenerous or illiberal; generous, liberal.

Dianhael Fordaf mewn daioni.
Madog Dwygraig: M.A. i. 484.

Teilwng seren bedweni,
Talm mawr, ef a'i tâl i mi;
Cusan morwyn *ddianhael*,
Duw a'i gwyr, da yw ei gael!—*D. ab Gwilym*, cxlvii. 43.

Os dy ran, wr *dianhael*,
A wisg y genninen hael.—*Gronwy Owain*, 37.

Hu gan ddysgu arddu oedd,
Er toraeth ffaeth y tiroedd,
I ddynion yn *ddianhael*
O fawr ged wiw fara gael.—*W. O. Pughe:* H.G. 17.

Dianhap, } *a.* without mischance; without mis-
Dianhab, } take, unmistakable; certain.

Credaf yn Nuw Dad Hollalluog,
Creawdr nef a daiar enwog;
Ac yn Icsu Grist ei un Mab,
Ein Harglwydd ni yw yn *ddianhab*.—*Simwnt Fychan.*

Dianhardd, *a.* not unsightly or unhandsome; not devoid of beauty.

Dy enwair, wr *dianhardd*,
Yn wir, yw'r mwnwgl hir hardd.—*D. ab Gwilym*, cxc. 21.

Nid dawnus, nid *dianhardd*,
Nid teg ei weled, nid hardd.—*D. ab Gwilym*, xx. 35.

Dianharddu, *v.* to divest of uncomeliness or unhandsomeness.

Dianhawdd, *a.* not difficult; not hard.

Dianhebgor, *a.* not indispensable.

Dianhoff, *a.* not unlovely; agreeable, amiable.

Gâr da iawn, gwr *dianhoff*,
Gronwy loew saffwy, lys hoff.
Iolo Goch, i Feibion Tudur Llwyd.

Dianhudd, *a.* [cf. *dadanhudd*] not concealed, hidden, or covered; manifest, plain, open.

Pawb â'i arf gwnawn gyfarfod
Ym Mwythig, ein unig nod—
Oddi yno'n *ddianhudd*,
Agor y wlad i Gaer Ludd.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 68.

Dianhun, *a.* without wakefulness; not without sleep; not sleepless.

Dianhunedd, *a.* not deprived of sleep; not sleepless; free from deep anxiety.

Gwymp clot dawn hynot *dianhuned* deigyr
Gwiwryw groyw eigyr gwawr y gwraged.
Rhiserdyn: M.A. i. 433.

Dianhwyl, *a.* not disordered; in order.

Dianhy, } *a.* not without boldness; bold,
Dianhyedd, } courageous, brave.

Dynion ifainc *dianhy*
Yn fore ânt i nef fry.—*Guto'r Glyn* (Flor. Poet. Brit. 27).

Ef a nef a llawr gwr mawr a'i medd
Ef yn ddihun *ddianhyedd*.—*Myv. Arch.* i. 538.

Dianhyder, *a.* without mistrust or despondence.

Dianhydrin, *a.* not unmanageable.

Dianhydro, *a.* not unpliable or inflexible; easily bent, flexible.

Dianhydyn, *a.* not opinionated; not inflexible.

Dianhyfodd, *a.* not implacable.

Dianhyfoes, *a.* not unmannerly.

Dianhyfryd, *a.* not unpleasant, not disagreeable.

Dianhyffordd, *a.* not impassable; not untrained.

Dianhygar, *a.* not unamiable.

Dianhygas, *a.* not unobnoxious.

Dianhyged, *a.* not ungenerous or illiberal.

Dianhyglod, *a.* not illaudable, not unworthy of praise.

Digitized by Google

Dianhyglwyf, *a.* not invulnerable.

Dianhygoel, *a.* not incredible.

Dianhygof, *a.* not immemorable; that will not go out of memory.

Dianhygoll, *a.* that may be lost or missed.

Dianhygosp, *a.* not incorrigible.

Dianhygred, *a.* not incredible.

Dianhylaw, *a.* not inexpert; skilful.

Dianhyled, *a.* not incapable of expansion.

Dianhyles, *a.* not without benefit.

Dianhylith, *a.* not intractable; not difficult to be governed or managed.

Dianhylon, *a.* not uncheerful, gloomy, or melancholy.

Dianhynaws, *a.* not ill-natured, not unkind.

Dianhyserch, *a.* not unamiable, not unlovely.

Dianhyson, *a.* not unutterable or unspeakable.

Dianhywaith, *a.* not intractable or obstinate.

Dianhywedd, *a.* not obstinate or intractable, free from refractoriness.

Dianhywel, *a.* not undistinguishable; not difficult to be seen or observed.

Dianhywell, *a.* not irremediable.

Dianhywerth, *a.* not unsaleable; not difficult to be disposed of.

Dianiach, *a.* not unwell, ill, or indisposed.

Dianiaeth, -au, *sf.* indisposition.

Dianial, *a.* not run wild; not overgrown with underwood.

Dianialu, *v.* to clear of wilds or underwood.

Dianialus, *a.* not apt to become wild or overgrown with underwood.

Dianialwch, *a.* without a wilderness; not evergrown with brushwood.

Dianian, *a.* without nature, unnatural.

Dianianol, *a.* uncongenial, unnatural.

Dianianu, *v.* to divest of nature, to unnaturalize.

Dianlan, *a.* not unclean; undefiled, clean.

Dianlew, *a.* not void of courage; brave.

Dianllad, *a.* not wanton, lewd, lustful, or dissolute; chaste; moral.—*C.C.* ii. 298.

Rwyd iawnllythyr gan gauryd *dianllat*.
Casnodyn: M.A. i. 422 (cf. iii. 75).

Dianlloedd, *a.* without wealth or riches.

Diannawd, *a.* without reproach, reproachless.

Diannedwydd, *a.* not unhappy or unfortunate.

Y llwyn bedw *diannedwydd*,
Lle da i aros lliw dydd.—*D. ab Gwilym*, lxxviii. 1.

Diannedd, *a.* without habitation or dwelling.

Dianneddol, *a.* uninhabited.

Dianneddu, *v.* to desolate.

Diannel, *a.* not stretched or bent; aimless.

Bu meddyginiaeth yn gaeth dan gel
Gwag ddynion yn hygoeg *ddiannel*.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 320.

Dianneliad, -au, *sm.* an unbending, a relaxing; a divesting of aim.

Diannelu, *v.* to unbend, to unstretch; to free from flexure; to render aimless; to thwart.

A hoew linyn haelioni,
Dyn a wnel dan annel da,
Duw'n ol nis *diannela*.—*Guto'r Glyn*.

Diannerch, *a.* unsaluted, unaddressed, not greeted.

Baglan brenn neut gayaf hynn
Yt uyd llauar gwyr ar lynn
Neut *diannerch* vy erchwyn.
Llywarch Hen: A.B. ii. 259 (M.A. i. 114).

Diannerth, *a.* without weakness.

Diannerthol, *a.* strengthening; restorative.

Diannerthu, *v.* to strengthen or invigorate.

Diannewr, *a.* not wanting in bravery or vigour.

Diannhal, *a.* not without payment or reward; not unrewarded.

Diannheg, *a.* without being unfair; not disfigured; not uncomely; clean.

Diannhrefn, *a.* not disordered.

Diannhrefnu, *v.* to divest of disorder or disarrangement; to put into order.

Diannhrugar, **Diannhrugarog**, *a.* not unmerciful, not pitiless; not inexorable.

Dianniben, *a.* not slow or dilatory; not untidy or slovenly.

Dianniddan, *a.* not comfortless or cheerless.

Dianniddig, *a.* not fretful or peevish; not discontented.

Diannilyd, *a.* [dilyd] not without regular succession; not without following or succeeding; not ceasing to follow; consequent.

Arwyddion ceinion cenynt,
Nifer gwiw yn nofio'r gwynt;
I ddwyn elw'n *ddiannilyd*
O bob pendryfanoedd byd.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 97.

Diannillyn, *a.* not inelegant; neat.

Diannillynedd, *sm.* elegance, neatness, smartness.

Diannirgel, *a.* not unsecluded.

Diannod, *a.* [annod] without delay or suspension; immediate, instantaneous.—*C.C.* i. 98.

Yn ddiannod, without delay, immediately, forthwith, at once; there and then.

Pwy bynnac a vynnei gredu yr hen gret a pheidiaw a chret Iessu Grist y kaffei y eneit. ac ar nys mynnei y lledit *yn diannot*.—*St. Greal*, ‡ 184.

Ac *yn diannot* yd aethant dros y gaer y mywn.
Mab. 91 (cf. 88, 97, 99, 292, 294).

Ae kyrchu a wnaeth Grufud *yn diannot*.
Brut y Tywysogion, 42.

A dywedut idaw y dihenydyit *yn diannot* ony wnelei yr hyn yd oedynt yn y orchymyn.
Ystt. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 50 (cf. 66, 69, 72).

Ac *yn diannot* yd ymchoelod Chyarlys ae holl lu.
Yst. de Carolo Magno, col. 490 (cf. 386, 404, 405, 478).

Ac yna *yn diannod* y gellygwys y paganyeit y havwyneu yw meirch.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 429 (cf. 394, 414, 478).

Y lle yd edrycho vn. ef a drossa y llall *yn diannot*.
Llyfr Ancr, 72.

Beth bynac a dhamunant. wy au caphant y gann Dhuw *yn dhiannot*.—*Lucidar*, ‡ 106 (cf. 138).

Ac *yn ddiannod* y dygwyddawdd i lawr wrth ei draed ef.
W. Salesbury: Act. v. 10.

Digitized by Google

Diannoeth, *a.* not unwise, not silly.

A gadael gafael gofion *diannoeth*
Y gwyr digrifddoeth yn rhynoethion.
Iorwerth Beli: M.A. i. 476.

Tri achos beirdd a barddoniaeth y sydd: cynnal cof cyfiawn yn gadwedig am a fu gynt, ai gwr, ai gweithred, ai gwybodau; addysgu defodau daionus, a gwybodau a wnant gyfanneddiant, ai celfyddyd, ai doethineb, ai deddfoldeb; a diddanu, a llawenhau, a chyfanneddu meddwl, a deall, a serch, a difyru amser yn *ddiannoeth*.
Barddas, ii. 100.

Diannog, *a.* 1. not exhorted; not excited, without incitement.

2. (=diannod) immediate, instantaneous, without delay.

A phan gigleu Veuno llef y Sais, ymchoelut yn *diannoc* a oruc drachefn, a dyuot att y diseyblon.
Buchedd Beuno: C.B.SS. 15.

Yn y mynydd a elwir Pec y mae gogofau: pwy bynnag a fo yn ei ymyl, a thafiu dillad a fyno yn y gogofau, ef a'u hymlid y gwynt o'r gogofau, ac a'u teifl i'r awyr *yn ddiannog*.—*Rhyfeddodau Ynys Prydain*.

Diannog, *v.* to dissuade; not to incite.

Diannogol, *a.* not tending to excite; dissuasive.

Diannos, *a.* without instigation, not excited; not driven or chased.

Diannull, *a.* not without form; shapely.

Diannwyd, *a.* free from cold, not cold.

Rhai gwan a wnai'n *ddiannwyd*,
Rhai fyth iddynt y rho'i fwyd.—*Llawdden*.

Diannyfal, *a.* not without assiduity; diligent, industrious.

Diannysg, *a.* not without learning; not illiterate; learned.

Dianobaith, *a.* not without hope, not hopeless, not in despair.

Hwynt oll a mwy a gyrchynt; ond gan leddf
A llaith olygon, er o fath fal pe
Godarddai gwawr o hoen, o gael eu rhwyf
Yn *ddianobaith*.—*W. O. Pughe:* C.G. i. 547.

Dianoed, *a.* [anoed=diannod?] without delay; uninterrupted, unsuspended; opportune.

Dianolo, *a.* not void or ineffectual; real.

Dianormes, *a.* not unoppressed.

Dianorphen, *a.* not endless or infinite.

Dianrhaith, *a.* [anrhaith] without spoil or spoliation.

Dianrhed, *a.* not determined or positive; concurrent.

Dianrheg, *a.* without a gift, present, or donation.

Dianrhydedd, *sm.* dishonour; disgrace.

Fe a ddenfyn arno adfyd, anesmwythder, *dianrhydedd*, a thrallod, idd ei wneuthur yn uddyf.—*Marchog Crwydrad*.

Y delwau celwyddog a wnair i Dduw, i'w fawr *ddianrhydedd* ef, ac enbeidrwydd i'w bobl, oddi wrth ddiafol y daethant.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 80 (cf. i. 154; iii. 196, 265).

A'r hwn, â'i holl ddoniau beichiog ganddo, a ddwg oganair a *dianrhydedd* ar ei alwedigaeth.—*Ier. Owen*, 76.

Pwy a ŵyr na bydd rhyw nodau o *ddianrhydedd* yn weledig ar y corff?—*Geo. Lewis:* Drych Ysgr. 117 (cf. 112).

Dianrhydedd, *a.* without honour, honourless.

Dianrhydeddiad, -au, *sm.* a dishonouring; degradation.

Nid wyf yn cyfrif eu cymdeithas, eu cyfeddach, a'u hathrawiaethau, ond *dianrhydeddiad*.—*Gwyliedydd*, x. 57.

Dianrhydeddol, *a.* dishonouring; disparaging, degrading.

Dianrhydeddu, *v.* to dishonour.—*Ioan* viii. 49; *Rhuf.* ii. 23.

Ac eissoes ny allwys diodef y *dianrhydedu* mal y daroed.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 67.

Y rhai a wnaethant ddelw i Dduw i'w anrhydeddu, a'i *dianrhydeddasant* ef yn ddirfawr.
Ed. Iames: Hom. ii. 80 (cf. 15, 19, 32, 80; 147, 252).

Ac felly *dianrhydeddu* ei fawredd ef gar bron y bobl.
Dr. Davies: Llyfr y Res. ii. iv. 9.

Dianrhydeddus, *a.* dishonourable; dishonoured.

O achaws ry sorry o honaf fy wrthyt ty am yr amadrodyon hynny ath ry ellwng dytheu *dyanrhydedusach* noch chwyoryd ty yr rey gwedy hey sawl anrhyded a rodeys y udunt wy am dugant ynheu yn dyanrhydedassant ynheu.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 133.

Yr hwn oedd ddirmygus yn y bywyd hwn, ac yn *ddianrhydeddus* yn gyhoedd.—*Lewis Anwyl:* Nefawl Ganllaw, 52.

Diansawd, *a.* impersonal; impersonified.

Diansawdd, *a.* void of quality; unsubstantial.

Amgen na phethau nid gwell na chwareu plant bychain, distadleddau coeg-wybodaeth, a gorchestion *diansawdd* ac anfuddiol.—*Iolo Morganwg:* Cyfr. y Beirdd, Rhagdd. 14.

Dianserch, *a.* not without affection; free from hatred.

Diansodawl, *a.* impersonal; not personal; not personified.

Diansodi, *v.* to make impersonal; not to impersonate.

Diansodiad, -au, *sm.* a making impersonal.

Diansodwedd, *sm.* want of personality.

Diansoddi, *v.* to divest of natural quality or property.

Diantur, *a.* without enterprise, not adventurous, unenterprising.

Dianturiol, *a.* unenterprising.

Dianudon, *a.* without perjury.

Gwerthfawr eurllorf torf tirion ei bleidiau
Da i eneiddiau *dianudon*.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 461.

Dyn ydwyf *dianudon*.—*D. ab Gwilym*, cxxvii. 33.

Dianudonol, *a* unperjured.

Dianufudd, *a.* not disobedient.

Dianundeb, *a.* without disagreement.

Dianurddas, *a.* without degradation.

Dianwadal, *a.* not unstable, fickle, or inconstant; unwavering, constant, firm, solid; immutable; real.—*Heb.* vi. 18.

Ath was a'i cedwis yn *ddianwadal*.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 561.

O dyn wyd *dianwadal*,
Drwg yw dy wedd, sylwedd sal!
D. ab Gwilym, ccxxxviii. 17 (cf. xx. 13).

Bydd *ddianwadal* yn dy ddeall sicr.—*Eccl.* v. 10.

Dianwadal yw yn ei gariad tu ag atynt.
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 121 (cf. 118, 387, 438, 472).

Hyny yw ffydd sicr, ddiogel, berffaith, *ddianwadal*.
Ed. Iames: Hom. iii. 70 (cf. 71, 93).

Dyn ydwyf *dianwadal*.—*Gronwy Owain*, 46.

Dyma ofal *dianwadal* yr Apostol daionus.—*Ier. Owen*, 64.

Dianwadaledd, **Dianwadalrwydd**, **Dianwadalwch**, *sm.* constancy, stability, firmness, steadiness, immovability, immutability.—*Heb.* vi. 17.

Gan bennodi wrth hyny *ddianwadalwch* a thragwyddoldeb trugaredd Duw.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 438 (cf. 269).

Digitized by Google

Pan oeder ar lawr yn y senedd a'r gymmanfa anrhydeddus honno, dy holl weithredoedd da di, a'th holl boen a gymmeraist yn dy alwedigaeth, a'th holl eluseni, a'th holl weddïau, a'th holl ymprydiau, a'th holl ddiniweidrwydd bywyd, a'th holl ddioddefgarwch wrth gael cam, a'th holl *ddianwadalwch* yn dy adfyd.
Dr. Davies: Llyfr y Resolusion, 1. x. 15.

Dianwadaliad, -au, *sm.* a making or becoming unwavering.

Dianwadalu, *v.* to make constant, steady, or unwavering; to establish; to become firm or unwavering.

Dianwadol, *a.*=*Dianwadal.*

Cariad yn unig yw y peth a bair i'r enaid yn ewn nesäu at Dduw, ac yn *ddianwadol* lynu wrtho ef.
Marchog Crwydrad, iii. 6 (cf. 4, 10).

Dianwastad, *a.* not uneven; even, level.

Dianwes, *a.* not indulged, ungratified.

Dianwir, *a.* without untruth; certain.

Na ddo un yn *ddianwir.*—*Dafydd Ionawr,* 255.

Dianwiw, *a.* not unworthy; deserving.

Dianwr, *a.* [anwr] not unmanly; not a fribble or a coward.

Dianwybod, *a.* without ignorance.

Dianwybodus, *a.* not ignorant.

Dianwych, *a.* not enervated; energetic.

Dianwyd, } *a.* devoid of passion, passionless;
Dianwydau, } unaffected; unruffled.

Bydd yr ewyllys yn llaryaidd, yn heddychlawn, ac yn *ddianwydau.*—*Edward Samuel:* Grotius, ii. 11.

¶ The particle *di*, before plural nouns, as well as before a phrase, or forming part of it, had better be treated as a preposition, and written separately. See *Di*, 4.

Dianwyl, *a.* [gwyl] unbashful; free.

Llywarch Hen na vydd di wyl
Trwydded a gefi *dianwyl*
Tarn dy lygad taw nag wyl.—*Llywarch Hen:* M.A. i. 119.

Dianwylyd, *a.* without love or affection; unaffectionate; implacable.

Mab Gwgan, mae begegyr
Gyda chwi, o gedwch wŷr,
Yn elyn *dianwylyd*
I fardd bun, ac i feirdd byd.—*D. ab Gwilym,* xcix. 11.

Dianynad, *a.* not violent or ungovernable (in temper); not petulant or peevish; not impatient.

Dianystyr, *a.* without inadvertence or inconsideration.

Dianystyriol, *a.* not inconsiderate or thoughtless.

Diang-: see note (¶) s.v. *Agyrddol.*

Diar, *sm.* [cf. *dâr*] a sound, noise, or din: more correctly *Dyar,* q.v.—*D.*

Diar, *prep.* [di-+ar] from upon; from above; from. Cf. *i ar, iar*=oddi ar.

Rit Aruaith ar Mouric ar hit ir ford bet *diar* ir allt ad dexteram.—*Llyfr Teilo,* 262.

Diar, *a.* [âr] uncultivated, without culture, untilled.

Diar, *a.* sad, pensive?—*Henry Salesbury* (Arch. Brit. 216).

Diara, *a.*=*Diaraf?*

Gogyuarch pob *diara*
Pieu yr wedgor yssy yma.
Bet Einyawn ab Cunedda.
Eng. Beddau Milwyr: A.B. ii. 35 (M.A. i. 82).

Dial blas aval blys Eva
O amraut amreint *diara.*—*Cynddelw:* M.A. i. 250.

Diarab, *a.* [arab] not joyous, merry, or pleasant; grave, solemn; exalted.

Dangos glod o'th fod ith fadien gynnydd
Yn hael fam ddinam Dduw nef tragywydd
O'n gweddiau geiriau boenau beunydd
Dy fab *diarab* daierydd ffurfawdr
Nef-Greawdr nyf-hwylawdr haul ysplenydd.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 572.

Os daw pechadur, os daeth,
Drwy deg i drŏedigaeth;
Fel y mab *diarab* dôn,
Ofer edliw, afradlon.—*I. B. Hir:* Gwaith, 125.

Diaradwy, *a.* not fit to be ploughed or tilled.

Diaraf, *a.* not slow or dilatory; not inactive.

Diarafedd, } *sm.* freedom from slowness or
Diarafwch, } dilatoriness.

Diarafu, *v.* to cease being slow.

Diarail, *a.* untended; not looked after.

Diaraul, *a.* gloomy, cheerless; ungenial; inclement.

Cnwd anhygar *diaraul,*
Clwyd forlo rhyngof a'r haul.—*D. ab Gwilym,* xxxix. 29.

Haws oedd im' gael hyn . . .
Neu ddydd gauaf *diaraul*
Gofiaid yn fy rhaid o'r haul.—*Ieuan Fychan ab I. ab Adda.*

Diarawd, *a.* without eloquence.

Diarbed, *a.* 1. without sparing or saving, unsparing; merciless; relentless.

Y gad pan ryddyfo y dydd *diarbed*
A llafneu rhuddion y llu alltudion.
Gorddodau Myrddin: M.A. i. 528.

Gauael glew yg cad gauaeled y wlad
Gauaelant ueirt y ged
Gal dywal dyual *diarbed.*—*Cynddelw:* M.A. i. 223.

Yn y frwydr honno y gorfu Ruffydd a gyrru ffo ar y Saeson, ai hymlid yn galed hyd yng Nghaer Henffordd, a myned i galon y dref ar eu hol, au lladd yn *ddiarbed,* onid oedd na cheffid byw o ddyn yn yr holl dref.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 515.

O blegid fod tyrant anhywaith ac anllad yn erlid y Christ'nogion, ac yn eu baeddu yn dost ac yn *ddiarbed.*
Theo. Evans: D.P.O. 334.

2. without ceasing, ceaseless, incessant.

Rhag drygau sy'n aneirif iawn
Caf genyd lawn ymwared;
Am hyn o'th gariad pur i mi,
Boed mawl i ti'n *ddiarbed.*
Iolo Morganwg: Salmau, 1. xci. 5.

Diarbediad, -au, *sm.* a ceasing to spare; a being unsparing.

Diarbedog, } *a.* not disposed to spare or save;
Diarbedol, } unsparing, unsaving; ruthless,
Diarbedus, } merciless; giving no quarters.

Manred gyminned gwin waretawg
Wyf colledig [*al.* coddedig] wen hen hiraethawg
Colleis pan amwth afaf [*al.* achaf] pennawg
Gwr dwr [dewr] diarchar *diarbedawg.*
Meigant: M.A. i. 159.

Diarbedrwydd, *sm.* unsparingness, mercilessness.

Diarbedu, *v.* not to spare; to cease sparing.

Diarbell, } *a.* incompact, unconnected; incoherent.
Diarbellt, }

Diarbenig, *a.* not excelling; ordinary.

Diarbod, *a.* without foresight or provision.

Diarbodaeth, *a.* without preparation, provision, or anticipation; not anticipated.

Diarbodawl, } *a.* not anticipating or providing;
Diarbodus, } not apt to provide or anticipate.

Digitized by Google

Diarbodi, *v.* not to anticipate.

Diarbwyll, *a.* void of rationality, irrational; senseless.

Diarbwyllawl, } *a.* irrational; unreasonable,
Diarbwyllus, } senseless; out of one's mind.

Diarbwyllo, *v.* to be irrational; to be out of one's mind.

Diarch, *a.* without request, order, or demand.

Diarchar, *a.* [archar?] dauntless, fearless, intrepid, bold, courageous, brave, irrepressible.

O kiscaud yscuid ac aral [arial] goruit
A guir deur *diarchar*
Tec nos y ffissocau escar.
Llywarch Hen: A.B. ii. 49 (M.A. i. 131).

Deu hael dau gedawl gwlad warthegydd
Deu *diarchar* barawd un ffawd un ffydd.
Golyddan: M.A. i. 158 (cf. 31, 148, 159).

Llywelyn llyw *diarchar*
A llawen cyn y bo llafar.
Gwalchmai: M.A. i. 201 (cf. 249, 297).

Dieithr vrodyr vryd uchelden
Diarchar arial a dan daleu.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 266 (cf. 140).

Crist mab Meir am peir om pedwar defnyt
Dofyn awen *diarchar*.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 297 (cf. 81).

Undegfed dydd oerth ceugant
Creaduriau yd grynant
Rhac ofn diliw *diarchar*
Adar daiar dirwestant . . .
Wythfed dydd dybydd dyar
Deddfau diau *diarchar*.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 363 (cf. 71).

Gwr val Kadwallawn dawn *diarchar*
Llawhir oed Ddauyd lluoed auar.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 365.

Hen wŷr *diarchar* yn eu heurdorchau.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 11.

Diarchen, *a.* [archen: Br. *diarc'hen*] uncovered; unarmed; unshod, shoeless, barefooted.

Defod yw i fardd yng ngorsedd sefyll yn *ddiarchen* ben a thraed o barch, dyled, a gwarogaeth i Dduw.—*Iolo Mss.* 61.

Doco bigewdyn yn corelwi'n *ddiarchen* esgeirnoeth ar frwynen.—*Llanover Ms.* 42.

Gwell *diarchen* awenydd
Na chroen ireiddlyd a chrydd.—*D. ab Gwilym*, clxix. 15.

Bod yn *ddiarchen*, a chysgu ar y domen, a ladd y cryfaf.
Diareb.

Na roed farch cul *diarchen*
Brywus i wr heinnus hen.—*Iolo Goch.*

Pan glybu Ahab hyn, fe a rwygodd ei ddillad, ac a wisgodd sachlïain, ac a ymprydiodd, ac a orweddodd mewn sachlïain, ac a gerddodd yn *ddiarchen* [*droednoeth].
Ed. James: Hom. ii. 186.

Cadw dy droed rhag noethni [*bod yn *ddiarchen*], a'th geg rhag syched.—*Ier.* ii. 25.

Diarchenad, *a.* without a covering; uncovered; shoeless, unshod.

Mis Mai difrodus geilwad;
Clyd clawdd i bob di gariad:
Llawen hen *di archenad;*
Llafar cog, a bytheiad.—*Englynion y Misoedd:* M.A. i. 15.

Diarchenad, } -au, *sm.* the action of uncover-
Diarcheniad, } ing, denudation; a disarraying; discalceation.

Diarchenog, *a.* having no covering; disarrayed; unarmed; unshod.

Diarchenu (*ĕ*), *v.* [Br. *diarc'henna*] 1. to uncover; to disarray, unrobe, or undress; to unarm; to strip, to take off; to strip off the armour (of a knight).

Yr neuad y kyrchwys y *diarchenu. ef* a doeth mackwyeit a gweisson ieueinc y *diarchenu.*
Mabinogion, 4 (cf. 164, 201, 205, 251, 289).

A phan wybuant wy panyw Lawnalot a oed yno llawen vuant wrthaw. ae arwein y ystauell aduwyndec a orugant oe *diarchenu.*—*St. Greal*, ‖ 2 (cf. 7, 8, 11, 39, 42).

2. to take or pull off the shoes, to discalceate.

Gwedy dyuot pawb ygyt onadunt. wynt a *diarchenwyt* ac a dodet kykyllev ar ev llygeit ac a dywyssawyt nav cam ar hyt yr haearn twym heb argywedu arnadunt.
Brut y Saeson: M.A. ii. 513.

Rhuglo ei draed a'i esgeiriau wrth yr ysgrin heb *ddiarchenu* [a orug].—*Buchedd S. Edmwnt.* (*D.*)

Diarchenwr, wyr, *sm.* one who uncovers, disarrays, or unrobes.

Diarchiad, -au, *sm.* a countermanding.

Diarcholl, *a.* without a wound, gash, or cut.

Diarcholladwy, *a.* invulnerable.

Diarcholledig, *a.* unwounded.

Diarcholli, *v.* to cure of wounds.

Diarchre, *a.* without raiment or clothes; nude.

Diarchwa, *a.* without stench.

Diarchwaeth, *a.* without taste, tasteless, insipid.

Diardres, *a.* without toil or labour.

Diardreth, *a.* without rent, rent-free; not rated.

Diardrethu, *v.* to free from rent.

Diardwy, *a.* without rule or sway; not severe or strict; not overbearing.

Kan kyrchuy [*al.* cyrchwys] Dews *diarduy*
Kyrch clotvaur am dirvaur diruy
Pumhoet pobyl rhac pobyant orduy.
Cynddelw: M.A. i. 252.

A chan anreith gwoleith gwael dy uri.
Diardwy abwy abar fyti.—*Gronwy Owain*, 129.

Diardwyo, *v.* to cease to govern or rule.

Diardwyol, *a.* tending to relax sway, or strict government.

Diardwyth, *a.* without elasticity, inelastic, unpliant.

Diardwytho, *v.* to divest of spring or elasticity; to become inelastic.

Diardymmer, *a.* without temperature.

Diardymmeriad, -au, *sm.* a becoming intemperate.

Diardymmerol, *a.* tending to intemperance.

Diardymmeru, *v.* to become intemperate.

Diardymmerus, *a.* intemperate, immoderate.

Diarddawd, *a.* without a prefix.

Diarddawn, *a.* without talent or endowment.

Diarddedig, *a.* not ploughed, unploughed, untilled.

Diarddel, *a.* unclaimed; not called for; escheated; without a claimant or owner.

Llythyr diarddel, an unclaimed letter; a dead letter.

Anifail diarddel, an unclaimed animal; an escheated animal.

Peth diarddel, an unclaimed thing; a waif.

I ba rai, yn ol rhoddiad Duw, y mae'r fath *bethau diarddel* yn perthyn.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 307.

Diarddelion, things unclaimed, waifs.

Digitized by Google

Diarddel, *v.* [diarddelw] 1. to disclaim, to disown, to disavow; to reject.

2. to exclude, cut off, or expel (from a society); to excommunicate (among Nonconformists).

Ac os yw Eglwys Loegr yn wir eglwys, er ymwrthod â'r pab, ac er cael ei *diarddel* gan Eglwys Rhufain, pa ham nas gall Eglwys Ymneilduol fod yn wir eglwys er ymwrthod â'r ddwy, a chael ei *diarddel* gan y ddwy?
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 602.

Diarddeliad, -au, *sm.* a disclaiming or disowning; expulsion, exclusion; excommunication.

Y mae yr adnod hon cyn belled o brofi y *diarddeliad* mewn dadl ag y dichon fod unrhyw adnod yn y Bibl.
Ioseph Harris: Gweith. 258.

Diarddelu, *v.*=*Diarddel.*

O blegid bod . . . ereill yn golygu nad oes sylfaen ysgrythyrol ganddynt i *ddiarddelu* pob un sydd yn ymbriodi â rhai dibroffes.—*Seren Gomer,* iv. 292 (cf. iii. 298, 299).

Ni fynai Llawdden y camrwysg o *ddiarddelu* yr hen Driban Milwr.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 581.

Diarddelw, } *v.* [arddelw] to disclaim, to dis-
Diarddelwi, } own; to reject.

Diarddelw, *a.*=*Diarddel.*

O bydd deirnos yn *ddiarddelw* . . . yna y dylyir manegi ir arglwydd.—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 568.

Diarddelwad, -au, *sm.* a disclaiming, a disowning; a disclaimer, a denial, a disavowal.

Diarddelwr, wyr, } *sm.* a disclaimant, a dis-
Diarddelydd, -ion, } avower; one who expels.

Diarddodawl, *a.* without a prefix, having no prefix.

Diarddodi, *v.* to divest of a prefix.

Diarddoniawl, *a.* apt to degrade; disendowing.

Diarddonio, *v.* to disendow; to deprive of grace.

Diarddull, *a.* without figure or form; without style (in writing).

Diarddulliad, -au, *sm.* disfiguration, deformation, disfigurement.

Diarddullio, *v.* to disfigure, to deform.

Diarddun, *a.* not simple; not sublime.

Diardduniant, *sm.* want of sublimity.

Diardduno, *v.* to divest of simplicity or of sublimity.

Diarddunol, *a.* not sublime, wanting in sublimity.

Diarddwy, *a.* [cf. *diardwy*] without strict order.

Diarddwyo, *v.* to cease to sway.

Diarddwyol, *a.* not despotic or overbearing.

Diareb, -ion, *sf.* a proverb, an adage; 'a maxim handed down from antiquity.'

Pob *diarheb* gwir, pob coel celwydd.
Diareb. (M.A. iii. 175.)

Ac yno y dywetpwyt y *diayreb.* Y ci a lyf y gwayw y llader ac ef.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 551.

O hynny y dechreuwys y *ddiarheb,* Bradwyr Brycheiniawc.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 479.

Or beichogi yssyd yng kroth dy wreic y genir mab ratlawn llwydyannus clotuawr. a vo *diareb* y berffeithrwyd ae vuched ae vilwryaeth dros y byt.
Amlyn ac Amig, col. 1085.

Megys y dywedir y mywn Brytanawl *diareb.*
Brut y Tywysogion, 136.

Diareb yw hon, dywirir ym mro,
'A laddo a leddir.'—*D. ab Gwilym,* ccxxxii. 53.

A ader heibio o'r *diarhebion,*
Gwir yw *diarheb* y gwŷr dewrion.—*L. G. Cothi,* viii. iv. 43.

Plant doethineb yw hen *ddiarebion.*—*Diareb.*

A phawb o'r wlad a serchasant gymmaint ei gynneddfau daionus ef, fal y tyfodd o hyny *ddiareb* ar y wlad, Mwynder Morganwg.—*Iolo Mss.* 11 (cf. 25, 66, 159).

Nid ydym, medd ef, yn blant ddwywaith, megys y mae'r hen *ddiarheb* gyffredinol, ond yn blant yn wastadol.
Ed. James: Hom. ii. 146 (cf. 102, 217).

Mae'n haws gwasgu hoel gadarn allan o bost caled, fal y dywaid y *ddiheureb,* na gwasgu ffyrlin allan o'n bysedd ni.—*Ed. James:* Hom. iii. 22.

A byddi yn rhyfeddod, yn ddammeg, ac yn *ddiharheb* ym mhlith yr holl bobloedd.—*Esgob Morgan:* Deut. xxviii. 37.

Na ddianged *diharebion* deallus oddi genyt ti.
Esgob Parry: Eccl. vi. 35.

Llyfr y Diarebion, the Book of Proverbs.

Diarebion Salomon, the Proverbs of Solomon. —*Diar.* i. 1; xi. 1; xxv. 1.

Myned yn ddiareb, to become a proverb; to become a by-word.

Gwir yw y ddiareb, the common proverb is very true.—*W.*

¶ Dr. Davies defines *diareb* (which he considers a compound of *di, ar,* and *eb*) as 'Quod tam certum & verum est vt cui contradici non potest.' Some write the word *dihareb,* others *diarheb, dihaereb,* or *diheureb.*

Diareb, *a.* 1. that is a proverb; proverbial (in a good sense); excellent; exquisite.

Ei liw a welai luoedd;
Drwy'r byd un *diareb* oedd.
Dafydd ab Gwilym, vii. 27 (cf. vi. 11).

Diareb, myn wyneb Non,
Yw daioni y dynion.—*L. G. Cothi,* iv. xxviii. 47.

Peth da diareb yw hwn, this is an exquisitely good thing.

Diareb o ddyn, an excellent man.

2. proverbial (in a bad sense); proverbially bad.

Erbyn hyny, nid oedd dim ond y pengamrwydd mwyaf digywilydd, a'r malais *diarhepaf* yn y byd a allai beri iddynt fod mor safnrwth a beiddio dywedyd mai drwy nerth y cythraul yr oedd efe yn diberchenogi y sawl a feddiannid ganddo.—*Theo. Evans:* Pregeth, 18.

Diarebiad, -au, *sm.* a speaking in proverbs; a making proverbial.

Diarebol, *a.* proverbial, adagial (in a good or a bad sense): 'what is so singularly good as to become a proverb, excellent: also, what is so scandalously bad as to grow into a proverb.'—*R.*

Plant y byd hwn a ddoedant yn *ddiharebawl.*
Huw Lewys: Perl, 14.

Robert, gwr *diarebol,*
Rhuthun yn un yn ei ol.—*Gutyn Owain.*

Cyhoeddodd gyfres o bennillion synwyrlawn, *diarebol,* a dichlynaidd.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 302.

Y mae yr arth, cystal a'r llew, wedi cael troedle ym myag ein hymadroddion *diarebol.*—*Ystên Sioned,* 55.

Diarebu, *v.* to speak in proverbs; to use proverbs; to utter proverbs; to use proverbially; to speak (of anything) as being proverbial.—*Esec.* xvi. 44.

Miui a uydaf bont heb ef. ac yna gyntaf y dywetpwyd y geir hwnnw ac y *diarebir* ettwa o honaw.—*Mabinogion,* 36.

Am hynny y *diarhebir* o heid Llouyon.
Triodd: Ll.C.H. i. 307.

Diarebant hon gaillt ac estron;
Diarebant wawr gwreng a brodawr;
Diarebant hi byd barddoni.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 236 (cf. 159)

Digitized by Google

Gwenaeh oed nor ychtywynedic asgwrn morvil. ac no dim or a ellit *diaerhebu* amdanaw.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 60.

Pa ham genych *ddiharebu* o honoch y ddihareb hon am dir Israel. . . Nid byw fi, medd yr Arglwydd Dduw, os bydd i chwi mwy *ddiharebu* y ddihareb hon yn Israel.
Esgob Morgan: Esec. xviii. 2, 3 (cf. xvi. 44).

Diarebu un, to make one a proverb or by-word.

Diarebu diareb, to speak or utter a proverb.—*Esec.* xvii. 2.

Diarebus, *a.* proverbial; worthy of being proverbial; fit to be a by-word.

Ac un nos kyn nos Nadolic y kyuodes *diaerebus* wynt y torri aneiryf o dei ac eglwyseu ac essigaw y koetyd a llad llawer o dynyon ac anifeileit.—*Brut y Tywysogion*, 324.

Diarebwr, wyr, } *sm.* a proverbialist; one
Diarebydd, -ion, } who speaks, writes, or collects proverbs.

Eithr dysg nis gellir daioni, fal y dywed y *diarhebydd*.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 101.

Am hyny y dywed y *diarebwyr*, Deuwch i Hesbon.
Num. xxi. 27.

Pob *diarebydd* a ddiareba am danat.—*Esec.* xvi. 44.

Diareilio, *v.* to cease attending or guarding; not to look after.

Diarf, *a.* [arf] without a weapon, weaponless; unarmed, armless.

Ef a daw yth ol y Freinc y gymryt yno vedyd a ffyd gatholic. ac y rodi gwrogaeth yttitheu ae dwlaw i gyt yn *diaryf*.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 475.

Yr hwnn a gymerth Heralt arall uab Gotwin iarll a oed vrenhin yna yn Lloeger yn dirybud *diaryf*.
Brut y Tywysogion, 44.

Gan Ddewi (ac e'n *ddiarf*)
Trech fu cri gweddi nag arf.—*Gronwy Owain*, 72.

Y gweddill oeddynt *ddiarf* a digymhorth.
Cylchgrawn, i. 8.

Diarfaeth, *a.* without design, intention, or purpose; designless, purposeless.

Diarfaethol, } *a.* uninventive; unintentional;
Diarfaethus, } undesigning.

Diarfaethu, *v.* to become void of intention or design; to cease designing.

Diarfau, *a.* without arms or weapons; unarmed, armless.

Gwyr Groec noethon *diaruev* oedynt.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 45 (cf. 160, 194, 208).

Aros a oruc ef yny gweles wy yn *diarueu*. ac yna ef a beris eu daly.—*St. Greal*, § 69.

Brenin coronog fydd ef yn ddiammau,
Ar bawb fe orfydd yn *ddiarfau*.
Iolo Mss. 278 (cf. 266, 275).

Diarfer, *a.* without usage or custom; out of use, obsolete.

Y mae geiriau sydd yn gwbl oddefedig ac arferedig mewn un oes yn dyfod yn afiednais a *diarfer* mewn oes ddyfodol.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 491.

Gair diarfer, an obsolete word.

Diarferedig, *a.* unhabituated, unaccustomed; disused, unused; obsolete.

Y ulwydyn rac wyneb y bu diruawr varwolyaeth ar y llu a oed y gyt ar brenhin yn Iwerdon o achaws newydder y *diaruereddygyon* uwydeu.—*Brut y Tywysogion*, 216.

Diarferedd, *sm.* disuse, disusage.

Diarferiad, -au, *sm.* a disusing; a ceasing to use; a becoming obsolete.

Diarferu, *v.* to disuse, to cease using; to leave off a custom or habit.

Y mae llawer o amrywiaethau yng nghyfymrediad y perwyddiaid, heb y treigliadau; sef, yn gyntaf, o arferu neu *ddiarferu* y rhagenwau dynweddiadawl gyda pherwyddiaid.—*W. O. Pughe:* Cad. Iaith Gym. iii. i. 7.

Diarfod, *a.* [arfod] without opportunity or convenience; inopportune; unexpected; unaware; unprepared, unready; helpless.

Arglwyd heb hi rac dy gaffel yn *diaruot* yw gennyf i.
Mabinogion, 272.

Ny cheynt wynteu o ennyt fo namyn rydec yn noethon *diaruot* ymplith eu gelynyon aruawc. ac y lledit.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 48 (cf. 76, 123).

Ac ny bu un gohyr yr Ruveynwyr gwedy eu damkylchynu yn dyssyvyt ac yn dyarveu *dyarvot* heb un urdas yn dypryt kan ffo ac adaw y maes.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 153 (cf. 224, 287, 341).

Ac uelly yn dirybud *diaruot* y kaffwn ni y uudugolyaeth o nadunt.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 175 (cf. 159).

Kany liwya Chyarlys ymi vy llad yma yn *diaruot* om gelynyon.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 469.

Fforest anturyus yw honn. ac ny dyly gwr da or byt vot yn *diaruot*.—*St. Greal*, § 95.

Ac o'r dim *diarfod* y tardd; sef gan felused a phereiddied Duw yn dadgan ei enw.—*Barddas*, i. 38.

Diarfodi, *v.* to make inopportune.

Diarfodog, *a.* having no opportunity or convenient time.

Diarfodol, } *a.* inopportune, inconvenient; un-
Diarfodus, } seasonable.

Diarfog, *a.* [arf] unarmed, weaponless; defenceless.

Os bydd efe *diarfog* yn hyn o beth, ni all ef na bo mewn gwastadol berygl gan y gelyn creulon, y llew rhuadus
Ed. Iames: Hom. ii. 190.

Merthyrwyd o weinidogion Christ ddeuddeg cant mewn gwaed oer, a hwy yn *ddiarfog*.
Theo. Evans: D.P.O. 261 (cf. 240).

Diarfawg daeth i'w derfyn.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 20.

Diarfogaeth, *a.* without armour; armless.

Diarfogi, *v.* to disarm, to unarm.

Fe fyddai i ni trwy hyny eu *diarfogi* hwynt o'u grym penaf.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 281.

Diarfogiad, -au, *sm.* an unarming, a disarming.

Diarfogol, *a.* tending to disarm; unarming, disarming.

Diarfoll, *a.* without reception.

Diarfolli, *v.* to refuse or decline to receive.

Diarfor, *a.* 1. not maritime; inland, interior.

Llymminawc lledffer a ddaroganer *diarfor* dygosel llygrer i enw llygrawd llawer.
Buchedd Gr. ab Cynan: M.A. ii. 586.

Gwlad ddiarfor, an inland country.

2. (=di ar fôr ?) from the sea ?

Dydoent guarthvor gwydveirch *dyarvor*.
Eingyl yghygvor guelattor aruyddion.
Taliesin: M.A. i. 33 (cf. A.B. ii. 302).

Diarfordir, -oedd, *sm.* inland.

Diarfordir, *a.* having no sea-coast; inland.

Diarfraint, *a.* without prerogative.

Diarfreiniad, -au, *sm.* a depriving or divesting of prerogative; degradation.

Diarfreinio, *v.* to deprive of prerogative or privilege; to degrade.

Diarfreiniol, *a.* tending to divest of prerogative.

Diarfu, *v.* to disarm, to unarm; to strip of armour; to lay down arms.

Ymchoelut a oruc hitheu ar Kacmwri. ac eu dygaboli yll deu. ac eu *diaruu*.—*Mabinogion*, 142.

Ar hynny y corr a doeth ac a ymgynnigyawd idaw oe *diaruu*.—*St. Greal*, § 166.

Digitized by Google

A *diarua* y marchogyon yn gyflym a wnaethant yna.
Ystoria de Carolo Magno, col. 424.

Yna Nwyfant a'm *diarfodd* i.—*Marchog Crwydrad*, i. 8.

A phob gwanwyn y syrth ei gyrn ef, ac yna y bydd ef gwedy'r *ddiarfu*.—*Ystên Sioned*, 56.

Diarfu, *v.* [=diarmu: cf. *armes*] to predict or prophesy.

Neur *dierueis* i rin y mordei Vffin.
Taliesin: A.B. ii. 167 (M.A. i. 40).

Diarfforddd, *a.* out of the way, not on the way; outlaying; inaccessible; intricate, strange, obscure, uncommon.

Yr Eryr iaith *diarfford*
Ath ofynaf heb faldord
Beth a wna Duw a gosgord.
Ymdd. Arthur ac Eliwlod: M.A. i. 177.

Gwlad heb ei gosgordd,
Addyeg *ddiarfforddd*.—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 11.

Beth yw ffugr esgus neu liw *diarfforddd*?
Cyfrinach y Beirdd, 203.

Achaws eu galw felly am ymgelfyddydu o honynt mewn gwŷdd a than goed mewn lleoedd dirgelfan *diarfforddd* er llonyddwch.—*Barddas*, i. 260.

Lle diarfforddd, an out-of-the-way place.

Sef y gwnân' dan y dail,
Yn mhlethiad gweuad gwiail,
Yn *lle diarfforddd*, rhag llu,
O fygr synwyr i fagu.—*Dafydd ab Gwilym*, clxxxviii. 5.

A phrin y cafodd ef ei hun fwynhau dim o'r gwobrwyon a addawodd efe trwy'r gyfraith i'w ddilynwyr, eithr ei flino yn wastadol mewn lleoedd anial, *diarfforddd*, trwy derfysgau ymrysongar.—*Ed. Samuel:* Grotius, ii. 20.

Ffordd a diarfforddd, road and no road.

Rhydd i hwnw [rhybuddiwr gwlad] *ffordd a diarfforddd*, ddydd a nos, ba le bynnag ydd elo yn ei swydd.
Cyfreithiau Cymru, ii. 524 (cf. 628).

Diarfforddi, *v.* to go out of the way; to digress, to stray.

Diarfforddiad, -au, *sm.* a digressing; digression.

Diarfforddol, *a.* digressive, straying.

Diargae, *a.* without stoppage or obstruction; free.

Diargaead, -au, *sm.* a removing of obstructions.

Diargaeol, *a.* not obstructive; unobstructed.

Diargais, *a.* without an endeavour or attempt.

Diargeisiol, *a.* not endeavouring.

Diargel, *a.* unconcealed, undisguised; open, plain.

Ac ef en dechreu Mynyd Mynheu e doeth kennadeu attaw o Enys Prydein i venegi idaw. vot Medrawt i nei vab i chwaer wedi gwiscaw coron e deyrnas ami ben. a chymryt Gwenhwyfar wreic Arthur en wreic idaw ehun. a chytgyscu en *diargel* a hono.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 352.

Neud meu y eisseu neud issel uy mryd
Yw ueirtyon oet clyd clod *diargel*.
Llygad Gwr: M.A. i. 373 (cf. 291, 455).

Y gwir diargel, the naked truth.

Diargeliad, -au, *sm.* a disclosing; disclosure.

Diargelu, *v.* to disclose, to uncover, to expose; to discover; to manifest.

Diarglwydd, *a.* without a lord, master, or ruler.

Diarglwyddiaeth, *a.* without dominion; without rule.

Diarglwyddiaethol, *a.* tending to deprive of rule, dominion, or supremacy; anarchical.

Diarglwyddiaethu, *v.* to divest of dominion, rule, or supremacy.

Y pwnc hwnnw a diellir yngyfywch a *diarglwydiaethu* y brenhin oy teyrnas pan symutit y gyfreith heb y gynat.
C.C. ii. 394 (cf. 394, 500).

Diargoel, *a.* without a sign, omen, foreboding, or symptom.

Diargoelio, *v.* to cease foreboding.

Diargoelus, *a.* unforeboding, giving no omens, not portending.

Diargraff, *a.* without impression, unimpressed.

Diargraffol, *a.* unimpressive, not impressing.

Diargraffu, *v.* to remove an impression; to erase; to cease to impress.

Diargrwm, *a.* not prominent, not convex.

Diargrymu, *v.* to divest of convexity or roundness.

Diargrwn, *a.* not outwardly round.

Diargrynu (*ŷ*), *v.* to divest of roundness.

Diargudd, *a.* not hidden or concealed; without a shade.

Diarguddiad, -au, *sm.* disclosure, exposure.

Diarguddio, *v.* to expose, disclose, or reveal.

Diarguddiol, *a.* tending to expose or disclose.

Diargyhoedd, *a.* [argyhoedd] irreprehensible, reproachless, irreproachable, blameless.—*Luc* i. 6; *Phil.* ii. 15; iii. 6.

Efe a ddewisodd offeiriaid *diargyhoedd*, y rhai oedd ewyllysgar i'r gyfraith.—1 *Macc.* iv. 42.

Rhaid gan hyny i esgob fod yn *ddiargyhoedd*.
1 *Tim.* iii. 2 (cf. Tit. i. 6).

Y mae ei sel ef yn dduwiol, yn *ddiargyhoedd*, ac wedi ei phrofi yn eglur wrth siampl Christ.
Edward James: Hom. i. 192.

Yr oedd arno . . . ymarweddiad glân, syberw, a *diargyhoedd*, cyn belled ag y gallai dyn farnu.—*Sion Tvefredyn*.

Diargyhoeddadwy, *a.* that cannot be reprehended, not reprehensible, irreprehensible.

Diargyhoeddiad, -au, *sm.* a being reproachless.

Diargyhoeddiad, **Diargyhoeddol**, *a.* not reproaching or reprehending; without reproof or reprehension.

Os goddefir i ni fyned rhagom yn *ddiargyhoeddiad*, f' ä'r arfer yn fynych cyn gynnefined ag nas gwna cerydd ddim daioni.—*Ed. Samuel:* Holl Ddyl. Dyn, xv. 22.

Diargyllaeth, *a.* void of longing; not longing or regretting.

Diargyswr, **Diargyswrw**, *a.* without fear or dread; fearless, undaunted, bold.

Paham yd arhown ni wyntwy heb ef. namyn kyrchwn wynt yn *diargyswr*. a rodwn udunt y dyrnodeu kyntaf.
Ystoria de Carolo Magno, col. 478.

Diargywedd, *a.* [argywedd] 1. not hurting or injuring; harmless, irreproachable, innocent.

Pan eegussodes Pilatus ain Iessu Grist wrth y bobyl. drwy gymryt dwfyr y ymolchi. a dywedut *diargyweed* wyfi heb ef o waet y gwirion hwnn.—*St. Greal*, § 11.

Pwy a esgyn ar fynydd yr Arglwydd
Neu pwy a saif yn ei santeiddrwydd
Diargyweedd o ddwylaw a glan o galon
A diorwag ei enaid a difrad i'w gymmydogion.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 561.

Cynddrwg ei gampau ydoedd [Iestin] fal nas cerid gan neb a gaid yn wŷr da *diargyweedd*.
Ieuan Brechfa: M.A. ii. 506.

Y meibion diargyweedd, the innocent children.

Ar uchaf y beis glaerwenn honno a arwydhoccei ganheitliw *diargyweedh* ydhoed ysgin o bali flamgoch gwedi bwyaw a gwaet pedeirmil a seithugeinmil o varthyri *meibion diargyweedh* a las yn ceisiaw Christ yn ei enw ef oynn bot un o honunt yn dhwyvlwydh.—*Ymborth yr Enaid*, § 94.

Digitized by Google

Gwirionedd diargyfwedd, truth against which nothing can be said; innocuous truth.

Tripheth ni ddyly cerddawr eu celu: gwirionedd *diargyfwedd*; a barn ar gerddwriaeth; a chlod dyledus dynion da.—*Barddas*, ii. 148.

2. unhurt, uninjured, unharmed, unscathed.

Ac y cafas y brenhin drwy gynghor Robert arch esgob peri twymnaw naw llad haearn yn wyn yas: a pheri ydunt kerdet naw cam ar y naw llath haearn. ac o galleynt hynny yn *diargyfwed*. gwirion oedynt.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 512.

Ac ny chaffei ynteu vynet y mywn yn *diargyfwed* y ganthunt.—*St. Greal*, § 63 (cf. 166).

Diargyweddedig, *a.* unharmed, unhurt.

Diargyweddol, } *a.* not reprehending; void of
Diargyweddus, } reproach; not injuring.

Diargyweddu, *v.* to pronounce blameless, harmless, or innocent; to free from reproach.

Diargyweddwch, *sm.* harmlessness, blamelessness, innocence.

Diargywydd, *a.* not present, not facing.

Diarhaedd, *a.* unsurmounted; unreached.

Diarhaeddu, *v.* to fail to attain.

Diarhawl, *a.* 'disclaiming, disavowing;' blameless, unblamable.

A phoed eich cyfan yspryd a'ch enaid a'ch corff a gadwer yn ddihawl [**ddiarhawl*] erbyn dyfodiad ein Arglwydd Iesu Christ.—*W. Salesbury:* 1 Thess. v. 23.

Diarheb, -ion, *sf.* [di-+ar-+heb=eb]=*Diareb.*

Diarholi, *v.* not to claim, to disclaim.

Diarholiad, -au, *sm.* a disclaiming, disavowing, or disowning.

Diarial, *a.* [arial] without vigour or energy; spiritless; remiss.

Diarialedd, } *sm.* want of vigour or energy;
Diarialwch, } enervation.

Diarialiad, -au, *sm.* enervation, enfeeblement.

Diarialog, *a.* having no vigour, not energetic.

Diarialu, *v.* to deprive of vigour, to enervate, to enfeeble, to weaken; to become enervated or enfeebled.

Diarian, *a.* [arian] without silver; destitute of money, moneyless.

At gyfreithiwr, gwladwr glân,
Na ddyred yn *ddiarian*.—*Tudur Aled.*

Diariangar (*n-g*), *a.* not fond of money, not covetous, without covetousness.

Bydded eich ymarweddiad yn *ddiariangar*.
Heb. xiii. 5 (cf. 1 Tim. iii. 3).

Eu geirwiredd difrychau, a'u hunanymroddiad *diariangar*.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 31.

Diariangarwch, *sm.* freedom from the love of money.

Diarianiad, -au, *sm.* deprivation of money; a divesting of silver.

Diariannu, *v.* to deprive or rid of money.

Diarlafar, *a.* without speech, speechless.

Diarlith, *a.* without allurement, not alluring.

Diarlithio, *v.* to cease enticing or alluring.

Diarlithiol, *a.* not enticing, alluring, or fascinating, unalluring.

Diarludd, *a.* without obstruction or obstacle.

Diarluddio, *v.* to remove obstructions or obstacles; to become unobstructed.

Diarluddiol, *a.* unobstructive; free.

Diarlwy, *a.* without preparation (of food).

Diarlwydd, *a.*=*Diarglwydd.*

Diarllad, *a.* without sacrifice or oblation.

Diarlloes, *a.* not to be emptied, cleared, or exhausted; not to be scattered.

Dreic agkynnwys dwys nyd oes ath veito
Yth uytyn *diarlloes*.—*Prydydd Bychan:* M.A. i. 381.

Diarmerth, *a.* without preparation or provision.

Diarnabod, *a.* having no knowledge (of), unacquainted.

Llw diarnabod, an oath taken by a person professing himself to be ignorant of the matter in question.—*C.C.* i. 560, 562, 714.

Os llygrir yd i neb dyn yn ymyl trefgordd, ac na chaffo y perchenawg ddala un llwdn arnaw, cymmered efe grair, a doed i'r dref, ac or tyngant *lw diarnabod* [*al.* diadnabod, dirnabod] talent i rif llwdn.—*Leges Wallicae*, III. x. 75.

Diarnabodus, *a.* not knowing, ignorant (of).

Diarnod, *a.* without a mark or characteristic.

Diarnodawl, *a.* not characteristic.

Diarnodi, *v.* to divest of character.

Diarobaith, *a.* without hope or expectation; hopeless.

Diarobeithio, *v.* not to hope or expect; to despond or despair.

Diarobryn, *a.* without merit; having no prize, without a prize.

Diaroddef, } *a.* not passive or suffering, not
Diaroddefus, } enduring.

Diarofyn, } *a.* without design or intent; un-
Diarofynol, } intentional.

Diarogl, *a.* having no scent, odour, or smell; inodorous, scentless.

Dwfr, yn ei sefyllfa o burdeb, sydd hylif disglaer, diliw, *diarogl*, a rhedegog.—*Beirniadur Cymreig*, i. 114.

Diarogli, *v.* to divest of scent or smell; to deodorise.

Diarogliad, -au, *sm.* deodorisation.

Diaroglus, *a.* inodorous, scentless.

Diaros, *a.* without delay, stay, or stopping; not dilatory; immediate.

Yn ddiaros, without delay, immediately, at once, forthwith.

Hoen ôd unnos *yn ddiaros*.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 238.

Pe bai Duw *yn ddiaros* yn taro i lawr y naill, ac yn glawio tân a brwmstan ar y llall, ac yn peri i'r ddaiar lyncu y trydydd, yna yr ofnai ddynion yn ddiau.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 339.

Yr ydym yn gobeithio na bydd dim oedi o'n rhan ni, ond y bydd i heddwch . . . *yn ddiaros* gael ei sefydlu.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 157.

Diarosol, *a.* not staying or remaining; not dilatory.

Diarswyd, *a.* without dread or fear; dreadless, fearless, undaunted, intrepid, daring.

Detholeis uy rwyf yn rwyd gelynyon . . .
Yn wawr glyw glew *diarswyd*
Yn walch balch bolch y ysgwyd.
Cynddelw: M.A. i. 242 (cf. 265, 393, 426

Rhuthr a ddug fy llyw llew *diarswyd*.
Gwgon: M.A. i. 337 (cf. 208

Nid *diarswyd* ond a arhöo:
Nid ofnawg ond a fföo.—*Diareb.* (*P.*)

Digitized by Google

Rhaid i ni fod, fel y dywed yr Ysgrythyr Lân, yn hy ac yn *ddiarswyd* fel llew.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. ii. 32 (cf. iv. 15).

Digywilydd mewn brynti, a *diarswyd* mewn perygl.
Robert Llwyd: Llwybr Hyffordd, 368.

Erbyn hyn, neseais gydag e'n *ddiarswyd*, at fin y dibyn.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 73.

Wyd fanon ar hinon hedd,
Diarswyd yw dy orsedd.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 215.

Diarswydiad, -au, *sm.* a divesting of terror; a becoming undaunted.

Diarswydo, *v.* to cease dreading; to be free from fear or terror.

Diarswydol, } *a.* not intimidating; unterrified,
Diarswydus, } undaunted, daring.

Diartaith, *a.* without torture.

Diarteithiol, *a.* untormented.

Diaruthr, *a.* void of amazement, not wonderful.

Diaruthro, *v.* to recover from amazement.

Diaruthrol, *a.* not amazing or wonderful.

Diarw, *a.* not rough, not rugged; not harsh, sharp, or severe; calm; smooth.

Diarw a llonydd oedd erllynedd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 439.

Trwst eres, nid trais *diarw*,
Trwm oer fal y try y marw!
Dafydd ab Gwilym, CXXVIII. 3 (cf. CCXII. 23).

Hwnt Harri yw'n tarw, a da a *diarw*,
Ef fry yw'n hen garw o frenin-gainc.
L. G. Cothi, VIII. xi. 31.

Diarwaes, *a.* without earnest, gage, or pledge.

Diarwaesaf, *a.* without support, unsupported; unpledged; unwarranted.

Diarwaesog, *a.* unpledged, not gaged.

Diarwaesu, *v.* to redeem a pledge; to be unpledged.

Diarwasg, *a.* without pressure or compression.

Diarwasgol, *a.* free from pressure; not pressing.

Diarwasgu, *v.* to cease to press.

Diarwedd, *a.* without leading or guidance.

Diarweddiad, -au, *sm.* non-conduction.

Diarweddig, } *a.* not leading or guiding; not
Diarweddol, } conducive; non-conducting.

Diarweddu, *v.* to cease to lead, guide, or conduct.

Diarwel, *a.* unconspicuous, not manifest.

Diarwellyg, *a.* indefectible, unfailing.

Diarwestl, *a.* without confusion or embarrassment.

Diarwestlog, *a.* unconfused.

Diarwestlu, *v.* to become unconfused.

Diarwybod, *a.* unknowing; unknown, unaware; ignorant; unexpectant; unexpected. —*M.A.* ii. 161, 287, 539.

Ac wrth hynny tra barhao tywyllwch y nos diskynwn ac yn deisyfeit kyrchwn am eu penn yn eu pebylleu yn *diarwybot*. kanys ny thebygant hwy an dyuot ni.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 175.

Oed Crist 831, y daeth Saeson y Mers ar hyd nos yn *ddiarwybod*, ac a losgasant Fonachdy Senghenydd.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 477 (cf. 539).

Yn y cyfamser y tiriodd Plocyn a'i wŷr agos yn *ddiarwybod* lu y Brytaniaid.—*Theo. Evans:* D.P.O. 42 (cf. 36).

Os bydd ein tynged yn waeth, ni chawn yn yr eithaf ond dioddef ychydig o ddirmyg daiarol, yr hwn a dderfydd yn *ddiarwybod* ini.—*Lewis Anwyl:* Nefawl Ganllaw, 2.

Llithrodd ein blynyddoedd heibio yn *ddiarwybod* i ni.
Brutus: Brut. 189.

Yn ddiarwybod, unawares; ignorantly, unknowingly; unexpectedly, suddenly; without thought.—1 *Tim.* i. 13; *Heb.* xiii. 2; 2 *Pedr* iii. 5, 8.

Diarwybodol, } *a.* unknowing, ignorant; un-
Diarwybodus, } aware.

Diarwydd, *a.* without a sign, token, or symbol.

Diarwyddhaol, } *a.* insignificant, insignifi-
Diarwyddol, } cative.

Diarymchwel, *a.* without reversion.

Diarymgais, *a.* without effort or exertion.

Diarynaig, *a.* [arynaig] without dread or fear, fearless, dreadless, dauntless.

Grym y groes, a dagrau'm gwraig
Dyr wên y *diarynaig*!—*Blackwell:* Cein. Alun, 108.

Diaryneigio, *v.* to cease to fear; to become fearless or undaunted.

Dias, *sm.* a loud noise; din; clamour.

Hoian a parchellan bychan breichvras
Andav de leis adar mor maur eu *dias*.
Myrddin: A.B. ii. 27 (cf. 68, 74, 80).

Sail o gyffrawd gofuned gwas colofn *dias*.
Taliesin: M.A. i. 41 (cf. 86).

Dias, *v.* to din; to make a noise or clamour; to clamour; to cause to cry out or to complain.—*P.*

Mab Grufud greid am *dias*
Maith dy dreisiau drag Euas.—*Gwalchmai:* M.A. i. 196.

Llywelyn llary dyn llwyr *dias* galon.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 300.

Diasg, *v.* [=diosg] to strip, to take off, to undress.

O chaf hi, moes ei *diasg*,
Ei dwyn i hwn ydyw 'nhasg.—*Ieuan Tew Ieuaf.*

Diasgafaeth, *a.* having no prey or spoil.

Diasgafaethol, *a.* not depredatory.

Diasgafaethu, *v.* to cease to spoil, depredate, plunder, or pillage.

Diasgell, *a.* [asgell] wingless; having no wings or pinions; finless.

Diasgellog, *a.* without wings, unwinged; finless.

Diasgellu, *v.* to deprive of wings; to clip the wings; to detach a wing (of an army); to separate, to detach.

A gwedy ymlad yn hir o bop tu, ef a *diasgellawd* bydin y wrth y llu yr honn ydoed iarll Kaer Loyw a Fawcwn Brewys yn y harwein.—*Brut y Tywysogion*, 296.

Diasgen, *a.* [asgen] 1. free from harm, damage, hurt, or injury; harmless, unhurt, unscathed; safe, sound.

Tissiliau teyrned nenbrenn
Teyrnas dinas *diasgenn*.—*Cynddelw:* M.A. i. 245.

Dewi a fryniodd at yr elor . . . a chan alw ar enw Christ, a fywhaodd y llanc yn eu gwydd hwynt oll, megys ag y rhyfeddodd pawb, ac a'i traddodes yn holliach ac yn *ddiasgen* i'w fam.—*Theo. Evans:* D.P.O. 243.

Dim ond iddo gyffwrdd â phren cerddinen, dyna'r swyn ar ben, a dyna yntau yng nghyflwr dyndod mor *ddiasgen* ag erioed.—*Brython*, i. 19.

2. harmless, without blemish; chaste, unpolluted.—*P.*

Mwyalch lên *diasgen* dwys-goeth.—*Cyfrinach y Beirdd*, 87.

Digitized by Google

Diasgengael (*n-g*), *a.* receiving no harm or injury; not affected by harm; free from harm or injury; uninjured, unhurt, unharmed, scathless.

Hi a aeth o enau y ddraig yn *ddiasgengael*.
Mabinogion? (*P.*)

Diasgeniad, -au, *sm.* a divesting of harm or damage; a being unhurt or unharmed.

Diasgenol, *a.* unhurt, unharmed; not pernicious or injurious.

Diasgenu (*ē*), *v.* to divest of harm.

Diasgloff, *a.* without lameness, not lame or limping; sound; unblemished.

Dy was gwna yn *ddiasgloff*
O glwyf.—*Hywel Dafydd ab Ieuan.*

Diasgloffi, *v.* to cure of lameness.

Diasgwrn, *a.* boneless, without bones; without a bone.

Diasgyrniad, -au, *sm.* a divesting of bone; a being boneless.

Diasgyrnu, *v.* to divest of bones; to make boneless; to bone.

Diasiad, -au, *sm.* a clamouring; a dinning.

Diasol, *a.* clamorous, noisy.

Diasp, -au, *sf.* a cry; a noise, din, or clamour.

Diaspad, -au, *sf.* [diasp] an outcry; a great noise, a loud cry, a shout; an uproar; a cry; a proclamation.—*C.C.* i. 774; ii. 638.

Or clywy *diaspat* dos wrthi. a *diaspat* gwreic annat *diaspat* or byt.—*Mabinogion*, 195 (cf. 203).

Diasbat a dodit pob nos kalan Mei. vch bob aelwyt yn ynys Prydein.—*Mabinogion*, 94 (cf. 68, 96, 98, 289).

Diaspad a ddodir yn ngwarthav Llug Vynydd
Odduch ben bedd Cynllug.
Llywarch Hen: M.A. i. 119 (cf. 126).

A mi a dodaf teir *diaspat* ar drws y porth hwnn.
Mabinogion, 103 (cf. 112, 125, 175).

Ac yna y vorwyn a roes teir *diaspat*.
St. Greal, ‖ 138 (cf. 174).

Ac yna *diaspat* a dodes y kawr.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 213.

Ac ual y bydynt uelly wynt a glywynt *diaspat* grochaf or byt yn agos udunt. Saf di yma heb ef a chyuaro a minneu a af y edrych ystyr y *diaspat*.—*Mabinogion*, 287 (cf. 288).

Diaspad mererid y ar van kaer.—*Gwyddno:* A.B. ii. 60.

A *diaspat* van a gwan a gweidi.—*A.B.* ii. 298 (cf. 61).

Rhoi *diaspad* o'r badell
O'm hol, fo'i clywid ym mhell.—*D. ab Gwilym*, cxlii. 57.

Aml gwaedd groch can cloch cler,
A *diaspad* hyd osper.—*Iolo Goch.*

Y mae Christ ei hun hefyd megys yn rhoi *diaspad* yn y geiriau hyn.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. iv. 11.

A Chaswallon y brenin a barodd i'r pen-rhingyll gyhoeddi *diaspad*, i orchymmyn pawb i aberthu i'r tadolion ddiwiau.—*Theo. Evans:* D.P.O. 32.

Na byddai i'r *diaspad* Gwyneddig ergydio dros y Môr Atlantig, a chyrhaedd clust Goronwy Owain.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 500.

Diaspad uch annwn; diaspad uwch adneu; diaspad uwch adfan; diaspad uchawn; and *hawl ddiaspad:* 'expressions in the Welsh Laws implying a calling out for assistance when too late, and applied to a person, who, having lost his claim to an estate, calls for the reversion of the verdict.' See *Adneu, Annwn.*

Ar *dyaspat* honno o elwyr *dyaspat uwch annwvyn* a chet doter y *dyaspat* honno o hynny allan ny werendewyr uyth. Ac ereill a dyweyt na dyly y nauuet dyn dody y *dyaspat* honno.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 174 (756).

A *dyasbat* yw hnnw yn mynet o pryodor yn amryodor dywaythaf ach a wrendy kyffraith a hono a elwyr *dyaspat ach anwn* ac a wrandewyr. . . Yna y dyly hnnw dodi *diasbad vch adnan* [al. *vwch aduam*].
Cyfreithiau Cymru, ii. 276.

Dodi diaspad, } to raise an outcry; to shout;
Rhoi diaspad, } to cry out; to proclaim.

Diaspedain, *v.* [diaspad] to cry out, aloud, or often; to shout; to raise an outcry; to scream; to ring, tingle, resound, reverberate, or echo; to make a noise, tumult, or uproar; to clamour; to bawl.

Dan leuein a *diaspedein* trwy y kyuanedeu nessaf idi.
Cyfreithiau Cymru, i. 100 (cf. 778).

Ar hynny nachaf y clywynt *diaspedein* yn y gaer. . . Am hanner nos y klywynt *diaspedein* girat. Py *diaspedein* yw hwnn weithon heb yr Owein. . . Ac am rynnawt or dyd y clywynt *diaspedein* a gweidi anueitrawl eu meint.
Mabinogion, 174 (cf. 203).

Pa *diaspettych* di bynnac am gyfreitheu llys Arthur. nyth ellyngir di y mywn yn y elwyf i y dywedut y Arthur gysseuin.—*Mabinogion*, 104 (cf. 125).

Tri chyffro dial yssyt: *diaspedein* caresseu; a gwelet elor eu car; a gwelet bed eu car heb y ymdiffyn.
Cyfreithiau Cymru, i. 442.

Ywch oedd pob llef a *ddiaspadei* nac a oedd o gorn a chloch dros wyneb yr holl ddinas.—*Doethion Rhufain*, ‖ 25.

Mi glywn dramawr drwst arfau ac eagydion geirwon o un cwr, ac megys taranau croch yn eu hateb o'r cwr arall, a'r creigiau angeuol yn *diaspedain*.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 89.

Caiff y bryniau *ddiaspedain*
A fy Haleluia mwy.—*Blackwell:* Cein. Alun, 196.

Y gwartheg . . . y rhai a welir yn finteioedd yn myned drwy yr adwyau, gan ddilyn y tarw gwrdd, buguniadau yr hwn a fydd yn *diaspedain* drwy yr holl fro.
Brutus: Brut. 84.

¶ The word is sometimes inaccurately written *dyspedain* and *dispedain*. '*Diaspedeit*' in *Mab.* 210 may be a scribal error for *diaspedein*, for that form is not found elsewhere.

Diasswyn, *a.* without excuse or leave; without leave of absence.

Diasswyno, *v.* to cease excusing or remitting; not to excuse absence.

Diasswynol, *a.* unremitted.

Diastrus, *a.* unperplexed, unvexed; not entangled or intricate.

Diasu, *v.* [dias] to make a din or noise; to clamour.

Diaswy, *a.* not left; not awkward.

Diateb, *a.* without answer, reply, or response; without answering; unanswered.

Puybynnac y barner ydau datanhud o ar ac eredyc ew a dyly eysted ar y tir yn *diatteb*.
Cyfreithiau Cymru, i. 170 (cf. 172).

Ac fe'i canmolir ef, o blegid ei sancteiddrwydd yma isod, gan y sawl a'i hadwaenent efe; megys gan Foses . . . yr hwn, wedi iddo osod yr holiad *diateb* hwnw . . . sydd yn flaenaf dim yn coffäu ei sancteiddrwydd ef.—*Ier. Owen*, 90.

Diatebol, *a.* being unanswerable.

Diatebu, } *v.* to cease from answering or re-
Diateb, } plying.

Diattal, *a.* without stop, stoppage, or impediment; unimpeded, unrestrained.

Oni buasai ei fod efe wedi ymroi ac ymosod eisys mor llwyr *ddiattal* yn erbyn y bobl hyn am eu pechodau.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 238.

Yr hon, trwy ei symmudiadau *diattal*, sydd yn dangos ei bod wedi tarddu oddi wrth Dduw.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 79 (cf. 321, 322).

Yn ddiattal, without stop, restraint, or hinderance; continuously, uninterruptedly.

Digitized by Google

Diattaladwy, *a.* uncontrollable, irresistible.

Yna deua ynddi dwy,
O rad *diattaladwy.*—*W. O. Pughe:* H.G. 76.

Diattalfa, *a.* without restraint, stoppage, or impediment; unrestrained.

Y mae'n gwthio tu ag ato yn wyllt ac yn *ddiattalfa.*
Ios. Tomas: Buch. Grist. 234 (cf. 157).

Diattref, *a.* without a home, homeless.

Diattreg, *a.* without delay, stop, or pause; unimpeded, unobstructed; immediate.

Dinbych y kyrchws kyrch *diatrec* prut.
Prydydd Bychan: M.A. i. 383 (cf. 257, 272).

Ac yn *ddiattreg* y syrthiodd arno niwlen a thywyllwch.
Act. xiii. 11 (cf. Esa. xxix. 5; Ier. iv. 20).

Ond yr awr hon yr oedd efe wedi bwriadu, yn *ddiattreg,* wneuthur y gwrthwyneb.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 238.

Gyrwch yn *ddiattreg* bwt o lythyr.—*Gronwy Owain,* 327.

Y mae efe yn *ddiattreg* yn mynegi yr achos o'r fath rasusol waredigaeth.—*G. Meckain:* Eglur Olygiad, 15 (cf. 2).

Cyfododd yn *ddiattreg* ar ei draed ol.—*Cylchgrawn,* i. 102.

Yn ddiattreg, without delay, forthwith, at once, immediately, directly, suddenly.

Medri hedeg at fun wendeg,
Hyd arw a theg, *yn ddiattreg.*
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 246.

Diattregol, *a.* not delaying; unobstructive; instantaneous.

Diattregu, *v.* to divest of delay, obstruction, or impediment.

Diattregwch, *sm.* immediateness, instantaneousness; unobstructedness.

Diattro, *a.* without reversion or return.

Diathraw, *a.* without a teacher, instructor, or master.

Diathrawaidd, *a.* uninstructive; uninstructing.

Diathrawiaeth, *a.* without instruction, learning, or doctrine; uninstructed.

Diathrawiaethol, *a.* uninstructive; not doctrinal.

Diathrawiaethu, } *v.* to cease to teach, inform,
Diathrawu, } or instruct; to leave off teaching.

Diathrawus, } *a.* uninstructive, uninstructing;
Diathrawol, } not teaching.

Diathrin, *a.* unused to labour or toil; without labour or toil; not toiling or labouring; idle.

Bydd lew, na fydd *ddiathrin.*—*Diareb.* (M.A. i. 172.)

Diathrist, *a.* not sad, pensive, sorrowful, or dejected; glad.

Cof gwaneg deg dist cofion *diathrist*
Cyfarawdd a Christ mewn cyfwyrain.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 462 (cf. 475).

Diathrodawl, *a.* [athrod] uncensorious; not defamatory, calumnious, or slanderous.

Diathrylith, *a.* without genius, talent, or aptitude; ungifted; uninformed.

Diathrywyn, *a.* untranquillized.

Diau, *a.* [di- + gau] true, certain, sure; undisputable, undoubted.

Nyt oes neb heb y pawb ny bo *diheu* gantaw hynny.—*Mab.* 24 (cf. 27, 135, 165, 166, 168, 174, 176, 180, 181, 248, 251, 278).

Nyt yttwyf yn caffael chweith chwedyl *diheu* y wrthaw.
St. Greal, ¶ 128.

Nyt y fford digrifaf a chyuanhedaf a beris ef y cherdet. namyn y fford diffeithaf a *diheuaf* uot llatron yndi.
Mabinogion, 270.

Tegach y gwyl kyfreith credu y peth *diheu* nor peth aniheu.—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 200.

A rhai a oedh anhyspys cynno hynny oe gwynuydedigrwydh o hynny alhan yspys *dhiau* oedhynt.—*Lucidar,* ¶ 14.

Agheu pob rieu *diheu* y daw.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 366 (cf. 355, 423).

Dawn o chair, *diau* na chyll
Drychau o ffeiriau fferyll.
Dafydd ab Gwilym, lvii. 31 (cf. lviii. 15; cxxx. 14).

Ai *diau* ddywedyd o Dduw?
Gen. iii. 1 (cf. xxviii. 16; xxix. 14; xlii. 21).

Lle mae ef i'w gael yn *ddiau.*
Ed. James: Hom. ii. 10 (cf. i. 14; iii. 56).

Onid arbedodd Duw'r angylion a bechasent . . . *diau* nad arbed ef mo honom ni.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. vi. 14.

Diau yw ei fod yn perthynu i weinidogion yn fawr iawn, ac i'r bobl hefyd.—*Ieremi Owen,* 9.

Yn ddiau, certainly, truly, surely, verily, indeed, assuredly, doubtless, undoubtedly; of a truth.

Yn ddiau da yw Duw i Israel.—*Salm.* lxxiii. 1.

Yn ddiau fyth ni ddaw fwy
Na llu gwrdd, na llaw gorddwy.—*I. B. Hir:* Gwaith, 20.

Diau genyf, I am certain or sure; I have no doubt.

Yn wir ddiau, truly and certainly; most assuredly; really, indeed, assuredly; in good truth.

Dydd Calanmai nesaf yr ŷm i gyfarfod â phendefigion y Brytaniaid dan rith i wneyd ammod o heddwch â hwy; ond *yn wir ddiau* ar fedr eu lladd bob mab gwraig, costawocwn ag ydynt.—*Theo. Evans:* D.P.O. 108.

Yn ddiau ddigon, sure enough; quite certain.

Wele y Brithwyr wedi dyfod *yn ddiau ddigon.*
Theo. Evans: D.P.O. 93.

Diau orchymmyn Crist, the express command of Christ.

Gan gadw a chynnal neillduol offerenau . . . yn erbyn *diau* orchymmyn ac archiad Crist.—*Morus Cyffin:* Diff. ii. 14.

Ḍiau, *pl.* dieuoedd, *sm.* and *pl.* [L. *dies;* C. *de;* Ir. *die, dia*] a day.—*M.A.* i. 150.

Ac yno y bu tri *dieu* yn gorffywys.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. 162.

A phan ddeffroes yd oed ar groen y dinawet melyn. gwedy rygyegu o honaw teir nos a thri *dieu.*
Mabinogion, 161 (cf. 239).

A gwedy yspeit ychydic o *dieuoed* gwedy dyuot Bran yr tir oe lyges.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 72 (cf. 54, 208).

Gwedy ychydic o *dieuoed* ef a deuth Alexander y Roec.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 9 (cf. 25, 54, 94, 187).

Beuno a deuth ef ae disgyblon hyt yn Meivot, ac yno y trigawd ef gyt a Thyssiliaw deugein *nieu* a deugein nos.
Buchedd Beuno: C.B.SS. 15.

A gwedy rifedi bychan o *ddieuoed* or amser hwnnw y kerdawd Amic a llu mawr ganthaw o varchogyon a phedyt parth a chastell Berigan.
Amlyn ac Amig, col. 1109 (cf. 1096).

O dyna y keisswyt pedwar *dieu* trwy vynyded a glynneu y gan uarchogyon a phetyd.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 386.

Deugain *niau* dafnau dwfr
Ar ruddiau yw'r arweddwfr.
L. G. Cothi, i. ii. 11 (cf. vi. iii. 14, 17).

Ef a barhäws yr ymladd saith *niau* o'r untu.
Ystori Dared, 75.

Yn y wledd rhyfedd barhau
Dwr a daiar dri *diau!*—*Dafydd Nanmor:* G.B.C. 150.

Paham nat anuones ef yr Yspryt Glan heb ohir o vewn y deugain *niau.*—*Lucidar,* ¶ 41.

¶ In the singular the word was sometimes written *die.*

Digitized by Google

Naw *die* teruyn.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 346.

Yr amser pennaf yw or y dylych y cheissiaw yw *die* Satwrn wedy hanner nos yn lut ar y dydh neu ynghyfrwng y nos ar dydh wedyr ymparattoych cynno hynny o unpryt a gwedieu *die* Gwener a *die* Satwrn a thrwy lan gyphes ymrodi yr Drindawt gyssecredic o nef. Ac odhyna y dydh hwnnw nyt amgen no *die* Sul, cymmer Cymmun corph Christ.—*Ymborth yr Enaid*, ł 29.

O bydi heb eiriau llên
Die Sul eb raid eb angen
Hyd yr ail Sul na chward wên.
Ymdd. Arthur ac Eliwlod: M.A. i. 178.

Na farned neb arnoch chwi ym mwyd a diod, neu o ran *die* gwyl, neu leuad newydd.—*W. Salesbury:* Col. ii. 16.

Efe a fu yn y bedd *ddie* Gwener . . . bu yno hefyd *ddie* Sadwrn trwy'r dydd . . . ac a fu yno ddarn o *ddie* Sul.
Roger Smith: Eglurhâd, 46 (cf. 45, 47).

Ond *die* Gwener wedi hyny, hwy a waeddasant yn ei erbyn Ef.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. ii. iii. 8.

Y mae yn rhy eglur fod yn dianrhydeddu Duw yn fwy, ac yn gwasanaethu'r diawl yn well *ddie* Sul nag ar un diwarnod o'r wythnos heb ei law ef.
Ed. James: Hom. ii. 252 (cf. 107).

Diawch, *a.* without edge, keenness, or sharpness; blunt; unapt; disinclined.

Diawch, *sm.* [cf. *diawst*] a perverted pronunciation of *diawl*.

Diawchedd, } *sm.* want of edge or sharp-
Diawchusrwydd, } ness; bluntness; dullness.

Diawchiad, -au, *sm.* a blunting; disinclination.

Diawchol, *a.* tending to blunt, blunting.

Diawchu, *v.* to divest of sharpness; to blunt; to dull, to stupefy; to disincline; to become devoid of ardour; to become heedless.

Yr oeddwn wedi *diawchu* o achos y chwedlau a ddywedasai hi wrthyf.—*Marchog Crwydrad*, i. 6.

Diawchus, *a.* not keen or sharp; not ardent.

Diawchuso, *v.* to blunt; to dull; to disincline; to become dull or listless.

Diawchusol, *a.* blunting; dulling; tending to disincline.

Diawd, *pl.* diodydd, *sf.* See *Diod*, &c.

Diawdl, }
Diodl, } *a.* without rhyme, rhymeless.

Nis gellir awdl ar amgen ansawdd a dull na'r deg uchod; ac nis dylid canu cerdd Gymraeg yn *ddiodl*, fal y mae arfer rhai gwleydydd ac ieithoedd.—*Cyfrinach y Beirdd*, 54.

Diawdlestr, -i, *sm.*=*Diodlestr*.

Diawdurdod, *a.* without authority; not vested with authority or power; unauthorized; unauthenticated.

Nid yn y dechreuad yn unig, eithr tros agos i drichant o flynyddoedd, yr ymgryfhaodd y grefydd yma trwy gymhorth a dyfalwch gwŷr *diawdurdod*.
Ed. Samuel: Grotius, ii. 22.

Diawdurdodi, *v.* to deprive of authority; to reject as authority; to divest of credit; to cashier.

Gan i chwi ddirymio [**ddiawdurdodi*] gair Duw, can eich athrawaeth eich hunain.—*W. Salesbury:* Marc vii. 9.

Diawdurdodol, *a.* unauthorized, unauthoritative.

Diawdwydd, *s.pl.* [diawd+gwŷdd] bay-tree, laurel (*Laurus nobilis*): otherwise called *pren y gerwyn* and *dail y cwrw*.—*H. Davies:* Welsh Bot. 183.

Diawel, *a.* breezeless, airless; without ventilation.

Efe a syrthiodd yn drymglaf; a'i swydd isel a'i cyfyngai i ystafell *ddiawel*.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 421.

Diawen, *a.* devoid of genius; having no disposition or aptitude.

Cyfrwys *diawen* cwys, cyd ceisiai gyhwrdd
A gwobr, nis gallai.—*Dafydd ab Gwilym*, cccxxx. 29.

Diawgrym, *a.* unskilful, awkward; without a hint.

Diawl, -iaid, -aid, *sm.* [see *Diafol*] the devil; a devil or demon.

Ac yna gwedy medwi Gwrtheyrn neidaw a wnaeth *diawl* yndaw.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 135 (cf. 245).

Chwitheu a gredwch ac a adolwch y *diawl* yn awch geudwyweu.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 393.

Y llu *diawliaid*, lle delynt,
A fagen' genfigen gynt;
O, Dduw! beth o dda bathawl
A wna i ddyn ymroi i *ddiawl*?
L. G. Cothi, VIII. viii. 45 (cf. v. vi. 51).

Diawl hagen a dhywat wrth y Sarph. megys y dywait hedhyw drwy dhyn a gapho arnaw graph.
Lucidar, ł 21 (cf. 53, 75, 79, 82, 90).

Trwy vy rwyf y bwyf heb evynneu *diawl*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 473 (cf. 182, 247).

Aed i *ddiawl*, dragwyddawl dro,
Y galon lefr a gilio!—*D. ab Gwilym*, cxxiv. 45.

Duw pob iawn, *diawl* pob cam . . . Duw pob cariad, *diawl* pob cas.—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 53 (cf. 54).

Y *diawlaid* hefyd a'i credant ac a grynant.
Esgob R. Davies: Iago ii. 19 (cf. 1 Tim. iii. 6).

Tri ofn annoeth: ofni dyn; ofni *diawl;* ac ofni tlodi (*al.* aflwyddiant bydawl).—Mewn tri pheth y bydd dyn yn debyg i *ddiawl:* maglu'r ffordd; ofni plentyn bach; a chwerthin am ben y drwg.—*Barddas*, i. 204.

Angel pen ffordd a *diawl* y pentan.—*Diareb.*

Hawdd yw hebgor angel allan,
Ac yn ei dŷ yn *ddiawl* y pentan.
Thomas Owain: Hawdd ei Hebgor.

'Aie,' ebr y Cecryn, 'myn *diawl*, mi wnaf yn hallt i chwithau.'—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 66.

Pei gwelai bob un galon y llall, ef a fyddai yn llawnoed i bawb ffoi rhag *diawlaid*.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 52 (cf. 251).

Drwg y ceidw *diawl* ei was.—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Aml y ceir *diawl* yng ngwisg y gwawl.
Iolo Mss. 226 (cf. 255).

Mae'r *diawlaid* yn credu y pynciau hyn o'n ffydd ni . . . ac eto er yr holl ffydd hon, nid ydynt onid *diawliaid*.
Ed. James: Hom. i. 37 (cf. 162; ii. 100; iii. 46, 274).

Y mae'r *diawl* yn rhwym wrth gadwyn.
Rhys Prichard: C. y C. ix. 5.

Llid a chenfigen, malais ac ymddïal, yw natur a phla *diawlaid*.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 62.

Y mae'r gydwybod yn eu rhwygo yn waeth nag y gallai holl *ddiawliaid* uffern.
E. Wynn: Bardd Cwsg, 78 (cf. 79, 80, 81, 82).

Dial blin i'r *diawl* a'i blant.—*Dafydd Ifan Sion.*

Maeddu *diawl* yw maddeu dig.—*Iorwerth Fynglwyd.*

Llais telyn a ddychryn *ddiawl*.
Gronwy Owain, 5 (cf. 74, 75, 92, 318).

Gorphwyllo, dawnsio mae'r dyn,
A'r *diawl* yn canu'r delyn.
I. B. Hir: Gwaith, 110 (cf. 39, 43, 44, 86, 116).

Diwyd y *diawl* wrandawodd;
Mewn brys a braw draw fe drodd.
D. Ionawr, 57 (cf. 59, 60, 62, 63).

Diawl à *Ddiawl* a ddeil mewn undeb clau.
W. O. Pughe: C.G. ii. 522.

Dos i ddiawl, } go to the devil; go to the
Cerdd i ddiawl, } deuce.

Draig ynial dy garenydd,
Dos i ddiawl, wel diso ddydd.—*D. ab Gwilym*, lix. 21.

Diawl mewn cnawd, a devil incarnate.

Baw diawl: see *Baw*.

Ond a ŵyr pob synwyrawl
O'r byd oll?—ac yt' *baw diawl!*—*D. ab Gwilym*, clxxi. 59.

¶ The derivation of *diawl* from *di* and *awl*, meaning one 'that is deprived of primeval light,' is imaginary; the word being a modification of *diafl* or *diafol* (*diabolus*) by the vocalisation of *f* into *w*, as in many other instances. It is, like *diafl*, a monosyllable.

Digitized by Google

Diawlaidd, *a.* like the devil; like a devil or demon; devilish, diabolical.

Nid yw honni ar y saint eu bod hwy yn chwennych y fath dduwiol anrhydedd ddim amgen ond eu cyffeithio hwy â'r gwarth a'r gwaradwydd casaf a *diawleiddiaf* ag a ddichon bod.—*Ed. James:* Hom. ii. 100.

Bwriwyd o Saul yspryd syn
Diawlaidd wrth ganu'r delyn.—*Gronwy Owain*, 5.

Diawlddyn, -ion, *sm.* a man-devil, a devil incarnate.

Diawledig, *a.* bedevilled; devilish, diabolical; possessed by a devil.

Onid ydyw efe yn llidiog . . . os rhwystrir un amser ei ddamuniad cnawdol *diawledig* ef!—*Ed. James:* Hom. i. 164.

Y mae ysfa *ddiawledig* ar eu dwylaw i fod yn ymyraeth â phethau pobl ereill.—*Gronwy Owain*, 335.

Diawleiddrwydd, *sm.* devilishness.

Diawles, -au, -od, *sf.* a she-devil, a devil in petticoats; a devil of a woman; a fury.

Ac yn vynych keissyaw a wnaei y dagu. ac yna y gelwis ef attaw Aron ac Onvur y weissyon. ac erchi udunt yr Duw y landwyaw ef odyno y wrth y *diawles* a oed wreic idaw.
Amlyn ac Amig, col. 1101.

'Tygaswn fod Luciffer yn weddeiddiach brenin na rhoi gwraig foneddig o'm gradd i gyda'r mân *ddiawlesod* hyn,' ebr un, syrn debyg, ond ei bod hi yn llawer gerwinach na sarff hedegog.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 81.

Anghynhes *ddiawles* ddileddf,
Ni erbyd hi dori deddf.—*Gronwy Owain*, 107.

Diawles o ddynes ddu, a black fury of a woman.

Diawlig, **Diewlig**, *a.* devilish, diabolical; fiendish, fiendlike.—*M.A.* iii. 251.

Gorchymynnwys Charlymaen y pob gwr march dodi penwisc o llein a brethyn. y gudyaw eu llygeit rac gwelet y gwascodyeu *diawlic*. a bydaru eu clusteu rac clybot eu lleisseu uffernawl.—*Campau Charlymaen*, § 50.

O achos nid ydyw y ffydd honno . . . yn ffydd uniawn, bur, fywiol, ond ffydd farw *ddiawlig*, mewn rhagrith neu liw yn unig.—*Edward James:* Hom. i. 37.

Liwsypher . . . un nad oes iddo ddim i wneuthur yn y nef, ond yn y ddaiar ym mysg bydolion, a dynion *diawlig*.
Marchog Crwydrad, i. 9.

Fe a ddymunodd yn yspryd ddistryw yr holl fath amryfusedd a beiau llygredig y rhai a deyrnasant yn yr holl bobl *ddiawlig* ag a ymosodant yn erbyn Duw.
Ed. James: Hom. ii. 304 (cf. 151, 260, 262).

Gothiaid—Vandaliaid *diawlig*,
I blant dy blant ddaliant ddig.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 7 (cf. 215).

Buan y clyw Satan si
Ddiawlig yn ei lwyr ddelwi.—*Dafydd Ionawr*, 68.

Ni fwytai hanner digon
O waelion sothion sal,
Oddi eithr cai fo fraggig,
Ddyn *diewlig*, yn ddi dâl.—*Iago Trichrug*.

Diawligrwydd, **Diewligrwydd**, *sm.* devilishness, diabolicalness; fiendishness.

Pei gwelai ddialgarwch ei *ddiawligrwydd*, efe a elai i ddiawl yn hytrach nog ymroi iddo.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 52 (cf. 271).

Ymuno mae tafarn ag uffern yn gydfarn,
Diawligrwydd tra chadarn sydd yno.—*Dafydd o'r Nant*.

Diawlio, **Diawlo**, **Diawlu**, *v.* to call the devil; to devote to the devil; to bedevil; to curse; to use profane language.

Trwy roddi heibio weithredoedd y cnawd: y rhai yw . . . cribddeiliio, cyfeddach, dychymmygu drygioni, difenwi, *diawlu*, damnio . . . a chyffelyb i'r rhai hyn.
Cylchgrawn Cymraeg (1793), 37.

Dechreuodd sydyn *ddiawlio*,
A llidio hyd y llawr.—*Ieuan Lleyn:* Caniadau, 105.

Diawlyn, *sm.*=*Diewlyn*.

Diawr, *adv.* without doubt, certainly.—*P.* Under this word Pughe gives the following quotation:

Diawr yssid le iddo gwynaw y neb y sydd yma: Mabon fab Modron y sydd yma y'ngharchar.

But the true reading is not *diawr* but *oi awr* or *oiawr*. See *Mabinogion* (ed. 1887), 131 (=Guest's *Mab.* ii. 234). The word, if it actually occurs, is probably the same as *dioer*, q.v.

Diaws, *a.* [aws] without aptness, unapt.

Diawst, *sm.* [diawl]=*Diagwst*, *Diawch*.

Diawtty, tai, *sm.* [diawd+tŷ]=*Diotty*.

Diawu, *v.* [cf. *afwy*] to discourage?

Ystyr faint dy fraint frenhin Cymry
Can gwnaf dy foliant fal y heddy
O gwnai iawn om dawn nim *diawy*
O wythlonder ner nerth a gedwy.
Dafydd Benfras: M.A. i. 309.

Diawydd, *a.* without desire or avidity; without inclination, disinclined.

Diawyddol, **Diawyddus**, *a.* having no avidity; undesirous; indifferent.

Diawyddu, *v.* to be disinclined or indifferent.

Dib, -ion, *sm.* [cf. *dibyn*] a fall or depth; a declivity; extremity.—*P.*

Dib dab, pit-a-pat, with a flutter.

Dibaid, *a.* ceaseless, unceasing, incessant, continual, perpetual.

A Duw yn medru peri, yn gwybod y modd o'i beri, ac yn gwyllysu'n *ddibaid*, pob peth a ellir meddwl a chais arno yn ei gariad ef ei hun.—*Barddas*, i. 230 (cf. 206).

Mor *ddibaid* y mae genyf goffa am danat ti yn fy ngweddïau.—2 *Tim.* i. 3.

Arnat ti y llefa Cerubin a Seraphin â lleferydd *ddibaid*.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Te Deum).

Dibaid gnofëydd du-boen
A'i nych, a chrych yw ei chroen.
Gronwy Owain, 110 (cf. 118).

Ar ddeutu glan yr afon y tyfai bren y bywyd, yn dwyn ffrwyth yn wastadol *ddibaid*.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. x. 4 (cf. ii. ii. 30; vi. 15).

Ystyriwch fod . . . y môr yn llenwi ac yn treio yn *ddibaid*.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 194 (cf. 306).

A chadwant i fyny gri *dibaid*, drwy y nos, er mwyn ymgadw yng nghyd.—*Cylchgrawn*, ii. 171.

Yn ddibaid, without ceasing, ceaselessly, incessantly.—*Rhuf.* i. 9; 1 *Thess.* v. 17.

Cwyno nos a dydd *yn ddibaid*,
Yma'r wyf ym mhlith estroniaid.—*Daniel Ddu*, 241.

Dibaith, *a.* having no view; indistinct; uncircumspect.—*P.* *Diobaith*, not *dibaith*, is the reading in the proverb which Pughe quotes under this word: see *M.A.* iii. 179; *Diarhebion Cymraeg* appended to Davies's Dictionary; and *Hengwrt Ms.* 202.

Dibaladr, *a.* without a stem or stalk, stalkless, stemless.

Diball, *a.* unfailing, never-failing; efficient; certain, sure—*Doeth.* vii. 14; viii. 18.

Arwyddion ion iawn ener *diball*.—*Proth:* M.A. i. 492.

Y mae da *diball* allan
Ar faes, neu ryw ysgrubl fan.
D. ab Gwilym, cli. 43 (cf. lxx. 21; ccxxix. 42).

Tri pheth a dyly gwarant *diball* eu gwneuthur.
Cyfreithiau Cymru, i. 482 (cf. 422; ii. 574).

Duw a'ch rhwyddo oll i fod yn Gristianogion *diball*, yn danlwyddiaid ffyddlawn, yn frodyr anesgor.
H. Perri: Egl. Ffraethineb, Rhag. 7.

Yr Hwn trwy dy *ddiball* ragluniaeth wyt yn llywodraethu pob peth yn y nef a'r ddaiar.
Ll. G. Gyffredin (8 S. wedi'r Drindod).

Digitized by Google

Diballedig, *a.* that has not failed; unfailing.

Tri arddelw y cyngein gwat ynddunt: arddelw o reith safedic; arddelw o gadw a gwesti *diballedic;* arddelw o wiryonnyni herwydd gwir a gwlat.
Cyfreithiau Cymru, ii. 648.

Efe a rydd iddynt orchymmyn enwedigol i ymorol am danom, ac i'n hamddiffyn, ac i ddangos i ni ufuddgarwch *diballedig.*—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 114.

Diballiant, *sm.* freedom from failure; infallibility.

Diballrwydd, *sm.* unfailingness.

Diballu, *v.* to cease from failing; to be unfailing.

A dan seer ny byd ac ny bu vn well
Vawr glot bell *diballv.*—*Einion Wan:* M.A. i. 337.

Diballus, *a.* unfailing, not defective.

Dibannwl, } *a.* [pannwl] without dents, hol-
Dibannylog, } lows, or depressions, not dented.

Dibannyliad, -au, *sm.* a divesting of dents or depressions.

Dibannylu, *v.* to divest of dents, depressions, or inequalities.

Dibant, *a.* [pant] without a hollow or dent.

Dibara, *a.* [para] of no continuance; transitory, transient; not durable or lasting.

Traethawd om barddwawd mor *dibara.*
Dafydd Benfras: M.A. i. 317 (cf. 351).

A'm gadael yma, buchedd *dibara.*
Dafydd ab Gwilym, ccxlv. 145.

Pethau dibwyll, pethau *dibara* ydynt.
Ioan Wallter: Dwy Bregeth, 8.

Dibarch, *a.* without respect or esteem; unrespected.

Nid oes lys ysbys esbyd neud *dibeirch*
Nad oes meirch na seirch na serch hyfryd.
Gwilym Ddu Arfon: M.A. i. 409.

Dibarch fydd bedw nis edwyn.
D. ab Gwilym, ccxxxv. 41 (cf. xxi. 45; cxxxiv. 19).

Na ad yn *ddibarch* y dyn gwirion.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 7.

Dibarch gan y merched a fydd dyn diniwed.
Ed. Richard: Bugeilgerdd, ii. 6.

Dibarchiad, -au, *sm.* a disesteeming; a ceasing to respect or reverence.

Dibarchrwydd, *sm.* the state of being unrespected; disesteem.

Dibarhâd, *sm.* a discontinuing, discontinuation.

Dibarhaol, } *a.* not durable, not lasting; tran-
Dibarhäus, } sient, transitory.

O egwan ffrost am allu *dibarhäus!*—*W. O. Pughe:* Pal. 14.

Dibarhausrwydd, *sm.* transientness, transitoriness.

Dibarod, *a.* unready, unprepared.

Dibarodol, *a.* tending to be unready.

Dibarodrwydd, *sm.* unreadiness, unpreparedness.

Dibartïaeth, *a.* without partisanship; impartial, unbiased. A hybrid like *cydbartïaeth.*

Bwrw golwg fanwl ar ein gweithredoedd, a'u barnu hwynt yn *ddibartïaeth.*—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 228 (cf. 53, 73, 171, 230, 232, 294, 316).

Fel penswyddog diduedd, yn *ddibartïaeth* at bawb fel eu gilydd.—*Nicander:* Dysgu Farw, 177.

Dibech, } *a.* [pech, pechod: C. *dibeh*] sinless,
Dibechod, } free from sin, without sin.—*Ioan* viii. 7.

Gosgo di yngod a thech
Nid wyd ymadrawdd *dibech.*
Llywarch Hen: M.A. i. 113 (cf. 23).

Nym gwnel cart o nebawd
Y uoli Mab Duw *dibechawd*
Dibech-ddoeth kyuoeth kyuundawd.
Cynddelw: M.A. i. 226 (cf. 326, 427).

Dibech heb odech ydym,
Dieithr serch fal d'ewythr fûm.
D. ab Gwilym, xii. 35 (cf. ccxv. 46; ccxxi. 16).

Gwybydh dy uot yn *dhibechawt* drwy gredu o honot y iawn fydh yr ecclwys lân Gatholic.—*Ymborth yr Enaid,* † 28.

Diben cerdd yw gwelläu deall, helaethu gwybodaeth, gwelläu myfyrdod ac athrylith, a llawenhau'r galon a'r meddwl yn *ddibech* feddylfryd.
Cyfrinach y Beirdd, 19 (cf. 32).

Dibech fywyd gwyn ei fyd.
Diareb. (M.A. iii. 153; cf. 20, 106.)

Teilynga, Arglwydd, ein cadw y dydd hwn yn *ddibechod.*
Llyfr Gweddi Gyffredin (Te Deum).

Pe bai bosibl i wneuthur pechod yn *ddibech,* i droi rhinwedd yn fai, a bai yn rhinwedd.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 37.

A ellwch chwi fod yn bechadur, a bod yn *ddibechod* hefyd? O blegid y neb a gadwo'r gorchymmynion sydd *ddibechod.*—*Robert Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 355.

Dibechiad, -au, *sm.* a divesting of sin; a making sinless; a ceasing to sin.

Dibechrwydd, *sm.* sinlessness.

Neud araf hywyl peri parodrwydd
Pur wohen diben *dibechrwydd.*—*Elidir Sais:* M.A. i. 347.

Dibechu, *v.* to make sinless; to divest of sin or sinfulness.

Priodas a wnaethpwyd er *dibechu* cydgnawd y rhwng gwr a gwraig, ac er ennill plant i wasanaethu Duw.
Llyfr Gwyn Rhydderch. (*P.*)

Nis gall dim ei ddilëu, ond ein gwaith yn eu galw hwynt yn ol, ac yn eu *dibechu* yn weithredol.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 307.

Dibedoli, *v.* to unshoe, to take off the shoes (of a horse).

Dibedoliad, -au, *sm.* an unshoeing.

Dibedoliad y march, moonwort (*Osmunda lunaria*): also called *lloerlys* and *lloer-redyn.*—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 183, 206.

Dibedrylaw, *a.* inexpert, unhandy, unskilful.

Dibeidiad, -au, *sm.* [dibaid] a rendering incessant or unceasing.

Dibeidio, *v.* to render incessant; to be unceasing or ceaseless.

Dibeidiol, *a.* incessant, unceasing.

Dibeirianniad, } -au, *sm.* disorganization, a
Dibeiriannad, } disorganizing.

Dibeiriannol, *a.* not instrumental, disorganizing.

Dibeiriannu, *v.* to disorganize; to divest of agent or instrument.

Dibeithig, } *a.* [paith] unexplored, uncleared;
Dibeithiog, } having no clearness or open-
Dibeithiol, } ness.

Dibeithio, *v.* to divest of openness.

Dibelenu, *v.* to divest of globosity; to cease to shell or bombard.

Dibelre, *a.* without trouble, distress, turmoil, or confusion.

Ny byd arodryd ar odre Prydein
Prydydyon arwyre
Ef yw fenn fynnyant *dibelre.*
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 238.

Digitized by Google

Dibelydr, *a.* without beams or rays, beamless, rayless.

Dibelydriad, } -au, *sm.* a ceasing to beam or
Dibelydrad, } glitter; a divesting of rays.

Dibelydru, *v.* to cease to beam or glitter.

Dibellt, *a.* 'incompact, not round;' without a verge, margin, or limit.

Degfed digyssellt dug attaw Fuallt [Fuellt]
Dibellt ai fflamwellt y fflammycha.
Dafydd Benfras: M.A. i. 318.

Dibellus, *a.* 'tending to be incompact.'

Diben, -ion, -au, *sm.* [di- (=dy-) + pen] 1. end, conclusion, termination, close.—*M.A.* i. 331.

Ar lan y fynnawn. kawc eur uch benn llech o vaen marmor. a chadwyneu yn kyrchu yr awyr. a *diben* nys gwelei arnunt.—*Mabinogion,* 50 (cf. 205, 211, 215).

Ac uelly marchogaeth a oruc yny doeth y *dibenn* y fforest.
St. Greal, ‡ 142.

O hyny hyd ei *ddiben.*—*Iolo Mss.* 60.

Bellach i dynu at y *diben* yn y peth hyn, er bod y peth ei hun yn anniben.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. x. 19 (cf. 5, 7, 8).

Nid oes *diben* ar eu trysorau . . . ac nid oes *diben* ar eu cerbydau.—*Esa.* ii. 7 (cf. xxxviii. 13; Ier. iv. 27; xlvi. 28).

Nid oes *diben* ar wneuthur llyfrau lawer.
Preg. xii. 12 (cf. iv. 16).

Ac fel nad oes *diben* ar dy fawredd, na rhifedi ar dy ddoethineb, na mesur ar dy haeledd: felly nid oes na *diben,* na rhifedi, na mesur, ar dy daledigaethau i'r rhai sy'n dy garu di.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. x. 8 (cf. v. 11).

Y mae'n beth rhyfedd hefyd, na buasai ystyried y *diben* echrydus y daeth Arius iddo, ddim yn menu ac yn cyffroi ryw faint ar feddyliau dynion.—*Theo. Evans:* D.P.O. 214.

Heb ddiben, without end, endless.

Di ben draw, without (an) end; endless, limitless.

2. end, purpose, intention, intent, object.

Tair *diben* prydyddiaeth: cynnydd daioni; cynnydd deall; a chynnydd diddanwch.—*Cyfrinach y Beirdd,* 43 (cf. 19, 46).

Y mae *diben* i'r pethau am danaf.—*Luc* xxii. 37.

Ystyriwch y *diben* mawr y daethoch i'r byd, ac yr ydych yn byw ynddo o'i blegid.
Edw. Samuel: Gweddi Gyffredin, 105.

Y *diben* cyntaf, o saith o *ddibenau* sydd yn canlyn.
Elis Lewis: Drexelius, 279 (cf. 47, 82, 114, 297).

Ni byddai yn ochelgar rhag i ddynion gamfarnu ei weithredoedd, ei eiriau, na'i *ddibenion.*
Nicander: Dwyfol Oraclau, 47 (cf. 13, 76, 134, 144).

Y rhai ydynt y ddau *ddiben* fawrion y dylent ergydio atynt.—*Ieremi Owen,* 85.

Na ddewis y dderwen, na dyn wrth ei donnen,
Heb ddyeg yn ei dalcen, na'i *ddiben* yn dda.
Ed. Richard: Bugeilgerdd, ii. 38.

Pryd y mae rhan fawr o honoch wedi ymgynnull . . . i gydsyniaw ar wir les eich gwlad, ac i hwylio ym mlaen amryw bethau ereill o *ddibenion* canmoladwy'ch Cymdeithas.—*Gronwy Owain,* 330.

I'r diben hwn, for this end or purpose.

I ba ddiben? } to or for what purpose? for
At ba ddiben? } what use? to what end?

I'r diben, to the end (that); in order (that).

Pob diben ac amcan, all intents and purposes.

Efe yw eu Hiachawdwr hwynt, o ran *pob diben ac amcan.*
Ieremi Owen, 58.

¶ The second sense is now the more common. Since the publication of Pughe's Dictionary, the first part of which appeared in 1793, it has been very customary to write this word and its derivatives with *y* for the first vowel (*dyben*); but the older form is *diben,* and such is the pronunciation at the present day; otherwise Pughe's orthography would be preferable.

Diben, *a.* [di- + pen] without a head, top, or end; headless.—*P.*

Duwiau *di benau,* di barch,
Geir yma mewn garw ammharch.—*Dafydd Ionawr,* 245.

Dibenaeth, *a.* [penaeth] without a head, principal, chief, or ruler; chiefless.

Dibenbleth, *a.* [penbleth] without intricacy, perplexity, or distraction; unembarrassed.

Dylai gweinidog fod yn rhydd ac yn *ddibenbleth,* ar bob rhyw achlysuron cyfaddas.—*Ieremi Owen,* 108.

Dibendod, *sm.* [diben] accomplishment, fulfilment; end.

Oherwyd bot yn hyspys genthi y deuei *dibendawt* da or chwedyl hwnnw.—*Amlyn ac Amig,* col. 1099.

Ac y mae gobaith am dy *ddibendod* di, medd yr Arglwydd: a'th blant a ddychwelant i'w bro eu hun.
Esgob Morgan: Ier. xxxi. 17.

Dibendro, *a.* without dizziness or swimming of the head.

Gwrando yn *ddibendro* bwnc,
Rhybudd yw diareb-bwnc.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 167.

Dibeniad, -au, *sm.* a concluding or ending; conclusion, termination; decision; accomplishment.

Dibeniad, -au, *sm.* decapitation.—*P.*

Dibenio, *v.* [di- + pen] to behead, to decapitate.

Nys managaf ytt. ony roddi dy gret na *dibennyer* y mab heddiw.—*Doethion Rhufain,* ‡ 31.

Dibennod, *a.* not divided into chapters.

Dibenol, *a.* conclusive, decisive.

Dibenor, *a.* [penor] having no headpiece, without a helmet.

Ny delyeist nac eithaf na chynhor ysgwn drem *dibennor.*
Aneurin: God. 512.

Dibenrwydd, *sm.* conclusiveness.

Dibenu, *v.* [diben (2)] to end, finish, conclude, or terminate; to decide or determine; to put an end to; to cease.

Efe a amgylchodd wyneb y dyfroedd â therfynau, nes *dibenu* goleuni a thywyllwch.
Iob xxvi. 10 (cf. 2 Sam. xx. 18).

Deng wythnos a thri ugain a derfynwyd ar dy bobl, ac ar dy ddinas sanctaidd, i *ddibenu* camwedd.—*Dan.* ix. 24.

Ac i *ddibenu'r* cwbl oll, nid rhaid i ni ond y diben a wnaeth Christ. . . O blegid fel hyn y *dibena* efe yn ol ei holl fygythion.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. v. 19.

Gan hyny, mal hyn y *dibenaf.*
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 320.

Ar ddibenu, on the point of ending or finishing; about to end, finish, or cease; about to be accomplished.

Pa bryd y bydd y pethau hyn? a pha arwydd fydd pan fo y pethau hyn oll *ar ddibenu?*—*Marc* xiii. 4.

Dibenu, *v.* [diben: C. and Br. *dibenna;* Ir. *dicheann*] to behead, decapitate, or decollate.

Y mae i'w ofni y lladd meddwdod fwy eto ar fyrder nag a laddwyd gan ryfel yn y fedel boethlyd, o'r amser y *dibenwyd* brenin a brenines Ffrainc hyd alltudiad y prif arwr gwaedlyd Napoleon.—*Dewi Wyn:* Blodau Arfon, 331.

Dibenus, *a.* conclusive; decisive.

Dibenwr, wyr, *sm.* a finisher, an accomplisher; one who finishes or completes.

Dibenyd, *a.* [penyd] without penance; unpunished.

Gyda gwen wy'n *ddibenyd;*
Gwna hon fi'n galon i gyd!
D. ab Gwilym, ccxlviii. 31 (cf. ccli. 41).

Digitized by Google

Diberchen, } *a.* without an owner, having
Diberchenog, } no proprietor.

Tri rhyw dda *diberchennoc* heb anghyfreith yn y wneuthur a dyly arglwydd. . . Tri pheth a ddyly brenhin or a fwryo mor yr tir: llong *ddiberchennoc* ac llwyth o dda.
Cyfreithiau Cymru: M.A. ii. 608 (cf. 264, 606, 612).

Diberchenіad, } -au, *sm.* dispossession; de-
Diberchenogiad, } privation.

Diberchenogi, *v.* to dispossess; to deprive.

Nid oedd dim ond y pengamrwydd mwyaf digywilydd . . . a allai beri iddynt fod mor safnrwth a beiddio dywedyd mai trwy nerth y cythraul yr oedd efe yn *diberchenogi* y sawl a feddiannid ganddo.
Theophilus Evans: Pregeth, 18.

Diberchenogion, *s.pl.* things unowned or unclaimed; waifs.

Diberchenol, *a.* dispossessing.

Diberchenu, *v.* to dispossess; to deprive.

Dibereiddio, *v.* to divest of sweetness of taste or of fragrancy.—*P.*

Dibereiddiol, *a.* tending to divest of sweetness, lusciousness, or fragrancy.

Diberfedd, *a.* without entrails or bowels.

Diberfeddiad, -au, *sm.* a disembowelling; disembowelment.

Diberfeddu, *v.* to disembowel; to draw the intestines, entrails, or bowels.

Y mae fe yn ei *ddiberfeddu* ei hunan, ac yn gweithio ei ymysgaroedd ei hun allan, i wneuthur darn o fanyl-waith celfydd.—*Elis Lewis:* Drexelius, 141.

Diberffeithiad, -au, *sm.* a making imperfect or incomplete.

Diberffeithio, *v.* to render imperfect; to divest of perfection or completeness.

Diberffeithiol, *a.* tending to make or to become imperfect.

Diberffeithrwydd, *sm.* imperfectedness, imperfection.

Diberthynas, *a.* without relation or relationship; unrelated; irrelevant.

Diberthynasedd, } *sm.* want of relation or
Diberthynasrwydd, } connection; irrelevance.

Diberthynasol, *a.* not related; unconnected; irrelevant.

Diberthynus, *a.* not relating; irrelevant.

Diberygl, *a.* without danger or peril.

Tystolyaeth medic neu beriglawr a gredir yn y lle hwnnw gan tyghu na allei y clwyfedic dyuot wrth gyfreith yn *diberigl.*—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 384.

A Galaath a dywawt na allei ef dyuot yn *diberigyl.*
St. Greal, § 9 (cf. 176).

Ag ym penn yspeit o amser y marchawg y weles nat oedd *ddiberygyl* iddaw kynnal karadas a gwreic y brenhin.
Doethion Rhufain, § 36.

Yr ydym yn cymmeryd ffordd effeithiol i gadw ein diniweidrwydd yn *ddiberygl.*—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 292 (cf. 24, 136, 147, 188, 191, 193, 211).

Diberygledd, *sm.* freedom from danger.

Diberyglu, *v.* to free from danger; to save harmless.

Dibetrus, *a.* without doubt or hesitation; doubtless, undoubtful, undoubting, unhesitating.

Ac yn ehouyn *dipetrus* mynet a oruc Gereint racdaw yr nywl.—*Mabinogion,* 293.

Nyt amgen noc yn wir *diphedrus.*
Credo St. Athanasius (Hengwrt Ms.), 346.

Ny thyngir hagen yn oet dydd coll a chael hynny namyn manegi yn *ddibedrus* y frawt.—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 664.

Saif yn *ddibetrus* yn erbyn pob rhuthrau a phrofedigaethau.—*Ed. Samuel:* Grotius, Rhag. 18 (cf. 16).

Dibetrusder, } *sm.* freedom from doubt or
Dibetrusrwydd, } hesitation; certainty.

Dibetrusder, *a.* without doubt or hesitation, unhesitating, doubtless.

Gan ymfodloni yn rhadlon ac yn *ddibetrusder* beth bynag a ddygwyddo.—*Ed. Samuel:* Grotius, ii. 13.

Maent yn llefaru yn *ddibetrusder* hollol.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 130 (cf. 131, 136, 148).

Dibetruso, *v.* to cease to doubt or hesitate.

Dibetrusol, *a.* not dubious, unhesitating.

Dibil, *a.* [pil] having no peel or rind.

Dibilen, *a.* [pilen] without a membrane.

Dibilio, *v.* to strip off the peel; to peel.

Dibilion, *a.* having no peelings or rind.

Dibill, *a.* [pill] without a stock or stem.

Dibl, -au, *sm.* a border or edge; the lower extremity (of a garment, and the like); the draggling, daggling, or trailing part (of anything); the skirt or trail; an extremity.

Yn wrawl kedawl kyda seinhyeu
Boed ef yn diben boed yn *dibleu.*
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 331.

Canys mewn chwech o ddyddiau,
Y gwnaeth Duw'r byd a'i bethau,
A'r nef, a'r ddae'r, a'r môr, a'u llu,
A'r owbl sy'n eu *diblau.*—*Rhys Prichard:* C. y C. xc. (5), 4.

O meddyliwch! fel y gwnaed cudynau euraidd Gruffydd yn *ddiblau* gan yr heli, ac yn llawn o dywod y dyfnder!
Cylchgrawn, i. 311.

Diblaid, *a.* [plaid] without a party; without aid or support; of no party or side; impartial, neutral.

Diblaniad, -au, *sm.* a displanting, displantation.

Diblant, *a.* without children, childless.

A gwedi marw ei frodyr yn *ddiblant* yr aeth ef i Gernyw.
Iolo Mss. 8.

Ysgrifenwch y gwr hwn yn *ddiblant.*
Ier. xxii. 30 (cf. Lef. xx. 20, 21; xxvi. 22).

Pen y teulu . . . ydoedd ddyfal mewn dyledswyddau sanctaidd ac haelioni i dlodion, tra'r oedd yn *ddiblant.*
Charles Edwards: H. y Ff. 164.

Diblanta, } *v.* to bereave of children; to make
Diblantu, } childless.

Minnau, fel y'm *diblantwyd,* a *ddiblentir.*
Gen. xliii. 14 (cf. xlii. 36; 1 Sam. xv. 33).

Cyfryw oedd yr hyn a ragddywedpwyd am *ddiblantu* 'r sawl a geisiai ail adeiladu Iericho.
Edward Samuel: Grotius, i. 17.

Diblantiad, -au, *sm.* a bereaving of children.

Diblanu, *v.* [planu] to displant.

Diblath, -au, *sf.* [dib+llath] a piston.—*Dicts.*

Dible, *s.pl.* [=diblau] skirts, borders, extremities; outskirts, purlieus.

Puy bynnac y cafer lledrat yn y dy neu en *dyble* y ty gan uot y gyuanhed yndau ket bo ydaw ew a gatwo y gorf rac y lledrat euo eyssyoes byeu cadu y ty rac y lledrat.
Cyfreithiau Cymru, i. 244.

Dibleidgar, *a.* of no party; impartial.

Dibleidgarwch, *sm.* impartiality; neutrality.

Dibleidgarwch, *a.* impartial; unbiased.

Yr oedd yn ysgolhaig trwyadl, yn dduwinydd rhagorol, ac yn dra hawddgar a *diblcidgarwch* yn ei ymddygiadau.
Seren Gomer, viii. 59.

Digitized by Google

Dibleidio, *v.* to cease to take part.

Dibleidiog, } *a.* of no party or faction; im-
Dibleidiol, } partial; unbiased; neutral.

Dibleth, *a.* [pleth] 1. without a plait, braid, or wreath.

2. uncomplicated, incomplex, uncompounded; simple.

Tri math ar eiriau y sydd: 1. sengl *dibleth*, fal byr; 2. cymblethedig, fal dyfyr; 3. argymblethedig, fal annifyr.
Dosparth y Saith Gelfyddyd.

Diblethog, } *a.* not plaited, unwreathed, un-
Diblethol, } twined, untwisted; uncomplicated.

Diblethu, *v.* to unwreathe, to untwist, to untwine.

Diblisg, *a.* having no shell or husk.

Diblisgiad, -au, *sm.* an unhusking.

Diblisgo, *v.* to strip off the shell; to unhusk.

Diblo, *v.* to daggle, bedraggle, or bedabble; to trail.

D. dwbl-U—ei enaid *diblwyd* ar gil,
Oer galon Seisnigwyd.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 311.

Diblog, *a.* [dibl] bedraggled, draggled, daggled, daggle-tailed.

Trafaelio wneis i'n ddichlyn
Y diffrwyth dir a'r dyffryn;
Dois yma ddoe, yn hwyr brydnawn,
Yn *ddiblog* iawn o Ddublin.
Cyfaill Gorchwyliol (Amseroni, 1832).

Diblog, -od, *sf.* a draggle-tail.

Diblu, } *a.* [plu, pluf] without feathers, feather-
Dibluf, } less, unfledged, callow.

Cyfyd preswylwyr y coed ar eu hesgyll, ac ysgrechant i beri i'r cywion *diblu* orwedd i lawr yn eu nythod, o olwg y gelyn.—*Cylchgrawn*, ii. 170.

Yr iâr a arwain, a amddiffyn, ac a gysgoda dan ei hadenydd, y cywion gweiniaid a *dibluf* a ymddiriedwyd i'w gofal.—*Gwyliedydd*, vii. 140.

Dibluad, } -au, *sm.* a stripping of feathers,
Diblufiad, } deplumation.

Dibludd, }
Diblydd, } *a.* not soft, tender, or mellow.

Dibluddhaol, *a.* tending to divest of softness.

Dibluddhau, } *v.* to divest of softness; to be-
Diblyddhau, } come hard or harsh.

Dibluo, } *v.* to strip or pluck off feathers, to
Diblufio, } deplume.

Diblwr, wyr, *sm.* [dibl] one who bedraggles.

Diblwyf, *a.* having no parish, without a parish.

Diblwyfo, *v.* to deprive of a parish; to cease to have a parish.

Diblwyfol, *a.* without a parish.

Diblydd, *a.*=*Dibludd.*

Diblyg, *a.* without a fold, plait, or double; simple.

Diblyg, mad edmyg yw'r mau dadmaeth!
Dafydd ab Gwilym, ccxxix. 48.

Diblygedd, } *sm.* an unfolded state; the
Diblygrwydd, } state of being unpliant; simplicity.

Diblygiad, -au, *sm.* an unfolding; an unbending.

Diblygol, *a.* inflexible, rigid, stiff.

Diblygu, *v.* to unfold; to unbend.

Luch ffiamddur Dudur dadl *ddiblygu*
Llachar dar bar berth fawrnerth farnu.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 444.

Dibobl, *a.* [pobl] without people; without inhabitants; unpeopled, depopulated.

Y grawnwin a addfedant, a phwy a'u sathr? canys pob man a fydd yn *ddibobl*.—2 *Esd.* xvi. 26.

Diboblawl, *a.* tending to unpeople, depopulating.

Dibobledig, *a.* depopulated, unpeopled.

Dibobli, } *v.* to depopulate, to unpeople.—
Diboblogi, } *M.A.* i. 487.

Y vlwydyn honno y *dibobles* ef Lanbadarn.
Brut y Tywysogion, 40 (cf. 32, 42).

Fe a *ddiboblodd* ran o Wlad Hamtwn.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 38.

Dywedir nad oes un wlad yn Ewrop yn fwy hyfryd a ffrwythlon na'r Morea (Peloponnesus gynt), ond ei bod yn bresennol wedi cael ei *dibobli*.—*Gwyliedydd*, v. 222.

Yn ystod y flwyddyn flaenorol, cafodd Llundain agos ei hanner *diboblogi* gan y pla mwyaf dinystriol a ymwelodd â Lloegr erioed.—*Cylchgrawn*, i. 78.

A'u gwydlawn lucedd gwaedlyd
Yn lloegi, 'n *dibobli* 'r byd.—*Dafydd Ionawr*, 166.

Dibobliad, } -au, *sm.* depopulation, an un-
Diboblad, } peopling.

Pryd nad oedd dim yng ngolwg y trigolion, ond cwbl *ddibobliad* y ddinas.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 394.

Diboblog, *a.* unpopulous; unpeopled; deserted, desolate.

Diboblogiad, -au, *sm.* depopulation.

Diboblwr, wyr, *sm.* a depopulator.

Diboen, *a.* [poen] 1. without pain, free from pain, painless; at ease; unpunished.

Ym kyffes y Duw heb ef os hynny nys gwney ny byd *diboen* ytt.—*Mabinogion*, 271.

Erchi idynt ar uyr o amser dyuot i wneuthur gwriogaeth i Egbirt. o mynneynt uod yn *diboen*.
Brut y Saeson: M.A. ii. 476.

O dywedaist di eu wrthyf ny byd *diboen* ytt.
Ystoria Charles, 1.

Nid *diboen* na'm attebud,
Nid hawdd ymadrawdd â mud!
D. ab Gwilym, ccxxxii. 27.

A phan cymerai ef bechatur o dhyn yn *dhiboen* yr gogoniant. a bwrw o honaw angel o achos un medhwl yng cyuyrgolh.—*Lucidar*, i 27.

Tybied yr wyf nad *diboen*
Ei charu byth, och o'r boen!—*D. ab Gwilym*. clxx. 13.

I atebol nid *diboen*,
Od oes barch, dwys yw y boen.—*Gronwy Owain*, 12.

Diboen i ddyn dybio yn dda.—*Diareb.* (M.A. iii. 182).

Yn ddiboen, without difficulty; with ease.

2. unwearied, untired, unfatigued.

Diboen ferch Coel Godebog,
I Gred y peraist y Grog.—*Cyfr. y Beirdd*, 225.

Diboenedig, *pt.a.* unpained; untortured.

Diboeni, *v.* to free from pain; to make painless; to cease to pain; to put out of pain.

Ambell ddart yn diegyn ar y llurig neu'r astalch pres, ac yn seinio yn rhonc megys cloch; ac ambell ddart yn union at y galon, ac yn *diboeni* mewn mynyd.
Theo. Evans: D.P.O. 122.

Diboenyd, *a.* without pain or torture.

Diboenydio, *v.* to rid of torture.

Diboenydiol, *a.* not tormenting or torturing.

Diboeth, *a.* not hot, without heat.

Digitized by Google

Diboethawl, *a.* tending to allay heat.

Diboethi, *v.* to divest of heat; to cool.

Diboethiad, -au, *sm.* a divesting of heat.

Diboethni, *sm.* absence of heat.

Diborth, *a.* destitute of aid, help, or assistance; helpless, destitute.

Diborthi, *v.* to deprive of food or sustenance; to starve.

Y Wynedd-iaith ni iawn noddwyd,
A *diborthwyd* Deheubarth-iaith.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 103.

Diborthiannol, } *a.* tending to deprive of help,
Diborthiannus, } support, assistance, succour, or maintenance.

Diborthiannu, *v.* to cease to give support or maintenance.

Diborthiant, *a.* without sustenance or maintenance.

Dibr, -au, *sm.* [C. *diber* (C.V.); Br. *dibr*] a saddle.—*D.* The word is Cornish and Breton, but it does not appear to occur in Welsh.

Dibra, *v.* [Br. *dibra*] to saddle.—*P.*

Dibraidd, *a.* [praidd] having no flocks or herds.

Dibraith, *a.* [praith] without practice.

Dibrawf, *a.* without proof, proofless, not proved, unproved; without trial.

Dibreiddin, *a.* destitute of flocks or herds.

Dibreiddio, *v.* to deprive of flocks or herds.

Dibreithig, }
Dibreithiol, } not practical, unpractical.

Dibreithio, *v.* to cease to practise.

Dibres, *a.* without haste, bustle, or hurry.

Dibres, *a.* without brass.

Dibrestl, } *a.* without prattling, not talka-
Dibrestlog, } tive, not loquacious.

Dibrestledd, *sm.* taciturnity.

Dibreswyl, *a.* without an abode; homeless.

Dibreswyliog, *a.* uninhabited.

Dibrid, *a.* [prid] without a pledge; without value, worth, or equivalence.

Marw Einyawn mawr anad *dibrid*
Myrt ry wneith yn gyureith gymid.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 287 (cf. 436).

Ednebydd hagen pridwerth yt hyny, ac nad *dibrid* hyd tra parhao nerth yn y braich deheu hwn.
Brut Gr. ab Arthur. (*P.*)

Dibridiad, -au, } *sm.* a being without equi-
Dibridiant, } valence or expiation.

Dibridio, *v.* to be not equivalent; to divest of scarcity.—*P.*

Dibridiog, } *a.* without equivalence, having
Dibridiol, } no equivalent.

Dibridd, *a.* without mould or earth.

Dibriddo, *v.* 1. to divest of mould or earth; to draw off mould (from plants).

2. to divest (one's self) of clay or earth; to free (one's self) from clay; to become divested of earth; 'to cast off the earthly frame;' 'to shuffle off this mortal coil.' *Ymddibriddo* is used in much the same sense.

'Tyred allan, yspryd, a *dibridda'!* ebr ef, â'i olwg ar i fyny: a chyda'r gair, mi'm clywn yn ymryddhau oddi wrth bob rhan o'r corff, ac yntau yn fy nghipio i fyny i entrych nefoedd.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 71.

'*Dibridda'!* O pa lais fal hyn mor lwys
A dreiddia glyw!—*W. O. Pughe:* Ceinion Awen, 144.

Dibrin, *a.* [prin] not scarce or scant; abundant, plentiful; unsparing.

Mwy carwn ol mewn dolgoed,
Dibrin drin, dy ebrwydd droed.
Dafydd ab Gwilym, cix. 15 (cf. ccxiii. 27).

Hawdd y breiniant yn *ddibrinion.*
Morgan Gruffydd: Cyfr. y Beirdd, 54 (cf. 86).

O serchog dylwythog lin,
Dibrinaf ddeiliaid brenin.—*Gronwy Owain,* 46.

Rho gynghor yn echwyn, mi dala' iti'n *ddibrin,*
Nid wyf ond ysgellyn, os gallaf.
Ed. Richard: Bugeilgerdd, ii. 54.

Gwledd ddibrin, a plentiful entertainment.—*W.*

Dibrinder, *sm.* plenty, abundance.

Dibrinder, *a.* without scarcity, plenteous.

Gwyddai Paeon a Hygeia o'r goreu nad allent byth wella y claf, na nerthu y gwan, na lloni y lleeg, heb gynnorthwy yr awyr, a'r arogl, a'r deiliach, a'r blodau, a'r difyrwch, a'r dyfroedd, oeddynt i'w cael yn *ddibrinder* o gylch trigfa yr amaethydd.—*Samuel Roberts:* Gweith. 17.

Dibrinhau, *v.* to make plentiful.

Dibriod, *a.* unmarried; single.

Dibriodas, *a.* without marriage.

Diserch, *dibriodasau*
Yw du wlad Gog waedlyd gau.—*Dafydd Ionawr,* 244.

Dibriodi, *v.* to unmarry; to divorce.

Dibriodol, *a.* unappropriated; unmarried.

Dibriodoledd, *a.* without attribute.

Tueddwyd Philo gan yr athroniaeth Blatonaidd i edrych ar Dduw fel Bod *dibriodoledd* neu ammherthynasol.
John Pryce: Eglwys Foreuol, 273.

Dibriodoledd, *sm.* the state of being unappropriated.

Dibriodor, *a.* without a proprietor.

Dibris, *a.* [pris] 1. being of no value; having no worth; valueless, worthless; without honour, honourless; dishonoured, disesteemed, despised.—*A.B.* ii. 186.

Nid yw prophwyd yn *ddibris* ond yn ei wlad ei hun.
Marc vi. 4.

Mi a'th wnaethym yn fychan ym mysg y cenedloedd; *dibris* iawn wyt.—*Obad.* 2.

Arfer plantos yw gwneuthur cyfrif mwy o ryw degan *dibris,* nag o'r tlws gwerthfawrocaf.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. iii. 11 (cf. 17).

Unwaith yr oeddwn yn bren *dibris,* ac fe a'm gwnaethpwyd yn awr yn dduw.
Ed. James: Hom. ii. 99 (cf. 161; i. 158, 188).

Fel gwr *dibris* yn rhwym ar bren,
A'r gwaed yn dorthau ar ei ben.
W. Williams: Hymnau, lxxi. 1.

2. inconsiderate, rash, reckless, precipitate.

Bod tri pheth yn anghenrhaid ym mhob llw cyfreithlon. . . . Yn ail, tyngu o honom mewn barn, nid yn *ddibris* ac yn ddiofal.—*Ed. James:* Hom. i. 95.

Os yw dyn yn ddyhiryn mor ddiegwyddor a *dibris* yn ei awr sobr, ag yr ymollynga i feddwdod, pa anfad ynfydrwydd, ysgeler-waith, a ffieidd-waith a'r nas cyflawna y fath adyn diymddiried pan wallgofo gan feddwdod!
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 334.

Dyn dibris, a rash or reckless person.—*C.S.*

¶ In the first sense (but not in the second) the word is generally stressed on the second syllable (=*di bris*), as is the case with many dissyllables beginning with *di-*.

Digitized by Google

Dibris, *sm.*=*Dibrisdod.*

Tydi . . . a ddioddefaist i Iudas y bradwr dy gusanu di, a chael dy ddal a'th rwymo â chordynau, ac megys penlleidr ysgeler, trwy *ddibris* mawr a dirmyg gan y gwaelaf o'r bobl ddrygionus, dy arwain at Annas.
Allwydd Paradwys, 392 (cf. 396).

Dibrisdod, *sm.* 1. want of appreciation; slight, contempt, depreciation.

Nid rhyfedd i'r hen farddoniaeth Gymraeg syrthio mor druenus bendramwnwg i'r cyfryw ammharch a *dibrisdod*, a dunos encudd, ag y mae y dydd heddyw.
Edward Dafydd: Cyfr. y Beirdd, 5.

Yr wyl hon a gedwid yn ddifrifol yn y Brif Eglwys, ac i fod yn absennol o addoliad Duw yn y llan y dwthwn hwnw a gyfrifid yn esgeulusdra tra mawr, a *dibrisdod* ar grefydd.—*Theo. Evans:* D.P.O. 211.

Edrychaf â *dibrisdod* mawr
Ar rwysg a mwyniant gwael y llawr.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 188.

2. rashness, recklessness; want of consideration.

Eu meddyliau yn llawn o anystyriaeth a *dibrisdod*.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 339.

Dibrisio, *v.* to treat or consider as of no value; to set no value upon; to make light of; to undervalue, to depreciate, to despise, to contemn, to disparage, to disregard; to set at naught, to slight.

Efe a'i *dibrisiodd* ei hun, gan gymmeryd arno agwedd gwas.—*Phil.* ii. 7.

Yr oeddynt o ran hefyd yn gadael heibio ac yn *dibrisio* cyfreithiau Duw.
Ed. Iames: Hom. i. 76 (cf. 117, 121, 171; ii. 150).

Felly tyn fy enaid i fyny, fel y *dibrisiwyf* bob pethau darfodedig.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 471.

Os saif poenydiau neu angeu ar y ffordd rhyngddo ef a Christ, efe a'u *dibrisia* hwynt.—*Ios. Harris:* Gweith. 94.

Dibrisiwr, wyr, *sm.* one who depreciates or disregards; a disparager, a depreciator.

Ond rhag *dibrisiwyr* Duw a dynion a'u holl gyfreithiau, nid oedd achles mewn noddfa mwy na man arall.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 123.

Dibrisrwydd, *sm.*=*Dibrisdod.*

Y rhai os cyffelybir ni iddynt, ydym yn dangos y fath ddiogi a *dibrisrwydd* am ddyfod i dŷ yr Arglwydd.
Ed. Iames: Hom. ii. 9.

Dibrofadwy, *a.* that cannot be proved; that cannot be assayed or tried.

Dibrofedig, *a.* unproved; unassayed, untried.

Dibrofi, *v.* to disprove; to confute, to refute.

Dibrofiad, *a.* without experience, unexperienced, unexperimental.

Y mae'n bwriad eto mor newydd, mor wan a *dibrofiad*.
Iosua Tomas: Buch. Grist. 318.

Rhaid iddynt gael eistedd wrth y llyw i hwylio'r cwbl, pa mor *ddibrofiad* ac anghelfydd bynnag ydynt.
Nicander: Dysga Farw, Rhag. 30.

Dyn dibrofiad, an inexperienced person.

Dibroffes, *a.* not professing (religion).

Onid yw eu hymddygiad hwy yn tueddu yn fawr i greu difaterwch mewn gwrandawyr *dibroffes* yn gyffredinol?
Seren Gomer, iii. 49.

Dibrudd, *a.* not serious; indiscreet; not sad.

Dibruddhau, *v.* to cease being sad; to cheer.

Dibrwr, wyr, *sm.* [dibr (*q.v.*): Br. *dibrer*] a saddler.—*P.*

Dibrwy, *a.* [prwy] without care or anxiety.

Dibrwyad, -au, *sm.* a relieving from anxiety.

Dibrwyo, *v.* to relieve from anxiety, to divest of care.

Dibrwyol, *a.* unanxious; careless, listless.

Pan y ceisir ganddynt weithredu, bydd syrthni *dibrwyawl* wedi eu llyffetheiriaw fel na wnânt ddim.—*Diwygiwr*, i. 369.

Dibrwysti, *a.* without solicitude.

Dibrwystl, Dibrwystlog, *a.* without loquacity, noise, or clamour.

Dibrwystledd, *sm.* freedom from noise, bustle, or loquacity.

Dibryd, *a.* [pryd] out of time, untimely; inopportune.

Dibryder, *a.* [pryder: Br. *dibréder*] without anxiety, care, or solicitude; free from anxiety; not anxious, unsolicitous; careless.—*M.A.* i. 81, 141.

Reit yw ytti achwanegu dy deulu mal y bo *dibryderach* ytt.—*Ystl. Bren. Bryt.:* LI.C.H. ii. 128 (cf. 139).

O wi a Dhuw or lhawenydh a gaphant wy . . . ymhob un o honynt wyneb yn wyneb yn *dhibryder* vyth.
Lucidar, f 141.

Ni bu le *dibryderach* gennyfi eiroet. no phan vydwn damgylchynedic om gelynyon.—*Campau Charlymaen*, f 100.

Diofal ydyw'r tal tau,
Dibryder rhag bod bradau.—*L. G. Cothi*, IV. xxii. 51.

Ar hyd y bont honno yr ä eneidiau y bobl dda gywiriaid, a hyny yn *ddibryder*.—*Iolo Mss.* 191.

Ni waredodd Christ ni felly oddi wrth bechod, fel y gallem yn *ddibryder* droi ato eilwaith.
Ed. Iames: Hom. iii. 46.

Dibryderi, *a.* without anxiety or solicitude; heedless.

Dibryderiad, -au, *sm.* a ceasing to be anxious or solicitous.

Dibryderiaeth, -au, *sf.* cessation from anxiety; thoughtlessness, carelessness, heedlessness.

Ar hyny y daeth allan laweredd o arlwyddesi mewn gwych drwsiadau; ac yn flaenaf o'r rhai'n yr oedd y rhai a enwaf gyntaf: Nwyfant, Afrad, Godineb, Rhyfyg, *Dibryderiaeth*, Gwegi, Anlladrwydd, Trachwant, Medd'-dod, a Blysigrwydd, a'r fath rai hyny.—*Marchog Crwydrad*, i. 8 (cf. 10).

Dibryderiant, *sm.*=*Dibryderiaeth.*

Dibryderu, *v.* to be thoughtless, heedless, or careless.

Dipryderant di yscarant rac y dibvy.
Llyfr Du: A.B. ii. 39 (M.A. i. 579).

Dibryderus, *a.* unanxious; thoughtless; careless, heedless.

Dibryderwch, *sm.* freedom from anxiety or care; thoughtlessness, heedlessness.

A megys y lhawenhaa y rhai hynny o ardherchawc *dhibryderwch*. velhy ydh ergrynna y lhailh or mwyaf arynaic.
Lucidar, f 143.

Dibrydferthu, *v.* to deprive of handsomeness or beauty; to render ungraceful or unhandsome; to disfigure, to deform.

Yr haul a dywyllir, a'r lleuad ni rydd ei goleuni, a ser y nefoedd a syrthiant: gan arwyddocâu wrth hyn y tywyllir ac y *dibrydferthir* y creaduriaid gogoneddusaf, a mwyaf eu disgleirdeb, gan eglurdeb annealladwy ei ddyfodiad ef.
Robert Llwyd: Llwybr Hyff. 399.

Dibrydiaeth, -au, *sf.* unseasonableness; want of opportunity.

Dibrydio, *v.* to become untimely.

Dibrydiol, Dibrydlawn, *a.* unseasonable, untimely; inopportune.

Dibrydlonedd, *sm.* unseasonableness, untimeliness.

Dibrydloni, *v.* to become unseasonable or untimely.

Dibryfed, *a.* without worms, free from worms.

Dibryfedu, *v.* to rid of worms.

Digitized by Google

Dibryn, *a.* without purchase; unbought.

Dibrysur, *a.* not busy; not diligent, active, or expeditious.

Dibrysuro, *v.* to cease from being expeditious or diligent.

Dibuch, *a.* [puch] without desire or inclination.

Dibuchiad, -au *sm.* a ceasing to desire, lust, pant, or long.

Dibuchiant, *sm.* freedom from desire or longing.

Dibuchiol, *a.* not desiring or craving; undesirous.

Dibucho, *v.* to cease to desire or lust.

Dibur, *a.* not pure, impure, unrefined.

Dibwl, *a.* not blunt; keen, sharp.

Or pumtorth hawddborth heiddbal
O'r ddeubysg Ior oedd *dibwl*
Ryborthes meus Deus duwsul
Rhadau heb ammau bummil.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 459 (cf. 450).

Dan farchog bywiog, *di bwl,*
Ef a wyddiad ei feddwl.—*Tudur Aled:* G.B.C. 242.

Dibwrpas, *a.* purposeless, aimless.

Hyd y bo posibl i ti, rhyddhâ dy fywyd oddi wrth bob ofer negesau diles *dibwrpas.*—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 11.

Dibwyll, *a.* [pwyll: Br. *diboell*] senseless; without discretion, prudence, or consideration; indeliberate.—*M.A.* i. 25, 556.

Ac oe bliant dyrchauel ystondardeu a gwelet y Ffreinc yn ffo yn *dibwyll.*—*Ystoria de Carolo Magno,* col. 454.

Tebyg, myn f' enaid *dibwyll,*
Na'm hadwaenost, tost fydd twyll!
D. ab Gwilym, ccxiv. 5 (cf. ccix. 19; ccxxi. 15).

O hyn y daeth y cyfryw drywyllt ac oferwag fydraethu a dall brydyddu, a distadl a *dibwyll* ymbyncio ar ddiles a difias orchestion . . . ag a welir yng ngwaith y beirdd a ganasant yr oes o flaen hon.—*Cyfrinach y Beirdd,* 5.

Ni therfyna hi ddim nas gwypo yn rhyfygus ac yn *ddibwyll.*—*Ed. James:* Hom. i. 9 (cf. ii. 201).

Ond yn y diwedd y ceir gweled fod y rhai hyn yn anghall ac yn *ddibwyll.*—*R. Smith:* Eglurhâd, 289.

Dibwylledd, *sm.* senselessness; imprudence; want of discretion or consideration.

Dibwyllig, *a.* devoid of sense, reason, or discretion; imprudent, indiscreet.

Pa fodd yw marw y Sarff? bwytaodd ac
Yn byw, gŵyr, gweda, pwylla, synia, cynt
Dibwyllig oedd.—*W. O. Pughe:* C.G. ix. 741.

Dibwyllo, *v.* to lose the senses; to become deranged or distracted; to distract.

Dibwyllog, *a.* void of sense; inconsiderate, indiscreet, witless; irrational.

Dibwys, *a.* [pwys] without weight, not weighty; unimportant; of no great moment; inconsiderable; trivial.

Na adēwch i bethau *dibwys,* neu ddamweiniau cyffredin ac anocheladwy, eich aflonyddu.—*Cylchgrawn,* i. 52.

Os oedd y llithiad a'u denodd i bechu, yn eich tyb chwi, yn wael a *dibwys.*—*Gwallter Mechain:* Eglur Olygiad, 6.

Dibwysedd, *sm.* want of weight; unimportance, insignificance, trivialness, triviality.

Dibwysol, *a.* not weighty or heavy; unponderous, light.

Dibybyr, *a.* [pybyr] not vigorous or energetic.

Dibybyrwch, *sm.* want of energy or vigour.

Dibyd, *a.* [pyd] without danger, peril, or hazard; safe.

Dibydio, *v.* to divest of danger.

Dibydiol, *a.* not dangerous, free from danger.

Dibyn, -au, *sm.* [dib? cf. *dibynu*] 1. a precipice; a steep; a downright pitch or fall.

Wele'r holl genfaint foch a ruthrodd tros y *dibyn* i'r môr.—*Esgob Morgan:* Matt. viii. 32 (cf. Marc v. 13; Luc viii. 33).

Bwriwch hwy yn rhwym tros y *dibyn* diobaith, â'u penau yn isaf.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 66 (cf. 62, 73).

Yr oeddwn yn awr mor lluddedig gan yr hynt, gan fy mod wedi teithio trwy gydol y nos ar geffyl, ar hyd ffordd anwastad a *dibynau* peryglus, fel yr oedd ofn arnaf gau fy llygaid.—*Cylchgrawn,* i. 74 (cf. 75, 144; ii. 47).

Bwriwyd hen wragedd yn bendramwnwgl o ben *dibynau* uchel.—*Gwyliedydd,* v. 222.

Y mae'r mwyaf cymmedrol yn cerdded pob cam o'i fywyd megys ar *ddibyn* ymlygriad.
Dewi Wyn: Blod. Arf. 332 (cf. 326).

Yr ydym ni ar y *dibyn* mawr ofnadwy.
Brutus: Brutusiana, 188.

Dibyn dobyn, topsy-turvy, upside down, head over heels.

Nid ydynt yn ystyried pa fodd y maent yn cynnorthwyo bwriad diawl, gan ganlyn llid eu calonau, trwy fygwth y naill y llall, trwy droi pob peth yn eu hynfydrwydd *dibyn dobyn.*—*Ed. James:* Hom. iii. 168 (cf. 171).

Dibyn, *a.* dangling, hanging, overhanging, swinging; suspended; very steep or precipitous; depending.

Ac dyrchauel yar y uarch ae dala ar y wayw ual arwyd yn *dibin* yg kroc.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 479.

Nesaf i ammhosibl yw myned yn ol, gan dywylled a dyrysed yw'r wlad, a maint sy o elltydd heirn tanllyd ar y ffordd, a chreigiau dirfawr yn crogi trosodd, ac yspientydd *dibyn* o rew anhygyrch, ac ambell raiadr serthgryf, sy'n rhydost oll i ymgribinio trostynt.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 92.

Dibynai, eion, *sm.* a pendulum; a pendant.

Dibynaidd, *a.* pendulous, hanging, swinging; dependent.

Dibyneiddrwydd, *sm.* pendulousness, pendulosity.

Dibyniad, -au, *sm.* a depending; dependence.

Ond o'r gwaith hwn, ei rym, a'i drefnus ddrych,
Yr uniad cryf â'r *dibyniadau* gwych,
Graddiadau iawn, a dreiddiaist hwynt â'th fryd!
Robert Owen: Gweith. 266.

Dibyniaeth, -au, *sf.* dependence.

Dibynlor, *sm.* [dibyn+llawr?] water dropwort (*Œnanthe*): also called *gysplys.*—*H. Davies:* Welsh Bot. 29, 183, 201.

Dibynlor pibellaidd, common water dropwort (*Œnanthe fistulosa*).

Dibynlor perllys-ddail, parsley water dropwort (*Œnanthe pimpinelloides*).

Dibynlor cegidaidd, hemlock water dropwort (*Œnanthe crocata*).

Dibynog, *a.* pendent, hanging; dependent.

Dibynol, *a.* pendent, hanging; dependent.

Agaws yno wrth
Did aur y byd *dibynawl* hwn o faint
Fal seren leiaf sym pan wrth y lloer.
W. O. Pughe: C.G. ii. 1105.

Am y chwech mlynedd a deugain cyntaf ar ol ei goreegyniad gan yr Arabiaid, llywodraethid Yspaen gan swyddogion a elwid Amiriaid, y rhai oeddynt *ddibynol* ar raglofyddion Affrica.—*Brython,* iii. 46.

Dibynoldeb, **Dibynolrwydd,** *sm.* pendulosity; dependence; suspension.

Digitized by Google

Dibynu (*ў*), *v.* to hang (on, by, at, from); to dangle; to depend; to rest or rely (upon).

M. Y rhai enwir yr ymdhengys yn y ffurf *y dibynnawdh* ar y groc. D. A uydh y groc yno. nyt amgen no'r prenn y *dibynnawdh* yr Arglwydh arnaw. M. Na fydh. *Lucidar*, ł 117.

Ar dy ddewis weithion y *dibyna* dy wynfyd a fydd. *W. O. Pughe:* E.D. iv. 1.

Dibyna pob anifail ar y clyw, yn benaf, i'w rybuddio o berygl.—*Cylchgrawn*, ii. 170.

Dibynu ar, to depend on; to hang on.

Dibynwr, wyr, } *sm.* a dependant; one who
Dibynydd, -ion, } depends or relies on another.

Dic, a word used in calling a hen (*dicen*). *Dico* is sometimes similarly used.

Dicen, -od, *sf.* a fond or pet name for a hen; a hen. Used also in calling a hen.

Dicra, *a.* without appetence; having no appetite; having a weak stomach; squeamish.

Os bydd un yn newynog, ni bydd y llall ddim yn *ddicra*. *Gwyliedydd*, vii. 377.

Dicrăwch, *sm.* inappetence, want of appetite, squeamishness.

F'all y naill fod yn fanwl ynddynt, pan fo rhyw fesur o'r fath *ddicrăwch* yn anghenrhaid i wendid cylla clwyfus. *Ed. Samuel:* Holl Ddyl. Dyn, vii. 28.

Dichawn, *v.* [dy+cawn]=*Dichon*.

Dichawn, } *sm.* possibility; that which is pos-
Dichon, } sible.

Na ddwg yn lladrad eiddo arall, nac o drais, nac o dwyll, nac o faidd, nac o feddwl, nac o un dichell, nac o un *dichawn*; eithr gwna gyflawnder.—*Barddas*, i. 286.

Nid oes dim dichon gwneuthur hyny, there is no possibility to do that.—*C.S.*

Dichell, -ion, *sf.* [dy-+call] 1. a wile, deceit, craft, cunning, artifice, a guile; duplicity; a stratagem, a sly artifice, a cunning trick.

O for a thir a chastell
Duw a edwyn bob *dichell*.
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 545 (cf. iii. 77).

Rho Dwynwen! gwan yw'r *ddichell:*
Ai 'r gath agorodd y gell?
D. ab Gwilym, clviii. 45 (cf. xxi. 17; cix. 23).

Dichell ar bob *dichell*, ymddichellu daioni.—*Diareb*.

Ni ddaw da o dra *dichell*.—*Iolo Mss.* 258.

Gochelwn am hyny, bobl dda, bob drwg *ddichellion* er ennill a maenteinio a chynnal ein meddiannau, ein tiroedd, ein terfynau, ein rhydd-did. *Ed. Iames:* Hom. iii. 161 (cf. 140, 160, 161, 167, 189).

Pwy a ddichon chwilio allan, neu yn llwyrgwbl annirgelu aml *ddichellion* Satan?—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 384.

Heb law cyfrwysder a *dichell* y cythraul. *Dr. Davies:* Llyfr y Res. II. i. 3.

Trwy ddichell, by subtilty.—*Matt.* xxvi. 4.

2. extreme acuteness or subtilty; subtilty, acuteness, refinement.

Pen Rhydychen a'i *dichell*. *Ieuan Du'r Bilwg:* Iolo Mss. 327.

Dichellion geiriau, the subtilties of speech.

Y mae hi [Doethineb] yn gwybod *dichellion geiriau*. *Doeth.* viii. 8.

Dichellbell, *a.* of far-reaching deceit or craft.

Bytheuaid yn ymlid cadno cochbais *dichellbell*. *Iolo Mss.* 223.

Dichellgar, *a.* wily, guileful, crafty, cunning, deceitful, designing, artful.

Ni llwydd hil rhy *ddichellgar*. *Engl. Eiry Mynydd:* M.A. i. 546.

Nid oes mwy un sarff *ddichellgar* i'th dwyllo di. *Dr. Davies:* Llyfr y Res. I. x. 16.

Dychymmygant eiriau *dichellgar* yn erbyn y rhai llonydd yn y tir.—*Salm.* xxxv. 20 (cf. lxxxiii. 3; cv. 25).

Dichellgar ddychymmyg diafol ydyw ein hannog ni i gredu hyny.—*Ed. Iames:* Hom. iii. 26 (cf. 28; ii. 24, 170).

Da yw i ni fod wedi ymsefydlu yn y gwirionedd, fel na'n rhwyder, ac na'n magler â dadleuon twyllodrus, neu resymau *dichellgar*.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 332.

Dichellgarwch, *sm.* wiliness, craftiness, cunningness, deceitfulness.

Tripheth ar ddyn y sydd gasaf o bob peth gan Dduw: *dichellgarwch;* cybyddiaeth; ac ymgadarnhau yn erbyn gwybodau moliannus.—*Barddas*, i. 330.

Dichelliad, -au, *sm.* a devising or exercising craftiness.

Dichellu, *v.* to use craft or cunning; to act craftily or deceitfully.

Dichellus, *a.* crafty, cunning, wily, deceitful, insidious, designing.

Mawrdhrygedh yw *dichelhus* ystryw y golhedu aralh. *Ymborth yr Enaid*, ł 10.

Dichlais, leisiau, *sm.* [dy-+clais: cf. *clais y dydd*] daybreak, the dawn, the grey morn.

Bydawt nef *dichleis* yr ae keisso ryd
Brenhineid gynnyd crevyd credo.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326 (cf. 556).

Dichlais y dydd, the dawning of the day, the break of day, daybreak.

Gwelais yn ael *dichlais dydd*
Freuddwyd.—*Dafydd ab Gwilym.* (*D.*)

Ewybr oedd y boreuddydd,
Ei lais, ym min *dichlais dydd*.—*Gronwy Owain*, 81.

Dichlais, *a.* [cf. *difflais*] fast, safe, secure.

Sef achos y gelwir y rei hynny yn teir balawc achos rwymaw yn gadarn yn y gwrthwyneper idaw, a phan rwymher balawc yn y gwrthwynep ellwg y rwym a wna ac wrth hynny nyt *dichleis* y rwymat. *Cyfreithiau Cymru*, ii. 342.

A gwedy y caeu yn *dichleis* y gorchymynnwys y brenhin y catwadaeth y Turpin archescop.—*Campau Charlymaen*, ł 4.

Dichlyn, *a.* [dy-+glŷn, glynu] assiduous, diligent, sedulous, attentive; cautious, wary, circumspect; exact, accurate, correct, careful; curious.

Ac nid rhanau anifeiliaid yn unig, eithr planigion a llysiau hefyd, fel y mae philosophyddion yn *dichlyn* ddal sylw. *Edward Samuel:* Grotius, i. 7 (cf. ii. 11).

Myfi a ewyllysiwn, O Dduw, ymadnewyddu bob dydd, a rhoddi ymaith fy hen gyfeillion gynt, a gweithio yn *ddichlyn* yng ngwinllan fy Mhrynwr caredig rhag llaw. *Lewis Anwyl:* Nefawl Ganllaw, 30.

Mwy nag y dichon cyfreithwr feio ar fraint tir, ac uchelwriaeth, pan fyddo'r cyflawnder yn dda ac yn *ddichlyn* wrth gyfraith. *R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 261 (cf. 174, 212, 279, 286).

Ac felly y gwnai S. Paul, yr hwn a holai ei gydwybod mor *ddichlyn* . . . ag y gallai ddywedyd am dano ei hun, nad oedd ef yn gwybod ei fod yn euog o ddim yn ei weinidogaeth.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. I. iv. 8 (cf. II. iv. 10).

Er maint, er cryfed, ac er *dichlyned* yw'r mawr hwn, eto y mae yn yr ystŷd fach acw Un sydd fwy nag yntau. *Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 26 (cf. 82, 87).

Maddeuodd Duw i bawb ei fai,
A'i Fab fo'n prynai'n *ddichlyn*.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 113.

Pob un yn synied pa ryw *ddichlyn* daith
Trwy fyd trafferthion a gymmerai ef.—*Cylchgrawn*, i. 17.

Byddai yn chwithig i ddychymmygu . . . i'r amrywiaeth mawr o *ddichlynion* gramadegol . . . gael eu dyfeisio yn unig er traethu ychydig ddiffygion unigol. *Isaac Jones:* Gram. Cym. 63.

Dichlynion ymadrodd, the niceties of language.

Gwneuthur peth yn dra dichlyn, to do a thing with great accuracy.

Digitized by Google

Dichlyn, Dichlynu, *v.* 1. to be assiduous, sedulous, attentive, circumspect, cautious, or exact; to make accurate.—*P.* 2. to choose, to pick, to pick out, to select; to separate some from others.

Credu yr Eglwys Lân Gatholig yw credu fod gan Dduw rai o holl dylwythau'r ddaiar, wedi eu dewis a'u *dichlyn* yn wasanaethddynion ac yn bobl etholedig iddo ei hun.
Dr. Th. Powel: Cerbyd Iechydwriaeth (1657), 4.

Dichlyn ffordd, to choose the best way; to pick the best part of the road or path; to mind or heed what way one goes.

Dichlyn y goreuon, to pick out the best; to choose the best.

Dichlynaidd, *a.* disposed to be assiduous, attentive, or cautious; correct, accurate, exact, careful, circumspect; of good conduct.

Y mae y cofaleiliau yn *ddichlynaidd,* a'r cerfladau arnynt yn synwyrgall.—*Cylchgrawn,* ii. 114.

Efe a giliodd yn ol ychydig o gamrau mewn modd *dichlynaidd.*—*Gwyliedydd,* xi. 148.

Dyn dichlynaidd ei rodiad, a man of correct, regular, or irreproachable conduct.—*C.S.*

Dichlynder, Dichlyndra, Dichlynedd, Dichlynrwydd, *sm.* assiduity, sedulity, sedulousness; cautiousness; exactness, accuracy, correctness, carefulness; exquisiteness.

Ac am y modd o drwsio bwyd, nodwyd meibion Eli am ormod *dichlynrwydd.*—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 61.

Er cymmaint o ganmol a dyrchafu sydd ar Salmau peraidd Ganiedydd Israel wedi eu cerddori gan ein cydwladwr dysgedig, y Parch. Edmund Prys, o ran iaith, cywirdeb, a *dichlynder,* eto mae lle i feddwl nad oes ond ychydig, er y cwbl, wedi cymmeryd y drafferth o'u darllen yn fanwl drostynt.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, i. 541.

Rhyfeddais, nid yn unig at eu *dichlynrwydd,* ond hefyd at eu cywirdeb yn eu dull o ymdaith.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 289.

Dichlynig, *a.* assiduous; exact, careful.

A chwiliaw onwydd yn *ddichlynig.*—*L. G. Cothi,* i. xi. 18.

Dichlynol, *a.* assiduous, sedulous; exact, correct.

Dichlynu (*ȳ*), *v.*=*Dichlyn.*

Dichon, Dichawn, *v.* [dy- + cawn: see *Cawn*] to be able; to have the power, ability, or capacity; to effect, to effectuate; to avail.

Cyfreith a ddyweit y *dichawn* yr arglwydd fot yn dyst ar derfynu yr hawl honno ger y fron ef.
Cyfreithiau Cymru, ii. 736 (cf. 738).

Mi a giglef doethon yn dywedut na *dichawn* dyn ymoglyt y drwc yn wastat.
Ystat. de Carolo Magno, col. 431 (cf. 411, 420, 446).

Y gwr nys *dichawn* neb ymoscryn ac ef eithyr Duw e hun y neb a rodes y medyant idaw.—*Brut y Tywysogion,* 128.

Paham y dywedir am danaw yntau vot rhyw betheu ny *dhichawn* ef eu gwneuthur.—*Lucidar,* § 65 (cf. 67, 68, 71, 86).

Tri pheth nys *dychawn* mach y gaffol.
Cyfreithiau Cymru, ii. 400 (cf. 402, 404).

O un weithret gobrwyawl y *dichon* dyn ennill trugaredd nef.—*Ipotis,* § 15.

Dichones rac gormes gormant greiryeu.
A phynnawn Dewi ae phynnhonneu llawn.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 273 (cf. 206).

Tri pheth ni *ddichon* eu bod: Duw yn ddrwg ac annhrugar; drwg na wnelo ddaioni; a daioni na threch yn y diwedd.—*Barddas,* i. 348.

Ni bu, ac ni *ddichon* bod
Neb iach, heb arno bechod.—*Hywel Dafydd ab Ieuan.*

Mae i mi gymmydoges,
Oni *ddichon* hon im' les?—*D. ab Gwilym,* clxxxv. 25.

Ni *ddichon* neb wasanaethu dau arglwydd.
Matt. vi. 24 (cf. 27).

Er nad yw hi ond un, hi a *ddichon* bob dim.—*Doeth.* vii. 27.

Llawer a *ddichon* taer weddi y cyflawn.
Iago v. 16 (cf. Gal. vi. 15).

Llawer a *ddichon* cyfarwyddyd ac ymadroddion gwr pwyllus, synwyrol.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 287.

Ni ddichon neb fyw yma, nobody can live here.

Ni ddichon ef mo hyny, he will not do that; he cannot do that.

Dichon i mi, I may.

Dichon hyny fod, that may be; that may happen.

¶ *Dichon* generally occurs in the 3rd pers. sing. pres., and undergoes but few inflexions; but not invariably so.

Canys dichawn Dewi nys *dichonwyf.*
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 271.

Tripheth a *ddichonant* bob peth.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 84.

Tri pheth ni *ddichonant* fod ar Dduw.
Barddas, i. 266 (cf. 322).

Wrth bethau cyffredinion, neu bethau a *ddichonant* bawb eu cael.—*Cyfrinach y Beirdd,* i. 33 (cf. 198).

Yn y man y bo'r lleiaf a *ddichoner* o'r byw a'r bywyd.
Barddas, i. 242 (cf. 328).

O'r tri chyflawnder hyn y daw cyflawnder pob daioni ym mhob rhyw, a rhan, a rhith, a deall, a *ddichonawr* arnaw.
Barddas, i. 330.

Fe fydd pob peth yno yn llawer mwy ac yn llawer gwell nag a *ddichyn* fyned i mewn i galon dyn wrth eu cyffelybu â'r pethau goreu a godidocaf yn y byd yma.
Ed. Samuel: Grotius, ii. 11.

Yna tewi, gan amdroi yn ei feddwl a wnelai, er dangos i Eidiol a *ddichonai* arfer a chynnefinder.
Iolo Mss. 162 (cf. 28).

Pwy a *ddichyn* ddeall yr Ysgrythyr Lân . . . heb wybodaeth o'r gelfyddyd yma?
H. Perri: Egl. Ffraethineb, Rhag. 5 (cf. 6).

Ond fo allai yr atebant hwy y *dichyn* y fath bethau a'r rhai'n weithiau ddygwyddo lle y bo goreu llywodraeth.
M. Cyffin: Diffyniad (1671), iv. 4.

Dichyn iddo gael ei gyflawni oddi ar hyfforddiad anghywir.—*Ioseph Harris:* Gweith. 90 (cf. 93).

¶ Pughe has *dichoni,* as well as *dichawn* and *dichon,* but no instance of the word has been found in that form.

Dichon, *sm.*=*Dichawn.*

Dichonad, Dichoniad, -au, *sm.* a being able; capability; effectuation.

Dichonat ystauell o esgyll ysgwydawr
Tra vydat yn seuyll
A vriwat ar aghat Byll.—*Llywarch Hen:* A.B. ii. 264.

Dichonadwy, *a.* possible; feasible; practicable.

Nid *dichonadwy* boddio pawb.—*Daniel Ddu,* Rhag. 5.

Pe *dichonadwy* sefyll ar y cyhydedd, golygfa a lenwai y meddwl â hyfrydwch mawr.—*Brutus:* Brut. 273.

Dylem, ynte, ymdrechu, hyd a allom, i gywiro yr hyn sy *ddichonadwy,* ac i symmud ymaith yr anhawsderau a adawyd hyd yn hyn ar ein ffordd.—*Gwyliedydd,* xi. 67.

O fydoedd *dichonadwy,* addef wnawn
Anfeidrol ddoethder luniai'r goreu'u dawn.
Robert Owen: Gwaith, 267.

Pe byddai ddichonadwy, if it were possible.

Dichonder, -au, *sm.* possibility, capability.

Trydydd, Nwyfre; ac o hwnw pob bywyd; canys â pheth bynnag ydd elo yng nghymmysg, bywydawl fydd y peth hyny, herwydd rhyw a *dichonder* arnaw.
Barddas, i. 376.

Dichoniad, -au, *sm.*=*Dichonad.*

Dichoniadol, *a.* possible, capable; potential.

Sef o gael Duw a'i ddaioni ar wybodaeth, y ceffir gwybodaeth ar bob peth galledig i ddyn, a'i ddeall a'i bwyll, ac i bob awen a serch ar hardd a chyflawn *dichoniadol* iddaw ef.
Barddas, i. 328.

Dichoniadoldeb, *sm.* possibility; potentiality.

Digitized by Google

Dichonol, *a.* potential; possible.

Y mae dau ryw o honynt; hefyd yn ymranu yn ddwy gainc; sef yr annibynawl, a chymhariadawl; y *dichonawl*, ac yr annichonawl. . . Y *dichonolion* ynt y rhai hyn. . . Yr annichonolion ynt y rhai hyn.
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gym. III. iv. 3.

Dichonoldeb, *sm.* potentiality; possibility.

Sef yw deall, medru ar fod a gwrthfod, herwydd *dichonoldeb.*—*Trioedd Doeth.:* M.A. iii. 208.

Dichwaeth, *a.* devoid of taste, tasteless.

Dicht, -iau, *sm.* a trick.

Dichtiau mul, the tricks of a donkey.—*C.S.*

Dichwain, } chweiniau, *sf.* [dy-+chwaen: cf.
Dichwaen, } *damwain*] chance, event, fortune, fate, accident, lot, portion, casualty, fortuity; circumstance, case, contingency.

Tri lledrad pryn y sydd: lledrad o dwyll; lledrad o gribddail; a lledrad o gudd *dichweiniau.*
Cyfreithiau Cymru, ii. 532 (cf. 484, 490, 550).

Tair engir *ddichwain* Ynys Prydain.—*Trioedd:* M.A. ii. 59.

Tair barn dyled y sydd, ac ynddynt ei ddeall: beth a wahardd arall, ac a waharddai ef ei hun yn arall; beth a gais arall, ac a geisia efe ei hun gan arall, a bod cyfunder *dichwain;* a pheth a ellir hyd fyth ei oddef a'i chwennychu gan oll o fyw a bod yng nghylch y gwynfyd.
Barddas, i. 192 (cf. 42, 260; ii. 66).

Yn y gorseddau a'r gwleddau anrhydeddus hyny doded ar a'i medrai alw i gof y prydiau a'r amserau y buant hynodion, a godidogion, a *dichweiniau,* a dynion, a gweithredoedd.—*Iolo Mss.* 48.

Llywelyn boed hyn boed hwy *dichwein*
No Llywarch hybarch hybar gicwein.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 321.

Dragon o dwyrag draig o dwyrain
Draig wen ollewin well y *dichwain.*
Cynddelw: M.A. i. 204 (cf. 207, 260).

Diwraidd fu ar Gymru gain,
Dichwith; gwae fi o'r *dichwain!*—*Llywarch Bentwrch.*

Os gwir geirieu 'r Eurgelein
Trythyllwg drwg ei *ddichwain.*
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 546.

Dir *dichwain* drwg i drythyllwg.—*Iolo Mss.* 227.

Gorfydd dewr ar bob *dichwain.*
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 99.

Dichwaint, chweiniau, *sf.* [dichwain]=*Dichwain.*

Coronog Faban pan ddêl ei henaint . . .
A fyn gyflawnder i'w holl geraint,
Er ei fod heddyw yn salw *ddichwaint.*—*Iolo Mss.* 269.

Dichwaith, chweithiau, *sf.* [dy-+gwaith] a chance, hap, accident, or turn; an act.

Sef y gwnaeth Brydain ap Aedd Mawr, o'i gymhenddoeth bwyll a inyfyrdawd, a welai yn oreu ym mhob *dichwaith* a dichwain er lles a moliant a chadernyd cenedl y Cymry.
Barddas, i. 42.

Dichwaith, *a.* [di-+chwaith=chwaeth] distasteful, offensive, disgusting?

Crist Argluyd culuyd ac nys celaf
Credu camgyvreith ys *dichweithaf.*
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 327.

Dichwannog, *a.* not disposed or inclined; without desire or craving.

Dichwant, *a.* without desire, avidity, or inclination; not desirous or desiring; not greedy or covetous; not biased, not inclining; disinclined; without appetite.—*A.B.* ii. 175.

Cedwyr cyvarvaeth yt ymwnaethant
Cad ymerbynieid eneid *dichwant!*
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 266 (cf. 157, 388).

Llygad *dichwant* nis gwel, er amlyged y peth.
Iolo Mss. 157.

Dichwantedd, } *sm.* inappetence; want of
Dichwantrwydd, } inclination or desire.

Dichwantu, *v.* to cease to wish or desire; to have no appetence.

Dichwedl, *a.* without anything to say; without a word; silent, tacit.

Dichwedlog, *a.* not talkative, taciturn.

Dichweg, *a.* not sweet, luscious, or pleasing.

Neu mi ni'm dorfi dyrfa *ddichweg,*
Beirdd dilym, dirym, diramadeg.—*Gronwy Owain,* 28.

Dichweinio, *v.* to chance, happen, or occur.

Llaw-wag cyrdd gwedi car dilain
Llawer cof canthudd a *ddichwain.*
Seisyll Bryffworch: M.A. i. 338.

Dichwen, *sf.* corr. of *Dichwaen* or *Dichwain.*

Gwelwn gan hyny pa ffrwyth melltigedig a drwg *ddichwen* a ddaw o feddwdod.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 182.

Frenines gynhes ei gwên,
Gai ddychwel i'w gwir *ddichwen.*—*Twm o'r Nant.*

Dichwerthin, *a.* without laughter.

Dichwerw, }
Dichwerwder, } *a.* not bitter; not severe.

Dichwerw iaith da o chwarae.—*Iolo Goch.*

Doeth *dichwerw* ei ferw hyd wlad Feiriawn.
Gwilym Ddu Arfon: M.A. i. 411.

Lle *dichwerw* asserw o erysi bryd.
D. ab Gwilym, ccxxxi. 25 (cf. cxcviii. 4).

Ai llawnder *dichwerwder* chwith
A dyf undeb da fendith.—*Rhys ab Cadwaladr.*

Araf iaith asserw, *dichwerw* chweg awen,
A goreu lléen, llefn Frythoneg.—*Gronwy Owain,* 28.

Dichwerwad, *sm.* a divesting of bitterness.

Dichwerwi, *v.* to divest of bitterness.

Dichwerwol, *a.* tending to divest of bitterness.

Dichwibl, *a.* not sour, tart, sharp, or stale.

Dichwibliad, } *sm.* a divesting of tartness,
Dichwiblad, } staleness, or sourness.

Dichwiblo, *v.* to rid of acerbity or tartness.

Dichwith, *a.* not left, sinister, or awkward; right; dexterous, adroit; active, quick, speedy, diligent.—*M.A.* iii. 188.

Llaw gadarn *dichwith* dros nith dros nei.
Hillyn: M.A. i. 414.

Canys yno y gorchymmynnawdd Duw ei fendith
A buchedd barhäus yn oes oesoedd wastad *ddichwith.*
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 574.

A phob un o nadunt yn barawt y daraw yn *dichwith* ac gledyf.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 439.

Ardreth *ddichwith* gan Ithael
Y sydd yn gyflym i'w gael.—*Iolo Goch.*

Arfer . . . a bair i ddyn fod heb ymwrando ag ef ei hun, na synied o bechod, ond pechu yn *ddichwith.*
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 338 (cf. 155).

Hwde felltith, *ddichwith* ddyn.—*Sion Tudur.*

Dichwithder, } *sm.* freedom from indexter-
Dichwithrwydd, } ity or awkwardness; adroitness, skilfulness; diligence.

Dichwitho, *v.* to divest of indexterity or awkwardness.

Dichwithol, *a.* tending to divest of indexterity.

Dichwyn, -ion, *sm.* a fragment, a piece.

Y coc a geiff crwynn y deueit ar geifuyr a *dichwynyon* [*al.* dihynnyon] y gallawr.
Cyfreithiau Cymru, i. 386 (cf. 48).

Y cog biau grwyn y defaid, a'r geifr, a'r ŵyn, a'r mynau, a'r lloi a *dichwynion* [*al.* dihynion] ei gallawr.
Leges Wallicæ, I. xxvi. 5.

Digitized by Google

Dichyn, -ion, *sm.* a fragment, a piece.

Ar koceu a dele e guer ar *dykenyon* ar emescar.
Cyfreithiau Cymru, i. 16 (cf. ii. 606).

¶ This and the preceding are variants of the same word; and it is doubtful which, if either of them, is the correct form.

Did, -au, *sf.* [C. *tidi*; Br. *tez*; Ir. *did*; E. *teat*, *tit*; O.E. *tete*, *tette*] 1. a teat, a pap, a dug; a nipple.

2. fluency; utterance.—*P.*

Didach, *v.*=*Dydach*, *Dydechu*.

Didad, *a.* without a father, fatherless.

Didadol, *a.* unfatherly, not parental.

Didadu, *v.* to make fatherless.

Didaen, *a.* [taen] without expansion, unexpanded; without spreading, unspread.

Didaenedig, *a.* unextended, unspread; unsprinkled.

Didaenellawl, *a.* not sprinkling, unsprinkled.

Didaenelliad, -au, *sm.* a ceasing to sprinkle.

Didaenellu, *a.* to cease to sprinkle.

Didaenol, *a.* not expansive, not spreading.

Didaenu, *v.* to cease to spread.

Didaer, *a.* not importunate, pressing, or eager.

Can ced ryt peunyt prif eurglaer yn rwyt
Am roteist ut *didaer*.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 291 (cf. 415, 458).

Lleueris wrthyf lleueryd *didaer*
Llawenglaer uy chwedyl am deubyd.
Iorwerth Fychan: M.A. i. 415.

Yn gweini claer *ddidaer* ddadl.
D. ab Gwilym, viii. 49 (cf. xviii. 40).

Didaeru, *v.* to cease to contend or dispute.

Didaeth, *a.* [taeth] without essence or quality; without richness.

Didafod, *a.* having no tongue, tongueless; speechless.

Didafodio, *v.* to pull out the tongue; to cease to use the tongue; to cease to scold.

Didangnef, } *a.* without peace or tranquil-
Didangnefedd, } lity; peaceless, unpeaceful, unpeaceable, unquiet.

Gwrach ddidangnef, a restless or peaceless old woman.

Pe cyd y nos, pe caid nef,
A deng-awr, *wrach ddidangnef*.—*D. ab Gwilym*, cviii. 15.

Didaiog, *a.* not clownish or rustic; not uncouth.

Didaiogaidd, *a.* not of a rude or clownish disposition; not uncouth or rustic; polite.

Difreg Hopcyn dêg *didaiogaidd* dwr
Da wiw uchelwr diachulaidd.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494.

Didaiogi, *v.* to divest of rudeness; to polish.

Didaiogol, *a.* tending to remove clownishness or rusticity.

Didal, *a.* [tâl] without pay or recompense; free of charge or fee; unrequited; gratis.

A oes vn talawdyr *didal*, a mach digymell, a hawlwr eneitvaddeu.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 606 (cf. 608; ii. 120).

Ni bydh dim *didal* or drwc gyrbronn Duw.—*Lucidar*, 182.

Didawl o'th gariad ydwyf,
Da dy lun, a *didal* wyf!—*D. ab Gwilym*, xviii. 45.

Didalch, *a.* unbroken; unbruised.

Bara didalch, unbroken bread.

Didalchu, *v.* to make whole or united.

Didaledig, *a.* unpaid; unrequited.

Didaliad, -au, *sm.* non-payment.

Didalm, *a.* [talm] unimpressive; incessant, ceaseless.

Didalmu, *v.* to cease to impress; to be unceasing.

Didalu, *v.* to cease to pay; to stop payment.

Didan, *v.* [tân] without fire.

Didanbaid, *a.* not vehement or fiery; cool.

Didanc, *a.* 1. peaceless, unpeaceable, unpeaceful; not giving peace.

Rhuthr *didangc* aerdrangc aerdrawd
Arf glyw a glywir hyd frawd.—*Gwgon:* M.A. i. 337.

Didandde, *a.* not igniferous; not inflammatory.

Didardd, *a.* without springing, sprouting, or effusion.

Ac o'r hyn a wespwyd, gwelir nis gellir hanfod o gyssefin ansawdd, eithr Duw a chythraul, y byw a'r marw, y dim a'r ddygwydd, tardd o *ddidardd*, a bod o ymgyd.
Barddas, i. 208.

Didarf, *a.* [tarf] not driven off, chased, or scared; not to be frightened or terrified; not to be turned back.

Ercwlff gryf Selyf seil wledic Ryderch
Rwyd Ieuan wayw yssic
Aryf aer *didaryf* urdedic
Ar glot y tri glut y tric.
Casnodyn: M.A. i. 424 (cf. 435, 494).

Gwayw *didarf* gwiw Dudur.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 441 (cf. 447, 450).

Iawn had Gog fawreddog rym,
Didarf fal ein tad ydym.—*Dafydd Ionawr*, 245.

Didarfu, *v.* to cease to drive off or chase.

Didaro, } *v.* without distress, difficulty, or
Didaraw, } anxiety; unconcerned, heedless, careless; easy.

Eidiol, Iarll Caerloew, a ddiangodd yn *ddidaro* o nerth trosol a gafas efe dan ei draed.
Theo. Evans: D.P.O. 109 (cf. 79).

Estyna y ceffyl cyntaf ei glustiau ym mlaen, a'r olaf a'u tyna yn ol; tra mae y meirch canol yn *ddidaro*, heb ofalu dim.—*Cylchgrawn*, ii. 170.

Yr oedd yn eu sathru mor ddidaraw, he was treading them so unconcernedly.—*P.*

Didarth, *a.* without vapour or mist.

Didarthiad, -au, *sm.* non-evaporation, a ceasing to evaporate; a clearing of vapour.

Didarthol, *a.* not evaporating; unevaporated.

Didarthu, *v.* to cease to evaporate.

Didas, *a.* [tas] without a band, tie, or fascia; untied.

Didasol, *a.* without a band or fillet.

Didasg, *a.* [tasg] without a task or job; not bound or obliged; having nothing to fulfil.

Didasgu, *v.* to relieve from a task.

Didasiad, -au, *sm.* an unbinding; a loosening.

Didasu, *v.* to divest of or relieve from a bandage.

Didaw, *a.* [taw] not silent, noisy; ceaselessly calling or crying.

Didaw am Farged ydynt,
Marged lawegored gynt.—*Gronwy Owain*, 50.

Yn *ddidaw* och'neidiaw wnaeth.—*Dafydd Ionawr*, 71.

Digitized by Google

Didawedog, *a.* not silent or taciturn; loquacious.

Bu Groeg a Rhufain enwawg
Yn perchen dynion doniawg;
Ond nid oes ail, o'n hynys ni,
It' Dudur *didawedawg*.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, i. 288.

Didawel, *a.* not calm or tranquil.

Diaspat athrugar aruchel *didaweldost* a dodes Enit.
Mabinogion, 288.

Didawelog, *a.* not calm, tranquil, or silent; not pacific.

Didawelu, *v.* to cease to be calm.

Didawl, *a.* [di- + tawl] 1. without ceasing, ceaseless, incessant, continual, indesinent; unwearied; uninterrupted.

Cyn ysgar a Duw *didawl* cywyd
A mi ddisgoganaf cyn diwedd byd.
Myrddin: M.A. i. 137 (cf. 349, 408, 461).

Didawl i'm bron yw d' adwyth,
Didaer loer o Dudur lwyth!
Didwf yw dadl dy gerddawr,
Didawl main ar dy dal mawr.—*D. ab Gwilym*, xviii. 39.

Canu mawr *didawl* dyn ysplennydd.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 242.

Didawl wawr ddwywawl ddiwael gerennydd.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 572.

I ganu mawl *didawl* da
(Oes hoenus) a Hosanna.—*Gro. Owain*, 99 (cf. 173).

Mêl i gyd ydyw mawl gwâr
A *didawl* ganiad adar.—*Dafydd Ionawr*, 56 (cf. 50, 60, 307).

Ef blinwn gan fy *nidawl* waedd.
W. O. Pughe: C.G. xi. 312 (cf. ii. 334).

Yn ddidawl, incessantly, ceaselessly, without ceasing.

2. unsparing; liberal, generous; profuse, lavish.

Llew wrth aer a llwfyr wrth eirchyeid
Llaw *didawl* gwrawl gwr ny dyweid nac.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 285 (cf. 321, 413).

Darllenais awdl dra llawn serch,
Wych enwog fardd, o'ch annerch;
A *didawl* eich mawl im' oedd,
Didawl a gormod ydoedd.—*Gro. Owain*, 11 (cf. 72).

3. [dy- + tawl] = *Didol*.

Didawr, *a.* = *Dyddawr*.

Didedd, *a.* [tedd] without expanse.

Dideg, *a.* unfair, uncandid, disingenuous, not open; rough.

Didegwch, *sm.* unfairness; ruggedness, roughness.

Dideilwng, *a.* unworthy, undeserving.

Dideilyngdod, *sm.* want of merit, undeservedness.

Dideilyngol, *a.* wanting merit, undeserving.

Dideilyngu, *v.* to divest of merit.

Dideimlad, *a.* unfeeling, apathetic, insensible; callous, hard; cruel.

A'i nod amlwg *dideimlad*,
Callach, a dewrach na'i dad.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 15 (cf. ii. 220).

Pan oeddwn yn cysgu yn ddiofal ar geulan distryw, ac ym mron yn *ddideimlad* o'm heuogrwydd.
Iosua Tomas: Buch. Grist. 354 (cf. 58, 161, 328).

Buasai un chwa o'r mwg hwn yn ddigon i beri i ddyn fyned yn *ddideimlad*.—*Cylchgrawn*, i. 75.

Dideimladol, *a.* unfeeling; not apt to feel; apathetic.

Dideimladrwydd, *sm.* unfeelingness; insensibility, senselessness, callousness.

Y gair Groeg, medd Raphelius, a arwydda y gradd eithaf o *ddideimladrwydd*, anobaith, a difräwch.
Th. Charles, s.v. 'Diddarbod.'

Dideimladu, *v.* to deprive of feeling or sensibility.

Dideimladwy, *a.* impalpable; unsympathizing.

Dideimlawdr, *a.* unfeeling, unsympathizing.

Y rhai drwc hagen a vydh eu cytwybot yn dhrwc o chwerwedh eu calonnau. ac yn wynebtrist. ac yn anwadal oe geiriæ ae gweithredoedh. ac yn angcyuartal eu chwerthinat. ac yn *dhideimlawdyr* eu tristit.—*Lucidar*, 180.

Dideimlo, *v.* not to feel, to cease to feel; to render unfeeling; to make callous.

Nis diofalynt chwaith mor dru yr hwyl
Oedd arnynt, na *dideimlaw* y gwaew tost.
W. O. Pughe: C.G. i. 358.

Dideithi, *a.* without natural qualities.

Dideithio, *v.* to cease to travel.

Didel, *a.* [tel] unstretched; unfair.

Didelaid, *a.* [telaid] not fair, beautiful, graceful, or handsome.

Didelïaidd, *a.* uningenious; untidy, awkward.

Didelïo, *v.* to become awkward.

Didelu, *v.* to be unstretched.

Didelyw, *a.* without a covering, uncovered.

Diden, **-au**, *sf.* [did] a teat, a dug, a pap, a nipple.

Pan ysgigwyd dy *ddidenau* gan yr Aiphtiaid, am fronau dy ieuenctid.—*Esec.* xxiii. 21 (cf. 3).

Ffroeniaw bu; ffrwynaw â'i ben
Ydd ydoedd at ei *ddiden*.—*L. G. Cothi*, v. vii. 33.

Didenaidd, **Didenol**, *a.* like a pap or teat; papillary, papillous.

Didenog, *a.* having teats, paps, or dugs; papillary, papillous.

Dider, *a.* [ter] not refined or purified, impure.

Diderf, **-oedd**, *sm.* a wilderness; a place that is not cleared or cultivated.—*H. Salesbury* (Arch. Brit. 216).

Diderfyn, *a.* boundless, endless, interminable, interminate.

Byddi di'n amddiffynwr, a'n deddfwr, a'n llywydd.
Hyd oesoedd *diderfyn*, hyd fyth, yn dragywydd.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 5.

Y mae sancteiddrwydd ym mhob man yn yr efengyl yn cael ei orchymmyn mewn mesuron *diderfyn* a diddiwedd.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 301 (cf. 103, 271).

Ac oll o'r rhinweddau a'r perthynaid briodoleddau hyn; yn rhyfedd anchwiladwy eu maint a'u perffeithrwydd; yn anfeidrol amymgyffredadwy, ac yn *ddiderfyn* a thragwyddol.—*Cyfrinach y Beirdd*, 34.

Ym mhlith ei hamrywiol gynnyrchau, ei ffrwythlondeb *diderfyn*, ei phrydferthwch digyffelyb.—*Cylchgrawn*, i. 75.

Boed llafar holl serchiadau dyn
Yn fawl *diderfyn* iddo.—*Iolo Morganwg:* Salm. i. cxliv. 4.

Diderfynadwy, *a.* illimitable, interminable.

Ar sylw swta doai dirgelion y
Gorddyfnder blawr, yn eigion tywyll, hyll,
Diderfynadwy.—*W. O. Pughe:* C.G. ii. 935.

Diderfynau, *a.* = *Diderfyn*.

Eto yr ydwyt ti mor anfeidrol ddedwydd ym mherffeithrwydd *diderfynau* dy natur dy hun.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 366 (cf. 54).

Diderfynedig, *a.* indeterminate, not limited, not terminated; interminable.

Maent yn gyfranol . . . o lawenydd *diderfynedig*.
Marchog Crwydrad, ii. 8.

Diderfyniad, **-au**, *sm.* non-limitation, indetermination.

Digitized by Google

Diderfyniad, *a.* without end or termination, endless, unbounded.

Tra bo'r iawn ei ymarweddiad
Mewn dedwyddwch o bob rhyw,
Mewn gorfoledd *diderfyniad,*
Yn dragywydd gyda Duw.
Iolo Morganwg: Salm. II. iii. 3.

Diderfynol, *a.* not limiting or terminating; endless, limitless.

Nid bywyd tragwyddol, onid *diderfynol* angeu a berthyn i ddrwg weithredwyr.—*Ed. James:* Hom. i. 52 (cf. 26).

Mae yn ddyledswydd arnaf rybuddio pob pechadur i droi oddi wrth wasannaeth Mammon mewn pryd, ac i gymmeryd gafael ar y Ganllaw sy'n arwain i lawenydd a digrifwch *diderfynol.*
Lewis Anwyl: Nefawl Ganllaw, Rhag. 3.

Drwy fanau *diderfynawl,*
Erchyll, rhwng y Gwyll a'r Gwawl.—*Dafydd Ionawr,* 54.

Diderfynu (*ȳ*), *v.* to be unlimited; to divest of limit or limits.

Diderfysg, } *a.* without tumult or disturb-
Diderfysgiad, } ance; undisturbed, dispassionate, composed, quiet.

Goreu cymmodawg cymmodawg *diderfysg.*
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 92.

Yn gron-fferf, yn *ddiderfysg,*
Yn gyflawn o'r dawn a'r dysg.—*D. ab Gwilym,* xx. 9.

Fydd trigolion y lon wlad
Foesgar a *diderfysgiad?*—*Dafydd Ionawr,* 203.

Diderfysgiad, -au, *sm.* a ceasing to be tumultuous; a quelling a riot.

Diderfysgol, *a.* not tumultuous or riotous.

Diderfysgu, *v.* to cease from being tumultuous; to quell disturbance.

Dideru, *v.* [dider] to divest of purity; to make impure.

Dides, *a.* [tes] without sunshine or heat.

Didestun, *a.* without a theme, text, or subject.

Didesu, *v.* to cease to give heat.

Dideulu, *a.* without a family.

Tri brodyr difyrwch: *dideulu;* diymgais; a mab ei fam.
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 275.

Dideyrn, *a.* having no king or ruler, kingless.

Dideyrnas, *a.* without a kingdom.

Dideyrnasu, *v.* to cease to reign; not to reign or rule.

Dideyrnu, *v.* [teyrn] to divest of regal power, to dethrone, to depose (a king).

Mab hefyd oedd i Urien a elwir Pasgen: a hwnw a fu frenin creulon, ac yn garnfradwr gwlad, achaws y *dideyrnwyd* ef, a dodi gwlad Rheged herwydd ei hansawdd gyssefin yn un â Morganwg.—*Iolo Mss.* 71.

Didi, *pl.* didïau, } *sf.* [dim. of *did* or *diden,* q.v.]
Diti, *pl.* ditïau, } a nipple, pap, or teat; the breast.

Didla, *a.* little, tiny, puny, poor.—*S. W.*

Didlawd, *a.* [tlawd] not poor, indigent, or destitute; ample, plenteous, abundant, affluent; liberal.

A ryued vu gan bawp onadunt mor *didlawt* oed y kastell o bop peth.—*St. Greal,* ‡7.

A bwyt a diawt yn *didlawt* y achenogyon.
Yst. de Carolo Magno, col. 492.

A glywaist ti chwedl Anarawd,
Brenin Gwynedd, bro *ddidlawd?*
Ni wŷl annoeth ei ystawd.—*Iolo Mss.* 258 (cf. 255).

Ar neuad a gyrchassant. ar byrdeu oed gwedy eu dyrchauel. a bwyt a llynn yn *didlawt* arnadunt.
Mab. 216 (cf. 105, 257, 263, 266).

Egyr *didlawt* law nyt garw datleu
Agwrd atlam vawl am gerd otleu.
Rhiserdyn: M.A. i. 435 (cf. 177, 354, 410, 421).

Dadl-wawd awdl, *didlawd* ydoedd.
Madog Benfras: Md. D. ab Gwilym.

Swyd *didlawt* o wawt a weinydaf.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 464 (cf. 467, 504).

Caled yw colli colofn,
Penciwdawd cerdd *ddidlawd* ddofn.
I. B. Hir: Gwaith, 88 (cf. 48, 49).

Didlodawd, *sm.* means of support; trade, business, or occupation.—*P.*

Didlodedd, *sm.* absence of poverty; ampleness of means, plenteousness; plenty.

Didlodi, *v.* to divest of or relieve from poverty; to enrich.

Didlodiad, -au, *sm.* a divesting of poverty.

Didlos, *f.* } *a.* [tlws, *f.* tlos] not pretty or
Didlws, *m.* } beautiful; unhandsome.

Dido, *a.* [to] without a roof or covering, roofless.

Didoad, -au, *sm.* an uncovering; an unroofing.

Didoawl, *a.* unroofing, uncovering.

Didoddadwy, *a.* indissoluble, insoluble.

Didŏedig, *a.* unroofed, uncovered.

Didoi, *v.* [toi] to unroof, to strip of covering or roof; to uncover.

Ynte gwynt (garw-hynt gawdd)
Y deau a'i *didoawdd?*—*Dafydd ab Gwilym,* cxl. 27.

A chan na allent nesäu ato gan y dyrfa, *didoi* y to a wnaethant lle yr oedd efe.—*Marc* ii. 4.

Didol, *a.* [dy+tawl, toli] separated, segregated, severed; exiled.

Dyn *didol* dinod ydwyf,
Ac i dir Mon estron wyf.—*Gronwy Owain,* 58.

Didol, *a.* [=didawl] incessant, ceaseless, continual.

Didol, *sm.* a separating, separation, segregation.

Dolur rhy drwm! dramawr bonyd,
Boenau dybryd, ebrwydd *ddidol.*—*Gronwy Owain,* 70.

Ar ddidol, } apart, separately; separated,
Ar ddidawl, } segregated.

A gaf i gennyt ti gennat y uynet att y uorwyn draw y ymdidan a hi. megys *ar didawl* y wrthyt y gwelaf.
Mabinogion, 278.

Didoladwy, *a.* separable, that may be severed or divided.

Didolc, *a.* without a dent; without a bruise.

Odlau, cywyddau *didolc* iddyn';
Ac heb un gongl mewn banawg englyn.
L. G. Cothi, IV. x. 25.

Didolcio, *v.* to divest of dents or of bruises.

Didolciog, *a.* having no dents or depressions.

Didolaidd, *a.* of a separating tendency.

Didolawg, *a.* separated, discrete.

Didoledig, *pt.a.* [didoli] separated, segregated, severed, discrete, set apart; exiled.

Am na weleis heb ef yr ys seith mlyned undyn onyt pedwar dyn *ditholedic* a thitheu yr awr honn.—*Mabinogion,* 55.

Y cyfryw Archoffeiriad sanctaidd, diddrwg, dihalog, *didoledig* oddi wrth bechaduriaid . . . oedd weddus i ni.
Heb. vii. 26.

Hir y bu'r Cristionogion yn *ddidoledig* oddi wrth bob anrhydedd a goruchaflaeth.—*Ed. Samuel:* Grotius, ii. 23.

Didoledigaeth, -au, *sf.* separation, segregation; severance.

Digitized by Google

Didoleg, -au, -ion, *sf.* a diæresis. See *Didolnod*, the word most in use.

Arferer didolnod neu *ddidoleg* yn unig lle bo gwir anghen am dani.—*D. S. Evans:* Llythyraeth, ¶ 219 (cf. 220—237).

Didoli, *v.* to separate, segregate, or sever; to put apart or asunder.—*Matt.* xiii. 49; xxv. 32.

Ni *didolit* yng kynted o ved gwirawt.
Aneurin: Gododin, 236.

Menestyr nam *didawl* nim *didolir*
Boed ym mharadwys in cynhwysir.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 267 (cf. 191, 264, 265).

Llaw ddiriaid a *ddidawl* ei pherchen.
Diareb. (M.A. iii. 163.)

Deled, lle'n ni'n *didolir*,
Dyn fain dlos, dan fanadl ir.—*D. ab Gwilym*, xlvii. 67.

Gwell fydd eu *didoli* nhwy.—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 131.

Dwy na wnaed i dynu'n ol,
Dwy ydynt, pwy a'u *didol*?
Gronwy Owain, 26 (cf. 13, 56, 105).

Ystyriwch y *didoli* a fydd yr amser hwnw. . . Pa fath *ddidoli* fydd hyn, meddaf!
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. v. 18.

Yn y bywyd yma efe yn unig a *ddidola* ychydig ddynion.
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 173 (cf. 245, 292).

Didoliad, -au, **Didoliant**, *sm.* a separating or segregating; separation, segregation.

Ac yno terfynir yr holl ymraniadau neillduol, ac a'u llyncir yn yr un *didoliad* yma.
Morgan Llwyd: Cyfarwyddyd, ¶ 12.

Ond tost y *didoliad* hwn?—*Gronwy Owain*, 60.

Didoliaeth, **Didolaeth**, -au, *sf.* separation, segregation, severance.

Yn gyntaf, gwahaniaeth a *didolaeth* oddi wrth bob llawenydd a chysur, o fod yng ngwydd Duw.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 411.

Didoliedigaeth, -au, *sf.*=*Didoliaeth.*

Didoliedydd, -ion, *sf.*=*Didolydd.*

Didolnod, -au, *sm-f.* a diæresis. In Welsh the mark is generally placed over the former of two vowels, as *ïe, gweddïo, crëwr, crëydd, trofäus, cyffröus, parhäus, tröedigaeth.*

Ser bore a *ddwyrëynt*
Yn llu i gydganu gynt.—*Gronwy Owain*, 79.

It is used by some recent writers where it is unnecessary, and where it can answer no purpose; as *ëang, crëad, nacäol, hëol, deffröad*, and the like; for vowels such as *ea, ao, oa, eo*, cannot combine to form a diphthong.

Didolnod (¨) a arferir i wneuthur llafariad unsain yn wahanol, yr hyn a ffurfia sill chwanegol yn y gair.
Robert Davies: Ieithadur Cymraeg, 88.

Didolnod (¨) sydd yn gynnwysedig o ddau nodyn wedi eu gosod uwch ben un o'r ddwy lafariad, y rhai mewn modd amgen a wnaethent ddeuseiniad, i'w gwahanu yn ddwy sill.—*Isaac Jones:* Gram. Cym. 135.

Gosoder *didolnod* ar y flaenaf o ddwy lafarai a fyddont i gael eu gwahanu.
D. Silvan Evans: Llythyraeth, ¶ 220 (cf. 222—238).

Didolnodi, *v.* to mark with a diæresis, to place a diæresis over a letter.

Os bydd y flaenaf o'r ddwy lythyren i'w *didolnodi* yn brif lythyren, neu yn gyfryw nas gellir gosod nod arni, gosoder y ddidoleg ar yr ail; megys *Ïe, Ït.*
D. S. Evans: Llythyraeth, ¶ 221 (cf. 224, 226, 231, 233).

Didolus, *a.* tending to separate or sever.

Didolwr, wyr, **Didolydd**, -ion, *sm.* one who separates, a separator; a divider.

Dilys, Duw yw'n *Diddolydd*,
Mawl iddo, a fyno fydd;
Dyweded ef na'm didol,
Gair o Nef a'm gyr yn ol.—*Gronwy Owain*, 13.

Sancteiddiwr, *Didolwr* dyn
O ddwylaw ei ddu elyn.—*Dafydd Ionawr*, 159.

Didoll, *a.* [toll] free from toll or custom; exempt; franked.

O Dywyn *ddidoll*, dai naddedig,
Y dêl ei arddelw i Dalerddig.—*L. G. Cothi*, iv. ii. 41.

Didolli, *v.* to free or exempt from toll or custom; to frank.

Os nid ellwch yn hawdd *ddidolli*'ch llythyr â ffrencyn, gyrwch ef ym mlaen heb un.—*Gronwy Owain*, 168.

Didon, **Didonnen**, *a.* [ton, tonnen] without a surface or crust; having no sward; pared.

Didon, *sf.* the paring, surface, or sward taken off.

Didonfryd, *a.* unfroward; not obstinate; tractable. See *Didonrwyg.*

Didoniad, -au, *sm.* a paring, a paring off.

Didonni, **Didonnenu**, *v.* to pare (land); to pare away the surface; to cut away the turf or sward.

Didonni a llosgi y sydd wrtaith arall yn hoff ganoch ei arfer, yr hwn, eithr mewn rhai achosion, y sy ffiaidd genyf. . . . Pa le bynnag y byddo gwellt bras a brwynog hwyrach y gellir cennadu *didonni* a llosgi.
W. O. Pughe: C.P. 18, 19.

Nid yw y trafnau a arferir, yn gyffredin, yn llai niweidiol nag yr arfer ammhwyllus o *ddidonni* a llosgi y tir.
Aneurin Owen: Amaethyddiaeth, 10 (cf. 9).

Haiarn didonni, a paring iron, a turfing iron.

Didonrwyg, *a.* without refractoriness, untractableness, or stubbornness; not obstinate or untractable; without swerving.

Teithi ych yw aredig yn rhych ac yng ngwellt, yn allt ac yng ngwaered, a hyny yn *ddidonrwyg* [*al.* yn *ddidonfryd*]; ac ni bydd teithiawl oni bydd felly.
Leges Wallicae, iii. v. ¶ 2, 57 (C.C. i. 568, 714).

Didor, *a.* [tor, tori] 1. (of space) without a break, continuous—*M.A.* iii. 251.

O bob tu y dyffryn hwn, y mae dwy res o fynyddoedd ar gyfer eu gilydd yn rhedeg yn *ddidor* oddi fyny hyd yn agos ar gyfer Cairo.—*Simon Lloyd:* Amseryddiaeth, 70.

b. not breaking; not to be broken; infrangible.

Nis gellid rhwym *didor* ag un o honynt.—*Iolo Mss.* 158.

Hardd essillydd rhydd, rhodd *ddidor* meddlyn.
Dafydd ab Gwilym, vi. 33.

2. (of time) without interruption, intermission, or cessation, uninterrupted, continual, incessant, unbroken.

A'r taranau yn rhuo, a'r mellt yn gwau yn dryfrith, a chafodydd *didor* o saethau marwol yn cyfeirio o'r pyrth isaf at yr Eglwys Gatholig.—*E. Wynn:* Bardd Cwsg, 46.

O hyny allan y gorchymmynwyd y gorphwysdra *didor* hwnw ar y Sabbath.—*Ed. Samuel:* Grotius, v. 10.

O'm traserch, darfum trosoch
Ddwyn clwyf, fel lle y bwyf y boch,
Mewn ffawd *didor* a gorhoen,
Mewn byd heb na phyd na phoen.—*Gronwy Owain*, 98.

Yn ddidor ddidawl, continually and uninterruptedly; without any pause and intermission.

Nid wyf yn cael mo'r amser, na heddwch na hamdden, gan yr hen ysgol front yma, a drygedd y cywion Saeson, fy nysgyblion, yn suo yn *ddidor ddidawl* yn fy nghlustiau.
Gronwy Owain, 173.

Didoraeth (ō), *a.* [toraeth] 1. unprofitable, not yielding or productive.

A'r un ynfydrwydd fydd i minnau ddarparu i ni'n hunain gynhauaf *didoraeth* yn y byd nesaf.
Ed. Samuel: Holl Ddyled. Dyn, xvii. 11.

2. shiftless, thriftless; fickle, inconstant, silly.

Wedi i Hengist fel hyn ymgynhesu â'r brenin *didoraeth* . . . yno ei ferch Rhonwen a ddaeth i ymweled ag ef.
Theo. Evans: D.P.O. 108 (cf. 78).

Digitized by Google

Didoraethiog, *a.* unproductive.

Didoraethiogrwydd, *sm.* unproductiveness; unprofitableness.

Didoraethrwydd, **Didoraethwch,** *sm.* shiftlessness; fickleness, silliness.—*S. W.*

Didorch, *a.* without a wreath, torque, or chaplet; uncircled; unfurled.

Didorchi, *v.* to unwreathe; to unfurl.

Didordeb, *sm.* [didor] freedom from interruption or intermission.

Didori, *a.*=*Didor.*

Yr oedd fy awydd *didori* am ddarllen gymmaint, fel y benthycwn lyfrau o bob math.
Cawrdaf: Meudwy Cymreig, 56.

Didoriad, **Didoriant,** *a.* unbroken; not broken in; untamed; unmanageable; rude, uncultivated, rough; in a state of nature.

Heb na thoriad na thriniad, heb na dyeg na dawn, ond yn fwy tebygawl i ebolion gwylltion a *didoriad*, na rhai â rhieni rhesymol a naturiol iddynt.
Lewis Anwyl: Nefawl Ganllaw, 102.

Tri pheth y dylai ddyn a fynai addyeg: gwrandaw yn graff; golygu yn graff; a thewi yn *ddidoriant.*
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 83.

Nid yw y bobl y ffordd yma, hyd y gwelaf fi, ond un radd uwch law Hottentots: rhyw greaduriaid anfoesol, *dideriad.*—*Gronwy Owain*, 199.

Mae hi yn ddigon didoriad, she is rude enough. —*C.S.*

Didost, *a.* not severe, not pungent; not sore.

Dodaist waew llon dan fron friw,
Didost ar dy fryd ydiw.—*Dafydd ab Gwilym*, xviii. 43.

A barnedigaeth bur *ddidost*
A wnaethost di yn Iago.—*Edm. Prys:* Salm. xcix. 4.

Didostedd, **Didostrwydd,** *sm.* freedom from severity or pain; non-severity.

Didostrydd, *a.* free from pain, inclemency, or harshness.

Lle *didostryd* llys lluosyd
Lle dangosyd Lladin gysson.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 471.

Didostur, **Didosturi,** **Didosturiol,** *a.* without compassion or pity, uncompassionate, pitiless.

Gan ddweyd yn *ddidosturi*,
Cewch fyn'd i wlad trueni.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 360.

Byddar ydwyt i fy ymbil,
Pôr *didostur!* ddofn dy grombil.
Blackwell: Ceinion Alun, 208.

Mwy *didosturi* ynt na'r don,
Sef creulon, galon-galed.
D. Ddu Eryri: Corff y Gainc, 395 (cf. 446).

Ac yntau o'r blaen mor ddiymysgaroedd, mor *ddidosturiol*, ac mor annhrugarog wrth anwyl Fab Duw.
Ed. Samuel: Bucheddau yr Apostolion, 234.

Didosturio, *v.* to cease to pity; to have no compassion.

Didra, *a.* without excess or superfluity; moderate.

Oni welant a wnelwyf,
Doed adre' wen, *didra* wyf.—*D. ab Gwilym*, ccxx. 17.

Didrachwant, *a.* without immoderate desire; free from lust or cupidity; uncovetous.

Nid diserch ond *didrachwant;* nid *didrachwant* ond boddlon.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 28 (cf. 133, 251).

Tripheth ni fydd dyn fyth eu digon: digon doeth; digon mwyn; a digon *didrachwant.*—*Barddas*, i. 338.

Didrachwantol, *a.* not coveting or craving.

Didrachwantu, *v.* not to covet or lust; to cease to lust, crave, or hanker after.

Didrachywed, *a.* without craving; without ambition, ambitionless.—*P.*

Eveis y win a med Mordei
Can yueis disgynneis rann fin fawt ut
Nyt *didrachywed* colwed drut.—*Aneurin:* God. 222.

Didraddodawl, *a.* not traditional or traditionary.

Didraddodi, *v.* to stop a tradition.

Didraddodiad, *a.* without tradition, not traditive.

Didraed, *a.* without feet, footless.

Ymddengys fod anianyddion mwy deallus yn rhoddi peth coel iddynt, pan y galwent un rhywogaeth o'r adar hyn yn Paradisea Apoda, neu Adar Paradwys *didraed.*
Cylchgrawn, i. 112.

Didraethedig, *a.* unuttered, unspoken, untold; unspeakable.

Y maent yn gyfranol o rad *didraethedig*, ac o ddedwyddyd difesuredig, ac o lawenydd diderfynedig.
Marchog Crwydrad, iii. 8.

Didrafael, *a.* free from toil or labour; toilless.

Uwch no dim yw nef, dref *ddidrafael;*
Yno i ddringo ydd â yr angel.—*L. G. Cothi*, i. iv. 45.

Didrafn, *a.* without a turn, shift, or change.

Didrafneidiad, -au, *sm.* a ceasing to turn or change.

Didrafneidio, *v.* to cease to turn, mutate, or change.

Didrafnid, *a.* [trafnid] devoid of commerce, trade, or traffic, commerceless.

Didrafod, *a.* without labour or bustle; without handling.

Didrafodawl, *a.* unlaborious.

Didrafodi, *v.* to cease to handle, bustle, labour, or toil.

Didrafodiad, -au, *sm.* a being free from bustle; a ceasing to toil.

Didrafferth, **Didrafferthion,** *a.* without trouble, toil, labour, or pains; easy, not difficult; disengaged.

Cannerth *di drafferth* drwy ffydd a geisiwn.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 572.

Pechod na bai ganddynt ddau neu dri o ddynion celfyddgar, a'u dwylaw yn *ddidrafferth*, i ysgrifenu iddynt.
Gronwy Owain, 243.

Os chwennychi ddysgeidiaeth, rhaid i ti fyw yn *ddidrafferthion* ac yn ddirgel.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 116.

Didrafferthol, *a.* without troubling or bustling.

Didrafferthu, *v.* to cease from bustling or troubling.

Didragwyddol, **Didragywyddol,** *a.* not eternal or everlasting.

Didragwyddoli, **Didragywyddoli,** *v.* to divest or deprive of immortality.—*P.*

Didragwyddoliad, **Didragywyddoliad,** -au, *sm.* a divesting of immortality.—*P.*

Didraha, *a.* 1. without excess, not excessive, moderate; free from haughtiness or arrogance.

Sef arch a archaf lloneit y got uechan a welydi o vwyt.
Arch *didraha* yw honno heb ef a thi ae keffy yn llawen.
Mabinogion, 15.

2. without boldness; spiritless, meek.

Ny adawd neb yn y chedymdeithas namyn gwraged a meibon. a dynyon *didraha*. ny ellynt nac ny wedei udunt nac ymlad. na ryfelu.—*Mabinogion*, 193.

Digitized by Google

Didrahâd, *sm.* a ceasing to be arrogant or proud; a divesting of pride or haughtiness.

Didrahau, *v.* to cease to be proud, arrogant, or haughty.

Didrahâus, *a.* not arrogant or haughty.

Didrai, *a.* [trai] never ebbing, failing, or ceasing; ebbless; exhaustless, inexhaustible, unfailing; ceaseless.

Didrai foliant Duw da farant dioferedd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 461.

Cael awr brudd, a'i lludd yn llai
Yw d' edrych i'th wên *didrai.*
Dafydd o'r Nant: Cyfr. y Beirdd, 141.

O annherfynol fôr *didrai!*—*W. Williams:* Hymnau, dcclxi. 3 (cf. lxxxvii. 2; dccix. 3).

Neu Hydref ffrwythlon yn coroni dyn
Ag amledd *didrai* ei drysorau mad.
Daniel Ddu, 61 (cf. 307).

Didraigl, *a.*=*Didreigl.*

Didraill, *a.* without turning or revolving; without wandering or rambling.

Pregethu sydd yn dadebru, ac yn gosod dyn ar yr iawn ffordd ym mhob gweithred a gwasanaeth ysprydol; hebddo ni allwn ni gadw dim iawn drefn yn *ddidraill,* ond bod yn hylithr beunydd i ystlysu ar ddidro.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 306.

Didrain, *a.* solitary, secluded, lonely; retired. —*M.A.* iii. 123.

Myfyr nad didraul molawd *didrain.*
Llywelyn Fardd: M.A. i. 356.

Cyd adrodd serch â'r ferch fain,
Cyd edrych caeau *didrain.*—*Dafydd ab Gwilym,* cxcv. 33.

Duw a wnaeth ar draeth *di drain*
Lun y gwr â'i law gywrain.—*L. G. Cothi,* III. xiv. 25.

Cyweithas mwynwas mewn lle *didrain,*
Caeth ei gerdd draserch i ferch firain.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 242 (cf. 237, 243).

Yn *ddidrain* y rhai'n a'i rhydd.—*Ieuan Tew Ieuaf.*

Llawlaw hwynt o araf rawd
Trwy Eden crwydrent ar eu *didrain* hwyl.
W. O. Pughe: C.G. xii. 721 (cf. iv. 771).

Wrth grwydraw weithion, ar fy *nidrain* rawd,
Dy lwybrau anial, a dy barthau tlawd.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen y Cymry, 158.

Yn hon ddirgelfa *ddidrain* oll ar saib,
Adgofiwn golled yn fy nyddiau blydd.—*Caerfallwch.*

Ef ar ei *ddidrain* hwyl a gasglai ddyeg,
Gan ias awenawl, odd y blodau tedd.
Gwyneddion (1839), 141.

Hwy aent drwy Eden ar eu *didrain* hynt.
I. D. Ffraid: Coll Gwynfa, xii. 761.

Didrain, *sm.* a solitary or secluded place; a solitude; a waste.

Brân a gânt chwedl yn *nidrain,*
Ac o bell clywid ei sain:
Gorfydd dewr ar bob dichwain.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 99.

Dinas fawr, didrain mawr, magna civitas magna solitudo.
Ms.

Didrais, *a.* without violence, oppression, or rapacity.

Cyd cefais, *ddidrais* ddwy-drin,
Heiniar mawl, hwn ar ei min.
D. ab Gwilym, ccii. 37 (cf. ccxxviii. 17).

Rhianod dihalog yn tramwy yn *ddidrais* trwy lu o filwyr.
G. Mechain: Gwaith, ii. 61 (cf. 33, 72, 97, 159).

Didrallod, *a.* without distress or adversity.

Caniadydd call *didrallod*
Wrth dân glo caf yno fod.—*Iolo Morganwg.*

Didrallodawl, } *a.* without distress, trouble, or
Didrallodus, } adversity; untroubled.

Didrallodi, *v.* to relieve from distress.

Didrallodiad, -au, *sm.* a ceasing to distress or afflict; a relieving from distress.

Didramgwydd, *a.* 1. not falling or stumbling; free from stumbling or tripping; sure-footed.

Ef a welei varchawc yn dyuot yr porth allan y hela y ar balffre gloewdu ffroenuoll ymdeithic. a rygig wastatualch escutlym *didramgwyd* gantaw.—*Mabinogion,* 234.

Nyt ar y draet yd ymlityei y brenhin yr ychenn. namyn o eisted y mywn kadeir o eur a deu vul gadarn yny harwein o bop tu idi. yn diffleis *didramgwyd.*
Ystoria Charles, 7 (cf. 14).

Kytneit kynnivyeit kynniviat argluyd
Didramguyd o dromgat.
Cynddelw: M.A. i. 242 (cf. 284, 413).

2. without offence, inoffensive, unoffending; void of offence.

Meu foli Crist Celi culwydd
Mawr foliant didrawd *didramgwydd.*
Dafydd Benfras: M.A. i. 311 (cf. 342, 500).

Fel y byddoch bur a *didramgwydd* hyd ddydd Crist.
Phil. i. 10.

Yr hyn ni ddichon ond rhai ei gadw yn ddieniwed ac yn *ddidramgwydd.*—*Ed. James:* Hom. ii. 132.

Nid yw gyffelybol y gallai lywodraeth yn y byd sefyll cyhyd yn *ddidramgwydd.*—*Ed. Samuel:* Grotius, i. 12.

Eu hymddygiadau *didramgwydd,* eu gofal am y cleifion, eu sel yn pregethu, a'u parodrwydd i ddysgu, a ynnillodd iddynt ffafr a chefnogrwydd.—*Brutus:* Brut. 388.

Arweinia blentyn tirion hyd
Fforddd hyfryd diniweidrwydd;
Gwisg goron o ogoniant glân
Ar egwan ddyn *didramgwydd.*
Th. Ll. Jones: Ceinion Awen, 189.

Didramgwyddo, *v.* not to fall or stumble; not to offend; to remove an offence.

Didramgwyddol, *a.* not falling or stumbling; not offending, unoffending, offenceless.

Didramwy, *a.* unfrequented, rarely visited.

Didramwyad, } *a.* seldom resorted to; un-
Didramwyaeth, } frequented.

Didramwyad, -au, *sm.* a ceasing to frequent.

Didramwyaid, *a.* without frequenters, unfrequented.

Sef a gafas yn y chyghor ffo y ynyalwch a diffeithwch *didramwyeit.* ac ymadaw ar kyfannedeu.—*Mabinogion,* 193.

Didramwyo, *v.* to cease to frequent; not to resort.

Didramwyol, *a.* ceasing to frequent; not frequenting.

Didran, *a.* limitless, unbounded; endless; immense.

Llawenydd cân a fedda y fath rym,
Dygyrcha i fy meddwl fyd *didran,*
Gan agor cellau cudd yr enaid llym
Gyda delweddau ban.
Th. Lloyd Jones (Gwenffrwd), i'r Môr.

Didranc, *pl.* didrainc, *a.* [tranc] ever-during; deathless; endless, everlasting; incessant.

Yn dengmlwyt hylwyt hylauar
Yn *didranc* y gyfranc ae gar.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 296 (cf. 481).

Heddiw 'n *ddidraink* heddiw 'n ieuainge heddiw 'r neued
Heddiw'n feilchion a doe gysson ni dangoged.
Gronwy Ddu: M.A. 509 (cf. 474).

Ac or rheini 100 cyfnewidiol bob awr or 24 yn y dydd ar nos yn parhau mewn gweddieu a gwasanaeth i Dduw yn *ddidranc* ddiorphwys.—*Triocdd:* M.A. ii. 17.

Credwch yn ddifrif . . . y gwna efe ef yn gyfranog o'i *ddidranc* deyrnas.—*Ll. G. Gyffredin* (Bedydd).

Dan haul cyflawnder, boed i ni
Gael dydd *di dranc* dy deyrnas di.
Iolo Morganwg: Salm. I. clxxxiv. 4.

Ym Mab Duw y mae bywyd *didranc;*
Ym mywyd *didranc* y mae gwynfyd.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 109 (cf. 10, 34).

Digitized by Google

Ac yn hyny cyflawnder pob daioni, o wybodaeth, gwirionedd, a chariad, a bywydoldeb *didranc*.
Barddas, i. 242 (cf. 284).

Ac yn ol y blinfyd hwn, y cawn feddiannu *didranc* fendith, a gogoniant nefol.
Ed. Iames: Hom. i. 12 (cf. 78, 98, 99, 113, 135).

Rhag myn'd i'r poen *didranc*, fel annoeth un ieuanc,
Neu hen-lanc, dwy grafranc, digrefydd.
Edw. Richard: Bugeilgerdd, i. 29.

Didrancedd, *sm.* endlessness, endless duration, everlastingness.

Didrancedig, *a.*=*Didranc.*

Nes y chwyddo o ras i ogoniant, o ddaiar i nef, o ddyledswydd i wobr, nes o ddechreuad serch ammherffaith ac egin bychain o hoffder, y tyfo i gyflawn berffeithrwydd *didrancedig* a thragwyddol gariad.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 259.

Didras, *a.* [tras] unrelated, unallied; without kindred, relationship, or affinity; not akin.

Dedryd y deuddeg *didras*.—*Lewys Mon.*

Didrasedd, *sm.* the state of being unrelated.

Didraserch, *a.* [traserch] without excess of love or affection; without fondness.

Didraserchiad, -au, *sm.* a ceasing to be very affectionate; a ceasing to love.

Didraserchol, *a.* not very fond or affectionate.

Didraserchu, *v.* to cease to be fond.

Didrasiad, -au, *sm.* a divesting of kindred, relationship, or alliance.

Didrasu, *v.* to divest of relationship; to disconnect.

Didraul, *a.* [traul] without wear, waste, or diminution; without expense or outlay; free of expense; without charge; unworn; undiminished.

O byt arkefreu ydhy hytheu byt hunnu en *ditreul* hit empen y seyth blenet.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 88 (cf. ii. 598).

Lleuuer eiry *didreul* neu heul yn haf.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 295 (cf. 246, 356, 540).

Cyn bod yr haul *di draul* draw,
Wawl enwog, yn olwynaw,
Yr oeddit ti, wir Dduw Tad,
Yn Awdwr dinewidiad.—*Dafydd Ionawr*, 49.

Y mau ganiadau hoew-deg,
Fal di, afon Deifi deg,
Yn *ddi draul* tra fal haul haf,
A beraint fyth yn buraf.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 55.

Byw trwy bob bywyd, llenwi'r holl daen maith,
Lledu'n ddiraniad, *didraul* yn ei waith
Robert Owen: Gwaith, 272.

Eu hoed ac enwau torid yn *ddidraul*,
Heb farddwaith hybleth o ganmoliaeth dawn.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 181.

Didraw, *a.* without a directing impulse or motion; without a guide or leader; erratic, wandering, rambling.

Didraw, *sm.* a wandering, a ramble.

Didraw aeth dry, aeth o dref,
Wedi *didraw* daw adref.—*Ieuan Rhaiadr.*

Didrawd, *a.* without currency, uncurrent; settled, fixed.

Caer ehang ehofyn y chiudaut
Ny chyvret y phobyl a phechaut
Caer ar heul caer didreul *didraut*
Caer bellglaer o bellglot adaut.
Cynddelw: M.A. i. 246 (cf. 311).

Didrawiad, -au, *sm.* a being without impulse.

Didrawiad, *a.* without a turn.

Didraws, *a.* not cross; not froward or overbearing.

Didraws weled dy drosolion.—*Sion Brwynog.*

Didrawsder, *a.* not cross, froward, or refractory.

Goreu pob ymddwyn, ymddwyn yn *ddidrawsder*.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 92.

Didrawsddadl, *a.* categorical; express.

Didrawu, *v.* to cease to impel.

Didref, *a.* [tref: Ir. *dithreb*] without a dwelling, houseless; deserted, uninhabited.

Tri brodyr camwaith: ariannog; *didref;* a diglod.
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 275.

Didrefiad, -au, *sm.* a deserting.

Didrefn, *a.* orderless, disorderly; without order or regularity; irregular, confused.

'Wel, dyma yr agendor fawr sy rhwng Abraham a Deifies,' ebr ef, 'a elwir y Gymmysgfa *Ddidrefn*.'
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 72.

Oddi yma y cafodd Linus, a Hesiod, a llawer o'r Groegiaid, hanes yr Afluniaidd *didrefn*.
Edward Samuel: Grotius, i. 16.

Y mae ein natur mor belled oddi wrth fod yn berffaith, fel mai'r peth truenusaf, mwyaf *didrefn* yn yr holl fyd ydyw; pentwr *didrefn*, lle mae'r cnawd a'r rheswm, yr anifail a'r dyn, wedi eu cymmysgu yng nghyd heb ddim trefn.—*Iosua Tomas:* Buch. Grist. 38 (cf. 245).

Dyn didrefn iawn yw, he is a very irregular, disorderly, or untidy man.

Mae ganddo beth didrefn o eiddo, he has got an immense deal of wealth.

Didrefnedd, *sm.* disorder, irregularity; confusion.

Didrefniad, -au, *sm.* a disordering, a discomposing.

Didrefnol, *a.* putting out of order; discomposing, disordering.

Didrefnu, *v.* to put out of order; to disarrange, to discompose, to confuse.

Didrefnus, *a.* disorderly, discomposed, disarranged, irregular; untidy.

Didrefol, *a.* uninhabited, deserted.

Didreftâd, **Didreftadaeth,** *a.* [treftâd] without a patrimony or inheritance.

Didreftadaeth, -au, *sf.* disinherison; the state of being disinherited.

Didreftadiad, -au, *sm.* a disinheriting, disinherison.

Didreftadu, *v.* to disinherit; to deprive or an inheritance or patrimony.

Miui ae gwneuthum ef yn dreftadawc. ac ynteu yssyd ym *didreftadu* ineu.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 89.

Llyma nith ym yr honn yd ys yn y *didreftadu*. ac ny allafi idi hi chweith nerth.—*St. Greal*, 128 (cf. 27).

Ac en er amser hwnnw ed oed en Ruveyn gwr enwyr creulawn en amherawdder. ac esef oed hwnnw Maxen creulon. ac esef a wnaey *dytreftadu* e vonhedygyon ar dyledogyon.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 208.

Didreftadydd, -ion, *sm.* one who disinherits.

Didrefu, *v.* [didref] to deprive of a dwelling; to desolate, to devastate.

Didrefwr, wyr, *sm.*=*Didryfwr.*

Didreigl, *a.* having no turning or rolling; not wandering or roving.

Didreiglad, -au, *sm.* a ceasing to roll or to wander.

Didreiglawl, *a.* not revolving; not roving or wandering; still, quiet.

Digitized by Google

Didreinio, *v.* [didrain] to leave alone, solitary, or unattended; to forsake or abandon.

Du meddiannus, un llwyddiannus,
Du oedranus nis *didreinir*.—*L. G. Cothi*, II. i. 113.

Didreisiad, -au, *sm.* a ceasing to use force or violence.

Didreisio, *v.* not to violate; to cease to violate.

Didreisiol, *a.* not usurping or rapacious; not apt to take by force or violence.

Didremyg, *a.* without contempt or disparagement.

Didremygiad, -au, *sm.* a not contemning or disparaging.

Didremygu, *v.* to cease to despise or contemn.

Didres, *a.* [tres] without trouble, toil, labour, or pains.

Ef milwr ar vilwyr *didres*
Ae uilyoet kyhoet kyuaeres.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 284.

Amgylch llyw *didres* dwydreul gyfrwg.
Einion ab Madog: M.A. i. 393 (cf. 284).

Didresawr, orion, *sm.* one detached from business or worldly affairs.—*P.*

Didresiad, -au, *sm.* a ceasing to toil or bustle.

Didresol, *a.* not toiling or bustling, unlaborious.

Didresrwydd, *sm.* freedom from toil or bustle.

Didresu, *v.* to cease from toil, bustle, or labour.

Didreth, *a.* exempt from tax, rate, or tribute; untributary, untaxed.

Anryved yw Wlkessar meynt chwant a chybydyaeth gwyr Ruveyn kanys rac meynt sychet arnadunt eur ac aryant na allant dyodef en bot ny megys odyeythyr y byt yn dyodef perygleu yr Eigiawn heb kan ryvygu kymell swllt a tretheu arnam. or lle a ar rykynnalyassam ny eyryoet yn ryd *dydreth* hedwch hyt hyn.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 173 (cf. 535, 547).

E ddygwyddodd i feddwl y tywysog yma, gwr synwyrol a doeth, ac un a oedd yn bwriadu yn rhagorol lesiant ei ddeiliaid, i chwilio allan ryw gymhwysder i adfywio ac i amlhau y marsiandïaeth, ac annog cenedloedd ereill cyfagos i negeseua ac i farchnata yn eu plith hwy, trwy bob math o rydd-did a thrwydded *ddidreth*.
W. Lewes: Dwy Daith, 153.

Nid oes i ni felly yn awr, ond llewyrch ser a lleuad yn *ddidreth*.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 66 (cf. 69, 71).

A *didreth* y daw adref,
Os llwydda 'i lân amcan ef.
Dafydd Ddu Eryri: Corff y Gainc, 61.

Didrethadwy, *a.* not taxable, not ratable.

Didrethiad, -au, *sm.* a being untaxed; a freeing from taxation.

Didrethol, *a.* free from taxation, untaxed.

A'i amcan hyn a ddiogelodd trwy gynnifer o drwyddedau *didrethol*, ac a driniai y rhai a ddelent mor gariadus, nes ymgynnull o bobl yno o bob parthau'r byd.
W. Lewes: Dwy Daith, 153.

Didrethu, *v.* to free from taxes or rates.

Didreuliad, -au, *sm.* a ceasing to diminish; a being unconsumed or unwasted.

Didreuliedig, *pt.a.* unconsumed; unworn.

Didreulio, *v.* [didraul] to save from being consumed, expended, or wasted; to save expense or cost.

Dodi'r wyl, i'm *didreuliaw*,
Drŏell aur ar dor y llaw.—*L. G. Cothi*, IV. xxi. 31.

Didri, *sm.* perplexity, distress, distraction, embarrassment; a nonplus.

Eglwyswr, sy'n hoffi eich dadredd o'ch *didri*.
Rhys Prichard: C. y C. i. (2), 26 (cf. lix. (3), 7.

Dydd dy ddidri, the day of thy distress or tribulation.

Didrigfan, *a.* without a home, dwelling, or habitation, homeless.

Didrigiad, -au, } *sm.* a being without a dwel-
Didrigiant, } ling; nonresidence.

Didrigian, *a.* uninhabited, unsettled.

Didrigiedig, *pt.a.* uninhabited.

Didrigle, *a.* without a dwelling-place.

Didrigo, *v.* to cease to dwell or inhabit.

Didrigolion, *a.* without inhabitants, uninhabited.

Ar hyn troisom oddi wrth y Byd bach, a thros y cyfwng ymollyngasom i'r Wlad Dragwyddol, rhwng y ddau lys, i'r gwagle hyll; anferth wlad ddofn iawn a thywyll, didrefn a *didrigolion*.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 72.

A Gwynfa yr Ynfydion gelwid hon,
Diwybod prin i neb hir wedi, ond
Yn *ddidrigolion* weithion yw a llom.
W. O. Pughe: C.G. iii. 542.

Didriniad, } *a.* without cultivation, uncul-
Didriniaeth, } tivated.

Cyfryw ydyw buchedd pobl ddiofal; yn *ddidriniaeth*, ddidrefn.—*Nicander:* Dysga Farw, 201.

Didrinio, *v.* to cease to cultivate.

Didriniol, *a.* not apt or disposed to cultivate.

Didripiedig, *a.* not tripped; that cannot be upset or supplanted.

O herwydd na fedrwch roddi trosoch un rheswm *didripiedig*, farw o Grist drosoch chwi yn neillduol.
Robert Llwyd: Llwybr Hyffordd, 285.

Didrist, } *a.* [trist] not sad or sorrowful;
Didristwch, } without sadness or grief; griefless.

Donyauc *didrist* Grist groes rinuedawl.
Elidir Sais: M.A. i. 354 (cf. 440, 490).

Meir a mam a chwaer glaer eglurаf
Wyt i Grist *didrist* didranc waesaf.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 474 (cf. 490, 473).

Didrist y deui adref;
Down i Gaer, dy win a gaf.
L. G. Cothi, IV. xix. 23 (cf. I. xvii. 19).

Myned i'r lle croged Crist,
Cyd boed y ddeudroed *ddidrist*.—*Iolo Goch*, i Ddewi Sant.

Dywedwch dedwyddwch doed iddi, heddwch
Didristwch da drosti.—*D. Davis:* Telyn Dewi, 172.

Gostwng dy glust at y tlawd yn *ddidrist*.—*Eccl.* iv. 8.

Hi helpa ddyn *didrist* fyn'd adre'.
Edward Richard: Cân y Bont, i. 3.

Er coffa'r trydydd *didrist*
Y gorchfygodd Crist yr angeu.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 354 (cf. 365).

Didrist, *sf.* borage (*Borago*): also called *bronwerth*, *llawenlys*, *glesyn*, and *tafod yr ych*.

Didro, *a.* [di-+tro] without a turn, undeviating, direct, straight.

Myned mae adduned ddain,
Lles yw, tua Llys Owain;
Yno yn *ddidro* ydd af,
Nid drwg, ac yno trigaf.—*Iolo Goch:* G.B.C. 75.

Hi aeth i'r nef, dref *ddi dro*,
Huw ei hunan sy heno.—*L. G. Cothi.* VII. iv. 21.

Didro, *sm.* [dy-+tro] a turning aside, straying, or wandering; deviation; error.

Digitized by Google

Ceisiwn, os chwennychwn nef,
O'n *didro* fyned adref.—*I. B. Hir:* Gwaith, 117.

O *ddidro* mawr ein gwyniau ffol
Mae'n Tad, ein Duw, 'n ein galw yn ol.
Iolo Morganwg: Salm. II. xxv. 2.

Ar ddidro, astray, wandering; out of the right way; away from the proper path; in error.

Diolwch y Duw a wnaethant. y Gwr ny at yn ryhir *ar* gyfeilyorn a *didro* a ymdiretto ac a ymgeissyont ymwelet drwy garyat kywir.—*Amlyn ac Amig*, col. 1094.

Tori ar draws tir i'r dref,
Ar ddidro, cyrhaedd adref.—*Gronwy Owain*, 8.

Nyni a giliasom beth *ar ddidro* oddi wrth y destun oedd genym mewn llaw.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 397 (cf. 306).

Ar ddidro 'm mhell y bûm yn hir,
Hyd ddyrys dir y deillion.—*Iolo Morganwg:* Salm. II. xi. 1.

Yr oedd [Ieroboam] gwedi arwain y bobl *ar ddidro* oddi wrth ffynnon y dyfroedd byw.—*Brutus:* Brut. 470.

Myned ar ddidro, to go astray; to wander; to go in or into error; to err.

Yr hein am y gwirionedd *aethant ar* gyfeiliorn [**ddydro*].—*W. Salesbury:* 2 Tim. ii. 18 (cf. Matt. xxii. 29; Marc xii. 24; 1 Tim. vi. 10).

Canys yr oeddech megys defaid yn *myn'd ar ddidro* [**gyfeilliorn, ddiwanfa, ddisperod*]: eithr yn awr chwi a droisoch at fugail ac esgob eich eneidiau.
Esg. R. Davies: 1 Pedr ii. 25 (cf. Iago i. 16; v. 19).

Yr ydym ni yn ddefaid gwedy *myn'd ar ddidro*, ac o'n nerth ein hunain, ni allwn ni ddyfod i'r gorlan eilwaith.
Edward James: Hom. i. 21.

Tynu ar ddidro, to lead astray; to draw from the right way, path, or course.

Didro, *a.* [dy- + tro] devious, wandering, straying, erring, astray.

Tithau yr enaid paid nam pedych
Tro o ffyrdd *didro* yd tra geffych.
Madog ab Gwallter: M.A. i. 404.

A'r Yspryd sy'n doedyd yn eglur, yr ymedy rhai yn yr amseroedd diwaethaf o'r ffydd, er ystyrio ysprydoedd cyfeiliornus [**dydro*, crwydrog] a dysgeidiaethau cythreuliaid.—*Esgob Richard Davies:* 1 Tim. iv. 1.

Didroad, -au, *sm.* 1. a ceasing to turn.—*P.* 2. deviation, a turning aside.

Didroawl, *a.* not tending to turn.—*P.*

Didroed, *a.* [troed] without a foot, without feet, footless; without a stand.

Didröedig, *a.* [didroi] unturned; untwisted.

Ys da adail gosodedig
Ydyw'r adail *didröedig*.—*L. G. Cothi*, III. xxvii. 69.

Didroedio, *v.* to throw off the feet; to trip.

Didrofa, *a.* without a turn; straight; unperverted.

Didrofaol, } *a.* not apt to be turning; not
Didrofäus, } apt to pervert.

Didrofäu, *v.* to cease to turn or pervert.

Didroi, *v.* to turn away, astray, or aside.

Didrist wyf, ffleiddwyf ffo,
Didrist Gwerfyl a'm *didro!*
Gr. Gryg (D. ab Gwilym, cxxiv. 49).

Di droi yn ol, not to be turned back, repelled, or averted; irresistible; unswerving.

Didrosedd, *a.* without transgression; free from crime.

Drwy Iesu mawr, *didrosedd*
Yw'r byd mwyn hyfryd mewn hedd.—*Dafydd Ionawr*, 318.

Didroseddiad, *a.* without transgression.

Nis gwyddom amcan i ba bwrpas yr ordeiniai Crist y cyfryw rinwedd a hon, a hithau agos yn ddiles i'r byd yma yn ammod anghenrheidiol *ddidroseddiad* o'n dedwyddwch.
Th. Williams: Ym. Bucheddol, 90.

Didrosglwyddo, *v.* to cease to transport or convey.

Didrosi, *v.* not to convey; not to expel; not to throw off.

Grymmus diwael hael hwyl *didrossi*
Greir torf corf ciwdawd gwasgawd gwisgi.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 448.

Didru, *a.* [tru] not miserable or pitiable.

Didrugar, } *a.* without mercy, merciless,
Didrugaredd, } unmerciful, uncompassionate, unpitiful, unpitying.

Efe au lladdawdd eill dau er dial galanas ei ewythr Bleddyn ab Cynfyn, a gwaith *didrugaredd* oedd hynny, canys tywysogion o fraint a chyflawnder oeddynt.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 521 (cf. 530).

Digter *didrugaredd* a barhaodd hyd y diwedd i'r annuwiolion.—*Doeth.* xix. 1.

Barn *ddidrugaredd* fydd i'r hwn ni wnaeth drugaredd.
Iago ii. 13.

Oni ddylai y naill bechadur faddeu i'r llall, a Christ, yr hwn nid oedd bechadur, yn gweddïo ar ei Dad dros y rhai yn *ddidrugaredd* ac yn drahäus a'i dodasant ef i angeu!
Ed. James: Hom. i. 185 (cf. 26).

Didrugarog, *a.* not merciful or compassionate, unmerciful, merciless.

Didruth, *a.* [truth] without flattery or adultation; unflattering; sincere, unfeigned.

Efe a ganiatäwys i'r colomenod, fyth ar ol hyny, y caent helfu yng nghyd er amddiffyn eu hunain [rhag] a'i casäai, ac a'i perchis o hyny allan yn erfawr am eu *didruth* wirionedd.—*Iolo Mss.* 173.

Didrwc, *a.* without any mischance, mishap, misfortune, or ill-luck; free from an evil or cross accident; uninterrupted.

Gwynfydu bydd ganfod bai,
Llwyddiant *di drwc* a'i lladdai.—*Gronwy Owain*, 110.

¶ *Didrwc* or *di drwc* (which may possibly be a corruption of *didrwch*) is a word in common use in Anglesey; but the only known instance of it in literature occurs in the preceding quotation, the author of which was a native of that island.

Didrwch, *a.* 1. not disastrous, unlucky, or unfortunate; harmless, innocent.

Didrwch berchenog deudroed
Meinion, cydymdeithion coed.
Dafydd ab Gwilym, clxxxix. 29.

2. uninterrupted, incessant, continual.

Gwelwch fel y rhed yn glau
Risialaidd ffrydiau gloewon
Wrth fin y ffordd, er mawr *ddidrwch*
Ddiddanwch pererinion.—*Taith y Pererin* (1771), 142.

Didrwm, *m.* } *a.* not heavy or ponderous; not
Didrom, *f.* } clumsy.

Bwa latrwm, *didrwm* draed.—*D. ab Gwilym*, clxxxii. 41.

Rhoist ym' farch teirblwydd *didrwm* didramgwydd.
L. G. Cothi, III. xxvi. 31.

Archaf tra fo'r pla 'n ein plith,
O'th fwynder fyth ddwy fendith . . .
I wael dwl lef o wlad lom,
A'i waedd adref yn *ddidrom*.—*Seren Gomer*, iii. 83.

Didrwsgl, *m.* } *a.* not awkward, clumsy, or un-
Didrosgl, *f.* } skilful.

Fe ellir hyny yn *ddidrwsgl* ganiadaeth, a chyda hyn o fodd, hawdd iawn yw cadw a chynnal synwyr a chrebwyll a myfyrdod.—*Cyfrinach y Beirdd*, 107.

Didrwsio, *v.* to undress, to disrobe; to strip; to deprive; to make bare or destitute.

Fal arth rhydd, gwae'r dydd y daw!
Yn dreisiwr i'n *didrwsiaw*.—*Iolo Morganwg.*

Digitized by Google

Didrwst, *a.* noiseless, not clamorous or noisy.

Ef a'u dryllia hwynt i lawr yn *ddidrwst*, ac a'u sigl hwynt o'r sylfaen.—*Doeth.* iv. 19.

Didrwst ni bu mo'm deudroed
Ym mhen un calan o'm hoed.—*Gronwy Owain*, 40.

Didrwyadl, *a.* not thorough.

Och blaenau, rhag eich blino
A'm rhuad *ddidrwyad*' dro.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 229.

Didrwydded, *a.* without freedom of egress and ingress; without license.

Didrwyddediad, -au, *sm.* a divesting of freedom; lack of freedom.

Didrwyddedog, *a.* not licensed; void of liberty.

Didrwyddedu, *v.* to divest of freedom, license, or permission.

Didrybestawd, *a.* without bustling.

Didrychiad, -au, *sm.* a being unbroken or unfractured.

Didrychineb, *a.* without calamity or disaster.

Didrychol, *a.* [didrwch] not apt to be unlucky or unfortunate.

Didrydar, *a.* without chatter, din, clamour, or tumult.

Didryf, *a.* [=didref: cf. Ir. *dithreb*] solitary; retired, sequestered; hermitical, recluse.

Atwyn *didryf* ewic ac elein.—*Taliesin:* A.B. ii. 117 (cf. 9).

Ail wydle *didrif* didwrf gyflaw.
Gwalchmai: M.A. i. 195 (cf. 193, 430).

Hyd dy adwyon y cors-edn y sydd
Yn gwylio'i *ddidryf* nyth ag oerlais prudd.
Th. Lloyd Jones: Ceimion Awen, 156 (cf. 167, 174).

Seren y maith a *didryf* drain
O foroedd dwfn ar gylch y byd,
Oedd syn i forwyr canfod glain
Dy oleu ter, a llewyrch pryd.—*Cylchgrawn*, i. 370.

Dewisai rawd hyd ael yr uchel fryn,
Drwy flodau'r grug, a hulia'r *ddidryf* fan.
Th. Lloyd Jones: Goronwy Fardd, 12.

Didryf, -iaid, *sm.* a solitary, a recluse, a hermit.

O ul ororion y llewinawl wawl
Y *didryf* crwydrawl a effroai fâr brwydr.
W. O. Pughe: Palestina, 30 (cf. 27).

Pedr Ddidryf, Peter the Hermit. See s.v. *Cristionig.*

Didryf, -oedd, *sm.* a solitary place, a solitude; a wilderness, a desert.

Gwell oed gantaw bot yn didrifwr a buchedu yn y *didryf* no bot yn archescob.—*1st. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 203.

Gorlas gwellt *didrif* dwfyr neud iesin
Gordyar eaws awdyl gynnefin.—*Gwalchmai:* M.A. i. 193.

Pan ddaeth gyntaf i'r *didryf* y cafas aflonyddwch yn y cnawd.—*D.*

Hir yw cylch cylchwy *didryf*,
A hy yw'r cariad a'i hyf.—*D. ab Gwilym*, ccxiii. 25.

Didryfaeth, } -au, *sf.* a hermit's life; asceti-
Didryflaeth, } cism; austerity.

Didryfaidd, *a.* somewhat solitary, lonely, recluse, or retired; ascetic.

Didryfiad, -au, *sm.* a being without habitation; a making solitary.

Didryfle, -oedd, *sm.* a solitary or recluse place; a hermitage.

Dihafal gariad mewn *didryfle* blys.
W. O. Pughe: C.G. iii. 75.

Didryfol, *a.* hermitical, recluse, solitary; ascetic.

Didryfu, *v.* to lead a hermit's life; to live in solitude; to become solitary.

Didryfwr, wyr, } *sm.* one who leads a solitary
Didryfydd, -ion, } life; a solitary, a recluse, a hermit, an ascetic.

A hyt y dinas hwnnw y dathoedynt o bop gwlat yg Kymry oll myneich aneiryf nifer o nadunt a *didrifwyr*.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 238 (cf. 203).

A hyt e dinas hwnw e doethoedynt o pop gwlat eg Kymru oll meneich o aneirif niver onadunt a *dydrywyr*. ac en vwyaf o dinas Bangor.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 365.

Dyfrig a ymadawes â'i archesgobawd, a myned yn *ddidryfwr*.—*D.*

Angel a ymddangoses i'r *didryfwr*.—*D.*

Ym mha lecedd y mae y *didryfwyr* yn trigo.
Ed. Williams: Cyneirlyfr, 304.

Didrymder, *a.* without heaviness.—*M.A.* i. 475.

Fy amser *didrymder* draw,
O'th olud, sydd i'th ddwylaw.
W. Midleton: Salm. xxxi. 15.

Didrysor, *a.* without treasure, treasureless.

Ar *didrissaur* gvaur gwenvlad.—*Llyfr Du:* A.B. ii. 40.

Mae'n wag yr ysgubor, y maes yn *ddidrysor*,
A'r môr yn dygyfor digofaint.
Edward Richard: Bugeilgerdd, ii. 51.

Didrythyll, *a.* not wanton or volatile.

Didrythyllu, *v.* to cease to be wanton.

Didrythyllwch, *sm.* the state of not being wanton.

Didrywedd, *a.* without scent; without instinct.

Didryweddu, *v.* to rid of scent; to divest of instinct.

Diduchan, *a.* without grumbling or murmuring; without groaning or wailing.

Tydecho, dad *diduchan*,
A'i gwnaeth yn llaeth hyd y llan.—*N.*

Didud, *a.* [tud] having no country; banished, exiled.

Didudydd, -ion, *sm.* one who banishes or exiles; a banisher, a transporter.

Cadau *didudyt* cletyf durawc
Cwl clywed [*al.* clywynt, clywyd] cystut ar grut mynawc
Can gertau cyhoet oet arterchawc
O Ygewin barth hyd borth Efrawc.
Meilir: M.A. i. 190 (cf. 191).

Didudd, } *a.* [tudd, tudded] without a cover-
Didudded, } ing or veil, coverless; unveiled.

Diduddediad, -au, *sm.* an uncovering, an unveiling.

Diduddedu, } *v.* to uncover, to unveil, to dis-
Diduddo, } close.

Diduddol, *a.* uncovering, unveiling.

Diduedd, *a.* without partiality or bias; impartial, unbiased; unprejudiced.—*Iago* iii. 17.

Gorchymmyn yr ydwyf . . . gadw o honot y pethau hyn yn *ddiduedd*.—*Esgob Morgan:* 1 Tim. v. 21.

Mae Duw yn derbyn y dysgedig a'r annysgedig . . . gan fod yn *ddiduedd* i bawb oll.—*Edward Iames:* Hom. i. 9.

Bwrw yng nghyd gwbl o hyn, ac ystyria yn *ddiduedd* ynot dy hun, pa un debycaf i ti allu edifarhau, ai yr awr hon, ai yn ol hyn.—*Dr. J. Davies:* Llyfr y Res. II. v. 5.

Glynais, yn dra gofalus, â chydwybod *diduedd*, wrth lythyriaeth, geiriadaeth, a dull yr ymadrodd, fal ag a'u cefais yn llyfrau'r awduron.
Iolo Morganwg: Cyfr. y Beirdd, Rhagdd. 6.

Rhaid i ni yn gyntaf osod ar lawr un rheol a gydnabyddir yn arferedig gan bod barnwyr union, *diduedd*.
Ed. Samuel: Grotius, iii. 1 (cf. 10, 13; ii. 19).

Digitized by Google

Yr ymofynwr rhesymol, ystyriol, a *diduedd*, a genfydd yn eglur, pan ddarlleno y bennod hon.
Ioan Wallter: Dwy Bregeth, 42.

Gorsedd *ddiduedd* ei Dad.—*Dafydd Ionawr*, 311.

Diduedd garwch, *sm.* impartiality.

Tystiolaeth hynod o *ddiduedd garwch* y ddeddf, ydoedd barn yr Arglwydd Mansfield, pan ddirwyodd y diweddar William, Dug Cumberland . . . o ddeng mil o bunnau.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 55.

Diduedd iad, -au, *sm.* a ceasing to be partial; a becoming unbiased.

Diduedd iad, *a.* without inclination, disinclined, indisposed.

Chwi a ganfyddwch . . . eich bod . . . trwy wendid corff, yn *ddiduedd iad* atynt.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 361.

Diduedd og, *a.* unbiased, impartial; having no leaning or partiality.

Diduedd ol, **Diduedd us**, *a.* tending to impartiality; unbiasing; impartial, unbiased.

Y doethineb sydd oddi uchod, yn gyntaf pur ydyw, wedi hyny heddychol, boneddigaidd, hawdd ei thrino, llawn trugaredd, a ffrwythau da, yn *ddiduedd ol*, ac yn ddiragrith.
Esgob Morgan: Iago iii. 17.

Yr wyf yn dymuned bod yn gymmedrol ac yn *ddiduedd ol* i'r creaduriaid hyn oll.—*Lewis Anwyl:* Nefawl Ganllaw, 41.

Mae'n hawdd barnu mai hwy oedd pen-ddysgedigion y deyrnas; a'u barn a gyfrifid mor *ddiduedd ol* a chywir, fel nad oedd rydd i'r pendefig mwyaf o fewn y deyrnas lai na sefyll wrthi.—*Theo. Evans:* D.P.O. 150 (cf. 349).

Diduedd rwydd, *sm.* impartiality; disinclination.

Diduedd rwydd, *a.* disinclined, indisposed.

Os, trwy un gwendid corff . . . y byddwch yn *ddiduedd rwydd* at ddyledswyddau duwiol, ymegnïwch i fywiocäu eich meddwl diog.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 363.

Diduedd u, *v.* to free from bias; to unbias; to become impartial or unbiased.

Diduedd wr, wyr, *sm.* one who unbiases; an impartial person.

Didwf, *a.* [twf] without growth; without vegetation; without increase.

Didwf yw dadl dy gerddawr.—*D. ab Gwilym*, xviii. 41.

Didwg, *a.* [twg, tycio] without prosperity; unsuccessful.

Didwlch, *a.* without a heap or tump.

Didwll, *a.* without a hole, aperture, or opening.

Olygfa ryfedd! dan un fantell fawr
Ddidwll a chanplyg y mae'r ddaiar faith.—*Daniel Ddu*, 54.

Didyllau, without holes.

Mae Bardd Eryri 'r awron, lle trig mewn purion trefn,
A dillad da *didyllau* o'r gorau am ei gefn.
D. Ddu Eryri (Gwaith D. Ionawr, 333).

Didwn, *a.* [twn] without a break or fracture; unbroken, not fractured; whole, complete; continuous; continual; true.

Didwn y eir ual creir cred.—*Prydydd Bychan:* M.A. i. 381.

Cystal ei chael gan hael hwn,
Od ydyw yn rhodd *didwn*.
Dafydd ab Gwilym, xxxvii. 15 (cf. clxii. 6).

Cenwch ei gerdd, clodforwch hwn,
A'i *ddidwn* ryfeddodau.—*Edmund Prys:* Salm. cv. 2.

Cais chwilio'r gair nefolaidd hwn,
Rho'th fryd yn *ddidwn* arno.
Iolo Morganwg: Salmau, i. clxii. 2.

Heb goll yn *ddidwn* hollol;
Heb un o naddun' yn ol.—*Gronwy Owain*, 94.

Y fath dyb . . . a anghefnogid ar unwaith gan brofiad cyffredinol, a chan gasgliadau mwyaf *didwn* y dealltwriaeth.—*Isaac Jones:* Gram. Cym. 83.

Didwrf, **Didwrw**, *a.* without noise, clamour, or uproar; noiseless, silent.

Ail wydle didrif *didwrf* gyflaw.
Gwalchmai: M.A. i. 195.

Gweithiodd yn galed, ond *didwrw*.—*Llan*, Hyd. 20, 1893.

Didwy, *a.* [twy] without order; disarranged.

Didwyad, -au, *sm.* a disarranging, a putting out of order.

Didwyll, *a.* free from deceit, deception, guile, or fraud; guileless; honest, sincere, unfeigned. —*Salm.* xvii. 1; 1 *Pedr* ii. 2.

Caryat *diduyll* a grybwyllaf.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326 (cf. 169).

Hawl ddidawl *ddidwyll* wrda.
Gwerneg: M.A. i. 392 (cf. 326, 344, 393).

A fu was a fai fasach
Ei fryd *didwyll*, a'i bwyll bach!—*D. ab Gwilym*, xxi. 15 (cf. vi. 35; xxx. 61; ccxxxix. 38).

Dysgwn yma hefyd gan anghelwyddog a *didwyll* air Duw—*Edward James:* Hom. i. 139.

Rho di'r un faddeuant i bawb o blant dynion,
Ag y rhoddwn ni'n *ddidwyll* i'n llidiog elynion.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 5 (cf. 39, 123, 124).

Yr wyf yn cyfaddef fod y rhai'n oll yn arwyddion *didwyll*, ac yn sicrwydd anhybus o iechydwriaeth dyn.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 259 (cf. 285).

Didwyll, ar dafod, ydyw,
Uthr o dwyll ar weithred yw.—*Gro. Owain*, 84 (cf. 33).

Hyn yw'r Doethineb sy'n *ddi dwyll*,
Yr unig bwyll diffuant.
Iolo Morganwg: Salm. ii. vii. 8 (cf. ix. 6; lxviii. 2).

Didwyllaid, *a.* free from guile; honest.

Cruplaid *didwyllaid* deillion cynhwynawl
Budd awr ammodawl byddair mudion.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 461.

Didwyllawd, *sm.* the act of undeceiving.

Didwyllawdr, odron, *sm.* one who undeceives.

Didwylledd, **Didwyllder**, **Didwylldra**, *sm.* the state of being free from guile or deception; guilelessness; honesty, sincerity; genuineness.

Pan fyddo ein hymddiried fwyaf yn *nidwylledd* dynion, dyna y pryd yn gyffredin yr ydym yn cael y siomedigaethau mwyaf ynddynt!—*Brutus:* Brutusiana, 174.

Yr oedd hyn hefyd i gael ei wneuthur yng ngwyddfod gweinidogion penaf yr eegobaeth, y rhai oeddynt i farnu am *ddidwylldra* yr edifeiriaid.—*Gwyliedydd*, v. 80.

Didwyllo, *v.* to undeceive; to free from deception, fallacy, or mistake.

Duu llyuyaudyr Creaudyr am *diduyllo*.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326.

Yr wy'n ofni twyllo'm hunan;
O Dduw! *didwylla* fi.—*Emyn.*

Mi a frysiais i'w *didwyllo* mor fuan ag y gadawodd fy nheimladau cyffroedig i mi.—*Blackwell:* Ceinion Alun, 288.

Didwyllodrus, *a.* not deceitful or fraudulent, undeceitful, guileness; honest, unfeigned.

A darfod i ni geisio yn yr Ysgrythyrau Glân *didwyllodrus*, a thynu allan o honynt, fath o ffurf sicr ar Grefydd, dan ddychwelyd drachefn at Brif Eglwys yr hen Dadau a'r Apostolion, sef yw hyny, at y dechreuad a'r drefn gyntaf.—*Morus Cyffin:* Diffyniad, vii. 1.

Didwym, *a.* not warm, cold.

Rwym *didwym* dodi ri rwng daear.
Casnodyn: M.A. i. 426.

Didwyo, *v.* [twyo] to disarrange; to spoil.

Didwyol, *a.* disarranging, deranging.

Didwyth, *a.* having no elasticity, unelastic, not pliant.

Didwythig, **Didwythol**, *a.* unelastic, unpliant; unbending.

Digitized by Google

Didwytho, *v.* to divest of elasticity; to make unpliant.

Didy, *a.* [tŷ] having no house or abode, houseless; homeless.

Didyad, -au, *sm.* a making houseless; ejection, ejectment, eviction.

Didyb, *a.* [tyb] having no idea, opinion, or notion (of); unsuspected; without suspicion.

Mab Gruffudd *didyb* udd dadiain.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 356.

Hyny dywedaf, henw *didyb*,
Honno y sydd dydd o dyb.—*D. ab Gwilym*, lix. 27.

Ef a erchis i Amphimachus fod yn barawd gyda y gwŷr arfawg, canys gellid hyny yn *ddidyb*. . . Ni a anfonwn ar Agamemnon y *didypiaf* o honom. . . Ac yn y lle, yn ddirgeledig erchi a orugant i Bolydamas fyned ar gennadwri ar Agamemnon (canys *didypiaf* oedd), a mynegi iddaw yn honnaid ry annog o honynt i'w brenin wneuthur tangnefedd.—*Ystori Dared*, 89.

Didybio, *v.* not to suspect.

Didybiol, } **Didybus,** } *a.* unsuspicious; unsuspecting.

Didyo, *v.* to unhouse; to deprive or dispossess of a dwelling; to eject, to evict.

Daiar Ial a *ddidywyd;*
Duw a fedd llys Dafydd Llwyd!
Gutyn Owain: G.B.C. 194.

Mal rhyd Berial y'm bwriwyd, eithr
Mud a dieithr y'm *didywyd.*—*L. G. Cothi*, iv. iii. 43.

Duw, yr wyd yn *didyo* 'r iaith;
Doe claddwyd Eog Cloddaith.—*Tudur Aled:* G.B.C. 244.

Didyog, *a.* having no house, abode, or dwelling; ejected, evicted, dispossessed.

Didyol, *a.* tending to deprive of an abode; ejective, evicting; ejected, evicted.

Er fod rhai o'r gweinidogion *didyol* yn fodlon pregethu am ddim, ni oddefid iddynt na phregethu na chadw ysgol yn un man.—*D. Peter:* Hanes Crefydd, 553.

Didyciannol, } **Didyciannus,** } *a.* unprosperous, unsuccessful; unfortunate.

Didyciannu, } **Didycio,** } *v.* to be or become unprosperous; to become abortive; to cease prospering.

Didyciant, *a.* without prosperity, unprosperous.

Didyciol, *a.* not prospering, unprosperous, unsuccessful.

Didyfol, *a.* not growing or vegetating.

Didyfu, *v.* to cease to grow or vegetate.

Didyle, *a.* [tyle] having no elevation or acclivity.

Didylwyth, *a.* having no family or household; without relatives.

Didylwythog, *a.* without family connections.

Didyllog, *a.* having no holes or apertures.

Didymmestl, *a.* without a tempest, not tempestuous.

Didymmestlog, *a.* not tempestuous or stormy.

Didymmestlu, *v.* to become calm; to cease to be tempestuous or stormy.

Didymmyr, *a.* without temperament.

Didyner, *a.* [tyner] not soft, mild, or emollient; unmild.

Didynerol, *a.* not tending to soften.

Didyneru, *v.* to become unmild.

Didynu, *v.* to cease to draw or stretch.

Didyr, *sm.* 'a shedding of tears; sadness.'—*P.*

Aml uch grann o'i hynt Fangor
I'm *didyr* deigr am Dudur.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 441.

Didyr deigr deifr a adafael o'm drem
Am drymed ym' gof-gael
Dodiad hoew Angharad hael
Dan ddaiar,—duon ddwyael!—*D. ab Gwilym*, ccxxxiii. 1.

Didyrfol, *a.* not tumultuous; calm; quiet.

Didyrfu, *v.* to cease from tumult.

Didyst, *a.* without witness.—*Act.* xiv. 17.

Ni adawodd Duw mo hono ei Hun yn *ddidyst.*
G. Mechain: Gwaith, ii. 555.

A hyny, sylwer, fel na byddai dyfodiad a gweithredoedd cyfryngol Crist ddim yn *ddidyst.*
Nicander: Dwyfol Oraclau, 56.

Didywio, *v.* [tyw] to cease to spread out.—*P.*

Didywyll, *a.* not dark; not obscure, unobscured; undisguised.

Pwyll rhag anghof, a gofal,
Pebyll uwch *didywyll* dal.
D. ab Gwilym, lxxxv. 31 (cf. viii. 28).

Wrth bwyll a didwyll dywedi 'n wirion,
Didywyll foddion, didwyll fyddi.
W. Midleton: Salm. xviii. 25.

Didywyllu, *v.* to cease darkening or obscuring.

Didywyn, } **Didywynol,** } *a.* without resplendence or radiance; having no splendour, not resplendent.

Didywynu, *v.* to cease to shine.

Didywysiad, -au, *sm.* a ceasing to lead.

Didywysiad, *a.* without a leading or guidance; unguided.

Didywyso, *v.* to cease to lead.

Didywysol, *a.* not leading or guiding.

Didda, *a.* [ds] without goodness, not good; of no good; worthless, useless, indifferent.

Pan gipio marwolaeth y rhai *didda* at benyd a phrinder tragywyddol, caiff y goruchwylwyr ffyddlon . . . drysor yn y nefoedd.—*Ch. Edwards:* Hanes y Ffydd, 225.

Diddrwg didda, } *Diddrwg ddidda,* } neither bad nor good; neither good nor bad; indifferent.—*C.C.* ii. 410.

Lle y dywedant y gellir goddef delwau mewn eglwysydd a themlau, megys pethau *diddrwg didda*, trwy na addoler hwynt. O'r gwrthwyneb yr ydym ninnau yn dywedyd nad ydyw delwau Duw, ein Iachawdwr Christ, a'r Saint, y rhai a osodir i fynydd, yn gyhoedd yn ein temlau a'n heglwysydd ni . . . nac yn bethau *diddrwg didda*, nac yn bethau a ellid eu goddef.
Ed. Iames: Hom. ii. 90 (cf. 88, 91, 130, 171, 177, 178).

'Dyma,' ebr ef, 'le'r gwŷr a ddisgwylient nef am fod yn ddifalais, sef yn *ddiddrwg ddidda*.'
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 77.

Ymryson tanllyd dros bethau o natur *ddiddrwg ddidda.*
Ios. Tomas: Buch. Grist. 209 (cf. 299).

Os gorchymmynwyd neu os cynnwyswyd dim amgen cyn amser Crist, o'r cyfryw bethau ag sydd o honynt eu hunain yn *ddiddrwg ddidda* . . . nid yw hyny ddim yn erbyn y llyfrau hyn.—*Edward Samuel:* Grotius, iii. 12 (cf. v. 7).

Diddrwg didda megys hen gi.—*Diareb.* (M.A. iii. 153.)

Diddadeni, *a.* unregenerate; unrenewed.

Diddadgudd, } **Diddadguddiad,** } *a.* without a revelation, unrevealed.

Diddadguddiedig, *a.* unrevealed; not disclosed.

Diddadguddio, *v.* to cease to reveal, unfold, or lay open.

Digitized by Google

Diddadguddiol, *a.* not revealing or disclosing.

Diddadl, *a.* without dispute, question, or controversy; unquestionable; incontrovertible; undoubted; not doubtful or dubious; certain. —1 *Tim.* iii. 16.

Ac yn *ddiddadl* y lleiaf a gymmer fendith can y mwyaf.
Esgob R. Davies: Heb. vii. 7.

Mae yn *ddiddadl* nad oedd fodd i'r fath beth mo'r dygwydd gwedi dyfod o Mahomet.
Ed. Samuel: Grotius, vi. 3 (cf. v. 22).

Hyn sydd *ddiddadl* a sicr, fod cyflwr goreu plant Duw yn ol eto.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 130 (cf. 156, 226, 348, 370).

Diddadl yw na chafodd mo'r glod heb ei haeddu.
Gro. Owain, 172 (cf. 260, 306).

Y mae'n *ddiddadl* i'r Cymry ymroddi yn gwbl i Babyddiaeth tua'r ddegfed ganfed o oedran Crist.
Theo. Evans: D.P.O. 268 (cf. 254, 295).

Diddadliad, -au, *sm.* a putting beyond dispute; conviction.

Diddadlu, *v.* to settle or prove beyond doubt or question; to settle, to decide; to convince.

A minnau yn ewyllysio bod ein cydwladwyr gwedi eu harfogi yn erbyn y drygau hyn, ac i'r rhai goreu eu dysg a'u synwyr ymegnïo, hyd eithaf eu gallu, i orfod a *diddadlu* camgymmeriaethau.—*Ed. Samuel:* Grotius, i. 1.

Am y cyndyn a'r hunan-ddigonol . . . pa obaith y sydd yr argyhoeddir neu y *diddadlir* ef â nebryw dystiolaeth ychwaneg a'r a ellir ei dwyn!
Ioan Wallter: Dwy Bregeth, 34.

Megys y mae golwg pob dyn yn dangos anwiredd y naill, felly y *ddiddedlir* y lleill, trwy gydsyniad a chyttundeb cyffredinol pob rhyw genedlaethau Cristionogawl.
Ed. Samuel: Grotius, ii. 19.

Pan gyfarfu'r Apostolion mewn cymmanfa cynghor i *ddiddadlu* defodau Moesen.
Ed. Samuel: Bucheddau yr Apostolion, 171.

Diddagrau, *a.* without tears, tearless.

Eisteddent law yn llaw yn eu deildy, a sonient, gyda llais digyffro, a llygad *diddagrau,* am awr yr ymraniad.
Cylchgrawn, i. 310.

Diddaiariad, -au, *sm.* a divesting of earth; an unearthing; exhumation.

Diddaiarol, *a.* not terrestrial, unearthly.

Diddaiaru, *v.* to divest of earth; to unearth, to exhume.

Diddail, *a.* without leaves, leafless.

Yn lle y coed *diddail* daw palmwydd blodeuaidd.
Gwyliedydd, v. 379.

Diddaioni, *a.* without goodness; of no good; worthless, useless; good for nothing.

O ran ei fod yn beth trwsgl *diddaioni.*—*Y Greal,* 232.

Dyn diddaioni, } a man that does no good; a
Dyn didda, } worthless person.

Diau i *ddyn diddaioni*
Daw uffern dân: deffro di!—*I. B. Hir:* Gwaith, 111.

O *ddynion diddaioni!*
Llwyr groes yw eu moes i mi.—*Dafydd Ionawr,* 166.

Diddal, *a.* [dal, dala] unreliable, fickle, changeable, unstaid, wavering.

Y mae yn cyhoeddi, ac y mae yn profi hefyd, eich bod yn ddynion *diddal* hollol, a bod y grawnsypiau yn felus pe gallech eu cyrhaeddyd.—*Haul,* C.C. ix. 152.

Mor ddiddal a'r gwynt, as changeable as the wind.—*Diareb.*

Di ddal, without stoppage or hinderance.

A *di ddal,* a di ddolur.—*L. G. Cothi,* iv. xxii. 54.

Diddamgylchol, *a.* not surrounded or encompassed.

Diddamgylchu, } *v.* to cease to surround or
Diddamgylchynu, } circumscribe; not to encompass.

Diddamgylchynedig, *pt.a.* not encompassed, uncircumscribed; uncomprehended.

Y daioni hyn, y llawenydd hyn, y cynffwrd hyn, y *ddiddamgylchynedig* beth hyn, ni ellir enwi yn dlyedus ddigon.
Marchog Crwydrad, iii. 1.

Diddammeg, *a.* without a parable; not figurative; plain.

Gwilied dyn broffesu chwaneg
Nag a gafodd yn *ddiddammeg.*
Morgan Llwyd: Gwyddor Uchod, 136.

Diddamwain, *a.* free from accident.

Diddan, *a.* [di- (=dy-) + dân, denu] pleasant, pleasing, delightful, entertaining, diverting, agreeable; cheering, consoling; amusing, merry; alluring, charming, fascinating.

Eisted y rwg deu or milwyr a *didan* gerd a geffy rac dy uron.—*Mabinogion,* 105 (cf. 61, 103).

A chyt boet gwrthwyneb gennyf i rodi vy merch. eissoes *didan* yw gennyf y rodi yr gwas ieuanc hwnn.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. 50 (cf. 55, 123, 473).

Cathl lân a *diddan* yw'r dau,
Gethlydd awenydd winau.
D. ab Gwilym, xcv. 33 (cf. xx. 57; xcix. 57).

Danvoned itaw *ditan* perchi
O nef dec adef adwyn westi.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 272 (cf. 251).

Modd y bai hawsaf dysgu a chofiaw, a *diddanaf* gwrandaw.—*Barddas,* i. 260 (cf. 40).

Nid *diddan* pob llawen.—*Myv. Arch.* iii. 6.

Llawer o'r fath dduwiol addewidion, a geiriau *diddan,* sy genym yn yr Ysgrythyr Lân.—*Huw Lewys:* Perl, 225.

Pa beth a dâl canu a *diddan* brydyddu,
A'm defaid o'm deutu yn llamu wrth y llyn!
Edward Richard: Bugeilgerdd, ii. 4 (cf. 63; i. 32).

Byd hawdd, a bywyd *diddan,* a cherdd a chân.
Gronwy Owain, 44 (cf. 29, 40, 94).

Diddan ydyw cân a dadgenydd mwyn,
A manol gerdd prydydd.—*I. Brydydd Hir:* Gwaith, 50.

Ein cyfeillion a'n cymdeithion digrif *diddan* a fyddai arfer o chwerthin ac o ddifyru'r amser gyda ni.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. v. 18.

Diddan, -ion, -au, *sm.* that which is pleasant, entertaining, or amusive; a pleasantry.

Nachaf y clyw llawer o *didaneu* odidawc. ac amryuaelyon gerdeu.—*Mabinogion,* 98.

Traha ni phara ni pheir *didan*
Trahir dielir dir darogan.
Casnodyn: M.A. i. 428 (cf. 182, 465).

Diddanion, pleasantries; facetiæ; witticisms; amusements.

Diddanadwy, *a.* that may be pleased, amused, or consoled; consolable.

Diddanaidd, *a.* of a pleasing, amusive, or entertaining character.

Diddanedig, *a.* pleased, amused; consoled, comforted.

Ef a'n gwnacthbwyd ni megis *diddanedigion.*
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 509.

Diddangar (*n-g*), *a.* tending to amuse, entertain, or allure; of a consoling tendency.

Diddangarwch, *sm.* the quality of being pleasant or diverting.

Diddaniad, -au, *sm.* a diverting; a comforting or consoling, consolation; recreation, diversion.

Dyro i mi brawf o'r gorfoleddiadau hyfryd, o *ddiddaniadau* anfeidrol dy gariad.
Ed. Samuel: Duwiolsweddau, 18 (cf. 6).

Diddannedd, *a.* [dant, dannedd: Br. *dizant*] without teeth, toothless.

Digitized by Google

Diddanneddiad, -au, *sm.* a dipriving of teeth; dedentition.

Diddanneddu, *v.* to deprive of teeth; to take out the teeth.

Diddannod, *a.* without upbraiding or reproaching; without reproach.

Diddanol, *a.*=*Diddanus.*

Diddanrwydd, } *sm.* pleasantness, agreeable-
Diddanusrwydd, } ness; consolation.

Wedi na wnaeth Duw *diddanrwydd* ym.
Dafydd Benfras: M.A. i. 312.

Diddanu (*ā*), *v.* 1. to divert, amuse, entertain, or delight; to interest.

Arglwyd heb ef myui a orwedaf yma geyr dy vronn di heno, ac ath *didanaf* yny gysgych.—*St. Greal,* ‖ 102.

Ynteu Wydyon goreu kyuarwyd yn y byt oed. ar nos honno *didanu* y llys a wnaeth ar ymdidaneu digrif a chyvarwydyt. yny oed hoff gan bawp or llys. ac yn didan gan Pryderi ymdidan ac ef.—*Mabinogion,* 61 (cf. 122).

Diddeneint edneint adneu goedydd.—*Myv. Arch.* i. 540.

Diben cerdd yw gwelläu deall, helaethu gwybodaeth, gwelläu myfyrdod ac athrylith, a llawenhau'r galon a'r meddwl yn ddibech feddylfryd, a *diddanu*'r bryd a'r ysprydiaeth, a sirioli'r nwyf, a bywiogi arial ac ynni ac awen, heb fod yn achos na drwg feddwl, na drwg foes, na drygnaws, na drygnwyf.—*Cyfrinach y Beirdd,* 19 (cf. 32).

Myfi a fûm, wedi ymadael â chwi, yn crwydro yma a thraw, ac nid oes genyf ddim well i'ch *diddanu* yr awron na hanes o'm hymdaith.—*Ieuan Brydydd Hir:* Gwaith, 204.

Ei ddadgan a'n *diddanai,*
Mal cân adar mân ym Mai.—*I. B. Hir:* Gwaith, 102.

Mae genyt ti ganu, a rhinwedd gyfranu,
Da ddoniau yn *diddanu,* a lloni pob lle.
Edward Richard: Bugeilgerdd, i. 19.

2. to comfort or console; to cheer up; to soothe.

A Phriaf urenhin ac Ecuba y wreic ae kymerth hi megis merch udunt ae *didanu* a wnaethant yn garedic.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 33 (cf. 10, 11, 138).

Er *didhanu* y rhai eidhaw a oedh drist am ei varw.
Lucidar, ‖ 37 (cf. 81).

Fy enaid a wrthododd ei *ddiddanu.*
Salm. lxxvii. 2 (cf. lxxxvi. 17; cxix. 82).

Yn hyn y gallwn weled mawr gariad Duw tuag at ddynion, am iddo ddarparu pethau i gynnorthwyo ein hanghenrheidiau, ac i *ddiddanu* ein synwyrau ni â diddanwch honest gweddaidd.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 206 (cf. 156, 271, 284).

Diddanus, } *a.* entertaining, amusive, diverting,
Diddanol, } pleasing, agreeable; consolatory, comforting, consoling.

Nid ydyw mor ofnadwy (os ystyrir hi yn iawn) ag y mae hi yn *ddiddanus.*—*Ed. Iames:* Hom. i. 120 (cf. 122, 123, 135).

Dylem ni ddodi dychryniadau y dydd hwn gyferbyn â'r olwg *ddiddanus* sydd i ni ym mlaen llaw ar adferiad pob peth.—*Ieremi Owen,* 47.

Wedi y gwelom hyn, ni a allwn yn *ddiddanol* roi'n goglud ar ei Ragluniaeth.—*Ed. Samuel:* Holl Ddyl. Dyn, i. 55.

Telyn fwyn-gan *ddiddanawl.*—*Gronwy Owain,* 5.

Paradwys (lle'r ŷm ni yn prysuru fyned) sydd hyfryd a *diddanus.*—*Theo. Evans:* D.P.O. 341.

Benfelyn ddyn *ddiddanol,*
Mae f' eres neges yn ol.—*Dafydd Ionawr,* 55 (cf. 52).

Diddanwch, *sm.* 1. pleasure, delight, pleasantness, gratification, entertainment, amusement.

Pan elhynt hwy y warandaw kerdeu a *didanwch.* nyt aey ef y gyt ac wynt.—*Mabinogion,* 85 (cf. 21).

Yna y pallawd y holl obeith ae kedernit ac hechyt ae *didanwch* yr holl Vrytanyeit.
Brut y Tywysogion, 76 (cf. 50, 196).

Tripheth a ffrwythlona'r awen: *diddanwch* meddwl; coledd daionus feddwl; a phorthi cof.
Cyfrinach y Beirdd, 44 (cf. 43).

Ni chaf weithian *ddiddanwch*
Yn y byd, ond tristyd trwch.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 96.

2. comfort, consolation, solace; happiness.—*Phil.* ii. 1.

Trwy amynedd a *diddanwch* dy gyssegredig Air.
Ll. G. Gyffredin (2 S. yn Adfent).

Ffrwyth a rhinwedd gair Duw yw, goleuannu y diwybod, a rhoi rhagor o oleu i'r rhai a'i darllenant ef yn ffyddlon ac yn ddyfal, er *diddanwch* i'w calonau.
Ed. Iames: Hom. i. 5 (cf. 12, 127, 133).

Nid rhyfedd gael o hono ef cymmaint *diddanwch* a chodiad gan Dduw yn ol hyny.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. i. 40.

Ynddi mae tragwyddol *ddiddanwch.*
Ed. Iames: Hom. i. 4 (cf. 117, 119, 123).

A ph'le bynnag ni ddichon y galon dderbyn y *diddanwch* hwn . . . yna, yn anghenrheidiol, mae'r profedigaeth a'r dialedd yn drymach.
Huw Lewys: Perl, 25 (cf. 15, 17, 29, 30, 32, 225).

Gan dreulio ein dyddiau mewn mawr *ddiddanwch,* heddwch, a llonyddwch.
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 255 (cf. 119, 122, 270).

Daw i ddyn y *diddanwch*
Yn nefoedd, hoff lysoedd ffwch.—*Gronwy Owain,* 34.

Mab diddanwch, son of consolation.—*Act.* iv. 36.

Diddanwch a chysur, comfort and consolation.

Y mae efe'n colli llonyddwch a llawenydd . . . a'r holl ffafr, a'r ewyllys da, a'r *diddanwch a'r cysur,* y mae'r Yspryd Glân yn arfer o'u danfon ym meddyliau y rhai cyflawn.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. I. vi. 12.

Diddanwr, wyr, } *sm.* 1. one who makes
Diddanydd, -ion, } pleasant or agreeable; one who entertains, an entertainer.

Castellwr, *diddanwr* dyn,
Casulwyrdd edn ceseilwyn.—*D. ab Gwilym,* cx. 7.

2. a comforter, a consoler.

O ba le y ceisiaf *ddiddanwyr* i ti?
Nah. iii. 7 (cf. Galar. i. 16).

Gan wneuthur ei chaseion yn dirion wrthi, a'i herlidwyr yn *ddiddanwyr* iddi.—*Ch. Edwards:* Hanes y Ffydd, 220.

Y Diddanydd, }
Y Diddanwr, } the Comforter, the Paraclete.

Hefyd yr Yspryd Glân, y *Diddanydd.*
Llyfr Gweddi Gyffredin (Te Deum).

A mi a weddïaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi *Ddidanydd* arall.—*Ioan* xiv. 16 (cf. 26; xvi. 7.

Ti yw'n radiwr an *didhanwr* y didhanaf.
Ymborth yr Enaid, ‖ 28.

Rhoi i chwi Achubwr, *Diddanwr,* a'r angylion, a llyfrau, a phregethau, a siamplau da.—*E. Wynn:* Bardd Cwsg, 76.

Y *Diddanwr,* ys ef yw yr Yspryd Glân, yr hwn a ddenfyn y Tad yn fy enw, efe a ddyseg ichwi yr oll bethau, ac a ddwg ar gof i chwi yr oll bethau, a'r a ddywedais ichwi.
W. Salesbury: Ioan xiv. 26 (cf. 16; xvi. 7).

A mi a weddïaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi *Ddiddanwr* arall, i aros gyd â chwi yn dragywyddol.
Esgob Morgan: Ioan xiv. 16.

Yr hwn am ei fod yn rhoddi dioddefgarwch a llawenydd mewn profedigaethau a blinderau, a elwir yn yr Ysgrythyr lân ar enw y *Diddanwr.*
Ed. Iames: Hom. iii. 112 (cf. 107, 114).

¶ *Diddanydd* seems to be of comparatively late formation, otherwise it would probably be *diddenydd,* a form which is not known to occur.

Diddarbod, *a.* improvident, thoughtless, careless, unheedful, heedless, negligent, unconcerned.

Pan welais innau [y Gymraeg] hyny, e fu ryfedd iawn genyf fod y Cymry mor *ddiddarbod* am danaf.
Dr. Gr. Roberts: Gramadeg, Rhag. 3.

Un camwedd a bai gwrthwynebawl i bwylledd, yw ammhwylledd, neu anghalledd, sef gwall ystyr, a bod yn *ddiddarbod* eisieu rhagedrych, ac ystyrio'r peth a fo i'w wneuthur.—*R. Smith:* Eglurhâd, 237.

Digitized by Google

Mor ddiofal, ac mor *ddiddarbod*, ac mor ddifater am ein iechydwriaeth a'n damnedigaeth, yr ydym wedi myned.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. iv. 11 (cf. II. vi. 24).

Felly y gwr duwiol heb y groes, sydd *ddiddarbod*, dwl, a lluddedig.—*Huw Lewys:* Perl, 87.

Diddarbod, *v.*=*Dyddarbod.*

Diddarbodaeth, -au, *sf.* improvidence.

Gwrtheyrn, yr hwn a ddifreiniasid rai blynyddoedd o'r blaen am ei *ddiddarbodaeth* . . . a gas y llywodraeth yn ei law ei hun.—*Theo. Evans:* D.P.O. 107.

Diddarbodaeth, *a.* without providence, improvident.

Diddarbodawl, *a.* improvident, thoughtless.

Diddarbodedd, *sm.* improvidence.

Diddarbodi, *v.* to become improvident, heedless, or careless; to grow or become insensible; to be void of or past feeling.

Y rhai wedi *diddarbodi*, a ymroisant i drythyllwch, i wneuthur pob afleadid yn unchwant.—*Eph.* iv. 19.

Y mae llawer, o hyder ar faddeuant, yn ymddiofalhau, ac yn *diddarbodi*.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 280.

Diddarbodiad, -au, *sm.* a becoming improvident; a ceasing to provide.

Diddarbodrwydd, *sm.* negligence, carelessness, heedlessness.

Y mae amryw ragarwyddion ereill o ddigofaint Duw, er nad ydynt o'r un rhyw; sef y rhai hyn: Anniolchgarwch am yr Efengyl. Camarfer ein hir heddwch. Dirgel gaudduwiaeth. *Diddarbodrwydd* cyffredin. Ein addfedrwydd ym mhob pechod.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 233.

Diddarbodus, *a.* improvident, heedless, careless, neglectful.

Pan geryddo y meistr ei was diog, *diddarbodus*, segurllyd, yno ef a weithia yn ddilysach.—*Huw Lewys:* Perl, 116.

Anghofus am a fu, esgeulus am sydd, a *diddarbodus* ac esgeulus am a ddêl.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 369.

Diddarfod, *a.* endless, ceaseless; perpetual, never-ending, never-ceasing; perennial.

Nid *diddarfod* ond Duw.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 65 (cf. 66).

Drwy ddawn Duw, a'i fawr haelioni, a'i gariad diderfyn a *diddarfod*.—*Barddas*, i. 226.

Ymgyrchwn at y da sylweddol
Y sy'n *ddiddarfod* yn y Nef.
Iolo Morganwg: Salm. II. cxxix. 2.

Bydd dda wrtho, fôr *diddarfod*,
Cysga'n dawel ar dy dywod.
Blackwell: Ceinion Alun, 203.

Yr oedd hon yn gân awgrymiadol o'r gân fawr *ddiddarfod* yn y nef.—*Brutus:* Brutusiana, 160.

Rhaid i chwi gael rhyw beth heb law pleserau darfodedig y llawr, i gyrhaeddyd gwynfydedigrwydd *diddarfod*.
Gwyliedydd, vii. 396.

Rhagflaenydd yr ail farwolaeth, neu arweinydd difeth i resynoldeb *diddarfod*.—*Ios. Harris:* Gweith. 408.

Diddarfodedig, *pt.a.* not perished; imperishable; endless.

Y trysor mawr *diddarfodedig* yma, sef ein heneidiau.
Ed. Samuel: Holl Ddyl. Dyn, ‡ i. 6.

Diddarn, *a.* without a piece or fragment; not pieced; not composed of pieces.

Diammheu yw, mai un peth unig, a *diddarn*, yw enaid dyn.—*R. Smith:* Eglurhâd, 243 (cf. 244, 246).

Diddarnu, *v.* not to break or fracture; to cease to fracture.

Diddarostyngedig, *pt.a.* unsubjected; not subdued.

Oddi yma y rhai sy'n ceisio eu cyflawnder eu hunain a gyfrifir yn wrthwynebwyr i gyflawnder Duw, ac yn *ddiddarostyngedig* iddo.—*Cadwedigaeth trwy Ras* (1791), 83.

Diddarwybod, *a.*=*Diarwybod.*

Nid ynganaf fi ein bod ni y to yr awr hon mor *ddiddarwybod* a dywedyd gwydd dros gwehydd.
W. Salesbury: Dictionary (1547), Rhag. 54.

Diddattod, *a.* that cannot be loosened, untied, unravelled, or disentangled; unsolvable, inexplicable; indissoluble.

Cael ei uno gan rwymau *ddiddattod* â'r gymdeithas druenus hon.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 139.

A feiddiwch chwi, y rhai ni ellwch chwilio y lleiaf o weithredoedd eich Creawdwr heb gael eich hun yng nghanol anhawsdra o gloiau *diddattod*?
Gwallter Mechain: Egl. Olyg. 210.

Diddattodol, *a.* indissoluble; unsolvable.

Gan roddi eu pwys yn ddwys ddewisol
Ar Dduw eu Tad yn *ddiddattodol*.
D. Ddu Eryri: Corff y Gainc, 357.

Diddau, *a.* [dau] without two (opinions); doubtless, unquestionable, certain.

Diddau yw ynt y deuddeg
O'm barn yn y dafarn deg.
Gruffydd Llwyd ab Dafydd: Iolo Mss. 289.

Yn ddiddau, without doubt, certainly.

Ni roent le i annogaeth llid, yr hwn a'u cyffro hwynt i'r fath eiriau neu ddyrnodau geirwon llymion, yr hyn *yn ddiddau* yw hudad diawl.
Ed. Iames: Hom. iii. 168 (cf. i. 109; ii. 97, 274).

Saint Ieuan a ddywad: 'Duw yw Cariad:' drwy yr hyn eirau *yn ddiddau* yr oedd ef yn meddwl y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân, yn Dri Undod.
Marchog Crwydrad, iii. 6 (cf. ii. 2).

Diddawl, *a.*=*Didawl.*

Diddawn, *a.* giftless, unendowed; without endowment or qualification; untalented; graceless; worthless.

Beth o daw, cyn treiaw dawn,
I'w dŷ Eiddig, wr *diddawn*?
D. ab Gwilym, xcvii. 21 (cf. xxxix. 32).

Och, pam y gwnai, ddau ddirmig,
Ddiddawn ddyn, ei Dduw yn ddig!—*Sion Cent.*

Tamberlan, brenin Scythia, yr hwn ydoedd wr ffromwyllt, diddysg, *diddawn*.—*M. Cyffin:* Diff. iv. 15.

Haelionus haul y wiw-nef
Lewygodd, fe dduodd ef
Wel'd T'wysog ardderchog ddawn
Yn dioddef dros ddyn *diddawn*.—*Dafydd Ionawr*, 147.

Burgyniaid o ddynionach dieithr gogleddig (sef yw hyny, camweddawg anfeidrawl) diddysg, *diddawn*.
Dr. I. D. Rhys: Gramadeg, Rhag. 6.

Eiry mynydd llwm brig cawn
Ni chydfydd dedwydd a *diddawn*
Lle ni bo dysg ni bydd dawn.
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 547 (cf. 150).

Diddawr, *a.* and *s.:* see *Dyddawr*, &c.

Diddeall, *a.* without understanding, unintelligent; ignorant, senseless, dull, stupid; meaningless; unintelligible.

Dallaf o'r dall dyn *diddeall*.—*Iolo Mss.* 227.

Casbethau Catwg Ddoeth . . . canllaw *diddeall*.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 10 (cf. 11, 257).

Nid yn unig sisial eu gwasanaeth y maent mewn lleferydd isel, afrwydd, namyn hefyd mewn iaith ddieithr, *ddiddeall*.—*M. Cyffin:* Diff. v. 5.

Cas hefyd tri pheth arall:
Y creiriau a gâr anghall;
Tafarn lle mae drwg a'i dardd;
A cherddau bardd *diddeall*.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 257.

Ystyriais, gwelais mai gwall yw canu
Acenion *diddeall*.—*Iolo Morganwg:* Salm. I., Rhag. 10.

A ydych chwithau hefyd yn *ddiddeall*?
Esgob Morgan: Marc vii. 18.

Digitized by Google

Yr ydys yn taro dynion ag ynfydrwydd meddwl . . . fel y maent yn hollawl yn myned yn *ddiddeall* ac yn ddibwyll.
Ed. James: Hom. ii. 201 (cf. 282; iii. 91).

Gwna englyn, meddai dyn dall,
Neu ddau, O mor *ddiddeall!*
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 229.

Diddeallgar, *a.*=*Anneallgar*, the more usual and analogical word.

Diddechreu, *a.* without beginning, beginningless.

Didechreu tragywydaul yw y Tat. a *didechreu* yw y Mab. a *didechreu* yw yr Yspryt Glan.—*Hengwrt Ms.*

Y mae yn *ddiddechreu* ei hun, ac yn rhoddi dechreuad i bob peth.—*T. Charles*, s.v. 'Duw.'

Duw a phob daioni yn llanw yr annherfynedigrwydd *diddechre* a diddiwedd parth lle ac ymbarhâd o amser.
Barddas, i. 252.

Wrth geisio pelläu yr arfaeth i ryw gyfnod draw yn nhragywyddoldeb, yr ydym o anghenrheidrwydd yn gwadu ei bod yn *ddiddechreu*, ac yn ei gwneyd yn arfaeth amserol, yn lle yn arfaeth dragywyddol. Os credwn ei bod yn dragywyddol, y mae yn rhaid i ni gredu hefyd ei bod yn *ddiddechreu* a diddiwedd, heb gyfnod nac amseriad.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duw. 151 (cf. 153).

Diddeddf, *a.* without law; lawless.

Cynnifer ag a bechasant yn *ddiddeddf*, a gyfrgollir hefyd yn *ddiddeddf*.—*Rhuf.* ii. 12.

Diddefni, *a.* free from drops or droppings.

Yng nghanol y tymmestloedd mwyaf, efe a fydd iddi yn ddiddos ddiogel, *ddiddefni*.—*Th. Charles*, s.v. *Diddos.*

Diddefnydd, } *a.* without substance or matter;
Diddeunydd, } of no use, useless; unserviceable; worthless; unimportant; trifling.

Atebwyd o'r blaen nad yw rydd i chwi dyngu dim mewn achosion gwael a *diddefnydd.*
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 163.

Arwydd hynod o'u cas a'u cenfigen i'w gilydd, yw eu bod yn ymryson ac yn ymgyllellu yng nghylch geiriau, neu ryw bethau babanaidd *diddefnydd.*
Ed. Samuel: Grotius, ii. 20 (cf. iii. 13).

Os dilyni onestrwydd, nid wyt ti ond ffwl *diddeunydd.*
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 40.

Y rhai y mae Duw, mewn ffordd o farn, yn eu gadael yn *ddiddefnydd*, megys y tebygai ddyn.—*Ieremi Owen*, 132.

Wrth ddinystrio ei synwyrau, y mae yn gwneuthur ei fywyd yn *ddiddefnydd* iddo ei hun, ac yn flinder i'r byd.
Ios. Harris: Gweith. 37 (cf. 87).

Diddefnyddiad, -au, *sm.* a making of no use; a rendering useless.

Diddefnyddio, } *v.* to divest of usefulness or
Diddefnyddu, } utility; to make useless.

Diddefnyddiol, } *a.* immaterial; useless, un-
Diddeunyddiol, } useful.

Myfi a dynaf bellach at y clöedigaeth, gan weddïo o ewyllys fy nghalon, na phrifia fy mwriad hwn yn *ddiddeunyddiol* ac anwasanaethgar.
Lewis Anwyl: Nefawl Ganllaw, 128.

Diddefnyddrwydd, *sm.* uselessness, inutility.

Diddefod, *a.* without ceremony or form, unceremonious; without ado.

Yn bur ddiddefod, very unceremoniously.

Diddeiliad, -au, *sm.* [dail] a shedding of leaves; deprivation of leaves.

Diddeiliad, *a.* [deiliad] tenantless; unoccupied.

Diddeilio, *v.* to shed leaves; to divest of leaves; to make leafless.

Diddeiliog, *a.* without leaves, leafless.

Diddel, *a.* [cf. *delyd*] not coming; not to come.

Diddig fydd bardd hardd o hyn,
Diddel adref i'w dyddyn!—*D. ab Gwilym*, xcix. 61.

Didderbyn, *a.* not receiving or accepting; downright.

Di dderbyn wyneb, not accepting the face or person (of); having no respect of persons; treating all men alike (without any regard to their position); unflattering; impartial. See *Derbyn wyneb* (s.v. *Derbyn*).

Boed pur fy nghariad at bob dyn,
Boed yn *ddi dderbyn wyneb*.—*Iolo Morganwg:* Salm. u. lxxv. 2 (cf. cxviii. 5; clxvii. 2).

Y mae ein cymmydogion y Saeson yn ymbarotoi, ac yn cyfammodi i sefyll yn gadarn dros etholiad dynion cywir, *di dderbyn wyneb*, gwladgarawl, ac eorth.
Seren Gomer, xv. 271.

Gan ddirwyo yn *ddi dderbyn wyneb* neb rhyw aelod a gaffer yn eu troseddu.—*Gwyliedydd*, ii. 128.

Y mae'r tawelwch dinwyd a digynhwrf hwn yn eu harwain i fod yn *ddidderbyn wyneb* ac yn onest.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 131.

Y gwirioneddau a fynai efe eu hargymhell oeddynt, effaith y fuchedd breesnnol ar gyfiwr dyn yn y byd tragywyddol, a natur *ddidderbyn wyneb* y cyfrif a raid i bob dyn ar farwolaeth ei roddi.—*J. Pryce:* Eglwys Foreuol, 269.

Didderbyniad, -au, *sm.* 'a being without reception; bluntness of behaviour.'

Didderbynio, *v.* to cease receiving.

Didderbyniol, *a.* not receiving or accepting; unacceptable.

Diddestl, *a.* [destl] not neat or tidy; slovenly. —*M.A.* iii. 112, 182.

A bwrw y bratteu a'r lloppaneu ar yspeil *didestyl* y amdanaw a oruc Pwyll.—*Mabinogion*, 15.

Diddestl oedd eu lle llu wrth sylliaw
Dydd y cymmerth Crist grog yn eiddaw.
Dafydd Benfras: M.A. i. 310 (cf. 333).

Diddestl fardd ffanugl gruglwyn,
Dydd a fu nad oedd ef fwyn.
Dafydd ab Gwilym, xcix. 59 (cf. cxxi. 21).

Diddestlu, *v.* to make untidy; to disorder.

Diddestlus, *a.* untidy, slovenly; untrimmed.

Diddeuair, *a.* [di-+dau+gair: cf. *diddau, dywaith*] without two words; without words, talk, or parley (about the matter); certain, unquestionable.

A thrannoeth myned i'r dadleudy a orug yr amherawdr, ac erchi rhoi y mab i angeu yn *ddiddeuair.*
Doethion Rhufain (Brython, iii. 86).

Diddeunydd, *a.*=*Diddefnydd.*

Diddewis, *a.* without choice or selection; unselected.

Mae hyn yn gwneuthur byw yn dduwiol yn wasanaeth *diddewis.*
Th. Williams: Ymadr. Bucheddol, 235 (cf. 17, 22, 105).

Diddewis, } *v.* not to choose; to cease se-
Diddewiso, } lecting.

Diddewisiad, -au, *sm.* non-selection; a ceasing to select.

Diddewisol, *a.* not choice; ineligible.

Diddial, *a.* [dial] without revenge, unrevenged; unavenged; without penalty.

Gwedy y lad kynhyrvu a oruc y llys oll. ac ehedec y chwedyl at Kaswallawn a llydyaw a chyffroy yn vawr a oruc achaws lladedygaeth y ney. ac erchy a wnaeth i Avarwy rody Kuelyn y dyodef kyffreyth y llys arnaw rac mynet Hyrlas yn *didial* os kam y lladeeyt.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 180.

Cwynet wrth arglwydd ac ny bydd *diddial* wneuthur cam ac ef.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 660.

O byd vnweith yn eisseu or cant. o byd *didial* nac euo nac vn or Freinc.—*Ystoria Charles*, 15.

Digitized by Google

Ef a all fod â'i gynllyfan am ei fraich yn *ddiddial*.
Y Naw Helwriaeth: M.A. iii. 198.

Ni ad yr Arglwydd byth yn *ddiddial* ddirmyg ar ei efengyl a'i weinidogaeth.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 145 (cf. 135).

Diddialedig, *a.* unrevenged; unavenged.

Diddialedd, *a.* without revenge; unavenged.

Diddialu, *v.* to cease revenging or avenging.

Diddiben, *a.* 1. endless, without end.

Lle y cawn byth ein cydgyssylltu ag ef, a'i fwynhau .. yn ddidor ac yn *ddiddiben*.
Ed. Samuel: Holl Ddyledswydd Dyn, i. 40.

Efe a estynwyd yn anfeidrol, ac yn *ddiddiben*.
Elis Lewis: Drexelius, 119.

Fel y gallom fyw a theyrnasu felly gydag ef hyd *ddiddiben* dragwyddoldeb.
Ed. Samuel: Athrawiaeth Eglwys Loegr, 197.

2. without end, design, or purpose.

Diddibeniad, *a.* without ending or termination; endless, ceaseless.

Barnodd, fe'u taflodd y Tad
I boenau *diddibeniad*.—*Dafydd Ionawr*, 49.

Diddichell, *a.* without guile, craft, cunning, or deceit; guileless; artless, frank, plain, downright.

Diod o ddwr, doed a ddêl,
A chywydd, ac iach awel,
A chroeso calon onest,
Ddiddichell, pa raid gwell gwest?—*Gronwy Owain*, 60.

Diddichellgar, *a.* without guile, guileless, unwily; simple.

Diddichellgarwch, *sm.* freedom from guile, guilelessness; simplicity.

Diddichellu, *v.* to cease being crafty.

Diddichwant, *a.* [di- + dychwant?] without desire; satisfied; plentiful.

Llawen llogell byt bu *didichwant*.—*Aneurin:* God. 641.

Diddidol, *a.* [didol] not to be separated, inseparable.

Diddan a fyddo'n dyddiau
Yn unol, *ddiddidol* ddau.—*Gronwy Owain*, 62.

Diddifaru, *v.* not to repent; to cease repenting.

Iddo adferwn *ddiddifaru*,
A darparu draw hap eurawg.
W. Midleton (Egl. Ffr., Rhag. 8).

Diddleithrad, *a.* without exception, not exceptional, unexceptionable.

Yma y gwaherddir pob puteindra, godineb, ac aflendid, bob rhyw o bobl, i bob gradd, i bob oedran yn *ddiddleithrad*.
Ed. James: Hom. i. 155.

Diddiflan, *a.* [diflan] not disappearing or vanishing.

Diddiflannedig, *a.* that has not vanished; unextinguished; unfaded; unfading, neverfading.

I etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a *diddiflannedig*, ac yng nghadw yn y nefoedd i chwi.—1 *Pedr* i. 4.

Nyni, os cyflawnwn amryw ammodau esmwyth, a flagurwn drachefn mewn gwanwyn didranc, ac a flodeuwn eilchwyl, yn fwy heinif a phrydferth na chynt, mewn gogoniant *diddiflannedig*.—*H. Davies:* Llysieuaeth Gymreig, Rhag. 8.

Diddiflanniad, -au, *sm.* a being unfaded.

Diddiflannol, *a.* unapt to disappear; not vanishing or evanescent.

Diddiflannu, *v.* to cease fading or vanishing.

Diddiffodd, *a.* not quenched or extinguished, unquenched; unextinguishable.

Diddiffoddadwy, *a.* unquenchable.

Yr us a lysg ef â thân *diddiffoddadwy*.
W. Salesbury: Matt. iii. 12.

Ond y gwanus a lysg ef â thân *diddiffoddadwy*.
Henri Perri: Eglŵryn Ffraeth. xv. 1.

Diddiffoddedig, *a.* unquenched, unextinguished, not extinct, inextinct.

O dervyd y ampriawdr disgin yn briawdwr ar dir, ar hen briawdyr yn *didiffodedic* y priodolder ac yn kwynaw kwyn kamoresgyn racdaw ynnteu, am y tir.—*C.C.* i. 606.

Diddiffoddi, *v.* to cease to quench.

Diddiffoddol, *a.* not quenching or quenched; unextinguished.

Diddiffyg, *a.* without defect or deficiency; not deficient or wanting; without failing, unfailing; uneclipsed.—*M.A.* i. 526.

Ac yn *didiffyc* yr ymbiliawd ef a hi.—*St. Greal*, 128.

Eto nid yw yn *ddiddiffyg*, yn berffaith, yn bur, yn ddigymmysg, ac yn ddilwgr.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 15.

Diddiffygio, *v.* not wearied or tired, unwearied.

Y dylem yn ddyfal ac yn *ddiddiffygio* ei ganlyn ef yn yr holl briodoliaethau a'r gweithredoedd hyny ym mha rai y gallwn ei ddilyn.
Iosua Tomas: Buch. Grist. 77 (cf. 112, 249, 359).

Diddiffygiol, *a.* unwearied, untired, unfatigued; unfailing.

Mewn gwirionedd, peth rhyfedd yw, o'i ystyried, pa boen dibaid, a *diddiffygiol* a gymmer y creadur gwael hwn [y morgugyn] i gasglu yr haf, fel y byddo ganddo ei gyfraid o gynnaliaeth erbyn y gauaf.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 194.

A'r meddwl o'n bod yn myned ym mlaen i'r cyfiwr bendigedig hwnw, a'n dygai trwy holl ranau blinderus ein dyledswydd gyd ag egni *diddiffygiol*.
Iosua Tomas: Buch. Grist. 240.

Diddig, *a.* [di- + dig] 1. free from anger, ire, hatred, or passion; dispassionate; not fretful; appeased.

Gwr dawnveith gobeith reith reidussion
Gwr *didic* gwledic gwlat engylyon
Gwr dedwawl gwrawl bieu'r goron.
Casnodyn: M.A. i. 430 (cf. 495, 547).

Breiniawl hawl hoywlys *diddig*
Braisg fyfyrdawd fragawd frig.
Meirig ab Iorwerth: M.A. i. 507 (cf. 508).

Tri anhebgor priodas er gwynfydigrwydd o heni: cyttundeb *diddig;* cariad cydgalon; a chyfawch y ddau mewn daioni.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 223.

Diddig yn cynnig ciniaw,
Dig wrth y llatai, o daw:
Diddig ei phendefig-walch
Wrth wŷr y byd, bywyd balch.—*D. ab Gwilym*, ccxxi. 33.

Cerydda dy gymmydog cyn ei fygwth; a dod le i gyfraith y Goruchaf, gan fod yn *ddiddig*.—*Eccl.* xix. 17.

Yr hwn sydd yn myned beunydd yn ddifalchach, yn *ddiddiciach*, yn llai ei drachwant, ac yn chwennychu llai ar wag hoffderau bydol.—*Ed. James:* Hom. i. 5.

2. not disposed to complain, murmur, or grumble; pleased, composed, contented; agreeable.

Rhoed gwryd Addaf; rhoed gair *diddig*.
L. G. Cothi, iv. ii. 26 (cf. 58).

Diddig pawb wrth a garo.
Diareb. (M.A. iii. 182; cf. 223).

Oen Duw, Fab Ner, sy'n tynu i gyd
Bechodau'r byd yn *ddiddig*.—*Emynau yr Eglwys.*

Ac fe a oddefodd Sara hyny mor *ddiddig* ag yr attaliodd hi ei thafod.—*Ed. James:* Hom. iii. 176.

Yr wyf yn cydnabod fod yn iawn imi, bechadur truan, wneuthur dy ewyllys, a bod yn *ddiddig* dan bob dolur.
Haw Owen: Dilyniad, iii. xviii. 2.

A rhwymaw llaw yn y llwyn
Yn *ddiddig* â'i bardd addwyn.
D. ab Gwilym, lxx. 47 (cf. xiv. 33; xcix. 61).

Câr fi'n bwyllig, *ddiddig* ddyddiad.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 229.

Diofal a *diddig* yw dim.—*Diareb.*

Digitized by Google

Plentyn diddig, a child not given to crying or fretting; a good child (from a nurse's point of view).

¶ In the first sense it is often written in two words (*di ddig*), but not in the second.

Gadael y lle llosgedig
Wnai'r gwr, da ddeddfwr *di ddig*.
Robert Owen: Gwaith, 136.

Diddigiad, -au, *sm.* a being pacified, appeased, or composed; a composing, a pleasing.

Diddigio, *v.* to divest of passion, to appease, to pacify; to cheer; to cease from anger; to be pleased or contented.

Duw a ddug (fo'n *diddigio*)
Gwynedd i gael diwedd da.—*Iolo Goch:* G.B.C. 87.

O na wnaem ni ein goreu ym mhob modd, a hyny ar frys ac yn ddioed, i'w *ddiddigio* ef.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 253.

Ef yw'r anwyl garedig Fab, er mwyn yr hwn y mae Duw gwedy ei *ddiddigio*, ei foddloni, a'i wneuthur yn un â dyn.
Ed. James: Hom. i. 22.

Hon, yn ei holl dirionwch,
Fal heulwen hoff lawen ffiwch,
A ddygwyd i'w *ddiddigiaw*
Mewn serchus, haelionus law.—*Dafydd Ionawr*, 52.

Diddigiol, *a.* tending to appease.

Diddigon, **Diddigonedd**, *a.* that has not enough or sufficiency; unsatisfiable, insatiable, insatiate; unsatisfied.

Casbethau Catwg Ddoeth . . . cybydd *diddigon*.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 11.

Delwaddoliaeth, a llyncbwll heb waelod, *diddigonedd*.
Marchog Crwydrad, i. 10.

Diddigrwydd, *sm.* freedom from anger, passion, or murmur, dispassion; composedness, contentedness, contentment, peaceableness.

'Mi ges wybod gan Ffrind,' medd un, 'nad oes ym mryd hwn a hwn adael ffyrling i'w wraig, ac nad oes dim *diddigrwydd* rhyngthynt.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 58.

F' a gadwai beth *diddigrwydd* mewn teuluoedd.
Ed. Samuel: Holl Ddyl. Dyn, xv. 11.

Diddillad, *a.* without clothes, destitute of clothing, clotheless.

Diddilladol, *a.* unclothed, unarrayed.

Diddilladu, *v.* to divest or strip of clothes, to unclothe.

Diddim, *sm.* [dy- + dim] = *Diddym*.

Diddiogi, *a.* without laziness, not lazy.

Diddïolch, *a.* without thanks, thankless.

Swydd ddiddïolch, a thankless office.

Diddïolchgar, **Diddïolchus**, *a.* not thankful, unthankful, ungrateful.

Diddïolchgarwch, *sm.* thanklessness, ingratitude, ungratefulness.

Diddired, *a.* [di- + diriaid ?] lucky, fortunate, pleasant?

Yna ydd atebodd y frân, Ië, heb hi, tra ellaist ti weled, ni beiddiwn i ymyru ar dy feibion di; eisioes yr oeddwn i yn chwennychu hyny, ac yn ei ddamunaw yn fynych, ac bellach mi a gefais fy ewyllys a'm *diddired* chwedl.
Dammegion (Y Greal, 326).

Diddirnad, *a.* without perception, notion, or conception.

Diddirnadol, *a.* undiscerning; uncomprehended, unconceived.

Diddirnadu, *v.* not to perceive or suppose.

Diddirwy, *a.* without fine or amercement.

Ni welir Sais *diddirwy*.—*L. G. Cothi*, i. xxiv. 39.

Diddiwedd, *a.* without end, endless; infinite.

Am ddîben y Fuchedd Gris'nogol, y mae'r Ysgrythyr yn sicrhau i ni, nad ydyw ddim arall ond y nefoedd ei hun; y cyflwr hwnw o wynfyd a dedwyddwch *diddiwedd* a barotôdd Duw yn y byd arall.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 10 (cf. 67, 138, 163, 170, 299, 301).

Diddiwedd yr addewyd.—*Edward Richard:* Emyn.

I hedd *diddiwedd* ydd ânt.—*Dafydd Ionawr*, 180 (cf. 208).

Diddiweddiad, -au, *sm.* non-conclusion; a being endless.

Diddiweddu, *v.* not to end or conclude.

Diddiwygiol, *a.* that cannot be corrected or redressed; irremediable.

Y drwg hwn, neu'r golled anfeidrol a *diddiwygiol* hon, ni ddioddef efe byth mo honi.
Sam. Williams: Amser (1724), 113.

Diddiwyll, **Diddiwylliad**, *a.* uncultivated; wild.

Diddoli, *v.* = *Didol*, *Didoli*. Cf. *M.A.* i. 217, 219, 232, 329, 378.

Diddolur, *a.* free from pain, ache, or sickness, painless; without a sore; unailing.—*M.A.* iii. 151.

Gynt yr oeddwn, gwn gan-clwyf,
Yn oed ieuenctid a nwyf,
Yn ddilesg, yn *ddiddolur*,
Yn ddeiliad cariad y cur.—*Dafydd ab Gwilym*, cxxxvii. 3.

Iob a darawyd â llawer o ddialeddau gofidus, fal nad oedd un fan iach *diddolur* arnaw o wadn ei droed hyd yng ngwastadedd ei ben.—*Huw Lewys:* Perl, 59.

Hawdd i'r iach a fo'n *ddiddolur*
Beri i'r claf gymmeryd cysur.—*Hen Bennill.*

Diddoluriad, -au, *sm.* a curing of sores; a relieving from pain.

Diddolurio, *v.* to cure of sores or ailments; to remove pain.

Dwynwen . . .
Da gŵyr, o gŵr ffiamgwyr ffiwch,
Dy ddelw aur *diddoluriaw*
Digion druein-ddynion draw!—*D. ab Gwilym*, lxxix. 1.

Diddoluriol, *a.* tending to remove pain or to cure sores.

Diddolurus, *a.* not sore, painful, or ailing; free from pain.

Diddoniad, -au, *sm.* [diddawn] a being ungifted.

Diddonio, *v.* to divest of gifts, endowments, accomplishments, or qualifications.

Diddoniol, *a.* not gifted, ungifted; unendowed.

Diddori, *v.* [dawr]: see *Dyddori*, *Dyddorol*, &c.

Diddos, *a.* [dos] 1. free from drops or rain; that keeps out rain; not letting in rain or water; not leaky, without leakage; sheltered; snug, cosy, comfortable.

Llys *didos* a nos dawn wledych racllaw.
Casnodyn: M.A. i. 428 (cf. 473, 540, 548).

Gwneuthur cromglwyt uch penn y gerwyn. ae thoi yn da ac yn *didos* wedy hynny.—*Mabinogion*, 76.

Adeiliais dŷ fry ar fryn,
Diddos, i gadw deuddyn . . .
Capel crwn o'r cyplau cred,
Clos glwys *diddos* glas dudded . . .
Cain gueddigl, cyrs ffenigl ffyn,
Cywir *ddiddos*, côr deuddyn.—*D. ab Gwilym*, lxxxvii. 1 (cf. xcviii. 21; civ. 61; cxxxii. 4, 32; cxxxviii. 7).

Ei dŷ addas glân, *diddos* glog,
A'i nen gywraint, a wnai'n gaerog.
Gutyn Owain: G.B.C. 203 (cf. 220).

Par fedi dy yd a'i gynnull yn gall, a'i ddodi mewn ysgubor *ddiddos*.—*Cato Cymraeg* (Y Greal, 200).

Digitized by Google

Castell cog â deiliog do,
Caer *ddiddos* cerdd eos dda.
Edward Dafydd: Cyfrinach y Beirdd, 104.

Adail dedwydd yn *ddiddos*.
Diareb. (M.A. iii. 146; cf. 157.)

Os bydd ei ystabl ef i gadw ei geffylau, neu ei dwlc ef i gadw ei foch, heb fod yn *ddiddos* yn erbyn glaw a gwynt, mor ofalus a fydd ef i osod arno gost.
Ed. James: Hom. ii. 162.

Y fantell wresog gawn y nos
Mewn gwely *diddos* diddan.—*Daniel Ddu*, 264.

Mynyched sylwn ar bob hyfryd swyn,
Y *diddos* fwth, y tyddyn ar y twyn,
Y felin ddiwyd, diball ffrwd y glyn,
Yr Eglwys brydferth yn coroni bryn.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 155.

Tŷ diddos, a house sheltered from rain; a warm, cosy, comfortable house.—*M.A.* iii. 49, 146, 157).

Pam na cheisi *dŷ diddos*,
Pa ddail a wnaid pan ddêl nos?—*D. ab Gwilym*, cxlvi. 3.

Mae croesaw i'm haros mewn *diddos* mwyn *dŷ*.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 56.

Meni diddos, covered carts or waggons.—*Num.* vii. 3.

2. without interruption (as by the falling of drops from the roof); constant, continual; assiduous; stanch, firm, steady, steadfast.

Pa achos mor *ddiddos*, ddyn
Cilaidd, yr wyd i'm calyn?
Dafydd ab Gwilym, clxxi. 23 (cf. ccxvi. 43).

Ond ei holl serch ef fydd yn rhwydd
Ar ddeddf yr Arglwydd uchod:
Ac ar ei ddeddf rhydd, ddydd a nos,
Yn *ddiddos* ei fyfyrdod,
Edm. Prys: Salm. i. 2 (cf. xvii. 2).

O gwŷl ef feddyginiaeth, ef a gân yn deg ac yn *ddiddos*, ac a eilw ei gyfeillion i ddangos iddynt y fuddugoliaeth a ddangosea Duw iddaw yntau.
Rhinwedd y Ceiliog (Brython, iii. 57).

Diddos, -au, *sm.* a place sheltered from rain; a covert, a shelter.—*M.A.* i. 292, 548; iii. 49, 146, 157, 166.

Kysgyt gwenyn yn *didos*.
Englynion Eiry Mynydd: A.B. ii. 243.

A glywaist ti chwedl yr Eos
Yn y coedydd yr hafnos?
Gnawd uwch ben dedwydd *diddos*.—*Iolo Mss.* 260.

Dy gân oedd riddfan ar rew,
Dy *ddiddos* ydoedd eiddew.—*Th. Prys*, i'r Ddylluan.

Cilio dydd cyn cael *diddos*,
Difawyd ni, dyfod nos.—*Rhys Llwyd*.

Tyr'd â bad fy ngwr i'r *diddos*
Cyn cysgodion dwfn y ceunos.
Blackwell: Ceinion Alun, 203.

Eu tyau gwnaent o wiail
Da, ac o dyweirch a dail,
I'w cadw rhag drwg o'r coedydd
Y nos, a'u *diddos* liw dydd.—*Tegid:* Gwaith, 124.

Ac felly mae yr aderyn heb *ddiddos* uwch ei ben trwy holl ystod ei oes.—*Ystên Sioned*, 71.

Diddosben, -au, -i, *sf.* [diddos+pen] a head-covering, a hat.

Aeth aelodau y Gymdeithas mewn trefn, â chennin yn eu *diddosbenau*, i'r Eglwys Fair, lle y darllenwyd y Gwasanaeth yn Gymraeg.—*Seren Gomer*, vii. 154.

O barch i'w fawr berchen, mae'n rhoi ei *ddiddosben*
O'r neilldu ar hoel-bren, ei erllen sy wawl.
Gwyliedydd, vi. 157.

Diddosben, het, hed, hetan, heulrod, cwlen, cwcwll.
Ed. Williams: Cyneirlyfr (1826), 305.

Cafodd yn ei law ddernyn aur yng nghanol dyrnaid o sothach . . . yr hyn a guddiodd yn ofalus yn ei *ddiddosben*, i'r diben o'u dwyn adref. . . Dychwelasant yn ol i chwilio am dano, a chawsant ef yn bridd ac yn faw, a rhyw beth yn cael ei gadw yn ofalus ganddo yn ei *ddiddosben*.
Cawrdaf: Meudwy Cymreig, 226.

Y mae *diddosben* un o filwyr y gosgorddlu yn pwyso tri phwys a hanner.—*Llan*, Gorph. 14, 1898.

Diddosfa, faoedd, fëydd, *sf.* a place of shelter, a covered place, a covert.

Y mae gan y llwynogod ffeuau, a chan adar yr awyr *ddiddosfëydd*, ond gan Fab y Dyn nid oes le i roddi ei ben i lawr.—*J. Williams:* Or. Bywiol (Matt. viii. 20; Luc ix. 57).

Diddosgudd, -ion, *sm.* [diddos+cudd] that which shelters and protects; an awning; a testudo (in ancient warfare).

Efe a gyfrif ei wŷr grymus, tripiant ar eu llwybrau, brysiant tua'r mur, parotowyd y *diddosgudd*. [**Diddosgudd*, math o adeilad neu orchudd symmudadwy a godid uch ben ymladdwyr er eu diogelu rhag saethau, neu gerryg, neu beth bynnag arall a deflid atynt gan eu gwrthwynebwyr.].—*Diwygiwr*, i. 366.

Diddosi, *v.* to free or secure from rain or wet; to stop leaking; to secure as a shelter; to shelter.

Nyni a'i *diddosasom*, beth bynnag, i gadw gwyntoedd oerion y nos i raddau o hono.—*Brutus:* Ninefeh, 19.

Mynyddoedd ydynt yn ein *diddosi* rhag awch y gwyntoedd dwyreiniol a gogleddol.—*Efangylydd* (1833), iii. 272.

Diddosiad, -au, *sm.* a securing from rain.

Diddoslen, -i, -au, *sm.* an umbrella.

Mae haneswyr yn dangos fod *diddosleni* mewn arferiad yn yr Ital er's mwy na chan mlynedd.
Gwladgarwr, v. 183 (cf. 184).

Diddosog, *a.* having shelter from rain; sheltered, covered.

Gwalch gwlad Rosog, gwrt *diddosog*.
L. G. Cothi, VIII. iv. 71.

Diddosparth, *a.* without order, arrangement, classification, or system; confused, indistinct, disordered, deranged; unsystematic.

Diddosparthiad, -au, *sm.* a being without order or arrangement.

Diddosparthol, *a.* not distinguishing, elucidating, or analysing; unanalysed; undistributed; unsystematical.

Diddosparthrwydd, *sm.* disarrangement, indistinctness, confusedness.

Diddosparthu, *v.* to divest of order or arrangement.

Diddosrwydd, *sm.* the condition of being sheltered or secured from rain; safety from rain; a shelter from rain and the weather.

Hyfforddia hwynt ym mhellach i gludo yn amserol eu tew-gnydau i *ddiddosrwydd*.—*Sam. Roberts:* Gweith. 16.

Diddrwg, *a.* [drwg] 1. without evil; harmless, innocent; guileless.—*Heb.* vii. 26.

Gwyn ei fyd a fo *diddrwg*.
Englynion Eiry Mynydd: M.A. i. 543.

Nid dedwydd ond *diddrwg*;
Nid *diddrwg* ond dibech.—*M.A.* iii. 20 (cf. 33, 172).

Cadog a feddyliodd ynddo ei hun na adawai Dduw, yr hwn sydd gyfan gyflawn, gospi'r eurych *diddrwg* diniwed.
Iolo Mss. 171.

Bwriwch at hyn, eu bod yn wŷr o ymddygiad *diddrwg*, difeius.—*Ed. Samuel:* Grotius, ii. 7 (cf. 6, 20).

Mae fe'n dysgu y dadleuwr neu areithiwr cyfarwydd, i ddwyn gyda thafod annysgedig, anghyfarwydd y gwenidawg creiyddgar, *diddrwg*.
Ed. James: Hom. ii. 283 (cf. 132, 133).

Cân Abel oedd drybelid,
Diddrwg, heb hyll wg a llid.—*Gronwy Owain*, 80.

Bydded meddyliau *diddrwg* a chyflawn genych.
Cylchgrawn, i. 52.

Diddrwg didda: see s.v. *Didda*.

2. uninjured, unhurt, unharmed.

Digitized by Google

Ac yno gwediaw Duw a wnaeth ar y gadw yn *didrwc* oe eneit ae gorff.—*St. Greal*, § 46.

Bendith y gler a'th gerynt
Yn *ddiddrwg* a'th ddwg i'th hynt.
Iolo Goch, i Esgob Llanelwy.

Diddrygedd, *sm.* harmlessness, innocence; guilelessness.

Glynn Aeron da ddragon *diddrygedd*.
Dafydd y Coed: M.A. i. 497.

Diddrygol, *a.* not tending to harm or injure; disposed to be harmless.

Diddrygu, *v.* to save or preserve from evil; to rid of evil; to save harmless.

O herwydd bod dyn yn ymdeithio yn y corff, y mae chwantau bydol yn ei flino, ac yn ei drafferthu ef; ac nid yn siwr ar ol i'r rhai'n unwaith gael eu llawn rwysg, a chraffu arnom a'u holl nerth; y gwasanaetha ymddïosgiad neu ymddattodiad ein cyrff yn unig i'n iachâu ni, a'n *diddrygu* oddi wrthynt.
Thomas Williams: Ymadroddion Bucheddol, 11.

Diddryll, *a.* without a piece or fragment; not composed of pieces or fragments; not pieced.

Am ei bod yn beth symlig, diddarn, *diddryll*.
R. Smith: Eglurhâd, 246.

Didduw, *a.* without God, godless, atheistical.

Yn y dyddiau hyn, llawn yw'r byd o goegwyr *didduw*, a gwatworwyr Duw.—*R. Llwyd*: Llwybr Hyffordd, 142.

Onid ydyw reswm i'r Ysgrythyr Lân ddywedyd fod y rhai hyn yn eu calonau ac yn eu gweithredoedd yn bobl *ddidduw*? Ydyw yn wir.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. vi. 12.

Yr ydoedd llawer o'r brenin oedd cenedlig, *didduw*, ar y pryd hyny, a'r ni chlywsant son am Selyf.
Henri Perri: Egl. Ffraeth. xiv. 3.

A ydych chwi yn credu fod y rhai *didduw* . . . yn myned ar redeg i uffern?—*Sam. Williams*: Amser (1724), 180.

Offeiriaid Paganiaid gynt,
Didduw ac ynfyd oeddynt.—*Dafydd Ionawr*, 300.

Ar ddyn *di Dduw* mae gorlliw noeth,
Gwawr ellyll annoeth arno;
Heb Dduw 'n ei gof, y drwg a fydd,
Yn oll o'i ddeunydd, ynddo.
Iolo Morganwg: Salm. I. cxcvi. 8.

Cyflwr pob dyn wrth natur yw cyflwr annuwiol, *didduw*.
Th. Charles, s.v. 'Annuwiol.'

Heb y gwir gan Ahab gynt,
Lu *didduw*, amled oeddynt!
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 263.

Beilchion brydyddion *didduw*
Ddaw 'n fwynion brydyddion Duw.
Nicander: Sant Paul, xiv.

Didduwiad, **Didduw**, *pl.* didduwiaid, *sm.* an atheist, an infidel.

Er dy fod yn dwyn enw Cristion, eto, mewn gwirionedd, *didduw* cyhoeddus ydwyt ti.
Iago ab Dewi: Llonyddwch, 150.

Y mae gweithredoedd Duw yn amlwg i bawb, gan hyny pa mor afresymol yw'r anghredadyn a'r *didduw*?
Dafydd Lewys: Golwg, xx. 3.

Didduwiaeth, -au, *sf.* atheism, infidelity.

Ar y cyfrif hwn, gan hyny, nid ydwyf yn ammheu, nad yw *Didduwiaeth* yr oes bresennol, mewn mesur mawr, yn ddyledus i'w sectau a'u hymraniadau hi. Cans pa gynnifer o esamplau truenus sydd genym o ddynion . . . y rhai wedi ymadael yn ddiachos â chymmundeb yr Eglwys, a redasant o sect i sect . . . nes, wedi cael o'r diwedd eu hargyhoeddi o'u twyll a'u hudoliaeth hwynt oll, iddynt fwrw crefydd ei hun ymaith, a diweddu mewn *Didduwiaeth* ac anghrediniaeth?—*Iosua Tomas*: Buch. Grist. 300.

Os naill ai anwybodaeth, *didduwiaeth*, anghrediniaeth, cnawdolrwydd, meddwl daiarol, neu ddiofalwch ydyw, byddwch yn ddyfn-deimladwy o honaw.
Samuel Williams: Amser (1724), 166.

Os ydym yn credu fod Duw, gochelwn *ddidduwiaeth* ymarferol.—*Ios. Harris*: Gweith. 183.

Nid oes air o son ynddi am yr hyn a grybwyllir gan lawer o'i annerchwyr fel yn ffynadwy iawn; sef, *didduwiaeth*, anghrefyddoldeb, terfysg, a bradwriaeth.
Seren Gomer, iv. 62.

Y mae rhai yn gwneuthur dyn yn bob peth, a thrwy hyny yn syrthio i *ddidduwiaeth*.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duw. 147.

Didduwio, *v.* to divest of divinity, to undeify.

Didduwiol, *a.* tending to undeify, undeifying.

Diddwfr, *a.* without water, waterless.—*Iudas* 12.

Mewn tir diffaith diffordd *diddwfr* yn sant yt ydd ymddangosais.—*Dafydd Ddu Hiraddug*: M.A. i. 564.

Yno mae ef yn brysur . . . mewn mawr dymmestloedd *diddwfr*.—*Morgan Llwyd*: Ymroddiad, vi. 6.

Diddwl, *a.* not dull, blunt, or foolish.

Y meddwl, *diddwl* a dig,
A naid i'w fro enedig.—*Cawrdaf*: Gweith. 6.

Diddwylaw, *a.* without hands, handless.

Diddwylaw ar nawf i'r nef,
A didroed y doi adref.—*D. ab Gwilym*, ccvi. 33.

Diddwyn, *a.* [=dyddwyn? cf. *dyfnu*, *diddyfnu*] weaned; having done sucking.

Plentyn (*mab*, *lledfegyn*) *diddwyn*, a weanling.—*W.*

Diddwyn, *sm.* the state of being weaned.

Diddwyn, *v.* to wean; to cease drawing.

Diddwynig, -ion, *sc.* a weanling.—*W.*

Diddyblyg, *a.* not double, unfolded.

Diddyblygiad, -au, *sm.* an unfolding.

Diddyblygol, *a.* tending to unfold.

Diddyblygu, *v.* to unfold; to open.

Diddychryn, *a.* without fear, fearless, dauntless; free from terror, terrorless.

Diddychryndod, *sm.* freedom from fear or terror; fearlessness.

Diddychrynllyd, *a.* not terrible; free from terror or fear.

Diddychrynol, *a.* not intimidating; not timorous.

Diddychrynu, *v.* to free from terror.

Diddwynig, **Diddyfnedig**, *a.* [Br. *dizounet*] weaned; accustomed to be without the breast.

Ymddygais heb ddig, yn debig i blentyn:
Gwanddyn *diddyfnedig*, ac yn ddistaw a drig.
W. Midleton: Salm. cxxxi. 2.

Diddyfniad, -au, *sm.* a weaning.

Diddyfnol, *a.* tending to wean; weaning.

Diddyfnu, *v.* [dyfnu: Br. *dizonaff* (Cath.), *dizouna*] to wean.—*Esa.* xi. 8.

Mynn tra uo yn dynu keinawc cotta a tal: pan *didyuynher* dwy keinawc cotta a tal hyt Awst.
Cyfreithiau Cymru, i. 716 (cf. 714).

Taphnes a'i *diddyfnodd* ef yn nhŷ Pharao.
Esgob Morgan: 1 Bren. xi. 20.

A'r bachgen a gynnyddodd, ac a *ddiddyfnwyd*.
Gen. xxi. 8.

Y mae sugno yn troi yn chwerwder wrth *ddiddyfnu*.
Cylchgrawn, i. 43.

Cariad sydd . . . wedi cael ei genedlu gan ddymuniad, ei feithrin gan hyfrydwch, ei *ddiddyfnu* gan eiddigedd, ei ladd gan dwyll, a'i gladdu gan anniolchgarwch.
Joseph Harris: Gweith. 111.

Anhawdd *diddyfnu* yn hen.—*Cylchgrawn*, i. 44.

Diddyfnu plentyn, to wean a child.

Diddyfnu oddi wrth, to wean from.

I bwy y par efe ddeall yr hyn a glywo? i'r rhai a *ddiddyfnwyd oddi wrth* laeth.
Esa. xxviii. 9 (cf. Salm. cxxxi. 2).

Y mae'n amlwg mor anghenrheidiol ydyw, tu ag at ein parhâd, i ni ymroi i *ddiddyfnu* a thynu ein hunain *oddi wrth* y byd.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 279 (cf. 16, 67, 234, 306).

Digitized by Google

Wrth hyny, fel y bydd mammaeth, er mwyn *diddyfnu* ei phlentyn *oddi wrth* garu ei llaeth, yn iro ei bronau ag aloes, neu â rhyw bethau chwerwon ereill; felly y mae ein Tad trugarog ninnau, am ei fod yn ewyllysio ein *diddyfnu* ni *oddi wrth* ddifyrwch y byd . . . yn arfer o ddanfon cystudd . . . fel y gwelwn ni yn esampl y mab afradlon, yr hwn nid oedd dim abl i'w *ddiddyfnu oddi wrth* ei ddifyrwch, ond cystudd yn unig.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. II. ii. 9.

Diddyfnydd, -ion, **Diddyfnyddwr,** wyr, *sm.* one who weans.

Diddyfnyn, *sm.* a weanling, one newly weaned.

Diddygyfor, *a.* without confluence; without a commotion or tumult.

Diddylanwad, *a.* without influence; having no influence.

Diddyled, *a.* without debt, free from debt, out of debt; unindebted; having no obligation.

Tri dyn digon da eu cyflyrau, pei gwelent hyny: dianghen; *diddyled;* a diwraig.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 240 (cf. 275).

Diddyledu, *v.* to free from debt or obligation.

Diddyledus, *a.* not indebted, unindebted; not owing.

Diddylyed, *a.*=*Diddyled.*

Diddym, *sm.* [dy-+dim] nothing; a nonentity; nullity; naught or nought.

Tri pheth nyt rheit praw arnunt: nyt rheit praw ar addef eithyr tystyaw; nyt rheit praw ar *ddiddym,* ar y fot on *ddiddym* profet y llall hagen nat *diddym* ef.
Cyfreithiau Cymru, ii. 640.

Ony byd dim a talho nac a diueicho y mach o honav, yna y gelwir ef yn *didim;* ac y gelwir y mach, mach dros *didim:* a dvy gyfreith yssyd y vach dros *didim* vn gywlat ac vn aghywlat.—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 184.

Yr holl genedloedd ydynt megys *diddym* ger ei fron ef.
Esa. xl. 17 (cf. xli. 11, 12, 24; Salm. xxxix. 5).

Cyflym o *ddiddym* e ddaeth,
Torodd defnydd naturiaeth.—*Dafydd Ionawr,* 50.

Diddym, *a.* that is nothing; having or possessing nothing; destitute, void; futile.

Tri chadarn byd: arlwydd; a drud; a *diddym.*
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 258.

Tri chadarn byd: arglwydd; ynvyd; a *diddim.*
Cyfreithiau Cymru, ii. 562.

Yna y dichon dyn ddywedyd mai gwae ef pan aned, pan fo y cyfrif yn fawr, a'r llaw yn *ddiddim.*
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 106 (cf. 3, 21).

Mae'n cysgu, un du *diddim,*
Myn nef fry, ni ddeffry ddim!
Dafydd ab Gwilym, cliii. 27 (cf. clxxviii. 15).

Er ein bod yn yspeiledig ac yn *ddiddim* o olud.
Huw Lewys: Perl, 49 (cf. 140, 158).

A'i holl dywysogion hi fyddant *ddiddym.*
Esa. xxxiv. 12.

Yr hwn sy berffeithiaf ym mysg meibion dynion, a gyfrifir yn *ddiddym,* os ymaith y bydd y doethineb sydd oddi wrthyt ti.—*Doeth.* ix. 6.

Peth diddym, a thing of nought; a nonentity. —*Amos* vi. 13.

Nad yw'r byd a chwbl ag sydd yntho yn unig yn ofered ac yn bethau gwael *diddim* ynddynt eu hunain . . . sef yw hyny, yn hudoliaeth heb gwpläu â ni mo'r coeg *bethau diddim* y maent yn eu haddo.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. iii. 4.

Einioes nid yw ond ennyd, a *diddym*
Yw dyddiau ein bywyd.—*Daniel Ddu,* 206.

Dyn diddym (1), a destitute man, a man without any means; a nonentity.

Try chadarn byt argluyd a drut a *dydym:* sew achaus yu maen dros yaen yu argluyd; sew yu y drut dyn ynwyt ac ynuyt ny ellyr kymell dym arnaw namyn y ewyllys; sew yu *dyn dydym* dyn heb da ydau, ac urth hynny ny ellyr kymell da yn lle ny bo.
Cyfreithiau Cymru, ii. 36 (cf. 184, 562).

Mil can-haws gan Dduw roddi
No chan *ddyn diddim* erchi.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 3.

(2) a shiftless man; a worthless person.—*C.S.*

Diddym ddefnydd, no matter or material; nothing.

Duw, yr hwn trwy dy alluog nerth a wnaethost bob peth o *ddiddym ddefnydd.*—*Ll. G. Gyffredin* (Priodas).

Dim diddym, mere nothing, absolute nothing, perfect nonentity.

Dyma'r marwolion yn ymluchedu'n fywydolion, a'r dim, ag oedd heb na lle na bod iddaw, yn ymfelltenu'n elfyddawd, ac yn ymlawenhau'n fywyd, a'r rhyn tryffer dlymmod yn ymwresogi'n fodoldeb byw, y *dim diddym* yn ymorfoleddu'n fodoldeb mil cynt nag y cyrch llucheden ei haddef.—*Barddas,* i. 258.

Gwneuthur yn ddiddym, to bring or reduce to nothing; to annihilate.

Cospa fi, Arglwydd, eto mewn barn; nid yn dy lid, rhag i ti fy *ngwneuthur yn ddiddym.*—*Ier.* x. 24 (cf. Act. v. 36).

Myned yn ddiddym, to come to nought or nothing; to become annihilated.

Ar ddiddym, upon nothing.—*Iob* xxvi. 7.

¶ In *diddym* and derivatives the vowels *y* and *i* seem, for euphony, to have exchanged places, *diddym* being formed of the enhancing prefix *dy* and subs. *dim,* q.d. *dyddim,* a form which also sometimes occurs. *Diddim* was formerly the commoner orthography, and it is the one generally adopted in the earlier editions of the Bible; but in the derivatives *y* generally takes the place of *i,* as *diddymu.*

A chynnifer oll a ufyddhasant iddo, a wascarwyd, ac a wnaed yn *ddiddim.* . . Os o ddynion y mae y cyngor hwn, neu'r weithred hon, fe a *ddiddymmir:* eithr os o Dduw y mae, ni ellwch chwi ei *ddiddymmu.*
Esgob Parry (1620): Act. v. 36, 38, 39.

G. Beth yw Duw? A. Bywyd cyflwyr cyflawn, a llwyr *ddiddim* ar bob anfyw (difyw) a marwolaeth.
Barddas, i. 206.

Nid oes na golud na dim
Na ddiwedda yn *ddiddim.*
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 117 (cf. 100).

Nid casgliad o ranau *dyddim* dirifedi fel hyn yw holl bresennoldeb a thragywyddoldeb Duw.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duwin. 153.

Diddymadwy, *a.* that may be done away, abrogated, or annulled; abrogable, abolishable, defeasible.

Diddymder, **Diddymdra,** **Diddymedd,** **Diddymrwydd,** *sm.* nothingness, nonentity, nullity, nihility, non-existence; a destitute state; destitution; futility.

Eich gwaeledd a'ch *diddymder*
Ydyw eich nawdd rhag cospol fraich fy nghryfder.
Nicander: Moses, v.

A hithau fel goruchionyn yn ymadael, fe allai, i *ddiddymdra* tragywyddol.—*Brutus:* Brut. 306.

Er nas gall dyn amgyffred y gwirionedd hwn, y mae wedi ei wneuthur i'w gredu; a thra yn teimlo ei *ddiddymdra* ei hun, y mae wedi ei addasu i chwilio am anfeidroldeb ac anghyfnewidioldeb.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duwin. 153.

Urddeu na nawdd sant; na chymyn na chred na phriodas, na *diddymrwydd.*—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 570.

A yw'r genedl i syrthio i anghof a *diddymrwydd* dros byth?—*Gwyliedydd,* xiii. 34.

Diddymedig, *pt.a.* annulled, abrogated, annihilated, nullified.

Diddymedigaeth, -au, *sf.* annihilation, abrogation, nullification; revocation.

Diddymedigol, *a.* abrogative, nullifying, abolitionary; revocatory.

Digitized by Google

Diddymiad, -au, *sm.* annihilation, abrogation, abolishment, nullification, annulment.

Yn ddiau fe wnaed *diddymiad* ar y gorchymmyn, yr hwn oedd o'r blaen o herwydd ei leged a'i afies.
Esgob Morgan: Heb. vii. 18.

A'r amser y dechreuodd efe gyntaf gyhoeddi *ddiddymiad* rhai cyfreithiau, oedd, gwedi gorchfygu angeu.
Ed. Samuel: Grotius, v. 7.

Gweddïed pob enaid tosturiol am *ddiddymiad* a dadwreiddiad yr arfer gythreulig sydd yn waradwydd i'r byd Cristianogol.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 63 (cf. 223).

O'r hyn y cododd rhyfel ag a fu bron yn *ddiddymiad* ar lwyth Beniamin.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 146.

Diddymiaeth, -au, *sf.* nihilism, nothingness.

Diddymiant, *sm.* annihilation, abrogation, abolishment, nullification, annulment; repeal.

Daioni pendant wrth lwyr *ddiddymiant* pob drwg yw Duw. . . Gallu pendant wrth lwyr *ddiddymiant* anallu yw Duw. . . Doethineb a gwybodaeth pendant yw Duw, wrth lwyr *ddiddymiant* anwybyddiaeth ac annoethineb. . . Ac wrth hyn o briodoldebau nis gellir ar feddwl a phwyll amgen wrth fod a bywyd nad o Dduw y mae, oddierth y drwg anianawl wrth *ddiddymiant* pob bywyd a daioni. . . Drwg pendant anianol yw llwyr *ddiddymiant* a gwrthfod o Dduw a bywyd.—*Barddas,* i. 206.

Heb golli'r mesur, o lwyr ddifodiad, a *diddymiant.*
Cyfrinach y Beirdd, 78.

Diddymio, *v.*=*Diddymu.*

Nid ydym ychwaith yn doedyd hyn, fegys pettäem yn tybied ddarfod cwbl newidio a *diddymio* rhywiogaeth y bara a'r gwin.—*M. Cyffin:* Diff. (1671), ii. 15.

Eithr ef y *diddymiawdd* ehun.—*W. Salesbury:* Phil. ii. 7.

Diddymol, *a.* tending to annihilate; annihilative, abrogative, abolishing.

Diddymrwydd, *sm.*=*Diddymder.*

Diddymu, *v.* to annihilate, annul, or abolish; to nullify; to abrogate; to make void or of no effect; to repeal; to depreciate.

Os ei gwr gan *ddiddymu* a'u *diddyma* hwynt y dydd y clywo, ni saif dim a ddaeth allan o'i gwefusau, o'i haddunedau, ac o rwymedigaeth ei henaid: ei gwr a'u *diddymodd* hwynt.—*Esgob Morgan:* Num. xxx. 12 (cf. 8, 13, 15).

Na *ddiddyma* dy gyfammod.—*Cân y Tri Llanc,* 11.

Ni ddichon neb byth ddangos fod Duw yn ewyllysio *diddymu* yr enaid.—*Edward Samuel:* Grotius, i. 23.

Heb wrth hyny orfod ar hanfod y peth hyny; a'i lwyr *ddiddymu.*—*Cyfrinach y Beirdd,* 77.

Pe byddai y rheswm cnawdol hwn yn ddigon i *ddiddymu* gweddi.—*Ed. James:* Hom. ii. 223 (cf. 141, 161, 223).

Pan fethai Satan *ddiddymu*'r ffydd drwy'r erlidwyr Paganaidd, cyffroai ymbleidiau yn yr Eglwysydd.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 63 (cf. 141, 142, 161).

Yr ydym hefyd yn *diddymu* holl weithrediadau Yspryd Duw.—*Iosua Tomas:* Buch. Grist. 329.

Hwy a *ddiddymir* naill ai trwy weithrediad rhyw beth gwrthwynebol, o fwy grym, megys y *diddymir* oerfel trwy boethlym angerdd gwres. . . Eithr ni ellir *diddymu* neu ddinystrio yr enaid trwy yr un o'r tair ffordd hyn.
Ed. Samuel: Grotius, i. 23 (cf. ii. 11; iv. 3, 7).

Diddymir trachwant, cleddir balchder.
Iolo Morganwg: Salm. i. cii. 3.

Diddyrys, *a.* not intricate or difficult.

Diddyrysiad, -au, *sm.* a disentangling.

Diddyrysol, *a.* not entangling, disentangling.

Diddyrysu, *v.* to disentangle, to unravel; to disengage; to decipher.

Diddysg, *a.* without learning, unlearned, illiterate; ignorant.

Eil yw godef o dyn dyn kebyd neu a gidnaws avei yn kygwarchadw swyd neu *didysk* dida.
Cyfreithiau Cymru, ii. 410.

Tri brodyr tlodi: gwrthnysig; *diddysg:* ac anghywir.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 274 (cf. 260).

Dodi'r dall ar ben diagwyfa,
Dodi'r dwl i ddysgu tyrfa,
Dodi'r *diddysg* wrth y llyw,
Yw dodiad dyn, nid dodiad Duw.
Rhys Prichard: C. y C. clv. 39.

Megys ag na ddylai undyn fod yn gymmaint o oferddyn a pherchi ffuantwyr *diddysg* er mwyn eu hanwybodaeth yn unig; felly ni ddylai neb wneuthur eulun o ddysgeidiaeth.
Ieremi Owain, 75 (cf. 26).

Tamberlan, brenin Scythia, yr hwn ydoedd wr ffromwyllt, *diddysg,* diddawn.—*Morus Cyffin:* Diff. iv. 15.

Diddysgaid, *a.* having no learning, illiterate.

Diddysgedig, *a.* uninstructed, untaught.

Diddysgeidiaeth, *sf.* want of learning illiterateness.

Diddysgu, *v.* to unlearn; to cease to instruct.

Diddyspydd, *a.* [=diddyhyspydd] exhaustless, inexhaustible.

Y mae'n weddus iawn i ni . . . fod yn rhwydd ac yn llon, a thrwy hyny amlygu teimlad diolchgar o'i ddaioni, ac o'r gwobrwyon gogoneddus hyny y rhai ydym yn ddisgwyl oddi wrth ei haelioni *diddyspydd* ef.
Iosua Tomas: Buch. Grist. 244.

Y mae Cranmer yn rhoi clo ar ffynnon *ddiddyspydd* y Pab yn y fl. 1536.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 83.

Diddywededig, *a.* not said, unsaid, unmentioned.

Pe y meddyliasem fod yn rhaid i archiad a gorchymmynion Duw ymddarostwng i ewyllys dyn: neu beth bynnag a ddywedai neu a archai Duw, na ddylid cymmeryd mo hono namyn fel peth diddym, *diddywededig,* oddi eithr i Bab Rhufain orchymmyn ac erchi'r un peth.
M. Cyffin: Diff. iv. 21.

Diddyweddi, *sm.* the state of being single or unmarried; a celibacy.

Diddyweddi, *a.* without a spouse or consort; unmarried, single.

Diddyweddïaeth, *sf.* celibacy.

Mae y gwledydd darostyngedig i lywodraeth y Pab yn awr, o ran creulonder y llysoedd, *diddyweddïaeth* offeiriaid a lleianod, yn brin ac anaml eu trigolion.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 31.

Diddyweddol, *a.* single, unmarried; unconnected.

Die, *sm.:* see *Diau.*

Diebredig, **Diebrydig,** *a.* [diabred (*P.*): cf. *ebryd, ebrydig,* &c.] frustrated, impeded; inefficient; nullified; obstructed; guilty of frustration.

Tri mach yssyd ne cheiff vn ohonunt dwyn y vechni ar y lw ehun kynn gwatto rann ac adef rann arall or vechni: nyt amgen no dyn a el yn vach yggwyd llys a mach *diebredic* a mach kynnogyn. . . Llyna y gwahan yssyd y rwng mach *diebredic* a mach kynnogyn: mach *diebredic* y geilw kyfreith mach a ballo o deithyaw y uechniaeth y gyt a hawlwr gan y rybudyaw yn dydyeu gorsed.
Cyfreithiau Cymru, i. 396 (cf. 464).

Mach diebredig, an inefficient or frustrating surety; a surety guilty of frustration or detention.

Am hynny bot y Gwilym yn *vach diebredic* ym yn llwrw na allod gymell [David] y dalu a bot y Gwilim yn dala hynny mywn colof a diebryt.—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 464.

Diebreidiad, **Diebrydiad,** -au, *sm.* a frustrating or impeding; a rendering inefficient; frustration, nullification.

Diebreidiaeth, **Diebrydiaeth,** -au, *sf.* frustration, obstruction, impediment; nullification; inefficiency.

Diebreidio, **Diebrydu,** *v.* 'to divest of progress;' to frustrate, to obstruct; to disconcert; to defeat.

Digitized by Google

Diebreidiog, *a.* frustrated, obstructed, defeated.

Cwyniff [*al.* cwynis] ni bydif [*al.* byddis] *diebreidiawc*
Delw yt am gyrrwyf bwyf cynhelliawc.
Meilir: M.A. i. 190.

Diebreidiol, **Diebrydol,** **Diebrydus,** *a.* tending to frustrate, disappoint, or disconcert; obstructive, frustrating, thwarting; nullifying.

Diebryd, -au, *sm.* obstruction, frustration, nullification, disappointment, defeat; detention; 'a state of quiescence.'

Teir mefylwriaeth mach yssyd: gwadu y vechni ac ef yn vach; ac adef y vechni ac na allo y chymell; a *diebryt* mach gwedy rother.—*Cyfreithiau Cymru,* i. 428.

Tri rhyw *ddiebryd* y sydd: un yw, dwyn peth ac nad adferer drachefn. Ail yw, adaw argywedd ar ddyn neu ar ei eiddaw, heb wneuthur iawn no heddwch am danaw. Trydydd yw, *diebryd* dyn o'i ddylyed dros amser ei dalu.
Leges Wallicae, iv. 267.

Kanyt oes namyn vn or tri peth ae gwat, ae adef ae *diebryt.*—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 178 (cf. 196).

Goleu y dug Duw ein *diebryd* fry
Am frenhin Cymry cymrwyn ergyd.
D. Benfras: M.A. i. 312 (cf. 200, 241, 248).

Nid ä swllt dan *ddiebryd.*—*Diareb.*

Golof a diebryd, *Colof a diebryd,* covert and detention; covert and obstruction.

A bot y kytrychawl Ieuan yn dala hynn mywn *colof a diebryt* yn y trydyd diebryt yssyd yn y gyfreith: diebryt dyn o iawn ae dylyet dros amser y etryt.
C.C. ii. 454 (cf. 452, 456, 458, 460, 462, 464, 466).

A bod y dywededig N. yn dala hyny mewn *golov a diebryd.*—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 472.

Diebrydu, *v.*=*Diebreidio.*

Diebrydwr, wyr, *sm.* one who obstructs or frustrates, an obstructer.

Diebyd, *sm.* [pyd] violence, force; an assault, onset, or attack; danger.

Ac yn lleigus y fo a welai darw moelgoch . . . a hwnw â chyff o bren mawr yn ei ol yn ei lusgaw o ben y bryn ar i wared, ac yn dwyn *diebyd* i'r marchog, ac yn saethu tân o'i eneu, ac o'i ddwy ffroen, ac o'i ddau lygad, yn ei wyneb.
Purdan Padrig (Y Greal, 391).

Diebyrth, *a.* without sacrifices or offerings.

Diebyrth [*al.* di ebyrth] e gerth e gynghyr.
Aneurin: God. 259 (A.B. ii. 70).

Diechingy *a.* [eching] unconfined, unstraitened.

Diechig wellig wallouyad
Diachor woegort woegrynyad.
Cynddelw: M.A. i. 221 (cf. 256).

Diechrys, *a.* not frightful, unalarming; free from terror.

Diechrys llwry llwyrwys llwyprad.
Cynddelw: M.A. i. 221.

Handwyd Lywelyn lwrw *ddiechrys.*
Llywelyn Fardd: M.A. i. 358.

Diechrysol, *a.* not tending to frighten, terrify, or alarm.

Diechrysu, *v.* to divest of terror.

Diechwith, *a.* not sinister or awkward; dexterous, skilful.

Diechwith lam y orwylam nat ry gigleu.
Gorchan Maelderw: A.B. ii. 100 (M.A. i. 62, 85).

Diechwng, *a.* [echwng] not near or contiguous; distant; being apart.

Diechwraint, *a.* [echwraint] having no hidden working or design; without craft or cunning; unambitious.

Hael Rodri ryodres edneint
Hawl gretuawl tra gwawl tra gwyneint
Hanbych well o Duw *diechwreint* deyrn
Teyrnet westiuyeint.—*Llyw. ab Llywelyn:* M.A. i. 285.

Diechyr, *a.* not apt to flinch; inflexible, unyielding, determinate.

Diechyr eryr gwyr govaran.—*Aneurin:* God. 827.

Hirgwyn brwyn brwydyr *diechyr*
Hiruraw am daw am Dudyr.—*Cynddelw:* M.A. i. 224.

Deu ryt yn nyt cat eu kyvergyr
Kyvargor diachor camp *diachyr.*
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 265.

Diedfydd, *a.* [cf. *adfydd*] without doubt, doubtless, certain.

Om hoen drwy hirboen hirbell gynnyd
A ddygei kyn Mei merweryd gyfliw
Gne gwynn gyllestyr riw rin *dieduyd.*
Iorwerth Fychan: M.A. i. 415.

Diedifar, **Dietifar,** *a.* [edifar] unrepentant, unrepenting, impenitent; having no cause to repent, or to be sorry; ruthless.

Tri dyn melltigedig y sydd: a doro orchymmyn Duw yn *ddietifar;* ni wypo ddim o dda ac ni chais ei ddysgu; ac a wypo lawer ac nas dangoso i neb arall.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 71 (cf. 87).

Dyfod gwaith *diedifar.*
Ieuan Llwyd ab Gwilym (Iolo Mss. 296).

Ffrwyna, na anghofia, 'nghâr,
Dy dafod, bydd *diedifar.*—*Edward Morus.*

Diedifariad, -au, *sm.* a not repenting.

Diedifaru, *v.* not to repent; to cease repenting.

Diedifarus, **Diedifeiriol,** **Diedifeirwch,** *a.* impenitent, unrepentant; without repentance; not to be repented of; obdurate.

Diedifarus yw doniau a galwedigaeth Duw.
Rhuf. xi. 29 (cf. ii. 5).

Yr hwn a dafio ymaith iau gorchymmynion Duw oddi ar ei wddf, ac a'i rhoddo ei hun i fyw yn *ddietifeiriol* yn ol ei gnawdol feddwl a'i ewyllys, ac heb ofalu am wybod gair Duw . . . mae'r fath ddyn yn eglur yn ei dwyllo ei hun.
Ed. Iames: Hom. i. 54 (cf. 57; iii. 234, 285).

Felly y mae'r pechadur *diedifeiriol* yn pentyrru pechod ar bechod.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. ix. 5.

Nid bywyd tragwyddol, onid diderfynol angeu a berthyn i ddrwg weithredwyr, y rhai ydynt yn byw yn anufudd, ac yn troseddu ac yn tori gorchymmynion Duw yn *ddietifeirwch.*—*Ed. Iames:* Hom. i. 52.

Diedifeirwch, *sm.* want of repentance or penitence, impenitence; absence of contrition.

Dieding, *a.* without restriction, unrestrained; ample.

Rac mab Edern kyn edyrn anaelew
Ef dywal diarchar *diedig*
Am ryfreu agheu dychyfyg.
Taliesin: A.B. ii. 201 (M.A. i. 71).

Hut amuc Ododin
O win a med en *dieding.*—*Aneurin:* God. 595.

Kany allafy heb Duw Trined
Dewi yn ehag yn rann rwytged
Ac yn yg *dietig* Dewi wared.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 272 (cf. 232).

Diedlaes, *a.* [cf. *diadlaes*] not drooping or trailing; not slack; not remiss; unhesitating.

Teg a fydd chwedl *diedlaes*
Llafurwr, tramwywr maes.—*Iolo Goch,* i'r Llafurwr.

Diedlid, *a.* without anger or wrath.

Diedliw, *a.* without reproach; reproachless; without upbraiding.

Pedair cenedl *diedliw*
A ddeiryd yt', Gwyndyd gwiw.—*Iolo Goch,* i R. Mortimer.

Diedliwiant, *sm.* irreproachableness.

Diedliwio, *v.* to cease to reproach or upbraid.

Diedliwiol, *a.* not apt to upbraid or reproach.

Diedlym, *a.* not sharp, piercing, or pungent; blunt; dull.

Digitized by Google

Diedmyg, *a.* without reverence or veneration; unrevered, unreverenced; unadmired.

Diedmygol, *a.* not reverential; unadmiring.

Diedmygu, *v.* not to revere; to cease to honour, revere, or admire.

Diednid, *a.* unembarrassed.—*P.*

Diednyddig, *a.* [dy- + ednyddu] wreathed or twisted around.

Gossot o Gei eiras y rwng y dwylaw. Gwascu o honei hitheu yr eiras yny yttoed yn wden *dienedic.*
Mabinogion, 116.

Diedrin, *a.* free from bustle or turmoil.

Diedrino, *v.* to cease bustling.

Diedrinol, *a.* not bustling or toiling.

Diedrysedd, *a.* without superfluity.

Diedw, *a.* unfaded, unwithered; unfading.

Diedwaint, *sm.* an unfaded state; unfadingness.

Diedwi, *v.* to become unfaded.

Diedwin, } *a.* unfading; fadeless; ama-
Diedwinol, } ranthine.

Ac yn eu plith oedd pren
Y bywyd, hardd odidawg wedd, ac yn
Balannu aeron *diedwinawl* o
Eurinawl dwf.—*W. O. Pughe:* C.G. iv. 246.

Haf gwyrenig bythawl sydd,
Blodeuawl fro *ddiedwin,* yno mae
I'r cyfiawn ddedwydd etifeddiaeth rad.
T. Lloyd Jones: Marwnad Ifor Ceri.

Diedwin iriant yna tardda ar
Eich banau, chwi fynyddau, llawenhëwch.
W. O. Pughe: Palestina, 36.

Diedyrn, *a.* [edyrn] without a sovereign or ruler.

O vreithyell Catraeth pan adrodir
Maon dychiorant eu hoed bu hir
Edyrn *diedyrn* a mygyn dir.—*Aneurin:* Gododin, 131.

Dieddain, *a.* not moving, motionless.

Dieddrin, *a.* not mysterious or secret.

Dieddyl, *a.* without purpose or intention; without relation or connection.

Dief, -oedd, *sm.* [=diau, die] a day; a period or time.

Ac wrth henny en i *dyefoed* ef ebydey ofyn ar bawb oe gwnelynt na drwc na cham.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 288 (cf. 144).

Ac yna yd ymchwelws Beli hyt yn ynys Prydeyn. a thrwy hedwch a thagnheved y gorffennws ef *dyewoed* y vuched.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 155.

Dieflig, *a.* [diafl, diafol] diabolical, devilish.

A gwedy marw y gwrda ae gladu yn lle brenhinawl. y kyfodassant rei *dieflic* ysgymunllyt o genedyl y gwas ieuanc. a bot yn drwc wrthaw a wnaethant ae amherchi.
Amlyn ac Amig, col. 1089.

O dyna y ruthrawd gwyr y wlat attaw o *dieflic* annogedigaeth yn gyfun megys yn deissyfyt.
Brut y Tywysogion, 128.

Duw a rithiawdd, dygn-gawdd dig,
Ddeu-flaidd o anian *ddieflig.*
Deuwr hen oedd o Dir Hud,
Gwydro astrus a Godrud.—*Iolo Goch,* i Ddewi Sant.

Os ymwrthodasom ni â diafol, nac arferwn mwy dafodau *dieflig.*—*Ed. Iames:* Hom. i. 194 (cf. iii. 268).

Y mae eu holl fywyd yn gelfyddyd o ddyhirwch *dieflig.*
Ios. Tomas: Buch. Grist. 134 (cf. 106, 261).

Dyma'r anifail, wedi cael o honaw fi yn ei balfau *dieflig,* yn dwyn fy nhipyn tir oddi arnaf.—*Gronwy Owain,* 191.

Y *dieflig* yspryd afiau.—*Dafydd Ionawr,* 57.

¶ To suit the metre the poets sometimes make *dieflig* trisyllabic.

Rhag cwyn gwenwynig,
Rhag cwn *dieflig,*
Rhag cynhen ddreinig,
Ddig ddygasedd.—*Iolo Goch.*

A'u dannedd hyll allan, na ddelo dryw, druan,
I ran y ddau afian *ddieflig.*
Edward Richard: Bugeilgerdd, ii. 44.

¶ In *Matt.* viii. 28, 33, *dieflig* is used to translate δαιμονιζόμενοι, which in other passages is more appropriately rendered *cythreulig;* and in the same narrative (31) δαίμονες is represented by *cythreuliaid.*

Diefligdod, -au, *sm.* devilry.

Diefligrwydd, *sm.* devilishness, diabolicalness.

Dieflyn, *sm.* [dim. of *diafl*] a little devil, a devil's imp, a devilkin.

'Aie,' eb rhyw *ddieflyn* gwargam oedd ger llaw, 'a gaed dim ennyd i ddywedyd chwedlau ysmala!'
E. Wynn: Bardd Cwsg, 76 (cf. 79, 89, 96, 103).

Os oes *dieflyn* mewn cnawd yn bod, y gwr a chwennycho ddangos ei ddoethineb trwy ymhyfrydu mewn chwilio am wallau, a haeru yn fynych eu bod lle nad ydynt, yw efe.
Joseph Harris: Gweith. 28.

Diefras, *a.* not plump or sleek; thin.

Diefryd, *a.* without study; unstudied.

Diefrydd, *a.* unmaimed, not disabled, sound; quick.

Deigr rhydd *diefrydd* dau anafrawd.
Sefnyn: M.A. i. 504.

Diefryddu, *v.* to divest of maimedness.

Diefyl, *s.* pl. of *Diafol,* q.v.

Mewn gair, y mae y cyfryw ogan i bob un o'r ddau . . . na ellid fy nanfon i waeth lle ond at y *diefyl* i annwn.
I. B. Hir: Gwaith, 219.

Dieffaith, *a.* without effect, of no effect, effectless.

Buasai cyfundrefn foesol ar sail o'r fath, nid yn unig yn dwyllodrus, ond hefyd yn *ddieffaith* ac ofer.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 229.

Yr oedd eu chwerthin-wawd yn hollol *ddieffaith* ar yr estron.—*Gwyliadydd,* vi. 147.

Dieffeithiol, *a.* not effective, ineffective, ineffectual.

Diegin, *a.* having no germs or sprouts; without germs.

Dieglur, *a.* indistinct, not clear.

Diegluro, *v.* to become indistinct.

Dieglwg, *a.* not manifest; not evident or plain.

Dieglwys, *a.* churchless, having no church.

Dieglwysig, *a.* not ecclesiastical, not churchly.

Dieglyd, *a.* unwavering, steady, steadfast, firm.

Gogledd argywedd, eir-gywir heb wyd,
Gyflawn yng nghammawn ddawn *ddieglyd.*
Einion Wan. (*P.*)

Diegni, *a.* without energy, inert; without exertion; slow, sluggish.

Cyrhaedd Eisteddfod Ceri ni allaf,
Un hollawl *ddiegni.*—*Gwilym Tew Glan Taf.*

Diegnïo, *v.* to cease to exert.

Diegnïol, *a.* not exerting; wanting exertion or energy; inert; unexerted.

Diegr, *a.* [egr] not eager, not vehement.

Dechreu haf llathr a'i sathrai,
Deigr a'i mag, *diegr* y Mai.—*D. ab Gwilym,* cxliv. 45

Digitized by Google

Diegryn, *a.* [cr̂yn] not trembling or shaking; firm; undismayed.

Diegwan, *a.* not weak or feeble; strong; mighty.—*Rhuf.* iv. 19.

A diau pob blodeuyn
A yspys ddengys i ddyn
Ddirfawr ddyfnderoedd arfaeth
Diegwan Ior, Duw a'i gwnaeth.—*Gronwy Owain*, 61.

A'r deyrnes gynhes, heb gel,
Yn *ddiegwan* ddiogel.—*Blackwell:* Ceinion Alun, 128.

Diegweddi, *a.* dowerless, portionless.

Diegweddïo, *v.* to divest of dower or portion.

Diegweddïol, *a.* unportioned, dowerless.

Diegwyddor, *a.* having no principle, unprincipled.

Wele feddwdod wedi temtio, nid yn unig gŵ̂r distadl a *diegwyddor*, ond y fath gedyrn a'r patrieirch.
Dewi Wyn, 333 (cf. 334).

Diegwyddori, *v.* to divest of principle.

Diegwyddoriad, -au, *sm.* a divesting of principle.

Diegwyl, *a.* inopportune, untimely.

Diengir, *a.* not surprising, strange, or terrible.

Diengiriol, *a.* not surprising, unsurprising.

Diengu, **Diengyd,** } *v.* [dianc]=*Dianc, Diangu.*

O ddu ing boed it' *ddiengyd!*—*Dafydd Ionawr*, 62.

Teyrn yr Aipht a'i luoedd a feddyliasant fod y Môr Coch a'i ddyfroedd dyfnion a berw-wyllt yn attalfa effeithiol i'r llwythau etholedig *ddiengyd* rhag eu cynddaredd.
Brutus: Brut. 441 (cf. 189, 458).

Am ddangos im' *ddiengyd*
Cilddannedd gwagedd a gwyd.
Ieuan Lleyn: Caniadau, 59.

Diehud, *a.* [ehud] not easy to be deceived; not rash, unadvised, inconsiderate, fickle, or heedless.

Dieidio, *v.* [aid] to become or to make inert; to enervate.

Dieidiog, *a.* inert; enervate.

Dieidiogrwydd, *sm.* an enervated state or condition; languidness.

Dieidiol, *a.* inert; languid, slow; enervating.

Dieiddiad, -au, *sm.* a becoming unjealous.

Dieiddig, *a.* not jealous, unjealous, free from jealousy; not zealous, without zeal.

Nid wyf diddawn a *dieiddig.*—*Myrddin:* M.A. i. 150.

Dieiddigedd, *a.* without jealousy.

Dieiddigedd, *sm.* an unjealous state.

Dieiddigo, *v.* to divest of jealousy; to cease to be jealous.

Dieiddigol, *a.* not apt to be jealous.

Dieiddil, *a.* [eiddil] not slender, weak, or feeble; strong, robust, stout.

Ac ysgwieryeit y rei or Sarascinyeit yna yn *dieidyl* a geissyssant y lad.—*Ystoria de Carolo Magno*, col. 434.

Dieiddil, a da oeddwn,
A chryf, a gorwyllt, a chrwn.—*D. ab Gwilym*, cclxi. 13.

Blaidd oedd â threm *ddieiddil*,
Blaidd oedd fo, a blaenodd fil.—*Iolo Goch.*

Ac a'u trinodd, trwy nodded . . .
Ei ddwylo *dieiddilion.*—*W. Midleton:* Salm. lxxviii. 72.

A da ddwylaw *dieiddilion.*—*Nicander:* St. Paul, xv.

Dieiddilwch, *sm.* the condition of not being slender or feeble; robustness, stoutness.

Dieiddilwch, *a.* without feebleness or weakness; strong, robust.

Addunwch i Dduw uniawn,
Telwch *ddieiddilwch* ddawn.
W. Midleton: Salm. lxxvi. 11.

Dieiddilwr, wyr, *sm.* a man free from feebleness; a strong or athletic man.

Dewraf̃wyt, a gyrddaf gwr,
Dy ddilyn, *dieiddilwr.*—*Dafydd ab Gwilym*, i. 3.

Dieiddio, *v.* to cease to be jealous; to divest of zeal.

Dieiddiol, *a.* not zealous; indifferent.

Dieiddo, *a.* without property.

Dieidduno, *v.* to cease wishing or desiring.

Dieiddwch, *sm.* want of zeal; indifference.

Dieifl, *s.* a pl. of *Diafl*, q.v.

Y llu tew-ddu llid diddawn,
Llu delwau *dieifl* lludlyd iawn.—*Morus Cyffin.*

Brenin y dieifl, the king of the demons or devils.

Hyspys yw mai *brenin y dieifl* y Belsibwb hwnw.
Dafydd Fychan: Efengyl Nicodemus, i.

Penadur y dieifl (=penaeth y cythreuliaid), the prince of the demons or devils.

Dieifledigion, *s.pl.* demoniacs.

Yna ydd atebasant yr Iuddewon, Ys diau drwg weithredydd ydyw ef, a thrwy nerth a chynnorthwy diafol, sef hwnw, Belsibwb, yr hwn yw *penadur y dieifl*, y teifl ef gythreuliaid i maes o'r *dieifledigion;* ac yn hafal hyny drwy allu a chynnorthwy dieifl y gwna efe ei holl ryfeddolion o weithredoedd, ac nid o rad penllad dwyfawl.
D. Fychan: Efengyl Nicodemus, i.

Dieiflig, *a.* 1. possessed by a devil or demon, demoniac, demoniacal. 2. devilish, diabolical; fiendish.

Dieilfydd, **Dieilydd,** } *a.* having no second; second to none; that has no equal; incomparable, matchless.

Hynod, dewraf glod drwy'r gwledydd, a mawl
Fo i'n milwyr *dieilfydd.*
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 294 (cf. 228).

Dieilydd eiriau dilyth,
Sanctaidd, da, i bara byth.—*Robert Owen:* Gweith. 141.

Mae hwn a'i hynodion uwch law fy narfelydd,
A'i adael wnawn yno mewn harddwch *dieilfydd.*
I. G. Aled: Palestina, 93 (cf. 11, 94).

Dieilfyw, *a.* not reanimated or resuscitated.

Dieiliad, *sm.* a pulling down a wattled structure; decomposition.

Dieilig, *a.* [al] unharmonious.

Dieilio, *v.* to decompose; to unbuild; to untwist, to unwreathe; to undo.

Dieiliwyd rhin ym min mau,
Diolwg a'i dialau.—*Dafydd ab Gwilym*, xviii. 35.

Dieinig, *a.* [dy-+dien *or* dyen] full of vivacity or activity; generous, liberal; lavish, profuse.

Dewr a noeth benadur dawn,
A *dieinig* waed Einiawn.—*Gr. Gryg*, i Hywel y Fwyall.

Dieirda, *a.* not well spoken of; having no good name or character.

Dieiriach, *a.* [eiriach] unsparing; unforgiving, implacable; ruthless.

Eissyoes llit pob un onadunt wrth y gilyd a oed gymeint ac na doeth cof udunt dim y wrth eu gwelioed. namyn ymguro yn *dieiryach* a orugant.—*St. Greal*, i 140.

Digitized by Google

Run goeth fal y doeth o daith geintach gyrch
O garchar *ddieiriach*
O ras bwyll i Ros bellach
Y delwyf o nwyf yn iach.—*Gr. D. ab Tudur:* M.A. i. 477.

Dieiriol, *a.* without pleading, entreating, or interceding.

Dieirioli, *v.* to cease to entreat or intercede.

Dieirydu, *v.* to praise or extol?

Taf gwr mawr y wael Maelderw
Delwat *dieirydaf* y erry par ar delw.
Gorchan Maelderw: A.B. ii. 99 (M.A. i. 85).

Dieisieu, **Dieisiwed,** *a.* without want, wanting nothing, free from want; not deficient; needless.

Tri pheth a ennill gariad Duw: ffydd lân ddifrychau; a gobaith cryf difeiau; a chariad perffaith *dieisieu.*
Trioedd Moes: M.A. iii. 191.

Med o uualeu a da *dieisseu.*—*Taliesin:* A.B. ii. 195.

Cywaeth y gwynfydedig saint a fydd, bod yn ddianghen, *ddieisieu,* yn meddu yn Nuw pob daioni.
R. Smith: Eglurhâd, 84.

Dieisiwo, *v.* to divest of want; to indemnify; to compensate.

Sef yw anvodeu [*al.* anodeu] pob peth a dyccer yn rith peth arall. ny dylyir am anvodyeu dim namyn *dieissywaw* oe da.—*Cyfreithiau Cymru,* i. 616; ii. 42, 104, 110, 254, 374, 399.

Efe a ddyly hagen *ddieisiwaw* y colledig o'r eiddaw.
Leges Wallicae, II. xxx. 3.

Dieisor, *a.* without an equal, matchless, unequalled, incomparable.

Ef ar tir ef ar vor ef yn anhebcor
Ef yn diachor ef yn *dieissor.*—*Taliesin:* A.B. ii. 160.

Canfod a wnaeth y cenfor yn ollawl
Eich gallu *dieisor.*—*Daniel Ddu,* 36.

Dieisor Gymmrodorion
Codant adail, sail 'roes hon.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 103.

Dieithaf, *a.* boundless, unbounded, limitless.

Pa droion, pa gyflyrau newydd sy
Raid ini drwyddaw! mae eangder wedd
Ddieithaf rhagof.—*W. O. Pughe:* Ymson Cato.

Dieithr, *a.* [di- (=dy-) + eithr] 1. strange; alien; foreign; exotic. Now often written *dyeithr,* which etymologically is the more correct form.

Nyt oed yn vyw yn dyn a wypei wahan y rwng y meibyon. nac o veint nac o bryt *dyeithyr* ar eu dillat.
Amlyn ac Amig, col. 1066.

Ef a diwreidyawd oe deyrnas yn gwbyl. gwyr Denmarc a Normanyeit. a phawp o wyr *dieithyr.*
Brut y Saeson: LL.C.H. ii. 388 (cf. 386).

Gorchymyn y brenhin oed na allei neb gynnal neb or rei a oedynt yn presswylaw Keredigyawn, kyn no hynny na gwr or wlat na gwr *dieithyr* vei.
Brut y Tywysogion, 92 (cf. 296).

A'r haf a fiwyddyn honno y gwelwyd pryfed o rywieu *dieithron* yn y Werddon ar wedd gwaddod.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 483.

Dieithr fydd er ei meithring,
I drum yr wrthallt y dring.
D. ab Gwilym, lxxvii. 3 (cf. xviii. 47; clxi. 17).

A môr Sodom a fwrw allan bysgod, ac a rua'r nos, yn *ddieithr* i lawer.—2 *Esd.* v. 7.

I adael heibio'r ofergoel aneirif a fu ganthynt mewn trwsiadau *dieithr.*—*Ed. James:* Hom. i. 73.

Mor *ddieithr* ddysymmwth fydd gan yr enaid y lle y byddo ynddo.
Dr. Davies: Llyfr y Res. I. v. 11 (cf. II. iv. 15).

Mi a ryfeddais ac a lawenychais weled geiriau fy ngwlad mewn ieithoedd *dieithr* ydoedd mor oedranus ac anrhydeddus.—*Ch. Edwards:* Hanes y Ffydd, 356 (cf. 215).

Gwr dieithr (*pl.* gwŷr dieithr), a strange person, a stranger; a foreigner.—*Deut.* xvii. 15.

Gwr dieithr yw y fory.—*Diareb.* (M.A. iii. 183.)

Y *wyr dieithyr* ynteu wedi eu dal, a dorret ei fawt deheu i law pob un o naddunt.
Buchedd Gr. ab Cynan: M.A. ii. 595.

Y *gwr dieithr* a gymmerodd y ddwy eneth fechan yn ei freichiau.—*Y Brutiau Pell,* 3 (cf. 5, 9, 12, 27, 43).

Pobl ddieithr, strange people; strangers.

Hwy a briodasant eu merched hwy, hwynt-hwy a'u meibion, a'r had sanctaidd a gymmysgwyd â *phobl ddieithr.*
1 *Esd.* viii. 70.

Dyn dieithr, *Dieithr ddyn,* a strange person, a stranger.

Na wna ynddo ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th wasanaethwr, na'th wasanaethferch, na'th anifail, na'th *ddieithr ddyn* a fyddo o fewn dy byrth.
Ecs. xx. 10 (cf. xxiii. 12; Deut. v. 14).

Gwlad ddieithr, a strange country or land; an unknown country.—*Ecs.* ii. 22.

Y rhai mewn *gwlad ddieithr* ynt yn chwennych dysgu.
Eccl., Prol. 2.

Tir dieithr, a strange land.—*Heb.* xi. 9.

Y neb a gymmero daith yn llaw, ac a aiff i *wlad ddieithr,* nid hwyrach iddaw pan ddelo ef i ryw dref hyfryd . . . anghofio ei deulu.—*Huw Lewys:* Perl, 112.

Dieithr waith, strange work.—*Esa.* xxviii. 21.

Dieithr beth, *Peth dieithr,* a strange thing.—*Dan.* ii. 11; *Hos.* viii. 12; *Act.* xvii. 20; 1 *Pedr* iv. 12.

2. without exception; unexceptionable; unobjectionable.

Dieithr vrodyr vryd ucheldeu
Diarchar arial a dan daleu.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 266 (cf. 416).

Dieithr, -iaid, aid, *sc.* a stranger; an alien.

Ein tadau yn y dechreu oeddynt *ddieithriaid* yn yr Aipht.
2 *Esd.* xiv. 29.

Y gwr a oedd aruthur wrth y elynyon a hynaws y giwtatwyr, a gwar wrth pererinyon a *dieithreit.*
Brut y Tywysogion, 46.

Tri pheth a fu achaws gorchfygu Lloegr, a'i dwyn oddiar y Cymry: cynnwys *dieithraid,* rhyddhau carcharorion, ac anreg y Gŵr Moel.—*Trioedd:* M.A. ii. 70.

Na orthryma, ac na flina y *dieithr:* canys *dieithriaid* fuoch chwithau yn nhir yr Aipht.
Ecs. xxii. 21 (cf. xii. 19, 43).

Byddant yn eiddo ti dy hun yn unig, ac nid yn eiddo *dieithraid* gyd â thi.—*Esgob Morgan:* Diar. v. 17.

Dieithr i'n hiaith, hydr-iaith hen,
Dieithr i ber-wawd awen.—*Gro. Owain,* 58.

Na wna beth cyfrinachol o flaen y *dieithr.*—*Eccl.* viii. 18.

Hwy a flinasant y truenus *ddieithraid* â'r caletaf gaethiwed.—*Gwallter Mechain:* Eglur Olygiad, 33.

Tewged Ddu ab Llyfeinydd a fu frenin ar ol ei frawd Gorwst, ac yn ei amser ef y daeth y *dieithraid* o Gaerdroea i Ynys Prydain.—*Iolo Mss.* 4 (cf. 172, 216).

I'th wared . . . oddi wrth y *ddieithr* wenieithus ei geiriau.—*Diar.* ii. 16.

Am iddynt drin *dieithriaid* yn anghyweithas.
Doeth. xix. 15 (cf. 13).

Dieithr, *prep.* except, excepting, save, but, nothing but; above, beyond; on the outside of.

Nyt oes ymi dim yn eisseu bellach *dieithyr* taryan.
St. Greal, § 5 (cf. 17, 40).

Myn vy nghret. heb ef. ny byd byw *dyeithyr* hyt avory.
Doethion Rhufain, § 23.

Ar rei hynny yssyd gymeint ae sarhaet, *dyeithyr* na drychefir.—*C.C.* ii. 40 (cf. 42, 44, 46, 52, 72, 82, 94, 96, 100).

A phan deffroes ef a welei yn yr ysgraff gwr aruawc *dieithyr* y benn yn noeth.—*St. Greal,* § 46.

Ef a edewis yr holl longeu ar y weilgi allan *dyeithyr* vn llong.—*Mabinogion,* 95.

Rac gwybot or genedyl honno ystyr y neges. nac o neb *dyeithyr* y brenhin ae gyghorwyr.—*Mabinogion,* 95.

Anaf *dieithyr* croen yw. sef achos yw py le bynnac ny thorro na chic na chroen, bot hwnnw yn anaf *dieithyr* croen.
Cyfreithiau Cymru, ii. 100.

Digitized by Google

Yna yr ymroddes holl Forganwg yn Saesson, *dieithr* bychan o nifer a aethant at eu harglwydd i Wynedd.
Iolo Mss. 67 (cf. 307).

Nat oes rat na mat Metrum amser ffawt
Dieithyr ri tri Trindawt uthyr wawt wiwder.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 475 (cf. 555).

Dieithr modd, above measure, beyond measure.

Yna y tygwys y brenhin y goron y teyrnas wedy irllonhau ohonaw *dieithyr mod.*—*Campau Charlymaen*, § 1.

Dieithr hyn, except this; with this exception; besides this; moreover.

O ddieithr (1), on the outside of, on the exterior of; out of.

Mal na adant dynyon *o ddieithyr* y byt ual ydym ni heb ef yn dioddef perigleu yr eigawn y mywn ynyssed heb gymell teyrnget arnadunt.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 83 (cf. 203, 204).

Tri pheth ny ddylir *o ddieithyr* cyfyrderw y wneuthur.
Cyfreithiau Cymru, ii. 656.

Duw a eirch yn y geir hwnnw na bo kytknawt rwg a gwreic *o dieithyr* priodas.—*Llyfr Ancr*, 142.

A ffan darfu udynt vwyta wynt a aethant allan *odieithyr* e dinas. i beri dangaws amryvailion gwarëeu ac en enwedic dangaws arwyd ymwan.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 324.

Ac wrth hynny Eidol a gymerth cledyf ac ae duc *o dieithyr* y dref.—*Ystr. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 183.

Ysgynnaen a oed *odieithyr* y porth.—*Mabinogion*, 19.

Ac adeilyat ty a wnaethpwyt uddunt ar lan avon Tyber *oddieithyr* Rufein.—*Doethion Rhufain*, § 2.

(2) except, excepting, but; with the exception of. Now more usually written *oddi eithr*.

Felly y dylai bob dyn (*o ddieithr* na allo ef drafaelu) er ennill ei fywyd ei hun yn honest, ac er budd i ereill hefyd.
Ed. Iames: Hom. iii. 186.

Dieithr, *con.* except that, unless.—*P.*

Dieithrad, } *a.* [di-+eithr] without exception,
Dieithriad, } not excepted.

Yn ddieithrad, } without exception; with no
Yn ddieithriad, } exception.

Dieithrad, } -au, *sm.* [dy-+eithr] estrange-
Dieithriad, } ment; alienation; exception.

Dieithrad, iaid, aid, *sm.* a stranger.

Yna y cilia gwarth oddi wrthyt, a bydd cywilydd yn *ddieithrad* yn dy annedd.—*W. O. Pughe:* E.D. i. 1.

Dieithradwy, *a.* exceptionable.—*P.*

Dieithreb, *sf.* a rule of exception; an exception.

Gochelwch fod y *ddieithreb* yn rhy gyfrywiawl; megys pe dywedai un, Yr ŷm mewn tlodi; eithr heb arnom eisieu dim. Nedwch i'r *ddieithreb* fod yn rhy wan; megys pei dywedwn, Melus yw urddas; etwa yr ydys yn dal gwg iddaw. Nid yw'r *ddieithreb* yma yn lleihau dim ar y glod uchod.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xxxiii. 3.

Dieithredig, *pt.a.* estranged; alienated.

Arddelw o amreint ar yr hawlwr fal na ddylyer attep iddaw neu oc fot yn *ddieithredic* o cyfreith.
Cyfreithiau Cymru, ii. 650.

Dieithredd, } *sm.* strangeness; estrange-
Dieithrder, } ment; alienation; distance of
Dieithrdra, } behaviour.

Lle y mae eu heneidiau yn cydymddiddan wyneb yn wyneb, ac yn rhwydd yn cyfranu eu cyfrinach i'w gilydd heb y *dieithrdra* na'r rhagrith lleiaf.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 136.

Dieithredd (anghyffredinedd, aruthredd) y ddamwain a'u dychrynodd.—*Walters.*

Dieithriad, iaid, *sm.* a stranger; an alien.

Dieithro, } *v.* 1. to estrange; to be or become
Dieithrio, } estranged or alienated; to withdraw from company; to keep a distance; to alter in appearance.—*Ier.* xix. 4; *Eph.* ii. 12.

Ni ddyleait ti edrych ar ddydd dy frawd, pan *ddieithriwyd* ef.—*Esgob Morgan:* Obad. 12.

Dyna chwi yn digorffori ein hiaith, gan afiunio a *dieithro* ei chorff, a'i wneyd yn ysgerbwd!
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 177.

Oni bai ei bod hi, Rhagrith, yn medru *dieithro* henw a natur pob drwg, tan rith rhyw dda, a llysenwi pob daioni â rhyw enw drwg, ni chyffyrddai ac ni chwennychai neb ddrwg yn y byd.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 106.

A'r bobl gan *ddieithrio* gwedi ymddieithrio oddi wrth yr Arglwydd.—*Brutus:* Brut. 470.

Nyni a allwn wneuthur o'r goreu â ni ein hunain, naill ai trwy *ddieithro* ein beiau ag enwau gwych, neu eu lliwio drostynt ag esguson teg.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 96 (cf. 132, 186, 313, 320, 365).

Yr apostol a ddywaid fod anwybodaeth yn *dieithro* oddi wrth fuchedd Dduw.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 367.

2. to except; to exempt; to exclude; to desist.—*M.A.* ii. 517.

Dall, a mut a byddar, a gwreic ar wr, a *ddieithrir* o gyfreith am y hanafeu.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 654 (cf. 736).

A phan ddywaid ef ddarfod darestwng pob peth iddaw, y mae yn amlwg ei fod ef wedy ei *ddyeithro*, a ddarestyngawdd bob peth y danaw.—*W. Salesbury:* 1 Cor. xv. 27.

Ac am hyny y dlai bawb ufuddhau iddi, ac ni ddichon neb yn gyflon ei *ddieithrio* ei hun oddi wrthi.
Ed. Iames: Hom. iii. 186 (cf. ii. 161).

Mor ofnadwy yw hyn y mae efe yn ei ddywedyd . . . yn gweddîo tros ei arteithwyr a'r rhai a'i croeshoelient, ac eto'r awron yn *dieithro* 'r byd oddi wrth ei drugaredd!
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. iii. 52.

Nid yw efe [S. Paul] yn *dieithro* neb, nac apostol, nac offeiriad, na phrophwyd.—*Ed. Iames:* Hom. i. 140.

Dieithrol, *a.* tending to estrange or alienate; estranging; estranged; of a strange nature, quality, or character; strange; wonderful, marvellous.

Mae Duw yn llwyddo ychydig mewn rhyfeloedd cyfreithlon yn erbyn llawer miloedd o elynyon *dieithrol*.
Ed. Iames: Hom. iii. 279 (cf. 278).

Mi aethym yn *ddieithrol*
Oddi wrth fy mrodyr cnawdol.
Rhys Prichard: C. y C. ciii. 9.

Newydd a *dieithrol* yr ymddengys profiadau o'r Ysgrythyrau, er eu darllen genych beunydd.
Ch. Edwards: H. y Ffydd, 70 (cf. 168, 172, 236).

Dieithrol ydynt (o ran profiad) i ni Brydeiniaid.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 9.

Yn gyssylltiedig â'r adfail olaf, yr oedd amryw chwedlau *dieithrol* yn cael eu hadrodd yn y wlad.
Brutus: Ninefeh, 23.

Anturiaf, ehedaf hynt,
Hwyliaf *ddieithrol* helynt.—*Dafydd Ionawr*, 54.

Dieithroldeb, *sm.* strangeness; estrangedness, estrangement.

Dieithrwch, } *sm.* strangeness; marvellous-
Dieithrwydd, } ness; estrangedness, estrangement; unacquaintance.

A phan ni ellid dychymmyg rhemp mor erchyll, na bai'r bobl yn ei goelio yn ebrwydd, o ran newydd-der a *dieithrwydd* y peth.—*M. Cyffin:* Diff. iv. 9.

Y mae pendefigion ein gwlad megys â'u breichiau ar led i'w derbyn i'w nawdd haelionus, a hyny yn ddiammheu genyf mewn *dieithrwch* i'w bucheddau.—*Gwyliedydd*, vii. 147.

Dieithryn, *sm.* a stranger; an alien.

Dieithryn, adyn ydwyf,
Gwae fi o'r sud! alltud wyf.—*Gro. Owain*, 58.

Dielusen, *a.* without alms, giving no alms.

Dielw, *a.* [elw] 1. worthless, valueless; of no account; ignoble; base, vile.—*M.A.* i. 255, 399, 509, 523.

Rac gwelet gwr kyfurd a thi yn diuetha pryf mor *dielw* a hwnnw gollwng ef ar da geffy ditheu.
Mabinogion, 56 (cf. 254).

Digitized by Google

Enweu hagen a gweythredoed y gwyr pwy bynnac a vynno eu gwybot keymeyet yn y llyfr a yscryfennws Gyldas o wudugolyaeth Ymreys Wledyc. ar peth a draethws y gwr hwnnw mor yglur a gloew a hynny nyt rheyt y mynheu y atnewydu hynny o traethawt a vey *dyelwach* no hynno.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 197.

A phan welas y mawrurydus Rys hynny ymwisgaw a wnaeth megys llew dyfal o gallon a llaw gadarn a chyrchu y elynyon yn wrawl ae hymchoelut ar ffo ae hymlit ae traethu yn *dielw* kyt bei gwrawl.—*Brut y Tywysogion*, 242.

A hwnnw a vu gyn hegaret ac na mynnei argywedu y dyn yn y byt yr *dielwet* uei.
Brut y Saeson: Ll.C.H. ii. 395 (cf. 153).

Dielw yw gennyt eu heneiteu ac eu gwaet.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 465 (cf. 396, 461, 462, 467, 473).

Dielw yw defnydd dyn, sef daiar.—*Llyfr Gwyn Hergest.*

Paham y gwnaeth ef dhyn o dhefnydh mor *dhielw* a hwnnw.—*Lucidar*, § 17.

Ni ryfygaswn i gyfiwyno erthyl mor afiuniaidd ac am-mherffaith a hwn i'ch ffafr chwi a'ch nodded, oni bai fod yn ddiammheu genyf fod eich cariad chwi at y Cymry mor fawr, nad oes le i betruso na chaiff y meredig hwn hefyd, er *dielwed* yw . . . ei gynnwys, a'i gyflawn groesawu, ym mhlas Penbedw.—*Moses Wiliams:* Cofrestr, Cyfl.

2. profitless, void of gain; disinterested.—*C.S.*

Dielwad, *sm.* a disparaging, a contemning, a vilifying; annihilation.

Dielwant, *sm.* vileness; disparagement.

Dielwedd, *sm.* worthlessness; baseness; abjectness; contempt.

Dielwi, *v.* to treat as valueless or worthless; to despise, contemn, or disparage; to render worthless; to mar.

O enwir chwythat ef a gribdeila y dryded geig. y dwy a drickyo a achubant le y diwreidedic. yny *dielweo* y neill y llall o amylder y deil.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 148.

Kywythyawn am dawn om *dielwi.*
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 281.

Ac felly i *dielwis* rhyfyg y Ffreinc hyt ar ddim.
Buchedd Gr. ab Cynan: M.A. ii. 599.

Yno y *dielwir* dysg ein cenedl ni.—*D.*

Tostedd dialedd yn *dielwi* y sydd,
Ysywaeth, i'm poeni.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 291.

Deliais ar funud Olwen,
Dielwi 'r wyf dal ar wen.—*Bedo Brwynllys.*

A chwanegant, drwy antur,
Ei ddolur, i'w *ddielwi.*—*W. Midleton:* Salm. lxix. 26.

Dielwig, [dielw] *a.* 1. base, vile, contemptible.

Ystig *ddielwig* ddiliw,
Wystyn ei llys, 'staen ei lliw.
Dafydd ab Gwilym, clxxxiv. 27.

Rhwyd rhodres *ddielwig* armes arddel gormod.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 323.

2. [=annelwig (from *delw*)?] unshapely, unshaped, unshapen, deformed; ugly.

Anghenfil gwelw *ddielwig*,
Penisel ddelw ddu-ddel ddig.—*Gronwy Owain*, 109.

Dielwigrwydd, *sm.* contemptibleness; baseness; worthlessness.

Dielwydd, -ion, *sm.* a contemner.

Dielyniaeth, *a.* [gelyniaeth] without enmity or hostility.

A'i wedd lân *ddielyniaeth*,
Wr myg, o ddirmyg ydd aeth.—*D. Ionawr*, 246.

Diell, *a.* compact; beautiful; without blemish or flaw, unblemished; beautiful; perfect.

Hanpych gwell *ddiell* ddïen fam Ddofydd.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 572 (cf. 433, 493, 510).

Ni wn i ddyn mor *ddiell*,
Na dyn a wyr da yn well.
Dafydd ab Gwilym, clxviii. 7 (cf. lxxxv. 26).

Cyfarch gwell i'r *ddiell* ddyn.—*Madog Benfras.*

Dull ei gwedd *diell* a gwych.—*Lewys Mon.*

Dyddgu wawr anrhydedd-gael,
Dyn gwiw, du eiliw dy ael!
Dawn glyd, pe'n rhoddyd yn rhad
Da holl Loegr, *diell* lygad.
Dafydd ab Gwilym, xviii. 31 (cf. clviii. 39).

Dwy drŵell ar *ddiell* ddyn.—*Thomas Derllys.*

Ac odid na chaiff gwedi,
Gan Ion, Lewis Mon a mi;
Neu ddeuwr awen *ddiell*,
I ganu gwawd ugain gwell.—*Gronwy Owain*, 13.

Dena'm mun deg yn dyner
Draw'n *ddiell* i'r babell ber.—*Iolo Morganwg.*

Swydd Lleon Gawr sydd llawn gell, a Maelor,
Am olud marl *diell.*—*G. Mechain:* Gwaith, i. 40.

Llwyddiant ar *ddiell* addysg
I weini maeth yn ein mysg.—*Robert Owen:* Gweith. 248.

Diemig, *a.* [?] not overwhelmed, not overthrown.—*P.*

Un pren â gwyddvid arno
O dianc [*al.* o *diemic*, o *dieinc*] ys odid
A vyno Duw dervid.—*M.A.* i. 107 (A.B. ii. 279).

Nis goddwyf cydbwyf *diemig* [*al.* diemic).
Myv. Arch. i. 171 (cf. A.B. ii. 114).

Diemwnt, *sm.* [E. *diamond, adamant;* Fr. *diamant*] a diamond. The word has hardly been naturalized. See *Dimwnt.*

Diemwnt ar wydr wyt yma,
Dur ar y dur i roi'r da.—*Guto'r Glyn.*

Mae'r creigiau dur a *diemwnt* tragwyddol sy'n toi Annwn, yn rhy gedyrn o beth i'w malurio.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 64 (cf. 85).

Mewn cadwyn *ddiemwnt* rhwymir angeu mwy.
Blackwell: Ceinion Alun, 153.

Diemyth, *a.* [?] infallible; unfailing; not abortive.—*P.*

Kolli Goronwy gwr *diemyth* vu
Gorofyn llu llafyn dilyth
Llew hael or llin wehelyth
Llawir uyd dorvydir [*al.* ni orfyddir] vyth.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 369.

Dien, *sm.* [di-+en (L. *ens*): cf. *enaid*, &c.] death, violent death; execution; end (of life).

Aethym ar bren i gym'ryd fy *nien.*—*Taliesin.* (*D.*)

Ni dŵyr perchen enaid ba beth fydd ei *ddien.*
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 6 (cf. 11).

Onis caf wen, gwn fy *nien;*
Gwae fi *dien!* gwae fi *dien!*
Dien i mi, mein-gorff wisgi,
Dioer os tydi a'm gwrthodi.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 251.

Dien drwg fo i'r dyn draw.—*Dafydd ab Gwilym.*

Da yw'r *dien* yn y diwedd i ddyn
A ddywed y gwiredd.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 291.

Y mae ar y pren yn goddef *dien*,
Yn gostwng ei ben yn boenedig.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 26.

Dien, *a.* [dy-+en] 1. genuine, natural; true; calm, quiet; serene; pleasant, genial.—*M.A.* i. 572.

Pan yw *dien* gwlith a lladd gwenith.
Taliesin: M.A. i. 37 (cf. 130).

Cefais noswaith gyweithas,
Cysgu dan blu *dien* blas.
D. ab Gwilym, lxxxviii. 25 (cf. xc. 21; coli. 8).

Dan lwyn, mewn *dien* lannerch,
A dail Mai, rhwng dwylaw merch.
D. ab Gwilym, xliv. 7 (cf. cliii. 9).

Am roi da, am aur *dien*,
Mae'r gair i dâl Margred wen.—*L. G. Cothi*, iv. xiii. 27.

Gwanwyn, ar dwyn ir do,
Dien yw'n blodeuo.—*Edward Dafydd:* Cyfr. y Beirdd, 82.

Daw i'n hwybren *dien* des,
Awyr gain, â'i hawr gynhes.
Iolo Morganwg: Salmau, ii. 294.

Llawenydd gaid a lluniaeth
O *ddien* ffrwd ei ddawn ffraeth.—*Daniel Ddu*, 204 (cf. 197).

Digitized by Google

A wnelwyf, boed yn olau
Y *dien* glod i'm Duw'n glau.
Iolo Morganwg: Salm. i., Rhag. 11.

Cwyraidd gainc yw cerdd y gog,
Awen Mai *dien* a'i dwg
I gann 'ng nghoed Morganwg.—*Cyfr. y Beirdd*, 101.

Dawnus wyt, *dien* ei sail,
Prydferth heb neb rhyw adfail.—*Gro. Owain*, 16 (cf. 46).

Synwyr dien, genuine sense.

Ieuenctid, fal pe bai yn ddihen,
Heb waethygu *synwyr ddien*.—*Rhys Goch Eryri*.

2. [=dihen *or* dy-+en?] 'not broken with labour or with age, but having the vigour and beauty of youth (as if *di-hen*); not decayed with age, but endued with youthful liveliness, vigour, and beauty' (*D.*); moving with ease; active, brisk, vigorous; sinewy, mettlesome.—*C.S.*

Llu *dien* yn llawenu,
Hefelydd ni fydd, ni fu.—*Gronwy Owain*, 97.

Duw dien, God always the same. Cf. *Dihenydd*.

3. irrefragable; clear, manifest, certain.

Lucidarius . . .
A ddywed hyn yn *ddien*.—*Iolo Goch*.

Deall hyn o beth *dien*.—*Rhys Goch Eryri:* Iolo Mss. 307.

Dienaid (ē), *a.* 1. without soul, soulless; inanimate, lifeless.

Ar brenhin ehun yn ddigyffro or cwrr y blaen ir llong a frathws a saeth Hu iarll Amwythic yn ei lygat, ac ynteu a ddigwyddws oe ochrwm ir ddaear yn friwedic, *ddieneit*, i ar ei farch arfawc dan ymffustiaw ar ei arfeu.
Buchedd Gr. ab Cynan: M.A. ii. 601.

Ti . . . a roddaist gorff i Adda *dienaid*.—2 *Esd.* iii. 5.

2. lifeless, spiritless, without courage or energy.

Yr ymladdwyr goreu o'r byd oll a geffynt, â gŵŷr *dienaid* parhäus i ymladd, nid amgen no gŵŷr Europa a gŵŷr yr Asia.—*Ystori Dared*, § 19.

Gwelodd, prysurodd mewn serch,
Ei glafaidd wraig oleu-ferch
Yn ddinawdd, yn *ddienaid;*
Ar lawr ei theg wawr a gaid.—*Dafydd Ionawr*, 70.

3. heartless, unfeeling, cruel.

A Christionogion, dynion *dienaid*,
Yn fil gorfoleddant fal garw fleiddiaid,
Chwarddant a chanant wrth bob ochenaid,
Mal anhoffolion a milain ffyliaid.—*Daniel Ddu*, 147.

4. without soul, mind, or intellect.

Dienaint, *a.* without unction, unanointed.

Ni ddaw yno'n *ddienaint*
I Lan y Ser lai na saint.—*Elis Wynn:* Rh.B.S., Rhag. 8.

Dienbyd, *a.* without danger; secure, safe.—*M.A.* iii. 183.

Yno y trigant ynddi, ac ni bydd yn ddifrod mwyach: onid Ierusalem a eistedd yn *ddienbyd*.
Esgob Morgan: Sech. xiv. 11.

Fe allai y gallesid gwneuthur hyn yn fwy *dienbyd* pan oeddynt yn eu mabandod.—*Gwyliedydd*, vii. 378.

Gwell no da *dienbyd*.—*Diareb.* (M.A. iii. 183.)

Dienbydol, *a.*=**Dienbydus.**

Dienbydrwydd, *sm.* freedom from danger, security, safety.

Caffai ym mhob brwydr ac ymladd ar a fu arno o *ddienbydrwydd* ac ufyddawd.—*Hanes Diwedd Arthur.* (*P.*)

Wrth ddychwelyd o wledydd Persia, wedi syrthio mewn clefyd mawr, mi a dybiais fod yn anghenrheidiol i mi ofalu am gyffredin *ddienbydrwydd* pawb.—2 *Macc.* ix. 21.

Dienbydu, *v.* to divest of danger; to make safe or secure.

Dienbydus, *a.* unhazardous; safe, secure.

Diencil, *a.* not retreating; unflinching.

Dienciliaidd, } *a.* not disposed to retreat or
Diencilaidd, } flee; unflinching, unshrinking.

Doniawg calon hael *dienciliaidd* blaid.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494.

Dienchwareu, }
Dienchware, } -on, *sm.* tragedy.—*W.*

Dienchwareuol, } *a.* tragic, tragical, relating
Dienchwareol, } to tragedy.—*W.*

Dienchwarĕydd, -ion, *sm.* a tragedian.—*W.*

Dieneidiad, -au, *sm.* deprivation of life, exanimation; a killing.

Dieneidio, *v.* to deprive of life, to exanimate, to kill.—*M.A.* iii. 162.

Ac otino i tenid wint a bacheu ac wrth rafeu. ac ena i *dieneidid* wint.—*Brut Gr. ab Arthur* (A): M.A. ii. 230.

Pe caid a'm *dieneidiodd*,
Mi gawn fun mewn amgen fodd.
Dafydd ab Gwilym, cxlviii. 17.

Os bydd gwr yn casäu ei gymmydog, ac yn cynllwyn iddo, a chodi yn ei erbyn, a'i *ddieneidio* fel y byddo farw, a ffoi i un o'r dinasoedd hyn; yna anfoned henuriaid ei ddinas ef . . . a rhoddant ef yn llaw dialydd y gwaed.
Deut. xix. 11, 12 (cf. xxii. 26; xxvii. 25).

Pan gydymgynghorassant yn fy erbyn, y bwriadassant fy *nieneidio*.—*Salm.* xxxi. 13 (cf. xciv. 6).

Yr hyn a ddarfu i'n gwrthwynebwyr ni eu cwbl ddinerthu a'u *dieneidio*.—*Morus Cyffin:* Diff. vii. 1.

Ar lan Hafren . . . yr oedd y Brithwyr hwythau . . . yn *dienеidio* ac yn difrodi mor ysgeler a phan y bo llifeiriant disymmwth gan gafod twrwf yn ysgubo gyda'r ffrwd.
Theo. Evans: D.P.O. 102.

Dilys yw, na oddefai yr Iuddewon i ddrwg weithredwyr gael eu *dieneidio* o fewn Ierusalem.
Gwyliedydd, v. 300 (cf. 296).

Dieneidiog, *a.* soulless; not endowed with life, lifeless, inanimate; dead.

Yma mae'r prophwyd yn areithio wrth longau Tarahish, mal pei baent yn ddynsodion rhesymol, ac hwynt yn fudiaid *dieneidiawg*.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb (1595), xxxvi. 2.

Dieneidiol, *a.* destitute of life, inanimate, lifeless; soulless.

Nit oes dim. medh Sain Ieronim. or a orug yr Arglwydh erioet nys adnapo ef. canys y petheu hynny a welir yni eu bot yn *dhieneitiawl* synhwyr a megys marw. wynt hagen a wydhant vyw yn Duw. ac a synnyant y rhodhyawdur.
Lucidar, § 8.

Golwg llun gwedi ei fritho ag amryw liwiau sy'n peri chwant ar rai anghall i ddymuno *dieneidiol* lun delw farwol i'w hoffi, ac i goelio'r fath bethau.—*Ed. James:* Hom. ii. 29.

A pha gymhwysderau y maent wedi eu cynnysgaeddu â hwynt i symmud neu effeithio eneidiol neu *ddieneidiol* gyrff!—*Daniel Griffith:* Angeu a Nefoedd, 123.

Dieniwed, } *a.* without harm; harmless, in-
Dieniwaid, } nocent.

I hyn y mae ateb eglur byr, Nad ydyw cosp a dial o honynt eu hunain yn ddrwg, os y *dieniwed* a'u cymmer hwy yn oddefgar. . . Un o swyddau cariad yw diddanu gŵŷr daionus *dieniwed*.
Ed. James: Hom. i. 86 (cf. 87, 92, 145; ii. 38).

Dieniwo, *v.* to save harmless; to make satisfaction for harm, loss, or injury; to indemnify, to compensate.

Antenor a gymmerth ei long, ac a ddaeth hyd yn Achia ar Gastor a Pholuces, a dywedyd wrthynt erchi o Briaf iddynt ei *ddieniwaw*, ac edfryd Eeonia ei chwaer adref.
Ystori Dared, § 15 (cf. 17, 21, 60).

Myn vy mantell i mi ath *ddieniwiwaf*. yr honn a uarnwyt yn werthuorussach noe chymeint o eur neu o vein mawrweirthawc.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 470.

Dieniwol, *a.* compensatory, indemnifying.

Digitized by Google

Dienllib, *a.* free from calumny, scandal, or reproach; reproachless; irreprehensible; blameless.

Bardd *dienllib* digyffelyb.—*Brython*, ii. 107.

Dienllibiad, *sm.* a divesting of scandal, calumny, or reproach.

Dienllibio, *v.* to cease scandalizing, calumniating, or reproaching.

Dienllibiol, *a.* not apt to scandalize or calumniate.

Dienllyn, *a.* without what is usually eaten with bread (as butter, cheese, meat).

Bara dienllyn, bread without anything to eat with it; dry bread.

Gwr boneddig aberthog, yn rhodio'r meusydd brydnawngwaith gwlyboer o Ragfyr, a ganfu gwr o gloddiwr dan wasgawd y clawdd yn bwyta bara haidd sych *dienllyn*, ac yn yfed dwr o'r pyllwyn ger ei law.—*Iolo Mss.* 159.

Llyncu yn ddienllyn, to swallow without, or as without, any condiment; to swallow eagerly or greedily; to gulp.

Diennig, *a.* [dy- + ynnig (from *ynni*)?] energetic, vigorous; unsparing.

A phan gigleu Owein hynny a bot y vrawt yn ryd. teruysgus gynnwrwf a wnaeth arnunt ae kyrchu yn *diennic* a oruc.—*Brut y Tywysogion:* Ll.C.H. ii. 311.

Yno y cawn, dawn *diennig*,
Ddiod o aur fragod frig.—*Iolo Goch*, i'r Llong.

Hywel wyd yn nhal y lan,
Hir oes yt' i hau arian;
Diennig yw dy anwyd,
I dafiu im' aur, difiin wyd.—*Guto'r Glyn.*

Chwefris mis mysseing *diennig*
Chwerw draberw o'i drabudr sefnig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 518 (cf. 506).

Diennill, *a.* without gain or profit, profitless.

Diennillgar, *a.* unprofitable, gainless.

Diennu, *v.* to invigorate or energize?

Pond da bod deincod dincau gwres gyfedd
Ynghylch ei dannedd ai *diennes*.
Madog Dwygraig: M.A. i. 487.

Diennyniad, *sm.* a being unkindled.

Diennynol, *a.* not kindling.

Diennynu, *v.* to cease kindling or burning.

Dienoed, *sm.* a reprieve, a respite.

Caniatäu *dienoed* i un coll-fywyd, caniatäu llythyr *dienoed*, caniatâd oed rhag dihenydd i fab dioddef.
Walters, s.v. 'Reprieve.'

Dienoedi, *v.* to reprieve, to respite.

Dienrhydedd, *a.* [=dianrhydedd] without honour, honourless.

Dienrhydeddiad, -au, *sm.* a dishonouring; degradation.

Dienrhydeddol, *a.* dishonouring; tending to degrade.

Dienrhydeddu, *v.* to dishonour, to degrade.

Dienw, *a.* nameless, anonymous.

Argraffesid y Testament Newydd cyntaf yn Seisneg, o gyfieithiad William Tyndal, naill ai yn Antwerp ai yn Hamburg, yn *ddienw*, yn y fl. 1536.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 204.

Mae'n peri colled i'r wraig ei hun, yr hon, wrth hyny a fydd gyfadgen i bawb, ac yn *ddienw* da.
R. Smith: Eglurhâd, 191 (cf. 200).

Dienwaededig, *a.* 1. uncircumcised.—*Gen.* xvii. 14; xxxiv. 14.—2. (fig.).—*Ecs.* vi. 12; *Ier.* vi. 10; ix. 26; *Act.* vii. 51.

Dienwaediad, *sm.* uncircumcision.—*Gen.* xvii. 11, 14, 23, 24, 25.

Os troeddwr y ddeddf ydwyt, aeth dy enwaediad yn *ddienwaediad*. Os y *dienwaediad* gan hyny a geidw gyflawnderau y ddeddf, oni chyfrifir ei *ddienwaediad* ef yn enwaediad?—*Rhuf.* ii. 25, 26 (cf. 27; iii. 30; iv. 9, 10, 11, 12).

Enwaediad nid yw ddim, a *dienwaediad* nid yw ddim.
Esgob Morgan: 1 Cor. vii. 19 (cf. 18).

Dienwaedu, *v.* to cease circumcising.—*P.*

Dienwedig, *a.* unnamed, unmentioned; not named, mentioned, or particularized.

Dienwir, *a.* [enwir=anwir, *a* becoming *e* by attraction of the following *i*] not untrue, unjust, or iniquitous; true.

Keinyon am rotes lles nym llyssir
Kyuedach uorach uur *dienwir*
Kar dawnus parchus perchir orwyron
Kanon atebyon ef nyw tybyir.
Llywelyn Brydydd Hodnant: M.A. i. 412.

Dienwog, *a.* not famous or celebrated; infamous.

Budrog *ddienwog* ddyn-waedd,
Ben-fras, anghyweithas waedd.
Dafydd ab Gwilym, clxxxiv. 23.

Dienydd, **Dihenydd,** -iau, -ion, *sm.* [di- + en] 1. deprivation of life; death (of a criminal); violent or tragic death; execution; loss of life; death; disanimation.

Lleidr ny chaif oet rac y *dyhenyd* namyn tygv y *dyhenyd* ay agev vot yn wyr a dyvot.
Cyfreithiau Cymru, ii. 256 (cf. 38, 338, 340, 600).

Tri *dihenydd* cyfreithiawl y sydd: un yw croc am ledrat; dial a lleas am lawruddyaeth; llosc am ffyrnigrwydd.
Cyfreithiau Cymru, i. 624.

Beth am y rhai a dhalier yna yn gwneuthur y drwc. ac a varner y *dhihenydh*.—*Lucidar*, § 87.

Pryf heb ynteu ar ansawd llygoden. a lletratta a wnaeth arnaf. a *dihenyd* lleidyr a wnaf ynneu arnaw ef.
Mabinogion, 56 (cf. 16).

Wynteu a ffoassant pan welsant y ryw *dihenyd* hwnnw ar eu harglwyd.—*St. Greal*, § 183.

A chlod Hywel a gynnyddodd beunydd, ac am hyny yn gydfesur y cynnyddai cynfigen yr arlwydd ei feistr, oni feddyliodd o'r diwedd *ddihenydd* ac angeu i Hywel.
Iolo Mss. 170 (cf. 314).

Yr oedd y diafol yn tybied mai digon fyddai iddo ef allu peri coelio eu bod hwy yn wir, a chasäu o bawb y Cristionogion, a cheisio eu *dihenydd* yn hollawl.
M. Cyffin: Diff. i. 33.

Tri achos *dihenydd:* gwared ac ymwared rhag drwg a gwaeth o barth gorfod; ymnesäu ac ymdderchafu at wynfyd; ac anoddef y ceugant a'i anorphwys.—*Barddas*, i. 194.

Cyhoeddid gwr yn ymherawdr heddyw, ac a dorid ei ben drannoeth i roddi lle i ryw un arall; a hwnw o fewn ychydig ddyddiau a gai yntef yr un *dihenydd*.
Theo. Evans: D.P.O. (1740), 71.

Hwynyn fo ei *ddihenydd!*
D. ab Gwilym, xcix. 42 (cf. ccxxx. 66).

Meinwar a fydd fy *nihenydd*.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 240.

Wrth fyned â hwynt i'w *dihenydd*, cauodd y siryf arnynt mewn dwy ystafell.—*Charles Edwards:* H. y Ff. 154.

Gwelwn y carcharorion yn myned rhagddynt i'w *dihenydd* tragwyddol.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 66 (cf. 74).

Ni wyddom fod llawer iawn o dân wedi ei ddodi i lettya ym mherfedd y ddaiar . . . yr hwn sydd yn umig yn disgwyl gair o arch i ddyfod allan ac i wneuthur *dihenydd*.
Ieremi Owen, 44.

2. [dy- + hen?] that which remains of any decayed or demolished place or thing; remains, ruins, vestiges. Cf. *llofrudd*, used in a similar sense.

Dyfaler y tai hyny ar eilun cwch gwenyn; sef crynion oeddynt yn ymgynnull yng nghyd yn y pen yn lle cronglwyd goed, a thwll mwg uwch ben y canol; mal y gwelir wrth *ddihenyddion* y tai hyny a geffir ar fynyddau ar y lleoedd ynial hyd yr awr hon.—*Iolo Mss.* 186.

Digitized by Google

Y mae peth o'i *dihenydd* yn weledig yma heddyw.
Parthsyllydd, i. 30.

Efe a wnaeth gastell rhyfeddol ei faint a'i gadernyd a'i wychder yno, a'i *ddihenydd* yno fyth yn weledig hyd heddyw.—*Iolo Mss.* 69.

Ym mhen hir amser daeth mall ar yr eegyrn, mal nas gellid cadernyd arnynt; canys maluriaw a wnaethant yn ulyf; yna dwyn y *dihenydd* yn weryd tir.—*Iolo Mss.* 187.

¶ The word was formerly, and is still by many writers, spelled with *h* (*dihenydd*); but in that form it becomes identical with another and a quite different word. The term. *-ydd* may be = *-edd*.

Dienydd, / **Dihenydd,** *a.* liable to execution or capital punishment; cast for death; punishable by death; condemned or sentenced to death; worthy of death; guilty of death; doomed to perdition or destruction. In the Laws the same as *eneidfaddeu*.

Ny barn kyfreith y vot yn wr *dihenyd* yny vo pedeir blwyd ar dec.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 390 (cf. L.W. 179).

Dynion dienydd, persons under sentence of death, or condemned to execution.

Ni edrychaswn i fawr nad dyma'r gwylwyr yn dechreu gwaeddi ar y *dynion dihenydd*, 'Ffowch, ffowch am eich einioes!'—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 41 (cf. 74).

Dionis (i yspysu trueni ac annedwyddwch bywyd brenin-oedd) a ddywedai mai unfath oedd â bywyd *dynion dienydd*, y rhai sy bob awr yn dysgwyl angeu.
Gruffydd Wynn: Ystyriaethau, 17.

Y Ddinas Ddienydd, / *Y Ddinas Ddihenydd,* the City of Perdition.

'Atolygaf henw'r ddinas fawr wallgofus hon,' ebr fi; 'os oes arni well henw na Bedlam fawr.' 'Oes,' ebr ef, 'hi a elwir y *Ddinas Ddihenydd*.' . . . Mae rhith o hwn, fel o bob peth arall, yn y *Ddinas Ddihenydd*.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 22 (cf. 25, 44, 52, 64, 71).

Trosedd dienydd, a capital crime or offence.

Cael ei farnu yn ddienydd, to be capitally convicted; to be condemned to death.

Dienyddfa, -oedd, fëydd, *f.* / **Dienyddle,** -oedd, *m.* *s.* a place of execution.

A phan ddylent fod yn myfyrio yn ddifrifol ar farwolaeth, hwy a fyddant yn rhedeg tan chwerthin i'w *dihenyddfa*.
Elis Lewis: Drexelius, 120.

O ddeutu hanner dydd dygwyd hwynt allan i'r *dienyddle*.
Gwyliedydd, v. 320 (cf. 298).

Rhyddhawyd gyddfau rhai o'r cortynau, pan ar y *dienyddle*, yn ymyl y fro draw.—*Brutus:* Brut. 499.

Dienyddiad, / **Dihenyddiad,** *-au, sm.* an executing, execution.

Y mae *dienyddiad* brenin diweddaf Ffrainc (Lewis XVI) wedi peri mawr gynhwrf yn Ewrop.
Cylchgrawn Cymraeg (1793), 56.

Pan yn aros ei *ddienyddiad* merthyrol, y gwelodd Socrates yn egluraf anfarwoldeb ei enaid ei hun.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 22.

Dienyddiaeth, / **Dihenyddiaeth,** *-au, sf.* the office of an executioner; execution, disanimation.

Anhuddais *ddihenyddiaeth*.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 57.

A'r fath uffern-geginau yn arlwyo ac yn cigyddio cyrff ac eneidiau dynol . . . i'w rheibio gan safnau mawrion *dienyddiaeth* a cholledigaeth.—*Dewi Wyn*, 340.

Dienyddio, / **Dihenyddio,** / **Dienyddu,** / **Dihenyddu,** *v.* to put to death, to execute; to punish capitally; to kill; to disanimate, to deprive of life.

Ny dyly er argluyd ebedyu e dyn a *dyenydyo* ehun. o *dyenydyir* y gwlat arall ac nas *dyenydhyo* ef euo yr argluyd a dyly y ebedyu. Ny byd galanas am leydyr ac ny byd llys y rug duy genedyl yry *dyenydu*. . . Ny deleyr *dyenythu* dyn caet os pryn y argluit ef.
C.C. i. 254 (cf. 110, 244, 256, 596, 600).

Ny dylyir *dihenydyu* alltut am y gyfiauan gyntaf o cheffir chweugeint drostaw.—*C.C.* ii. 60 (cf. 62, 80, 82, 118, 124, 228, 448, 580, 618, 678, 724).

A dywedut idaw y *dihenydyit* yn diannot ony wnelei yr hyn ydoedynt yn y orchymyn.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. i. 50 (cf. 89, 130).

Arglwydd Amherawdyr. heb ef. os o achaws mutanıaeth y mab a *dihenyddir*. iawnach yw bot yn drugarawg wrthaw am hynny. . . Beth oedd hynny. heb yr amherawdyr. Ym kyffes nis managaf ytt ony roddi dy gret. na *ddihenyddyer* yn oed y dydd heddiw. Na *ddihenyddir*. myn vy gret. heb ef.—*Doethion Rhufain*, 17 (cf. 10—87).

A phan hambwyllont hwy or lleon y deuant wy yth gyrchu di yth *dihennydyaw* am y gwr . . . ac ar hynny y deuth y gwyr or llys y geisaw Owein oe *dihenydu*.
Mabinogion, 173 (cf. 18, 48, 177).

Ymgynghori â hi a wnaeth am ei *ddihenyddio*.
Iolo Mss. 170.

Y mae ef ar hyn o bryd yn gwesteia gyda mi, a phei gellid ei *ddihenyddu* ef, da fyddai hyny.—*Iolo Mss.* 169.

Y pendefigion, y cyfoethogion, yr uchelwyr, a *ddihenyddwyd*, bob mab gwraig, yn y parthau hyn.
Theophilus Evans: D.P.O. 114 (cf. 199, 342).

Dienyddiwr, / **Dihenyddiwr,** wyr, *sm.* [dienyddio, dihenyddio+gwr] = *Dienyddwr*.

Cydwybod . . . i'r drygionus, y mae yn gyhuddwr, yn farnwr, ac yn *ddihenyddiwr*.—*Ios. Harris:* Gweith. 102.

Dienyddle, *sm.* = *Dienyddfa*.

Dienyddoed, / **Dihenyddoed,** *sm.* a reprief, a respite.—*W.*

Oed dihenydd, *dihenyddoed*, dienoed; gorchymmyn (gwarant, llythyr) dienoed.—*Walters*, s.v. 'Reprieve.'

Dienyddol, / **Dihenyddol,** *a.* relating to capital punishment or violent death; involving the loss of life.

Offerynau dienyddol, instruments of torture; instruments of (violent) death.

Y Groes a haeddai i'w hystyried gyntaf, nid yn unig o herwydd ei bod yr hynaf o *offerynau dihenyddawl*, ond hefyd o herwydd mai ar y Groes y gosodwyd ein Hiachawdwr ei hun i farwolaeth.—*Theo. Evans:* D.P.O. (1740), 343.

Dienyddwr, / **Dihenyddwr,** wyr, *sm.* an executioner; he who puts to death by legal warrant; a hangman.—*Marc* vi. 27.

Ac yn y man yr anfones y brenin *ddienyddwr*, ac a orchymmynodd ddwyn ei ben ef.
Esgob Morgan: Marc vi. 27.

Yr oedd y merthyron mor fodlon i farw, a'r *dihenyddwr* mor waedlyd, yn taro ei gyllell rhwng ei ddannedd, tra y byddai yn ymafyd yn naill ar ol y llall.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 138.

Ar hyn y *dihenyddwr* wrth weled y fath ryfeddod . . . a droes o fod yn flaidd yn oen llariaidd.
Theo. Evans: D.P.O. 199.

Y *dihenyddwyr* creulon hyny o gyflawn ddial Duw.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 125.

Dienyddydd, -ion, *sm.* = *Dienyddwr*.—*W.*

Diepil, / **Dihepil,** *a.* issueless, childless; without progeny or offspring; barren.

Dy ddannedd ydynt fel diadell o ddefaid gogyfuwch, y rhai a ddaethant i fyny o'r olchfa, y rhai oeddynt bob un yn dwyn dau oen, ac nid oedd un yndddynt yn *ddihepil*.
Esgob Morgan: Can. Sal. iv. 2 (cf. vi. 5; Esa. xlix. 20, 21).

Pwy a genedlodd y rhai hyn i mi, a mi yn *ddiepil*, ac yn unig!—*Esa.* xlix. 21.

Diepiledd, *m.* / **Dihepiledd,** *m.* / **Diepiliaeth,** *f.* *s.* the condition of being issueless or childless; childlessness; barrenness; bereavement.

Nid eisteddaf yn weddw, ac ni chaf wybod beth yw *dihepiledd*. Y ddau beth a ddeuant it' yn ddisymmwth yr un dydd, *dihepiledd* a gweddwdod.
Esgob Morgan: Esa. xlvii. 8, 9.

Digitized by Google

Plant dy *ddiepiledd* a ddywedant *eto* lle y clywech, Cyfyng yw y lle hwn i mi.—*Esa.* xlix. 20 (*cf.* xlvii. 8, 9).

Lle'r ydym yn darllen yn Salmau Dafydd, pa fodd y dymunodd ef i wrthwynebwyr Duw, weithiau cywilydd, cerydd, a gwaradwydd, weithiau *diepiliaeth*, weithiau ar eu dyfod i ddistryw a dinystr disymmwth.
Ed. Iames: Hom. ii. 304.

Diepiliad, } -au, *sm.* a depriving of off-
Dihepiliad, } spring or progeny.

Diepilio, } *v.* to deprive of issue or offspring;
Dihepilio, } to make childless; to bereave.

Diepiliog, } *a.* having no issue or offspring,
Dihepiliog, } issueless.

Dierbyn, *a.* without reception.

O Dduw! ai cair yn *ddierbyn!*
A ddaw hi o'i bodd ei hun?—*D. ab Gwilym,* cxciii. 33.

Dierbyniad, *sm.* non-admission.

Dierbynio, *v.* to cease receiving.

Dierbyniol, *a.* not receiving; unacceptable.

Dieres, *a.* [eres] not strange or wonderful.

Tydi'r galon bengron bach,
Ddieres chwaen ddieiriach!—*Dafydd ab Gwilym,* xxiii. 1.

Diareb rwydd a *dieres.*—*Iolo Goch,* i Fair.

Dierfai, *a.* [erfai] void of energy or vigour, feeble, sluggish, lifeless.

Ar wyag rhwysg Iorwerth certh y taenai
Fraw, am Eryri draw pan droai
Ffordd ei osgordd faith, daith *ddierfai.*
W. O. Pughe: Bardd, i. 1.

Diergryd, *a.* without tremor, untrembling; intrepid.

Post Powys pergig kedernyt
Pob [*al.* pobyl] ar gledyr argluyd *diergryt*
Porthloed bud porthloes oe vebyt
Yn eluyd Penn mynyd penyt.
Cynddelw: M.A. i. 246 (*cf.* 137, 142).

Diergrydiad, *sm.* a ceasing to tremble.

Diergrydio, *v.* to cease to tremble or quake.

Diergrydiol, *a.* untrembling; not quaking.

Diergryn, *a.* free from tremor, untrembling; fearless, intrepid, dauntless, unflinching.

Gwyr wosgo wosgort *diergryn*
Gwrd wasgar o wiscoet keinwyn.—*Cynddelw:* M.A. i. 228.

Diergrynedig, *a.* unshaken, unagitated, unperturbed; firm; undaunted, dauntless.

Ar brenhin e hun yn *diergrynedic* ac aruawc vydinoed parottaf y ymlad gyt ac ef a gyrchassant drwy y coet a oed y rygtunt ar lle yd oed Owein.
Brut y Tywysogion, 184 (*cf.* 200).

Yna y dywat Meir yn *diergrynedic.* oesit neb ryw lygredigaeth neu bechawt ynofi. Duw ae hardangosso arnafi ygwyd yr holl boploed.—*Buchedd Mair,* § 12.

Diergryniad, *sm.* a being unagitated; unperturbation.

Diergrynol, *a.* not apt to tremble.

Diergrynu, *v.* [crynu] to cease to tremble or quake.

Diergyr, *a.* not impelled or impellent.

Diergyriad, *sm.* non-impulsion.

Diergyrio, *v.* to cease to impel.

Diergyriol, *a.* not impulsive.

Dierlid, *a.* without pursuit, unpersecuted.

Dierlyn, *a.* not pursued, unpursued.

Dierlynol, *a.* not pursuing; not apt to pursue or prosecute.

Diernod, -iau, *sm.* [=diwarnod, diwrnod] a day.

A'r Sabbath oedd ar y *diernod* hwnw [°dydd hwn].
W. Salesbury: Ioan v. 9.

Cadw *diernodiau* [°dyddiau] ydd ych, a miscedd, ac amseroedd, a blynyddedd.—*W. Salesbury:* Gal. iv. 10.

¶ A form of frequent occurrence in William Salesbury's version of the N.T. (1567), but it is not found in his Dictionary (1547).

Dierth, *a.* and *s.* [=dieithr: *cf. digerth, oddigerth* or *oddi gerth*]=*Dieithr.*

Terfyn anghof yw gofal,
Gwên brydferth *ddierth* na ddal.
Dafydd ab Gwilym, ccxiv. 24.

Na fydd galed anfwyn wrth *ddierth* ac estron.—*M.A.* iii. 7 (*cf.* 132, 229, 252, 263, 268, 282).

Ar hyn o bryd nid oedd ond gweision *dierth* yn wŷr wrth arch ac ammod [amnaid?] y calchwyr wrth yr odyn.
Iolo Mss. 169 (*cf.* 98, 205).

Yna fe gilia'r galon gwrthnysig
Oddi wrthwy' â dig, *dierth* o dôn.
W. Midleton: Salm. ci. 3.

Arall sydd, pan fo'r ymadroddwr areithgar yn gosod dwy (o'r lleiaf) neu fwy o drofegau ymadrodd i wneuthyd yr iaith yn gymhenwedd i'w ffraethogi yn *ddierth,* ac yn barablus.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xv.

Ac nid yw [yn] offrymu ei hun yn fynych, mal y mae yr archeffeiriaid yn myned i mewn i'r cyssegrfa bob blwyddyn â chantho waed *dierth.*
Esgob Richard Davies: Heb. ix. 25 (*cf.* 1 Pedr iv. 12).

Y gwir Grist nis daw o ryw lwyn dirgel, neu loches *ddierth,* ond o'r nefoedd uchaf.—*R. Smith:* Eglurhâd, 55.

Ni ddylai fardd fyth fyfyrio ar bethau gwaelion, a mathredig, a chyffredin, y rhai'n y tery bawb wrthynt; nac ar bethau *dierthon,* na wypo neb am danynt.
Cyfrinach y Beirdd, 31.

Gwr dierth (*f.* gwraig ddierth), a stranger.

Pobl ddierth, strange people, strangers.

O ddierth=oddi eithr, o ddieithr.

Ac wrth hyn o briodoldebau, nis gellir ar feddwl a phwyll amgen wrth fod a bywyd nad o Dduw y mae, *oddierth* y drwg anianawl wrth ddiddymiant pob bywyd a daioni.—*Barddas,* i. 206.

Dierthedd, } *sm.* strangeness; alienation;
Dierthrwydd, } estrangement.

Dierwin, *a.* not rough or rugged; free from asperity; smooth; gentle.

Calenig lerw *ddierwin,*
Clyw, er Mair, clo ar y min!—*Dafydd ab Gwilym,* ccii. 17.

Dierwino, *v.* to divest of roughness or asperity.

Dierwinol, *a.* tending to divest of roughness.

Diesgeulus, *a.* not negligent, neglectful, or careless; careful; diligent, assiduous.—*Eph.* v. 15.

Teilyngu o honot roddi i ni galon i'th garu ac i'th ofni, ac i fyw yn *ddiesgeulus* yn ol dy orchymmynion.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Litani).

Ar yr hyn beth y deisyfaf arnoch wrando'n *ddiesgeulus.*
Ed. Iames: Hom. ii. 2 (*cf.* 5, 15, 19, 20, 119, 231).

Hyn hefyd a erfyniaf ar bawb . . . ymegnio o honynt yn *ddiesgeulus* i ennill ereill i Grist.
Edward Samuel: Grotius, vi. 11.

Er cynhyrfu y prophwyd i fod yn ddidwyll ac yn *ddiesgeulus* i rybuddio'r annuwiol o berygl y ffordd yr oeddent yn rhodio ynddi.—*Ioan Wallter:* Dwy Bregeth, 3.

Diesgeulusdra, }
Diesgeulusder, } *sm.* carefulness, assidu-
Diesgeulusrwydd, } ity, attentiveness, diligence.

Megys, pe cyffelybem ni ein esgeulusrwydd i ddyfod i dŷ yr Arglwydd i'w wasanaethu ef yno, a *diesgeulusrwydd* yr lddewon y rhai a ddoent beunydd yn foreu lawn i'r demi.
Ed. Iames: Hom. ii. 8 (*cf.* iii. 168).

Diesgeuluso, *v.* not to neglect; to cease neglecting.

Digitized by Google

Diesgeulusol, *a.* not tending to negligence; not negligent or careless.

Diesgid, } *a.* [esgid] shoeless, without shoes,
Diesgidiau, } unshod.

Diesgidio, *v.* to take off the shoes.

Diesgor, *a.* inseparable; inevitable; irrevocable.

Nid oes oddi ar gan mlynedd er y dydd *diesgor* y darfu byth am danaf.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 100.

Diesgud, *a.* not nimble, quick, or active; slow, sluggish.

Diesgus, *a.* 1. without excuse, excuseless; inexcusable.—*Rhuf.* i. 20; ii. 1.

Pryduawr Lywelyn pryd dyn dadyein
Prydus *diesgus* esgar dilein.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 321.

A'r rhai ni chymmero'r amser a gynnygier iddynt, y maent hwy yn *ddiesgus* ger bron ei gyfiawnder ef.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. v. 30.

Diesgus feius yw fo.—*Edm. Prys* (Ieuaf).

Ni wn i pa fodd yn y byd y gellir dweud y byddant yn *ddiesgus.*—*Ioan Wallter:* Dwy Bregeth, 23.

2. without fault, faultless.

Diesgusodol, *a.*=*Diesgus, Anesgusodol.*

Nid yw'n hamser yn rhy fuan i wneuthur y peth sydd yn llwyr anghenrheidiol ac yn *ddiesgusodol.*
Th. Williams: Ymadr. Bucheddol, 220.

Diesgyn, } *v.* not to ascend; to cease to rise;
Diesgynu, } to descend.

Diesgyrn, *a.* [esgyrn, *sg.* asgwrn] without bones, boneless.

Diesgyrnu, *v.* to deprive of the bones; to take out the bones; to bone.—*Ier.* l. 17.

Newyddianiaeth a fynai ei *diesgyrnu* a'i darostwng i'r un gwendid â'r Italeg.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 184.

Diesgyrnedig, *pt.a.* boned.

Diesmwyth, *a.* uneasy, not easy.

Diesmwythder, *a.* having no ease; uneasy.

Gwybyddwch hyn, y machluda eich haul redegog o bob digrifwch pechadurus ac anllad yn eigion môr ofnadwy o ofid diddiwedd, *diesmwythder,* ac anfeddyginiaethol.
Sam. Williams: Amser (1724), 77.

Diesmwytho, *v.* to be uneasy; to make uneasy.

Diesmwythol, *a.* tending to make uneasy.

Diestron, *a.* that is no stranger.—*M.A.* i. 495.

Dietifedd, *a.* having no heir, heirless.

Perchen tir *diettifed* oy gorff a dychawn priodoli y dir yr neb y myno.—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 396.

Dechreuis gwyr y wlat dala trymuryt yndunt o welet gwr kymeint a gerynt ae harglwyd. ac eu brawtuaeth yn *dicttiued.*—*Mabinogion,* 17.

Am nad oedd i Gilbert wraig, fe fu farw yn *ddietifedd.*
Iolo Mss. 17.

Nid yw marw yn *ddietifedd,* ynte, ddrwg mawr yn y byd.
Elis Wynn: Rh.B.S. 130 (cf. 129).

Dietifeddes, -au, *sf.* a female who disinherits.

Dietifeddes, *a.* without an heiress.

Dietifeddiad, -au, *sm.* a disinheriting, disinherison, disinheritance.

Dietifeddol, *a.* disinheriting.

Dietifeddu, *v.* to disinherit.

Or byd ettifed hagen y berchen tir nys dychawn kany dychawn perchen tir *dietifedy* y ettifed.
Cyfreithiau Cymru, ii. 396.

Emelldyth Duw ar y rieni a barysaant ytt dyuot yr byt rac meint ydwyt yn wastat yn poeni a henyw oc an dedyf ni. ac yn eu gostwg ac yn eu *dietyuedu.*
Yst. de Carolo Magno, col. 444.

Y mae gwrthryfelwyr . . . yn cywilyddio eu ceraint a'u caredigion, yn *dietifeddu* ac yn anrheithio tros fyth eu plant a'u hetifeddion.
Ed. Iames: Hom. iii. 266 (cf. 272, 284, 285; i. 182).

Cyn y cymmerwn ni ein *dietifeddu* a'n lladd, yr ydym ni yn bwriadu amddiffyn ein hunain.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 159.

Ni ddylid diffoddi serchiadau naturiol, na *dietifeddu* 'r aer cyfreithlon.—*Nicander:* Dysga Farw, 112.

Dietifeddus, *a.* childless, issueless, heirless.

Megys y gwnaeth dy gleddeu di wragedd yn *ddietifeddus:* felly y bydd dy fam dithau am danat ti.
H. Perri: Egl. Ffr. vi. 4.

Dietifeddwr, wyr, *sm.* one who disinherits.

Dietifo, *v.* to disinherit.—*P.*

Dieuair, eiriau, *sm.* [diau+gair] a sure maxim; a true saying; a maxim, an adage.—*W.*

Dieuben, *sm.* an undoubted head or chief.

Kyrchaf yn gynttaf kyntet Deheubarth
Dheubenn teyrnet.—*Llywarch ab Llywelyn:* M.A. i. 292.

Dieuborth, *sm.* certain help or assistance.

Asswynaf nawd hawd haelon Deheubarth
Dheuborth cerddorion
Ath dwrf oth darianogion
Ath dorf ath deyrnfeibion.—*Cynddelw:* M.A. i. 235.

Dieuddawn, *sm.* an undoubted gift.—*P.*

Dieuoedd, *s.pl.* [diau] days. Cf. *diefoedd.*

Gwedy riuedi bychan o *dieuoed* or amser hwnnw y disgynnawd karyat merch y brenhin yn gymeint yn Amlyn ac nat oed gygwn vn asgwrn yn y gorff na bei lawn oc charyat.
Amlyn ac Amig, col. 1096.

Yna gwedy ymlenwi *dieuoed* buched Eneas. Ascanius y vab ynteu a wnaethpwyt yn vrenhin.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 41.

Dieuog, *a.* [di-+euog] not guilty, guiltless; innocent; inculpable.—*Ecs.* xx. 7; *Deut.* v. 11.

Dywaid o'm gwlad na'm gwadwyd,
Diog wyf, *dieuog* wyd.
D. ab Gwilym, ii. 7 (cf. cxix. 52; cxxiii. 4).

Ymröwn yn hytrach yn ein blinderau i oddef yn *ddieuog* ac yn ddieniwed.—*Ed. Iames:* Hom. iii. 50.

Da'n ehelaeth a wnaethant,
Dieuog wŷr, da a gânt.—*Gronwy Owain,* 97.

Dieuogion, guiltless ones, the guiltless.

O'r holl orthrymwyr fu yn llywio y deyrnwialen ymherodrawl yn Rhufain, Nero oedd un o'r penaf a'i hynoddodd â gwaed a chelaneddau y *dieuogion.*
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 14.

Dieuogi, *v.* to clear of guilt; to acquit or absolve from guilt; to pronounce or declare guiltless; to exculpate.

Yr Arglwydd sydd hwyrfrydig i ddig . . . ac ni *ddieuoga* yr anwir.—*Nah.* i. 3.

Ni *ddieuoga* efe yr anedifeiriol.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 157.

Daw yr amser pan y *dieuogwch* eich tad.—*Rasselas,* viii.

Dieuogiad, *sm.* a clearing of guilt; a pronouncing guiltless; exculpation.

Dieuogol, *a.* tending to clear of guilt; exculpatory, exculpative.

Dieuogrwydd, *sm.* guiltlessness.

Dieuol, *a.* [diau] certain, sure; assuring.

Dieurwydd, } *sm.* [diau] certainty; assurance,
Diheurwydd, } assuredness.—*M.A.* ii. 129.

A phan doeth *diheurwyd* o hynny at y Rufeinwyr. sef a wnaethant wynteu bryssyaw drachefyn y geissaw Rufein o vlaen Bran.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 76.

Digitized by Google

Galaath a dyngawd ar y gret . . . na deuei vyth yr llys dracheuyn yny wypei *dihcurwyd* y wrth Seint Greal.
St. Greal, § 7.

Gwedy bwyt y brenhin a aeth tu ar twr y geissyaw *deheurwydd* am y wreic val y cafas am y vodrwy.
Doethion Rhufain, § 35.

A gwedy dewinaw o nadunt a chaffel *dihcurwyd* or peth hwnnw.—*Yst. Bren. Bryt.*: Ll.C.H. ii. 41.

Diewlig, *a.* [diawl]=*Diawlig*.

Diewlyn, -od, *sm.* [dim. of *diawl*] a devilkin.

A pha un debycaf i'r diawl, debygech chwi, yw parlyraid o ddyhirod dan ddylanwad meddwdod, ai y dyhiryn neu y ddyhires, y *diewlyn* neu y ddiawles, sydd yn gweinyddu i'w hafrad, ac yn porthi eu trachwant.—*Dewi Wyn*, 339.

Diewyllys, *a.* without a will, intestate.

Marw yn ddiewyllys, to die intestate.

Diewyn, *a.* without froth or foam.

Diewynion, skimmings.

Diewynell, -au, *sf.* a skimmer, a skimming-dish.

Diewyniad, -au, *sm.* despumation; a skimming.

Diewynu (ŷ), *v.* to skim or scum.

Lledwad ddiewynu, a skimming-dish.—*W.*

Dif, -ion, *sm.* 'a cast off, ejection.'—*P.* A doubtful word.

Difa, *v.* [di-+ma (=man)? cf. Ir. *diba*] 1. to devour, to consume, to eat up; to spend and waste, to waste; to destroy.

Oi a Arglwyd Duw heb ef pwy ysyd yn gorffen vyn *diua* i. a mi ae gwnn. y neb a dechreuis vyn *diua* ysyd yn y orfen. ac a *diuawys* y wlat gyt a mi.
Mabinogion, 53 (cf. 57, 130, 185, 307).

Hwnnw oe dechreu hyt y diwed a ymlidyawd y Saeson, ar kenedloed ereill, ac ae lladawd, ac ae *diuaawd*, ac o luossogrwyd o ymladeu ae goruu.
Brut y Tywysogion, 38 (cf. 88, 90).

Deg gormes caredforion
A *ddifäant* y byd o'i fron;
Lle y bônt gwae hwy'r dynion!
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 143.

Bann holltes y ddaear hyd annwn, ac y *difäed* y rhann fwyaf o bob byw.—*Trioedd*: M.A. ii. 59.

Gwewyr, rhif y sŷr, y sydd
Yn *difa* holl gorff Dafydd.
Dafydd ab Gwilym, cxx. 13 (cf. cxxii. 23).

Pwy bynnac a uynno *diua* whein. dodet y wermot yn y môr trwy unawr. . . Y *diua* kylyon. dotter y gannwreid yn y lle gnottaont dynot.—*Meddygon Myddfai*, i. 65, 66.

Yn y flwyddyn 1401, y gwnaeth pryfaid y dail y mawrddrwg yn y wlad, gan *ddifa*'r dail a'r borfa.—*Iolo Mss.* 66.

Yr hwn a hoffo berygl a *ddifhair* [°ddifethir] ag ef.
Ed. Iames: Hom. ii. 130 (cf. iii. 23).

Ti sydd ryfelwr, lladdwr llu,
Yn gyru fal gwynt gerwin;
A deifiwr hyll yn *difa*'r hedd,
A gorwedd mewn gwaed gwerin.
Samuel Jones: Cyfrinach y Beirdd, 164.

Nys managaf ytt ony roddi dy gret ar *ddiua* y mab avory. Llyma vy ngret y *diueir* ef. heb ef.
Doethion Rhufain, § 29.

Difa ei drigfa, chwalfa chwyrn,
Difa ei goed a fu gedyrn,
A *difa*, heb amldra y bydd,
Ei gerryg a'i fagwyrydd.—*Edward Morus*.

Megys pedair arthes wancus yn ymgrafangu wrth *ddifa* carw.—*Theo. Evans*: D.P.O. 77.

Un ddafad blaidd ni *ddifa*
O gail deg y Bugail da.
I. B. Hir: Gwaith, 20 (cf. 40, 115).

2. to abrogate, abolish, or repeal.

Hywel wedy hynny a wnaeth kyureythyeu newyd ac a *dyuaus* rey Dywynwal.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 184.

Difa, *sm.* destruction; consumption, waste; extirpation, annihilation.

Difâad, *sm.*=*Difâd*.—*P.*

Difabinaidd, *a.* not childish; without trifling.

Gwell Duw o'i foli'n *ddifabinaidd*.—*L. G. Cothi*.

Difach, *a.* [mach] without bail or surety.

Rei a dyweit dylyu o genedyl eu mam talu gwarthec *diuach* tros pop vn o rei hynny.
Cyfreithiau Cymru, ii. 328 (cf. 406, 656; i. 788).

Rhaid i bawb ateb trosto ei hun: ni chaniatëir i neb roi meichiau, eithr rhaid i bawb ddyfod eu hunain, yn *ddifach*, fel yr ysgrifenir.—*R. Llwyd*: Llwybr Hyffordd, 403.

Difach, *a.* [bach] without a hook or hitch; without an angle or nook.

Difachio, } *v.* to loose from a hook, to unhook,
Difachu, } to unhinge, to take from the hinges.

Ac yna, o achos hen lid, aethant i *ddifachio* ceuddrws Paradwys Mahomet.—*Elis Wynn*: Bardd Cwsg, 90.

Difachlud, *a.* unsetting, never setting.

Dydd gorphwys, a thros fyth, i ni,
Dan haul *difachlud* gyda thi.
Iolo Morganwg: Salmau, II. lxix. 4.

Yn nes i'r gogledd, canfyddir yr haul, dros ffocedd, 'yn troi'n weledig mewn *difachlud* gylch.'—*Cylchgrawn*, i. 214.

Difad, *a.* [mad: cf. *amddifad*] destitute of good; without solace or comfort; not good or beneficial; bad.

Difachell, *a.* without a nook or corner; without a snare.

Meddgell *difachell* fychan.—*Llywelyn Goch*: M.A. i. 515.

Difâd, *sm.* [difa] a consuming, a devouring, devastation, extirpation, destruction.

Difadiad, *sm.* deprivation of comfort or solace; privation.

Difadol, *a.* not solacing, destitute; unsolaced.

Difadrwydd, *sm.* privation; absence, want.

Ni chlywir byth mwyach am afiwydd a ffyniant,
Ac ennill a cholled, *difadrwydd* a mwyniant.
I. G. Geirionydd: Geir. 265.

Difadu, *v.* to deprive of good; to divest of comfort; to deprive. Cf. *amddifadu*, *penddifadu*.

Difaddeu, *a.* unremitting, without remission; unsparing; unhesitating; unpardoning, unforgiving; unpardonable; without exception or qualification.

A chan nad yw'r agoriad, â'r hwn yr agorir i ni ffordd i deyrnas Dduw, ddim amgen onid gair yr Efengyl, a deongliad y gyfraith a'r Ysgrythyrau Glân, dywedyd yr ydym, yn *ddifaddeu*, lle ni bo'r gair hwn, nid oes yno mo'r agoriad chwaith.—*M. Cyffin*: Diff. ii. 8 (cf. i. 5; iv. 14).

Ni hwyrach ddarfod i'th bechod diweddaf wneyd i Dduw fwriadu'n *ddifaddeu* ddanfon arnat ryw farnedigaeth arwdost.—*Elis Wynn*: Rh.B.S. 243.

Y myfyrdodau rhagflaenorol i'w parotoi at ddeall Difinyddiaeth, a'r drysorfa o ddysgeidiaeth a ddylai fod ganddynt i wybod eu Biblau, a fwytânt yn ddilai lawer iawn o amser, ac a ofynant yn *ddifaddeu* lawer iawn o'u poen a'u llafur.—*Ieremi Owen*, 134 (cf. 26).

Dyfal mae'r beirdd yn d' ofyn,
Dafydd Llwyd *difaddeu* llyn.
Guto'r Glyn: Iolo Mss. 315.

Difaddeuant, *a.* without remission or forgiveness; unpardonable.

Difaddeuol, *a.* unforgiving, unpardoning; implacable; unpardonable, irremissible; unmitigated, unqualified.

Onid ffolineb *difaddeuol* ydyw iddynt gymmeryd arnynt brofi eu galwedigaeth wrth eiddo'r Apostolion?
Ieremi Owen, 74.

Digitized by Google

Difäedd, *sm.* devastation, consumption, destruction, extermination; putrefaction.

Gwrawl hawl haelonaeth gorsed
Gwrfalch balch bwlch y *difaed.*
Cynddelw: M.A. i. 208 (cf. 316, 453).

Kyrcheist Ros ditos *diuaet*
A Phenuro a phen goruolet.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 292.

Y *difäedd* ofnadwy a ddaeth ar Sodom a Gomorrah.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. iv. 12.

Difael, *a.* [mael] without profit, profitless.

Difaeth, *a.* without nourishment or nutrition; not nourishing or nutritious; innutritious, innutritive.

Diferch yw dy fardd *difaeth!*—*D. ab Gwilym,* clx. 62.

Y mae ei wyau ef, gan wres yr haul a'r tymmor, yn myn'd yn fath o figeiod bach, ac wedyn y maent yn myn'd i'w cyflwr *difaeth,* mywn math o gydau, ac ym mhen amser y maent yn dyfod allan yn wybed.
Dafydd Lewys: Golwg, xi. 7.

Difaethiad, *sm.* a ceasing to nourish.

Difaethol, *a.* unnutritious, inalimental.

Difaethu, *v.* to cease to nourish; not to nourish.

Difagl, *a.* without a snare; not ensnaring; without entanglement; without spot, spotless.

Difagl gyfraith yr Arglwydd a ymchwel eneidiau y rhai truain. . . Onid arglwyddasant arnaf *difagl* fyddaf.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 561.

Yr hwn tan Pontius Pilatus a dystiodd gyffes bybyr [°deg, *ddifagl,* ddifrych].—*W. Salesbury:* 1 Tim. vi. 13.

Difai, *a.* [bai] 1. blameless, faultless; without blemish; perfect.

Ef *diuciaf* naf ry wnaeth Douyt.
Llygad Gwr: M.A. i. 344 (cf. 200, 280, 354, 464).

Pwy bynnag nys kynnhalyo hi yn gyfyawn. ag yn *diuei.* diogel yw iddaw y kyll y eneit ae gorff yn dragywyddawl.
Credo S. Athanasius (Hengwrt Ms.).

Dyfed a ŵyr mai difyw,
Difai ddysg, a Dafydd yw!
D. ab Gwilym, xviii. 18 (cf. x. 29; xv. 25).

Grymialus wyf trwyf traserch
Am nas caf *ddifeiaf* ferch.—*Iolo Mss.* 249.

Na ddadguddia, os gelli yn *ddifai.*—*Eccl.* xix. 8.

Ni bu Beredur â dur yn daerach,
Ac ni bu Walchmai erioed *difeiach.*—*Hywel Swrdwal.*

Er Dofydd, pwy'n wr difai
A fu erioed na feiai rai?—*Gronwy Owain,* 27.

Pen cenedl i'r genedl gynt
Difai oedd, da fu iddynt.—*Tegid:* Gwaith, 122.

Difeiach ydwyf y waith hon na'r Philistiaid.—*Barn.* xv. 3.

Gruffydd, gerddber aderyn,
Fab Addaf, *difeiaf* dyn!—*D. ab Gwilym,* ccxxxvi. 29.

Na cheisiwch ormodd beio ar ein llyfr ni, hyd oni weloch bob llyfr arall yn *ddifai;* a'ch hunain hefyd yn *ddifai.*
Dr. I. D. Rhys: Gram., Rhag. 8.

Gan fod cofiyfrau . . . yn dangos mai'r dynion *difeiaf* a gonestaf oedd fanylaf i gynnal gwybodaeth am Dduw.
Edward Samuel: Grotius, i. 2 (cf. iv. 3).

Fal Esai *ddifai* ei ddawn.—*I. B. Hir:* Gwaith, 17.

2. sufficiently good, good enough; good.

Difai y gwyddant y daw i'r rhai ymrysongar, ac i'r rhai na fyddant ufudd i'r gwirionedd . . . ddigter, llid, a blinder.
Ed. James: Hom. i. 38 (cf. ii. 132; iii. 220).

Llyna, fy nghyfaill anwyl,
Ddifai gwers i ddof a gwyl.—*Gronwy Owain,* 61.

Yn ddifai, sufficiently well, well enough; very well; well.

Mai ef yn ddifai i ti, it is good enough for thee.

Gwnaethoch yn ddifai ag ef, you did very well with him; you served him right.

Ni welais neb cyn drawsed
Nas gwnawn yn *ddifai* ag ef.—*Y Dall a'r Angeu.*

Difai dianaf, safe and sound.

Difaich, *a.* [baich] without a burden, burdenless.

Y ddau, megys o gydsynied, yn gweled eu ffolineb, a ollyngasant y trawst i orphwys, gan duthio bob un i'w daith yn *ddifaich.*—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 289.

Difais, *a.* [bais?] not shallow, deep?

Na ddilynwch dlawd ni ddilynwy wawd
Ac ec eur dafawd lliw eiry *difais.*
Gr. ab D. ab Tudur: M.A. i. 480 (cf. 488).

Difalais, *a.* [malais] free from malice, ill-will, or malevolence.

Fal yr wyd yn *ddifalais,*
Fal y'th gaf dwy fil a'th gais.—*Llawdden.*

Anwadalwch chwant a symmud feddwl *difalais.*
Doeth. iv. 12.

Dynion llonydd, anghyfreithus,
A *difalais,* taclus, trefnus.
Morgan Llwyd: Gwyddor Uchod (1765), 147.

'Dyma,' ebr ef, 'le'r gwŷr a ddisgwylient nef am fod yn *ddifalais.*'—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 77.

Difalant, *a.* without buds or shoots.

Difalch, *pl.* difeilch, *a.* [balch] not proud, free from pride; humble, lowly, meek; unassuming.

Diuei dreic dragon adwyar
Diuwch ut *diualch* y eagar
Diuwg blwng blaen uuel drwy uar.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 298 (cf. 472, 546).

Rhoi cyfraith berffaith i'r beilch,
Rhoi defawd i'r rhai *difeilch.*—*L. G. Cothi,* II. ii. 15.

Gwaith milgwn rif gwŷr *difeilch,*
A gwaith ymlyniaid a gweilch.—*Rhys Goch Eryri.*

Nid hwyrach ym' anturiaw
Un falch, na *difalch* o daw.
D. ab Gwilym, clvi. 13 (cf. ccxxxvii. 41).

Yfed y gwin yn *ddifalch,*
Egori ei bwrs o'r gwr balch.
L. G. Cothi, I. xxviii. 9 (cf. v. ii. 21).

Oen *difalch* yn' yw Dafydd,
A thraws falch wrth ddiras fydd.—*Guto'r Glyn.*

Tripheth serchawg ar gerddawr: bod yn ddiddan-gerdd; bod yn *ddifalch;* ac ymarfer â chlodforedd.
Barddas, ii. 148.

Tri pheth a gaiff y *difalch:* amlder; llawenydd; a chariad ei gymmodogion.
M.A. iii. 69 (cf. 21, 28, 118, 133, 251).

Oen *difalch* yn y dafarn,
Athraw y beilch wrth roi barn.—*Meredydd ab Rhys.*

I *ddifeilch,* i feilch, am fod ith brofi,
I wŷr y trefi y rhoed trafod.
Dafydd Nanmor: G.B.C. 151.

Difalchder, } *sm.* freedom from pride or haugh-
Difalchedd, } tiness; humility.

Difalchder, } *a.* free from pride; not proud or
Difalchedd, } arrogant; humble.

A fyno fod yn *ddifalchder,* gofyned gennad ei fam.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 47.

Un gwâr, *di falchder,* ydyw ef,
A'i rodiad yng ngoleuni'r nef.
Iolo Morganwg: Salmau, I. cvi. 1.

Difalchio, *v.* to divest of pride; to become free from pride; to become humble.

Difaleisrwydd, *sm.* freedom from malevolence.

Mae gwir ffydd yn llawn boneddigeiddrwydd a *difaleisrwydd* calon.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 175.

Difaleisus, *a.* not malevolent, unmalicious.

Difalio, *v.* [malio] to disregard, to neglect.

Rhaid iddo *ddifalio* cyfreithiau presennol a mympwyon, ac ymddyrchafu at wirionedd cyffredinol a thragoriannol.
Rasselas, x.

Difall, *a.* free from malady; free from evil; guileless.

Tafod *difall* i'r mud a'r mall.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 266.

Digitized by Google

Difalltrain, } *v.* [dy-+gwall+train] to waste,
Diwalltrain, } to destroy, to squander.

Ffolhaelder yw *diwalltrein* a dlyer ac ar ny dlyer ei rodhi.
Ymborth yr Enaid, ł 9.

Difalltrain, } *sm.* a waste; a wasted, devas-
Diwalltrain, } tated, or ruined place.

Ar lawr y *difalltrain* y cad mab bychan o frawd i Syrigi Wyddel, nid amgen na Daronwy ap Ugnach Wyddel o Ddinas Ffaraon.—*Iolo Mss.* 82.

Difam, *a.* [mam] motherless; having no dam.

Difan, *a.* [man] spotless, unspotted, immaculate.

Trugar gerennyd Dovyd *divan*.
Cannodyn: M.A. i. 428 (cf. 422, 424, 512).

A glân a *difan* yw'r pendefig.
Meirig ab Iorwerth: M.A. i. 508 (cf, 491, 516).

Ni welaf Ieuan, *ddifan* ddofaeth,
Ni wŷl yntau fi, rhi rhywogaeth!
Dafydd ab Gwilym, ccxxix. 13.

Morgan, carw *difan* Dafydd
Gam, yw'r sant i Gymry sydd.—*L. G. Cothi*, i. ii. 3.

Difan, *a.* [man: cf. *difant*] fleeting, vanishing, fading, evanescent, evanid; perishable; frail, weak, infirm.

Difancoll, -au, *sm.* [difant+coll] 1. 'loss by disappearance;' utter, complete, or total loss; destruction, perdition; loss.

Tri diweir deulu Ynys Prydein. teulu Katwallawn. yny buant hualogyon. a theulu Gafran uab Aedan. pan uu y *diuakoll*. a theulu Gwendoleu ab Keidyaw yn Arderyd.
Trioedd: Ll.C.H. i. 305.

Tri diwair teulu Y.P. Teulu Catwallawn mab Catfan a fuont seith mlynedd yn Iwerddon gyt ag ef, ag yn hynny o yspeit ni ofynnasant ddim iawn iddaw rac gorfot arnaddunt y addaw. A theulu Gafran mab Aeddan pan fu y *difancoll* a aethant yr mor dros eu harglwydd. A Trydydd teulu Gwenddoleu mab Ceidiaw yn Arderydd a gynnalasant y vrwydr pythefnos a mis wedi lladd eu harglwydd, sef oedd rifedi teuluoedd pob un or gwyr hynny un cann wr ar ugaint.—*Trioedd* (1): M.A. ii. 7.

Tri *difancoll* Ynys Prydain: Cyntaf Gafran ab Aeddan a'i wŷr a aethant i'r mor ynghyrch y Gwerdonau Llïon, ac ni chlywyd mwyach am danynt; Ail Merddyn Bardd Emrys Wledig a'i naw Beirdd Cylfeirdd a aethant i'r mor yn y Ty Gwydrin, ac ni bu son i ba le ydd aethant; y Trydydd Madawg ab Owain Gwynedd, a aeth i'r mor a thrichannyn gydag ef mewn deg llong, ac ni wyddys i ba le ydd aethant.—*Trioedd* (3): M.A. ii. 59.

Dolur adrawd gawd ganlyn
Diuancoll dygyn hirgoll dyn.
Gwerneg ab Clydno: M.A. i. 392.

Eto gwelir, hir fy hun,
Olwg dost ar ei eilun;
O herwydd tranc *difancoll*,
Yn wyw iawn, ac yn ia oll!—*D. ab Gwilym*, cxciv. 53.

Felly ti a elly oll
Encil Deifr a'u *difancoll*,
A'u gyru hwynt yn gerrig
Ym mhob rhith diragrith dig.—*Iolo Goch*, am Badrig.

E fu encyd *ddifancoll*
Eres ar yr esau oll.—*L. G. Cothi*, III. xvii. 23.

Y Ffranc a gâr *ddifancoll*.—*Iolo Goch*, i Ddeon Llanelwy.

Ar Ffranc y gwna *ddifancoll*,
Dydd a ddaw, a diwedd oll.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 69 (cf. 208).

Anfonai ef ei air, ac eu hiachaodd, ac a'u gwaredawdd rhag eu *difancollau*.—*Ll. G. Gyffredin* 1567 (Salm. cvii. 20).

Er tros ei frad iawnhau
Dim iddo ef nid oes, ond dilys yn
Ddiofryd i *ddifancoll*.—*W. O. Pughe:* C.G. iii. 225.

Cipiwn, os gallwn, yr hyn sydd ar gael o ddoethineb a chrebwyll ein tadau, cyn i ddyfroedd *difancoll* eu hysgubo ymaith gyda grym eu llif.—*Cylchgrawn* (1834), Rhag. 4.

Gwylltineb chwant a seithugia ei erlyniadau ei hun; o ddallineb ei fâr ti a ruthri ar *ddifancoll*.
W. O. Pughe: E.D. ii. 5.

Ond yr heulwen ysplennydd hon . . . a orchuddiwyd gan gwmwl oergrai; ac yn ganlynol Awen Gwyndud a lithrodd ar *ddifancoll*, o ddiffyg amgeledd.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 498.

Noeth yw annwn ger ei fron ef, ac nid oes orchudd i *ddifancoll*.—*Dr. Th. Briscoe:* Iob, xxvi. 6.

Myned ar ddifancoll, to become lost; to be lost; to disappear, to vanish; to be completely lost.

Naw mlynedd wedi hyny y mae Iolo yn cwynaw *fyned* Owain dan gudd, neu *ar ddifancoll*.—*Y Greal*, 18.

Yr hwn, er dirfawr golled i'r byd llenyddol, sydd wedi *myned* er's oesoedd *ar ddifancoll*.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 40.

2. loss, waste, squandering, useless expense. In this sense the word is often pronounced *difangoll* (in S.E.W.).—*Iolo Glossary*.

Difancolli, *v.* to vanish, to evanish, to disappear; to become lost; to dissipate; to destroy.

Gwradwydder a *difancoller* y rhai sy'n erbyn fy enaid.
Ll. G. Gyffredin 1567 (Salm. lxxi. 13).

Di a ddealli yn y man fod yr anifeiliaid gwenwynig hyn yn *difangolli* ymaith yn ddioed.
Elis Lewis: Drexelius, 14 (cf. 64).

Difannu, difiannu, dismythu; edwi, *difancolli*.
Walters, s.v. 'Disappear.'

Difancolli, colli o'r fan, difannu.
Allwydd Paradwys (1670), Taflen.

Difaniad, -au, *sm.* a vanishing, evanition, vanishment; disappearance.

Dedwydd oedd y dyn a ddiangai rhag cynddeiriogrwydd y bobl ynfydiog, y rhai trwy rym y farn gyhoeddus seiliedig ar y cyttundeb a hyspysswyd uchod, ac yn awr a'u hannogasid yn fwy trwy *ddifaniad* eu gau Fessiah, ni ddangosant ddim tosturi iddynt.
W. Lewes: Dwy Daith, 160.

Difannol, } *a.* [difant, difan] evanescent, fleet-
Difanol, } ing, transcient, evanid, shadowy.

Ond adnewydda Awen bob braidd frisg
O rwyag *difannawl* ar drem Aspri syw.
W. O. Pughe: Palestina, 6.

Cyweiriwyd tannau ar eilwyon mawn,
A gadwai Ioan o *ddifannawl* goll.
Th. Lloyd Jones: Md. Ifor Ceri.

Difannu, } *v.* [difant, difan] 1. to vanish, evan-
Difanu, } esce, or disappear; to fade away; to decay; to consume or waste; to cause to vanish.

Iaun i Duu *divanu* eu rheufedd.
Cynddelw: M.A. i. 244 (cf. 251).

Rac talarw cadeu cwt uytwch
Rac diuei deyrn *diuennwch*
Rac Dauyt awch kilyt kilywch.
Ll. ab Llywelyn: M.A. i. 280 (cf. 36, 133; iii. 126).

Ti gai . . . a fynych, na *ddifanna*.—*Sils ab Sion*.

Yna y *difannodd* hi i'r tŷ, a rhoi dau drosol ar y drws.
Doethion Rhufain (Brython, iii. 85).

Ef a *ddifannawdd* [°ddifiannodd, gymmerwyd] ymaith o'u golwg.—*W. Salesbury:* Luc xxiv. 31.

Hwy a gânt weled yn y fan, modd y *difannai* 'r cysgodau.
M. Cyffin: Diff. iii. 4.

Y duwiau a gadwent ein teyrnas a *ddifannasant*.
Ed. James: Hom. ii. 93 (cf. i. 14; iii. 125).

Golud rhai anghyflawn a ä yn ddispydd fel afon: ac a *ddifanna* trwy dwrwf fel taran fawr ar law.
Egob Parry: Eccl. xl. 13.

2. to cause to disappear or vanish; to efface.

Mi a geisiais wneuthur hyn, mewn rhyw fodd, yn y llyfrau o'r blaen, gan fod eglurhâd y gwirionedd yn argyhoeddi ac yn *difannu* camgymmeriaeth.
Edward Samuel: Grotius, iv. 1.

Difanrwydd, *sm.* evanishment, evanidness, transcientness; frailty.

Digitized by Google

Difant, *sm.* [difan ?] evanishment, evanescence, vanishment, disappearance, non-appearance; wane, decline; extinction, extermination, annihilation; defeat.

Byd mor yw aduant pan syrth yn *diuant.*
Taliesin: M.A. i. 25 (cf. 35, 49, 50, 58, 87).

Aeth Owain ar *ddifant,* ac o'r wlad, heb le golwg arno na chlyw am dano; sef y dywedir ei ddianc yn rhith medelwr . . . a chwedi hynny ni wybuwyd fawr am dano, na modd na man ei *ddifant.*—*Iolo Mss.* 68.

Dim yw'r mwyaf oll a'r anfeidrol ar y *difant;* Duw yw'r mwyaf oll, a'r Anfeidrol ar y menwyd; ac nis gellir hanfod ar un peth onid o'r menwyd; a difod pob peth o'r *difant.* . . . Dim yw'r mwyaf a'r anfeidrol ar bob *difant.*
Barddas, i. 216.

O ddeall tripheth y bydd *difant* a gortrech ar bob drwg a marw: ansawdd; achos; a pheiriant.—*Barddas,* i. 176.

Hen ac ifanc, cryf a gwan,
Pob un o ran y prydydd,
Llawenhânt ar *ddifant* nos,
Pan welont dlos Foreddydd.—*Cân Boreddydd.*

Cad y Coed Aneu cadyr anant borthi
Burthyeist wyr yn *diuant.*
Ll. ab Llywelyn: M.A. i. 299 (cf. 206, 251, 280, 385, 429).

Edrych o'i gylch a wnai Arthur, a myfyrio dial ar y Saeson, a pheri *difant* llwyr arnynt.—*Iolo Mss.* 165.

Cymmer ddau ddyrnaid o'r peuros, a elwir yn Lladin petilion, cyn y blodeuo ef, a berw mewn potel o leisy cadarn hyd *ddifant* yr hanner.—*Meddygon Myddfai,* ii. 506.

Mae melltith i'w plith a'u plant
O'u dyfais, ac mae *difant.*—*I. B. Hir:* Gwaith, 115.

Ond eto hwysga *difant* dros y maes
Enwerus, ac yw ofer ffrawiad cledd
Y drudion.—*W. O. Pughe:* Palestina, 35.

Ar ddifant, on the point of disappearing; about to vanish; on the wane.

Tripheth y sydd *ar* eu *difant:* tywyll; anwir; a marw.
Barddas, i. 178 (cf. 212).

Arwydd ofer *ar ddifant.*—*Llywelyn Moel.*

Difant, *a.* trackless; without measure, measureless, unlimited, boundless.

I edryd lliant dros moroedd *difant.*—*Taliesin:* M.A. i. 20.

Difantais, *a.* without advantage; disinterested.

Na chais, a *difantais* fych,
Y rhodd byth nis cyrhaeddych.
Gutyn Owain: G.B.C. 213.

Difantellu, *v.* to dismantle; to uncloak.—*W.*

Difantfor, -oedd, *sm.* the boundless or illimitable sea.

Pe rhodiwn i bob rhyd wen, neu bil,
A'r *difandfor* a rodiai Fandfil.—*L. G. Cothi,* i. xxx. 37.

Difanu (*ă*), *v.*=*Difannu.*

Cymmer sudd y tanclys, a llefrith, a hidla, a berw yn dda yny *ddifeinw* ei draian, ac yf ef yn dwym.
Meddygon Myddfai, ii. 433.

Difanw (*ă*), *a.* vanishing, fading, evanescent, apt to decay, perishing; vain; despised, contemptible, despicable.

Difanw son Saeson sef a gery
Difwyniant fyddaf o'm difenwy.
Dafydd Benfras: M.A. i. 309.

Difanw, *v.* to despise, contemn, slight, disparage, or vilify; to make of little esteem; to destroy. See *Difenwi.*

Llyna chuec chuerv erbin braud
Anudon am tir a brad argluid
A *diuanw* llaugar dit braud bitaud ediwar.
Llyfr Du: A.B. ii. 44 (cf. M.A. i. 579).

Ac yrti yt wyf o nwyf nym kred
Ac yrod titheu nam amheued
Ac er Peryf nef nam *diuanwed*
Diuanw am goreu kyn nom gwared.
Cynddelw: M.A. i. 217 (cf. 251, 280).

Diuallus Deus nym *dyuanuo.*
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326 (cf. 224, 475).

Na *ddifanw* dy beriglawr.—*Diareb.* (M.A. iii. 165.)

Cam yw y dyn *difanw* y uryd.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 306 (cf. 247).

Mam fechan a *ddifanw* ei phlant.—*Diareb.* (M.A. iii. 164.)

Difanwl, } *a.* [manwl] not exact, unprecise;
Difanol, } not curious.

Difanylaidd, *a.* not apt to be exact or precise.

Difanylu, *v.* to cease to be exact.

Difanylwch, *sm.* want of exactness or precision.

Difaol, *a.* [difa] consuming, devouring, wasting; tabid.

Er i filain elyniaeth goresgynwyr ein hynafiaid trwy dân ac amryw beiriannau distryw, a *difaol* drafiwnc amser, ein difuddio o werthfawr dystiolaethau eu dysgedig ddoniau.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 1.

Difar, *a.* [bâr] without wrath or anger, wrathless, angerless.

Redyat kat kedyrn deyrn *diuar.*
Casnodyn: M.A. i. 426 (cf. 44, 433).

Iddo ef aeth, yn *ddi fâr,*
Wen o Gemmais yn gymhar.—*L. G. Cothi,* III. xxix. 9.

Difarch, *a.* [march] without a horse.

Gwell march cloff (dall) na bod yn *ddifarch.*—*Diareb.*

Difarf, *a.* [barf] beardless, having no beard.

Na fid digrif yn *ddifarf,*
Na'i fin heb lathen o farf.—*Gronwy Owain,* 22.

Iä, llwyd lenorion aynt yr ornest lwys,
A braich lesg henaint gwisgynt hwy mewn dur;
Tra ieuaint *difeirf* a morwynion lleddf
Gan benawr gwaint o bluawr ymwychânt.
W. O. Pughe: Palestina, 30.

Difarfedd, *sm.* beardlessness.

Difarfiad, -au, *sm.* a depriving of beard; a cutting of the beard.

Difarfog, *a.* having no beard, unbearded.

Difarfu, *v.* to cut off the beard; to deprive of beard; to make beardless.

A phan glybu y rhai ereill o wyth brenin ar hugain Ynys Prydain y pethau hyn, ymgynnull a wnaethant eu holl osgorddion, er dial sarhâd y ddau frenin ereill a *ddifarfwyd,* a dwyn cyroh a gosod ar Ritta Gawr a'i wŷr, ac ymladd glewdaer a fu o bob tu; ond Rhitta a'i osgordd a gawsant y maes. 'Llyma fy [maes] mawr innau!' ebe Rhitta; ac yna *difarfu* yr holl freninoedd ereill yno a wnaethant ef a'i wŷr. A breninoedd yr holl wledydd ereill cylch ogylch a glywsant; ac er dial sarhâd y breninoedd a *ddifarfwyd,* ymarfogi yn erbyn Rhitta Gawr a'i wŷr a wnaethant. . . 'Llyma'n maes helaeth a theg ninnau!' ebe Rhitta; a *difarfu'r* holl freninoedd yno a wnaeth Rhitta a'i wŷr.—*Iolo Mss.* 193.

Difariaeth, *a.* [bariaeth] free from mischief, vice, or viciousness.

Mi fûm yn fab cyndyn yn dilyn hudoliaeth,
Ac ynof ni chad awr o fwriad *difariaeth.*
Dafydd William Dafydd: Cyfr. y Beirdd, 109.

Difarn, *a.* without judgment or trial; untried; void of judgment; injudicious.

Gochel dafarn, *difarn* dôn,
A gochel ferched gwychion.—*D. ab Gwilym,* lxiv. 19.

St. Paul yn deall cyfreithiau Rhufain, ac yn gwybod droseddu o'r swyddogion yn eu herbyn, wrth eu curo a'u carcharu hwynt yn *ddifarn,* a hwythau yn Rhufeinwyr, a ddywedodd y mynent gael bodlondeb am y cam a'r dirmyg a wnaethid iddynt.—*Ed. Samuel:* Buchedd yr Apost. 81.

Fe a gafai ei grogi yn *ddifarn* ar y pren nesaf i'r man lle delid.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 155.

Difarnu, *v.*: see *Dyfarnu,* &c.

Difarw, } *a.* undying, deathless, immortal.
Difarwol, } See *Anfarwol,* &c.

Yn Duw vawrweisc yon *diwarwawl.*
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 467.

Digitized by Google

Carw *difarw*, Deifr ni oddef.—*D. ab Gwilym*, i. 27.

Weithian i'r Brenin tragwyddol, *difarwol*, anweledigol, unig synwyrol Dduw, y bo urddas a gogoniant yn oesoedd oesau.—*Esgob Richard Davies:* 1 Tim. i. 17.

Er mwyn dywedyd o'n hynafiaid ni gynt, tu ag at am fywyd tragywyddol *difarwol*, nad oedd ganddynt fodd i fyw ond ar gig a gwaed yr Oen diamliw.
Morus Cyffin: Diff. iv. 17.

Cyffesed perchen bedydd,
Cyffesol *difarwol* fydd.—*Dafydd ab Meredydd ab Tudur.*

Ond, ysywaeth, fel ei gyfenw *difarw* o'r Wern, nid oedd a fynai â gwneyd cymmaint defnydd o'i bin ysgrifenu ag o'r offer llafar.—*Traethodydd.*

Difarwhâd, *a.* without mortification, unmortified.

Ti a gei fy nghalon . . . yn falch *ddifarwhâd.*
Elis Wynn: Rh.B.S. 296 (cf. 269).

Difarwolaeth, *f.* } *s.* immortality, deathless-
Difarwoldeb, *m.* } ness.

Brenin y breninoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi, i'r hwn yn unig y mae *difarwoldeb.*
Esgob Richard Davies: 1 Tim. vi. 15, 16.

Y bwyd sydd yn dyfod oddi fry; porthiant y *difarwolaeth.*
Morus Cyffin: Diff. ii. 11 (cf. vi. 5).

Difas, *a.* [bas] not shallow or superficial; deep, profound; astute, sagacious, wise.

Dwyn eurwas *difas* defawd diweccry
I dy dirwely daear waelawd.
Sefnyn: M.A. i. 504 (cf. 477, 514).

Ffynnonau *difas* glas-ddeigr
Yw gloewon olygon eigr.
D. ab Gwilym, clxxxvi. 21 (cf. cxxxix. 19; clv. 11).

Ni'm lluddiai i'w dai holl wlad Euas,
Na llyn o Deifi, na llanw *difas.*—*L. G. Cothi*, iii. vii. 45.

Ni enwir gwych yn annoeth,
O bydd gwas i'r *difas* doeth.—*Gutyn Gwain.*

Mae yt' glod o'm tafod *difas*, diofer,
Megys y rhoes cler; megys Rhys y Clas.
L. G. Cothi, iv. xix. 33.

Etholodd ef Ddafydd ei was,
Yr hwn oedd *ddifas* fugail.
Edmund Prys: Salm. lxxviii. 70.

Od eiriach Angeu diras,
Fywyd y fun fyw *difas.*—*I. B. Hir:* Gwaith, 75.

Wyr Dafydd â'r gair *difas*,
Ab Hywel, wych ym mhob plas.
L. G. Cothi, v. xiii. 5 (cf. vi. ii. 31).

Difasu, *v.* [mas?] to be or become amazed.

Mi a aethym yn ddi ymadroddion, ac a *ddifesais.*
Marchog Crwydrad, ii. 4.

Difasw, *a.* without softness or tenderness; free from levity; solid, firm.

Masw dy arfer wrth gler glau,
Difasw ym mrwydr dy foesau.—*Iolo Goch.*

Dofes â'i wŷr, *difasw* wedd,
Darreni daiar Wynedd.—*Hywel Dafydd ab Ieuan.*

Gwnawn sylw (*difasw* a fydd)
Ychydig, waith y chwe-dydd.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 427.

Difasweddd, *a.* without levity, frivolity, or wantonness; grave, serious.

Didwyll ei weithrediadau *difasweddd*,
A gwirionedd bob gair o'i enau.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 265.

Difasweddol, *a.* not of a light, frivolous, or wanton disposition; grave.

Difasweddu, *v.* to cease from levity, frivolity, or wantonness.

Difater, *a.* [mater] unconcerned, careless, heedless, regardless, unmindful, not caring, not anxious, indifferent.—*Marc* iv. 38.

Mor *ddifater* am ein iechydwriaeth a'n damnedigaeth, yr ydym wedi myned.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. iv. 11.

O! mor *ddifater* y gollwng e'r gwaed, a gadael dyn yn lledfarw!—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 57.

Fal pe byddai fe'n *ddifater* pa un a wna ef ei gael ai peidio.—*Langford:* Holl Ddyledswydd Dyn, 127.

Difaterwch, *sm.* unconcernedness, heedlessness, nonchalance, indifference, carelessness.

Y drydedd gangen . . . a wneir i fyny o *ddifaterwch* am fwyniant a chyfleusderau'r byd.
D. Davis: Bywyd Duw, 25.

Daw y dyn i ddeall fod gwrthddrych ei ymgais yn eithaf pell o'i gyrhaedd, a threulia weddill ei oes mewn diogi, a *difaterwch* am ei alwedigaeth.—*Cylchgrawn*, i. 136.

Y mae efe yn cyffelybu *difaterwch* y rhan fwyaf y dyddiau hyny, i blant yn efelychu priodas.
Dr. Th. Phillips: Esponiad T.N. 28.

Difäu, *v.*=*Difa.*

Brenin coronog a fydd yn ddiammau,
Gwae i'r Twrciaid pan ddêl i'w *difäu.*
Iolo Mss. 280 (cf. 284).

Difäwr, wyr, *sm.* [difa+gwr] a devourer, destroyer, consumer, or waster.

Difawr, *a.* [mawr] not great; little, small.

Dyfr o bryd em byd o'm barn,
Difawr ei brys i dafarn.—*Dafydd ab Gwilym*, ccxxi. 29.

Difawrhâd, *sm.* [mawrhâd] a depreciating, depreciation.

Difawrhaol, *a.* depreciative, depreciatory.

Difawrhau, *v.* [mawrhau] to depreciate; to undervalue; to disregard.

Difechni, *a.* [mach, mechni] without bail or surety.

Difechnïad, -au, *sm.* exoneration of bail.

Difechnïo, *v.* to exonerate bail.

Difechnïol, *a.* exonerating bail.

Difedr, *a.* unskilful, unskilled, inexpert; inexperienced; ignorant.

Er fy mod heb son am aneirif liawa, a myrdd o wirioniaid annysgedig, y bobl ddiwybod *ddifedr*, y rhai a gyffelybir i fulod ac i geffylau.—*Ed. James:* Hom. ii. 126 (cf. 108, 130).

Am eu gwrywaid, beth ynt ond cynnifer lleban *difedr* i drin arfau rhyfel?—*Theo. Evans:* D.P.O. 51.

Difedredd, } *sm.* unskilfulness, inexpertness.
Difedrusedd, }

Difedrusder, *a.* without skill, unskilled, unskilful; plain.

Nid oedd eu hymadroddion ond dysyml a diweniaith, yn gosod allan eu rheolau, eu haddewidion, a'u bygythion, ag areithiad sathredig *ddifedrusder.*
Ed. Samuel: Grotius, ii. 22.

Difedydd, *a.* [bedydd] without baptism, unbaptized, unchristened; heathen.—*M.A.* i. 184, 204, 429, 580.

Rac ofyn eu distryw yn gwbyl or ysgymun *diwedyd* Saeson.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 363.

Ail y bu hud Morien, sef o'i achos y colled bedydd ac aberth yn Ynys Prydain, ac ydd aeth holl werin yr ynys yn Iddewon *difedydd.*—*Iolo Mss.* 43 (cf. 44).

Annoc e gwyr a oruc Arthur i lad e bratwyr escymunedic baganieit *divedyd.*
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 355 (cf. 360).

Er na ddylem anobeithio am drugaredd Dduw i'r plant truain sy'n marw'n *ddifedydd*, eto'n ddiammheu mae anfad fai ar y rhieni sydd o esgeulusdra yn eu gadael hebddo.
Ed. Samuel: Holl Ddyl. Dyn, 283.

Difedyddiol, *a.* unbaptizing, not baptizing.

Difedd, *a.* [medd, meddu] without possession.

Difa ol eiriol arial penaeth;
Difedd pob rhai erfai rhydd luniaeth.
D. ab Gwilym, ccxxix. 37.

Difeddedig, *pt.a.* dispossessed, deprived.

Difeddedigion (=difeddedigolion), privatives.

Difeddedigol, *a.* that tends to dispossess or deprive; privative; negative.

Digitized by Google

Difeddedigolion, privatives.

Banyn difeddedigol, } a privative particle; a
Geiryn difeddedigol, } privative.

Difeddiad, -au, *sm.* [meddu] a dispossessing, dispossession.

Difeddianniad, -au, *sm.* dispossession, deprivation; eviction.

Difeddiannol, *a.* dispossessing, disseizing; unpossessing.

Difeddiannu, *v.* to dispossess; to disseize; to deprive, to deprive of.

Tri dyn ny ddylir ei *difeddianu* yn y fo dosparth.
Cyfreithiau Cymru, ii. 630 (*cf.* 352).

Y mae gwr, ebe fe, y sydd elyn imi, yn amcanu dwyn arlwydd o estron yn ormes i'm cyfoeth, a'm *difeddiannu* o'm tir a'm daiar, a'm gwlad.—*Iolo Mss.* 169.

Fe a *ddifeddiannwyd* o'i ymherodraeth gan oreugwyr Grecia.—*Ed. James:* Homiliau, ii. 73 (*cf.* 187; i. 115).

Na oddefed i gywilydd gau ac ammhrydlon ei *ddifeddiannu* ef o'r trysor gwerthfawr hwnnw.
Ioan Wallter: Dwy Bregeth, 43.

Nac ofna iddo dy *ddifeddiannu* o'th deyrnas.
Nicander: Dysga Fyw, 95.

Difeddiant, *a.* without possession, unpossessing; unpossessed, unseized.

Difeddiant, *sm.* absence or lack of possession, non-possession; bereavement.

Dyma gan hyny'r pechod gwreiddiawl, neu ddechreuawl; sef gelyniaeth rhyngom a Duw, a *difeddiant* o'r gras a amcanesid i ni; á'r hwn *ddifeddiant* y genir ni.
R. Smith: Eglurhâd, 315.

Difeddu, *v.* [meddu] to dispossess, to deprive, to deprive of, to bereave; to disseize.

Pwy ag sydd ddilynwr trythyllwch a ddichon gofleidio marwolaeth yn ewyllysgar, i'w *ddifeddu* ei hun o'r pethau sydd dda ganddo?—*Charles Edwards:* Hanes y Ffydd, 65.

Y neaaf un mewn gradd at hwn yw ei anafu ef, a'i *ddifeddu* ef o ryw aelod.
Langford: Holl Ddyledswydd Dyn, 232.

Pechod marwol yw hwnw, yr hwn o ran ei drymder sydd yn *difeddu* 'r enaid o ras Duw.
Allwydd Paradwys, 73 (*cf.* 138).

Difeddw, *a.* [meddw] not drunk, inebriated, or intoxicated; unintoxicated, sober.

Trydydd yw bot yn *ddifeddw*, ac yn barawt y wneuthur llythyreu yr brenhin pan ofynno ac yw darllein.
Cyfreithiau Cymru, ii. 658 (*cf.* i. 364).

Dafydd o beth *difeddw* bwyll,
Digymhar gerdd digymhwyll.—*D. ab Gwilym*, lxiv. 9.

Am yr hyn, pan aeth ef yn *ddifeddw*, y cywilyddiodd yn gymmaint ag yr ewyllysiodd iddo ei hun farwolaeth o wir odd calon.—*Ed. James:* Hom. ii. 197.

Difeddwad, *sm.* a getting or becoming sober.

Difeddwaint, *a.* not intoxicated; sober.

Difeddwl, *a.* [meddwl] thoughtless, unthinking, without thinking; heedless, without considering, inconsiderate.

Rhaid i mi gan hyny . . . ddangos i chwi ac i'r byd nad wyf yn hollol *ddifeddwl* am fy hen wlad a'm cenedl.
Gwyliedydd, v. 87.

Yr ydym yn llawn mor anghymhwys i feirniadu'r materion nefol hyn ag ydyw'r gwybedyn sy'n gwibio'n *ddifeddwl* yn yr awyr i farnu yng nghylch cyfansoddiad y bydyssawd.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 65.

Edrych drach ein cefnau, a chei weled mai nid gorchwyl hawdd ydyw dringo i fyny y rhan acw o'r bryn y daethom i lawr ar hyd-ddo mor *ddifeddwl*.—*Y Bryniau Pell*, 25 (*cf.* 19).

Diddadl mai dynion *difeddwl* ac anystyriol sydd yn siarad fel hyn yn fynych.—*Adolygydd*, iii. 195.

Di feddwl drwg, without thinking evil; free from suspicion; unsuspecting.

Difeddwl, *v.* not to think or cogitate; to cease thinking or cogitating.

Tripheth nis gellir ar Dduw: meddwl drwg; *difeddwl* y goreu; a gwrthfeddwl a feddylwys.—*Barddas*, i. 340.

Difeddwol, *a.* not intoxicating or inebriating.

Difeddyg, *a.* without a physician; incurable, cureless, irremediable.

Difeddyg, anfeddyginiaethol, nad oes meddyg iddo, nas gellir ei iachäu.—*Walters*, s.v. 'Cureless.'

Claf difeddyg, incurably sick.

Difeddygedd, *sm.* incurableness.

Difeddyginiaeth, *a.* without a remedy, cureless, incurable, irremediable.

Eu hannuwioldeb eu hunain, trwy ddirfawr bwys ei natur ei hun, a'u gwasgent ac a'u suddent hwy i lawr yn *ddifeddyginiaeth* i'r cyflwr truenus hwnw.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 165.

Difeddyginiaethol, *a.* incurable, cureless, irremediable.

Yr Arglwydd Hollalluog a Duw Israel a'i tarawodd ef á dialedd *difeddyginiaethol* ac anweledig.—2 *Macc.* ix. 5.

Difefl, *a.* [mefl] reproachless, blameless; not liable to be reproached, blamed, or censured; not needing to be ashamed.—2 *Tim.* ii. 15.

Diessic e dias *divevyl* as talas.—*Aneurin:* A.B. ii. 68.

Mab diuei *difefyl* y nerth
Mab diwan eiryan Iorwerth.
Einion Wan: M.A. i. 335 (*cf.* 336, 343, 372).

Yssid rad yny wlad a mad a meint
Yg gyfoeth Dewi *difefyl* gereint.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 270 (*cf.* 369, 371).

Gwnaed Dduw y ddiwet ef *ddifefyl* hebrwg
Yny uo y orffen ar ffort deilwg.
Einion ab Madog: M.A. i. 392.

Ffyddlon weinidogion da,
Difefl, mynant eu difa.—*I. B. Hir:* Gwaith, 40.

Yn ystod y can mlynedd a hanner diweddaf, yr oedd yn y winllan Gymreig lawer o weithwyr *difefl* fel gweinidogion.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 297.

Difeflgar, *a.* indisposed to blame or reproach; not given to detraction; sincere, ingenuous.

Rebyd ryd rwydwin a dewin dar
Redawd cawd ym cof dof *divevylgar*.
Casnodyn: M.A. i. 426.

Difeflgarwch, *sm.* freedom from detraction or scandal; ingenuousness.

Difeflwr, wyr, *sm.* a reproachless person.

Diuefylwyr frodyr urwydyr efnys yn trin
Yn trydar anuelys.—*Cynddelw:* M.A. i. 254.

Difeiad, -au, *sm.* [difeio] exculpation; a clearing.

Difeichiad, *sm.* exoneration of bail.—*P.*

Difeichio, *v.* [difach] to discharge bail; to release from suretyship.

Yna y dyly y mach erchi yr kynnogyn yr y arglwyd y *diueichav*.—Ac yna y dyweit y kynnogyn: paravt vyfi yth *diueichav*.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 184.

Difeichio, *v.* [baich] to free from a burden, to unburden, to disburden.

Difeichiol, *a.* exonerating or releasing bail.

Difeichiol, *a.* unburdening, disburdening.

Difeiddio, *v.* [maidd] to press out the whey (in cheese-making), to separate the whey from the curd.

Difeiedig, *pt.a.* unblamed; blameless, reproachless.

Rhaid i'r esgob fod yn *ddifeiedig*, gwr un wraig, gwyliadwr, pwyllog.—*Esgob R. Davies:* 1 Tim. iii. 2.

Digitized by Google

Difeiedd, *sm.* [difai] faultlessness, blamelessness, unblamableness.

Difeiniol, *a.* [L. *divinus*] divine; theological.

Hefyd cael harddu, a theghau, a chyfoethogi ein heneidiau â'i fendigedig ras ef, yng nghyd â'r rhinweddau a elwir *defeiniol*, ffydd, gobaith, a chariad perffaith.
Dr. Davies: Llyfr y Res. I. vii. 12.

Difeinwr, wyr, } *sm.* [L. *divinus*] a divine, a
Difeinydd, -ion, } theologian. See *Duwinydd.*

Ac o'r achos hwnw hefyd y mae'r *defeinwyr* yn cyfrif pechu o hyder ar drugaredd Duw, yn gyntaf o'r chwe pechod trymion yn erbyn yr Yspryd Glân.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. iv. 23 (cf. 7; I. ix. 21; x. 10).

O ba herwydd f' aeth yn ddiareb ym mhlith *defeinwyr.*
Elis Wynn: Rh.B.S. 155.

Yn apostol, yn efangylwr, yn ferthyr, yn brophwyd, ac yn *ddifeinydd.*—*Ed. Samuel:* Buch. yr Apostolion, 180.

Mae *difeinyddion* yn cyfaddef fod eangder y nef hon yn anfesurol.—*Gruffydd Wynn:* Ystyriaethau, 132.

Gorchwyl *difeinydd* yw esgyn, wrth gadwyn o resymau, oddi wrth bethau gweledig, at bethau anweledig.
Cylchgrawn Cymraeg (1793), 5.

Naturiaethydd a hanesydd
Oedd, ac ieithydd celfydd, call,
Dwys *ddifeinydd,* doeth arweinydd,
Ac addysgydd gwiw i ddall.
Ieuan Lleyn: Caniadau, 111.

Difeinyddiaeth, -au, *sf.* divinity, theology. See *Duwinyddiaeth, Difinyddiaeth.*

Mêr *Difeinyddiaeth* iachus.—*Enw Llyfr* (1754).

Nac ymgyfod i yspïo dirgelion y deyrnas a'r llywodraeth, nac uchel bethau *difynyddiaeth,* os yw hyny uwch law dy alwedigaeth.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 96.

Ni chaiff Galen ddim meddyginiaeth yn ei physigwriaeth, na'r ysgolhaig mwyaf ei ddysg yn ei *ddifinyddiaeth.*
Gruffydd Wynn: Ystyriaethau, 196.

Difeinyddol, } *a.* divine; theological, relating
Difinyddol, } to divinity.

Y mae golud yr enaid naill ai yn naturiol ai yn *ddifinyddol.* Y naturiol yw grym a gallu rheswm, megys synwyr, cof, a'r cyffelyb. Y *difinyddol* yw grasau Duw, y rhai ni pherthynant i'r enaid trwy natur.
Langford: Holl Ddyledswydd Dyn, 172.

Difeio, *v.* [difai] to clear of fault or blame; to exculpate; to excuse; to improve or amend.

Nid ymgais ond a ymgais *ddifeiaw* ei hun.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 57.

Unionwch, chwi rai anwar,
Eich ffyrdd trwch; *difeiwch* fâr.—*I. B. Hir:* Gwaith, 19.

Y mae efe, gan hyny, yn *difeio* W. Salsbri yn ebrwydd, gan na soniasai efe am grythau.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 225.

Difeiriad, *sm.* [difar] 'a ceasing from passion or ire; a repenting.'—*P.*

Difeirio, *v.* to repent; to regret.

Difeiriog, *a.* repentant, penitent.

Difeiriol, *a.* repenting, repentant, penitent.

Ei gwlaw sydd yn disgyn fel dagrau *difeiriol.*
Islwyn: Caniadau, 18.

Difeirwch, *sm.* repentance, penitence.

Anfon, Duw Tri . . .
Am dy fâr im' *difeirwch.*—*T. Gruffydd o Forganwg.*

Difeius, *a.* [difai] faultless, blameless, unblamable, unculpable, without blemish.—*Eph.* v. 27; *Phil.* ii. 15.

Ni obeithiasant am wobr cyflawnder, ac nid ystyriasant wobr yr eneidiau *difeius.*—*Doeth.* ii. 22.

Y mae'n eglur fod y Cristionogion y pryd hyny mor *ddifeius,* a'u gwendid cyn lleied, nad allai eu gelynion craffaf mo'i ganfod.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 330 (cf. 314).

Bwriwch at hyn, eu bod yn wŷr o ymddygiad diddrwg, *difeius,* nad oedd gan eu gelynion adgasaf ddim i'w fwrw arnynt ond eu gwiriondeb a'u diniweidrwydd.
Ed. Samuel: Grotius, ii. 7 (cf. 6; iii. 6).

Difeius a difrycheulyd, without blemish and without spot.—1 *Pedr* i. 19.

Difeiusder,
Difeiusdra,
Difeiusrwydd, } *sm.* faultlessness, blamelessness, unblamableness.

Difeiwr, wyr, *sm.* [difai (difeio) + gwr] one who does not find fault; an improver or amender.

Llwyn o gwyr *difeiwyr* faeth,
Llwyn eurlliw—llyna iarllaeth!
Dafydd ab Gwilym, lxviii. 9.

Difelyf, *a.* unskilful, artless; feeble.

Difenw, -au, *sm.* [difanw] slander, defamation, calumny, railing; censure.

Yr ail ffordd gyhoeddus i danu'r fath chwedlau, yw eu dadgan yn gyhoeddus ac yn gyffredinol . . . a hyn a wneir fynychaf trwy *ddifenwau* a gwradwyddiadau bustlaidd.
Ed. Samuel: Holl Ddyled. Dyn, xiii. 3 (cf. viii. 17).

Cyd byddynt yr angylion sy fwy mewn cadernid a gallu, heb ddodi dirmygus farn [**difenw,* senfarn] yn eu herbyn hwynt gar bron yr Arglwydd.
Esgob R. Davies: 2 Pedr ii. 11.

Difenwad, -au, *sm.* 1. a contemning, despising, or disparaging.

2. contempt, ignominy, indignity, derogation, detraction.

Mae llawer o bechodau marwol, heb fod yn bechodau penaf; megys *difenwad,* llofruddiaeth.
R. Smith: Eglurhâd, 324 (cf. 166, 310).

Fe a gymmerodd yn oddefgar lawer o *ddifenwad,* ac a oddefodd yn ewyllysgar lawer o watwar.
Ed. James: Hom. i. 84 (cf. 86, 87).

Camwedd o'r mwyaf yw hwn, o ran yr enllib ac o ran y *difenwad* hefyd.—*Ed. Samuel:* Holl Ddyled. Dyn, xlii. 3.

Ceisio gwneuthur taliad am falais ein cableiriau, a'n *difenwad* gynt.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 310.

Gwel y clustiau a fu'n arfer gwrando gorfoleddus emyn y cerubiaid . . . yn awr yn clywed lliaws o *ddifenwadau* gwatwarllyd.—*Nicander:* Dysga Fyw, 393.

Difenwad a chywilydd, ignominy and shame.

Difenwi, *v.* [difanw: cf. L. *diminuo*] 1. to despise, disparage, contemn, or revile; to rail at; to slight; to make nothing of.

Ar a vo diffyd *divennwir.*—*Llefoed:* A.B. ii. 308 (cf. 223).

Enwir *difenwir* ei blant.—*Diareb.* (M.A. iii. 155.)

Difanw son Saeson sef a gary
Difwyniant fyddaf o'm *difenwy.*
Dafydd Benfras: M.A. i. 309 (cf. 519, 536).

Kynnyd yawn oy dawn ny *diuenwir.*
Llywelyn Brydydd Hodnant: M.A. i. 412.

Yr hwn, pan *ddifenwyd,* ni *ddifenwodd* drachefn.
1 *Pedr* ii. 23 (cf. Heb. x. 29).

A pha fodd nad yw *difenwi* a chablu yn ddamnedicaf pechod?—*Ed. James:* Hom. i. 182 (cf. 187; iii. 82).

Mi a chwennychwn wybod pa fath bechod ei faint yw'r cablu, a *difenwi.*
R. Smith: Eglurhâd, 168 (cf. 96, 158, 166, 310).

Am *ddifenwi,* mae'r Apostol mewn amryw fanau yn ei gyfrif gyda gweithredoedd y cnawd, y rhai a gauant bobl allan o'r eglwys yma . . . ac o deyrnas nefoedd ar ol hyn.
Ed. Samuel: Holl Ddyled. Dyn, xiii. 3 (cf. i. 35).

Dy gyfenw ni *ddifenwaf,*
Os ei gwrdd yn f' oes a gaf.—*Gronwy Owain,* 64.

Pan y bônt wedi blino yn addoli eu delw, yna y dechreuant *ddifenwi* a melltithio.—*Theo Evans:* D.P.O. 145.

Yr wyf yn ewyllysgar yn parhau i'w *ddifenwi* a'i gablu ef.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 307.

Digitized by Google

2. to call names; to apply opprobrious names or epithets; to call by reproachful appellations; to abuse. This meaning is coloured by the assumption, mentioned by Dr. Davies, that *difenwi* is = *dienwi* (di- + enw), which does not appear to be the case.

Sic vulgò sumitur, vt compositum à privativo *di*, & *enwi*; sed veriùs, contemnere, despicere, vilificare, parvifacere.
Davies, s.v.

Difenwol, *a.* ignominious; detractive, disparaging; despicable; despised.

Marwolaeth ddifenwol, an ignominious death.

Yn y geiriau hein y mae'r gelynion mor drahäus yn pwyso ar yr Iesu, gan dybied o honynt ddarfod am dano, ac nas gallai fyth ymachub o'r *farwolaeth ddifenwawl* a roesent iddo.—*H. Perri:* Egluryn Ffraethineb, ix.

Marwolaeth ddifenwol y groes, the ignominious death of the cross.

Difenwr, wyr, } *sm.* one who disparages or
Difenwydd, -ion, } detracts, a disparager, a detractor, a reviler, a calumniator, a vilifier, a despiser.—1 *Cor.* vi. 10.

Ni a ddywedwn fod un yn *ddifenwydd*, neu'n chwarëydd, a fo'n arfer o *ddifenwi*, neu chware. Ac felly *difenwi* yw'r pechod, a bod yn *ddifenwydd* yw'r camwedd.
R. Smith: Eglurhâd, 310.

Yn y Destafen Hen, gorchymmynodd Duw gael o'r *difenwyr* eu llabyddio â cherryg.—*R. Smith:* Eglurhâd, 168.

Mae ef yn barod i wneuthur cymmwynasau i'w absenwyr, a'i *ddifenwyr*, a'i athrodwyr.
Elis Wynn: Rh.B.S. 95 (cf. 161).

Difenwyd, *a.* [menwyd] 1. unblessed; joyless. —*P.*

Diferch, *a.* [merch] 1. having no daughter.

2. without a lady-love.

Diferch yw dy fardd difaeth!—*Dafydd ab Gwilym*, clx. 62.

Diferf, *a.* [merf] not insipid, flat, or disagreeable.

Mynawg dwf, maneg *diferf*,
Mwy nog y cair ar ffair fferf.—*Rhys Goch Eryri.*

Diferth, *a.* [berth] void of beauty, unbeautiful, unhandsome.

Diferthol, *a.* tending to divest of beauty.

Diferthu, *v.* to divest of beauty, to make unhandsome.

Diferthwch, *sm.* want of beauty, unhandsomeness.

Diferu, *v.* [dy- + meru]: see *Dyferu*, &c.

Difesur, *a.* [mesur] without measure, measureless, immeasurable; unlimited; immense.

Diuessur yw y tat. a *diuessur* yw y mab. a *diuessur* yw yr yspryt glan. . . Ac velle nyt ynt tri digreedic. na thri *diuessur*. y tat ar mab. ar yspryt glan. namyn vn digreedic. ac vn *diuessur*.—*Llyfr Ancr*, 138.

Ay ankuyn ev en *dyuessur*.—*C.C.* i. 8 (cf. 10, 34, 44).

Ac yna y bu yr aerua *diuessur* y meint.
Mabinogion, 64 (cf. 48).

Yna y doeth y Ffreinc y hwylaw y moroed a *diuessur* lyges gantunt.—*Brut y Tywysogion*, 298.

Tri pheth a sydd yn gwaethygu y byd: seguryd difyr; balchedd diystyr; ac afrad *difesur*.
Trioedd Moes: M.A. iii. 191.

Myfi a fyfyriais yn *ddifesur* yn ieuanc yn yr Ystrad draw.—*I. B. Hir:* Gwaith, 236.

Difesur yw dy faswedd.—*Rhys Jones:* Gwaith, 243.

Trwm gur, *difesur* ei faint,
I chwiorydd a cheraint.—*D. Ddu Eryri:* C. y Gainc, 107.

Er mwyn adnabod y llew yn well, ni a ddychymmygwn fod anianydd yn myned o'r Penrhyn i chwillo gwastadedd *difesur* Deheudir Affrica.—*Cylchgrawn*, i. 7.

Difesuredig, *a.* unmeasured; countless, uncounted; immeasurable, immense.

Y gwr a vuassei annorchyfegedic kynno hynny, yr awr honn a edewit y mywn glynneu diffeithon, wedy diruawron anreitheu, a *diuessuredigyon* uudugolyaetheu.
Brut y Tywysogion, 44.

Difesuredd, *a.* without measure, beyond measure, immeasurable; immense.

Pagan oed hwnnw *diuessured* y dewred.
Yst. de Carolo Magno: col. 455 (cf. 456).

Difesuredd, *sm.* immeasurableness; immensity; an immense quantity or number.

Neur daroedd dwyn *diuessuredd* or da yn lletrat.
Doethion Rhufain, § 15.

Yny vu varw anneiryf or bobyl gyffredin, a *diuessured* or bonedigyon ar tywyssogyon.—*Brut y Tywysogion*, 244.

Difesuriad, *sm.* a being unmeasured.

Difesuro, *v.* not to measure; to cease measuring.

Difesurol, *a.* without measure; unlimited; immense.

Difeth, *a.* [meth] without fail, without missing, unfailing; unerring; infallible.

Ef a wnaeth arvaeth pob arver *diveth*
A phob ryw unpeth treth lle traether.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 475 (cf. 414).

Maent yn rhedeg mor chwidr gyflym ag y cyrhaeddant di yn *ddifeth* mewn byr amser.
Gruffydd Wynn: Ystyriaethau, 63.

Llariaidd *ddifeth* y plethwyd
Y llwyn ar ben Morfudd Llwyd!
Dafydd ab Gwilym, lxviii. 41 (cf. cxliv. 3).

Nid af o'th blas, *difeth* blaid,
Oni ranwyf â'r enaid.—*Llawdden.*

Er mwyn eu hannog hwynt yn glodfawr i gynnyddu yn *ddifeth* yn y Gristionogaeth.
H. Perri: Egl. Ffr. xvi. (cf. xxviii.).

A'r ddau hyny rhyngddynt a'm lladdasent yn *ddifeth*.
Gronwy Owain, 245.

Mae tâl diwydrwydd yn *ddifeth*.—*Ystân Sioned*, 6.

Cyflawnwch yn *ddifeth* yr hyn a benderfynwch.
Cylchgrawn, i. 52.

Difetha, } *v.* [dy- + methu]: see *Dyfetha*, *Dy-*
Difethu, } *fethu*, &c.

Difethedig, *pt.a.* that has not failed; unfailing, infallible.—*Iolo Mss.* 311.

Ac o'r adail egoredig
Ef aeth adail *difethedig*.—*L. G. Cothi*, III. xxvii. 79.

Mair urddedig, fendigedig, etholedig yth aelodau,
Mam Grist wledig, *difethedig*, Ior ganedlig o'r gwiw nodau.—*Ieuan ab Rhydderch ab Ieuan Llwyd.*

Difethiant, *sm.* [difeth] freedom from failure.

Difethiant, *a.* unfailing, infallible.

Difethiantrwydd, *sm.* infallibility.

Difethiantus, } *a.* unfailing, infallible; un-
Difethiannus, } erring.

Difethl, *a.* [methl] 'without deception;' without embarrassment, obstruction, or perplexity; unembarrassed.

Lliw oer enwysc riw rin dawl om tafawd
Neut *diuethl* anueidrawl.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 296.

Trwy gymhorth anhyludd y gelfyddyd yma, mae doethineb yn ymddangos yn ei glendid; yn dysgleiriaw yn ei hysplennydd oleuni; yn honni ei *difethl* fawredd; yn dadgan ei nerth anghyfing; ac, fegys ffynnon ammhallnant, yn tywallt nwydau y galon.
H. Perri: Egl. Ffraethineb (1807), Rhag. 3.

Difethlad, } -au, *sm.* disentanglement, disem-
Difethliad, } barrassment, extrication.

Difethlu, *v.* to disentangle, to disembarrass, to extricate, to unperplex.

Digitized by Google

Difethlus, *a.* disentangling; unembarrassed.

Difethrwydd, *sm.* [difeth] infallibleness.

Difewyd, } *a.* [mewyd] not lazy, sluggish, or
Difewid, } slothful; active.

Duw sydd yn rhoddi'r gallu i bob da; ond rhaid i ni wregysu ein lwynau i'w arferu ef yn ffyddlon ac yn *ddifewid*.—*Ch. Edwards:* Hanes y Ffydd, 341.

Diflad, -au, } *sm.* [dif] 'a casting, a flinging;'
Diflant, } destruction, devastation.

Pan dau nos a lliant
Pan vyd y *diviant*.—*Taliesin:* M.A. i. 33.

Diammheu'n awr dyma nod
Y *diflant* wedi dyfod.—*Dewi Wyn*, 217.

Diflau, } *sm.* [dif=diw=dyw (L. *dies*) + Iau
Diwiau, } =L. *Jov-em*, acc. of Jupiter: C. *deyow, duyow;* Br. *diziou*] Thursday.

Diw mawrth gwiscassant ein cein duhet
Diw merchyr bu guero eu cit unet
Divyeu cennadeu amodet.—*Taliesin:* M.A. i. 87.

Dydyrchafwy dreic o parth deheu
Gan was rydad las yn dyd *dyfleu*.
Taliesin: A.B. ii. 211 (M.A. i. 31).

Ac y kywenv *dywiev* divod iti
Ac imlat in taer am dvylan Tywi.
Myrddin: A.B. ii. 27 (M.A. i. 137; cf. 153).

Goresgynnwys Mab Duw *difyeu* nef vchod.
Ein. ab Gwalchmai: M.A. i. 331.

Gwr an pryn prynhawn *ddiflau*.
Dafydd Benfras: M.A. i. 313 (cf. 10).

Ef a edewis Iessu Grist kynn diodef o honaw y deuei gwedi *divieu* y ymwelet ac wynt.—*St. Greal*, § 21.

Doe *Ddiflau* dydd i yfed.
D. ab Gwilym, liv. 1 (cf. xxxiv. 11; cxxix. 15).

I'th lys hafaidd, wrth lais yfed,
Yr ai Ddyfed, er aur, *Ddiflau*.
L. G. Cothi, III. xix. 63 (cf. I. xxxvi. 29).

Diflau bu dechrau dychryn.
Iolo Goch: Md. Archiagon Ysgeiflog.

Diflau yr aeth i Fair wen.
Guto'r Glyn, am Werfyl ach Madog.

Llyma'r geiriau diau da,
Ddiflau 'r nos cyn ei ddifa.—*Gruffydd ab Ieuan.*

Os *duvieu* vyd gaeaf da. a gwannwyn gwynnawc. a haf da.—*Hengwrt Ms.* 202.

Echryshaint, och, wir Iesu!
Ddyfod i Ial *Ddiflau* du!—*Tudur Aled:* G.B.C. 235.

Diflau Cablyd, Maunday Thursday. See *Cablyd*.

Ti a glyweist vot Iessu Grist ymysc y disgyblon yn veistyr arnadunt ar y vort *divieu cablut*.
St. Greal, § 21 (cf. 20).

Diflau Dyrchafael, } Ascension Thursday,
Diflau Cyfarchafuel, } Holy Thursday. See *Cyrchafael*.

Duw Llun kynn *difyeu Kyfarchauel*.
Brut y Tywysogion, 260 (cf. 274).

Diflain, *a.* [milain] not brutal or ferocious; not villanous; gentle.

Ni ad ei garu ond *diflain*.—Nid *diflain* ond ufudd.
Diareb. (M.A. iii. 171.)

Difleinio, *v.* to divest of ferocity or villany.

Difin, *a.* [min] without edge, edgeless, blunt.

Difinedd, *sm.* want of edge or sharpness; bluntness.

Difiniad, *sm.* a blunting.

Difinio, *v.* to make edgeless, to blunt.

Y mae'r neb sydd yn cyd-ddwyn â thrueni yn llaryaidd, yn ei *ddiflnio* ef fal na allo mo'i archolli ef.
Langford: Holl Ddyl. Dyn, 156.

Difiniog, *a.* having no edge, edgeless; blunt.

Difiniol, *a.* tending to blunt.

Difinydd, -ion, -iaid, *sm.* [L. *divinus*] a divine, a theologian. See *Duwinydd*, now the more usual word; and cf. *Difeinydd*.

Dadguddiad Sant Ioan y *Diflnydd*.—*Beibl.*

Lle y cauwyd allan o'r Gymmanfa gennadau urddol a *diflnyddiaid* y tywysogion a'r dinasoedd rhyddion o Germania.—*Morus Cyflin:* Diff. i. 10.

Difeinydd, *diflnydd*, eglwyswr, gweinidog yr Efengyl.
Walters, s.v. 'Divine.'

Mor anghenrheidiol i iechydwriaeth *diflnydd* mawr, a Christion gwan, neu blentyn ieuanc.
Lewis Anwyl: Cyfarwyddyd i Weddïo, 6.

Lle ni chai un *diflnydd* na gwr eglwysig o'n crefydd ni mo'i wrandaw.—*Morus Cyflin:* Diff. vii. 2.

Duw a fo noddwr y *diflnyddion*.
D. Ddu Eryri: Corff y Gainc, 43.

Difinyddiaeth, *sf.* divinity, theology.

Rhaid i bob un, gan hyny, ag sydd yn cymmeryd arno allu dim mewn *Diflnyddiaeth*, fod yn dra chyfarwydd yn y Llyfr hwn.—*Ieremi Owen*, 96.

Ar hyny y daeth trosodd ddau esgob rhagorol, sef Garmon a Lupus; y rhai, drwy awdurdod yr Ysgrythyr, tystiolaeth y Brif Eglwys, a chadarn resymau *diflnyddiaeth* a amddiffynasant mor wrol y Ffydd Gatholig, fel y cydnabu pawb fod Duw gyda hwy.
Theo. Evans: D.P.O. 85.

Y mae *diflnyddiaeth* yn ein dysgu yn y pethau i'w credu am Dduw, a pha fodd i'w wasanaethu.
Cylchgrawn Cymraeg (1793), 5 (cf. 61).

Cymmaint oedd ei ddawn am ddysgeidiaeth, fel ag yr etholwyd ef i ddysgu *diflnyddiaeth* ac i esponio'r Ysgrythyrau ym Mhrifysgol Alecsandria.
G. Mechain: Eglur Olygiad, Rhag. 25 (cf. 24).

Difinyddol, *a.*=*Difeinyddol*.

Difio, *v.* 'to cast or fling; to annoy;' to act fiercely, cruelly, or untractably; to spoil.

Traethasom awenydd y dydd y daw cynnydd
Ar fro ag am foydd heb orddwyn cwyn cilydd
Caled *ddiflaw*.—*Bergam:* M.A. i. 554.

Difiog, *a.* 1. ferocious, fierce, savage, cruel; vicious; untractable, untamable, wild; arrant.

Ry-gelwid Madawg cyn noe laith
Rwyd galon *difogion* diffaith.
Cynddelw: M.A. i. 212 (cf. 544).

Gwae a vyn gobryn gobyr ufferndawd
Gwae *diviawc* llidiawc lleidyr tra allawd
Am berchen o brenn a brynawd pumoes.
Casnodyn: M.A. i. 428.

Gyr d'ofn ar bawb o'r gwŷr *diflog* draw.
L. G. Cothi, I. xvi. 55.

Y mae'r gorchymmyn yma mewn grym, ac a wasanaetha i euogfarnu ystyfnigrwydd *diflog* llawer gwragedd.
Langford: Holl Ddyl. Dyn, 331.

Goreu peth ddarfod i'r Duw mawr roddi byr-gyrn i'r fuwch *ddiflawg*.—*Dr. I. D. Rhys:* Gram., Rhag. 6.

Ac er bod tafod *diflog*,
Mwyn yw ei grwth—myn y grog!—*Sion Tudur.*

Y *diflog* ffilcasog cam.—*Ieuan Tew*, i Gelwyddwr.

Cloben anhyfryd, â chas wynebpryd;
Lliw y gwaed hefyd, llygaid *diflog*.
Morgan Gruffydd: Cyfr. y Beirdd, 121.

Yn ol rhew, a niwl yr hawg,
Deiflad y blwyddau *diflawg*.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 101.

Mal pan y gyra gwanc
Y *diflawg* flaidd i chwiliaw newydd hynt
Am bryf.—*W. O. Pughe:* C.G. iv. 207.

Nis geill enawg *ddiflawg* ddyn
Ochelyd rhag ei cholyn.—*Dafydd Ionawr*, 228 (cf. 203).

Lleidr difiog, an arrant thief.

A garo ual Dewi deu eiryawc na vid
Na chared na llid na *lleidyr difyawc*.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 270.

Diflawg leidr cipiawg coppa.
Madog Dwygraig: M.A. i. 489.

Deryw eu dofi, *diflawg ladron*.—*I. B. Hir:* Gwaith, 82.

Ci difiog, a ferocious or savage dog.—*Ieuan Dyfi.*

Digitized by Google

2. painstaking, laborious, hard.

A pham (gan hyny) na fydd y gwir dduwiol wr, yn *ddiflog*, yn boenus, ac yn ymarhõus, mewn pethau da, gonest?—*Huw Lewys:* Perl, 211.

Difiol, *a.* refractory; ferocious.—*P.*

Diflaen, *sm.* [dy- + blaen] the beard or beard-point of a dart or arrow; 'a point ending in nothing; a point so fine as to be scarcely perceptible to the naked eye.'

Mae blaen arno fo yn fain
Fal nodwydd neu flaen adain;
Blaen yw fal *diflaen* y dart,
Dur awchus yw o dri-chwart.—*L. G. Cothi*, v. iii. 39.

Diflan, *a.* [blan (*P.*); but *blan* was probably suggested by *diflan*, for the monosyllable does not occur] 'without splendour; fading;' evanescent, vanishing. See *Diflant*, *Difflant*.

Tragywyd y byd nyt dyd *diflan*.—*Casnodyn:* M.A. i. 428.

Chwai daw gni yn ol,
Er *diflan* ein gogoniant.—*W. O. Pughe:* C.G. i. 156.

Diflannadwy, **Diflanadwy,** *a.* perishable, ready to vanish, evanescent.

Diffrwyth a *diflannadwy* glod hwy a allant gael gan y byd yr hwn y maent yn ei dwyllo.
G. Mechain: Eglur Olygiad, 247.

Diflannedig, **Diflanedig,** *pt.a.* faded; evanescent, fleeting, passing away, fading.—*Esa.* xxviii. 1, 4.

Dauryw cariat ysydh, nyt amgen, cariat serchawl trygiedic tragywydhawl: a chariat alhylhadh *diflannedic* amserawl.—*Ymborth yr Enaid*, ¶ 14.

Ar ben fy hun meithrino'm clwyf
Ac ochain wyf trwy'r dydd,
A chwyno y llawenydd byth
Yn *ddiflannedig* sydd?—*Telynegion*, 44.

Pethau *diflannedig* ac ansicr ydynt a ellir eu symmud.
Elis Lewis: Drexelius, 275 (cf. 64, 86).

Diflannedigaeth, **Diflanedigaeth,** -au, *sf.* the act of disappearing; disappearance; evanescence, vanishment, evanition; extinction.

Diflanniad, **Diflaniad,** -au, *sm.* a disappearing or vanishing; evanescence, disappearance; a blasting.

Tarewais chwi â *diflanniad*, ac â mallder, ac â chenllysg.
Haggai ii. 17 (cf. Deut. xxviii. 22; Amos iv. 9).

Efe a darawodd eu hyd, a'u haml erddi, eu perlleni, eu gwinllanoedd, eu ffigyswydd, a'u holewwydd, â *diflaniad*, ac â mallder.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 256.

Daeth *diflanniad* ar yr holl swyddogion a'i condemniasant ef.—*Ch. Edwards:* Hanes y Ffydd, 53.

Diflannol, **Diflanol,** **Diflannus,** **Diflanus,** *a.* evanescent, vanishing, fleeting, evanid; transitory; ready to disappear or evanish; tending to become extinct.

Diflannus fwynder brau! nas gallai oll
Adferu'r fangre rhag y difrod coll!
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 164 (cf. 197).

Diflannol, modd bynnag, oedd eu gofid, yr un fath â'u llawenydd.—*Rasselas*, xxv.

Diflannoldeb, *sm.* the quality of being fleeting or evanescent; tendency to vanish away.

Diflannu, **Diflanu,** *v.n.* 1. to disappear, vanish, or evanesce, to vanish away; to fade out of sight; 'to melt into thin air.'—1 *Cor.* xiii. 8.

Ac ar hynny y *diflannawd* yr angel.
Amlyn ac Amig, col. 1105.

Ef a *dhiflanha* y cof wy y gann sain y corn.
Lucidar, ¶ 112 (cf. 24, 123).

Yr ell a dhodir ar beth amserawl tranghedic ac y gyt ac ef y traing ac y *diflanna*. . . . Ynuyt yw y serch a *dhiflanno*.
Ymborth yr Enaid, ¶ 14.

A phan oeddent ar ergyd ei lladd, hi a *ddiflannes* o rwng eu dwylaw, a mwyach nis gwelwyd fyth.—*Iolo Mss.* 85.

Tri pheth a *ddiflannant* yn ebrwydd: ewyn ar ddwr; niwl bore tesog; a charedigrwydd gwr goludog.
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 270.

Dieifl i annwn *diflennynt*.—*Gro. Owain*, 111.

Pan y bo'r byd hwn, a'i holl fawredd a'i wychder, wedi llwyr *ddiflannu*.—*I. B. Hir:* Diss. de Bardis, 97.

Y mae fy nhynged drosodd,
Diflannodd haul fy oes,
A holl ddedwyddwch daiar
Fel cwmwl gwawr a ffoes.—*Telynegion*, 42.

Diflannu o'r golwg, *Diflannu allan o'r golwg,* to vanish out of sight; to disappear from view; to evanish.

Yr oedd prydferthwch yr holl wrthddrychau a dynasent unwaith ei serch a'i syndod, fel y gencugoeg werdd, yn awr wedi *diflannu allan o'r golwg*.—*Y Bryniau Pell*, 96.

2. *v.a.* to cause to vanish or disappear; to abolish, abrogate, or annul; to put away.

Gouyn a orug ynteu oy dewinyon. beth a wnaey *divlannu* y gwaith uelly.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 257.

Tri pheth ni ellir eu *diflannu* byth: cyfoeth Ffrainc; porfadir Cymru; a ffalsder Lloegr.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 141.

Unwaith yn niwedd y byd yr ymddangosea ef i *ddiflannu* [*ddilëu, doddi] pechod trwy ei aberthu ei hunan.
Esgob R. Davies: Heb. ix. 26.

Wele daeth yn gwmwl du,
Dwy flynedd i'n *diflannu*.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 135.

Diflannus, *a.*=*Diflannol*.

Diflanrwydd, *sm.* evanescence, transientness, transitoriness.

Diflant, *sm.* disappearance, vanishment, evanescence; extinction; oblivion.

Yno barnwyd hyn o ddosparth ar gerdd a'i pherthynasau yn gyflawn, herwydd prif a chyssefin arfer beirdd Ynys Prydain; a herwydd ansawdd anghen ac ansawdd braint . . . a'i bod yn gyflwyr unrhyw â'r gelfyddyd a fu gan y prif-feirdd, cyn myned o'u dysg a'u hathrawiaeth ar wall a *diflant*.—*Ed. Dafydd:* Cyfrinach y Beirdd, 3.

Yr oedd swrn nifer o'r hen fesurau wedi myned ar goll a *diflant* pan gynneiliwyd Eisteddfod fawr Caer Fyrddin yn y fl. 1451.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 581 (cf. 578).

Oer *ddiflant*, arwydd afiun
Ydwyf heb fy nghnawd fy hun.—*Dewi Wyn*, 243.

Llyma y drych a esyd Gauaf o'n blaen; a phwy a ddichon sylwi arno, heb weled ynddo ddarluniad o *ddiflant* pob daiarol wychder?—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 353.

Diflas, *a.* [blas] 1. without taste or relish (as food or drink), tasteless, insipid; distasteful.

O bydd yr halen yn *ddiflas*, â pha beth yr helltir ef?
Luc xiv. 34.

Mor *ddiflas* a chawl dwr heb halen.—*Diareb.*

2. insipid, flat; dull, stupid, heavy; unpleasant; disagreeable; stale, vapid.

Rhagorwerth ar gerdd dafod yw amlder deunydd . . . heb fod yr un myfyrdod a dychymmyg ddwywaith yng ngwaith y bardd; rhag *diflased* y bydd hyny.
Cyfrinach y Beirdd, 23 (cf. 26).

Ar brophwydi Samaria y gwelais hefyd beth *diflas*.
Ier. xxiii. 13.

Pe cai y fath rigymwyr melltigaid eu hewyllys, ni welid fyth yng Nghymru ddim amgenach a mwy defnyddfawr na'u *diflas* rincyn hwy eu hunain.—*Gronwy Owain*, 170.

Na ddos i'r cynghor na'th elwir iddo yn gyntaf; canys *diflas* gan bob un yr hyn a gynnygir heb ei ofyn.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 101 (cf. 108).

Diflas hynod gan yr hen bobl hyny oedd cadw yn wyl y 'Dydd Nadolig Newydd.'—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 368.

Y mae pob peth gau yn *ddiflas;* ac o'r holl bethau gau sydd yn y byd i gyd, nid oes dim yn fwy *diflas* na rhyddfrydedd gau.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 476.

Dyn diflas, a dull or uninteresting person.

Digitized by Google

Tywydd diflas, dull, unpleasant, or disagreeable weather.

Gwaith diflas, dull or unpleasant work.

Lle diflas, an unpleasant or dull place.

Lle diflas teuluwas talmig.—*Hywel Ystoryn:* M.A. i. 519.

Edrych yn ddiflas, to look blue.

3. pert, saucy, impertinent.—*N. W.*

4. impure, obscene, lewd, blue.

Y pechodau yn tarddu allan o'r pechod hwn [anniweirdeb] yw, dallineb meddwl; gwaedwylltineb; anwadalwch; a chyda hyny godineb, gordderchiad, geiriau *diflas*, a phob anlladrwydd ac aflendid arall.—*R. Smith:* Eglurhâd, 329.

Diflas, *sf.* orache (*Atriplex*).—*Hugh Davies:* Welsh Botanology, 183.

Diflasder, **Diflasdod,** **Diflasrwydd,** **Diflaswch,** *sm.* tastelessness, insipidness, insipidity, unsavouriness, distaste, disrelish; unpleasantness, disagreeableness; disgust. —*Galar.* ii. 14.

Ar brophwydi Samaria y gwelais hefyd *ddiflasder*.
Esgob Morgan: Ier. xxiii. 13.

Dull ymadrodd yr Apostol sydd dra ystyriol, yn arwyddocâu hyn, Y dylem ni mewn math ar *ddiflasrwydd* a ffieidd-dra dafiu ymaith gelwydd.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 178.

Er bod y byd gan mwyaf yn edrych ar droseddiad y ddyledswydd hon â llai *diflaswch* a ffieidd-dra yn y gwr.
Langford: Holl Ddyledswydd Dyn, 334.

Fe ddichon y peth ag ydym ni yn awr yn edrych arno fel ymrafael tragywyddol rhyngom ni a'n chwantau, fod yn unig yn ddigofaint bychan, neu *ddiflasder* byr.
Ios. Tomas: Buch. Grist, 313.

Yr wyf yn ei gofio gyda *diflasdod*, eto heb adgno meddwl.
Rasselas, iv. (cf. xvii. xxxii.).

Odid fod y dull yma yn tueddu i *ddiflasdod*.
J. Pryce: Eglwys Foreuol, 157.

Y mae defnydd *diflasdod* yn ei gyfansoddiad.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 26.

Diflasu, *v.n.* 1. to lose taste, relish, or savour; to become tasteless, insipid, or vapid; to become unpleasant, disagreeable, or disgustful.

O *diflasodd* yr halen, â pha beth yr helltir ef?—*Matt.* v. 13.

Ni *ddiflasant* drwy arddigonedd.—*Gwyliedydd*, vii. 78.

Diflasu ar, to disrelish; to be tired of or disgusted with; to have a dislike to; to be sick of.

Mae pawb yn dechreu ammheu a *diflasu ar* y lleill, ond yr ŷm ni eto ar gynnydd hyd y byd.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 91.

Pa mor gynted y *diflasai* y meddwl *arno*?
Ios. Tomas: Buch. Grist. 26.

Yr awr hon y casëir gwir grefydd, y diystyrir duwioldeb . . . y *diflesir ar* uniondeb.
Robert Llwyd: Llwybr Hyffordd, 144.

2. *v.a.* to disrelish; to dislike; to make insipid, distasteful, or disagreeable; to disgust; to loathe.

Gwae a *ddiflas* glas yr eglwysau.
Gruffydd Ynad Coch: M.A. i. 517.

Gwelir dynion drwg hefyd yn gwrthwynebu gorchymmynion, ac yn *diflasu* addewidion yr Ysgrythyrau.
Ch. Edwards: H. y Ff. 239 (cf. 308).

Gobeithio na roddant mwyach eu traserch arno, eithr y *diflasant* ef.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 73.

Pettit ti yn rhwym i fwyta yr un bwyd yn unig bob amser, ti a'i *diflesit* o'r diwedd.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. ix. 19 (cf. i. 3).

Pam yr wyt ti yn ymdreiglo yn nhomen y byd a'r cnawd, ac yn *diflasu* y manna, a'r bwyd a bery byth?
Morgan Llwyd: Cyfarwyddyd i'r Cymry, ¼6.

3. *v.n.* to loiter, to linger; to spend time idly or mopingly, to mope.

Cerdd yn union, a phaid â diflasu ar hyd y ffordd, go at once, and do not loiter on the road.—*C.S.*

Diflasus, *a.* without relish, unsavoury, insipid, tasteless; distasteful.

Diflaswr, wyr, *sm.* one who disgusts; a disagreeable person; a loiterer, a mope.

Diflawdd, *a.* without bustle or tumult.

Lle difloedd *diflawdd* enderig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 519.

Diflew, *a.* destitute of hair, hairless.

Mae ei gynffon yn hirgron, o ddeutu un modfedd ar ddeg o hyd, yn lled-amgrwm ar ei hwyneb uchaf, yn *ddiflew*, oddi eithr yn agos i'r bon.—*Gwyliedydd*, iii. 10 (cf. vi. 107).

Diflin, *a.* not wearied or tired, unweary, unwearied, untired, unfatigued; indefatigable; diligent; untiring.

Yr un flwyddyn [1145] y bu farw Sulien ab Rhyddmarch . . . doethaf ei gynghor a dwyfolaf ei ddysg o'r holl Eglwyswyr ym mhlwyf Dewi; a *diflinaf* ei waith tra fu byw er attal drwg a chreulonder.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 561.

Gwedy bydit yny wed honno yn treulaw y dyd. y gossodit rei *diflin* y ymlad y nos . . . ac ereill *diflin* a ossodit y wylaw y pebylleu.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 45.

Rhyfedd genyf y drafferth a gymmeraist i ddringo cuwch i ganu gwcw mor *ddiflin* ag yr ydwyt.—*Iolo Mss.* 157.

Hyny a wnaeth ef, gan wrandaw yn *ddiflin* iawn ar y cerddau.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 256.

Y mae dynion yn *ddiflin* yng ngwaith camwedd, o blegid eu bod yn arferol ag ef.—*Ch. Edwards:* H. y Ff. 279.

Tegid *diflin* a minnau
Dan y gwŷdd cerdd fad yn gwau.—*Daniel Ddu*, 432.

Diflinder, *a.* [diflin] 1. free from fatigue or weariness; unweary.

Y mae yn yr enaid amryw serchiadau, a thueddiadau i'w gymhell ef i wneuthur pob peth yn *ddiflinder*.
D. Lewys: Golwg, iii. 6.

Pan fo nerthoedd a swydd-gynneddfau'r corff yn blino wrth gynhyrfu neu weithio, mae yr enaid neu'r meddwl yn *ddiflinder*.—*Ed. Samuel:* Grotius, i. 23.

2. [di- + blinder] free from trouble or affliction.

Diflinedig, *a.* untired, unwearied.

Mewn diwydrwydd a chariad, mewn sel ac yspryd *diflinedig*.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 271.

Yno ni a gawn ein gwneuthur yn *ddiflinedig* â gorphwysdra tragywyddol.—*Elis Lewis:* Drexelius, 361.

Diflinedd, *sm.* [diflin] freedom from weariness, unweariedness.

Diflino, *v.* to refresh after fatigue; to ease of weariness or tiredness; to become untired; to be refreshed.

Fal y gallant eu *diflinaw* a'u hamddenu eu hunain.
Huw Lewys: Perl, 160.

Bedd y Crug Mawr, cymmesur o faint i bawb, ac yn *diflino* y blinedig.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 348.

Diflino, *a.* untired, unwearied; untiring.

Yn fyfyriol yn ei amcanion, yn ddiysgog yn ei lawn fwriadau, yn hyf yn ei ymosodiadau, *diflino* wrth eu cyflawni, ac yn ddedwydd mewn llwyddiant.
Ios. Harris: Gweith. 90.

Da yr haeddai Mr. Owen barch a diolchgarwch ei holl gydgenedl am ei lafur *diflino* yn y gwaith.
Seren Gomer, iii. 331.

Gwiriai'r ffydd bob dydd heb daw,
Ddwy flynedd yn *ddiflinaw*.—*Nicander:* Sant Paul, xiii.

Amynedd diflino, untiring patience.

Diflisg, *a.* [blisg=plisg] without shell or peel; 'being not peeled or stript off.'

Diflisc wisc wascawdueirt ymdro
Detueu hael wrth pawb ae holo.
Llygad Gwr: M.A. i. 343.

Digitized by Google

Diflisgo, *v.* to peel off, to shell.

Diflith, *a.* [blith] without milk.

Lle *diflith* diflwng godroig.—*Hywel Ystoryn:* M.A. i. 519.

Diflodau, *a.* without flowers or blossoms, destitute of flowers, flowerless.

Diflodeuad, -au, *sm.* 1. defloration; a selection of the flower or the best part.

2. defloration, the act of deflouring (a virgin).

Diflodeuad, sef pechu trwy halogi morwyn ddiwair.
RWSmith: Eglurhâd, 189.

Diflodeuo, *v.* 1. to deflour, to deprive of flowers.

2. to deflour (a woman).—*Marchog Crwydrad.*

Diflodeuog, *a.* having no flowers; deflorate; defloured.

Difloedd, *a.* [bloedd] without noise or shouting. —*M.A.* i. 519.

Difloesgni, *a.* [bloesg] with no thick or lisping utterance; articulate, clear, distinct; unhesitating.

Dywedwn hefyd yn *ddifloesgni* . . . mai hwn yw y mwyaf teilwng o gefnogaeth.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 16.

Diflwng, *a.* [blwng] not sullen, surly, or severe.—*M.A.* i. 519.

Er gostwng, o *ddiflwng* ddau,
Y ganwyll fflamgwyr gynnau.—*D. ab Gwilym*, lxxxi. 29.

Gwr *diflwng*, teilwng, talaidd, gwisgawg.
Iolo Goch, i Ddafydd Esgob.

Diflynghau, *v.* to cease to be sullen.

Difo, *v.*=*Difa?*

Gwyr gwasgawd devawd *divoir*
Pan wesgir ar Lloegyr.—*Cynddelw:* M.A. i. 260.

Difocsach, *a.* [bocsach] without boasting or vaunting, boastless, unostentatious, not boastful; modest.

Llonydd fydd, fodd *difocsach*,
Llenwi y bydd, llun wy bach!
Dafydd ab Gwilym, xxiii. 9 (cf. ccxxxv. 40).

Difod, *sm.* non-existence, nonentity, nought, nothing.

Anghen a fydd yr hyn nis gellir ei orfod ar unrhyw beth; heb wrth hyny orfod ar hanfod y peth hyny; a'i lwyr ddiddymu; a'i ddwyn ar *ddifod.*—*Cyfr. y Beirdd*, 77.

Dwyn ar ddifod, to reduce to nothing, to annihilate.

Difodadwy, *a.* annihilable.

Difodi, *v.* to annihilate; to reduce to non-existence.

Y mae un o honynt, er mwyn symmud y dirgelwch, yn ceisio *difodi* deddfau amser; a'r llall yn ceisio *difodi* tragwyddoldeb.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Duw. 35 (cf. 34).

Anghydfod a *ddifodir*
A llaw Duw dros ein holl dir.—*Cawrdaf:* Gweith. 155.

Difodiad, *sm.* annihilation; extinction.

A'r pethau hyn ni ddichonant fod yn amgen nag y maent; heb golli'r mesur, o lwyr *ddifodiad*, a diddymiant.
Cyfrinach y Beirdd, 78.

Mae yn ammhosibl mai *difodiad* a olygir wrth 'ddinystr tragwyddol oddi ger bron yr Arglwydd.'
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 531 (cf. 529, 530).

Difodiaid, *s.pl.* Annihilationists, those who maintain that the wicked will eventually cease to exist.

A siarad yn fanwl, *Difodiaid* y dylid eu galw, ac nid Dinystriaid.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 529.

Difodiant, *m.* } *s.* annihilation, extinction, non-
Difodaeth, *f.* } existence.

Ynte, o ba le
Y tardd hwn ddirgel fraw a mewnol swyd
Rhag syrthio i *ddifodaeth?*—*Blodau Ieuainc*, 57.

Difŏed, *sm.* [difio?] a laying waste, a ravaging, devastation.

Divyeu bu diheu eu *diuoet.*—*Aneurin:* God. 654.

Eiryoet yr *difoet* [*al.* dioed] hoet gyhydrec.
Casnodyn: M.A. i. 421.

Difoes, *a.* unmannerly, ill-bred, rude, boorish.

A'r tafod, erioed *difoes*,
A'r ên yn treulio, a'r oes.—*D. ab Gwilym*, cclxi. 51.

Nid oes, namyn *di foes* da,
Was taer, a'th ddiystyra.—*Gronwy Owain*, 55.

Difoesaidd, *a.* of rude manners, unmannerly.

Difoesau, *a.* without manners, unmannerly.

Difoesedd, *sm.* unmannerliness, incivility, rudeness, impoliteness.

Difoesol, *a.* 1. incivil, rude. 2. immoral.

Difoeth, } *a.* without dainties, delicacies, or
Difoethau, } luxuries.

Mae llawer un lliwus, er byw yn helbulus,
Na phrofi bwyd blasus na melus i'r min;
A'i ŵthyn *difoethau*, heb fêl nac afalau,
Na chnau yn ei gaerau, nac eirin.
Edward Richard: Bugeilgerdd, ii. 27.

Difonedd, *a.* lacking gentility or nobility; ungenteel.

Mi aethym yn *ddifonedd* finnau.—*Huw Morus:* E.C. ii. 180.

Difoneddu, *v.* to deprive of nobility; to degenerate.

Ac onim twyllir i neu ry *divonhedassant* wy.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 172.

Difor, *a.* [môr] having no sea; not maritime; inland.

Dyffryn rhwng deu-fryn *difor*,
Hwn sydd rhwng mynydd a môr.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 92.

Diforwynad, -au, *sm.* [morwyn] defloration. —*W.*

Diforwyndod, *sm.* absence of virginity.

Diforwyno, *v.* to deflour, to devirginate.

Difost, *a.* [bost] without boasting, boastless.

Ni ddaethost, *ddifost* Ddafydd,
Wr doeth, i gywiro'r dydd.—*D. ab Gwilym*, cli. 19.

Ef a eirluniwys ei serch iddi mewn alseiniau a charolau melusgainc, ac a draethwys ei gariad mewn llawer cywydd llaidd, ac amrylen *difost.*—*Iolo Mss.* 175.

Tithau'n *ddifost* a dderbyniaist eu cedau,
I'w hongian yn offrwm ar drostan y Groes.
Blackwell: Ceinion Alun, 189.

Difr, -au, *sm.* a measure or metre (in music).—*M.A.* iii. 440, 449.

Difrad, *a.* [brad] without treachery, deceit, or guile; guileless, sincere, honest.

Kovyon Dyvric kall kyvyawn *divrat.*
Casnodyn: M.A. i. 422 (cf. 176, 221, 233, 412, 438).

Ni welir unwaith eiliw'r hinon,
Ail i Angharad *ddifrad* ddwyfron
Yn fun wych wyl, yn fwyn ei chalon.
Morgan Pywel: Cyfrinach y Beirdd, 99.

Bu'n wastad *ddifrad* ddwyfron ddiysgog
I'w hydr eneiniog dëyrn union.—*Gro Owain*, 119 (cf. 68).

Tri pheth a wnânt wr yn gyfoethawg: ei wraig yn gaeglai; ei dylwyth yn *ddifrad;* ac yntau yn llafuriad.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 117 (cf. 12, 74).

A deufraich fy nyn *difrad*
I'm cylchwyn, ym medwlwyn mad.
D. ab Gwilym, xlix. 45 (cf. ccxlv. 12, 116).

Wylais am dad *difrad* doeth.
Thomas Wiliam Sion: Cyfr. y Beirdd, 155.

A chariad y *ddi frad* fro,
A'i law chwern, yn gylch arno.—*Cawrdaf:* Gweith. 155.

Digitized by Google

Difradog, *a.* free from treachery or deceit; not treacherous; sincere.

Rhaith rhuthr brwydr aergrwydr ergryd
Rhywiawg *difradawg* dy fryd.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 442.

Difradol, *a.* not apt to be treacherous.

Difradw, } *a.* [bradw] not frail, fragile, or
Difradwy, } decayed; indefective; firm, steady, constant; faithful.

Bron hyged hygawt y gywlad
Bro hygadw a *diuradw* a diurad.
Cynddelw: M.A. i. 221 (cf. 254, 326, 356, 494).

Call a *difradw* y'th cadwaf,
Coron rhag tra hinon haf!—*D. ab Gwilym,* lxxxv. 23.

Difradwyad, *sm.* stability; firmness.

Difradwyog, } *a.* having no decay; not apt to
Difradwyol, } decay; firm, fixed, solid.

Difragod, *a.* [bragod] without confusion or ferment; not stirring.

Difragodi, *v.* to divest of ferment, agitation, or tumult.

Cadwallawn cyn noi ddyvod
Ae goruc an *divragot* [*al.* digonod].
Llywarch Hen: M.A. i. 121 (cf. A.B. ii. 277).

Difraint, *a.* having no privilege or prerogative; unprivileged.

O hyn y daethpwyd i alw pob tŷ gwr *difraint* yn gottas.
Cyfrinach y Beirdd, 16.

Er ei fod heddyw yn salw *ddifraint.*—*Iolo Mss.* 269.

Tri pheth y bydd bardd; sef pen a phont, a'i ddyfalu ef yn bont, am y dwg ef dros gors anwybodaeth; a diogel lle bo annïogel . . . a braint i *ddifraint,* sef yw hyny, ei nawdd ef.—*Barddas,* ii. 74.

Sev nis dylit na chaeth, na *divraint,* a wypo ac a vedro wasanaethu celvyddyd yn warantedig o wybodau.
Cyfreithiau Cymru, ii. 508.

Difraint, *sm.* want or loss of privilege.

A'r fraint hon a gollason ni am ein pechodau, a digio Duw, oni ddaeth dial a *difraint,* a dwyn ein cyfoeth, a'n hawl, a'n braint penrhaith oddi arnom.—*Iolo Mss.* 29.

Difraisg, *a.* not large, bulky, or thick; slender.

Difrath, *a.* [brath] without a stab; not stabbed, pierced, or wounded.

Difrau, *a.* [brau] not brittle or fragile.

Difraw, *a.* [braw] 1. without fear or anxiety; fearless, undiscouraged, bold, brave, undismayed; unconcerned, careless, heedless, negligent; secure.

Diurad hael oet haelach no Nut
Diuraw dreic dragon dadanhut.
Cynddelw: M.A. i. 233 (cf. 215, 259).

Na fydd ry *ddifraw* o herwydd maddeuant, i chwanegu pechodau ar bechodau.—*Eccl.* v. 5 (cf. 7).

Difraw y law ar lafyn rut.
Prydydd Bychan; M.A. i. 382 (cf. 403, 529).

'A raid i ni,' ebe hwy, 'fentro ein hoedlau am ffiloreg, ac ambell geiniog gwta, i'ch cadw chwi yn ddiogel a *difraw* i ymlenwi mewn tafarnau?'—*Theo Evans:* D.P.O. 101.

Difraw ddyn, od af ryw ddydd,
Dwf llerw, dan defyll irwydd.
D. ab Gwilym, xviii. 19 (cf. ccxxix. 16, 36).

Nid *difraw* 'r Eingl, nid hyfryd.
L. G. Cothi, VIII. v. 31 (cf. vi. 43).

Fe a yrodd rai i anobeithio, ac a wnaeth ereill yn *ddifrawach* ac yn ddiofalach.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 329.

Tripheth a ddengys gywiriad: geneu tawedawg; llygad diymdawr; ac wyneb *difraw.*
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 81 (cf. 207, 234).

Pa fath wr yw ei feistr ef, ai esmwyth ai tost, ai mwyn ai garw, ai *difraw* ai manwl yn ei gyfrif.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. v. 1.

Dyn difraw, an unconcerned, heedless, thoughtless, or careless person.

Eto leied y mae *dynion difraw* 'r byd hwn yn eu hofni.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. ix. 12.

2. easy, not difficult; free from anxiety; safe.

Ar ol i ni fyned o Gaersalem, ni a ddaethom yn *ddifraw* i Rama. . . Ar yr ammod yma hwy a'n dodent yn *ddifraw* yno.—*W. Lewes:* Dwy Daith, 28.

Difrawbwyll, *a.* of a calm, collected, or undisturbed mind.

Clefyd anianawl cleifion *difrawbwyll*
Neu anfedydd bwyll o ynfydion.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 461.

Difrawbwyll, *sm.* a calm and collected state of mind; presence of mind.

Difräwch, } *sm.* want of concern, care, or
Difrawwch, } anxiety (regarding the future);
Difrawder, } unconcernedness, carelessness, heedlessness; negligence.

O ddiffyg y cyfryw ystyried a myfyrio y mae cymmaint o bechodau ac amryfuseddau yn y byd, ac y mae llawer mil o Gristianogion yn cael gweled eu bod ym mhorth uffern cyn iddynt ammheu dim o'r cyfryw beth, wrth adael eu harwain trwy ddyffryn y fuchedd hon, â hug ac â gorchudd diofalwch a *difräwch* ac anystyr tros eu llygaid.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. ii. 2 (cf. ix. 22; II. vi. 16).

Trwy'r hwn y mae'r diafol yn eu gwthio, naill ai i anobaith, ai ynte i *ddifrawwch* afianaf fuchedd, dim llai peryglus nag anobaith.—*Ll. G. Gyffredin* (Erth. 17).

Wrth eu hesgeulusdra a'u *difrawwch* pan ddelont.
Ed. Samuel: Holl Ddyl. Dyn, i. 39.

Ein Achubwr a'i geilw ef yn ynfyd, am wenieithio iddo ei hun mewn *difräwch,* gan addo iddo ei hun hir hoedl.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 340 (cf. 234, 468).

Cymraeg, trwy *ddifräwch* y gwerinos, a balchder y bonedd, a lwyr eageuluswyd.
Gwallter Mechain: Gwaith. ii. 2 (cf. 188, 347).

Od yw hi yn ein suo i ddiogelwch neu *ddifrawder.*
Achosion Cydwybod (1769), 84.

Difrawder, cybydd-dod, a balchder, sydd wedi cymmeryd lle diwydrwydd, haelioni, a serch at iaith ddirmygedig, ond eto odidog, ein henafiaid. . . Ymysgydwch o'ch *difrawder,* a dilëwch y gwarth a berthyn ichwi.
Gwyliedydd, xiii. 34.

Difrawd, odau, *sm.* [brawd, *f.*]=*Difrod.*

Tri angheneddyl bardd a barddoniaeth: dodi addysg ar wybodau daionus; cof a mawl pob rhagor a daionus; a gyru heddwch a brawd ar *ddifrawd* ac anrhaith.—Tri anghenwrthun bardd: cel rhin gan orfod er lles a heddwch; cwyn wrth anfawl gan gyflawnder; a noethi cledd ar *ddifrawd* ac anrhaith.—*Barddas,* ii. 36 (cf. 56).

Difrawd, *a.* lawless; unrighteous, unjust.

A'r Saeson yn gweled gwendid y Cymry, a drocsant yn fradormes drwy gystlyniad y Gwyddyl Ffichti a'r gwyr *difrawd* a hwynt.—*Trioedd:* M.A. ii. 60 (cf. 61, 64).

Difrawder, *sm.*=*Difräwch.*

Difrawu, *v.* to make careless or unconcerned; to dispel fear; to make light of; to disregard; to become careless or unconcerned.

Ni chyfrifir ef yn bechod . . . yr hwn ni cheryddir, ond a *ddifrawir,* yr hwn ni chospir, ond a chwerddir o'i blegid.
Ed. James: Hom. i. 154.

Hyny yw, fel y mae Christ yn ei ddeongl, gan y cythreuliaid, yn y rhai diofal, sy yn *difrawu* ac yn diystyru pob peth a ddyweter wrthynt.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. iii. 2.

Nid rhaid i chwi yngenyd mo hyn wrth y Llew, rhag iddo *ddifrawu* o'm plegid.—*Gronwy Owain,* 193.

Ein rhieni a'n henafiaid cyntaf a *ddifrawasont,* ac a wnaethont yn ddiystyr.—*Huw Lewys:* Perl, 8.

Difrawychol, *a.* tending to relieve from fear or terror.

Difrawychu, *v.* to free from fear; to make fearless or undaunted.

Digitized by Google

Difredych, *a.* without treachery; without dread or fear, dauntless.

Y ddau frodyr *ddifredych.*—*Hywel Dafydd ab Ieuan.*

Difreg, *a.* without a break; irrefragable; unbroken; consecutive; whole; sound; not frail or fragile; unfailing; not light or trifling.

Difreg reg ragor dor derwynnaf.—*Gr. ab Meredydd:* M.A. i. 447 (cf. 439, 455, 493, 494, 528).

Ni'm gwrthyd, ddeu-fryd *ddifreg,*
Neb o'r plwyf, er nad wyf deg.
D. ab Gwilym, xlviii. 27 (cf. lxxxiv. 21).

Melin deg ar *ddifreg* ddwr.—*Iolo Goch:* G.B.C. 77.

Arddyfrwys pob awr *ddifreg*
Yn cychwyn o fryd tyn teg.—*Llywelyn Moel.*

Megys na all y bwyd corfforol borthi'r dyn oddi allan, oni roir ef mewn cylla iachus *difreg,* i'w dreulio: felly ni phorthir y dyn oddi fewn oddeithr iddo dderbyn ei fwyd i enaid a chalon iachus, *ddifreg,* mewn ffydd.
Edward Iames: Hom. iii. 94 (cf. 116, 225, 244).

Cai fryd llon i'th fron *ddi freg;*
Hedd y nef i'th dref a drig.
Dafydd o'r Nant: Cyfr. y Beirdd, 115 (cf. 122).

Difregawd, *sm.*=*Difregwawd.*

Difregedd, *a.* without trifling or levity; serious, grave, earnest.

Difregol, } *a.* not to be broken; not frail, light,
Difregus, } or trifling; irrefragable, incontestable.

Yr wyf fi yn cymmeryd y rhai hyn yn arwyddion *difregusaf* a diammheuaf.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 260.

Difregu, *v.* 1. to make irrefragable.—*Dicts.* 2. [cf. *ymddifregu*] to deprecate; to implore, to entreat.

Difregwawd, } *sm-f.* aphoristic verse; enig-
Deifregwawd, } matical or mystical song or poetry; an enigma, riddle, or rebus.

Divregwawd Taliesin.—*M.A.* i. 95.

Deifregwawd Catwg Ddoeth.—*M.A.* iii. 8.

Llyma yr un *ddeifregwawd* o Lyfr arall yn amryfel ei fodd mewn llawer man.—*M.A.* iii. 9.

'Myfi,' ebr ef, 'yw Taliesin Ben Beirdd y Gorllewin, a dyma beth o'm *difregwawd* i.'—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 56.

Difreiniad, } -au, *sm.* [difreinio] deprivation
Difreintiad, } of privilege; disenfranchisement; degradation.

Difreiniant, *sm.* loss of privilege; disfranchisement; degradation.

Collasant [beirdd Gwynedd] y bel dan wasg a *difreiniant* a ddaeth ernynt wedi lladd eu Tywysog Llywelyn ap Gruffydd.—*Edward Dafydd:* Cyfr. y Beirdd, 6.

Difreinio, } *v.* to deprive of privilege; to dis-
Difreintio, } franchise; to disqualify; to incapacitate; to reduce, to degrade.

Achaws hyny, barn cyvraith a chymmrawd yw, nas dylit nac attal, na gwahardd, na *divreiniaw* celvyddyd, nac ychwaith y neb a'i gwassanaetho.—*C.C.* ii. 508.

Divreinyaw dawn Duw nyd dyn ae med.
Phylip Brydydd: M.A. i. 378.

Gwae a *divreint* seint a seilyawd temleu.
Casnodyn: M.A. i. 428.

Yna'r brenin a roddes orchymyn *difreiniaw* Gruffydd a dwyn ei gyfoeth a'i diroedd oddiarnaw.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 556 (cf. 527).

Wedi i weddillion y Brytaniaid ymgynnull o'r tyllau ar ol y lladdfa echrydus uchod . . . *difreinio* Gwrtheyrn a wnaethant.—*Theo. Evans:* D.P.O. 104 (cf. 96, 107).

A phan wybu'r ymherodr hyn am ei swyddwyr, ef a'u *difreiniawdd.*—*Iolo Mss.* 149.

Efe a *ddifreiniwyd* o'i anrhydedd.
Dr. Davies: Llyfr y Res. ii. iv. 10.

Difreiniog, *a.* unprivileged; disfranchised.

Difreiniol, } *a.* tending to deprive of privilege
Difreintiol, } or immunity; disfranchising; degrading.

Difreinioli, *v.* to deprive of privilege; to disfranchise.

Difreiniwr, wyr, *sm.* one who abrogates a privilege; one who disfranchises.

Difrenin, *a.* [brenin] having no king, without a sovereign, kingless.

Ni ddyly un tir fod yn *ddifrenin.*
Leges Wallicae, ii. xii. 13 (C.C. i. 170).

Difri, *a.* [bri: cf. Br. *dispriz*] without honour or esteem; undignified; unesteemed.

A digoneisy o gam o gyglwyf *difri*
Y Duw a Dewi y diwykwyf.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 271 (cf. 328).

Nid oedd dim cariad rhwng dyniadon mwy,
Un meddwl daiar oll—ac angeu hwn,
Diannod a *di fri.*—*Iago Trichrug:* Tywyllwch.

Hoff rian swynawl, dinod a *di fri,*
My ngwarthrudd yn y dyrfa ydwyt ti.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 171.

Difri, *a.* [=difrif] serious, earnest, sober, grave.

Yr Eryr barabl *difri*
A'th ofynaf dros Geli
Beth ym o byda hebdi.
Ymdd. Arthur ac Eliwlod: M.A. i. 178 (cf. 197, 328, 405).

Ei noblau yn fau fyw *ddifri* faccwy.
Dafydd y Coed: M.A. i. 493.

Gwendyd wenn benn mynogi
As dywedaf yn *difri*
Na byd pennaeth byth wedi.
Cyfoesi Myrddin: A.B. ii. 232.

Nid oes, mau einioes anhudd,
I'm bryd o gwbl *difri* brudd.—*D. ab Gwilym,* lxvii. 21.

Pob un o'r tri, *ddifri* ddawn,
A gafas gorff yn gyflawn.
Ieuan Llwyd ab Gwilym: Iolo Mss. 296 (cf. 300).

Moliant i Dduw . . . a roddes iddo wybodaeth ei air, ac ewyllys *difri* i geisio ei ogoniant ef.
Ed. Iames: Hom. i. 75 (cf. 87).

Cynghorent yn *ddifri,* a gweddïent yn daer.
Charles Edwards: Hanes y Ffydd, 319.

Difri, *sm.*=*Difrif.*

Difrïad, -au, *sm.* [difrïo] a dishonouring; an abusing or reviling; a scolding.

Gadawer i blant ymdroi ac ymdreiglo yng nghanol eu cydraddoliou; caniatäer iddynt oddef dyrnod gan un, gwth gan y llall, a *difriad* da gan y trydydd.
Brython, iii. 62.

Difrïaeth, -au, *sf.* [difrïo] abuse; slander, calumny; abusive language.

Pa ham yr holl *ddifriaeth* yma i'r Seison! . . . Ymaith gan hyny â'u *difriaeth* hwynt.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 258, 259.

Difrïant, *sm.* abuse; degradation; dishonour.

Boddloni di ar y *difriant* hyn.—*Caerfallwch.*

Difrïedig, *pt.a.* unhonoured; dishonoured; abused.

Difrif, *a.* [C. *defry, devry;* Br. *devri*] serious, earnest, grave, sober, without trifling; sedate; thoughtful.

Nid oelfydd ond *difrif.*—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 21.

Rhwydd y manegaf yr hawg
Fuchedd Nonn dra fu feichawg,
Bara o'r haidd, a berwr rif,
A dwfr, fu ymborth *difrif.*
Ieuan Rhydderch ab Ieuan Llwyd: Iolo Mss. 298.

Credwch yn *ddifrif,* y cymmer efe yr un ffunud yn amgeleddgar y dyn bychan hwn yma.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Bedydd).

Digitized by Google

Hwy a roisant y cwbl arno ef sydd yn barnu yn gyflawn, ac a weddïasant yn ddwys ac yn *ddifrif* dros eu gelynion.
Ed. Iames: Hom. i. 142 (cf. 179; ii. 222, 223, 303).

Gan arwyddocäu wrth hyny pe buasai yr Iuddewon yn ystyried yn ddwys ac yn *ddifrif* y fuchedd a'r cyflwr yr oeddynt ynddo cyn dyfod o'r difrod mawr hwnw arnynt, y gallasent ddianc rhagddo.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. ii. 1 (cf. 12; iv. 11; vi. 15).

Dirfawr adfyd, odfa ddyfryd,
Ddifrif oer-gryd, fyd anfadol.—*Gro. Owain*, 70 (cf. 22).

Mae ein Iachawdwr Christ a S. Petr yn *ddifri* ac yn gyttûn yn dysgu ufudd-dod i freninoedd.
Ed. Iames: Hom. i. 150.

Mae'r gwr doeth . . . yn rhoi i bob un o honom ni rybudd a chynghor o'r *difrifaf* yn y geiriau hyn.
Dr. Davies: Llyfr y Res. ii. vi. 10.

Mi a roddaf i ti *ddifrifaf*, ostyngeiddiaf, a chyflawnaf foliant.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 278.

Gweddi ddifrif, } earnest or fervent prayer.
Gweddi ddifrifol, }

Y mae un yn galw gweddi yn allwydd nef, a'r llall yn dywedyd yn oleu nad oes dim yn y byd a ddichon bod yn gryfach na gwr a ymroddo i *weddi ddifrif*.
Ed. Iames: Hom. ii. 225.

Yn ddifrif, seriously, earnestly, &c.; in earnest.

Yn wir ddifrif, } in good earnest, most earnest-
O wir ddifrif, } ly, in sober earnest.

Nid galaru yn *wir ddifrif* yw hyn.
Elis Lewis: Drexelius, 82.

Difrif, *sm.* earnest, earnestness, seriousness, gravity, graveness, fervour.

Nyt gwedus ac nyt teilwng heb hi. yr ymadrawd gwac kyffroi gwr prud bonhedic. ac yn bennaf pryt na cherdo yr ymadrawd o chwerwder bryt. nac o *divri*. namyn o chware a chellweir.—*Ystori Charles*, 1.

Duy reit tristyt wed treghi
Ir a vo divro yn y *divri*.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 328.

O ddifrif, in earnest; earnestly, seriously, gravely, soberly; in sober sadness.

Gweddiwn Dduw *o ddifri*
A goddefwn galedi.—*M.A.* i. 182.

O ddifrif rhof ddiofryd
I Ffiint gaeth a'i phlant i gyd.—*L. G. Cothi*, v. vii. 55.

Ofni *o ddifri* ydd wyf.—*D. ab Gwilym*, cclxi. 66.

Efe a sicrhaodd wrthi ei fod ef yn siarad *o ddifrif*.
Theo. Evans: D.P.O. 360.

Yr wyf bellach yn myned *o ddifrif* i ymddangos mewn print.—*I. B. Hir:* Gwaith, 173.

Nid oes un o'r rhai hyn yn wylo *o ddifrif*.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 34 (cf. 39).

O ddifrif calon, with earnestness of heart; with great earnestness.

Dod gwbl o'th fryd, *o ddifrif* dy *galon*, ar edrych am dy enaid, erbyn y buchedd a ddaw.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. x. 23.

Mewn difrif, in earnest; in truth; earnestly, seriously, soberly; indeed! really!

Anghenrhaid yw i'r neb a fyno *mewn difrif* ochelyd y cyfryw bechodau, fod yn ddyfal.—*R. Smith:* Eglurhâd, 192.

Mae'i llun yn ein swyno, mae'n gryno, mae'n gron,
Pwy welwyd, *mewn difrif*, fwy heinif na hon?
Eben Fardd: Gweith. 344.

¶ It will be noticed that *difri* is as old as *difrif*, now the recognized literary form; and it is not clear whether *difrif* has become *difri* by apocope, or *difrif* has grown out of *difri* by paragoge. The former supposition is the more probable; but in either case the origin is obscure. The derivatives are formed from *difrif*.

Difrifbwyll, *sm.* sober-mindedness, sobriety.

Rhaid yw canmawl . . . yr athro lenach am ei ddysg, ei *ddifrifbwyll*, ei fuchedd dda, ei hyddysg athrawaeth.
H. Perri: Egluryn Ffraeth. (1595), xviii.

Difrifddwys, *a.* deeply serious, very earnest; sober-minded; solemn.

Yr ydwyf fi yn tyngu yn *ddifrifddwys*, na arferaf un fraint ag sydd genyf, neu a eill ddyfod i mi, i derfysgu neu wanychu yr Eglwys.—*Gwyliedydd*, vii. 91.

Difrifhau, *v.*=*Difrifo*.

Difriflad, *sm.* a becoming serious; a making earnest.

Difrifo, *v.* to become serious; to be in earnest; to make serious.

Difrifol, *a.* [difrif] serious, earnest, sober, grave; sedate, thoughtful; solemn.

Tri pheth y dylid eu hystyried yn *ddifrifawl* deirgwaith bob dydd: deddfau gwirionedd; deddfau cariad; a deddfau Duw.—*Barddas*, i. 324.

Tri pheth y dylai bob dyn eu hystyried yn *ddifrifawl*: o ba le y daeth; ym mha le y mae; ac i ba le ydd â.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 227.

Mae Tertulian . . . yn llym ac yn *ddifrifol* yn ysgrifenu yn erbyn delwau.—*Edward Iames:* Hom. ii. 41 (cf. 76, 89).

Yr ydym yn *ddifrifol* yn edifarhau.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Cymmun).

O! aneirif o gysgodion dynion . . . yn gwau trwy eu gilydd fel y gwynt, yn ddistaw ac yn *ddifrifol* aruthr.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 55.

Difrifoldeb, } *sm.* seriousness, earnestness,
Difrifolder, } gravity, graveness, soberness;
Difrifolrwydd, } solemnness, solemnity.

Pan wneir i fyny ac y cyflawnir yn y nessaf, yr hyn o amser neu *ddifrifoldeb* a fu yn eisieu mewn un dydd neu ddyledswydd.—*Sam. Williams:* Amser (1724), 5.

Am nad ydynt erioed wedi gwir ystyried eu trueni, erioed wedi meddwl am eu ffyrdd gyd â'r ystyriaeth a'r *difrifoldeb* a ddylasent.—*Ioan Wallter:* Dwy Bregeth, 9.

Mae eu symledd yn symledd *difrifoldeb:* ac o blegid yr un symledd difrifol, maent yn gwbl lân oddi wrth bob dim o natur isel, gwag, ac ynfyd. Mae urddasolrwydd symledd a *difrifoldeb* yn argraffedig ar yr holl Fibl.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 131.

Difrifwch, } *sm.* earnestness, seriousness, sober-
Difrifedd, } ness, sobriety, graveness, gravity; solemnity.

Yr ydym ni yn gweled fod yr Apostol mawr hwn . . . yn daer ac yn eglur yn gwneuthur allan ei hawl, yn gwthio'r peth adref, mewn mawr *ddifrifwch* a gwresogrwydd.
Ieremi Owen, 125.

Mae'n rhaid wrth *ddifrifwch* nerthol gwastadol, a'r fath ddwys fwriad, mal ped fai'r corff a'r enaid yn ymadael â'u gilydd yn y mater yma.
Morgan Llwyd: Ymroddiad, viii. 7.

Fe'i cyssegrwyd i Dduw gyda'r parch-*ddifrifedd* mwyaf gan y brenin a chynnulledig bobl Israel.
Gwallter Mechain: Eglur Olygiad, 61.

Mae rhyw *ddifrifedd* yn dwyn perthynas, ac yn gyssylltiedig ag angladd gwledig Cymreig, ag sydd yn gadael argraff o ddwysder annileedig ar y meddwl.
Brutus: Brutusiana, 428.

Sel a *difrifwch* calon i garu Duw.
Edward Iames: Hom. iii. 64.

Difrig, *a.* [brig] destitute of branches, branchless; without tops.

Difrigad, } -au, *sm.* a lopping of tops or
Difrigiad, } branches; a topping, a pruning.

Difrigo, *v.* to cut the tops or branches; to prune; to lop, to top.

Os y garddwr a ysgythra ymaith y cnyciau a'r ceinciau o'r preniau yn yr ardd gan eu *difrigo* ychydig.
Huw Lewys: Perl, 49.

Difrigog, *a.* having no tops or branches; branchless; topped.

Difrigol, *a.* topping, cropping, pruning.

Digitized by Google

Difrïo, *v.* [difri] 1. to dishonour; to debase, to degrade.

Mor annhraethol, o'r tu arall, fyddai syndod a braw yr Aiphtiaid, pan welent eu hafon . . . wedi ei llygru a'i *difrïo* gymmaint, le, yn hollol ddrewllyd.—*Gwyliedydd*, vii. 141.

2. to abuse, slander, malign, or revile; to call names.

Nid gwaeth hi [Dosparth Morganwg], er cael ei *difrïo* fal hyn.—*Edward Dafydd:* Cyfr. y Beirdd, 4.

Os dedwydd o ddefawd a'th welir, na ddawr a'th *ddifriant.*—*Dooth. y Cymry:* M.A. iii. 91.

Gormodedd o win a bair *difrïo* ac ymgigo hefyd.
Ieremi Owen, 106.

Od oes wŷr â drygfoes draw,
Afrywiog, i'n *difriaw*,
Cawn yn hwyr, gan eu hwyrion,
Na roes y ddyhir-oes hon.—*Gronwy Owain*, 27.

A'i fryd trwch, a'i fwriad draw,
Afrywiog, i'm *difriaw.*—*Ieuan Brydydd Hir:* Gwaith, 63.

Nid yn unig yr annysgedig, ond y mwyaf dysgedig a *ddifriant* eu gilydd agos bob amser mewn dadl.
Ioseph Harris: Gweith. 252.

Y rhai a *ddifriant* gynghanedd, o herwydd yr un achos â'r llwynog yn y ddammeg, yr hwn a *ddifriai* y grawnwin addfed . . . am nas gallai eu cyrhaedd.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 161.

Difrïol, *a.* dishonouring, degrading; dishonourable; abusive, slanderous, scurrilous; dishonoured, degraded.

Gormod imi'n *ddifriol*
Gludo'n waeth i'm gwlad yn ol.
Ieuan Lleyn: Caniadau, 58.

Iaith ddifrïol, abusive language.

Y mae yr Ordd yn amddiffyn y gwaith o arfer geiriau *difriawl.*—*Seren Gomer*, iii. 306.

Difrisg, *a.* without a trace or track; trackless; untrodden.

Lliw *divrisc* lluwch-wisc eiry llechwed maenawl
Llwydei ammot mawl llaw diommed.
Rhiserdyn: M.A. i. 433.

Oer yw fy nghwyn am wawr addwyn,
Porffor ei gwisg, lwybrau *difrisg.*
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 235.

Eiry difrisg, trackless or untrodden snow.

A lle gwelych gwych i'm gwisg,
Difriw er hoen *eiry difrisg.*
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 250.

Difrisgad, } -au, *sm.* obliteration, effacement.
Difrisgiad, }

Difrisgo, } *v.* to obliterate or efface a track;
Difrisgio, } to efface, to obliterate.

Dyna y dull i *ddifrisgaw* y Gymraeg.
Seren Gomer, xv. 302.

Difriw, *a.* [briw] without a bruise or contusion; unbroken; unhurt, scathless, unharmed, uninjured; painless.

Na thrig, bâr yw oerddig boen,
Dy gariad, deg ei gorhoen,
Mwy nag ewyn, gwyn-ddyn gwiw,
Ar ol dwfr, arial *difriw!*—*Dafydd ab Gwilym*, lxi. 9.

Mae rhyw *difriw* Mair i'm dwyfron.—*Gwilym Tew.*

Pa reswm ydoedd fod i naturiol Fab Duw . . . oddef mor greulon ei faeddu a'i ferthyru, ac i ninnau y rhai ŷm ei blant ef . . . ddiainc yn *ddifriw?*
Huw Lewys: Perl, 142 (cf. 49).

Ni allant ddianc yn *ddifriw* nas clwyfer hwy weithiau.
Robert Llwyd: Llwybr Hyffordd, 104.

Un brath at y galon a ddwg fywyd gwr, er ei fod ym mhob rhan arall yn *ddifriw.*—*Ch. Edwards:* H. y Ff. 344.

Yn dewfrig ei changau *difriw*,
Yn iraidd ffres, yn wyrdd ei ffriw.
Charles Bwthyn: Cyfrinach y Beirdd, 146.

Y mae yr anian ddynol yn ddarostyngedig i anhwyl arall, sef cynddeiriogrwydd yspryd, pan fyddo y corff yn *ddifriw.*—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 287.

Difrïwch, *sm.* want of honour or dignity; abuse, slander.

Difrïwr, *pl.* difrïwyr, *sm.* one who abuses, maligns, traduces, or vilifies; an abuser, traducer, or vilifier.

Annichon agos, yn fy mryd i, yw i ddyn ddwyn ym mlaen unrhyw ddadl, heb ddifrïo, neu gael ei gyhuddo o fod yn *ddifriwr* gan ei wrthwynebwr.—*Ioseph Harris:* Gweith. 252.

Difrïyn, *sm.* [difri] a saucy knave.—*W.*

Difro, *a.* [di- + bro: Br. *divrô;* C. *divres*] having no country; exiled, banished, expatriated.

Ys wyf wedi rwyf rodrwyd
Bard *difro* dyfryd heb arglwyd.
Cynddelw: M.A. i. 207 (cf. 293, 324, 328).

Difro wyf hep rwyf hep rotyon
Hep Ewein hebawc kynureinon.
Hywel Foel: M.A. i. 393 (cf. 127).

Difro, aid, *sc.* a banished or exiled person, an exile, an expatriate.

Odid *difro* diwyd.—*Diareb.* (M.A. iii. 174.)

Difroad, -au, *sm.* banishment, exilement, expatriation.

Difroadwy, *a.* that may be banished or expatriated.

Difroawl, *a.* [difro] tending to banish or expel; expatriating, banishing.

Difrod, } *pl.* difrodau, *sm.* [brawd, *f.*] devasta-
Difrawd, } tion; depredation; ravage; desolation; destruction; a destroying, a laying waste; waste; dispersion; extravagance; neglect.

Gwell marw no mynych *difrod.*
Engl. y Misoedd: M.A. i. 16 (cf. 15).

Gwerin anghyfraith, *difrawd* ac anrhaith.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 11 (cf. 54).

Nid *difrawd* ond geuadur.—*Iolo Mss.* 255.

Tri Thrahäawg Ynys Prydain: Sawyl Bennuchel; Paagen mâb Urien; a Rhun mab Einiawn: a thrahäusaf ar bob trahäus eu traha wynt, ac achaws hynny dwyn *difrawd* ar Ynys Prydain; a'r *ddifrawd* honno a ddamgystlynes a'r Saeson, ac o'r diwedd myned yn Saeson.
Trioedd: M.A. ii. 69.

Tri phrif gyfymdawr byd: dwyfoldeb; gwybodau moliannus; a diwydrwydd rhag myned yn *nifrawd.*
Barddas, i. 320.

O gartrefogion y ceir gwlad a chenedl, ac o anghartrefogion, herwyr, a *difrawd*, a gormes, ac ymdrin, ac arferion Gwyddelig.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 102 (cf. 160).

Lle rhoed ar *ddifrawd* barddwawd beirddion.
Ior. Beli: M.A. i. 476 (cf. 76, 464, 513, 518).

Difrodwyd y maes, y ddaiar a alara; canys gwnaethpwyd *difrod* ar yr yd.—*Ioel* i. 10 (cf. 15).

Y *difrod* a wnaed gan y llosgwy, oedd yn wir arswydus.
Cylchgrawn, ii. 48.

Difrod, *v.*=*Difrodi.*

Cerdd a chainc, fal min y dur,
Sy'n *difrod* cur i'm dwyfron.—*Morgan Pywel.*

Difrodaeth, } -au, *sf.* devastation, depreda-
Difrodiaeth, } tion, destruction; ravage, waste, plunder, spoil; extravagance.

Y bobl a gymmerth o'r yspail, ddefaid a gwartheg, blaenion y *ddifrodaeth*, i aberthu i'r Arglwydd dy Dduw yn Gilgal.—1 *Sam.* xv. 21.

Wrth dy fodd curiodd caerwyr o hiraeth,
O, dêl *difrodiaeth!* dial dy fradwyr.
L. G. Cothi, i. viii. 29.

Blwyddau hirion o *ddifrodaeth*
A ennynawdd eu gelyniaeth.
Iago Trichrug: Y Bardd, ii. 3.

Difrodawl, } *a.* devastating, destructive, ravag-
Difrodus, } ing, depredatory, wasting; extravagant, squandering, wasteful.

Mis Mai *difrodus* geilwad
Clyd clawdd i bob di gariad.
Englynion y Misoedd: M.A. i. 15.

Digitized by Google

Difrodedd, *sm.* the state or condition of being devastated; pillage, devastation; waste, extravagance.

Corf ior dor durgrwydr frwydr *ddifrodedd.*
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 454 (cf. 474).

Mynega ei gydoeswyr ei fod yn rhagori ar bawb y pryd hwnw mewn *difrodedd* a gloddest.—*Gwyliedydd,* iii. 306.

Difrodgar, *a.* given to ravaging; devastating, plundering, ravaging.

Pa rai oedd eu noddfëydd rhag milwyr *difrodgar* Tamerlan.—*Brutus:* Ninefeh, 26.

Difrodi, *v.* to devastate, lay waste, ravage, destroy, waste, plunder, or sack; to dilapidate; to squander; to annul, to annihilate; to depopulate.—*Ier.* xxv. 9; l. 21; li. 3; Ioel i. 10.

Tri pheth a *ddiwrodant* wladoldeb a chywladoldeb: breiniau gormeslawn; anghyviawn o varn cyvraith; a gwallymarbod, yn peri annosparth ar drevnau gwlad a chenedl.
Cyfreithiau Cymru, ii. 488.

Gwenhwyfar olwg eirian
Na *ddifrawd* fi cyd bwy bychan.
Ymdd. Arthur a Gwenhwyfar: M.A. i. 175.

Dyma bedair cenedl ysgymmun a ffyrnig, y Saeson, y Ffrancod, y Brithwyr, y Gwyddelod, wedi cyfrinachu i dywallt gwaed a *difrodi.*
Theo. Evans: D.P.O. 76 (cf. 80, 85).

Yr hwn ni ddichon direidi lladron, nac ansicrwydd damweiniau'r byd byth mo'i *ddifrodi.*
Edward Samuel: Grotius, ii. 16.

Ofni yr ydwyf fod rhyw chwiwgi wedi *difrodi* fy llythyr.
Gronwy Owain, 335.

Difrodiad, -au, } *sm.* devastation, destruction,
Difrodiant, } ravage; a ravaging, a plundering; dilapidation; a squandering or wasting.

Enbydrwydd a *difrodiad* a areiliant ger ei law.
W. O. Pughe: E.D. ii. 3.

Cenedl yn ymddïal ar ei hymysgaroedd ei hun, sydd o echrysawl anian . . . tad yn syrthio trwy ddwylaw ei fab, a'r cyfryw ddychrynadwy *ddifrodiad.*
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 44.

Prophwydodd Esay am *ddifrodiad* teyrnas Israel.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 163.

A braidd ar ben mae y *difrodiant* sar.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 171.

Y mae angeu yn myned ym mlaen â'i waith o *ddifrodiad* trwy gyfnewidiadau dilynol.
Gwyliedydd, x. 130 (cf. vii. 38).

Difrodiadau amser, the ravages of time.

Difrodiadau y cleddyf, the ravages of the sword.

Difrodiadol, *a.* devastating, destructive, ravaging.

Difrodiog, } *a.* devastated, spoiled, wasted,
Difrodog, } ravaged.

Er, Salem, y gollyngodd greuled law
Y murniad weithion ei uffern-gwn dros
Dy dir *difrodawg.*—*W. O. Pughe:* Palestina, 6.

Difrodus, *a.*=*Difrodawl.*

Difrodwr, wyr, } *sm.* one who devastates; a
Difrodydd, -ion, } depredator, ravager, pillager, or destroyer; a waster, a squanderer.

Dyma halogwyr a *difrodwyr* y cwbl oll.
Lewis Anwyl: Nefawl Ganllaw, 124.

Dichon fod peth amrywiaeth meddyliau yng nghylch dau o'r *difrodyddion* hyn.—*Gwyliedydd,* vii. 35.

Difröedd, *sm.* [difro] exile, banishment.

Boed hir *ddifröedd* ar Faelgwn Gwynedd.—*Taliesin.*

Kyrch cyvlaun cyvle *divroed.*
Cynddelw: M.A. i. 243 (cf. 325, 328).

Neud mynny Duw fry o *ddifröedd* mawr
Gwyn dwyn dor gawr gwawr gwirionedd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 489 (cf. 537).

Cann ni mynnwys er Duw *difroedd* arnaw.—*M.A.* i. 538.

Difröi, *v.* [difro] to exile, banish, or expatriate.

Difrwysg, *a.* [brwysg] not inebriated; sober.

Da vreisc gedawl goryf *diwrwysc* [printed *diwrwys*] oeden.
Rhiserdyn: M.A. i. 435.

O ba rai [Gefeilliaid Siam] y rhoddir yma ychydig hanes gan lygad-edrychwr *difrwysg* difrif liw dydd goleu.
Gwyliedydd, vii. 376.

Difrwysgedd, *sm.* freedom from intoxication; soberness.

Difrwysgo, *v.* to become sober; to sober.

Difrwysgol, *a.* tending to make sober.

Difrych, *a.*=*Difrychau.*—*W.*

Difrychau, *a.* [brychau] having no specks or spots; spotless, immaculate.

Tri pheth a ennillant gariad Duw: ffydd lân *ddifrychau;* gobaith cadarn diammheuau; a chariad diwallau.
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 232 (cf. 191).

Diweirdeb, trwy gadw'r meddwl yn bur mewn corff glân *difrychau.*—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. ii. iii. 50.

Difrycheuad, *sm.* a ridding or clearing of spots.

Difrycheulyd, *a.* without spot, spots, or specks; unspotted, spotless, immaculate; undefiled, clean, pure.

Megys oen difeius a *difrycheulyd.*
1 *Pedr* i. 19 (cf. Iago i. 27; 2 Pedr iii. 14).

Disgleirdeb y goleuni tragywyddol yw hi, *difrycheulyd* ddrych gweithrediad Duw.—*Doeth.* vii. 26.

Pa ddelw bynnag y temtier ac y tralloder y gwir Gristionogion, hwy a barhânt er hyny yn union ac yn *ddifrycheulyd* byth.—*Huw Lewys:* Perl, 209.

Bwrw golwg ar ogoniant pur *difrycheulyd* y Duwdod.
Ios. Tomas: Buchedd Grist. 18.

Nid oedd teyrnasiad y Frenines Elisabeth yn *ddifrycheulyd* yn yr ystyriaeth yma.—*Ieremi Owen,* 26.

Ei dalcen sydd lyfn, a'i wyneb sydd deg, a gwridog, a *difrycheulyd.*—*Theo. Evans:* D.P.O. 170.

Difrycheuo, *v.* to rid of spots; to remove specks; to make immaculate.

Difryd, *a.* [bryd] having no mind; listless, inattentive, unmindful.

Gorddyar adar gwlyb gro
Dail cwyddid *divryd* divro
Ni wadav wyv clav heno.
Llywarch Hen: M.A. i. 127 (cf. 76, 387).

Difrydaeth, *f.* } *s.* inattention, listlessness, un-
Difrydedd, *m.* } concernedness.

Difrydiad, *sm.* a becoming inattentive.

Difrydig, } *a.* inattentive, thoughtless, listless,
Difrydol, } negligent, heedless, unmindful, un-
Difrydus, } concerned; free from care.

Pantri *difrydig* digeirdd,
Pentan, buarth baban beirdd.
Dafydd ab Gwilym, cxxxviii. 17.

Difrydu, *v.* to become inattentive, unmindful, unconcerned, or listless.

Difrydwch, *sm.* unmindfulness, regardlessness, heedlessness.

Difrys, *a.* [brys] without haste or hurry; leisurely, slow, tardy.

Ni'm lludd i fyned i'r llys,
Neu ddyfod yno'n *ddifrys.*—*Iolo Goch,* i Esgob Llanelwy.

Bydd y rhei'ny yn marw o farwolaeth *ddifrys* (och! O farwolaeth ry *ddifrys*).—*Elis Lewis:* Drexelius, 172 (cf. 197).

Rhy falch fyddaf os Dafydd,
Rhugl *difrys* i Rys a rydd.—*Rhys Goch Eryri.*

Mer beirdd byd o fryd *di frys,*
Oedd merion oerdd Huw Morys!
Edward Samuel: Md. H. Morus.

Digitized by Google

Difrysio, *v.* not to hasten; to cease hastening.

Difrysiol, *a.* not expeditious, dilatory.

Difrythwch, *a.* [brwth] without riot or tumult.

Difryw, *a.* [bryw] without vigour or energy; not rich or fertile; barren, sterile.

A chanti dyga waddawl o foddhäus
Fagwyon i decău ei *ddifryw* ddail.
W. O. Pughe: C.G. v. 230.

Difrywiad, *sm.* a divesting of vigour.

Difrywio, *v.* to lose vigour or strength; to lose fertility or luxuriance; to impoverish.

Difrywiol, *a.* tending to impoverish; impoverishing; weakening.

Difuches, *a.* [buches] having no cowyard; having no cattle.

Nid coel cyfynles Cymru *di fuches.—Taliesin:* M.A. i. 49.

Difuchedd, *a.* [buchedd] without morality, immoral, vicious.

Mae cad cyfeinedd Cymry *ddifuchedd.*
Taliesin: M.A. i. 49.

Difucheddiad, *sm.* a leading an immoral life.

Difucheddol, *a.* not moral, immoral.

Difucheddu, *v.* to be immoral.

Difud, *a.* [mud] not dumb, mute, or speechless; free from dumbness.

Neud dwfn yw fy neigr, neud *difud* fy llef
Am fy llyw cadarn-ddrud.—*D. ab Gwilym,* ccxxxii. 25.

Gwyddiad ffyrf amryson
Dafodiawg beirdd *difudion.—Sefnyn:* M.A. i. 505.

Dyro . . . Dy fudes yn dafodiog,
I symmud, ferch, os mud fydd,
Yn *ddifud* wen i Ddafydd.
Dafydd ab Edmwnt: G.B.C. 119.

Difudd, *a.* [budd] without profit, gain, or advantage; profitless, gainless, unprofitable; useless, valueless, worthless; futile.—*M.A.* i. 519.

Nid *difudd* rym ym' yma,
Nid oedd gall, na deall da.—*D. ab Gwilym,* iii. 13.

Chwi a aethoch yn *ddifudd* oddi wrth Grist.
Gal. v. 4 (cf. Heb. xiii. 17).

Gwendid a geryddir fel peth *difudd.*
Doeth. ii. 11 (cf. xiii. 10, 13; xvi. 29).

Os treisir ni o'n Rhyddid, y mae ein cyfreithiau yn *ddifudd.—G. Mechain:* Gwaith, ii. 57 (cf. 41, 317, 446).

Llemais, â mawr ffull, ymaith
Yn brudd, wedi *difudd* daith.—*Gronwy Owain,* 8 (cf. 6).

Difuddiad, -au, } *sm.* deprivation; despolia-
Difuddiant, iannau, } tion; bereavement.

Canys, *difuddiad* o ddaioni ydyw drwg; a hwnw sy i'w gyfrif yn fwyaf drwg, yr hwn yw y *difuddiad* o'r daioni mwyaf, yr hwn yw Duw . . . y *difuddiad* hwn a wna'r boen a'r penyd mwyaf.
Gr. Wynn: Ystyriaethau o Gyflwr Dyn, 168.

Difuddio, *v.* to divest of profit, gain, or benefit; to deprive, to despoil, to divest; to bereave.

A chrîbddail, yr hyn drwy ledrad a thwyll ac ymball, a *ddifuddia* yn anghyflawn arall o'i dda byd, ac o'i barch, ac o'i feddwl cyflawn.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 266.

Nid yw ryfeddod fod ar ddynion bydol ofn marw, o herwydd mae angeu yn eu *difuddio* hwy o bob anrhydedd, cyfoeth, a meddiannau bydol.
Ed. James: Hom. i. 115 (cf. 182; ii. 39, 66, 68).

Pwy bynnag a chwennychant *ddifuddio* tystiolaeth dynion o ran dryganiaeth eu hewyllys, mae yn rhaid iddynt ddangos rhyw gyffelybrwydd o anewyllysgarwch y cyfryw dystion i ddywedyd y gwir.
Edward Samuel: Grotius, iii. 6.

Y rhai sydd yn ceisio ein *difuddio* o ganwyllbren gair Duw yn ein hiaith ein hunain.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 201.

Difuddiog, *a.* having no gain, profit, or benefit; unprofitable; deprived; disinterested.

Kanys *diuudyawc* uyd yn y geissaw.—*Mabinogion,* 124.

A garo Dewi ual *difutyawc* doeth
Ry gelwir ef yn goeth yn gyuoethawc.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 270 (cf. 10, 309).

Sef a wnaeth Marchell Mut ymlit Gwalchmei yn *diuudyawc.—Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 339.

Difuddiol, *a.* unprofitable, gainless; valueless, useless, worthless.

Y creigiau yn pistyllio dyfroedd iachus, ac heb un ddarn o honi [Palestina] yn anhyfryd ac yn *ddifuddiol.*
W. Lewes: Dwy Daith, 58.

Diful, *a.* [mul] not bashful, immodest; not simple, foolish, stupid, or silly; bold.

Dof i Lanbadarn ddyw Sul,
Neu i'r dafarn, wr *diful.—D. ab Gwilym,* clxxvii. 21.

Tyssul Sant *diful* wrth dyfu nefoedd,
Oedd yn ei chaeroedd ddoe 'n ei charu.
L. G. Cothi, III. xxviii. 57.

Nid af o'i lys, *diful* ior,
Nid ufudd neb ond Ifor!—*Dafydd ab Gwilym,* ii. 45.

Mae Fyrsul *ddiful* o ddysg,
A fu urddol o fawr-ddysg!—*Dafydd Trefor.*

Difulder, } *sm.* [diful] want of modesty or
Difuldra, } bashfulness; boldness.—*P.*

Difulder, } *a.* unbashful; bold, courageous,
Difuldra, } fearless.

Na thwng i enw Duw, ac na ddos dros ei enw ef yn ammharchus ac yn ysgawn, ac na wna'n ddibris clywed hyny o ben arall heb ei geryddu a'i gynghori'n hygar, ac yn garedig a chyfeillgar, eto yn ddifraw ac yn *ddifulder.*
Barddas, i. 276.

Difuner, *a.* [muner] without a chief or protector; without protection, unprotected.

Kyuarchaf ym *diuuner* urawt
Allwed bydin bud ner
Pwy uledych wedy Deu hanner!
Cyfoesi Myrddin: A.B. ii. 225 (M.A. i. 143).

Over *diuuner* llythyr lleaur.—*Cynddelw:* M.A. i. 247.

Cof Ewein ym callon yd uyt
Diuuner vcher ac echwyt.
Daniel ab Llosgwrn Mew: M.A. i. 269.

Difur, } *a.* [mur] without walls, unwalled;
Difuriau, } unprotected, defenceless.

Pob traha yn diva ac yn *divur.—Cynddelw:* M.A. i. 248.

Difurio, *v.* to deprive of walls; to pull down or demolish the walls of; to dismantle; to deprive of bulwark, defence, or protection.

Ac ar llwyth oswydd gnawd lleithiaw
Cigfrain—a chaer dew ffrain yn *difuriaw.*
Dafydd Benfras: M.A. i. 311 (cf. 259).

Ath rodaf gyssul heb gas yndau
Pan vynno Duu dy *diuuryau*
O dyllest present a phresuyl vrau.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 328.

Dy fâr sy i'm *difuriaw,*
A'th lid, mae'r holl fyd i'th law.—*Ieuan Gethin.*

Dywedir fod Nero'n llawenychu'n ddirfawr wrth weled dihenyddu St. Paul, fel pe buasai wedi dadymchwel a *difurio* yr Eglwys, pan dorodd ef i lawr yr Apostol yma.
Ed. Samuel: Bucheddau yr Apostolion, 140.

Difurio caer, to dismantle a fortress; to break down walls.—*Esa.* xxii. 5.

Difurmur, *a.* [murmur] without murmuring, unmurmuring, uncomplaining.

Gwnewch bob dim yn *ddifurmur* [°ddirwgnach, ddirwyth, ddiymwgach] ac heb ymddadleu.
W. Salesbury: Phil. ii. 14.

Difurn, *a.* [murn] 'without evil machination;' without murder.

Dwywawl wawl waisg fraisg frenin
Difurn waith y dwfr yn win.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 459 (cf. 465).

Digitized by Google

Difurniad, *sm.* 'a divesting of secret machinations.'

Difurniad, *a.* free from bad design; free from plotting or murdering disposition.

Kyvyawn gadarn varn *divurnyat* gyngor
Kadeir glotryd ryd ket argleitryat.
Rhiserdyn: M.A. i. 435.

Difurnio, *v.* to cease from plotting; to protect from evil designs.

Kadeir deur am *diwurn.* a sich heul a gulich Maelgun.
Llyfr Du: A.B. ii. 17.

Difurniol, *a.* free from evil design.

Difursendod, *a.* [mursendod] free from affectation or coyness; unaffected.

Difustl, *a.* without bile or gall; galless; without bitterness.

Yr Eryr barabl *difustul*
Ath ofynaf heb gynfyl
Ai da cael gwasanaeth Sul.
Ymddiddan Arthur ac Eliwlod: M.A. i. 178.

Gweddïwn yn ddifrifol arno ef am ei weithio ynom, sef danfon ei Lân Yspryd a ymddangosodd unwaith ar ddull colomen, creadur addfwyn *difustl,* i gyweirio'n calonau i'r un tueddfryd.—*Ed. Samuel:* Holl Ddyled. Dyn, xvii. 19.

Difwg, *a.* [mwg] without smoke, smokeless.

Nyt oedd namyn morwynwreic ieuangc yn eistedd odduch bedd newydd gladdu. a than goleu *diwoc* rac eu bronn.
Doethion Rhufain, § 25.

A phan doeth y mywn. yd oed ffyryfdan mawr yn llosgi. a ffiam oleu uchel *diwoc* o honaw.—*Mabinogion,* 234.

Lle ger dwfr llugoer, *difwg.*—*D. ab Gwilym,* xix. 32.

Difwgwl, *a.*=*Difygwl.*

Difwgwd, *a.* [mwgwd] without a mask, unmasked.—*W.*

Difwng, *a.* [di-+ymwng?] 'without wavering; steady;' not precipitate.—*P.*

Pendefic Crukyeith meith mygyr *ddifwg*
Pennyadur Prydein prydest deilwg.
Einion ab Madog: M.A. i. 391.

Diuwlch ut diualch y esgar
Diuwg blwng blaen uuel drwy uar.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 298 (cf. 214, 234).

Difwng, *a.* [mwng] without a mane, maneless.

March difwng, a horse having no mane.

Difwl, *a.* pure, spotless, undebased?

Difwl, difwgwl bendefigiaeth,
Diball, dyn arall nid un wriaeth.
Dafydd ab Gwilym, ccxxix. 41.

Anfynych gynnefinaw
A swydd a bair dramgwydd draw;
Da feddwl gloew *ddifwl* glân,
Digynhwrf ddiddig anian.—*Simwnt Fychan.*

Difwlch, *a.* [bwlch] without a break, gap, or notch; without defect or flaw, flawless; continuous, consecutive.

Kertoryon kerteu *diuwlch*
Gwen lawen lyw ysgwyduolch.
Prydydd Bychan: M.A. i. 389 (cf. 298).

Sant cyfwlch *difwlch* da fu,
Yn y Werddon yn orddu.—*Iolo Goch,* am Badrig.

Difwriad, *a.* [bwriad] having no design or intention, unintentional; undesigned; thoughtless.

Os yn ddiysmmwth heb gas y gwthia efe, neu y teifl ato un offeryn yn *ddifwriad.*—*Esgob Morgan:* Num. xxxv. 22.

Difwriad, *sm.* want of design or intention.

Difwriadol, *a.* undesigning, uncontriving; unpremeditated; unintentional.

Difwriadu, *v.* to cease to design; not to contrive.

Difwrw, *a.* [bwrw] uncalculating, inconsiderate, thoughtless, improvident, unconcerned, heedless.

A ydym ni yn pwyso mor ddigyfrwng ar anadliad Duw yr hwn sydd yn ein ffroenau, yn barod i fyned allan wrth ei arch ef? ac a ydym mor *ddifwrw,* mor ddifeddwl, a dodi ein pwys a'n goglud ar ddim is ei law ef?—*Jeremi Owen,* 51.

A'r pechodau hyny y rhai ydym ni yn wneuthur yn ddifraw ac yn *ddifwrw.*—*Ios. Tomas:* Buchedd Grist. 229.

Difwydig, *a.* [bwyd] without food, foodless.

Llwybr cyflwybr cyfle *difwydig.*
Hywel Ystoryn: M.A. i. 518.

Difwyn, *a.* [mwyn] yielding no enjoyment, profit, or benefit; of no use, value, or profit; unprofitable, useless, valueless, worthless; void; futile; poor; unpleasant.

Dyuot tri ederyn a dechreu canu udunt ryw gerd. ac oc a glywssynt o gerd. *diwyn* oed pob un y wrthi hi.
Mabinogion, 41.

Ac yna medylyaw a wnaeth bot yn *diwyn* ganthaw pryt a welsei eiryoet o vorwyn a gwreic y wrth y phryt hi.
Mabinogion, 11.

Sef tangneued a wnaethpwyt. gadu y uorwyn yn ty y that yn *diwyn* or dwy barth.—*Mabinogion,* 134.

Dofwyd y gauaf *difwyn,*
A thes a wnaeth les i lwyn.
D. ab Gwilym, ccl. 19 (cf. xcix. 70; cxxxix. 29).

Am y cof yr eil grwnwal yw er daet vo dysc dyn o byd drwc y cof mai *difwyn* yw idaw a dysco.—*C.C.* ii. 348.

Dywedaf o'm diwydrwydd
Difwyn ei far i'm harglwydd.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 357 (cf. 252, 270, 300).

Ei ddal a wnaethont, a'i ddwyn
I dŷ Caiaphas, was *difwyn.*—*Gruffydd ab Ieuan.*

Os *difwyn* . . . clywed, nid oes gweled gwell.
Gronwy Owain, 56.

Er mwyn derbynaid rhyw annhymmerus ged ddisyrth *ddifwyn.*—*Dr. I. D. Rhys:* Gram., Rhag. 6.

A laddodd y bleiddiaid, yn *ddifwyn,* dy ddefaid?
Edward Richard: Bugeilgerdd, i. 3.

Difwyn ac anolo, unprofitable and worthless.

Ac anyueil *difwyn annolo* vyd wedy na aller aruer o honaw ac aruer pop vn o nadunt yssyd oe troet.
Cyfreithiau Cymru, ii. 334.

Ac anifail *difwyn ac anolo* fydd gwedy na aller arfer o honynt.—*Leges Wallicæ,* iv. xix. 2.

Difwyn, *sm.* [di-+mwyn?] denial, disavowal, negation; a disclaiming, a disowning.

Difwyn, neu ddiwat neu lw gweilydd y chymryt yn gyfreithiawl ae rhodd yngwydd tystyon.
Cyfreithiau Cymru, ii. 712.

Croes ddifwyn, a cross of denial or disclaiming.

Ny ddlyir rhoddi *croes difwyn* neu ddiwat heb greir yn y neill law.—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 718.

Difwynhâd, *sm.* non-enjoyment.

Llawer llai a feiddiai ar
Ei ben ei hun o dynu *difwynhâd*
Angeuawl, a threfnedig bridwerth mawr.
W. O. Pughe: C.G. iii. 239.

Difwyniad, -au, *sm.* a spoiling, marring, or blemishing; defilement, corruption; a making unprofitable.

Y cythraul, a chamarfer [°llygriad neu halogiad, *difwyniad,* drwg driniaid] ei ewyllys ei hun.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 320.

Difwyniant, *sm.* [di-+mwyniant] non-enjoyment; dispossession, deprivation.

Dwyn o ffurnic dan uffernawl
Adaf ae blant oe *diwynyant.*
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 466.

Digitized by Google

Difwyniant, *a.* without profit, profitless, unprofitable; without enjoyment; worthless.

Pob beth a ymdaith i gynull i borthiant
Ond cler ag oedion a lladron *difwyniant.*
Taliesin: M.A. i. 26 (cf. 309).

Tir difwyniant, unprofitable land.—*Leges Wallicae,* 174.

Difwyno, *v.* [difwyn] to make useless or unprofitable; to spoil, mar, blemish, debase, deface, impair, or destroy; to defile, corrupt, pollute, soil, or sully; to make waste.

Canys *difwynaw* y tir a wna ay ymchwelut.
Cyfreithiau Cymru, ii. 596.

Llyma oll heb ynteu a menegi ual yr lygryssit ac y *diwwynissit* y grofftеu idaw.—*Mabinogion,* 54.

Ac yno ymrodi y odineb ac y ryuelu ac eglwys Duw yny uu agos ydaw a *diwwynaw* y dyrnas yn llwyr.
Brut y Saeson: M.A. ii. 490.

Tri pheth a *ddifwynant* awen a gwybodau: ysmalhäwch; ofnocrwydd; ac anynadrwydd.
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 213 (cf. 45).

Ni fynai ddadryw a llwgr ar ei waed, a *difwynaw* ei epil.
Iolo Mss. 188.

A eiriach ei wialen, a *ddifwyna* ei fachgen.
Diareb. (M.A. iii. 180.)

Dy fath, dy gellwair, dy fodd,
Dy feinael, a'm *difwynodd.*
Dafydd ab Edmwnt: G.B.C. 112.

Ac unpeth, ym mhlith llawer o bethau, y sydd yn *difwyno* cerdd, ac yn ei hanurddo.
Dr. I. D. Rhys: Gram., Rhag. 6.

Eich allorau hefyd a *ddifwynir.* . . Yn eich holl drigfaon y dinasoedd a anrheithir, a'r uchelfaon a *ddifwynir,* fel yr anrheithier, ac y *difwyner* eich allorau.
Esgob Morgan: Esec. vi. 4, 6.

Y brenin hefyd a *ddifwynodd* yr uchelfëydd oedd ar gyfer Ierusalem.—2 *Bren.* xxiii. 13.

Dy blant a gaethgludant, ac a anrheithiant gwbl ag a feddech, ac a *ddifwynant* degwch dy wyneb.—2 *Esd.* xv. 63.

Arglwydd y lluoedd a ddychymmygodd hyn, i *ddifwyno* balchder pob gogoniant.
Esgob Morgan: Esa. xxiii. 9 (cf. lxv. 8).

Wele yr Arglwydd yn gwneuthur y ddaiar yn wag, ac yn ei *difwyno* hi.—*Esa.* xxiv. 1.

Nid malldod a *ddifwynodd* y ddaiar, neu a lygrodd yr awyr, ond gormes y Tyrciaid ysgeler.—*Cylchgrawn,* ii. 15.

Cybydd-dod sydd yn *difwyno* pob peth . . . *Difwyno* priodasau y mae . . . *Difwyno* lletteugarwch, *difwyno* syberwyd, *difwyno* elusenau, *difwyno* crefydd, *difwyno* crefyddwyr, *difwyno* eglwyswyr, *difwyno* llywodraethwyr, a *difwyno* pob peth.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 79 (cf. 224).

Difwyno brawd, to invalidate a judgment.

Canys esgussodion cyfreithyawl a *ddifwyna y frawd.*
Cyfreithiau Cymru, ii. 652.

Difwynol, *a.* yielding no profit; tending to spoil, mar, or blemish.

Difychod, *a.* [bychod] without littleness; liberal, bountiful.

Ath eur rut dilut *diuyth od* yth lys
Ath emys amgyruod.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 294.

¶ *'Diuyth od'* in the preceding quotation is probably a clerical or a typographical error for *diuychod.*

Difydr, } *a.* [mydr] without metre or
Difydraidd, } measure, not metrical; loose,
Difydrol, } free.

Difydru, *v.* to divest of metre.

Difyddaru, *v.* [byddar] to free from deafness.

Rhai o'r nadroedd hyn a swynwyd gan y gair: y nefolaidd ganiadau a'u *difyddaraant,* a dawnsiasant wrth bïau'r efengyl.—*Daniel Rowland:* Pregethau, 58.

Difyddinad, } -au, *sm.* [byddin, byddino] a
Difyddiniad, } disbanding.

Difyddino, *v.* to disband, to dismiss an army.

Difyddinol, *a.* tending to disband.

Difyfyr, *a.* [myfyr] without study or meditation; unpremeditated, unstudied, extemporal, extemporaneous, impromptu; unthinking.

Ac unwaith os gwnaent ganu,
Gwaith byr, *difyfyr* a fu.—*Dafydd Ionawr,* 169.

Mae hwn yn gyd-darawiad hollol *ddifyfyr* ar ran awdwr Llyfr cyntaf Samuel, ac yn brawf o'i eirwiredd.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 140 (cf. 136).

Ei sain ydyw difyr donnodau *difyfyr.*
Gwyliedydd, vi. 157.

Llyfrion digalon ei gwŷr, â'u golwg
Mal gwelw gyrff *difyfyr.*
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 5 (cf. ii. 446).

Yn ddifyfyr, extemporaneously, extempore, impromptu, off-hand.

Difyfyrdod, } *a.* without meditation or
Difyfyrdodawl, } study; unstudious; extemporary, extemporaneous.

Difyfyredd, *sm.* extemporaneousness.

Difyfyriol, *a.* not studious or contemplative.

Difygwl, } *a.* [bygwl] without threatening
Difwgwl, } or menacing, unthreatening, unmenacing; unthreatened; unscared; fearless.

Dodi y uryt a oruc Rolant arnaw a chyrchu y vydin yn hy. ar hynn oed o wyr gantaw yn *diuygwl.*
Ystoria de Carolo Magno, col. 485.

Ys da y gampeu heb guympau yn afyrdul
Ys yaun *difygul* oe uygythyau.
Llygad Gwr: M.A. i. 340.

Paun *difygwl* cadr pendefigaidd.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494.

Difygwth, } *a.* [bygwth] without threatening
Difwgwth, } or threatenings; unthreatened; not intimidated.

Nid av i o deirnas vechan hon ed wiv eni chafel en llonit esmwith diovalus *diuygwth.*
Brut Gr. ab Arthur (A): M.A. ii. 233.

Difygydu, } *v.* [mwgwd] to unmask, to strip
Difygydio, } of a mask.—*W.*

Difygylaidd, } *a.* not tending to frighten or
Difygylus, } scare; not apt to awe; unintimidating.

Difygylu, *v.* to cease to frighten; not to awe or intimidate; to relieve fear.

Da fygyl-arf gwŷr Lyr filwriaeth;
Difygyliodd fi, da fugeiliaeth!—*D. ab Gwilym,* ccxxix. 45.

Difygythio, *v.* to cease to threaten; not to menace; to be free from intimidation.

Difygythiol, *a.* not threatening, unmenacing.

Difyngial, } *a.* [mwngial] not speaking gut-
Difwngial, } turally, indistinctly, mutteringly,
Difyngus, } falteringly, or stammeringly; articulate, clear.

Darllain i'r plwyf, nid rhwyf rhus,
Efengyl yn *ddifyngus.*—*Dafydd ab Gwilym,* xlv. 21.

Llefaru yn ddifyngial, to speak without stammering, faltering, or stuttering; to speak clearly or articulately.

Difyngu, *v.* to divest of stammering, hesitating, or wavering.

Digitized by Google

Difyn, -ion, -au, *sm.* [dif: cf. *difio*, *difiog*] a fragment, a broken piece, a morsel, a bit, a small piece, a gobbet, a crumb; a little chop or piece of meat; a piece of flesh.

Difyn cam deufiniog cul.—*Iolo Goch*, i'r Tafod.

Bwyta y *difyn* fal y rhuddo.—*Diareb.* (M.A. iii. 150.)

Er meithed yr awdl . . . dymunem ddyfynu ambell *ddifyn* o honi.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 502.

A gweled ddraig ei gwala
Mewn llyn heb *ddifyn* o dda.—*Gro. Owain*, 111 (cf. 110).

Ni bu ddifyn i'm geneu heddyw, there has not been a morsel in my mouth this day.

Difyniad, -au, *sm.* a breaking into pieces or fragments; a taking to pieces; dilaceration, mutilation; atomization, dissection.

Difyniadol, *a.* anatomical; dissecting.

Chwiliodd yn ddwfn i wyddoriaeth drwy ddifynio cannoedd o gyrff dynol ac anifeiliaidd; a thrwy hyn, cododd ei enw, ac yn benaf egwyddorion cysson y gyfundrefn *ddifyniadol*, i fri ac enwogrwydd.—*Brython*, iii. 6.

Difyniadu, *v.*=*Difynio.*

Difyniaeth, -au, *sf.* anatomy.

Difyniaeth ydyw y gelfyddyd honno sydd yn dysgu i ni adnabod cyfansoddiad y corff dynol.
Gwyliedydd, ix. 327 (cf. 369).

Yn gyfartal i'r sylw a wnaed o *ddifyniaeth* y cynnyddodd llawfeddygiaeth.—*Cylchgrawn*, i. 23 (cf. 24).

O bob gwyddoriaeth adnabyddus, nid oes un mor ddyddorawl, mor bwysig, ac mor gyssylltedig â dyn, ag ydyw *difyniaeth*, neu wybodaeth o gywreinwaith y Creawdwr yn y corff dynol.—*Brython*, iii. 6 (cf. 7).

Difyniaethol, *a.* relating to anatomy, anatomical.

Difyniedydd, -ion, } *sm.* an anatomist; a dis-
Difyniwr, wyr, } sector.

Difynig, *a.* that is in pieces, cut up, lacerated, butchered; mutilated.

Tebygaf, ddull dig, o ddifa pendefig,
O ddull *difynig*, o Leon lurig.—*L. G. Cothi.* (*P.*)

Difynio, *v.* to cut into pieces; to cut or hack small; to chop, mince, mutilate, or hash; to cut up; to carve; to dissect, to anatomize.

Gwedi iddynt yn gywilyddus ei *ddifynio* fel hyn, yn unllygeidiog, ac yn unllawiog, rhoisant am dano hugan fer salw iawn, eilliasant ei ben, gosodasant ef ar gamel crachlyd â'i wyneb tua'r gynffon.—*Elis Lewis:* Drexelius, 151.

Ardystiodd dau o wŷr meddygawl i mi yn lled ddiweddar . . . eu bod yn cael, wrth *ddifyniaw* y trueiniaid, y perfedd yn wag o ymborth, ac yr ochrau yn glynu yng nghyd.
Seren Gomer, xvi. 34.

Yma y dechreuwyd *difynio* rhanau o'r corff dynol.
Brython, iii. 6.

Difyniol, } *a.* tending to cut in pieces; ana-
Difynol, } tomic.

Difyr, *a.* [dy-+byr: 'quia lætitia tempus abbreviari videtur' (*D.*): cf. L. *diverto*] pleasant, diverting, delightful, delightsome, glad, joyous, cheerful, merry, gladsome; amusive, amusing, facetious, entertaining.—*A.B.* ii. 19.

Nid *difyr* ond cyweithas.—*Myv. Arch.* iii. 64.

Yna dechreuwyd cerdd dafawd, a dodi arni pob cof a gwirionedd yn gadwedig, y modd y byddai hawsaf cofiaw a *difyraf* myfyriaw, a diddanaf y pwyll.—*Iolo Mss.* 47.

A dwfn yr ă, a *difyr*,
Yn y tân y dyn a'i tyr!—*D. ab Gwilym*, xxxvii. 25.

Nis dylid dyfalu ar ddim eithr a fo hardd, ac ardderchog, a rhyfedd, a *difyr*, a diddan.—*Cyfrinach y Beirdd*, 39.

Cymmer dy fyd yn *ddifyr*.—*Preg.* ii. 1.

Ymadawn â'r gymdeithas *ddifyraf* yn hytrach na chymmeryd ein rhwydo ganddi.
Ed. Samuel: Holl Ddyl. Dyn, ii. 35 (cf. xvii. 5).

Yr ŷm yn llawen ac yn *ddifyr*, megys y gweddai i ddynion.—*Theo. Evans:* D.P.O. 333.

Dod gennad i mi son yn *ddifyr* am fy ngwlad a'm bro fy hunan.—*Morgan Llwyd:* Tri Aderyn (1826), 52.

Hyd yn nod y bwthyn lleiaf a wisgai y celyn uwch ei ddrws, ymdywynai y tân drwy y ffenestr, fel i wahodd y pererin i droi i mewn, i uno yn eu chwedlau hen a *difyr*.
Cylchgrawn, i. 370.

Cydymaith difyr, a pleasant, entertaining, or amusing companion.

Y mis difyr, the honey-moon.—*W.*

Difyrion, amusements; pleasantries, facetiae.

Deffroa cof *ddifyrion* clau
Fy hoff foreuol hynt;
Y blodyn, gwên yr haul, a holl
Wrthddrychau'r oriau gynt.—*Telynegion*, 32.

Yr oeddwn bron blino ar fy *nifyrion* morawl, pan osodwyd fi yn ddiangol ar dir yn Swrat.—*Haul*, C.C. xiv. 79.

Pa ham na wnaethech gymdeithion o honynt hwy, mwynhau eu hymddiddan, ac ymgyfranogi o'u *difyrion*?
Rasselas, xxxix.

Difyrion diddiwedd, endless amusements.

Difyrbwyll, *a.* [difyr+pwyll] combining sense with amusement; entertainingly instructive.

Tri goreuon gwybodau llawenydd: cerdd arwest deuluaidd; ymgorelwi; a chwedlau *difyrbwyll*; sef y dichon pob dyn ymgynghyd â'r pethau hyn, er iechyd corff a diddanwch meddwl.—*Trioedd Doeth.:* M.A. iii. 272.

Difyrdaith, deithiau, *sf.* a pleasure-trip; a pleasant journey.—*Newyddiaduron.*

Difyrdir, -oedd, *sm.* [difyr+tir] pleasure-ground.

Syr Thomas a gerddai adref o'r eglwys trwy ei *ddifyrdiroedd*, gan ryfeddu harddwch y coed a'r manwydd oedd yn tyfu ynddynt.—*Cylchgrawn*, ii. 13.

Difyredigaeth, *sf.* divertisement, amusement, recreation.

Difyredigol, *a.* diverting, amusing, entertaining.

Difyrfa, -oedd, *sf.* a place of pleasure, amusement, or entertainment; pleasure-ground.—*W.*

Difyrfad, -au, *sm.* [difyr+bad] a pleasure-boat; a yacht.—*W.*

Difyrgar, *a.* diverting, amusive, entertaining.

Nid oedd dim yn ei foddloni fwy na chymdeithion *difyrgar*, mawr eu rhwysg a'u dwndwr.
Gwyliedydd, viii. 299.

Difyrgarwch, *sm.* love of pleasure; divertisement, amusement.

Difyriad, -au, *sm.* a diverting or amusing, diversion.

Fe ddaw i oleuni diaglair yr holl ddirgel ddychymmygion, a'r llen-gynghorion, a phob bryntni cornelydd *difyriad* cnawdol, a llofrudd a lledrad a llechiad ffalsder.
Morgan Llwyd: Tri Aderyn, 68.

Difyrlong, -au, *sf.* a yacht.

Tra yr oeddym wrth ein boreubryd dygwyd y *ddifyrlong* i ymyl y porthdwyn.—*Idrisyn:* Dalenau, 202 (cf. 203, 214).

Difyrol, *a.* tending to divert, amuse, or entertain; diverting, entertaining.

Difyru, *v.* to divert, amuse, or entertain; to please; to make glad; to cause mirth, joy, or gladness; to make pleasant.

Gan baun ni a gawn beunydd
O'r dail i *ddifyru*'r dydd.—*Deio ab Ieuan Du:* G.B.C. 188.

Awen a bair lawenydd
I ddyn i *ddifyru*'i ddydd.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 50 (cf. 56, 236).

Digitized by Google

Difyru yr amser, to cause time to pass away pleasantly; to while away the time.

Tri achos beirdd a barddoniaeth y sydd . . . diddanu, a llawenhau, a chyfanneddu meddwl a deall a serch, a *difyru amser* yn ddiannoeth.—*Barddas*, ii. 100.

I ba le'r aeth . . . ein cyfeillion a'n cymdeithion digrif diddan a fyddai arfer o chwerthin ac o *ddifyru'r amser* gyda ni!—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. v. 18.

Difyrus, *a.* diverting, amusive, amusing, entertaining, pleasant, delectable.

Y Dr. Henderson a'i geilw yn 'ffynnon fechan ryfeddol o *ddifyrus*.'—*Cylchgrawn*, 123.

Difyrusrwydd, *sm.* divertisement, amusiveness, amusingness, delectableness.

Difyrwch, *sm.* amusement, divertisement, diversion, delight, pleasure, delectation; mirth; pastime, sport.

Eira mynydd mae'n ysbys
Gnawd y *difyrrwch* o frys.
Englynion Eiry Mynydd: M.A. i. 544.

Tripheth a gaiff dyn mewn tafarn: *difyrwch* a'i gwna'n dlawd; digrifwch a'i gwna'n bechadur; a llawenydd a'i gwna'n drist.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 73 (cf. 80).

Tri pheth a gaiff dyn mewn tafarn: *difyrwch* i bechu; *difyrwch* i fethu; a *difyrwch* i ymwaethu.
Trioedd Moes: M.A. iii. 192.

Na fydded neb o honom ni heb ei ran o *ddifyrwch*.
Doeth. ii. 9.

Goreu *difyrwch* cân adar boreuddydd.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 92.

Nid ydynt oll ond megys *difyrwch* wrth un o'r rhai hyn.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 74.

Ni adawodd ddwyn *difyrwch* o'i fiaen.
Dan. vi. 18 (cf. Diar. xxi. 17).

Y mae chwareuon a *difyrwch* yn elynion chwerwon i lonyddwch.—*Iago ab Dewi:* Llonyddwch, 164.

Pob peth ydynt eiddo Ef,
Difyrwch byd, hyfrydwch nef.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 112.

Na chymmer *ddifyrwch* mewn chwaryddiaeth.
Huw Owen: Dilyniad, i. xix. 4.

Iesu, *difyrwch* f' enaid drud
Yw edrych ar dy wedd.
William Williams: Hymnau, dccxx. 1.

Pob un â'i ddifyrwch ganddo, } every one to his
Pob un â'i difyrwch ei hun, } pleasure.

Difyrwr, wyr, } *sm.* an amuser, diverter, or
Difyrydd, -ion, } entertainer.

Difyw, *a.* [byw] not alive, lifeless, inanimate, dead; dull.

Dyfed a wyr mai *difyw*,
Difai ddysg, a Dafydd yw!—*D. ab Gwilym*, xviii. 17.

Y mae cymmaint rhagor rhwng byw a *difyw*, ag sydd rhwng defnydd a dim. Di weli Dduw beunydd yn anfon i'r byd greaduriaid byw oddi wrth had *difyw*, ac yn rhoddi golwg i ddefnydd dall.—*Ch. Edwards:* H. y Ff. 245.

Difywhaol, *a.* not enlivening, animating, or invigorating.

Difywhau, *v.* not to enliven or invigorate.

Difywio, *v.* to deprive of life; to exanimate.

Difywiog, } *a.* inanimate, lifeless; not vigor-
Difywiol, } ous.

Difywyd, *a.* without life, lifeless, inanimate, dead, spiritless.

Pob *difywyd* a folir am ei ardderchogrwydd, a'i ryfedded, a'i harddwch, a'i ragored; a'r lles a geir oddi wrtho; a'r diddanwch a geffir o hano.—*Cyfrinach y Beirdd*, 37.

Hudoliaeth y sarff Sathan yw hyn, sydd yn llechu ynoch, ac yn ceisio genych gredu eich bod yn dduwiol pan foch yn anrhydeddu delwau *difywyd* meirwon.
Edward Iames: Hom. ii. 153.

Megys pettynt hwy yn myned i ryw le *difywyd*.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. v. 12.

Diau bod y loes yn frawychus i'n rhieni cyntaf pan welent eu mab Abel yn gelain *ddifywyd* ar y maes.
Brutus: Brut. 480.

Dechreuodd Rhonwen ym mhen byr amser golli ei rhoseidd liw, aeth ei gruddiau yn welw ac yn gulion; a'i duon lygaid, cyn hyn yn llawn hoffder a bywiogrwydd, a welid yn *ddifywyd*, ac yn gorlenwi gan ddagrau.
Gwyliedydd, viii. 301.

Difywyd, *sm.* an inanimate thing.—*P.*

Diff, -od, -iau, *sm.* [cf. *goddif* (Mab. 118, 119)] a cast or throw; a blow.

Bwrw maen trwm, a bar mewn tryst,
Bwrw *diffod* lle o'r dyffryst.—*Dafydd Llwyd Mathew.*

Diffael, *a.* without fail or failure, unfailing; unerring; certain.

Vy ghartrevrwyd ruwd rodyon *diffael*.
Vy ngwir gymorth hael vyg gwawr geimyat.
Casnodyn: M.A. i. 422.

Hoffai lawenydd *diffael* i'w einioes.
Siams Tomas: Cyfrinach y Beirdd, 124.

Naill ai drwy symmudo y cyfryw ddamweiniau a ddygwyddai yn *ddiffael* . . . neu drwy droi heibio y dyfeisiau drwg.—*Th. Williams:* Cydymaith, 398.

Os byw a fyddaf, chwi gewch Awdl i'r Tywysog yn *ddiffael*.—*Gronwy Owain*, 279.

Pan deimlais wythen ei harddwrn, mi a'i cefais yn anwastad, a gwelwn ar ei dwyfron amlder o'r arwyddion *diffael*.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 389.

Diffaeledig, *a.* not failing, without failing.

Diffaeliedi, *a.* without fail or failing.

Myn vy ngcret heb y Gwalchmei mi a wnn y dyly Meliot gael vy nerthi yn *diffaelyedi*.—*St. Greal*, ¶ 169.

Diffaeth, *a.* [ffaeth] unfruitful, infertile, barren, unproductive, sterile, desert, uncultivated, wild; infecund; arid.

Saethau y cyfoethogion blaenllymion
Ynt i gyd a marwar *diffaethion*.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 568.

Ffreuer wenn brodyr ath uaeth
Ny hannoedynt or *diffaeth*
Wyr ny uegynt vygylyaeth.—*Llywarch Hen:* A.B. ii. 286.

Rhag i mi ei dioeg hi yn noethlymun, a'i gosod fel y dydd y ganed hi, a'i rhoi fel anialwch, a'i gosod fel tir *diffaeth*, a'i lladd â syched.
Esgob Morgan: Hos. ii. 3 (cf. Ioel ii. 20).

I ddigoni y tir *diffaeth* a gwyllt: ac i beri i gnwd o laswellt dyfu.—*Esgob Parry:* Iob xxxviii. 27 (cf. xxx. 3; Esa. lxi. 4; Ier. ii. 6; Hos. ii. 3; Luc iv. 42).

Tyfai mewn dyffryn dwfn, a mynyddoedd *diffaeth* o amgylch.—*Cylchgrawn*, i. 48.

¶ The meanings of *diffaeth* and *diffaith* (apparently the same word) run so much into one another, that it is not always easy to differentiate them. *Diffaeth*, now the more usual form, but seemingly not common in the ancient language, is usually applied to land and objects connected with it; but it is seldom (except occasionally by the poets, in ignorance, or for the sake of rhyme) used in reference to moral qualities.

Bp. Morgan (1588) and Bp. Parry (1620) treat *diffaeth* and *diffaith* as convertible terms; and similarly they use *diffaethwch* and *diffeithwch* (or '*diffaithwch*'). Occasionally both forms occur in the same chapter. The Wilderness of the Wandering is indifferently translated *diffaethwch* (or *diffeithwch*) and *anialwch*. See *Anialwch*. The statement made in a Welsh Dictionary published in 1866 that *diffaeth* was unknown in the language before the time of Dr. Owen Pughe (1759—1835) is utterly groundless. In a passage of the Gododin (269), the printed editions have *diffeith*; but the rhyme shows that *diffaeth* is the correct reading.

Diffaith. . . Derivatur a *di*, particula negativa, & *faeth*, cultus, a, um.—*Gloss. in Leges Wallicas* (1730), 566.

Diffaeth, *pl.* diffaethion, diffaethydd, *sm.* a barren, sterile, or infertile place; barren land; a desert, a waste. See *Diffaith*.

Syn-lama, 'ng nghanol *diffaeth* sych pan glyw
Y llethri 'n tarddu gan reieidr byw.
Blackwell: Ceinion Alun, 154.

Digitized by Google

Diffaethdir, -oedd, *sm.* barren, sterile, or uncultivated land; waste land; a wild, a waste.

Am yr hwn ddryginoi y mae y *diffaethdir* myglyd, a'r planwydd yn ffrwytho heb addfedu byth, yn dystiolaeth.
Esgob Parry: Doeth. x. 7.

Diffaethfa, -oedd, fëydd, *sf.* a barren, sterile, desolate, or uncultivated place; a waste, a wild.

Adeiladant hefyd yr hen *ddiffaethfa*, cyfodant yr anghyfanneddfa gynt, ac adnewyddant ddinasoedd diffaeth, ac anghyfannedd-dra llawer oes.—*Esgob Parry:* Ess. lxi. 4.

Gweddïwn ar Dduw am roi Yspryd ei ras i bob gradd ar ddynion yn ein mysg, fel yr adeiladont yr hen *ddiffaethfa*.
Charles Edwards: Hanes y Ffydd (1671), 240.

Diffaethfaoedd tywodlyd yw y rhan fwyaf o'r wlad hon.
R. Roberts: Dacaryddiaeth, 254.

Nid trwy eu deall eu hunain . . . y prophwydasant y gwirionedd y byddai Babilon yn *ddiffaethfa* anial.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 162.

Ust! hoen-llais sy'n lloni'r ddiasthr *ddiffaethfa*.
Gwyliedydd, v. 378.

Diffaethle, -oedd, *sm.* a barren or uncultivated place; a waste, wild, or desert; a place overgrown with thickets.

Ni a ddeallwn nad oedd dynolryw yn hanfod chwaith er tragywyddoldeb . . . wrth ystyried, ym mhlith amryw bethau ereill, y modd y cynnyddodd ac yr ymhelaethodd celfyddydon a doethineb a gwybodaeth, a'r modd y dechreuwyd preswylio'r gwledydd oeddynt gynt yn *ddiffaethleoedd* anghyfannedd.—*Ed. Samuel:* Grotius, i. 7.

Yr ydym wedi dyfod i bellenig randir daiar, i ardal Scythia, i anhygyrch *ddiffaethle*.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 30.

Diffaethwch, *sm.* a desert; a place devoid of vegetation; a barren place or district; a solitude; a waste. See *Anialwch*, and adj. *Diffaeth*.

Adeiladant hefyd hen *ddiffaethwch*, cyfodant anghyfanneddfa y rhai gynt, ac adnewyddant ddinasoedd *diffaethwch*, a'r lleoedd y rhai a fuant anghyfannedd drwy lawer oes.
Esgob Morgan: Ess. lxi. 4 (cf. xliii. 19, 20).

Efe a'i cafodd ef mewn tir anial, ac mewn *diffaethwch* gwag erchyll.—*Esgob Parry:* Deut. xxxii. 10.

Gosodaf dy derfyn o'r Môr Coch hyd fôr y Philistiaid, ac o'r *diffaethwch* hyd yr afon.—*Ecs.* xxiii. 31 (ed. 1630).

Eu bod yn gyffelyb i'r llwynogod yn y *diffaethwch*.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 242.

Diffaith, *pl.* diffeithion, *a.* [C. *difeid*, *diveyth*, *dyveyth:* cf. *diffaeth*, adj.] 1. barren, sterile, waste, desert, desolate, uncultivated, wild; devastated, wasted, laid waste; uninhabited; difficult of access; rugged, awkward, difficult.

Ysgynnu ar y uarch. a cherdet raodaw a oruc eithafoed byt. a *diffeith* vynyded.—*Mabinogion*, 170 (cf. 183).

Y gwr a vuassei annorchyfegedic kynno hynny, yr awr honn a edewit y mywn glynneu *diffeithon*.
Brut y Tywysogion, 44 (cf. 42, 90).

Nyt y fford digrifaf a chyuanhedaf a beris ef y cherdet. namyn y fford *diffeithaf* a diheuaf uot llatron yndi.
Mabinogion, 270 (cf. 195).

Ereill yr coedyd ar kerryc ar mynydoed *diffeith* y geissaw amdiffin eu heneideu.—*Ystat. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 116 (cf. 40, 51, 52, 58, 126, 164).

Gwedy gwediaw Duw. a Iago y dygwydwys y muroed. ac y mae yn *diffeith* yr hynny hyt hediw.
Ystat. de Carolo Magno, col. 383.

Diffeith pob gwlad gad gynnyt.
Prydydd Bychan: M.A. i. 380.

Ac adaw a wnaethant Dyfet a Cheredigyawn yn *diffeith*. . . . Y vlwydyn rac wyneb y diffeithawd y Ffreinc Gwhyr a Chedweli ac Ystrat Tywi; ac y trigyawd y gwladoed yn *diffeith*.—*Brut y Tywysogion*, 56.

Lle difudd i dafawd blysig
Lle *diffaith* lle diffoddedig.—*Hywel Ystoryn:* M.A. i. 519.

Byd *diffaith* yw bod heb Dduw.—*D. ab Gwilym*, ccxlvi. 10.

A phan oedd hi yn ddydd, yr aeth e o yno i ymddaith i le *diffaith*.—*W. Salesbury:* Luc iv. 42 (cf. Matt. xiv. 15).

Lle nad el ar ei llon daith
Yw uffern, abred *diffaith*.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 201 (cf. 3).

Bychan a feddyliodd Napoleon ar feusydd Austerlits a Iena mai i farw'n garcharor ar ynys *ddiffaith* ac anghyspell St. Helena yr oedd ei holl oruchafiaeth yn ei dywys.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 4.

Môr diffaith [C. *mor difeid* (C.V.), gl. *pelagus*] the barren, waste, desolate, or desert sea; the trackless main. Cf. Gr. ἀπρύγετος, one of the Homeric epithets of the sea (*Il.* i. 316; *Od.* ii. 370).

Finaun Wenestir *mor diffeith*.—*Llyfr Du:* A.B. ii. 60.

Decuetdyd herwyd annyan
Ny cheif dynnyadon didan
Mor diffeith ef nys diffawd
Rac meint vyd frawd frydeu tan.
Hengwrt Ms. 202 (cf. M.A. i. 363).

Gwery uanon vanwl gwar uetwl veith
Gorne gwawr vore ar *vor diffeith*.
Cynddelw: M.A. i. 217 (cf. 268).

Twryf torredwynt mawr uch *mor diffeith*.
Llygad Gwr: M.A. i. 344.

Oet beirtcar bart clvm di ledieith
Oet cadarn agor *dywinmor diffeith*.
Cynddelw: A.B. ii. 59 (M.A. i. 213).

Am dybied felly yr oeddwn yn ffol, megys un a fai yn ceiso (â rhwyd) ddala pysgod yn yr awyr, neu â bytheuaid ddilyn ol ysgyfarnog yn y *môr diffaith*.
Marchog Crwydrad, i. 1.

Arabia Ddiffaith (=Arabia Ddiffaeth), Arabia Deserta.

Yr anialwch, ym mha un y teithiodd Israel yn agos i 40 mlynedd, oedd ran o Arabia Garregog, yr hon a derfynir o du y Dwyrain gan *Arabia Ddiffaith*.
Sim. Lloyd: Amseryddiaeth, 73.

Arabia Ddedwydd sydd yn sefyll o du y deheu i *Arabia Ddiffaeth*.—*Th. Charles*, s.v. 'Arabia' (ed. 1853).

Tir diffaith, barren, sterile, or waste land.

Maer a chyghellaur . . . a dylyant cadu dyfeyth y brenhyn a thygu drostau ban uo reyt ac o dewnydya ew y *tir diffeith* hwnnw wynt a dylyant eu suyd arnaw.
Cyfreithiau Cymru, i. 190.

Dyfroedd drwg, a *thir diffaith* sydd yma.
Esgob Morgan: 2 Bren. ii. 19.

Ni fedir y gwenith ar ganol *tir diffaith*.
Dafydd o'r Nant: Cyfr. y Beirdd, 91.

2. unclean, filthy, dirty, foul, nasty, disgusting; ugly; hateful, odious.

Nid *diffaith* ond ystlum.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 21 (cf. 153, 173).

Dwfr, yr hwn sy'n oestadol yn sefyll yn ei unlle, er gloewed fyddo, y mae yn llygredig ac yn *ddiffaith*.
Huw Lewys: Perl, 87.

Pechod puteindra yw'r llyn *diffeithiaf*, a'r pwll bryntaf, a'r soddfa ddrewllyd, i'r hwn y llifeiria ac y rhed pob pechod, a phob drygioni arall.
Ed. Iames: Hom. i. 163 (cf. ii. 23).

A'r pedwerydd noswaith dywedir iddynt ddygwydd i fewn tŷ dyhirwr, lle y cawsant letty *diffaith;* eto drannoeth rhoddes yr Angel y ffiol aur i wr y tŷ.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd (1671), 164.

Delw o bren gwern dan fernais,
Grin *ddiffaith*, o saerwaith Sais.—*D. ab Gwilym*, lxxvi. 25.

Cas gan feinwar ei charu
O waith y farf *ddiffaith* ddu . . .
Gwyll hyllwedd, gwell ei heillio
Ag ellyn, neu lem gyllell,
Farf *ddiffaith*, ni fu waith well.—*Gronwy Owain*, 21.

3. base, vile, knavish, dishonest, wicked, vicious, evil; disobliging, unkind; that does no good turn or kind act.

Escyp agkyueith *diffeith* difid.—*Myrddin:* A.B. ii. 27.

Pwy sy *ddiffaith*? Y neb ni chelo ei gyfrinach ei hunan.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 55.

Chwerwder yw gwenwynuar *diphaith* vedhwl dirann o lawenydh.—*Ymborth yr Enaid*, 7.

Digitized by Google

Fe wyddai Grist, yr hwn a welodd eu calonau hwy, eu bod oddi fewn ger bron Duw, yn ansanteiddiaf, yn *ddiffeithiaf*, ac ym mhellaf oddi wrth Dduw o holl wŷr y byd.
Ed. Iames: Hom. i. 67 (cf. ii. 202).

Pwy ni chlywodd mor *ddiffaith* ac mor echryslawn y lladdodd Alphonsus Diazius . . . ei frawd Ioannes Diazius, gwr gwirion, sanctaiddiol dros ben!
M. Cyffin: Diff. (1671), iv. 4.

Am hyny *diffaith* iawn y mae ein gwrthwynebwyr ni yn myned rhagddynt.—*M. Cyffin:* Diff. ii. 14.

Pa waelaf, pa ddyhiraf, pa *ddiffeithiaf* fyddo'r peth y tynger iddo, mwyaf a gwaethaf o'r cwbl yw'r llw.
E. Llwyd: Llwybr Hyff. 160.

Laban . . . a'i twyllodd ef â'i ferch *ddiffaith* anhawddgar Leah.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. II. iii. 34 (cf. i. 22).

Ni buasai raid iddo ond ymrithio ar lun rhyw fudrogod *diffaith*, fe'u tybiasent eu hunain yn rhwym i gymmeryd y rhai hyny.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 101 (cf. 115).

Os i ysgryd *diffaith* y rhoddir [addoliant], mae yn gyfeiliornus ac yn gelwyddog.
Ed. Samuel: Grotius, iv. 3 (cf. v. 8).

Ni chewch ddiben o'ch penyd,
Diffaith a fu'ch gwaith i gyd.—*Gro. Owain*, 96 (cf. 56).

A hyny a wnânt yn ddiammheu, os coeliwn eu bod yn perthyn imi, er *diffeithied* y bôm yn byw.
Ed. Samuel: Holl Ddyl. Dyn, i. 22 (cf. ii. 4).

O ystryw ni ddaw estron
Diffaith â'u taith i'r wlad hon.—*I. B. Hir:* Gwaith, 116.

Y dyn mwyaf diras a *diffaith* yn yr holl gymmydogaeth yw efe.—*Ioseph Harris:* Gweith. 125.

Myn y gwr diffaith! by the evil one!—*P.*

Dyhir a diffaith, knaves well met.—*W.*

Dyn diffaith, a person indisposed to do any act of kindness; a disobliging or knavish person; a knave, a base fellow.

Os iawn ystyriwn faint sydd o *ddynion diffaith* ym mhob gwlad.—*Ed. Samuel:* Grotius, i. 12 (cf. 20).

Gan fy rhoi i byth gar dy fron
O fysg y *dynion diffaith*.—*Edm. Prys:* Salm. xli. 12.

Diffaith, *pl.* diffeithion, diffeithiau, *sm.* 1. a desert, a wilderness, a wild, a solitude; desolation.

Tri argay teruyn ysyd: breint; a phriodolder a chygwarchadw ar *diffeith*.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 774.

Peredur ynteu a gerdawd y bore drannoeth racdaw talym mawr o *diffeith*. heb gaffel kyuanned.—*Mabinogion*, 218.

Kychwyn a wnaeth ynteu ef ac Assaracus ar holl gynnulleitua or gwyr. ar gwraged. ar meibon ar anrheitheu gantunt hyt yn ynialwch y *diffeith* ar koedyd. . . Ac wrth hynny y mae Brutus yn menegi idaw bot yn well gantunt hwy eu presswylaw a chartrevu yn y *diffeith*.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 43 (cf. 44, 45, 49).

A glywaist ti chwedl y Fronfraith
Wrth wr a rodiai'r *diffaith*?
Na fid gelyn dy gydymaith.—*Iolo Mss.* 261 (M.A. i. 172).

Brân a gânt chwedl yn *niffaith*
Wrth ag oedd ei chydymaith:
Ys gwynfyd bodd heb obaith.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 99.

Dewch ac edrychwch ar weithredoedd yr Arglwydd, pa *ddiffeithiau* [*anghyfanneddau] a wnaeth ef ar y ddaiar.
Llyfr Gweddi Gyffredin 1567 (Salm. xlvi. 8).

Dinas a ddiffydd *ddiffaith*.—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Caraf y brooet breint hywret
Ae *diffeith* mawrueith ae marannet.
Hywel ab O. Gwynedd: M.A. i. 277 (cf. 74, 75).

Ac y hebyrgoui y deuot honno onadhunt y duc yr Arglwydh hwynt drwy y *diphaith* yn hir o amser.
Lucidar, § 83 (cf. 86).

At Wynn i'r Dyffryn ar daith y rhedaf,
Fal rhydain dros *ddiffaith*.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 48.

Mal y goddefa y cawrfarch daith, a gwres, a newyn, a syched, trwy *ddiffeithion* o dywawd heb leegäu; mal hyn cadernid dyn a'i cynnal ef trwy bob caledi.
W. Owen Pughe: E.D. i. 6.

Dynion o ymarweddiad gorphwyllig, a gymmerant arnynt oruchder crefydd, ac a grwydrant y *diffaith*, gan gyegu mewn murddynod ac ogofau.
W. O. Pughe: Palestina, 18 (cf. 3).

2. a waste, a waif; that which is unowned or unclaimed; a derelict.

Diffaith brenin, the king's waif or waste, being anything unowned, comprising the sea, wilds, downs, forests, highways, and all unowned or unclaimed goods or property; and in addition to these should be reckoned the unmarried women, on account of the king being considered their guardian, and he therefore received the *Amobr*, or virgin fee, on the marriage of every one according to their respective rank. See *Pynfarch*.

Pop da heb perchenauc ydau e syd *dyfeyth brenyn*.—*C.C.* i. 78 (cf. 170, 182, 186, 190, 486, 490; ii. 116, 296, 608).

Diffeith y brenhin yw teruynv kymydeu a chantrefoed.
Cyfreithiau Cymru, ii. 366.

O derfydd na ddylyo yr un or ddwy bleit y tir hwnnw, hwnnw a fydd *diffeith brenin*.—*C.C.* ii. 742.

Tri gobyr cyfreithiawl a ddyly brenhin . . . cyntaf yw rhoddi merch o rodd cenedyl ac estyn y wr, ef bieu y gobyr . . . y brenhin bieu gobyr gan y roddyat am hynny, canys *diffeith brenhin* yw morwyn os felly bydd am wahanu y *ddiffeith* ynteu ac ef fal na chaffo mwy, y caiff ynteu y gobyr hi.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 606.

Diffeith brenhin y dywedir uot morwyn ac vrth hynny y dyly y brenhin ei hamobyr.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 526.

Diffals, *a.* [ffals] not false, true, sincere.

Erchi idaw vynet y ouyn yr brenhyn. a vynnei varchawc ieuange *diffals* diwyt yn wr iddaw.—*Doethion Rhufain*, § 32.

Diffawd, *a.* [ffawd] luckless, unfortunate, unlucky.

Ry gelwir Trenn tref *difawt*.
Llywarch Hen: A.B. ii. 284 (M.A. i. 109).

Diffawd, *pl.* diffodion, *sf.* [ffawd] misfortune. See *Anffawd*.

Diffawdd, *s.* and *v.* See *Diffodd*.

Diffeithder, } *sm.* [diffaith 2] knavery, knavish-
Diffeithdra, } ness, dishonesty; vileness, viciousness, baseness; foulness, uncleanness, filthiness, lewdness.

A wnel drwch o'i greulonder,
Yng ngwlad, a phob *diffeithder*,
Ofned na ofn ond Duw Ner.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 98.

Pa anlladrwydd, *diffeithder*, aflendid, meddwdod mochaidd, cybydd-dod, bydolrwydd!
Sam. Williams: Amser (1784), 142.

Ni byddai cymmaint o *ddiffeithder*, drygfoes, annuwioldeb, ac anwiredd ar droed ag y sydd y dydd heddy ym mhlith dynion . . . ond o herwydd hyn.—*Moses Wiliams.*

Diffeithdir, -oedd, *sm.*=*Diffaethdir*.

Gwr biheu tretheu tra thued Llundein
Diffeithdir Prydein ae chyvanhed.
Phylip Brydydd: M.A. i. 378.

Dechreua y *diffeithdir* coedog o fewn i dair neu bedair milltir.—*Cylchgrawn*, i. 73.

Diffeithell, *a.f.*=*Diffeithyll*.

Diffeithfa, -oedd, fëydd, *sf.* a barren, sterile, infertile, or desolate place. See *Diffaethfa*, from which it differs only in orthography.

Pa hab y cerwch y *diffeithfa* symleidwyllt yna!
Iolo Mss. 174.

A phan ei clybu yr Iesu, ef a dynodd o ddyno mewn llong i *ddiffeithfa* o'r neilldu.—*W. Salesbury:* Matt. xiv. 13.

Dieithriaid a fwytânt *ddiffeithfaoedd* y breision.
Esgob Parry: Esa. v. 15.

Ar gyffiniau y Môr Coch y mae llawer o *ddiffeithfaoedd* tywodog, heb ddim dwfr na gwyrddlesni.
Sim. Lloyd: Amseryddiaeth, 73.

Digitized by Google

Diffeithfan, -au, *sf.* a desert or waste place.

Diffeithfor, -oedd, *sm.*=*Môr diffaith* (s.v. *Diffaith*, adj.).

A chychwyn a wnaethant y eu llogeu a drychauel hwyleu a chyrchu y *diffeithwor.*—*Ystoria Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 53.

Diffeithgi, gwn, *sm.* a knavish dog, a base knavish fellow.—*C.S.*

Diffeithiad, -au, *sm.* a laying waste, devastation.

O *diffeithiad* Lloegr llafn dyar wrth ud
Nyd wrth fedr ei alar.—*Gwalchmai:* M.A. i. 201.

Dechreuai eisys y *diffeithiad* bâr.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 171.

Diffeithio, *v.* 1. to devastate, to lay waste; to ravage; to destroy; to desolate; to depopulate; to spoil or mar; to be desolate.

Neur daroed idaw *diffeithaw* traean Iwerdon.
Mab. 135 (cf. 40, 97, 128).

Troilus a gerdawd yr vydin gyntaf. ac a ladawd y Groecwyr ac a *diffeithwys* y maes o honunt.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 28 (cf. 38).

Kany dyly *diffeithaw* namyn y tir y bo hawl arnaw.
Cyfreithiau Cymru, ii. 90.

Ac yna y *diffeithawd* y Normanyeit Loeger, a Brecheinawc, a Morganwc, a Gwent, a Buellt Gwnllwc.
Brut y Tywysogion, 16 (cf. 20—356).

Muroed y keyryd a *difeithir.*
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 267.

Tri pheth a *ddiffeithia* y byd: brenin ffol heb gynghor; ynad heb gydwybod; a gwas heb ofn.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 139.

Iarllaeth yr Angeler hwnnw wedy llad eu harglwyd dywyssawc ac eu kiwtawtwyr yg Glyn y Mieri a *diffeithwyt* yn hir ac ny chauas y genedyl honno giwtawtwyr o hynny allan.—*Ystoria de Carolo Magno,* col. 391.

Ieithoedd lledryw yw pob iaith arall a geir yn awr mewn byd a bod, ac nid ydynt yn berchen bonedd o ddechreuad fel y Gymraeg; ac anurddo a *diffeithio* gwaith Duw y mae pawb a ddygont ar arfer eiriau alltudiaith i'r Gymraeg.
Cyfrinach y Beirdd, 29.

Mewn un awr y cyfoeth mawr a *ddiffeithiodd* [*aeth yn ddiffaith].—*Thomas Huet:* Dad. xviii. 17.

2. [diffaith 2] to grow tired or sick (of); to be disgusted (with).

Yr wyf wedi diffeithio ar y gwaith, I am disgusted with the work; I am sick or tired of the work.—*C.S.*

Diffeithiol, *a.* 1. tending to devastate, devastating, ravaging; destructive.

2. of a vile or vicious tendency; tending to be knavish; vile, knavish.

Am ei waith mor *ddiffeithiawl*
Ei ddwyn orch'mynaf i ddiawl;
Ac yn ammhorth i'r porthmon
Distryw o Fynyw i Fon!—*Ieuan Brydydd Hir:* Gwaith, 79.

Halen y ddaiar ydyw hon,
I faethu bron *ddiffeithiawl.*—*Iago Trichrug.*

Diffeithle, -oedd, *sm.* a barren place; a waste, wild, or desert place; a place overgrown with brushwood. See *Diffaethle.*

Diffeithlwyn, -i, *sm.* a thicket, a brake.

Deol-wraig a'r fynaig fwyn
Daffithlen mewn *diffeithlwyn.*—*D. ab Gwilym,* cxiv. 33.

Diffeithug, } **Diffeithwg,** } *sm.*=*Diffeithwch, Diffaethwch.*

Ef goreu rieu hyd y ryduc heul
Hwyl diruawr *diffeithuc*
Meith y ry yr hynn nym aduc
Meirch breischir vch brasgeirch hafluc.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 280.

Diffeithwas, weis, weision, *sm.* a vile fellow, a knave, a caitiff, a villain.

Hwy a wnânt fwy cyfrif o bob coegwr difias, ac a gymmerant bob gwael *ddiffeithwas* o'u blaen hwynt.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 242.

Yn yr hwn sybwll o lygredigaeth, ogof marwolaeth, daiardy galar, y gadâwn y *diffeithwas* annheilwng yn pydru.
R. Vaughan: Ym. Duwioldeb (1675), 47.

Yr hwn a fedd, ryfedd Ri,
Y gallu 'n rhydd-deg ollol
I droi'r oes *ddiffeithwas* ffol
I boen echrydus di baid,
Yn ffau gwŷn, gorff ac enaid!—*Daniel Ddu,* 198.

Diffeithwch, *sm.* 1. a desert, a wilderness, a wild, a waste, a solitude; devastation; desolation; destruction. See *Diffaethwch.*

Yn Iwerdon nyt edewit dyn byw namyn pump gwraged beichawc y mywn gogof yn *diffeithwch* Iwerdon.
Mab. 43 (cf. 47, 163, 186, 273).

Gedwch wynt y gyuanhedu *diffeithwch* dan dragywydawl geithiwet ywch.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 164 (cf. 228).

A dotwei or hwch un *diffeithwch* a cholli yr hawl.
Cyfreithiau Cymru, ii. 200.

Gwedy gwelet o Reinald ac o Wiliam y Brewys y *diffeithwch* yd oed Lywelyn yn y wneuthur yn y gyfoeth.
Brut y Tywysogion, 300.

Pan yttoed y llu yn kerdet *diffeithwch* Nauar ac Alanar.
Yst. de Carolo Magno, col. 386.

O *diffeithwch* y keyryd y doluryant y kiwtawtwyr.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 148.

Efe a dry y llifeiriaint yn *ddiffeithwch,* a'r ffynonnâu dyfredd yn hyspydd.
Llyfr Gweddi Gyffredin 1567 (Salm. cvii. 33).

Y mae ganddynt ymadroddion yn arwyddo gwastadedd yn y mynydd, *diffeithwch* noeth tywodlyd, *diffeithwch* carregog, *diffeithwch* diddwfr.—*Cylchgrawn,* ii. 128.

Tri *diffeithwch* tref: llif; tân; ac ymrysonau.
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 236.

Ni ffaetha ei *ddiffeithwch.*—*G. Mechain:* Gwaith, i. 19.

2. vileness, viciousness, badness, foulness, uncleanness; knavery, knavishness, baseness. See *Diffeithder.*

Ni ludd bendith *ddiffeithwch.*—*Diareb.* (M.A. iii. 168.)

Lle y pallai anadl a thafod dyn yn gynt nag y gallai gwbl gyhoeddi y pechod hwn yn ol ei *ddiffeithwch* a'i anferthrwydd.—*Ed. James:* Hom. i. 167.

Petr Aloisius, ar ol gwneuthur o honaw ef y *diffeithwch* a grybwyllwyd o'r blaen, a gafodd yn wastad wedi hyny ei goledd fal anwylyd ym mynwes ei dad, y Pab Pawl y Trydydd.—*M. Cyffin:* Diff. (1671), iv. 5.

Diffeithwr, } wyr, *sm.* 1. a base or vicious
Diffeithiwr, } person; a knave, a scoundrel, a rascal.

Am y *diffeithwr* i'r hwn y rhoddais i y ffiol aur, nid oedd ef i gael dim yn y byd arall.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 164 (cf. 184).

Nid oedd mab Solomon ond dyn meddalaidd ffol; a mab Hezeciah yn *ddiffeithwr.*—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 130 (cf. 93).

Myn gyfraith ar *ddiffeithwyr,*
Dial gam, deol y gwŷr.—*I. B. Hir:* Gwaith, 43.

A pheth am y cast a wnaeth y *difeithiwr* dauwynebog â Dido druan!—*Gronwy Owain,* 295.

Rhoddwyd ef i'w gadw mewn tŵr, a arferid i ddiogelu *diffeithwyr* a chrwydriaid.—*Cylchgrawn,* i. 295.

2. an inhabitant of a desert or wilderness.

Ger ei fron ef y gestwng y *diffeithwyr* [*y crwm y rhai a drig yn yr anialwch], a'i elynion a lyfant y llwch.
Llyfr Gweddi Gyffredin 1567 (Salm. lxxii. 10).

Diffeithwraig, wragedd, *sf.* a vile or vicious woman, a jade.

Ni'th gâr eithr rhyw *ddiffeithwraig.*—*Cyfr. y Beirdd,* 195.

Wedi ymroi o honaw i seguryd a maswedd, efe nid yn unig a wnaeth odineb gyd â'r *ddiffeithwraig* Dalilah, ond hefyd a ddaliwyd gan ei elynion.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 193.

Diffeithyll, *c.* } *a.* [diffaith+hyll, *f.* hell] vile
Diffeithell, *f.* } and ugly.

Dy bicell *ddiffeithell* ddu
A bair aeth; paid â'm brathu!
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 57.

Digitized by Google

Diffenestr, *a.* [ffenestr] windowless.

Yr oedd yr adeiladau'n myned yn uwch, muriau gwgus *diffenestr*, a llaid du gyda'u godrau.
O. M. Edwards: Tro yn yr Eidal, 197.

Differ, *v.* [L. *defero*? C. *dyffres*] = *Differu, Differyd.*

Differ, -ion, *sm.* defence, protection.

Tri *differ* rhag gwys gorsedd neu lys y sydd.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 310 (cf. C.C. ii. 546).

Differ-dduwiau, protecting gods or deities.

Pa beth yw'r saint i'r rhai, yn wrthwyneb i arfer y brif-eglwys gynt, yr adeiladir temlau ac eglwysydd, ac y cyfodir allorau, onid Dii Patroni, *differ-dduwiau* [*diffryd] y delw-addolaidd Genedloedd?—*Edward Iames:* Hom. ii. 93.

Differiad, -au, *sm.* a defending or protecting, protection.

Differiant, *sm.* protection, preservation, defence.

Yna gofynai Pilat i'r Iuddewon, 'Pa beth pwyll y gair Osanna?' Yna ydd atebawdd yr Iuddewon, 'Pwyll hyny o air yw, 'Dod ini *ddifferiant;*' neu ynte, 'Arglwydd, dod ini waredigaeth.'—*D. Fychan:* Efengyl Nicodemus, i.

Differiog, *a.* having defence or protection; guardian, protecting.

Yr arynaic lew llaw *diferiawc.—Meilir:* M.A. i. 190.

Differiol, *a.* defensive, protective, guardian.

Differth, *v.* [cf. *diffyrth*] to defend, protect, or guard; to deliver.

Differth=Differodd: cf. *cymmerth=cymmerodd.*

Ag yna o duundeb y gwyrda y barnawdd y brenhin y wreic yr hwn ae *differth* rac y marw o newyn. ac nys dylyei yr hwn ae gedewis dim o honei.—*Doethion Rhufain,* § 44.

Annobeithyaw yr hynny hagen nys gwnaeth. namyn medylyaw na *differth* y santolyaeth Dauyd. nac doethineb Selyf heb pechu.—*Amlyn ac Amig,* col. 1096.

Dvw *differth* nefwy rac llanw llet ofrwy.
Taliesin: A.B. ii. 147.

A hynny ae *differth* rac dyrnawt agheuawl.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 213.

A Dewi an differ an diffyn uyt
Ae wyrth an *diffyrth* rac pob diffyt.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 271 (cf. 158).

Differu, **Differyd,** **Differ,** *v.* to protect, to defend; to fend; to guard, to ward; to deliver.

Ac os ovynn ysyd arnawch chwi. ym kyffess y Duw mi ach *differaf.—Mabinogion,* 19 (cf. 21, 22, 191).

Pwybynnac a *differo* march rac lleidyr pedeir keinnawc a dyly y gann y perchenn yg kyueir pob buch or a talho y march pei gwerthit.
C.C. i. 572 (cf. 708, 790; ii. 422, 702, 706).

A hyt hynny y *differei* rac gwneuthur o neb gam idaw yn oreu ac y gallei.
Yst. de Carolo Magno, col. 412 (cf. 430, 433, 448).

A phwy bynhac o damwein a gyfarffei ac ef nys *differei* y arneu ef rac Caletuwch.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 227 (cf. 104).

Yr neb a wnaeth y nef ar dayar. yth orchymmynnaf. a phoet ef ath *ddiffero* rac drwc. . . A phoet wynt ath-*differo* hediw rac agheu.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 417.

Gwae . . . ni *ddiffer* ei ddevaid
Rhag bleiddiau Rhuveiniaid.
Taliesin: M.A. i. 98 (cf. 62, 180).

Dewi *differwys* y eglwysseu.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 273 (cf. 271, 304).

Differ vi vy Ner rhac nych uffern gnut.
Casnodyn: M.A. i. 427 (cf. 228, 330).

Differ dy wlad dwg fi attad.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 567 (cf. 304).

Meredydd ab Rhydderch ab Caradawc ai *differes* yn gadarn.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 544.

Aed lew i gynhwrf cad, Duw a'i *differ.*
Diareb. (M.A. iii. 146; cf. 153.)

Differydd, -ion, *sm.* a defender, a protector, a guardian; a fender.

Difflais, *a.* secure, safe, fast; sure, certain; complete; perfect.

Llawen yw gennyf inneu heb y Manawydan nab Llyr. a Duw a dalo yr gwr yssyd yn rodi y minneu y gedymdeithas mor *difleis* a hynny.—*Mabinogion,* 45 (cf. 7).

Ac nyt ar y draet yd ymlynei y brenhin yr ychen. namyn oe eisted y mywn kadeir o eur. a deu vul gadarn yn y harwein o bop tu idi yn *difleis* didramgwyd.
Campau Charlymaen, § 6.

Ef a dywanawd ar Sarasin du diffygyawl yn llechu y mywn llwyn. ae daly a oruc. a nydu pedeir gwialen. a gwneuthur pedwar reuawc. ae rwymaw wrth bren yn *difleis.—Campau Charlymaen,* § 109 (cf. 4, 21).

Ar deulu Brenneych beych barnaswn
Dilyw dyn en vyw nys adawswn
Kyueillt a golleis *diffeis* oedwn [*al.* vedwn].
Aneurin: God. 78 (cf. A.B. ii. 65.)

Nid ef ym crews Dews *diffeis*
I wneuthur amhwyll na thwyll na thrais.
Cynddelw: M.A. i. 264.

Hon yw fy ngorphwysfa i yn oesoedd *difflais.*
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 574 (cf. 566).

Tri pheth a arddyrchafael gwr: gwraig ddyun ddiwair; arglwydd diwyd diwith; a *difflais* heddwch.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 258.

Yng Nghefn yr Ais, *difflais* deg,
Y bydd trydydd nod rhydeg.—*Iolo Goch.*

Diffian, *a.* [=diflan] evanescent, evanid, fleeting.

Diffian, *v.*=*Difflannu.*

Difflanedig, *a.* vanished, disappeared.

Difflaniad, -au, *sm.* a vanishing or disappearing.

Difflanrwydd, *sm.* evanescence, fleetingness, vanishment.

Difflannu, **Difflanu,** *v.* [=diflannu] to disappear, vanish, or evanesce, to vanish away.

A *difflannu* a oruc y llew y wrthaw.
Mab. 187 (cf. 51, 71, 173, 234, 242).

Gwedy daruot bwytta. *difflan* a oruc Owein ymdeith.
Mab. 170.

Ac ar hynny *difflannu* a oruc y kythreul ymmeith.
Yst. de Carolo Magno, col. 495.

Ac ar hynny *difflannu* a oruc ef heb wybot nac ohonaw ef nac or ysgwier pa le yd aeth y wrthunt.
St. Greal, § 10 (cf. 5, 54, 191, 194).

Fe *ddifflanna'r* holl ychydig weddill o falchder a hunandyb a fo ynom yn fuan allan o'n meddyliau.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 74.

Difflant, *sm.* vanishment, evanescence, disappearance; oblivion.

Diffleisdor, *sm.* [difflais+dor] a cover of safety, a secure covering.—*P.*

Diffleistor Teutor tor diffryt
Diffyrth hael hir [*al.* tir] Brochuael bro glyt.
Cynddelw: M.A. i. 246.

Diffleisiad, *sm.* a securing; a defending.

Diffleisio, *v.* to make safe or certain; to secure; to defend or protect.

Diffleisiaw y swyddawg ar ganlyn hawl.
H. Car. Mag. (*P.*)

Diffleisiog, *a.* unexposed; secure, safe.

Diffleisiol, *a.* tending to make secure.

Diffodd, **Diffoddi,** *v.* [ffawdd; C. *difydhy:* with *ffawdd* cf. Gr. φῶς (gen. φωτός), φάος] to quench, to extinguish, to put out (anything that burns, literally and figuratively); to suppress; to become extinct or extinguished; to go out.

Tri pheth a fyddant gystal a'u hamgen: dwr brwnt i *ddiffodd* tân; gwraig hagr i wr dall; a chleddyf pren i wr llwfr.—*Trioedd Doeth.:* M.A. iii. 265.

Digitized by Google

Tri chwyn a *diffyd* pob kwyn pan gyfarffont yn y llys.
Cyfreithiau Cymru, ii. 410.

Os y kyntaf hagen a *diffyd* y tan oll neu a gymer ffyd y gan yr eil ar y *diffodi* kynn y adaw ny thal y kyntaf dim drosti kyt llosco yr odyn gwedy hynny.—*C.C.* i. 414.

Megys y *diphydh* y dwfyr y tan. velhy y *diphydh* y bedydh y pechawt. A pheth aralh yw. y dwfyr ef a wlych pob peth budyr. ac ef a *dhiphydh* sychet.—*Lucidar*, § 34 (cf. 101).

Ac fal hyny y cawsant wehelyth Gyneddaf Wledig fraint teyrnedd ar wledydd Cymru, a *diffawdd* yr hen wehelythoedd a fu cyn no hyny.—*Iolo Mss.* 197.

Pob rhodd gynt a *ddiffoddes*,
Heb na grym, na byw, na gwres.
L. G. Cothi, III. ii. 17 (cf. xii. 44; IV. iv. 45).

Oer yw y cariad a *ddiffydd* er un chwa o wynt.
Diareb. (M.A. iii. 174.)

E ddywedodd Gerson ddarfod, drwy luosogrwydd seremoniau coegion, *ddiffoddi* holl rinwedd yr Ysprŷd Glân, yr hwn a ddylai lawn weithio ynom, a helyd ddarfod *diffodd* pob duwioldeb.—*Morus Cyffin:* Diff. iv. 24.

Y mae ein lampau yn *diffoddi*.—*Matt.* xxv. 8.

Fe rydd pob un fenthyg ei law i *ddiffodd* tŷ ar dân.
Theo. Evans: D.P.O. 116.

Tair gormes a ddaethant ar Ynys Prydain ac a ddarfu am danynt. . . Y drydedd a fu yn amser Beli ab Manogan, a bradgyfarfod ydoedd, ac efe ai *diffoddes*.
Trioedd: M.A. ii. 59.

Serch at y byd hwn, ac ofn erlidigaeth, a *ddiffoddai* eu sel.
Theo. Evans: D.P.O. 283.

Diffodd llid, to quench, appease, or allay wrath. —2 *Bren.* xxii. 17.

Yr ydym yn deall ddarfod i Grist lonyddu a *diffodd llid* ei Dad, nid am ei fod ef yn unig yn Fab dyn, ond yn fwy o lawer am ei fod ef yn Fab Duw.
Edward Iames: Hom. iii. 38 (cf. 57).

Diffodd tân, to quench, extinguish, or put out fire.—*Ier.* xvii. 27 (cf. Heb. xi. 34).

Er hyn o wyrthiau nefol, y barnwr anhydyn a barodd ei wanu â gwaewffon a phicellau, nes bod ei waed yn pistyllio allan ac yn *diffodd y tân*.—*Theo. Evans:* D.P.O. 339.

Diffodd canwyll, to put out or extinguish a candle.

Gweddïwn bawb na *ddiffodder canwyll* Israel.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 257.

Diffodd syched (=tori syched), to quench, allay, or slake thirst.—*Lucidar*, § 34.

Diffoddi priodolder, to extinguish a title.—*C.C.* i. 756, 774.

Myned yn niffodd, to become extinguished or extinct; to go out (as fire, &c.).

Diffoddadwy, *a.* extinguishable, quenchable; suppressible.

Diffoddawl, *a.* tending to quench or extinguish; quenching, extinguishing.

Diffoddedig, *a.* quenched, extinguished; extinct.—*C.C.* i. 530.

Difodedic yw er arderchawc vrenhin e Brytanyeid Emrys Wledic.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 284.

Erw ddiffoddedig, an extinguished acre; escheated land; land (for the want of an heir) escheated to the king.

Ny dyly bot *erw dyfodedyc* yn tyr kyuryw.
Cyfreithiau Cymru, i. 196 (cf. 168; ii. 1115).

Diffoddedigaeth, -au, *sf.* extinguishment, extinction.

Diffoddi, *v.*=*Diffodd*.

Diffoddiad, -au, } *sm.* an extinguishing, a
Diffoddiant, } quenching; extinction.

Cynnar *ddiffoddiad* canwyll.—*Cyfrinach y Beirdd*, 68.

Diffoddwr, wyr, *sm.* one who quenches or extinguishes, a quencher, an extinguisher.

Diffoddwraig, wragedd, *sf.* a female quencher or extinguisher; one who puts out.

Cynhwrf mynwes, dîles dwyll,
Cynnar *ddiffoddwraig* canwyll!—*D. ab Gwilym*, xxvii. 13.

Diffoddydd, -ion, *sm.* a quencher or extinguisher; a suppressor.

Cryflon ynt yn y crefydd,
Cryflon *ddiffoddyddion* ffydd.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 306.

Diffoddyr, -on, *sm.* an extinguisher, that which puts out (a candle, &c.).

Capan cornicyll y gelwir cap a wneir gan blant ym miscedd yr haf o frwyn gleision ar lun *diffoddyr* canwyll, neu dorth suwgr.—*Ystên Sioned*, 71.

Diffordd, *a.* 1. without a road or way, pathless, trackless; impassable.

Mewn tir diffaith *diffordd* diddwfr yn sant yt ydd ymddangosais.—*D. Ddu Hiraddug:* M.A. i. 564.

Pa fodd y maent yn gallu, trwy feusydd *diffordd* yr wybren, gyrchu dros fôr a thir i'r lleoedd yr oeddynt gynnefin â hwynt y flwyddyn o'r blaen?—*Gwyliedydd*, v. 302.

2. having no way, means, expedients, or resources, shiftless, helpless.

Dyn diffordd, a shiftless person.—*C.S.*

Diffordddiant, *sm.* the state of being without a road; the condition of being shiftless or helpless.

Diffred, } *v.* [differ: C. *dyffres*] to protect, to
Diffredu, } defend, to guard.

Cas o hir gwychauc
Rywynyauc *diffret*—*Aneurin:* God. 903 (cf. 837).

Rac pob anuaus pob yn ddilis dinas *diffred*.
Taliesin: M.A. i. 44 (cf. 114).

Diffred, -ion, *sm.* defence, protection.—*A.B.* ii. 172.

Diffrediad, -au, } *sm.* a protecting; protection,
Diffrediant, } defence.

Ffaw dreig *diffrediad* i bobl Frython
Dwfn darogan dewin Drywon.—*Taliesin:* M.A. i. 31.

Diffredog, *a.* having defence or protection; defended, protected; guardian.

Diffredol, } *a.* protecting, protective, defend-
Diffredus, } ing, defensive, guardian.

Diffredu, *v.*=*Diffred*.

Diffreidiad, iaid, *sm.* [diffred] a defender, protector, or guardian.

Reget *diffreidyat* clot ior agor gwlat.
Taliesin: A.B. ii. 184 (cf. 89).

Glyw uyged glew vugeil Kymry
Kymry *difreidyad* kymrwyn y gywlad
Kymwy cad cas venwyn.
Cynddelw: M.A. i. 227 (cf. 131, 242).

Ysymy ri ryuel *diffreidad*
Diffryd gwyr eryr ardwyad.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 321 (cf. 330).

Gan borth Duw porth dyn yn diatrec
Dothyw y Dewi *diffreidyad* tec.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 272 (cf. 368).

Diffreidio, *v.* to defend, to protect.

Diffreidiog, *a.* having protection, protected, defended, guarded.

Tymp pan dreing terwyn torf *diffreidiawc*
Cwynis ni byddis diebreidiawc.—*Meilir:* M.A. i. 190.

Diffreidiog, -ion, *sm.* a protector, defender, or guardian.

A garo Dewi da *diffreidyawc*
A gaho ae caro ual Caradawc . . .
Cared efferen len lawerawc.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 270.

Diffreidiol, *a.* defensive, protective.

Digitized by Google

Diffreidiwr, wyr, *sm.* a protector, defender, or guardian.

Diffriog, *a.* [?] eager, keen, ardent?

A chyrch hyred a wnaeth, ac esgud-naid a gymmerwys, a mellteu tros yr ammid yspyddad-rîll yn fawr ei wŷn, ac yn eidiog ei nwyf, a *diffriog* flys.—*Iolo Mss.* 174.

Diffriw, *v.* [dy- + briw, the *r* hardening the *f* (difriw) into *ff*? cf. *dyffryn*, *dyffrynt*, and *dyfrhynt*] to break, shatter, tear, or spoil? Cf. *Dyfriwo.*

Annhebig yw'r mis dig du . . .
A bair brithwlaw a byrddydd,
A gwynt yn yspeiliaw gwŷdd,
A niwl gwyn yn ael y gwynt,
Yn *diffriw* canol dyffrynt.—*D. ab Gwilym*, cxvi. 29.

Diffro, *a.* [ffraw?] 'without activity or vigour;' feeble.—*P.*

Guae a vo yno *diffro* diffryt.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 323.

¶ In the quot. given by Pughe from Llywarch Hen (*M.A.* i. 106; *A.B.* ii. 272) the word is a part of an epithet or surname of Llofan, who is variously called *Llawddiffro*, *Llawdino*, and *Llawdivo*. Llofan is recorded in one of the Triads as the author of one of the three 'anfad gyflafan' of the Isle of Britain; and his grave is mentioned in one of 'Englynion y Beddau.' See *M.A.* ii. 9, 65; i. 78.

Diffrom, *a.* [ffrom] not testy, fuming, or touchy; not angry.

Hampom hwyl *ddiffrom* ddiffrost ddigelwydd.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 572.

Diffrost, *a.* [ffrost] without boasting, boastless.

Diffrwyn, *a.* without a bridle, brideless; unbridled, uncurbed, curbless, unrestrained.

Diffrwyniad, -au, *sm.* an unbridling; a loosening from the bridle or from restraint.
Diffrwynad,

Diffrwyno, *v.* to unbridle, to loose from the bridle; to free from restraint; to unmuzzle.

Diffrwyo, *v.* [dirprwyo] to substitute; to perform another's work, office, or duty; to serve instead of (another).

Meibion a fagyson gynt,
Mawd a'i phriawd *diffrwynt.*—*Ieuan Deulwyn.*

Fe *ddiffrwyir* y diog.—*C.S.* (cf. M.A. iii. 153.)

Diffrwyth, *a.* [ffrwyth] 1. without fruit or produce, unfruitful, fruitless, barren; unproductive; unprolific.

Ar holl aniueileit ar gwyd ar dayar. ar dyfred a edewit yn *diffrwyth.*—*Mabinogion*, 94 (cf. 264).

Kanyt oes na reit nac aruer o honunt; namyn blinder eu hyscrifennu a chosti memrwn a du yn *diffrwyth.*
Cyfreithiau Cymru, i. 350.

Yr hwn a wna preswyliaw *diffrwyth* yn y ty
Mam meibion yn gorfoledd yn ei gwely.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 572.

Efe a osododd y llifeiriant yn ddiffaethwch . . . a thir ffrwythlawn yn *ddiffrwyth.*
Esgob Morgan: Salm. cvii. 33, 34.

Eu llafur hefyd a fydd *diffrwyth*, a'u gwaith yn ddifudd.
Doeth. iii. 11.

2. **weak,** feeble, fragile.

Diffrwyth fân fiodau'r dyffryn
A dawl wag orfoledd dyn.—*Gronwy Owain*, 61.

3. **destitute** of the power of voluntary motion; powerless; numb, torpid, withered, strengthless, impotent; paralyzed.

Ac yr oedd gwr yn eistedd yn Lystra yn *ddiffrwyth* ei draed . . . ac ni rodiasai erioed.—*Act.* xiv. 8.

Aelod ddiffrwyth, a withered or paralyzed limb; a limb of which the use has been lost.

4. profitless, unprofitable; futile, trifling, trivial, frivolous, worthless, vain.

Sef achaws y gelwit hwynt yn ofergateu wrth eu gwneuthur o achaws mor *ddiffrwyth* a hwnnw.—*Trioedd:* M.A. ii. 12.

A menegi y mae idaw bot yn well idaw treulaw blodeu y ieuenctit ae dewred yn kynnal y deruyneu ehun. noc yn twrneimeint *diffrwyth* kyt caffo clot yndunt.
Mabinogion, 264.

Y mae ar Ddosparth Caerfyrddin fesur a elwir Cywydd deuair fyrion; a mesur *diffrwyth* yw.
Cyfrinach y Beirdd, 81 (cf. 133, 199).

Er eu bod yn tyngu'r gwir, nid ydynt hwy heb fai am eu bod yn tyngu yn fynych, yn ddiystyr, am bethau *diffrwyth*, heb fod yn rhaid. . . Annuwiolach ac anghallach o lawer ydyw y rhai a gamarferant sancteiddiaf enw Duw, nid yn unig wrth brynu a gwerthu pethau gwael *diffrwyth* beunydd ym mhob lle, onid hefyd wrth fwyta, yfed, chware, chwedleua, ac ymddadleu.
Edward Iames: Hom. i. 94, 95 (cf. ii. 222, 238).

5. inactive, idle, indolent, lethargic, sluggish, lazy, good for nothing, doing nothing.

Gwiscoedd a gafodd gosgorddion *diffrwyth*
Gosgryn dylwyth llwyth llethedgion.
Iorwerth Beli: M.A. i. 476.

Deffro, gysgadur *diffrwyth.*—*Gronwy Owain*, 7.

Hwy a fyddant *diffrwythach* na phobl o'r cyfnywyddau ereill o herwydd eu hoerfel.—*Meddygon Myddfai*, ii. 800.

Dyn diffrwyth, } a habitually idle or indolent
Un diffrwyth, } person, a sluggard, an idler, a drone.

Fe all *diffrwyth* wneyd adwyth.—*Diareb.*

Diffrwythder, } *sm.* unfruitfulness, fruitless-
Diffrwythdod, } ness, barrenness, sterility, un-
Diffrwythdra, } productiveness; unprofitableness; inefficacy; powerlessness, weakness, feebleness; idleness, listlessness.

Mi a iacheais y dyfroedd hyn; ni bydd oddi yno farwolaeth mwyach, na *diffrwythdra.*—2 *Bren.* ii. 21.

A hyn o achos tymmorau drycinog, a *diffrwythder* daiar, a chlefydon, y rhai'n oll a wnaethant y mawr o afles i'r wlad.—*Llanover Ms.*

Fe aeth ym mlaen i alaru o blegid seguryd a *diffrwythder* ei fywyd.—*Gwyliedydd*, vi. 118.

Dedwyddwch, yn *nifrwythdod* gwael
Y bywyd hwn, pwy sy'n ei gael?
Iolo Morganwg: Salm. II. xxv. 3.

Cynnullaid yr annuwiol a ä yn *ddiffrwythdawd.*
Dr. Thomas Briscoe: Llyfr Iob, xv. 34.

Diffrwythiad, } *sm.* a making barren, unpro-
Diffrwythiant, } ductive, or unfruitful; neutralization.

Diffrwytho, *v.* to render barren, fruitless, unfruitful, or unproductive; to impoverish; to weaken; to make powerless; to neutralize; to paralyze; to become unproductive, barren, or unprolific; to wither or dry up; to become enervated, weak, feeble, enfeebled, or paralyzed; to become useless; to become withered.

Diffruythuyt daear druy garedeu dyn.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 328 (cf. 392).

Marwolyaeth a gribdeila y bobyl. yr holl genedloed a *diffrwytha.*—*Ystoria Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 145.

Ni dylir mwynant o vn godef anheilwg namyn y *diffrwythaw.*—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 410.

A ryw bryfet a doeth y ulwydyn honno y yssu deil y gwyd, yny *diffrwythawd* hayach pob ryw prenn.
Brut y Tywysogion, 220.

Pa ham y mae efe yn *diffrwytho* y tir?—*Luc* xiii. 7.

A *diffrwythodd* ei law ef yr hon a estynasai efe yn ei erbyn ef, fel na allai efe ei thynu hi ato.—1 *Bren.* xiii. 4.

Digitized by Google

Y bobl a ddechreuasant eistedd yn llonydd gartref, gan edrych yn syn ar eu gilydd, fel rhai wedi eu *diffrwytho* gan anobaith.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 391.

Nid hawdd *diffrwythaw* cyflawnder.
Dorth. y Cymry: M.A. iii. 63.

Dywedodd y meddyg mai'r parlys mud ydoedd—fod un ochr iddo wedi *diffrwytho.*—*Gwyliedydd,* viii. 301.

Diffrwythol, *a.* tending to make barren, unfruitful, or unproductive; impoverishing; enervating, neutralizing; weakening, withering, paralyzing.

Diffrwytholdeb, *sm.* unproductiveness, barrenness, unprofitableness.

Diffryd, *v.* [cf. *differ, diffred:* C. *dyffres*] to defend, protect, or guard.

O deruyt y alltut gwneuthur lledrat a chynn y dybyaw wrthaw, y vynet y wrth y arglwyd a gwrhau y arall; ac yna dyuot perchennawc y da, ae yrru yn lledrat arnaw, ac ardelw o honaw ynteu o wat; iawn yw oe arglwyd y *diffryt.* Os ef a dyweit y arglwyd ynteu na dyly y *diffryt,* namyn am letrat a wnel yr panyw gwr idaw ef.
C.C. ii. 78 (cf. 62, 92, 120, 126, 312, 314; i. 512).

Yt oet iny *difrid* y gida hi.—*A.B.* ii. 16.

Ryued vu gan Bwrt vot yr offeiryat yn y gerydu am *difryt* ohonaw y vorwyn.—*St. Greal,* ‡ 42 (cf. 23, 41).

Dispeilaw cledyf a wnaeth. a llad y twynpath wrth y dayar. ac ev *difryt* uelly rac y tan.
Mabinogion, 132 (cf. 141.

Anuon dy archegylyon kyssegredic yn eu kylch. oc eu *difryt* rac tywyllwch. ac eu dwyn y deyrnas nef.
Campau Charlymaen, ‡ 112 (cf. 5).

Diffryd gwyr eryr ardwyad.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 321 (cf. 272, 323).

Glân bryd yn *diffryd* dyffryn araul.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 241 (cf. 262).

Diffryd, *sm.* defence, protection. See *Differ.*

Fonnaul *difrit* (*gl.* fustuarium).—*Capella Glosses,* 84.

Diffuant, *a.* [ffuant] unfeigned; undisguised, sincere; genuine.

Tri pheth a gywirant eu gair yn *ddiffuant:* angeu; dial Duw; ac edifeirwch.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 81 (cf. 92, 232).

A ninnau a gawn ein rhaid o awen o Dduw o lynu wrth y dafoedd a'r dwyfol yn *ddiffuant* ac o wir ar bob daionus.
Barddas, i. 240.

Profwn a holwn ein hunain yn ddiragrith ac yn *ddiffuant.*
Ed. James: Hom. iii. 95 (cf. 98, 188, 228, 230).

Fel y bo ein calonau yn *ddiffuant* yn ddiolchgar.
Llyfr Gweddi Gyffredin.

Mae maddeuant, yn *ddiffuant,* i bawb a gredant Grist.
Ed. Samuel (Blodeugerdd, 369).

Y ffydd ddiffuant, the unfeigned faith.—2 *Tim.* i. 5.

Pan alwyf i'm cof *y ddiffuant ffydd* y sydd ynot.
W. Salesbury: 2 Tim. i. 5.

A *ffydd ddiffuant* ym mhob ymbwyll yng Nghrist Iesu.
Cyfrinach y Beirdd, 35.

Yr eiddoch yn ddiffuant, yours sincerely.

Diffuantrwydd, *sm.* unfeignedness; sincerity.

I'r hwn ydd wyt ti iaith Gymraeg yn rhwymedig i'w garu a'i fawrhau yn gyfaddas, am ei ofalwch am danat, a'i *ddiffuantrwydd* tuag atat.
H. Perri: Egl. Ffraethineb (1807), Rhag. 6.

Y rhai ydynt yn cyfeirio at yr un amgylchiad fel argoel o *ddiffuantrwydd* ei thröedigaeth.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 157.

Diffug, *a.* [ffug] without feint, diguise, hypocrisy, or delusion; undisguised, unfeigned, sincere.

A allant hwy ddoedyd yn *ddiffug,* Yr Yspryd Glân a ninnau a dybiasom fal hyn?—*M. Cyffin:* Diff. (1671), vi. 5.

Os yw y pethau hyn ynoch chwi yn *ddiffug,* ac mewn rhyw fesur o wirionedd, yna y mae eich gobaith chwi yn ddilys.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 281 (cf. 172).

Mewn *diffug* lawenydd mae brodyr a chwiorydd.
Gwyliedydd, vi. 156.

Diffun, *a.* [ffun: C. *difun* (=W. *dihun*), sleepless, awake] breathless, holding one's breath.

Kayawc kynhorawc men y delhei
Diffun ymlaen bun med a dalhei.—*Aneurin:* God. 21.

Ym maes Didlystun oed duhun ei glyw
Nid oed glod gwarafun
Pob llary ar llyfnfarch *diffun*
Pob llew a llafn ar glun.—*Cynddelw:* M.A. i. 211.

Diffur, *a.* [ffur] without perception, penetration, information, or skill; void of knowledge; not wary, wise, or cunning; unwise.

Deuai Twyll hefyd at y llafur,
A'i weision yntau, asw iawn antur!
Llygru Israel, ffael *ddi fur,*—â sorod,
Mynag i'w gosod mewn gau gysur.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 263.

Diffurn, *a.* probably a variant or corruption of *difurn* (q.v.). The word is known to occur only in the following passage:

Ef tynho aches rac y varanres
Diffurn dyd reges gwae ae harhoes.
Taliesin: A.B. ii. 119 (M.A. i. 89).

Diffwyn, *sm.* [=diffyn: L. *defendo*] to defend, to protect; to preserve.

Oed dyrn yn heiyrn haearn dalaith
Ai diwed ys bo can bu ei laith
Y *difwyn* y cam gymaint ei afaith.—*Cynddelw:* M.A. i. 213.

Diffwyn, *sm.* defence, protection.

Diffwyniad, -au, *sm.* a defending, protection, defence.

Diffwynol, *a.* defensive, protective.

Diffwynydd, -ion, *sm.* a defender, a protector.

Diffwys, -au, *sm.* [dy-+affwys?] a precipice, a steep; a great deep, a deep chasm, an abyss.

Gwedy y kerdei ar draws yr ynys or mor py gilŷd hyt yr ymyl eithaf or ynys. kymeu a welei a *diffwys* a cherric uchel eithyr agarw amdyfrwys.—*Mabinogion,* 83.

Bet Keri Cletifhir y godir hen Egluis yn y *diffwis* graeande.
Llyfr Du: A.B. ii. 29 (cf. 12, 234, 292).

Gwenwyn yn amwyn am dir breinyawl Powys
Ae *diffwys* ae glwys a glyw y hawl.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 321 (cf. 308, 455).

Bawdd hwynt [pechodau], O Arglwydd, yn dy anfeidrol drugaredd trwy Grist, megys mewn *diffwys* diwaelod, fel na chyfodant byth yn y farn i'n herbyn.
Robert Llwyd: Llwybr Hyffordd, 464.

Rhodded Peris, bellach, ryfeddodau Llyn Cwm y Llwch at y deg uchod, a thafled y cwbl dros y *diffwys* i dywyllwch anghof.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 349.

Neu daenu ei awyrawl hediad ar
Adenydd diflin tros y *diffwys* mawr.
W. O. Pughe: C.G. ii. 425 (cf. i. 192; iii. 21).

Diffwys o wlaw, a great fall of rain; a downpour or torrent of rain.

Diffwys, *a.* precipitous, very steep; precipitant; precipitate, rushing headlong; abysmal, bottomless; enormous, immense.

Ac yssef oed ansawd y mynyd hwnnw uchel oed a chelli yn y penn. a cherric yn y chylch *diffwys* y meint.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. 175.

Mygr naf *diffwysaf* dy ffossawd yn aer
Menestr gledd-glaer taer tarw gaeafrawd.
G. Ddu Arfon: M.A. i. 410.

Can eddyw aerddur yn arddyfrwys far
Yn trydar dar *diffwys.*
Peryf ab Cedifor: M.A. i. 524 (cf. 221, 240).

Lliaws llwyd a llai
Lliaws erch erfai
Lliaws grai grym *diffwys.*—*Gwalchmai:* M.A. i. 202 (cf. 136, 221, 249, 273, 308, 321, 334, 359, 455).

Gwlaw allan gwlychyd vy ngwallt
Cwynvanus gwan *diffwys* allt
Gwelwgan gweilgi heli hallt.
Llywarch Hen: M.A. i. 130 (cf. 369).

Digitized by Google

Nyni a adäwn allan hanner y tir tu ag at leoedd diffrwyth a *diffwys*, creigiau, traethau tywodlyd, anialwch i fyny ac i lawr, gwinllanoedd a phorfëydd.
W. Lewes: Dwy Daith, 64.

Llynclyn diffwys, a bottomless gulf, an abyss.

Angeu, Frenin y Dychryniadau, Cwncwerwr y cwncwerwyr, At ein parchedicaf gâr a'n cymmydog Luciffer, Brenin Hirnos, Penllywodraethwr y *Llynclyn Diffwys:* annerch.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 64.

Môr diffwys, the deep, fathomless, or bottomless sea; the deep, the main.

Ar *vor diffwys* pan disgynnwys.—*Taliesin:* A.B. ii. 174.

Lle diffwys, a steep or precipitous place, a precipice.

Torfoedd diffwys, precipitant hosts or forces; sweeping or irresistable forces.

Anoethach Powys ae thir amddyfrwys
Ae *thoruoet diffwys* nyw differi.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 304 (cf. 273).

Creigiau diffwys, precipitous or breakneck rocks.

Bloeddiai'r ellyllon o blaid cynghor cyfrwys
Y Mammon du, nes crynu *creigiau diffwys*
Gwlad Annwn ddofn.—*Nicander:* Moses, iv.

Diffwysgad, -au, *sf.* a precipitant battle, onset, or encounter.

Frawt ystryw estronyon hual
Fysc dyfysc *diffwysgad* ardal.—*Cynddelw:* M.A. i. 260.

Diffydd, *a.* [ffydd] faithless, unbelieving, infidel.

Escyp agkyueith diffeith *difid.*
Myrddin: A.B. ii. 27 (M.A. i. 137).

Gwae berchen da cybydd
Gwae leidyr *difydd* o ledrata.
Taliesin: M.A. i. 98 (cf. 154, 183).

Ny ddiffyc onyt y *diffyd.*
Cynddelw: M.A. i. 246 (cf. 271, 328).

Efe a wadodd y ffydd, a gwaeth yw na'r *diffydd.*
1 *Tim.* v. 8 (cf. Tit. i. 15).

Wrth blanu y dëellir gosod gosail, neu ddechreuad Crist'nogaeth ym mhlith dynion *diffydd.*
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xii.

Un diffydd, a faithless one, an unbeliever; an infidel.

Gwaeth yw nag *un diffydd.*—*Esgob Morgan:* 1 Tim. v. 8.

Diffyg, -ion, -iau, *sm.* [L. *defectus*] 1. a defect; want (of something necessary); a failure, a failing; deficiency, deficit; lack; a default; a fault; a lapse; a shortcoming.

Ny buassei yndi *diffyc* dyd eiryoet.—*Ystoria Charles*, 9.

Tri llysyant rheith: *diffic* cerennydd; a *diffic* diofredawc; a *ddiffic* oedran.—*C. C.* ii. 636 (cf. 366, 654; i. 702).

Nid cyflawn ond yr hyn nis gellir *diffyg* ynddo. Nid *diffyg* ond yr hyn nis gellir un lles o hano.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 14.

A chan un a'r llall o'r beirdd yn yr orsedd honno y cefais y pennillion cynnrych ag oedd yn *ddiffyg* yn Llyfr Llywelyn Sion.—*Edward Dafydd:* Cyfrinach y Beirdd, 3.

Tair gormes ymgais: *diffyg* offeryndawd; *diffyg* gwybodaeth; a *diffyg* tâl a gobrwy.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 202.

Na fydded *diffyg* olew ar dy ben.—*Preg.* ix. 8.

Nid wyf fi o'r farn bod y *diffyg* graddau hyn, yn arwydd o *ddiffyg* gwybodaeth.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 267.

Diffyg anadl, } want of breath; shortness of
Diffyg gwynt, } breath; asthma.

A diffyg anadl arno (*arni*), affected with or suffering from asthma; asthmatic.

Diffyg synwyr, want of sense; folly; imbecility.—*Diar.* x. 21.

Na watwar neb, na dyn claf, na dyn dolurus, na dyn cloff, nac a fo dall, na byddar, na hagr, nac a fo dan un nam corfforawl, nac a fo *diffyg synwyr* arno.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 102.

O ddiffyg, } for want or lack (of); in default
Yn niffyg, } (of).

Ceisiwn, *yn niffyg* cysur,
Ddwyn allan y gwan o gur.—*Gronwy Owain*, 111.

Neu a obrynassem ninneu an kellweiraw *o diffic* anryded a gwassanaeth yn y lletty.—*Ystoria Charles*, 13.

Ysgatfydd *o ddiffyg* na buaswn yn ei dofi yn ieuengach.
Gronwy Owain, 182.

Ffenestri yn chwibanoglau i'r gwynt, *o ddiffyg* dwylaw i'w cau.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 392.

Bod diffyg peth (*ar un*), to be in want or need of a thing; to lack a thing; to be short of a thing.

Diffygion, defects, deficiencies, deficits, shortcomings.

Am ei *ddiffygion* efe a drowyd o'r freiniaeth.
Iolo Mss. 5.

2. an eclipse (of a heavenly body).

Mae'n sicr nad oedd y *diffygiau* a ragddywedwyd gan Thales, Anaesagoras, ac ereill cyn Cred, o gasgliad mor gywir ag yw y rhai a ragddywedir gwedi dwyn o Newton y gelfyddyd tan ddosparth.
R. Roberts: Seryddiaeth, 29 (cf. 30—35).

Y mae *diffyg* ar y lleuadau hyn, fel y mae ar ein lleuad ni pan y byddo yn ei thro yn myned trwy gysgod y ddaiar. Wrth y *diffygiau* hyn y cafwyd allan gyflymdra teithiad goleuni.—*Gwyliedydd*, vii. 177.

A fyddwch chwi fwyned, syr, ag egluro i ni natur ac achosion y *diffygion*?—*Elfenau Seryddiaeth*, xv.

Diffyg ar yr haul, } an eclipse of the sun, a
Diffyg yr haul, } solar eclipse.

Ac y bu *diffyc ar yr heul.*—*Brut y Tywysogion*, 8 (cf. 236).

Tri pheth anaml eu gweled: cr'n daiar; *diffyg* o gwbl *ar yr haul*; a gwraig gall.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 240.

Diffyg ar yr haul, cuddiad ei oleuni gan gyfryngiad corff tywyll y lleuad rhyngddo ac ein golwg.
R. Roberts: Seryddiaeth, 69.

Nid oes mwy o reswm am dybied felly, nag y sydd am dybied mai rhagwybodaeth y serydd yw achos y *diffyg ar yr haul.*—*Ioan Wallter:* Dwy Bregeth, 38.

Diffyg ar y lleuad, } an eclipse of the moon, a
Diffyg y lleuad, } lunar eclipse.

Deg mlyned ar hugein ac wyth cant oed oet Crist pan vu *diffyc ar y lleuat* yr wythuet dyd o vis Racuyr.
Brut y Tywysogion, 12.

Diffyg ar y lleuad, cuddiad ei goleuni gan gyfryngiad y ddaiar rhyngddi a'r haul.—*R. Roberts:* Seryddiaeth, 69.

Ni ddylid celu fod un rheswm yn ymddangos yn gryf o blaid gosod marwolaeth Herod yn y flwyddyn 4, sef y *diffyg ar y lleuad*; yr hwn . . . a ddygwyddodd ychydig o flaen marwolaeth Herod Fawr.
Simon Lloyd: Amseryddiaeth, 435.

Diffyg modrwyol, an annular eclipse.

Diffyg rhanol, a partial eclipse.

Diffyg cyflawn, } a total eclipse.
Diffyg hollol, }

Y mae [y lleuad] yn pasio trwy ran o'r cysgod ac yn myned o dan *ddiffyg hollol*. . . Y mae y pryd hyny yn *ddiffyg cyflawn* a chanolaidd.—*Dosparth Heulawg*, ii. 110.

Nis geill dim diffyg fod, os bydd y lleuad, yr amser y bo hi yn llawn, fwy na deuddeg gradd oddi wrth y trawsglwm: pan y bo hi o fewn y pellder hwnw, e fydd y *diffyg* yn *rhanol* neu yn *gyflawn*, yn ol fel y byddo rhan neu yr oll o wyneb y lleuad yn disgyn o fewn cysgod y ddaiar. . . Pan y byddo modrwy o oleuni yn ymddangos o ddeutu ymyl y lleuad, a diffyg ar yr haul ar yr un pryd, dywedir ei fod yn *fodrwyol.*—*Elfenau Seryddiaeth*, xv.

Cylch y diffygion: see *Cylch.*

Y llinell yn yr wybr yn yr hon y dygwydd y diffygion ar yr haul a'r lleuad, *cylch y diffygion.*—*Walters.*

Bod dan ddiffyg, to be in eclipse; to be eclipsed.

Diffygiad, -au, *sm.* [diffygio] 1. a failing; a becoming deficient or defective; a flagging, a fatiguing; defatigation.

Digitized by Google

Diffygiadau, defects, deficiencies, failings, failures, imperfections, shortcomings.

Gruffydd ab Nicolas, o serch at ei wlad a'i barddoniaeth, a archodd i'r beirdd presennol gyflawnu y *diffygiadau*, os gallent o'r hen fesurau.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 581.

2. (=diffyg 2) an eclipse.

I hyn gellir ateb, nad yw casgliadau ac ol-gyfrifon y dysgedigion mwyaf mewn perthynas i *ddiffygiadau* y lleuad, a newydd a llawn lloerau, yn y cynoesoedd, bob amser yn gywir, nac yn gyttunol â'u gilydd.
Simon Lloyd: Amseryddiaeth, 435.

Nid yw ymddangosiad seren gynffonog yn arwyddo dygwyddiadau i ddyfod, mwy na *diffygiadau* yr haul a'r lleuad.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 263.

Gellir crybwyll y ffeithiau canlynol mewn perthynas i *ddiffygiadau* ar y lleuad.—*Dosparth Heulawg*, ii. 112.

3. an ellipsis (in grammar).

Diffygiad sydd yn arwyddocäu esgeulusiad, neu adawiad allan; yr hyn a fydd trwy adael llythyren neu sill allan o air, neu trwy adael gair neu fwy allan o ymadrodd. *Diffygiad* llythyren neu sill mewn gair sydd dair ffordd.
Robert Davies: Gram. Cym. 74.

Diffygiaith, ieithiau, *sf.* [diffyg+iaith] elliptical language, an ellipsis.

Nid ydyw y synwyr yma (fel mewn amryw fanau yn yr ieithoedd Groeg a Lladin) yn fynegedig, ond dealledig, trwy fod yma *ddiffygiaith*.—*Seren Gomer*, viii. 178.

Diffyglin, -au, *sf.* [diffyg+llin, llinell] a **Diffyglinell**, dash (in writing).

Diffyglin (—) a ddengys y gadawyd llythyrenau allan o air, neu eiriau o linell.
D. E. Jones: Ieithadur Seisoneg, 127.

Diffyglinell (—) a arferir hefyd pan adewir rhyw lythyrenau allan mewn gair, neu air mewn ymadrodd.
Isaac Jones: Gram. Cym. 135.

Diffygio, *v.* [C. *difygy;* L. *deficio*] 1. to lack, to want; to be in want; to be wanting, defective, or deficient; to fail; to default.

Ac o achaws y drigyant ef vlwydyn honno yn Annwuyn. a gwledychu o honaw yno mor lwydyannus a dwyn y dwy deyrnas yn vn dyd drwy y dewred ef ae vilwryaeth y *diffygywys* y enw ef ar Pwyll Penndeuic Dyuet. ac y gelwit Pwyll Penn Annwuyn o hynny allan.—*Mabinogion*, 8.

Ac yna blwydyn wedy hynny y *diffygyawd* bwyt yn Iwerdon.—*Brut y Tywysogion*, 16.

Ac or *diffic* dim oe edewit. ny *diffyc* vyng kledyueu i om deheu yn awch llad chwi.—*Ystoria Charles*, 15.

Y molyant nyt yttyw yn pallu nac yn *dyffygyaw*. namyn yn kynydu.—*Ystoria Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 221.

Ni *ddiffyg* arf ar was gwych.—Ni *ddiffyg* esgus ar wraig.—Ni *ddiffyg* ffon ar ynfyd.—*Diarebion* (M.A. iii. 167; cf. 264).

Na *ddiffygia* di 'n dy ffydd.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 97.

2. to be weary, wearied, tired, fatigued, or exhausted; to flag; to faint.

Ac ual y *diffykyei* eu meirch y prynynt ereill o newyd.
Mabinogion, 88 (cf. 47, 96, 146).

Os at vilaein y daw canet hynny *diffyccyo*.
Cyfreithiau Cymru, i. 382 (cf. 396, 470).

Yn y diwed gwedy *diffygyaw* o tra hir alltuded yd ymchoelawd y dref y dat.—*Brut y Tywysogion*, 118.

Oni wyddost, oni chlywaist, na *ddiffygia* ac na flina Duw tragywyddoldeb?—*Esa.* xl. 28 (cf. 30, 31).

Diffygiol, *a.* 1. deficient, defective, lacking, wanting; short (of); destitute.

Un peth sydd *ddiffygiol* i ti.
Marc x. 21 (cf. Preg. i. 15; 1 Cor. xii. 24).

Na ad i ni . . . fod yn *ddiffygiol* o'th amryw ddoniau.
Ll. G. Gyffredin (Dydd S. Barnabas).

A pha berygl a fydd arnom os ceir ni yn esgeulus ac yn *ddiffygiol* yn ein cyfrif.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. v. 2.

2. weary, wearied, tired, fatigued, exhausted.

Sef a wnaethant y kynhadeu dynessan y edrych ar y gware. ac eisted yn lludedic *dyffygyawl*.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 258.

Ef a dywanod ar Sarascin du *dyffygyawl* yn llechu y mywn llwyn.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 484.

Yna Esau a ddaeth o'r maes, ac efe yn *ddiffygiol*.
Gen. xxv. 29 (cf. 30).

Diffygiol gan daith, wearied or tired with a journey; wearied by travelling; way-worn. *Ioan* iv. 6.

Gofynodd y dyn dieithr am gael myned i orphwys, gan ei fod yn *ddiffygiol gan* y *daith* a'r tywydd.—*Ystên Sioned*, 27.

Diffygioldeb, **Diffygiolder**, **Diffygiolrwydd**, *sm.* defectiveness, deficiency, defectibility; weariness, exhaustedness.

Nid dim *diffygiolrwydd* perthynawl i'r iaith Omeraeg ydyw yr achos fod cynnifer yn gosod urddenwau Saesonaidd ar eu cwn a'u meirch.—*Gwyliedydd*, v. 145.

Diffygiwr, wyr, *sm.* one who fails or is deficient; a defaulter.

Diffyn, **Diffynu**, *v.* [L. *defendo;* Br. *difenni, difenu*] to defend, to protect; to act on the defensive.—*Esa.* xxxvii. 35.

Tri pheth a *ddiffynant* wladoldeb: cariad; ovn; a chymmudd.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 422.

E ddichon Duw . . . *ddiffyn* a goruwch gynnyddu ei deyrnas ef.—*M. Cyffin:* Diff. vi. 18.

Pryd na bo gwybodaeth o'r haeddiant, pa fodd y *difynir* cyflawnder y casineb?
Charles Edwards: H. y Ff. 77 (cf. 78, 129, 290).

Pwy eill *ddiffyn*, a sefyll ar blaid, y dyn y bo Duw yn ddigllon wrtho? . . . Pwy eill niwed i'r neb y bo Duw ar ei blaid i'w *ddiffynu*, gan fod pob peth ar law yr un Duw?
R. Smith: Eglurhâd, 76.

Na chri medelwyr, banllef udgyrn cad
Yn galw llengoedd i *ddiffynu* gwlad . . .
Ni syflant hedd y ddidryfedig fan,
Rhagderfynedig dŷ y cryf a'r gwan.—*Blodau Iewainc*, 85.

Diffyn, -ion, *sm.* defence; protection.

A Dewi an differ an *diffyn* uyt.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 271.

Tair clud arvoll y sydd: cynghaws; cyvathrach; a *difyn*.
Cyfreithiau Cymru, ii. 476.

Ar y diffyn, on the defence; on the defensive; defensively.

Diffynadwy, *a.* defensible.

Diffynblaid, bleidiau, *sf-m.* the defending party or side (in a suit); defendant or defendants.

Diffynedig, *a.* defended, protected.

Diffynfa, faoedd, fëydd, *sf.* a place of defence; a fortress, a fort.

Pan yr ymlidid ein tadau o bob caer a *diffynfa*, cilient i glogwyni Eryri.—*Cylchgrawn*, i. 359.

Diffyniad, -au, *sm.* a defending, protection; defence; apology, vindication.

Diffyniad Ffydd Eglwys Loegr; lle y ceir gweled a gwybod Dosparth gwir Grefydd Crist.
Morus Cyffin: Diffyniad (Enw).

Rhoed *ddiffyniad* i'r wlad rhag erlidiau.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 207.

Diffyniad, -iaid, *sm.* a defender, a protector.

Yawn yw moli ri a uo rotyad
Moladwy vn Duw vn *diffynyad* ysyt
Y Meiryonnyt ryt rot gygwastad.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 361.

Diffyniadol, *a.* defensive; protective.

Diffyniant, *a.* [ffyniant] unprosperous, unsuccessful, unlucky, unfortunate.

Diffyniawdr, odron, *sm.* a defender, a defendant.

Diffynol, *a.* defensive, defending; protective, protecting.

Troi esgarant traws a gwrol a wnaeth,
Yn nawdd a phenaeth lawn *ddiffynol*.—*Gro. Owain*, 101.

Arfau diffynol, defensive arms.

Digitized by Google

Diffynu, *v.*=*Diffyn.*

Diffynus, *a.* defending, defensive.

Diffynwr, wyr, } *sm.* [C. *diffennor*; Br. *difen-*
Diffynydd, -ion, } *ner*] a defender; a defendant; a protector, a guardian.

Duw Naf a fynaf enwi'n *ddiffynwr*,
Duw i eiddilwr da 'i addoli.
Hywel Bwr Bach: M.A. iii. 125.

Ac fel y mae'r llw a fyddo felly yn gynghlo â'i amgylchion dyledus, yn anrhydeddu Duw, drwy gyhoedd broffesu a chyfaddef fod Duw yn canfod pob peth, a'i fod yn benaf geirwir, a *diffynydd* y gwirionedd.
R. Smith: Eglurhâd, 160.

Y mae un yn peri cyfundeb rhyngom, a'r llall yn gosod gwahaniaeth: *diffynydd* un, a chospwr y llall.
Iolo Morganwg.

Diffynydd y Ffydd, Defender of the Faith.

Diffyrth, *v.* [forté à *dy* & *porth* (*D.*): cf. *differth*, *differ*, *diffryd*] to defend, to protect, to guard.

Ac wrth yr awr a dodet yna ar kyuarth. y doeth Twrch Trwyth ac y *diffyrth* wynt.—*Mabinogion*, 139.

Ef *diffyrth* [*al.* differth] addfwyn llan lleenawg.
Taliesin: M.A. i. 63 (cf. A.B. ii. 149).

Dewi . . . ae wyrth an *diffyrth* rac pob diffyt.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 271.

Duu an *diffirth* ban *kymirth* cnaud.
Myv. Arch. i. 576 (cf. 190, 246).

Kan *diffyrth* Trindaut tri maccuy o dan.
Cynddelw: M.A. i. 252.

Dy groc croes wytin vreinhin vfeinhyeu
Difyrth chwech oes byd rac pyd poeneu.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 331.

Anobaith fuam am iawn abad
A'th nerth a'n *diffyrth* a'th wyrth wyrthiad.
Llywelyn Goch: M.A. i. 516.

Diffyrth fi, O Dduw.—*D.*

¶ *Diffyrth*, as well as *differth*, may sometimes be intended for the preterite of *differ*: cf. *cymmerth*, *cymmyrth*, for *cymmerodd.*

Dig, *sm.* 1. anger, wrath, ire, hot displeasure.

Nyt diwystyl godi *dic* wrth alon.—*Taliesin:* A.B. ii. 206.

Bran ab Edrig a fu frenin ynfyd a drwg, ac a fu farw o *ddig* a ffyrnig-fryd.—*Iolo Mss.* 10.

Yn dy *ddig* y dyfethwyd ni.—*Salm.* xc. 7 (cf. lxix. 24).

Pwy o *ddig* a chenfigen
Ry egr sydd i roi gair sen?—*I. B. Hir:* Gwaith, 63.

Tremiadau tramwyedig,
A chall yn deall eu *dig*.—*Gronwy Owain*, 37 (cf. 107).

Ennyn dig, to make angry; to excite anger.

2. †sorrow, affliction, trouble, †anger.

Mab Mair ni wnaeth hiraeth hwy
Penyd oer poenau a *dig*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 450 (cf. 408, 433, 441).

Dig, *cp.* diced, dicach, dicaf, *a.* 1. angry, wrathful, wroth, irate, ireful; habitually under the influence of anger.

Ar Sarassin a symydwys lliw ae lygeit yn troi yn y benn yn vuan. megys llwdyn *dic* newynawc.
Ystr. de Carolo Magno, col. 422.

Po *dicaf* y ceiliog, uchelaf y cân.—*Diareb.*

Dig y'th gawn, dïwg y'th gad;
A dynion holl Loegr danad.—*L. G. Cothi*, i. xiv. 19.

Na phar i Eiddig *ddig*, ddu,
Llawn och, mo'r llawenychu.—*D. ab Gwilym*, cix. 37.

Gorthaw, don, *dig* wrthyt wyf,
Lliflaint, distëwch tra llefwyf.—*Gronwy Owain*, 15.

Bod yn ddig wrth, to be angry with or at.

Dig o galon, } exceedingly angry; extremely
Dig o waed, } wroth.

2. †sorry, vexed, troubled.—*M.A.* i. 365, 441.

Digabl, *a.* [cabl] without calumny or contumely; reproachless, irreproachable, unblamable; faultless.

Eil *digabyl* parabyl parawd
Per awen parhaus hyd urawd.
Cynddelw: M.A. i. 226 (cf. 255, 338, 580).

Gwyr a byrth uy rwyf ym pob calan
Yr *digabyl* barabyl gan bawb oe uann
Digrifwch elwch elyf egwan.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 299 (cf. 393).

Digabl wr y dwg ei blaid
Dor dursaf dewr diarswyd.
Meurig ab Iorwerth: M.A. i. 507 (cf. 436, 499).

Y ferch dan yr aur llathr-loew,
Fain *ddigabl*, crwn barabl croew.
Dafydd ab Gwilym, xxii. 1 (cf. ccxxxix. 11).

Aur degan, eiriau digoll,
Digabl aur, da o gwbl oll.—*Huw Morus:* E.C. i. 91.

Digabledd, *sm.* freedom from calumny, unblamableness, faultlessness.

Digablu, *v.* not to calumniate; to cease from calumniating.

Dysg deg odl, pefr dasg *digabl*.
Ieuan ab Rhydderch ab I. Llwyd: Iolo Mss. 310.

Karu ymyd ym am *digaplo*.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326.

Digadarn, *a.* not strong or powerful; weak.

Digadarnhâd, *sm.* a divesting of power; lack of confirmation; a weakening.

Digadarnhau, *v.* to rid of strength; to weaken.

Digadarnwch, } *sm.* want of power, might, or
Digadernid, } strength; weakness, feeble-
Digadernyd, } ness.

Digadwraeth, *a.* unguarded, unrestrained.

Yna hwdiwch yr holl ddrygau a all heigio o galon egored, ac o dafod diattal, ac o yspryd dirwym, ac ewyllys digwrs a *digadwraeth*.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 63.

Digae, *a.* [cae] without a fence or hedge, boundless.

Crist Greawdr llywiawdr llawer . . .
Crair nef *ddigae* a daear
Craff yth folaf tecaf twr.—*Dafydd y Coed:* M.A. i. 534.

Digaead, } *a.* 1. not closed or shut, not shut
Digauad, } up; unclosed, open.

Llwyddei gyhoed llen llaw *digaead*.
Casnodyn: M.A. i. 422.

Na Nudd o galon nawdd *ddigaead* llwyr
Neu gadw o synwyr iawn gydsynniad.
Madog Dwygraig: M.A. i. 483 (cf. 482).

2. without a lid or cover; coverless.

Digaen, *a.* [caen] without a coating or surface.

Digaenu, *v.* to take off the surface; to skim.

Digaer, } *a.* [caer] without a wall or walls
Digaerau, } of defence; unwalled, unfortified.

Digaeriad, -au, *sm.* a dismantling, a depriving of fortification.

Digaerol, *a.* unfortified, unwalled.

Digaeru, *v.* to dismantle; to deprive of walls of defence.

Digaeth, *a.* [caeth] unconfined, unrestrained, at large, free.

Mal trwy hyn yn cael ein gwir ddiddanu, y gallom fwynhau rhyddid meddwl *digaeth*.—*Elis Lewis:* Drexelius, 388.

Llwybr *digaeth* y yarllaeth y eurllaw Ieuan.
Casnodyn: M.A. i. 423.

Digitized by Google

Am hoes hoedl *digaeth* ffraeth im ffrwytha.
Iorwerth ab y Cyriog: M.A. i. 535.

Fel y gallom yma ac yn dragywydd fod yn *ddigaeth* ac yn gadwedig trwy dy gymhorth di, Ceidwad y byd.
Allwydd Paradwys, 28.

Digaethder, *sm.* freedom from confinement, restraint, restriction, or bondage.

Digaethiwed, *a.* free from confinement or bondage; unconfined, unrestrained; free.

Caniatâ iddynt fyned yn rhydd i wladoedd y byd i breswyliaw yn *ddigeithiwed.*—*Brut Gr. ab Arthur.* (*P.*)

Digaethiwo, *v.* to free from bondage, confinement, or restraint; to liberate.

Digaethiwol, *a.* tending to liberate; freeing, liberating; unconfined.

Digaethol, *a.* tending to free from confinement or restraint; liberating.

Digaethu, *v.* to free, to liberate, to set at large.

Cristnogaeth vaeth am *digaetho*
Crist Geli vy ri am rydhao.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326.

Digangau, *a.* without branches or boughs, branchless.

Digain, *a.* [dy- + cain] splendid.

Rhwyfladur dygenrad *digain*
Rhwyf Arfon Iorwerth fab Ewain.
Seissyll Bryffworch: M.A. i. 338.

Digainc, *a.* 1. having no branch or branches, branchless. 2. without song, songless.

Digais, *a.* [cais] without attempt or effort to attain; negligent.

Ac i bawb a ddeuant yn
Ddiragawd, diadolwyn, a *digais.*
W. O. Pughe: C.G. iii. 249.

Digaled, *a.* not hard or obdurate; not stingy.

Yssym vt digut *digaled*
Digryno digawn y doethed.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 293.

Dewr Ewein deurutliw fion . . .
Dinegyf neges rodolyon
Digaled am ged am geinnyon.—*Hywel Foel:* M.A. i. 392.

Digaledu, *v.* to divest of hardness; to soften.

Pa beth sydd yn gwneuthur dwr yn galed, a pha fodd i'w *ddigaledu* neu ei buro, ymofyned yr ymofyngar yn llyfrau y doethion a ysgrifenasant ar hyny.
Gwyliedydd, i. 145.

Digalon, *a.* [calon] heartless, spiritless, faint-hearted, disheartened, dejected, depressed, discouraged; discouraging, depressing; without courage; timid.

Gorwyn blaen meillyon *digallon* llyfwr
Lludedic eidigyon
Gnawt ar eidil oualon.
Llywarch Hen: A.B. ii. 252 (M.A. i. 122).

Efe a ffoawdd ymaith fal llwrf *di galon* gan ofn.
Theo. Evans: D.P.O. 337.

Od wy' gul a *digalon,*
Pe mynai, fe'm helpai hon.—*D. ab Gwilym*, ccxxiii. 5.

Aethym o'i serch, hardd edlinferch,
Yn gul fy mron a *digalon.*
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 236.

Fe gaiff y pryd hwnw . . . edrych arno yn marw yn ei wely, yn *ddigalon*, athrist, a syn.
Gruffydd Wynn: Ystyriaethau, 54 (cf. 52).

Llwyr *ddigalon* oeddwn o eisieu fy llyfrau, ac ni fedrwn ystwytho at ddim o hiraeth am danynt.
Gronwy Owain, 218.

Digalonawl, *a.* disheartening, discouraging, dispiriting.

Digalondeb, } *sm.* heartlessness, faint-hearted-
Digalondid, } ness, dispiritedness, dejected-ness; discouragement; want of courage.

Cynted ag ein dygwyd yn ol i'r carchar, *digalondeb* ac anobaith a barodd iddo wallgofi!
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 19 (cf. 2, 315).

Os ydynt yn meddwl am Dduw, y mae hyny gyd â llawer o anhyder a *digalondid.*
Iosua Tomas: Buch. Grist. 116.

Cyn toriad gwawr y Diwygiad, ymddengys bod yr Ysgrythyrau Cymreig wedi myned yn da phrinion, drwy effeithiau distryw anghydfod, difrâwch a *digalondid* y genedl.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 188 (cf. 246).

Digaloni (ŏ), *v.* to dishearten, to dispirit; to discourage; to depress, to deject; to lose heart; to be disheartened, dispirited, or discouraged.

Yna y *digalonnet* y pagannyeit. hyt na ellynt wy gynhal eu harueu.—*Campau Charlymaen,* § 108 (cf. 5).

Chwech peth a *ddigalonant* wr.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 116.

Pan edrychei yn llidyawc dychrynu a *digalloni* a wnaei y neb yd edrychei arnaw.
Yst. de Carolo Magno, col. 407 (cf. 484).

Nid hawdd *digaloni* dwyfawl.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 63 (cf. 64, 116).

Nid amgen, peri iddynt *ddigaloni* a llwfrhau gan rwystrau.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 386 (cf. 442).

Ynfydrwydd yw gadael i'r anhawsder hyny dy *ddigaloni* di.—*Langford:* Holl Ddyl. Dyn, 123 (cf. 203, 224).

Pa beth ynte a wna efe ond edwi a *digaloni*, a llewygu gan ofn.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. v. 17.

Un peth (os rhaid cyfaddef) sydd i'm *digaloni* yn gethin.
Gronwy Owain, 390.

Nid rhaid i ni mo'r *digaloni* er dim a ddygwyddo i ni.
Ed. Samuel: Holl Ddyl. Dyn, i. 51 (cf. v. 3, 16; viii. 19).

Digaloniad, -au, *sm.* a disheartening, dispiriting, or dejecting; discouragement.

Digalonog, *a.* not hearty, courageous, or bold.

Digalonrwydd, *sm.* want of courage, dispiritedness; discouragement.

Digalonus, *a.* disheartening, dispiriting, discouraging.

Digalonwr, wyr, *sm.* one who disheartens, a discourager.

Digall, *a.* [call] not wise or prudent, unwise.

A'r gwr dygn â'r gair *digall,*
Dan guraw'r llaw yn y llall.—*Dafydd ab Gwilym*, xx. 27.

Caethder, poender, pall,
I *ddigall*, yn ddager.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, i. 222.

Digam, *a.* not crooked or distorted; without wrong or injustice; just; faultless; impartial.

Y brenhin a dyly dangos gwialen y swyd ynn *digam* y bawp.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 424.

Gwr dinam *digam* dygyn y alon.—*Casnodyn:* M.A. i. 430.

Nid teg gan neb, nid *digam,*
Myn llaw y Pab, fab ei fam!
Gruffydd Gryg (D. ab Gwilym, cxxvi. 27).

Ar Ddwylais urdd yw Wiliam,
I Allt y Gaer llew *di gam.*
L. G. Cothi, III. viii. 47 (cf. v. xiv. 39).

Digam deithiwr da'i gymdeithas.
Huw Morus: E.C. i. 331 (cf. 360).

Digamgymmeriad, *a.* without mistake or misapprehension; unmistakable.

Yn yr enaid, dealltwriaeth *digamgymmeriad*, a gwybodaeth eglur hefyd am Dduw ei hun a'i ragluniaeth nefol.
Edward Samuel: Grotius, ii. 11.

Digamrwysg, *a.* without unjust sway or rule; free from tyranny.

Pan llas Llywelyn pen llu,
Glyw *digamrwysg* gwlad Gymru.
Ieuan Gethin: Iolo Mss. 29.

Glyw *digamrwysg* gwlad Gymru,
A'i chynnydd, llywydd ei llu.—*Gronwy Owain*, 71.

Digitized by Google

Digamsyniaeth, } *a.* without error or mis-
Digamsyniad, } conception, unmistakable.

Trwy'r hyn y dichon pob dyn ei adnabod ei hun yn *ddigamsyniaeth*, pa ystâd a chyflwr y mae'n sefyll ynddo.
Edward Iames: Hom. i. 82.

Digamu, *v.* to divest of crookedness; to make straight, right, or just.

Llys gwin ac emyn, *ddigamoedd* gyllid
O'th golli, a'i gwnaddoedd.—*D. ab Gwilym*, ccxxxii. 116.

Digamwaith, *a.* void of iniquity or wrong-doing.

Digamwèdd, } *a.* free from iniquity or trans-
Digamweddog, } gression; not iniquitous; sin-
Digamweddus, } less, faultless.

Duu llyuyaudyr creaudyr am diduyllo
Dedveu *digamued* am diuedo hyd vraut.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326.

Lle riedawc *digamwedawc*
Lle gwaredawc llu gwerydon.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 471.

Digamweddu, *v.* to divest of transgression.

Digamwri, *a.* free from wrong, injustice, or iniquity.

Diganiad, *a.* without song or melody, songless.

A'r eos y nos ni ad
Ei Dduw gwyn yn *ddiganiad*.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 98.

Diganwyll, *a.* without a candle; without light, dark.

Cau gosostig dig dygn gyrbwyll asgen
Du gynnen *diganwyll*.—*Dafydd y Coed:* M.A. i. 496.

Digapan, *a*, having no cap, hat, or head-covering.

Digapanu, *a.* to take or pull off the cap; to cap.

Digar, *a.* [câr] having no friend or relative; not loved; forlorn, discarded.

Kynheilyant anant auar anelyf
Aer gledyf glew *digar*.—*M.A.* i. 420 (cf. 449).

Digarad, *a.* [câr] disregarded, forsaken, destitute, neglected, forlorn, helpless; friendless.

Nam gollug oth lav guallus trewad
Nam ellug gan llu du *digarad*.
Cynddelw: A.B. ii. 45 (M.A. i. 264).

Preityei bawb y bob *digarad*.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 279 (cf. 291, 409, 580).

Medron hoen goroen wyf *digarad* was.
Hywel ab Einion Lygliw: M.A. i. 513 (cf. 538).

A'r tadau y rhai a laddodd â'u dwylaw eu hun eneidiau *digarad* [°digymhorth].—*Doeth.* xii. 6.

Mor fawr yw ucheneidiau a griddfanau dynion tlodion, *digarad*, a dirmygus!—*Elis Lewis:* Drexelius, 178.

Tra plant Israel ffwyrid gan
Regiadau llid, deolion daiar, mal
Gwrthodiaid nef, *digarad* drwy y byd
A wibiant yn alltudion.—*W. O. Pughe:* Pal. 12.

Fo a gaiff sefyll yno fel dyn truan, *digarad*, diobaith, hyd oni chaffo glywed y farn ofnadwy ni throir byth yn ei hol.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. v. 17.

Digarad, *sm.* a forlorn, a destitute one.

Gnawd *digarad* yn llys.—*Diareb.* (M.A. iii. 156.)

Clyd pob clawdd i *ddigarad*.—*Diareb.*

Digaradwy, *a.* not lovable, unamiable, unlovely.

Digaradrwydd, *sm.* a disregarded or destitute condition; forlornness, helplessness.

Digarc, *a.* [carc] free from anxiety or carking care.

A *di garc* wyd, a di gur.—*L. G. Cothi*, iv. xxii. 53.

Digarchar, *a.* [carchar] free from restraint or confinement; unconfined; unfettered.

Ac yno y trigawd Cadogon yn llys y brenhin yn *digarchar*.
Brut y Saeson: M.A. ii. 545.

Ni rydd hyn iddynt ond dychymmyg wael am udlef yr un creadur pan y mae mewn cyflwr rhydd a *digarchar*.
Cylchgrawn, i. 8.

Digarchariad, *sm.* a setting at large; a releasing from imprisonment.

Digarcharor, *a.* without a prisoner; without restraint, unconfined, unrestrained.

Porth ym guaut tavaut *digarcharaur*.
Cynddelw: M.A. i. 247.

Digarcharu, *v.* to free from confinement; to liberate from prison; to liberate.

Efe a aeth allan o'r bwytty cyn troseddu trwy anghymmedrolder o fwyd na llifeiriant o ddiod; a chafas ef hyny o ffafr gan Dduw gael *digarcharu* a dadlwytho ei enaid yn gynt; fel yr elai yn ebrwyddach i gymdeithas ysprydion anfarwol.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 127.

Digardd, *pl.* digeirdd, *a.* [cardd] 'not straying, not transgressing;' not disregarded, disgraced, or degraded; without dishonour, disgrace, or reproach; reproachless; honoured.

Gwelais rag Penfro penadur *digard*.
Cynddelw: M.A. i. 204 (cf. 206, 224, 230, 251, 261, 264).

Enaid hardd *digardd* dygyn yd gwynir
Cedwis fi ei fardd im gelwir.
Dafydd Benfras: M.A. i. 320 (cf. 281, 283, 393).

Ef yn diwael hael haul gymhennaf
Ef yn *ddigard* hard y vard vydaf.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326 (cf. 370).

Digart Lywelyn lew tra gweilgi.
Hywel Foel: M.A. i. 393 (cf. 388, 512).

Llavarveird *digeird* dygwn attaw.
Casnodyn: M.A. i. 423 (cf. 424).

Heirdd *digeirdd* i feirdd fawr-ddor darian-grwydr,
Hoew fraenarwr brwydr Hafren oror!—*D. ab Gwilym:* vi. 45 (cf. lvii. 9; xcii. 22; cxxxviii. 17; ccxxxi. 19; ccxxvii. 11; ccxxxv. 33).

Pan welodd hi y nefol Fun *ddi gardd*,
Dwys y griddfanai wrth ei golwg hardd.
Blodau Ieuainc, 45.

Digared, *a.*=*Digarad.*

Nid aml i *ddigared* waes.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 142.

Digaredd, *a.* [caredd] without crime, transgression, or offence; faultless, reproachless, sinless.

Trwy wyrthiau gorau *digaredd* Dudno.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 439 (cf. 460, 471).

Dull Bedwyr deg eryr *digaredd*.
Dafydd y Coed: M.A. i. 497 (cf. 511, 538).

A gerddodd neb er gordderch,
A gerddais i, gorddwy serch!
Rhew ac eiry, gwr *digaredd*,
A gwlaw, a gwynt, er gloew ei gwedd!
Dafydd ab Gwilym, lxiii. 1.

Yr dy hoelion yr dy goron
Wr *digared*.—*Gruffydd Gryg:* M.A. i. 525.

Digariad, *a.* 1. having no love or affection, affectionless, loveless.

Ac ovynhau hynny heuyt a wnaeth rac mor *digaryat* y gellygassei ef hi y wrthaw.—*Ystr. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 67.

2. [cf. *digarad*] not loved, unloved; disregarded, neglected, destitute, forlorn.

Baglan brenn neut gwannwyn
Rud cogeu goleu ewyn
Wyf *di garyat* gan uorwyn.
Llywarch Hen: A.B. ii. 259 (M.A. i. 114).

Neut wyf *ddigariat* gan fy ngharant.
Myrddin: M.A. i. 150.

Clyd clawdd i bob *di gariad*.
Englynion y Misoedd: M.A. i. 15.

3. without a lover or sweatheart.

Digariadol, *a.* unlovely, unamiable; odious.

Gwŷr ydynt *digariadawl*,
Gaseion Duw, gweision diawl.—*Ffowc Prys.*

Digitized by Google

Digarregu, *v.* [carreg] to gather out stones; to clear away stones; to free from stones; to stone.

Efe a'i cloddiodd hi, ac a'i *digarregodd*, ac a'i planodd o'r winwydden oreu.—*Esa.* v. 2 (*cf.* lxii. 10).

Digarregu rhesing, to stone raisins.—*W.*

Digartref, *a.* homeless; houseless.

Y mae ei gweinidogion i gael eu gwneuthur yn *ddigartref*.
Haul, 2 C.C. x. 216.

Digartrefol, *a.* having no home; not relating to home; foreign.

Yr hon yn wastat a vydei arnei sychet kiwtawtwyr ymlad kanys yn y veint honno trwm *digartreuawl* ymlad.
Yst. Bren. Bryt.: LI.C.H. ii. 235.

Digartrefu, *v.* to deprive of home; to make homeless.—*Llan*, Gorph. 21, 1882.

Digaru, *v.* [caru] to cease to love; not to love; to discard; to hate; to dislike.

Digared pob digariad.—*Iolo Mss.* 258.

Da gŵyr beri *digaru*
Ei phryd, fy anwylyd fu!
D. ab Gwilym, lxxvi. 39 (*cf.* cix. 6, 12; ccxxv. 9).

Nid hyall imi fod yn wynfydus, os ti a'm *digar*.
Iolo Mss. 176.

Goreu un gwr ei wyneb,
Gwr na ŵyr *ddigaru* neb.
L. G. Cothi, iv. xxi. 58 (*cf.* ii. i. 71).

Di air serch ydyw'r oes hon,
Digaru Duw a gwirion.—*W. Lleyn.*

Y mwyaf, cuaf a'i câr,
Hithau Degau a'i *digar*.—*Guto'r Glyn.*

Fel y byddai iddynt hwy, yn chwennych ymborth, *ddigaru* 'r peth oedd anghenrhaid ei chwennych.—*Doeth.* xvi. 3.

Digas, *a.* [dy-+cas]: see *Dygas*, *Dygasedd*, &c.

Digasnach, *a.* [casnach] without nap, napless; not shaggy; threadbare.

Digau, *a.* [di-+cau] not hollow; solid; true, genuine.

Gwybyddwch yn ehofn, taw os dim da a *digau* y sydd ynddo o barth prydyddiaeth (megys y doedwyd uchod) mai y chwi biau.—*Dr. I. D. Rhys:* Gram., Rhag. 4.

Digawdd, *a.* [cawdd] without annoyance, offence, or reproach.

Digawn, *sm.* and *a.* [dy-+cawn]: see *Digon*, &c.

Digawn, *v.*=*Digon*, *Dichon*.

Digder, *sm.* [dig]: see *Digter*, &c.

Diged, *a.* [ced] without treasure or riches; without a gift or gratuity; without advantage or benefit.

Diged fydd ffau cybydd gwael.—*Gutyn Owain:* M.A. i. 16.

Digeden, *a.* [ceden] without nap, napless.

Digedeniad, *sm.* the action of dressing cloth; a burling.

Digedenu, *v.* 'to dress cloth as fullers do;' to burl.

Digedu, *v.* to divest or spoil of treasure.

Digedd, *sm.* anger, wrath, ire.

Yna'r fawr afon trwy y glyn a red,
Tywi neu Teifi, dros y glanau'n chwai
A deifl ei rhydrwm faich mewn *digedd* llawn.
Daniel Ddu, 52.

Digeffeirdd, *a.* a word not elsewhere found, and evidently a corrupt form, possibly intended for *diglerfeirdd*, without itinerant bards.

Rhoed dan faen glasgaen glwysgorf heirdd gedoedd
Hardd o giwdawd *digeffeirdd*
Ynghôr llên gwên am gweheirdd
Ynghudd llysty bûdd a beirdd.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 441.

Digeincio, *v.* [cainc] to lop off branches.

Digeintach, *a.* [ceintach] without bickering, quarrelling, or grumbling.

A menegi idaw bod yn gewllyd idaw kodi kennat yny wypit cwbwl or a dywettei yn *digeintach*.
Ystoria de Carolo Magno, col. 469.

Os camsyniais wrth eu hesponio, pa ham na bussai Benoni, yn *ddigeintach*, yn nodi allan y cyfeiliornad!
Ioseph Harris: Gweith. 44.

Digeintachol, *a.* not contentious or quarrelsome.

Digeintachu, *v.* to cease to bicker.

Digeithder, *sm.*=*Digaethder*.

Digel, *a.* [cel] not secret, hidden, or concealed; open; public; ascertained.

Diofryd dor gryd grym awyriaith
Dewr Howel *ddigel* ddygn o dreiswaith.
Trahaiarn: M.A. i. 499 (*cf.* 416, 478, 492).

Y gwŷr *digel* a ddaw lle'dd el.—*L. G. Cothi*, viii. iv. 103.

O weilch *digel* wehelyth;
Ofer bump wrth Ifor byth.—*Dafydd ab Gwilym*, v. 19.

Digelfydd, *a.* [celfydd] wanting skill, unskilled, unskilful, artless, awkward, clumsy; unartificial, simple.

Diau i'th ol adolwyn,
Ddafydd, wr *digelfydd* gwyn.—*D. ab Gwilym*, cli. 27.

Dibwyll dall *digelfydd*.—*Y niales.*

Digelfyddyd, *a.* devoid of art or skill, artless, unskilled, unpractised; simple.

Nid oedd yr Eglwys eto wedi cael amser . . . i fesur yn gwbl hyd a lled, uchder a dyfnder y ddysgeidiaeth syml a *digelfyddyd* o eiddo yr Ysprydd a gymmwysid yn yr Ysgrythyrau.—*J. Pryce:* Eglwys Foreuol, 229.

Digelog, *a.* unsecreted; unsecluded.

Digelu, *v.* to cease hiding; not to conceal; to disclose; to expose; to bring to light.

Llwyr ddarogan Bran i'n brawd y cu
Fab Dyfnwal arial gal *ddigelu*.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 443.

Caniatâ imi nessiu atod â moeslawn raith ac hyfull galon, mal *digelwyf* fy serch a'm hiraeth.—*Iolo Mss.* 176.

Gardd Gymru, *digelu* gynt
Ei rhinwedd, felly'r henwynt.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 96.

Digelu, *a.* without concealment, open.

A golwg yn *ddigelu*, trwy rad ras,
I'w aelod was i weled Iesu.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 275.

Digelwydd, *a.* [celwydd] without lie or falsehood; that cannot lie; true; serious.

Yn *digelwyd* dywet ym pa wed yd arwedy ui trwy y gwledi hynn.—*Bowen o Hamtwn*, § 52.

Erchi a wnaf itt yr y vrawdoryaeth ysprydawl ysayd y rom. ac yr y ffyd ysayd itt wrth Duw dywedut yml yn *digelwyd* a vu ohir dyuot yr angel attat yn y mod y dywedy di.—*Amlyn ac Amig*, col. 1106.

Hampom hwyl ddiffrom ddiffrost *ddigelwydd*.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 572.

Dan obaith buchedd dragyfythawl, yr hon y *digelwydd* Dduw ei gaddawodd, cyn amseroedd oesau.
W. Salesbury: Tit. i. 2.

Yn wir ddigelwydd, in good or sober truth; truly and verily; truly and sincerely; in sober earnest.

Ond *yn wir ddigelwydd* myfi a welaf yr awr hon, ar ol hir brawf, o mynwn weithio dim lleiâ ar yr eneidiau difedr, anwybodus hyn, mai rhaid yw i ni gymmeryd poen ffordd honno.—*Robert Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 377 (*cf.* 47).

Digelwyddog, *a.* that cannot lie or deceive; that does not lie.—*Tit.* i. 2.

I obaith bywyd tragywyddol, yr hwn a addawodd y *digelwyddog* Dduw, cyn amseroedd tragywyddol.
Esgob Morgan: Tit. i. 2.

Fe gredir gair yr onest a'r geirwir ym mhlith dynion, pa faint mwy y dylai gair y Duw *digelwyddog*, gair y Gwirionedd ei hun, gael ei gredu!
Ioan Wallter: Dwy Bregeth, 19.

Digitized by Google

Digenedledig, *a.* ungenerated, unbegotten.

Yr ydym yn credu . . . ei fod Ef yn wir Dduw, yn ddiwneuthuredig, yn ddigrëedig, yn *ddigenedledig*, eithr yn deilliaw oddi wrth bob un o'r ddau.
Morus Cyffin: Diff. ii. 5.

Digenedliad, } *sm.* a denationalising; a being
Digenedlhâd, } ungenerated.

Digenedlog, *a.* 1. ungenerated.—*P.*

2. not of numerous family.—*P.*

Digenedlu, } *v.* to denationalise; to become
Digenedlhau, } separate as a nation (from another).

Dywawt mae un genedyl oed wyr Rufein ar Brytanyaeit kanys o Eneas y hanoedynt hwy ar Brytanyeit. ac eissoes om tebic neur derw udunt *digenedlu* y wrthym ni.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 83.

O hynny allan *digenedylhau* a wnaeth y Kymry y wrth Vrytanawl uoned a theilygdawt.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 255.

Digenfigen, *a.* [cenfigen] free from envy; unenvious; unenvied.

Ond dedwydd i fardd hardd a fo hen
Weled Nadolig *digenfigen*.—*L. G. Cothi*, i. xxxvi. 41.

Mae gwir ddysg yn dysgu dyn i fod . . . yn effro yn erbyn pechod, yn ddiwyd yn ei orchwyl, yn *ddigenfigen* oddi fewn.
Morgan Llwyd: Tri Aderyn, 86.

Rhinwedd yw bod o ddyn yn . . . medru gweled ereill mewn llawn-fyd ac anrhydedd, ac megys yn disgleirio gan eu da byd, yn hawddgar, ac yn ddidd'g, ac yn *ddigenfigen*.
Th. Williams: Ymadr. Bucheddol, 27.

Digenfigeniad, *sm.* a ceasing to envy; a divesting of envy or ill-will.

Digenfigenol, } *a.* not envying, unenvious,
Digenfigenus, } free from envy.

Digenfigenu, *v.* to cease to envy; not to envy; to become unenvious.

Digeniad, -au, *sm.* a scaling, a peeling.

Digenu (*ĕ*), *v.* [cen] to scale, to peel off in scales; to strip or clear off scales.

Digenu pysgodyn, to scale a fish.—*W. Salesbury*, s.v.

Digeraint, *a.* having no kindred or relatives.

Pan na bo dim o'r fath reswm i'w roddi am y peth, pan fo pobl nid yn unig yn ddiblant, ond nid hwyrach yn *ddigeraint* hefyd, neu yn ddigon diofal am danynt.
Th. Williams: Ymadr. Buch. 153.

Digerdd, *a.* without song, songless; inartistic, unskilled.

Penkerd o *digerd* ny ddigonit.
Phylip Brydydd: M.A. i. 377.

Digerth, *prep.* [certh (*P.*): cf. *dierth*=dieithr =dyeithr] except, excepting.

Efe [y meddyg] a ddylai, gyda llaw, ei bwysau a'i dafolau yn ariannaid neu yn alcanaid, rhag myned gwenwyn yn y feddyginiaeth, a'i holl fesurau llyn a gwlyb yn ariannaid neu yn alcanaid, gan yr un pwyll, ac hefyd ei holl gelfi cnawd, *digerth* gwaedlafnau, a chyllyll, ac ereill o gelfi tori, a'i ysgiwiau.—*Meddygon Myddfai*, 297.

O ddigerth, } except, excepting; with the or
Oddi gerth, } an exception.

¶ Pughe considers the word an adjective, denoting 'not evident, or conspicuous, not imminent;' but there does not appear to be any instance of it in that sense.

Digerthu, *v.* to except, to exclude, to exempt.

Taflu i lawr yw'r cyffredin: y gair collir yw rhan, hon a *ddigerthwyd* o'r llall, oedd y cyffredin.
Henri Perri: Egl. Ffraeth. xxxiii. 3.

Digerydd, *a.* without reproof, rebuke, or chastening; unrebuked; unpunished; blameless. —*A.B.* ii. 99.

Archaf rec yn dec a *digeryt* wyf.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 271 (cf. 355, 511).

Neud *digerydd* Duw neu digarad cyrdd.
G. Ddu Arfon: M.A. i. 409 (cf. 184, 191).

Yn ddigerydd, without reproof or reprimand; with impunity.

A ddiengwch chwi *yn ddigerydd*?
Ier. xxv. 29 (cf. xxx. 11; xlix. 12).

Os mynech genyf fi well gwasanaeth, gollyngwch fi i'r byd eto, i roi tro neu ddau *yn ddigerydd*.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 100 (cf. 108).

Cymmaint oedd sel y Christ'nogion da gynt i gadw cymdeithas bur ddihalog, fal na chai neb a droseddai'n ysgeler, fod *yn ddigerydd* o'i blegid.
Theo. Evans: D.P.O. 347.

Y troseddau lleiaf a gospir yn fynych â marwolaeth, tra bo y rhai mwyaf anllywodraethus yn diane *yn ddigerydd*.
G. Mechain: Gwaith, ii. 34 (cf. 513, 575).

Digeryddol, *a.* irreprovable; unpunished; impunitive; not reproved or chastened.

Digeryddu, *v.* to cease to chastise or rebuke.

Digeryddwch, *sm.* irreprovableness; impunity; exemption from rebuke or reprimand.

Can dotwyf a *digerytwch*
Na dala uar casuar cas hetwch.—*Cynddelw:* M.A. i. 227.

Digerrygo, *v.* [cerryg, *sg.* carreg] to take or clear away stones; to take out stones; to stone.

Digiad, -au, *sm.* [dig, digio] an affronting or offending; a being offended or displeased.

Digib, *a.* [cib] having no husk, shell, pod, or seed-case; acotyledonous.

Digibiad, *sm.* a divesting of the husk, shell, or pod; a shelling.

Digibo, *v.* to shell; to take out of the shell; to free from husks; to husk.

Digibo ffa, to shell beans.

Digibo cnau, to shell nuts.

Digibol, *a.* that shells or unhusks.

Digig, *a.* [cig] without flesh, not fleshy; lean; without flesh-meat.

Digigo, *v.* to divest of flesh; to strip off the flesh.

Pa sawl un a *ddigiga* un cyfreithiwr i godi ei grombil ei hun?—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 57.

Digil, } *a.* without retreat; not giving way;
Digiliad, } unyielding, unswerving.

Lleiddiad *digiliad* galon grynu
Llaw rodded nodded Nudd gystadlu.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 444.

Digilio, *v.* to cease from retreating.

Digilwg, *a.* [cilwg] without a frown; kind.

Da'i galon a *di gilwg*.—*Huw Morus:* E.C. i. 31.

Gwelaf Angyles *ddigilwg*, seirian, un siriol ei golwg.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 197.

Diginiaw, *a.* [ciniaw] dinnerless.

Croesaw i'm *diginiaw* gell,
Gras Dofydd! goreu 'stafell.—*Gronwy Owain*, 55.

Digio, *v.* [dig] 1. *v.a.* to offend, to affront, to displease; to make angry, to anger.—*M.A.* i. 82, 290, 473.

Nyt iawn y neb yn ceissiaw y neges *digyaw* y neb y bo y neges wrthaw.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 646.

Digitized by Google

Hawdd yw *digiaw* dig.—*Diareb.* (M.A. iii. 161; cf. 89.)

O Iesu, mi'th *ddigiais*, mi bechais i'm buchedd
Drwy ddilyn mor hywaith rhyw fawrwaith oferedd.
Dafydd Wiliam Dafydd: Cyfrinach y Beirdd, 109.

Capel glwys-frig ni'm *digiai*
O ddail irgyll mentyll Mai.—*D. ab Gwilym*, lxxviii. 29.

Y mae pob rhysedd a gormodedd yn *digio* mawrhydi yr Hollalluog Dduw.—*Ed. James:* Hom. ii. 190.

2. *v.n.* to be offended or displeased; to take offence; to be angry or wroth.—*Gen.* xviii. 30; xlv. 5; 2 *Cron.* xvi. 10.

Sef a wnaeth ynteu *digyaw* a chymryt y werin yn y arffet a thaflu y clawr yr llynn.—*Mabinogion*, 240.

Ni *ddigia* Duw Dad er erchi cyflawnder.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 6.

A *ddigio* heb achos, cymmoded heb iawn.
Diareb. (M.A. iii. 179.)

Digiol, *a.* tending to offend or displease.

Diglaer, *a.* not bright or splendid.

Hoet adoet oet aer ffloyw *diglaer* ffiam.
Casnodyn: M.A. i. 427.

Diglaf, *a.* not sick or unwell.

Diglau, *a.* insincere; slow.

Diglec, *a.* [clec] without a smack or snap; without gossip; noiseless.

Cariad nyd ymffrostia [*y sydd *ddiglec*, ddianwadal].
W. Salesbury: 1 Cor. xiii. 4.

Diglefychu, *v.* to cease being sick.

Diglefyd, *a.* without disease, sickness, or infection; healthy.

Tri pheth di glwyf *di glefyd* a fawr gystuddiant a'u harweinio: cariad; cas; a galar.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 224.

Heb petruster ny dieinc yn *digleuyt.*
Meddygon Myddfai, i. 174.

Diglist, *sm.* bitumen, asphalt. Pughe, for no apparent reason, writes the word *dyglist.* The origin is obscure.

D. Pa le y bu Babel. M. Yn y lhe y mae Babilon vawr yr awr honn. ac a adeilawdh Semiramis Vrenhines o *diglist* a phridhcist. val y gwrthnebai y *diglist* yr tan. ar pridhcist yr dwfyr.—*Lucidar*, ‖84.

Bitumen . . . rhyw briddgist gwydn fal pyg, pyglöyn gludiog, *diglist*, pyg y Môr Marw.—*Walters*, s.v.

Diglistaidd, *a.* bituminous, asphaltic.

Diglistiad, -au, *sm.* bituminization.

Diglistio, *v.* to bituminate, bituminize.—*Dicts.*

Digliw, *a.* [cliw] not compact, neat, or pretty.

Digliwdod, *sm.* want of compactness or neatness.

Diglo, *a.* [clo] without a lock; unlocked.

Diglod, *a.* [clod] 1. without fame, not famed; not celebrated or famous; uncelebrated; fameless, praiseless.

Gormodd, meddaf, bendraphen a phendramwnwgl â'u gilydd i dreulio eu daoedd yn ofer *ddiglod*, ac i gyfoethogi y cyfreithwyr.—*Dr. T. Williams* (Y Greal, 67).

Ac ni cherais, i'm cais cysson,
Amlwaith wan fod ym mhlith ynfydion
A dynon *diglod* annoeth.
Ch. Dafydd Meredydd: Cyfrinach y Beirdd, 157.

2. having no good word or report; without praise, not praiseworthy; infamous.

A chynrhawn *diglot* a phryfed hynod.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 536.

Tri brodyr camwaith: ariannog; didref; a *diglod.*
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 275.

Diglod pob anhawddgar.—*Diareb.*

Diglodedd, **Diglodrwydd,** *sm.* want of fame, renown, or celebrity; baseness.

Diglodforedd, *a.* without praise, unpraised, uncelebrated.

Bendithia'r Arglwydd, ac na ad
Ei gariad a'i drugaredd
Yn anghof, heb dy ddiolch di,
A marw'n *ddiglodforedd.*
Dafydd Jones: Salmau Watts, ciii. 2.

Digloff, *a.* [cloff] not lame, limping, or halting; free from lameness or halting; not imperfect, faultless.

Digloff i molyant hyt wlat ogled.—*Rhiserdyn:* M.A. i. 433.

Digloffedd, **Digloffni,** *sm.* freedom from lameness.

Digloffi, *v.* to cure of lameness.

Cwrw a chariad a'th *ddigloffa.*—*Huw Morus:* E.C. ii. 80.

Digloffni, *a.* free from lameness; not lame or limping.

Diglust, *a.* having no ears, earless; void of hearing.

Diglwm, **Digwlwm,** *a.* without a knot or knots; not knotty, unknotted; untied.

Diglwyf, *a.* 1. without a wound or wounds, unwounded; not hurt, unhurt.—*M.A.* iii. 224.

Ac yn *diglwyf* or brath ymlad vyrr ennyt o Achelarwy ac ef. ac lad.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 30.

Eu lluoedd . . . a sathrwyd fel nad arosodd gymmaint a rhestr gyfan yn *ddiglwyf.*—*Theo. Evans:* D.P.O. 122.

2. without disease or infection; sane.

Rhyddid *ddiglwyf*, cu rwyf ein crefydd,
A chlod benaf ein gwych wlad beunydd.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 225.

3. without being affected, unaffected; unobjectionable.

A unbennes heb y brenhin. os y marchawc a vynn hynny. *diglwyf* yw gennyfi.—*St. Greal*, ‖152.

Diglwyfiad, -au, *sm.* a curing of wounds or of disorders.

Diglwyfo, *v.* to cure of wounds; to cure of disorder.

Diglymol, **Digylymol,** *a.* [clwm, cwlwm] tending to untie or unknot.

Diglymu, **Digylymu,** *v.* to free from knots; to unknot; to untie.

Digllawn, *a.* [dig+llawn] full of wrath, rage, or anger, wrathful, indignant, angry, ireful. Often, but less accurately, written *digllon*, as in the case of many other words of similar formation.—*Salm.* vii. 11.

Mor *digllawn* digrawn deigyr yn syrthyaw
Am deyrn eurgryn aergwn lithyaw.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 367 (cf. 234).

Na oddef ef, wyf *ddigllawn*,
O wlaw, na gwynt, loew-ne gwawn.
Dafydd ab Gwilym, lx. 25 (cf. ccxli. 45).

Yr oedd efe yn *ddigllon* wrtho ef am y peth hyn.
Esgob Morgan: 2 Cron. xvi. 10.

Digllon pob newynawg; gelyn pob *digllon.*
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 49 (cf. 7).

Uwch eu penau y bydd eu barnwr yn *ddigllon* am eu hanwiredd.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. v. 17.

Ni ddichon gwr *digllon* gael ei gyfrif yn gyflawn.
Eccl. i. 22.

Gwr *digllon* a chyffröus dros ben yw: y mae mor *ddigllon* a'r gacynen.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 224.

Llid digllawn, great anger.—2 *Cron.* xxv. 10.

Digitized by Google

Digllondeb, **Digllonder,** **Digllonedd,** **Digllonrwydd,** *sm.* wrath, anger, rage, displeasure, ire, indignation.—*Iob* v. 2; xvi. 9; xviii. 4; *Barn.* ii. 14, 20; *Salm.* ii. 5.

Hi a'i hatebes mai ofer oedd iddo ei *ddigllondeb*, ac ni thalai ronyn iddo.—*Iolo Mss.* 176.

Athrylith ei *ddigllonedd* a fydd yn dramgwydd iddo.
Eccl. i. 22.

Tri anhardd ar ddyn: glythni; diogi; a *digllonedd*.
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 262 (cf. 267).

Ystyriwn beth yw maint a mesur ei *ddigllonedd* ef yn erbyn pechod.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. vi. 5 (cf. 6).

Yno y cofiwn faintioli a thrymder ein pechod, ac nad yw digofaint a *digllonder* Duw'n rhydrwm.
Huw Lewys: Perl, 66 (cf. 62).

Balchderau'r byd ni wedd i'r sant,
Na thrachwant na *digllonder*.
Iolo Morganwg: Salmau, II. cxxii. 3.

A pha ryw siomedigaeth a gufid yw hyn iddo ef, dy weled di, yu lle ail ddiwygu y bai cyntaf, yn rhedeg i un arall, sef o *ddigllonrwydd* diachos yn ei erbyn ef!
Langford: Holl Ddyledswydd Dyn, 294.

Gweddi yw y brif feddyginiaeth rhag *digllonedd*. . . Os ymröi i daer weddïo am help i'th *ddigllonrwydd* gan Dduw, rhaid i ti'n gyntaf trwy ddyfal ddiwydrwydd dy hun ymegnïo i ymwrthod ag ef.—*Ed. Samuel:* Rh.B.S. 226 (cf. 61).

Digllonedd llidiog, hot or violent anger; sore displeasure.—*Ecs.* xi. 8.

Diglloni, *v.* to be wroth, angry, or displeased; to anger, to irritate; to provoke to anger.—*Gen.* iv. 5; 2 *Cron.* vi. 36.

Er ei son a'i *ddiglloni*,
Fe wna hon a fyno hi.—*Dafydd ab Gwilym*, cclvii. 17.

Na *ddigllonwch* yr Arglwydd ein Duw ni.—*Iudeth* viii. 14.

A *diglloni* yn fawr iawn a wnaeth efe.—*Iolo Mss.* 176.

Ym mhob dinas yn Iudah y gwnaeth efe uchelfëydd i arogldarthu i dduwiau dieithr, ac a *ddigllonodd* Arglwydd Dduw ei dadau.—2 *Cron.* xxviii. 25.

Ail yw rhuthr Brython, pan *ddigllonant*,
I ffrwd Geirw yn hyll fwrw i'r llifeiriant.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 31.

Diglloni, *sm.*=*Digllondeb*.

Cotedic yt wyf o *digloni*.—*Cynddelw:* M.A. i. 219.

Can na ddarparawdd Duw nyni i *ddigloni*, anyd er caffaeliad iechedwriaeth.—*W. Salesbury:* 1 Thess. v. 9.

Yr wyf fi yn cyffesu ddarfod i mi ymollwng fy hun i *ddigloni* loerig a ffromder.—*Allwydd Paradwys*, 166.

Ac felly y tyngais yn fy *nigloni*.
Esgob Richard Davies: Heb. iii. 11 (cf. iv. 3).

Digllonus, *a.* angry, angered, enraged, irate.

Rhaid i ni attal cychwynfa'r profedigaeth, taflu heibio yn *ddigllonus* y meddylfryd cyntaf o drachwant.
Edward Samuel: Holl Ddyl. Dyn, vii. 24.

Dignap, *a.* without a knob or knot; not knotty.

Dignapio, *v.* to divest of knobs; to burl.—*W.*

Dignawd, *a.* [cnawd] destitute of flesh, fleshless; lean.—*A.B.* ii. 170.

Drud ddurnawd mael *ddignawd* mawl ddognedd.
Dafydd y Coed: M.A. i. 497.

I'r bedd, oer ddygnedd, *ddignawd* asgwrn,
Heb ysgog un aelawd.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 291.

Ym mlaen tua Iericho, yn sefyll yn amlwg,
A'u creigiau fel esgyrn yn *ddignawd* i'r golwg.
I. G. Aled: Palestina, 30.

Dignaws, *a.* [dig+naws] of an angry disposition; angry, wrathful.

Nid eilhaws *dignaws* dygnais ddawn dadlau.
Gr. ab Dafydd ab Tudur: M.A. i. 480.

Dignec, *a.* [cnec] without a snap, crack, or report.—*Egluryn Ffraethineb*, xiii.

Dignewull, *a.* having no kernel or kernels, without kernels, unkerneled.

Dignewullu, **Dignewyllu,** *v.* to take out the kernel.

Dignewullyn, **Dignewyllyn,** *a.* having no kernel; empty.

Pa fodd bynnag y mae'r byd dros amser yn gwgu arnynt, eto nid ydynt fel y gorsen *ddignewyllyn* ddisylwedd, yn bwhwman gyd â phob awel.—*Nicander:* Dysga Farw, 124.

Dignif, *a.* [cnif] free from toil, pain, or trouble.

Digochl, *a.* cloakless; uncloaked; undisguised, open.

Maent yn llefaru . . . fel cyfaill yn ymddiddan â chyfeillion, mewn dull agored a *digochl*, mewn dull hyderus ac ymddiriedol.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 130.

Digochli, *v.* [cochl] to dismantle; to strip, to divest.—*W.*

Digoddawl, *a.* tending to free from vexation or annoyance; inoppressive.

Digoddi, **Digodded,** *v.* [coddi] to free from vexation, annoyance, or injury.

Mab a aned i'n *digodded* yd y gwyddon.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 566.

Digoddiant, *sm.* freedom from tribulation, annoyance, vexation, harm, or injury.

Llawn oed y meyssyd o dieuyl yn crogi dynyon gyt a rei ereill a grogyssynt yno. a phan vynessynt hwy poeni y marchawc yno. y gelwis ynteu enw Iessu. ac y bu *digodyant* idaw.—*Purdan Padrig*, f 15.

Digoddiant, *a.* free from vexation, annoyance, harm, or injury; harmless; without impropriety.

Duw a'n diffyrth yn *ddigoddiant* oddiwrth y tân.
Llyfr Gwyn Hergest. (*P.*)

Efe a fu ym mhlith y bleiddiau yn *ddigoddiant*.
Mabinogion. (*P.*)

A chanu yn deuluaidd fwythusgerdd gyfannedd, a chanu rhieingerdd yn garuaidd *ddigoddiant*, heb ordderchedd.
Y Greal, 301.

Digoed, *a.* [coed] destitute of trees, woodless, treeless; without timber.

Digoedi, **Digoedio,** *v.* to divest or clear off trees, wood, or timber; to make woodless or treeless.

Ni ddyly brawd fod yn goetwr i'r llall, namyn taled iddaw goed cystal a'r hwn a *ddigoedes* [*al.* ddiosges] yntau. Ac oni chaiff goed cystal, taled o henfaes iddaw gystal a'r coed; ac oni chaiff o henfaes, ardded yr hwn ry *ddigoedes* [*al.* ry ddiosges] y coed i arnaw bedair blynedd.
Leges Wallicæ, II. xvii. 28 (C.C. i. 180).

Digoeg, *a.* [coeg] not empty; not vain or frivolous; not pert; undeceiving.

Haws oedd mewn castell celli,
Ar hafnos, ei haros hi;
Gan glywed digrifed tôn
Y gog las *ddigoeg* leision!—*Dafydd ab Gwilym*, xcviii. 13.

Digoegedd, **Digoegni,** *sm.* freedom from vanity, frivolity, or pertness.

Digoegryw, *a.* not of base sort; not of degenerate kind.

Tad hwn gwaew-grwn, *digoegryw*,
Bledri waed o'i baladr yw.—*L. G. Cothi*, iv. vi. 31.

Digoethdeg, *a.* without fair culture; unrefined.

Ciwed anhyfaeth, gaeth, *ddigoethdeg* lais,
Sef a'u tremygais megys gwartheg.—*Gronwy Owain*, 28.

Digof, *a.* [cof] having no memory; forgetful.

Digofain, *sm.*=*Digofaint*.

Yr oedd yr Iddew main
A'i gefn yn y *ddigofain*.—*Rhisiart ab Rhys:* Iolo Mss. 302.

Pwy a'ch ragrybuddiawdd i ffo iwrth y *digofain* ar ddyfod?—*W. Salesbury:* Luc iii. 7.

Hwn nid ufuddhao i'r Mab, ni wŷl ef fywyd, anyd *digofain* Duw a erys arnaw.—*W. Salesbury:* Ioan iii. 36.

Digitized by Google

Digofaint, } *sm.* [dig: for the term. *-ofaint*,
Digiofaint, } cf. *cwynofaint, gwallofaint*, &c.]
1. wrath, anger, indignation.

Ynteu a lidiawd. ac o hyt y gadwyn ruthraw a oruc ef. yny vyd ymplith y marchogyon urdolyon a cheissyaw eu llad o *digyoveint*.—*St. Greal*, i 194.

Ti a allut dywedut a uei hygarach pei as mynhut. ac nyt arnafi y perthyn itti dial dy lit ath *digyoucint*.
Mabinogion, 213.

Nyd ef y canaf can *digyofeint* uym mryd
Namwyn mi ae pryd kywyd kywreint.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 270 (cf. 244, 501).

Gwaewyr serch, gwaeth no g♦yr saint,
A gefais drwy *ddigofaint*.—*Dafydd ab Gwilym*, cv. 17.

Y mae Owain Glyn Dwr yn gâr cywir, heb na *digofaint* na brad na thwyll yn ei galon.—*Iolo Mss.* 99.

Tri pheth y dylid eu cadw dan llaw: chwant y cnawd; rhwysg y tafawd; a gwŷn *digofaint*.
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 222 (cf. 109, 231, 233).

Y mae Selef Ddoeth hefyd yn canmawl yr ateb a dola fâr a *digofaint*.—*Henri Perri:* Egl. Ffraethineb, xi.

Digofaint Duw, the wrath of God.—*Ioan* iii. 36 (cf. Rhuf. i. 18; Eph. v. 6; Col. iii. 6).

Tri pheth a geir o hir ddilyn drwg: cosp cyfraith ei wlad; ei gasâu gan bawb; a *digofaint Duw*.
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 203.

Plant digofaint, children of wrath.—*Eph.* ii. 3.

Annog i ddigofaint, } to provoke or excite to
Cyffroi i ddigofaint, } anger.—1 *Bren.* xiv. 15.

Pan fôm fel hyn yn ei *gyffroi i ddigofaint* heb ddim profedigaeth.—*Ed. Samuel:* Holl Ddyledswydd Dyn, iv. 8.

Angerdd digofaint, fierceness of wrath or anger; fierce anger.—*Iob* xx. 23.

2. inflammation (of the skin, &c.).

Eli hufen a sudd llysiau'r geiniog rhag *digofaint*, lloeg, doesau, &c.—*Llanover Ms.*

Digofi, *v.* to be displeased, angry, or wrathful.

Deudeg mil yn y gyman
A gredwys trwy lef Ieuan
Golychan gobrynant van [*al.* rann]
Yn nefoed nys *digofant*.
Taliesin: A.B. ii. 113 (M.A. i. 171).

Digofiant, *sm.* [=digofaint] wrath, anger, displeasure.—*P.*

Digofio, *v.* not to remember; to forget.

Brynti yw meddwi modd-wyllt,
Digofio Duw, gafod wyllt.—*Huw Morus:* E.C. i. 94.

Digofus, *a.* wrathful, angry, wroth, ireful, irate, exasperated.

Oed Crist 1442, y bu ymryson rwng Anarawd ab Gruffydd ab Rhys a Chadwaladr ab Gruffydd ab Cynan . . . a geiriau *digofus* a fu ryngthynt oni wanes Gadwaladr Anarawd yn ei ais ag y bu farw.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 560.

Pan fo'r Ollalluog Dduw, er rhyglyddiadau ei Fab, nid o feddwl *digofus*, ne o ddigter, eithr o ewyllys da, ac o galon gariadlawn tuag atom, i'n cospi ae i'n ceryddu, ef a ellir ei gyffelybu a'i alw'n debyg i dad.
Huw Lewys: Perl, 32 (cf. 42, 67, 235).

Os taer a *digofus* ydyw ar un amser, hyny sydd yn fwy yn achos Duw a braint crefydd, nag er ei fwyn ei hunan.
Ieremi Owen, 109.

Rhuo, ymwrio wna'r môr
Digofus, a dygyfor.—*Dafydd Ionawr*, 162.

Digoffa, } *a.* without a memorial;
Digoffadwriaeth, } without remembrance or recollection; unrecorded; unremembered.

Digoffâu, *v.* to cease to mention; not to remember; to forget.

O Ti, eu Tad, eu Llywydd, ac eu Ner,
Cu am dy drugareddau, am dy nerth
Ioledig ! er dy Enw os *digoff'ynt*
Y tonnau fod eu grym, a chwilliaw gan
Iorddonen adlif am ei hygrych dardd.
W. O. Pughe: Palestina, 13.

Digolyn, *a.* [colyn] stingless.

Digolyn yw angeu trwy angeu y groes.
Blackwell: Ceinion Alun, 190.

Digoll, *a.* [coll] without loss, defect, or deficiency; without a lapse; without a drawback; complete, perfect.

Aur degan eiriau *digoll*,
Digabl air, da o gwbl oll.
Huw Morus: E.C. i. 91 (cf. 117).

Nid oes, yn wir, un genedl dan haul wedi cadw ei gwlad a'i hiaith o'r hen amser gynt yn gyfan a dilwgr; nac oes un wedi cadw ei braint yn *ddigoll* ac yn ddigymmysg.
Theo. Evans: D.P.O. 3.

Yn erbyn twyll (trwy bwyll byw allwedd)
A'i gall edliw, *ddigoll* hyawdledd.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 278.

Meddiannu'r byd ynfyd oll
Ddeugain can mlynedd *ddigoll*.—*Dafydd Ionawr*, 308.

Ni ddygwyd neb yn *ddigoll*,
Heb ryw ddawn, mwy na'r beirdd oll.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 167.

Dyn digoll, a well-shaped man.

Cefn Digoll, also called *Digoll Fynydd*, a mountain in Montgomeryshire.—*Mab.* 151, 308; *M.A.* i. 121, 234; *A.B.* ii. 277.

Digoll, *sf.* cudweed (*Gnaphalium*).

Digoll lwyd, least cudweed (*Gnaphalium minimum*): also called *edafeddog leiaf*.—*Hugh Davies:* Welsh Botanology, 78, 183.

Digolled, *a.* free from loss or damage.

A fo digywilydd a fydd *digolled*.—*Diareb.* (M.A. iii. 146.)

Digolledig, *pt.a.* not lost; not diminished.

Ai gwell adail *digolledig*,
Ai lled-adail cyssylltedig ?—*L. G. Cothi*, III. xxvii. 71.

Digolledlad, -au, *sm.* a freeing or securing from loss; indemnification.

Digolledrwydd, } *sm.* freedom from loss; in-
Digolliant, } demnity; compensation.

Digolledu, *v.* to make good a loss; to save harmless; to indemnify; to compensate.

Os ym pen anyueil arall y dygwyd ny thelir aghyuarch drostaw namyn *digolledu* y perchennawc o honaw canyt yn ynn cam y gwnaethpwyt.—*Cyfreithiau Cymru*, ii, 382.

Y sawl a anafodd ei gymmydog, mae e'n rhwym i gostio'r meddyg, a'r holl draul arall, a'i *ddigolledu* yntau am y rhwystr i'w waith neu ei farchnad.
Elis Wynn: Rh.B.S. 158 (cf. 152).

Ni wnaiff edifeirwch ddadwneyd y drwg, na *digolledu*'r dioddefydd.—*Samuel Bowen:* Athrawiaeth yr Iawn, 52.

Digolliant, *a.* having no defect or deficiency; complete.

Dos a nadd, Duw sy noddiant, ddwy lech
O dda lun *digolliant*.—*Robert Owen:* Gweith. 139.

Digon, *sm.* [dy-+cawn. *Digon, digawn*, or *dygawn*, and *dichon, dychon*, or *dychawn*, are modifications of the same word. See *Dichon*] enough; that which is sufficient, sufficiency; plenty, abundance.

Dos ditheu ragot a chymer *digawn* o arueu ymdanat.
Mabinogion, 213.

Dywedet, y fot yn wr breynyoc, a *digawn* a gatwo o geitweit deddfawl y freint ganthaw.
Cyfreithiau Cymru, ii. 694 (cf. 572, 696).

Digawn yw gennyfi heb y Pwyll ual y llunyawd Riannon.
Mabinogion, 16 (cf. 14, 15, 72, 110).

A dywedut a wnaeth bot idaw ef *digawn* o eur ac aryant.
Yst. Bren. Bryt: Ll.C.H. ii. 66 (cf. 104, 111).

Ef a wnathoed heuyt *digawn* o drwc ar y Freinc y dyd hwnnw. Ac eissoes ef aeth amdanaw ynteu gwynnan *digawn* y meint y nos honno yr dinas.
Yst. de Carolo Magno, col. 455.

Digitized by Google

Iesu hael a roes i hon
O degwch mwy no *digon*.
Dafydd ab Gwilym, xxxv. 5 (cf. xxii. 7).

O dri *digon* y mae pob annigon: *digon* o gyfoeth bydawl; *digon* o nerth (iechyd) cnawdol; a *digon* o ddiogi (esmwythder).—*Barddas*, i. 292 (cf. 338).

Na ddymuna o'r byd ond dy *ddigon*.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 7 (cf. 21, 52, 65).

Pob cell yn llawn, Duw a *digawn*.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 234.

Heb Dduw heb ddim, Duw a *digon*.
Diareb. (M.A. iii. 162; cf. 153.)

'Mae genyf *ddigon*,' ebr hwnw, 'o Draddodiadau'r Tadau.'—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 45.

Digon yw *digon* o fendith ei fam.—*Digon* yw *digon* o ffigys.—*Digon* yw *digon* o fêl.—*Diarebion*.

Tri pheth da i wr a garo iechyd: *digon* o gwsg y gwanwyn; *digon* o fwyd yr haf; a *digon* o dân y gauaf.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 80 (cf. 70).

Deune'r hinon, dyro'n dirion
Fy llawn *ddigon* ar dy wenfron.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 232 (cf. 249, 260).

Caiff ddau *ddigon*, a llonaid
Ei chroen o ddu boen ddi baid.—*Gronwy Owain*, 111.

Digon a digon dros ben, enough and to spare; enough and enough.

Dros ben digon, more than enough; enough and to spare; enough and enough.

Cael digon ar beth, to have enough of a thing; to become tired of a thing.

Cefais ddigon arno (*o hono*), I have had enough of it.

Digon, *a.* 1. enough, sufficient; plenteous.

Yg kyureith Rufein y keffir . . . vot yn *digaun* deu tystonn.
Cyfreithiau Cymru, i. 422.

A hoffi yn y uedwl na welsei eiryoet gwreic *digonach* y thecket ae thelediwet no hi.—*Mabinogion*, 45.

A phadiw bynnac y mynnynt hwy y rodi hi vot yn *digawn* gantaw ef or gallei dial y sarhaedeu ar y elynyon.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 24 (cf. 27).

Kan deryw dial arnaw yn *digawn* y sarhaet a wnaeth ymi pan yttiw yn gwediaw uyn trugared. i.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 92.

Gwr oed *digawn* y ueint.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 443.

Digon i'r diwrnod ei ddrwg ei hun.
Matt. vi. 34 (cf. 2 Cor. xii. 9).

Digon yw, *Digon ydyw*, } it is enough or sufficient; it suffices.—*Gen.* xlv. 28.

Nid *digon yw* amcanu eu bwrw hwynt ymaith yn ol hyn.
Langford: Holl Ddyledswydd Dyn, 84.

Digon gwir, *Gwir ddigon*, } true enough; sufficiently true; quite true.

Digon gwir, yr oedd y Rhufeiniaid hwythau o gylch amser ein Hiachawdwr yn wŷr mawrion.
Theo. Evans: D.P.O. 8 (cf. 53, 56, 57, 58).

Mae yn wir ddigon, *Mae yn ddigon gwir*, } it is true enough; it is quite true.

2. sufficiently done (cooked, boiled, roasted), done enough.

Digon, *adv.* enough; sufficiently.

Da ddigon, *Digon da*, } good enough; very good; very well.

Da dhigawn ydh attebaist ym am hynny.—*Lucidar*, § 100.

Da digawn heb y Gereint. a pheri berwi y kic a orugant.
Mabinogion, 251.

Gwyddai Caisar hyn yn *ddigon da* (yn *dda ddigon*).
Walters.

Afon *dda ddigon* i ddyn
Erioed ydoedd Rhyd Odyn.—*L. G. Cothi*, III. xii. 5.

Ni wyddys yn *dda ddigon* am ba ham y danfonwyd am y Saeson yma gyntaf.—*Theo. Evans:* D.P.O. 94.

Digon call, wise enough, sufficiently wise.

Digon, Digoni, *v.* [=dichon] to be able; to effect, to effectuate; to do, to make; to do what is adequate.

Pob ryw beth or a allo bot yn eir gwir a *ddigawn* Duw.
Rhybudd Gabriel.

A unbennes heb yr Arthur ef a *digawn* bot yn drist i am hynny.—*St. Greal*, § 83 (cf. 145).

A llawer damwein a *digawn* bot.—*Mabinogion*, 18 (cf. 269).

Boet ymendigeit y gof ae *digones*. ar eingon y *digonet* arnei. . . Poet ymendigeit y ffoc y berwit yndi ar gof ae *digones*.—*Mabinogion*, 118 (cf. 120).

Ar gwaethaf oll a *digonei* o hynny o niuer. ual y gallei oruot ar vrenhin kadarn.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 436.

Ac yna y gellit gwybot pwy oreu a *digonei* a gwayw.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 217.

Digawn Crist trist yn llawen.—*Digon* Duw da i unig.
Diarebion (M.A. iii. 153).

A gwedy pellau y wrthunt ef a vedylyawd na bu vwyn y *digonassei* y dyd hwnnw.—*St. Greal*, § 33 (cf. 203).

Ac onis keiff hitheu nepreghet er egluys ef mal e deleo oreu neu entheu gunayit yaun or agheureyth *redigones*.
Cyfreithiau Cymru, i. 140.

A galwn ar y gwr an *digones*.
Taliesin: M.A. i. 67 (cf. 29, 62).

A *digoneisy* o gam o gyglwyf difri
Y Duw a Dewi y diwykwyf.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 271 (cf. 348).

Mawr Dduw *digones* heul haf ai rywres
Ag ef *digones* budd coed a maes.
Taliesin: M.A. i. 39 (cf. 64, 66, 68, 183).

Rhag caer Luydd coed nis *digonsyn*.
Meigant: M.A. i. 160 (cf. 158, 165, 167, 192).

Heb *ddigoni* cam heb nam arnaf.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 359 (cf. 360).

Archaf i Fab Duw canys *digawn*
Cymmod o'n pechod pechu nid iawn.
Cynddelw: M.A. i. 263 (171, 252, 257).

Am vnic treissic y traws yolaf Duw
A *ddigawn* yach o glaf.—*Llyw. ab Llywelyn:* M.A. i. 295.

Pan weloch chwi veint y allu ef aẹuarchogyon y glewaf ohonawch ni *digawn* chwerthin.
Ystoria de Carolo Magno, col. 413 (cf. 439).

Pwy bynnag a vo gantaw jeith eglurdda. ae alon yn mynnu dial arnaw. ef a *ddigawn* o synnwyr jeithdeg oe elyn gwneuthur yn getymeith.—*Ipotis*, § 15 (cf. 18).

Val hynn y *digawn* y Tad. ar Mab. ar Yspryt Glan vot yn un Duw.—*Credo S. Athanasius* (Hengwrt Ms.).

Pwy a *ddygon* [*all] fadden pechodau any Duw ei hun?
W. Salesbury: Marc ii. 7 (cf. Ioan iii. 3).

Ac i hwn a *ddygon* eich cadw yn ddigwymp, a'ch gosod yn ddifeius yng ngwydd ei ogoniant trwy orfoledd . . . y bo gogoniant a mawrygrwydd . . . yn oll oesoedd.
W. Salesbury: Iudas 25.

Ni ddigawn ef (=ni ddichon ef), he cannot.

Kanys *ny digawn* neb tebygu na damunaw tat neu ewythyr da y eu meibon ae nyeint.—*Brut y Tywysogion*, 98.

Digonaeth, *sm.* sufficiency; abundance.

Gwin ac olew i'r gwan galon, a llaeth,
Yn ber *ddigonaeth* i'w braidd gweinion.
Ieuan Glan Geirionydd: Geir. 136.

Digonaid, *a.* adequate; sufficient.

Yn frydion eu rhoi mewn llestr pridd *digonaid* ei faint.
Meddygon Myddfai, ii. 513.

Digonawd, *sm.* a satisfying; sufficiency.

Digonedd, *sm.* sufficiency; abundance, plenty, plentifulness; prowess, power.—*M.A.* i. 507.

A chyt bei udunt *digoned* o bob araf ehalaethdwr y brenhin a oruc yn amlach eu kyuoeth o rodi udunt lurygeu a chledyuev. a helmev ac aruev creill a vei reit y diwallu marchawc lu.—*Ystoria Charles*, 3.

Heb Dduw gwyn, heb *ddigonedd*.
Sion Cent: Iolo Mss. 291.

Tri pheth a gaiff gwr deddfol: *digonedd* bydawl; heddwch cydwybod; a bodd Duw.
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 203 (cf. 231, 262, 265).

Digitized by Google

Ein *digonedd* ni sydd o Dduw.
2 *Cor.* iii. 5 (cf. Eccc. xvi. 49).

Portha fi â'm *digonedd* o fara.—*Diar.* xxx. 8.

Nid *digonedd* ond boddlonedd.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 30 (cf. 82, 86).

Teilynga iddynt iechyd corff ac yspryd, *digonedd* o gadwraeth i'w cynnal yn gysurus ar eu taith i'r nef.
Elis Wynn: Rh.B.S. 290.

Ac yno cawn *ddigonedd*,
Trwy rad yr Ion mad a'n medd.—*Gro. Owain*, 34 (cf. 3).

Mae digonedd o gnau eleni, there is abundance of nuts this year.

Digoni, *v.* to satisfy (physically and morally); to fill, to satiate, to sate; to supply fully.

Digonynt brein gwneint pen brithred.
Taliesin: M.A. i. 68 (cf. 121).

I'th awenydd, o'th ddaioni, er *digoni* rhoi deganau.
L. G. Cothi, 111. xix. 78.

Tri anallu Duw: *digoni* gwagedd meroh; *digoni* rhyfyg balch; a *digoni* trachwant cybydd.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 240.

Pan fwytëych, a'th *ddigoni*; yna y bendithi yr Arglwydd dy Dduw, am y wlad dda a roddes efe i ti.
Deut. viii. 10 (cf. 12; xiv. 29; xxxi. 20).

Digonir fi, pan ddihunwyf, â'th ddelw di.—*Salm.* xvii. 15.

Digoniad, } *sm.* a satisfying, a sufficing; suffi-
Digonad, } ciency; superiority; effectuation.
—*A.B.* ii. 141.

Cyflawn ac uniawn ei *ddigoniad*.
Madog Dwygraig: M.A. i. 482.

Digoniannol, } *a.* [digoniant] tending to satisfy
Digoniannus, } or suffice; effectual, efficacious; prevalent, prevailing; triumphant.

Digoniannu, *v.* to effectuate; to make sufficient; to triumph.

Digoniant, *sm.* effectuation; sufficiency; ability; superiority; efficience; action; power, valour, prowess; prevalence; triumph; conquest.—*M.A.* i. 433, 507.

Da digawn y gware Gwalchmei mywn *digonyant*.
St. Greal, ¶ 116 (cf. 22).

Dwyn ceiliog â chrib iddo mewn arfau a arwyddocâ bod y dygiadur cyntaf yn rhyfelwr da, cadarn, bocsachus o'i fawr *ddigoniant*.—*Cyfraith Arfau* (Llanover Ms.).

Rhys ab Sion sy'n *ddigoniant*
Yn nwy-lan Nedd, yn ael nant.—*L. G. Cothi*, 1. xxiv. 11.

O bu drin ar y mab draw,
A blynyddoedd blin iddaw,
Ei gynnydd, a'i *ddigoniant*,
A dyf fal Siob, ddwyfol sant.—*Guto'r Glyn.*

Pan fo son am *ddigoniant*,
Dy roi'n uwch pob dewr a wnânt.—*Thomas Prys.*

Digonol, *a.* sufficient; abundant, plenteous, ample; enough; sated; satisfied; satisfactory.

Yn yr amser y buant y bu gyfoethawg y Cymry . . . i bob tir ei lafurwr, ac i bob llafurwr ei dir, fal y daeth llawnder *digonawl* i'r wlad, ac i'r holl wlad ei llawnder *digonawl*.—*Ieuan Brechfa:* M.A. ii. 501.

Tri pheth ni ddiffyg ar ddedwydd: hir iechyd ac einioes; da byd *digonawl*; a pharch doethion.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 268 (cf. 274).

Pa ddiolch sydd wiw a *digonol* ddigon ini ei rhoddi iddo ef?—*Ed. James:* Hom. i. 22.

A phwy sydd *ddigonol* i'r pethau hyn?
2 *Cor.* ii. 16 (cf. iii. 5).

Digonoldeb, }
Digonolder, } *sm.* sufficiency; plenteousness,
Digonolrwydd, } abundance, plenty; copiousness, amplitude; satiety.

Tri pheth a geir o ddilyn daioni deddfawl: cariad yr holl fyd o ddoethion; *digonoldeb* bydawl; a thâl gan Dduw yn y byd a ddaw.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 118.

Pa ham y telwch arian am yr hyn nid ydyw fara? a'ch llafur am yr hyn nid yw yn *ddigonoldeb*?
Esgob Morgan: Esa. lv. 2.

Pan gyflawner ei *ddigonoldeb*, cyfyng fydd arno.
Iob xx. 22 (cf. Diar. iii. 10; 2 Cor. ix. 8).

Digonolrwydd llawenydd sydd ger dy fron.—*Salm.* xvi. 11.

Ar hyny yr ymddiriedwn y dyry daioni Duw i ni *ddigonolrwydd* a helaethrwydd.—*Ed. James:* Hom. iii. 26.

Digonoli, *v.* to satisfy; to suffice; to make satisfaction or atonement for.

Os blinderau a'n gorthrymant o erwydd ein pechodau, a'n holl bechodau gwedi eu *digonoli* a'u digosti, trwy angeu a dioddefaint Iesu, mae'n anghenrhaid addef fod yn ol ffinderoedd yn ddiniweidiol ini, ac na allant ein briwo.
Huw Lewys: Perl, 27 (cf. 26).

Digonus, *a.* [digon] sufficient; satisfied.

Un o radd, mae yno rus,
Dy genedl, rai *digonus*.—*D. ab Gwilym*, cxliii. 11.

Digor, *sm.* [cf. *addigor*] a habit or passion.—*P.*

Digorff, *a.* without a body, bodiless, incorporeal.

Nid ydyw bosibl imi feddiannu pleserau'r corff pan fyddwyf fy hun yn gwbl *ddigorff*.
Th. Williams: Ymadr. Buch. 60.

Drychiolaeth ddu-gaeth *ddigorff*,
Yng ngwyll yn dwyn canwyll corff.—*Gro. Owain*, 109.

Digorffawr, } *a.* having no body; unbodied,
Digorffol, } unembodied, incorporeal.

Digorffi, *v.* to divest of body; to disembody; to free from the body.

Digorffiad, *sm.* a disembodying.

Digorffori, *v.* to disincorporate; to disembody.

Dyna chwi yn *digorffori* ein hiaith, gan afiunio a dieithro ei chorff, a'i wneyd yn ysgerbwd!
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 177.

Digorfforol, *a.* tending to disembody, disembodying; unembodied; incorporeal.

Mae clyw, trem, ogl, yrth, blas, o fasu maent
Yn coethi, treuliaw, hyfalhau, cael o
Gorfforawl *ddigorfforawl*.—*W. O. Pughe:* C.G. v. 442.

Digorni, *v.* [corn] to unfold, to unroll; to develop.

O fedru ymddiddan yn areithiawl, siarad yn barabl-ddoeth, ymchwedleus yn foddhâus, o *ddigorni* delfrydau yr enaid, o ddiblygu meddyliau y galon ar eiriau gweddawl, hygoel, hyfedr, a hyfryd, yr adnebyddir bod dyn yn greadur cyfeilladwy.—*H. Perri:* Egl. Ffraeth., Rhag. 4.

Digoron, *a.* [coron] without a crown, crownless.

Digoroni, *v.* to discrown, to uncrown.

Eu gwychder a'u mawrhydi a goronodd ac a *ddigoronodd* freninoedd.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 27.

Digosp, } *a.* without punishment, free
Digospedigaeth, } from punishment; unpunished; unchastised.

Os y rheith a geffir bit *digosp* yr amddiffynnwr.
Cyfreithiau Cymru, ii. 678.

Gwel mai cyflawn yw Duw, ac ni oddef i'r drwg ddianc yn *ddigosp*.—*Iolo Mss.* 172.

Ni ddianc un pechod yn *ddigosp*.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 391.

O'r hyn lleiaf y gallant ofni meddyliau y cyfryw dywysogion yn gymmaint, fel y caffont ddianc yn *ddigosp*.
Edward James: Hom. iii. 243.

Ni oddefent hwy i odinebwyr, a lladdwyr hynod, fyw yn *ddigospedigaeth*.—*M. Cyffin:* Diff. iv. 6.

Wedi eu bygwth yn drymach, hwy a'u gollyngasant ymaith yn *ddigosp*.—*Ed. Samuel:* Buch. yr Apost. 37.

Yn ddigosp, without punishment; with impunity; unpunished.

Digospawl, *a.* not liable to punishment.

Digospi, *v.* to cease from punishing.

Digost, *a.* free of cost, expense, or charge; costless; inexpensive.

Digitized by Google

Yr oedd y gwisgoedd a arferid yn yr eglwys yn yr hen amser yn blaen, ac yn ddysyml, ac yn *ddigost*.
Edward Iames: Hom. ii. 140.

Dyma'r lles a ddaw o hyny, daw cymhorth digonolach i'r tlodion, a'r ddyledswydd yn *ddigostach*.
Elis Wynn: Rh.B.S. 221.

Gwyn ei fyd egwan a fedd
Wr o synwyr o'r Senedd,
A'i dygai'n landdyn *digost*
I selio ffranc, ddisalw ffrost!—*Gronwy Owain*, 47.

Digostiad, *sm.* a saving from expense.

Digostio, } *v.* to save from expense; to defray
Digosti, } expense or expenses.

Dygaist, er *digostiaw* iaith,
Dy frenin adref unwaith.—*L. G. Cothi*, VIII. vi. 7.

Crist a wnaeth arianswm a chyflawn daledigaeth am yr oll bechodau rhai'n a wnaethom ni, ef a ailbrynodd, a dalodd, a *ddigostodd*, ac a wnaeth yn ddiniweidiol ini ein oll gamweddau, drwy ei chwerw angeu, ei fuddugoliaethau, a'i ailgyfodiad, ac a ddigonolodd gyflawnder ei Dad.
Huw Lewys: Perl, 26 (cf. 27).

Digraff, *a.* [craff] not sharp, keen, careful, or particular; not grasping; liberal.

Gwreituab Gruffut *digraffaf* am rec
Yn deddyfeu mawrdec Nut a Mordaf.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 367 (cf. 242).

Rwyf blwng rwyt ystwng estrawn
Rot *digraff* rotyon digrawn.
Prydydd Bychan: M.A. i. 385.

Digraffedd, *sm.* want of perception.

Digraffu, *v.* to cease holding or keeping in view.

Digraid, *a.* [craid] without ardency; unimpassionate; powerless, weak.

Ef ae ryt yn rwyt eruynnyeid
Ef rywr rywreryd *digreid*.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 285 (cf. 301, 325).

Digraidd, *a.* [craidd] without a centre or heart, heartless.

Dyn wyf o'th serch, wenferch wawl,
Digraidd gwyw dagreuawl.—*D. ab Gwilym*, xviii. 27.

Digraiff, *a.* unmerciful; unforgiving.

Digrain, *sm.* [crain] a stray, wander, or wandering; a going out of the way.

Ar ddigrain, astray, wandering; in error.

Gwelais rag Penard pen *ar digrain*.
Cynddelw: M.A. i. 204 (cf. 321, 356).

Myned ar ddigrain, to go astray; to wander.

Ni choelir neb *ar ddigrain*
Ni wyr neb beth yw ei ddamwain.
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 546.

Digrain, *a.* wandering; astray; abroad.

Digrain yw ochain pawb yn uchel.—*Cynddelw.* (*D.*)

Pa ham i fardd dinam doeth . . .
Ofyn cân a chynghanedd
Gan *ddigrain* was main nas medd?—*Gronwy Owain*, 57.

Hîl *ddigrain* a milain Ameleg.—*Gwyliedydd*, vi. 157.

Digrawenu, *v.* [crawen] to pare; to skim.

Cais ymenyn gwyra a dod ar y tân, a *digrawena* yn dda a ddêl ar ei wyneb wrth ferwi.—*Meddygon Myddfai*, ii. 742.

Digrawn, } *a.* [crawn, croni] without accumu-
Digron, } lation or hoarding; profuse, liberal, generous; ever-flowing.

Rhydd alaf *ddigrawn* alon ddigrain.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 356 (cf. 393).

Llatei llauyn gasnar llathrei galch llassar
Mal llachar llaw *digrawn*.

Digrawn rwyf rwyt vann rwyuan rwy digrifwch.
Cynddelw: M.A. i. 221 (cf. 233, 242, 326).

Oet koeth *digrawn* doeth digrif.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 371 (cf. 385, 448).

Llamai lle caid llygaid llawn
Dagrau dyferlif *digrawn*.—*Gronwy Owain*, 111.

Dagrau digrawn, }
Dagrau digron, } ever-flowing tears.

Neud meu oe agheu *dagreu digrawn*.
Cynddelw: M.A. i. 218 (cf. 437).

Marw Merwyd hirwlyd am hirwlych *dagreu*
Digrawn ynt a mynych.
Gr. ab Gwrgeneu: M.A. i. 374 (cf. 403).

Hallt oet y *digreu digrawn* heli.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 329 (cf. 367).

Mae tonnau *dagrau digron* i'm hwyneb,
Am hynaws gâr ffyddlon.—*Gronwy Owain*, 116.

Digread, *a.* uncreated, uncreate.

Yna ynot ti
Yr oedd, y cain ddylifiad o ên gain
Digread.—*W. O. Pughe:* C.G. iii. 6.

Digred, *a.* [cred] without belief; unbelieving; infidel; pagan, profane.

Yn yr un flwyddyn [720] y bu farw Beli ab Elphin, ac y torres y Saeson *di gred* lawer o Eglwysydd Llandaf, a Mynyw, a Llanbadarn.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 472.

Crair ab Meurig a fu frenin duwiol iawn, a chall a thrugarog; efe a laddwyd gan y rhai *digred*.
Iolo Mss. 9 (cf. 10, 113, 119, 121, 220).

O herwydd bod y rhan fwyaf o'r byd, nid yn unig o'r rhai *digred*, ond hefyd o'r Christianogion, allan o'u lle yn y pwnc yma . . . am hyny y mae Christ a'i ddiwiol sain yn crybwyll mor dost am y nifer bychan sydd mewn cyflwr iechydwriaeth.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. I. iii. 6.

Yr ydym yn darllain yn yr hen athrawon *digred* o'r hen amser beth mwy dieithr na gwir.
Elis Lewis: Drexelius, 252.

I'r rhai ofnog, a'r *digred*, a'r ffiaidd, a'r llofruddion . . . y bydd eu rhan yn y llyn sydd yn llosgi â thân a brwmstan.
Dad. xxi. 8.

Ym mysg y cenedloedd *digred*, yr oeddynt yn cyfrif hwnw y dyn goreu, sef yr hwn oedd yn treulio mwy o olew yn ei lamp nag o win yn ei gostrel.—*Gwyliedydd*, v. 137.

Ond gwae'r dyn *digred* annuw,
A gladd ddawn ei Arglwydd Dduw.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 182 (cf. 173).

Un digred (*pl.* rhai digred), an unbeliever.

A dyfod o *un digred* neu annysgedig i mewn.
1 *Cor.* xiv. 24 (cf. 22, 23; vi. 6; x. 27).

Y digred, the unbelieving.

Digrediniaeth, *a.* without belief; unbelieving.

Ior Nef edifaru wnaeth
Greu dynion *digrediniaeth*.—*Dafydd Ionawr*, 171.

Digredol, *a.* unbelieving; faithless.

Digredu, *v.* to disbelieve; to cease to believe.

Digrëedig, *a.* [crëedig] uncreated, uncreate.

Digrëedig Dad, *digrëedig* Fab, *digrëedig* Yspryd Glân. . . Ac fel nad ynt dri anfesuredigion, na thri *digrëedigion*; ond un *digrëedig*, ac un anfesuredig.—*Credo S. Athanasius.*

Ysprydol, tragwyddol, *digrëedig*, anamgyffred.
Edward Iames: Hom. iii. 107.

Digrëedigol, *a.*=*Digrëedig.*

Gorphwyllant pan welant Wawl
Ei degwch *digrëedigol*.—*Dafydd Ionawr*, 162 (cf. 310).

Digrefydd, *a.* [crefydd] without religion, religionless, not professing religion; irreligious.

Goruit grat wehin din *digrefit*.—*Myrddin:* A.B. ii. 20.

Nid ef *digrefydd* a gretto Ddofydd.
Cynddelw: M.A. i. 264.

Tri pheth anferth eu gweled: cymmodogaeth heb gymmwynasau; athraw ansyber; a phenteulu *digrefydd*.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 230.

Meddyliau gwŷr ifainc *digrefydd*, ewch ymaith.
Dafydd o'r Nant: Cyfrinach y Beirdd, 91 (cf. 60).

Llyfrau Sais, hyll efrau, sydd
Digrifwch rhai *digrefydd*.—*I. B. Hir:* Gwaith, 115.

Digreidio, *v.* [digraid] to divest of ardency.

Digitized by Google

Digreiffant, } *a.* without pardon or forgiveness;
Digreiflant, } unpardoned, unforgiven.

Kein deyrn kyn bych *digreiuyant*
Can difwyn oesgwyn ysgarant.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 300.

Digreiffio, *v.* to cease to forgive.—*P.*

Digreiffiol, *a.* unforgiving; unpardoned.

Digreulawn, } *a.* not cruel or ferocious; not
Digreulon, } stern, fierce, or harsh; mild, merciful.

Pryt Chyarlymaen oed gwr tec gwedus wynebcoch. a gwallt gwineu arnaw. a golwc araf *digreulawn.*
Ystoria de Carolo Magno, col. 407.

Y glan Curig ferthyr eglurddoeth, fu ef o'i febyd; yr hwn oedd ferthyr, a chall *digreulon,* a dysgwr nefolion bethau.—*Emynau Curig:* C.B.SS. 276.

Undeb dovn digraun *digreulonaf*
Ef yn dri a vu ni mynnaf ei var.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326.

Digreulondeb, } *sm.* freedom from cruelty
Digreulonder, } or ferociousness; gentleness, mildness.

Digreuloni, *v.* to become divested of cruelty, fierceness, or ferocity; to become gentle.

Digribddail, *a.* without extortion, not extorsive.

Digrif, *a.* pleasant, pleasing, delightful, agreeable, entertaining; merry, amusing, facetious, humorous; comical, burlesque.

Ar nos honno y buant yno yn diwall. ac yn *digrif* gantunt.
Mabinogion, 42 (cf. 6, 47, 52, 128, 142).

Nyt oes yn yr holl vyt gwr kyn *digrifet* gennyf y welet ac ef.—*St. Greal,* ‖ 98 (cf. 85, 243).

Eiax Olileus gwr pedrogyl oed a chorff eryr idaw. ac aclodeu greduawl kadarn a gwr *digrif* oed.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 12 (cf. 50).

Kanyt oed dim *digriuach* gantaw no gwelet y ryw gatwent honno.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 58 (cf. 98, 177).

Oet kedawl oet cadyr yg gnif
Oet koeth digrawn doeth *digrif.*
Bleddyn Fardd: M.A. i. 371 (cf. 238, 311, 388).

Er dy *ddigrif* nef er dy ddagreu.
Dafydd y Coed: M.A. i. 533.

Tec oed [Run uab Owein] o ffuruf a drych . . . *digrif* wrth y gyfeillon.—*Brut y Tywysogion,* 170 (cf. 356).

Digrifion doethion fu'r do
Oedd a aned oddi yno.—*L. G. Cothi,* III. xi. 22.

Ac yna a chlywy ryw ganeu *dygruion* perarafief gwybyd mae y angelion ef ae canant.—*Ymborth yr Enaid,* ‖ 29.

Na fid *digrif* yn ddifarf,
Na'i fin heb lathen o farf.—*Gronwy Owain,* 22 (cf. 319).

Dyn digrif, } a pleasant person; a facetious
Gwr digrif, } person; a funny man.

Na thrig allan, ledwan lif,
Dan ddagrau to, *dyn ddigrif.*—*D. ab Gwilym,* lx. 33.

Tros fy ngran ledwelan lif
Try deigr am *wr* tra *digrif.*—*D. ab Gwilym,* cxxviii. 7.

Lle digrif, a pleasant place.

Lle digrif y bûm heddiw,
Dan fentyll y gwyrdd-gyll gwiw.—*D. ab Gwilym,* xlv. 1.

Gwas digrif, a comical or funny fellow; a buffoon.

Chwareu y gwas digrif, to play the buffoon.

Chwareu cymmyscg o'r digrif a'r dagrau, a comico-tragic play; a tragi-comedy.—*W.*

Digrifion, facetiæ, pleasantries.

Digrifair, eiriau, *sm.* a pleasant word or expression; a facetious expression; a jest.

Digrifeiriau gwatworus, dry jests.—*W.*

Digrifair, *a.* having pleasing or entertaining speech, pleasant-tongued.

Digrifddoeth, *a.* 'merrily wise;' witty and wise.

A gadael gafael gofion diannoeth
Y gwyr *digrifddoeth* yn rhynoethion.
Iorwerth Beli: M.A. i. 476.

Gwntcyn sy flodeuyn doeth,
Ac araf-ddewr *digrifddoeth.*—*L. G. Cothi,* I. x. 25.

Marwolaeth pencerdd erddrym,
Dewr, coeth, haul *digrifddoeth* grym.
Rhys Goch Eryri: Md. Llywelyn ab y Moel.

Digrifedd, *sm.* pleasantness; mirth; facetiousness; comicality, ludicrousness.

Digrifeg, -au, *sf.* a burlesque poem, a burlesque.

Digrifgall, *a.* pleasant and discreet; witty and wise.

Dewis bethau Bardd Ifor Hael. . . Teulûwr *digrifgall.*
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 121.

Gair *digrifgall* gwr dysgedig ydoedd hyn.
Elis Lewis: Drexelius, 289.

Ysgatfydd eu boddhau eu hunain yn gweled dychymygion *disrifgall* y plentyn.
Langford: Holl Ddyledswydd Dyn, 316.

Digrifhâd, *sm.* the act of amusing, pleasing, or entertaining; a being diverted or amused.

Digrifhaol, *a.* tending to amuse or entertain; amusing, entertaining.

Digrifhau, *v.* to please, amuse, or entertain; to make mirth; to be pleased, entertained, amused, or diverted.

Anuon o bop un y gilyd meirch a milgwn a hebogeu. a phob kyfryw dlws or a debygei bop vn *digrifhau* medwl y gilyd o honaw.—*Mabinogion,* 8.

Wedy rygynnal o honaw yno wyleu y Nadolic yn arbennic anrydedus. ar deudeo gogyfurd o Ffreinc y gyt ac ef ac aneiryf o ieirll a barwnyeit a marchogyon urdawl a phob rei onadunt yn *digrifhau* y brenhin ae niueroed. ac yn y *digrifhau* hyt y gellynt oreu.
Yst. de Carolo Magno, col. 410 (cf. 408).

Am hynny y kymyrth Owein ap Grufud tristwch yndaw am varw y tam hyt na allei dim y *digrifhau.*
Brut y Saeson: M.A. ii. 569.

Etholet Hu Gadarn etto y gware a vynno heb y Chyarlys o *digrifhaa* y vedwl gan yn chwaryeu ni.—*Yst. Charles,* 16.

Tri pheth a berthynant ar brydyddiaeth: clodfori; *digrifhau;* a gwrthwynebu gogangerdd.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 135 (cf. 195).

Ewylhus dyn yma yw gwelet lhawer o wyr a gwragedh tec. ac edrych adeiladeu rhaceglur. a gwiscoedh mawrweirthiawc. gwrandaw ceinhiadaeth melys. ac ymadrodhion cysson a thelynse a sawtrinse a phibse. a cherdhau erailh cysson. ac aroglau ystor a lhyseuoedh ac amrauaelion ireidæ gwerthuawr. a *digrifhau* o amryw wledhau.
Lucidar, ‖ 133 (cf. 57, 102).

Par y mi, Arglwyd Iesu Grist, *digrifhau* ynotti wrth dy voli.—*Buchedd Margred Santes:* C.B.SS. 221.

Digriflaith, *sf.* facetious, pleasant, or amusing language; burlesque.

Moes râd molt pariad parawd *ddigriflaith*
Maith mawrddwyn gwlndaith Myrddin geudawd.
Sefnyn: M.A. i. 508.

Eos gefn-llwyd ysgafn-llef,
A bronfraith *ddigriflaith* gref.—*D. ab Gwilym,* xix. 21.

Nis gellir esgusodi y fath gyfansoddiadau a'r dernyn uchod mewn rhyddiaith, am y dyneса y dariuniadau yn ormod at *ddigriflaith.*—*W. Jones:* Barn a Darfelydd, 16.

Digriflawn, *a.* full of humour, facetious, funny.

Digriflun, -iau, *sm.* a grotesque figure or likeness, a caricature; grotesque work.—*W.*

Digriflun, *a.* grotesque, caricatural.—*W.*

Digriflunio, *v.* to caricature; to burlesque.

Digriflunwr, wyr, *sm.* a caricaturist.

Digitized by Google

Digriflym, *m.* } *a.* facetious and pointed; sharp
Digriflem, *f.* } and witty.

Digrifo, *v.* to divert, amuse, or entertain; to please or delight; to take pleasure in; to be pleased or delighted.

Ac fal y cafodd yr holl rai hyn . . . fawr serch Duw, ac y buont anwyl, hoff, a bodlongar yn ei olwg ef, felly y maent hwythau'n awr yn cael eu *digrifo*, wrth fwynhau Duw mewn hoff lawenydd nefoedd.
Edward Iames: Hom. iii. 6.

Ti yw fy ngharedigol Fab, yn yr hwn y'm boddlonir [*boddhëir, *digrifir*].—*W. Salesbury:* Marc i. 11.

Mi a ddymunwn gael Eisteddfod eto, i roddi iddynt eu hysgrifen ollyngdod i fyned gyda'u gilydd i ryw wlad yr Hud lonydd, i *ddigrifo* poblach arferol o ddifyru eu hunain yn goeod a dattod y clo can clicied, &c.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 171.

Digrifol, *a.* tending to amuse or entertain; humorous, facetious; amusing; pleasant.

Mae hyn yn gwneyd ini feddwl nad oedd y mawr-ddyn hwn, yn ei ddyddiau *digrifol* a'i uchelrwydd, yn cynnwys ynddo ddim bodlonrwydd.
Lewis Anwyl: Nefawl Ganllaw, 7.

Nid oes yn ei gyfleithiad ddim tebyg i'r camsyniadau *digrifol* y cyfeiriwyd atynt yn ysgrif flaenorol.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 73.

Ond mynych, er yng nghanol llawen lu,
Y ddiddan gerdd, ac y *ddigrifol* wledd,
Adgofion fil o breswyl mebyd cu,
Y bwth lle'm ganwyd, haddef dawel hedd . . .
A yrent iasau drwy y fynwes fau.—*Blodau Ieuainc*, 16.

Digellwair, *a.* without joking or jocularity; serious, grave, earnest; unfeigned; strict.

Digoll-wawd bardd *digellwair*,
Da ei chlod, di-uchel air.—*D. ab Gwilym*, ccxxi. 27.

Er mwyn gwybod pa un a wna gwir ffydd fywiol *ddigellwair*, ai bod yn ei galon ai nid ydyw.
Edward Iames: Hom. i. 49.

Yn ddigellwair, without joking, joking apart; seriously; in good or sober earnest.

Wrth yr hyn y gallwn ddeall nad peth diddrwg didda mo'ni, ond peth a ofynir *yn ddigellwair* gan bawb a addefant Grist.—*Edward Samuel*: Holl Ddyl. Dyn, xvi. 1.

Ond *yn ddigellwair*, mae'n rhyfedd genyf pa beth sydd yn ei lestair.—*Gronwy Owain*, 323.

Yn wir ddigellwair, in sober truth; in sober or good earnest; truly and earnestly.

Digellweirio, *v.* tó cease joking; to be serious.

Digellweirus, *a.* not jocular or facetious.

Digemi, *a.* [digam] without crookedness; not crooked; straight.

Digen, } *a.* [cen] having no scales; having
Digenol, } no crust; not scaly or squamous.

Digenedl, *a.* [cenedl] without a nation or nationality; without kindred; 'without a family.'

Digrifwas, weision, weis, *sm.* a comical, amusing, or humorous fellow; an entertaining, pleasant, or facetious person.

A Madog, gweinidog gwŷdd,
Digrifwas, da ei grefydd.—*D. ab Gwilym*, cxlvii. 59.

Digrifwas aeth, dagrau sydd
I'n brodir am wiw brydydd.—*I. B. Hir:* Gwaith, 102.

Myfi a ymrwymaf i gymmeryd y geiriau mwyaf dieithr a phellenig, a'u holrhain at y Gymraeg, neu at un iaith arall, fel y gwna y *digrifwas* hwnw . . . ag enwau y gwrolion yn Iliad Homer.—*Seren Gomer*, iv. 17.

Digrifwch, *sm.* pleasure (in the best sense), pleasantness, delight; pleasantry, amusement; mirth, agreeableness, diversion, entertainment, enjoyment; facetiousness, fun.

A phan uo ef ar ganawl y *digrifwch* ae gyfedach. dyret titheu dy hun y mywn a dillat reudus ymdanat.
Mabinogion, 13 (cf. 6, 17, 21, 33, 46, 47).

Yr hon a oed eil vuched ac eil uelyster. ac eil *digrifwch* im.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 212 (cf. 119, 205).

Ac ynteu o *digrifwch* edrych ar y dwywolder hwnnw ny doeth cof idaw dywedut ungeir.—*St. Greal*, ‡128.

Yr hwnn a giglefi bot yn gyn decket y bryt. a bot yn *digrifwch* edrych arnaw yn gyhyt ac na bo hawd tynnu golwc y arnaw.—*Ystoria Charles*, 2.

Digrifwch elwch elyf egwan.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 299 (cf. 218, 221).

Tri pheth a ganmolant gerddawr; haelder; *digrifwch*; a defodau da.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 137 (cf. 24, 135, 136).

Tri pheth annigrif a barant *ddigrifwch*.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 254.

Lle mae pob prif *ddigrifwch*,
A phlas ein Penadur ffiwch.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 286.

Ar dy ddeheulaw y mae *digrifwch* yn dragywydd.
Salm. xvi. 11 (cf. cxix. 77, 143).

Yna y gwnaf i lais llawenydd, a llais *digrifwch*, llais priodfab, a llais priodferch, ddarfod allan o ddinasoedd Iudah.—*Ier.* vii. 34 (cf. Iob xxii. 3; Ioel i. 16).

Fe a ochelir yn ddiesgeulus bob poen a thrafael megys peth poenus gwrthwyneb i *ddigrifwch* y cnawd.
Ed. Iames: Hom. iii. 185.

Dywedwch wrtho am ddyfod yma ddydd Sadwrn, o achos fod genym ffair ddydd Llun, a phob *digrifwch* ynddi.
Gronwy Owain, 325.

Yna llenwir yr holl ddinas â *digrifwch* a gloddest.
Cylchgrawn, i. 316.

Coeg ddigrifwch: see s.v. *Coeg*.

Coeth ddigrifwch, refined pleasantry.

Digrifwedd, *sf.* a ludicrous aspect, a grotesque appearance.

Digrifwedd, *a.* of a grotesque aspect; ludicrous, grotesque.—*W.*

Digrifwyl, -iau, *sf.* [digrif+gwyl] a merry festival or holiday; a pleasant fête.

Cyn troi pen dalen, na dwy,
Gweler enwi Gwyl Ronwy,
A phoed yn brif *ddigrifwyl*
I'r beirdd, newydd arab wyl.—*Gronwy Owain*, 41.

Digrin, *a.* [crin] not withered or dried; not brittle; tough.

Travyn llavyn llwybyr vryt gryt *digrin* baladyr.
Rhiserdyn: M.A. i. 433 (cf. 494).

Digrin flaen-goed a'm oedai,
Duw mawr a roes doe y Mai!—*D. ab Gwilym*, cxliv. 5.

Digrintach, *a.* not stingy or miserly.

Digroen, *a.* [croen] having no skin, skinless; having no crust, surface, or sward.

Digroeni, *v.* to excoriate, skin, or flay; to pare off the crust, sward, or surface; to pare.

Dy fardd mad, yn snad neb,
Digroenes deigr ei wyneb!—*D. ab Gwilym*, xviii. 25.

Haiarn digroeni, a paring iron.

Digroeniad, -au, *sm.* excoriation, a flaying; a paring off the surface.

Digroesaw, *a.* [croesaw] unwelcome.

Mae yn debyg i hyn ddychrynu ein hymwelydd *digroesaw*.
Cylchgrawn, i. 8.

Digroew, *a.* not clear, fresh, or pure; turbid; not distinct or clear (as sound).

Digroew lif, deigr wylofain,
Am Farged y rhed y rhai'n.—*Gronwy Owain*, 50.

Digron, *a.* [crawn, croni]=*Digrawn*.

Digronawl (ŏ), *a.* not accumulating or hoarding.

Digitized by Google

Digroni (ŏ), *v.* [digrawn] to cease collecting, hoarding, or accumulating; not to dam or stop up.

Ywein uab Gruffut Nut uynogi
Awytawc uarchawc ueirch *ddigronni*.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 364.

Digroni, *a.* not collecting or accumulating; not restricted, liberal, profuse.

O'i galon yma gweli,
Addfwyn ferch, mae'n d' annerch di;
A bendithion *digroni*
Hebryngodd, anfonodd fi.—*Gwaith G. Mechain*, i. 152.

Digroniad, -au, *sm.* a ceasing to accumulate.

Digroniad, *a.* unbounded, profuse; generous.

Reid a grennya rawt rod *digronnyat*.
Rhiserdyn: M.A. i. 435 (cf. 499).

Un a Thri a ri a rybud a rat
A that *digronnyat* dy gerennyd.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 473.

Ni wnai arglwydd rhwydd rhoddion *ddigronniad*
Neb rhyw gonglad brad ar brydyddion.
Iorwerth Beli: M.A. i. 476.

Erbyn fy marwawl ddiweddawl ddydd
Eurdad *digronniad* dy gerennydd.
Llywelyn Goch: M.A. i. 535.

Digrwyf, *a.* [dig+rhwyf ?] evil-impelled ?

Edrychasant, lwyddiant o lun,
Ar Forfydd, araf eurfun;
Llidiardau dagrau *digrwyf*,
Llygaid nofiaduriaid nwyf.—*D. ab Gwilym*, xxx. 47.

Digrybwyll, *a.* unmentioned, not intimated, not hinted.

Digrych, } *a.* not wrinkled, not frizzled, un-
Digrychni, } curled, not ruffled; clear from wrinkles; without wrinkles, unwrinkled.

Dywedir ddarfod i Lentulus ysgrifenu am dano at Senedd Rhufain, ei fod yn wr prydweddol . . . ei dalcen yn llyfn ac yn llydan, ei wyneb yn lled wridog a *digrychni*, ei farf yn lled fawr a llaes.—*Nicander:* Dysga Fyw, 67.

Digrychol, *a.* tending to make smooth.

Digrychu, *v.* to clear from wrinkles.

Digryd, } *a.* without trembling, quaking, or
Digryn, } shaking; firm.

Y gogledd a'r deheu-bwynt draw
A ddeil dy law yn *ddigryn*.
Dafydd Jones: Salmau Watts, lxxxix. (2) 3.

Ei gleddyf llym a ruddiwyd oll gan waed,
Ar *ddigryn* nerth tragwyddol saif ei draed.
Robert Owen: Gweith. 170 (cf. 249).

St. Paul a ddymunai am ei adnabod ef, a grym ei adgyfodiad, a chymdeithas ei ddioddefiadau, fel y gallai sefyll yn *ddigryn* yng ngwyneb dyrnodion angeu.
Brutus: Brutusiana, 191.

Digrynedig, *a.* unshaken; unintimidated; not moved or agitated.

Ar Brytanyeit yn hyfryt *digrynedic* a ymdiffynnassant eu gwlat.—*Brut y Tywysogion*, 60.

Digryno, *a.* [cryno] incompact; untidy; careless; not hoarding or accumulating (wealth); free, liberal.

Ysgym vt digut digaled
Digryno digawn y doethed.
Llywarch ab Llywelyn: M.A, i. 293.

Gwr ariannawg *digryno*,
Gwr yw â'i aur fal y gro.—*L. G. Cothi*, iv. xxi. 55.

Digrynol, *a.* not apt to tremble, shake, or quake.

Digrynwraidd, *a.* (cryn+gwr) not plebeian; noble, stately, splendid.

Yn eryr i'th lys *digrynbraidd*,
Yn dywysawg cerdd baradwysaidd;
Ym Mhenrhos Fwrdios, pwy faidd heb law hon?
Ym mron Caer Llion fal carw llewaidd.
L. G. Cothi, i. xxix. 29.

Digrinarf yn rhaid *digrynbraidd*
Diwyw aesawr hydr wr dewisaidd dwrdd.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494.

Digter, *sm.* [dig] wrath, anger, ire, displeasure.

Ac yna rwng *dicter* a llit taraw ym plith y llygot a wnaeth.—*Mabinogion*, 54.

Ni ellir aros mawredd dy ogoniant, na dioddef *digter* dy fygwth yn erbyn pechaduriaid.—*Gweddi Manasses*.

Na chais esmwythder o *ddigter*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 32.

Doe 'r aeth, er *digter* i wan,
Dafydd Llwyd i fedd llydan.—*L. G. Cothi*, iii. ii. 5.

Daeth dydd mawr ei *ddigter* ef.—*Dad.* vi. 17.

Och, ffalsder, *digter* y don,
A'i dinystr ar feib dynion!—*Caledfryn:* Caniadau, 33.

Bygythi *ddigter* drwy y nen â braw.
Th. Lloyd Jones, i'r Môr.

Heb na digter na dadl, without wrath and disputing.—1 *Tim.* ii. 8.

Digu, *a.* [cu] not dear, lovely, loving, or affectionate; unlovely; sad, dismal.

Digu enaid mam geu-blant.—*Llywarch Hen:* M.A. i. 129.

Hylad beird digeird *digu* oe dwyn
Hylwyd cwyn cyn darvu.—*Casnodyn:* M.A. i. 425.

Cyn cystwng clwyf cyfrwng claddu
Cyn gweryd gorober *digu*.—*Elidir Sais:* M.A. i. 351.

Digu pawb o anadl y pibydd.—*Diareb.* (M.A. iii. 153.)

Digudd, *a.* [cudd] unconcealed, unhidden; open; plain.

Gruffudd aur *digudd* ef dygnaf i gwyn
O genedl plant Addaf.
Dafydd Benfras: M.A. i. 314 (cf. 197, 293).

Da or iaith *ddigudd* araith Wgawn.
Gwilym Ddu Arfon: M.A. i. 411 (cf. 320, 476).

Gruffudd, *ddigudd* ymddygiad,
Ab Cynfrig, Wyndodig dad.—*D. ab Gwilym*, cxxi. 27.

Diguddiad, *sm.* a disclosing, disclosure.

Diguddiadwy, *a.* unconcealable; open.

Diguddiedig, *a.* unconcealed, exposed; open.

Trigo y maent mewn plasau, a thai gwychion, gan fyned wrth eu bodd i'r llys a'r heol, a'u gwynebau yn *ddiguddiedig*.—*M. Cyffin:* Diff. iv. 3.

Diguddio, *v.* to lay open, to disclose, to expose; to reveal, to manifest.

Dydd i ddydd a *ddiguddia* gair diwyd
A'r nos a ddengys i'r nos gelfyddyd.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 561.

Diguddiog, *a.* not hidden or concealed; unhidden, unconcealed.

Ar lles beird bwrd *digudyawc*.
Ar llet byt boet hirhoedlawc.—*Einion Wan:* M.A. i. 337.

Diguddiol, *a.* not concealing or hiding; revealing.

Digur, *a.* free from pain, anxiety, or affliction.

A di garc wyd, a *di gur*.—*L. G. Cothi*, iv. xxii. 53.

Cariadus ddeildai diniweidrwydd pur,
Lle treuliwn febyd hoenus a *di gur*.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 155.

Diguro, *a.* not to be beaten or excelled, unsurpassed, unmatched.

Ond lleinw'r awyrgylch â phersawr *diguro*.
Iorwerth Glan Aled: Palestina, 12.

Digus, *a.* [dig] displeasing, vexatious, annoying; displeased, angry.

Glas chwerthin *digius* engiriawl chwerw a oruc Gereint.
Mabinogion, 274.

Reidus ys *digus* i ostegion.
Iorwerth Beli: M.A. i. 476 (cf. 473).

Digitized by Google

Dy fardd poenedig *ddigus*,
Dewrfawr wyf, mewn dirfawr rus!
Dafydd ab Gwilym, cxxxi. 25.

Dyrys o fab, diwres fu,
Digus na chaid ei dagu.—*Gruffydd ab Ieuan*, i Eiddig.

Mae yn fwy ei ddialedd ef, mae yn fwy aruthrol ei benyd, i'w feddwl ef a fu *ddigus* a chnofäus.
Huw Lewys: Perl, 232.

Digust, *a.* without a film or cuticle; unobscured, clear.

Hyd y gwŷl golwg *ddigust*,
Hydr yw, ac hyd y clyw clust.—*D. ab Gwilym*, i. 27.

Digwedd, *sf.* a countenance of displeasure or wrath; appearance of anger.

Digones Douyd *digued* arnaf
Marw Morgeneu. marw Mordaf.
Marw Moryen. marw a garaf.
Cyfoesi Myrddin: A.B. ii. 232.

Digwerylus, *a.* not quarrelsome or contentious.

A gwedd amlwg, deg ar olwg, *digwerylus*.
Huw Morus: Eos Ceiriog, i. 330.

Digwl, *a.* [cwl] blameless, faultless, unblamable; upright.

Mor gyflawn ei ddawn ddarparu
Mor *ddigwl* i feddwl fynnu.—*Elidir Sais:* M.A. i. 350.

Deg Ion, os gweinidog wyf,
Digwl y gweinidogwyf.—*Gronwy Owain*, 11.

Seneddwyr sy awenyddion,
O enw *ddigwl* Wyneddigion.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 156.

Digwliedig, *a.* blameless, irreproachable.

Er y'ch gwneuthur chwi yn seinctaidd, ac yn ddifeius, ac yn *ddigwliedig* gar ei fron ef.
W. Salesbury: Col. i. 22 (cf. Phil. ii. 15; 1 Cor. i. 8).

Digwmpeini, *a.* without company; companionless.

Ped fai wr trallodus a thlawd . . . yn crwydro mewn heol ddyfn a budr ar noswaith dywyll a thymmestlog, yn *ddigwmpeini*, yn wag ei bwrs.—*Lewis Anwyl:* Nefawl Ganllaw, 59.

Digwmwl, *a.* cloudless, unclouded.

Dewis bethau Bardd Ifor Hael . . . wybr-sygn *digwmwl*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 121.

A'r olwg *ddi gwmwl* ar ogoniant Duw a'n ceidw yn gwbl ostyngedig.—*Achosion Cydwybod* (1769), 231.

Er fod y llawn lloer *ddigwmwl* yn tywynu yn ddisglaer . . . ni allwn weled un achos o'r dychryn.—*Cylchgrawn*, i. 9.

Nerth yn y corff, bywiogrwydd yn y meddwl,
A wna ei oes yn hirddydd llon *digwmwl*.
Islwyn: Caniadau, 89.

Digwrs, *a.* [cwrs] without a (definite or regular) course, courseless; unlimited; irregular, disorderly. See s.v. *Digadwraeth*.

Digwsg, *a.* sleepless; wakeful.

Hiraeth fab cof, fab cyngyd . . .
Fab deigr *digwsg*, fab dig byth.
Dafydd ab Gwilym, ccxi. 19 (cf. 1).

Dwy-goes gadr, *digwsg* ydwyd,
Da ei modd, edn du ym' wyd.—*Dafydd ab Gwilym*, cvii. 3.

Noswaith ddigwsg, a sleepless night.

Digwydd, *s.* and *v.* [dy-+cwydd]: see *Dygwydd*, the older form, which is not only the more correct as to etymology, but is also the current pronunciation in a large portion of the Principality.

Digwyl, -iau, *sm.*=*Dygwyl*, *Dyw gwyl*, *Dydd gwyl*.

Digwymp, *a.* [cwymp] without a fall or lapse; free from falling or stumbling.

Diwraidd cybyddiaeth, a dewredd y dyn,
Dwy-gamp fynawg yn *ddigwymp* fonedd.—*Sefnyn.* (*P.*)

I'r hwn a ddichon eich cadw chwi yn *ddigwymp* . . . y byddo gogoniant a mawredd.—*Iudas* 24.

Digwympog, *a.* not falling, slipping, or stumbling; without a drawback.

Rhywiawg *ddigwympawg* dda ei gampau.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 446.

Digwyn, *a.* [cwyn] without a plaint, without complaint, not complaining; unpitied, not sympathized with.

Kanyt oes agyfyraith yna ar arglwyd a ddyly peri yawn yn *di gwyn*.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 234 (cf. 40).

Digwyn fyth, digon a fydd
O gwlm rhwng pawb a'u gilydd.
Dafydd ab Gwilym, xxxvii. 23.

Trom iawn yw, ond tra myn Naf
Yn *ddigwyn* hon a ddygaf.—*Gro. Owain*, 108 (cf. 100).

Hi a wna'r llwyddiannus yn ddigariad, a'r anffortunus yn *ddigwyn*.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 230 (cf. 194).

Digwyno, *a.* without complaining or lamenting.

Pwy bynnag a gredo, nid ellir ei dwyllo,
O'r eiddo yn *ddigwyno* a ddigonir.
Huw Morus: E.C. ii. 36.

Digwynos, *a.* [cwynos] supperless.

A gysgo'n *ddigwynos*, nid rhaid iddo wrth Rhiwallon Myddfai.—*Meddygon Myddfai*, Rhag. 19.

Digybydd, **Digybydd-dod,** **Digybydd-dra,** *a.* not covetous or miserly; free from covetousness, without covetousness.

Tri pheth anghyffredin: ieuanc heb lawenydd; ysgubawr heb lygod; a hen ddyn *digybydd-dra*.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 272.

Bid *digybydd* eich ymarweddiad, ac ymfodlonwch ag y sydd tan eich llaw.—*Esgob Richard Davies:* Heb. xiii. 5.

Digydnabyddiaeth, *a.* without acquaintance; unacquainted; without recognition or recompense.

I ba fan, ynte, yr ymgyrch yr adyn *digydnabyddiaeth* yma am gyfryw nodded ac amddiffynfa, ond i elusengar noddfa'r dieithriaid.—*Ed. Samuel:* Grotius, Rhag. 21.

Digydwybod, *a.* devoid of conscience, conscienceless, unconscientious.—*M.A.* iii. 107.

I mi wrth gyfraith gwlad y mae holl olud yr hen gi *digydwybod*.—*Iolo Mss.* 180.

Yn anad un drwg arall, y gwŷr mawr yn enwedig a ymroisant yn *ddigydwybod* i bob afiendid.
Theo. Evans: D.P.O. 123.

Ac eto bod heb ei wneuthur, a myned yn *ddigydwybod*.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 396.

Digydymdeimlad, *a.* without sympathy or fellow-feeling, unsympathizing.

Mor ymroddgar a hunanfoddol ag y gwertha budrogen ei gwasanaeth; a *digydymdeimlad*, dibryder, a diystyr, ag y gwertha cyffyriwr wenwyn llygod.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 342.

Digyfaill, *a.* having no friend, friendless; forlorn.

Digyfannedd, *a.* not domestic; uninhabited; desolate.

Digyfanneddol, *a.* desolating; desolate.

Digyfanneddu, *v.* to desolate.

Digyfansawdd, *a.* not compound or composite; uncompounded.

Digyfarwydd, *a.* uninformed; unacquainted.

Digyfartal, *a.* unequalled, matchless.

Yn ofer tywyni mewn gwedd *ddigyfartal*,
A blodau amryliw yn hulio dy anial.
Blackwell: Ceinion Alun, 185.

Digyfarwyddo, *v.* not to inform or guide.

Digyfarwyddyd, *a.* without guidance, instruction, or information.

Digitized by Google

Digyfedd, *a.* having no feast; without feasting; deprived of feasting; not sharing the feast.

Neud nad rhydd fy llyw llew Trefgarnedd
Neud trwm oi eisiau dau *digyfedd.*
Gwilym Ddu Arfon: M.A. i. 408.

Digyfeiliorn, *a.* unerring; without error or mistake; undeviating.

Nid yw ein profiad ni fod ereill ar gyfeiliorn yn gwirio ein bod ni ein hunain yn *ddigyfeiliorn.*
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 447 (cf. 366).

Yna y gwr dieithr a gymmerodd y ddwy eneth fechan yn ei freichiau, a chyda chamrau buain *digyfeiliorn,* a rodiodd ym mlaen hyd oni ddygodd hwynt at afon ar derfyn y llwyn.—*Y Bryniau Pell,* 3.

Digyfeillach, *a.* without friendship or sociality; unsociable, unsocial.

Ym mha gyflwr truenus y byddwn ni, pan y byddo pob aelod o'n cymdeithas o'r un dymmer *ddigyfeillach* â ni ein hunain.—*Ios. Tomas:* Buchedd Grist. 145.

Digyfeillio, *v.* to withdraw from society; to cease to be social.

Digyfleuad, *sm.* disconnection, separation; want of union.

Digyfleuad, *a.* without conjugation, not conjugated or conjugate.

Digyfleuo, *v.* to disconnect, to disjoin.

Digyfleuol, *a.* disjoining, disconnecting; not conjoined or conjugated.

Digyfludd, *a.* free from impediment, unimpeded, unhindered.

Seithwyr y buam dinam digythrut
Digyflut eu kyflam.—*M.A.* i. 418 (cf. 355).

Dawn kyflawn digawn *digyflut*
Digart gert y ged diorchut.—*Cynddelw:* M.A. i. 258.

Digyfluddiol, *a.* unobstructive.

Digyflwyn, *a.* unaccompanied; unattached; without a present.

Gwr llwrw llu Lloegrwys *digyflwyn.*
Cynddelw: M.A. i. 227.

Digyfnerth, *a.* helpless, succourless; unaided, unassisted.

Y trigolion duon—anwybodus a *digyfnerth* ydynt; ac am hyny yn hawl braint brodyr.—*Iolo Morganwg.*

Annwydog, ofnog, hen, *digyfnerth.*
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 88.

Digyfnerthol, *a.* not auxiliary or helping.

Digyfnerthrwydd, *sm.* helplessness.

Digyfnerthu, *v.* to deprive of help, aid, assistance, or support.

Digyfnewid, } *a.* without change or varia-
Digyfnewidiad, } tion; unchanging; unchangeable; 'without intercourse.'

Fe fydd . . . ein serchiadau wedi ymroddi yn *ddigyfnewid* i garu a mwynhau y tegwch a'r perffeithrwydd godidocaf.
Iosua Tomas: Buch. Grist. 53 (cf. 322, 368).

'Nid dim ond Duw'—dyma'n Tad,
'YDWYF'—*digyfnewidiad!*
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 36.

Yr oedd ei alluoedd personol, a'i ddarfelydd, a'i iaith, fel dyn neu fel bardd, yn ei feddiant yn *ddigyfnewidiad.*
Nicander: Dwyfol Oraclau, 217.

Gwin allan o rawnwin yn tyfu ar hen winwydden *ddigyfnewid* gwirionedd oedd Ef yn ei drin.
Deon Edwards: Esponiad, 152.

Y Pabyddion; ymffrost y rhai yw bod egwyddorion eu crefydd hwy yn *ddigyfnewid.*
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 530.

Digyfnewidio, *v.* to cease changing.

Digyfnewidiol, *a.* unchanging; unchangeable, immutable.

Cyhoedda ef ger bron tystion; mal (os geilw Duw arnat ti allan o'r byd hwn) y gallo fod mewn ffrwyth ac yn *ddigyfnewidiol,* megys dy wir feddwl a'th ewyllys olaf.
R. Vaughan: Ymarfer Duwioldeb, 331 (cf. 97, 141).

Digyfodig, *a.* [cyfodi] immovable; fixed.

Tri rhyw waesaf cyfreithiawl y sydd: arddelw; ac arwayssaf; a gwarant am beth *digyfodic* ac amddiffyn heb warant.—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 568.

Digyfoeth, *a.* without wealth, riches, or property; without possessions.

Ar huni y doeth *digyfoeth* gwerin.
Llyfr Du: A.B. ii. 16 (M.A. i. 577).

Yr awron yr wy'n canfod wrth hynod waith hael,
Nad ydyw cydymaith *digyfoeth* ond gwael.
Huw Morus: E.C. i. 350.

Digyfoethi, *v.* to deprive, divest, or dispossess of territory, dominion, or possession; to dispossess.

A gwedy *digyfoethi* Eudaf yd aeth ef hyt yn Llychlyn.
Ystat. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 110 (cf. 75, 231).

Gwedy marw y dat. y *digyvoethi* ae alltudaw oe genedyl yn gymeint ac na diodefynt idaw gardotta yn y gyuoeth ehun.—*Amlyn ac Amig,* col. 1091.

Yn y lle y *digyfoethes* Llywelyn ab Iorwoerth ef am hynny.
Brut y Tywysogion, 326 (cf. 258, 266, 332).

Dos adref yn ddiogel, a chofia nad oes arnaf fi na'm gwladwyr eisieu dim ond gallu i ymddïal ar yr holl estroniaid a'n *digyfoethawdd* yn ddiachos.—*Iolo Mss.* 16.

Ny uet namyn Duw *digyuoethi* dyn
Digart Lywelyn lew tra gweilgi.
Hywel Foel: M.A. i. 393.

Digyfoethog, *a.* unwealthy, not rich; without possessions.

Digyfoethogi, *v.* 1.=*Digyfoethi.*

Wedi *digyfoethogi* Iestin fal hyn gan y Ffreinc yr aeth ef ar gil.—*Iolo Mss.* 22.

Y gwr gwedy y veynt wudugolyaeth honno a kavas trwy vy nerth y a kymyrth y veynt syberwyt yndaw hyt pan edyw yn keysyaw hyny treftadu am *dykyvoethogy* am dyhol om kyvoeth. . . Myvy yn y kyvoethogy ef. ac ynteu ym *dygyvoethogi* ynnheu.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 181 (cf. 356).

2. to rob of one's wealth; to deprive of wealth or riches; to make poor, to impoverish.

Digyfoethogawl, *a.* tending to divest of property or wealth; impoverishing.

Digyfoethogiad, *sm.* a depriving of possessions or property; impoverishment.

Digyfraid, *a.* wanting necessaries.

Digyfraith, *a.* without any law; exempt by or not subject to law; contrary to law; not cognizable by law; lawless.

Pan wnel yr arglwyd kyfreith na rodher dim y kerdoryon *digyfreith* uyd y penkerd.
Cyfreithiau Cymru, i. 678 (cf. 446, 780, 786).

Gan wybod hyn, nad i'r cyflawn y rhoddwyd y gyfraith, eithr i'r rhai *digyfraith* ac anufudd.—1 *Tim.* i. 9.

Gelynion digyfraith, lawless enemies.

A'r cwbl a'r a ddygaist arnom, a chwbl a'r a wnaethost i ni, mewn gwir farn y gwnaethost oll: ac a'n rhoddaist yn nwylaw *gelynion digyfraith,* ac adgasaf wrthodwyr Duw.
Cân y Tri Llanc, 8, 9.

Digyfran, *a.* without a share or portion; without participation; undivided.

Rhaid i ti garu Duw â'th holl galon, hyny yw, rhaid i ti roddi iddo gariad cyfan a *digyfran,* heb garu dim arall ond y cyfryw ag y mae'n rhoi cennad a gorchymmyn i'w caru.
Elis Wynn: Rh.B.S. 186.

Digyfranadwy, *a.* not to be participated; indivisable; incommunicable.

Digitized by Google

Digyfraniaeth, *sf.* exemption from sharing or participating; non-participation; absolutism.

Digyfranog, *a.* not participating or sharing; uncommunicating; unshared.

Digyfranol, *a.* incommunicative; absolute; incommunicable.

Nid yw gras y bedydd i'w gyfranu i ddim arall ond i'r bedydd yn unig, ac nid yw ddim amgenach na'r bedydd, ond unig a *digyfranol.*—*Th. Williams:* Ymadr. Buch. 326.

Digyfranrwydd, *sm.* the state of being unparticipated.

Digyfranu, *v.* to cease participating or sharing; to cease to contribute or communicate.

Digyfrif, *a.* of no account, repute, reputation, or esteem; reputeless; valueless.

Y wobr a'r annogiad am ddysgu iefienctyd ydynt mor wael a *digyfrif* lawer gwaith, a bod anghenrheidiau bywyd yn eisieu yn bur fynych.
Lewis Anwyl: Nefawl Ganllaw, 102.

Gan ddewis o'r Iesu fendigedig ei eni mewn modd gwael *digyfrif,* yn hytrach nag mewn bonedd a braint, mewn mawredd a chyfoeth, dylai'r tlodion ddioddef eu hisel gyflwr drwy amynedd a bodlondeb.
Th. Williams: Cydymaith (1712), 63.

Digyfrwng, *a.* immediate; without intervention, intermediation, or intermission; not acting by second causes; direct.

Yma y dysgir hwy gan yr Hollalluog Dduw i gydnabod iddynt dderbyn eu holl allu a'u cryfder, nid o Rufain, ond yn *ddigyfrwng* oddi wrth Dduw Goruchaf.
Edward Iames: Hom. i. 139.

Yr hen ddaiaren, ynte, a'r rhan hyny o'r nefoedd ag a loegir (yr hon yw y rhan sydd yn dwyn perthynas *ddigyfrwng* i'r ddaiar hon) nid ydynt i'w troi yn ddim, ond i'w hadnewyddu i fod yn gartref cyflawnder.
Ieremi Owen, 47 (cf. 88).

Pechod *digyfrwng* yn erbyn Duw [yw tyngu].
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 155.

A hyspysodd y Goruchaf yn *ddigyfrwng* i ddynion pa sylweddau mwnol a llysieuol sy rinweddol i wella afiechyd? . . . A ddangosodd y Nef i ni yn *ddigyfrwng* pa sylweddau naturiol sydd wenwynllyd ac angeuol?
Nicander: Dwyfol Oraclau, 72, 73, (cf. 210).

Y fath gyntaf o'r rhai'n ydyw'r moddion agos, y rhai sydd yn uniongyrch ac yn *ddigyfrwng* yn golygu y diben mawr olaf: yr ail ydyw'r moddion sydd yn fwy pell, y rhai sydd yn *ddigyfrwng* yn golygu y moddion hyny ag sydd yn *ddigyfrwng* yn golygu y diben. Y mae'r fath gyntaf fel ceilyddyd yr adeiladwr, yr hon sydd yn *ddigyfrwng* yn golygu y tŷ; y mae'r ail fath fel ceilyddyd y gof, yr hon sydd yn *ddigyfrwng* yn golygu moddion ac offerynau'r adeilad.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 33 (cf. 35, 38, 42, 75, 85).

Enaid dyn a greir gan Dduw mewn modd *digyfrwng.*
D. Davis: Bywyd Duw (1779), 62.

Ysprydoliaeth ddigyfrwng, immediate inspiration.

Nid oedd raid iddynt hwy [yr Apostolion] droi llawer o lyfrau drostynt i fedru ieithoedd, a hwythau yn derbyn pob peth ag yr oedd achos wrtho trwy *ysprydoliaeth ddigyfrwng.*—*Ieremi Owen,* 133 (cf. 70).

Digyfryngiad, -au, *sm.* non-intervention.

Digyfryngol, *a.* not intervening or interposing.

Digyfryngrwydd, *sm.* immediateness.

Digyfryw, *a.* having no equal; unequalled.

Ei eni'n fardd ag awen fyw a gadd
Y gwr, urdd *ddigyfryw.*—*Gwynionydd:* Caniadau, 62.

Digyfwng, *a.* [cyfwng] immediate; without anything intervening.

Digyfyng, *a.* [cyfyng] not strait or narrow; unconfined, unrestricted, free.

Digyfyng dinas i gedyrn.—*Llywarch Hen:* M.A. i. 112.

Kynran rann gyfran gyuradw wellyg bart
Balch digart *digyuyg.*
Cynddelw: M.A. i. 224 (cf. 212, 253).

Digyfyngol, *a.* not confining or restricting.

Digyfyngu, *v.* to divest of narrowness, straitness, or difficulty.

Digyfymall, *a.* [cyfymall] devoid of energy or vigour; powerless, helpless.

Dyn digyfymall iawn yw ef, he is a man very devoid of energy; he is a very helpless person.—*S.E.W.*

Digyffelyb, *a.* that has no like or equal; incomparable, matchless, unrivalled.

Yr hon sydd â'r fath rym a rhinwedd ynddi i gadw ac i gynnal trysor mor *ddigyffelyb.*—*Ed. Iames;* Hom. iii. 11.

O'r *digyffelyb* gyfoeth hyny nid yw y rhai bendigedig i fod yn arglwyddi yn unig, ond breninoedd hefyd.
Gruffydd Wynn: Ystyriaethau, 135.

Y sawl ni wnaethoch ddim parotoad erbyn angeu a barn, i sefyll i fyny, neu eistedd i lawr, a rhyfeddu weled amynedd diflin, a thrugaredd *ddigyffelyb* a rhyfeddol y Duw grasusol a gogoneddus anfeidrol.
Sam. Williams: Amser (1724), 116.

Digyffelybiaeth, *a.* without or beyond comparison; incomparable.

Er bod celfyddydon ereill yn dda ac yn rhaid eu dysgu, eto ni ddichon un dyn ammheu fod y gelfyddyd hon yn benaf, ac uwch law pob celfyddyd arall yn *ddigyffelybiaeth.*
Edward Iames: Hom. i. 7.

Digyffro, *a.* without excitement, unmoved, undisturbed, unagitated; composed, calm, tranquil; immovable; fixed, firm, steady; quiet.

Yna y sauawd yr heul megys yspeit tri diwarnawt yn *digyffro.*—*Yst. de Carolo Magno,* col. 491.

Wrth vreint y brenhin y gossodet yn *digyffro* y ryw orsed honno herwyd kyfreith.
Cyfreithiau Cymru, ii. 368 (cf. 702; i. 482).

Nyt uelly arglwyd heb ef y gwnaeth vy mrawt i yr hwnn a ledeist di y benn ef. namyn daly yn *digyffro* y benn ae vynwgyl.—*St. Greal,* i 200.

Ein hewyllys ni yw bod preswylwyr ein teyrnas yn *ddigyffro.*—2 *Macc.* xi. 23.

Ynteu a gychwynnawd y wlat o bop tu, ac ae hachubawd ar castell a drigyawd yn *digyffro* ae wercheitweit yndaw.
Brut y Tywysogion, 76.

Cristyawn uyf gan iaun dawn *digyffro.*
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326 (cf. 573).

Digyffro fo Artro fawr.—*D. ab Gwilym,* xxxiii. 21.

Dwg hwy adref trwy gall a thost ddyfeisiau, a chais ym mhob sut yspryd sobr a dichlyn, a chalon wastad-ddwys *ddigyffro.*—*Elis Wynn:* Rheol B.S. 209.

Y Rhufeiniaid hwy a dderbyniasant y gafod gyntaf o saethau yn *ddigyffro,* heb fyned allan o'u rhestr.
Theo. Evans: D.P.O. 52 (cf. 141, 243, 334, 336).

Mi a welais, yn *ddigyffro,*
Faes y gwaed a mil yn syrthio;
Ond ni welais ddagrau'n hongian
Ar rudd hon heb wylo f' hunan.—*Daniel Ddu,* 236.

Da digyffro: see *Da.*

Digyffroad, *a.* unagitated, unmoved, undisturbed, calm.

Mae'r ffaith ddarfod iddo wneuthur y cofnodiad yn profi ei fod yn ysgrifenu dan ddylanwad yspryd tawel, *digyffroad,* dinwydau.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 132.

Digyffroawl, *a.* not tending to disturb or agitate; unmoving.

Digyffrŏedig, *a.* unagitated, unexcited, unmoved; calm, quiet.

Digyffroi, *v.* to calm; to quiet the passions.

Digyffrŏus, *a.* not apt to agitate, disturb, excite, or move; unmoving; calm, quiet, unexcited.

Hyn sy rinwedd, a phwnc o gelfyddyd i wr, sef, bod ei feddwl ef yn *ddigyffrŏus* ac yn ddiorfod mewn adfyd ac afiwyddiant.—*Huw Lewys:* Perl, 238.

Digitized by Google

Digynghan, *a.* [cynghan] inharmonious, discordant, dissonant.

Digynghanedd, *a.* 1. inharmonious, discordant.

2. without *cynghanedd*, or peculiar Welsh alliteration. See *Cynghanedd.*

Ni mawr ganer ar y man-golofnau o barth pennillion ar gyssefin foddion, sef y Gorchanau, can nas bydd blasus a chaniadaidd cerdd *ddigynghanedd* o gwbl.
Cyfrinach y Beirdd, 27 (cf. 127).

Cân *ddigynghanedd* gwbl yw hon, oddi eithr yn y prifodliadau.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, i. 532.

Digynghor, *a.* without counsel or advice, counselless; unadvised; injudicious; without consultation.—*M.A.* i. 205, 545; iii. 11.

Megys cyweithas o giwtawt bobyl *digygor* heb lywyawdyr arnunt y kymerassant eu hynt parth a chastell Aber Ystwyth.—*Brut y Tywysogion*, 132.

Dyn, pe cyn gryfed a dau,
Digynghor y dwg angau.—*Meredydd ab Rhys.*

Ydd ŷm mewn cyfyng gynghor; er hyny nid yn *ddigynghor.—H. Perri:* Egl. Ffraeth. xxxiv. 3.

A'r pysg sydd ym mysg y môr
A ddwg angeu'n *ddigynghor.—Wiliam Lleyn:* G.B.C. 294.

Ydd ŷm mewn cyfing gynghor, er hyny nid ŷm yn *ddigynghor.—W. Salesbury:* 2 Cor. iv. 8.

Digynghorfynt, *a.* free from envy, unenvious.

Rhydderch wrth hir-ferch *ddigynghorfynt.*
Llywelyn Goch: M.A. i. 515.

Digynghrair, *a.* without a compact or truce.

Haint a'th glwyf fy rhwyf ail rwysg Gwair fab Gwestl Gwastad drin *digyngrair.*
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 449.

Digyngwedd, *a.* unassimilating.

Oed *dygyngwed* Eingl oed digyngor Lloegr.
Cynddelw: M.A. i. 205.

Digyngyd, *a.* inconsiderate, injudicious; unhesitating.

Belsebub, pentywysog hyll,
Yr anfad ellyll yma.
Am ei fod ar feddwl fryd
Ddigyngyd i'm dyfetha.—*Taith y Pererin* (1771), 81.

Digyliad, *sm.* [cwl] a clearing from blame or fault, non-reprehension.

Digylu, *v.* to free from blame.

Digylus, *a.* free from blame or fault, irreprehensible, blameless.

Digymdeithas, *a.* without society or association; unsocial, dissocial.

A phe baem mewn cyflwr o fywyd *digymdeithas*, nyni o bob creaduriaid yn y byd a fyddem y rhai lleiaf eu tueddrwydd i helpu eu gilydd.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 121.

Digymhar, *a.* [cymhar] having no match or equal; matchless, unmatched, unequalled, incomparable.

Ffolineb *digymhar.—Cyfrinach y Beirdd*, 128.

Mawredd ac uchelradd yr hwn sydd *ddigymhar.*
R. Smith: Eglurhâd (1618), 36.

Yn llawn tristwch, ond yn mwynhau canwyll llawenydd *digymhar.—Morgan Llwyd:* Tri Aderyn, 91 (cf. 77).

Marcus Aurelius . . . wrth farw a'i rhoddes hi megys trysor *digymhar* i'w fab Commodus.
Iago ab Dewi: Llonyddwch, 92.

Ystyria'r *digymhar* ddoniau â pha rai y bendithiwyd hwynt.—*Gwallter Mechain:* Eglur Olygiad, 88.

Mae'r gweithredoedd ardderchog hyny, y rhai yn ddiammheu a wnaeth rhai o honynt, ac yr ennillasant oddi wrthynt glod *ddigymhar*, wedi eu claddu yn y dyfroedd.
Gr. Wynn: Ystyr. 102 (cf. 110, 128, 141, 157).

Bu gerddgar *ddigymhar* gynt,
Apolo ym mhob helynt.—*I. B. Hir:* Gwaith, 88.

Mor ddyrchafedig wyt, ein Duw,
Fawryddig Lyw *digymhar!—Daniel Ddu*, 379.

Digymharedd, *sm.* matchlessness.

Digymharedd, *a.*=*Digymhariaeth.*

Digloff i molyant hyt wlat ogled
Dec morof Môn *digymared.—Rhiserdyn:* M.A. i. 433.

Digymhariad, *sm.* a being without comparison.

Digymhariaeth, *a.* without comparison, incomparable, matchless.

Y mae genym gyfleusdra ac odfaon teg mewn ffordd o gymhariaeth, ac yn llwyr *ddigymhariaeth.*
Ieremi Owen, 18 (cf. 30).

Digymhariaeth, *sf.* want of comparison; exemplarity.

Digymharol, *a.* incomparable, matchless.

Gomeriaid *digymharawl,*
Ceinwych, myg, cenwch eu mawl.
Dewi Fardd o Geri (Gwaith G. Mechain, i. 247).

Digymharu, *v.* to cease to compare; to cease matching.

Digymhell, *a.* free from constraint; without pressure, unpressed, unconstrained, voluntary; unoffered; uncompelled; unexpecting.

A oes vn talawdyr didal, a mach *digymell*, a hawlwr eneit vadeu?—*Cyfreithiau Cymru*, i. 606 (cf. 608).

[Gwraig a ddylai fod] yn brydferth ei hystafell; yn syw yn ei chell; ac yn trefnu yn *ddigymhell.*
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 243.

Y maent wrth drefn yn parchu eu huwchradd, ac yn ymostwng i'w hisradd, â'r unrhyw rydd-did a gorfoledd *digymhell.—Iosua Tomas:* Buch. Grist. 149.

Digymhen, *a.* incompact; not pert or flippant.

Parch i'w pherchen, un *ddigymhen,*
Euraid addien, na wradwyddir.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 278.

Digymhorth, *a.* helpless, succourless, aidless; unassisted, unhelped.

Cymhorth y rhai *digymhorth* â phob anghenrheidiol gymhorth.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 466.

Edrych i lawr, mi atolygaf arnat, ar greadur truan *digymhorth.—Iosua Thomas:* Buch. Grist. 349.

Yr wyf fyth yn *ddigymhorth* ac yn anwybodus.
Rasselas, iv. (cf. xxix.)

Digymhorthawl, *a.* not aiding, assisting, or supporting.

Digymhorthi, *v.* to cease aiding or helping.

Digymhrudd, *a.* not dejected or sad; not sullen, glum, or morose.

Diurad dygymrad dygymrwyn ognaw
Digymrut wrth eirchyad.—*Cynddelw:* M.A. i. 221.

Digymhwyll, *a.* void of reason, unreasonable, silly, foolish.

Dafydd o beth difeddw bwyll,
Digymhar gerdd *digymhwyll,*
Dod ar awen d'aur enau
Nawdd Duw, ac na ddywed au.—*D. ab Gwilym*, lxiv. 9.

Digymhwyllo, *v.* to cease to be rational; to cease reasoning; to become distracted or deranged.

Digymhwyllog, *a.* not sensible, unreasonable, irrational.

Digymmal, *a.* jointless, unjointed.

Digymmaliad, -au, *sm.* dislocation, an unjointing.

Digymmalog, *a.* having no joints.

Digymmalu, *v.* to disjoint, unjoint, or dislocate.

A'm holl esgyrn, migyrn mwyd,
Eilwaith a *ddigymmalwyd.—W. Midleton:* Salm. xxii. 17.

Fe fydd galluoedd ei enaid, fel aelodau wedi ei *digymmalu*, mewn ing a phoen gwastadol.
Iosua Tomas: Buch. Grist. 49.

Digitized by Google

Digymmeriad, *a.* without acceptance; of no account; without a character or reputation; characterless.

Dyn digymmeriad, a person of no character.

Digymmeriadol, *a.* unacceptable; characterless.

Digymmod, *a.* without conciliation or propitiation; irreconciled; unatoned.

Fel rhwng melus a chwerw, neu rhwng da a drwg, a rhai, er eu bod yn yr un lle, maent wedi eu gwahanu yn *ddigymmod.*—*Morgan Llwyd:* Tri Aderyn, 89.

Digymmrad, *a.* 'void of evil intent;' free from conspiracy or sedition; harmless.

Dirnad *digymrad* gymryd bedyt.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 324 (cf. 221).

Digymmrodedd, *sm.* an unreconciled state or condition; want of sociableness.

Mor dygawn y mae *digymroded*
Wedy penkeyrdeth Kymry yghamryssed.
Phylip Brydydd: M.A. i. 378.

Digymmrodol, *a.* unconciliatory, unconciliating.

Digymmŵedd, *a.* without jesting, joking, or bantering; without ceremony.

Pan fych fwyaf oll dy rwyf,
Yn llawn o nwyf gorwagedd,
Henaint, methiant ddaw i ti,
A hyny'n *ddigymmŵedd.*—*S. S. Hywel.*

Digymmwl, *a.* cloudless, unclouded. See *Digwmwl.*

Digymmwynas, *a.* that does no good turn; disobliging, unobliging, unaccommodating; unkind.

Yn Lloegr, lle mae pob peth yn ddrud, a'r bobl yn dostion ac yn *ddigymmwynas.*—*Gro. Owain,* 164 (cf. 178).

Dyn digymmwynas, a disobliging person.

Digymmwynasgar, *a.*=*Digymmwynas.*

Nid yn wag, yn rhagrithiol, ac yn *ddigymmwynasgar.*
Edward Samuel: Pregeth (1731), 4.

Digymmysg, *a.* unmixed, unmingled, uncompounded, unblended; unadulterated; unalloyed; pure.

Purdeb yw Duw, a wyt tithau yn sanctaidd ac yn *ddigymmysg* dy feddwl?—*Morgan Llwyd:* Cyfarwyddyd, 113.

Mae holl bleserau'r cyfryw ddyn yn bur ac yn *ddigymmysg.*
Th. Williams: Ymadr. Buch. 125 (cf. 55, 344).

Lle y caiff y cyflawn fwynhau gwir ogoniant pur (*digymmysg* a thrueni, i'w leihau ef), a hwn tros byth.
Gr. Wynn: Ystyriaethau, 27.

Daioni Duw sydd bur a chyflawn a *digymmysg.*
Ed. Samuel: Holl Ddyledswydd Dyn, i. 29.

Bid dy orchwyl yn gyfryw ag a weddai i Gristion, sef bid yn bur *ddigymmysg* oddi wrth bechod.
Elis Wynn: Rh.B.S. 9.

Anfarwol sydd raid i'r peth hyny fod, ag sy'n bur *ddigymmysg,* ac nas gellir ei ranu.
Dafydd Lewys: Golwg, ii. 1 (cf. iii. 4).

A fynent yru unig gyw *digymmysg,* diledryw, dros y nyth?
Gronwy Owain, 324.

Gwin digymmysg, unmixed wine.—*Dad.* xiv. 10.

Ffolineb digymmysg, sheer folly, unmitigated nonsense.

Digymmysgedd, *sm.* unmixed state; simpleness; pureness.

Y rhai hyn ydynt ddau, sef *digymmysgedd* ac annherfynoldeb. *Digymmysgedd* yw'r hyn drwy ba un y mae Duw yn ddilwgr oddi wrth bob cymmysgiad, gwahaniad, lluosogiad, dygwyddiadau, neu ranau cyfansoddol, i'w dirnad, na'u deall.—*R. Vaughan:* Ymarfer Duwioldeb (1675), 19.

Pan ystyriom mor hawdd ydyw i ieithoedd ymgymmysgu, a glaned ydyw'r Gymraeg o eiriau dieithr, hyd yr amser hwn o'i hoedran, nis gallwn lai na phriodoli ei *digymmysgedd* i ryw deithi anwahanol oddi wrth ei hanian.
Blackwell: Ceinion Alun, 221.

Digymmysgedd, *a.* without mixture; unmixed, unmingled; pure.

Yn lân heb halogrwydd, yn berffaith, heb lygredd,
Heb bechod yng nglŷn, ond yn llwyr *ddigymmysgedd.*
I. G. Geirionydd: Geir. 265.

Digymmysgiad, *sm.* the process of making unmixed or unblended.

Digymmysgu, *v.* to make unmixed.

Digymylog, *a.* not cloudy, unclouded, uncloudy.

Digymylu, *v.* to clear of clouds, to dissipate clouds.

Digynfedd, *a.* [cynfedd] without bias, disposition, or character. See s.v. *Diymwosgryn.*

Digynfyl, *a.* [cynfyl] without strife or contention; uncontended.

Gwell cyfoeth bychan yn llonydd *ddigynfyl,* no chyfoeth mawr yn aflonydd, ofalus, dan fygwth a thalu teyrnged i wŷr Rhufain.—*Brut Gr. ab Arthur.* (*P.*)

Digynhebrwng, *a.* without a funeral or funereal obsequies.

A'u hymlid [y meddwon] a wnaeth y lleill . . . i Allt yr Anair, ac i Fryn y Cywilydd, ac i Fedd *Digynhebrwng.*
Gwyliedydd, vi. 179.

Digynhen, *a.* without strife, dispute, quarrel, or contention.

Gorffen *digynnen* da yw gennyf.—*Casnodyn:* M.A. i. 430.

O bydd heb sori, cri cryf,
Digynhen ydyw genyf.—*Dafydd ab Gwilym,* cxxiii. 51.

Digynhenol, **Digynhenus,** *a.* not quarrelsome or contentious, uncontending.

Digynhwrf, *a.* undisturbed, unagitated; dispassionate, calm, tranquil, quiet.

Mae ef yn llaryaidd ac yn *ddigynhwrf* ar bob troiau a dygwyddiadau.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 95.

Ni chaniatâ efe i ni lonyddwch beunyddiol, megys llyn oedd safadwy, *digynhwrf,* rhag casglu o honom ewyn a budreddi.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 124.

Hynawsaidd, mwynaidd oedd moes
Ei *digynhwrf* deg einioes.
W. Wynn: Md. y Frenines Carolina.

Digynhyrfu, *v.* to cease to disturb or agitate.

Digyniad, *a.* [cwnnu] without elevation; level, flat.

Digynnaliaeth, **Digynneiliaeth,** *a.* void of support; without sustenance or maintenance; unsupported.

Digynneddf, *a.* without a natural endowment, gift, or talent; void of qualification.

Casbethau Catwg Ddoeth . . . teulu *digynneddf.*
Myv. Arch. iii. 11.

Digynneddfu, *v.* to divest of a quality or virtue; to disqualify.

Digynnil, *a.* not thrifty, sparing, frugal, or economical; unsparing; inexact, inaccurate.

Dichwant, dilwyddiant, dilog,
Digynnil o'm dwy geiniog.—*Huw Morus:* E.C. i. 48.

Dwg o annedd *digynnil*
Ddogn o fedd, ddigon i fil.—*Gronwy Owain,* 43.

Mwya' cynnil ei amcanion,
A *digynnil* o du gweinion.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 39.

Digynnilo, *a.* not saving, sparing, or economizing; unsparing, liberal.

Diwallawdd, breiniawdd ein bro
A dogn hael *digynnilo.*—*Robert Owen:* Gweith. 102.

Digynnired, *a.* unfrequented, not resorted.

Digynniwair, *a.* unfrequented.

Digynnor, *a.* without support.

Digitized by Google

Digynnorth, } *a.* without support; helpless, aidless, unaided, unsupported, succourless.
Digynnorthwy, }

Ni chlywson ac ni wybuom ddyfod neb er ioed i gyfyngderau wrth wneuthur hyny, na'i adael yn *ddigynnorthwy* ac yn ddiamgeledd gan Dduw.—*Ed. James:* Hom. iii. 24.

Bydd drugarog wrth ein holl frodyr . . . a chysura bawb o honynt ag sydd yn glaf neu yn *ddigynnorthwy* mewn corff neu feddwl.—*Elis Lewis:* Drexelius, 383.

Digynnorthwyo, *v.* to desist from aiding, assisting, or helping.

Digynnorthwyol, *a.* not aiding or assisting.

Digynnrygedd, *a.* [cynnrygedd] void of harm; free from mischief; harmless.

Doeth Gaerlleon deg anrhegion *digynrygedd.*
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 461.

Digynnydd, *a.* without increase, not increasing; without progress, unprogressive; not advancing; stationary.

Tafi i'r tân gân *ddigynnydd.*—*G. Mechain:* Gwaith, i. 167.

Digynnyddiad, -au, *sm.* diminution, decrease, wane.

Ni ryfeddaf faintioli y byd, sicr ansawdd y ddaiar, cynnyddiad a *digynnyddiad* y lloer.
Daniel Rowland: Pregethau (1772), 50.

Digynnyddu, *v.* to cease to increase, grow, or progress.

Digynnyg, *a.* [cynnyg] incomparable, unequalled, matchless; excellent.—*S. W.*

Da digynnyg, exceedingly or surpassingly good.

Dyn da digynnyg, an exceedingly good man; an excellent person.

Dyma yd digynnyg, this is incomparable corn.

Mae yn oer digynnyg, it is very or extremely cold.

Digynnyrch, *a.* unproductive; barren.

Digynnyrchol, *a.* unproductive; inefficient.

Mae'n gwahardd chwennychu da bydol o'r eiddo rhai ereill, yn gystal y *digynnyrchol,* megys eu tai a'u tiroedd, a'r cynnyrchol, megys eu haur a'u harian, eu hanifeiliaid, eu ffrwythau, a'r cyffelyb bethau ereill.
R. Smith: Eglurhâd (1618), 209.

Digynnyrchu, *v.* to cease to produce, yield, or increase.

Digynnysgaeth, *a.* having no fortune, portion, dower, or endowment; dowerless, portionless, fortuneless, unendowed.

Digynnysgaethiad, } -au, *sm.* a deprivation
Digynnysgaeddiad, } of endowment or fortune, disendowment.

Digynnysgaethol, } *a.* disendowing; tending
Digynnysgaeddol, } to deprive of endowment.

Digynnysgaethu, } *v.* to divest of portion; to
Digynnysgaeddu, } deprive of endowment; to disendow.

Digyrrith, *a.* not miserly, stingy, or niggard; liberal, bountiful.

I deg eryr *digyrrith*
Aed y glod fal ôd a gwlith.—*Gutyn Owain.*

Gwraig *ddigymhar* oedd Marged
I'w plith am *ddigyrrith* ged.—*Gro. Owain,* 50 (cf. 66).

Digyrrithrwydd, *sm.* freedom from or absence of niggardliness; bounteousness, liberality.

Digysgod, *a.* 1. having no shadow, shadowless. 2. destitute of shelter, shelterless; unsheltered, exposed.

Digysgu, *v.* to cease to sleep.

Digyssegr, *sm.* that which is not holy or sacred; that which is no sanctuary; that which is common.

Mur oedd iddo ef o amgylch ogylch, yn bum can corsen o hyd, ac yn bum can corsen o led, i wahanu rhwng y cyssegr a'r *digyssegr.*—*Exec.* xlii. 20.

Digyssegru, *v.* to desecrate, to profane.

E ddug Groegwyr i'r Templ, ac a halogawdd [°gyffredinawdd, *ddigyssegrodd*] y lle sanctaidd hwn.
W. Salesbury: Act. xxi. 28.

Digyssellt, *a.* without delay; straight, immediate.

Degfed *digyssellt* dug attaw Fuallt [Fuellt].
Dafydd Benfras: M.A. i. 318.

Yna *digyssellt* gwr a fedd y mellt.—*M.A.* i. 540.

Yn ddigyssellt, immediately, forthwith.

Digysswllt, *a.* unconnected, unjoined, disconnected, disjunct, without connection; asyndetic.

Dull arall ar gyfagwedd y sydd, pan fwrir llawer o eiriau yng nghyd, mal cerryg mywn carnedd, yn *ddigysswllt;* a'r rhei'ny yn arwyddocâu amryw bethau, o amryw anian.
H. Perri: Egl. Ffraethineb, xxxv. 2.

Hir y buwyd yn edrych ar hyn oll fel ffeithiau *digysswllt.*
Nicander: Dwyfol Oraclau, 214.

Digysswllt, *sm.* the asyndeton, a rhetorical figure which omits the conjunction: as in *Gal.* v. 19—21; or in the first of the following quotations:

Merched, gwragedd, bonedd byd,
Meibion, plant, ieuainc, mebyd.—*Sion Cent.*

Digysswllt y gelwir hi.—*Henri Perri:* Egl. Ffr. xxxv. 1.

Asyndeton, *Digysswllt,* a fydd pan fo ymadrodd heb gysswllt ynddo.—*Pum Llyfr Cerdd.* 116.

Digyssylltiad, -au, *sm.* disconnection, disjunction, disunion; separation.

Digyssylltiad, *a.*=*Digysswllt.*

Y mae defnyddiau pwysfawr a gogoneddus o athrawiaethau a chynghorion, yn cael eu llefaru mewn rhyw gall ddywediadau byrion, ac ymadroddion synwyrlawn, hollol annibynol ar eu gilydd, ac yn *ddigyssylltiad* y naill â'r llall.
Thomas Charles, s.v. 'Diareb.'

Mae'r cyd-darawiad hwn rhwng yr adnod yn Esay a'r adnodau yn y Breninoedd mor hollol *ddigyssylltiad* â'u gilydd . . . fel nas gallaf lai na chredu fod Esay ac Ahaz yn gydoeswyr.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 178 (cf. 180, 216).

Digyssylltu, *v.* to disconnect, disjoin, or disunite.

Digystadl, } *a.* incomparable, unequalled,
Digystadliad, } matchless.

Siamplau *digystadl* ac anghyfartal! medd Clement wrth y Corinthiaid.—*Theo. Evans:* D.P.O. 359.

Digystudd, *a.* [cf. *cystudd* 1 and 2] free from affliction, afflictionless, unafflicted; open.

Digystud anrec am dec ystwyll rat
Duc yr hydyr eur gannwyll
Iessus vab koeth doeth didwyll
Iaspart or myrr nyt byrr bwyll.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 470.

Digysur, *a.* comfortless, uncomfortable; cheerless; dreary.

Y druan, helbulus gan dymmestl, y *ddigysur,* wele, mi a osodaf dy gerryg di â charbuncl, ac a'th sylfaenaf â meini saphir.—*Esa.* liv. 11.

Nid oedd y cwbl ond celwyddog yn ei hawddfyd, a'i gadawant ef yn *ddigysur* yn ei adfyd.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 298.

Yng nghur *digysur,* da gwn,
Yn gaeth o'm hiraeth am hon.—*Gronwy Owain,* 29.

Y mae yn chwythu yn awr mor oer a *digysur* ar fy mynwes, fel ag y dymunwn ymgysgodi rhagddi.
Y Bryniau Pell, 76 (cf. 83).

Digitized by Google

Digyttrym, *a.* [cyttrym] instantaneous, immediate.

Yn ddigyttrym, instantaneously, instantly, immediately, forthwith.—*Dyfed.*

Digyttundeb, *a.* without truce or parley; without compact or agreement.

Gorchfygu talm o'r Almaen,
Taraw 'sp^r hyd dir Yspaen,
Cynnal cad (yn anad neb)
Tandwng, yn *ddigyttundeb.*—*Gronwy Owain,* 73.

Digythrudd, *a.* [cythrudd] without provocation or annoyance; undisturbed, unagitated, calm, collected.

Oet deu hanner ber bar gwythrut yn llaw
Gwr ual llew *digythrut.*
Prydydd Bychan: M.A. i. 383 (cf. 13, 418).

Digywair, *a.* out of order or trim; out of repair; out of tune (as a musical instrument), discordant.

A phaid, er maint mawr-fraint Mair,
A'th gywydd, iaith *ddigywair!*—*D ab Gwilym,* ccxvii. 21.

Digyweirio, *v.* to put out of order, to disorder or disarrange.

Digyweiriol, *a.* tending to disorder.

Digywilydd, *a.* †1. (in a good sense) having no cause for shame, 'that needeth not to be ashamed' (*ἀνεπαίσχυντος*).

Garth Bryngi bryn Dewi *digewilyt*
A Thrallwg Kynuyn ker y dolyt.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 271.

Nid *digywilyd* pan weler ddyddbrawd
Ddarllain pob pechawd fal y pecher.
Gruffydd Ynad Coch: M.A. i. 398.

Cyffessaf wrthyd byd wybedydd . . .
Gwrolgadr waladr *digywilydd.*
Llywelyn Goch: M.A. i. 534.

2. shameless; impudent; immodest. (The current sense.)

Kyrchwnn Cesar Awgustwm tra uo an nerth gennym. ac na ochelwn dreulaw an buched yn y hamwyn. ac nyt *digewilyd* ynn or gadwn a wnaeth o gewilid heb y dial.
Ystoria de Carolo Magno, col. 462.

Chwech peth nid da gwaint rhyngddynt: cyfaill da â llawenydd; merch *ddigywilydd* â ffangell; ffoadur â ffordd deg; ysgolhaig â'i lyfrau; baban â bronau llaethawg; a lleidr â chrogbren.—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 116.

Galw y maent, nid yn unig yn annuwiol, eithr yn *ddigywilydd,* ar Fair Forwyn.—*M. Cyffin:* Diff. ii. 20.

Ac aneirif o filoedd o wyrthiau ereill a adroddid trwy'r cyffelyb neu eto *ddigywilyddiach* gelwyddau.
Edward Iames: Hom. ii. 106.

Wyneb digywilydd, an impudent, shameless, or brazen face.—*Diar.* vii. 13.

Haeru yn ddigywilydd,
Taeru yn ddigywilydd, } to brazen (it) out.

Digywilydd-dra, *sm.* shamelessness, impudence.

Tri pheth a droant y byd wyneb i waered: pendodaeth gwraig; *digywilydd-dra* merch; ac anwybodaeth mab.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 79 (cf. 13, 270).

Nid oedd dim o'r fath afreolaeth, y fath annhrefn, y fath ryfyg, y fath *ddigywilydd-dra,* yn oesoedd cyntaf yr Efengyl, ag a welir y dyddiau hyn.
Theo. Evans: D.P.O. 292 (cf. 47).

'Ni welaist ti eto,' eb yr Angel, 'na ddo, ym myseg yr anghred, *ddigywilydd-dra* mor oleu gyhoedd a hwn.'
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 39.

Ymwisgo â digywilydd-dra, to put on a brazen face.

Digywilyddiad, *sm.* a becoming shameless or impudent.

Digywilyddio, *v.* to cease being ashamed; to become shameless, impudent, or brazen.

Digywilyddus, *a.*=*Digywilydd.*

Enrhyfeddod mawr genyf adu o'r pendefigion eu twyllo a'u gwatwaru yng ngwŷdd eu llygaid eu hunain, gan y fath gelwyddog a *digywilyddus* ddynionach.
Dr. I. D. Rhys: Gram., Rhag. 6.

Digywyd, *a.* [gwŷd] free from blemish, fault, or imperfection; sinless.

Llunyeid Veir gyweir *digywyt* riein
Y Naf o ddwyrein nef a deiryt.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 473.

Digywydd, *a.* without song, songless.

Digywydd y bydd y byd!—*D. ab Gwilym,* ccxxxv. 36.

Dihad, *a.* [had] without seed, having no seed.

Dihaedd,
Dihaeddiant,
Dihaeddiannol, } *a.* without merit or desert; undeserving; unworthy; unmerited, undeserved.

Oet *diheit* agheu Kei.
Ymdd. Arthur a Chai: M.A. i. 167 (cf. 319).

Maon Meirionnydd mor *ddihaidd* eich bod
Heb arfod heb aerflaidd.—*Llywelyn Fardd:* M.A. i. 355.

Dihaeddwch, *sm.* want of attainment.

Dihaeddyd, *a.* void of attainment or merit.

Dihaer, *a.* without assertion or affirmation; not positive or assertive.

Vyg geneu diheu *diheur* vi ith wyt.—*Gro. Owain,* 128.

Dihaereb, -ion, *sf.*=*Diareb.* This orthography, which is old, is preferred by those who consider the word as composed of *di-*+*haer.* Others write it *diheureb.* See quotations under *Diareb, Diarebu,* &c.

Dihaerebyon yw hyn.—*Hengwrt Ms.* (Cymmrodor, vii. 138).

Mae genym *ddihaereb* yn Gymraeg, Cyn chwerwed a'r bustl.—*Drych Christianogawl,* 31.

Ond yw yn wir *ddihaereb?*
Nad yw yn wir ni wad neb.—*Huw Roberts Lên.*

Y *ddihaereb* a ddywed, 'Fal y bo fy nghynghoriaid i, felly y mae rhaid bod fy nghynghor i.
Marchog Crwydrad, i. 2.

Dihaeru, *v.* [haeru] not to assert; to assert to the contrary; to disprove an assertion.

Pwy ddynion bynnag ydym, os cystedlir ni â hwynt-hwy, diammheu mai hawdd y *dihaera'n* buchedd a'n gwiriondeb ni yn y pethau y maent hwy yn eu camhaeru arnom.
Morus Cyffin: Diff. iv. 7.

Dihafal, *a.* [di-+hafal] incomparable, matchless, unrivalled, unparalleled.

A hyny mor ffyrf ddiogel nas dichon holl ewinedd newyddianod ei thynu allan i lygru ei waith *dihafal ef.*
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 180.

Dihafal gariad mewn didryfle blys.
W. O. Pughe: C.G. iii. 75.

Boed unwedd glod ac enw Ifor Hael,
Dihafal achles dawn, a noddwr cerdd,
Yn gymhlith â'n galargan ar ei dranc.
Th. Lloyd Jones: Md. Ifor Ceri.

O Canaan! mae miloedd o'th feib a'th brophwydi,
A'th feirddion *dihafal,* fel yna'n distewi.
I. G. Aled: Palestina, 78 (cf. 21, 31).

Dihafarch, *pl.* dihefeirch, *a.* [hafarch?] courageous, brave, valiant, gallant, energetic, undaunted, bold, intrepid, stout, strong; active; vigorous; high-spirited.

Budvan vab Bleidvan *dihavarch.*—*Aneurin:* God. 264.

Oet aelav vt vt dulloet *diheueirch.*—*Llyfr Du:* A.B. ii. 19.

Arthur *dihafarch* atteb
Ni sai gelyn ith wyneb
Rhag angau ni ddianc neb.
Ymdd. Arthur ac Eliwlod: M.A. i. 176 (cf. 173).

Mechit mab Llywarch *dihawarch* vnben.
Llyfr Du, fo. 47 (cf. God. 457).

Digitized by Google

Crynai Faes Carned rag carnial ei feirch
Rag tarf *dihefeirch* tyweirch tir dawn.
Cynddelw: M.A. i. 206 (cf. 223, 229).

Mab Llywarch *dihauarch* dyndid.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 237 (417, 493).

Dragon *diheueirch* heirtveirch hartet.
Llygad Gwr: M.A. i. 343 (cf. 234, 492).

Gwedy bydynt medw bot en hawd eu kyffroy ar lyt ac yr lloned yn erbyn e brenyn megys e lledynt ef en *dyhavarch*.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 239.

Du hefyd fydd *dihafarch*,
A dewr fydd du ar ei farch.—*L. G. Cothi*, 1. xxviii. 43.

Byddwn wr march gwrdd *dihafarch*.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 235.

Os gyrru ymaith y Saeson a fedrynt, a hynny a wnaethant yn *ddihafarch*.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 482.

A fyno barch, bid *dihafarch*.
Iolo Mss. 227 (cf. 235, 252, 253, 264, 320).

Fel hyn y bu efe farw, gan adael ei farwolaeth yn siampl o galon *ddihafarch*.—2 *Macc.* vi. 31.

Yr hwn yn wir oedd wr ymadroddus ac nid annysgedig, a hefyd ydoedd amddiffynwr awchlym *dihafarch* ym mhlaid y Pab.—*Morus Cyffin:* Diff. iv. 27 (cf. i. 2).

St. Bartholomæus, megys y lleill o'r Apostolion, a ymroddes yn *ddihafarch* i bregethu'r efengyl.
Ed. Samuel: Buch. yr Apost. 192 (cf. 183, 242).

Ar y gair, fe a ymysgydwodd oddi wrthynt oll, ac ymaith ag e'n *ddihafarch* at y porth cyfyng.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 40.

Yn y fl. 1608 . . . y cymmerodd y Cymro *dihafarch* y gwaith mawrgais mewn llaw.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 435 (cf. 425; i. 31, 32, 85, 124, 302).

Hyflon brif-feirdd *dihefeirch*
Yn canu mawl cwn a meirch.—*Dewi Wyn*, 170.

March dihafarch, a high-mettled horse, a high-spirited steed or charger.

A thair oes ci a eryw
Ar *farch dihafarch*, da yw.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 286.

Bydd Fyrnil, heb yswilliaw,
Ar *farch* dewr *dihafarch* daw;
F' â'r *march dihafarch*, nid ofn,
I'r rhyfel yn rhy eofn.—*Ieuan Brydydd Hir:* Gwaith, 64.

Myn barc, a chwn, a llynoedd, o bob rhith,
I'w *feirch dihefeirch*, pob addurnau brith.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 166 (cf. 185).

Pob *march dihafarch* a hed, tano
Traed yn lluwchio trydan a lluched.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 151.

Dihafarchedd, *sm.* undauntedness, intrepidity, fearlessness.

Dihafarchlym, *m.* } *a.* bravely spirited, ener-
Dihafarchlem, *f.* } getic and undaunted, brave and vigorous.

Sef yd oed gwr gotlawt kallonawc yn y ddinas. a gwas ieuangc *dihavarchlym* yn vab iddaw.—*Doethion Rhufain*, § 14.

Dihafarchol, *a.* tending to make bold or spirited; brave, undaunted, mettlesome, spirited.

Rhowch y march *dihafarchawl*,
Y march a'i dwg ym mraich diawl.—*Thomas Prys.*

Dihafarchu, *v.* to make bold or courageous; to become bold or brave.

Dihafarchwych, *a.* nobly bold or intrepid; undauntedly noble.

I'r cadfarch *dihafarchwych*,
Carnau a roes; cyrn i'r ych.—*Gronwy Owain*, 18.

Dihagr, *a.* [hagr] not ugly; not displeasing (to the sight); not unpleasant or disagreeable; fine.

Dihagr oedd glybod ei glod gan gler.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 440 (cf. 507, 532).

O Bowys be—*dihagyr*
O dwyn Gwen dilawen deigyr.
Prydydd Bychan: M.A. i. 389.

Diagyr Oronwy geyr deau aessawr.
Rhiserdyn: M.A. i. 435.

Ifor aur ei fawrwriaeth,
Deg yw'r fau *dihagr* faeth.—*Dafydd ab Gwilym*, i. 1.

Dihaidd, *a.*=*Diaidd.*—*A.B.* ii. 290; *M.A.* i. 113.

Dihail, *a.* [hail] without service; unserved.

Dihel (*gl.* deses).—*Oxford Glosses*, i. 6 (Zeuss: G.C. 1053).

Dihain, } *a.* 1. free from infection or disease;
Dihaint, } uninfected; not epidemic; healthy.

Trwy arwyrein treidyaw Owein *dihein* duhud
Trwy hir bara y Duw donya y datannud.
Casnodyn: M.A. i. 436.

Gildiais yn ddinidr *ddihaint*.—*D. ab Gwilym*, ccxiii. 3.

Cyffesed ei feiau drwy ddoluriaw ac wylaw; syched draed yr Arglwydd o'i wallt; ac fe gaiff ei wneuthur yn iach *ddihaint*.—*Marchog Crwydrad*, ii. 6.

Rhoed Duw im' adwedd iawnwedd yno,
A *dihaint* henaint na'm dihoeno.
Gronwy Owain, 11 (cf. 62).

2. free from blight, unblighted, unblasted.

Er pasio'r ddau gynhausaf,
Mae'r hin fal ardymmyr haf,
A'r ardd yn o hardd *ddihaint*,
A'r hin yn trechu'r henaint.—*Gronwy Owain*, 62.

Dihalen, *a.* without salt, destitute of salt, saltless, unsalted; fresh; insipid.

Oni bydd hwnw, hufen llaeth gwartheg da neu ymenyn ffres *dihalen*, a dod wrth y dolur.
Meddygon Myddfai, ii. 117.

Ofnais, yn fy ffwdan, mai haid oeddynt o Sipsiwn newynllyd; ac na wnaent as lai na'm lladd i i'w swper, a'm llyncu yn *ddihalen*.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 18.

Dihalenaidd, *a.* free from saltness, not impregnated with salt; not salty or saline.

Nid yw diffaethwch ond arallair am anialwch, a dichon pob un o honynt fod yn *ddihalenaidd*, yr hyn nid yw morfa byth.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 232.

Dihaleniad, *sm.* a divesting of salt.

Dihalenu (*ê*), *v.* to divest of salt, to make saltless.

Dihalog, *a.* [halog] undefiled, unpolluted; uncontaminated; pure; unspotted, spotless.

Ny bu nac achaws na medwl y rynghaw a gwreic or byt. namyn yn *dihalawc* o bop godineb y bu varw ef.
St. Greal, § 248.

Henaint oedranus yw buchedd *ddihalog*.
Doeth. iv. 9 (cf. viii. 20).

Ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, ac ymgadw yn *ddihalog* oddi wrth y byd.
Edward James: Hom. ii. 153 (cf. 189).

Mor ofalus oeddent i fyw yn onest a *dihalog*.
Theo. Evans: D.P.O. 333 (cf. 347).

Yr oedd ef yn ei dybied ei hun cymhelled yn rhwym i weled fod ei deulu ef yn fath ar eglwys neu gymmanfa o wŷr duwiol *dihalog*.
Langford: Holl Ddyl. Dyn, 347 (cf. 331).

Mae y ceinciau hyn yn gyffredinol, yn dwyn yr unrhyw ffrwythau mewn mynwes *ddihalog*.
G. Mechain: Gwaith, ii. 5 (cf. 61, 95).

Yr hon ffydd, onis ceidw pob dyn yn gyfan ac yn *ddihalog*, diammheu y collir ef yn dragywydd.
Credo S. Athanasius.

Cain ydoedd Caersalem a'i Themi odidog,
Tra safai i fyny yn ddinas *ddihalog*.
I. G. Aled: Palestina, 98.

Fy nihalog, my undefiled.—*Can. Sal.* v. 2; vi. 9.

Dihalogedig, *a.* undefiled, unpolluted; pure, clean.—*Heb.* xiii. 4.

Golched un *dihalogedig* ef mewn dwfr.—*Num.* xix. 18.

Crefydd bur a *dihalogedig*.—*Iago* i. 27 (cf. 1 Pedr i. 4).

Dedwydd yw yr ammhlantadwy *ddihalogedig*.
Doeth. iii. 13.

Dihalogi, *v.* to divest of defilement or pollution.

Dihalogiad, *sm.* a making undefiled; purification.

Dihalogrwydd, *sm.* the fact, state, or condition of being undefiled; freedom from stain or pollution.

Digitized by Google

Dihallt, *a.* not salt or saline; not brackish or salty.

Os bydd yr halen yn *ddihallt*, â pha beth yr helltwch ef? *Marc* ix. 50.

Dihalltu, *v.* to divest of saltness; to become saltless.

Dwr a renir yn gyffredin i hallt a chroew; yr hallt yn y môr, yr hwn sydd halltaf o fewn y poeth-gylch, ac yn *dihallta* yn raddol hyd y pegynau.—*Gwyliedydd*, i. 144.

Dihamdden, *a.* without leisure, not having leisure; unrespited.

Mae'r gwasanaeth hwn mor galed (yn enwedig tu â'r diwedd) ag yw wael, gan ei fod yn *ddihamdden*. *Charles Edwards:* Hanes y Ffydd, 272.

Dihamddenol, } *a.* without leisure, not at
Dihamddenus, } leisure; unrespited; hasty.

Gochelwch ar ymadrodd dyngu i ddim ond i'r Creawdr; na thyngu chwaith i gyflawni aniniawndeb; na thyngu yn orchwidr, neu yn *ddihamddenus;* na thyngu i dwyllo nebun. *H. Perri:* Egl. Ffraethineb, xxxii. 7.

Dihamddenu, *v.* to deprive of leisure.

Dihanfod, *a.* 1. without origin; having no origin.

Rhaid yn gyflawn ystyried a deall ei briodolderau; sef ei fodoldeb *dihanfod* er tragwyddoldeb; a hyd yn eithaf tragwyddoldeb.—*Cyfrinach y Beirdd*, 34.

2. void of existence.—*P.*

Dihanfodedd, *sm.* non-existence.—*P.*

Dihanfodi, *v.* to cause not to exist; to annihilate; to reduce to nothingness.

Ni wnaiff eu gwrthodiad hwy *ddihanfodi* 'r prawf. *Sam. Bowen:* Athrawiaeth yr Iawn, 72.

Dihanfodiad, *sm.* annihilation.

Nid *dihanfodiad*, eithr trallod, ing, a gwae, a phob drwg ag yw y troseddwr yn agored iddo. *Sam. Bowen:* Athrawiaeth yr Iawn, 51.

Dihanu, *v.* to trace or separate (a thing) into its original elements; to analyze; to separate.

Yn nosparth y campau urddasolion hyn y cadarnhawyd y gelfyddyd o ddwyn arfau bonedd, gan ei gwelläu o gyfnod i gyfnod, ac o bryd i bryd, mal y caid achos, ac arddangos ar y modd y dylid *dihanu* a threfnu arfau bonedd, herwydd lliw, ac arwydd, ac ansawdd.—*Iolo Mss.* 76.

Dihap, *a.* luckless, unfortunate, unlucky.

Y byd . . . dihawddgar fraint, ni charwn,
A *dihap* fyth ydyw hwn.—*Thomas Prys.*

Dihardd, *pl.* diheirdd, *a.* not handsome or beautiful, unhandsome.

Lle *diheirdd* prifeirdd profedig. *Hywel Ystoryn:* M.A. i. 519.

Dihareb, -ion, *sf.*=*Diareb, Dihaereb.*

Pa beth a ddywed yr hen *ddihareb*? . . . Gobeithio, er hyny, nad gwir mo bob *dihareb;* ac os e, mai nid *dihareb* mo hon.—*Gronwy Owain*, 170 (cf. Wks. (1876), ii. 31).

Diharffu, } *v.* [?] to waste away, languish, or
Diharffo, } pine; to lose strength; to be emaciated; to fail in health; to become weak; to decay; to grow dull or dismayed; to dull or stupefy.

Yma y *dihartfa* ac y syna rheswn dyn, gan ymrcsymu fal hyn.—*Ed. Iames:* Hom. i. 25.

Y maent yn ofni uniawn farn Duw yn cospi pechaduriaid, trwy'r hyn y dlyent *ddiharffu* [*synu] a gwanobeithio yn aml o blegid un gobaith a all bod ynddynt hwy eu hunain. *Ed. Iames:* Hom. i. 113.

Maent yn ymffrostio llawer i dwyllo pob dyn diddrwg; maent yn hurtio [*diharffu] ac yn synu deall yr annysgedig.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 143.

Dihatrad, } **-au,** *sm.* [hatr-u: A.S. *hætera, hæteru;* O.E. *hatyr*] an undressing, a divesting of clothes, a stripping; denudation.
Dihatriad, }

Dihatru, *v.* to undress; to put or take off (one's clothes); to unclothe; to strip, denude, or uncover.

Yn nyfnder y gauaf, pan y byddo anian gwedi ei *dihatru* o'i gogoniant, ac yn gorwedd mewn amdo o eira, rhaid i ni droi am foddhâd at ryw wrthddrychau ereill. *Cylchgrawn*, i. 370.

Ymflinai wrth weled y coedydd a garai wedi eu *dihatru* o'u cangenau; a'r dail gwyrddion yn wasgaredig yma a thraw.—*Y Bryniau Pell*, 45.

Dihawdd, *a.* not easy or facile; difficult.

Ny chollir oe thir nac oe thewdor annhet
Troeduet er dyhet *dihawt* hepcor
Ny lleueis nep treis tros y ysgor
Ny chymhwyll nep twyll tyllu y dor.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 361.

Dihawddammor, *a.* unwelcome; not pleasing.

Tristlam i'r *ddihawddammawr*,
Talcen moel myharen mawr.—*D. ab Gwilym*, clix. 39.

Dihawddgar, *a.* unamiable, unlovely; unattractive; disagreeable, repulsive.

Dihawddgarwch, *sm.* unloveliness, unamiableness; repulsiveness, disagreeableness.

Dihawddgarwch, *a.*=*Dihawddgar.*

A'i guro'n *ddihawddgarwch*.—*Huw Morus:* E.C. i. 186.

Dihawl, *a.* having no claim or right; void of right; claimless; free; blameless.

Teir amryw hawl y sydd: . . . Trydydd hawl rhwng *dihawl* ae gilydd mal hawl etifedd cynwys yn ceissiaw cynydd ar dorr dyledogion or tir; nyt iawn y gwrandaw canyt oes un hawl iddaw eithyr ar hynn y cynwyssswyt ef os cynhwyssswyt felly; onys cynwyssswyt hefyt *dihawl* yw. *Cyfreithiau Cymru*, ii. 630 (cf. i. 754).

Os cyfyd efe a rhodio allan wrth ei ffon, yna y tarawydd a fydd yn *ddihawl*.—*Esg. Morgan:* Ecs. xxi. 19.

A phoed eich cyfan yspryd, a'ch enaid, a'ch corff, a gadwer yn *ddihawl* erbyn dyfodiad ein Arglwydd Iesu Grist.—*W. Salesbury:* 1 Thess. v. 23.

Fe a fyddai'r byd yn rhydd i bawb fel eu gilydd, ac yn *ddihawl*.—*Th. Williams:* Ymadr. Bucheddol, 142.

Dihawnt, } *a.* void of liveliness, alacrity,
Dihawntus, } vigour, briskness, or eagerness; indisposed; listless, lifeless.

Dihawntrwydd, *sm.* listlessness, want of vigour; indisposition.

Dihebgor, *a.* indispensable.

Nid byw llyw beilchryw bylch-ron *dihepcor*
Mal da Hopcyn ddragon.—*Dafydd y Coed:* M.A. i. 493.

Mor anghenrheidiol *ddihebgor* yw i ni eu hymarfer hwynt yn bresennol, i'n gwneuthur yn gymhwys ac yn addas i'w mwynhau hi.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 120 (cf. 66).

Dihedd, *a.* without peace, peaceless.

Tair blynedd *di hêdd*.—*Taliesin:* M.A. i. 49.

Mewn pwll i dodir mewn pridd i cuddir
A byth ni welir dihir *dihedd*.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 536 (cf. 328).

Dihedd, *sm.* absence of peace, discord.

Gwitil a Brithon a Romani
Avvnahont *dyhet* a divyseci.
Myrddin: A.B. ii. 27 (M.A. i. 137).

Nid eiddun dedwydd *dihedd*.—*Diareb.* (M.A. iii. 170.)

Diheddadwy, *a.* implacable, unappeasable.

Diheddog, *a.* unappeased; unpeaceful; tumultuous.

Pan dyffon dros for gwyr eneirchawc . . .
Erddi heb uedi y myd *diheddawc*.
Myrddin: M.A. i. 135 (A.B. ii. 22).

Digitized by Google

Diheddu, *v.* to render untranquil or unpeaceable; to deprive of peace.

Dihefelydd, *a.* [dihafal] incomparable, matchless, unequalled.

Ardderchogrwydd, cynnydd, a llwyddiant ein iaith *ddihefelydd* sydd yn ei flino fwyaf.—*Seren Gomer*, vii. 151.

Diheiliad, *sm.* a ceasing to serve.

Diheilio, *v.* to cease serving or attending.

Diheiliog, *a.* having no attendance.

Diheiniad, *sm.* disinfection.

Diheinio, *v.* to free from infection, to disinfect, to deodorize.

Diheiniol, *a.* disinfecting, deodorizing.

Dihelbul, *a.* free from trouble, anxiety, care, or perplexity; untroubled, unvexed.

O Angeu, mor chwerw yw meddwl am danat ti, i'r dyn a fyddo yn byw mewn heddwch yn yr hyn sy ganddo; i'r gwr a fyddo *dihelbul*, ac yn llwyddiannus ym mhob peth!
Eccl. xli. 1.

Gwell o lawer fyddai gantho fod yn llawen, yn heddychol, ac yn *ddihelbul*.—*Huw Lewys:* Perl, 86.

Dihelp, *a.* helpless, aidless.

'Fe aeth ffordd yma ysgolheigion.' 'Do,' ebr yntau, 'rai unig a *dihelp*, a phell oddi wrth amgeledd a'u carai.'
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 53.

Dihen, *a.* [hen] not old or aged; not antique.

Dihenu, *v.* to prevent becoming old; to divest of age.

Nid hawdd *dihenu* anian.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 65.

Dihenydd, *sm.* [di-+hen] 1. one who does not grow old.

Yr Hen Ddihenydd, the Ancient of Days.

Edrychais hyd oni fwriwyd i lawr y gorseddfëydd, a'r *Hen Ddihenydd* a eisteddodd: ei wisg oedd cyn wyned a'r eira, a gwallt ei ben fel gwlan pur; ei orseddfa yn fflam dân, a'i olwynion yn dân poeth.—*Dan.* vii. 9 (cf. 13, 22).

'The Ancient of Days,' in the English A.V. of these passages, the only ones in which the expression occurs, is a literal rendering of παλαιὸς ἡμερῶν of the Septuagint (עתיק יומין). *Dihenydd* is probably a derivative of *hen*, old, ancient, and denotes one that does not grow old, or become affected by age; one that is 'the same yesterday, and to-day, and for ever.' But it may also be formed from *di-hanu*, signifying one 'that is without origin, or proceedeth not.' *Hen Ddihenydd* would then mean the Ancient and Unoriginated One; but the former is the more probable derivation. The following is the bardic explanation:

Rhai a alwant Dduw Dad yn *Hen Ddihenydd*, sef am mai o'i ansawdd ef y mae pob peth, ac o hanaw y dechre ar bob peth, ac ynddo yr annechre, gan nas gellir amgen na'i fod, ac nis gellir dechre ar ddim heb ddechreuawr.
Barddas, i. 218.

¶ The use of *Hen Ddihenydd* by later writers is an adoption of the Scripture expression.

Awn i wel'd yr *Hen Ddihenydd*,
A wnaeth y nef, a'r môr, a'r mynydd,
Alpha oediog, Tad goleuni,
Yn ddyn bychan, newydd eni!
Rhys Prichard: C. y C. vi. 13.

Yno y mae'r *Hen Ddihenydd;* Duw eich Tad, y daioni penaf, a'r dedwyddwch mwyaf.
Sam. Williams: Amser (1784), 109.

Yr *Hen Ddihenydd* yn ddyn gwan,
Mewn preseb dan ei rwymau.
W. Williams: Gweithiau (1891), ii. 101.

Y mae yn sicr genyf nad yw y Tad hwn ddarostyngedig i wendidau henaint, ac nad oes na dinerthwch na lleegedd yn cyfhwrdd â'r *Hen Ddihenydd*.—*Gwyliedydd*, vii. 106.

2. one that is old, one 'that is now in the last age,' or in the last stage of life, a decrepit old man. In this sense *dihenydd* would seem to be=*dy-*+*henydd* (hen).

O Angeu, mor dda yw dy farn di i'r anghenus, ac i'r gwan; i'r *hen ddihenydd*, ac i'r hwn sydd yn flin arno am bob peth!—*Eccl.* xli. 2.

The same word (ἐσχατόγηρος), which in the preceding passage is rendered *hen ddihenydd*, is in chap. xlii. 8 translated *cleiriach*, and which, according to Schleusner, who refers to these texts, signifies 'extremam senectutem agens, decrepitus.'

Cân hen ddihenydd, a very old song; a song the origin or source of which is unknown on account of its antiquity.

Lle na bytho un bardd gorseddog neu bencerdd, ac o hyn coll ar farddoniaeth mewn golwg, y rhai a wypont ddefodau a breiniau beirdd Ynys Prydain o ben a llafar gwlad, neu o lyfr a choelbren, neu o *gân hen ddihenydd*, rhoddant rybudd undydd a blwyddyn, ar goedd gwlad yn enw beirdd Ynys Prydain.—*Barddas*, ii. 22.

Seremoniau hen ddihenydd, very ancient ceremonies.

Yn yr hon ystyriaeth, ym mhlith rhai *seremoniau* ereill *hen ddihenydd*, Arwydd y Groes yn y Bedydd a gadwyd yn yr Eglwys yma, wrth farn ac arfer y Tadau parchedig a'r Difinyddion enwog hyny yn nyddiau y Brenin Edward y Chweched.—*Canonau Eglwysig*, 30.

¶ Some of the meanings given under *Dienydd* (2) may possibly belong more appropriately to this form.

Diheurad, -au, *sm.* [di-+haer] an apology; an excuse or explanation.

Fy aur! cymmer *ddiheurad*,
Ac iawn, lle ni ellir gwad.—*Dafydd ab Gwilym*, lxi. 61.

Diheuradwy, *a.* excusable; that may be apologized for.

Diheurawd, odau, *sm.* an apology.

Diheureb, -ion, *sf.* [dihaer: cf. *diareb, dihaereb*, other forms of the same word] a proverb, an adage; that which is incontrovertible.

Am *Ddiheureb*. Y drydydd ddull y sydd, a elwir *Diheureb* (o achos nas geill neb ymddiheuro oddi wrth wiredd y cyfryw synwyr), arferedig yw; ac er hyny yn odidawg o ran cyffelybrwydd, ac arwyddocâd. Y mae dau beth yn anghenrheidiawl i *ddiheureb*.
H. Perri: Egl. Ffraethineb, xv. 3 (cf. 1).

Diheureg, -ion, *sf.* an apologetic.

Diheuregion, apologetics.—*Dicts.*

Diheuoedd, *s.pl.* [=dieuoedd] days. See *Diau, Dief.*

A gwedy mynet ychydic o *diheuoed* heibaw kychwyn a wnaethant odyno parth a Chaer Lwytgoet.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 303.

Diheuro, } *v.* [di-+haer] to clear (from a
Diheuru, } charge), to exonerate, to exculpate; to clear one's self; to apologize.

Tri gwahan y sydd rhwng ceitweit a rheith: rheith a gwbyl *ddiheura* dyn o hawl.
Cyfreithiau Cymru, ii. 636 (cf. 412, 684; i. 86).

O afeith goleith galanas
Da haearn *diheura* pan llas
Lleith Madawc nad om llaw y cafas.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 289.

Os vyn *diheuraw* i a wney di val y gelly ar vym perigyl i yn hawd or kelwyd a dywedy di. mi a vydaf gywir gedymdeith yti tra vwyf vyw.—*Amlyn ac Amig*, col. 1100.

Ar aur gwn dy *ddiheuraw*
I'th lys a roddais i'th law.
Dafydd ab Gwilym: cv. 3 (cf. cxxxi. 49; cxxxiv. 49).

Ni chaniatëir i'r Cristionogion lefaru dim i *ddiheuro* eu hachos.—*Charles Edwards:* Hanes y Ffydd, 78.

Digitized by Google

Dywedyd yr ydys am Sophocles . . . darfod i'w feibion ef ei gyhuddo . . . megys dyn nid oedd waeth ganddo beth a ofer-dreuliai . . . a bod yn rhaid iddo wrth un i ofalu am dano, ac i'w amgeleddu; ddyfod o hono yntau i'w *ddiheuru* ei hun o'r peth a heurid arno, ger bron y barnwyr.
Morus Cyffin: Diff. i. 16.

Ar yr un pryd y mae'n llwyr *ddiheuro* doethineb a daioni'r Goruchaf yn erbyn y gwrthddadleuon a heurai neb o achos ammherffeithrwydd cyfraith Moses.
Gwallter Mechain: Eglur Olygiad, 154.

Daw Horas i'm *diheuraw*
Yn gryf flin, ag arf i'w law.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 64.

Diheurol, *a.* apologetic; exonerating, clearing, or excusing (one's self).

Y ddihareb *ddiheurawl*
Sydd wir i'm oes, eiriau mawl:
Dig am y gwir.—*Thomas Prys.*

Diheurwr, wyr, } *sm.* one who exonerates or
Diheurydd, -ion, } excuses; an apologizer; an apologist.

Diheurwydd, *sm.* [diau+-rwydd]=*Dieurwydd.*

Dihewyd, *sm.*=*Dyhewyd.*

Dihil, *a.* [hil] having no progeny or offspring.

Dihiliog, *a.* ungenerated, unbegotten; unproduced; without progeny.

Dihinedd, *sm.* See *Dyhinedd,* &c.

Dihir, *a.* See *Dyhir,* &c.

Dihiraeth, *a.* without longing or regret.

Pa ham yr erys ynot ti, O ddyn, galon fras ddideimlad, ddwl, ddiddeall, ddiofn, ddiofid, *ddihiraeth,* ddibwyll?
Morgan Llwyd: Gair o'r Gair, iv. 7.

Dihoced, *a.* [hoced] without fraud or deceit, fraudless; honest, sincere, fair, open, downright, genuine, upright, unfeigned.

Tir prynodd, llwyddodd ar lled;
Tycia pryniad *dihoced.*—*Watcin Clywedog.*

Yr oeddynt yn gyflymach i dalu eu degymau o bethau bychain, nag i wneuthur pethau mwy a orchymmynasai Duw, megys gweithredoedd y drugaredd, gwneuthur cyfiawnder, gwneuthur yn *ddihoced,* yn uniawn, ac yn ffyddlon â Duw a dyn.—*Ed. James:* Hom. i. 70 (cf. 100).

Coeliaf er hyn o'm calon,
A chred *ddihoced* yw hon,
Fod gwiddon annhirionach
Ei phenpryd yn y byd bach.—*Gronwy Owain,* 109.

Y mae'r dystiolaeth awdurdodol hon yn ddigon o foddlonrwydd i bob Cristion yng nghylch gwirionedd *dihoced* yr hanes.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 10 (cf. 106, 182, 183, 229).

Dihocedion, those who are not deceitful; the fraudless or guileless.

Duw, Dduw, fawredd drugareddion;
Duw, wyt y Ceidwad, *dihocedion.*
W. Midleton: Salm. ix. 9.

Dihocedol, } *a.* not disposed to defraud, deceive,
Dihocedus, } or cheat; fraudless, honest.

Tydi a'u cedwi rhag hawl;
Cedwi bawb *dihocedawl.*—*W. Midleton:* Salm. xii. 7.

Nid oeddynt yn unig yn delio yn onest a *dihocedus* yn eu masnach, eithr hwy a ymgadwent hefyd oddi wrth 'bob rhith drygioni.'—*Theo. Evans:* D.P.O. 347.

Dihocedrwydd, *sm.* freedom from deceit; fraudlessness; honesty; openness of dealing.

Y mae y cyd-darawiad hwn rhwng dullwedd ei iaith brophwydol a'i alwediqaeth fel bugail ac amaethydd, yn brawf cryf o *ddihocedrwydd* ei ysgrifeniadau.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 218.

Dihoen, *a.* [hoen] void of vivacity; dispirited, dejected, cheerless; indisposed; drooping, languid.

Lle ddiawl a llu o'i ddefliaid,
Lle *dihoen,* a phoen na phaid.—*Gro. Owain,* 96 (cf. 107).

Yr anifeiliaid, yn drymllyd a *dihoen,* a gnoant y cil dan eu pentai.—*D. Williams:* Myfyrdodau Hervey, 420.

Dihoenawl, *a.* tending to deject or dispirit; pining, languishing.

Dihoendod, } *sm.* want of liveliness or vigour;
Dihoenedd, } dispiritedness; feebleness; languor; decay.

Rhwystrodd *dihoendod* y ddwy chwaer iddynt ddefnyddio eu chwibanoglau.—*Y Bryniau Pell,* 20 (cf. 100).

Ym mhen ychydig aeth Independia i *ddihoendod.*
Brutus: Drych y Frad, 6.

Dihoeni, *vn.* 1. to become languid, feeble, or faint; to pine, pine away, wither, languish, or decay; to die away.—*Marc* ix. 18.

Dihoenodd pobl feilchion y ddaiar.
Esa. xxiv. 4 (cf. Esec. xxiv. 23; xxxiii. 10).

Os gollwng dyn y gair yma allan o'i olwg, ac allan o'i glywed, ni all ef ond *dihoeni* a marw.
Morgan Llwyd: Gair o'r Gair (1829), iv. 19.

Beth a wnewch chwi yn *dihoeni* ar dusw o wellt mor arw ag y sydd yna rhwng y creigydd?—*Theo. Evans:* D.P.O. 54.

Gnawd i ardd, ped fai'r harddaf,
Edwi'n ol *dihoeni* haf.—*Gronwy Owain,* 61.

A'i henaid yn *dihoeni,* ni welaf mo'ni mwy.
Cawrdaf: Meudwy (1830), 76.

Os gosodid amben ddu ar ei ffordd, fe a *ddihoenai* yn ysgerbwd.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 397.

O'r dydd hwnw allan, *dihoenodd* yntau beunydd a pheunos o alar am ei hen gyfeilles.—*Ystên Sioned,* 92.

2. *v.a.* to cause to languish, pine, waste, or decay.

Rhoed Duw im' adwedd iawnwedd yno,
A dihaint henaint na'm *dihoeno.*—*Gro. Owain,* 11.

Y mae dolur anfad yn fy mhen yn fy llwyr *ddihoeni.*
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 168 (cf. 60).

Pan fyddys yn gadael y defaid yn hir heb eu cneifio, y mae gwres eu gwlan yn magu chwys-lau; ïe, a chynron yn eu cnuflau, y rhai a sugnant eu gwaed, ac a *ddihoenant* eu cyrff.—*Gwyliedydd,* vi. 184.

Dihoeniad, *sm.* a languishing, a pining; languishment; enfeeblement.

Dychymmygaf ei graddol *ddihoeniad*—tawel ydoedd fel ymadawiad haf.—*Gwyliedydd,* iv. 172.

Dihoenllyd, *a.* somewhat dejected or dispirited; languid, pining, feeble; dispiriting, enfeebling, depressing.

Pa beth a all fod yn fwy diflas a *dihoenllyd* i ddyn sydd yn myfyrio, na gwastadol gwrnad a rhincyn cywion Saeson!
Gronwy Owain, 177.

Dihoenus, *a.* dispirited; languid, pining, decaying, drooping; indisposed.

Y mae'r corff yn cael eagus i achwyn fod yr yspryd yn llwfr ac yn *ddihoenus.*—*Huw Owen:* Dilyniad, i. xxi. 6.

Pan yw *dihoenus* calon y weddw . . . O tosturia wrth ei gofid.—*W. O. Pughe:* E.D. ii. 4.

Dihoew, *a.* not gay, sprightly, or elegant.

Dihoew fro beirdd, dihyfryd,
Digywydd y bydd y byd!—*D. ab Gwilym,* ccxxxv. 35.

Dihoff, *a.* unamiable, not agreeable.

Dihoffedd, } *sm.* want of affection or attach-
Dihoffiant, } ment; unamiableness; repulsiveness.—*M.A.* i. 507.

Dihoffedd bryd a gwedd gwŷr,
Dihustyng, da eu hystyr.—*D. ab Gwilym,* ccxxi. 31.

Dihoffi, *v.* to cease loving or liking.

Dihol, *a.* [=deol?] retiring or retired? Cf. *M.A.* ii. 157.

Lletyf *dihol* dethol doethaf or gwraged.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 295.

Diholedig, *a.* [dihawl] 1. unclaimed, undemanded.

Oed diheid ac oed
Oed *diholedic* tref tat
A geissywys Caranmael yn ynat.
Llywarch Hen: A.B. ii. 290 (M.A. i. 113).

Digitized by Google

2.=*Deoledig.* It may have this meaning in the preceding quotation: cf. *M.A.* i. 106, 135.

Diholedig, *a.* [hawl, holi]. unexamined, not interrogated.

Dihonni, *v.* to cease asserting.

Dihort, *a.* without rebuke or reprehension; irreproachable; free from disgrace; blotless.

Dihudd, *a.* without a covering; unobscured, not darkened or clouded.

Dihuddiad, } **Dihuddiant,** } *sm.* an uncovering; denudation.

Dihuddiad, *a.* without a covering; unconcealed, open.

Tegwch a harddwch *dihuddiad* gaffo,
I'w goffa drwy gariad.—*Gwaith G. Mechain,* i. 233.

Dihuddigl, *a.* free from soot, without soot.

Dyhuddiant fydd y gwŷdd gwiw,
Dihuddigl o dŷ heddiw!—*D. ab Gwilym,* lxxviii. 27.

Dihuddo, *v.* to uncover, to lay open or bare.

Oet eityaw eu kert oet eitut eu kadw
Or kadyrwalch nwy *dihut.*—*Cynddelw:* M.A. i. 233.

Dihuddol, *a.* not obscuring or covering; uncovered, unobscured.

Dihufen, *a.* having no cream, without cream, skimmed.

Llaeth dihufen, skim-milk.

Dihufeniad, *sm.* a taking off cream, a skimming (of milk).

Dihufenu (ė), *v.* to skim milk; to skim the cream (from the surface of milk); to skim.

Dihul, *a.* without a covering or facing; without a cover or lid.

Dihuliad, *sm.* a divesting of covering.

Dihulio, *v.* to uncover; to bare; to denude.

Dihulio bwrdd, to clear a table.

Dihun, *a.* [hun] sleepless, awake.

Affleu dihedd *dihun* grynu.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 328 (cf. 538).

Digwsg fûm am ail Degau,
Dihun, hael fun, yw'r hwyl fau!
D. ab Gwilym, ccxi. 1 (cf. cxi. 53; cxxxi. 2; clxi. 51).

Dihun, *sm.* the state or condition of being awake.

Ar ddihun, awake, not asleep, not sleeping.

Ar ganol nos os *ar ddihûn,*
Na ad fi anghof; 'n wir mae un
Yn debyg iawn, dan oraidd gri,
Yr amser hwn o'th goflo di.—*Daniel Ddu,* 222.

Cadw un ar ddihun, to keep one awake.

Dihunad, } **Dihuniad,** } -au, *sm.* a waking, awaking, awakening, awakenment, or arousing; expergefaction.

Dihuniad a brydero.—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Dihunan, *a.* [hunan] void of self, unselfish; disinterested.

Dihunanedd, *sm.* unselfishness; disinterestedness.

Dihunedd, *sm.* the state of being awake; wakefulness, sleeplessness.

Dihunanu, *v.* to divest of self; to divest of selfishness.

Gwyn eu byd y rhai a ddihunwyd ac a *ddihunanwyd:*
byw a wnânt yn Nuw ei hunan.
Morgan Llwyd: Tri Aderyn, 74.

Dihuno, *v.* to wake, awake, or awaken; to rouse or become roused from sleep.

O sein eu kyrn y *dihunassant* eu kedymdeithon kysgadur.
Ac wrth hynny yn gynherfedic *dihunaw* a wnaethant.
Yst. Bren. Bryt.: LL.C.H. ii. 175.

Arglwyd heb hi mi a uynnaswn dy *dihunaw* yr meitin.
Mabinogion, 275 (cf. 6).

A phan *dihunwys* amysgawnach yd ymglywei a iachach nor aual iachaf ar y berllan.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 436.

A gwedy *dihunaw* or iarll. dyvynnv a oruc attaw doethyon y gyvoeth.—*Amlyn ac Amig,* col. 1085.

Y mae ein cyfaill Lazarus yn huno; ond yr wyf fi yn myned i'w *ddihuno ef.*—*Ioan* xi. 11 (cf. Luc ix. 32).

Nid hawdd y *dihunawdd* hi.—*Gronwy Owain,* 35.

Rhyfedd fel y mae natur yn cysgu ac yn *dihuno!*
Brutus: Brutusiana, 190.

Dihunog, *a.* having no sleep, sleepless, wakeful.

Hawdd y medrwn, gwn gan-clwyf,
Henwi gwen, *dihunawg* wyf!—*D. ab Gwilym,* ccx. 17.

Dihunol, *a.* not sleepy; unsleeping; awake, wakeful; not soporific; expergefacient.

Oni byddi yn *ddihunol* [*gwylied], mi ddof atad mal lleidr.—*Th. Huet:* Dad. iii. 8.

Dihunwr, wyr, *sm.* an awaker, an expergefactor.

Dihusting, } **Dihustyng,** } *a.* not whispering; free from tattling or gossiping. See s.v. *Dihoffedd.*

Dihwstr, *a.* [hwstr] not froward, perverse, refractory, morose, or ill-natured; well-disposed.

Ni allaf finnau mo'r gwad, nad yw'r ddihareb yn wir,
Dechreu'r gorchwyl yw hanner y gwaith; a phan weler cychwyn peth moliannus rhagddo, pob dyn *dihwstr* a fydd parod i gymhorth.—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 12.

Dihwyl, *a.* out of trim or order; disarrayed; disarranged; not in humour.

Dihwyliad, *sm.* a disarraying, a disarranging; a stripping or undressing.

Dihwylo, *v.* to disarray, to disarrange; to strip, to undress; to divest.

Dihwylus, *a.* not in trim or order; disarrayed; unprosperous.

Dihyball, *a.* infallible; indefectible.

Dihyball myn Duw hoywborth
A da hebawg Deheubarth.—*Dafydd y Coed:* M.A. i. 495.

Dihyder, *a.* without confidence, reliance, or trust; wanting confidence; diffident.

Yn y man hwy a'i dannodant iddynt â geiriau ymrysongar, ac a'u galwant hwy yn ffyliaid, yn llyfron, ac yn *ddihyder,* am wneuthur felly.—*Ed. James:* Hom. iii. 176.

Fel pe gosodid ni yng nghanol y nefoedd, a chenym feddwl drwgdybus, *dihyder* ar Dduw, fe chwerwai hyny ei holl lawenydd hi.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 117 (cf. 180).

Dihyderol, } **Dihyderus,** } *a.* not trusting, confiding, or relying; diffident.

Dihyderu, *v.* to cease to confide or rely; to become trustless; to distrust; to mistrust.

Dihydr, *a.* not bold or confident; lifeless, spiritless, dull.

Ni bu cerdd fydr, *dihydr* hoed,
Heb loew degan blodeu-goed.
Dafydd ab Gwilym, ccxxxvi. 15.

Hwdwch dihydr, a slovenly person.—*S.E.W.*

Dihyfryd, *a.* unpleasant, disagreeable; dismal.

Dihoew fro beirdd, *dihyfryd.*—*D. ab Gwilym,* ccxxxv. 35.

Am Ddauyt dyt *dihyfryd*
Ap Gruffut grym gythrut gryd.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 364.

Digitized by Google

Dihyfrydwch, *sm.* unpleasantness; disagreeableness; unhappiness.

Nid *dihyfrydwch* [*al.* dyfrydwch] ond uffern.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 20.

Dihyll, *a.* not ugly or unsightly; fair.

Nid ym hyn *dihyll* nam hen deheu.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 266.

Dihyn, -ion, *sm.* See *Difyn.*—*C.C.* ii. 606.

Dihynwyf, *a.* [di- + hynwyf] not lively, sprightly, cheerful, or spirited; dejected, spiritless.

Neud wyf *ddihynwyf* hoen Creirwy hoywdeg
A'm hudodd fal Garwy.
Hywel ab Einion Lygliw: M.A. i. 512.

Dihyspydd, *a.* [di- + hyspydd] exhaustless, inexhaustible. Sometimes improperly written for *dyhyspydd.* See *Iob* xiv. 11; and cf. *L. G. Cothi,* iv. xiv. 50.

Dihyspyddrwydd, *sm.* exhaustlessness, inexhaustibleness.

Dil, -iau, *sm.* [perhaps allied to *dul, dulio:* cf. Ir. *dil*] structure, texture, work; that which is made or done; a comb (as in honeycomb).

Dilau yw ei haeliau hi,
Dail sabl fal dwy-ael Sibli . . .
Dilau rhos, dail o aur rhudd,
A dorwyd ar ei deurudd.—*Dafydd ab Gwilym,* viii. 21, 35.

Bwyteais fy *nil* gyd â'm mêl.—*Can. Sal.* v. 1 (cf. iv. 11).

Mae cynnull y wenynen drysor *dil,*
Ef ar ei ddidrain hwyl a gasglai ddysg,
Gan ias awenawl, odd y blodau tedd.
Th. Lloyd Jones: Md. Ifor Ceri.

Pe cynnygid eu gorthrechu gan ryw ormes, pellenig neu gartrefol, ni bu wenyn llidiawg-chwyrn erioed fileiniach yn amddiffyn eu trysor o ddrud felus *ddiliau,* nag y byddai y Prydeiniaid.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 6.

Dil mêl (*pl.* diliau mêl), a honeycomb.

Geiriau teg ydynt megys *dil mel,* yn felus i'r enaid.
Diar. xvi. 24 (cf. xxiv. 13; xxvii. 7).

Melusach hefyd na'r mêl, ac na dyferiad *diliau mêl.*
Salm. xix. 10 (cf. Luc xxiv. 42).

Melusach nag yw'r *diliau mêl*
Yw mynyd o'th fwynhau.
W. Williams: Hymnau (1811), dccxx. 5.

Diliau Mair, honeysuckles (*Lonicera*).—*Llanover Ms.*

Diliau'r waun, cowslips (*Primula veris*).—*Llanover Ms.*

Dilachar, *a.* [dy- + llachar] ardent, gleaming, brilliant; splendid; undaunted, intrepid, bold, fearless, brave.

O'm rhan fy hun yr wyf o'r meddwl yma, sef na ddirmygwyd yr Efengyl erioed gan bobl yn byw tan grefydd Gristianogol, a phroffes yr Efengyl, a than frenin duwiol, mor oleu ac mor *ddilachr* ag yr ydys yn yr oes hon.
R. Llwyd: Llwybr Hyfforddi, 138 (cf. 143, 159, 488).

Doed hoenwych awr dihuniad, *dilachar*
I'w lwch adgyfodiad,
O dŷ'r bedd i wledd nef wlad,
A geneu o newydd ganiad.—*Seren Gomer,* iii. 312.

Gwnai y brenin dirinwedd
Belsassar *ddilachar* wledd.—*Ieuan Lleyn:* Caniadau, 18.

Dilad, *a.* [llad] without grace or blessing; unblest; unhappy.

Tra y taena haul *di lad*
Ei ddig erwynder, ac y crwydriaid blin
Eu taith a geisiant fias y ffynnon brin.
W. O. Pughe: Pal. 3.

Diladrad, **Diledrad,** *a.* void of theft; free from stealing; honest.

Dilaes, *a.* not hanging low, trailing, or drooping; not slack or loose; firm; unflinching.

A lluoet ygnif a lluoetawc uaes
A lliaws *dilaes* aes asgethrawc.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 305 (cf. 493, 497).

Byw dlws fab â *dilaes* fin;
Tlysach na'i frawd Taliesin.—*Edm. Prys.*

Dilaesiad, *a.* unrelaxing, unyielding, unremitting, unrelenting.

Gan mai gelynion *dilaesiad* i freintiau y Cymry oedd y breninoedd Seisonaeg.—*Carnhuanawc:* H.C. 616.

Dilaesu, *v.* to tuck, to curtail.

Dilaeth, *a.* without milk, milkless; dry; weaned.

Dywed . . . nad yw ei meusydd ond Gilboa, ei dyffrynoedd yn laswellt gwywedig, ei ffynnonau yn hespion, a'i bronau yn *ddilaeth!*—*Seren Gomer,* vii. 151.

Dilaethu, *v.* to divest of milk; to dry (a cow, &c.).

Dilafar, *a.* having no language or utterance; mute; silent; not loquacious or talkative.

Yny may mawrway marwar kyllestric
Yny may godric dic *dilauar.*
Bleddyn Fardd: M.A. i. 365 (cf. 298).

Gwedi son ac un ac arall, a gweled Morgan yn *ddilafar,* gofyn iddaw a wnaeth Anarawd Gwynedd, Pa beth a wedi di Morganwg?—*Iolo Mss.* 197.

Enhuddwyd ei hyawdledd yn y gro,
Ffraethineb sy *ddilafar* yn y llwch.
Th. Lloyd Jones: Md. Ifor Ceri.

Dilafaredd, *sm.* forbearance of speaking; taciturnity; silence, muteness.

Dilafaru, **Dilefaru,** *v.* to cease to speak; to be taciturn or silent.

Dilafur, *a.* without labour or toil, labourless; unelaborate.

Wel dy yma ynni dyuot da yn rat. ac yn *dilaunr* heb wynt.—*Mabinogion,* 273.

A wneit ti ei orchymmyn, os hawdd a *dilafur* y byddai?
Iolo Mss. 160.

Dilai, *a.* [llai] without (anything) less; without any qualification, abatement, or modification; without exception; certain.

Y myfyrdodau rhagflaenorol . . . a fwytânt yn *ddilai* lawer iawn o amser.—*Jeremi Owen,* 134.

Ei athro barddol yn *ddi lai*
A feiai gân Afaon.—*Eben Fardd:* Gweith. 338.

Y gwynt a ostegodd, a thawel
Yw anian mewn tegwch *dilai.*—*Gwyliedydd,* vi. 92.

Dilain, *s.* [allied to *dilĕu?* cf. O.Ir. *dilgend*] an obscure word. Dr. Davies thinks that it is synonymous with *dilaith* (=*dylaith*), death, extinction, slaughter, destruction.

Dilain, & *Dilen,* idem, ni fallor, quod *Dilaith,* & *Llaith.*
Davies, s.v.

Dr. O. Pughe (deriving it from *dil*) takes it to be an adj., and thus explains it: 'Abounding with effect; being acted, or worked upon; agitated; consumed;' but in some of the quotations he translates it very differently. Others, apparently connecting it with *llain,* a blade, write the word *dylain.* The meaning given by Davies seems the most probable. The following are instances of its occurrence:

Dilein (*gl.* abolitione).—*Capella Glosses,* 82.

Dilud *dyleyn* cathleu dilen.—*Aneurin:* God. 683.

Ail diliw *dilain* draig erhy.—*Gwalchmai:* M.A. i. 202.

Y dragon coeling nid coelfain, ei dwyn
Ys coel brwyn braw *dilain.*—*Cynddelw:* M.A. i. 207.

Digitized by Google

Gwelais ei hesgor ysgar *dilain.*—*Cynddelw:* M.A. i. 204.

Ywein aer *dilein* a dylif yg gawr
A llafnawr llat heb rif.—*Cynddelw:* M.A. i. 214.

Ry dyly *dilein* gwleidyadon
Ry dylif kynnyf cadnaon.—*Cynddelw:* M.A. i. 261.

Llary Ywein Lloegyr *dilein* dileith
Llid ysgwn ysgwyd pedeiryeith.—*Cynddelw:* M.A. i. 215.

Llaw-wag cyrdd gwedi car *dilain.*
Seisyll Bryffworch: M.A. i. 338.

Dilein Lloegr a llwgr oi gwerin.—*Elidir Sais:* M.A. i. 346.

Bleiddau y gogeu ain ei gigwain
Ef Nudd ced ddiludd cedyrn *ddilain.*
Llywelyn Fardd: M.A. i. 356.

Pryduawr Lywelyn pryd dyn dadyein
Prydus diesgus esgar *dilein.*
Einion ab Gwgon: M.A. i. 321.

Dialedd a *dylain,* ing, her, i anghywrain.
Gwyliedydd, vi. 157.

Dilain, *v.* to destroy, to kill; to abolish.

Gwedy rin *dilein* keith ym ynuer . . .
Pan uyd Kechmyn Danet an teyrned
Gwrthottit Trindawt dyrnawt a bwyller
Y *dilein* gwlat Vrython a Saesson yn anhed.
Golyddan: A.B. ii. 124, 125 (M.A. i. 156).

Kei a gwant nav Gniton Kei win aeth Fon
Y *dilein* Llevon.—*Ymdd. Arthur a Chai:* M.A. i. 167.

Dilan, *a.* [glân] not clean or pure; impure; unpleasant, dismal.

Dihaedd-wlan *dilan* delw chwydfryd letpai
Disdai gwaddottai gwe a ddettyd.
Madog Dwygraig: M.A. i 490.

Dilan ddolef, a dismal cry.

Aeth Ieuan *ddilan ddolef*
A'i dobren o'r nen i'r nef.—*Ieuan Gethin:* G.B.C. 126.

Dilan, *a.* [glan] shoreless, bankless.

Dilathr, *a.* [llathr] not polished, glossy, or glittering; rough, rugged; dismal, sad, gloomy.

Nid mwy *dilathr* ac athrist
Y poen-loes cryf pan las Crist.—*Gronwy Owain,* 91.

Dilaw, *a.* [llaw] handless.

Rybu gamuedauc Madauc modur ffau
Rybud vu idau *dilau* dolur.
Cynddelw: M.A. i. 248 (cf. 58).

Dilawch, *a.* [llawch] without protection, unprotected.

Lle dile *dilawch* adfydig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 519 (cf. 292).

Dilawch, *sm.* want of protection, absence of support.

Megys ag na ddichon dyn bychan gerdded o honaw ei hun, gan wir fethiantrwydd a *dilawch,* oddi eithr ei gynnal a'i ddala i fyny.—*Huw Lewys:* Perl, 158.

Dilawen, *a.* not merry or joyous; sad.

O dwyn Gwen *dilawen* deigyr.
Prydydd Bychan: M.A. i. 389.

Dilawenydd, *a.* without joy or mirth, joyless, mirthless.

Yr amgylchiad chwerw hyn . . . a'u gwnai yn gaffaeliad *dilawenydd.*
D. Williams: Myfyrdodau Hervey, 228 (cf. 348).

Dilawn, *a.* [llawn] not full or filled; empty.

Gweddaidd yw ei ddawn *dilawn* deulu.
Iustus Llwyd: M.A. i. 557.

Dile, *a.* [lle] without place; extinct; void.

Lloegyr dystryw distrawch dilawch *dile.*
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 292 (cf. 519).

Dilead, -au, *sm.* [dilëu] 1. abolition, abrogation, deletion, elision; repeal.

Oddi wrth y sylwadau uchod, mae yn amlwg, nad ydyw bywyd neu angeu barddoniaeth Gymraeg yn ymddibynu ar barhâd neu *ddilead* y gynghanedd gaeth.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 359.

2. the figure Deletio or Synaloephe, in grammar; the contraction of two syllables into one.

Synaloephe, Deletio, *Dilead,* sydd pan ddilëer, neu pan doddo ymddaith, y fogal gyntaf o ddwy yn dyfod yng nghyd mewn dau air; fal y mae, F'oes, tros Fy oes; N'ad, tros Na ad.—*Pum Llyfr Cerdd.* 114 (cf. 113).

Dileadwy, *a.* that may be abolished, deleted, abrogated, repealed, or annulled; abolishable, abrogable.

Dileawd, *sm.* a cancelling or effacing; deletion, abolition.

Dilech, *a.* [llech, llechu] not skulking or hiding; unconcealed.

Ynwst dail ynys *dilech*
Yng nghanol croes heol sech.—*D. ab Gwilym,* clx. 12.

Dilechdid, *sm.* [L. *dialectica*] dialectics, logic.

Dilechdid a ysgrythrwyt yn meuad y brenhin. a honno a dysc y dyn dywedyt yr ymadrawd a dosparth gwir a geu. ac a dysc amryssom or ymadrawd ae dyall or byd yndaw dywyllwch.—*Ystoria de Carolo Magno,* col. 494.

Y gyghorwyr a erchis idaw anuon yn diannot yn ol yr athrawon goreu o'e wlat, o *dilechtit* . . . megys y goruot ar y vorwyn.—*Buchedd Catrin Santes:* C.B.SS. 212.

Bai o herwydd *dilechdid.*—*Pum Llyfr Cerdd.* 96.

Dilechiad, *sm.* a being unhidden; a ceasing to lurk or skulk.

Dilechiad, *a.* unconcealed; conspicuous.

Torretwynt luchynt twrf *dilechyat* ffrawd
Trostan yg hyrch blawd Trystan anghat.
Rhiserdyn: M.A. i. 434.

Diled, *a.* without breadth, width, or extent; narrow.

Diledach, *a.* [lledach, ach] of no base extraction; of no low descent; of no ignoble origin or pedigree; of noble lineage; genuine, unmixed.

Gwr bonheddig ryddig rwyf,
Diledach, duwiol ydwyf.—*D. ab Gwilym,* ccxi. 29.

Ond Sioned sy *ddiledach,*
Ni bwyf rydd; ni bwyf wr iach.—*L. G. Cothi,* iv. v. 15.

Yn yr un amser y breiniwyd ar Bywys pedair gwelygordd ar hugain o brif welygorddau *diledach,* a braint lle a llafar iddynt ym mhob llys gwlad ac arglwydd.
Iolo Mss. 87.

Diledbai, *a.* not oblique, leaning, slanting, or inclining; direct; straight.

Cyflawn cathl fawrddawn farddawd *diletpai.*
Sefnyn: M.A. i. 504.

Yr wyf fi yn eich drwgdybio, am nad ydych yn un o'r rhai hyny a'r sydd ganddynt hawl *ddiledbai* a didwyll ynddo ef.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 285.

Diledfryd, } *a.* void of listlessness or heed-
Diledfrydedd, } lessness; attentive, mindful, heedful; engaging the whole mind or attention.

Mawl *dileturyt* yr Tat mawrvryt
Ar Glan Yspryt cywyt cyweir.—*Ymborth yr Enaid,* 125.

Dewrddreic Edeirnyawn gadernyt frwythlawn
Doethwalch o Leissyawn dawn *dileturyt.*
Bleddyn Fardd: M.A. i. 369 (cf. 398).

Dar eneidiau dilyd frodiau *diledfrydedd.*
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 460.

Diledfrydus, *a.* of unwavering mind.

Diledgawdd, *a.* without indignity; noble.

Nyd wyf diletkynt am *diletcawt* hael
O hil Yoruerth Hirulawt.—*Cynddelw:* M.A. i. 216.

Diledgrefydd, *a.* not half-religious; not half-believing; not wavering or lukewarm in faith.

Ny deffryd y uot a dan glodryt
Dyffrynt diledkynt *di ledkreuyt.*
Llywelyn Fardd: M.A. i. 361.

Digitized by Google

Diledgynt, *a.* void of or free from attack or onset.—*M.A.* i. 216, 361.

Dilediad, *sm.* [diled] non-expansion.

Dilediaith, *a.* [llediaith] 1. free from corrupt, provincial, or foreign accent or idiom; free from provincialism, barbarism, or brogue; pure (as to language); articulate, clear.

Oed beirdgar bardglwm *dilediaith.*—*Cynddelw:* M.A. i. 213.

Dewis bethau yr Hen Gap Du. . . Ymadrawdd gall, parabl *ddilediaith.*—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 129.

Y ceiliog, serchog ei son,
Bronfraith *dilediaith* loew-don.—*D. ab Gwilym,* ccxix. 9.

Rhaid eu bod yn gwreiddo yn *ddilediaith* yn y Gymraeg, herwydd eu treiglad a'u tadogaeth.
Cyfrinach y Beirdd, 12.

Nid oes ini o barth cenedl onid enw a'n hiaith, yr hon a ddylyon ni ei chadw a'i harfer yn *ddilediaith.*—*Iolo Mss.* 29.

Ei wraig a elwid Rhea, ac yn Gymraeg *dilediaith* Rhiain.
Theo. Evans: D.P.O. 148.

Efe a drodd y Bibl Seisneg . . . i Gymraeg *ddilediaith* o gylch y flwyddyn 1540.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 191.

2. outspoken; free of speech; speaking freely, openly, or plainly.

Llefaru yn ddilediaith, to speak openly or unhesitatingly; to speak out.

Diledlef, *a.* free from impure or inelegant speech or accent; having a clear voice or utterance; clear, distinct, articulate, plain; pure.

Llon fydd yn nydd ac yn nos,
Llef *ddiledlef* dda loew-dlos.—*D. ab Gwilym,* lxxxiv. 17.

Ac ef a gyffesawdd, ac ni wadawdd, ac a addefawdd yn *ddiledlef,* Nid mi yw'r Christ.
W. Salesbury: Ioan i. 20 (cf. Marc viii. 32).

Diledlyth, *a.* void of dejection; invigorating, consoling, cheering.

Na chaffo chwedl *diledlyth*
Na chymmun am ei fun fyth!
D. ab Gwilym, lxxxvii. 59 (cf. cliii. 51).

Diledrith, *a.* without delusion; free from hypocrisy or simulation; unfeigned, sincere; real.

Trwy hinda vawrda vyrdeu *diletrith*
Trwy wenith trwy wlith rith anreithyeu.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 472.

Os nyni a amlhâwn ein camweddau, Duw yntau a amlhâ ei ddialeddau: eithr yn y gwrthwyneb, os trown ni yn *ddiledrith* at yr Arglwydd ein Duw â'n holl galonau, pob dialeddau a attelid oddi wrthym.
Robert Llwyd: Llwybr Hyffordd, 256.

A'r geiriau a ddefnyddient oedd, yn eu cyfrif hwy, yn sefyll am bethau sylweddol, *diledrith.*
Sam. Bowen: Athrawiaeth yr Iawn, 16.

Diledrithedd, } *sm.* freedom from simula-
Diledrithrwydd, } tion or hypocrisy; sincerity.

Diledrithio, *v.* to cease to feign or simulate.

Diledrithiog, *a.* not simulated, honest.

Diledrithiol, *a.* not simulating; sincere, honest.

Diledryw, *a.* [di-+lled+rhyw] of no degenerate, base, mean, or ignoble extraction; of no mixed sort or species; unmixed, genuine, pure; entire, complete, thorough; thoroughbred.

Llyma, Forfudd *ddiledryw,*
A gaf o dâl, gofid yw!
D. ab Gwilym, xlviii. 9 (cf. cciii. 1; ccxii. 19).

A phan ddaethant hyd yn Ystrad Tywi efe a golles agos ag oedd yn ei lu o'r Cymry, y rhai ai gadawsant ef am na fynent fyned ym mhlaid estron yn erbyn gwr o dywysawg cyflawn o Gymro *diledryw.*—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 548.

Achos llygru llwythau Gwynedd a Mon â lledach o'r Gwyddelod a gwŷr Llychlyn, ni chaid yno amgen na phymtheg penteulu o brif lwythau cenedl y Cymry yn ddiledach *ddiledryw,* y peris Hywel eu breinio a'u llwythau o baladr yn bymtheg llwyth o bendefigaeth Cynwydion.
Iolo Mss. 87.

Dilys yw mai hen Gymraeg *ddiledryw* yw y geiriau hyny.
Theo. Evans: D.P.O. 18.

Awn o'i ffyrdd, a'i wyniau ffol,
Yn ufudd i'r gwir nefol,
A'i lywodraeth *ddiledryw;*
Ffordd iawngred ein dyled yw.
Iolo Morganwg: Salmau, i. 223.

Gwysia gynghaws arbenigol, a bydded yman y triwyr hyn, Gymry *diledryw,* nid amgen, Archdiagon Edmwnt Prys, Dafydd Ddu Eryri, a Iolo Morganwg.
G. Mechain: Gwaith, ii. 176 (cf. 168, 200, 226).

Ceisio y radd benaf o anrhydedd, sydd wagedd *diledryw.*
Edward James: Hom. iii. 120.

Diledrywio, *v.* to divest of mixture or heterogeneity; to ennoble; to become unmixed.

Diledwg, *a.* [di-+lled+gwg] free from any frowning; without displeasure.

Ni bu rwyddach neb o'i roddion, dïwg,
Diledwg i dlodion.—*Gronwy Owain,* 66.

Dileddf, *a.* [lleddf] not deviating (from a right line or course), oblique, slanting, or declining; unbending; unbiassed, direct, firm, downright; unflagging, inflexible; sincere.

Yna y dylyir o bleit y brenhin kymell o wys rybydyawl kanhonwyr na gwyr o greuyd vwynt nac eglwyswyr ereill y deruynv y gynnen trwy dyall canon *dileddf.*
Cyfreithiau Cymru, ii. 370 (cf. 378).

Rwyf myrd cyrd cerdorion wobaith
Rud dilud *dileddf* gydymdaith.
Cynddelw: M.A. i. 212 (cf. 257, 340, 365).

Gwr eurfut dilut heb doli
Gwr *dileddf* prifddeddyf Pryderi.
Hywel Foel: M.A. i. 393 (481, 534).

Mil ae mawl heb dawl *dileddf* chwec lwysieith.
Casnodyn: M.A. i. 421 (cf. 438, 448).

Anghynhes ddiawles *ddileddf,*
Ni erbyd hi dori deddf.—*Gronwy Owain,* 107.

Dileddf Gyffredin, Universal Justice; a book of legal authority so called.—*P.*

Dileddfol, *a.* unyielding, rigid.—*P.*

Dileddfu, *v.* to become unyielding.—*P.*

Dilëedig, *pt.a.* [dilëu] deleted, effaced, expunged, blotted out, annulled, abrogated, abolished; extinct.

Dilëedigaeth, -au, *sf.* deletion, expunction; abolition; extinction.

Dilefain, } *a.* [lefain = E. *leaven*] un-
Dilefeinllyd, } leavened.

Am hyny certhwch allan yr hen lefain, fel y byddoch does newydd, megys yr ydych *ddilefeinllyd.*—1 *Cor.* v. 7.

Bara dilefain (=bara croew), unleavened bread.

Dileihâd, *a.* without diminution; undiminished.

Llifeiriant tandde ffiwch,
O faeth ufeliar hylosg *dileihâd.*—*W. O. Pughe:* C.G. i. 76.

Erys y sylwedd toddedig ynddo yn *ddileihâd.*
Gwyddoniadur Cymreig, iv. 35.

Dilen, *s.*=*Dilain,* q.v.—*D.*

Deutu Aeruen diffwys *dilen* dydaw luyd.
Taliesin: A.B. ii. 292 (M.A. i. 50).

Eurdorchogyon dewr deyerin lenn
Edlid ym dilid yw eu *dilen.*
Cynddelw: M.A. i. 231 (cf. 259).

Kan vot Duu yd fu ei *ddilen.*
Cynddelw: M.A. i. 245 (cf. 247).

Dotyw ynn dilyw am *dilen* preitwalch
Prid uyt pawb or gorffen.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 291.

Ger Flur yr dolur *dilen* saeth detwyd
Oe dytwed olo ydaeth.—*Prydydd Bychan:* M.A. i. 390.

Digitized by Google

Dilen, *a.* [llen] without a veil or covering; disclosed to view; unconcealed, open.

Am fwriadu it' ddrwg *dilen*,
Heb ddwyn i ben mo'u hamcan.
Edmund Prys: Salm. xxi. 11.

Dilenu, *v.* to unveil, to uncover; to disclose to view; to explain.

A ddaw o fil ddim un i ddyfalu
Ystyr yr ysgrifen, a'i *dilenu*?—*I. G. Geirionydd:* Geir. 69.

Ac er in' wylaw, ochain hiraeth yw,
Ym mhleth â disgwyl y daw eto wawr
Ddisglaerwen, i *ddilenu* rhoddion hael.
Th. Lloyd Jones: Md. Ifor Ceri.

A'i awen gref *ddilenodd*, ac aflwydd
Ei gyflwr ddysgrifiodd.—*Huſa Mon:* Gwaith, 374.

Dileo, *v.* [di-+lle]=*Dilëu.*

Nid hawdd *dileaw* cariad.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 63.

Ionawr. Plan goed afalau pan na rewo . . . dod wasarn defaid a moch am y perllanwydd newydd blanu, er eu gwared rhag rhew; a phan fo glaw, rhathu'r mwswn oddi ar y coed ffrwythydd, a *dileaw* brigwydd meirwon, a diwyllio'r gwinwydd.—*Llanover Ms.* 63.

Dileol, *a.* obliterating, cancelling, doing away.

Diler, -au, *sm.* [A.S. *dæl, dælan, dælere*] an instrument, a tool (*P.*). The word is not known to occur except in the following compound, on which Moses Williams, in the Glossary to *Leges Wallicae* (566), has the following note:

'Dilerbren, vox hibrida, pertica qua in disterminandis agris utebantur. Cujus fuerit longitudinis incertum. . . Locum hunc non satis perspicuum sic interpretor. Haec vox nusquam alibi occurrit. Ita Coelbren, *lignum fidei, sors.*'

Dilerbren, } **-au, -i,** *sm.* [diler+pren] a measur-
Dilyrbren, } ing rod, perch, or instrument; a meter.

Y mab ieuaf a ddyly ranu yr holl dreftad, a'r hynaf ddewisaw, ac o hynaf i hynaf efelly hyd yn oed yr ieuaf. Os tai a fydd, y brawd ail-ieuaf a ddyly ranu y tyddynau, canys *dylerbren* [al. *dilyrbren*] fydd yntau, a'r hynaf ddewisaw ar y tyddynau.—*Leges Wallicae,* II. xii. 4.

Os tey a uyd y braut eyl yeuaw a dyly rannw y tydynneu canys *dylyrbren* uyd ynteu yna ar yeuaw dewysseu ar y tydynneu.—*Cyfreithiau Cymru,* i. 168.

Dilerw, *sm.* [llerw] 'not anything, nothing.'—*P.*

Diles, *a.* [lles] 'void of benefit or good;' useless, worthless, fruitless, unprofitable; of no avail, without avail; abortive.

Gwae'r ieuanc diried *diles*
Ni wnel cynghor synwyr-les
Gwr dysgedig o'i fonwes.
Englynion Eiry Mynydd: M.A. i. 546.

Mor *ddiles* a halen i'r iâr.—*Diareb.* (M.A. iii. 185.)

Yn *ddiles* ac yn ofer y cynnorthwya yr Aiphtiaid.
Esa. xxx. 7.

Gwae *ddiles* gywyddoliaeth,
Gwae fydd o'r awenydd waeth.—*Gro. Owain,* 11 (cf. 85).

O hyn y daeth y cyfryw drywyllt ac oferwag fydraethu a dall brydyddu, a distadl a dibwyll ymbyncio ar *ddiles* a diflas orchestion.—*Edward Dafydd:* Cyfr. y Beirdd, 5.

Dilesâd, *a.* of no use or value; useless, worthless, unavailing, unprofitable.

Eu crefydd mewn rhan, os nid yn hollol, sydd yn sefyll mewn geiriau a gwag gwestiynau yng nghylch pethau *dilesâd.*—*Porth Cyfyng,* 128.

Y cerfiwr clodfawr, a llawrwyddawg fardd,
A roddant gymhorth egwan *dilesâd.*
Iago Trichrug: Y Bedd.

Dilesedd, } *sm.* uselessness, unprofitable-
Dilesrwydd, } ness.

Dilesg, *a.* [llesg] not weak, feeble, or infirm; not flimsy or slow; strong, energetic, vigorous, bold, prompt.

Grymus vthyr yn ruthyr yn anreithyau
Greddyf ddiletyf *ddilesc* urth gymrau.
Llygad Gwr: M.A. i. 340 (cf. 343, 387, 391).

Yna y kyhyrdawd ar iarll yn *dilesc,* ac ef ae ganhorthwywyr.—*Brut y Tywysogion,* 80 (cf. 36, 78).

Amdiffyn a wnaeth y tylwyth o vywn yn *dilesc* pei as gellynt.—*Amlyn ac Amig,* col. 1114.

Yn *ddilesg,* yn ddiddolur,
Yn ddelliad cariad y cur.—*D. ab Gwilym,* ccxxvii. 5.

A *di lesg* y rho'i i dlawd
Bara da brau, a diawd.
L. Glyn Cothi, IV. i. 19 (cf. xxiv. 51).

Heddyw'n fir, yn lloni'r llwyn,
Bâl *dilesg* y blodeulwyn.—*Robert Owen:* Gweith. 120.

Dilesgedd, } *sm.* freedom from weakness or
Dilesgrwydd, } feebleness; activity, vigorousness; promptness.

Dilesgedd, *a.* free from feebleness; not feeble or weak; vigorous.

Dilaesdof da lwysgof *dilesgedd.*
Dafydd y Coed: M.A. i. 497.

Ystyr dithau waith dy chwedydd ar dy seithfed, a gyr dy olwg yn graff ac yn ddidwyll ac yn *ddilesgedd* ar hyd pob mymryn o hanaw, ai gwaith dy ddwylaw, ai gwaith dy feddwl, ai gwaith dy serch, ai gwaith dy ddeall y bo.
Barddas, i. 276.

Dilesgu, *v.* to cease to be feeble or weak; to become active or energetic.

Dysgu, cymmysgu masgoed a'u mysgu;
Dysgu *dilesgu* dan dew lasgoed.
H. Perri: Egl. Ffraethineb, xxvii. 1.

Dilesgwr, wyr, *sm.* one free from feebleness; an energetic person.

Duw a'r Eglwys a dreiglawdd
Dau enw yn un dan ei nawdd;
Dilesgwr du o Lasgwm
Acw, a haul Cil y Cwm.—*L. G. Cothi,* IV. xxv. 11.

Dilesiad, *sm.* a rendering useless.

Dilesiant, *sm.* uselessness; disadvantage.

Dilesiant, *a.* without benefit or advantage; useless, worthless.

Ni ddaw a weriaist mewn tafarnau
Fyth i'th feddiant, poen *ddilesiant,* pan ddêl eisiau.
Huw Morus: E.C. i. 331.

Dilestair, *a.* [llestair] without obstruction or hinderance; unobstructed, not hindered or impeded.

A thrwy rinnwed y gwin gyrru y kythreul or corn. a gwedy bot eu hymadrawd yn *dilesteir.*—*Mabinogion,* 96.

Puybennac pyeufo er heryrn keueyryet ef uuent en *dylesteyr* yr geylguat ac yr amaeth.—*C.O.* i. 322.

Eissyoes nyt yttoedynt wy mor *dilesteir* udunt a hynny.
St. Greal, § 207.

Mawl *dilesteir* y Unmap Mair morwyn deccaf.
Ymborth yr Enaid, § 28.

Diletty, *a.* [lletty] having no lodging, houseless, homeless, harbourless, shelterless.

Yr ydym ni yn mynegi i chwi'r gwir ar ichwi wneuthur daioni i ddyn . . . cynnorthwyo'r tlawd â bwyd a'r sychedig â diod, y noeth â dillad, y claf â gwasanaeth, y deithr a'r *diletty* â lletty, y carcharorion ag anghenrheidiau.
Ed. James: Hom. ii. 152.

Dilettyb, *a.* [llettyb] free from suspicion; without suspicion; unsuspicious, unsuspecting; unsuspected.

O do'i latai *dilettyb.*—*Llywelyn Moel.*

Dilettyb cyffelybaf,
Faswedd hoen, i flsoedd haf.
Ieuan Lleyn: Caniadau, 126.

Y mae'r Cymro uniaith diddichell, *dilettyb,* yn disgwyl i bobl fawr, yn deall Seisoneg a Lladin, fod yn gyfarwyddwyr cywir iddo yn ei ymgais am wybodaeth gystrawenol o'i iaith.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, i. 550.

Digitized by Google

Dilĕu, *v.* [di-+lle: cf. L. *deleo*] to delete, expunge, erase, obliterate, cancel, or efface; to blot, put, or strike out; to abolish, abrogate, annul, or annihilate; to exterminate, to destroy; to put an end to; to do away with.

A gwedy udunt oreugyn yr holl wlat a distryw y pobloed ac eu *dilew* yn llwyr. kadarnhau y kestyll ar kaeroed ar tyreu a wnaethant.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 116 (cf. 144, 157, 236, 237, 245).

Ef a *dileawd* y bleidyeu o bop mann or deyrnas.
Brut y Saeson: Ll.C.H. ii. 390 (cf. 392).

Ac yna y *dilewyt* Mynyw.—*Brut y Tywysogion*, 18.

Do'i Rufeinwyr, dorf, unwaith,
I doliaw'n hedd, *dilĕu*'n hiaith.—*Gronwy Owain*, 100.

Byth y pery eu hiliogaeth; a'u gogoniant ni *ddilĕir*.
Eccl. xliv. 13.

Dilĕu pechod, to take away or blot out sin.—*Neh.* iv. 5.

Dilĕu pechodau, to take away sins.—*Heb.* x. 11.

Ti yr hwn wyt yn *dilĕu pechodau* 'r byd, trugarhâ wrthym.
Ti yr hwn wyt yn *dilĕu pechodau* 'r byd, derbyn ein gweddi.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Cymmun).

Dilĕu cyfraith, to repeal or abrogate a law.

Dilĕu dyled, to cancel a debt.

Dilew, *a.* [glew] not brave or valiant; 'void of skill or cunning.'—*A.B.* ii. 192.

Disu na ladd rhydain lew,
Adwyth i dylwyth *dilew*.—*Gronwy Owain*, 85.

Dilewdid, *sm.* want of valour, courage, or bravery; 'want of cleverness.'

Dilĕwr, wyr, *sm.* one who deletes, cancels, or obliterates.

Dilewych, } *a.* [llewych, llewyrch] 1. without
Dilewyrch, } light, lightless, dark, gloomy.

Y cyffylog llidiog llwyd,
Edn brych *dilewych* o liw,
O adar gauaf ydiw!—*D. ab Gwilym*, xcviii. 34.

Can o wybrolion cyntaf haul
A luniai, eres rod, *dilewych* gynt.
W. O. Pughe: C.G. vii. 408.

Yn aml ar nos *ddilewych*,
Cyn i ryw cwsg fy nhrechu,
Dug cof yn gu bob gwrthddrych
Y dyddiau gynt o'm deutu.—*Thomas Lloyd Jones.*

2. not looking well; not flourishing, thriving, or prosperous.—*C.S.*

Dilewychiad, } *sm.* want or absence of light;
Dilewyrchiad, } a darkening.

Dilewychol, *a.* not giving light; not resplendent; darkening.

Dilewychu, } *v.* to cease to give light or
Dilewyrchu, } splendour; to darken.

Diliad, -au, *sm.* [dil-io] a working; operation, work.—*P.*

Dilid, *a.* [llid] free from wrath, anger, or displeasure; wrathless, angerless.

Hanbych well o Dduw o eddewy
Eddewid *ddilid* a ddeley.
Dafydd Benfras: M.A. i. 309 (cf. 231, 287).

Dilidiad, *sm.* a becoming free from wrath; a becoming appeased.

Dilidio, *v.* to be pacified or appeased; to cease to be angry; to divest of wrath.

Dilitya Arglwyd dy aeloteu ym.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 471.

Dilidia, 'r dyn dyledawg!—*Dafydd ab Gwilym*, lxi. 54.

Dilidiog, *a.* free from anger, not angry; peaceful; uninflamed.

Arafaidd, sanctaidd yw Sion,
A *dilidiog* i dlodion.—*Deio ab Ieuan Du:* G.B.C. 178.

Dilig, *a.* [dil] 'that is made accurate.'—*P.*

Dilin, *a.* [dil] worked, wrought; beaten, made fine, refined; pure, of pure quality.

Ar llaw Ywein hael hawl *dilin* gorualch
Y mae gorvlwch eurin.—*Cynddelw:* M.A. i. 234 (cf. 346).

Hual dilin, a fine-wrought fetter.

Ac er [*al.* ar] lles Owain hael *hual dilin*
Dychyegogan Lloegyr rag fy llain.
Gwalchmai: M.A. i. 193.

Aur dilin, beaten gold; finely wrought gold; fine or refined gold. See *Aur*.

Nid aur a grisial a'i cystadla hi: na llestr o *aur dilin* fydd gydwerth iddi.
Iob xxviii. 17 (cf. 1 Bren. x. 16; 2 Cron. iii. 5).

Gwlith bendithion sydd yn disgyn
Yn gawodydd, ar ei dolydd, yn *aur dilin*.
Huw Morus: E.C. i. 253.

¶ Dr. Davies and others, who suppose that *dilin* in the expression 'aur *dilin*' is a corruption of *dilyfn*, are apparently in error; for '*aur dilin*' does not signify rough or native gold ('aurum recens'), but *beaten* gold, the metal separated from all extraneous matter: hence pure or the purest gold. *Aur dilyfn*, used by some of the poets (*M.A.* i. 371, 396), probably stands for *aur dylyfn* (di-=dy-); that is, smooth, polished, or fine gold. See *Dilyfn*.

Fine gold, aur dilin (*dilyfn*, coeth).
Walters, s.v. 'Gold' (ed. 1794).

Dilio, *v.* [dil] 1. to work; to beat (metal or other malleable material); 'to make accurate;' to elaborate, to work out. The word may be allied to *dulio*, to beat, which is in common use. See Th. Richards, s.v.

2. to liberate, to set free.

Dilio caethiwed, to liberate or emancipate from bondage or thraldom.

Syr Rhobert a aeth adref yn bendrist iawn, ac a alwodd yng nghyd ei farchogion, ac a beris roddi yn ol eu cyfoeth i bob un ni fu'n y rhyfel yn ei erbyn, a *diliaw'r caethiwed* a osodwyd ganthynt ar y wlad.—*Iolo Mss.* 16.

Dilipa, *a.* not drooping, flagging, or flaccid; firm, confident.

Sancteiddiol Yspryd Duw yw'r hwn sy'n peri dirnad y sicrwydd yma; ac heb glywed ynom y dirgel waith hwn oddi wrth yr Yspryd, ni allwn byth roddi ateb dichlyngwbl a *dilipa* i'r cwestiwn hwn.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 286.

Diliw, *a.* [lliw] without colour, colourless, hueless.—*M.A.* i. 201, 202.

Dwfr, yn ei sefyllfa o burdeb, sydd hylif dysglaer, *diliw*, diarogl, a rhedegog.—*Beirniadur Cymreig*, i. 114.

Diliw, *sm.* a phantom, a spectre.—*Codex Juvencus*, 15.

Dilyw dyn en vyw nys adawsswn.—*Aneurin:* God. 79.

Llydan dal, griafal groth,
Lygodwraig hen lygadroth;
Ystig, ddielwig *ddiliw*,
Wystyn ei llys, 'staen ei lliw.—*D. ab Gwilym*, clxxxiv. 25.

Diliw, *sm.*=*Diluw*, *Dylif*.

Diliwiad, -au, *sm.* a divesting of colour; a becoming colourless.

Diliwiant, *sm.* absence or want of colour.

Digitized by Google

Diliwied, *a.* [lliwied: cf. *edliw*] not to be upbraided or reproached; irreproachable.

A'i law *ddiliwied* a lwyr bryned gan Loer Branas.
Huw Morus: E.C. i. 252.

Diliwiol, *a.* tending to discolour; paling.

Diliwo, } *v.* to divest of colour, to discolour;
Diliwio, } to lose or change colour; to grow pale; to fade or pale.

Sef a wnaeth hitheu yna *diliwaw.* a duaw vegys glo. a dygwydaw yr llawr a llewygu.—*Bown o Hamtwn,* ‖ 11.

Diliwiais am dal ewyn
Dau wae fi, ni ŵyr hi hyn.—*Sion Leiaf.*

Am foniwaw wyf fron friwaw
A'm *diliwaw* ym Duw Lywydd!
Iorwerth Gyriog: M.A. i. 505.

Dilochi, *v.* [llochi] not to be protected; to cease to protect.

Oed gyr ban brofed cyfred cyfor
Greid goluch dyluch *dilochitor.*—*Cynddelw:* M.A. i. 205.

Dilochiad, *sm.* absence or want of protection.

Diloer, *a.* [lloer] moonless.

O'r diwedd . . . fal dau oleu yn lleihau, y cysgod yn hwyhau, hyd na bo yn y diwedd ond un nos *ddiloer* a diser dan dewlen ddu'r nos.—*Hen Ysgrif* (Brython, ii. 41).

Y ddaiar oedd yn dywyll ac yn ddu, mal talp o rew
Yn hongian yn yr awyr wyll *ddiloer.*
Iago Trichrug: Tywyllwch.

Diloes, *a.* [gloes] free from pain, agony, or anguish.

Ac felly pan ddêl gauaf oes,
Llais rhinwedd lwys mewn hedd,
A bair fy enaid yn *ddiloes*
I wenu ar y bedd.—*Th. Lloyd Jones:* Ceinion Awen, 195.

Dilofr, *a.f.*=*Dilwfr,* m.

Dilog, *a.* [llog] without interest; without hire.

Tri pheth nid hawdd eu cael pan fyner: benthyg arian gan ocrwr yn *ddilog;* pleidiaw dadl mewn llys cyfraith yn ddiwobrwy; a chiniaw moethusfwyd mewn tŷ cybydd.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 73 (cf. 192).

Dilon, *a.* [llon] not glad, cheerful, pleased, or content; cheerless, joyless, pensive, sad, dreary, gloomy, heavy.

Adeilawdd cof dy alar
I'm calon *ddilon* ddolur.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 454 (cf. 464).

Da na hedd Duw ni haeddant,
Dilon yr, delwi a wnânt.—*Gronwy Owain,* 95 (cf. 110).

Diloni (*ŏ*), *v.* to become sad or cheerless.

Diloniad, *sm.* a becoming cheerless.

Dilonydd (*ō*), *a.* not quiet, easy, or at rest.

Dilonyddu, *v.* to become restless or uneasy.

Dilonyddwch, *a.* without quietness, restless.

Dilorf, *a.f.*=*Dilwrf,* m.

Dilorni, *v.*=*Dylorni.*

Dilosg, *a.* [llosg] unburnt.

Diod dda i'r dolur hwn yw carregyn calch *dilosg* yn falaid malaid, a'i roi mewn dwr a llaeth.
Meddygon Myddfai, ii. 536.

Dilosg, *sf.* [llosg] houseleek (*Sempervivum tectorum*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 47, 183.

Diludd, *a.* [lludd] free from restraint or obstruction; irresistible; without restraint, unrestrained.

Grym *dillud* Dullus fab Eurai.
Cynddelw: M.A. i. 208 (cf. 212, 215, 357).

Hael Gruffut *dilut* dilawch teyrnet.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 288 (cf. 294, 296).

Dilwfyr ut *dilut* vut veityad.
Cynddelw: M.A. i. 221 (cf. 340, 444, 499).

Gruffut ged *dilut* a dalyo Powys.
Llygad Gwr: M.A. i. 342 (cf. 371, 393).

Un post o'th lewyrch yn *ddiludd*
Ennynai dywyll nos yn ddydd.
Dafydd Jones: Salmau Watts, cxxxix. 9.

Gwaed anifeiliaid yn *ddiludd*
Dywalltent hwy o ddydd i ddydd.
R. ab G. Ddu: Gardd Eifion, 21.

Diludded, *a.* [lludded] free from fatigue or weariness, untiring, unweary, unwearied, untired; unrestrained.

Kyrchu y urwydyr a orugant. ac ymlad o newyd megys pei kyt bydynt *diludet.* ac ar hynt llad cant or anfydlonyon.
Ystr. de Carolo Magno, col. 459 (cf. 436).

Golygon gleision . . .
Fy lloer wiwdeg, lle'r ydyn',
Diludded ynt i ladd dyn.—*H. ab Rhys ab Gwilym.*

Y bendigedig yn *ddiludded* a gaiff glywed y gân driphlyg.
Elis Lewis: Drexelius, 45.

A'u difyrwch mwyaf yw siaradach am danynt, yn ddiflin ac yn *ddiludded.*—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 366.

Diluddediad, *sm.* a divesting of fatigue or weariness.

Diluddedu, *v.* to divest or rid of weariness or fatigue; to refresh; to rest; to cease to be tired.

Os chwarăwn ni ryw chwaryddiaeth, bydded ein dîben ni yn unig i'n *diluddedu* ein hunain, ac nid i ennill arian.
Langford: Holl Ddyl. Dyn, 211.

Diluddest, *a.*=*Diludded.*

Gwnaeth ffordd i'w ddigofaint ffest,
A lwyddodd yn *ddiluddest.*
W. Midleton: Salm. lxxviii. 31.

Dilun, *a.* [llun] shapeless, formless; awkward, clumsy, unskilful.

Dilundra, } *sm.* shapelessness, deformity; awk-
Dilunwch, } wardness, unskilfulness.

Dilunio, *v.* to divest of shape or form; to make shapeless; to deform.

Diluw, -iau, *sm.* [L. *diluvium, diluvies, diluvio;* C. *dial, diel;* Br. *dilus, dilug, dili, diliu, dilionn;* Ir. *dile, tuile;* Ga. *tuil*] 1. a deluge, a flood, an inundation.

Yno ydoed Chyarlys ae gedymdeithon yn edrych ar newyd *diliw* Bernart.—*Ystoria Charles,* 16.

D. Paham na dhaeth ef yng cnawt cynn *diliw.* M. Mi ai dywedaf. pai doethawdh ef cynn *diliw.* ef a dhywedit. y mae y gann y rieni a oedh newydh dhyuot o paradwys y dyscyssynt wy dhigon o dha. nai pan daethoedh ef yn y lhe wedy *diliw.* wynt a dhywedynt mae wrth Noe ac Eureham y dyscassei Dhuw bob peth or a dhywedessyt yna.—*Lucidar,* ‖ 30.

Dilyw a dyfu dydbrawd a dyfi.
Gwalchmai: M.A. i. 208 (cf. 31, 202).

Llong Noe, dull eangwen yw,
Llun delor rhag llanw *dilyw.*
L. G. Cothi, v. xiv. 45 (cf. vi. iii. 13).

Rhac ofn *diliw* diarchar
Adar daiar dirwestant.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 363 (cf. 373).

Hyni ddêl tros hyn *ddiliw*
Y pair ei air ym mhob rhiw.—*L. G. Cothi,* viii. ii. 55.

Ni ffrwythlonir wyneb y tir gan gawodydd gwlaw, eithr gan *ddiluwiau* blynyddol yr afon.—*Gwyliedydd,* vii. 241.

Y Diluw, the Deluge, the Flood.—*Gen.* vi.—xi.

Ti a ddygaist y *diluw* ar uchaf preswylwyr y byd.
2 Esd. iii. 9 (cf. 10).

Diluw Noah, } the Noachian Flood.
Diluw Nöe, }

Anfonodd Duw *Ddiluw* i foddi'r byd, gan achub Noah berffaith. . . Llwyr ddyfethwyd epil Cain gan y *Diluw.*
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 45.

Cydfwriadodd ei epil, ym mhen talm o amser (sef yng nghylch can mlynedd ar ol y *Diluw*) i adeiladu Tŵr â'i nen hyd y nefoedd.—*Theo. Evans:* D.P.O. 6 (cf. 5).

Y mae yn amryw fanau yn America . . . goffadwriaeth hyd heddyw am y *Diluw.*—*Ed. Samuel:* Grotius, i. 16.

Digitized by Google

Dyfroedd diluw (*sg.* dwfr diluw), the waters of the flood; the flood of waters.—*Gen.* vi. 17; vii. 6, 7.

Arwydd o hyn oedd yr arch yn y *dwfr diluw*. . . Dywed i mi pa fodd y gostegodd gwynt y *dwfr diluw*?
Morgan Llwyd: Tri Aderyn, 40 (cf. 3, 4).

A'r Gymraeg a gynneiliwyd dros y *Dwr Diliw*, gan Siabeth ab No Hen.—*Cyfrinach y Beirdd*, 29.

Medraf ddwyn eich achau trwy berfedd llawer o farchogion a thywysogion, a thrwy'r *dwr diluw*, a'r cwbl yn glir hyd at Adda.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 32.

Cyn y diluw, before the flood or deluge; antediluvian.

Dychymic di pwy yw
Creadur cadarn *cyn dilyw*.
Taliesin: M.A. i. 22 (A.B. ii. 159).

Yr oedd oedran dyn *cyn y diluw*, ar gyfrif cyfartal, yn ychwaneg na naw can mlynedd.—*Gwyliedydd*, v. 174.

Y gwŷr cyn y diluw, the men before the flood; the antediluvians.

Diluw dwfr, a deluge of waters.

Diluw tân, a deluge of fire.

Diluw o ddagrau, a flood of tears.

Fel nad oes na dydd na nos yn myned heibio na thywelltir *diluw o ddagrau* gan gyfneseifiaid ar ol eu hanwyliaid ymadawedig.—*Brutus:* Brutusiana, 490.

2. (fig.) a deluge, a great flood; an overwhelming calamity, disaster, or catastrophe; a vast or overwhelming number.

Diluw dig yw ein gadu yn awr,
A dwyn llŵ y wawr rhwng deunaw llu.
L. G. Cothi, III. xxviii. 31.

Un dyn wyf, mewn clwyf, pawb a'm clyw, gwae fi,
A gwae'i fam o'r *dilyw*.—*Dafydd Nanmor:* G.B.C. 153.

Diluw ydyw i dlodion,
A diwedd haul yw dydd hon.—*L. G. Cothi*, III. xxix. 29.

Dwr *diluw!* du'r dialedd.—*I. B. Hir:* Gwaith, 61.

Scythia sydd fam i *ddiluw* o bobl.
Charles Edwards: Hanes y Ffydd, 36.

Yn dwr o bob cwr y caid
Rhyw *ddiluw* mawr o'i ddeiliaid.—*Dewi Wyn*, 147.

Diluwiad, -au, *sm.* a deluging or flooding; an overwhelming; inundation.

Diluwio, *v.* to deluge, inundate, or overflow; to submerge; to overwhelm.

Yn gydlef cadd cwn gwaedlyd
Lwyr barch am *ddiluwio* 'r byd.—*Dafydd Ionawr*, 171.

Prydain yn egor y llifddorau,
Diluwio 'r byd o lwyr wybodaeth.—*Dewi Wyn*, 156.

Diluwiol, *a.* deluging, inundating, overwhelming; diluvial; diluvian.

Dilw, *a.* [llw] without oath, oathless.

Ar eil lle yv hynny y barn kyfreith vot mach yn *dilv* ac yn di dadyl.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 182.

Dilwch, *a.* [llwch] free from dust, without dust; immaculate, pure.

Prif degwch *dilwch* eiry dolyd kynn glaw
Praw nwyf gyryf anaw nyt gorvynyd.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 465.

Dilwch yw dy degwch di.—*D. ab Gwilym*, xxviii. 3.

Dilwfr, Dilwrf, *m.* } *a.* [llwfr, llwrf: *f.* llofr,
Dilofr, Dilorf, *f.* } llorf] not timid, weak-hearted, or cowardly; brave, valiant, bold, intrepid.

Dilwyr gwych gweithfutig dragon
Digrawn eur digrifwch dynyon.
Hywel Foel: M.A. i. 393 (cf. 57, 221, 435, 475).

Mai degwch! mi a'i dygum,
Myn delw Fair, *dilwrf* fûm!—*D. ab Gwilym*, lxxxi. 39.

Ac o chaf gan fab Dafydd
Lyfr, yr hawg *dilwfr* a'i rhydd.
Iewan Du'r Bilwg: Iolo Mss. 328.

Dan ddwylaw Prydain *ddilorf*
Pa les a wna'u diles dorf!—*Gro. Owain*, 85 (cf. 109).

Mon *ddi lofr* mynodd lifrai,
Banerid holl benau'r tai.—*Dewi Wyn*, 147.

Hyfryd! caiff y diwyd dwys,
Dilwfr fyd, lafur ei face.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 218.

Ac erbyn disgyn o'r dorf
Fileinig ddiawlig *ddilorf*,
Dirfawr oedd rhifoedd eu rhawd,
Ryw fodd, wele ryfeddawd!—*Dafydd Ionawr*, 147.

Daliwch yr aeg, wŷr *dilwfr*,
Tra llwnc eich safn ddafn o ddwfr.
Seren Gomer, xviii. 366.

Dilwg, *a.* [llwg=L. *lux*] without light, lightless; obscure; dark.

Tydi yn awr a adofwyaf ar
Eofnach hed, o ffoi yr Ystawch Lyn,
Er hir ymrwystraw yn y *ddilwg* daith.
W. O. Pughe: C.G. iii. 14.

Dilwgr, *a.* [llwgr] undefiled, unpolluted, uncontaminated, uncorrupt, uncorrupted; immaculate; pure; genuine.

Ar penn yn *dilwgyr* geanwch.—*Mabinogion*, 40.

Yn y mod yr aethant wy allan yn ddiargywed ac yn *dilwgyr* yr ffenestyr wydyr.—*St. Greal*, ‖ 57.

D. Pa ryw gorphoroedh a vydh yndhunt wy. M. Rhai anuarwawl *dilwgyr*. a gloewach no gwytr. a gwynn vydh cyrph y saint.—*Lucidar*, ‖ 115.

I gael etifeddiaeth ddiddiwedd, a *dilwgr*, a diddiflanedig, yr hwn a rodded i gadw yn y nef i chwi.
Esgob Morgan: 1 Pedr i. 4.

Yr hen Eglwys gynt, yr hon oedd buraf a *dilygraf* oll.
Ed. James: Hom. ii. 75 (cf. 28, 87).

Mae amryw adnodau o'r Bibl yn rhoi ar ddeall i ni fod Gair Duw yn berffaith a *dilwgr* a disothach a dwyfol o ran sylwedd ei gynnwysiad.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 248.

Nid oes yn wir un genedl dan haul wedi cadw ei gwlad a'i hiaith o'r hen amser gynt yn gyfan a *dilwgr*.
Theo. Evans: D.P.O. 3 (cf. 190).

Y mae cynghanedd gywir hefyd wedi gweini er cadwedigaeth yr iaith yn *ddilwgr*.
G. Mechain: Gwaith, ii. 172 (cf. 181, 240, 245, 454).

Dilwr, *a.* hind; posterior, hinder.

Addaf ddelw *ddilwr* plygiedig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 519.

Rhag a dilwr, fore and hind; anterior and posterior. See *Chwarthor;* and cf. *Leges Wallicae*, 565.

Dilwrf, *a.*=*Dilwfr*.

Dilwybr, *a.* pathless; trackless.

Hir y buom dan dywyllwch,
Ynddo'n cyfeiliorni'n ffin;
Rhodio, megys mewn anialwch,
Tir *di lwybrau* 'r diffaith crin.
Iolo Morganwg: Salm. II. cxxviii. 1.

Dilwybro, *v.* to obliterate a track; to do away with a path.

Dilwydd, *a.* unsuccessful, unprosperous; unfortunate, luckless.

Dos ymaith rhag dy siomi,
Dilwydd daith, neu dy ladd di!
Dafydd ab Gwilym, cxxxi. 27 (cf. clxxiii. 42).

Trown ein meddyliau, fel gwŷr hen Ninefe,
Rhag arswyd dyrnodiau dialedd *dilwydd*.
Huw Morus: E.C. i. 183.

Dilwydd, *sf.* celandine (*Chelidonium*).

Dilwydd felen, common celandine (*Chelidonium majus*): also called *llygadlys, llym y llygad, llym y llygaid*, and *llysiau y wennol*.—*Hugh Davies:* Welsh Botanology, 52, 183.

Dilwyddiannol, } *a.* not prospering or succeeding; unprosperous; unpropitious; abortive.
Dilwyddiannus, }
Dilwyddus, }

Dilwyddiannu, *v.* to make unprosperous; to become unfortunate.

Digitized by Google

Dilwyddiant, *a.* without success or prosperity, unsuccessful, unprosperous, unlucky.

Dirym, ïe, diareb,
Diddawn wyf, didda i neb;
Dichwant, *dilwyddiant*, dilog,
Digynnil o'm dwy geiniog.—*Huw Morus:* E.C. i. 48.

Dilwyddo, *v.* to render unsuccessful; to fail (in an enterprise); to be luckless.

Dilwyn, *v.* [dy-+llwyn: cf. *cyflwyn-o*] to give or yield up, to resign, to emit, to remit, to shed.

Ac o heny allan ni allwyt un ryol arnadunt namyn emffust en greulawn eni glywyt eu sein en edrinaw en er awyr. ac en i glywyt e daiar en krynu gan dwrwf sodleu e milwyr en *dilwyn* eneit.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 345 (cf. 356).

Dilwyth, *a.* [llwyth] without a load or burden; without cargo.

Dilwythiad, -au, *sm.* un unloading, a disburdening; a discharging.

Dilwytho, *v.* to unload, unlade, unburden, or disburden; to discharge.

Yr ydym yn cael, trwy brofiad, mai po fwyaf a gaffo ein natur lygredig ei rhyddhau a'i *dilwytho* o'r clefydon drwg hyny . . . mwyaf o hyfrydwch a phleser y mae hi beunydd yn gael ynddynt.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 20.

Gair da iddo, ac efe a fedr *ddilwytho* pobl o'r fath lwythau ag yw dy lwyth di.
Taith y Pererin (1771), 15 (cf. 12, 13, 14, 33).

Dilwytho llong, to unload or unlade a ship.—*C.S.*

Dilwytho ei gydwybod, to discharge or disburden one's conscience.—*C.S.*

¶ '*Dilwythwyrhwyt*' in Salesbury's N.T. (*Act.* xxi. 3) appears to be a misprint for *dilwythwyd*. All later editions have *dadlwythwyd*.

Dilychiad, -au, *sm.* [dilwch, dilychu] a dusting.

Dilychu, *v.* to free from dust; to dust.

Dilychu, ysgubo llwch ymaith oddi ar ddillad, &c.
Walters, s.v. 'Dust.'

Dilychwin, *a.* [llychwin] unstained, unsoiled, untarnished, unspotted, blotless; undefiled.

Ni bu un benach; na fu, a Duw'n fach!
Na urddawl o'i ach mor *ddilychwin*.—*L. G. Cothi*, ii. i. 29.

O burdeb *dilychwin*, ceir darlun di-ail,
Yn wyneb y blodau, sy'n wyneb yr haul.—*Cymru*, vi. 199.

Dilyd, *v.* [dy-+glyd or glud: cf. *dilyn*, from *dy-+glŷn*] to follow, to follow after; to pursue; to give or apply (one's self) to; to trace out.

Kanyt oed reit idaw *dilit* hyt ar dim yr hyn a dihagyssei o nadunt.—*Ystoria Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 192.

Ef *dilydei* Win gwr eurdorchauc.
Gorchan Maelderw: A.B. ii. 100.

Guae vab dyn *dilyt* y gamduy.
Cynddelw: M.A. i. 252 (cf. 408, 460, 512).

Neud caeth im *dilyd* llid llaweredd
Neud caith beirdd cyflaith am eu cyfedd.
Gwilym Ddu Arfon: M.A. i. 408 (cf. 371).

Ei ymlyn a wnaethant, ac wynt a chiwtawt y wlat yng coet ac ym maes megis gellgwn neu gallgwn yn hely ac yn *dilyt* carw blin.—*Buchedd Gr. ab Cynan:* M.A. ii. 596.

A *dilyt* y gantaw pa fford y gallei dyuot y angheu.
Mabinogion, 75.

Y mae yn cyd *dilyd*, ac ni'm dawr hyny,
Henwaed Gruffydd Maelawr.
L. G. Cothi, ii. x. 1 (cf. 42; i. viii. 44; iii. iv. 41).

Ni *ddilyd* a'i cynghoro, efe gaiff a'i cospo.
Diareb. (M.A. iii. 186.)

A'm *dilyd* o'r ŵydd lud lai,
A'm dinystr a'm bwrw danai.—*D. ab Gwilym*, cvi. 27.

Dilydwch [°dilynwch, canlynwch] heddwch gyd â phawb, a santeiddrwydd.—*Esgob R. Davies:* Heb. xii. 14.

Hi a *ddilyd* ei chariadau, ond nis goddiwes hwynt.
Esgob Parry: Hos. ii. 7.

Yn cyfranu i gyfreidiau'r sainct, ac yn *dilyd* lletteugarwch.—*Esgob Parry:* Rhuf. xii. 13.

Ef at farn iawn a gadarnhâ,
A phob dyn da a'i *dilyd*.—*Edm. Prys:* Salm. xciv. 15.

Brodyr Suddas gas i gyd,
Dialedd Duw a'u *dilyd*.—*Ieuan Brydydd Hir:* Gwaith, 116.

Dilyd gwirionedd, } to follow equity, justice,
Dilyd gwir, } or truth.

Tri pheth y sydd uwch no chyfraith, ac a dyr ar gyfraith pan gyfarffont â hi: arglwydd yn y lle y gwnel well no chyfraith i *ddilyd gwirionedd* neu wneuthur trugaredd; a braint ni aller profi yn ei erbyn; ac ammod addefedig.
Leges Wallicae, iv. ccxlix.

Tri pheth a drechant ar gyvraith: a wnelo y brenin, i *ddilyd gwir* a chyviawn, ac i wneuthur cydwybod a thrugaredd; braint, lle nis gellir a elo yn ei herbyn; ac ammod gydgyvaddev, yn warantedig o dystiadon.
Cyfreithiau Cymru, ii. 544.

Dilydwr, wyr, } *sm.* a follower; a pursuer, a
Dilydydd, -ion, } chaser.—*W.*

Awdwr blinderoedd ydwyd,
Heuwr, *dilydwr* dail wyd.—*D. ab Gwilym*, lxix. 40.

Dilyf, -au, *sm.* [dil] a honeycomb.

Eiddun ynt yn fwy nag aur nac emmau
A pherach ynt no mel a'i *ddilyfau*.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 561.

Dilyfn, *a.* [dy-+llyfn] smooth; polished; refined, fine, pure. See s.v. *Dilin*.

Aur dilyfn, fine or pure gold.

Oet *dilyuyn eur* a dalei
Oet dilut but myn y bei.—*Bleddyn Fardd:* M.A. i. 371.

Aur dilyfn a delid oi law
Aur dalaeth oedd deilwng iddaw.
Gruffydd Ynad Coch: M.A. i. 396.

Sef a wnaeth y padriarch yna truanhau wrthaw. a rodi idaw mil a deugeint bysant o *eur diliſyn*. a chymryt y gennat ae vendith.—*Bown o Hamtwn*, § 23.

Dilyfr, *a.* bookless, destitute of books; without books, extemporaneous.

Y bregeth, yn gwbl *ddilyfr*, ydoedd hollol edmygol.
Idrisyn: Dalenau, 117.

Dilyfraidd, *a.* [dilwfr] not cowardly or timid; bold, intrepid.

Da lyfr y gyfraith *dilyfraidd* ynghad.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494.

Dilyfrog, *a.* [llyfr] destitute of books, bookless.

Dymunwn adrodd hyn gyda mwy o wylder . . . gan fod fy ystafell bron mor *ddilyfrawg* ag un Dewi Wyn o Eifion.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 232.

Dilygad, *a.* without eyes, eyeless, sightless.

Dilygeidiad, -au, *sm.* deprivation of sight.

Dilygeidio, *v.* to pull out the eyes; to deprive of eyes or sight.

Yr Henri hwnnw a *dilygeidyawd* Robert Kwrteis y vrawt yng Kaer Loew gwedy y dyuot o Gaerussalem.
Brut y Saeson: Ll.C.H. ii. 398 (cf. 396).

Oed Crist 978, ydd aeth Hywel ab Ieuan waith arall yn erbyn ymddifferyn Iago ei ewythr, a chyd ag ef lu mawr o Saeson, ac anrheithiaw Lleyn a Chebynog [Chelynog] Fawr a wnaethant, a thorri yr Eglwysi yn aruthr, a *dilygeidiaw* llawer o gymmhleidyddion Iago, a difeithiaw yn greulawn.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 495.

Dilygredig, *a.* uncorrupted, uncorrupt, unpolluted, unsoiled, unadulterated.

Hilarius, pan oedd pethau eglwysig yn *ddilygredig*, yn eu herwydd, ac yn ddiwall: Drwg (hebr ef) y gwnaethoch chwi garu'r parwydydd.—*M. Cyfan:* Diff. (1671) iv. 23.

Dilygredd, *sm.* the state of being undefiled or uncorrupted; uncorruptness; purity, genuineness.

Digitized by Google

A chan fod enwau amryw o'r hen Awdwyr Cristionogol a ddygasant dystiolaeth . . . i *ddilygredd* y llyfrau . . . gwedi cael eu dwyn i mewn gan yr awdwr; meddyliais y byddai yn foddlondeb i'r darllenydd uniaith gael rhyw ychydig o hanes cynnifer o'r cyfryw hen Awdwyr ag a gyfarfyddir yn y llyfr hwn.
Gwallter Mechain: Eglur Olygiad, Rhag. 8.

Dilygru, *v.* to divest of corruption, pollution, or defilement; to purify.

Dilym, *a.* not sharp or keen; blunt; dull.

Beirdd *dilym*, dirym, diramadeg.—*Gronwy Owain*, 28.

Dilyn (*ȳ*), *v.* [dy-+glŷn, glynu] 1. to follow; to pursue; to prosecute.

A hitheu a gerdawd. ar brifford a *dilynawd*.
Mabinogion, 287 (cf. 215, 230).

Wiliam gân delyn, efo cerdd a fyn,
Am hyn ei *ddilyn* a feddyliais.—*L. G. Cothi*, i. xxi. 13.

Ot amheuir or dwy bleit *dilyner* yr hawlwr.
Cyfreithiau Cymru, ii. 120 (cf. 436).

Einydd ab Gorddyfwn a fu frenin da, yn *dilyn* ffydd ei ewythr a'i dad y cu.—*Iolo Mss.* 9 (cf. 92, 171, 183, 249).

Dilyn gall ti fyddi gallach; *dilyn* ffol ti fyddi ffolach.
Diareb.

Ni phalla sicr felltith o hir *ddilyn* hirddrwg.
Elis Wynn: Rh.B.S. 234.

Dilyn a wnânt eu rhwysg eu hunain. . . Hwy a fynant gael eu meddwl a *dilyn* eu hen arfer.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 375.

Par imi 'n ddoeth dy *ddilyn* di.
Iolo Morganwg: Salmau, i. xlvii. 4.

Dilyn ar ol, to follow after; to pursue; to succeed.

Na *ddilyn ar ei ol* ef mwyach.
Eccl. xxvii. 17 (cf. xlviii. 8).

Dilyn cyfiawnder, to follow after righteousness. —*Rhuf.* ix. 30.

Dilyn gwirionedd, to follow truth.

Os *dilyni wirionedd*, dy holl weithredoedd a lwyddant i ti.
Tobit iv. 6.

Dilyn buchedd newydd, to lead a new life.—*Llyfr Gweddi Gyffredin.*

Dilyn cynghor, to follow counsel or advice.

Dilyn galwedigaeth, to follow a calling or profession.

Mor dew ag ewin aradwr gwedi *dilyn* ei *alwedigaeth* am naw mlynedd.—*Brutus:* Brut. 343.

Dilyn crefft, to follow a trade.

Dilyn difyrwch, to follow pleasure or amusement.

Dilyn y gyfraith (1), to follow the law (as a profession).

(2) to follow the law (as a litigious person); to go to law.

Yr oeddid unwaith yn cyfrif yn argoel o afiwydd i wr gwyno a *dilyn cyfraith:* ac yn awr nid dim yw'r neb nid yw yn cynniwair i lysoedd cyflawnder.
Iago ab Dewi: Llonyddwch, 134.

Dilyn y llythyren, to follow the letter.

A thra na byddo y rhai hyn yn pregethu ond y gwir, nid oes fater am *ddilyn llythyren* eu testun.
Morgan Llwyd: Tri Aderyn, 26.

2. to follow (as a model or pattern), to imitate.

Am *ddilyn* Christ, a dibrisio pob gwagedd bydol.
Huw Owen: Dilyniad, i. i. 1.

Diwyd haelioni ei dad *dilyned*.—*Gronwy Owain*, 69.

3. to succeed, to come after, to follow.

Dilynadwy, *a.* that may follow or be followed; pursuable; imitable.

Dilynedig, *a.* followed; pursued; succeeded.

Dilynedigaeth, -au, *sf.* the action of following or pursuing; a following; pursuance; pursuit; imitation; succession.

Dilynedigol, *a.* successive, succeeding; consecutive.

Yr oedd ei dad a'i daid yn weinidogion, ac yn beriglor-iaid *dilynedigol* ym Mhenegoes, swydd Drefaldwyn.
Seren Gomer, v. 193.

Dilynedigolrwydd, *sm.* successiveness.—*W.*

Dilyngar (*n-g*), *a.* apt to follow; inclined to imitate.

Dilyngarwch, *sm.* aptness to follow or pursue.

Dilyniad, -au, *sm.* a following; a pursuing; imitation; succession; continuation.

Gwyddai Duw, Awdwr yr Ysgrythyr, yn hyspys am *ddilyniad* yr oesoedd dyfodol a'u holl helyntion a'u dygwydd-iadau, o'r dechreuad hyd y diwedd.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 69.

Patrwm y Gwir Gristion, neu *Ddilyniad* Iesu Grist.
Huw Owen: Dilyniad (Enw).

Dilyniad o freninoedd Babilon.
Simon Lloyd: Amseryddiaeth, 229 (cf. 242).

Dilyn di y croeshoeliedig Iesu . . . ni bydd byth edifar genyt o herwydd dy *ddilyniad*.
Lewis Anwyl: Nefawl Ganllaw, 21.

Rhaid i'r *dilyniad* hwn fod yn gynnwysedig mewn hollol ymroddiad iddo o'n calonau.
Nicander: Dysga Fyw, 274 (cf. 75).

Dilyniad, iaid, *sm.* a follower; an adherent, a disciple.

Ni rwystrir ef gan osgordd o *ddilyniaid*, nis blinir gan waedd erfyniad.—*W. O. Pughe:* E.D. v. 2 (cf. i. 8).

Dilyniaeth, -au, *sf.* a following; succession; pursuance, pursuit; imitation.

Dilyniawdr, iodron, } *sm.* a follower; a suc-
Dilyniawdwr, wyr, } cessor.

Dechreuasant agor iddynt athrawiaeth a rheolau y Sanctaidd Eglwys Rufain . . . a bod y Pab yn ficar sanct-aidd Crist, a *dilyniawdwr* St. Pedr.
W. Lewes: Dwy Daith, 113.

Dilyniedydd, -ion, *sm.* a follower; a successor; an imitator; an adherent, a disciple.

Argraffwyd Geirlyfr gan Titus Lewis, ac nid ydyw ond *dilyniedydd* i'r un uchod, a'r rhan fwyaf o hwnw fyth yn Saesoneg.—*Gwyliedydd*, i. 468.

Dilyniedyddes, -au, *sf.* a female that follows; a female follower or adherent; a (female) disciple.

Dilynol, *a.* following; pursuing; imitative; succeeding (in time), successive, subsequent, consequent; consecutive.

Bod llun a dull y Grog yn yr ymgroesiad hyn, sy'n coffäu i ni ddioddefaint Crist, ac yn *ddylynol*, ymgnawdol-iaeth Mab Duw.—*R. Smith:* Eglurhâd, 10.

Argymmeriad yw addurneg, pan adroddir yr unrhyw sain, yn niwedd y frawddaeg flaenorawg, ac yn nechreu'r araith *ddylynawl*.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xxiv.

Darllen a gwrando Gair Duw ydynt ddwy-ffordd o'r un ddyledswydd sydd yn benaf yn gweithio ffydd, ac yn *ddilynol* pob grasau ysprydol ereill.
Elis Wynn: Rh.B.S. 192.

Maddeuant pechodau, ac yn *ddilynawl* i hyny.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 275 (cf. 484, 485).

Y mae yn rhyfeddach fod yr adar symmudol yn nythu yn yr un man am flynyddoedd *dilynol*, na bod y piogod yn gwneuthur felly.—*Cylchgrawn*, i. 34.

Dilynu, *v.*=*Dilyn.*

Ymhyfryda efe yn eu *dilynu* hwynt ar hyd y dydd.
W. O. Pughe: E.D. i. 4.

Caffynt ef ym mhlith ei blant, yn ei amaethyddiaeth, yn ei ardd, yn *dilynu* rhyw ddifyrwch gwladawl.
Seren Gomer, xv. 70.

Yn yspaid dwy flynedd y buont yn Nulyn yn *dilynu* eu galwedigaeth.—*Seren Gomer*, xvi. 34.

Digitized by Google

Dilynwr, wyr, } *sm.* a follower; a successor;
Dilynydd, -ion, } an imitator; an adherent; a disciple.

Yr wyf yn atolwg i chwi, byddwch *ddilynwyr* i mi.
1 *Cor.* iv. 16 (cf. xi. 1).

Y rhai diweddaf hyn yn arddelwi bod yn *ddilynwyr* St. Pedr.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 30.

Hywel Dda a'i *ddilynyddion.*—*Brutus:* Brut. 342.

Yna gallwn droeglwyddo yr Eglwys i'n *dilynyddion* yn ei chyfanrwydd.—*Llan*, Meh. 29, 1894.

Dilynwyr cyfiawnder, those that follow after righteousness.—*Esa.* li. 1.

Dilynyddes, -au, *sf.* a female follower, successor, imitator, or disciple.

Dilynwiw, *a.* worthy to be followed or imitated; exemplary.

Chwiliwch goffaon ei dymmer nefol, a'i ymarweddiad *dilynwiw.*—*D. Williams:* Myfyrdodau Hervey, 375.

Dilyr, -au, *sm.*=*Diler.*

Dilyrbren, -au, -i, *sm.*=*Dilerbren.*

Dilyriaid, *s.pl.* [dilwr] those that are behind, the hindmost ones; stragglers.

Or byd bugeilgi hagen eidon taladwy a tal. Ac ot amheuir y uot y uelly ef tyged y perchenawc a chymydawc uwch y drws ac arall is y drws y uynet ym blaen yr ysgrybyl y bore, a chadw y *dilyryeit* y diwedyd.
Cyfreithiau Cymru, i. 730.

Dilys, *a.* [di-+llys, llysu: O.Ir. *diles, diless* (Zeuss: G.C. 21). Its resemblance to Gr. δῆλος, with which it has sometimes been compared, appears to be simply accidental] certain, sure, indubitable; assured; steadfast, firm; secure.

Mi a debygaf heb yr arglwyd y uynet ef yr ogof. ac ot aeth ef yno *dilis* yw y vwyta or griffyeit.
St. Greal, ‡ 216 (cf. 55).

Nini a deuedun dikutau y gwystyl hunu ae y vod en *dilis.*—*C.C.* i. 120 (cf. ii. 122, 174, 368).

Caru dyn nyd *dilys* ogoned
Can dyddaw i fraw frwyn dynged.
Gwalchmai: M.A. i. 201 (cf. 216, 294, 295, 326).

Dilys ym', myn delw Seimon!
Y syr rhai, o threisir hon.
D. ab Gwilym, cxciii. 31 (cf. xxix. 33; ccxxiv. 13).

Ni ddaliaf *ddilys* o ddyn.—*Diareb.* (M.A. iii. 167.)

Ei enaid a el i'r man *dilys.*
L. G. Cothi, vii. iii. 45 (cf. iii. iv. 59).

Ac i chwithau y mae yn beth *dilys.*
W. Salesbury: Phil. iii. 1 (cf. 2 Cor. xi. 1).

Pan dderbyniasoch genym air pregeth Dduw, nas derbyniasoch fel gair dyn, eithr fel y mae yn *ddilys* yn air Duw.
Esgob Morgan: 1 Thess. ii. 13.

Y rhai yr ydwyt yn eu meithrin yn dy *ddilys* ofn a'th gariad.—*Llyfr Gweddi Gyffredin.*

Gwelwch yma gyweirio'r gair o flaenllaw, er mwyn egluro yn *ddilysiach*, ac er dangos yn brysurach.
Henri Perri: Egluryn Ffraethineb, xxxiii. 1.

Dilys yr yf coed eilwaith
Y dwr a lwnc daiar laith.—*Gro. Owain*, 19 (cf. 13, 105).

Dim pob gwybodaeth, *dilys* yw,
Wrth wirioneddau llafar Duw.
Iolo Morganwg: Salmau, ii. xi. 4.

Dilys genyf, } I am certain; I am
Dilys yw genyf, } sure; I have not the
Mae yn ddilys genyf, } least doubt.

Dilis yw gennyf mae vym pechodeu yssyd yn llesteiryaw.
St. Greal, ‡ 33.

Dilys genyf eich bod chwi, fy nghyfaill parchus, yn cyduno â mi o ran cangder a chywirdeb yr egwyddor cang a gogoneddus hon.—*Nicander:* Ecclesia Defensa, 14 (cf. 26).

Gwybod yn ddilys, to know for certain.

Mi a'i gwn yn ddilys, I am certain of it.

A hyn a *wn yn ddilys.*—*W. Salesbury:* Phil. i. 20.

Gadaw y dilys a chymmeryd yr annilys, to leave certainty and stick to chance.

Yn ddilys, certainly, surely, assuredly, undoubtedly, verily; to be sure; for certain.

Hyn oll yr wyf yn ei gredu *yn ddilys.*
Llyfr Gweddi Gyffredin (Bedydd).

Yr oedd hyn, *yn ddilys*, yn fyd tost ac annioddefol.
Theo. Evans: D.P.O. 48.

Am hyny y mae *yn ddilys* mai Cymraeg yw yr ychydig eiriau uchod.—*Theo. Evans:* D.P.O. 164 (cf. 43).

Pwy, 'r Nefol Ior! o fewn dy lys,
A gaiff *yn ddilys* drigo?
Iolo Morganwg: Salmau, i. clxxxv. 1 (cf. clxxxii. 6).

Yn ddilys ddiammheu, most certainly, undoubtedly, or assuredly; in very truth.

Ein hynafiaid ni, yr Hen Gymry, oeddent *yn ddilys ddiammheu* y trigolion cyntaf yn Ffrainc yn yr amseroedd gynt.—*Theo. Evans:* D.P.O. 8 (cf. 126, 130).

Y mae hyn o goel cyn hyned, o leiaf, ag amser y Rhufeiniaid, canys credid hi *yn ddilys ddiammheu* yn eu plith hwynt.
Ystên Sioned, 65.

Yn ddilys ddigon, sure enough, sufficiently certain, certainly true, quite certain.

Nid oedd ond un dafodleferydd o'r blaen drwy'r byd mawr, sef yr Hebraeg *yn ddilys ddigon.*
Theo. Evans: D.P.O. 6 (cf. 12, 36, 73, 95, 114, 133, 190).

Canys efe, *yn ddilys ddigon*, a biau y flaenoriaeth.
Ystên Sioned, 52.

Y mae ceiliog gwyn *yn ddilys ddigon* o ddwyn drygfyd a thrychineb gydag ef.—*Ystên Sioned*, 74.

Gwirionedd dilys, undoubted or indubitable truth, certain truth.

A yw y gwyrthiau hyn, a llawer ereill ychwaneg, yn *wirioneddau dilys*, sydd beth mwy nag allaf fi ddywedyd.
Theo. Evans: D.P.O. 244.

Câr dilys, a true or sincere friend, a friend indeed.

Y *câr dilys* ing a'i dengys.—*Iolo Mss.* 227 (cf. 226).

Pridd dilys, compact mould, solid earth.

Y sawl uarwbrenn a thwympath a uei ar y maes. a losgei y anadyl hyt y *prid dilis.*—*Mabinogion*, 115.

Tir dilys (1), solid or firm earth, dry land, terra firma.

Dywedir am ryw longwr gynt a oedd mewn garw fordwy a pherygl o'i fywyd; ac addaw a orug i Dduw, er ei amddiffyn o hyny, y byddai wr da tra fai fyw: a phan ddaeth ef i'r lan ac i'r *tir dilys*, dywedyd a orug: Aha! Iesu! mi a'th dwyllais yn wir yr awr hon; ni byddaf wr da eto!
Iolo Mss. 166.

(2) undisputed land or landed property.

Tri dyn a gyneul tir ac ae herbyn o vewn llys kymwd neu gantref ac ny dylyant vod ynn bleidieu y atteb y neb oe tired yn llwrw kwneu . . . nid amgen dyn eglwysic y rodo y brenhin dir idaw drwy weithred a hynny oe *dir dilis* eu hyn.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 396.

Aur dilys, pure or fine gold.

Dyddugant thus ag *aur dilys* o Ethiopia.
Taliesin: M.A. i. 42.

Dydugant thus ac *eur delus* o Ethiopia.—*A.B.* ii. 174.

Dilysbryd, *sm.* [dilys+bryd] attention.

Er peri mwy o *ddilysbryd* ar wrando.
H. Perri: Egl. Ffraethineb (1595), xv.

Dilysdod, } *sm.* 1. certainty; certitude, assur-
Dilysdeb, } ance, assuredness; acquittance; a certificate.

Nid oes dim ag y mae'r meddwl dynol yn ymegnïo mwy am ei feddu na phendantrwydd a *dilysdeb.*
Eisteddfod, ii. 333.

2. in the Laws, *dilysdod* is a term applied to a female who has been divorced, and free from any claim by the former husband; and to a compensation to be made by a ravisher. See *Dilysrwydd* (2).

Digitized by Google

Ac odyna gan dwyn y llall yr ty ef a dyly rodi *dilystawt* yr wreic gyntaf kanny dyly vn gwr dwy wraged o gyfreith.
Cyfreithiau Cymru, i. 524.

Y neb a dycco treis ar wreic talet y gobyr yr arglwyd; ae dirwy ae hegwedi ae *dilystawt* ae sarhaet a tal yr wreic.
Cyfreithiau Cymru, i. 748 (cf. 524, 750).

Dilysiad, -au, *sm.* a making certain or sure; certification; assurance; a securing.

Dilysiant, *a.* not rejected, objected to, or disallowed; unobjectionable; accepted; welcomed; unexceptionable; faultless.

Ac yn y lle y chaer dav gwybyddieit *dilyssyant* nev ddav dyst nev ddav geidwad digon yw dav.—*C.C.* ii. 220.

A genais o lais yn *ddilysiant*
I Wilym drwy'r byd ydd ä'n foliant.
L. G. Cothi, i. xxii. 41.

Dowch i hedd, a da'ch haddef,
Ddilysiant anwyl-blant nef.—*Gro. Owain*, 97 (cf. 101).

Yng ngoror gwiw-nef y cartrefant,
Ebystyl Iesu, byst *dilysiant*.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 24.

Yr ydwyf . . . yn bwriadu yn *ddilysiant*, ac heb gadw dim oddi wrthyt . . . na bydd i mi byth mwyach yn ewyllysgar dynu neu ddieithro fy hun oddi wrthyt.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 186 (cf. 157).

Tydi a ddywedi nad wyt ti yn gyfryw wr, a bod dy ymddygiad yn *ddilysiant*.—*Iago ab Dewi*: Llonyddwch, 58.

Gan offrwm i ti ddidor a *dilysiant* aberth o weddi, a moliant, ac addoliant.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 272.

Fy mhrif amcan i yw . . . iddo wasanaethu er adeiladaeth yn gyffredin i bawb o'r gwerin yn *ddilysiant*.
Sam. Williams: Amser (1784), Rhag. 16.

Dilysiant, *sm.* certainty; assuredness; unavoidableness.

Gwedy bo *dylyssyant* yr ynat a roddi kyfreith or arglwydd y rygthvnt yna y dyly y lleidir pan del yr orset galw am davawt a dwedut i vod yn wirion ac arddel kyfreithiol.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 212.

Dilysiantrwydd, *sm.* certitude; assurance.

Dilysiol, } *a.* tending to certify; certificatory,
Dilysol, } certifying.

Dilysioldeb, } *sm.* the fact of being certified;
Dilysoldeb, } certitude.

Dilysrwydd, *sm.* 1. certainty, certitude, assuredness, assurance; security; authenticity.

Can ys ein Efangel ni ni bu yng ngair yn unig, eithr hefyd ym meddiant, ac yn yr Yspryd Glân, ac yn *ddilysrwydd* mawr.—*W. Salesbury:* 1 Thess. i. 5.

Nid oes dilysrwydd am ddim, there is no certainty of anything.

Llythyr dilysrwydd, a certificate.—*W.*

2. in the Laws, 'a warranty by a seller of property that no claim can be substantiated to the ownership of the property other than his own;' guarantee, security, assurance.

Sef yv cvbyl teithi, iechyt a *dylysrvyd:* sef yv iechyt rac tri heint kyfreithavl y mae oet a theruyn arnadunt; sef yv *dylysrvyd* bot yn warant yr neb ae prynho hyt na allo arall na dala na damdvg na phrofi meddyant namyn y uot yn eidav ef.—*C.C.* ii. 174 (cf. 32, 72, 120, 332, 334, 702, 794).

Y neb a talho neu a wertho llo neu dinawet meichet dros y *dilysrwyd* a bit dros deu gleuyt.
C.C. i. 568 (cf. 130, 132, 570, 576, 706).

Ot adef ynteu treissaw morwyn, talet dirwy y arglwyd y wlat . . . ac idi hitheu y chowyll ae sarhaet ae hagwedi ae *dilysrwyd*.—*C.C.* i. 100 (cf. 92, 102, 127).

Dilysu, } *v.* to certify; to assure; to secure;
Dilyso, } to warrant, to guarantee.

O deruyd y dyn kymhell ar arall megys adef drwc arnaw; neu *dilyssu* da oe anuod; neu ganhadu oe anuod gwneuthur afles idaw . . . kyfreith a dyweit nat safedic a wneler trwy gymhell.—*C.C.* ii. 90 (cf. 120, 418; i. 126, 138).

A mynnu kadw y gaer a oruc y iarll racdaw a *dilyssu* y deu vab.—*Mabinogion*, 189.

Dilysu, *v.* [dy- + llysu]: see *Dylysu*.

Dilyswch, *sm.* certitude; certainty; security; safety.

Awn ar frys i'th lys, a'th *ddilyswch*,
Mal yr ä o'r glyn gwenyn i gwch.
William Lleyn: G.B.C. 268.

Dilyswr, wyr, } *sm.* a certifier; a securer; a
Dilyssydd, -ion, } guarantor.

Dilyth, *a.* [llyth] free from feebleness or weakness; vigorous; unflagging; never-fading, unfailing, infallible.

Kolli Goronwy gwr diemyth vu
Gorofyn llu llafyn *dilyth*.—*Bleddyn Fardd;* M.A. i. 369.

Nid rhaid, ddelw euraid *ddilyth*,
Yt' ofn pechawd feth-gnawd [*al.* fethl-gnawd] fyth.
D. ab Gwilym, lxxix. 21 (cf. v. 18; lxvii. 23).

Yn gaer dal, yn geirw *dilyth*,
Yn gadernyd i'r byd byth.—*Ieuan Waed Da.* (*P.*)

Dilys genyf, fardd *dilyth*,
Yn wir, na wybyddir byth.—*D. ab Gwilym*, clxxxviii. 25.

Achwyn *dilyth* hyd fyth fydd,
Baun clod, o'i fod yn ei fedd.
Meurig Dafydd: Cyfr. y Beirdd, 53 (cf. 67, 111, 165).

Ac yno'n fardd ä'i gân fyth
Yn addoli Duw'n *ddilyth*.
Iorwerth Fynglwyd: Iolo Mss. 320.

A wnelo hyn, ni lithra fyth,
Fe gaiff y *ddilyth* goron.
Edm. Prys: Salm. xv. 5 (cf. cxvii. 2).

Gwyfyn, du elyn *dilyth*
Awen yw cenfigen fyth.
Gronwy Owain, 26 (cf. 5, 12, 30, 101).

Teithiau da lwythau *dilythion*, diwarth,
O du areulbarth i dir Albion.—*Gronwy Owain*, 121.

Felly bo! ef allai byth
I ddeiliaid y gân *ddilyth*.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 175.

Ni fynent (safent yn syth)
Ond addoliad iawn *ddilyth*.—*I. B. Hir:* Gwaith, 43.

A byw ni threngant hwy byth,
E ddaliant oll yn *ddilyth*.—*W. Wynn:* Cywydd y Farn.

Gan fod o'n hamgylch, yn *ddi lyth*,
A'i air yn athraw ini fyth.
Iolo Morganwg: Salm. ii. cxliv. 1.

Yn hwnw boed im' rodio fyth,
Bucheddu'n *ddilyth* ynddo.
Iolo Morganwg: Salm. i. lxxxiii. 4.

Dilyw, *sm.* = *Diluw*.

Dilyw, *a.* [llyw] 1. without a helm or rudder, helmless.

2. without a director, leader, guide, or ruler; ungoverned, unruly.

Cawr *dilyw*, cair dy weled
Heb groeso yn crwydro Cred!—*D. ab Gwilym*, cxxv. 47.

Dilywodraeth, *a.* without government; anarchical, lawless.

Dilywodraethol, } *a.* anarchical, lawless, un-
Dilywodraethus, } governable.

Dilywodraethu, *v.* to deprive of government.

Dill, -iau, -ion, *sm.* a plait, a fold, a double.

Gwn . . . ar hyd y llawr *dilliau* hwn.—*Sion Tudur.* (*P.*)

Y mae cyffelyb *ddill* neu ddyblygiad yn cyrhaedd o'r ysgwydd i'r coesau blaen, ac o'r cefn i'r coesau ol.
Gwyliedydd, iii. 105.

Dillad, *s.pl.* [dill: C. *dillat* (C.V.), *dillas;* Br. *dilad;* Ir. *diollait, dillait*] clothes, garments, apparel, clothing, raiment, attire, dress, vesture.—*A.B.* ii. 164; *M.A.* i. 298, 513.

Ef a dely *dyllat* e urenynes er hun y penytyo endau en hyt e Garawys erbyn e Pasc.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 52.

Ae gymryt a oruc Gwrtheyrn Gwrtheneu ae dynnu oe venechtit ae wiagaw o vrenhinawl *dillat*.
Yst. Bren. Bryt: Ll.C.H. ii. 127 (cf. 42, 68, 129, 198).

Digitized by Google

Dwc y marcb racko ar *dillat* gennyt . . . ac ir ef ar ireit hwnn ar gyfeir y gallon. . . A chwbyl or ireit a rodes arnaw. ac adaw y march ar *dillat* ach y law. . . Ac arganfot a oruc y march ar *dillat* y wrthaw. . . Ac ymlithraw a oruc yny gafas tynnu y *dillat* attaw or kyfrwy.
Mab. 184 (183, 191, 192, 199, 251, 254, 260).

Drwy rodi eur ac aryant a bwyt a diawt a *dillat* y bawp or ae mynnei yr karyat Duw.—*Amlyn ac Amig*, col. 1115.

Gwedy goludoed eur ac aryant a *dillat* mawrweirthawc.
Brut y Tywysogion, 160.

Cais *ddillad* yn anad neb,
A thân cyfuwch a'th wyneb!—*D. ab Gwilym*, cxcviii. 75.

A drythyllwch a gaffant o vwyt a diawt a *dillat*.
Yst. de Carolo Magno, col. 395.

Bonedd a dywys, *dillad* a gynnwys.
Diareb. (M.A. iii. 149.)

Yn y tŷ nid oedd na bwyd, na diod, na thân, na *dillad* rhag annwyd.—*Iolo Mss.* 180.

A oedh *dilhat* amdanaw ef yna.—*Lucidar*, § 38 (cf. 139).

O, mor dirion, y Fon fau,
Dillad dy ddiadellau!—*Gronwy Owain*, 16.

Dy bryd fal *dillad* brodyr
Du a gwyn, i hudo gwŷr.—*D. ab Edmwnt:* G.B.C. 112.

Dillad duon a dynant ac a gadwant sawyr myglys yn gryfach na gwisgoedd o liwiau goleuach.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 397.

Dillad gwely [C. *dillat gweli*], bed-clothes.

Y dotrefyn a rennir mal hynn y llaethlestri oll yr wreic onnyt yn paeol ar dysgleu oll eithyr vn dysgyl . . . ar holl lestri llynn ar kerwynneu oll ac a uo danunt or *dillat gwely* ar wreic bieu a uo arnunt or *dillat gwely:* os y gwr ar hynt yna a gymer gwreic arall ef a dyly anvon *dillat y gwely* kynntaf yr wreic a wrthodet.—*C.C.* i. 522.

Dillad bach, *Dillad magu*, } baby-clothes, baby-linen.

Dillad parch, clothes worn only on special occasions; best clothes.

Dillad goreu, best clothes or garments.

Bwyd a dillad, *Ymborth a dillad*, } food and raiment.

O bydd genym *ymborth a dillad*, ymfoddlonwn ar hyny.
1 *Tim.* vi. 8.

Rhaid gweithio yn galed, a byw wedyn yn fynych mewn prinder o *fwyd a dillad*.—*Seren Gomer*, iii. 41.

Dillad gwynion, white clothes, garments, or raiment.—*Dad.* iii. 5, 18; iv. 4.

Nachaf y gwelynt gwr prud yn dyuot y mywn. a *dillat gwynnyon* ymdanaw.—*St. Greal*, § 3.

Dillad gwychion, *Dillad braf*, } fine clothes, costly apparel.—*Iayo* ii. 2.

Diammheu y gwneid i lawer wisgo dillad llwydion, o'r rhai sy yn ymhoewi mewn sidan a melfed, gan dreulio mwy yn y flwyddyn mewn *dillad gwychion* nag yr oedd eu tadau yn ei dderbyn am holl ffrwyth eu tiroedd.
Ed. James: Hom. ii. 209 (cf. 205).

Nicanor . . . a ddioasgodd ei *ddillad gwychion*.
2 *Macc.* viii. 34, 35.

Beth a delit tithau, Mammon, heb Falchder i'th wastraffu ar dai teg, *dillad gwychion*, cyfreithiau afraid, gerddi, a meirch?—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 108.

¶ Some writers occasionally use the double plural *dilladau*.

Nid yw yn dywedyd yr hwn sydd gantho gist fawr o *ddilladau*, ond yr hwn nid oes gantho ond dwy bais, rhaid iddo ymadael ag un o honynt.
Langford: Holl Ddyl. Dyn (1672), 391 (cf. 213).

Rhaid i ni wisgo'r fath *ddilladau* ag a'n cadwo yn y cyfryw gynhesrwydd gweddol ag sydd anghenrheidiol ar les ein hiechyd.
Ed. Samuel: Holl Ddyledswydd Dyn (1718), ix. 9.

Ni wisgodd ef *ddilladau* 'ffeiriadau hoff erioed.
D. Ddu Eryri (Gwaith D. Ionawr, 333).

Dilladfa, faoedd, fëydd, *sf.* 1. a place or receptacle for clothes; a wardrobe, a clothes-press.

Dilladfa, ystafell y dillad (y gwisgoedd); gwisgfa, yginfa.—*Walters*, s.v. 'Wardrobe.'

Un o forwynion fy *nilladfa* i.
Idrisyn: Dalenau, 156 (cf. 179, 180).

2. a place where clothes are sold, a 'clothing establishment.'—*Drych.*

Dilladgell, -oedd, -au, *sf.* a room or apartment for clothes; a wardrobe.—*Dicts.*

Dilladgist, -iau, *sf.* a chest for clothes, a clothes-press.—*W.*

Dilladgloer, -au, *sm.* a clothes-press.—*W.*

Dilladiad, -au, *sm.* a clothing, apparelling, or attiring; drapery.

Dilladog, **Dillatog**, } *a.* clothed, apparelled, attired; full of plaits.

A pha beth a dderfydd i'r hwn a ddynoethodd y *dilladog*?
Robert Llwyd: Llwybr Hyffordd, 214.

Clwtyn dillatog: see s.v. *Clwtyn.*

Dilladol, *a.* relating to clothes or clothing; clothing, investing.

Dillados, *s.pl.* small articles of clothing; clothes.

Gwedy angeu a marwolaeth eu ceidwaid, ddyfod o'r llyfrau hyn drwy ddrwg ddylaith a thyngedfen, i ddwylo plantos o'u rhwygo, ac i wneuthur babiod o honynt; neu at siopwragedd, i ddodi llysiau siopau ynddynt; neu ynte at deilwriaid, i wneuthur dull-fesurau *dillados* â hwynt.
Dr. I. D. Rhys: Gramadeg, Rhag. 2.

Dilladu, **Dillatu**, } *v.* [dillad: C. *dillasy*] to clothe; to dress, attire, or array; to drape.—*Matt.* vi. 30; xxv. 36, 38, 42.

Merched Israel, wylwch am Saul: yr hwn oedd yn eich *dilladu* chwi ag ysgarlet gyd ag hyfrydwch.
Esgob Morgan: 2 Sam. i. 24.

Tor dy fara i'r newynog,
A *dillata*'r noeth annwydog.
Rhys Prichard: C. y C. lxxvii. 44.

Mi welais angel cadarn arall yn disgyn o'r nef gwedy *ddillatu* o'r wybren.—*Th. Huet:* Dad. x. 1.

Ac mi a welais angel cadarn arall yn disgyn o'r nef, wedi ei *ddilladu* ag wybren.—*Esgob Morgan:* Dad. x. 1.

Pwy *ddillada* noeth di frawd,
Pwy bair y tlawd o fara?—*T. ab Iewan Madog.*

Nid ydyw gwir grefydd a bodlonrwydd Duw yn sefyll mewn gwneuthur, gosod i fyny, paentio, goreuro, trwsio, a *dilladu* delwau mudion meirwon.
Ed. James: Hom. ii. 153 (cf. 22, 134).

Cneifion dy dda gwynion gant,
Llydain, a'th hardd *ddilladaist*.—*Gronwy Owain*, 16.

Hi a *ddilladai* y tlawd a'r noeth.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 198 (cf. 431, 434).

Y mae llawnder a gwyrddlesni parhäus yn *dilladu* yr holl ardaloedd.—*Cylchgrawn*, i. 316.

Dilladwr, wyr, *sm.* a clothier; a maker or seller of men's clothes; a tailor.

Dilladwyr, cigyddion, a phobyddion yn brysur.
Dewi Wyn, 341.

Dillata, *v.*=*Dilladu.*

Yr un a orfyddo, a *ddillatëir* mewn dillad gwynion.
Thomas Huet: Dad. iii. 5 (cf. xviii. 16).

Os cenedlddyn a *ddillata*'r noeth, a bortha y newynog . . . nid ydynt iddo ef onid gweithredoedd meirwon. . . Maent yn *dillata*'r noeth, yn porthi'r tlawd, ac yn gwneuthur gweithredoedd y drugaredd.
Ed. James: Hom. i. 60 (cf. 107).

Wrth eu *dillata* hwy, chwi a'm *dillatasoch* i.
Ed. James: Hom. iii. (cf. 145).

Dillatach, **Dilladach**, } *s.pl.* different articles of clothing (of no great value).

Am y god groen, e orfu arnaf ei gadaw yno, â llawer o ryw *ddillatach* ynddi.—*I. B. Hir:* Gwaith, 218.

Digitized by Google

Nid oes genyf ddim yr awron ym mhellach i'w chwanegu, ond dioleh iwch am y drafod a gymmerasoch yng nghylch fy *nillatach* yna.—*I. B. Hir:* Gwaith, 221.

Golchion sebon a *dilladach.*—*Samuel Roberts:* Gweith. 37.

Dilledydd, -ion, *sm.* a maker of men's clothes, a tailor.

Dilledydd oedd ei dad, a dygwyd yntau i fyny yn yr un gelfyddyd.—*Enwogion y Ffydd,* ii. 71.

Yr un noson . . . yr oedd *dilledydd* o'r gymmydogaeth yn dyfod adref oddi wrth ei waith o'r pentref y cyfeiriwyd ato.—*Ystên Sioned,* 14.

Dilledyn, *pl.* dillad, *sm.* [sg. of *dillad*] a garment, a vest, an article of dress.—*Lef.* vi. 27; xiii. 47, 49, 51, 52, 53.

Ar ddull cwd neu god, â'i deupen yn egored, y gwnaeth-pwyd gyntaf hyny o *ddilledyn.*—*Cyfrinach y Beirdd,* 16.

Ni ddyd neb lain o frethyn newydd at hen *ddilledyn.*
Matt. ix. 16 (cf. Marc ii. 21; Luc v. 36).

Ac fel y canfyddir yr ysmotyn lleiaf yn y *dilledyn* gwynaf, felly hawdd yw craffu ar y gronyn lleiaf o frynti yn y fuchedd lanaf.—*M. Cyffin:* Diff. iii. 9.

Dilliad, -au, *sm.* a folding or plaiting; a fold or plait.

Pob *dilliad* cauad cuall,
Mal llong, dros ymyl y llall.—*Guto'r Glyn.*

Dyblygir hwn yn *ddilliadau* mawrion o amgylch y gwddf.
Gwyliedydd, iii. 105.

Dillig, *a.*=*Dillyn?*

Rei gwyllt rei dof Douyd ac gwna
Yn *dillig* vdunt yn dillat yd a.
Taliesin: A.B. ii. 164 (M.A. i. 22).

Dillin, *a.*=*Dillyn.*

Ef dyfu dreic llu yn llassar dillad
Yn *dillin* kyuarpar.—*Llyw. ab Llywelyn:* M.A. i. 298.

Dillio, *v.* to plait, to fold; to fold over; to double.

Dilliog, *a.* full of plaits or folds; plaited, folded.

Dilliwr, *pl.* dillwyr, *sm.* a folder, a plaiter.

Dillni, *sm.* [cf. *dillyn*] neatness, elegance, nicety.

Llafn marwor briw ffriw diffrwyn,
Un llif aur yn llaw forwyn,
A thrwod hardd orfod hir
Dillni beirdd y dëellir.—*Rhys Goch Eryri,* i Wregys.

Gwelir *dillni* a chynnildeb yn ei hanneddau.
W. O. Pughe: E.D. iii.

¶ The alliteration in Rhys Goch (as quoted by Pughe) would require *dilli* (or some such form) rather than *dillni.*

Dillwng, *v.* [dy-+llwng: cf. *gollwng*] to let go; to liberate, to free, to release, to set free; to absolve.

Em pop amser y *dylluc* escrybyl o karcar ny dyleyr namen aryant tal.—*Cyfreithiau Cymru,* i. 322.

Ac yna y dylyir y *dillwng* oe werth ae trayanwerth.
Cyfreithiau Cymru, ii. 198 (cf. i. 560, 742).

Vyg gwreic i yw hi a pha ny bei hynny nys *dillynghwn.*
Mabinogion, 57.

Tri chant punt o areant. nev ev kywerthyth o beth arall. ac yr hynny y *dillyngwyt* ef yn ryd.
Brut y Saeson: M.A. ii. 543.

Ac yna wedy *dillwg* ywrthaw y niueroed mwyaf oe luoed ac eu hadaw yn yr Ysgaen. y kerdwys Chyarlys parth a Seint Iac.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 405 (cf. 441).

Cyureu Kyrridwen rwyf bartoni
Yn dull Talyesin yn *dillwng* Elfin.
Ll. ab Llywelyn: M.A. i. 303 (cf. 234, 361, 392).

Or goruydir arnat. gwybyd di nath *dillyngir* ac yth vwrir yng carchar vyth.—*St. Greal,* § 26 (cf. 66, 120).

Dillwng karcharor dullest voleid.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 266 (cf. 287, 348, 357).

Ag un gwas ae *dillyngwys* or tri charchar hynny.
Trioedd: M.A. ii. 13 (cf. 543).

A alhant wy elhwng. neu *dilhwng.*—*Lucidar,* § 50.

Dillwng dy fardd a dwyllwyd
I mewn, ddyn, i'r man ydd wyd!
Dafydd ab Gwilym, cxxxi. 37.

Dillyddu, *v.* to pour; to flow.

Gogwn pan dyleinw gogwn pan *dillyd.*
Taliesin: A.B. ii. 135 (M.A. i. 36).

O gyssul estrawn, ac anghyviawn venaich
Dillydd dwvyr o fynnawn
Tru trym-ddydd am Gadwallawn.
Llywarch Hen: M.A. i. 122 (cf. 42).

Pan gyrchei yg kywlat e glot oed anvonavc
Ef *dilydei* win gwr eurdorchauc.
Gorchan Maelderw: A.B. ii. 100.

Dillyngain, *v.*=*Dillwng.*

Dogyn dwfyn diwerin
Dillygein Elphin.—*Taliesin:* A.B. ii. 157 (M.A. i. 65).

Dillyngdod, *sm.* release; liberation; absolution.

Pan yttoed Charlys yn lluestu yg Kaer Baion ae lu. y cleuychwys marchawc Romaric oed y enw. a gwedy y wanhau a chymryt kymun a *dillygdawt* y gan effeirat. march oed idaw a orchymynnwys y gar idaw y werthu.
Yst. de Carolo Magno, col. 385.

A chanhattaa vot y dolur ar angheu yr wyfi yn y dioddef yr awrhonn yn lle penyt ym dros vym pechodeu ac yn *dillyngdawt.*—*St. Greal,* § 56.

Heb yr Amherawdyr. llyna *ddillyngdawt* teg.—*Ipotis,* § 12.

Dillyngiad, -au, *sm.* a loosening; liberation.

Dillyngio, *v.*=*Dillwng.*

Dwfyn darogan dewin drywon
Pebyllyawnt ar Tren a Tharanhon
Gorllechant gordyfynt y geissaw Mon
Pell debet by hyt o Iwerdon
Tec ffaw *dillygyaw* Kessarogyon.
Taliesin: A.B. ii. 212 (M.A. i. 31).

Dillyngol, *a.* tending to loosen or liberate.—*P.*

Dillyn, -ion, *a.* [dill ?] neat, pretty, fine, elegant, trim; spruce, gay, fine.

Llaryeiddwyn *dillyn* llawn dullyat Moesen
Llwyddei gyhoed llen llaw digaead.
Casnodyn: M.A. i. 422 (cf. 298, 559).

Dillyn ieuanc carpiawg hen.—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Dianair yw dy wyneb,
Dillyn yn', ni'th dwylla neb!—*D. ab Gwilym,* cliii. 37.

Tremmyn ar *ddillyn* porphor ddillad.
Hywel ab Einion Lygliw: M.A. i. 513.

Nid gem oferedd gymhwyll,
Nid bedw glyn, nid *dillyn* twyll.
Dafydd ab Gwilym, xxxvii. 17.

Plethais adail o'r mân wiail,
Yn bleth *ddillyn,* ail gwaith gwenyn.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 234.

Dillyn yw o'r dull newydd.—*D. ab Edmwnt,* i'r Cae Bedw.

Yn ncsaf at gadw calon lân oddi mewn, eu gofal a fyddai cadw eu llanoedd yn lân, yn weddaidd, ac yn *ddillyn.*
Theo. Evans: D.P.O. 324.

Y mae llaweroedd yn ymhoewi mewn melfed a sidan, yn wychion ac yn *ddillyn* mewn golwg.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 370.

Dillad mor wychion ac mor *ddillynion,* ac amryw addurnau ereill.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. 1. viii. 8.

Rhosyn *dillyn* yn lle dau,
Y bla gwrthwyneb liwiau.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 68.

Dillyn, -ion, *sm.* something which is neat, pretty, elegant, or beautiful; a jewel, a gem, an ornament.—*M. A.* i. 64, 515, 559.

Na phair, ddyn deg, waneg wedd,
Grogi *Dillyn* y Gwragedd!—*D. ab Gwilym,* lxxxviii. 29.

Dillynion, beauties, elegancies; ornaments, jewels; fineries; adornments, embellishments.

Lluniais gerdd o *ddillynion*
I geisio dyhuddo hon.
D. ab Gwilym, lxxvii. 33 (cf. cclx. 81).

Digitized by Google

Os llawer o ei hamser a dreulia hi ar wisg a *dillynion* . . . troa dy wyneb oddi wrth ei swynion.
W. O. Pughe: E.D. iv. 1.

Ei waed llawn o'r *dillynion*,
Ceinion achau, llwythau llon.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 104.

Yn ofer y tardd trwy di dir heb eu gofyn
Ddillynion per anian yn fil ac yn fyrdd.
Blackwell: Ceinion Alun, 186.

Nid oes trysor a ddorwn,
Na byd da'n y bywyd hwn,
Na dail llwyn, na *dillynion*,
Na byw hwy, oni bai hon.—*Gronwy Owain*, 59.

Gorchestion a *dillynion* mabanaidd, ac anhybwyll iawn, a gerid yr amseroedd hyny.
Iolo Morganwg: Cyfr. y Beirdd, Rhagdd. 14.

Dillynion haf, the beauties of summer.

Dillynion ymadrodd, beauties of speech or language.

Dillynaidd, *a.* of a neat kind or quality; pretty; tidy, neat, tasteful.

Cyboeddodd gyfres o bennillion synwyrlawn, diarebol a *dillynaidd*.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 308.

O blegid bod yr Aiphtiaid oll, ond yn enwedig eu hoffeiriaid, yn dra glanwaith a *dillynaidd* yn eu hymddygiad a'u defodau.—*Gwyliedydd*, vii. 241.

Dillynder, -au, } *sm.* neatness, elegance, pret-
Dillynedd, } tiness, primness, smartness.

Gwelwch y Gwanwyn yn rhodiaw mewn prydferthwch a *dillynder*.—*Gwyliedydd*, vii. 140.

Er bod ei holl ddychymmygion yn eang, eto, gwyddai pa fodd i gyssoni harddwch a *dillynder* gydag ardderchogrwydd.—*Cylchgrawn*, ii. 146.

Dillynderau, beauties, elegancies; niceties; fineries.

Ymddengys fod yn ymgyfarfod yn yr hybarch gangeniaith honno wahanol *ddillynderau* Powys a Deheubarth hefyd.—*Gwyliedydd*, v. 273.

Dillynes, -au, *sf.* a neat, pretty, or elegant one; a beauty, a jewel.

Delw ddoeth hudolaidd iawn,
Dillynes y dwyll uniawn.—*Gutyn Owain.*

Dillynwiw, *a.* neat and becoming; pretty and tasteful.

Arfera eu rhieni hyd y dydd hwn wisgo y meibion bychain mewn siacedau . . . y rhai a wewyd ag amryw liwiau, brithwaith y rhai sydd yn dra *dillynwiw*.
Gwyliedydd, vi. 324 (cf. vii. 144).

Dim, *sm.* [Ir. *dim;* Br. *dim*] 1. nothing, naught.

Vrth na henyw o gylch y Drindawt yr hwnn y syd bop ryw beth. ar *dim* y troir. a chyt a *dim* y kollir. Sef yw *dim*. absenn a gwrthwyneb y bop ryw beth ac am hynny odieithyr kylch pob ryw beth y mae a chyt ac ef y mae pechawt. kannys vn ryw yw pechawt a *dim* ac am hynny y collir y pechaaduryeit t'gedigyon byth yn y pechodeu gyt a *dim* o achaws ymadaw o nadunt yar hyn y syd bop [peth] drwy dodi eu hynvytserch ar *dim*.—*Llyfr Ancr*, 89.

Dim ar y ddaiar yw dyn.—*Iolo Goch.*

Dim yw ei gais ond am gael
Ne manod gain ei meinael.—*Iolo Mss.* 249.

Pa faint ei nerth ? maint mawr ei gariad !
Pa ddyn a'i hedrydd ? ym mha iaith ?
Y bydoedd oll yn un eu bwriad,
Dim ! dim ! eu nerth, llwyr *ddim* eu gwaith.
Iolo Morganwg: Salmau, i. iv. 1.

Ynte o ba le
Hwn arswyd cudd, y cryd tumewnawl hwn
Rhag syrthiaw idd y *dim* ?—*W. O. Pughe:* Ymson Cato.

Dim yw'r doethineb a'r cyflawnder
Sy'n ymrysonau'r ddaear hon.
Iolo Morganwg: Salm. i. l. 3.

Dim yn y byd: see s.v. *Byd.*

Dim byd, short for *dim yn y byd.*

Am ddim, for nothing, for naught; gratis, gratuitously.

Da i ddim, good for nothing; not good for anything; good for no purpose.

Dim oll, nothing at all, nothing whatever; absolutely nothing; not at all.

Llai na dim, less than nothing.—*Esa.* xl. 17.

Dim, *llai na dim*, bydd hyn o fyd,
Sy'n fawr ym mryd yr annoeth;
Dim wrth a wel golygon ffydd,
Yn y tragywydd gyfoeth.
Iolo Morganwg: Salmau, ii. xxxviii. 2.

Dim o ddim, (lit.) nothing of nothing; nothing in the world, nothing whatever.

O ddim, dim a ellir, de nihilo nihil fit.

Myned i ddim, } to go to nothing; to go to
Myned ar ddim, } naught.

I'r dim, to the nicest point; to a tee; exactly, precisely.

Mae yn ateb y diben i'r dim, it exactly answers the purpose; it answers the purpose to a tee.

Myned i'r dim, to go to nothing; to go to naught; to go to the wall; to fail entirely; to be reduced to nothing.—*C.S.*

Dwyn hyd ar ddim, to reduce to nothing.

Gwedy clybod o Vagnus brenhin y Ffreinc yn mynych vedylyaw diffeithaw yr holl wlat, ae *dwyn hyt ar dim*, dyfryssyaw a orue y eu kyrchu.—*Brut y Tywysogion*, 62.

Myned yn ddim, to go to nothing; to become non-existent; to cease to be.

Pallodd ynof nerth fy nghalon;
Aeth yn ddim fy ngobaith oll.
Iolo Morganwg: Salm. ii. lxi. 2.

Aeth pyd *yn ddim*, fe ddarfu'r braw.
Iolo Morganwg: Salm. i. cxx. 2.

Dim ond, nothing but, nothing except; only; merely, simply, solely.

Dros chwech awr, nid oedd *dim ond* y distryw gwyllt o bob ochr.—*Theo. Evans:* D.P.O. 122.

Allan o ddim, out of nothing.

Hwn a'u dygodd *allan o ddim*, a hwn a ddichon ddwyn dy ddim dithau i fod yn rhyw beth oanmoladwy o fiaen Duw.—*Morgan Llwyd:* Gair o'r Gair, iv. 13.

Dim diddym: see *Diddym.*

2. (with a negative expressed or implied) a thing, something, anything (aliquid); the least or smallest thing. It is often used to emphasize a preceding negative.

Greyc tayauc ne eill rody *dim* namyn benfeckyau y goger.—*C.C.* i. 94 (cf. 8, 110, 112, 114, 130, 178, 272).

Kanys ar degwch ny phelleut o *dim*.—*St. Greal*, § 2.

Rac gossod or lleycyon *dym* a uey yn erbyn er escrythur lan.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 2 (cf. ii. 182).

Ny russya *dim* ragot yny delych ym kyuoeth i.
Mabinogion, 3 (cf. 35, 48, 50, 53).

A wdost ti *dim* y wrth Uabon uab Modron ?
Mabinogion, 129, 130, 166.

Nyt oed *dim* a allei uot yn direitach nor Kediuor hwnnw.—*Brut y Tyw.* 128 (cf. 72, 94, 100, 102, 106, 108, 140, 150, 290).

Deu uann gochyon vychein yn y grudyeu. cochach oedynt nor *dim* cochaf.—*Mab.* 205 (cf. 217, 223, 241).

Marw vyd Einawn dawn dinam
O dyna ny byd da *dim*.
Gr. ab Gwrgeneu: M.A. i. 374 (cf. 177, 280, 292, 405).

Ni ddarogan ym *ddim* da.—*Peryf ab Cadifor:* M.A. i. 524.

Ofynhau na wneler *dim* na neb ryw beth yn ei erbyn or ae codho ef.—*Ymborth yr Enaid*, § 21.

Digitized by Google

Byd heb *ddim* yw bod heb Dduw.
Dafydd ab Gwilym, ccxlvi. 12.

Heb Dduw, heb *ddim*.—*Diareb.* (M.A. iii. 162.)

Y dydd hwnw nid ymofynwch *ddim* â myfi. . . Ni ofynasoch *ddim* hyd yn hyn yn fy enw i.
Esgob Morgan: Ioan xvi. 23, 24.

Nid ffiaidd genyt *ddim* a'r a wnaethost: ïe, ni wnaethit ti *ddim* pe buasai gas genyt ef.—*Doeth.* xi. 24.

Mewn gardd lysiau nid yw yr hudwg yn cadw *dim*.
Baruch vi. 70.

Nis gallant gael *dim* yn ei erbyn ef amgen nag a gadd y tywysogion yn erbyn Daniel.—*Ieremi Owen*, 109.

Nid rhyfedd *dim* i drigain oed.—*Diareb.*

Pob dim (=pob peth), every thing; all things.

Uwch *pob dim* cofier angeu.—*Iolo Mss.* 259.

Y mae efe cyn *pob dim*, ac ynddo ef y mae *pob dim* yn cydsefyll.—*Esgob Morgan:* Col. i. 17.

Arglwydd *pob dim* ydwyt ti hefyd.—*Esth.* (*Apoc.*) xiii. 11.

Gwneuthurwr *pob dim*, Barnwr pob dyn.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Cymmun).

Ym *mhob dim* diolchwch. . . Profwch *bob dim*.
W. Salesbury: 1 Thess. v. 18, 21.

Y mae [cariad] yn dioddef *pob dim*, yn credu *pob dim*, yn gobeithio *pob dim*, yn ymaros â *phob dim*.
1 *Cor.* xiii. 7 (cf. Col. i. 16).

Trwy yr hwn y dichon efe ddarostwng *pob dim* iddo ei hun.—*Ll. G. Gyffredin* (Claddedigaeth).

Ni cheir dim o ddim, } nothing comes of no-
Ni ddaw dim o ddim, } thing.

Er dim, on no account; on no consideration whatever; by no means.

Ny allaf i hynny *yr dim*.—*Mabinogion*, 206.

Nid yw dda i ddim, he is good for nothing; he is good for no purpose.

Peth heb ddim, a thing of naught; nothing; a nonentity.—*Hagg.* ii. 3.

Nid yw hyn ond chwedl ofer, a *pheth heb ddim*.
M. Cyffin: Diff. vi. 21.

Yn anad dim, above everything, above all things; most especially.

Heb law hefyd fod Duw yn fynych drwy ei brophwydi yn erchi y brenin, *yn anad dim*, dori y llwyni.
M. Cyffin: Diff. vi. 19.

Gwell Duw no dim, God is better than anything.—*M.A.* iii. 159.

Y dim lleiaf, the least thing; the smallest conceivable thing.

Mewn dim o amser, in no time; instantly.

Dim wy, the pellicle inside an egg-shell.

3. that which is inconceivable or incomprehensible. This appears to be the meaning in the following quotations, unless the whole is purely cabbalistical.

Nid dirgel ond *dim*; nid *dim* ond anfeidrol; nid anfeidrol ond Duw; nid Duw ond *dim*; nid *dim* ond dirgel; nid dirgel ond Duw.
Nid Duw ond yr hyn nis gellir ei gyffred; nid nis gellir ei gyffred ond *dim*; nid *dim* ond anfeidrol; nid anfeidrol ond Duw; nid Duw ond *dim*.
Dim yw'r mwyaf oll, a'r anfeidrol ar bob difant.
Barddas, i. 214, 216.

Nid anfeidrol ond *dim*; nid *dim* ond Duw.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 23.

Dim, *a.* no, none, not any, not anything, in no degree; any.

Ni bydd arnynt eisieu *dim* daioni.—*Salm.* xxxiv. 10.

Nid rhaid i enaid *ddim* da,
Na *dim* einioes ond manna.—*Ll. G. Cothi*, 111. xxxii. 55.

A chan fod hyn mor eglur hynod na ellir *dim* gwad o honaw . . . beth yw'r achos na allant hwy yr awron aros mo'u galw adref drachefn at y rhai hyny?
Morus Cyffin: Diff. v. 13.

Y pryd nesaf y mae *dim* crybwyll am helynt y Brytaniaid, sydd o gylch y flwyddyn 286.—*Theo. Evans:* D.P.O. 61.

Ni wna ynddo *ddim* gwaith.—*Ecs.* xx. 10 (cf. Deut. v. 14).

Dim anair i wŷr yr eglwys.—*Diareb.* (M.A. iii. 182.)

Na lywodraethed *dim* anwiredd arnaf.—*Salm.* cxix. 133.

A *dim* gwaith nis gwnewch.—*Lef.* xvi. 29.

O wadn y troed hyd y pen nid oes *dim* cyfan ynddo.
Esa. i. 6.

Dim, *adv.* no, not, in no degree; (not) at all. Generally used to emphasize another negative. Similar also is the adjectival use. Neither the adj. nor the adv. affect the initial of the following word which they qualify.

Ni ddiangant hwy *ddim*.—1 *Thess.* v. 3.

Os y meirw ni chyfodir *ddim*.—1 *Cor.* xv. 29.

Nid yw efe *ddim* pell oddi wrthym ni. . . Nid yw efe *ddim* henach yr awr hon nag oedd efe er ys pum mil o flynyddoedd.—*Morgan Llwyd:* Gair o'r Gair, ii. 9, 10.

Nid aeth ef ddim, he did not go; he did not go at all.

¶ With the apparent contradiction of *dim* being used both negatively and affirmatively, we may compare the similar employment of its equivalents in the classical languages. In certain cases two negatives in Welsh, as in Greek, do not destroy each other, but they strengthen the affirmation.

Dimai, *pl.* dimeiau, dimeiod, *sf.* [L. *dimidium*] a halfpenny.

Gurth pop vn onadunt *dymey* neu eskub heyt.
C.C. i. 280 (cf. 298).

Y vlwydyn rac wyneb y peris Etwart vrenhin ffuruaw mwnei newyd, a gwneuthur y *dimeiot* ar ffyrlligot yn grynyon.—*Brut y Tywysogion*, 370.

Dimei nis talei'r telynorion.
Iorwerth Beli: M.A. i. 476 (cf. 486).

Ceiniogau, lle'u cynnygian',
Ac weithiau'r *dimeiau* mân.
L. G. Cothi, v. vii. 51 (cf. vi. v. 16).

Pen punt a llosgwrn *dimai*.—*Diareb.* (M.A. iii. 175.)

Ni chyrhaedd, os cymharir ef i wobrwy bywyd trag-wyddol, cymmaint ag un *ddimai* mewn golygiad a chyffelybiaeth i fyrddiwn o aur.—*Elis Lewis:* Drexelius, 274.

Ceiniogau, *dimeiau* mân,
Yn eu taith, a gânt weithian.—*I. B. Hir:* Gwaith, 95.

Gwerth dimai, a halfpenny-worth.

Yna cymmer *werth dimai* o bybyr pyloraid, a bwrw yn y llyn.—*Meddygon Myddfai*, ii. 150.

Er nad oedd y peth a ddygodd yn *werth dimai*; hi a'i curodd â gwialen fawr.—*Cawrdaf:* Meudwy, 90.

Ceiniog a dimai, a penny and halfpenny, three halfpence.

Yno y bu kymeint eisseu bwyt ar y llu. ac y gwerthit yr wy yr *keinawc a dimei*.—*Brut y Tywysogion:* Ll.C.H. ii. 347.

¶ *Dimai* is used in some familiar expressions in which *farthing* would be its nearest equivalent in English.

Dimai goch, a brass farthing.

Chwi fedrwch droi coronau crynion
I fyn'd yn fân a *ddimeiau cochion*.
Huw Morus: E.C. i. 336 (cf. 288, 340).

Ei gylla weithiau'n gwaeddi'n groch,
Pob *dimai goch* ar goll.—*Cawrdaf:* Meudwy, 115.

Nid oes ganddo amser i rifo dimai, he has no time to count a farthing.—*C.S.*

A chyn i'r foneddiges gael hamdden i droi ei thafod yn ei phen, na chael *amser i rifo dimai* . . . yr oedd y ceiliog yn fyr o'i ben!—*Ystên Sioned*, 74.

Dimedd, -ion, } -au, *sm.* [dim] nothingness,
Dimder, } nihility, non-existence, non-
Dimwedd, -au, } entity.

Dim o ddimeddion Cred, nothing of the nothings of Christendom.—*Diareb.*

Dim o *ddimwedd* dim yn y byd.—*C.S.*

Digitized by Google

Dimeiach, *s.pl.* paltry halfpence or farthings; small coppers.—*C.S.*

Dimeiwerth, *sm.* a halfpenny-worth.

Dimhau, } *v.* to annihilate; to reduce to nothing
Dimio, } or nonentity; to abrogate.

Tafian o'r Graddau carennydd a chyfathrach sy'n chwanegu pob pechod cnawdol yn ol fal y bo'r gradd yn nes, yn rhwystro priodi, ac yn diddymu, sef yn *dimhau* yn hollawl y briodas a ammodwyd, sef a wnaed.
Allwydd Paradwys, 97.

Adoet hun *dimyaw* a gwynaf
Am lys am grys Cunedaf.
Taliesin: A.B. ii. 201 (M.A. i. 71).

Dim oll (yn y byd), dim o ddim, dim ag neu a'r a *ddimwyd* (*ddimiwyd*).—*Walters*, s.v. 'Nothing.'

Dimofal, *a.* [di-+ym-+gofal] without concern, unconcerned, careless, heedless, indifferent.—*S.E.W.*

Dimofalwch, *sm.* unconcern, indifference.

Dynion clodol gwnânt barodol wae hynodol i'w heneidiau,
Drwy ddyfalwch, *dimofalwch*, a meddalwch eu meddyliau.—*Lewis Hopcin:* Mel-gafod, 21.

Dimwnt, } *sm.* [E. *diamond;* Gr. ἀδάμας
Daimawnt, } (gen. ἀδάμαντος); L. *adamas* (acc. *adamanta*); O.E. *diamunt, diamant;* O.Fr. *diamant*] the diamond; adamant; the magnet or loadstone. Formerly in English *adamant* was identified with the *diamond* and with the magnet.

Yn y harwest nyt oed dim eithyr pali odidawc. ac ystlyslenn oed o vaen *daimawnt* calet.
Ystoria de Carolo Magno, col. 416.

Ail yw maen *dimwnt;* a'i rinwedd yw, rhoi goleu ar hyd nos, a disgleiriaf yw o'r holl feini gwyrth; ac ef a dyr y dur caletaf, ac nis tyr y dur caletaf ef, ac nis gellir ei losgi, ac un lliw y bydd â'r trechaf o liw lle bo; sef y bydd gwyrdd yng nghoed, a gwyn mewn ystafell wyngalch, a disglaer yn y bo haul, ac nis bydd tywyll, can y du yw'r unig liw nas cymmer; a lliw yr haul y bydd iddo yn y nos a'r tywyll.—*Llanover Ms.* 1.

Dyfal pawb, dau afal per,
Meini *dimwnt* mwyn dymmer.
Huw Huws: Diddanwch Teuluaidd, 209.

Din (*i*), -au, -ion, *sf.* [C. *din;* Br. *tun;* Ir. *dún, dinn, duan;* Ga. *dinn;* A.S. *tún;* E. *town*] a stronghold, a fastness, a fort, a fortress; a secure place. It has often been translated 'a hill-fort, a fortified hill or mount;' but the word does not appear necessarily to have that connotation; for in ancient times most towns and villages were built on hills, mountains, or places difficult of access, for the sake of security and the convenience of defence against hostile attacks. A similar remark applies to its derivative *dinas* in its earlier use. The choice of such sites was not peculiar to the Celts, but it was common to most ancient nations, and for the same reason.

Din enters into many place-names; and in most of them it has been usual to prefix it to the qualifying part of the name; as, *Din Alclud* (*M.A.* i. 195), *Din Breon* (i. 161), *Dinbyrn* (i. 330), *Din Drai* (*God.* 427), *Din Geraint* (*Ll.C.H.* ii. 289), *Din Sol* (*Mab.* 101), *Din Tywi* (140); *Dinbren* (=*Dinbran, Din Brân*), *Dinefwr, Dindryfal, Dineithon, Dinmael* (*M.A.* i. 232), *Dinorben* (82, 245), *Dinorweg* or *Dinorwig* (211, 421, 491), *Din Emrais*=*Dinas Emrais* (*M.A.* i. 242), *Dinteirw* (222). In some cases the initial *d* has been hardened into *t;* as *Tinsilwy* or *Tinsylwy, Tindaethwy, Tintagol* (*St. Greal*, § 197), for *Dinsilwy* or *Dinsylwy* (*M.A.* i. 436), *Dindaethwy* (*M.A.* i. 436, 455, 485), *Dintagol.* In *Dinas Dinlleu* (*Mab.* 71), and *Dinas Dinoethwy* or *Dinwythwy* (*M.A.* i. 578), we have both *din* and *dinas* in the same name. For a considerable number of names into which *din* and *dinas* enter, see *Celtic Remains*, 133—137. In some names it forms the latter component; as *Penddin, Moel Benddin*, a high hill above Dinas Mawddwy.

Pennaeth *Moel Benddin* heb gael pymnau gwin.
Iustus Llwyd: M.A. i. 558.

Din appears as *dinum, dinium, dunum*, in the Latin terminations of the names of several towns in ancient Gaul, and of some others which have come down to us in a Latinized form.

Dinacâd, *a.* [nacâd] without refusal or denial; willing, ready.

Mae ynddi drugareddau hael
I'w cael yn *ddinacâd.*—*Emyn.*

Dinacaol, *a.* not apt to refuse or deny.

Dinacâu, } *v.* [Br. *dinacha*] 1. to desist from
Dinaghau, } refusing; not to deny.

2. *a.* not refusing; that denies or refuses not; free-giving.

Hael yn unwedd, hil Nannau,
Dau enwog hil *dinaghau.*—*Gronwy Owain*, 46.

Dinad, *a.* [nad] without shouting or vociverating; noiseless, silent.

Fel y bydd olwyn men yn llefain ac yn cwyno tan lwyth bychan pan fo hi sych; ond pan fwrier ychydig olew ynddi, hi a red yn llawen ac yn ddistaw *ddinad.*
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. i. 4.

Dinag, *a.* [nag: Br. *dinac'h*] without refusal, denial, or exception; without hesitation (in giving or granting); that does not refuse or deny.

Dinas dreic vrtas eurdawn haelder
Dinac o uynac pan ouynner.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 322 (cf. 343, 492).

Enwauc dreic dragon wanas
Glyu *dinac* a gleu dinas.
Cynddelw: M.A. i. 243 (cf. 295, 334, 446).

Dinam hael o hil eryron
Dinac dreic dinas kertoryon.
Hywel Foel: M.A. i. 393 (cf. 338).

Y peth y byddo pawb yn ei gyfaddef yn *ddinag*, a ellir ei goelio yn ddiddadl.—*Ch. Edwards:* Hanes y Ffydd, 240.

A chlust dyn *dinag* annerch,
Nid yf swn ond ef a'i serch.—*Iolo Mss.* 249.

Cors roddfawr, o bwyf awr byw,
Un gedol *ddinag* ydyw.—*Gronwy Owain*, 46.

Dinair, *pl.* dineiriau, *sf.* [C. *dinair* (C.V.), *dinar, diner;* Br. *diner, dinair:* from L. *denarius*] a penny.

Nid trwyddedog ond *dinair.*—*Diareb.*

Dinam, *a.* [nam: Br. *dinam*] without blemish, flaw, or defect; faultless, blameless, spotless; unexceptionable, without exception; perfect; certain.

Mab Duw ae duc yw gyuoeth
Mab mam meir *dinam* mawr doeth.
Einion Wan: M.A. i. 335 (cf. 166, 295, 300).

Arwr Dinefwr *dinamhed* adaf
Neud athwyf ath weled
Yn bennaf yn bennaeth or gred.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 293 (cf. 312, 368).

A nith i des ysplennydd,
A'i mam oedd wawr *ddinam* ddydd!
D. ab Gwilym, xxix. 25 (cf. xlvii. 7).

Gwladus, lwyddiannus *ddinam*,
Oedd o gorff Syr Dafydd Gam.—*L. G. Cothi*, 1. i. 3.

Llyna dyno llawn *dinam*,
Llawer elain fain heb fam.—*Bedo Brwynllys*, i Filgwn.

Mae St. Paul yn cynghori Timothëus, fod ymbiliau, gweddïau, deisyfiadau, a thalu diolch tros bob dyn, yn *ddinam*, heb esgeuluso neb.
Ed. Samuel: Athrawiaeth yr Eglwys, 18.

Mae pob peth yn ddiogel a sicr gydag ef, yr hwn sy sicr a *dinam* ddiogel o dragwyddoldeb dedwydd.
Gr. Wynn: Ystyriaethau, 50.

Cofier, ar ol pob cyfarch,
Nad i ddyn y perthyn parch;
Nid yw neb ddim ond o nawdd
Un *dinam* Ion a'i doniawdd.
Gronwy Owain, 12 (cf. 52, 57, 97, 160).

Dinamedd, *sm.* faultlessness, blamelessness.

Digitized by Google

Dinas, -oedd, *sf.* [din] 1. a stronghold, fort, or fortress. See *Din*. In this sense *dinas*, like *din*, enters into many place-names; as *Dinas Basin* or *Basing*, in Flintshire; *Dinas Brân* (*M.A.* i. 512); *Dinas Cerdin*, in Cardiganshire; *Dinas Ffaraon*=*Dinas Emrys* or *Emrais*, in Snowdon; *Dinas y Garrai* (=Thong Caster, now Castor, in Lincolnshire); *Dinas Mawddwy*, in Merioneth.

Y vlwydyn honno y distrywyt *Dinas Basin* y gan Owein Gwyned.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. i. 325 (cf. 318).

Or dehev yn emyl Brvsto tv ar gogledd gorvwch y Ffiint y rwng mynachloc *ddinas Basing* a Mynydd y Glo.
Brut y Tywysogion, 8.

Sef ffuruf y gelwit y lle hwnnw gwedy hynny. *Dinas Emreis*. a chyn no hynny *Dinas Ffaraon Dande*.
Mabinogion, 98.

A *Dinas Emreis* amrygant
Amrygyr Newenhyr naw nant.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 299.

Daronwy ab Urnach Wyddel o *Ddinas Ffaraon*.
Iolo Mss. 82.

Cymhar *Dinas y Garrai*,
Wedi ei dad, yw ei dai.—*L. G. Cothi*, III. xxx. 21.

In the same sense the word is probably to be understood in many passages of the older writers: cf. *God.* 359, 429, 553; *A.B.* ii. 56; *M.A.* i. 157, 229, 243, 300, 322.

The name *dinas* is now applied to some hills where no remains of fortifications can be traced; but this may be owing to some of these defensive structures having been made of perishable materials; as was the case with several of the castles at a later date, which were not infrequently burnt down by the enemy.

Marchauc a girch y *dinas*.—*Llyfr Du*, fo. 51.

Wytt chwyrn wytt teyrn wytt eiryas cadeu
Wytt cadarn ual *dinas*.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 300 (cf. 160, 322).

Glyw dinac ual *dinas* oet.
Cynddelw: M.A. i. 353 (cf. 157, 229, 243).

2. a city (in the acceptations of the English word; but in early use more or less coloured by the first sense).

Ac yna kyrchu *dinas* arall a wnaethant ell pedwar.
Mabinogion, 48 (cf. 91, 252, 275).

Yn gyntaf y deuth Agamemnon yr *dinas* a elwit Mecene a chanllog gantaw.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 14.

Gwedy rannu o Vrutus y deyrnas y rwg y wyr ynteu. y edrychwys ynteu lle y bei deilwg gantaw y adeilat *dinas* yndaw. ac y deuth hyt ar avon Demys ac yno y kauas y lle a uu adas gantaw wrth adeilat. ac yno yd adeilwys *dinas*. ac y gelwis ef Troea Newyd.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 59.

A chyt bei lawer o geyryd a *dinassoed* idaw honn a garei ef yn vwy nor vn.—*Mabinogion*, 93 (cf. 91).

A darestwg y dan Chyarlymaen a dala y *dinas* y danaw. Ac odyna rannu a oruc Chyarlymaen gantrefoed yr Yspaen. ac chymydau. ac cheyrryd ac *dinassoed*.
Ystoria de Carolo Magno, col. 405.

O nerth hwnnw y cauas *Dinas* Dulyn drwy wneuthur diruawr aerua.—*Brut y Tywysogion*, 208.

Sef a gafas yn y gynghor mynet y grwydraw bydoedd y *dinassoedd* amdanei.—*Doethion Rhufain*, § 32.

Ar nos honno yd aeth Bown i *dinas* Cwlwyn.
Bown o Hamtwn, § 70.

Dinas gyvoethawc gadarn a oedd yn y dwyrein. . . Ac yn hynny doeth brenhin creulawn cadarn y geissyaw goresgyn y *ddinas*.—*Doethion Rhufain*, § 19.

Megys pann gyrcho amberawdyr oe *dhinas* ehun.
Lucidar, § 116.

Ysgol freiniol i ddangos a dysgu gwybodau anrhydeddus a chelfyddydau ardderchogion, fal ag ydoedd yn *ninas* Rhufain.—*Iolo Mss.* 44.

Tri glwth byd: brenin; môr; a *dinas*.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 80.

Aethom rhagddom dan ganu a moliannu Duw, hyd oni ddaethom at y gorllewinol borth y *ddinas*.
W. Lewes: Dwy Daith, 7.

Prif ddinas, a chief or capital city; a capital, a metropolis.—*Act.* xvi. 12.

Ef a doeth y aber prif auon vwyhaf or a welsei neb. a *phrif dinas* a welei yn aber yr auon.—*Mabinogion*, 83 (cf. 87).

Ac y gyt a hynny gynt yr oed yndi wyth *prif dinas* ar hugeint yn y theckau.—*Yst. Bren. Bryt:* Ll.C.H. 40.

Yn y flwyddyn o oedran Crist 1453, darfu i'r Tyrciaid ennill Constantinopl, *prif ddinas* Ymherodraeth Gristionogol y Dwyrain dros un cant ar ddeg o flynyddoedd.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 131.

Llundain, *prif ddinas* y deyrnas, sydd yn sefyll mewn gwastadedd eang.—*R. Roberts:* Daearyddiaeth, 188.

Dinas benaf, a chief or principal city.

Honno [Caerllion ar Wysg] oedd y *ddinas benaf* yn holl Ynys Prydain, a braint cyfnewid iddi ym mhob dinas arall yn holl Ynys Prydain.—*Iolo Mss.* 37.

Dinas Llundain, the city of London.

Ac yn y urwydyr gyntaf y duc y Gogledwyr y arnaw *dinas Llundein*.—*Brut y Tywysogion*, 282.

Y Ddinas ar Saith Fryn, the City of the Seven Hills=Rome.

O hir dremio, canfum wrth Borth y Balchder, *ddinas* deg *ar saith fryn*, ac ar ben y llys tra ardderchog yr oedd y goron driphlyg, a'r cleddyfau, a'r agoriadau yn groesion.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 24.

Braint dinas, the freedom of a city, citizenship.

Y rhai, er eu bod yn trigo i maes o'r ddinas, ac weithiau ym mhell oddi wrthi, yr oedd *braint y ddinas* er hyny yn perthyn iddynt.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 43.

Dinas rydd, a free city.

Philippi, yr hon sydd brif ddinas o barth o Macedonia, *dinas rydd*.—*Act.* xvi. 12.

Y mae efe yn llefaru yn freiniol o ryw *ddinas rydd*.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 43.

3. In the Bible *dinas* (as the equivalent of πόλις of the N.T. and LXX. and *civitas* of the Vulgate) is frequently applied to small towns or mere villages; as Bethlehem, Nain, Nazareth, and others.

Dinas Dafydd (1), the city of David (in ancient Jerusalem) = Zion.

A Dafydd a drigodd yn yr amddiffynfa, ac a'i galwodd hi, *Dinas Dafydd*.—2 *Sam.* v. 9 (cf. vi. 10, 12, 16).

Yna Salomon a gasglodd henuriaid Israel . . . i ddwyn i fyny arch cyfammod yr Arglwydd o *ddinas Dafydd*, honno yw Sion.—1 *Bren.* viii. 1.

Dafydd a ennillodd y tŵr Sion, yr hwn yw *Dinas Dafydd*. . . . A thrigodd Dafydd yn y tŵr; o herwydd hyny y galwasant ef *Dinas Dafydd*.
1 *Cron.* xi. 5, 7 (cf. 2 Cron. xxxii. 5).

(2) the city of David = Bethlehem, David's native place.

A Ioseph hefyd a aeth i fyny o Galilea, o ddinas Nazareth, i Iudea, i *ddinas Dafydd*, yr hon a elwir Bethlehem.
Luc ii. 4 (cf. 11; Ioan vii. 42).

Dinas Duw (1), the city of God=Jerusalem.—
—*Salm.* xlvi. 4; xlviii. 1, 8; lxxxvii. 3.

(2) the city of God (*civitas Dei*)=the heavenly city.—*Heb.* xii. 2.

Dinas y Brenin Mawr, the city of the Great King.—*Salm.* xlviii. 2.

Y ddinas sanctaidd (1), the holy city=Jerusalem.

A'r rhan arall o'r bobl a fwriasant goelbrenau i ddwyn un o'r deg i drigo yn Ierusalem *y ddinas sanctaidd*.
Neh. xi. 1 (cf. 18; Matt. iv. 5; xxvii. 53).

(2) the holy or celestial city; heaven.—*Dad.* xxi. 2; xxii. 19.

Y mae'n ddinas ogoneddus,
Y mae'n ddinas ddedwydd hapus,
Y mae'n *ddinas sanctaidd* nefol,
Y mae'n ddinas hoff, dragwyddol.
Rhys Prichard: C. y C. xc. (1), 12.

Digitized by Google

Penmaith *Mael Rondden* hath gaul pymmas gvin.
Justus Lloyd: M.A. i. 88.

...ese appears as *dinum*, *dinium*, *dunum*, in the Latin terminations of the names of several towns in ancient Gaul, and of some others which have come down to us in a Latinized form.

Dinacaid, a. [*nacaid*] without refusal or denial; willing, ready.

...ant ynaidd drugarogddion hael
...w mae yn *ddinacaid*.—*Elegy*.

Dinacasol, a. not apt to refuse or deny.

Dinacha, } v. Br. *dinacha*] 1. to desist from
Dinaghav, } refusing; not to deny.

Dinacsol, a. not refusing; that denies or refuses not; ...giving.

...ae yn unwydd hil Nannau,
...ant orug hil *dinaghav*.—*Gruffydd Owain*, 46.

Dinad, a. [*nad*] without shouting or vociferating, noiseless, silent.

...r ywrid a'wyra mau yn llefain ac yn cwyno tan lwyth ...ant ni fu hi eyth; onid pan ferrier ydrydding dev ...ad, n a red yn llawen ac yn ddistaw *ddinad*.
Dr. Davies: Llyfr y Resn. n. i. 4.

Dinag, a. [*nag*: Br. *dinac'h*] without refusal, denial, or exception; without hesitation [in giving or granting]; that does not refuse or deny.

...ynne dewr wrhaw cardawn hackder
...ant i gymmer pan eymmer.
Lewys ab Gwyan: M.A. i. ... (cf. 343, 491.

...ynnwr dewr dengwn wannas
...ant cosse a glew dinas.
Cynddelw: M.A. i. 243 (cf. 295, 334, 445.

...ynnwn hael a hil cyfrwn
...ynne dewr dinas hurtwyrn.
Hywel Foel: M.A. i. 393 (cf. 336.

Y prif a bobla pawb yn ei gyfoddo... yn *ddinag*, a ellir ei gwrth yn ddiddadl.—*T. Edwards:* Blanes y Ffydd, 260.

A rhaint dyn *dinag* amserch,
Nad yw eun end ef a'i serch.—*Iolo Mor.* 249.

...yes rwddfawr, o hwyf aur bywyr,
...n gadau *ddinag* ydyw.—*Gruffydd Owain*, 46.

Dinair, s. *dineirian*, *sf.* [C- *dinair* (C.V.), dinar, ...ainar. Br. *diner*, *dinair*- from L. *denarius*] a penny.

Nid rwyddaidd enid *dinair*.—*Diarob.*

Dinam, a. [*nam*: Br. *di n mam*] without blemish, flaw, or defect; faultless, *blameless*, *spotless*, unexceptionable, without exception; *perfect*, certain.

Mab Duw ac dau yw gwyddoth
Mal mam mwy *dinam* hanner dwyfn
Evan Wan: M.A.
...ynnwr dewr dinamhad wlad
...d ddiwyf ath wyled
...ynnwr yn hennyddion ar
Llyw. ab L...
...ae ryglwyn hyd
...n mam wedd wawr
...wddfau hwyddion
...wedd gwyf Syr D...
...ynna dydd llawn
...ynnwr clam dan
Mae St. Paul
...ddiwan, deingy
...n, heb er
Mae pob p
...n ddiogr
Gober, ar c
Nad i ddyn
Nid yw neb
Un *dinam* Iol

Dinamedd, s

Digitized by Google

Dinas, -oedd, *sm.* [din] 1. a stronghold [illegible] or fortress. See *Din*. In the sense [illegible] like *din*, enters into many place-names [illegible] *Dinas Basin* or *Basing* in Flintshire [illegible] *Brân* (*M.A.* i. 5[illegible]) [illegible] diganshire; *Dinas* [illegible] *Emrais*, in Snowdon [illegible] Caster, now Castor in Lincolnshire [illegible] *Mawddwy*, in Merioneth.

Y vlwydyn honn y distrywy [illegible] Gwyned.—[illegible]

Or dehev yn emy [illegible] Fflint y rwng mynachlor [illegible]

Sef fturuf y gelwit y [illegible] *Emrais*, a chyt no hynny [illegible]

A *Dinas Emrais* [illegible]
Amrygyr Newenhy [illegible]

Daronwy ab Urnach Wydde [illegible]

Cymbar *Dinas* y [illegible]
Wedi e dad [illegible]

In the same sense the word [illegible] understood in many passages [illegible] writers: cf. [illegible] *M.A.* i. 157 [illegible]

The name *dinas* is now applied [illegible] remains of fortifications [illegible] owing to some of these [illegible] made of perishable materials [illegible] of the castles at a later date [illegible] burnt down by the enemy.

Marchaus a gurch y [illegible]

Wyt chwyn wyt [illegible]
Wyt [illegible]

Glyw [illegible]

2. a city in the acceptation of the [illegible] word: but in early use more [illegible] by the first sense.

Ac yna kyrchu [illegible]

[illegible]

Gwedy [illegible] edrychwys [illegible] ynduw [illegible] Ile a un [illegible] dinas [illegible]

A chyt bei [illegible] ef yn [illegible]

A durestwg y [illegible] Ac odyna [illegible] ne chymydau [illegible]

O nerth [illegible] dirnawr [illegible]

Sef a [illegible]

Ar [illegible]

to
to
zen;
out,
er.
am y
eith. a
f. 146).
ireideu
gwedy
ii. 383.
cudyo
ion, 82.
buont.
cf. 3).



Digitized by Google

Y ddinas nefol, the heavenly or celestial city.

Y rhai, er eu bod yn bresennol yn perthyn i wlad arall, ac yn byw ym mhell oddi wrth y *ddinas nefol* . . . ydynt er hyny yn wŷr rhydd o honi.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 43.

Dinas noddfa (*pl.* dinasoedd noddfa), } a city of
Dinas nodded (*pl.* dinasoedd nodded), } refuge.

Yna gosodwch i chwi ddinasoedd; *dinasoedd noddfa* fyddant i chwi. . . Ac o'r dinasoedd y rhai a roddwch, chwech fydd i chwi yn *ddinasoedd noddfa*.
Num. xxxv. 11, 13 (cf. 14—32).

Ac i feibion Aaron y rhoddasant hwy ddinasoedd Iudah, sef Hebron, y *ddinas noddfa*.
1 *Cron.* vi. 57 (cf. Ios. xxi. 38).

Ac i feibion Aaron yr offeiriad y rhoddasant Hebron a'i meusydd pentrefol, yn *ddinas nodded* i'r llofrudd.
Ios. xxi. 13 (cf. 21, 27, 32).

Yno gan mwyaf y ciliodd y gwŷr llên, yr esgobion, yr offeiriaid, a gweinidogion crefydd, megys i gynnifer *dinas noddfa*.—*Theo. Evans:* D.P.O. 102.

Dinas barhäus, an abiding city.—*Heb.* xiii. 14.

Dinas y palmwydd, the city of palm-trees= Jericho.—*Deut.* xxxiv. 3; *Barn.* i. 16; 2 *Cron.* xxviii. 15.

Dinas gaerog: see *Caerog.*—*Lef.* xxv. 29, 30.

Dinas freninol, a royal city.—*Ios.* x. 2; 1 *Sam.* xii. 26.

Dinas gyfanneddol, an inhabited city; a city of habitation.—*Salm.* cvii. 7.

Dinas preswyl, a city of habitation.

Ac ef ei tywysawdd rhyd ffordd union, fal ydd elent i *ddinas preswyl.*—*Llyfr Gweddi Gyffredin* 1567 (Salm. vii. 7).

¶ In the older language *dinas* is often treated as a masculine; and *dinesydd* and *dinasydd*, for the plural occasionally occur.

A phei ffaelyassut titheu ni a gollassem y *dinas* hwnn vyth heb obeith oe gael drachevyn.—*St. Greal*, ‡ 201.

Llu y brenhin ae allu yssyd yn dyuot yr *dinas* hwnn hediw.—*Mabinogion*, 238 (cf. 225).

Ar *dinas* hwnnw oed gyuoethocaf *dinas* ar y dayar.
Bown o Hamtwn, ‡ 15.

Beth yw'r dyn byth o'r *dinas*?—*Sion Tudur.*

Ac yna y symudassant henweu y *dinessyd*, ar trefi. ar randiroed. ar cantrefoed. ar swidev. ar ardaloed. . . Ac val hynny holl *dinessyd* Lloegyr a symudassant ev henweu.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 468.

Canys Deo a ymwared Tsiion, ac adeila *ddinasydd* Iudah.
Ll. G. Gyffredin 1567 (Salm. lxix. 35; cf. ix. 6).

Dinasaidd, *a.* like or resembling a city; city-; civic; civil.

I'r hwn y perthyn penrheolaeth pob ystâd y deyrnas hon, pa un bynnag fônt ai eglwysig ai *dinasaidd*.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Erth. 37).

Llywodraeth ddinasaidd, civil government.

Peiriannydd dinasaidd, a civil engineer.

Y cleddyf dinasaidd, the civil sword.

Dylent lywodraethu ar bob cyflwr a gradd a orchymmynwyd dan eu gofal . . . ac attal â'r *cleddyf dinasaidd* y rhai cyndyn a'r drwg weithredwyr.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Erth. 37).

Dinasan, *sf.* a small city.

Dinasdref, -i, -ydd, *sf.* a municipal town; a town with privileges; a city town, a city.

A gwastat tir tec erdrym aruchel a gerdassant yny doethant y *dinastref*. ac ym penn y dref y gwelynt kaer a chastell.
Mabinogion, 250.

Tri charnfeddwon Ynys Prydain. . . Trydydd, Seithinyn feddw ab Seithyn Saidi, brenin Dyfed, a ollyngwys yn ei ddiawd y môr dros Gantre'r Gwaelod, oni chollwyd o dai a daear y maint ag oedd yna, lle cyn hynny y caid un *dinasdref* ar bymtheg yn oreuon ar holl drefydd a dinasoedd Cymru, a gadu yn amgen Caerllion ar Wysg.
Trioedd: M.A. ii. 64 (cf. C.C. ii. 514).

Dinasdy, dai, *sm.* a city house, a house in a city.

Paun asgell-las *dinasdai*,
Pa un o'r mil, pena'r Mai!—*D. ab Gwilym*, cxliv. 37.

Dinasfraint, freintiau, freiniau, *sf.* citizenship, the status of a citizen; city freedom or privilege.

A swm mawr y cefais i y *ddinasfraint* hon.—*Act.* xxii. 28.

Ac felly'r oedd yntau o'i enedigaeth yn gynnysgaeddol o *ddinasfraint* Rhufain.
Edward Samuel: Buch. yr Apostolion, 63.

Yr unig genedloedd a gauwyd allan yn hollol rhag cael *dinasfraint* yn y ddwyflwodraeth . . . oedd yr Ammoriaid a'r Moabiaid.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 526.

Dinasfreiniol, *a.* free of a city; having the position or status of a citizen.

Gwneuthur un yn ddinasfreiniol, to make one free of a city.—*W.*

Dinasfreintio, } *v.* to make a citizen, to citizen-
Dinasfreinio, } ize, to denizen.

Dinaslys, -oedd, *sm.* a city court (in the United States).—*Drych.*

Dinaslywiaeth, } -au, *sf.* city government,
Dinaslywodraeth, } municipal government.

Dinasol, *a.* of, relating, or pertaining to a city; civic; civil; municipal; city-.

Y gweithiau a'r gorchwylion sydd raid i ni beidio â hwynt, ydynt yn gyffredin holl *ddinasol* a gwledig drafferthion, o'r lleiaf hyd y mwyaf.
R. Vaughan: Ymarfer Duwioldeb, 230.

Moesau dinasol, city manners.

Mewn materion dinasol, in civil causes.—W.

Dinaswr, wyr, } *sm.* a citizen, a denizen; an
Dinasydd, -ion, } inhabitant of a city.

Ac nyt yn y kaerwyr ar *dinaswyr* yd oedd gedernit y ddinas. namyn yn doethineb y gwyr ae kymhendawt.
Doethion Rhufain, ‡ 19 (cf. 18).

Pa ham, atolwg, y darfu iddynt hwy, sy *ddinaswyr* Rhufain, symmud a dyfod i lawr i drigo i'r gwastad a elwir Maes Mars?—*M. Cyffin:* Diffyniad, v. 11.

A *dinasyddion* Susan oeddynt yn athrist.
Esgob Morgan: Esth. iii. 15.

Yr hwn aeth yn bererin ar y ddaiar i'n gwneuthur ni yn *ddinasyddion* nef.—*Ed. James:* Hom. iii. 41 (cf. ii. 135).

Ei *ddinaswyr* a'i casasant ef.—*Luc* xix. 14 (cf. xv. 15).

Peth canmoladwy yw bod yn gymmydog da; yn *ddinaswr* da, yn ymyl yr hwn y gallo dyn fyw yn llonydd.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 197.

O hyny allan, weithiau y byddai'r *dinasyddion*, weithiau'r gelynion, yn cael y maes.
Ch. Edwards: H. y Ff. 184 (cf. 124, 177, 182, 231).

A hwynt-hwy yn unig ydynt *ddinasyddion* rhyddion o'r byd.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 128.

Dinasyddes, -au, *sf.* a female citizen, a citizeness.

Dinasyddiaeth, -au, *sf.* citizenship, denizenship; the freedom of a city.

A'r Dyfnwarth hwnw a wnaeth ddosparth wastattrefn gyntaf ar gyfreithiau cenedl y Cymry . . . ac a wnaeth lys gwlad a *dinasyddiaeth* ddosparthus yng Nghaerllion ar Wysg.—*Iolo Mss.* 36.

Preswyliant ar y ddaiar, ond y mae ganddynt eu *dinasyddiaeth* yn y nef.—*Ch. Edwards:* Hanes y Ffydd, 72.

Yr hyn sydd yn gymhwys yn cyttuno â natur y *ddinasyddiaeth* nefol hon.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 43 (cf. 44).

Yn chweched, i ddangos dy fod dy hunan yn wr rhydd o *ddinasyddiaeth* Grist.
R. Vaughan: Ymarfer Duwioldeb (1675), 246.

Dinasyddio, *v.* 1. to live or act as a citizen or citizens.

Digitized by Google

Lle mae'r gair Groeg, ag ydym ni yn gyfieithu ymddygwch, yn arwyddocâu ymddwyn fel dinasyddion; neu, os caniatëir i ni wneuthur gair newydd, gellir ei gyfieithu, *Dinasyddiwch* yn addas i'r Efengyl.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 43.

2. to citizenize, to denizen; to enfranchise.

Dinasyddol, *a.* relating to a citizen or citizens; relating to a city; municipal.—*W.*

Dinaturio, *v.* [natur] to divest of nature; to unnaturalise.

Byddynt (meddaf) y bobl hyn yn oreu dynion o'r byd, oni bai fod y rhyw fath hyn yn eu plith, ac yn eu difwyno yn llwyr, ac yn eu *dinaturio*.
Dr. I. D. Rhys: Gram., Rhag. 7.

Haws dieneidiaw no *dinaturiaw*.—*Diareb.* (M.A. iii. 162.)

Dinaw, *v.* [din] to encompass, to entrench.—*P.*

O hir *dinaw* dychwynir.—*Llefoed:* A.B. ii. 308.

Dinawd, *s.* [dau + nadd ?] a two-edged axe, a battle-axe.

Dinaut (*gl.* pipinnis, i.e. bipennis).
Oxford Gloss. iv. 42 (Zeuss: G.C. 1061).

Dinawdd, *a.* [nawdd] void of protection or refuge; unprotected, defenceless; helpless.

Dewr i hela,—dur hoelion,
Dinawdd hydd, yw dannedd hon.—*Huw Morus:* E.C. i. 60.

Parawdd i *ddinawdd* weinion, o'u colled,
Drem arw ei gweled, drom oer galon.—*Gro. Owain,* 118.

Dincod, *sm.* = *Deincod.*

Dincodus, **Deincodus,** *a.* setting the teeth on edge.

A'r nof lygredig o fon y pren (sef Adda), a chwerwodd y cangenau oll, sef ei epil ef, i ddwyn ffrwyth tra *deincodus*, hyny yw, bucheddau gwrthwyneb i ewyllys Duw.
Charles Edwards: Hanes y Ffydd, 259.

Dincodyn, *sm.* = *Deincodyn.*

Dineb, *a.* [neb] solitary, retired, lonely.

Dineb man, an out-of-the-way place, a solitary place.

Dinegydd, **Dinegyf,** *a.* without a negative; without denial or negation; that refuses not.

Dewr Ewein deurutliw fion
Dur goch bar llachar llawch deon
Dinegyf neges rodolyon
Digaled am ged am geinnyon.—*Hywel Foel:* M.A. i. 392.

Ysbryd gloywfryd glan darian derydd
Tad dawn annogiad Mab *dinegydd*.
Llywelyn Goch: M.A. i. 534.

Dineilldуaeth, *a.* without separation, dissociation, or division.

Bydded pob peth arall yn ddiddadl, a'u da fel eu plant, yn *ddineilldуaeth*, eithr o'r un meddiant a'r un gofal.
Elis Wynn: Rh.B.S. 148.

Dineilduol, *a.* impartial, unbiassed, indifferent.

Fal hyn y dylem ni ddangos ein cariad yn ddiduedd [*ddiymmer, yn *ddineilduol*], cystal i'r naill ag i'r llall.
Ed. Iames: Hom. iii. 52.

Dinerth, *a.* [nerth] without strength, strengthless, powerless, impotent, weak, feeble.—*Galar.* i. 6.

A govyn a wnaeth ef beth a wnaei dyn mor ieuank o oetran. mor *ddinerth* o gorff ag mor aduwyn o bryt. yn lle mor ofnawc a hwnnw ehunan.—*Doethion Rhufain,* § 25.

Christ pan oeddym yn *ddinerth*, yn yr amser, a fu farw dros yr annuwiol.—*Ed. Iames:* Hom. iii. 32.

O dere'n nawdd, dyro nerth
A doniau i un *dinerth*.—*Daniel Ddu,* 3 (cf. 69, 267).

Daionus oedd i'r *dinerth*.—*Dafydd Ionawr,* 193 (cf. 192).

Dinerthedd, *sm.* feebleness, weakness, impotence.

Dinerthiad, -au, *sm.* a weakening, enervation, enfeeblement.

Dinerthol, *a.* tending to enfeeble or enervate; enervating, enfeebling.

Dinerthu, *v.* to weaken, enfeeble, enervate, or debilitate.

Ac o hynny kassau bwyt o honaw ae *dinerthu* yr haf.
Meddygon Myddfai, i. 12.

Tansangiad, neu flaenoriaeth, yw ffugr unweddawl, pan fo yr areithiwr yn gweled o flaenllaw, beth a ellid ei farw yn ei erbyn i'w friwaw, gan ddirymiaw a *dinerthu*, cyn cael o'r casddyn, neu y gwrthbleidiawg, amser neu hamdden i fwrw hyny yn ei ddysgl.—*H. Perri:* Egl. Ffraeth. xlii. 1.

Dinerthwch, *sm.* feebleness, weakness; lassitude.

Y mae yn sicr genyf . . . nad oes dim *dinerthwch* na llesgedd yn cyfhwrdd â'r Hen Ddihenydd.—*Gwyliedydd,* vii. 106.

Dinesig, *a.* [dinas] relating to a city; city-; civic, civil.

Tair celvyddyd *ddinesig* y sydd: meddyginiaeth; cyvnewidiaeth; a llongwriaeth.—*C.C.* ii. 514.

Ereill a ddywedant mai Urien Rheged a yrwys y Gwyddelod o Dir Gŵyr amser Uthur Bendragon, ac mai am hyny y cafas ef deyrnedd y wlad, a'i galw Rheged, a gwneuthur castell a thref *ddinesig* yn Aberllychwr.—*Iolo Mss.* 69.

Mi af i . . . ddwyn oes mewn tref *ddinesig*.—*Guto'r Glyn.*

Brethyn dinesig, town-made cloth (as opposed to homespun); superfine cloth.

Buchedd ddinesig, a city life.

Moesau dinesig, city manners.

Coron ddinesig, a civic crown.

Adeilyddiaeth ddinesig, civil architecture.

Peiriannydd dinesig, a civil engineer.

Dinesydd, -ion, *sm.* a citizen, a denizen; an inhabitant of a city. See *Dinasydd.*

Yn lle bod yn *ddinesydd* nef, ef a aeth yn gaethwas i uffern.—*Ed. Iames:* Hom. iii. 28 (cf. 56, 77).

Gwr ydwyf fi yn wir o Iuddew, un o Tarsus, *dinesydd* o ddinas nid anenwog o Cilicia.—*Act.* xxi. 39.

Coronbleth o ddail derw, a gyflwynid gynt, er anrhydedd, gan y Rhufeiniaid, i'r neb a achubassai einioes *dinesydd*.
Walters.

Dinesyddes, -au, *sf.* a female citizen, a citizeness.

Dinesyddiad, -au, *sm.* a citizenizing, denization; enfranchisement.

Dinesyddiaeth, -au, *sf.* citizenship, denizenship; the freedom of a city; municipality. See *Dinasyddiaeth.*

Dinesyddiaethol, *a.* relating to citizenship; municipal.

Dinesyddio, *v.* 1. to act as a citizen. 2. to citizenize or denizen, to make a citizen; to enfranchise.—*W.*

Dinesyddol, *a.* relating to a citizen or denizen; citizenish; municipal.

Dinĕu, **Dineu,** *v.* [C. *denewy*] 1. to pour, pour out, shed, effuse, or spill; to pour over.

Yna y marchawc a *dineuawd* y llyn a oed yndaw am y hwyneb ae bronffoll.—*Mabinogion,* 197.

Treiglaw yg kylch yr allawr a wnaeth pedeir gweith. a *dineu* y gwin oed yn y law y mywn geneu y dwywes.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 52 (cf. 146).

Ae gorff a gymyrth y Brytanyeit ac ae hirasant ac ireideu gwyrthuawr. ac y dodassant y mywn delw edyf gwedy *dineu* ar y lun ehun.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 383.

Ac od yna *dineu* grawn gwenith glan ymdanei yny cudyo blaen y lloegwrn.—*Cyfreithiau Cymru,* i. 728.

Y mor a *dineuassei* ar draws yr aruordired.
Brut y Tywysogion, 82.

Dinea [*tywallt] dy fâr ar y cenedloedd ni'th adnabuont.
Ll. G. Gyffredin 1567 (Salm. lxxix. 6; cf. 3).

Digitized by Google

Ni a adolygwn iti *ddineu* dy rad i'n meddyliau ni.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 568.

A gwir da'm mhob gair diwall
Yn *dineu* dydd i'r dyn dall.
Iolo Morganwg: Salmau, II. lx. 9.

Dinëu gwaed, to shed blood, to spill blood.

Yna yd erchis y dewinyon idaw keissaw mab heb dat idaw ae lad . . . a *dineu* y *gwaet* yn y grwndwal hyt pan safei y gweith uelly.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 141.

Ac yn y lle ef a *dineuawd* o honaw amylder o *waet*.
Brut y Saeson: Ll.C.H. ii. 391.

Canyt oes *dineu gwaeth* ynddi.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 706.

Eu *gwaed* a *ddineuasant* [*ellyngesont, dywalltesont] mal dwfr o amgylch Caerusalem.
Ll. G. Gyffredin 1567 (Salm. lxxix. 5).

Dinëu gwyar, } to shed or spill blood.
Dinëu crau, }

Pan *dineu gwyar greu* ar grys
Arueu gwr gwron ae dengys.—*Cynddelw:* M.A. i. 259.

Ac o bop parth y *dineuit creu* a *gwaet* y redec.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 161 (cf. 160).

Oed am *dinau crau* clau clywitor.
Cynddelw: M.A. i. 205 (cf. 121).

2. to pour or rush down; to issue forth; to to descend, to come down.

Ac ar hynny nachaf yn y lle y racdywededigyon elynyon uchot. Gwynwas a Melwas yn *dineu* or llogeu yr tir a llawer o niveroed gantunt or Gwydyl ar Yscoteit ar y Fichteit ar Llychlynwyr.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 230 (cf. 245).

Dineuad, } *sm.* a pouring or shedding, effusion.
Dinead, }

Dineudod, *sm.* outpouring, effusion.

Maen *dineudawt*. on keinvolawt. yn canu gwawt. gwaet heb vn geir.—*Cyssegrlan Fuchedd:* Ll.A. 96.

Dineuglud, -au, *sf.* 'an outpouring mote.'

Tair clud gyvnawdd y sydd: *dinauclud;* mesori; a chyvar.
Cyfreithiau Cymru, ii. 476 (cf. 478).

Dineuo, *v.*=*Dinëu.*—*P.*

Dineuol, *a.* tending to pour or shed; effusive.

Dinewid, } *a.* without change, variation,
Dinewidiad, } or mutation; changeless, unchangeable, immutable.

Nid adwaenant Graig yr oesoedd,
Gweithiwr *dinewidiad* bydoedd.
Morgan Llwyd: Gwyddor Uchod, 144.

Os yw hi o'r tu fewn, yr wyt ti yn isel dy feddwl, yn uchel dy hiraeth, yn ddiniwed gariadus, yn fuddiol, ac yn *ddinewidiad.*—*Morgan Llwyd:* Gair o'r Gair, ix. 2 (cf. x. 1, 2).

Y Duw dinewidiad, the unchangeable God.

Dinewidio, *v.* to cease to change.

Dinewidiol, *a.* not changing; unchangeable, immutable, invariable.

Mae'n rhesymol i ni gredu . . . na ddarfu i Dduw osod mo'r amser i bob dyn neu derfyn *dinewidiol*.
Th. Williams: Ymadr. Bucheddol, 193.

Dinewyn, *a.* without hunger, not hungry; without scarcity; relieving hunger.

Daroganaf arnaw yr haf hir felyn
A phob dyffryn yn llawn o'r grawn *dinewyn*.
Heinin: M.A. i. 552.

Dinewyn lwdn deunaw-osgl,
Disglair ar druan esgair drosgl.—*Rhys Goch Eryri.*

A hauo'n dda ddichlyn, a fed yn *ddinewyn*,
Ei lafur ni esgyn yr ysgall.
Huw Morus: Eos Ceiriog, i. 328.

Dinidr, *a.* [nidr] without hinderance, entanglement, or embarrassment; without delay.

Trafnidr *dinidr* dawn
Tref nef Naf kyfyawn.—*Casnodyn:* M.A. i. 430 (cf. 464).

Llwyth y cam keimyeid *dinydyr*
Ae colles colled anvedyr.
Prydydd Bychan: M.A. i. 388 (cf. 322).

Dinidr dagrau am danaw
Defni glud deufwy no glaw.
Sefnyn: M.A. i. 504 (cf. 369).

Ti wyd *ddinidr* a didranc,
Ninnau o'r treigl yn wŷr tranc.—*Seren Gomer*, iv. 24.

Rhown *ddinidr* iawn eidduned,
Llw diau, myn creiriau Cred.—*Gronwy Owain*, 22.

Yn ddinidr, without delay, forthwith; immediately; without hesitation.

Dinidrad, } *sm.* a freeing from entanglement or
Dinidriad, } embarrassment; a disentangling.

Dinidredd, } *sm.* freedom from entanglement,
Dinidri, } embarrassment, or hinderance; dinentanglement; disengagement.

Dinidro, *v.* to disentangle; to free.

Dinidrol, } *a.* disentangling; free from em-
Dinidriol, } barrassment.

Dinifer, *a.* without number, numberless.

Dinifer, Ior mwyn-ber mau,
Ei dra seirian drysorau.—*Dafydd Ionawr*, 203.

Dinifwl, *a.* free from mist, fog, or vapour; cloudless; clear.

Y lleuad, ym mysg lluoedd
Y nef lân *ddinifwl*, oedd
Yn frenines gynhes gu
Ar y nos yn teyrnasu.—*Dafydd Ionawr*, 53.

Diniwaid, } *a.* [niwaid, niwed] harmless, in-
Diniwed, } nocent; guiltless; unhurt.

Gwedy hyny, wrth droi'r cawell i fynydd, gwelai'r plentyn yn fyw ac yn iach *ddiniwed.*—*Iolo Mss.* 155.

Nid cadarn ond *diniwed*.
Englynion Eiry Mynydd: M.A. i. 547.

A'r *diniwed* a ymgyfyd yn erbyn y rhagrithwyr.
Esgob Morgan: Iob xvii. 8 (cf. ix. 23; xxii. 19, 30).

Nid call ond *diniwed;* nid *diniwed* ond serchog.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 16 (cf. 56, 79, 264).

Ni bu erioed un *diniwaid* yn cael cam, os cyd-ddygai yn ddioddefgar, nas gorfyddai yn y diwedd.
R. Vaughan: Ymarfer Duwioldeb, 148 (cf. 423).

Dyma'r englynion *diniweidiaf* a wnaeth Elisa erioed o'r blaen.—*Gronwy Owain*, 301.

Am ei gyflafar doet, ceir hefyd Cain
I syniaw pa yw cur, ac er cael oed
Y gwnelo, megys ei gyfrywion, iawn
I *ddiniweidion* byd.—*W. O. Pughe:* Ceinion Awen, 150.

¶ Most editions of the Bible have *diniweid* (as well as the subs. *niweid*), apparently following Bp. Parry's edition in one passage (*Iob* ix. 23); but the term. *-eid* for *-aid* has long been obsolete; and no adjective or noun in the present stage of the language ends in *-eid*.

Diniwedu, *v.* to make harmless; to indemnify.

Yn y lle, llawenhau a orug Priaf, gan obeithio anfon Esonia ei chwaer adref drachefn, a *diniwedu* o wŷr Groeg wŷr Troea am y dirmyg a gawsant.—*Ystori Dared*, ‖ 28.

Diniweidaidd, *a.* of an innocent or harmless nature.

Ond o oenaidd, *diniweidaidd* nodau,
Rhydid ni thyr trwy weniaith a rhwydau.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 143.

Diniweid-dra, *sm.*=*Diniweidrwydd.*

Os canfyddi . . . o'r tu arall bannylau isel, tlodi, *diniweiddra*, a gwendid diymwaredol.
R. Vaughan: Ymarfer Duwioldeb, 160.

Diniweidi, *sm.* innocence; harmlessness.

Diniweidi ei llygad yw fal eiddo y golomen; symlant a gwirionedd a gartrefant yn ei chalon.
W. O. Pughe: E.D. ii. 5.

Diniweidiad, *sm.* a divesting of harm; a making amends, indemnification.

Diniweidio, *v.* to divest of harm; to make harmless or innocent; to indemnify.

Digitized by Google

Diniweidiol, *a.* not hurtful or injurious; not apt to hurt; innocent, harmless; innocuous, unhurtful.

Crist . . . a wnaeth yn *ddiniweidiol* i ni ein holl gamweddau, drwy ei chwerw angeu, ei fuddugoliaethau, a'i ailgyfodiad.—*Huw Lewys:* Perl, 26.

A'u bod mor sanctaidd, union, a *diniweidol*, ag y gall ddiofalhau a sicrhau eu cydwybodau.
R. Vaughan: Ymarfer Duwioldeb, 405.

Diniweidion, *s.pl.* innocents.

Diniweidrwydd, *sm.* 1. innocence; harmlessness.

Nerth maban, ei *ddiniweidrwydd*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 12 (cf. 13, 50).

Golchaf fy nwylaw mewn *diniweidrwydd*.
Salm. xxvi. 6 (cf. lxxvi. 13; *Hos.* viii. 5).

Yn amser *diniweidrwydd* dyn.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Priodas).

Ac ef eto mewn ystâd *diniweidrwydd* ac yn trigo ym mharadwys.—*Ed. James:* Hom. iii. 235 (cf. 144).

Diniweidrwydd buchedd, innocence of life.

2. innocence (personified).

Asth *Diniweidrwydd* at ei Dduw,
Dros fyth i fyw'n ei burdeb.
Iolo Morganwg: Salm. ii. cxli. 1 (cf. 3).

Diniwl, *a.* [niwl] free from mist or fog; cloudless, clear.

Ni fedd yr erthyl digydwybod
Na phen *di niwl*, na chalon lân.
Iolo Morganwg: Salm. i. xlvii. 1.

Dinllan, -au, *sf.* [din+llan] an enclosed space, area, or park.

Tri lleidyr camlwrw: lleidyr ci; lleidyr llysiau gerddi; a lleidyr anivel gwyllt o dir *dinllan*.
Cyfreithiau Cymru, ii. 532.

Dinod, *a.* [nod] having no mark or note; not remarkable; of no note, account, or importance; not noted, prominent, or important; obscure; insignificant.

Os reith a geissyr y ganthaw llw deudengwyr a dyly y rodi whech o honunt yn wyr not a whech yn wyr *dinot*.
Cyfreithiau Cymru, ii. 310.

Gochel gormodd gorllaesder parth iaith a myfyrdod; a dewis ar bwysfawr ddygwyddiadau a myfyrdodau, er gwneuthur manau nod y gerdd; ac ar y *dinod* o heni, bydded iaith yn fer a lledgryno; can ni orphwys bryd a myfyrdod ar y manau *dinod;* eithr dwyn cyrch o un man nod i'r llall; cyd y bo rhaid wrth naturiol fanau *dinod*.
Cyfrinach y Beirdd, 37.

Dinodedd, *sm.* the state of being unknown to fame; the condition of being unnoticed; absence of notoriety; obscurity; insignificance.

Dinodol, *a.* unremarkable; not obvious or conspicuous.

Dinodd, *a.* [nodd] destitute of juice or sap; juiceless, sapless; dry.

Dinodd, *sm.* knawel (*Scleranthus*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 41, 183.

Dinodd blynyddol, annual knawel (*Scleranthus annuus*).

Dinodded, *a.* [nodded, nawdd] without protection, unprotected, defenceless; helpless.

Lle mae llewod fyrdd yn cerdded
I ysglyfaethu rhin *ddinodded*.
Blackwell: Ceinion Alun, 178.

Dinoddi, *v.* [dinodd] to deprive of juice; to draw out the juice or sap.

Nid anfynych y clywir gwragedd yn gorchymmyn eu morwynion i gyrchu dwr i wneuthur te o ryw le neilldiol, o blegid eu bod wedi cael allan fod y dwr hwnw yn *dinoddi* y dail yn well na dyfroedd ereill y gymmydogaeth.
Gwyliedydd. i. 145.

Dinoddi, *v.* [noddi, nawdd] to deprive of protection or defence.

Dinoethi, *v.* to cover nakedness.

Bu'n dadmaeth dichlyn-wiw Cymdeithas y dillad,
Mawr hoffai *ddinoethi* y gwaelion yn llu.
Gwyliedydd, xii. 186.

Dinwyd, **Dinwydau**, } *a.* free from passion or passions, dispassionate, unimpassioned; calm.

Mae'r ffaith ddarfod iddo wneuthur y cofnodiad yn profi ei fod yn ysgrifenu dan ddylanwad yspryd tawel, digyffroad, *dinwydau*.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 132.

Dinwyf, **Dinwyfau**, } *a.* [nwyf] without vigour, energy, or life, lifeless, spiritless.

Rhodiadur blin a *dinwyf*
I'm haint yng ngwlad Dyfnaint wyf.—*Iolo Morganwg.*

Wrth Fabilon, afon *ddinwyfau*, isod,
Eisteddasom ninnau.—*W. Middleton:* Salm. cxxxvii. 1.

Dinwyfiad, *sm.* a divesting of briskness, vigour, or liveliness.

Dinwyfiant, *sm.* absence of liveliness; freedom from warmth of passion; continence.

Dinwyfo, *v.* to divest of vigour, energy, briskness, or liveliness; to calm the passions.

Ni allyd, rhag trymfryd traue,
Ddinwyfaw y ddyn iefanc.—*Meistr Harri*, i Ieuan Tew.

Dinwyfol, *a.* tending to divest of vigour.

Dinwyth, *a.* [nwyth] free from whimsicality, oddity, or eccentricity; void of harm or mischief; harmless.

Dinwytho, *v.* to divest of oddity or whimsicality; to divest of harm.

Dinych, *a.* [nych] free from ailing or illness; free from pain, painless; healthy.

Yn ddenwr gwawd, yn *ddinych*,
Yn dda'r oed, ac yn ddewr wych!
Dafydd ab Gwilym, ccxxvii. 7.

Yn wych, byth *ddinych* y bo,
Yn iach, wiw-ddyn, och iddo.—*Gronwy Owain*, 69.

Yr arth gyd-ieua â'r ych mewn *dinych* dang,
A llyfa seirff dilid y troed a'u sang.
Blackwell: Ceinion Alun, 154.

Dinyn, *sm.* [din] an edge, rim, or border.—*P.*

Dinystr, -au, -oedd, *sm.* [allied to L. *destruo*, *destructio ?*] destruction; ruin.

O daw tynfarch du tanfoll
Dan was drwg yw *dinystr* oll.—*D. ab Gwilym*, xciv. 23.

Doi *dinystr*, wedi Ionawr,
Pysgod mân, y pysgod mawr.—*L. G. Cothi*, ii. ix. 43.

Ha elyn, ys darfu am *ddinystroedd* yn dragyfyth, a thi a ddinystraist y dinasydd.
Llyfr Gweddi Gyffredin 1567 (Salm. ix. 6).

Camau a beiau, lle bôn',
A yr *ddinystr* ar ddynion.
W. Lleyn (Flores Poet. Brit. 32).

A! *dinystr*, *dinystr* yn donnau!
Eben Fardd: Gweithiau, 46.

Dinystr angeuol, a deadly destruction or discomfiture.—1 *Sam.* v. 11.

Dinystr, *v.*=*Dinystrio*, *Dinystro*.

Rhyw wr a oedd gynt ac a welai ol gormes o lygoden yn bwyta ac yn *dinystr* ei gaws yn ei gist.
Dammegion (Y Greal, 329; cf. 328).

Dinystrad, **Dinystriad**, } -au, *sm.* a destroying; destruction, devastation, subversion.

Yr hwn a roes yr Arglwydd i ni er adeilad, ac nid er *dinystrad* iwch.—*W. Salesbury:* 2 Cor. x. 8.

Ni chais ddim oll, onid *dinystriad* ollawl, a chyfan waradwydd pob rhyw ddyn.—*Huw Lewys:* Perl, 25.

Digitized by Google

Dinystradwy, } *a.* that may be destroyed,
Dinystriadwy, } destructible, destroyable.

Dinystraeth, -au, *sf.* destruction, perdition.

Yr enifel a welaist, a fu, ac nid ydyw, ac ef a ddaw i fynydd o'r pwll heb waelod, ac ef eiff i *ddinystraeth*.
T. Huet: Dad. xvii. 8 (cf. 11).

Dinystredig, } *a.* destroyed, ruined, demol-
Dinystriedig, } ished.

Dinystrio, } *v.* to destroy; to ruin, overthrow,
Dinystro, } or demolish.

Lleis llwgyr dinas treis Lloegyr *dinistryaw*.
Casnodyn: M.A. i. 423.

Achaws hynny y bu ryfel teisban rwng y Deheuwyr au brenin a *dinistraw* mawr arnynt ganthaw.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 474.

Y gelyn diweddaf a *ddinystrir* yw yr angeu.—1 *Cor.* xv. 26.

Gan *ddinystrio dinystriwch* yr holl fanau, y rhai y gwasanaethodd y cenedloedd . . . eu duwiau ynddynt.
Deut. xii. 2 (cf. 3; 1 Cron. xxi. 12, 15).

A pha fodd y chwala, y cospa, ac y difa ef y bobl a'u gosodant i fynydd, neu a oddefant allorau delwau ac idolau heb eu *dinystro*.
Ed. Iames: Hom. ii. 35 (cf. 37, 186, 187, 263, 285).

Dinystriol, } *a.* destructive, destroying; ruin-
Dinystrol, } ous; pernicious; destroyed, ruined.

Ni bydd pla *dinystriol* arnoch chwi, pan darawyf dir yr Aipht.—*Ecs.* xii. 13.

Carneddau dinystriol, ruinous heaps.

Fel y byddit i ddinystrio dinasoedd caerog yn *garneddau dinystriol*.—2 *Bren.* xix. 25 (cf. Esa. xxxvii. 26).

Gwynt dinystriol, a destroying or destructive wind.—*Ier.* li. 1.

Mynydd dinystriol, a destroying mountain.—*Ier.* li. 25.

Lleoedd dinystriol, ruined places.—*Esec.* xxxvi. 36 (cf. 35).

Dinystrioldeb, } *sm.* destructiveness; propen-
Dinystroldeb, } sity to destroy or ruin.

Dinystriolrwydd, } *sm.* destructiveness; the
Dinystrolrwydd, } quality of destroying.

Dinystriwr, } wyr, *sm.* a destroyer; a demol-
Dinystrwr, } isher; a destructionist.

Nesáu y mae ei enaid i'r bedd, a'i fywyd i'r *dinystrwyr*.
Iob xxxiii. 22 (cf. Diar. xxxiii. 22).

Y rhai oll, megys gwir garedigion Duw, oeddynt elynion a *dinystrwyr* delwau ac eilunod.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 156.

Darfu i'r *dinystriwr* mawr wanhau grym llawereodd ar y ffordd.—*Ieremi Owen*, 87.

Dinystrydd, -ion, *sm.*=*Dinystriwr*.

Ni ad i'r *dinystrydd* ddyfod i mewn i'ch tai chwi i ddinystrio.—*Ecs.* xii. 23.

Bydd di loches iddynt rhag y *dinystrydd*.
Esa. xvi. 4 (cf. xxi. 2; liv. 16; Iob xv. 21).

Eu *dinystryddion* penaf ydyw y deheu- a'r deheuddwyrein-wynt.—*Gwyliedydd*, v. 108.

Dinystryddes, -au, *sf.* a female destroyer; a destroyer that is a female.

Na ddyro i wragedd dy nerth, na'th ffyrdd i *ddinystryddesau* breninoedd.—*Dr. Th. Briscoe:* Diarebion, xxxi. 3.

Diobaith, *a.* [gobaith] hopeless, past hope, without hope; despairing; desperate.

Doeth y Flandryswyr yr dywededic castell ac ymlad yn *diobeith* ac wynt a gwneithur lladva dirvaur onadunt.
Brut y Saeson: M.A. ii. 580.

Llyw Powys peues *diobaith*.
Cynddelw: M.A. i. 213 (cf. 338).

Ny char Dovyd *diobeith*.—*Llefoed:* A.B. ii. 308.

Ai argyhoeddi ymadroddion a amcenwch chwi, a geiriau un *diobaith*?—*Iob* vi. 26.

Drwg ddiobaith, hopelessly bad or evil, 'desperately wicked.'

Y galon sydd fwy ei thwyll na dim, a *drwg ddiobaith* ydyw.
Ier. xvii. 9.

Nid yn ddiobaith, not without hope, not hopeless; not in despair.—2 *Cor.* iv. 8.

Diobaith, *sm.* despair; want of hope. See *Anobaith*.

Diobeithiad, *sm.* a despairing; desperation.

Diobeithio, *v.* to despair; to despair of; to mistrust.

Dawn yw gweddîo Duw Naf,
Duw byth nis *diobeithiaf*.—*Iolo Goch:* G.B.C. 69.

A gwedy clybot o Wenhwyuar hynny. *diobeithaw* a orug a mynet o Gaer Efrawc hyt yg Kaer Llion ar Wysc.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 230.

Ac val ed oedynt en *diobeithiaw* o henny enachaf eu kennadeu en ymchwelyt o Germania a Cheldric en dywysawc arnadynt. a chwechant llong kanthunt en llawn o varchogyon arvawc.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 302.

Os *diobeithi* o lwyddiant, ti ni lwyddi.
W. O. Pughe: Einioes Dyn, ii. 1.

Diobeithiol, *a.* despairing; apt to despair; hopeless.

Diobeithiwr, wyr, *sm.* a hopeless man, a despairer.

Diober, *a.* [gober] unprofitable, useless.

Dioberi, *sm.* a thing of naught; a mere nothing.

O derfydd i hawlwr ddefnyddiaw cwyn at swyddawg yr orsedd, ae yn y dydd cyntaf galw plaid, ae na ddêl yr hawlwr wrth ei alw, ac yno deisyf o'r amddiffynwr farn o rydid, a'i farnu iddaw, ac ar hyny yr hawlwr yn dyfod i'r orsedd, ac yn achwyn wrth yr arglwydd a'i swyddogion fod ei lawn a'i ddyledyn yn *ddioberi* o gyfraith cyn llithraw y dydd a roesodd y brenin i roddi cyfraith.
Leges Wallicae, iv. cxcv. 1.

Dioberu, *v.* to make unprofitable or useless; to deprive of enjoyment or possession; to dispossess, to deprive.

Os tir [a holych], py dyd yth dioreagynnwyt, a phy le y mae y tir, a phy vreint yssyd idaw; a menegi py vn or tri diebryt yth *dioberwyt* oth eidaw.
Cyfreithiau Cymru, i. 318 (cf. 184, 494, 442).

Dioberwr, wyr, *sm.* one who evades work; a worthless idle fellow; an idler, loiterer, or drone.

Yna y dyweit y kynnogyn: paravt vyfi yth diueichav y nywed y barno kyfreith oreu y allu o honofi vrth na dyly kyfreith ar neb waeth noc allu ac nat oes allu i minheu; ac nat vyf *dioberwr* [printed *diaberwr*] ac nat vyf foavdyr y anghywlat nac [rac] yr havl honno.
Cyfreithiau Cymru, ii. 184.

Dioberydd, -ion, *sm.* an idler, loiterer, or drone.

Diochain, *a.* without groaning or sighing; painless.

Deuai iechyd *diochain* i'm hannerch,
Gyda'i wyneb mirain.—*Cawrdaf:* Meudwy Cymreig, 21.

Diochel, } *a.* [gochel] unavoidable, in-
Diocheliad, } evitable.

Gwarant Gymry blant bla *diochel* mawr
Marw Kynan vab Hywel.
Prydydd Bychan: M.A. i. 386 (cf. 390).

Pa ham, ynte, nad wyt ti yn ofni yr awr hon, pan yw yn rhaid i bob dyn farw yn *ddiochel*?
Gr. Wynn: Ystyriaethau, 63.

A'r rhosyn coch *diochel*,
A'i bwys ar ynnill y bel.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 71.

Diochelgar, *a.* not apt to avoid; not cautious or heedful, cautionless.

Diochelgarwch, *sm.* want of cautiousness; intrepidity.

Digitized by Google

Diocheliad, *a.* not avoiding, evading, or shrinking; unshrinking; firm; unavoidable.

A chalon *ddiocheliad*
A chwydd pan gyffwrdd â chad.—*I. B. Hir:* Gwaith, 70.

Nes cael o'r llong uwch dyfnder lli
Ei chwalu yn *ddiocheliad!*
D. Ddu Eryri: Corff y Gainc, 395.

Diochelog, *a.* not apt to avoid; heedless.

Diochelyd, *a.* unavoidable, inevitable.

Och! alar *diochelyd,*
Trwst oer boen, band trist yw'r byd!
Ieuan Lleyn: Canisdau, 97.

Diochwith, *a.* [chwith] not awkward or sinistrous; right.

Keluytodeu meu ny uo marwawl
Y drouí pob peth o bregeth Bawl
Y uoli uy ri rwyf angertawl
Ryuel diochel *diochwyth* hawl.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 320.

Diod, } *pl.* diodydd, diodau, *sf.* [C. *diot* (C.V.),
Diawd, } *dewes, dewas, dywes;* Br. *diet* (Cath.); Ir. *dioch, deoch, daif;* Ga. *dioch*] 1. drink, beverage; liquor.

A uynny di heb ef ae *diawt* ae dim. kynn dy uynet y ymwelet ar iarll. Mynnaf ys gwir heb ynteu. Ac yna yd aet y gwas yr dref. ac y doet. a *diawt* udunt. a chymryt *diawt* a orugant.—*Mab.* 276 (cf. 93, 94, 185, 289, 301).

A gwedy dyuot rac bron y brenhin. ef a edewis y wneuthur yn iach o mynnei ynteu arueru or *diodyd* a rodei ef idaw. A heb vn gohir erchi a orucpwyt idaw wneuthur *diawt* yr brenhin. Ac yn dianot kymysgu gwenwyn a oruc ar *diawt* ae rodi yr brenhin. A gwedy yvet y *diawt* o emrys erchi a oruc yr ysgymyn vradwr hwnnw idaw dodi dillat arnaw a chysgu.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 171.

Ar marchogyon o lys Ruuein ae dalyassynt wrth vedyd. trwy rodi trwydet idaw ae weissyon o vwyt a *diawt* a dillat yn llawen.—*Amlyn ac Amig,* col. 1102 (cf. 1104, 1108).

Canny rodhassoch ym vwyt pann vu newyn arnaf. na *diawt.* pan vu sychet arnaf.—*Lucidar,* § 120 (cf. 72).

Medhtawt yw cymryt gormodh o *dhiodydh.* . . Anymgynual yw rhagvlaenu teruyn gosodetic y gymryt bwyt neu *dhiot.* . . Angcymmetrolter yw, tra chwennychu gormodh o vwyt neu *dhiot.*—*Ymborth yr Enaid,* § 9.

Ni'm gad Mawd heb *ddiawd* dda,
Nac heb f' aur, nac heb fara.—*L. G. Cothi,* VIII. vi. 41 (cf. III. vii. 12, 13; ix. 32; IV. i. 20).

Yr hwn o'r blaen oedd gynnefin â chael ei wasanaethu â phob math ar *ddiod* beraidd.
Dr. Davies: Llyfr y Res. I. ix. 16.

Diodydd ynn rhydd ein rhi Rydderch-naws
O faril gyngaws rhydraws Rhodri.
Llywelyn Goch: M.A. i. 514.

Da iawn yw Annes aur gadwynau,
Da ydyw Annes o'i *diodau.*
L. G. Cothi, I. xxxi. 17 (cf. xxxiii. 49, 52).

Tri pheth a gâr Cymro: tân; halen; a *diodydd* da.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 134.

Rhoi diod i un, to give one drink.

Bu arnaf syched, a *rhoisoch i mi ddiod.*
Matt. xxv. 35 (cf. 37, 42).

Rhowch ddiod i landdyn, a lletty i gardotyn,
Anrhydedd i frenin, a gwenyn i gwch.
Ed. Richard: Bugeilgerdd, ii. 46.

Diod gadarn, strong drink.

Nac yf win na *diod gadarn.*—*Barn.* xiii. 4 (cf. 7, 14).

Gwae y rhai a gyfodant yn fore i ddilyn *diod gadarn.*
Esa. v. 11 (cf. 22; xxviii. 7).

Diod gadarn tafarnwas.—*Gronwy Owain,* 56.

Meddyliodd ar y cyntaf y gwnai ychydig *ddiod gadarn* lawer iawn o les iddo.—*Cawrdaf:* Meudwy, 172.

Diod frag, malt liquor.

Yfwch ato *ddiod frag,* onid e fe dag diogyn.
Huw Morus: Eos Ceiriog, i. 271.

Diod afalau, drink made of the juice of apples, cider.

Goreu *diod,* osai *afalau,* neu hen fedd onis bydd osai.
Meddygon Myddfai, ii. 56.

Diod feddyginiaeth, } medicinal drink.
Diod feddygol, }

Adaw a wnaeth wneuthur iechyt idaw o chymerei *diodyd medeginyaeth* gantaw.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 283.

Y gythi a uyd llawn yn yr amseroed hynny; ac o chymer *diawt uedeginyaeth* perigyl yw.—*Meddygon Myddfai,* i. 92.

Diod fedd, a drink of mead; mead.

Diodydd medd da ydynt.—*Dafydd ab Gwilym,* cxlvi. 56.

Goreu ugain o'r gwragedd
Yw dy fam am *ddiawd fedd.*—*L. G. Cothi,* I. xxxiii. 49.

Diod gwsg: see *Cwsg.*

Dyfeisiwyd llawer o'r cyfryw arwyddion twyllodrus, sy'n ail i *ddiod gwsg* a fai'n gostegu dolur dros amser.
Th. Williams: Ymadr. Bucheddol, 358.

Diod o ddwr, a drink of water.

Goreu cig cig myharen, a bara gwenith drwy ferman . . . a *diod o ddwr* neu lasdwr ar y bwyd.
Meddygon Myddfai, ii. 537.

Diod o win, } a drink of wine.
Diod win, }

Yf *ddiod o win* da unwaith y dydd.
Meddygon Myddfai, ii. 693.

Goreu dau a gâr dewin
Yw dy dad, a *diod win.*—*L. G. Cothi,* I. xxxiii. 51.

Diod dwym, warm drink.

Bwyta gic ir. aruera o *diawt twymyn.*
Meddygon Myddfai, i. 78 (cf. 79).

Diodydd meddwol, intoxicating drinks, alcoholic liquors.

Diodydd poethion, spirituous liquors.

Offrwm diod (*pl.* offrymau diod), drink-offering.

Diod offrwm (*pl.* diodydd offrwm, diodydd offrymau), drink that is or is to be offered, offering-drink, a libation.

2. (=cwrw) ale or beer. This is commonly the colloquial use of the word in most parts of South Wales.

Ac am hyny rhaid diowryd y *ddiod* yn gwbl, megys ag y gwnaethym er pan ddaethym yma.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 237.

Diod fain, small beer, weak beer.

Arfer o fwyd gwresog, a *diod fain* iachualem.
Meddygon Myddfai, ii. 247.

Diod gref, strong ale or beer, strong drink.

Diod wedi marw, dead or stale beer.—*W.*

Diod ail, } table beer, beer of second-rate
Ail ddiod, } quality.—*W.*

Mewn diod, in drink, in one's cups.

Ac ef *yn ei ddiawd* yn llys y brenin a ddywedawdd y cyfan yng nghlyw car i Gerallt.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 543.

Wedi cael allan hyn o wybodaeth yr ymrôdd Geraint yn ei hollwaith i feddwi, ac a fu farw *yn ei ddiod.*—*Iolo Mss.* 6.

Bod mewn diod, to be in beer; to be in one's cups.

Y mae dolur yn fy mhen o'r achos es hir flynyddau, a dyma'r achos fy mod yn colli cymmaint arnaf fy hun *mewn diod.*—*I. B. Hir:* Gwaith, 236.

Tŷ diod, an ale-house, a beer-house.

Diod, } *v.* [*di-* + *dodi,* according to Davies: cf.
Diodi, } *deod*] to take or put off; to strip or divest; to doff; to extract. See *Deod, Deodi;* but this is the older orthography.

O dyrnawt newyd neu urath newyd ar y penn goreu yw bo kyntaf y *diotter.* rac dygwydaw gwaet ar y greadur ae uerwi yno. Or pann *diotter* yr ascwrn y ar y greadur; kymryt y uiolet ac emenyn gwyry ae maedu y gyt.
Meddygon Myddfai, i. 7 (cf. 19, 33).

Diod arfau, to put off arms.—*Mab.* 73, 271.

Digitized by Google

Diodach, *s.pl.* intoxicating slops, mean liquors, slops.

Gwell, a syberwach (ym marn pob dyn) a thragwyddolach a fyddai hyn, no threulo arian mywn tafarnau ar loddest a *diodach*.—*Dr. I. D. Rhys:* Gram., Rhag. 5.

Na gormod o *ddiodach*,
Coelier fi, gwell cael rhy fach.—*Ioan Cunllo.*

Diodaid, eidiau, *sf.* as much drink as is required at one time; a draught.

Cymmer fes, a chras nhwy yn galed, a gwna nhwy'n bylor, dod lwyaid mewn *diodaid* o gwrw da, ac yf ef yn dwym bob bore dros o wythnos i naw diwarnod.
Meddygon Myddfai, ii. 450.

Diodgar, *a.* addicted to or fond of drinking; given to drinking; bibacious, bibulous.

Tri ffol pendafad: cynghorwr merch wingllyd; rhybuddiwr mab *diodgar;* ac a ddoto addyeg o flaen a dybio ei hun yn ddoeth.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 260 (cf. 275).

Diodgarwch, *sm.* addictedness to drinking; bibacity; tippling.

Diodi, *v.* to give drink to; to supply with drink; to satisfy with drink.

Hi a aeth, ac a lanwodd y gostrel o'r dwfr, ac a *ddiododd* y llanc.—*Gen.* xxi. 19 (cf. xxiv. 18, 45; Num. xx. 8).

Diodant holl fwystfilod y maes.
Salm. civ. 11 (cf. xxxvi. 8; lx. 3; lxix. 21; lxxx. 5).

Yf yn ddiod, nos a bore, yn wag, a fo raid i'th *ddiodi*, ac na yf brydiau ereill namyn dwr yn ddiod oni bôt iach.
Meddygon Myddfai, ii. 2.

Y dwfr, a'r ddaiar, a chwbl ag sydd ynddynt, i'w fwydo, i'w *ddiodi*, a'i ddilladu, a'i loni ef.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 236.

Diodi un, to give one drink.

Dioda fi, give me drink; let me drink.—*Barn.* iv. 19.

Diodiad, -au, *sm.* a supplying with drink.

Diodid, *a.* [odid] not dubious or doubtful; without hesitation; certain; not scarce.

Yn arllauar war wawr *diodid*.
Iorwerth Fychan: M.A. i. 414.

O f' Awen deg! fwyned wyt!
Diodid, dawn Duw ydwyt.—*Gronwy Owain*, 2.

Cadarnach a sicrach sail,
Diodid, yw dy adail.—*Dafydd Ionawr*, 176.

Camp ddiodid, a remarkable feat, exploit, or achievement.

Bu dioual ny bu diofit
Gan golofyn Kymry *camp ddiodit*.
Phylip Brydydd: M.A. i. 377.

Diodl, *a.* [odl, awdl]: see *Diawdl.*

Diodlestr, **Diawdlestr,** -i, *sm.* drinking-cup, a vessel to drink from.

Llenwi *diawdlestr* â llyn didlawd.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 49.

Diodlestr, **Diawdlestr,** **Diodlyst,** **Diawdlyst,** -au, *sm.* [diod+llestr, llyst] funeral-ale; a cup of drink formerly given to the poor over the coffin at funerals in some parts of North Wales; and after the custom had ceased, the name was sometimes transferred to any donation similarly given. The cup was also called *cwpan y meirw* and *cwpan dros y meirw.*

The word is misprinted *diodlift* (=*diodlift*) in Lhwyd's *Arch. Brit.* 216 (from the papers of Dr. Davies), and is so reproduced in later dictionaries.

Diodlwnc, **Diawdlwnc,** *sm.* a draught; the quantity drunk at once.

Edlyn, *diawdlwnc*, neu lyn a wneir o gelfyddyd.
Meddygon Myddfai, 296.

Diodlyn, **Diawdlyn,** -au, *sm.* liquor for drinking, beverage, drink.

Didlawd oedd, pai'n *diawdlyn*,
Er claer dwf, o'r clared yn'.—*D. ab Gwilym*, ccxiii. 13.

Diawdlyn da diadlaes.—*Iolo Goch.*

Diodlyst, -au, *sm.*=*Diodlestr.*

Diod-offrwm, offrymau, *sm.* drink-offering, an offering of drink.

Offrymed yr offeiriad ei fwyd-offrwm a'i *ddiod-offrwm* ef.
Num. vi. 17 (cf. 15; xv. 7, 10, 24).

Eu *diod-offrwm* o waed nid offrymaf fi.—*Salm.* xvi. 4.

Diod-offrymu, *v.* to offer as a drink-offering; to pour as a libation.

Ni fynai efe ei yfed, eithr efe a'i *diod-offrymodd* ef i'r Arglwydd.—2 *Sam.* xxiii. 16.

Diodor, *a.* [godor] without interruption, uninterrupted; without delay; continual.

Y brenin Ystyffan a ddanfones at Ruffydd ab Rhys i orchymyn iddaw ddyfod attaw yn *ddiodor* i atteb cwynion a roesid arnaw gan y Ffrancod.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 557.

Cans *diodor* yw pob peth ar gymmaint ag y gwallocsodd yr hawlwr ei fyned dan ei gamlwrw.
Leges Wallicae, iv. cxcv. 1.

Hwy a loegir, yn lloegi yn wastadol, yn *ddiodor*, yn annhraethol, yn dragywyddol.—*Elis Lewis:* Drexelius, 281.

Diodrig, *a.* [godrig] without delaying or loitering; without delay.

Hael o wir anian hawl wyrennig
Heilwin da wydrin *diodrig* cadarn
A heiliau masarn wr helm ysig.
Meurig ab Iorwerth: M.A. i. 508 (cf. 200).

Diodrydd, **Diawdrydd,** *a.* given to drinking, bibacious; drunk.

Twyll a symud pwyll pell ddefnydd meddwl
Mal dyn meddw *diawdrydd*.
Gr. ab D. ab Tudur: M.A. i. 479.

Diodrydd, **Diawdrydd,** -ion, *sm.* a drunkard, an inebriate, a bibbler.

Diodrydd, **Diawdrydd,** *a.* free or liberal of (one's) drink; giving drink.

Neidr fydd *ddiawdrydd* ddidrist,
Nodau'r baedd cryf, neidr bedd Crist.
L. G. Cothi, i. xvii. 19.

Diodwr, wyr, *sm.* 1. one given to drinking, a bibbler, a tippler, a drunkard.

Ni charai ffals, na chorff hyll,
No lleidr mwy no neidr nawdull;
Na ffrostiwr, na bostiwr bach,
Na *diodwr* fai'n dydach.—*L. G. Cothi*, iv. i. 55.

2. one who gives drink (to another).

Diodwydd, **Diawdwydd,** *s.pl.* the bay-tree or laurel (*Laurus*). Also called *dail y cwrw, pren y gerwyn,* and *llorwydd* or *llawrwydd.*—*H. Davies:* Welsh Bot. 180, 183, 228.

Laurus, llorwydd, dail y cwrw, *diodwydd*, y bae, y baewydd.—*Meddygon Myddfai*, 287.

Dioddef, *v.* [dy-+goddef] to suffer; to bear; to endure, to abide; to undergo; to bear with; to give way to; to allow, to let.—*C.C.* i. 638.

Ha *diguadef* braut diam y cam a diconher dy escop Teliau.
Llyfr Teilo, 120.

Kyuot dyn y uynyd y *diodef* aghev heb y gwr du.
Mabinogion, 222 (cf. 167, 176).

Ac eissoes ny allwys *diodef* y dianrydedu mal y daroed. . . . Mwy boen yw koffau kyuoeth gwedy coller. no chyt *diodef* achenocotit heb ordyfneit kyuoeth kyn no hyny.
Yst. Bren. Bryt: LL.C.H. 67.

Digitized by Google

Arglwyd heb y Kicua pam y *diodefir* hynn y gan y taeogeu.—*Mabinogion*, 52 (cf. 18, 80, 145).

Pa beth bynac ar a racweler en da en e blaen y gan doethion. pan deler ar e gweithret haws e *dyodever*.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 327.

Yr pan *diodefawd* Crist ar brenn y groc.—*St. Greal*, ¶ 2.

Mab Duw heb y Rolant yr hwnn a anet or wyry. ac a *diodefawd* yn y groc.
Yst. de Carolo Magno, col. 401 (cf. 389, 415).

Tri rhagor newid cyfiwr yn y Gwynfyd: addysg; harddwch; a gorphwys rhag anallu *dioddef* y ceugant a'r tragywyddol.—*Barddas*, i. 178.

Ni chaiff dda ni *oddefo* ddrwg.—*Diareb.* (M.A. iii. 166.)

Duw, dy nerth; ac yn nerth, *dioddef;* a *dioddef* dros y gwir; ac yn y gwir pob goleuni.—*Barddas*, i. 360.

Efe a *ddioddefodd*, ac a gladdwyd.—*Credo Nicea.*

Pa fodd y gall ei galon ef *ddioddef* y cyfyngderau hyn.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. v. 17 (cf. ii. 8; vi. 2).

Dioddef poen, to suffer pain.—*Ll.C.H.* ii. 67.

Dioddef ammharch, to suffer dishonour.—*Act.* v. 41.

¶ *Dioddeu* ['dioteu'] and *dioddau*, for *dioddef*, occurs in *M.A.* i. 331, 517. The rhyme shows that *u* in these instances does not stand for *f*.

Dioddef, -au, *sm.* suffering, bearing; passion; sufferance.

A'n namwain a fu pob tost, a phob caled, a phob drwg, a phob *dioddef;* ac ychydig y bu'r daioni a'r gwynfyd cyn dyn o honof.—*Barddas*, i. 226 (cf. 228).

Rhyw ddydd, o'r hir *ddioddef*,
Yr oedd gwreigdda gydag ef.—*L. G. Cothi*, VII. iv. 13.

Gan ymgais pa bryd, neu pa ryw amser, y gwnai yspryd Christ oedd ynthynt wy yn tystiolaethu yn y blaen, hyspysu y *dioddefau* a gaffai Christ, a'r gogoniant a'u cydganlynai hwynt.—*Esgob Davies:* 1 Pedr i. 11.

Mab dioddef (1), a son by sufferance.

Mab doolew a uyd a *mab dyodew*. . . *Mab dyodew* yu mab a dyco gwreyc y ur yn gyureythyaul a dyodew o'r gur hep y wadu un dyd a bluydyn.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 210.

Or deruyd tebygu bot yn *vab diodef* pop *mab diodef* a dywetter y uot yn vab i dyn; y gyfreith a dyweit hyt nat *mab diodef*, sef yw *mab diodef* mab a dycco y uam yn *gyfreithawl* kyny chymerer ny watwyt; ac wrth na wadwyt diodeuedic yw.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 98.

(2) a person condemned or sentenced to suffer death; a condemned person.—*W.*

Bryn dioddef, the hill of suffering; a place of execution.

Yr oedd rhwng palas y barnwr a'r lle yr oeddid arferol o ddienyddu (neu *y Bryn Dioddef*) afon fawr yn rhedeg a elwir Tems, neu Tafwysg. . . Tyrfa fawr o bobl . . . a ganlynasant y gwr duwiol i'r *Bryn Dioddef*.
Theo. Evans: D.P.O. 199.

Y pren dioddef, the tree of suffering; a gallows; a cross.

Os cewch y gwr talog yn gloff yn ei esgus, rhowch iddo wers, a dau dro a hanner ar ei arddwrn, a gwasgu'r feg arno mal y gwelo'ch doethineb yn oreu, a'i yru unwaith o fwg y dref hyd *y pren dioddef*, ac odid na ddaw yma.
Gronwy Owain, 323.

Dioddefadwy, *a.* sufferable, tolerable, bearable, endurable, supportable.

Dioddefaint, } *sm.* suffering, passion; suffer-
Dioddeifaint, } ance.

Kann mynnei ynteu rodi udunt hwy trwy *diodeifeint* coron teyrnas nef dros eu llauur. . . Kanys trwy *diodeifeint* y cledyf y mynnwys Duw dileu eu pechodeu wynteu.
Yst. de Carolo Magno, col. 501.

Ac yn yr amser ydoed Weiryd Adarweindawt yn gwledychu Ynys Prydein y kymerth yn Arglwyd ni Iessu Grist *diodeifeint* ym pren croc yr prynu y Cristonogyon o geithiwet ufern.—*Yst. Bren. Bryt:* Ll.C.H. ii. 97.

A meddylyaw am *ddioddeiweint* yr Arglwydd Iessu.
Ipotis, ¶ 17 (cf. 14).

Paham y trydydh dydh oe *dhiodhefaint* ef?
Lucidar, ¶ 38 (cf. 32, 41, 43, 119, 138).

Na chysced mab dyn or *dioddefeint* Mab Duw.
Elaeth: M.A. i. 162 (cf. 270, 466).

Brenin y Dioddefaint, the King of Sufferings.

Y dyd y kychwynnych odyma ti a doy y lys meibon y *Brenin y diodeyueynt*. . . Odyna y kychwynnawd Peredur racdaw. ac y deuth y lys meibon *Brenhin y diodeiucint*.
Mabinogion, 223.

Y Dioddefaint, the Passion=the sufferings of Jesus Christ between the Last Supper and his Death.

Trwy dy Grog, a'th *Ddioddefaint*.
Ll. G. Gyffredin (Litani).

Dioddefaint Crist, the sufferings or passion of Christ.

Hyny oedd ffrwyth bendigedig *dioddefaint Christ*.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. iv. 3.

Wythnos y Dioddefaint, Passion-week: also called *Wythnos y grog* and *Wythnos y croglithiau*.

Yn y vlwydyn hono . . . y doeth y brenhin yn *wythnos y diodeifein* hyt yn Penvro.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 574.

Dyddiau y Dioddefaint, the days of the Passion, Passion-tide.

O achaws *dydyeu y diodeucint* a oedynt yn agos.
Brut y Tywysogion, 372.

Dioddefedig, *a.* suffered, endured; borne; patient.—*C.C.* ii. 98.

Dioddefedig, -ion, *sc.* one that suffers or has suffered; a sufferer.

Vyg kyt uarchogyon kyt *diodeuedic* yni.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 221.

Y gyt a hynny mi a welwn ryw dynyon yn kynnullaw gwaet y *diodefedic*.—*St. Greal*, ¶ 250.

Dioddefedigion, sufferers.

Dioddefedigaeth, -au, *sf.* the action of suffering or enduring; suffering, passion.

Credadwy yw y anedigaeth. credadwy y varwolyaeth. neu y *diodefedigaeth*. ac odyna y gyfodedigaeth o ueirw.
Yst. de Carolo Magno, col. 402.

Yna ef a draethawd idaw y pwynteu goreu or euengylyeu. a ffuryf y gret newyd. ac am *diodefedigaeth* yn Arglwyd ni Iessu Grist ar brenn y groc.—*St. Greal*, ¶ 9 (cf. 224).

Dioddefedigol, *a.* passive; submissive.

Dioddefedd, *sm.* patience, forbearance.

Dioddefgar, *a.* patient, long-suffering, forbearing, bearing with.

Tri brodyr dwyfolder: *dioddefgar;* cariadgar; a gwirioneddgar.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 274.

Ai hir genyd, yr ydwyd
Un *ddioddefgar*, serchog wyd!—*D. ab Gwilym*, cvi. 5.

Bydd ddeddfol a *dioddefgar*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 131.

Gwell yw y *dioddefgar* o yspryd na'r balch o yspryd.
Preg. vii. 8 (cf. Act. xxvi. 3; Rhuf. xii. 12).

Dioddefgarwch, *sm.* patience, forbearance; long-suffering.

Gan wybod fod gorthrymder yn peri *dioddefgarwch;* a *dioddefgarwch*, brofiad.—*Rhuf.* v. 3, 4 (cf. Col. i. 11).

Dioddefgarwch a ymarferir ag ef, drwy ddioddef yn llonydd.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. ii. ii. 19.

Pa galon dyn marwol a all ddangos y fath *ddioddefgarwch* a hyn?—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. ix. 5.

Dioddefgarwch Duw, the forbearance of God.—*Rhuf.* iii. 25 (cf. ii. 4).

Y trydydd rheswm i beri ini gredu faint yw ei gospedigaeth ef, yw rhyfeddol amynedd a *dioddefgarwch Duw* yn y byd hwn.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. ix. 5.

Digitized by Google

Dioddefiad, -au, *sm.* a suffering, bearing, or enduring; suffering, passion.

Yr ydwyf yn cyfrif nad yw *dioddefiadau* yr amser presennol hwn yn haeddu eu cyffelybu i'r gogoniant a ddadguddir i ni.—*Rhuf.* viii. 18 (cf. 2 Cor. i. 6, 7; Col. i. 24).

Gan roddi iddynt amynedd dan eu *dioddefiadau*, a dedwyddol ymwared o'u holl gystuddiau.—*Ll. G. Gyffredin.*

Dioddefiadau Crist, the sufferings of Christ.

Llawenhëwch, yn gymmaint a'ch bod yn gyfranogion o *ddioddefiadau Crist.*—1 *Pedr* iv. 13 (cf. v. 1; 2 Cor. i. 5).

Dioddefiant, *sm.* suffering, passion.

Areglyt devnyt *dioteviant* llavn
Llyvn i deutu llym ei hamgant.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 266.

Dioddefol, *a.* passive, suffering; passible.

Mewn ystyr dioddefol, in a passive sense; passively.—*W.*

Berf ddioddefol, a passive verb.

Berf ddioddefol, yn arwyddo dioddefiad neu dderbyniad gweithred oddi gan arall.
D. E. Jones: Ieithadur Seisoneg, 31.

Y llais dioddefol, the passive voice.

Y Danaeg yn unig, o'r holl ieithoedd Teutonaidd, a ffurfia *lais dioddefol* heb gymhorth berf arall.
D. E. Jones: Ieithadur Seisoneg, 53 (cf. 37).

Dioddefoldeb, } *sm.* passiveness; passivity;
Dioddefolrwydd, } passibleness.

Dioddefus, *a.* passive; patient; suffering.

Tri pheth y caiff dyn *dioddefus*: cariad; parch; a chanmoliaeth.—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 183.

O'th gawdd, pwynt anhawdd, pand dawnus fuom
Dy ddyfod atom, Duw *dioddefus!*
Dafydd ab Gwilym, ccxli. 39.

Dioddefusrwydd, *sm.* passiveness.

Dioddefwr, wyr, } *sm.* one who suffers or en-
Dioddefydd, -ion, } dures; a sufferer; a patient.

Dymunodd ar ryw un wthio ychydig halen tu fewn i eneu y *dioddefydd.*—*Gwyliedydd*, v. 320.

Dioddeifaint, } *sm.*=*Dioddefaint.*
Dioddeifiaint, }

Ef kymerth yr Duw *dioteifyeint* yn dec
Ar donn a charrec a chadw y vreint.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 270.

Yr hwnn a vu gwedy *diodeifyeint* yn Arglwyd ni.
St. Greal, i. 171.

Dioed, *a.* [oed] without delay or delaying; immediate.

Yn ddioed, } without delay, immediately, forth-
Yn ddioedi, } with, at once, off-hand.

Brasgama di *yn ddioed*,
Rhy daer y cwn, rhed i'r coed.
Dafydd ab Gwilym, lix. 43 (cf. ccxx. 5).

Carw'n rhoddi da *yn ddioed*,
Calon Gwrtheyrnion a'i throed.
L. G. Cothi, v. viii. 7 (cf. xiii. 39).

Dyro dy fryd *yn ddioed* ar fyn'd yng nghylch y gorchwyl y'th anfonwyd yma o'i blegid.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. iii. 10 (cf. v. 18; x. 24).

Am hyny *yn ddioed* myfi a anfonais atat.—*Act.* x. 33.

Rhaid yw ei wneuthur yn ebrwydd ac *yn ddioed.*
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 118.

Darfod i'r Iesu farw drosot i fyw ynot ti, ac i'th ddwyn *yn ddioed* at Dduw.—*Morgan Llwyd:* Tri Aderyn, 76.

Bydded i angeu ond prin gyffwrdd â ni, a thragywyddoldeb a'n llynca ni *yn ddioedi.*—*Elis Lewis:* Drexelius, 16.

Cyflawni'*n ddioedi* d'addewidion.
Dafydd Ionawr, 266 (cf. 193).

Dioedi, *a.*=*Dioed.*

Dioediog, *a.* not given to loitering.

Ceiriog *ddioediog*, hoew-dda wawdydd,
Ceiriog eiriog, hawdd ceir ei gerydd.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 157.

Dioedran, *a.* [oedran] not of age, being under age.

Tri dyn ni ellir kanlyn kwyneu vnic racdynt: manach hep y abad; a gwreic hep y gwr priod; a mab *dioedran* hep y dat neu geidwad tra dylyo vod drosto.
Cyfreithiau Cymru, ii. 406.

A thir mab *dioedran* yny delo i oedran goresgyn.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 303.

Dioer, *ad.* certainly, verily, truly, doubtless, undoubtedly, without question.

Dioer heb yr amdiffynwr ti a roddeist ym y da ydd wyt yn y holi. . . *Dioer* heb yr hawlwr ny wadaf i gyehwyn o honof hynn a hynn y gennyt yn cyfreithiawl.—*C.C.* ii. 650 (cf. 736, 738; ii. 122, 150, 152, 156, 158, 164).

Dyoer hep ef o buost ty ema en kyureythyaul ed eythost ty odyma. . . *Dyoer* heb ef kyhyt ac e dewedeys.
Cyfreithiau Cymru, ii. 142 (cf. 144; i. 112).

Dioer heb wy ny adwn ni drwc arnam ny hunein yr dyn yn y byt.—*Mabinogion*, 19 (cf. 2, 29, 33, 47, 50, 51, 53, 58, 64, 69, 71, 74, 80, 163, 176, 184, 187, 189, 198, 199).

Dioer heb un or marchogyon hyt y gwelir ymi ffolineb mawr yw y ymlit ef.—*St. Greal*, i. 107.

Dioer heb ef kanys heb wybot y an brenhin y dechreuassam ni yr ymlad hwnn. reit oed yn ninheu ymoglyt rac an dygwydaw yn yr ran waethaf or ymlad.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 216.

Diogel yw os mynni y bydhi yn dhiannot *dioer.*
Lucidar, i. 138.

Na chredaf *dioer* vyth. heb hi. a thra vyw y bu diweir a gwastat.—*Doethion Rhufain*, 40.

Tervyn *dioer* oer oed.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 437 (cf. 438, 450, 496, 508).

Mygr hyloew magwyr hoew-loer,
Morfudd deg ei deurudd *dioer.*—*D. ab Gwilym*, xxiii. 37 (cf. xv. 3; clxxxii. 1; clxxxvi. 1.

Dioer ni fyn o fodd dewi,
Dywedwyf a fynwyf fi.—*Iolo Mss.* 248.

Dwr a dreiddia *dioer* drwyddi.
Meredydd ab Rhys: Iolo Mss. 322.

Yn diagwyl beunydd dydd *dioer*,
Gwylied goleuni gwiw-loer.—*Sion Cent.*

I'm lleferydd bob dydd *dioer*,
Grymialus egr am wiw-loer.—*Iolo Mss.* 249.

¶ *Dioer* is usually considered to be a corruption of *Duw a ŵyr* (=God knows); for some codices of the Laws have *dioer*, while others read *Duw a ŵyr* in the same passages; but the contraction of three words into one (generally a monosyllable in the poets) is unusual.

Dr. Davies's conjecture that *dioer* stands for *dior* (*or*=*os*, if) is ingenious; but no instance of *dior* (=*dioe*) is known to occur. *Dioer* (sometimes spelt *dyoer*) as well as *Duw a ŵyr*, is of frequent occurrence in the Laws and in the Mabinogion, and in them both expressions appear convertible. See *Leges Wallicae*, 97, 567; Zeuss, *G.C.* 99, 602. With *Duw a ŵyr* compare *rhof ŵ a Duw*, a very common expression in the Mabinogion and contemporary literature.

Dioer, *a.* certain, sure; indubitable.

Yr wylan deg ar lanw *dioer*,
Unlliw â'r araf wenlloer.—*D. ab Gwilym*, xxviii. 1.

A wnaeth draw yr annoeth dro
Y ci mawr a'i cymmero
Oddi ar ei gwâl, *ddioer* gelen,
Heb rybudd er budd o'i ben!—*D. ab Gwilym*, l. 57.

Er ein mwyn ni yn *ddioer* ydd ysgrifenwyd hyn.
W. Salesbury: 1 Cor. ix. 10 (cf. Luc xii. 5).

Dioer, *a.* [di-+oer] not cold, chilly, or cheerless; warm; fervent; joyful.

Ystyrient hwy
Nad o wleddau gau gymhen
Ydd air i nef, *ddioer* nen.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 307.

Lloer *ddioer* ddawn, o liw gwiw gwawn.
Huw Morus: Eos Ceiriog, i. 152.

Caniedydd oelfydd mewn côr
Ydyw'r Gwynn, *dioer* gynor.—*I. B. Hir:* Gwaith, 48.

Digitized by Google

Dioerder, *a.* free from cold or chillness; not cold or chilly; warm.

Tyred i'r llwyn, mwyn yw Mai,
Dioerder yw'r clyd ir-dai.—*Dafydd ab Gwilym*, lxxx. 3.

Dioerllyd, *a.* not cold or chilly; warm.

Darllaw wna'r gwr *dioerllyd*
Geiriog oll yn gwrw i gyd.—*Huw Morus:* E.C. i. 85.

Dioesi, *v.* [oes] to deprive of life.

Dioesodd, rhifodd o'r rhai'n,
Yn ei ddig, yno ddeugain.—*Huw Morus:* E.C. i. 65.

Diofal, *a.* [gofal] 1. free from care, anxiety, or apprehension; secure; tranquil, quiet, at ease.

Beth y gyt a hynny olh pai bydhyt mor *dhioual* ac Eli ac Enoc.—*Lucidar*, § 129.

Dioual wlad a wledycho.
Llygad Gwr: M.A. i. 343 (cf. 260, 377).

Nid *diofal* ond dedwydd.—*Iolo Mss.* 254.

Da Ifan a *diofal*,
A dwy arglwyddiaeth a dâl.
L. G. Cothi, iv. viii. 53 (cf. iv. 41; xxii. 31; vi. iv. 22).

Hwy a gymmerasant y pethau a wnaethai Micah . . . ac a ddaethant i Läis, at bobl lonydd a *diofal*.
Barn. xviii. 27 (cf. 7; Diar. iii. 29).

O *ddiofal* hydd iefanc
Yn wr ffraw, goruwch llaw llanc.—*Gronwy Owain*, 63.

Gwneuthur yn ddiofal, to free or relieve from care or anxiety; to rid of care; to make safe or secure.

Ni a'i perswadiwn ef, ac a'ch gwnawn chwi yn *ddiofal*.
Matt. xxviii. 14.

Mae ef yn ddiofal iawn, he is very comfortable.

2. careless, unconcerned, negligent, regardless, not caring; easy-going.

Cyfodwch, wragedd diwaith; clywch fy llais: gwrandëwch fy ymadrodd, ferched *diofal*. . . Ofnwch, rai difraw; dychrynwch, rai *diofal*.—*Esa.* xxxii. 9, 11 (cf. xlvii. 8; Esec. xxx. 9; xxxviii. 14; Seph. ii. 15).

Dyfod, cyd bych *diofal*,
A wna dy dwyll yn dy dal.—*Robin Ddu.*

Gwae'r *diofal* ymsala!
Gwynfyd i'r diwyd a'r da!—*Gro. Owain*, 88.

Nid yw hyny ond *diofal* iawn ac ysgafala.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. iii. 7 (cf. v. 15).

Y rhai y maent mor *ddiofal* am eu peryglu.
Edward James: Hom. ii. 133.

3. not affected with care or anxiety; facetious, amusing, entertaining, jocund.—*C.S.*

Digrif iawn oedd cael ail afael yn yr hen gydymaith *diofal* gan Walchmai.—*Gronwy Owain*, 202.

Diofaledd, *sm.* freedom from care or anxiety; carelessness, negligence.

Yr oedd y persondy a'r adeiladau gwedi adfeilio bron yn furddynod, drwy hir annhrigiant a *diofaledd* ei ragflaenor.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 417.

Diofalhau, *v.* 1. to have no care; to become careless or unconcerned.

Bod yn glustfyddar wrth y wialen a'r gair, ymgaledu a *diofalhau*, a myned ym mlaen mewn pechod tan raglunaethau deffröus a syn, sydd farn ofnadwy.
Sam. Williams: Amser (1724), 151.

2. to relieve from care or solicitude.

Bod heb ymwared a all ein *diofalhau* ni megys cysur yn ein hadfyd; am fod ofn heb obaith yn ynfydrwydd.
Gr. Wynn: Ystyriaethau, 45.

Gall *ddiofalhau* a sicrhau eu cydwybodau.
R. Vaughan: Ym. Duwioldeb, 405.

Diofalon, *a.* free from cares or anxiety.

Llathraid blaid ensaid Ion y gogoniant
A dheu foliant *diofalon*.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 462 (cf. 471).

Pan alwon'—a draetha'n *ddiofalon*,
Na lygrir ei galon â golud.—*Huw Morus:* E.C. ii. 50.

Diofalrwydd, *sm.* carelessness, heedlessness, negligence; ease; jocundity.

Diofalu, *v.* 1. to relieve from care or anxiety.

Deu fab Lywelyn lew gymynad
Diofelynt fi o feirch ffysciad
Diofelyd Duw hwy ac eu tad.
Dafydd Benfras: M.A. i. 316.

Pe gellid *diofalu* 'r tlawd oddi wrth hyn, ni fyddai y rhanau ereill o dlodi ond manteisiau gan wŷr sobr synwyrol.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 121.

2. to make careless or unconcerned.

Yn gyntaf eu hanwybodaeth a'u *diofala*.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 277.

3. to become or grow careless; to cease to be careful or anxious.

Diofalu am beri i'r rhei'ny fyn'd i'w cyffes unwaith bob blwyddyn o'r hyn lleiaf.—*Allwydd Paradwys*, 88.

Llawer o ddrygeddau a dyf o lesgedd; ac o'r rhai'n dau y sydd beryglus; sef ynt, gwallusio troi at Grist, a *diofalu* am gyffesu pechodau.—*Marchog Crwydrad*, i. 10.

Diofalus, *a.* free from care; without care or anxiety; careless, negligent, neglectful.

A wrda eb ev nid avi o deirnas vechan hon edwiv eni chafel en llonit esmwith *diovalus* divygwth.
Brut Gr. ab Arthur (A): M.A. ii. 233.

O chwi drefydd *diofalus!* yn ol blynyddoedd a dyddiau y gyrir braw arnoch chwi, drefydd *diofalus!*
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xxviii.

Diofalwch, *sm.* carelessness; unconcern, heedlessness, thoughtlessness, inattention, indifference; negligence.

Mae ynom galonau budron, afian, anwireddus, yn llawn *diofalwch*, a dirmyg o Dduw.—*Huw Lewys:* Perl, 9.

Herwydd campau dynion difraw eu buchedd, ac o wir *ddiofalwch* ac annuwioldeb yn cau eu llygaid wrth wneuthur cam ag enw Duw.—*M. Cyffin:* Diffyniad, i. 7.

Y mae yr un gair yn arwyddocäu dirfing ofn y meddwl, a chnofa *diofalwch*.—*H. Perri:* Egl. Ffraeth. xxviii. 3.

Heb ddim ar air a myfyrdod yn tyfu o *ddiofalwch* ac esmwythder calon.—*Cyfrinach y Beirdd*, 40.

Y pedwerydd rhwystr yw'r pla ar y galon, a'r *diofalwch* diobaith sy'n dyfod oddi wrtho.
Sam. Williams: Amser (1724), 137.

Diofeg, *a.* [gofeg] without utterance or expression.

Fab Phaleg *diofeg* dwyll,
Fab Hebr, fab Sale hoew-bwyll.—*Iolo Goch.*

Diofer, *a.* not vain or useless; not abortive; not frivolous.

Kynifwr kynnif nid *diouer*.
Cynddelw: M.A. i. 229 (cf. 232).

Ef a lanwodd felinau
Ym mhob glyn a phen bryn brau:
Duw hael! lle daw â'i helynt,
Diofer gwaith dwfr a gwynt.—*Gutyn Owain:* G.B.C. 200.

Lle *diofer* i glera,
Lle cywir dyn, lle cair da.
D. ab Gwilym, cxxxviii. 11 (cf. cxxxix. 14).

Tyfu o goed *diofer*
Y bu, fal pob afal per.—*Tudur Aled.*

Dioferedd, *a.* void of trifling, frivolity, or vanity; earnest, serious; void of carelessness.

Doeth Gaerlleon deg anrhegion digynrygedd
Didrai foliant Duw da farant *dioferedd*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 461.

Deheu fwriad *dioferedd*.—*Iorwerth Lloyd:* M.A. i. 507.

Dwys fyfyr difyr, *dioferedd* gamp
A gwympwyd i'r dyfn-fedd.—*I. B. Hir:* Gwaith, 153.

Yr wyf yn ddioferedd, I am in earnest.

Dioferfryd, *a.* of no trifling mind or disposition; sober-minded.

Digitized by Google

Dioferfryd, *sm.* mind free from frivolity or trifling; sober-mindedness, earnestness, soberness.

Rhaid yw canmawl. . . ynadoedd am eu pwylledd, ofn Duw, dysgeidiaeth, *dioferfryd*, gwyliadwriaeth.
Henri Perri: Egluryn Ffraethineb, xviii. 1.

Dioferu, *v.* to renounce or resign ?

Namyn y Duw vchaf nys *dioferaf*
Dy teyrn veibon haelaf dynedon.
Taliesin: A.B. ii. 196 (M.A. i. 59).

Diofid, *a.* [gofid] free from trouble, grief, sorrow, or affliction.

Bu dioual ny bu *diofit.*—*Phylip Brydydd:* M.A. i. 377.

A chwedi myned yn *ddiofid* ymroant i wneuthur pob aflendid yn unchwant.—*Ch. Edwards:* Hanes y Ffydd, 276.

Diofidiad, *sm.* a ceasing to grieve.

Diofidio, *v.* to cease to grieve.

Diofidiol, *a.* not afflicting; at ease.

Diofn, *a.* without fear; fearless, undaunted, courageous, bold.—*Luc* i. 74; *Phil.* i. 14.

Mi ydwyf eurdedf *diofn* yn nhrin
Mi ydwyf llew rag llu lluch fy ngordin.
Gwalchmai: M.A. i. 193 (cf. 209, 341, 358, 364).

Rolant heb ef gwr kadarn wyti glew *diofyn*. ac ymogelus a thywyssawc yr ymladeu.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 432.

Ar kiwdawtwyr a drigyassant yn eu tei yn diodef yn *diofyn.*—*Brut y Tywysogion*, 58 (cf. 36, 146, 158, 340).

A phan weles Agamemnon, a Diomedes, ac Achel, ac Aiacs, a Locrius, na ddoethoedd Hector i'r frwydr, hyfach a *diofnach* fuant wyntau.—*Ystori Dared*, ¶ 68.

Diofn i'r bardd o'r Deau
Fyddaf, ni thawaf, o thau!—*Gr. Gryg* (D. ab Gwilym, cxxvi. 43; cf. xlix. 43; cxxxix. 34).

Diofnawd, *a.* free from fear; fearless, intrepid.

Gweleis y wledic dic *diofnawd*
Ofny y ofyn y efnys giwdawd.—*Cynddelw:* M.A. i. 226.

Diofni, *v.* to put out of fear; to relieve from fear.

Ar hynny ef . . . a *ddiofnes* ei gydymdeithion.
Ystori Dared, ¶ 24.

Hyn a'n dîberygla ni ac a'n *diofna* yn hollawl.
Th. Williams: Ymadroddion Bucheddol, 199.

Diofnog, *a.* fearless, undaunted, bold.

Diofnawc uarchawc ueirch fraeth
Yw hwn ut gwaedwn gwawdueith.
Prydydd Bychan: M.A. i. 383 (cf. 305, 481).

Hwn yn nerth Duw *diofnog* fydd,
Ac atteg sydd i'w galon.—*Edm. Prys:* Salm. cxii. 8.

Diofnogrwydd, *sm.* fearlessness, intrepidity.

Diofnol, *a.* not fearful, undaunted.

Diofnus, *a.* not timorous or fearful; bold.

Ni buost mewn 'wyllys, i bechu'n rhyfygus,
Fel anghrist trachwantus, *diofnus*, ar dwyll.
Huw Morus: E.C. ii. 43 (cf. 235, 300).

Diofregedd, *a.* void of trifling; earnest, grave, serious; diligent.

Ceisiwn ninnau ymegnïo'n *ddiofregedd* i dalu iddo'r cyfryw ddeiliadaethau ufudd-dod ag a ddangoso allan y teimlad a'r ystyr sydd ynom o'i anfeidrol ddaioni ef.
Ed. Samuel: Athrawiaeth yr Eglwys, 196.

Yn ddiofregedd, in earnest, earnestly.

Diofregedd, *sm.* [gofregedd] earnestness, gravity, seriousness.

Diofryd, -au, *sm.* [di- + go- + bryd] 'freedom from indecision of mind;' renunciation or denial by or as by an oath; abjuration; determination, decision, resolution; a vow; a solemn engagement; an oath of execration or renunciation.

Gwendyd na vyd anhylar
Neur roet y llwyth yr dayar
Diofryt o bawb a gar.
Myrddin: A.B. ii. 233 (M.A. i. 149).

Anhawdd yw ei ddyn ei *ddiofred.*
Dafydd Benfras: M.A. i. 220.

Braw yw ynn deon *diofryd* ein llyw.
D. Benfras: M.A. i. 312 (cf. 244, 247, 268, 325).

Ni a'n rhwymasom ein hunain â *diofryd* [*dan felltith] na archwaethem ddim hyd oni laddem Paul.
Act. xxiii. 14 (cf. 12, 21).

Rhai a ddywedant ymrwymo o St. Iaco mewn *diofryd* ar farwolaeth yr Iesu na fwytâi ac nad yfai nes yr adgyfodai Christ oddi wrth y meirw.
Edward Samuel: Buch. yr Apostolion, 213.

Lle y maent mewn *diofryd* i'w gilydd, a gelyniaeth beunyddiol.—*Th. Williams:* Ymadr. Bucheddol, 69.

Rhoi diofryd, } to renounce or repudiate (on
Rhoddi diofryd, } oath); to abjure.

Diofryd er hyd fo'r haf,
O'r addysg hyn a *roddaf.*
D. ab Gwilym, clxv. 47 (cf. clxix. 13).

O ddifrif *rhof ddiofryd*
I Fflint gaeth a'i phlant i gyd.—*L. G. Cothi*, v. vii. 55.

Rhaid *rhoi dioweryd* y ddiod yn gwbl.
I. B. Hir: Gwaith, 237.

Duw a anrhydeddir wrth wneuthur addunedau o beth da, neu *roi diofryd* peth drwg; ac a'i hammherchir wrth dori'r cyfryw addunedau, neu *ddiowerytt.*—*R. Smith:* Eglurhâd, 156.

Mi a *rodaf* yn *diofryt* y Duw na chwsc yma weithyon un marchawc urdawl ny ovynnwyf idaw y henw.
St. Greal, ¶ 107 (cf. 19).

Rhaid i ni, medd Cyrillus, pan ddelom i dderbyn y Sacrament hwn, *roi diofryd* meddyliau bydol, ac amcanion ofer.
M. Cyffin: Diff. (1671), ii. 16 (cf. v. 4, 5).

Gwae fi, Cadi, o rag cyd
D' aros, fal *rhoi dioweryd!*
Dafydd ab Gwilym, cxcix. 29 (cf. clxxix. 31).

Diofryd, peth nid afryw,
A *roddaf*, o byddaf byw.—*Iolo Goch.*

Pan gawsant eu cof, *rhoisant ddiofryd* oferedd ond hyny.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 101.

Yn ddifrif *rhown ddiofryd*
Holl hifwyr a barfwyr byd.—*Gro. Owain*, 22 (cf. 328).

Rhoi diofryd ar, } solemnly to renounce; to ab-
Rhoddi diofryd o, } jure; to renounce.

Eil yw gwreic wedy gwrhao, ac ysear ae gwr ohonei, ae o vyw y gwr ae o uarw, a gwedy hynny *rodi diofryt o* wyr y byt o honnei, ae mynet yn vanaches ae y mywn diofryt arall.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 530.

Nid oedd yr edifeirwch yma . . . yn arwyddocâu dim llai na'u bod hwy wedi *rhoi* llwyr *ddiofryd ar* eu pechodeu gynt.
Th. Williams: Ym. Bucheddol, 302.

Cymmeryd diofryd brawd, to undertake judicial functions; to assume the functions of a judge.

Dodassant eu hemendyth ar er egnat a *kemero dyofryt braut* ac ar er argluyt ay rodhei y dau ar ny uypey teyr kolheuen kefreyth.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 2.

Rhoddi diofryd brawd, to appoint to judicial functions.

Fel maes diofryd, as a field devoted.—*Lef.* xxvii. 21.

Diofrydai, eion, *sc.* a devotee; one who is under a vow.

Diofrydbeth, -au, *sm.* a devoted thing; an execrated, abjured, or accursed thing.

A'r ddinas fydd yn *ddiofrydbeth*, hi, a'r hyn oll sydd ynddi, i'r Arglwydd. . . Ymgedwch chwithau oddi wrth y *diofrydbeth*, rhag eich gwneuthur eich hun yn *ddiofrydbeth*, os cymmerwch o'r *diofrydbeth:* felly y gwnaech wersyll Israel yn *ddiofrydbeth.*
Ios. vi. 17, 18 (cf. vii. 1, 11, 18, 15; xxii. 20).

Diofrydedig, *a.* devoted; abjured.

Diofrydedd, *sm.* devotedness; devotion.

Diofrydes, -au, *sf.* a votaress.

Digitized by Google

Diofrydiad, -au, *sm.* a vowing; abjuration.

Diofrydog, *a.* devoted; determined, decided; abjured; being under a vow; votive.

A garo Dewi *diofredawc*
Cared offeren len lawerawc.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 270.

Os diwat a wna y gwr roddet lw deng wyr a deugeint, a thri o honunt yn *diofredawc*, o uarchogaeth a lliein a gwreic.
Cyfreithiau Cymru, i. 750 (cf. 408, 688; ii. 210, 232, 260.

Dyn diofrydog, a man bound by a vow; a devotee, a votary.

Or lloegir dyn yno, tri *dyn diofrydawg* a ddylyant fod yn rhaith.—*Leges Wallicae*, III. iv. 10.

Diofrydol, *a.* votive; devoted.

Offrymau diofrydol, votive offerings.

Diofrydoldeb, *sm.* devotedness.

Diofrydu, *v.* to abjure; to renounce by oath; to make a vow or solemn engagement; to devote; to renounce; to determine, decide, or resolve; to doom; to become decided.

Ym byw nyth *diofredaf*
A hyt vrawt yth goffaaf
Dy ffossawt trallawt trymaf.
Cyfoesi Myrddin: A.B. ii. 233.

Hil ac epil anghredadwy Pharaoh a gablasant ac a *ddiofrydasant* gyfraith Dduw; ond yn ddiymmwth efe a'u dinystriodd hwynt am eu pechod.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 110.

Nid wyf yn *diofrydu* na chwrw na chân,
Ond ceisio dibendod ar bechod a bâr.
Huw Morus: E.C. i. 356.

Diofrydwr, wyr, } *sm.* a devotee, votary, or
Diofrydydd, -ion, } votarist; one bound by a vow.

Diofydd, *a.* [gofydd, ofydd] void of skill, unskilful, inartistic.

Rhaid yw gochelyd rhag bod y galarnad nac yn ffugiol, nac yn gerdoteiawl, nac yn ddiofal, neu'n *ddiofydd*.
H. Perri: Egl. Ffraethineb (1595), xxxii. 4.

Diofyn, *a.* [gofyn] unasked, unsolicited.

Casddynion Catwg Ddoeth . . . Dyn a drefyd yn *ddiofyn* iddo yr hyn ni pherthyn iddo.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 37.

Diog, *cp.* dioced, diocach, diocaf, *a.* [di-+awg =awch: C. *dioc* (C.V.); Br. *diek*] lazy, slothful, sluggish, indolent; slow.

Diauc [*gl.* segnem].—*Codex Juvencus*, 93.

Kyneillt bleid bugeil *diawc*.—*Llywarch Hen:* A.B. ii. 246.

Na fydd *ddiawg;* hedyn pob drwg yw diogi: nid tlawd ond *diawg*.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 102 (cf. 104).

Gwas *diog* fyddaf i'm gwesteiaeth.
D. ab Gwilym, ccxxix. 29 (cf. ccxxi. 22).

Dyna eagus pob dyn *diog*.—*Gronwy Owain*, 308.

O was drwg a *diog*.—*Matt.* xxv. 26.

Bydded pob dyn eagud i wrando, *diog* i lefaru, *diog* i ddigofaint.—*Iago* i. 19 (cf. Diar. xiv. 29; Rhuf. xii. 11).

Tafod *diog*, synwyr bywiog.—*Iolo Mss.* 226.

Diog, -iaid, -ion, *sc.* a lazy one, a sluggard, a drone.

A lleidr annoniawg a dyn dau eiriawg
A glwth a *diawg* dial cymraw.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 398 (cf. 804).

Gwae a wnel dda i *ddiawg*.
Diareb. (M.A. iii. 158; cf. 104.)

Ffordd y *diog* sydd fel cae drain.
Diar. xv. 19 (cf. xiii. 4; xx. 4; xxi. 25).

Diogan, *a.* [di-+gogan] reproachless, irreprehensible, irreproachable; without disparagement.

Kan deryu dor glyu glot *diogan* hael.
Cynddelw: M.A. i. 240 (cf. 242, 265, 272, 294).

A ddygi yn *ddiogan*,
Llathr o glod, fy llythyr glân
At ferch.—*D. ab Gwilym*, xxviii. 7.

I'r llawr aeth
Llawer marchog *diogan*,
A llawer mil o wŷr mân.—*Sion Tudur.*

Mi a debygaf heuyt nat *diogan* hynny ytt.
St. Greal, ¶ 197.

Dioganair, *a.* free from detraction, reproach, or calumny; not detractive.

Da genyf, *dioganair*,
Ymwasgu gwen ym mysg gwair.—*D. ab Gwilym*, cciv. 7.

Dioganol, } *a.* not given to detracting or slan-
Dioganus, } dering; not slanderous.

Dioganu, *v.* not to reproach; to cease reproaching, disparaging, or satirizing.

Dig iawn nas *diogenid*.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 304.

Dioganwr, wyr, } *sm.* one who is free from
Dioganydd, -ion, } detraction or reproach; a reproachless person.

Diogel, *a.* [dy-+go-+cel: C. *diogel* (C.V.), *dyogel;* Br. *diouguel* (Cath.), *diogel*] 1. safe, secure; firm, sound; certain, sure; free from danger; fast.

Mach a dyly dwyn gausel y gyt ar dylyawdyr hyt yn *diogel*.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 428 (cf. 20, 118, 348).

Diogel y nawt yr neb ae kyrcho.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 272.

Kymeret fyd y neb a crasso arnaw gwedy ef y uot yn *diogel* yg guyd tyston.—*C.C.* i. 720 (cf. ii. 660, 744).

Ae *diogel* hynny heb hi. *Diogel* dioer heb ef.
Mabinogion, 76 (cf. 98).

Ni a allwn ymwan bellach yn *diogel*.
Yst. de Carolo Magno, col. 429 (cf. 400, 411, 416, 430).

Y mae ynteu yn vilwr cadarn dewr *diogel*.
St. Greal, ¶ 159.

Wrth hynny *diogel* yw nat oes dim ar y helw.
Lucidar, ¶ 61 (cf. 44, 136, 141).

Ac ef a yn iach yn *ddiogel*.—*Meddygon Myddfai*, i. 151.

Po dyfnaf y môr, *diogelaf* fydd i'r llong.
Diareb. (M.A. iii. 175.)

Llaw lân *diogel* ei pherchen.—*Iolo Mss.* 260 (cf. 16).

Mae yn *ddiogel* fy ngwely,
Un haf ni noetha fy nhŷ.
D. ab Gwilym, lxxxvii. 43 (cf. cxliii. 8; clxii. 50).

Cadarnaf a *diogelaf* eu gwledydd hwy.
Iolo Mss. 33 (cf. 16, 65).

Y dydd, *diogel* y daw;
Boed addas y byd iddaw.—*Gronwy Owain*, 88.

Ef a eill lechu yn *ddiogel* yn y man y mae.
I. B. Hir: Gwaith, 166 (cf. 207, 210, 216, 220).

Gwelsont hefyd y bendithion haelionus, y diddanwch, y breswylfod *ddiogel*, a gawsant tra'r oeddent yn Grist'nogion da.—*Theo. Evans:* D.P.O. 91 (cf. 117, 123).

Mae yn ddiogel genyf, I am convinced or persuaded; I am certain or sure.—*Rhuf.* viii. 38 (cf. Phil. iii. 1).

Trigo yn ddiogel, to dwell in safety; to dwell safely or securely.—*Lef.* xxv. 18, 19; xxvi. 5.

Mewn gwir ddiogel obaith, in sure and certain hope.—*Ll. G. Gyffredin* (Claddedigaeth).

2. considerable; middling; of good size, sizable.

Yfwr *diogel* oedd efe.—*Iolo Morganwg.*

Cetyn diogel o ffordd, a good bit of way; a good or considerable distance.—*S. W.*

Diogelder, } *sm.* safety, safeness, security; cer-
Diogeledd, } tainty.

Gnawd *diogelder* yn nhrefred:
Ni ddaw mad mynych dreigled.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 142.

Digitized by Google

A phei gellid ei ddienyddu ef, da fyddai hyny a *diogelder* ini oll.—*Iolo Mss.* 169.

A chyweithasaf o bob ffordd ar lyfr ac ysgrifen yw rhol parth hawsder a *diogelder* ei chadw a'i dwyn.
Barddas, i. 150.

Nyt reit ytti ovynhau yma o dim. kanys digawn yw *diogelet* yma.—*St. Greal*, ‖ 166.

Diogelfa, faoedd, fëydd, *sf.* a place of safety or security; a safe place.

Ar ei fynediad i'r *ddiogelfa*.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 558.

Diogelhau, *v.* to make safe or secure, to secure; to make certain or sure, to assure; to fasten.

Fe faddeuwyd ei bechodau, ac i *ddiogelhau* ac i sicrhau hyny, ni phallwyd iddo o'i le yn ei apostoliaeth.
Ed. James: Hom. iii. 214 (cf. i. 125; ii. 267).

Yr hwn a ddichon ein *diogelhau* ni am faddeuant o'n pechodau.—*Marchog Crwydrad*, iii. 4.

Ar ben y bryniau o'r tu ol
Gosodwyd gwŷr bwâu,
I fod yn amddiffynfa gref,
O hyd i'w *diogelhau*.—*L. Hopcin:* Mel-Gafod, 76.

Diogeliad, *sm.* a making safe or secure; a securing.

Diogeliaid, *s.pl.* those that are in safety.

Duw a'i galwai at y *diogeliaid*.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 123.

Diogelog, *a.* secured; made safe, secure, or certain; protected.

Diogelrwydd, } *sm.* [Br. *diougellérez*] safety,
Diogelwch, } safeness, security; certainty; custody.—*C.C.* i. 480.

Ac erchi yr Arglwyd Duw a wnaethant rodi kyghor da yr marchogyon. ac o wneuthur tagneved y rygtunt ar kygreireu ae *diogelrwyd* arall.
Yst. de Carolo Magno, col. 422.

A diruawr lewenyd a gymerassant am gaffel hynny o *diogelwch*.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 85 (cf. 56, 71, 159, 161).

Yno yd attalwyt Briant yny roes *diogelrwyd* y Arthur ar y dir ae daear ae da.—*St. Greal*, ‖ 222.

Ar ueint vrdolyon a dihegysynt or veint perigyl honno a ffoysynt y *diogelrwyd* kenedyl Kymry.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 236.

Ychydic wedy hynny y bu uarw Maredud ab Bledyn tegwch a *diogelwch* holl Powys.
Brut y Tywysogion, 156 (cf. 158).

Nid oes gywir heb iddo *ddiogelwch*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 10.

Gwedy caffel o Lywelyn *diogelrwyd* y uynet att y brenhin ac y dyuot ef a aeth attaw.—*Brut y Tywysogion*, 268.

Yn yr enait ynteu y bydh doethineb ac adhurndeb. a chytymdeithas. a medhiant ac anrhydedh a *diogelrwydh* o lawenydh.—*Lucidar*, ‖ 126 (cf. 141).

Pan ddywedant, Tangnefedd a *diogelwch*.—1 *Thess.* v. 3.

Mewn diogelwch, in safety; safely, securely.—*Esec.* xxxiv. 27, 28; xxxviii. 8.

Ti a gloddi, ac a orweddi *mewn diogelwch*.
Iob xi. 18 (cf. xii. 6; xxiv. 23).

Diogelu, *v.* to secure; to make safe or secure; to confirm; to fasten.

Sef yw hynny y *ddiogelu* y neb mach iddaw ay ddwyn yn ddiogel.—*C.C.* ii. 660.

Os mynn mi a dangosaf vy nerth idaw yr dy *diogelu* di.
St. Greal, ‖ 159.

Ac yna y *diogelwyd* Rhys yn ei lywodraeth.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 521.

Tri pheth a *ddiogelant* i wr wasanaeth o gywirdeb: cariad a'i gwasanaetho, a'r modd a'i *diogeler* yw cariad am gariad; ynnill, neu elw a buddioldeb, ac o'i roddi y *diogelir* cywir o wasanaeth; a chymmyrred a ddengys gymmeradwy ar a wneler yn wasanaeth, ac o'i ddodi y *diogelir* cywir ar wasanaeth.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 223 (cf. 206).

Da iawn yn wir, ebe Owain, y byddai *diogelu*'r gwr hwnw.
Iolo Mss. 99.

Diogelwch, *sm.*=*Diogelrwydd*.

Diogelwr, wyr, } *sm.* one who makes safe or
Diogelydd, -ion, } secure; a securer; a confirmer; a protector; a conservative.

Diogelwyr yr Eglwysseu ac hardemylwyr [*al.* hardelwyr].
Brut y Tywysogion, 156.

Diogen, -od, *sf.* [f. of *diogyn*] a lazy female, a female sluggard.

Diogi, *sm.* [diog: Br. *diegury* (Cath.), *diégi*] laziness, sloth, slothfulness, sluggishness, indolence; slowness.

Traha, camfalchedd, *diogi*, llesgedd,
Maswedd aniawn-wedd, moes anynad!
Dafydd ab Gwilym, ccxlv. 49.

Ni ellir lles o *ddiogi*.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 3 (cf. 3, 7, 10, 102, 262).

Nid afiechyd ond *diogi*.—*Iolo Mss.* 254.

Trwy *ddiogi* lawer yr adfeilia yr adeilad.—*Preg.* x. 18.

Nid yw hyn i gyd ddim ond *diogi*.
Dr. Davies: Llyfr y Res. ii. vi. 5 (cf. vi. 2, 4, 5, 6, 7, 10).

Yn y seithfed tŵr, *Diogi* oedd yn trigo. . . *Diogi* neu lesgedd yw trymder calon, a chasineb ar ysprydol ddaioni.
Marchog Crwydrad, i. 10.

Yna y cododd Belphegor, penaeth y *Diogi* a'r Seguryd, oedd nesaf i Luciffer ar ei law chwith.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 105 (cf. 108, 109).

Pa fethiantrwydd, pa *ddiogi* a syrthni yw hyn?
Huw Lewys: Perl, 211.

Rhyw hupynt o *ddiogi* a syrthni a ddaeth drosof.
Gronwy Owain, 218.

Diogi, *v.* to grow lazy; to become sluggish or slothful.—*Barn.* xviii. 9; *Gal.* vi. 9.

Er nad yw eich nerth a'ch creulonder naturiol ronyn llai, eto yr ych chwi wedi rhyw *ddiogi*.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 86.

Hithau a lwfrhâ yn y man ac a *ddioga*.
Dr. Davies: Llyfr y Res. ii. iii. 9.

Diogiaid, *s.pl.* sluggards, drones, idlers.

Am hyny y gelwir y ceiliog, gwasanaethwr Duw, a cheidwad yr yspryd da . . . organ yr eglwyswr, ac eos hyfrydwch, a bugail y cywaethogion, ac oferwr yr wttreswr, ac uffernwr y gwilliaid, a chablwr y *diogiaid*.
Rhinwedd y Ceiliog.

Dioglawd, *a.* [dy-+goglawd] not murmuring; silent.—*P.*

Dioglyd, *a.* of a lazy or slothful disposition; dronish, sluggish, lazy, slothful.

O *ddioglyd* hurtrwydd meddwl y tywysogion!
Charles Edwards: Hanes y Ffydd, 183.

Gwelid drachefn ambell hen grynffast *dioglyd* a dideimlad yn gwasgu ac yn cnoi y diniwed ar bob cyfle.
Cawrdaf: Meudwy, 113.

Dioglydrwydd, *sm.* laziness, slothfulness.

Tri pheth ffieidd-frwnt ar wraig: afiendid corff a dodrefn; sengarwch; a *dioglydrwydd*.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 277 (cf. 203, 281).

Diogswrth, } *a.* [diog+swrth] sluggish,
Diawgswrth, } slothful, lazy, dronish.

Afian dwylaw *diawgswrth*.—*Diareb.* (M.A. iii. 146.)

Nhwy a'u maddeuant â'u *diogswrth* eisteddach, â'u bustlawl serthedd, ac â'u hysmala gyfeddach.
Dr. Gr. Roberts: Athrawaeth Grist., Rhag. 4.

O mor ysgafn a *diawgswrth* y gwnânt!
Elis Wynn: Rh.B.S. 212 (cf. 178).

Unwaith yn sicr y bûm i yn *ddiogswrth* iawn o droi ymaith rhyw ystyriad afian a fu'n molestu ac yn blino fy meddwl y rhan fwyaf o hanner diwrnod.
Allwydd Paradwys, 167.

A dramgwyddo wrth bob peth a fo ar ei ffordd, ac a gwympo; ac yn ddiweddaf fydd mor *ddiawgswrth* ag na chlywo arno gymmeryd poen yn y byd.
Dr. Davies: Llyfr y Res. ii. vi. 7.

Tri pheth a gau yn erbyn awen: *diawgswrth* o gamp; cybydd-dawd; ac anwybodaeth.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 203.

Digitized by Google

Diogwas, weis, weision, *sm.* a lazy fellow, a slothful person, a sluggard.

Nid oedd raid i *ddiogwas* clyd
Fyn'd (gwyn ei fyd) i fedi!—*Huw Morus:* E.C. i. 206.

Diogwydd, *a.* [gogwydd] unbiassed; not inclining or leaning.

Diogwyddol, *a.* not tending to lean or incline; unbiassed.

Diogyfarch, *a.* [gogyfarch] unconspicuous.

Diogyfyng, } *a.* [cyfyng, cyfing] not strait or
Diogyfing, } straitened; unconfined; unconstrained; unstinted; liberal.

Hwyliais, a chefais, a chyfor durfing,
Hail *diogyfing* hael-deg Ifor.—*D. ab Gwilym,* vi. 43.

Diogyffred, *a.* void of apprehension, unapprehended.

Diogyn, *sm.* 1. a lazy one, a drone, a sluggard, an idler.

Cerdda at y morgrugyn, tydi *ddiogyn.*—*Diar.* vi. 6.

Ac er hynny cysgu yr wyt ti, O *ddiogyn!*
Elis Lewis: Drexelius, 195.

Y mae'r hwn sydd yn esgeuluso ei alwedigaeth i was'naethu Duw yn *ddiogyn* crefyddol.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 238.

2. (*pl.* diogod, diogynod) the sloth, a South-American quadruped.

Bol y *diogyn* wrth gerdded a gyffwrdd â'r ddaiar, a'i ymsymmudiad sydd mor araf, fel prin yn unig y cyrhaedda mewn pymtheg diwrnod cyn belled ag ergyd saeth, er iddo gerdded yn wastadol. Oddi wrth hyn y cafodd yr enw *diogyn.*—*Gwyliadydd,* ii. 233.

Y mae y *diogyn* yn greadur o gryn faint, ond ni all deithio ychwaneg na hanner cant o gamrau yn y dydd.
Cylchgrawn, ii. 129.

Diogyweg, *a.* [gogyweg] not unsafe, unsecure, or dangerous; innoxious; free from danger; harmless.

Diogan y uro *diogywec*
Rac creiryeu Dewi yd gryn Groec
Ac Iwerton tiryon tir Gwytelec.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 272.

Diongl, *a.* [ongl] having no angle or angles.

Ni boddir, ni'th rybuddiwyd,
Nid ei yng nglŷn, *diongl* wyd.—*D. ab Gwilym,* lxix. 23.

Dioheb, *a.* [goheb] without answer or response; without correspondence; unquestioned; unanswerable.

Guaun yrdau kyn brau breuolaeth
Dioheb woeseb wasanaeth.—*Cynddelw:* M.A. i. 250.

Cedawl arwynawl ar wyneb Prydein
Prydytyon *dioheb.*—*Llyw. ab Llywelyn:* M.A. i. 294.

Diohebol, *a.* not answering or corresponding.

Diohir, *a.* [gohir] without delay, not deferred, immediate; unprotracted.

Yn ddiohir, without delay, forthwith, immediately.

Ac yna *yn diohir* y kerdassant racdunt parth a llys Chyarlymaen brenin Ffreinc.
Amlyn ac Amig, col. 1094 (cf. 1110, 1112).

Ef a dyly caffel deturyt gwlat *yn diohir* am hynny.
C.C. i. 592 (cf. ii. 356, 362, 398, 574).

Ac *yn ddiohir* Dâm Fenws a ddaeth ataf.
Marchog Crwydrad, i. 9.

Ac *yn ddiohir* tad y bachgen, gan lefain gyd â deigrau, a ddyfod, Arglwydd, credaf.—*W. Salesbury:* Marc ix. 24.

A'r hiraeth hwnw nis gall fod ar neb o honom nes i ni yn gyntaf ymwrando â'n cyflwr ein hunain, a gwellâu ein buchedd yn ddioed *ddiohir.*
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. v. 19 (cf. x. 24).

Diohirio, *v.* not to delay or protract.

Diohiriol, *a.* not delaying or protracting.

Diohor, *a.* [cf. *deor, dyor, dyhor*] free from sluggishness or inertness.

Nyd ediw hebod raclod ragor
Nym golo Gymro gwr *diohor.*—*Cynddelw:* M.A. i. 205.

Diol, *a.* [ol] having no mark or impression; trackless.

Diolaeth, *sf.* the action of obliterating.

Diolaith, *a.* [golaith] free from death; unslain.

Tra vuam yn seith triseith nyn beitei
Nyn kilyei kyn an lleith
Nyd oes ysywaeth or seith
Namyn tri trin *dioleith.*—*M.A.* i. 418 (cf. 247, 257).

Diolch, -au, *sm.* [contr. of *diolwch*] thanks; gratitude; thanksgiving.

Abreid vu o daruu yr brenhin teruynu y ymadrawd pan rodes Kuelyn archesgob llawer o *diolcheu* yr brenhin am hynny.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 125.

A thrannoeth kyuodi yn gryf oe wely ar trydydyd yd aeth yr bed y talu *diolcheu* yr sant.
Llyfr Gwyn Rhydderch (Ms.).

Ar brenhin a aruolles y mab yn enrydedus, a diruawr *diolch* a wnaeth y Rys.—*Brut y Tywysogion,* 222.

Llawer o *diolcheu* a dalaf i ytti dros y nerth yd wyt yn y adaw imi y geissaw vyg kyuoeth drachefyn.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 244.

Son angylion a glyw dynion a *diolchau.*
Madog ab Gwallter: M.A. i. 406.

Nyt oes *diolch* ym er dy garu.—*Ymborth yr Enaid,* ‖ 27.

Ewch i mewn i'w byrth ef â *diolch* . . . diolchwch iddo, a bendithiwch ei enw.—*Salm.* c. 4.

Chwi gaech groeso calon i'r peth sydd yma, "a *diolch* mawr am eich cymdeithas.—*Gronwy Owain,* 322.

Talu diolch, } to give or render thanks; to
Rhoddi diolch, } thank.—*Luc* xxii. 17, 19; 1
Rhoi diolch, } *Tim.* ii. 1; iv. 4.

Yna ymadrawd a wnaethant hwy yn buchanus garedic y gyt. a *thalu diolch* bob eilwers.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 10.

Yn awr y gellwch weled defnydd, ac achos, a dechreuad, a diwedd pob *rhoddi diolch.*
Ed. Iames: Hom. iii. 9 (cf. ii. 11, 15, 222).

Ffurfiau o *dalu diolch.*—*Ll. G. Gyffredin.*

Pan ymgynnullom i gydgyfarfod, i *dalu diolch* am yr aml ddaioni a dderbyniasom ar ei law ef.—*Ll. G. Gyffredin.*

Efe a barodd *dalu diolch* cyffredinol i Dduw ym mhob Eglwys blwyf a chadeiriol o fewn y deyrnas.
Theo. Evans: D.P.O. 117.

Aberth diolch (*pl.* aberthau diolch), a sacrifice of thanksgiving.

A phan aberthoch *aberth diolch* i'r Arglwydd, offrymwch wrth eich ewyllys eich hunain.—*Lef.* xxii. 29 (cf. vii. 12, 15; Esec. xliii. 27; xlv. 15, 17).

Offrwm diolch (*pl.* offrymau diolch), a thank-offering.

Nid edrychaf ar hedd-offrwm [**offrwm diolch*] eich pasgedigion.—*Amos* v. 22.

Heb ddiolch, thankless, without thanks.

Swydd heb ddiolch, a thankless office.

Swydd heb arch, *swydd heb ddiolch.*—*Diareb.*

Diolch, *v.* 1. to thank; to give thanks; to be thankful or grateful.

Ie heb hitheu *diolchaf* y Duw hynny.—*Mabinogion,* 76.

Yna ostwg y benn a wnaeth Hengyst a *diolch* idaw hynny.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 134 (cf. 218).

Gwenwlyd a gymerth y kae. ac ae *diolches* yn vawr yr vrenhines.—*Yst. de Carolo Magno,* 473.

Gwedy y pechoteu gorthrymaf y bydhant ufudhach gann *dhiolch* y Dduw eu hiechyt.—*Lucidar,* ‖ 67.

Ni *ddiylch* anghen ei borthi.—*Diareb.* (M.A. iii. 167.)

Digitized by Google

Nos da iddi nis *diylch!*
D. ab Gwilym, xvii. 48 (cf. lxxxv. 38; clvii. 5).

Agamemnon a *ddiolches* iddaw hyny.
Ystori Dared, 80 (cf. 25, 63, 69).

Ym mhob dim *diolchwch*.—1 *Thess.* v. 18 (cf. i. 2; ii. 13).

Ac ni *ddiylch* (gne ddüwg)
Un mymryn i'r dyn a'i dwg.—*Gronwy Owain*, 108.

Diolch i, to give thanks to, to thank.

Diolchaf yn Duw kaffel gwas kyn decket a chyn dewret a thi.—*Mabinogion*, 227.

Y mae Owain Glyn Dwr . . . yn rhoi llaw yn llaw Syr Lawrens Berclos, ac yn *diolch iddo* am y groeso a'r caredigrwydd . . . a gafodd.—*Iolo Mss.* 99.

Yr wyf yn *diolch* i ti nad wyf fi fel y mae dynion ereill. *Luc* xxviii. 11.

Diolch i chwi, thanks (be) to you; (I) thank you; thanks.

2. to acknowledge as kindness; to reward or recompense.

A phan uo amser ynn vynet yn bwyt ef a daw vyg gwas am march ym herbyn a thi a geffy lewenyd yno heno. Duw a *diolcho* itt. ny thrigyaf i. namyn ragof yd af.
Mabinogion, 225.

Vnbennes vonhedic heb ef Duw a *diolcho* ytt.
Yst. de Carola Magno, col. 418 (cf. 457).

Diolchdreth, -au, -i, *sf.* a tribute of thanks or gratitude.

Arglwyd vrenin eb ef ganedic on hendadeu vrenhined llawer o *dyolchtredeu* a dalaf itti tros e nerth et wyt en i adaw imi i geissiaw vyg kyvoeth trachevyn.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 374.

Diolchgar, *a.* thankful, grateful; obliged.

Dal iach-gain, bydd mwy *diolchgar*
I mi byth.—*Dafydd ab Gwilym*, xxi. 65.

O herwydd hyfryd yw ei glod,
A da yw bod yn *ddiolchgar*.—*Edm. Prys:* Salm. cxlvii. 1.

Byddwch *ddiolchgar*.—*Col.* iii. 15 (cf. Rhuf. i. 21).

Bod i ti ei garu ef, a bod yn *ddiolchgar* iddo.
Dr. Davies: Llyfr y Res. 1. vii. 19.

Nyni yw y rhai yr ydys yn eu cymhorth, neu eu drygu, am ein bod yn *ddiolchgar* i Dduw, neu yn anddiolchgar.
Ed. Iames: Hom. ii. 42.

Diolchgarwch, *sm.* thankfulness, gratitude, gratefulness.

Mewn *diolchgarwch*, ac mewn cân.
Neh. xii. 27 (cf. 2 Cor. iv. 15; Phil. iv. 6).

Cydgenwch i'r Arglwydd mewn *diolchgarwch*.
Salm. cxlvii. 7 (cf. Col. ii. 7).

Hwy a ddylent ein cynhyrfu ni yn fawr i fod yn ddiolchgar i'r neb a'u rhoes hwynt: a'r *diolchgarwch* hwnw fyddai roi cwbl o'n bryd a'n meddwl o'r diwedd ar ei wasanaethu ef yn ddiffuant.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. 1. vii. 15.

Hyn oll, a llawer chwaneg, a ddylai ein llenwi o *ddiolchgarwch* i Dduw.—*Theo. Evans:* D.P.O. 271.

Cyfarfod diolchgarwch, a thanksgiving meeting.

Diolchiad, **Diolchad**, -au, *sm.* a thanking; thanksgiving, a giving or rendering of thanks.

Pa fodd y dywaid yr hwn sydd yn lle'r annysgedig, Amen, ar dy *ddiolchiad* di?—*Ed. Iames:* Hom. ii. 277.

Diolchiadau, thanksgivings.

Ac ar henny estwng e penn a oruc Heyngyst a thalu *dyolchyadeu* mawr ydaw.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 245.

Gweddïau a *Diolchiadau* ar amryw achosion.
Llyfr Gweddi Gyffredin.

Yn yr ystafell ger llaw, y mae llun y Frenines Ann, yn derbyn gostyngedig *ddiolchadau* y caethion.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 59.

Diolchus, *a.* grateful, thankful; obliged; favourable.

Megys y dylai edrych yn unig ar y creaduriaid hyny . . . ein dysgu ni i'w harfer hwy yn *ddiolchus*.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 192 (cf. 222, 248, 265; iii. 3, 9, 49, 155, 166).

Mewn ffydd y bu farw y rhai'n oll, heb dderbyn yr addawcidion, eithr o bell eu gweled hwynt, a'u credu, a'u cymmeryd hwynt yn *ddiolchus*.—*Esgob Davies:* Heb. xi. 13.

Y rhai hyn yw y pethau y mae Duw yn edrych arnynt, ac yn eu cymmeryd yn *ddiolchus*.—*M. Cyffin:* Diff. v. 9.

Fel y caffo yr hen Frython fwyn foddion i fyw
I'w byd yn foddlonus—yn *ddiolchus* i Dduw.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 132.

Ac fel yr oedd y tonau *diolchus* yn casel eu hadseinio ym mhlith y bryniau pell, aeth y cwmwl a orphwysai arnynt yn oleuach oleuach.—*Y Bryniau Pell*, 27.

Diolchusrwydd, *sm.* thankfulness, gratefulness.—*W.*

Diolchwiw, *a.* thankworthy, deserving thanks.

Diolchwr, wyr, **Diolchydd**, -ion, *sm.* a thanksgiver, one who gives thanks.

Eisieu ac anghen a wna un yn gardotyn; ond gras yn unig yn *ddiolchwr*.—*Lewis Anwyl:* Nefawl Ganllaw, 24.

Dioledig, *a.* [diol] made trackless; annulled, abrogated.—*M.A.* i. 519.

Dioledd, *sm.* the state of being blotted out or effaced.

Dioleu, **Dioleuni**, *a.* [goleu] lightless, without light, dark, gloomy.—*W.*

Dioli, *v.* [diol] to blot out tracks or traces; to obliterate, to abrogate.

Dioliad, -au, *sm.* obliteration, effacement.

Diolo, **Diwolo**, *a.* [golo, gwolo] without covering, uncovered, unconcealed; open, plain.

A bar yndaw yn *diolo*.—*Gwalchmai:* M.A. i. 198.

Bendigws Dews dialaeth
Diwolo ei weledigaeth.—*Elidir Sais:* M.A. i. 347.

Dioload, -au, *sm.* a developing or disclosing; development.

Diolor, *a.* [diol] exterminating, obliterating.—*P.*

Diolrhain, *a.* uninvestigated; implicit.—*P.*

Diolud, *a.* destitute of wealth or riches, not opulent.

Rheg *diolud* rhag dialedd.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 567.

Dyled a ddylid dalu,
Dyled cerdd *diolud* cu.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, i. 155.

Dioludog, *a.* not opulent, rich, or wealthy; poor, indigent.

Llê *dioludawg* dioledig noeth.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 519.

Dioludd, *a.* without obstruction, hinderance, or opposition; unopposed.

Lluoedd a wyddiad llaw roddiad rudd
Llwybr drud aer ddylud aur *ddioludd*.
G. Ddu Arfon: M.A. i. 409 (cf. 74).

Gwalchmai erfai arf *ddioludd*,
Gwalch maws hynaws traws tros Fôr Udd.—*Einion.* (*P.*)

Diolwch, *sm.* [dy- + golwch: cf. *goluch*] thanks; gratitude; thanksgiving. See *Diolch*.

Yr talu *diolwch* y Rys a vei vwy no chynt.
Brut y Tywysogion, 214.

A thri pheth arglwyd heb hi a gaffwn ni o hynny. *Diolwch* ac alwissen o ellwng Riannon or poen y mae yndaw. a *diolwch* gan Pwyll am ueithryn y mab ae eturyt idaw.
Mabinogion, 22 (cf. 73).

Ac o vreyd e daroed yr brenyn tervynu y amadrawd pan ed oed er Archescop en talu *dyolwch* ydaw.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 233.

A *diolwch* y Duw neur deryw. ym wneuthur kymeint a hynn.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 423 (cf. 424).

Gweddïau a *diolwch* ar amryw achosion.
Llyfr Gweddi Gyffredin 1664.

Diolwch gwragedd ar ol eagor plant; a elwir yn gyffredin, Rhyddhau, neu Eglwysa.—*Llyfr Gweddi Gyffredin.*

Ym mhob dim dangoser eich gofynion i Dduw yng ngweddi a deisyfiad gyd â *diolwch*.
W. Salesbury: Phil. iv. 6.

Ichwi *diolwch* yn iach a dalaf.—*Daniel Ddu*, 302 (cf. 430).

Digitized by Google

Diolwch, *v.*=*Diolch*.

Arglwyd heb yr unbennes *diolwch* di y Walchmei yr enryded a wnaeth ef ym mam i.—*St. Greal*, ‖ 128.

Ys iawn a beth yw y chwi *diolwch* yr gwr a uu y gyt a chwi. . . Ie arglwyd heb wy *diolwch* y Duw kaffel o honat y gedymdeithas honno.—*Mab.* 7 (cf. 31, 46, 254).

Ef a daw y dwyn yr einwch
Ef ae dwc ac nyw *diolwch*.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 280.

Diolwch a wnaethant yr pab y lavur ae anregyon a rodassei y eu meibyon.—*Amlyn ac Amig*, col. 1067.

Nyt reit itt *diolwch* y mi hynny. namyn *diolwch* y Arthur.
Mabinogion, 142.

Yr amherawdyr yna a ostyngawdd ar tal y lin. a *diolwch* a orug y Dduw Hollgyvoethawg yr hynt honno.
Ipotis, ‖ 20.

Un o hanwynt, pan welawdd ddarfod ei iachäu, a ymchwelawdd . . . can *ddiolwch* iddaw.
W. Salesbury: Luc xvii. 16 (cf. 1 Cor. xi. 24).

Diolwg, *a.* [golwg] 1. wanting sight, sightless; blind.

Dieiliwyd rhin ym min mau,
Diolwg a'i dialau.—*D. ab Gwilym*, xviii. 35.

2. not good-looking or handsome; plain.—*C.S.*

Diollyngdod, *a.* without release, acquittance, or liberation; unremitting; unabsolved.

A chan fod pob gwir serch yn barhäus ac yn *ddiollyngdod*, mae achos da i'r cariad rhwng gwr a gwraig fod felly.
Edward Samuel: Grotius, ii. 15.

Diommedd, *a.* without refusal or refusing; not refused or declined; not rejecting, unrefusing; without restraint; unrestraining.

Kyuodwn archwn arch *diomet*.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 273.

Tydi yssyd genevin a gwneuthur y kyfryw wassanaeth a hwnnw yn *diomed* y ereill.—*St. Greal*, ‖ 141.

Llwydei ammot mawl llaw *diommed*.
Rhiserdyn: M.A. i. 433 (cf. 438, 481).

Da yw ei borth a diamorth a *diommedd*.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 460 (cf. 515).

Diommedd y'm gommeddwyd,
Diriaid ym' ddiweiried wyd!—*D. ab Gwilym*, ccxv. 25.

Caner yn *ddiommedd* deufan unodl, neu gwpl, ar y gyhydedd fer, neu ar un o'r tair byraf.
Cyfrinach y Beirdd, 27.

Diorawen, *a.* without joy, joyless.

Diorchest, *a.* [gorchest] without a feat or exploit; without difficulty; not extraordinary.

Yr oedd i'w awen aden gref, ond nid oedd efe am ei blino â gorchestion *diorchest*.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 172.

Diorchrawn, *a.* unhoarding; liberal, free.

Maredut llofrut Lloegyrwys diarchar
Diorchrawn orthywys.—*Llyw. ab Llywelyn:* M.A. i. 297.

Diorchudd, *a.* having no covering; uncovered, unveiled; exposed, unconcealed; open.

Digart gert y ged *diorchut*
Diheuetrch gystut diruawr vut.—*Cynddelw:* M.A. i. 258.

Menwyd diorchudd, undisguised pleasure.—*P.*

Dd ab Gruffud grym gythrud gryt
Vab Ywein virein vawr syberwyt
Vab Madawc vynawc *venwyd diorchud*
Vab Maredud vud valch e ddetryt.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 369.

Y gwir diorchudd, the naked truth.

Diorchuddiad, -au, *sm.* an uncovering or unveiling; exposition.

Diorchuddio, *v.* to uncover, to unveil; to disclose or expose to view; to develop; to unmask.

Diorchuddiais benau llawer o'r llechau yn yr ystafell a ddarganfyddwyd yn ddiweddaf.
Brutus: Ninefeh, 105 (cf. 24, 27, 224, 236, 259).

Diorchuddiol, *a.* tending to uncover.

Diorchwyl, *a.* unemployed; unoccupied; not engaged in work.

Diorddail, *a.* [gorddail] without exterior leaves; wanting luxuriant foliage.

Diorddail fydd manddail Mai.
Dafydd ab Gwilym, ccxxxv. 38.

Diorddin, *sm.* [dy-+gorddin?] that which impels or chases; impulsion.

Rhi rhuddbar cyfar cyfwyrain
Ryn *ddiorddin* Brynaich ran orddawn brain.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 356.

Diorddwy, *a.* without oppression; unoppressive.

Di dderbyn wyneb ydynt hwy;
Diorddwy ar gymmydog.
Iolo Morganwg: Salm. ii. clxvii. 2.

Diorfod, *a.* 1. invincible, unconquerable.

Ac ydd ym yn darllain o ferched rai (megys Cornelia), y rhai, mewn ing ac adfyd, a'u dangosesont eu hunain yn wrawl ac yn *ddiorfod*.—*Huw Lewys:* Perl, 204 (cf. 172).

Bleiddiaid aerfa â bloedd *diorfod*,
Picellau, berau, pawb yn barod.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 26.

Cododd Crist, y Llew *diorfod*,
Torodd allu mawr y ddraig;
Coda hefyd saint o'r beddrod,
Wrth lais bywiol Had y Wraig.
J. W. ab Ithel: Emynau yr Eglwys, xxii. 1.

2. not constrained or compelled; without compulsion or constraint.

Diorfodaeth, *a.* without compulsion.

Diorfynydd, *a.* without ascent or acclivity.

A Maenawr Deifi *dioruynyt*
Ac Aber Gwyli bleu gwylwlyt.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 271.

Diorhëwg, *a.* [gorhëwg] without audacity or boldness; modest, bashful.

Y rhiain *ddiorhĕwg*
Ar sel ddu urael a ddwg.—*Iolo Goch*.

Diorhoen, *a.* without joy or gladness, joyless.

Dioriog, *a.* not fickle or wavering; constant, steady.

Euraid araith yw'r *dioriawg*.—*W. Midleton*.

Diormail, } *a.* free from oppression or molesta-
Diormes, } tion; unoppressed, unmolested.

Sev nis gellir carddychwel yn *ddiormes*, oni bydd un o'r tri dros hyny.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 476.

Madawg ai ceidw can urdas
Bryn *diormail diormes*
Bre uchel braint ardangos
Lle trydar Llech Ysgar llys.—*Cynddelw:* M.A. i. 211.

Diormes pan ddyfydd
Mal tonnawr tost ei gawr tros elfydd.
Taliesin: M.A. i. 52.

Diorn, *a.* [orn] free from fear; fearless; free from intimidation; peaceful.—*M.A.* i. 507.

A'i chyweirgorn, *ddiorn* dda,
A'i chyweirdant,—Och, wyrda!
Dafydd ab Gwilym, cxxviii. 17.

Awr y daw gan wr *diorn*
Leisiau gant gan lef ei gorn.
Dafydd Nanmor: G.B.C. 160.

Ac yn fy enw i yn *ddiorn*
Dyrchefir ei gorn efo.—*Edm. Prys:* Salm. lxxxix. 24.

Hiroes i wâr Gaisar gu,
Diorn oes, i deyrnasu.—*Gronwy Owain*, 36.

Diornair, *a.* [diorn+gair] without threatening words, using no intimidating language; pleasant or peaceful in speech.

Llunyat *diorneir* llun teyrned.—*Rhiserdyn:* M.A. i. 433.

Mair *diornair*, Mair dëyrnes,
Mair oleudrem, Mair lywodres.—*Iolo Goch*, i Fair,

Digitized by Google

Diorphen, *a.* endless, perpetual.

Gellwch ddywedyd yn hydda fod y rhei'ny eu gyd . . . yn colli'r aneirif ddaioni sydd ar ddyfod, ac yn cwympo i'r drygau anysparthol sydd i fod yn y byd nesaf yn ddidranc, *ddiorphen*, dragwyddol.—*R. Smith:* Eglurhâd, 347.

Angelion, clywa ! galwant—'Cyfyspryd, brysia di,
A deua i ogoniant *diorphen* gyda ni.'
W. O. Pughe: Ymadaw Corff ac Enaid.

Mawr yw'th drugaredd, mawr dros ben !
Ac yn *ddiorphen* ini.—*Iolo Morganwg:* Salm. i. cxliv. 2.

Diorphwys, *a.* without rest, respite, pause, or intermission; restless, unquiet; perpetual, continual.

Ac or rheini 100 cyfnewidiol bob awr or 24 yn y dydd ar nos yn parhau mewn gweddieu a gwasanaeth i Dduw yn ddidranc *ddiorphwys*.—*Tricedd:* M.A. ii. 17.

A chynnal mawl i Dduw a gweddi yn *ddiorphwys* ddydd a nos gan ddeuddeg sant o lëenogion o bob mintai.
Iolo Mss. 150.

Yn ebrwydd y bu ysgarmes greulon ac ymladdfa waedlyd, yr hon a barhaodd agos yn *ddiorphwys* dros dri diwrnod a thair nos.—*Theo. Evans:* D.P.O. 127 (cf. 39, 330).

Diorphwysdra, *sm.* restlessness.

Diorsaf, *a.* having no station; not stationary; fickle, unsteadfast; without reserve, unreserved.

Llawen eidun yun uyd *diorssaf*
Lleueir ry gwbl eir ny rygablaf.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 295.

Tri pheth a ddyly gwarant ddiball y wneuthyr yn llys: gwrtheb yn ddiohir *ddiorsaf* drostaw ehun a thros yr amddiffynnwr a thros y da cynhennus.—*C.C.* ii. 574.

Diorsafedd, *sm.* inconstancy, unsettledness.

Diorsafiad, *sm.* a becoming or making unsettled; a wavering.

Diorsafol, *a.* not stationary or settled; wavering.

Diorsedd, *v.*=*Diorseddu.*

Diorsedd, *a.* without a throne, throneless.

Diorseddiad, -au, *sm.* a dethroning or unthroning, dethronement; deposition (of a sovereign).

Diorseddol, *a.* tending to dethrone; dethroning, unthroning.

Diorseddu, **Diorsedd**, *v.* to dethrone, to unthrone; to depose (a sovereign).

Chwychwi foneddigion, periglorion, uchelwyr, prydyddion, ac ereill, adolwyn ydd wyf, er mwyn coffadwriaeth hynafiaid, er mwyn pwylledd gwybodaeth, er mwyn mawl eich rhieni, er mwyn ceidwad gwroliaeth, er mwyn braint y Prydeiniaid, er mwyn *diorsedd* anwybyddiaeth, er gwarth i'r gelynion, ac er mwyn Duw, cannorthwywch iaith y Cymry.—*H. Perri:* Egluryn Ffraethineb, Rhag. 6.

Trugaredd *diorseddwyd*,
Trwy lymder Creulonder lwyd.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 24.

Er i'r Pab daranu melltithion yn ei herbyn, a gwahodd ei holl weision i'w *diorseddu* . . . hi a safodd ei thir yn llwyddiannus.
G. Mechain: Gwaith, ii. 528 (cf. 182, 241, 519).

Diorthrwm, *a.* without pressure or oppression; unoppressed.

Er bod cyfraith ei wlad yn ei amddiffyn yn ddidrais *ddiorthrwm*, os bydd efe yn orthrymedig yn ei feddwl, nid oes iddo un mynyd o esmwythder.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 97.

Diorwag, *a.* [gorwag] not vain, frivolous, or trifling; free from vanity.

Llew durwayw llyw *diorwag*.
Llywelyn Goch: M.A. i. 514 (cf. 561).

Tri pheth anhawdd eu cael: taeliwr *diorwag*; melinydd cywir; a thafarnwraig ddidrachwant.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 183.

Gwr mawr â rhagorau maith,
Gwr *diorwag*, gŵyr deiriaith.—*Guto'r Glyn.*

Mawr yw hap gwr adnapai
Y wraig fwyn *ddiorwag* fai.—*Rhys ab Harri.*

Deuryw feddwl *diorwag*,
A pharhâus gof, a phwrs gwag.—*Gronwy Owain*, 57.

Diorwagder, **Diorwagedd**, *sm.* freedom from vanity; seriousness, gravity.

Deryw Ector nerth *diorwagter*,
Darfu am ddraig llu llwyr orthrymder.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 440.

Dawn tlawd anoeth daear wiwgoeth *diorwagedd*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 460.

Diorwan, *a.* free from weakness; not feeble; strong.

Deryw d' euro'n darw *diorwan*,
Dirwd arian, doriad wiredd.—*Simwnt Fychan.*

Dioryfig, *a.* unpresuming, unpretending; incurious.

Dioryuic dyn ny welo
Ny ddawr ny dawr cwt vo.—*Llefoed:* A.B. ii. 305.

Diorynaig, *a.* apparently a corruption of, or a misprint for, *diarynaig*, q.v.

Castell Harlech drech na draig
O'r annwn *ddiorynaig*.
W. Wynn: Dewisol Ganiadau (1827), 17.

Dios, *a.* [di-+os] without doubt, not doubted; certain, indubitable; express.

Dios yw gwell dewis hon
Na dyrys ffordd blinderon.—*Iolo Morganwg:* Salm. i. 226.

Dios mae achos uchel yr awron
Am beroriaeth angel.—*Daniel Ddu*, 9.

Yn ddios, doubtless, without doubt, undoubtedly, unquestionably, certainly.

Y pethau sy anghenrheidiol i'th gynnaliaeth, ti a'u cei *yn ddios* ond eu gofyn.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 206.

Nyni a fyddwn yn wastad yn sicr o'n dwylo, ac yn gwybod ym mlaenllaw *yn ddios* y bydd i bob peth ag ydym yn ewyllysio neu yn wneuthur gydweithio er ein daioni.
Iosua Tomas: Buch. Grist. 111.

Lle'r aeth yr Iesu *yn ddios*
I erfyn dros ei seintiau.—*D. Jones:* Salmau Watts, v. 2.

Dios, *adv.* doubtless, indubitably, certainly.

Diosg, *v.* ['forté corruptum à *diwisg*' (*D.*): C. *discy*, *digwisca*; Br. *diuskein*, *diwiska*] to take, put, or throw off; to strip, to undress; to put aside; to doff.

Gwedy gwelet o Ortheyrn henny medylyaw a oruc o pob athrylith ac o pob estryw pa wed e galley enteu *diosc* Constans vanach or vrenhynyaeth ydaw ehun.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 238.

Ny pherthyn cosp lledrat . . . am *ddiosc* y goet yn lledrat.
Cyfreithiau Cymru, ii. 670.

Am aur wyf fi, ei *ddiosg*
Heb ymladd, heb ladd, heb losg.—*D. ab Gwilym*, cxiv. 11.

Pa ham y mae pawb yn *diosg* oddi am eu penau, neu'n ymostwng, pryd yr henwer yr Iesu ?
R. Smith: Eglurhâd, 94.

Diosg dy esgidiau oddi am dy draed.
Ecs. iii. 5 (cf. xxxiii. 6).

Diosgaist fy sachwisg.—*Salm.* xxx. 11.

Diosg archenad, to put off one's clothes or raiment; to put off one's shoes.

A phan arganu hi y prenn. estwg y phen a wnaeth. ac adoli idaw. a *diosc y harchennat* a dyrchauel y dillat. a mynet trwy y dwfyr is y law.—*Efengyl Nicodemus*, § 11.

Diosg arfau, to put or take off one's armour.

Yna wynteu a *diosgassant y arueu* ac a edrychassant a oed dim or eneit yndaw.—*St. Greal*, § 64 (cf. 166).

Diosgedig, *pt.a.* undressed, stripped, put off.

Diosgiad, -au, *sm.* an undressing or stripping; a putting off.

Digitized by Google

Diosgl, *v.* [di- + osgl ?]=*Diosg.*

Yna y *dioscles* Owein yr arueu ar dillat.—*Mabinogion*, 199.

Yna Arthur a beris y bawp peidyaw ar gwareu hwnnw . . . ac erchi y Alaath *diosgyl* y helym ae dwyn yr dref oe vlaen.—*St. Greal*, § 5.

Ewch heb hi hyt yr auon y syd gerllaw y sant. a *diosglwch* awch dillat.—*Llyfr Ancr*, 109.

Diosglys, *sm.* quillwort (*Isoëtes*).—*H. Davies:* Welsh Botanology, 135, 183.

Diosglys merllyn, Isoëtes lacustris: also called *gwair merllyn.*

Diosgo, *a.* [osgo] without declination, inclination, leaning, or bias; upright, straight.

Alaw diosgo, water aloe, water soldier (*Stratiotes aloides*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 154.

Diosgoawl, *a.* not tending to incline.

Diosgol, *a.* tending to strip; apt to put off.

Diosgordd, *a.* having no retinue; without a guard.

Diosgryn, *a.* [gosgryn] free from agitation or tremulation; firm, unflinching.

A'r Temic hwnnw a rodes y Veuno yn dragwyddawl, ac yn *diosgryn* tref; ac yno yr adeiliaud Beuno eglwys, ac y kyssegrwyd y Duw.—*Buchedd Beuno:* C.-B.SS. 16.

Diosteg, *a.* without silence; without a pause.

Gwrach arall gas, groch, erwin, *ddiosteg*.—*Dewi Wyn*, 319.

Diosymdaith, *a.* [gosymdaith] without provision; without maintenance or support.

Bellach brwytreu ac ymladeu a cholli marchogyon. ac adaw gwraged yn wedw. a rianed yn *diosymdeith*.
Mabinogion, 233.

Diota, *v.* [diod] to drink often, frequently, or habitually; to tipple, to guzzle, to bib; to drink.

Gwest hyt nawn a wneynt a *diotta* hyt pan vei nos pan elynt y gysgu.—*Mabinogion*, 110.

Tri pheth a ddyly cerddawr eu gochel: llyna neu *ddiota;* puteinio; a disio neu dablera.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 136.

Doed dy gof *diota* gynt.—*D. ab Gwilym*, cxlvi. 55.

Ef a ymlenwa, yn y modd na bydd fawr yn ol i'w *ddiota*.
R. Smith: Eglurhâd, 278.

Y rhai a arferir, nid i wledda nac i *ddiota*, ond i faethu ac i gladdu y tlodion a'r amddifaid.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 87.

Diota, *sm.* tippling, bibbing.—*W.*

Diotach, *sm.* sottishness, bibacity, tippling.—*P.*

Diotai, *pl.* diotcion, *sc.* a tippler, a bibbler, a boozer.—*P.*

Diotty, } tai, *sm.* [diod + tŷ] a house for
Diawtty, } drinking, an ale-house, a tippling-house, a bibbing-house, a bibbery; a tavern.

Hwyr y gwnai hagr westai hy
Einion Dot, mewn *diawtty*.—*D. ab Gwilym*, xxi. 61.

Ereill yn fynych a'm carant mewn *diottai*, a'u menyddau gwedi mwydo yn soeg trwy lyncu trwyth yr haidd.
Y Greal, 170.

Os gweriwch eich oriau segur yn y *diotty*, chwi a gollwch eich arian, eich iechyd, eich cysuron cartref, eich cyfeillion, eich gwaith.—*Cylchgrawn*, i. 5 (cf. 111).

Fel y mae dieithriaid yn arfer *diottai*, nid i aros . . . ond yn unig i orphwys ychydig bach.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 30.

Diotwr, wyr, *sm.* a drinker, a tippler, a bibber, a bibbler.

Diowgrym, *a.*=*Diawgrym* (the better form), q.v.

Ym marn crefydd, rhyfyg yw gobeithio tamchwëydd o rasau a thrugareddau Duw ar ddynion diowgswrth a *diowgrym* at fyw yn sanctaidd.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 178.

Diowryd, *sm.* [corr. of *diofryd*]=*Diofryd*, q.v.

I'w chyfarch, od arch, nid af,
Diowryd yw a doraf.—*Gronwy Owain*, 8.

Dipton, -iaid, -au, *sf.* [Gr. δίφθογγος; L. *diphthongus*] a diphthong. The older grammarians mention the following kinds of diphthongs. See *Edeyrn*, 18—20, 38, 39; *M.A.* iii. 194.

Sillaf *ddipton* a fydd o gyssyllt dwy fogail yng nghyd yn un sillaf.—*Edeyrn:* Dosparth, 19.

Tri rhyw sillaf y sydd: sillaf dalgron; sillaf leddf; a sillaf *dipton.*—*Trioedd Moes:* M.A. iii. 194.

Sillaf a derfyno mewn tair o'r bogeiliaid yng nghyd, neu y bo ynddi dair bogail yng nghyd, ac ni fyddant *ddiptonaid* . . . honno a elwir *dipton* ddieithr.
Edeyrn: Dosparth, 20.

Dipton bengamleddf, } a crook-headed sparsison
Dipton bengam leddf, } diphthong.

Dipton bengrechleddf, } a crisp-headed sparsi-
Dipton bengrech leddf, } son diphthong.

Dipton dalgron, a rotundison diphthong.

Dipton dalgron fud neu fyddar, a mute or surd rotundison diphthong.

Dipton dalgron losgyrniog, a tailed rotundison diphthong.

Dipton dalgronleddf, } a rotundisparsison diph-
Dipton dalgron leddf, } thong.

Dipton dalgron wib, a vagirotundison diphthong.

Dipton dawddleddf, a liquesparsison diphthong.

Dipton dromleddf, a gravisparsison diphthong.

Dipton ddieithr, a strange diphthong.

Dipton ddieithr fud, a strange and mute diphthong.

Dipton fyddarleddf, a surdisparsison diphthong.

Dipton gadarnleddf: } see *Cadarnleddf.*
Dipton gadarn leddf: }

Dipton leddf, a sparsison diphthong.

Dipton losgyrniog, } a tailed or caudate diph-
Dipton losgyrnog, } thong.

Dipton losgyrniog wib, a tailed wandering diphthong.

Dipton wib, a wandering diphthong.

Dipton wib leddf, } a vagisparsison diphthong.
Dipton wibleddf, }

Tair *dipton* y sydd: *dipton leddf;* a *dipton dalgron;* a *dipton wib.* Tair *dipton* gymmysg y sydd: *dipton dalgronleddf; dipton gadarnleddf;* a *dipton dawddleddf.* Tair *dipton* ryfedd y sydd: *dipton ddieithr; dipton losgyrniog,* a *dipton wib.* . . . Tair silltaf ni cheir proest a'u hatebo: *dipton dawddleddf; dipton dalgronleddf:* a *dipton wib.*
Pum Llyfr Cerddwriaeth, 46.

Tair dipton odidawg ganiad y sydd: *dipton dalgronleddf;* a *dipton losgyrnawg;* a *dipton gadarnleddf.*
Trioedd Moes: M.A. iii. 194.

Pum *dipton dalgron* y sydd. . . Pedair *dipton leddf* y sydd.
Edeyrn: Dosparth, 19 (cf. 20).

¶ The attempted English equivalents of these peculiar terms are mostly based on those used by Dr. I. D. Rhys in his Latin translation (*Institutiones*, 134—144). Cf. *Pum Llyfr Cerddwriaeth*, 42—47 (trans. 30—38).

Digitized by Google

Diphwys, *s.* and *a.*=*Diffwys*.

Dir (*i*), *a.* certain, sure; true; necessary, of necessity; inevitable.

Neud maith i'm dyrraith *dir* ofalon.
Dafydd Benfras: M.A. i. 315 (cf. 220, 349).

Tri pheth *dir* y byddant: eithaf gallu; eithaf deall; ac eithaf cariad Duw.—*Barddas*, i. 170.

Pawb pei canffai a'i dyddysgai,
Dir ni byddai diddysg neb rhai . . .
Dir dichwain drwg i drythyllwg.—*Iolo Mss.* 227.

Yn hytrach na gwthio, o *ddir* duedd, trefn Gwynedd ym mlaen, a gwaradwyddo'r wlad gerwyneb diceithraid.
Tal. ab Iolo: Cyfr. y Beirdd, Rhagdd. 17.

Mae yr un ffunud yn *ddir* bod yr addewidion a berthyn i enwaediad yn arwyddion o ryw beth mwy godidog.
Ed. Samuel: Grotius, v. 11.

Er na wnaent lai na'u *dir* ddyledswydd, eto ni wnânt ddim mwy chwaith.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 218.

Y meddyliau a'r ymadroddion hyn, frawd anwyl, beth bynnag wyt ti yr awron, sydd *ddir* eu bod yn dy galon di yn awr angeu.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. viii. 14 (cf. ii. i. 27; ii. 5; iv. 5; v. 22; vi. 8, 10).

Pan el Sior, ein hior, mewn hedd,
Wiw dëyrn, yn y diwedd,
Ar *ddir* hynt o'r ddaiar hon
I gyrhaedd nefol goron.—*I. B. Hir:* Gwaith, 71.

Oerfyd a gair o arw-farf,
A *dir* boen o dori barf.—*Gro. Owain*, 20 (cf. 108).

Dir yw, it is certain; it is necessary; it must be; it must needs be; (I, thou, he, &c.) must or ought: *oportet, opus est.*

Ie heb ynteu. *dir yw* y mi gwneuthur hynny.
Mabinogion, 80.

Dir yw idaw tygu yg gwyd yr arglwyd.—*C.C.* i. 422.

Dir iddo fod yn sobr.—*Ier. Owen*, 102.

A, *dir*, ni welir neb o'u rhyw
Ar waith doethineb yn eu byw.—*Iolo Morganwg:* Salm. i. cxcii. 2 (cf. clxxv. 4; clxxviii. 5).

Dir (*yw*) *i mi*, it is necessary for me; I must.

Dir yw ymi wneuthur awch mynnu chwi rac colli vy muched.—*Ystoria Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 50.

Daiar Mon, *dir i minnau*
Yw, o chaf ffun, ei choffäu.—*Gronwy Owain*, 59.

Yn ddir, certainly, surely, truly, verily; necessarily, of necessity; assuredly; decidedly.

Ef a welir pot *yn dir* dyuot pob peth or ny damweinassant eiroet.—*Lucidar:* Llyfr Ancr, 33.

Gwnawn ar ei ol, mae ef, *yn ddir*,
Yn meddu gwir dangnefedd.—*Iolo Morganwg:* Salm. ii. v. 6 (cf. i. clxxxvi. 5; cxcii. 2).

Ys dir, it is certain; certain it is; it is true; it must; it is necessary or inevitable.

Cartref gwir y nef *ys dir*.—*Iolo Mss.* 228.

Ys dir oe uareu ddifuryau pob tur.
Llygad Gwr: M.A. i. 341.

Cryd ar hen angeu *ys dir*.—*Diareb.* (M.A. iii. 151.)

A fo dda gan Dduw *ys dir*.—*Diareb.* (M.A. iii. 146.)

Ys dir angeu i eidiawg.—*Ys dir* drwg rhag drwg arall.—*Ys dir* i hael a roddo.—*Ys dir* lladd y gwadn wrth refedd y troed.—*Ys dir* nithiaw ni bo pur.—*Diarebion* (M.A. iii. 179).

Ys dir nid da ni ymwellhâ.—*Iolo Mss.* 227.

Dir, -iau, *sm.* truth; certainty; force, impulse; compulsion; necessity; restraint; hardship, pressure, urgency; strait.

Can nas dylit na deddv na *dir* ar ddoethion.
Cyfreithiau Cymru, ii. 538.

Cywir yn y *dir* nid oedd.—*Gruffydd ab I. ab Ll. Fychan.*

Pa hyd y goddefaf y *dir*,
Dra codir fy nghaseion i—*Edm. Prys:* Salm. xiii. 2.

Yr hwn ni thyng ddim ond y gwir,
Er *dir* neu niwaid iddo.
Edm. Prys: Salm. xv. 4 (cf. xiii. 2).

Ni syfl, er goddef eithaf *dir*,
Led mymryn haul oddi wrth y gwir.
Iolo Morganwg: Salm. i. cxcv. 7.

Gan faint ei *ddir* annhiriawn.
Iolo Morganwg: Salmau, ii. 223.

Dir, as a prefix in composition, implies *vehement, extreme, great, highly, very.*

Dir, *prep.* [=idd yr] to the; into the.

Ar hyt *dir* guairet bet y penn Bryneital.
Liber Landavensis, 138 (cf. 247).

Or carn *dir* guairet *dir* foes in dorso montis.
Liber Landavensis, 135 (cf. 133).

Lymma y cymreith ha bryein eccluys Teliau o Lanntaf a rodes breenhined hinn ha touyssocion Cymry yn tryeyguidaul dy eccluys Teliau hac *dir* escip oll gueti ef.
Llyfr Teilo, 120 (cf. 134, 142, 143, 145, 157, 173).

Dirad, *a.* without grace or blessing, unblest.

Nam ditaul oth wt vt echeiad
Nam gwellic ymplic impled *dirad*.—*Llyfr Du:* A.B. ii. 45.

Diradd, *a.* [gradd] having no degree or rank; low, ignoble.

Dysgybl yspas *diradd*, oni ddysg mewn tair blynedd, mal y galler gradd iddo, barn yw, nas dylid ac nas gellir prydydd o hono.—*Y Greal*, 350.

Rhoed un llyag, rhaid yw ei lladd,
Ryw does dwr, reidus *diradd*.—*Iolo Goch.*

Rhoes, fal *diradd* anaddwyn,
Ar fy ngherdd (mawr yw fy nghwyn)
Farn gam, a fu wirion gais,
Oer filain, o ryw falais.—*Ieuan Brydydd Hir:* Gwaith, 63.

Diraddiad, -au, *sm.* degradation; disgrace.

Derwyddiaeth mewn *diraddiad*,
Beibl i'w le i bobl y wlad.—*Eben Fardd:* Cyff Beuno, 45.

Diraddiedig, **Diraddedig**, *pt.a.* degraded; reduced in rank; lowered.

Diraddio, **Diraddu**, *v.* to deprive of a degree or of rank; to degrade, to disgrace; to cashier.

O drille y tyner gwaed ar fardd pan a'i *diradder*. . . Ac yn oes y gwr a *ddiradder* felly, nis gellir iddo na braint na nawdd, nac un da pa bynnag o'r byd wrth gerdd a barddoniaeth.—*Barddas*, ii. 116.

Llyma y *diraddu* y sydd ar wŷr wrth gerdd dafawd.
Y Greal, 53 (cf. 350).

Rhyfygu, *diraddu* 'r Ion,
Dawnus Waredwr dynion.—*Dafydd Ionawr*, 155.

Y mae efe wedi ei *ddiraddu* o'i barchusrwydd cynt.
Gwyliedydd, v. 230.

Os caniatäwn fod eglwysi neillduol yn gynnifer cymdeithas o Gris'nogion wedi eu lluniaethu (fel y rhaid i ni ganiatäu, neu ynte eu *diraddio* hwy i gynnifer o dorfëydd annhrefnus).—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 287).

Y mae i minnau ddyfyn i ymddangos o'i flaen, dan boen dioddef fy *niraddio* o freintiau ein hardderchog Gymdeithas.—*Gronwy Owain*, 315 (cf. 325).

Diraddiol, *a.* tending to degrade, degrading.

Diraddiwr, wyr, *sm.* one who degrades.

Diraen, **Diran**, *a.* [di- + graen or gran=E. *grain*] without grain, gloss, or lustre; cross-grained; rough; cross, peevish.—*C.S.*

Diraenu, *v.* to become cross-grained, peevish, or angry; to look cross or angry; to make rough or uneven; to wrinkle.

Ai'r trawsion trwy ysu, difudd, sy'n dy faeddu,
A thramawr orthrymu'n *diraenu* dy rudd!
Edward Richard: Bugeilgerdd, i. 5.

Diragamcan, *a.* unpremeditated, not previously intended.

Pechawd hamddenawl a fydd yr un a wneler yn ddisyfed ac yn *ddiragamcan*.—*Havod Ms.*

Diragddarbod, *a.* improvident; thoughtless.

Diragfarn, **Diragfarnol**, *a.* without prejudice, unprejudiced; impartial.

Meddwl pur mewn corff glân a diwair yw mam doethineb ac ystyriaeth . . . dysg bur a dealltwriaeth *diragfarn*.
Elis Wynn: Rh.B.S. 72 (cf. 268).

Digitized by Google

Y mae yr hyn a roddwyd ar lawr eisoes . . . yn ddigon i roddi boddlonrwydd ar y pen hwn i'r ymofynwr *diragfarn*.
Ioan Wallter: Dwy Bregeth, 34.

Diragfwriad, *a.* without forethought, improvident; thoughtless.

Diragfyfyr, *a.* unpremeditated.

Gan nad oedd arnynt eisieu amryw ddull
Na iasau awen lân, i foli eu Ner,
Mewn ieithwedd wiw neu *ddiragfyfyr* gân,
I. D. Ffraid: Coll Gwynfa, v. 176.

Diragod, *a.* unprevented, without hinderance.

Y moddion ai ni chwilia Rhad, ei ffordd
A chwilia, chweiaf o dy fwth
Gennadon, oll dy greaduriaid i
Ofwyaw, ac i bawb a ddeuant yn
Ddiragawd, diadolwyn, a digais!
W. O. Pughe: C.G. iii. 346.

Diragofal, *a.* without foresight; unforeseeing.

Diragor, *a.* void of excellence; without distinction; indifferent.

Y maent yn arferol o dyngu'n *ddiragor* i wir neu gelwydd, i bethau ammhêus neu hyspys.
Langford: Holl Ddyledswydd Dyn, 108.

A thithau a ellit eu harferu oll yn *ddiragor*, yn ddiruseidig, ac yn ddiberygl o'u bod yn fagl i ti.
Elis Wynn: Rh.B.S. 59.

Diragoredd, *sm.* want of excellence; indifference.

Diragoriaeth, *a.* without excellence or superiority; indifferent.

Ac nid yw hyn yn beth *diragoriaeth* na waeth i ni ei wneuthur ef na pheidio.—*Iago ab Dewi:* Llonyddwch, 34.

Diragrith, *a.* without hypocrisy or dissimulation; unfeigned; sincere.

Bydded cariad yn *ddiragrith*.
Rhuf. xii. 9 (cf. 2 Cor. vi. 6; Iago iii. 17).

Er mor *ddiragrith* fyddwyf wrth gymmeryd y llw, os myfi gwedi hyny ni chwplhâf ef, yr wyf fi yn ddiammheu gwedi tyngu anudon.
Langford: Holl Ddyl. Dyn, 103 (cf. 112).

Bendith am *ddiragrith* rodd,
Hoff enaid! da y ffynodd.—*Gronwy Owain*, 51.

Beth, meddwch, os yw dadleuon y Pab, a'i abadau, a'i esgobion, yn *ddiragrith* wedi ymddangos yn gwbl elynion i'r efengyl?—*Morus Cyffin:* Diff. vi. 5.

Ffydd ddiragrith, unfeigned faith.—1 *Tim.* i. 5.

Brawdgarwch diragrith, 'unfeigned love of the brethren.'—1 *Pedr* i. 22.

Diragrithio, *v.* to cease from hypocrisy or dissimulation; not to dissimulate.

Diragrithiol, } *a.* not hypocritical, not used to
Diragrithus, } dissimulation.

Rhaid yw bod ynthi hi gasineb *diragrithiol* o bechod, a chariad o Dduw.—*Langford:* Holl Ddyl. Dyn, 134 (cf. 83).

Yr hyn sy gymmaint a phe dywedasai: Hwy a'n gwnânt ni yn gwbl-iachus ac yn *ddiragrithus* broffeswyr yr Efengyl.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 259.

Diragrithrwydd, *sm.* freedom from hypocrisy or dissimulation; sincerity; genuineness.

Yma yr ydych yn euog hefyd o herwydd, pan weddïoch, fod eich meddwl ar bethau ereill, ac nad ydych yn gweddïo mewn *diragrithrwydd* a gwirionedd.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 356.

Diragwel, *a.* without foresight, unforeseeing; improvident; unforeseen.

A hoen oedd yna chweg, ond weithion tost
O ddirnad, trwy *ddiragwel* dro a ddaeth i ni.
W. O. Pughe: C.G. ii. 861.

Diragweledig, *a.* unforeseen.

Diragweliad, *a.* without foresight; improvident.

Diragwybod, *a.* without foreknowledge; unforeknown.

Er y rhagwyddwn, rhagwybodaeth na
Effeithiai ar eu bai, yr hwn o fod
Ys dir yn *ddiragwybod*.—*W. O. Pughe:* C.G. iii. 129.

Diraianu, *v.* [graian] to clear of gravel.

Diraid, *a.* [rhaid] without necessity, unnecessary; useless.

Tri arwyddon creulonder: tarfu anifail yn *ddi raid;* briwaw coed a llysiau yn ddiachos; a bod yn daer am gymmwynas.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 202.

Dyna'r pryd, na bydd cynnorthwy Duw na dyn, ond peth *diraid* wrtho.—*Lewis Anwyl:* Nefawl Ganllaw, 7.

Ac felly mae'n Harglwydd yn yr Efengyl, a Sant Iaco yn ei Epistol, yn gorchymmyn i ni na thyngom; *sef* yn *ddiraid*.—*R. Smith:* Eglurhâd, 162.

Diraid, *a.* [diriaid]=*Diriaid.*

Diramadeg, *a.* without grammar, ungrammatical.

Beirdd dilym, dirym, *diramadeg*.—*Gronwy Owain*, 28.

Diran, *a.* [rhan] 1. having no share, portion, or part; portionless; devoid, destitute.

Yr hwnn a gynnhelis eu tateu yn *diran* wers tra gwers hyt eu marw.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 468.

Y ulwydyn rac wyneb wedy gweled o Rys ieuanc y uot yn *dirran* o gyfoeth anuon kenadeu a oruc att y brenhin y eruynneit idaw drwy y nerth ef peri idaw rann o dref y dat.
Brut y Tywysogion, 272.

Mynheu ath varnhaf ty yn *diran*. y gyt ac wynteu o Ynys Prydeyn.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 129.

Kaswallawn a ymrodes y warder ac ny mynnws bot y neyeynt yn *diran* or teyrnas.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 171.

Chwerwder yw gwenwynuar diphaith vedhwl *dirann* o lawenydh.—*Ymborth yr Enaid*, 17.

2. undivided; unshared.

Wyf yr eiddoch (rhyngoch) yn *ddiran*.—*Gro. Owain*, 266.

Diranadwy, *a.* undividable, indivisible.

Bendigedig y fo'r Drindod *ddiranadwy* yn awr ac yn dragywydd.—*Allwydd Paradwys*, 24 (cf. 39).

Diranedig, *pt.a.* undivided, unshared, unportioned.

Diraniad, *a.* without division, undivided; indivisible.

Byw trwy bob bywyd, llenwi'r holl daen maith,
Lledu'n *ddiraniad*, didraul yn ei waith.
Robert Owen: Gwaith, 272.

Diranol, *a.* not dividing or separating; undivided, unshared.

Diranu, *v.* to deprive of a share or portion; to cease sharing or dividing.

Diranodd Duw oll o'r estroniaid,
Doe, o dori cleddau'r swyddau'n ei said!
L. G. Cothi, III. xxii. 11.

Diras, *a.* [di-+gras] graceless, villainous, depraved, wicked, vile; reprobate.

A Ial yn ddisâl [*al.* ddyfal] heb sylwedd yn *ddiras*.
Myv. Arch. i. 541.

Lleidr y mewn *diras* draserch!
D. ab Gwilym, lxxxi. 1 (cf. clviii. 60; cxcvi. 11).

Pa fwyaf ysgeler, diriaid, a *diras* a fyddai neb, mwyaf i gyd a fyddai parch ac anrhydedd hwnw.
Theo. Evans: D.P.O. 92.

Cod arian y cyw *diras*
Yw crefydd y cybydd cas.—*Gronwy Owain*, 77.

O dyry angeu *diras*
Fywyd i'w ran, fyd o ras.—*I. B. Hir:* Gwaith, 75.

Fe'i gorchfygwyd gan allu eilunaddoliaeth llwyrwael, a choelgrefydd *ddiras*.—*Ier. Owen*, 21.

Un diras, a scapegrace; a villain; a reprobate, a profligate.

Digitized by Google

Dirasol, *a.*=*Diras.*

Nac ofnwch flin anian,
Y *dirasol* a dreisian'.—*Huw Morus:* E.C. ii. 37.

Dirasrwydd, } *sm.* gracelessness, villainous-
Dirasedd, } ness, villainy, profligacy; re-
Diraswch, } probateness.

Hwy a welsont y dialeddau trymion, y distryw, y newyn, y difrod, ag oedd o hyd yn eu cydganlyn, tra'r oeddent yn ddibarch ym mysg eu cymmydogion am eu *dirasrwydd* a'u meddalwch.—*Theo. Evans:* D.P.O. 91.

Dirawn, *a.* [grawn] having no grain or seed.

Dirberaidd, *a.* very or extremely sweet.

Wedi cael diwael a da
Ddirberaidd ddwr a bara.—*Pedr Fardd:* Mêl Awen, 176.

Dirboen, -au, *sm.* extreme pain; a racking pain; torture; pang; agony.

A hyny a fu yn achos *dirboen,* gofid, a galar iddi.
Iolo Mss. 84.

Fe gaiff y pryd hwnw . . . edrych arno yn marw yn ei wely, yn ddigalon, athrist, a syn, yn llafurio tan *ddirboen* ac ingder angeu.
Gruffydd Wynn: Ystyriaethau, 54 (cf. 173, 192).

Y seler nesaf yr oedd y cybyddion mewn *dirboen* echrys.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 83 (cf. 74, 85).

Lle gwelais innau, ar y golwg cyntaf, fwy nag a all calon dyn ei ddychymmygu, chweithach tafod ei draethu, o arteithiau a *dirboenau.*
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 74 (cf. 83, 85).

Dirboen, *a.* extremely painful, tormenting, excruciating, agonizing.

Byddai yn llawer tynerach ar farnwr ddifuddio drygweithredwr o'i einioes drwy'r arteithiau *dirboenaf,* na'i fwrw i garchar gwastadol.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 20.

Dirboeni, *v.* to torture, excruciate, or torment.

F' a fydd llafur a chystuddiau dy gorff yn dy *ddirboeni* ar wely angeu.—*Ed. Samuel:* Holl Ddyl. Dyn, 129.

Anfynych rho'i Naf union,
Cyn bod yr oes hynod hon,
Gennad i Ddreigiau Annwn
Ddirboeni 'r byd hyfryd hwn.—*Dafydd Ionawr,* 304.

Dirboeniad, -au, *sm.* a torturing, excruciation.

Dirboenol, *a.* excruciating, tormenting.

Dirboenus, *a.* extremely painful, agonizing, tormenting, racking.

Tripheth a gaiff dyn creulawn: cydwybod *ddirboenus;* anghlod doethion; a digofaint Duw.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 118.

Canys fe a'i cyssylltwyd â thragywyddol a *dirboenus* erwindod ac anobaith.—*Elis Lewis:* Drexelius, 234.

Dirboenwr, wyr, } *sm.* an excruciator, a tor-
Dirboenydd, -ion, } mentor, an agonizer.

Dirbwys, -au, *sm.* great weight or pressure.

Bu'n *ddirbwys* fyg-ddwys fagddu
O'r ol i'r gelynol lu.—*Pedr Fardd:* Mêl Awen, 163.

Dirchwant, -au, *sm.* an ardent or extreme desire.

Dirchwantol, *a.* ardently or eagerly desirous; covetous, greedy.

Dirchwantu, *v.* ardently to desire; to lust after.

Dirchwennych, *v.* to desire greatly; to lust after.

Dirchwys, *sm.* profuse sweat or perspiration; desudation.

Dirchwysiad, *sm.* desudation.

Dirchwysol, *a.* tending to sweat much.

Dirchwysu, *v.* to sweat or perspire profusely.

Dirdaen, } *a.* greatly spread or distended;
Dirdan, } spreading abroad.

Dirdaeniad, } -au, *sm.* great distension or ex-
Dirdaniad, } pansion; a spreading.

Dirdaenu, } *v.* to expand or distend greatly;
Dirdanu, } to spread abroad.

Y mwynant ys ewant
Ym kaffwynt yn *dirdan.*—*Taliesin:* A.B. ii. 302.

Dirdeb, } *sm.* excess, extremity; violence;
Dirder, } severity; injustice; injury; hard-
Dirdra, } ship; great exertion.

Yr achos pa ham yw, am nas gall gwr â'i raffol neu bin, ysgrifenu neu ddelweddu y munudiau ymmodawl, a'r ymddygiad, sydd raid i'r areithiwr, wrth ymadrodd, eu dangos, yn ol *dirdeb* y nwydau, ac arwyddocâd y brawddegau.—*H. Perri:* Egluryn Ffraethineb, xlv. 2.

O *ddirder* anghen y daw yr ystyr.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 111.

Y caethweision hyn a wnaethant *ddirdra.*—*Judeth* xiv. 18.

Gan osod ger bron eu llygaid y *dirdra* a wnaethant ar gam i'r lle sanctaidd.—2 *Macc.* viii. 17.

Cyfrifid hyny yn *ddirdra* o gam, ac ammharch dirfawr.
R. Smith: Eglurhâd, 35.

Ei ddau ardreth oedd *ddirdra.*—*Sion Cent.*

A throer i'w hol y rhai y sy
Yn chwennych ymy *ddirdra.*—*Edm. Prys:* Salm. xl. 14.

Nid ffug o gaddug a guddia bechod,
Na buchedd o *ddirdra.*—*I. B. Hir:* Gwaith, 119.

Yn agaws weithion y
Perthyna ini *ddirdeb* ein holl rym.
W. O. Pughe: C.G. v. 790.

Y drwg elyn a'i *ddirdra* gwyliodd.
Pedr Fardd: Mêl Awen, 24.

Dirdra dolur, extremity of sickness or pain.—*Llyfr Gweddi Gyffredin.*

¶ *Dirdra* may sometimes be a contraction of *dihirdra* (*dyhirdra*).

Dirdost, *a.* extremely severe or rigorous.

Wele ddangos pa fodd y mae i weision Crist ymddwyn tuag at y byd; sef dangos yn hyf, areithio'n eon, ceryddu'n *ddirdost,* a dywedyd yn ddiragrith i'r bydolion, mai poen fydd diwedd eu paradwys.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xxxii. 9.

Dirdra, *sm.*=*Tirdra* (cf. *C.C.* ii. 220, 276, 278, 340, 388, 696).

Dirdrais, *sm.* outrage; great violence.

Dirdreisiad, -au, *sm.* a violent oppressing, an outraging.

Dirdreisio, *v.* to outrage; to oppress greatly.

Dirdreisiol, *a.* outraging, violently oppressive.

Dirdreisiwr, wyr, *sm.* a violent oppressor.

Dirdyn, -ion, *sm.* [dir+tyn] a forcible pull, pluck, or tug; convulsion; a rack.

Ar y dirdyn, on the rack.

Dirdynion, convulsions.

Dirdyndra, *sm.* convulsion; convulsiveness.

Dacw ef mewn *dirdyndra,* wele ryw egni eto ym mhlith olwynion y peiriant.—*Brutus:* Brut. 190.

Dirdynfa, fëydd, *sf.* a violent tension; a tug, a pluck; a convulsion; a place of torture.

Dirdyniad, -au, *sm.* a violent pull, tug, or pluck; a violent tension; a racking; a torturing; convulsion.

Pan gaiff y galon deimlo llawer *dirdyniad* arteithiol am gynnyg camwri i neb.—*Nicander:* Dysga Farw, 28.

Dirdyniadau, convulsions; tortures.

Gan drydar nwydwyllt, gwŷn *dirdyniadau.*
Dewi Wyn, 319.

Dirdynol, *a.* convulsive; racking.

Digitized by Google

Dirdynu, *v.* to pull or draw violently; to strain vehemently; to drag; to convulse; to torture, to rack.

Ereill a *ddirdynwyd*, heb dderbyn ymwared.—*Heb.* xi. 35.

Dirdynid a llwythid hwynt yno â heirn yn greulon, ac yn ddirgel.—*Ch. Edwards:* Hanes y Ffydd, 138.

Mewn cyffelyb i'r hwn nid tost yw holl rwygo, dryllio, *dirdynu*, ac arteithio cyrff dynion yma, trwy'r poenau tostaf, ar dannau i *ddirdynu*.—*Sam. Williams:* Amser (1724), 132.

Os am ladd ei dywysog neu am yspeilio eglwysi y llusgir dyhiryn i'w *ddirdynu*, pa ddoethineb a ddichon ei gysuro?
Elis Wynn: Rh.B.S. 114.

Dirdynwr, wyr, *sm.* one who pulls violently; a torturer, a racker.

Dirdynwst, *sm.* tetanus.

Dylid cofio fod tebygrwydd cryf rhwng y gynddaredd a'r *dirdynwst*. . . Y mae y *dirdynwst* naturiol yn cyfodi o hono ei hun, er yn aflechyd cyffredin a marwol.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 118.

Dirddawn, ddoniau, *sm.* a great gift or endowment; an offering.

A phei as roditt o dref dy tat yn *dirdawn* y Duw.
Llyfr Ancr, 151.

Dirddwys, *a.* extremely condensed or compressed; very serious, grave, or earnest.

Dirddwysiad, -au, *sm.* condensation; a rendering very dense.

Dirddwyso, *v.* to condense highly or extremely.

Dirddwysol, *a.* tending to condense or compress; highly condensed.

Dire, *a.* [di-+gre] without a herd; without herds or flocks; herdless.

Lle *dire* dirwydd adreisig.—*Hywel Ystoryn:* M.A. i. 519.

Eiry mynydd llom banarth,
Chwyrn amlif, *dire* buarth:
Odid rhywun na'm rhywarth.—*Llywelyn Llogell Rhison.*

Direb, -ion, *sf.* [dir+eb] an adage, a proverb.

Edrych . . . air rhybudd y *direbion*.—*Sion Mawddwy.*

Direidi, **Dirieidi,** *sm.* [diriaid] mischievousness, viciousness, mischief, wickedness, naughtiness; ill fate.

Yna y brysya *direidi* y dreic wen.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 145 (cf. 48, 170).

Ac o achaws vym pechodeu am *diryeidi* y colleis i gallu vyng corff am clybot am dywedut.—*St. Greal*, ¶ 64 (cf. 71).

Handid oth *direidi* di. ac ef a geiff aruen.—*Mabinogion*, 71.

Gwisgaf ei elynion o lwgr a *diraidi*.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 574.

Achaws hyny dygwyddes gwall ac anghof ar lawer; ac yna myned yn erbyn Enw Duw a'i wirioneddau, ac yna difrawd ac anrhaith, yna pob drwg a *direidi*.
Iolo Mss. 47 (cf. 304).

Trwy frynti a *direidi*.—*M. Cyffn:* Diff. iv. 2.

Tri banogion *direidi:* gwrthneuad; anlladrwydd; a gloddest.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 262 (cf. 246).

Trech llafur no *direidi*.—*Diareb.* (M.A. iii. 177.)

Nawdd Duw rhagod *ddirieidi*.
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 550 (cf. 329).

Pa ddrudiant, pa *ddirieidi*,
Pa fethiant, na fynant fi?
D. ab Gwilym, cxxxvi. 7 (cf. cxlvi. 11; ccxxvi. 17).

Drud wyd ym mhob *direidi*.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 304.

Nid oes *ddirieidi* heb aflwydd iddo.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 10 (cf. 3, 38, 39, 67, 68).

Amaerwy *direidi* drwg anian.—*Diareb.* (M.A. iii. 147.)

Ergydiant o'u hamgylch bentewynion tanllyd o bechodau trachwantus mewn *direidi*.—*Ch. Edwards:* H. y Ff. 277.

Yr wyt yn llawn direidi, thou art full of mischievous tricks.

Direidio, *v.* to become mischievous.

Direidiol, *a.* of a mischievous or vicious tendency.

Direidion, *s.pl.* [diriaid] mischievous or vicious ones; reprobates.

Tri, lle 'mbleidion', troen' *ddireidion;*
O try eidion y tir adwydd.—*L. G. Cothi*, i. xiii. 55.

Direidus, **Direieidus,** *a.* mischievous, wicked, vicious, naughty.

Eu rhybuddio yn arab weddus,
Y radd a rodia'n rhy *ddirieidus;*
Cân, Awen.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 273.

Direidiwr, wyr, **Direidwr,** wyr, **Direidydd,** -ion, *sm.* [diriaid+gwr] a mischievous or vicious person; a person full of mischief; a villain; a lawless fellow; a reprobate.

Yn lle gwir heb y marchawc pwybynnac a vo y mae yn *direidwr*.—*St. Greal*, ¶ 17.

Mae vyn gweisson drwc am *direitwyr*.—*Mabinogion*, 118.

Ti a'm ceidw rhag *direidwyr*,
Rheitia' cledd, gwyr Rhawt y Clyr.
Dafydd ab Gwilym, cxxxiv. 43.

Ond yr adyn, y *direidwr*,
I'w olwg ef y sydd waclwr.—*W. Midleton:* Salmau, xv. 4.

Hefyd, na wnelont gynhen, na ffraeau, na thwyll, na lledrad, nac un anllywodraeth arall, megys cynllwyn, ac ymganlyn â lladron, a *direidwyr*, ac ereill annosparthus ar gamp ac ymddwyn.—*Y Greal*, 52.

Direidwas, weis, weision, *sm.* a mischievous fellow.

Traws y gwŷl trais â golwg,
Trech a gais, trwy awch a gwg,
Nog a geidw, rhag *direidwas*,
Ei ddyn gwyn yn ael glyn glas.
Dafydd ab Gwilym, lxxiii. 5 (cf. xcvi. 44).

Direidwraig, wragedd, *sf.* [diriaid+gwraig] a mischievous or wicked woman.

Dygaf y Duw uyg kyffes heb ef *direit wreic* wyt.
Mabinogion, 69.

Direol, *a.* [rheol] not regular, irregular; disorderly.

Direol, bawlyd, rhy helbulus.—*Gronwy Owain*, 9.

Kyrchu y bont a orugant yn *dirool* ac ymscithu ac wynt yn wychyr calet.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 551.

Gweithredoedd *direol* annuwiol a wnânt.
Ioan ab Hywel: Blodau Dyfed, 238.

Direolaeth, *a.* without rule or order; without control; irregular; disorderly.

Megys y gall physygwriaeth a gymmerer yn ddigynghor ac yn *ddireolaeth* wneuthur niwaid i'r corff.
Ed. Samuel: Athrawiaeth yr Eglwys, 155.

Direswm, *a.* [rheswm] irrational; unreasonable; immense; inconceivable.

Ni bu erioed eto, na ddo ym mysg yr anifeiliaid *direswm*, galon mor greulon ag nas gellid ei hynnill â hawddgarwch, a thwrn da.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. vii. 7 (cf. 16).

Yr anifeiliaid *direswm* a ddysg i ni gymmaint a hyny o ragweliad.—*Elis Lewis:* Drexelius, 226.

Anfodlonrwydd *direswm* yw i mi duchan eisieu bod genyf cystal ceiliogod, neu gwn, neu geffylau, ag sy gan fy nghymmydog.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 116 (cf. 67, 294).

Nid yw ond afraid yr awr hon ddadleu yn erbyn y dybygoliaeth *ddireswm* yma.
Ed. Samuel: Gweddi Gyffredin, 86.

Am ddrwg fuchedd efe a oddef beth *direswm* o boenau o ddydd y farn allan.—*Iolo Mss.* 191.

Y mae pob gradd o serch ag sydd yn myned tu hwnt i haeddiant pethau, yn *ddireswm*.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 47 (cf. 49, 164, 290, 322, 369).

Diresymedd, *sm.* irrationality; unreasonableness.

Diresymol, *a.* unreasoning; irrational.

Digitized by Google

Diresyn, *a.* [gresyn] pitiless; cruel, merciless.

A pheidio â bod yn greulon daiogaidd, *diresyn*.
E. Smith: Eglurhâd, 172.

Direwi, *v.* [rhew] to melt or thaw frost or ice; to make uncongealed or unfrozen; to melt.

Haws *direwi* rhew na dirywio rhyw.—*Diareb.*

Dirfaint, *sm.* largeness of size; hugeness of bulk; greatness.

Addoli'm mun dan ddail Mai
A *dirfaint* cariad erfai.—*D. ab Gwilym*, ccxlviii. 13.

Dirfarn, -au, *sf.* a harsh sentence or judgment.

Dirfawl, *a.* blessed; holy.

Rhoi arwydd *dirfawl* y grog fendigawl.
Morys Clynog: Athrawaeth Grist. 2.

Dirfawr, -ion, *a.* [dir+mawr] very great or large; vast; huge; immense; extraordinary.

Y llys a gyrchassant. a *diruawr* lewenyd a uu yn y herbyn.—*Mab.* 23 (cf. 33, 44, 46, 72, 75, 95, 98, 260).

Hwnnw a gyuoethoges Glasgwm. o anreithyeu *diruawr* ac enryded.—*Brut y Saeson:* LI.C.H. ii. 388.

Or gwreid a adawssant yn y dayar y tyuawd *diruawr* goet yssyd yno etwa. yn *ddiruawr* wyd. llawer o nadunt yn on. llawer yn wyd ereill mal yd oed ryw y pelydyr. Ryuedwch mawr. a llewenyd mawr. a lles mawr y eneiteu. a *diruawr* gollet y gorfforoed.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 387.

Yn y vlwydyn honno y gwelat seren enryfed y gweletyat yn anuon paladyr o heni yn ol y chefyn, ac o braffter colofyn y meint, a *diruawr* oleuat idi yn darogan yr hyn a vei rac llaw. Kanys Henri amherawdyr Rufein gwedy *diruawryon* uudugolyaetheu; a chrefydussaf vuched y Grist a orffowyssawd.—*Brut y Tywysogion*, 78 (cf. 24, 26, 32, 40, 42, 44, 46, 78, 146, 228).

Gyr llaw y lle y byd yr ornestwyr y mae discwylua *diruawr* y huchet.—*Llyfr Ancr*, 170.

Gwae ui Duw or *diruawr* golled.
Llygad Gwr: M.A. i. 372 (cf. 249, 280, 330).

A phann dechreuassant y noethi y tywynnawd o *diruawr* eglurder val na ellit edrych arnaw.—*Llyfr Ancr*, 81.

Ei gwŷr a diriasant gan ddwyn yspail *ddirfawr* yn yd ac yn wartheg, a phob golud symmudadwy a fedraint arno.
Iolo Mss. 69 (cf. 19, 166, 173, 196, 234).

Ymdrechodd a dychlamodd fy yspryd gan y *dirfawr* ddychryn.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 66.

Darfu'r gweddïau *dirfawr*.—*D. ab Gwilym*, xxxiii. 21.

Ni welwn y byd mewn cyflwr o *ddirfawr* anwybodaeth.
Ieremi Owen, 93.

Dirfawr y'th ddyrchafwyd goruwch yr holl dduwiau.
Salm. xcvii. 9.

Dirfawredd, *sm.* vastness, hugeness, greatness, egregiousness, exorbitance.

Y mae Mr. Martin yn ein hyspysu, fod pawb ag sydd wedi edrych arno, wedi dadgan eu syndod yn yr olwg ar ei *ddirfawredd*.—*Dosparth Heulawg*, ii. 93.

Dirfedd, -au, *sm.* the inevitable grave.

Llawer o nifer anafu Gwynedd
O'i *ddirfedd* a ddarfu.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 449.

Dirfod, *v.* to be of necessity; to be, to exist.

Tohit gwanec tra gro
Tir Dylan *dirbo*.—*Taliesin:* A.B. ii. 157 (cf. M.A. i. 65).

Un yw a dyngwn ei nod,
Wych osgedd, wrth ei chysgod;
A'i hadnabod, *ddirfod* ddadl,
Hoew eneth, wrth ei hanadl.—*D. ab Gwilym*, ccxlviii. 17.

Dirfing, } *a.* [dir+min] hard, solid, dense,
Dirfin, } close, compact; austere, severe; keen, sharp.

Arfod air pair Paredur
Arf yn ing aer *dirfing* ddur.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 443.

Dirfing drwy'r afon derfyn
Yr el ac y dêl y dyn!
Dafydd ab Gwilym, xxxiii. 37 (cf. xcii. 62).

Sylwa yn *ddirfing*, a gwybydd, rhag cyfeiliorni beth yw y ddarymsawdd.
H. Perri: Egluryn Ffraeth. vi. 1 (cf. xxviii. 3).

Gwr *dirfin*, gwryd oerfel,
Ein gelyn ni yn gelain el.—*D. ab Gwilym*, celiv. 35.

Lle cyfing *dirfing* derfysg.—*Rhys Goch Eryri.*

Yn ddirfing, closely, densely, compactly; attentively; earnestly, emphatically; firmly.

Anghenrhaid oedd i mi ysgrifenu atoch i'ch annog i ymdrech *yn ddirfing* ym mhlaid y ffydd.
W. Salesbury: Iudas 3.

¶ *Durfing*, the more usual spelling, is probably due to an assumed derivation from *dur*, which does not appear to be the case. For *-in* becoming *-ing* compare *pring* for *prin*, common in the spoken language.

Dirfingder, } *sm.* hardness, solidity, close-
Dirfingdra, } ness, density, compactness;
Dirfingrwydd, } austerity, severity; sharpness, keenness.

Och awyr am wyr diwaradwydd
Och fawr a fwrir o *ddirfyngrwydd*
Och faith heb ychwaith o'i obeithrwydd.
Dafydd Benfras: M.A. i. 311.

Dirfodd, *sm.* thorough good-will or satisfaction.

Crist a elwir y Gair o achos mai ef ym mhob rhyw a eglurodd i'r eglwys *ddirfodd* Duw yn ein prynwriaeth.
H. Perri: Egluryn Ffraeth. iv.

Dirfryd, *sm.* ardent affection, ardour, devotion.

Ei *ddirfryd* mewn pethau crefyddol.—*Gwyliedydd*, iv. 7.

Dirfrydus, *a.* very earnest or zealous; animated, impassionate; ardent.

Mae yn hawsach dysgu hyny wrth edrych a dal selw ar wŷr doeth dysgedig, pwy un ai pregethwyr duwiawl, ai cyfreithwyr parabl-bur, yn ymddwyn eu hunain ar air, ac ymddygiad pob rhan o'u cyrff, pan fyddant naill ai yn pregethu gair Duw yn *ddirfrydus*, ynte yn llys y teyrn yn areithiaw ym mhlaid cyflawnder.
H. Perri: Egluryn Ffraeth. xlv. 2.

Dirgais, geisiau, *sm.* an extreme effort, a great attempt.

Dirgam, *sm.* a great wrong or injustice.

Y câr, bydd fodlon; ni wnaethym *ddirgam* â thi.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, x.

Dirganfod, *v.* to see or perceive clearly; to look steadfastly; to perceive.

Ac y gydag y *dirganfu*, brysiaw a wnai ac ym mlaen pawb ysgyflaid y bleth.—*Hanes Diwedd Arthur.* (*P.*)

Dirganu, *v.* [canu] to sing fervently.

Cret argel dirgel a *dirganaf*
Credet baub i Duu deur naf gogonet.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 227.

Dirgar, *a.* much or greatly loved; over-fond.

Dirgariad, *sm.* extreme love; excess of love or affection.

Dirgaru, *v.* to love greatly; to love to excess.

Dirgeisio, *v.* to make a great effort; to endeavour greatly.

Dirgeisiol, *a.* greatly exerting or endeavouring.

Dirgel, *a.* [dir+cel] secret; hidden, concealed; retired, secluded; inward; privy; private; mysterious; abstruse; latent.—*C.C.* i. 448.

Parattoi llyghes a wnaethant. a hynny yn *dirgel* ac yn distaw.—*Mabinogion*, 95 (cf. 65).

Y mae yno peth yn *dirgel* ny at yr gweith sefyll.
Yst. Bren. Bryt.: LI.C.H. ii. 143.

Digitized by Google

Dan y *dirgel* wyddeli,
Heb fod neb yn d' ateb di.
D. ab Gwilym, cxlv. 11 (cf. clix. 2; clxxiii. 23).

Herwriaeth yw cribdhail da aralh yn *dhirgel* o anuodh y perchennawc.—*Ymborth yr Enaid*, ¶ 6.

Y mae efe . . . yn dwyn peth *dirgel* allan i oleuni.
Iob xxviii. 11 (cf. iv. 12; xiii. 10; xiv. 13; xv. 11).

Lleoedd dirgel, *Dirgel leoedd*, } (*sg.* lle dirgel), (1) secret places.

Nys gwn. heb y mab. onnyt torri dy benn a chleddyf. ae guddyaw yn *lle dirgel*.—*Doethion Rhufain*, ¶ 15.

A lecha un mewn *dirgel leoedd*, fel nas gwelwyf fi ef?
Ier. xxiii. 24.

Megys llew ieuanc yn aros mewn *lleoedd dirgel*.
Salm. xvii. 12.

(2) privities, secrets.—1 *Sam.* v. 9.

Rhai dirgel, hidden ones.—*Salm.* lxxxiii. 3.

Yn ddirgel, secretly; in secret; privily.

Cadw yn ddirgel, to keep secret or private.

Dirgel bethau, *Pethau dirgel*, } secret things; secrets; mysteries.

Dirgel gynghor, privy council.

Bendithia anrhydeddus *Ddirgel Gynghor* ei mawrhydi â doethineb.—*Sam. Williams:* Amser (1784), Rhag. 31.

Harri, Arglwydd Esgob Llundain, ac un o Anrhydeddusaf *Ddirgel Gynghor* ei Fawrhydi.
Ios. Tomas: Buch. Grist., Cyfl.

Dirgel, -ion, -oedd, *sm.* 1. a secret; a mystery.

A phe bai genyf brophwydoliaeth, a gwybod o honof y *dirgelion* oll . . . heb genyf gariad, nid wyf fi ddim.
1 *Cor.* xiii. 2 (cf. iv. 5).

Yr ydym ni yn credu, ysgatfydd, *ddirgelion* ffydd Grist.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. ii. 7.

Deuai i'r goleu ei *dirgelion*.—*Gronwy Owain*, 120.

O blegid fod y fath bobl wrth weled lluniau yn dysgu bagad o *ddirgeloedd* o'n ffydd santaidd.
R. Smith: Eglurhâd, 151.

Fe gaiff y rhai dedwydd . . . wybod y *dirgeloedd* duwiol, y *dirgelion* o ragluniaeth, dull a gwneuthuriad y byd, holl gywreinrwydd natur, symmudiadau y ser, priodoleddau y planedau, a phob peth crëedig.
Gr. Wynn: Ystyriaethau, 148.

Rhaid yw credu *dirgelion* Duw.—*R. Smith:* Eglurhâd, 27.

Glanhaa fi o'm *dirgeloedd*.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 561.

Dirgelion teyrnas nefoedd, the mysteries of the kingdom of heaven.—*Matt.* xiii. 11.

Dirgeloedd teyrnas Dduw, the mysteries of the kingdom of God.—*Luc* viii. 10.

Dirgeloedd y galon, *Dirgelion y galon*, } the secrets of the heart.

Efe a wyr *ddirgeloedd y galon*.—*Salm.* xliv. 21.

Ac felly y gwneir *dirgelion ei galon* ef yn amlwg.
1 *Cor.* xiv. 25.

Yn y dirgel, in secret; secretly; privately; inwardly.—*Matt.* vi. 4, 6 (cf. Salm. li. 6; Rhuf. ii. 29).

Goreu ar gardawd ei rhoi *yn y dirgel*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 92.

2. a secret place; a hiding-place; a retreat.

3. (*pl.*) privities, secrets.—*Deut.* xxv. 11.

Dirgelaidd, *a.* of a secret nature; mysterious; mystical; dark.

Cynhyrfwyd ysprydoedd y rhai oeddynt yn gofidiaw yn *ddirgelaidd* dros gyflwr ein cenedl.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 197.

Er mwyn ein galluogi ni i gyfranogi, mewn rhyw fodd *dirgelaidd* ond gwirioneddol, o'i Gorff a'i Waed.
Athrawiaeth yr Eglwys, 193.

Yr oedd ganddynt hefyd eu llyfrau sanctaidd, y rhai a gynnwysent eu hathrawiaethau *dirgelaidd*.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 537.

Dirgelbriodawl, *a.* cryptogamian, cryptogamic.

Y genedl ddirgelbriodawl, the cryptogamian class (in the Linnæan sexual system of botany), cryptogamia.—*Hugh Davies:* Welsh Botanology, 96.

Yn y genedl olaf, sef y bedwaredd ar hugain, nid ellir dirnad yr aelodau hyny o'r blodeuyn mor amlwg ac eglur ag yn y tair ar hugain ereill, o herwydd eu bod mor fân ac eiddil, am hyny y genedl honno a elwir *Dirgelbriodawl*.
Hugh Davies: Llysieuaeth Gymreig, Rhag. 8.

Dirgeledig, *a.* hidden, concealed; secreted; private; secret; mysterious; inward.

Ef a arganuu Arsi yn ffo yn *dirgeledic*.
Yst. de Carolo Magno, col. 459 (cf. 458, 486).

A llechu yn *dirgeledic* a wnaethant heb wneuthur dim argwywed.—*Brut y Tywysogion*, 94 (cf. 106, 242).

Hitheu . . . ae duc y ystauell *dirgeledic*.
Doethion Rhufain, ¶ 4 (cf. 33).

Velhy y dethol Christ y etholedigion ai saint *dirgeledic* o blith yr holh genedloedh.—*Lucidar*, ¶ 77.

Twylh yw *dirgeledic* vawr dynget drwy wenyeithgar gyfeilhach y siomi aralh.—*Ymborth yr Enaid*, ¶ 6 (cf. 29).

Y gloew adail *dirgeledig*.—*L. G. Cothi*, III. xxvii. 89.

Hyd onid yw'r dyn yn drysorfa i'r *ddirgeledig* Drindod.
Elis Wynn: Rh.B.S. 25 (cf. 252).

Ffydd yn gweithio trwy gariad, yw yr arwyddion i adnabod gwir Israeliaid, ac Iuddewon *dirgeledig*.
Ed. Samuel: Grotius, vi. 11.

Dirgeledigion, hidden things; secrets; mysteries.

Coffa yn hyspys na throho dy vedwl ar neb ryw beth knawtawl . . . a hyt y gellych lutaf galw ar yr eneweu *dirgeledigyon* hyn.—*Cyssegrlan Fuchedd:* Ll.A. 100.

Menagaf *ddirgeledigion* o'r pan seiliwyd y byd.
W. Salesbury: Matt. xiii. 35.

Dirgeledigaeth, -au, *sf.* the state of being hidden, concealment; secrecy, secretness; a secret; a mystery.

Ny allei gallon medylyaw y *dirgeledigaetheu* a weleis i.
St. Greal, ¶ 64.

Dirgeledigaeth fawr yw hon, a gwaith ofer ini ddisgwyl ei deall yn hollawl.
Th. Williams: Ymadroddion Bucheddol, 136.

A chedernyt yr ynys a hwyreir yna y damllywychant *dirgeledigyaeth* y moroed.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 265.

Fy nyled i yw, eich cynghori chwi yn y cyfamser i ystyried ardderchawgrwydd y *Dirgeledigaeth* bendigedig hwnw.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Cymmun).

Dirgeledigaethau, secrets, secret things; mysteries.

Mi a dangossaf y chwitheu beth om *dirgeledigaetheu* inneu.—*St. Greal*, ¶ 68.

Yn yr yspryd y mae efe yn llefaru *dirgeledigaethau*.
1 *Cor.* xiv. 2.

Y *dirgeledigaethau* sydd eiddo yr Arglwydd ein Duw.
Deut. xxix. 29.

Y rhai sy mewn ofn a pharchedig arswyd ar y *dirgeledigaethau* hyn.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 257.

Yr oedd yr hen grefyddau paganaidd i gyd yn meddu eu *dirgeledigaethau*.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 537.

Dirgeledigaethau doethineb, the secrets of wisdom.—*Iob* xi. 6.

Dadguddio dirgeledigaethau, to reveal secrets.—*Dan.* ii. 28 (cf. 29, 47).

Dirgeledigaethau ffydd, the mysteries of faith.

Yr ydym ni yn byw mor segurllyd . . . ag nid ydym ni agos un amser yn myfyrio nac am gyfreithiau a gorchymmynion Duw, nac am *dirgeledigaethau* ein *ffydd*.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. ii. 6.

Dirgeledigaethau Duw, the mysteries of God.

Felly cyfrifed dyn nyni, megys gweinidogion i Grist, a goruchwylwyr ar *ddirgeledigaethau Duw*.—1 *Cor.* iv. 1.

Digitized by Google

Dirgeledigaethol, } *a.* relating to secrets or
Dirgeledigaethus, } mysteries; secret; mysterious; mystical.

A hwythau, dan ddylanwad y cyfarfyddiad *dirgeledigaethol* hwn, a lefarasant yn ddiarwybod am dano.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 58.

Y mae y rhai hyny a waharddant blant i gael eu bedyddio, hyny yw, eu dwyn i gyssylltiad â chorff *dirgeledigaethus* Crist, yn ymddwyn yn yr un yspryd â'r dysgyblion.
Dean Edwards: Esponiad, 357.

Dirgeledigaethu, *v.* to make a secret or mystery of; to mystify.

Dirgeledigol, *a.* tending to mystify or secrete.

Dirgeledigrwydd, *sm.* secrecy, secretness; privacy; mysteriousness.

Nyt er *dirgelediorwydd* y gwnaethbwyd, namyn y derfynu defawt gwlat ar angenreidiau cyhoeddawc hagen a feddo ar y lle ar amser.—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 628.

Ni ddyly bod gofynion o *ddirgeledigrwydd* Duw hyd pan droant i'r gred arnaf fi.—*Hanes Gwidw* (Brython, iii. 244).

Dirgeledd, -au, -ion, *sm.* privacy, secretness, secrecy; abstruseness; a secret; a mystery.

Mae'r *dirgeledd* hwn, O Arglwydd Hollalluog, yn uwch na'r holl ddyalledd dynol.—*Allwydd Paradwys,* 211.

O ba feddwl trwsgl, anaddas, ac annheilwng am *ddirgeledd* mor ddyrchafedig!—*Ioan Wallter:* Dwy Bregeth, 37.

Rhaid i chwithau wybod, mai dau *ddirgeledd* arbenig sydd yn ein ffydd.
R. Smith: Eglurhâd, 5 (cf. 9, 31, 32, 49, 82, 131, 247).

Pymtheg *dirgeledd* yr Arglwydd Iesu Grist, i'w myfyrio, ac i ddoedyd Llaswyr Fair.
M. Clynog: Athrawaeth Grist. 57 (cf. 63).

Dirgeleddion, mysteries.

Pa ham y mae'r rhai'n yn benaf *dirgeleddion* o'n ffydd ni?—*R. Smith:* Eglurhâd, 9 (cf. 4).

Yr ydys yn codi ac yn cynnal gwendid ein natur ddynol ni, i ystyried ac i ddeall *dirgeleddion* nefol tra goruchel. . . Nad oes neb o honoch chwi yn gallu bod yn bresennol ar y *dirgeleddion* bendigedig hyn ond yn rhy anfynych.
Allwydd Paradwys, 207 (cf. 85, 209, 212, 229, 339).

Dirgeleddus, *a.* mysterious; mystic, mystical.

Wrth feddwl am y pererindod hwnw, aed yntau i'r eglwys neu i'r capel i gael gweled cyflawni'r un peth yn *ddirgeleddus* trwy ddwylo yr offeiriad.
Allwydd Paradwys, 208 (cf. 152, 193, 194, 198).

Dirgelfa, -oedd, fëydd, } *sf.* a hiding-place, a
Dirgelfan, -au, } place of concealment; a private retreat; a retired place; a retreat; a privacy.

Achaws eu galw felly am ymgelfyddydu o honynt mewn gwŷdd a than goed, mewn lleoedd *dirgelfan* diarffordd, er llonyddwch a myfyriaw awenddysg a gwybodau o Dduw.
Barddas, i. 260.

Efe a wnaeth dywyllwch yn *ddirgelfa* iddo.
Salm. xviii. 11 (cf. xxvii. 5; xxxi. 20).

Os yw'r gweddïau y mae dynion yn gwneuthur o'r neilldu yn eu tai neu eu *dirgelfaoedd,* cyn gryfed ac mòr ffynadwy, mae'n llawer mwy grym ac effaith y rhai a wneler gan amryw ddynion gwedi ymgynnull yng nghŷd yn Nhŷ Dduw i'r perwyl hwnw.
Ed. Samuel: Gweddi Gyffredin, 66.

O herwydd nad wy'n gwybod y dylid addoli Duw yn ein teuluoedd, cystal ag yn ein *dirgelfaoedd.*
Ed. Samuel: Duwiol Ddyledswyddau, 3.

A ddaethost ti i eigion y môr, ac yn *nirgelfaoedd* y dyfnder a rodiaist ti!—*Dr. T. Briscoe:* Llyfr Iob, xxxviii. 16.

Dod imi 'nghyfran, fy Nuw da!
Mewn rhyw *ddirgelfa* lonydd.
Iolo Morganwg: Salm. ii. ccvi. 1.

Meibion dieithr a ballant, ac a ddychrynant allan o'u *dirgel-fanau.*—*Salm.* xviii. 45.

Dewis bethau Deio Maelienydd . . . *dirgelfan* garu.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 126.

Cysgod mein-gan mewn *dirgelfan.*
Huw Morus: E.C. ii. 189.

Dirgeli, *sm.* secretness, secrecy, privacy.

Dirgeliad, -au, *sm.* a making secret; a hiding or concealing; concealment.

Dirgelrwydd, *sm.* secrecy, secretness, privacy; covertness; a mystery.

A cheyr bronn y tabyl ef a welei wr a ffuryf offeiryat arnaw. ac ef a debygassei Lawnslot y vot ef ar *dirgelrwyd* y offeren.—*St. Greal,* i 64.

Dirgelu, *v.* 1. to secrete, hide, or conceal.

Anrhydedd Duw yw *dirgelu* peth: ond anrhydedd brenin yw chwilio peth allan.—*Diar.* xxv. 2.

2. to lie hid or concealed.

Y mae yno peth yn *dirgelu:* ny at yr gweith seuyll.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 260.

Dirgelus, *a.* mysterious; secret; mystic.

Er gwely priodasawl yn bell uwch
Ac o *ddirgelus* barch a syniaf yw.
W. O. Pughe: C.G. viii. 692.

Dirgelwaith, *sm.* secret work; hidden work; mysteriousness; underhandedness.

Gobeithiwn, gwyliwn *ddirgelwaith* o ras,
Gan yr Iesu 'n berffaith.—*Y Greal,* 259.

Pe bawn o wybodaeth, a dawn prophwydoliaeth,
Yn deall *dirgelwaith* naturiaeth Duw Tad.
Huw Morus: E.C. ii. 350.

Argelais dy *ddirgelwaith.*—*I. B. Hir:* Gwaith, 57.

Dirgelwch, *sm.* 1. (abstr.) secrecy, privacy; mystery.

Yn mhob *dirgelwch* Duw a fydd.
Englynion Eiry Mynydd: M.A. i. 550.

Y *dirgelwch* hwn sydd fawr.—*Eph.* v. 32 (cf. iii. 3, 4, 9).

Dirgelwch, Babilon fawr, mam puteiniaid a ffieidd-dra'r ddaiar.—*Dad.* xvii. 5 (cf. 7; i. 20; x. 7).

Dirgelwch y ffydd, the mystery of the faith.—1 *Tim.* iii. 9.

Bod heb wneuthur dirgelwch o beth, to make no secret of an affair.

2. (concr.) secrets; secret things or affairs; private matters.

Hyt nat oed nep oc eu kyvoedion a garey en kymeint ac wynt. nac a dywetei i *dirgelwch* en gynt noc udunt. noc a vei digrivach kytemdydan ac wynt.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii.

3. privities, secrets, secret parts.—*Meddygon Myddfai,* ii. 477.

Dirgelweithio, *v.* to work secretly or privately.

Ië, hyd yn oed y ddaiar, yr hon yw y creadur trymaf ac anystwythaf o'r lleill eu gyd, heb beidio er hyny un amser â'i gweithio, ond yn dwyn ei baich ar osteg yr haf, a *dirgelweithio* oddi fewn y gauaf, er mwyn ardymmeru a darparu ei chynnydd-faeth erbyn y gwanwyn nesaf.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 194.

Dirgipio, *v.* to snatch forcibly; to take away by force; to press or impress.

Dirglais, gleisiau, *sm.* a deep bruise or wound.

Trais Ierusalem gan Syladin
Ac ail *dirglais* drais draw a ddygen
I'm ddigawn galar om car cadcun.
Elidir Sais: M.A. i. 350.

Dirglwyf, -au, *sm.* agony; a deep wound.

Gwaew gwaedrwyf gwawr *dirglwyf* dorglwyd
Cynddelw: M.A. i. 233.

Dirglwyfo, *v.* to wound deeply; to agonize; to feel agony.

Dirglymiad, -au, *sm.* astriction.—*W.*

Dirglymol, *a.* astringent, astrictive, binding.

Dirglymoldeb, *sm.* astringency, astringingness.

Digitized by Google

Dirglymu, } *v.* to tie or bind tightly or
Dirgylymu, } straitly; to astringe.

Dirgnud, -oedd, *sm-f.* a press-gang.

Y cyfryw oedd gwres blyngedd ei alon yn ei erbyn, fel nis gorphwysasant nes magu rhyw ffug-esgus anwir; ac o'r diwedd, dyfeisiwyd moddion i'w gipio a'i draddodi i ddwylaw y *dirgnud*.—*Seren Gomer*, v. 97.

Y ddirgnud, the press-gang.—*W.*

Dirgoel, *sf.* firm or implicit belief.

Er mwyn cryfhau yn bybyr, a nerthogi yn rymusawl gyfaddas *ddirgoel*, a ffyrfiondeb.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xii.

Dirgryd, -iau, *sm.* a great shock or trembling.

Yr amgylchiadau cyffredinol yn dilyn y cyfryw *ddirgryd* ydynt yn ymddangos o fod fal y canlyn.
R. Roberts: Seryddiaeth, 61.

Dirgryniad, -au, *sm.* convulsion; a trembling.

Mal trowynt yn ei ddywalder a ddiwreiddia y coed . . . neu fal daiargryd gan ei *ddirgryniadau* yn llwyr a ddadymchwela ddinasoedd.—*W. O. Pughe:* E.D. ii. 3.

Dirgrynol, *a.* convulsive; trembling; shocking.

Chwyrn ddisgyniad y groes a roddai i bwy bynnag a hoelid arni ysgydwad *dirgrynawl* tra arswydus.
Gwyliedydd, v. 299.

Dirgrynu, *v.* [crynu] to tremble greatly; to agitate; to convulse; to be convulsed.

Drylliodd, *dirgrynodd* daiar gron—Wener,
Duodd ar hanner dydd yr hinon.
Gruffydd ab Ieuan ab Ll. Fychan.

Gwelodd ddyn yn gorwedd ar y ddaiar, ac yn cael ei *ddirgrynu* yn dost.—*Gwyliedydd*, v. 320.

Dirgwyn, -ion, *sm.* [cwyn] a sad complaint.

Trist yn gorug Crist kred nyd ymchwel
Trist *dirgwyn* ac nyd treis dirgel.
Llygad Gwr: M.A. i. 373.

Dirgwyniad, -au, *sm.* a sadly or greatly complaining.

Dirgwyno, *v.* to complain greatly or sadly.

Dirgwynol, *a.* sadly grieving or complaining.

Dirgyfeirio, *v.* to set firmly; to direct steadfastly or firmly.

Ef a *ddirgyfeiriodd* ei wyneb i fyn'd i Gaerusalem.
W. Salesbury: Luc ix. 51.

Dirgymhell, *v.* to press or urge greatly; to press; to enforce; to force.

Da y gwyddai yr esgob nad oedd wiw *dirgymhell* iddo yr hyn nid oedd ei gydwybod yn ei gymmeradwyo.
Gwyliedydd, iii. 65.

Y mae pob ymofeg neu feddylrith yn ddefnyddiol er *dirgymhell* neu addurno gwirionedd moesol neu grefyddol.
Rasselas, x.

Nid oes dim a wna y tro oni chaiff ei *ddirgymhell* . . . ar bawb o'i gymmydogion anfodus.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 82.

Dirgymmeryd, *v.* to take by force; to press or impress.

Dirgymmeryd un yn filwr neu'n forwr.
Walters, s.v. 'Impress.'

Diriad, -au, *sm.* [dirio] an urging, pressing, or impelling; impulse.

Diryad cad kedeirn ordduyau.—*Llygad Gwr:* M.A. i. 341.

Diriad, *a.*=*Diriaid.*

Cared chwaer *ddiriad*.—*Diareb.* (M.A. iii. 150.)

Diriadwy, *a.* that may be urged or pressed; compellable.

Diriaid, } *a.* [dir] mischievous, wicked, vicious,
Diried, } villainous, naughty; reprobate; ill-fated, unlucky, luckless. Often used substantivally.

A mynnu dyleu y *dyryeyt* kenedyl honno yn hollawl trwy creulawn aerva.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 109 (cf. 97).

Ny wnn yn yr holl vyt un dyn afiwydyannussach na *direidach* no thi.—*St. Greal*, § 30 (cf. 15, 174).

Nyt oed dim a allei uot yn *direitach* nor Kediuor hwnnw.
Brut y Tywysogion, 128.

Oed *diryeit* hagen y minneu treulaw gwerth seith ugeint punt o ireit gwerthuawr wrth dyn heb wybot pwy.
Mabinogion, 185.

O gwnaeth Golydan gyflauan *diryeit*
Bit ar y eneit yr enwired.
Taraw Kadwaladyr colofyn elyflu.
Phylip Brydydd: M.A. i. 378 (cf. 33, 86, 161, 310).

Gwr a yfai o'i llaeth, a elai'n iach o bob dolur, ac yn ddoeth lle buasai annoeth, ac o *ddiriaid* e elai'n ddedwydd.—*Iolo Mss.* 85 (cf. 235, 253, 261, 275).

A hwnw a elwir *Diriaid* tafawdrudd.
Leges Wallicae, III. i. 2.

Adwyth *diriaid* heb achos.
Englynion y Misoedd: M.A. i. 16.

Tri pheth gorddyfnaid pob *diriaid:* celwydd; twyll; ac anrhaith.—*Barddas*, i. 336.

Tri gwynfyd *diriaid:* ei ddio ri; ei ddichell; a'i anrhaith.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 262 (cf. 204, 205, 224).

A fo *diried* ar fôr, *diried* fydd ar dir.
Diareb. (M.A. iii. 146; cf. 102, 154.)

Dyrys fu Gymru gynt a *diriaid*,
Deuwaeth i gerddawr nog y dywaid.
L. G. Cothi, III. xxii. 17.

Ond *diriaid* fod llygaid llon
Yn dyllau terydr deillion!—*D. ab Gwilym*, ccxxvi. 13 (cf. clv. 33, 35; ccxv. 26, 50; ccxxxii. 78).

Doeth â *diriaid* nid ymgar.—*Iolo Mss.* 260 (cf. 261).

Nid rhaid dangos *diriaid* i gwn.
Diareb. (M.A. iii. 171; cf. 166.)

Am fod y cythraul yn ofni'r arwydd hwn, ac yn ffoi rhagddo; megys y gwnânt dynion *diriaid* wrth ganfod y crogbren.—*R. Smith:* Eglurhâd, 12.

A wasanaetha, ar ol byw naill ai yn *ddiried* ai yn ddiofal, ofyn maddeuant am fyw felly pan fo'n llawn amser cadw noswyl!—*Th. Williams:* Ymadroddion Bucheddol, 311.

Gwae'r ieuanc *diried* dilas.
Englynion Eiry Mynydd: M.A. i. 546.

Tri chryf i Selyf y sydd,
Iê, *diriaid* bedwerydd.—*Gronwy Owain*, 105.

Llamu, braegamu, brwysg wedd,
Yn *ddiried* gan gynddareddd.—*I. B. Hir:* Gwaith, 64.

Diriant, *sm.* pressure; a constraining force or impulse; urgency; distress, hardship; vexation.

Yna ydd atebwys hen farch synwyrgall ef, yr hwn a welassai lawer o drafferthion a throfeddau byd, ac a welassai lawer iewydyn penchwiban yn dioddef *diriant* alcur achos ei ynfydrwydd.—*Iolo Mss.* 175.

Diried, *v.* [dir] to necessitate; to impel, press, or urge.

Diried, *a.*=*Diriaid.*

Diriedi, *sm.*=*Direidi, Dirieidi.*

Trech llafur na *diriedi*.—*Iolo Mss.* 260.

Diriedig, *pt.a.* [dirio] pressed, impelled, urged.

Pa os yr haul yw craidd y byd, a ser
Arallion trwy ei dynedigawl rin
Ac eiddynt yn *ddiriedig*?—*W. O. Pughe:* C.G. viii. 141.

Diriedydd, *sm.*=*Direidiwr.*

Wrth y *diriedydd* twyll
Yn ei uniondeb yr atebai hyn.
W. O. Pughe: C.G. iii. 758.

Diriedyn, *sm.* [dim.]=*Direidiwr, Dirieidwr.*

Mor anwadal a gormesiyd oedd y *diriedyn* coronog hwn, ac mor hynod y goruwch-drefnodd Duw hyd yn oed nwydau drwg y tywysog i ddwyn i ben ei amcanion trugarog.
Gwyliedydd, ii. 34.

Dirieidi, *sm.* mischievousness, wickedness, viciousness. See *Direidi.*

Ac o achaws vym pechodeu am *diryeidi* y colleis i gallu vyng corff am clybot am dywedut.—*St. Greal*, § 64 (cf. 71).

Tri gorddwfn *dirieidi:* brad; murn; a lledrad.
Barddas, i. 336 (cf. 300, 332).

Digitized by Google

Dirieidio, *v.*=*Direidio.*

Dirieidiol, *a.* tending to be mischievous; obnoxious, hurtful.

Dirieidus, *a.*=*Direidus.*

Dirieidwr, wyr, *sm.*=*Direidiwr.*

Yr haf nesaf gwedi hyny y cyfodes Owain ar ei chwëugeinfed o *ddirieidwyr* a lladron.—*L. Morganwg.* (*P.*)

Na wnelont gynhen . . . ac ymganlyn â lladron, a *dirieidwyr*, ac ereill annosparthus ar gamp ac ymddwyn.
Y Greal, 52.

Dirif, **Dirifedi**, *a.* without number, numberless, innumerable, countless.

Na gwŷr *dirif* a rifir
Ar y gwaith ni ŵyr y gwir.—*Iolo Mss.* 288.

Dolydd a choedydd i chwi,
Daiar fyd—*dirifedi.*—*Huw Morus:* E.C. ii. 5.

Heb law y ffonodiau *dirifedi* hyny a raid iddynt ddisgwyl oddi wrth Dduw.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 333.

Gwedi ei chyssegru gan athrylith ein beirdd, ac wedi gorcesi sigliad oesoedd *dirif*, a dinystr ieithoedd ereill, ei nerth ei hun a'i ceidw rhag diddymiad.—*Cylchgrawn*, i. 235.

Nid casgliad o ranau diddym *dirifedi* fel hyn yw hollbresennoldeb.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Duw. 153 (cf. 150).

Dirin, *a.* [rhin]=*Dirinwedd.*

Pob afiechyd, clefyd, clyw,
Dirin wyd, dy ran ydyw.—*Edward Morus.*

Dirinwedd, *a.* without virtue, virtueless; degenerate; profligate.

Y mae ein natur yn rhedeg at ddrwg gyd â thueddiad cryf iawn; ac y mae hi nid yn unig yn *ddirinwedd*, ond yn ei chasâu.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 32.

Dirinwedd yw had Ronwen,
A ffals, megys y sarff hen.—*I. B. Hir:* Gwaith, 45.

Darn o ddyn *dirinwedd* wyf.—*Dewi Wyn*, 243.

Dirio, *v.* [dir] to necessitate; to press, impress, urge, or impel; to force, to compel; to molest.

Kany daw ef y ymwelet oe uod ac ef. ac nat hawd y *diriaw* ynteu yn yr agwed y mae.—*Mabinogion*, 285.

Ni mynnws e brenhin i *dirryaw* namyn govyn idaw pa ffunyt y dechymygey ef datkan y gweith ar wedrawt yno.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 276.

Mi a *ddiriwn* am ddwy-rodd.—*Dafydd ab Mer. ab Tudur.*

Diriai Ffraingc mewn derw a phridd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 450 (cf. 343, 396, 402, 450, 490).

A fo gwâr a gâr, ni ad guriaw gwan;
Ond rhoddi arian nid trwy *ddiriaw.*
L. G. Cothi, III. ix. 23 (cf. II. i. 106).

Er *diriaw* cân ar ne'r wylan.—*Iolo Mss.* 233.

Tri gofynion Duw oddi ar law dyn . . . *diriaw* trugaredd ar bob peth parth ag at y byw o bob rhyw a rhith.
Barddas, i. 324.

Gwrandëwch arnaf, gan hyny, yn fy enw fy hun, ac yn enw gweinidogion ereill, yn *dirio* y mater hyn arnoch.
Ier. Owen, 89 (cf. 55, 69, 88, 98, 105, 119).

Chwi a welwch gymmaint yr oedd eich brawd yn fy *nirio* i gymmeryd y gorchwyl hwn yn llaw.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 234.

Duw! *diria'th* fawredd ar fy nghof,
Myn ynof le trigiannydd.
Iolo Morganwg: Salm. I. cxvi. 4 (cf. ccii. 1).

Diriog, *a.* necessitated; pressed, urged.

Diriol, *a.* necessitating; urgent, pressing.

Dirisg, **Dirisgl**, *a.* [rhisg, rhisgl] without bark or peel, barkless; decorticate.

Dirisgad, **Dirisglad**, **Dirisgiad**, -au, *sm.* a stripping off the bark, peel, or husk; decortication, barking.

Dirisgo, **Dirisglo**, *v.* to peel or strip off the bark from; to decorticate; to bark; to peel or come off.

Arall yw: gwneythur bara o heid. a chnewillon gwedy *dirisgler.* a bwyta hwnnw.—*Meddygon Myddfai*, i. 111.

Ni osodid dim arnynt ond coed a gyfrifid yn neillduol o bur, ac wedi eu *dirisglo.*—*Cylchgrawn*, ii. 10.

Dirith, *a.* without guise or pretence; real; genuine.

Yr wyf yn credu yn ddiysgog, ac yn proffesu yn ddiffuant, y gwirionedd pwysig ac ansigladwy hwn, sef, i uniganedig Fab Duw . . . ddioddef yn *ddirith* a gwirioneddol er iachawdwriaeth dynolryw.—*Gwyliedydd*, vii. 167.

Diriwr, wyr, **Dirior**, -ion, *sm.* [dir+gwr] one who presses, urges, or impresses; an enforcer.

Dirlais, leisiau, *sm.* [dir+llais] exclamation, ecphonesis; emphasis.

Dirlais yw ffugr a adnebyddir wrth yr arorair llafarus, neu'r tafiodiad: can ys dull ar ymadrodd yw, pan fo'r areithiwr megys yn dolefu yn uchel, o ran rhyw gynhwrf yn y meddwl, a'r nwydau.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xxxii. 1.

Dirleisiad, -au, *sm.* an exclaiming or emphasizing; exclamation.

Dirleisio, *v.* to exclaim; to emphasize.

Dirleisiol, *a.* exclamatory; emphatic; forcibly expressive.

Dirlon, *a.* very cheerful, pleased, or contented.

Dirloni, *v.* to make very cheerful or pleased; to cheer.

Dirloniad, -au, *sm.* a making cheerful.

Dirmycâd, *sm.* a deriding; derision.

Darsylwi o Satan ddull eu hwyl,
Galwai fal hyn ei blaid o *ddirmycâd.*
W. O. Pughe: C.G. vi. 668.

Dirmycäu, *v.*=*Dirmygu.*

Dirmyg, **Dirmig**, -ion, *sm.* [dir+mig] contempt, slight, disparagement, disdain; contumely; reproach; derision, mockery.

Ffrawd wallaw anaw anewig
I fynu i fyned am *dirmyg.*—*Cynddelw:* M.A. i. 208.

Gruffydd Gryg *ddirmyg* ddarmerth,
Grugiar y gerdd somgar serth.—*D. ab Gwilym*, cxxv. 1.

Tri pheth y caiff dyn annedwydd: *dirmyg;* afiwyddiant; a phoen meddwl.—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 85.

Ni ad yr Arglwydd byth yn ddiddïal, *ddirmig* ar ei efengyl a'i weinidogaeth. . . Felly hefyd y cospa Duw yn dost bob traha, camwedd, a *dirmig* a wneler ar ei gennadon ffyddlon.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 145 (cf. 133, 135, 138, 141, 146).

Gwarthrudd dynion, a *dirmyg* y bobl.
Salm. xxii. 6 (cf. cxix. 22; cxxiii. 3).

Dyna *ddirmyg* anesgorol ar fawredd mor ardderchog.
Dr. Davies: Llyfr y Res. I. vii. 6 (cf. vi. 3).

Nid yw galw un yn ynfyd ond math dymmerus ar waradwyddo, wrth y lliaws hyny o *ddirmygion* chwerwon yr ydym ni yn eu harferu yn ein cynddeiriogrwydd.
Langford: Holl Ddyl. Dyn, 283 (cf. 25).

Dirmyg Crist, the reproach of Christ.—*Heb.* xi. 26.

Gan farnu yn fwy golud *dirmig Crist* na thrysor yr Aiphtwyr.—*Esgob Morgan:* Heb. xi. 26.

Dirmygedig, *pt.a.* contemned, slighted, despised; despicable.

Dirmygedig yw, a diystyraf o'r gwŷr.
Esa. liii. 3 (cf. xlix. 7).

Drygioni a wna ddynion yn wael ac yn *ddirmygedig.*
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 222.

Dirmygiad, -au, *sm.* a contemning; a despising; degradation.

Ni ddigalonwyd mo'nynt trwy'r *dirmygiadau* a'r dychryniedigaethau hyn.
Ed. Samuel: Buch. yr Apostolion, 43 (cf. 80, 180).

Digitized by Google

Dirmygol, *a.* contemning, despising, slighting, contemptuous; degrading; despised.

Pa fodd y gallwn ddarostwng ein hunain ddigon er dy fwyn di yr hwn oeddit fodlon i bob cyflwr *dirmygawl*!
Lewis Anwyl: Nefawl Ganllaw, 23.

Dirmygu, *v.* to contemn, despise, slight, disparage, disregard, or disrespect; to degrade; to cast off.

Hwnnw a *dirmygawd* kynghoreu y henafgwyr.
Brut y Saesson: LI.C.H. ii. 389.

Cyrreifeint a gaiff a gaffaho Duw ac nis *dirmycco*.
Elaeth: M.A. i. 162 (A.B. ii. 36).

Dim nys gwnaeth Desider yr llythyr y brenhin. nac yr y rodyon. namyn y ysgaelussaw ae *dirmygu* yn gymeint a cheissyaw llad y kennadeu a doethent ar llythyr attaw.
Amlyn ac Amig, col. 1110.

Llwyr *ddirmygid* mefi mawrair.—*M.A.* i. 175.

Efe biau gapanau y brenin or bydd crwyn wrthynt, a'i yspardunau or byddant euraid, neu ariannaid, neu efyddaid, pan *ddirmycer*.—*Leges Wallicae*, I. xvii. 8.

Na *ddirmyg* wr bychan a ofyn dy gynghor.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 9.

Cas a *ddirmygo* Duw a dyn.—*Diareb.*

Diau mai gwell, y gell gu,
Ymogel na'th *ddirmygu*.—*Gronwy Owain*, 55.

Dirmygus, *a.* contemptuous, despising, slighting; despicable, contemptible; despised.

Megais hon, *ddirmygus* swydd,
Do'n aml o oed deunaw-mlwydd.
Dafydd ab Gwilym, lxxvii. 31.

Yr hwn y mae y drygionus yn *ddirmygus* yn ei olwg.
Salm. xv. 4 (cf. cxix. 141; 2 Sam. i. 21; vi. 22).

Dirmygwch, *sm.* contempt, disparagement, insolence, contemptuousness.

Nid ydym ni yn bwrw ymaith iau'r ufudd-dod oddi arnom, nac yn cyffroi teyrnasoedd, nac yn gwneuthur, nac yn dadwneuthur breninoedd; nac yn newidio llywodraethau; nac yn rhoi gwenwyn i'n breninoedd i'w yfed; nac yn estyn ein traed iddynt i'w cusanu; na thrwy anfeidrol *ddirmygwch* yn gosod ein traed ar eu gyddfau hwynt.
Morus Cyffin: Diff. iv. 16.

Dirmygwr, wyr, } *sm.* a contemner, despiser,
Dirmygydd, -ion, } slighter, or disparager.

Fy anrhydeddwyr a anrhydeddaf fi, a'm *dirmygwyr* a ddirmygir.—1 *Sam.* ii. 30 (cf. Ier. xxiii. 17; Act. xiii. 41).

Dirnad, *v.* [dir+nod, nodi] to comprehend, discern, understand, or perceive; to explain, to expound, to interpret.

Tri nod angheneddyl gwirionedd, ac wrthynt ei adnabod: gwell na dim arall a ellir ei *ddirnad* a'i ddeall at yr un achos; haws na dim a ellir ei ddeall a'i *ddirnad* at yr un diben; a harddach na dim a ellir ei ddeall a'i fodoli er yr un lle, ac achos, ac amser.
Barddas, i. 340 (cf. M.A. iii. 208).

Ni fedrent *ddirnad* y dychymmyg mewn tri diwrnod.
Barn. xiv. 14.

Nis gallwn ni yn hawdd *ddirnad* pa ryw ogoniant a gollodd hi trwy y cwymp.—*Ieremi Owen*, 46.

Lle mae nefol orfoledd,
Na *ddirnad* ond mad a'i medd.—*Gro. Owain*, 97 (cf. 169).

Nid yw bywyd yn ddedwyddwch, ond fel yr ydym trwyddo yn teimlo ac yn *dirnad* yr holl bethau hyny ag sydd hyfryd a boddlongar i ni.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 26 (cf. 18, 65, 82).

Dirnad, -au, *sm.* discernment, comprehension, perception; explication, interpretation.

Mor yawn yw om dawn ac om *dirnad*.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 361 (cf. 324, 513).

Rhyfedd yw *dirnadau*'r môr a'i sôn,
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 563.

A phan glybu Gedeon adroddiad y breuddwyd, a'i *ddirnad*, efe a addolodd.—*Barn.* vii. 15.

Dirnadadwy, *a.* comprehensible, discernible; explicable; that may be conceived or supposed.

Pe buasai Gair y Goruchaf yn *ddirnadadwy* o hono ei hun.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 66.

Dirnadaeth, -au, *sf.* discernment, comprehension, apprehension; explication, exposition, interpretation.

Dirnadaeth hydred llong ar y môr.—*Gwyliedydd*, vi. 64.

Nid yw yn gofyn *dirnadaeth* gref i ganfod yr ânt yn fuan i dybied eu bod yn gwybod y cwbl.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 22.

Rhesymol yw i ni ddisgwyl cyfarfod ynddi â dirgelion dyfnach . . . pethau ag sydd ym mhellach fyth uwch law ein *dirnadaeth* ni.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 6.

Dirnadiad, -au, *sm.* a comprehending, comprehension; exposition.

Dirnadol, *a.* discerning, comprehending, perceptive, apprehensive.

Mae tebygolrwydd nid bychan y gallai fod yn yr Ysgrythyrau amryw beth ag ydynt uwch law cyrhaeddiad ein dealltwriaeth ni, gan fod pechod a phechadurusrwydd wedi cymylu a thywyllu'n meddwl a'n galluoedd *dirnadol*.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 1.

Dirnadu, *v.*=*Dirnad.*

Pa beth sydd a fyno dyfodiad y Cymry i Ynys Prydain â Seylon ar bwys cyfandir mawr yr India, sydd yn anhawdd ei *ddirnadu*.—*Brython*, iii. 138.

Dirnadwy, *a.* [contr. of *dirnadadwy*]=*Dirnadadwy.*

Er nad oedd hyny yn *ddirnadwy* iddo ef ei hun nac i ereill.—*Ch. Edwards:* Hanes y Ffydd, 164 (cf. 238).

Meddyliais y byddai rhai o'm brodyr yn ddiolchgar imi am symmud y testun hwn heibio, gan felly roddi achlysur i chwithau dynu y llen a dwyn i'r golwg destun arall a fyddai fwy *dirnadwy* iddynt.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 110.

Dirnaid, neidiau, *sf.* [naid] a great leap or bound.

Rotesew *dirneid* kin dirnaud.—*Llyfr Du:* A.B. ii. 15.

Dirni, *sm.* [dir] necessity, urgency, pressure; behoof.

Dirnod, *v.* [dir+nod, nodi]=*Dirnad*, *Dirnadu*. In Gwent 'the same as *dirnad* in North Wales.'—*Iolo Glossary*. *Dirnad* is the usual literary form, and is by no means limited to North Wales.

Dirnwyf, -au, *sm.* [dir+nwyf] excess of vivacity, liveliness, or wantonness.

Mawr o was bras oedd y brawd
O *ddirnwyf* aml ei ddyrnawd.
Iolo Goch, i'r Brawd Llwyd.

Dirnwyfo, *v.* to become very brisk, vigorous, or lively; to make wanton.

Dirnwyfol, } *a.* very vigorous or lively; very
Dirnwyfus, } wanton.

Dirnych, *a.* greatly languishing or pining; very enfeebling.

Clefyd arnaf, clwyf *dirnych*,
Ymroi wnaf, a marw o nych.—*Dewi Wyn*, 245.

Dirodres, *a.* [rhodres] without ostentation, show, or pomp; unostentatious, unassuming.

Dirodres yn ei glod a'i lwyddiant.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 45.

Yr oedd ein croesawiad mor *ddirodres* ac mor ddiddwyll ag yr oedd yn Asheetha.—*Brutus:* Ninefeh, 130 (cf. 26).

Dyma lyfr bychan *dirodres*.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 35.

Dirodresgar, *a.* indisposed to be ostentatious; unassuming, unostentatious; simple.

Dirodresrwydd, *sm.* unostentatiousness.

Dirodd, *a.* without gifts or donations.

Lle *dirodd* dirwydd gwrthnysig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 519.

Diroddef, *v.* to suffer or bear greatly.

Digitized by Google

Dirofyn, *v.* to entreat, to implore; to conjure.

Dy *ddirofyn* ydd wyf gar bron Duw . . . cadw o honot y gorchymmyn hwn.—*Esgob Davies:* 1 Tim. vi. 13.

Dirôl, *a.* contr. of *Direol*, q.v. Cf. *afrôl* for *afreol*.

Er bod fy muchedd yn *ddi-rôl*,
'R wy'n edifeiriol, gweli.—*Galarnad Pechadur.*

A'r defaid, gyda'r ŵyn *dirôl*,
Yn lloni dôl a llwyndir.—*Cylchgrawn*, ii. 31.

Dirollwng, *v.* to let go or fall abruptly; to bring forth.

Pechod, pan orphener, a *ddirollwng* [*esgor ar] farfolaeth.
Esgob Davies: Iago i. 15.

Dironi, *v.* [grawn] to shed the grain.

Yd yn dironi, corn shedding the grain.

Droniad, -au, *sm.* a shedding of grain.

Dirparaeth, *s.*=*Darparaeth* or *Darpariaeth*?

Mab Duw yr mab dyn *dirparaeth*
Pan gymmerth maur ur maruolaeth.
Cynddelw: M.A. i. 250.

Dirper, } *v.* [dir+par, peri?] to deserve, to
Dirperu, } merit; to render obligatory; to be incumbent; to behove, to befit, to become.

Kert kywlaunder kadeir *dirper* cadir wober yv.
Llyfr Du: A.B. 7.

A phwy bynnac a vynno ennill clot o arueu ac o ymwan. ac o ymlad. ef ae keiff yno os *dirper*.—*Mabinogion*, 23).

A vawl neb dragon namwyn dreic ae *dirper*.
Cynddelw: M.A. i. 223 (cf. 43, 113, 219, 228, 252).

Tri pheth ni ddiffyg fyth eu cael: peth golud o ddiwyd-rwydd mawr; peth anrhydedd lle a'i *dirperer* yn fawr; a pheth gwybodaeth lle a'i ceisier yn fawr.
Trioedd Doeth.: M.A. iii. 210 (cf. 57, 90, 161, 219, 227).

Gwiw yw clod hynod a honno tauawd
Yr aerllew parawd ae *dirpero*.
Llygad Gwr: M.A. i. 343 (cf. 258, 475).

Druc vyd or diued *dirper* y gamued.
Elidir Sais: M.A. i. 351 (cf. 275).

Aeron glân, *dirperan'* glod.—*D. ab Gwilym.* (*D.*)

Dirper cler darparu clod,
Dirper sant dair persondod.—*Guto'r Glyn.*

Nis dylai neb ran yn y fraint anghyfran a gaffo gan wr, neu y gan wlad a chenedl . . . o ddyled ym mraint a'i *dirper*.
Barddas, ii. 90 (cf. 326).

Can ys *dirper* [*rhaid] iddynt wy fod yn ddarestyngedig.
W. Salesbury: 1 Cor. xiv. 34.

Ar y moroedd, ar y mynydd,
Yn ein teiau, ar y meusydd,
Y *dirperai* in' weddîo
Ym mha fan y bôm ni ynddo.
Rhys Prichard: C. y C. xlv. 20 (cf. 17).

Da, coeliaf, ydyw Calan,
A gwyl a *ddirperai* gân.—*Gro. Owain*, 39 (cf. 112).

Fal y dirper, as it is befitting or becoming; as it behoves.

Byddaf fyw fal gwr boneddig, *fal y dirper* i'm gwaedoledd, a fal y boneddicaf.—*Iolo Mss.* 174 (cf. 37, 172).

Dirperadwy, *pt.a.* that may deserve or merit.

Dirperiad, -au, *sm.* a meriting or deserving.

Dirperol, *a.* tending to merit; behoving.

Dirperu, *v.*=*Dirper*.

Dirpridu, *v.*=*Dirperu*?

A'r Gogledd diredd a dorid, yn graff
Fo ei dyrau praff, ef a'u *dirprid*.—*L. G. Cothi*, 11. x. 55.

Dirprwy, -on, *sm.* [dir+'prwy,' 'that tends forward.'—*P. Prwy* is not known to occur as a separate word, but *dirprwy*, and other derivatives, seem to postulate some such form] a supply; a substitute, a representative; a commissioner.

Crist a ddaw yn war yn wrawl dyddbrawd
Ir *dirprwy* presennawl
A fo da ef gelwir dwywawl
A fo drwg a drig yn ddidawl.
Elidir Sais: M.A. i. 349 (cf. 348).

Ai ni luniaist fi dy *ddirprwy* yma?
W. O. Pughe: C.G. viii. 444.

Os rhoddir *dirprwyon* helaeth i'r ceidwad, neu ei weision, caiff y troseddwr . . . ei lettya yn yr ystafell oreu.
Gwyliedydd, iv. 243.

Dirprwyad, -au, *sm.* a supplying or substituting, substitution; commission; delegation.

Dirprwyadur, -iaid, -on, *sm.* a delegate or commissioner.

Adroddiadau *Dirprwyaduron* Ymholiad i Gyflwr Addysgiad yng Nghymru, a bennodwyd gan Gyfeistedd y Cynghor ar Addygiad.—*Tegid* (enw).

Dirprwyaeth, -au, *sf.* and *cl.* substitution; commission; deputation; representation.

Diben yr ebyrth dros gamwedd dan yr hen oruchwyliaeth, oedd, nid i wneuthur iawn yn weithredol am bechod, eithr i ddysgu yr Iuddewon, ac ereill trwyddynt, fod *dirprwyaeth* mewn pethau moesol yn ddichonadwy.
Sam. Bowen: Athrawiaeth yr Iawn, 18.

Yna Henri a orchymmynodd ffurfio *dirprwyaeth* i'r diben i chwilio allan ei achau.
Carnhuanawc: Hanes Cymru, 782.

Yr oedd yn flaenorol i hyn wedi anfon dirprwywr i ymholi i gyflwr y pentrefi; a *dirprwyaeth* o'r pentrefi a ddychwelasant gyda â hwn, i ddeisyf am ostyngiad yn y trethi.—*Brutus:* Ninefeh, 193.

Dirprwyedigol, *a.* vicarious, substitutional.

Dirprwynion, *s.pl.* logarithms.

Cynnwysa amryw daflenau newydd, a thaflen o *ddirprwynion* hyd yn 10,000.
J. W. Thomas: Elfenau Rhifyddiaeth (enw).

Dirprwyo, *v.* to supply another's place; to do a thing instead of another; to discharge or perform another person's office or duty; to delegate; to substitute; to depute; to represent; to oversee; to commission.

Kan goreu an Duu an *dirprwy*.—*Cynddelw:* M.A. i. 252.

Tra gellais newidiais wawd,
Dirprwyaw dy wr priawd.—*Dafydd ab Gwilym*, lxxiv. 9.

Ef a fagodd a'i *dirprwyodd*.—*Diareb.*

Rhy bell yw ym' *ddirprwyaw*
Llatai drud i'w lletty draw.—*D. ab Gwilym*, li. 5.

Udd gwrawl, haeddai gariad,
Por dewr, a *ddirprwy* ei dad.—*Gronwy Owain*, 36.

Etifedd (da fo'r tyfiad),
Por dewr i *ddirprwyo* 'i dad.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 70.

Dirprwyasant wyniad iddo ymddangos yn llys Archesgob Caergaint.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 219 (cf. 18, 59, 104, 267).

Dirprwyog, *a.* vicariate; delegated.

Dirprwyol, *a.* substitutional, delegating; vicarious; deputed.

Ac felly anfonodd [Henri] lythyr *dirprwyol* at Abad Llanegwestl.—*Carnhuanawc:* Hanes Cymru, 782.

Aberth dirprwyol, a vicarious sacrifice.

Cosp ddirprwyol, a vicarious punishment.

Dirprwywr, wyr, *sm.* one who acts for or in the place of another; a commissioner, a commisary, a deputy, a delegate; a substitute.

Bu i'r esgob gymmeradwyo y gwaith i *ddirprwywyr* Argraffwasg Clarendon yn Rhydychain.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 444.

Efe a alwodd ysgrifenydd y gymdeithas i ddarllen cyfarchiad y *dirprwywyr* i'r gynnulleidfa.
Cawrdaf: Meudwy Cymreig, 82.

Disgwylir pan y cyferfydd y *dirprwywyr* nesaf y gellir eu hychwanegu etc.
Blackwell: Ceinion Alun, 270 (cf. 269).

Yr oeddym yn gweled ac yn teimlo fod y *dirprwywyr* wedi gwneyd cam dirfawr â ni fel cenedl.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 406 (cf. 410).

Digitized by Google

Dirus, *a.* [rhus] unhesitating; undaunted; pitiless; bold, daring.

Kroewles vedrus kreulif *dirus*
Ket eur gostus kat argystwy.—*Rhiserdyn:* M.A. i. 436.

Nid felly bydd y drwg *dirus*,
Ond fel yr us ar gorwynt.—*Edm. Prys:* Salm. i. 4.

Duw a wnaeth ar draeth *dirus*
Dyn a phob peth daionus.—*Sion Tudur.*

Hwy yspeilient fel lladron, arwyddion *di rus.*
Huw Morus: E.C. i. 211 (cf. 273, 321).

Dirusedig, } *pt.a.* without starting or start-
Dirusiedig, } ling; without scruple.

A thitheu a ellit eu harferu oll yn ddirągor ac yn *ddirusiedig* ac yn ddiberygl o'u bod yn fagl i ti.
Elis Wynn: Rh.B.S. 59.

Dirusiad, } *a.* free from startling; unhesi-
Dirusiant, } tating; undaunted.

Rydaer ar aessawr ri *dirussyat.*—*Rhiserdyn:* M.A. i. 435.

Cymmyrth Duw i'w byrth berthedd gogoniant
Cymro *dirusiant* Cymry droedd.
Llywelyn Goch: M.A. i. 521.

Diruse, } *v.* to cease starting back; not to
Dirusio, } startle or hesitate.—*P.*

Diruso, *a.* without startling; unhesitating.

Er hyn yn *ddiruso*, i ymgydio â drwg eto.
Huw Morus: E.C. i. 213.

Dirusol, *a.* unhesitating; bold, daring.

Awstriaid nerthol, wŷr *dirusol*, a'r da Rwssiaid.
Ioan ab Hywel: Blodau Dyfed, 145.

Diruthr, *a.* without attacking or assaulting.

Diruthr darf mur durarf mawr diredd.
Dafydd y Coed: M.A. i. 497.

Dirwaedlyd, *a.* very bloody, extremely sanguinary.

Dodi cad ar faes a wnaethant, a myned yn ei erbyn a wnaeth Lywelyn, a bu brwydr yn Abergwili, lle gwedi lladdfa drom a *dirwaedlyd* o bob tu y lladdwyd Rhun.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 504.

Dirwaedd, -au, *sf.* a loud cry, a shout, an outcry.

Dirwaen, } *sm.* [gwân, gwanu] a violent cleav-
Dirwan, } ing open.—*P.*

Dirwaeniad, } -au, *sm.* a dissevering, a cleav-
Dirwaniad, } ing asunder.

Dirwaenol, } *a.* violently cleaving or dissever-
Dirwanol, } ing.

Dirwaenu, } *v.* to sever or cleave; to dissever
Dirwanu, } with violence; to separate, to dispart.

Rym *dirwaen* Duw rym dirwy
Rym dirwnaeth rann hiraeth rwy.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 370.

Dirwall, *sm.* great want or need; a dire necessity.

Amdrist wyf gorphwyf ym gorphen
Ymdro call cyn *dirwall* derwen.—*Casnodyn:* M.A. i. 425.

Dirwan, *a.* [gwan] extremely weak, very feeble.

Dirwanc, -au, *sf.* excessive voracity; ravenous appetite; extreme greediness.

A Sisera orwyllt a'i wŷr am drafiyncu
Holl waed Israeliaid i *ddirwanc* rhyfelu.
I. G. Aled: Palestina, 69.

Dirwander, } -au, *sm.* great debility or weak-
Dirwendid, } ness.

Dirwanhâd, *sm.* a weakening extremely.

Dirwanhaol, *a.* tending greatly to weaken.

Dirwanhau, *v.* to weaken greatly.

Dirwarth, *sm.* [gwarth] a cover, a surface.—*P.*

Dirwarthu, *v.* to cover over; to hide.

A Sioned Domas yno,
Wrth ei fedd a'i *dirwarthai* fo.—*Lewys Mon.*

Dirwasg, *sf.* great or high pressure; constriction; pressure.

Dirwasgiad, -au, *sm.* great compression or constriction; depression.

Dirwasgiad amaethyddol, agricultural depression.

Y moddion goreu i leddfu y *dirwasgiad amaethyddol* presennol.—*Llan,* Chwef. 15, 1895.

Dirwasgol, *a.* very constrictive or pressing.

Dirwasgu, *v.* to press greatly or extremely; to compress tightly; to press; to depress.

Yr hwn . . . a *ddirwasgodd* y pethau hyny yn haerllug yn ei erbyn ef i'r gymmanfa.—*W. Lewes:* Dwy Daith, 112.

Gwel onis gelli daro i maes beth goleu oddi fewn, trwy *ddirwasgu* yn dyn y cyfryw gwestiynau a'r rhai'n.
Ioslah Rees: Hunan-adnabyddiaeth, 122.

Dirwd, *a.* without rust or corrosion.

Dirwely, -au, *sm.* [gwely] a hard bed; the unavoidable grave.

Dwyn eurwas difas defawd diweccry
I dy *dirwely* daear waelawd.—*Sefnyn:* M.A. i. 504.

Dirwen, -au, *sf.* [gwên] a broad smile; a laugh.

Dirwenol, *a.* smiling; laughing.

Dirwenu, *v.* to smile; to laugh.

Ny byddwyf yn *dirwen* na molwyf Urien.
Taliesin: M.A. i. 52.

Dirwest, -au, *sm.* [' *di-rywest* an *di-erwest?*'—Zeuss, *G.C.* 894] 1. abstinence; fasting; fast.

Gwedy y newyn ac sychet. ac anwyt. ac lauuryei. ac *dyrwest.* ac gardodeu . . . y kymerth yr engylyon y eneit.
Buchedd Dewi: Ll.A. 118.

Ar brenhin ar gynnulleittua honno a trigassant yno trwy yr holl Arawys y wediay Duw trwy *dyrwest* perffeith.
Cyfreithiau Cymru, i. 338.

Dirfawr fu o feddwl ympryd
Dirwest Duw bu deugain pryd.
Elidir Sais: M.A. i. 348 (cf. 178, 182).

Cyntaf yw. y ymgyweiriaw or ebystyl o wedhiau a *dyrwest* erbyn y dhyuot ef.—*Lucidar,* 141.

Cedwaint o neb coel duwioldeb,
Dirwest, unpryd, gweddi, penyd,
Elusenau, a chardodau;
Ac yn eu mysg cynnal addysg.—*Iolo Mss.* 144.

Ac fel yr oedd efe yn ymresymu am gyfiawnder, a *dirwest* [ἐγκρατείας], a'r farn a fydd, Ffelics a ddychrynodd.—*Act.* xxiv. 25 (cf. Gal. v. 22; 2 Pedr i. 6).

Ac wedi bod hir *ddirwest* [ἀσιτίας], yna y safodd Paul yn eu canol hwy.—*Act.* xxvii. 21.

Dyro i ni ras i ymarfer â chyfryw *ddirwest.*
Ll. G. Gyffredin (1 Sul o'r Garawys).

Ar y testun hwn y dywedir fod rhyw ddyn yn gwneuthur penyd mawr, am ei fod yn poeni'r corff, trwy ymprydio, *dirwest,* a gweithredoedd ereill geirwon, anesmwyth, ac adgas i'r corff.—*R. Smith:* Eglurhâd, 256 (cf. 264).

Dirwest a chred a gweddi a orfydd bob caledi.
Diareb. (M.A. iii. 154; cf. 80, 92, 207.)

Yr hwn a ymadawodd trwy loddest ac afradlonrwydd, dychweled trwy *ddirwest,* ympryd, ac arbedrwydd.
Ioan Wallter: Dwy Bregeth (1772), 12.

Dirwest odyn, sef pan fydder yn hir heb fwyd.
Dr. Davies, s.v.

2. total abstinence from intoxicating liquors: a recent and narrowed use of the word.

Y mae gormod o gyfeillion *dirwest* yn myned yn lled eithafol mewn llawer pwnc, ac y mae y gwleidyddwr *dirwestol* yn hynod Phariseaidd.—*Haul,* 2 C.C. x. 278.

Digitized by Google

Dirwesta, *v.*=*Dirwestu.*

Pan ydoedd yn Rhen hyd tros y ddwyen
Yn nwvr Iorddonen yn *dirwesta.*
Awdl Fraith: M.A. i. 93.

Dirwestaeth, *sf.* 1. abstinence (viewed as a creed or a system).

2. teetotalism; total abstinence.

Dirwestäu, *v.*=*Dirwestu.*

Yll deu a *dyrwestauassant* y geissaw gan Duw fynhonneu o dwfyr croew.—*Buchedd Dewi:* C.B.SS. 108.

Dirwestfa, fäu, *sf.* fasting; abstention; fast.

Pedwaredd oes oes Moesen o Egyptica . . .
A gafas gan Geli voddi Pharona
A gavas dengair deddv yn y *dirwestva.*
Taliesin: M.A. i. 96.

Dirwestiad, -au, *sm.* a fasting or abstaining; abstention; a practising of abstinence.

Dirwestol, *a.* abstinent, abstaining; fasting; temperate; unintoxicating.

Yn eu argoeledig wasanaethu Duw, ac yn eu *dirwestawl* fuchedd.—*Huw Lewys:* Perl, 32.

Diodydd dirwestol, unintoxicating drinks.

Dirwestrwydd, *sm.* abstinence; temperance.

Dirwestty, tai, *sm.* a temperance house.

Yn y man cefais hyd i *ddirwestty.* . . Diolch am *ddirwestty.*—*Athraw*, 1844, 114.

Dirwestu, *v.* to abstain from food, to fast, to practise abstinence; to afflict one's self with fasting.

Yna Dewi ae disgyblon a *dyrwestassant* y nos honno hyt trannoeth.—*Buchedd Dewi:* Llyfr Ancr, 109.

Rhac ofn diliw diarchar
Adar daiar *dirwestant.*—*Llywelyn Fardd:* M.A. i. 363.

Bum yn *dirwestu* bawa dyn a fu.
Iustus Llwyd: M.A. i. 557.

Llu yn *dirwestu* drostaw.—*Guto'r Glyn.*

Dirwestwr, wyr, } *sm.* 1. an abstainer or faster;
Dirwestydd, -ion, } one who fasts.

2. a total abstainer (from intoxicating drinks); a teetotaler.

Y mae mwy o *ddirwestwyr* Eglwysig, a chymmeryd i mewn Gymru a Lloegr, nag o *ddirwestwyr* Ymneilldiol.
Haul, 2 C.C. x. 278.

Dirwgnach, *a.* without grumbling, murmuring, or complaining, unmurmuring.

Cadog, ac yntau'n wr glew yng nghyfnod oedran gwroldeb, a aeth i gyfarfod â'r arlwydd, ac a archodd iddo ei aur a'i arian yn *ddirwgnach* ddiymgis.—*Iolo Mss.* 172.

A ched *ddirwgnach* ydoedd,
Parod, heb ddannod oedd.—*Gronwy Owain*, 50.

Dod dy elusen yn rhwydd ac yn *ddirwgnach.*
R. Vaughan: Ymarfer Duw. 246.

Dirwneuthur, } *v.* to do the utmost; to strive
Dirwneyd, } or exert greatly.

Rym *dirwnaeth* rann hiraeth rwy.
Rleddyn Fardd: M.A. i. 370.

Dirwy, -on, -au, *sf.* [dir] a fine, penalty, mulct, or amercement.

Trayan *dirwy* a ueneler ys e kyntet o kefyr *dyruy* amdanau ef ay dele. O deruuyd y dyn gueneuthur kam kuc e kentet ay dale ohonau ef neu o un or teylu en fo trayan y *dyruy* a dele e penteulu.
C.C. i. 12 (cf. 20, 24, 34, 36, 50, 94, 200, 636).

Y brenhin bieu eu *dirwyon.*—*C.C.* i. 550 (cf. 434).

Teir *dirwy* brenhin ynt: *dirwy* ymlad kyuadef; a *dirwy* treis gwialen aryant megys y dywetpwyt yn dechreu; a *dirwy* achos llef neu waet.—*C.C.* ii. 778.

Dirwy caeth o'r lledrad cyntaf a wnel, chweugaint yw; o'r ail, punt.—*Leges Wallicae*, III. iii. 90.

Y *diruy* hay camcul yndi didi yn hollaul.
Llyfr Teilo, 120.

A dod, feinir, ym' *ddirwy*,
Paid â'r cwyn, ddyn mwyn, mwy!
Dafydd ab Gwilym, lxxxviii. 23.

Kyman dewred kamawn *dirwy.*
Rhiserdyn: M.A. i. 436 (cf. 252, 301, 440, 485).

Gwae raglaw ai ruglon *ddirwyau.*
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 517.

Gwneler barn yn ebrwydd arno ef, pa un bynnag ai i farwolaeth, ai i'w ddeol, ai i *ddirwy* o dda, ai i garchar.
Ezra vii. 26.

Tair ceiniog *ddirwy* y sydd: *dirwy* ledrad, a *dirwy* treis, a *dirwy* ymladd.—*Leges Wallicae*, III. i. 17.

Ein tadau ni . . . a dalasant *ddirwyon*, ac a ddioddefasant garcharau, er mwyn crefydd.—*Ier. Owen*, 40.

Gwneuthur dirwy (=gwneuthur cam), to commit an offence or crime liable to be punished with a *dirwy* or fine.

Efe a ddyly draian *dirwy* a wneler is y cyntedd. O derfydd i ddyn wneuthur cam uwch y cyntedd, a'i ddala o honaw, neu o un o'i deulu, yn ffo, traian ei *ddirwy* a ddyly y penteulu.—*Leges Wallicae*, I. xii. 10 (*C.C.* i. 16).

¶ In the Laws, 'a *dirwy*, fine, in general, was twelve kine or three pounds, which was the amount exacted from those who were amenable to the law without the palace; but for offences within the king's palace this fine was doubled.'
Cyfreithiau Cymru, i. 13 (note).

Sef yw mesur y *ddirwy*, deuddeg muw neu dair punt.
Leges Wallicae, III. i. 17.

Dirwyad, -au, *sm.* the imposition of a fine or penalty, amercement, amerciament.

Yr Ulema, neu gymdeithas y cyfreithwyr yn Twrci, ydynt rydd oddi wrth *ddirwyad* o'u da.—*Gwyliedydd*, iv. 360.

Dirwyadwy, *a.* finable, amerciable.

Dirwydo, *v.* [rhwyd] to free from a net or snare; to extricate; to disentangle.

Dirwydd, *a.* [rhwydd] not free or easy; illiberal.

Lle dire *dirwydd* adreisig
Lle dirodd *dirwydd* gwrthnysig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 519.

Dirwyedig, *a.* fined, mulcted.

A'r Iarll a afaelodd ar y rhanau o'i diroedd a oeddynt yn ei gymmydogaeth, megys yn *ddirwyedig* i'r brenin.
Carnhuanawc: H.C. 771.

Dirwyedigaeth, -au, *sf.* the infliction of a fine or penalty, amercement.

Dirwyllt, *a.* [gwyllt] very wild or furious.

Cawn *ddirwyllt* fab Cynddaredd,
Hyd ein gwlad, yn dwyn ei gledd.
Iolo Morganwg: Salmau, ii. 221.

Dirwym, *a.* not bound, unbound; loose; without restriction or engagement.

Hwdiwch yr holl ddrygau a all heigio o galon egored, ac o dafod diattal, ac o yspryd *dirwyn.*
Elis Wynn: Rh.B.S. 63.

Dirwymedi, *a.* without remedy, irremediable.

Y mae yn berygl *dirwymedi*, pan ymroddo dyn mor gwbl i annuwioldeb, a bod iddo ollwng yn anghof y bydd rhaid iddo roi cyfrif i Dduw am hyny.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. v. 18.

Dirwymedd, *sm.* disengagement.

Dirwymiad, -au, *sm.* a disengaging.

Dirwymo, *v.* to unbind; to loosen; to disengage.

Dirwymol, *a.* tending to unbind or loosen; loosening, relaxing.

Dirwyn, *sm.* [gwŷn] 'excess of vital impulse or affection;' strong passion.

Handwyf *dirwyn* urwyn oe vraw golled
Yn amwyn Eluael pan wnaeth elued.
Cynddelw: M.A. i. 220 (cf. 227, 499).

Dirwyn, *a.* strongly or deeply affected.

Gwynder huan gwindai rhydd
Gwen addwynaf gwyd *ddirwynaf.*
Iorwerth ab y Cyrriog: M.A. i. 505 (cf. 230, 425).

Dirwyn, *v.* [rhwyn (*A.B.* ii. 135; *M.A.* i. 36, 420: Br. *rven*): Br. *dieren*] to wind; to wind up; to wind round; to twist round; to twist or twine.

Muchudd deurudd, a'i *dirwyn*,
Main eu tro ym mon y trwyn.
Dafydd ab Gwilym, viii. 23 (cf. cli. 17).

Digitized by Google

Saethau o'i dyrau sydd yn *dirwyn*
Cylch ei dref, mor gref a thref y Grwyn.
L. G. Cothi, III. iii. 37.

O foddion oll ganfyddant, fo gweddaidd,
Yn lladronaidd i'r unlle *dirwynant*.—*Daniel Ddu*, 105.

Wyf hen wr, gwae fi yr hawg,
Yn *dirwyn* oes flinderawg.—*Thomas Hywel Sion*.

Ni *ddirwyn* dy benyd maith enbyd mo'th oes.
Huw Morus: E.C. ii. 52 (cf. 23, 210).

Un i yru un arall,
A'r naill yn *dirwyn* y llall.—*Dewi Wyn*, 55 (cf. 200).

Dirwyn mae terfyn ein taith.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 355.

Y farn ofnadwy arnynt ddaeth,
Mae'u hafiaeth gwedi *dirwyn*.—*Cylchgrawn*, ii. 31.

Dirwyn i fyny, to wind up.

Dirwyna i fyny ei ddygasedd yn erbyn y Cymry, trwy ddywedyd y bydd iddo eu dodi dan ddedryd ysgymmundod.—*Carnhuanawc*: Hanes Cymru, 723.

Dy amser sydd bron â chael ei *ddirwyn i fyny*.
Gwyliedydd, vi. 11.

Dirwyn i ben, to wind up; to draw to an end.

Dirwyn oriawr, to wind up a watch.

Dirwyn pellen, to wind into a ball.

Trwy bwyll y mae *dirwyn y bellen*.
Diareb. (M.A. iii. 189.)

Dirwyn yn bellenau, to wind into balls or bottoms.

Dirwyn edafedd, to wind yarn.—*S.*

Dirwyn twysg, to wind (yarn or thread) into a ball; to wind up or finish one's course.

Mawrion byd yn llawn cynddaredd,
Ym mhob gwŷn i'r eitha'n frwysg;
Doeth a genfydd y gwirionedd,
Drwg yn *dirwyn* pen ei *dwysg*.
Iolo Morganwg: Salmau, I. xviii. 2.

Tra bo'r uchelwyr yn eu rhwysg
Yn *dirwyn twysg* ynfydion,
Ymarfer o bob drwg yn syth
Heb weled byth eu digon.—*Ystên Sioned*, 6.

Pan ddarffo crafu'r feipen fwyn,
Ei dasg fydd *dirwyn twysg*.
Ifan Thomas Rhys: Dilliau'r Awen, 62.

Dirwyn y dwysg.—*Dirwyn* y bellen.—*Diarebion*.

Estyll dirwyn, } a winding reel, winding
Car dirwyn, } blades.

Corsen ddirwyn, } a quill or reed (used by
Pin dirwyn, } weavers).

Dirwyn, -ion, *sm.* a winding, a winding up.

Dirwynai, eion, *sc.* that which winds, a windlass.—*W.*

Dirwyniad, -au, *sm.* a winding; a winding up; a winding or twisting round; revolution.

Be, bath o aur, ba beth yw!
Ai oriadur aur ydyw?
Oriadur a mesur mân,
Dirwyniad oriau anian.—*Dewi Wyn*, 202.

Pwy, gyda gwell teimladau na'r amaethydd, fedr ganu . . . am *ddirwyniad* y tymmorau!
Samuel Roberts: Amaethyddiaeth, 22.

Dirwyniadur, -on, -iau, *sm.* that which winds, a windlass.

Mae ganddo fath o *ddirwyniadur* o dan ei geg, ym mha un y mae dau dwll, o ba rai y mae ef yn bwrw allan ddau ddyferyn o'r sudd neu'r nodd, gyda pha un y llenwir ei goden.—*Trysorfa Gwybodaeth* (1807), 29.

Dirwyniedydd, -ion, *sm.* a winder, a twister; that which winds.

Dirwynlath, } -au, *sf-m.* a windlass; a cap-
Dirwynllath, } stan.

Codwyd y rhanau o'r gadwyn, oedd i ymgylymu yng nghyd yn awr at eu gilydd; a phan trwy nerth y *dirwynlath* bob ochr y derchafodd y gadwyn goruwch gwyneb y dwfr cododd banllef goroian oddi wrth gannoedd o bobl a ymgynnullasent ar yr achlysur.—*Cylchgrawn*, ii. 145.

Dirwynol, *a.* winding; twisting; revolving.

Dirwynwr, wyr, *sm.* one who winds, a winder.

Dirwynydd, -ion, *sm.* he who or that which winds; a winder.

I'r un egwyddor â'r olwyn ac echel y perthyn y rhwyniadur, y sidlath, cambillion, ac amryfal *ddirwynyddion* ereill a ddefnyddir i lwytho llongau mewn porthladdoedd.
Elfenau Gallofyddiaeth, xvii.

Dirwyo, *v.* to fine, amerce, or mulct—*M.A.* i. 456.

Eil yw gallu *dirwyaw* dyn neu y werthu trwy wybydyeit ac ny ellir trwy tyston o gyfreith.
Cyfreithiau Cymru, i. 460.

Addaf y Rhingyll a gafodd ei *ddirwyo* mewn saith swllt ac wyth ceiniog.—*Carnhuanawc*: H.C. 714 (cf. 713).

Am dŵr ieuanc y'm *dirwywyd*;
Am dëyrnwalch ef a'm darniwyd.—*L. G. Gothi*, IV. iii. 33.

Hwy a'i *dirwyant* ef mewn can sicl o arian.
Deut. xxii. 19.

Dirwyog, *a.* subject to a fine or penalty; fined, mulcted.

Os guerth byt *dyruyauc* ar newyt ual kynt.
Cyfreithiau Cymru, i. 78.

O deruyd y tridyn neu y bedwar brathu o vn y gilyd, gweith neu dwy neu deir; *dirwyawc* vydant yr aglwyd a vo yn eu kedymdeithas.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 84.

Tri pheth ni ddyly taeawg ei werthu heb ganiad ei arglwydd: amws; a mêl; a moch; ac os gwerth, bid *ddirwyawg*, a'r newid fal cynt; ac onis pryn ei arglwydd, gwerthed ef y ffordd y myno.—*Leges Wallicæ*, IV. 238.

Dirwyol, } *a.* relating to a fine; liable to a
Dirwyus, } fine, finable; penal; fined, mulcted.

Holl affeitheu gweithret o affeitheu galanas neu losc neu letrat *dirwyus* vyd pob vn o honunt.
Cyfreithiau Cymru, i. 416 (cf. 424, 434, 462).

Gwin y *dirwyol* a yfant yn nhŷ eu duw.—*Amos* ii. 8.

Rhyfel dygn ar gam pam ym poenir
Ar ol *dirwyol* ym dirwyir.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 456 (cf. xi. 45).

Dirwysg, } *a.* 1. without swerving, unswerv-
Dirwysgus, } ing; not restive.

Teithi march tom neu cassec tom yw dwyn pwn a llusgaw karr yn allt ac yg gwaeret a hynny yn *dirwysgwys* [al. *dirwysc*].—*Cyfreithiau Cymru*, i. 706.

2. without sway, pomp, or grandeur; unostentatious.

Dirwysg eilwaith, da yw'r ysgolion
I filfil, goreu hil gwŷr haelion.
Pedr Fardd: Mêl Awen, 33.

Dirwystr, } *a.* [rhwystr] without obstruction,
Dirwystrus, } impediment, or hinderance; unobstructed; void of restraint; unfettered; free; plain.

Gwae fy nhynged, ebe hi, na bawn hedydd ac nid gwadd; cawn esgyn ehangder *dirwystr* yr wybren, lle ni chawn a'm lluddiai ar fy uhaith.—*Iolo Mss.* 154.

Mi . . . a ddewisais y geiriau hawsaf, rhwyddaf, a sathredicaf ag a allwn, i wneuthur ffordd yr ymadrodd yn rhydd ac yn *ddirwystrus* i'r sawl ni wyddant ond y Gymraeg arferedig.—*M. Cyffin*: Diffyniad, Rhag. 5.

Na fydd hyderus ar ffordd *ddirwystr*.—*Eccl.* xxxii. 21.

Lle y gallont wledda yn *ddirwystr* ar ffrwyth eu hanrheithiad.—*Gwyliedydd*, ix. 336.

Cydwybod ddirwystr, a conscience void of offence.—*Act.* xxiv. 16.

Cydwybod lân ddirwystr, a good or clear conscience.—*W.*

Dirwystrad, } *sm.* non-interruption, unre-
Dirwystriad, } straint.

Dirwystrau, *a.* free from obstacles, obstructions, or impediments.

Tri pheth a wnânt lwybrau doethineb yn *ddirwystrau*.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 215.

Digitized by Google

Dirwystro, *v.* to cease stopping; not to restrain.

Dirwystrol, *a.* not obstructing or hindering; unrestraining.

Dirwyth, *a.* without murmuring or grumbling.

Gwnewch bob dim yn ddifurmur [°ddirwgnach, *ddirwyth*, ddiymwgach].—*W. Salesbury:* Phil. ii. 21.

Dirwyus, *a.*=*Dirwyol.*

Dirwywr, wyr, } *sm.* [dirwy] one who im-
Dirwyydd, -ion, } poses a fine or mulct.

Dirybudd, *a.* [rhybudd] without notice or warning; unaware; sudden, subitaneous.—*M.A.* iii. 235.

Minneu a ryuedeis heb hi gallu o honaw ef vynet yn *dirybud* y mi.—*Mabinogion*, 247 (cf. 261).

Kanys *dirybud* y gellit hynny.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 84.

Ac uelly y buant beunoeth yny doeth kennat Amic yn *dirubud* nossweith attunt yr ystauell.
Amlyn ac Amig, col. 1099.

Ac val ydoedynt yn mynet heb law y kastell a elwit Sparatintus. eu kyrchu yn *dirybud* a oruc Brutus udunt.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 44 (cf. 46, 70, 90).

A heb ohir anuon a oruc wyr da y warchadw y uab rac y uynet odyno yn *dirybud* y un lle.
Brut y Tywysogion, 220 (cf. 242).

Daethom arnat (fel y bydd yntau) yn *ddirybudd.*
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 51.

Pa gymmaint y mae'n perthyn i ni feddwl am danynt ym mlaen llaw, a rhagfwrw am y fath barotoad tu ag atynt, ag na chaffom ein dal yn *ddirybudd* pa bryd bynnag y dygwyddont!—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 305.

Diryd, *a.* [rhyd] without a ford.

Ni allen' d'aros mewn llanau [*al.* llynau] *diryd.*
Sion Dafydd Nanmor.

Dirydiad, *sm.* [dirwd] a clearing of rust.

Dirydni, *sm.* clearness from rust.

Dirydo, } *v.* to clear from rust; to brighten;
Dirydu, } to clear.

Dirydu tir, to clear land.

Diryddhâd, *a.* without release or liberation; unreprieved.

I ebychu yno gan drabythawl och,
Diorphwys, didosturi, *diryddhâd.*
W. O. Pughe: C.G. ii. 188.

Diryfedd, } *a.* [rhyfedd] not marvellous,
Diryfeddod, } wonderful, or strange; not remarkable; simple; unconcerned, unaffected, cool.

Arglwyd heb hi *diryued* oed hynny.—*Mabinogion*, 54.

Y Lywsypher hyny yn *ddiryfedd* a sydd yn arddel bod ganto allu . . . i roi gogoniant, enrhydedd, a chyfoeth i'r rhai a fyno ef.—*Marchog Crwydrad*, i. 9.

Neud cywala haint hynt *diryfedd.*
G. Ddu Arfon: M.A. i. 408 (cf. 439, 506).

Diryfedd, drwy lechwedd draw,
Fod Eiddig heb fedw iddaw.
D. ab Gwilym, xciv. 35 (cf. lxxxv. 13; ccxiii. 8).

Nawradd nef yn dref, *diryfedd* yw hyn.
L. G. Cothi, i. xxv. 43.

Dysg dyrrwyf addysg *diryfeddawd.*
Sefnyn: M.A. i. 504.

Yr awr hon yr wyf yn deall mai *diryfedd* eich bod yn dibrisio pregethu.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 354 (cf. 404).

Diryfeddrwydd, *sm.* the quality of not being wonderful or strange; coolness, nonchalance.

I falchedd y perthyn y drygeddau hyn; nid amgen, *diryfeddrwydd*, bocsach, llid, annioddefiaeth, ofer ogoniant, trachwant, a'r fath hyny.—*Marchog Crwydrad*, i. 10.

Diryfel, *a.* without war; free from war.

Yn ei amser ef [Llywelyn ab Seisyllt] y bu gwlad Gymru dros ddeuddeg mlynedd yn *ddiryfel.*
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 503.

Diryfyg, *a.* without presumption, pride, or arrogance; unpresuming.

Diryfig yw beirdd a diryfedd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 439.

Pawb y sydd, cyn deunydd dail,
Ddiryfyg dan ddu'r efail.—*Rhys Goch Eryri.*

Anewyllysgar, gan hyny, oeddynt i goelio athrawiaeth yr efangyl, yr hon a hyfforddiai ddynion i ostyngeiddrwydd *diryfyg*, ac i roddi eu cwbl hyder yng nghyflawnder Crist.—*Ed. Samuel:* Buch. yr Apostolion, 87 (cf. 192).

Dirym, *a.* [grym] void of power, strength, force, or effect; powerless, strengthless; weak, feeble, impotent.—*Esa.* xvi. 14; xl. 29.

Af i Wynedd, aml wledd ym',
Ar dy dor, wr du *dirym.*
Dafydd ab Gwilym, cxxv. 39 (cf. lviii. 16; cxx. 11).

Diolchwn Yon ytt dy rodyon
Y ni veibon. vaboet *dirym.*
Cyssegrlan Fuchedd: Llyfr Ancr, 95.

Bwrw dy fod yn wan, yn *ddirym*, ac yn wr clwyfus o gorff.—*Huw Lewys:* Perl, 16 (cf. 173).

Gwneuthur yn ddirym, to make powerless; to make of no effect; to make void.

Gwnaethoch orchymmyn Duw *yn ddirym* trwy eich traddodiad eich hun.—*Matt.* xv. 6 (cf. Rhuf. iv. 14).

Dirymedig, *a.* made of no effect; enfeebled; abolished, abrogated.

Fel dylluan wan y wig,
A'r meudy *dirymedig.*—*Gwaith G. Mechain*, ii. 498.

Dirymgwyn, *v.* to make a grave or serious complaint; to plead firmly.

Gwelwch yma gyweirio'r gair o fiaenllaw, er mwyn egluro yn ddilysiach, ac er dangos yn brysurach, ac â llawn awydd, ai cyflwr rhinweddol i amddiffyn un, ynte cyflwr wydus, i *ddirymgwyn* yn erbyn y cyfryw.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xxxiii.

Dirymiad, -au, *sm.* deprivation of power or strength; abrogation, abolishing, abolition.

Yn ddiau y mae *dirymiad* i'r gorchymmyn sydd yn myned o'r blaen, o herwydd ei lesgedd a'i afles.—*Heb.* vii. 18.

Dirymiant, *a.* powerless, strengthless; weak, feeble.

Duw Nef a ✠yr, dyn wyf fi
Dirymiant; Duw'n d✠r imi!—*Gronwy Owain*, 58.

Dirymiol, } *a.* tending to weaken; tending to
Dirymol, } divest of power, force, or effect; tending to abrogate, abolish, or annul; abrogative.

Dirymu, } *v.* to render invalid; to make void;
Dirymio, } to deprive of force or power; to abrogate, abolish, or annul.

Breint penadyryaeth yr abad a *diryma* y breint hwynt.
Cyfreithiau Cymru, ii. 404.

Tri phendod trefn gwaith Duw er peri pob peth: *dirymu* 'r drwg; nerthu'r da; ac amlygu pob gwahaniaeth.
Barddas, i. 170.

Pan oedd ef yn ewyllysgar yn dioddef . . . fal y gallai ef yn ollawl *ddirymio* holl nerth ein pechodau ni.
Huw Lewys: Perl, 28.

Gan ichwi *ddirymio* gair Duw can eich athrawaeth eich hunain.—*W. Salesbury:* Marc vii. 13.

Gan *ddirymiaw* a dinerthu, cyn cael o'r casddyn . . . amser neu hamdden i fwrw hyny yn ei ddysgl.
H. Perri: Egluryn Ffraeth. xlii.

Efe . . . a *ddirymodd* trwy ei gnawd ei hun y gelyniaeth.—*Eph.* ii. 14, 15 (cf. Gal. iii. 15).

Ffugio a *dirymu* dy holl weithredoedd edifeirwch o'r blaen.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 241.

Digitized by Google

Nad yw y rhwymedigaeth ddiweddaf yma yn *dirymu* y gyntaf.—*Ed. Samuel:* Athrawiaeth yr Eglwys, 86.

Ni allwyd erioed eto ac nis gellir ei droi yn ol na'i *ddirymu*.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 118.

Dirymwth, *a.* [gwth] very pressing; very urgent; pressing or pushing itself.

Gorwilioch rhag arferu'r droell hon heb achos *dirymwth;* neu gellwair mewn anamser.—*H. Perri:* Egl. Ffr. vii.

Diryniad, -au, *sm.* a winding, a winding up; a weaving.

E gân arall i'r afallen,
Neu *ddiryniad* i wen ddraenen.
Edward Dafydd: Cyfrinach y Beirdd, 145.

Dirynol, *a.* winding; twisting, twining.

Dirynu (ŷ), *v.* [dirwyn]=*Dirwyn.*

O *diryna* Duw'r einioes,
Awr ond un i wr nid oes.
Tudur Aled (Flores. Poet. Brit. 25).

Nyni a welwn, pan oedd amser dyn wedi ei *ddirynu* cyhyd yn y cynfyd gynt, fod ei ddrygioni ef hefyd mor anoddefus, fel yr edifarhaodd ar Dduw o herwydd iddo greu dyn.—*Th. Williams:* Ymadr. Buch. 144 (cf. 55, 133).

Dirynwr, wyr, *sm.* a winder, a winder up.

Pob cudyn o wlan y ddafad a droir yn foddion cynnaliaeth . . . i'r nyddwyr, *dirynwyr,* cenglwyr, ystofwyr.
Gwyliedydd, v. 340.

Diryw, *a.* [rhyw] degenerate; debased.

Yn y dyddiau diryw hyn, in these degenerate days.

Dirywiad, -au, *sm.* degeneration; deterioration.

Y ddirywiaeth hon a ffurflodd baganiaeth gyntaf, ac o oes i oes yr oedd y *dirywiad* yn cynnyddu, a'r duwiau yn amlhau. . . . Y *dirywiad* diweddaf o grefydd yr oes gyntaf oedd addoli'r anifeiliaid, a phethau dienaid.
Cylchgrawn Cymraeg (1793), 17.

Pa ham y gadawodd yr Arglwydd i'w Eglwys . . . fyned i'r fath *ddirywiadau* mawrion?—*Dysgedydd,* iv. 360.

Y mae'r bai am y *dirywiad* wrth ddrws dau ddosparth o bobl.—*O. M. Edwards:* Tro yn Llydaw, 90.

Dirywiaeth, -au, *sf.* degeneracy; debasement.

Tri pheth a gadwant yr enw o Gymro rhag *dirywiaeth:* cynnal o Gymro hawl ac anrhydedd ei genedl; byw arno ei hunan; a byw fal y dylai parth ag at Dduw a dyn.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 252.

Sylwodd hefyd, y gellid priodoli yr esgeulusdod hwn . . . i daerineb taiogion o'u hamgylch, yn hytrach nag i *ddirywiaeth* calon.—*Gwyliedydd,* vi. 272.

Cyhoeddwyr cyntaf yr efengyl a ragwelsant ei *dirywiaeth.*—*Cylchgrawn Cymraeg* (1793), 18 (cf. 16, 17).

Ei grefydd a droes ar *ddirywiaeth.*
Eben Fardd: Gweith. 343.

Dirywiedig, *pt.a.* degenerated; debased.

Yn yr oes *ddirywiedig* honno, nid oedd caniadau cyffredin y wlad yn gynnwysedig braidd o ddim heb law carolau sychion diffrwyth, a rhigymau masweddol.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 498.

Prawf o feddwl *dirywiedig* yw ofn.
Nicander: Dysga Farw, 64.

Dirywio, *v.* to degenerate; to deteriorate; to become debased.

Haws direwi rhew na *dirywio* rhyw.—*Diareb.*

Kanys neur daroed udunt *dirywyaw* hyt na elwit wynt Brytanyeit namyn Kymry.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 255.

Dyma areithio'n ddiragrith, yn erbyn y prydyddion, oeddent yn camarfer eu galwedigaeth, ac yn *dirywio* oddi wrth reoledigaethau.—*H. Perri:* Egluryn Ffraeth. xxxii. 9.

Pa fodd y gallai *ddirywio* felly yn debyg i anifail?
Elis Lewis: Drexelius, 37.

Pan y *dirywiodd* fy ymddygiad, ac y trodd yn ymarweddiad gorwyllt ac anafus.—*Ier. Owen,* Rhag. 6.

Am ein cenedl, honno a ymdarawai drosti ei hun, gan *ddirywio* ac ymollwng yn ei chrynswth.
Gronwy Owain, 238.

Dirywiog, *a.* degenerated, degenerate; debased.

Gan ein bod yn wynebu tu â'r nefoedd, fel yr ydym yn gyffredinol, o gyfiwr *dirywiog* a llygredig iawn, y mae amryw o foddion ereill ag y rhaid i ni ymarfer fel offerynau ag sydd anghenrheidiol i ni gyrhaedd rhinweddau y fuchedd nefol.—*Iosua Tomas:* Buch. Grist. 32.

Dirywiogrwydd, *sm.* degeneratedness, degeneracy.

Dirywiol, *a.* tending to degenerate, degenerating.

Dis-, *px.* [di-+ys: cf. L. *dis*] 1. a negative prefix, having generally the same force as *un-, in-, dis-,* in English; as *disgloff, disgraff, disprawf.*

2. *Dis-* (modification of *dys-*) is intensive in some words; as *distaw* (taw), *disgwyl* (gwyl), *disglaer* (claer). Cf. Lat. *dis* in *discupio.*

¶ The relation of *dis-* to *dys-* is much the same as that of *di-* to *dy-.*

Dis, -iau, *sm.* [E. *dice;* O.F. *det,* mod. *dé;* Ir. *disle;* L.L. *dadus*] a die, the small cube so called.

Disiau, dice.

Coelbren gil dwrn yw pedroglau bychain o goed ar ddull a maint *disiau,* a llythyr ar bob un.—*Barddas,* i. 158.

Ysgared Gwen, dalcen *dis,*
A'i chymhar cyn pen chwemis.
D. ab Gwilym, lxxxix. 27 (cf. cxlviii. 35; clvi. 44).

Mae'r *disiau*? mae siecrau'r Sieb?
Mae'r cardiau? mae'r cywirdeb?
L. G. Cothi, i. xxiii. 23.

Nid myned i oddef i bob peth basio, pwy un bynnag a fyddo, ai da, ai drwg, ai iawn, ai cam, gan roddi'r cwbl ar y *disiau.*—*Huw Lewys:* Perl, 181.

Mae'r *dis*? Mi a'i tefl is yn tân.—*Sion Tudur.*

Yn y tai, gwelem . . . rhai yn tyngu ac yn rhegu uwch ben y dabler; ereill yn siffrwd y *disiau* a'r cardiau.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 30.

Meddwl y maent y dylent dreulio eu hamser ar *ddisiau,* a dawnsio.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 190.

Pa faint o amser ydys yn ei dreulio wrth chwarae cardiau, *disiau,* dawnsio?—*Sam. Williams:* Amser (1724), 60.

Y mae ganddo ef a'i gydfrodyr y brudwyr, yr un fath ergyd ar *ddis.*—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 268.

Coegio dis: see s.v. *Coegio.*

Chwareu disiau, } to play at dice; to play
Taflu disiau, } with dice.

A damwain iddo gael tylwyth llys y brenin yn *chwareu disiau*—*Morus Cyffin:* Diff. vi. 23.

Chwarydd disiau, } a player at dice, a dice-
Chwareuydd disiau, } player, a dicer.

Nesaf i hyny oedd y Dywysoges fwyn Pleser, a'i merch Ffolineb, yn arwain ei deiliaid, yn *chwaryddion disiau,* cardiau, tawlbwrdd, castiau hug.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 84.

Efe a atebodd, nad oedd fodd, yn ei dyb ef, na buasai yn warth a gwaradwydd mawr i'w wlad pe gwnelsai ef gyflafaredd a chyfammod â *chwareuyddion disiau.*
Morus Cyffin: Diffyniad, vi. 23.

Ar y dis, on the die; on the cards.

Y dref nis rhof, bedair oes,
Ar y dis, neu gard eisoes.—*L. G. Cothi,* v. v. 1.

Bwrw disiau, } to cast or throw dice.
Taflu disiau, }

Bwrw disiau, neu ddernyn o ryw beth i lestr, a feddylir wrth Diar. 16. 33.—*Th. Charles,* s.v. 'Coelbren.'

Disiau ffeilsion, false dice.

Yr oedd yma fyrdd i mewn am chwareu *disiau ffeilsion,* a chuddio cardiau.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 82.

Ergyd ar ddis, a cast at dice; a throw of the dice.

Digitized by Google

Taflu y dis, to cast the die.

Taflwyd y dis, the die is cast or thrown.

Er eu mwyn hwy, ynte, mi *deflais y dis*.—*Gro. Owain*, 331.

Disaesneg, *a.* without English; not knowing or speaking English; ignorant of English.

Eiryan verch Gynan kynran kanrec
Eryr tymyr gwyr gwelich *disaesnec*.
Casnodyn: M.A. i. 421.

Disaf, *a.* [saf] not standing or firm; falling.

Disang, *a.* untrodden.

Ai rhyw bererin eiddil ar ei daith,
Gan lwybraw gwyllt anialwch maith *ddisang*.
Seren Gomer, vii. 188.

Disail, *a.* without base or foundation, groundless, baseless, unfounded.

Na oddefwch i wael esgus a chwedlau *disail* eu hattal rhag dyfod i'r ysgol a'r Eglwys.
Lewis Anwyl: Nefawl Ganllaw, 111 (cf. 119).

Y mae Socrates, prif berson y Gynnadledd, yn ei holi yn bwyllog, ac yn dangos o'i eneu ef ei hun mor *ddisail* ac oferwag ydyw'r cyfryw dybiaeth arwynebol.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 45.

Eu breuddwydion gweigion gynt,
Ail *disail* adail ydynt.—*Dafydd Ionawr*, 173.

Y mae llawer wedi dioddef dros gredinıaeth *ddisail*.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duwin. 42.

Disain, *a.* having no sound, soundless, mute.

Disal, *a.* [sal] not poor, mean, sorry, or base; not weak.

Genyt ni ddaw 'n ddilestair,
Druan wr, draian o air!
Nod *disal*, onid 'twysaw
Gwr dall ar draws ysgall draw.—*D. ab Gwilym*, cxxv. 57.

Brawd ei dad, siâd *ddi sal*,
Gwlwm cân, oedd Gwilym Cynwal.
Huw Morus: E.C. i. 108.

Disalw, *a.* [salw] not mean, poor, or base; not ugly; fair; fine.

Tecaf planed yn hedeg
Ar helw Duw yw'r haul deg;
Sul enw, *disalw* oleuni,
Ymdaith faith yw dy daith di!—*D. ab Gwilym*, xciii. 5 (cf. cxvii. 41; cxxi. 17; cxxxxvi. 31).

Na llanw yn *ddi salw* ei sain.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 306.

A'th alw, yn *ddi salw*, da enw, dwy I.
Huw Morus: E.C. i. 149.

Disanctaidd, } *a.* not holy, unholy; profane.
Disantaidd, } See *Ansanctaidd*.

Gan wybod hyn, nad i'r cyflawn y rhoddwyd y gyfraith, eithr i'r rhai digyfraith ac anufudd, i'r rhai annuwiol a phechaduriaid, i'r rhai *disanctaidd* a halogedig.—1 *Tim.* i. 9.

Ei dderbyn ef i enaid neu gorff *disanctaidd*, yw'r dwyll resynaf yn y byd.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 251.

Disar, *a.* [sar] without wrath or passion.

Disarhâd, *a.* without reproach, insult, or disparagement; free from injury.

A'i law fe'n ceidw'n *ddisarhâd*,
A dwg ni mewn i'r nefol wlad.
Casgliad o Salmau (1797), 82.

Disarhaol, *a.* not insulting or injuring, unoffending.

Disas, *a.* [a misreading for *difas* (dy-+bas), the f being (originally) mistaken for the tall f (s)? See notes under *Cyslafen* and *Diodlestr*. *Sas* does not occur. Pughe omits the word] mean, rude, base, poor, vile, of the lowest sort.

Disas, Vilis, infimæ sortis.—*Davies*, s.v.

Na fid diystyr na difias genyt, fy ngweled i yn ymddangos mor *ddisas* ac mor anhylwybr; canys hon yw'r awr gyntaf yr amcanwyd fy nwyn i lwybr celfyddyd.
Dr. Gr. Roberts: Gramadeg, Rhag. 11.

Hefyd, mewn ieithoedd ereill, nid oedd i bob celfyddyd ond dechreu *disas*, ac yn ol ei dechreu unwaith, ereill o amser i amser a'u trefnodd hwynt.
Dr. Gr. Roberts: Gramadeg, 12.

Disathr, *a.* [sathr] untrodden, unbeaten; unfrequented; unspotted, pure.

Gwedi darllain gwawd eurlythr
Baradwyswaith berw *disathr*.—*Sefnyn:* M.A. i. 504.

Gwynder *disathr* ar lathr-gnawd,
Yn duo'r gwallt, iawnder gwawd.—*D. ab Gwilym*, xiv. 31.

A gwedy y ddyvot y le *disathyr* dirgeledic. a dywedut wrth y nei. mi a glywaf. heb ef. arogleu llysseu da.
Doethion Rhufain, 113.

A rhodio megys hyd goeglwybr *disathr*.
Ed. Samuel: Holl Ddyl. Dyn, ii. 35.

Ffordd ddisathr, an untrodden way.

Crwydrasant yn yr anialwch mewn *ffordd ddisathr*.
Salm. cvii. 4.

Disathredig, *a.* not trodden, untrodden.

Y rhai ynt yn gadael y ffordd sathredig, ac yn siwrneio rhagddynt yn y llwybr *disathredig*.
Elis Lewis: Drexelius, 267.

Disawr, *a.* [sawr] scentless, inodorous.

Disawr, *sm.* scentless dame's violet (*Hesperis inodora*).—*Hugh Davies:* Welsh Botanology, 135, 183.

Disb-: see *Disp-*.

Disbar, *a.* [bâr] void of wrath or anger.

Disefyd, *a.* [saf] unstaying; sudden.—*P.* A word probably suggested by *disyfyd*.

Disefydliad, -au, *sm.* disestablishment.

Disefydlog, *a.* unstationary; unsettled.

Disefydlu, *v.* to disestablish; to unsettle.

Disegur, *a.* not idle; not at leisure; active; restless; bustling.

Arthur *disegur* lafnau.
Ymddiddan Arthur ac Eliwlod: M.A. i. 177.

Terfysg eu llafur torfoedd *disegur* ai hymsiga.
D. Benfras: M.A. i. 318 (cf. 213).

Diseguryd, *a.* free from idleness; without leisure; active.

Diseibiant, *a.* without leisure, respite, or pause; without relaxation; without rest.

Aber syber, *disebiant*,
Lle credir, lle coelir cant.—*Gr. ab Hywel ab Tudur*.

Mi ganaf ogoniant yn ddwys syber, yn *ddisebiant*.
Thomas Lewys: Cyfrinach y Beirdd, 146.

Crynodeb y cwbl a ddywedpwyd yw hyn, fod poenau uffern yn anniweddedig, yn *ddisebiant* heb orphwysfa, yn anesgorol ac anorchfygol.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 419.

Yn nhŷ'm Naf o chaf i'm chwant anneddu
Drwy 'nyddiau'n *ddisebiant*.
Iolo Morganwg: Salmau, i. Rhag. 11.

Diseiliad, *sm.* [disail] a divesting of base or foundation.

Diseilio, *v.* to divest of base or foundation.

Diseilrwydd, *sm.* groundlessness, baselessness.

Diseisnig, } *a.* not English, unenglish;
Diseisnigaidd, } not imitating the English.

Dioer yw Gruffudd lyw loywgoeth
Drafn diddig *di Seisnig* doeth.
Dafydd y Coed: M.A. i. 495.

Diwyw aesawr hydr wr dewisaidd dwrdd
Dwys oe senw agwrdd *disaesnigaidd*.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494.

Diseithug, *a.* [seithug] not abortive, futile, or vain.

Ef goreu rieu hyd y ryduc heul
Hwyl diruawr *diseithuc*.—*Llyw. ab Llywelyn:* M.A. i. 260.

Digitized by Google

Diseml, *a.f.*=*Disyml*, m. See *Dysyml*, *Dyseml*.

Disen, *a.* 1. free from censure or rebuke.

Gwell byw yn ddisylw, ac felly'n *ddi sen*,
I ddyn, na dyrchafu'n rhy uchel ei ben.—*Daniel Ddu*, 95.

2. not censuring, reproving, or blaming.

Nyni yn hyn o beth a ymddygwn ein hunain yn ddichwerw ac yn *ddisen*, heb na llid na dogofaint.
M. Cyffin: Diffyniad, i. 11.

Disenw, *a.* [senw] unrenowned, not celebrated or eminent; without dignity.

Disenwi, *v.* to divest of name.—*P.*

Diser, *a.* [ser] without stars, starless. See *Diloer*.

Diserch, *a.* 1. without affection, unaffectionate; void of natural affection; not fond (of); indisposed.

Eur *diserch* Rydderch roddyon
Aruaeth Llyr aryf mawrwyr Mon.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 365.

Di serch fu Rhydderch i roddi trysor
Porphor a phylor aur a phail.
Madog Dwygraig: M.A. i. 484.

Nid disynwyr ond *diserch*.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 28 (cf. 49).

Bydd dynion â'u serch arnynt eu hunain . . . yn *ddiserch* i'r rhai da.—2 *Tim.* iii. 2, 3.

2. of a cold disposition; unattractive; not suave or affable; cold, distant; forbidding; crusty, cross, uncouth.

Tri pheth *diserch* ar ddyn: rhospusder; anynadrwydd; a bod yn ogangar.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 219.

Er fy mod yn cael fy nghyfrif yn un lled *ddiserch* gan y cyffredin, eto nid felly yr oeddwn yn gwbl.
Cawrdaf: Meudwy Cymreig, 61.

Diserchiad, *sm.* disaffection; a cooling.

Diserchogrwydd, *sm.* want of affection or regard; coldness.

Dealled y boneddigion cyhuddedig uchod, mai nid o *ddiserchawogrwydd* nac o ddigofaint iddynt hwy yr ysgrifennid y nodiadau uchod.—*Seren Gomer*, vii. 245.

Diserchol, *a.* without affection or fondness.

Diserchu, *v.* to disaffect; to become unaffectionate.

Diserfyll, *a.* [serfyll] not tottering or wavering; steady, firm.

Am ba achos y mae rhaid credu pynciau ffydd mor gadarn *ddiserfyll*?—*R. Smith:* Eglurhâd, 279.

Byddwch ffyrfion a diymmod [*safadwy a diysgog, *diserfyll*], helaethion yn wastad yng ngwaith yr Arglwydd.
W. Salesbury: 1 Cor. xv. 58.

Diserfyllrwydd, *sm.* stability; firmness.

Diserfyllu, *v.* to render firm or unshaken; to become firm.

Diserth, -au, *sm.*=*Dyserth*.

Disgamar, *a.* [dis-+cymhar?] scattered up and down; spread or thrown about; flowing in disorder; scattered, dispersed; dishevelled.

Ni cherais, iawn-gais angerdd,
Na'i chafn botymog, na'i cherdd . . .
Na'i chwr bergam *ddisgamar*,
Na'i llorf cam; un llwrf a'i câr.
Dafydd ab Gwilym, cxxxix. 37.

Gwallt disgamar, dishevelled hair.

Disgamaru, *v.* to dishevel; to spread in disorder.

Disgar, *a.* [câr] unloved, unlovely, unamiable.

Disgarad, *a.* without love or affection.

Disgaru, *v.* not to love; to disaffect; to hate.

Disgarw, *a.* not rough or harsh; smooth.

Disgethrin, **Dysgethrin**, *a.* [dys-+cethr: cf. *ysgethrin*] rough, harsh, cruel; sharp; severe; rude.

Ynteu Gei a deuth attaw ef. ac a dywawt yn *disgethrin* anhegar wrth Peredur.—*Mabinogion*, 212.

Bit euein alltut. bit *dysgythrin* drut
Bit chwannawc ynvyt y chwerthin.
Llywarch Hen: A.B. ii. 246 (M.A. i. 126).

Gwrawl ni fydd *disgethrin*.—*Iolo Mss.* 252.

Y du 'sgythrog *disgethrin*.—*Thomas Prys.*

Disgeulo, *v.* [ceulo] to separate the curd from the whey.

Ceulo a godro rhag rhoi cyflog,
A *disgeulo* ei laeth mewn dwy ysgalog lyn,
A chyweirio ei ymenyn yn dra chaerog.
Deio ab Ieuan Du: Awdl y Caws.

Disglaer, **Dysglaer**, **Disglair**, *a.* [dys-+claer (L. *clarus*; C. *cleyr*): Br. *sclaer* (Cath.), *skléar*, *sklér*] bright, brilliant, splendid, glittering, dazzling, shining, lustrous, effulgent, radiant, coruscant; light; clear.

Gruffudd Nudd uddair grym llym llafn *disglair*.
Dafydd y Coed: M.A. i. 495.

Nid gwyn pryd dilys *disglair*,
Wrth bryd gwyn fy myd, myn Mair!—*D. ab Gwilym*, xxix. 33 (cf. xxi. 57; lxii. 25; clxxxvii. 11).

Och, Garon! fwrw Mon Fam Ynys *ddisglair*,
Och, Fair, fwrw ei chrair Efa ferch Rhys.
L. G. Cothi, vii. iii. 67.

Coed oeglog, caeau *disglair*,
Wyth ryw yd, a thri o wair.—*D. ab Gwilym*, cclx. 43 (cf. cvi. 13; clxxiv. 23; ccii. 32.

Rhy *ddisglair* yw Duw i ddyn edrych arno a'i weled.
Iolo Mss. 172.

Nid edrych neb y goleuni pan fyddo efe *ddisclaer* yn yr wybrenau.—*Esgob Morgan:* Iob xxxvii. 21.

Dy oedran hefyd a fydd *disgleiriach* na hanner dydd.
Iob xi. 17 (cf. xxxvii. 21).

Y marchog sydd yn codi ei gleddyf gloew, a'i *ddisglair* waewffon.—*Nah.* iii. 3 (cf. Iob xxxix. 23).

A chaniatäu a wnaethpwyd iddi, ymwisgo â lliain main pur a *dysclaer*.—*T. Huet:* Dad. xix. 8 (cf. xv. 6; xxii. 1).

Tywyned gwirionedd Iesu Grist, ac estyned ei belydr *disglaer* i bob man.—*M. Cyffin:* Diffyniad (1849), iii. 4.

Aed cân gorfoledd y nef wen
Drwy'r bydoedd *disglaer* sydd uwch ben.
Iolo Morganwg: Salmau, II. lxxvi. 4.

Gwneir hefyd o hono liw *dysglaer* i'w osod ar ddodrefn.
Cylchgrawn, i. 375.

Gwisgoedd disglaer, dazzling apparel, shining or glistering garments.—*Luc* xxiv. 4 (cf. ix. 29; Marc ix. 3).

Lle y gwelwch fod gair Duw wedi ei gyffelybu . . . i *wisgoedd disclair*, â'r rhai'n y gwisgir ein heneidiau noeth-ion.—*R. Liwyd:* Llwybr Hyffordd, 379.

Cleddyf disglaer, a glittering sword.—*Deut.* xxxii. 41.

¶ The older spelling is *disclair*, from which most of the derivatives are regularly formed. The usual form in W. Salesbury is *dysglaer* (or *dysclaer*); and the verb *dysglaerio* (or *dysclaerio*), and sometimes *dysgleirio*.

The majority of recent writers (since the appearance of Dr. Owen Pughe's Dictionary) seem to prefer *dysglaer* for the adjective, *dysgleirio* for the verb, and *dysgleiriol* for the adjective; but the ordinary pronunciation is *dis-*, not *dys-*.

Disglaeredig, *pt.a.* made bright, glittering, or dazzling; glittering.

A chantho deyrnwialen freninawl a diadem euraid *disglaeredig* yn llawn main gwerthfawr.
M. Cyffin: Diffyniad (1671), vi. 21.

Digitized by Google

Disglain, } gleinion, *sm.* [glain] a glare, a
Dysglain, } glitter.—*P.*

Disglain, } *a.* [dys- + glain] glittering, glis-
Dysglain, } tening, shining, glaring, brilliant.

Disgleiniach mwyfwy fydd ei dduwiol fryd,
Ei nef dechreua cyn diwedda ei fyd!
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 159.

Ai rhywle yn nhiroedd pellenig y Dwyrain,
Lle treigl yr afonydd ar wely aur *disglain* . . .
Ai yno, fy mam, mae'r wlad well ddigyfartal?
D. Silvan Evans.

Disglair, *a.*=*Disglaer.*

Disgleiniad, -au, *sm.* a glittering, glistening, or shining.

Disgleinio, } *v.* to glitter, glisten, glare, or
Dysgleinio, } shine; to sparkle with light.

Gan ymgoroni, eu telynau aur
Cymmerynt, a *ddysgleinynt* ar eu tu.
W. O. Pughe: C.G. iii. 404 (cf. v. 890).

Pelydron ariannaidd y gem a *ddysgleiniant*,
A llethri gan wythi o berl a lewyrchant.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 186 (cf. 185).

Oer uwch ei gryd y ter wlithyn *ddysgleinia*,
Isel ei wely ger milod mewn côr.
W. O. Pughe: Cathl Gwyl Ystwyll.

Disgleirbryd, *a.* of a bright or radiant aspect.

Bydded mor ardderchog a *disgleirbryd* heulaidd ag y dichon ei bod o'i chadw yn gyfnaws gydfesur â'r peth a ganer iddo.—*Cyfrinach y Beirdd*, 15.

Disgleirbryd, *sm.* a bright aspect, look, or countenance; a radiant countenance.

Wrth graffu ar degwch dy *ddisgleirbryd*.
Huw Morus: E.C. i. 146.

Disgleirdeb, } *sm.* brightness, splendour,
Dysgleirdeb, } brilliancy, glitter, lustre,
Disgleirder, } glare, radiancy, effulgence.

Tri *disgleirdeb* doethineb: awen; haelioni; a thangnef.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 268.

Ac yn mynnu chwanegu amrauael *dhiscleirdeb* degwch carueidhserch.—*Ymborth yr Enaid*, ¶ 22.

Disgleirdeb y goleuni tragywyddol yw hi.—*Doeth.* vii. 26.

Gwelais oleuni o'r nef, mwy na *disgleirdeb* yr haul, yn disgleirio o'm hamgylch.—*Act.* xxvi. 13.

Allan o archollion pa un y llewyrcha allan belydr o *ddisgleirdeb* neillduol. . . Fe fydd gogoniant a mawredd y nef uchaf, a *disgleirdeb* y nefol ddinas honno, yn anfeidrol hyfrydwch i'r dinasyddion bendigedig.
Gr. Wynn: Ystyriaethau, 155 (cf. 146).

A rwng y dwy ael arlhwybr, pefrganneit *dyscleirder* megys maen mererit lhathreit.
Ymborth yr Enaid, ¶ 23 (cf. 22).

A gwelsant Dduw Israel; a than ei draed megys gwaith o faen saphir, fel corff y nefoedd o *ddisgleirder*.
Ecs. xxiv. 10 (cf. Lef. xiii. 2, 19, 24).

Y modd y mae'n gorfod arnynt lechu a diflannu yng ngolwg y *disgleirdeb* tragywyddol hyny.
Ios. Thomas: Buch. Grist. 249.

Disgleirdeb ei ogoniant, the effulgence of his glory.—*Heb.* i. 3.

Llachar ddisgleirdeb, radiant brightness.—*W.*

Disgleirfawr, *a.* very bright, shining, or glittering, highly radiant.

A'r lluoedd arni'n edrych,
Ar lawr *disgleirfawr*, wawr wych.
Dafydd ab Gwilym, xxix. 19.

Disgleiriad, -au, *sm.* a glittering, glistening, or shining; radiation, irradiation, coruscation.

A nhwy a gânt weled yn y fan, modd y diflannai'r cysgodau uchod wrth lewyrch yr Efengyl, yr un agwedd a thywyllwch y nos wrth *ddisgleiriad* yr haul.
M. Cyffn: Diff. (1671), iii. 3.

Os bydd yng nghroen eu cnawd hwynt *ddisgleiriadau* gwynion wedi gordduo; brychni yw hyny yn tarddu yn y croen.—*Lef.* xiii. 39.

Disgleirio, } *v.* to shine, glitter, glisten, gleam,
Dysgleirio, } or radiate; to sparkle with light; to effulge; to coruscate.

Yny gigleu yr adar yn canu ar heul yn *disgleiryaw*.
St. Greal, ¶ 18 (cf. 87).

A phan doeth gwyr Rufein tranoeth yr glyn hwnnw y gwelynt y glyn yn echtywynu gan yr heul yn *disgleiraw* ar arneu eu gelynyon.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 76.

Noethion vydhant. a *discleiriaw* a wnant o bob tegwch.
Lucidar, ¶ 134 (cf. 32, 130).

Ban gwir pan *disgleir*. bannach pan lefeir.
Taliesin: A.B. ii. 156.

Llygeit llew oed idaw yn *disgleiryaw* yn gyn loewet a maen kaerbonclus.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 407 (cf. 420).

Y kylch eur yr hwnn a *disgleirawd* yg kylch yr eheul. a arwydockaa eglwys Duw.—*Llyfr Ancr*, 18.

Nid aur yw pob peth a *ddisgleirio*.
R. Lloyd: Llwybr Hyffordd, 310 (cf. 396).

Na ad le i gwag yn d'ael, Gwen,
Disgleiria, dwywes glaerwen.—*Gronwy Owain*, 42.

Disgleiriol, *a.* glittering, effulgent, glistening, shining, irradiating, brilliant.

I'w rhan nhwy y daw y *ddisgleiriol* goreu a feant yn ddyfal i wneyd y goreu o'u hamser.
Th. Williams: Ymadroddion Bucheddol, 295.

Claerwyn gwmwl *disgleiriawl*,
Sef meibion gwynion y gwawl.
Dafydd Ionawr, 310 (cf. 55, 56).

Coronawg wyt gan wawl *disgleiriawl* ffriw.
Gwyliedydd, iii. 347.

Disgleirlathr, *a.* radiantly or glitteringly bright; of lively brilliancy.

Ar adhwynvab a oedh yn cyfeistedh cadeir adhwyndec o asgwrn eliphant *disgleirlathr*.
Ymborth yr Enaid, ¶ 26 (cf. 21, 22).

Ar paladyr *disgleirlathyr* or tu dehev yw vn Mab Duw Dat yn lleufer ac eglurder yr holl vedyssyawt.
Cyssegrlan Fuchedd: Ll.A. 91 (cf. 97).

Disgleirloew, *a.* bright and sparkling; bright and radiant; dazzlingly bright.

Ac odhyna dwylaw hirwynion canheitlathr a byrrion ewinedh balassar cwrteision, a hirwynion vysedh anueidrawl *dysgleirloew* lewychder.—*Ymborth yr Enaid*, ¶ 23.

Cyntaf o'r tair *disglair-loew*
A'i cafas, ehud-was hoew!—*D. ab Gwilym*, xxix. 5.

Pann vei egluraf ynn tywynnv *disgleirloyw* eglurder am hanner dyd vis Meheuin yn haf.
Cyssegrlan Fuchedd: Ll.A. 98 (cf. 94).

Disgleirwch, *sm.* brightness, splendour.

Nid rhaid yno wrth dywyn yr haul, goleuni'r lloer, na *disgleirwch* y ser, i roi goleu.—*Marchog Crwydrad*, iii. 8.

Disglaerwin, } -oedd, *sm.* clarified wine;
Dysglaerwin, } sparkling wine.

Ac odhyna deu berfeithloew gochion rudhiau trohellaidh fionlhiw yn dyscleiriaw megys gwawr voreu dydh haf . . . neu heul wrth ucher yn mynet yn y hadhef . . . neu *disgleirwin* gloew goch yn discleiriaw trwy lestr gwidrin teneu.
Ymborth yr Enaid, ¶ 23.

Disgleirwisg, -oedd, *sf.* a dazzling or gorgeous robe or dress; dazzling apparel or robes.

Yr oedd efe yn eistedd ar oseddfa ei freiniaeth, ac efe a wisgodd ei *ddisgleirwisg* oll.—*Esth.* (Apoc.) xv. 6.

Gwel'd Persia'n harddwych yno wnair,
Ac India mewn *disgleirwisg* aur.
Dafydd Jones: Salmau Watts, lxxii (2), 3.

Disgleirwych, } *a.* dazzlingly bright or bril-
Dysgleirwych, } liant, resplendent; magnificent.

Yr Ysgrythyrau a ddywedant y bydd ei ail ddyfodiad ef i'r farn yn y cyfryw *ddisgleirwych* ac annhraethol ogoniant, hyd oni bydd hyd yn oed y creaduriaid godidocaf yn synu am dano.—*Robert Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 399.

Ymddangosodd Herod ger eu bron hwynt mewn *gwisg euraid ddisgleirwych*.—*Ed. Samuel:* Buch. yr Apost. 188.

Digitized by Google

Yna'r Ior, yn wâr ebrian,
A *disgleirwych* lewych lân,
A dry at ei weision draw,
Addas anwyliaid iddaw.—*W. Wynn:* Cywydd y Farn.

Gwelwn hi yn dair ystrŷd fawr tros ben; a phorth mawr *disgleirwych* ym mhen isaf pob ystrŷd.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 20.

Lliw ei blu sy mor loew ddisglaer, a phrydferth hynod, fel na ddichon i un lluniedydd ddarlunio yn gywir eu gloewder *disgleirwych* a'u tegwch.—*Gwyliedydd*, ii. 40.

Mi welaf fry linellau'r dydd,
Yn byst *disgleirwych* gwyn.—*Brutus:* Brut. 521.

Disgleirwyn, Dysgleirwyn, *m.* **Disgleirwen, Dysgleirwen,** *f.* *a.* glitteringly or dazzlingly white; resplendent.

A men mererit *disgleirwynn* yn benn ar y gwregys.
Cyssegrlan Fuchedd: Ll.A. 96.

A maen mererit *disgleirwyn* yn benn ar y gwregys.
Ymborth yr Enaid, 126.

'Arhöwch,' ebr y porthor *disgleirwyn* . . . 'mi a ddangosaf i chwi rywbeth.'—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 46.

Dyma'r wisg *ddisgleirwen* oleu.—*Emyn.*

Fel haul *ddisgleirwen* yn y nef.
W. Wilkins: Gweithiau (1891), ii. 378.

A'i alla a sefiodd yr uthr-deg ffurfafen,
Yr haul, lloer, a ser, yn yr entrych *ddisgleirwen*.
Th. Lloyd Jones: Ceiniau Awen, 194.

Mewn cell o ia didawdd, mor glyd y gorweddant,
Ac amdo *ddisgleirwen* o eira annifiant.
Iewan Glan Geirionydd: Gelr. 260.

Disgloff, *a.* [cloff] free from lameness; cured of lameness; not lame or limping.—*C.S.*

Disgloffi, *v.* to free from lameness; to cure of lameness.

Disgloffiad, *sm.* a curing of lameness.

Disgraff, *a.* [craff] not sharp to catch or hold; apt to loose hold; not sharp or keen; slack.

Disgraffiad, *sm.* a letting loose, a disengaging.

Disgraffu, *v.* to let go; to disengage; to loose.

Ar ei waith yn estyn y naill law tuag at y nyth, ac yn gorphwys ei law arall ar faen, y llaw honno a lynodd mor ddiysgog wrth y garreg, megys nad allodd mewn modd yn y byd ymadaw a *disgraffu*, nes bod dridiau a thair nos mewn ymprydd a gweddi.—*Theo. Evans:* D.P.O. 276.

Disgrifio, *v.*=*Dysgrifio.*

Disgudd, *a.* [cudd] uncovered, unconcealed.

Disguddiad, -au, *sm.* a developing, development.

Disguddio, *v.* to uncover; to develop; to open or expose.

Disgwall, *a.* [gwall] free from defection.—*P.*

Disgwrth, *a.* [gwrth] without resistance or opposition.—*P.*

Disgwyl, *v.* [dys- + gwyl=gwel-ed] 1. to look; to view, to behold; to appear, to seem.

Mwy noc ydd oed hawd *disgwyl* ar yr heul pan vei teckaf. nyt oed hawd *disgwyl* arnei hi rac y thecket.
Mabinogion, 84.

Tri pheth y dylai bardd eu gwneuthur: gwrando; *disgwyl;* a thewi.—*Barddas*, ii. 66.

Tri dyn y dylyai bawb edryeh yn hoff arnynt; sef a *ddisgwyl* yn serchawg ar wyneb y ddaiar; ar ymbwyll celfydd; ac ar blant bychain.—*Barddas.* (*P.*)

Disgwyliwch, rhag diffygio o neb oddi wrth ras Duw.
Esgob Davies: Heb. xii. 15 (cf. iii. 12).

Cyrched fryn a *ddisgwylio*.—*Diareb.* (M.A. iii. 152.)

Yr ydych yn disgwyl yn dda iawn, you look very well.—*S.E.W.*

Disgwyl ar, to look on or at; to observe; to note or notice.

Ydd oedd ef [y lleuer dâr] yn rhodiaw ar hyd boly derwen, a'r haul yn eglur, *disgwyl* a orug *ar* ei goesau.
Y Greal, 324.

Adolwyn yw gennyf i y ti heb y Peredur peri y mi varch ac arueu y vynet y *disgwyl ar* y gyfranc.
Mabinogion, 238 (cf. 84).

Gwedi cael ei fiys, efe a *ddisgwyles ar* ei throed, ac a welai mai carnau yn lle traed oedd iddi.—*Iolo Mss.* 176.

A mynet ruthur y wrthaw. ac ymgudyaw a *disgwyl arnaw*.—*Mabinogion*, 184.

O *ddisgwyl*, *disgwyl ar* y daionus.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 50.

Disgwyl yn graff, to look, observe, or view carefully; to gaze intently; to scrutinize.

A *disgwyl* yn graf a oruc ar y gaer pa fford hawssaf ymlad a hi.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 888.

2. to expect; to look for; to wait, wait for, or await; to wait or watch (for an opportunity).

Trydyd yw *disgwyl* brat ar y dyn.
Cyfreithiau Cymru, i. 406.

Un orchwyl, lle *disgwyliwyf*,
Unlliw drem â lleidr wyf.
D. ab Gwilym, lxxiii. 11 (cf. lxii. 25; civ. 13; cxv. 3).

Disgwyliaf o'r mynyddoedd draw.
Edm. Prys: Salm. cxxi. 1.

Ai tydi yw yr hwn sydd yn dyfod, ai un arall yr ydym yn ei *ddisgwyl*?—*Matt.* xi. 3 (cf. Luc vii. 20).

Ni *ddisgwylir* dim yn ychwaneg oddi wrthym.
Ieremi Owen, 10.

Disgwyl am, to wait for; to look for; to expect; to wait or await.

Ni †yr Eiddig wr addoed . . .
Pa lwyn o'r bedw, pa lannerch,
I *ddisgwyl am* feinwyl ferch.—*D. ab Gwilym*, lxxxvii. 55.

Disgwyl am heddwch, eto ni ddaw daioni; am amser meddyginiaeth, ac wele ddychryn.
Esgob Morgan: Ier. viii. 15.

Tri pheth ofer *disgwyl am* danynt: gwirioniedd mewn rhagreithwr; cywirdeb mewn gwenieithwr; a chyflawnder gan gyfreithwr.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 230.

Ni *ddisgwyl* neb *am* ei dda ef.—*Iob* xx. 21 (cf. iii. 21).

Efe a *ddisgwyliodd am* farn, ac wele drais; *am* gyfiawnder, ac wele lef.—*Esa.* v. 7 (cf. viii. 17; lix. 9).

Os erys, *disgwyl am* dani.—*Hab.* ii. 3.

Er eu bod hwy oll yn dal y Pen, ac yn *disgwyl am* iechydwriaeth trwy yr unrhyw Waredwr.—*Ieremi Owen*, 116.

Disgwyl wrth, to expect from; to wait for; to wait on.

Disgwyl wrth yr Arglwydd, ac efe a'th achub.
Diar. xx. 22.

Disgwyl wrth yr Arglwydd . . . *disgwyl*, meddaf, *wrth* yr Arglwydd.—*Salm.* xxvii. 14.

Yr hwn nid erys ar ddyn, ac ni *ddisgwyl wrth* feibion dynion.—*Mic.* v. 7.

Disgwyl, -ion, *sm.* expectation; that which is looked for or expected; watch.

Nid oes aberth dros bechod wedi ei adael mwyach; eithr rhyw *ddisgwyl* ofnadwy am farnedigaeth, ac angerdd tân.
Heb. x. 26, 27.

Disgwylfa, -oedd, fëydd, *ef.* a place in which a watch or guard is placed; a place of observation; a watching-place; a watch-tower; a prospect place.

Y *discwylua* honn a gymhellir o vn post. . . Y golofyn uchaf y mae *discwylua* yn eisoddedic o ryw geluydyt radlawn hyt na ellí neb yn yr hollre tir y syd darystyngedic yn ni. gwneuthur dim yn hollawl na thwyll na brat. na chyfarwydon yn yn erbya ni. neu y rei einym ni. na welher or *disgwylua* honno yn amlwc. . . Ef a vyd yn wastat yn cadw y *discwylua* honno teir mil o wyr aruawc.
H. Gwlad Iesus Fendigaid: Ll.A. 171 (cf. 170).

Parotoa y bwrdd, gwylia yn y *ddisgwylfa;* bwyta, *yf.* . . Ar y *ddisgwylfa* yr wyf fi yn sefyll liw dydd, yn wastad, ac ar fy ngwyliadwriaeth yr ydwyf yn sefyll bob nos.
Esa. xxi. 5, 8 (cf. Hab. ii. 1).

Dodi dall ar ben *disgwylfa*.
Rhys Prichard: Canwyll y Cymry, div. 39.

Digitized by Google

Ar ddisgwylfa, on the look-out; on the watch; on (one's) guard.

Rhwng bod y Brytaniaid ryw ychydig yn awr *ar eu disgwylfa*, a'u llygaid yn effro.—*Theo. Evans:* D.P.O. 84.

Cymmerais bawl o'r gwrych, ac arosais *ar fy nisgwylfa*.
Cylchgrawn, i. 102.

Disgwylgar, *a.* expectant; waiting, looking out, watchful.

Disgwylgarwch, *sm.* expectancy; watchfulness.

Disgwyliad, -au, *sm.* expectation; a waiting (for).

Yn ddiau y mae gwobr; ac ni phalla dy *ddisgwyliad*.
Diar. xxiii. 18 (cf. Act. xii. 11).

Nid yw hiliogaeth rhieni duwiol yn ateb *disgwyliad* dyn mewn modd yn y byd.—*Ier. Owen*, 114 (cf. 92).

Ym mha sawl peth y croesir *disgwyliad* y rhai mwyaf llafurus!—*Ier. Owen*, 93.

Ni siomwyd gan hyny *ddisgwyliadau* 'r bardd.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 52.

Disgwyliad, iaid, *sm.* one who espies, watches, observes, or guards; a watchman, a sentinel, a guard; a scout, a spy.

Trannoeth y doeth Gereint parth ar llys. a *disgwyleit* oed ar y gaer y gan Wenhwyuar rac y dyuot yn dirybud. ar *disgwylat* a doeth hyt lle yd oed Wenhwyuar.
Mabinogion, 261 (cf. 259).

A gwedy ansodi y pethau hynny, Gruffud ab Rys a bryderawd am anuon *disgwyleit* am torri y castell neu y loegi.
Brut y Tywysogion, 126.

A galw ar Gynllo a'i *ddisgwyliaid*.
L. G. Cothi, III. xxii. 31.

Disgwyliadwy, *a.* expectable, to be expected.

Disgwyliaeth, -au, *sf.* expectancy; expectation.

Disgwyliawdr, iodron, *sm.* one who watches, overlooks, or guards; a guardian; a sentinel.

Ysgarawd Duw an kedymdeithyas pob un y wrth y gilyd. yd wyf inneu yn adolwc idaw ef o vot yn *disgwylyawdyr* arnaf.—*St. Greal*, ¶ 41.

Disgwylied, *v.*=*Disgwyl*, *Disgwylio*.

Disgwyliedig, *pt.a.* expected; looked for; waited for.

Y cyfryw oedd Messiah *disgwyliedig* yr Iuddewon.
Haul, C.C. xv. 52.

Disgwyliedydd, -ion, **Disgwyliwr**, wyr, **Disgwylydd**, -ion, *sm.* one who looks for or expects; an expecter, an expectant; one who waits; a watchman.

Gwyn eu byd y *disgwylwyr* distaw.
Morgan Lwyd: Tri Aderyn, 74.

A glyweisti a gant Dremhidydd
Hen *ddisgwyliwr* ar geurydd?
Englynion y Clywed: M.A. i. 174.

Disgwylio, *v.*=*Disgwyl*.

Disgwyliaw yr awr elych or cnawd.
Madog ab Gwallter: M.A. i. 405.

Disgwylwraig, wragedd, *sf.* she that waits or expects; a female expectant.

Nis bawdd dyfr llyfr llifeiriaint,
Disgwylwraig dysgl saig y saint.—*D. ab Gwilym*, li. 29.

Disgybl, **Dysgybl**, -ion, *sm.* [L. *discipulus*; C. *discebel* (C.V.), pl. *dyscyblon*, *dyscyblyon*; Br. *diskibl*; Ir. *deisciobal*; A.S. *discipul*]: see *Dysgybl*, &c. Both forms are old; and *dysgybl* stands in a similar relation to *dysgu* as *disciple* (*discipulus*) does to *disco*. Cf. *dysgl*, L. *disculus*. Salesbury's *discipul* (pl. *discipulon*) appears to be peculiar to him.

Disgyfraith, *a.* [dis- + cyfraith] not according to law; not restricted by law; unrestricted (by law); unrestrained.

Tri breint ysyd y gyghellawr breint kastell a braint amdiffyn bleid a braint dyn *diogyfreith*: sef achos y mae breint kastell ido ef karcharu a dyohon pan y myno; sef achos y mae breint amdiffyn bleid ydo am orvod arno aiteb y orthrymder; sef achos y mae braint dyn *diogyfreith* ido ef am nad aoes y neb dasgy arno.
Cyfreithiau Cymru, ii. 424, 426).

¶ There seems to be some confusion between this word and the following.

Disgyfrith, *a.* [cyfrith] 'not appearing in unison; not congenial;' harsh, austere, fierce, severe, rough.

Peri a wneynt tyllu y taryaneu a rwygaw eu llurugeu a chochi eu gwaywyr yn y gwaet ar barwneit ar marchogyon yn dygwydyaw yn veirw. ae hemys yn kerdet yn *diogyfrith* ar hyt y mynyt.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 452.

Or byd *diogyfrith* oll dimei y dyd, a cheinhawc y nos.
Cyfreithiau Cymru, i. 740.

Bum yn lliaws rith kyn bum *diogyfrith*.
Taliesin: A.B. ii. 187.

Geiriau disgyfrith, rude or harsh words.

Y *geiriau disgyfrith* hyny a gyffröes y brenin ar lid.
H. Caroli Magni. (*D.*)

Edrych yn ddisgyfrith, to look fiercely.

Dywedyd yn ddisgyfrith, to speak harshly.

Disgyfrithiad, *sm.* a rendering or becoming harsh, severe, or fierce.

Disgyfrithio, *v.* 1. 'to render incongenial; to become harsh or severe.'—*P.*

2. to free from restraint; to let loose.

O bob march hualawc neu lawtheirawc, keinawc y dyd, a dwy yr nos.—Or byd disgyfrith oll dimei y dyd, a cheinhawc y nos.—Os *disgyureitha* y deiliat y march pan dalher ar yr yt talet tri buhyn esmlwrw yr brenhin dodet hagen y dwy egwyt ar yr un troet idaw, ac y uelly ny chyll dim.
Cyfreithiau Cymru, i. 740 (cf. 556).

Disgymon, *sm.* a combustible substance or matter; fuel.

Angerd oed ar Gei. naw nos a naw diwarnawt hyt y anadyl. y dan dwfyr. . . A phan uei vvyhaf y annwyt ar y gedymdeithon *diskymon* uydei hynny udunt y gynneu tan.
Mabinogion, 113, 114.

Disgyn, **Disgynu**, *v.* [L. *descendo*; C. *discynna*; Br. *diskenn*, *diskenni*] 1. *v.a.* (1) to descend, to come down; to alight; to dismount; to go down; to fall.

Ac uelly y bu Lawnalot yn hir yn gwarandaw arnunt. a *disgynnu* a wnaeth ef yn y diwed. ac ar hynny ef a welei varchawc urdawl yn *disgyn* or neuad ar hyt pont grech y waeret.—*St. Greal*, ¶ 200 (cf. 194).

A *disgyn* a oruc Peredur. a dyuot racdaw y mywn.
Mab. 196 (cf. 34).

Ef a dely daly guardhaual e brenyn pan eskynho a pan *dyskenho* a duyn y uarch yu lety.
Cyfreithiau Cymru, i. 60 (cf. 24).

Tra barhao tywyllwch y nos *diskynwn* ac yn deimsyfeit kyrchwn am eu penn.—*Ystoria Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 175.

A chan dwryf y march kilyaw or walch a *disgyn* bran ar gic yr ederyn.—*Mabinogion*, 211 (cf. 207, 215, 236).

Ar hynny nychaf Walchmei yn dyuot y mywn yr llys ac yn *disgynnu*.—*St. Greal*, ¶ 101 (cf. 35, 36, 38, 39).

Ac ar hynny nachaf yr adar yn *disgynnu* ar y prenn ac yn kanu.—*Mab.* 172 (cf. 30, 78, 151, 207, 215, 236, 255).

Disgyn a wnaethant a dyuot yr neuad.—*St. Greal*, ¶ 2.

Yna y *disgynnassant* ell deu yr llawr trwy ollwng eu dagreu yn hidleit.—*Amlyn ac Amig*, col. 1094.

Ederyn yn yr awyr kyhyt ac y *disgynno* a esgynt. O *disgynnu* ditheu o le uchel. ti a elly ymchoelut drachefyn hyt y lle y *disgynneist* o honaw.
Ystoria de Carolo Magno, col. 408.

Ac ef yn kysgu. *disgyn* y bugeil yr llawr.
Doethion Rhufain, ¶ 11.

Na chaf yn deimsyuyt taran o nef. ac wybrenn wenn y gyt ar taran yn *disgynnu*.—*Llyfr Ancr*, 78 (cf. 114).

O is *disgynnu* weithion caniatâ.
W. O. Pughe: C.G. vii. 99.

Digitized by Google

Yr oedd y gwlaw a *ddisgynasai* mor ddistaw dros bedair awr ar hugain, wedi *disgyn* yn helaeth.—*Cylchgrawn*, ii. 13.

O'r uchelder *disgyn* atom.—*Brutus:* Brutusiana, 551.

Dwg hed dan frig coedwig cỳll,
Disgyn dan ledu d' esgyll.
D. ab Gwilym, ccx. 47 (cf. xv. 14; xcv. 26).

Deuwch, *disgynwn*, a chymmysgwn ynо eu hiaith hwynt. *Gen.* xi. 7 (cf. 5; xviii. 21).

Pan wnaethym iddi *ddisgyn* i uffern, gyd â'r rhai a *ddisgynant* i'r pwll.—*Esec.* xxxi. 16 (cf. 14, 17; xxxii. 8).

(2) to descend, to make a descent (in the older poets mostly in a hostile sense). Cf. *A. B.* ii. 64, 69, 74, 84, 86, 87; *M.A.* i. 156, 157, 339.

Efe a *ddisgyn* i'r rhyfel, ac a ddyfethir.—1 *Sam.* xxvi. 10.

Disgyn ar wlad gelyn, to make a descent on an enemy's country.

(3) to descend (as property, &c.), to come down, to devolve; to fall.

Yna, gan i'r cyfoeth a'r meddiant *ddisgyn* dros dair gwaith yng nghogail . . . y collwyd arglwyddiaeth rial y Coetty.—*Iolo Mss.* 28.

Disgyn o dad i fab, to descend from father to son.

(4) to descend (from an ancestor or ancestors); to be descended.

Grygor Fawr oedd Rufeinwr o barth genedigaeth, ac yn *disgyn* o deulu boneddigaidd a goludog.
Gwyliedydd, vi. 74.

Yr hwn deulu oedd yn *disgyn* yn gywir o Gadifor Fawr.
Gwyneuoddd: Enwogion Ceredigion, 60.

(5) to fall (as a river), to disembogue.

Dy nant Crafnant hyt Crafnell bet pan *discynn* yn Uysc. . . . Nant y Bard ni hyt yr guayret hyt pan *dyscin* yn Dour. Dour ny hyt y guairet hyt pan *dyscynn* y Guormuy. . . . Taratyr ny hyt y ouayret hyt pan *discynn* y Guy. Guy ny hyt. hyt pan *discynn* ynn Hafren.—*Llyfr Teilo*, 134.

(6) to come or resort (to); to be stationed.

Dy lytu Teliau. cyfnofut habath oriayth ynn Lanntaf hac aperua ar dir Teliau dyr loggou a *discynno* ny thir.
Llyfr Teilo, 120.

2. *v.a.* to cause to descend; to bring down; to take down; to let down.

Yr hwnn y mae Ioseр yn hyspysu pan wnaeth fferyll y castell hwnnw . . . profiwydaw ohonaw na orffwyssei yn troi. ynу delei ynо y marchawc urdawl. yr hwnn ydoed idaw gallon o dur a phenn o eur . . . ac yn dwyn taryan y marchawc a *disgynnawd* Iesu Grist y ar brenn y groc.
St. Greal, ‖ 190.

A *disgynnu* y korff a wnaeth ef ae cessot ar y llawr yn araf.—*St. Greal*, ‖ 104.

Ac yr hynny eissoes *discynnu* dyn y gan y gllyd.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 229.

Ac ym mhryd machludo haul, y gorchymmynodd Iosuah iddynt eu *disgyn* hwynt oddi ar y prenau.
Ios. x. 27 (cf. Salm. lv. 23; lvi. 7).

A phe dringent i'r nefoedd, mi a'u *disgynwn* hwynt oddi ynо.—*Amos* ix. 2 (cf. Esec. xxvi. 20; xxviii. 8).

Ni chocliaf fi na walliasai'r fan yma finnau, oni buasai i'm cyfaill, yn ddiymmanerch, fy nghipio i oddi wrth y tri th♦r hudol i ben uchaf yr ystrydoedd, a'm *disgyn* i wrth gastell o lys anferthol o faint.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 33.

Ar ol i'r corff fod am awr yng nghrog, *disgynwyd* ef i lawr.—*Gwyliedydd*, ii. 32.

Disgyn, -ion, *sm.* a descent; incursion.

A lluman adaw a garw *discyn*.
Taliesin: A.B. ii. 125 (cf. 126).

Oed aelau coel cuynau canvryn
Yn ryvel yn ryvaur *disgyn*.—*Cynddelw:* M.A. i. 245.

Disgynadwy, *a.* that may descend; descendible; falling.

Disgynbren, -au, -i, *sm.* a descending tree; a tree by means of which descent is to be made.

Disgynbrenu, *v.* to cause to come down a tree, or from the roost. Cf. *Esgynbren.*

Disgynbrenu aderyn, to unroost or dislodge a bird; to drive a bird from the roost.—*W.*

Disgynedig, *pt.* descended, come down; falling, descending; trochaic (in prosody).

Ony byd *discenedic* neu dreigeledic yr etiued.
Cyfreithiau Cymru, ii. 392.

Pan ddygwydd *disgynedig* oddi wrth y cyssefinawl.
H. Perri: Egl. Ffraethineb, xiii.

Acen ddisgynedig: see *Acen.*

Corfan disgynedig: see *Corfan, Cywyddawdl;* and cf. *Cyfrinach y Beirdd*, 26, 51.—W. O. Pughe: *Cadwedigaeth yr Iaith Gymraeg*, iii. 3.

Disgynedigion, descendants.

Disgynedigaeth, -au, *sf.* the action of descending, dismounting, or alighting; descension.

Disgynell, -au, *sf.* a parachute.

Dygodd gydag ef *ddisgynell* (math o len fawr agored, tebyg i wlawlen ar led), a chyssylltodd hi wrth y car, fel y gallai dori grym y cwymp, os dygwyddai i'r car ddyfod yn rhydd oddi wrth yr awyren.—*Brython*, iii. 108 (cf. 127, 128).

Disgynfa, faoedd, fëydd, *sf.* 1. a descent; a slope or declivity; a fall.

Ac efe yn nesâu at *ddisgynfa* mynydd yr Olewwydd, dechreuodd yr holl liaws dysgyblion lawenhau, a chlodfori Duw â llef uchel.—*Luc* xix. 37.

Y ffordd oreu a fyddai, bwrw y dwr drwy big crochan te, a rhoddi i'r dwr ddigon o *ddisgynfa*.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 287.

Nid mor hawdd oedd gorchfygu'r Moabiaid yn eu huchellecedd dyrys a mynyddig gan fyddinoedd nad oeddynt mor hyspys a hwy yn y ffyrdd a'r glynoedd, yr esgynfëydd a'r *disgynfëydd* a'r llochesau yn y cilfachau creiglog.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 116.

Uchder y *ddisgynfa* hon ydyw 162 troedfedd.
Gwyliedydd, x. 340.

Nid oedd ei llwybr yn wir mwyach yn wastad ac esmwyth, fel ag yr oedd yn ei *disgynfa* o'r bryn.
Y Bryniau Pell, 81.

Gwneuthur disgynfa ar wlad y gelyn, to make a descent on an enemy's country.

2. a place of descent; a place to descend, come, or resort to; a station; a harbour.

Disgynfa llongau, } a station, port, or harbour
Disgynfa i longau, } for ships.

Ar hyt Guy ha Hafrenn can ychoretov hai *discynua y loggou* bet aper Murio.—*Llyfr Teilo*, 143.

A Beli a wnaeth porth yn Llundein anryued y weith ae veint. Ac oe enw y gelwir ettwa Porth Beli. Ac y danaw y mae *disgynua y llogeu*.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 77 (cf. 95, 122).

A discu vtvnt wneithir cestil ar lan e moroet e lle i bei borthloeteu da a *discinvaeu llogeu*.
Brut Gr. ab Arthur (A): M.A. ii. 229.

Disgynfaen, feini, *sm.* a dismounting stone or horseblock.

Ar hynny Paredur a doeth yn aruawc yr lle a disgynnu a oruc ef ar y *disgynuaen*.—*St. Greal*, ‖ 244 (cf. 121).

Disgyniad, -au, *sm.* 1. a descending, a coming down; descension; descent; devolution; a fall or falling.

Kyndylan Gulhwch gynnifiat llew
Blei dilin *disgynnyat*
Nyt atuer Twrch tref y dat.
Llywarch Hen: A.B. ii. 280 (M.A. i. 107).

Ar dwys ganneit ffyd eur *disgynnyat*.
Casnodyn: M.A. i. 422.

Yr Arglwydd . . . a ddengys *ddisgyniad* ei fraich.
Esa. xxx. 30 (cf. Lef. xv. 16—18).

Ystyrir y darluniad hwn o'r *Disgyniad* oddi ar y Groes, yn un o orchestion Rubens.—*Cylchgrawn*, ii. 33.

Digitized by Google

2. disembarkation, disembarkment.

Y rhai . . . a ddilynasant gyda'r fyddin o wŷr traed i luddias eu *disgyniad* o'u llongau.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 314.

Disgyniad, -iaid, *sm.* a descendant.

Englynion er cofiant Ifor Hael . . . ac er anneroh ei *ddisgyniaid* o Deulu Tredegar.—*Daniel Ddu,* 47.

Disgyniaith, *sf.* anticlimax; bathos.

Disgynial, *v.* to descend, to come down.

Rac canhwynawl cann
Lluc yr duc dyvel
Disgynnyal alel.—*Taliesin:* A.B. ii. 95 (M.A. i. 60).

Disgynlawr, loriau, *sm.* a trap-door; the drop (of a gallows).

Parhausant mewn gweddi hyd nes y gollyngwyd y *disgynlawr,* a chauodd y byd arnynt dros byth.
Gwyliedydd, v. 320.

Disgynol, *a.* descending, descensive, descendent, descentional; falling; cadent.

Diengyd rhag y gwenwyn nis
Gallynt ei *ddisgynolion.*—*Seren Gomer,* iv. 55.

Arfollâ gain dremiant y *disgynawl* nerth.
W. O. Pughe: Palestina, 36.

Disgynsain, seiniau, *sf-m.* the fall of the voice; cadence; thesis.

Y mae *disgynsain,* mewn ystyr, yn wrthwynebol i bwyslais; o herwydd fel mae y pwyslais yn dyrchafu y sain, felly y mae *disgynsain* yn ei iselu.
Robert Davies: Ieithadur Cymraeg (1836), 95.

Y mae y *disgynsain* yn cyrhaedd ymadroddion, gwahanranau o areithiau, ac weithiau . . . ymddiddanion cyfain.
Isaac Jones: Gramadeg Cymreig (1841), 146 (cf. 145, 147).

Disgynseiniol, *a.* cadential, cadent.

Disgynu (ŷ), *v.*=*Disgyn.*

Disgynwr, wyr, *sm.* one who descends; a descendant; one who dismounts or alights.

Disgynydd, -ion, *sm.* one who or that which descends; a descendant.

Da y gwyddys i rai o *ddisgynyddion* Ham, megys yr hen Aiphtiaid, fwynhau goruchafiaeth gwladol.
Gwyliedydd, v. 229 (cf. 228).

Nis gallai *disgynydd* y Blaidd Rhudd foddloni i'r anfri hwn.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 432 (cf. 426).

Byddai yr hen Aiphtiaid . . . megys eu *disgynyddion* presennol, yn medru hudo a dofi seirff.
Gwyliedydd, vii. 24 (cf. 163).

Er bod *disgynyddion* Canaan wedi cael y flaenoriaeth dros amser mewn rhai achlysuron . . . *disgynyddion* o Iapheth yn benaf yw y cenedloedd Cristionogol.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 88 (cf. 90, 241).

Disgynyddes, -au, *sf.* a female descendant.

Disgyr, **Dysgyr,** -on, *sm.* a scream, a shriek; a screaming.

Ac ar hynny twryf a *disgyr* a gigleu y gyt.
Mabinogion, 20.

Bei gwreic Gyrthmwl bydei gwan
Hediw bydei bann y *dysgyr.*—*Llywarch Hen:* A.B. ii. 287.

Kigleu ym Maelawr gawr vawr vuan
A garw *disgyrr* gwyr a gwyth erwan.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 265 (cf. 245).

Disgyriad, -au, *sm.* a screaming or shrieking.

Disgyrio, **Dysgyrio,** **Disgyriain,** *v.* [dis- (dys-) + cri?—*D.*] to scream or shriek; to cry out; to wail.

Kyuodi o honunt wynteu yn y hol hi yr gaer. a llad y naw porthawr a oed ar y naw porth. heb *disgyryaw* un gwr. a naw gauaelgi heb wichaw vn.—*Mabinogion,* 118.

Nachaf y gwelyynt yn dyfot yn y herbyn gwreic wedw gwedy marw y hun mab. ar wreic yn gweidi ac yn *disgyryaw.*
Buchedd Dewi: LL.A. 114.

Dwys ym bryd beirt byd ba wnant
Disgyr gwyr am eu gwarant.
Prydydd Bychan: M.A. i. 886.

Disgyriain, **Dysgyriain,** *sm.* a screaming or shrieking; clamour, noise.

Ac velly gan gwynuan a *disgyryein* y rei meirw y deffroynt y rei byw.—*Ystt. Bren. Bryt.:* LL.C.H. ii. 48.

Nachaf y klywynt gynnwryf mawr. a *disgyryein* gwyr aruawc. a chogor brein.—*Mabinogion,* 158 (cf. 156, 157).

Disgyriol, **Dysgyriol,** *a.* screaming, shrieking; screaming loudly.

Disgyrniad, **Disgyrnad,** **Dysgyrnad,** -au, *sm.* a grinding, a gnashing; a showing of the teeth.

Disgyrnol, **Dysgyrnol,** *a.* grinding, gnashing; apt to show the teeth.

Disgyrnu, **Dysgyrnu,** *v.* [C. *discerny;* Br. *skrina, grigonsa;* Fr. *grincer*] to grind, to gnash; to show the teeth; to snarl.

Disgyrnu dannedd, to grind or gnash the teeth.

Tebic wyt weithon y dyn yn *disgyrnu dannedd.*
Ystt. de Carolo Magno, col. 447.

Pawb ys ofnawc rac eu safneu
Yn *disgyrnu dannedd* arnu.
Gruffydd Ynad Coch: M.A. i. 403.

Ffroeni a *disgyrnu dannedd* a oruc.—*Doethion Rhufain,* 11.

Disgywen, *a.* [dys- + cy- + gwên?] bright, clear, splendid; manifest; excellent, renowned.

Gweleis treis trydar ac auar ac aghen
Yt lethrynt lafnawr ar pennawr *disgowen.*
Taliesin: A.B. ii. 154 (cf. 235, 264).

Gwyr Powys pobyl *disgywen.*
Cynddelw: M.A. i. 258 (cf. 232, 230).

Ry dysgaf *disgywen* veirtyon
Rym gedir y gadeir amrysson.—*Cynddelw:* M.A. i. 261.

Nid dawnus pwyll na fytho *disgywen.*
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 11.

Nid wyf edifar, nac er newid gwedd
Ddisgywen, yn newidiaw ar y bryd
Ystyrnig.—*W. O. Pughe:* C.G. i. 109.

Bydded canwyll pwyll i'm pen, er gweled
Lliw'r goleu *disgywen.*
Iolo Morganwg: Salmau, 1. i. Rhag. 11.

Llywelyn Fychan wnaeth y lle'n *ddisgywen.*
Gwynionydd: Briallen, 17.

Ceir heb orphen, fain *disgywen,*
A mwn addien o'i mynyddau.
I. G. Geirionydd: Geir. 82.

Dishaul, *a.* sunless, shaded from sun; dark.

Disheulo, *v.* to shade from sun.

Disiarad, *a.* not talkative; taciturn, silent.

Disigl, *a.* [sigl] that is not shaken or moved; not wavering, unwavering; firm, steady; unshaken, unagitated; immovable.

Daliwn gyffes ein gobaith yn *ddisigl.*
Heb. x. 23 (cf. Salm. cxii. 7).

Dafydd, yn gymmaint ag iddaw ef gredu yn wir ac yn *ddisigl* yn Nuw, a lefarodd yn hyderus.
Huw Lewys: Perl, 194 (cf. 85).

Ei ryfeddol sanctaiddrwydd, ei ffydd *ddisigl,* a'i ragorol ddoethineb, a ennillasant iddo barchussach a godidocach enw, sef Iago y Cyflawn.
Ed. Samuel: Buch. yr Apost. 212 (cf. 156, 190, 208, 255).

Teyrnas ddisigl, a kingdom that cannot be shaken, an immovable kingdom.—*Heb.* xii. 28.

Sefyll yn ddisigl, to stand firmly, fast, or immovably; not to flinch.

Disigledd, **Disiglrwydd,** *sm.* immovableness, immobility, stability, steadfastness, firmness, fastness.

Disio, *v.* [dis] to play at dice, to dice.

Tri pheth a ddyly cerddawr eu gochel: llyna neu ddiota; puteinlo; a *disio* neu dablera.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 126.

Digitized by Google

Disiom, } *a.* without disappointment; without
Disom, } fail; certain.

Nid wyf mor gyfarwydd, o addysg gwybodrwydd,
A rhifo ei garedigrwydd, dda sicrwydd *ddi siom.*
Huw Morus: E.C. ii. 338.

Bwriadasant roddi'r ateb hwn, yn ol eu llyfrau a'u prophwydoliaethau eu hunain, byddai i'r Messiah ymddangos yn *ddisiom*, tu fewn i drigain a deng mlynedd.
W. Lewes: Dwy Daith, 158.

Disiomedig, } *a.* not disappointed; not to be
Disomedig, } disappointed or deceived; undeceivable; infallible.

Ac felly ti weli fod Rhagrith yn dra hy ddyfod at yr allor o flaen Immanuel *ddisiomedig.*
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 39.

Yn hytrach ei ffrwyth neu arwydd *ddisiomedig* o'i burdeb ydyw.—*Ed. Samuel:* Athraw. yr Eglwys, 92.

Hyn sydd wirionedd anhybus a *disiomedig.*
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 119.

O herwydd pa ham y mae yn ammhosibl i ni wneuthur barn *ddisiomedig* ar dda neu ddrwg.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 113 (cf. 96, 111, 160).

Disiomi, } *v.* to undeceive; to free from dis-
Disomi, } appointment, deception, or mistake.

Disiomedigaeth, } *a.* without disappointment
Disomedigaeth, } or deception; unmistakable; explicit.

Gan fod addewid Christ yn wir *disiomedigaeth.*
Ed. Samuel: Athraw. yr Eglwys, 215.

Disiomiant, } *sm.* freedom from disappoint-
Disomiant, } ment or deception.

Disiomiant, } *a.* without disappointment; with-
Disomiant, } out fail; undeceived; explicit.

Am ei fygythion ef, nid ynt ond celwyddog; canys er bod dy ddiben di a'r henddyn draw (gan edrych ar Amser) yn nesäu o fewn ychydig ddalenau, yn fy llyfr *disomiant* i; eto nid rhaid i ti unon soddi at Luciffer.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 64.

Chwi a'i cewch y tro nesaf yn *ddisiomiant.*
Gronwy Owain, 297.

Disiomol, } *a.* not disappointing; undeceiving;
Disomol, } certain.

Disiwr, wyr, *sm.* [dis+gwr] a dice-player.

Mi yrais i chwi o dŷ hwn lawer oferwr wedi yfed cynaliaeth ei dylwyth, ambell *ddisiwr* a chardiwr, ambell dyngwr tlws, ambell folerwr mwyn difalais.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 92.

Dislaw, } *prep.* below, beneath, under.—
Dis law, } *S.E.W.*

Delw wyd a gafas dolur,
Dislaw ei modd, *dislaw* mur.—*Ieuan Du Dai Bowain.*

Dislaw, }
Dis law, } *adv.* below, beneath.

Disle, *a.* [lle] divested of place; dislocated; displaced.

Dislead, -au, *sm.* a displacing, displacement; dislocation.

Dislĕu, *v.* to displace; to dislocate.

Disliw, *a.* [dis-+lliw: Br. *disliv*] colourless; pale, wan.

Disliwiad, -au, *sm.* a discolouring, discoloration.

Disliwio, } *v.* [Br. *disliva*] to divest of colour;
Disliwo, } to discolour.

Dislyncu, *v.* [llyncu] to vomit; to emit.

Dismaniad, -au, *sm.* a disappearing; disappearance.

Dismannol, } *a.* [dismant] disappearing; evan-
Dismanol, } escent.

Dismannu, } *v.* to disappear; to evanesce; to
Dismanu, } pass away.

Dismant, *sm.* [dis-+mant=man] disappearance; evanescence.

Dyma ddismant echrydus ar fara, here is a sad waste of bread.—*Iolo Glossary.*

Dismoel, *a.* [dys-+moel] bare, uncovered, exposed, denuded.

Nid esmwyth f' eagyrn *dismoel*
O'm pechod, digymmod goel.
W. Midleton: Salm. xxxviii. 3.

Dismoeli, *v.* to bare, expose, or denude.

Dodi hwn lle bo hwydd neu'r dolur wedi tori wrtho, a'i chadw hi heb *ddismoeli* un amser.
Meddygon Myddfai, ii. 315.

Dismol, *a.* [contr. of *disumol?*] smallish; small, little; indifferent; middling.—*W.*

Dismwth, *a.* [dys-+mwth: cf. *disymmwth*] sudden, quick, abrupt.

Dismythiad, -au, *sm.* a moving suddenly; a vanishing.

Dismythol, *a.* quickly moving; evanescent.

Dismythu, *v.* to move suddenly or quickly; to disappear suddenly; to vanish; to evanesce.

Ac oddi yna y *dismythwo* Ioseph a Mair a Iesu, ac a ddaeth i Capernaum drwy'r arfordiredd.
H. Salesbury. (*D.*)

Diso, *adv.* [dy-+iso=isod] beneath, below; down.

Dos i Dduw, wel *diso* ddydd!—*Dafydd ab Gwilym,* lix. 21.

Disodli, *v.* [di-+sawdl] to trip up the heels; to trip up; to supplant; to undermine.

Pob brawd gan *ddisodli* a *ddisodla,* a phob cymmydog a rodia yn dwyllodrus.—*Ier.* ix. 4 (cf. Gen. xxvii. 36).

Ei hunan fe *ddisodlodd,* Diswyddodd angeu sur.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 293.

Disodliad, -au, *sm.* a tripping up of the heels; a supplanting; an undermining.

Disodlwr, wyr, } *sm.* a supplanter; an under-
Disodlydd, -ion, } miner.

Onid iawn y gelwir ei enw ef Iacob [°sef, *Disodlwr*]? canys efe a'm disodlodd i ddwy waith bellach.
Gen. xxvii. 36.

Edrychwn yn nesaf pa farn a oddiweddodd *ddisodlwr* ei frawd, a chymharwn ei gyflwr ef â chyflwr ei frawd disodledig.—*Gwyliedydd,* v. 322.

Disom, *a.* See *Disiom,* &c.

Dison, *a.* [di-+son: C. *dyson*] 1. without noise; noiseless; silent; not loud.

Pan uynho y urenhines kerd ystauell, canet y bard kerd o Camlan a hynny yn *disson* rac teruysgu yn y neuad.
Cyfreithiau Cymru, i. 678.

Dos yn iach, un *dison* wyf.—*D. ab Gwilym,* cxxvi. 16.

Gwir diseml a gwar *dison.*—*Gr. ab Meredydd:* M.A. i. 463.

Mal cawr aruthr yn rhuthraw,
Mal lladron *dison* y daw.—*Gronwy Owain,* 88.

2. not mentioned; not talked of.

Dyn dison am dano, a person not talked of (by his neighbours); a man about whom nothing (unfavourable) is said; an irreproachable person.

Disoniarus, *a.* not sonorous; noiseless, silent.

Pob un ar neilldu a weddïai wrtho ei hun yn ddistaw ac yn *ddisoniarus.*—*Theo. Evans:* D.P.O. 315.

Disorod, *a.* [sorod] free from refuse matter; cleared of dross; defecated.

Digitized by Google

Disorodi, *v.* to cleanse from dross; to defecate.

Disothach, *a.* clear from rubbish, dross, or impurities.

Y mae ein gobaith ar Dduw a'i cadwodd [y Gymraeg] mor rhyfedd, yn *ddisothach*, ddigymmysg, ac yn ddilwgr er ys mwy no dwyfil o flynyddoedd a seithgant.
Dr. Th. Williams (Y Greal, 65).

Dangos cyfryw arwyddion didwyll, diffuant, o'n caredigrwydd ag a ddangoso ei fod yn bur ac yn *ddisothach*.
Edward Samuel: Pregeth, 3.

Dispar, *a.* [dis- + par: L. *dispar*] 'void of parity;' odd, dissimilar, unlike.—*P.*

Dispeiliad, **Dyspeiliad**, -au, *sm.* a drawing out (of the sheath or scabbard); an unsheathing.

Dispeiliad cleddyf, the drawing of a sword.

Dispeilio, **Dispeilo**, **Dyspeilio**, *v.* [peilio? cf. *paladr*, *pelydr*, &c.] to draw (from the sheath or scabbard), to unsheathe; to brandish.

A thorri y deu baladyr a orugant, a *dispeilaw* deu gledyf a wnaethant, ac ymgyfogi.—*Mabinogion*, 172.

Gwedy klybot o pawb o nadunt y rac dywededyc arwyd *dyspeylyaw* eu kledyveu a orugant pawb o nadunt.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 96.

Ac mal y deuth yno *dispeilaw* cledyf a wnaeth.
Mabinogion, 132 (cf. 186).

Ac ar hynny sef a wnaeth y Saeson *dispeilaw* eu kylleill.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 139 (cf. 211).

Yn uchel rhagynt yn *dyspeiltaw* cleddyf Duw
A fflamiai, ter a chwyrn fal seren wib.
W. O. Pughe: C.G. xii. 703.

Dispeiliog, **Dyspeiliog**, *a.* unsheathed; drawn; brandished; exposed.

Dispeinio, *v.*=*Dyspeinio.*—*Gronwy Owain*, 44.

Disperod, *sm.* [L. *disparatio*] separation; a wandering, a going astray.

Ar ddisperod, wanderingly, astray; scatteredly.

Atuyd kalaned gwein, a brein *ar ddisperawt*.
Taliesin: A.B. ii. 150.

Cwymp y ser *ar ddisperod*
O wawl a nerth i wael nod.—*W. Wynn:* Cywydd y Farn.

A'u trysorau *ar ddisperod*,
Wrth eu gwely, yn y gwaelod.—*Cylchgrawn*, ii. 60.

Myned ar ddisperod, to go astray; to wander.

O bydd gan ddyn gant o ddefaid, a *myned* un o honynt *ar ddisperod*; oni ad efe yr amyn un cant, a myned i'r mynyddoedd, a cheisio yr hon a *aeth ar ddisperod*?
Matt. xviii. 12 (cf. 13).

Dyna, y mae'n debyg, yr achos iddynt *fyned ar ddisperod*.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 211.

Disperod, *a.* wandering, erratic, straying, astray.

Nid hawdd rhifo'r ser sy *ddisperod*;
Na dala gwynt; na dilëu ia ac ôd.—*L. G. Cothi*, i. xvi. 31.

Ser disperod, wandering stars=the planets, as distinguished from the fixed stars: also called *ser gwibiog*. See *Barddas*, i. 402.

Fe'i clywai'r *ser disperod*;
Llemain a wnai'r rhai'n i'w rhod.—*Gronwy Owain*, 80.

Y mab disperod, the wandering son, the prodigal son.

Y *mab disperod*, colledig, a ddysgodd y cyfryw amynedd yn ei drueni a'i flinfyd, fal y doedodd wrth ei dad, Na chymmer ddim o honof, ac na wna i mi o hyn allan fal i fab, ond fal i was cyflog.
Huw Lewys: Perl, 108 (cf. 120, 177).

Displeinio, **Dyspleinio**, *v.* [pleinio: cf. *ysplan*, *ysplen-nydd*: L. *splendidus*] to brandish; to flourish or wave (a weapon).

Galw Anacletus kedymdeith Antigonus a oruc attaw, a dywedut wrthaw yn y wed hon gan *displeiniaw* [printed *displeimaw*] cledyf arnaw.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 46.

Displygu, *v.* [plygu] to unfold; to display.

Disporth, *a.* [porth] without support, supportless.

Disporthi, *v.* not to support; not to nourish; to atrophy.

Disporthiad, *sm.* a ceasing to support or to nourish.

Disporthiant, *sm.* atrophy; emaciation.

Disprawf, profion, *sm.* [prawf] disproof, confutation.

Disprofi, *v.* to disprove, to confute.

Disprofiad, -au, *sm.* a disproving or confuting; confutation.

Dispur, *a.* [dis- + pur] impure; unclean.

Guarchedid eluyd dyspyd *dispur*.
Cynddelw: M.A. i. 248 (cf. 306).

Dispwyll, *sm.* See *Dyspwyll*, &c.

Dispydd, *a.* [dy- + hyspydd]=*Dysbydd*.

Efe a osododd y llifeiriant yn ddiffaethwch: a ffynonau dyfroedd yn *ddispydd*.—*Ezegoh Morgan:* Salm. cvii. 33.

Dispyddu, *v.*=*Dyspyddu*, *Dyhyspyddu*.

Par ti *dispydu* y llyn trwy frydyeu. . . Ac erchi *dispydu* y llyn a wnaeth y brenhin. A gwedy y *dispydu* y llyn, y mein megys y dywawt Myrdin a gahat.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 261 (cf. Ll.C.H. ii. 143).

Tri pheth anhawdd eu gwneuthur: *dispyddu* y môr; symmud mynydd yn gyfan; a gwr da o fab y crinwas.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 247.

Dist, -iau, -au, *sm.* [C. *gyst*, *jyst*; Ga. *dist*] a joist; a beam.

Swmerau ein tai sydd gedrwydd: ein *distiau* sydd ffynidwydd.—*Can. Sal.* i. 17.

Distadl, *a.* [di- + ystadl?] contemptible, base, despicable, of the meanest sort, mean, worthless; frivolous; paltry.

Nor dyn gwannaf a *distadlaf* yn y datleu.
Gruffydd Ynad Coch: M.A. i. 402 (cf. 536).

Druan i'r dylluan deg,
Radd *ddistadl*, na rydd osteg!—*D. ab Gwilym*, clxxxiv. 1.

Govit mawr oed y wr *distadyl* gwneuthur kyfiawn kymeint a honno.—*St. Greal*, 222.

Tri nod anwr: dal gormod sylw ar a fo *distadl*; drwgdybio yn ddiachos; ac heb ynddo draserch â neb un o'r byd.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 229.

A phethau *distadl* y byd, a phethau dirmygus, a ddewisodd Duw.—1 *Cor.* i. 28.

Distadl a gwael pob hawdd ei gael.—*Iolo Mss.* 227.

Ond tostur yr achwyn yma gan Dduw yn erbyn peyfed daiarol o'r gwaelaf ac o'r *distatlaf*?
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. vii. 18 (cf. 2; x. 7).

Distadledd, -au, *sm.* contemptibleness, abjectness, worthlessness, meanness; frivolity.

Tri pheth ni chân dedwydd: *distadledd*; anwiredd; a sarrugrwydd.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 267 (cf. 126).

Nid ymgeisiant Feirdd Morganwg â'r cyfryw *ddistadledd* o wael-gamp celfyddyd.—*Cyfrinach y Beirdd*, 133.

Distadleddau, frivolities, trifles.

Distadleddau coeg-wybodaeth, a gorchestion diansawdd ac anfuddiol.—*Iolo Morganwg:* Cyfr. y Beirdd, Rhag. 14.

Distadliad, -au, *sm.* a treating as contemptible or worthless; a making worthless.

Distadlu, *v.* to treat or count as contemptible or worthless; a making worthless; to be contemptible or mean.

Yr awr hon y dirmygir pregethwyr, y *distedlir* proffeswyr, a'r dynion da oll gan mwyaf a gymmerir ar fugeilres.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 144.

Digitized by Google

Distain, *pl.* disteiniaid, *sm.* [A.S. *discthen:* 'a dish-servant, dish-bearer, minister of food, sewer; discifer, discophorus, cibi minister.' Bosworth's A.S. Dictionary (by Toller), s.v.] 1. the steward of the household (in the prince's court); a house-steward. He was the third officer of the court. In the Latin codex *Dispensator* is the equivalent term. See *Dispensator* in Du Cange.

Trydyt eu e *dysteyn*. . . Ef a dele ranhu e lleteu; ydau ehun e nessaf yr llys ar holl suydguyr y kyd ac ef. Ef essyt pen ar er holl suydguyr. . . E *dysteyn* a dele medhu en guastat e buyt en e kecyn ar llynn en e uedkell.—E *dysteyn* a dele guasanaethu ar cuedyn ar uuyd a llynn, ac ar y seytuet ar lyn.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 18 (cf. 12, 18, 22, 24, 30, 40, 44, 46, 48, 50, 52, 158, 234, 344, 352, 356, 358, 360, 604, 622, 628, 640, 642; ii. 16, 18, 386, 616, 664, 752).

Gobyr kefreithawl y brenhin o tir e bo suyd ohonau mae pen hebokeyaet neu *disteiniat* neu keghellorait neu lumenitiah neu varony punt.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 158.

Sef yd oed yno gwas yr *distein*. a dyuot a oruc att y *distein*. a dywedut idaw welet y kyfryw wr ac a welsei yn y coed. sef a oruc y *distein* yna peri kyfrwyaw y uarch.
Mabinogion, 284 (cf. 244, 246).

Yn y ulwydyn rac wyneb y bu uarw Gronw ab Eidnyuet *distein* y tywyssawc noswyl Luc euengylwr.
Brut y Tywysogion, 356.

Ac yna y dywawt y *distein*. Pa le y mae iawn arglwyd gorchymun y uorwyn. Y Wenhwyuar ae llawuorynyon heb ynteu. ar *distein* ae gorchymynnawd.—*Mabinogion*, 261.

Ac or da hwnnw prynu y gann y brenhin medyant. a swyd. nyt amgen bot yn *distein* idaw.
Buchedd Beuno: Ll.A. 125.

2. In the Bible *distain* is used to translate the Heb. שַׂר טַבָּחִים and רַב טַבָּחִים (Sept. ἀρχιμάγειρος).—*Gen.* xxxvii. 36; xxxix. 1; xl. 3; xli. 10, 12; 2 *Bren.* xxv. 8, 10, 11, 12. The same original is rendered *pen-distain* in *Dan.* ii. 14; and in *Ier.* lii. 12, 14, 19, *penaeth y milwyr*, with the marginal reading of *penlleiddiad*. In all these passages the English version consistently has 'captain of the guard.'

3. a steward; a superintendent, an overseer.

A drud geir dreic Gwynnyonyt
A *distein* gwawr Prydein prut.
Prydydd Bychan: M.A. i. 387.

Distain yn Llaneurgain yw,
Dŷ maen fal Dewi Mynyw.—*Guto'r Glyn.*

Hwy a roddasant orchymmyn y brenin i *ddistain* y brenin, ac i lywiawdwyr Coelosyria a Phenice.
1 *Esd.* viii. 67.

[The word in this passage is plural in the original (οἰκονόμοις), and in the English version].

Ac o'r achos hwnw efe a osododd *ddistain* neu benrheolwr tano i farnu materion y llys a'r deyrnas. Y *distain* hwnw a elwid Gwrtheyrn.—*Theo. Evans:* D.P.O. 94.

Ei *ddistain* yw cynnildeb cyfeillgar; cymmedroldeb sydd ar ben y ford yn tori i bob un y dogn goreu, digon.
Gwyliedydd, iii. 272.

Ar neuadd yn drefnhäus, a heiliad, a
Disteiniaid, medru dichell, neu wael swydd.
W. O. Pughe: C.G. ix. 35.

Tir-fesurydd, hynafiaethydd, *distain* clodrydd, un o'i cllydd ef ni welaf.—*Gwyliedydd*, vi. 187.

Felly cyfrifed dyn nyni megys gweinidogion Crist, a *disteiniaid* dirgelediaethau Duw. Yma, ym mhellach, y gofynir yn y *disteiniaid* mai ffyddlawn y ceir neb.
Dr. T. Briscoe: T.N. (1 Cor. iv. 1, 2).

Arglwydd uchel ddistain, lord high steward.

Distal, *a.* [tâl] worthless, contemptible.

Distaw, *a.* [dys- + taw] silent; calm, tranquil; still, noiseless; tacit.

Yna parattoi llyghes a wnaethant. a hynny yn dirgel ac yn *distaw*. rac gwybot or genedyl honno ystyr y neges.
Mabinogion, 95.

Cyfod rhag tyst yn *ddystaw*,
Ac agor y drom-ddor draw.—*D. ab Gwilym*, lix. 41.

Diolwch i Dduw hollgyvoethawg y dlodi ehun. a hynny yn *distaw*.—*Ipotis*, ‡ 18.

Goreu ar lances o ddefawd yn *ddistaw*.
Dorthineb y Cymry: M.A. iii. 92.

Hardd ar ferch fod yn *ddistaw*.
Englynion Eiry Mynydd: M.A. i. 546.

Tad planed wastad, Tad niwl *distaw* gwyn,
Tad i'r gwynt, gwaith ei law.—*L. G. Cothi.*

Llef ddistaw fain, a still small voice.—1 *Bren.* xix. 12.

Tywydd distaw, calm weather.

Yn ddistaw bach, very silently; very privately or confidentially.

Dyn distaw, a silent or reticent person; one who can keep his thoughts to himself, or may be trusted with a secret.

Myned drosto yn ddistaw, to pass (a thing) over in silence.

Cydsyniad distaw, a tacit assent.

Lle distaw, a quiet place; a place free from noise or disturbance.

Ai diystyr *lle distaw*
Wrth grochlef yr holl dref draw?—*Gronwy Owain*, 55.

Distawaidd, *a.* of a calm nature, quality, or disposition; quiet.

O'm llwybrau *distawaidd* saf, Drachwant, ym mhell.
Daniel Ddu, 95.

Distäwch, *sm.* = *Distawrwydd.*

Rhaid wrth *ddistawwch*, cyfle didrwst, a bwrdd gwastad i ysgrifenu.—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 197.

Distawedig, *pt.* silenced, hushed.

Distawgar, *a.* disposed to be silent; of a silent or reticent disposition.

Bod yn gwyliyddgar; bod yn *ddistawgar;* a bod yn ufuddgar.—*Trioedd Moes:* M.A. iii. 193.

Distawiad, *sm.* a silencing; a becoming silent.

O Hilion Nef, Gorseddau Nwyfre, gan
Bwyll maith y daeth *distawiad* a llaesâd
Hyd arnom, er diofnawd.—*W. O. Pughe:* C.G. ii. 449.

Distawrwydd, *sm.* silence; stillness, calmness, tranquillity.—*Salm.* xciv. 17; cxv. 17.

Nid oes cyferbyn well yn erbyn tafodau drwg na'n harfogi ein hunain â goddefgarwch, llaryeidd-dra, a *distawrwydd*.—*Ed. Iames:* Hom. i. 191 (cf. 185).

Mewn *distawrwydd*, rhyngtho a'i galon ei hun, heb glywed llais ei eiriau.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. ii. 5.

Ni thorir y *distawrwydd* marwaidd, ond gan gryg grechwen piog.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 353.

Distawu, *v.* = *Distewi.*

Tristäu draw a *distawu*,
Gan bres yr Iuddewes ddu.—*D. ab Gwilym*, lxxxiv. 41.

Distawydd, -ion, } *sm.* one who puts to silence;
Distäwr, wyr, } a silencer.

Disteines, -au, *sf.* a stewardess.

Disteiniaeth, -au, *sf.* [distain] stewardship.

Gobr brenin o dir ni bo swydd o honaw, chweugaint: o dir y bo swydd o honaw, mal penhebogyddiaeth, neu *ddisteiniaeth*, neu gynghelloriaeth, neu faeroni, punt.
Leges Wallicæ, II. x. 35 (cf. C.C. i. 158).

Dyro gyfrif o'th *ddisteiniaeth*, canys ni elli fod mwy yn ddistain. Ac ynddo ei hun y dywedodd y distain, Pa beth a wnaf gan fod fy arglwydd yn dwyn y *ddisteiniaeth* oddi arnaf! . . . Gwn pa beth a wnaf, fel pan y'm symmudir o'r *ddisteiniaeth*, y derbyniont fi i'w tai.
Dr. Th. Briscoe: T.N. (Luc xvi. 2, 3, 4).

Digitized by Google

Distell, -au, *sf.* [cf. *distyll*] a drop; that which trickles or distils.—*D.*

Distelliad, -au, *sm.* a dropping or trickling; distillation.—*D.*

Distewi, *v.* [distaw] to be or become silent; to hold one's peace; to become still, calm, or tranquil; to silence.

Yn wir honestach yw *distewi* na son am y modd y cadwent broffes eu diweirdeb.—*Ed. Iames:* Hom. i. 73.

Distëwch, drigolion yr ynys.
Esa. xxiii. 2 (cf. xli. 1; xlii. 14; lxii. 6).

Yna gadawodd fy Nhywysog i mi orphwys peth drachefn; ac yn hyny o seibiant dygwyddodd i'r taranau a'r corwynt-oedd croch *ddistewi* gronyn.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 73.

Ar fy nghlust draw mae ust y don yn *distewi*.
I. G. Geirionydd: Geir. 185.

Gostega, distawa, peace, be still.—*Marc* ix. 39.

Distawa, a dos allan o hono, hold thy peace, and come out of him.—*Luc* iv. 35.

¶ Most of the finite verbs are formed from *distawu*, but that infinitive is rare.

Distraw, *sm.* [dy- + ystraw] a sudden impulse.—*P.*

Distrawch, *sm.* a sudden impulse, impulsion, or impression.—*P.*

Llywarch ym gelwir llu dyganre
Lloegyr dystryw *distrawch* dllawch dile.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 292.

Distreuliad, *sm.* a wasting; disparagement.

Distreulio, *v.* [dys- + treulio] to waste; to disparage, to reproach, to abuse.

Gwyn eich byd pan y'ch anfria [*cabla, *destreulia*] dynion, a'ch erlid, a doedyd pob rhyw ddrwg am danoch, er fy mwyn, ac wy yn gelwyddawg.
W. Salesbury: Matt. v. 11 (cf. Luc vi. 22).

Distrewi, *v.* See *Dystrewi*, &c.

Distrych, *sm.* ['videtur fieri à *trochi*, & significare idem quod *trochion*.'—*D.*] foam, froth, spume.

Dan grwydr, enaid dyn digrif,
Pan elych, lliw *distrych* llif.—*D. ab Gwilym*, lx. 51.

Yr wylan deg ar fol gwaneg,
Ym mhlith *distrych* yr heli crych.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 239.

Distrych y don, the foam of the wave.

Melynach oed y phenn no blodeu y banadyl. gwynnach oed y chnawt no *distrych tonn*.—*Mabinogion*, 117.

Pob un a'i dyfalai yn wen fal ôd unnos, arall a'i dyfalai ail *distrych y don*, a rhai yn orlliw gwyn y calch ar gaer gerwyneb haul y bore.—*Iolo Mss.* 163.

Cyn wyned a distrych y don, as white as the foam of the wave.

Distrych y môr, the foam or spray of the sea; a spray.

Ail *distrych môr* ar greigiog ael
Cyfrifaf ei drysorau gwael.—*Blodau Ieuainc*, 86.

Distrych, *a.* [L. *destrictus?*] severe, sharp, rigid, keen, piercing?

Yn d'erbyn di yn unig
Y gwneuthym hyn oedd ddrwg,
Yn dy lân olwg *distrych:*
Fel y'th gyflawner yn ol d'air,
Yn burair pan y bernych.—*Edm. Prys:* Salm. li. 4.

A phob ryw distryw trwy *distrych* flamdawd.
Casnodyn: M.A. i. 427.

Distrychiad, -au, *sm.* a foaming, frothing, or spuming.

Distrychol, *a.* foaming, frothing, spuming; spumous, foamy.

Distrychu, *v.* to foam, froth, or spume.

Distryw, -iau, *sm.* [L. *destruo*; C. *dystrewy*] destruction, ruin.

A dolur vu gan y brenhin gwelet y *distryw* hwnnw.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 165.

Yr godef diuur a *distryw*, ac estwng arnaf uinheu.
Cyfreithiau Cymru, ii. 190.

Pyrr vab Achelarwy a dugassei y genedyl honno gantaw gwedy *disdryw* Tro y dial y dat.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 42.

Ac yna y vlwydyn nessaf y honno y bu *distryw* y Deheubarthwyr gan Offa vrenhin.—*Brut y Tywysogion*, 6.

Gwr dic y *ddistryw* llyw llysseitaf
Gwr dygyn y alar kar kywiraf.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 368 (cf. 337, 383, 427).

Distryw ac afiwydd sydd yn eu ffyrdd.—*Rhuf.* iii. 16.

O'm Breninllys Isaf yn y Gollborth fawr ar *Ddistryw*.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 64.

A gwaed a *distryw* 'r giwdawd estron.—*Gro. Owain*, 122.

Distryw iti, deyrn gormeswl!—*Iago Trichrug.*

Cenedl distryw, the people of perdition.—*Eccl.* xvi. 9.

Dinystr a distryw, desolation and destruction.—*Esa.* li. 19.

Dinas distryw, the city of destruction.—*Esa.* xix. 18.

Yr hen Ddistryw, old Destruction, one of the names of the devil.

Yr hen Sarff o'r henoes oedd,
Yr hen Ddraig erwin ddrygoedd,
Hen Gythraul, diaraul dôn,
Hen *Ddistryw*, henaidd estron.
Cywydd Enwau y Fall (Llanover Ms. 32).

Distryw, *v.* [L. *destruo*] to destroy; to ruin; to demolish.

Ac ef a gadarnhaei bot yn da hynny y *distriw* kenedyl y Coranyeit.—*Mabinogion*, 96.

Helenus ynteu a dehogles rac llaw *distryw* o wyr Groec Gaer Droea.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 7 (cf. 181, 182, 183, 193, 235, 236, 238).

Doluryaw a oruc o welet yr eglwysseu gwedy eu *distryw* hyt y dayar.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 159.

Dylywch vyg kyghori am Arsi vrenhin val y clywssawch drwy y gedernit yr dyvot o honaw ym kyuoeth. ac vot yn llosgi vyg kestyll. ac yn torri vyn dinassoed ac yn *distriw* y gristonogaeth hyt y gallo bellaf. . . Kanyt oes dim gan y Garsi hwnnw ny bo yn barawt. a pheunyd yn *distryw* dy wlat.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 425 (cf. 500).

A brysyaw a oruc y *distryw* y Saeson.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 188 (cf. 42, 45, 56, 89, 104, 157, 158, 174, 179).

Ti a wrenty y Arthur y gyuoeth. yr hwnn a daruu idaw ef bygythyaw y *distryw* oll.—*St. Greal*, ‖ 189 (cf. 247).

Ac odyna llosgi Croes Hyswallt ac diffeithaw ae *distryw*.
Brut y Tywysogion, 292 (cf. 238, 266, 306, 344, 350).

Yna wedy kynnullaw a *distryw* y wlat o le y le y deuth hyt yn Seint Iac. a diwreidaw pob peth or a gyvaruu ac ef yno. ac y gyt a hynny *distriw* yr Eglwys ae llyfreu ae thableu.
Yst. de Carolo Magno, col. 499.

Tri pheth a *ddistrywant* gerddwr: noethi; ac anghydnabod; ac anghanmawl.—*Edeyrn:* Dosparth, 39.

Y kwyn anyanyawl a *distryw* y kwyn personawl o gwybyl—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 386.

Christ . . . a ymrodhes ehun yn aberth gwahanredawl y dhwyn ac y *dhestryw* y pechotae.—*Lucidar*, ‖ 83.

A doluryaw a oruc yn vawr or achaws hwnnw. ac yn vwyaf oll o achaws ry *ddistryw* yr Eglwysseu.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 270 (cf. 238).

Distryw, *a.* destructive; villainous, nefarious.

Ac wrth hynny nyt ryued bot yn gas Duw y genedyl y wnelei y ryw *distryw* weithredoed hynny.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 376.

Distrywedigaeth, **Distrywiedigaeth**, -au, *sf.* destruction; demolition.

Teir gwraged a gauas pryt Eua yn tri thraean. Diadema gorderch Eneas Yscwydwyn. ac Elen Uannawc y wreic y bu *distriwedigaeth* Tro drwy y phenn. a Pholixena uerch Priaf Hen vrenhin Tro.—*Trioedd:* Ll.C.H. i. 297.

Digitized by Google

A thrwy y hun y dangosset idaw *distrywedigaeth* y wyr.
Yst. de Carolo Magno, col. 475.

Yn y ulwydyn honno y hedychawd Henri vrenhin hynaf a Henri ieuaf, gwedy diruawr *distrywedigaeth* Normandi ac chyfnessafyeit wledyd.—*Brut y Tywysogion*, 224.

Nid aeth *distrywedigaeth* yr ynys . . . fyth allan o gof y rhai a'i gwelsent.—*Ch. Edwards*: Hanes y Ffydd, 184.

Distrywgar, *a.* given to destroying; wasteful; destructive.

Distrywgarwch, *sm.* wastefulness; destructiveness.

Distrywiad, -au, *sm.* a destroying; destruction, demolition.

Gregorius, fal un oedd yn gweled, ac yn canfod o'r blaen yn ei feddwl, *ddistrywiad* pob peth, a ysgrifenodd at Ioan esgob Constantinopl.—*M. Cyffin*: Diff. (1671), iv. 23.

Pa hawl oedd genych chwi i fendithion eich creadigaeth . . . i oruwch-naturiol *ddistrywiad* byddin Sennacherib?
Gwallter Mechain: Eglur Olygiad, 90.

Distrywiadwy, **Distrywadwy**, *a.* destructible, that may be destroyed.

Distrywiaeth, **Distrywaeth**, -au, *sf.* destruction; demolition; ruin.

Diwedd y ffordd honno oedd anobaith a *distrywiaeth*.
Marchog Crwydrad, ii. 7 (cf. i. 11; iii. 5).

Y Groes sydd obaith i'r Cristion, adgyfodiad i'r meirw, tywysydd i'r deillion, ffon i'r cloff, cysur i'r tlawd, genfa i'r cyfoethog, *distrywiaeth* i'r trahäus, penyd i'r anfucheddol.—*Morys Clynog*: Athrawaeth Gristionogawl, 4.

Distrywiedig, **Distrywedig**, *pt.* destroyed; demolished; ruined.

Canys *distrywedig* fydd y genau a ddywetto enwiredd.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 564.

Yr oedd canwriad yn dygwydd arwain catrawd o filwyr trwy'r ddinas *ddistrywiedig*.—*Nicander*: Dwyfol Oraclau, 16.

Distrywio, **Distrywo**, *v.* [L. *destruo*; C. *dystrewy*, *destrewy*] to destroy; to ruin; to demolish.

Ugein mlyned ac wyth cant oed oet Crist pan *distrywyt* castell Deganwy.—*Brut y Tywysogion*, 10 (cf. 346, 372).

Yna y sychir Llwyn Daned. neu yna y *distrywyr* coet y Denmarc.—*Ystoria Bren. Bryt.*: Ll.C.H. ii. 149.

Hanner nos. yr awr y *destrywiodh* yr angel yr Aipht.
Lucidar, § 115 (cf. 36, 99, 106).

Yr arglwydes yna a beris y bedydyaw a chwbyl or ae mynnawd y gyt a hi. ac ar nys mynnawd hi a beris y *distrywaw* ae diua or byt.—*St. Greal*, § 250.

Gan *ddistrywio* y *distrywiaf* bob dim oddi ar wyneb y ddaiar. . . *Distrywiaf* ddyn ac anifail; *distrywiaf* adar yr awyr a physgod y môr.—*Seph.* i. 2, 3.

Distrywiol, *a.* destructive, destroying; ruinous; pernicious.

Gwelais ddynion yn ddiofn . . . yn llyncu cyfeiliornadau *distrywiol*, ac yn eu taenu ar led o'u hamgylch.
Gwyliedydd, v. 210.

Distrywiwr, wyr, **Distrywydd**, -ion, *sm.* a destroyer, a demolisher, a destructionist.

Y doethaf ym plith llwoed. *distrywwr* Sarassinyeit. mawr wr yr yscoloed.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 490.

Fe a aeth yn anrheithiwr ac yn *ddistrywydd* cystadl o'r eglwys . . . ag o'r ymherodraeth Gristionogaidd.
Ed. Iames: Hom. iii. 280.

Distrywiwr pob mawr beth; cynhyrfwr pob peth gwael.
H. Perri: Egl. Ffraeth. xii.

Distrywllyd, *a.* given to destroying or wasting; wasteful.

Distrywu, *v.* = *Distrywio*, *Distryw*.

Ytti yd archafi heno ac yn wastat uot yn vugeil da ym eneit i. rac dyuot bleid a *distrywu* yr eneideu.
St. Greal, § 26.

Distwng, *v.* [dy- + gistwng] to lower; to bring down; to abase. See *Gostwng*, *Gestwng*, *Gystwng*.

Distŵr, **Diystŵr**, *a.* [ystŵr] without noise, stir, or bustle; silent.

Heddwch i dristwch, am dro,
A gaf, fy hun i gofio,
I *ddi 'stŵr* dda ystyriaw
Yn ddwys am yr hyn a ddaw.—*Daniel Ddu*, 128.

Distyll, -ion, *sm.* [L. *distillo*] 1. a dropping, a trickling.

2. the ebb or low water, ebb-tide.

Mae ein gwanwyn yn darfod, ein lamp yn treulio, a thrai ein heinioes yn tynu'n raddol at y *distyll*.
Nicander: Dysga Farw, 194.

Rhwyg aerflawdd llwgrgawdd Lloegr-gad *ddistyll*.
Prydydd Breuan: M.A. i. 491.

Llygad y distyll, the turn of the ebb.

Distyll-for, the reflux of the tide; the ebb.—*S.*

Distyll trai, the low ebb; low-water mark.

Ar y distyll, on the ebb or reflux.

Llanw a distyll, flow and ebb.

Distyll y gwyliau, the end or conclusion of the (Christmas) holidays.

Dygwyl yr Ystwyll, *distyll y gwyliau*.—*C.S.*

Byddai yr hen bobl dda gynt yn arfer galw yr Ystwyll yn *ddistyll* y Nadolig.—*Llan*, Ion. 18, 1895.

3. that which is distilled; a distillate; a distillation.

Distyll y bywyd, the water of life (*aqua vitae*).

Cais werth dwy geiniog o sebon du, gwerth tair ceiniog o arian byw, gwerth tair ceiniog o *ddistyll y bywyd*, a phwys o floneg baedd coch os ceir; a phan fo toddaid y bloneg, bwrw iddo'r sebon du a'r edlyn *distyll*, a'i drachymmysgu.—*Meddygon Myddfai*, ii. 331 (cf. 794).

Distyll bendigaid, the blessed distillate (*aqua benedicta*).

Cais geiniogwerth o sebon du, tair ceiniogwerth o arian byw, eliw gliwydden dwy geiniogwerth, tus, dwy geiniogwerth, dwr bywyd a elwir y *distyll bendigaid*, gwerth grod.
Meddygon Myddfai, ii. 329 (cf. 244, 533, 680, 684, 688, 791).

Distyll rhos, distilled rose-water.

Cais *ddistyll rhos* cochon ac ychydig gwŷr melyn.
Meddygon Myddfai, ii. 7 (cf. 361).

Distyll ffenigl, distilled fennel-water.

Cymmer *ddistyll ffenigl*, ac amcan o fèl newydd.
Meddygon Myddfai, ii. 34 (cf. 18).

Distyll gwin, distilled wine, spirit of wine.

Bwrw am ei ben werth tair ceiniog o'r *distyll bendigaid*, neu o *ddistyll gwin* neu osai.
Meddygon Myddfai, ii. 274 (cf. 301, 680, 689).

Cymmaint yw yr oerni fel y rhewa *distyllion gwin* yn y gwresfesurydd.—*Gwyliedydd*, vi. 15.

Distilladwy, **Distilliadwy**, *a.* that may be distilled, distillable.

Distylldy, dai, *sm.* a distilling-house, a distillery.

Y mae yn y lle lawer o *ddistylldai* a darllawdai mawrion.
Parthsyllydd, ii. 438.

Distylledig, **Distylliedig**, *a.* distilled, extracted by distillation.

Y mae rhai wedi meirw wrth yfed y dwfr *distylliedig* o honynt.—*Th. Charles*, s.v. 'Llawryf.'

Mae'n wir nad yw y gwirod *distylliedig* ddim yn fflamio yn ei gwpan.—*Samuel Roberts*: Amaethyddiaeth, 15.

Distyllfa, -oedd, fëydd, *sf.* a distillery.

Distylliad, -au, *sm.* distillation; a filtering; an ebbing.

Distyllio, **Distyllu**, *v.* [L. *distillo*, *destillo*] 1. to distil; to drop or trickle; to fall by drops; to shed.

Distylla nhwy, a golch dy lygaid beunydd â'r dwr.
Meddygon Myddfai, ii. 39 (cf. 15, 65).

Digitized by Google

Lle y mae'n hofflawn weled niferoedd o bobl ieuanc yn dychwelyd o'u cyffes â'u dagrau yn *distyllio* hyd eu gruddiau, nid o edifeirwch yn unig, ond hefyd o dra llawenydd eu bod hwynt wedi glanhau eu cydwybodau.
Allwydd Paradwys, 78.

Dichon dagrau *ddistyllio* oddi eich llygaid tros amser.
Elis Lewis: Drexelius, 94.

Pe *distylliai* 'r damnedig, medd ef, bob dydd o'u llygaid ond un deigryn bychan, ac i'r dagrau hyn gael eu rhoddi at eu gilydd o ddydd i ddydd, rhagorent lawer o'r diwedd ar ddefnynau'r môr mawr!—*Elis Lewis:* Drexelius, 117.

O gymmeryd y blodau, a'u dodi gyda gwin gwyn mewn callor distyll, a'u *distyllu*, cystal yw'r edlyn a geir o honynt a'r distyll bendigaid.—*Meddygon Myddfai*, ii. 791 (cf. 65).

Lle tyfa perlysiau yn llwyni teleidion,
Lle *distyll* eu cangau y neithdar a'r gwin.
Blackwell: Ceinion Alun, 185.

2. (fig.) to distil; to dilute.

Rhyw Lucifferiaeth wedi ei *ddistyllio* i'w elfenau hanfodol ydyw [hollddu wiaeth yr Almaen].—*Adolygydd*, i. 172.

3. to ebb; to flow back or recede.

Distylliol, **Distyllol,** *a.* distillatory; ebbing, receding.

Afaleulyn, dwys dillyn *distyllawl*.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 65.

Distyllwin, -oedd, *sm.* distilled wine, spirit of wine.

Distyllwr, wyr, **Distylliwr,** wyr, **Distyllydd,** -ion, *sm.* one who distils, a distiller.

Cymmer biod, dri neu bedwar o honynt, a hollt hwynt â chyllell, a rho mewn crochan *distyllydd*, y pluf a'r perfedd a'r cwbl o honynt, ac â'r dwr distyll, neu'r edlyn, a gei o honynt, gulch y dolur.—*Meddygon Myddfai*, ii. 366.

Pa sawl gwr dysgedig a dreuliasant eu ymenyddiau mewn dychymmygion newyddion, ac yn gyffelyb i *ddistyllwyr* a'u dyferasant hwy i'w cadw i bapurau!
Elis Lewis: Drexelius, 74.

Distyllyddiaeth, -au, *sf.* the operation of distilling; distillation.

Distyr, *sm.*=*Dystyr*.

Distyriaeth, -au, *sf.*=*Diystyriaeth*.

Distyru, *v.* [contr. of *diystyru*] to despise, to disregard, to contemn. See *Diystyru*.

Gofyn y mae ef galon ddrylliedig gystuddiedig, yr hon ni *ddistyra* ef byth.—*Ed. Iames:* Hom. iii. 206.

Y mae efe nid yn unig yn ei ammherchi ef wrth *ddistyru* ei orchymmynion . . . ond y mae hefyd yn dwyn cas dirgel yn ei galon tu ag ato.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. vi. 4.

Yr holl brophwydi, apostolion, a dewisedig Duw, drwy bwy rai y gwnaeth ef bethau mawrion, rhyfeddawl, a ddirmygwyd, ac a *ddistyrwyd*, ïe, weithiau a laddwyd.
Huw Lewys: Perl, 85 (cf. 111, 148).

Distyrwch (ȳ), *sm.*=*Diystyrwch*.

Pan yw yn dioddef i amryw ddynion . . . dreulio'r cwbl mewn ammharch a *distyrwch* ar ei fawredd ef.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. ix. 5.

Disudd, *a.* [di-+sudd] deprived of juice, juiceless, sapless.

Disug, *a.* [di-+sug] destitute of sap, sapless, juiceless.

Disulw, *a.*=*Disylw*.

Disurdoes, *a.* [surdoes] without leaven, unleavened.

Ac dyddiau y bara croew [•cri, crai, *disurdoes*] ytoedd hi.
W. Salesbury: Act. xii. 3.

Bara croew, bara *disurdoes*.—*Walters*.

Disut, *a.* [sut] not large or bulky; slender, small, slight.

Cadyr deissyf heb *dissut*.—*Cynddelw:* M.A. i. 258.

Dyn disut, a small or slender person.—*S. W.*

Disutrwydd, *sm.* slenderness, smallness.

Diswla, *a.* [swl] not slovenly; unsoiled.

Diswn, *a.* [swn] noiseless, silent.

Tua'r hwyr gostegodd gweithrediad y ceubwll llosg, a distawodd yn lled *ddi swn*.
Cawrdaf: Meudwy Cymreig, 206.

Diswrth, *a.* [swrth] not sluggish, not heavy.

Nid *diswrth* neb diawg.—*Diareb.* (M.A. iii. 169.)

Ac a'n hachubodd yn *ddiswrth*
Oddi wrth ein holl elynion.—*Edm. Prys:* Salm. cxxxvi. 24.

Saint, ymwrolwch yn *ddiswrth*,
Disgwyliwch wrth Dduw'n wastad.
Dafydd Jones: Salmau Watts, xxvii. 5.

Diswta, *a.* [dy-+swta] sudden, abrupt; unexpected.

Ni feddyliais fy mod i farw mor *ddiswta*.
Gr. Wynn: Ystyriaethau, 70.

Megys y gwelwch chwi ddyn yn cilio yn drachwyllt wrth ganfod neidr yn *ddiswta* yn gwanu ei chonyn, ac yn llamsach mewn perth.—*Theo. Evans:* D.P.O. 92.

Ac yna'n sydyn *ddiswta* yn ceisio eu rhwydo a'u traflyncu.—*Nicander:* Dysga Farw, 18.

Diswydd, *a.* 1. without office; out of office; private.

O tref tyd *diswyd* bragawt a telir.
Cyfreithiau Cymru, i. 532 (cf. 768; ii. 608, 692, 694).

Nid dyn o Sais yn dwyn swydd,
Na deu-Sais na bôn' *diswydd*.—*L. G. Cothi*, 1. xxiv. 41.

Tri brodyr oferwaith: gormeddawg; *diswydd;* ac ynfyd.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 275.

Diswydd wyf pan dreiglwyf draw,
A Duw sydd i'm diswyddaw.—*Guto'r Glyn*.

2. without office or employment; unemployed; without anything to do; idle, officious, intermeddling.

Gwybeta o dŷ i dŷ, a hel chwedlau *diswydd*, dyna ganer a rhwd Seguryd.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 11.

Yr oedd y llechgi brwnt yn *ddiswydd* ddigon i ddyfod yma gyda'r cynronyn coesgam hwnw o fachgen i hel chwedlau.—*Gronwy Owain*, 327.

Diswyddau, *a.* without offices, employment, or office. See *Diswydd*.

Onid ydyw puteindra gyfreithlon mewn dyn cyhoedd, a fyddo â swydd gantho, yn wir nid yw gyfreithlon mewn un *diswyddau*.—*Ed. Iames:* Hom. i. 158 (cf. ii. 34).

Diswyddiad, -au, *sm.* a divesting or depriving of office; a removing from office; deprivation of office; cashierment, dismissal.

Am ba ddrygioni yr oedd ei *ddiswyddiad* a'i gaethgludiad i fod yn gospedigaeth arno.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 183.

Diswyddiant, *sm.* deprivation of office.

Ar y Sydd o Dachwedd cyhoeddodd ei dedfryd o *ddiswyddiant* ar yr anufuddion oll.—*Beirniadur Cymreig*, i. 27.

Diswyddo, *v.* to divest or deprive of office; to dismiss from office; to cashier, to dismiss; to discharge; to depose.

Cam amcan yw'r awenydd
Draw i'm *diswyddaw* y sydd.—*D. ab Gwilym*, cxxi. 25.

A brenin yr Aipht a'i *diswyddodd* ef yn Ierusalem.
2 *Cron.* xxxvi. 3 (cf. 2 Bren. xxiii. 5; Act. xiii. 22).

Emrys Benaur a *ddiswyddwyd* ar ol dyfod Gwrtheyrn i reoli eilwaith.—*Theo. Evans:* D.P.O. 111 (cf. 293).

Hwnw a ddywed i mi fod fy nghyfaill Lewis Morys wedi cael ei dafiu yn y gyfraith, a'i *ddiswyddo*, a'i ddyfetha, a'i fwrw i garchar.—*Gronwy Owain*, 335.

Cododd ei ddeiliaid wrthryfel yn ei erbyn, a darfynt ei *ddiswyddo*.—*Y Greal*, 39.

Diswyddog, *a.* having no officer or officers; not officered.

Diswyddwr, wyr, *sm.* one who puts out of office; one who cashiers.

Diswyn *a.* [swyn] without charm or enchantment; charmless.

Digitized by Google

Diswyno, } *v.* to break a charm; to disenchant;
Diswyn, } to propitiate.

Yolud uyf o nuyf yn avar
Yolaf y Duw y *diwyn* y var.—*Cynddelw:* M.A. i. 249.

Disyched, *a.* without thirst, not thirsty or dry.

Ni bydd meddwyn byth *disyched.*
Ed. Iames: Hom. ii. 197.

Bûm weithiau yn o gyrrith, ac arian i'm clos,
Ac weithiau yn *ddisyched,* yn yfed trwy'r nos.
Huw Morus: E.C. i. 353 (cf. ii. 270).

Disychedig, *a.* not thirsty; not dry.

Disychedu, *v.* to quench or allay thirst.

Wrth eu *disychedu* hwy, chwi a'm *disychedasoch* i.
Ed. Iames: Hom. iii. 3.

Yma y tarddodd ffynnon o ddwfr pur loew rhedegog, ar ei waith yn gweddïo eilwaith, i *ddisychedu* ei ganlynwyr.
Theo. Evans: D.P.O. 201 (cf. 189).

Rhedant i bydewau toredig na ddaliant ddim dwfr, er mwyn eu *disychedu,* yng ngwyneb yr anghenoctid mwyaf.
Brutus: Brutusiana, 276.

Disyfedig, *a.* [disyfed, disyfyd] unexpected, sudden.

Ar rei hynny gwedy eu damgylchynu yn *deissyuedic* nyt oed gryno y telynt ymlad.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 176.

Disyflyd, *a.* [syflyd] without motion, motionless, stationary.

Disyflydrwydd, *sm.* immovableness.

Disyfyd, } *a.* [L. *desubito?*] sudden, abrupt;
Disyfed, } unlooked-for, unexpected; subi-
Deisyfyd, } taneous.

Eres yw gennyf mor *deissyuyt* yd wyt yn mynet.
Mabinogion, 270.

Ac yna eissyoes yn dyannoet eu kyrchu a oruc Beli yn *dyssyuyt* ac yn wychyr. Ac ny bu un gobyr yr Ryveynwyr gwedy eu damkylchynu yn *dyssyuyt* ac yn dyarveu dyarvot heb un urdas yn dypryt kan ffo ac adaw y maes.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 158.

Dyweduyt or amdyffynnwr na dely attep en dyd *deissyuyt* a bot hon en haul *deissyuyt.*—*C.C.* ii. 126.

Eissoes ef ae dyrchafawd, *deissyfyt* lewenyd drwy raoweledigaeth Duw.—*Brut y Tywysogion,* 170 (cf. 100, 110, 130, 132, 168, 196, 224).

Ym mis Medi yr un flwyddyn y bu'r llifeiriaint *disyfed* ac y torres Eglwys Llancarfan, a llawer o'r tai.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 471.

Tripheth goreu gadael iddynt: ci dieithr; llif *disyfed;* a doeth yn ei olwg ei hun.—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 81.

Na fydded fy marwolaeth, Arglwydd, yn *ddisyfed.*
Elis Wynn: Rh.B.S. 44 (cf. 129).

Angeu disyfyd, sudden death.

Dyna a vo marw o *agheu deissyuyt.*—*C.C.* i. 486.

Ar dyd y kafas Amic waret or klefyd a oed arnaw y bu farw Obias y wreic o *angeu deissyuyt.*
Amlyn ac Amig, col. 1109.

Ae argywed y rei da y llad. neu y marw o *anghev deissyuyt.*
Llyfr Ancr, 28.

A yfo or dryded o *deissyfyt angeu* yd aballa.
Ys. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 149.

Oddi wrth ryfel, a llofruddiaeth, ac oddi wrth *angeu disyfyd,* gwared ni, Arglwydd daionus.
Ll. G. Gyffredin (Litani).

Dyma'r perygl sydd o farw yn sydyn, neu o *angeu disyfyd.*—*Th. Williams:* Ymadr. Bucheddol, 215.

Bu farw o *angeu disyfyd,* a chladdwyd ef yn Nheml Cydundeb.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 115 (cf. 390).

Cyfoethog disyfyd, a rich upstart.

Tri phoen gwlad: arglwydd anneddfawl; *cyfoethawg disyfyd;* a bardd anwybodus.—*Barddas,* ii. 142.

Disyfyd gyrch, a sudden attack.

Ac yna o *deissyuyt gyrch* . . . y goresgynnawd y Ffreinc Gaer Llion.—*Brut y Tywysogion,* 224.

Rolant ac Oliuer ar deudec gogyfurd a geidw yr ol rac *deissyuyt gyrch* y gan ganmil o uarchygyon aruawc.
Ystoria de Carolo Magno, col. 471.

Marw yn ddisyfyd, to die suddenly.

A ba anghev bynnac y boent *veirw. yn deissyuyt.* yn drwc y teruynir.—*Llyfr Ancr,* 48.

Hawl ddisyfyd, a sudden claim.—*C.C.* ii. 126.

¶ The more usual medieval form is *deisyfyd* ('deissyuyt'), q.v.; and the common pronunciation in S.W. is *disyfed.*

Disyfydrwydd, } *sm.* suddenness, abruptness,
Disyfydedd, } unexpectedness.

Disylfaen, *a.* [sylfaen] having no foundation-stone, baseless, groundless.

I ddangos mor *ddisylfaen* ac anrhesymol yw'r cyfryw ofnau, mi a af rhagof at y trydydd peth a grybwyllais.
Ed. Samuel: Athraw. yr Eglwys, 54.

A'r haeriad *disylfaen* hwn a ddygwyd ym mlaen i'w osod yn dramgwydd i'r grefydd Gristionogol.
G. Mechain: Eglur Olygiad, 253.

Disylfaenu, *v.* to deprive of foundation; to undermine, overthrow, or upset.

Y mae er hyny mor awch-frydus i amddiffyn crefydd, ac mor fywiog ac anniffygiawl ag erioed i *ddadsylfaenu* dadleuon gwrthwynebwyr Cristionogaeth yn gyffredinawl.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 449.

Disylfan, *a.* [sylfan] without foundation, groundless, baseless.

Ymddengys y gwaith fel talfyriad, a hwnw yn gymmysgedig â dychymmygion *disylfan.*
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 189.

Disylw, *a.* [sylw] 1. (*act.*) unobservant, inattentive, unobserving, heedless, inadvertent.

Rhai dynion a ryfeddant uchelderau mynyddoedd, anferth donnau'r môr . . . ac a basiant heibio iddynt eu hunain yn *ddisylw.*—*Josiah Rees:* Hunan-Adn. 120.

2. (*pass.*) unnoticed, unobserved, not heeded or regarded, unheeded; disregarded, neglected.

Gan iddynt golli'r daioni godidocaf, er mwyn rhyw ddaioni gwael *disylw.*—*R. Smith:* Eglurhâd, 290.

Yr hon [seren] a allasai fyned heibio yn *ddisylw,* pe buasai yr haf yn llaith a'r awyr yn niwlog.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 263.

A gaiff yr holl alwadau ac annogaethau hyn fyned heibio yn *ddisylw* a diystyr genyt?—*Seren Gomer,* iv. 36.

Dacw ddyn, ebe yntau, a fu unwaith mor ynfyd a *disylw* o hono a neb yn y gymmydogaeth lle yr oedd yn aros.
Cawrdaf: Meudwy Cymreig, 118.

Yng nghanol gwyllt anian *disylw* y tyfodd.
Telynegion, 21.

Disylwant, *sm.* inadvertence; oversight.

Disylwedd, *a.* void of substance, unsubstantial, unreal; baseless.

Bydded [yr iaith] . . . yn odidog ragori ar bob peth iselwedd *disylwedd.*—*Cyfrinach y Beirdd,* 12 (cf. 5).

Y mae hyn yn rhan mor anghenrheidiol o gariad, nad yw ein mwynder ni heb hyn ond peth *disylwedd.*
Langford: Holl Ddyl. Dyn, 354.

Y diddanwch daiarol sy ddibarhäus a *disylwedd.*
Th. Williams: Ymadr. Buch. 92.

Dwys holwch ai *disylwedd*
Eu gwaith, os distadl eu gwedd.—*Daniel Ddu,* 119.

Disylweddiad, *sm.* a divesting of substance or matter.

Disylweddol, *a.* tending to make unreal; unsubstantial.

Disylweddu, *v.* to divest of substance.

Disyml, *a.* See *Dysyml,* &c.

Disymmud, *a.* [symmud] without moving or removal, unmoving, stationary; immovable.

Mab eillt brenhin neu vreyr yr hwn a eilw kyfreith yn alltut priodawl yr hwnn a dricyo gyt ay arglwyd yn *disumyt* hyt y pedwryd dyn o pop parth.—*C.C.* ii. 392.

Digitized by Google

Megys trwy ddau beth *disymmud* . . . y gellem gael cysur cryf.—*Esgob Davies:* Heb. vi. 18.

Yr ŷm yn dysgu hefyd wrth hyn ddarfod creu'r corff er mwyn yr enaid, ac nid yr enaid er mwyn y corff, yr hwn o hono ei hun sydd yn ddifyw ac yn *ddisymmud*.
Th. Williams: Ymadr. Buch. 50.

Gwastad, *ddisymmud*, ddianwadal oedd.—*D.*

Disymmudedig, *a.* not moved, unmoved; not to be removed; immovable.

Ffydd yw sylfaen *disymmudedig* i'r ffyddlon ac i'r gwirionedd.—*Marchog Crwydrad*, iii. 3.

Disymmudedd, *sm.* the quality or condition of being unmoved; immobility, immovableness; inertia.

Disymmudiad, *a.* without motion or movement, motionless; stationary.

Am hyny yr enaid bywiol, rhesymol, yw'r gwr, nid y tipyn daiaren gorff, sy'n ddifywyd, yn ddiymadferth, ac yn *ddisymmudiad* o hono ef ei hunan.
Thomas Williams: Ymadr. Buch. 47.

Disymmwth, *a.* [dy-+symmwth: C. *desempys, dysympys*] sudden; abrupt; unexpected.

Ac yna dygyulut alw ar yr enweu vry o gwbyl ewyllys ony syrthio y nerth berlewycuae yn *dhisymmwth*, hyt na mynnut dha or byt oll hebdhunt.—*Ymborth yr Enaid*, ł 29.

Disymmwth fydd dryg-law i ammhwyll.
Diareb. (M.A. iii. 154.)

Yna y mae dinystr *disymmwth* yn dyfod ar eu gwarthaf.
1 *Thess.* v. 3.

Fe a genfydd yno yn *ddisymmwth* ei lun a'i ddelw ei hunan.—*R. Smith:* Eglurhâd, 21 (cf. 28).

Dychryn disymmwth, a sudden fright, a panic.

Ofn disymmwth, a sudden fear.

Yn ddisymmwth, suddenly; unawares; unexpectedly; on a sudden.

Y Saeson, ar ol lladd a llosgi nes iddynt flino, *yn ddisymmwth* a ddychwelasant adref i Sermania.
Theo. Evans: D.P.O. 241.

Yn ddisymmwth ddiattreg, at an instant, instantly, suddenly.—*Esa.* xxix. 5.

Disymmythder, } *sm.* suddenness, abruptness;
Disymmythdra, } unexpectedness.

Dismythiad, -au, *sm.* a moving or happening on a sudden.

Dismythol, *a.* subitaneous; moving or happening suddenly.

Dismythu, *v.* to move or to happen suddenly; to vanish or disappear unexpectedly; to vanish.

Disyndod, *a.* without surprise or wonder.

Disyniadwy, *a.* incomprehensible.

Hon y ddaiar man, ŷe llai
No gronyn, mymryn, wrth yr wybren ac
Ei holl rifedig ser, a weddant yn
Amdreiglaw *disyniadwy* angon.
W. O. Pughe: C.G. viii. 19.

Disynwyr, *a.* 1. senseless, foolish, nonsensical, stupid.

Ac o honno y llauurya yr emeith *dissynnwyr* y uessuraw y tiredd.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 494.

Ar bobyl *ddisynnwyr* . . . a gredassant gelwydd a ffalsedd eddewityon y brenhin.—*Doethion Rhufain*, ł 19.

Y neb a ganlyno oferwyr, *disynwyr* yw.
Diar. xii. 11 (cf. ix. 16; xi. 12).

Nid diwybod ond *disynwyr*, Nid *disynwyr* ond diserch.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 28 (cf. 20, 172, 248).

Salomon . . . a adawodd o'i hiliogaeth ar ei ol, Roboam, ynfydrwydd y bobl, ac un *disynwyr*.—*Eccl.* xlvii. 23.

2. unreasonable, monstrous, absurd.

Disynwyr o fawr (=anferth o fawr), enormously large or big.—*S. W.*

Disynwyr o galed, monstrously hard.—*Iolo Glossary.*

Disynwyrdeb, } *sm.* senselessness, nonsensical-
Disynwyredd, } ness, foolishness; folly; nonsense.

A'r defaid, pan oedd ry ddiweddar, a welsant faint eu *disynwyrdeb* a'u hafanas am gyttuno o honynt fal hyn erioed â'r bleiddiaid.—*Iolo Mss.* 174.

Rhydd y synwyrol orchudd ar ei lygaid rhag edrych ar y fath, a'r gwir grefyddol ei fysedd yn ei glustiau rhag gwrando ar y fath gymmysgedd o *ddisynwyrdeb*.
Gwyliedydd, v. 150.

Disynwyro, *v.* to deprive of sense; to deprive of one's senses; to make senseless; to become senseless, irrational, or delirious.

Gwenwynllyd yw sudd y gwreiddyn, ac o'i lyncu ef a'th *ddisynwyra* dros ddiwarnodau, os ni ddwg dy fywyd.
Meddygon Myddfai, ii. 49.

Disynwyrol, *a.* apt to be indiscreet; senseless, foolish.

Am tat ysyd oruchaf iustus y dyscu dynyon anyallus *disynnhwyrawl*.—*Ipotis:* Ll.A. 128.

Disyrch, *a.* [syrch=serch]=*Diserch.*

Disyrch, *sm.* disaffection; hatred.

Tremyn Llywelyn llyw rydyroh Prydein
Prid y Loegyr y *dissyrch*.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 302.

Disyrchu, *v.* to disaffect; to become unaffectionate.

Trafn llu egr ai lifiafn Lloegr elyflu
Treigl om bronn annerch serch *disyrchu*.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 444.

Diten, Diti, *sf.* See *Diden, Didi*, &c.

Ditiad, -au, *sm.* [see *Ditio*] an uttering, a speaking, a saying; expression.

Ditian, } *v.* [L. *dicto, dico*] to say, speak, utter,
Ditianu, } or express.

Da y gwn, wiw gystlwn enw,
Ditiana' nad wyt un-enw
A Meigen Rys.—*Dafydd ab Gwilym*, cxxv. 61.

Ditianol, *a.* uttering, speaking.—*P.*

Ditio, *v.* [L. *dicto, dico:* cf. *indictio, indico*] 1. to say, utter, or express.

2. to indict, to accuse or charge (with a crime or misdemeanour).

Noethid dwyn, cyd nithid dail,
Ni'th *ddilia* neb, ni'th attail.—*D. ab Gwilym*, lxix. 17.

Am hynny efe a'u lladdodd hwynt wedi eu *dittio* o draeturiaeth, ac yn ddisymmwth efe a ennilliodd y ddau dŵr hynny.—*Esgob Parry:* 2 Macc. x. 22. .

¶ So in the ed. of 1630; but in the folio of 1690 the word appears as '*tittio*,' which is the reading followed by most of the editions published in the last century; but in the majority of the later editions the word has been tacitly omitted, and the verse rendered thus:

Am hynny efe a'u lladdodd hwynt, wedi eu cael yn fradwyr, ac yn ddisymmwth efe a ynnillodd y ddau dŵr hynny.

Ditiol, *a.* uttering, speaking.—*P.*

Ditiwr, wyr, *sm.* a speaker, an utterer.

O bu ymannerch serch-bryd,
Na gair rhôm, ne garw rhyd;
Ac o bu gynt, tremynt tro,
Bai *ditiwr* mawl, bid eto.—*D. ab Gwilym*, ccxiv. 13.

Ditriwr, wyr, *sm.* [corr. of *didryfwr*, q.v.] a hermit, a recluse.—*D.*

Digitized by Google

Dittain, } *sf.* [Gr. δίκταμνον (from mount
Dittawnt, } Dicte in Crete); L. *dictamnus, dictamnum*] dittany, fraxinella (*Dictamnus albus*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 183.

O chymer dyn wenwyn, yuet sud y *ditaen* a gwîn.
Meddygon Myddfai, i. 131 (cf. 126).

Dictamen, y *ddittain*.—*Meddygon Myddfai*, 284.

Dittain leiaf, } maudlin (*Achillea ageratum*).
Dittawnt leiaf, }

Dittain goch, red dittany.—*Dicts.*

Dittain wen, white dittany (*Dictamnus albus*).

Dittain Creta, dittany of Crete.

Diuchel, *a.* not high, not elevated.

Da ei chlod, *diuchel* air.—*D. ab Gwilym*, ccxxi. 28.

¶ The negative prefix *di*, before *u*, does not coalesce with that vowel, but forms a distinct syllable (=*di-u* or *diu*).

Diunig, *a.* not single, singular, or alone.

Cadr-lyw yw uniawn dawn *diunig*.
Meurig ab Iorwerth: M.A. i. 508 (cf. 488).

Diunon, *a.* without doubt, not dubious, undoubted, doubtless.

Diurddas, } *a.* without dignity or honour;
Diurddiant, } undignified.

Gwae'r llidiog colledig, gwae'r ffals melltigedig,
Gwae'r llofrudd du oerddig *diurddas*.
Huw Morus: E.C. ii. 102.

Diurddasiad, *sm.* degradation.

Diurddasol, *a.* not dignifying; without dignity.

Diurddasu, *v.* to degrade; to deprive of dignity or rank.

Diurddiad, -au, *sm.* degradation, deprivation of rank.

Diurddo, *v.* to degrade; to deprive of (holy) orders; to desecrate.

O deruyd y ysgolheic wneuthur lledrat, a barnu y *diurdaw* herwyd kyfreith sened; kyfreith a varn na byd eneit vadeu.
Cyfreithiau Cymru, ii. 74 (cf. 340).

Yn Rhydychen y dioddefodd Cranmer ferthyrdod, ar ol iddo gael llawer segfa gan y Papistiaid drwy ymddadlu, ac iddynt ei *ddiurddo* ef, gan roddi am dano ef ddillad esgobaidd, a'u dioeg.—*Ch. Edwards:* Hanes y Ffydd, 153.

Diurddol, *a.* without dignity; degraded; base.

¶ *Di-* before *w* sometimes coalesces with that letter, and sometimes forms a distinct syllable; as *diwrthryn, diwrthrwm*. In the latter case, the *i* should have a diæresis over it.

Diw, *sm.* [=dyw: L. *dies*] a day. See *Dyw*.

Gueith *Diu* Sul in Mon.—*Annales Cambriae*, 15.

Nyt edewes e lys les kerdoryon Prydein
Diw Calan Yonawr ene [*al.* yn y] aruaeth.
Aneurin: God. 267 (cf. 46, 652—658).

Dywan *diw* calan Yanawr
Dywed an dyuod Uaelawr.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 268.

Cein vedyt uyn Duu yn *diu* Ystuyll.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 324.

Y garreg hon nes gwawrio
Diw barn heb syflyd y bo.—*Daniel Ddu*, 16.

Diw, -ion, *sm.* entireness, perfection, sum, totality.—*P.*

Diw, *a.* total, entire.—*P.*

†**Diw,** *a.* [C. and Br. *diu*] an old and obsolete form of *dwy*, two.—*Capella Glosses*, 47.

Diwachul, *a.* [gwachul] not feeble, lean, or poor; spirited.

Yr oedd ganddo farch *diwachul*
I'w gario i'r Eglwys ddywsul.
L. Morys: Diddanwch Teuluaidd, 163.

Diwad, *a.* [gwad] without denial, undeniable, indisputable.

Ar dall a'th want o'th vadeuant nyth vu *diwat*.
Casnodyn: M.A. i. 429 (cf. 514).

Yn *ddiwad* felly y bydd i ti yn ol y cnawd.
Morgan Llwyd: Disgybl a'i Athraw, 83.

A *diwad* ydyw, Ieuan,
Bron sydd na chydfydd â chân.—*Gronwy Owain*, 26.

Diwadniad, } *sm.* an undermining, a sup-
Diwadnad, } planting.

Diwadnol, *a.* undermining, supplanting.

Diwadnu, *v.* [gwadn] to trip up the heels; to supplant, to undermine.

Disodli . . . *diwadnu*, gweithio tanodd, dadymchwelyd.
Th. Charles, s.v. 'Disodli.'

Diwadu, *v.*=*Dywadu*.

Diwadu, *a.* undeniable, indisputable.

A'r Mab rhad mewn cariad cu
A dd'wedodd yn *ddiwadu*.—*Pedr Fardd:* Mêl Awen, 95.

Diwaddod, *a.* [gwaddod] without dregs, sediment, or lees.

Diwaddodi, *v.* to cleanse from refuse matter; to pour off the lees; to defecate.

Diwaddodiad, -au, *sm.* defecation.

Diwaddol, *a.* [gwaddol] dowerless; unendowed.

Diwaddoli, *v.* to disendow; to deprive of endowment; to deprive of dower or portion.

Diwaddoliad, -au, *sm.* a disendowing, disendowment.

Diwaed, *a.* [gwaed] without blood, bloodless.

Ebyrth diwaed, bloodless sacrifices.

Diwaedlyd, *a.* not bloody; bloodless, unbloody.

Ac i ddangos rhagoriaeth rhyngddi a'r aberth gorfforol honno, y mae y Tadau yn ei galw yn aberth *ddiwaedlyd*.
R. Vaughan: Ymarfer Duwioldeb, 281.

Diwael, *a.* [gwael] not low, base, or mean; not common-place; fine, elegant; great.

Ysai hael *diwael* diweirhaw.—*Llyfr Du:* A.B. ii. 14.

Mair ddeddfawl ddwyawl *ddiwael* benaedd.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 560.

Gwael yw colli hael *diwael* dewis.
D. Benfras: M.A. i. 316 (cf. 396, 398, 412, 516).

T*r *diwael* ar ael yr allt.
D. ab Gwilym, xlvi. 39 (cf. lxix. 55; lxxxviii. 11).

A rhoi da i'r rhai *diwael*.
Guto'r Glyn: Iolo Mss. 316 (cf. 304).

Llyna ddwy winllan *ddiwael*.—*L. G. Cothi*, i. xxxix. 37.

Llyw *diwael* yn lle Dewi,
Ior mawr, wyt yn awr i ni.—*Gronwy Owain*, 37 (cf. 42).

Diwaelaidd, *a.* not of a low nature or character; uncommon.

Ond mwy oedd trugaredd *diwaelaidd* Duw Ion.
Huw Morus, ii. 277.

Diwaelder, } *a.* without frailty; not mean,
Diwaeledd, } poor, or low.

Undeb duwioldeb *diwaelder* yma cawn,
Mwy cynnydd lle gwneler.
R. Vaughan: Ymarfer Duwioldeb, Rhag.

Hil Bleddyn ab Cynfyn cu,
Diwaeledd yw ei deulu.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 235 (cf. 402).

A mer *diwaelder* duwioldeb a'i pyrth
A llawn-wyrth callineb.
Dafydd o'r Nant: Cyfr. y Beirdd, 144.

Digitized by Google

Diwaelod, *a.* without bottom; bottomless; fathomless.

A'r hwn a ymgyflogo, a gasgl ei gyflog i god *ddiwaelod.*
Edward James: Hom. ii. 159.

Ces olwg o hirbell ar fin y geulan *ddiwaelod.*
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 66.

Cei ymrwyfo yn y môr mawr *diwaelod* o hyfrydwch.
Elis Lewis: Drexelius, 196.

A'r rhai, trwy bob amlygiad newydd o Dduw, ac o'r holl ddirgeledigaethau *diwaelod* hyn o'i Natur ef, a helaethir beunydd i amlygu rhagor.
Ion. Tomas: Buch. Grist. 18.

Ar un llaw yr oedd dibyn *diwaelod.* . . Pan aethom heibio i'r mwg marwol hwn yn annisgwyliadwy, cawsom droad ar yr agen *ddiwaelod* arall oedd yn ein blino.
Cawrdaf: Meudwy Cymreig, 211.

Yr oedd yn hen gred ym mhlith y plwyfolion fod y llyn hwn yn *ddiwaelod.*—*Brython,* iv. 371.

Y pwll diwaelod,
Y pydew diwaelod, } the bottomless pit.

A phan ddarfyddo iddynt orphen eu tystiolaeth, y bwystfil, yr hwn sydd yn dyfod allan o'r *pwll diwaelod,* a ryfela â hwynt.—*Dad.* xi. 7.

Ac mi a welais angel yn disgyn o'r nef, â chanddo agoriad y *pydew diwaelod.*—*Dad.* xx. 1 (cf. 3; ix. 11).

Pwll diwaelod y gelwir uffern.—*Th. Charles,* s.v. 'Pwll.'

Y llyn diwaelod, the bottomless lake.

Efe a orchymmyn i Satan a'i angylion drygionus eu cymmeryd i'r *llyn diwaelod,* lle nad yw'r pryf yn marw, na'r gwres yn lleihau.—*Lewis Anwyl:* Nefawl Ganllaw, 128.

Diwaelawd llyn hudolion
Dan folltau taranau'r Ion.—*Caledfryn:* Caniadau, 93.

Diwaelodedig, *a.* unfathomed; bottomless.

I ddyfnder is dyfnder dig,
Dudew, *diwaelodedig.*—*Dafydd Ionawr,* 72.

Diwaelodi, *v.* 1. to clear of dregs, lees, or sediment.

2. to remove the base or foundation, to undermine.

Hwn oedd cefn neu fraich cul o dir ar bwys Cwm Colhuw a *ddiwaelodwyd* gan y môr o bob ochr iddo, nes iddo gwympo i lawr ac anafu Colhuw, lle'dd oedd llongau cyn hyny yn dyfod i borthfa.—*Edward Gamais.*

Diwaelodiad, -au, *sm.* 1. a clearing of lees or sediment. 2. an undermining.

Diwaelodion, *a.* clear of sediment or lees.

Diwaethaf, *a.* [corr. of *diwethaf*=*diweddaf*] =*Diweddaf.*

Gann eu rodi yny tan tragywyd yn y varnn *diwaethaf.*
Llyfr Ancr, 7.

Daethym Ddywsul *diwaethaf.*—*L. G. Cothi,* v. vii. 1.

Oni eill y llosgwrn a'r braich *diwaethaf* ymgynghaneddu yn gyrchiawl, megys deufraich *diwaethaf* i englyn unodl cyrch?—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 307 (cf. fq.).

Dadiain cain cynnydd dydd *diwaethaf.*
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 461.

Fo yr haelaf, yr haf rhifid yn gyntaf;
Fo yn *ddiwaethaf* a fendithid.—*L. G. Cothi,* II. x. 63.

Atolwg, dangos i'th was ddiwedd dy arwyddion, y rhai y dangosaist i mi ran o honynt y nos *ddiwaethaf.*
2 *Esd.* vi. 12 (cf. x. 59).

Cafodd Haggai orchymmyn i sicrhau iddynt y byddai gogoniant y tŷ *diwaethaf* hwn yn fwy na gogoniant y cyntaf: yr hon brophwydoliaeth a gyflawnwyd pan ogoneddwyd y tŷ *diwaethaf* â phresennoldeb Iesu Grist.
Gwallter Mechain: Eglur Olygiad, 73.

Diwag, *a.* [gwag] not empty, not void; not vacant or vacated; full, replete.

Rhwydd wawr cynnyddfawr cynneddfau *diwag.*
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 446.

A'r orddiwes gaer a'r ardd *ddiwag.*—*Iolo Goch.*

Ymddyrchwn, edrychwn draw!
A gwelwn *ddiwag* wylaw.—*G. Mechain:* Gwaith. ii. 465.

Diwagedd, *a.* [gwagedd] without vanity; without frivolity; solid.

Caredigrwydd rhywiogaidd yw mam yr holl rinwedd,
I fagu'n *ddiwagedd* etifedd i'r Tad.
Huw Morus: E.C. ii. 351.

Diwagiaith, *a.* [diwag+iaith] of no empty, vain, or frivolous language.

Kein *diwacieith* walch kun diwygyat.
Rhiserdyn: M.A. i. 435.

Rhagorol efryd, rhai geirlyfrau,
Grym *diwagiaith* a gramadegau.
Pedr Fardd: Mêl Awen, 32.

Diwagl, *a.* [di-+gwagl: cf. E. *waggle*] not shaky or waggling; steady, firm.

Mynygler lle'r llinyn ar bob colyn o'r pillwydd hydladd, a rhwymo'n erbyn y troslathau, fal nad elont yng ngollwng, nac yn waglog; a chadarn a *diwagl* fydd y ffordd hon.—*Barddas,* i. 120.

Diwahan, } *a.* [gwahan] 1. inseparable; in-
Diwahân, } divisible; undivided.

Ym pethbynnac y bo breint yn yr un ryw hwnnw y vyd priodolder *diwahan* megys y mae breint annyanawl *diwahan* priodolder corff.—*C.C.* i. 472 (cf. ii. 62, 100, 230).

Os oth uod y gwney ditheu yrof i. kyssondeb tragywyd *di wahan* a uyd y rom tra uom vyw.—*Mabinogion,* 278.

Kannys y t[ri] hynny ysyd vn Duw *diwahan.*
Llyfr Ancr, 163.

Trindaut dibechawt Duw bych *diwahan*
Am ri rwydlan am kan henffych.
Casnodyn: M.A. i. 427 (cf. 428).

Yr amryw ffrwythau hyn, y rhai sydd mor *ddiwahan* oddi wrtho ef, a'u bod hwynt yn fynych yn yr Ysgrythyr yn cael eu cyfrif megys rhanau o'r ddeadwydd.
Langford: Holl Ddyl. Dyn, 353 (cf. 362).

Ac nid allai nac ef, na Luc oedd gydymaith *diwahan* iddo, gamddeall y pethau a wnaethpwyd ganddo ei hun.
Ed. Samuel: Grotius, iii. 5.

Felly y bydd yr ewyllys bendigedig wedi ei gyssylltu yn *ddiwahan* at sylwedd y Duwiol Ddaioni.
Gr. Wynn: Ystyriaethau, 151.

I'r Drindod *ddiwahân*
Rhown fawl ar gân i gyd.—*Emyn.*

2. without distinction, indiscriminate.

Gorfydd ar y tlawd a'r cyfoethog, hen ac ieuanc, mawr a bychan, ddisgyn rhyw ddydd, yn *ddiwahan* i byrth y bedd.—*Gwyliedydd,* v. 265.

Diwahanedig, *a.* unseparated, undivided; inseparable.

O herwydd bod delwaddoliad i ddelwau, yn enwedig mewn temlau ac eglwysydd, yn gyssylltyn *diwahanedig.*
Ed. James: Hom. ii. 91 (cf. 123).

Fel y gallwyf o hyn allan yn wastad dy wasannethu di trwy ufudd-dod cywir a ffyddlon, ac â chariad perffaith lynu wrthyt ti yn *ddiwahanedig* fyth.
Allwydd Paradwys, 47.

Diwahaniad, *a.* without separation.

Addewid ddyfal, ddianwadal ar gadw a chynnal gyd â chwi,
Trwy bur gariad *diwahaniad,* ar fyr siarad, a rois i.
Huw Morus: E.C. ii. 190.

Diwahaniaeth, *a.* without distinction or difference; indiscriminate, indifferent.

Yr ydys yn gwneuthur cyflawnder i bawb yn *ddiwahaniaeth.*—*Ed. James:* Hom. i. 93 (cf. ii. 23).

Gresyn, gan hyny, weled yr enwau Hebreaidd . . . yn cael eu cyfleithu yn *ddiwahaniaeth.*
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 372.

Pan ymddangosodd Crist, agorwyd drws y ffydd i bob cenedl yn *ddiwahaniaeth.*—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 89.

Diwahaniaeth, -au, *sf.* indiscrimination.—*P.*

Diwahanol, *a.* not separating or discriminating; indiscriminative; without distinction or difference; without exception; inseparable; indivisible.

A hyn, medd Christ, y byddwn sicr o hono os ni a garwn bob dyn yn *ddiwahanol.*—*Ed. James:* Hom. i. 81 (cf. iii. 116).

Digitized by Google

Yn gudeb anwyl *diwahanawl* naws.
W. O. Pughe: C.G. iv. 536 (cf. 521).

Mewn serch brawdol *diwahanol.*—*Gronwy Owain*, 104.

Diwahanredol, *a.* indivisible; irreducible.

Beth yw elfen? Rhan *ddiwahanredawl* o beth cyfansoddedig.—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 14.

Diwahardd, *a.* [gwahardd] without forbidding or prohibition; unforbidden; ungrudging; ungrudged.

Diwahard y vard y venuyt.
Cynddelw: M.A. i. 246 (cf. 255).

Im' y buch da'n *ddiwahardd*,
Iwch y bo bendith eich bardd.—*L. G. Cothi*, i. xxxix. 65.

Gan bregethu teyrnas Dduw . . . gyd â phob hyfder, yn *ddiwahardd.*—*Act.* xxviii. 31.

Diwaharddedig, *pt.a.* unforbidden, unprohibited.

Rhai a haerent y pryd hyny ar y Cristionogion, nad oedd yn eu plith hwy ddim gwahan, nac o oed, nac o rywiogaeth; eithr cydorwedd o honynt bawb gyd â'u gilydd yn *ddiwaharddedig* fel anifeiliaid.—*M. Cyffin:* Diff. iv. 17.

Diwaharddol, *a.* not forbidding or prohibiting.

Diwahodd, } *a.* without invitation, uninvited,
Diwahawdd, } unbidden.

Diwahoddedig, *pt.a.* unbidden, uninvited.

Diwahoddol, *a.* uninviting.

Diwain, *a.* [gwain] without a sheath or scabbard, sheathless; unsheathed.

Diwair, *a.* [di-+gwair, *adj.*] 1. chaste, continent; pure; good.

Porth iddi fo Mair *ddiwair* ddiwyd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 455 (261, 272, 359).

Hi oed hynaws a *diwer* a chlaer oed. . . Anwyt mul hael oed idi a *diweir* oed.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 13, 14.

Or mynny uot yn *diweir* bwyta beunyd beth or llysseu a elwir yr hyd.—*Meddygon Myddfai*, i. 60.

Ar amser hwnnw y ganet yr Arglwyd Iessu Grist hollgyuoethawc or arglwydes *diweir* Ueir Wyry vendigedic.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 93 (cf. 203).

Y trydyd a vyd *diweir*. . . Ac am hynny y gelwir ef yn *diweir.*—*St. Greal*, ‡ 20 (cf. 62).

Lle daw pob man i'w hannerch,
Lle dewr mab, lle *diwair* merch.
Dafydd ab Gwilym, xciii. 59 (cf. iv. 39).

Duw a wyr arnaf heb yr iarll uot yn *diweirach* gennyf dinetha vy meibon a gafas om hanuod no rodi uy merch idaw om bod.—*Mabinogion*, 189.

Yssi hael diwael *diweirhaw.*—*Llyfr Du:* A.B. ii. 14.

Tri gwynfyd gwr doeth: tir rhywiawg; gwraig *ddiwair;* a mab addwyn.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 78 (cf. 46, 50, 80, 123).

A thra vyw y bu *diweir* a gwastat.
Doethion Rhufain, ‡ 40.

Maddeued Mair i'm dyn *ddiwair.*
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 240 (cf. 235).

Mae ym' dir gwair er bun *ddiwair.*
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 234.

O Fair, y *ddiwair* Forwyn,
Fe aned Mab myged mwyn.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 18.

Ymarweddiad diwair, chaste manner of life, chaste behaviour.—1 *Pedr* iii. 2.

2. faithful, loyal; liege.

Dybi o Alclut gwyr drut *diweir.*—*Golyddan:* A.B. ii. 128.

Y tri diwair deulu, the three faithful clans.

Tri diweir deulu Ynys Prydein. teulu Katwallawn. yny buant hualogyon. a theulu Gafran uab Aedan. pan uu y diuakoll. a theulu Gwendoleu ab Keidyaw yn Arderyd.
Trioedd: Ll.C.H. i. 305.

Trydyt *tri diweir deulu.*—*Cynddelw:* M.A. i. 213.

Diwaith, *a.* without work, toilless; having nothing to do; unemployed; idle; inert.

Cyfodwch, wragedd *diwaith;* clywch fy llais.
Esa. xxxii. 9.

Diwaith wedi doeth ydoedd,
Dasau o yd eisieu oedd.
Ieuan Du'r Bilwg: Iolo Mss. 328.

Trwy'r hyn y mae . . . yn dyfod bob yn ychydig yn ddifywyd ac yn *ddiwaith.*—*Iosua Tomas:* Buch. Grist. 65.

Gan fod henaint yn *ddiwaith* a diamgeleddgar, ofna yr hyn sydd uchel.—*Gwyliedydd*, vi. 157.

Diwal, *v.*=*Diwel.*

Diwala, *a.* [gwala] insatiate, unsatisfiable, insatiable.

Mae e'n eu synu rhag ymwrando â'u perygl; ac yn eu llosgi â thrachwant *diwala* am ychwaneg o hono.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 21 (cf. 28, 59).

Mae genyf ryw awydd *diwala* i ddysgu cymmaint ag a allwyf.—*Gronwy Owain*, 167.

Llawer gwaith y dymunais ynof fy hun fod yn ol ar ben y geulan, gan ofn y talwn â'm heinioes am fy nghywreinrwydd *diwala.*—*Cawrdaf:* Meudwy Cymreig, 210 (cf. 178).

Diwall, *a.* [gwall] 1. wanting nothing; complete throughout; not lacking or failing; not deficient; enough; abounding, abundant, plentiful.—*M.A.* i. 421.

Ar keylguad byeu kadu [pob peth] ereyn hene en *dygwall.*
Cyfreithiau Cymru, i. 316 (cf. 318).

Ac eissoes uorwyn heb hi gwassanaetha di euo. yny vo *diwall* o gwbyl.—*Mabinogion*, 185 (cf. 32, 42).

Ac or parth arall yn llys y vrenhines aneiryf o amylder gwassanaethwyr yn wisgedic o amryfaelon wisgoed yn herwyd eu defawt yn talu eu gwassanaeth yn *diwall.*
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 202 (cf. 129).

Ar chwech o nadunt a gymerth vy march ae gorugant yn *diwall* oe holl ystarn.—*Mabinogion*, 165 (cf. 188, 246).

Kymryt or ysgwieryeit eu lletyev. ac wrteith eu meirch ac eu hebrannu yn *diwall* ehalaeth.—*Ystoria Charles*, 9.

Ny welsei ef eiryoet lle *diwallach* o bop da.—*St. Greal*, ‡ 27.

Or a welsei o holl lyssoed y dayar. llyna y llys *diwallaf* o vwyt a llynn. ac eur lestri a theyrndlysseu.
Mabinogion, 4 (cf. 176).

Galw a wnaeth hi ar y tylwyth . . . ac erchi udunt wassanaethu yn *diwall* arnaw.—*St. Greal*, ‡ 20.

Tri arwydd ar ddyn ei fod yn gadwedig gan Dduw: casäu pethau drygionus; caru pob pethau daionus; ac ymolychwydaw yn *ddiwall* ofalus.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 231 (cf. 227).

A'r neb y byddo ganddo, a erys yn *ddiwall.*
Diar. xix. 23 (cf. Hagg. i. 6).

Tydi a fyddi lawen a *diwall.*—2 *Esd.* ii. 27.

Diwall oedd, a da y llwyddodd.
Gronwy Owain, 67 (cf. 177, 330).

Llafurio'n *ddiwall* tir ein gwlad
Yw pen pob mad amcanion.—*Ystên Sioned*, 5.

Lle diwall, a place where nothing is wanting (for the purpose required); a safe or secure place.

A thi a'n dygaist ni allan i *le diwall.*—*Salm.* lxvi. 12.

Myfi a fuaswn yn ymddiried iddo o herwydd ei eirda gan ei gymmydogion am oll a feddwn, ac onid e myfi a fuaswn, er cymmaint y lludded, yn eu cludo genyf i ryw *le diwall.*
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 235.

2. faultless; free from errors, mistakes, or errata.

Tri chanlyn *diwall* yssyd.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 390.

A medru ar gerdd dafawd o'i waith ei hun yn ddifai *ddiwall* ym marn pencerdd.—*Iolo Mss.* 60.

Os daw allan yn *ddiwall* oddi wrth y cyssodyddion, e fydd . . . yn beth clod i'n gwlad a'n hiaith.
I. B. Hir: Gwaith, 176.

3. diligent, incessant, continual; careful.

Mae Llyfr y Doethineb . . . yn ein hannog ni i gofio yn *ddiwall* ein cenedlaeth farwol briddlyd.
Ed. James: Hom. i. 14.

Ydd oedd Ffolineb yn *ddiwall* i'm cymhell i'm treigl, drwy ddywedyd na ddylyai y fath fwriad da hyny ei adael fyned yn ofer.—*Marchog Crwydrad*, i. 3.

Digitized by Google

Bwrw ar y llysiau a'r ffiwr alwynaid o hen fedd cadarn, a chan gau arnynt yn *ddiwall*, rho ias berw iddynt.
Meddygon Mydd'ai, ii. 2.

Rhaid i ni gan hyny edrych yn *ddiwall* atom ein hunain.
Ieremi Owen, 110.

Diwall, *v.*=*Diwallu.*

Teyrn yn gwarrogi dirieidi, ac yn gwerinaw anwar; cyf-newidydd yn *diwall* eisiwed; a chybydd yn cyfoethogi'r to a ddêl.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 227.

Diwallaid, *a.* satisfied; fully supplied.

Tri pheth y dylai gwesteion fod wrth ymadael: yn *ddiwallaid* o fwyd a llyn; yn ffforddiadol eu hymdaith; ac yn gynnerchiadol o barch a syberwyd.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 280.

Diwallau, *a.* free from mistakes or errors; unmistakable; correct.

Tri pheth a ennillant gariad Duw: ffydd lân ddiffrychau; gobaith cadarn diammheuau; a chariad *diwallau*.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 232.

Diwallāu, *v.* to free from errors or mistakes; to replenish; to supply; to repair.

Er dialhau, a *diwallāu* ei nifer.
W. O. Pughe: C.G. ix. 135.

Diwalledigaeth, -au, *sf.* a supplying (with anything that is wanting or deficient); satisfaction; emendation, correction.

Diwallgof, *a.* 'not lacking memory;' not insane; not heedless.

Diwalliad, -au, *sm.* a supplying, satisfying, satiating, or furnishing; supply; emendation.

Ac gwnaeth golwc o dywyllwc a *diwallat*.
Casnodyn: M.A. i. 429.

Ystyriwch pa ryw gynnysgaeth neu *ddiwalliad* sydd arnynt eu heisieu.—*Ieremi Owen*, 94.

Tri pheth gan addwynder y dylid parth â gwesteion: derbyniad serchawg-fwyn; *diwalliad* parawd-lwys; ac ymddiddan cyfeillgar.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 280.

Y corff a gynnelir gan ail achosion, megys ymborth, awyr, a'r cyffelyb; yr hyn sydd iddo ef yn *ddiwalliad* digonol.—*Ieremi Owen*, 50.

Diwallog, *a.* having sufficiency or abundance; satisfied; diligent, assiduous.

Diwallrwydd, *sm.* satiety; sufficiency, fulness, competence, plenty, enough; faultlessness; assiduity, diligence.

Y dyd hwnnw. ar nos honno a dreulyssant drwy *diwallrwyd* o bop peth.—*Mabinogion*, 264 (cf. 256, 265, 276, 286).

Ac felly yr ymherodres, honno heb arbed dyfalwch [**diwallrwydd*] yn y byd i osod delwau i fynydd . . . a wnaeth Constantinopol mewn amser byr yn gyffelyb i Rufain ei hun am ddelwau.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 65.

Yr yd, y gwin, y gwlan, a'r arian, a fwriadodd Duw i'w treiglo a'u harferu er *diwallrwydd* a siriolded iddo ei hun a'i frawd.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 23 (cf. 293).

Diwallt, *a.* [gwallt] destitute of hair (on the head), hairless, depilated, bald.

Diwalltiad, -au, *sm.* depilation.

Diwalltrain, *v.* [dy-+gwall+train] to spread abroad, to scatter, to disperse; to destroy; to waste, to lavish.

Erlidiais fy ngelynion ac a'u daliais, ac nid ymchwelais tragefn nes ym' eu difa [**diwalltrain*].
Ll. G. Gyffredin 1567 (Salm. xviii. 37).

Yr hwn a ddifa [*ddyfetha, *ddiwalltrain*] yr Arglwydd ag yspryd ei eneu.—*W. Salesbury:* 2 Thess. ii. 8.

Diwalltrain, *sm.* waste, lavishment, lavishness. See *Difalltrain.*

Ffolhaelder yw *diwalltrein* a dlyer ac ar ny dlyer ei rodhi.
Ymborth yr Enaid, ¶ 9.

Dispergo, gwasgaru, chwalu, tanu, taenellu. *diwalltrain*, difrodi.—*Dr. Davies*, s.v.

Diwalltu, *v.* to strip off the hair, to depilate.

Diwallu, *v.* [diwall] 1. 'to divest of want;' to provide duly for; to take care of; to supply; to satisfy; to fill; to furnish.

Ef [e trullyat] a dely *dyuuallu* e uedkell ac a uo endy.
C.C. i. 44 (cf. 26, 48, 58, 194).

Ac odyna *diwallu* y march o wellt ac yt.
Mabinogion, 251 (cf. 256).

Y chwytheu heb ef y gorchymynnaf i wassanaethu ar y marchawc bonhedic hwnn. ac *diwallu* o bop peth or a uo reit idaw wrthaw.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 415.

Y ddaun ae ddeall am *diwallo*.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 336.

Diwalla ni yn fore â'th drugaredd.—*Salm.* xc. 14.

Tri thêyrnedd gwybodau: gwellāu moes a defawd; *diwallu* pob eisiwed; a diddanu meddwl.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 200 (cf. 243, 281, 287).

Diwallu anghenion, } to supply wants or neces-
Diwallu eisieu, } sities.

Er na feddai St. Petr nac arian nac aur i *ddiwallu* ei *anghenion*, yr oedd ganddo awdurdod i wneyd iddo amgen-ach cymmwynas.—*Ed. Samuel:* Buch. yr Apostolion, 35.

Efe a *ddiwalla* ei holl *anghenion*.—*Gwyliedydd*, v. 367.

Nid oes fodd nad rhaid ini wario llawer o'n hamser i ddigoni ac i *ddiwallu* ei *eisieu* ef.
Th. Williams: Ymadr. Buch. 57.

2. to remove errors or mistakes, to correct, to amend, to rectify.

Mi a gefais gan fy nghyfaill . . . adolygu, *diwallu*, diwygio y rhan gyntaf, yr hyn oedd y gwaith diweddaf a wnaeth ef.—*D. Davis:* Bywyd Duw, Rhag. 10.

Ef a addawodd fynu rhywun gwybodus i *ddiwallu* 'r Lladin a'r Seisoneg.—*I. B. Hir:* Gwaith, 174.

Diwallu'r wasg, to correct the press.

O herwydd nad allwn glywed ar fy nghalon ymddiried i neb am *ddiwallu'r wasg*, oddigerth fy mod i fy hunan yn gyfagos i fwrw golwg arno.—*I. B. Hir:* Gwaith, 205.

Diwallus, *a.* not lacking; not faulty, faultless; infallible.

Diwallus Deus nym dyuanuo.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 336.

Diwallwr, wyr, } *sm.* [diwall] one who sup-
Diwellydd, -ion, } plies, satisfies, or furnishes; a furnisher.

Diwan, *a.* not weak or feeble; strong, valiant.

Mab diuei difefyl y nerth
Mab *diwan* eiryan Iorwerth.—*Einion Wan:* M.A. i. 335.

A'i gael yn gadarn ei bilerau,
Di wan beunydd dan ei bynau.
Huw Morus: E.C. i. 319 (cf. ii. 241).

Yn mwys daenu moesau *diwcinion*.
Gwaith G. Mechain, i. 482.

Diwantan, *a.* not fickle; steady; not wanton.

A hwyntau ynddo yntau'n *ddiwantan*.
Huw Morus: E.C. ii. 274.

Diwaradwydd, *a.* without reproach or disgrace, reproachless; irreproachable.—*M.A.* iii. 137.

O thelyr ydau enteu y sarhaet *dywaratwyd* yu er kenedel.
Cyfreithiau Cymru, i. 240.

Och awyr am wyr *diwaradwydd*.
Dafydd Benfras: M.A. i. 311.

Gwae fi am arglwydd gwalch *diwradwydd*.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 396 (cf. 516).

Archaf Gulwyd *diwaradwyd* dy wiw radeu.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 468.

Bod i chwi gael gras i sefyll yn ddiysgog ac yn *ddiwaradwydd* yn y dydd mawr hwnw.—*Gwyliedydd*, ii. 67.

Diwarafun, *a.* [gwarafun] unprohibited, unhindered, unforbidden, ungrudged; unenvied; without repining or grudging.

Ar gwyr racko a gaffant med a bragawt yn enrydedus. ac a gaffant gorderchu merchet teyrned Ynys Prydein yn *diwaravun* ac wynteu ae dylyant hynny.—*Mabinogion*, 149.

Digitized by Google

Mi gaf yn *ddiwarafun*,
Rhag didro, heno fy hun,
Ganwyllau'r Gwr biau'r byd,
I'm hebrwng at em hoew-bryd.—*D. ab Gwilym*, li. 15.

Bydd oddefgar hyd farw yn *ddiwarafun* dros ddaioni y pryd a'r achos bynnag y bo rhaid a gofyn.—*Barddas*, i. 294.

Odid da *diwarafun*.—*Diareb.* (M.A. iii. 174.)

Y mae'r esgob yn cael gwneuthur a fyno yn *ddiwarafun*.
I. B. Hir: Gwaith, 201.

Am hyny gadawont i dadmaethod a mammaethod yr eisteddfodau a chymdeithasau areithiol i chwareu 'buarth paban' eu hunain yn *ddiwarafun* am ennyd.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 291.

Diwarafuniaeth, *sf.* exemption from prohibition.—*P.*

Diwarannu, *v.* [gwarant] to decline to warrant, to disavow; to defeat.

Ac ar hynny eu *diwarannu* wynt a wnaethpwyt.
St. Greal, § 76.

Diwarant, *a.* without warrant, unwarranted.

Y mae Duw mor belled oddi wrth fod yn rhwym i'n nerthu ni yn ein ffolineb a'n byrbwylldra *diwarant*, a chael ei gyffroi yn gyflawn trwy hyny i'n gadael ni i ni ein hunain.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 276.

Diwarchae, *a.* without confinement; unchecked, unrestrained.

Yn awr trwy y dorau, dychrynllyd yw rhuthrau
Y chwyrn-llif a'i donnau *diwarchau* yn d'od.
Ieuan Glan Geirionydd: Geir. 113.

Diware, **Diwarëus**, *a.* [gware=chware] not playful or sportive; dejected.

Y byd a glybu dy wybodus gael
O Riain feinael *ddiwarëus*.—*D. ab Gwilym*, ccxli. 5.

Diwarediad, *a.* without saving; that cannot be redeemed or delivered.

Yn draws ei gerddediad, i'r pwll *diwarediad*,
Y bydd ei fynediad ofnadwy.—*Huw Morus:* E.C. ii. 289.

Diwarnod, -au, *sm.* [L. *diurnus*, *diurnum*; C. *dzhyrna*; Fr. *journée*] a day; a certain day; one day; a day (with the subaudition of length or duration rather than of light). See *Dydd*.

Megys pei damchweinei y dyn werthu march y arall trwy veicheu erbyn *diwarnot* y gaffel tal.
Cyfreithiau Cymru, ii. 324 (cf. 342, 344, 422; i. 472).

Yr amherawdyr Arthur oed yg Kaer Llion ar Wysc. sef yd oed yn elsted *diwarnawt* yn y ystauell.—*Mab.* 162 (cf. 68, 69, 82, 85, 89, 101, 113, 162, 179, 183, 185, 193, 194, 219).

Ban dywu guas duv *diwarnaud*
Attav ir imbrav ae briaud.—*Llyfr Du:* A.B. ii. 15 (cf. 210).

Ac ymlad mawr a uu niuer o *diwarnodeu*. a hir uu y vrwydyr.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 33 (cf. 5, 28, 30, 34).

Ac val ydoed Vrutus *diwarnawt* yn aberthu y Diana yn y porthus y disgynnassei yndi. nachaf y kawr hwnnw yn dyuot ar y vgeinuet or kewri ereill y gyt ac ef.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 58 (cf. 42, 62, 80, 110).

Tec oed y *diwarnawt* udunt.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 454 (cf. 385, 386, 392, 409, 460, 467, 491, 495, 496).

Diwarnawt ydoed Baredur yn eisted ac yn bwyta ar neilllaw y vam. a llawer o varchogyon urdolyon gyt ac wynt.—*St. Greal*, § 184 (cf. 8, 9, 69, 72, 152, 182, 185, 192, 195, 240).

Kymessuraw y hymdeith bop *diwarnawt*. val y delynt y hynt.—*Ystoria Charles*, 4.

Rhuthr a ddug nid ffug er ffossawd fy llyw
Llangollen *ddiwarnawd*.—*Gwgon:* M.A. i. 337 (cf. 577).

Diwarnnawt yd oed hi yn gyfulawn oe damunet ef.
Llyfr Ancr, 77 (cf. 136).

A *diwarnàwt* y doeth hi y ty gwrach ysgymmun. unllegeidiawc.—*Doethion Rhufain*, § 3 (cf. 24, 33).

Paham y mae yawnach un prydyaw dduw Gwener no *diwarnawt* arall or wythnos?—*Ipotis*, § 19.

Ef a wnaeth ac a wahanawdh pob peth yn hwe *diwarnawt* yn rannau. nyt amgen yn y tri *diwarnawt* y gwnaeth ef defnydhiau.—*Lucidar*, § 7 (cf. 36).

Ac ympenn y deugeinuet *diwarnawt* y bu uarw.
Brut y Tywysogion, 144.

Llef yn gadarn *ddiwarnawd*
Yw'r llef fry am iarll a'i frawd.
Ieuan Deulwyn: G.B.C. 136.

Oed Crist 830, y bu diffyg ar y lleuad yr wythfed dydd o fis Rhagfyrr, a'r un *diwarnod* y bu farw Morydd ab Llywarch Llwyd brenin Ceredigion.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 477.

Oes deilad ar dir dyn arall, undydd a blwyddyn a thri *niwarnawd* nawdd.—*Leges Wallicae*, iv. ccxiii. 1.

Ac arfered felly ddeg neu ddeuddeg *diwarnod*.—*Meddygon Myddfai*, ii. 30 (cf. 49, 120, 121, 124, 408, 419; i. 55).

Fal y dangoser amseroedd lleuad wrth luniau golwg arni, a rhif blwyddyn, mis, a *diwarnod*.—*Barddas*, i. 92.

Bu'n daer arno aros rhai *ddiwarnodau* gydag ef.
Iolo Mss. 98 (cf. 67, 95, 162, 167, 170, 171, 188, 227).

Mae fe'n credu . . . iddo ymprydio ddeugain *diwarnod* a deugain nos heb fwyd na diod.
Ed. Iames: Homiliau (1606), i. 37 (cf. ii. 252, 259).

Mal y gallent ei phorthi hi yno mil o *ddiwarnodau* a thrigain a dau cant.—*T. Huet:* Dad. xii. 6 (cf. xi. 3).

Mae dau le ryfedd hynod
Ar wyneb y ddaiar isod,
Lle nad oes mywn blwyddyn faith
Ond noswaith a *diwarnod*.
Dafydd Lewys: Golwg (1725), xvii. 10.

Diwarnod gwaith (*pl.* diwarnodau gwaith), a work- or working-day (as distinguished from Sunday or Holiday).

Fe a ddylaid wrth rodio ystyried yr heolydd cyffredin er mwyn gwybod pa leoedd y gosodwch eich *diwarnodau gwaith* yn ol yr ystatudau da a ddarparwyd i'r defnydd hyny.—*Ed. Iames:* Hom. iii. 163.

Diwarnod o waith, *Gwaith diwarnod*, a day's work, the work of a day.

Diwarnod a noswaith, a day and a night; the space of a day and a night (=24 hours).

Golcha nhwy'n lân, a dod nhwy i sefyll *ddiwarnod a noswaith* mewn gwin gwyn.—*Meddygon Myddfai*, ii. 65 (cf. 506).

Llawer o ddiwarnodau (=llawer o ddyddiau), many days.

Gwedi ymdristäu *llaweroedd o ddiwarnodau* . . . daeth ar gof iddaw mai gwyn eu byd y tlodion golychwydawl.
Iolo Mss. 180.

Ar ddiwarnod, on a day; on a certain day.

Ar ryw ddiwarnod, on a certain day; on some day.

Er ys pedwar diwarnod, four days ago; these four days.

¶ *Diwarnod* (*diwarnawd*) is a much older form than the less euphonious *diwrnod*, and is the current pronunciation in South Wales. The latter has not been found in prose before the 16th century. *Diwrnawd* occurs in one of the poems of Meilir (*M.A.* i. 189) apparently as a trisyllable, and in D. ab Gwilym it is usually treated in the same way; but the printed editions of these poets, and most of the Mss. we have, are not in the orthography of their respective ages. *Diwrnod* was adopted by Bishop Morgan in his translation of the Bible (1588), and has been retained in all subsequent editions. *Diernod* is the form used by Salesbury (1567). See *Diwyrnawd*, another form of the same word.

Diwrnod may be a contraction of *diwarnod* or *diwyrnod*; or it may have originated in an attempt to assimilate the word more closely to its Latin original, as has been the case with some other words.

As *diwarnod*, *diwyrnod*, or *diwrnod*, as well as the Fr. *journée*, cannot be regularly formed from *diurnus*, a L.L. *diurnatus* or *diurnata* has been suggested as the immediate source; but no such form is known to occur.

Diwarnod or *diwrnod*, like most words denoting time, is often used adverbially as to construction, as will be seen by several of the preceding quotations.

Digitized by Google

Diwarnodol, *a.* diurnal, daily.

Gwaith diwarnodol, day-labour, the work of a day; work done by the day.

Diwarrog, *a.* [gwarrog] without a yoke, unyoked; emancipate.

Diwarrogaeth, *sf.* emancipation.

Diwarrogi, *v.* to unyoke; to emancipate.

Diwarrogiad, *sm.* an unyoking; emancipation.

Diwarrogol, *a.* emancipatory, emancipative.

Diwarth, *a.* [gwarth] free from disgrace or reproach; reproachless.

Ny doeth en *diwarth* o barth Vrython.
Aneurin: God. 638.

Yn fab *diwarth*, llawn ei fuarth.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 233.

Colled rwy ym rwyf *diwarth*
Coll mawr ar wawr llawr Llannarth.
Prydydd Bychan: M.A. i. 396 (cf. 461, 484).

Llawr mawr Mebwynyawn dawn *diwarthaf*
Llewychdud meinhir ywr tir teccaf.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 295.

Ath *ddiwarthaf* daith a'th hoyw wyrthiau.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 451 (cf. 469).

A Deheubarth, *ddiwarth* ddydd,
A dyn dan dy adenydd.—*Dafydd Emlyn.*

Ti gai'n *ddiwarth* fyw'n y byd,
A bywyd da'n y diwedd.—*Sion Cent.*

Ai'r gwŷr hyn yw ein cyhuddwyr ni, y rhai ni ddichon neb grybwyll am eu buchedd yn *ddiwarth*, ddigywilydd?
M. Cyffin: Diff. iv. 2.

Diwarthrudd, *a.* reproachless, irreproachable; blameless.

Diwarthruddiol, } *a.* not reproaching; irre-
Diwarthruddol, } proachable.

Diwarthrwydd, *sm.* irreproachableness, reproachlessness; freedom from disgrace.

Na chais ddillad lledrad o myni *ddiwarthrwydd*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 33.

Diwarthu, *v.* to divest of reproach or disgrace; to free from shame or reproach.

Diwarthodd bum-wlad wrthyn'.—*Gruffydd Hiraethog.*

Duw â'i wyrth a'th *ddiwarthodd*;
Ys da ferch, haeddaist ei fodd.—*Sion Tudur.*

I *ddiwarthu* 'r wedd wrthun,
Nid oes help, ond Iesu'i hun!—*Huw Morus:* E.C. ii. 425.

Diwarthus, *a*, not reproachful or disgraceful.

Mae'r Arglwydd yn addaw esmwythaw, a dilwythaw,
I'n gwared oddi wrthaw'n *ddiwarthus*.
Huw Morus: E.C. ii. 289.

Diwasaidd, *a.* [gwas] not servile or slavish.

Diwasaidd yngherdd ym dewissynt.
Llywelyn Goch: M.A. i. 515.

Diwasanaeth, *a.* without service; unserviceable; useless.

Ond garw, Ow! mor welw awr marwolaeth,
Ydyw y senwr *diwasanaeth*.—*Dewi Wyn:* Blod. Arf. 89.

Diwasanaethgar, *a.* unserviceable.

Diwasanaethgarwch, *sm.* unserviceableness.

Diwasanaethol, *a.*=*Diwasanaeth.*

Diwasanaethu, *v.* to cease to serve; to become unserviceable.

Diwasarn, *a.* without litter; not confused; not trivial.

A'i fab oedd Talhaiarn, ddewisol *ddiwasarn*.
Ieuan Lleyn: Caniadau, 121.

Diwasgar, *a.* unscattered, undispersed.

Diwasgarol, *a.* not apt to scatter.

Diwasgaru, *v.* not to disperse; to cease to disperse or scatter.

Fort woegord diwoegort *diwasgaru*.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 269.

Diwasgod, } *a.* without shelter, shelterless,
Diwasgodfa, } unsheltered, unscreened, unshadowed, unshaded.

Plan dy ffa mewn tir glân a chroew, a than wasgod coed, neu arall o wasgodfa, yn lonor a Chwefrol; a phlan mewn tir croew, a glân a *diwasgod*, yn niwedd Mawrth.
Rhisiart Sion Hww.

Diwasgodi, *v.* to unshelter; not to screen.

Diwasgodiad, *sm.* an unsheltering.

Diwasgodol, *a.* unsheltering.

Diwatwar, *a.* without mockery; earnest.

Rwy a mwy y mae no gwae nyt gwar
Rydranc leuanc iawn dawn *diwatwar*.
Casnodyn: M.A. i. 426 (cf. 420).

Diwawd, *a.* without mockery; serious.

Y mae dy gnawd, *diwawd* dôn,
O bridd daiar goch Ebron.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 368.

Diwawl, *a.* without light, lightless.

Ond daeth yn hin erwinawl,
Ac erchyll ddu wyll *ddi wawl*.—*Gwaith G. Mechain*, i. 485.

Diwawr, *a.* without dawn; dayless; dark.

Y llew ddaeth i fyny o'i loches *ddi wawr*,
A gordd yr holl ddaiar a godir yn awr!
Islwyn: Caniadau, 13.

Diwecry, *a.* [gwecry] not feeble, flagging, or shaky; firm.

Dwyn eurwas difas defawd *diweccry*
I dy dirwely daear waelawd.—*Sefnyn:* M.A. i. 504.

Diwedydd, -iau, *sm.* [diwedd+dydd: C. *dewedhes*] the end or close of the day; the evening.—*Barddas*, i. 420.

Tri *diwedyd* kat am dri phriawt.—*Taliesin:* A.B. ii. 150.

A *diwedyd* ef a doeth y dyffrynn.—*Mabinogion*, 211.

As gwan gwayw o ergrywyd llog
A llaw kynn *diwedyd*.—*Myrddin:* A.B. ii. 230.

Ti yw'n eidduned y *diwedydd*.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 563.

Y nos yr yfem, er nesed fai'r dydd,
Ei win *ddiwedydd* yn' a ddoded.
L. G. Cothi, iv. v. 47 (cf. xiv. 52).

Am hyny efe a dreuliodd y *diwedydd* yn cadarnhau ei wersyll.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 323 (cf. i. 249).

Ni ddaw yr haul o'r awyr
Y dydd, hyd *ddiwedydd* hwyr.—*L. G. Cothi*, vi. iii. 41.

Tyn i mewn dy ffrwythau perllan, fal afalau a pher, ac ereill o ffrwythau cadw, ar lawn y lleuad, ac yn y *diwedydd*, a'r tywydd yn deg ac yn sych.
Rhisiart Sion Hww.

Mae hi yn tynu tua'r diwedydd, it is drawing towards the evening; it is growing late (in the day).

Diwedd, -ion, *sm.* [C. *diwedh;* Br. *divez;* Ir. *dead, diad*] 1. end; conclusion, close, termination, finis.

A pha furyf y bu *diwed* Chyarlymaen yn y lle hwnnw. ni ae dywedwn yn *diwed* y llyuyr hwnn ar uyrder.
Yst. de Carolo Magno, col. 409.

Ni addawaf da *ddiwedd*
I'm aur, eithr eos a medd.—*D. ab Gwilym*, xix. 15.

Drwg y bu'r *diwedd* i'r ddau dywysog.
Iolo Mss. 63 (cf. 207).

Darymchwel yw, pan adroddir y cyffelyb sain neu air yng nghlöedigaethau neu *ddiweddion* y brawddegau.
H. Perri: Egl. Ffraethineb, xxvii. 1.

Digitized by Google

Cyn dechreu gwel y *diwedd*.—*Diareb.*

Rhyfedd *diwedd* blodeuyn,
A rhyfedd yw *diwedd* dyn.
L. G. Cothi (Flor. Poet. Brit. 15).

Diwedd a ddaeth, daeth *diwedd*.—*Esec.* vii. 6 (*cf.* 2, 3).

Diwedd sydd i flodeuyn,
Ac unwedd fydd *diwedd* dyn.—*Gronwy Owain*, 61.

Y bedd yw *diwedd* y daith.—*Daniel Ddu*, 460.

Bydd gall i ddeall dy *ddiwedd*.—*Iolo Morganwg.*

Diwedd y byd, the end of the world.—*Matt.* xiii. 39 (*cf.* 40, 49; xxiv. 3; xxviii. 20).

Dwyn y gwr dan y gweryd,
Dydd o bwys, *diwedd y byd!*—*Gutyn Owain:* G.B.C. 217.

Diwedd y dydd, the close or end of the day; the evening. Cf. *diwedydd.*

Ae aros ynteu a wnaeth Manawydan hyt parth a *diwed y dyd*.—*Mabinogion*, 50 (*cf.* 208, 209).

Taryan yr honn nys roes neb am y vynwgyl ny chyfarffei ovit ac ef kynn *diwed y dyd*.—*St. Greal*, § 8.

Diwedd oes, *Diwedd einioes*, } the end or close of life.

Ac yn *diwed* y *oes* y lleagwys.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 63 (*cf.* 66).

O hynny hyt yn *diwed y oes* yn hedwch lwydyannus y llywyawd Llud uab Beli Ynys Prydein.—*Mabinogion*, 99.

Y Bedd sydd imi ar bar,
A *diwedd oes*, a daiar!—*D. ab Gwilym*, cclxii. 29.

A gwiliaw'n ofalus rhag llaw ddianc o rwyd pysgodwr hyd *ddiwedd* fy *oes*.—*Iolo Mss.* 155.

Heb fod iddo na dechreu dyddiau, na *diwedd einioes*.
Heb. vii. 3.

O'r diwedd, at last, at the last; lastly, finally.

Ac *or diwed* gwedy na duunynt am hynny, sef a wnaeth Gwrtheyrn Gwrtheneu iarll oed hwnnw ar Went ac Ergig ac Euas wrth geissyaw y vrenhinyaeth idaw ehun. *or diwed* mynet hyt yg Kaer Wynt y lle ydoed Gonstans yn vynach.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 127 (*cf.* 211, 235, 254).

Ac *or diwed* daly Octa. ac Osa.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 288.

Ac wrth hynny y gelwit hi Kaer Lud. ac *or diwed* Kaer Lunndein.—*Mabinogion*, 93 (*cf.* 97).

Ac *or diwed* ymgadarnhau yn y gwarthafleu a wnaethant.
Yst. de Carolo Magno, col. 446.

Am y wir byt dir *or diwet*.—*Llygad Gwr:* M.A. i. 343.

Modd y delom o'r *diwedd* i'w lawenydd tragywyddol.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Gollyngdod).

Hi a ddywed *o'r diwedd*, ac ni thwylla.—*Hab.* ii. 3.

Fe a gytsunwyd *o'r diwedd* gan yr holl gynghor yn y modd yma.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 69.

Efe a ynnilles y cadeiriau y ffordd y cerddai ac y canai; aeth *o'r diwedd* yn gas rhyngtho a gwŷr y wlad.
Iolo Mss. 77.

O'r diwedd gorfum dewi.—*I. B. Hir:* Gwaith, 149.

'*O'r diwedd*, ynte, *o'r diwedd*,' meddai Napoleon, 'mae'r Seison yma yn fy mhalf.'—*Daniel Ddu*, 332.

Yn y diwedd, in the end; at the end; at last; ultimately; finally; in the long run.

Ac *yn y diwed* diffygyaw a wnaethant.—*Mabinogion*, 47.

Ach rodi *yn y diwed* yn llaw y brenhin.
Brut y Tywysogion, 98 (*cf.* 82).

Ac *yn y diwed* y kauas yn y chynghor rybudyaw Gereint.
Mabinogion, 274.

Ac *yn y diwed* y doeth Vchtrut attunt.
Brut y Tywysogion: Ll.C.H. ii. 283.

Rhag iddi *yn y diwedd* ddyfod, a'm syfrdanu i.
Luc xviii. 5.

Ac eto brenin a fydd ef *yn y diwedd*.
Iolo Mss. 277 (*cf.* 265, 268, 274).

Yn y diwedd da fydd i'r hwn a ofno'r Arglwydd.
Eccl. i. 13.

Hyd y diwedd, to the end; to the last.

Yr hwn a barhao *hyd y diwedd*, efe fydd cadwedig.
Matt. x. 22 (*cf.* xxiv. 13).

O'r dechreu i'r diwedd, } from the beginning
O'r dechreu hyd y diwedd, } to the end; from beginning to end.

A hwnnw *oe dechreu hyt y diwed* a ymlidyawd y Saeson.
Brut y Tywysogion, 38.

Y dechreu a'r diwedd, the beginning and the end.—*Dad.* i. 8; xxi. 6; xxii. 13.

Moli Duw in *nechrev a diuet*.—*Llyfr Du:* A.B. ii. 10.

Canys ymhob lhe arnei y cephir *dechreu a diwedh*.
Ymborth yr Enaid, § 15.

I'r diwedd, to the end; to the last.

Hyd ddiwedd y bennod, to the end of the chapter.—*Hom.* ii. 29.

2. end, intention, object, purpose.

Yng nghylch y *diwedd* a'r pennod sydd i Gristion, a'r pethau anghenrheidiawl iddo i gyrhaeddyd ei bennod. . . Mae'r *diwedd* y creawdd Duw ddyn iddo?
Morys Clynog: Athrawaeth Grist. 11.

Chwi a glywsoch am amynedd Iob, ac a welsoch *ddiwedd* yr Arglwydd.—*Iago* v. 11.

Y 3 achos yw, tlodi ac eisieu gwlad Gymbru o lyfrau yn ei hiaith ei hun, i'r *diwedd* a'r defnydd hwn.
Huw Lewys: Perl, Rhag. 5.

Er mwyn pa achos a *diwedd* y crewyd dyn ac y gosodwyd ef yn y byd hwn. . . Y cyffelyb bethau a fynwn i Gristion eu hystyried, ac ymofyn ag ef ei hun, pa ham, ac er mwyn pa achos a *diwedd* y creodd Duw ef.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. iii. 1.

Felly y mae Trugaredd a Chyflawnder yn un, ac yn mynu eu *diweddion*.
Morgan Llwyd: Tri Aderyn, 53 (*cf.* 50, 63).

Diwedd y gân yw y geiniog.—*Diareb.*

Diwedd, *a.* last, final, ending.

Kyn nom duyn yn *diued* garchar.
Cynddelw: M.A. i. 249 (*cf.* 344).

Diwet y doetham i ti.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 267 (*cf.* 286).

Awr ddiwedd, the last hour.

Nid hawdd dianc rhag *awr ddiwedd*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 66.

Diwêdd, *a.* [di-+gwedd] endless, beyond measure, immense.

Mae ganddo beth diwêdd o gyfoeth, there is no end of his wealth; he is enormously rich.—*N. W.*

Diwedd, *s.pl.* [pl. of *diw*=*dyw*] days.

A thrwy y holl *diued* ef ofyn a vydei ar y neb a wnelei kam neu ae kynhalei.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 288.

Diweddaf, } *a.* [diwedd: C. *dywetha;* Br. *diveza*]
Diwethaf, } last, latest; final; hindmost; concluding, terminating. See *Diwaethaf.*

Ac ena ar ol e kenyauc *dyguethaf* aet.
Cyfreithiau Cymru, i. 94 (*cf.* 240).

Ar swydogyon kyntaf a ryuassam ny uchot yw rey y llys, ar wyth *dywethaf* yw rey y urenhines.
Cyfreithiau Cymru, i. 4 (*cf.* 354).

Pwy heb y Ronabwy y trywyr *diwethaf* a deuthant att Arthur.—*Mab.* 159 (*cf.* 54, 78, 97, 108, 152, 258).

A Gwalchmei a ovynnawd udunt a vuassynt iach a llawen yr pan ymwelsynt *diwethaf*.—*St. Greal*, § 2 (*cf.* 10).

Medylya am y pyngkeu *diwethaf* ac yn dragywydawl ny phechy.—*Amlyn ac Amig*, col. 1068.

Diwethaf y canaf can yawn.
Cynddelw: M.A. i. 234 (*cf.* 365).

Dyd Mawrth neesaf gwyl Lyc *diwethaf* a lithrod ynn y vlwydyn honn.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 442.

Ac yno yn enrydedus y derbynywyt hyt y dyd *diwethaf* oe vuched.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. i. 193.

Gann eu rhodhi yr tan tragywydhawl yn y varnn *dhiwedhaf*.—*Lucidar*, § 11 (Hengwrt Ms.).

Y *diwethaf* o'r Brytaniaid a fu arlwydd y Coetty oedd Morgan.—*Iolo Mss.* 27.

Digitized by Google

Myfi fy hun wyf gyntaf, a mi fy hun wyf y *diwethaf*.
Esgob Morgan: Esa. xlviii. 12.

Myfi wyf Alpha ac Omega, y cyntaf a'r *diweddaf*.
Esgob Morgan: Dad. i. 11 (cf. xxii. 13).

Ac mi a welais arwydd arall yn y nef, mawr a rhyfeddol, saith angel, a chanddynt y saith bla *diweddaf*.
Esgob Parry: Dad. xv. 1 (cf. xxi. 9).

Y gelyn *diweddaf* a ddinystrir yw yr angeu.
1 *Cor.* xv. 26.

A chymmeryd llonaid llwy bob bore yn wag, a'r nos yn *ddiwethaf*, hyd ym mhen y naw diwarnod.
Meddygon Myddfai, ii. 265 (cf. 325; i. 91, 167).

Y dydd diweddaf, the last day.—*Ioan* vi. 39, 40, 44, 54; xii. 48.

Bit yn waratwyd hyd *y dyd diwethaf* yr neb y goruyder arnaw.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 394 (cf. 488).

Dwy varn yssydh y Dhuw. un yma drwy gyffes. ar lhalh *y dydh diwedhaf*.—*Lucidar*, § 82.

Y tro diweddaf, the last time; the last turn.

Y pedwar peth diweddaf, the four last things.

Yn ddiweddaf, lastly, in the last place; in conclusion; finally.

Ac *yn ddiwethaf*, pa fodd yr arferasant holl ddoniau Duw yn y byd hwn.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. v. 16.

Yn ddiweddaf oll, last of all; in the very last place.—*Matt.* xxii. 27.

¶ *Diweddaf* may be the superlative of the rare adj. *diwedd*, or it may be formed from the subs. *diwedd*, like *amserach* from *amser*, *angeuach* from *angeu*; *llesach* from *lles*; and the like.

Diweddar, *a.* [C. *dywethas*] late; tardy, slow.

a. late (as to time or season); long-delayed.

A'r gwenith a'r rhyg ni churwyd; o herwydd *diweddar* oeddynt hwy.—*Ecs.* ix. 32.

Y gwlaw diweddar: see s.v. *Cynnar*.

Cynhauaf diweddar, a late harvest.

Haf diweddar, a late summer.

Mae yn ddiweddar, it is late.

Hi a aeth yn ddiweddar, it is grown or become late.

Rhy ddiweddar, too late.

A'r defaid, pan oedd *ry ddiweddar*, a welasant faint eu disynwyrdeb.—*Iolo Mss.* 176 (cf. 315).

b. late; recent; recently past, dead, or defunct.

Englynion o barchus Goffadwriaeth am y *diweddar* Fardd ac Hanesydd, Iolo Morganwg.—*Daniel Ddu*, 173.

Ei ddiweddar Fawrhydi Siors yr Ail, his late Majesty George the Second.—*W.*

Y diweddar Dywysog Cydweddog, the late Prince Consort.

c. late, modern, recent.

Aberthasant i gythreuliaid, nid i Dduw; i dduwiau nid adwaenent, i rai newydd *diweddar*, y rhai nid ofnodd eich tadau.—*Deut.* xxxii. 17.

Hen a diweddar, ancient and modern.

Awduron diweddar, modern authors; recent authors.

Yn ddiweddar, lately, of late; recently.

Ac er bod y Beibl, yr awr hon *yn ddiweddar*, wedi ei gyfieithu, a'i droi i'r Gambraeg, drwy boen a dyfal ddiwydrwydd y gwir ardderchawg, ddysgedicaf wr, D. Morgan . . . mae llaweroedd yn amddifaid o gynghor.
Huw Lewys: Perl, Rhag. 5.

Diweddarhâd, *sm.* a growing or getting late.

Diweddarhaol, *a.* tending to be late.

Diweddarhau, *v.* to become late; to make slow or tardy.

Diweddariaeth, -au, *sf.* modernism.

Diweddariaid, *s.pl.* the moderns.

A soniwn ninnau, *ddiweddariaid* dirywiedig, weithiau am wallt plentyn tlws, ei fod 'cyn felyned a'r oldcn.'
Ystên Sionad, 115.

Yr hynafiaid a'r diweddariaid, the ancients and the moderns.

Diweddaru, *v.* to grow or become late; to modernize.

Diweddarwch, *sm.* lateness; slowness, tardiness; modernness.

Ni theifi dim monom oddi wrth wasanaeth mor sanctaidd pan alwer ni ato, ond naill ai pechod ai ammherfeithrwydd, un ai gwendid ai annuwioldeb, a *diweddarwch* ysprydol.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 257.

Rhoddaf gynllun arall o *ddiweddarwch* iaith, allan o 'Yrymes Dyddbrawd.'—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 295.

Diweddawd, *sm-f.* ending; conclusion; termination.

Difa draig wron weinion wascawd
Gogwyppo i Dduw oi *diwetawd*.—*Meilir:* M.A. i. 190.

Diweddbarth, -au, *sm.* the last, latter, or concluding part; conclusion.

Eithr *diweddbarth* y llyfr hyn a fyfyriwyd dan berthi a dail gleision mywn gronyn o fangre i mi fy hunan.
Dr. I. D. Rhys: Gram., Rhag. 8.

Diweddeb, -ion, -au, *sm.* 1. a full point or stop, a period (.).

Bydd y llais yn disgyn, neu braidd yn darfod, ar sill olaf yr ymadrawdd y byddo nod *diweddeb* wrtho.
W. O. Pughe: Cad. yr Iaith Gymraeg, i. iii. 4.

Diweddeb (.) a arferir i nodi ymadrodd cyflawn ac annibynol, yr hwn nid yw yn gyssylltiedig mewn cystrawen â'r ymadrodd canlynol. . . Gellir goddef *diweddeb*, weithiau, rhwng dau ymadrodd, er eu bod yn cael eu cyfuno â chyssylltiad gwahaniadol neu gynglynol. . . Dylid defnyddio y *diweddeb* ar ol pob gair talfyredig.
Isaac Jones: Gram. Cymr. (1841), 130.

2. cadence (in music).

Wrth *ddiweddeb* y meddylir, terfyniad cyflawn ar ddosran neu eilewig cerddorol. Gallwn ddosparthu y *diweddebau* i ddau ryw.—*J. Mills:* Gram. Cerdd. 148 (cf. 150, 151, 192).

Diweddedig, *pt.a.* ended, finished, concluded.

Diweddfa, -oedd, fëydd, *sf.* [C. *diwedhva*] an ending place; an end; a conclusion; a goal; a terminus.

Prysuro yr wyt ti ryw ffordd neu eu gilydd tu â *diweddfa* dy fer yrfa.—*Elis Lewis:* Drexelius, 231.

Diweddglo, -ion, *sm.* that which winds up, concludes, or closes; a conclusion; a peroration; an epilogue.

A phan derfyno y rhan yma o'i dasg, fe fydd i'r hyn a gynnwysir ym mhellach, a'r *diweddglo*, yn llawer mwy cymmeradwy.—*I. Anwyl:* Cynghor yr Athraw, Rhag. 1.

Cyffelyb ydyw y byd hwn i chwareudy, dynion ydyw y chwareuyddion, a'u bucheddau ydyw y chwareuyddiaeth; un mewn dull brenin, a'r llall mewn dull cardotyn; ac yn ol y *diweddglo*, nid oes rhagoriaeth rhyngthynt.
Gwaller Mechain: Gwaith, ii. 100 (cf. 293).

Y *diweddglo* hwn, yn wir, sydd yn gyffredinol.
Cadwedigaeth trwy Ras (1791), 89.

Mi chwanegaf at yr hyn a ddywedpwyd, fel *diweddglo* ar y pen hwn, yr ystyriaethau a ganlyn.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 256.

Un o'r ysgolheigion dysgedicaf a welodd yr oes hon, ar ol gwneuthur traethawd hir ar y pwnc o gyflawnhâd, yn yr hwn y mae wedi trin pob peth sy'n perthyn i'r athrawiaeth, a ddywedodd fel hyn yn *ddiweddglo* i'r cwbl.
Nicander: Dysga Fyw, 62.

Digitized by Google

Diweddglo araith, the concluding part of a speech; the peroration of an oration.—*W.*

Diweddgload, -au, *sm.* a concluding, conclusion.

Diweddgloi, *v.* to conclude; to sum up; to epilogue.

Diweddglwm, glymau, *sm.* a finale; conclusion, end.

A rymhaa ediueirwch yn y *diweddglwm*?—*Lucidar*, 191.

Diweddi, *a.* [gweddi] prayerless.

I ddyfod â meddwl cnawdol yn fynych at y Sacrament, neu un diofal a *diweddi* i weddïo yn feunyddol ac yn wythnosol.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 267.

Diweddiad, -au, *sm.* an ending, finishing, or concluding; conclusion, termination, accomplishment; end.

Diweddiad geiriau ei emeu sydd anfad ynfydrwydd.
Preg. x. 13.

Yr ail wedd sydd, pan adroddir yr unrhyw eiriau yn y dechreuad, a'r unrhyw yn y *diweddiad*.
H. Perri: Egl. Ffraethineb, xxviii. (2), 2 (cf. 1).

Y mae efe, meddaf fi, wedi dal sulw ar *ddiweddiadau* a newidiadau Rhagluniaeth a wnaeth bob peth yn deg yn ei amser.—*Sam. Williams:* Amser (1724), 164.

Diweddiad tant fu'r dydd tau.—*I. B. Hir:* Gwaith, 96.

Cantref y Gwaelawd, a orchuddiesid gan y môr, ar *ddiweddiad* y bummed ganrif.—*Cylchgrawn*, i. 29.

Diweddiaith, *sf.*=*Diweddlef*.

Diweddlef, *diweddiaith*, llef mawrygiad, llef rhyfeddod.
Walters, s.v. 'Epiphonema.'

Diweddlef, -au, *sf.* epiphonema, 'an exclamatory sentence or striking reflection, which sums up or concludes a discourse or a passage in the discourse.'

Diweddlef sy ddull ymadrodd bywiog a ffraethlym yn niwedd unrhyw draethawd, neu adfyfyrdod cyflym o'r hyn a grybwyllwyd o'r blaen.
Robert Davies: Ieithadur Cymraeg, 109.

Amen *diweddlef* Lefi, Amen Duw,
Amen deddf uchelfri.—*Robert Owen:* Gweith. 94.

Diweddnod, -au, *sm.* 1. the final point, purpose, aim, or object; end, aim, object; goal.

Diweddnod ei bererindod ef oedd Albania neu Albanopolis.—*Ed. Samuel:* Buch. yr Apostolion, 193.

Y mae Duw wedi ordeinio i fywyd dyn yn gyffredinol *ddiweddnod* disigl.
Th. Williams: Ymadr. Buch. 168 (cf. 192, 195).

2. a period or full stop: also called *cyfannod*.

Diweddnod (.) a arferir i nodi cyflawn a pherffaith derfyn ymadrodd. . . Dylid gosod *diweddnod* ar ol pob gair toredig.—*Robert Davies:* Ieithadur Cymraeg (1826), 86.

Y *diweddnod* a noda gyflawn derfyn ymadrodd. . . Gall *diweddnod* gyfryngu rhwng dau ymadrodd, er yn gyfunedig â chyssylltiad.
D. E. Jones: Ieithadur Seisoneg, 125.

Diweddnos, -au, *sf.* the end or close of the night; the early dawn. Cf. *diwedydd*.

Trin ynghyfedd *diweddnos*.
Englynion y Misoedd: M.A. i. 16.

Rhai a feddwant heb achos,
A rhai erys *ddiweddnos*.—*Sion Tudur*.

Cyflawnodd y gyfraith, fe'n rhodd mewn goruchafiaeth,
Rhown ninnau ein crediniaeth yn helaeth yn hwn;
A chanwn *ddiweddnos*, yn gydsain â'r cos,
I'w foli fel Enos na flinwn.—*Huw Morus:* E.C. ii. 284.

Diweddol, *a.* conclusive, ending, terminating, concluding; final, last; terminal.

Erbyn fy marwawl *ddiweddawl* ddydd.
Llywelyn Goch: M.A. i. 585.

Y gair *diweddawl* yma sy'n arwyddocäu cywreintrwydd y physygwr, a'r gwybodaeth y sy ynddo.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb (1595), xxviii. 3 (cf. 4).

Peth i'w ofni . . . ydyw, y bydd i'r briw a gawsom trwy ein cwdwm, o'i esgeuluso, fyned waeth waeth, a dibenu mewn anedifeirwch *diweddol*.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 278.

Diweddu, *v.* to end or finish; to conclude, to close; to terminate; to come to an end or termination; to put an end to.

Gwagedd breuoledd a *ddiweddych*.
Madog ab Gwallter: M.A. i. 405 (cf. 318).

Tair prif ymgais bardd: un yw dysgu a chynnull gwybodau; ail yw athrawiaethu; a thrydydd yw heddychu, a *diweddu* argywrysedd.—*Barddas*, i. 356.

Efe a *ddiweddodd* ei oes yn sant.—*Iolo Mss.* 10.

Ar yr hynaf y dechreuodd, ac ar yr ieuangaf y *diweddodd*.—*Gen.* xliv. 12.

Ystyriwn hefyd ym mha beth y mae dyn yn *diweddu*.
Gr. Wynn: Ystyriaethau, 30.

Diweddu corff marw, to lay out a corpse.

Ti a ge'st â'th law dy hun eu hamgeleddu,
A thrwy gariad, da dueddiad, eu *diweddu*.
Huw Morus: E.C. ii. 168.

Pan ddaethant i osod allan, neu *ddiweddu y corff*, cafwyd ef oll wedi ei anffurfio a'i dduo.—*Gwyliedydd*, v. 280.

Gorchymmynwyd i . . . un o'r swyddogion fyned yno; yr hwn, pan ddaeth, a gafodd y ddynes wedi ei *diweddu*, yr ên wedi ei rhwymo, a phob peth anghenrheidiol wedi ei gyflawni, yn barod i'w dodi yn yr arch.
Gwyliedydd, xiii. 32.

Diweddwr, wyr, *sm.* an ender, a finisher; the last man.

Kerdgar cyfarwar cyfarwyd yw Duw
Diweddwr cyn trychwyd.—*Cynddelw:* M.A. i. 207.

Ym blaen cadeu cadw aruod
Ac yn ol *diwetwyr* dyuod.
Cynddelw: M.A. i. 257 (cf. 228).

Trwy Iesu Grist, Mab dy Gariad, Angor ein gobaith,
Awdwr a *Diweddwr* ein ffydd ni.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 259.

O Tydi yr hwn wyt Ddechreuwr a *Diweddwr* pob gweithred dda, gwel fod yn ddïa i gynnorthwyo fy ymroad sanctaidd.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 368.

Diweddwyr, last men; the rear (of an army).

Cynnetyf y Bowys kynnossod yn aer . . .
Ac yn ol *diwetwyr* dyuod.—*Cynddelw:* M.A. i. 257.

Diwegi, *a.* [gwegi] without vanity, not frivolous; serious, grave; substantial.

Cais fyth ymgynnal yn *ddiwegi*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 59 (cf. 124).

A glywaist chwedl Bedwini,
Oedd esgob da *diwegi*?
Rhagreithia'th air cyn no'i ddodi.—*Iolo Mss.* 253.

A dygaist ddryll *diwegi*,
Heb air son, o'm byroes i.—*Gronwy Owain*, 64.

Diwehilion, *a.* without refuse.—*Gramadeg y Dr. Gr. Roberts*, 324.

Diweilydd, *a.* dense, close, compact.

Diweinio, *v.* [gwaith] to draw from the scabbard or sheath; to unsheathe.

Diweinio cleddyf, *Diweinio cledd*, } to unsheathe a sword; to draw a sword.

Mi a erlynaf; mi a orddiweddaf; mi a ranaf y praidd; fo a gyflenwir fy enaid; mi a *ddiweiniaf* fy *nghledd*; fy llaw a'u hawloga hwynt i etifeddiaeth.
H. Perri: Egluryn Ffraeth. xxxvii. 2.

Rhaid i'r dewin yn awr *ddiweinio* ei *gleddyf*, a'i estyn allan at yr ysprydion.—*Brutus:* Brutusiana, 73.

Diweirdeb, **Diweirdod**, **Diweirder**, } *sm.* [diwair] chastity, continence; fidelity.

Digitized by Google

Ac am hynny nac yr ovyn Duw nac yr colli dy *diweirdeb* na nackaa hi. kannys os nackei. ti a geffy angklot y byt ac anuod Duw. ac am dy uot ti yn kynnal dy *diweirdeb* yr clot y byt. ef a daw am y *diweirdeb* hwnnw govit kymeint ac y collo Lawnslot dy gevynderw y eneit.—*St. Greal*, ‡ 41 (cf. 31, 37, 42).

Wrth hynny Lawnslot tec edrych di a dyvot yn diweir bellach o hynn allan. ual y galler kyffelybu dy *diweirder* di oe gwyrder hitheu.—*St. Greal*, ‡ 62.

Am Enerys wyry ny warawd ym hoen
Ny orpo hi *diweirdawd*.
Hywel ab Owain Gwynedd: M.A. i. 278.

Honno yd oed yn y charu yn vwyaf gwreic herwyd y boned ae dylyet ae phryt ae goeged ae *diweirdeb*.
Ystt. Bren. Bryt.: LL.C.H. ii. 118 (cf. 119, 230).

Yna y rodassant ovunet y Duw gwassanaethu Duw o weithredoed a *diweirdeb* o hynny allan.
Amlyn ac Amig, col. 1109.

Tair camp ganmoladwy ar ferch: tawedocrwydd; lledneisrwydd; a *diweirdeb*.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 224.

Tri pheth ydynt lai no dim: benyw heb *ddiweirdeb;* gwr heb wybodau; ac athraw heb amynedd.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 78 (cf. 31, 35, 80).

Mor brydferth oeddynt briodasau Iacob, yn Haran, gyd â golwg ar *ddiweirdeb!*—*Brutus:* Brutusiana, 13 (cf. 9—12).

Diweirddyn, -ion, *sc.* a chaste or continent person.

Diweiredd, *sm.* chastity, continence.—*P.*

Diweirferch, -ed, *sf.* a chaste woman.

Tair *diweirferch* Ynys Prydain: Trywyl ferch Llynghesawl Llaw Hael; Gwenfronn ferch Tudwal Tuddlud; a Thegau Eurfronn.—*Trioedd:* M.A. ii. 73 (cf. 13).

Diwydrwydd, sobrwydd, a serch
Erfawr at Fair *ddiweirferch*.—*Dafydd Ionawr*, 901.

Diweirfoes, -au, *sf.* a chaste demeanour or deportment.

O Dduw, erfai *ddiweirfoes*,
A ddaw i mi ddoe i'm hoes.—*D. ab Gwilym*, lxxxii. 9.

Diweirfun, *sf.* a chaste maid or woman.

Llin arglwyd llary hylwyd hawl
Llun *diweirwun* dy wiruawl.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 296.

Derfyn hir *diweirfun* hael!—*D. ab Gwilym*, ccxxxii. 28.

Diweiriog, *a.* [diwair] faithful; firm; brave.

Wyrda ymledwch yn *diweiriawc* ar kastell ackw.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 268.

Diweiriol, *a.* [diwair] chaste, pure.

Oni ddaw Gwen, gangen gall,
Ddiweiriol, fe ddaw arall.—*D. Llwyd ab Llywelyn.*

Diweirwen, *sf.* a chaste fair one.

Egor y ddor, *ddiweirwen*,
Sy fry uwch dy wely, wen.—*D. ab Gwilym*, clii. 19.

Diweirwraig, wragedd, *sf.* a chaste or faithful woman; a chaste wife.

Teir *diweirwreig* Y.P. Ardun gwraig Cadcor ap Colwyn, Eflileu gwraig Wydyr Drwm, ag Emerchred gwraig Fabon ap Dewen Hen.—*Trioedd:* M.A. ii. 14 (cf. 73).

Diweithedd, *sm.* [diwaith] inactivity.

Diweithgarwch, *sm.* indisposition to work; inactivity.

Os yr holl wir a fynegir, am ei *ddiweithgarwch* hefyd, hyd onid oedd ynof na'r ewyllys na'r gallu i ymaflyd yn y rhaw na'r ffust pan gyrhaeddais fy ugeinfed flwydd oed.
Gwyliedydd, i. 180.

Diweithred, *a.* [gweithred] without action or deeds; deedless; inactive.

Ni all byth orphwys, na bod yn *ddiweithred*.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 235.

Amcanion diweithred ni ryngant fodd, intentions void of deeds will not avail.—*C.S.*

Diwel, } *v.* [modf. of *dychwel?* cf. *dywall*] 1. to
Diwal, } pour or empty out; to pour down; to empty, to pour, to decant; to lavish.

Y modd y gwneir berwyn o'r llysiau yw hyn: briw'r llysiau cochon yn fân mân â'th ddwylaw, a dod mewn llestr pridd diystaen ei lonaid, a berw ddwr rhedegawg, a *diwal* ar y llysiau a wedd yn eu rhynged; a chyn *diwal*, dod hidlen llaeth, sef y gwaelod heb gylch, ar wyneb y llestr, i gadw'r llysiau rhag nawf dros ymyl y llestr pan *ddiwaler* y dwr brwd arnynt.
Meddygon Myddfai, ii. 795 (cf. 682, 761).

Rhai'm mlaen Gwy fwyfwy a el
Rhai ar ddaiar hir *ddiwel*.—*L. G. Cothi*, iv. xxi. 17.

Wrth wneuthur hyny, sathrodd yn drwsgl ar ymyl y llestr, a *diwelodd* ef yn gawdel!—*Ystên Siomed*, 60.

Diwel dwr o lestr, to pour water out of a vessel (by turning it more or less with its bottom upwards).

Dod ef mewn potel wydr, a *diwal* arno *ddwr* ffynnon.
Meddygon Myddfai, ii. 25.

Mae hi yn diwel y gwlaw, it rains in torrents.

2. 'to dislodge,' to empty; to upset; to capsize, to be overturned.

Diwel y cart, } (*a*) to raise the box of a cart
Diwel y gert, } so as to empty it; to tip a cart.
Diwel y drol, } —*Dyfed.*

(*b*) to upset, overset, or overturn a cart.—*Dyfed.*

Diwelodd y cart, the cart was upset.

Diwelodd y cwch, the boat capsized.

¶ The Silurian or Gwentian dialect partly agrees with the Venedotian in changing *e* in the last syllable of a word into *a;* as *diwal* for *diwel;* but in neither of them is the change usually retained when another syllable is added.

Pughe gives 'diwel y drol' (in the second sense) as an expression peculiar to Dyfed, but *trol* is not a common Demetian word. He also gives the infinitive as *diwela* (deriving it from *gwdl*); but in Dyfed, where the word is in common use, the infinitive never has a verbal termination.

In the subjoined quotation *dywelodd* may be a scribal or a typographical error for *dychwelodd*.

Ac fal hyn y *dywelodd* pob ochr i'w gwledydd.
Iolo Mss. 21.

Diwel, *sm.* [dy- + gwel?] a view; a mental view; an idea.—*Gwent.*

Nid oes genyf na lliw na diwel arno, I have not the least idea of it.

Pa ddiwel sydd genych ar hyn a hyn? what is your view of such and such matter.

Diwel, *a.* [di- + gwel, gweled] sightless, blind.

O luchion tew y goleu dyry'n rhydd,
Ac ar y llygad *diwel* tywallt ddydd.
Robert Owen: Gweith. 96.

Diwelw, *a.* [gwelw] not pale or pallid; bright.

A oes fodd i mi, 'r fun, eich cael wrth fy nghlun,
Y wiw-loer *ddiwelw*, ar fy helw fy hun?
Huw Morus: E.C. i. 124.

Diwellâd, *a.* without amendment or improvement; incurable.

Os ystyriwn ei fod ef yn gweithio yn ddoeth, ac fel y cyfryw, fod yn anghenrhaid iddo ryw ffordd neu gilydd amlygu ei anfoddlonrwydd yn erbyn y cyfryw ag sydd yn gwrthryfela yn erbyn ei awdurdod yn *ddiwellâd*.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 105.

Diwellaol, *a.* not tending to mend.

Diwellâu, *v.* not to mend or improve.

Digitized by Google

Diwellig, *a.* not apt to fail; unfailing; satisfied.

Caru Duw *diwellig* ymdired.—*Gwalchmai:* M.A. i. 201.

Lluniaf gant moliant mawl haiedig
I Fangor rhagor rhag Celliwig
Llys llu ai dengys dawn gaeledig gwyrdd
Lle diwallwyd myrdd llu *diwellig*.
Gronwy Gyriog: M.A. i. 527.

Diwellt, *a.* [gwellt] without grass or straw.

Diwelltiad, -au, *sm.* a divesting of grass or straw.

Diwelltu, *v.* to divest of grass; to make bare.

Diwelltu y ddaiar, to bare the earth.

Diwellydd, -ion, *sm.* [diwall]=*Diwallwr*.

Diwen, *a.* [gwên] without a smile, smileless; sad.

Nym kyuyt tristyt treis *diwen*.—*Casnodyn:* M.A. i. 426.

Lle *diwen* pob unben pwyllig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 519 (cf. 336).

Diwendid, *a.* [gwendid] free from weakness or infirmity.

Cadernid dy lendid, *diwendid* dy wedd,
Llariaidd, hawddgaraidd, clauaraidd yw'r cledd.
Huw Morus: E.C. i. 114.

Byw ei ddawn lle byddai her,
Diwendid o blaid iawnder.—*Robert Owen:* Gweith. 120.

Diweniaith, *a.* [gweniaith] without flattery, free from flattery; unflattering; sincere.

Gweniaith y mae'n ei gynnal,
Diweniaith wyf, dawn ei thal.—*D. ab Gwilym*, ccxxiii. 21.

Aed son; ac am ferched saith,
Yn ddoniog, yn *ddiweniaith*.—*Dafydd Benwyn*.

Annes Awbre *ddiweniaith*,
Ferch Morgan, winllan ein iaith.—*L. G. Cothi*, i. xxxix. 3.

Mae St. Styphan, yn *ddiweniaith*, yn dodi y pechod o wrthwynebu yr Yspryd Glân yn erbyn yr Iuddewon oedd yn ei amser ef.—*Ieremi Owen*, 58.

Lle mae awen *ddiweniaith*,
Gelfydd, ym mhob mynydd maith.—*Gronwy Owain*, 35.

Diwenieithus, } *a.* not given to flattery; free
Diwenieithol, } from flattery; unflattering; true, sincere.

Eisteddodd arnat ustus, cardotai
O fab i flotai fu Beilatus:
Duw ddoeth a'i noeth *ddiwenieithus* dôn,
Iuddewon, lladron rhy dwyllodrus.
Dafydd ab Gwilym, ccxli. 21.

Dynoethydd *diwenieithawl*
Twyllebion pylion, heb hawl.—*R. Owen:* Gweith. 120.

Diwenwyn, *a.* [gwenwyn] 1. without poison or venom; free from poison.

Sef a orugant wynteu dyuot ac anveidred o wenwyn hyt na cherdey dim or dwfyr or ffynnon yn *diwenwyn*.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 298.

Y mae rhai pethau iach *diwenwyn*, wrth ymgydio ac ymgymmysgu yn yr awyr, yn troi ac yn dyfod i fod yn dra gwenwynllyd.—*Dafydd Lewys:* Golwg, xv. 8.

2. not peevish or fretful.

Diwenwynad, } *sm.* a divesting of poison or
Diwenwyniad, } venom.

Diwenwyno, *v.* to free from poison; to extract venom from; to expel poison.

Ac yna briwaw kylyon wrthaw; a hynny ac *diwenwyna*.
Meddygon Myddfai, i. 35 (cf. 5, 32, 63).

Diwenwynol, *a.* tending to divest of poison; expelling poison.

Diwerin, *a.* [gwerin] without inhabitants or people; lonely, solitary?

Ei frawd Caën bu *ddiwerin* drwg ei gussyl.
Taliesin: M.A. i. 43.

Mordwyeit merin o plant Saraphin
Dogyn dwfyn *diwerin* dillygein Elphin.
Taliesin: A.B. ii. 157 (M.A. i. 65).

Gwerin *diwerin* ny dyorgrawd.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 332.

¶ In some of the preceding quotations the true reading is doubtful.

Diwersyll, *a.* [gwersyll] having no camp, campless.

Diwersylliad, -au, *sm.* a decamping.

Diwersyllog, *a.* not encamped, campless.

Diwersyllu, *v.* to break up a camp, to decamp.

Diwerth, *a.* [gwerth] having no worth or value, worthless, valueless.

Er daed fo'r gair *diwerth*,
Ni bydd gwir heb addaw gwerth.—*Iorwerth Fynglwyd*.

Wrth hyn, cyfrifaf yn *ddiwerth*
Holl ddwyrain brydferth berlau.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 188 (cf. 187).

Mor *ddiwerth* fy oes nes cwrddais ag Elen.
Blackwell: Ceinion Alun, 173.

Diwerthol, *a.* not selling, unsaleable.

Diwes, *a.* immediate; proximate.—*P.*

Diwes, *v.* [cf. *goddiwes*, *gorddiwes*] to overtake, to come up with.

Pan el y gwas . . . ar hon i *ddiwes* y byd,
Ni wna . . . ond siglaw ei phen.
R. ab Dafydd Llwyd. (*P.*)

Diwesol, *a.* tending to overtake.

Diwest, *a.* [gwest] without a visitation; unvisited.

Diwestl, *a.* [gwestl] not raging, dispersing, or scattering; unscattered, unconfused; calm.

Naf eryr teyrn rac tympestyl kedeyrn
Cadwei dud y dan destyl
Ner trymder tromgad *diwestyl*
Neun gwneir vegys Gweir vab Gwestyl.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 294 (cf. 519).

Diwestl ei ysgor ys cwynais nad byw
Hael or rhwy rygollais.—*Einion Wan:* M.A. i. 333.

Diwestlog, *a.* free from rage or commotion; calm, quiet, tranquil.

Diwestlu, *v.* to cease to rage.

Diwesu, *v.* to overtake; to approximate.—*P.*

Diwethaf, *a.*=*Diweddaf*.

Diwethl, *sm.*=*Diwythl*.

Diwg, *a.* [gwg] not frowning, without a frown; not angry; placid.

Nyt cyffelyb da a druc
Pan ymlado gwynt a muc
Guna da yr Duw sef y *diuc*.
Tyssilio: M.A. i. 163 (cf. 120, 169, 542).

Balch y dwg ddyn *ddiwg* fain
Banadl ysgub, bun dloegain.
D. ab Gwilym, lxviii. 15 (cf. xlii. 17; clvii. 5; ccii. 43).

Diwg y rhoed ar dy grair
Dyfiad heb nafiad nefair.
Hywel Dafydd ab Ieuan: Iolo Mss. 303.

Dig y'th gawn, *diwg* y'th gad,
A dynion holl Loegr danad.—*L. G. Cothi*, i. xiv. 19.

Da gan y doeth a *diwg*
Y nwyf o draill na fo drwg.—*Y Greal*, 364.

Diwgad, -au, *sm.* [contr. of *diwygad*] likeness, figure, similitude; form, fashion.

Er ein bod ni yn arfer yn ein ymadroddion arferedig o alw *diwgad* neu lun dynion neu bethau ereill yn ddelwau ac nid yn eilunod.—*Edward Iames:* Hom. ii. 23.

Ac am hyny iddynt arfer enwi y lluniau a'r *diwgadau* a'r cyffelybiaethau a osodid i fyny gan y cenedloedd yn eu temlau.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 24 (cf. 43, 88, 99, 288).

Digitized by Google

Diwgadu, *v.* to shape, form, or frame.

Fal wrth edrych ar y portreiad hwnw y gallom lunio a *diwgadu* [*ffurfio] ein bywyd cyn nesed ag y gellir yn gyfun â'i berffeiddrwydd ef.—*Ed. Iamce:* Hom. ii. 286.

Diwgus, *a.* not frowning; placid, gentle.

Dygan' dair anrheg, *diwgus* roddi,
O rym Mair a Thi, aur, myrr, a thus.
Dafydd ab Gwilym, ccxli. 11.

Diwiau, *sm.* [diw (=dyw) + Iau: cf. *Difiau*] Thursday.

Chyarlymaen vrenhin Freinc a beris y ehun dileu y porth mawr a oed y rwg yr eglwys ar neuad a dywetpwyt uchot. *diwieu* [misprinted 'diwren'] kynarchauael a dygwydod or grwndwal.—*Ystoria de Carolo Magno*, col. 496.

Diwin, *a.* [dy- + iwin?] strenuous, forcible; excessive; vehement, eager; outrageous; wild.

Awn rhagom, atolwg, i draethu am y balchder hynod a *diwin* sydd yn dwyn rhwysg yn y byd.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 45.

Beth a wnaeth Ægissus frenin
Gynt yn odinebwr *diwin*?
Robert Llwyd: Llwybr Hyffordd, 71.

Ni fedraf fi amgen na gresynu troeoch o herwydd eich anwybodaeth. Mor *ddiwin* anguriol ydyw.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 364.

Diwin, *v.* [dywain?] to do (anything) quickly or energetically; to walk fast; to hasten; to pour down.

Mae hi yn diwin y gwlaw, the rain is poured in torrents.

Diwin, *a.* [di- + mwyn] = *Difwyn.*

Yn ofer y blinais, yn ofer ac yn *ddiwin* y treuliais fy nerth.—*Esgob Morgan:* Esa. xlix. 4.

Diwir, *a.* [gwir] not true, untrue.

Diwiriant, *sm.* want of veracity.

Diwisg, *a.* [gwisg] without dress or clothes; undressed, unclothed.

Diwisgiad, *a.* without dress or garments; undressed.

Gan fod y gwr heno a'i oegs'n *ddiwisgiad.*
Robert Davies: Diliau Barddas (1862), 29.

Diwisgo, *v.* to undress, to strip.

Ni fyddai fawr anhawsach *diwisgo* ein cyrff na *diwisgo* ein dillad.—*Th. Williams:* Ymadroddion Bucheddol, 339.

Diwith, *a.* [di- + chwith] = *Dichwith.*

Tri pheth a ardderchafael gwr: gwraig ddiwair ddiwyd; arglwydd diwyd *diwith;* a difleisedd.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 80.

O! Doethineb *diwith* hynod,
Nid yw neb yn d'iawn adnabod.
Samuel Jones: Cyfr. y Beirdd, 162.

Diwladaidd, *a.* not rustic or countrified.

Swydd *ddiwladaidd* yw'r eiddo,
Siambrlen i feinwen yw fo.
D. ab Gwilym, lxxxvii. 35 (cf. lxi. 58; cxcv. 2).

Yn llawn gwybodau, ac yn lluniaidd;
Yn ddyledawg hael, yn *ddiwladaidd.*
L. G. Cothi, 1. xxix. 27.

Cael o'r braidd, *diwladaidd* lwyth,
O bu rwystr, Aberystwyth.—*Rhys Llwyd.*

A dlyedawg iawn a *diwladaidd* lyw.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494.

Dylid testun a fai digrif a *diwladaidd* ar a wnelid o'r prydyddion yn gyff cler.—*Y Greal*, 332.

Diwladeiddiad, -au, *sm.* a divesting of rusticity; a refining (of manners).

Diwladeiddio, *v.* to divest of rusticity.

Pwy faidd ei *ddiwladeiddiaw*,
Plwm oer ei glog,—p'le mae'r gwlaw?
Dafydd ab Gwilym, ccv. 55.

Diwladeiddiol, *a.* tending to divest of rusticity.

Diwladeiddwas, weision, *sm.* a youth that is not rustic or clownish.

Nid oedd i *ddiwladeiddwas*
Goed i gael oed o fedw glas.—*D. ab Gwilym*, xlvii. 9.

Diwlith, *a.* [gwlith] without dew, dewless.

Mor crin calaw caled riv
Oer *diwlit* yr eluit hetiv.
Llywarch Hen: A.B. ii. 48 (M.A. i. 130).

Beirdd Tir Iarll yn cyrchu Twmpath *Diwlith*, ar Fynydd Margam, un bore dydd Gwyl Ieuan yr Haf . . . a gawsant faban newydd geni yn fadfyw ar y Twmpath. . . Rhodded enw Ieuan ap y *Diwlith* arno, am ei gael, fal a wedwyd o'r blaen, ar Dwmpath *Diwlith* bore Gwyl Ieuan yr Haf; ac am mai gwr mawr ydoedd, gelwid ef Ieuan Fawr ap y *Diwlith.*—*Iolo Mss.* 88.

Diwlith, } *sm.* true maidenhair (*Adiantum*
Diwlydd, } *Capillus Veneris*).—*Hugh Davies:* Welsh Botanology, 183.

Cais wer dafad, a blawd ceirch, a dail ffiol y ffrwyth, a'r *diwlith*, a'u berwi hyd elont yn iwd, a dod hwnw wrtho, ac ef a'i sugn allan.—*Meddygon Mydafai*, ii. 747.

Diwlithiad, *sm.* a drying up of dew.

Diwlitho, *v.* to dry up dew.

Diwlithol, *a.* not apt to be dewy; tending to dry up dew.

Diwlydd, *a.* [gwlydd] devoid of soft vegetation; having no vegetation; bare of vegetation.

Dyr gwenn gwynt gwynn gne godre
Gwyd dewr hyd *diwlyd* bre
Eidyl hen hwyr y dyre.
Llywarch Hen: A.B. ii. 260 (M.A. i. 115).

Diwneuthur, *a.* not doing, acting, or effecting; non-effective.

Tri chyflwr y sydd ar anrawdd bodol a bywydol: gwneuthurawl, fal y mae Duw a'i alluoedd; gwneuthuredig, fal y mae bywydolion meidrol a bodolion cymmysg; a'r *diwneuthur* sef nas gwnaed ac nas gwna, fal y mae eangder, ac amser noeth, a marwoldeb, a thywyllwch.
Barddas, i. 342.

Diwneuthuredig, *a.* not made, not created.

Yr ydym yn credu yn yr Yspryd Glân, yr Hwn ydyw'r trydydd yn y gyssegrlan Drindod: ei fod Ef yn wir Dduw, yn *ddiwneuthuredig*, yn ddigreëdig, yn ddigenedledig.
M. Cyffin: Diffyniad, ii. 5.

Diwneuthuriad, *a.* not made, uncreated.

Pam a'i gelwir ef yn Fab Duw? Achaws mai o Dduw yn ei weithrediadau hanfod y mae, ac nid o'i gynfod *diwneuthuriad* y mae.—*Barddas*, i. 244.

Diwni, *a.* not seamed, seamless; unstitched.

Diwnïad, *a.* seamless, having no seam.

A'i bais ef oedd *ddiwniad*, wedi ei gwau o'r cwr uchaf trwyddi oll.—*Ioan* xix. 23.

Efe weiniodd y swper mewn ystafell fenthyg, mewn goruwch-ystafell, yn yr hwyr, i ddeuddeg o bobl, sef, deuddeg o weinidogion, mewn pais *ddiwniad.*
Cymhorth i'r Cristion (1731), 130.

Diwnïo, *v.* [gwnïo] to undo what has been sewn; to unstitch; to rip.

Diwobr, } *a.* without a reward, rewardless;
Diwobrwy, } unrequited.

Gan na theimlant ddim, briwir hwynt mor ddigosp, ag yr addolir hwynt yn *ddiwobr.*
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 83.

Efe a weinidogaethai am flwyddyn . . . yn *ddiwobr.*
Gwyliedydd, ix. 34.

Diwobredig, } *pt.a.* not rewarded, unre-
Diwobrwyedig, } warded, unrequited.

Diwobrwyo, *v.* to deprive of a reward; not to reward.

Digitized by Google

Diwosgo, *a.* [gwosgo=gosgo] without declination or bias; without flinching, unflinching, unswerving; resolute.

Ac ena e ẏdywawt Arthur val hyn. . . Bydwch duhun *diwosgo* pan del gwyr Ruvein yr glyn attawch.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 343.

Diwosgoawl, *a.* not going aside, unflinching.

Diwosgordd, *a.* [gwosgordd=gosgordd] without a retinue; unattended.

Myrt gyrth glydwr glod chwennychu
Fort wosgord *diwosgort* diwasgaru.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 269.

Diwosgryn, *a.* without trembling; not wavering; unflinching.

Dĭwr, *a.* [gwr] without a husband; single.

Diwradwydd, *a.*=*Diwaradwydd.*

Diwradwydd deurudd y cywir.—*M.A.* i. 15.

Dĭwraidd, *a.* [gŵraidd] unmanly, enervated.

Diwraidd, *a.* [gwraidd] having no root or roots, without a root, rootless; eradicated, exterminated.

Diwraidd ei faendy dor addfwynder.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 440.

Diwraidd, *sm.* an uprooting, eradication, extermination.

Rac maban hvan heolit arweit
Saesson ar *diwreit* beirt ar kinit.
Myrddin: A.B. ii. 20 (M.A. i. 152).

Glyu *diwreid* gurdvleid gorvlung
Glew dyual ny dal ny dung.
Cynddelw: M.A. i. 241 (cf. 450).

Dy adar, dy win yn freninaidd,
Dy gan, dy arian rhag ein *diwraidd.*
L. G. Cothi, i. xxix. 53.

Diwraidd, *v.*=*Diwreiddio.*

Ac nad arfaidd neb ei *ddiwraidd* rhag ei ddewred.
Gronwy Ddu: M.A. i. 508 (cf. 318).

Diwreit a newid ni vei chwant a llit.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 324.

Diwraig, } *a.* [gwraig] without a wife, having
Di wraig, } no wife, wifeless.

Tri dyn digon da eu cyflyrau pei gwelent hyny: diangben, diddyled, a *diwraig.*
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 240.

Tri brodyr diofalwch: diarglwydd; *di wraig;* a diddyled.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 275.

Dĭŵredd, *sm.* [dĭwr: gwr] want of manliness, unmanliness.

Diwregys, *a.* without a girdle, ungirt.

Gwraig ddiwregys, a sluttish or untidy woman, a slattern.—*Walters.*

Diwregysiad, *sm.* an ungirding.

Diwregysol, *a.* ungirded, ungirt.

Diwregysu, *v.* to ungird; to unbind.

Dĭŵreiddiad, -au, *sm.* [dĭŵreiddio] emasculation; an unmanning.

Diwreiddiad, -au, *sm.* [diwreiddio] a rooting up or out; eradication, extirpation, extermination; displantation, displanting.

Er attal ei chwbl *ddiwreiddiad,* Rhagluniaeth a gyfododd iddi goleddwyr.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 2 (cf. 144).

Diwreiddiedig, *pt.a.* 1. rooted up, uprooted; eradicated, extirpated, exterminated.

Y dwy hagen a trigyo: a achubant le y *diwreidedic.*
M.A. ii. 264.

Ar eglwysseu *diwreidedic* hyt y llawr ef ae hatnewydwys.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 194 (cf. 148).

2. mooted (in heraldry).—*W.*

Dĭŵreiddio, *v.* to emasculate; to unman.

Diwreiddio, *v.* [gwraidd] to root up or out, to uproot, to unroot; to pull up the roots or by the roots; to take off the roots; to displant; to eradicate, to extirpate, to exterminate; to demolish; to undermine; to be uprooted.

Megys derwen a *diwreidei* y gwynt syrthaw gan diruawr dwrwf a oruc.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 213.

Diwreidaw hwnnw or dayar a uynnaf ae loegi ar wyneb y tir.—*Mabinogion,* 120.

Wynt a glywynt dwrwf kymeint ac y tebygynt vot y llys oll yn *diwreidyaw* or daear.—*St. Greal,* ‡ 5.

Ac wrth hynny erchi y bawp yn gytuun dyuot ae holl borth gantunt y geissaw *diwreidaw* gwyr Rufein yn llwyr or ynys hon.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 106 (cf. 80, 145, 151, 252).

Ef a *diwreidyawd* oe deyrnas yn gwbyl. gwyr Denmarc a Normanyeit. a phawp o wyr dieithyr.
Brut y Saeson: Ll.C.H. ii. 388.

Yna y kynnigawdd Brenhin y Pwyl aneiryf o dda yr neb a gymerei arnaw *ddiwreidyaw* y golofyn a thorri y drych.
Doethion Rhufain, ‡ 21 (cf. 22, 23).

Ac yn bendiadnod yth *diwreidyaw* di oth gyuoeth.
St. Greal, ‡ 238 (cf. 31, 130).

Taer yw ai ddurarf tyrau *ddiwraidd.*
Dafydd y Coed: M.A. i. 494 (cf. 298, 302).

Côr gweddaidd nis *diwraidd* dyn.
Dafydd ab Gwilym, cxxxii.

Gwna blastr o honynt, a dod ar y man lle bo'r defaid, hwnw a'u *diwreiddia* hwynt.—*Meddygon Myddfai,* ii. 214.

Diwreiddio muriau, } to demolish or raze walls;
Diwreiddio caerau, } to undermine walls.

A rei o nadunt hediw ys syd diffeith. gwedy *diwreidaw y muroed* yn wallus.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 40 (cf. 147, 235).

A chyn y vlwydyn y keyryd ar dynasoed ar kestyll kedyrn a *dywreydyasant.*—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 151.

Diwreiddio sylfaen, to undermine a foundation.

Melltith y fam a *ddiwreiddia sylfeini.*—*Eccl.* iii. 9.

Diwreiddio cenedl, to extirpate or exterminate a nation.

Gan *ddiwreiddio* y *diwreiddiaf* fi y *genedl* hon.—*Ier.* xii. 17.

Efe a *ddiwreiddiodd* y rhai annuwiol allan o Israel.
1 *Macc.* ix. 73.

Breninoedd a'u byddinoedd, tywysogion a'u deiliaid, a gydunasant yn eu hamcan i *ddiwreiddio* y bobl hyn oddi ar wyneb y ddaiar.—*Hugh Jones:* Iosephus, 1007.

Diwreiddio gwlad, to displant a country; to destroy a country.

Diwreiddiant un rhan o'th *wlad,* a dyfethant ran o'th ogoniant.—2 *Esd.* xv. 60.

Diwreiddiol, *a.* eradicating, eradicative, extirpative.

Diwreiddiwr, wyr, } *sm.* one who uproots or
Diwreiddydd, -ion, } eradicates; an extirpator, an eradicator.

A theckaf gwas hayach or holl urenhined a thywyssogyon Ynys Prydein oed hwnnw [Maelgwn Gwyned]. a *diwreidwr* llawer o wyr creulawn.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 234.

Diwres, *a.* [gwres] void of heat or warmth; without ardour or fervency; cool.

Mis Ionawr myglyd dyffryn . . .
Gwag buches, *diwres* odyn.
Englynion y Misoedd: M.A. i. 14.

Digitized by Google

Mor oer ac mor *ddiwres* yr ydym yn gwneuthur hyny.
Ed. James: Hom. iii. 98.

I'th fynwes, *diwres* o 'stâd,
Yn y diwedd 'r wy'n dywad.—*Sion Tudur.*

Diwres dwyrain dros deirawr.—*Guto'r Glyn.*

Diwresiad, *sm.* a divesting of heat.

Diwresog, *a.* not warm or hot; not wanton.

Diwresogi, } *v.* to deprive of warmth or heat;
Diwresu, } to cool; to become cool or cold.

Diwresogiad, *sm.* a divesting of heat, warmth, or ardour.

Diwresogrwydd, *sm.* absence of heat or warmth; want of ardour; coolness.

Diwrido, *a.* [gwrido] without blushing, unblushing.

Edrych ar ddoe yn *ddiwrido*, ar heddyw yn ddigywilydd, ac ar fory yn ddigryn.—*Brutus:* Brutusiana, 250.

Diwrnod, -iau, -au, } *sm.* [L. *diurnus, diurnum*]
Diwrnod, -iau, -au, } a day. See *Diwarnod.*

Cadw yr ydych *ddiwrnodau*, a misoedd, ac amseroedd, a blynyddoedd.
Esgob Morgan: Gal. iv. 10 (cf. Dan. viii. 14).

Hyd ddwy fil a thry-chant o *ddiwrnodiau*.
Esgob Parry: Dan. viii. 14 (cf. Gal. iv. 10).

Fe a ddylid tybied ddarfod appwyntio'r *diwrnodiau* ympryd ereill, heb law ympryd y seithfed mis.
Ed. James: Hom. ii. 169 (cf. 179, 224).

Y mae yn ddiammheu, fod y *diwrnodau* i'w deall yn iaith y prophwydi am flynyddoedd.
Th. Charles, s.v. 'Diwrnod.'

Llawer *diwrnod* llawen.—*Pum Llyfr Cerddwriaeth*, 193.

Hyd yr edafedd yr oedd oriau, *diwrnodiau*, a blynyddoedd.—*E. Wynn:* Bardd Cwsg, 60.

Mae dros y bryniau, 'n hardd ei wedd,
Negeswr Hedd yn dyfod;
A'i lafar dros y byd ar glyw,
Gwynfydig yw'r *diwrnod*.
Iolo Morganwg: Salmau, I. clxi. 1.

A'r maes a guddiwyd cyn dewed â chelaneddau'r meirw, fel mai nid gwaith ysgafn dros rai *diwrnodau* oedd eu claddu.
Theo. Evans: D.P.O. 122.

Yr oedd y gweithwyr wedi bod yn cloddio am lawer o *ddiwrnodau* heb gael unrhyw weddillion.
Brutus: Ninefeh, 308.

Diwrnod teg, a fine day.

Nid y boreu y mae canmawl *diwrnod teg*.
Diareb. (M.A. iii. 171.)

Diwrnod anianol, natural day.

Diwrnod gwneuthurol, artificial day.

Diwrnod seryddol, astronomical day.

Diwrnod anianol, y gyfran o amser ag y bydd y ddaiar yn rhoddi cyflawn dro ar ei hechel. *Diwrnod gwneuthurol*, yr amser sy rhwng codiad haul a'i fachludiad. *Diwrnod seryddawl*, yr amser rhwng dau drawsfudiad olynol a ddyry canolbwnc yr haul dros y paladr canolddydd.
R. Roberts: Seryddiaeth, 69.

Diwrnod gorymddwyn, an intercalary day.

Diwrnod gorymddwyn, y dydd sydd yn cael ei lunio gan y chwech oriau sydd dros 365 o ddyddiau mewn blwyddyn.
R. Roberts: Seryddiaeth, 70.

Diwrnod gwyl (=dydd gwyl), a holiday, a festival.

Gwneuthur ar *ddiwrnod gwyl* gorchymmynedig . . . rhyw waith y mae'r Eglwys yn ei wahardd.
Allwydd Paradwys, 87.

Diwrnod caeth, a fast day, a fasting-day.

Tori ei ympryd ar *ddiwrnod caeth*, neu beri hyny i ereill.
Allwydd Paradwys, 88.

Yspaid tri diwrnod, the space of three days.

Diwrnodio, *v.* to do a day's work; to work by the day.

Diwrnodol, *a.* diurnal; daily.

Dyma dro *diwrnodol* Iou, ac y mae'n rhaid ei fod yn troi yn dra chwimmwth.—*D. Lewys:* Golwg, xxv. 3 (cf. vi. 3).

Diwrnodwr, } wyr, *sm.* a daysman, a worker
Diwrnodiwr, } by the day; a journeyman.

Diwrtaith, *a.* [gwrtaith] without manure, not manured, unmanured; uncultivated.

Diwrteithiad, *sm.* a ceasing to cultivate.—*P.*

Diwrteithio, *v.* to deprive of manure.—*P.*

Diwrth, *a.* [gwrth] without opposition.

Diwrthbrawf, *a.* that cannot be refuted, disproved, or contradicted; irrefutable.

Y rhai, pe cadwesid dyledus goffa o honynt, a fuasent gynnifer o dystion *diwrthbrawf* o athrylithfawr gynneddfau y genedl.—*Gwyliedydd*, ix. 33.

Diwrthdro, *a.* without reversion, reverseless; without turning back or aside; unflinching.

Diwrthdroawl, *a.* irreversible; not reversing.

Diwrthdyn, *a.* not drawing or pulling in a contrary direction; without contention.

Diwrthddadl, *a.* without dispute, contradiction, controversy, or exception; undisputable; undisputed.

Hawl ddiwrthddadl, an undisputed claim.

Diwrthddadlawl, *a.* undisputable, incontrovertible; not contradictory.

Diwrthddadledd, *sm.* an indisputed state, indisputableness.

Diwrthddywediad, *a.* without gainsaying.

Rhaid iddi gael archwaeth a blas melus iawn arnynt, gan eu bod oll o'r fath ag y mae ei rheswm goreu a phuraf yn eu cymmeradwyo gyd â llawn farn *ddiwrthddywediad*.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 65.

Diwrtheb, *a.* without contradiction; uncontradicted, unopposed, implicit; that cannot be oppugned; resistless, irresistible.

Ffydd a goelio yn *ddiwrtheb* yr hyn a ddyweto ereill.
Walters, s.v. 'Implicit.'

Diwrthebol, *a.* without contradiction.

Diwrthgan, *a.* unretracted, unrecanted.—*W.*

Diwrthgil, *a.* without receding, shrinking, or flinching; unflinching, resolute, undeviating, unswerving.

Fy marn i yw y dylid, wrth gyhoeddi hen ysgrifenwaith, ymgadw yn *ddiwrthgil* wrth dull oes yr ysgrifenydd.
Iolo Morganwg: Cyfr. y Beirdd, Rhag. 7.

Diwrthgloch, *a.* without resound or reverberation; without contradictory clamour; without gainsaying.

Nym tawr i vynet heb y Gwalchmei. kymer dy uarch nu heb y Kei a pheth oth orueu. mi a giglef nat *diwrthgloch* ef wrth y neb a del attaw.—*Mabinogion*, 284.

Diwrthladd, *a.* without opposition, unopposed.

Gwelwch yna fod Pawl yr Apostol yn rhagafaelu yn hyddoeth ar reswm y dyn cnawdol, gan ateb iddi yn *ddiwrthladd*.—*H. Perri:* Egluryn Ffraethineb, xlii.

Diwrthladdol, *a.* not opposing, unresisting.

Diwrthlam, *a.* not to be repassed; without recurrence; irremeable.—*W.*

Diwrthnysig, *a.* not obstinate or stubborn; unopposed.

Eu bod cyn hyspysed ag y gallai ddyn *diwrthnysig* eu credu a'u coelio.—*Ed. Samuel:* Grotius, ii. 24.

Os gellir yn *ddiwrthnysig* eu gwneuthur yn Gymreigaidd.
Dr. Gr. Roberts: Gram. 201.

Digitized by Google

Diwrthol, *a.* [di-+gwrth+ol] without recurrence; without receding; irremeable.—*W.*

Diwrthred, *a.* without a counter-current; without opposition, resistance, or competition; unopposed.

Yng nghylch hyn o amser y dihanges Meredydd ab Bleddyn o garchar ac ef a ddadynnilles ei gyfoeth yn *ddiwrthred.*—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 537.

Diwrthrwm, *a.* [di-+gwrthrwm=gorthrwm] without pressure; without inconvenience or trouble; not displeasing or unpleasant; unoppressive.

A thrannoeth yn ieuenctit y dyd yd erchis Erbin y Ereint anuon kennadeu ar y wyr y ovyn vdunt a oed *diwrthrwm* gantunt y dyuot y gymryt eu gwrogaeth.—*Mabinogion,* 267.

Diwrthryn, *a.* without resistance or opposition; unopposed.

Y pedwar ar hugain mesur hyn a elwid byth o hyny allan . . . Dosparth Gwynedd, o herwydd iddi gael derbyniad *diwrthryn* yn y parth hwnw o'r Dywysogaeth.
Gwalliter Mechain: Gwaith, ii. 168 (cf. 258, 429).

Diwrthrynadwy, *a.* irresistible, resistless.

Diwrthrynedd, *sm.* non-resistance.

Diwrthryniad, *sm.* non-resistance, a non-resisting.

Diwrthrynol, *a.* unresisting; resistless, irresistible.

Wrth ba arch y Nerthoedd ffraw,
Er Nef a safent, o bedryor cadr
Yng nghyd o undeb *diwrthrynawl,* aent
Eu llengau gwymp tan osteg rhag eu blaen,
Wrth sain cynghanedd alaw.—*W. O. Pughe:* C.G. vi. 69.

Diwrthrynu, *v.* not to oppose or resist.

Diwrthsefyll, *a.* [gwrthsefyll] without opposition; unopposed; tamely.

Yn ddof, yn warddof: yn ddiyspryd, yn ddiarial: yn *ddiwrthsefyll,* yn ddiwrthryn.—*Walters,* s.v. 'Tamely.'

Diwrthwyneb, **Diwrthwynebiad,** *a.* without opposition or resistance, unopposed, unresisted.

Arglwyd y Corsyd eissyoes a debygassei y cawssoedyat ef y castell yn *diwrthwyneb.* ac ef a gigleu dyuot Paredur.
St. Greal, i 182.

Tra fu Anghrist yn cael ei rwysg yn *ddiwrthwyneb,* mor anaml yn y byd oedd y rhai a wassanaethent Dduw mewn gwirionedd, tros yspaid agos i seithgant o flynyddoedd!
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 238.

Cynneuodd yr Yspryd Glân fflam mor ddisgleir-gref o gariad mewn rhai dynion, a'u bod yn gwneyd eu holl rinweddau o ddewis gwirfodd eu calon yn *ddiwrthwyneb.*
Elis Wynn: Rh.B.S., Rhag. 3.

Ac felly ym mlaen yn *ddiwrthwyneb* yr aeth Lucifer.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 97.

Daeth drwy sir Aberteifi, sir Benfro, Cydweli, a Gower yn *ddiwrthwynebiad.*—*Brutus:* Brut. 344.

Diwrthwynebiad, *sm.* a ceasing to oppose or resist; non-resistance.—*P.*

Diwrthwynebol, *a.* not opposing or resisting; resistless.

Diwrthwynebu, *v.* not to resist or oppose; to cease to resist or oppose.—*P.*

Diwrthymdrech, *a.* irresistible, resistless.

Diwryg, *a.* [di-+gwryg] weak, feeble, infirm, weakly; small and weak.

Holoffernes, tywysog dewr galluog, pan orchfygwyd efe gan win, a gafas dori ei ben oddi ar ei ysgwyddau gan ddwylo gwreigan *ddiwryg,* Iudith.
Ed. Iames: Hom. ii. 196.

Llên *diwryg* ffrom, llawn drwg ffrwyth,
Llew oedawg yn llawn adwyth.—*Huw Dwnn.*

Plentyn diwryg, a weakly child.

Diwrygiad, *sm.* enervation.

Diwrygio, *v.* to grow feeble or infirm.

Diwrygiol, *a.* tending to enervate.

Diwrym, *a.* [gwrym] seamless, without seams.

Diwybod, *a.* [gwybod] unknowing, ignorant; unconscious.

Nid santaidd ond *diwybod* am y byd;
Nid *diwybod* am y byd ond a fo marw cyn ei lef geni.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 20 (cf. 28, 49, 172).

Ni ddown i oed i'r goedfryn
Erod, fab, *ddiwybod* ddyn.—*D. ab Gwilym,* cli. 29.

Na fydd *ddiwybod* o ddim, na mawr na bychan.
Eccl. v. 15.

Poblach adfydig, *diwybod,* tost ydynt.—*Ier. Owen,* 23.

Cysgai yn barhäus mewn llonyddwch, ond nid trymgwsg *diwybod* ac ebargofiad ydoedd.—*Y Bryniau Pell,* 104.

Goleuannu y diwybod, to enlighten the ignorant.

Ffrwyth a rhinwedd gair Duw yw, *goleuannu y diwybod.*
Ed. Iames: Hom. i. 5 (cf. 11).

Diwybodaeth, *a.* without knowledge, ignorant, unknowing.

Ef â'n gwlad ni, o'r achos hwn, yn *ddiwybodaeth* am Dduw ac iawn grefydd.—*Ieuan Brydydd Hir:* Gwaith, 185.

Pa beth sydd gan fod neu fyd wybrenol, *diwybodaeth* o hono ei hun, a wnelo â damweiniau oes dyn?
Brutus: Brutusiana, 317.

Diwybodaeth, *sf.* ignorance.

Pa ham y maent hwy yn rhoi mwy hyder mewn *diwybodaeth,* a dall anghyfarwyddyd y bobl, nag mewn daioni eu hachos?—*M. Cyffin:* Diffyniad, iv. 28 (cf. vi. 14).

Diwybr, *a.* [wybr, gwybr] cloudless, unclouded.

A thrannoeth pan gyvodes yr heul ar byt yn oleu *diwybyr.* yr amherawdyr ar gwyr da ar doethon a aethont i'r eglwys.—*Doethion Rhufain,* i 41.

Diwych, *a.* [gwych] not fine, smart, brave, or gay; inelegant.

Na bod dyn rheidus, yswallt,
Diwych, i dynu dy wallt!—*D. ab Gwilym,* lxvi. 19.

Diwyd, *a.* [di-+gwyd: cf. L. *devotus*] diligent, industrious, assiduous, sedulous; devoted, attached.

Digaun da *diwyd* gennad.
Englynion y Clywed: M.A. i. 174 (cf. 15, 325).

Diwytaf i fleiddan ei gennad ei hunan.
Diareb. (M.A. iii. 154.)

A gnawd fod tafawd *diwyd* iddaw.
D. Benfras: M.A. i. 310 (cf. 212, 340, 348).

Dywed air *dwyd* erof.
Gr. ab D. ab Tudur: M.A. i. 479 (cf. 329, 436).

Tri pheth a gaiff dyn *diwyd:* clod; blaenoriaeth; a chyfoeth.—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 118 (cf. 94).

Myrionen a fu'n *ddiwyd* tra fu'r haf.—*Iolo Mss.* 156.

Diwyd warcheidwad awen,
Oreu gwaith, a Chymraeg wen.
Gronwy Owain, 51 (cf. 85, 88).

Llaw y *diwyd* a gyfoethoga.—*Diar.* x. 4 (cf. xiii. 4).

Nid goludawg ond *diwyd.*
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 102.

Diwydion, industrious ones.

Daeth i'm cof yr hen goel y byddai Gorphenaf ac Awst yn draeych hinon, o ran y dywedir fod gan y *diwydion* hyn argoel reddfol ynddynt eu hunain o hyny, pan anturient can belled o'u castell i gyrchu defnyddion.
G. Mechain: Gwaith, ii. 289.

Diwyd, *a.* [gwŷd] free from vice or sin; faultless, sinless; devout.

Porth iddi fo Mair ddiwair *ddiwyd.*
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 455.

Digitized by Google

Diwyd, -ion, *sm.* [L. *devotus*] one devoted (to another), an adherent, a follower.

Gwedy kaffel o honaw y gan y brenhin pob peth wrth y vynnu. gorsot a wnaeth y annwylyeit ehun ac *diwydyon* y warchadw y lleoed hynny.
Ystoria Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 128.

Nawdd Ieuan liw bann ben *diwydion*.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 399.

Diwyd dy dad wyd â dart;
Dy dad yw *diwyd* Edwart.—*Hywel Gethin.*

Ni'm cai, na'm *diwyd* na'm cas,
Un dwy-wyl o lan Dulas.—*L. G. Cothi*, vi. iii. 11.

Blin dro . . .
A'th *ddiwydion* i'th adaw.—*Robert Leiaf*, i Grist.

Diwydbwyll, *a.* industrious and discreet.

Herwydd ein bod yn gyflwyr ddyledus i feirdd uchelfryd *diwydbwyll* yr hen Gadair honno am gymmaint ag y sydd yn gadwedig, ar gywirsail, parth addysg ar farddoniaeth a mydryddiaeth prif feirdd Ynys Prydain.
Taliesin ab Iolo: Cyfr. y Beirdd, Rhagdd. 8 (cf. 18).

Diwydedd, *sm.* = *Diwydrwydd.*

Diwydfryd, *a.* of an industrious mind or disposition.

Rhaid cael myf yrwyr *diwydfryd* a dwysfeddylgar i brydyddu.—*Dewi Wyn:* Blod. Arf. 41.

Diwydiaeth, *sf.* diligence, assiduity, industry.

Diwydiant, iannau, *sm.* industry, diligence.

Diwydiannau, industries.

Yr wyf o blaid y bobl, ac amddiffyniad i *ddiwydiannau* Americanaidd.—*Columbia*, Rhag. 22, 1892.

Diwydiannol, *a.* industrial.

Ysgolion diwydiannol, industrial schools.

Diwydio, } *v.* to use diligence; to be assiduous
Diwydo, } or industrious.

Diwydiol, } *a.* relating to diligence or in-
Diwydol, } dustry; industrial; industrious,
Diwydus, } assiduous.

Dodes ym', *diwydus* waith,
Do degan odidawg-waith.—*Dafydd Nanmor.*

Diwydolion, industries.

Diwydn, *m.* } *a.* not tough or tenacious; not
Diwedn, *f.* } elastic or pliant; not flexible.

P'le buost, edn *diwedn*-lais,
Pa wlad bell? Plu yw dy bais!—*D. ab Gwilym*, ccx. 3.

Diwydrwydd, *sm.* 1. diligence, industry, assiduity, assiduousness.

Tri pheth canmoladwy ar wr: hyder; arafwch; a *diwydrwydd.*—*Triodd Doeth.:* M.A. iii. 265 (cf. 120, 270, 272).

Goreu celfyddyd *diwydrwydd.*—*Iolo Mss.* 156.

Tri phrif gyfymdawr byd: dwyfoldeb; gwybodau moliannus; a *diwydrwydd* rhag myned yn nifrawd.
Barddas, i. 320.

Nid oes *ddiwydrwydd* heb ar ei ben goron.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 10 (cf. 67).

Ar bob *diwydrwydd* rhown ein bryd.—*Ystên Sioned*, 7.

Nid yn ddiog mewn *diwydrwydd.*—*Rhuf.* xii. 11 (cf. 8).

A phwy yn ei iawn bwyll a ddiystyrai y fath roddiad, a'i chaffael gan Dduw, trwy roddi o hono ei fendith ar y mawr *ddiwydrwydd* a'r gorchestol boen ydys yn arferyd i'r perwyl hwnw?—*Jeremi Owen*, 97.

Diwydrwydd hefyd sydd hanfodol i gysur y werin.
Cylchgrawn, i. 335.

Llaw *diwydrwydd* a orchfyga eisieu.
W. O. Pughe: E.D. i. 3.

2. adherence, attachment, or devotion (to a person).

Nyt yr yechyt nac yr *dywytrwyd* yr brenyn y dywedey ef hyn.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 239.

Och am naf am nêr *diwydrwydd.*
Dafydd Benfras: M.A. i. 311 (cf. 357).

Diwydwaith, weithiau, *sm.* a work of industry.

A buan yn burlan, ber
Ddiwydwaith, sychodd wedyn
Y dagrau hallt â'i gwallt gwyn.—*D. Ionawr*, 70.

Diwydwaith, *a.* industriously or diligently employed.

Diwydwaith yw a dedwydd.—*Gruffydd Archiagon Mon.*

Diwydwr, } wyr, *sm.* a diligent or industrious
Diwydiwr, } person; an adherent.

Cymmhennaf yw ynn cymmhennu a Duw
Diwydwr ym nerthu.—*Elidir Sais:* M.A. i. 350.

Diwydwraig, wragedd, *sf.* a midwife.

Diwyddelaidd, } *a.* [Gwyddel] not Irish; not
Diwyddelig, } resembling the Irish. Cf. *Disaesnigaidd.*

Diweddw olud mawr *diwyddelaidd* iawn
Da wedd aelaw ddawn dieiddilaidd.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494.

Diwyg, *a.* ['a *di* & *gwŷg*, vicijs carens, sine vicio' [vitio?].—*D.*] 'void of depravity, unvitiated, undepraved, not fallen off or degenerated.'—*P.* 'Not vicious, free from vice.'—*R.*

Dygyn gofyon deon am dwc
Diua dewrblant da *dwywc.*—*Cynddelw:* M.A. i. 253.

Diwyg, -iau, -iou, } *sm.* 1. dress, habit, attire,
Diwygad, -au, } garb, trim; appearance.
Diwygiad, -au, }

Ef a welei gwr oedawc tec. a swrplis ymdanaw. ac a *diwyc* offeiryat arnaw.—*St. Greal*, ‖ 26.

Ac a vei o varchogyon clotuawr o vn ryw wisc ac aruen yd aruerynt ar gorderchwraged o vn ryw *diwygat* yd aruerynt.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 324.

Hyn heirdd glew ddigeirdd gloyw *ddiwygiad.*
Madog Dwygraig: M.A. i. 482 (cf. 435).

A phy varchawc bynhac a vynnei vot yn glotuawr yn llys Arthur y vn ryw wisc yd aruerynt. ac o vn ryw aruen. ac o vn ryw *dywyggyat* marchogaeth.
Ystat. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 203.

Glân a threfnus ei wisg a'i *ddiwyg* oedd ef.
Iolo Mss. 162.

Ar Wyl y Forwyn, yn 1534, gwelid ychydig nifer, mewn *diwyg* grefyddol, yn dyfod mewn gorymdaith fechan.
Brutus: Brutusiana, 388.

Dwg urael, *diwyg* eurwerth.—*Gronwy Owain*, 42.

Pe canlynid rheolau y Ddosparth gyssefin . . . ymddangosai ein mydryddiaeth yn harddach ei *diwyg*, a chynnwysai enaid cerdd yn lle ei chysgod.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 175 (cf. 172).

2. fashion, form, state, condition, plight, carriage or bearing (of a person), deportment, manner, habit; order.

A phan anet y mab yr oed yn gyn decket ac yn gyn vonhedicket y *diwyc* ac y renghis bod yn vawr ym edrych arnaw.—*St. Greal*, ‖ 250 (cf. 4, 196).

Yno cad, oer-fad yrfa,
Mab Cryg, nid mewn *diwyg* da.
Dafydd ab Gwilym, cxxvii. 35.

A phan weles Marius gedernit Gwalchmei ac *diwygyat* yn y gyrchu. ef a vrathawd y varch a dwy yspardun yn y erbyn.—*St. Greal*, ‖ 104.

Un *ddiwyg* yn y Ddwyallt,
Eithr ei wisg, a thor ei wallt.
Guto'r Glyn: Iolo Mss. 325.

Myfi a feddyliaf am y *diwyg* gwael y byddaf ynddo pan roddant fi yn fy arch, ni bydd i mi ond amdo ac ychydig ddilladach.—*Lewis Anwyl:* Nefawl Ganllaw, 50.

Nid felly y byddwn i, ebe Eidiol, eithr ei gadael, a myned lle nas gwypai fy mod, a'r lle y cawn a fai wrth fy modd, lle nas caid a'm difwynai yn fy mharch a'm *diwyg.*
Iolo Mss. 162.

Mewn diwyg da, in good plight, trim, or condition; in good form.

Digitized by Google

Eu gwaith yw cadw y cwbl mewn *diwyg* priodol.
I. G. Alarch: Iuddewon Prydain, 54.

Nid oes fawr o ddiwyg arno, he is in no great form; he is but indifferent.

3. amendment, emendation, rectification, reform, correction; reparation.

Gwae a gaffo air drwg yn ieuanc, a chan mwy gwae a fo iddo air drwg yn hen, can nis gellir *diwyg* ar hwnw.
Iolo Mss. 157.

Nid *diwyg* rhag drwg weithred, ymattreg wedi y darffo.
Diareb. (M.A. iii. 169.)

Diwygiad,-au, *sm.* reformation, reform; improvement, revision, amendment, emendation; correction; cultivation; expiation.

A'r dysgiad, *diwygiad* dyn,
Eurai dalm, ar y delyn.
D. ab Gwilym, cxxxvii. 3 (cf. ccxxxiii. 62).

Y rhai oedd yn sefyll yn unig ar fwydydd, a diodydd, ac amryw olchiadau, a defodau cnawdol, wedi eu gosod arnynt hyd amser y *diwygiad*.—*Heb.* ix. 10.

Mi a berais iddaw newidio rhai pethau ynddynt, ac ni chedwais yr un o'r *diwygiadau*.
Iewan Brydydd Hir: Gwaith, 164.

Hyn a wna *ddiwygiad* gogoneddus yn wir.
Gwyliedydd, ix. 81.

Yr Hen Destament o'i gyfleithiad ef, a Thestament Newydd W. Salsbri, o'i *ddiwygiad* ef, a gyhoeddwyd yng nghyd yn un Bibl, yn y flwyddyn 1588.
G. Mechain: Gwaith, ii. 221.

Ni chafas y bryddest honno mo'r *diwygiad* eithaf.
Walters, s.v. 'Correction.'

Diwygiad crefyddol, } religious reformation, the
Diwygiad crefydd, } reformation of religion.

Ni a dybiasom mai cymmesur oedd ceisio *diwygiad crefydd* o'r man hwnw lle y gosodesid gwraidd a gwadnau crefydd gyntaf o'r cwbl.—*M. Cyffin:* Diff. vi. 15.

A phan amlygodd yr ymherawdwr wrthwyneb i *ddiwygiad crefydd*, ceisiodd ei gyfeillion gan Luther nad anturiai fyned i'r ddinas.—*Charles Edwards:* Hanes y Ffydd, 136.

Y Diwygiad, the Reformation (in the 16th century).

Diau yw, pan nad oedd y *Diwygiad* ond yn newydd, nad oedd lle cael llawer o bregethwyr da, na llawer o lyfrau defnyddiol.—*Ier. Owen*, 25 (cf. 17, 26, 29).

Dyma lle y dechreuodd y *Diwygiad*.
D. Peter: Hanes Crefydd, 395.

Ar doriad gwawr y *Diwygiad*, y mae ellyllon erlidigaeth yn difiannu. . . . Felly Harri, megys o'i anfodd, a fu offeryn cyntaf y *Diwygiad*. . . Yn anwybodus iddo y gosododd sylfaen y *Diwygiad*.
G. Mechain: Gwaith. ii. 83 (cf. 203, 219).

Y *Diwygiad* yn awr a ymdaenodd yn ddirfawr drwy amryw wledydd.—*D. Morgan:* Hanes yr Eglwys, ii. 298.

Yn yr Almaen yr oedd gan y *Diwygiad* i ymdrechu ag ewyllys y tywysogion.—*Adolygydd*, i. 53 (cf. 47–80).

Yn ystod teyrnasiad Henri VIII. bu dau ddygwyddiad o bwysfawrogrwydd mawr i wlad Cymry; un oedd y *Diwygiad*. . . . Am y *Diwygiad*, ni chaniatâ fy nherfynau i mi draethu arno.—*Carnhuanawc:* Hanes Gymru, 783.

Seren Ddydd y Diwygiad, the Morning Star of the Reformation.

Seren Ddydd y Diwygiad yn Lloegr, oedd Ioan Wicliff, offeiriad pabaidd yn nechreu ei oes.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 79 (cf. 197).

Diwygiad seneddol, parliamentary reform.

Talfyriad cywir o ddeddf y *Diwygiad Seneddol*, yng Nghymru a Lloegr.—*Seren Gomer*, xv. 257.

Tra y dywedir cymmaint yng nghylch *Diwygiad Seneddol*, goddef i un sydd yn teimlo dwys ofal am lwyddiant a dedwyddwch ei gydwladwyr, ddwyn ar gof i ti *Ddiwygiad* arall.—*Gwyliedydd*, ix. 79.

Ysgrif y Diwygiad, the Reform Bill (especially that of 1832).—*Gwyliedydd*, ix. 191.

Diwygiadol, } *a.* reformatory; emendatory;
Diwygiadus, } corrective, revisional, revisory.

Golygiadau *diwygiadol* pa rai a ymeangent mor bell ag i gyfnewid cyfundrefn athrawiaethol a ffurflywodraeth yr Eglwys Lutheraidd.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iv. 29.

Drwg genym hyspysu fod pleidwyr yr ysgrif *ddiwygiadol*, neu y rhan fwyaf o honynt, wedi archolli mynwes y fenyw oruchaf, a mwyaf rhinweddol yn y deyrnas.
Gwyliedydd, ix. 192.

Diwygiadwy, *a.* that may be reformed or amended; reformable; reclaimable; corrigible.

Diwygiaeth, -au, *sf.* reformation, reform; emendation; improvement; correction, revision.

Y cynnygiad hwn o *ddiwygiaeth* a gyffroawdd wrthwynebiad nid bychan.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 235 (cf. 543).

Diwygiad yw prif ddadl y dyddiau presennawl, a *diwygiaeth* y cais cyffredinawl.—*Gwyliedydd*, viii. 191.

Diwygiedig, *a.* reformed; revised, corrected, amended, emended.

Cawsant eu cydnabod ar yr un tir â'r pleidiau ereill, Pabyddion, Lutheriaid, a'r Eglwysi Efengylaidd *Diwygiedig*.—*Enwogion y Ffydd*, i. 242.

Y grefydd ddiwygiedig, the reformed religion.

Proffeswyr y *grefydd ddiwygiedig*.—*Walters.*

Gan fod ei dueddiad at y *grefydd ddiwygiedig* . . . gorfu iddo adael gwlad ei enedigaeth.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 203.

Y diwygiedigion, the reformed, the reformists. —*W.*

Argraffiad diwygiedig, a revised or corrected edition.

Diwygiedigol, *a.* reformative; reparative; emendatory; compensative.

Diwygiedydd, -ion, *sm.*=*Diwygiwr.*

Diwygio, } *v.* to reform; to make better; to
Diwygu, } amend, to correct; to redress, to compensate, to make amends; to satisfy; to cultivate.

Diwygaf honnaf hynny
Difwyn a gymer Duw ury.
Phylip Brydydd: M.A. i. 376 (cf. 257, 271, 325, 394, 405).

Eissyeu yssy veu yssy vawrdruc ym
Nym dawr dim nym *diwc*.—*Cynddelw:* M.A. i. 253.

O deruyd y hwnnw gwneuthur kywlawan ny ellyr y wadu ef yn yr yg cany waduyt ar y eyng yny *diwycker* y gyflauan urth y uot yn uab dyodew.
C.C. i. 210 (cf. 258, 684, 700, 778, 782, 788).

Os hynny a deruyd, *diwycker* yr eglwys y gwarthrud ae sarhaet.—*C.C.* ii. 48 (cf. 50, 56, 344).

Tri pheth ny *ddiwygir:* meddwl; a gwc; a goddeu heb weithret yn ol.—*C.C.* ii. 648.

Ac wrth hynny moe un y pechawt hwnnw rywnaeth noc y gallei yr holl vyt y *diwygo*.—*Llyfr Ancr*, 14.

Ac wrth hynny mwy vu y pechawt hwnnw a wnaeth ef. nac y galhai yr holh vyt y *dhiwygu*.—*Lucidar*, 24.

Ni wnaeth ddrwg a'i *diwygiodd*,
Haedded a myned fy modd.—*D. ab Gwilym*, ccxx. 11.

Yr Ymherodr Iustinianus a wnaeth gyfraith i *ddiwygu* buchedd.—*M. Cyffin:* Diff. vi. 12 (cf. 7, 16, 17).

Y rhai drwy awdurdod gyfreithlawn a gymmerasant y gwaith yn llaw i *ddiwygio* crefydd.
Theo. Evans: D.P.O. 283.

Yr hwn a ddichon helpu, gwaredu, a *diwygio* pob peth o honaw ei hun.—*Huw Lewys:* Perl (1595), 149 (cf. 147).

Duw gwyn a'm *diwygio* i!—*Gronwy Owain*, 65.

Mor bell ag y mae unrhyw ddiwygiad i'w ddisgwyl yn y llwybr hwn, mae yn rhaid ymgeisio ato trwy *ddiwygio* y bobl.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 13.

O gymmaint nifer o gamweddau aruthrol a hyn, pa un erioed eto a ddarfu iddynt ei *ddiwygu*?
M. Cyffin: Diffyniad, iv. 25 (cf. vii. 2).

Digitized by Google

Diwygio beiau (*sg.* bai), to mend faults; to make satisfaction for faults; to correct errors.

Nad yw hi ond un yn unig nac ond unwaith i'w phrofi, fal nad allwn ni trwy ail farwolaeth *ddiwygio beiau* y gyntaf.—*Gr. Wynn:* Ystyriaethau, 61 (cf. 67).

Duw o'i drugaredd a osodo yng nghalonau a meddyliau y rhai sydd â chleddyf cosp yn eu dwylo . . . drafaelu i *ddiwygio beiau* mawrion pawb ag sydd yn byw yn segurllyd ac yn anfuddiol yn y wlad.
Ed. James: Hom. iii. 196 (cf. 281, 282; i. 166).

Rhaid i ti *ddiwygio* dy *fai* trwy elusenau a rhoddion i'r tlodion.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 159 (cf. 157).

Gwellëwch eich buchedd eich hun, a *diwygiwch feiau* eich teulu.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 388.

Diwygio pechodau, to make atonement or satisfaction for sins.

Y farwolaeth trwy'r hon y *diwygiodd* Efe ein *pechodau*.
Ed. Samuel: Mynych Gymmuno, 2.

Diwygio ei fuchedd, to reform or amend one's life; to reform one's self.

Diwygio y wasg, to correct the press; to revise proof-sheets.

A chan diolch iwch am y trafferth a gymmerasoch yn *diwygio'r wasg* yn y rhan Gymraeg o'm llyfr.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 184.

Cyfaill o Goleg Iesu a gymmerodd arno *ddiwygio y wasg*.
Gwyliedydd, vii. 263.

Diwygiol, *a.* reformatory; emendatory; corrective, correctional; expiatory; compensative.

Diwygiwr, wyr, **Diwygwr**, wyr, **Diwygydd**, -ion, *sm.* a reformer; a corrector, a reviser, an amender, an emendator; a redresser; an improver.

Pob ci a wna geryddwr; rhaid dwyfawl i fod yn *ddiwygiwr*.—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 55.

Peidiont â chasäu ac erlid Efengyl Mab Duw, rhag ofn iddynt ryw amser gael *Diwygwr* a Dialwr o hono Ef yn ei achos ei Hun.—*M. Cyffin:* Diff. vii. 7.

Cato, y *diwygiwr* mocsau pwyllog hwnw, a ymatebodd.
Iago ab Dewi: Llonyddwch, 135.

Pa fodd yr ymdrechodd y *Diwygiwr* mawr hwnw Nehemïah, am ddwyn drachefn y Dydd Sabboth idd ei arferiad cyntaf?—*Jeremi Owen*, 34.

Prawfiedydd, *diwygydd* da.—*Dewi Wyn*, 120.

Chwi, wedi'r cwbl, yw gwir *ddiwygwyr* y byd.
Dr. L. Edwards: Gweith. Llen. 19.

Rheolau da iawn a osododd ein *Diwygwyr* yn y Llyfr Gweddi Gyffredin.—*Gwyliedydd*, iii. 9.

Dechreuodd daliadau crefyddol y *Diwygwyr* ymdaenu y pryd hyn yn Lloegr.—*Gwyliedydd*, ii. 2 (cf. 3, 4; i. 129).

Diwygiwr y wasg, corrector of the press.

Diwygiwr y wasg ydoedd Charles Edwards, awdwr Hanes y Ffydd.—*Ieuan Brydydd Hir:* Gwaith, 185.

Diwygwyr Gwreiddiol, Radical Reformers.

Gyrwyd amryw o'r bobl a alwant eu hunain yn *Ddiwygwyr Gwreiddiol* yn ddiweddar i garchar . . . dan y cyhuddiad o gydfradwriaeth yn erbyn y llywodraeth.
Seren Gomer (1820), iii. 26 (cf. 31).

Y Diwygwyr, the Reformers=the name generally given to the leaders of the Reformation begun in the 16th century.

Beth oedd barn y *Diwygwyr* Protestanaidd ar y pwnc hwn?—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Duwin. 121.

Er gofid a galar i'r *Diwygwyr*, bu Edward y Chwechfed farw, pan oedd ond un ar bymtheg oed.
D. Peter: Hanes Crefydd, 423.

Gwedi chwilio i natur y tystiolaethau gan y *Diwygwyr*, barnwyd ei fod yn gyfeiliornus.—*Brutus:* Brutusiana, 72.

Diwygu, *v.*=*Diwygio*.

Diwygus, *a.* that is in good plight, case, or condition.

Diwygwraig, wragedd, *sf.* a female reformer.

Diwyl, *a.* [gwyl] unbashful; not timid or diffident, fearless, bold; watchful.

Diwyl yw angau, *diwylach* a edau.—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Ef yn wyl yn olud anuon
Ef *diwyl* diwyll gwleidyaton.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 283 (cf. 270, 307).

Einyawn wyl olud rotyad
Einnyawn *diwyl* diofyn cad.
Cynddelw: M.A. i. 225 (cf. 57, 239, 383).

Och! wedi'r ddwy-och *ddiwyl*,
Och! pe nid och—pwy nid wyl!
D. ab Gwilym, ccxxxii. 123 (cf. cvii. 2).

Nid ai oferddyn *diwyl*
I dŷ yn y sir hyd nos wyl.—*L. G. Cothi*, vi. iii. 33.

Diwyledd, *sm.* want or absence of bashfulness; boldness.

Diwyll, -ion, -iau, *sm.* [gwyll] the fact of divesting of obscurity; clearance; cultivation, culture, improvement; worship; cult.

Ac yn y le ynteu y deuth Ydwal vap Iugeyn y gar ef. yr hwnn a emyavnhaws o aghreyfft Eynnyawn dylyet a yawnder a *dywylleu*.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 164.

Ry duc *diwyll* o win bebyll ar lles tymyr.
Aneurin: God. 894.

A'r bryniau eglur goruchel addas i bob rhyw *ddiwyll*.
Hanes Ynys Prydain (Ms.).

Ag o dyna ym plyth y gweythredoed da hynny y gogoneddws arderchawc vrenyn hwnnw Lles vap Coel gwedy gwelet o honaw ef *dywyll* gwyr ffyd a Chrystonogaeth yn echdywynnygu yn y teyrnas ar kyvoeth dyrvawr lewenyd a kymyrth yndaw.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 198.

A gwedy marchogaeth talym ef a arganvu capel. a thu ac yno y doeth. ac nyt oed chweith *diwyll* arnaw. yr hynny ual kynt ef a ostynghawd ar benn y linyeu.—*St. Greal*, i 14.

Dull y *diwyll*—dealled Awen.—*G. Meckain:* Gwaith, i. 40.

Diwyll Duw, the worship of God, divine worship.

Diwyll daiar, the cultivation of the earth or soil; agriculture.

Diwyll, *v.*=*Diwyllio*, *Diwyllu*.

Diwyll, *a.* clear, open; plain.

Yn *diwyll* y rei marwawl y ruthrant.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 150.

Diwyll, -iaid, *sm.* a religious person (in medieval sense), a devotee.

O deruyd y dyn mynet yn uach, a chyn teruynu y uechniaeth mynet yn glanwr neu yn uanach neu yn *diwyll* ny dylyo atteb o honaw; kyfreith a dyweit dylyu o honaw kywiraw a edewis tra uo byw.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 208.

Diwylliad, -au, *sm.* cultivation, culture, improvement; a worshipping; worship.

Gwiredd ag a ellir eglur brofi yw, fod clefydau yn lleihau yn raddol, yn eu mynychdra a'u hangeuoldeb, er pan dderbyniodd y gelfyddyd feddygol y *diwylliad* a haeddodd iddi yr enw Gwyddor.—*Cylchgrawn*, i. 23.

Os oes rhai icithoedd, trwy gael gwell *diwylliad* . . . yn gallu cyfartalu iddi yn helaethrwydd ac amledd ei geiriau, nid oes un iaith . . . yn meddu ar y fath drysorfa o ddefnyddiau.—*Blackwell:* Ceinion Alun, 219.

Diwylliad y tir a'u rhwystrodd hwynt rhag tyfu.
Moses Williams: Llawlyfr, v.

Diwylliad y winwydden oedd un o'r pethau mwyaf ei ganlyniad yn nyddiau boreuaf amaethyddiaeth.
Gwyliedydd, xiii. 211.

Diwylliad haf yw y dull unig i hyderu arno i ddyfetha chwyn.—*Aneurin Owen:* Amaethyddiaeth, 12.

Mae oerni a gwres, iechyd neu afiechyd, i raddau, yn cael ei reoli gan *ddiwylliad*, a *diwylliad* o dan reolaeth gwareiddiad.—*Adolygydd*, i. 30.

Diwylliadu, *v.*=*Diwyllio*.

Yna gellir *diwylliadu* gra[illegible] yr amrywiad neu y cylchau bynnag.—*Aneurin Owen:* A[illegible]thyddiaeth, 44.

Diwylliadwy, **Diwylladwy**, *a.* capable of being cultivated or improved; cultivable, improvable,

Digitized by Google

Diwylliaeth, -au, *sf.* } cultivation, culture; im-
Diwylliant, *sm.* } provement; worship.

Ieuaint a henaint, di wahaniaeth,
Dir a ddiwellir drwy *ddiwylliaeth.*
Dewi Wyn, 55 (cf. 57, 58).

Dyfrhëir y gwastadedd â mwy o glir ddyfroedd,
Er nad yw'r *diwylliant* ond byr gan y bobloedd.
I. G. Aled: Palestina, 41 (cf. 20, 50).

Mal hyn ei dir, er nad yn llonydd un amser, sy barhäus yn ymadfaethu gan amrywiol wrtaith, ac fal hyn yn cyfuno y drefn o borfa barhäus gyda *diwylliant.*
Aneurin Owen: Amaethyddiaeth, 40.

Mae gwledydd Ewrop yn myned rhagddynt mewn pob math o *ddiwylliaeth* o oes i oes.—*Haul,* C.C. xiv. 182.

Diwylliawd, *sm.* a cultivating, cultivation, amelioration.

Diwylliawdr, iodron, } *sm.* a cultivator, a tiller,
Diwyllawdr, odron, } a husbandman; an improver; a worshipper.

Y hwnnw y dynessa *diwyllawdyr* y gogled.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 154 (cf. 188).

Ef a atnewydhaa presswyluaeu yr hen *diwyllodron.* a rewin yr estronyon a ymdengys.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 146 (cf. 104, 117, 119)

Tebygwn fod *diwylliodron* yn fwy ar ol am bethau a berthynant i hwn, y trydydd o gyffredinion trin tir, nag o berthynas y lleill.—*Aneurin Owen:* Amaethyddiaeth, 20.

Diwylliawdr tir, a cultivator of the soil or ground, a tiller, a husbandman.

Dirfawr *dir ddiwylliawdr* fu fy enaid
Ymhlith y giwdawd anhygar.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 568.

Diwylliedig, } *pt.a.* cultivated; cultured; im-
Diwylledig, } proved.

Adwaenem arall a siaradai yn ddirmygus am 'Daith y Pererin,' o blegid nad oedd yr iaith yn ddigon *diwylliedig.*
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 32.

Mae pawb yn caru meddwl *diwylliedig.* . . Mae chwant meddwl *diwylliedig* ar bawb.—*Diwygiwr,* xi. 77.

Diwylliedydd, -ion, *sm.*=*Diwylliwr, Diwylliydd.*

Y *diwylliedydd* call.—*Aneurin Owain:* Amaeth. 40.

Diwyllig, *a.* cultivated, improved; cultured; worshipping; devotional.

Cor eurdor urdas *diwyllic*
Car kyvar kyvwlch barnedic.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 471.

Diwyllio, }
Diwyllu, }
Diwyllo, } *v.* to cultivate, to culture; to till; to improve; to meliorate; to worship.
Diwyll, }

Y mae yawnnach vdunt ymchwelut yr yspryt hwnnw ym *diwyll* i noc y ganmol ynvytserch gorwagyonn bethev tranghedig yn amsserawl.—*Cyssegrlan Fuchedd:* Ll.A. 98.

Manac yr prydydhion . . . mai iawnach oedh udunt ymchwelyt yr yspryt hwnn ym *diwylhi* ac ym moli nag y ganmawl ynvytserch gorwagion betheu tranghedicion yn amserawl.—*Ymborth yr Enaid,* § 27.

Ymdrechwch yn uniongyrchol bob amser i wneyd pob peth yn wasanaethgar er *diwyllio* y galon.
I. G. Alarch: Hyfforddwr yr Efrydydd, 113.

Tri achos golychwyd: addysg doethineb; *diwylliaw* yniau meddwl; a llawenhau gobaith.—*Barddas,* i. 334.

Pe *diwyllai* pawb eu goreu, ni rwystrid yn gwbl mo'r chwyn rhag codi.—*Moses Wiliams:* Llawlyfr, v.

Diwyllio Duw, to worship God.

Paham y dechreuassant wy *diwyll* y geudwyeu.
Llyfr Ancr, 44.

Duw diwyllwn, nawdd dymunwn,
Ewyllysiwn fyw'n fwy llesol.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 400.

Diwyllio daiar, } to cultivate the earth; to
Diwyllio tir, } cultivate or till the ground; to improve the land.

Urht *dewillau* e *dayar* en e deu amsser hene.—*C.C.* i. 142.

Ac eissoes kywreinach y gwnevnt y Saeson gan gadw eu duundeb a thagnefed y rydunt. ac yn *diwhyllaw* y *tired.*
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 255 (cf. 58).

Mi a yrraf ffo ar wyth milltir odieithyr y dinas ar yr holl vwystuileit odieithyr y koedyd. ar emeith a *diwyll* y *tired* rac ovynn yr edyn.—*Ystoria Charles,* 12.

Tri banogion daioni peirianol: meithrin plant yn ddwyfolion; ymgynnal yn y swydd a'r cyfiwr a fo arnaddoedd yn ol y bo dyled; a *diwyllio daiar.*—*Barddas,* i. 312.

Pobl anghyfrwys ydych ar ymladd, namyn eich bod yn arferedig i *ddiwyllaw daiar* yn fwy nag yn dysgu ymladd.
Theo. Evans: D.P.O. 83.

Y rhai . . . wedi ymheddychu a sefydlasant eu preswyl, gan ymroi i *ddiwylliaw* y *tiroedd.*
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 324.

Diwyllio y meddwl, to improve the mind.

Diwyllio iaith, to cultivate or improve a language.

Hwy garant y gywir-iaith,
Diwylliant, noddant ein iaith.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 48.

Nid oes gan Gymru foddion felly i *ddiwyllio* ei *hiaith.*
Blackwell: Ceinion Alun, 243.

Diwylliog, *a.* cultivated, cultured; tilled; refined, improved.

Er mai dieithriaid ydynt i'r celfyddydau golygus hyny a arferir gan genedloedd *diwylliog* i roddi gorchudd teg dros y dibenion mwyaf dichellgar a drygionus.
Y Greal, 131.

Diwylliwr, wyr, } *sm.* a cultivator; a tiller,
Diwyllwr, wyr, } a husbandman; an im-
Diwyllydd, -ion, } prover; a worshipper.

Diwyllywr y temleu. kynydwr kiwdodoed.
Yst. de Carolo Magno, col. 489.

Gwedy gwelet o les *diwyllwyr* cristionogawl fyd yn kynydu yn y deyrnas.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 102.

Tŷ heb drigannydd, tir heb *ddiwyllydd.*
Dorthineb y Cymry: M.A. i. 11.

Gwellt digon adnabyddus, er colled, i bob *diwyllydd.*
Aneurin Owen: Amaethyddiaeth, 29.

Y *diwylliwr* diwyd allan
Draw sy bybyr dros y baban.—*Dewi Wyn,* 67.

Diwylliwr Duw, a worshipper of God.

Diwylliwr tir, } a cultivator, tiller, or dresser
Diwylliwr daiar, } of land.

Diwyllodraeth, } *sf.* cultivation; culture, till-
Diwylliodraeth, } age, husbandry; improvement.

Pobyl agkyfrwys ywch heb wybot dim ywrth ymlad. namyn yn achubedic o amryuaelyon negesseu a chyfnewidyeu a *diwyllodraeth* y daear yn vwy noc yn dysc ymladeu.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 121 (cf, 40, 117).

Y lledryw *ddiwyllodraeth*
A fu gynt, yn fywiog aeth
I hwylio moddion helaeth.—*G. Mechain:* Gwaith. i. 322.

O! am ddawn i ffreuaw'n ffraeth, gyfansawdd,
A dull i adrawdd *diwylliodraeth.*—*Dewi Wyn,* 42.

Amaethiad, *diwyllodraeth,* tirddiwyllodraeth, triniaeth, triniad, triniaeth tir, triniad tir, neu trin tir, a ellid enwi y gorchwyl yma.—*W. O. Pughe:* C.P. 3.

Bai mawr arall yn *niwyllodraeth* y Dywysogaeth yw, y trafn ansynwyrol o gnydiau.
Aneurin Owen: Amaethyddiaeth, 10.

Bwrdd Diwyllodraeth, Board of Agriculture.

Cyfarched eisoes i ystyriaeth y wlad gan y *Bwrdd Diwyllodraeth.*—*W. O. Pughe:* C.P. 32 (cf. 41, 42).

Diwyllodraeth y meddwl, the culture of the mind.—*W.*

Diwyllt, *a.* [gwyllt] not wild, tame; mild.

Angeu ni ad fwy'n anghof
Y gwyllt na'r *diwyllt* a'r dof.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 286.

Diwyllu, *v.*=*Diwyllio.*

Diwyllus, *a.* cultivated, cultured; improved; cultural, cultivating.

Y gymdeithas uchod, gan ddilyn megys yr amserau, sydd *ddiwyllus.*—*Gwyliedydd,* viii. 191.

Digitized by Google

Diwyllydd, -ion, *sm.*=*Diwylliwr.*

Gwypai, deallai y *diwyllydd*
Amser addon, addfedion fwydydd.—*Dewi Wyn*, 45.

Diwyllyniog, *a.* cultivated, cultured.

Diwyn, *v.* See *Dywyn*, &c.

Diwyn, *a.* [gwyn] not white, fair, or clean; soiled, dirty.—*P.*

Diwynadwy, *a.* that may be soiled.

Diwyneb, *sm.* [di-(=dy-)+wyneb] that which constitutes presence; a 'presential.'

Tri *diwyneb* gwlad y sydd: brenin; golychwydwr gorseddawg; a chyvraith: sev, lle bont y tri, nid rhaid gwyneb gwlad.—*C.C.* ii. 546 (cf. i. 782).

¶ Pughe writes the word *dywyneb*, and renders it 'a blessing;' but Wotton, reading it as *difwyno*, translates the triad thus:

Tri sunt quae regionem vastant, licet illis carere non possit: Dominus, Sacerdos, & Lex.
Leges Wallicae, iv. lxxi.

Diwynebu, *v.* [wyneb] to discountenance, to discourage; to oppose.

Cyflawnder drwy drachwant, Grymusder drwy falchder, Tymmereiddrwydd drwy anwadalrwydd, a *ddiwynebir.*
Marchog Crwydrad, iii. 7.

Diwynedig, *pt.a.* soiled, sullied, dirtied.

Diwynfyd, *a.* [gwynfyd] without happiness; unhappy.

Kolli kyrchva honneit utva hynn neut atvyt
Kantref digeird doeth i wanveird deith *diwynvyt.*
Rhiserdyn: M.A. i. 434.

Diwyniad, -au, *sm.* [diwyno] a soiling or sullying; pollution.

Diwynias, *a.* [gwynias] not in white heat; free from violent passions or excitement; calm, cool, placid.

Rhys wyd â nwyd *diwynias;*
Rhys, Nudd o Faredydd Fras.
L. G. Cothi, iii. xix. 3 (cf. iv. xix. 29).

Diwyno (*ȳ*), *v.* [modf. of *difwyno*, coloured by *di-*+*gwyn?*] to soil, sully, or dirty; to make foul or dirty; to pollute, defile, or contaminate.

Gwelwyf a'th *ddiwynawdd* mewn gwal trym haint.
Madog Dwygraig: M.A. i. 487.

Golchais fy nhraed; pa fodd y *diwynaf* hwynt?
Can. Sal. v. 3.

A phan weler a fo hyny, mwy fyth yr anfoddlondeb, gan *ddiwyno* 'r dwylaw a fuasai heb gael hyny yn lân.
Iolo Mss. 161.

Mae'r gwŷr hyn yn gwneuthur cymmaint rhagoriaeth, a bod o honynt yn tybied yn y fan, ddarfod *diwyno* eu holl sanctaidd wasanaeth, os gwr duwiol a fydd yn ei gylch ef.
M. Cyffin: Diff. v. 5 (cf. vi. 5).

Nid oes i ni ddim feddwl er hyny i agos i'r holl Grist'nogion ym Mrydain ymlygru a *diwyno* glendid eu ffydd yn yr amser peryglus hwnw.—*Theo. Evans:* D.P.O. 216.

Sori am i hurtni hwn
Ddiwyno mawredd annwn.—*Gronwy Owain*, 75 (cf. 260).

Diwyno, *v.*=*Difwyno.*

Llyma oll heb ynteu a menegi ual yr lygryssit ac y *diwynissit* y groffteu.—*Mabinogion*, 54.

Diwynol, *a.* tending to soil or sully.

Diwynwr, wyr, *sm.* one who soils or dirties; a defiler.

Diwyr, } *a.* [gŵyr] not oblique or aslant;
Diwyrni, } straight; direct.

O awyr *diwyr* a deheu dayar.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 472.

A he *ddiwyrni* a'i haddurnodd.
Pedr Fardd: Mêl Awen, 24.

Diwyrni air y deyrnas.—*R. Owen:* Gweith. 116.

Myn *ddiwyr* synwyr yn sail,
A iaith ddidon i'th adail.—*Pedr Fardd:* Mêl Awen, 56.

Diwyredd, } *sm.* freedom from obliquity;
Diwyrni, } straightness, directness.

Diwyrgam, *a.* not deviating from a straight line or course; straight; direct.

Y mae e'n wir yn orchwyl dyrys ddigon i chwilio allan ddechreuad ein cenedl ni yn gywir ac yn *ddiwyrgam*, a'i holrhain o'i haberoedd i lygad y ffynnon.
Theo. Evans: D.P.O. 5.

E ddaw ergyd *ddiwyrgam*,
Lawn cur, i ddial ein cam.—*Blackwell:* Ceinion Alun, 134.

Diwyrnod, } *pl.* diwyrnodau, *sm.*=*Diwarnod,*
Diwyrnawd, } *Diwrnod.* See *Diwarnod.*

Ac o hynny allan *dywyrnaut* urth pob cantrew a uo yr argluyd ay dyholyo.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 244.

Keueisy vun duun *diwyrnawd.*
Hywel ab Owain Gwynedd: M.A. i. 278.

Perygyl yw y dyn y *diwyrnawd.*
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 332.

Urdws Duw *diwyrnawd* Owain.
Cynddelw: M.A. i. 207 (cf. 219, 226).

Llyna lys nyt a *diwyrnawt* om bryt
Am bryder vyn divrawt.—*Gr. ab Meredydd:* M.A. i. 464.

Kyrchu Keredigion Ysgoit a oruc ac ymlad *diwyrnaut* a lle kadarn a daroed y Gilbert vab Richard ar Flemissieit y adeiliat.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 550.

Diwyro, *v.* to divest of obliquity; to straighten.

Diwyro, *a.* not deviating from a straight course; undeviating, unerring, unswerving, straight, direct.

Mortimer yn funer fo,
A Warren, un *diwyro.*—*Blackwell:* Ceinion Alun, 125.

Ym mlaen yn *ddiwyro*, ä'n syth drwy y canol,
Nes cyrhaedd hyd lan Tarichea'n ymchwyddol.
I. G. Aled: Palestina, 67.

Diwystl, *a.* [gwystl] without a pledge, unpledged; without certainty.

Nyt *diwystyl* godi dic wrth alon.—*Taliesin:* A.B. ii. 206.

Du Fon *di wystlon*, ystlys Caer Gybi,
Du o fôr Enlli yw hyd Frwynllys.—*L. G. Cothi*, vii. iii. 55.

Diwyth, *a.* [gŵyth] without wrath, ire, or anger; angerless; placid, calm.

Ni bytai *diwyth* i lwyth oswyt.—*Meilir:* M.A. i. 191.

Diwyth enwog ei doethineb.—*Pedr Fardd:* Mêl Awen, 25.

Diwythl, *sf.* [=*diwlydd, diwlith?*] pimpernel.

Medeginyaeth arall rac teirthon gryt: kymryt y ganwreid lwyt, ar greulys uawr, ar greulys uendigeit, ar ganwreid benngoch, ar *diwythyl*, ar ieutawt, a riscyl yr ysgaw, ar hokys. . . Ac odyna kymryt yr hokys, a'r ffenigyl a'r *diwythyl.*—*Meddygon Myddfai*, i. 15 (cf. 17, 21, 53).

Diwythl fedi, pimpernel (*Anagallis arvensis*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 164.

Anagallis arvensis, red pimpernel, poor man's weather-glass.—*Dr. Prior*, 181, 262.

Diwytho, *v.* to cease from wrath; to become angerless.

Diwythol, *a.* not wrathful or angry; dispassionate.

Diwyw, } *a.* [gwyw] not withered or faded;
Diwywiant, } fadeless, unfading; fresh.

Diwyw aesawr hydr wr dewisaidd dwrdd.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494.

Gair o'r cyfrif hyn wrth brif farn ac arfer yw'r gair ffres, sef croewber, a gywrain, neu iraidd a ncwydd; fal dwr gwyra neu groew, neu dwf blagur a bywull . . . neu liw claerdeg difrychau *diwywiant.*—*Cyfrinach y Beirdd*, 16.

A serchiadau mor rhydd, fel y llwyn yn *ddiwyw.*
Robert Owen: Gweith. 99.

Digitized by Google

Diygol, *a.* [dïwg] not frowning; not stern; not glancing.

¶ *Di-* (in the prefix *di*) before *y* never coalesces with the latter vowel to form one syllable; a diæresis over the *i* is therefore unnecessary.

Diygu, *v.* not to frown; to cease to frown.

Diyngan, *a.* without intimation; without a hint; silent.

Pan gerdd yr oes i ben ei siwrnai,
Yn *ddiyngan* fe ddaw angeu.—*Huw Morus:* E.C. ii. 197.

Diyngwrth, *a.* sudden, unexpected, immediate, at once, without delay.

Afon yw yr Iorddonen sy'n ei thywallt ei hunan i'r Llyn hallt hwn, a rhyfeddol y llwnc y llyn yr afon oni chollir hi yn *ddiyngwrth.*—*W. Lewes:* Dwy Daith, 25 (cf. 115, 125, 142).

Diymadaw, *a.* 1. not giving place or way; unyielding, undaunted, firm.

A challon marchawc urdawl a dyly bot yn ffenedic *diymadaw* ac ef y darestwng gelyn y arglwydd.—*St. Greal,* i 26.

2. inseparable; united.

Ac yna yd adnabu bawb yn amlwc bot Duw yn dangos vot yr eneidyeu yn *diymadaw* yn y nef o herwydd na mynnei wahanu eu kyrff yn y byt hwnn yman.
Amlyn ac Amig, col. 1114.

Diymadferth, *a.* [ymadferth] helpless, succourless; shiftless; inactive; remediless.

Tosturi tu ag at y cyflwr gresynus a *diymalferth* ag yr oedd ef yn ei weled ynddo, a wnaeth iddo anghoflo yn union ei holl elyniaeth.—*Y Greal,* 130.

Llawer gwaith hefyd y mae geiriau teg . . . yn gwneuthur llawer o'r rhai sy mewn awdurdod yn euog o waed gwirion, ac yn eu hamgylchu mewn blinderau *diymadferth.*
Esth. xvi. 5.

Hi [Cybydd-dod] a lwnc etifeddion ieuainc, ac a fâl wyneb y tlodion, ac a anrheithia'r sawl sy'n perthyn yspysaf i gadwraeth Duw, y *diymadferth,* y difalais, a'r diniwaid.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 233 (cf. 277).

Beth mor *ddiymadferth* yw'r cyfryw rai, pan fônt yn y perygl lleiaf!—*Th. Williams:* Ymadr. Buch. 124 (cf. 47).

Diymadferthrwydd, } *sm.* helplessness; list-
Diymadferthwch, } lessness; inactivity.

Diymadgno, *a.* without remorse; remorseless, unpitying, pitiless.

Yr enaid yw'r dyn, ac f'a fedr rhai friwo ac archolli hwnw yn *ddiymadgno.*—*Ed. Samuel:* Holl Ddyl. Dyn, 207.

Diymannerch, *a.* without mutual greeting or salutation; unceremonious, without ceremony.

Ni choeliaf fi na walliasai'r fan yma finnau, oni buassi i'm cyfaill, yn *ddiymannerch,* fy nghipio i ym mhell oddi wrth y tri thŵr hudol i ben uchaf yr ystrydoedd.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 33.

Diymarbed, *a.* unrestrained; unspairing; unchecked; ceaseless, incessant.

Ar ba un y mae'n anhygoel ganlyn y fath anrheithio yn *ddiymarbed* ar dai'r Iuddewon, gan dori gwythi eu gwaed.
W. Lewes: Dwy Daith, 165.

Y rhai a dreuliasant eu heiddo yn *ddiymarbed.*
Ed. Samuel: Athr. yr Eglwys, 141.

Och Angeu du! awch ing dwys,
Diymarbed daw im' oer-bwys.
Edward Samuel (Eos Ceiriog, i. 104).

Diymarbed, *sm.* inabstinence.

Mal y syniot pa fath wae
A ddyga *diymarbed* Efa ar ddynidon.
W. O. Pughe: C.G. xi. 474.

Diymarbod, *a.* unprepared, unready; unconcerned, inconsiderate.

Tri pheth ansyber ar wr yn ei dŷ ei hunan: ymsistrain â'i dylwyth lle gwypo ei westeion; ymsyllu ar a welo arnynt a chanthynt; a bod yn *ddiymarbod* parth ag atynt.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 269.

Diymarbodrwydd, *sm.* indifferenceness.

Diymarddelw, *a.* not claiming; unclaimed.

Diymarddelw, } *v.* not to lay claim to; not to
Diymarddelwi, } claim.

Diymarfer, *a.* inexperienced; unaccustomed.

Diymarfer, *sm.* inexperience, want of practice.

Y feddyginiaeth yw hyn: *Diymarfer,* hyder duwiol, boddlonrwydd, dyfal weddi.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 180 (cf. 167).

Diymaros, *a.* without staying or stopping; without delay, immediate, instant.

Oddi eithr rhyw ddurfing, *ddiymaros* anghenrhaid.
Elis Wynn: Rheol B.S. 12.

Yn ddiymaros, without delay, immediately, forthwith.

Erbyn yr amser y galwo ef arnat ti *yn ddiymaros* allan o'r byd hwn.—*Rowland Vaughan:* Ym. Duwioldeb, 345.

Y tywysogesau, wedi gwneyd eu moes, a ddychwelasant i'r byd at eu siars *yn ddiymaros.*
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 85.

Diymarwedd, *a.* unintelligent; void of intelligence.—*Iolo Glossary.*

Diymattal, *a.* without restraint or restriction; unrestrained, uncontrolled; unceasing; unremitting.

Tri pheth y dylai ddyn fod bob amser yn *ddiymattal* yn eu gwneuthur.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 272.

Chwi a fynech, yn ddirus ac yn *ddiymattal,* roi Crist i ateb am y cyfan.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 279.

Fel . . . na byddo i'n gorchymmynion ymddattod ac ymddirywio i awdurdod *ddiymattal* a disail.—*Ier. Owen,* 110.

Diymbaid, *a.* without ceasing, intermission, or cessation; ceaseless, incessant, continual.

Danfon am y goreuon o bob moddygon pell ac agos, a'r rhai hyny yn gwyliad wrth ei wely yn *ddiymbaid.*
Iolo Mss. 180.

Mae'n ffordd y nef ryw hyfryd wawl,
Cân iddo fawl *diymbaid.*—*Iolo Morganwg:* Salm. II. cxxv. 6 (cf. lvi. 2; lxxii. 4; cxxvi. 1).

Diymball, *a.* not failing, unfailing; unyielding.

Tri anhebgor celfyddyd: awen gynhenid; addysg cynnwys-bwyll; ac ymgais *diymball.*
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 265 (cf. 289).

Diymborth, *a.* without food or sustenance, foodless.

A feddwl neb y gwrthyd Christ ac y gad ef yn *ddiymborth* yr hwn sydd yn porthi Christ?
Edward Iames: Hom. iii. 26.

Diymbwyll, *a.* without reason, unreasonable, senseless.

Araith *ddiymbwyll,* aneglur grebwyll.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 11.

Tri pheth anweddus ac anferth ar bob dyn: traserch *diymbwyll;* trachas diachos; a bod yn ddiymddawr â phob peth.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 217 (cf. 11, 222).

Diymchwil, } *a.* without search or inquiry;
Diymchwiliad, } not inquisitive.

Diymdanc, *a.* without mutual peace or concord; irreconcilable.

Gallwn gan well gobaith ddal
Tragwyddawl ryfel trwy ai nerth ai twyll,
Diymdanc wrth ein gelyn ffrom.
W. O. Pughe: C.G. i. 135.

Diymdaraw, } *a.* unconcerned, heedless; help-
Diymdaro, } less.

Diymdawr, *a.* without concern, unconcerned, indifferent, careless, heedless.

Na fydd *ddiymdawr* am dy gyd-ddynion.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 7 (cf. 81).

Digitized by Google

Un *diymdawr* ym mhen cant difëydd.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 54 (cf. 217).

Ni olygir wrth ddywedyd fel hyn, fod y dosparth hwn yn gynnwysedig o ddynion *diymdawr* a diofal o barth i arweddiad eu gwyddor ar y Bibl.—*Diwygiwr*, xii. 165.

Diymdawrdeb, } *sm.* unconcern, heedlessness,
Diymdawredd, } carelessness, indifference.

Pechodau y Brytaniaid a'u dyfethent; a chwe pheth yn brif bechodau a barant i'r Cymry golli eu pendefigaeth a'u hanrhydedd yn Ynys Prydain: cyntaf esgeulusder y gwŷr eglwysig a'r llenigion a'r athrawon crefydd, a'u hanymgais a'u *diymdawrdeb* yn gwasanaethu Duw, a dysgu daioni a chyflawnder.—*Prophwydoliaeth Gildas Brophwyd.*

Diymdor, *a.* without a break; without a pause or interruption; continual, ceaseless.

Hi a dderbyniwyd, ac a freiniwyd yn ogyfuwch ag nas gellid gradd yn y byd i brydydd nas cadwai yn *ddiymdor.*
Y Greal, 60.

Gwna fodd dy Dduw a hyny'n *ddiymdor.*
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 9.

Dwyn ar adwedd hen gadair a fu yno er oesoedd cyn cof, a braint heddwch a thangnef *diymdor* ar y gadair ac ar y lle.—*Iolo Mss.* 63.

Oedd gwrdd y damdwrdd *diymdor* a gad
O'i fwriad yn farwor.
Dafydd o'r Nant: Cyfrinach y Beirdd, 147.

Diymdrech, *a.* without exertion, effortless; without a struggle or strenuous attempt.

Mor dosturus oedd yr olwg, oni orfu i'r cigyddion anfon am win i gynnal eu calondid, er fod defaid y lladdfa yn rhoddi eu gyddfau i lawr yn *ddiymdrech.*
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 161.

Y rhai nid ydych yn ymorol am ddim cyfryngau, nac yn hybu dim ar y gelyn, ond yn ymroi iddo yn rhwydd ac yn *ddiymdrech.*—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 104.

Ymddangosa caniad y rhan fwyaf o adar yn arllwysiad gwirfoddol, yn cael ei gyflawni yn *ddiymdrech*, heb ddim blinder i'r gewynau.—*Cylchgrawn*, i. 24.

Nid oedd Wynniaid Gwydir chwaith y cyfryw fabanod a chymmeryd eu dietifeddu yn *ddiymdrech.*
G. Mechain: Gwaith, ii. 196.

Diymdro, *a.* 1. without turning, twisting, deviation, or equivocation; straight, direct; busy.

Atebwch fi yn *ddiymdro* ac mewn gwirionedd.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 356.

A gwely *diymdro* esmwythglyd i huno.
Huw Morus: E.C. i. 347.

2. unmoved, unmoving, moveless, motionless; not moving, stirring, or active; quiescent.

Pan welais fod un o Ysgodogion Ucheldir Alban, ac hefyd Sais dysgedig, wedi cyfleithu gwaith eu hen Feirdd i'r Saesoneg; mi a dybygais mai nid gweddus i ni, y Cymry, y rhai sydd genym Gerddi awduraidd, gorhenaidd, o'r einom, fod yn llwyr *ddiymdro* yn y cynghaws hwnw.
Ieuan Brydydd Hir: Diss. de Bardis, 101.

Diymdroi, *a.* not turning or loitering about; direct; without loitering or dawdling.

Mae'n galw nos a dydd ar bawb yn Sodom sydd,
Gan erchi ffoi yn *ddiymdroi*, at Hwn wna'n rhoi yn rhydd.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 372 (cf. 332).

Diymdwng, *a.* without abjuration.

Tri pheth gwell no'r rhai hyny: corff iachus; gwybodau moliannus; a rhyddyd o hawl *diymdwng.*
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 221.

Diymddarwedd, *a.* implacable; remorseless.

Ynghylch hynn o amser yr oedd Owain ab Cadwgawn yn drygu yn *ddiymddarwedd* o'i amgylch wedi hir ymarfer a drygau hyd nas gallai ar ei galon amgen.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 541.

Diymddiddan, *a.* without conversation; not disposed to converse.

Diymddiffyn, *a.*=*Diamddiffyn.*

Diymddiried, *a.* without confidence; trustless.

Diymddiriedog, *a.* not confiding; trustless.

Diymddiriedol, } *a.* not trusting or confiding;
Diymddiriedus, } wanting confidence.

Diymeiriach, *a.* unsparing; unfailing; without fail.

Gan orchymmyn iddynt ymadael yn *ddiymeiriach* â'u tuedd hwynt tan boen bywyd.—*W. Lewes:* Dwy Daith, 90.

Hwy a ymroisant eu hunain i ymprydio'n *ddiymeiriach.*
W. Lewes: Dwy Daith, 127.

Diymenydd, *a.* devoid of brain; brainless; foolish, stupid.

Diymenyddio, *v.* to dash (any one's) brain out, to brain.

Diymffael, *a.* without fail or failure.

Tri pheth gydag amser anianawl a dyfant hyd addon yn *ddiymffael:* yr had a ddoder yn naiar; y daioni a wneler o gydwybod; a'r drwg a wneir o ddirieidi.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 261.

Diymffrost, *a.* without boasting, boastless.

Yr ydoedd yn sefyll mewn duwioldeb cymmedrol, daioni digymmysg a *diymffrost.*—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 208.

Diymgais, *a.* without effort or exertion, effortless; devoid of ambition, ambitionless; easy.

Tri pheth a gaiff pob *diymgais* â'i ddyled: tlodi; ammharch; a chydwybod flin.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 70 (cf. 49, 275).

Gwr mor *ddiymgais* ag yw,
Ys tlawd a distadl ydyw.—*Cyfrinach y Beirdd*, 230.

Diymgel, *a.* not secluding; unconcealed, unhidden; open, manifest.

Goreu ar fenyw ei drwg yn *ddiymgel.*
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 92.

Yr Eryr iaith *di ymgel*
Allai neb drwy ryfel
Yn fyw eilwaith dy gaffel!
Ymddiddan Arthur ac Eliwlod: M.A. i. 176.

Seuis yn ryuel *diymgel* deith.
Llygad Gwr: M.A. i. 345 (cf. 515).

Gwnawd lledrad yn *ddiymgel.*
Englynion y Misoedd: M.A. i. 16.

Gwilia'th dafawd ac a wnel,
Ond llafar nid *diymgel*,
Pob un a glyw lle nas gwel.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 97.

Diymgeledd, *a.*=*Diamgeledd.*

Ac am hyn myfi a ddechreuais ei esgeulusaw a'i ddifrawu ef, gan ei daflu ymaith yn *ddiymgeledd.*
Huw Lewys: Perl, Cyfl. 3.

Diymgis, *a.* without mutual blows; without a struggle or skirmish; quiet.

Cadog, ac yntau yn wr glew yng nghyfnod oedran gwroldeb, a aeth i gyfarfod â'r arlwydd, ac a archodd iddo ei aur a'i arian yn ddirwgnach *ddiymgis.*—*Iolo Mss.* 172.

Diymglywed, *a.* insensible.—*W.*

Diymgudd, *a.* not secluded, concealed, or hidden; open, manifest, public.

O gymmaint amryfusedd goleu *diymgudd*, yr hyn a ddarfuasai iddynt ei gyfaddef mor fynych.
M. Cyffin: Diff. vi. 7.

Diymgyd, *a.* unconnected; separate.

Traethaf yt fardd daf
Cyd cyfanned o gof a'th gaf
Diymgyd a byd bydaf.—*Bergam:* M.A. i. 554.

Yna collwyd y rhyddfraint, yr hon a fu'r ddiweddaf oll o arglwyddiaethau Cymru, ag arni arlwydd i'w fraint, yn Gymro a gadwodd fraint a chyfraith *diymgyd* ag un arlwydd arall.—*Llanover Ms.*

Diymgyrch, *a.* not to be approached, inaccessible, unapproachable; unfrequented.

Goleuni diymgyrch, light not to be approached.

I'r hwn yn unig y mae difarwoldeb, ac yn trigo yn y *goleuni diymgyrch.*—*Esgob Davies:* 1 Tim. vi. 16.

Diymgyrchedd, *sm.* inaccessibleness.

Digitized by Google

Diymhongar, *a.* unpretending, not pretentious; unassuming.

Mwyngu a *diymhongar*.—*Robert Owen:* Gwaith, 146.

Diymladd, *a.* not fighting; without fighting.

Wynt a doethant ell deu y mewn ynys wastat a oed odieithyr y kanhorthwy y vn mwy noe gilyd. ar vn a orffei kymerei kyuoeth y llall ac wyr yn *diymlad* yr deu lu.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 316.

Diymmod, *a.* devoid of motion, motionless; immovable; fixed, steadfast.

A'r rhyn tryffer *diymmod* yn ymwresogi'n fodoldeb byw.
Barddas, i. 258.

Byddwch sicr, a *diymmod*, a helaethion yng ngwaith yr Arglwydd yn wastadol.—1 *Cor.* xv. 58.

Byddwch ffyrfion a *diymmod*, helaethion yn wastad yng ngwaith yr Arglwydd.—*W. Salesbury:* 1 Cor. xv. 58.

Byddwch ddioed, ac yn *ddiymmod* yn eich ffydd, ac yn eich bwriad o'ch hunain ar Dduw.—*Sion Trefredyn.*

Dau naturiaeth y Duwdod a'r Dyndod ydynt mor *ddiymmod* wedi eu cyssylltu yng nghyd drwy bersonol undeb.
R. Vaughan: Ymarfer Duwioldeb, 7.

Diymmodadwy, *a.* immovable.

Diymmodedig, *pt.a.* unmoved; confirmed.

Diymmodi, *v.* to cease moving; not to move.

Diymmodiad, *sm.* immobility; a confirming.

Diymmodol, *a.* not moving; not apt to move; motionless.

Diymmodrwydd, **Diymmodedd**, *sm.* immobility, immovableness; constancy, steadfastness.

Wrth ystyried y crëedigaeth, rhai o'r anianolion a graffa y meddwl arnynt gyntaf yw y rhai hyn; sef, defnydd, corff, estyniad, sych, gwlyb, ymmod, *diymmodrwydd*, dysgyrchiant, cyfymgyrchiad, cyfymlyniad.
Cylchgrawn Cymraeg (1793), 204.

Diymogel, *a.* unguarded; bold.

Diymogelu, *v.* to be unguarded.

Diymogelwch, *sm.* unguardedness.

Diymogor, *a.* shelterless, homeless, harbourless.

Er bod yma'n wan yn awr,
Megys un *diymogawr*
Wnai ei wely fry'n y fron
Yn dawel rhwng Brain duon.—*Daniel Ddu*, 115.

Diymollyngiadol, *a.* unyielding; unpliant.

Dangosodd hefyd yn amlwg mai gwaed Cymro oedd yn rhedeg yn ei wythenau, trwy yr ymdrechion a wnaeth i oleuo ac i wareiddio ei gydgenedl; a thrwy y glewder a'r gwrondêr *diymollyngiadol* a ddangosodd yn achos y Seren.
Seren Gomer, viii. Rhag. 1.

Diymoralw, *a.* not invoking.

Diymosgryd, **Diymosgryn**, **Diamosgryn**, *a.* 1. without trepidation; without sensation; intrepid, fearless, undaunted.

Y Cymry a weddiasant yn hyderus ar Dduw ac a ddodasant eluseni a chyflawnder, a myned yn erbyn llu dirfawr y brenin ai lladd yn *ddiymosgryd*.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 531.

Pa ham na ddug efe'r Iesu yn ddiodor ac yn *ddiymosgryn* ger bron?—*Efengyl Nicodemus*, 1.

2. unstirred, without stirring, unmoved; listless, inactive.

Fe'th aned . . . yn *ddiymosgryn*, nid yn iach,
Yn iwin bach digynfedd.—*S. S. Hywel.*

Diymrafael, *a.* without strife, contention, or wrangling.

Ac Abel *ddiymrafael*, glân angel fel y glain,
A ladded heb arbed, lle y cwymped, â llaw Cain.
Huw Morus: E.C. ii. 222.

Diymrith, *a.* not in semblance or appearance; real, unfeigned.

I gyd mewn nerth adgodant, yn dryfrith,
I dir *diymrith* ar d'rawiad amrant.
Ioan Madog: Gwaith, 22.

Diymroad, *a.* not exerting one's self; effortless; indolent; irresolute; fluctuating.

Diymrwgnach, *a.*=*Dirwyth*, q.v.

Diymryson, *a.* without strife or contention; peaceful.

Nid *diymryson* ond cyttundeb.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 21.

Diymrysonawl, *a.* uncontending; not contentious.

Diymrysonedd, *sm.* freedom from contention, discord, or dispute.

Diymrysoni, *v.* to cease from contention, strife, or discord.

Diymsang, *a.* not treading or trodden, untrodden; without depression; not parenthetical; without interruption; direct.

Mi a ddosparthaf o hyn allan arni, ac a'i mynegaf yn *ddiymsang*.—*H. Perri:* Egluryn Ffraethineb, xviii. 4.

Diymsathr, *a.* untrodden, unbeaten.

Diymswyn, *a.* not blessing or crossing one's self; not to beware or heed; not cautious; reckless.

Daw amser dyn *diymswyn*,
Daw prawf tost gwedy'r fost fwyn.—*Sion Cent.*

Briw *di ymswyn*, bwrw d'amser, i hau arian.
Huw Morus: E.C. ii. 332.

Diymsyniad, *a.* void of reason or ratiocination; irrational; senseless.

Anifeiliad diymsyniad, irrational animals.

Diymsynio, *v.* to become irrational; to act unreasonably.

Diymsyniol, *a.* irrational; insensible; unreasonable.

Ond cyntaf merch i Bech, Anghydfod plith
Y *diymsyniawl*, Angeu o chwerw gas
A ddygai.—*W. O. Pughe:* C.G. x. 701.

Diymwad, *a.* undeniable; unquestionable; certain.

Ai bydd gywir hy hoew-rym
O gariad *diymwad* ym'.
D. ab Gwilym, cxvii. 65 (cf. ccxlv. 84).

Yr ail [Bregeth] yn haeru, a thrwy Ysgrythyrau eglur a rhesymau *diymwad* yn profi, na ddêryw i Dduw . . . lunaethu neb yn anochel i ddinystr neu farwolaeth dragywyddol.—*Ioan Wallter:* Dwy Bregeth, 1.

Prawf *diymwad* yw hyn, nad oes un math o lywodraeth gan ddydd y Sant gwlawiog, fel ei gelwir, ar y dyddiau a ganlynant.—*Ios. Harris:* Gweith. 342 (cf. 94).

Diymwad, *sm.* a being undeniable.

Diymwadol, *a.* that is not denying; positive.

Diymwadrwydd, **Diymwadoldeb**, *sm.* undeniableness; certainty.

Diymwan, *a.* not mutually combating; not defending.

Diymwared, *a.* that has no deliverance, redemption, relief, or remedy; unredeemable; irremediable; irreparable.

Yr hwn a dymmerodd ei gyflawnder a'i drugaredd felly yng nghyd, fal na wnai fe na'n barnu ni yn ei gyflon farn i dragwyddol gaethiwed diafol a'i *ddiymwared* garchar uffern yn dragywydd.—*Ed. Iames:* Hom. i. 26.

Dibenodd rhyfel ni, a methlodd ni
Gan *ddiymwared* goll.
W. O. Pughe: C.G. ii. 344 (cf. v. 667).

Diymwarediad, *sm.* a being without deliverance.

Diymwaredol, *a.* not redeeming or delivering.

Digitized by Google

Diymwaredu, *v.* to cease to deliver.—*P.*

Diymwasg, *a.* uncompressed; uncrowded, not thronged.

Diymwasgol, *a.* not compressing; not crowding or thronging.

Diymwel, *a.* unvisited; not frequented; solitary; not visiting.—*M.A.* i. 93.

Rhyw rodle dirion cyfanneddwn yn
Ddiogel nad *diymwel* o wymp wawl Nef.
W. O. Pughe: C.G. ii. 414.

Diymweliad, *sm.* a being unvisited.

Diymwosgryn, *a.* [gwosgryn=gosgryn]=*Diymosgryn.*

Diymwosgrynedd, *sm* intrepidity, undauntedness.

Diymwosgrynol, *a.* not apt to be listless or inactive; intrepid, bold.

Diymwrthladd, *a.* without opposition, unopposed.

Diymwrthryn, *a.* without resistance, unresisted, unopposed.

Diymyr, } *a.* without interposition; with-
Diymyraeth, } out stirring; unconcerned; without intermeddling; unofficious.

Ni phaid Sacsoniaid â'u sias,
Nid *diymyr* plant Tomas.—*L. G. Cothi,* II. iv. 7.

Diymyrgar, } *a.* not apt to be officious or in-
Diymyrol, } termeddling; unofficious, not intermeddling.

Diymysgaroedd, *a.* without bowels, bowelless; without compassion or pity; merciless.

Ac yntau [Iudas] o'r blaen mor *ddiymysgaroedd,* mor ddidosturiol, ac mor annhrugarog wrth anwyl Fab Duw.
Ed. Samuel: Buch. yr Apostolion, 234.

Diymysgyr, *a.* dull, slow, inactive.

Dyn diymysgyr, a dull person.

Diynfyd, *a.* not foolish; not mad.

Diynfydwaith, *sm.* work or workmanship that is not foolish.

Gwnaethym dŷ i garu gwen,
Diynfydwaith, dan fedwen.
Dafydd ab Gwilym, clxxix. 11.

Diynni, *a.* without vigour; spiritless; lifeless; meek, gentle.

Odd eu derbyn yno, yn
Ddiynni amgen, caffant yno nerth.
W. O. Pughe: C.G. viii. 111.

Diynnill, } *a.* profitless, void of gain, gainless,
Diennill, } unprofitable.

Tri pheth a ddangosant ddyn yn gythraul cyflwyr: balchder ar ddrwg; twyll *diynnill*; a drygu diniwed.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 264.

Diysbwrial, *a.* free from rubbish.

Diysbwrialu, *v.* to clear of rubbish.

Diysgar, *a.* without separation, inseparable.

Bid dy gariad yn ddwys ac yn ddianwadal, yn ddiysgog ac yn *ddiysgar,* nid fel y traeth yn llenwi ac yn treio.
Elis Wynn: Rh.B.S. 187.

Diysgarant, *a.* without enemies.

Diysgog, *a.* immovable; unmoved, unshaken; steadfast, firm; determined.

Ywein rutlein rot edmyc
Ged ysgein gad *ddiysgog.*—*Prydydd Bychan:* M.A. i. 383.

Y *diysgog* a ofnir a phawb yn ufuddion,
Y *diysgog* a gerir gan bob gwrolion.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 10.

A'r pen blaen iddi a lynodd, ac a safodd yn *ddiysgog.*
Act. xxvii. 41.

Hyn oedd arfer *ddiysgog* yr hen feirdd.
Cyfrinach y Beirdd, 28.

Nyni a atolygwn i ti ein cadw yn *ddiysgog* yn y ffydd hon.—*Llyfr Gweddi Gyffredin* (Sul y Drindod).

Y mae'n eglur oddi yma, fod yr hen Gristʼnogion yn glynu yn *ddiysgog* wrth y rheol a esyd yr Apostol.
Theo. Evans: D.P.O. 327.

Hyn ein cred boed yn *ddiysgog,*
Drwy barhâd y fuchedd hon.
Iolo Morganwg: Salm. II. cxlii. 2.

Diysgogawl, *a.* not apt to move or shake; tending to fix.

Diysgogedd, } *sm.* immovableness; stead-
Diysgogrwydd, } fastness, firmness; fixedness.

Yr hwn [waith] sydd yn gofyn y gwaredd, y pwyllineb, y *diysgogrwydd,* a'r arafwch penaf, yn y neb a'i gwnelo.
Ieremi Owen, 102.

Mewn brwydrau, y maent yn unaw cyflymder gwŷr meirch at *ddiysgogrwydd* gwŷr traed.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 318.

Y dug, gan ryfeddu wrth ei *ddiysgogrwydd* . . . a roes ei ddwylaw ar ei wyneb.—*Brutus:* Brutusiana, 415.

Yma mae yn crechwenu wrth syllu ar *ddiysgogrwydd* y gwroniaid gynt.—*Gwyliedydd,* ii. 18.

Diysgogi, *v.* to make firm; to become steadfast or fixed.

Diysgogiad, *a.* motionless, unmoving; fixed.

Mae'r hyn sydd i ni yn amser gorphenol, presennol, a dyfodol, iddo Ef yn amser presennol *diysgogiad.*
Nicander: Dwyfol Oraclau, 69.

Diysgogiad, *sm.* a making unmovable; a becoming firm or steadfast.

Diysgor, *a.* without protection or shelter; unsheltered.

Lle mae llawer gwae waethwrych anescor
Llu du *diyscor* ffylor ffoldrych.—*Casnodyn:* M.A. i. 427.

Diysgrawling, *a.* without glue, unglued.

Diysgrawlingo, *v.* to deglutinate; to become unglued or deglutinated.

Diysmudedig, *a.* unmoved; steadfast.

Diysmudiad, *sm.* a being unmoved.

Diysmudol, *a.* unmoving; not in motion.

Diyspaid, *a.* without stop, pause, intermission, or cessation; continual.

Myfi a welwn aniferoedd mawr o bobloedd yn cynniwair y cerryg o'r carneddau mân, ac yn cu bwrw yn y rhai mawr yn *ddiyspaid.*—*Ymddiddan Merddin a Gwenddydd.*

Diyspryd, *a.* destitute of spirits, spiritless; lifeless; depressed, dejected; tame.

Y meddyliau *diyspryd* yma, y rhai . . . sydd megys yn gleifion o'r parlys, nid allant na chyffroi yr ewyllys, na chyfarwyddo'r llaw.—*D. Davis:* Hywyd Duw, 84.

Yn lle'r celwydd, gweniaith, a'r serthedd, y mae'r prydyddion diddysg, dilythyr, a *diyspryd* da, yn ei garu fynychaf.—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 206.

Yn ddiyspryd, spiritlessly; lifelessly; tamely.

Diysprydedd, *sm.* spiritlessness; want of life or vigour; dullness.

Diysprydol, *a.* not spiritual; spiritless; tame.

Diyssig, *a.* [yssig] not frail, weak, or infirm; firm, steady, unflinching, daring.

Maeir a Madawc a Medel
Dewrwyr *di yssic* vroder
Selyf Heilin Llawr Lliwer.
Llywarch Hen: A.B. ii. 266 (M.A. i. 118).

Ny wnaethpwyt neuad mor *diessic*
No Chynon lary vronn geinnyon wledic.
Aneurin: God. 364 (cf. 174).

Bet Mor maurhidic *diessic*
Unben. post kinhen kinteic.
Englynion Beddau Milwyr: A.B. ii. 30 (cf 32).

Digitized by Google

Lle heb gwrf na thwrf na thorf *diystig* rygul
Rhac newin bob orig.—*Hywel Ystoryn:* M. A. i. 519.

Er marw a'i ddwfn gladdu, cyfododd i fyny,
Yn Arglwydd Dduw Iesu'n *ddiystig.*
Huw Morus: E.C. ii. 291.

Diystaen, *a.* unglazed; not tinned.

Y modd y ceir eu sudd y sydd fal hyn: cymmer y llysiau, yn ddail ac yn flodau ac yn had, yn yr amser y bo arnynt a'r adeg, y cwbl yng nghyd, a phwya'n dda, a dod mewn llestr pridd *diystaen.*—*Meddygon Myddfai,* ii. 795.

Diystafell, *a.* without a room or chamber; houseless, homeless.

Os difwyn (gwae *ddi'stafell!*)
Clywed, nid oes gweled gwell.—*Gronwy Owain,* 56.

Diystig, *a.* not assiduous or persevering; inactive, idle.

Na saf draw'n ddistaw *ddiystig,* arlwy
Fath eurlawn galenig.
Rhisiart Bulkeley: Diddanwch Teulusidd, 240.

Diystryw, *a.* without artifice, craft, trickery, or stratagem; without wiles or tricks.

Gwraig dda a ddylai fod—yn gywilyddgar, yn *ddiystryw,* ac yn ufudd.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 75.

Diystwng, *a.* not humbling one's self; unsubjected.

Yn dygyant trigyant dreic *diystwg*
Yn tec adef nef nawt orddillwg.
Einion ab Madog Rhahawd: M.A. i. 392.

Diystyr, *a.* 1. meaningless; devoid of meaning, signification, or sense.

Tri pheth a lanwant wagder: dadwrdd diddysg ym mhen gwag; crochwerthin *diystyr* yng nghalon wag; a llaid budreddus mewn ffynnon wag.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 203.

Geiriau diystyr, meaningless or senseless words.

2. not considering, inconsiderate, without consideration, thoughtless, regardless; contemptuous.

Hon sy'n arwyddocäu na ddaw cywethogrwydd wrth ysmudo o'r naill fan i'r llall yn *ddiystyr.*
H. Perri: Egl. Ffraethineb (1595), xv. 3.

A hwy yn *ddiystyr* ganddynt, a aethant ymaith, un i'w faes, ac arall i'w fasnach.—*Matt.* xxii. 5 (cf. Esth. iii. 6).

Cyffelyb i beraidd lysiau blodeuog a darddant yn yr anialwch . . ond a *ddiystyr* sethrir dan draed yr asyn gwyllt.—*G. Meckain:* Gwaith, ii. 25.

Os *diystyr* ganddo, y mae efe yn pechu y dau cymmaint.
Eccl. xxiii. 11.

O! mor *ddiystyr* o dragywyddoldeb ydyw dynolion y codwm mawr.—*Brutus:* Brutusiana, 189.

3. unconsidered, disregarded, despised; contemptible, despicable; trivial, insignificant.

Dirmygedig yw, a *diystyraf* o'r gwŷr.—*Esa.* liii. 3.

A phan wisgwn i liain sach,
Bûm *ddiystyrach* lawer.—*Edm. Prys:* Salm. lxix. 11.

A'n henafiaid cyntaf a ddifrawasont, ac a wnaethont yn *ddiystyr* o orchymmynion Duw.—*Huw Lewys:* Perl, 8.

Bu lawer feirw drwy bethau mor *ddiystyr* ag a henwasom ni.—*Gruffydd Wynn:* Ystyriaethau, 47.

Minnau hefyd a'ch gwnaethym chwi yn ddirmygus ac yn *ddiystyr* gan yr holl bobl.—*Mal.* ii. 9 (cf. Iob xii. 5).

Ydys yn dy ddychrynu di â bygythion, ac yn dy orthrymu di â thristwch: bwrw hyny heibio yn *ddiystyr.*
Elis Lewis: Drexelius, 372.

A hwythau mor ddirmygus *ddiystyr* ganthynt ef yn y byd yma.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. vi. 4.

Pan yw y creadur bach *diystyr* hwn . . . yn cadw y tymmor cyfaddas.—*Jeremi Owen,* 14 (cf. 118).

Hoffa fod yn ddirgel ac yn *ddiystyr.*
Elis Wynn: Rh.B.S. 86.

Llafur hwn a fu'n *ddiystyr*
Gan a garant fodd y byd.
Iolo Morganwg: Salmau, i. lxix. 3.

Diystyr, *sm.*=*Diystyrwch.*

Os offeiriad, o *ddiystyr* ar yr esgob, a ymneilldua, ac a gynnal gyfarfodydd gwahanol . . . bydded iddo gael ei ddiswyddo.—*Theo. Evans:* D.P.O. 326.

Diystyradwy, *a.* that may be despised; despisable, despicable, contemptible.

Diystyraidd, *a.* disdainful, scornful.

Yr oedd yn debygol yn meddwl fod bradwriaeth yn debyg i ddilledyn clyd oedd wasanaethgar mewn gauaf oerllyd, ond pan ddoai yr haf tesog, y taflai ymaith yn *ddiystyraidd.*—*Y Greal,* 33.

Diystyrdod, -au, *sm.* inconsideration, inconsiderateness, thoughtlessness, inattention.

A llwyra llüydd a fu erioed oedd Ur ab Erin Luyddawg: ac ar *ddiystyrdod* y bu gan genedl y Cymry roddi hynny iddaw dan adduned anesgorawl.—*Trioedd:* M.A. ii. 60.

Diystyredig, *a.* despised, contemned.

Myned yn ddiystyredig, to grow into contempt.—*W.*

Diystyredd, *sm.* contempt, disregard.

Diystyriad, -au, *sm.* a despising, a contemning.

Diystyriaeth, -au, *sf.* inconsideration, inconsiderateness, inattention; contemptibleness.

Diystyriaeth a'u diofala hwy.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 278.

Yma gellir doedyd yng nghylch cariad y nef, a gogoniant nefawl, a *diystyriaeth* pethau daiarawl.
Morys Clynog: Athrawaeth Grist. 25 (cf. 60).

Diystyriaeth, *a.* devoid of consideration, inconsiderate, thoughtless, heedless.

Pan fwriadom yn *ddiystyriaeth,* yr ydym yn bwriadu gwneuthur ni wyddom pa beth.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 174 (cf. 171, 177, 194, 232, 267).

Diystyried, **Diystyrio,** *v.* to disregard, to despise, to contemn, to scorn.

Diystyriol, *a.* not apt to consider; not considerate; disdainful.

Diystyrllyd, *a.* disdainful, scornful, contemptuous; despised; contemptible.

Er fod geiriau Crist yn amlwg ac eglur, eto y mae Hosius yn eu gwrthod yn *ddiystyrllyd.*
M. Cyffin: Diffyn. iv. 27.

Mae'n wir yr adwaenem ryw nifer o bobl *ddiystyrllyd* yn y byd, nad oedd neb yn gwneuthur cyfrif o honynt.
Porth Cyfyng (1790), 158.

Y creaduriaid hyn [y maenfilod], sydd mor *ddiystyrllyd* a bychan yr olwg, ydynt awduron y sylwedd a adnabyddir dan enw cwrel.—*Gwyliedydd,* ii. 14.

Diystyrllydrwydd, *sm.* contemptuousness, disdainfulness, scornfulness.

Diystyru (*ȳ*), *v.* to despise, contemn, slight, disdain, or disregard; to scorn; to mock.—*Luc* xxiii. 11.

Yr annuwiol . . . a gânt gospedigaeth, y rhai a *ddiystyrasant* y cyflawn. . . Annedwydd yw yr hwn a *ddiystyro* ddoethineb ac addysg.—*Doeth.* iii. 10, 11.

Na *ddiystyra* gerydd yr Hollalluog.
Iob v. 17 (cf. x. 3; xxxvi. 5).

Gorsedd oedd honno a lwyr *ddiystyrwyd* gan feirdd Morganwg.—*Edward Dafydd:* Cyfrinach y Beirdd, 3.

Y mae hwn yn *diystyru*
Y peth a fyddom ni yn garu.
I. B. Hir: Gwaith, 30 (cf. 123).

Nid oes—namyn di foes da,
Was taer, a'th *ddiystyra.*—*Gro. Owain,* 55 (cf. 331).

Diystyrwyd ef, a *diystyrodd* yntau y diystyrwch.
Th. Charles, s.v. 'Diystyru.'

Diystyru gwaradwydd, to despise shame.—*Heb.* xii. 2.

Diystyrus, *a.*=*Diystyriol.*

Math ar Grist'nogion medrus, *diystyrus* ydynt.
Ed. Samuel: Athr. yr Eglwys, 31.

Digitized by Google

Diystyrwch, *sm.* contempt, disdain, scorn; disregard, disesteem.

Efe sydd yn tywallt *diystyrwch* ar dywysogion.—*Iob* xii. 21 (cf. Salm. xxxi. 18; cxxi. 4; Diar. xviii. 3).

Y fath ddirmyg a *diystyrwch* ar fraint a mawredd tywysog ni chlywyd son am dano mewn oes yn y byd.
M. Cyffin: Diff. iv. 15 (cf. 8).

Diystyrwr, wyr, *sm.* a contemner, despiser, or scorner.

Fal na byddom *ddiystyrwyr* a gwatwarwyr ei annhwyll-odrus air ef.—*Ed. Iames:* Homiliau, ii. 305.

Dled, -ion, *sf.* [contr. or corr. of *dyled*, which in most parts of North Wales is pronounced *dylêd:* hence *d'led* or *dled*]=*Dyled, Dylyed.*

Ni a ddylem ddangos ymynedd ym mhob peth megys pwnc o'n *dled.*—*Huw Lewys:* Perl, 183.

Dled ar bob dyn, dychryn daith,
A'r aned, yw marw unwaith.—*Sion Tudur.*

Yn ddiammheu mae cymmaint o *ddled* arnom ni i geisio cyflawn athrawiaeth yng nghylch natur ein Sacramentau ni ag oedd arnynt hwythau am yr eiddynt.
Ed. Samuel: Athrawiaeth yr Eglwys, 159.

Y mae tosturi yn *ddled* arnom ni.
Langford: Holl Ddyledswydd Dyn, 273 (cf. 93, 100).

Mor angharedig ydym . . . ag nad ydym ni, nac yn gofalu am ein budd ein hunain, nac yn gwybod ein *dled* tuag at Dduw.
Ed. Iames: Hom. iii. 98 (cf. ii. 179; iii. 44, 58, 98, 178).

Dledswydd, -au, *sf.*=*Dyledswydd.*

Nid oes iddynt le i ddadleu eu bod heb wybod eu *dledswydd.*
Ed. Samuel: Gweddi Gyffredin, 110.

Y nawfed *ddledswydd* i Dduw ydyw Edifeirwch: fe a'n dysgir gan yr Apostol fod hon yn *ddledswydd* i Dduw. . . Ac y mae rheswm da ar fod hon yn *ddledswydd* iddo ef.
Langford: Holl Ddyl. Dyn, 130 (cf. 121, 122, 124, 128).

Dledus, *a.*=*Dyledus.*

Bod iddo roi *dledus* fri ar y dirgeledigaeth hyn.
Ed. Iames: Hom. iii. 88 (cf. 178).

O herwydd nad all y sawl sydd heb gyfryw wybodaeth a dealltwriaeth na rhoi'r bri sydd *ddledus,* na gwneuthur iawn ddefnydd o'r rhadau a'r doniau rhyfeddol a gynnygir ac a gynnyrchir i ni ynddo.
Ed. Samuel: Athrawiaeth yr Eglwys, 158 (cf. 155).

Fe helpiff Duw mewn amser *dledus* cyfaddas.
Huw Lewys: Perl, 154 (cf. 17).

Na fydded gwraig ry brysur i ofyn yr hyn sy *ddledus* ar y gwr iddi hi, lle *dlai* hi fod yn barod i gyfiawni ei *dlyed* ei hun.—*Ed. Iames:* Hom. iii. 178.

Ystyria pa ddiolchgarwch annhraethadwy sydd yn *ddledus* arnat ti iddo ef.—*Langford:* Holl Ddyl. Dyn, 93.

Dledwr, wyr, *sm.*=*Dyledwr.*

Y mae perthynasrwydd rhwng *dledwr* a choeliwr.
Langford: Holl Ddyl. Dyn, 291.

Dlyed, -ion, *sf.*=*Dylyed, Dyled.*—*C.C.* ii. 398, 418.

Yndi y dineuir emhenyd y llew yny vo briwedic y aelodeu oll. oe datawl *dlyet* y gwrthledir.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 146.

A heuyt *dlyet* oedh vot oe genedl ehun a wnelai iawn drostaw.—*Lucidar,* § 29.

Na safed yn rhy ddifrif i edrych ar hyny, o herwydd nid ei ran ef a'i *ddlyed* yw hyn.
Ed. Iames: Hom. iii. 178 (cf. 127, 135; i. 6).

Pei chwennychynt wy mwy noe *dlyet.* ny chephynt moe cyflawn lawenydh.—*Lucidar,* § 188.

A *dlyed* dyn hefyd tuag ato ef.
Edward Iames: Hom. i. 1 (cf. 37).

Dlyedus, *a.*=*Dyledus, Dylyedus.*

Dlyedus yw bot pryuet yn eu hyssu wyntau yno.
Lucidar, § 102.

Dlyu, *v.*=*Dylyu, Dyly.*

Dioer hep y llall, ni *dlyy* di gymryt kyngor am y urawt honn . . . ac ni *dlyy* ditheur ail kyngor am danei.
Cyfreithiau Cymru, ii. 122 (cf. 736, 738).

Cany *dlyir* herwyd kyfreith kynnal gweithret ny ellit y wneuthur yn gyfreithawl.—*C.C.* ii. 368.

Ardaly nef ardunya fyn *dlid*
Arglwyt Duw yn dyn yth enid.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 237.

O herwydd bod yr Ysgrythyr Lân yn cwbl gymwys yr hyn a *ddlyem* ni ei wneuthur, a'r hyn *ddlyem* ni ei wachelyd, pa beth a *ddlyem* ni ei gredu.
Ed. Iames: Hom. i. 2 (cf. 7. 80, 106; iii. 178).

Tremyc yw gwellygiaw neu walhus ebryfygu gwneuthur yr hynn a *dlyer* y wneuthur yn rhwymedic.
Ymborth yr Enaid, § 5 (cf. 11).

A *dlyir* uvudhau y ryw offeiriait hynny . . . *ef* a *dhlyir* bot yn uvudh udhunt ar eiriau Duw. . . Yn y lhe y dyscont wyntau dhrwo. ef a *dhlyir* eu tremygu.
Lucidar, § 48 (cf. 51).

¶ The preceding irregular forms (*Dled—Dlyu*) are no longer in use as initial combinations; and no word in its primary state begins with *dl*, and only two with *tl* (*tlawd* and *tlws*, with their derivatives).

Do, *adv.* 1. yes (in answering in the affirmative a question referring to the past); yea.

Ac ar hynny deffroi a orue Arthur. a gofyn a gysgassei hayach. *do* arglwyd heb yr Owein dalym.—*Mabinogion,* 170.

A ymwelas ef a thi heb hi. *do* heb *ef.*—*Mabinogion,* 259.

A ddarfu i chwi ddeall hyn oll? Hwythau a ddywedasant wrtho, *Do,* Arglwydd.—*Matt.* xiii. 51.

A ddarfu i chwi ddefnyddio yr *h* yn ei holl orsafoedd! . . . *Do! do!* heb erioed ei hesgeuluso.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 185.

Pa un a wnaethom ni ai byw i fyny i'n rhagorfreintiau, ai nid *do?*—*Ieremi Owen,* 28.

A welsoch chwi ef? Do, did you see him? Yes.

A fu hi yno? Do, has she been there? Yes.

Na ddo, no; not done; not so.

Oni chondemniodd neb di? Hithau a ddywedodd, *Na ddo* neb, Arglwydd.—*Ioan* viii. 10, 11.

'A gadwasoch chwi neb,' ebr Angeu, 'i golli eu hamser oddi wrth eu gorchwyl, neu o fyned i'r Eglwys? ha'! '*Na ddo,*' ebr un arall.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 60.

A ddywedodd ef felly ai na ddo? did he say so or not?

Ateb Do ai Na ddo, answer Yes or No.

Na ddo ddim, no, not at all.—*Luc* xxii. 35.

A roed peth i ti? Na ddo ddim, was there some given to thee? No, none at all; none whatever.

2. Sometimes used, especially when repeated, for the sake of emphasis, though no question be asked.

Dy dad a gerais, *do, do,*
Do, 'n foddus, Duw nef iddo!—*Llywelyn Sion.*

Y fun a wnaeth fwy na neb
O weniaith, *do,* yn f' wyneb!
D. ab Gwilym, ccxxiii. 1 (cf. viii. 56; lxxvii. 32).

Do, mi welais heddyw'r boreu
Ferch a gawn pan fynwn innau;
Ac a welais, *do,* brydnawn,
Ferch a garwn, ac nis cawn.
Hen Bennill (Ystên Sioned, 111).

Do [*ïe, ac, ys], frawd, mwynhawyf fi y ged hyn ganyt.
W. Salesbury: Philem. 20.

Do! f' addolwyd dy feddyliau.
Edward Dafydd: Cyfrinach y Beirdd, 135.

Soniais, sygenais gwynion, *do,* ganwaith,
Am deg Wynedd wendon.—*Gronwy Owain,* 117 (cf. 336).

Do! do! Gymru dirion, fe gafodd ei gwympo!
I. G. Aled: Cerdd Allwyn, 11.

Mi fûm mor hoenus, *do,* cyn hyn,
A'r ♦yn fai'n chwareu ar y bryn.
Daniel Ddu, 134 (cf. 219).

Mor ddedwydd buom, *do,* cyn hyn,
A'r gog a gân yng nghoed y glyn.—*Telynegion,* 13.

Digitized by Google

Doaf, *v.*=*Deuaf*, from the irr. verb *Dyfod*, q.v. Some of the other tenses and persons are similarly formed.

Etnebyd ti y *doaſ* yth teruyn ti.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 326.

Eſ a *doei* am dy benn gwbyl or gouut.
Mab. 58 (cf. 42, 298, 303).

Yr fford honno y *doei* Emrys ae lu.—*Ll.C.H.* ii. 159.

Megys ydh ant ymaith y genetl yr awr honn drwy anghau. ac y *doant* y rai eraill byw yn y hol.
Lucidar, 120 (cf. 133).

Ny *doant* attam namyn pedeir gweith yn y vlwydynn.
H. Gwlad Ieuan Fendigaid, 170.

Neu gryd neu glefyd a *ddoai* arno wrth fwyta neu yfed ychydig mwy na digon.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. vi. 15.

Dobach, *v.* [E. *daub*? cf. *dwbio*] to handle awkwardly, slovenly, or botchingly; to daub; to mess; to botch or bungle.

Wrth sylwi arnynt dywedai amaethwr o ardal Merthyr Tydfil mai *dobach* y gwair oeddynt ac nid ei gyweirio. *Dobach*, meddir, a olyga ryw fath o gymmysgu llediewith. Gwelir plant weithiau yn cymmysgu claí at ddibenion o adeiladu tai bach. Os cânt gyfle hefyd *dobant* y toes, sef ei gymmysgu at un diben yn y byd ond ei wastraffu.
Haul, C.C. xxv. 384.

Dobr, -au, } *sm.* [dy-+gobr, gobrwy] a
Dobrwy, -on, -au, } fee; a reward; a bribe.

Methodd gan Simon o Samaria, er cyfrwysed swynwr oedd ef, hudo yr Apostolion drwy *ddobr*.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 250 (cf. 303).

Mynir *dobrwyau* mawrion am ei gladdu yn y ganghell.
Robert Owen: Gweith. 302.

Dobrwyad, } -au, *sm.* a feeing; a rewarding;
Dobrad, } a bribing; bribery.

Dobrwyaeth, } -au, *sf.* bribery; a bribing; a
Dobraeth, } rewarding.

Dobrwyo, } *v.* to fee; to reward; to bribe.
Dobri, }

Ac ni *ddobrir* y fath gydwybod er dim i roddi cennad i'r drwg.—*Ch. Edwards:* Hanes y Ffydd, 306.

Miltiades . . . a ddychwelodd i Athen gyda'r un rhif o lestri ag a aethai ganddo allan, er mawr dramgwydd i'w gydwladwyr, y rhai a'i cyhuddasant o fradwriaeth, herwydd iddo, pan allasai gymmeryd Paros, gymmeryd ei *ddobrwyo* gan frenin Persia.—*Dysgedydd*, 1842, 104.

Nid all cyfoeth eu *dobrwyo* i ymdrechion diorphwys.
I. G. Alarch (J. Mills): Hyfforddwr, 114.

Dobrwyo am swydd, } to bribe for an office.
Dobri am swydd, }

Dobrwyol, } *a.* feeing; rewarding; bribing.
Dobrawl, }

Dobrwywr, wyr, } *sm.* one who offers or gives
Dobrwr, wyr, } a bribe, a briber; a re-
Dobrydd, -ion, } warder.

Dobry, *adv.* [dy-+obry] below, beneath, underneath.

Doco, *adv.* [dy-+oco: cf. *dacw*] there or yonder is or are; lo there or yonder, behold there, see yonder. See *Dacw*.

Ebe'r adarwr, 'Mi a welaf gyffylog.' 'P'le mae?' ebe'r cylchwr. '*Doco* lle mae, o'th flaen yn gymhwys,' ebe'r adarwr; 'ym mon y llwyn gwern oco, lle gweli'r lle goferllyd oco ar ei bwys; *doco* fe! . . . '*Doco* lle mae ar fon pryagollen a weli di'n union o'th flaen oco,' ebe'r cylchwr.
Iolo Mss. 156.

Doco 'r fynwent, *doco* 'r ywen,
Darfod byth ar fod yn llawen;
Doco 'r lle mae'r mebyn hawddgar
Yn fud yn gorwedd yn y ddaiar.—*Hen Bennill.*

Doco lwyn yn fwyn ei drwsiad,
Glasliw, glwys-lon, dirion dyfiad . . .
Doco lwyn yn fwyn wedi 'i drwsio,
Gwyn ei fyd a gai fyned dano.—*Merched y Tŷ Talwyn.*

Doco wen fwynwen yn fanol decaf;
Doco fy hudol.—*Edward Dafydd.*

Doco ef, yonder he is, there he is; behold him.

Doco ef yn dyfod, yonder he comes.

¶ *Doco*, in the Silurian dialect, is the same as *dacw* in the Venedotian, and *dyco* in the Demetian.

Doctor, -iaid, *sm.* [L. *doctor*] 1. a doctor; a learned or wise man. See *Dcethor*, a later but more assimilated form of the same word, connecting it with *doeth*, as Lat. *doctor* is with *doctus*.

Saith *doctor* mewn cynghor cain
A rifwyd gynt o Rufain.—*Gr. Llwyd ab Dafydd.*

Bod Rhys oedd flaenor y *doctoriaid*,
Barwn yn fyw oedd, obry'n feddaid.
L. G. Cothi, III. xxii. 59.

A bu, ar ol tridiau, gael o honynt hwy ef yn y deml, yn eistedd yng nghanol y *doctoriaid*.—*Luc* ii. 46.

Mae gan Cyrillus, hen *ddoctor* sanctaidd, ar Efengyl Ioan Sant, y geiriau hyn.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 44 (cf. 10, 17, 24).

Megys yr arferant hwy wneuthur, nid yn unig â Chynghorau, ond ag historiau ac ysgrifenadau'r hen *ddoctoriaid* hefyd.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 70 (cf. 10, 22, 24, 71).

Y *Doctor* Gwilym Morgan,
Athraw ei oes, wnaeth ei ran.—*Ioan Madog:* Gwaith, 40.

Doctoriaid y gyfraith, doctors of the law.—*Luc* v. 17.

Y rhai a fynent fod yn *ddoctoriaid y gyfraith*.
Esgob Morgan: 1 Tim. i. 7.

Doctor o'r gyfraith, a doctor of the law.—*Act.* v. 34.

Dyma fal y dysgodd ef gariad Duw i *ddoctor o'r gyfraith*.
Ed. Iames: Hom. i. 80.

2. a medical practitioner; a doctor.—*C.S.*

Ym mysg *doctoriaid* yr oesoedd canol, Meddygon Myddfai yw y rhai mwyaf hynod.—*Theo. Evans:* D.P.O. 158.

Am gynghor *doctor* nid aeth
Gweiniaid, na meddyginiaeth.—*Gronwy Owain*, 51.

Doctor, dod gynghor i'r gwan.—*Tegid:* Gwaith, 110.

Doctora, *v.* to doctor; to treat with medicines; to physic; to heal; to practise medicine.—*C.S.*

Doctoraidd, } *a.* doctoral; belonging to a
Doctorawl, } doctor; resembling a doctor.
Doctorus, } —*W.*

Doctores, -au, *sf.* a doctress, a doctoress.—*C.S.*

Doctoriaeth, -au, *sf.* doctorate, doctorship. —*W.*

D'od, } *v.* contr. of *Dyfod*, to come: used only
Dod, } in the infinitive. See *Dyfod*.

Er maint dy fost, awr dost sy'n *d'od*
I'th orfod, gwn, i'th yrfa.
Antoni Powel: Cyfrinach y Beirdd, 98.

Mae dydd y farn yn *d'od* ar frys.—*Emyn.*

Son am bethau godidogion, a rhagorddwyn, ac arddercheogion a fuant gynt, y sydd yn awr, neu a ellir eu disgwyl i *dd'od*.—*Cyfrinach y Beirdd*, 24.

Gan addaw *d'od* diwrnod du
A dialedd i'w deulu.
Blackwell: Ceinion Alun, 109 (cf. 158).

Dodawl, *a.* placing, laying, giving; dative.

Tra rhyfeddawl a gogonawl
Lechau *dodawl*, wyched ydynt!—*R. Owen:* Gweith. 141.

Achos dodawl, dative case.

Mo. Pesawl achos sydd? Gr. Chwech, henwedigawl, genedigawl, *dodawl*, cyhuddiawl, galwedigawl, ac allawl syrthiad ne achos.—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 98.

Dodi, *v.* [cf. L. *datus* (*do*). The very modern *dawd* (pl. *dodion*) is a back-formation from *dodi*, and probably influenced by L. *datum* or *data*] to put, place, set, or lay; to give; to deposit; to set or plant; to fix; to appoint; to impose; to apply; to charge; to utter.

Kadeir a *dodei* y danaw geyr bron Gwrnach.—*Mab.* 127.

Digitized by Google

Nyt oes lestyr yn y byt a gattwo gwres y llynn a *dotter* yndaw. namyn botheu Gwidolwyn gorr a gatwant gwres yndunt. pan *dotter* yn y dwyrein yndunt y llynn. hyt pan deler yr gorllewin.—*Mabinogion*, 123 (cf. 57).

Beth bynnac a *dottor* ar nadunt. ffuryf corff arall a gymer.—*Yst. Bren. Bryt.*: Ll.C.H. ii. 149.

Ny *dodaf* vyg kert yg kynhelw camdull . . .
Ny *dotwyf* archavael hyd ar hwnn.
Cynddelw: M.A. i. 223 (cf. 232).

Dod fenthyg i noeth, nis cei drannoeth.
Diareb. (M.A. iii. 154; cf. 9.)

Dod yn awr dy law yn dy fynwes. . . *Dod* eilwaith dy law yn dy fynwes.—*Ecs.* iv. 6, 7.

Dod o'th fara i'r newynog, ac o'th ddillad i'r noeth; ac yn ol dy amlder *dod* elusen.—*Tobit* iv. 16.

Rhagreithia'th air cyn no'i *ddodi*.—*Iolo Mss.* 253.

Am hyny *dodwyd* ddechreu'r flwyddyn ar ei ddydd ef, yn ddydd gwledd a gorddawd.—*Barddas*, i. 404 (cf. 406).

Dod gwbl o'th fryd, o ddifrif dy galon, ar edrych am dy enaid.—*Dr. Davies*: Llyfr y Res. i. x. 23.

Dodi bedydd, to administer baptism; to baptize.

Efe a ddanfones hyd yn Rhufain i gyrchu esgyb i *ddodi bedydd* ar a geisynt y ffydd yng Nghrist.
Iolo Mss. 115 (cf. 38, 135).

Dodi cred a bedydd, to convert and baptize.

Efe a wnaeth eglwysydd gyntaf yng Ngwynedd, ac a fynes *ddodi cred a bedydd* ar Gymry a Gwyddelod y gwleddydd a bieuffai ef.—*Iolo Mss.* 85.

Dodi cynghor (=rhoddi cynghor), to give advice or counsel; to advise, to counsel.

Nid hawdd *dodi cynghor*.—*Doeth. y Cymry*: M.A. iii. 65.

Er Mair, *dod gynghor* i mi!—*D. ab Gwilym*, cxv. 23.

Dodi dial, to take vengeance; to pour vengeance.

Yna Duw a *ddodes* arnynt ei *ddial* a'i alanas.—*Iolo Mss.* 47.

Dodi rhoddion, to bestow gifts; to give or make presents.

Graddu pencerddiaid, a *dodi rhoddion* a chyfarwysau iddynt.—*Iolo Mss.* 215.

Dodi ar (1), to put, place, set, fix, or lay on; to impose.

Ar trydyd chwech o nadunt a *dodassant* llieineu *ar* y byrdeu.—*Mabinogion*, 164.

A *dodi* y law *ar* y gledyf ae urathu yn y uogel ac ymdianc.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 404.

Yr eil a *dhodir ar* beth amserawl.
Ymborth yr Enaid, ¶ 14.

Gwedy hynny y daliawdd yr Iuddewon Iesu Grist. ac y *dodet ar* y grog.—*Ipotis*, ¶ 11.

Dod dy law *ar* dy galon cyn y dywedot air am arall.
Diareb.

Dodi dwylaw ar, to lay hands upon.

Na *ddod ddwylaw* yn ebrwydd *ar* neb.
1 *Tim.* v. 22 (cf. Marc v. 23).

Dodi bryd ar, to set one's mind on.

Ny lyassei neb yn y lle y clywei y mab. kynnullaw na meirch nac arueu. rac *dodi y vryt* or mab arnunt.
Mabinogion, 193.

Dodi ar addysg, to give or impart instruction; to instruct, to teach.

Adolwyn, fy athraw cymhen-bwyll, *dodwch ar addysg* imi'r drefn a'r ddosparth Cadair a Gorsedd a ddodasant y tri Beirdd cyntefigion ar feirdd a phrydyddion.
Barddas, i. 42.

Ac ni *ddoded* mwy na hyny *ar addysg* a gwybodau teuluaidd.—*Iolo Mss.* 268.

Dodi ar y gyfraith, to appeal to the law.

Ac *ar e kyfreyth* e *dodaf* uy. . . *Dodet ar e kyfreyth* na dele enteu deu datanhud or un tyr.
C.C. ii. 142 (cf. 24, 68, 122, 136, 144).

Ar y gyfraith y dodaf na ellid hawl tir a daiar arnaf fi yn awsen y gwŷr hyny.—*Leges Wallicae*, v. i. 1 (cf. 42).

Dodi ar yr ynad, to appeal to the judge.—*C.C.* ii. 74 (cf. 126).

Dodi nawdd ar y maes, to proclaim protection in the field (or court).—*C.C.* ii. 200.

Dodi ym mhen un, to put into one's head or in the mouth; to inform a person; to prompt or instigate.

O deruyd yr amdyffynnwr *dody em pen* er argluyd ar egneyt.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 126 (cf. 132, 134).

Diwybod y *dodaf* finnau *ym mhen* yr ygnad a'r arglwydd na bu arnaf fi hawl erioed hyd heddyw.
Leges Wallicae, v. i.

Dodi ar ddyn ai llosg ai anrhaith, to charge a person with burning or pillaging.—*C.C.* ii. 54.

(2) to name; to christen.

Ac ar hwnnw y *dodet* Madawc. ac y rodet at Corineus y hendat ar uaeth. . . Erchi bodi Esyllt ae merch yn yr auon honno. ac y *dodet ar* yr auon Hafren o enw y vorwyn yr hynny hyt hediw.—*Yst. Bren. Bryt*: Ll.C.H. ii. 61, 62.

Ac or rei hynny asswynaw yr un uorwyn deckaf a theledigaf a welas dyn eiryoet. ae bedydyaw or bedyd a wneynt yna. a *dodi* Blodeuwed *arni*.—*Mabinogion*, 73.

(3) to charge, enjoin, or order; to lay an injunction upon; to give charge; to appoint.

Galw ar Gadyrieith a oruc ac erchi idaw tynnu pebyll y Ereint ae uedygon. a *dodi arnaw* peri diwallrwyd o bop peth ual y gouynnit idaw.—*Mabinogion*, 286.

Dodi enw, to give or impose a name; to name.

Tri *enw* a *ddoded* ar Ynys Prydain o'r dechreuad: cyn ei chyfanneddu y *doded* arni Clas Merddin, a gwedi ei chyfanneddu y *doded* arni y Fel Ynys, a gwedi gyrru gwledigaeth arni y gan Prydain ab Aedd Mawr y *doded* arni Ynys Prydain.
Trioedd: M.A. ii. 57.

Y llinos wiw, llawn o serch,
Dod enw—a dywed annerch.—*G. Mechain*: Gwaith, i. 151.

Dodi uchenaid, to give, fetch, or heave a sigh; to sigh.

Sef a wnaeth ynteu yna pan wybu ef adnabot oe urawt y uedwl, *dodi ucheneit* dromhaf yn y byt.—*Mabinogion*, 60.

Pa bryt bynac y *dotto* pechatur *uchennait*. ef a vydh iach oe holl bechotae.—*Lucidar*, ¶ 91.

Dodi gawr, to raise a shout; to set up a shout.

Guaur pen dwyre *gawr a doded*
Galon yn anvon anvut dynged.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 265 (cf. 13).

Dodi gawr a wnaethant ygkylch y castell.
Brut y Tywysogion, 84.

A dyuot yn eu herbyn a *dodi gawr* y gyt.
Yst. de Carolo Magno, col. 454 (cf. 405).

Nachaf wyr Meiryonnyd yg kyfrwg mynyded ac ynyalwch . . . yn *dodi gawr* arnunt.—*Brut y Tywysogion*, 100.

Dodi diaspad: see *Diaspad*.

Dodi llef, to raise a cry; to cry.

Sef a wnaeth y palmer yna *dodi llef* ac wylaw.
Bown o Hamtwn, ¶ 14.

Dodi gweddi, to address or prefer a prayer to pray.

Dygwyddaw yn groes a wnaeth y tu ar dwyrein. a *dodi gwedi* ar yr Arglwyd yn y megys hwnn.
Yst. de Carolo Magno, col. 421.

Ar aghyueir Meir ar merthyri
Ac yn y goteu *gweti a dodaf*.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 329.

Dodi dwylaw am fwnwgl un, to put the hands around a person's neck; to embrace.

A *dodi* a wnaeth ynteu y *dwylaw am vwnygyl* y uorwyn.
Mabinogion, 84.

Dodi i, to give to; to grant to; to bestow on.

Dod i gadarn ei ran, neu fe a'i myn.
Diareb. (M.A. iii. 183.)

Dod i mi, give to me, give me.

Yn raalawn *dod i mi* dy gyfraith.—*Salm.* cxix. 29.

Dod i ni dy iachawdwriaeth.—*Salm.* lxxxv. 7.

Dod, Ion, *im'* ran o honi.—*Gronwy Owain*, 79.

Digitized by Google

Dodi at, to add to; to place or put to or together; to put on.

Ni *ddyd* neb lain o frethyn newydd *at* hen ddilledyn.
Matt. ix. 16.

Dod di anwiredd *at* eu hanwiredd hwynt.—*Salm.* lxix. 27.

Bara dodi (=bara gosod, bara dangos), show-bread.

P'odd yr aeth ef i dŷ Dduw . . . ac y bwytaodd y *bara* dangos [*gosod, *dodi*].—*W. Salesbury:* Marc ii. 26.

Dodiad, -au, *sm.* the act of laying on; a placing, a laying, imposition; addition; injunction; a giving or bestowing.

Dodiad hoew Angharad Hael
Dan ddaisar,—duon ddwyael!—*D. ab Gwilym*, ccxxxiii. 3.

Ar bob mesur pur yw'r pwyll,
Iawn *ddodiad* odlau'n ddidwyll.—*Iorwerth Fynglwyd.*

Dodi'r diddyg wrth y llyw,
Yw *dodiad* dyn, nid *dodiad* Duw.
Rhys Prichard: C. y C. clv. 39.

Cymmaint ag oedd cyn y *dodiad* ato.
Elis Lewis: Drexelius, 291.

Dodiad y ddeddf, the giving of the law.—*Rhuf.* ix. 4.

Dodiad diolch, the giving of thanks.—1 *Cor.* xiv. 16.

Dodiad enwau, imposition of names.

Dodiad dwylaw ar, a laying on of hands, imposition of hands.

Dodiad, iaid, *sc.* a giver, a donor, a bestower.

Beuno bwyll didwyll *dodyat* enryded.
Casnodyn: M.A. i. 422.

Gabriel geudawt ac eur dawawt ac eir dwyvawl
A vu gennyat ymell *dodyat* ymwyll didawl.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 466.

Dodiadol, *a.* 'positional, belonging to place; having respect to placing;' laying, laying on, imposing; dative.

Dodo, *sf.* a fond or familiar name for *modryb* (aunt), used by children in some parts of North Wales; the same as *bodo*, of which it is probably a corruption.—*Dysgedydd*, 1873, 11.

Dodrefn, -au, *s.cl.* and *pl.* furniture; stuff; utensils; household articles; effects; implements.

Y wreic a rann ar gwr a dewis eithyr y *dotrefyn* a rennir mal hynn.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 522 (cf. 292, 516, 522, 748).

Ae hadurnaw a oruc o glych a llyfreu. a phob kyfryw *dotrefyn* ereill a uei reit wrthunt.
Yst. de Carolo Magno, col. 384.

Medhu y gyt a hynny ar lawer o olut. ac amrauaelion *dhodrefnau* a thlysau.—*Lucidar*, § 133.

A gwedy dala y castellwyr a chael y meirch ar arueu ar *dotrefyn* ar yspeil oll y distrywassant y castell.
Brut y Tywysogion, 346 (cf. 288).

A chadwasant holl *ddodrefn* pabell y cyfarfod.—*Num.* iii. 8 (cf. iv. 12; xxxi. 6, 51; Ecs. iii. 22; xxii. 7; xxv. 9).

Gwir *ddodrefn* ar gaer ddidryf,
Gwell yw ystafell, os tyf.
D. ab Gwilym, cciii. 9 (cf. l. 81; cxlii. 54).

Erchyt ystyr arch testefn,
Ei dda adref, a'i *ddodrefn*.—*Gram. Dr. Gr. Roberts*, 193.

Llosgwyd ei phlentyn, tra fu hi yn achub peth o'i *dodrefn*.—*Sam. Williams:* Amser (1724), 18.

Un afon . . . a welwyd wedi ei gorchuddio â thrawstiau, olwynion melinau, byrddau, cadeiriau, a gwelyau, ac amryw *ddodrefnau* ereill.—*Gwyliedydd*, iii. 31.

Dodrefn tŷ, household furniture, household stuff; 'all things movable within the house.'

A chyffelyb fyddai i *ddodrefn tŷ* a fai yn cyflenwi lle, heb hagen fudd o hono.—*H. Perri:* Egl. Ffraethineb, xxiii.

¶ Dr. Davies says that Dr. I. D. Rhys would have it written *dyfodren;* but it does not appear on what grounds. The derivation of the word is not clear.

Dodrefnach, *s.pl.* smaller or less important articles of furniture; common furniture.

Tra thrafferthus y gwelaf fi hel ychydig *ddodrefnach* yng nghyd.—*Gronwy Owain*, 214.

Trafferthus oeddwn yn ceisio cynnull yng nghyd ryw faint o *ddodrefnach* at gadw tŷ.—*Gronwy Owain*, 218.

Tlysau a gedwir mewn lle cynnwys a chuddiedig, am eu bod yn werthfawr ac yn fychan o faintioli; pan y mae *dodrefniach* cyffredin yn myned â llawer o le.
Porth Cyfyng (1790), 169.

Dodrefniad, -au, *sm.* a furnishing; a garnishing; furnishment.

Dodrefnol, *a.* belonging or pertaining to furniture.

Dodrefnu, *v.* to furnish; to supply with furniture; to embellish.

Gan nad yw y ddull hon yn *dodrefnu* yr araith â defnydd newydd; eithr ag amryw eiriau, i lwyddaw yr ymadroddiaith, wrth eu cymmeryd yn arbedus.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xxxix. 3.

Yr ail, i amliwiaw yr ymadrodd yn ferthus, i amrywioli araith yn hyfygr, i *ddodrefnu* ymddiddanion mwynfoes â phob rhyw wychder cymmeredig.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, Rhag. 4.

Nid oedd ordinhâd Duw yn tynu ymaith ei ewyllys ef, na damwain ei ewyllys, ond yn unig yn ei drefnu a'i *ddodrefnu*.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyfforddd, 320.

Dodrefnu tŷ, to furnish a house.

Dodrefnus, *a.* furnished; embellished.

Tŷ dodrefnus, a furnished house.

Dodrefnwr, wyr, **Dodrefnydd**, -ion, } *sm.* a furnisher; one who supplies (a house) with furniture; a maker of furniture.

Dodrefnyn, *pl.* dodrefn, *sm.* a piece of furniture; an instrument, implement, or utensil.

Pan el ymdeyth ny dyly uynet ganthau nac epyl na theyl na chludeir na neb *dotrefnyn*.—*C.C.* ii. 30.

Mae llawer . . . yn euog o hyn, pan allont brynu rhyw *ddodrefnyn* yn dipyn rhatach nag y gwerthir yn gyffredinol.
Ed. Samuel: Holl Ddyl. Dyn, xii. 1.

Gwefusau gwybodaeth sy *ddodrefnyn* gweithfawr.
Diar. xx. 15.

Nid yw ef mwy yn eiddo ei hun, ond *dodrefnyn* Duw ydyw.—*Morgan Llwyd:* Ymroddiad, iii. 15 (cf. 6).

Wrth gyrchu yma a thraw liw nos ar ol helwriaeth, aml *ddodrefnyn* hwsmonaeth a welem.
Gwyliedydd, i. 239 (cf. vi. 210).

Dodren, *s.cl.* [contr. or corr. of *dodrefn*]= *Dodrefn.*

Dod ran hardd o'r *dodren* hyn.—*Tudur Aled.*

Dodwr, wyr, *sm.* one who places, lays, imposes, gives, or bestows; a giver, a bestower.

Dodwy, **Dodwi**, } *v.* [dod-i] 1. to lay, to deposit; to lay eggs or an egg.

Teithi iar yw *dodwi* a gori.—Teithi pop ederyn benyw yw *dotwi* a gori.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 734 (cf. 280).

Sef yu guerth pob kyu dymey neu escup heyd a henne yu e guerth eny *dotwo* e kywen ac enyu koccuyo e keyllyauc.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 280 (cf. ii. 594).

Cymmer wi newydd *ddodwi*, a bwrw allan y gwyn.
Meddygon Myddfai, ii. 22 (cf. 30).

Yno y nytha y dylluan, ac y *dodwa*, ac y deora.
Esa. xxxiv. 15 (cf. lix. 5).

Tri wy a *dydw* yn y nyth. or rei y byd llwynawc.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 150.

Amlwg y gall . . . adar *ddodwy* mwy neu lai yn ol eu hewyllys eu hunain; ond eto er hyny, nid ynt yn *dodwi* heb achos.—*D. Lewys:* Golwg, viii. 10 (cf. fq.).

Wedi iddo *ddodwy* dau wy, *doduodd* y gog y trydydd yno. Parhaodd yr aderyn i *ddodwy* hyd nes oedd pump wy yn y nyth.—*Gwyliedydd*, iv. 206 (cf. fq.).

Dodwy wy, to lay an egg.

Digitized by Google

Dodwy wyau, to lay eggs.

Gofal mawr iawn a gymmer y fenyw i *ddodwy* ei *hwyau* yn ddirgel.—*Gwyliedydd*, iii. 237 (cf. 236).

Ychydig cyn marw, *dodwyant* ddigon o *wyau*, i ori ar lu a fyddo yn ddigon i boeni y Laplandiaid yr haf canlynol.
R. Roberts: Dacaryddiaeth, 9.

2. to bring forth (young); to farrow. Obsolete in this sense.

Mi a wertheis i ti hwch torrawc, a mach ym ar ugeint am pob parchell or a *dotwei* yr hwch, ar hwch a *dotwes* ar deudec parchell; a chan *dotwes* ar deudec, mi a dylyaf ugeint am pob parchell.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 194 (cf. 200).

Un or moch oed dorrawc. Hennwen oed y henw. a darogan oed yr hanuydei waeth Ynys Prydein or torllwyth. ac yna y kynnullawd Arthur llu Ynys Brydein. ac yd aeth y geissaw y diua. ac yna yd aeth hychen yg gordodw. ac ym Pennrynn Hawstin yg kerniw yd aeth yn y mor. ar gwrdueichyat yn y hol. ac y Maes Gwenith y Gwent y *dotwes* ar wennithen. . . Ac yn Llouyon ym Pennuro y *dotwes* ar heiden a gwenhithen . . . ac yn Riw Gyfuerthwch Aruo[n] y *dodwes* ar geneu cath. a chyw eryr.
Mabinogion, 307.

Dodwyog, *a.* used to lay; laying, producing, or depositing eggs.

Mae pob pysgodyn *dodwyog* yn cynnwys miloedd o wyau.
Seren Gomer, viii. 54.

Iâr ddodwyog, a laying hen, a hen that lays eggs.

Dodwywraig, } wragedd, *sf.* a hen that lays,
Dodwraig, } a layer.

Dodwywraig dda yw y iâr yna, that hen is a good layer.—*C.S.*

Dodydd, -ion, *sm.* [dod-i] one who lays, imposes, gives, or bestows; a bestower, a giver.

Pa beth drosod y pryd hwnw
A wnaeth dy *ddodyddion* enw?
Sion Fychan: Llyfr Carolau (1745), 197.

Doddi, *v.* [*daw?* cf. *doeth*, *daeth*, *deddyw*, &c.] to come. An irregular and defective verb, now seldom used. The infinitive form here given is hypothetical. Cf. *Doeth*, *v.* See Davies, *Rudimenta* (1621), 114—118.

Y ouyn kyngor itti arglwyd y *dodwyf* beth yw dy gynghor am danaw.—*Mabinogion*, 245.

Doddwyf Deganhwy i amrysson.—*Taliesin:* M.A. i. 67.

Duw a wyr heb yr Owein nat y gyrchu dy lewenyd y *dodwyf* i yma.—*Mabinogion*, 191.

Ar geniuer dyn a doeth yno. ny *dodyw* vyth dracheuyn.
Mabinogion, 291.

Ac ar hynny y *dothyw* y niueroed yr ty.—*Mabinogion*.

Oian a parchellan andau de y naur
Ban *dottint* ve guir Guinet ev gueith maur.
Myrddin: A.B. ii. 25.

Kychwedyl am *dodyw* o Galchuynyd.
Taliesin: A.B. ii. 162 (cf. 90, 130, 163).

Nyd ydyw yn fyw
Ni daw ni *dodyw*.—*Gwalchmai:* M.A. i. 200.

Pa les fy myw gan a'm *doddyw*.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 237 (cf. 241).

Trydyd dyd *dodyw* o divant.—*Casnodyn:* M.A. i. 429.

Dywedir taw yn y flwyddyn cof a chyfrif 553 y *dothyw* Crist yng nghnawd.—*Barddas*, i. 408.

Dolur gormodd a'm *doddyw*.—*N.*

Dothwyf eithyr Gwyned a ryued pa ham.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 359 (cf. 223, 227).

Lliw dydd y daw lle *doddyw*;
Llewych haul ar y lluwch yw.
Dafydd ab Gwilym, clix. 11.

Neu nym *doddyw* gnif erfawr,
Gnif llei no lludded Echdawr,
Am dyffo clod gnif nym dawr.—*Gronwy Owain*, 104.

Ny *dotynt* dros uor etwaeth.
Meilir: M.A. i. 192 (cf. 189, 202).

O prydest o dyllest a dullyaf
O dawn Duw can *dotyw* attaf.
Cynddelw: M.A. i. 262 (cf. 281, 366).

Mynedyddion mwyn *doddynt*,
Eu gwaedd a glywid drwy'r gwynt.
Blackwell: Ceinion Alun, 97.

Dothyw llew a lluchyg gorddin.
Ll. ab Llywelyn: M.A. i. 345 (cf. 13).

Nyt o achaws emlad y *dodym* ny yma y enys Prydeyn y geysyaw y goreskyn trwy emlad.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 214.

Ag gwedy mynegy o Lud ydaw ystyr y neges y vrawt a dywawt y gwydyat ehun pa achaws ry *dodoed* yr gwladoed hynny.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 168.

Ae wiscoet ym *dotoet* dawn.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 365.

Cur a'm *dothyw*, gwae fi, ferch,
O arwain serch i'm dwyfron.—*Ystêr Sioned*, 28.

Doe, *sm.* [C. *doy* (C.V.), *de*; Br. *deach*, *dech*; Ga. *de*] yesterday.

Deu uab oed im. a mynet uyn deu uab yr mynyd *doe* y hela.—*Mabinogion*, 189.

Ony chynneil yr amot a wnaeth a mi *doe* yggwyd yr holl lys.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 415 (cf. 404).

Dyddgwaith dibech oedd echdoe!
Da fu Duw a Dafydd *doe!*
D. ab Gwilym, lxxxii. 1 (cf. 4—12).

A weleist di varchawc yn mynet heibaw. na hediw na *doe*.
Mabinogion, 194.

Doe'r aeth, er digter i wan,
Dafydd Llwyd i fedd llydan.—*L. G. Cothi*, iii. ii. 5.

I mi *ddoe*, ac i tithau heddyw.—*Eccl.* xxxviii. 22.

Er *doe* yr ydym ni, ac ni wyddom ddim.—*Iob* viii. 9.

Tores Dduw *ddoe*, trist o ddydd,
Llinyn yr holl awenydd . . .
Ddoe yn wych, heddyw'n wan.—*Iorwerth Fynglwyd*.

Doe'r pryd hwn yr oeddwn i
Drwy fedw yn ymdrafodi
Ag Euron hardd goron hoew.—*Iolo Goch*.

Dy ddydd *doe* a ddiweddwyd.—*Tudur Aled:* G.B.C. 231.

Dodes â'i geneu didwyll
Doe gae bach a'm dug o bwyll.—*Llawdden*.

Uchder trennydd fal echdoe,
Nid uwch oedd heddyw na *doe*.—*Gro. Owain*, 38.

Doe y rhoddwyd, wr haeddol,
A'i ddwyn a wnaed heddyw'n ol.
Rhys Jones: Gwaith, 45.

Doe, y seithfed awr, y gadawodd y cryd ef.—*Ioan* iv. 52.

Doe ac echdoe, yesterday and the day before (yesterday).

Mae yr niuer y buam ni *doe ac echdoe* ym penn yr orsedd.
Mabinogion, 10.

Echdoe a doe y deuwn
I'r byd da a'r bywyd hwn.—*Gutyn Owain:* G.B.C. 195.

Ni ellir galw doe yn ol, } the past cannot be re-
Ni ddaw doe yn ol, } called.—*Diareb.*

Doe brydnawn, } yesterday afternoon or even-
Prydnawn ddoe, } ing; in the afternoon or evening of yesterday.

Bore ddoe, } yesterday morning.
Doe y bore, }

Yr hwnn a barhaawd o *doe y bore* hyt neithywyr pan oed nos.—*St. Greal*, § 31 (cf. 20, 27).

Gwaith y ddoe, } the work of yesterday, yester-
Gwaith doe, } day's work.

Doe, *adv.* yesterday, on the day before to-day.

Kam ym byrywyt i *doe*.—*Mab.* 181.

Yn gwrando ar Salm Balchnoe,
Yn nghôr Bangor Deiniol *doe*.—*D. ab Gwilym*, xxii. 6.

Iesu Grist, *ddoe* a heddyw yr un, ac yn dragywydd.
Heb. xiii. 8.

'Gwelais Rywun *ddoe*,' medd y cardotyn.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 58.

Iê, mor ddiweddar a *doe*.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 218.

¶ *Doe* is properly a substantive; and its substantival and adverbial uses are not always distinguishable; but like many other words denoting time, it generally stands adverbially in construction. It sometimes has the definite article prefixed, which governs it in the soft sound (*y ddoe*), as if it were feminine.

Digitized by Google

Doe, *v.* [corr. of *Doai*=*Deuai*]. See *Dyfod.*

Addaw a wnai ir winwydden,
Addaw byth ni *ddoe* i ben.—*D. ab Gwilym*, lxxv. 55.

Ac ni *ddoe* arnynt lafur blin,
Hyd y bawn i'n eu deall:
Na dim dialedd, na dim gŵyn,
Fal y *doe* ar ddyn arall.
Edm. Prys: Salm. lxxiii. 5 (*cf.* lxxii. 10).

Doe Rufeinwyr dorf unwaith
I doliaw'n hedd, dilëu'n hiaith.—*Gro. Owain*, 100 (*cf.* 816).

Doediad, -au, *sm.* [doedyd] a saying, a speaking, enunciation.

Doediadau, sayings; expressions.

Doediad, iaid, } *sm.* a sayer, a speaker, a
Doedwr, wyr, } teller.

Eirchiad a *doediad* ydwyf.—*Tudur Aled.*

Doediadol, } *a.* enunciative, saying, speaking,
Doedol, } uttering.

Doedyd, *v.* [contr. of *dywedyd*] to say, to speak, to utter.

A chael *doedyd* ei hanes i'w hanwyl gymmydoges . . .
Ac i *ddoedyd* mai myfy o gyd wall a gaed felly.
D. ab Gwilym, clxxxv. 35, 51 (*cf.* xxxiv. 7).

Gwenhwyfar olwg wrthroch
Doedwch i mi os gwyddoch
Ymhâ le cyn hyn im gwelsoch.
Ymdd. Arthur a Gwenhwyfar: M.A. i. 175.

Ac felly y gellir *doedyd* fod arwydd y grog a wnawn ni wrth ymgroesi, megys crynodeb o'n ffydd ni.
M. Clynog: Athrawaeth Grist. 9 (*cf.* fq.).

Yno y daethant gyntaf at Foeses, gan *ddoedyd*, Ni a bechasom am i ni *ddoedyd* yn erbyn yr Arglwydd. . . Pan ydoedd y nodau yn dîfa ac yn ysu'r cwbl, yno y *doedodd* Dafydd wrth yr Arglwydd.
H. Lewys: Perl, 68 (*cf.* 3, 17, 27, 71, 82, 119, &c.).

Doedyd fath gablyd o'th gas,
Ond i Iddew nid addas.—*Edm. Prys.*

Megys y *doedant* ateb o Themistocles i un Seriphiad wrth ymsenu: wedi i hwnw *ddoedyd* na chawsai ef mo'i ysplennyddwch trwy ei ogonedd ei hun. . . Diau yw (eb yntau) na buasai na myfi yn euog, pe buaswn Seriphiad. . . . Yr hyn beth a ellir ei *ddoedyd* am henaint.
Dr. Gr. Roberts: Gram. 393 (*cf.* fqq.).

Beth a *ddoedasom* ni yn awr?
Morys Clynog: Athrawaeth Grist. 14.

Ni *ddoedaf*, ni fynaf fi
Chwedl onid Duw a Chadi.—*D. ab Gwilym*, cxcix. 33.

Doedaist mal chwedl heb dadawg.—*W. Cynwal.*

I'r byd yn *doedyd* yn deg.—*Thomas Prys.*

Doedai'r byd ar ei hyd hwn
Mai diddyeg am wawd oeddwn.—*Edmund Prys.*

Er ein bod ni yn *doedyd* fal hyn.
Esgob Davies: Heb. vi. 9 (*cf.* 14; vii. 13; x. 7, 8, 15).

Yn wir, yn wir, y *doedaf* wrthyt.
W. Salesbury: Ioan iii. 11.

Swm yr hyn a *ddoedbwyd* yw hyn.
Esgob Davies: Heb. viii. 1 (*cf.* ii. 2, 6, 12).

Doer, *v.* [daw]=*Deuer*, *Deler:* see *Dyfod.*

Doeth, -ion, *a.* [L. *doctus*] wise, sage, sapient.

Maxen Wledic oed amherawdyr yn Ruuein. a theccaf gwr oed a *doethaf.*—*Mabinogion*, 82 (*cf.* 150, 175).

A Salamon *doethaf*, a Samson gryfaf or gwyr. ac Absalon uab Dd. a oed deckaf or byt a dwyllwyt oblegyt gwraged.
St. Greal, ‡ 31.

Sef achaws hynny *doethaf* oed ym plith y *doethon.*
Yst. Bren. Bryt.: Ll.H.C. ii. 42 (*cf.* 47).

Ny dylyem ni ryuedu goruot o ystryw gwreic arnam pan oruydit ar yr henwyr kymen *doethyon* gynt.—*St. Greal*, ‡ 52.

Ar neb a uo ragor yndaw o defnydyeu yr awyr herwyd anyan *doeth* vyd a gwar y geir a gweithret.—*Llyfr Ancr*, 131.

Doethaf a chymhennaf y medry di y harwein hi hyt ar urenhin Ffreinc.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 461.

Mal *doeth* a phwyllic y dywedy di.—*Mabinogion*, 213.

A glywaist ti chwedl Dirynig,
Milwr *doeth* detholedig?—*Iolo Mss.* 256.

Or ceisser dyn yn anoeth ac cael ynteu yn *doeth* da yw. . . . Or keisser dyn yn *doeth* a cael ynteu yn anoeth, drwc yw . . . cany cheissit ef namyn yn *doeth.*
Cyfreithiau Cymru, ii. 204 (*cf.* 206).

Y tawgar a fernir yn *ddoethaf* o'r *doethion.*—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 9 (*cf.* 8, 14, 24, 99, 154, 157, 189).

Y *doeth* ni ddywed a ŵyr;
Nid o son y daw synwyr:
A fo *doeth* efe a dau,
Annoeth ni reol enau.—*Gwilym ab Ieuan Hen:* G.B.C. 144.

O na baent *ddoethion!*—*Deut.* xxxii. 29.

Aeth Llawdden a'i dalcen *doeth*
Yr unwedd â gwr annoeth.
Iorwerth Fynglwyd: Iolo Mss. 320.

Gwelir mai'r bedd yw lletty'r *doeth*,
Y ffol a'r annoeth unwedd.—*Edm. Prys:* Salm. xlix. 10.

Dyro addysg i'r *doeth*, ac efe fydd *doethach.*—*Diar.* ix. 9.

Ymryson â *doeth*, ti a fyddi *doethach;* ymryson â ffol, ti a fyddi ffolach.—*Diareb.*

Doethach im' dewi weithion;
Heb Lewis mwy, ba les Mon!—*Gronwy Owain*, 117.

Glew oedd mewn rhyfel, a *doeth* mewn heddwch.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 126 (*cf.* 116, 130).

Barnwr *doeth* a ddysg ei bobl.—*Eccl.* x. 1.

Doeth o galon, } wise of heart; wise-hearted.—
Doeth ei galon, } *Ecs.* xxviii. 3; xxxi. 6; xxxv. 10, 25; xxxvi. 1.

Gwr doeth (*pl.* gwŷr doethion), a wise man, a sage.—*Diar.* xvi. 14; xxiv. 5; xxix. 9, 11.

Dyn *doeth* a daw, hyd oni welo amser.—*Eccl.* xx. 7.

Ar amherodres a ovynnawd kyghor y *wr doeth* a oed yn y chyghor.—*Mabinogion*, 230.

Y gwr doeth, the wise man=Solomon.

Ac mewn man arall y dywed *y gwr doeth*, fod y cyflawn yn gadernid ac yn amddiffynfa dinasoedd, trefi, a chaerau (Diar. xxix. 8).—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 243.

Selyf Ddoeth, Solomon the Wise.

Sef yw digawn dyn y vwyt ae diawt ae dillat. med *Selyf Doeth.*—*Idyfr Ancr*, 144.

Yr un Barnard hefyd, ar Ganiadau *Selef Ddoeth*, a ysgrifenodd fel hyn.—*Morus Cyffin:* Diff. iv. 23.

Tri pheth, medd *Selyf Ddoeth*, a yr y gwr allan o'r tŷ a drico ynddo.—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 133.

Cyn ddoethed a Selyf Ddoeth, as wise as Solomon.

Sibli Ddoeth, Sibyl the Wise.

Tri dyn a gauas doethineb Adaf. Cado Hen. a Beda. a *Sibli Ddoeth.*—*Trioedd:* M.A. ii. 2.

Catwg Ddoeth, Catwg the Wise.

Catwg Sant . . . ac efe a elwid *Catwg Ddoeth*, gan ddoethed a'i ceffid ef ym mhob cynghor.—*Iolo Mss.* 101.

Doeth, -ion, -iaid, *sm.* a wise man, a sage; a philosopher.

Hitheu Riannon a dyuynnwys attei athrawon a *doethon.*
Mabinogion, 19.

Yna yd edrychawd *doethon* o bop tu meint y perygyl a oed yn dyuot.—*Brut y Tywysogion*, 306.

Kyfreith yssyd ossodedigaeth gyflawn wnneythyredic o gyfynndeb y brenhin aeu deuyrnas, a dyall y *doython.*
Cyfreithiau Cymru, ii. 428 (*cf.* 206, 368).

Owain ab Morgan Hen a gafas ryfel gan Owain ab Hywel Dda; . . . ac fe orfu arno sefyll wrth farn a roddes Edgar a'r *doethion* o blaid Morgan Mawr.—*Iolo Mss.* 14.

A phrif *ddoethion* cenedl y Cymry y gelwir y Gwyddoniaid.
Barddas, i. 34.

Yna doedai rai *doethion*,
Pe bai gorffydd oedd galon:
Yna ydd oedd rai *doethiaid*,
Pe bai gorffydd oedd enaid.—*D. ab Gwilym*, cxcii. 43.

Boent allan gerddwyr, a bint williaid;
Bid waethwaeth y gerdd i bob *doethiaid.*
L. G. Cothi, 111. xxii. 57.

Gwna di'n ystyriol yn ol hyn o gynghor,
Ac ym mhlith y *doethion* rhoddir iti'th ragor.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 8.

Iachawdwriaeth y byd yw llawer o *ddoethion.*
Doeth. vi. 24.

Efe sydd yn rhoddi doethineb i'r *doethion.*—*Dan.* ii. 21.

Digitized by Google

Y doethion, the wise, the sages, the wise men.

Y bydol ddoethion, the wordly wise. See *Bydol-ddoeth*.

Mawr yw llid y *bydol ddoethion*.
Iolo Morganwg: Salm. I. cxxxix. 3 (cf. cxlvii. 1).

Y nefol ddoethion, the heavenly wise.

Y nefol ddoethion, ym mhob tir.
Ym mhlaid y gwir ymdrechant.
Iolo Morganwg: Salm. II. xxxix. 1 (cf. I. l. 2).

Chwedlau y doethion, the sayings of the wise.—*Iolo Mss.* 251 (cf. 260).

Un o ddoethion y cynfyd, one of the sages of antiquity.

Y doethion o'r Dwyrain, the wise men from the East; the Magi (*Matt.* ii.).

Y gyntaf a arweiniodd *y doethion o'r Dwyrain* i Bethlehem Iudea.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 261.

Doethion Rhufain, the sages or wise men of Rome=the Seven Wise Masters.

Dwc ditheu *doethon Ruvein* ym kylch i. a mi a dywedaf paham yd wyf trist i. Ac yna y ducpwyt *doethon Ruvein* yg kylch yr amherawdyr. ac y dywawt ynteu. *Doethon Ruuein* heb ef. breudwyt a weleis i ac yn y vreudwyt y gwelwn morwyn.—*Mabinogion*, 85.

Ynteu a ddyvynnawdd attaw seith o *ddoethion Rufein*. nyt amgen eu henweu. Bantillas. Augustus. Lentillus. Malquidas. Catonias varchawc da. Iesse. Martinus.
Doethion Rhufain, ¶ 1 (Hengwrt Ms.).

Ac velly y teruyna chwedyl seith *doethon Ruvein*. o weith Llewelyn.—*Doethion Rhufain*, ¶ 44 (Hengwrt Ms.).

Sef a orug yr amherawdr, danfon i nol vii *Doethion Rhufain* ato: sef a oedd eu henwau, Banteilas, ac Wystwa, a Leteilwa, a Malcwidas, Catwn Hen, Iesse, Marteinws.
Doethion Rhufain (Brython (B.M.Ms.), iii. 82).

Rhyfedd fu *Doethion Rhufain*,
Rhagor ym' wyd, rhygarw main!—*Huw Cae Llwyd.*

Rhyfedd yw *Doethion Rhufain*,
Rhyfeddod pryd fy myd main!
Dafydd ab Gwilym, xiv. 23.

Doethion Babilon, the wise men of Babylon.—*Dan.* ii. 12, 14, 18, 24.

Doethion Groeg, the wise men of Greece.

Hanes Bywyd Thales. y doethaf o saith *Doethion Groeg*.
Gwyliedydd, vi. 169.

Doeth, *v.* [daw]=*Daeth*, q.v. As the preterite of *Dyfod*, *doeth* is a common form in the older literature, but it is now archaic, *daeth* being the usual word. See *Doddi*.

A gwedy mynet y gayaf hwnnw heibaw a dyuot y gwanhwyn y *doeth* y kenadeu o Rufein a merch yr amherawdyr gantunt.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 96.

Ac yn hynny ny *doethant* wy yg kyuyl y llys. . . Yna y *doethant* wy attaw ef. . . Ie heb ynteu ae wneuthur iawn y mi y *doethawch* chwi. . . A chan *doethawch* chwitheu ym ewyllys ynheu. mi a dechreuaf boen arnawch.
Mabinogion, 65 (cf. fq.).

E kyuarwydyt yssyd yma yn dywedut marchogaeth o Baredur drwy yr estronyon fforestyd yny *doeth* y wlat bell . . . a thrwy y wlat y *doeth* ef. . . Ef a arganuu kudugyl meudwy a thu ac yno y *doeth* ef. . . Ef a *doeth* y meudwy att Baredur.—*St. Greal*, ¶ 173 (cf. 35, 52, 54, 171).

Yna y *doeth* cof idaw kynghoreu y dat.
Amlyn ac Amig, col. 1089.

Neu chwitheu pan *doethawch*. neur *doetham* y erchi Olwen dy uerch y Gulhwch mab Kilyd.—*Mab.* 118 (cf. 130, 191).

Nys gwnn i heb y Galaath ny *doetham* ni hyt yno etto.
St. Greal, ¶ 58.

Chwi a *doethawch* ar awch angheu.—*St. Greal*, ¶ 56.

Ac ual y *doethant* dros y mynyd hwnnw. wynt a welynt gwladoedd mawr gwastat.—*Mab.* 86 (cf. 87, & fq.)

Amser reit ym wrthywch y *doethawch*.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 132.

I Aber Peryddon ni mad *ddoethant*.
Golyddan: M.A. i. 157 (cf. 30, 267).

Yr ymwellhau y *doethum* i yma.—*St. Greal*, ¶ 79.

Pai *doethawdh* ef cynn diliw.—*Lucidar*, ¶ 30.

Ac uelly yn gyflawn or donyeu hynny y *doethost* yth wneuthur yn varchawc urdawl.
St. Greal, ¶ 31 (cf. 22, 35, 54).

Ynteu a *doeth* adref y nos honno.—*Mabinogion*, 75.

Yr engylyonn or wybyr oduch y penn. a dallawd y bobyl a *dothoed* yn ev herbyn or dinas.—*Llyfr Ancr*, 82.

Yna y *doeth* agel at Paulinus. . . Odyna y *doeth* Dewi hyt yg Glastynbri.—*Buchedd Dewi:* C.B.SS. 105.

O'r nef y *doeth* a'm coethai,
I'r byd fy mywyd yw Mai.—*D. ab Gwilym*, cxliv. 25.

O hyn y *doethpwyd* i alw coelfain ar bob gwybodau.
Barddas, i. 160.

Doethaidd, *a.* [doeth] of a wise disposition.

Doethaidd eu dull i'r dwthwn,
Eistedd wnai gwragedd yn grwn.
Blackwell: Ceinion Alun, 111.

Gan fod yn gu fal llu llon,
A *doethaidd* fwyn gymdeithion.
Seren Gomer, xvi. 119 (cf. 118).

Doethair, eiriau, *sm.* a wise saying; an apophthegm.—*W.*

Doethâu, *v.* to make wise; to become wise.

Iachâd y cyfan yma tyfa, hwn
Ffrwyth dwyfawl, teg o wedd, gwiw i flas
O rinwedd er *doethâu*.—*W. O. Pughe:* C.G. ix. 753.

Doethawl, *a.* tending to wisdom.

Doethawr, oriaid, orion, *sm.*=*Doethor*.

Doethbabl, *a.* active and wise, actively wise.

Pwyntuswalch *doethbabl* parabl peraidd.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494.

Doethbost, byst, *sm.* a pillar of wisdom.

Dawn llawn llawch meddgyrn *doethbost* cost cedyrn.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 447.

Doethbrudd, *a.* wisely serious, grave and wise.

A threigylgweith yd oed Arthur yn dala llys yg Kaer Llion ar Wysc y Sulgwyn. nachaf yn dyuot attaw kennadeu *doethprud*. dysceidiawn ymadrawdlym ac yn kyuarch gwell y Arthur.—*Mabinogion*, 263.

Doethbwyll, *a.* of a wise or sagacious mind; wise and deliberate.

Dyn *doethbwyll* didwyll dodais floedd gyngerth
Dwyn Iorwerth lwysferth lais.—*Sefnyn:* M.A. i. 504.

Doethbwyll, *sm.* a sagacious understanding.—*P.*

Doethder, *sm.* sagacity, sapience, wisdom.

Adar gwyllt a gwar gwir *doethder* vrodyeu.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 475 (cf. 440, 493).

Nid o chwai dafod y daw mwyaf *doethder*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 7.

Curig ferthyr . . . a wyrthwynebodd i orchymyn creulon brenhin Alexander, ac a fwriodd oddiwrth arglwyddiawl fuchedd, o bur galon a *doethter* y gwr perffaith.
Emynau Curig: C.B.SS. 276.

Pob uchder a *doethder* dysg.—*Elis Rowland.*

Clodforid gynt gan bawb am *ddoethder* dwys.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 163.

Doetheb, -ion, *sf.* a wise maxim; an apophthegm.

Doethedig, *a.* endowed with wisdom.—*P.*

Doethen, -od, *sf.* a wise one.

Rhogl haf yng ngwŷdd Arafia,
Yw anadl gwen, *ddoethen* dda.—*Llanover Ms.*

Doethfab, feibion, feib, *sm.* a wise son; a wise youth or young man.

Doethfab rwy Goronwy gair uniawn syberw.
Gwilym Ddu Arfon: M.A. i. 411 (cf. 422).

Duw ddewin brenhin breiniawl neirthiad
Doethfab Mair a bair oi bur gennad.
Trahaiarn: M.A. i. 499.

Doethfawr, *a.* of great wisdom, very wise.

Ef doethaf ef *doethuawr* ygnad
Ef goreu a vu o vab tad.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 279.

Digitized by Google

Doethfin, *a.* of wise lips; uttering wisdom; wise-speaking.

Cymro trahy trwyadl fonedd
Hyawdl *doethfin* holion Myrddin.
Iorwerth Llwyd: M.A. i. 506.

Doethgall, *a.* prudent and wise; wise, prudent, or discreet; wise in word and prudent in conduct.

Hyd nad ymwaisg ddyn *ddoethgall*,
Un aur ei llun, at y llall.—*Dafydd ab Gwilym*, xlviii. 23.

Cadwodd yr Anianydd *doethgall* Buffon unwaith ddeuddeg o'r llygod hyn mewn cawell.—*Gwyliedydd*, vii. 241.

Doethgar, *a.* that loves wisdom; philosophic; sagacious, prudent.

Yn *doethgar* kertgar cartgas
Yn dor cor Coelig dinas.—*Cynddelw:* M.A. i. 242.

Doethgarwch, *sm.* the love of wisdom; sapience; philosophy.

Doethgarwr, wyr, *sm.* a lover of wisdom; a philosopher.

Dywedir gan Eusebius i Pantaenus, *doethgarwr* o Alecsandria, bregethu yr Efengyl i'r Indiaid tua diwedd y cant hwn.—*Gwyliedydd*, iii. 68 (cf. 246, 311).

Pa fath, a pha nifer, o ryfeddodau a ddygodd y chwyddwydrau i olwg ac ystyriaeth y *doethgarwr*?
Gwyliedydd, vi. 152.

Doethi, *v.* 1. to show wisdom.

2. to talk pertly or flippantly; to prate pertly. —*W.*

Doethi, *sm.*=*Doethder*, *Doethineb*.

Ac o hyn o bryd
Y gwelaf mai ar degaint gwrawl ddawn
A *doethi* a ragorant, yn wir deg.
W. O. Pughe: C.G. iv. 540.

Doethineb, *sm-f.* wisdom, sapience.

Yn yr eneit yntev y byd. *doethineb*. a duundeb. a chedemeithas.—*Ll.A.* 67 (cf. 86).

Ac wrth hynny diogelach uu gantaw drwy synwyr a *doethineb* eu goresgyn noc ymrodi yn petrus y ymlad ac wynt.—*Ystr. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 95 (cf. 63, 122, 144, 207).

A rei hynny a elwir yn geigeu *doethineb*.
Cyfreithiau Cymru, ii. 204 (cf. 206 fq.).

Yr hwnn a vu gyflawn o bop *doethineb*. ac o bop *doethineb* yn gymeint ac na allei dyn marwawl wybot mwy.
St. Greal, § 52.

Doethineb sy ddisglair, ac ni dderfydd.—*Doeth.* vi. 12.

Tair sail *doethineb:* deall; cariad; a chyflawnder.
Barddas, i. 296.

Tad a Brenin *Doethineb*,
Teyrn nef ni wntwor neb.—*Gutyn Owain:* G.B.C. 212.

Tri enw addurn *Doethineb:* harddwch y nefoedd; cadernyd diddanwch; a gair Duw.—*Iolo Mss.* 88.

Ffynnon *doethineb* yw gair Duw Goruchaf; a'i ffyrdd hi yw y gorchymmynion tragywyddol.—*Eccl.* i. 5 (cf. 1—27).

Nid *doethineb* ond ymwrthod â bydoldeb.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 17.

Nis gellir *doethineb* ond o Dduw.—*Cyfrinach y Beirdd*, 29.

Y mae yn rhaid ini ddeall, fod *doethineb* yn sefyll mewn dau beth; trwy ddychymmyg a chyrhaedd y dibenion mwyaf rhagorol, a thrwy ddwyn i ben y dibenion hyny, drwy'r moddion goreu a chymhwysaf.
I. B. Hir: Pregethau, i. 157.

Gwir gariad sydd, *doethineb* maith,
Drwy oll o'th waith godidog.
Iolo Morganwg: Salm. II. xlvi. 1.

Iaith enaid gwir *ddoethineb*.
Iolo Morganwg: Salm. II. lxxv. 2.

Tair elwydden *doethineb:* amcan (diben); modd; a buddioldeb.—*Barddas*, i. 48.

Yspryd doethineb, the spirit of wisdom.—*Esa.* xi. 2.

Yspryt doethineb a gychwyn yn y gallonn.
Pwyll y Pader: Ll.A. 150.

Doethineb a challineb, wisdom and prudence.

Myfi *Doethineb* wyf yn trigo gyd â *Challineb*.
Diar. viii. 12.

Anoddlyn doethineb, } profundity of wisdom.
Gorddyfnder doethineb, } —*Ll.C.H.* ii. 122; *M.A.* ii. 267.

Doethineb Selyf, the wisdom of Solomon.

Doethinab Selyf yssyt
A phryd Adaf ar Dauyt.—*Gwilym Ryfel:* M.A. i. 274.

Doethineb Salomon, } the Wisdom of Solomon
Doethineb Solomon, } =the name of one of the Apocryphal books of the Old Testament.—*M.*

Darllenwch y drydedd a'r bedwaredd bennod ar ddeg o lyfr y *Doethineb* yng nghylch eilunod a delwau.
Ed. James: Hom. ii. 28.

Doethineb Iesus mab Sirach, the Wisdom of Jesus the son of Sirach=Ecclesiasticus.—*M.*

¶ The termination *-ineb* is usually masculine, but *doethineb* is, in the majority cases, treated as a feminine noun, the reason apparently being, that it is so commonly personified, and so came to be considered feminine, even when no personification is intended. See *Doeth.* vi.—x.; *Eccl.* i., xxiv.; *Iob* xxviii. 12—27; *Diar.* i. 20; viii.; ix. 1—4; *Matt.* xi. 19; *Marc* vi. 2.

Doethinebgar, *a.* that loves wisdom; philosophical.

Tri chynhyrfiad cerdd: serch tuag at hardd a daionus; cydwybodolder dyled; a gobr o ged a chanmoliaeth dynion da *doethinebgar*.—*Barddas*, ii. 144.

Doethinebgarwch, *sm.* the love of wisdom.

Doethlawn, *a.* full of wisdom.

Dengys pob dalen o hono ardderchawgrwydd ei ddechreuad, ei oruchel waedoliaeth, a'i gymhwysder *doethlawn* i'r dibenion yr amcanwyd ef erddynt.—*Gwyliedydd*, vii. 196.

Doethol, *a.* tending to wisdom.

Doetholi, *v.* to make wise.

Tystiolaeth Iehofa sydd wir, yn *doetholi* 'r gwirion.
Gwyliedydd, xii. 198.

Doethor, -iaid, -ion, *sm.* [doeth: L. *doctor*] a doctor; a learned man.

Ym mro y gwir-ddysg ein bardd mawr gerddai,
A'r un addysg â'r *doethawr* weinyddai.
Caledfryn: Caniadau, 120.

Heb law y teitl o *Ddoethor* Angelaidd, cafodd ei alw yn Angel yr Ysgolion, Angel y Duwinyddion, a Phummed *Doethor* yr Eglwys.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 615.

Ni chuddir dim o wendidau y *doethawr*.
Cennad Hedd, viii. 310.

Doethor Duwinyddiaeth } (*D.D.*), Doctor of
Doethor Dwyfyddiaeth } Divinity (D.D.).

Aeth i Paris, lle y darllenodd ddarlithiau . . . ar Lyfr y Brawddegau; a gwnaed ef yn *ddoethor duwinyddiaeth* yn 1255.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 615.

Doethor Athroniaeth (*D.A.*), Doctor of Philosophy (Ph.D.).

Doethor Cyfreithiau (*D.C.*), Doctor of Laws (LL.D.).

Doethor Cyfraith Leyg (*D.C.L.*), Doctor of Civil Law (D.C.L.).

Doethor Meddyginiaeth (*D.M.*), Doctor of Medicine (M.D., D.M.).

Doethor Llenoriaeth (*D.Ll.*), Doctor of Literature (D.Lit., Lit.D.).

Doethor Gwyddoniaeth (*D.G.*), Doctor of Science (D.Sc.).

Digitized by Google

Doethor Peroriaeth (*D.P.*), Doctor of Music (Mus. Doct.).

Doethor (*Dr.*), Doctor (Dr.).

Doethoriaid (*Drd.*), Doctors (Drs.).

Doethur, -iaid, *sm.* a wise or learned man. The word occurs but seldom.

Ym pop ieith ym prydant
Yg kylch eluyd y buant
Ar meint *doethur* a darogan
Crist a chyn dybei dybuant.
Taliesin: A.B. ii. 112 (cf. 156; M.A. i. 65, 171).

Doethus, *a.* of a wise disposition, sagacious.—*P.*

Doethusol, *a.* tending to make wise.

Doethusawl gymdeithassau, gwn heddyw,
Gynnyddant ein doniau.—*Seren Gomer*, xvi. 118.

Doethwers, -i, *sf.* a wise saying, an aphorism, an apophthegm.

Doethwr, wyr, *sm.* a sage, a wise man.

Y *doethwr* a'r ymdeithydd
A grybwyll ei phwyll a'i ffydd.
Huw Huws: Diddanwch Teuluaidd, 262.

Y *doethwr*, gwrando dithau
O'th fodd yr ymadrodd mau.—*Dafydd Ionawr*, 55 (cf. 97).

Nid digon gan y *doethwyr* Saesnig yw casglu geiriau o amryw ieithoedd i'r un ymadrodd.—*Ios. Harris:* Gweith. 73.

Llywydd Athen, a'i holl *ddoethwyr*.
Robert Owen: Gweith. 234.

Parhâ Dafydd Ionawr yn 'fardd teulu' i'r coeth, y llenydd, a'r *doethwr* Cristionogol, tra y pery yr iaith.
Adolygydd, ii. 424.

Doethwych, *a.* excellently wise; displaying wisdom and elegance.

Anhawdd y coeliant fod aelodau pryfyn neu wybedyn mor berffaith a *doethwych* yn eu gwneuthuriad ag yw cyrff mawrion y cawrfil a'r eryr.—*Gwyliedydd*, iii. 330 (cf. 273).

Doethyn, -od, *sm.* 1. a wise one (in his own estimation), a wiseacre, a wiseling.

Nid ynof ymchwydd enaid ffol
A fo'n ddaiarol *ddoethyn*.
Iolo Morganwg: Salmau, i. cxl. 3.

Ein llerw *ddoethyn* llwyr ddethyd
Deithi'n beirdd a'n doethion byd.—*Dewi Wyn*, 193.

Ai gwardew Iuddew addig,
Ai cenedl ddyn, *doethyn* dig.—*Pedr Fardd:* Mêl Awen, 116.

Bydol ddoethyn, a wordly wiseacre; one that is worldly wise.

Enw y gwr boneddig a gyfarfu ag ef oedd Meistr *Bydol Ddoethyn*, a thrigo yr oedd efe yn Ninas Doethineb Cnawdol.
Taith y Pererin (1771), 12.

Tybiwn mai analluedig fyddai i'r *bydol ddoethyn* mwyaf hunanawl a fagodd gwraig ei glywed yn ddigyffro.
Seren Gomer, vii. 244.

2. a wise one (in a good sense, but only when qualified by a favourable epithet).

Y dwyfol ddoethyn (=y dwyfol ddoeth), one that is divinely wise.

Y dwyfol ddoethyn.—*Iolo Morganwg:* Salm. i. cvi. (testun).

Doew, *a.* [dy- + hoew] sharp-witted.—*Gwent.*

Dof, *pl.* dofion, *a.* [C. *dov*, *dof;* Br. *don:* cf. L. *domo;* Eng. *tame*] tame; gentle; mild; trained; cultivated; domesticated.

Golwc *dof* dewis gan ae syllwy.
Cynddelw: M.A. i. 217 (cf. 22, 426).

Llamysten *dof* a geiff bop gwyl Vihagel y gann yr hebogyd.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 378 (cf. 216, 218, 462).

Iachaf kic llwdyn *dŏf* yw kic twrch. . . Iachaf kic edyn *dŏf* yw iâr.—*Meddygon Myddfai*, i. 28.

Arched ym' lawer march *dof*
A theirw, am a wnaeth erof.—*Llawdden.*

Llyna, fy nghyfaill anwyl,
Ddifai gwers i *ddof* a gwyl.—*Gro Owain*, 61 (cf. 13, 122).

I *ddofion* blant amddifad
Bu'n noddwr, bu'n dŵr, bu'n dad.—*Dafydd Ionawr*, 330.

Anifail dof, a tame animal, a domestic or domesticated animal.

Gwyllt a dof, wild and tame.

Ef rotes *wyllt a dof.*
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 303 (cf. 289).

Cynnydd rhif pob anifail,
Gwyllt a dof, yw gwellt a dail.—*D. ab Gwilym*, lxxxiii. 25.

Y llyfr hwn sydd yn cynnwys tair colofn cyfraith, gwerth *gwyllt a dof*, yr hyn oedd anghenrheidiol i bob barnwr wybod.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 135.

Adar dofion, *Adar dof*, } *s.pl.* tame birds; domestic fowls; poultry.

Yr *adar dof*, fal yn Lapland, ydynt aml.
R. Roberts: Dacaryddiaeth, 15.

Pan fyddo yr afon yn gorlifo dros ei glenydd, y mae yn dyfod i'r pentrefi, ac yn dyfetha *adar dofion*.
Cyfchgrawn, i. 166 (cf. 42).

Cyn ddofed a'r ddafad, as tame as a sheep.

Mor *ddof* i mi *a'r ddafad.*—*L. G. Cothi*, iv. xx. 16.

Llysieuyn dof, a cultivated plant.

Cymmer y meddygyn menyw . . . a llydain y ffordd, a'r geidwad *ddof*, gogymmaint o bob un.
Meddygon Myddfai, ii. 176.

Dafaden ddof (*pl.* dafadenau dofion), a wart.

Y mae hefyd yn dda rhag y cosi a'r *ddafaden ddof.*—*H. Davies:* Llysieuaeth Gymreig, 183 (cf. 191, 239).

Tir dof, cultivated land, cultivated ground.

Awn gad am gad ag wynt ar y *tir dof* a'r maesdir oeth yn gystal ag a wnaethom ar lawr anoeth y tir gwyllt.
Iolo Mss. 185.

Dwr dof, standing water; soft water.

Berw mewn galwyn o *ddwr dof* hyd onid el yn chwart.
Meddygon Myddfai, ii. 524.

Dof, **Do'f**, } *v.* [contr. of *doaf*, from *daw*]=*Doaf*, *deuaf*, *dawaf:* irregular future forms of *Dyfod*, to come.—See Davies, *Rudimenta* (1621), 118.

O daw y fun i dŷ fau,
I dŷ fun y *dof* finnau.
D. ab Gwilym, lxxviii. 31 (cf. clxxvi. 7).

Ni *ddof* oddi wrth nai Ddafydd
Yni ddêl y nos yn ddydd.
L. G. Cothi, iii. xiii. 55 (cf. xii. 26).

Heddyw ni'th oedaf, Dafydd,
Yn fore *dof* ar y dydd.—*Gutyn Owain:* G.B.C. 195.

Minnau ni *ddof*, os mynaf,
O'r Gynwyl hyd ganol haf.
L. G. Cothi, iii. x. 5 (cf. iv. xiv. 21, 24).

Mi *ddof* ar frys i'th erbyn.—*Th. Huet:* Dad. ii. 5.

Mi a *ddof* weithian . . . i'ch cymhell a'ch annog yn ddifrifol.—*I. B. Hir:* Pregethau, i. 55.

Dof, -od, *sm.* a utensil, a domestic article.

Dofadwy, *a.* tamable; that may be tamed, domesticated, or reclaimed.

Y maent yn *ddofadwy*, er nad yn hollol felly.
Gwyliedydd, vii. 240.

Dofaeth, **Dofiaeth**, } *sf.* the state of being tamed, trained, or regulated; tameness, gentleness; domesticity.

Ni welaf Ieuan, ddifan *ddofaeth*,
Ni wŷl yntau fi, rhi rhywogaeth!
Dafydd ab Gwilym, ccxxix. 13.

Caeth dofaeth: see *Caeth*, sm.—*C.C.* ii. 82, 118.

Dofaidd, *a.* of a tame or gentle disposition; tame; gentle, mild.

Yn debyg i ddefaid yn *ddofaidd.*
Huw Morus: Eos Ceiriog, i. 241 (cf. ii. 399).

Digitized by Google

Nyni a allem yn gymhwys anobeithio am lwyddiant; ac felly gorwedd i lawr yn *ddofaidd*.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 262.

Yn syn y safai, crymai'r ci,
A *dofaidd* lyfai'i draed.—*Gwyliedydd*, iv. 251.

Dofawd, *sm.* a taming or training.

Dofawl, *a.* taming; tending to make gentle; easing, soothing.

Dofedig, *pt.a.* tamed; trained; broken in.

Dometic (*gl.* domito).—*Zeuss:* G.C. 1057.

Dofednod, *pl.* [dof+edn] tame or domestic fowls; poultry.

Arddangosfa ceffylau, cwn, a *dofednod*.
Gwalia, Mai 7, 1890.

Da genym ddeall fod adran y cwn mor boblogaidd ag erioed, ac hefyd y *dofednod*.—*Gwalia*, Mai 14, 1890.

Dofedd, *sm.* tameness; gentleness.

Ail y rhifer i lwyr hyfed,
Alon Dyfed, eilon *dofedd*.—*D. ab Edmwnt:* G.B.C. 106.

Dofhau, *v.* to tame; to train; to subdue. See *Dofi*.

Henri vrenhin y gwr a *dofhaassei* holl bennaduryeit ynys Prydein.—*Brut y Tywysogion*, 128.

Dofi, *v.* 1. to tame; to train; to break in.

Anyueileit yw y rei hynny gennyn, neu letuegin a *dofer* o vwystuil gwyllt, neu ederyn.—*C.C.* ii. 110 (cf. 48).

Edifar fydd eu *dofi*,
Dan frig gwŷdd y trig y tri.—*D. ab Gwilym*, lxxvii. 19.

Holl natur gwylltfilod, ac adar, ac ymlusgiaid, a'r pethau yn y môr, a *ddofir* ac a *ddofwyd* gan natur ddynol: eithr y tafod ni ddichon un dyn ei *ddofi*.
Iago iii. 7, 8 (cf. Marc v. 4).

Difudd oedd ceisio'i *dofi*.—*Gro. Owain*, 20 (cf. 182).

2. to subdue; to conquer.

Pan *doues* peir trachwres trochyad
Par trwy var trwy uyrt ysgwytyad.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 279 (cf. 219).

Dofwyd y gauaf difwyn,
A thes a wnaeth les i lwyn.—*D. ab Gwilym*, ccl. 19.

Yr haiarn a ddryllia ac a *ddofa* bob peth.—*Dan.* ii. 40.

Ny ryberis nef nep i'th *dofi*.—*Gronwy Owain*, 129.

3. to ease, assuage, allay, relieve, or mitigate.

Dofais serch a'm hannerchai,
Dyn gwiw-ryw mwyn dan gôr Mai.
Dafydd ab Gwilym, cxliv. 19.

Cael teimlo gwaed y groes
Yn *dofi* 'r loes a'r cur.—*Rmyn.*

Oddi allan y mae hi yn dda i *ddofi* gwres, ac i esmwythäu gwaew.—*H. Davies:* Llysieuaeth Gymreig, 221.

Fe *ddofa* Duw angerdd y ffiamau.—*Gwyliedydd*, viii. 101.

Dofi poen, to relieve, ease, or soothe pain.

4. to become tame or gentle; to become eased.

A dywed yn ddifri' bod Ifan yn *dofi*,
Fu gynt yn llanc heini yn lloni pen Llŷn.
Ieuan Lleyn: Caniadau, 37.

Dofiad, -au, *sm.* a taming; a training; mitigation, assuagement.

Dofiawdr, iodron, *sm.* a tamer; a subduer.

Y gwyr a oedynt deu arderchawc vrenhin a deu haelon . . . *dofyodron* y gwrthwynebwyr.—*Brut y Tywysogion*, 158.

Dofiedydd, -ion, *sm.* a tamer; a trainer.

Dofion, *s.* pl. of *Dawf* (=*Daw*).

Dofnhau, *v.*=*Dyfnhau*.

Dofn, *a.* fem. of *Dwfn*.

Dofod, -au, -ion, *sm.* [daw?] 1. 'that which is adventitious;' luck; a hoard; a prize; booty.

Sef a wnaeth Teirnon Twryf Uliant o achaws y *dowod* a gawssei ymwrandaw am y chwedyl ac ymouyn yn lut amdanaw.—*Mabinogion*, 22.

2. In the Laws, 'the term "*dovod*" appears to comprehend those things which were for domestic uses.'—*C.C.* i. 95 (note).

Greyc e brenyn a heill rodhy heb canyat e brenyn y trayan or a del o *dohouet* [al. *deouot*] yr brenyn.
Cyfreithiau Cymru, i. 94.

O deruyd y dynyon caffel *douodeu* ar fford.
C.C. ii. 116 (cf. 18, 48, 52).

Dofr, -au, *sm.* domesticity.—*P.*

Dofraeth, **Dofreth,** -au, *sm.* [cf. Ir. *deoraidh*] 1. the quarters which the villains were to afford to the lord's retainers; quarters, lodging, entertainment, quartering.

Ny cheiff maer na chyghellawr ar wr ryd na chylch na *dofreth*.—*C.C.* i. 488 (cf. 188, 770).

Cylch cwn a meirch a *dofreth* a ddlyir o honaw.
C.C. ii. 690 (cf. 604).

Nid af, anwylaf, o'i alaeth, er braw,
Nid wyf hyf hebddaw, ddifraw *ddofraeth!*
Dafydd ab Gwilym, ccxxix. 15.

Y meibion eillion, neu y caethion, oedd i gynnal a phorthi cynyddion, hebogyddion, a chwn y bremin, yn eu harferol gylchau dair gwaith yn y flwyddyn; ond nid oedd i faenol rydd, maer, na changhellwr, dalu na chylch na *dofraeth*, onid cylch mawr y teulu bob gauaf.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 134.

Myned ar ddofraeth, to go into quarters.

Y maer a ran y teulu pan *elont ar doureth*.
C.C. i. 672 (cf. 488).

Aet y penkynyd ar kynydyon gantaw *ar dofreth* ar tayogeu y brenhin.—*C.C.* i. 656.

Gosod yn ddofraeth, to place in quarters.

Ew a dyly os myn eu *gossot yn doureth* ar y meybyon eyllyon harwyd eu gallu.—*C.C.* i. 192 (cf. 190).

2. custom, tribute, tax.—*D.*

Dofrawl, *a.* tending to domiciliate.—*P.*

Dofreithiad, -au, *sm.* domiciliation.—*P.*

Dofreithio, *v.* to domiciliate.—*P.*

Dofreithiwr, wyr, *sm.* one who is in quarters; one that is quartered on persons liable to entertain him.

Beth bynnag a ddangoso y *dofreithwyr* i'r taiogau y delont i'w tai, y taiogau biau eu talu i'r taiawg y delont i'w dŷ, or collir, eithr gleifau, a llodrau, a chyllyll.
Leges Wallicae, II. xxv. 6 (cf. C.C. ii. 486).

Dofri, *v.* to domiciliate, to lodge.—*P.*

Dofriad, -au, *sm.* domiciliation.—*P.*

Dofwr, wyr, **Dofydd,** -ion, *sm.* [dof, dofi] a tamer; a trainer; a breaker in.

Dafydd Llwyd ydyw'r *dofwr*.—*L. G. Cothi*, III. i. 17.

Dofwr meirch, *Dofwr ceffylau*, a horse-breaker, a horse-trainer.

Dofydiad, iaid, *sm.* [dofawd] a former; an inventor; one who puts into order; a creator.—*P.*

Glân oll yw goleuni llên
I'r byd a wnaeth *Dofydiad*,
Y Sulgwyn i roi yn' rad.—*Dafydd ab Edmwnt.*

Dofydd, -ion, *sm.* [L. *domitor*] 1. one who governs, rules, or commands; a ruler; a supreme or sovereign; a lord; the Lord. Usually, but not always, applied to the Supreme Being, either independently or appositively.

Kyvaenad keluit kynelv o *douit*.
Llyfr Du: A.B. ii. 7 (cf. 9, 13, 35, 182).

Nyd cerddor ceilydd ny molwy *Ddovydd*.
Taliesin: M.A. i. 23 (cf. 22, 23, 42, 43, 161, 184).

Rei gwyllt rei dof *Douyd* ae gwna.—*Taliesin:* A.B. ii. 164.

Nag ammau wyrthiau *Dovydd*.
Dyhuddiant Elphin: M.A. i. 83 (cf. 344).

Digitized by Google

Nid câr cywir ond *Dofydd.*—*Iolo Mss.* 254.

Nid ef digrefydd a gretto *Ddofydd.*
Cynddelw: M.A. i. 264.

Dedwydd, *Dofydd* a'i rhydd rhad.—*Iolo Mss.* 256.

Nerth *Dofydd* sydd yn nesâu.—*I. B. Hir:* Gwaith, 19.

Mab bedydd *Dofydd* difai,
Mygr-las, mawr yw urddas Mai.—*D. ab Gwilym,* cxliv. 23.

Ni bu, nid oes oes yspryd
Heb i *Ddofydd,* ni bydd byd.—*Gr. Llwyd ab Dafydd.*

O wybod gwybydd orchymmynion *Dofydd.*
M.A. iii. 50 (cf. 32, 99).

Erchi'dd wyf arch i *Ddofydd,*
Adu i'r rhai'n oed yr hydd.—*L. G. Cothi,* IV. v. 71.

Duw, *Dofydd* mawr, Ionawr, Iau.
Sion Cent: Iolo Mss. 285.

Ofna *Ddofydd,* cais fyw'n ddwyfawl.
Llywelyn Pywel: Cyfr. y Beirdd, 158.

Duw Ior y duwiau ereill,
Dofydd a Llywydd y lleill.—*Iolo Goch.*

Gwir difeth yw gair *Dofydd.*
D. Ionawr, 132 (cf. 112, 120, 122, 129).

Drwyddo Ef, da wir *Ddofydd,*
Hoff Ion, Tywysog ein ffydd.—*I. B. Hir:* Gwaith, 105.

Duw Ddofydd, God the Lord, God the Supreme.

Digonais geryt yg gwyt *Duw Douyd.*
Meilir: M.A. i. 192 (cf. 155, 248).

O gangau cŷll gwyrddion defyll
Y cân gywydd i *Dduw Ddofydd.*
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 238.

Creawdwr llu bedydd, Crist fab *Duw Ddofydd.*—*Iolo Goch.*

Tro'th galondid a'th nerthoedd oll ar *Dduw Ddofydd.*
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 58 (cf. 7, 8).

Grasus yw ar groes y sydd
Y dioddefes *Duw Ddofydd!*
D. ab Gwilym, ccxxxix. 7 (cf. ccxxxiii. 37).

A *Duw Ddofydd* hefyd y gelwir Iesu Grist; ac enwau amgen y sydd hefyd arno, fal y mae Perydd, a Duw Ner, a Duw Naf.—*Barddas,* i, 220.

A hyn trwy air *Duw Ddofydd.*—*Edm. Prys:* Salm. cv. 35.

Yn canu mawl rhadawl rhydd
Yn ddifyr i *Dduw Ddofydd.*—*I. B. Hir:* Gwaith, 101.

Dofydd Dad, the Sovereign Father, the Lord and Father.

Meddylia o'th ra a'th rad i'th brydydd
Talu y cerydd *Duw Dofydd Dad.*
Hywel ab Einion Lygliw: M.A. i. 513.

Fynnon vywrat. rod *douyd dat.* odut vchaf.
Cyssegrlan Fuchedd: Llyfr Ancr, 99.

Gŵyr ei charennydd, y *Dofydd Dad!*
D. ab Gwilym, ccxxxiii. 44.

Nid ufudd-dawd ond i *Dduw Dofydd Dad.*
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 93.

Rheg Dofydd, the gift of the Lord.

Gwreic arall a uynny ditheu. a *rec Douyd* ynt y gwraged weithon.—*Mabinogion,* 100.

2. a lord, master, or superior. A rare use of the word.

Deu-dir i'r dedwydd a dyf i'n *dofydd;*
Deu-lanw hyd lenydd Dyfi, gwin Dafydd.
L. G. Cothi, I. xxxvi. 25.

Dofyddiad, iaid, *sm.* 'one who forms or regulates; an organiser.' See *Dofydd, Dofydiad.*

Digonsawchi anuat yn erbyn *dofydyat.*
Taliesin: A.B. ii. 122.

A Duw meiddad Duw *dofyddad*
Dewin trugar mawr enwerys.
Taliesin: M.A. i. 42 (cf. 91).

Dofft, -au, *sm.* a joist or beam.

Dofft, idem quod *Dist,* ait William Llŷn.—*Davies,* s.v.

Dog, -au, *sm.* a wedge-link in the end of a piece of timber for drawing it along.—*Iolo Glossary.*

Dog, *sm.* a share, dividend, or piece.—*P.*

Dogfen, -au, *sf.* [L. *documentum*] a document.

Onis dêellir y geiriau yn dda, ni ddêellir fyth mo'r *dogfenau* ne'r rheolaethau sy'n perthynu at y gelfyddyd honno . . . a phan wyper yn rhugl y cyfryw eiriau, a'u deallt yn dda, ni bydd dim caled yn y *dogfenau* a rodder. . . Ni ddêellir byth mo'r *ddogfen* uchod.
Dr. Gr. Roberts: Gram. 207 (cf. 205).

Tybiwch fod *dogfen* neu ysgrif yn cynnwys y pethau hyn . . . yn dyfod i'r golau yn awr am y tro cyntaf.
Athrawiaeth yr Eglwys, 428.

Dogn, -au *sm.* 1. a due quantity, share, or proportion; an allowance; a portion or share; dividend; measure; sufficiency; enough; a while; a space of time.

Or ard or bore hyt hanner dyd yn erbyn y gytwed, *dogyn* yw.—*C.C.* i. 274 (cf. 134, 250, 532; ii. 148).

Gwedy bwyta o nadunt ac yuet eu *dogyn.* erchi y peir a oruc Arthur.—*Mab.* 136 (cf. 102, 188, 271).

Yd oed gan y llew *dogon* o gynnut. hyt yn penn teirnos.
Mab. 187 (cf. 185).

A gwedy kysgu *dogyn* or kawr deffroi a oruc.
Ystr. de Carolo Magno, col. 400 (cf. 403, 463, 481, 498).

Ar baedd pan gafas *dogyn.* ef a gyscawdd y dan vric y prenn.—*Doethion Rhufain,* ¶ 11.

Buchedh tragywydhawl. gwynuydedic *dogyn* o bob rhyw dha.—*Lucidar,* ¶ 126.

Yr oeddynt yn prysuro i fod yn gyfranog o *ddogn* annuwiol eu campau.—2 *Macc.* iv. 14.

Pan gyuothych oth wely; rottya *dogyn.*
Meddygon Myddfai, i. 186 (cf. 176).

Nid oes *dogn* ar gerdod.—*Diareb.* (*D.*)

Dogn sydd ar bob peth.—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Gorphenwch eich gwaith, *dogn* dydd yn ei ddydd.
Ecs. v. 13 (cf. 19; xvi. 4; 2 Bren. xxv. 30).

Dwg o annedd digynnil
Ddogn o fedd, ddigon i fil.—*Gro. Owain,* 43.

2. a dose; the portion of medicine to be taken at one time.

Os cymmerer yn sylwedd, y *dogn* yw pwys o bymtheg i ugain gronyn.—*Hugh Davies:* Llysieuaeth Gymreig, 211 (cf. 154—245).

Y mae [cegid] yn wenwyn marwol os cymmerir gormod o *ddognau.*—*Trysorfa Gynnulleidfaol,* iii. 129.

Dogn, *a.* [cf. *dygn*] that is allotted; severe, grievous, hard.

Dremryt ny welet y odeu *dhogyn* ryd
Ny welet y odeu *dhogyn* ryd.—*Llyfr Aneurin:* A.B. ii. 99.

Ny ryfu *docnach* yr y docni poen
Penyd a uo mwy nor meu hebdi.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 329 (cf. 65, 471).

Darfu am ddraig llu llwyr orthrymder
Dogn gur poen ddolur pan feddylier
Dogn gawdd am hudawdd am fy hyder
Dihagr oedd glybod ei glod gan gler.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 440 (cf. 461, 469).

Dognaeth, -au, *sf.* apportionment, allotment; a portion; quantity.

Tair *dognaeth* y sydd ar roddion beirdd herwydd graddau eu dysgyblaeth a'u hanaawdd.—*Barddas,* ii. 106.

Nid oes genyf le idd eu gosod o'ch blaen; ond yn unig crybwyllaw ichwi, nad yw y mydryddiaeth Groegaidd yn agos mor ddarostyngedig i *ddognaeth* sillau ag ydoedd un y Rhufeiniaid.—*Y Greal,* 246.

Dognawl, *a.* proportional, proportionate; sufficient.

Dogndeb, } *sm.* quantity; proportion; rate;
Dognedd, } sufficiency; allowance; plenty; abundance.

Ar dyd hwnnw ar nos honno a treulassant drwy *dogyndeb* o gerdeu.—*Mabinogion,* 262 (cf. 273, 282, 293, 294).

Sev hyny *dogned,* gymmedr ag achaws, y gan bob teuluawg o'r genedl.—*C.C.* ii. 548.

A mil gyt ac enteu en adurnedic o un ryw wisc. en gwasanaethu o vedgell. a *dogned* o lestri goreureit. ar parth et oed en gwasanaethu ar e vrenines et oed *dogned* o niver hard.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 823.

Digitized by Google

Ar ol iti ymdewychu dy *ddognedd* ar a ffieiddia bob byw arall, ti a leddir am dy frasder.—*Iolo Mss.* 158.

Imginnullaw igit a oruc pobil Dro a chadarnhau kestil Asaracus ac eu lenwi o wir ac arveu a *dogned* o vwit a diawt. *Brut Gr. ab Arthur* (A): M.A. ii. 89.

Y goreiriau cyffredin, o rif, cyfiead, amser, cymhariad, ammheuad, a *dognedd*, a gymmerant y cyfiead a fynir gyda geiriau a fyddant mewn cyfansoddiad. *Isaac Jones:* Gram. Cym. 116.

Dognedd paladr, spear allowance.

Tri anhebgor taiawg: pentan; glaiv; a chavn; ac iddo o *ddogned paladr*.—*C.C.* ii. 562 (cf. 552).

Dognfynag, } egion, *sm.* a competent declara-
Dognfanag, } tion, 'which, in the Laws, implies an information upon oath before the priest by an eye-witness, as to a crime committed.'

Ni ddleir gwat yn erbyn *dogyn vanac*. Sef yw *dogyn vanac* kyfreithawl llw kreddyvwr vwch pen raith a thygv gwelet lliw dyd golav gwedy kyvodi havl ar lladrat gantho. Sef yw y kreddyvwr efeiriat a hyny rwg i ddevddyn blwyf kans vn or naw tavodioc yw.—*C.C.* ii. 226 (cf. 576, 618, 620, 680; i. 246, 418, 462, 699).

Pwy bynnag a fyno wneuthur *dognfanag*, aed ar yr arglwydd, a dyweded rywneuthur lledrad o ddyn ni lefais efe ddywedyd arnaw ai rhag ei fonedd, ai rhag ei feddiant. *Leges Wallicae*, III. iii. 29 (cf. 30, 31).

Dogni, *v.* to settle or fix a quantity, amount, or portion; to proportion; to share; to settle; to allow; to allowance; to give (one his) allowance; to allot.

Mal *docni* dillat y noeth.—*Taliesin:* A.B. ii. 116.

Och ddygyn a *ddognes* goleurwydd. *D. Benfras:* M.A. i. 311 (cf. 220, 245, 329).

Eilyw am dotyw Duw ym gwared
Aele om dygnet yt ym *dogned*.—*Cynddelw:* M.A. i. 220.

Ni châr Eiddig, ddig *ddogni*,
I'w chwaer ymddiddan â chwi. *D. ab Gwilym*, cclvii. 11 (cf. lxii. 53).

Trwydded bardd gorseddog yw hyn; sef heb law y pumerwi rhyddion a ddylid iddo ym mraint Cymro cynhenid, pumerwi rhyddion ereill, neu eu dogn a'u gwerth, a *dogni* hyny yn y maint a fo raid ar yr eraid gan raith a barn gwlad a chyfoeth.—*Iolo Mss.* 56.

Dogna dy gyflog arnaf, a mi a'i rhoddaf.—*Gen.* xxx. 28.

Dogniad, } **-au,** *sm.* an apportioning or shar-
Dognad, } ing; apportionment.

Wrth y drefnid yma geill dyn farnu toc pa *ddogniad* o erfin i roddi i ddefaid, er peri ychydig neu ddim afrad. *W. O. Pughe:* C.P. 65.

Dognofynag, egion, eig, *sm.* [dogn+gofynag] =*Dognfynag*.

Ac yna yd ymlityawd Rolant wynt yn aruaethus. a bit *dogyn ouanac* ar gerdet o honaw yn eu plith ual y gwelit wynt yn digwydaw gan y gledyf ual y dygwydei yt y kynhayaf gan vedelwr kyfrwys. *Ystoria de Carolo Magno*, col. 481.

Dognwad, -au, *sm.* a sufficient denial; a plea of denial.

Or dywedir ar ddyn weled lledrad gantaw liw dydd goleu, ac arall yn lliwaw arnaw ei weled, rhodded y neb a enlliper lw pedwar gwr ar hugaint, mal y dêl cyfnifer o bob cymmwd o'r un cantref; ac ni eill y lliwad ddim yn ei erbyn. A'r gyfraith honno a elwir *Dognwad* yn erbyn Dognfanag.—*Leges Wallicae*, III. iii. 30 (cf. C.C. i. 690).

Dognwaed, *sm.* blood that runs down from the head to the ground; full or manifest blood.

Ac os o ben hyd lawr y gollyngir, *Dognwaed* y gelwir [*al.* Gwaed o ben hyd lawr a elwir *Dognwaed*]. *Leges Wallicae*, IV. lxviii. 4 (cf. C.C. i. 456).

Dôl, *pl.* dolau, dolydd, *sf.* [C. *dôl;* Br. *dôl;* Ir. and Ga. *dail;* E. *dale;* Ger. *thal*] a meadow (usually through or by which a river flows), a mead; a tract of low land; a dale.

A phan uu amser gan Owein orffowys. disgynnu a oruc. a geilwng y uarch y mywn *dol* goedawc wastat. *Mabinogion*, 187 (cf. 190, 202).

Ny wdant wy py dyd peridyd pwy
Py awr y meindyd y ganet Cwy
Pwy gwnaeth ar nyt aeth *doleu* Defwy. *Taliesin:* A.B. ii. 182 (M.A. i. 45).

Caraf y morfa ae mynytet
Ae chaer ger y choed ae chein diret
Ae *dolyt* ae dwuyr ae dyffrynnet
Ae gwylein gwynnyon ae gwymp wraget. *Hywel ab Owain Gwynedd:* M.A. i. 277 (cf. 45).

Casglaf y rhos a'r closydd,
Gwull *dolau*, a gemau gwŷdd. *D. ab Gwilym*, cclx. 79 (cf. xix. 4).

Dychwel yn ol i'r *dolydd*,
Yn drym draw er gwisgaw gwŷdd. *D. ab Gwilym*, cclviii. 59 (cf. lxxxv. 5).

Fal yr oedd Arthur yn rhodio yng nghyntefin dydd, ac yn nydd cyntefin haf, ar hyd *dolydd* gwyrleision . . . ef a welai rywbeth o ledhirbell yn dyfod tuag ato. *Iolo Mss.* 164 (cf. 165, 246, 319).

Os ym Mawrth y tyf y *ddôl*,
Gwelir llewndid ar ei ol.—*Iolo Mss.* 225.

Yna y dygir ymaith y llawenydd a'r digrifwch o'r *dolydd*. *Esgob Morgan:* Ier. xlviii. 33.

Codais foreddydd gyda'r ehedydd,
I rodio'r gweunydd, *dolydd* deiliog.—*Morgan Gruffydd.*

Mae dail am y *dolau*, a llwysion yw'r llysiau. *Dafydd o'r Nant:* Cyfrinach y Beirdd, 126.

Mwyn y dail yr haf mewn *dolydd*.
Glesin gweunydd glwys yn gynnar. *Dafydd Llwyd Mathew.*

Y *dolydd* a wisgir â defaid. *Salm.* lxv. 13 (cf. Iob xxxix. 10; Esa. xvi. 10).

Ei choedydd, *dolydd* deiliog,
Lle clywais cu adlais cog.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 99.

Ceir yma awyr rywiog,
A gwenau *dolydd* deiliog.—*Daniel Ddu*, 285.

Bryn a dôl, hill and dale.

Ychydig bach o ddyddiau'n ol
Yr oedd *bryn a dôl* yn siriol;
Bywiogai dirif adar mân
Y wig â chân foreuol.—*Telynegion*, 56.

Dôl, *pl.* dolau, *sf.* a thing bent so as to form part of the circumference of a circle; a bend, a bow; the band or collar with which a beast is fastened to a yoke, or to a post; a cup handle; the ring of scissors, shears, and the like; a loop.

Y geilwad a ddyly ddiwallu y pystylau a'r iewyddon o wdyn; ac os hirwedd fydd, y torchau bychain a gwëyll y *dolau*.—*Leges Wallicae*, III. ix. 33.

Kymryt crip eur o Arthur. a gwelleu a *doleu* aryant idaw. a chribaw y benn a oruc.—*Mabinogion*, 106.

Lleuad newydd, deunydd *dôl*,
Neidr â'i chonyn drwy 'i chanol.—*Thomas Derllys.*

Dôl ychain, an ox-bow.

Ked gueneler keuar ac ecch ac na del ef yr llauur a kau *dol* arnau ac na darfo na kylc na deu ny dele kafael dym. *C.C.* i. 316.

A thra bo'r ych yn cario'r *ddôl*,
F' anwylyd fach, ni ddof yn ol.—*Hen Bennill.*

Dôl drws, the handle or ring of a door.

Symmudaw'n nes, a madws,
Cyrhaedd *dôl* dryntol y drws.—*Gronwy Owain*, 7.

Dol (*ŏ*), *af.*=*Dwl*, m.

Doldir, -oedd, *sm.* meadow-land; low and fertile land; a mead.

Mi a edrychais, ac wele y *doldir* yn anialwch. *Esgob Morgan:* Ier. iv. 26.

Naill ai mewn tai gleision hafaidd, ne gar llaw'r dwfr rhedegog, mewn glyn ac irgoed, ne mewn dyffryn llyseuawg, ne ar ael *doldir* meillionawg. *Dr. Gr. Roberts:* Gram. 3.

Rho ddail a gwiail ar goed,
A'th degwch i berth dewgoed,
A *doldir* yn llawn deildai,
A thrydar mân adar Mai.—*D. ab Gwilym*, cclviii. 61 (cf. lxxxiv. 26; lxxxv. 20; cxvi. 16.

A bod yr anialwch yn *ddoldir*, a chyfrif y *doldir* yn goettir.—*Esa.* xxxii. 15 (cf. xxix. 17; xxxvii. 24).

Digitized by Google

Dolef, -au, *sf.* [do- (=dy-)+llef: cf. *dos-* and *dys-*] a shout, an outcry, a loud cry; a loud voice; resonance.

Dolef a llewenyd a gorawen a uydei gantaw *ef* ac niuer. *Mabinogion*, 254.

Cywair ddelw cywir *ddolef*,
Cywydd gwiw Ofydd, gwas ef!
D. ab Gwilym, cxxi. 7 (cf. lviii. 43; clxxxii. 29).

Y cadnaw sydd helfa *ddolef*, o blegid er maint fo'r gwaeddi a'r canu cyrn ar ei ol, ef a gynnal ei helynt oni flino.—*M.A.* iii. 198 (cf. 197).

Y Bedo, efo a fyn
Ganu *dolef* gan delyn.—*L. G. Cothi*, vi. iv. 41.

Corn anfeidrol ei *ddolef*,
Corn ffraeth o saerniaeth nef.—*Gro. Owain*, 89 (cf. 30, 34).

Mab dolef, a son by declaration.

Mab doolew a uyd a mab dyodew. Sew yu *mab doolew* mab a dywet gwreyc ar y thauaut leueryd y uot yn uab y ur ac nas dyco yr dygyn.—*C.C.* i. 210 (cf. ii. 38).

Dolef, *v.*=*Dolefain*.

O goed y mynydd ag *ef*,
A'i dylwyth oll yn *dolef*.—*Iolo Goch*.

Uwch Aeron oll, ewch i'r nef,
Down y ddwy-wlad dan *ddolef*.
Deio ab Ieuan Du: G.B.C. 183.

Dolefain, } *v.* to shout; to cry out or aloud;
Dolefu, } to cry out often; to sound highly; to resound.

Hwn, wedi gweled yr Iesu, a *dolefain*, a syrthiodd i lawr ger ei fron ef.—*Luc* viii. 28.

Udgorn nef yn *dolefain*,
Y ser a glywant ei sain.—*W. Wynn*: Cywydd y Farn.

Dull ar ymadrodd yw [dirlais], pan fo'r areithiwr megys yn *dolefu* yn uchel, o ran rhyw gynhwrf yn y meddwl, a'r nwydau.—*H. Perri*: Egluryn Ffraethineb, xxxii.

Rhyfel! *dolefai* Rhufon.
Blackwell: Ceinion Alun, 114 (cf. 243).

A phan glywsant hwy hyn, yr oeddent yn llawn digofaint, gan *ddolefain*, a dywedyd, Ys mawr Diana yr Ephesiaid.—W. *Salesbury*: Act. xix. 28.

Dolefiad, -au, *sm.* a crying or shouting; a cry, a shout.

Yn ol *dolefiad* Balaam, ar ben uchelfëydd Baal.
G. Mechain: Gwaith, ii. 32.

Dolefgar, *a.* given to crying or shouting; crying, shouting.

Casbethau Owain Cyfeiliawg. . . Dyn bach cul *dolefgar*, dyn mawr achwyngar.—*Doethineb y Cymry*: M.A. iii. 123.

Dolefus, } *a.* shouting; crying out or aloud;
Dolefol, } crying.

Ym mhlith y teulu dynol y mae rhai yn deyrniaid, ac â gwialen haiarn yn ysgyrioni eu deiliaid, nes ydyw yn un waedd *ddolefus* o un cwr i'r deyrnas hyd y cwr arall.
Brutus: Brutusiana, 173.

Dolen, -au, *sf.* [dôl] 1. a bend, bow, or curve; a meander, a winding; a turn.

Dolen afon, the bend or winding of a river.

Dolen Teifi, the Bend of Teifi, said to be an old name for a constellation.—*Barddas*, i. 404.

2. a loop, a ring, a link; a noose; the ear or handle of a vessel.

Gwna *ddolenau* o sidan glas ar ymyl un llen, ar y cwr, yn y cydiad. . . Deg *dolen* a deugain a wnei di i un llen, a deg *dolen* a deugain a wnei ar gwr y llen a fyddo yn yr ail gydiad: y *dolenau* a dderbyniant bob un eu gilydd.
Ecs. xxvi. 4, 5, (cf. xxxvi. 11, 12, 17).

Cylchau, cadwynau, coed on,
Dolenau, da olwynion.—*Huw Morus*: E.C. i. 85.

Yn gymmaint ag nad ydyw y gyfundraeth heulaidd ond cyfundraeth yn perthyn, ac yn *ddolen* berthynol i gyfundraethau afrifed ereill, yr oedd ei orchymmyn yn cyrhaedd holl greadigaeth Duw.—*Brutus*: Brutusiana, 403.

Dolen cawg, the handle of a bowl or large cup.

Dolen gwellaif, the ring of a pair of shears.

Dolenau cadwyn, the links of a chain.

A allwn ni, er sefyll ar y tir manteisiol hwn, olrhain holl *ddolenau y gadwyn* ag oedd yn rhwymo'r gweithredoedd hyn a'u canlyniadau wrth eu gilydd!
Nicander: Dwyfol Oraclau, 4 (cf. 225).

Dolen gydiol, a connecting link.

Rhaid cael rhyw *ddolen gydiol* rhwng yr hyn sydd anadnabyddus a'r hyn sydd adnabyddus.—*Adolygydd*, i. 123.

Cwlwm dolen: see *Cwlwm*.

Bach a dolen: see s.v. *Bach*.

¶ In some parts of North Wales *dolen* is used for *dalen*, a leaf. It is the usual form in the writings of Dr. Gruffydd Roberts (1567), and Morys Clynog (1568). It occurs also in Salesbury's Dictionary (1547); and, occasionally, in the *Homiliau* (1606).

Dolenaidd, } *a.* tending to curve or bend; like
Dolenig, } a loop; bending.

Ffon odiaeth ffynedig, fo gadarn o'r goedwig,
Nid gwden lygredig, *ddolenig*, ddeil im'.
Ieuan Lleyn: Caniadau, 37.

Doleniad, -au, *sm.* a curving, bending, or meandering; curvature.

Dolenlif, -iau, *sf.* a spring-saw: also called *llif fwa*.—*Iolo Glossary*.

Dolenog (ĕ), *a.* having curves, bends, or turnings; meandering, winding; looped, ringed.

Hafren *ddolenog*, araf-gyrch, a wridai.—*Y Greal*, 184.

Y mae yn drigiannydd Asia, Affrica, ac America . . . ei dafod dros hanner hyd ei gorff . . . a'i gynffon *ddolenog* a'i cynnorthwya i ddisgyn yn ddiogelach oddi ar gangenau coedydd.—*G. Mechain*: Gwaith, ii. 396.

Afon ddolenog, a winding or meandering river.

Sarff ddolenog, a coiled serpent, a 'crooked serpent.'

Pan ddaeth creulon lid bwystfilod ar y rhai hyn, a'u dyfetha hwynt â brathiadau *seirff dolenog*.—*Doeth.* xvi. 5.

Dolenol, *a.* curving, bending, meandering.

Dolenu (ĕ), *v.* to curve, bend, wind, or meander; to wind round; to form into a loop or ring; to bow; to bend to the form of an ox-bow.

O Gaerfyrddin, *dolena* ei thaith yn fwy i'r de.
G. Mechain: Gwaith, ii. 337.

Trosti'r oedd eu si a'u swn;
Dolenent hyd wal Annwn.—*Dafydd Ionawr*, 148.

Y dyffrynoedd goreang, y coedwigau, a'r afonydd a *ddolenant* rhwng eu glenydd gwyrddion.
Gwyliedydd, vii. 77.

Doler (ō), -i, -au, *sm.* [E. *dollar*, from Germ. *thaler*] a dollar, a silver coin of the nominal value of from 4s. 2d. to 4s. 4d.

Er y fl. 1878 y mae gwerth y dadforion neu'r nwyddau a ddygwyd iddi o Brydain Fawr wedi cynnyddu o 37,431,000 *doler* i 52,052,465 *doler* yn 1883.—*Llawlyfr Canada*, 13.

Yr holl draul at gynnal yr ysgolion cyhoeddus yn y flwyddyn honno ydoedd 557,765 o *ddoleri*.
Llawlyfr Canada, 47 (cf. fq.).

¶ The G. *thaler* is an abbreviation of *Joachimsthaler*, a coin so called because first coined from silver obtained from mines in *Joachimsthal* (*i.e.* Joachim's dale) in Bohemia about A.D. 1518. . . The G. *thal* is cognate with E. *dale*. Thus *dollar*=*dale-er*.—Skeat: *Etymological Dictionary*, s.v. 'Dollar.'

The Germ. *thal* is cognate with the Welsh *dôl* as well as with the Eng. *dale*.

Dolfaes, feusydd, *sm-f.* [dôl+maes] a piece of meadow-ground; a meadow.

Ni bu hir cyn dyfod o berchenog y *ddolfaes* gyda'i arthgwn a'i waedgwn, a'i weision, a'i rwydau rheffynaidd, a'i ddal, a'i ffrwynaw, a'i ystarnu.—*Iolo Mss.* 175.

Digitized by Google

¶ Pughe has in this place '*Dolff* . . . a curve, wind, or twirl,' from which he forms *Dolffyn;* but there is no such word known in the language; and '*Dolffyniaid,*' as he writes the plural, and as it is possibly written in the following extract given by him, is simply the Eng. word *dolphin* (Lat. *delphinus, delphin*), with a Welsh pl. termination.

Yno mae *dolffyniaid*, moelrhoniaid, a lloi y môr.
Hanesion. (*P.*)

In a recent writer the word occurs as *dolphiniaid:*

Dêl ei phenaeth yn 'sglyfaeth *dolphiniaid!*
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 144.

Dolgwm, gymoedd, *sm.* a dell, a glade.

Ac adar caneugar ym mhob llwyn, ac ar bob colfen deilgoed a *dolgwm.*—*Iolo Mss.* 164.

Doli, *v.* [dôl] to curve, bend, bow, or meander.

Doli, *v.* [C. *dol;* E. *dole*] to give or distribute, to dole.

Hawdd *doli* tafell o dorth un arall.—*Diareb.*

Doliad, -au, *sm.* curvation, a winding, a meandering.

Doloch, *sm.* lamentation; a wailing, moan, or groan.

Y gwr egnïol *ddoloch* . . .
Ynfyd ych o'r anfad waith.—*Dafydd Llwyd Gorlech.*

O *ddoloch!* pawb yn ddïlai
Gyda'r twrf sy'n gado'r tai.—*Powysion,* ii. 130.

Dolog, *a.* [dôl] winding, meandering; having a loop, ring, ear, or handle.

Dolur, -iau, -ion, -on, *sm.* [L. *dolor*] grief, dolour, anguish; ache, pain, sore; sickness, disease; pains, travail.

Sef a wnaeth y uorwyn o *dolur* y dyrnawt. dyuot dracheuynt at Wenhwyuar. dan gwynaw y *dolur.*
Mabinogion, 249 (cf. 283, 290).

A phan gigleu Gwenhwyvar hynny kymeint vu y *dolur* ae thriscliit hi ae morynnyon ae gwragedda.
St. Greal, ¶ 6 (cf. 29, 45, 210).

Kymeint oed eu *dolur* o achaws eu tat ae brawt ac nat oed dim gantaw a wnelei ony chaffei yn gyntaf dial hynny o ageu Gwrtheyrn.—*Yst Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 157.

Lleyaswch y kadwyneu ychydic. y maent yn gwneuthur diruawr *dolur* ym yg kylch uy ghallon.
Yst. de Carolo Magno, col. 458 (cf. 409).

Ac yna Achel yn achubedic o *dolur* yn vwy ac yn graffach a ymlidywys Ector.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 23 (cf. 20, 34).

Newyn a sychet ac amrauaelion *doluriau* corph.
Lucidar, ¶ 100.

Mi a wn oddi wrth eu *doluriau.*—*Ecs.* iii. 7 (cf. xv. 14).

Dau amryw gwynofus a pheryglus *ddolurau* y sydd; nid amgen, brathau pryfed, a gwenwyn.
Meddygon Myddfai, ii. 702 (cf. 346, 685, 718).

Heb welet y *dolur* a oedd yng kudd dan y deil.
Doethion Rhufain, ¶ 19.

Dan wasg *dolurau,* a gwendidau henaint.
Iolo Morganwg: Cyfr. y Beirdd, Rhag. 6.

Er dy gur a'th *ddolurion,*
A'th friw a gefaist i'th fron . . .
Gwared fi!—*D. ab Rhys.* (*P.*)

Gorfod goddef hyn i'm llwyn,
Ac er dy fwyn *ddolurion.*—*Ystên Sioned,* 28.

Gan ddangos imi'r amlwg wir
Drwy friwiau 'm hir *ddoluron.*
Iolo Morganwg: Salm. i. xxxiv. 5.

Anaele fydd fy *nolur.*—*Ed. Richard:* Gwaith, 79.

Dolur yw genyf, I am pained; it pains me; I am sorry.

Dolur yw genhyf dyuot y brenhin am an pen ninheu.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 294.

Dolur eissoes *yw genyf* ynheu ry gaffel vyg kastell a llad vy gwyr.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. 180 (cf. 165).

Cymmeryd dolur, to be pained or grieved; to take to heart.

Kymryt y tristit mwyhaf ar *dolur* a oruc hitheu.
St. Greal, ¶ 7.

Mwy no dyrvawr *dolur a kymyrth* yndaw or achaws honno.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 91.

Cael dolur, to receive an injury; to be hurt or injured.

Dolur pen, head-ache.—*Meddygon Myddfai,* i. 141.

Mae dolur yn fy mhen, I have a head-ache.

Dolur dwyfron, pain in the chest.—*Meddygon Myddfai,* i. 167.

Dolur rhydd, diarrhœa.

Meddyginiaeth hefyd yw rhag y cryd dyspeidiol, y *dolur rhydd,* clefyd y gwaed, a phob math o ddylif anghymmedrol arall.
H. Davies: Llysieuaeth Gymreig, 182 (cf. 189, 192).

Dolur bol, belly-ache, stomach-ache.

Dolur y cylla, pain in the stomach, gastrodynia.—*Meddygon Myddfai,* ii. 484.

Dolur calon, heart-ache, anguish of mind.

Gwr ny chymmwyll twyll tyllod hoelyon braw
Y drael ae dwylaw *dolur calon.*—*Casnodyn:* M.A. i. 430.

Dolur y galon (1), disease of the heart, heart-disease.

(2) sorrow of the heart, sorrow of heart; anguish of the mind.

Trwy *ddolur y galon* y torir yr yspryd.—*Diar.* xv. 13.

Dolur llygaid (1), soreness of the eyes.

Yna y damweinawd colli o athro Dewi y lygeit o dra gormod *dolur* yny *lygeit.*—*Buchedd Dewi:* Ll.A. 107.

(2) an eyesore; something offensive to the sight; an object of dislike: also *dolur llygad.*

Yr hyn sy gymmaint o *ddolur llygaid* i'r yspryd ion damnedig hyny ag sydd yn ei gasäu ef.
Ioe. Tomas: Buch. Grist. 89.

Dolur gwddf, soreness of the throat, sore throat.

Dolur dannedd, pain of the teeth, tooth-ache.

Dolur y fam, hysterical passion; hysteria.

Cyfrifir y llysieuyn hwn yn llesol rhag *dolur y fam,* a chlefyd y gwaed.—*H. Davies:* Llysieuaeth Gymreig, 226.

Y dolur gwaethaf, the leprosy.

Dolur byr, black leg, black quarter, black quarter strike, quarter evil.

Dolurfawr, *a.* very sore or painful.

Dolurus calon *dolurfawr.*—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Doluriad, -au, *sm.* an aching, paining, or smarting; a making sore or painful; a wounding.

Y mae rhyw greadur trwy'r byd yn grwydredig . . .
Ag sydd i laweroedd yn gwneuthur *doluriad.*
Daniel Ddu, 278.

Dolurio, *v.* to be in pain; to ache, to smart; to grieve, to be sorry; to cause anguish, grief, or pain; to make sore or painful; to hurt; to wound; to strike with illness.

Ae *doluryaw* ynteu yna a wnaethpwyt.
Mabinogion, 138 (cf. 34, 179, 289).

Gwedy gwelet o Antigonus brawt. Pandrassus vrenhin Groec hynny *doluryaw* a wnaeth yn vwy no meint.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 45 (cf. 144, 145, 148, 159, 178, 193, 197).

Ac yna *doluryaw* a oruc Marali am welet ageu y nei.
Yst. de Carolo Magno, col. 479 (cf. 455).

Yna y *doluryaw* yn uawr am kleuyt y iarlles.
Bown o Hamtwn, ¶ 2.

A *doluryaw* yn vawr a wnaeth yn y vedwl.—*St. Greal,* ¶ 33.

Digitized by Google

A gwedy yr gwr da clybot y ansawd. kyt *doluryaw* ac ef a oruc.—*Amlyn ac Amig*, col. 1091.

Ai ofni ydd wyd o weled y grog hon, neu ynte y mwyth gryd y sydd yn dy *ddoluryaw*?—*Meddygon Myddfai*, ii. 809.

A phob ryw ddefawd i *ddolurio* cnawd.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 517.

Ei gnawd arno a *ddoluria*.—*Iob* xiv. 22.

Dwy sel aur a'm *dolurioedd*.—*H. ab Rhys ab Gwilym*.

Doluriog, *a.* suffering pain; sore, painful; pained, hurt; grieved.

Gwae aflach, o rhaid achwyn,
Gwae lef *doluriawg* i'w lwyn!—*D. ab Gwilym*, ccl. 21.

A theimlo galaeth, a chwyn, ysywaeth,
Awen-ddal hiraeth yn *ddoluriog*.—*Morgan Gruffydd*.

Dolurus, } *a.* sore, painful; grievous; dolor-
Dolurius, } ous; grieved, sorry; doleful, sad.

Tri avlavar anianawl: maban cyn oed pedwar ar ddeg: clav a *dolurus* gorweddawg.—*C.C.* ii. 546.

Pan weles Paredur a Bwrt Galaath yn varw trist a *doluryus* vu ganthunt.
St. Greal, 170 (cf. 11, 14, 91, 121, 135, 140).

Aiax yn *doluryus* or brath ac yn lludedic a ymhoeles yr lluesteu.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 32 (cf. 132).

Ae wan ac arllost y waew y rwng ysgwyd a mynwgyl. dyrnawt mawr *doluryus*.—*Mabinogion*, 198.

Ac wrth hynny *doluryus* yw genyf i.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 244.

Y mae *dolurus* uyg kallon i a thrist rac ofyn am y gwr mwyaf a garaf.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 447.

A thrist *doluryus* oed y Sarassinyeit.
Yst. de Carolo Magno, col. 448.

Tri dyn y dylid gadael yn rhydd y ffordd iddynt: oedranus; *dolurus;* a llwythog.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 263 (cf. 154).

Dolurus yw dal ar serch.—*D. ab Gwilym*, xviii. 8.

Dod ddyferyn yn y llygad a fo *dolurus*.
Meddygon Myddfai, ii. 33 (cf. 222).

Ym' y rhoed, er mwyhau rhus,
Ddwy alarwisg *ddolurus*.—*L. G. Cothi*, i. v. 9.

Dolurus yw fy archoll.
Ier. x. 19 (cf. xxx. 12; Gen. xxxiv. 25).

Y Ffordd Ddolurus, } the Via Dolorosa (in
Y Llwybr Dolurus, } modern Jerusalem).

A ni yn myned i waered ym mhellach yn yr un heol, dangosasant y ffordd yr aeth ein Iachawdwr Crist i'w groeshoelio, a alwyd ganddynt hwy *y Ffordd Ddolurus*. . . Yn y fan yma, dywedasant, pan oedd Simon o Cyrene yn dyfod tu â'r *Ffordd Ddolurus*, ar i'r milwyr alw arno, ac a'i cymbellasant yn ebrwydd yn erbyn ei ewyllys, i gymhorth ein Iachawdwr i ddwyn ei groes.
W. Lewes: Dwy Daith, 11.

Y Llwybr Dolurus, yr hon yw'r ffordd yr aeth ein Iachawdwr i gael ei groeshoelio.—*W. Lewes:* Dwy Daith, 47.

Dolwch, } *sm.* [dy-+golwch: cf. *golychwyd*]
Dolwg, } worship, adoration.

Man nad oes *dolwch* byth wedi yma.—*Taliesin.* (*P.*)

Dolystain, *pl.* dolysteiniau, *sm.* [=dolystum?] a sharp tremulous noise or sound; a quaver.

Dolysteiniad, -au, *sm.* a quavering.

Dolysteiniad, toriad hon,
A glywai clustiau'r glewion.—*Hwfa Mon:* Gwaith, 185.

Dolysteinio, *v.* to quaver, to shake the voice.

Ar y coedydd mae'r cu ehedion,
Adar â'u cynhes hydr acenion;
Achenedd ryfedd i'r Ion a eiliant,
Dolysteiniant dlos-wawd hoew union.
Rhisiart Powel: Tymmorau, 10.

Llais ei cherdd drwy y werdd wig ymddyrcha,
A *ddolysteinia* hedd lysdai unig.
Hwfa Mon: Gwaith, 101.

Dolysteiniol, *a.* quavering; trembling.

Dolystum, -iau, *sm.* [dôl+ystum] a curvature; a bent or bending form; a meander; the hasp of a lock; a staple.

Dolystumiad, -au, *sm.* curvation, a bending, a winding.

Dolystumiad afon, the winding of a river.

Dolystumio, *v.* to curve, bend, or meander.

Dolystumiog, *a.* curved, bent; full of bends or curves; winding, meandering.

Dolystumiol, *a.* bending, curving.

Dollwng, *v.* [dy-+gollwng] to let loose; to loosen; to let.

Dollwng gwaed dan draed a drig,
Dewis gwydd dew osgeiddig.—*Ieuan Gethin*, i'r Llwynog.

Dollyngiad, -au, *sm.* a letting loose, a loosening.

Dollyngol, *a.* tending to let loose; loosening; elapsing.

Dom, *sm.* dung, ordure; dirt; manure.

Cwrach memrwn, wed-grwn waith,
I'r *dom* a fwriwyd ymaith.—*D. ab. Gwilym*, cxxi. 19.

Y ci a ymchwelodd at ei chwydiad ei hun; a'r hwch, wedi ei golchi, i'w hymdreiglfa yn y *dom*.
2 *Pedr* ii. 22 (cf. Barn. iii. 22).

Dos i'r *dom*, sathr y clai.—*Nah.* iii. 14 (cf. Ier. xxxviii. 22).

Gwared fi o'r *dom*.—*Salm.* lxix. 14.

Nid yw dyn yn rhoddi dim ond llysnafedd a *dom*.
Gr. Wynn: Ystyriaethau, 29.

Y mae'r *dom* yn troi yn achles ac yn ddaiar.
Dafydd Lewys: Golwg, xvii. 5.

Chwi a ellwch eu cyffelybu hwy i'r tai bach o dywod a *dom* a wna plant i'w difyru eu hunain.
Gr. Wynn: Ystyriaethau, 27.

Mae'r cybydd yn gwyrdroi cwrs naturiaeth . . . i gael gadael (fel crochenyddion China) fwy pentwr o *ddom* i'w hepil, ac yntau ei hun yn myn'd i gymmeryd meddiant tragwyddol mewn rhan o etifeddiaeth Difes.
Elis Wynn: Rh.B.S. 233.

Culaniwm, llysiau'r *dom*, y dinllys, dail y dindost.
Meddygon Myddfai, 284.

Llusgo (ymlusgo) yn y *dom*, llodro, ymlodro, diblo, ymddiblo.—*Walters*, s.v. 'Draggle.'

Rhag wrth gerdded i chwi gwympo yn y *dom*.
Ed. Iames: Hom. (1606), i. 8.

Y mae y Rhinoceros yn hoffi ymdreiglo yn y *dom* fel mochyn.—*Seren Gomer*, viii. 113.

Ni ddywedir fod y bobl yn bwyta y *dom*. . . Er hyny . . . yr oedd y *dom* . . . yn dda rhag y newyn. . . Rhaid fod y *dom* yn fuddiol rhag newyn mewn rhyw ffordd heb law trwy ei fwyta. Naturiol yw casglu eu bod yn defnyddio *dom* fel tail er codi rhyw fath o lysiau.—*Ioseph Harris:* Gweith. 321.

Nid ydynt yn gwneyd nyth i dderbyn eu hwyau, y rhai a ddeorir gan wres yr haul a'r *dom*.
Anianyddiaeth Ysgrythyrol, 66.

Costog y dom, } pale-flowered persicaria or knot-
Llys y dom, } grass (*Polygonum lapathifolium*).
—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 38 (cf. 174).

Porth y dom, the dung gate.—*Neh.* ii. 13; iii. 13.

¶ In most dictionaries, and other books, partly including the Bible, the recognised form is exclusively *tom;* but *dom* is the more usual word in the spoken language; as, *yn y dom, bwrw dom* (=bwrw tail), *chwalu dom, llawer o ddom, llawn o ddom, myned yn ddom, llysiau'r dom, cler y dom, cylion y dom, pryf y dom, chwilen y dom*, and the like.

Tomen, now a dunghill, which seems to have contributed to the exclusion of *dom*, was not originally so called on account of its being a heap of dung or manure, but because it was a heap, mound, or tumulus: cf. *Tomen y Bala, Tomen y Mur, Tomen Rhodwydd, Tomen Caradog, Tomen Madog*, and others.

Dr. Pughe makes *tom* a feminine noun, which is never the case in the sense now under consideration; and if it were so, the following and similar passages would not be correct.: *Iob* vii. 5; *Salm.* lxix. 2.

Digitized by Google

Domi, *v.* to dung; to manure with dung; to drop dung or excrement.—*C.S.*

Domlyd, *a.* dirty, full of dirt.

Dondiad, -au, *sm.* a twitting or upbraiding.

Dondio, *v.* [E. *taunt?* cf. L. *tento*] to twit, upbraid, taunt, or reproach; to threaten.

Dondiol, *a.* upbraiding, reproaching.

Dondiwr, wyr, *sm.* one who upbraids or reproaches.

Donhau, *v.* [dawn]=*Donio.*

Lleaws creadur a vac terra
A wnaeth Duw y dyn yr y *donha.*—*Taliesin:* A.B. ii. 164.

Doniad, -au, *sm.* an endowing or conferring; donation; endowment.

Doniaeth, -au, *sf.* [dawn] endowment; quality of mind; grace.

Hawdd yw'ch dwyn, hydd iach *doniaeth*,
I Feli Mawr.—*Meurig Dafydd.*

Doniau, *s.* pl. of *Dawn*, q.v.

Myvi a wnn vyng gwneuthur o Duw yn dec ac yn gadarn. am kannysgaedu o bop *donyeu.*—*St. Greal*, ¶ 19 (cf. 78).

Yny obrynhom nynhev caffel trwy y rei hynny seith *donnyeu* yr Yspryt Glan. a thrwy y seith *donnyev* hynny.
Llyfr Ancr, 147.

Llew o *ddoniau* llwyddiannus.—*Rhys Jones:* Gwaith, 152.

Doniedig, *pt.a.* endowed, gifted; inspired.

Donio, *v.* [dawn] to endow, to gift; to bestow, confer, or present; to enrich, furnish, or provide with; to qualify; to inspire.

A minheu om radeu rym anant
Yn rut eur yn rwyt ardunyant
O bob rif ym rwyf ym *donyant.*
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 300 (cf. 426, 427).

Mwyalchen, i'n bedwen ber,
A'n *doniai* â chân dyner.—*Dafydd ab Gwilym*, cclv. 25.

Gwell iddo a *ddonier* nog a fonedder.
Diareb. (M.A. iii. 160.)

Nid oedd dim yn anian a dyciai i'w lenwi â'r hon nid adwaenai; neu ei *ddoniaw* i gyfansoddi yn bencerddaidd ar un o'r mesurau.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 499.

Er mwyn dwyn y genedl i roi cred i'w rhagfynegiadau am Grist, *doniwyd* y prophwydi i ragdraethu lliaws o bethau ereill.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 195.

Duw a'm donwy (=Duw a'm donio), may God endow or inspire me.—*D.*

Traethaf o honaw honnaid farchawg
Tra ym *donwy Duw* dawn arderchawg.
Gwalchmai: M.A. i. 199 (cf. 219, 263).

Doniog, *a.* gifted, endowed, talented, of good parts; free of gift, bountiful, liberal; benefited; advantageous; fortunate.

Hynt ffrwythlawn *donyawc* hyrrwyd glotuawr a dugost.
Mabinogion, 262.

Dywedassant panyw *donyawc* vu udunt a chadarn dyuotyat Lawnslot yny delei Arthur adref.
St. Greal, ¶ 218 (cf. 180).

Swyddwyr *donawc* y llys.—*C.C.* ii. 586.

Asswynaf nawdd Duw diamheu dy ddawn
Ath *ddoniawg* wyf finneu.
Cynddelw: M.A. i. 234 (cf. 304, 318, 330).

Dinag bobl, *doniog* bybyr,
O dir Gwent, lle mae da'r gwŷr.—*D. ab Gwilym*, xciii. 27.

A glywaist ti chwedl Anarawd,
Tywysawg *doniawg* didlawd?
Rhaid wrth ammhwyll pwyll parawd.—*Iolo Mss.* 255.

Aed son, ac am ferched saith,
Yn *ddoniog*, yn ddiweniaith.—*Dafydd Benwyn.*

Ior *doniawg* aur adanedd.—*Simwnt Fychan.*

Gwr doniog, } a gifted or talented person; a
Dyn donioy, } man of genius; a person of varied accomplishments.

Bu Groeg a Rhufain enwawg
Yn perchen *dynion doniawg.*—*G. Mechain:* Gwaith, i. 288.

Arglwydd grasol gwleddau gwresog
A gâr dynion, yw'r *gwr doniog.*
Gutyn Owain: G.B.C. 208.

Fy nhywysawg, *ddoniawg ddyn!*
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 14.

Doniol, *a.* 1. liberal, generous, beneficial.

Wedi marw Siasber, fe ddaeth y brenin Harri'r Wythfed i Dywysogaeth Morganwg, ac a'i rhows i'r arlwydd William Herbert, ac efe a fu *ddoniol* iawn i'r wlad.—*Edward Gamais.*

2. gifted, endowed, talented; endowed with gifts; virtuous.

Rhoed pobloedd filoedd fawl
I'w *ddoniawl* arddunïant.
Thomas Lewys: Cyfrinach y Beirdd, 155.

Hoew wŷr *doniol*, hir y dunoch.—*Gronwy Owain*, 104.

Pa beth oedd nifer bychan llon o ddynion, er mor *ddoniol*, I sefyll a gwynebu'r gad is triniad llu estronol?
Cawrdaf: Meudwy Cymreig, 217.

Er ei fod ef . . . yn ei harferyd â holl egni ei fyfyrdod *doniawl* yn erbyn ewyllys y Rhoddwr.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 490.

Dyn doniol, a gifted or talented person; a man of genius.

Ammod nodawl i'r oes rasawl,
A'm hedd i'm hawl, a *dyn doniawl.*
Dafydd Llwyd Mathew: Cyfr. y Beirdd, 81.

Offeryn fu'r *dyn doniawl*,
I hedd fod,—e haeddai fawl!—*G. Mechain:* Gwaith, i. 90.

3. gifted as to power of speaking fluently or eloquently; fluent. (A popular use.)

Doniwr, wyr, *sm.* one who gifts or endows, an endower; a donor, a giver.

Dônt, *v.* [dȧw]=*Deuant:* see *Dyfod.*

A ddêl o longau Selont
I'r Feri; i Dywi y *dônt.*—*L. G. Cothi*, iv. xviii. 21.

Dôodwf, *sm.*=*dyodwf.*

Dor (*ô*), -au, *sf.* [C. *darat, daras;* Br. *dôr;* Ir. *dorus, duras;* Ga. *dorus;* Gr. *θύρα;* L. *foris*] 1. a door.

Y beinkeu ar tubyst, ar *dor*, ar gynor, ar gordryssеu ar trosteu, ar trothwyeu keinawc kyfreith yw gwerth pob un o honunt.—*C.C.* i. 720.

Ar *dor* y mywn a gaewyt ual na allei Owein vynet odyno. . . Ac ual yd oed Owein uelly. sef y gwelei trwy gysswllt y *dor* heol gyfarwyneb ac ef.—*Mabinogion*, 172.

Ef a welei y *doreu* yn llawn o varyfeu gwedy eu taraw a hoelyon heyrn wrthunt.—*St. Greal*, ¶ 137.

Doreu y neuad a tebygei eu bot yn eur oll.
Mabinogion, 84 (cf. 206).

Yna a phwmel y gledyf ef a drewis y porth yn y yttoed y pwmel yn anodi yn y *dor* yny dorres.—*St. Greal*, ¶ 189.

Archaf arch y Duw ar *doreu* nef
Na ddotto Pedyr gloeu ym llutyas
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 331.

Deuthant ygyt hyt yn *dor* sened Vreui.
Buchedd Dewi: Ll.A. 112 (cf. 106).

Ac yna rhwng dwy gynnor
Y buon' ddydd heb un *ddor.*—*Iolo Mss.* 301 (cf. 296).

Siglo'r *ddor* rhag bod yn segur.
Diareb. (M.A. iii. 188; cf. 164.)

Cur y *ddor*, par agori,
Cyn y dydd, i'm cennad i.
D. ab Gwilym, lxix. 51 (cf. cviii. 9, 26, 63).

Ar y rhai'n, dan bwys f' einioes,
Na phorthor na *dor* nid oes.—*L. G. Cothi*, v. xiii. 21.

A phwy a gauodd y môr â *dorau?*
Iob xxxviii. 8 (cf. 10; xli. 14; Gen. xix. 6, 9, 10).

Digitized by Google

Ac yr oedd y ddwy *ddor* o goed ffynidwydd.
1 *Bren.* vi. 34 (cf. 31, 32; vii. 50).

Agorwch y *ddor*, ac efe a ddaw i mewn yn ddiau.
Sam. Williams: Amser (1724), 18.

Mae'r *ddor* yn egored i garu.
Edward Richard: Bugeilgerdd, i. 4.

Disgwyl i'r *ddor* egor ym'.—*Gronwy Owain*, 7.

Cil y ddor: see *Cil.*

Oes bris wrth agor *cil y ddor*,
Pa du i'r agendor fyddo?—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 69.

Dor dyrchafad, } (*pl.* dorau dyrchafad), a
Dor ddyrchafad, } portcullis.

Ac y porth y gaer y deuthant. ac ellwng y marchawc duawc a wnaethpwyt y mywn. ac ellwng *dor dyrchauat* a wnaethpwyt ar Oweln. a honno ae medrawd odis y pardwgyl y kyfrwy yny dorres y march yn deu hanner trwydaw a throelleu yr ysparduneu gan y sodleu Owein.
Mabinogion, 172.

Dor gaead, a closed door.—*M.A.* i. 520.

2. (fig. and obs.) that which guards, protects, shields, or encloses; a cover, a covering; a guard; a shield.

Oed *dor* diachor diachor Din Drei.
Aneurin: God. 427 (cf. 453).

Cas draus drablaud caud kywlat
Cadeu *ddr* car cor kyrchyat.
Cynddelw: M.A. i. 242 (cf. 207, 210, 223, 227).

Ath folant feirdion derwydon *dor*
O bedeiriaith dyfyn o bedeir or.
Cynddelw: M.A. i. 205 (cf. 240, 338).

Oer galon dan fron o fraw allwynin
Am frenin dewin *dor* Aberffraw.
Gruffydd Ynad Coch: M.A. i. 396.

O cafodd dau *dorau* dysg,
Da'u gwedd wrth oed ac addysg.—*Wiliam Cynwal.*

¶ Pughe makes *dor* masculine, which is contrary to usage in the spoken as well as the literary language.

Dorai, eion, *sc.* [dawr, dori] a forlorn one; an object of commiseration.—*P.*

Dorfod, *v.* [dawr+bod] to be concerned; to concern; to be interested.

Oian a parchellan maur erissi
A uit im Pridein ac nim *dorbi.*
Myrddin: A.B. ii. 26 (cf. 28).

Collir trydydd waith nim *dorpydd.*
Gorddodau Myrddin: M.A. i. 530.

Gwenlliant am gwnaeth rygaeth o ryd
Escor y hepcor nyd mi *dorvyd.*
Iorwerth Fychan: M.A. i. 415.

Neu mi ni'm *dorfi* dyrfa ddichweg.—*Gronwy Owain*, 28.

Dorglwyd, -i, -au, *sf.* [dor+clwyd] a hurdle to cover or close a door-way, a covering hurdle; a 'door-clate.'

Sef a dyly hy yny diweirdeb kymryt tarw trigayaf ac eillaw y loscwrn ae iraw a guer, ac odyna grynu y loscwrn trwy y *dorglwyt.*—*Cyfreithiau Cymru*, i. 752 (cf. 720).

Ys kynyal Cunedaf kyn kywys
A thytwet y wyneb a gatwet
Kanweith cyn bu lleith *dorglwyt*
Dychludent wyr Bryneich ym pymlwyt
Ef canet rac y ofyn ae arswyt oergerdet.
Taliesin: A.B. ii. 201 (M.A. i. 71).

Gwaew gwaedrwyf gwawr dirglwyf *dorglwyd*
Gwaew yg koryf yn toryf yn tryfrwyd wryaf
Y orssaf oet arswyd.—*Cynddelw:* M.A. i. 233.

Llorf corf canwledd eislath ddurgledd aestwyth *ddorglwyd.*—*Gr. ab Meredydd:* M.A. i. 445.

Dori, *v.* [dawr] to be concerned; to be interested; to concern; to care; to interest; to care for; to be interested in; to regard. See *Dawr.*

Ni'm *dorai* syrthiaw amserthedd galar.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 439.

Ni *ddoraf* yng ngwŷdd eirian
Na chog, nac eos a'i chân.
D. ab Gwilym, cclxii. 19 (cf. lxxxix. 43).

Ym Sant Grigor! ni'm *dorwn*
Euraw'r gwr à'r aerwy gwyn.—*L. G. Cothi*, III. iv. 17.

Gwel, ebe'r gwr boneddig, pa beth a ddaw o drachwant a thrachwilgarwch tu hwnt i'r hyn a'th *ddorai.*
Iolo Mss. 161.

Ni *ddorwn* i ddoe, er neb,
I ba fan y bai f' wyneb.—*D. ab Gwilym*, cxlviii. 42.

Ni'm *dawr* o ged eithr ei gweled.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 243.

Ni *ddorwn* ehud-farn nebun ysgentyn.
Dr. Th. Wiliams (Y Greal, 62).

Ni *ddoraf* neuadd arall,
Ni chlywaf, ni welaf wall.—*Gro. Owain*, 57 (cf. 77, 128).

Nudd araul, un a *ddorwn*,
Muner hael yw'r mwynwr hwn.
Rhys Jones: Gwaith, 231.

Tithau, nid rhaid it' weithion,
Ni'th *ddorodd* y rhodd aur hon.—*Gro. Owain*, 3 (cf. 59).

I ti ni *ddora* er tawr
Gyfgaened wen na phenawr.—*W. O. Pughe:* Bardd, i. 1.

Ai o Dduw, ai Uffern, ai o waeth nis *dorai.*
W. O. Pughe: C.G. ii. 50 (cf. 712; ix. 172).

Nis *dora* gorhaelioni o roddion Duw ar daen.
Seren Gomer, vi. 183.

Beth a ddorwn? what would I care?

Doriad, -au, *sm.* a being concerned; concernment.

Dorlawd, *sm.* [dawr+llawd] a fondling.—*P.*

Dorlodawl, *a.* apt to fondle.—*P.*

Dorlota, *v.* to fondle, to cherish.

Dorlotwr, wyr, } *sm.* one who fondles or
Dorlotydd, -ion, } cherishes, a fondler.

Dortur, -iau, *sm.* [Fr. *dortoir;* E. *dorture, dorter:* from L. *dormitorium*] a dormitory (in a convent); 'the common room where all the friars of one convent sleep at night.' See *Dormitorium* in Du Cange.

Difai naddfain defnyddfawr,
A derw tir mewn *dortur* mawr;
Tai melus win, teml y saint,
Tair cafell, tŷ i'r cwfaint.
Gutyn Owain (i Abad Dinas Basing): G.B.C. 199.

Dorth, *sm.* a covering; a limit.—*P.*

Dorus, *a.* [dawr] interesting.

Y gyfrol hon yw un o'r pethau mwyaf *dorus* a gyhoeddodd Iuddewon Prydain eto.
J. Mills (I. G. Alarch): Iuddewon Prydain, 139 (cf. 1).

Dos, -au, *sm.* 1. a drop; a particle.

Gogwn. . . Pet paladyr yg kat
Pet *dos* yg kawat.—*Taliesin:* A.B. ii. 135 (M.A. i. 36).

Bum darwedd yn llad Bum *das* [dos] ynghawad.
Taliesin: M.A. i. 29 (A.B. ii. 137).

Breudwydiaw er bun balchliw arien *dos*
Ys odidawg nos neu ym hepcyr.
Gwalchmai: M.A. i. 194.

Gan *ddos* mor dew a gwâr diffoddid hwynt.
W. O. Pughe: C.G. iii. 27.

2. a dropping down; a descent, a leap, a plunge.

Ac odd yr uchder fry efryddaf
I fâr y lli hyfwriai erfid *ddos*,
Ac i anniwedd nos y soddai.—*W. O. Pughe:* Bardd, iii. 3.

Dos, } -au, *sm.* a spot, a speck, a speckle;
Dosyn, } a pimple.

Eli hufen a sudd llysiau'r geiniog rhag digofaint, llosg, *dosau*, &c.—*Iolo Morganwg.*

Hwynt-hwy a chwyfent eu
Ffedelli plydd yn esgyll, cryno fân
Agweddau, holl amliwiau balchder haf
Am danynt, *dosau* aur, rhudd, glas, a gwyrdd.
W. O. Pughe: C.G. vii. 554.

Digitized by Google

Y mae ei wyneb yn llawn dosau cochion, his face is covered with red spots or pimples.—*S. W.*

In the subjoined quotation *dofynau* seems to be a scribal or a typographical error for *dosynau:*

Casgl ddail y deri ym mis Awst neu fis Medi, a sych yn dda a chadw yn gaëedig, a dod ar bob twn o groen, ac ar *ddofynau* dyfrllyd; ac iach y byddi.
Meddygon Myddfai, ii. 797.

Dos, *v.* [C. *dos*, come] 1. go, go thou, do thou go: used as the 3rd pers. sing. imper. of the irregular verb *Myned*. The corresponding plural is *ewch*.

Ie heb ynteu Pwyll *dos dos* yr llys a chymer y march kyntaf a welych a *dos* ragot yn y hol.—*Mab.* 9 (cf. 12, 120).

Dos heb y Gwenhwyuar. dyuot a oruc Gereint att y corr. . . . *Dos* ditheu heb hi ac nac ymwasc ac ef yny geffych arueu da.—*Mab.* 249 (cf. 115, 177, 249, 276).

Dos di ar y march hwnn.—*St. Greal*, 17 (cf. 21).

Dos, a goreskyn ef.—*Brut y Tywysogion*, 104.

Dos y wahanu y deu uarchawc racko.—*St. Greal*, § 147.

A *dos* yr dinas ac ef yth law.—*Llyfr Ancr*, 83.

'*Dos* di o'r byd a'th gywyddau!'
'*Dos* dithau i ffwrdd i'r poenau!'
'*Dos* di i boen a phenyd!'
'*Dos* dithau, frawd du, o'r byd!'
'*Dos* di i boenau uffernawl!'
'*Dos* dithau, frawd, i law diawl!'
Dafydd ab Gwilym, cxlix. 90.

Dos, gweithia heddyw yn fy ngwinllan.—*Matt.* xxi. 28.

Dos ataw; odid nas g✠yr am y ddylluan du hwnt i'r cof a'r gwybod sydd genyf fi; *dos* ato, a gofyn iddaw.
Iolo Mss. 189.

Dos di yno, destunwr.—*Sion Tudur.*

Dos trwy glod rhagod er hyn.—*Gronwy Owain*, 27.

Dos di, a'gwna dy oreu.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 108.

Dos ymaith, go away, go off; begone.

Hi a dywawt *dos ymeith* varchawc urdawl.
St. Greal, § 16 (cf. 17, 61).

Dos ymaith ar hyn o amser.
Act. xxiv. 25 (cf. Marc x. 52; Ioan iv. 50).

Dos i mewn, go in, enter, enter in.

Y porthawr heb ef *dos y mywn* a dywet uot yma beird o Uorgannwc.—*Mabinogion*, 71 (cf. 97).

Dos ditheu *y mywn* heb hi yn hy.—*St. Greal*, § 49 (cf. 62).

Dos i mewn i lawenydd dy arglwydd.
Matt. xxv. 21 (cf. 23).

Dos allan, go out, get out.—*Marc* v. 8.

Distawa, a *dos allan* o hono.—*Luc* iv. 35.

Na ddos, go not, do not go.

Na ddos i'r cynghor oni'th alwer yno.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 8.

Tydi vrenhin *na dos* a vo nes kannys dylyy.
St. Greal, § 23.

Na ddos i farn â'th was.—*Salm.* cxliii. 2.

Na ddos allan oddi yno nac yma na thraw.—1 *Bren.* ii. 36.

2. come (thou), *veni*. The word in this sense seldom occurs, and is now archaic or poetical; but it was the usual meaning in Cornish.

Dos yma lle yd ymwelwyf a thi.—*Mabinogion*, 120.

Dos yma, come here, come hither.

Yna y meudwy a dywawt wrth y mab. *dos yma* heb ef. weldyma Walchmei dy damunet ti.—*St. Greal*, § 109.

Dos yma heb hi y gyscu.—*Mabinogion*, 176.

Uwch ynddo eto chwythai ef,
A chodai lef llawenydd,—
Dos, Gelart, *dos*, rhoi clust wnait ti
Y blaenaf i'm lleferydd.—*Daniel Ddu*, 260.

Dere yma, anwylyn! hai, *dos* gyda mi!—*Telynegion*, 54.

¶ Salesbury uses *does* for *dos*, apparently in imitation of *moes* (pl. *moeswch*), with a plural *doeswch;* but such forms seem unknown to other writers.

Rhag i ni eu rhwystro hwy, *does* i'r môr, a bwrw fach.—*Matt.* xvii. 27 (cf. v. 24; xviii. 15; xxi. 28; Marc x. 21; Ioan iv. 50).

Ewch [**doeswch*] a manegwch i Ioan y pethau a glywsoch ac a welsoch.—*Matt.* xi. 4.

Cyfod, a *does* i Ddamasco.—*Act.* xxii. 10.

Dos, *px.* an intensive prefix, partly corresponding with *dys-*, used in a comparatively small number of words.

Dosawg, } *a.* [dos] consisting of drops, drop-
Dosog, } ping; speckled, spotted, marked with specks; dappled; pimpled.

Dos heb argysswrw ar llwrw yr lle
Dossawc hytolawc hawt y belre.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 292 (cf. 305).

Ceirch orddyfn archlyfn cyrch erchlas *dossawg*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 458.

Ei haelau yn flewawg, ei hwyneb yn *ddosawg*, a'i min yn dreflawg.—*Trioedd Moes:* M.A. iii. 194.

Dosawl, } *a.* tending to trickle or drop; drop-
Dosol, } ping, trickling.

Dosi, *v.* to drop, to trickle; to descend (as a drop), to drop down.

Ei dafawd fal yn *dosi* manna.
W. O. Pughe: C.G. ii. 112.

Ar chwim gan ofer ymchwyf esgyll tua dwfn
Yn swp y *dosai* ddeg-mil gwrhyd is,
Ac hyd yr awron cwympai.—*W. O. Pughe:* C.G. ii. 981.

Dosparth, -au, *sm.* [dos-+parth=L. *part-em*] 1. distribution, division, partition, separation; a section; analysis; a class; discrimination, discernment; decision, determination; conclusion, close.

Tri ryw gamdosparth yssyd y keffir amwaret amdanunt herwyd kyfreith Hywel heb uot yn reit nac yn berthynawl ymwystlaw a brawtwr; ac ny chyll amser y gyfreith y hameu y *dosparth* o bleit godef hyt pan vo llithredic vn dyd a blwydyn o dyd y *dosparth*.
Cyfreithiau Cymru, ii. 354 (cf. 356, 358; i. 372).

Cyntaf *dosparth* yw rhoddi barn o ddyn yn erbyn plaid heb allu iddaw i farnu o fraint tir, neu o fraint swydd.
Leges Wallicae, IV. cclxxiv. 1.

Tri dyn ny ddylir eu difeddianu yn y fo *dosparth*.
Cyfreithiau Cymru, ii. 630.

Yspeit y *dosparth* brawt amryssonn rwg deu wystyl a rother erbyn yn erbyn yn llaw y brenhin pymthec niwarnawt.—*C. C.* i. 472.

Och am ogonyant yr ymladeu, taryan y marchogyon, ymdiffynn y wlat, tegwch arueu, breich y kedernit, llaw yr haelon, llygat y *dosparth*, echtywynnwr yr aduwynder.
Brut y Tywysogion, 246.

Ni wyddoch chwithau pa draetho'ch tafodau
Na *dosparth* diau rhwng eich gwir ach gau.
Taliesin: M.A. i. 47.

Mae anghyttundeb yn gwneuthur *dosparth*, am hyny ni ddylai hi fod ym mhlith Christianogion, y rhai y mae un ffydd ac un bedydd yn eu cyssylltu yng nghyd mewn undeb.—*Ed. James:* Hom. i. 179.

Yr oedd pob *dosparth* i waesanaethu yn ei gylch.
Thomas Charles, s.v.

Ni chynnyrcha *dosparth* calchog swydd Benfro, ond ychydig o nentydd bychain.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 341 (cf. 346).

Hwynt-hwy yw y gadwyn ag sydd yn cyssylltu y *dosparth* uchaf a'r *dosparthau* ag sydd, o ran meddiannau a gwybodaeth, ychydig is law iddynt.
W. Jones: Nodweddiad y Cymry, 13 (cf. 12, 14, 15, 16).

Y mae y *dosparth* hwnw yn lleihau mewn parch a rhifedi yn feunyddiol.—*Adolygydd*, i. 182.

Yn hyn fydd arwydd sicr fod holl *ddosparthion* y fro yn ddiwyd gyd â'u gwahanol alwedigaethau.
Brutus: Brutusiana, 84 (cf. 178).

Digitized by Google

Y dosparth cyntaf, } the first class or di-
Y dosparth blaenaf, } vision.

Pob dosparth, every class; all classes.

Pob gradd a dosparth, all grades and classes; all sorts and conditions.

2. (*sm-f.*) order, method; arrangement, regulation; system.

Ny bu well dy *dosparth* eiryoet nor ulwydyn honn.
Mabinogion, 7.

Sef a'u gelwir Tri phrifeirdd llên, am wneuthur o honynt lyfrau a *dosparthau* ysgrifenedig ar y gelfyddyd wrth gerdd, ac a berthyn iddi.
Barddas, ii. 136 (cf. i. 74, 92, 96, 104, 156, 288).

Harddwch dysg gloew *ddosparthau*.—*M.A.* iii. 93 (cf. 11, 13, 19, 35, 112, 113, 125, 206, 212, 234, 265, 269, 271, 278).

Meirchion ab Gwrgan a wnaeth lawer o drefydd, a *dosparth* ar wlad yn gantrefydd, a *dosparth* ar wŷr wrth ddysg a chelfyddyd.—*Iolo Mss.* 9 (cf. 48, 204, 213).

Tri daffarolion ceudawd: amlygu gwirionedd; amlhau gwybodau; a threfnu *dosparthau* cedeirn.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 267.

At y rhan hon y perthyn pob *dosparth* ar gynghanedd a mesurau cerdd dafod.—*Dr. Gr. Roberts*: Gram. 10.

Efe a ddodes newyddion o foddion a defodau yn amgen a geffir ar yr hen *ddosparthau* gwlad Gymru a gwlad Lydaw. . . Gwel a'i deallo mai o *Ddosparth* Ceraint Fardd Glas y tyned un Llydaw, a llawer o un Gruffydd ab Cynan, a elwir *Dosparth* Glyn Achled a *Dosparth* Aberffraw.
Iolo Mss. 210 (cf. 214, 215).

Llawer celfyddyd y sydd nis gellir llwyr amlwg a llwyr gyflawn *ddosparth* ar ei changenau.
Cyfrinach y Beirdd, 159 (cf. 171).

Dosparth y dosparthau, the system of systems.

Beth yw rhagluniaeth Duw? Trefn y trefnau, a *dosparth y dosparthau*.—*Barddas*, i. 268.

Gwneuthur dosparth ar, to set in order; to reduce to order or system; to systematize; to arrange.

Efe a wnaeth *ddosparth* gyntaf *ar* gyfreithiau, a deddfau, a defodau, a breiniau gwlad a chenedl.
Trioedd: M.A. ii. 57.

Goreu o neb a fu erioed oedd efe ar y gelfyddyd honno, ac a wnaeth *ddosparth* warantedig arni. . . Ac ni ddysgodd nebryw genedl gelfyddyd y Benwyll hwnw, o herwydd ei *dosparthau* a'i chyflawnder, namyn cenedl y Cymry a gwŷr Ffrainc.—*Iolo Mss.* 76.

Ar ddosparth, in order; methodically, systematically, orderly; well arranged.

Ar bob cynghanedd, meddaf,
Y gwir *ar ddosparth* a gaf.
Iorwerth Fynglwyd: Iolo Mss. 319.

Amlaf o rif *ar ddosparth* yw tri. . . Naw o dri thri ydynt rifoedd ansoddedig *ar ddosparth*.—*Barddas*, i. 104 (cf. 96).

Galw ar y dosparth, to appeal from a judge's sentence.

A chyd gwnel plaid ammheu a *galw ar y dosparth* a wnel canonwyr, nid erbynir ac nis gwrandewir herwydd cyfraith.
Leges Wallicæ, iv. cclxxiv. 5.

Trefn a dosparth, order and system, order and method, systematical arrangement.

Yno gwahawdd gwŷr wrth gerdd dafod a thant, lle gwnaethpwyd *drefn a dosparth* a braint iddynt . . . ac yn y wledd honno gwnaethpwyd *trefn a dosparth* wahanred ar achau bonedd.—*Iolo Mss.* 215.

O'u gwybod a'u deall y ceir deall ar ansawdd y gelfyddyd ydd ymgeisier â hi, ac y gwneir *trefn a dosparth* arni.—*Barddas*, ii. 144.

Llywelyn Sion o Langewydd . . . a wnaeth *drefn a dosparth* ar fesurau cerdd.
Edward Dafydd: Cyfr. y Beirdd, 2 (cf. 7, 8, 9).

Dosparth y Ford Gron, the Order of the Round Table; the Institutes of the Round Table.

Amrwy ac aerwy y gelwid breichrwy yn *Nosparth y Ford Gron*.—*Iolo Mss.* 217 (cf. 210).

A thyma ddechreu Cadair Morganwg, yn amrafael ar Gadair Beirdd Ynys Prydain, sef un Caerlleon ar Wysg, dan *Ddosparth y Ford Gron*.
Iolo Morganwg: Cyfr. y Beirdd, Rhagdd. 10.

Dosparth Morganwg, the Glamorgan System (of Welsh versification).

Y ddosparth ar gerdd a welir yn y llyfr hyn a elwir er ys hirfod maith o amser *Dosparth Morganwg*; eithr dylid o gyflawn bwyll ei galw yn Hen Ddosparth Beirdd Ynys Prydain; ond beirdd Gwynedd a'i galwant yn Ddosparth y Cwn, a Dosparth y Moch, a Dosparth y Domen. . . Dosparth Caerfyrddin yw yr un sydd ar arfer gan feirdd Gwynedd.
Edward Dafydd: Cyfrinach y Beirdd, 4 (cf. 9, 10).

Dosparth Caerfyrddin, the Carmarthen System=the metrical system, consisting of 24 peculiar meters, sanctioned by the Eisteddfod held at Carmarthen in 1451. It is the same as *Dosparth Gwynedd*.

Gwnaethpwyd barn a gwelliant ar fesurau cerdd, a chynghanedd, gan Ddafydd ab Edmwnt, yng Ngorsedd Caerfyrddin, a chael yno barn beirdd ac awduron er trefnu dosparth newydd ar gerdd, yr hon a elwir *Dosparth Caerfyrddin*.—*Llywelyn Sion*: Cyfr. y Beirdd, 8 (cf. 4, 9, 10).

Y pedwar ar hugain mesur hyn a elwid byth o hyny allan yn *Ddosparth Caer Fyrddin*, *Dosparth D. ab Edmwnt*, a *Dosparth Gwynedd*.—*G. Mechain*: Gwaith, ii. 168.

Dosparth yr haul, } the solar system.
Y dosparth heulog, }

Dosparth yr haul, sydd yn cynnwys yr haul, y saith blaned a'u lleuadau, ac y ser gwib.
Robert Roberts: Seryddiaeth, 70 (cf. 4).

Dysgrifiad o blanedau uwchraddol y *Dosparth Heulog*.
Dosparth Heulawg, ii. 7.

Awn rhagom bellach i ddysgrifio y *Dosparth Heulog*. . . Gelwir ef y *Dosparth Heulog*, *Dosparth yr Haul*, y Gyfundrefn Heulog, y Cyssawd Heulog, y Gyfundraeth Heulog, a Deseb yr Haul.—*Elfennau Seryddiaeth*, v.

Dosparth, *v.*=*Dosparthu*.

Detfryd gwlad y *ddosparth* hawl, ny bo y chyfryw ynghyfreith.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 654 (cf. 372).

Dosparthadwy, *a.* divisible, dividable, distributable; decidable; discernible.

Dosparthedig, *pt.a.* divided, distributed; arranged; distinguished.

Rhif ansoddedig, lle a'i gwyper, sef a ddyco arno y cyfan parth rhyw ac ansawdd o'r hyn a ddoder yn *ddosparthedig* ar hyny o rif.—*Barddas*, i. 104 (cf. 140).

Mae'r holl ddoniau hyn yn dyfod oddi wrth yr un Yspryd, a chwedi eu rhoddi yn *ddosparthedig* i bob dyn.
Ed. James: Hom. iii. 112.

Dosparthedigaeth, -au, *sf.* distribution, analysation, discrimination; distinction; systematization, arrangement.

Dospartheg, -au, *sf.* a system.

Echrydus oedd gan Gordon adrodd, yn ei ddaiarol *ddospartheg*, nad oedd y Cristianogion, a'u cymmeryd drwyddynt ddrwg a da . . . ond un rhan o chwech o drigolion y ddaiar.—*Gwallter Mechain*: Gwaith, ii. 87.

Dosparthedigol, *a.* discretive, distinctive; tending to divide or separate; discriminative.

Dosparthgar, *a.* methodical, orderly, regular, systematic.

Bydd wastad a *dosparthgar*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 131.

Dosparthiad, -au, *sm.* division, distribution, separation; discrimination; decision; classification; analysation; arrangement, order, class; a course.

A dosparthodd Dafydd hwynt yn *ddosparthiadau* ym mysg meibion Lefi.
1 *Cron.* xxiii. 6 (cf. xxiv. 1, 19; xxvi. 1, 19).

Megys y dangosais i chwi yn nechreuad y *dosparthiad* hwn.—*Ios. Tomas*: Buch. Grist. 76 (cf. 188, 336, 337).

Dygwch y *dosparthiadau* ataf fi yma.
Ios. xviii. 6 (cf. Esr. vi. 18).

Llonyddwch, yn ei brif *ddosparthiad*, sy ddau fath.
Iago ab Dewi: Llonyddwch, 9 (cf. 5, 158, 158).

Digitized by Google

Ei droad yn waed da yn yr afu, a'i *ddosparthiad* i'r holl ranau trwy'r gwythi, sydd yn maethu'r corff.
Elis Lewis: Drexelius, 299.

Er mai Ewrop ydyw y leiaf o *ddosparthiadau* y ddaiar, eto y mae hi yn rhagori ar y tair ereill.
R. Roberts: Daearyddiaeth, 3.

Yr ail a gynnwys *ddosparthiad* Rhufeinaidd y mis.
G. Mechain: Gwaith, ii. 199 (cf. 189, 231).

Mae ei dwyn ym mlaen ar egwyddorion teg a chyflawn yn anhebgorol anghenrheidiol er iechyd a llwyddiant gwahanol *ddosparthiadau* mewn crefydd a rhinwedd.
Diwygiwr, xii. 69.

Sylwer, fod y cyfarfodydd hyn i ofalu pwy i'w hanfon i siroedd neu *ddosparthiadau* ereill.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duwin. 298.

Mae cymdeithas yn fath o gadwyn, yr hon a wneir i fyny o amrywiol ddolenau; neu yn gorff, yr hwn sydd yn gynnwysedig o wahanol ranau neu *ddosparthiadau*, ac y mae gan bob dosparth ei gylch i droi ynddo.
Adolygydd, ii. 236.

Gellid cael lluniau gwahanol o'r *dosparthiadau* a enwais.
Gwyliedydd, vii. 253.

Dosparthiadol, *a.* distributive; separative; relating to a division or section; divisional; sectional; relating to a class or to classes.

O gyflëu dau neu fwy o enwau mewn cystrawiad, nid ellí fod ond un banogyn *dosparthiadawl*. . . Os cyflëir enw priawd ac enw galwedig yn gyfymlyn, yn unig, yr olaf yw y *dosparthiadawl*.
W. O. Pughe: Cad. yr Iaith Gym. i. v. 6.

O honynt ymdafiai mân fryniau israddol
I'r wlad yn gangenau, mewn dull *dosparthiadol*.
I. G. Aled: Palestina, 8.

Dull *dosparthiadol* Peter Ramus.—*Adolygydd*, iii. 154.

Y mae yn anhebgorol iddynt beidio gadael neb yn aelodau o'u cyfarfodydd *dosparthiadol* na fyddo o'r un farn â hwythau.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Duwin. 298.

Dosparthnod, -au, *sf-m.* 1. a section mark (in a book): also called *adrannod*.

Dosparthnod (¦) a arferir i ranu ymadrodd, neu bennod, yn ddosparthiadau llai.—*Isaac Jones:* Gram. Cym. 135.

2. a clause, a paragraph; a section.

Ac fel y bônt sicrach o gadw'r *dosparthnod* diweddaf hwn, na thraether y ddywededig farn yegar, nes i'r blaid neu'r pleidiau . . . roi meichiau a sicrwydd.
Canonau Eglwysig, 107.

Dosparthol, *a.* discretive; distributive; discriminative; analytical; divisional.

Dosparthu, *v.* to distribute, divide, distinguish, or separate; to analyse; to arrange, decide, determine, settle, or order; to discern or discriminate; to investigate; to appoint.

Pawb a fo dylyet iddaw mewn peth a eill roi croes yn y peth yny *ddosparther*.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 712.

Yny oed euo a luneithei negesseu y deyrnas. ac *dosparthei* y dadleuoed.—*Ystr. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 74.

Ac y *dosparthwyt* y dadleuoed ac negesseu.
Brut y Tywysogion, 74.

Ac ynn teir rann y *doosperthir* penyt.—*Llyfr Ancr*, 145.

Na vit neb kyn ehofnet ac y kymero y daryan honn onyt y neb y *dospartho* Duw idaw.—*St. Greal*, ¦ 10.

Yna y doeth o y wrth y brenhin doetheon o eakyb a Iorwerth vab Bledyn hyt yn Amwythic yn rhith *dosparthu* negesseu y brenhin.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 536.

Ac fal hyn y *dosperthir* mesurau llyn a gwlyb.
Meddygon Myddfai, 295.

Y rhai hyny a *ddosparthwyd* fal hyn.
H. Perri: Egl. Ffraethineb, xxix. 3.

Yn amser Garmon Sant y *dosparthwyd* Gwyndai gyntaf i'r esgobion.—*Iolo Mss.* 114 (cf. 204, 212).

A chyda hyn *dosparthu* tôn, acen, meidr a mesurau damwyniawl i ymadrodd, a'u rhanau, ni byddai ddim yn ol a berthynai at swydd gramadegwr ardderchawg.
Dr. Gr. Roberts: Gram. 10.

Mae anian dynion, a'u paradrwydd yn gogwyddo mor drwm at ddelwaddoliad, nad yw bosibl wahanu a *dosparthu* delwau oddi wrtho.—*Ed. James:* Hom. ii. 123.

Chwi a *ddosperthwch* y wlad yn saith ran.
Ios. xviii. 6 (cf. 4, 8, 9).

Am hyny y *dosperthir* y llyfr hwn yn ddwy ran.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. i. 1.

Mae y cyhydedd yn *dosparthu* Affrica agos yn ddwy ran gyfartal.—*R. Roberts:* Daearyddiaeth, 314.

Ni ddylid anghofio mai moddion yw yr Eglwys Sefydledig i *ddosparthu* gwybodaeth grefyddol ym mhob parth o'r deyrnas.—*Gwyliedydd*, x. 107.

Dosparthu cynhenau: see *Cynhen*.

Dosparthu drwg a da, 'to discern good and evil.'—*Heb.* v. 14 (A.V.).

Y mae ganddynt synwyr wedi ymarfer i *ddosparthu rhwng da a drwg*.—*Esgob Morgan:* Heb. v. 14.

Dosparthus, *a.* discretive; discreet; regular, orderly, systematic; arranged; proper.

Sev hyny, cyhoeddi gan gorn a gwaedd gwlad, yn mhob llys, a llan, a fair, a marchnad, ac ymhob tyrva *ddosparthus*, y peth a vo ar a gerydder yn vai cospiadawl.
Cyfreithiau Cymru, ii. 486 (cf. 504, 554).

Anuon a oruc ar Chyarlys y erchi idaw anuon deu wr *dosparthus* attaw y uenegi idaw ffuruf y dangneued a wnelit ac ef.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 460 (cf. 463).

Yr hynn a gais Duw gan bob creatur *dosparthus*.
Lucidar, ¦ 35 (cf. 42).

Tri arwydd doethineb: defodau daionus; ufudd-dawd rhag athraw; a threfnu yn *ddosparthus*.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 263 (cf. 227, 271; 282, 289, 295, 297).

Sef oedd y gwŷr hyn, prydyddion a gwŷr wrth gerdd a gwybodau doethineb cyn bod beirdd *dosparthus*.
Iolo Mss. 209 (cf. 40, 184, 208, 213, 214).

Ni wnelynt onid a fai *dosparthus* a chyflawn.
Trioedd: M.A. ii. 63.

Er cyfnawdd cyfnewidiaethau *dosparthus* ym mraint cyflawnder.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 296.

Cad ddosparthus, a regular or open battle.

Os yng nghynllwyn y ceffid dal un neu arall o'r estroniaid, ei losgi; os yng *nghad ddosparthus* a'i delid, a gwelid gwir ar hyny gan farn llys, ei ddadferth yn ol idd ei genedl am Gymro cymmraint a gaid ar ddadferth am danaw.
Iolo Mss. 187.

Dosparthwr, wyr, } *sm.* a distributer; a dis-
Dosparthydd, -ion, } penser; an arranger; an analyser; an investigator.

Yna y dylyir o bleit y brenhin kymell doethion oi kygelloryaetheu o pop parth y adnabot beth a dywedynt y *dosparthwyr* ae gwir ae geu.—*C.C.* ii. 372.

Dospen, -au, *sm.* [dos-+pen] a particular; a point; an object, intent, purpose.

Yn gymmaint a bod pobl yr awron yn ymlafurio ac yn ymrwyfo yn y byd, hyd onid agos awr eu hangeu; fyth a hefyd i dyru cyfoeth heb na medr na mesur, megys na bai na diben na *dospen*, nac ar eu dyddiau hwynt na'u meddiannau chwaith.
Th. Williams: Ymadroddion Bucheddol, 153.

Dospeniad, -au, *sm.* a particularizing; a characterizing, characterization; definition.

Dospenol, } *a.* characteristic; defining,
Dospeniadol, } definitional.

Dospenu, *v.* to particularize, to characterize; to define.

O fedru *dospenu* anian pob peth, y gan mwyaf . . . y gwybyddir bod dyn yn greadur rhesymawl.
H. Perri: Egl. Ffraethineb, Rhag. 4.

Dosran, -au, *sf.* [dos-+rhan] a section, a division, a portion, a part; a paragraph.

Dylid edrych am gyfochrion mewn *dosranau* o'r un natur, yn hytrach na *dosranau* o natur hollol wahanol.
Adolygydd, i. 127.

A diwedd pob *dosran* o honynt hwy ydoedd,
Addewid o gyflawn ddedwyddwch y nefoedd.
I. G. Aled: Palestina, 53.

Fy mhrif amcan, yn yr ysgrif hon, yw taro yn erbyn y twyll a'r anghyflawnder sydd wedi ymlusgo, braidd, i bob *dosran* o fasnach y wlad.—*Diwygiwr*, xii. 69.

Digitized by Google

Dosraniad, -au, *sm.* a dividing; a separating into classes, sections, or divisions; analysation; analysis.

Gellir egluro natur cyfansawdd dwfr ddwy ffordd; sef, trwy gyssodiad a dadgyssodiad, neu drwy gyfosodiad a *dosraniad*.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iv. 36.

Dosranol, *a.* pertaining to a division or section; sectional; analytical.

Dosranu, *v.* to distribute or divide; to separate; to analyze.

O fedru *dosranu* yn gywraint, a barnu yn hyfrawd ... yr adnebyddir bod dyn yn greadur cyfeilladwy.
H. Perri: Egl. Ffraethineb, Rhag. 4.

Ni a ddychwelwn bellach i *ddosranu* ac i ddyfynu y bryddest.—*Adolygydd*, i. 475.

Yr ydym wedi gwneuthur llawer cynnyg ar ddosparthu a *dosranu* y cloc sydd yn y gegin.
Elfenau Gallofyddiaeth, xxii.

Dosyn, *sm.*: see *Dos*, sm.

Dot, *sm.* [cf. *dotio*] giddiness, vertigo.

Dot mewn pen, a swimming of the head, giddiness.

Dotiad, -au, *sm.* [dotio] a doting; a mistaking, an erring; a confusing.

Dotian, } *v.* to dote; to confuse; to become
Dotianu, } confused; to be foolish.

Dy liw a'th lun heb un bai,
Odid dyn nas *dotianai*.—*R. Ddu ab Siancyn*.

Dotiedig, *pt.a.* doted; confused.

Dotiedig pob anghofus.—*Diareb.* (M.A. iii. 182.)

Dotio, *v.* [E. *dote*, †*dotien*, *doten*] to dote; to become confused or foolish; to cause to err or mistake; to confuse; to confound.

Ni chaf un awr, och finnau,
Nes *dotiaw* wers, wastatäu!—*Sion Ceri*.

Y byd yw eu duw hwynt, ac y maent yn *dotio* ar ei gyfoeth ef, ar ei bleserau, a'i fawredd.
Th. Williams: Ymadr. Buch. 342 (cf. 10).

Na *ddotia* wrth feddwl am lawer o dybiau da, tra fyddych di dy hun yn gwneuthur llawer peth yn erbyn dy gydwybod.—*Morgan Llwyd:* Tri Aderyn, 95 (cf. 45).

Dwr llif yw dy air llafar,
I *ddotio* 'r beilch ddeutu'r bar.
Huw Morus: E.C. i., Rhag. 53 (cf. ii. 19).

Dotiol, *a.* doting; tending to confuse or confound; confusing.

Dra, *prep.* and *adv.*=*Tra*.

Drab, -iau, *sm.* a piece (cut or torn off), a fragment.—*C.S.*

Tori yn ddrabiau=*Drabio*.

Drabio, *v.* to cut up, to tare, to cut in pieces.—*C.S.*

Drach, *prep.*=*Trach*.

Ei wraig ef a edrychodd *drach* ei chefn.—*Gen.* xix. 26.

Drachefn, *adv.*=*Trachefn*.

Ymchoelut a oruc Kei ar ei gedymdeithon *drachefyn*.
Mab. 181.

Dracht, -iau, *sm.* [E. *draught*]=*Tracht*.

Drachtio, *v.*=*Trachtio*.

Ac ni gawn *drachtio* fyth heb drai
O'r afon loew hyn.
W. Williams: Hymnau (1811), dcclxvi. 1.

Na, na, er *drachtio* cwpaneidiau celf a gwyddor,
Mae'r enaid yn dyheu gan syched didor.
Blodau Powys, 20.

Draen, *pl.* drain, *sm.* [C. *draen*, *drain* (C.V.); Br. *draen*, *drean* (pl. *drein*); Ir. *draighean*, *draighen*, *droighin*, *droigen*; Ga. *draighionn*] 1. a prickle, a spine; a thorn.

Pan yw mor trwm maen
Pan yw mor llym *draen*.—*Taliesin:* A.B. ii. 145.

Diriaid a gaiff *ddraen* yn ei uwd.—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

A'r ni wano yn *ddraen*, ni wân yn gippyll.
Diareb. (M.A. iii. 148; cf. 168.)

Fel *draen* yn myned i law dyn meddw.—*Diar.* xxvi. 9.

Rhai â chrwyn diogel, rhai â chregyn, rhai â chyrn, rhai ag esgyll llymion a *drain* pigog, rhai â chrafangau.
Dafydd Lewys: Golwg, viii. 9.

Mae arnad flaen *draen* a drig
Un dyfiad â phendefig.—*Llawdden*.

Os *draen* a â i mewn cnawd dyn, ai mewn traed, ai mewn llaw, oni ellir ei gael allan, cymmer wraidd yr ysgall duon, neu eu dail, a gwyn wïau, a chan blawd rhyg, neu haidd, lle ni bo rhyg, a dod wrtho yn blaster.
Meddygon Myddfai, ii. 75.

Spina, *draen*, draenen.—*Meddygon Myddfai*, 293.

Rhai a dybiant fod pigiad y *draen* yn wenwynllyd.
H. Davies: Llysieuaeth Gymreig, 184.

Pinau drain (*sg.* pin draen), thorn pins; the spines of the black thorn, decorticated and hardened in the sun, formerly used by some of the poorer classes and very economical persons for metal pins to fasten clothes.

Cadach sidan a *phin draen*,
A thwll ym mlaen yr esgid.—*Diareb.*

Gŵn sidan a *phin draen*.—*Diareb.*

A little packet of these articles (*pinau drain*) was often sent by a swain as an acceptable present to his lady-love. To this custom, common in his time (1714—1777), the pastoral poet alludes in the subjoined quotation:

Dyn beunydd dan benyd wyf finnau'r un ffunud,
Heb obaith am iechyd i'm clefyd a'm clwyf,
Ond annerch lliw'r hiñon â *phinau drain* duon,
A danfon pennillion pan allwyf.
Edward Richard: Bugeilgerdd, ii. 5.

Drain y camel, the camel-thorn (*Alhagi camelorum*).

Nid oes o'n blaen ond esgynlawr gwastad llydan ... fe allai, yn felyn a llosgedig, heb gymmaint a dalen i'w gweled, ond ambell dusw teneu o *ddrain y camel*.
Brutus: Ninefeh, 296.

Draen y coed, a hedgehog.

2. something proverbially worthless; a pin, a straw, a rush.

Draen yn ei gap a hoel helyg.—*Gronwy Owain*, 227.

Ni rown i ddraen am dano, I would not give a pin for him.

Ni phrisiant ddraen, they care not a straw.

Ni phrisiant hwy *ddraen* er gwario o hono ei holl nerth a'i amser.—*Gronwy Owain*, 164.

Talu draen, to be worth a straw, rush, or pin.

'Wel, wel,' ebr Taliesin, 'ni *thalwn* i yno *ddraen*.'
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 57 (cf. 108).

3. a wicker strainer; a kind of strainer (usually made of platted thorn twigs) used in the times of home brewing, which was placed before the faucet in the mash-tub, to prevent the grains from running out with the liquor.—*S.W.*

Draenberth, } -i, *sf.* a hedge of thorns; a
Dreinberth, } thicket of thorns.

Draenblu, *s.pl.* 'down feathers;' pin-feathers?

Draened, -au, *sm.* [draen] a hedgehog. See *Draeneta*.

Draenen, } *pl.* drain, *sf.* [draen] 1. a thorn. See
Dreinen, } *Draen*, *Drain*.

Draynen vyth a dimei [a tal].—*C.C.* i. 724.

Digitized by Google

Canu 'dd wyf, a bod yn llawen,
Fal yr eos ar y *ddraenen;*
Er bod y *ddraenen* yn fy mhigo,
Canu 'dd wyf a gadael iddo.—*Hen Bennill.*

Ac ni bydd mwy i dŷ Israel, o'r holl rai o'u hamgylch, a'r a'u dirmygasant, yspyddaden bigog, na *draenen* ofidus. *Esec.* xxviii. 24.

Gweled pob ffos mewn golwg,
Heb asgen gan *ddraenen* ddrwg.
Iolo Morganwg: Salm. i. 225.

Y goref o honynt sydd fel *draenen*, yr unionaf yn waeth na chae *drain.*—*Esgob Morgan:* Mic. vii. 4.

Draenen ddu (*pl.* drain duon), black thorn, sloe-tree (*Prunus spinosa*).

Spinus, duddraenen, *draenen ddu*, eirinwydd. *Meddygon Myddfai*, 293.

Cymmer risg y *ddraenen ddu*, y neesaf at y pren. *Meddygon Myddfai*, ii. 470.

Draenen wen (*pl.* drain gwynion), white thorn, hawthorn, may (*Mespilus oxyacantha*).

Spinus albus, *draenen wen*, yspyddaden, draen yspyddaid, egfaenwydd.—*Meddygon Myddfai*, 293.

Anianyddion a ranant goedydd a llysiau yn deuluoedd; teulu y dderwen yn dwyn mes, teulu y *ddraenen wen* yn dwyn ogfain, &c.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 168.

Y *ddraenen* gyffredin, neu y *ddraenen wen*, sydd yn dra defnyddiol megys prysgwydd, yn wrych, a phren. *Gwyliedydd*, xii. 12.

Draenen yspyddaid, } (*pl.* drain yspyddad, drain
Draenen yspyddad, } yspyddaid)=*Draenen wen.*

Draenen yspin, } (*pl.* drain yspin, drain ys-
Draenen yspinus, } pinus), barberry (*Berberis vulgaris*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 184.

Berberis, y pren melyn, *drain yspin*, greol yspin. *Meddygon Myddfai*, 293.

Cor-ddrain (*sg.* cor-ddraenen), dwarf hawthorns.

Draenen yr Aipht, Egyptian thorn, acacia.

Rhoddaf yn y diffaethwch y cedrwydd, *draenen yr Aipht*, myrtwydd, a'r pren olew. *Dr. Th. Briscoe:* Eshaiah, xli. 19.

Draenen Ffrainc (*pl.* drain Ffrainc), coton-easter (*Cotoneaster vulgaris*).

Draenen yr afr (*pl.* drain yr afr), goat's thorn, tragacanth.

2. (=draen 2) a prickle; a pin; a worthless trifle.

Ni phrisiwn *ddraenen* er gwneuthur pwt o gywydd i'r Gymdeithas o Hen Frytaniaid.—*Gronwy Owain*, 184.

Draeneta, } *v.* [draened, draenog] to hunt or
Draenoca, } catch hedgehogs.

Ambell waith y ferf a ffurfhëir o'r henw y bo ei gwaith hi yn ei gylch; mal . . . draened, *draeneta.* *Dr. Gr. Roberts:* Gram. 139.

Draenfrig, -au, *s.cl.* thorn branches.

A thraul ni bu arni erioed ond o'm gwaith i . . . yn taro blaen fy adain arni bob bore gwedi y disgynwn arni o berfedd *draenfrig.*—*Iolo Mss.* 189.

Draengae (*n-g*), -au, *sm.* a thorn-hedge.—*W.*

Draenglwyd } (*n-g*), -i, *sf.* [draen (drain) +
Dreinglwyd } clwyd] a hurdle of thorns; a bush-harrow?

Tra rheto yr og, rheted y *ddraenglwyd.* *Diareb.* (M.A. iii. 177.)

Draenllwyn, } -i, *sm.* a thorn bush, a thorn
Dreinllwyn, } brake, a grove of thorns.

Y *draenllwyn* glas urddasawl,
Lletty mwyn, lle tyfai mawl.
D. ab Gwilym, ccxviii. 1 (cf. cxcviii. 42).

Ffordd enbyd ar ffair Ddinbych,
Aml *draenllwyn* a gwrysglwyn gwrych.—*Iolo Goch.*

I selu merch oes le mwyn
Ond o'r unlle mewn *draenllwyn.*—*Dafydd ab Edmwnt.*

Draenog, -od, -iaid, *sm.* [draen] 1. a hedgehog, an urchin.

Blewogach oed a garwach y vlew nor hwch arwaf y gwrych. neu yr *draenawc.*—*Bowen o Hamtwn*, ‡10.

Draenawc gwrthrwn o auaeleu a adeila honno drachefyn. . . . Yndi y kud y *draenawc* y auaeleu. *Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 150.

Pais *draenog* oediog ydyw,
Pwn ar ên fal penor yw.—*Iolo Goch*, i'r Farf.

Beth wneir â lloc heb ddefaid?
Beth wneir â chath heb lygaid?
Beth wneir â phladur ar y rhew?
Beth wneir â blew *draenogiaid?*
Hen Bennill (Ystên Sioned, 48).

Cymmer *ddraenog*, a rhostia ef, a dod lestr i dderbyn y dyferon.—*Meddygon Myddfai*, ii. 232.

Y pelican hefyd a'r *draenog* a'i meddianna. *Esa.* xxxiv. 11 (cf. Lef. xi. 30).

Clywn y galon yng nghorn fy ngwddf, a'm gwallt yn sefyll fel gwrych *draenog*, cyn gweled. *Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 72.

Mae tri math o *ddraenogod;* sef *draenogod* America, sydd heb glustiau iddynt; *draenogod* Malacca, â chlustiau crogedig; a *draenogod* cyffredin ein gwlad.—*Th. Charles*, s.v.

Cyfarfyddir â'r *draenog* cyffredin yn y rhan fwyaf o hinsoddau tymmerus Ewrop ac Asia. *Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 636.

Daw y *draenog* o'i loches fel y delo ym mlaen gysgodion yr hwyr.—*Gylchgrawn*, ii. 122.

Draenog coed, an urchin.—*S.*

2. (-iaid) the bass or basse, a fresh-water fish.

Iachaf pysgawt mor yw lledyn. Iachaf pysgawt awedwr yw *draenogyeit* a brithyllyeit.—*Meddygon Myddfai*, i. 28.

Draenog y môr, } the sea-urchin or echinus.—
Draenog môr, } *W.*

3. (fig.) a cross-grained, touchy person.

Y llew a aned a aeth yn llwynog
I gadw'r deyrnas gwedi'r *draenog.*—*L. G. Cothi*, i. xv. 21.

Draenoges, -au, *sf.* 1. a female hedgehog. 2. a cross-grained woman.

Draenog a draenoges, 'an old baby and an old maid.'—*Gwent* (Iolo Glossary).

Draenwen, *sf.* [=draenen wen] white thorn, hawthorn.

Am ddyddiau'n ol y cofiwyf lawer hynt,
Lle safai'r bwth, a thyfai'r *ddraenwen* gynt.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 158.

Draenwydd, *s.pl.*=*Dreinwydd.*

Drag, -iau, *sm.* [E. *drag?*] a piece (rent or torn from anything).

Dragiad, -au, *sm.* a tearing or rending in pieces; a tearing or rending.

Dragio, *v.* to pull or rend in pieces; to tear, to rend, to mangle.—*D.*

Drwy goed ydd ä, *dragied* ddur.—*D. Llwyd Gorlech.*

Trythyll dan fentyll a fydd,
Draig wyllt yn *dragio* elltydd.—*Owain ab Llywelyn Moel.*

Draig wedi ei rhoi i'w gâr,
Drwy goed yn *dragio* adar.—*Iorwerth Fynglwyd.*

Dragiog, *a.* jagged, torn, having rents, lacinate.—*D.*

Llun draig o fellion *dragiawg.*—*Tudur Aled.*

Dragon, -au, } *sm.* [L. *draco*, acc. *draconem;*
Dragwn, ynau, } Gr. δράκων; Br. *dragon;* Ir. *dragun, dreagan;* Fr. *dragon;* E. *dragon,* †*dragun*] 1. a dragon.

Ym perued y daryan ef y mae llun *dragwn* yr hwnn a ellwng fflam a than drwydaw y geniuer gweith y mynnei. *St. Greal*, ‡185.

b. the dragon (as an emblem or symbol). Cf. *Draig* (2).

Digitized by Google

Y dragon euraid, the golden dragon.

Honno a wasgarwys y vydin ef yn hollawl. ac ynteu a ffoes a chorff Bedwyr gantaw. hyt y dan y *dragon eureit*.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 224.

2. a leader (in war), a commander, a chief.

Dragon yg gwyar gwedy gwinvaeth
Gwenabwy vab Gwenn gynhen Gatraeth.
Aneurin: God. 271 (cf. 235).

Adwyn y *dragon* dawn y derwydon.
Taliesin: A.B. ii. 153.

Gwr oet Eiteol gorwy reol gordethol doeth
Gwythvill *dragon* gosparth Brython goegyman weith.
Cuhelyn: M.A. i. 164 (cf. A.B. ii. 6).

Dragon dwfyn deuawd a gadwant
Dreigyeu dewr deu prid ny dalyant.
Cynddelw: M.A. i. 257 (cf. 213, 214, 233).

Kimry a orvit kein bid en *dragon*.
Myrddin: A.B. ii. 21 (cf. 20; M.A. i. 152, 153).

O olo Gruffut yn rut fedrawd
Cwynym *dragon* dwfn dygn diwrnawd.
Meilir: M.A. i. 189 (cf. 228).

Graid greic goffeleic *dragon*
O Eryri vreith vreon.—*Meigant:* M.A. i. 161 (cf. 180).

Kart wahart a wahan volwch
Ar dreicyeu *dragon* amdistrwch.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 279.

Cynhelweis o draig *dragon* wanas.
Gwalchmai: M.A. i. 196 (cf. 338).

Pla yw'r gwaith, plu ar y g♦n
A drig fal chwareu *dragon*.—*D. ab Gwilym*, ccv. 7.

Arwyre lewaf, ddewraf *ddragon*,
Llyw Prwssia, llew prysur yng nghammon.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 81.

Pen dragon, a chief leader, a commander in chief, a generalissimo. See *Pendragon*, the more usual form.

Tri goruchel garcharawr ynys Prydein . . . vn oed gorvchelach nor tri a uu deir nos yg karchar yg kaer Oeth ac Anoeth. ac a uu teir nos yg karchar gan Wenn *Benn dragon*.
Trioedd: Ll.C.H. i. 306.

Mabon am Mydron guas Uthir *Pen dragon*.
Llyfr Du: A.B. ii. 51.

Sef oed y rei hynny. Constans ac Emrys Wledic. ac Uthur *Benn dragon*.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 126 (cf. 130).

Pen dragon draig yn ddengmlwydd
Pobl dwr neud gwr yn eu gwydd.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 308.

Cain felaig pen draig a *phendragon*.
Gwalchmai: M.A. i. 199.

Dragon dreigiau, the leader of heroes.—*M.A.* i. 471.

Dragonawl, *a.* leading, commanding; foremost; supreme; heroic.

Dragonawl wral wrhyd
Dreic Wynua dragon wynuyd.
Cynddelw: M.A. i 214 (cf. 70, 224).

Meu ofyneic dreic *dragonawl* Prydein
Prif deyrn canhwynawl.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 281.

Dragonawl feidriawl fadiain yn elfyd
Alaf geinryd elw dy ganrain.
Gwalchmai: M.A. i. 199 (cf. 228).

Dragwynawl byt dolwys dolhwyc kyt.
Taliesin: A.B. ii. 209 (cf. M.A. i. 75).

Udd dragonawl, a supreme chief or leader.

Pen a borthav o du pawl
Pen Urien *udd dragonawl*.—*Llywarch Hen:* M.A. i. 104.

Dragoni, *v.* to act as a leader; to command (an army, &c.).

Dragonwys, *s.pl.* leaders, commanders; heroes.

Draig dragonwys, the leader of heroes.

O Fadawg o'i fod yn daear
O nenbren Powys
O *draig dragonwys*
O diphwys ei dafar.—*Gwalchmai:* M.A. i. 201 (cf. 202).

Dragwm, gymau, *sm.*=*Dragwn*, *Dragon* (1), *Draig*.

Ni eill Eiddig, ddyn dig du,
Noeth *ddragwm*, fyth mo'th ddrygu!
D. ab Gwilym, lxxix. 27.

Dragwm, *sm.* [L. *dracon-em?*] the scaly coat of animals.

Iâr ddragwm, Friesland hen, Muscovy duck.

Dragwn, *sm.*=*Dragon*.

Gwae'r eryr, a gwae'r aran;
A gwae'r draig, a gwae'r *dragwn*.
L. G. Cothi, VIII. iii. 25.

Syth y g♦yr saethu â gwn,
Darogan Uthr *Bendragwn*.—*Iolo Goch*.

Draig, *pl.* dreigiau, *sf.* [C. *druic*; Br. *dragon*; Ir. *draig*, *drig*; Ga. *drag*, *dreug*: from L. *draco*; Gr. δράκων] 1. a dragon.

Yr eil ormes heb ef ysyd yth gyuoeth di. *dreic* yw honno. a *dreic* estrawn genedyl arall ysyd yn ymlad â hi. ac yn keissaw y goresgynn. ac wrth hynny heb y dyt yeh *dreic* chwi diaspat engiryawl.—*Mabinogion*, 96 (cf. 97, 98).

A thi a wely deu uaen geuon yn y gwaelawt. ac yn y deu uaen dwy *dreic* yn kysgu.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 143.

Y drydedh boen yw pryuet anuarwawl o seirph a *dreicieu* aruthr o olwc a chwibanat.—*Lucidar* § 101.

Ac ef a datkudyawd y *dreigeu*.—*Trioedd:* Ll.C.H. i. 300.

A ganwyf â'm daint, ac â'm genau,
I Annes a dug yn oes *dreigiau*.—*L. G. Cothi:* I. xxxi. 9.

Lle y daw cenedloedd o *ddreigiau* Arabia â llawer o gerbydau, a'u lliaws hwy a ddygir fel gwynt ar y ddaiar. . . Yna y *dreigiau* a gânt y llaw uchaf.—2 *Esd.* xv. 29, 31.

Yr oedd hefyd *ddraig* fawr yno; a'r Babiloniaid a'i haddolent hi.—*H. Bel a'r Ddraig*, 23 (cf. 27, 28).

Drylliaist benau *dreigiau* yn y dyfroedd.—*Salm.* lxxiv. 13.

Ceneu y lleo a'r *ddraig* [° rhyw neidr o'r periclaf] a sathry.
Ll. G. Gyffredin 1567 (Salm. xci. 13).

Gwell genyf fi gyttal â llew, ac â *draig*, na chyttal â gwraig ddrwg.—*Eccl.* xxv. 16 (cf. *Esth.* x. 7; xi. 6)

Gwell bod ar draed trwy'r nos na myn'd i gysgu gyda *draig*.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 147.

Wele, dwy *ddraig* fawr a ddaethant allan yn barod bob un o honynt i ymladd.—*Esth.* xi. 6 (cf. x. 7).

A thi a sethri dan dy draed y llew a'r *ddraig*.
M. Cyffin: Diff. iv. 15.

A fedrwch chwi frutio pa bryd, a pheth a fydd diwedd y rhyfeloedd rhwng y llew a'r eryr, a rhwng y *ddraig* a'r carw coch?—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 56 (cf. 49, 72, 81, 83).

Rhyfel, yn gawr, sy'n rhwyfaw
Fal tonnau'r aig, fal *draig* draw.
Iolo Morganwg: Salmau II. 220.

Yn holltau'r graig, lle ffurfiodd *draig* ei ffau,
Crŷn llafrwyn ir, a gwelir hesg yn gwau.
Blackwell: Ceinion Alun, 154.

Draig danllyd, a fiery dragon.

Ef a welei lawer o eirth a llewot a seirff. a *dreigyeu tanllyt*.
St. Greal, § 25 (cf. 185).

A *dreigeu tanllyt* a seirff. a nadred gwenwynnic yn dorchev am y mynyglev.—*Llyfr Anec*, 153.

Dreigiau y dyfnder, the dragons of the deep. Cf. *Salm.* cxlviii. 7; *Esa.* xxvii. 1.

Fe edrych ar anfeidrawl
Fyrddiynau hardd gaerau'r gwawl;—
Ar uffernol dorf ffyrnig
Croch *ddreigiau'r dyfnderau* dig.—*Dafydd Ionawr*, 162.

Dywedant i'r ddaiar fod . . . yn cael ei phreswylio . . . gan y radd iselaf o greaduriaid, crocodiliaid, geneugoegion, a *dreigiau y dyfnder*.—*Adolygydd*, i. 181.

Dreigiau yr anialwch, the dragons of the wilderness.—*Mal.* i. 3.

Trigfa dreigiau, } the habitation of dragons.
Trigfan dreigiau, } —*Salm.* xliv. 19; *Esa.* xxxiv. 13; xxxv. 7; *Ier.* ix. 11; x. 22; xlix. 33; li. 37.

Digitized by Google

Ffynnon y ddraig, the dragon's well (in ancient Jerusalem).—*Neh.* ii. 13.

Dreigiau yr heli, the dragons of the salt deep, a poetic name or epithet for the waves.

Tri enw addurn y tonnau: Defaid Gwenhidwy; *Dreigiau 'r heli;* a Blodau'r eigion.—*Iolo Mss.* 89.

Y Ddraig Estron, the Dragon Aliens=Picts.

Yn ei amser ef y daeth y *Ddraig Estron* i Ynys Prydain a'r Werddon, ac yn Ynys Prydain y cymhleidiasant â'r Rhufeiniaid er brad i'r Cymry.—*Iolo Mss.* 6.

Llysiau y ddraig, dragons (*Arum dracunculus*). —*Hugh Davies:* Llysieuaeth Gymreig, 211.

Cymmer wraidd *llysiau'r ddraig*, a thor hwynt yn fân ddrylliau, a'u sychu, a'u gwneuthur yn bylor.
Meddygon Myddfai, ii. 293.

Dreigiau, lightnings without audible thunders, silent lightenings: also called *dreigiau mellt.*

Och â'r clecian fyth yr oedd y fflamau echrysiawn wrth ymluchio tros ymylau'r geulan felltigedig, a'r *dreigiau mellt* ysgethrin yn rhwygo'r mwg dudew yr oedd y safn anferth yn ei fwrw i fyny!—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 72.

Draig wybrol, a drake.—*S.*

Hael eur-ddrem hwyl *awyr-ddraig*,
I hwn y magwn ail Maig.—*Iolo Goch*, i O. Glyndwr.

Fel dwr diluw ar y cynfyd,
Fel tân gwyllt ar Sodom aethlyd,
Fel y fellten, fel y *ddraig*,
Fel y gwewyr blin ar wraig.
Rhys Prichard: C. y C. cvi. 13.

Cf. Eng. *drake, dragon, fire-drake.*

False stars and *fire-drakes*, the deceits of Night
Set forth to fool and foil thee, do not boast.
Henry Vaughan: Works (1871), i. 252.

2. the dragon (as a symbol, or a military standard, &c.; also figuratively).

Y Ddraig Euraid, the Golden Dragon, } = the
Y Ddraig Felen, the Yellow Dragon, } standard of King Arthur.

A rac bron Arthur sefyll y *dreic eureit* yr honn a oed yn lle arwyd idaw.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 220.

Y Ddraig Goch, the Red Dragon, the cognizance of Britons or of Wales.

Y Ddraig Wen, the White Dragon, the emblem of the English.

Pan yttoed Gwrtheyrn Gwrtheneu yn eisted ar lan y llyn echdihenedic y kyuodassant dwy *dreic* o honei or rei yd oed vn *gwyn* ac arall *coch*. A gwedy dynessau pob un at y gilyd o nadunt. dechreu girat ymlad a wnaethant. a chreu tan oc eu hanydyl. Ac yna gwrthlad y *dreic coch* ae chymell hyt ar eithauoed y llyn. A doluryaw a oruc hitheu a llidyaw yn vawr. a chymell y *dreic wen* drachefyn. Ac val ydoed y dreigeu yn ymlad yn y wed honno yd erchis y brenhin y Vyrdin. . . Gwae hi y *dreic coch*. kanys y haball ysseyd yn brysyaw y gogofeu hi a achub y *dreic wen* yr hon a arwydockaa y Saeson. a wahodeist ti yr ynys hon. Y *dreic coch* a arwydockaa kenedyl y Brytanyeit. yr hon a gywarsegir y gan y *dreic wen*.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 144 (cf. 152, 210).

Yn y frwydr hon [Bosworth], lluman Henri ydoedd y *Ddraig goch*, a'r faniar o wyn a gwyrdd, yr hon a ddygai er coffâd am ei haniad oddi wrth hen freninoedd Prydain. . . Ac er anrhydedd i'r achlysur, perodd Henri osod y *Ddraig goch* ym mhais arfau teyrnol Lloegr.
Carnhuanawc: Hanes Cymru, 781.

Y *ddraig goch* ddyry gychwyn.
Deio ab Ieuan Du: G.B.C. 177.

Draig wen ollewin well y dichwain.
Cynddelw: M.A. i. 204.

Draig felen ar fyr ennyd
A *draig wen* a dery gyd;
A gafaelau'r *ddraig felen*
A ddyry gwymp i'r *ddraig wen.*—*Dafydd Nanmor.*

Ti o'r sir yw'r tors euraid,
Neu'r *ddraig goch* yn ddeuwr y caid.
L. G. Cothi, i. xxxiii. 31.

Ef a â wellwell fal afallen,
Ei frig yw'r goedwig i fwrw *draig wen.*
L. G. Cothi, iii. xxiii. 17.

3. the dragon, applied metaphorically to 'the old Serpent, called the Devil, and Satan.'—*Dad.* xii. 3, 4, 7, 9, 13, 16, 17; xx. 2.

Ni orchfyga neb o'r *ddraig*,
Ond trwy gymhorth Had y wraig.
Rhys Prichard: C. y C. vii. 8.

'Dacw,' ebr ef, 'rai o hen sil y *Ddraig* fawr Luciffer.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 83.

Addewid rhoed o Had y Wraig,
I sathru *Draig* y drygau.
D. Ddu Eryri: Corff y Gainc, 269.

Mi gaf weled y sawdl waedlyd
Fu yn sigo pen y *ddraig.*—*Brutus:* Brutusiana, 28.

Y dydd y sigwyd pen y *ddraig.*
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 292.

Pa le yn awr mae ymffrost balch y *ddraig?*
Ioan Emlyn: Adgyfodiad, 19.

Gorchfygodd Iesu, ar brydnawn,
Y *ddraig* a'i llawn gynllwynion.
E. ab G. Ddu: Gardd Eifion, 28.

4. a leader, commander, ruler, or chief; a hero. See *Dragon* (2).

Nyt erdit e dir kevei diffeith
Drachas anias *dreic* ehelaeth.—*Aneurin:* God. 269.

Dydyrchafwy *dreic* o parth deheu.—*Taliesin:* A.B. ii. 211.

Cann *dreic* Prydein a brydir
O bryder berthvalch yt berchir.
Cynddelw: M.A. i. 244 (cf. 205).

Dragon—*dreic* Prydein ae hurtas.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 300.

Gnawd ytt *dreic* dragon wynnuyd.
Gwilym Ryfel: M.A. i. 274.

Cyfarfu *dreigiau* riau Rufain.—*Cynddelw:* M.A. i. 204.

Draig Brydain ei bryd ai nerth
Ai ddyall guall gannerth.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 308.

Bu ron ym am dragon drwg
Dreigioedd amlaen oedd amlwg.—*Elidir Sais:* M.A. i. 347.

Ardwyreaf *dreic* o drud veith awen
Llew llawen en llawr osbeith.—*Cynddelw:* M.A. i. 215.

Lladd ei *dreig* dragon drylwyn
Tryliw goch trylew droch drachwyn.
Cynddelw: M.A. i. 236 (cf. 369).

Can ry gallas Duw *draig* Powys.
Gwalchmai: M.A. i. 202.

Draig yw, a'i rym drwy y gred,
Dinefwr o Ednyfed.
L. G. Cothi, ii. viii. 11 (cf. i. xiii. 42; xv. 40).

A'r hiraeth, cywyddiaeth cof
Draig Wynedd, a drig ynof.—*Rhys Goch Eryri.*

Cynnetyf yr *dreigyeu* uegys dragon berth
Ny borthynt anetuon.
Cynddelw: M.A. i. 258 (cf. 257, 308).

Draig Powys a rifir yn gymhlith â'r meirwon,
A neuadd llawenydd sy'n dywell a phrudd.
Talyngion, 36 (cf. 35).

5. the constellation Dragon (*Draco*).

Draco, y *Ddraig*, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 49 o ser.—*R. Roberts:* Seryddiaeth, 70.

Y sergynnulliad a elwir y '*Ddraig.*' Tybid ei bod hi weithiau yn gorchuddio, ac yn attal goleuni, yr Haul.
Dr. Th. Briscoe: Iob xxvi. 13.*

¶ The word *draig* is usually feminine, but it sometimes occurs as a masculine in the fourth sense, and more rarely in the third.

Yn erbyn hwnnw y kynyt *dreic* Kaer Wyragon yr hwnn a uedylya ystryw.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 152.

A bwrw allan a wnaethpwyd y *draig* mawr, yr hen sarff, yr hwn a elwir y Cythraul, a Satan, yr hwn y sydd yn twyllo yr holl fyd; ys ei fwrw a wnaethpwyd ef i'r ddaiar, a'i angylion a fwrwyd allan gydag ef.
T. Huet: Dad. xii. 9 (cf. 3, 4, 7, 13; xiii. 2, 4).

Drain, *sg.* draenen, draen, *s.pl.* [draen] thorns; prickles. See *Draenen, Draen.*

Oian a parchellan neud blodeu *drein*
Gorlas kein minit eliut neud kein.
Myrddin: A.B. ii. 26 (M.A. i. 137).

Digitized by Google

Cell draws o frig cŷll a *drain*.—*D. ab Gwilym*, lxxxvii. 12.

Mynet a wnaethant ar hyt y glynneu ar fforestyd dyrys o vieri. a *drein*.—*St. Greal*, ‖ 37 (cf. 40, 44).

Aethym lawlaw draw i'r *drain*,
Dan lasgoed, â'm dyn ‖wysgain.—*D. ab Gwilym*, cliv. 67.

Daw rhesi blodau rhoswydd
Draw yn ber, a *drain* ni bydd.
I. B. Hir: Gwaith, 18 (cf. 28).

Pedwar gwyn a gair, a'r bummed yn ddisglair: blodau y *drain*; eira Ionawr; tes haf; a chalon lân Iselfryd.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 116 (cf. 164, 282).

Ni gawn yno gilfach dawel
Dan y gwasgawd yn y gosgel;
Cell heb neb i'n hafionyddu
Dan y *drain* i gywrain garu.—*Ystên Sioned*, 47.

Mor hardd eu drych yw blodau'r *drain*!—*Daniel Ddu*, 250.

Blawd o gylchon ar *ddrain* gwynion.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 244.

Cae drain, a thorn hedge, a hedge of thorns.

Mynnwent. yr honn a oed yn llawn o vedeu. ac yn gaeedic o *gae drein* yn y chylch ogylch.—*St. Greal*, ‖ 138.

A throes *gae drain* cyfain call,
A thraws oedd, a throes arall.—*D. ab Gwilym*, clviii. 61.

Ffordd y diog sydd fel *cae drain*.
Diar. xv. 19 (cf. Mic. vii. 4).

Perth ddrain (*dim.* perthen ddrain), a hedge of thorns, a thorn hedge; a thorn bush.

Perthen o ddrain yw rhesymau dyn a'i gwado ei hun.
Morgan Llwyd: Tri Aderyn, 32.

Clawdd drain, a thorn hedge or fence.

Drain y gafaelon, rest-harrow, ground furze, stay-plough, cammock (*Ononis arvensis*).

Rhesta bovis, cas gan arddwr, hwp yr ychen, *drain y gafaelon*, tegwch meinwen.—*Meddygon Myddfai*, 292.

Drain a mieri, } thorns and briars, thorns
Drain a mwyeri, } and brambles.

Ac essigaw a wnael ef ar gerric a *drein a mwyeri*.
Ystat. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 48.

Yr hon sydd yn dwyn *drain a mieri*, sydd anghymmeradwy.—*Heb.* vi. 8 (cf. Hos. x. 8).

Drain ac ysgall, thorns and thistles.—*Gen.* iii. 18.

Drain ac ysgall mall a'i medd,
Mieri, lle bu mawredd.—*Ieuan Brydydd Hir:* Gwaith, 51.

Llwyn drain (*pl.* llwyni drain), a thorn bush or brake.

O dere draw i'r *llwyni drain*,
Y gaten fain lygeittu!—*Hen Bennill* (Ystên Sioned, 47).

Ar y drain, on thorns; very uneasy or restless.

Y swrth diystyr sydd *ar y drain* bob amser.
Huw Owen: Dilyniad, i. xxv. 7.

Ni ddywedai bwmp ond a ofynid iddo, ac fyth *ar y drain* am ddianc i ffordd.—*Gronwy Owain*, 208.

Bod yn ddrain yn yr ystlysau, to be thorns in the sides.—*Num.* xxxiii. 55.

Coron ddrain: see s.v. *Coron*.

Drannoeth, *s.* and *adv.*=*Trannoeth*.

Draw, *adv.* [traw] 1. yonder, at a distance; in the distance; far away.

Ar llinat hwnnw a uynnaf i y gaffel y heu yn y tir newyd *draw*.—*Mabinogion*, 121 (cf. 278).

Llunio ei gwâl yn llwyn y gog
Draw, y geinach drogenog.—*D. ab Gwilym*, l. 38.

Ni ad *draw*, o anwyd drwg,
Ei wylan awr o'i olwg.—*Dafydd ab Edmwnt*.

Y mae *draw*, mewn anghyfiwr,
Yn y winllan, gwynfan gwr!—*D. ab Gwilym*, cxxxi. 13.

O'r anial drum a'r niwl *draw*,
Chwi liosydd, clyw leisiaw!—*I. B. Hir:* Gwaith, 19.

Yma a thraw, } here and there; hither and
Draw ac yma, } thither.

Yr oedd yn yr ystŷd hon fyrdd o Hispaenwyr . . . ac Iddewon *yma a thraw*.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 26.

Nac yma na thraw, neither here nor there; 'no whither.'

Nid aeth dy was *nac yma na thraw*.—2 *Bren.* v. 25.

Cadw draw, to keep at a distance; to keep away, aloof, or off; to hold off.

Y pen draw, the farthest end; the ultimate point or object.

Gwneuthur anialwch Sion fel Eden . . . yw *pen draw* yr addewid a roddwyd o barth llwyddiant, ymledaeniad, a blagur teyrnas y Messiah.—*Brutus:* Brutusiana, 249.

Yn y pen draw, in the far or farthest end; in the long run; in the end or conclusion; ultimately.

A hyn fu yr achos i'r anfuchedd a'r eiddilwch a ddygodd *yn y pen draw* ddinystr y ddinas.—*Brutus:* Ninefeh, 306.

Oddi yma draw, at a distance.

Gwelais ef oddi yma draw, I saw him at a distance; I saw him some way off.

Y bryniau draw, the yonder hills; the distant hills (within view).

Rhaid i chwi ddal i ddyrchafu eich llygaid at y *bryniau* prydferth *draw*.—*Y Bryniau Pell*, 7.

Yr ochr draw, } the yonder side; the other side
Y tu draw, } (from the speaker or beholder);
Y parth draw, } on the other side (of a river, the sea, &c.).

Hitheu a beris kynnullaw a gauas o auar yn y cantref. ae dwyn yr *parth draw* yr auon gyuarwyneb a Brynn Kyuergyr.—*Mabinogion*, 76.

Meibon Llwch Llawynnyawc o'r *tu draw* y nor terwyn.
Mabinogion, 110 (cf. 276).

Ac yd aeth ynteu yw gyuoeth or *tu draw* yr mor.
Brut y Saeson: Ll.C.H. ii. 402.

Kenedyl y gwr angkyuyeith a gigleu vi y le *tu draw* yr auon yn annoc y gwn.—*Buchedd Beuno:* Ll.A. 121.

Tu draw y bedd, } beyond the grave; the
Tu draw i'r bedd, } other side of the grave.

Cudd yw gwawr y gwynfyd pur *tu draw i'r bedd*.
Y Bryniau Pell, 95.

Pen draw y byd, the end of the (lower) world; the end of the earth.

Ar y lan draw, on the other or farther side, bank, or shore.

2. far away (in space or time, especially when repeated, but conceivably or mentally within view).

Draw, draw, draw, o fewn cylch y cynllun tragywyddol . . . parotôdd yr Arglwydd ein Duw ni etifeddiaeth gyfer byn â'r rhai a'i dilynant o galon bur yn llwybrau yr anialwch.—*Brutus:* Brutusiana, 182.

Acw *draw* mae fy nau lygad,
Acw *draw* mae f'anwyl gariad;
Acw *draw* dymunwn innau
Gysgu'r nos a chodi'r boreu.—*Hen Bennill*.

Draw, draw ar y cefnfor, ar noson ddu oer.
Sam. Roberts: Caniad Byrion, vii. 1.

A thaflai'r cwpan santaidd
Draw, draw, i'r ferwawg don.—*Telynegion*, 9.

Draw mi welaf ryfeddodau,
Dyfnion bethau Tri yn Un.—*Emyn*.

¶ *Draw*, as in similar cases, follows the syntactical mutations of its primary *traw*, q.v.

Drebyn, *sm.* [drab] a small piece or fragment.

Drec, -iau, *sm.* [E. *wreck*] wreck.—*N. W.*

Drec môr=*broc môr*, sea-wreck.—*N. W.*

Digitized by Google

Dref, -au, *sf.* a bundle, a tie.—*P.*

Drefa, *pl.* drefäu, *sf.* the number of four and twenty; a bundle or tie consisting of several articles of the same kind; a thrave.

O Macsen, hil Urien lwyd,
Drefa 'n ddugiaid a rifwyd.—*L. G. Cothi*, II. v. 43.

Drefa o yd, a thrave of corn=24 sheaves.

Drefion, *s.pl.* [?] shivers, shatters, fritters, small pieces or fragments.—*S. W.*

Yn ddrefion, all to pieces; all into shatters.

Tori yn ddrefion, to break into small pieces; to shiver, shatter, or fritter; to fall to pieces.—*S. W.*

Drefu, *v.* to bundle or tie together.—*P.*

Dreng, *a.* morose, surly, peevish, cross, rough, rude, uncouth.

Ffordd o'm gŵydd! ffwrdd o'm golwg!
Cilia, y *dreng*, rhag cael y drwg!
D. ab Gwilym, xxi. 49 (cf. lxviii. 35).

Pan welodd Maccabëus fod Nicanor yn afrywiocach wrtho, a'r gyfeillach arferol yn *ddrengach*, efe a ddeallodd na ddaeth yr afrywiogrwydd hwnw o'r meddwl goreu.
2 *Macc.* xiv. 30.

I syllu mewn rhyfeddod ar ddirywiad
Y ddinas *ddreng* a laddodd Fab ei gariad.—*Llenor*, iv. 35.

Arwr oedd, eryr rhuddwaed,
Dynai y *dreng* dan ei draed.
Eben Fardd: Cyff Beuno, 49.

Ymgais y *dreng* megys draig.
Gwallter Mechain: Gwaith i. 192.

Drengu, *v.* to be cross, peevish, or surly.

Drengyn, -od, *sm.* a surly or uncouth fellow.

Ai *drengyn* i dir anghof,
A bydd ei gywydd heb gof!—*G. Mechain:* Gwaith, i. 137.

Dreigaidd, } *a.* [draig] like a dragon, dragon-
Dreigiaidd, } like, dragonish.

Er ein gyru i *ddreigiaidd* gell
A'n toi â mantell angau.—*Edm. Prys:* Salm. xliv. 19.

Dreigan, -od, *sc.* a dragonet.

Dreigio, *v.* to lighten without thunder.

Dreigiol, *a.* dragonish, dragon-like.

Reid arveid arvot wedy clot Clar
Redet vet veidrawl *dreigyawl* drugar.
Casnodyn: M.A. i. 426.

A cheir ar greig holltawg, fu'n *ddreigiawl* drigfanau,
Grynedig ireidd-frwyn a chrymawl gorsenau.
Gwyliedydd, v. 379.

Dreiglys, *sm.* [draig+llys] dragons (*Draunculus*).—*Dicts.*

Dreigwaed, *sm.* dragon's blood.—*Dicts.*

Dreinberth, -i, *sf.*=*Draenberth.*

Dreiniach, } *s.pl.* [drain] small thorns; the
Dreinach, } prickles of plants; prickles; prickly shrubs.

Dreiniach, fal pigau draenog,
Hyd èn ddu, fal dannedd og.—*Gronwy Owain*, 21.

Dreiniau, *s.pl.* [drain] thorny, harassing, or intricate matters; perplexities, difficulties, intricacies.

Siarlamaen yw draen ym mhob *dreiniau*.
L. G. Cothi, I. xiv. 36.

Dreinig, *a.*=*Dreiniog.*

Rhag cwyn gwenwynig, rhag cwn dieflig,
Rhag cynhen *ddreinig*, ddig ddygasedd.—*Iolo Goch.*

Dreinio, *v.* to fill with thorns; to make thorny.

Er *dreinio* 'r ffyrdd lle mae fy nhaith,
Er goddef maith drallodion.
Iolo Morganwg: Salm. I. xii. 5.

Dreiniant y llwybrau, lle mae'n traed,
Ac am ein gwaed sychedant.
Iolo Morganwg: Salm. I. lx. 2.

Dreiniog, *a.* 1. full of thorns, thorny, spinous, prickly, spiny.

Gwel ei gu aeliau â dwys blethiadau
O *ddreiniog* bigau bagwyedig!—*I. B. Hir:* Gwaith, 27.

Adwy *ddreiniawg* fudr.—*M.A.* iii. 122.

Geiriau yn arwyddo planigion *dreiniog* yn gyffredinol.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 640.

Afal dreiniog, thorn-apple (*Datura stramonium*).—*H. Davies:* Llysieuaeth Gymreig, 153.

2. (fig.) thorny; troublesome and harassing.

Os edrychi di yn gyntaf i mewn, ac ymwrando ar leisiau yn dy galon, mae yno swn gofalon *dreiniog* bydol.
Morgan Llwyd: Gair o'r Gair, xii. 8.

Dreiniog, -od, *sf.* the siskin or aberdevine (*Carduelis spinus*).

Dreiniogrwydd, *sm.* the state of being thorny or prickly; prickliness, spininess, thorniness.

Dreiniol, *a.* relating to thorns or prickles; thorny, spinous, prickly.

Dreinllwyn, -i, *sm.*=*Draenllwyn.*

Dreinllyd, *a.* thorny, spiny, prickly.

Dreinllydrwydd, *sm.* prickliness, spininess.

Dreinllyfnu, *v.* [drain+llyfnu] to bush-harrow.

Rhaid i chwi ei heu ar wasgar, a *dreinllyfnu* y tir wedi hyny.—*W. O. Pughe:* C.P. 107.

Dreinos, *s.pl.* small thorns; prickles.

Dreinwydd, } *sg.* -en, *s.pl.* thorny plants,
Draenwydd, } prickly shrubs.

A dail glas ar dal y glyn,
A'r *draenwydd* yn ir drwynwyn.
D. ab Gwilym, cxcviii. 33 (cf. 58).

Dreinwyddach, } *s.pl.* prickly shrubs, thorny
Draenwyddach, } or spinous plants.

Llosgir, ni chynnwysir chwaith,
Y *dreinwyddach* draw'n oddaith.—*I. B. Hir:* Gwaith, 21.

Drel (ẻ), -od, *sm.* a knave, a disobliging fellow; a clown, a churl.

Rhyfedd . . . na wŷl *ddrel* er a helio,
Fyred ei drwydded a'i dro!—*D. ab Dafydd Llwyd.*

Dyma'r amser y tramwyodd heresi Arius gyntaf i Frydain . . . pan oedd rydd i bob *drel* a phob ioncyn coegfalch i fytheirio allan y cabl a fynai.
Theo. Evans: D.P.O. 213.

Y *drel* dibarch, â maen nid mawr,
A friwia'n caer, a ddifa'n cawr.
Rhys Prichard: C. y C. cvi. 17.

Od oes rhai dynion yn *ddrelod*, sicr yw fod y fath beth ag hen *ddrel* a *drel* ieuanc, *drel* bach a *drel* mawr.
Ioseph Harris: Gweith. 249.

Yn awr mewn lletty rhad gorwedda hwn,
Yn esmwyth odd y dasg oedd drablin gan
Y *drel* ei thalu idd ei gorff ei hun.
Iago Trichrug: Y Bedd.

Yr hen ddrel! the old knave!

Drel, *a.* knavish, disobliging, churlish.

Drelaidd, *a.* knavish; churlish, boorish, clownish.

Llawer gwaith y gellir gweled dynion gwael *drelaidd*, heb ronyn o gywreinrwydd, heb nac enwau nac achau da yn y byd; eto y mae ganddynt ddigon o falchder i fod yn elynion chwerwon i blant Duw.
Daniel Rowland: Pregethau, 78.

Dreleiddrwydd, *sm.* knavishness; churlishness.

Drelgi, gwn, *sm.* a churlish dog, a knavish fellow, a petty villain.—*C.S.*

Cynghorwn chwi i adael i'r *drelgwn* gyfarth faint a fynont.—*Cymru*, ix. 52.

Dreliad, *sm.* a treating in a churlish way.

Drelio, *v.* to treat churlishly or uncouthly; to abuse.

Digitized by Google

Drelyn, *sm.* a knavish or churlish fellow; a bit of a knave.

Drem, -iau, *sf.* the sight, look, aspect, or visage; the glance of the eye. See *Trem*, now the more usual form.—*M.A.* i. 62, 394, 455, 457, 463, 510, 511, 532.

Godinebus fydd golwg,
Gwir y *ddrem* garu i ddrwg!—*D. ab Gwilym*, cxxxvi. 27.

Mwc ydynt yn tywylhu y tan. ac yn lhygru *drem* y lhygait.—*Lucidar*, § 74.

Dy laeswallt dros dy lwys-ael,
Dy *ddrem* fal duedd yr ael.
D. ab Edmwnt: G.B.C. 112 (cf. 103).

Climach o ddyn amrosgo ydyw . . . a'i *ddrem* arw-guch yn tolcio ym mhen pob chwedl ddigrif.—*Gro. Owain*, 199.

Dremiad, -au, *sm.*=*Tremiad.*

Drew, -ion, *sm.* a stink, a stench, fetor.

O wedyd hyn, gan ffawg efe ffroenai *ddrew*
Daiarawl newid marwawl.
W. O. Pughe: C.G. x. 273 (cf. i. 253).

Ac yn y ffroen ei *ddrew* sy gas.—*Iago Trichrug:* Y Bedd.

Cnawd beilchion deyrnion hyd ár,
Drew a bwyd i raib adar.—*Robert Owen:* Gweith. 296.

Drewbryf, -ed, *sm.* a bug.—*Dicts.*

Drewbwll, byllau, *sm.* a stinking pool or pit, a stench-pool.

Nesaf i'r *drewbwll* yma, gwelwn dyrfa fawr, yn eu heistedd, yn ochain yn greulonach na dim a glywswn i hyd yn hyn o uffern.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 77.

Drewchwa, -oedd, *sf.* mephitis, mephitism.

Drewchwaol, *a.* mephitic; noxious.—*P.*

Drewdod, *sm.* a stink, a stench, a fetor; a strong offensive smell; fetidness.

Nid *drewdod* yn nhrwyn twrch ei fudreddi.
Iolo Mss. 158 (cf. 162).

Nerth abwy yn ei *ddrewdod.*
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 13.

Diffodd yn fynych mewn *drewdod*, a dibenu mewn chwerwder, cnofa cydwybod, ac anghlod.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 158.

Drewedig, *a.* fetid, stinking; fetulent; putrid.—*M.A.* i. 520, 536.

Ponyt ffol vydei y neb a adei yr blodeu hynn golli. yr achubeit y prenn *drewedic* racko rac y syrthyaw yr llawr.
St. Greal, § 39 (cf. 19, 41, 44).

Gi brynnig *drewedig* draed.—*Iolo Goch.*

Rhai a beryglant eu heneidiau am dipyn bychan o fudd, am ychydig feluswedd *drewedig.*
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 415.

Er nad oedd y fangre oll ond un gigfa fawr *ddrewedig.*
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 59 (cf. 36).

Y mae'n gorfod arnom er's pythefnos yfed dwfr *drewedig*, neu dagu.—*Gronwy Owain*, 333 (cf. 273).

Anadl ddrewedig, fetid breath.—*C.C.* i. 84.

Drewedigrwydd, *sm.* fetidness; putridity; rottenness.

Drewedigrwyd y prenn a arwydocksa *drewedigrwyd* y pechodeu yssyd yndaw ef.—*St. Greal*, § 44.

Drewen, -od, *sf.* [drew] a bug.

Drewfaen, feini, *sm.* the stinkstone or swine-stone.

Drewfwg, *sm.* [drew+mwg] a fetid smoke.

Gwae fyddai yt' gau dy lygaid yn y *drewfwg.*
Araith Gwgan.

Drewg, *sm.* [Br. *draok;* O.E. *drawke, drawk, drake, dravick*] poppy (*Papaver*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 52, 53, 184.

A thra fai'r dynion yn cysgu, e ddaeth ei elyn ef, ac a heuawdd efrau [°ller, *ddrewg*] ym mhlith y gwenith.
W. Salesbury: Matt. xiii. 25.

Drewgi, *pl.* drewgwn, *sm.* 1. a stinkard.

Onid ych chwi allan er's deg mlynedd, Syre, ac heb ddwyn i ni ond un? a hwnw yn un a wnaethai i ni chwaneg o wasanaeth yn y byd, na chwi, *ddrewgi* diog.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 92.

Du fár oedd ei weled fo
A *drewgwn* wedi'i rwygo.—*Sion Pywel.*

2. asafœtida.

Assafetida, baw diawl, y *drewgi.*
Meddygon Myddfai, 282.

Drewgoed, *s.pl.* [drew+coed] stinking bean-trefoil (*Anagyris*).—*Hugh Davies:* Welsh Botanology, 184.

Acopus, *drewgoed.*—*Meddygon Myddfai*, 282.

Drewi, *v.* to stink; to emit a strong offensive smell; to savour ill; to rotten.—*Ecs.* v. 21; vii. 18; viii. 14; xvi. 20.

Ac y mae y lle oth achaws di yn *drewi.*
St. Greal, § 17 (cf. 53).

Dwr gloew a *ddrewa* o hir sefyll yn llonydd.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 79 (cf. 250).

Duw heb y Rolant a wna tyuu or plenhigyn prenn yn uchel. ar gronyn gwenith gwedy *drewho* yn y dayar ay uarw ae gwna y dyuu ac y ffrwythaw yn uyw drachefyn.
Ystr. de Carolo Magno, col. 403.

Y mae eich canwyll wedi llosgi hyd ben y canwyllbren, onid yw hi ar ddiffoddi a *drewi.*
Sam. Williams: Amser (1794), 41.

Tri pheth yng nghylch meddwyn a *ddrewant* yn ffiaidd: ei ddillad; ei anadl; a'i ymadroddion.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 250.

Drewi, *sm.* a stink, a stench, fetor.

Ai *ddrewi* a gyfyd, a'i ddrygawr a á i fyny.—*Joel* ii. 20.

Yna yn ol i anferth lifeiriant o frwmstan berwedig, i'w trochi mewn lloesgfëydd, a mygfëydd, a thagfëydd, o *ddrewi* anaele.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 75 (cf. 77).

Lle rhaid i'r byw dderbyn yr holl heintus darth sy'n cyfodi oddi wyth y corff marw, a dioddef y fath wrthwynebus a ffiaidd *ddrewi.*
Gruffydd Wynn: Ystyriaethau, 184 (cf. 30).

Drewiant,
Drewaint,
Drewant, } *sm.* a stench, a stink, fetor, an offensive smell; fetidness.

A chymeint yw ynot ti o chwerwder uffernawl a *drewyant* pechodeu. ac a dyly ei vot ynot o velystra ysprydawl. ac am hynny yr wyt gynhebic di yr prenn marw drewedic lle nyt oes yndaw chwaith melysdra na bywyant. namyn chwerwder.—*St. Greal*, § 19 (cf. 28).

Am dhigrifhau o honunt yma o *dhrewiant* godinneb. cyflawn yw bot *drewiant* yn eu poeni hwyntau yno yn arw.
Lucidar, § 102 (cf. 101).

Saf o bell heb yr angel. kanny elly diodef *derewant* y pydew hwnn. A phann agoret genev y pydeu. ef a gyuodes *drewant* o honaw. val y tybygei Bawl y vot yn waeth no holl boenev vffern.—*Llyfr Ancr*, 154 (cf. 54, 152).

Yn lhe cariat y gwragedh. y lhenwir wynt o vrwmstan *drewaint.*—*Lucidar*, § 62 (cf. 101).

A'u lladdedigion a fwrir allan, a'u *drewiant* o'u celanedd a gyfyd i fyny.—*Esa.* xxxiv. 3.

Yn lle eich aroglau peraidd, yr ydych yn goddef *drewiant* sur.—*Marchog Crwydrad*, ii. 2.

2. (fig.) a disgusting, dirty, or foul one; a base or sorry fellow; a stinkard.

Hors a Hengist yn gwest deg ystod,
Plant y ddau *ddrewiant* aethant yn ddrywod.
L. G. Cothi, i. xvi. 21.

Y *Drewiant*, a'i blant i'w blaid,
A wenwynant wan enaid.—*Cywydd Enwau y Fall.*

Drewlau, *sg.* drewleuen, *s.pl.* bugs.—*Dicts.*

Drewlys, *sm.* [drew+llys] poppy (*Papaver*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 52, 184.

Papaver, bwlwg, pabi, y cyaglys, *drewlys.*
Meddygon Myddfai, 290.

Drewllyd, *a.* stinking, fetid; disgusting.

Efe a wybu'r man lle'dd oedd abwy *drewllyd.*
Iolo Mss. 162 (cf. 194).

Digitized by Google

A'r drydydd [haint echrys] Haint y chwys *drewllyd* achos llygru yr yd gan wlybaniaeth yn amser gormes y Normeinwyr.—*Trioedd:* M.A. ii. 59.

Am iddo ganfod peth mor *ddrewllyd* a ffiaidd ag yw pechod.—*R. Smith:* Eglurhâd, 311.

Na redwn i byllau a llaca *drewllyd* traddodiadau dynion. *Ed. James:* Hom. i. 2 (cf. 158, 159, 163).

Mor *ddrewllyd*, fudr, ffieidd-frwnt, ydyw'r lle yma. *Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. ix. 9.

Doeth iawn ynte, gan fod gwynt, ac arogl per a *drewllyd* yn yr awyr, fod y synwyr hyn yn y lle. *D. Lewys:* Golwg, iv. 69 (cf. viii. 6; xix. 5).

Goreu at fygu perllan, tân crawlosg, a dodi ynddo hen esgidiau, a phob hen ledrynach ereill, a phob hen wlanenach, a gwyg y môr, a thom gwartheg, a phethau ereill *drewllydion.*—*Rhisiart Sion Huw.*

Drewllydrwydd, *sm.* fetidness.

Drewol, *a.* fetid, stinking.

I'r bledd, wrth drywedd *drewawl*,
Dwyr bleiddiau hwyr heb ludd hawl.
Robert Owen: Gweith. 296.

Drewsawr, *sm.* a fetid or noisome smell, a stench, a stink.

Drewsawr, } *a.* having an offensive smell,
Drewsawrus, } fetid, mephitic.

Daethym lle'r oedd . . .
Dri-Sais, mewn gwely *drewsawr*.
Dafydd ab Gwilym, cxlii. 31.

Drewsudd, } *sm.* [drew+sudd, sug] a fetid
Drewsug, } gum, asafœtida.

Prif allforiadau Affghanistan ydyw ceffylau, *drewsudd*, gwreiddrudd, a ffrwythau sychion. *Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 266.

Driblin, -au, *sm.* [E. *driblet?*] a driblet, a small sum, a small quantity.

Trydydd argae damdwnng, ceissiaw o ddyn damdwng anifeil wedi torri aelawt iddaw ac aryf neu ddarffo y fleidd neu gi y yssu yn un werth a phan oedd gwbyl, ny eill cany thal a *driblin* werth cyfreithiawl.—*C.C.* ii. 652.

Drigon, *s.cl.* [dring?] sheep's sorrel (*Rumex acetosella*): the same as *dringol*, the more usual term.—*H. Davies:* Welsh Bot. 35, 184.

Dring, -au, -ion, *sm-f.* a climb; an ascent; a climbing; a flight of steps.

Pei gwypud, *dring* ffaling-lwyd,
Pefrain lettywraig aig wyd.—*D. ab Gwilym*, xli. 39.

Y ffordd o astrus olwg hwyrach yw
A serth o *ddring* ar aden syth rhag uwch o elyn.
W. O. Pughe: C.G. ii. 72 (cf. iii. 570, 588).

Beth yw bryniau ar fryniau i chwi
Ond uwch *dringion* i uwch bri!—*Islwyn:* Caniadau, 43.

Dringad, *v,* to climb; to ascend by climbing.

Ti a elli *ddringad* i'r mynyddau, a marchogaeth y ffordd ar y llaw ddeheu.—*Marchog Cwydrad*, i. 7.

Nertha'm traed blinedig *ddringad*
Fry o hyd, maes o'r byd.
W. Williams: Gweithiau (1891), ii. 26.

Pwy . . . na *ddringadai* i gael coron?
Rhys Prichard: C. y C., cxci. 20 (cf. cxcvii. 1).

Y mae fyth ryw ddymuniadau bydol yn llechu yn fy nghalon, a'r gwegi a gauwyf fi allan o'r drysau, sydd yn wastad yn *dringad* i mewn trwy'r ffenestri. *D. Davis:* Bywyd Duw, 55.

Y gelynion . . . a ddyrchafasant ysgolion yn erbyn y muriau, i'r diben i *ddringad* i fyny. *Carnhuanawc:* Hanes Cymru, 547.

Dringad, -au, *sm.* a climbing; a climb.

Dringadar, *sg.* dringaderyn, *s.pl.* climbing birds, climbers (*scansores*).

Dringadwr, wyr, *sm.* a climber.

Dringadwy, *a.* climbable.

Dringediad, -au, *sm.* a climbing.

Dringedig, *pt.a.* climbed; ascended.

Dringedigion, climbers, creepers.

Dringedigion gorchwyl, supines (in grammar).—*Dr. I. D. Rhys.*

Dringedydd, } -ion, *sm.* he who or that which
Dringiedydd, } climbs; a climber.

Rhaid felly dybio bod eu llwybr yn glogyrnog, yn caniatäu i'r *dringedyddion* afael ewin llaw a throed. *G. Mechain:* Gwaith, ii. 402 (cf. 404).

Dringedydd yw pob peth a ddringo i frig pren i'w amddiffyn ei hun. Ac ni ddyly heliwr ddywedyd Bele, neu Gath goed, neu Wiwair, neu Ffwlbart, ond eu galw *dringedydd* llwyd, *dringedydd* du, *dringedydd* coch. Ac am nas gall *dringedydd* ddiainc ym mhell, ond dringo i'r pren, ac yno ei faeddu a'i gyfarth a wneir. *Y Naw Helwriaeth:* M.A. iii. 198 (cf. 197).

Hyder a wna *dringedydd*
Draw a ddring uwch gwyrling gwŷdd.
Dafydd ab Gwilym, xv. 9.

Yr oedd hela hon yn un o'r naw helwriaeth ym mhlith y Cymry, sef, un o'r tair helfa gyfarthfa; a chynnwysid hi o dan yr enw cyffredin *dringedydd.*—*Gwyliedydd*, v. 205.

Glynai gwinwydd gwylltion a *dringedyddion* ereill wrtho, hyd i hanner y cyff.—*Cylchgrawn*, i. 50.

2. a climbing or creeping plant, a climber.

Y dringedydd, climbers, great wild climbers, traveller's joy (*Clematis vitalba*): also called *cudd y coed.*—*H. Davies:* Welsh Bot. 134, 178.

Dringfa, faoedd, fëydd, *sf.* a place to climb; an ascent; a very steep place; a flight of steps; stairs.

Fel y mae *dringfa* dywodlyd i draed henafgwr, felly y mae gwraig ddrwg ei thafod i wr distaw.—*Eccl.* xxv. 20.

Wrth borth y ffynnon, yr hon oedd ar eu cyfer hwynt, y dringasant ar risiau dinas Dafydd yn *nringfa* y mur. *Neh.* xii. 37 (cf. iii. 19).

Y galon . . . yw y *ddringfa* ar hyd hon
I gariad nefawl galli esgynhau.—*W. O. Pughe:* viii. 684.

Ac fel angylaidd *ddringfa* i fyny'r wybren fry
Mynyddau'r Aran welir, pob gris yn fynydd sy.
Islwyn: Caniadau, 83.

Dringiad, -au, *sm.* a climbing; a climb.

Dringio, *v.*=*Dringo.*

Dringl, -au, *sm.* that which hangs loosely to something else; a pendant; a pendulum; an appendix.—*H. Salesbury.*

Ar ol dewis oriawr, dewisodd gadwyn, a'r holl *ddringlau* perthynol iddi.—*Gwyliedydd*, ii. 160.

Dringlyn, -au, *sm.* a pendulum.

Iddo ef [Galileo] y priodola llawer ddyfais y *dringlyn* i fesur amser, a dywedant iddo wneuthur hyn yn nyddiau ei ieuenctyd, er mai Huygens, flynyddoedd ar ol hyn, a gymhwysodd y *dringlyn* at yr awrlais. *Cylchgrawn*, i. 352 (cf. 130; ii. 36).

Mae ei lanw a'i drai yn curo o hyd
Fel *dringlyn* mawr amser yng nghlyw yr holl fyd.
Islwyn: Caniadau, 63.

Dringo, } *v.* to climb; to ascend; to scale.
Dringio, }

Haws *dringaw* no disgyn.—*Diareb.* (M.A. iii. 162.)

Ny wydyat yny uyd y llygot yn gwan a dan y groft. a phob un yn *drigyaw* ar hyt y keleuyn.—*Mabinogion*, 53.

Dringodd frig, o genfigen,
Y goedwig wyrdd i gadw gwen.—*Dafydd ab Edmwnt.*

Ny chafas y bugeil o ennyt onyt *dringkiaw* y vrig y prenn. *Doethion Rhufain*, ¶ 11 (cf. 18).

Yna Peredur a *dringyawd* yn erbyn y greic y vyny. *St. Greal*, ¶ 27.

Dringo 'r lan yno a wnaf,
I dal'r angel y *dringaf.*—*L. G. Cothi*, iv. xxv. 33.

A *dringo* hefo, fal hwn,
Yn uchel a chwennychwn.—*Dafydd ab Gwilym*, lv. 35.

Digitized by Google

Blin yw *dringo* creigiau geirwon.
L. Morys: Diddanwch Teuluaidd, 169.

Gwelwn rai ag ysgolion yn *dringo'r tŵr*.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 26.

Dring rhagot, yr efangyles Sïon.—*Esa.* xl. 9.

Dringo i fyny, to climb up; to ascend; to go up.

Dring i fyny yma.—*Dad.* iv. 1.

Nid gorchwyl hawdd yw *dringo i fyny* y rhan acw o'r bryn.—*Y Brythiau Pell*, 25.

Dringo i long, to go on board a ship; to embark in a ship; to take ship; to embark.—*Act.* xxi. 2, 6; xxvii. 2.

Dringol, *a.* climbing; ascending; creeping.

Dringolion, climbers (*scansores*).

Dringol, *s.cl.* sheep's sorrel (*Rumex acetoscella*): also called *suran yr yd.*—*H. Davies:* Welsh Botanology, 35, 184.

Cymmer sudd y *dringol*, gydag ychydig o halen gwineu, golch dy ddwylaw, a gad nhwy i sychu o'u natur eu hunain.
Meddygon Myddfai, ii. 204.

Dringwr, wyr, } *sm.* a climber; one who
Dringydd, -ion, } ascends by climbing.

Profedigaeth yw blinderau,
Profir pwy yw'r *dringwr* gorau.
L. Morys: Diddanwch Teuluaidd, 169.

Yna efe a'i wŷr a ymchwelasant yr ysgolion, a'r *dringwyr* a syrthiasant i'r clawdd.
Carnhuanawc: Hanes Cymru, 547.

Dringwydd (*sg.* -en, *f.*), *s.pl.* creepers, climbers.

Drillian, *v.* [im.] to cool a liquid by raising it with a spoon, ladle, or the like, and pour it back slowly.—*S. W.*

Drimbwl drambwl, *adv.* [im. and allit.] helter-skelter, topsy-turvy.

I b'le tefiir *drimbwl drambwl*
Y gwas?—*Rhys Prichard:* C. y. C. xxi. 44.

Drinc, -iau, *sm.* a climb, a climbing.

Llafynrut Uaredut llyw *drinc*
Llew ny ad Lloegyr yny wnc
Nys arueit aerulawt frawt Freinc
Nys geill Seis na threis na thranc.
Prydydd Bychan: M.A. i. 382.

Dromwnt, } *sf.* [L. *dromo*, pl. *dromones*; Gr.
Dromunt, } δρόμων; O.F. *dromont*. See Du Cange, s.v. *Dromones*] a very large ship.

Ac yn y borthua yd oed *dromwnt*. sef yw hynny log diruawr y meint. a honno a oed lawn o Sarasinieit creulawn.—*Bown o Hamtwn*, ¶ 6 (cf. 52).

Hwnnw a delis amherawdyr Ciprys. ac a gauas diruawr long a elwit *dromwnt*.—*Brut y Saeson:* Ll.C.H. 399.

Dros, *prep.* [tros: C. *dres*, *dris*, *dreis*, *dreys*; Br. *dreist*; Ir. *tairis*] over; for; beyond; across; instead of. See *Tros* (of which *dros* is a modification) for syntactical mutations and pronominal suffixes.

Ny bu hir yny vyryawd Peredur ef *dros* pedrein y varch yr llawr.—*Mabinogion*, 200 (cf. 208, 211).

Ni allwn fyned *dros* air yr Arglwydd fy Nuw.
Num. xxii. 18.

Gwna dda *dros* ddrwg, uffern ni'th ddwg.
Diareb. (M.A. iii. 161.)

Gyrer teulu Dic Sion Dafydd . . .
Dros y môr a *thros* y mynydd.—*Daniel Ddu*, 254.

Dros ben, exceedingly, extremely, highly, eminently; very much; very.

Da dros ben, exceedingly or extremely good; very good.

Tewdrig ab Teithfallt a fu frenin *da dros ben*.
Iolo Mss. 10.

Mawr dros ben, exceedingly or extremely great; very great.

Llawenychasant â llawenydd *mawr dros ben*.—*Matt.* ii. 10.

Dros yr afon, over the river; across the river.

Myned dros un arall, to go for another person; to go instead of another.

Drosodd, *adv.* over; beyond; across. See *Trosodd*.

Ewch *drosodd* yn arfog o flaen eich brodyr.
Deut. iii. 18 (cf. 21).

Tyred *drosodd* i Macedonia.—*Act.* xvi. 9.

Deuwch drosodd, come over.—*Ios.* xxii. 19.

Drud, -ion, *sm.* 1. a mad, furious, or violent person.

Try chadarn byt argluyd a *drut* a dydym . . . sew yu y *drut* dyn ynwyt ac ynuyt ny ellyr kymell dym arnaw namyn y ewyllys.—*C.C.* ii. 36.

Sef yw *drud*, dyn ynfyd; ac ynfyd ni ellir cymhell dim arno namyn ei ewyllys.—*Leges Wallicae*, iv. xxxii. 5.

2. a daring one; a brave person; a hero.

Cyrchyad kynniuyeid kert aryal *drudyon*
Clwyf ehofyn cletyfal
Nyd kyrt nyd cart anwadal
Kein awen canawon Yal—*Cynddelw:* M.A. i. 224 (cf. 223).

Buost mab arab arueu dras
Drud cadeu dreic keneu Kynlas.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 300.

Cyvranc Rhun a'r *drud* arall.
Llywarch Hen: M.A. i. 119 (cf. 162, 163).

Tri enw addurn y Gwynt: *Drud* byd; Saer y drycin; a Hyrddiwr y bryniau.—*Iolo Mss.* 89.

Gwr oerias wyd, garw ei sain,
Drud byd, heb droed, heb adain.—*D. ab Gwilym*, lxix. 3.

Drud i ddal, doeth i estwng.—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Neb odd y *drudion* hyn
A wnai yn unig osiaw hwyl y daith.
W. O. Pughe: C.G. ii. 442 (cf. i. 589).

Ond eto hwyaga difant dros y maes
Enwerus, ac yw ofer ffrawiad cledd y *drudion*.
W. O. Pughe: Palestina, 35.

Drudion, brave ones, heroes.

¶ Hence *Cerryg y Drudion* (the Stones of the Heroes), the name by which Llan Fair Fadlen, a Church and parish in Denbighshire, is now generally known.

Cyfraith *Cerryg y Drudion*,
Fe loegir potiau gweigion.—*Sion Tudur.*

Drud, *a.* 1. violent, furious, outrageous; severe.

Y maent wy yth geissyaw di ym pob lle yn y fforest honn. ac y maent yn lladron *drut* megys yr oed y lleill.
St. Greal, ¶ 164 (cf. 10).

Drud wyt ym mhob direidi.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 304.

Anifail drud, an untoward animal; a furious animal.

O deruyt menet eydyon en ruyd neu *anyueyl drut* arall a bryuau e ruyd. . . Yaun eu y dyuyn.—*C.C.* ii. 6.

2. daring, bold, brave, courageous, intrepid, valiant, gallant, heroic; vehement, strenuous.

Dybi o Alclut gwyr *drut* diweir.—*Golyddan:* A.B. ii. 128.

Ef a welei varchawc yn dyuot ar hyt y dyffryn. ac erbynneit a oruc Owein. ac ymwan ag ef yn *drut*.
Mab. 172 (cf. 150, 169, 192, 218, 220, 281, 294, 301).

A gwedy ymlad yn *drut* ac yn galet. wynt a wnaethant aerua diruawr oc eu gelynyon.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 95 (cf. 56).

Llyna ymlad yn *drut* vonhedigeid y maent hwy yr awr honn heb hi.—*Ystr. de Carolo Magno*, col. 420.

Cennad fud, *drud* a'i cretwy.
Diareb. (M.A. iii. 151; cf. 154.)

Pwy bynac hagen drwy ethrylyth a wypo ewylhus Duw. ac nys gwnelont. megys ysgolheicion. *drudach* y poenir y rhai hynny.—*Lucidar*, ¶ 69.

Nid oes fudion, nac ehudion,
Beirdd a *drudion* braidd droiadawg.—*W. Midleton.*

Digitized by Google

Llyw o udd *drud*, llewaidd draw,
I ni sydd; einioes iddaw!—*Gronwy Owain*, 36.

Drud, caled, balch, mewn rhyddid yn hyfhau,
Y Drusiaid daliant y gorsafion hyn.
W. O. Pughe: Palestina, 8.

Marchog drud, a brave knight.

3. dear, costly; high-priced; expensive; precious. (The current sense.)

Cyn y pryd hyn yr oedd yr Ysgrythyrau a llyfrau da ereill yn anaml ac yn *ddrudion*.
Ch. Edwards: H. y Ffydd, 130.

Gorthrymder drwy brynu yn rhad, a gwerthu yn *ddrud* yr un pethau.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 208.

Ti elli yn gyffredin brynu rataf a gwerthu *ddrutaf* a'r y medrych.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 150.

Nid *drud* peth da.—*Diareb.*

Na fwrw ymaith mo'th enaid gwerthfawr, yr hwn a brynodd Christ mor *ddrud*.
Dr. Davies: Llyfr y Res. I. iv. 13.

Rhyw newydd wyrth, o'i angeu *drud*,
A ddaw o hyd i'r goleu.
R. ab Gwilym Ddu: Gardd Eifion, 14.

Talu yn ddrud, to pay dearly.

Gwnai i bawb a'u niweidiai *dalu yn ddrud* am hyny.
Charles Edwards: Hanes y Ffydd, 346.

Blwyddyn ddrud, a dear year, a year of dearth.

Bu agos i ti â thrigo o newyn yno'r *blynyddoedd drudion* diweddar.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 108.

Lle drud, a dear place.

Nis gwn eto ddim oddi wrthi, ond mai *lle drud* anial ydyw ar bob ymborth.—*Gronwy Owain*, 199.

Drudaniaeth, *sm.* 1. boldness, courage, intrepidity, daring; forwardness, effrontery, arrogance.

Anvon kennadeu a oruc at Weyryd ac erchy tagnheved udunt kanys ovyn oed arnaw glewder y brenyn a dewred a *drudanyaeth* y Brytanyeyt.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 190.

Nyt barnadwy yn uolyant namyn yn agkyghorus *drudannaeth*.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 467.

Caraf yolaf tri truy *drudannaeth* ket
Carret om guaret yr auch guyrdaeth.
Cynddelw: M.A. i. 248.

Ar ederyn du a arwydockaa dy *drudanyaeth* ath bechawt am y gwrthot.—*St. Greal*, § 41 (cf. 196).

Anostwng yw annymchwel medhwl o *drudaniaeth* y dharostwng y welh neu y bennach noc ef. *Drudaniaeth* yw hirdrigiat medhwl ar y drwc.
Ymborth yr Enaid, § 5 (cf. 10).

Drud yw'r serch, mae'n drydar son,
Drudaniaeth a dry dynion.—*D. ab Gwilym*, ccviii. 7.

2. dearness; dearth; scarcity.

Oed Crist 986, y bu farwolaeth fawr ar yr ysgrubliaid yn holl Gymru, onid aeth *drudaniaeth* mawr ar yr enllyn yn y wlad.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 498 (cf. 550).

Gair yr Arglwydd yr hwn a ddaeth at Ieremïah o achos y *drudaniaeth*.—*Ier.* xiv. 1.

814. Y bu newyn a *drudaniaeth*, sef y llygrwyd yr yttir gan y Gwyddyl a'r Llychlynwys ffordd y cerddynt.
Iolo Mss. 42 (cf. 294).

Ar amser *Drudaniaeth* a Newyn. . . Edrych, atolwg, ar adfyd dy bobl; a chaniatâ am y prinder a'r *drudaniaeth* . . . iddynt, trwy dy drugarog ddaioni di, ymchwelyd yn rhad ac yn helaethrwydd.—*Llyfr Gweddi Gyffredin.*

Rhoddes efe iddynt lendid dannedd, sef *drudaniaeth* a phrinder.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 256 (cf. 145, 234).

Yr hwn, yn amser Elisëus y prophwyd, a droaist yn ddisymmwth y prinder mawr a'r *drudaniaeth* yn Samaria yn helaethrwydd a rhad.—*Llyfr Gweddi Gyffredin.*

Ni fagodd sychder erioed *ddrudaniaeth*.
Diareb. (M.A. iii. 187.)

Diriaid iawn yw'r *drudaniaeth*.—*Iolo Goch.*

Newyn, *drudaniaeth*, nodau, rhyfel, carchar, ac angeu.
Huw Lewys: Perl, 1.

Drudfaith, *a.* boldly extended; very precious.

Namyn sarn drumein vein vet
Namyn seith *druduaith* droeduet.
Einion Wann: M.A. i. 335 (cf. 215).

Dwy droedfedd, fab da *drudfaith*,
O dir iach lle mae da'r iaith.—*D. ab Gwilym*, cxlvii. 27.

Drudfalch, *a.* proud and daring, daringly proud.

Drud urwyso ri drudureisc y haelder
Drud uannyar druduar *drudualch* ner.
Cynddelw: M.A. i. 223.

Drudfar, *a.* [bâr] furious in anger or wrath; very wrathful.

Drudfawr, *a.* 1. of great boldness, courage, or daring; highly courageous or daring,

Drudfawr briodawr, eryr Brydain.—*Gronwy Owain*, 112.

2. very dear, costly, or expensive; highly valuable or precious.

Gan fod cariad a thrugaredd . . . yn fwy cymmeradwy gan Dduw nag aberthau *drudfawr*, a chadw defodau'r gyfraith.—*Ed. Samuel:* Buch. yr Apostolion, 197.

Yr oedd cael o honom le i edifarhau yn bwrcas mor *ddrudfawr*.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 247.

Ni oddef rhif ein darllenwyr i lyfrwerthwyr gyhoeddi gweithiau helaeth a *drudfawr* ar antur.
Blackwell: C.A. 243.

Y mae yn nodi allan addurniadau *drudfawr* penwisgoedd y breninoedd cerfiedig.—*Brutus:* Ninefeh, 299.

Efe a ddywed hefyd wrtho fel y mae y duwiau yn cymmeradwyo yspryd cyfaddas yn y gweddïwr yn fwy na'r ebyrth a'r offrymau mwyaf *drudfawr*.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 49.

Ei arfau oeddynt o'r dull mwyaf *drudfawr*.
Brutus: Ninefeh, 116.

Gwyddys i Isaac ddychwelyd o'r Dwyrain yn llwythog o roddion *drudfawr*.—*Brython*, iii. 99.

Ar ol cael ei gyflwyno i'r teulu, rhyfeddai yn anghyffredin wrth edrych ar y dodrefn *drudfawr* a addurnent yr ystafell.—*Cawrdaf:* Meudwy Cymreig, 166.

Drudiant, *sm.* madness; boldness, daringness.

Pa *ddrudiant*, pa ddireidi,
Pa fethiant, na fynant fi?—*Dafydd ab Gwilym*, cxxxvi. 7.

Drudlachar, *a.* brave and splendid, splendidly brave.

Drud lachar drudlauyn a gymer
Drud lawn y eurdyrn o lad y eurgyrn.
Cynddelw: M.A. i. 223.

Drudlew, *a.* [drud+glew] boldly venturous, brave and venturesome.

Oed Crist 829, y dug Egbert Brenin Caerwynt y danaw Bernwlff Brenin y Mers drwy ymladd *drydlew*, ac yn ebrwydd gwedi hynny y dug efe y danaw y saith Brenhiniaeth Seisnig.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 476.

Drudwaith, *sm.* a costly or expensive work.

Ac wele! oh y golwg!
Rhag anrhaith a *drudwaith* drwg.—*Dafydd Ionawr*, 67.

Drudwalch, weilch, *sm.* a valiant hero.

Drutwalch hylwybyr ualch hylwyd
Dewr argletyr da wr arglwyd.
Prydydd Bychan: M.A. i. 390.

Drudwen, -od, *sf.* [drud] a starling, a stare.

Ac yn hynny meithryn ederyn *drytwen* a wnaeth hitheu ar dal y noe gyt a hi a dyscu ieith idi.—*Mabinogion*, 34.

Morlo pen yw'r *drudwenod*.—*Hywel Dafydd ab Ieuan.*

Drudwerth, *a.* of great value, worth, or price; very precious; costly.

Nid allaf foddloni, rhyw dlodi rhy dlawd
Yw colli perl *drudwerth* mor brydferth a brawd.
Huw Morus: E.C. ii. 201.

Nid â melusion *drudwerth*
I fol yr anferth ful.—*Iago Trichrug.*

Drudws, **Drudwys**, *s.pl.* [Ir. *druid, truid;* Br. *dréd, tréd*] starlings.

Digitized by Google

Drudwst, *sm.* a chattering (as that of birds).—*P.*

Drudwy, *sm.* a starling, a stare.

Dal dadl *drudwy*.—*Iolo Goch*, i'r Tafod.

Na oddefwch eu halogi hwy â glaw a thywydd, a thom colomenod, dylluanod, y *drudwy*, brain, a brynti ereill.
Ed. James: Hom. ii. 164.

Aderyn drudwy } (*pl.* adar drudwy, adar y
Aderyn y drudwy } drudwy), a starling, a stare.

Pe gollyngid pedwar o *adar drudwy* ar unwaith i ebedeg tua Deheubarth Cymru, ac ar yr un mynyd naw o adar yr eira i ledu eu hesgyll tua Chilgwri ac Ynys yr Ia yn y Gogledd, pwy a gymmerai arno farnu pa un o'r tri aderyn ar ddeg yw y blaenaf!—*Gwallter Mechain:* Gwaith, i. 499.

Drudwych, *a.* brave and courteous; gallant.

Drudwych yn y frwydr ydwyd,
A sant yn yr Eglwys wyd.
Meredydd ab Rhys: Iolo Mss. 321.

Drum, -iau, *sm.* [Ir. *druimm*]=*Trum.*

Drutan, -od, *sf.* [cf. *drudwen*, *drudwy*, &c.]: see s.v. *Bras*, *ō*.

Drutāu, *v.* [drud] to make dear, costly, or expensive; to make dearer.

Pan na bo dim twyll, na dim anghen, na dim rhagbrynu i *ddrutāu* 'r farchnad.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 151.

Drwg, *pl.* drygion: *cp.* dryced (cynddrwg, cynnrwg, cynnryced), gwaeth, gwaethaf, *a.* [C. *droc*, *drog*; Br. *droug*, *drouc*; Ir. *drog*, *droch*; Mx. *drogh*] bad, evil, wicked; ill; naughty; mischievous; vicious; corrupt; noxious; sorry.

Yrof i a Duw heb hitheu gwr *drwc* wyt ti.
Mabinogion, 73 (cf. 198, 209).

Yna yr offeiryat a wylyawd o dostur *drycket* oed eu buched.—*St. Greal*, § 57.

Ny orucpwyt eiroet weithret *ddrwg* ny bei veddwl *drwg* ar y dechreu.—*Ipotis*, § 15.

Ti a wnaethost *drwc* yr neb a wnaeth ytti da.
St. Greal, § 254.

A wely di *drycket* y gyflauan a oruc Kei ar y mackwy hwnn?—*Mabinogion*, 219 (cf. 221).

Drwg yw gwneuthur y *drwg*, gwaeth yw trigaw yn y cam.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 596.

Brân ab Edrig a fu frenin ynfyd a *drwg*.—*Iolo Mss.* 10.

Tri pheth a gaiff anghywir: byd *drwg*; gair *drwg*; a diwedd *drwg*.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 69 (cf. 231).

Yr hwn a ddangosaist imi drallodau lawer a *drygion*.
Ll. G. Gyffredin 1567 (Salm. lxxi. 20).

Drwg yw pob un a dybia yn *ddrwg* am arall.—*Diareb.*

Drwg yw y *drwg*, a gwaeth yw y gwaethaf.
Diareb. (M.A. iii. 154.)

Gochel diawl rhag ei *ddryced*.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 108 (cf. 82).

A'r dyn *drwg*, o'r trysor *drwg*, a ddwg allan bethau *drwg*.—*Matt.* xii. 35.

Bydded imi wŷr *drygion*,
A phob enaid anghriston,
Hyd olaith yn elynion.—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 94.

Tri pheth a ddysg dyn o fod yn segur: dysgu meddwl yn *ddrwg*; dysgu gwneuthur yn *ddrwg*; a dysgu dywedyd yn *ddrwg*.—*Trioedd Moes:* M.A. iii. 191.

Heb i gryg na thaw o newid, ar mewn dyddiau *drwg*,
Mewn *drygion* ddyddiau bod, plith *drygion* o
Dafodau.—*W. O. Pughe:* C.G. vii. 29.

Tro drwg i ti, } evil betide thee; ill luck to
Drwg dynged i ti, } you.

Bod yn ddrwg (*gan*), to be sorry; to be vexed or grieved; to regret.

Drwg genyf, } (*genyt*, *ganddi*, *ganddo*,
Drwg yw genyf, } *genym*, *genych*, *ganddynt*),
Mae yn ddrwg genyf, } I am sorry; I am grieved; I regret; it grieves me, &c.

A phan weles ef Melian uelly *drwc* vu ganthaw.
St. Greal, § 12.

A gwedy na welont hwy dydi *drwc* vyd gantunt.
Mabinogion, 173.

A *drwc* vy ganthaw na chafas mynet y warandaw yr offeren.—*St. Greal*, § 129 (cf. 13, 48, 90, 92, 137, 241).

Rac *drycket gennyf* gwelet lleassu gwas kyn decket a thi.
Mabinogion, 221.

Y mae yn ddrwg genyf i mi eich gosod mewn cymmaint o flinder a thraul.—*Gwyliedydd*, i. 403.

Na drwg na da fo genym, whether we will or not; whether it pleases or displeases us.

Na drwg na da fo genym, mae'r weithred ni ddaw o ffydd yn ddrwg.—*Ed. James:* Hom. i. 60.

Bwystfil drwg, an evil beast.—*Gen.* xxxvii. 33.

Nid yw e'n byw ond i fwrw'r amser heibio, ac i ddifa cnwd y ddaiar, fel pryf *drwg*, neu flaidd.
Elis Wynn: Rh.B.S. 6.

Pren drwg, a corrupt tree; a worthless tree.

Y *pren drwg* sydd yn dwyn ffrwythau *drwg*. Ni ddichon pren da ddwyn ffrwythau *drwg*, na *phren drwg* ddwyn ffrwythau da.—*Matt.* vii. 17, 18.

Y sirianbren gwyllt a ddwg geiroes melus, a phob pren, er *dryced* fyddo o honaw ei hun, a berir i ddwyn ffrwyth da pereiddfas.—*Moses Williams:* Llawlyfr, xix.

A'r cawell arall oedd o ffigys *drwg* iawn, y rhai ni ellid eu bwyta rhag eu *dryced*.—*Ier.* xxiv. 2 (cf. 3).

Dynion drwg, } (*sg.* dyn drwg), evil men,
Drwg ddynion, } wicked persons, bad men.

Yspryd drwg (*pl.* ysprydion drwg), an evil spirit, a cacodemon, a devil.

Yr yspryd drwg, the evil spirit, the devil.

Gwr drwg, a bad or wicked man.

Rhag y *gwr drwg* gwared fi, Ner,
Rhag gwr y trawsder efrydd.—*Edm. Prys:* Salm. cxl. 1.

Y gwr drwg, }
Yr un drwg, } the evil one, the devil.

Pont y Gwr Drwg, Devil's Bridge (in Cardiganshire): otherwise and more appropriately called *Pont ar Fynach*, from the river Mynach, which it spans.

Gwir draws yw rhoi i'r *Gwr Drwg* y moliant
Am haeledd mor amlwg;
I ni dda mae'n wir na ddwg
Etifedd cas y tewfwg.—*Daniel Ddu*, 258.

Drwg lygad, }
Llygad drwg, } an evil eye.—*Marc* vii. 22.

Tŷ drwg (*pl.* tai drwg), a house of ill fame or evil repute.

Drwg weithredwr, wyr, } an evil doer; a ma-
Drwg weithredydd, -ion, } lefactor; an offender.
—*Luc* xxiii. 32, 33, 39.

Cymmer drugaredd arnom, *ddrwg weithredwyr* truain.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Cyffes).

Amseroedd drwg, bad times, evil times.

Y da a'r drwg, the good and the bad; the good and bad.

Drwg a drygionus, evil and wicked; vile and vicious.

O wneuthur felly ti a fyddi mor wahanedig oddi bob *drwg a drygionus* . . . ag y mae Duw ei hun.—*Iolo Mss.* 203.

Dyddiau drwg (*sg.* dydd drwg), evil days.—*Amos* vi. 3 (cf. Eph. v. 16).

Y mae amser gwerthfawr a *dyddiau drwg* yn cydredeg.
Sam. Williams: Amser, 31.

Drwg, *pl.* drygau, drygoedd, *sm.* evil; wickedness; badness; mischief; harm; crime; fault.

Ac odyna y ryuelawd yn y erbyn. ac y gwnaeth llawer o *drwc*. . . Eilweith yr ryuelawd yr Ysceottyeit. ac y gwnaethant llawer o *drygeu*.
Brut y Saeson: Ll.C.H. ii. 402.

Digitized by Google

Gwedy daruot udunt hynny wynt a wnaethant y *drygeu* mwyhaf ac a allyssant. ac a ladyssant yscolheigyon ac offeiryeit a myneich. ac a vwryassant yr llawr yr eglwysseu ar capeleu. ac a wnaethant o *drygeu* gymeint ac y mae ryued nas llyngkawd y dayar wynt yr ystalym.
St. Greal, § 57.

Trannoeth y boreu aruaethu a orugant mynet y Veironnyd y letyaw heb wneuthur dim *drwc* amgen.
Brut y Tywysogion, 100 (cf. 96, 112).

A thalu *drwc* im dros vyn da am enryded itt.
Amlyn ac Amig, col. 1106.

A gophant wy y *drygoedh* a dhiodhefassant gynt ar eu cyrph yn y byt.—*Lucidar*, § 125.

O ddau *ddrwg*, goreu y lleiaf.
Diareb. M.A. iii. 187 (cf. 146.)

Arfer *drwg* a wna'r *drwg* yn arfer . . . a rhag ymarfer â *drwg* ymswyned pob Cristion.—*Iolo Mss.* 163 (cf. 253).

Bu reit yr gwr ddioddef y poen ar dial a ddylyei hi y gael am y *drygeu*.—*Doethion Rhufain*, § 17.

Gwell i ddyn y *drwg* a ŵyr no'r *drwg* nas gŵyr.
Diareb. (M.A. iii. 160.)

Na chais y da arhöed y *drwg*.—*Iolo Mss.* 259.

Gwared ni rhag *drwg*.—*Y Pader*.

Manegu oe tywysawc *drygiau* y dynion dan chwerthin.
Lucidar, § 90.

Drygau mwy na'r rhai a welaist yn dygwydd, a wneir yn ol hyn. Canys po gwanaf fyddo y byd wrth oedran, mwy y tyf *drygau* ar y rhai a erys ynddo.—2 *Esd.* xiv. 16, 17.

Na wna *ddrwg*, ac ni oddiwes *drwg* dydi.—*Eccl.* vii. 1.

Alecsander y gof copr a wnaeth i mi *ddrygau* lawer.
2 *Tim.* iv. 14.

Nid yn talu *drwg* am *ddrwg*, neu sen am sen.
1 *Pedr* iii. 9 (cf. 10, 11, 12).

Da a drwg, good and evil.—*Gen.* ii. 17; iii. 5, 22.

Cael drwg, to be blamed, scolded, or punished; to be called to account.

Drwodd, } *adv.* [trwodd, trwyodd] through;
Drwyodd, } across; over. See *Trwodd*, *Trwyodd* (s.v. *Trwy*).

Ac ual•y breuei vn o'r deueit gwynnyon y deuei vn or deueit duon *drwod*. ac y bydei yn wenn. ac ual y breuei vn or deueit duon. y deuei vn or deueit gwynnyon *drwod* ac y bydei yn du.—*Mabinogion*, 225 (cf. 188).

Dywed . . . i'r gwr sanctaidd, yng nghyd â mil o wŷr, fyned *drwodd* yn droedsych.
Carnhuanawc: Hanes Cymru, 170.

Drws, *pl.* drysau, *sm.* [C. *daras;* Ir. *dorus, duras:* cf. *Dor*] 1. a door; the movable frame that closes an entrance or passage.

Ar kynnutwr a dyly kynneu tan idaw a chayu y *drysseu* guedy yd el yr etlig y gyscu yn diogel.
C.C. i. 348 (cf. 382, 418, 578, 626, 784).

Meuyl ar uy maraf i heb ef onyt agoraf y *drws*. . . Agori y *drws* a wnaeth. ac edrych ar Gernyw.
Mab. 42 (cf. 20, 21, 40, 41, 196, 293).

Odyna agori *drws* ar y dy a dwyn y meirch y mywn.
St. Greal, § 95.

Tri argae llys: *drws* y porth; a *drws* y neuadd a *drws* yr ystafell.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 604.

Ef a doeth damchwein a oed gyn ryuedet ac y kaeawd kwbyl o *drysseu* a ffenestri y neuad.—*St. Greal*, § 3.

Ychydic kyn y dydd y doeth tu ar *drws*. a gwedy na weles y *drws* yn agoret. erchi agori a oruc. . . Hitheu yn gyflym riueryawc a aeth y mywn. a chau y *drws* yn gadarn arnei.—*Doethion Rhufain*, § 17.

A'r rhai oedd barod, a aethant i mewn gyd ag ef i'r briodas: a chauwyd y *drws*.
Matt. xxv. 10 (cf. vi. 6; Dad. iii. 8; iv. 1).

A phan ddelych i mewn, cau y *drws* arnat.
2 *Bren.* iv. 4 (cf. 5, 21, 33).

Pann yttoed y dyd yn dyuot wynt a glywynt taraw *drws* yr ystauell.—*Mab.* 72 (70, 103, 176, 177).

Pan aeth unmab Duw y dydd goreu
I *ddrws* porth uffern gaethau.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 400.

Ceidwad drws, a door-keeper, a door-ward, a porter.

Capan drws: see *Capan*.

Drws cefn, a back door; a door at the back of the house.

Drws dieithr, } a back door, a private door; a
Drws dirgel, } secret door.—*W.*

Y drws allan, } the outer door; the front
Y drws i maes, } door.

Drws y tŷ, the door of the house.

A chaeu *drws y ty* a wnaeth ef arnaw. a mynet y orffowys.
St. Greal, § 75 (cf. 112, 125).

Clo a roed ar *ddrws y tŷ*.
D. ab Gwilym, liii. 1 (cf. 9; xcvi. 38, 50).

Wrth y drws (*pl.* wrth y drysau), at or by the door; before the door.—*Dad.* iii. 20; *Iago* v. 9.

Drws agored, an open door.—*Dad.* iii. 8 (cf. iv. 1).

2. a door, doorway, entrance, or passage; a pass; an opening.

Y ulwydyn rac wyneb . . . y rodes Etwart urenhin ac Etmwnt y urawt Elianor y kefnitherw . . . y Lywelyn ar *drws* yr eglwys vawr yg Kaer Wyragon, ac yno y priodes.—*Brut y Tywysogion*, 370.

Yna y daeth Lot atynt hwy allan i'r *drws*, ac a gauodd y ddor ar ei ol.—*Gen.* xix. 6 (cf. 11; 1 Bren. vi. 31, 33).

A dwy ddor i'r *drysau*, sef dwy ddor blygedig; a dwy ddor i'r naill *ddrws*, a dwy ddor i'r llall.
Esec. xli. 24 (cf. 23, 25).

Myfi yw *drws* y defaid.—*Ioan* x. 7 (cf. 1, 2, 9).

Drws ogof, the mouth, opening, or entrance of a cave.

Ac yna achub a oruc Arthur *drws yr ogof*.—*Mab.* 142.

Efe a oblygodd ei wyneb yn ei fantell, ac a aeth allan, ac a safodd wrth *ddrws yr ogof*.—1 *Bren.* xix. 13.

Drws bedd, the door or entrance of a tomb.

A Ioseph . . . a dreiglodd faen mawr wrth *ddrws y bedd*.
Matt. xxvii. 60 (cf. Marc xv. 46).

Drws ymadrodd, a door of utterance; a door for the word.—*Col.* iv. 3.

Y gwahaniad hwnw a ledodd iddo *ddrws ymadrodd*.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 128.

Drws y ffydd, the door of faith.—*Act.* xiv. 27.

b. Hence the names of several passes between mountains; as *Drws Ardudwy, Drws y Coed, Drws y Nant, y Drws Bach, Bwlch Oerddrws*, and the like.

Nyd oet hawt llew aerulawt lluyt
Y dreissyaw ger *drws* deuynyt.
Llygad Gwr: M.A. i. 344.

Drwy, *prep.* [trwy: C. *dire, der, tre;* Br. *dre*] through; by means of; by. See *Trwy*, of which *drwy* is a mutation.

Kerdet a oruc *drwy* wlatoed y Saesson.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 248.

Wynt a giliassant *drwy* yr auon. . . Ti a wdost kynnedyf yr auon. ny eill neb vynet *drwydi*.—*Mabinogion*, 36.

Mi awn at ddeuwr o'm iaith
Drwy 'r aweddwr, *drwy* 'r oddaith;
Drwy 'r las iaen, *drwy* 'r maen mynor,
Drwy dân maith, *drwy* donnau mór.—*L. G. Cothi*, vi. v. 19.

Drwy gyghor sened Rufein. ef a ellygwys kenadeu.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 209.

Distrywassant y gaer a oed yg kylch y castell. ar dref *drwy* arbet y heneideu yr castellwyr.
Brut y Tywysogion, 372 (cf. 28, 370).

Trannoeth y bore gwedy daruot y Galaath gwarandaw offeren. ef a gychwynnawd ymeith *drwy* gennat Melian ar myneych.—*St. Greal*, § 14 (cf. 101).

Dry, *a.* [=try ?] forward, foremost, conspicuous.—*P.*

Digitized by Google

Drycin, Dryghin, Dryc-hin, -oedd, *sf-m.* [drwg + hin] foul, bad, or tempestuous weather; a storm or tempest.

Eysted or brenhyn ay geuyn ar yr heul neu ar y *drycyn* ual na bo y uyneb ar y *drycyn*.—*C.C.* ii. 26.

Ae keuen ar er eul neu ar y *drychin* rac aulonidu or hin oy uyneb ef.—*C.C.* i. 144.

Kalangayaf kein gyfrin
Kyfret awel a *dryckin:*
Gweith keluyd yw kelu rin.
Llywarch Hen: A.B. ii. 249 (cf. 254).

Saer *dryghin* ym min y môr.
D. ab Gwilym, lxix. 39 (cf. xxx. 58; cxiv. 19).

Tri afrwydd hynt: diaspad; *dryc-hin;* ac ymlid.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 258 (cf. 157, 177).

I'th lys gwinoedd rhag *dryghinoedd*,
I fyddinoedd sy feddiannau.—*L. G. Cothi*, III. xix. 75.

A'r boreu y dywedwch, Heddyw y bydd *dryghin*, am fod yr wybr yn goch.—*Esgob Morgan:* Matt. xvi. 3.

Cwyno'r ydwyf rhag henaint,
Cwyn hir gan *ddryghin* a haint.—*I. Brydydd Hir, hf.*

Gnawd yn ol *dryc-hin* hindda.—*Diareb.* (M.A. iii. 157).

A *dryghin* y sy'n Llinwent,
Wedi nai Trystan o Went.—*L. G. Cothi*, I. xii. 25.

Ni bu *ddryghin* heb hinon.—*Ieuan ab Hywel Swrdwal.*

Gochel y *ddrycin* oreu y medri. . . Geill dy ben fod mewn gorweddfa digon isel a diogel ac allan o'i chyrhaedd, cyn y toro'r *ddrycin* allan.
Th. Williams: Ymadroddion Bucheddol, 229.

Megys pelydr yr haul ar ol *dryghin.*
Theo. Evans: D.P.O. 242.

Oni rwystrid ef gan *ddryghin* neu aflechyd.
G. Mechain: Gwaith, ii. 589.

Caseg y drycin, Caseg y ddrycin, see s.v. *Caseg.*

Gyda ni, cyfrifir glas y dorlan, a *chaseg y dryghin*, yn adar asgellog brithion liwiau; ond balchach o lawer y gwisgir adar paradwys.—*Gwalltr Mechain:* Gwaith, ii. 415.

Drycinedd, Dryghinedd, Dryc-hinedd, *sm.* foulness or roughness of weather; tempestuousness, storminess.

Gorllewin a'i *ddryghinedd*,
Y Duw mawr diau a'u medd.—*Robert Owen:* Gweith. 122.

Drycinog, Dryghinog, Drycinllyd, Dryghinllyd, *a.* being foul weather; stormy, stormful, tempestuous; foul, rough.

Gelli di fyw i'w gweled hi yn *ddrycinog*, ond na ad i'r ddrycin o hirbell ddigaloni mo'not.
Th. Williams: Ymadroddion Bucheddol, 229.

Fel y bo i ni ganlyn y brisg a dorasant hwy drwy luchfëydd profedigaethau'r byd *dryghinog* hwn.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, Rhag.

Er caffel o honom lawer iawn o dywydd oer a *drycinog.*
Gronwy Owain, 332.

Ymwriai llong ym mâr llif
Dryghinllyd ar y cenllif.
Robert Owen: Gweith. 279 (cf. 137).

Yr oeddwn yn canfod fy hun yng nghanol anialwch dirfawr, yn nhrymder hin *ddrycinog.*
J. Mills: Hyff. yr Efrydydd, 127.

Wedi'r hafddydd mwyaf tesog,
Daw *drycinog* auaf du.
Ieuan o Leyn: Blodeuyn Lleyn, 89.

Taniai y mellt yn eu mysg,
Dryghinllyd ruai cenllysg.
Pedr Fardd: Mêl Awen, 159 (cf. 183).

Tywydd drycinllyd, foul, rough, or stormy weather.

Drycinol, Dryghinol, *a.* tempestuous, stormy; foul, rough.

Drycio, Dryco, *v.* [drwg] to become or grow bad or evil; to degenerate; to become worse; to make worse, to injure.

Dy blas di, eb efe, sy'n derbyn dynion da i mewn, ond heb wneuthur un da: yno mae y rhai drwg yn tycio, a't rhai da yn *drycio.*—*Morus Cyffin:* Diff. (1849) iv. 3.

Drycodd ni am bedwarcant
O fwyddau chwith—afiwydd chwant!
Gwalltcr Mechain: Gwaith, i. 186.

Dryccred, -au, *sf.* [drwg+cred] an evil, mischievous, or erroneous creed; bad faith.

Chwchwi varchogyon urdolyon llawn o *drycred.* llawd o obeith.—*St. Greal*, § 36.

Drych, -au, *sm.* [cf. Gr. δέρκομαι] 1. that which is presented to the eye or sight; an object to look at; a sight, aspect, or appearance; the look which one wears; a spectacle, a scene; a mirror, pattern, or example; a form; a portrait or likeness; a state or condition.

Yna y rodes Arawn y ffuryf ae *drych* e hun y Pwyll Pemdeuic Dyuet. ac y kymerth ynteu y ffuryf e hun ae *drych.*—*Mabinogion*, 6.

Myrdin. . . Yr hwnn a roes *drych* Gwrlois ar Arthur.
St. Greal, § 186 (cf. 254).

Y edrich drichumauc *drich* serchogion.
Llyfr Du: A.B. ii. 26.

A doluryaw a oruc Gwalchmei yn uawr o welet Arthur yn y *drych* hwnnw.—*Mabinogion*, 179.

A phan y mynnont y gallant kymryt furyf dynawl ae *drych* arnadunt.—*Ystr. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 143 (cf. 179).

Ac yn gytneit ac y daeth hun yn y lygeit y rodet *drych* idaw y vot ef ae gedymdeithon yn kerdet ar traws maes Argygroec.—*Mabinogion*, 146.

Gwybyd di yn lle gwir mae Paredur a Gwalchmei a Lawnslot ac Owein oedynt *drych* ac exawmpyl y gwbyl oth lys ath gyuoeth.—*St. Greal*, § 254.

Nyt tebyc hyn e *drech* kennadeu.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 215 (cf. 150).

A *drych* eur ar drychant tuted.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 293 (cf. 38, 519).

Dangossuch chwitheu ymi y *drech* hep yr amperawdyr. ac yn diannot y dugant y *drech* rac *y* vronn. a Veronic a genhlynnwys y *drech* . . . a phan dattoded rac bronn yr amperawdyr dodi ei eneu wrth y *drech.* ac yn diannot caffel iechyt or cluauri a oed arnaw.
Llyfr Gwyn Rhydderch (Ms.), 68.

Delw a gymerir yn eilun phurnedigaeth o ryw amnait a *drych* y duwyolder yssydh yn y Drindawt.—*Lucidar*, § 16.

Tec oed o ffuruf a *drych*, a hynaws o ymadrodyon.
Brut y Tywysogion, 170.

Dy wahawdd, *drych* y tri-phlwyf,
I Ddôl yr Aeron ydd wyf.—*D. ab Gwilym*, xix. 3.

Nid oes genym ddim hoffder yn eich gwleddoedd a'ch chwareuon; lle nid allwn edrych ar ddim ond rhwysg a rhyfyg, gloddest a meddwdod, y *drychau* nid ynt weddus.
Theo. Evans: Drych y P.O. 333.

Gosodaf di yn *ddrych.*—*Nah.* iii. 6.

Nyni a wnaethpwyd yn *ddrych* i'r byd, ac i'r angylion, ac i ddynion.—1 *Cor.* iv. 9.

Pan adeilader Seion wych,
A hon yn *ddrych* i'r gwleydd.—*Edm. Prys:* Salm. cii. 16.

A haul a *drych* haelder oedd.—*L. G. Cothi*, III. ii. 26.

Llyma y *drych* a esyd Gauaf o'n blaen.
Gwalltcr Mechain: Gwaith, ii. 353.

A phwys a thristwch byd, a'i wg,
A'i gwnaeth yn ddrwg ei *ddrych.*
Cawrdaf: Meudwy Cymreig, 115.

Bod â drych gwael arno, to make but a mean *Bod yn wael ei ddrych,* or poor figure.

Na ad, a mi mor *wael* fy *nrych*,
Fath bwn o oernych arnaf.—*Daniel Ddu*, 234 (cf. 52).

Drych nod (*pl.* drychau nod), a pattern, an example; a mirror.

Drych nod brain a phiod ffair,
Draig unwedd daroganair.—*D. ab Gwilym*, clxxxii. 36.

Er gosod i lawr llwyr *ddrych nod* a golygwel ar y mesurau ym mhob dull a modd ernynt.
Edward Dafydd: Cyfr. y Beirdd, 5.

Pob ymgais hardd, pob ymarweddiad,
Yn *ddrychau nod* i ddynol ryw.
Iolo Morganwg: Salm. II. lvii. 3.

Digitized by Google

Sometimes (less correctly) written *drychnod* (*pl.* drychnodau).

Os myni di gael *drychnod* eglur o'r hyn oll a ddywedais i o'r blaen, mi a allwn ddwyn i ti lawer o *ddrychnodau*; ond rhag bod yn rhyhir, digon fydd *drychnod* troad St. Awstin yn unig.—*Dyhewyd y Cristion* (1802), II. i. 35.

Gwr drych, a person that is a mirror or example to those around him; an exemplary man.

Mae dysg ar feddiant gantaw,
Mae'n *wr drych*, o mynir draw.
Ieuan Du'r Bilwg: Iolo Mss. 327.

2. a mirror, a looking-glass; a glass.

Edrych yn y *drych* dy dro,
A'th wyneb yn cethino.—*D. ab Gwilym*, ccxxii. 25.

Drych fyrlyg.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 300.

Fferyl a ossodes colofyn yn perueid Rufein. ac ar ben y golofyn *drych* o geluyddyt nigromawns. ac yn y *drych* y gwelei senedwyr Rufein. pa deyrnas bynnac a geissynt. . . Ar golofyn ar *drych* oeddynt yn pery y bob teyrnas ofynhau rac gwyr Rufein yn vwy no chynt. ac yna y kynnigawdd Brenin y Pwyl aneiryf o dda yr neb a gymerei arnaw ddiwreiddaw y golofyn. a thorri y *drych*.
Doethion Rhufain, § 21 (cf. 23).

Oni syniais yn amlwg
Y *drych*, a llyna un drwg!
Ym' y dywed, o'r diwedd,
Y *drych*, nad wyf wych o wedd.
D. ab Gwilym, ccxxvi. 3 (cf. 20, 23, 32, 34; lvii. 32).

Tri pheth, o chăr gwraig weled y ddau cyntaf, hi a gâr weled y trydydd: wyneb ei hun mewn *drych*; cefn ei gwr o bell; a gordderchwr wrth ei gwely.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 240.

Drych i bawb ei gymmydawg.—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Efe a wnaeth noe bres, a'i throed o bres, o *ddrychau* gwragedd.—*Ecs.* xxxviii. 8 (cf. Iob xxxvii. 18; Esa. iii. 23).

Gweled yr ydym yr awr hon trwy *ddrych*.
1 *Cor.* xiii. 12 (cf. 2 Cor. iii. 18; Iago i. 23).

Tebyg yw hwnw i wr a fai yn synio ei bryd genedigawl mewn *drych* [°gwydr].—*Esgob Davies:* Iago i. 23.

Nyt heneint gwr ae gwrthrych
Nyt hyn oes dyn noc oes *drych*.
Gruffydd ab Gwrgeneu: M.A. i. 374 (cf. 379).

Yr oedd pob llygad yn agored, a phob *drych* mewn gwaith.
Cylchgrawn, i. 19.

Gwelwn . . . ereill wrth y *drych* er's teir-awr yn ymbincio.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 23.

Drych ymwisgo, a dressing glass or mirror.

Drych twyllodrus, } (lit. and fig.) a false glass
Drych ffals, } or mirror.

Pob math o wisgoedd gwychion, ystoriau gorchestol, *drychau ffeilsion*.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 26.

Pan y byddo eu glendid wedi gwaethygu, hwy a geisiant ei guddio oddi wrthynt eu hunain trwy *ddrychau twyllodrus*.
Ios. Rees: Hunan-Adnabyddiaeth, 38.

Drych meirionig, a scarecrow.

Mal *drych*, o gwn edrych neb,
Meirionig, ym' yw'r wyneb.—*Guto'r Glyn*.

Drych dimai, a farthing mirror; a pale face.

Drych cenllysg haul goleufawr,
Drychau dimeiau Duw mawr.—*D. ab Gwilym*, ccviii. 57.

Drych Gwener, } Venus' looking-glass, lady's
Drych meinwen, } looking-glass, corn-violet, corn bell-flower (*Campanula hybrida*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 184.

b. (fig.) cf. sense 1.

Edrych yn y *drych* hwn dro,
Gyr galon graig i wylo.—*Dewi Wyn:* Bl. Arfon, 110.

c. Often used in the titles of books; as, *Drych Christianogawl*, *Drych y Prif Oesoedd*, *Drych yr Amseroedd*, *Drych Ysgrythyrol*, *Drych Barddonol*, and others.

Drychafael, } *v.*: see *Dyrchafael*, *Dyrchafu*, &c.
Drychafu, } *Drych-* for *dyrch-* is common in Medieval Welsh. Cf. C. *drehevel;* Ir. *driuchadh*.

A phan welas y elynyon bychanet oed y nifer yn amdiffyn o vywn y castell *drychafael* yscolyon wrth y muroed a wnaethant.—*Brut y Tywysogion*, 168.

Mae o drachyfoeth yn *drychafael*.
L. G. Cothi, III. xxvii. 26.

Drychbeiriant, iannau, *sm.* an optic instrument.

Arwyneb hon y Tusciad celfydd ddawn
A sylwa trwy *ddrychbeiriant* craff oddi ar
Ben Ffesolé, neu o Valdarno.—*W. O. Pughe:* C.G. i. 307.

Drychedd, *sm.* portraiture, form.

Drycheigiog, *s.* corn bell-flower?

Gwreid y *drycheigiawc* y torri yr hychgruc; y taraw ar y dwfyr oer ac yvet a chronni hwnnw yn y cneu.
Meddygon Myddfai, i. 22.

Drychfeddwl, feddyliau, *sm.* [drych+meddwl] a mental image, an idea, a notion. The same as *meddylddrych*, a more accurate but less euphonic compound.

Yn ol y *drychfeddyliau* a ffurfiom i ni ein hunain am wrthddrych ein haddoliad, felly bydd ein crefydd.
Cylchgrawn Cymraeg (1793), i. 61.

Yr ydym yn awr yn dyfod at y mater arall, sef y *Drychfeddyliau*. Mae yn eglur i ni fod genym *ddrychfeddyliau* yn y meddwl. Ond a oes gwahaniaeth rhwng y *drychfeddyliau* hyn fel y maent ynom ni, a'r *drychfeddyliau* hyn fel y maent ynddynt eu hunain ac yn Nuw? Oes. Y maent yn ammherffaith ynom ni, ond yn Nuw yn berffaith. Pa fodd mae y *drychfeddyliau* hyn yn dyfod i fod ym meddwl y creadur?—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Duwin. 687 (cf. 21, 22, 23, 24, 25, 26, 28, 29).

Homer ydyw y gwaith gwreiddiol, ac mae ei *ddrychfeddyliau* yn tra rhagori ar yr eiddo neb arall.
Gutyn Padarn: Gwaith, 122.

Dywedodd fod *drychfeddyliau* fy rhai i yn dda iawn.
Cawrdaf: Meudwy Cymreig, 60 (cf. 183, 215).

Er hyn y mae yr Awdlau yn flodeuog o *ddrychfeddyliau* awenyddawl.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 248 (cf. i. 498, 527).

Y mae yn anhawdd trosglwyddo *drychfeddwl* am eu hymddangosiad.—*Cylchgrawn*, i. 341.

Nes d'od, drwy fod yn cryfhau,
I ddal ar *ddrychfeddyliau*.—*Caledfryn:* Caniadau, 129.

Ymarfer i draethu ynddi eu *drychfeddyliau* yn eglur ac yn hyawdl.—*Gwyliedydd*, ii. 30 (cf. iv. 249).

Fe welid goleudy, mor deg a *drychfeddwl*.
Islwyn: Caniadau, 71 (cf. 35, 53).

Ei dyb ef yw mai meddylddrych yw gwreiddyn pob peth sydd yn bod: nad yw pob peth, a phob dull o fod, ond gwahanol gangenau, yn myned allan o'r *drychfeddwl*.
Adolygydd, i. 164 (cf. 165, 169).

Drychfeddyliaeth, -au, *sf.* ideality.

Maent yn golygu . . . na allasai gwaharddiad o ddelwaddoliaeth gymmeryd lle hyd ryw oes ddiweddarach, pan y daeth dynion, drwy gynnyddu yn ol graddau dadhuddiad, i afael â dirnadaeth eglur o *ddrychfeddyliaeth* ddansoddol y Duwdod.—*Adolygydd*, i. 170.

Drychfeddyliol, *a.* ideal; mental.

Mae y Gymraeg, ym mysg ereill o'r ieithoedd dysgedig, yn *ddrychfeddyliol*.—*Gwyliedydd*, iv. 249.

Penderfynant fod athroniaeth y meddwl yn *ddrychfeddyliol*.—*Adolygydd*, i. 171.

Rhyw uffern *ddrychfeddyliol*, mor ddiddammeg ag y gall ddangos ei hun mewn iaith.—*Adolygydd*, i. 172.

Drychiad, -au, *sm.* a portraying.—*P.*

Drychiaden, -au, *sf.* a mould; a matrix; a type.

Mold . . . cynllun, *drychiaden*.—*Th. Charles*, s.v. 'Mold.'

Drychiannog, } *a.* [drychiant] sightly, comely;
Drychynnog, } aspectable.

Oian a parchellan . . .
Vn ysgun aroun minit maon
Y edrich *drichumauc* [al. *drychynnawy*] drich serchogion.
Myrddin: A.B. ii. 26 (cf. M.A. i. 137).

Drychiannol, *a.* prospective.—*P.*

Drychiant, iannau, *sm.* a prospect; a sight.

Digitized by Google

Drychiolaeth, -au, *sf.* 1. an apparition, spectre, or phantom; an appearance; a figure; phantasy.

Pa *ddrychiolaeth*, gaeth geithiw,
Y sydd yn y gwinwydd gwiw?
D. ab Gwilym, cxxxi. 19 (cf. clxxi. 35; clxxiii. 38).

Drychiolaeth oedd o fiaen fy llygaid.—*Iob* iv. 16.

Hwy a dybiasant mai *drychiolaeth* ydoedd.
Marc vi. 49 (cf. Matt. xiv. 26).

Pa olwg ddychrynllyd yw gweled mintai o bobl yn ymddangos yn yr heolydd yn debycach i ysprydion a *drychiolaethau* nag i ddynion byw!
Gruffydd Wynn: Ystyriaethau, 42.

Mae Catullus hefyd, ar ol llawer o'r Groegiaid, yn dywedyd fod *drychiolaethau* nefol yn arferol o ymddangos i ddynion.—*Ed. Samuel:* Grotius, i. 16.

Braidd y cloisai Cweg fy synwyrau, nad dyma yn cyfeirio ataf ryw *ddrychiolaeth* ogoneddus, ar wedd gwr ieuanc tal a glandeg iawn.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 70.

Drychiolaeth ddu-gaeth ddigorff,
Yng ngwyll yn dwyn canwyll corff.—*Gro. Owain*, 109.

Rhoddai [D. ab Gwilym] leferydd yng ngeneu *drychiolaeth*, ac ymgomiai â'i gysgod ei hun.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 167.

Gwelai megys rhyw *ddrychiolaeth* wen yn llithro heibio i'r ffenestr.—*Cawrdaf:* Meudwy Cymreig, 146.

Gobeithiwch yn berffaith ar y gras a ddugpwyd atoch, drwy *ddrychiolaeth* [*ymddangosiad, ddadguddiad] Iesu Christ.—*Esgob Davies:* 1 Pedr i. 13.

Nid wyf yn deall fod toeli o'r iawn ryw i'w weled byth yng Ngwynedd a Phowys; er bod yno ddigon o ryw fân ysprydion a *drychiolaethau*.—*Ystên Sioned*, 10.

2. (=drych 1) a spectacle, a sight; a gazing-stock.

Tra dygid chwi allan weithiau trwy waradwydd a chystudd i fod yn watwargerdd, ac i fod yn *ddrychiolaeth*.
Esgob Morgan: Heb. x. 33.

Ystyr ef wyth ddiwrnod wedi ei farw, a'i dynu allan o'i fedd; mor hyll a dychrynllyd o *ddrychiolaeth* yr ymddengys!—*Gr. Wynn:* Ystyriaethau, 59.

Drychiolaethol, } *a.* apparitional, spectral;
Drychiolaethus, } ghostly.

Drychioli, } *v.* to make apparent or manifest;
Drychu, } to mirror, to reflect.

O Dan bell y clywir gweryriad ei feirch,
Gwel! *drychir* y nefoedd a'r ser ar eu seirch!
Islwyn: Caniadau, 13.

Drychlen, -au, -i, *sf.* [drych+llen] a scene.

Mae y wlad hon [yr Aipht], enwog mewn hanesyddiaeth o'r oesoedd boreuaf, ac yn ddiweddar yn *ddrychlen* o lwyddiant ysplennydd arfau Prydain ar dir a môr, yn sefyll yng nghwr dwyreiniol gogleddbarth Affrica.
R. Roberts: Daearyddiaeth, 322.

Y mae y cyfaill absennol yn ein cymdeithas; ac y mae y person gyd â'r hwn y cyflawnwyd y gorchwyl yn ymddangos ar y *ddrychlen*.—*Gwyliedydd*, xiii. 49.

Drychol, } *a.* relating to aspect, appearance,
Drychiol, } or form; that is an object; that is seen; relating to appearance.

Einigan Gawr a gafas ddeall ar lythyr gyntaf; ac efe a wnaeth y prif dorronau, nid amgen nag un ar ddeg; sef y pedair goslefiaid, a'r saith gwerforion; a phob *drycholion* a welai, a phob chwedl a glywai.—*Barddas*, i. 52.

Dryd, *a.* economical, thrifty, industrious; skilful, skilled, expert, active, handy.

Dyn dryd iawn yw ef, he is a very thrifty person.—*S.E.W.*

Dryd, *sm.* economy, thrift; skill.

Drydol, *a.*=*Dryd.*—*P.*

Drygabsen, } -au, *sm-f.* See *Absen.*
Drwg absen, }

Seguryd . . . mam pob drygioni yw . . . mam tlodi, mab enllib a *drwgabsen*.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 187.

Drygadyn, -od, *sm.* [drwg+adyn] a blackguard, an open scoundrel.

Drygadyniaeth, *sf.* blackguardism.

Dryganghraifft, } eifftiau, *sf.* a bad example
Drygenghraifft, } or pattern.

Drygair, eiriau, *sm.* [drwg+gair: C. *drocger* (C.V.), *drogger*] ill report, evil report; a bad word or name.—*M.A.* i. 402.

Onys agory mi a dygaf angclot yth arglwyd a *dryc eir* y titheu.—*Mabinogion*, 103.

Gwae a gaffo *ddrygair* yn ieuanc.—*Diareb.* (M.A. iii. 158.)

Tri pheth a gaiff dyn twyllgar: *drygair;* drygfyd; a drwg ddiwedd.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 118 (cf. 171, 190).

Ioseph a ddygodd eu *drygair* hwynt at eu tad.
Gen. xxxvii. 2 (cf. 1 Sam. ii. 23; Matt. v. 11).

Pa *ddrygair* a all fod yn fwy na hwn o'r enaid damnedig!
Gr. Wynn: Ystyr. 172 (cf. 23, 89).

Rhoi drygair i un, to give one a bad name or character; to speak evil of a person; to blacken a person's character.—*Marc* ix. 39.

Drygamynedd, *sm.* want of patience, impatience.

Nid ef a ddiwyg dyn ei *ddrygamynedd* [*al.* ddrwg amynedd].
Diareb. (M.A. iii. 170.)

Dryganadl, *sf.* a bad, foul, or fetid breath.

O tri achaws ny chyll gureic y heguedi kyt adawho hi y gwr nyd amgen o glauyri a *dryc anadyl* ac eisseu kyt.
Cyfreithiau Cymru, i. 748 (cf. 520).

Dryganedd, *sm.* [cf. *anian, aniaeth*] evil disposition.

Dryganiaeth, *sf.* [drwg+aniaeth] evil or bad disposition, ill-nature; malignity, malice, malevolence; wickedness.—*Deut.* xxv. 2.

Pan genedlech feibion, ac wyrion, ac heneiddio o honoch yn y wlad, ac ymlygru o honoch, a gwneuthur o honoch ddelw gerfiedig, llun dim fel y gwneloch *ddryganiaeth* yng ngolwg yr Arglwydd dy Dduw i'w ddigio ef.
Esgob Morgan: Deut. iv. 25.

Er i adgof o'm gwendid fy hun, a maintioli'r gorchwyl, a *dryganiaeth* rhai anwydau fy nigaloni yn hir.
Ch. Edwards: H. y Ffydd, 216.

Yn nheyrnas yr haul a'r lleuad a'r defnyddiau, nid yw ef nac arglwydd na thywysog yno, ond yn y rhan ofidus, sef yng ngwreiddyn *dryganiaeth* pob peth.
Morgan Llwyd: Ymroddiad, vi. 3.

Digon (medd efe) i'r diwrnod ei *ddryganiaeth* ei hun.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 87.

Pwy bynnag na chwennychant ddifuddio tystiolaeth dynion o ran *dryganiaeth* eu hewyllys, mae yn rhaid iddynt ddangos rhyw gyffelybrwydd o anewyllysgarwch y cyfryw dystion i ddywedyd y gwir.
Ed. Samuel: Grotius, iii. 6 (cf. iv. 8).

Nid all holl *ddryganiaeth* dynion a chythreuliaid wneuthur i ti ddim niwaid.—*Ed. Samuel:* Holl Ddyl. Dyn, iii. 31.

Ac yna mewn *dryganiaeth*
Llyncodd Saul saith gythraul gwaeth.—*Robert Davies.*

Cyfryw yw dichell a *dryganiaeth* y fall a'i swyddogion.
Ed. Samuel: Buch. yr Apostolion, 32.

Dryganian, } *sf.* [drwg+anian] ill-nature;
Drwg anian, } evil disposition; malignity, malice; bad temper.

Teir gormes doeth ynt: meddawt; a godineb; a *drycanyan*.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 446.

Nyt gwedus goruot o *drycannyan* ar y gwr.
Campau Charlymaen, 187.

Gwenwlyd heb y Rolant. ry barawt wyt y lidiaw. ac nyt gwedus goruot or *drycanyan* ar wr. namyn bot yn drech y gwr nor *drycanyan*.
Yst. de Carolo Magno, col. 464 (cf. 469).

Tri pheth a gynnal hir ddirieidi ar ddyn: dryg[illegible]ni; *dryganian;* a glythineb.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 81 (cf. 2[illegible], 221).

No *dryganian* fflam y drwy gynnau derw.
Gruffydd ab Meredydd: [illegible]. M.A. i. 451.

Digitized by Google

Cas yw blinder medhwl am aralh o hen *ddrycanian*.
Ymborth yr Enaid, ¶ 10.

Byr *ddryganian* a wna hir ofal.—*Diareb.* (M.A. iii. 150.)

Pan yw o *ddrwc annian* am lygru y phan newydd y gwnaethoed hi hynny.—*Doethion Rhufain*, ¶ 39.

Amaerwy direidi *drwg anian*.—*Diareb.* (M.A. iii. 147.)

Y mae efe hefyd yn carthu rhwd aneirif o wyniau drwg, a thrachwantau, a *dryganian* mewn dyn: megys *dryganian* balchder, a gwag ogoniant, a diogi, a llid.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. ii. 10.

A wrda heb y brenhin na dala lit na bar wrthym yr y geiryeu *drycanyan* a dywetpwyt gynneu. ac ediuar yw gennyf uyn *drycanyan*.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 470.

Dryganianol, *a.*=*Dryganianus.*

Dryganianu, *v.* to be ill-natured or ill-tempered; to be in a passion; to fly into a passion.

A phan ddarfu hyny, Priaf a gyfodes i fyny, ac a *ddryganianws* wrth Antenor ac wrth Æneas, ac a ymliwws ag wynt.—*Ystori Dared*, ¶ 88.

A *dryganianu* a orug wrth y cennadau. a dywedyd iddynt fod yn rhaid gwneuthur heddwch tragwyddawl.
Ystori Dared, ¶ 76.

Dryganianus, *a.* ill-natured; ill-disposed; bad-tempered; passionate; cross, crabbed; malicious.

Bid diriaid *ddryganianus*.—*Diareb.* (M.A. iii. 149.)

Drygantur, -iau, *sm.* [drwg+antur] an evil, unfortunate, or unlucky adventure; misadventure; misfortune.

Y prenn a weleist ditheu yno heb ffrwyth arnaw a arwydockaa y byt yn eglur. yr hwnn nyt oed yndaw dim amgen no *drycanturyeu* a thlodi ac eissyeu.—*St. Greal*, ¶ 43.

Dryganwyd, **Drwg anwyd,** } -au, *sm.* [drwg+anwyd] evil disposition, ill-nature; malice, malignity; bad temper; a passionate disposition.

'Yn llawn cenvigen, a l'add-celain, cynen, hooced, *drycanwydae* [*anynadrwydd, gwrth pwyll], yn hustingwyr, yn athrodwyr.'—*W. Salesbury:* Rhuf. i. 29, 30.

Yn llawn cenfigen, llofruddiaeth, cynhen, twyll, *dryganwydau;* yn hustyngwyr, yn athrodwyr.
Esgobion Morgan a Parry: Rhuf. i. 29, 30.

Dryganwydo, *v.* to become ill-tempered; to be passionate.

Dryganwydol, **Dryganwydus,** } *a.* ill-natured, ill-disposed, intemperate; passionate.

Mae yn coelio yn fuan, yn gybyddus, *drwg-anwydus*, yn oestad yn cwyno.—*Gruffydd Wynn:* Ystyriaethau, 30.

Mae y gwas a'r forwyn . . . yn dywedyd mai cidwm cyrrith, anynad, *drwganwydus*, aruthr yw.—*Gro. Owain*, 199.

Gan fod yn rhy *ddrwg anwydus*.
Iago ab Dewi: Llonyddwch, 6.

Drygar, *sm.* [drwg+âr] bad or imperfect ploughing.

Os cwysau llydain, yr oged, pan elir i lyfnu, a dyn yr had i'r tir byw, ac i'r rhych, o achos y *drygar*.—*Y Greal*, 199.

Drygarfaethu, *v.* to form evil designs; to conceive bad intentions.

A Boya a dechreuawd *dryc aruaethu*. a Dewi ae disgyblon a lawenhassant.—*Buchedd Dewi:* LL.A. 110.

Drygarfer, **Drwg arfer,** } -ion, *sf.* [drwg+arfer] a bad custom, usage, or habit; a bad course (of life).

Mae Iuddewon a Chenedloedd wedi dodi eu bryd ar y *drygarfer* o liawswragedda, a hyny yn dra chyffredin.
Ier. Owen, 101.

Rhag ei dynu oddi wrth ei *ddrwg arfer* yn pechu.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. i. 35.

Llawer o achwynion trymion ereill a ddaethant ato yng nghylch amryw *ddrwg arferion* llygredig a darddasant yn yr Eglwys honno.—*Ed. Samuel:* Buch. yr Apostolion, 98.

Mae efe yn dilyn drygarferion, he follows evil courses; he is addicted to bad habits.—*C.S.*

Drygarferiad, -au, *sm.* a using bad habits; a bad habit or usage.

Drygarferol, **Drygarferus,** } *a.* relating to bad habits; of bad habits; badly habituated; ill-using.

Pwy sy dda ei arfer? Y neb a fedr ymoddef â dyn llidiawg *drygarferus* a fo gadag ef.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 55.

Drygarferu, **Drygarfer,** } *v.* to use bad habits; to treat or use badly; to follow evil courses.

Ac iddynt hwythau ei gamarfer a'i *ddrwgarfer* ef i'w herbyn eu hunain.—*Gr. Wynn;* Ystyriaethau, 86.

Drygarglwydd, **Drygarlwydd,** **Drwg arglwydd,** } -i, *sm.* a bad lord or master; a bad ruler or governor.

Un *drygarlwydd* ym mhen cant annefawd. Un camraith ym mhen cant *drygarlwydd*.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 54 (cf. 156, 258).

Drygargoel, **Drwg argoel,** } -ion, *sf.* a bad omen; an inauspicious sign or omen.

Drygargoelus, **Drygargoeliog,** } *a.* ill-omened, inauspicious, ill-boding; unfavourable, unlucky.

Drygau, **Drygoedd,** } *s.:* pl. of *Drwg*, sm.

O'r *drygau* goreu'r lleiaf.—*Iolo Mss.* 253.

Yssid hynn ar vrynn gwynn goleu vchel
Gan ochel *drygoet* drygweithredeu.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 273.

Mae *drygau* uffern yn wir *ddrygau*. . . Ni all fod yno ddim diffyg o *ddrygau*, lle y mae pob *drygau* i'w cael.
Gr. Wynn: Ystyriaethau, 167.

Yn lle yr aneirif *ddrygau* gwastadol oedd isod, ni welit ti yma ond sobrwydd, mwynder, a sirioldeb.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 43 (cf. 97).

Drwg y drygau, the evil of evils; the greatest of evils.

Drygbeth, -au, *sm.* an evil or bad thing; that which is evil.

Drwy fod y dyn yn gweled, ac yn dal ar, y *drygbeth* y bo'n ei feddwl.—*R. Smith:* Eglurhâd, 208.

Mae'r Stoiciaid yn dysgu yn eglaer na ddylid cyfrif yn *ddrygbeth* fyw mewn tlodi, clefyd, a thrueni.
Huw Lewys: Perl, 200.

Drygbrofedigaeth, **Drwg brofedigaeth,** } -au, *sf.* evil temptation.

Duw or nef heb y Peredur am diangho rac *drycbrofedigaetheu*.—*St. Greal*, ¶ 29.

Drygbwyll, *sm.* bad sense; indiscretion.

Drygbwyll, **Drygbwyllus,** } *a.* evil-minded; irrational, indiscreet, imprudent; ill-intentioned.

Gwragedd priodol wrth eu moliant
Drwy feddwl *drygbwyll* a fawr dwyllant.
Taliesin: M.A. i. 26.

Drygchwant, -au, *sm.* evil desire, lust, concupiscence.—*Col.* iii. 5.

Drycchwant yw lhithredic ostyngedigaeth medhwl ar y wahardhedic vedhalrwydh eydhunet.
Ymborth yr Enaid, ¶ 8.

Yno Gwaelder neu *Ddrygchwant* a'm harweinodd i neuadd fawr ddrychafaidd.—*Marchog Crwydrad*, i. 8.

Er na bo yr ewyllys yn cyttuno ac yn cydsynu â gwŷn y cyfryw *ddrygchwant*.—*R. Smith:* Eglurhâd, 206.

Er dim na chroesawer un *drygchwant*, neu un cariad cudd, yn y meddwl a'r bwriad.
Elis Wynn: Rh.B.S. 74 (cf. 9, 243).

Drygchwantu, *v* to desire or wish what is evil or bad; to lust; to have depraved desires.

Digitized by Google

Drygchwantus, *a.* lustful, concupiscent.

Drygdad, -au, *sm.* a bad or wicked father.

A glywaist ti chwedl Dingad
Yn ceryddu mab *drygdad*?—*Iolo Mss.* 253.

Drygdaeliwr, wyr, *sm.* a bad or bungling tailor.

Gwell drygsaer no *drygdaeliwr.*—*Diareb.* (M.A. iii. 159.)

Drygdafodiog, *a.* evil-tongued.

Drygder, *sm.* badness, evilness, vileness, viciousness; harm, mischief, injury; evil.

Lle nid oes it,' er gwynfyd imi, na gallu na deall i wneuthur i mi *ddrygder.*—*Iolo Mss.* 158.

Drygdir, -oedd, *sm.* bad or sterile land; poor or infertile soil.

Tri rhyfel yn heddwch: drygwraig; *drygdir,* a drygarglwydd.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 258 (cf. 156).

Ni chel *drygdir* ei egin.—*Diareb.* (M.A. iii. 167.)

Drygdyb, -iau, *sm-f.* suspicion, distrust, mistrust; a bad or unfavourable opinion; evil thought.

Ymelhtigaw yw bwrw *dryctyb* yn erbyn gweithred dha ai chamystyriaw.—*Ymborth yr Enaid,* ¶ 7.

Na ddala *ddrygdyb* yn dy ben,
Nac o gynfigeu ronyn.—*Edm. Prys:* Salm. xxxvii. 1.

Ffydd a ddywad i mi nad oedd yno ddim anundeb, nac adfyd, na phechod . . . na phoenau, na *drygdyb,* na thrais.
Marchog Crwydrad, iii. 8.

Ai gwendid yw hyny, cyndynrwydd, taeogrwydd, *drwgdyb,* anhynawsedd, sarrugrwydd mewn ymddygiad, eisieu caredigrwydd groesawaidd!
Iago ab Dewi: Llonyddwch, 57 (cf. 98).

Drygdybiad, -au, *sm.* a distrusting, suspecting, or mistrusting; suspicion.

Drygdybiaeth, } -au, *sf.* [drygdyb] suspicion,
Drwg dybiaeth, } distrust, mistrust.

Eu gwisg ydoedd gyfryw ag na ddygai arnynt *ddrygdybiaeth* bod ganddynt ddim i'w guddio.—*Rasselas,* xv.

Y maent, fel yr adar yn yr ynysoedd anhygyrch, yn rhydd oddi wrth bob *drwgdybiaeth.*
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 319 (cf. 343).

Drygdybio, } *v.* to think evil of; to suspect,
Drwg dybio, } distrust, or mistrust; to regard with suspicion.

Tair cynneddf anweddus ar ddyn: taerni cais; caled i roi; a *drwg dybiaw.*—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 84.

Dyma arfer pechaduriaid, medd efe, *drwgdybio* pob peth.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. i. 18.

Ychydig ar ol hyny y *drwgdybiodd* tywysogion ac arglwyddi Grecia Hyrene.—*Ed. James:* Hom. ii. 68.

Yr wyf yn ei ddrygdybio, I suspect him; I have no confidence in him.

Drygdybiol, } *a.* suspicious, distrustful, mis-
Drygdybus, } trustful; apt to think evil.

Un *drwg dybus* ym mhen cant llofrudd.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 54 (cf. 49).

I'r sawl nas gwypom ddim oddi wrth eu gwiriondeb neu eu heuogrwydd, ond y bydder o herwydd rhyw weithredoedd ammheus yn *ddrwgdybus* o honynt.
Ed. Samuel: Holl Ddyl. Dyn, xvii. 12.

Oni bûm i yn rhy *ddrwgdybus.*
Iago ab Dewi: Llonyddwch, 45 (cf. 31, 32, 46).

Drwg pob *drygdybus.*—*Diareb.*

Drygdybiwr, wyr, } *sm.* a suspicious person,
Drwg dybiwr, wyr, } a suspecter.

Pan ystyrir fod y dychymmygion hyny, gan mwyaf, yn tarddu allan oddi wrth ryw ragfarn, drwgnawsrwydd, neu falais yn y *drwg-dybiwr.*—*Langford:* Holl Ddyl. Dyn, 267.

Drygdyngedfen, } -au, *sf.* an evil destiny; an
Drwg dyngedfen, } ill-fate.

Velly y proffwydwyt y deuyt titheu y orffen yr anturyeu ar *drycdynghetuenneu* ysseyd yn yr ynys honn.—*St. Greal,* ¶ 11.

Drygddamwain, } weiniau, *sf.* misfortune,
Drwg ddamwain, } mischance, ill-luck, ill fortune, ill chance.

Ac odyno uel dyna tro *dryc damweineu.*
Gruffydd Ynad Coch: M.A. i. 403.

Deu urenhin oc eu *drycdamwein* a gyfaruuant ac ef.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 227.

Eythyr henny hevyt *dryc damweyn* arall a damweynyassey en er enys honn.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 237.

Ac y gyt a hynny *drycdamwein* arall hefyt a deuth udunt.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 252 (cf. 227).

Drygddamweiniad, -au, *sm,* a happening ill or unfortunately.

Drygddamweinio, *v.* to happen ill, badly, or unfortunately; to mishappen.

Drygddamweiniol, *a.* ill-happening, unfortunately occurring.

Drygddeddf, -au, *sf.* a bad law, statute, or institute.

Drygddefod, } -au, *sf.* a bad custom or usage;
Drwg ddefod, } a bad or evil habit.

Dec mlyned y bu Arthal yn gwledychu a pheydyaw a wnaeth ar *dryc devodeu* a wuessynt arnaw gynt.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 162.

Perchen *drwgddefawd* a ddel attaw.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 398.

Tri pheth a waradwyddant gerddawr: cybyddiaeth; gwladeiddrwydd; a *drygddefodau.*
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 137.

Drygddefodi, *v.* to use or follow bad habits. —*P.*

Drygddefodiad, -au, *sm.* a following or using bad custom or habit.—*P.*

Drygddefodol, *a.* of bad habits; ill-mannered. —*P.*

Drygddychymmyg, } -ion, *sm.* bad or wrong
Drwg ddychymmyg, } invention; a bad devise; evil intention.

Drycdhychymyc yw gyrru neu dhychymygu ar aralh newydh ogan yn gelwydhawc.—*Ymborth yr Enaid,* ¶ 7.

Drygddychymmyg a fydd, pan ddychymmyger ar foliant reswm gwan diffrwyth, ac a ellir ei ddyall yn hawdd at fwy gogan na moliant.—*Cyfrinach y Beirdd,* 199 (cf. 195).

Drygddyn, -ion, *sm.* an evil man; a bad or wicked person; a mischievous man; a wicked fellow.

Am nat diogel itt gael ffrwyth y prenn. tra vo y geing racko yn ysgynbren. ac yn gynhalbren *drygddynyon* a lladron.—*Doethion Rhufain,* ¶ 18.

Heb yr angel, *Drygddyn* oedd, ac ni chadwes ef gyfreithiau Duw.—*Iolo Mss.* 191.

Er bod son *drygddynion* draw,
Herod wyf i'th ddiheuraw.—*D. ab Gwilym,* xii. 11.

Na *drygddyn* ys gwell oi da.—*Diareb.*

Pobl Brydain yn druain draw,
Pob *drygddyn* dioer rhagddaw.—*Iolo Goch.*

Tri *drygddyn* y sydd ag nis gellir eu gwaeth: cybydd; enllibwr; a gwenieithwr.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 202.

Goddef y *drygddyn* dros dro bach,
Ni welir mwyach honaw.
Edm. Prys: Salm. xxxvii. 10 (cf. 7, 12).

Ac ydd oeddid yn arwain gyd ag ef ddau *ddrygddyn* ereill i'w lladd. . . Yno y crogesont ef, a'r *drygddynion.*
W. Salesbury: Luc xxiii. 32, 33.

Efe a oganir megys gelyn i lonyddwch, yn wr o yspryd terfysgus, yn brelad balch, ac yn *ddrygddyn* cybyddus.
Iago ab Dewi: Llonyddwch, 97.

Drygddywedyd, } *v.* to speak evil; to use
Drwg ddywedyd, } bad words or expressions.

Gwell tewi no *drwg ddywedyd.*—*Diareb.* (M.A. iii. 160.)

Digitized by Google

Drygedd, -au, *sm.* vice; evil; evilness, badness; naughtiness; mischief; malignancy.

Pob argywed. a phob *dryged*. dreic arwraf.
Cyssegrlan Fuchedd: Ll.A. 99.

Ef a dhaw hynn olh o *dhrygedh* ar y genedyl honn.
Lucidar, § 78.

Dim gobaith weithian nid oes, fal yn dân,
Ond darogan hain a *drygedd*.—*L. G. Cothi*, VIII. x. 43.

I gybyddiaeth y perthyn y *drygeddau* hyn: ocr, twyll, anudon, a thrais.—*Marchog Crwydrad*, i. 10 (cf. iii. 7).

Nid wyf fi yn cael mo'r amser, na heddwch, na hamdden, gan yr hen ysgol front yma, a *drygedd* y cywion Saeson.
Gronwy Owain, 173.

Drygeddus, *a.* evil-disposed; mischievous.

Fe allasai Scipio ei amddiffyn, a'i ddial ei hun ar y terfysgwyr cyn *ddrygeddus*, eithr â chalon uchel.
Huw Lewys: Perl, 203.

Drygeirio, *v.* [drygair] to abuse; to spread ill-report; to speak evil of.

Echrydus yw cyflwr llawer sy'n cablu ac yn *drygeirio* yr hyn ni ddeallant.—*Morgan Llwyd*.

Drygenw, -au, *sm.* a bad name; ill-name; evil report.

Heliogabilus . . . a oedd yn dwyn ei fywyd cynddrwg ag na adewis ef un cofiedigaeth ar ei ol am fywyd glân puraidd, ond *drygenw* a chywilydd.—*Marchog Crwydrad*, t. 5.

Megys ag y mae mam yn gwaeddi yn erbyn ei phlentyn ar ei harffed, gan roddi *drwg enwau* iddo.
Taith y Pererin (1771), 106.

Drygenwi, *v.* to call bad names; to name badly.

Drygewyllys, **Drygwyllys**, -iau, *sm-f.* ill-will; malevolence; enmity; spleen.

Ac erchi y Duw uadeu y *drycewyllys* idaw.—*St. Greal*, § 45.

Trydydh yw *dryc ewyllus* drwy eydhunaw angau y aralh, hyt na bo arnaw ef nas lhedhit oe vodh.
Ymborth yr Enaid, § 10.

A phan doeth Alexander y ynys Cithara y medylyawd Elen Vanawc gwreic Menelaus vrenhin oe *drycewyllys* hi nat ytoed Menelaus gartref yn ynys Sporta a reghi y bod hitheu yn ymroi y Alexander.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 10.

Ffolineb oedd â chyddnabod rhyngti a harneiswr, yr hwn a elwid *Drygwyllys*. . . A'r holl ddryg-arfau a'r trwsiad afradus hyn, *Drygwyllys* a'u paradhaodd i mi ar ddeisyfiaeth Ffolineb. . . Megys ag y mae *Drygwyllys* yn weithredwr pob drygioni, felly y mae Ewyllysiwr Da yn weithredwr pob daioni—*Marchog Crwydrad*, i. 3 (cf. 4).

Drygewyllysiad, **Drygwyllysiad**, -au, *sm.* a wishing evil; a being malevolent.

Drygewyllysio, **Drygwyllysio**, *v.* to wish evil; to be malevolent.

Drygewyllysiol, **Drygwyllysiol**, *a.* malevolent, ill-disposed, evil-minded.

Drygewyllysiwr, **Drwg ewyllysiwr**, **Drygwyllysiwr**, wyr, *sm.* one who wishes evil (to another), an ill-wisher.

Yna y gwirid geiriau y *drwg ewyllyswyr*, sef na pharhâ ein hiaith oddi ar 100 mlynedd ar wyneb y ddaiar.
Gronwy Owain, 238.

Drygfab, feibion, *sm.* a bad or undutiful son; a bad boy; a naughty boy or child.

Dryc uab wyf yd rwyf rym goreu.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 330.

Esgud *drygfab* yn nhŷ arall.—*Diareb.* (M.A. iii. 155.)

Rhybuched *drygfab* i'w [*al.* ei] fam.
Diareb. (M.A. iii. 176.)

Drygfarch, feirch, *sm.* a poor or worthless horse, a jade.

Achub maes mawr â *drygfarch*.—*Diareb.* (M.A. iii. 145.)

Drygfarn, -au, *sf.* 1. a bad or unjust judgment; an unjust sentence; a wrong decision.

2. a sore or severe judgment (or divine visitation).

Pa faint mwy, pan anfonwyf fy mhedair *drygfarn*, cleddyf, a newyn, a bwystfil niweidiol, a haint, ar Ierusalem, i dori ymaith o honi ddyn ac anifail?—*Esec.* xiv. 21.

O'r pedair *drygfarn*, haint yw yr ymweliad mwyaf ofnadwy.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 380.

Drygfarnu, *v.* to judge badly, unjustly, or harshly.

A orug o ddrwg ni *ddrugfernir*.
Dafydd Benfras: M.A. i. 320.

Drygfawr, *a.* of great enormity; flagitious; pernicious; very bad or wicked.

Pa nifer o Gristianogion ynfyd y sydd, y rhai sy yn adeiladu gobaith eu hiechydwriaeth ar bethau ereill heb law Iesu Grist, megys rhai ar eu rhydd-deb oddi wrth bechodau *drygfawr*.—*Llyfr y Res.* (1684), 373.

Gorchymmyn i'th angelion sanctaidd fod o'i amgylch i'w ddiddanu, ac i ymlid ymaith holl ysprydion *drygfawr* maleisus ym mhell oddi wrtho.
R. Vaughan: Ymarfer Duwioldeb, 377.

Drygfeddwl, **Drwg feddwl**, feddyliau, *sm.* an evil thought; an evil mind.

Weldyna arglwyd iawn ytt yn lle vyn *drycvedylyeu*.
St. Greal, § 28.

Cadw di ni . . . rhag pob *drwg feddwl* a wna niwaid na chynhwrf i'r enaid.—*Ll. G. Gyffredin* (2 S. yn y Garawys).

Duw . . . a ddichon geryddu y *drwg feddyliau* a'r trachwantau.—*R. Smith:* Eglurhâd, 211.

Drygfoes, -au, *sf.* ill-manners; bad behaviour; ill-breeding.

Na chais barch am *ddrygfoesau*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 8.

Tripheth ni wna afles i neb: celu ei *ddrygfoes*; rheoli ei ddrygnwydau; a chadw ei ddrygfeddyliau.—*Trioedd Moes.*

Gwaetha anaf yw *drygfoes*.—*M.A.* i. 548.

Od oes wŷr â *drygfoes* draw,
Afrywiog, i'n difriaw.—*Gronwy Owain*, 27.

Llawn enllib a *drygfoes* a rhagrith cas rhygroes
Yw'r oes, er du oerloes daiarlawr.—*Daniel Ddu*, 268.

Drygfoesog, **Drygfoes**, *a.* ill-mannered, ill-behaved, ill-bred.

Anafus pob *drygfoesawg*.—*Diareb.* (M.A. iii. 147.)

Tripheth y dylai athraw wyliaw rhagddynt ar ei ddysgyblion . . . na wnelont rigymau *drygfoes* ac anweddus er anfoddloni gwr a gwlad.—*Barddas*, ii. 110.

Drygfoneddig, **Drwg foneddig**, -ion, *sm.* an affected or up-start gentleman.

Mal *drwg foneddig* a'i faich.—*Diareb.* (M.A. iii. 164.)

Drygfri, *sm.* [drwg+bri] bad pre-eminence.

Drygfryd, *sm.* evil design or intention; malice.

Drygfrydig, *a.* evil-designing; ill-intentioned.

Drygfuchedd, **Drwgfuchedd**, **Drwg fuchedd**, -au, *sf.* an evil course of life; a bad life or conduct.

Ffalsedh neu dhichelh yw cudhiaw *dryc vuchedh* drwy dwylhodrus ymdhangos cyphelybrwydh sancteidhrwydh.
Ymborth yr Enaid, § 6.

A druanaf gorff! dielw o bryd, arddystyr gof dy gamweithredoedd a'th ffolineb, ffynnon y *ddrygfuchedd*, a cham falchder.—*Ymryson yr Enaid a'r Corff* (Brython, ii. 216).

Pedwar peth ni ddylai neb eu rhwystro: un a fyno briodi yn gyfreithlawn; un yn myned i ysgol; un a fo yn gynnorthwy anghenus; ac un yn amcanu ymadael â'i *ddrygfuchedd*.—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 115.

Yr hwn, i'm tyb i, sydd yn un o'r llyfrau goreu i ddysgu i ddynion ymadael â'u *drwg fuchedd*.
Dr. Davies: Llyfr y Res., Rhag. 2.

Drygfucheddol, *a.* leading a bad life; of immoral conduct.

Drygfucheddu, *v.* to lead a bad life; to live badly or immorally.

Digitized by Google

Drygfwriad, } -au, *sm.* an evil intention, a
Drwg fwriad, } bad purpose or design; malice.

Yr hwn sydd yn gofyn genym ymogelu rhag llid, digter, *drwg fwriad.*—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 358 (cf. 246, 248).

F' all y sawl a guddio'i *ddrwgfwriad* tan gysgod caredigrwydd wneuthur llawer mwy o niwed.
Ed. Samuel: Holl Ddyl. Dyn, Rhag. 7.

Drygfwriadol, } *a.* evil-minded, evil-inten-
Drygfwriadus, } tioned; evil-designing.

Drygfwriadu, *v.* to design or intend wickedly; to have a bad intention; to intend harm, injury, or mischief.

Drygfyd, -au, *sm.* [drwg+byd 6] adversity, calamity, affliction; a distressing misfortune.

Croen ellyll gwillmer drigfer *drygfyd.*
Madog Dwygraig: M.A. i. 490.

Tri pheth y caiff y dyn twyllodrus: pawb yn ymwrthod ag ef; *drygfyd* anesgorawl; a diwedd drwg.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 231.

Tri pheth a gaiff dyn ffals: *drygfyd;* drygair; a drygweddi [*al.* drwg ddiwedd].—*M.A.* iii. 141 (cf. 84, 118).

Nis gwaradwyddir hwy yn amser *drygfyd.*—*Salm.* xxxvii. 19 (cf. x. 6; xxxv. 26; xc. 15; cvii. 39).

Am hyny y gwyliodd yr Arglwydd arnom ni am *ddrygfyd,* ac a'i dug arnom.—*Baruch* ii. 9.

Yna y trallodwyd yr holl genedl gyflawn, gan ofn eu *drygfyd.*—*Esth.* xi. 9 (cf. 8).

Dyddiau drygfyd, the days of adversity.—*Salm.* xciii. 13.

Drygfydig, *a.* adverse, calamitous, distressful.

Drygffydd, *sf.* bad faith; erroneous belief.

Boed perth eu difierth yngwerth eu *drygffydd.*
Golyddan: M.A. i. 158 (A.B. ii. 128).

Dryggysuro, *v.* [drwg+cysuro] to grieve; to afflict; to sorrow.

A phan gigleu ef yn hyspys varw y vrawt. ef a dechreuawd *dryckyssyryo* yn gymeint ac na allei neb y didanu. Peid heb y Lawnslot ath *dryckyssyryo* uelly.
St. Greal, § 135.

Dryghaeddiant, *sm.* demerit, ill-desert.

Dryghaint, heintiau, *sf.* [drwg+haint] a sore or destructive pestilence; a contagious disease.

Sychder oer sy'n lladd yr henaint,
Felly gwna'r Saturnaidd *ddryghaint.*
Morgan Llwyd: Gwyddor Uchod (1765), 154.

Y mae hyn megys *dryghaint* yn ymdanu ar hyd y wlad.
Sam. Williams: Amser (1724), 32.

Dryghau, *v.*=*Drygu.*

Iä, tithau Anian, i bob gwaith, yn wâr,
Ac oll sy byw, a yw, i fod mor gref
A roddaist, iä, tydi *drygheynt,* ond mwyn dy lef!
W. O. Pughe: Odlig (Pal. 70).

Dryghin, -oedd, *sf-m.:* see *Drycin,* &c.

Drygiaith, *sf.* bad or improper language; evil communication.

Tro y clust byddar at bob *drygiaith.*
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 58.

Drygianus, *a.* [=dryganianus] ill-natured, ill-tempered, ill-disposed; hot-tempered.

Medion [=Meriones], gwr coch cyfartal ei faint oedd, ag aelodau crynion gwrawl iddaw; a *drycianus,* a chreulawn, a diamyneddus oedd.—*Ystori Dared,* § 53.

Diomedes, gwr cadarn pedrogl, â chorff gweddus iddaw, a gwychr yn ymladd; a dywedwydawl, ac ymenydd gwresawg, a *drycianus* oedd a glew.—*Ystori Dared,* § 47.

Drygieithio, } *v.* to use bad, foul, or improper
Drwg ieithio, } language.

Pan wel dyn ddarfod fyth am dano,
Ac eisys yno yn *drwg ieithio* gyda'r gethern.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 115.

Drygio, *v.* [drwg]=*Drycio.*

Drygiog, *a.* [drwg] full of evil, wickedness, or mischief; mischievous; vicious.

O enwir digewilyd vawr *drygyawc* vrawdwr.
Buchedd Margaret Santes: C.B.88. 225.

Neu gael i ymafael â mi
Goeg yspryd *drygiog* aspri.—*Gronwy Owain,* 8.

Yn eu cyflwr dofaidd ymddengys yr un natur gyfrwys a *drygiawg.*—*Gwyliedydd,* vi. 242.

Drygiol, *a.* tending to harm or injure; evil, bad, wicked; harmful, injurious.

Rhwysg a gwagedd y byd *drygiol,*
A throseddus chwantau cnawdol.
Sion Fychan: Llyfr Carolau (1745), 198.

Drygioni, *sm.* [drwg: cf. *daioni* (da), *haelioni* (hael), &c.] wickedness; viciousness, badness, evilness, naughtiness; depravity, vileness.

Ny orffowyssawd y *drygyoni* ef yny annones kennadeu y dynnv llygeit o benneu y neb a ganmoleynt Dwnstan.
Brut y Saeson: LI.C.H. ii. 389.

Ar neb a sychawd yma o oeruel *drycyoni.* yawn yw ev kyruachu yno o boennedic oeruel.—*Llyfr Ancr,* 54.

Brenhin holl riet am gwyr nam gommet
Am y drugaret om *drygioni.*—*Meilir:* M.A. i. 192.

Nyt yr *drycyoni* y torres y cledyf hwnn namyn o achaws dy bechodeu di.—*St. Greal,* § 50 (cf. 85, 95).

Efe a gedwis allan ei elynion o'i wlad drwy nerth arfau, a *drygioni* drwy nerth deddfau a chyfreithiau Morgan Mwynfawr.—*Iolo Mss.* 13.

A anghofiasoch chwi *ddrygioni* eich tadau, a *drygioni* breninoedd Iudah, a *drygioni* eu gwragedd hwynt, a'ch *drygioni* eich hunain, a *drygioni* eich gwragedd, y rhai a wnaethant hwy yng ngwlad Iudah!
Ier. xliv. 9 (cf. 3, 5, 22).

Nid anffawd ond *drygioni.*—*Iolo Mss.* 258.

A wreiddio mewn *drygioni,* anhawdd fydd ei gynghori.
Diareb. (M.A. iii. 149; cf. 18, 259.)

Drygionus, *a.* wicked, evil, vicious, mischievous, naughty, bad.

Drygionus a leinw ei fro ag anfawl pob doethion.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 94 (cf. 18, 36, 105, 231).

A holl Israel a glywant, ac a ofnant, ac ni chwanegant wneuthur y fath beth *drygionus* a hyn yn dy blith.
Deut. xiii. 11 (cf. xvii. 5; xxv. 2; xxviii. 35).

Yr ail ddull y sydd, pan fo i'r areithiwr regu, cablu, melltigo rhyw beth, neu ryw ddyn *drygionus,* wrth dderchafu ei lef.—*H. Perri:* Egl. Ffraethineb, xxxii. 1.

Drygionus yw gwin, *drygionus* yw'r brenin, a *drygionus* yw'r gwragedd, a holl feibion dynion sy *ddrygionus.*
1 *Esd.* iv. 27.

Y rhai *drygionus* a wnânt ddrygioni: ac ni ddeall y rhai *drygionus;* ond y rhai doethion a ddeallant.—*Dan.* xii. 10.

Y drygionus, the wicked.

Y cyflawn a'r drygionus, the righteous and the wicked.—*Mal.* iii. 18.

Drygionusder, } *sm.* viciousness, wicked-
Drygionusrwydd, } ness, depravity.

Sef ebe Pilat wrthynt, Pa fodd yn awr y dychyn efe wneuthur y pethau hyny o dwyllwybodau ac o *ddrygionusder* gweithred?—*Efengyl Nicodemus,* i.

Dryglais, leisiau, *sm.* [drwg+llais] a bad, disagreeable, harsh, or hoarse voice; a hoarse or frightful noise.

Dryglam, -au, *sm.* [drwg+llam] a disastrous step; a mischance, mishap, ill-luck, or misfortune.

Ny rygelir *dryglam.*—*Diareb.* (M.A. iii. 168.)

Dryglam oer, drwg glwm eiriau,
I'r dyn o honom ein dau.
D. ab Gwilym, cxxii. 21 (cf. cxcv. 16).

Ynfydrwydd yw holl fawredd dynol: gan fod yn rhaid iddo ddarfod o'r diwedd, ac ysgatfydd trwy *ddryglam* ac anffawd.—*Gr. Wynn:* Ystyriaethau, 15.

Ein camrau ni y mae bob dydd
Yn rhydd i'w cyfarwyddo;
A'r nos y mae rhag *dryglam* dwys,
Ion gwiw-lwys, yn ein gwylio.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 113.

Digitized by Google

Dryglawn, *a.* full of evil, wickedness, or mischief; mischievous.

Pleser, ynddo ei hun yn ddiniwed, a eill fyned yn *ddryglawn*, trwy beri i ni ymhoffi mewn cyflwr y gwyddom ei fod yn ddiflannol a phroflannus.—*Rasselas*, xlvii.

Drygleisiad, -au, *sm.* a screaming, a screeching; a making a frightful noise.

Drygleisio, *v.* to make a disagreeable noise; to scream, to screech.

Drygliw, -iau, *sm.* [drwg+lliw] a bad colour; a stain.

Drygliwiad, -au, *sm.* a discolouring, discoloration.

Drygliwio, **Drygliwo,** *v.* to give a bad colour to; to show in a bad light; to discolour; to stain; to malign; to change colour.

Y mae er hyny mor awchfrydus i amddiffyn crefydd, ac mor fywiog ac anniffygiawl ag erioed i ddisylfaenu dadleuon gwrthwynebwyr Cristionogaeth yn gyffredinawl, ond yn fwy enwedigawl y sawl a *ddrygliwiant* osodedigaethau a daliadau yr Eglwys Sefydledig.
G. Mechain: Gwaith, ii. 449.

Arferir geiriau diystyrllyd ac ammharchus gan y drygionus er mwyn porthi eu cenfigen, a *drygliwio* eu gwrthwynebwyr.—*Joseph Harris:* Gweith. 249.

Drygliwiog, **Drygliw,** *a.* discoloured; stained, tinged. —*W.*

Ni ddoeth y gyt ac Egbirt onyt cant marchawc or rei goachul *drycliwiawc*.—*Brut y Saeson:* M.A. iii. 476.

Dryglywodraeth, **Drwglywodraeth,** -au, *sf.* a bad government; maladministration; bad management; misgovernment.

Dryglywodraethiad, -au, *sm.* a governing badly; a badly conducting.

Dryglywodraethol, **Dryglywodraethus,** *a.* badly governing or managing.

Dryglywodraethu, *v.* to govern ill or badly; to misgovern.

Drygnad, -au, *sf.* [drwg+nad] a howl, a yell, a hideous shriek, a screech, a noise; a scream uttered in bad temper.

Lle gwelais ogof anferthol, ag ynddi'r fath *ddrygnad* echrys, na chlywswn i eto mo'i gyffelyb.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 82.

Y clustiau tyner, a llais ac a *drygnad* gerwin yr yspryd-ion damnedig.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. ix. 11.

Drygnadu, *v.* to utter shrill screams or cries; to howl, to yell, to screech, to shriek.

Onid yw'n anghyfiawnder ac yn ynfydrwydd mawr ei oganu cyn ei phrofi! i ddynion *ddrygnadu* mai peth blin anoddefadwy yw hyn!
Ed. Samuel: Holl Ddyl. Dyn, xvi. 16.

Drygnaws, -iau, *sf.* a bad disposition, ill-nature, ill-temper; peevishness, frowardness; a bad habit of body; indisposition.

Cadw hwy rhag cybydd-dod a *drygnaws*, rhag balchder ac annioddef.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 294.

A pha *ddrygnaws* a chenfigen hollta galonau pechaduriaid!—*Gr. Wynn:* Ystyriaethau, 113.

A hyny dim ond o *ddrygnaws* i groesi Luciffer.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 95.

Ymchwyddo gan *ddrygnaws*, ymroi i wyniau.
R. Vaughan: Ym. Duwioldeb, 38.

Drygnaws, **Drygnawsus,** **Drygnawsaidd,** *a.* of a bad disposition; ill-natured, bad-tempered, ill-disposed; peevish, froward; indisposed.

Gwaredodd Duw yr einioes fau
Mewn hedd yn nyddiau *drygnaws*.
Edm. Prys: Salm. lv. 18.

Ereill a gânt flinder a thrallod gan wragedd anynad a *drwg-nawsus*, a chan blant anufuddion.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 116.

Fel hyn y gwelwch fod y clwyf o brudd-der . . . trwy ei olwg sarug a *drygnaws*, yn gyndyn yn gwrthwynebu ac yn gwrthladd yr Yspryd Glân.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 245.

Drygnawsedd, **Drygnawsrwydd,** *sm.* evilness of disposition; peevishness, frowardness, ill-naturedness.

Drygneuedd, *sm.* [neuedd] a longing for what is bad; evil desire.

Am bo gan Duw am bo trugared
Na bo *druc neued* om gorvedho.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326.

Drygni, *sm.* bad qualities; evil disposition. —*S.E.W.*

Drygnos, -au, *sf.* a bad, unhappy, or comfortless night.

Nos nadolig nos annhebig i *ddrygnosau*.
Madog ab Gwallter: M.A. i. 407.

Drygnwyf, -au, *sm.* evil passion or disposition; wantonness.

Heb fod yn achos na drwg feddwl, na drwg foes, na drygnaws, na *drygnwyf*.—*Cyfrinach y Beirdd*, 19.

Drygof, -iaid, -aint, *sm.* a bad or unskilful smith.

Drygof dryg cynnyrch llemffyrch llymffig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 519.

Gwell drygsaer no *drygof*.—*Diareb.* (M.A. iii. 159.)

Drygol, *a.* tending to hurt or injure; injurious; tending to evil; vicious.

Anaf *drygawl* i'w fad-rwygau,
Bawdd ei dorf,—ni bydd da'i arfau.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 145.

Drygryw, *a.* [drwg+rhyw] of a bad kind, sort, or race; degenerate.—*M.A.* i. 558.

Drygsaer, seiri, *sm.* a bad or botching carpenter, an unskilful artificer. See *Drygof*.

Gwell *drygsaer* no drygdaeliwr.—*Diareb.* (M.A. iii. 159.)

Drygsain, seiniau, *sf.* cacophony.

Drygsawr, **Drygsawyr,** *sm.* 1. an offensive smell or odour; a stench, a stink, fetor. —*Ioel* ii. 20.

Tri pheth echrys eu *drygsawr*: hen gadno bras mewn prysgle; morfil marw ar y feisdon; a mochyn o feddwyn.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 250 (cf. 52).

A phan agored safn y pwll, fe godes *drygsawr* o hono, yr hwn oedd orthrwm o'r tu hwnt i holl boenau uffern.
Iolo Mss. 191 (cf. 158).

Ni chlyw madyn ei *ddrygsawr* ei hun.
Diareb. (M.A. iii. 167.)

Ni thynant ymaith mo'i ddrewi a'i *ddrygsawr*.
Gruffydd Wynn: Ystyriaethau, 30 (cf. 29, 180).

Myfyriwch ar y fflamau tân llidiog cynddeiriog hyny, y tywyllwch du hwnw, mwg a *drygsawyr* y pydew diwaelod.
Sam. Williams: Amser (1724), 170.

2. (fig.) bad odour; bad repute.

Yr hwn a ymddygo yn amffyddlon yn ei swydd, sydd yn gadael ar ei ol enw y bydd ei *ddrygsawr* yn parhau dros gannoedd o filoedd o flynyddau.—*Cylchgrawn*, i. 195.

Drygsawriad, **Drygsawyriad,** -au, *sm.* a smelling badly or offensively.

Drygsawrio, **Drygsawro,** **Drygsawyro,** *v.* to smell badly or offensively; to emit a strong offensive smell; to stink.

Drygsawrus, **Drygsawyrus,** *a.* emitting a strong offensive smell; fetid, stinking.

Digitized by Google

Chwyn *drygsawrus* a dyfant lle y bu Prenau Cyflawnder gynt.—*Ier. Owen*, 115.

Lle mae pob corff o'r rhai damnedig yn fwy ffiaidd a *drygsawrus* na miliwn o gwn meirw.
Gr. Wynn: Ystyriaethau, 184.

Drygsawrusrwydd, } *sm.* badness of smell or
Drygsawyrusrwydd, } scent; fetidness.

Drygserch, *sm.* evil affection.

Drygsynwyr, *sm.* bad or improper sense; want of sense.

Drygsynwyr a fydd pan fo cerdd fesuredig gynghaneddol heb synwyr ddosparthedig dyallus ynthi; neu heb ferf bersonawl ei ddangos ei synwyr.
Cyfrinach y Beirdd, 199 (cf. 196).

Drygu, *v.* [drwg] to injure, hurt, harm, damage, or mar; to make bad.

Dirwyawg a wnelo gam ag wynt, ac a'u *drygont* yn nghorf a meddiant.—*C.C.* ii. 524.

Oed Crist 819, y *drygwyd* Dyfed yn ddirfawr gan Genwlff brenin Mers.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 475.

Ni all drwg *ddrygu* dedwydd.—*Iolo Mss.* 261 (cf. 158).

Na chyffyrddwch â'm heneiniog, ac na *ddrygwch* fy mhrophwydi.—1 *Cron.* xvi. 22 (cf. Salm. cv. 15).

Aman . . . a geisiodd *ddrygu* Mardochëus a'i bobl.
Esth. xii. 6.

Ni choeliwch, ef allai, bod dynion a merched yn cael *drygu* eu hiechyd hyd angeu, o waith pobl ddrygionus yn eu hoffrwm i Ffynnon Elian.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 268.

Drwg i'r corff, drwy gwrw y caid;
Drwg o ran *drygu* 'r enaid.—*Ed. Morus.*

Drygus, *a.* injurious; tending to evil; tending to hurt, harm, or injure; vicious.

Honnant fod y fath ddwr yn fwy *drygus* na llesol.
W. O. Pughe: C.P. 35.

Coeliwch oll, ni ddaw'n wireddus,
Ond da i'r da, a drwg i'r *drygus*.—*Powysion*, ii. 208.

Drygwaith, weithiau, *sm.* 1. a bad or evil deed or act; bad or evil work; mischief.

Gwr athrugar mawr a *drycweith* auorles arnaw oed.
Mabinogion, 32.

Ufudd-dawd aros dros ein *drygwaith*.
M.A. i. 539 (cf. 566).

Tair ceinmyged cyvraith: gwared rhag anrhaith; cospi *drygwaith;* a chadarnau iawn am anghyvraith.
Cyfreithiau Cymru, ii. 534.

Felly y syrthiodd gynt, yn wir,
Y rhai enwir a'u *drygwaith*.—*Edm. Prys:* Salm. xxxvi. 12.

Oh, un llawn o bob dichell a phob *drygwaith*, mab diafol, gelyn pob cyflawnder!—*Ed. Iames:* Hom. i. 193.

Heb gael dim prawf cyfreithlon o'r *drygwaith* a'r achwyn a wnaethid yn ei erbyn.—*Allwydd Paradwys*, 61.

Y gwr a oddef i lid ddwyn y blaen ar ei bwyll, a wna *ddrygwaith* nis gellir byth ei ddadwneuthur.—*Iolo Mss.* 155.

Tro dy gefn ar bob *drygwaith*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 58.

Y mae llawer . . . yn tybied na elwir byth am danynt i roddi cyfrif am eu *drygwaith*.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 71.

Na fydd ry barod i esgusodi pob gwall, neu dro anghall, neu *ddrygwaith*, a gaffer arnat.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 89.

2. bad work, work badly or unskilfully done.

Drygwaith dwywaith y gwneir.—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Drygwas, weision, *sm.* 1. a bad servant; a bad or wicked fellow; an evil-doer.

Drwg yw y *drygwas*, a gwaeth yw bod hebddo.
M.A. iii. 154 (cf. i. 134, 174, 476, 489).

Na fid i neb o honoch oddef adfyd mal llofrudd celain, neu leidr, neu *ddrygwas*.—*Engob Davies:* 1 Pedr iv. 15.

Pan ddyger ei hoedl oddi ar y *drygwas*, drwy gyhoedd awdurdod, ni elwir dim o hyny yn llofruddiaeth.
R. Smith: Eglurhâd, 185.

2. the evil one, the devil.

Nyt wyt ti un or keis yn iawn. namyn ti a edeweist wassanaeth Iesu Grist ac a aethost y wassannethu y *drycwas*.
St. Greal, ‖ 64.

Pwy yw'r andras, *drygwas* draw,
Heb ludded, sydd yn bloeddiaw!—*Dafydd Ionawr*, 109.

Drygwedyd, } *v.* to speak evil; to use bad
Drwg wedyd, } words or expressions.

Gwell tewi no *drwg wedyd*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 46.

Drygwedd, -au, *sf.* a bad appearance or look.

Plant Mihangel sant y sarph
Yw *drygwedd* lliwen cen cyrph.
Madog ab Gwallter: M.A. i. 407.

Drygweithred, -oedd, *sf.* an evil deed; a bad act or action; a misdeed.

Madawc a aeth y Powys; ac nyt aruollet nac yn hegar nac yn drugarawc y gan Iorwoerth y ewythyr rac y gynnal yn gylus y gan y brenhiu herwyd kyfreith a *drycweithret* ot ymgyffredinei ae nei o dim.—*Brut y Tywysogion*, 106.

Eil yw adef rann o dadyl *drycweithret* a gwadu y cwbyl weithret.—*C.C.* i. 396, 608 (cf. ii. 444, 504).

Kythreul oe *drycweithredoed* a gyrch y mywn corff dyn emelldigedic.—*Llyfr Ancr*, 58 (cf. 63).

Y trydydh achaws yw y gospi yr etholedicion onadhunt. ac oe emendeu oe *drycweithredoedh*.
Lucidar, ‖ 57 (cf. 111, 120).

Wynt a wnathoedynt eu penyt dros eu *drycweithredoed* a gatwyd.—*St. Greal*, ‖ 15.

A gwedy gyrru y dyn hwnnw o baradwys o achaws y *drycweithret* ehun. ef a doeth yr daear yn y lle y kafas ef y angheu.—*St. Greal*, ‖ 43 (cf. 16).

Drygweithrediad, -au, *sm.* evil-doing, the action of doing evil; transgression.

Drygweithredol, *a.* tending to evil-doing; transgressive.

Drygweithredu, *v.* to do evil; to do a bad act.

Drygweithredwr, wyr, } *sm.* 1. an evil-doer;
Drwg weithredwr, wyr, } an offender; a ma-
Drygweithredydd, -ion, } lefactor. See s.v. *Drwg.*

Dialwr oenedl a'i dwg yn nghad a rhyvel, yn y bo achaws; ac a ymlid *ddrygweithredwyr*.—*C.C.* ii. 516.

Byddai yn llawer tynerach ar farnwr ddifuddio *drygweithredwr* o'i einioes drwy'r arteithiau dirboenaf, na'i fwrw i garchar gwastadol.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 20.

2. one who injures, harms, or hurts (another), an injurer.

Dalla ein gwrthwynebwyr ni, a'n cyhuddwyr, a'n *drygweithredwyr*, nid amgen, y bleidiau, a'r llewod, a'r cythreuliaid, a'r lladron, yn y modd y dellaist *drygweithredwyr* dy weision di, Abraham, ac Isaac, ac Iacob.
Emynau Curig: C.B.SS. 277.

Drygwr, wyr, *sm.* 1. a bad or evil man; an injurer; one who hurts, harms, or injures; an evil-doer; a spoiler, a destroyer.

Gan y rhyw gyspwyllau, bernir yn eillion estron a'u hepil; cyswynvab a water a'i epil, a *drygwyr* cywlad a'u hepil.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 504.

Ni ddiainc dros fyth rag cosp y *drygwr* a wna drawsineb.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 95 (cf. 156, 166).

Tri pheth ymswyned pob dyn rhag ei fyned: yn anudonwr; yn gybydd; ac yn feddwyn; canys o fod yn un o'r cyfryw *ddrygwyr*, y bydd arno bob drwg arall yn anegoriawl.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 251.

Gwelwn er hyny fod tywysogion ac ustusiaid yn peri lladd lladron, a *drygwyr* ereill.—*R. Smith:* Eglurhâd, 184.

Yr un peth a fuasai iddynt ollwng *drygwr* i ysgubor gwr da, neu osod y blaidd yn geidwad ar y defaid, a galw'r Saeson trosodd i fod yn geidwaid arnynt hwythau rhag ymgyrch eu gelynion.—*Theo. Evans:* D.P.O. 240.

Ni fedraf beidio ar fy nghân
Na darogan diwedd *drygwr*.—*L. Morys:* Didd. Teul. 104.

2. a bad husband: correlative of *drygwraig*, q.v.

Gwae y wraig a gaffo *ddrygwr*.
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 549.

Nid oes drygwraig namyn *drygwr*.
Diareb. (M.A. iii. 171.)

Nid *drygwr* wrth ddrygwraig.—*Diareb.* (M.A. iii. 170.)

Ni bydd mynglwen gwraig *drygwr*.
Diareb. (M.A. iii. 166.)

Digitized by Google

Drygwraig, wragedd, *sf.* a bad wife; a bad woman. See *Drygwr* (2).

Gwae'r gwr a gaffo *ddrygwraig.*
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 549.

Nid oes drygair namyn *drygwraig.*
Diareb. (M.A. iii. 171.)

Ni fyn *drygwraig* ddal ei chwd.—*Diareb.* (M.A. iii. 168.)

Drygwybod, -au, *sm.* knowledge of evil; want of knowledge, ignorance; discourtesy, incivility.

Agreiffyaw yn uawr a oruc y wyrda ar Uarsli y *drygwybot* wrth gennat.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 469.

Drygwyllys, -iau, *sm-f.* See *Drygewyllys,* &c.

Drygwynt, -oedd, *sm.* a noisome air or wind; foul air; a noisome, bad, or offensive smell; a stench, fetor.

Llyma vi gwedy rywelet y dreic coch gwedy vwrw y dan vyn truet yr llawr; llyma y *drycwynt* a'e wrynti gwedy enkil—*Buchedd Margaret Santes:* C.B.SS. 226.

Cymmer eliw'r liwydden hen, a gwin gwyn, a chymmysg yn dda, ac elïa'r dolur, ac efe a dyn ymaith y *drygwynt,* ac a'i iachâ.—*Meddygon Myddfai,* ii. 636.

Drygyn, -od, *sm.* an evil being; a fiend.

Ar hyn dalm
Y *Drygyn* safai allan odd ei ddrwg ei hun.
W. O. Pughe: C.G. ix. 442.

Drygyrferth, -au, *sm.* [drwg+gyrferth] a wail, wailing, bewailing, or moaning; lamentation; deep sorrow.

Ac yna y byrywyt ef ar y uarch ac y doeth racdaw hyt yn llys Arthur. ar wreic uwyhaf a garei yn y vlaen ae gorr. a *drycgruerth* mawr gantunt.—*Mabinogion,* 256.

Gridvan darogan *drycgruerth* am cluyf
Clotvan ruyf ruydget nerth.
Cynddelw: M.A. i. 240 (cf. 371).

A phann welas Dewi y wreic yn y *drycgruerth* hwnnw. kysseuyll a oruc a gollwng y kennadeu or blaen.
Buchedd Dewi: Ll.A. 114.

A gwedy darllein cnithyaw a oruc y varyf lwyt y hun a gwellt y ben o *drycgruerth.* a menegi udunt val hyn achaws y *drycgruerth.*—*Campau Charlymaen,* § 93.

Os drwc oed *drycgruerth* Bown. gwaeth oed bei gallei *drycgruerth* y march herwyd y synwyr ef yn gweryru.
Bown o Hamtwn, § 29 (cf. 24).

Ac eyssyoes ny pheydws hy ae *drycgruerth* hyt pan dygwydws dyrvawr hun yn y phenn.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 100.

A thitheu taw bellach ath *drycgruerth.*—*Mabinogion,* 204.

Ny ellit adrod y kwynuan ar *drycgruerth* oed yno.
Yst. de Carolo Magno, col. 491 (cf. 470).

Sef a wnaeth ynteu kymryt *drycgruerth* yndaw. a lleuein yn uchel. ac wylaw.—*Bown o Hamtwn,* § 4 (cf. 13, 14).

Ef a gylywei wreigawl gwynuan a *drycgruerth.*
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 211.

Yno y llonyddodd Alecsander Elen ag ymadrawdd clauar o'r *drygyrferth* yr oedd yn ei gym'ryd arni.
Ystori Dared, § 28 (cf. 86).

Drygyrferth, } *v.* to wail, to moan, bewail, or
Drygyrferthu, } bemoan; to lament; to weep and cry.

A phan welas ef y niuer hwnnw. lleuein a *drycgruerth* a oruggant.—*Mabinogion,* 208.

Yna gwedy kychwyn ar y mor yd oed Ygnogen yn y kwrr ol yr llong yr rwng dwylaw Brutus yn wylaw ac yn *drycgruerthu* o achaws adaw y gwlat.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 100.

Sef yd oed y vorwyn yn wylaw. ac yn *drycaruerthu.*
Mabinogion, 206.

A phawb o nadunt wynteu yn griduan ac yn *drycgruerth.*
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 138 (cf. 252).

A hitheu Iosian gyt ac y gwybu y rodi y Iuor. *drycgruerthu* a wnaeth.—*Bown o Hamtwn,* § 17 (cf. 29).

Drycgruerth a wnaeth hyt nat oed well genti y byw noe marw. . . Os rac vy ovyn i y *drycgruerthy* di. mi a rodaf Duw yn vach itt na weleisti gedymdeith gywirach noc y keffy di vi.—*Mabinogion,* 51.

Ac yn hyny y canfu Achel Policsena ferch Priaf yn *drygyrferth* am ei brawd.—*Ystori Dared,* § 71.

Yd oed y gwyrda yn ovynhau am danaw ac yn *drycgruerthu* yn doluryus.
Yst. de Carolo Magno, col. 266 (cf. 470).

Gwedi dyfod gwŷr Groeg i'w lluestau, hwynt a *ddrygyrferthasant* am Balemedes.—*Ystori Dared,* § 73.

Ac ef a gymmerth Petr, a dau fab Zebedeus, ac a ddechreuawdd dristäu [**ddrygferthu*], ac ymofidiaw yn dost.
W. Salesbury: Matt. xxvi. 37.

Drygyrferth, *a.* wailing, moaning; sad, sorrowful.

Yno yr athant yn athrist [**trist, drygferth*] dros ben.
W. Salesbury: Matt. xxvi. 22.

Drygyrferthiad, -au, *sm.* a wailing, bewailing, or moaning.—*P.*

Drygyrferthus, } *a.* wailing, bewailing, moan-
Drygyrferthol, } ing, lamenting.

Ac ym penn ychydic o dydyeu wedy kychwyn Agamennon y ymdeith. y kymerwyt Elen yn drist *drycgruerthus.* ac y ducpwyt adref ygyt a Menelaus y gwr.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 39.

Drygyrferthwr, wyr, *sm.* one who wails or moans, a bewailer.—*P.*

Drygyspryd, } -ion, -oedd, *sm.* an evil spirit;
Drwg yspryd, } a cacodemon.

Rolant drasyberw heb ef py ryw gandared a pha ryw *drycyspryt* yssydd yth gyffroi di.
Yst. de Carolo Magno, col. 465.

Y rei hynny a attebei udunt drwy y *dryc ysprydoed* a oed yndunt.—*St. Greal,* § 236 (cf. 247).

A phan fyddai y *drwg yspryd* oddi wrth Dduw ar Saul, y cymmerai Dafydd delyn, ac y canai â'i ddwylaw.
1 *Sam.* xvi. 23.

A phan weles y *drycyspryt* dy uot ti yn lan yn dyuot ac yn dynessau attaw ef. ny lyuassawd ef dy aros di megys yd arhoei y pechaduryeit.—*St. Greal,* § 11.

Drygysprydol, *a.* evil-spirited; possessed by an evil spirit; demoniacal.

Anuon a wnaethant yno *drycyspryt*olyon agkyweithas a llygru a wnaethant yr eglwys ae diffeithaw o gwbyl.
Brut y Tywysogion, 90.

Drygystyr, } -on, *sm.* a bad meaning; a bad
Drwg ystyr, } or improper sense.

Drygystyr a fydd pan gyffelybir peth oddi wrth ei destun a'i natur.—*Cyfr. y Beirdd,* 199 (cf. 195).

Tri bai cyffredin ar gerdd: tor mesur; *drwg ystyr;* a cham ymadrawdd.—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 135.

Drwg ystyr, sef canu moliant yn ammherthynol.
Rob. Davies: Ieithadur (1826), 152.

Dryll, -iau, *sm.* [C. and Br. *dral*] 1. a piece; a fragment; a part.

Bwrw y *dryllyeu* y gyt a chyuanna wynt.
Mabinogion, 202 (cf. 153, 172).

Ar hynny Oliuer a erlynod y elynyon a *dryll* y baladyr yn y law. . . Ac eilweith y trewis Torren pagan yny uu y paladyr yn *drylleu.*—*Yst. de Carolo Magno,* col. 481.

Ar sawl a gafas or llestri ef a beris eu llosgi. ar *dryll* arall a aeth gan y mor.—*St. Greal,* § 236 (cf. 225).

A chyrchu a oruc ynteu y diffeith ar *dryll* arall oe lu gyt ac ef.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 45 (243).

O deruyd y dyn damtwg da diwahan yn llaw arall, a chael ohonaw *dryll* or da wrth y damtwg ar *dryll* arall hep y gaffel.—*C.C.* ii. 100 (cf. 60, 112).

Ar rac bron corf Bedwyr ef ai gwahanwys en *dryllieu* oll.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 346.

Pob *dryll* ydd ä'r aing yn y pren.—*Diareb.* (M.A. iii. 175.)

Cymmer *ddryll* o liain teg, a gwlych mewn eliw gliwydden.—*Meddygon Myddfai,* ii. 363.

Fel sorod arian wedi eu bwrw dros *ddryll* o lestr pridd.
Diar. xxvi. 23.

A dygaist *ddryll* diwegi,
Heb air son, o'm byroes i.—*Gronwy Owain,* 64.

Dryll o aur, }
Dryll aur, } a piece of gold.

Eurwr a deifl *ddryll o aur* i'r ffwrn danllyd.
Huw Lewys: Perl, 10.

Digitized by Google

Dryll o arian, } a piece of silver or money.—
Dryll arian, } —*Luc* xv. 8.

A phan dderbyniodd yr archoffeiriaid eilwaith y *dryllau arian* o law Iudas, hwy a ddywedasant, Nid cyfreithlon ini eu bwrw hwynt i'r Corban.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 12.

Dryll o dir, a piece of land.

Ac ni chynhelis y brenhin ac ef hynny, namyn rodi *dryll o dir* idaw yg kyfoeth pob barwn o amryuaelon uarwneit.
Brut y Tywysogion, 190 (cf. 262).

Dryll o gig, a piece of flesh-meat; a joint of meat.

Cymmer *ddryll o gig* eidion hallt, y gwyn a'r coch yng nghyd.—*Meddygon Myddfai*, ii. 402.

Yn ddrylliau, in pieces; in fragments; to pieces; piecemeal.

Dryll dydd, part of a day.

Essev achaus yu henne . . . nat yaun talu *dryll did* en lle did kvbyl.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 144 (cf. ii. 350).

Dryll ymadrodd, a phrase, a sentence; a colon.

Dryll ymadrodd taclus sydd yn ennill y clyw a'r deall.
Gwyliedydd, v. 332.

Trwy glytio darnau anghyssylltiedig o'r Ysgrythyr, neu gymmeryd un *dryll ymadrodd* oddi yma, a dryll arall oddi draw . . . gellir ffug-brofi yn odiaeth mai gwlychu troed anifail mewn olew yw bedydd yn ol y Beibl.
Ioseph Harris: Gweith. 456.

2. a gun, musket, or piece; a fowling-piece.

Pob *drylliau*, pob clychau clod,
Bore a hwyr oedd barod.—*Tegid:* Gwaith, 108.

Yr oedd pob peth gyda'u gilydd yn gwneuthur y fath dwrf megys pe buasai ugeiniau o filwyr yn tanio eu *drylliau* ar unwaith.—*Gwyliedydd*, xii. 338.

Byddai i'r gwydr fyn'd yn ddreflon ac yn friwaion mewn moment, a hyny gyda swn fel ergyd *dryll*.
D. Lewys: Golwg, xv. 5.

A'i *ddrylliau* borfforent dywyllwch y nos,
A tharan ar daran wnai ruthro.
Ceiriog: Oriau'r Hwyr, 62.

Dryll saethu, a piece for shooting, a gun.

Ar hyn o annogaeth, aethym ym mlaen i gadw bytheuad a milgi, a *dryll saethu*.—*Gwyliedydd*, i. 180.

Dryll adara, }
Dryll adar, } a fowling-piece.

Dryll dwy faril, a double-barelled gun.

Drylliach, } *s.pl.* small pieces or fragments;
Dryllach, } dribblets; bits; snips.

Drylliad, -au, *sm.* a breaking to or in pieces; a breaking; a wrecking; a wreck.

Rhag ei *ddrylliadau* ef yr ymlanhânt.—*Iob* xli. 25.

Dygwydd dolur newydd oddi wrth godymau hen, a chyn anhawsed ei oddef a *drylliad* esgyrn.
Ch. Edwards: H. y Ffydd, 292.

Y mae *drylliad* calon, a sonir yn y lleoedd hyn am dano, yn rhoddi un olwg ar ansawdd gwir edifeirwch.
Th. Charles, s.v. 'Dryll.'

Mymryn neu drefniant yn diflannu'ng nghyd,
Yr awron *drylliad* cloch, yr awron byd.
Robert Owen: Gweith. 268.

Drylliad llong, the wrecking of a ship, a shipwreck.

Drylliedig, *pt.a.* broken; shattered, crushed, fractured; bruised.

Efe a ymgryfhaodd, ac a adeiladodd yr holl fur *drylliedig*.
2 *Cron.* xxxii. 5.

Ai delw ddirmygus *ddrylliedig* yw y gwr hwn?
Ier. xxii. 28.

Tydi dan glefydau sy'n cynnal y fron,
Rhag syrthio'n *ddrylliedig* dan ymchwydd y don.
Daniel Ddu, 96.

Corsen ddrylliedig, a broken reed.—2 *Bren.* xviii. 21 (cf. Esa. xxxvi. 6).

Yspryd drylliedig, a broken spirit.—*Salm.* li. 17.

Drylliedig o galon, broken-hearted.

Y rhai drylliedig o galon, those that are of a broken heart; the broken-hearted; the heart-broken.—*Salm.* xxxiv. 18 (cf. Luc iv. 18).

Dryllio, *v.* to break in pieces; to break, shatter, smash, fracture, or crush; to cut up; to bruise; to rend or tear.

A chastellwyr y brenhin ae *dryllasant* ynteu. yn drylleu man oll.—*Brut y Saeson:* Ll.C.H. ii. 388.

Ny aller nac wahanu nac *dryllyaw*.—*C.C.* ii. 88.

Nac yr merthyrv a heyyrnn. nac yr *dryllyaw* o vwystuileit.—*Llyfr Ancr*, 48.

Tynnu cledyf a oruc Kei a thorri penn Llacheu. a chymryt y corff ar penn a oruc ef ae roi mywn kist vaen a oed yno yn y ymyl. a *dryllyaw* y daryan rac y hadnabot.
St. Greal, i 174.

A pheri yr kigyd gwedy y bei yn *dryllyaw* kic dyuot idi a tharaw bonclust arnei beunyd.—*Mabinogion*, 34.

Esgutuab Gruffud barawt rud bar
Ysgwn y *dryllywyt* esgar.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 365 (cf. 476).

Lawnslot a beris *dryllyaw* y dinewyt yr rei yr oedynt wy yn credu udunt.—*St. Greal*, i 236.

Gan *ddrylliio* yr ymddrylliodd y ddaiar.
Esa. xxiv. 19 (cf. liii. 10).

A thra fyddech di yn ddifraw y'th *ddryllir*.—*Eccl.* v. 7.

Drylliwn eu rhwymau hwy.—*Salm.* ii. 3 (cf. xxxviii. 8; lviii. 6; lxxxix. 40; xciv. 5; cxix. 20).

Drylliog, *a.* broken; shattered, smashed; all to pieces; torn, rent; ragged.

Pwyll mab Vthyr rwyf aruthyr riw
Pwyllawc par *drylliawc* drilliw.
Prydydd Bychan: M.A. i. 381.

Gwiagasant Ef mewn rhyw hen ddilledyn *drylliog* o borffor.—*Gr. Wynn:* Ystyriaethau, 111.

Y mae'r rhei'ny yn ammherffaith ac yn *ddrylliog* mewn amryw fanau.—*I. B. Hir:* Gwaith, 202.

Pan lechai'r llwynog yn y *drylliawg* lys.
Blackwell: C.A. 181.

Calon ddrylliog, a broken or contrite heart.—*Salm.* li. 17.

Siarad yn ddrylliog, to speak falteringly (from excess of feeling, &c.).

Drylliwr, wyr, } *sm.* a breaker; one who
Drylliedydd, -ion, } breaks, crushes, shatters, or destroys; one who pulls to pieces.

Drylliwr caer aelaw dreill-aer creulawn.
Dafydd y Coed: M.A. i. 496.

Drylliwr cwys i droi lle i'r ceirch,
Dant haiarn dan y tyweirch.—*Tudur Aled*.

Dryllyn, -au, *sm.* a small piece or fragment.

Dryllyniach, } *s.pl.* small pieces or fragments;
Dryllynach, } dribblets, scraps, snips.

Dryntol, -ion, -au, *sf.* [corr. of *dyrntol* or *dyrnddol*, from *dwrn*+*dôl*] 1. the ring, handle, or ear of a cup, pot, jug, and the like; the ear of a vessel.

2. a door-knocker; a quoit.

Cyrhaedd dôl *dryntol* y drws.—*Gronwy Owain*, 7.

Bychan fuaswn yn ei feddwl pan yn taflu y *ddryntol* haiarn gydag ef, fy mod y pryd hyny yn gydlaw ag esgob dyfodol Llanelwy.—*Gwalia*, Mai 14, 1892.

Dryon, *sm.* [dry] the foremost, exalted, or supreme one.—*P.*

Hep Ewein hebawc kynureinon
Diarswyd ysgwyd ysgyryon ygnif
Ysgwthyr llif llid *dryon*.—*Llywel Fool:* M.A. i. 393.

Drysedd, *sm.* deliverance, escape (*P.*): see *Trusio*, *Trusiad*, &c.

Drysi, *s.pl.* [contr. of *dyrysi*] = *Dyrysi*.

Drysïen, *sf.* = *Dyrysïen*.

Digitized by Google

Drysor, -ion, -iaid, *sm.* [drws] a door-keeper, a door-ward; a porter.

Nawd *drysaur* neuad yw hebrwng y dyn hyt y vreich a hyt y wialen parth ar porthawr kannys ef ae herbynn.
C.C. i. 352 (cf. 22, 44, 344, 386, 622; ii. 588).

Parchus pawb a fed *drysaur*.
Englynion y Misoedd: M.A. i. 16.

Ar dy ddryseu aur drwsiad
Ar dy *ddrysawr* gwawr gwenwlad.
Cynddelw: M.A. i. 235.

I hwn y mae y *drysor* yn agoryd.
Ioan x. 3 (cf. Marc xiii. 34).

Drysores, -au, *sf.* a female door-keeper; a portress.

Yna y dysgybl arall . . . a aeth allan, ac a ddywedodd wrth y *ddrysores*, ac a ddug Petr i mewn. Yna y dywedodd y llances oedd *ddrysores* wrth Petr, Onid wyt tithau o ddysgyblion y dyn hwn?—*Ioan* xviii. 16, 17.

Drysores uffern atebai iddo hyn.
W. O. Pughe: C.G. ii. 784.

Drysu, *v.* [dyrys]=*Dyrysu*, q.v.

Drysu, *v.* [drws] to deliver, to let out.—*P.*

Drythyll, *a.* wanton, voluptuous; addicted to pleasure or enjoyment; indulgent; spirited, lively; lascivious, lecherous. See *Trythyll*, now the more usual form.

Troi yn y hol a oruc ef. a gadel y uarch *drythyll* llamsachus y gerdet.—*Mabinogion*, 11 (cf. 147, 163).

Gnawd o ben *drythyll* draha.
M.A. i. 174 (cf. 216, 363, 515).

Drythyll fûm yn ei dri-thai.
Gr. Fychan ab Gr. ab Ednyfed.

Gwŷr *drythyll* eu byd gwir a draethynt.
Llywelyn Goch: M.A. i. 515.

Drythyll pob diriaid.—*Drythyll* maen yn llaw esgud.
Diareb. (M.A. iii. 154.)

Ar amws *drythyll* llamsachus.
Yst. de Carolo Magno, col. 418.

¶ *Drythyll* or *trythyll* had originally no unfavourable connotation.

Drythyllwch, } *sm.* enjoyment, pleasure; wan-
Drythyllwg, } tonness, voluptuousness; addictedness to pleasure; luxury, indulgence; lasciviousness. See *Trythyllwch*.

Drythyllwch Selyf a uydei drueni gantunt wy.
Llyfr Ancr, 69.

Nit oed or teyrnasoed a allei emgyfelybu o gyuoeth a *drythyllwc* ac amylder pob da endi ac enys Prydein.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 323.

Drythyllwg drwg ei ddichwain.
Diareb. (M.A. iii. 154 (cf. 107.)

Y rei ysyd yth gylch di heb ef drythyll ynt. a *drythyllwch* gaffant o vwyt a diawt a dillat.
Yst. de Carolo Magno, col. 395.

Nyt oed hawd y berchen tauawt menegi y gyniver amryw ac amryuaelon anregyon a gostit yno. a *drythyllwch*. ac esmwythder.—*Campau Charlymaen*, § 18.

Gwelet eu cytymdeithion yn amyl udhunt pob rhyw dhigrifwch o *drythyllwch*.—*Lucidar*, § 141 (cf. 133, 141).

Maent yn gorphwys mewn *drythyllwch* a choegchwedleua.
Ed. Iames: Hom. ii. 252.

Y rhai sy'n ymchwelyd rhad Duw yn *ddrythyllwch*.
W. Salesbury: Iudas 4.

Dryw, -od, *sm.* [Ir. *dreán* (Cormac's Gloss. 60); Ga. *dreadhan*] a wren (*Troglodytes parvulus*).

Ar hynny llyma y *dryw* yn seuyll ar vwrd y llong.
Mabinogion, 71 (cf. 112).

Nid sionc ond *dryw*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 21 (cf. 161).

Ni bydd y *dryw* heb ei lyw.—*Diareb.* (M.A. iii. 166.)

Nid un gwalch hoew-falch llygeid-fyw
Ac yw cyw y *dryw*, caeau a draidd.
Dafydd ab Gwilym, ccxxviii. 31.

A glywaist ti chwedl fach y *Dryw*,
Yn y nyth lle'dd oedd yn byw?
Elid rhyw ar barth pa yw.—*Iolo Mss.* 260.

Gwell genyf fi weled *dryw* yn yr adardy nag eryr yn yr awyr.—*Elis Lewis:* Drexelius, 241.

Rhoes i bysg nawf ym mysg myr;
I *ddrywod* dreiddio'r awyr.—*Gronwy Owain*, 18 (cf. 40).

Ped ystyriai dynion fod ardderchog Frenin y nefoedd . . . yn gofalu am y *dryw* bychan, ac am aderyn y to.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 112.

Ar y gog a'r *dryw* y gegid sy falch.
L. G. Cothi, II. x. 47.

Y neb doro (dyno) nyth y *dryw*,
Ni chaiff iechyd yn ei fyw.
Hen Bennill (Ystên Sioned, 63).

Gwell *dryw* mewn llaw na gŵydd ar aden.—*Diareb.*

Mae cân gan adar o bob rhyw,
O'r ehedydd at y *dryw*.—*Tegid:* Gwaith, 206.

Dryw yr helyg, the willow wren (*Phylloscopus trochilus*).

Dryw y coed, wood wren (*Phylloscopus sibilatrix*).

Y mae ei dueddiadau yn bur debyg i'r *dryw y coed*.
Gwyliedydd, x. 367.

Dryw y coed yn cyrhaedd Prydain.—*Cylchgrawn*, ii. 123.

Dryw eurgopog, gold-crested wren (*Regulus cristatus*).

Dryw eurgopawg. Hwn yw y lleiaf o'r holl adar a gyfanneddant Ynys Prydain.—*Gwyliedydd*, x. 367 (cf. ix. 236).

Dryw y ddaiar=*Dryw yr helyg*.

Dryw melyn, yellow wren.

Y *dryw felen* a'r penlöyn a ddeuant, os bydd yr hin yn deg.—*Cylchgrawn*, ii. 123.

Llysiau y dryw=*Drywlys*.—*Hugh Davies:* Welsh Botanology, 211.

Nid ydyw holl glefydau y byd ond corrachod ganddynt, a orchfygir mewn pymtheg mynyd drwy drafiwnc da o de cribau Sant Ffraid a *llysiau'r dryw*, gwedi cael eu berwi mewn cwrw.—*Brutus:* Brutusiana, 97.

Crimp y dryw: see s.v. *Crimp*.

Troed y dryw, parsley-piert, breakstone, field lady's mantle (*Alchemilla arvensis*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 17, 240.

¶ In the subjoined quotation *dryw* is feminine; and such is the colloquial usage in some parts of the Principality, but not generally.

Nerth *dryw*, ei chelfyddyd.—*M.A.* iii. 12.

Dryw, -iaid, -on, *sm.* [Ir. *drui*, *draoi*] a druid.

Ei enwi 'n wych yno a wnaid
Iesu draw yn oes *drywiaid*,
Modd y bu ef, medd y byd,
Yn y poen yn dwyn penyd.—*Rhys Goch Eryri.*

Hanbych well, Goronwy Ddu,
Y *Dryw* o Fon, Fam Gymru;
Gwr prif y rhif am fydru.—*I. B. Hir:* Gwaith, 67.

Drwyot, er dyddiau'r *Drywon*,
Y rhwyf y Dyfrdwyf ei don.—*Tegid:* Gwaith, 78.

E fu *Drywon* â gleiniog fodrwyau,
Gwŷr dysgedig ag euraid wisgiadau;
Boreu astudient, wiw barhäus deidiau,
Yn y toreithiog anturiaethau.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 11.

¶ There is no evidence that *dryw*, in the older writers, ever signifies a *druid*. In the following passage, occurring in the poem called 'Buarth Beirdd' (*M.A.* i. 27; *A.B.* ii. 115), which has been often quoted in support of the theory,

Wyf dwr wyf *dryw* wyf saer wyf syw wyf sarph wyf serch,

dryw can hardly denote anything but the bird *wren;* just as '*sarph*' in the same line signifies a serpent.

Digitized by Google

The bard in this poem recounts his numerous metamorphoses into different things and animals; similarly as in another (*M.A.* i. 13) he asserts his former ubiquity. These poems, though attributed to Taliesin, cannot be, in their present form, older than the 13th or 14th century.

Drywon occurs as a personal name of a celebrated warrior in one of the Historical Triads (*M.A.* ii. 8); and it may be that the same hero is intended in 'Ymarwar Lludd Mawr' (*M.A.* i. 31; *A.B.* ii. 212):

Pen lluydd perchydd llurygogion
Ffaw dreig diffrediad i bobl Frython
Dwfn darogan dewin *Drywon*
Pebylliawnt ar Tren a Tharanhon
Gorllechant gorddyfynt i geisiaw Mon.

Drywes, -au, *sf.* [dryw: L. *Druïas*, *Druis*] a female druid, a druidess.

Rhaco! Melwas, werddlas wisg,
A welwyd mewn gwieil-wisg,
A gwiw *Ddrywesau* 'n eu gwyn,
Dda olwg, draw'n ei ddilyn.—*Tegid:* Gwaith, 15.

Darlunir ef [Melwas] yma yn corelwi ar lasdon ger y Bryn Gwyn, a *Drywesau* yn ei ddilyn, gan ymgorelwi gydag ef. Barna rhai y gallai mai y *Drywesau* yn amdroi, neu gorelwi, mal hyn ar fryn a dôl, ac efallai wrth oleu y Lloer hefyd, yr hon a wiw orwenai uwch eu pen, a roddes sail i'r dychymmyg am y Tylwyth Teg.—*Tegid:* Gwaith, 15.

Drywlys, *sm.* agrimony (*Eupatorium*).

Eupatoriwm, y drydon, troed y dryw, *drywlys*.
Meddygon Myddfai, 285.

Drywol, *a.* druidical, pertaining to the druids.

Lle i feirdd oedd oll o Fon,
Ei brasaf feusydd breision,
Olion *drywawl* a welir,
Yn llwyd waith, trwy yr holl dir.—*Tegid:* Gwaith, 8.

Du, -on, *a.* [C. *du*, *duw* (C.V.); Br. *du;* Ir. *dubh*, *dub;* Ga. *dubh;* Mx. *doo*] 1. black; sable.

Duach oed y hwyneb ae dwylaw. nor hayarn *duhaf* a darffei y bygu.—*Mab.* 232 (cf. 111, 121, 124, 148, 158, 180, 242).

Handit *du* muchyd handit crwm mynyd.
Taliesin: A.B. ii. 141.

Ac ef a gyuodes gwr *du* y dan y llech.
Mab. 242 (cf. 121, 149, 158).

Ac ym mynnwes y coet y gwelei tei *duon* mawr anuanawl eu gweith.—*Mab.* 215 (cf. 167, 217, 225).

Brisidia gwreic Agamemnon oed ffurueid. nyt oed hir. a chnawt gwyn. a gwallt melyn. ac aeleu *duon*. a llygeit llathreit advwyn.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 13.

Gwyn yw'r tal dan y wialen,
Du yw'r gwallt, diwair yw Gwen;
Duach yw'r gwallt, diochr gwŷdd,
Na mwyalchen, na muchudd.
D. ab Gwilym, xiv. 27 (cf. xi. 34; xviii. 4; lii. 42).

Oed Crist 795, y daeth y Paganiaid *duon* gyntaf i Ynys Prydain o wlad Denmarc.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 474.

Megys y dyt y lhiwydh lhiw *du* val y bo gwerthuawrussach y lhiw gwyn neu'r coch ger y law.—*Lucidar*, § 13.

Ei wallt yn grych, yn *ddu* fel y frân.
Can. Sal. v. 11 (cf. i. 5, 6).

Hyd wylltoedd *duon* y tywyllwch prysurodd Luciffer a'i luoedd.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 90 (cf. 46).

Cyn ddued a'r glo, as black as coal, coal-black, dead black.

A ffan gigleu Bratmwnd hynny. ef a lidiawd. ac a duawd yn *gyn duet ar glo*.—*Bown o Hamtwn*, § 20.

Arfau duon, black arms or armour.

A chwbyl or rei a oedynt ar *aruau duon* ymdanunt a oedynt oblegyt y kastell.—*St. Greal*, § 33.

Dyn du (*pl.* dynion duon), a black man, a negro, a black, a blackamoor.

Duon, black ones; blacks.

I *dduon* Affrig . . . rhodd ddedwyddol fu rhyddid iddyn'.
Robert Davies: Diliau Barddas, 68.

Y mis du, the black month=December (=y mis du cyn y Nadolig).—*Barddas*, i. 416.

Y mis du wedi'r Nadolig, the black month after Christmas=January.—*Barddas*, i. 414.

Rhew du, black frost.

A'i chwithig wynt yn chwythu,
A'i ruad arth, a'i *rew du*.—*D. ab Gwilym*, cclviii. 39.

Y gelfyddyd ddu, the black art.

Aderyn du: see s.v. *Aderyn*.

Ceiliog du: see s.v. *Ceiliog*.

Du, sable (in heraldry).—*Iolo Mss.* 34, 35.

Du a glas, black and blue.

Curo yn ddu ac yn las, to beat black and blue.

Llythyren ddu, black letter, black character.

Ni ellwch ddywedyd 'du lygad' wrtho, you cannot say black is his eye (eyebrow, nail).

Cyn ddued a'r muchudd, as black as jet.—*Mab.* 211.

Yn ol y gymhariad fwyadwy hon, y gellir dywedyd, gwynach no'r eira, a *duach no'r muchudd*.
H. Perri: Egluryn Ffraeth. xvi.

Edrych yn ddu ar un, to look black upon or at a person.

Golchi y du yn wyn, to wash the blackamoor white.

Gair du (*pl.* geiriau duon), a taunting or sarcastic word or expression; a taunt-or gibe.

Oni chyfyd y rhai hyn oll yn ei erbyn ddiareb, a *gair du* yn ei erbyn?—*Hab.* ii. 6.

Er dy fod yn tybied adrodd o honom ni y pethau hyn yn chwerwach, ac â *geiriau duach*, nag a weddai i wŷr eglwysig eu harfer.—*M. Cyffin:* Diffyniad, iv. 14.

2. black, dark, dismal, gloomy, sombre, sad, cheerless.

Pawb a wel, heb ei gelu,
Am y ffydd y bydd dydd *du*.—*Huw Pennant*.

Y ferch a wyla'n ofer ar ol ei chariad cu;
Ni ŵyr ei llef alarus y ffordd i'r beddrawd *du*.
Tegid: Gwaith, 177.

Du, -on, *sm.* 1. black; blacking.

Am *ddu*, y *du* tristlawn, nid oes ganiatâd iddo fod yng ngwisgleoedd y gwanwyn.
W. Jones: Barn a Darfelydd, 16.

Y du ni newid mo'i liw, black will take no other hue.

Du'r crydd, shoemakers' black.

Du yr efail, smithy-black, lamp-black.

Pawb y sydd cyn deunydd dail,
Ddiryfyg, dan *ddu* 'r *efail*.—*Rhys Goch Eryri*.

Du y glo, the blackness of coal; coal-black.

Chwennych ydd wyf farch yno,
A'i gael â'i wn o *ddu'r glo*.—*L. G. Cothi*, iv. xx. 9.

Du'r ddafad, sheep's russet.

2. ink; †black.

Ysgrifenu â *du* 'n deg.—*Dafydd Nanmor*.

Y mae imi lawer o bethau i'w ysgrifenu: eithr nid â *dŷ* [*ag inc] a phin yr ysgrifenaf atat.
W. Salesbury: 3 Ioan 13.

Hyd bo gwyn yn derbyn *du*.
Robert Davies: Diliau Barddas (1882), 73.

Ar ddu a gwyn, } in black and white; in
Mewn du a gwyn, } writing or in print.

Efe a ddodes ar Flegywryd ab Morgan, Mebydd Llandaf, eu rhoi *ar ddu a gwyn* mewn llyfrau a rholau dosparthus.
Iolo Mss. 87 (cf. 204).

Eisoes *ar ddu a gwyn* nid arferwyd ag amgen na phedwar ar hugain [o lythyrenau].—*Barddas*, i. 68.

Digitized by Google

Ni fedrant ymlonyddu na bod yn esmwyth nes cael sicrwydd *mewn du a gwyn*.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 265.

A ddarfu i ti osod *mewn du a gwyn* holl gymhwylliadau y llefarwyr?—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 185.

Corn du, an ink-horn; an ink-holder.

Yr oedd un gwr yn eu mysg hwynt wedi ei wisgo â lliain, a *chorn du* ysgrifenydd wrth ei glun.—*Esec.* ix. 2 (cf. 3).

Du ysgrifenu, writing-ink.

3. that which is black or dark; darkness.

Ef gwnaeth haul hwylfawr lewychu
Ef gwnaeth lloer a llewych or *du*.
Elidir Sais: M.A. i. 350.

Duad, *sm.* a blackening, a blacking.

Duad, -au, *sm.* 1. a bay (in a building).

Tŷ o dri duad, a house of three bays.

2. the length of a ridge in ploughed land: the same as *hyttir*.

Duael, *a.* having black or dark eyebrows.

Dan ddwyen y dyn *ddduael*.
Dafydd ab Gwilym, cl. 14 (cf. ccix. 6).

Duaidd, *a.* somewhat black, blackish; inclining to black; darksome.

Duan, -iaid, -wys, *sc.* a black man or woman, a black, a negro.—*Dicts.*

Duanes, -au, *sf.* a negress, a black woman.—*Dicts.*

Duantwys, *s.pl.* [from *du* (as if *duant*)+*gwys*] negroes, blacks.

Yr ydym ni, heb law llenwi â'r *Duantwys* ein hardaloedd tramor ein hunain, yn gallu gwerthu lluoedd o honynt i'r Yspaenaidd Orllewinawl India.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 63.

Buont mewn cryn eisieu tra yn estyn ar draws anialwch *Duantwys*, ond cawsont bob caredigrwydd ar ddyfod i leoedd cyfanneddol.—*Eurgrawn Mon*, 1825, 131.

Y mae'r *Duantwys* hefyd yn cael ein dagrau.
Gwyliedydd, ii. 87.

Abyssinia a *Duantwys* ydynt yn terfynu ar ei pharthau gogleddol.—*R. Roberts:* Daearyddiaeth, 338 (cf. 314).

Dychrynwyd y *duantwys*, druain, yn fawr.
Gwyliedydd, iii. 320.

Rhydd y *duantwys* [°negroaid, dynion duon] iddo yr enw o 'fam yr un corn.'—*Anianyddiaeth Ysgrythyrol*, 52.

Y mae cwr gogleddol Môr Ethiopia, rhwng Ynys St. Matthew a goror Gwlad y *Duantwys* heb na hydred na lledred.—*J. W. Thomas:* Seryddiaeth, 24.

¶ In the preceding extracts from 'Eurgrawn Mon' and 'Daearyddiaeth,' the word seems to have been mistaken for the name of a country, not people.

Dubas, *sm.* [du+pas] hooping-cough; severe hooping-cough, during the paroxysms of which the face becomes blackish.

Rhai o glefydau plant, megys y frech wen, y frech goch, a'r *dubas*, ydynt anadnabyddus i'r trigolion ieuainc.
Gwyliedydd, iv. 209.

Duch, -au, *sm.* 'a sigh, or a groan.'—*P.* See *Dych*.

Duchan, -au, *sf.* See *Dychan*, &c.

Duchiad, -au, *sm.* a sighing, a groaning.—*P.*

Duchio, *v.* to sigh, to groan.

Duchlaw, **Duch law**, *adv.* [*duch* (dy+uch)=uch, uwch: cf. *dislaw=islaw*] above, over.

Ducho, *adv.* above, over.

Duder, *sm.* [du: Br. *duder*] blackness; gloominess.

Yng nghanol y nos a'r *duder*.
Dr. T. Briscoe: Diarebion, vii. 9.

Ser gwibiog, i'r rhai y mae *duder* y tywyllwch yn dragywydd wedi ei gadw.—*Dr. T. Briscoe:* T.N. (Iwdas 13).

Dudew, -ion, *a.* [du+tew] thick and black; thickly dark.

Taranau mawr a dorodd allan o'r wybren, yng nghyd â mellt creulon, a chymylau erchyll, a niwl *dudew*.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. v. 3.

A'r dreigiau mellt ysgethrin yn rhwygo'r mwg *dudew* yr oedd y safn anferth yn ei fwrw i fyny.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 72 (cf. 87).

Er ei bod yn llewyrchu ar Loegr, yr oedd cwmwl *dudew* rhyngthi ac Eryri.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 41.

Tywyllwch dudew, thick darkness.

A bu *tywyllwch dudew* trwy holl wlad yr Aipht dri diwrnod.—*Ecs.* x. 22 (cf. Deut. iv. 11).

Dudost, *a.* [du+tost] gloomily severe; very severe.

Clwy' *dudost* caled ydoedd,
Cyfyngdra ar Adda oedd.—*Dafydd Ionawr*, 66.

Dudwll, *pl.* dudyllau, *sm.* a black hole; a dark place of confinement.

F' a syrthiodd i lawr ger eu bron, ac wedi eu dwyn allan o'r *dudwll* anniddan, a ofynodd iddynt, Pa beth a wnaf fel y byddaf gadwedig?—*Ed. Samuel:* Buch. yr Apostolion, 81.

Duddel, *a.* [du+del] black and hard; dark and grim; grimly black or dark.

Anghenfil gwelw ddielwig,
Pen isel ddelw *ddueddel* ddig.—*Gronwy Owain*, 109.

Duddraenen, *pl.* duddrain, *sf.* [du+draen, drain] black thorn, sloe-tree (*Prunus spinosa*). See *Draenen*, *Drain*.

Ac yr kyndrychol Vorgan dyuot a bwell gynyt o dur a hayarn a thorri dwy o gat deri . . . a hwech o *dudrain* a gywerthydyei seith a dimei pop vn ohonunt.
Cyfreithiau Cymru, ii. 460.

Cyw diddrwg mewn cae *duddrain*,
Cono a gâr droedio drain.—*Th. Prys*, i'r Fwyalch.

Cymmer risg y *duddrain*, a chraf yr uchaf ymaith.
Meddygon Myddfai, ii. 159 (cf. i. 166).

Meusydd mawrion, sychion, llydain,
Planwydd union o'r coed *duddrain*.—*Dafydd Thomas*.

Duddrem, **Dudrem**, -iau, *sf.* [du+drem=trem] a dark visage or countenance; dark complexion.

Pe rhon a chael cyfaelwg,
Hoen *ddueddrem*, hyn yn ddiddrwg.
Dafydd ab Gwilym, cli. 47.

Duddu, *a.* jet-black, of the deepest black.

Duedd, *sm.* [du] blackness; darkness, gloom.

Yn medylyaw yd oedwn bot yn gynhebic gwynder [y chnawt] gwynder yr eira. a *duhet* y gwallt ae haeleu yr uran.—*Mabinogion*, 213 (cf. 148).

Odyno purloew *duedh* yr aeleu ar amrannedh yn mwyhau eglurder pob o honunt ar y gilydh.—*Ymborth yr Enaid*, § 23.

Y nos honno, cymmered *duedd* hi.
Dr. T. Briscoe: Iob iii. 6.

I'r rhai y cadwyd *duedd* [°duder] y tywyllwch yn dragyfyth.—*W. Salesbury:* Iudas 13.

Dueg, *sf.* [du] the spleen or milt; melancholy.

Yn y *ddueg* y mae y llawenydd.—*Barddas*, i. 394.

Un a fo â'i gyfnywydd o'r *ddueg* a fydd sur ac anfoesol.
Meddygon Myddfai, ii. 802 (cf. 799).

Gormail y *ddueg* . . . math ar orphwyll, neu wendid meddwl, yn deilliaw oddi wrth ryludrwydd musgrell ac anhylif y gwaed.—*Walters*, s.v. 'Melancholy.'

Ni wna'r adgofion hyn o hawddgar wedd
Y wlad, y llan, a'i hen breswylwyr llon,
Ond annog yn fy mynwes *ddueg* trist.
Gwyliedydd, vii. 289 (cf. 83; ix. 330, 372).

Ac hyd yn nod gwnai i *Ddueg* safn-dew syn
Grynoi a ffurfio ei gwyneb prudd i wên.
Iago Trichrug: Y Bedd.

Mae ffenigl . . . yn agor rhwystrau mewnol yr afu, ac yn darostwng chwydd yn y *ddueg*.
Trysorfa Gynnulleidfaol, iii. 278 (cf. 202).

Digitized by Google

Claf o'r ddueg, melancholic, hypochondriac, splenetic.—*D.*

Clefyd y ddueg, the hypochondriac disease, hypochondriasis, hypochondria. See *Duegwst.*

Amrywiol yw y dychymmygion a ffurfir gan y sawl ag ydynt dan lywodraeth *clefyd y ddueg*, neu wallgofiad amserol.—*Seren Gomer*, v. 158.

Duegol, *a.* melancholic, hypochondriacal, splenetic.

Llyma ddangos adnabod naturiaeth a chyfnywydd y ddueg, ac ardymmyr y bobl a fyddant *ddueguwl*. . . A dyn *duegawl* a fydd ddarllenwr mawr, ac ymprydiwr.
Meddygon Myddfai, ii. 802.

Duegredyn (*sg.* duegredynen, *f.*), *s.pl.* spleenwort, miltwaste (*Asplenium*).—*H. Davies:* Welsh Botanology, 98, 184.

Duegredyn arfor, sea spleenwort (*Asplenium marinum*).

Duegredyn y muriau, white maidenhair, wall-rue spleenwort (*Asplenium ruta muraria*): also called *rhuw'r muriau.*

Duegredyn gwallt y forwyn, common maidenhair spleenwort (*Asplenium trichomanes*).

Duegredyn duon, black maidenhair spleenwort (*Asplenium adiantum nigrum*): also called *duwallt y forwyn* and *dugoesog.*

Duegredyn meddygol, common scaly spleenwort (*Scolopendrium ceterach*).

Duegwst, *sf.* [dueg+gwst] melancholy, hypochondriacism.

Trwyth o'r llysieuyn hwn gwedi ei felusu sydd dra hynod feddyginiaeth rhag llamiad y galon, clefyd y fam, a'r *ddueguwst*, neu glefyd y ddueg.
Hugh Davies: Llysieuaeth Gymreig, 211.

Dufan, -au, *sm.* a black or dark spot.

Oll yn hardd wyt, fy nghyfeilles, nid oes *dufan* arnat ti.
Gwyliedydd, xiii. 196.

Duflwng, *a.* [du+blwng] black and frowning.

Twyll dwng rhwng *duflwng* diflas.
Dafydd y Coed: M.A. i. 498.

Dufrech, -au, *sf.* [du+brech] black scab or incrustation; scall.

Os yr offeiriad a edrych ar bla y *ddufrech;* ac wele, ni bydd yn is ei weled na'r croen, ac heb flewyn du ynddo; yna caued yr offeiriad ar yr hwn y bo arno y *ddufrech*, saith niwrnod.—*Lef.* xiii. 31 (cf. 30, 32—37; xiv. 54).

Dufwg, *sm.* [du+mwg] black smoke.

Dyfydd o fangre'r *dufwg*,
Gad, er nef, y dref a'i drwg.—*Gro. Owain*, 60 (cf. 73).

Dug, -iaid, *sm.* [L. *dux*, acc. *ducem:* Br. *duc* (Catholicon); Fr. *duc;* O.E. *duc, duk*] 1. a duke (as used on the Continent in medieval times).

Rolant tywyssawc lluoed iarll Cenoman ac arglwyd Blyf. nei Charlymaen mab yr *duc*. Milo o Angyer o Bertha chwaer Charlys. . . Engeler *duc* Angyw a phedeir mil o uarchogyon aruawc.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 390.

Anuonwn gennat at Terri *duc* Ciuil y erchi idaw dyfot yn ganhorthwy yn. . . Ac yna yd yskynnawd y *duc* ar varch da.—*Bown o Hamtwn*, § 65.

Aros yn eu haddas radd a'u hen oruchafiaeth, y mae breninoedd Lloegr, ein gwlad ni, breninoedd Denmarc, breninoedd Swetia, y *Duciaid* o Sacsonia, yr Ieirll Palatin.
M. Cyffin, iv. 10 (cf. 12, 14, 15).

Tassilo, *dug* Bavaria . . . a syrthiodd dan wg Carl; o herwydd pa ham, ymosodod Carl ar Bavaria, a dygodd y *dug* o flaen llwyrwys o'i arglwyddi mawrion ymgynnulledig yn Ingelheim.—*Brython*, iii. 98.

2. a leader, a chief, a chieftain; a head (of a tribe, &c.).

Dymma *ddugiaid* yr Horiaid: *Duwc* Lotan, *duwc* Sobal, *duwc* Sibeon, *duwc* Ana, *duwc* Dison, *duwc* Eser, *duwc* Disan.
Esg. Morgan: Gen. xxxvi. 29, 30 (cf. 15—19).

Dymma henwau'r *ddugiaid* o Esau yn ol eu teuluoedd, wrth eu trigleoedd, erbyn eu henwau: *duwc* Timna, *duwc* Alfah, *duwc* Ietheth, *duwc* Aholibama, *duwc* Ela, *duwc* Pinon, *duwc* Cenaz, *duwc* Teman, *duwc* Mibsar, *duwc* Magdiel, *duwc* Iram. Dymma'r *dugiaid* o Edom.
Esg. Parry: Gen. xxxvi. 40—43.

Nabuchodonosor y brenin a anfonodd i gasglu y tywysogion, *dugiaid*, a phendefigion . . . i ddyfod wrth gyssegru y ddelw.—*Esyobion Morgan a Parry:* Dan. iii. 2 (cf. 3).

Fy nawdd, fy nerth, fy *nug*, fy nghred,
Fy nhŵr, f'ymwared unig.—*Edm. Prys:* Salm. cxliv. 2.

Doed Beniamin y llywydd bach,
Doed bellach *dugiaid* Iuda.
Edm. Prys: Salmau (1630), lxviii. 27.

3. a duke (in the current sense, as the title of nobility of the highest order).

Ni wnai na'r Dwdlai na'r *Dug*,
Na'u gwŷr fwy nog a orug.
L. G. Cothi, i. x. 33 (cf. ii. v. 6).

Nid gwell ysgwier, myn llyfr Sieron!
Un haid o *ddugiaid* a'u swyddogion.
L. G. Cothi, i. xxxiv. 21 (cf. xviii. 70; v. xi. 26).

Ieirll cnwog er ellynedd,
Dugiaid beilch dygwyd i'w bedd.
Deio ab Ieuan Du: G.B.C. 183.

Yn *ddug* y gelwir yn dda ei galon.—*L. G. Cothi*, viii. iv. 20 (cf. i. xviii. 70; xxxiv. 22; ii. xi. 33, 35).

Megys marchogion, arglwyddi, ieirll, *dugiaid*, tywysogion, a'r cyffelyb.—*Ed. Iames:* Hom. iii. 33.

Llawer *dug* llwyr waedogaeth,
A llawer iarll, i'r llawr aeth.—*Sion Tudur.*

Pa *ddug*, o bai dda ei waith,
Pa frenin, heb farw unwaith?—*Ior. Fynglwyd.*

Swydd nef, ni laesodd ei naid,
Sydd degach na swydd *dugiaid*.—*Tudur Aled:* G.B.C. 239.

Pan oeddynt mewn meddiannau, tlysau, arian, a chyfoeth yn ogyfuwch, neu uwch law marsiandwyr, boneddigion, barwniaid, ieirll, a *duwciaid*.—*Edward Iames:* Hom. i. 73.

Pwy sy yr awr hon yn cofio un ym mysg deugain mil o wŷr gwychion a fu yn y byd, yn gapteiniaid, yn rhyfelwyr, yn gynghoriaid, yn *ddugiaid*, yn ieirll, yn dywysogion, yn breladiaid, yn ymherodron, yn freninoedd ac yn freninesau, yn arglwyddi ac yn arglwyddesau?
Dr. Davies: Llyfr y Res. ii. iii. 35.

Merch i'r gwr mawrwych a gaid,
Dwpdagws o dop *dugiaid*.
Ior. Fynglwyd, i Ffraid Santes.

Y mae rhai eto yn fyw ag sydd yn cofio y creulondeb a'r toster a ddioddefodd rhai ym mhob man . . . yn enwedig ym Mhrydain Ogleddig, tan dywysiad y *Duc* o Efroc.
Ier. Owen, 27.

Dug o eryr da'i gariad,
Gwrawl udd a gâr ei wlad.—*Gronwy Owain*, 4.

Byddai y trosedd yn fwy erchyll eto pe cyhoeddai *Dug* Welington ei fod yn frenin; a gwaeth na hyny fyddai i *Ddug* Caerefrog urddasu ei hun â theitlau breninol.
Ioseph Harris: Gweith. 382.

Ei Uchelder Breninol, *Dug* Caer Efrawg ac Albani, a ymadawodd a'r fuchedd hon am ugain mynyd wedi naw o'r gloch, nos Wener, y 5ed o Ionawr diweddaf.
Seren Gomer (1827), x. 56.

Y cyntaf a wnaed yn *ddug* ym Mhrydain oedd Edward, Tywysog Cymru, a elwid yn gyffredin y Tywysog Du [yn 1337].—*Gwyddoniadur Cymreig*, iii. 666.

I Iarll a *Dug*, i'r lle dél,
Arddengys ryw wedd angel.
Gwedd deg Non, gwyddid y gwnai
Dy degwch hudo *dugiaid*—*Dewi Wynn:* Blod. Arf. 246.

¶ It will be noticed that both Morgan and Parry use *duwc* in the singular and *dugiaid* in the plural; and this peculiarity, with two or three exceptions, continued to disfigure all the editions of the Bible before the beginning of the present century. Recent editors have changed *duwc* into *duc* and *dugiaid* into *duciaid.* Davies's orthography is *dug;* and the poets show that that was (and is) the correct pronunciation and spelling.

Digitized by Google

At the time when the Welsh and the English translations of the Scriptures were made, *duke* was often used in the second sense (=*dux* in Latin); and therefore there was no absurdity in styling the sons of Esau 'dukes' in English or *dugiaid* in Welsh. There was then no English duke, the title being in abeyance from 1572 to 1623.

Dug, *v.* [=dygodd: L. *duxit*] 3rd pers. sing. of the preterite tense of the irregular verb *Dwyn*. Cf. *Dugym* (=dygais), the first pers. sing. of the same tense. *Dugost=dygaist.*

Y vlwydyn honno a *duc* hi yn glotuawr. a hwyl delediw a *duc* hi o glot a chedymdeithon.—*Mabinogion*, 33 (cf. 20).

Fferracut eissoes a *duc* gantaw gledyf.
Yst. de Carolo Magno, col. 400.

Mewn ffiol ardderchog y *dug* hi ymenyn.—*Barn.* v. 25.

Ac o achaws hynny ny *dugum* i gledyf gennyf yma hediw.
St. Greal, § 5 (cf. 21).

Yna y *duc* hitheu escyb ac archescyb oe llys y wneuthur y phriodas hi ac Owein.—*Mabinogion*, 178.

Yna Antenor ae *duc* ef y neuad y brenhin.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 37.

Yn awr y *dugym* hyny i ben.
Esgobion Morgan a Parry: Esa. xxxvii. 26.

Dug fy nau lygad o dwyll.—*D. ab Gwilym*, viii. 55.

Dugant, *v.=Dygasant.*

Gwassanaethwyr y temyl ae delis hi a Iosep. ac ae *dugant* ar yr hyneif y temyl.—*Buchedd Mair*, § 11.

Yna y *dugant* hwy y marchawc y gyt ac wy y benn mynyd mawr. ac yd archyssant idaw ef etrych pa liw a welei uch benn ar yr awyr. ar nef.—*Purdan Padrig*, § 28.

Tagu Howel a orugant; ar tagedic yn uarw haeach y *dugant* at y Freinc.—*Brut y Tywysogion*, 78 (cf. 10).

Yn y dydyeu hynny y kymerth esgyb ac ysgolheigon ac effeireit gorff Turpin yn ysgrin yn enrydedus ae escobwisc ymdanaw. ac y *dugant* y gaer y tu arall y Ron.
Yst. de Carolo Magno, col. 497.

Duges, -au, *sf.* [dug] a duchess.

A phan doeth Bown a Therri etti. y chymryt a orugant. ae harwein gyt ac wynt hyt at y *duces*. A phan y gwelas y *dukes* hi mor dec ac y gwelas. ac mor adfwyn. gouyn a oruc y Bown ae y wreic briawt ef oed honno. . . A phriodi y *dukes* a oruc Terri.—*Bown o Hamtwn*, § 56.

Annes yw *duges* a dau wrth roi da,
Einioes i wra'r Annes orau.—*L. G. Cothi*, i. xxxi. 59.

I *Dduges* Caint, braint i'n bro, bid mawl mawr,
Bid mil a myrdd croeso.—*Robert Davies.*

Duges waddolog, a duchess dowager.

Dugiaeth, -au, *sf.* 1. a dukedom, a duchy.

Arglwyddiaeth, *dugiaeth* deg,
A seiliwyd ym Macsaleg.—*Dafydd ab Gwilym*, iv. 53.

Mae'n wag ein ystag megys *dugiaeth* fry.
L. G. Cothi, viii. x. 87.

Dy gyrn o Ddofr i Gernyw,
Dugiaeth Iorc dy gywoeth yw.—*Guto'r Glyn.*

Cymmer i'th law *ddugiaeth* Llydaw.—*T. ab Ifan ab Rhys.*

2. a (continental) duchy.

Dugiaeth Stiria i'r de o dalaith Austria, ac yn terfynu ar Hungari ar y tu gorllewin. . . *Dugiaeth* Carinthia yn sefyll i'r de-orllewin o Stiria. . . *Dugiaeth* Carniola ar y tu de i Stiria.—*R. Roberts:* Daearyddiaeth, 82.

3. chiefdom, leadership, headship. See *Dug* 2.

Dyma ddugiaid yr Horiaid, wrth eu *dugiaethau* yng ngwlad Seir.—*Esgob Morgan:* Gen. xxxvi. 30.

Dugiol,
Dugol,
Dugaidd, } *a.* relating, belonging, or pertaining to a duke, ducal.

Duglais, gleisiau, *sm.* [du+clais] a black and blue spot, stripe, or weal; black and blue.

Dugleisio, *v.* to beat black and blue.

Duglwyd, *sf.* [du+clwyd] cammock, rest-harrow (*Ononis arvensis*): also called *tagaradr, hwp yr ychain*, and *tegwch meinwen.—Hugh Davies:* Welsh Bot. 69, 184.

Dugoch, *a.* [du+coch] dark red, deep red; murrey; crimson.

A'r brenin Angeu yn ei freninwisg o ysgarlad gloewgoch . . . ac am ei ben gap *dugoch* trionglog.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 60.

Sylwn fod yr wybren â gwawr *ddugoch* bruddaidd tua chodiad haul.—*Cawrdaf:* Meudwy Cymreig, 65.

Gorchuddir y pen a'r gwddf â chroen *dugoch* crychiedig.
Cylchgrawn, i. 159.

A'u twygau yn waed *dugoch.—Tegid:* Gwaith, 26.

Dugochlas, *a.* of a dark blue inclining to red; violet, violaceous.

Y mae ymyl isaf y bwa mewnol yn *ddugochlas* (lliw y gwiolydd), a'r ymyl uchaf yn goch; ond yn y gwrthwyneb, coch ydyw ymyl isaf y bwa allanol, a'r ymyl uchaf yn *ddugochlas.—Gwyddoniadur Cymreig*, iv. 369.

Dugoesog, *sm.* [du+coes] black maidenhair (*Asplenium adiantum nigrum*): also called *duwallt y forwyn*, and *duegredyn duon.—Hugh Davies:* Welsh Bot. 99, 184.

Dugorn, gyrn, *sm.* an inkhorn.—*W.*

Dugpwyd, *v.=Dygwyd.*

Ar nos y ganet y *ducpwyt* gwraged y wylat y mab ae uam. . . Sef riuedi o wraged a *ducpwyt* yr ystauell chwech wraged.—*Mabinogion*, 18.

Genilles gnaws aur awr a *ducpwyd.*
Gwalchmai: M.A. i. 203.

Dul (ü), -iau, *sm.* a stroke, a knock, a beat, a slap, a thump; a short piece.

Rhag ofn *dul* ar gefn dwylaw.—*Thomas Prys.*

Yr ydwyf yn lled ofni iddo ryw dro neu gilydd fy nigio cyn belled . . . a gwneuthur i mi redeg fy nghleddyf dan ei asenau byrion, a diolch iddo roddi i mi fenthyg *dul* o gleddyf cyn flaenllymed.
Gronwy Owain, 334 (Wks. ii. 276).

Dulas, leision, *a.* [du+glas] 1. dark-blue, deep blue; black and blue.—*M.A.* i. 514.

Cap o ddail, copa *ddulas*,
Cangen i gadw gwen a'i gwas.
D. ab Gwilym, lxxxvii. 15 (cf. lxii. 35; lxxxv. 5).

Draig wyd o Wilym a dyr waew *dulas.*
L. G. Cothi, iv. xix. 35.

Oeraidd y disgyn pelydrau yr haul, drwy y cymylau *dulas* meithion, ar y gerddi a ddifuddiwyd o'u blodau.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 353.

Arlithiwyd fi i adaw'm bwthyn llon . . .
Er dilyn tynged dros y *ddulas* don.
D. Silvan Evans: Blodau Ieuainc, 15.

Y dulas fôr, the dark-blue sea.

2. black and blue, livid; of a lead colour.

Ffalswr, hudolwr *dulas*,
Fflam fo'r drych mingam meingas!
D. ab Gwilym, ccxxvi. 31 (cf. xxxiii. 9).

Draig aeldrom, dera gul-drwyn,
Nych gan gas *dulas* i'w dwyn.—*Gro. Owain*, 109.

Ei threm oedd *ddulas*, ac ei chuchiog wedd
Ymdroai'n wyrgam, arlun odd ei chredd.
D. Silvan Evans: Blodau Ieuainc, 45.

Dulas, *sm.* dark or blackish blue; black and blue; raven gray. *Dulas* is the appellative of several rivers in the Principality.

Dulath, -au, *sm.* [du+llath] a beam. Cf. *Tylath.*

Val y byd ynteu yn dodi y *dulath* yn y ffyrch. nachaf offeirat yn dyuot attaw ar uarch yn gyweir.
Mabinogion, 55.

Dangossit yr yscubawr a uynnit idaw. kyt bei rwyf dec erydyr ar hugeint yndi. ef ae trawei a ffust hayarn hyt na bei well yr rethri ar trostreu. ar *dulatheu.* noc yr man geirch yng gwaelawt yr yscubawr yn y ueiscawn.
Mabinogion, 111.

Dulbren, -au, *sm.* [dul+pren] a beetle, usually resembling a cricket-bat, used to beat coarse clothes in washing; a wash-beetle.

Digitized by Google

Duliad, -au, *sm.* a beating, knocking, or thumping.

Dulin, *sm.* [du+llin] black or unbleached flax.

Righyll a geiff or marw tei y mehin bwlch ar emenyn bwlch ar maen issaf or vreuan ar *dulin* oll ac or yt y do neesaf yr llawr.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 394 (cf. 676).

Dulio, *v.* to beat, knock, or thump; to bang.

Current fi, meddi, ac ni chlafychais; *dulient* fi, ac nis gwybum.—*Diar.* xxiii. 35.

Colli fy nghysgu, a chaeglu drwy chwys,
A *dulio* 'r pedolau â'm breichiau mewn brys.
Huw Morus: E.C. i. 352.

Am hyn o gofyn un gwr,
Pwy a'u *duliodd?* Pedolwr.—*Pedr Fardd:* Mêl Awen, 62.

Dulio hoelen, to beat or drive a nail.

Duliwr, wyr, *sm.* a beater; a striker.

Bellach iawn feruwch, a gwelwch y gwir,
Mai *duliwr* pedolau sydd oreu yn y sir.
Huw Morus: E.C. i. 363.

Duloes, -au, -ion, *sf.* agony, pang, extreme pain.

I'w droi mewn dolur *duloes.*—*Huw Morus:* E.C. ii. 131.

Ond O! fy Elin, blin yw'r blaned,
Ochain *duloes,* na chawn dy weled
G. Mechain: Gwaith, i. 4.

Ffoai'r dinaswyr, fföent am eu heinioes,
Heb wybod i ba le, gan bwys eu *duloes.*
Nicander: Brennus, iv.

Duloew, *a.* [du+gloew] of shining black; black and bright or shining; black and clear.

Telais yt' wawd tafawd hoew,
Telaist ym' fragawd *duloew.*—*Dafydd ab Gwilym,* i. 10.

A theg ferched Canaan, â'u llygaid *duloewon,*
A lon gyd-arsyllant gadfuddiant y gwron.
D. Silvan Evans: Telyn Dyfi, 18.

Dulwyd, *a.* [du+llwyd] black and brown; dark or darkish brown; dusky, swarthy, dun; of a dark grey (with age, &c.).—*M.A.* i. 490.

Casul yr awyr *ddulwyd,*
Carthen anniben iawn wyd.
D. ab Gwilym, xxxix. 17 (cf. lxxx. 31).

Lliw cyffredin yr aderyn hwn sydd *ddulwyd.*
Cylchgrawn, i. 159.

Câr i Deilo, ancr *dulwyd.*—*L. G. Cothi,* iii. xxxiv. 10.

Y lliw cyffredin yw du gloew oddi uchod, a *dulwyd* oddi tanodd.—*Gwyliedydd,* ix. 366 (cf. 367).

Y dulwyd, the dusky one; the dark-grey one; the venerable.

Dilys, ni ŵyr *y dulwyd,*
Oer wên, fan o fyd yr wyd.—*D. ab Gwilym,* lxxx. 31.

A dal tŷ *y dulwyd* hael,
A rhoi da i'r rhai diwael.—*Guto'r Glyn:* Iolo Mss. 316.

Dulwyd, *sm.* a dark or blackish brown; a blackish grey; a dun or dusky colour.

Dulys, *s.cl.* [du+llys] Alexanders, horse-parsley (*Smyrnium*).

Dulys cyffredin, common Alexanders (*Smyrnium olusatrum.*—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 29, 184.

Agrioselinwm, *dulys,* alisantr, marchberllys, perllys y berllan.—*Meddygon Myddfai,* 281.

Hipposelinon, *dulys,* alisantr, marchberllys, perllys y berllan.—*Meddygon Myddfai,* 286.

Dull, -iau, -oedd, *sm.* 1. form, figure, shape, fashion, mode, manner; structure; pattern, likeness; scheme; gesture, carriage, deportment, bearing, aspect.

A hunnw yu y *dull* goreu.—*C.C.* i. 230 (cf. 422; ii. 20).

Gweleis y *dull* o benn tir Adoun.
Aneurin: God. 748 (cf. 241, 587).

Oet aelav vtvt *dulloet* diheueirch.
Myrddin: A.B. ii. 19 (M.A. i. 152).

Caraf neirthiad Naf a nertho fy *null*
I'm dillwng arallfro.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 357 (cf. 257, 272, 303).

Dyma *ddull* y brenin a deyrnasa arnoch chwi.
1 *Sam.* viii. 11.

Pa *ddull* oedd ar y gwr a ddaeth i fyny i'ch cyfarfod chwi?—2 *Bren.* i. 7.

Hyspysa iddynt *ddull* y tŷ, a'i osodiad, a'i fynediadau allan, a'i ddyfodiadau i mewn, a'i holl *ddull,* a'i holl ddeddfau, a'i holl *ddull,* a'i holl gyfreithiau; ac ysgrifena o flaen eu llygaid hwynt, fel y cadwont ei holl *ddull* ef.
Esec. xliii. 11.

Hyn o'ch clod mewn tafodiaith,
A *dull* lleeg hen dywyll iaith.—*Gronwy Owain,* 36.

Addefai na fedrai fo . . .
Ddeall erioed *ddull* yr iaith.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 63.

Am ei bod yn dygwydd yn dra mynych mewn *dulliau* manteisiol iawn i fod yn wreiddgoll.
G. Mechain: Gwaith, ii. 357.

Dull ymadrodd (*pl.* dulliau ymadrodd), a form of speech; a manner of speaking; a figure of speech; a figure.

Dull ymadrodd, neu ffugr, sydd addurneg, drwy ba un y newidir llunwedd neu gaffaelwedd araith i gynnefindawd amgenedig, drwy ffurf a newydd gyfansoddiad.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xix.

Y mae priodol eiriau, yn gystal a *dulliau ymadrodd,* yn gwirio pa iaith yw mamiaith y Gymraeg yn y Bibl.
G. Mechain: Gwaith. ii. 227 (cf. 226).

Nid ydyw y gwahanol *ddulliau ymadrodd* sydd yn cael eu defnyddio ddim yn amgen nag iaith farddonol yn y dechreuad.—*Gutyn Padarn:* Gwaith, 112.

Dull ymadrodd yr Apostol sydd dra ystyriol, yn arwyddocâu hyn.—*Robert Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 178.

Wrth yr holl *ddull ymadrodd* yma y mae'r Yspryd Glân yn hyspysu i ni ofered ydyw'r pethau y mae'r annuwiol yn rhoi eu hymddiried ynddynt.
Dr. Davies: Llyfr y Res. ii. i. 20.

Dull dyn (1), the form, figure, appearance, or likeness of a man; a human form or figure.

Dull dyn oedd iddynt.—*Esec.* i. 5 (cf. 10, 13, 16, 22).

Yna y cyffyrddodd eilwaith â mi fel *dull dyn.*
Dan. x. 18 (cf. iii. 25).

(2) the manner of men; the way of man.

Os yn ol *dull dyn* yr ymleddais ag anifeiliaid yn Ephesus.
1 *Cor.* xv. 32.

Yn ol dull dynol, after the manner of men.—*Rhuf.* vi. 19.

Dull y byd hwn, the fashion of this world; the way of this world.—1 *Cor.* vii. 31.

Dull o fyw, a mode, manner, or way of living.

Mae yn hawdd i ni ganfod hefyd bod gwahanol hinsoddau, yng nghyd ag amrywiaeth yn y *dull o fyw,* yn meddu dylanwad nid bychan ar deithi barddoniaeth ym mysg gwahanol genedloedd.—*Gutyn Padarn:* Gwaith, 112.

Dull a llun, form and figure.

Gwelwn mai dull crwn sydd oreu, mai dyma *ddull a llun* yr holl gyrff nefol.—*Dafydd Lewys:* Golwg, xxvi. 3 (cf. 1).

2. opinion; sentiment; sentence; decision.

Ot adef pob vn or gwyr ryuot eu kynnhen yn y wyd ef kyn no hynny ac na bwynt vn *dull,* ac or gwatta vn yn erbyn y llall dir yw tygu yg gwyd yr arglwyd.
Cyfreithiau Cymru, i. 422.

Yna yd erchis Priaf y bawb dywedut y *dull.*
Dares Phrygius: LI.C.H. ii. 28.

Pan ddarffai i wŷr y llys honno ragreithiaw a chadarnhau eu *dull* trwy dwng henuriaid am yr hyn a osodid arnaddynt, yno y dyly y brawdwr a osoter o blaid y brenin roddi barn rhwng y cynhenusion herwydd *dull* gwŷr y llys honno.—*Leges Wallicae,* iv. cxl. 1 (cf. 5; ii. ii. 3).

¶ Perri generally, and occasionally some other writers, use *dull* as a feminine noun.

Dullaidd, *a.* modish; of a certain form, mode, or fashion.

Damweinau, troellau trallod, a ddeilliant
O *ddullaidd* syfrdandod.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 191.

Digitized by Google

Dullău, *v.* to form, shape, or fashion; to represent.

Efe ei Dad o lwyr *ddullâu*
Derbyniai yn anhyson idd ei drem.
W. O. Pughe: C.G. vi. 794.

Dullest, *sf.* [dull] 'that is finely formed;' 'accurate construction.'—*P.*

O golofyn Prydein y prydaf—yn geluyt
Or defnyt y dyfnaf
O prydest o *dyllest* a dullyaf
O dawn Duw can dotyw attaf.—*Cynddelw:* M.A. i. 262.

Ni wnaeth a wnaeth vy nghedwyr ynghalet Vaelor
Dillwng karcharor *dullest* voleid.
Owain Cyfeilioy: M.A. i. 266 (cf. 303).

Dullfaen, feini, fain, *sm.* [dull+maen] bild-stein, figure-stone.—*Dicts.*

Dulliad, -au, *sm.* a forming, modifying, or fashioning; modification; formation; form.

Llaryeiddwyn dillyn llawn *dullyat* Moesen.
Casnodyn: M.A. i. 422 (cf. 39).

A phan ymressai y llengoedd mewn *dulliad* rhyfel, yr oeddynt fel muriau durawg.
Carnhuanawc: Hanes Cymru, 63.

Dulliadwy, } *a.* that may be formed, modified,
Dulladwy, } or fashioned; modifiable.

Dulliaith, *sf.* [dull+iaith] figurative language; a form of speech.

Ond ni wn, wedyn, y iaith
A ddeallwch, na'r *ddulliaith.*—*Caledfryn:* Caniadau, 66.

Dulliedig, *pt.a.* formed, shaped, modified; feigned.

Addaf ddrych dallgrych *ddulliedig.*
Hywel Ystoryn: M.A. i. 519.

Dullio, *v.* to form, shape, fashion, or modify; to arrange.

A fo balch *dulliaw* o dull cyfiawn.
Cynddelw: M.A. i. 208 (cf. 151, 195, 262).

Yr oedd ganddynt hefyd finteioedd gwedi eu *dulliaw* yn y fath fodd ag y gallent gynnorthwyo eu gilydd yn rheolaidd.—*Carnhuanawc:* Hanes Cymru, 61.

Ym mesur pell amser, pan
Y *dulliwyd* ei nod allan.—*Eben Fardd:* Cyff Beuno, 36.

Dulliwr, wyr, *sm.* one who forms or fashions; a modifier.

Dullnewid, } *v.* to transfigure, to transform.
Dullnewidio, }

Dullnewid, -iau, -ion, *sm.* transfiguration.

Dullnewidiad, -au, *sm.* transfiguration; transformation; a changing of manner or appearance.

Nid yw y beirdd wedi anghofio Blodeuwedd, a'i *dullnewidiad* yn dylluan.—*Ystên Sioned*, 63.

Dullus, *a.* shapely, well-formed; fashionable.

Grym Dillud *dullus* fab Eurai
Gredf Greidwyr a Chyfyr a Chai.—*Cynddelw:* M.A. i. 208.

Dullwedd, -au, -ion, *sf.* [dull+gwedd] style; mode; manner; figure.

Dullwedd brawddeg sydd ffugr, a lluniaith, yn lliwio, ac megys yn rhoddi affaith ar yr holl frawddeg, a'r synwyr, drwy ymmodfryd goreiriawl.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xxxii.

Mae gan bob prophwyd ei *ddullwedd* ieithyddol ei hun.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 217 (cf. 82, 101, 185).

Mewn arferion, a *dullweddau* bywioliaethau trigolion y ddaiar, y mae gwahaniaeth ac amrywiaeth mawr.
Brutus: Brutusiana, 173.

Digon tebyg nad oedd hyn ar ei ran ef ond rhith difrifoldeb, yn deilliaw oddi ar *ddullwedd* ddynwaredol a chwarëyddol y rhan fwyaf o'i Gynnadleddau.
J. Pryce: Eglwys Foreuol, 268.

Rhaid iddo hefyd fod yn gydnabyddus â holl *ddullweddau* buchedd.—*Rasselas*, x.

Dullwedd ymadrodd, manner of writing or speaking with regard to language; style; a figure of speech.

Mae dau fraich i addurneg: y naill yw troell ymadrodd, neu drofeg; arall yw *dullwedd ymadrodd*, neu ffugr.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, i.

Deurith *ddullwedd ymadrodd*, neu ffugr, y sydd.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xix.

Dullweddiad, -au, *sm.* modification; accommodation.

Y mae pob gweithred ddeallol, felly, yn *ddullweddiad* o ymwybodolrwydd.—*Adolygydd*, iii. 155.

Gwedi aros yn Agra hyd nad oedd dim pellach i'w ddysgu, teithiais i Persia, lle y gwelais lawer o weddillion mawrwychder yr hen amseroedd, ac y sylwais ar lawer o newydd *ddullweddiadau* bywyd.—*Rasselas*, ix.

Dullweddog, *a.* modish, stylish, fashionable.

Dullweddol, *a.* tending to modify or fashion, modifying, fashioning.

Dullweddoli, *v.* to fashion, to modify.

Dullweddu, *v.* to modify; to fashion; to qualify.

Llunwedd geiriawl sydd, pan *ddullweddir* addurnaeg â geiriau cymhwyssain a glwyssain; o ba rai y gyntaf yw Cyfieuad neu Gyfansoddiad.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb (1595), xix.

Dullweddus, *a.* modish, fashionable.

Dullweddwr, wyr, *sm.* a modifier, a fashioner.

Dullwisg, -oedd, *sf.* } [dull+gwisg] style of
Dullwisgad, -au, *sm.* } dress, costume.—*Carnhuanawc.*

Dullwych, *a.* fashionable; elegant.

Dullymadrodd, -ion, *sm.* a form or figure of speech; a mode of speaking or writing.

Y maent yn gyfleithiad yn gystal ag yn gyfansoddiad, ac o ganlyniad mewn amryw fanau yn esponiad rhagorol, ac yn eglurhâd boddhaol ar ymadroddion sydd yn lled dywyll i ni, o ran y syniadau hedegog a'r *dullymadroddion* dwyreiniol sydd yn eu tryfritho.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 541.

Dun, *a.* [dy-+un] united, accordant, agreeing.

Beth y gyt a hynny pai bydhai bawb mor *dyn* a thi. ac y bu Lelius a Scipio. y gwyr ny mynnawdh yr un o honunt onyt a vynnawdh y lhalh.—*Lucidar*, § 128.

Dundeb, *sm.* unity, union, agreement, accord, accordance; consent.

Ar er arglwyd ay semvtey yr vn onadvnt namyn kan *dvvndep* kynnvlleytva kymeynt ac a wu eno.
Cyfreithiau Cymru, i. 216.

Sef a wnaeth anuon attaw y geissaw tagneued a *duundeb* y gantaw.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 95.

O *dundeb* y Saint. *Dundeb* Lelius a Scipio angcyssondeb vydhai hynny gantunt wy.—*Lucidar*, § 137 (cf. 128).

Duniad, -au, *sm.* a uniting, union, agreement; a joining together.

Duno, *v.* to unite, to agree; to be united or at peace.

Miui a *duunaf* a thi yn llawen heb ef am hynny.
Mabinogion, 21.

Duvnaw ar kynghor hwnnw a orugant.
Yst. de Carolo Magno, col. 483.

A phann aeth ef ynghytymdheithas y diawl gann dremygu Duw. y colhes yntau gytymdheithas Duw. am *dhunaw* o honaw ac estrawn.—*Lucidar*, § 25.

Ar antur, yf lloer yntau;
Yfont a *dunont* eu dau.—*Gronwy Owain*, 19.

Clyw f' achwyn a'm cwyn amcanus; Duw mawr,
Dy ymwared i'r rheidus . . .
Duna ni, Ior daionus.—*H. Dafydd ab Ieuan.*

Mewn serch brawdol diwahanol,
Hoew-wyr doniol, hir y *dunoch.*—*Gronwy Owain*, 104.

Dunoeth, *a.* [du+noeth] dark and bare.

A'r gwanwyn *dunoeth* a'r dygn gyngrair
A Sul Pasg gwyl gyhydedd Gwen Fair.
Heinin: M.A. i. 552.

Digitized by Google

Dunol, Dunus, *a.* united, accordant, agreeing.

Ac nyd oes uart dwfyn *dunus* gyfleith
A garwy yn hwy o hir obeith.—*Cynddelw:* M.A. i. 217.

Dunos, -au, *sf.* [du+nos] black, sable, or dark night.

Lliwon a aeth oll yn nos,
A dwy Wynedd yw *dunos*.—*L. G. Cothi*, VII. iv. 35.

Rhaid delwi'n ei oernych, rhaid wylo'n ei hirnos,
Och, *ddunos!* ac aros ei gur-iaith.—*Morgan Gruffydd.*

Nid rhyfedd i'r hen farddoniaeth Gymraeg syrthio mor druenus bendramwnwg, i'r cyfryw ammharch a dibrisdod, a *dunos* encudd, ag y mae y dydd heddyw.
Edward Dafydd: Cyfr. y Beirdd, 5.

Ni pheidia'i chân trwy *ddunos* faith.
Blackwell: Ceinion Alun, 199 (cf. 190).

Bygythi ddigter drwy y nen â traw
Yn *nunos* gwyll.—*Th. Lloyd Jones* (*Gwenffrwd*).

Y fory fel heddyw yn *ddunos* a fydd.—*Daniel Ddu*, 125.

Ei theyrnas rhoddai *Dunos* hen
I fyny wrth ei air.—*Robert Owen:* Gweith. 75 (cf. 129).

Duo, *v.* [du] to black, to blacken, to make black; to darken; to become, grow, or turn black or dark.

Ef a dywedir dyuot arwydon y angeu ef deir blyned kynn y uarw *duaw* yr heul ar lloer seith niwarnawt ar untu.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 496.

Deg mlyned ac wyth cant oed oet Crist pan *duawd* y lleuat duw Nadolyc.—*Brut y Tywysogion*, 8.

Gwynder diaathr ar lathr-gnawd,
Yn *duo* 'r gwallt, iawnder gwawd.
Dafydd ab Gwilym, XIV. 31.

Lliw ydyw gwyllt, du, a gwâr;
Lle *duodd* yr holl daiar.—*L. G. Cothi*, VII. iv. 33.

Deuliw nyf, nis dylai neb
Duaw hon; ond ei hwyneb.—*Dafydd ab Gwilym*, viii. 11.

Duodd amgylch y Deau,
Diwedd oedd o'r mawredd mau.—*Guto'r Glyn.*

Dyma'r llys oll wedi *duo* yn saith hyllach nag o'r blaen.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 63.

Chwai gwmwl ferchyg yma,
Duo 'r nen â'i odre wna.—*Caledfryn:* Caniadau, 128.

Yr haul uwch ben a *dduai*,
A'r nef a ymderfysgai.—*Gutyn Padarn:* Gwaith, 100.

Duo cymmeriad un, to blacken a person's character.

Duoer, *a.* [du+oer] black and cold; dark and cold; cold and gloomy.

Nad oes o ddyn dacar dyddyn *duoer* dudded.
Gronwy Ddu: M.A. i. 509 (cf. 469, 504).

Dydd Lleucu oedd ddydd *duoer*,
Dydd â lliw diwedd y lloer.—*L. G. Cothi*, III. xxix. 27.

Gorthrymder yw'r tynder tau,
Dduoer yngod ddir angau!—*W. Wynn.*

Pan oedd Phœbus unllygeidiog ar gyrhaedd ei eithaf bennod yn y Deheu . . . ryw hirnos gauaf *dduoer* . . . myfyrio yr oeddwn i ar ryw ymddiddanion a fuasai wrth y tân rhyngof fi a chymmydog.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 51.

O'r tristwch *duoer* trosti,
Nid hawdd y dihunawdd hi.—*Gronwy Owain*, 35 (cf. 31).

Un noswaith *dduoer* yn y gauaf . . . dyna rywun yn galw yn y drws.—*Ystên Sioned*, 26.

Duog, *a.* [du] blackish; black, dark; inky; dusky; swarthy.

Ac yna adnabot a oruc y marchawc *duawc* ry gaffel dyrnawt agheuawl o honaw.—*Mabinogion*, 172.

Meini Arabia ydynt yn guchlyd; y rhai a geir ym Macedonia ydynt yn *dduog*.—*Th. Charles*, s.v. 'Maen.'

Duol, *a.* tending to blacken; blackening.

Dur, *sm.* [L. *durus*; Br. *dîr*] 1. steel.

Ryued bei trewit ar *dur* na bei yssic ygkwaethach ai kic neu ascwrn.—*Mabinogion*, 150.

Wynt a gyuodassant y vynyd. ac a dynnassant deu gledyf o *dur* gloyw llathredic.
Yst. de Carolo Magno, col. 439.

Tri chaled byd: *dur* naw gwynias; maen cellt; a chalon mab y crinwas.—*Trioedd Doeth.:* M.A. iii. 246.

A chrafu llythyr arni â chethren *ddur*.—*Barddas*, i. 44.

A dyr haiarn yr haiarn o'r gogledd, a'r *dur*?—*Ier.* xv. 12.

Mi a boethwn, mi a goethwn, mi a dorwn y *dur*.
Huw Morus: E.C. i. 352 (cf. 128, 382).

Cynient hwy ag ebillion o *ddur* gwynias.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 81 (cf. 75).

O guraw *dur* ceir gwawr dân.
G. Mechain: Gwaith, i. 15 (cf. 113, 147).

Y bobl hyn a gawsant gyntaf, meddant, y gelfyddyd o wneuthur *dur*.—*Th. Charles*, s.v. 'Dur.'

Dur awch: see *Awch.*

Bwa dur, a bow of steel, a steel bow.

A'r *bwa dur* a'i trywana ef.
Iob xx. 24 (cf. 2 Sam. xxii. 35; Salm. xviii. 34).

Llafn dur, a steel blade.

Llif ddur (*pl.* llifiau dur), a file.

Clawr o eur a gwybwyll rac y vron. a llath eur yn y law. a *llifeu dur*. ac yn torri gwerin gwydbwyll.—*Mabinogion*, 84.

Yr oedd *llif ddur* i wneuthur min ar y ceibiau.
1 *Sam.* xiii. 21.

Tarian ddur, a shield of steel, a steel shield.

Mur *tarian ddur*, tyr yn ddellt.—*Llawdden.*

Gwaew ddur, a steel spear or lance.—*M. A.* i. 335.

Pais ddur, a steel coat, a coat of mail.

Da yw rhwym y *bais dur* hon,
Draig o liw gwydrau gloewon.
L. G. Cothi, II. viii. 39 (cf. 66).

Nodwydd ddur (*pl.* nodwyddau dur), a needle. In N.W. *nodwydd* is used for a pin (of any material); and hence, for distinction, a needle (for sewing) is very commonly called *nodwydd ddur*, or steel needle.

I'm bron mae dirfawr ddolur,
Fal blaenau *nodwyddau dur*.—*D. ab Gwilym*, clii. 45.

Nid oedd werth y *nodwydd ddur*.—*L. G. Cothi*, III. x. 28.

Tri chyfing byd: crau *nodwydd ddur;* carn Sais ar gelffaint; a drws cell mab y crinwas.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 246.

Haws yw i gamel fyned trwy grau y *nodwydd ddur*, nag i oludog fyned i mewn i deyrnas Dduw.—*Matt.* xix. 24.

Cethri dur, steel nails or spikes.

Er dy gystudd ath hir gythrudd ath *ddur gethri*.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 457.

Pin dur, Ysgrifell ddur, a steel pen.

Helm ddur, a steel helmet.

Helm ddur hil i Dudur deg.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 450.

Braich ddur, an arm of steel, a steel arm.

Bwrw deulu, lle bo'r dolur,
Bwrw uchod wyth â'r *braich dur*.—*L. G. Cothi*, III. xv. 45.

2. (fig.) steel; a weapon of steel; steel weapons, such as swords, spears, and the like.

Yn Llongborth llas i Arthur
Gwyr dewr cymmynynt a *dur*.
Llywarch Hen: M.A. i. 102 (A.B. ii. 276).

Dyrys fu ei gâr ei daraw,
Dewr o lid, â *dur* i'w law!—*D. ab Gwilym*, ccxxxvi. 39.

Ni bu i'th erbyn ddyn â'i *ddur*
Ar ei dal, heb roi dolur.—*L. G. Cothi*, II. vi. 11.

Dewr Ewein deurutliw flon
Dur goch bar llachar llawch deon.
Hywel Foel: M.A. i. 392 (cf. 225, 291).

Ni throant *ddur* eithr at ddewrion.—*Tudur Aled.*

Dyro ffrwyth *dur* a phren
I nodi wyrion Wden.—*Gutyn Owain.*

Nid ydym ni chwaith yn eu hamgylchu hwy â *dur* ac â haiarn, eithr â Gair Duw.—*M. Cyffin:* Diff. iv. 29 (cf. v. 3).

Digitized by Google

Ni hulir aerfa mwy â llachar *ddur;*
Ni chyffry'r udgorn croch na chas na chur.
Blackwell: C.A. 153.

O, degwch holl Israel! prydferthwch y tir!
Archollwyd y dewraf a driniodd y *dur.*—*Carn Ingli.*

Dur, *a.* steel, hard as steel, steely, extremely hard. See *Dur,* sm. 1.

Ymendigeit annwar daw heb ynteu. mal dala gel bendoll ym tostes yr hayarn *dur.*—*Mabinogion,* 119.

Ni bu Sion, â'r ddwyfron *ddur,*
Yn y saig yno segur.—*L. G. Cothi,* II. ix. 29.

Duraidd, *a.* that is of the nature of steel; steely; chalybeate.

Ffynnon dduraidd, a chalybeate spring.

Tra thebyg fod yna *ffynnon dduraidd* yn ei gymmydogaeth, pe medrem ond ei darganfod.
Dr. A. Wynn Williams: Ffynnon Cegin Arthur, 8 (cf. 9).

Dwfr duraidd, chalybeate water.

I'r dwyrain, y mae *dwfr duraidd* cryf, ydoedd yn enwog gynt.—*Dr. A. Wynn Williams:* Ffynnon Cegin Arthur, 10.

Durarf, eirf, arfau, *sf.* [dur+arf] a steel weapon.

Taer yw ai *ddurarf* tyrau ddiwraidd.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494 (cf. 497).

Cad ddychryn darf, *ddurarf* ddor,
Cedyrn ofn, cadarn Ifor!—*Dafydd ab Gwilym,* vi. 15.

Durarfog, *a.* armed with steel; steel-clad.

Durawd, *sm.* the act of steeling; a steeling; a making hard as steel.

Llavyn *durawt* barawt e waetlin.—*Aneurin:* God. 589.

Ac ail o Run Hir ryfel *durawd.*
Meilir: M.A. i. 189 (cf. 164, 200).

Llit *durawt* dur huawdur Hueil vab Caw.
Casnodyn: M.A. 423 (cf. 226).

Durbais, beisiau, *sf.* a steel coat, a coat of mail.

Durbar, -au, *sm.* [dur+par] a steel spear or lance.

Dewr bor gnawtlwyd oed *durbar* gwaetlin.
Rhiserdyn: M.A. i. 432.

Baltazar *durbar* dewrbor a wnaethant
Oe mawlsant a Melsyor.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 470.

Durdarf, *a.* chasing (a flying enemy) with steel.

Gorsafwr trin dewrdwrf Cunin *durdarf* Cunwyd.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 445.

Durdeb, *sm.* the quality of being steely; great hardness; solidity.

Durdor, -ion, *sm.* a crack or notch in the steel or edge of a cutting instrument.—*Powys.*

Durdor, *a.* cutting with steel.

Yn rin hael uron urenhin or llin llaryaf
Esgor dor *durdor* diar.
Dothwyf attat.—*Llywelyn Fardd:* M.A. i. 359.

Durdorch, dyrch, *sf.* a steel ring; the ring of a habergeon.

Pwy a wnai frisg pan fai raid
Peisian *durdyrch*?—*Owain ab Llywelyn Moel.*

Duredig, *pt.a.* steeled; hardened; dense.

Duren, -au, *sf.* a steel (to strike fire with).

Y maent mor sicr o gyflawni y weithred y denir hwynt iddi, ag ydyw gwreichionen o dañu o'r gallestr pan y terir hi â'r *duren.*—*Gwyliedydd,* i. 203.

Durendardd, **Dwrendardd,** **Dwrndardd,** **Dwryndal,** **Dwrndal,** *sm.* [from L. *durus*] Durindan, Durindana, or Durandal, the name of the Sword of Roland, the renowned nephew of Charlemagne. Cf. *Cadledfwlch, Hawd Clyr,* &c.

A phan daruu idaw dorri y wayw tynnu *Durendard* y gledyf a oruc a dwyn ruthur y Cherub ae daraw ar warthaf y benn.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 480 (cf. 476).

Ef ae trewis a *Durendard* yny vu y gwr ar march yn dwyrann o bob tu y *Durendard.*
Yst. de Carolo Magno, col. 484.

Ac yn y lle gossot o Rolant ar y kawr a *Dwrendard* y gledyf.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 399.

Ac yn y lle gossot o Rolond ar y cawr a *Dwrndard* y gledyf. a thebygu y lad.—*Campau Charlymaen,* § 44.

Da iawn y mae *Dwryndal* gledyf Rolant yn trychu. . . Ac yna sef a wnaeth Rolant llidiaw yn diuessur y ueint. ac a *Dwryndal* yn y law. ae dwrn yn eur coeth. taraw Otuel ryuelwr ar warthaf y helym yny neitywys y tan or cledyf ac or helym.
Yst. de Carolo Magno, col. 421 (cf. 419, 431, 456).

A Rolant a aeth y offrwm a *Dwrndal* y gledyf.
Yst. de Carolo Magno, col. 415 (cf. 420).

Gweithret Rolond ynteu vyd val y bu eiroet. llad a *Dwrndal* yn gadarn. trychu y marchogyon ar meirch trwydunt. yn eu kymherued. torri y cadeu gwrthwyneb. ac eu tannu. ay sathru a dan draet vy march yn deisseu calaned a wnel *Dwrndal.*
Campau Charlymaen, § 100 (cf. fq.).

Chwaer undad, giliad galon,
A *Durendardd* hardd yw hon.—*Iolo Goch.*

Chwech o'i gelynion ni chwardd,
Chwaer dewr ymdaer *Durendardd.*—*Rhys Goch Eryri.*

Durew, *sm.* [du+rhew] black frost.

Bendigwch Dduw *ddurrew* a rhew crimpiawg
Oerfel a glasrew a glwyswlith deifniawg.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 564.

Nid anghyffelyb i *ddurew* a ymeifl yn y trwyn cyn i ddyn ei ganfod â'i lygaid.—*H. Perri:* Egluryn Ffraeth. x.

Dagrau oer, da gyrai ia,
Cofus, o *ddurew* cyfa.—*D. ab Gwilym,* clxxiv. 27.

Durfais, *s.* [=durbais, *b* being changed into *f* for alliteration?] a steel coat?

Siryf *durfais* arf Derfel
Sir Fon dwys i'r fan y dêl.—*W. Cynwal.*

Durfing, *a.* [dur+min? See *Dirfin.* Pughe invents '*durf*' as the etymon] dense, close, hard, solid; austere, severe; vehement; sharp, strenuous, vigorous, violent.

Ac ymlad yn *duruig* wychyr a wnaethant.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 21 (cf. 23).

Prif ruthyr yng *durvyng* dewrwaed
Pridwr serch Paredur swydd.
Rhiserdyn: M.A. i. 432 (cf. 375, 425).

Angau *durfing* ei derfyn
A gwynt oer ac enaid dyn.—*M.A.* i. 520.

Ac yna kyrchu y gelynyon a wnaethant ac ymlad ac wynt yn *duruig,* a gwneuthur diruawr aerua arnunt.
Brut y Tywysogion, 316.

Dewrach a *durvingach* vydei e gwyr o heny.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 324.

Yr oeddynt gynt yn coelio . . . bod y ser llosgyrnog o sylwedd llawer mwy *durfing* na'n daiar ni. . . Ond cyfaddefir yn yr oes hon, nad oes gan y doethaf o ddynion sail i wybod pa un ai brwd ai oer yw y ser llosgyrnog eu hunain; a haerir nad ydynt o sylwedd *durfing.*
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 263.

Pan lyncir ef gan ryw *ddurfing* brofedigaeth.
Th. Williams: Ymadr. Buch. 288.

Y sawl sy'n gobeithio cael clod a mawl gan y byd wrth ymddangos fel hyn yn *ddurfing* ac yn gaeth-grefyddol, os ffyna'u bwriadau, yn wir y maent yn derbyn eu gwobr yma.—*Ed. Samuel:* Athr. yr Eglwys, 31.

Mae'r cynghorion hyn yn feddyginiaeth hollawl i bob achosion anarferol a *durfing.*
Elis Wynn: Rh.B.S. 82 (cf. 12, 124, 197).

Ei muriau sydd mor *ddurfing* a challestr.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 58.

A llwm yw ei gotwm, gwel;
Durfing i'w waed yw oerfel.—*Dewi Wynn:* Bl. Arfon, 109.

Angeu durfing, violent death.—*Rh.B.S.* 129.

Durfingder, -au, **Durfingdra,** *sm.* density, denseness, solidity, solidness; hardness; austerity, severity, sharpness, hardship.

Digitized by Google

Durfingder y lloegwy, wedi rhedeg ddeuddeg milltir, sydd yn llawer mwy na phan ffrydia allan gyntaf; ac fel y byddo ei *ddurfingder* yn cynnyddu, lleihâ yn ei gyflymder.
Cylchgrawn, ii. 47.

Addefir gan bob seryddwr, fod awyrgylch, neu gorff o awyr, o *ddurfingder* ac eangder go fawr, yn amgylchynu y blaned hon.—*Dosparth Heulawg*, ii. 18.

Durfingderau, austerities; hardships.

Od oes neb ag arno wir ofal am ddedwyddwch ei enaid . . . pa beryglon a *durfingderau* bynnag a ddygwyddont iddo yn helynt ei ufudd-dod, nid oes dim a ddichon ei gysuro i hyny'n amgenach na'r bywyd a'r anfarwoldeb a ddug ein Iachawdr Christ i oleuni trwy'r efengyl.
Ed. Samuel: Athr. yr Eglwys, 207.

Durfingo, *v.* to harden; to case-harden.—*W.*

Durfingrwydd, *sm.* denseness, solidness, hardness; severity; hardship.

Och awyr am wyr diwaradwydd
Och fawr a fwrir o *ddirfyngrwydd*.
Dafydd Benfras: M.A. i. 311.

Durfin, *a.* [dur+min] solid, hard, dense. See *Durfing*, *Dirfing*.

I'r dwyrain a'r gorllewin y mae beddau gwedi eu tori yn y graig *ddurfin*.—*Gwyliedydd*, i. 409.

Durfinder, **Durfindra**, -au, *sm.*=*Durfingder*, *Durfingdra*.

Durflaen, *a.* pointed with steel, steel-pointed.

Pob dec ae kwyn adwyn oed
Par *durvlaen* parawt aervleid.—*Rhiserdyn:* M.A. i. 432.

Durgaen, *a.* steel-clad; steel-coated, steel-plated.

Neut cor mynor maen
Glas gwas gwisc *durgaen*
Ir grud glo gro graen ger taen tonyar.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 438.

Parottaf llewnaf lluniaidd helm *ddurgaen*.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494.

Durgaen, -au, *sf.* a steel coating or casing.

Durgaenedig, *a.* steel-clad; steel-coated.

Durgerfiad, -au, *sm.* a steel-engraving.—*Dicts.*

Durgerfiadaeth, *sf.* the art of engraving on steel; steel-engraving.

Durgerfio, *v.* to engrave on steel.

Durgledd, -au, *sm.* a steel sword.

Ac aros mal Geraint yngwnedd
A gorfod ac aerfin ffiam *ddurgledd*.
Dafydd y Coed: M.A. i. 497 (cf. 445).

Durgrwydr, *a.* steel-bespangled; glittering with steel.

Corf ior dor *durgrwydr* frwydr ddifrodedd.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 454.

Duriad, -au, *sm.* a steeling; a hardening.

Durio, **Duro**, *v.* 1. to steel; to overlay, point, or edge with steel; to make extremely hard.

Llwybr digaeth y yarllaeth y eurllaw Ieuan
Llwyt llydan daryan llit yn *duryaw*.
Casnodyn: M.A. i. 423.

Draw Mai fu yn *durio* min,
Mwy hyfach bu Mehefin.
G. Mechain: Gwaith, i. 85 (cf. 104).

Duriaw offeryn awch, to steel an edge-tool.

2. to give the steel to; to attack with steel.

Gwaith Faddon yn union ennynai
Ei galon ddewr—gelyn a *dduriai*,
A llawer aestalch falch a fylchai.
G. Mechain: Gwaith, i. 10.

Duriog, **Durog**, *a.* having the qualities of steel; consisting of steel; made of steel; steely; steel.

Rag bytin Emrais drais drahawc
Cadau didudyt cletyf *durawc*.—*Meilir:* M.A. i. 190.

Yr oeddynt fel muriau *durawg*.
Carnhuanawc: Hanes Cymru, 63.

Hyrwyd varchawc hardlevyn *duryawc*
Hirwayw trumawc hwyruyt dramwy.
Rhiserdyn: M.A. i. 436.

Of call, gwna fwyall i fardd, a doro
A'i *duriawg* fin agwrdd,
Diwael ei gwaith, cai'n dâl gerdd.
Dafydd Llwyd Mathew.

Gwnewch im', Robert, ber fwyall, bur finiog,
Odidog, a *duriog* ddidoriad.
Ieuan Lleyn: Caniadau, 16 (cf. 121).

Duriogrwydd, **Durogrwydd**, *sm.* the quality of being steely; steeliness.

Duriol, **Durol**, **Durus**, *a.* of the nature of steel; belonging or relating to steel; steel; hard as steel; hard, solid.

Cein *ddduriawl* ei bar uch cynddaredd gryd
Yngwyth gerwin fryd yngwaith garwedd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 454 (450).

Gwr *duriawl* rod clod Clydno.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 452.

Ni chaf och'lyd hefyd hawl,
Gan daered y gwr *durawl*.—*D. ab Gwilym*, lxiv. 36.

Ei *durol* byrth a dorai, a'i hoerion
Ddyfnderoedd olrheiniai.—*Hwfa Mon:* Gwaith, 21.

Durlath, -au, *sf.* [dur+llath] a steelyard.

Dywedasoch, y dydd arall, fod y *ddurlath* gyffredin, a ddefnyddir gan y cigydd, yn fath o wif.
Elfenau Gallofyddiaeth, xv. (cf. xvi.).

Durlif, -iau, -au, *sf.* [dur+llif] a file.

Ac am hyny, fel y dichon dyn guro a llifio, ac heb fod yn weithiwr gwych, er fod y morthwyl a'r *ddurlif* â pha rai y mae efe yn gweithio yn offer llesiol iawn at wneuthur unrhyw beiriant cywrain.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 42.

Durlif gaboli, a smooth file.—*W.*

Blawd durlif, *Llwch y ddurlif*, file-dust, filings.

Durlifio, **Durlifo**, *v.* to file; to rub or smooth with a smile.

Yr ydym yn ewyllysio pwyo, rhathellu, a *durlifio* cylchau a choed barilau'r tafarndai yn chwilfriw.
Traethodydd, xxvi. 78.

Durlifion, *s.pl.* filings, particles rubbed off with a file.

Tybiwn y byddai cystal, yn wir yn llawer gwell, diddymu yr arferiad o roddi *durlifion* yn hollol.
Dr. A. Wynn Williams: Ffynnon Cegin Arthur, 34.

Durllain, lleiniau, *sf.* a steel blade.

Fy nghyfwyrain fy nghâr *durllain* fy ngharw dewrllwyd.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 445.

Durllaw, *sf.* a steel hand; a very hard or stingy hand.

Ni welir am ddyn eddewid ganthaw
Ni ddaw o'i *ddurllaw* Fadawg ddyfrllyd.
Iustus Llwyd: M.A. i. 559.

Durllyd, *a.* impregnated with steel or iron; chalybeate.

Wrth roddi prawf arnynt, canfyddais yn union fod y diweddaf yn ddwfr *durllyd* cryf, yn cynnwys llawer o haiarnrwd.—*Dr. A. Wynn Williams:* Ffynnon Cegin Arthur, 8.

Durnoeth, *a.* of naked steel.

Hil coeth Rhys *dur-noeth* rhoes dyrnawd yngrhai
Hil Ruffudd erfai windai Wyndawd.
Llywelyn Goch: M.A. i. 522.

Durudd, *a.* [du+rhudd] dark-ruddy; ruddy inclined to black.

Cyffelyb o barth maintioli yw i fuwch fechan, y corff yn debyg i eiddo mochyn, a'i groen o liw *durudd*.
Gwyliedydd, iii, 169.

Duryn, -au, *sm.* [dur] 1. a steel, a piece of steel. Cf. *Duren*.

Hog-dduryn cigydd, a butcher's steel.—*W.*

Digitized by Google

2. a beak, a bill; a snout; a trunk, a proboscis.

Edn yn ei hoedl ni edir,
Aderyn hardd *duryn* hir.
D. ab Gwilym, lxxii. 19 (cf. 36; xliv. 19).

A megys yr oed yn dyuot attaw ef a welei y ki yn roi y *duryn* yr llawr. ac yn kael gwaet. ac yn ymlit y gwaet ar hyt ffordd lysseulet.—*St. Greal*, ‖ 108.

E perchyll becheyn or pan emcuelo bysguelyn gyntaf ay *duryn* [*al.* truyn] un kefreyt ac eu mam vydant ar hyt.
Cyfreithiau Cymru, i. 324.

Duryn catt yn lladratta.—*Madog Dwygraig:* M.A. i. 489.

Y peth rhyfeddaf yng ng wneuthuriad yr Elephant yw ei anferth *dduryn:* sef, math o drwyn hir, ansawdd yr hwn sy gyfryw, fel y gall y creadur ei estyn allan neu ei dynu i mewn; ei eangu, ei godi, neu ei ostwng; a'i droi fel y myno.—*Gwyliedydd*, i. 171 (cf. 172, 173).

Y mae gylfin yr aderyn hwn o wneuthuriad mor rhyfedd, ym mron, a *duryn* yr Elephant.—*Cylchgrawn*, i. 26.

A phistylla allan fôr o drwy ei *dduryn*.
W. O. Pughe: C. G. vii. 481.

Trwyn hir main sydd ganddo, yr hwn a fedr efe (megys *duryn* cawrfil) ei estyn neu ei fyrhau pryd y myno.
Gwyliedydd, iii. 169 (cf. 165).

Diwreiddia goed gyd â'i *dduryn*.—*Gwyliedydd*, xi. 148.

3. the nose (humorously, or in contempt); the snout.

A'th *dduryn* oedd, waith arall,
Fal trwyn yr âb, fab y fall.—*Gronwy Owain*, 74.

Gwell na merch yn cynnyg cusan
Ar *dduryn* oer, ryw ddarn o arian.
Huw Morus: E.C. i. 333.

Durynaidd, *a.* resembling a beak, bill, or snout; snouty.

Duryngorn (*n-g*), gyrn, *sm.* [duryn+corn] the rhinoceros.

Amddiffynir corff ac aelodau y *Duryn-gorn* gan groen cyn galeted, fel na ddichon i waewffon neu gyllell ei drywanu.—*Gwyliedydd*, iii. 105 (cf. 106).

Durynog, *a.* having a beak or bill; snouted.

Duundeb, *sm.*=*Dyundeb*, *Dundeb.*—*Ll.C.H.* ii. 239.

Duw, -iau, *sm.* [†duu, duv, duf, dev (*A.B.* ii. 13, 14, 15): C. *duy* (C.V.), *dew, du;* Br. *doe* (Cath.), *doué*, †*diu, diw, div* (Villemarqué); Ir. *dia;* Ga. *dia;* L. *deus, divus;* Gr. θεός] 1. GOD.

Od â enteu ir llu teghet i *Diu* ene blaen ac ir kereir esset in lau er egnat.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 114.

Ar *diu.*—*Codex Juvencus*, 68.

Ar canu kyntaf o *Duhu* ar eyl or brenyn byeufo e llys.
Cyfreithiau Cymru, i. 32.

Vn guirth oe teithi. un *duu* diuoli.
Llyfr Du: A.B. ii. 13 (M.A. i. 575).

Arduireaue *dev.* yssi vn a deu.
Yssi tri hep ev. hep haut y amhev.
Llyfr Du: A.B. ii. 13 (M.A. i. 575).

Lawnslot heb hi grassaw *Duw* wrthyt. Antur da a rodo *Duw* yttitheu heb y Lawnslot. . . Argiwyd heb ef grassaw *Duw* wrthyt. *Duw* or nef heb y Lawnslot a ro iechyt ytt yn ehegyr. Yr *Duw* heb y Meliot pa delw y mae Gwalchmei.
St. Greal, ‖ 233.

Ony chaf yspeit y ymwneuthur a *Duw* am vym pechawt. ac y ymdidan ac offeireit. ny hannwyf well.
Mabinogion, 255 (cf. 129, 132).

Ni bydh dim didal or drwc gyrbronn *Duw.*—*Lucidar*, ‖ 82.

Duu yn gyntaf y kyvarchaf.
Gruffydd Ynad Coch: M.A. i. 402.

Felly y Tad sy *Dduw*, y Mab sy *Dduw*, a'r Yspryd Glân sy *Dduw*. Ac eto nid ynt dri *Duwiau*, ond un *Duw*.
Credo S. Athanasius.

Byd heb ddim yw bod heb *Dduw*.
Dafydd ab Gwilym, ccxlvi. 12.

Nid *Duw* ond anfeidrol.—*Barddas*, i. 214.

O dri anghenfod y mae *Duw:* sef y mwyaf parth bywyd; y mwyaf parth gwybod; a'r mwyaf parth nerth a gallu: ac nis gellir namyn un mwyaf ar unpeth.—*Barddas*, i. 198.

Beth yw *Duw?* Bywyd yr holl fywydoedd.
Barddas, i. 268.

Nid goleuni ond *Duw.*—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 16.

Un yw *Duw*, ac nid oes onid Efe yn *Dduw*.
Barddas, i. 274.

Tri banogion *Duw:* bywyd cyfoll; gwybodaeth cyfoll; a chadernyd cyfoll.—*Barddas*, i. 170.

Duw, cariad yw: a'r hwn sydd yn aros mewn cariad, sydd yn aros yn *Nuw*, a *Duw* ynddo yntau.—1 *Ioan* iv. 16.

Yspryd yw *Duw.*—*Ioan* iv. 24.

Nid bod ond byw, nid da ond *Duw;*
Nid *Duw* ond ef a wnaeth y nef.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 30 (cf. 34, 35, 69).

O *Duw* y Cristonogyon. *Duw* Iago. *Duw* Meir. *Duw* Pedyr. *Duw* Marthin. *Duw* Hollgynoethawc.
Yst. de Carolo Magno, col. 499 (cf. 474).

Un *Duw* sydd, ac un Cyfryngwr hefyd rhwng *Duw* a dynion.—1 *Tim.* ii. 5.

Duw a folir yn Drindod, Tad, Mab, ac Yspryd Glân; yn Greawdr a Pheiriadur pob peth; yn Ben ar bob peth; yn Ollgyfoethog; a Hollalluog; a Hollwybodol.
Cyfrinach y Beirdd, 34.

Duw Dad, God the Father.—*Ioan* vi. 27; *Phil.* ii. 11.

Pa ryued yw kyuodi o *Duw Dat* y uab ynteu o ueirw yn y trydyd dyd.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 403 (cf. 402).

Duw Dad a folir am ei allu, a'i ddaioni, a'i ddoethineb, yn gwneuthur y byd, yn nef a daiar, ac oll y sydd ynddynt.
Cyfrinach y Beirdd, 34.

Duw Dad, o'r nef, trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.
Ll. G. Gyffredin (Litani).

Credaf yn *Nuw Dad* Hollgyfoethog, Creawdwr nef a daiar.—*Credo yr Apostolion.*

Duw Fab, God the Son.

Duw Fab, Iesu Grist, a folir am ei dosturi, a'i fawr drugaredd, yn prynu'r byd, drwy farw ar y Groes.
Cyfrinach y Beirdd, 34.

Duw Fab, Brynwr y byd, trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.—*Ll. G. Gyffredin* (Litani).

Duw Yspryd Glân, God the Holy Ghost.

Duw Yspryd Glân a folir am ei waith yn santeiddio'r byd, drwy nerth a gallu, a phurdeb ewyllys; yn ei droi o ddrwg at ddaioni, a'i ddwyfoli drwy ddwyn ar feddwl i ddyn pob daioni a santeiddrwydd.—*Cyfrinach y Beirdd*, 34.

Duw Yspryd Glân, yn deilliaw oddi wrth y Tad a'r Mab, trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.
Ll. G. Gyffredin (Litani).

Duw Dad, Duw Fab, Duw Yspryd Glân, a'ch bendithio.
Ll. G. Gyffredin (Priodas).

Tri pheth a sydd, ac nid dim hebddynt: *Duw Dad* Hollalluawg; *Duw Fab* Holldrugarawg; *Duw Yspryd Glân* Hollgyfoethawg. Tri phrif achaws y sydd i ddyn garu Duw: am i *Dduw Dad* ei greu; am i *Dduw Fab* ei brynu; am i *Dduw Yspryd Glân* ei lywodraethu.
Trioedd Moes: M.A. iii. 191.

Yr unig wir Dduw, the only true God.—*Ioan* xvii. 3.

Rhyngof fi a Duw, } between me and God; God
Rhof fi a Duw, } is my witness; in good
Rhof a Duw, } faith or truth: a common medieval oath or profane asseveration. See *Mabinogion*, 176, 177, 179, 254, 275, 278, 281, 283, 284, 285, 292.

Y rof a Duw heb y Gwalchmei os gwir a dywedy di ys aflwydyannus y daruu y myui.—*St. Greal*, ‖ 161.

Na uynnaf y *rof a Duw.* heb ef.
Bown o Hamtwn, ‖ 3 (cf. 11, 14).

Duw gwyn, good God, blessed God.

Duw Tri a ddug Gwenllian
Doe o'r llys at Bedr i'r Llan:
Duw gwyn, os dug o'i ynys,
Duw! ar ei hol adu Rhys.—*L. G. Cothi*, III. xx. 55.

Tydi sy'n rhoddi pob rhaid,
O *Ddduw gwyn!* nawdd y gweiniaid.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 199.

O *Dduw gwyn!* pa rodd a gaf?—*Dafydd Ionawr*, 84.

Digitized by Google

Duw gwyn i mi! God bless me!

Ac os rhaid i mi fwrw amcan ar ein llwyddiant yn ol hyn wrth y profiadau a gawsom eisioes, *Duw Gwyn i mi!* Dyma fodd i dori'r galon!—*Ier. Owen*, 115.

Duw i'ch cadw, God save or preserve you! heaven protect you! all hail! (*χαίρετε*).

Nycha'r Iesu yn cyhwrdd ag wynt, gan ddywedyd, *Duw i'ch cadw.*—*W. Salesbury:* Matt. xxviii. 9.

Os myn Duw, Os Duw a'i myn, } if God will; if it pleases God.

Caniatäed Duw, Duw a wnel, } God grant! may God permit!

Duw a wnel na chaffer hwnw yn etifeddiaeth Iacob.
Eccl. xxiii. 12.

Och Dduw! good God!

Och Duw heb ynteu ae Gereint yw ef.—*Mabinogion*, 290.

Och Duw heb ef a vu ar wr eiryoet poen kymmeint ac yssyd arnaf.—*St. Greal*, ‡ 16.

Duw a ŵyr, Gŵyr Duw, } God knows. See *Dioer* and *Dygŵyr Duw,* } *oer.*

Duw a wyr unbennes heb yr Owein na ellir agori ytti o dyma. mwy noc y gelly ditheu waret y minneu o dyna. *Duw a wyr* heb y uorwyn oed dyhed mawr na ellit gwaret itti. ac oed iawn y wreic wneuthur da ytti. *Duw a wyr* na weleis i eirmoet was well no thidi wrth wreic.
Mabinogion, 173 (cf. 135, 189).

Duw a ŵyr na bu dy well.—*D. ab Gwilym*, ccxii. 12.

Er Duw, for God's sake.

Onym llad i Duw hagen nyt hawd vy llad i heb ef. a wney ditheu *yr Duw.* ac yrof inheu. menegi y mi pa furyf y galler dy lad ditheu.—*Mabinogion*, 75 (cf. 101, 117).

Yr Duw heb y Gwalchmei dywet titheu ymi y synhwyr hwnnw.—*St. Greal*, ‡ 15.

Na ato Duw! God forbid! (*μὴ γένοιτο*).—*Rhuf.* iii. 4; vi. 2; vii. 7; ix. 14; xi. 1.

Duw a dyn (1), God and man; both God and man.

Fe a briodwys â merch a thifeddes y perchen Morgan Amheurig, a chael wrth hyny difeddiaeth gyflawn ar y cyfoeth a'r lle, ym marn *Duw a dyn.*—*Iolo Mss.* 28.

Swydd Ionas oedd dywedyd am bechod, darlunio gweithredoedd y diafol, a dangos y pellder rhwng *Duw a dyn*, nefoedd a daiar.—*Ios. Harris:* Gweith. 162.

(2) God and Man (in one Person).

Ynteu a wnaeth yr uorwyn wyry heb gyt gwr geni *Duw a Dyn.*—*Yst. de Carolo Magno*, col. 402.

Felly *Duw a Dyn* sydd un Crist.—*Credo S. Athanasius.*

Pan ddaeth ein Iachawdwr Christ, *Duw a Dyn*, i adferu cyfraith ei nefol Dad i iawn ystyr.
Edward Iames: Hom. i. 166.

Gwel yr undeb yn y preseb,
Presennoldeb *Duw a Dyn.*—*Carol Nadolig.*

2. a god, a divinity; a (false) object of worship; anything made a god of.

Yr lle yd oed temyl y Diana dwywes y tegwch ac y Apolonius *duw* yr ygneityaeth.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 10.

A chan oruchel lef galw ar y *duw* ual hyn. Mahumet Mahumet uyn *duw*. i. kanhorthwya vi.
Yst. de Carolo Magno, col. 404.

Ac rac daet y kanei y gelwit *duw* y gwaryeu.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 82.

Y *duwiau* yn rhith dynion a ddisgynasant atom.
Act. xiv. 11.

Dyma dy *dduwiau* di, Israel.
Ecs. xxxii. 4 (cf. 1, 8, 23, 31).

Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw. . . Na fydded i ti *dduwiau* ereill ger fy mron i.—*Ecs.* xx. 2, 3 (cf. xxii. 20; xxxiv. 14).

Tydi, er yn *dduw*, ac heb arswydo soriant y *duwiau*, a roddaist i farwolion anrhydedd yn amgen nag y caniatäi cyflawnder. . . Pa fodd nad wyt yn ffieiddio'r *duw* sydd adgasaf gan y *duwiau*?
Nicander: Dwyfol Oraclau, 31 (cf. 32, 34, 49).

Os yw y meddwl yn ddarn o'r *duw* cyffredinol . . . pa fath *dduw* yw y *duw* hwn? Pa fath *dduw* a ddichon hwnw fod, sydd yr un fath â meddwl dyn pan y mae efe yn cysgu?
Adolygydd, i. 168.

Yna y gwelwch yn Babilon *dduwiau* arian, ac aur, a phrenau, y rhai a ddygir ar ysgwyddau.
Baruch vi. 4 (cf. 10—72).

Ac i deml yr anghred yr aethom gyntaf: gwelwn yno rai yn addoli llun dyn, ereill yr haul, ereill y lleuad, felly aneirif o'r fath *dduwiau* ereill, hyd at y winwyn a'r garlleg.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 36.

Dinas heb demlau a *duwiau* . . . ni welodd dyn erioed.
Ios. Harris: Gweith. 181.

Duw y duwiau, the God of gods.

Duw y duwiau, sef yr Arglwydd, a lefarodd.
Salm. l. 1 (cf. cxxxvi. 2; Ios. xxii. 22).

Yn erbyn *Duw y duwiau* y traetha efe bethau rhyfedd.
Dan. xi. 36 (cf. ii. 47).

Cyd-glodforwn *Dduw y duwiau.*
D. Ddu Eryri: Corff y Gainc, 318.

Diolch it', *Dduw y duwiau*,
Am dy fwynder per i'n pau.—*Daniel Du*, 21.

Gau dduw (*pl.* gau dduwiau), *Duw gau* (*pl.* duwiau gau), } a false god.

Rhac aberthu o honunt yr *gau dduwiau.*—*Lucidar*, ‡ 83.

I gyfansoddi odlau ar achau ac hynafiaeth ei *dduwiau gau!*—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 250.

Gwelaf na fedr eu Conffucius hwynt, na Bramin yr Indiaid, na Talapoin y Siameaid, na Mahomet y Twrciaid, na'r aneirif *gau dduwiau* fu yn addoledig yn eang daleithiau Periw a Mecsico, roddi un gair o hanes Rhyddid.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 34 (cf. i. 531).

Y tadolion dduwiau, the tutelary gods, the patron deities.

A Chaswallon y brenin a barodd i'r pen-rhingyll gyhoeddi diaspad, i orchymmyn pawb i aberthu i'r *tadolion dduwiau.*
Theo. Evans: D.P.O. 32.

Duwiau dieithr (*sg.* duw dieithr), *Dieithr dduwiau* (*sg.* dieithr dduw), } strange gods.

Bwriwch ymaith y *duwiau dieithr* sydd yn eich plith chwi.
Gen. xxxv. 2 (cf. 4; Deut. vi. 14; vii. 4).

A *dieithr dduwiau* y gyrasant eiddigedd arno.
Deut. xxxii. 16.

Duwiau tawdd, molten gods.—*Ecs.* xxxiv. 17; *Lef.* xix. 4.

Duw y byd hwn, the god of this world.—2 *Cor.* iv. 4.

Duwiau, gods, divinities, deities.

Duwiau cenedlig, heathen gods.

Llenwai enwau yr holl *dduwiau cenedlig* ran fawr o'r llyfr.
S. Lloyd: Amseryddiaeth, 51.

¶ In most of the recent editions of the Bible, *Duw*, when applied to the Deity, is usually printed in small capitals; as,

Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaiar.
Gen. i. 1.

It is erroneously so printed in *Dan.* iii. 25: 'Dull y pedwerydd sydd debyg i Fab Duw.' The expression should be, *mab duw, mab i dduw*, or *un o feibion y duwiau;* for Nebuchadnezzar in this passage uses the language of Chaldean mythology, not that of the Christian Scriptures.

In ordinary written or printed compositions, the word *Duw*, designating the Supreme Being, begins with a capital letter (Duw); but when an idol or false god is meant, the word is wholly in small letters (duw).

In the vocative, the initial of *Duw*, when not affected by a word (immediately) preceding it (as, *O, Ti, Tydi*, and the like), usually remains unchanged, especially when it begins a sentence.

Ac ar y delyn canaf fawl,
Duw, Duw, fy hawl a'm gwnyfyd.—*Edm. Prys:* Salm. xliii. 4 (cf. lxxi. 2, 3, 4, 9, 17, 19, 20; lxxii. 1).

Duw, clywsom â'n clustiau.—*Salm.* xliv. 1.

Duw, oddi wrth ba un y daw pob adduned sanctaidd.
Ll. G. Gyffredin (P.W.).

Duw, yr hwn wyt Awdwr tangnefedd a Charwr cyttundeb.
Ll. G. Gyffredin (B.W.).

Digitized by Google

Duw, -iau, *sm.* a day. See *Dyw*, the differentiated and preferable form. *Diw* is another old form of the same word.

Duwaidd, } *a.* Godlike, resembling God; divine;
Duwiaidd, } godlike, resembling a god.

Arddullion *duwiaidd* uwch dyniadon.
W. O. Pughe: C.G. i. 380.

Duwawr, *a.* [du+gwawr] of a black or dark colour; dark-coloured, dark, gloomy.

O sel nef, wele yn awr,
Deua y cwmwl *duwawr*.
Hwfa Mon: Gwaith, 88 (cf. 69, 145).

Düwch, *sm.* [du] blackness; darkness; gloom.

Pei gwelai genfigen ei *ddüwch*, efe a ymgrogai rhag cywilydd Duw a dyn.—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 52.

Mi wn am ferch yn Sir Forganwg,
Yn deg ei thwf, yn hardd ei golwg,
A'i gwallt modrwyog, bronau gwynion,
A *düwch* uffern yn ei chalon.
Hen Bennill (Ystên Sioned, 48).

Dyfnder *düwch* oll o amgylch,
Yn eigionau'r beddrod mawr!—*Brutus:* Brutusiana, 195.

Yr oedd yr wybren mewn gwirionedd yn edrych yn ddu ac isel, ond yr oedd yno un cwmwl disglaer, yr hwn a wneid fyth yn ddisgleiriach ac yn brydferthach gan y *düwch* a'i hamgylchynai.—*Y Bryniau Pell*, 46 (cf. 49).

Tew dawch tyrai, at y *düwch* teryll.
Eben Fardd: Gweith. 87.

Duwdeb, -au, *sm.* [Duw] Godhead, Divinity; godship, godhood.

Ar hyn o dalm ein rhi cyssefin mawr
Ei westai *Duwdeb* ai i arfollău.
W. O. Pughe: C.G. v. 375 (cf. vi. 331).

'O bai *Ddüwdeb*,' hwy dd'wedant, 'deuai'n rhydd
O'i dyn ddienydd i wneyd yn dda'i honiant.'
Eben Fardd: Gweith. 173.

'O bleit y anweledigion bethe ef, nid amgen, ei veddiant tragyvythavl a'i *Ddywdab* [*ddywdot] wy a welir wrth creadurieth y byd.'—*W. Salesbury:* Rhuf. i. 20.

Y weithred *Ddüwdeb* hon diryma hi
Dy farn, y syn farwolaeth arnat oedd,
Mewn pech dros byth ar goll.
W. O. Pughe: C.G. xii. 475 (cf. ii. 537; iii. 339).

¶ In Salesbury's Version of the N.T. (1567), the heading of the first chapter of St. John's Gospel stands as follows: 'Duwdap, dyndap, a' swydd Iesu Christ;' which Bishop Morgan (1588) slightly modified thus: 'Duwdab, dyndab, a swydd Iesu Grist;' and these local forms for *duwdeb* and *dyndeb* have been allowed to remain ever since. *Ceudab* (1 Sam. xxv. 29) for *ceudeb*, and *geudab* (Salm. lxii. 9) for *geudeb*, are other instances of a similar kind. *Dywdab*, in Salesbury's translation of *Rhuf.* i. 20, has in all subsequent editions been changed into *Duwdod*.

Duwdid, *sm.*=*Duwdeb*, *Duwdod*. See *Dwyw*.

Teir person Duw
Un mab addwyn terwyn trinded
Mab ir *Dwydid* Mab i'r dyndid.—*Taliesin:* M.A. i. 44.

Ardaly nef ardunya fyn dlid . . .
Na dos hael yn helw dy *Dwydid*
Y wrthif na mi y wrthid.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 287.

Duwdod, -au, *sm.* 1. Godhead, Deity, Divinity.

Ynddo ef y mae holl gyflawnder y *Duwdod* yn preswylio yn gorfforol.—*Col.* ii. 9 (cf. Act. xvii. 29; Rhuf. i. 20).

Eithr *Duwdod* y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân, sydd unrhyw.—*Credo S. Athanasius.*

Llawer . . . a gwympasant i'r fath ffolineb ag y rhoisant ogoniant y *Duwdod* i bethau heb na synwyr na theimlad ynddynt.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 44.

Yr amryw ddull ar hanfod yn y *Duwdod* a elwir Personau. Person yw sylwedd wahanol y *Duwdod*. Yn y *Duwdod* y mae tri Pherson.
R. Vaughan: Ymarfer Duwioldeb, 2 (cf. 3—10).

Hwn . . . yw yr anian a arwyddocëir wrth y gair *Duwdod* neu Dduw.—*Ed. Samuel:* Grotius, i. 2.

Mawrhydi a gogoniant y *Duwdod*.—*Theo. Evans:* P.P. 54.

Ped fai goruchaf Fawredd y *Duwdod* ei hunan yn ein barnu, pwy a allai ddioddef y fath oleuni a gogoniant anhygyrch, ag fai yn amgylchu gorseddfainc mor ddisglaer?
I. B. Hir: Pregethau, i. 25.

Y mae yr Ysgrythyrau yn rhoddi lle i feddwl fod gwahaniaethol Bersonau yn y *Duwdod*.
Dr. Geo. Lewis: Drych Ysgrythyrol, 35.

Y Duwdod, the Godhead, the Deity.

Duwdod Crist, the Deity or Divinity of Christ.

A bod un blaid yn gwadu *Duwdod Crist;* un arall, Dduwdod yr Yspryd Glân; y drydedd, anfarwoldeb yr enaid.
G. Mechain: Gwaith, ii. 105 (cf. 445, 446).

Peth cyffredin gan wrthwynebwyr *Duwdod Crist* yw taeru nad oes ond un Duw.
Ios. Harris: Gweith. 362 (cf. 366—418).

Profodd y diacon Undod Duw a *Duwdod Crist*.
Cylchgrawn, i. 313.

2. (*pl.* -au) a deity, a divinity, a god.

Can cyntaf mai y tafawd hwna llawn
O ias gwrthebiad oedd a feiddiai gwrth
I driain ran y duwiau, a gyrchëynt
Yng nghyd i honni eu *duwdodau*.
W. O. Pughe: C.G. vi. 170.

A all yr olwyn hon ddim a bod y cylch adeiniog, neu y bellen, yr hon a chwyfiai uwch ben y breninoedd, ac a gysgodai *ddüwdod* goruchaf y genedl Assyriaidd?
Brutus: Ninefeh, 299.

Yn nifer y cymmwynaswyr a wobrwywyd hyd yn nod â *duwdod* gan y duwiau.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 42.

3. divinity, divineness; divine nature or character.

Y mae genym brofiad diammheuol o *dduwdod* y Grefydd Grist'nogol.—*Theo. Evans:* D.P.O. 337.

Duwddyn, *sm.* the God-man, God and Man (*θεάνθρωπος, θέανδρος*).

Hyn, gan nad allai neb ond *Duw-ddyn* ei gwplhau, a gymmerth Iesu Grist arno, ac a gwplhaodd drwy ei aberthu ei hun ar Allor y Groes.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 249.

Wele yma *Ddüw-ddyn*, y ddau eithafed mwyaf yn cyfarfod yn ei berson, a Duwdod a dyndod, nefoedd a daiar, wedi eu huno ynddo ef.—*Ios. Harris:* Gweith. 162.

Y *Duw-ddyn* oedd prif wrthddrych sylw St. Athanasius.
J. Pryce: Eglwys Foreuol, 298 (cf. 376).

Yn ymddygiad meibion Israel yn yr anialwch, cawn yr anghraifft ryfeddaf o anghrediniaeth o'r un a geir ar gof a chadw gan hanesyddiaeth mewn un man, oddigerth yr un a geir yn ymddygiad yr un genedl ym mhen oesoedd ar ol hyny, yn gwrthod y *Duw-ddyn* pan ymddangosodd yn eu plith.—*Traethodydd*, v. 462.

Mawrhau yn y golau gwyn
Iesu, Ddyddiwr, sy *Dduwddyn*.
Robert Owen: Gweith. 255.

Yn deilwng gwna eu dilyn heb fethiant,
Hyd i haeddiant anfeidrol y *Duwddyn!*
Hwfa Mon: Gwaith, 133.

Duwddynol, *a.* being God and Man, that is God-man.

Cân, Awen, i'r Bywyd *Duwddynol* ei Hunan,
Yr Hwn o'i nef-gyssegr yn awr a dry allan.
Eben Fardd: Gweith. 395.

Pob llygad a syllai i'r wybrol brif ddrysau
I edrych a oeddynt yn agor eu dorau
I'r Barnwr *Duwddynol* a'i osgordd lu hawddgar
Gael sengu ar nenau awyrol y ddaiar.
Eben Fardd: Gweith. 445.

Duweiddio, *v.* to make a god of, to deify, to divinise.

Amcan y rhai hyn a'u cyffelyb oedd *duweiddio* eu hunain, ac ennill safleoedd yn nheml enwogrwydd.
Adolygydd, iii. 174.

Duwelw, *a.* [du+gwelw] dark pale; blackish; livid.

Duwerdd, *a.f.* [du+gwerdd]=*Duwyrdd*, m.

Digitized by Google

Duwfawl, } *a.* erroneous forms intended for
Duwfol, } *dwyfawl*, *dwywol*, or *dwyfol*, apparently invented by the author of *Allwydd Paradwys* (1670); and occasionally they disfigure some of the earlier prose writings of Gwallter Mechain. See *Allwydd Paradwys*, 22, 23, 63, 88, 96, 108, 128, 190, 207.

Sefydliad Cristionogaeth oedd y prifnod, i ba un yr oedd holl drefniadau *Duwfol* Ragluniaeth, a ddygwyddodd rhwng crëedigaeth y byd a genedigaeth Crist, wedi eu bwriadu i fod yn offerynol.
G. Mechain: Eglur Olygiad (1801), 1 (cf. 6, 8).

Dŭwg, *a.* [du+gwg] black frowning.

Ac ni ddiylch, gne *ddŭwg*,
Un mymryn i'r dyn a'i dwg.—*Gronwy Owain*, 108.

Duwgar, *a.* [Duw+câr] loving God, pious.

Duwgarwch, *sm.* love of God, piety.

Duwiaeth, *sf.* [Duw] theism; deism.

Duwiaeth athronydd yr Almaen, sydd yn gorchuddio gwyneb môr y bydyssawd.—*Adolygydd*, i. 172.

Deistiaeth neu *Ddduwiaeth*, ac Atheistiaeth neu Ddidduwiaeth, ydynt athrawiaethau hollol groes i'w gilydd. *Duwiaeth* yw crediniaeth o fodoliaeth Duw; a Didduwiaeth yw gwadiad hollol o'i fodoliaeth.
Trysorfa Gynnulleidfaol, ii. 83 (cf. 84).

Duwiaidd, *a.*=*Duwaidd.*

Duwies, -au, *sf.* 1. a goddess, a female deity.

Yna Bryttys y hun a dayth gair bron allor y *duwes*. . . . Ac wedy dywedyt o honaw ev hynny nawaith cylchyny yr allor a oruc bedairgwaith a roi y gwin yngenau y *dywes*. . . Ef a dybyai welet y *dywes* gair y vron.
Brut Tysilio: M.A. ii. 103.

Salomon a aeth ar ol Astoreth *duwies* y Sidoniaid.
1 *Bren.* xi. 5 (cf. 33).

Y rhai a gymmerasant Ffortun, ac a'i gwnaethant hi yn *dduwies*.—*Ed. Iames:* Hom. iii. 136.

A *duwies* fawr a elwid Twyll yn cael addoliant cyffredinol.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 36.

Pa ddyn sydd nis gŵyr fod dinas yr Ephesiaid yn addoli y *dduwies* fawr Diana?—*Act.* xix. 35 (cf. 27, 37).

Bu gan Homer gerddber gynt
Awenyddau, naw oeddynt;
A gwiw res o *dduwiesau*,
Tebyg i'w tad, iawn had Iau.—*Gro. Owain*, 78 (cf. 35).

Can gwelit ti y dorf fenywaidd befr,
Mal pe *duwiesau*, loned, hoewed wedd.
W. O. Pughe: C.G. xi. 612.

Megys y breuddwydiodd y beirdd cenedlig gynt i'r *dduwies* Astrea, yn niwedd yr oes euraid. . . esgyn i'r ardaloedd nefol.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 34.

O'r nef i'r ddaiar ar naid
Disgynodd *duwies* gannaid.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 197.

Duwies y coed, } a silvan goddess, a wood-
Duwies y goedwig, } nymph.

Duwies fôr, } a sea-goddess, a sea-nymph.
Duwies y môr, }

Duwies y mynydd, } a goddess of the mountain,
Duwies fynydd, } a mountain-nymph, an oread.

Duwiesau y mynyddoedd, goddesses of the mountains, mountain-nymphs, oreades.

Y llwyfydd prydferth hefyd a blanwyd i'w amgau,
Gan gain *dduwiesau'r mynydd*, plant y tarianawg Iau.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 501.

2. a goddess, angel, or nymph; the muse.

Cethlydd, lasddydd ar lwysddail,
Clochyddes a *duwies* dail.—*D. ab Gwilym*, lxxxiii. 23.

Tydi, *duwies* y glyngoed ac awenyddes y llwyni, call a doeth oeddyt am na wrandawaist ar y gwiail gynghoriaid a fynynt wyraw dy wyrthus fryd.—*Iolo Mss.* 175.

Bu dawnus bywyd Anna,
Beichiogeś y *dduwies* dda.—*Iolo Goch*, i St. Anna.

Gwir *dduwies*, lladrones llwyn.
Dafydd ab Gwilym, clxxvii. 36.

Oed y *dduwies*, nod ddiwair,
Gwen a theg, ugain a thair.
Huw Morus: E.C. i. 19 (cf. ii. 247).

Duwiesaidd, *a.* goddess-like, resembling a goddess.

Pau oedd Prometheus wrtho ei hun yn dioddef, daeth gwragedd *duwiesaidd*, merched Oceanus, ato i'w gysuro yn ei ing, ac i alaru yn ei drychineb.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 36.

Duwiesan, -au, *sf.* a little goddess, a nymph.

Pe cawn i 'r fwyaf garwn, *dduwiesan*, ti ddewiswn.
Blodau Dyfed, 402.

Math ar *dduwiesan*, yn ol ffregod yr hen feirdd cenedlig.
Walters, s.v. 'Nymph.'

Duwin, *a.* [Duw: L. *divinus*] divine; of a divine nature.

Adwenodd haul *Duwin*-wawr
Drwy angeu y Meichieu mawr.
Robert Owen: Gweith. 94.

Duwindeb, *sm.* divinity, theology.

Y mae Ffraethineb yn dysgu ffraethebu, ac areithiaw yn hyawdl, mewn *duwindeb*, meddyginiaeth, cyfreithwriaeth, milwriaeth, ac ym mhob cyttro ym mhlith dynion.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb (1807), Rhag. 4.

Duwineb, *sf.* divinity, theology.

Yr un ffunud y gellid dywedyd am ryw wr gwymp, dysgedig, a gwyrygaidd, gaffel o hono ef ei ddysgeidiaeth gan Aristoteles, ei ffraethineb gan Dulli, ei gadbwyll gan Livi, ei ddyfnddysg ym Mhlato, a'i *dduwineb* gan Foshen.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb (1595), ii.

Duwiniaeth, *sf.* theology, divinity.

A fyno wybod wrth *dduwiniaeth*, cymmered gynghor ac addysg, a gwnaed yn ei ol.—*Iolo Mss.* 195.

Duwiniaethol, *a.* theological.

Rhaid chwanegu at hyn ei lafur megys Athraw Cadeiriawg yn yr Ysgoldy *Duwiniaethol*.
Gwyliedydd, ii. 267 (cf. iii. 322; iv. 88).

Yr un pryd, ni adawodd i'w ddoniau ysgolheigiawl a *duwiniaethol* rydu trwy anarfer a seguryd.
Gwyliedydd, iv. 290.

Ym Milan daeth yn gydnabyddus â St. Ambros, yr hwn a'i dysgodd yn athrawiaethau *duwiniaethol*.
Gwyliedydd, vi. 232.

Duwinydd, -ion, } *sm.* a theologian, a divine,
Duwinwr, wyr, } a theologist.

Y barnwr a lygro; y *duwinwr* a athrawo grwydr-ddysg; y physygwr a gam-feddyginiaetho; bo iddynt draed hirion helbul, ac einioes fer ar y ddaiar.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xxvi.

Y ffordd a gymmer *duwinyddion* yn gyffredin i ddangos cyssondeb yr hanes . . . yw hon.—*Ios. Harris:* Gweith. 315.

Y mae yn wir fy mod wedi darllen, ac wedi cael llawer o gynnorthwy oddi wrth yr hyn a ysgrifenwyd gan amrywiol o *dduwinyddion*, cartrefol a thramor.
Dr. Geo. Lewis: Drych Ysgrythyrol, Rhag. 4.

Cyfrifid ef [Awstin] yn *dduwinydd* mawr yn ei oes.
Gwyliedydd, vi. 232.

Ydoedd ieithydd, a *duwinydd*,
Ac hanesydd gwiw hen oesau.—*Daniel Ddu*, 167.

Nid ydym yn sicr fod genym neb yn y dyddiau hyn i'w gystadlu . . . fel *duwinydd* dwfn.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 291.

Y ffordd gywir i gymmeryd cyflawnhâd yw yr un modd â'r hen *dduwinyddion* Protestanaidd, mewn ystyr cyfreithiol.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duw. 77.

Duwinwr, ar adenydd,
Parod, i'r cyfarfod fydd.—*Caledfryn:* Caniadau, 103.

Ni buasai *duwinydd* anysprydoledig ddim yn debyg o ddyfynu'r geiriau hyn.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 239.

Maes y *duwinydd* ydyw y Beibl.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 722.

Pan fo'r meddyg wedi gorphen gyd â ni, yna, ac nid yn gynt, yr ydym yn foddlon i'r *duwinydd* ddechreu.
Nicander: Dysga Farw, 106.

Digitized by Google

Duwinyddes, -au, *sf.* a female theologian, a woman who is a theologian.

Yr oedd Margaret . . . yn gryn *dduwinyddes*.
Gwyddoniadur Cymreig, iv. 558.

Duwinyddiaeth, *sf.* theology, divinity.

Yr hyn y llafuriodd ynddo yn benaf oedd athroniaeth mewn cyssylltiad â *duwinyddiaeth*.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 38 (cf. 82, 246).

A ydyw yn alluadwy bod holl weddillion yr hen *dduwinyddiaeth* gwedi myned i dragywyddol ddifancoll?
Brutus: Brutusiana, 240.

Duwinyddiaeth ydyw yr uchaf a'r ardderchocaf o holl wybodaethau dyn.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 721 (cf. 722—730).

Treuliodd ei amser yno mewn astudiaeth dyfal-barhäus ar y cyfryw *dduwinyddiaeth* ag a gyfrifir yn awr yn gwbl ofer a difudd.—*Gwyliedydd*, ii. 2 (cf. v. 334; vi. 147).

Dau noddwr *duwinyddiaeth*,
Arfolli, noddi a wnaeth.—*Blackwell:* C.A. 104.

Byddent mor hyddysg yn nhrefn llywodraeth, yn y gyfraith, mewn *duwinyddiaeth*, mewn athroniaeth.
Seren Gomer, viii. 141.

Sylfaen *duwinyddiaeth* yw beirniadaeth Ysgrythyrol.
Adolygydd, iii. 181.

Yr wyf yn galaru fod peth mor ardderchog a *duwinyddiaeth* yn syrthio i driniaeth anfedrus. . . Da genyf gyfarfod â *duwinyddiaeth* yn eu gwisgoedd syml.—*Gwyliedydd*, v. 334.

Duwinyddiaeth naturiol, natural theology.

Duwinyddiaeth naturiol ydyw y wybodaeth a ddysgir am Dduw oddi wrth wrthddrychau naturiol, trwy gyfrwng anianeg ac athroniaeth.
Gwyddoniadur Cymreig, iv. 1 (cf. 2—26).

Duwinyddiaeth ddadguddiedig, revealed theology.

Y mae duwinyddiaeth wedi ei dosparthu i ddduwinyddiaeth naturiol a *duwinyddiaeth ddadguddiedig*. . . Nid yw yn anghenrheidiol ynddo ei hun i wahanu duwinyddiaeth naturiol oddi wrth *dduwinyddiaeth ddadguddiedig*.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 724.

Duwinyddol, *a.* theological.

Nid oes ganddynt hwy gyfundrefn *dduwinyddol* i'w gwrthwynebu nac i'w hamddiffyn.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duwinyddol, 76.

Darllenodd y gwŷr ieuainc chwe' thraethawd *duwinyddol* a gyfansoddasent eu hunain.—*Seren Gomer*, iv. 220.

Pan aeth y ciniaw heibio, dygais bwnc *duwinyddol* dan sylw.—*Brutus:* Ninefeh, 116.

Troai ein bythod tra anobeithiawl,
Diau, yn neuaddau *duwinyddawl*.
Caledfryn: Caniadau, 56.

O dan nawdd Origen, daeth ysgol *dduwinyddol* y ddinas i fri ac urddas o'r mwyaf.—*J. Pryce:* Eglwys Foreuol, 291.

Duwiol, *a.* [Duw] 1. pertaining to God, divine.

Eithyr vy mot yn ryuedu a wnaethant y gwyrtheu *dywawl* gwedy eu torri wrth y dayar.
Ystat. de Carolo Magno, col. 387.

Megys y rhoddes ei *dduwiol* allu ef i ni bob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb . . . trwy yr hyn y rhoddwyd i ni addewidion mawr iawn a gwerthfawr; fel trwy y rhai hyn y byddech gyfranogion o'r *duwiol* anian.—2 *Pedr* i. 3, 4.

Sanctaidd blant y rhai daionus a aberthasant yn ddirgel, ac a osodasant gyfraith *dduwiol* yn gyttûn.—*Doeth.* xviii. 9.

Yn y geiriau yma y mae Duw, drwy wawdeb *dduwiol*, yn adliwio i ddyn ei resyndawd.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, vii.

Fal y gwelo ei *dduwiol* ddoethineb ef fod yn oreu.
Huw Lewys: Perl (1595), 176.

Duwiol allu (=Dwyfol allu), Divine power.

Rhyfeddol a nefol weithredoedd yr Yspryd Glân, y rhai sy yn manegi yn amlwg i'r byd ei alluog a'i *dduwiol allu* ef.—*Ed. Iames:* Hom. iii. 108.

Y Duwiol Fawredd (=y Dwyfol Fawredd), the Divine Majesty.

Ein gweddïau hyn, y rhai yr ydym yn eu hoffrwm i'th *Dduwiol Fawredd*.
Llyfr Gweddi Gyffredin 1567—1840 (Cymmun).

Hollalluog a thragywyddol Dduw, yr hwn a roddaist i ni dy weision ras, gan gyffesu ac addef y wir ffydd, i adnabod gogoniant y dragywyddol Drindod, ac yn nerth y *Duwiol Fawredd* i addoli'r Undod.
Llyfr Gweddi Gyffredin 1567—1840 (S. y Drindod).

Y Duwiol Fawrhydi (=y Dwyfol Fawrhydi), the Divine Majesty.

Yr helfa ryfeddol o bysgod a ddaliasant y pryd hwnw ar orchymmyn yr Iesu, a greodd ynddynt grediniaeth ddiammheuus i'w Hollalluog ragluniaeth, a'i *Dduwiol Fawrhydi* ef.—*Ed. Samuel:* Buch. yr Apostol. 161.

2. godly, pious; devout. (The current use; *dwyfol* is now generally used in the first sense.)

Yr un flwyddyn bu farw Bleuddyd Esgob Dewi, ac ydd aeth Sulien yn Esgob yn ei le ef, a hwnnw a elwid Sulien Ddoeth, ac yr oedd ef yn wr *duwiawl* a golychwydawl.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 519.

Wedi darllain hyn efe a ymrois yn wr *duwiol* iawn.
Iolo Mss. 208.

Ar ddyn doeth y bydd ofn *duwiol* ym mhob peth.
Eccl. xviii. 27.

Ar ol hyn rhoddes Duw fab *duwiol* arall i Adda. . . A bu i rai *duwiol* fyw wedi wythcant, wedi nawcant o flynyddoedd, i glodfori Duw yng nghyd.
Ch. Edwards: H. y Ffydd, 45.

A'r un peth a ellir ei ddywedyd am y rhai *duwiol*.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. v. 11.

Nid *duwiol* dim ond sydd yn rhodio ac yn gweithio yn ewyllys Duw.—*Morgan Llwyd:* Ymroddiad, iv. 17.

Gwenu yn unig a wnaeth y gwr *duwiol*.
Gwyliedydd, i. 132.

Y duwiol, the godly, the pious.—*Salm.* iv. 3.

Darfu am *y duwiol* oddi ar y ddaiar.—*Mic.* vii. 2.

Duwiolion, the godly, godly or pious persons.

Y mae S. Ioan Efengylwr, yn ei enw ei hun, ac yn enw yr holl *dduwiolion* (er mor gyfion faent), yn gwneuthur y gyffes gyhoeddus hon.
Ed. Iames: Hom. i. 16 (cf. 18; ii. 88).

Tua diwedd oes Catwg fe ddarfu i rai o'r *duwiolion* fwriadu myned i Ynys Enlli.—*Thomas ab Iefan:* M.A. iii. 3.

Yr oeddynt hwy yng nghyd â *duwiolion* ereill yn gorfod ffoi o un i un i Gymru, eu cyffredin noddfa.
G. Mechain: Gwaith, ii. 145 (cf. 525).

Duwiolaeth, } *sf.* 1. godliness, piety; devo-
Duwioliaeth, } tion.

Nyni a wyddom ddarfod i rai yn yr amseroedd gynt, ddywedyd a phregethu yn gyffredinol, fod yr hen ludd-ewon . . . yn addoli naill ai hwch ai asyn yn lle Duw; ac nad ydoedd eu holl grefydd hwy ddim amgen onid erchyll ddirmyg a diystyrwch ar bob *duwiolaeth*.
M. Cyffin: Diff. i. 2.

Megys y gweddai i wragedd yn addaw *duwiolaeth*.
Esgob R. Davies: 1 Tim. ii. 10 (cf. iii. 16).

Y rhai'n, gwn, rhag ein rhoi'n gaeth,
Ydyw eli *duwiolaeth*.—*W. Lleyn.*

Dynion llygredig eu meddwl . . . yn tybied taw elw yw *duwioliaeth*. . . Elw mawr eusus yw *duwioliaeth*, drwy ymfodloni o ddyn â'r hyn fo cantho.
Esgob R. Davies: 1 Tim. vi. 6 (cf. iv. 7, 8).

Nid ffurflau coeg *dduwiolaeth* eich twyll-addoliad chwi
A gânt gymmeradwyaeth o flaen fy ngorsedd i.
Iolo Morganwg: Salmau, i. xlix. 2.

2. divinity, theology.

Wrth ddadleu (eb efe) am *Dduwiolaeth*, neu Ddiffiniti, y mae genym wedi ei osod o'n blaen i'w ddilyn Athrawiaeth yr Yspryd Glân.—*M. Cyffin:* Diff. vi. 12.

Y mae pedair rhan o'r Gristonogawl Grefydd, y rhai sy'n cynnwys holl gorff *Duwiolaeth*.
Dr. T. Powel: Cerbyd Iechydwriaeth (1657), 1.

3. Divinity, Deity, Godhead.

Mal *Duwiolaeth*, deitas, dynoliaeth Crist.
Dr. Gr. Roberts: Gramadeg, 110.

A'i ddelw o ei *Dduwoliaeth*,
A'i groes fal y troes o'r traeth.—*I. B. Hir, hf.*

Godhead, Duwdod, duwdab; *duwiolaeth*, *duwioliaeth*.
Walters, s.v.

Ein Tad o *Dduwioliaeth*, ein Brawd o gnawdoliaeth,
Gorchfygwr marwolaeth, rheolaeth ein rhyw.
Huw Morus: E.C. ii. 336.

Digitized by Google

4. pietism; the tenets, schemes, or practices of the Pietists.

Gosodwyd *duwioliaeth* ar droed gan y duwiol a'r dysgedig Spener.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iv. 27 (cf. 28).

Duwiolaidd, *a.* of a godly disposition or tendency; piously disposed; divine-like.

Da iawn draw rhwng dwylaw dyn,
A *duwiolaidd* yw'r delyn.—*Thomas Prys.*

Tro fi, Ner, o'm holl oferedd,
I gywreinion ffyrdd gwirionedd;
Yn *dduwiolaidd*, fal yn ddilys
Y deallwyf dy ewyllys.
Samuel Jones: Cyfr. y Beirdd, 163.

Duwioldeb, *sm.* [duwiol 2] 1. godliness, piety; devotion.

A'r un flwyddyn y bu farw Cydifor Abad Llanfeithin, gwr doeth a dysgedig oedd efe a mawr ei *dduwioldeb*.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 482.

Tri sylfaen *duwioldeb:* cred (ffydd); cariad; a gobaith.
Barddas, i. 304.

Duwioldeb sy fuddiol i bob peth.
1 *Tim.* iv. 8 (cf. ii. 2, 10; iii. 16; iv. 7, 8; vi. 3, 5, 6, 11).

Rhan yspysol o'r *duwioldeb* yma yw gweddi.
Ed. Samuel: Holl Ddyl. Dyn, 86.

Lle bo mwyaf o ddoethineb y bydd mwyaf o *dduwioldeb*.
Ed. Samuel: Buch. Apost. 85.

Y mae gwir *dduwioldeb* yn cael mawr rwystr i fyned i'w thaith a'i helynt. A hyn yma am y rhwystr cyntaf ar *dduwioldeb*.—*R. Vaughan:* Ymarfer o Dduwioldeb, 105.

Yr ymarfer o dduwioldeb, } the practice of
Ymarfer duwioldeb, } piety.

Rhith duwioldeb, a form of godliness; feigned piety.—2 *Tim.* iii. 5.

2. [duwiol 1] Divinity, Godhead.

Fe greodd Hollalluog Dduw yn y dechreuad, trwy ei allu, ei ddoethineb, a'i *Ddduwioldeb*, nef a daiar, yr haul, y lleuad, a'r ser, ehediaid yr awyr, anifeiliaid y ddaiar . . . er budd a lles i ddyn.—*Ed. James:* Hom. ii. 248.

Duwiolder, *sm.* 1. godliness, piety; devotion.

Sef ynt dynyon a voynt rwymedic kyssegredic ynn anian *duwolder* a braint.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 404.

Yn y vlwydyn honno y bu uarw Bernart escob Mynyw . . . gwr enryfed a volyant a *dywawlder* a santeidrwyd oed.
Brut y Tywysogion, 176.

Paham y cymerth vedydh. ac ef yn gyflawn o rat *duwolder*?—*Lucidar*, § 34 (cf. 107, 117).

Megys y gweddai i wragedd fynegi *duwiolder* trwy weithredoedd da.—*Ed. James:* Hom. ii. 217.

Ni a atolygwn i ti gadw dy deulu yr Eglwys mewn *duwiolder* gwastadol.—*Lit. G. Gyffredin* (22 Sul wedi'r Drindod).

Y mawl a berthyn i bawb yw mawl am *dduwiolder*.
Cyfrinach y Beirdd, 35.

Dyma'r ffordd gywiraf ini fesur ein bywyd wrth ein gweithredoedd a wnaethom o *dduwiolder* a rhinwedd.
Th. Williams: Ymadr. Bucheddol, 177.

Er maint y glod a ro'i Virgil iddo am ei *dduwiolder*.
Gronwy Owain, 294.

2. Divinity, Godhead.

Eissioes un Duw ynt yn un *Duwolder* tragywydhawl: heb vot yn vwy nac yn lhai y *Duwolder* yn un or person noe gilydh. . . . A honno a arwydhocaa un *Duwolder* y tair Person yssyd dechreu a diwedh y bob peth.
Ymborth yr Enaid, § 15.

Duwioledd, *sm.* godliness, piousness, piety.

Ei delw, a'i *duwioledd*,
Noda'i mawl hi, hen Deml hedd.
Eben Fardd: Cyff Beuno, 50.

Duwiolfryd, *sm.* pious disposition, devotion.

Ni thybiodd efe mo'u bod wedi eu treulio'n ofer, gan ei fod ef wrth hyny yn dadgan ei ddiolchgarwch ei hun a'i *dduwiolfryd* tuag ato ef.—*Ed. Samuel:* Athr. yr Eglwys, 142.

Lle y mae yn rhaid i ti dy ymddwyn dy hun yn yr unrhyw anrhydedd a *duwiolfryd* ag a adroddwyd i ti yn y foreuol orchwylwaith sanctaidd.—*R. Vaughan:* Ymarfer Duw. 248.

Ffyddlon, enwog am *dduwiolfryd*,
Da mewn gair a gweithred hefyd.
Taith y Pererin (1771), 126.

Duwiolfryd, } *a.* piously disposed, devout,
Duwiolfrydig, } devotional, pious.

St. Paul . . . a gynhyrfwyd yn ei yspryd o resyndod weled y bobl *dduwiolfryd* hyn tan y cyfryw gamgymmeriaeth.
Ed. Samuel: Buchedd yr Apost. 85.

Mal na byddwn yn euog o anair ac anufudd-dod, wir *dduwiolfryd* fenyw, ni allwn lai na gwneuthur fy ngorau i gyflawni eich dymuniad.
R. Vaughan: Ym. Duwioldeb, Cyf.

Byddai'n anhawdd nodi un oes . . . y byddai'n fwy amserol a phriodol lledaenu y cyfryw feddyldrychau *duwiolfryd* nag ydyw yn yr amser hwn.
Nicander: Dysga Fyw, Rhag. 17.

Y mae'r Cyflwyniad . . . yn gyflawn o syniadau *duwiolfrydig*.—*Nicander:* Dysga Fyw, Rhag. 7.

I'r diben o ffrwyno nwydau y mytyrwyr, i fagu ynddynt syniadau *duwiolfrydig*, ac i'w hannog i wneyd penderfyniadau sanctaidd.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iv. 29.

Gwrando yn ebrwydd, ni a atolygwn i Ti, weddiau *duwiolfrydig* dy Eglwys.—*Llyfr Gweddi Abercarn.*

Duwiolfrydedd, } *sm.* pious disposition,
Duwiolfrydigrwydd, } piety, devoutness, devotion.

Yr oedd yno yr hen wr â *duwiolfrydigrwydd* yn ysgrifenedig ar ei wynebpryd.—*Haul*, 2 C.C. xi. 278.

Ag yspryd *duwiolfryddedd* mor gydunol
Yw holl ddylanwad eu pinaclau nefol.
Islwyn: Canisdau, 81 (cf. 98).

Duwiolgar, *a.* devotional, devout, religious; of a pious or godly disposition.

Bod cyfan lân lwys gatholig eglwys;
A chyfeilliach dwys i *dduwiolgar*.
Dr. Gr. Roberts: Gramadeg, 334.

O ddeutu pump ar hugain o flynyddoedd yn ol, ymwelodd y Duwinydd *duwiolgar*, y Dr. Buchanan, â gweddillion eglwysi St. Thomas.—*Gwyliedydd*, vi. 358.

Dalier sylw hefyd, mor gall a *duwiolgar*, a chyttûn â geiriau St. Ioan . . . yw athrawiaeth yr Eglwys Sefydledig yn ei Llyfr Gweddi Gyffredin.—*Gwyliedydd*, vi. 105.

Duwiolgarwch, *sm.* devoutness, devotion, piety, religiousness.

Dywedir mai ychydig o *dduwiolgarwch* a welir yn ymddygiad cyffredin y Ffrancod.—*Gwyliedydd*, v. 305.

Benedict oedd wr o'r Ital, yr hwn, yn ol *duwiolgarwch* yr oes honno, a osododd i fyny drefn o Fonachod, y rhai a ddygant ei enw hyd heddyw.—*Gwyliedydd*, vi. 75.

Y Cyflawn, canys felly, o herwydd ei *dduwiolgarwch* rhagorol, y cyfenwid St. Iago.—*J. Pryce:* Eglwys Foreuol, 97.

Duwioli, *v.* to deify, to make a god of; to make divine; to make like a god.

Duwioliad, -au, *sm.* deification.

Duwioliad, iaid, *sm.* a Pietist, one of the Pietists.

Yn ystod yr helbulon a'r ymraniadau hyn y dyfeisiwyd yr enw *Duwioliaid*, fel enw o ddiystyrwch. . . Cwblhawyd yr ofnau hyn trwy i'r *Duwioliaid* dderbyn i'w plith nifer o benboethiaid.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iv. 28 (cf. 27, 29).

Duwioliaeth, *sf.*=*Duwiolaeth.*

Duwiolrwydd, *sm.* godliness, piety.

Duwiolswydd, -au, *sf.* a pious or devotional office; a formulary of devotion.

Ac yn wir hyn oedd y rhan fwyaf o'u *dduwiolswyddau* crefyddol, pa bryd bynnag yr ymgyfarfyddent i wasanaethu Duw.—*Ed. Samuel:* Mynych Gymmuno, 18.

Duwiolswyddau, pious offices; devotions.

Duwiolswyddau dirgel, private devotions.

Duwiolswyddau a Gweddiau i'w harfer yn *ddirgel*. ar amryw achosion cyffredin ac anghyffredin.
Ed. Samuel: Duwiolswyddau, 1.

Duwiolwych, *a.* godly and courageous, piously brave.

Y mae Iosuah *dduwiolwych* yn tystiolaethu ger bron yr holl bobl, er syrthio o honynt oll oddi wrth wir addoli Duw, eto efe a'i deulu a wasanaethent yr Arglwydd.
R. Vaughan: Ymarfer Duwioldeb, 176.

Digitized by Google

Dŵwr, wyr, *sm.* one who blackens, a blackener.

Duwy, *sm.* [du+gwy] a black liquid, ink. Apparently a nonce-word.

Arferwyd math o galaf neu gorsen, i nodi y *duwy* arnynt.
Gwyliedydd, vii. 145.

Duwyn, *sm.* [dim. of *duw*] a godling.—*Dicts.*

Duwyrdd, *m.* } *a.* [du+gwyrdd, *f.* gwerdd]
Duwerdd, *f.* } dark-green, deep-green.

Mewn llwyn ffyrdd *duwyrdd* dyfiad
Hardd-grwn yw hwn, hynaws gaead.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 228.

Dulas ydyw'r dail sidan,
Duwyrdd, a meillion-wyrdd mân.
Deio ab Ieuan Du: G.B.C. 186.

Dwad, *v.* [corr. of *dawad* or *dawed=dyfod*] to come: common in the colloquial language. See *Daw*, *Dawed*.

Dyma ni bellach wedi *dwad* i'r mynydd, lle y dioddefodd ein Prynwr.—*Drych Christianogol*, pl. 32.

Rhag y gwst mawr newydd *ddwad*.
Meddygon Myddfai, ii. 2.

Nychdod, nodau, mall, diflanniad,
Sy oddi wrth Dduw ei hun yn *dwad*.
Rhys Prichard: C. y C. cxiii. 10 (cf. cvi. 44; cxlix. 26).

Cais *ddwad* â hwynt yn foddlon.
Iago ab Dewi (Flores Poet. Brit. 92).

Dwb, -ion, *sm.* [Ir. and Ga. *doib;* E. *daub*] daub; mortar; cement.—*H. Salesbury.*

Dwb, aimant, cymmrwd, morter.—*O.V.*

Dwbiad, -au, *sm.* a daubing; a plastering.

Dwbin, *sm.* daubing, daub; cement.—*C.S.*

Dwbin ffwrn, 'clay or mortar to secure the oven lid, when the bread is put in.'—*Llanover Ms.*

Dwbio, *v.* to daub; to plaster.

Hi a gymmerodd gawell iddo ef o lafrwyn, ac a *ddwbiodd* hwnw â chlai ac â phyg.—*Ecs.* ii. 3.

Mi a'th ddwbiaf di, I will maul you.—*Powys.*

Dwbiwr, *pl.* dwbwyr, *sm.* a dauber, a plasterer.

Dwbl, *a.* [E. *double;* L. *duplex*, *duplus*] double, twofold.—*M.A.* iii. 138.

Y dydd y daethym o'i dai,
A'i fenyg *dwbl* o fwnai.
D. ab Gwilym, iv. 11 (cf. cxxx. 11).

Dwbl cwbl cuall cyhoedd bensel.—*Y Proth:* M.A. i. 492.

A'r hwn y barno y swyddogion yn ei erbyn, taled i'w gymmydog yn *ddwbl*.—*Ecs.* xxii. 9 (cf. 4; Gen. xliii. 15).

Deu-blas gadarn, *dwbl* saig ydoedd,
Ac yn y rhydoedd gwin a rhadau.
L. G. Cothi, III. xix. 47.

Yn wir fe fuasai Ioan yn fwy na *dwbl* allan o'i bwyll . . . os goddefai ei daflu i garchar.—*Ed. Iames:* Hom. i. 158.

'Uffern, a *dwbl* uffern, i'r tarw cynddeiriog o wr boneddig a ddechreuodd gyntaf fy hudo i.'
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 81 (cf. 95).

Dwblanu (*ā*), *v.* [dwbl] to double.

Ac yna y gwybu ef panyw y corr a wnathoed y vrat. ac a *dwblanawd* y lit.—*St. Greal*, ‡ 167.

Dwbled, -au, *sf.* [E. *doublet*] a doublet, waistcoat, or vest.

Dwbled hardd-gled mewn rhedyn,
Gloew-ddu glir uwch glan-dir glyn.
Dafydd ab Gwilym, cxxx. 15.

Ei sidan ef a gefais;
Ei *ddwbled* felfed am f' ais.—*L. G. Cothi*, I. xxxiv. 7.

Melfed ydyw'r *ddwbled* ddu.—*L. G. Cothi*, II. viii. 51.

Mae ar ei gorff, myn Mair gain!
Blew du mal *dwbled* Owain.—*Llawdden.*

Dwbled fal mil o lili,
Wasgod teg, a wisgit ti.
D. ab Gwilym, cxc. 27 (cf. ccxxix. 47).

Dyblu awdl fal *dwbledau*.—*Gutyn Owain.*

Da y brodiwyd dy brydydd,
Dwbled gwell no felfed fydd.—*Llawdden.*

Noblau tes yn *nwbled* hydd.—*Tudur Aled:* G.B.C. 248.

Dwbler, -au, *sm.* [E. *doubler*, *doubeler;* Gr. τρύβλιον] a large dish or platter, a 'charger.'

Dwbler, patina, discus.—*Davies*, s.v.

Patina, rhyw lestr llydan i ferwi bwyd, cawg ymolch, cigddysgl, *dwbler*.—*Davies*, s.v. 'Patina.'

Dwblhau, } *v.* [dwbl] to double, to redouble.
Dwblu, } See *Dyblu*.

Och Duw heb ef yr awr honn y mae vyng kewilyd i yn *dwblau* ym.—*St. Greal*, ‡ 65.

Ny wydyat eissyoes panyw y brawt hi oed ef. a phei as gwypei yna y *dwblei* y llewenyd.—*St. Greal*, ‡ 176.

Dwbwch, *sf.* [dwb?] a slut, a slattern, a dawdle, a draggle-tail.

Gwrthwynebair, yw dychwelyd un gair ar watwor, fegys pe galwai un *ddwbwch* forwyn drwsgl, ddybryd, yn Olwg Hafddydd, neu un swga, dromserth, drombluog, yn Greirfyw; a gwatworgerdd mewn un gair yw hyn.
Pum Llyfr Cerddwriaeth, 124.

Dwdwr, *sm.* [im.] 'the noise of a number of people together in a crowd;' murmur, hum.—*Iolo Glossary.*

Dweyd, } *v.* [=dyweyd: dy-+gweyd] to say,
Dweud, } to speak. See *Dywedyd*.

Ni wn i pa fodd yn y byd y gellir *dweud* y byddant yn ddiesgus.—*Ioan Wallter:* Dwy Bregeth, 23.

Ni feddaf fawr iechyd, na chyfaill gwych hefyd
I *ddweud* wrth f' anwylyd fy nolur.
Ed. Richard: Bugeilgerdd, ii. 14.

Anghymhwys *dweyd* 'Eglwysydd,'
Un yw i fod, Un a fydd.—*Eben Fardd:* Cyff Beuno, 51.

Rhybudd yw pob llais o'r cloc,
Yn *dweyd*—'Rhaid iti ymadaw toc.'
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 81.

Dwf, *pl.* dyfydd, dyfedd, *sm.* 'what glides, or moves forward. Birds are sometimes called *dyfydd*, or gliders.'—*P.*

Dwfn, *m.* } *pl.* dyfnion, dyfn, *a.* [C. *down;* Br.
Dofn, *f.* } *doun*, *don;* Ir. *doimhin*, *domun;* Ga. *domhain:* cf. E. *down*] 1. deep, profound.

A phwll *dwfynn* athrugar y veint a welei dan y llew.
Mabinogion, 215.

Llyw bydoet lled byd *dwfyn* a bas.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 300.

Ac avon *dovyn* beriglus a oed yno.
St. Greal, ‡ 34 (cf. 33, 40).

I ochel awel auaf,
I wlad annwfn *ddwfn* ydd af.—*D. ab Gwilym*, clxii. 39.

Dyfnach nag uffern yw.—*Iob* xi. 8.

Uffern yw'r fangre isaf a *dyfnaf* oll yn y byd.
R. Smith: Eglurhâd, 41.

Y llyn *dyfnaf* o'r afon,
Isaf, fis haf, yw ei son.—*G. ab Ieuan Hen.*

Pa *ddyfnaf* yr afon, lleiaf oll ei thrwst.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 58.

Ceudod a chalon pob un o honynt sy *ddofn*.—*Salm.* lxiv. 6.

Hwt! gwydlawn felltigeid-lu,
I uffern *ddofn* a'i ffwrn ddu.—*Gronwy Owain*, 96.

Ef a dâl adref yr hawl hon,
Yn *ddyfn* archollion gwaedlyd.
Edm. Prys: Salmau, lxiv. 7.

Ar lan Iorddonen *ddofn*.—*I. G. Geirionydd:* Geir. 217.

Y Teifi *ddofn*, lydan, gyfoethog ei gwy,
Ymarllwys i'r eigion, ni welir hi mwy.
Gwynionydd: Caniadau, 65.

Yfed yn ddwfn (=yfed yn helaeth), to drink deeply, to drink deep.

Ein tadau ni a *yfasant yn ddwfn* isel o gwpan cystudd.
Ier. Owen, 27.

Digitized by Google

Coch dwfn, deep red; red inclining to dark.

Dwfn ei ddysg, of deep learning, deeply learned.

Dyfroedd dyfnion, deep waters.—*Diar.* xviii. 4; xx. 5.

2. deep, thick, dense.

Ar coet a gyrchassant. a *dwyn* oed y coet a mawr.
Mabinogion, 274.

3. (fig.) deep, profound.

Yn ail awen *dofn* o *dwfn* goflain.
Cynddelw: M.A. i. 204 (cf. 217, 282, 341).

Dwfn iawn yw dy feddyliau.—*Salm.* xcii. 5.

Efe sydd yn dadguddio y pethau *dyfnion* a chuddiedig.
Dan. ii. 22 (cf. Iob xii. 22; 1 Cor. ii. 10).

Dechreuad pob doethineb *ddofn*
I bawb, yw ofn yr Arglwydd.—*Edm. Prys:* Salm. cxi. 10.

Wele yma iaith fwyn, dyner, lariaidd, *ddofn* ysprydol.
Morgan Llwyd: Ymroddiad, Rhag. 3.

A defnyddiau *dwfn* addysg.—*Gronwy Owain*, 32.

Dwfn dlodi, deep poverty.—2 *Cor.* viii. 2.

Ymlygru yn ddwfn, to become deeply corrupted.—*Hos.* ix. 9.

Gwybodaeth ddofn, } deep or profound know-
Dofn wybodaeth, } ledge.

Dwfn anghof, deep forgetfulness.—*Doeth.* xvi. 11.

Maent yn ddwfn mewn dyled, they are deeply in debt.—*W.*

Dwfn, *pl.* dyfnau, *sm.* 1. the deep, the profound; depth.

Yn anwfyn yn *dwfyn* yn dyfynder yd uarn.
Cynddelw: M.A. i. 229.

Gallas arglwyt was aer gleis Lywelyn
Lewenyt *dwfyn* a beis.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i 303.

Gwypwn . . . llawer o ddysg . . .
Ac isder dyfnder pob *dwfn*,
Hyd arfyd ennyd annwfn.—*I. ab Rh. ab Ieuan Llwyd.*

Gwthia i'r *dwfn*, a bwriwch eich rhwydau am helfa.
Luc v. 4.

Y rhai a wyrant i ladd a ânt i'r *dwfn*.—*Hos.* v. 2.

Y llongau heb eu llongwyr ar y *dwfn* a bydrynt.
Iago Trichrug.

Uwch yr Arabiain *ddwfn* y chwariai frig.
W. O. Pughe: Palestina, 14.

Hwy dremient ar yr anfesurol *ddwfn*.
I. D. Ffraid: Coll Gwynfa, vii. 268.

2. [=dyfnder] deepness, depth.

Cymmerasom badellaid a ddwfr yng nghylch pedair modfedd o *ddwfn*, ac ychydig dros saith o dryfesur.
Gwyliedydd, vii. 179.

Yr ail fath a gyffelybir i greigleoedd, lle nid yw'r had yn parhau, o eisieu *dwfn* i wreiddio.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. iii. 2.

Curwyd tabyrddau, tra y bu dau yn tori bedd o ddeutu dwy droedfedd o *ddwfn*.—*R. Roberts:* Daearyddiaeth, 585.

Dwfr, } *pl.* dyfroedd, dyfredd, deifr, dyfr [C. **Dwr**, } *dour* (C.V.), *dowr*, *dower*, *douer*, *dŭr*, *dofer*; Br. *dour*; Ir. and Ga. *dur*, *dobhar*; Mx. *doour*] 1. water.

A chymryt y kawc a oruc Owein a bwrw kawgeit or *dwfyr* ar y llech.
Mab. 171 (cf. 109, 110, 141, 167, 168, 174, 176, 275).

Teithi march neu gassec yw yvet *dwfyr* a phori gwellt.
C.C. i. 572 (cf. ii. 52, 344, 580).

Tri pheth rhydd i bob dyn, ai brodawr ai estron y bo . . . *dwr* o fynnon, neu o nant, neu avon; tanwydd o geubren; a maen na vo yn ngwaith.
Cyfreithiau Cymru, ii. 522 (cf. i. 556).

Y meudwy yna a duc udunt y kyfryw vwyt ac a oed ganthaw. a *dwfyr* or ffynnawn oe yuet.—*St. Greal*, § 95.

O *dwfyr* ton nawvet.—*Taliesin:* A.B. ii. 142 (M.A. i. 30).

Odhyna y nef ar haul ar lhoer. ar syr. ar *dyfredh* ysydh yr awr honn yn dyvryssaw ar vuan redec . . . yna y safant.
Lucidar, § 123.

Neur arwet *dyuret* yn eu dyfyrlle.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 292 (cf. 402, 433).

Gorloes rydan *dyfyr* Dygen Freidin.
Gwalchmai: M.A. i. 193.

Kyt rydiodefynt diruawr perigyl ar y *dyfwr*.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 87.

Yna y dywanawd Bawtwin y urawt at Rolant yn y lle ydoed yn ymgreinyaw. ac yn damunaw *dyfwr*.
Yst. de Carolo Magno, col. 487.

Dewi a deuth yr lle yr oed *dwfyr* llawn o wenwyn. ac ae bendigawd. ac a wnaeth y *dwfuyr* yn dwymynn.
Buchedd Dewi: Ll.A. 108 (cf. 106, 110, 111).

Gad ardwy rhad, er Duw Rhi,
Rhwyf *dyfr* rhof a Dyfi!
Dafydd ab Gwilym, xli. 5 (cf. xxxiii. 32; cxciv. 20).

Dyrchauel y wayw ar y ysgwyd a wnaeth. a dyuot drwy y *dwr*. a Chlarel a deuth yn y erbyn.
Yst. de Carolo Magno, col. 446.

Paham y kymerth ef vedyd. . . Yr kyssegru y *dwfuyr* y ni. Paham y betydywyt ef yn y *dwfuyr*. Am vot y *dwfuyr* yn wrthwyneb yr tan. A megys y diffyd y *dwfuyr* y tan. velly y diffyd y pechawt yny bedydd. . . Y *dwfuyr* a wylch pob peth budur, ac ef a diffyd sychet.
Llyfr Ancr, 18.

Dwr hardd a dorir â hi
Dwr a dreiddia, dioer, drwyddi;
Drwy y *dwfr* dy rwyd, Ifan,
A ddaw o led i'r ddwy lan.
Meredydd ab Rhys: Iolo Mss. 322 (cf 328).

Tair prif elfydden y sydd: daiar; *dwr;* a goleuni: sef o'r ddaiar pob corffolaeth cadarn; ac o'r *dwr*, pob ymmod; ac o'r goleuni, sef y tân, pob bywydoldeb.—*Barddas*, i. 340.

Mon na chwardd mwy, na cherddwr,
Mwy no dyn y mewn y *dwr*.—*L. G. Cothi*, VII. iv. 41.

Ym mhlygiau hir-freichiau hon,
Ym mhlith *deifr*, ym mhleth dwyfron.
D. ab Gwilym, ccxvi. 46.

Wynt a gerdant o *dyfred* gormod y wres gormod.
Llyfr Ancr, 54.

Ae *dyfred* iachwyawl a uagant ageu Llundein.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 149.

Gwag tref heb blasau, gwag traeth heb *ddyfredd;*
Gwag annedd heb wledd, heb fedd, heb faeth.
L. G. Cothi, VIII. x. 91.

Dwfr ni'th fawdd, *deifr* ni'th feddwan'.
D. ab Gwilym, ccvi. 13.

Fel *deifr* y daethant yn fy nghylch,
Do, do, o'm hamgylch beunydd.—*Edm. Prys:* Salm. lxxxviii. 17 (cf. lxxvii. 16, 19; civ. 3, 6, 7; cxlviii. 4).

Dyket y *dyfredd* ledveginot a bywyat ynddunt. . . Yna creawdd Duw y morfeirch a phob eneit byw kyffroedic ar a dduc y *dyfredd*.—*Hen Gyfieithad o Genesis*, i.

Gwisgodd felltith fel dillad gwr,
A daw fel *dwr* i'w galon.
Edm. Prys: Salmau (1630), cix. 18 (cf. cxxiv. 5).

Am hyny trydedd ran y *dyfredd* aethant yn wermod, a llawer o wŷr a fuont feirw o waith y *dyfredd* hyny.
Th. Huet: Dad. viii. 11.

Dilys yr yf coed eilwaith
Y *dwr* a lwnc daiar laith.—*Gronwy Owain*, 19.

Ni fu ddoeth a yfodd *ddwr*,
Na brwd addas brydyddwr.—*W. Wynn:* C. y Fail Arian.

Bydded ffurfafen yng nghanol y *dyfroedd*, a bydded hi yn gwahanu rhwng y *dyfroedd* a'r *dyfroedd*.—*Gen.* i. 6.

Gwnaeth, â'i ddoethineb, nef uwch ben,
A'r ddaiaren, a'r *dyfredd*,
Y rhai yw prif sylwedd y byd,
Ac i gyd o'i drugaredd.
Edm. Prys: Salmau (1630), cxxxvi. 5, 6.

Berw y llysiau mewn *dwr* yn dda; ac yna tyn ef i'r llawr, a phwya'r llysiau 'n dda, ac yna dod yn yr un *dwr* yr ail waith ar y tân.—*Meddygon Myddfai*, ii. (cf. 36, 126, 375, 382).

Y *dwr* dyfnaf a fydd lyfnaf.—*Iolo Mss.* 226.

Tri pheth ni ellir yn hawdd fod hebddynt er maint a wnelont o ddrwg: tân; *dwr;* a bremin.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 80 (cf. 22).

Ar *dyfured* ysyd yr awr honn yn dyfuryssaw o uuan redec. megys damunaw eu symudaw yn ansawd a uei well. yna y sauant.—*Llyfr Ancr*, 65 (cf. 113, 121, 130, 153).

Digitized by Google

E gynnull *ddyfredd* y môr yng nghyd megys yn bentwr.
Ll. G. Gyffredin 1567 (Salm. xxxiii. 7).

Ewch, ewch, â'i air, chwi'r gwyntoedd,
A threiglwch, *ddeifr*, yng nghyd.
Robert Owen: Gweith. 289.

Nid ofnant y *deifr* dyfnion.—*Caledfryn:* Caniadau, 37.

I'r pant y rhed y *dwr*.—*Diareb.* (M.A. iii. 163; cf. 150.)

Diod o *ddŵr*, doed a ddêl,
A chywydd, ac iach awel.—*Gronwy Owain*, 60.

I'r dwr y mae dannedd (=y mae dannedd i'r (gan y) dwr=y mae i'r (gan y) dwr ddannedd), water is a waster.

Dwfr swyn, } holy water.
Dwr swyn, }

Yg kapel y brenhin y dyly y wadu; kanys yno y dyly ef y *dwfyr swyn* ae vara offeren.
Cyfreithiau Cymru, ii. 68 (cf. 112, 234, 254, 678; i. 206).

Yna Bwrt a edrychawd a welei chweith *dwfyr swyn* ym pob lle yn yr Eglwys.—*St. Greal*, ‖ 41.

Ei air y sydd fal *dwr swyn*,
O dir Ialont i'r Dryslwyn.—*L. G. Cothi*, III. viii. 45.

At yr archesgob y deuth y gymryt y vendith ac y vwrw *dwfwr swyn* arnaw.—*Y'st. de Carlo Magno*, col. 446.

Edryched wedi'r achwyn,
Defros ei waed a *dwfr swyn*.—*Llawdden.*

Dwfr bendigaid (1), blessed water, holy water =*Dwfr swyn.*

Da yw o agos *dwr bendigaid;*
Da yw'r offeren drwy'r offeiriaid.
L. G. Cothi, I. xxvi. 33.

Y penadur a ddaeth atom, ac a roddes ei fendith i ni, ac a daenellodd ni â *dwfr bendigaid*.
W. Lewes: Dwy Daith, 55.

(2) a blessed water or collyrium.

I wneuthur *dwr bendigaid* i loewi llygaid, ac idd eu glanhau.—*Meddygon Myddfai*, ii. 65.

Dwfr sanctaidd, holy water.—*Num.* v. 17.

Ni ddown y rhawg i ben â rhifo ofergoelion y gau grefydd hon, yn addoliad y delwau . . . pererindod, dwyn penyd, *dwfr sanctaidd*, ac amryw draddodiadau.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 76.

Dechreuwyd arfer y *dwfr sanctaidd* yn y flwyddyn 120.
Gwyliedydd, v. 319 (cf. 336).

Yr oedd ef i gadw'r temlau paganaidd, a'u cyssegru at addoliad Crist'nogol, trwy eu taenellu â *dwfr sanctaidd*.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 578.

Dwfr cyssegredig, consecrated water, holy water.

Unwaith bob blwyddyn yr ydys [yn y gwledydd Pabaidd] yn bedyddio pob ceffyl gyda *dwfr cyssegredig*.
Gwyliedydd, vi. 174.

Dwfr bedydd, water of baptism.

A chymryt y *dwfuyr bedyd* a golchi y wyneb ar dwfuyr.
Buchedd Dewi: Ll.A. 107.

Dwfr echwydd: see *Echwydd.*

Dwr distyll, distilled water.

A'r *dwr distyll*, neu yr edlyn, a gei o honynt, golch y dolur.—*Meddygon Myddfai*, ii. 366.

Dwfr byw (*pl.* dyfroedd byw), living water; spring water, running water.

Yfed y llyn hwnw yn gyntaf y bore ac yn ddiwethaf y nos, ac nid gwaeth y llyn hwnw na *dwr byw* ar les corff dyn.—*Meddygon Myddfai*, ii. 325.

Ffynnon y *dyfroedd byw*.—*Ier.* ii. 13 (cf. xvii. 13).

Dwfr bywiol (*pl.* dyfroedd bywiol), living water.

Daw allan o Ierusalem *ddyfroedd bywiol*.—*Sech.* xiv. 8.

Efe a roddasai i ti *ddŵfr bywiol*. . . O ba le gan hyny y mae genyt ti y *dwfr bywiol* hwnw?—*Ioan* iv. 10, 11.

Dyfroedd bywiol sydd yn llifo
Dan dy orsedd di, fy Nuw.—*Blodau Ieuainc*, 90.

Dwfr y bywyd } (1), the water of life.—*Dad.*
Dwr y bywyd } xxi. 6; xxii. 1, 17.

Y mae ffrydiau *dwr y bywyd*
Yn afoni drwyddi draw.
Iolo Morganwg: Salm. i. lii. 2 (cf. xlii. 3).

(2) aqua vitae, eau de vie=brandy, &c.

Lle y tagodd efe ryw gylchwerthwr, gan yr hwn yr oedd cyffyl yn llwythog o dobacco, triagl, *dwr y bywyd*, a lliain.
Gwyliedydd, iv. 248.

Dwfr ffynnon, } spring water. — *Meddygon*
Dwr ffynnon, } *Myddfai*, i. 57; ii. 25, 51, 272, 312.

Dod *ddwr ffynnon* oer bob bore ar dy wyneb.
Meddygon Myddfai, ii. 477 (cf. 246, 461, 744, 761).

Dwfr gloew, } clear or pure water.—*Lyfr Ancr*,
Dwr gloew, } 113.

Dwr gloew a ddrewa o hir sefyll yn llonydd.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 79.

O chwilio'n rhy lwyr i waelodion celfyddyd ceir weithiau mwy o laid nag o'r *dwr gloew*.—*Cyfrinach y Beirdd*, 159.

Dygwch ymma *dwfyr gloew* or fynnawn.
Buchedd Dewi: C.B.SS. 111.

Dwfr glân, } clean water, pure water.
Dwr glân, }

Ebr Efa, Mae'n ber yfed
Dwr glân hyd raian a red.—*Dafydd Ionawr*, 56 (cf. 69).

Dwfr croew, } fresh water; pure water.
Dwr croew, }

Tri anhebgor hendrev: tanwydd; *dwr croyw;* a bugail trevgordd.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 562.

Yll deu a dyrwestauassant y geissaw gan Duw fynhonneu o *dwfyr croew*, kanyt oed dim yn y dinas o dwfyr.
Buchedd Dewi: C.B.SS. 108.

Dwr gof, } water from a smithy trough,
Dwr cafn y gof, } the water in which smiths quench iron.

Cymmer ddyrnaid o'r geidwad goch, a berw mewn a'u cudd o *ddwr gof* yny ffianno'r hanner ymaith.
Meddygon Myddfai, ii. 36 (cf. 375).

Dwr dof, } stagnant or standing water.—
Dwfr llonydd, } *Meddygon Myddfai*, ii. 524.

Dwfr rhedegog, } running water.—*Llyfr Ancr*,
Dwr rhedegog, } 110.

Wynt a doethant y wastattir yn y lle yd oed castell tec cadarn o vur a ffossyd a *dwvyr redegawc*.
St. Greal, ‖ 48 (cf. 101).

A berw mewn *dwr rhedegog* o ffynnonau nad ânt fyth yn yspydd.—*Meddygon Myddfai*, ii. 495 (cf. 526).

Nac ymryson â chadarn galluog, nac â *dwr rhedegog*.
Selyf a Marchoiffus.

Cyffesai'r Tywysog ei bechodau i'r haul, ac yna neidiai i *ddwfr rhedegog*.—*Ch. Edwards:* H. y Ffydd, 43.

Dwfr rhychau, } ditch water.—*Meddygon Mydd-*
Dwr rhychau, } *fai*, i. 166.

Dwfr poeth (1), hot water.

Anaddas i nyddu, na bod yn y beudy,
Trin llwch trwyn, a llechu, darparu *dwr poeth*.
Ed. Richard: Bugeilgerdd, ii. 31.

(2) brash-water, pyrosis.—*C.S.*

Dwr llygaid (1), an eye-wash, a collyrium.—*Meddygon Myddfai*, ii. 373.

(2) water shed from the eyes, tears.

Gwneuthur dwr llygaid, to shed tears.—*C.S.*

Dan y dwr (fig.), under water; distressed; in debt.

2. water, urine.

Golch dy lygaid â'th *ddwr* dy hunan, yna eu cadw yng nghaead tra rifer cant.—*Meddygon Myddfai*, ii. 5.

Cais *ddwr* myharen, a saem llysywen, a'r fyddarllyeg, a sudd cudd y coed.—*Meddygon Myddfai*, ii. 188.

I beri i un wneuthur *dwr*.—*Meddygon Myddfai*, ii. 389.

Efe a wna *ddwr* cyn pen hanner awr ar ol hyny.
Meddygon Myddfai, ii. 30.

Digitized by Google

Attal dwr, } retention of urine, dysuria.—
Carchar dwr, } *C.S.*

Dwfr y Grawn, } Aix-la-chapelle (L. *Aquis-*
Grawnddwfr, } *granum;* Ger. *Aachen* or *Acken*).

Eglwys y wynuydedic wyry Veir yn y *Grawndwuyr.*
Yst. de Carolo Magno, col. 384.

Ac yn eglwys gronn yr arglwydes Veir a wnathoed ehun yn *Dyfwr y Grawn* yn ymyleu Lodij y cladwyd yn anrydedus.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 496 (cf. 493).

¶ *Dwr* (though old, as may be seen in the dialects, and in several of the quotations), has no plural, all the derivatives being formed from *dwfr*. *Deifr*, *dyfr*, *dyfredd*, are archaic or poetical forms. *Dyr-* (=*dyfr-*) occurs, as the first element, in a few compounds.

Dwg, *v.* [L. *duco*] *a.* 3rd pers. sing. fut. Indicative of *Dwyn*, q.v. Except *dug* (=*dygodd*) all the tenses of *dwyn* are regularly formed from *dwg*. See Davies, *Rudimenta* (1621), 133.

Onyt angheu ebrwyd am *dwc* i. ny henbyd gwell ef oth borth di.—*Mabinogion*, 254.

A *ddwg* angeu nid adfer.—A *ddygo* yr wy a *ddwg* a fo mwy.—*Diareb.* (M.A. iii. 146.)

Pwy a'm *dwg* i'r ddinas gadarn? pwy a'm *dwg* hyd yn Edom?—*Salm.* cviii. 10.

b. 2nd pers. Imperative.

Dos heb hi a hwnn gennyt a *dwc* y march racko ar dillat gennyt.—*Mabinogion*, 184.

A *dwc* vi arglwyd ar y gret drachevyn.—*St. Greal*, § 26.

Yna *dwg* allan y gwr hwnw.—*Deut.* xvii. 5.

Dwc di efo tu ar crogwydd. heb hi.
Doethion Rhufain, § 27.

Dwgan, -od, *sf.* a drab, a trull, a slut.

Pan fo cyn deced ol troed *Dwgan* Dugloff, yn cerdded tomydd y Bala, ag ol traed Olwen ferch Yspyddaden Bencawr, yr hon y tyfai pedair meillionen gwynion yn ol ei thraed pa le bynnag y cerddai.—*Araith Iolo Goch.*

Dŵl, *sm.* 'the action of the mind; reason, judgment.'—*P.* Cf. *Afrddwl.*

Dwl (ŵ), *m.* } *pl.* dylion, *a.* [E. *dull;* O.E. *dul*,
Dol (ŏ), *f.* } *dol*] dull, stupid, foolish, blunt.

Tri dyn a welant eu hunain yn ddigon call: *dwl* ni welwys; balch ni ddysgwys; a ffol a gredwys.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 225.

Meddwl rhy *ddwl* a ddaliaf.—*Ieuan Deulwyn.*

Yr oedd ef mor *ddwl* at ddysg a gŵydd wyllt.
Sion Mawddwy (Y Greal, 208).

Oer a *dwl*, wyf wr diles.
Morgan Pywel: Cyfr. y Beirdd, 115.

Y *ddol* a fwrw ei thŷ i lawr,
A'r ddoeth a adail drefydd mawr;
Y *ddol* a bair i'w gwr ocheneidio,
A'r ddoeth a ddwg anrhydedd iddo.
Rhys Prichard: C. y C. liv. (4), 6.

Fal y mae dynion yn *ddylon* i wneuthur gweithredoedd daionus; felly y maent fuanion i wneuthur pechod.
Marchog Crwydrad, i. 10.

Dywedai ei bod, i'w dyb wan . . .
Yn fas ac yn ddiflas *ddol*,
A dienaid anianol.—*Ieuan Brydydd Hir:* Gwaith, 63.

O honof fi, *dwl*, swrth, a syn, fyddai hyn, ac arwydd o feddwl a bwriad salw llibyn.
Th. Williams: Ymadr. Buch. 26.

Gwich ben ä trwy'r ymenydd,
Dwl dwrf, trwy gydol y dydd.—*Gro. Owain*, 56 (cf. 7, 70).

I'w dwyn o drais Sais a'i son,
Toland, a'i huaid *dylion!*
G. Mechain: Gwaith, i. 104 (cf. 490; ii. 395).

Wrth feddwl mor *ddwl*, mor ddall,
Yn ieuanc fu fy neall.
Ieuan Lleyn: Caniadau, 57 (cf. 76, 102).

Na fydd mor wan o feddwl
Rhag d'elyn mewn dychryn *dwl.*—*Dafydd Ionawr*, 112.

Yn nhrefi mawrion Lloegr, lle y mae masnach ac angylchiadau ereill, yn gyru y *dwl* i gymdeithas y doeth, y mae y radd iselaf yn oleuach, hwyrach, na'n gwerin fynyddig ni.—*Cylchgrawn*, i. 234.

Dwg lygad tywyll o dew gen yn rhydd,
Ac ar y ganwyll *ddwl* arllwysa ddydd.
Blackwell: C.A. 153 (cf. 202).

Myfyriai Cain am farwol
Dynged, am ddu weithred *ddol.*—*Dafydd Ionawr*, 78.

Yn ygus iawn, gan falu ffromwyllt ewyn,
Yn fyrbwyll *ddwl*, cymmeryd naid dros ddibyn.
Gwynionydd: Briallen, 18.

Pwy ddyd *ddwl* i ranu trysor?
Rhys Prichard: C. y C. cxlv. 38.

Dylaf dwl yw dwl hen, no fool like an old fool. —*Diareb.*

Cwmwl dwl, a dark or heavy cloud.

Ail i *gwmwl dwl* yw dyn,
Neu niwl bore'n ael Berwyn.—*Rhys Jones:* Gwaith, 59.

Y prif ddiafl oedd â'i safle
Ar *gwmwl dwl* yn y de.
Eben Fardd: Gweithiau, 92 (cf. 90).

Tywydd dwl, dark, dull, or gloomy weather. —*N. W.*

Dyn dwl (*pl.* dynion dylion), a stupid or foolish man; a dullard; a fool; an idiot.

Dyn dwl sy'n meddwl am oes,
Duw a ran hyd yr einioes.—*W. Lleyn.*

Nid hen *ddyn dwl* oedd yr Archdiacon.—*Gro. Owain*, 276.

Dyn dwl a wel freuddwyd dwl.—*Diareb.*

Benyw ddol (*pl.* benywod dylion), a foolish or silly woman.

Dwlben, -od, *sf.* [dwl+pen] a dull, stupid, or foolish woman.—*S.E. W.*

Dwlbyn, -od, *sm.* [dwl+pen] a dull or stupid fellow, a dullard, a dunce, a lout, a fool.—*S.E. W.*

Dywedai ynddo'i hunan, Trueni mawr dros ben
Fyn'd fyth fath lendid hynod ag ydyw'r wiwglod wen,
Lle trig prydferthwch rhadlawn, a grym goreu-ddawn gras,
I gofi rhyw *ddwlbyn* gwladaidd, annoeth, anweddaidd was.—*Lewis Hopcin:* Mel-gafod, 95.

Dwlw, *sm.* [dŵl] 'inaction of the mind.'—*P.*

Dwlyn, *sm.* [dwl] a fool, a dunce, a numskull.

Pwy bynnag sydd yn gwrandaw fy ngorchymmynion hyn, a heb eu gwneuthur, a gymharir i *ddwlyn*, yr hwn a adeiladodd ei dŷ ar y tywod.
J. Williams: Oraclau Bywiol (Matt. vii. 26).

Dwll, *sm.* 'what covers over, envelops, or overwhelms; a flood in a river.'—*P.*

Dwmbro, } *v.* [im.] to make a clattering or
Dwmbran, } rattling noise; to clatter.

Ac nid wyf yn credo eto,
Er i'r ci a'r cwrcath *ddwmbro*,
Bod un yspryd gwag yn rhodio.
Amnon: Crwth Dyffryn Clettwr, 148 (cf. 146).

Mewn gwirionedd dyna'r bwgan,
Mor ofnadwy mae e'n *dwmbran.*
Amnon: Crwth Dyffryn Clettwr, 147.

Dwmbwr, *sm.* [im.: cf. *dwndwr*] a clattering noise; a noise such as is made by removing articles of furniture, or by falling against them in the dark; a clattering or rattling.

Dwmbwr dambar, helter-skelter.

Dwmp damp, } alliterative words imit-
Dy dwmp dy damp, } ative of heavy and irregular footsteps (as those of persons walking in the dark).—*Bardd Cwsg*, 73.

Digitized by Google

Dwn (ŵ), *a.* [Ir. and Ga. *donn*; E. *dun*, said to be from Celtic] dun, dusky, swarthy.

Lliaws du a *dwn* a mygdwn melyn
A milwyr dragonwys.—*Gwalchmai:* M.A. i. 202.

Ac eur ac aryant wrth chwant chwannawc
A meirch mei meingrwn *dwnn* a dossawc.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 305 (cf. 290, 296).

Eddewis yn rhodd unfodd anfon
Ych *dwnn* a yrrwn dan euorion.
Madog Dwygraig: M.A. i. 486.

Marw fych pan glywych weiddi
Yr ych *dwn* nac eiriach di!
D. ab Gwilym, lxxxiv. 61 (cf. 64).

Sion Bromwych sy'n bwrw yma
I Fair ych *dwn* a'i farch da.—*Llawdden.*

Dŵn, *sm.* a murmur; bass (in music).—*P.*

Dwnad, } -au, *sm.* [from *Donatus*, a cele-
Dwned, } brated Roman grammarian of the 4th century] a grammar; grammar, grammar learning.

Wrth y gair *Dwned* y dĕellir y llyfr Gramadeg a wnaeth *Dwnatwys*. Gwelwch ar y pennill osod enw yr ysgrifenydd, neu y dychymmygwr, dros y peth a ddychymmygodd.
H. Perri: Egl. Ffraethineb, ii.

Mewn *Dwned* min nid annoeth;
A'm enaid oedd y min doeth.—*Edm. Prys.*

Dwned a ro'i'm mhlith dynion,
Dawn hoew rodd Duw yw hon.
Iorwerth Fynglwyd: Iolo Mss. 319.

Yn ei arch a'i dywarchen
Dan y tail mae'r *dwned* hen.—*Meredydd ab Rhoser.*

Dyn a wypo *dwned* a rhywlys,
A rhoi yn felus yr hen foled,
Doed i Gil y Sant.—*L. G. Cothi*, iv. v. 21.

Llaw Dduw a fu'n llladd awen;
Lladd enaid holl *ddwned* hen.
Tudur Aled: G.B.C. 249 (cf. 251).

Llaw Dduw sy'n llwyddo awen,
Dawn y Tad yw *dwnad* hen.—*Rhys Jones:* Gwaith, 71.

Agoriad a *dwnad* dysg—
Tydain oedd, tad ein haddysg.
G. Mechain: Gwaith, i. 58.

Ai unol â *dwned* yr iaith yw arferu ydd yn fannog?
Gwyliedydd, iii. 278.

Llyfr dwned, } a book of grammar learning;
Llyfr dwnad, } a grammar.

Llyfr dwned Dyfed, dyfyn ar windai
I randir Llewelyn.—*Dafydd ab Gwilym*, ccxxxi. 1.

Dwnad, } *sm.* [dŵn? The words may be the
Dwned, } same as the preceding] a report, a rumour; a saying or expression; talk, clatter, tattle, chatter.

Myfi yw pensaeth y gwybed taer-ddrwg uffernol sy'n pensyfrdanu dynion, wrth eu cadw fyth a hefyd mewn rhyw *ddwned* gwastadol yng nghylch eu meddiannau neu eu pleserau.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 106.

Anghenrhaid i ni ystyried
Ei fawredd, ac ofered *dwned* dyn.
Ion. Hughes: Bardd a Byrddau, 160 (cf. 108).

O! dyro'n gryno gadarn gred,
Heb *ddwned*, i'w ddaioni.
Dewi Wyn: Blod. Arf. 303 (cf. 120, 168).

Cewch glywed cur caled,
Mawr ludded a *dwned* ei daith.
Ieuan Lleyn: Caniadau, 74.

Mewn gras, Esaias lawn sel,
Yn ei *ddwnad* yn Ddaniel.—*Robert Owen:* Gweith. 77.

Dwnad y wlad, the talk of the country; the common talk or report.

Dwndrad, } -au, *sm.* [dwndwr] a prattling,
Dwndriad, } tattling, clattering, or blustering.

Dwndraidd, *a.* bustling; tattling, prattling, clattering; noisy.

A chwedlau mabanaidd, swn *dwndraidd*, sy'n d'od.
Gwyliedydd, vi. 155.

Dwndro, } *v.* [dwndwr] to make a clattering
Dwndrio, } noise; to clatter; to tattle, prate, or chat; to clamour; to make a noise (about a thing); to bustle; to noise.

Mae'r hen rai yn gweled fod tro mawr ar fyd yn agos, a'r cigfrain ifainc yn *dwndro*, ac yn cymmeryd eu pleser.
Morgan Llwyd: Tri Aderyn, 18.

Ac yno hwyre bawb â'i chwedl digrif, a *dwndro* wrth ein pwys oni flinom.—*Gronwy Owain*, 208.

Oni elli di na *dwndrio* y gelynion yma â'th eiriau bygythiol, na'u hyweddu â'th ymadrodd teg?
R. Vaughan: Ym. Duwioldeb, 42.

Pan el pawb i *ddwndro*, heb undyn i wrando.
Huw Morus: E.C. i. 346.

Hynodwych am neidio fu'r *dwndro*, un dydd.
Daniel Ddu, 268.

Dwndrwr, wyr, *sm.* one who tattles, prates, or clamours; a prattler, a chatterer, a tattler; a bustler, a blusterer.

Yr oeddwn i, wrth fod allan yn yr heol, yn clywed y *dwndrwyr* yn siarad.—*Morgan Llwyd:* Tri Aderyn, 20.

Dwndwr, *sm.* [im.] confused noise; a noisy or empty talk; prattle, tattle, chatter, talk; murmur, din, buzz; bustle, bluster.

'Dyna,' ebr ef (am y potiau) 'weddillion y cymdeithion dn, a fydd â'u traed yn fferu tan feinciau, tra y bo eu penau yn berwi gan ddiod a *dwndwr*.'
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 53 (cf. 76).

Hefyd nid Ffranc anhyfaeth,
Dyn o dir Ffrainc, *dwndwr* ffraeth.
Gronwy Owain, 47 (cf. 56).

Hyfrydwch distawrwydd allan o gynhwrf a *dwndwr* eu caerdrefydd masnachol.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 479 (cf. 533).

Dwndwr daiar sydd yn darfod.
Blackwell: C.A. 203 (cf. 191).

Y mae yn y wlad hon *ddwndwr* mawr yng nghylch crefydd.—*I. B. Hir:* Gwaith, 209.

Disgynodd y cleddyf o law y rhyfelwr,
Y gad a ostegodd, a pheidiodd ei *ddwndwr*.
Eben Fardd: Gweith. 430.

Y mae rhai prydiau, pan yr ymhoffa y meddwl yn ei fyfyrdodau . . . ffoi o'r byd hwn o drafferth a *dwndwr*.
Gwyliedydd, iv. 171.

Rhap y dwndwr, an inconsiderate open-mouthed person; a blab.—*S.E.W.*

Dail y dwndwr, a cant expression for tea (*thea*).

Dondia, myn *ddail y dwndwr*,
Rhed, gyr i gerdded bob gwr!
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 364.

Dwned, -au, *sm.*=*Dwnad.*

Dwned, } *v.* [dŵn?] to express; to speak; to
Dwnad, } prate or chat.

A'u tafodau, mal ei donnau, yn *dwnad;*
A'u gwefusau'n fawl o nefawl nwyfiad.
Tegid: Gwaith, 24 (cf. 107).

O! dyro'n gryno gadarn gred,
Heb *ddwned*, i'w ddaioni.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 303.

Dwnediad, -au, *sm.* [dwned] parsing..

Dwnediad sydd yn amlygu geiriau yn eu synwyr priodol mewn ymadrodd.
J. W. Thomas: Trysorfa yr Athrawon, 201.

Dwnedwr, wyr, } *sm.* a grammarian.
Dwnedydd, -ion, }

Dwnedwr diwan ydoedd,
A dawn a dysg dwned oedd.—*Gruffydd Hafren.*

Dwnedyddiaeth, *sf.* grammar; grammar learning.

Llawer o wahaniaeth barn sy'n hanfodi o barth y Gymraeg, ei hynafiaeth, ei gwraidd, ei changenau, a'i *dwnedyddiaeth*.—*Gwyliedydd*, iv. 248.

Dwnedyddwr, wyr, *sm.*=*Dwnedydd.*

Dwnedyddwyr, cywrain rifwyr,
Wych anturwyr, a chantorion.—*Caledfryn:* Caniadau, 55.

Digitized by Google

Dwr (*w̄*), *sm.*=*Dwfr.*

Dwrd, *sm.* a chiding; reproof, rebuke; a threat.

Os bydd cyssain ar ol *r*, weithiau ni sylf *w*, *dwrd*, *dwrdiaw*, twrstan.—*Dr. Gr. Roberts:* Gramadeg, 58.

Hwy a wneir yn gyffelyb i blant asprus, rhai ni throant, ac ni wellant, er *dwrd*, nac eto er eu curo.
Huw Lewys: Perl, 133.

Dwrdiad, -au, *sm.* a chiding, rebuking, or reproving; a threatening.

Dwrdio, *v.* [cf. N.E. *durden*, *durdum*] 1. to chide, reprove, or rebuke; to blame; to talk.

Weithiau hi a gynhyrfir i ddigio wrthaw, i'w *ddwrdio*, i'w geryddu, ac i'w guro ef.—*Huw Lewys:* Perl, 41.

A hwy a'i *dwrdiasant* ef yn dost.—*Barn.* viii. 1.

Y sawl sy'n *dwrdio* fwyaf yng nghylch tynged ac ordinhadau ansymmudol.—*Th. Williams:* Ym. Bucheddol, 191.

Mi a *ddwrdiais* y pendefigion, a'r swyddogion.
Neh. v. 7 (cf. xiii. 11, 17).

Gwir ydyw, rhai a gredynt
Yt' *ddwrdio* Angelo gynt.—*Gronwy Owain*, 75.

Cei yng ngallu canghellydd awdurdod
Er *dwrdio* rhai penrhydd.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 411.

Rhai a'm defnyddiant i fwgwth a *dwrdio*.
Gwyliedydd, i. 176.

2. to threaten; to talk of doing something.

Dwrdio myned (=bwgwth myned), to threaten to go; to talk of going.—*N. W.*

Yr ych yn cwyno i'ch peswch, ac yn *dwrdio myned* i'r wlad i roi tro.—*Gro. Owain*, 322 (cf, 200, 215, 247).

Dwrdiol, **Dwrdus,** *a.* chiding, rebuking; threatening.

Dwrdiwr, wyr, *sm.* one who chides or reproves, a chider; a threatener.

Dwrdyn, *sm.* a threatener.—*P.*

Dwrdyn Dai, a play like Jack is alive and alight.—*P.*

Dwrdd, *pl.* dyrddau, *sm.* [cf. *twrdd*] a confused or indistinct noise; a stir, bustle, or rustle; a murmur; a crash; a tumult.

Pan glybu y meirch y *dwrdd*, ysgodigaw a wneynt.
H. Caroli Magni. (*D.*)

Siglo a wnai'r groes eglwys
Gan y dadwrdd a'r *dwrdd* dwys.
Iolo Goch: Md. Archiagon Ithel.

Efe a ostega *ddwrdd* y moroedd, a *dwrdd* eu tonnau, a therfysg y poploedd.—*Ll. G. Gyffredin* 1567 (Salm. lxv. 7).

Nac anghofia lef dy elynion: can ys *dwrdd* y rhai y sy yn codi i'th erbyn a esgyn yn oestad.
Ll. G. Gyffredin 1586 (Salm. lxxiv. 23).

Dwrdd gan deulu.—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Y didryf cadwai ei wylnosau *dwrdd*.
W. O. Pughe: Palestina, 27.

Dwrddio, *v.* to bustle, stir, or rustle; to make much noise; to clamour; to chatter.

Y mae'r Papistiaid, ïe, a'r Paganiaid hefyd, yn *dwrddio* nid ychydig yng nghylch eu dawn a'u gallu i wneyd gwyrthiau.—*Theo. Evans:* D.P.O. 253.

Dwrendardd, *sm.*=*Durendardd.*

Dwrgi, *pl.* dwrgwn, *sm.* [dwr (=dwfr)+ci: C. *dourgi;* Br. *dourgi*] an otter.—*C.S.*

Dwrn, *pl.* dyrnau, †dyrn, *sm.* [C. *dorn;* Br. *dourn;* Ir. *dorn, durn;* Ga. *dorn*] 1. a fist.

Mynet a oruc Kei yr gegin. ac yr vedgell. a dyuot ac ysteneit o ved gantaw. ac a gorvlwch eur. ac a lloneit y *dwrn* o vereu.—*Mabinogion*, 163 (cf. 233).

Haearn llym llaes o *dwrn*—*Llywarch Hen:* A.B. ii. 274.

Gan y sathru ae traet, ae ffustaw ae *dyrneu*.
Brut y Tywysogion, 230.

Oed *dyrn* yn heiyrn haearn dalaith.
Cynddelw: M.A. i. 213 (cf. 215, 362).

Gedwch ym heb y Galaath edrych a allwyf gaeu yn *dwrn* arnaw.—*St. Greal*, § 55 (cf. 16, 49, 81, 118).

Egwan ddyn, â gwain o ddur,
A dyr nerth a *dwrn* Arthur.—*Edm. Prys.*

Pwy a gaglodd y gwynt yn ei *ddyrnau*?—*Diar.* xxx. 4.

Tafod, fel dyrnod â *dwrn*,
Drwy rwyag, a dyr yr asgwrn.—*Sion Tudur.*

Dyrnodiai â *dwrn* Eidiol,
Ie, â ffust, feilchion ffol.
G. Mechain: Gwaith, i. 60 (cf. 87, 143).

Pa les im' yw darnio'm *dyrnau*?—*Daniel Ddu*, 230.

Dwrn moel, the naked fist.

Goreu arf *dwrn moel*.—*Diareb.*

Nid oedd Cynwal, druan . . . ond megys yn ymladd â'r *dyrnau moelion* yn erbyn tarian a llurig.—*Gro. Owain*, 276.

Dwrn tra dwrn, fist to fist; hand to hand.

Dwrn dradwrn dradegyn yd peith.
Cynddelw: M.A. i. 215.

Ymladd ddwrn tra dwrn, to fight fist to fist. —*W.*

Llonaid dwrn, a handful.

Cau y dwrn, to clench the fist.

Dwrn cauedig, *Dwrn cau,* a closed or clenched fist.

Hwy a ddynwaredant lais udgorn â'u *dyrnau cauedig*.
Gwyliedydd, iii. 74.

Chwerthin yn ei ddwrn, *Chwerthin yng nghil ei ddwrn,* to laugh in one's sleeve.

Mi wn eisys y bydd rhai yn barod i *chwerthin yn eu dwrn*, a dywedyd, Nid yw hyn ddim ond ffilloreg.
Theo. Evans: D.P.O. 148.

2. a hilt, a haft; a handle.

Odyna hwynt a ducsant idaw paladyr cadarn a phenn da arnaw. ac ystondard odidawc o goch a gwyrd o vlaen y gwaew hyt y *dwrn*.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 416.

Dwrn cleddyf, the hilt of a sword.

Dwrn y cledyf a oed gwedy y wneuthur o assen deu anyeil. . . . A llyna y gyuared a oed ar y neill banner yr dwrn. . . . Y dwy rinwed hynny a oed yn y dwy assen. y rei a oedynt yn *dwrn y cledyf*.—*St. Greal*, § 49 (cf. 3).

A dodi y law ar *dwrn y gledyf*.
Yst. de Carolo Magno, col. 469 (cf. 472).

Sef a oruc Gereint dodi y law ar *dwrn y gledyf*.
Mabinogion, 249 (cf. 242).

Otuel . . . a dynnwys Curteus y *gledyf* ae *dwrn* yn eureit.
Yst. de Carolo Magno, col. 412.

Dyrnau pladur, the handles of a scythe; the small handles attached to the pole of a scythe.

Dwrn aradr, the extremity of the plough-handle, which is held in the hand in ploughing.

Dwrn pig, the handle of a (mill) pick.

3. a knob; a boss.

4. a mason's mallet.—*Iolo Glossary.*

5. 'a threshing beetle used in old time.'—*Iolo Glossary.*

Dwrndal, **Dwryndal,** *sm.* See *Durendardd*, &c.

Dwrnfedi, *v.* [dwrn+medi] the same as *bawdfedi*, q.v.—*Dyfed.*

Dws, *sm.* [see *Dos*] a drop; 'what oozes out.' —*P.*

Dws, *a.* [Fr. *doux;* L. *dulcis*] sweet, dulcet.

Dwsain, einiau, **Dwsin,** -au, **Dwsing,** -au, **Dwsen,** -i, -au, *sm-f.* [O.E. *dosain*, mod. *dozen;* O.Fr. *dosaine, doraine*, mod. *douzaine;* L. *duodecimo*] a dozen.

Sion Phylip drwy worsib dring,
Urddasol yw ar *ddwsing*.—*Edm. Prys.*

Digitized by Google

Dewis yd ai 'n dywys hen,
Dwsing ar yr un dwysen.
Gruffydd Hiraethog: G.B.C. 100.

Rhyw gant neu bedwar ugain
Hudassant hwy yn Llundain;
A chylch Caerfyrddin dau neu dri,
Ac Abertawy *ddwsain.*—*Trysorfa Gwybodaeth* (1770).

A fedro, rhoed drwy fodrwy
Deisen fain, *dwsin* neu fwy.—*Gro. Owain*, 43.

Ei fesur, fel y gwyddys, trwy'r gwaith, oddi gerth rhyw hanner *dwsin* o Salmau, yw y pennill byr pedair llinell.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 541.

A'th fawr-fri *dwseni* da seiniant.—*Daniel Ddu*, 268.

Os dygwydd i hynny fod, nid wyf yn ammheu na rydd imi *ddwsing* neu ddau, fal y tro o'r blaen, ond eu gofyn mewn rhigwm.—*Gronwy Owain:* Works (1876), ii. 144.

Dwsed, *a.* [Fr. *doucet;* L. *dulcis*] sweet, dulcet.

Gwin dwsed, sweet wine (*doucet vin*).

Medd glas o'i hannedd a rydd Sioned Llwyd,
Man y dewiswyd ym' *win dwsed.*
L. G. Cothi, iv. v. 33 (cf. iii. xxvii. 40).

Dwsel, -au, *sm.* [allied to E. *douse?*] a tap, a faucet, a spigot, a cock, a spout.

Cyn feddwed a'r *dwsel.*—*Sion Tudur.*

Epistomium, geneu pistyll, *dwsel.*—*Davies*, s.v.

Os rhoddir cymmysgedd o ufelai ac ulai mewn llestr gwydr cryf, gan ei gau ynddo yn ddiogel â *dwsel* y bibell . . . tania yr ulnwy.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iv. 36.

Dwselu, *v.* 1. to ooze or run out; to leak.—*Iolo Glossary.*

2. to tap; to broach (a cask).

Dwsmel, -au, *sf.* [Sp. *dulcemele;* It. *dolcimelle* (from L. *dulcemelos*); Fr. *doulcemer*] a dulcimer.

Llawer *dwsmel* a thelyn,
A llawer brwysg gar llaw'r Bryn.—*L. G. Cothi*, vii. v. 17.

Canu *dwsmel* a thelyn
Yn hardd a wnai'r gwiw-fardd gwyn.
Gronwy Owain, 81 (cf. 53).

Gwawd esmwyth gyd â *dwsmel*
Ganai Mair â'i geneu mêl.—*Dafydd Ionawr*, 120.

Ac ni orphwysai telyn, edmyg bib,
A *dwsmel.*—*W. O. Pughe:* C.G. vii. 693.

Brau *ddwsmel* beraidd esmwyth;
Rhyw bibell aur i bob llwyth!—*Dewi Wyn:* Bl. Arf. 113.

O lawn wres ei chalon rydd, ei *dwsmel*
Fywhâ yr awel trwy'r eang fröydd.
Hwfa Mon: Gwaith, 101.

¶ The same word, in the form of *dulsimer* (=E. *dulcimer*), occurs in *Dan.* iii. 5, 7, 10, 15. *Dwsmel* seems to have been adopted from the Spanish or the Italian. Roquefort gives *doulcemer* as the French form; but the word is not found in the Dictionary of the French Academy (ed. 1789).

Dwst, *sm.* [E. *dust;* A.S. *dust*] dust; powder.

A gwedy eu kerdet odieithyr y dinas wynt a gyrchassant gwastatrwyd ehalaeth. ac amhyl ar maestir hwnnw a gyuodes yn *dwst* ac yn blwr. gan amylder y meirch. ac yn eu cynhwryf yny oed y *dwst* yn kyuodi uch y penneu yn wybyr.—*Campau Charlymaen*, § 3.

Ac yna y gwasgwys Arthur y werin eur a oed ar y clawr yny oedynt yn *dwst* oll.—*Mabinogion*, 158.

A gwasgaru a wnaethant ffylor a *dwst* y ffyrd . . . yny dywyllawd goleuat yr heul ar awyr ar wybyr a hanner dyd ehun tebygach oed y nos noc y dyd. gan y *dwst* a phylor uch eu penn.—*Ystoria Charles*, 3.

Llwch melin gerwin mewn gwern,
Tost affaith, mal *dwst* uffern.—*Dafydd ab Gwilym*, liv. 37.

Kymmer waet ysgyuarnawc ae chroen, a llosc yny el yn *dwst:* a chymmysc y pyloor hwnnw a dwfyr twym; a dyro idaw lwyeit or *dwst* hwnnw ar diawt. . . Or mynny broui hynny; dot lwyeit or *dwst* hwnnw y mywn dwfyr, a dot yndaw y maen a uynnych, ac ef a ymellwng yn diannot.
Meddygon Myddfai, i. 151.

Y ddaiar ddu, ddyre *ddwst,*
Yn crynu, faint fu'r cryuwst!
Iolo Goch: Md. Archiagon Ithel.

Cais lygaid y dydd, a'r erllyriad, a tharo ar ddiod yn dew, a chymmer *ddwst* a nadder o faen glas, a dyro ar y ddiod i'w yfed.—*Meddygon Myddfai*, ii. 655.

Dwthwn, } *sm.* [?] a day; a juncture of time;
Dythwn, } any specified time.

Ni dele y *dithun* hwnnw kaifail ateb.
Cyfreithiau Cymru, i. 142.

Felly y darostyngodd Duw y *dwthwn* hwnw Iabin brenin Canaan o flaen meibion Israel.
Barn. iv. 23 (cf. iii. 30; vi. 32; xx. 21).

Efe a fu yn y bedd ddie Gwener, yr hwn oedd y *dythwn* cyntaf, er na bu ef y diwrnod cyfa hwnnw; bu yno hefyd ddie Sadwrn trwy'r dydd (yr hwn oedd yr ail *dythwn*), ac a fu yno ddarn o ddie Sul, yr hwn oedd y trydydd. O blegyd y diwrnod naturiol sy'n dechreu fin y nos, a'r awr nesaf ar ol machlud haul yw'r awr gyntaf o'r *dythwn* a fo'n canlyn.
R. Smith: Eglurhâd, 46 (cf. 56, 173, 177).

Canys bob nos y mae angeu yn cael meddiant o'r *dwthwn* hwnw.—*E. Wynn:* Rh.B.S. 126 (cf. 196, 215, 230, 255).

A phoed hedd cyn fy medd mau,
Faith *ddwthwn,* rhof a thithau.—*Gronwy Owain*, 64.

O ddydd i ddydd, o awr i awr,
Mae'n nesu gwawr y *dwthwn*
In' ado'r byd, a myn'd i'r bedd
Yn oer ein gwedd, ystyriwn.—*Daniel Ddu*, 362.

Mae miloedd o wir bobl Dduw ym mhob cornel o'r byd . . . ar y *dythwn* heddyw, yn arfer mwy o sarrugrwydd a gerwinder corfforol . . . nag yw hyn i gyd.
Allwydd Paradwys, 147.

Calan wyt, ni'th cwliai Naf,
Dwthwn wyt nas mellitthiaf.—*Gronwy Owain*, 39.

¶ In the Bible, in which the word is frequently used, it usually occurs in the expression '*y dwthwn hwnw.*'

Dwy, *a.f.* [f. of *dau* (q.v.): C. *dui, diw, dyw;* Br. *diou:* L. *duae*] two.

Erbynn hanner dyd drannoeth yd oed yn y vedyant y *dwy* deyrnas.—*Mabinogion*, 6.

Gwalchmei a arganuu yr arglwyd yn eisted ar disgynuaen o varmor. ac yn edrych ar y *dwy* verchet yn gware a phel o eur.—*St. Greal*, § 121.

Heb ohir o gyt gyghor y wyrda y rodes y *dwy* verchet hynaf idaw y dywyssogyon yr Alban a Chernyw.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 65.

O byd byw y uam kymeynt ydy ac y *duy* chwyored.
C.C. i. 230 (cf. 234).

Ir *dui* foss dyr mynyd ar hyt yr cecyn.
Liber Landavensis, 137.

A llyma hi yn dyuot a *dwy* uorwyn gyt a hi.
Mabinogion, 72.

Kany dygy di *dwy* daryan.—*St. Greal*, § 92.

Sef riuedi yd oedynt o longeu. *dwy* long ar hugeint.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 39.

Gwnaeth gwyr Tro aerua diruawr y meint oc eu gelynyon hyt ar *dwy* vil haeach.—*Ystr. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 56.

Heyessit e lavnawr rwg *dwy* vedin.—*Aneurin:* God. 529.

Yna y llew a roes diaspat ual y clywit *dwy* villdir yn y fforest.—*St. Greal*, § 243.

Y *dwy* vreich ae deuvordwyd.—*C.C.* i. 390.

Yna y doeth *dwy* vorynyon y dynnu y arueu y amdanaw.
St. Greal, § 145.

Dwy Bowys a Chaer Swys wen,
Dwy Wynedd gyda'i onen.—*L. G. Cothi*, i. iv. 15.

Mae'r *ddwy* gyfraith faith i'th fin.
Meredydd ab Rhys: Iolo Mss. 321.

Lot . . . a drigodd mewn ogof, efe a'i *ddwy* ferched.
Gen. xix. 30 (cf. 36).

Dwy waith, two times; twice.

Dwy waith yn y dydd yn wastadol y poeth-offrymir eu haberthau hwynt.—*Eccl.* xlv. 14.

Dwy law, two hands, the two hands, both hands.

Dwy fil o flynyddoedd, two thousand years; 'a thousand years twice told.'—*Preg.* vi. 6.

Digitized by Google

Dwy flynedd, two years.—*Act.* xxviii. 30.

A Pheredur ei frawd a gafas yr holl ynys iddo ei hunan hyd ym mhen *dwy flynedd*.—*Iolo Mss.* 37.

Dwy flwydd oed, } two years old.—*Matt.* ii.
Dwyflwydd oed, } 16.

Dwy blaid, two parties. See *Dwyblaid*.

Ef . . . a aeth ar glot ar anryded or twrneimeint drwy y gytsynnyedigaeth y *dwy bleit*.—*St. Greal*, ¶ 47.

¶ See note s.v. *Dau*, adj.

Dwy, -oedd, *sf.* two (*fem.*); both; twain.

Dywet heb y Gereint pa fford oreu y mi y cherdet or *dwy* hynn.—*Mabinogion*, 291.

Yr oeddym ni yng nghyd, heb arall yn tŷ gyd â ni, ond nyni ein *dwyoedd* yn tŷ.—1 *Bren.* iii. 18.

Yr ydym ein *dwyoedd* yn prysuro tua'r hir gartref.
G. Mechain: Gwaith, ii. 399.

Ill dwyoedd, } they (them) both, they (them)
Ill dwy, } two, the two, both of them.

Yna ymgropyan a oruc parth ac att y llestyr yd oed y greal yndaw. ac ymauael ac ef ae dwylaw *yll dwyoed* a roi kussan idaw.—*St. Greal*, ¶ 16.

Yna hwy a aethant allan *ill dwyoedd* yng nghyd.
Judeth xiii. 10.

Y ddwy, the two, both.

Dwy, -au, *sm.*=*Dwyf*, *Dwyw*.

A thyghu a oruc ef y *dwyeu* ef. y Vahwn ac Appolin a Thermagawnt y bydei uuyd ef wrth y hewyllys wynt.
Bown o Hamtwn, ¶ 61.

Dwyad, -au, *sm.* [dwy] a duet.—*Gwyliedydd*, vi. 121.

Dwyadeiniog, *a.* [dwy+adain] having two wings, two-winged, bipennate.

Dwyael, *sf.pl.* [dwy+ael] the two eyebrows, the eyebrows.

A man oed y rwg y *dwyael*. ac am hynny y gelwit hi Elen uanawc.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 12.

Delw eurddrych, *dwyael* eurddrym.—*D. ab Gwilym*, viii. 7 (cf. 22; xviii. 4; clxxxvi. 37; cxci. 16).

Dwyaes, *sf.pl.* [dwy+aes] two shields.

Deuwr yn arwain *dwyaes*.—*Llywelyn Goch:* M.A. i. 515.

Dwyaesog, *a.* [dwy+aes] bipeltate.—*Dicts.*

Dwyanneddol, } *a.* [dwy+annedd] dicœcian,
Dwyannedd, } dicœcious.—*H. Davies:* Welsh Botanology, 91.

Dwyar, *sf.pl.* [dwy] stirrups.

Yn hwy no llath ei *ddwyar*,
Yn grwn, yn gau, ar ei war.
Os archaf tanaf ystôl
A ddaw wrth y ddwy warthol.
L. G. Cothi, III. xxxiii. 41.

Dwyar, *a.* [*dwy* for *dwyf* or *dwyw?*] divine.—*P.*

Goberthiat [*al.* goborthyat] adar ar deuin *duyar*.
Gorchan Cynfelyn: M.A. i. 60 (A.B. ii. 95).

Dwyasgellog, *a.* having two wings, two-winged.

Dwyawd, *pl.* dwyodau, *sf.* [dwy] a duet.

Dwybig, *a.* [dwy+pig] having two points or prongs; double-pointed; forked.

Ffon ddwybig, a quarter-staff; a pike, a pitch-fork.

Chwareu y ffon ddwybig: see s.v. *Chwareu*.

Chwareu y pastwn dwybig, to play fast and loose; to prevaricate.

Awdl ddwybig, a kind of peculiar Welsh metre: also called *Llamgyrch*.

Yn ddeuddegfed, Llamgyrch, neu *Awdl ddwybig*.
Cyfrinach y Beirdd, 49.

Rheswm dwybig, a dilemma.—*W.*

Dwyblaid, *sf.pl.* [dwy+plaid] two parties; both parties; both sides.

Ot amheuir or *dwybleit*, dilyner yr hawlwr a thalet chun a aedewis o da.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 608 (cf. 108, 116, 144, 146, 150, 154, 156, 162; ii. 108, 662).

Oni orfu ar bawb droi yn eu hol or ddau du, rhag a'u gwanhäed y *ddwyblaid* yn y frwydr honno.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 489.

I'w rhanu yn gyfartal rhwng y *ddwyblaid*.
Gwalltar Mechain, i. 501.

Bydded pob un o'r *ddwyblaid* barod ac ewyllysgar i wneuthur yn enwedig yr hyn sydd yn perthyn ato ei hun.
Ed. Iames: Hom. iii. 178 (cf. 30).

Dwydid, *sm.*=*Duwdid*. See *Dwywdid*.

Dwydon, -au, *sf.* [dwy+tôn] a diphthong, a bivocal.

Dwydonawl, *a.* diphthongal, binotonous.

Dwydref, *sf.pl.* See *Tref*.

Deudeg maynaul a *dwydrew* ym pob kymut.
C.C. i. 186 (cf. 196; ii. 268, 296).

Dwyddalen, *sf.* [dwy+dalen] twayblade (*Ophrys*): also called *Caineirian*.

Dwyddalen gyffredin, common twayblade, ovate ophrys (*Ophrys ovata*).—*Hugh Davies:* Welsh Botanology, 82, 184.

Dwyddalenog, } *a.* having or consisting of
Dwyddeilenog, } two leaves, bifoliate.

Dwyed, -au, *sf.* [dwy] a duet.—*Dicts.*

Dwyeg, *sf.* [=*dueg*, of which *dwyeg* is but a variant] the spleen or milt; melancholy.

Yn y *ddweg* y bydd llawenydd.—*Barddas*, i. 392.

Dwyelfenog, }
Dwyelfenol, } *a.* [dwy+elfen] amphibious.

Dwyelfenogion, amphibia, amphibious animals.

Dwyen, *sf.* [dwy+gên: C. *dewen*, *dywen*] 1. the two jaws (the upper and the lower); gills.

Dwyen a deurych Duw ni deiryd.
Madog Dwygraig: M.A. i. 490 (cf. 485).

Yna Paredur a doeth ar gevyn y vul hyt att y rei a oedynt yn gwarchadw y dryded bont. ac a drewis un onadunt yny vyd y gledyf drwy y arueu hyt y *dwyen*.
St. Greal, ¶ 194.

Er gwaethaf ei ddwyen, in spite of his teeth. —*C.S.*

Y mae eisieu crogi ei ddwyen, he ought to be hanged by the neck.—*C.S.*

2. the chin, the lower part of the face; the cheek.

Pan ydoedd yn Rhen hyd tros y *ddwyen*
Yn nwyr Iorddonen yn dirwesta.
Awdl Fraith: M.A. i. 93.

Bach haiarn, gafael-garn gael,
Dan *ddwyen* y dyn dduael.
Dafydd ab Gwilym, cl. 13 (cf. lxxxviii. 32).

Ei *dwyen* glir sy'n denu gwlad
At hon, o gariad geirwir.—*Daniel Ddu*, 233.

Dwyf, -au, *sm.* [modf. of *Duw* or *Dwyw*: L. *divus*. The word seems to have no connection with *Ydwyf* (*Ecs.* ii. 14), as has often been assumed] God; a god, a divinity.

Cain cynnwyre gwynt am lwyf,
Gnawd gwynfyd gwr ei gynnwyf:
Gwae ni chein a fo dawn *Dwyf*.
Englynion Cain Cynnwyre: M.A. iii. 141.

Duw Tri, Duw Celi, coeliwn, Daf, Eli,
Dwyf eilwaith da folwn.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 285.

Ior, Ion, *Dwyf*, Deon, boed diwair geneu
Ar ganon a'i llefair.—*Ieuan Rudd* (Barddas, i. 20).

Digitized by Google

Rhai a geisiasant ddoethineb, ac o hyny a welasant a wnelai falchder, ac ymroi a wnaethant yn ol a ddysged iddynt gan Dduw, ac o hyny a aethant yn *ddwyfau*, sef yn angylion santaidd. . . A chyfartal cydfraint y byddant oll yng nghylch y gwynfyd, sef yn *ddwyfau* ac yn angylion santaidd dros fyth.—*Barddas*, i. 236 (cf. 240, 262).

Yn dystion o'm plaid y galwaf nefoedd a daiar, haul a lleuad, dynion a *dwyfau*, a'r cwbl yng nghyd o honynt a ddygaf rhacoch yn dystion.—*Efengyl Nicodemus*, ii.

I feddwl *Dwyf* a Dyn y trwydda drwg,
Mor anfoddhäus, heb adu ar ei ol
Na man na bai.—*W. O. Pughe:* C.G. v. 125.

Y tonnau tawel, arwydd *Dwyf*,
Tra hwylient ar eu mordaith glyd
Heb friwdor waneg am y rhwyf.
W. O. Pughe: Seren Bethlehem.

Dwyfain, *a.* [dwyf: L. *divinus*] divine.

Dwyfed, *a.f.* [ordinal of *dwy*] second.

Y ddwyfed bennod, the second chapter.

Dwyfeinwr, wyr, *sm.* a divine, a theologian.

Peth arall y mae y *dwyfeinwyr* yn ei osod ar lawr i ddangos ac i hyspysu maint y dedwyddwch yma yn y nef.
Dyhewyd y Cristion, i. x. 10 (cf. ix. 21; ii. iv. 7, 23).

Dwyfenyw, *a.* [dwy+benyw] digynian; having two pistils.—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 2.

Dwyfes, -au, *sf.* [dwyf] a goddess: the same as *duwies*.

Cref y megaist ef megys *dwyfes*
Ar dy fron hygu, fry frenines.—*Iolo Goch*, i Fair.

Dwyfin, *a.* [dwyf: L. *divinus*] divine.

Seren y Dwyrain, lles y byd,
Goleuad teg yr elfydd gwŷr,
Er dangos lle y *dwyfin* gryd,
Gadawai y cylchdroad sŷr.
W. O. Pughe: Seren Bethlehem.

Dwyflwydd, *a.* being two years old, two-year old.

Ef ar guastrodyon a deleant yr ebolyon hyd en *duybluyt*.
Cyfreithiau Cymru, i. 30 (cf. 54).

Yna Herod . . . a ddanfonodd, ac a laddodd yr holl fechgyn oedd yn Bethlehem, ac yn ei holl gyffiniau, o *ddwyflwydd* oed a than hyny.—*Matt.* ii. 16.

Ei oed oedd *dwyflwydd*.—*Gwyliedydd*, iii. 105.

Plentyn dwyflwydd, a child two years of age.

Ac yn oet y vlwydyn hoff oed gantunt y vreisket bei *dwyulwyd*.—*Mabinogion*, 69.

Dwyflwyddol, *a.* biennial.

Dwyflwyddolion, biennials.

Dwyflywiaeth,) -au, *sf.* [Dwyf+llywiaeth,
Dwyflywodraeth,) llywodraeth] theocracy.

Hynodrwydd mawr y *ddwyflywiaeth* ydoedd, mai yr Arglwydd ei hun oedd deddfwr, barnwr, a brenin y genedl.
Gwyddoniadur Cymreig, iv. 46 (cf. 44, 45, 47).

Os da y llefarwyd y geiriau hyn, yr oedd hi mewn gwirionedd yn gymmaint o dan *Ddwyflywiaeth* mor uniongyrchol a'r Eglwys yn yr anialwch.—*Athrawiaeth yr Eglwys*, 376.

Dwyflywiol,)
Dwyflywyddol,) *a.* theocratic, theocratical,
Dwyflywiaethol,) relating to theocracy.

Dwyfo, *v.* [dwyf] to deify, to make a god of.

Dwyfog, *a.* having divine nature, divine.—*P.*

Dwyfog, *sf.* [prob. for *llysiau dwyfog*] wood betony (*Betonica officinalis*): also called *llysiau dwyfog, dannogen*, and *cribau Sant Ffraid*.—*H. Davies:* Welsh Bot. 58, 184, 211.

Dwyfol, *a.* [dwyf] 1. (=Duwiol 1) divine; pertaining to God (the current sense). See *Dwywol*, the earlier but less euphonic form (*Dwywawl*).

Credu yr ydym, gan hyny, fod un Anian a Gallu *dwyfawl*, yr hwn yr ydym yn ei alw yn Dduw.
M. Cyffin: Diff. ii. 1.

Tair camp *ddwyfawl* ar ddyn: maddeu y cam a wnelir iddo; gwelläu pob peth a allo; ac ymwrthod â phob anghyfiawn o ddyn ac o gamp.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 77.

Y mae y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân yn Bersonau *Dwyfol*.—*Dr. Geo. Lewis:* Drych Ysgrythyrol, 38.

Mae yr hen ammheuon didduw wedi rhoi ffordd i gydnabyddiaeth o ryw Fod *Dwyfol*.—*Adolygydd*, i. 173.

Gallasai *Dwyfol* allu gyflawnu gwyrth yn gystal a maddeu pechod. . . Aeth *Dwyfol* effaith gyda'i orchymmyn.
Ios. Harris: Gweith. 388.

Effaith gallu *dwyfol* yn gwbl oeddynt, effaith gallu *dwyfol* yn goruwchreoli, nid yn treisio, deddfau natur.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 10 (cf. 11, 13).

Fel trwy y rhai hyn yr eloch gyfranogion o'r *Dwyfol* anian.—*Dr. T. Briscoe:* T.N. (2 Pedr i. 4).

Doethion a dwyfolion, sages and divines.

At hyn o wybyddiad dylid darllen . . . yr hen hanesion a'r brutiau, a phob llyfrau *doethion a dwyfolion*.
Cyfr. y Beirdd, 13.

Sef achaws ei fyned i Rufain ydoedd ymgynghori a *doethion a dwyfolion*, rhag bod y gyfraith a wnai efe a'i ddoethion yn erbyn cyfraith Duw a chyfraith dinasoedd creill.—*Iewan Brechfa:* M.A. ii. 484.

Gwasanaeth dwyfol, divine service, the service of God.

Dirmygu heb dawl, o chwant corfforawl,
Gwasanaeth Dwyfawl Duw deddfawl-dad.
D. ab Gwilym, ccxlv. 69.

Gwybodau dwyfol,) divine sciences; know-
Gwybodau dwyfolion,) ledge of divine things; sacred knowledge.

A chan y cyfryw y llygrir ac y llygrwyd *gwybodau dwyfolion*.—*Barddas*, i. 28.

Teilaw . . . a ddug, gan nawdd a dawn y brenin, ddau esgob duwiol i'r ynys hon; nid amgen na Garmon a Bleiddan, i welläu ac adnewyddu cred a bedydd, a *gwybodau dwyfolion*.—*Iolo Mss.* 39 (cf. 83).

Y llywodraeth ddwyfol, the divine government.

Byddai yr ymddygiad yn gyhoeddiad o wrthryfel yn erbyn y *llywodraeth ddwyfol*.—*Brutus:* Brut. 73.

Dadguddiad dwyfol, divine revelation.

Peth dymunol iawn fyddai cael *dadguddiad dwyfol*.
Dr. Geo. Lewis: Drych Ysgrythyrol, 4.

Gallasai natur grefyddol fodoli mewn dyn yn annibynol ar *ddadguddiad dwyfol*, fel y dangosir gan sefydliadau ac arferion crefyddol lle nid oes *dadguddiad dwyfol*.
Adolygydd, i. 118 (cf. 119, 122, 123).

2. (=Duwiol 2) godly, pious, devout, religious.

Tripheth a gaiff dyn *dwyfawl:* gair da; byd da; a diwedd da.—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 85 (cf. 59, 231).

Tair clud vreiniawl y sydd: cylch brenin neu riaint yn eu cyvoethau; cyrch beirdd yn ngorsedd gyvallwy; a chyrch *dwyfolion* yn ngolychwyd.
Cyfreithiau Cymru, ii. 478.

Tri pheth a gânt y *dwyfolion:* cyfymgyd â Duw; gwynfyd perffaith; a gwybodaeth cwbledig.
Barddas, i. 294 (cf. 312).

Ef a wnaeth ddwy gôr o saint, ac a ddodes esgyb a *dwyfolion* ynddynt, fal y gellynt ddysgu'r ffydd yng Nghrist i genedl y Cymry.—*Iolo Mss.* 131 (cf. 144, 181).

I'th blwyf mae Cymro *dwyfol*,
Ef a wna'r plwyf yn ei ol.
L. G. Cothi, III. xxxiv. 13 (cf. I. xviii. 5).

Nid da ond *dwyfawl:* nid *dwyfawl* ond crefyddus.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 16 (cf 284).

Nid oes dim yn holl oes dyn . . . mor anghenrhaid son am dano, ac annog iddo beunydd, ag yw gweddi galonog wresog *ddwyfol*.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 221 (cf. 222, 258, 269).

Wrth gynghor doeth a *dwyfol* gynghoriaid.—*Iolo Mss.* 12,

Byw yn ddwyfol, to live godly or piously.

Ofna Ddofydd, cais *fyw'n ddwyfawl*.
Llywelyn Pywel: Cyfr. y Beirdd, 158.

Dwyfolaidd, *a.* of a divine nature or character; divine.

Arferwn ryddid caniatäawl, a chëis
Dderbyniad, a ennillai gan y llais
Dwyfolaidd yr atebiad rhadlawn hwn.
W. O. Pughe: C.G. viii. 507 (cf. 583).

Digitized by Google

Dwyfoldeb, } *sm.* [dwyfol 1] 1. divinity, div-
Dwyfolder, } ineness. (The current sense.)

Delw a gymerir yn ffuryfedigaeth eilun o ryw a meint ae drychyr. *Dwyvolder* y syd yn y Drindawt.
Llyfr Ancr, 9 (cf. 18).

Maen Cetti, ar Gefn y Bryn yng Ngwyr, a addolid, medd yr hen draddodiad, gan y Paganiaid, ond Dewi a'i holltodd â chledd yn brawf iddynt nad oedd ynddo ddim *Dwyfoldeb*.
Iolo Mss. 83.

Y Mabol *Ddwyfoldeb* ymunodd â'r dyndod . . .
Gan dd'od yn Ail Adda'n cyfranu bywioldeb
I'r natur a unodd â'i ddidranc *Ddwyfoldeb*.
Eben Fardd: Gweith. 420.

Gan fod ysprydoliaeth y Newydd yn profi *dwyfolder* yr Hen, o blegyd fod Crist a'i Apostolion yn ei arddel, nid yw hyny yn anghenrheidiol. . . . Y prawf pennodol o'u *dwyfolder* yw—Y gweithredoedd gwyrthiol a gyflawnwyd i'r diben i brofi eu bod o Dduw.
Dr. Geo. Lewis: Drych Ysgrythyrol, 8.

Yn gymhwys yn yr un sefyllfa o ran teimlad a deall ag oedd y dorf pan yn gwrando pregeth St. Petr, ag ydynt eto er hyny yn parhau i wrthod y prawf sydd ynddi o *ddwyfoldeb* Crist, ac i fod yn elynion i grefydd yr Iesu.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 247.

Gogyfuwch â'r Tad o ran ei *ddwyfolder*.
Th. Charles, s.v. 'Crist.'

Gweddus fyddai i bob credadyn fedru profi *dwyfoldeb* a digonolrwydd y rheol wrth yr hon y mae yn rhodio.
Ios. Harris: Gweith. 217.

Yn lle cymmeryd y Beibl yn sylfaen i brofi *dwyfoldeb* person Crist, yr oedd yn cymmeryd person Crist yn sylfaen i brofi *dwyfoldeb* y Beibl.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duw. 121.

2. [dwyfol 2] godliness, piety, devotion, religion.

Derwyddvardd . . . a'i swydd dodi addysg, a dangaws gwybodau doethineb a *dwyvoldeb* yn ngorsedd beirdd, ac yn llys, ac yn y llan.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 510 (cf. 516).

Tri pheth ar ddyn a gauant ar bob daioni arall: *dwyfoldeb;* tangnefedd; a gwroldeb.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 226.

Hyd onid oedd yn wr gwybodus a chelfydd a fedrai ar bob doethineb a gwybodau daionus yn gyfun â phob cydwybodolder a *dwyfolder*.—*Iolo Mss.* 167.

Heb fraint a nawdd ar ddoethineb, a *dwyfoldeb*, a gwybodau gwladawl, nis gellir tangnefu cenedloedd yn rhyfel.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 299.

Nid tangnef heb *ddwyfolder*, Nid *dwyfolder* heb gyflawnder.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 17.

Er dysgu *dwyfoldeb* a gwybodau dwyfolion i'r Cymry.
Iolo Mss. 83 (cf. 150).

Sef y tri pheth hyn ac nid amgen o geinmyged a wnânt *ddwyfoldeb*, ac nid *dwyfoldeb* ond dedwyddyd, ac nid dedwyddyd ond *dwyfoldeb*.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 268 (cf. 67, 267).

Yn yr un flwyddyn bu farw Rhyddmarch Escob Dewi . . . heb iddaw nac ail nac eilydd, namyn ei dad, am ddysg, a doethineb, a *dwyfoldeb*.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 533.

Tri nod *dwyfolder:* gwneuthur cyflawnder; hoffi trugaredd; ac ymddwyn ufudd dan bob damwain.
Barddas, i. 298 (cf. 294, 300, 308, 310, 316, 318, 320).

Er bod Saul o *ddwyfoldeb* ar fedr aberthu i anrhydedd a gwasanaeth Duw y cyfryw bethau ag a arbedasai ef o'r eiddo'r Amaleciaid; eto fe a argyhoeddwyd Saul am ei gam drugaredd a'i *ddwyfoldeb*.
Ed. Iames: Hom. iii. 253 (cf. ii. 279).

Cyfrinach dwyfoldeb (=dirgelwch duwioldeb), the mystery of godliness.

Y gwyddoniaid . . . a gawsant awen o Dduw, ac o hyny y gwybuant *gyfrinach dwyfoldeb*.—*Barddas*, i. 238.

Dwyfoli, *v.* to make divine or sacred; to deify; to inspire divinely; to make godly; to sanctify, to consecrate, to hallow.

Mewn chwedydd y gwnaeth Duw nef a nefolion, daiar a daiarolion, yr holl fydoedd a'u bodolion, a gorphwys a wnaeth ar y seithedydd, gan ei fendithio a'i *ddwyfoli*.
Barddas, i. 286.

Tri pheth a *ddwyfolant* awen: cariad perffaith; pwyll gwybodgar; a chalon haelionus.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 262.

Dyma y ddau eithafion, un yn *dwyfoli* yr eglwys, neu ryw ben daiarol i'r eglwys, a'r llall yn *dwyfoli* rheswm.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duw. 353.

Dwyfola di fy nghân
A gwrddaist sanctaidd fant Esaia â thân.
Blackwell: C.A. 152.

Dwyfoliad, -au, *sm.* a rendering divine; sanctification, consecrating; deification.

Oddi ar y *dwyfoliad* o oreuon gwahanol wledydd.
J. Pryce: Eglwys Foreuol, 335.

Dwyfoliaeth, } *sf.* the action of making div-
Dwyfolaeth, } ine or sacred; divinity, divine nature.

Dirgelodd belydrau ei ddisglaer *Ddwyfoliaeth*
Hyd adeg briodol yn llen gudd dynoliaeth.
Eben Fardd: Gweith. 421.

Gwir *ddwyfoliaeth*, gwir ddynoliaeth,
Mewn gwir undod ynddo ei hun;
Mab y Dyn yn berson dwyfol
Gwir Fab Duw yn Fab y Dyn.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duwin. 500.

Dynoliaeth a dwyfoliaeth, humanity and divinity.

Dwyfraich, *sf.pl.* the two arms; the arms.

Ar dillat gwedy ry lithraw y ar y duyuron ef ae *dwyvraich*.
Mabinogion, 269.

Cadair ddwyfraich, an arm-chair.

Medrwch eistedd yn fynychach bellach yn eich *cadair ddwyfraich*, yng nghwr y pentan.—*Cylchgrawn*, i. 390.

Dwyfron, -au, *sf.* [dwy+bron: C. *duivron*] 1. the two breasts; the region of the breasts; the breast.

Gwynnach oed y *dwyuron* no bronn alarch gwynn.
Mabinogion, 117 (cf. 119, 269).

Nys attebawd Charlymaen namyn ymodi blew y varyflwyd oed ar hyt y *dwyuron*.
Campau Charlymaen, § 85 (cf. 81).

Ynteu a dodes y benn ar *dwyvronn* y llew ac a gysgawd.
St. Greal, § 26 (cf. 66, 76, 78, 251).

Idaw yd oed *dwyuron* lydan.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 12.

Dyret yspryt. sant kreawdyr byt. bydoed eurnaf. yn calonnev. an *dwyuronnev* vreinyawl hynaf.
Llyfr Ancr, 99 (cf. 94, 95).

Dwyfron Degau Eurfron gynt
O Garadog yr ydynt.—*L. G. Cothi*, 1. iii. 39 (cf. xviii. 55).

Nwyf y *ddwyfron*, berw y galon,
Am orne'r ôd yn ymdrafod.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 235 (cf. 220).

Pair iddynt gredu fal Crist'nogion
I Grist golli gwaed ei *ddwyfron*.—*Iolo Mss.* 278.

Hynny a tyrr sychet ac a burâ *dwyvron* ar kylla.
Meddygon Myddfai, i. 115.

Dwyn yr wyd, wen, dan aur wisg,
Dwyfron fal gwyn-luwch difrisg.—*W. Cynwal.*

Nerth march yn ei *ddwyfron*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 33.

A gwregysu eu *dwyfronau* â gwregysau aur.—*Dad.* xv. 6.

Yr hwn a bwysasai ar ei *ddwyfron* ef ar swper.
Ioan xxi. 20.

Hussah a gaethgludir, dygir hi i fyny, a'i morwynion yn ei harwain megys â llais colomenod, yn curo ar eu *dwyfronau*.—*Nah.* ii. 7 (cf. Luc xviii. 13; xxiii. 48).

Clwyd y ddwyfron: see s.v. *Clwyd*.

Ira *glwyd y ddwyfron*-ag ef bob dydd hyd y bo'r llysiau ar gaffaeliad.—*Meddygon Myddfai*, ii. 798.

Curo y ddwyfron, to beat the breast; to smite the breast.—*Luc* xviii. 13.

Oddi yno ni aethom i gynnulleidfa o rai mudion, lle nid oedd ond ocheneidio, a chrynu, a *churo'r ddwyfron*.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 36.

Cledr y ddwyfron: see s.v. *Cledr*.

A gossot ar y gwr du. a Chopart oed y enw. ae vedru yg *cledyr y dwyuron* ae wayw.—*Bown o Hamtwn*, § 32.

Ny thorrir taryan. a *chledyr dwyuronn* ysseyd ytt weithon ual y dylyynt dy lad a hen badell.
Ystt. de Carolo Magno, col. 444.

A Gwalchmei ae trewis ynteu ymperued *cledyr y dwyuronn*.
St. Greal, § 191.

Digitized by Google

2. the breast or bosom. Cf. *Bron* 3.

Wedi i mi ei yfed, fy nghalon a ddeallodd, a doethineb a ddaeth i'm *dwyfron*.—2 *Esd.* xiv. 40.

Delwais, a dibaid alaeth
Am wenfron i'm *dwyfron* daeth.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 2.

3. the side or slope of a hill. Cf. *Bron* 4.

Lle gwrthyd llawn-febyd llu,
Dwyfron allt, dwfr o neilldu.—*D. ab Gwilym*, lxxxvii. 51.

Dwyfroneg, -au (ŏ), *sf.* 1. a breastplate, a piece of armour for protecting the breast.

Rhyw wr . . . a darawodd frenin Israel rhwng y cyswllt a'r *ddwyfroneg*.—1 *Bren.* xxii. 34.*

Ein *dwyfroneg* yw cyfiawnder neu uniondeb buchedd.
Ed. Samuel: Grotius, vi. 11.

Dwyfroneg cyfiawnder, the breastplate of righteousness.—*Eph.* vi. 14.

Dwyfroneg ffydd, the breastplate of faith.—1 *Thess.* v. 8.

2. a breastplate or breast-piece, such as was worn by the Jewish high-priest.

Gwna hefyd ar y *ddwyfroneg* ddwy fodrwy o aur, a dod y ddwy fodrwy wrth ddau gwr y *ddwyfroneg*.
Ecs. xxviii. 23 (cf. 5; xxxix. 9—21).

Tynais f' enw o'r *ddwyfroneg*,
Wrth ymado â Sion wiw.—*Blackwell:* C.A. 193.

Dwyfroneg barnedigaeth, a breastplate of judgment.—*Ecs.* xxviii. 15.

3. some ornament worn on the breast (by the Jewish women).

Y pen-guwch, ac addurn y coesau, a'r ymodenau, a'r *dwyfronegau* [*tai yr enaid], a'r clustlysau.—*Esa.* iii. 20.

Dwyfundodiad, iaid, *sm.* [Dwyf (=Duw)+undod] a 'Theo-unitarian,' a Unitarian.

Gwedi i'r bobl a elwir Sosiniaid fod dros lawer o flynyddoedd mewn cymmundeb â rhai eglwysi nad oeddent yn hollol o'r un ddaliadau â hwynt, neilluasant yng nghylch yr amser hyn [1802], a ffurfiasant eu hunain yn gorff gwahanol, dan yr enw *Dwyfundodiad;* ac y mae yn bresennol [1816] amryw o eglwysi y *Dwyfundodiaid* yn y Deheubarth.
D. Peter: Hanes Crefydd, 669.

Mae Duwdod Crist, a haeddiant ei aberth, yn ddau bwnc neilldnol mewn dadl rhwng y Calfiniaid a'r *Dwyfundodiaid*.
Seren Gomer, iii. 10.

Teimlwn hyn yn ddyledswydd bwysig arnom, ac er ei chyflawnu, a dwyn i ben ein hamcanion o chwilio allan y gwirionedd, a'i arddelw yn hyderus, yr ydym yn ymgorfforoli'n Gymdeithas grefyddol dan enw *Dwyfundodiaid* Cymru.
Iolo Morganwg.

Cwrdd blynyddol y *Dwyfundodiaid* yn Aberdâr.
Iolo Morganwg.

Pa wahaniaeth . . . sydd rhwng Arfaeth, neu Raglunaethad Cyfammodol . . . a'r hyn a elwir Anghenrheidrwydd a osodir allan gan y *Dwyfundodiaid*?—*Seren Gomer*, viii. 179.

Gallwn gasglu . . . mai 1802 yw dyddiad genedigaeth yr enw '*Dwyfundodiaid*.'—*Ymofynydd*, 1896, 80.

Dwyfundodiaeth, *sf.* Unitarianism.

Dwyfundodol, **Dwyfundodawl**, *a.* Unitarian; relating to the Unitarians.

Dwyfundodwr, wyr, *sm.* a Unitarian.

Dwyfydd, -ion, *sm.* [Dwyf] a theologian, a divine.

Dwyfyddiaeth, -au, *sf.* theology, divinity.

Gwelsom nad oes modd deall dim yn iawn mewn athroniaeth na *dwyfyddiaeth* heb gredu.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 35.

Cawsom ynddi athroniaeth, *dwyfyddiaeth*, a barddoniaeth.—*Adolygydd*, i. 478.

Y mae dysgedigion Germani, er ys blynyddau bellach, wedi trafferthu yn ddirfawr er ceisio deall ac egluro ystyr y chwedlau, sydd ym mhlith yr holl genedloedd paganaidd . . . yr hyn sydd yn briodol yn cyfansoddi eu *dwyfyddiaeth*.
Traethodydd, v. 515.

Cyfrifa . . . fod y fath athrawiaeth yn gydunol â'r *ddwyfyddiaeth* gynnwysedig yng nghredo yr Eglwys.
Seren Ogleddol, 1836, 83.

Dwyfyddol, *a.* theological.

Dwyfyddu, *v.* to theologize.—*Dicts.*

Dwyfforchiad, -au, *sm.* [fforch] bifurcation.

Dwyfforchog, *a.* bifurcated.

Dwyffordd, *sf.pl.* two ways; two roads.

Gwedy gwelet o Vaxen lu kymeint a hwnnw yn dyuot ny erbyn ofynhau a wnaeth o pop vn o *dwyfford*.
Brut Gr. ab Arthur: (B) M.A. ii. 214.

A *dwyford* ereill yn amrysgoyw yr dinassoced a gyfarffei ac wynteu.—*Ystat. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 73.

Damchweinyawd udunt duw llungweith dyuot hyt yn ymyl croes a oed yn kyswllt *dwyfford*. . . . Y rei ysayd yn keissyaw anturyeu a ryfedodeu weldy yma *dwyfford*.
St. Greal, § 12.

Dwyffordd, **Dwyfforddog**, *a.* having two ways or courses; bivious.

Dwyffroen, *sf.pl.* the two nostrils, the nostrils.

Ac ual yd oed yn trossi penn y varch. ac a trawei y gwas oed yn seuyll rac bronn Arthur y march ar y *dwyffroen* ar cledyf trwy y wein.—*Mab.* 150.

Teisban y ddwyffroen, the gristle that parts the nostrils.—*W.*

Dwygaffelog, *a.* [caffell] bivalve, bivalvular.

Dwygeiniog, *sf.pl.* two pence, twopence.

Dwygeiniog, *sf.*=*Dwygeinioglys*.—*P.*

Dwygeinioglys, *sf.* herb twopence, moneywort, creeping loosestrife (*Lysimachia nummularia*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 184.

Dwygellog, *a.* [cell] having two cells, biocular.

Dwyglun, **Dwyclun**, *sf.pl.* [dwy+clun] two legs, the two legs, both legs.

A phaluawt a trewis y llew ar benn ysgwyd y gwr mawr yny uyd y balaf trwy bleth y *dwyclun*.—*Mab.* 190.

Y rhodiodd â'i *ddwyglun* yn ddigloff.
Huw Morus: E.C. ii. 329.

Dwygoes, *sf.pl.* [dwy+coes] two legs; the two legs, both legs.

Ac o penn y *dwygoes* a thal y deulin y waeret yn las.
Mab. 146.

Dwygragenog, *a.* [cragen] having two shells or valves, bivalvular.

Dwygwys, *a.* [cwys] that ploughs two furrows (at once); making or cutting two plits.

Aradr dwygwys, a double-furrow plough.

Yr *aradr dwygwys* a ganmolir yn Swydd Amwythig, lle y gwelir yn gweithio yn hynod yn y meusydd eang lled wastad.—*Aneurin Owen:* Amaethyddiaeth, 21.

Dwyiaith, **Dwyieithol**, **Dwyieithog**, *a.* [iaith] that speaks or uses two languages; having two languages; bilingual, duoglot.

Ac oni feth y gân fau,
Syniwch a genais innau,
Fardd *dwyiaith*, diledaith lin,
Lledwael Gymraeg a Lladin.—*Gronwy Owain*, 86.

Tybiais mai yn y Testament *dwyieithol* Rhydychain (1826) yr adferwyd gyntaf gyfleithiad cywir y Dr. Morgan yng nghylch 'drwg weithredwyr.'—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 235.

Dyn dwyiaith, a man of two languages, a bilinguist.—*Iolo Morganwg.*

Sallwyr dwyieithog, a duoglot psalter.

Dwyiaith, *sf.pl.* two languages or tongues.

Marsia gynt, Cymrîes gall,
Ar *ddwyiaith* a ro'i ddeall.—*L. G. Cothi*, i. i. 15.

A doeth iawn mewn *dwyiaith* wyd.—*Iolo Goch.*

Dwylan, -au, *sf.* [glan] two banks (of a river); both banks, both sides (of a river, &c.); two shores.

Digitized by Google

Ac y kywenv dywiev divod iti
Ac imlat in taer am *dwylan* Tywi.—*Myrddin:* A.B. ii. 27.

Gwedy vy mrodyr o dymmyr Havren
I am *dwylan* Dwyryw
Gwae vi Dduw vy mod yn vyw.
Llywarch Hen: M.A. i. 111 (cf. 425).

Ac y ar y *dwylan* yd ymglywant y dynyon.
Ystr. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 150.

Dwylaw, *sf.pl.* [dwy+llaw] 1. the two hands, both hands, the hands.

Y pen kenedyl byeu kymryt *duylau* y mab y rwng y *duylau* ynteu.—*Cyfreithiau Cymru,* i. 214 (cf. 82).

Ac y gyt ac yd ymeveil glynu y *dwylaw* hitheu wrth y kawc.—*Mab.* 51.

A dodi y *dwylaw* y gyt y rwng *dwylaw* Chyarlys a oruc.
Ystoria Charles, 16.

Dan lwyn, mewn dien lannerch,
A dail Mai, rhwng *dwylaw* merch.—*D. ab Gwilym,* xliv. 7.

A'r delyn aur i'w *dwylaw,*
Yn lleisio dros y llys draw.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 23.

Nid dyn, dyn o daw, a ddêl heb *ddwylaw;*
Nid llaw i bwysaw heb y bysedd.—*L. G. Cothi,* viii. x. 55.

Myned ddwylaw mwnwgl (*i un*), } to throw or
Dodi dwylaw am fwnwgl (*un*), } put one's arms round a person's neck; to embrace.

A *mynet dwylaw mynwgyl* idi a wnaeth yr amherawdyr.
Mabinogion, 88 (cf. 90, 95, 116, 206, 214).

Ae dyrchauel a oruc yr Arglwyd idi yna. a *mynet dwylaw mynwgyl* idi. ae rodi at Vihagel archangel.
Llyfr Ancr, 85.

Yna *mynet dwylaw mynwgyl* a wnaethyant.
St. Greal, ¶ 2 (cf. 244).

A *dodi* a wnaeth ynteu y *dwylaw am vynwgyl* y uorwyn.
Mabinogion, 84 (cf. 85).

A *dodi* o top un or marchogyon grymus y *dwylaw am vynwgyl* y gilyd.—*Campau Charlymaen,* ¶ 68.

Sef a oruc Dewi . . . *myned dwylaw mynwgyl.*
Buchedd Dewi: C.B.SS. 109.

Dwylaw agored, open hands; liberal hands.

Gruffut eur dilut *duylau egored.*
Llygad Gwr: M.A. i. 340.

Dangos ei ddwylaw, to show one's hands; to show one's skill or dexterity.

Curo dwylaw } (1), to clap hands (for joy).
Ffusto dwylaw }

Yr holl bobl, *curoch ddwylaw.*
Salm. xlvii. 1 (cf. Esa. lv. 12).

Curasant hefyd eu *dwylaw,* a dywedasant, Byw fyddo y brenhin.—2 *Bren.* xi. 12.

(2) to beat the hands together (for grief or sorrow).

Pan doeth ef yno yr oedynt wy yn *ffustaw eu dwylaw* y gyt. ac yn llefein. ac yr hynny nyt ymwrthodes ef a mynet y mywn. a phan doeth ef yr oedynt wy yn tynnu gwallt eu penneu.—*St. Greal,* ¶ 145 (cf. 139).

Curaw dwylaw rhag dolur,
A chriaw cwyn; och! o'r cur.—*L. G. Cothi,* vii. iv. 31.

(3) to clap the hands (in derision).

Curant eu *dwylaw* arno, ac a'i hysiant allan o'i le.
Iob xxvii. 23.

Y dwylaw, the hands.

Ei dwylaw gwynion, her white hands.

2. hands. Used generally as the plural of *Llaw* (=*llawiau,* but this word is not generally current).

Llawer o waith a wna llawer o *ddwylaw.*
Diareb. (M.A. iii. 185.)

Mab y Dyn a draddodir i *ddwylaw* pechaduriaid.
Matt. xxvi. 45 (cf. Luc ix. 44).

Efe a ddiangodd allan o'u *dwylaw* hwynt.—*Ioan* x. 39.

Syna rif mawr . . . a phalmwydd yn eu *dwylaw.*
Th. Huet: Dad. vii. 9.

Ar ddwylaw (1), upon the hands, in the hands.—*Salm.* xci. 12.

(2) on or at one's hands.

Heb ystyried y cymmwynasau a dderbyniais *ar* dy *ddwylaw* di.—*Lewis Anwyl:* Nefawl Ganllaw, 44.

Dwylaw llong, the hands or crew of a ship.—*C.S.*

3. When two hands (as distinguished from any other number) are intended, it is usual to write and speak *dwy law.*

Gwell i ti fyned i mewn i'r bywyd yn gloff, neu yn anafus, nag â chenyt *ddwy law,* neu ddau droed, dy daflu i'r tân tragywyddol.—*Matt.* xviii. 8.

Ni chodwyd ond *dwy law* o'i blaid ef, ond codwyd *dwy law* ar hugain dros ei wrthwynebydd.—*C.S.*

¶ In *Mic.* vii. 3, we have the curious expression *dwy ddwylaw* (for *dwy law*), both hands.

I wneuthur drygioni â'r *ddwy ddwylaw* yn egnïol.

Dwylawiog, *a.* [dwylaw] having two hands, two-handed, bimanous.—*Dicts.*

Dwylawogion, s.pl. bimana, two-handed animals.

Dwyliw, } *sf.pl.* [dwy+lliw] both parties, the
Dwylyw, } two parties, each party or side.

Os gweddwon yw'r *ddwylyw* sydd i'w priodi, yn ceisio cennad i ochel gostegion; yna y gellir gadael heibio y dosparthnodau hyny sy'n gofyn cydsyniad rhieni.
Canonau Eglwysig, 104.

Rhag briw y *ddwyliw,* er ddeulin archaf orchest ac amddiffyn.—*H. D. ab Ieuan.*

Yna gallassai yr ellyll brwnt fod yn wr y tŷ gyda'r *ddwyliw,* ac yntau wedi gwneyd y briodas.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 101.

Y *ddwyliw* brif athrofa, Rhydychain a Chaergrawnt.
Hanesion. (*P.*)

Dwylo, *s.pl.* corr. of *Dwylaw* (q.v.), common in the colloquial language, and often found in popular literature.

¶ It is the form found in most passages of Bp. Morgan's version of the Bible (1588); but Bp. Parry (1620), and others of the early editors, generally, but by no means uniformily, changed the word into *dwylaw,* now the usual orthography in all the authorized editions. The *Homilias* (1606), though written in South Wales, generally follows Bp. Morgan in this respect.

Llygaid llawforwyn, ar bob tro,
A ddilyn *ddwylo* 'i meistres.—*Edm. Prys:* Salm. cxxiii. 2.

Fe ddianc o *ddwylo* hil Lywarch,
Fal y diengis Sionas o fol y morfarch.—*Iolo Mss.* 273.

Duali facit, *Dwylaw,* & abusiuè *Dwylo.* Et aliquando pleonasticè, *Dwy-ddwylo.*—*Davies:* Rudimenta (1621), 29.

Er golchi ei *ddwy ddwylo,* fe wnaeth ag Ef gam;
Condemniodd E i farw heb wybod pa ham.—*Hen Garol.*

Dwylofaid, eidiau, *sf.* [dwylaw] two handfuls, as much as the closed hands will contain.

Dwylofi, *v.* [dwylaw] to stroke with the hands; to handle.

Dwylofiad, -au, *sm.* a stroking or patting with hands; a handling.

Dwylofiog, *a.* [dwylaw] two-handed, bimanous.

Dwylofogion, bimana, two-handed animals.

Dwyn, *v.* [C. *doen, doyn, dôn;* Br. *doen, dougen;* Ir. *denom;* Ga. *dean,* to do] 1. to bear; to carry; to bring; to take; to convey; to conduct. Used only in the infinitive: see *Dwg* and *Dug,* from which all the tenses are formed.

Onys kaffaf *dwyn* dy agclot ti a wnaf hyt y bu dy glot ym pedryual byt bellaf.—*Mab.* 105 (cf. fq.).

A *dwyn* llenn o bali a oruc ef ae thannu ar yr eistedua.
St. Greal, ¶ 2.

Digitized by Google

Llawvrydet am *dwc* om *dwyn* y wrthyd.
Cynddelw: M.A. i. 227 (cf. 280, 292).

O garchar anwar dacar em *duc.*—*Aneurin:* God. 455.

Chwedleu a doeth att Lawnslot y dywetut peri or brenhin *dwyn* deugeint marchawc yn aruawc yr neuad.
St. Greal, ‖ 239.

Peris Arthur *dwyn* medygon kywreint attaw.
Mabinogion, 212.

Mi a fum yn *dwyn* banner o flaen Alecsander.
Taliesin: M.A. i. 13.

Yd wyfi heb hi yn *dwyn* attat ti yn mab maeth ni.
St. Greal, ‖ 2.

Nid tra ariannawg ond rhai,
Dyn mwyn ni myn *dwyn* mwnai:
Dyn arall, myn *dwyn* arian;
Dwyn ei glod a fyn dyn glân.—*Iolo Goch.*

Anurddo a diffeithio gwaith Duw y mae pawb a *ddygont* ar arfer eiriau alltudiaith i'r Gymraeg.
Cyfrinach y Beirdd, 29.

Ni adawai efe i neb *ddwyn* llestr trwy y deml.
Marc xi. 16.

Abel yntau a *ddug* o flaenffrwyth ei ddefaid.—*Gen.* iv. 4.

Da genyf *ddwyn* y ddeilen las a newydd da i'r rhai a achubir.—*Morgan Llwyd:* Tri Aderyn, 4.

Er *dwyn* o yr encudd a'r diflant eilwaith farddoniaeth gyssefin.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 578.

Dwyn achau, to trace pedigrees.

Dwyn adref, to bring or take home; to fetch home; to bring back.—*C.C.* i. 94.

Pa ham gan hyny yr ydych yn olaf i *ddwyn* y brenin *adref*?—2 *Sam.* xix. 12 (cf. xiv. 13).

Dwyn arfau (1), to bear or carry arms (as a soldier).—*Rhuf.* xiii. 4.

Ar ei waith yn myned i ryfel, ni fynai wr aros gartref a fedrai herwydd nerth ac oedran *ddwyn arfau.*—*Iolo Mss.* 11.

Cymmaint oedd yr enw am dano wedi ymdanu ar led, fel y bu hoff gan galonau holl ieuenctid y deyrnas *ddwyn arfau* dano.—*Theo. Evans:* D.P.O. 104.

(2) to bear arms (as an armour-bearer); to carry the arms (of another person).

Yna yr ysgwier a diegynawd geyr bronn Galaath ac a adolygawd idaw yr karyat y neb yr oed yn *dwyn y arueu* ae arwydon ar y adel ef yn y gedymdeithyas oe ganlyn.
St. Greal, ‖ 10.

Efe a alwodd yn fuan ar y llanc oedd yn *dwyn ei arfau* ef.—*Barn.* ix. 54 (cf. 1 Sam. xiv. 1; 2 Sam. xviii. 15; xxiii. 37).

Erchi a wnaeth y Gawdin *dwyn y arueu* idaw yn llym.
Yst. de Carolo Magno, col. 444.

(3) to bear arms (on a heraldic shield).—*Iolo Mss.* 34, 35.

Dwyn coron (1), to wear a crown (as a sovereign).

(2) to seize a crown.

Kyn no *duyn coron* Lundein a theyrnwyalen yr ynys honn or Sayson.—*C.C.* 182.

Dwyn cyrch: see *Cyrch.*

A *dwyn kyrch* a wnaeth Protosolaus tywyssawc yr tir a gyrru ffo ar wyr Troea.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 18 (cf. 30, 35, 46).

Dwyn rhuthr, to make an attack or assault; to attack, to assault; to set upon.

Sef a oruc Gereint yna . . . *dwyn ruthur* hyt lle yd oed yr iarll.—*Mabinogion,* 289.

A *dwyn ruthur* y Cherub ae daraw ar warthaf y benn.
Yst. de Carolo Magno, col. 480.

A *dwyn ruthur* a wnaeth Amemnon hefyt ae vrathu.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 28.

Dwyn cyrch a gosod ar, to attack and assault.

Dygent gyrch a gosawd ar wladoedd y Gwyddyl.
Iolo Mss. 196.

Tri dyhiryn a *ddygant gyrch a gosod ar* y gwanaf. . . Gwr balch; gwr cyfoethawg; a lleidr pen ffordd.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 268.

Dwyn hwyl, to make a rush; to rush (at or to).

Yna *dwyn hwyl* yr cledyf a oruc ae dynnu allan.
St. Greal, ‖ 50.

Dwyn ar gred, } to make or cause to believe;
Dwyn i gred, } to bring or induce to believe; to cause to be believed; to persuade.

Ac nyt oes achaws gan Chyarlys y ymlad a phaganyeit. namyn y geissaw y *dwyn y gret* ar ffyd Grist.
Yst. de Carolo Magno, col. 467.

Gwedi dangos o Frân Fendigaid ab Llyr y ffydd yng Nghrist i genedl y Cymry, a'i *dwyn ar gred* yn Ynys Prydain.—*Barddas,* i. 406.

Dwyn hynt, to pursue a course or journey; to take a course; to make an expedition.

Ac ual yd oedynt yn *dwyn* eu *hynt,* nachaf wyr Meiryonnyd yg kyfrwg mynyded ac ynyalwch yn dwyn y bydin gyweir yn kyfaruot ac wynt.—*Brut y Tywysogion,* 100.

Llongwyr pan y gollyngynt,
Lle gwnân', dan hwntian, *dwyn hynt.*
Dafydd ab Gwilym, xv. 15.

Dug hynt y ddau sant deg hael
Gydag ef i gadw gafael.
I. Rhydderch ab I. Llwyd: Iolo Mss. 299.

Dwyn cylch, to make a progress or circuit. See *Cylch* 2.—*C.C.* i. 188.

Dwyn carennydd, to trace relationship.—*C.C.* i. 226, 228, 230.

Dwyn ar gof: see *Cof.*

Dwyn y groes, to bear the cross.—*Luc* xiv. 27.

Dwyn i'r dygn (1), to carry to the extremity; to bring to the test; to bring to a strait; to drive into a corner.

Ket dyweto perchennauc lledrat ar y dauaut leueryd ar arall ac nas *dyco yr dygyn* ny barnun ny namyn llw yr amdyffynnwr oy wadv.—*C.C.* i. 242 (cf. 210; ii. 176, 204).

(2) to affirm on oath; to take an oath; to swear.

Llyma bawb o'r ddwy blaid yn ammheu gwybyddiaid eu gilydd nas *dygant i'r dygn,* cyd as dywetoent ar eu tafawd-leferydd. Iawn yw i'r yngnaid yna eu creirhau.
Leges Wallicae, II. x. 28.

Dwyn poen, to bear, suffer, or endure pain.

Gad fi'n llonydd
I *ddwyn poen* o dôn penyd
A bâr holl adar y byd!—*D. ab Gwilym,* clxxxiii. 10.

Dwyn gofid, to bear affliction or trouble; to bear pain.

Dwyn baich (1), to carry a burden or load.—*Amos* v. 11.

(2) to bear a burden (in a figurative sense).

Dygwch feichiau eich gilydd.
Gal. vi. 2 (cf. Matt. xxiii. 4).

Dwyn swydd, to bear an office.

Ni welir Sais diddirwy . . .
Na dyn o Sais yn *dwyn swydd.*—*L. G. Cothi,* I. xxiv. 39.

Einion a fuasai'n *dwyn swydd* anrhydeddus dan y brenin yn ei ryfeloedd.—*Iolo Mss.* 24.

Dwyn dydd, to bear date.—*W.*

Dwyn i ben, to bring to an end; to bring to pass; to bring about; to finish, complete, end, or accomplish; to bring to perfection. —2 *Bren.* xix. 25.

Treigla dy ffordd ar yr Arglwydd, ac ymddiried ynddo; ac efe a'i *dwg i ben.*—*Salm.* xxxvii. 5 (cf. Gen. l. 20).

Maent yn dal dynion yn wastadol mewn dwnad a gofal pa fodd i *ddwyn* eu drwg amcanion i *ben.*
Edward Samuel: Holl Ddyl. Dyn, xvi. 16.

Dwyn gwystl, to take a pledge.—*C.C.* i. 118, 122, 226.

Dwyn lluydd, to lead hosts; to bring an army. —*C.C.* i. 190.

Digitized by Google

Dwyn trais, to commit a rape.—*C.C.* i. 90, 92, 100, 102, 788; ii. 526, 734.

Sef a oruc ynteu ymauael a hi a *dwyn treis* arnei.
Llyfr Ancr, 106.

Dwyn yng nghyd, to bring together; to assemble; to collect.—*C.C.* i. 228.

Dwyn tystiolaeth, to bear witness, record, or testimony; to testify.—*Luc* iv. 22 (cf. Act. x. 43; xiv. 3).

Wynt a allant *dwyn tystyolaeth*.
C.C. ii. 634 (cf. 162, 176, 188, 218).

I hyn y mae S. Paul yn *dwyn tystiolaeth* mewn llawer o leoedd yn ei Epistolau.—*Ed. James:* Hom. iii. 39.

Gan i lawer miloedd o'n brodyr ni, o fewn yr ugain mlynedd yma, *ddwyn tystiolaeth* i'r gwir, a hyny mewn dirfawr boenau.—*Morus Cyffin:* Diff. i. 8.

Dwyn traul peth, to bear the charge or expense of a thing.

Dwyn i fyny, to bring or rear up; to educate, to train.

Am fod yn gorfod arnynt roi heibio rydd-did eu llywodraeth . . . ac yn *dwyn* eu plant *i fyny*.
Ed. James: Hom. iii. 173.

Dwyn i fyny ar fonedd: see *Bonedd*.

Dwyn y dyn a wnel y cam hyd yn ddiogel, to convey the offending person to a place of security.—*C.C.* i. 10.

2. to bear, to bring forth; to produce; to give birth to.—*Gen.* iii. 18.

A'r barth perllanog llawnwyn,
Heb *ddwyn* ond chwyn a hesg.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 49.

Dwyn rhai bach, to bring forth young.

Dwg y fenyw ei *rhai bach* tua diwedd Mehefin.
Gwyliedydd, iii. 72.

Dwyn i'r byd, to bring into the world.—*Heb.* i. 6 (cf. 1 Tim. vi. 7).

Dwyn ffrwyth, to bear or produce fruit.—*Gen.* i. 11, 12.

Hyt yny ymchoelet yr holl wlat ar agkrynodeb heb *dwyn* dim *ffrwyth*.—*Brut y Tywysogion*, 80.

Yr afallen sur a *ddwg* afalau per, a'r yspyddaden a *ddwg* ellyg; y sirianbren gwyllt a *ddwg* geiroes melus; a phob pren, er dryced fyddo o honaw ei hun, a berir i *ddwyn ffrwyth* da pereiddfias.—*Moses Wiliams:* Llawlyfr, xix.

Pob pren da sydd yn *dwyn ffrwythau* da; ond y pren drwg sydd yn *dwyn ffrwythau* drwg.—*Matt.* vii. 17 (cf. 18, 19).

Dwyn plant, to bear children.—*Gen.* iii. 16.

Dwyn mab (1), to bear a son; to bear a child.

(2) to swear a child (to one); to affiliate a child.

Pa wreyc bynnac a uynno *dwyn mab* yn gyureythyaul ual hyn y mae yavn ydy y duyn. . . Ual hynny y dylyir *dwyn mab* y Gymro. Ac y ual hyn y dylyir *dwyn mab* y alltud.
C.C. i. 206 (cf. 784).

A oes vn mab a vo reit y wadu, neu y gymryt heb y *dwyn* gysseuyn? Oes: mab gwreic vut; kanny eill hi y *dwyn* ef ynny bywyt oe tat, ae genedyl yn dywedut y hanvot ef o honunt, ac yna y mae reit y gymryt neu y wadu heb y *dwynn*.—*C.C.* i. 598 (cf. 208).

Dwyn mab i genedl, to affiliate a child to a kindred.

Teir pla kenedyl: magu mab arglwyd; a *dwyn mab y genedyl* yg kam; a guarchadw penreith.
C.C. i. 788 (cf. ii. 530).

3. to take away.

Yny yttoed y chwys ar gwaet yn *dwyn* lleuuer eu llygeit raodunt.—*Mabinogion*, 255.

Gwr a wnaei ar Lloegyr llwyr anreith
A *dwyn* y dynyon yn geith.
Dan. ab Llosgwrn Mew: M.A. i. 268.

Diffeithaw y wlat a orugant . . . heb *dwyn* dim gantunt.
Brut y Tywysogion, 100.

Dynyadon deon dyly am y *dwyn*
Dolur kwyn ae kyffry.
Einion Wan: M.A. i. 334 (cf. 201).

Ac i'r neb a fyno ymgyfreithio â thi, a *dwyn* dy bais, gad iddo dy gochl hefyd.—*Matt.* v. 40 (cf. Ioan x. 18, 29).

Ac yn awr dyma'r anifail . . . yn *dwyn* fy nhipyn tir oddi arnaf.—*Gronwy Owain*, 191.

Dwyn ymaith, to take or carry away.—*Marc* iv. 15 (cf. Dad. xii. 15).

Dwyn bywyd, to take away life.—*Act.* viii. 33.

4. to take away feloniously; to steal. A common colloquial use of the word; originally perhaps a euphemism for *lladrata:* 'convey, the wise it call.'

Achaws y tryded ormes yw heb ef. Gwr lleturithawc kadarn yssyd yn *dwyn* dy vwyt ath lyn ath darmerth.
Mabinogion, 97.

Och i mi! henw dyrys,
Ond *dwyn* rhai o'r ŵyn yr ys!—*D. ab Gwilym*, clxviii. 51.

'Dyma i chwi,' ebr ef, 'ddarn o negeswr teg, oedd ar grwydr hyd ei hen gymmydogaeth uchod y nos arall, ac a welai leidr yn myned i *ddwyn* ystalwyn.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 100.

Na *ddwyn*, er bod yn wael a thlawd.
Roberth Owen: Gweith. 214.

Am *ddwyn* dwy ystyllen dderw, tri mis o garchar.
Gwyliedydd, vii. 416.

Dwyn yn lledrad, to take away by stealth; to steal.—*C.C.* ii. 224, 676, 682, 726.

Athro heb y Bown. vy march a *ducpwyt yn lledrat*. ac yn wir yt y mae ef gan Inor vrenhin.—*Bown o Hamtwn*, ‡ 64.

Dwyn yn echwyn, to borrow.—*S.*

¶ *Dwyn* in *Ioan* xii. 6 presents a similar ambiguity of meaning as the original (ἐβάσταζεν) does.

5. to lead (as a life); to conduct; to spend (time).

Gwell oed gantaw uarw yn aduwyn no *dwyn* y vuched yn dwyllodrus.—*Brut y Tywysogion*, 174.

Ti a vuost yn gwassanaethu y kythreul. ac a ymedeweist ath Greawdyr. ac a *dugost* y vuched waethaf.
St. Greal, ‡ 15.

Yno y bu yn *dwyn* bywyd,
A'i drefn bwys, dra fu'n y byd.
Lewys Morganwg: Iolo Mss. 238.

Tri pheth a orchymyn cyfreith y bawb: *dwyn* y fowyt yn addfwyn; ac na wnelo coddyant y arall na gostwng; a roddi y bawb a ddylyo.—*C.C.* ii. 656.

Yno y treulyssant y pedwar ugeint mlyned hyt na wybuant hwy eiryoet. *dwyn* yspeit digrifach na hyfrydach no honno.—*Mabinogion*, 42.

A'r gwŷr hyn oeddynt yn *dwyn* eu byd yn Rhufain, yn y dref sanctaidd, yng ngolwg y sancteiddiolaf dad.
M. Cyffin: Diff. iv. 25.

Dwyn einioes mae'r dynionach
Obry'n y byd fel brain bach!—*Daniel Ddu*, 313.

Dwyn, *a.* [cf. *addwyn*] pleasant, agreeable, pleasing; courteous; condescending.

Dwyn ac almyg yw dy gallineb, a thyner yw dy nwyd, ac ni cheir a edwyn dy fath.—*Iolo Mss.* 176.

Dwyndeb, } *sm.* pleasantness, agreeableness;
Dwynder, } courtesy; bliss.

Dwynig, *a.* of a pleasant nature; pleasing.

Dwynol, *a.* of a pleasant tendency.

Dwynos, *sf.pl.* [dwy+nos] two nights; the space of two nights.

Nyt oes namyn *dwynos* yr pan orwedawd ef yma.
St. Greal, ‡ 161.

Ac y bu deudyd a *dwynos* yn kerdet ynyalwch fforestyd.
Mabinogion, 195.

Yn Nhŵr Baldwyn es *dwynos*,
Mynwn 'y mod mewn un mis.—*L. G. Cothi*, III. iii. 1.

Nid fal hen-fwth, lle glwth gwlaw,
Diddos fydd *dwynos* danaw.—*D. ab Gwilym*, cxxxii. 31.

Digitized by Google

Dwynwen, *sf.* [dwyn+gwèn (*P.*): qy. dwyn +gwen (*f.* of gwyn)? cf. *Gwen, Ceinwen, Ceridwen, Olwen, Tonwen*] 'The smile of bliss; the Venus of the Britons; a woman's name, the daughter of Brychan Brycheiniog.'—*P.* Dafydd ab Gwilym has a poem (lxxix.: cf. cxi. 51; cxxxviii. 13; cxcvii. 39) addressed to Dwynwen as the patroness of distressed lovers; and the legend as to how she became so regarded is given in *Iolo Mss.* 83, 84 (tr. 473). She is also the reputed foundress of the church of *Llanddwynwen* or *Llanddwyn* in Anglesey. See Rees, *Welsh Saints*, 151; L. Morris, *Celtic Remains*, 145.

Y mae y prydyddion Cymreig yn galw *Dwynwen* yn Dduwies neu Santes Cariad a Serchogrwydd, fal y galwai y pöetau Venus.—*Dafydd Jones* (1587, in Iolo Mss. 83).

Hir fo oes meinir, Iesu! Amen;
Hir o ddaioni yw chwaer *Ddwynwen*.
L. G. Cothi, I. xxxvi. 37 (cf. ix. 76; III. xxiii. 53).

A glywaist ti chwedl *Dwynwen*
Santes, merch deg Brychan hen?
Nid caruaidd ond llawen.—*Iolo Mss.* 253 (cf. 242).

Gwyl Ddwynwen, Dwynwen's day or commemoration, occurs on the 25th of January.

Ni ddaw un, hyd *wyl Ddwynwen*,
O dre' boeth heb dori ei ben.—*L. G. Cothi*, v. iii. 53.

Dwyodid, *sm.* [for *dwydid?*] Deity, Godhead.

Tra vei dywawl Duw yn y *dwyodit*.
Phylip Brydydd: M.A. i. 377.

Dwyoedd, *s.pl.* See *Dwy, sf.*

Dwyoes, *sf.pl.* [dwy+oes] two ages; two lives.

Dwyoes hir Margred a Sion.—*L. G. Cothi*, IV. xiii. 59.

Ba wr, o bai hir ei oes,
Ba dda, a wna byw *ddwyoes?*—*Iorwerth Fynglwyd.*

A'r dydd yn hwy, na *dwyoes*,
O'm blaen, o'm hol, ffol y ffoes!
D. ab Gwilym, xcvii. 37 (cf. xciv. 2; ccxv. 48).

Es *dwyoes* nid oes dial.
L. G. Cothi, I. v. 8 (cf. ix. 78; xvi. 67; III. xxi. 55).

Mygyn o'r cetyn cwta
Wnai o un oes *ddwyoes* dda.—*Gronwy Owain*, 20.

I ddiolch yr af *ddwyoes.*—*Deio ab Ieuan Du:* G.B.C. 174.

Dwyonglog, *a.* having two angles or corners, biangular.

Dwyol, *a.* [dwy] relating to two; dual; double.

Pa un ai sain geiriau, neu eu cyfansoddiad, neu henafiaeth, neu ryw beth arall, sydd yn gofyn am lawer o lythyrenau *dwyol* mewn ysgrifenyddiaeth Gymraeg?
Ioseph Harris: Gweith. 13 (cf. 14).

Dwyolder, *sm.*=*Dwywolder, Dwyfolder.*

Reen lleen llathyr dref nef naf *dwyolder* chwec.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 475 (cf. 535).

Dwyr, *sm.* a rise or rising; the orient or east.

Y bore weithion ar ei breilw rawd
O *ddwyr* yn eddain, heuai ddaiar las
A gleinion.—*W. O. Pughe:* C.G. v. 1 (cf. iv. 707).

Y llannerch hoedd, a phob argelfa gudd,
O *ddwyr* i lewin, ac o gol i gol.—*Seren Gomer*, vii. 413.

Lloer, a erbyni, ai a ffoi haul *dwyr*,
A safawl ser, saf yn eu rhod ar chwyl.
W. O. Pughe: C.G. v. 185 (cf. xii. 159).

Loer, weithion hwyli tu â'r haul i'r *dwyr*,
Ac weithion gyda'r ser sefydlog pefr . . .
Moliennwch ef a alwai wawl o wyll.
I. D. Ffraid: Coll Gwynfa, v. 210.

Heidiai haid gwiw oed dy rwysg,
A aethant wysg eu traha
I arfolli bore *dwyr*,
Gan deg arwyrain iddo.—*W. O. Pughe:* Bardd, ii. 2.

Boreu, a'i haul nas el ar *ddwyr*
Heb fachlud byth mo'i wawr;
Diwrnod ddél heb iddo hwyr
Yw Tragwyddoldeb mawr.—*Gwyliedydd*, ix. 58.

Dyfrysia yna, ac oddi ar bob per
Esplydden bynnag a doreithia hi
Y Ddaiar dryfryw fam yn Ind, *Dwyr*
Neu Lewin, Pontus, ai canoldir sawd.
W. O. Pughe: C.G. v. 360.

Dwyrag, *prep.*=*Dyrag?*

Dragon o *dwyrag* draig o dwyrain.
Cynddelw: M.A. i. 204.

Dwyrain, *sm.* [dwyr, dwyre] the east, the orient; the eastern part of the world; the Levant.

Arglwyd heb ef kychwyn y hela y fford y gwelut dy uot yn mynet ae parth ar *dwyrein* ae parth ar gorllewin.
Mabinogion, 86 (cf. 104, 226).

Dydav yr heul or *duyrein* ir goglet.
Llyfr Du: A.B. ii. 10.

Doe y kyuodes yr heul yn y *dwyrein*. ac y dygwydwys yn y gorllewin.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 404 (cf. 416).

Ai'r diriaid wynt o'r *dwyrain*
A wnaeth gur hyd y mur main?—*D. ab Gwilym*, cxl. 25.

Bid wir, dros wyneb y *dwyrain*,
Ar law Rhys reoli rhai'n.
L. G. Cothi, I. xxiv. 55 (cf. xxxv. 17, 27).

Pan goller y glaw, o'r *dwyrain* y daw.—*Iolo Mss.* 226.

Gwyntoedd mawrion a gyfodant o'r *dwyrain*.
2 *Esd.* xv. 39 (cf. 20, 28, 34).

Pan ymlygrodd Cristionogaeth yn y *Dwyrain*, ymgymmysgodd gan mwyaf â'r grefydd luddewaidd.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 36.

Defod yw gwneuthur y cylch cynghrair . . . yn wyneb haul y *dwyrain.*—*Iolo Mss.* 60.

Dyred eilchwyl i'r *dwyrain.*—*D. ab Gwilym*, xciii. 44.

Doethion a ddaethant o'r *dwyrain* i Ierusalem, gan ddywedyd, Pa le y mae yr hwn a anwyd yn frenin yr Iuddewon? canys gwelsom ei seren ef yn y *dwyrain*.
Matt. ii. 1, 2 (cf. 9).

Wrth y *dwyrain* y mae i ni ddeall, yn aml, y gwledydd hyny y rhai oeddynt o du y *dwyrain* i wlad Canaan.
Th. Charles, s.v. 'Dwyrain.'

Y Wawr weddus, â'i bysedd rhuddain,
Sydd draw yn agor dor y *dwyrain*.
I. G. Geirionydd: Geir. 62.

Tua'r dwyrain, } towards the east, eastward,
Tu â'r dwyrain, } eastwardly, in an eastern or eastward direction.

Ketwych gorff Meir. a dygwch ef yr parth deheu yr dinas y *tu ar dwyrein.*—*Llyfr Ancr*, 80.

A dygwydaw yn groes a wnaeth y *tu ar dwyrein*.
Yst. de Carolo Magno, col. 421.

Fe ddywedir fod yr hen bobl cyn y diluw yn troi eu hwynebau *tua'r dwyrain* wrth weddio.
Theo. Evans: D.P.O. 316.

A Lot a aeth *tu â'r dwyrain.*—*Gen.* xiii. 11 (cf. xxv. 6).

Nid oes neb o bobl y *dwyrain* mor anoddefgar mewn prinder dwfr ag yw pobl yr Aipht.—*Gwyliedydd*, iii. 139.

Yr oedd hyn mewn ffordd yn gyfaddefiad o ddyled y Gorllewin i'r *Dwyrain.*—*Brutus:* Ninefeh, 285.

Meibion y dwyrain, the sons or children of the east (*Bene Kedem*).

Yr oedd y gwr hwn yn fwyaf o holl *feibion y dwyrain.*—*Iob* i. 3 (cf. Gen. xxix. 1; Barn. vi. 3, 33; vii. 12; viii. 10; Esa. xi. 14).

Tir y dwyrain, eastern land or lands.

Coronog Faban, medd Doethion Rhufain,
A ä dros fôr i *dir y Dwyrain*.
Iolo Mss. 278 (cf. 275, 280, 283).

Gwledydd y dwyrain, the countries of the east, the eastern countries.

A thebygol ei dyfod ar y cyntaf oddi wrth *wledydd y Dwyrain.*—*Ch. Edwards:* Hanes y Ffydd, 168.

Cyrhaeddodd *wledydd y dwyrain* yn ddiogel.
Gwyliedydd, iii. 364.

Heol y dwyrain, the east street (in ancient Jerusalem).—2 *Cron.* xxix. 4.

Digitized by Google

Eglwys y Dwyrain, the Church of the East, the Eastern Church.

Nid oeddynt eto mor barod yn *Eglwys y Dwyrain*.
Ed. James: Hom. ii. 58 (cf. 60, 63).

Daeth bywyd ac adnerth i *Eglwys y Dwyrain*.
Blackwell: C.A. 189.

Gwynt y dwyrain, the east wind; the easterly wind.

Yn erbyn hwnnw y kyfyt *gwynt y dwyrein*.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 148.

A *gwynt y dwyrain* y drylli longau y môr.—*Salm.* xlviii. 7 (cf. Ier. xviii. 17; Esec. xvii. 10; Hos. xii. 1; xiii. 15; Hab. i. 9).

Ni luddias eiry hwn, na chwerw *ddwyrain wynt*.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 165.

Môr y dwyrain, the east sea. In the subjoined references it denotes the Dead Sea, which is to the east of Judea.—*Esec.* xlvii. 18; *Ioel* ii. 20; *Sech.* xiv. 8.

O'r dwyrain i'r gorllewin, from the east to the west; from east to west.

¶ The word *Dwyrain*, though masculine, is usually followed by the adjective in the feminine or soft form; as, *dwyrain bell*, *dwyrain deg*, *dwyrain faith*.

Cyfeiria acw yforu
Y *dwyrain deg*, aderyn du.—*D. ab Gwilym*, cx. 33.

Y *dwyrain gain*, ar gynnydd,
Yw'r lle y bore y bydd.—*Dafydd Ionawr*, 59 (cf. 73).

Neu man y taena *dwyrain wych* ar ei
Breninoedd y myrierid pefr ac aur.
W. O. Pughe: C.G. ii. 3.

Dwyrain has often a capital initial, especially when it denotes the eastern part of the world, the eastern countries.

¶ Pughe defines *dwyrain* as 'abounding with dawnings of light;' but the word refers to the *rising* of the sun, and answers to the Gr. ἀνατολή, the Lat. *oriens*, and the Heb. מִזְרָח.

Dwyrain, *a.* east, eastern, orient, oriental.

Tragwyddawl wawl a welir
I'w harwain i'r *dwyrain* dir.
G. Mechain: Gwaith, i. 315 (cf. 165).

Haul dwyrain, the rising or orient sun.

Bwrw yn llwyr, fal *haul dwyrain*,
Fy mryd ar wen, fy myd main!
D. ab Gwilym, cxlii. 9 (cf. xxxvi. 11).

Dyfelais bryd fy myd main,
Ei deurydd fal *haul dwyrain*.—*D. ab Gwilym*, viii. 45.

Yr Eglwys Ddwyrain, the Eastern Church.

Gwelwn pa fôr o flinderau ac aflwydd a ddug maenteiniaeth delwau gyda hi, pa rwygiad anferth rhwng yr Eglwys Orllewin a'r *Eglwys Ddwyrain*.
Ed. James: Hom. ii. 73 (cf. 59).

Yr India Ddwyrain, } the East Indies.
India y Dwyrain, }

Dwyrain, *sm.* a rising or uprising.

Am Ewein am *dwyrein* dyrllyt.
D. ab Llosgwrn Mew: M.A. i. 268 (cf. 199, 259).

Dwyre, wawr fore erfai, arwain
Dymmawr, dydd eurwawr, da ei *ddwyrain*.
Gronwy Owain, 112.

Dwyrain, *v.* to rise; to elevate; to come to sight.

Dydd araul da i *ddwyrain* i'r orsedd oreu-sain,
Llyw mirain goradain yn groew-deg.
D. Ddu Eryri: Corff y Gainc, 344.

Dwyran, *sf.pl.* [dwy+rhan] two shares; two parts or portions.

Ef a dele *duyran* or ebran yu uarch ef.
C.C. i. 28 (cf. 224, 698).

O gyfan bedair rhan byd,
Dwyran i mi y deiryd.—*Gronwy Owain*, 47.

Dwyraniad, -au, *sm.* bipartition.

Dwyre, } *v.* [dwyr] to rise, arise, or uprise; to
Dwyro, } rise up into view; to appear (above the horizon); to get up; to grow or spring up; to raise; to lift up.

Or pan *ddwyre* haul hyd pan gynnu.
Taliesin: M.A. i. 53.

Dewr egin *dwyreawd* yn das.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 300.

Gwir *dwyre* mal gwawr dwyrein.
Gwiw leufer kanneitber kein.—*Llyfr Ancr*, 104.

Kyfleuer gwawr dyt pan *dwyre* hynt.
Cynddelw: M.A. i. 216 (cf. 264, 279).

Gnawd gwedi ryserch ryse
Sylwed gwyth gwrth y *dwyre*.—*Gwalchmai:* M.A. i. 208.

Guaur pen *dwyre* gawr a doded.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 265.

Hyd y *dwyre* heul hyd y dwyrein.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 321 (cf. 292).

Mab cor dor dewred ef *dwyre* prifgat.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 298.

Dwyre wyneb dirion-wawr.—*Sypyn Cyfeiliog*.

Ser bore a *ddwyrëynt*
Yn llu i gydganu gynt.—*Gronwy Owain*, 79 (cf. 42).

Deffro, Awenydd, gelfydd ganon,
A *dwyre* o drumiau Pumlumon.—*I. B. Hir:* Gwaith, 81.

Megys yr oedd y ddaiar wedi ei gorchguddio â thywyllwch cyn *dwyre* o'r haul; felly yr oedd yr holl fyd cenedlig wedi ei doi â chuddug erchyll anwybodaeth, cyn cyfodi o Haul Cyfiawnder.—*Moses Williams:* Llawlyfr, xxii.

Dwyre, O! wybodaeth dirion;
Dwyre, addysg y Derwyddon!
Dwyrëwch, moeswch armesion,
A chynnwysiad o'ch hanesion.
G. Mechain: Gwaith, i. 319 (cf. 194, 203).

Nis *dwyra* weithion awel hy
I welwi gwedd dy loewder fry.
W. O. Pughe: Ceinion Awen, 137.

Dwyre gu lais, dyro glod
I dirionder y Drindod.—*Pedr Fardd:* Mêl Awen, 187.

Machludai haul, a *dwyrai* hithau loer.
W. O. Pughe: Ceinion Awen, 131.

Chwim hedwch, fiwyddau! *dwyre*, ddedwydd ddydd!
Blackwell: C.A. 152 (cf. 154).

Dwyrëwch, sylwch ar chwys ei aeliau.
Dewi Wyn: Blod. Arf. 64.

Iawn lewych, anwyl Awen,
Dwyrea 'n wawl—dirion wên.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 194.

Ti decaf seren, olaf o lu'r nos . . .
A'th gronen ddisglaer, mawl ef yn dy rod,
Tra *dwyra* 'r dydd, yr awr blygeiniol fwyn.
I. D. Ffraid: Coll Gwynfa, v. 200.

Machludant a *dwyreant*.
W. O. Pughe: C.G. iv. 727 (cf. vii. 4).

Saul, â dwys wedd, ei weddi
Ddwyreai ar ei Dduw Ri.—*Nicander:* Sant Paul, iii.

Ar ing a garw anghen
Dwyra darian lydan len.—*W. O. Pughe:* Manion.

Dyma Satan rhwng y Sarff
A Saethydd fry yn hwyliaw, pan oedd haul
Yn *dwyre* yn yr Hwrdd.—*W. O. Pughe:* C.G. x. 324.

Dwyre, ddawn uniawn anwyl,
Tro dy hun, tyred i hwyl.—*Gwyliedydd*, ii. 251.

Dwyre, *sm.* a rising, an uprising; a raising.

Cyn twrf dwyrein *dwyre* brwydrin.
Gwalchmai: M.A. i. 199 (cf. 275).

Claer orne *dwyre* deurud.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 296 (cf. 510).

Gwâr ddeurudd hoen gwawr *ddwyre*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 454.

Dwyread, -au, *sm.* a rising; a coming or rising into view.

Dwyreain, *v.* to rise; to become visible; to come or emerge into sight. See *Dwyre*.

Dwyreain, *a.* orient, eastern, ortive.

Y drych a lawenhäi
Ynysoedd eithaf daiar, ac y brys
Genedloedd yfynt y *dwyreain* wawl.
W. O. Pughe: Palestina, 22.

Digitized by Google

Dwyreawg, } **Dwyreog,** } *a.* rising, orient, ortive.

Moch *dwyreawc* y meitin
O gynnu aber rac fin.—*Aneurin:* God. 668 (cf. 662).

Gan rawd araf ger y car
Dwyreawg, er mawrhau athronawl ffrost
Y treisiad oer.—*W. O. Pughe:* Palestina, 26.

Dwyreawl, } **Dwyreol,** } *a.* rising, orient, ortive; appearing (above the horizon).

Heul y dwyrein honn oed riein hoen *dwyreawl*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 466.

Oll ehedant y llu hudawl,
I gyfarchu gwawr *ddwyreawl*.
Iago Trichrug: Y Bardd, ii. 2.

Mae'n hŷn yn ei darddiad na'r ser bore fu
Yn canu uwch bydoedd *dwyreol* di ri'.
Islwyn: Caniadau, 64.

Yr haul dwyreawl, the orient or rising sun.

Pan fo'r disglaer *haul dwyreawl*
Yn goreuro gwlith y wawr.—*D. Silvan Evans.*

Dwyreawr, } **Dwyreor,** } *sm.* he who or that which rises; a riser; a lifter.

Llenwyt *dwyreawr* i fawr faessyt.—*Meilir:* M.A. i. 191.

Drwy ymysgaroedd Dduw ddwywawl nêr
Yn y rhai i'n gofwyawdd *ddwyrëawr* o uchelder.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 567.

Dwyreinair, eiriau, *sm.* an oriental word or expression; an oriental idiom; an orientalism.—*W.*

Dwyreinbarth, -au, *sm.* the eastern part (of a country, district, town, &c.).—*W.*

Dwyreinbarth Ewrop, the Eastern part of Europe; Eastern Europe.

Dwyreinbarth Llundain, the Eastern part of London; East London.

Dwyreindir, -oedd, *sm.* eastern land, east-land.

Yno deuai hen wŷr doethion
O'r *dwyreindir* yn dra union,
I Iudea wrth y Seren,
I ymofyn Crist yn llawen.—*Rhys Prichard:* C. y C. iv. 22.

Dwyreineiddio, *v.* to make oriental; to make as or like the east.

Bu y byd gorllewinol (Ewrop) fwy nag unwaith mewn perygl o gael ei *ddwyreineiddio*, sef ei ddwyn i gyflwr sefydlog a chreigaidd gwledydd y dwyrain.
Haul, C.C. xiv. 181 (cf. 182).

Dwyreinfor, -oedd, *sm.* the East sea.

O luchynt helynt holion *dwyreinfor*
Ac o lynn Tabor lan attebion.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 462.

Aed ei fellt i'r Deheu Fôr,
A'i daranfa i'r *Dwyreinfor*.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 148.

Dwyreinfyd, *sm.* the eastern world; the orient, the east.

Er y pryd y Swartz yn cyhoeddi fod bywyd
Yn angeu y groes i Baganiaid *dwyreinfyd*.
Blackwell: C.A. 186.

Ei phrif ddinas . . . oedd o gylch y flwyddyn 1600 yn odidocaf o holl ddinasoedd y *dwyreinfyd*.
R. Roberts: Daearyddiaeth, 276 (cf. 269).

Creaduriaid cedyrn ac ofnadwy, rhy adnabyddus yn ardaloedd creision y *dwyreinfyd*.
G. Mechain: Gwaith, ii. 231 (cf. 8, 65; i. 200).

O wledydd y *dwyreinfyd* pell y daw'r alltud.
Brutus: Brutusiana, 64.

Bu yr Eglwys Gristionogol yn Eglwys lenyddol yn y *dwyreinfyd* am oesoedd. . . Ar y cyfan, y mae y *dwyreinfyd* yn awr yn yr un cyflwr o sefydlogrwydd ac anghyfnewidiaeth ag oedd dair mil o flynyddoedd yn ol.
Haul, C.C. xiv. 181 (cf. 182).

Dwyreiniaid, *s.pl.* easterns, people of the east, orients, orientals.

O herwydd sefyllfa y genedl hon, gelwir hwynt weithiau Cadmoniaid, sef *Dwyreiniaid*.
S. Lloyd: Amseryddiaeth, 47.

Ior Duw a ranodd i'r *Dwyreiniaid*,
Drwy ei Sior anwyl drysor enaid.
Gwaith G. Mechain, ii. 466.

Dwyreiniaith, ieithoedd, *sf.* 1. an eastern or oriental language.

2. an oriental idiom or expression, an orientalism.—*W.*

Dwyreiniant, *sm.* orientation.

Dwyreiniant eglwys, the orientation of a church.

Dwyreiniol, *a.* eastern, oriental, east, easterly, orient; levantine.

Wele *ddwyreiniol* oleuni a thoriad y wawr yn sirioli calonau trigolion Lloegr.
G. Mechain: Gwaith, ii. 40 (cf. 336, 338, 396).

Y Môr Tawel . . . yr hwn sydd â'i barthau *dwyreiniol* yn golchi glenydd gorllewinol America.
R. Roberts: Daearyddiaeth, 2.

Rhan o'r Aipht Isaf oedd gwlad Gosen, ar ochr *ddwyreiniol* i'r Delta.—*S. Lloyd:* Amseryddiaeth, 70.

Ar y lan *ddwyreiniol* yr oedd y ddaiar wedi ei golchi ymaith gan y ffrwd.—*Brutus:* Ninefeh, 7.

Hwynt yn ol o sylwi, tu
Dwyreiniawl Gwynfa oll a selynt hwy.
W. O. Pughe: C.G. xii. 712.

Y mae Caercystenyn yn sefyll ar ddarn trionglog o dir, ar derfyn *dwyreiniol* Ewrob.—*Cylchgrawn*, i. 53.

Cenedl *ddwyreiniol* o ran eu dechreuad yw y Mwriaid.
Brython, iii. 45.

Ail fab Gomer ydoedd Riphath, a thybir iddo ef sefydlu ei deulu ar derfyn *dwyreiniol* ei frawd Ascenas.
Brutus: Brutusiana, 326.

Wrth gyfeirio at arferion ac ymadroddion *dwyreiniol*, symmudir yr anhawsdra.—*Ios. Harris:* Gweith. 319.

Yr India Ddwyreiniol, } *Y Ddwyreiniol India,* } the East Indies.

Am ei chwiliadau i deithi mamiaith *yr India Ddwyreiniawl*.
G. Mechain: Gwaith, ii. 445.

Pa beth a roddai caethion Morocco a'r *Ddwyreiniol India* am anadlu dy awyr loewlas di?
Cawrdaf: Meudwy Cymreig (1830), 61.

Syrthiodd y masnachwyr Italaidd i dlodi a dirmyg, a chymmerwyd eu lle . . . yn benaf oll gan gymdeithas yn ein gwlad ein hunain, yr hon a fydd byth mewn coffadwriaeth a mawrglod, dan yr enw Cymdeithas *yr India Ddwyreiniol*.
Gwyliedydd, iii. 335 (cf. 273).

Y môr dwyreiniol, the east or eastern sea; the sea to the east of a country.

Lapland Ddeheuol sydd yn cyrhaedd o'r Llychlyn, neu y *môr dwyreiniol*, hyd at y mynyddoedd sydd yn gwahanu Norway oddi wrth Sweden.—*R. Roberts:* Daearyddiaeth, 6.

Yr Eglwys Ddwyreiniol, the Eastern Church.

O berthynas i amseriad y Nadolig, ymddengys cryn amrywiaeth golygiadau ar y cyntaf rhwng yr Eglwys Orllewinol a'r un *Ddwyreiniol*. Yr Eglwys Orllewinol a'i cadwai ar y pummed dydd ar hugain o Ragfyr; a'r *Eglwys Ddwyreiniol* ar y chweched o Ionawr.
J. Pryce: Eglwys Foreuol, 365.

Y gwledydd dwyreiniol, the eastern countries; eastern lands; the east.

Darllenwn mewn amryw athrawon ei fod (heb law'r *gwledydd dwyreiniol*) yn Affrica, Sicilia, ac Italia.
Ed. Samuel: Buch. yr Apost. 53.

Soniwyd eisoes, yn Hanes ansawdd a helynt y *gwledydd dwyreiniol*, mor gyflëus oedd Ierusalem, megys sefyllfa canolberthig rhwng y Môr Coch a Môr y Canoldir.
Gwyliedydd, iii. 274.

Ieithoedd dwyreiniol (*sg.* iaith ddwyreiniol), oriental languages.

Gwych fyddai genyf gael gwybod pwy yw Siencyn Tomas, sy'n deall yr *ieithoedd dwyreiniol* cystal.
Gronwy Owain, 171.

Digitized by Google

Gwynt dwyreiniol, east wind, easterly wind.

Ond och! fel cwthwn o *ddwyreiniol wynt*,
Ei gorlan ballodd, deiflodd mellt ei yd.
D. Silvan Evans: Blodau Iouainc, 72.

Defodau dwyreiniol, } oriental customs.
Arferion dwyreiniol, }

Dwyreiniolwr, wyr, *sm.* an orientalist.

Dwyreinran, -au, *sf.* an eastern part, portion, or division (of a country, district, sea, &c.).

Gwlad Canaan sy'n cyffinio ar y *dwyreinran* o'r Môr Canoldir, ac yng nghylch canol y byd ydyw.
Ch. Edwards: H. y Ffydd, 36.

Dwyreiniwr, wyr, } *sm.* an eastern, an or-
Dwyreinydd, -ion, } iental.

Dwyreinwyr, the men of the east, orientals.

Ni chaniatëid ym mhlith y *Dwyreinwyr*, na chan y genedl Iuddewig, i'r ieuenctyd gymmeryd y gorchwyl o ymbriodi mewn llaw, yn ol eu tueddiadau a'u mympwyon eu hunain.
Brutus: Brutusiana, 13.

Y *dwyreinwyr* a arferent dybio fod hanfod y Duwdod yn y goleuni.
D. Morgan: Hanes yr Eglwys, i. 169 (cf. 177, 179).

Arferai y *dwyreinwyr* wneuthur y gwin yn gryfach drwy ei gymmysgu â chyfferi oedd yn gadarnach fyth.
Gwyliedydd, ii. 12 (cf. iii. 274, 332).

Achlesid athroniaeth a llenyddiaeth ym mhlith y *Dwyreinwyr* hyn.—*Brython*, iii. 48.

Dwyreinwynt, -oedd, *sm.* east wind, easterly wind.

Y mae yn attal ei wynt garw ar ddydd *dwyreinwynt*.
Esa. xxvii. 8 (cf. Iob xv. 2; xxvii. 21; xxxviii. 24).

Dywed anianyddion fod y mynyddau hyn dan gaeneni o eira er dechreuad y byd, yr hyn sydd yn peri i oerni y *dwyreinwynt* fod ar rai prydiau yn ormod i ddynion ei oddef.—*R. Roberts:* Daearyddiaeth, 19.

Ar unwaith y *dwyreinwynt*
A glywodd, hedodd ar hynt.—*Dafydd Ionawr*, 106.

Dwyreinwynt cryf, a strong east wind.—*Ecs.* xiv. 21.

Dwyreol, *a.*=*Dwyreawl*.

Dwyrhau, *v.* [dwyr] to rise, to uprise; to raise, to lift.

Odyna yd ymchoel y kiwtawtwyr yr ynys. kanys aball yr alltudyon a *dwyrhaa*.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 147 (cf. 153).

Dwyro, *v.* [dwyr]=*Dwyre*, *Dwyreain*.

Dwyrudd, *sf.pl.* [dwy+grudd] the two cheeks; the cheeks. See *Deurudd*.

Cas garu, ces cerydd i'm *dwyrudd* a dig.
Huw Morus: C.C. i. 167.

Pob deigryn sychir ymaith
Odd ar dy *ddwyrudd* gu.—*Telynegion*, 40 (cf. 20).

Dwyryw, *sf.pl.* two kinds; two sexes, both sexes.

A hynny sydd ddigon o achos i gasäu a ffieiddio'r *ddwyryw*.—*Ed. Samuel:* Holl Ddyl. Dyn, xi. 8 (cf. 1).

Dwys, -ion, *a.* [L. *densus:* cf. Gr. δασύς] 1. dense, solid, close, compact; thick; hard; heavy, weighty.

Dwys dengyn ed emledyn aergwn.—*Aneurin:* God. 77.

Car cyrdd cerdda pob diffwys
Cant cynnygn yn ddygn *ddwys*.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 308 (cf. 73).

Nid oes dwr na *dwys* diredd,
Na goror ym môr a'i medd.—*Gronwy Owain*, 32.

Mae y defnydd hwn [yr awyr] yn fwy *dwys* neu wasgedig yn agosi wyneb y ddaiar, ac yn fwy teneu a gwasgarog wrth fal yr elir yn uwch.—*R. Roberts:* Seryddiaeth, 57.

2. deep, serious, grave, solemn; sincere; impressive; sad; important; weighty.

Deu vnben degyn *dwys* eu kussyl.
Golyddan: A.B. ii. 128 (M.A. i. 158).

Dwys yw'r hawl diau sy rhôm,
Bernwch uniondeb arnom.—*Gronwy Owain*, 104.

Yn achos *dwys* ei frenin fe deimlai megys tad;
Fel mynydd ar ei feddwl oedd cyflwr trist ei wlad.
Gwynionyddl: Caniadau, 41.

Pam na ddaw Garawys
Fal y daw mefilliau *dwys*?—*M. ab Rhys:* Iolo Mss. 323.

A bu terfysg taer i haer holi
A ragdaw rewys *dwys* dyfysgi.—*Gwalchmai:* M.A. i. 197.

Naws carennydd nis crina;
Cywir a *dwys* fydd câr da.
Sion Tudur (Flor. Poet. Brit. 4).

Yn fy nhyb i ni ellir eu dangos yn well, nac yn oleuach, nac yn *ddwysach*, nag y mae'r Ysgrythyr Lân yn eu dangos.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. v. 12.

Dwys ym bryd beirt byd ba wnant
Diogyr gwyr am eu gwarant.
Prydydd Bychan: M.A. i. 386 (cf. 256).

Atolygwn i ti roddi i ni y cyfryw *ddwys* ac iawn ymsyniad ar dy holl drugareddau.—*Ll. G. Gyffredin*.

Oni fyn dynion ymroi ar y gwialenodau ysgafn cyntaf, yna y tery efe yn *ddwysach*, *ddwysach*, hyd oni thyno ein penau i lawr yn isel.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 236.

Lle bu ddien lawenydd,
Ubain a *dwys* ochain sydd.—*Gronwy Owain*, 49.

A phan weles ef Menon yn *ddwys* yn ei ymlid ef, sef a orug, gwrthwynebu iddo yn wychr.—*Ystori Dared*, 182.

Nid eill Cristion lai na theimlo rhyw serchiadau *dwysion* wrth sylwi ar Fryn Bethlehem.—*Gwyliedydd*, i. 410.

Yr ŷm ni, ebe hen athraw *dwys* arall, yn gweddïo Duw tros yr ymherodron.—*Theo. Evans:* D.P.O. 336.

Helyntion *dwysion* ei daith,
I'w ran, ni ddaeth ar unwaith.
Caledfryn: Caniadau, 125.

Dwys ocheneidio, to sigh deeply.—*Marc* viii. 12.

Distawrwydd dwys, deep or profound silence.

Pan fo'r nos a *dwys ddistawrwydd*
Tros y llawr yn taenu llen,
A ser fyrddiwn yn tryfritho
Y cwmpasgylch mawr uwch ben.
D. Silvan Evans: Telyn Dyfi, 1.

Dwys fyfyrdod, } deep contemplation; pro-
Myfyrdod dwys, } found meditation.

Dwys ystyriaeth, serious consideration; due consideration; deep sense.

Ymadroddion dwys, grave discourses or sentences.—*Eccl.*, Prol. 1.

Dyn dwys, } a grave, serious, or solid person;
Gwr dwys, } a deep man.

Myn Mair, onis cair y caws
Ar fyr, y *gwr* difyr *dwys*,
Ni bydd swydd, na boddio Sais,
Na dim mwy hedd i Dwm Huws.—*Gronwy Owain*, 49.

Dwysâd, } *sm.* a making solid or close; a deep-
Dwysad, } ening; condensation.

Dwysadur, -iau, *sm.* a condenser.—*Dicts.*

Dwysadwy, *a.* condensable; that may be compressed.

Dwysaidd, *a.* of a condensing nature; of a deepening tendency; serious.

Gwel dy ddrwg fuchedd, a theimla hi'n *ddwysaidd*.
Huw Morus: E.C. ii. 69.

Dwysaol, *a.* tending to condensation; deepening.

Dwysäu, *v.* to make dense or solid; to condensate; to condense; to deepen.

Caiff tuedd ac amcan y cwbl fod i ddierchafu crefydd yng ngolwg y rhai sydd ddieithriaid iddi, ac i *ddwysäu* ei gofynion ar galonau ei charedigion.—*Cylchgrawn*, i. 6.

Dwysbarch, *sm.* deep respect or reverence.

Dwysbigiad, } -au, *sm.* a sharp or severe
Dwysbigad, } pricking; a piercing; compunction.

Digitized by Google

Cyn anfynyched yr ydym ni yn clywed yr awr hon am neb ag sydd wedi ei glwyfo gan *ddwysbigiadau* deffröus!
Ier. Owen, 115.

Heb *ddwysbigiad* calon, na llawnfryd difrifol, na ffrwythau o wellâd.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 212.

Dwysbigo, *v.* [dwys+pigo] to prick severely, to pierce.

Hwythau, wedi clywed hyn, a *ddwysbigwyd* yn eu calon.
Act. ii. 37.

Yn ei holl bregethau y mae yn rhoddi cais ar ddwyn y pechadur *dwysbigedig* ymaith oddi ar ymorphwys arno ei hun.—*Ier. Owen*, 98.

Y sawl nid yw teimlad o'u pechodau'n *dwysbigo* dim arnynt.—*Ed. Samuel:* Athrawiaeth yr Eglwys, 171.

Honnai fod ei gydwybod yn ei *ddwysbigo* o herwydd iddo ymbriodi â gwraig ei frawd.—*Gwyliedydd*, ii. 34.

Dwysbrudd, *a.* grave and sober; deeply sober; thoroughly serious.

Traethodyn ar y Gyhydedd Wen, yr hon a'r Drawsa, a fernir gan rai yn oreuon ar golofnau Traethodyn mewn cerdd ar *ddwysbrudd* fyfyrdod.—*Cyfrinach y Beirdd*, 108.

Dwysbwyll, *a.* of grave or sober judgment; grave, serious; very discreet.

A cholofn yw hon, yn nesaf at y wastad gyhydedd, a fernir yn oreu at gerdd serch a galar; ac ym marn rhai, yn oreu oll at gerdd alar; am ei harafwch a'i chaniadaeth *dwysbwyll*.—*Cyfrinach y Beirdd*, 87.

Tri pheth y dylai bob un ei wneuthur yn *ddwysbwyll* a gaffo gynghorion da.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 273.

Tri pheth y dylid eu hystyried yn *ddwysbwyll* cyn cymmeryd bwydydd.—*Barddas*, i. 326.

Nyni a welwn wrth brawf gresynol, fod y gweinidogion *dwyspwyllaf*, duwiolaf, a dysgedicaf, ar watworgerdd gan ddynion o'r gwaelaf a'r dyhiraf.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 141.

Dwysbwyll, *sm.* sober judgment, gravity, sound sense; gravity of mind.

Dwysder, } *sm.* density, solidity, compactness,
Dwysdra, } closeness; gravity, seriousness; deepness, depth; importance, weightiness; strictness.

Nid ydynt gwedi ein rhwymo i'r cyfryw *ddwysder*, nad allwn ni fwyta dim ond yn union a'n cadwo rhag llewygu.
Langford: Holl Ddyl. Dyn, 182.

Heb ras eu hunain, nis gallant yru adref, gyd â dim tyciant a *dwysder*, mo athrawiaeth gras.—*Ier Owen*, 86.

Pwy a all ddirnad fy nhrallod, a *dwysder*
Distaw fy myfyrdod!—*Gwynionydd:* Caniadau, 75.

Heb son am y *dwysder* meddwl a'r pryder sydd yn cydfyned â myfyrdodau mor ddwfn ac ynneddawl ag a ofynir i ganlyn barddoniaeth gydag effeithioldeb a llwyddiant. Yr oedd yr hen feirdd wedi eu gosod yng nghanol amgylchiadau y rhai a ychwanegent yn fawr at y *dwysder* a'r difrifoldeb hyn.—*Carnhuanawc:* Hanes Cymru, 50.

Mae *dwysder* marwol dros y llan.—*Ieuan Gwynedd.*

Nid oes i ni ddim ond cymmedru ein gwrthrym yn ol *dwysder* y gwahanol sylweddau yr ydym i fyned trwyddynt.
Rasselas, vi.

Dwysedig, *pt.a.* condensed, compressed, pressed, pressed down, close; grave, serious.

Rhoddwch, a rhoddir i chwi; mesur da, *dwysedig*, ac wedi ei ysgwyd.—*Luc* vi. 38.

Y Ddyledswydd fawr anhebgorol ydys yn ddirio ar ddynion yn y Traethawd yma sy'n canlyn, megys y mae hi wedi ei gorchymmyn i ni gan ein Harglwydd anwyl, Dyledswydd o bwys *dwysedig* ydyw.—*Ier. Owen*, Rhag. 3.

Dwysedd, *sm.* density, denseness, solidity; compactness; gravity; intensity.

Y mae gwybod elfenau cyfansoddol gair, o fantais arbenig er deall eangder, *dwysedd*, a grymusder yr ystyr sydd yn gynnwysedig ynddo.—*Adolygydd*, i. 124.

Dwysfawr, *a.* highly important; of great importance or consequence; deeply momentous; very great.

Eglur ddadgan y gwirioneddau *dwysfawr* hyn yw sylwedd a pherwyl y traethawd digymhar sydd ger eich bron.
Edward Samuel: Grotius, Rhag. 16.

Dwysfawr Rym Buchedd grefyddol.—*Enw Llyfr* (1722).

Gan dreuliaw llawer dedwydd awr
Mewn *dwysfawr* fyfyrion.—*Tegid:* Gwaith, 136.

Dwysfeddylgar, *a.* deep-thinking; very contemplative.

Rhaid cael myfyrwyr diwyd-fryd a *dwysfeddylgar* i brydyddu.—*Dewi Wyn:* Blodau Arfon, 41.

Dwysfyfyrgar, } *a.* deeply meditative or con-
Dwysfyfyriol, } templative.

Gan i'r *dwysfyfyrgar* a chrefyddol brydydd Seisnig . . . ysgrifenu y gerdd lawen honno.—*Daniel Ddu*, Rhag. 1.

Dwysgall, *a.* very discreet, grave and prudent.

Dwysgall deall a'm dihaur!
Disgwyl llun dyn, *dwysgall* aur!
Dafydd ab Gwilym, cxxxi. 49.

Bu Rufain yn berwi o afiaeth dysg,
A *dwysgall* wybodaeth.
G. Mechain: Gwaith, i. 36 (cf. 105, 162).

Dwysgar, *a.* very loving or affectionate.

Gwelad colomen wen wâr
Yn ei ddysgu, iawn *ddwysgar*.
Ieuan Rh. ab I. Llwyd: Iolo Mss. 298.

Dwysgoed, -ydd, *sc.* thick trees; a thick wood.

Gwn ddisgwyl dan gaing *ddwysgoed*,
Gwae fy nhrem, ac ofn fy nhroed!—*D. ab Gwilym*, civ. 13.

Dwysgoeth, *a.* highly refined; very elegant; very pure.

Disgwyl Dyw Sadwrn *dwysgoeth*.
Dafydd ab Gwilym, cxxix. 26.

Y gwr da hawddgar a doeth
A ddysgai'i deulu'n *ddwysgoeth*.—*Dafydd Ionawr*, 78.

Dwysgryf, *a.* very strong or powerful.

Y mae rhai testunau . . . yn galw am oleuder ymadrodd, a *dwysgryf* ystyr, ac ammalchineb iaith a dychymmyg, a hawsder deall.—*Dafydd Nicolas.*

Dwysgu, *v.* very dear or affectionate; highly beloved.

Disgyn y trysor *dwysgu* yn arwydd
I f'wyrion a Chymru
I'r ber Awen fwyn wenu
Yn dawel ar Ddaniel Ddu.—*Daniel Ddu*, 305.

Dwysgur, *sm.* heavy or severe pain.

Mesur cawdd anawdd i ynad eglur
Adrodd fy nolur *ddwysgur* ddysgiad.
Hywel ab Einion Lygliw: M.A. i. 513 (cf. 504).

Dwysgred, -au, *sf.* 1. firm, strong, or true belief.

2. (abstract for concrete) true believers.

Ystyryet *dwysgret* nat oes gryvder
Na nerth didawl berth dadyl a borther
Nat oes hebdaw praw lle prover.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 475.

Dwysiad, *sm.* a compressing, a condensing, compression; condensation.

Dwysill, -au, *sf.* [dwy+sill] 1. a dissyllable, a word of two syllables.

2. two syllables.

Gwyddai yr Archddiacon mai undeb y *ddwysill* wreiddiol ydyw'r sill olaf yn y fath eiriau.
Gwallter Mechain: Gwaith i. 544.

Dwysill, } *a.* consisting of two syllables;
Dwysillog, } dissyllabic.

Yna bydd y pwys ar y sill gyntaf o air *ddwysill*.
Isaac Jones: Gram. Cym. 32.

Dwysineb, *sm.* density, denseness; gravity.

Dwyso, *v.* to make dense, solid, firm, or close; to condense, close, or harden; to impress; to deepen.

Digitized by Google

Tebygawl idd y maen yn ofer y
Manylynt yma yr athrawon am
Ei gael, er *dwysaw* trwy ei nerthawl gelf
Hedinawl Hermes.—*W. O. Pughe:* C.G. iii. 655.

Arddiad a helaetha faethfa llysiau, wrth egori y pridd, os rhy drwm, ac yn ei *ddwyso*, os rhy ysgawn.
W. O. Pughe: C.P. 40.

Dwysog, *a.* having density or solidity; condensing; pressing.

Dwysogaeth, *sf.* the action of closing together; condensation; fixation, settling.

Dwysogaeth serch, the settling of affection.—*P.*

Dwysol, *a.* tending to make dense or solid; condensing, compressing; impressive.

Meu ymoralw o bwyll disalw o bell *dwysawl*.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 466.

Dwyswaith, *sm.* close, hard, solid, or serious work.

I'n gilydd am unwaith iawn rhoddi mewn rhwydd-iaith,
O'n *dwyswaith*, lew henwaith, ail hanes.—*Daniel Ddu*, 267.

Dwyw, -au, *sm.* [†*duiu:* cf. *Duw*] God; a god. See *Duw*. The word usually occurs in the plural.

¶ *Dwyw*, in its older form *duiu*, occurs in Cormac's Glossary (84, 85, 106); and, in the compound or derivative form *duiutit*, in the Codex of Juvencus, attributed to the 9th century.

Yn rith gwneuthur aberth yr *dwyweu* y deuei ef yno.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C H. ii. 61 (cf. 79, 83, 85, 132).

Yna dyrchauel y wyneb a oruc Marsli ac erchi y Vahumet ar holl *dwyweu* ereill y ganhorthwyaw yr gennadwri honno.
Yst. de Carolo Magno, col. 461.

Sef y bu yn gredadwy gwedy hynny y gwneuthur hwy yn *dwyweu* heb e marw byth.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 11.

Wrth hynny *dwywau* ynt. megys y dywait y prophwyt. Mi a dhywedais *dwywau* ychwi. A chanys *dwywau* ynt. wynt a alhant pob peth or a vynnont.
Lucidar, ¶ 139 (cf. 140).

Y tadolion ddwyweu, the tutelary gods.

Arglwyd heb ef yn *tadolyon dwyweu* a anrydedwn ni. nyt amgen Saturnus a Iubiter ar dwyweu ereill ysseyd yn llywyaw y byt.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 132 (cf. 87).

Dwywaith, *sf.* [dwy+gwaith: cf. *deweth*, *dewyth*, *dywyth*] two times: also written *dwy waith*.—*Gen.* xxvii. 36.

Dwywaith, *adv.* twice; two times; doubly.

Dy gar agos yw. ath vrawt *dwyweith*.—*St Greal*, ¶ 21.

Ot oed vawr ef mwy *dwyweith* oed y wreic noc ef.
Mabinogion, 32.

Mi a ymdideneis ac ef hyt hynn *dwyweith*.
St. Greal, ¶ 161.

Ny byd marw *dwyweith*.—*Gorchan Adebon:* A.B. ii. 94.

Pan deuy di vnbenn heb y Kei. a *dwyweith* a their.
Mabinogion, 219.

Cystal am ordal i mi
Dwywaith fyned at Dewi
A phe deuwn, cystlwn cain,
O rif unwaith i Rufain,
I. ab Rh. ab Ieuan Llwyd: Iolo Mss. 300.

Nes iddo dy ddyhyspyddu di *ddwywaith* neu dair.
Eccl. xiii. 7 (cf. xxxii. 7).

Yr oedd ei ymprydiau ef *ddwywaith* yn yr wythnos.
Ed. Iames: Hom. ii. 173.

Ni a welwn S. Ioan yn cael ei geryddu *ddwywaith* gan angel am gynnyg y fath beth iddo.
Theo. Evans: Pwyll y Pader, 26.

Dwywawl, *a.:* see *Dwywol*, &c.

Dwywdid, *sm.* Godhead, Divinity, Deity. *Dwydid* (q.v.) is a modification of the same word.

Eo quod ipse narrauit generationem Christi heruid *duiutit*.
Codex Juvencus.

Dwyweddog, *a.* [dwy+gwedd] bigamous.

Dwyweddog, -ion, *sc.* a bigamist.

Dwyweddogaeth, *sf.* bigamy.

Dwywes, -au, *sf.* [dwyw] a goddess. See *Duwies*. *Dwyfes* is another form of the same word.

Achil oed uab y Beleus vrenhin. o Tetis *dwywes* y moroed.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 12 (cf. 16, 38).

Yna y doethant y hen dinas diffeith. oed yn yr ynys. yno yd oed demyl y Diana *dwywes* yr hely. . . A chygbori a wnaethant y eu tywyssawc mynet yr demyl ac aberthu yr *dwywes*.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 51 (cf. 52, 53, 71).

Yn y ulwydyn dymhestlawl honno yd ymdangosses Antropos oe chwioryd y rei a elwit gynt yn *dwywesses* y tyghetuennoed.—*Brut y Tywysogion*, 244.

Ef a dywawt gwedy y vynet y hela yr forest a elwit Ita ry welet o honaw ef drwy y hun y duw a elwit Mercurius ac yn dwyn attaw deir *dwywes*. nyt amgen no Iuno *dwywes* y tegwch. a Venus *dwywes* y godineb. a Minerua *dwywes* y nerth. ac erchi idaw ef varnu. pa vn deckaf onadunt. Ac yna y dewis ef Venus *dwywes* aniweirdeb.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 7 (cf. 9, 10, 12).

Ar gweith hwnnw a aberthwys ef yr *dwywes* a elwit Minerua.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 64.

Yno yd oed hen temhyl y Dyana yn yr hon yd oed delw y *dwywes*.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 101 (cf. 103).

Gruffydd tebyg i Raphael
Yw y sant â'r *ddwywes* hael.—*L. G. Cothi*, v. xv. 49.

Disgleiria, *dwywes* glaerwen.—*Gronwy Owain*, 42.

Dyro imi y *ddwywes* hon yn gyfeillies.
G. Mechain: Gwaith, ii. 21 (cf. i. 258).

Dwywol, *a.* [dwyw] = *Dwyfol*, now the more usual form.

Nyt gwedus. heb y Charlymaen. y archescop vynet y ryw neges honno. namyn gwassanaethet offerenneu a chyghoreu *dwywawl*.—*Campau Charlymaen*, ¶ 86.

Neur vu uarw brenhin Peleur. yr hwnn a oed yn peri gwneuthur gwassanaeth Seint Greal yn *dwywawl* yn y racwerthuawr gapel yno.—*St. Greal*, ¶ 178.

Lle y darparyssei hi gwneuthur gwassanaeth *dwywawl*.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 10.

Puybenac a guenel kam yn y uam ecluys talet ydy pedeyr punt ardec, er hanner yr abat o byd *duyuaul* letherur ar llall e rug er efeyryat ar clas.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 78.

Duu yr env in deu *duyuaul* y kyffreu
Duu y env in tri *duyuaul* y inni
Duu y env in vn. Duu Paul ac Annhun.
Llyfr Du: A.B. ii. 13.

Hi yn uerch uy mab y mot yssyt
Hi yn chuaer y duu o *duyuaul* tyt.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 324 (cf. 203).

Y gwr a racwelas *dwywawl* weledigaeth y vot yn etholedic yr lle hwnnw.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 169.

Boed ym dysgwy Duw *dwywawl* annwyd
Mal y dysgwys Duw Dafyd brophwyd.
Gwalchmai: M.A. i. 203 (cf. 268, 290, 328, 349, 461).

Gwedy rywrthlad y gwynuydedic Sampson archescob ar *dwywolyon* wyrda ereill offeireit.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 311.

Ny dhychawn neb lauuriaw mwy noc a dhangoso *dwywawl* rat ydhaw. . . Ny dhychawn y rhai drwc wneuthur mwy noc a atto Duw ydhaw ae *dhwywawl* rat.
Lucidar, ¶ 68 (cf. 1, 96, 121).

Rwng y dheu rudhelhion lygeit ydhoedh yn cyrchu byrrgrwn deetlualwys eneu, trwyn cyuladhdrum uniawnllun, froeneu agoret ac yn gwanegu serchawluryt gariat o arafber gyphro y *dwywolion* froeneu.
Ymborth yr Enaid, ¶ 23 (cf. 1, 14, 17, 25, 28).

Dyro wybot. y tat drwot. dro *dwywolaf*.
Llyfr Ancr, 99 (cf. 57, 64).

Yn rhagorol, *dwywol* daith,
Rhag doe, neu echdoe wych-daith.—*D. ab Gwilym*, ccii. 3.

Ac un Ananias, gwr *dwywol*, herwydd y ddeddf, ac iddo tystiolaeth da y gan yr oll Iuddeon oedd yn preswyliaw yno, a ddaeth atat.—*W. Salesbury:* Act. xxii. 12.

Nid oes yn Nuw lawer o briodoliaethau, ond un yn unig, yr hwn nid yw ddim amgen ond *dwywawl* hanfod y Duwdod.—*R. Vaughan:* Ymarfer Duwioldeb (1675), 26.

Yr Ellmynaidd ffrewyll a ddarparodd *Dwywol* Gyffawnder i gospi syrthni a difräwch yr ymranedig Brydeiniaid.
G. Mechain: Gwaith, ii. 36 (cf. 21, 106; i. 381. 398).

Och Dduw! ddwyn y ferch *ddwywol*
A'n bod ni'n y byd yn ol.—*L. G. Cothi*, v. iv. 55.

Digitized by Google

Horasio, deffro,'r diffrwyth,
Dere maes, greadur mwyth,
O wlad estron, le distryw,
I ddiwael fedd *ddwywol* fyw.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 388.

Dwywoldeb, } **Dywwolder,** } *sm.*=*Dwyfoldeb, Dwyfolder.*

Llawen wyf am welet y *dwywolder* ysyd yno.
St. Greal, ‡ 134 (cf. 128).

Yn y vlwydyn honno y bu uarw Bernart escob Mynyw yn y dryded vlwydyn ar dec ar hugeint oe escobawt gwr enryfed y volyant a *dywawolder* a santeidrwyd oed.
Brut y Tywysogion, 176.

Ar holh ecclwys a vydh. ac a wladychant yn y *dwywolder* ef.—*Lucidar,* ‡ 122.

Honno a arwydocka vn *dwywolder* y teir personn.
Llyfr Ancr, 87 (cf. 97, 103).

Gras tra-anghenrheidiol arall ar yr amser yma yw *Dwywolder.—Langford:* Holl Ddyledswydd Dyn, 87.

Amlwg yw nad mam *dwywolder* yw anwybodaeth.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 367.

Nid oes neb oes fwynber, heb berffaith
Ddiwael-daith *ddwywolder.—G. Mechain:* Gwaith, i. 398.

Fal y gallom ddwyn buchedd lonyddaidd ac heddychawl, drwy bob gwaredd [°*dwywoldeb,* duwioldeb] ac honestrwydd.—*Esgob R. Davies:* 1 Tim. ii. 2.

Dwywoli, *v.* to make divine; to deify. The same as *dwyfoli.*

Dwywoliaeth, } *sf.* divinity; godhead; god-
Dwywioliaeth, } liness, piety.

Y marchawc urdawl ar vorwyn a weleist di yn roi dryllyeu yr aniueil y mywn llestri o eur ganthunt. a arwydockaa *dwywolyaeth* y Tat.—*St. Greal,* ‡ 193.

Yn y personyeu y mae priodolder. ac yn y *dwywolyaeth* y mae unolder.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 401.

Sef yw hwnnw corff Crist yn hollawl o eneit. a chorff. a *dwywolyaeth* megys y mae yn y nef.—*Llyfr Ancr,* 145.

Ac yn ddiddadl, mawr ydyw cyfrinach *dwywyoliaeth,* sef Duw a wnaethpwyd yn weledig mewn cnawd.
Esgob R. Davies: 1 Tim. iii. 16.

Un yw *Dwywyolyaeth* y Tad. y Mab. ar Yspryt Glan.
Credo S. Athanasius (Peniarth Ms.).

Dywwreigaeth, *sf.* bigamy; the condition or crime of having two wives at once.—*Dicts.*

Dy, *pron. poss.* [C. *de, dy;* Br. *ta, da;* Ir. *do;* Ga. *do:* cf. L. *tuus;* Gr. *τέος*] thy, thine.

Os ar *dy* gam y doethost y mywn. dos ar *dy* redec allan.
Mabinogion, 104.

Kynnllyuan a oruc Kei
O uaryf Dillus uab Eurei
Pei iach *dy* angheu uydei.—*Mabinogion,* 133.

Dy arglwyd a warandewis *dy* wedi.—*St. Greal,* ‡ 23.

Gwedy hynny ti a geffy *dy* urdaw yn varchawc urdawl.
Mabinogion, 198.

Dy faint herwydd braint ti a brofy.
Dafydd Benfras: M.A. i. 309 (cf. fq.).

Dy aur a gawn, radlawn rydd,
Dy loew win, *dy* lawenydd,
Dy fedd glwys, difaddeu i gler,
Dy fragod du ei friger.—*D. ab Gwilym,* xiv. 9.

Dy haelder, *dy* wychder da,
Dy arfer yn y dyrfa;
Dy arian, nid rhaid eiriol,
Dy aur a wna *d'* air yn ol:
Dy ffyniant yn foliant fydd
I dir G❦yr yn dragywydd.
L. G. Cothi, i. xxxiii. 55 (cf. xxix. 49—56).

Sancteiddier *dy* enw. Deued *dy* deyrnas.—*Y Pader.*

Anrhydedda *dy* dad a'th fam.—*Ecs.* xx. 12.

Da yw genyf dy weled, I am happy to see thee. —*Mabinogion,* 214.

b. when the possessive is emphatic, the personal pronoun is usually added after the word to which the possessive refers; as:

Dy weision *di* ydym ni.—2 *Bren.* x. 5.

Yr hwn a dangosses ymi yn y pwnc hwnn mae ffolineb mawr yw torri *dy* orchymyn *di.—St. Greal,* ‡ 23.

A reinc *dy* uod *di* hynny.—*Mabinogion,* 127.

Ys oed gwell *dy* grogi *di* Gei.—*Mabinogion,* 170.

Yn dy fyd da efe a fydd fel tithau, ac efe a fydd hy ar dylwyth *dy* dŷ *di.—Eccl.* vi. 11.

A pheri *dy* dehol *ditheu* mi ae gwnaf.—*Mabinogion,* 177.

Minneu a allaf *dy* rydhau *ditheu* or geireu hynny.
Mabinogion, 61.

c. Generally after *a, â, i, o, y, e, fe, ni, na, pe, mo, tua* (or *tu â*), *gyda* (or *gyd â*), and sometimes after other words ending in a vowel, for *dy, yth* in an abbreviated form (*'th*) is used. This is more especially the case in the modern language.

Miui a af *yth* le di.—*Mabinogion,* 3.

In some onomatopoetic and alliterative expressions *dy* stands as a separate word without any special meaning; as,

Dy dwmp, *dy* damp.—*Bardd Cwsg,* 78.

Hw! *ddy* hw! hoew ddyhead.—*D. ab Gwilym,* lxxxiv. 20.

Ysgowliaid, wedi myned yn gan erchyllach na nadroedd, yn cnoi fyth *dy* rinc, *dy* rinc, â'u colyn gwenwynig.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 81.

Cerdded dy dwmp dy damp, to walk heavily (as a person does in the dark).

d. Zeuss (*G.C.* 384) says that *dy* is for *ty;* and the latter would more regularly correspond with the second personal pronoun *ti* (L. *tu*); but no such form is known to occur. Canon R. Williams (*Lexicon Cornu-Britannicum,* 88) remarks with reference to *de* in Cornish: 'This is strictly the secondary form of *te,* but it was always used as the primary form, and in construction changed into *dhe.*' With *dy* for *ty* (if such is the case) cf. *fy* for *my.*

Dy, *px.* a prefix of enhancement, augmentation, intensity, or iteration.

In a few words *dy* has, by common pronunciation, and sometimes in writing, been changed into *di;* as *diben* (dy+pen), *dioddef* (dy+goddef), *dichwaen* (dy+chwaen), *dichon* (dy+chawn), *dieithr* (dy+eithr). On the other hand, *dy* seems in a few words to have taken the place of *di;* as *dybryd* (di+pryd), *dychwedd* (di+gwedd). In some instances it has a pejorative force (cf. Ir. *du;* Gr. *δύς*); as *dychan* (dy+cân); *dichell* (dy+call).

In the great majority of cases *dy* is followed by the soft or middle sound; but in some, especially before *c* and *p,* it is often followed by the aspirate; as *dychryn* (dy+cryn), *dychyrch* (dy+cyrch), *dychrymu* (dy+crymu), *dychymmysg* (dy+cymmysg), *dyphlan* (dy+plan), *dyphorthi* (dy+porthi).

The practice of writers in the use of the prefixes *dy* and *di* is far from uniform since the publication of Pughe's *Dictionary* in 1803.

+Dy, '*article* and *preposition.* The; to. It was seldom used, even by the ancients, for *y* and *yr.*—*P.* Cf. Zeuss, *G.C.* 199, 603, 695, 904, 907; Rhys, *Lectures on Welsh Philology* (1879), 243; *Capella Glosses,* 2, 42, 56, 104.

Dyad, -au, *sm.* a maxim; advice, counsel.

Pei mau pibl ddiau *ddyad* Talyesin.
Gwilym Ddu Arfon: M.A. i. 410.

Dygychwyn gennat ar vreint keinyat kall
Ath dyall ath *dyat.*
Llywarch Llaety: M.A. i. 417 (cf. 433).

Vyn gwir gymorth hael vyg gwawr geimyat
Vy gholovyn diovyn rac *dyat* lletpei.
Casnodyn: M.A. i. 422 (cf. 435, 513).

Englynion duad, aphoristic epigrams.—*M.A.* i. 125.

¶ Davies's explanation of *Dyad* is 'Ymddygiad, ymarweddiad;' but such can hardly be the meaning intended in the passages in which the word occurs.

Digitized by Google

Dyad, *sm.* [dy- + gad-ael] 1. dicontinuance; space: the same as *yspaid.* Cf. *Duad*, apparently another form of the same word.—*Iolo Glossary.*

2. stature, size, height; bearing.

Run uab Owein . . . balch ym plith y estronyon, a therwyn garw urth y elynyon. digrif wrth y gyfeillon; hir y *dyat;* gwynn y liw. pengrych melyn y wallt; hir y wyneb.
Brut y Tywysogion, 170.

Y map, mab melynwyn adhveindwyf oedh yn oet deudecmlwydh ac yn gymhetrawl y dwf. A *dyat* y gorph o hyt a phrafter wrth ei oet.—*Ymborth yr Enaid*, § 23.

Dyad, *v.* [=dead] to separate; to pick.

Ar barth rhwng dwy o'i wartheg
Ddyad chwain heb ddiawd chweg.
Madog Dwygraig: M.A. i. 490.

Dyadael, **Dyadel,** **Dyadu,** *v.* [dy- + gadael, gadu] to leave, permit, or suffer; to allow; to let.

Pob llyfwr llemittyor arnaw
Pob ffer *dyatter* heibyaw.—*Llefoed:* A.B. ii. 305 (cf. 8).

Dau ydynt, o'u *dyedir,*
Ni adant hwy goed i'n tir.—*Guto'r Glyn:* Iolo Mss. 316.

Dyadael gwaed, to let blood.

Am *dyadael guaet* pedeyr keynnyawc.
Cyfreithiau Cymru, i. 42.

Dyall, *sm.* and *v.*: see *Deall* and its derivatives. Both *dyall* and *deall* are old, but the latter is now the more usual orthography.

Sef yw *dyall* geir rwyf dwedyd no meesur y gyfreith *dyall* geir eisseu yw dwedyd llei no meesur y gyfreith.
Cyfreithiau Cymru, ii. 438 (cf. 208, 656, 702, 730).

Sef yw *dyall* hynny, rydit a teruyna ar gyllit.
Cyfreithiau Cymru, ii. 208 (cf. 352).

Ystyr y wawt a ganeint hyt y gallei y brawt y *dyall* oed hynn.
Llyfr Ancr, 95 (cf. 90, 128, 131, 147, 150, 160—165, 169).

Aghall o *dyall* yt ym yndaw
Aghwbyl vu yn pwyll am yn twyllaw.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 366 (cf. 308, 329, 393).

Dyallu, *v.*=*Deallu, Deall.*

Nyd ych chwi yn *dyallu* dim oll.
W. Salesbury: Ioan xi. 49.

Dyannerch, **Dyannerchu,** *v.* [annerch] to greet or salute; to dedicate.—*P.*

Dyannerchiad, *sm.* a greeting, salutation; a dedicating or complimenting; dedication.

Dyannerchol, *a.* greeting; complimentary.—*P.*

Dyar, *sm.* [ar: cf. *goddyar, gorddyar*] a noise, din, or sound; murmur.

Bet gur gurch y var
Llachar llyv niver in aber duwir *dyar*
Yny gvna Tavne tonisr.
Englynion y Beddau: A.B. ii. 33 (M.A. i. 81).

Pymhettyd defnyd *dyar*
Deduen diheu diarchar.—*Arwyddion cyn Dydd Brawd.*

Namyn torfoedd terydd
Eu gwawr trwm eu *dear.*
Taliesin: M.A. i. 42 (cf. 29, 43, 420).

Wythfed dydd dybydd *dyar*
Deddfau diau diarchar.—*Llywelyn Fardd:* M.A. i. 363.

Ha! Eigren fud, a thremiad ffraw,
Yr hon, ar nawnau gwridawg, saw,
Ar hywel dal y ffrwythawg ryn,
Ach *dyar* taer helbulus ddyn.—*Seren Gomer*, vi. 85.

Yn swn *dyar* per y cornant,
Ac amrywiaeth nodau'r gwynt.
Gwynionydd: Briallen, 28.

Dyar, *a.* noisy; murmuring; loud; vehement; furious.

Eglwysseu Bassa ynt baruar heno
A minneu wyf *dyar:*
Rud ynt wy rwy vyg galar.—*Llywarch Hen:* A.B. ii. 285.

Kintevin keinhaw amsser. *dyar* adar glas callet
Ereidir in rich ich i guet.
Llyfr Du: A.B. ii. 11 (cf. M.A. i. 394).

Gwr oet gyhaual dial *dyar*
Ar goreu a vu o veib Gleissyar.
Cynddelw: M.A. i. 230 (cf. 233).

O difeithiad Lloegr llafn *dyar* wrth ud
Nyd wrth fedr ei alar.—*Gwalchmai:* M.A. i. 201.

Dear Meneiuon. *dear* Mynawc Mon.
Taliesin: A.B. ii. 167 (M.A. i. 40).

Yw Einiawn oer ei enau
Y clywai *dyar* fôr clau.—*W. O. Pughe:* Bardd, i. 3.

Dyar, *v.* to make a noise or din; to din, to sound; to make a tumult.

Galar yn *dyar* a'm dwg
Oer gwynion i Forganwg.—*Iolo Morganwg.*

Dyarchiad, -au, *sm.* a demanding; requisition.

Dyarfor, *sm.* [dy- + arfor] a sea-coast, a strand. Cf. *Diarfor.*

Dyaros, *v.* [aros] to tarry; to stay; to delay.

Dyarosiad, *sm.* a staying, tarrying, or delaying.

Dyarosol, *a.* staying, delaying, dilatory.

Dyasg, *v.* [=diosg] to strip, to uncover. See *Diasg, Diosg.*

Dyasio, *v.* [dy- + asio] to weld thoroughly; to join or unite firmly.

Uno, *dyasio* dwy-eir,
Lle asient a'u llesiant hir.—*Dewi Wyn:* Blod. Arf. 268.

Dyban, -od, *sm.* [pân ?] an ant, an emmet.—*P.*

Dybanaidd (ā), *a.* mechanical; manual; like an artisan or workman.

Ystyria, nid wyf fi yn un o'r creaduriaid *dybanaidd* hyny, ag sydd yn byw trwy lafur a lludded.—*Seren Gomer*, iii. 237.

Hwn sydd yn gweini sylfaen i'r holl gelfyddydau *dybanaidd* manwl neu odidog.
D. Williams: Myfyrdodau Hervey, 401.

Dybanan, **Dybanon,** -iaid, *sm.* a mechanic, an artisan; a skilled workman.

Dybanan celfydd am gelfydd talau,
Am ddedwydd diau.—*Taliesin.* (*P.*)

Y maent yn gadael y rhai hyn i'r llafurwr anllythyrenog, a'r *dybanan* gwael, neu yn eu trin gyda gwèn watwarus.
D. Williams: Myfyrdodau Hervey, 303.

Dybanu (ā), *v.* to be diligent at a thing; to work away; to labour diligently.—*N. W.*

Dybarth, -au, *sm.* [parth] 'a separation;' a department.

Dybarthau Ffrainc, the departments of France.

Dybarthiad, -au, *sm.* a separating or dividing; separation; division.

Dybarthol, *a.* divisional, divisionary, separative; departmental.

Dybarthu, *v.* to separate, to divide.

Dybarwch, *sm.* [par-a] perseverance; assiduity.

Meithrinwch *ddybarwch.* Wrth *ddybarwch* y meddyliwyf arosiad diwyro efo yr un testun efrydol nes myned trwyddo, a pharhau yr un cynlluniau wythnos ar ol wythnos.—*J. Mills* (I. G. Alarch): Hyfforddwr, 20 (cf. 21).

Dybel, -au, *sf.* [pel] a sphere, a ball, a round body.—*P.*

Dybeliad, -au, *sm.* a forming into a sphere or ball.—*P.*

Dybelu, *v.* to make spherical or round.—*P.*

Dyben, -ion, *sm.* [dy- + pen]. See *Diben,* &c.

Digitized by Google

Dybi, *v.* 3rd pers. sing. fut. ind. of the irr. verb *Dyfod:* will be; will come; it will be or come. Sometimes it has an imperative force. The form is now archaic, local, or poetical. See *Bi, Dybydd.*

Yg Kaer yn Aruon yg kert gyflawdon
Ac yg Kaer Llion uy llyw *dybi.*
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 303 (cf. 158, 161).

Dybi y uaeth ar ryd a chaeth oc eu herwyd.
Taliesin: A.B. ii. 292.

Dybid in' ddyddiau díboen,
A dihaint henaint a hoen.—*Gronwy Owain*, 62.

Dybi i ti hyny, be it so to thee.—*Gwent.*

Ië, dybi, yes to be sure.—*Gwent.*

Dybleidiad, -au, *sm.* [plaid] an espousing of a party; confederation.—*P.*

Dybleidio, *v.* to espouse a party; to take a part; to confederate.

Dybleidiol, *a.* confederating.

Dyblethu, *v.* to plait, to wreathe.

Heirdd fechgyn ar dywyn dydd,
A gwyryfon y grefydd,
Dyblethent flodau blithion
O fri, blodau'r lili lon.—*Nicander:* Sant Paul, viii.

Dybliad, -au, *sm.* [dwbl] a doubling, duplication.
Dyblad,

Dyblig, *a.* [dwbl] = *Dyblyg.*

Dyblisgiad, -au, *sm.* [plisg, plisgo] a peeling off; a shelling.—*P.*

Dyblisgo, *v.* to peel off; to take off the shell; to strip off shells.

Dyblisgol, *a.* tending to peel off; peeling.

Dyblu, *v.* [dwbl] to double; to duplicate; to fold.

Dyblwch iddi y dau cymmaint yn ol ei gweithredoedd.
Dad. xviii. 6 (cf. Gen. xli. 32).

A *dybler* y cleddyf y drydedd waith.
Esec. xxi. 14 (cf. Ecs. xxvi. 9).

Gwae ddwyblaid Lloegr gwiw *ddyblwyf*,
Gobeithiaw a ddaw ydd wyf.—*Sion Cent.*

A'i hela hi a'i thynu, a'i *dyblu* hi a'i dodi.
Gronwy Owain, 292.

Dyblwch y tân a'r berw.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 87.

Y mae'r gair yn cael ei *ddyblu* i sicrhau i ni fod yr Arglwydd yn gwir ddymuno i'w annogaeth gael ei gwrando, a'i orchymmyn gael ei gyflawni.
Ioan Wallter: Dwy Bregeth, 4.

Nid yw ef yn tybied hyny yn ddigon, ac am hyny mae yn ei *ddyblu.*—*Elis Lewis:* Drexelius, 294.

Ysprydion gwiwlon i gyd
Y cyflawn acw hefyd,
Lu eirian drwy'r loew orawr,
A *ddyblant* y moliant mawr.—*Dafydd Ionawr*, 234.

Dyblyg, -ion, *sm.* [dy- + plyg: L. *duplicem:* cf. *deublyg*] a double, a fold, a plait; a crease; a duplicate.

Cadw nhwy; a mawr obrwya
Beilchion â *dyblygion* bla.—*W. Midleton.*

Climach o ddyn amrosgo ydyw . . . a'i ddrem arw-guch yn tolcio ym mhen pob chwedl ddigrif, yn ddigon er noddi llygod yn y *dyblygion.*—*Gronwy Owain*, 199.

Ac y mae'r Penllywiawdwr doeth yn fynych yn goddef iddynt ymbalfalu yn eu synwyr cibddall eu hunain, ac ymddyrysu yn y *dyblygion* rhwydog a weuwyd gan eu twyllresymiadau.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 77.

Dyblyg, *a.* double, twofold, duplicate; folded;
Dyblig, plaited.

Ar hynt castell yn ymdangos idaw. ac ychydic vynyd yn agos yr castell. ac yn gaeedic o vur uchel yn *dyblic.*
St. Greal, § 97.

Ac muroed a a chwanecka yn dri *dyblic.*
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 150.

Ny thygyei yr paganyeit arueu rac dyrnodeu y Cristonogyon mwy no llicin yn vn *dyblic.*
Yst. de Carolo Magno, col. 480.

O dervyd y dyn benthygyo da y arall ae wadv or dyn a goddiwes or howlwr tal dav *ddyblic* a ddyly.
C.C. ii. 302 (cf. 306, 408, 438).

Fe allai bod hyn yn bur agos i hyd cyffredin y pregethau *dyblyg* a thriphlyg yn y dyddiau gynt.—*Gwyliedydd*, iii. 215.

Beth oedd yr achos i'n hynafiaid ddewis cynnifer o lythyrenau *dyblig* i wneuthur sciniau unigol?
Ios. Harris: Gweith. 13.

Pedwar dyblyg, fourfold.

A'r oenig a dâl efe adref yn *bedwar dyblyg.*
2 *Sam.* xii. 6.

Saith ddyblyg, sevenfold.—*Gen.* iv. 15.

Dyblygedig, *pt.a.* doubled, folded, duplicated.

Dyblygedd, -au, *sm.* 1. doubleness; duplicature.

2. duplicity, doubleness (of heart or speech).

A dybiwn ni fod ein Heglwys yn canmol ac yn gorchymmyn symlrwydd ymddygiad, purdeb ymarweddiad, ac eglurder ymadrodd . . . tra mae hi ei hun yn rhoddi iddynt siampl cywilyddus o siomedigaeth a *dyblygedd* yn ei hathrawiaeth!—*Ioan Wallter:* Dwy Bregeth, 33.

Dyblygiad, -au, **Dyblygiant**, *sm.* a doubling, a folding, duplication; a fold or double.

Yn glau ar encil yn ei ol y try,
Dan aml *ddyblygiad* a thywyllwch hon.—*Daniel Ddu*, 50.

Dyblygiadau, doublings, doubles, folds.

A chyfeiria yr ymadrodd at *ddyblygiadau* ei safn.
Gwyliedydd, iii. 268.

Amrywia y rhywogaeth hwn oddi wrth y llall yn ymddangosiad ei groen, yr hwn sydd heb y *dyblygiadau* arfawg a berthyn i'r cyntaf.—*Gwyliedydd*, iii. 137.

Dyblygiaeth, -au, *sf.* duplication; duplicature.

Dyblygol, *a.* duplicating, reduplicating, folding.

Dyblygrwydd, *sm.* doubleness; duplicity.

Dyblygu, *v.* to double, to fold, to plait; to fold up, to wrap together; to wrap; to go round, to surround; to bend one's course; to tack.

Yg kyfrwg hynny y *dyblygawd* llyges y brenhin y Von.
Brut y Tywysogion, 186.

Canys tyllued yw twng lliaws, canys cadarnaf yw oe *deblygu.*—*C.C.* ii. 588.

Dyuot allan or kastell a wnaethant wynteu. a deu *dyblygu* aerua o nadunt.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 48.

A thrannoeth duw Sul oed yr vnuet dyd ar bymthec o galan Racuyr drwy hyvrwyd awel wynt y *dyblygawd* y logeu y dir Iwerdon.—*Brut y Tywysogion*, 216.

Hi a *ddyblygodd* ei holl lestri hyn yng nghyd, ac a'u gosododd arni.—*Iudeth* x. 5.

Pettem ni yn llios *ddyblygu* y fiwyddyn fawr, neu flynyddoedd o'r unrhyw fil o weithiau, ni ddoai hyny i gyrhaedd y toriad lleiaf ymaith oddi wrth nifer aneirif Tragywyddoldeb.—*Elis Lewis:* Drexelius, 295.

Dyboeri, *v.* [poeri] to spit about, to bespawl.

Dyboeriad, -au, *sm.* a bespawling.

Dybori, *v.* [pori: cf. Br. *dibri*] to feed often; to be grazing, to graze.

Dyboriad, *sm.* a grazing, a feeding.

Dyborth, -ion, *sm.* [porth] support; help; sustentation.

O nef bur eiddunaf borth,
Nawdd ddiball Duw yn *ddyborth!*—*R. Owen:* Gweith. 274.

Dyborthadwy, *a.* supportable, bearable, sustainable.

Dyborthedig, *pt.a.* supported, sustained; carried; borne.

Digitized by Google

Dyborthi, *v.* 1. to sustain, support, or uphold; to bear; to carry; to bring.

Difyrth chwechoes byd rac pyd poeneu.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 331.

Tagnoued a geissant. tagnoued a *dyborthynt*.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 215.

Y gwr hyt tra uu uyw a *dyborthei* yn uwyaf or tywysogyon.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 246 (cf. 221).

Ac yna y daeth y Gweyndit yr eilweith yn gwrthnebed. can ny ellynt *dyborthi* kyfvreithev na brodiev na threis y Freinc.—*Brut y Saesson:* M.A. ii. 532 (cf. 476).

Priaf a gyfodes yn vawrvrydus y uynyd ac a *dyborthes* llawer o drygeu yn erbyn Antenor ac Eneas.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 35.

Gwed dragwydawl geithiwet a *dyborthant*.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 146.

Y ddaear a oedd orwag a dielw a thywyllwch oedd ar wyneb yr eigion, ac Yspryt yr Arglwydd a *ddyborthit* ar y dyfredd. . . Pob llysieuyn yn i natur e hun a *ddybortha* hat.—*Hen Gyfeithad o Genesis*, i. (Gwyliedydd, i. 141-2).

Meibon anffrwythlawn a *dyborthant* ffrwyth. y deillon a welant.—*Buchedd Mair*, § 29.

2. to contribute; to supply; to afford.

Y mae yn *dyborthi* yn fwy eto at eu maethiant pan yw yn dwyn iddynt briddlyd a halus ddefnyddion.
W. O. Pughe: C.P. 28.

Dyborthiad, -au, *sm.* a supporting, sustaining, or bearing; a carrying, conveyance.

Dyborthiawdr, iodron, } *sm.* a supporter, sus-
Dyborthawdr, odron, } tainer, or bearer.

Ny wnaethant sarhaet na threis y neb namyn yr eur ac aryant prynu eu kyfreideu megys kenedyl *dyborthawdyr* hedwch.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 114.

Dyborthwr, wyr, } *sm.* a sustainer, a sup-
Dyborthydd, -ion, } porter; a bearer, a carrier, a conveyer.

Dybreiddiad, -au, *sm.* a taking away of herds; depredation.

Dybreiddio, *v.* [preiddio] to depredate; to spoil or pillage.—*P.*

Dybreiddiol, *a.* depredatory, plundering.

Dybreiddiwr, wyr, *sm.* a depredator, a ravager, a pillager.

Dybriw, *a.*=*Dyfriw*.

Dybriw dreic dragon beleidryad.—*Cynddelw:* M.A. i. 221.

Dybrofi, *v.* [profi] to try or test.

Yr wyf yn bwriadu ei *ddybrofi* eto eleni, gydag erfin Swedain.—*W. O. Pughe:* C.P. 20.

Dybruddo, *v.* [prudd] to make sad or gloomy; to sadden.

Dybruddwyd eu boreuddydd,
Archollion serch i'w llanw sydd.—*R. Owen:* Gweith. 242.

Dybry, } -od, *sf.* [dwfr+pryf?] the sea-
Dybryan, } hen, the guillemot: also called
Dybrych, } *gwylog* and *gwrilym*.

Dybryd, *a.* [di-+pryd] ugly, deformed, frightful; sad, melancholy; tragic; horrid, atrocious, foul; odious; repulsive; harsh, disagreeable.

Mi ae dywedaf idaw rac gwelet angheu arnaw ef yn *dybryt*.—*Mabinogion*, 270.

Yr hwnn y mae y gorf yn gorwed yn y Galis a heb y adnabot o neb. ac y mae Sarascinyeit yny gywarsagu yn *dybryt*.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 381.

Ac yn *dybryt* kymell arnaw adaw y maes.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 231 (cf. 113, 219).

Dewissach uu gantaw rodi cat ar uaes noe warchae yn *dybryt* yn y gaer.
Yst. de Carolo Magno, col. 392 (cf. 394, 469).

Yny wnelont dy agheu ath adoet yn *ddybryt*.
Doethion Rhufain, § 23.

Velle y byd *dybryt* y rei ereill or aruthred mwyhaf.
Llyfr Ancr, 75 (cf. 58, 60).

Dybryd ynn veirt byd bod daear arnaw
Ac arnan y alar.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 298 (cf. 543).

Egorai'r ddaiar yn y man,
A llyncai Ddathan *ddybryd*.—*Edm. Prys:* Salm. cvi. 17.

Beth yna a dal cyphes ac ediueirwch. oni dhileir ein pechawt. neu os y Saint a wybydh ein gweithredoedh *dybryt* ni.—*Lucidar*, § 136 (cf. 46, 64, 115, 142).

Tithau, O Arglwydd, pa ryw hyd
Rhöi arnaf *ddybryd* brudd-der!—*Edm. Prys:* Salm. vi. 3.

Ystyriwch pa ryw orchest anferthol a digalondid *dybryd* sydd yn sefyll o'u blaen hwynt.—*Ier. Owen*, 112.

Mae nid yn unig yn hen chwedl ynfyd, eithr hefyd yn gelwydd *dybryd* digywilydd.—*Ed. Samuel:* Grotius, v. 4.

Gwna ni yn llawen; buom brudd,
Pan oedd in' gystudd *dybryd*.—*Edm. Prys:* Salm. xc. 15.

Ni chydfydd awenydd wâr
A dynion *dybryd* anwar.—*Gro. Owain*, 81 (cf. 56, 90, 128).

Gresyni *dybryd* yw fod raid i ni, ag sydd â Bibl Duw yn ein dwylaw, ei droi megys o'r neilldu, a myned at ein calon siomedig ein hunain i chwilio beth yw'r ewyllys Dwyfol.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 263.

Cyflafan ddybryd, a horrid deed.

Angeu dybryd, tragic or horrible death.

Pan yw erchi ytt eisted a gorffowys yny delei *angheu dybryt* ytt yr hwnn a ellir y gyffelybu yr nos.
St. Greal, § 29.

Ar ny mynno credu idaw mi a baraf idaw *angheu dybryt*.
St. Greal, § 250.

Gweithred ddybryd, a horrid, flagitious, or atrocious deed.

Gweithret dybryt a oruc y varch. nyt amgen no llad mab y brenhin.—*Bown o Hamtwn*, § 50.

Sef lle y bydd hynny am ledrad nos, ac angcynyrchawl, am ffyrnigrwydd, neu *weithred ddybryd*.—*C.C.* ii. 574.

Delw ddybryd, a deformed, ugly image.—*D.*

Chwedl ddybryd, a sad story.

A *chwedl dybryd* oedd!—*D. ab Gwilym*, cxlii. 62.

Dybryd sain, a harsh sound.—*Cyfrinach y Beirdd*, 195, 196.

Dybryd sain is one of the technical faults in versification according to the strict rules of Welsh prosody. It is intentionally exemplified in each of the subjoined lines:

Dybryd sain yw chwain a chwn,
A blin brenin bro annwn.—*Pedr Fardd:* Mél Awen, 7.

Dybryder, *sm.* [pryder] pensiveness, sadness; deep anxiety.

Dybryderol, } *a.* pensive, sad, depressed, mel-
Dybryderus, } ancholy.

Dybryderu, *v.* to be pensive or musing; to be deeply anxious.

Nyt aruedauc y uolaut
Dyphryderas y uascaut.
Taliesin: M.A. i. 61 (cf. A.B. ii. 39, 97).

Dybrydiad, -au, *sm.* [pryd] a fixing or observing a time.—*P.*

Ar gariad *dybrydiad* bryd,
Pwyll dirgel, pell yw d'ergyd!
Dafydd ab Gwilym, clxxxvi. 35.

Dybrydio, *v.* to set or fix a time; to observe a time.

Dybrydwch, } *sm.* [dybryd] ugliness; de-
Dybrydrwydd, } formity; depravity; atrocity;
Dybrydedd, } viciousness.

O degwch y seint. Mwy lawer yw eu ragor hwy no hynny. Tegwch Abealon *dybrydwch* vyddei hynny yno. kannys eu tegwch wy a uyd megys eglurder yr heul.
Llyfr Ancr, 68.

Dybrytruydh yw gwrthwynebu clot aralh am y weithredoedh da.—*Ymborth yr Enaid*, § 7.

Digitized by Google

Dybryn, *sm.* [pryn, prynu] a purchase; merit, desert.

Dybryniad, -au, *sm.* an obtaining, a purchasing; a meriting.

Dybrynog (*ȳ*), *a.* meritorious; praiseworthy.

Ban del gofyn arnam ny rybytwn ofnawc
Rac gormes kedeirn cad *dybrunawc.*
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 271.

Dybrynol, *a.* meriting; meritorious.

Dybrynu, *v.* [prynu] to merit, to deserve; to procure, to ensure, to secure, to obtain.

Tripheth a *ddybryn* lwyddiant: priodol ymgais; hywaith ymgais; ac anghyffredin ymgais. . . Tri pheth a *ddybryn* gydnabyddiaeth. . . Tri pheth a *ddybryn* ganmoliaeth. . . Tri pheth a *ddybrynant* barch ac urddas.
Cyfrinach y Beirdd, 47.

Dybrynwr, wyr, *sm.* one who acquires or obtains; a purchaser.

Dybrysio, *v.* [brysio]=*Dyfrysio.*

Nyt yr sarhaet ytt y deuant. namyn yr dy wassanaethu y *dybrysyant.*—*Buchedd Mair,* ‖ 19.

Dybrys alaf Deifyr y dreſad Bowys
Y beues y hendad.—*Cynddelw:* M.A. i. 221.

Dybu, *v.* [dy+bu] 3rd pers. sing. perf. ind. of *Dyfod:* came, has come (*venit*). See *Bu.*

Gwr a roddei gad kyn *dybu* i dyt.
Meilir: M.A. i. 190 (cf. 246).

Dybuant dybydant vyd.—*Cynddelw:* M.A. i. 241.

Dybuant y gyd yn vn orsset.
Y Vreui ar Dewi da y vuchet.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 273 (cf. 206).

Eil milwyr milwyr *dybuant*
Eil yrth gyrth yn gwrthuynnassant.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 299 (cf. 196).

Dyddeuant ataw a ddoter ym medd,
Dybwyf o'm camwedd, Duw a'm cymmer,
Dybo im' dristyd cyn pryd pryder.
Llywelyn Fardd. (*D.*)

Dybur, *a.* [pur] very pure or refined.

I'r tywyll-ben galwyd Moesen,
Hynod wiw-ben hen a *dybur.*
Robert Owen: Gweith. 138 (cf. 160, 336).

Dyburdod, **Dyburedd,** *sm.* purity, pureness; refinedness.

Dyburiad, -au, *sm.* a purifying, purification; purgation.

Dyburo, **Dyburio,** *v.* to purify; to refine; to purge.

Dadwyrein o uein o uet an dylyt
Y an *diburyaw* o an camwet.
Gruffydd ab Gwrgeneu: M.A. i. 374.

Bei na bai undydd Dofydd an daw
Dyddbrawd yn barawd i'n *diburaw.*
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 397.

Dybwy, -on, *sm.* [pwy] a thrust; an attack.

Dipryderant di yscarant rac y *dibvy.*
Llyfr Du: A.B. ii. 39 (M.A. i. 579).

Dybwyll, -ion, *sm.* the faculty of reason; ratiocination; persuasion.

Dybwylliad, -au, *sm.* persuasion; conduction.

Dybwyllo, *v.* to ratiocinate; to persuade; to lead or conduct.

Na ad i'n gelyn . . . ein *dybwyllaw*
Na'n godwyllaw er cyrbwyllaw i'r corbyllau.
I. ab Rh. ab Ieuan Llwyd. (*P.*)

Dybwyllwr, wyr, **Dybwyllydd,** -ion, *sm.* one who reasons or persuades; a persuader.

Dybwyso, *v.* [pwyso] to press; to be impressed; to rest, to repose.

Arnynt hwy
Yr haul hoenusach ei belydron a
Ddybwysai nog ar gain gymylau hwyr.
W. O. Pughe: C.G. iv. 170.

Dybwysa heddwch cymdeithas ar gyfiawnder.
W. O. Pughe: E.D. vi. 2.

Dybwyth, -au, -on, *sm.* [pwyth] a thrust; a stitch.

Dybwythiad, -au, *sm.* 'a thrusting or throwing forward;' a stitching.

Dybwytho, *v.* to thrust; to project; to stitch; to set in; to repose on.

Dybwyth Duw cein
Yn arffed Mair ei heissorawd.
Taliesin: M.A. i. 41 (cf. A.B. ii. 174).

Dybwythol, *a.* thrusting, stitching; stitched.

Dybydd, *v.* 3rd pers. sing. fut. ind. of *Dyfod:* will come; will be; will become; there will be or come (*erit, veniet*).

Dybyd hinon gwedy glaw.—*Llefoed:* A.B. ii. 305.

A deol Saesson o Iwerddon *dybydd.*
Golyddan: M.A. i. 158 (cf. 50).

Dybit seith ganllog o ynt gan wint goglet.
Myrddin: A.B. ii. 23 (cf. 22).

Wythfed dydd *dybydd* dyar
Deddfau diau diarchar.—*Llywelyn Fardd:* M.A. i. 363.

Cyd boed hir hafddydd *dybydd* ucher.
Diareb. (M.A. iii. 151.)

Hynoeth oeth *dybydaf* o dybwyf ryd.
Gwalchmai: M.A. i. 196 (cf. 241).

Undydd Dofydd *dybydd* oll
Pobloedd plant Addaf o bell.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 363.

Dybydd rhew i lyffant.—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Powys *dybyddant* dwys ynghyfleudon.
Taliesin: M.A. i. 73.

Blaen gwirawt vragawt ef *dybydei.*—*Aneurin:* God. 144.

Dybydaf yna gnawt.—*Taliesin:* A.B. ii. 130 (M.A. i. 34).

Dybwyf o'm camwedd, Duw a'm cymmer
Dybo im' dristyd cyn pryd pryder.
Llywelyn Fardd. (*D.*)

Dybyddawd, *sm.* [dybydd?] an event or accident?

Gwrthurwydyr crwydyr creulawn *dybytawd.*
Cynddelw: M.A. i. 226.

Dybyr, *a.* [?] depressed; sad; melancholy.

Dy ffynhawn lydan dyleinw dyllyr
Dy saeth dychyrch draeth diwg [*al.* duwg] *dybyr.*
Taliesin: M.A. i. 169 (A.B. ii. 198).

Nid yw einioes ond unawr,
Ein *dybyr* oes ond ber awr.—*Robert Owen:* Gweith. 336.

Dybyrdod, *sm.* melancholy; sadness; depression.

Dybyriad, -au, *sm.* a depressing; depression.

Dybyrio, *v.* to depress, to sadden.

Dybyriol, *a.* depressing, saddening; melancholic; sad.

Dybyrwawd, -iau, *sm.* [dybyr+gwawd] a tragedy.

Dyco, *adv.*=*Doco, Dacu.*—*S. W. W.*

Dych, *sm.* 'a groan, a sigh.'—*P.* Both *dych* and *duch,* with their derivatives, are given by Pughe; but the simple words are not known to occur. *Dychan* has no relation to either. He seems to confuse *dychan* (or *duchan*), in some cases, with *tuchan,* and others after him have fallen into the same error.

Dychan, -au, *sf.* [dy-+cân] 1. a satire.

Gogan, neu *ddychan,* neu sen, neu gân gwarth, neu gân sathr, yw cerdd a wneir er sathru drwg dan draed, a gwrthwynebu gwyd, a phechod, ac anfoes; ac yn gorllymu cerydd a gwarth ar bob drwg.—*Cyfrinach y Beirdd,* 41.

Digitized by Google

Ac na fyned, ced nid cel,
Ar *ddychan* arwydd ochel.—*D. ab Gwilym*, cxxiii. 27.

Tri harddwch cerdd: mawl heb druth; nwyf heb anlladrwydd; a *dychan* heb serthyd.
Cyfrinach y Beirdd, 44 (cf. 45).

Diachos oedd y *dychan*,
Er hyn o lid mae rhai'n lân;
Rhyfedd yw, medd a'i rhifai,
O bu fyw neb heb ei fai.—*Dafydd Trefor.*

Cywydd *dychan* i gadach wyneb.—*Gruffydd Hiraethog.*

Bustl y Beirdd. . . Ai rhyw *ddychan* i'r Beirdd ydoedd?
Gronwy Owain, 244.

Y 'Bardd Cwsg' o waith Elis Wynn sydd fath o *dychan*.
Gutyn Padarn: Gwaith, 133.

Cerdd ddychan, a satirical poem, a satire.

Ac nid gwaeth pe cenit, ar brydiau, *gerdd ddychan*,
I deilwng warthruddo yr arch-elyn Satan.
Eben Fardd: Gweith. 462.

2. a lampoon, an invective; defamation, slander.

Yr hen batriarchiaid a'r prophwydi, y rhai ni threiglasant un darn o'u heinioes yn rhydd oddi wrth gamogan a *dychan*.—*Morus Cyffin:* Diff. i. 1.

Ni haedda ddim clod na mawl, ond gogan a *dychan;* ac am hyny nid rhinwedd, ond bai a chamwedd yw.
R. Smith: Eglurhâd, 293.

Eu harfer yw dywedyd hyn hefyd, a'i helaethu drwy bob rhyw ddirmyg a *dychan* am danom.—*M. Cyffin:* Diff. iv. 7.

Dechreuais ammheu fy nghymdeithion wrth eu gwaith yn gwrthuno ac yn cuchio arnaf eisieu canu *dychan* i'm brenin fy hun.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 18.

¶ Dychan, yw gogangerdd, *Satyra, pożma invectivum, invectiva.*—*Davies*, s.v.

Dychangerdd (*n-g*), -i, *sf.* a satirical poem, a satire.

Dychangerddi Sion Glan y Gors ydynt ar lawer o ystyriaethau yn gelfyddgar.—*Gutyn Padarn:* Gwaith, 134.

Yr oedd y gyfraith gynt yn cymhell pob bardd i fod yn foddlon i'w radd; ac yn cospi y rhai gwaradwyddus gwatwarus a enllibient ereill drwy unrhyw *ddychangerdd*.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 444.

Cyfansoddai . . . lawer o *ddychangerddi* digrif, yn erbyn amryw bethau ffol oedd ym mhlith y Cymry.
Caledfryn: Drych Barddonol, 13.

Dychaniad, -au, *sm.* 1. a satirizing; a lampooning, an inveighing.

2. a praising, praise. Probably the older meaning.

Ni wadaf barnaf can wyf beirniad
Na waisg ar glod braisg brwysg *ddychaniad*.
Trahaiarn: M.A. i. 499.

Dychanllyd, *a.* apt to satirize; given to lampooning.

Am enghreifftiau o gyfansoddiad *dychanllyd*, gwel Awdl Rhys Goch Eryri i'r Llwynog.—*G. Mechain:* Gwaith. ii. 363.

Dychanol, } *a.* satirical; lampooning; inveigh-
Dychanus, } ing, invective.

Bu y Cymry yn nodedig am ganeuon *dychanol*, sef, gogangerddi.—*Caledfryn:* Drych Barddonol, 13.

Dychanu, *v.* 1. to satirize; to inveigh, to lampoon; to disparage. (The current sense.)

Ni lygrav vy mawredd ni *ddychanav* rianedd.
Llywarch Hen: M.A. i. 116 (cf. A.B. ii. 262).

Ond truan ei *ddychanu*,
Serchoced a'i fwyned fu.—*D. ab Gwilym*, clxiii. 43.

Mae Tertulian . . . yn llym ac yn ddifrifol yn ysgrifenu yn erbyn delwau neu eilunod, ac yn eu *dychanu* [°goganu].
Ed. James: Hom. ii. 41.

Tewch â son, rhag ofn cael eich *dychanu*.
Dr. Gr. Roberts: Gram. 272.

Tybio'r wyf mai priflo yn rhy dost o rychor iddo a wnaethym yn ei arfau ei hun, sef *dychanu*, a galw enwau drwg ar gân.—*Gronwy Owain*, 273.

Y maent hefyd yn gwneyd cymmeriad y gwrthddrych a ganmolir, neu y *dychenir* iddo, yn hollol ddamweiniol ac ansicr.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 363.

Yn awr barnent fod ymarweddiad diargyhoedd y Diwygwyr yn *dychanu* y drefn sefydledig o grefydd.
Gwyliedydd, ii. 4.

2. to praise, to eulogize, to extol.

Dychanaf ym naf ym neirthyad Ywein
Peir Prydein preit gyrchyad.—*Cynddelw:* M.A. i. 221.

Ydywch boefeirdd mewn rhwyf ofeiliant
Ny wyddoch *ddychanu* teyrnas y Brytannaec.
Taliesin: M.A. i. 21.

Dychanwaith, *sm.* a satirical work or composition.

Yr oedd ei *ddychanwaith* ef o rywogaeth wahanol i ddychangerddi yr hen brydyddion.
Caledfryn: Drych Barddonol, 13.

Dychanwr, wyr, } *sm.* one who writes
Dychenydd, -ion, } satire, a satirist; a lam-
Dychaniedydd, -ion, } pooner, an inveigher.
—*W.*

Dychawn, } *v.* [dy- + cawn]. See *Dichon*, &c.
Dychon, }

Perchen tir diettifed oy gorff a *dychawn* priodoli y dir yr neb a myno.—*C.C.* ii. 396 (cf. 400).

Ny *dhychawn* neb lauuriaw mwy noc a dhangosso dwywawl rat ydhaw. . . Velhy ny *dhychawn* y rhai drwc wneuthur mwy noc a atto Duw ydhaw ae dhwywawl rat.
Lucidar, § 68 (cf. 67, 82, 88, 97).

Dychiad, *sm.* a sighing, a wailing.—*P.*

Dychian, } *v.* to sigh, to wail; to lament.
Dychianu, } —*M.A.* i. 60.

Dychianad, -au, *sm.* [dychian] a sighing or wailing, lamentation.

Dychiannawr dewr *dychianat*
Gorchan Cynfelyn: A.B. ii. 96 (M.A. i. 60).

Dychiannu, *v.* [dychiant] to sigh, wail, or lament.

Dychiant, *sm.* a sighing, a wailing.—*P.*

Dychio, *v.* to sigh, to lament.

Dychiol, *a.* sighing, wailing, complaining.—*P.*

Dychiorawl, *a.* sighing, wailing.—*P.*

Dychiori, *v.* to utter sighs; to bewail; to lament.

Kwydei pym pymwnt rac y lafnawr
O wyr Deivyr o Brennych *dychiawr*.—*Aneurin:* God. 49.

Kynon a Chadreith a Chatlew o Gatnant
A minheu oni creu *dychiorant*.
Gorchan Cynfelyn: A.B. ii. 96 (M.A. i. 61).

O vreithyell Gatraeth pan adrodir
Maon *dychiorant* eu hoet bu hir.—*Aneurin:* God. 131.

Hijs Decembris uch carant
Tra phen Iessu *dichiorant*.
Taliesin: A.B. ii. 113 (M.A. i. 171).

Dychlaig, eigiau, eigion, *sm.* [claig] 'a drooping or sinking;' a plunge.

Dychlais, leisiau, *sm.* [dy- + clais]: see *Dichlais*, &c. *Dychlais* seems to be the preferable orthography; but *dichlais* is the one adopted by Davies and others.

Dychlam, -au, *sm.* [dy- + cy- + llam; but the *ch* may possibly be intrusive] a leap, a bound; a flutter, a throb; a palpitation.

Dychlam y galon, a throb or palpitation of the heart.

Dychlamgar, *a.* apt to flutter, throb, or palpitate.

Dychlamiad, -au, *sm.* a palpitating, throbbing, fluttering, panting, springing, or leaping; palpitation.

Bod i bob *dychlamiad* o'i galon, a phob cynneddf o'i enaid, gael eu diofrydu i wasanaeth llëenyddiaeth a lles cyffredinol ei fryniau cynhenid.—*Blackwell:* C. Alun, 251.

Digitized by Google

Dychlamol, *a.* palpitating, fluttering, throbbing; leaping, bounding, springing.

Y galon *ddychlamawl* a beidiodd â churo,
Y bochau rhos cochion eu gwrid chwap yn gwywo.
Gwyliedydd, vii. 188.

Dychlamu, *v.* to palpitate, to flutter; to throb, beat, or pant; to leap, to bound.

Wrth hyn hefyd y crŷn fy nghalon, ac y *dychlama* hi o'i lle.—*Iob* xxxvii. 1.

Yna calon Olophernes a *ddychlamodd* o'i herwydd hi.
Iudeth xii. 16.

Megys aderyn gwyllt, pan dorer ei esgyll, a fydd yn *dychlamu* ac yn selgyngian o gylch tŷ gydag un dof; ond pan dyfant drachefn, efe a ddengys o ba anian y mae.
Theo. Evans: D.P.O. 75.

Ymdrechodd a *dychlamodd* fy yspryd gan y dirfawr ddychryn.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 66 (cf. 102).

Rhwng ofni a gobeithio, mae'n rhaid anturio'n awr,
A'r enaid tan *ddychlamu* tros y cyffiniau mawr.
L. Hopcin: Mel-Gafod, 53 (cf. 36).

Dychleim, o nerth ei gerth gân,
Byd refedd a'i bedryfan.—*Gronwy Owain*, 90.

Y ddaiar lwfr, gan ing, *dychlamai* hon.
Robert Owen: Gweith. 170.

Dychleigiad, -au, *sm.* [dychlaig] 'a sinking in,' a drooping; a plunging.

Dychleigio, *v.* to sink in; to droop; to plunge; to immerge.

Eira mynydd brith bron craig
Crin calaf alaf *dichlaig*
Gwae wr a gaffo ddrygwraig.
Englynion Eiry Mynydd: M.A. i. 549.

Dychleigiol, *a.* apt to sink in or droop; plunging.

Dychleisiad, -au, *sm.* a marking with weals; a discolouring; a blackening by bruising.

Dychleisio, *v.* [dy-+cleisio] to blacken by bruising; to make weals; to bruise; to blacken.

Dychleisiol, *a.* black from a bruise; tending to bruise.

Dychlud, *sm.* [dy-+clud] what is carried; a heap.

Dychludedd, *sm.* a conveyance.—*P.*

Dychludiad, -au, *sm.* a conveying or carrying; a heaping together.

Dychludo, *v.* to carry or convey; to bear.

Dychluded teyrned teyrnged idaw
Gwledig Aberfraw a gwlad Ynyr.
Gwalchmai: M.A. i. 194 (cf. 195).

Kanweith cyn bu lleith Dorglwyt
Dychludent wyr Bryneich ym pymlwyt.
Taliesin: A.B. ii. 201 (cf. M.A. i. 71).

Dychludol, *a.* relating to carriage or conveyance; conveying.

Dychludd, *a.* [dy-+cludd] hemmed in, enclosed.—*P.*

Dychluddiad, -au, *sm.* a hemming in, an enclosing; an overwhelming; occultation.

Dychluddo, *v.* to hem in or enclose; to overwhelm.

Dymhunis tôn wyrdd wrth Aberfraw
Dychyrch tir tremud *dychlud* anaw.
Gwalchmai: M.A. i. 195.

Dychluddol, *a.* tending to close; overwhelming.

Dychnudo, *v.* [cnud] to flock or herd together.

Myneych *dychnut* val bleidawr.
Taliesin: A.B. ii. 182 (M.A. i. 46).

Dychrain, *sm.* [dy-+crain] a crawling, creeping, or wallowing; a prostrate condition.

Dychre, -au, *sf.* [dy-+cre] a croak; a cawing.

Dychread, -au, *sm.* a croaking.

Dychreawl, *a.* croaking; craving.

Dychreiniad, -au, *sm.* a creeping along; prostration.

Dychreinio, *v.* [crain, creinio] to creep along; to prostrate; to wallow.

Adnes y uranhes y vrein bann dychre
Y *dychrein* gwyr yg kreulan.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 298.

Dychrĕu, *v.* [dychre] to croak; to crave; to howl.

Rac gelyn Bryneich branhes *dychre*.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 288.

Dychrychu, *v.* [crychu] to wrinkle, ruffle, or rumple; to curl; to ripple.

Dy glust dy ddrem dy ddaint neud adwedd
Dychrycha croen dy fysedd.
Gruffydd Ynad Coch: M.A. i. 394.

Dychryd, *sm.* [cryd] tremor, tremulation.

Aeth rhyw *ddychryd* drwyddof.—*S.E.W.*

Dychrymiad, -au, *sm.* a bowing; declination.

Dychrymol, *a.* bowing; 'apt to bow down.'

Dychrymu, *v.* [crymu] to bow; to bend; to decline.

Dechrymynt fy nghlod y'nghlud fandoed.
Gwalchmai: M.A. i. 199.

Dychryn, *sm.* [dy-+crŷn] terror, dread, horror, fright, affright, consternation; panic; trembling; alarm that agitates the body and mind.

Pan wnel Duw dangos y varan
Dydwyre dy daerat arnan
Dychryn twryf torvoed yn eban.
Casnodyn: M.A. i. 431 (cf. 337).

Gwirion a vydh heb ofn. a heb *dychryn* arnaw.
Lucidar, § 61.

Gwnaeth fraw, frych leidr anghyfrwys,
A *dychryn* i'm glew-ddyn glwys.
Dafydd ab Gwilym, xcviii. 31.

Llais yr Arglwydd, drwy ddyrys lyn,
A godai *ddychryn* eres:
Yr Arglwydd a wna *ddychryn* ffiwch
Drwy holl anialwch Cades.—*Edm. Prys:* Salm. xxix. 8.

Ac felly mae'r hunan naturiol yn ddiattreg yn dilyn Yspryd Duw mewn *dychryn* a llawenydd gostyngeiddrwydd.
Morgan Llwyd: Ymroddiad, iii. 12.

Dychryn nos, terror of the night; terror by night.

Nid ofni rhag *dychryn nos*.—*Salm.* xci. 5.

Ofn a dychryn, fear and trembling.—*Eph.* vi. 5.

Ofn a ddaeth arnaf, *a dychryn*.—*Iob* iv. 14.

Brenin y dychryn, the king of terror.

'Pa fodd,' ebr *brenin y dychryn*, 'a dăed genych lawenydd, na ddaliasech chwi o'r tu draw i'r agendor? canys ni fu o'r tu yma i'r cyfwng lawenydd erioed!'
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 60.

Dychryn gwyllt, } a sudden fright, panic
Dychryn disymmwth, } fear, a panic.

Bu byddinoedd cryflon cyn hyn mewn *dychryn gwyllt*, yn ffoi heb achos.—*Samuel Roberts:* Pregethau, 83.

¶ The pl. *dychrynion* is very rare and quite modern, *dychryniadau* (from the verbal *dychryniad*) being generally used for that number.

Teyrn digllon yr arswydau mawr,
Yng ngherbyd ei *ddychrynion*.—*Brutus:* Brut. 81 (cf. 473).

Dychryn, *v.*=*Dychrynu.*

Dychrynadwy, *a.* 1. terrible, dreadful, frightful, awful; fearful; dread; that is to be dreaded.

Lle gwelem y brenin *dychrynadwy* yn trafiyncu cig a gwaed dynion, a mil o fân angeuod, o bob twll, yn ei borthi fyth â chig ir twymn.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 59.

Digitized by Google

Luciffer . . . at ein naturiol fab, y galluocaf *ddychrynadwy* Frenin Angeu.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 63.

Braint claddedigaeth a nacäid iddynt: a hyn, yn ol tyb yr hen oesoedd, a wnai y dull hwn o angeu yn fwy *dychrynadwy*.—*Gwyliedydd*, v. 77.

Fflamychent trwy'r awyr mewn dull *dychrynadwy*.
Eben Fardd: Gweith. 425.

2. that may be frightened or terrified.

Dychryndod, -au, *sm.* terror, fright, dread, horror, consternation, affrightment; trembling.

Ni ddylem ni dybied fod na llafur, na phoen, na thrafael yn y byd, yn ormodd nac yn rhy galed i ni, i geisio gochelyd *dychryndod* y dydd hwnw.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. 1, 2 (cf. I. v. 4).

Er bod wylofain a galar . . . yn ddigon cymhwys i ddadgan y gofid a'r *dychryndod* yr ydym yn ei deimlo oddi mewn.—*Ed. Samuel:* Athrawiaeth yr Eglwys, 72.

Hynod yw y modd y mae Moses yn adrodd y *dychryndod* sydd ar genedlaethau pechadurus, mewn trychineb cyffredinol.—*Ier. Owen*, 40.

Tarawyd y Syriaid ag ofeddynt yn gwarchae ar Samaria, â *dychryndod* sydyn, liw nos. . . Ffodd y Syriaid yn eu *dychryndod* hwnw.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 117 (cf. 67).

Ond mwy oedd fy *nychryndod*, wrth feddwl hyn yn awr,
Fy mod yn myn'd i'm barnu ger bron y frawdle fawr.
L. Hopcin: Mel-Gafod, 37.

Dychrynedig, *pt.a.* 1. terrified, frightened, dismayed.

Yna troi penn y varch yn *dechrynedic* a oruc Gwalchmei.
St. Greal, 193 (cf. 171).

Y bugail waeddai yn *ddychrynedig*,
Mewn braw ym mysg ei braidd mathredig.—*Eben Fardd.*

A Moses, wedi myned yn *ddychrynedig*, ni feiddiai ystyried.—*Act.* vii. 32 (cf. xvi. 29).

2. fearful, awful, terrible.

Dywedyd yr hyn yw cabledd *dychrynedig* anfeidrol.
Allwydd Paradwys, 126 (cf. 46).

Dychrynedigaeth, -au, *sf.* the act of terrifying or frightening; terror, dread, trepidation; terrorism; 'a fearful thing.'

Daiargrynfäu mawrion a fyddant yn amryw leoedd, a newyn, a heintiau, a *dychrynedigaethau*, ac arwyddion mawrion o'r nef.—*Esgob Morgan:* Luc xxi. 11.

Dy *ddychrynedigaethau* a'm torodd ymaith.
Salm. lxxxviii. 16.

Ac mewn man arall y mae efe yn dangos *dychrynedigaeth* ei ddyfodiad ef i'r farn.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 399.

Dychrynfa, fäu, fëydd, *sf.* terror, dread, great fear, trepidation, tremor; a place of terror or terrors.

Dychrynfäau Duw a ymfyddinasant i'm herbyn.—*Iob* vi. 4.

Y mae Duw Iago yn ein plaid,
Nid rhaid fod dim *dychrynfa*.—*Gwyliedydd*, ix. 377.

Gwaeddi ar eu hol a wnai dyn fel ar ol lleidr, fel y byddai iddynt drigo yn *nychrynfa* 'r nentydd.
Dr. T. Briscoe: Iob, xxx. 6.

Y mae cydwybod yr annuwiol, ambell waith, yn cael ei llanw gan *ddychrynfëydd*.
Dr. Geo. Lewis: Drych Ysgrythyrol, 115.

Tynodd ddarlun bywiog iawn o *ddychrynfëydd* ail ddyfodiad y Messïah.—*Lleuad yr Oes*, ii. 125.

Dychryniad, -au, *sm.* 1. a terrifying, frightening, appalling, or affrighting; tremulation, affrightment; a quaking.

2. terror, fright, dread, dismay.

Mae deng mil o *ddychryniadau*
Yn gorwedd yn ei enw pur.
W. Williams: Gweith. i. 240.

Hyd yn oed *dychryniadau* angeu nid ynt *ddychryniadau* idd y daionus.—*W. O. Pughe:* E.D. ii. 1.

Na fydded i'th *ddychryniadau* fy mrawychu.
Dr. T. Briscoe: Iob, xiii. 21.

Brenin dychryniadau, king of terrors.—*Iob* xviii. 14.

Angeu, *Frenin y Dychryniadau* . . . at ein parchedicaf gâr a'n cymmydog Luciffer.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 64.

Tad y dychryniadau, the father of terrors.

I *dad y dychryniadau*
Diffin [*al.* gerwin], beth yw brenin brau?
Gro. Owain, 106 (cf. Wks. i. 207).

Dychrynllawn, *a* full of terrors, terrible.

Wrth hyny hefyd yr arwyddocëid y gofynir cyfrif tost *dychrynllawn* ddydd farn am dori'r gyfraith hon.
Dr. Davies: Llyfr y Res. I. v. 4.

Dychrynllyd, *a.* 1. terrible, dreadful, awful, frightful, fearful, full of terror.

Gwelwn hwynt yn myned yn ddiofn at farwolaeth, a phob peth *dychrynllyd* arall.
Charles Edwards: Hanes y Ffydd, 65.

Bydd i gamgymmeriadau ein gwneuthur yn agored i'r canlyniadau mwyaf arswydus a *dychrynllyd*.
Dr. Geo. Lewis: Drych Ysgrythyrol, 248.

Dydd *dychrynllyd* sy'n ymddangos,
Hwn a lysg fel ffwrn o dân.
Iolo Morganwg: Salmau, I. xviii. 5.

A hwy yn dylifaw o hyd
I'r unlle, wedd *ddychrynllyd!*—*Tegid:* Gwaith, 113.

Trwy'r hyn mae yr adyn o bryd i bryd yn deimladwy, i raddau mwy neu lai, o'i anhwylder *dychrynllyd*.
Ios. Harris: Gweith. 37.

2. apt to tremble, timorous, fearful, timid.

Meddal ynt, yn mynych fudo,
A *dychrynllyd*, hawdd eu 'stwytho.
Morgan Llwyd: Gwyddor Uchod, iii.

Dychrynllydrwydd, *sm.* dreadfulness, awfulness, terribleness.—*W.*

Dychrynol, *a.* frightening, terrifying; frightful; trembling.

Gwelem lyn mawr cyfan o dân byw gwynias . . . a'i weithrediadau tu hwnt i alluoedd yr iaith ardderchocaf a helaethaf i ddarlunio ei fawredd *dychrynawl*.
Cawrdaf: Meudwy Cymreig, 215.

Dychrynu (*ȳ*), *v.* 1. to make to tremble (with fear); to frighten, to terrify.

Dragon iw dechreu ac niw *dychryn* cat.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 265 (cf. 135).

Neum *dychryn* meddwl a feddyliaf.
Cynddelw: M.A. i. 264.

Na *ddychryned* dy ddychryn fi.
Iob xiii. 21 (cf. 11; ix. 34; xi. 19).

Llais telyn a *ddychryn* ddiawl.—*Gronwy Owain*, 5.

A pha le mae'r dynion hyny
Fu'n *dychrynu* daiar gron!
Dr. L. Edwards: Traeth. Duw. 490.

2. to be or become frightened or terrified; to be amazed; to be in fear; to tremble, to quake.

Nachaf y gwelei [Charlys] fflam las o dan yn kerdet yn vuan . . . or tu deheu idaw parth ae assev gan y wyneb. a *dechrynu* rac y tan a oruc.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 496.

Llyfant y llwch fel sarff, fel pryfed y ddaiar y *dychrynant* o'u llochesau.—*Esgob Morgan:* Mic. vii. 17.

Y rhai a glywant dy enw di, a *ddychrynant*, ac a lesgânt rhagot ti.—*Deut.* ii. 25 (cf. xx. 3).

Ffelics a *ddychrynodd*.—*Act.* xxiv. 25.

Pwy ni chrynai, ac ni *ddychrynai*?
Dr. Davies: Llyfr y Res. I. vi. 15.

Crŷn y gethern uffernawl,
A chrŷn a *dychryn* y diawl.—*Gronwy Owain*, 92.

Rhynu a dychrynu, to starve and shiver.

Darllidiaw a wnaeth yr holl gymdeithon . . . ac a'i troisant hi allan yn nyfnder y tywyllnos garwhinog, i *rynu a dychrynu* oni ddaeth y wawr.—*Iolo Mss.* 173.

Dychrynwr, wyr, } *sm.* one who frightens or
Dychrynydd, -ion, } terrifies; an affrighter, a frightener; one who trembles, a trembler.

Rhoddaf heddwch hefyd yn y tir, a gorweddwch hefyd heb *ddychrynydd*.—*Lef.* xxvi. 6.

Dychrys, *sm.* [crys, crysio] haste, hurry, speed.

Dychrysiad, -au, *sm.* a hastening or hurrying.

Digitized by Google

Dychrysio, *v*, to hasten, to hurry; to march.

Dychrys gwrys gwres tande allan.
Casnodyn: M.A. i. 431.

Dychrysiol, *a.* hastening, hurrying.

Dychurio, *v.* [dy-+curio] to be afflicted; to pine.

Maon *dychurant* eu hoet bu hir.—*Aneurin:* God. 132.

¶ *Dychurant* occurs as a variant in this passage of the Gododin; but the true reading probably is *dychiorant*, as in the text. See *Dychiori.*

Dychwaen, } *pl.* dychweiniau, *sf.* [dy-+
Dychwain, } chwaen]: see *Dichwaen*, &c.

Dychwaeth, *pl.* dychwaethau, dychweithiau, [dy-+chwaeth] a taste, a relish.

Da'i ochel rhag cael *dychwaeth*
O'i ffug llwyr.—*Th. Llywelyn.*

Dychwant, -au, *sm.* [chwant] inclination, propensity, desire; appetite, craving.

Y mae dyn wedi myned yn draphell oddi wrth gyflawnder gwreidd iol, ac y mae o'i naturiaeth ei hun â'i *ddychwant* ar ddrygioni.—*Ll. G. Gyffredin* (Erth. 9).

A'i *dychwant* hi a'i dichell,
Man da gael myned i gell.—*Rhys ab Harri.*

Mal un heb gaffael ymborth er ys talm,
Ac ar yr hwn y rhoddai newyn llym
Ei llaw i awchu *dychwant* ei wanc flin.
Seren Gomer, viii. 56.

Dychwantol, *a.* inclining; apt to cause desire.

Dychwantu, *v.* to long (for), to desire; to be inclined.

Dychwardd, } *a.* [chwardd, chwerthin] laugh-
Dychwarddol, } ing, smiling.

Dychwedl, -au, *sf-m.* [chwedl] a tale, a story; a rumour; a narrative.—*P.*

Chwedl yw a *dychwedl* dichwerw.—*Dafydd ab Gwilym.*

Dychwedliad, -au, *sm.* a discoursing; narration.

Dychwedlu, *v.* to discourse, to confabulate, to chat, to converse.

Dychwedd, *a.* [di-+gwedd: cf. *dybryd*] somewhat small and not good-looking; plain, ordinary, common. Cf. *Diolwg.*

Hwyrach nad allan o le fyddai crybwyll mai dyn lled fychan, gwawrddu, *dychwedd* yr olwg arno, ydoedd . . . heb nac urddas na mawredd o un math i'w ganfod yn ei gylch.—*Brython*, iii. 9.

Dychweinio, *v.* [dychwain] to happen, to come to pass. See *Dichweinio.*

Dychweiniol, *a.* accidental.

Dychwel -ion, *sm.* [chwel] 1. a turn, a course; a return; a conversion.

Tair clud gymhorth y sydd: beirdd yn eu cylch clera; *dychwel* o ryvel; ac eillion yn nawdd cenedl y Cymry.—Tair clud *ddychwel* y sydd: iaith; braint; a chenedl.
C.C. ii. 476.

Trwy vwrch y ddinas fforas ffohyn
Rhyfel heb *ddychwel* i dir Prydyn.
Golyddan: M.A. i. 157.

Bydd ar *ddychwel* imi'n dawel, main ei dwyais.
Dafydd Llwyd Mathew: Cyfr. y Beirdd, 149.

Dychwelion, returns.

2. a case (in grammar): also written *Dychwyl.*

Dychwel, *v.*=*Dychwelyd.*

Gorfu arnaw *ddychwel* yn fawr ei golled ai gywilydd.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 529.

A *dychwel* a wnaeth ef â llynges drom i Ddeheubarth.
Iolo Mss. 22.

Mae dyn fel anifail nad yw yn ei ddeall ei hunan, nac yn medru *dychwel* at Dduw.—*Morgan Llwyd:* Tri Aderyn, 46.

Gan hyny parodd Duw i Moses *ddychwel*
Y bobl o Etham, drwy dywysiad angel
Y ddwyfol golofn.—*Nicander:* Moses, ix.

Dychweladwy, *a.* returnable; convertible; reversible.

Hyd droad *dychweladwy*
Holl fydoedd ieithoedd yn ddwy.
Robert Davies: Diliau Barddas (1882), 74.

Dychweleb, -ion, *sf.* a return=an official report.

Os gellid dyfeisio unrhyw ffordd o roi y ffeithiau a ddymunid, ni feddai ef unrhyw wrthwynebiad i'r *ddychweleb.*—*Baner Cymru*, Mawrth, 25, 1893.

Dychweledig, *pt.a.* converted; returned; reversed; declined.

Y mae y *dychweledig* yn greadur newydd.
Th. Charles, s.v. 'Dychwelyd.'

Achos neu ddisgynfa enw, mewn amryw ieithoedd, yw ei wahanol derfyniad, neu ei ddiweddiad *dychweledig.*
Robert Davies: Ieithadur (1826), 36.

Dychweledigion, converts, converted persons; returned persons or things; those who return or are returned.

Ar ol y Dychweliad o Babilon, galwyd y *dychweledigion* ar enw Iudah yn unig, sef yn Iuddewon.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 94.

Dychweledigaeth, -au, *sf.* conversion; a turning, a returning; a return.

Dychwelfa, faoedd, fëydd, *sf.* a return; a returning; retrogression; recurrence.

A'i *ddychwelfa* ydoedd i Ramah; canys yno yr oedd ei dý ef.—1 *Sam.* vii. 17.

Dychweliad, -au, *sm.* 1. a return; the action of returning; a turning; a recurring; declension.

Amddychwel liosawdl y sydd, pan newidir yr unrhyw air i amryw *ddychweliadau*, neu rif, neu genedlryw, neu ddynsawd, neu rithogaeth, neu fodd, neu amser, mal y goddefo yr iaith.—*H. Perri:* Egl. Ffraethineb, xxxi.

Y mae *dychweliad* eneidiau i'w cyrff drachefn oddi wrth y meirw yn profi anfarwoldeb yr enaid.
Dafydd Lewys: Golwg, iii. 4.

Cyn myned ym mhellach gyd â'r hanes am *ddychweliad* yr Iuddewon o Babilon, a'u sefydliad yn eu gwlad eu hunain, ni fydd yn anfuddiol i roddi ychydig hanes am y prophwyd Daniel.
S. Lloyd: Ams. Ysgrythyrol, 251 (cf. 248, 249, 250).

2. conversion; the turning (of sinners to God).

Y mae rhai *dychweliadau* byrbwyll ac anystyriol, ac yn ganlynol yn ddibara. . . Am y fath *ddychweliad* a hwn fe a ellir dywedyd fel y dywedodd yr Arglwydd am Cicaion Ionah. . . Gwir ystyriaeth o ffyrdd dyn ei hun yn y dechreu sy'n gwneuthur *dychweliad* yn barhäus.
Ioan Wallter: Dwy Bregeth, 8 (cf. 4, 5, 6, 7, 9, 10, 11).

Yr wyf yn ofni iddo beri gofid a freidiol i amryw o ddynion da . . . nad aethant trwy'r holl droion a'r graddau hyny o *ddychweliad.*—*D. Davis:* Bywyd Duw, 63.

Dychweliad ydyw o egwyddor sanctaidd, a chyfnewidiad syniad y meddwl.—*Th. Charles*, s.v. 'Dychwelyd.'

Moddion *dychweliad* pechadur ydyw y Gair.
Gwyddoniadur Cymreig, iv. 50 (cf. 49, 51).

3. a case (in grammar).

De Casu. *Dychweliad.*—*Dr. I. D. Rhys:* Gram. 54.

Dychweliedydd, -ion, *sm.* a returner.

Dychwelwr, wyr, *sm.* 1. one who turns or returns, a returner.

2. one who turns (from a former course of life); a person turned or converted (to any religious faith or doctrine); a convert.

Dychwelwch, dychwelwch, oddi wrth eich ffyrdd drygionus, gan fod y fath dderbyniad groesawus gyd â Duw i'r cywir *ddychwelwr.*—*Ioan Wallter:* Dwy Bregeth, 15 (cf. 12).

3. one who turns or converts (another), a converter.

Dychwelyd, 1. *v.n.* to turn; to return, to turn back; to come or go back; to retrace one's steps; to become,

Digitized by Google

Ni ddylai *ddychwelyd* drachevn yn mraint ei chenedl hi.
C.C. ii. 564.

Och ucith byth bellach ny *dychwel*.
Llygad Gwr: M.A. i. 373.

Yr Haf hynawa, rhwyf hinon,
O'm serch am danad mae'm son,
Dychwel yn ol i'r dolydd,
Yn drym draw er gwisgaw gwŷdd.
D. ab Gwilym, cclviii. 57.

Yna y *dychwel* y pridd i'r ddaiar fel y bu; ac y *dychwel* yr yspryd at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef.—*Preg.* xii. 7.

Ac odyno *dychwelut* adref yn hyvryt lawen.
Brut y Saeson: M.A. ii. 557.

Nid ar un dyrnawd (sef ar unwaith) y *dychwel* dyn yn waethaf.—*H. Perri:* Egl. Ffraethineb, Rhag. 5.

Gwasgarwyd y Groegiaid hefyd, wrth *ddychwelyd*, i lawer o ynysoedd Môr y Canoldir.—*Th. Charles*, d.g. 'Troas.'

Ystyried y cyfryw un, mai megys yr ymadawodd oddi wrtho trwy wneuthur pechodau, felly fod yn rhaid iddo *ddychwelyd* ato trwy arferyd y gwrthwyneb rasusau: yr hwn a ymadawodd trwy falchder, *dychweled* trwy ostyngeiddrwydd; yr hwn a ymadawodd trwy hunan-gais, *dychweled* trwy hunan-ymwadiad; yr hwn a ymadawodd trwy wageddau, *dychweled* trwy ddifrif weddïau: yr hwn a ymadawodd trwy annhrugarogrwydd, trwy ormes a thrais, *dychweled* trwy ddangos trugaredd... Yr hwn a ymadawodd oddi wrth Dduw trwy feddwdod, *dychweled* ato trwy sobrwydd; yr hwn a ymadawodd trwy loddest ac anfradlonrwydd, *dychweled* trwy ddirwest, ympryd, ac arbedrwydd: mewn gair, yr hwn a ymadawodd trwy wneuthur drygioni, *dychweled* trwy wneuthur daioni.
Ioan Wallter: Dwy Bregeth (1772), 11.

Dychwelwch, feibion dynion.—*Salm.* xc. 3.

Pa bryd y *dychwelodd* Daniel o Elam i Babilon, sydd ansicr.—*Simon Lloyd:* Amseryddiaeth Ysgrythyrol, 252.

Dychwelyd i'w dŷ, to return to one's house.—*Luc* viii. 39.

2. *v.a.* to return; to bring, carry, send, or give back; to restore; to convert; to turn.

Mewn mor dylan im *dychwelwys*.
Taliesin: M.A. i. 19 (cf. 85).

Dychwel ni, O Dduw, a llewyrcha dy wyneb.
Salm. lxxx. 3 (cf. 7, 19).

Felly y *dychwelwyd* Sant Paul ar ei daith tua Damascus.
D. Davis: Bywyd Duw, 63.

Y mae'r Arglwydd yn dywedyd iddo, os rhybuddiai efe yr annuwiol, i ddychwelyd o honi; er i'r cyfryw wrthod dychwelyd o'i ffordd, eithr marw o hono yn ei anwiredd, eto y gwaredai y Prophwyd ei enaid, am gyflawni o hono ef ei ddyledswydd, er na thyciodd ei waith i *ddychwelyd* y pechadur.—*Ioan Wallter:* Dwy Bregeth, 3.

Yna y dygaf hwynt i fyny, ac y *dychwelaf* hwynt i'r lle hwn.—*Ier.* xxvii. 22.

Yr ydych chwi i weddïo dros bawb gweinidogion, ar ryngu bodd i Dduw anfon gweithwyr allan i bob rhan o'r cynhauaf, tu ag at *ddychwelyd* Iuddewon a Chenedloedd.
Ier. Owen, 88.

Y maent wedi eu goleuo yn gadwedigol, a'u gwirioneddol *ddychwelyd* at Dduw.—*Dr. Geo. Lewis:* Drych Ysgr. 250.

Dychwelyd caethiwed, to bring back captivity.—*Salm.* xiv. 7; lxxxv. 1.

Mi a *ddychwelaf gaethiwed* Iudah, a chaethiwed Israel.
Ier. xxxiii. 7 (cf. xxxii. 44).

Dychwelydd, -ion, *sm.*=*Dychwelwr.*—*Dicts.*

Dychwennyg, *v.* [=dychwennych?] to desire or covet greatly? The word is known to occur only in the following obscure proverb.

Ni *ddychwennyg* budd pydi.—*M.A.* iii. 167 (also 169).

Dychwerthin, *v.* [chwerthin, chwardd] to keep up a laugh; to laugh.

Adfwyn dydaw dyfyr *dychward* gwyrd wrth echwyd
Ogfanw a Chegin a Chlawedawg drydyd.
Gwalchmai: M.A. i. 195.

Dychwydd, -au, *sm.* [chwydd] a swell; a swelling.

Dychwyddiad, -au, *sm.* a swelling; a heaving.

Dychwyddo, *v.* to swell; to heave up. See *Dywyddu*.

Dychwyddol, *a.* apt to heave up or swell.

Dychwyl, -ion, *sm.* [chwyl=chwŷl] 1. a revolution; a rotation.

2. a case (in grammar).

Et primo de Casu, dygwydd, *dychwyl*, cwympod.
Dr. Davies: Rudimenta (1621), 28.

Dychwyliad, -au, *sm.* a revolving, revolution.

Dychwylo, *v.* to revolve, to turn, to gyrate.

Dychwyn, *v.* [dy-+cwnnu: cf. *cychwyn*] to begin to move or march; to move; to start; to stir; to remove.

A phan wybu y llu hynny llawenhau a orugant yn uawr. a *dechwyn* eu pebylleu. a chynnullaw eu llu ygyt ac eu daoed gwasgaredic. a dodi eu swmereu ar eu meirch. a chymryt eu hynt parth ac eu damunedic Ffreinc.
Yst. de Carolo Magno, col. 475.

O hir dinaw *dychwynir*.
Llefoed: A.B. ii. 308 (M.A. i. 156).

Dychwysiad, -au, *sm.* [chwys] exudation, perspiration.

Dychwysol, *a.* exudative, sweating.

Dychwysu, *v.* to exude, sweat, or perspire.

Dychwyth, -au, *sm.* [chwyth] a blowing; a breathing.

Gwedi hyny dychymmyg awgrymiaid cymhleth, sef ar y gorint arwydd uchenad, neu *ddychwyth*; a gwellāu ar hyny o amser i amser hyd amser Ieuan ab y Diwlith.
Barddas, i. 86.

Dychwythol, *a.* breathing, blowing; aspirate; aspiratory.

Dychwythu, *v.* to blow, to breathe; to aspirate.

Dychyfaer, -au, *sf.* [cyfaer] a rencounter; a combating hand to hand.

Dychyfaeriad, -au, *sm.* a rencountering, a combating.

Dychyfaerol, *a.* rencountering.

Dychyfaeru, *v.* to rencounter, to combat.

O pop aduer y torof uroder *dychyfaerawt*.
Taliesin: A.B. ii. 173.

Dychyfal, *a.* [cyfal] agreeing in form; consimilar, like.

Dychyfal dychyfun dyfynveis
Dyfyngleis dychyfun.—*Taliesin:* A.B. ii. 201.

Dychyfalhau, *v.* [cyfalhau] to assimilate; to make like; to accommodate; to become like or similar.

Dychyfarfod, *v.* [cyfarfod] to come in contact; to meet together; to meet; to happen.—*D.*

Hir *dychyferuydein* o Brydein gofein.
Taliesin: A.B. ii. 149.

Dychyveruyd trwch a thrin.
Llefoed: A.B. ii. 306 (M.A. i. 155).

Cennadau angau *dychyferfydd*.
Golyddan: M.A. i. 158 (A.B. ii. 127).

Dycheferuytwn ny lu am y laryet
Dycheferuytwn ninheu am drugaret.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 273 (cf. 208).

Arth or deheu. kyuyt ynteu *dychyueruyd*.
Taliesin: A.B. ii. 292.

Dychyfeiriad, -au, *sm.* [cyfeiriad] a making towards; direction.

Dychyfeirio, *v.* to make towards; to set forth; to direct.

Dychyfeiriol, *a.* making towards; pointing; directing.

Dychyfiad, -au, *sm.* equalization.

Digitized by Google

Dychyfing, } *a.* [cyfing, cyfyng] straitened;
Dychyfyng, } perplexed.

Ef dywal diarchar dieding
Am ryfreu angeu *dychyfing.*
Taliesin: M.A. i. 71 (A.B. ii. 201).

Dychyfio, *v.* [cyfio] to equalize.

Golut byt eyt dydaw
Ket ymgemmycker o honaw
Dychystud aghen *dychyfyaw*
Dybyd hinon gwedy glaw.
Llefoed: A.B. ii. 304 (M.A. i. 154).

Dychyfiol, *a,* tending to equalize.

Dychyfodi, *v.* [cyfodi] to rise or arise; to raise.

Dychyuyd glewyd glew hyder.—*Cynddelw:* M.A. i. 223.

Dychyfun, *a.* [cyfun] accordant, agreeing. *M.A.* i. 71 (cf. A.B. ii. 201).

Dychyfuno, *v.* to accord, to agree; to unite.

Dychyffro, } *sm.* [cyffro, cyffraw] agitation,
Dychyffraw, } commotion, motion; excitement.

Dychyffroad, -au, *sm.* a putting in motion; agitation; disturbance.

Dychyffroawl, *a.* tending to agitate; exciting, agitating.

Dychyffroi, } *v.* to agitate, excite, or stir; to put
Dychyffro, } in motion; to become agitated, excited, or disturbed.

Dychyffre gwaew gwaetlin.—*Llefoed:* A.B. ii. 306.

Rhag rhynnawd tan *dychyffrwy* mwg.
Taliesin: M.A. i. 63 (A.B. ii. 149).

Dychymhell, *v.* [cymhell] to urge or press; to compel or force.

Dychymmell Prydein or pryder yd vu
Prif deyrn ae differ.—*Cynddelw:* M.A. i. 223.

Dychymmeryd, *v.* to take; to seize.

Dychymer uvelyar bar bann.—*Casnodyn:* M.A. i. 431.

Dychymmod, -au, *sm.* arrangement, adjustment; classification.

Tri deifnogion Ynys Prydain: Gwalchmai ab Gwyar; a Llecheu ab Arthur; a Rhiwallawn Wallt Banhadlen; ac nid oedd nas gwypyn ei ddefnydd a'i ddeifnogaeth, ai o ryw ai o rann, ai o ansawdd, ai o gyfansawdd, ai o *ddychymmod,* ai o ddychymmyg, ai o anian ai o aniad y byddai.
Trioedd: M.A. ii. 69.

Dychymmod, *v.* [cymmod] to agree or accord with; to be consistent with; to be usual.

Dechymyd meddaw [*al.* medd-dawd] mawr wirawt o ved
Dechymyd aghen agheu llawer
Decymyd anaeleu dagreu gwraged . . .
Dechymyd tristid byt a ryher.
Golyddan: A.B. ii. 124 (M.A. i. 156).

Ni *ddygymmydd* medd â chybydd.—*Diareb.* (M.A. iii. 167.)

Dychymmriw, *a.* [cymmriw] broken to pieces; shattered.

Dychymmriw, *v.* 'to break together, or against one another;' to shatter or bruise together.

Dychymriw tonn amliw am lan.—*Casnodyn:* M.A. i. 431.

Dychymmriwiad, -au, *sm.* 'a breaking or dashing against one another.'

Dychymmyg, -ion, *sm.* [cymmyg] 1. imagination; invention; the imaginative faculty. See *Crebwyll.*

Gwir a chyflawn waith Crebwyll a *dychymmyg* yw cynnull yng nghyd pethau hoffion herwydd tegwch, a thirionwch, a'r diddanwch o henynt, o bethau a ddychon bod yng nghyd, ac yn gyttûn â'u gilydd herwydd anyan a dygwydd. . . . Ni wedd yr un ansawdd o barth *dychymmyg* i bob rhyw ar gerdd; nid yn unrhyw y bydd crebwyll a *dychymmyg* mawlgerdd a'r rhai a fônt weddus ar alargan. . . Gocheled y bardd na bo'n gwrthladd y gwirionedd yn ei *ddychymmyg* a'i grebwyll.
Cyfrinach y Beirdd, 19 (cf. 14, 17, 18, 21—25, 42).

Tri pheth a hoffant gerdd: dyfnder synwyr ac ystyr; odidawg *ddychymmyg;* ac awdurdawd y prydydd.—Tri pheth a anhoffant gerdd: basder synwyr; a sathredig *ddychymmyg;* ac anurddas y prydydd.
Trioedd Mocs: M.A. iii. 195 (cf. 135, 136).

Tri naturioldeb cerdd: naturiol achos; naturiol iaith; a naturiol drefn ar *ddychymmyg.*—*Cyfrinach y Beirdd,* 46.

Cyttunir, yn gyffredin, mai iaith y nwydau, neu y *dychymmyg,* wedi ei fywiogi, a honno wedi ei ffurfio yn fynychaf mewn mesur pennodol, yw barddoniaeth.
Caledfryn: Drych Barddonol, 1.

2. device; invention; design; conception; idea; fancy; conjecture; imagination.

Gorchymmun a orue y brenhin udunt aruerv oc eu holl ethrylithyr a cheissaw *dechymic* newyd ar weith a gattwei cof y sawl uonhedigyon hynny yn enrydedus drwy yr oessoed.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 165 (cf. 130).

Nid oes *dychymmyg* ym Mon
Am wragedd gwŷr eiddigion,
Fel y mae mewn gwlad arall
Am wragedd cyfannedd call.—*D. ab Gwilym,* clxxxv. 1.

A hoil negesseu y ryfel a wneit oe gyscor et ac *dechymmic.*
Brut y Tywysogion, 174 (cf. 162, 260, 276).

Hil haelion heilyn *dychymig.*—*Cynddelw:* M.A. i. 208.

Clust hustungas yw cas hystyng *dy dymyc* drwc.
Ymborth yr Enaid, § 7.

Aethant, fal y dywespwyd, wrth ddifrawd ac anrhaith, gan *ddychymmygion* o wastrafol.—*Iolo Mss.* 193.

Efe a wŷr yn ddiau eich *dychymmygion* chwi.
2 *Esd.* xvi. 63.

Hwy a chwiliasant allan lawer o *ddychymmygion.*
Preg. vii. 29 (cf. ix. 10).

Ar ol ein *dychymmygion* ein hunain yr awn.
Ier. xviii. 12 (cf. 18).

Ym mhell uwch law *dychymmyg* dyn.
W. Williams: Hymnau (1811), dccli. 1.

Dychymmygion meddyliau, imaginations of the thoughts.—1 *Cron.* xxviii. 9.

Gobeithio, er hyny, nad gwir mo bob diareb; ac os e, mai nid diareb mo hon; ond rhyw ofer chwedl a *dychymmyg* rhyw hen wrach anynad, ymladdgar.
Gro. Owain, 170 (cf. Wks. ii. 31).

Gall *dychymmyg* wel'd ym mhellach,
Fyrdd o oesoedd eto a fydd.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duwin. 495 (cf. 494).

3. a riddle, an enigma; a dark or intricate sentence; a difficult question or problem.

Rhoddaf i chwi *ddychymmyg* yn awr. . . Hwythau a ddywedasant wrtho, Traetha dy *ddychymmyg,* fel y clywom ef. . . Ac ni fedrent ddirnad y *dychymmyg* mewn tri diwrnod.—*Barn.* xiv. 12, 13, 14 (cf. 15, 16, 17, 18).

Deall y *ddychymmyg* sy fal hyn: Pren oedd y fam; y ffrwythoedd oeddent y meibion; y dail oedd y merched.
H. Perri: Egl. Ffraethineb, xv.

Dychymmyg arallegus, an allegorical or metaphorical enigma.

Yn yr areitheb gyntaf y mae tair trawsymddwyn; sef, drain, ller, ac imp; a chan ei bod mewn un synwyr brawddegawl, hi a elwir *dychymmyg arallegus.*
H. Perri: Egl. Ffraethineb, xv. 2.

Dychymmyg dammegol, a parabolical riddle or enigma; an enigma.

Yr ail ddull sydd, a elwir yn briodawl Grwmaeg, neu *ddychymmyg dammegawl,* pan fo'r araith mor dywyll ag nas gellir onid yn anhawdd iawn gasglu ei deall a'i deongliad.—*H. Perri:* Egl. Ffraethineb, xv. 2.

Dychymmyg, *v.*=*Dychymmygu.*

Dychymmygadwy, *a.* imaginable; conceivable; conjecturable.

Dychymmygaidd, *a.* fictitious; imaginary; fanciful.—*Pum Llyfr Cerdd.* 114, 116.

Dychymmygair, eiriau, *sm.* [dychymmyg +gair] onomatopœia; a word formed to resemble in sound the thing which it signifies; or, as it is usually defined, 'a figure in which the name or word is made to correspond with the thing expressed.' Also called *gair gwneuthur.*

Digitized by Google

Am *Ddychymmygair*. At y ddull hon y perthyn *gair gwneuthur;* sef, pan fo'r areithiwr yn dychymmyg enw i ryw beth wrth ddynwared sain y peth y bo, drwy gyfrelybrwydd, yn ei arwyddocäu.—*H. Perri:* Egl. Ffraethineb, xiii.

Dychymmygair, neu *air gwneuthur*, a fydd pan wneler gair sain neu leferydd y peth a glywom.
Pum Llyfr Cerddwriaeth, 123.

¶ Several examples of *dychymmygair* are given in *Eglurya Ffraethineb* and *Pum Llyfr Cerddwriaeth*. See note in my edition of *Bardd Cwsg* (1865), 53.

Dychymmygedig, *pt.a.* imagined, fancied.

Ac ygyt a hynny hefyt yr ymadrodyon *dechymegedic* twyllodrus oed yn y thwyllaw.
Ystt. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 179.

Dychymmygfawr, *a.* highly imaginative or inventive; imaginative; inventive; very imaginary or fanciful.

Ac y gyt a hynny geireu twyllodrus *dychymyguawr* a dywedei ynteu.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 293.

Tri pheth a gyweiriant gerdd: addurn-gyfansoddiad ymadroddion; amlder Cymraeg; a *dychymmygfawr* gerddwriaeth.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 136 (cf. 90).

Tripheth a ddylid ar a ddyweto ei fod yn bosfardd. Un yw, y gelfyddyd wrth gerdd, herwydd *dychymmygfawr* gywreinrwydd y beirdd diweddar.—*Barddas*, ii. 122 (cf. 96).

Maent yn beroriaethol iawn, parth llithrigrwydd peraidd, a synwyr *dychymmygfawr*.
Tal. ab Iolo: Cyfr. y Beirdd, Rhag. 17.

Dychymmygfod, *a.* having imaginery or ideal existence; existing (only) in the imagination; imaginary.

Cân ar ddull a rhith ymddiddan rhwng dyn a dyn; neu rwng dyn ac aderyn . . . neu rwng dyn â rhywbeth arall *dychymmygfod*.—*Cyfr. y Beirdd*, 42.

Dychymmygfod, -au, *sm.* 1. an imaginary being. 2. imaginary existence.

Dychymmygiad, -au, *sm.* an imagining or fancying; a devising; excogitation; invention; imagination; device.

O flaen chwilio am y blynyddoedd presennol, a chyn troi *dychymmygiadau* y rhai sydd y pryd hyn yn pechu.
2 *Esd.* vi. 5.

Os ymadewaist di â chyfiwr y *dychymmygiadau*, yna yr wyt ti uwch law'r holl ddelwau yna.
Morgan Llwyd: Dysgybl a'i Athraw, 63 (cf. 81).

Nid ydym ni i ymofyn am danynt yng Nghanonau dynion, neu arfaethau o waith *dychymmygiad* dyn.
Ier. Owen, 77.

Am eu haniad dechreuol, eu teithiau, a'r oes ym mha un y daethant yma, rhaid eu gadael i *ddychymmygiad* yn unig.
Carnhuanawc: Hanes Cymru, 1.

Ar nen pabell, yn un o'r gerddi, yr oedd ffynnonell eang, a thardd lifau, *dychymmygiad* tra dymunol yng ngwresogion ardaloedd y deheu-fyd.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 309.

Dychymmygiadol, *a.* imaginary; excogitative; fanciful; inventive.

Dychymmygiaeth, -au, *sf.* invention, contrivance; scheme; imagination.

Ef a fydd hyddysg i ddysgu pob gwybodau, a chelfyddodau, a dosparthau dyfnion, a bydd awengar, ac ef a gâr *ddychymmygiaethau* ac ymgeisiadau.
Meddygon Myddfai, ii. 799.

Y chwedl hyn, yr hwn a ddywad Ffolineb o blegid ei gweithredoedd, ei chwmpasau, a'i *dychymmygiaeth*, ei chymhelliad, a'i chynghorau . . . nid oeddwn abl idd eu hadrodd fal y traethodd hi.—*Marchog Cwydrad*, i. 5.

Felly y traethwyd yn helaeth yn yr Ysgrythyr Lân waeledd a gwendid a ffolineb *dychymmygiaeth* delwau.
Ed. Iames: Hom. ii. 32.

Ymlidier niwl *dychymmygiaeth* oddi ar ganrif cyntaf Cristionogaeth.—*Traethodydd*, v. 520.

Dychymmygiaith, *sf.* prosopopœia. — *Pum Llyfr Cerddwriaeth*, 114.

Dychymmygiawdr, -iodron, *sm.* an inventor, a contriver; an originator.

Cany dylyir galw yn euawc datcanwr geu arall. namyn y neb a vo *dychymmygiawdyr* y awdur kyntaf yr geu.
Campau Charlymaen, 155.

Dychymmygol, *a.* 1. imaginative, inventive; imaginary; fanciful; unreal; enigmatical; problematical.

Mae calon dywyll dyn yn llawn o ymresymiadau *dychymmygol*, disail.—*Th. Charles*, s.v. 'Dychymmyg.'

Un o hen chwedlau y monachod gynt a'r gwrachlod presennol ydyw, fod ellyllon a gwylliaid, a phob ymrithiadau *dychymmygol*, yn cilio ar ganiad y ceiliog.
G. Mechain: Gwaith, ii. 39 (cf. 78; i. 166, 318, 529).

Ni byddai o herwydd hyny yn cael ei amddifadu o'i gynneddfau dealltwriaethol, na'i wybodaeth naturiol, na'i alluoedd *dychymmygol*.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 217.

2. imaginable, conceivable.

Dy ddysgyblion a ddaethant, ac a gymmerasant dy Gorff difrycheulyd oddi ar y Groes, ac a'i dodasant ef ar liniau dy Fam fendigedig; ac ar ol pob arddangos *dychymmygol* o ddaioni, o gariad, ac o anrhydedd, hwy a'i gosodasant ef yn y sindon, sef yr amwisg.
Allwydd Paradwys (1670), 399.

Dychymmygu, **Dychymmyg**, *v.* to imagine; to invent; to devise; to conjecture, fancy, conceive, or guess; to enigmatize.

Ac ny orffowysswys ef o *dychemygu* kelvydodeu a chywreynrwyd hyt pan wnaeth eskyll ac adaned ydaw ehun a phrovy ehedec.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 126 (cf. 275, 276).

Ac Achel a *dychymygwys* gwaryeu a didanwch odidawc anrydedus y wassanaethu korf Patroclus y vrawtuaeth. A thra yttoed y gygreir ny orffwyswys Palamides tywyssawc o Roec yn *dechymygu* bredychu.
Dares Phrygius: Ll.C.H. i. 19 (cf. 64, 79).

Yna y *dechymygawd* neb un Yscot yn gelwyd y uot yn vab y Varedud vrenhin.—*Brut y Tywysogion*, 36.

Drycdhychymyc yw gyrru neu *dhychymygu* ar aralh newydh ogan yn gelwydhawc.—*Ymborth yr Enaid*, 17.

Dychymic di pwy yw
Creadur cadarn cyn dilyw.—*Taliesin:* M.A. i. 22.

Teilyngdod a theithi'r Iaith Gymraeg, yn amgen iaith o'r byd, yw adrodd yn hyfedr, ac yn hyall, ac yn hyddysg, ac yn hynaws, pob peth er n allo'r meddwl a'r bryd ei *ddychymmyg*, a'i seldremu, a'i selweddu, a'i dyblunio.
Cyfrinach y Beirdd, 14.

Beth a *ddychymmygwch* yn erbyn yr Arglwydd?
Esgob Morgan: Nah. i. 9 (cf. 11).

Dechreuad godineb ysprydol oedd *ddychymmygu* eilunod.
Doeth. xiv. 12 (cf. 2).

Na *ddychymmyg* gelwydd ar dy frawd.—*Eccl.* vii. 12.

A'r cwbl wedi ei *ddychymmygu* a'i gyfansoddi mewn modd eglur.—*Gronwy Owain*, 301.

Ofnwn fod mwy o anwybodaeth ac anfoesoldeb yng Nghymru nag y mae llawer o ddynion da yn ei *ddychymmygu*.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 375.

Dychymmygu dychymmyg, to devise a device; to find out a device.—2 *Cron.* ii. 14.

Dychymmygus, *a.* inventive; imaginary; enigmatical.

Y chwe-gair hyn yn yr un frawddaeg a haeddasont enw arall; sef, aralleg *ddychymmygus*.
H. Perri: Egl. Ffraethineb, xv. 1.

Bydded *dychymmygus* rodd Constantin, a'r bwriad hynod hwnw ar anghywiro y cynghor cyntaf o Nicæa, am beuaduriaeth y Pab, yr hyn a amcanodd y Pab yn amser S. Awstin, yn dystiolaeth o hyn.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 71.

Dychymmygwaith, weithiau, *sm.* a work of imagination; inventive or imaginative construction; invention.

Y mae *dychymmygwaith* yr adail farddonawl hon yn glodwiw.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, i. 527 (cf. 528).

Dychymmygwr, wyr, **Dychymmygydd**, -ion, *sm.* an inventor, a deviser, a designer; one who imagines or fancies; one who speaks enigmatically.

Dychmygwyr kelwyd a doethant at Vran a dywedwyd wrtha val hyn.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 141.

Gwell *dychymmygwr* no goruwchwyliwr [*al.* gorchwyliwr].
Diareb. (M.A. iii. 159.)

Digitized by Google

Pan roddir y *dychymmygwr* dros y peth a ddychymmygodd ef, Trawsenw'r gwneuthuriawl fydd.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, ii.

Yn yr hwn beth efe ei hunan oedd y *dychymmygwr* cyntaf.
Marchog Crwydrad, i. 5.

Y gormeswr personol nesaf i lonyddwch yw'r bradwr neu'r *dychymmygwr* trafferthus.
Iago ab Dewi: Llonyddwch, 169.

Pe buasai D. Ddu o Hiraddug, neu ryw *ddychymmygydd* arall yn yr oes dywyll, yn gyru hanes o blith y Tylwyth Teg, fod pedwar o ddeiliaid Mangre Abred yn gyhuddedig o gydfradwriaeth yn erbyn y llywodraeth sefydledig.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 471.

Dyweda y *dychymmygwyr* nad ydyw hwn yn ddarluniad llawn o'u hymgais.—*Cylchgrawn*, i. 371 (cf. 372).

Dychymmysg, *a.* [cymmysg] mixed or mingled together, commixed, commingled.

Dychymmysg, *sm.* commixture, commixtion, a compound.

Dychymmysgedig, *a.* commixed, commingled, blended together.

Dychymmysgiad, -au, *sm.* commixtion; a blending together.

Dychymmysgu, *v.* to commix, to commingle; to mix or mingle together; to blend.

Dychymyse airffysc yn aryfle aesdur
Ae gledyf flamdur ay glot dyre.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 288.

Dychynnaid, *sm.* [cwnnu?] growth, height.—*P.*

Dychynneit ieueinc dychynnyd
Nyt echwenit clot kelwyd.
Llefoed: A.B. ii. 305 (M.A. i. 154).

Dychynneu, **Dychynne**, *v.* [cynneu] to kindle; to light; to be kindled or lighted.

Dychynne flamdreis y dan flamdei Lloegyr,
A phlant Eigyl yg gwander.—*Cynddelw:* M.A. i. 223.

Dychynniad, -au, *sm.* a growing in height; elevation.—*P.*

Dychynnol, *a.* tending to grow up.—*P.*

Dychynnull, *v.* [cynnull] to gather or collect; to assemble. See *Dygynnull*.

Meiryon eu tretheu *dychynnullyn*.
Taliesin: A.B. ii. 124 (cf. 125).

Aneuleu dretheu *dychynnullant*.
Golyddan: M.A. i. 157 (cf. 156).

Ef yn llwch *dychynnull* dychyfedd.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 394.

Dychyrch, -au, *sm.* [cyrch] an onset or attack.

Dychyrchiad, -au, *sm.* a making an attack or onset; attacking; a resorting together.

Dychyrchol, *a.* attacking; resorting.

Dychyrchu, *v.* to attack; to make an onset on; to assail or assault; to come or fall upon.

Dychyrch bar karrec crec mor ednein.
Taliesin: A.B. ii. 170 (cf. 198).

Dychyrchwynt gyfarth mal arth o uynydd.
Golyddan: M.A. i. 158 (A.B. ii. 127).

Dychyrchwys fy llyw llew mawr mirain.
Gwalchmai: M.A. i. 200 (cf. 195, 203).

Dychyrch cad dy rann rad rif ser.
Cynddelw: M.A. i. 223 (cf. 431).

Dychyslyd, *a.* [cyslyd=cysglyd] apt to be drowsy.—*P.*

Dychysgogan, *v.* [dy-+cysgogi] to cause a quaking or trembling; to agitate; to intimidate; to frighten.

Ac er lles Owain hael hual dilin
Dychysgogan Lloegyr rag fy llain.
Gwalchmai: M.A. i. 193.

Dychystudd, -iau, *sm.* [dy-+cystudd] affliction.

Anghyfaelywr anghyfyrdelit llann
Dychystud brun [*al.* bru] bro lit.
Llefoed: A.B. ii. 305 (M.A. i. 154).

Dyd, *int.* [im.: cf. L. *atat*] hold! stop! avast! stay! Also written *dyt*, which is the usual pronunciation in South Wales.

Dyd wâs rhyfedd yw dy glywed
Onid wyd amgen no'th weled
Ni ddalid di Gai ar dy ganfed.
Ymdd. Arthur a Gwenhwyfar: M.A. i. 175.

Dyd, dyd! hold, hold! stop, stop!

Ond *dyd! dyd!* fe fu agos i mi anghofio pwy a pha beth ydwyf.—*Gronwy Owain*, 272.

Dyd! dyd! dyma un Risiart Huws, â llythyr bychan yn ei law, yn yr ysgol.—*Gronwy Owain*, 233.

Dyd, *v.* 3rd pers. sing. fut. of *Dodi*.

Wrth hynny heb y *dyt* ych dreic chwi diaspat engiryawl.
Mabinogion, 96.

Efe a'i *dyd* hi ar ei ysgwyddau ei hun yn llawen.
Luc xv. 5.

Nid te neu ddwr teneu *ddyd*
I'r fuchedd buraf iechyd.
Robert Owen: Gweith. 109 (cf. 116).

Dydach, **Dydech**, *v.* [tech, techu] to lurk, to skulk; to lie hid or concealed; to hide one's self; to avoid.

Ni charai ffals, na chorff hyll,
Na lleidr mwy no neidr naw-dull;
Na ffrostiwr, na bostiwr bach,
Na diodwr fai'n *dydach*.—*L. G. Cothi*, iv. i. 55.

Nid oes le i ni orwedd yn y ffos, a *dydach* hyd nes tyno Hollalluogrwydd ni allan o honi.
D. Davis: Bywyd Duw, 61.

Dydaeniad, -au, *sm.* a spreading; expansion.

Dydaenu, *v.* [taenu] to spread abroad; to spread; to expand; to become spread.

Mal y *dydaena* y breila felusi odd ei anian ei hun, felly calon dyn hynaws dyddyga weithredoedd da.
W. O. Pughe: E.D. vi. 1.

Taliesin! clyw o fedd! clau o foddion
O bair dadeni *dydaenant* weithion.
W. O. Pughe: Bardd, iii. 2.

Dydaniad, -au, *sm.* [taniad, tân] ignition, kindling.

Dydanio, *v.* [tanio] to ignite, to kindle; to take fire.

Dydardd, -ion, *sm.* [tardd] a breaking out; a springing up.

Dydarddiad, -au, *sm.* a breaking out; a budding; effusion.

Dydarddol, *a.* apt to break out; tending to spring up.

Dydarddu, *v.* to break through or out; to burst out; to effuse; to bud.

Dydarthu, *v.* [tarthu] to evaporate.

Wrth roddi y gwrtaith i mewn mal y dangosir yma, rhwystrir idd yr haul *ddydarthu* y rhan fwyaf oc ei ddefnyddion mân ac ysgawn.—*W. O. Pughe:* C.P. 48.

Dydechiad, -au, *sm.* [dydech] a skulking, lurking, or hiding.

Dydechol, *a.* lurking, skulking, hiding.

Dydechu, **Dydachu**, *v.*=*Dydach*, *Dydech*.

Dydechwr, wyr, **Dydechydd**, -ion, **Dydachydd**, -ion, **Dydachwr**, wyr, *sm.* one who lurks or skulks; one who hides or conceals himself; a lurker, a skulker.

Mi'n *ddydechwr* cellïau
A drig â'i wâl mewn dâr gau.—*L. G. Cothi*, viii. ii. 17.

Dichwith daeth y *dydachydd*
I loew deg oleu y dydd.—*Dafydd Ionawr*, 62.

Digitized by Google

Dydi, *pron.* [mutation of *tydi*, q.v.] thou; thee. This form sometimes occurs when not affected by a preceding word or sentence. See *Tydi*.

Ond *dydi*, gan na fyni wneuthur da, ti a fedri ac a fyni wneuthur drwg.—*Morgan Llwyd:* Tri Aderyn, 12.

Dod awch, *dydi*, a'i dichyn,
Ar gledd glas, arglwydd y Glyn.—*Sion Tudur.* (*P.*)

Dydoi, *v.* [toi] to cover, to cover over; to overwhelm.

Ac yuelly y buant ar nawd yn gyhyt ar nos mal y *dydoei* y tonneu wynt.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 372.

Dydoli, *v.* See *Didoli*, &c.

Dydorawl, *a.* breaking, tending to break.

Dydori, } *v.* [tori] to break, to break out; to
Dydor, } refract; to be breaking.

Puybennac a dalyo escrybyl ac eu *dydor* hyd adref ny deleyr dym udunt kanyd yaun deu daly am yr un lluguyr. *C.C.* i. 332.

Aml uch grann o'i hynt Fangor
I'm *didyr* deigr am Dudur
Aelaw ynof ei alar
Elyn gryd Alun gryfder.—*Gr. ab Meredydd:* M.A. i. 441.

Dynion a *ddydoro* o garchar y brenin dialer arnynt. *Deddf Rhuddlan.* (*P.*)

Dydoriad, -au, *sm.* a refracting; refraction.

Dydoriad goleuni, refraction of light.

Dydorwr, wyr, *sm.* a breaker.

Dydreiddiad, -au, *sm.* [treiddio] penetration, pervasion, perforation.

Dydreiddio, *v.* to penetrate, to pervade, to perforate.—*P.*

Dydreiddiol, *a.* penetrative, pervasive.

Dydrëu, *v.* [trëu, träu] to bore; to penetrate; to pervade.—*P.*

Dydro, *sm.*=*Didro*. *Dydro* [dy+tro] is etymologically the more correct form, but *didro* is the usual pronunciation.

Dydrwyniad, *sm.* a scenting, a smelling.

Dydrwyno, *v.* [trwyn] to follow scent.—*P.*

Dydyllu, *v.* [tyllu] to make holes; to dibble; to dibble in.

Mae y moddion (i rwystro rhwd) yn hawdd; a dim mwy na bwrw yr had mewn dwr croew, gan ei olchi yn aml ynddo, haiach cyn ei heu neu ei *ddydyllu*. *W. O. Pughe:* C.P. 71.

Dydyniad, -au, *sm.* extraction, a drawing.

Dydynu, *v.* [tynu] to extract, to draw.

Cauer ar y llestr, a gader y dwr i aros ddigon hir i *ddydynu* noddion y gwair.—*W. O. Pughe:* C.P. 111 (cf. 61).

Dydd, -iau, *sm.* [C. *dydh, dedh;* Br. *deiz, dez, deves;* Ir. *dia, die, de;* Ga. *dia, de, di;* L. *dies*] 1. a day; day (as distinguished from or opposed to night); daylight.—*Gen.* i. 5—31; ii. 2, 3.

Seithuet yw kerdet *dyd* neu nos y gyt ar lleidyr. *C.C.* i. 416 (cf. 248, 558).

Treulaw y *dyd* a wnaethant drwy ymdidan a cherd a chyuedach.—*Mabinogion*, 75.

Deffroi a oruc ac ymgroessi a thrwy wediaw Duw yd arhoes ef yny vu *dyd*. Ac yr awr y bu *dyd* efo a aeth yr gwely.—*St. Greal*, § 39.

Ny thal neb heit onnyt pedeir keinnawc hyny vo tri dieu ar hed ac yn wastat awel eglur; *dyd* y geissaw lle a *dyd* y vudaw a *dyd* y orffwys.—*C.C.* i. 502 (cf. 540).

Paham y gwneir yn y *dydyev* hynny yn vwy noc yn *dydyeu* ereill.—*Llyfr Ancr*, 51.

Pwy a rif dywod y môr, a'r dafnau gwlaw, a *dyddiau* tragywyddoldeb?—*Eccl.* i. 2.

Onid oes deuddeg awr o'r *dydd?* Os rhodia neb y *dydd*, ni thramgwydda.—*Ioan* xi. 9.

Pedeir rhan *Dydd:* Bore, sef y chwechawr cyntaf; Anterth, yr ail chwechawr; Nawn, y trydydd chwechawr; ac yn bedwerydd, yr Achwedd (Echwydd), yn estyn hyd y Bore.—*Barddas*, i. 422.

Dyddiau yr wythnos, the days of the week.

Dydd Sul (*Dies Solis*), Sunday.

Dydd Llun (*Dies Lunae*), Monday.

Dydd Mawrth (*Dies Martis*), Tuesday.

Dydd Mercher
Dydd Merchur } (*Dies Mercurii*), Wednesday.
Dydd Merchyr

Dydd Iau
Dydd Iou } (*Dies Jovis*), Thursday.

Dydd Gwener (*Dies Veneris*), Friday.

Dydd Sadwrn (*Dies Saturni*), Saturday.

Dydd yr Arglwydd, the Lord's day=the first day of the week.—*Dad.* i. 10.

Hanner dydd, midday, noon.

Peunyd pob *hanner dyd* y kymerei y deu amherawdyr eu bwyt.—*Mabinogion*, 90 (cf. 181).

Gwedi *hanner dyd* oed, ac na dylyir gwneuthur kyfreith gwedy *hanner dyd*.—*C.C.* ii. 88 (cf. 466; i. 736).

Dyred ti ac ef heb yr iarlles am *hanner dyd* avory. *Mabinogion*, 178.

Hwyr a bore, *a hanner dydd*, y gweddïaf. *Salm.* lv. 17 (cf. xxxvii. 6).

Cyn dydd, } before day, before daybreak,
Cyn y dydd, } before daylight.

Heddyw'dd af, Sion ab Dafydd,
Heno i'w dai *cyn y dydd*.—*L. G. Cothi*, i. xxxii. 5.

Dydd a nos, day and night.—*Salm.* xxxii. 4.

Ac y rwng *dyd a nos* y kerdassant y kenadeu dracheuyn. *Mabinogion*, 88.

Vn o honunt yn ardyrchafedic yn enryded y Vyl verthyr a chwfeint o werydon yn talu molyant y Duw yndi yn wastat *dyd a nos*.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 199.

Ti a sumydeist y meu i yar y dyfwr ae gwellt; ac a gerdeist *dyd a nos* ganthaw.—*C.C.* ii. 310.

[The expression—'dydd *a* nos,' in *Dad.* iv. 8, should be—'dydd *na* nos,' as rendered by Huet and adopted by Morgan; or, *na* dydd *na* nos. The version in this instance is more literal than idiomatic.]

Dydd goleu, broad daylight; a light or clear day.

Hylithyr y gweleis *dyt goleu* y uut
Ae uetgyrn wirodeu.—*Llygad Gwr:* M.A. i. 345.

Mae hi yn ddydd goleu, it is broad daylight.

Goleu dydd, the light of day, daylight.

Hiraethaf am fab Dafydd,
Mal y dall am *oleu dydd*.—*L. G. Cothi*, iv. xiv. 17.

Y dydd heddyw (*a*), this day, to-day, the present day; (*b*) now-a-days.

Y dydd hwn, this day, to-day.—*Luc* xix. 42.

Hyd gorff y dydd hwn, to this very day.

O ddydd i ddydd, } from day to day; day by
O ddydd bwygilydd, } day; from one day to another.—*Luc* xi. 3.

Mater enbyd yw oedi *o ddydd i ddydd* fyned yng nghylch y cyfryw waith.—*Theo. Evans:* Pwyll y Pader, 125.

Dydd yn ei ddydd, day by day; every day as it comes.

Er ys dyddiau, } since many days, many days
Er's dyddiau, } ago, these many days; a good while.

Ar hyd y dydd (1), all the day, all the day long, all through the day, daylong.—*Matt.* xx. 6.

A cherdet a orugant *ar hyt y dyd* hyt ucher.—*Mab.* 187.

Digitized by Google

(2) in the day, by day, by day-light.

Trwy gydol y dydd: see *Cydol.*

Ar fin dydd, } just upon daylight or day-
Ar y dydd, } break; just dawning; with
Ym mron dydd, } the dawn.

Ond cofia, mewn coronbleth hardd,
Min dydd a llychwyr nos,
Mor brydferth yn cydblethu mae
Yr elestr gwyn a'r rhos.—*D. Silvan Evans:* Telynegion, 55.

Gyda'r dydd, with the dawn; at daybreak.

Y dydd arall, the other day.

Mi fûm yn Rhufain *y dydd arall;* ac yno mi welwn y Pab yn crynu yn ei gadair.—*Morgan Llwyd:* Tri Aderyn, 18.

Dydd gwaith (1), a work- or working-day.

Sulieu, a Grawys eilwaith,
A diwedd gwyl, a *dydd gwaith.*—*L. G. Cothi,* I. v. 25.

(2)=*Dyddgwaith.*

Ac ual y byd ef *dyd gweith* yn dyuot yn vlin o hely fford lys y lysuam y doeth.—*Brut y Saeson:* Ll.C.H. ii. 392.

Ac ual ydoed ef *dyd gweith* yn hely mywn fforest gyfagos yr mor. ef a golles y wrthawt y gwn ae gynydyon.
St. Greal, ‡ 50.

Dyd gweith gwyl y doeth Ioachim y gyt a niver a oed yn gwneuthur aberth y Duw.—*Buchedd Mair,* ‡ 2.

Y dydd afory, the day following, the following day; the morrow.

Y dydd trannoeth, } the day following, the
Y dydd drannoeth, } following day, the day after.

A phan doeth *y dyd drannoeth* deffroi a orugant.
Mabinogion, 246 (cf. 71).

Am hanner *dyd trannoeth* y gwisgwys Owein ymdanaw peis a swrcot a mantell o bali melyn.—*Mab.* 178.

Ieuenctid y dydd, the dawn of day; the earlier part of the morning.

Ac yn *ieuenctit y dyd* drannoeth kynodi a wnaethant. a chymryt yr aruordir y uynyd parth a Brynn Aryen.
Mab. 71 (cf. 266, 267, 291).

Toriad dydd, }
Toriad y dydd, } break of day, daybreak; the
Glasiad y dydd, } beginning of daylight; dawn.

Ar doriad dydd, } at break of day, at day-
Ar lasiad dydd, } break; with the dawn.

Llug y dydd, daybreak, the dawn.

Pan welsant hwy ef, ofni'n aruthr a gwaeddi a wnaethant, gan dybied mai drychiolaeth neu ryw yspryd drwg ydoedd felly yn rhodio allan cyn *llug y dydd.*
Ed. Samuel: Bucheddau yr Apost. 14.

Goleu dydd, }
Lliw dydd, } daylight; the day time, by day.

2. an appointed or specified day; a day set apart for a special purpose.

Dydd barn (*pl.* dyddiau barn), a day of judgment; a judgment day.

Dy ddiwedd byd fo *dydd barn.*
Guto'r Glyn: Iolo Mss. 324.

Diwedd y byd a *dydd barn.*—*W. Wynn.*

Erbyn awr, ac amser, a *dydd barn.*—*Esth.* x. 11.

A *dydd barn* fel diwedd byd.
G. Mechain: Gwaith, i. 6 (cf. 76).

Dydd y farn, the day of judgment, the judgment day, doomsday.

Esmwythach fydd i Tyrus a Sidon yn *nydd y farn,* nag chwi.—*Matt.* xi. 22 (cf. 24; x. 15; xii. 36).

Dydd y farn ar ei duedd fu.—*Guto'r Glyn.*

Fe fydd i ti ac i minnau fawr lawenydd ac hapusrwydd ar *ddydd y farn.*—*Morgan Llwyd:* Ymroddiad, Rhag.

[*Dydd y farn* or *dydd barn* is often erroneously written as one word, or with a hyphen; as,

Bwriwch hwy i wlad y tywyllwch . . . hyd *ddydd-farn.*
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 62 (cf. 99).

Rhof finnau glod hyd *ddyddfarn.*
Edm. Prys: Salm. xviii. 17 (cf. lii. 1).

Ar *ddydd-farn* Duw a dyn y cwmwl heibio.
Elis Wynn: Rh.B.S. 26.

Dyddfarn=day-judgment, not judgment-day. A similar remark applies to *dyddbrawd* or *dydd-brawd* for *dydd brawd,* or *brawd-ddydd.*

Dydd farn is apparently intended for *dydd y farn.*

Pa beth a ddywedant hwy *ddydd farn?*
Dr. Davies: Llyfr y Res. (1684), I. iii. 7.]

Dydd brawd, doomsday, day of doom. See *Brawd,* sf.

Guledic deduit an gunel in rit erbin *dit braud.*
Llyfr Du: A.B. ii. 14.

Ac ymlad bob duw kalan mei uyth hyt *dyd brawt* or dyd hwnnw allan. y rwng Gwynn a Gwythyr. ar un a orffo o nadunt *dyd brawt* kymeret y uorwyn.—*Mabinogion,* 134.

A phei bydewch byw chwi hyt *dyd brawt* ny thebygafi gallel o honawch gwneuthur alwyssen kymeint ac a wnaethawch hediw.—*St. Greal,* ‡ 56.

Diluw hyd heddyw fu hyn,
Dydd brawd heddyw i Brydyn.—*L. G. Cothi,* VII. iv. 37.

Lhawer ohonunt cynn *dydhbrawt* drwy wedhiau saint ac elusenau y rhai byw a gymerir y ogoniant a vo mwy. A phawb hagen gwedy *dydhbrawt* a gytymdheithoceir ar angylion.—*Lucidar,* ‡ 96 (cf. 12, 37, 40, 103).

Ail *dyd brawd* braw ystawd ystle.
Gwalchmai: M.A. i. 202 (cf. 490).

O dyna ny wyr neb pa dyd vo *dydbrawt.*
Llyfr Ancr, 59 (cf. 21, 50, 51, 55, 141).

Os myui ae llad ef. pa wed y gallaf ymwelet a Duw *dyd brawt.*—*Amlyn ac Amig,* col. 1100 (cf. 1088, 1089).

Yn yr un modd y cawsant y beirdd o brophwydi ym mhlith y Cymry yr wybodaeth hon, ac a brophwydasant ddamwain, a thynged, a helynt eu cenedl hyd *ddydd brawd.*
Iolo Mss. 196 (cf. 203, 248).

Rhodd i dlawd, rhodd i Grist; ac efe a'i tâl iti *ddydd brawd.*—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 104.

Megys angel y'm gwely,
Ddydd brawd, uwch taflawd y tŷ.
Dafydd ab Gwilym, cxxxv. 31.

Diwedd eu bri fydd *dydd brawd.*—*Adolygydd,* ii. 413.

[*Dydd brawd,* like *dydd barn,* is often incorrectly written as a compound; and the error is not of recent origin. Cf. *M.A.* i. 98, 62, 203, 271, 398. Iolo Morganwg calls it 'a North-Walian compound;' but it is not confined to that part of the Principality.

Heb olwg gwiw, heb le gwawd,
Hyd ddiwedd-brawf, hyd *ddyddbrawd.*
Sion Cent: Iolo Mss. 291.]

Dydd y frawd, the day of the judgment, the day of doom, the judgment-day.

Y dydd mawr, the great day.—*Mal.* iv. 15; *Iud.* 6.

Dydd yr Arglwydd, the day of the Lord.—2 *Pder* iii. 10 (cf. Ioel i. 15).

Dydd Duw, the day of God=the last day, the day of judgment.—2 *Pedr* iii. 12.

Dydd cyfreithiol, legal day.

Y neb a holo y penkynyd keisset y *dyd kyfreithawl* y ordiwes ar y wely.—*C.C.* i. 658.

Dydd coll a chaffael, }
Dydd coll neu gaffael, } the day of loss and at-
Dydd colli neu gaffael, } tainment; a day of ad-
Dydd coll neu gael, } judging causes at law; the day of losing or winning (a suit); the day of decision: also called *Dydd barnedig i gyfraith* and *Dydd Cyfraith farnedig.*—*L. W.* 568: cf. 127.

Canys e dyd hun e syd *dyd coll a chaffael* y rof y ac vyntuy.
C.C. ii. 138 (cf. 704).

A'r dydd hwnw yn *ddydd coll neu gaffael.*
Leges Wallicae, II. x. 25.

Dyd colli neu gaffel ni deruyd ido o hynny gohir oet y dydd.—*CC.* ii. 32 (cf. 598, 642).

O deruyd y dyn holy kyn oet na *cholli na chafael* yr hynny hyt y oet ny deruyt ydau.—*C.C.* ii. 32.

O deruit diguidiau *dit coll neu caffael* en amser caiat kefreyth.—*C.C.* i. 164.

Digitized by Google

Dydd cof, day of record.—*C.C.* ii. 400.

Dydd cyfarch, the day of demand.

Wrth hynny reid y whenwi y *dyd kyfarch*.—*C.C.* ii. 444.

Dydd galw, the day of call.

O tremyka yr orssed ynn *dyd galw* ony watta y mach y veichniaeth taled gamlwrw yr arglwyd.—*C.C.* ii. 324.

Dydd defodol, an accustomed day.

Tair gorsav cynnevawd: cynnal *dydd devodawl* i ddechreu gorsedd a dadl a barn.—*C.C.* ii. 550.

Dyddiau dyddon (*sg.* dydd dyddon), (1), blank days; days on which the law-courts do not sit; the weekly periods succeeding Christmas, Easter, and Whitsuntide. 'Dies nefasti in quibus lege agere non licebat.' 'Dies non.'

Ny byd kayat kyffraith idaw vyth o hyny allan pan vyno arglwyd rody kyfraith idaw eithyr y *dydyeu dydon*. Sef yw *dydyeu dydon* o nos Nodolyc gwedy gosber hyd dww Nodolic.—*C.C.* ii. 272 (cf. 26, 32, 68, 106, 272, 364, 376, 448, 648, 690, 712, 718; i. 130).

A'r tair wythnos hyny a elwir oc eu braint yn un *dydd dyddon*.—*Leges Wallicae*, II. iv. 54.

Hoeddyl Dafydd megis *dydd dyddon*.
Dafydd Benfras: M.A. i. 315.

Gwr dedvawl gwrawl bieu'r goron
Gwr a gynnyd *dyd dydon* ymdangos.
Casnodyn: M.A. i. 430.

(2) intercalary days.

Dyddiau dyddon yw dyddiau a fônt dros ben blwyddyn leuad, a rhanu fal hyn ym mhwydd [yn herwydd?] rhif: 2 *ddydd dyddon* i'r Alban Arthan, a 3 i'r Eilir, a 3 i'r Hefin, a thri i'r Elfed; a dyddiau rhyddon ynt, a deled a ddelo o'r man y delo, rhydd fydd, heb arf yn ei erbyn, gau nis gellir llys a chyfraith gwlad ar hyny o ddyddiau.—*Barddas*, i. 424.

Dyddiau gorsedd, court-days; the days on which a court sits, or a tribunal is held.—*C.C.* i. 398.

Dydd pennod, a day of appointment; an appointed day.

Pann dyfo Dofyt yn *nyt pennawd*.—*Meilir:* M.A. i. 189.

Un dydd a blwyddyn, } a year and a day. See *Undydd a blwyddyn*, } *Blwyddyn*; and cf. *C.C.* i. 430; ii. 30, 58, 60, 72, 74, 90, 98, 104, 116, 120, 124, &c.

Yr goreu a vo yn y twrneimant hwnnw drwy gytsynnedigaeth y kyffredin y rodir idaw geitwadaeth y castell hwnn hyt ym penn *un dyd a blwydyn*.—*St. Greal*, ‡100.

Dydd tâl, day of payment, pay-day.

Amser y gyfreith ynteu yw, gwneuthur kyffro o vywn y teruyn naw niwarnawt, gan rifaw oet y *dyd tal*.
C.C. i. 398.

Prynu ar ddydd, to buy and pay (or promise to pay) on a future day; to buy on credit.

Dydd uchel, a high day, a high festival.

Y mae amseroed ny ellir cadeiraw ygneit yndunt, megys yn *dyddyeu vchel*, neu nos, neu amser y bo kaedic kyfreith am tir a dayar.—*C.C.* ii. 106.

Cedwch chwithau hwn gyd â phob llawenydd yn *ddydd uchel*, ym mysg eich uchel-wyliau.—*Esth.* xvi. 22.

3. a day to be observed; a festival or feast; a day.—*Ll. G. Gyffredin.*

Dydd gwyl (*pl.* dyddiau gwylion, dyddiau gwyl), a feast-day, a festival, a holiday. See *Dygwyl* and *Dyw Gwyl.*—*Ll. G. Gyffredin.*

Gellir darllen y Llithoedd naill ai am y Dydd Sul neu am y *Dydd Gwyl*, yn ol doethineb y Gweinidog.
Ll. G. Gyffredin, Rhag.

Llithiau priod i'r *Dyddiau Gwylion*.—*Ll. G. Gyffredin.*

Nid ydynt hwy yn digio Duw, nac yn tori'r *dyddiau gwyl*.
Ed. Iames: Hom. ii. 252.

Ystyrid dydd Nadolig hefyd gyd â'r mwyaf o *ddyddiau gwylion* yr Eglwys.—*J. Pryce:* Eglwys Foreuol, 364.

Y peth neeaf i'w ystyried yw'r *dyddiau gwylion*. . . Mae'r hyn a ddywedasom yr awr hon am aberthau yn wir am *ddyddiau gwylion* hefyd.—*Ed. Samuel:* Grotius, v. 10.

Dyddiau gwyl a dyddiau gwaith (*sg.* dydd gwyl a dydd gwaith), holidays and work-days.

Maent yn arfer pob dydd yn gyffelyb, y mae *dyddiau gwyl a dyddiau gwaith* yn yr un modd.
Ed. Iames: Hom. ii. 252.

Ni fyni, fy naf anwyl,
Na *dydd gwaith*, na *dydd gwyl*.
Gutyn Owain: G.B.C. 195.

Dydd Sant Ioan Fedyddiwr, Saint John the Baptist's Day.

Dydd Sant Marc, Saint Mark's Day.

Dyddiau y bara croew, the days of unleavened bread.—*Act.* xii. 3; xx. 6.

4. judgment; decision; arbitration; †day. Cf. Gr. *ἡμέρα*.

Am danaf fi lleiaf dim cenyf, bod i'm barnu genwch, neu gan *ddydd* dyn. 1 Cor. iv. 3. Wrth y gair yma, *dydd*, yr arwyddocëir yn hyrwydd iawn y farn, oedd arferedig drwy gyfraith ei rhoi ar ddyddiau oeddent wedi eu trefnu, a'u cyfrithio i hyny o arfaeth.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb (1595), vi. 5.

Am danaf fi, lleiaf dim cenyf bod i'm barnu genwch, neu gan farn [**ddydd*] dyn.—*W. Salesbury:* 1 Cor. iv. 3.

Genyf fi bychan iawn yw fy marnu genych chwi, neu gan farn dyn [**ddydd* dynol].—1 *Cor.* iv. 3.

Yr Eos fain adeinllwyd,
Llatai ddechreu Mai ym' wyd;
Bydd nerth ar ael corberthi,
Gwna *ddydd* rhwng Morfydd a mi.
Dafydd ab Gwilym, lxxviii. 33.

5. one's day or life-time; day, time; age.

Yn y *dydyeu* hynny y deuth Alexander yr ynys a elwit Cithara.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 9.

Dy *dydd* doe a ddiweddwyd.—*Tudur Aled:* G.B.C. 231.

Ymgais â Duw tra chei *ddydd*.—*Iolo Mss.* 259.

Dydd Lleucu a fu lle caem fwyd a gwin;
Dydd gwenhaul Iancyn Llwyd;
Dydd du ef a'n gorfuwyd;
Dydd llym rhy oer; *dydd* llam rhwyd.
L. G. Cothi, III. xxviii. 9.

Fy *nydd* sydd yn nyddu yn fanwl i fyny,
A'r nos sydd yn nesu, i roi'n isel fy mhen.
Edward Richard: Bugeilgerdd, i. 10.

Yn *nyddiau* Herod frenin.—*Matt.* ii. 1.

A Thaliesin a ddaeth yn ei ol i Gaer Wyroswydd at Riwallon ab Urien yn ei oedforion *ddydd*iau.—*Iolo Mss.* 78.

Yn fy nydd, in my day; in my life-time.

Dydd gras, the day of grace.

Cymmerwn afael ar gynnygion iechydwriaeth tra fo *dydd gras* yn parhau.—*Theo. Evans:* Pwyll y Pader, 125.

Y dyddiau gynt, the days of old or of yore; former days; olden times, times of old.—*Salm.* lxxvii. 5.

Y dyddiau gynt nid oedd gwyn,
Dy ddeddfau di oedd addfwyn.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 216.

Ac arnaw adgofiaw'r *dyddiau gynt*,
Dyddiau ein cyn-hynafiaid oeddent.—*Tegid:* Gwaith, 10.

Treulio ei ddyddiau, }
Bwrw ei ddyddiau, } to spend one's days.

6. day (of battle or contest); a day's work (on the field of battle); day; battle. Cf. *Dies* (2) in Du Cange.

Bid arnaf, od af i'r *dydd*,
Ladd dwyfil â chleddyf Dafydd.—*L. G. Cothi*, v. iii. 63.

A phan aeth y *dydd* yn erbyn Owain, a gorfod arno fyned dan gel a chudd, gorfu hefyd ar Ieuan ab Lleison fyned yn wr cel a chudd hyd Fon.—*Iolo Mss.* 199.

Y dewr biau'r *dydd*.—*Diareb.*

Ennill y dydd, }
Cael y dydd, } to win, carry, or get the day; to win the battle or
Cario y dydd, } contest; to conquer.

Digitized by Google

Colli y dydd, to lose the day; to lose the battle or contest; to be defeated.

Dydd cad: see *Cad.*

7. the day or time when; when.

I ganu moliant mal Aneirin gynt
Dydd y cant Ododin.—*Dafydd Benfras:* M.A. i. 308.

Dyt y keryter y careteu
Diwet ny byt yt na deohreu ny bu.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 330.

Ar *dyd* e frwyner e dyrcheyf arnav pedeyr keynnyawc hep arderchavael.—*C.C.* i. 264.

¶ The pl. *dyddioedd* is very rare.

Ac felly y parhawys y frwydr drwy lawer o *ddyddioedd*, ac y llas llawer o dywysogion.—*Ystorì Dared*, ł 69 (cf. 78).

Dyddamwain, weiniau, *sf.* [dy-+damwain] a casualty; an event.

Dyddamweiniad, -au, *sm.* a coming to pass; a happening or occurring.

Dyddamweinio, *v.* to come to pass; to happen, to occur.—*P.*

Dyddamweiniol, *a.* tending to come to pass; happening, occurring.

Dyddan, *a.* See *Diddan, Diddanu,* &c.

Dyddarbod, -au, *sm.* [dy-+darbod] providence, provision.—*P.*

Dyddarbod, *v.* to care; to have concern or anxiety; to anticipate.

Megys baed koet trwy blith llawer o gwn. kyrchu drwy blith y elynawl vydinoed yr lle y gwelei arwyd brenhin Nidif heb *didarbot* py beth a damweinei idaw gan gaffel dial y ewythyr o honaw.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 225.

Dyddarfod, *v.* [dy-+darfod] to be accomplished; to happen; to come to pass.

Cyn llwyded [*lwyred, llwydred, llwyred] eu lleas *dydarwu.*—*Aneurin:* God. 581.

Diderbyd kymeint timmyn . . .
Llallawc kan am *diderbyd.*—*Myrddin:* A.B. ii. 231.

Yn wir dydeuhawr *dyderbi* hyn.
Taliesin: A.B. ii. 212 (cf. 166, 202).

Dyderpi agheu yr du gyweithyd.
Golyddan: A.B. ii. 128 (cf. M.A. i. 158).

A fyno Duw *dydderfid.*—*Diareb.* (*P.*)

Pob darogan *dydderpid.*—*Diareb.* (M.A. iii. 175.)

Dyddarniad, -au, *sm.* a cutting in pieces; a carving, a cutting up.

Dyddarnol, *a.* cutting, carving.

Dyddarnu, *v.* [darn] to cut in pieces; to carve; to cut up.—*P.*

Dyddaw, *v.* [daw]. See *Dyddawed, Dyddyfod.*

Dyddawed, *v.* [daw, dawed, dawad, dyfod] to come; to be coming.

Dydaw yr heul or duyrein ir goglet.
Llyfr Du: A.B. ii. 10 (cf. 202).

Dyddaw yr haul or dwyrain.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 394 (cf. 157, 289, 360).

Can *dyddaw* angeu angen drallawd.
Meilir: M.A. i. 189 (cf. 168, 169, 195, 201).

Dyddaw drwg, hanbyddir gwell.—*Diar.* (M.A. iii. 154.)

Iawn i ddyn wyliaw'n wastad,
Ni wŷl dyn a'i *dyddaw*'n frad.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 97.

Dyddawa efe,—ond nid mewn rhiawl fri,
Y dalaith falch, y Tyriain doron rudd.
W. O. Pughe: Palestina, 22.

Dyddawr, *sm.* [dawr, tawr] a concern for; concern, interest.

Tair llathfesur pob dyn: ei Dduw; ei ddiawl; a'i *ddyddawr.*—*Barddas,* i. 318.

Dyddawr, *v.* [dy-+dawr]. See *Dyddori.*

Dyddbrawd, *sm.* See *Dydd brawd,* s.v. *Dydd* (2).

Dyddeisyf, **Dyddeisyfu,** *v.* to crave or implore; to be craving or imploring.—*P.*

Dyddeisyfiad, -au, *sm.* imploration, supplication; a continual asking, craving, or suing.

Dyddeisyfol, *a.* apt to implore; imploring, craving.

Dyddelu, *v.* [dêl, a tense of *dyfod*] to come; to be coming.

Dydel kyn ryuel y rott a mi
Engyl tagneuet tanc heb drengi.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 282.

Kyn mablan wythran weithredeu
Kyd bwyf drwc byt drugar ditheu
Herwyt da greuyt dagreu dadolwch
Dydelwynt yn hydyr hyd vyg grutyeu.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 330.

Dyddelwad, -au, *sm.* [delwad] a forming or shaping, formation; a making as an image or statue; a becoming or growing pale.

Dyddelwaidd, *a.* tending to become as an image; looking pale or disconcerted.

Dyddelwi, *v.* to become as an image or statue; to grow pale or wan; to be confused, confounded, or disconcerted.

Gwybodaeth seryddion gwlad Babel oedd fawr;
Darllenent, nef, daiar, a gweilgi;
Ond darfu eu doethder; ni fedrant yn awr
Ond tremio yn fud a *dyddelwi!*—*Brython,* ii. 159.

Dyddeniad, -au, *sm.* an enticing or alluring; allurement, enticement.

Dyddenol, *a.* enticing, alluring, seductive.

Dyddenu, *v.* [denu] to entice or allure.

Diddeneint edneint adneu goedydd.—*M.A.* i. 540.

Dyddenwr, wyr, *sm.* an enticer, an allurer.

Dyddestlaidd, *a.* [destl] neat, nice, trim; decorative.

Dyddestliad, -au, *sm.* decoration.

Dyddestlu, *v.* to decorate; to trim; to make neat or nice.

Dyddfarn, **Dydd farn,** *sm.* See *Dydd barn,* s.v. *Dydd* (2).

Dyddfiad, *sm.* [dyddyf (*P.*): cf. *dyddfu*] a becoming pale.—*P.*

Dyddfïog, *a.* 'having palness;' causing paleness or wanness; pale, wan, gaunt.

Newyn dyddfïog, gaunt famine.

Pa ryw anghyfannedd-dra ofnadwy a wnaeth efe ar y ddaiar, pan yr anfonodd allan ei saethau, sef, ei gleddyf niweidiol, *newyn dyddfïog,* a'r haint dinystriol!
Jeremi Owen, 39.

Dyddfol, *a.* 'tending to be pale.'—*P.*

Dyddfu, *v.* [dyddyf (*P.*)] to grow pale or wan; to grow faint, to faint; to make faint.

Hyll achwyn! ym mhob lloches,
Pob llu yn *dyddfu* gan des.—*Dafydd Ionawr,* 192.

Fe fu yn finedig gan lafur lawer gwaith, yn rhoetio gan wres, ac yn *dyddfu* o ran syched.
Elis Lewis: Drexelius, 267.

A blin gynneddf y ddeddf i'w *ddyddfu,*
Drwy ei enaid yn croch daranu.
Gwallter Mechain: Gwaith, i, 270.

Digitized by Google

Dyddfu gan newyn, } to faint by reason of
Dyddfu o newyn, } hunger or famine.

Y newyn oedd drwm iawn; fel yr oedd gwlad yr Aipht, a gwlad Canaan, yn *dyddfu* [°diffygio] *gan y newyn.*
Gen. xlvii. 13.

A hithau yn debyg i gurio i farwolaeth ac i *ddyddfu gan newyn.*—*Ed. James:* Hom. iii. 21.

Dyddged, -au, *sf.* a day's wages.—*W.*

Dyddgu, *s.* apparently the proper name *Dyddgu:* see *Dafydd ab Gwilym,* xiv.—xx.; *Iolo Mss.* 271; and cf. *Gwenonwy,* clych *Enid,* clych *Euron,* golch *Enid,* &c.] bird-cherry, hedge-berry, heg-berry, hack-berry (*Prunus padus*). —*Buallt.*

Dyddgwaith, *sm.* [dydd+gwaith] a certain day, one day; a particular day (in the past); on a certain or particular day.

Sef a wnaeth Gwydyon y urawt synyeit *dydgweith* arnaw yn graf.—*Mab.* 59 (cf. 101, 132).

Or byd vn vlwydyn heb y holi a *dydgweith* mwy, gan y vot yn gywlat ae hawl.—*C.C.* ii. 90.

Gwedy hynny *dydgweith* kyn kalan Mehevin y doeth y Ystrat Meuruc.—*Brut y Tywysogion:* LI.C.H. ii. 320.

A bu *ddyddgwaith* i Ionathan fab Saul ddywedyd wrth y llanc oedd yn dwyn ei arfau ef, Tyred.—1 *Sam.* xiv. 1.

Gwaith da oedd, *dyddgwaith* a dau,
Goreuraw'r gistaid greiriau.—*L. G. Cothi,* i. vii. 25.

A gwedy ymlad *dydgweith* ar hyt y dyd . . . yd ymchoelawd drachefyn.—*Brut y Tywysogion,* 128 (cf. 64, 190).

Dyddgweith arall yd oed Meir yn llenwi llestyr o dwfyr. yd ymdangosses yr agel ydi.—*Buchedd Mair,* § 10 (cf. 2).

A *dydgweith* y doeth Dauyd ae disgyblon . . . yr lle.
Buchedd Dewi: C.B.SS. 106.

A *dydgweith* val yr oedynt yn ymdidan. wynt a welynt angel yn dyuot attunt.—*Ll.A.* 119 (cf. 90, 108, 120, 122, 123).

Dyddgwaith dibech oedd echdoe.
Dafydd ab Gwilym, lxxxii. 1.

A'r bachgen a gynnyddodd, ac a aeth *ddyddgwaith* allan at ei dad at y medelwyr.—2 *Bren.* iv. 18.

Ar ddyddgwaith, on a certain day, one day.

Dyddgwaith a noswaith, a day and a night.

Dodi llin ac emenyn hallt wrtho, ae gynnal yn yr ardymmer hwnnw yny wyper a dihango ae adu *dydgweith a noswaith* kynn gwneuthur gweith wrthaw.
Meddygon Myddfai, i. 19.

¶ In this word it will be noticed that the initial *g* in *gwaith* is retained, contrary to the general rule in the formation of compounds. *Dyddwaith* and *dydd gwaith* occasionally occur in the same sense.

Dyddgylch, -oedd, -au, *sm.* a daily course; a periodical course.

Yr oedd yn nyddiau Herod frenin Iudea, ryw offeiriad â'i enw Zacharias, o *ddyddgylch* Abia.—*Luc* i. 5.

Ar y Sabboth canlynol ar ol gwyl y Pasc, yr oedd *dyddgylch* Iehoiarib yn dechreu yr ail waith.
S. Lloyd: Amseryddiaeth Ysgrythyrol, 104 (cf. 106).

Dyddhâd, *sm.* a becoming day; dawning.

Dyddhâd y bwriad borau,
Neges hedd, sy'n agosäu.—*R. Owen:* Gweith. 61.

Dyddhaol, *a.* becoming day, dawning.

Dyddhau, *v.* to become day; to dawn.

Yn niwedd y Sabbath, a hi yn *dyddhau* i'r dydd cyntaf o'r wythnos, daeth Mair Magdalen, a'r Fair arall, i edrych y bedd.—*Matt.* xxviii. 1 (cf. xx. 1).

Pan *ddyddhaodd* hi, efe a nesaodd atynt, gan rodio ar wyneb y dwfr.—*Dafydd Elis:* Hist. yr Iesu Sanctaidd, 84.

Ewrob *dyddhaodd,* a'r byd ddyheuai
I ddal ei annel ar a ddilynai.—*Eben Fardd:* Gweith. 107.

Dyddiad, -au, *sm.* 1. a becoming day, dawning.

2. a dating; a date.

Tua phen pythefnos yn hwy gwedi y *dyddiad* uchod, yr oedd y gwŷr hyn i adael yr Ynysoedd, gan gyfeirio i Ddeheubarth Cymru Newydd.—*Eurgrawn Mon,* 1825, 9.

Yna llof-goelir ysgrifen ammod yn dadgan y dygwydd y briodas mewn amser pennodawl ar ei *ddyddiad.*
Gwyliedydd, vi. 299.

Braidd nad ymddengys i mi mai unig amcan y rhai hyn yw gorlenwi'r darllenydd â *dyddiadau* a ffeithiau.
J. Pryce: Eglwys Foreuol, 78 (cf. 79).

Heb ddyddiad, without a date, dateless, undated.

Dyddiad, iaid, *sm.* an arbiter or arbitrator.

Nesaf iddo ef
Y *dyddiad* mawr yw Chwaen a lywia oll.
W. O. Pughe: C.G. ii. 956.

Câr fi'n bwyllig, ddiddig *ddyddiad,*
Fab afreolus, nwyfus nofiad.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 229.

Dyddiadur, -on, *sm.* a diary, a day-book, a journal.

Hoff a fyddai genyf glywed eich barn am y Ser Llosgyrnog y mae cymmaint o son am danynt yn y misolion, wythnosolion, a *dyddiaduron* yr oes.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 260.

Dyddiannu, *v.* [dyddiant 2] to dawn.—*O.V.*

Dyddiant, *sm.* 1. a setting or appointing a day; an appointment; an assignation; a date.

2. daybreak, dawn.—*O.V.*

Am fonedd ym' a fenaig,
Am *ddyddiant* gwrygiant gwraig,
Gofyner herber, hirbell
Ardudfyl, o Werfyl well.
Gr. Gryg (D. ab Gwilym, cxxvi. 49).

Dyddiedig, *pt.a.* dated; appointed.

Dyddigiad, *sm.* a displeasing, irritation; a becoming angry or offended.—*P.*

Dyddigio, *v.* to irritate, to displease, to offend; to become angry.

Llurig Fair gadair a godes o'th gylch;
Llaw Duw oedd ogylch lle *dyddigies.*
L. G. Cothi, vi. ii. 21.

Dyddio, *v.* [dydd] 1. to become day, to dawn, to begin to grow daylight.

Mae (hi) yn dyddio, it is dawning.

2. to arbitrate; to compose differences; to settle by arbitration.

Ydd oedd i'r neb a *ddyddiai,*
Llwyn o goed, mwyn gangau Mai.—*D. ab Gwilym,* xciv. 9.

Gwr oedd [Gwrfan] a waharddai bob drwg-ddefawd ac annwyfoldeb, ac a *ddyddiai* yn drywyngar ym mhob ymrysonau.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 556.

Tri goreu-gamp gwreng: bod yn llawen yn ei dŷ; yn ddeddfol yn ei eglwys; a *dyddio* rhwng cymmydogion.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 133.

Elusen fydd i wr rhinweddol
Ddyddio 'r ddeuddyn ansynwyrol.
Huw Morus: E.C. ii. 40 (cf. 243).

Goreu o swydd, *dyddiaw.*—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 45.

Ar ddydd ef a ŵyr *ddyddio,*
Ac ar fâr goreu yw fo.
Meredydd ab Rhys: Iolo Mss. 323 (cf. 229).

Hawdd *dyddiaw* rhwng traws a chwannawg.
Diareb. (M.A. iii. 161.)

3. to date; to note the time of an event, &c.

Yr oedd y llythyr hwn wedi ei *ddyddio* yr 17eg, a'i lwybreiddio, ond heb ei selio.—*Gwyliedydd,* vii. 250 (cf. ix. 378).

Dyddiol, *a.* daily, diurnal; pertaining to the day or a day.

Symmudiad *dyddiol* y planedau yw yr eangder y maent yn ymsymmud ynddo mewn diwrnod.
R. Roberts: Seryddiaeth, 70.

Dylanwad *dyddiol* y Beibl a wna deulu yn gyflawn, yn rhinweddol, ac yn ddedwydd.
J. Mills: Iuddewon Prydain, 5 (cf. 16).

Digitized by Google

Ysgol ddyddiol, a day-school.

Drwg genym sylwi fod yr olygfa yn newid pan eir at yr *ysgolion dyddiol*.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 398.

Dyddiol nos, noon-day night.

Ti ddaiar leog, tan hudded *dyddiawl nos!*
Ti glwyfus haul, mor wrm, mor ddwfn, mor goch!
W. O. Pughe: Palestina, 23.

Galara! goleuni Iehofah ymadodd,
A *dyddiol nos* drosot ei lleni amledodd.—*Telyn Dyfi*, 23.

Papyr dyddiol, a daily paper.

Y mae efe yn awr yng nghylch cyhoeddi *papyr* newyddion *dyddiol*.—*Seren Gomer*, iii. 27.

Dyddolion, *Dyddiolion*, } dailies, daily newspapers.

Dyddisgyn, *v.* [disgyn] to descend, to come down; to abase.—*P.*

Dyddisgyniad, -au, *sm.* a descending, descension.

Dyddisgynol, *a.* descending; descensive.

Dyddiwr, *pl.* dyddwyr, *sm.* [dydd+gwr] a daysman, an arbitrator or umpire; a mediator.

Nid oes rhyngom ni *ddyddiwr* a all osod ei law arnom ein dau.—*Iob* ix. 33.

Tri dedwydd-gamp gwr a gwraig: bod yn llawen yn eu tŷ; bod yn dda yn eu heglwys; a bod yn *ddyddiwr* eu cymmydogion.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 140.

Efe ydyw'r *Dyddiwr* rhwng dyn a'i Greawdwr.
Huw Morus: E.C. ii. 263 (cf. 17, 341, 426).

Oed *dyddiwr* ar fyd heddwch,
Ac yn y drin y gwnai drwch.—*Dafydd ab Edmwnt.*

Dyddlyfr, -au, *sm.* a daybook, a diary, a journal; an almanac, a calendar.

Tybiais yn addas ysgrifenu atoch yr ychydig linellau canlynol, pa rai a gyfeithais allan o'm *dyddlyfr*.
Gwyliedydd, ii. 26.

Yma y canlyn rhan o *ddyddlyfr* y gweinidog rhagorol uchod.—*Seren Gomer*, vii. 357.

Gellir tybied na wyddai byd yn nod y goreuon onid ychydig am dano y pryd hyn, oddi wrth yr hyn a ddywed Pepys yn ei *ddyddlyfr*.—*Cylchgrawn*, i. 108.

Gosododd y masnachwr yr amser i lawr yn ei *ddyddlyfr*.
Adolygydd, iii. 41.

Caf weithian ychwanegu ychydig nodiadau o fy *nyddlyfr*.
Lleuad yr Oes, i. 53.

Dyddlyfr y planedau, an ephemeris.

Dyddlyfr y planedau; llechres a ddengys feunyddiol gwrs neu ddyddgylch y planedau.—*Walters*, s.v. 'Ephemeris.'

Dyddo, *v.*=*Dyddaw.*—*A.B.* ii. 305 (cf. 304; M.A. i. 154).

Dyddodyn, *v.* See *Dyddaw.*

Dyddolwch, *sm.* [dy-+dolwch: cf. *dadolwch*] adoration, worship; devotion; prayer. See *Dadolwch.*

Gwae hwynt y gethern a wladycha ufern . . .
Man y mae deincryd man y mae anwyd . . .
Rhag nad oes *dyddolwch* [*al.* dadolwch]
Nag edifeirwch byth wedi yma.
Ionas Mynyw (*P.*) (cf. M.A. i. 99).

Dyddon, *a.* [dydd?] blank; white, pale, colourless; spotless.

Dyddiau dyddon: see *Dyddiau dyddon*, s.v. *Dydd* (2).

Amser dyddon, blank time; time when the law courts are closed or do not sit; blank days.

O deruit diguidiau dit coll neu cafael en amser caiat kyfreyht am tir a daear neu en *amser dethon*.—*C.C.* i. 164.

Meibion dyddon, white-robed youths; spotless persons.

Coronog Faban penaf yw Iesu,
O dir y Gogledd y daw i Gymru:
Gwyn fyd Elise pan weler teulu
A *meibion dyddon* dysg weinyddu.
Iolo Mss. 277 (cf. 265, 274).

¶ The derivation and exact meaning of *dyddon* are not quite certain; but the signification of *dyddiau dyddon* and *amser dyddon*, as used in the Laws, admits of no doubt.

In the translation of the Welsh Laws (*Cyfreithiau Cymru*) *dyddiau dyddon* is usually and accurately rendered *blank days;* but in the Glossary appended to the second volume (following in this instance the *Glossarium* at the end of *Leges Wallicae*) it is translated 'days of days,' as if *dyddon* were a pl. of *dydd* (=*dyddiau*), which is not known ever to be the case.

Dyddon sometimes occurs for *dydd* or *dyddiau dyddon.*

Pa amser y bo yr hawl ay *dyddon* ay Sul.—*C.C.* ii. 572.

Dyddoniad, *sm.* [dawn] an endowing, endowment.

Dyddonio, *v.* to endow, to gift.

Dyddoniol, *a.* tending to endow; qualifying.

Dyddordeb, *sm.* [dyddawr] concern, concernment; interest.

Megys baed koet em plith toryf or ewn evelly e kerdws ef trwy gelyniawl vydinoed o dyssyvyt redec e meirch hyt e lle e gwelei ef arwyd brenin Midif. a hep *didordep* na medyliaw pa beth a damweinieu idaw hyt tra geissiey dial i ewythyr.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 346.

Llawer gwaith y buom yn ymddiddan â'n gilydd gyd â chryn *ddyddordeb* ac adeiladaeth am y pynciau hyn.
Nicander: Ecclesia Defensa, 3.

I mi, yr oedd rhes hir y crugiau duon yn y pellder, yn wrthddrychau o *ddyddordeb* mawr.
Brutus: Ninefeh, 307 (cf. 67, 238, 314).

Os yw ein cyfeillesau prydweddol yn teimlo *dyddordeb* yn y mater.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 337.

A chan na ddiffoddir y nefol *ddyddordeb*
Wrth drin pwnc y ddaiar am faith dragwyddoldeb.
Eben Fardd: Gweith. 407 (cf. 401, 444).

Gwyrdd-wawr bryniau gyrhaedda'r wybrenydd,
Iddo, lle rhodio, a rydd *ddyddordeb*.
Caledfryn: Caniadau, 127.

Yr oedd St. Petr yn yr adnod uchod yn edrych ar eu hymchwiliadau anfoddhaol hwynt i'r prophwydoliaethau gyd â'r un *dyddordeb* ag yr ydym ni heddyw yn edrych ar ymchwiliadau anfoddhaol Ptolemy a Tycho Brahe i ysgogiadau seryddiaeth.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 215.

Daeth yr ysgolhaig dirgelaidd yn fuan yn wrthddrych *dyddordeb* a chywreinrwydd i'w gymdeithion; a chynnyddai y *dyddordeb* fel y cynnyddai y dirgelwch a'i hachosodd.
Brython, iii. 262 (cf. 192, 246).

Dyddorgar, *a.* concerned, interested.

Dyddori, *v.* [dyddawr] to be concerned or interested; to be anxious; to take care for; to care; to interest.

Ac yna ef a gyfodes y vyny ac a ymgroesses. ac a wediawd yr Arglwyd or nef. ar danuon kynghor idaw a vei da yr eneit. kanys am y korff nys *didorei* ef.
St. Greal, i 26 (cf. 65).

Tri dyn nid aml a'u *didawr*
Trist, blwng, a chybydd angawr.
Englynion y Misoedd: M.A. i. 16.

Lle deuddyn, llu a'u *dyddawr*,
Neu dri, yn ennyd yr awr!—*D. ab Gwilym*, xix. 39.

Ni *ddyddawr* newynawg pa yso.—*Diareb.* (M.A. iii. 167.)

Dyddwaith, pa ham na'n *dyddawr*,
Galwad i'r ymweliad mawr!—*Gronwy Owain*, 87.

Ymdrechir i *ddyddori* y darllenydd, trwy ei addysgu.
Anianyddiaeth Ysgrythyrol, 2.

Gwnaeth Daniel Owen lawer i ddiddanu, *dyddori*, ac addysgu ei gydgenedl.—*Cymru*, x. 73.

Dyddoriad, *sm.* a being concerned or interested; a caring for; anxiety; interest.

Dyddoriant, *sm.* concern, concernment, care, anxiety.

Dyddorol, **Dyddorus**, } *a.* [dyddawr] concerned; interesting; engaging.

Digitized by Google

Yr oedd y cerfiadau yn *ddyddorol* i'r graddau mwyaf.
Brutus: Ninefeh, 207 (cf. 233, 240).

Yr oedd yr yspryd mwyaf hyfryd o dduwioldeb a chariad brawdol yn treiddio trwy yr holl gyfnod *dyddorawl* hwn.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 546.

Y mae Hanes neu Chwedl Gwidw yn *ddyddorawl*, ac i raddau yn bwysig, ar fwy nag un golygiad.
Brython, iii. 246.

Diau y bydd yn *ddyddorus* gan bawb sy ganddynt barch i goffadwriaeth y Bardd anfodus weled y dyfyniad canlynol allan o un o lythyrau Iolo Morganwg at Owain Myfyr.—*Gwaith I. B. Hir*, Rhag. 9.

Yn y rhan ddiweddaf o'r llythyr *ddyddorol* hwn, mae gwrthddrych ein sylw yn cymhell pawb i gyfranu at yr achos.—*Adolygydd*, i. 42.

Oddi wrth ryw destun allai fod
Ar ddyri yn *ddyddorol*.—*Eben Fardd:* Gweith. 334.

Darllenasom amryw argraffiadau o'r gwaith *dyddorus* hwn.—*Haul*, 2 C.C. xii. 71.

Dyddosparth, -au, *sm.* distinction; arrangement; analysis.—*P.*

Dyddosparthiad, *sm.* a distinguishing or separating; an analysing; distinction.

Dyddosparthol, *a.* tending to separate; distinguishing; analytical.

Dyddosparthu, *v.* to distinguish; to separate; to analyse.

Dyddwaith, *sm.* 1. work done in or by the day; day-work.

2. [=dyddgwaith] a certain day, one day, a day.

Dychwelawdd (dan nawdd Duw Naf)
Dyddwaith in' o'r dedwyddaf.—*Gro. Owain*, 71 (cf. 87).

Dyddwyn, } *v.* [dy-+dwyn] to bring; to bear;
Dyddygyd, } to convey, to carry; to bear away; to sustain; to bring forth; to produce.

Canys pob gwasanaeth celvyddyd vreiniawl a *ddyddwg* ei gradd yn nes at oresgynaeth gynnwynawl, no phei heb hyny y bythawr.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 508.

Ac wedy *dydwyn* er heul e dyd arall rac wyneb. Arthur ae lu a eskynws pen e mynyd. ac eissioes en er eskynu hwnw llawer oi wyr a golles.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 306.

Dydyccawr o gell *dydyccawr* rac rieu.
Taliesin: A.B. ii. 166 (cf. M.A. i. 39).

Goresgyn Dyuet *dydyccawt* ynwet
Tra merin Reget perif perchen ket.
Taliesin: A.B. ii. 213 (M.A. ii. 32).

Mab Duw byu vy llyu am lleha
Om lle drwc am *dyduc* ym da.
Cynddelw: M.A. i. 250 (cf. 227, 349).

Ym *dytuyn* om Duu ym dylyed.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 325 (cf. 31).

Gwaro [*gwaew] rybud o gat *dydygei*.
Aneurin: God. 910 (cf. 817).

Bâr ar gâr gwae a'i *dyddwg*.—*Englynion y Misoedd*.

Pan wedai Duw, *Dyddyged* daiar yn
Ei ryw bob enaid byw, anifail ac
Ymlusgiad a bwystfilyn daiar wrth ei ryw.
W. O. Pughe: C.G. vii. 523 (cf. vi. 447, 567).

Calon dyn hynaws *dyddyga* weithredoedd da.
W. O. Pughe: E.D. vi. 1.

Arddiad a gynnydda ymborth llysiau, wrth egori y tir i dderbyn porth tyfol oddi yr awyr; ac wrth helaethu yr arwyneb, gan hyny yn *dyddwyn* rhan fwy o bridd tan ei weithredaid.—*W. O. Pughe:* C.P. 40 (cf. 27).

Haul machludai, a chyflychwyr odd y dwyr
Dyddelai, i ragflaenu nos, pan at
Fryn glwys uchelfar nef, safedig byth
A dir orseddfa Duwdawd, y *dyddoai*
Y Mabawl Allu.—*W. O. Pughe:* C.G. vii. 679.

Dyddwyn arfau bonedd, to bear arms; to bear a coat of arms.

Am dri achos y *dyddygir arfau bonedd:* nod cenedl a gwehelyth; nod urddas o gamp a gwybod; ac arwydd cof am a fu gynt ar erni'r genedl.—*Iolo Mss.* 76.

Dyddwyn, *a.* [dy-+dwyn, *adj.*] condescending; placid, gentle.

Dyddwyn ag atwyn kedeirn ynghadwyn.
Meigant: M.A. i. 161 (cf. 85).

Dyddwyrain, } *v.* [dwyrain, dwyre, dwyro] to
Dyddwyre, } rise, to arise, to ascend; to
Dyddwyro, } raise, to uplift.

Dytwyreo Owain Eingl didudyt
Ennillot lyw ystrad lle i gilyt
Gwelant glyw Powys i bell oessyt.
Meilir: M.A. i. 191 (cf. 431).

Duw sul gwyn yw hyn hynt gynwyre
Glyw—hynt a dycco glew gloew *dydwyre*.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 222.

Dyddwyrol, *a.* rising, ascending.

Dyddwysiad, *sm.* condensation; a closing together.—*P.*

Dyddwyso, *v.* [dwyso] to condense; to solidify.

Dyddwysol, *a.* condensing; making solid.

Dyddyf, *sm.* [dydd: cf. *..dyddfu*] a blank; paleness.—*P.*

Dyddyfnedig, *pt.a.* absorbed, imbibed.

Dyddyfniad, -au, *sm.* an absorbing, absorption.

Dyddyfnol, *a.* absorbent, imbibing.

Dyddyfnolion, absorbents.

Dyddyfnu, *v.* to absorb, to imbibe; to abstract.

Dyddyfod, *v.* [dy-+dyfod] to come; to become; to be, to exist; to be existing. See *Dyddaw*.

Dyddybydd gwaneg ar frys dybrys iddi
Addaw hwnt y Werlas o Glas Ffichti.
Taliesin: M.A. i. 67 (A.B. ii. 168).

Dyddeuant etwaeth tros drei a thros draeth.
Taliesin: M.A. i. 63 (cf. 33, 63).

Dyddaw gwr o gudd a wna gyfamrudd.
Taliesin: M.A. i. 72 (A.B. ii. 202).

Dydotyw y dyt Dauyt dyuynfri
Detyf hael ym kaffael neu ym colli.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 282.

Kynan darogan derwyton *dydaw*
Ef *dydiw* o Urython.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 289.

Dyddyfodiad, -au, *sm.* a coming; a becoming.

Dyddyfodol, *a.* 'tending to exist;' coming; becoming; future.

Dyddyfradwy, *a.* that may be watered or irrigated.

Dyddyfriad, *sm.* irrigation.

Dyddyfrol, *a,* irriguous, watery; humid.

Dyddyfru, *v.* [dyfru, dwfr] to irrigate, to water.

Dyddygiad, -au, *sm.* [dyddygyd] a bearing, conveying, or carrying; deportation.

Dyddygyd, *v.* [dygyd]=*Dyddwyn*.

Dydwyth [*al.* dydyth, dy duth] *dydyccawt*
O dyfynwedyd gwawt.
Taliesin: A.B. ii. 130 (M.A. i. 34).

Garw rybud o gat *dydygei*.—*Aneurin:* God. 843 (cf. 864).

Dyddym, *sm.* [dy-+dim]. See *Diddym*, &c.

Dyddymgyrch, } *v.* [dy-+ymgyrch-u] to
Dyddymgyrchu, } resort, to repair; to betake one's self (to a place); to congregate.

Prit myr ryferthwy ar war tonneu
Elyrch *dydymgyrch* [*al.* dymddygyrch] tam o glawr balcheu
Arth a llew derllys oleu bylleu
Ef dibyn ei terfyn o ruydd fereu.
Taliesin: M.A. i. 31 (cf. A.B. ii. 211).

Digitized by Google

Dyddymgyrchiad, -au, *sm.* a resorting; a congregating.

Dyddymgyrchol, *a.* resorting, repairing (to a place).

Dyddyrchafiad, -au, *sm.* [dyrchafu] elevation; exaltation, preferment.

Dyddyrchafol, *a.* tending to elevate, exalt, or extol; extolling; elevating.

Dyddyrchafu, *v.* to elevate, extol, exalt, or prefer; to rise.

I gynnif Cadwaladr clod lathr leu
Dyddyrchafwy dreic o barth deheu
Gan was ryded las yn nydd dyfleu.
Taliesin: M.A. i. 31 (A.B. ii. 211).

Dyddyrchiad, -au, *sm.* a rising; elevation.

Dyddyrchol, *a.* rising; surgent.

Dyddyrchu, *v.* to rise, to arise; to elevate.

Dyddysg, *sm.* [dysg] deep learning or erudition; great skill.

Fyryf deruysc fysc *dydysc* dydwyn.
Cynddelw: M.A. i. 227.

Dyddysgu, *v.* [dysgu] to instruct, to teach, to indoctrinate.

Pawb bei canffai a'i *dyddysgai*,
Dir ni byddai diddysg neb rhai.—*Iolo Mss.* 227.

Deuddeg gwawr, Ion mawr, i'n mysg,
Y deuddeg doeth a'n *dyddysg*.
Ior. Fynglwyd, i'r 12 Apostol.

Dyeinig, *a.*=*Dieinig.*

Dyeithr, *a.* and *s.* See *Dieithr*, &c.

Dyeithr, *prep.* and *conj.*=*Dieithr.*

Dyennig, *a.*=*Diennig.*

Dyerbyn, *v.* [erbyn] to receive; to oppose.—*P.*

Dyerbyniad, -au, *sm.* reception.

Dyerbyniol, *a.* recipient, receiving.

Dyerbynu, **Dyerbynio,** *v.* to receive; to come in contact; to go or come against.—*P.*

Dyerchafael, **Dyerchafu,** *v.* [archafael] to elevate; to exalt; to prefer.—*P.*

Dyerchafiad, -au, *m.* **Dyerddyrchafiaeth,** *f.* *s.* exaltation, elevation; preferment.—*P.*

Dyerchafol, *a.* exalting, elevating; lifting.—*P.*

Dyerchi, *v.* [erchi] to demand; to ask.

Can ebrwydded cawn hir drwydded;
Coeliwn rwydded calon roddiad:
Yn fynychaf, o *dyarchaf*,
Ef yw'r gwychaf, wyf ar gochiad.—*Sefnyn.* (*P.*)

Dyergrynu, *v.* to tremble greatly.

O bechawd annoueis ry *dyergryneis*
Oe gymhelri.—*Meilir:* M.A. i. 192.

Dyestyn, *sm.* [dy-+estyn] 'that is extended to or conferred;' extension; admission.

Tâl dyestyn, investiture or admission fee.—*P.* See *Estyn.*

Dyethol, *sm.* and *v.* See *Dethol*, &c.

Dyfach, *pl.* dyfeichiaid, dyfeichiau, *sm.* [mach] a surety.

A hwnnw a elwyr yn warthec *dyuach* urth uot yn dyr *dyueychyau* ar y gwarthec hynny.—*C.C.* i. 210.

Dyfais, *pl.* dyfeisiau, *sf.* [dy-+mais: cf. L.L. *divisa*; E. *devise, device*] a device, contrivance, or invention; a design; a project.

Mae mwnwgl iddynt heb roi llais;
Fal dyna *ddyfais* ynfyd.—*Edm. Prys:* Salm. cxv. 7.

Heb ymorchestu mewn trythyllwch, trwy gelfyddydau a *dyfeisiau* bryntion.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 78 (cf. 13, 190).

Deliwch sulw nad dychymmyg dynol yw pregethiad y gair, ond *dyfais* Duw ei hun.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 380.

Mae'r Arglwydd yn arferol o ganlyn *dyfeisiau* hynod â throion mawrion yn y byd.—*Dafydd Lewys:* Golwg, iii. 3.

Dyfais y Groes, Invention of the Cross (*Inventio Crucis*), an erroneous translation of the original, found in several of the old Welsh almanacs.

Dyfal, *a.* [dy-+mal] 1. diligent, assiduous, industrious, sedulous; continual, incessant, unceasing; heedful, attentive; earnest, fervent.

Tri *dyfal* gyfangan ynys Pryderin.—*Trioedd:* M.A. ii. 17.

Buost *ddyfal* i geisio fy nghyfraith i.—2 *Esd.* xiii. 54.

Gochel arnat, a chadw dy enaid yn *ddyfal*, rhag anghofio o honot y pethau a welodd dy lygaid.
Deut. iv. 9 (cf. 15; ii. 4).

Tywallt arnynt *ddyfal* wlith dy fendith.
Llyfr Gweddi Gyffredin.

Dyfal donc a dyr y garreg.—*Diareb.*

Dyfal y daeth i'm calon
Gwyllt haint am weled gwallt hon.—*Dafydd Nanmor.*

Mor *ddyfal* y mae'r medelwyr yma yn gweithio!
Moses Wiliams: Llawlyfr, viii.

Ffyniant a llwyddiant sy gymdeithion y dyn *dyfal*.
W. O. Pughe: E.D. i. 3.

Gweddi ddyfal, earnest or incessant prayer.—*Act.* xii. 5 (cf. Luc. xxii. 44).

2. tedious, tiresome, painful.—*Gwent.*

3. a variant (in orthography) of *Dywal*, q.v.

Dyfal, -on, *sm.* [dy-+mal: cf. *cyffelyb*] 1. a simile, a comparison; a parable; a riddle, an enigma.

2. a scoff, mock, or jeer; a mark or object for derision; a laughing-stock.

Dyfalaidd, *a.* having some resemblance or similitude; descriptive; conjectural; diligent.

Gwell Duw o'i foli yn *ddyfalaidd*,
Gwell gwin, er meithrin pob dyn, no'r maidd.
L. G. Cothi, 1. xxix. 19.

Dyfalbara, **Dyfalbarhâd,** *sm.* perseverance, steadfastness, continuance.

Nid yw ddim sicrach nag y bo dy *ddyfalbarhâd* di yn ffyrdd Duw.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 176.

Bod yn wyliadwrus at hyn yma trwy bob *dyfal-bara*, a deisyfiad dros yr holl saint.—*Eph.* vi. 18.

Dyfalbara, **Dyfalbarhau,** *v.* to continue steadfastly or diligently, to persevere.

Heb wylied arnynt na *dyfalbarhau* ynddynt.
Elis Wynn: Rh.B.S. 269.

Yn llawen mewn gobaith; yn ddioddefgar mewn cystudd; yn *dyfal-barhau* mewn gweddi.—*Rhuf.* xii. 12.

Dyfalbarhäus, **Dyfalbarhaol,** *a.* persevering, persistent, continuing steadfastly, sedulous.

Y rhai sy'n arwyddocäu y dylid gweddïo'n wresog ac yn *ddyfalbarhäus*.—*Ed. Samuel:* Athr. yr Eglwys, 3.

Cydnebydd dithau â'r gwirionedd mawr hwn; trwy galedrwydd synwyrol a diwydrwydd *dyfalbarhäus* yn holl foddion gras.—*Elis Wynn:* Rh.B.S., Rhag. 5.

Ac fel y crybwyllwyd mae'r engyl yn disgwyl
Yn *ddyfalbarhäus* am ddyfodiad yr egwyl.
I. G. Geirionydd: Geir. 238.

I'r diben hwn ymneillduodd [St. Ierom] i fonachdy ym Methlehem, i astudiaeth dichlyn a *dyfalbarhäus*.
Gwyliedydd, vi. 261.

Dyfalder, **Dyfaldod,** **Dyfaledd,** *sm.* assiduity, diligence, sedulity, perseverance, continuance; descriptiveness.

Digitized by Google

O hyn allan hwy a ymroddant â phob *dyfaldod* i ddieniweidrwydd, bywyd pur, a gwir dduwioldeb.
Ed. Iames: Hom. iii. 225 (cf. 136).

Taraw Kadwaladyr colofyn elyflu
Gwr oedd yn gallu y *dyualied.*
Phylip Brydydd: M.A. i. 378.

Dyfalgerdd, -i, -au, } *sf.* a descriptive poem;
Dyfalgan, -au, } a poem or song of description; descriptive poetry.

Dyfalgerdd yw cân yn dyfalu rhywbeth hardd ac arddercho g, neu ryfedd, neu anghyffredin, a weler, a glywer, a deimler, neu a ddealler. Ô chwennych y bardd ganu *Dyfalgerdd*, edrycked bod y peth a gano efe iddo yn hardd yr olwg arno. . . Mewn *Dyfalgerdd* dylid cyflawn gyffelybu; gweddnodi, llyfelu, cyfleo, ac amseru pob peth, herwydd hanfod ac ansawdd.—*Cyfrinach y Beirdd,* 39 (cf. 40).

Dyfalhâd, *sm.* 'a continuing to go on;' perseverance; comparison; likeness.

Y cyntedd a dywynai, tebyg ar
Y ddaiar hon o lun na *dyfalhâd*
Ni allai fod.—*W. O. Pughe:* C.G. iii. 554.

Dyfalhaol, *a.* tending to be assiduous.

Dyfalhau, *v.* 1. to be assiduous or diligent; to persevere, to continue.

Gwnaeth Duw di cywair, nid heb allu trol;
A da y gwnaeth di, ond i *ddyfalhau*
Gadawai yn dy allu di.
W. O. Pughe: C.G. v. 566 (cf. i. 785; xii. 591).

2.=*Dyfalu* (2).

A mi ennyd i'm mhoenau,
Fal hyn gwnawn ei *dyfalhau.*—*I. B. Hir:* Gwaith, 78.

Dyfalhâwch, *sm.* perseverance, assiduity.

Na syniwch fraw na chyffraw am y sawl
Newyddion, na luddhâi eich *dyfalhâwch.*
W. O. Pughe: C.G. x. 37.

Dyfaliad, -au, *sm.* a comparing; comparison; a describing, description, delineation; a guessing; a guess or conjecture.

A chyflawn *ddyfaliad* yw goleuni'r gerdd.
Cyfrinach y Beirdd, 22 (cf. 25, 40).

Hi a wisg Ddywllun Ddamasc ddillad,
Siamled o felfed un *ddyfaliad.*—*L. G. Cothi,* i. ix. 19.

Llwyr difawl bu llawer *dyfaliad.*
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 322.

Dyfaliad, heb eiliad bas.
Robert Davies: Diliau Barddas (1882), 92.

Nis gellir o henynt iawn a chydfel *ddyfaliad* ar unpeth o'r byd.—*Cyfrinach y Beirdd,* 12.

Yn enw pob *dyfaliad,* pa beth a barodd i Pant fyned i chwilio am Drehedyn i Reading?
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 305.

Dyfalrwydd, *sm.*=*Dyfalwch.*

Dyfalu, *v.* 1. to make a simile or comparison; to compare, to liken; to imagine to be.

A chyn ei gweled, pob un a'i *dyfalai* yn wen fal ôd unnos; arall a'i *dyfalai* yn ail distrych y don . . . sef y *dyfelid* ei gruddiau yn harddach na rhos. . . I bob melyn ac eurlliw y *dyfelid* ei gwallt. . . Mal hyn y *dyfelid* ar feddwl a dychymmyg cyn ei gweled gan lygad.—*Iolo Mss.* 163 (cf. 186).

A'i arial a *ddyfalwn*
Fal elain coch o flaen cwn.—*Tudur Aled:* G.B.C. 242.

Mil a'm *dyfalant,* a mwy,
I'r neb a fu 'ng Ngwernabwy.—*D. ab Gwilym,* lii. 29.

Dwy Faelawr y *dyfelynt*
Ei dŵr o Gaer Droia gynt.—*L. G. Cothi,* vii. ix. 41.

2. to describe, to delineate, to depict.

Cyflawn *ddyfalu* yw un o brif berthynasau cerdd; can ni bydd eglurdeb erni, na bywyd ynddi, heb ddyfaliad ar y pethau a wnânt ei sylfon a'i sylwedd. . . Dylid iawn a chywir *ddyfalu* ar wrthddrychau a manau nod a phethau nod cerdd; ond ni ddylid *ddyfalu* ernynt y pethau cyffredin a fo ernynt o barth golwg ac ansawdd.
Cyfrinach y Beirdd, 22 (cf. 23, 32, 37, 39, 41).

O ddwy fil ni *ddyfelir*
Gorff ond hwn, i'r griffwnt hir.
L. G. Cothi, iv. vi. 57 (cf. ix. 35).

Dyfelais bryd fy myd main,
Ei deurudd fal haul dwyrain.
D. ab Gwilym, viii. 45 (cf. 13).

Gwelwch yma *ddyfalu* 'r naill beth i'r llall ar gynddelw ddysgrifiad yn eglur, ac yn honeidlon, i ddarwyddo.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb (1595), xl.

A'i dŷ fal y *dyfelynt*
Adail gwaith i hidlo gwynt.
Gruffydd Hiraethog, i'r Fronfraith.

Anghenrhaid yw iawn *ddyfalu* athrylith, ac anian, a theithi, ac ansawdd o gynryw a chynraid dyn.
Cyfrinach y Beirdd, 29.

Cylch y Ceugant, lle nid oes namyn Duw; a'r doethion a'i *dyfalant* fal hyn yn dri chylch.—*Barddas,* i. 222.

Iaith yw [y Gymraeg] yn medru *dyfalu* pob pwyll a chrebwyll, a phob amcan er a ddichon meddwl dyn ei selweddu a'i ddarfelyddu.—*Cyfrinach y Beirdd,* 11.

Tair swydd iaith: adrodd; cynhyrfu; a *dyfalu.*
Cyfrinach y Beirdd, 45.

Dyfalu meddwl, to apply or exercise the mind; to consider diligently or attentively; to study.

Nid oedd achos iddynt hwy wrth lawer o *ddyfalu meddwl,* a hwythau yn fath wŷr ag nad oeddynt un amser heb fedru a gwybod pa beth i ddywedyd ar y gennadwri yr oedd arnunt ei thraddodi.—*Ier. Owen,* 133 (cf. 104, 136).

3. to conjecture, imagine, conceive, or guess; to suppose; to devise; to scheme.

Yno neidio a wnaeth y diawl i galon Pascen, a *dyfalu* ffordd i ladd y brenin.—*Theo. Evans:* D.P.O. 119.

A chewch, os *dyfelwch* hi,
Ei hanes, yn lle'i henwi.—*Gro. Owain,* 106 (cf. 108, 272).

Fe a ellid eu *dyfalu* a bwrw amcan cyffelybiaeth am danynt wrth y pethau sydd fynychaf yn dygwydd.
Ed. Samuel: Grotius, iv. 9.

Dyfelir bod Cerdd Dant yn foreuach yn y byd na Cherdd Dafawd.
G. Mechain: Gwaith, ii. 165 (cf. 173, 207, 220, 263).

Modd i'w ddal a'i ddialu
Fal hyn a *ddyfalai* Hu.—*Tegid:* Gwaith, 131.

Nis gallaf ddyfalu (S.W.)=*Nis gallaf ddyfeisio* (N.W.), I cannot imagine, conceive, guess, or conjecture.

4. to mimic; to jest; to mock; to deride.

Canaf *dyfalaf* du fawlyd gidwm.
Madog Dwygraig: M.A. i. 490 (cf. 25).

Tair cainc a berthynant ar glerwriaeth: ymsenu; *dyfalu* gair tra gair; a danwared.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 135.

Dyma'r hwn yr oeddym ni gynt yn ei watwar, ac yn ei *ddyfalu* yn waradwyddus.—*Doeth.* v. 3.

Yn y dyddiau hyn, pob diffeithwas a feiddia yn ddirus watwor a *dyfalu* yr hen Dadau difrif-bwyll, a Bugeiliaid yr Eglwys.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 142.

Dyfalwch, } *sm.* 1. diligence, assiduity, in-
Dyfalrwydd, } dustry, application, perseverance, sedulity.

Hwy a gymmerasant lun eu gwedd hwynt o bell, ac a wnaethant hynod ddelw brenin, yr hwn a anrhydeddent, er mwyn trwy eu *dyfalwch* hwn wenieithio iddo ef oedd absennol, fel pe bai bresennol.—*Doeth.* xiv. 17.

Yna holl wŷr Israel a waeddasant ar Dduw yn ddifrifol iawn, ac a ostyngasant eu heneidiau trwy *ddyfalrwydd* mawr.—*Iudeth* iv. 9.

Wrth hyny fe fydd yntau fwy ei *ddyfalwch* yn y pethau a roddwyd tan ei law ef.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. v. 1 (cf. iv. 8).

Chwennycha efe am wybodaeth, eithr nid oes ganddo *ddyfalwch.*—*W. O. Pughe:* E.D. i. 3 (cf. iv. 2).

Yr hwn sydd yn tywallt ei gwir ystyr hi,i'r rhai a chwiliant am dano mewn gostyngeiddrwydd, *dyfalwch,* ac astudrwydd.—*Ed. Iames:* Hom. i. 10 (cf. ii. 65).

Mae hi yn ddiau, ar y llaw arall, yn arddangos parhâus *ddyfalrwydd* ac amcanion doethfawr yr esgob.
Gwyliedydd, ii. 255 (cf. 226).

2. tediousness, painfulness.—*Gwent.*

Dyfalwr, wyr, *sm.* 1. one who is studious, diligent, or persevering; a close thinker.

O les Socrates cair eto filoedd
Yn *ddyfalwyr* cryno.—*Robert Owen:* Gwaith. 234.

2. a guesser, a conjecturer.

Digitized by Google

Dyfan, -au, *sm.* [dy-+man] a mark, print, or impression; effect.

A phoed *dyfan* i'm cais a'm gweddi er clod i Dduw, ac er anrhydedd i ninnau.—*Llythyr Serch* (Y Taliesin, i. 77).

Dyfanog (*ā*), *a.* impressed; having effect.

Dyfanol, *a.* tending to impress, impressive.

Dyfanu, *v.* to make a mark or impression; to impress.

Dyfar, *sm.* [bâr] wrath, fury, ire.—*P.*

Dyfarnedig, *pt.a.* adjudicated; adjudged; convicted, condemned, sentenced.

Ac onis tygant velly *divarnedic* vydd.
Cyfreithiau Cymru, ii. 218 (cf. 728).

Dyfarniad, -au, *sm.* adjudication; adjudicature; conviction.

Ieuan Glan Geirionydd a draddododd *ddyfarniad* y beirniaid ar y pwnc hwn.—*Gwyliedydd*, ix. 317.

Trwy *ddyfarniad* tost o frawd i Angeu ac i Uffern.
W. O. Pughe: C.G. iii. 243.

Dyfarnu, *v.* [dy-+barn] to adjudge, to adjudicate; to judge; to pass sentence (on); to sentence, to condemn, to convict.

Blyghau a llidiaw a oruc ynteu. a dywedut . . . y *diuarnei* ynteu hi hyt na chaffei neb ryw ran or ynys y gyt ac wynteu.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 65.

O ghelhant bot en vell testion e neill rei noe gilit *diuarnent* huy e guaethaf e testion; o deruit bot en kestal eu testion *diuarner* er amdifennur.—*C.C.* i. 154 (cf. 402, 756).

Ny wyl y gyureyth bot yn yaun y *dyuarnu* ef or eydau nac oy haul.—*C.C.* ii. 22 (cf. fq.).

Ymgynnullodd penaethiaid y coleg uchod i *ddyfarnu* y gwobrwyon a gynnygiwyd i aelodau y gymdeithas honno.
Gwyliedydd, ii. 255.

Os drwg, ei *ddyfarnu;* os da, ei brifoli.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xliii.

Cafwyd y carcharor yn euog; a . . . *dyfarnwyd* ef i gael ei ddienyddio.—*Gwyliedydd*, vii. 354.

Dyfarnwr, wyr, } *sm.* an adjudicator; one who
Dyfarnydd, -ion, } passes sentence; a judge.

Canys saif efe ar ddeheulaw'r anghenus i'w achub oddi wrth *ddyfarnwyr* ei enaid.—*Dr. T. Briscoe:* Salmau, cix. 31.

Dyfedd, *s.pl.* [dwf] birds, fowls.—*P.*

Handid mor *dyfedd*.—*Taliesin:* M.A. i. 90.

Dyfeichio, *v.* [meichio] to be or become a surety; to bail. See *Dyfach.*

Dyfeiliorn, -au, *sm.* [meiliorn (*P.*): cf. *cyfeiliorn*] a wrong act; injustice; maltreatment.

Dyfeiliornad, -au, *sm.* a doing a wrong or injustice; a maltreating, maltreatment.

Dyfeiliornedd, *sm.* iniquity; injustice.

Dyfeiliorni, *v.* to maltreat; to use wrongfully, unjustly, or despitefully; to reproach, despise, upbraid, or revile; to disparage.

Am hyny ydd ym yn poeni, ac yn cael ein dirmygu [°cablu, *difeiliorni*] herwydd ein bod yn cywir obeithio ar Dduw byw.—*Esgob R. Davies:* 1 Tim. iv. 10.

Dyfeiliornus, *a.* apt to do wrong or unjust acts; iniquitous.

Dyfeiriad, -au, *sm.* a becoming wrathful or furious; irritation.—*P.*

Dyfeirio, *v.* [dyfar] to become furious.—*P.*

Dyfeiriog, } *a.* [dyfar] full of wrath or anger;
Dyferiog, } wrathful, incensed.—*P.*

Yna y kyuodes Rolond y uyny yn gyflawn o irlloned. breit nat oed ynvyt. ac y deuth tu ar Sarasin. ac y dywat wrthaw val hynn. Bradwr *diueryawc*. heb ef. gormod a dywedy. a gormod yr ymhoffeist hediw yggwyd y Ffreinc.
Campau Charlymaen, § 60.

Pan gigleu Rolant hynny nys diodefawd. namyn trosi blaen y wayw yn y gyueir ar lawn vrys y varch. a gossot arnaw yn *diueryawc* oe lawn ynni yny aeth trwy y holl areu a thrwy asgwrn y gefyn.—*Ystoria de Carolo Magno*, col. 479.

Gogyuerchi yn hon
Deivyr *diuerogyon*.—*Aneurin:* God. 197.

Cigleu gyfarfod am gerddorion
A Gwyddyl diefyl *diferogion*.—*Taliesin:* M.A. i. 67.

¶ In the subjoined quotation it is not quite clear whether we should read *diweiriawc* (as partly given under *Diweiriog*) or *diveiriawc* (=*Dyfeiriawg* in Pughe). The word does not occur in the version given in *Ll.C.H.* in the corresponding passage.

Ac yna y kymerth Emrys y goron. ac y kavas yny gyghor vynet am ben Gortheyrn tua Chymru. ac wedy y dyvot hyt yn Erging. kyrchu castell Gronwy. . . Eb cf. wyrda ymledwch yn *diweiriawc* ar kastell ackw. Ac yn diannot roi tan a orugant yg kylch y kastell.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 268.

Dyfeiriol, *a.* tending to wrath.—*P.*

Dyfeisddrwg, *a.* full of evil devices, designs, or inventions.

Nid oes mo'r nerth i hyny yr awran, ond mae chwaneg o ddichell *ddyfeisddrwg*, a chyfled a chromlech o femrwn ysgrifenedig i sicrhau'r fargen.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 57.

Dyfeisgar, *a.* [dyfais+câr] full of devices or inventions; designing, scheming, cunning.

Dyfeisiad, -au, *sm.* a devising, inventing, or scheming; invention; a device; a conjecturing.

Mae ei feddwl diragfarn a philosophaidd yn canfod yn hawdd . . . eu bod oll naill ai yn *ddyfeisiadau* i dwyllo'r ehud er mwyn elw, neu ynte yn gyfansoddiadau a ffurfiwyd ar ol i'r dadguddiadau gymmeryd lle.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 12.

Yr hwn yn fynych a orchuddid gan frethynau neu grwyn, ac wedi eu haddurno â rhidensau, ac hyd yn oed â *dyfeisiadau*.—*Brutus:* Ninefeh, 250.

Dyfeisio, *v.* [dyfais] 1. to devise, to invent; to design; to scheme; to contrive; to project.

Nid gwiw i ninnau ar hyn o amser amcanu a *dyfeisio* ffordd a llwybr newydd.—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 11.

Doethion ynt yng ngwaith teyrnasoedd,
Yn *dyfeisio* lles i'r bobloedd.
Morgan Llwyd: Gwyddor Uchod, iii.

A phob moddion caredig a fetro ei drugaredd ef *ddyfeisio* eu cynnyg iddynt.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. 1. ix. 5.

Os medrwch *ddyfeisio* un henw a ddichon gyrhaeddyd ei ddrygioni ef.—*Th. Williams:* Ymadr. Buch. 28 (cf. 358).

Y mae ei ben yn efail wastadol i *ddyfeisio* dychymmygion.
Iago ab Dewi: Llonyddwch, 170.

Yr ych chwi yn *dyfeisio* aflonyddwch i ereill.
E. Wynn: Bardd Cwsg, 89 (cf 77).

Pan elo dynion i dir *dyfeisio* crefyddau iddynt eu hunain, y maent yn myned yn ffyliaid yn uniongyrchol.
Brutus: Brut. 309.

Cofiwch fod gwahaniaeth rhwng darganfod a *dyfeisio*. Yr wyf o blaid darganfod, ond yn erbyn *dyfeisio*.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duw. 114.

Nid *dyfeisio* yr hanesion a wnaeth yr efengylwyr.
Traethodydd, v. 515.

2. to conjecture, to guess. See *Dyfalu.*

Dyfeisiol, *a.* inventive, designing; guessing, conjectural.

Dyfeisiwr, wyr, } *sm.* a deviser, an inventor; a
Dyfeisydd, -ion, } designer; a guesser or conjecturer; a schemer.

Os myni godi, dyro dy fryd ar fyned yn *ddyfeisiwr*.
E. Wynn: Bardd Cwsg, 40 (cf. 98, 99).

Teg ei alw ef [Galileo] yn *ddyfeisydd* y tremddrych.
Cyfeirgrawn, i. 353.

Digitized by Google

Dyfeislun, -iau, *sm.* an emblematical representation, a device.

Yn gymmaint a bod un o'r arluniau a ddarluniwyd yn olaf, yn troi, megys mewn addoliad, tu â'r *dyfeislun*, yr oedd yn amlwg ei fod yn gysegredig.
Brutus: Ninefeh, 45.

Dyfeithrin, *sm.* [meithrin] a training or bringing up.—*P.*

Dyfeithrin, *v.* to rear or bring up; to nourish.

Dyfela, } *v.* [bela: L. *debello*] to bicker, to
Dyfelu, } wrangle; to fight.

Lluc yr duc *dyfel* disgynnyal alel.
Gorchan Adebon: A.B. ii. 96.

Dyfeliad, *sm.* a skirmishing, a bickering.—*P.*

Dyfer, -ion, *sm.* [dy- + mer] a drop; that which drops; an issue. In the singular *dyferyn* is the form in general use.

Cymmer ddraenog, a rhostia ef, a dod lestr i dderbyn y *dyferon*, a dod y *dyfer* hyny ar ffon, a dod y ffon lle bo'r chwain.—*Meddygon Myddfai*, ii. 232.

Dyferchwys, *sm.* [dyfer + chwys] dripping sweat or perspiration.

Cefais o'm serch *ddyferchwys*
Oer fraw; ac nid af ar frys.—*Gro. Owain*, 8.

Dyferfa, -oedd, *sf.* a place of dropping or leaking; a leak.

Dyferiad, -au, *sm.* a dropping; a trickling; a leaking.

Melusach hefyd na'r mêl, ac na *dyferiad* diliau mêl.
Salm. xix. 10.

Dyferion, *s.pl.* drops; tricklings, droppings; drips, drippings.

Pob wi yn galed, a holl ef ar ei hyd, a dod ynddo gymmaint a chneuan o goprys gwyn yn frwd, ac erbyn y *dyferon* mewn potel.—*Meddygon Myddfai*, ii. 352.

Bydded i ddwfr gael ei ollwng i lawr yn *ddyferion*.
D. Lewys: Golwg, xv. 8.

Os bydd y nyth yn isel y mae *dyferion* y brigau a'r dail yn disgyn arni.—*Ystên Sioned*, 69.

Dyferion y bargod, droppings of the eaves, eaves-drops.

Padell ddyferion, a dripping-pan.

Dyferlif, -au, *sm.* an issue; a running sore or issue; a drop or dropping.

Pob un pan fyddo *dyferlif* yn rhedeg o'i gnawd, a fydd aflan o blegid ei *ddyferlif*.
Lef. xv. 2 (cf. 3, 13, 15, 19, 25, 26, 28, 30, 32, 33).

Llamai lle caid llygaid llawn
Dagrau, *dyferlif* digrawn.—*Gronwy Owain*, 111.

Fy nghroen sy'n cramenu, ac a aiff yn *ddyferlif*.
Dr. Th. Briscoe: Iob, vii. 5.

Dyferlif gwaed, an issue of blood; hemorrhage.—*Marc* v. 25; *Luc* viii. 43.

Dyferllyd, *a.* having an issue; dropping, leaky, leaking.

Tri anghysur gwr yn ei dŷ: sawell fyglyd; to *dyferllyd*; a gwraig geintachlyd.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 259 (cf. 79).

Aflan fydd pob cyfrwy y marchogo y *dyferllyd* ynddo.
Lef. xv. 9 (cf. 4, 6, 7, 8, 11, 12, 13).

Dyferog, } *a.* dropping; leaking; distilling;
Dyferiog, } dripping.

Dyferol, } *a.* dropping; distilling, drizzling,
Dyferiol, } dripping.

Ei wefusau fel lili yn dyferu myrr *dyferol*.
Can. Sal. v. 13.

Machludodd yr haul, yr elor freninawl
Amgylchir ag ochain a dagrau *dyferawl*.
Eben Fardd (Gwyliedydd, vii. 318).

O fyrr a balm *dyferawl*,
O lysiau, teganau'r gwawl.—*Dafydd Ionawr*, 202.

Gwlyb dyferol, } dripping wet; thoroughly
Gwlyb dyferu, } wet.

Chwys dyferol, }
Chwys dyferu, } dripping perspiration.

Dyferu, *v.* [C. *devery, dyvere*; Br. *divera*] 1. to drop, to drip; to distil; to trickle down; to drizzle; to shed.

Hwnn yw y gwaet a *dhiuerer* dros lawer.—*Lucidar*, 173.

Tripheth anesmwyth ar wr yn ei dŷ: ei wraig yn ymdaeru; ei gronglwyd yn *dyferu*; a'i sawell yn mygu.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 75 (cf. 117, 192, 242).

Cymmer sudd llysiau'r clefyd melyn, a *dyfer* yn y llygad.
Meddygon Myddfai, ii. 20 (cf. 19, 37, 314, 373).

Fy llygad a *ddyferodd* ffrydiau o ddwfr. . . Fy llygad a *ddyferodd*, ac ni pheidiodd.—*Galar.* iii. 48, 49.

Calon pwy ni *ddyfera* ddafnau gwaed wrth wrando ac ystyried y pethau hyn?—*Ed. James:* Hom. i. 173.

Diwael fo dy wely, mewn lafant a lili,
A'r mêl yn *dyferu* 'n dy fara.
Ed. Richard: Bugeilgerdd, i. 30.

Os per y *dyfer* ar dafawd y mêl
O ymylau cribawd.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 48 (cf. 18).

Fy ymadrodd a *ddyfera* fel gwlith.—*Deut.* xxxii. 2.

2. to drop; to utter slightly or briefly.

Ychwanegais gryn lawer at ei ddychryn drwy *ddyfera* rhyw awgrymiadau cyfeillgar ar fuddioldeb yr ystafelloedd tanddaiarol oeddynt dan dŷ y llywodraethwyr.
Brutus: Ninefeh, 235.

Dyferu geiriau, to drop words.

Dyfera eiriau tu â'r deheu.—*Esec.* xx. 46 (cf. xxi. 2).

Ni *ddyferodd* un gair na chwyn rwgnachlyd dros ei wefusau.—*Dysgedydd*, iv. 164.

Dyferwad, -au, *sm.* [berwi] a boiling; ebullition; a decoction.

Y mae *dyferwad* o hono yn olch llesol rhag y cosi.
H. Davies: Llysieuaeth Gymreig, 234 (cf. 158, 226).

Dyferwi, *v.* to boil often; to concoct.

Dyferyn, *pl.* dyferynau, dyferion, *sm.* a drop; a single drop.

Dod *ddyferyn* ar y pryd ar y llygad claf.
Meddygon Myddfai, ii. 353 (cf. 4, 352).

Y diluw a lwnc yr afonydd chwyddedig
Fel mân *ddyferynau* o gwmwl gwywedig.
Islwyn: Caniadau, 72.

Y mae gronynau, tarth, neu anwedd dwfr yn fân iawn, fel yr â llawer o honynt i wneuthur un *dyferyn* o hono.
Dafydd Lewys: Golwg, xix. 1.

Dangosai fod pob *dyferyn* o ddwr a edir iddo redeg i y môr . . . yn afrad o gymmaint a hyny o wrtaith gwerthfawr.—*W. O. Pughe:* C.P. 31.

Y mae dau *ddyferyn* dan lwyn.—*Diareb.*

Dyferyn o wlith, a drop of dew, a dewdrop.

Dyferyniad, -au, *sm.* a falling in drops, a dropping; a dribbling.

Dyferynol, *a.* dropping, drizzling, dripping.

Dan araf *ddyferynol* oriau amser.—*Islwyn:* Caniadau, 36.

Dyferynu, *v.* to drop; to fall in drops; to drizzle, to dribble.

A phruddaidd oleuadau'r nos rhai sydd
Yn *dyferynu* tragwyddoldeb arnat.
Islwyn: Caniadau, 36.

Dyfeth, *sm.* [dy- + meth, methu] a failing, failure; destruction.

Myned ar ddyfeth, to go to nought; to go to ruin; to be destroyed or annihilated.

Fe ddaeth gwŷr y Blaenau i lawr lawer gwaith i'r Fro, ac a laddasont y Ffrancod hyd onid oeddynt wedi *myned ar ddyfeth* agos oll.—*Llyfr Ed. Gamais.*

Dyfetha, *v.* to destroy; to ruin; to bring to nought; to waste, spoil, or ravage; to squander; to consume,

Digitized by Google

Tri gwg ny diwygir . . . ar eil yw *difetha* dyn o kyfreith a gwneuthur oe genedyl gwg wrth y neb a *difethaei*.
C.C. i. 782.

Hynny yw vym penyt am lad o honaf vy hun vy mab. ae *diuetha*.—*Mab.* 23 (cf. 18, 30, 48, 55, 56, 130, 199, 271).

Yr hwnn o aglywedic ageu heb annot ath *difetha*.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 212 (cf. 388, 394).

Tri dyn a ddyly bot yn anrheith oddef o cyfreith, ac ny ddylyir ei *difetha*.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 624.

Pa rei bynac a gafei onadunt o anghlywedigion poeneu i *dywethaei*.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 379.

Nid estynwch ddyddiau ynddo, ond gan *ddyfetha* y'ch *dyfethir*.—*Deut.* iv. 26.

Tri pheth a *ddyfetha*'r byd: brenin ynfyd heb gynghor; ynad heb gydwybod; a gwas heb ofn.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 133.

Tri pheth a *ddyfethant* wladoldeb: creulonder, yn lle cosp; trugaredd, o gariad a pharch, yn gwyraw cyfiawnder; a thwyll-gymmrawd, lle nas caffer nawdd gynneddfawl i bob dyn.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 286.

Dysg i'th blentyn ennill da
Cyn dysgu modd *dyfetha*.—*T. Owain:* Hawdd ei Hebgor.

Dyfethedig, *pt.a.* destroyed, ruined; wasted.

Dyfethgar, *a.* addicted to destroying or wasting; destructive; wasteful.

Y mae [y blaidd] tu hwnt iddynt oll yn ei duedd reibus a *dyfethgar*.—*Anianyddiaeth Ysgrythyrol*, 18.

Dyfethiad, -au, } *sm.* a destroying, ruining,
Dyfethiant, } wasting, or devastating; destruction.

A phe cyffrŵem ein cryfach eto, ceffid gwaeth
Dyfethiad trwy ei lid; yn Uffern od
Oes ofn *dyfethiant* gwaeth.—*W. O. Pughe:* C.G. ii. 82.

Dyfethu, *v.*=*Dyfetha*.

Oni bai am y trwyll a ddoded yn dy drwyn, diwreiddio a *dyfethu*'r cyfan o'th amgylch a wneit.—*Iolo Mss.* 158.

Dyfethwr, wyr, } *sm.* a destroyer; a waster,
Dyfethydd, -ion, } a squanderer.

Pendodau dynawl ryw, a duwiau glwys,
Dyfethwyr dynion iawnach enwir hwynt.
W. O. Pughe: C.G. xi. 695.

Dyfi, *sf.* [dwf] 'the name of several rivers, descriptive of a gentle, or smooth current.'—*P.*

¶ There is but one river of this name in the Principality, the *Dyfi* (sometimes written *Dovey* in English books), which rises in Merionethshire, and in the lower part of its course separates North from South Wales. Pughe's definition is not descriptive of it; as the Dyfi, for a river of its size, is a rapid stream; and the only portion of its length of about 30 miles, which can in any way be described as gentle or smooth, is after it reaches the comparatively level valley of Mawddwy, as contrasted with its descent in a series of cascades from its native Creiglyn, near the summit of Aran Fawddwy. *Dyfi*, being a proper name, hardly belongs to a dictionary of appellatives.

Dyfian, *v.* [dwf] to move slowly on.—*P.*

Dyfiau, *sm.* [dyw+Iau] Thursday. See *Difiau*, of which *Dyfiau* is but a variant in orthography.

Dyfieu [*al.* Dyf ieu] yn geugant ydd aethan Von.
Taliesin: M.A. i. 66 (A.B. ii. 158).

Dyfin, -ion, -iau, *sm.* [min] an edge; an edging; a margin.

Pwyllei Wallawc marchawc trin
Erechwyd gwfieuthur *dyuin*
Yn erbyn kyfryssed Elphin.—*Llywarch Hen:* A.B. ii. 271.

Dyfiniad, -au, *sm.* [dyfin] acuition.—*P.*

Dyfinio, *v.* to set an edge; to sharpen.—*P.*

Dyfiniol, *a.* tending to sharpen.

Dyfiou, *sm.* [dyw+Iou=Iau] Thursday.

Dyflaen, -ion, *sm.* [dy-+blaen]. See *Diflaen*, &c.

Dyflan, } *a.* resplendent, shining, very bright.
Dyflanol, } —*P.*

Dyflaniad, -au, *sm.* illumination.

Dyflanu, } *v.*[blan] to shine, to glare, to dazzle.
Dyflannu, } —*P.* See *Diflan*, &c.

Dyflöen, -au, *sf.* [bloen (*P.*)] a splinter.—*D.* and *P.* See *Dyfflöen*.

Dyfn, -ion, *sm.* [=dwfn] depth, profundity.

Cloddiodd ef bwll hyd eigion llawr,
O fwriad mawr i'r truan:
Ac ef a syrthiodd ym mron bawdd,
I'r *dyfn* i'w glawdd ei hunan.—*Edm. Prys:* Salm. vii. 15.

Mae un a'th wna yn esmwyth sedd,
Nid ofna'th echrys *ddyfn*.—*I. G. Aled:* Palestina, 47.

Dyfn, *a.*=*Dwfn* (f. *dofn*).

Dyfn fy neigr, dwfn fynegais,
Dwfr fy mhen hyd ar fy mhais!
Dafydd ab Gwilym, xviii. 21.

Glynais yn y dom *dyfn*, lle ni chawn sefyllfa.
Esgob Morgan: Salm. lxix. 2.

Ef a dâl adref yr hawl hon,
Yn *ddyfn* archollion gwaedlyd.
Edm. Prys: Salm. lxiv. 7.

Pob pechod a wnelo dyn sydd megys brath draen, wedi myned yn *ddyfn* i'r enaid.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 399.

Ni a adwn heibio son am anian *ddyfn* anchwiliadwy yr Hollalluog Dduw.—*Ed. James:* Hom. iii. 127.

Iawn ddealltwriaeth a'i gwnaiff e'n *ddyfn* ac yn llyfn.
Elis Wynn: Rh.B.S. 190.

Nid oes dim mor *ddyfn* yn eigion perfedd celfyddyd . . . a'r nas geill ewyllys da ei amgylchu, ei agori, ei ddeongl, a'i ddadguddio.—*R. Vaughan:* Ym. Duwioldeb, Cyfl.

Ni wiw hau cywarch ond ar faranedd *ddyfn*, wedi ei gwrteithio.—*Aneurin Owen:* Amaethyddiaeth, 27.

Dyfnad, *sm.* [dyfyn] one that is trained or accustomed to; an accustomed guest.—*P.*

Y anaw a daw a *dyfnad*
Y anant y eni bu mad.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 279.

Dyfnawd, } *pl.* dyfnodau, *sm.* [dwfn] depth,
Dyfnod, } deepness, profundity.

Cyfranogiad o ddaioni a drwg yw pob bywydolion menedig, a hyny o fwy neu lai herwydd eu gradd yn yr Abred, o'r marw yn *nyfnawd* annwfn, hyd y byw yn eithafnod y daioni a'r galledigaeth.—*Barddas*, i. 208.

G♣yr pysgod, yn *nyfnod* nant,
Y parth y cân' eu porthiant.
L. Morys: Diddanwch Teuluaidd, 98.

Ac o hyny y tarddwys y bywydolion a'r bywdoliaeth menedig gyntaf; ac o fenedigion wrth fod a bywyd y dechreuasant yn *nyfnod* annwfn.—*Barddas*, i. 208.

Dyfnbwyll, *sm.* [dwfn+pwyll] deep reason, profound wisdom.

Dyfnbwyll, *a.* of deep thought; deep-thinking, deep-reasoning.

Tri pheth ar ddyn y dylai bob doeth eu hystyried yn *ddyfnbwyll:* nwydoldeb golwg; achaniad llafar; ac arwyddoldeb ymmod.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 215.

Y mae treigl amser, a *dyfnbwyll* fyfyrdod, yn dwyn dirgeledigaethau'r Bibl i fwy o amlygiad.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 76.

Dyfnchwiliad, -au, *sm.* a closely investigating or researching; deep investigation or research.

Dyfnchwilio, *v.* to search or investigate deeply.

Wele yma eiriau nefol, yn *dwfn-chwilio* ac yn deffro'r gydwybod.—*Morgan Llwyd:* Ymroddiad, Rhag. 3.

Dyfnder, -au, -oedd, *sm.* [dwfn] depth, deepness, profundity.

Onyt ymogely yn da ef ath vwrw yn *dyvynder* uffern.
St. Greal, § 33.

Ygain troedved yn y hyt ac ygain yn y lled a ffymp troedved yn y *dyfnder*.—*Brut Tysilio:* M.A. ii. 310.

Mi a baraf dy dodi ym geol. ac y mae degwryd ar ugein o *dyfynder* yndi.—*Bown o Hamtwn*, § 16.

Ar y dydd hwnw y rhwygwyd holl ffynnonau y *dyfnder* mawr.—*Gen.* vii. 11 (cf. i. 2).

Digitized by Google

Dyfnder is *dyfnderau* y sydd,
Ac ar eu gilydd galwant.—*Edm. Prys:* Salm. xlii. 7.

Ac adfer *dyfnder* y don
Ar air ei garcharorion.—*W. Wynn:* Cywydd y Farn.

Onid ti yw yr hwn a sychaist y môr, dyfroedd y *dyfnder* mawr? yr hwn a wnaethost *ddyfnderoedd* y môr yn ffordd i'r gwaredigion?—*Esa.* li. 10 (cf. Iob xxviii. 16).

Y *dyfnderau* a geulasant yng nghanol y môr.
Ecs. xv. 8 (cf. 5).

Hwy a ddisgynasant i'r *dyfnderoedd* megys carreg.
H. Perri: Egl. Ffraethineb, xxxvi. 1.

Mil o hyd sydd yn amlhau
Yn ei dirion *ddyfnderau.*—*Tegid:* Gwaith, 77.

Ar *ddyfnderoedd* hoffant boeri,
Pob gwaith da a gaiff ei groesi.
Morgan Llwyd: Gwyddor Uchod (Sadwrn).

Tri pheth a hoffant gerdd: *dyfnder* synwyr a'i ystyr; odidawg ddychymmyg; ac awdurdawd y prydydd.
Edeyrn: Dosparth, 38.

Y dyfnder, the deep, the deep sea, the ocean.

Ser y nef pwy ŵyr eu nifer,
A phwy eill rifo defni'r *dyfnder*?—*Hen Bennill.*

Dyfnder gauaf, depth of winter, dead of winter.

Dyfnder nos, dead or depth of night.

Dyfnder meddwl, depth of mind or thought.

Dyfnder teimlad, depth of feeling.

Dyfnderau Satan, the depths or deep things of Satan.—*Dad.* ii. 24.

Dyfndra, *sm.* deepness, depth, profundity.

Yn y *dyfndra* yma o'r ddaiar, mae pedair megys ogofau mawrion aruthr.—*R. Smith:* Eglurhâd, 42.

A gwneyd haciau ar ei draws, i lwyr *ddyfndra* llafn y gyllell.—*W. O. Pughe:* C.P. 85.

Dyfndwr, *sm.* [corr. of *dyfnder*] = *Dyfnder*, *Dyfndra.*

Nid yw'n dyfod o *ddyfndwr* ac o eigiawn y galon.
Huw Lewys: Perl, 80 (cf. 52).

Enbydus anwybodaeth
O *ddyfndwr* ein cyflwr caeth
Yn awr sy'n ein lluddiaw ni
Rhag Annwn â'i hagr gyni.—*Dafydd Ionawr*, 70 (cf. 271).

Ar wyneb yr ewynog *ddyfndwr.*—*Dewi Wyn:* Bl. Arf. 11.

Dyfnddawn, *pl.* dyfnddoniau, *sm.* [dwfn + dawn] profound gift or endowment.

Duw ren dym ryt kymwynas
Detyf *dyfyndawn* kyuyawn kyweithas.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 300.

Dyfnddwys, *a.* close and deep, grave and profound.

A gafodd rhywrai o'r beirdd a'r philosophyddion ethnig, wrth ymbalfalu yn eu myfyrdodau *dyfnddwys*, ryw gip-olwg y deuai y fath Brophwyd i blith dynion!
Nicander: Dwyfol Oraclau, 28.

Dyfnddysg, *sm.* deep or profound learning; great erudition; 'deep experience.'

Yr un ffunud y gellid dywedyd am ryw wr gwymp . . . gael o hono ef . . . ei *ddyfnddysg* ym Mhlato.
H. Perri: Egl. Ffraethineb (1595), ii.

Dyfnddysg, *a.* deeply learned, very erudite.

Holl brif bynciau *dyfnddysg* yr athrawiaeth hon.
Ed. James: Hom. iii. 91.

Y Groegiaid, y sawl a draddodasant reolau moesgarwch, a'u gwnaethant eu hunain yn ganmoladwy ac yn gymmeredig, o blegid oelfyddydon *dyfnddysg* ereill.
Ed. Samuel: Grotius, ii. 22.

Gyda'u holl ymddangosiad o ymchwiliad athronyddol, a threiddgarwch *dyfnddysg*, byddaf yn teimlo yn fynych mai ym myd y deall y maent yn aros o hyd.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duwin. 104.

Pan y deuwn i lawr at y bedwaredd a'r bummed ganrif, ni a gawn y fath ddiwinyddion *dyfnddysg* ag Athanasius ac Awstin.—*J. Pryce:* Eglwys Foreuol, 229 (cf. 258, 297).

Dyfnedig, *pt.a.* [dyfnu] made to draw to or adhere; accustomed, wont.—*P.*

Dyfnedd, -au, *sm.* [dwfn] depth; deepness, profundity, profoundness.

Naw moduet yn y *dyfned* ar gwyr or cleis eithaf yr enyl nessaf.—*C.C.* i. 710 (cf. 534).

Sef oed y ansawd vgein troetued yn y hyt ac ugein yn y llet a phump yn y *dyfnet* yn pedrogyl.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 310.

O ba le y daethost?—O eithafoedd *dyfnedd* annwn, sef yno y mae pob dechreu yn nhoriad y goleuni o'r tywyll cadarn.—*Barddas*, i. 244.

Yn y man yr eginesont, can nad oedd iddynt *ddyfnedd* daiar.—*W. Salesbury:* Matt. xiii. 5.

Dyfneual, *v.* [dyfnu] to train up; to be wont, used, or accustomed.—*P.*

Fyryf deyrn rac kyrn rac carnyal emys
Fwyr dyfynurys *dyfneual.*—*Cynddelw:* M.A. i. 260.

Dyfnfawr, *a.* very deep or profound.

Cedwaist hefyd fyd yn fyw
O ddwys-drwm *ddyfnfawr* ddistryw.—*Dafydd Ionawr*, 83.

Gadāwn i ein meddyliau ehedeg mewn *dyfnfawr* ystyriaeth i syllu ar yr ieithoedd godidog a grymus a flodeuasant yn y cynamseroedd.—*Gwyliedydd*, ii. 78.

Dyfnfedd, -au, *sm.* the deep grave.

Daw o'r *dyfnfedd*, culfedd cau,
Yn wanwyn arnom ninnau.
Caledfryn: Caniadau, 84 (cf. 89).

Ni eiriach rai bach rhag bedd, i'r cedyrn
Rhoir codwm i'r *dyfnfedd.*—*Blackwell:* C.A. 158.

Dyfnfor, -oedd, *sm.* the deep sea, the deep, the main.

Nac anobeithia luniaeth o fynydd a *dyfnfor.*
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 9.

Noswaith a diwrnod y bûm yn y *dyfnfor.*—2 *Cor.* xi. 25.

Y *dyfnfor* coch, a'i ddyfrllyd wlych,
A wnaeth e'n sych â'i gerydd.—*Edm. Prys:* Salm. cvi. 9.

Gweled rhwygo'r *dyfnfor* dig.—*Blackwell:* C.A. 198.

Trwy oror y *dyfnfor* du.—*Robert Owen:* Gweith. 126.

Dyfnfyfyr, *a.* deeply thoughtful; of deep meditation or contemplation.

Yn ei ymchwiliadau *dyfnfyfyr* a dyfnddysg am wirioneedd philosophyddaidd, mae [Plato] weithiau'n cyffwrdd, yn ddamweiniol ac yn ddiarwybod, ag amryw o'r gwirioneddau a ystyrir yn efangylaidd.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 45.

Gan ddadlenu â chywreinrwydd *dyfnfyfyr* a dyfnddysg, pa wedd y mae iawn amgyffred o'r Ymgnawdoliaeth yn dadgloi dirgelion natur a gras.
J. Pryce: Eglwys Foreuol, 297.

Dyfnhâd, *sm.* a deepening; depression.

Dyfnhaol, *a.* deepening, that deepens.

Dyfnhau, **Dyfnu**, *v.* [dwfn] to deepen; to make deep or deeper.

Nid â bawd yd *ddyfnir* llath hir.—*Diareb.* (M.A. iii. 169.)

Magodd ei edifeirwch, a *dyfnhaodd* ei ymostyngiad drwy ystyriaeth a myfyrdod.—*Samuel Roberts:* Pregethau, 170.

Dyfniad, **Dyniad**, *sm.* [dyfnu, dynu] absorbing; sucking; a drawing to; an accustoming.—*P.*

Dyfniaith, ieithoedd, *sf.* deep or profound language.

Taleithawc deifnawc *dyfynyeith*, Aberfraw.
Llygad Gwr: M.A. i. 344.

Edwyn *ddyfniaith* hirfaith hen,
Eres yw am wres awen.—*Ioan ab Hywel.*

Dyfnig, *a.* having a tendency to draw to, imbibe, or suck.—*P.*

Dyfnnos, *sf.* deep night, dead of night.

Dyfnnos o dân a welaist drwy'r nef wiwlan.
Dafydd Ionawr, 273.

Dyfnu, **Dynu**, *v.* [C. *dena, dene, deny;* Br. *dena;* Ir. *dinim, dighin, din;* Ga. *dith*] 1. to suck; to draw; to absorb; to imbibe.

Digitized by Google

Parchell yn y crowyn keinawc kyfreith a tal: or pan el allan yny peitto a *dynu* dwy keinawc kyfreith a tal: or pan peitto a *dynu* hyt wyl leuan y moch pedeir keinawc kyfreith a tal.—*C.C.* i. 716–18 (cf. 276, 574).

Sef hyd y dyly [porchell] fod yn *dynu*, tri mis.
Leges Wallicae, III. v. 3.

Cig perchyll ac ŵyn, tra fwynt yn *dyfnu*, i ddyn ieuanc y mae da.—*Llyfr Meddyginiaeth.* (*D.*)

O enau maibion yn *dyfnu* gwnaethost foliant.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 560.

Gweddeiddiach bellach . . .
Dyfnu dyfroedd no medd melyn.—*Einion.* (*P.*)

2. to be used, wont, or accustomed.

Am Owain Gwyned yd gwynant
Mur moreb deu wyneb Dyfnant
Dyfnais rod o'i fod o'i fediant
Medgwyn maith a'n maeth o'i ariant.
Cynddelw: M.A. i. 206.

Dyfnwyd uy ysgwyd yn ysgarte.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 292.

Gwydwal dyfneuawl [*al.* Dyfnwal] *dyfnasai* fy mod.
Cynddelw: M.A. i. 208.

Neud am dragon dwfyn *dyfneis* y auar.
Cynddelw: M.A. i. 230.

Pedrydawc deifnyawc *dyfneis* y gwynaw.
Cynddelw: M.A. i. 231.

¶ On *Dyfnu*, in the first sense, Th. Richards (1753) has the following note: '*Dyfnu*, marked with an asterisk for an obsolete word in Dr. Davies's Dictionary, but *dynu* is still a very common word in Glamorganshire.' It is the usual word in Cardiganshire at the present day.

Dyfnwallaw, *v.* [dwfn+gwallaw] to pour, empty, or flow deeply.

Nis llud llu cyngredf dedf Dyfnwallawn
Dyfnwallaw anaw anewig dawn.—*Cynddelw:* M.A. i. 206.

Dyfnwedydd, -ion, *sm.* [dwfn+gwedydd] a profound speaker, an orator.

Dydwyth [*al.* dydyth, dy duth] dydyccawt
O *dyfynwedyd* gwawt.—*Taliesin:* A.B. ii. 130 (M.A. i. 34).

Cyfreu dyfnwedydd, the requisites of an orator.—*P.*

Dyfod, *v.* [dy-+bod: C. *devos*] to come; to come to pass; to arrive; to come to be; to be.

Ar hynny kyfodi a oruc pawb a *dyfot* y edrych.
Mab. 194 (cf. 173, 174, 183, 245).

Gwedy *dyuot* o honaw ef hyt yn Troea.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 2 (cf. 3, 4, 30).

Eil yw kynn *dyuot* eneit yndaw.
C.C. i. 444 (cf. 414, 498, 538, 734, 754, 758).

Yna ef a gyuaruu ac ef was ieuanc yr hwnn a ovynnawd idaw o pa le pan oed yn *dyuot*.—*St. Greal*, § 30 (cf. 32, 49).

Nachaf angel ger y bronn yn *dyuot*.
Llyfr Ancr, 77 (cf. 78. 79, 85, 105).

Dilyw a *dyfu* dydbrawd a *dyfi*.—*Gwalchmai:* M.A. i. 203.

Tri theyrn maon a *dyfu* o Vrython.—*Aneurin:* God. 193.

Dyfynt ym plymnwyt.—*Taliesin:* A.B. ii. 187.

Ny *dyfu* yma gwledic dy gynna
Ny *dyfu* ny *dyfyd* neb kystal a Douyd.
Taliesin: A.B. ii. 118 (cf. M.A. i. 20).

Pan *dyffo* Dews ef an gwnaho mawr trws.
Taliesin: A.B. ii. 119 (M.A. i. 88).

Dybi y vaeth a ryd alhaeth.—*Taliesin:* M.A. i. 50.

Pan *dyuo* Coch Normandi.—*Myrddin:* M.A. i. 132 (cf. 133).

Powys *dybydant* dwys yg kyfleudon
Gwyr goruyn gorynt ar eu deduon.
Taliesin: A.B. ii. 205 (M.A. i. 73).

Y dderwen a ddyry feddyginiaethau amrafaelion rhag pob dolur a *ddyfydd* o wendidau. . . A goreu o bob diod yw i gryfhau corff . . . ac ef a wellâa'r clefydon a *ddyfyddant* o wendidau. . . Da rhag pob gwendidau ag a *ddyfyddant* o ddoluriau.—*Meddygon Myddfai*, ii. 797.

Cyd boed hir hafddydd, *dybydd* ucher.
Diareb. (M.A. iii. 151: cf. 146, 154.)

Dyfydd hyd ei hystafell.—*D. ab Gwilym*, xxi. 27.

Tripheth a *ddyfydd* o dangnef: amlhâd meddiannau; gwellâd moesau; a mwynhâd gwybodau.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 88 (cf. 154, 158, 163, 167).

Gan *dyfod* y *daw*, nid oeda.—*Hab.* ii. 3.

Yr wyf yn *dyfod* yn awr at yr ail ran.
Theo. Evans: Pwyll y Pader, 64.

Dyfydd dyhirwaith aros.—*Iolo Mss.* 261.

Dêl i Ddafydd, dyl *ddyfod*,
I gledd, ac i Sion y glod.—*Th. Prys.*

Y mae'r bywyd hwn ar ddarfod;
Y mae'r llall o'i ol i *ddyfod*.—*I. B. Hir:* Gwaith, 31.

Ac o hyny y *dyfydd* rhyddineb, a dewis, a gallu tawl, i ddyn.—*Barddas*, i. 210.

A chan Dduw na chawn *ddywod*
Mewn tŷ fry, er maint fai'r ôd.—*Tudur Aled.*

Ni bu hir cyn *dywod* o berchenog y ddolfaes gyda'i arthgwn, a'i waedgwn, a'i weision, a'i rwydau rheffynaidd, a'i ddal.—*Iolo Mss.* 175.

Ac yn hyny oed y cynghrair a *ddyfu*.—*Ystori Dared*, § 80.

Dybu 'n ebrwydd i mi'n aflwydd.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 237.

Dyfod â (*ag*), to come with; to bring, to convey.

Dyfod â newydd, to bring news.

(*b*) to bring, to bring forth (young).

Dyfod i, to come to; to amount to.

Dyfod i lawr, to come down; to descend.

(*b*) to be hatched (as chickens); to come out (of the shell).

Mi rois fy ngiâr i ori ar ben y Frenni Fawr,
A deg o wyau dani, a deg a *ddaeth i lawr*.
Hen Bennill (Ystên Sioned, 90).

Dyfod i ben, to come to pass; to be finished, ended, completed, or accomplished.

Yr ydym yn gweddïo *ddyfod* yr un peth *i ben* ar y ddaiar.
Theophilus Evans: Pwyll y Pader, 108.

Dyfod yn, to become, to come to be; to become or become to be (what the speaker is, is supposed to be, or that of which he approves).

Dyfod yn Gristion, to become a Christian.

Dyfod o, to come from; to become of; to emanate from; to descend from.

Beth a ddaeth o hono? what has become of him?

Amser i ddyfod, time to come, future time; futurity, the future.

Dros yr amser i ddyfod, for the time to come; for the future.

Hir (*hirfaith*) *amser i ddyfod*, a long futurity.

Rhai yn myned ac yn dyfod, those that go and come; comers and goers; sojourners.

Ar ddyfod, on the point of coming; about to come; about to come to pass; that is to come; future.

Edrychaf am adgyfodiad y meirw, a bywyd y byd y sydd *ar ddyfod*.—*Credo Nicea.*

A pha arwydd fydd pan fo y pethau hyn *ar ddyfod*?
Luc xxi. 7.

Y byd i ddyfod, the world to come, the future world or state.

Yn y dyfodol, in the future.

Y gorphenol a'r dyfodol, the past and the future.

Dyn dyfod, *'n dyfod*, a comer, a comeling; a stranger, a sojourner.

Pobl ddyfod, people that have come (from another place or country), comers, sojourners, aliens, strangers.

Wrth Henwyr y meddylir, yn ddilys, yr hen drigolion cyntaf; ac felly y Brithwyr ynt estroniaid a *phobl ddyfod*.
Theo. Evans: D.P.O. 75.

¶ *Dyfod* is an anomalous verb, and most of the tenses in current use are formed from *daw* (*dawed*, *daeth*). The inflections following the analogy of *bod* are now mostly archaic or obso-

Digitized by Google

lete; and they generally agree in meaning with the substantive verb rather than with *dyfod*, as a verb of motion; the antiquated forms, as well as those in present use, will be found in Dr. Davies, *Rudimenta* (1621), 114—122. See *Dyddaw*, *Dybi*, *Dybydd*, *Dyfu*, &c.

Dyfod, -au, -ion, *sm.* a coming; advent; arrival; a meeting.

Llyma *dyuot* da ynni heb wynt yn segyr.
Mabinogion, 272.

Dyfodion i mewn, incomings, income.

Mi a ddywedaf i ti yr achaws, eu bod yn bucheddu heb lywodraeth iawn; eithr treulio a dinystro o'r blaen mwy nog eu *dyfodion i mewn* a'u hystent yn y flwyddyn, heb fyth ymachub o'r blaen.—*Cato Cymraeg* (Y Greal, 194).

Dyfod, *v.*=*dywod*, *dywawd*, *dywedodd*, the preterite of *Dywedyd*.

Yna y *dyfod* yr angel, Pam yr wyt yn wylo? . . . Ac yno y *dyfod* Mihangel, Saf hwnt ym mhell.
Iolo Mss. 191 (cf. 192).

Ac Ecuba a *ddyfod* y gwnai hi hyny, os Priam a'i caniadhâi. . . Y gennad a ddaeth at Achel, ac a *ddyfod* iddaw mal y cawsai ateb Ecuba.—*Ystori Dared*, ¶ 71 (cf. 69).

Ac ef a atebawdd ac a *ddyfod*.
W. Salesbury: Matt. xxv. 12 (cf. 21, 22, 24, 26).

¶ In Salesbury's Testament (1567) *dyfod* ('dyfot,' 'dyvot') is the common form for *dywedodd* (*dixit*) as well as for the infinitive *dyfod* (*venire*).

Dyfodadwy, *a.* that may come; future.

Pan oedd ei gymmydogion llai ffodiog yn unig yn edrych ym mlaen am y cnydiau *dyfodadwy*.
W. O. Pughe: C.P. 130.

Amser dyfodadwy, future time; futurity; future tense.

Nid oedd, yn yr oes goelgrefyddol honno, neb mor awyddus i dreiddio i ddirgeloedd yr *amser dyfodadwy*.
Gwyliedydd, vi. 307.

Dyfodadyn, *sm.* a comer; a settler; a foreigner. —*P.* (ed. 1803).

Dyfodedig, *pt.* come; come to pass; become; arrived.

Un dyfodedig (*pl.* rhai dyfodedig), a comer.

Dyfodedigion, comers; arrivals.

Yr oedd y mynedigion cargychwyn yn dilyn eu gilydd yn llinyn o'r tu haul i'r heol, a'r *dyfodedigion* carddychwel yn difin deithio ar yr ystlys ogledd iddi.
G. Mechain: Gwaith, ii. 288.

Dyfodedigaeth, -au, *sf.* a coming; advent; arrival.

Ac or ryw damwein hwnnw y byrywyt llog Withlach ar vorwyn y gyt y dir y gogled yn y lle yd oed Veli yn aros *dyuodedigaeth* Bran y vrawt.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 72 (cf. 131).

Og ech *dyuodedygaeth* chwytheu . . . llawen yw kennyf.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 244 (cf. 243, 244, 278, 312, 315).

Ac yno aros chwedleu a wnaeth y wrth y wyr, ac y wrth *dyuotedigaeth* y iarll.—*Brut y Tywysogion*, 314.

Ac erbyn *dyuodedigyaeth* yr haf rac wyneb parattoi llyges a oruc Arthur y vynet y werescyn Iwerdon.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 312.

Dyfodedigaeth y Saeson, the coming or arrival of the Saxons.—*M.A.* ii. 242.

Dyfodfa, fäu, fëydd, faoedd, *sf.* entrance; entry; access, admittance; approach.

Salomon a gadwodd y pryd hyny wyl, a holl Israel gyd ag ef, cynnulleidfa fawr, o *ddyfodfa* Hamath hyd afon yr Aipht.—1 *Bren.* viii. 65 (cf. 2 Cron. vii. 8).

Efe a ddyfethodd y meirch a roddassi breninoedd Iudah i'r haul, wrth *ddyfodfa* tŷ yr Arglwydd.
2 *Bren.* xxiii. 11 (cf. xvi. 18; 1 Cron. ix. 19).

Trwyddynt hwy yr ydoedd *dyfodfa* i Iudea.—*Iud.* iv. 7.

Sefydlodd y Siniad, tebygol, yn y deheu, yn agos i'r *ddyfodfa* i wlad yr Aipht.—*Sim. Lloyd:* Amseryddiaeth, 46.

Syrthiodd arch fawr tra godidog, yr hon a roddasid i bwyso ar y drwa, i mewn i'r *ddyfodfa*.—*Seren Gomer*, iii. 27.

Trwyddo ef y mae i ni ein dau *ddyfodfa* mewn un Yspryd at y Tad.—*Eph.* ii. 18 (cf. Rhuf. v. 2).

Y mae y nef yn agored i bawb, eithr nid oes un *ddyfodfa* iddi, ond trwy'r ffordd o edifeirwch.
Elis Lewis: Drexelius, 212 (cf. 254).

Dyfodiad, -au, *sm.* a coming; arrival; advent.

A chymeint vu y llewenydd a gyfodes y rwng milwyr y vort gronn ac y bu anghyuartal o achaws *dyuotyat* Burt a Lionel.—*St. Greal*, ¶ 2 (cf. 21, 23, 40, 53).

Lleuelis a dywawt y gwydyat e hun ystyr y *dyuodyat* yr gwladoed hyny.—*Mab.* 95 (cf. 6, 259, 264).

A thrigyaw a oruc ef ae gedymdeithon yn y lle y mynawd, a choffau *dyuodyat* y dat kyn no hynny yr kyfoeth.
Brut y Tywysogion, 102 (cf. 292, 294, 340).

A phan adnabu Fferracut y *dyuotyat* y doeth allan or gaer.—*Ystoria de Carolo Magno*, col. 398.

Nyt dylys y dyn y *dyuodyat* y tyr namyn o uraut y gyureyth.—*C.C.* i. 178.

Ymroessav a wnnaeth yr ebestyl yn ryued gantunt eu *dyvodyat*.—*Llyfr Ancr*, 79.

Ar marchawc a ddoeth yr llys. a chanmoledic a vu gan bawb y *ddyvodyatt* ef.—*Doethion Rhufain*, ¶ 32.

Hyspysa iddynt ddull y tŷ, a'i osodiad, a'i fynediadau allan, a'u *ddyfodiadau* i mewn.—*Esec.* xliii. 11.

Pan glybu plant yr Israel o *ddyfodiad* y gelynion.
Huw Lewys: Perl, 81.

Yr ydym yn darllen am *ddyfodiad* Abraham o Ur y Caldeaid.—*Brutus:* Brutusiana, 181.

Dyfodiad gwastad gwir ystyrych
Dy fonedd ar wedd y harweddych.
Madog ab Gwallter: M.A. i. 404 (cf. 429, 530).

Pa le y mae addewid ei *ddyfodiad* ef?—2 *Pedr* iii. 4.

Pwy a oddef ddydd ei *ddyfodiad* ef?—*Mal.* iii. 2.

Unfath *ddyfodiad* i fywyd sydd i bawb.—*Doeth.* vii. 6.

Dyfodiad Crist yng nghnawd, } the coming of
Dyfodiad Crist yn y cnawd, } Christ in the flesh; the Incarnation of Christ.

Gwedi hyny doded cof a chyfrif ar amser *dyfodiad Crist yng nghnawd*.—*Iolo Mss.* 36 (cf. 39).

Dyfodiad y Messïah, the coming or advent of the Messiah.

Y maent eu hunain yn galw *dyfodiad y Messiah*, cyflawniad y Iubili, neu'r Iubili Mawr.—*Ed. Samuel:* Grotius, v. 7.

Y dyfodiad cyntaf, the first coming or advent (of Christ).

Yr hwn ar dy *ddyfodiad cyntaf* a anfonaist dy gennadwr i barotoi dy ffordd o'th flaen.—*Ll. G. Gyffredin* (Adf. 3).

Yr ail ddyfodiad, the second coming or advent.

Ar dy *ail ddyfodiad* i farnu'r byd.
Ll. G. Gyffredin (Adf. 3).

Wele wyl y *Dyfodiad*—y *dyfodiad* yn y gorphenol, a'r *dyfodiad* yn y dyfodol.—*Cyfaill Eglwysig*, 1895, 348.

Dyfodiad i mewn, a coming in; entrance.—2 *Sam.* iii. 25.

Dyfodiad, iaid, *sm.* a comer, a comeling; a sojourner; a stranger; an arrival.

Nid ydych chwi mwyach yn ddieithriaid a *dyfodiaid*.
Eph. ii. 19.

Y gyfraith . . . ni ddichyn fyth deilyngu [°lanhau] y *dyfodiaid* drwy yr unrhyw aberthau hyny.
Esgob Davies: Heb. x. 1.

Mwy cyflawn ydyw fod i'r gwir etifeddion ddala y cantrefi hyny dan yr arglwydd frenin, am arian, a'r arferol wasanaethau, na'u rhoddi hwy i ddieithriaid a *dyfodiaid*.
Carnhuanawc: Hanes Cymru, 718.

Dyfodiadol, } *a.* coming; approaching; fu-
Dyfodiannol, } ture.

Dyfodiant, *sm.* futurity, the future.

Eiddot ti yw y pryd hyn, y nesaf yw yng ngroth *dyfodiant*, ac nis gwyddost ti ar ba beth yr egora.
W. O. Pughe: E.D. i. 3.

Digitized by Google

Rhodiwn fwrdd y llong mal y elai i fyny yr afon â chamrau mwy bywiog a mwy ysgafn, a lluniais allan *ddyfodiant* hyfryd heb un cwmwl.—*Cylchgrawn*, i. 19.

Yng nghanol *dyfodiant* dechreuai'r bardd ganu.
Gwyliedydd, v. 378.

Aderyn hirben iawn yw y ceiliog, ac y mae y *dyfodiant*, i raddau pell, wedi ei ddadguddio iddo.—*Ystên Sioned*, 73.

Dyfodog, *a.* coming; future.

Dyfodogion (1), comers; sojourners.

(2) those of future time; persons to come.

Gwybydded pawb, presennolion a *dyfodogion*.
Gwyliedydd, v. 376.

Dyfodol, *a.* coming; future.

Yr Awen a'm cluda i gyfnod *dyfodol*.
Eben Fardd: Gweith. 396.

Mae dynion weithiau, dan deimladau difrifol, yn rhagddywedyd pethau *dyfodol* trwy fath o ragsyniad. . . Mae pethau *dyfodol* yn taflu eu cysgod ym mlaen ar yr enaid, a'r cysgod yn argraffu darlun o'r ffaith *ddyfodol*.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 17 (cf. 69).

Nid oes dim yn fy nghysuro am y golled a gefais ond taflu golwg *ddyfodol* at y bore y caf wisgo ieuenctid tragwyddol.—*Cawrdaf:* Meudwy Cymreig, 55.

Hyn a sicrhâ i ni ddiddanwch presennawl a *dyfodawl*.
Gwyliedydd, vii. 77.

Hyd pan y delo yr arbenig awr,
Ac imi hedeg i *ddyfodawl* fyd.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 177.

Y mae berf yn ddisgynedig i dri amser godidog; sef, presennol, gorphenol, a *dyfodol*.
Robert Davies: Ieithadur Cymraeg (1826), 47.

Amser dyfodol, time to come, future time.

(*b*) future tense (in grammar).

Amser ail ddyfodol sydd yn dangos y gorphenir gweithred o flaen *amser dyfodol* gweithred neu ddamwain arall.
Robert Davies: Ieithadur (1826), 47.

Amser dyfodol sydd yn gosod gweithred allan megys eto i ddyfod. . . Y mae dau ansawdd i *amser dyfodol*.
Isaac Jones: Gram. Cym. 63.

Amser ail ddyfodol, second future tense.

Amser ail ddyfodol a ddengys beth dyfodol yn orphenedig cyn dygwydd o ryw beth pennodol arall.
D. E. Jones: Ieithadur Seisoneg, 35.

Y dyfodol, the future; futurity.

Y sefyllfa ddyfodol, *Y cyflwr dyfodol*, } the future state.

Dyfodydd, -ion, *sm.* a comer; a sojourner.

Gwneir gweddïau arbenig am iechydwriaeth y *dyfodyddion* newydd.—*Gwyliedydd*, iii. 74.

Dyfoliad, -au, *sm.* a guzzling, much drinking.

Dyfolio, **Dyfoli** (*ŏ*), } *v.* [bol] to guzzle; to tipple; to drink much or immoderately (of any liquid).

Dyfoliwr, wyr, *sm.* a guzzler, a tippler.

Dyfosiwn, iynau, *sm.* [L. *devotio*] devotion. Also written *defosiwn* (Act. xvii. 23); and sometimes *dyfoesiwn:* Welsh, *dyhewyd*.

Rhai yn hepian; ereill yn ddyfal ar eu *dyfosiwn*.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 39 (cf. 23).

Felly y dychryna efe yr ocrwr rhag darllain un llyfr a fo'n dysgu iddo dalu'r llog ar ocr yn ei ol . . . y bydol rhag darllain llyfrau ysprydol a grybwyllont am dduwioldeb a *dyfosiwn* da.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. i. 2.

Hyn a gymmoda'n galwedigaeth fydol â'n *dyfosiwn* ysprydol.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 28 (cf. 12, 36, 51, 189, 200).

Dyfosiynol, *a.* devotional, devout.—*Act.* x. 2.

Iawn ddealltwriaeth a'i gwnaiff e'n dlyfn ac yn llyfn, yn ddefnyddiol, ac yn *ddyfosionol*.
Elis Wynn: Rh.B.S. 190.

Dyfr, *s.* [dwfr] a pl. of *Dwfr*, q.v.

Dyfr o bryd em byd o'm barn.
D. ab Gwilym, ccxxi. 29 (cf. xli. 6; li. 29).

Yg kymer deu *dyfyr* dyffrynt iolyt.
H. ab O. Gwynedd: M.A. i. 277.

Some writers appear to use the word as a singular: cf. s.v. *Dyfrast*.

Dyfr a ladda eithin a grug, ac a faga bawr llesol yn eu lle. . . Y lles oddi wrth *ddyfr*, i gynnorthwyo twf, a ellir ei farnu wrth ystyried, mai *dyfr* yw dair rhan o bedair o bwysi gwellt.—*Aneurin Owen:* Amaethyddiaeth, 27.

Arferir dyfru meusydd wrth y môr, mewn manau, â *dyfr* hallt.—*Aneurin Owen:* Amaethyddiaeth, 31.

Dyfrad, *sm.* [dyfru]=*Dyfrhâd*.

Dyfradwy, **Dyfrhadwy**, } *a.* 1. that may be watered or irrigated.

2. watered; supplied with water; well watered; irriguous; apt to imbibe water.

Lot . . . a welodd holl wastadedd yr Iorddonen, mai *dyfradwy* ydoedd oll.—*Gen.* xiii. 10.

O lawer gwlad *ddyfradwy*,
O fröydd y palmwydd ffaeth.
Iewan Glan Geirionydd: Geir. 227.

Buddiol yw ystyried y rhagoriaeth a wneir ar wyneb y gwledydd hyn rhwng lleoedd *dyfradwy* a lleoedd cras sychedig heb ddwfr. Canys dyffryn *dyfradwy* yr Iorddonen tu uchaf i'r Môr Marw sydd ffrwythlawn odiaeth.
Gwyliedydd, iii. 138 (cf. 14, 139, 304).

Coed dyfradwy, trees that imbibe or absorb water.

Dyfraidd, *a.* resembling water, like water; waterish, water-like.

Dyfrain, *a.* [dwfr] abounding with water; watery; wet.

Yn Rabba ac ei *dyfrain* fro o gylch,
Yn Argob ac yn Basan, hyd at ffrwd
Eithefig Arnon.—*W. O. Pughe:* C.G. i. 418 (cf. iv. 529).

Dyfrarmes, *sm.* [dwfr+armes] hydromancy. —*Dicts.*

Dyfrast, eist, *sf.* [dwfr+gast] the female otter, the otter-bitch.

Ai chanfod hithau a wnaeth yntau, ac ymrithio yn rhith ysgyfarnog a rhedeg. Sef y rhithiodd hithau yn flast ai ystumio ai ymchoelyd tuag afon. Ac ymrithio yn hysgodyn, a hithau yn rhith *dyfrast*, ac ymgeisio ag ef dan y dyfr.—*Hanes Taliesin:* M.A. i. 17.

I geisiaw *dyfrast* yn ei dwyfron.
Ustus Llwyd: M.A. i. 559.

Dyfrbibell, -au, -i, *sf.* a water-pipe.

Y dwfr, yr hwn a darddai o droed craig grogedig, ydoedd bur ac adfywiol; ond y *dyfrbibelli* a'i cludent i'r meusydd, oeddynt wedi cael eu dinystrio.—*Brutus:* Ninefeh, 156.

Dyfrbistyll, -oedd, -au, *sm.* a water-spout.

Eigiawn a ymoralw am eigiawn gan lais dy *ddyfrbistylliau*.—*Ll. G. Gyffredin* 1567 (Salm. xlii. 7).

Y *dyfrbistyll*, medd anianyddion, sydd yn sugno dyfroedd y môr i'r cymylau, yr hwn, gwedi bod yspaid amser ynddynt, sydd yn colli ei helltni, ac yna yn defnynu yn wlaw ar wyneb y ddaiar.—*R. Roberts:* Seryddiaeth, 64.

Dyfrbwys, *sm.* [dwfr+pwys] hydrostatics.—*W.*

Dyfrbwys, *a.* hydrostatic, hydrostatical.—*P.*

Dyfrbwysiant, *sm.* **Dyfrbwysyddiaeth**, *sf.* } dwfr+pwys] hydrostatics.

Gan nad yw yr enw yn arferedig, ychwanegaf mai yr un peth yr wyf yn feddwl wrtho [awsafiaeth] ag a elwir gan y Saeson Hydrostatics, ac a gyfleithir gan Eiryddion Cymreig, *Dyfrbwysiant*, neu *Dyfrbwysyddiaeth*.
Gwyliedydd, ix. 144.

Dyfrbwysydd, -ion, *sm.* a person skilled in hydrostatics.—*P.*

Dyfrdir, -oedd, *sm.* watery or waterish land, wet land.

Pan ddêl edn, poen ddeiliadaeth,
I Fon gyfagos dros draeth,
Yr adnebydd, dra-rydd dro,
Dirionwch *dyfrdir* yno.—*D. ab Gwilym*, clxxxvi. 7.

Glyn Dyfrdwy *dyfrdir*.—*Iolo Goch*.

Digitized by Google

Dyfrdrig, *a.* dwelling in or on water; growing in water; aquatic.

Llysiau dyfrdrig, aquatic plants.

Dyfrddarluniad, -au, *sm.* a description of water, hydrography.—*P.*

Dyfrddewiniaeth, *sf.* divination by water, hydromancy.—*W.*

Dyfrddor, -au, *sm.* a flood-gate, a sluice.

Tybir hefyd fod ar y clawdd dywededig *ddyfrddorau* . . . a bod dyn wrth ei swydd i gadw y *dyfrddorau* hyn, ac mai ei ddiofalwch ef a fu yr achos o orlifiad y lle, trwy iddo feddwi, ac o herwydd hyny anghofio edrych ar ol y *dyfrddorau.*—*Gwyliedydd,* x. 279.

Dyfredig, *pt.a.* watered, irrigated; irriguous.

Y rhai mwyaf amlwg o honynt, i dderbyn effeithiau awelon a thes yr haul, a gedwir yn weirdir *dyfredig.*
Aneurin Owen: Amaethyddiaeth, 14.

Ni wedais i ddim ogylch gweirgloddiau *dyfredig.*
W. O. Pughe: C.P. 34.

Dyfredd, *s.pl.* [dwfr]=*Dyfroedd,* the plural in current use. See *Dwfr.*

Nac or coet nac or *dyfred.*—*St. Greal,* 149.

Ar *dyfred* a edewit yn diffrwyth.—*Mab.* 94.

Molwch ef *ddyfredd* i ar y nefoedd.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 565 (cf. 563).

Ac *dyfred* iachwyawl a uagant ageu Llundein.
Ystt. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 149.

Dyfrefu, *v.* [brefu] to low or bleat (continually); to be bleating or lowing.—*P.*

Dyfrelen, -od, *sf.* [dwfr+elen] a water-nymph.

Dyfrfa, faoedd, fëydd, *sf.* a watering place.

Dav droetlwybr a dyly pob kyffaneth vn oe eclwys ac vn oe *dyffrva.*—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 270.

Dyfrfarch, feirch, *sm.* [dwfr+march] the river-horse or hippopotamus.

Tybiasom yma na byddai yn annifyr gan ambell ddarllenydd wybod y rhesymau a barodd i ddysgedigion farnu mai yr un yw y *dyfrfarch* â Behemoth Iob.
Gwyliedydd, iii. 170 (cf. 168, 169).

O herwydd diffyg arfau priodol, ni all y brodorion ladd *dwfr-farch* o'r maintioli hwn.—*Cylchgrawn,* i. 364 (cf. 363).

Dyfrfesur, -au, } *sm.* a hydrometer; a
Dyfrfesurydd, -ion, } water-guage.—*W.*

Nyni a sylwasom wrth ein *dyfrfesurau,* fod y nos yn ferach yn yr ynys nag ar y cyfandir gogyfer.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 325.

Dyfrfesuriaeth, *sf.* hydrometry.—*Dicts.*

Dyfrfochyn, *pl.* dyfrfoch, *sm.* the water-hog.

Dyfrforon, *s.pl.* water parsnip (*Sium*).—*Hugh Davies:* Llysieuaeth Gymreig, 184.

Dyfrfwsogl, *sm.* water-moss (*Fontinalis*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 107, 185.

Dyfrfwsogl triochrog, great water-moss (*Fontinalis antipyretica*).

Dyfrfydraeth, *sf.* the measuring of water, hydrometry.—*P.*

Dyfrfydrai, eion, *sm.* a hydrometer.—*P.*

Dyfrfynag, egion, *sm.* a hydroscope.

Dyfrffos, -ydd, *sf.* a drain or channel for water; an aqueduct, a watercourse.

A ni yn myned filltir o hyd ystlys y *dyfrffos,* ni ddaethom at Ffynnonau Solomon.—*W. Lewes:* Dwy Daith, 42 (cf. 43).

Rhoddai rhai'n ef yn y *ddyfrffos.*
Gwyliedydd, iii. 12 (cf. vii. 284).

Nid oedd y *dyfrffosydd* a ddinystriasid . . . wedi eu hadgyweirio.—*Brutus:* Ninefeh, 153.

Ni a ganlynasom rediad y *ddyfrffos* cyn belled a Bethlehem.—*Gwyddoniadur Cymreig,* iv. 30.

Rhai a haerant fod yr afon wedi ei rhanu mewn *dyfrffosydd,* a'i hyspyddu yn hollol, trwy ddyfrhau y lle.
Gwyliedydd, vii. 284.

Yng ngwaelod y dyffryn yr oedd arwyddion *dyfrffos.*
Cylchgrawn, i. 219.

Dyfrgaseg, gesyg, *sf.* the female hippopotamus or river-horse.

Dygwyddodd i luaws o helwyr a berthynent i Dalaith Penrhyn y Gobaith Da, ganfod *dyfrgaseg* yn esgyn yn araf deg o lenydd afon.—*Gwyliedydd,* iii. 169.

Dyfrgell, -oedd, -au, *sf.* a water-closet.

Dyfrgerwyn, -i, -au, *sf.* a cistern, a tank.—*W.*

Dyfrgi, *pl.* dyfrgwn, *sm.* [dwfr+ci: C. *doferghi* (C.V.), *devergi;* Ir. and Ga. *dobhar-chu*] an otter. Also called *dwrgi* and *dyrgi.*

Tri hely ryd yssyd ym pob gwlat, canyt oes tref tat udunt: *dyuyrgi* a chadno a iwrch.
C.C. i. 784 (cf. 284, 288, 456, 784, 790; ii. 576, 774, 827, 877).

Nid esgud ond *dyfrgi.*
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 21 (cf. 173).

Hela *dyfrgwn* . . . a gyfrifid yn gangen o bysgota. . . Yr oedd un o'r pysgotwyr yn wastad yn cario tryfer ganddo, â'r hon, os byddai efe fedrus, y brathai y *dyfrgi* yn y dwfr. . . Ystyrient y *dyfrgi* yn dra anhawdd i'w dryferu.
Hynafion Cymreig, 115 (cf. 116).

Y creaduriaid ereill perthynol i'r lle, ydynt y llwynog, y wiwair, yr ysgyfarnog, a'r *dyfrgi.*
R. Roberts: Dacaryddiaeth, 9.

Cylch dyfrgwn, the otter circuit or progress.—*Mona Antiqua* (1766), 128, 129.

¶ The word *ci,* with a qualifying word prefixed, in this and a few other instances, is used of animals that do not belong to the *Canidae.* See *Ci.*

Dyfrgist, -iau, *sf.* 1. a cistern, a tank; a small reservoir of water.

Nid oes, gan hyny, yr un ardd yn y gwledydd hyny heb fod ganddynt ryw faint o ddwfr i'w diwallu, naill ai o afon gyfagos, neu o *ddyfrgist* a grynowyd i'r diben hyny o ffynnonau. . . Yr un ganol, a'r fwyaf o honynt . . . a ddosparthir i holl *ddyfrgistiau* a ffynnonau y ddinas.
Gwyliedydd, vii. 284.

2. the place where a water-wheel turns: also called *pwll y rhod.*

Dyfrglawdd, gloddiau, *sm.* 1. a water-trench, a dyke.

2. an embankment; a raised structure to prevent the encroachment of water.

Llanwant hefyd y cyfryngau . . . fel gallo dyn gerdded yn eithaf diogel dros un o'u *dyfrgloddiau* a fo yn gant troedfedd o hyd.—*Gwyliedydd,* iii. 10 (cf. 11, 71).

Dyfrglwyd, -i, -au, *sf.* [dwfr+clwyd] a raft.

Gellai fod yn ddyddorol i'r darllenydd wybod pa fodd y gwneir y *dyfrglwydi* hyn, ag sydd yn debygol eu bod wedi cael eu defnyddio fel unig gludau masnach, ym mharthau uchaf Mesopotamia am lawer o oesau.
Brutus: Ninefeh, 291 (cf. 290, 293).

Dyfrglwydwr, wyr, *sm.* a raftsman.

Y mae y dyfrglwydi a gludant nwyddau masnachol, yn gorfod aros lawer gwaith wrth ddisgyn ar hyd yr afon, er mwyn i'r *dyfrglwydwyr* eu hail lenwi.
Brutus: Ninefeh, 291 (cf. 292, 293).

Dyfrglwyf, -au, *sm.* [dwfr+clwyf] dropsy.

Yr oedd ger ei fron ef ryw ddyn yn glaf o'r dropsi [**dyfrglwyf*].—*Luc* xiv. 2.

Y rhai . . . a dynant y cryd poeth neu'r *dyfrglwyf* i'w gwythenau.—*Th. Williams:* Ymadr. Buch. 198 (cf. 116, 120).

Dywedodd un ysgrifenydd . . . ei fod yn credu iddo weled y gymmalwst a'r *dyfrglwyf* ar y ford, ym mysg y dysglau a'r costrelau llawnion.—*Gwyliedydd,* v. 138.

Cyfrifir ef hefyd yn llesol i'r cylla, rhag peswch, crygni, diffyg anadl, a'r *dyfrglwyf.*—*H. Davies:* Llysieuaeth Gymreig, 198 (cf. 156, 174, 201, 205, 207, 219, 227, 232, 242).

Dyfrglwyfol, *a.* dropsical; dropsied.—*P.*

Digitized by Google

Dyfrglwyfus, *a.* dropsical; dropsied.—*W.*

Dyfrgoel, *sm.* [dwfr+coel] hydromancy.

Dyfrgoelus, } *a.* relating to hydromancy, hy-
Dyfrgoelig, } dromantic.

Dyfrgrych, *a.* [dwfr+crych] having rippling or rippled water; rippling, rippled.

A dyhysppddaist yn dra sych
Afonydd *dyfrgrych* cedyrn.—*Edm. Prys:* Salm. lxxiv. 15.

Dyfrgwymp, -au, *sm.* a water-fall.

Pwll y Cwn . . . *dyfrgwymp* hynod yn swydd Fynwy.
Seren Gomer, xii. 23.

Dyfrgylch, -au, -oedd, *sm.* a water-circle; a circle or compass formed by water.

Gwiw seiliwyd gwregys heli
Yn *ddyfrgylch* o'i hamgylch hi.
Robert Davies: Diliau Barddas, 74.

A morwyr yn gyrff meirwon
Ar fin-gylch *dyfrgylch* y don.—*Gutyn Padarn:* Gwaith, 43.

Dyfrgymmlawdd, *sm.* a confluence of water; an inundation, a flood.

Dyfrhâd, *sm.* [dyfrhau] a watering, irrigation.

Yr oedd Assyria Briodol, fel hen Babilonia, yn ddyledus am ei ffrwythlondeb yn ogymmaint i *ddyfrhâd* celfyddydol ag i'r gwlaw a syrthiai yn y gauaf.—*Brutus:* Ninefeh, 274.

Swm a sylwedd y cyfan o'r ymchwiliadau yw . . . nad all *dyfrhâd* cyfamserol byth ddrygu un maith o ddaiar.
Sam. Roberts: Gweith. 32.

Dyfrhau, *v.* to water; to irrigate; to give water to; to turn to water; to steep in water.

Ac afon a aeth allan o Eden i *ddyfrhau* yr ardd.
Gen. ii. 10 (cf. 6).

Ei fendith ef a orchuddiodd fel afon, ac a *ddyfrhaodd* y ddaiar fel llif.—*Eccl.* xxxix. 22.

Y mae efe yn *dyfrhau* y bryniau o'i ystafelloedd.
Salm. civ. 13 (cf. lxv. 9, 10; lxxii. 6).

Eu prif sefydliadau oedd ar y gwastadedd marianog a *ddyfrhëir* gan y Tigris a'r Euphrates.
Brutus: Ninefeh, 328 (cf. 274).

Mi a *ddyfrhaf* dy gamelod hefyd. . . A hi a *ddyfrhaodd* y camelod hefyd.—*Gen.* xxiv. 46 (cf. xxix. 7; Ecs. ii. 16).

Dyfrhau anifeiliaid, to water cattle.

Dyfrhelygen, *pl.* dyfrhelyg, *sf.* water willow, common willow (*Salix aquatica*).—*H. Davies:* Welsh Botanology, 92.

Dyfrhëwr, *sm.* 1. the Water-bearer, Aquarius.

A phan fo blaen y lleuad, plan ac impia goed, a'r lleuad yn y Tarw, neu ynte yn y *Dyfrhëwr;* ac yn niwedd y cynhauaf, neu amser hydref, a lle nis gellir yr amseroedd hyny, cymmeryd dechreu'r gwanwyn, a'r lleuad yn y Tarw, neu'r Llew, neu'r *Dyfrhëwr.*—*Rhisiart Sion Huw.*

2. one who waters or irrigates; a waterer.

Dyfrhynt, -oedd, -iau, *sm.* [dwfr+hynt] a water-course; a valley through which a river flows; a valley, a vale.

Dyfriad, -au, *sm.* [dyfrio] irrigation, a watering.

Dywellâd tir drwy *ddyfriad* sydd o bwys cyntaf.
W. O. Pughe: C.P. 27 (cf. 16, 35).

Dyfriar, ieir, *sf.* [dwfr+iar: Br. *douriar;* pl. *dourieir*] a water-hen, a coot: also called *iâr ddwr or iâr ddwfr.*

Cael cymmar *dyfriar* dwyfron anghymman
Gwan ei ffurf allan ni phawr feillion.
Maelog Dwygraig: M.A. i. 486.

Dyfrig, -od, *sc.* [dwfr: cf. L. *hydra, hydros,* from Gr. ὕδρα, ὕδρος, ὕδωρ] a hydra, a water-serpent. See *Cyrnig, sf.*

Dyfrig, *a.* [dwfr] aquatic; aqueous; watery.

Pennhaf y treitem trwy ryuyc gwron
Ffroen wynnyon friw *dyfryc*
Lle beirt heirt oe hart wenyc
Llys Kelynyn Kelynnyc.—*Cynddelw:* M.A. i. 229.

Dyfrig, *a.* [dy-+brig] topping; rising; elevated.

Ffriw eurdo ffrwyngno ffroen *dyfrig*
Ffrawd wallaw anaw anewig.—*Cynddelw:* M.A. i. 208.

Dyfrigdrawd, *sm.* a skimming along the top.—*P.*

Dyfrigdrawd, *v.* to skim on the top.—*P.*

Pell nad hunawg gwen gogwn pa hyr
Pan *dyfrigtrawd* blawd blaen afallgyr.
Gwalchmai: M.A. i. 194.

Dyfrio, *v.* [dwfr] to water, to irrigate; to wet. See *Dyfrhau* and *Dyfru.*—*N. W.*

Mae cyfleusdra da i *ddyfrio* llethri o'r aberoedd aml a ffrydiant o'r mynyddoedd.
Aneurin Owen: Amaethyddiaeth, 27 (cf. 14).

Mae dau ddyn ym mlaen y cwch yn dra thrwyadl tra y byddo y morfil yn y gwaelod, un yn *dyfrio* y rhaff rhag i'w rhygniad yn y coed beri iddynt danio, ac y llall â bwyall yn barod i'w thori os dygwyddai ddyrysu.
R. Roberts: Daearyddiaeth, 372.

Dyfrior, -au, *sm.* [dwfr+ior] a water-god; a river-god.—*Dicts.*

Dyfrithiad, -au, *sm.* [dy-+brith] a variegating, variegation; a strewing over.

Dyfritho, *v.* [dy-+britho] to variegate, to diversify; to mark with different colours.

Beirdd yr oes oleu hon a farnant yn dyner y twyll odlau a'r twyll cynghanedd, a beiau cerdd dafawd ereill a *ddyfrithant* yr englynion.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, i. 460.

Dyfrithog, *a.* variegated, diversified.

Ymdywyna'n *ddyfrithog* gan feusydd eangfawr.
I. G. Aled: Palestina, 17.

Dyfrithol, *a.* variegating, diversifying; spotted.

Dyfriw, *a.* [briw] broken, crumbled.

Dyfriwiad, } -au, *sm.* a breaking, a crumbling;
Dyfriwad, } a rippling.

Dyfriwo, *v.* [briwo] to break, to crumble; to cause to ripple.

Kymrawd ewyn dwfyr ae *dyuriw* gwynt
Kymraec laesdec o lys dyfrynt
Kyfleuer gwawr dyt pan dwyre hynt
Kyfliw eiry gorwynn gorwyt epynt.
Cynddelw: M.A. i. 216.

Dyfrlan, -au, lenydd, *sf.* [dwfr+glan] a water-side, a water-brink.

Dyfrle, } -oedd, *sm.* a channel or bed of water;
Dyfrlle, } the bed of a river or stream.

Cyfarwyd dwfyr yn y *dyfyrlle.*
Gwalchmai: M.A. i. 203 (cf. iii. 152).

Y mae dyffryn, yr hwn oedd *ddyfrlle* yr Iorddonen, yn cyrhaedd o Esiou-Gaber at y Môr Marw.
Gwyliedydd, iii. 138.

Pwy a ranodd *ddyfrlle* i'r llifddyfroedd? a ffordd i fellt y taranau?—*Iob* xxxviii. 25.

Y mae dau *ddyfrlle* bychain yn ochr y cawg anferthol hwn.—*Cylchgrawn,* i. 122.

Ac fel na ddyhidlont, y *dyfrleoedd* a rwym efe.
Dr. Th. Briscoe: Iob, xxviii. 11.

Dyfrlle afon, the bed or channel of a river.

Dyfrlestr, } -i, *sm.* a water-vessel, a waterpot.
Dyfrllestr, }

Yr oedd yno chwech o *ddyfrlestri* meini wedi eu gosod. . . Llenwch y *dyfrlestri* o ddwfr.—*Ioan* ii. 6, 7 (cf. iv. 28).

Canfyddasai ymdeithydd arall . . . lawer o *ddyfrlestri,* cyffelyb i'r rhai a ddarlunir yn y Testament yn hanes y briodas.—*Gwyliedydd,* iii. 106.

Chwi uchel gymylau, *dyfrlestri* yr awyr.
Eben Fardd: Gweith. 352.

Dyfrlif, -au, *sm.*=*Dyfrllif.*

Dyfrlyn, -au, -oedd, *sm.* [dwfr+llyn]=*Dyfrllyn.*

Digitized by Google

Dyfrlyriad, *sm.* [dwfr+llyriad] water plantain (*Alisma*).

Dyfrlyriad mwyaf, greater water plantain (*Alisma plantago*).

Dyfrlyriad bychan, small water plantain (*Alisma ranunculoides*).

Dyfrlyriad ymlusgol, creeping water plantain (*Alisma repens*).

Dyfrlyriad nofiadwy, floating water plantain (*Alisma natans*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 36.

Dyfrlysiau, *s.pl.* aquatic plants.

Ei brif ymborth yw glaswellt a *dyfrlysiau.*
Anianyddiaeth Ysgrythyrol, 47.

Dyfrlle, -oedd, *sm.*=*Dyfrle.*

Dyfrllif, } -au, *sm.* a water-flood, an inunda-
Dyfrlif, } tion.

Am roddi im' arwyddion
Goruwch rhif *dyfrllif* y don.—*Daniel Ddu,* 77.

Dyfrlliw, -iau, *sm.* water-colour.

Dyfrllyd, *a.* [dwfr] aqueous; watery, waterish; washy; moist, wet; plashy; insipid.

Tydi varchawc *dyfyrllyt* ffals gwamal. paham y beidyeist di kymryt am dy vynwgyl y daryan honn?—*St. Greal,* 18.

Mae bedydd adfyd (hwnw yw erledigaeth); mae hefyd fedydd *dyfrllyd,* hwnw yw bedydd y bedyddiwr gynt.
Morgan Llwyd: Tri Aderyn, 40 (cf. 51).

Cymmer wellt ceirch, a lloeg, a dod y lludw hwnw ar y lle *dyfrllyd.*—*Meddygon Myddfai,* ii. 396 (cf. 88, 797).

Lladdodd ofn y *dyfrllyd* fedd.—*Blackwell:* C.A. 191.

Mae i'r enfys liw *dyfrllyd,* i ddangos i ni yr hyn a aeth heibio.—*Nicander:* Dysga Farw, 216.

Dyfrllydrwydd, *sm.* wateriness, waterishness; washiness; insipidity.

Tri pheth a bair casäu cerddwr: cybyddiaeth; a *dyfrllydrwydd;* a goganu dynion da.—*Edeyrn:* Dosparth, 41.

Dyfrllyn, } -au, -oedd, *sm.* 1. a pool of water;
Dyfrlyn, } a collection of water; a pool.

Moliant am bob peth melyn, am yr haul,
A merhelyg *dyfrllyn.*—*Gronwy Owain,* 65.

2. a water-like fluid, lymph.

Pibau y *dyfrlyn* ynt rai gloewon, i gario y *dyfrlyn* i bob rhan o'r corff, ac yn enwedig i'r chwarenau.
Gwyliedydd, xii. 99.

Lymphatics . . . pibau y *dyfrlyn.*—*W.*

Dyfrllys, *sm.* & *s.cl.* pondweed (*Potamogeton*): also called *dyrwellt, gwellt y dwr,* and *llynwellt.*—*Hugh Davies:* Welsh Botanology, 17, 18.

Dyfrllys llydanddail, broad-leaved pondweed (*P. natans*): also called *tafod y ci.*

Dyfrllys amryddail, various-leaved pondweed (*P. heterophyllum*).

Dyfrllys amryliw, long-leaved floating pondweed (*P. fluitans*).

Dyfrllys trydwll, perfoliate pondweed (*P. perfoliatum*).

Dyfrllys tewdws, close-leaved pondweed (*P. densum*).

Dyfrllys disglaer, shining pondweed (*P. lucens*).

Dyfrllys crych, curled pondweed (*P. crispum*).

Dyfrllys danneddog, serrated pondweed (*P. serratum*).

Dyfrllys culddail, lanceolate pondweed (*P. lanceolatum*).

Dyfrllys eiddil, small pondweed (*P. pusillum*).

Dyfrllys gwrych-ddail, fennel-leaved pondweed (*P. pectinatum*).

Dyfrllys arfor, sea pondweed (*P. marinum*).

Laver, perllys y nant, *dyfrllys.*—*Meddygon Myddfai,* 287.

Dyfrnaws, *a.* waterish, watery.—*W.*

Dyfrneidr, nadroedd, neidredd, *sf.* a water-snake, a water-serpent, a hydra.

Yr ydym yn darllen yn yr athrawon digred o'r hen amser beth mwy dieithr na gwir, yng nghylch rhyw *ddyfneidr* fenyw a elwir Hydra, yr hon oedd . . . yn dripheniawg, a chyn gynted ag y torid un ymaith, fe fyddai dau genddi gwedi saethu allan yn ei le ef; ond os ydyw y *ddyfneidr* fenyw dripheniawg yma yn unlle i'w chael, yn uffern y mae hi.—*Elis Lewis:* Drexelius, 252.

Hydra, rhyw *ddyfneidr* amlbeniog, yr hon, ar ol hir ymdrech, a laddwyd gan Ercwlf, fel y dywawd yr hen feirdd cenedlig.—*Walters,* s.v. 'Hydra.'

Hydra, *dyfneidr* fenyw.—*Dr. Davies,* s.v.

Dyfrofyddiaeth, *sf.* [dwfr+ofyddiaeth] hydrology.—*Dicts.*

Dyfrog, } *a.* watered; consisting of water; full
Dyfriog, } of water; watery, waterish.

Cyn y llidiawg *ddyfrawg* ddydd.—*Dafydd Ionawr,* 175.

Ni ddichon i ddolydd breision *dyfriawg,* a drinir gyd ag eithaf gofal yr amaethydd, ddwyn blasus-fwyd rhagorach i anifelliaid, nag a geir yno yn yr anialdir.
Gwyliedydd, iii. 13.

Neu hafaidd fryncyn, neu flodeuog ddôl
Ar ddyffryn *dyfriog* daen ei thrysor glwys.
I. D. Ffraid: Coll Gwynfa, iv. 309.

Pwy ganai Gymru ar wladgarol gainc,
Heb gyfarch Mona ar ei *dyfrog* fainc?
Islwyn: Caniadau, 90.

Dyfrogan, *sm.* [dwfr+gogan] hydromancy.—*Dicts.*

Dyfroganus, *a.* hydromantic.

Dyfroglys, -iau, *s.cl.* aquatic plants.

Dyfrogrwydd, *sm.* wateriness, waterishness.

Dyfrol, *a.* [dwfr] relating to water; water-; aqueous; aquatic; watery.

Tair prif rywogaeth bywydolion: *dyfrolion;* awyrolion; a nefolion: sef *dyfrolion* y cyntefiniaid bywyd, a hwy a gawsant eu hunain gyntaf.—*Barddas,* i. 348.

A'i lygaid yn chwerthin ar bob amrywiadau,
Daiarol a *dyfrol,* ei faith ystafellau.
Eben Fardd: Gweith. 332.

Rhyw decach byd ym mynwes coedydd ir,
Mewn *dyfrawl* barth rhyw deg ynysawl dir.
Robert Owen: Gweith. 268.

Dyfroliw, *a.* & *sm.* [dwfr+goliw] aquatint.

Dyfrosged, *f.* } -au, *s.* [dwfr+osged, osgyd]
Dyfrosgyd, *m.* } a watershed, a basin.

Dyfrsarff, seirff, *sf.* a water-serpent; a hydra or hydrus.—*D.*

Amwibon, cyrnsarff, *dyfrsarff,* mudsarff erch.
I. D. Ffraid: Coll Gwynfa, x. 595.

Dyfru, *v.* [dwfr] to water, to irrigate; to give water to. See *Dyfrhau,* the older and more usual form.

Mae yn ddiau yn y wlad yma gyfleusdra mawr o wellâu drwy *ddyfru.*—*W. O. Pughe:* C.P. 27 (cf. 16, 30, 35).

Arferir *dyfru* meusydd wrth y môr, mewn manau, â dyfr hallt.—*Aneurin Owen:* Amaethyddiaeth, 31 (cf. 27).

Ond tarddai odd y ddaiar wlithawg niwl
Er *dyfru* yr holl dir, a phob imp maes.
W. O. Pughe: C.G. vii. 385 (cf. iv. 260).

Cafnau dyfru, watering troughs.—*W.*

Dyfrwlydd (*sg.* dyfrwlyddyn), *s.cl.* & *pl.* [dwfr +gwlydd] water chickweed, blinking chickweed, blinks (*Montia fontana*).—*H. Davies:* Welsh Botanology, 14, 185.

Digitized by Google

Dyfrwr, wyr, *sm.* 1. a waterer; one who waters or irrigates; a water-carrier; a water-man.

2. a water-drinker, one who drinks only water.—*Liber Landavensis*, 121; *Cambro-British SS.* 103.

Dewi *dyfrwr*, ora pro nobis.—*C.C.* ii. 318.

Dewi *ddyfrwr* yw'n diwyd,
Dafydd bensaint bedydd byd.
I. ab Rh. ab I. Llwyd: Iolo Mss. 301 (cf. 300).

3. the Water-bearer, Aquarius=one of the zodiacal constellations. See *Dyfrhëwr.*

Aquarius, y *Dyfrwr*, un o'r deuddeg arwydd, yn cynnwys 93 o ser.—*R. Roberts:* Seryddiaeth, 67.

Arwydd y Dyfrwr, the sign of Aquarius.—*Amseroniau Cymreig.*

Aquarius, y *Dyfrwr*, arwydd y *Dyfrwr.*—*Walters*, s.v.

4. a water-man, a boat-man, a ferry-man.—*W.*

Dyfrwraint, *sm.* [dwfr+gwraint] the tetter or ringworm.

Dyfrwreinyn, *sm.* tetter, ringworm.

Trwyth yr ail risgl, i'w yfed yn helaeth, a wybuwyd yn dra llesol rhag y dyfrglwyf, tarddiadau yn y croen . . . *dyfrwreinyn*, a'r cyffelyb.
Hugh Davies: Llysieuaeth Gymreig, 207.

Dyfrwst, *sm.* [dwfr+gwst] dropsy. See *Dyfrglwyf* and *Dyrglwyf.*

Dyfrwys, *s.pl.* [dwfr] waters.

Cymmaint oedd ei gweled a chyfeb rhewys
A fai yn llenwi fal llong ar *ddyfrwys.*
Taliesin: M.A. i. 19.

Er cof dof *dyfrwys* bun loywlun liw lwys.
G. ab D. Tudur: M.A. i. 478.

Dyfry, *adv.* [dy-+bry (fry)] above; upwards; aloft; behold above.

Dyfry gwmwl.—*R.*

Dyfryd, *sm.* [dy-+bryd] 'the setting of the mind upon;' deep thinking; pensiveness; grief; longing; sadness.

Dyfryd in' feirdd byd bod daiar arnaw.
Llyw. ab Llywelyn. (*D.*)

Ar *ddyfryd* cadernyd cur.—*Dafydd ab Gwilym.*

Dyfryd, *a.* 1. full of thought or resolution; intent; determined.

Deu le y dyly dyn golli y dir dylyed yndynt: kynllwyn a brad arglwyd or keffir eu daly eneid vadeu vydant yn *dyvrydach* no lleidir nac vn na llyaws voynt.
Cyfreithiau Cymru, ii. 408.

Hy *ddyfryd* ddyfrys gynfreinon
Hoeddyl Dafydd megis dydd dyddon.
Dafydd Benfras: M.A. i. 315.

2. thoughtful; pensive, sad; longing.

Bard difro *dyfryd* heb arglwyd.—*Cynddelw:* M.A. i. 207.

I feird dwfn *dyfryd* a gofiain.—*Cynddelw:* M.A. i. 207.

Pan gofiwyf, poen a gyfyd,
A *dyfryd* gur i'm dwyfron.—*Gronwy Owain*, 30 (cf. 116).

Dyfrydaeth, *sf.* } pensiveness; longing; grief;
Dyfrydedd, *sm.* } sadness; mourning.

Dyfryded yn Lloegr rag llwybr fy llaw.
Gwalchmai: M.A. i. 195 (cf. 198, 203).

Clwyf efnys dyfrys *dyfryded* ys mau.
Cynddelw: M.A. i. 208 (cf. 233, 378, 538).

Dwyn Dofydd oi du ac oi dirion
Dyfrydedd dyrawr hil mawr Maelgwn.
Elidir Sais: M.A. i. 350 (cf. 364).

Rhag difrawd, rhag *dyfrydaeth*,
Rhag bod ei genedl yn gaeth.—*W. O. Pughe:* H.G. 35.

Dyfrydiad, *sm.* [dyfrydio] effervescence.

Dyfrydio, *v.* [dy-+brydio] to effervesce; to be or become hot; to boil.

Mae fy ngwaed yn dyfrydio ynof, my blood boils within me.—*C.S.*

Dyfrydiol, *a.* effervescent; boiling.

Dyfrydog, *a.* [dyfryd] full of thought; having the mind bent on; musing; pensive; longing.

Oian a parchellan. na uit hunauc
Rydibit attam ne chuetil *dyfridauc.*
Myrddin: A.B. ii. 22 (M.A. i. 135).

Dyfrydol, *a.* pensive; sad; longing.

Dyfrydu, *v.* to muse; to cogitate; to long; to grieve.

Dyfrydwch, *sm.* [dyfryd]=*Dyfrydedd.*

Ef y vrynn y vreinyawc kyfrwch
Chwi y bant diuant *dyurydwch.*
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 280.

Nid *dyfrydwch* ond uffern.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 20.

Dyfrydd, -ion, *sm.* 1. a waterer; a water-drinker.

2. Aquarius, the Water-bearer.—*Dicts.*

Dyfryn, -au, *sm.* [dwfr] a little water; a drop of water.

Dyfrys, *sm.* [dy-+brys] great haste; haste, speed; quickness; hurry.

I'r llys ar *ddyfrys* ydd af.—*Iolo Goch:* G.B.C. 75.

Dyfrys brwydyr bryd ar ymlat
Difraw y law ar lafyn rut.
Prydydd Bychan: M.A. i. 382 (cf. 208, 315).

Llys hysbys *dyvrys* divraw wasanaeth.
Casnodyn: M.A. i. 423 (cf. 422, 435, 453).

Dawn hysbys *dyfrys* difrad gerennydd.
Trahaiarn: M.A. i. 499 (cf. 166, 513, 518).

Ar ei ddwyfron ar *ddyfrys*
Erddaw y bu croesaw crys.—*Iolo Goch.*

Hi a ddaeth i mewn yn ddoeth-wedd,
Ar *ddyfrys*, i lys y wledd.—*Ieuan Lleyn:* Caniadau, 22.

Dyfrys, *a.* hasty, speedy, expeditious.

A'i gwahodd yn faith i'r llys *dyfrys* daith.
Gr. ab D. ab Tudur: M.A. i. 480.

Ni'm daeth na gwyngen na gwèn na gwèdd
O'i *ddyfrys* angau dan lifddyfredd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 453 (cf. 455).

Dyfrysgar, *a.* expeditious, hasty, hurried; dispatched.

Y mae yr hyspysiaeth *ddyfrysgar* ag sydd wedi cyrhaedd hyd ataf yma yn mynegu fod y Llywydd uchod [Blücher] wedi croesi â'i fyddin mewn tri o fanau.
Seren Gomer, Ion. 22, 1814.

Dyfrysgarwch, *sm.* expeditiousness, hastiness.

Dyfrysiad, -au, *sm.* a hastening, expediting, or speeding; acceleration.

Amliwion blu goreuraid iddo oedd,
Telediw er *dyfrysiad* chwai.—*W. O. Pughe:* C.G. iii. 702.

Dyfrysio, *v.* to hasten; to make haste; to speed; to expedite.

Y mae ynteu yn arwein Arwndel. yr hwnn yr oedut yn drist oe achaws. ac wrth hynny. arglwydi *diuryssywch.*
Bown o Hamtwn, ‖ 65.

Otid eiry toid ystrad
Dyvrysiynt cedwyr i gâd
Mi nid af anav ni'm gad.
Llywarch Hen: M.A. i. 119 (cf. 37, 155, 169, 221).

Yg kyfrwg hynny kyt *dyfryssyci* Rosser iarll Clar mynet y Geredigyawn. eissoes nys beidei kyn hedychu Rys ar brenhin.—*Brut y Saeson:* Ll.C.H. ii. 320.

Dyfryssyaw a oruc y eu kyrchu.
Brut y Tywysogion, 62 (cf. 190).

Ar neillpeth a dywedir y damweinaw idaw. ae *dyuryssaw* o aghev.—*Llyfr Ancr*, 145 (cf. 65).

Y nef ar haul ar lhoer. ar syr. ar dyfredh yssydh yr awr honn yn *dyvryssaw* ar vuan redec.—*Lucidar*, ‖ 123 (cf. 58).

Angeu a *ddyfrys.*—*Diareb.* (M.A. iii. 147.)

Dyfrysiodd Iuda rasol
A'r dedwydd newydd yn ol. . .
Israel fad mewn siriol fodd
A fyw-wresog *ddyfrysiodd.*—*Dafydd Ionawr*, 223,

Digitized by Google

Dyfrysiol, *a.* hastening, hurrying, accelerating, speeding.

Dyfrysiedig, *pt.a.* hastened, accelerated.

Dyfrystog, *a.* [dyfrwst] dropsical.—*Dicts.*

Dyfn, *v.* [dwf] to glide, to move forward.—*P.*

Dyfn, *v.* 3rd. pers. sing. pret. of *Dyfod* (q.v.). See *Dybu.*

Ar hyny y fwyddyn a *ddyfu*, a'r gynghrair a ddarfu.
Ystori Dared, 172.

Coronog Faban, goreu dawn Deon,
A *ddyfu* o nef er nawdd dynion.—*Iolo Mss.* 265.

Dyfustlad, } *sm.* [bustl] the using of gall or
Dyfustliad, } sarcasm.—*P.*

Dyfustlo, *v.* to deal in gall or sarcasm; to use sarcasm.

Dyfwriad, -au, *sm.* a pouring, casting, throwing, or ejecting; ejection.

Dyfwrw, *v.* [dy-+bwrw] to pour; to cast, to throw; to eject; to expel.

Dyfwriwyd draw'r ddedfryd drom.
Robert Owen: Gweith. 92 (cf. 274).

Pa os allan eiddo uffern oll, a hon
Ei gwybren yn *dyfwrw* rheieidr tân.
W. O. Pughe: C.G. ii. 179.

Mae hi yn dyburw cenllusg, it is pouring hailstones.

Dyfwyad, -au, *sm.* augmentation.

Dyfwyn, -ion, *sm.* [dy-+mwyn] satisfaction, compensation, amends, requital; expiation.

Diwyn dirwy treis morwyn yw gwialen aryant a ffiol eur mal a dywetpwyt am y messureu yn *diwyn* sarhaet brenhin.—*Diwyn* dirwy ymlad yw deudegmu.—*Diwyn* dirwy letrat yw . . . deudegmu dirwy arnaw.
Cyfreithiau Cymru, i. 434 (cf. ii. 100).

Am pop vn or teir hynny ny dylyir na *difwyn* na dial.
C.C. ii. 336 (cf. i. 236, 314, 434, 458).

Diwygaf honnaf hynny
Difwyn a gymmer Duw ury.
Phylip Brydydd: M.A. i. 376.

Dyfwynad, -au, *sm.* a satisfying or compensating; satisfaction, compensation.

Dyfwynedig, *pt.a.* satisfied; redressed; contented.—*P.*

Dyfwyni, *sm.* satisfaction; amends.—*P.*

The passage which Pughe quotes under this word stands thus in *M.A.* i. 304:

Can kymery Duw *difwyn ynni* dyn
Kemer Lywelyn lyw kydeithi.—*Llywarch ab Llywelyn.*

Dyfwyno, } *v.* [dy-+mwyn] to make amends,
Dyfwyn, } satisfaction, or compensation; to redress.

Kyt boet uch breint y neill nor llall: a chyn ny dylyir y *diwyn* ar dial, pop un onadunt wynteu ae rydialawd ar y llall. O deruyd yr neill onadunt wynteu bodi y llall, iawn yw y *diwyn*.—*C.C.* ii. 54 (cf. 100, 114, 200, 232, 562; i. 602, 780).

Dyfwynol, *a.* satisfactory; tending to satisfy, requite, or redress; tending to please.—*P.*

Dyfwyo, *v.* [dy-+mwy] to augment; to increase; to multiply.

Dyfwyo gwlaw, to increase the rain.

Dyfwyol, *a.* augmentative; increasing.

Dyfwyta, *v.* [bwyta] to eat often; to be eating.

Dyfydwch, *sm.* rubbish, trash; dust; filth.

Dod hwynt mewn posned i ferwi gyda dwr amcan fawr o amser; yna tyn i lawr, a gad sychu lle nad elo un *dyfydwch* arno.—*Meddygon Myddfai*, ii. 610.

Dyfydd, *v.* [dy-+bydd] 1. 3rd pers. sing. fut. ind. of *Dyfod*, to come.

Arglwyt glew gadarn haiarn *dyfyt*.
Meilir: M.A. i. 191 (cf. 417).

Gwae ny wna da ae *dyuyd*.—*Llywarch Hen:* A.B. ii. 261.

O hyny *dyfydd* rhyddineb, a dewis, a gallu tawl, i ddyn.
Barddas, i. 210.

Da *ddyfydd* Duw i ddofion.—*Gronwy Owain*, 13.

Dyfyddi=deui: venies.—*D.*

2. 3rd pers. sing. imper. of the same verb.

Dyfydd hyd ei hystafell.—*Dafydd ab Gwilym*, xxi. 27.

Dyfydd o fangre'r dufwg,
Gad, er nef, y dref a'i drwg.—*Gronwy Owain*, 60.

Dyfydd, f' anwylyd Efa.—*Dafydd Ionawr*, 60.

Dyfyn, -au, -ion, *sm.* [dy-+myn] 1. a summons, a citation; a notice to appear.

Teir gwialen: croes; a *dyfyn*; a charchar: Tri chleddyf arglwyddiaeth, neu teir gwialen cymell: canys rhac ofyn y *dyfyn* y gwna dyn yr y groes; ony ddaw yr *dyfyn* y tremygir.—*C.C.* ii. 714 (cf. 716, 720).

Ac yn gyflym wynt a deuthant wrth *dyfyn* y brenhin.
Ystat. Bren. Bryt.: LL.C.H. ii. 175.

Yna . . . darllener llythyrau casgl, *dyfynau*, ac ysgymmundodau.—*Ll. G. Gyffredin* (Rhuddell).

Parodd [Angeu] roi *dyfyn* i'w ddeiliaid.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 59 (cf. 62).

Pan roddwyd *dyfyn* i'r Dr. Taylor . . . nacaodd ddianc.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 146.

Dyfyn a enfyn Dofydd,
Bloedd erchyll, rhingyll a'i rhydd.
Gronwy Owain, 93 (cf. 315).

2. a passage cited, a quotation, a citation; an extract, excerpt, or excerption.

Y mae yn anhawdd rhoddi heibio *ddyfynion* o'r manau goreu o'r awdl hon.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, i. 482.

Gan mai am alanasdra yr haint ddiweddaf hon y ceir yr hanes cyflawnaf, rhoddir yma *ddyfynau* allan o lyfr Seisneg.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 382 (cf. 189).

Gwel yn arbenig y *dyfynion* o Luther, Melancthon, a Cranmer.—*Athrawiaeth yr Eglwys*, 433.

Nod dyfyn (*pl.* nodau dyfyn), a quotation mark.

Dyfyn, *v.*=*Dyfynu.*

Dyfynawd, *sm.* a citing or summoning; citation.

Dyfyneb, -au, -ion, *sf.*=*Dyfynnod.*

Dyfynedig, *pt.a.* cited, summoned; quoted; extracted.

Nid yn gwbl mor dywyll a'r ddwy linell *ddyfynedig*.
Gwyliedydd, xii. 343.

Dyfyniad, -au, *sm.* 1. the action of citing, citation; a summoning.

2. a quotation; an extract, excerpt, or excerption.

Y *dyfyniadau* neesaf fydd o'r mwyaf cynghaneddol o feirdd yr oes.—*Blackwell:* C.A. 226.

Rhodder yma *ddyfyniad* allan o lythyr Lladin y Cyfleithydd at y Frenines Elizabeth.
G. Mechain: Gwaith, ii. 219 (cf. 207, 213).

Dyfyniad yw Araith St. Stephan ac Areithiau St. Pedr a St. Paul: *dyfyniadau* hefyd yw holl eiriau Crist yn y Pedwar Efengylwr.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 81 (cf. 57, 101).

Hyderwn y bydd i'r *dyfyniadau* uchod roddi i'n darllenwyr ryw awgrym am ansoddau cyfansoddiadau buddugol Aberffraw.—*Addolygydd*, i. 273.

Y mae y *dyfyniadau* hyn yn ddigon i ddangos fod awdwr Efengyl Marc yn ysgrifenu yr hyn a welodd.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duwin. 234.

Dyfyniadol, *a.* citatory; relating to quotation; quoted.

Dyfyniaeth, -au, *sf.* citation; jurisdiction.—*P.*

Digitized by Google

Dyfynnod, -au, *sm.* a mark of quotation.

Dyfynnodau, quotation marks, inverted commas (‘ ’, or “ ”): also called *Rhagwahandro.*

Prawf-nodiad, neu *ddyfynnod* . . . a ddengys ddyfyniad o waith ac yng ngeiriau un arall.
D. E. Jones: Ieithadur Seisoneg, 127.

Dyfynog (*ў*), *a.* cited, summoned; quoted.

Dyfynol (*ў*), *a.* citatory; quoted.

Dyfynwr, wyr, } *sm.* one who cites, a citer;
Dyfynydd, -ion, } one who quotes, a quoter.

Dyfynu } (*ў*), *v.* 1. to cite, to summon; to notice
Dyfyn } to appear.

A pheri *dyfynnu* y holl gyuoeth y unlle drannoeth a oruc y iarlles.—*Mab.* 178 (cf. 18, 32, 95, 97, 139).

Hewel da vap Kadell tewyssavc Kemry a *devynnvs* attav chwegwyr o pop kantref eg Kemry oll hyt e Ty Gwyn ar Daf.—*C.C.* i. 214 (cf. 246; ii. 272, 668, 720, 738).

Hitheu Riannon a *dyuynnwys* attei athrawon a doethon.
Mabinogion, 19 (cf. 18, 32).

Par di *dyuynnu* cwbyl o varchogyon urdolyon y kyuoeth hwnn ae pobloed hyt yma.—*St. Greal*, ‡ 14 (cf. 53).

Gwedy y delei adref y deyrnas. *dyuynnu* yr holl bobyl y gyt y genedyl ef.—*Mabinogion*, 96.

Ynteu a *ddyvynnawdd* attaw seith o ddoethion Rufein. . . Ar gwyr hynny gwedy eu dyuot a ovynnassant yr amherawdyr beth a vynnit ag wynt. a phaham y *dyvynnassei* hwynt yno.—*Doethion Rhufain*, ‡ 1.

Vthur Benn Dragon a *dyfynnwys* attaw y tywyssogyon.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 175 (cf. 121, 138, 178).

Yna y mae iawn i'r rhaglaw *ddyfynu* yr effeiriad ataw.
Leges Wallicae, III. iii. 29.

Priaf a annoges i Alecsander a Deiphobus ei feibion fyned hyd yn Poemia, i gynnullaw marchogion, ac i erchi *dyfyn* pawb i'r gwŷs hwnw.
Ystori Dared, ‡ 24 (cf. 84, 89, 92).

A phan vu digawn kic y mab ef a beris y dorri yn divynnyon man. a *dyuynnu* kwbwl oe dylwyth y gyt oe vwyta.
St. Greal, ‡ 119.

Yr Amherodrau Cristionogol a *ddyfynent* Gymmanfa-gynghorau o'r Esgobion gynt. Cystenyn a *ddyfynodd* Gymmanfa-gynghor yn Nicea. . . Theodotius yr Ail a *ddyfynodd* Gymmanfa-gynghor yn Ephesus. . . Mynega (eb efe) pa Amherodr a orchymmynodd alw neu *ddyfyn* y Gymmanfa-gynghor honno? . . . Yr un Ierom, ym Marwnad Paula, sydd yn crybwyll am lythyrau yr Amherodrau y rhai oeddynt yn gorchymmyn *dyfyn* Esgobion Groeg a'r Ital i Gymmanfa-gynghor yn Rhufain.
Morus Cyffin: Diffyniad, vi. 10.

Gwŷr Beniamin, wedi eu *dyfyn*, yn ymgasglu yn erbyn yr Israeliaid.—*Barn.* xx. (Cynn.)

Y byd oll a *ddyfynir* i ymddangos, bawb yn bresennol yn yr eisteddfod cyffredin honno ger bron y Barnwr mawr.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 403.

Cyn y nos hi a *ddyfynwyd* i'r byd tragywyddol.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 389.

2. to quote; to cite; to make an extract from; to excerpt, to extract.

Nid yw ond oferedd *dyfynu* rhyw ychydig o bennillion er profi rhyddid y rheolau.
G. Mechain: Gwaith, ii. 364 (cf. 251, 295, 363, 502).

Mae'r Prophwyd wrth *ddyfynu* y ddwy adnod, yn cydnabod ysprydoliaeth y naill a'r llall.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 101 (cf. 47, 81, 103).

Fel prawf o hyn *dyfynwn* y llinellau canlynol o waith Cynddelw.—*Blackwell:* C.A. 224 (cf. 226).

Dyfyriad, -au, *sm.* a shortening or abbreviating; an abridgment.

Dyfyrol, *a.* abbreviatory, shortening.

Dyfyru, *v.* [dy- + byr] to shorten, abridge, or abbreviate; to curtail.

Gognawd gyrru a gwawd *dyfyrru.*—*Taliesin:* M.A. i. 20.

Duw a *ddyfyra* y dieuoedd o achos ei etholedigion.—*D.*

Dyfysgfa, -oedd, *sf.* [dy- + mysg] confusion, disorder, chaos.

Yn eu *dyfysgfa* effro cyfrwys ochelant naill y llall.
Diwygiwr, xii. 118.

Dyfysgi, *sm.* [dy- + mysg] confusion, chaos, disorder; a mixing together; tumult, uproar.

Kymodet uy llyw lluoet beri
Nyd oes rwyf eryoes aer *dyuysgi*
Kymro yw haelryw o hil Beli hir
Yn herwyt y broui.
Llygad Gwr: M.A. i. 344 (cf. 69, 135, 137, 142).

Gwitil a Brithon a Romani
A vvnahont dyhet a *divysci.*
Myrddin: A.B. ii. 27 (cf. 22, 224, 304).

A bu terfysg taer i haer holi
A ragdaw rewys a dwys *dyfysgi.*
Gwalchmai: M.A. i. 197 (cf. 34, 219, 281, 303).

Diau y dybydd dydd *dyfysgi*,
A rhewin, a thrin, a thrwst ynni.—*Gronwy Owain*, 129.

Ein hiaith lawn, gwnawn ei hethol hi o flaen
Afluniaidd *ddyfysgi.*—*G. Mechain:* Gwaith, i. 240 (cf. 28).

A phan oeddynt yng nghanol y benbleth a'r cythrudd a'r *dyfysgi* yma, dywedir fod ‘y ddylluan â'r big gam yn chwerthin am eu penau.’—*Ystân Sioned*, 60.

Ffwyr anferth a *dyfysgi* doent i mewn.
W. O. Pughe: C.G. vi. 427.

Dyfysgiad, -au, *sm.* confusion; a mixing or blending together.

Dyfysgu, *v.* to mingle, mix, or jumble together; to confuse, to confound; to disorder; to throw into confusion; to disturb.

Pa fodd y bu i Lywarch *ddyfysgu* Awen â'r Gair tragywyddol?—*Gwyliedydd*, ii. 87.

Mae *dyfysgu* yn ddidrefn faterion dwyfol, ïe, a dirgeledigaethau Duw ei Hun, fel y gwna rhai, yn fynych yn dwyn dirmyg ar uchel ddoethineb yr Ysgrythyr Lân.
Nicander: Dysga Farw, 158.

Dyffestin, *a.* [dy- + ffestin] hastening, hurrying.

Geir uyg eir or penneir yn perthyn
Ar bawb—o bobloet *dyfestin.*
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 301.

Mochdwyreawg huan haf *dyfestin*
Maws llafar adar mygyr hyar hin.
Gwalchmai: M.A. i. 193.

Dyffestin mewn trin hynt drom
Is cadr Efrog drylliog drem.—*Dewi Wyn:* Blod. Arf. 18.

Dyffestiniol, *a.* tending to hurry.—*P.*

Dyffo, *v.*=*Dyfo* (=*delo*=*deuo*): 3rd pers. sing. fut. perf. of *Dyfod.* It occurs also in the plurals *dyffont* and *dyffwnt.*

Pro tertiâ sing. *delo*, dicunt interdum veteres *dyfo*, ab infinitivo, *dyfod*, vt,
Pan *ddyfo* Dofydd yn nydd pennawd,
Peryf par wrthfyn yn erbyn brawd.
M(*eilir*) *B*(*rydydd*).—*D.*

Pan *ddyffo* Dews Ef an gwna mawr trws.
Taliesin: M.A. i. 88.

Ban *ddyffont* guyr Bryneich in gwarth luydd.
Myrddin: M.A. i. 136 (cf. 135; A.B. ii. 22, 25).

Pan *ddyffont* ir gad nid ymwadant.
Goly ddan: M.A. i. 158 (cf. 157).

A'm *dyffo* clod, gnif ny'm dawr.—*Gronwy Owain*, 104.

Dyffordd, ffyrdd, *sf.* [ffordd] a passage, a way, a road.—*P.*

Dyfforddi, *v.* to show the way, to direct.

Dyffrwd, ffrydiau, *sf.* [ffrwd] ‘a torrent,’ a stream, a current.

Dyffryd, *v.*=*Diffryd*, *Difference.*

Dyffryd, idem quod *Diffryd.*—*D.*

Dyffrydan, -au, *sm.* [ffrwd] a small stream or current, a streamlet.

Dyffrydiad, -au, *sm.* a streaming; a flowing in a stream or current.

Digitized by Google

Dyffrydio, *v.* to flow in a torrent or stream; to stream.—*P.*

Dyffrydiol, *a.* streaming, current.

Dyffryn, -oedd, -au, *sm.* [dyfrhynt] a valley, a vale, a dale.

Ergig anchvant Guent gulad Morgant *dyffrin* Mynvy.
Llyfr Du: A.B. ii. 39.

A chymer y fford yd wyt ar hyt y *dyffrynn* uchot.
Mabinogion, 166.

A chymryt kennat y meudwy a oruc ef a mynet ymeith. a marchogaeth yny doeth y *dyffryn* tec.
St. Greal, ‡ 125 (cf. 36).

Ar dibenn y mynyd ef a welei *dyffryn* crwnn. a gororeu y *dyffryn* yn goedawc carregawc. a gwastat y *dyffrynn* oed yn weirglodyeu.—*Mabinogion,* 215 (cf. 217, 218).

A honno a dysc messuraw y dayar ar *dyffrynned.* ar mynyded ar glynneu ar moroed.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 494.

Ef a doeth y *dyffryn* avon deckaf a welsei eiryoet.
Mabinogion, 228.

A glyweisti a gant Gwenddoleu
Wrth dramwyaw *dyffrynau*
Pren ynghoed arall bieu.
Englynion y Clyweđ: M.A. i. 175.

Kymryt y ffo a oruc tu a Chaer Wynt a *dyffryn* Hafren.
Brut y Tywysogion, 292 (cf. 242, 342).

Glân bryd yn diffryd *dyffryn* araul.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 241.

A'r *dyffrynoedd* a orchuddir ag yd.—*Salm.* lxv. 13.

Yna i ffwrdd yr aeth â mi tros elltydd a thrwy goedydd, tros foroedd a *dyffrynoedd.*—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 52.

Ar nawn awelog yn y *dyffryn* glwys
Bu imi eistedd mewn myfyrdod dwys.
Eben Fardd: Gweith. 362.

Ei *dyffrynau,* manau medd,
A nwyfid gan dangnefedd.—*W. O. Pughe:* H.G. 37.

Ar y glynau, a'r *dyffrynau,*
Hoff yw'r tyrau a'u ffriw tirion.
Rhisiart Powél: Tymmorau, 9.

O goedydd balch coronid fryniau, ac
O dwyni y *dyffrynau.*—*W. O. Pughe:* C.G. vii. 377.

Dyffryn cysgod angeu (=glyn cysgod angeu), the valley of the shadow of death.

Gan ymroi megys milwr diarswyd . . . i'w ganlyn ef trwy *ddyffryn cysgod angeu.*
Ed. Samuel: Buch. yr Apostolion, 201.

O *ddyffrynoedd cysgod angeu*
Mae, dros fyth, yn ddigon pell.
Iolo Morganwg: Salmau, i. lxix. 1.

Y Dyffryn Crwn, the Round Valley.

Ar *dyffryn crwn* y gelwir y dyffryn hwn.
Mabinogion, 217.

Dyffryn yr Halen, the Valley of Salt.—2 *Sam.* viii. 13 (cf. 2 Bren. xiv. 7; 1 Cron. xviii. 12).

Dyffryn y Brenin, the King's Vale, the King's Dale.—*Gen.* xiv. 17 (cf. 2 Sam. xviii. 18).

Dyffryn y Cawri, the Valley of the Giants (*A. V.*); the vale of Rephaim (*R.V.*).—*Ios.* xviii. 16 (cf. 2 Sam. v. 18; xxiii. 13).

Dyffryn y celaneddau, the valley of the dead bodies.—*Ier.* xxxi. 40.

Dyffryn Aur, the Golden Vale (in Herefordshire).

A ffridd â chyff o ruddaur;
A ffrwyn i weilch *Dyffryn Aur.*—*L. G. Cothi,* i. xxvii. 45.

Dyffryn Celydd, Vallombrosa (in Tuscany).

Amled a dail hydref ar
Gornentydd *Dyffryn Celydd,* lle taen hudd
Gwyddeli bro Etruria.—*W. O Pughe:* C.G. i. 322.

Dyffryn Clwyd, the Vale of Clwyd (in Denbighshire).

Dyffrynaidd, *a.* of the quality of a dale; like a vale or valley.

Darbant, iselaidd, *dyffrynaidd.*—*O.V.*

Dyffryndir, -oedd, *sm.* land lying on a river side, or in a bottom; low-lying ground; valley-ground, bottom-land.

Mae ym' dir gwair er bun ddiwair,
A phorfeldir llawn *dyffryndir.*
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 234.

Gofyn yr wyf gi iefanc,
Gelwir mewn *dyffryndir* ffranc.
Hywel ab Rheinallt: G.B.C. 167.

Yr oedd ganddo lawer o anifeiliaid, yn y *dyffrysdir* ac yn y gwastadedd.—2 *Cron.* xxvi. 10.

Megys mewn *dyffryndir* hyfryd,
Fal ar lawr porfeldir bras,
Ymborth wyf, bob awr, bob ennyd,
Ar ddantetthion per dy ras.
Iolo Morganwg: Salmau, i. xlii. 1.

Y *dyffryndir* sy dra ffrwythlawn.
R. Roberts: Daearyddiaeth, 83 (cf. 121).

Dyffrynfaes, feusydd, *sm.* a low or level plain; a field or enclosure in a valley.

A phan ytoedd yn y *dyffrynfaes* gwyran-lasdwf, ef a fwrwys drem diystyrllyd-falch i'r gelltydd.—*Iolo Mss.* 174.

Dyffrynol, *a.* relating to a valley; resembling a vale.

Iawn ennillent yno'n ollol
Wlad Ffrainc, le *dyffrynol.*
Ioan ab Hywel: Blodau Dyfed, 146.

Dyffrynt, -oedd, *sm.* [dyfrhynt=dwfr+hynt] 1. a valley, a vale, a dale.

Deilyadon *dyfrynt* am defry hiraeth
O hiruod dreic Kymry.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 297 (cf. 109, 304).

Yg kymer deu dyfyr *dyffrynt* iolyt.
H. ab O. Gwynedd: M.A. i. 277 (cf. 144, 361).

Elit lleuein yn *dyffrynt*
Beli Hir ae wyr gorwynt
Gwynn eu byt Gymry a gwae Gynt.
Myrddin: A.B. ii. 228 (cf. 265).

A niwl gwyn yn ael y gwynt,
Y diffriw canol *dyffrynt.*—*D. ab Gwilym,* cxvi. 33.

Yn hedeg ar waneg wynt,
Draidd effrom, draw i *ddyffrynt.*
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 17.

2. a water-course, a stream, a river.

O derfydd bod ymryson am ynysoedd yn *nyffrynt,* ac na bo cynwarchadw i neb o naddynt, gater wynt i'r neb nesaf ei dir iddynt.—*Leges Wallicæ,* v. v. 32.

Dyffrynyn, *sm.* a little valley.—*W.*

Dyffrystio, *v.* [ffrwst] to hasten, to hurry.

Yn yd yttoed y paganyeit yn *dyffrystyaw* y hageu.
Yst. de Carolo Magno, col. 437.

Dyffugliad, -au, *sm.* ventilation; a close searching.

Dyffuglio, } *v.* [ffuglio] to ventilate; to search
Dyffuglo, } closely.—*P.*

Dyffust, -iau, *sm.* [ffust] a beat; a beating; a cuff; a drub.

Dyffust, } *v.* to beat; to batter; to thrash or
Dyffusto, } drub.

Yna y dywawt Bown wrth Copart. Coffa y *dyfust* yn dihauarch.—*Bown o Hamtwn,* ‡ 39.

Difrys guanec *diffustit* traeth
Gosgymmon guyth gordin.
Llefoed: M.A. i. 155 (A.B. ii. 306).

Sef a wnaeth ynteu duhunaw. a chael y pryf. ac ay drossawl y *dyffust* ay lad.—*Bown o Hamtwn,* ‡ 16.

Dyffustiad, -au, *sm.* a beating; a cuffing, boxing, or thumping; a battering.—*P.*

Dyffustiol, *a.* beating; battering; drubbing.

Dyffwnt, }
Dyffont, } *v.* [dyfod]. See *Dyfo, Dyffo.*

Aruaethwn *dyffwn* dyffrynt Dyui.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 361.

Digitized by Google

Dyffysg, *sm.* [ffysg] haste, hurry; velocity.

Frawt ystryw estronyon hual
Fysc *dyfysc* diffwysgad ardal.—*Cynddelw:* M.A. i. 260.

Terfysc *dyfysc* deu diovn anian
Torrynt torredwynt uch teg advan.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 265.

Dyffysgo, *v.* to hurry, to hasten.

Dyg, *v.* a form used by some recent writers for *dug* (=*duxit, portavit*), the 3rd pers. sing. pret. indic. of the irregular verb *Dwyn:* the same as *dygodd.* Nothing is gained by the innovation. See Davies, *Rudimenta,* 133.

Dygaboli, *v.* [caboli] to beat soundly; to belabour, to thump, to cudgel.—*W.*

Dygadfa, -oedd, *sf.* [dy-+cadfa] an area for contest; a place for games.

Ir *digatma* (*gl.* area).
Oxford Gloss. ii. 37 (Zeuss, G.C. 1055).

Dygadwy, *a.* [dwg, dygyd] that may be borne or carried; portable; bearable.

Dygaenu, *v.* [caenu] to spread out, to overspread, to cover.

Dau ryw o fasw-wellt a *ddygaenant* ein gweirgloddiau.
Aneurin Owen: Amaethyddiaeth, 35.

Dygam, *a.* crooked, bent; perverse.

Fal y byddoch yn ddiargywedd, ac yn bur, ac yn feibion i Dduw yn ddigwliedig ym mherfedd cenedlaeth ddrygionus *ddygam* [°gamweddawg, grwca].
W. Salesbury: Phil. ii. 15.

Dygamiad, -au, *sm.* a bending; a perverting, perversion.

Dygamol, *a.* tending to bend.—*P.*

Dygamu, *v.* to bend; to make crooked; to pervert.

Dygan, -au, *sf.* [dy-+cân] a chant, hymn, or song.

Dyganiad, -au, *sm.* a chanting, a singing.

Dyganre, *sf.* [canre] accompaniment, concomitance.

Llywarch ym gelwir llu *dyganre*
Lloegyr dystryw distrawch dilawch dile.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 292.

Dyganu, *v.* to chant; to sing; to recite.

Dy gert *dyganaf* naf niuerawc
Dy gynnygyn dygwyt arwyt eurawc.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 304.

A phan *dyganwyt* y llythyr y Gaswallawn. sorri a wnaeth.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 173.

Dygarnffo, *v.* [dy-+carn+ffo] to take to the heels, to show the heels; to run away; to betake to flight.

Ar hynny nachaf Copart or parth arall yn dyuot. ac ymherued y maes yn ymgyuaruot ar bugeil. . . Y gyt ac y gwyl y bugeil ef. dechreu *dygarnffo.* ac yn vynych uchel y dywedei. Benedicite.—*Bown o Hamtwn,* ¶ 39.

Dygas, *a.* [dy-+cas] hateful, odious, detestable, execrable.

Mewn pechod lluniwyd fi,
Ac mewn drygioni *dygas.*—*Edm. Prys:* Salm. li. 5.

Ti yr hwn sy *ddygas* genyt eidolae [°ddelwau], a gyssegryspeili di?—*W. Salesbury:* Rhuf. ii. 22.

Dygas gwaith erlyn.—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Dygas, *sm.* hatred, animosity, detestation.

Eryr Tredegyr er *dygas* galon,
Aderyn union a dry'n wyniasa.—*Rhys Brychan.*

Dygasâd, *sm.* a hating; detestation.

Dygasai, eion, *sc.* one who greatly hates (another); a hater, a detester, an abominator; an enemy.

Ti a'n gwaredaist rhag ein gwrthwynebwyr, ac a wradwyddaist ein *dygaseion* [°erbynwyr]. . . Ydd wyt yn peri ini ddychwelyd drach ein cefn iwrth ein erbyniwr [°gwrthwynebwr], a'n *dygaseion* a gribddeiliant iddynt eu hunain.
Ll. G. Gyffredin 1567: Salm. xliv. 7, 10 (cf. ix. 13).

Dygasäu, *v.* to detest; to hate or dislike intensely; to abhor, to abominate, to execrate.

Dygasẽwch yr hyn sy ddrwg, a glynwch wrth y sy dda.
W. Salesbury: Rhuf. xii. 9.

Dygasedd, *sm.* hatred, animosity, enmity, malevolence; rancour; inveteracy.

Gouyn a wnaeth y Paredur a oed *digassed* or byt y ryngthunt.—*St. Greal,* ¶ 82.

A glyweisti a gant Haernued
Vradauc vilur teyrned
Trech nerth no guir urth *digassed.*
Englynion y Clywed: M.A. i. 173.

Dygasedh yw anuynnu lhes neu dhamwain da y aralh.
Ymborth yr Enaid, ¶ 7.

Dygasedd yw cadw o ddyn lid ganddo, a gwneuthur yn erbyn ei gymmydawg o achaws colled neu gam a wnelid iddo.—*Ll. G. Hergest.* (*P.*)

Oddi wrth gynfigen, *dygasedd,* a bwriad drwg, a phob anghariadoldeb.—*Ll. G. Gyffredin* (Litani).

A gweled o hono ym mlaen llaw wrthgas a *dygasedd* ei elynion.—*M. Cyffin:* Diff. vi. 7.

Dygasog, *a.* 1. full of hatred, animosity, or malevolence; malicious, malevolent; hateful; hating; hostile.

O achaws hynny y mae *digassawc* yr adar yr tylluan.
Mabinogion, 80.

Byr hoedlauc *digassauc* seint.
Englynion y Clywed: M.A. i. 172.

Yr oeddym ninnau hefyd gynt yn annoethion . . . yn *ddygasog,* yn casäu ein gilydd.—*Tit.* iii. 3.

Nid ofnog ond *dygasog;*
Nid *dygasog* heb achaws.—*M.A.* iii. 71 (cf. 24, 172).

Gwatwar yw celhweirus lawenydh drwy *dhygasawc* dhigrifwch angcymetrawl y dremygu aralh.
Ymborth yr Enaid, ¶ 7.

Am yr hwn, oddi wrth y iaith, a'r dull o ymadroddi, yn gystal a'r yspryd *dygasog* ac enllibus, hawdd gellir barnu nad yw amgen na chyfansoddiad yr archesgob ei hun.
Carnhuanawc: Hanes Cymru, 729.

2. hated, greatly disliked, odious.

A *dygasog* fyddwch gan bawb oll o bleid fy enw i.
W. Salesbury: Luc xxi. 17 (cf. Marc xiii. 13).

Dygasog, -ion, *sc.* one who hates, a hater, a detester; an enemy.

Byrhoedlawg *digasawg* saint.—*Taliesin:* M.A. i. 172.

Gwae *ddigasawg* saint
Ni chynnal eu braint
Nis addola.—*Taliesin:* M.A. i. 99.

Llyngcer *digasogion* Sion gwradwydder eu plaid.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 570.

Trwy eneu ei sanctaidd brophwydi . . . rhai a ddywedent yd anfonai ef i ni ymwared rhag ein gelynion a rhag dwylo ein holl *ddygasogion.*—*W. Salesbury:* Luc i. 70, 71.

Hwy ddrychasont i'r nef mewn wybren, a'u *dygasogion* [°gelynion] hwynt a'u gwelsant hwy.
Th. Huet: Dad. xi. 12.

Yr anfonai efe i ni ymwared rhag ein gelynion, ac oddi wrth ddwylaw pawb o'n *dygasogion.*
Ll. G. Gyffredin (Benedictus).

Diammheu oedd ganddynt na byddai iddynt onid colli eu poen heb wneuthur dim lles yn y byd, gan weled a gwybod fod wynebau a meddyliau eu *dygasogion* mor hollol i'w herbyn.—*M. Cyffin:* Diff. vi. 7.

Edrych lle gwelych y gwaelion ddynos
Yt' o gas agos *dygasogion.*—*W. Midleton:* Salm. ix. 13.

Dygasogwr, wyr, *sm.* one that is hated; an object of hatred.

Dygasogwr yr yspryd drwg, the evil spirit's object of hatred: a name given to the cock. See Shakspere, *Hamlet,* Act i. sc. 1.

Am hyny y gelwir y ceiliog gwasanaethwr Duw, a cheidwad yr yspryd da, a *dygasogwr yr yspryd drwg.*
Rhinwedd y Ceiliog.

Digitized by Google

Dygasol, *a.* 'productive of hatred;' hateful; detesting, abhorring.

Dygasrwydd, *sm.* hatefulness, hatred, animosity; repugnance; malevolence.

Dygawdr, odron, *sm.*=*Dygiawdr.*

Dygawn, *v.* and *s.* [dy-+cawn]: see *Digon, Dichon.*

Dygedigaeth, } -au, *sf.* a taking or carrying
Dygedigaeth, } away; abduction.

Nyt amgen noc ageu y dat. a *dygedigaeth* y chwaer.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 5.

Dygedydd, -ion, *sm.*=*Dygiedydd.*

Dygegiad, -au, *sm.* a gargling; a gulping.

Dygegu, *v.* [ceg] to gargle; to gulp.—*W.*

Dygeliad, -au, *sm.* a hiding or concealing; concealment; seclusion.

Dygelu, *v.* [celu] to conceal or hide; to seclude.

Dygen, *sm.* [cen] anger; grudge, malice.—*P.* In the subjoined passage, quoted by Pughe, the word is probably a place-name, presumably the same as *Dygen Freiddin* (M.A. i. 193), or *Dygen Dyfnant* (M.A. i. 299).

Gwirawd Ywein llary llawen yd rodir
Yny tir tu hafren
A threul hygar yw hagen
A thraw y daw a *dygen.*—*Cynddelw:* M.A. i. 234.

In another poem addressed to the same prince (Owain Cyfeiliog), the poet calls him 'dor Dygen,' the guardian or protector of Dygen.

Brwysc rwysc rwyf tewdor *dor dygen.*
M.A. i. 222 (cf. 230, 274, 302, 311, 579).

The same place is mentioned in a poem attributed to Llywarch Hen:

Lluest Cadwallawn ar Havren
Ac o'r tu draw i *Ddygen*
A breiaid yn llosgi Meigen.—*M.A.* i. 121 (A.B. ii. 277).

Davies simply inserts the word with a query; but Lhwyd, in his Additions, gives 'anger' as its equivalent. The word is not known to occur as an appellative.

Dygiad, -au, *sm.* [dwg: inf. *dwyn*] a bearing, conveying, bringing, or carrying; carriage, conveyance; ablation; port, deportment, conduct; a bringing up; education; accomplishment.

Gronwy o'i *ddygiad* gwae rianedd.
Llywelyn Goch: M.A. i. 521 (cf. 510).

Gwedy pensel Hywel digel *dygyat.*
Llywelyn Ddu: M.A. i. 416.

Gwenynen addien, a wyddiad ei dawn,
Gwawr Geredigiawn, garw ei *dygiad!*
Dafydd ab Gwilym, ccxxxiii. 65.

Dygiad Cadwaladr gynt Fendigaid,
Dwyn Rhys o'r ynys fal i'r un naid.
L. G. Cothi, 111. xxii. 19.

Hon a ddonied gan y duwiau ag eu holl
Deleidion, a rhydebig yn y chwaen
Ofnadwy, pan o *ddygiad* Hermes at
Annoethed fab i Iaphet.—*W. O. Pughe:* C.G. iv. 781.

Mae Gwladys Ruffydd gywrain,
A ddaeth o Ynys Brydain,
Mewn glendid, *dygiad,* dysg, a dawn,
Mor llawn a neb o Rufain.
Theo. Evans: D.P.O. 186 (cf. 94).

Swyddau, graddau, dysg, a doniau,
Dygiad, synwyr, a meddiannau.
W. Williams: Gweithiau, i. 242.

Efe a gafas ei *ddygiad* yn y gynt Fonachlog fawr a godidog . . . Bangor is y Coed.—*Theo. Evans:* D.P.O. 223.

Caent achles ym mynwes Mon,
A *dygiad* dysgedigion.—*Tegid:* Gwaith, 7.

Dygiad da, good education, good training; good breeding.

Dygiad i fyny, a rearing or bringing up; training; education; accomplishment.

Gan ystyried mor grefyddol y cafas eich mawrhydi *ddygiad i fyny,* gan dduwiol a rhinweddol olygwyr ac athrawon.
R. Vaughan: Ymarfer Duwioldeb, Cyf.

O achos bod ei hofferynau wrth natur allan o hwyl, neu o ragfarn bengaled trwy *ddygiad* drwg *i fyny.*
Ios. Tomas: Buch. Grist. 16.

Eich holl ddoniau naturiol, meddiannau oddi allan, rhanau, gwaedoliaeth, genedigaeth, *dygiad i fyny,* synwyr, cyfoeth, coronau, teyrnasoedd . . . fe fydd y rhai'n eu gyd wedi ymadaw.—*Sam. Williams:* Amser, 71.

A chan fod ei thylwyth hi'n anrhydeddus, hwy a roisant y cyfryw *ddygiad i fyny* iddi, fel y medr hi gario ei hunan yn weddaidd, yn gystal o flaen y tywysog ag o flaen y cyffredin.—*Taith y Pererin* (1771), 128.

Cafodd yn ei *dygiad i fyny* lawer o fanteision gwybodaeth naturiol.—*Dysgedydd,* iv. 257.

Dygiad mab (1), the bringing or bearing of a son.

(2) affiliation of a son or child.

Tri *dygyat* a vyd ar *vab:* vn yw y vam arnaw ar y llogwyd; a *dygyat* y tat neu y genedyl yn y vam eglwys; ar trydyd yw ehun.—*C.C.* ii. 336.

Dygiadol, *a.* relating to bearing, carriage, or deportment; decorous; educational.

Dygiadur, -iaid, *sm.* a bearer, carrier, taker, or conveyer; a bearer (in heraldry).

Er hyny ef a ddichon y *dugiaduriaid* fod heb gyttuno á naturiaethau y rhai hyny yn eu harferion.
Arfau y Brytaniaid (Ms.).

Dwyn ceiliog á chrib iddo, mewn arfau, a arwyddoca fod y *dygiadur* cyntaf yn rhyfelwr da, cadarn, bocsachus o'i fawr ddigoniant.—*Traethawd Arwyddoni* (Ms.).

Dygiadur newyddion, a bearer of news.

Dygiadus, *a.* accomplished, well-educated; refined, elegant; fashionable.

Yr ydym, pan tyfom mewn oedran a phrofiad i deimlo pleserau mwy *dygiadus,* yn dirmygu cnau a theganau, y rhai, pan oeddem blant, a gyfrifem ein hapusrwydd.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 69.

Dygiadusrwydd, *sm.* accomplishment, refinement (of manners), elegance.

Dygiadwy, *a.* that may be borne, carried, or conveyed; bearable, portable.

Dygiannol, } *a.* [dygiant] conducive; tending
Dygiannus, } (to a purpose or end); conductive.

Gwae *dygianus* gwiw [*al.* gwin] dy gynnydd
Heais eiriau haul cadeiriau.
Iorwerth ab y Cyriog: M.A. i. 505.

Dygiant, *sm.* a bearing, a carrying; carriage, deportment.

Trist vu Grist yn y groes *dygyant.*
Casnodyn: M.A. i. 429.

Dygiawdr, *pl.* dygiodron, } *sm.* a bearer; a
Dygawdr, *pl.* dygodron, } conveyer, car-
Dygiawdwr, *pl.* dygiawdwyr, } rier, or taker; a conductor.

Dwyn carw mewn arfau yw arwydd bod y *dygiawdr* neu'r cymmerwr cyntaf yn dlawd yn ei ieunctid a thyfu golud iddaw o ffwyddyn pwy gilydd.—*Cyfraith Arfau.*

Seith *dygawdyr* teyrnwialen a ledir.
Ystat. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 145.

Yr achos y dychymmygwyd celfyddyd pais arfau . . . ydoedd, mal y gellid i bob llwyth a chenedl eu harwyddon yn warantedig, ac y gellid adnabod pob un herwydd ei genedl . . . heb na rhaid na gofyn am wybodaeth amgen na golwg ar y gwisgawdr neu'r *dygiawdr.*—*Iolo Mss.* 76.

Dygiawdr llythyrau, a letter-carrier.—*W.*

Dygibiad, -au, *sm.* a snatching; a huddling together.

Digitized by Google

Dygibo, *v.* [cibo: cf. *cipio*] to snatch; to huddle away things in haste; to gather fast with both hands.—*P.*

Dygibol, *a.* snatching, catching.—*P.*

Dygiedig, *pt.a.* [dwg] conveyed, carried, borne.

Dygiedydd, } -ion, *sm.* a bearer, carrier, or
Dygedydd, } conveyer; one who brings.

Rhaglaw *Dygiedydd* y Wialen Ddu, a orchymmynodd bresennoldeb Tŷ y Cyffredin.—*Seren Gomer*, xv. 345.

Dygilio, *v.* [cilio] to recede, retreat, or withdraw.

A thi,'r Iorddonen grai,
Pa ham *dygiliai*'n gerth
Dy lif, gan ruthro yn ei ol!—*Robert Owen:* Gweith. 142.

Dygleigiad, -au, *sm.* 'a sinking in;' a plunging.

Dygleigio, *v.* [dy-+claig] to sink, to droop; to plunge, to immerge. Cf. *Dychleigio*, &c.—*P.*

Dygleigiol, *a.* apt to sink in or droop; plunging, immerging.

Dygleisiad, *sm.* 'a staining through;' a discolouring; a marking with weals or by bruising.

Dygleisio, *v.* [dy-+cleisio] to blacken by bruising; to make weals; to blacken; to bruise.

Dygleisiol, *a.* black from a bruise; tending to blacken.

Dyglist, *sm.* See *Diglist.*

Dygludiad, -au, *sm.* a carrying or conveying; a wafting.

Ai yn unig o groni dyfroedd yn y manau yr attalid eu rhediad gan gwymp ambell goeden, a *dygludiad* brigau a dail a ddygid i lawr oddi ar y bryniau o amgylch, a ddylid ei holi.—*Cylchgrawn*, i. 28.

Dygludo, *v.* [dy-+cludo] to convey or carry; to take or carry away; to waft.

Dyglud glod mal y clyw llawer.—*Cynddelw:* M.A. i. 223.

O'u gwledydd tra *dygludynt*
Wŷr Seion yn gaethion gynt.—*Gro. Owain*, 58.

Dygludol, *a.* carrying, conveying; wafting.

Dygluddiad, -au, *sm.* a hemming or closing in; an overwhelming.

Dygluddo, *v.* [dy-+cluddo] to hem or close in; to overwhelm.

Dygluddol, *a.* tending to close; overwhelming.

Dygluro, *v.* [dy-+clur: cf. *clur* (=clir), *eglur*] to explain, to make clear, to elucidate.

Mae rhagor mawr rhynthyn mewn cymhleth ymadrodd, mal y ceir gweled wrth *ddygluro* a thraethu cystrawiaeth.
Dr. Gr. Roberts: Gram. 144.

Dyglywed, *v.* [clyw] to hear, listen, or hearken.

Dyglyw, hear (thou), listen, hearken, hark.

Pa sut yr ydych yn dyglywed? how do you feel? how are you?—*C.S.*

Dygn, *a.* severe, hard, toiling, assiduous, close at work; tedious, wearisome, tiresome, toilsome; painful, irksome, grievous; sad; requiring pains and application; deep, dense, profound, intense; severe.

A ryued oed na bei yssic penneu y byssed rac *dyckynet* y maedei y dwylaw y gyt.—*Mabinogion*, 175.

Dygyn yw hebod bod byd
Dygynnelw a Duw gennyd.
Cynddelw: M.A. i. 255 (cf. 248, 261, 339).

Meir nym gat hwyrwat hirwayw tostaf
Dan vron liviedic mewn dic *dycnaf.*
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 474 (cf. 311, 372, 385).

Dygnaf Duw Eurnaf diwarnawd dygnddu.
Sefnyn: M.A. i. 504 (cf. 524).

Cefais o wybr ddeuddeg-aygn
Gafod deg, rhag gofid *dygn.*—*D. ab Gwilym*, ccviii. 43.

Och arglwyd *dygyn* a thruan yw bot yn reit ytt vynet y diodef dy angheu yn y mod hwnn.—*St. Greal*, i 139.

Merch frenhinawl a aned
An duc o'n *dygn* gaethiwed.
Englynion y Misoedd: M.A. i. 16 (cf. 316).

Er mwyn hyn fe a gyffrôdd i fyny . . . erlidwyr llymion, a *dygn* elynion i Dduw a'i wirionedd.
Edward Iames: Hom. ii. 284.

Goreu gan Eiddig oeryn,
Dygn du, na bai deg y dyn.
D. ab Gwilym, lxxvi. 41 (cf. 20).

Dygn yw addaw a garawr.—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Am hynny y daeth *dygn* ddamnedigaeth arnynt.
Doeth. xii. 27.

Y mae'n beth rhyfedd yn wir fod cymmaint o *ddygn* anwybodaeth ym mysg y bobl gyffredin.
Theo. Evans: D.P.O. 147.

O achos y *ddygn* boen sydd yn gorthrechu eu henеidiau hwy.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. viii. 5 (cf. ix. 11; x. 18; ii. vi. 10).

A phenaf a *dygnaf* yw balchder.—*Barddas*, i. 188.

Na ollwng ni i *ddygn* chwerwaf boenau angeu tragywyddol.—*Ll. G. Gyffredin* (Claddedigaeth).

Nis gallaf lai na meddwl fod yr Awen . . . po *dygnaf* a diwytaf y cerir, eiddicaf a choecaf fyth y ceir hi.
Gronwy Owain, 182 (cf. 70, 100).

Gwaith dygn, hard or tedious work.

Gweithio yn ddygn, to work hard or assiduously.

Dal ato yn ddygn, to stick closely to it.

Dygn ofid, deep sorrow.

Dygn dlodi, deep poverty.

Dygn gosp, a severe punishment.

Dygn gas, deep hatred or aversion; intense dislike or repugnance.

Peth rhyfedd yw ystyried pa *ddygn gas* sydd gan y drygionus i'r cyflawn.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyffordd, 246.

Lle y mae efe agos ym mhob man yn dadgan ei *ddygn gas*, a'i lid, a'i ddigofaint yn erbyn pob un o'r ddau.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. vi. 1.

Dygn, *sm.* extremity, difficulty; severity; an extreme point.

Tyngu i'r dygn, to swear to the extremity.

Ony byddant hagen un fam nyt grym y dystyolaeth ef ony *thyng yr dygyn.*—*C.C.* ii. 634.

Dwyn i'r dygn: see *Dwyn* 1 (2).

Dygnawd, *sm.* a striving; affliction.

A chat er *dygnawt* dan von y tauawt
A chat arall yssyd yn y wegilyd.—*Taliesin:* A.B. ii. 138.

Dygnedd, *sm.* anguish; trouble; tediousness; irksomeness; sadness; assiduity; deepness, denseness; anxiety; severity.

Gossymmwy tramwy trom *ddygnedd* byd.
M.A. i. 538 (cf. 348, 439, 481).

Dygn yw i Gymru *dygnedd* ei *dygned*
Clywed ei fyned yn ei faenfedd.
Dafydd Benfras: M.A. i. 316 (cf. 365, 453).

Milwr mewn *dygnedd* ni chais dangnefedd.—*M.A.* iii. 10.

Mae yn dioddef, bob mynyd, arteithiau a *dygnedd* mil o farwolaethau.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 20.

Dydd dygnedd, day of trouble or adversity.

Canllaw lliosydd mewn *dydd dygnedd.*
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 446.

Dygnferth, -au, *sm.* 'a severe or toiling spirit.'—*P.*

Gwydyon ap Don *dygynuertheu*
A hudwys gwreic a vlodeu
A dydwc moch o deheu
Kan bu idaw disgoreu.
Taliesin: A.B. ii. 158 (M.A. i. 66).

Digitized by Google

Dygngas (*n-g*), *sm.* deep or intense hatred.
Yr oeddynt yn dwyn *dygn-gas* i ddieithriaid.
Doeth. xix. 13.

Dygn-gasäu, } *v.* to hate or dislike thoroughly;
Dygn gasäu, } to detest.
Y mae Duw yn *dygn-gasäu* ocraeth.
Ch. Edwards: H. y Ffydd, 110.

Dygngoll, (*n-g*), } *sm.* [dygn+coll] a severe or
Dygn-goll, } calamitous loss; an extreme
Dygn goll, } loss.
Tri *dygyngoll* kenedyl ynt. . . Os gwadant gwedy hynny *dygyngoll* yw.—*C.C.* i. 412 (cf. 726, 776; ii. 40, 62).
A hunnw a elwyr yn un o try *dygyn goll* cenedel.
C.C. i. 208.
Gwae fi, Crist Celi! calon doll yw'r fau,
Wyf fyfyr am *ddygn-goll.*—*D. ab Gwilym,* ccxxxii. 45.
Brwyn a dogn gwyn oi *dygn goll.*
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 441.

Dygniad, -au, *sm.* a striving; a troubling.

Dygno, *v.* [dygn]=*Dygnu.*

Dygnoad, -au, *sm.* [dy-+cnoad] a chewing, a gnawing, mastication.

Dygnoawl, *a.* masticatory, chewing.

Dygnoi, *v.* [dy-+cnoi] to masticate, chew, or gnaw.

Dygnol, *a.* [dygn] trying, afflictive, striving.
Ei ymadroddion am Iachawdwr byd
Yn ennyn hiraeth *dygnawl* yn y fron.
Robert Owen: Gweith. 88.

Dygnu, } *v.* [dygn] to toil or strive hard; to
Dygno, } molest; to aggrieve, to afflict; to weary or tire; to be fatigued, wearied, or jaded.
O gwnaeth Pendragon drwg i Wrlais
Nid eilhaws dignaws *dygnais* ddawn dadlau
Ar ddyn didlawd cwrtais.
Gr. ab. D. ab Tudur: M.A. i. 480.
E Betev ae gulich glav
Gvir ny ortywnassint vy *dignav*
Kerwid a Chivrid a Chav.
Eng. Beddau Milwyr: A.B. ii. 28 (M.A. i. 79).
Nid hawdd *dygnu* dedwydd.—*M.A.* iii. 64.
Er mai o *ddygnu* tost y nillid.
W. O. Pughe: C.G. x. 591 (cf. i. 108).
Yr ydych yn ddarostyngedig o *ddygnu* yn erbyn y ddau galedi.—*W. O. Pughe:* C.P. 133 (cf. 52).
Yr wyf wedi dygnu wrth ddisgwyl, I am quite tired of waiting.—*C.S.*

Dygnuad, *sm.* [dy-+cnu] a bundling or flocking together.—*P.*

Dygnudiad, *sm.* a flocking together.—*P.*

Dygnudo, *v.* [cnud] to flock together.—*P.*

Dygnuo, *v.* to flock or crowd together; 'to bundle together.'—*P.*
Pan fo'r tri llu 'n *dygnuaw*
Ar drom farn [*al.* drum fawr] Olifer draw,
Y telir, er nas talwyd,
I Rys faint a roes o fwyd.—*Dafydd Nanmor:* G.B.C. 150.

Dygnuol, } *a.* flocking or crowding together;
Dygnudol, } assembling.

Dygnwad, *sm.*=*Dognwad.*

Dygochi, *v.* [cochi] to redden; to become red or ruddy; to blush.
¶ It is somewhat doubtful whether we should read *dygochwiawr* [al. *dygochuiaur*] in the subjoined obscure quotation as *dygochiawr* or *dygochwawr:*
Dygochwiawr a chloi a phor; a pherth a pher.
A.B. ii. 93 (M.A. i. 21).

Dygochiad, -au, *sm.* a reddening; a blushing.

Dygoddawl, *a.* tending to aggrieve; annoying, offending; offensive.

Dygoddi, *v.* [coddi] to annoy, insult, aggrieve, or molest.—*P.*

Dygoddiad, -au, } *sm.* molestation, annoyance,
Dygoddiant, } insult.

Dygofiad, *sm.* a calling to mind; recollection.

Dygofio, *v.* [cofio] to call to mind, to recollect.

Dygolli, *v.* [colli] to be losing or lapsing; to lose.

Dygolliant, *sm.* loss; failure.

Dygoned, } *sm.* [coned] exaltation; glory;
Dygoniant, } celebrity, renown.

Dygorfod, *v.*=*Dyorfod.*

Dygosel, *sm.*=*Dyosel.*—*D.*

Dygospawl, *a.* [cosp] castigatory, punishing.

Dygospi, *v.* to punish, to castigate.

Dygospiad, -au, *sm.* castigation; a punishing.

Dygraffiad, -au, *sm.* [craff: cf. *argraff,* &c.] an impression.

Dygraffol, *a.* impressive, impressing.

Dygraffu, *v.* [dy-+craffu: cf. *argraffu*] to impress.

Dygraid, *sm.* [dy-+craid] passion.
Wyr Ywein uirein y auarwy
Pryffwn y *digreit* praff y ddirwy.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 301.

Dygraid, *a.* passionate; vehement.
Melys yu pechaud pan y herlyn *digreid*
Mor drum yr eneid yn yt eduyn.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 325.
Ef ae ryt yn rwyt eruynnyeid
Ef rywr ryweryd *digreid.*
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 285.
Drythyll pob *digraid.*—*Diareb.* (M.A. iii. 154.)

Dygrain, *a.* [crain] crawling, creeping.—*P.*

Dygrawn, *a.* [crawn, croni] accumulated, collected.—*P.*

Dygread, *sm.* [cread] a creating, creation.

Dygred, *sf.* [cred] credence, belief.—*P.*

Dygredol, *a.* inducing belief.—*P.*

Dygredu, *v.* to give credence to, to believe.
Ni'm cár rhianedd ni'm cynnired neb
Ni allav ddarymred
Wi o angau na'm *dygred*
Ni'm *dygred* na hun na hoen.
Llywarch Hen: M.A. i. 115 (A.B. ii. 261).
Brud gyt gelvydyt am kelvydo
Keluyd ny *dygret* a ddywetto.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326.

Dygreidio, *v.* [dygraid] to impassion.

Dygreidiol, *a.* impassioned; excited; exciting.

Dygreiniad, -au, *sm.* [dygrain] a crawling or creeping.

Dygreinio, *v.* to crawl or creep.

Dygreiniol, *a.* crawling, creeping.

Dygrëu, *v.* [creu] to create, to form.

Dygribo, *v.* [cribo] to disentangle, to extricate; to separate.
Y hela y moch yd aeth y kynnydyon yna oll. hyt yn Dyffryn Llychwr. ac y *digribywys* Grugyn Gwallt Ereint udunt.—*Mabinogion,* 139.

Dygronawl, *a.* accumulating; accumulative.

Dygroni (*ŏ*), *v.* [dygrawn] to accumulate; to increase.
A gwellwell o hynny allan y *dygrones* yn ovyn a charyat Duw.—*Buchedd Mair,* 16.

Digitized by Google

Dygroniad, -au, *sm.* accumulation.

Dygrwn, *a.* [crwn] round, rotund, circular.

Deu cann waew terrwyn torres bar *dygrwn*
Pan ysgwn esgores.—*Llywarch ab Llywelyn:* M.A. i. 284.

Dygrych, *a.* [crych] rumpled; wrinkled; puckered; curling; rippling.

Dagrau dros y grudd *dygrych*.—*Gr. Llwyd ab Dafydd.*

Dygrychiad, -au, *sm.* a rumpling, crumpling, or puckering; a wrinkling.

Dygrychol, *a.* tending to crumple, curl, or wrinkle; frizzling, crisping; rippling.

Dygrychu, *v.* [crychu] to wrinkle, frizzle, or curl; to crumple up; to ripple.

Dygryd, *sm.* [cryd] terror, dread, fear.

Dygrymiad, -au, *sm.* a bowing or bending.

Dygrymol, *a.* inclining, bending, bowing.

Dygrymu, *v.* [crymu] to bow, bend, or incline.

Dygryn, *sm.* [crŷn] tremulation; terror.

Mor a thir a llyn atfydd cyrn *dygryn*.
Taliesin: M.A. i. 89.

Dygrynoad, -au, *sm.* [dygrynoi] accumulation; availing.

Dygrynoawl, *a.* accumulative, accumulating.

Dygrynoi, *v.* [crynoi] to gather or collect together; to avail; to bring or come to a point.

Ac ny *dygrynoes* udunt namyn bychydic.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 92.

A gwedy na *dygrynoei* idaw hynny o dim, dygynnullaw llu a oruc.—*Brut y Tywysogion*, 290.

Ac eissoes ny *dygrynoes* hynny o dim udunt.
Ystr. Brcn. Bryt.: Ll.C.H. ii. 168 (cf. 45, 192).

A gwedy na *dygrynoynt* dim o hynny, mordwyaw a oruc Lowys y Freinc.—*Brut y Tywysogion*. 294.

Dygrynol, *a.* [crŷn] trembling, tremulous.

Dygrynu, *v.* [crynu] to tremble, quiver, or quake.

Dygrysiad, *sm.* a hastening, a hurrying.

Dygrysio, *v.* [crysio] to hasten, speed, or hurry.

Dygrysswys Flamdwyn yn petwar llu
Godeu a Reget y ymdullu.
Taliesin: A.B. ii. 189 (M.A. i. 53).

Llaw ar groes llu a *dygrysset*
A llad a lliwet a gwaetlet y lauyn
A gwaetliw ar giwet.
Hywel ab Owain Gwynedd: M.A. i. 276.

Dygrysiol, *a.* hastening, hurrying.

Dygu, *v.* [dwg] to bear; to convey, to carry. —*P.* This infinitive form is of rare occurrence. See *Dwyn*, *Dygyd*.

Yno y daeth yr Iesu allan yn arwain [*°dygu*, dwyn, gwisgo] coron o ddrain.—*W. Salesbury:* Ioan xix. 5.

Dyguchio, *v.* [cuchio] to scowl, to frown, to lower.

Dyguchia wybren ôd neu wlaw tros fro.
W. O. Pughe: C.G. ii. 517.

Dyguddiad, -au, *sm.* [cuddiad] a hiding; concealment; obscuration.

Dyguddio, *v.* [cuddio] 'to be concealing;' to conceal or hide; to obscure.

Dyguddiol, *a.* concealing, hiding; obscuring.

Dyguriad, -au, *sm.* a frequent beating; reverberation.

Dygurio, *v.* to light or come upon; to find. In the following quotation, the only known instance, the word may be a corruption of the variant *dywanu*.

Or deruyd colli peth rwg deu dyn yghyt, a *dyguriaw* [*al.* dywanu] or neill arnaw a mynu y damtwg, ar amdiffynnwr yn dywedut na dyly neb damtwg namyn perchennawc cwbyl yr da; kyfreith a dyweit gallu o honaw ef y damdwg.—*C.C.* ii. 98.

Dyguro, *v.* [curo] to beat frequently; to reverberate; to palpitate.

Dygurol, *a.* beating; reverberatory.

Dygwd, *v.* [dwg] to toil, to strive hard.—*P.*

Dygwydd, -ion, *sm.* [dy-+cwydd: see *Cwyddo*] 1. a fall, a lapse; that which happens, befalls, or occurs; a chance; a casualty; an accident; an event; a contingence; an occurrence; an incident; a circumstance.

Wrth hyn o *ddygwydd* y gwelir mai serch ar degwch a mwynder rhieinaidd yw hud mwyaf ar wr.
Iolo Mss. 179 (cf. 223).

A glywaist ti chwedl Cyfarwydd
A weles lawer *dygwydd*?
Gwell crefft nag arllawd arglwydd.—*Iolo Mss.* 259.

Mi a ddywedais yn fy nghalon . . . fod *dygwydd* meibon dynion fel *dygwydd* yr anifeiliaid, yr un *dygwydd* sydd iddynt.—*Esgob Morgan:* Preg. iii. 18, 19.

Yr ydys yn myned â hwy oddi wrthyf trwy afiwyddiannus *ddygwydd*, a thrwy fursenod ffeilston.
Ed. James: Hom. iii. 143.

Efe gyntaf a drefnodd farchogion er cynnal cyflawn ymddwyn mewn rhyfel, ac iawn ymarfer ag arfau, ac er cadw golwg ar wlad a gelyn, a threfnu hysppysiad cyflwyr mewn gwlad o bob cyflwr a *dygwydd*, herwydd rhyfel a chyfraith.
Iolo Mss. 11.

Adda oedd yn sefyll yn y cyfryw gyflwr ag y gallai syrthio, fel y dengys y *dygwydd*. . . O ran yr ordinhâd, neu'r *dygwydd*, Adda a bechodd o anghenrhaid.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 320.

Gan alw *dygwyddion* gorbwysig eu nodwedd,
A gaed arnat unwaith mewn bri a rhwysgfawredd.
I. G. Aled: Palestina, 17.

Dygwydd a dichwain, incident and event.

Tri gwaranred gwybodaeth ar Dduw: ymbellâu oddi wrth bob drwg; ymnesâu at bob daioni; ac ymfoddloni yn amyneddgar ym mhob peth o'r byd a fytho, ym mhob *dygwydd a dichwain* bywyd.—*Barddas*, i. 336.

Dygwydd a damwain, chance and accident.

Trwy ddygwydd a damwain, by chance and accident; fortuitously, accidentally.

Y mae dull tra pherffaith, sef gosgeddlun cwmpasgrwn y byd, a'i ranau yn amgylchynedig megys ym mynwes y ffurfafen . . . yn goleufynegu nad *trwy ddygwydd a damwain* y cydymgyrchodd y pethau hyn. . . Gan wybod o'r goreu nad oedd fodd i'r fath bethau ddyfod *trwy ddygwydd a damwain*.—*Edward Samuel:* Grotius, i. 7.

Olrhain ei ddygwydd, to try or follow one's chance or fortune.

Hywel, wedi cyrhaedd oedran gwr, a chwennychodd ymadael â thŷ ei dad, ac *olrhain ei ddygwydd* ar glawr byd.
Iolo Mss. 170.

O ddygwydd, by chance or accident; accidentally.

O wir ddygwydd, by mere chance or accident.

Clefyd dygwydd,
Haint dygwydd,
Clwyf dygwydd,
} the falling sickness, epilepsy.

Rac y *cleuyt dygwyd*. lloec gorn gauyr. a gellwng y uwc am benn y dyn.—*Meddygon Myddfai*, i. 54.

Rac yr *heint dygwyd*: llad gi ac heb wybot yr dyn. dot y bistyl yn y eneu.—*Meddygon Myddfai*, i. 148.

Rhag yr *haint dygwydd*, a elwir y ffalmygwst, ac yn y Lladin epilepsia.—*Meddygon Myddfai*, ii. 235 (cf. 796).

Y *clwyf dygwydd*, & Clwyf Tegla, Morbus caducus.
Dr. Davies, s.v. 'Clwyf.'

Digitized by Google

2. a case (in grammar).

Et primo de Casu, *dygwydd*, dychwyl, cwympod.
Dr. Davies: Rudimenta (1621), 28.

3. that which falls or comes (somewhat unexpectedly) to a person; an unexpected legacy, a windfall.—*C.S.*

Dygwydd, *v.*=*Dygwyddo.*

Dygwyddadwy, *a.* that may happen, chance, fall, or befall.

Dygwyddai, eion, *sc.* one to whom anything falls; a sovereign.—*P.*

Dygwyddedig, *pt.a.* fallen; befallen; lapsed; happened; eventual.

Os brawdwr a odef gwystyl yn erbyn y varnn yn tagneuedus heb rodi gwrthwystyl yna *dygwydedic* vyd y varnn.—*C.C.* i. 400 (cf. ii. 122).

Gan sathru tan draed dymmestloedd pob damwain *dygwyddedig.*—*Iago ab Dewi:* Llonyddwch, 13.

Dieifl dygwyddedig, fallen devils; fallen angels.

Aphiliws a dywaid pan draetho o Duw ac or seint. bot y ryw genetyl ysbrytion yn preswyliaw rwg y lleuat ar dayar. ar rei hynny a alwn ni yn *deivyl dygwydetic.* ar rei hynny rann fyd onadynt o anyan dynyon a rann arall anyan agylyon.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 259.

Dygwyddedigaeth, -au, *sf.* the act of falling or going down; a setting; a fall.

Kenadeu y dathoedynt attaw y venegi *dygwydedigaeth* y brenhin.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 173 (cf. 190).

Dygwyddedigaeth yr haul, the going down or setting of the sun, sunset.

Brutus a dan *dygwydedygaeth yr heul* tros mor Ffreyne y mae ynys yn yr eygyawn a wu kyvanhed gynt gan y kewry.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 103.

Ac or diwed gwedy trosi *yr heul* ar i *dygwydetigaeth,* achubeit mynyd mawr oed en agaws udunt a gwnaethant e Saeson.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 306.

Dygwyddedigol, *a.* contingent; eventual.

Dygwyddiad, -au, **Dygwyddiant,** iannau, } *sm.* a falling; a befalling; an occurrence, an event; a casualty; an accident; that which happens by chance or accident; a circumstance.

Tri pheth a ddwg ar ddyeg i ddyn yr hyn a wna les iddo: ei synwyrau; ei syniadau; a'i *ddygwyddiadau.*
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 233.

Y cyntaf o honynt ar bob *dygwyddiad* oedd yn parhau i fod yn un gwr.—*Iago ab Dewi:* Llonyddwch, 13.

I ysgafnhau fy meddyliau llethedig, cymmeraf olwg ar gylchdroiad *dygwyddiadau.*
G. Mechain: Gwaith, ii. 37 (cf. 306, 311, 494).

Yr hen ysgrifenwyr hybarch, a thadau eglwysig, Athanasius ac Eusebius, a ddywedant i Ioseph a Mair fyned ar ryw *ddygwyddiant* i fewn teml fawr un o'r gau ddduwiau Aiphtaidd, gan ddwyn y plentyn Iesu gyda hwynt.
Gwyliedydd, ii. 12.

Graddolir y dargrybwylliadau gan ddwysder yr argraff a wna unrhyw *ddygwyddiad* ar y meddwl.
Adolygydd, i. 315.

Dygwyddiadau bywyd, the occurrences of life.

Dygwyddiad drwg a ddaeth iddo, a bad accident came to him; a misfortune befell him.

Dygwyddiadol, *a.* accidental, incident, incidental, casual; contingent.

Yr ydys yn cyfarfod ynddynt â math o gyssonderau *dygwyddiadol* na buasai awdwyr ffugiol byth yn ysgrifenu yn y fath fodd ag i'r cyfryw gyssonderau ddygwydd yn eu hysgrifeniadau.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 175 (cf. 16, 41, 223).

Ni ddeilliaw y gallu yma oddi ar osodiad traws-arglwyddiaethol na *dygwyddiadol.*—*J. Pryce:* Eglwys Foreuol, 84.

Dygwyddiadoldeb, *sm.* accidentalness, incidence, contingency.

Dygwyddo, **Dygwydd,** } *v.* 1. to fall; to fall down; to lapse; to drop.

Trannoeth y bore ef a gychwynnawd ae nifer ac a doeth y dyffrynn auon a *dygwyd* y Ruuein.
Mabinogion, 82 (cf. 118, 125, 289).

Ac o bop parth y *dygwydynt* yn lladedic mal y *dygwydei* deil gan wynt hydref.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 90 (cf. 91).

Dygwydaw an gwyr ny penn o draet.—*Aneurin:* God. 773.

Pan welas Agamemnon *dygwydaw* y rei pennaf a chadarnaf or tywyssogyon. peidaw ac ymlad a wnaeth.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 90 (cf. 92).

Ym pen y mynyd llwyn o coll tew a oed. ac yno y floes Kaswallawn ae wyr gwedy y *dygwydaw* yn y ran wannaf or ymlad.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 183.

A phan welas ef Enit. y *dygwydawd* yn varw yr llawr y ar y uarch. Diaspat athrugar aruchel didaweldost a dodes Enit. a dyuot uch y benn lle y *dygwydassei.*—*Mab.* 268.

Ac wynt a welynt y mellt yn *dygwydaw* yn y castell yn annat lle . . . ac ual y gwelynt wy yn hyspys bot hanner y kastell gwedy *digwydaw.*—*St. Greal,* ‖ 60 (cf. 14, 29).

O deruyd y dyn kerchy guystyl am e hyd ar oet guestel a *dyguydho* ny dele nep y roy namen ar oet huystyl hyd a guystyl hyd ny *dygwyt* hyd kalan gayaf.
C.C. i. 330 (cf. ii. 304, 340, 510, 632, 634, 640).

Sef a wnaeth hithau yna *dygwydaw* yr llawr a llewygu.
Bown o Hamtwn, ‖ 24 (cf. 4).

Ebediw gwr briw braw *dygwyt.*
Cynddelw: M.A. i. 257 (cf. 278, 298, 304).

Eneideu y pechaduryeit a *ddygwyddynt* ynddi.
Breuddwyd Pawl, ‖ 2.

Pryfet o nef a *dygwydawd* ar weith gwad a deu dant y bop un.—*Brut y Tywysogion,* 16 (cf. 42, 44, 46).

Ac ar yr auon honno yd oed bont yd aei yr eneideu kyfyawnn idi yn didramgwyd. ac eneideu y pechaduryeit a *dygwydynt* yndi.—*Llyfr Ancr,* 152 (cf. 109, 145, 154).

Ac yn diannot y *dygwydod* yn varw.—*Buchedd Mair,* ‖ 25.

Yr hynny ny thawei yny *dygwydwys* kyngu arnei.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 51 (cf. 173).

O rod Duw a gwedi Iago y *dygwydawd* y muroed oc eu grwndwal.—*Yst. de Carolo Magno,* 382 (cf. 384, 420).

Ac yna y *dygwydawd* amgylch seith ugeinwyr o teulu Grufud drwy dwyll gwyr Ystrat Tywi.
Brut y Tywysogion, 42 (cf. 40, 54, 62).

Dail a *ddygwydd* bob blwyddyn,
Dis a'i dwyll, ydyw oes dyn.
L. G. Cothi (Flores Poet. Brit. 15).

Ar pryuet a *ddygwydant* yn y dwfyr rac gwres y ganhwyll.
Meddygon Myddfai, i. 52.

A *dygwydaw* y gwr ar vlaen y cledeu yny aeth y cledeu trwy y gallon.—*Bown o Hamtwn,* ‖ 18.

Ac fal hyny y *dygwyddawdd* dial Duw arnaw am ei frad.
Iolo Mss. 198.

Y neb a galedo ei galon, a *ddygwydda* i ddrwg.
Diar. xxviii. 14.

Gwell a fyddai gan y naill blaid guddio eu cyfoeth mewn ogofëydd a llochesau, nag iddo *ddygwydd* i ddwylaw y blaid arall.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 42.

Dygwydd i lawr, to fall down.

A phan welawdd Simon Petr hyny, e *ddygwyddawdd* [*syrthiawdd] *i lawr* wrth liniau'r Iesu.
W. Salesbury: Luc v. 8.

A phan y gwelawdd ef, y *dygwyddawodd i lawr* wrth ei draed.—*W. Salesbury:* Marc v. 22.

Dygwydd i'r llawr, to fall to the ground.

A redec tu ar pen arall yr ty. a thynnu y llein. yn y *ddigwydd yr llawr* a oedd arnaw o vwyt.
Doethion Rhufain, ‖ 40.

Ac yn y gyfeir y *dygwydawd* y gwnaet *yr llawr* yd ymdangosses ffynnyawn.—*Llyfr Ancr,* 109.

A tharaw Bown ar uon y glust. yny *dygwydawd* ynteu *yr llawr.*—*Bown o Hamtwn,* ‖ 18.

Dygwyddo ar liniau, *Dygwyddo ar ddeulin,* } to fall on the knees; to kneel.

Yny *dygwydawd* y meirch *ar* eu *glinyeu.*
Mabinogion, 283 (cf. 79).

A gossot ar y marchawc yg gwarthaf y benn. . . Yny *dygwyd* y marchawc *ar y deulin.*—*Mab.* 255.

Digitized by Google

Brysyaw a oruc hyt y lle yd oed Wlkesar a *dygwydaw ar* tal *y lynyeu* a oruc rac bron yr amherawdyr.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 185.

A *dygwydaw ar* dal *y deulin* y adoli y draet yr Arglwyd.
Llyfr Ancr, 85.

Dygwydd mewn clefyd, to fall sick.

A dyn a dylyir y aghennv y gynifer gweith y *dygwydo y mywn clwyf* periglus.—*Llyfr Ancr*, 145 (cf. 109).

Dygwyddo mewn brwydr, to fall in battle.

Erchis Chyarlys y Duw menegi idaw y neb a *dygwydei yn y vrwydyr* honno oe wyr ef.
Yst. de Carolo Magno, col. 398.

Dygwyddo mewn pechod, *Dygwyddo i bechod*, } to fall into sin.

Kystal yw hynny a dywedut . . . na allei *digwydaw* vyth *y mywn pechawt*.—*St. Greal*, § 13.

Dygwydded y ddadl, let the suit drop.—*C.C.* i. 426 (cf. 546).

Ei farn a ddygwydd, his judgment falls (to the ground).—*C.C.* i. 402.

2. to fall or descend; to devolve.

A gwedi *dygwydd* cyfoeth iddo, efe a wnaeth iawn i bawb am yr aniawn a wnaethai ef iddynt.—*Iolo Mss.* 172.

Dyro i mi y rhan a *ddygwydd* o'r da.—*Luc* xv. 12.

3. to cause to fall or stumble.

Cronell a wnaeth y Crinwas,
Cyff draw yn *dygwyddaw* gwas.
Dafydd ab Gwilym, ccliii. 37.

4. to go down or descend (as the sun), to set.

Doe y kyuodes yr heul yn y dwyrein. ac y *dygwydwys* yn y gorllewin.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 404.

5. to befall, to happen, to chance, to fall out, to occur, to come to pass, to take place. (Now the more usual sense.).—*C.C.* i. 546.

Heb law y pethau sy yn *dygwydd* oddi allan.
Esgob Morgan: 2 Cor. xi. 28.

Tri amryson a *ddygwydd* ar farwolaeth traws cadarn.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 206.

Ni wyddost pa ddrwg a *ddygwydd* ar y ddaiar.
Esgob Morgan: Preg. xi. 2 (cf. 8; viii. 13).

Nac ymffrostia o'r dydd y fory: canys ni wyddost beth a *ddygwydd* mewn diwrnod.—*Diar.* xxvii. 1.

A hyn o achos y drygioni a *ddygwyddes* yn ei oes ef, drwy ymroi i ddrwg ac anghyfraith a fleiddwch annwyfol.
Iolo Mss. 13.

Nid oes dim yn *dygwydd* yn hyn o fyd onid yw Duw yn gwybod oddi wrtho.—*Theo. Evans:* Pwyll y Pader, 140.

Mae Cornelius Nepos yn dywedyd am Cicero, fod ei ddoethineb yn gymmaint, fel ag y rhagddywedodd nid yn unig yr hyn a *ddygwyddodd* yn ei amser ef, ond yr hyn hefyd ag oedd yn *dygwydd* lawer o amser ar ol ei farwolaeth ef.—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 20 (cf. 15).

Dygwyddol, *a.* falling; befalling; eventual; fortuitous; contingent; accidental, incidental.

Mae dangosiad y tristwch hwn yn amryw yn y naill ddyn ragor y llall, yn ol tymmer y corff, yr oedran, y rhyw, amgylchiad y weithred, yr annogaeth i dristwch, trwy amryw *ddygwyddawl* feddalwch.
Elis Wynn: Rh.B.S. 239 (cf. 210).

Nid y bai hwn yn unig, eithr pob rhyw lygredigaeth a'r sydd *ddygwyddol* i natur ddynol.
Ch. Edwards: H. y Ffydd, 182.

Dygwyddolion, accidentals, incidentals; incidents.

Nis gellir olrhain hanfod ddim pellach nag ef ei hun, er yr amlygir ef yn ei ansoddau a'i *ddygwyddolion*.
J. Pryce: Eglwys Foreuol, 411.

Dygwyl, -iau, *sf-m.* [dyw (=dydd) +gwyl] a feast or festival; a commemoration-day; a holiday.

Dyvod y dywededig Ieuan ddyw Sul nesav wedi *digwyl* yr Holl Saint diweddav ar a vu yn y vlwyddyn hon.
Cyfreithiau Cymru, ii. 470 (cf. 466).

Lladdasant ddeng mil o honynt ar *Ddygwyl* Bartholomëus yn 1521.—*Charles Edwards:* H. y Ffydd, 161.

Dygwyl y Meirw, All Souls' Day=Nov. 2.

Cymmydog a ofynodd i mi, a welswn i yr eneidiau yn griddfan tan yr allor, ar *Ddygwyl y Meirw*.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 37.

Dygwyl Fair, the Festival of St. Mary.

Troi a wn yno trwy Winionydd,
Tair llys yw ei gwrt i'r lliosydd;
A thair *Dygwyl Fair* yno a fydd,
Tri Phasc, tri Sulgwyn, fal pwynt o'r ffydd.
L. G. Cothi, iii. i. 33.

Ar *Ddygwyl* Genedigaeth *Mair* Forwyn Fendigedig.
Allwydd Paradwys, 368 (cf. 357, 359, 363, 367, 368, 374).

Dygwyl Ieuan, *Dygwyl Iwan*, *Dygwyl Ifan*, } St. John's Day, usually St. John the Baptist's Day (=June 24).

Doe gwelais ddyn lednais lân,
Deg o liw, *Dygwyl Ieuan*.—*Dafydd ab Gwilym*, xxv. 1.

Dygwyl Iwan yr Haf, St. John's Day in Summer (=June 24): so called to distinguish it from St. John the Evangelist's Day in Winter (=Dec. 27), or *Dygwyl Ieuan Ebostol*.

Nit amgen vod no dyuot y rac dywededic Maredud yna *digwyl Ieuan* o vewn wythnos y Nadolic.—*C.C.* ii. 466.

Ef aeth y wraig i ymgynghori i Dŷ y Brodyr Pregethwyr, ac i ymddiddan â'r Prior oedd wr da, ar *Ddygwyl Ieuan* Ebostol yng ngwyliau y Nodolig.
Hanes Gwidw (Brython, iii. 241).

¶ In some parts of the Principality the Biblical form *Ioan* becomes *Iwan*, and in others *Ifan*, in connection with holidays and the names of Churches.

Dygwyl y Grog, Holy Cross Day=Sept. 14.

Ar *Ddygwyl* Dyrchafiad *y Grog* Sanctaidd.
Allwydd Paradwys (1670), 369.

Dygwyl Mabsant, a patron-saint's day; a wake.

Dygwyl mabsant holl Degeingl,
Digil glod angel gwlad Eingl.—*Iolo Goch.*

Dygwyl Gewydd, St. Cewydd's Day = St. Swithin's Day=July 15.

Mewn llawer man yn y Dywysogaeth gelwir y pymthegfed dydd o fis Gorphenaf *Dygwyl Gewydd*.
Brython, ii. 153.

Cewydd ab Caw was a saint who flourished in the early part of the sixth century, and is the reputed founder of the Churches of Llan Gewydd in Glamorganshire, and of Aberedwy and Dyserth in Radnorshire.

Gwlad Frychan am Forgan fydd
Ail i *gawod Wyl Gewydd*.—*L. G. Cothi*, i. ii. 9.

It is not known how Cewydd came to be regarded as the rainy saint of Wales, like St. Swithin of England, as no legend on the subject has come down to our time; but the name *Cewydd* (as if connected with *cawad* or *cawod*) may possibly have helped to give him that distinction. In *Iolo Mss.* 152, the first of July is called *Gwyl Gewydd y Glaw;* probably an error for the second of that month; for it was on the *second* day of July (A.D. 862) that St. Swithin died, the 15th being the day of his translation. In a Ms. in the British Museum, the day given is the second of July. In some districts the 14th of July is considered to be St. Cewydd's day.

Trannoeth y dygwyl, *Trannoeth wedi'r dygwyl*, } a day after the fair; too late.

Dygwymp, *sm.* [cwymp] a fall, a lapse.—*P.*

Dygwympiad, **Dygwympad**, } -au, *sm.* a falling or lapsing; a tripping.

Dygwympo, *v.* to fall often; 'to be falling.'

Dygwympol, *a.* apt to fall; tending to trip up.

Dygychwyn, *sm.* [cychwyn] a starting; a setting off.

Digitized by Google

Dygychwyn, *v.* to begin a course, motion, or journey; to be moving; to set or move off; to start.

Dygychwyn gennad gan vawrrydic—*doryf*
Y deruyn Keredic
Dywan ar wyllt ar wallt pic
Dywed y down Benwedic.—*Owain Cyfeiliog:* M.A. i. 267.

Dygychwyn gennat ar vreint keinyat kall
Ath dyall ath dyat.—*Llywarch Llaety:* M.A. i. 417.

Dygychwyniad, -au, *sm.* a starting or setting off.

Dygychwynol, *a.* tending to put in motion or to start off; starting.—*P.*

Dygyd, *v.* [dwg] to bear; to convey, to bring; to carry; to take away.—*P.* *Dygyd* is not found in the infinitive, except occasionally in recent writers; but all the tenses, except *dug*, are formed either from it or from the future *dwg*. See *Dwyn*, the usual infinitive.

Hwn sydd un o beiriannau cyssefin gyda pha rai y ceisier wastadoedd er mwyn *dygyd* dyfrlleoedd tuag at ddyfriad.
W. O. Pughe: C.P. 31.

Pan ganfydder Gwener gain
Yn agor dor y Dwyrain,
A'r huan eirian yn awr
Yn *dygyd* o'i blaen deg-wawr.
D. Silvan Evans: Blodau Ieuainc, 25.

Os myni di drwyddhâd,
Dy *ddygyd* yno buan gallaf fi.
W. O. Pughe: C.G. ix. 604.

Mi a *ddygum* Heon i lawr glyn Ebron.
Taliesin: M.A. i. 19.

A *ddygo* yr wy a ddwg a fo mwy.—*Diareb.* (M.A. iii. 146.)

Nid da'r moliant corfforawl
A *ddyco'*r enaid i ddiawl!—*D. ab Gwilym*, cxlix. 33.

Yr hwn a ddaeth gyda hi i Gymru, ac un oedd ef a *ddygwyd* i'r ffydd yng Nghrist, ac yn unwedd ei wraig Eurgain a *ddygwyd* i'r ffydd; a hi gyntaf a *ddygodd* wybodaeth o'r ffydd i blith y Cymry.—*Iolo Mss.* 7.

Na ffrostia ynot dy hun, canys *dyga* dremyg arnat.
W. O. Pughe: E.D. i. 5.

Dygydfod, *sm.* [cydfod] accordance, agreement, accord.

Dygydfod, *v.* to accord, to agree.

Dygydd, -ion, } *sm.* a bearer; one who brings,
Dygwr, wyr, } carries, or conveys.

Y mae'r cyfryw athrodwyr, dadyrddwyr segurllyd, a *dygwyr* newyddion siaradus, yn aml iawn ym mhob lle yn y byd.—*Iago ab Dewi:* Llonyddwch, 168.

Ceisiodd genyf brofi'r cwpan:
Tybiais innau—'Nis gall ddim
Mai y llencyn hwn yw *dygydd*
Rhoddion prid yr ellyll ím.'—*D. Silvan Evans.*

Dygyfalhâd, *sm.* assimilation.

Dygyfalhau, *v.* [cyfalhau] to assimilate.

Dygyfarfod, -au, *sm.* a coming together, a meeting; a convention.

Dygyfarfod, *v.* to be meeting; to meet.

Dygyfarfodawl, *a.* tending to meet together or assemble.

Dygyfarfodiad, *sm.* a meeting together, a congregating; a meeting.

Dygyfarth, *v.* [cyfarth] to bark; to keep barking; to bait.

Dygyuarth pob parth ef porthes.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 284.

Adgofio, a *dygyfarth*,
Pob darn o'u gwyr-farn i'w gwarth.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 116.

Dygyfarthiad, -au, *sm.* a barking; a baiting.

Dygyfarthol, *a.* barking; baiting.

Dygyfarwyddo, *v.* to direct or guide; to lead on; to inform. See *Dychyfarwyddo*, the form which actually occurs in the quotation which Pughe gives under this word.

Dygyfeiriad, -au, *sm.* a direction.

Dygyfeirio, *v.* [cyfeirio] to direct; to move or to come towards; to meet together.

Dygyfeiriol, *a.* directing, directory.

Dygyferbynied, } *v.* [cyferbyn] to oppose,
Dygyferbyniaid, } withstand, or resist.

Mi ath wediaf yny warandewych di llef dy law vorwyn val na del ym herbyn neb ryw veddyant diawl. ac na welwyf ysprydoed y tywyllwch yn *dygyuerbynnycit* ym.
Llyfr Ancr, 80.

Dygyfiad, -au, *sm.* equalization; a making or becoming equal.

Dygyfio, *v.* [cyfio] to equalize; to make or become equal.

Dygyfiol, *a.* equalizing.

Dygyflwyn, -ion, *sm.* [cyflwyn] the act of coming to or approaching.—*P.*

Dygyflwyn, *v.* to come towards, to meet.—*P.*

Llwrw milueirt milueirch *dygyflwyn*
Llwybyr molyant metyant met ankwyn.
Cynddelw: M.A. i. 227.

Dygyfnesu, *v.* [cyfnesu] 'to be approaching,' to approach, to draw near.

Ni *ddygyfnesais* i ar fy ngwraig drwy bechawd.
Hanes Adda. (*P.*)

Dygyfodi, *v.* to raise; to rise; to be rising.

Dychyuyd glewyd glew hyder
Dychyfry foesawd fwyr gnawd fer.
Cynddelw: M.A. i. 228.

A *dygyfod* clod cledyf difri
Yn seith ugein ieith wy feith foli.
Gwalchmai: M.A. i. 197.

Neu *dygyvyd* Llew llawn gwrhydri.—*Gro. Owain*, 129.

Dygyfodiad, -au, *sm.* a raising up or uplifting; an uprising.

Dygyfor, -ion, *sm.* [dy- + cyfor] 'the rising of the sea in waves and surges;' the noise of waters; a rising or swelling; tumultuous agitation, tumult, insurrection, commotion, turbulence; agitation; a multitude, a throng.

Gouyn a oruc yr melinyd py achaws yd oed y *dygyuor* hwnnw yno.—*Mabinogion*, 229 (cf. 63, 67, 73, 284).

Ac ar hynny nachaf *dygyuor* o wynt a glaw hyt nat oed hawd y neb vynet yr anghenedyl.—*Mab.* 146.

Yna y kymerth y swllt ae drysor ar kestyll ar kaeroed ar dinassoed kadarn yn y vedyant ehun gan venegi yr brenhin bot *dygyfor* lluyd am eu penneu or ynyssoed.
Ystr. Bren. Bryt.: LL.C.H. ii. 128.

A milltir y wrth y ryt o pob tu yr ffordd y gwelynt y lluesteu ar pebylleu. a *dygyuor* o lu mawr.
Mabinogion, 148 (cf. 1, 12, 297, 229).

Trydyd *dekyvor* a aeth o'r enys honn wu hwnn.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 218.

Gnawd gwynt o'r môr gnawd *dygyvor* llanw.
Llywarch Hen: M.A. i. 129.

Dygyuor y wlat ar kyuoeth a doeth attunt or gwyr goreu ar gwraged goreu.—*Mabinogion*, 17.

Dor ior *dygyvor* da gyved enwawc
Deifnyawc oed Vadawc vynawc voned.
Casnodyn: M.A. i. 426.

Twrdd ac anferth fyrferthwy,
Dygyfor ni fu fôr fwy.—*Gronwy Owain*, 91.

Ym mhlith y fath *ddygyfor* ac ansicrwydd, mor resynol yw'r cyflwr, yr hwn nid oes ganddo un angor yr enaid yn gadarn a safadwy!
D. Williams: Myfyrdodau Hervey, 297.

Dygyfor, } *v.* to rise in waves and surges; to
Dygyfori, } surge; to rise up; to be boisterous;
Dygyforio, } to swell; to wave up and down; to make a commotion, tumult, insurrection, or great noise; to come in crowds, throngs, or large masses; to overwhelm; to deluge or inundate; to raise, to agitate, to excite.

Digitized by Google

Hygyrchaf lle yn y gyuoeth oed Gaer Llion y ar uor ac y ar dir. a *dygyuor* a oruc attaw naw brenhin coronawc.
Mabinogion, 244.

Minheu a baraf heb ef kany ellir heb hynny *dygyuori* Gwyned a Phowys a Deheubarth y geissaw y uorwyn.
Mab. 60 (cf. 79, 246).

Ac auory wynt a *dygyforant* am dy penn. ac ath ladant.
Mabinogion, 217.

Yna *dygyuoryaw* Gwyned a wnaethant. a chyrchu Ardudwy.—*Mabinogion*, 79.

Yny vlwydyn honno y *dygyvores* Willim Goch vrenhin anneirif o lu yn erbyn y Kymry.
Brut y Saeson: M.A. ii. 530 (cf. 568).

Dygyuarth pob parth ef porthes
Dec am vn ef *dygyuoryes*.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 284 (cf. 129, 197, 203).

Dygyfor y digofaint,
Dan ei fron, a dwyn ei fraint.
Dafydd ab Gwilym, cxxvii. 19 (cf. cviii. 1).

Pwy yw hwn sydd yn ymgodi fel afon, a'i ddyfroedd yn *dygyfor* fel yr afonydd? Yr Aipht sydd fel afon yn ymgodi, a'i dyfroedd sydd yn *dygyfor* fel yr afonydd.
Ier. xlvi. 7, 8.

Y rhai anwir sydd fel y môr yn *dygyfor*, pan na allo fod yn llonydd.—*Esa.* lvii. 20.

Mae'n wag yr ysgubor, y maes yn ddidrysor,
A'r môr yn *dygyfor* digofaint.
Edward Richard: Bugeilgerdd, ii. 51.

Dan *ddygyfor* y torant,
Yn wyllt'on wreichion yr ânt.
Dafydd Ionawr, 49 (cf. 162).

Dygyforawd, } *sm.* a rising or swelling up;
Dygyforiad, -au, } an overwhelming; commotion, tumult.

Dygyforiol, *a.* tending to rise or swell up; overwhelming.

Dygyforth, *sm.* [dygyfor ?] an overwhelming; an overflowing; inundation.

Eny llas Madawc mur *dygyuorth* uar
Meu auar car kynnorth
Oet anwas cas cad ehorth
Oet anwar par yn y porth.—*Cynddelw:* M.A. i. 225.

Dygyfranc, *sm.* [cyfranc] a connection or dealing with; interposition.—*P.*

Dygyfranc, *v.* to interpose; to have dealing with.

A dygyfor Lloegr a *dygyfrang* a hi
Ac en dygyfwrw yn astrussi.
Gwalchmai: M.A. i. 197 (cf. 57; A.B. ii. 191).

Dygyfwriad, *sm.* condemnation; a casting.

Dygyfwriol, *a.* condemnatory; casting.—*P.*

Dygyfwrw, *v.* [dy- + cyfwrw] to condemn; to cast.

Dilyw a dyfu dydbrawd a dyfi
I dygyfor gynne
Y *dygyfwrw* enwir yn enwerys goll
Y' nghyllestrig dande.—*Gwalchmai:* M.A. i. 203 (cf. 197).

Dygyfysgi, *sm.* [cyfysgi] confusion; confusedness; tumult.

Dyrchafawd draig ffawd ffaw'u peri
Gwrdd Cynan faran o lan Teifi
Gwnahawd am Ddyfed *dygynysgi*
Bid iddaw yn aelau eilon ynddi.
Myrddin: M.A. i. 137 (A.B. ii. 26).

Dygyfysgiad, -au, *sm.* a confusing; confusion, disorder.

Dygyfysgu, *v.* to be in commotion, agitation, or tumult; to be agitated; to confuse.

Trwy yr hyn amser yr holl chwydiadau o fwg, fflam, a cherryg tanllyd a yrid allan o'r ffwrnais ar y llaw aswy yn unig, tra yr oedd y chwydedd danllyd o'r ffwrnais arall yn *dygyfysgu*, yn dygyfori, ac yn berwi drosodd.
Trysorfa Gwybodaeth (1770), 38.

Dygyffro, } *sm.* [cyffro] agitation, emotion;
Dygyffraw, } disturbance.

Dygyffroad, -au, *sm.* a disturbing; agitation, emotion.

Dygyffroawl, *a.* agitative, disturbing.

Dygyffroi, *v.* to agitate, to disturb.

Dygyngwedd, *a.* [cyngwedd] complying; submissive.

Oed *dygyngwed* Eingl oed digyngor Lloegr
Llu Prydain yn ymatgor.—*Cynddelw:* M.A. i. 205.

Dygyngweddiad, *sm.* a complying; submission.

Dygyngweddu, *v.* to comply; to submit.

Dygyhoeddi, *v.* [cyhoeddi] to publish; to make public.

Pompinion . . . a atebai ac a ddywed nad oedd ef mor wyllysgar i gelu cynllwyn ag oedd ef i *ddygyhoeddi*.
Marchog Crwydrad. (*P.*)

Dygyhoeddiad, -au, *sm.* a publishing; a publication; a proclamation.—*P.*

Dygyhoeddol, *a.* tending to publicity; apt to become public.—*P.*

Dygyhysed, *a.* [cyhysedd] used to contention; contentious.—*P.*

Deon a yrreis *dygyhyssed*
Diarswyd ar vrwydyr arvau goched
A rygotwy glew gogeled ragtaw
Gnawd yw oi dygnaw devnyt coted.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 265.

Dygylchedig, *pt.a.* surrounded, encompassed.

Dygylchiad, -au, *sm.* [cylch] a surrounding or encompassing.

Dygylchol, *a.* surrounding, encompassing.

Dygylchu, *v.* [cylchu] to surround, encompass, or encircle; to hem in.

Deg-oes i'r do a'i *dygylch;*
I'r tair Gwent, a'r tir o gylch.—*T. Derllysg.*

Dygylchyniad, -au, *sm.* a surrounding, encompassing, or circumscribing.

Dygylchynol, *a.* surrounding, encompassing, circumscribing.

Dygylchynu (*ȳ*), *v.* [cylchynu] to encompass, surround, circumscribe, or encircle.

Mi a *ddygylchynais* y ddaiar, ac a rodiais lawer o lecedd teg ardderchawg, ym mhlith amryfeilon lyseuoedd safwyrber a ffrwythau melus; eithr ni welais er moed le mor ddigrif, mor esmwyth a hwn (am y domen).
Dammegion (Y Greal, 325).

Dygyllaeth, *sf.* [cyllaeth: cf. *argyllaeth*] separation, 'a parted state; anxiety for absence;' longing, grief, depression.

Gnawd erof hiraeth a *dygyllaeth* [*al.* edgyllaeth] echen
Ac uchenaid fore.—*Gwalchmai:* M.A. i. 203.

Dygymhell, -ion, *sm.* [cymhell] an impulse or instigation.

Dygymhell, *v.* to instigate, urge, or press.

Y gwr a volaf gwir ogonet
Ny wnaeth na gwaeth na gwythlonet
Namyn o bell *dygymhell* gwell gwiryonet.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 273.

Dygymhellawl, *a.* instigating; urgent.

Dygymhelliad, -au, *sm.* instigation; a proposing or offering.

Dygymhwyll, -ion, *sm.* reason; argument.

Hanbwyll *dygymmwyll* a gymery.
Dafydd Benfras: M.A. i. 309.

Dygymhwyllo, *v.* to reason; to persuade.

Dygymmeriad, *sm.* [cymmeryd] acceptation.

Dygymmeryd, *v.* to accept; to receive; to take.

Dygymer pob ner pob nwythas deyrn
Duw o nef yth swynas.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 300 (cf. 292).

Digitized by Google

Dygymmod, -au, *sm.* an agreement, league, or covenant; reconciliation; atonement; agreement, settlement, arrangement.

A thygu y mae na byd un *dygymot* yrom heb hynny. na bywyt y minneu.—*Ystat. de Carolo Magno*, col. 470.

Ot adef enteu er eturyt ar *dygymot* tryccer arnau. *C.C.* ii. 152 (cf. 106, 416, 572, 624, 648).

Yr hon [ffydd] a gaffant ei gweled wedi ei chadarnhau drwy eiriau Crist ei hun, ysgrifenadau'r Apostolion, tystiolaeth yr hen Dadau Catholig, a *dygymmod* llawer o oesoedd.—*Morus Cyffin:* Diff. i. 17.

I ba rai y perthyn y mabwysiad, a'r gogoniant, a'r *dygymmodau*, a dodiad y ddeddf, a gwasanaeth Duw, a'r gaddeweidion.—*W. Salesbury:* Rhuf. ix. 4 (cf. Act. vii. 8).

Ar Destament [**Dygymmod*, Ammod] gwell o aros hyny y gwnaethpwyd Iesu yn fachnïaeth. *Esgob Davies:* Heb. vii. 22.

Dygymmod, } *v.* to agree (with); to be pleased;
Dygymmodi, } to be reconciled; to covenant, to confederate; to come to an agreement, arrangement, or understanding; to settle or arrange.

A gwedy klywet o Voredud vab Bledyn hynny kyrchu y brenhin a oruc: a *dygymot* ac ef. *Brut y Saeson:* M.A. ii. 547.

O deruyd gyrru lledrat ar dyn, a barnu reith arnaw, a bot yn well ganthaw eilweith *dygymot* ar arglwyd na mynet dan y reith; ny dyly yr arglwyd *dygymot* ac ef, onyt gan gaffel or colledic yr eidaw.—*C.C.* ii. 80 (cf. 106, 416, 624).

Arfer a *ddygymmydd* â phob peth.—*Iolo Mss.* 162.

Araith doeth â drud ni *ddygymmydd*. *M.A.* iii. 148 (cf. 165, 167, 187).

Dygymmydd Duw ag emyn,
O awen dda, a wna ddyn.—*Gronwy Owain*, 82.

Y mae'r hen deigr a minnau yn *dygymmod* yn burion hyd yn hyn.—*Gronwy Owain*, 207 (cf. 333).

Am i'r Pab glywed doedyd eu bod nhwy heb fedru *dygymmod* â rhyw bynciau crefydd gydag ef a'i blaid. *M. Cyffin:* Diff. (1671), i. 10.

Fe a ddylai hyny wasanaethu i beri iddynt *ddygymmod* â'i athrawiaeth ef.—*Edward Samuel:* Grotius, v. 18.

Isel y bydd, mewn salw barch,
Dygymmydd â dig ammharch.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 7.

Dygymmodiad, -au, *sm.* an agreeing together; a reconciling, reconciliation.

Dygymmodol, *a.* conciliatory, reconciling.

Dygymmriw, *a.* [cymmriw] being broken or dashed together; rugged.

Dygymmriwo, *v.* to break one against the other; to dash together; to smash.

Dygymmrodedd, *sm.* [cymmrodedd] congeniality; reconcilement; agreement.

Dygymmrwyn, *a.* [cymmrwyn] 'throbbing or inflaming together;' very grievous or sorrowful.

Diurad dygymrad *dygymrwyn* ognaw. *Cynddelw:* M.A. i. 221.

Dygymmyniad, -au, *sm.* [cymmyn] a hewing or cutting down, a felling.

Dygymmynol, *a.* hewing, felling, cutting down.

Dygymmynu, *v.* to hew down, to fell.

Aessawr dellt am bellt a adawei
Pareu rynn rwygyat *dygymmynei*.—*Aneurin:* God. 208.

Dygymmyrredd, *sm.* [cymmyrredd] esteem, estimation, respect.

Dygymmyrrol, } *a.* causing respect, esteem,
Dygymmyrrus, } or confidence; respectful.

Dygymyrrwy eu hoet eu hanyanawr [*al.* hangenawr]. *Aneurin:* God. 91.

Dygymmyrru, *v.* to esteem, to respect.

Dygymmyrrid halarn hoedl dyn.—*Diareb.* (M.A. iii. 155.)

Dygymmysg, *a.* [cymmysg] compound, mixed, mingled.

Dygymmysgiad, -au, *sm.* a compounding, mixing, or blending together.

Dygymmysgol, *a.* tending to mix, blend, or compound together; blending.

Dygymmysgu, *v.* to mix or blend together; to compound; to confound.

Dygynnal, *v.* [cynnal] to maintain, uphold, or support.

Dygynnaliad, -au, *sm.* a maintaining, upholding, or supporting.

Dygynnaliaeth, *sf.* maintenance, support.

Dygynne, *v.* [cynne]=*Dychynne*.

Dygynnelw, *sm.* [cynnelw] a representation.

Dygynnelwad, -au, *sm.* a representing; representation.

Dygynnelwog, *a.* represented; delineated.

Dygynniad, -au, *sm.* [cynnu, cwnnu] elevation.

Dygynnol, *a.* elevating, raising.

Dygynnu, } *v.* [cynnu, cwnnu] to rise, to come
Dygwnnu, } up; to raise or elevate; to bear or produce.

Gogwn atrefnawr rhwng nef a llawr . . .
Pan yw gwyrdd llinos pan yw rhudd egroes
Neu wreig ai dioes pan *ddygynnu* nos. *Taliesin:* M.A. i. 35 (A.B. ii. 133).

Dygynnull, } *v.* [cynnull] to assemble, to con-
Dygynnullo, } vene, to congregate, to collect, to aggregate; to gather.

A gwedy na dygrynoei idaw hynny o dîm, *dygynnullaw* llu a oruc.—*Brut y Tywysogion*, 290.

Ny wnaeth na gwaeth na gwythlonet
Namyn o bell dygymhell gwiryonet
A *dygynnull* saint yn senet. *Gwynfardd Brycheiniog:* M.A. i. 273.

Ni thâl dîm y gorfod y *dygynnullir* dolurîau o hano. *Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 30.

453. Y llas pendefigion y Cymry gan y Saeson ym Mrad Mynydd Ambri, a elwir Mynydd Caer Caradawg, ym mhendefigaeth Caersallawg; lle a'u *dygynnullwyd* ynghyd yn beddwch Duw, a thangnefedd gwlad a chenedl.—*Iolo Mss.* 45.

Dygynnull, -iau, -ion, *sm.* a convention, an assembly; a general assembly; a convocation.

Nid braint i neb ond i arglwydd wneuthur cyvraith, ac nid braint hyny iddo yntau, namyn o ddyundeb ei wlad a'i genedl yn *nygynnull*; ac nis gellir *dygynnull* heb luniaeth o le, ac amser, ac amcan, a bwyd, a llyn, a gwasgawd, a gorphwys, a than, a chynnorthwyon.—*C.C.* ii. 498.

A gwedi chwiliaw a gaffad o bob gwlad a dinas y caed yn oreuon o'r cyfan Cyfreithiau Dyfnwal Moelmud, a thrwy ddyg ac athrawiaethgar ymgais Blegywryd Athraw y trefnwyd y rhai hyny, ac au doded wrth farn y *Dygynnull* oni chaed gannynt eglurhâd, a gwellhâd, ac adlanwad ar y rhai hynny, a gwedi myned wrth farn a rhaith gwlad yn y *Dygynnull* y cadarnhäed y cyfreithiau ac au rhodded yn ddeddfedigawl ar holl wlad Gymru. *Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 486.

Ni ladd cawod mal y *dygynnull*.—*Diareb.* (M.A. iii. 168.)

Penteyrnedd, yr hynaf o'r tri thywysog taleithiog; sef rhai Gwynedd, a Phywys, a Deheubarth; a braint cynnal *dygynnull* gwlad Gymru i hwnw o fewn y Tair Talaith. . . Nid oes braint penteyrnedd a darparu *dygynnull* ar wlad Gymru oll i Dywysog Morganwg.—*Iolo Mss.* (33 cf. 76, 214).

Dadlau dygynnull, conventional suits; sessional pleadings.—*C.C.* ii. 372.

Dygynnull yngnaid, an assembly of justices or magistrates.—*C.C.* ii. 492.

Dygynnull gwlad a chenedl, the convention of country and kindred; a national convention or assembly.—*C.C.* ii. 498, 516.

Digitized by Google

Dygynnull, *a.* conventional; convocational; relating to a convention or assembly; assembled.

Yno y trefnwyd, dan nawdd Arthur a'i farchogion, gyda'r doethion *dygynnull*, Dosparth y Ford Gron.
Cyfrinach y Beirdd, Rhag. 8.

Barn ddygynnull, conventional judgment.

Tri anhebgor cywladoldeb: teyrnedd benadur; rhaith gymmrawd; a *barn dygynnull* cywlad.—*C.C.* ii. 488.

Gorsedd ddygynnull: see *Gorsedd.*

Rhaith ddygynnull: see *Rhaith.*

Llys Dygynnull, conventional court. See *Llys.*—*C.C.* ii. 368, 370, 424, 426, 428, 430, 440, 544.

Unben dygynnull, a conventional monarch; a monarch appointed by a national convention.

Tri *unbenn dygynnull* Ynys Prydain: cyntaf, Prydain fab Aedd Mawr pan rodded teyrnedd ddosparthus ar Ynys Prydain a'i rhagynysoedd; ail, Caradawc ap Bran pan ddoded arnaw ef gattëyrnedd holl Ynys Prydain er attal cyrch gwyr Rhufain; ac Owain ab Macsen Wledig pan gawsant y Cymry'r deyrnedd ym mraint eu cenedl eu hunain y gan yr ymherawdr Rhufein: sef a'u gelwir y rhain y Tri *Unbenn Dygynnull* am eu breiniaw felly y gan ddygynnull gwlad a gorwlad dan holl derfynau cenedl y Cymry, a chynnal dygynnull ymhob cyfoeth, a chwmmwd, a chantref yn Ynys Prydain a'i rhagynysoedd.
Trioedd: M.A. ii. 63.

Dygynnulliad, -au, *sm.* an assembling or gathering; aggregation; accretion; collection; assemblage.

Dygynnullo, *v.* = *Dygynnull.*

Dygynnwyre, *v.* [cynnwyre] to rise or arise, to rise up.

Rac rwy Dygannwy *dygynnwyre* glyw
O Uon hyd Uynyw llyw llu agde.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 288.

Dygynnwys, *sm.* [cynnwys] continence.

Dygynnwys, } *v.* to contain; to make room
Dygynnwyso, } for.—*P.*

Dygynnwysiad, -au, *sm.* a containing; a making room.

Dygyrch, -au, *sm.* [cyrch] an attack, assault, or onset.

Mynu tonn tremit y *dygyrch.*—*Cynddelw:* M.A. i. 139.

Rhinwedd a doniau'r Yspryd Glân, y rhai oedd yn gwneuthur yr enaid yn hardd yng ngolwg ei Briod, ac yn ei arfogi yn erbyn *dygyrch* y cythraul, a chynllwynion y gelyn.—*Dr. Davies:* Llyfr y Resolusion, i. vi. 12.

Dygyrchiad, -au, *sm.* an assaulting or attacking; an assault.

Dygyrchiadau, assaults, attacks, onsets.

Dygyrchol, *a.* assaulting, attacking.

Dygyrchu, *v.* 1. to attack, assail, or assault, to set upon; to seize; to rush impetuously or furiously.

Dygyrchu y gordlan a oruc y brenhin.
Mabinogion, 101 (cf. 102, 105, 127).

Ac yno y buant teir nos a thridieu. ar volyant y Duw. nachaf ar awr echwyd yn y trydydyd hwnnw. *dygyrchu* hun ym pot vn o honunt ar a oed yn y ty.—*Llyfr Ancr*, 79.

A gwedy clybot o Hengyst ar Saeson ereill y gyt ac ef hynny. diruawr ofyn ae *dygyrchawd.*
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 156.

Eissyeu am *dygyrch*, ym dygyn afles.
Cynddelw: M.A. i. 219 (cf. 82, 223).

Doeth *dygyrchei* y get [*al.* gat] ae glot ae echiauc.
Aneurin: God. 918.

Dygyrcheis i Powys pennes teckaf
Ar Uadawc mynawc mynyt caraf.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 359 (cf. 214, 304).

A diruawr ofyn a *dygyrchwys* llywyd llog y brenhin. ac ymadaw ar llyw a oruc.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 372.

A'r genfaint a *ddygyrchawdd* y ar ddifyn i'r merllyn.
W. Salesbury: Luc viii. 33.

Dygyrchai gyrch yn ddifflais,
Mad er eu llad, ar y Llais.
W. O. Pughe: Hu Gadarn, 26.

Yno ffrom farchogion Gal
Dygyrchant gan ffriw ffrost.—*W. O. Pughe:* Palestina, 32.

2. to fetch; to raise; to set up; to resort.

Gweleis wyr goruawr a *dygyrchynt* awr
Gweleis waet ar llawr rac ruthyr gledyfawr.
Taliesin: A.B. ii. 168 (M.A. i. 40).

Cynnefin wlad *dygyrchwn* yna.—*Cylchgrawn*, i. 17.

Dygyrhaedd, } *v.* [cyrhaedd, cyrhaeddyd]
Dygyrhaeddu, } to reach, to attain, to ob-
Dygyrhaeddyd, } tain; to fetch.

Dygyrhaeddiad, -au, *sm.* a reaching or attaining; attainment.

Dygyrhaeddol, *a.* reaching, obtaining, attaining.

Dygyrryddwch, *sm.* [dy- + cerydd ?] distress, agony.

Ef gwnaeth tu Pentraeth penn trwch calanet
Gal ac ef na cherwch
Gwyr yn digyn yn *dygyrrydwch*
Gwerin ner yn aerdawelwch.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 280.

Dygysgiad, *sm.* a slumbering or sleeping.

Dygysgodi, *v.* [cysgod] to adumbrate, to shadow.

Dygysgodiad, -au, *sm.* adumbration, a shading over.

Dygysgodol, *a.* adumbrative.

Dygysgol, *a.* slumbering; drowsy.

Dygysgu, *v.* [cysgu] to doze or slumber; to sleep.

Gan dy gerydd, Dduw Iaco, y *dygysgawdd* ys y marchog a'r march.—*Llyfr Gweddi Gyffredin* 1567 (Salm. lxxvi. 6).

Dygystudd, -iau, *sm.* oppression of mind; affliction.

Dygystuddiad, -au, *sm.* an afflicting; a becoming afflicted.

Dygystuddio, *v.* [cystudd] to afflict; to oppress, grieve, or trouble.

Stauell Gyndylan ys tywyll heno
Heb dan heb gerdeu;
Dygystud deurud dagreu.
Llywarch Hen: A.B. ii. 282 (M.A. i. 108).

Dygystuddiol, *a.* afflictive, oppressive.

Dygythrudd, *sm.* [cythrudd] trouble or anguish of mind; provocation, perturbation.

Trawsuar yn trydar yn tro *dygythrut*
Mab Gruffut breiscut bro
Caer daer terwynwalch Gymro
Dygant yth uetyant ath vo.
Prydydd Bychan: M.A. i. 391.

Dygythruddiad, -au, *sm.* a disturbing or agitating of the mind; commotion of the mind; provocation.

Dygythruddo, *v.* to ruffle, agitate, disturb, or provoke.

Dygythruddol, *a.* disturbing, agitating, provocative.

Dygywain, *v.* [cywain] to carry about.

Dyhad, *sm.* = *Dyad.*

Dyhadu, *v.* [hadu, had] to produce or yield seed.

A gwedai efe, Eginned daiar y
Glas egin, llysiau yn *dyhadu* had.
W. O. Pughe: C.G. vii. 357.

Digitized by Google

Dyhaedd, *sm.* [haedd] a reach; an attainment; merit, desert.

Dyhaeddiad, -au, *sm.* a reaching; a meriting or deserving; merit, desert.

Dyhaeddol, *a.* meriting, deserving; meritorious.

Dyhaeddu, } *v.* 1. to reach; to attain; to merit,
Dyhaeddyd, } to deserve.

Caraf am rotes rybuched met
Myn y *dyhaet* myr meith gywrysset.
H. ab O. Gwynedd: M.A. i. 277.

A ddyco y dorth a'i *dyhaedd.*—*Diareb.* (M.A. iii. 146.)

2. to search, to look for (something); to pick; to take out.

Dyhaeddyd pen, to search the head.

Dyro dy benn ym harffet. mi a *dihaedaf* di benn.
Buchedd Dewi: Llyfr Ancr, 109.

Dyhaeddwch, } *sm.* meritoriousness, praise-
Dyheiddwch, } worthiness; merit, desert.

Tagneuet am nawt amniuerwch rif
Riallu *dyheidwch.*—*Cynddelw:* M.A. i. 227.

Dyhaen, -au, *sf.* [haen] a layer, a stratum.

Dyhaeniad, -au, *sm.* a spreading or laying over; a sprinkling over.

Dyhaenol, *a.* being in layers or strata; spreading; sprinkling over.

Dyhaenu, *v.* to spread abroad; to be in layers.

Dyhaer, *sm.* [haer] an affirmation or assertion.

Dyhaeriad, -au, *sm.* an asserting or affirming; assertion, affirmation.

Dyhaeru, *v.* to assert, to affirm.

Dyhaith, *v.* to reach, to merit.—*P.* Apparently a variant spelling of *dyhaeddu.*

A ddygo i dorth ai *dyhaith,*
Efe a ddyfydd a wnel ei waith.—*Diareb.* (M.A. iii. 146.)

Dyhawr, } *v.* [dy+ôr] to obstruct, to frustrate,
Dyhor, } to prevent; to stop. See *Deor* and *Dyor.*

Tri Tharw Cad Ynys Prydain: Cynfar Cadgadwg ab Cynwyd Cynwydion; a Gwenddoleu ab Ceidiaw; ac Urien mab Cynfarch: sef y rhuthrynt ar eu galon yn ail i darw, ac ni ellid ai *dehoraint.*—*Trioedd:* M.A. ii. 69.

Dyhead, } -au, *sm.* [dyheu] a hiatus; a pant-
Dyheuad, } ing; a puffing; a breathing hard or with difficulty; palpitation.

Canu bydd, annedwydd nad,
'Hw! ddy hw!' hoew *ddyhead.*
Dafydd ab Gwilym, clxxxiv. 19.

Trymder anferth ar gorfanau yw *dyhead;* sef y bydd hyny pan fo gorfod symmud o un fogail i arall heb gydsain rhyngddynt, fal y mae hwn: A llewod oll o Owain.
Cyfrinach y Beirdd, 210 (cf. 211).

Dyhead, } *v.* [dyheu] to pant; to gasp for
Dyheuad, } breath; to palpitate. See *Dyheu.*

Dyna amcan yr Eglwys yn darparu Gweddi Gyffredin, fel y bai Gwasanaeth Duw fod yn barchus, yn weddaidd, ac yn brydferth; ac nid i adael pob parablwr ar ei ddewis i ddywedyd yr hyn a dery yn ei ben, i ofer ail draethu yr un peth, i geibio'r mater yn drwsgl er gwawd i'r gwrandawyr, neu ynte fod yn dylyfu gên ac yn *dyhead* o ddiffyg geiriau parod.—*Theo. Evans:* Pwyll y Pader, 11.

Pwy a adnabuasai Caesar a'r a'i gwelsai yn gyntaf yn gorfoleddu ar y byd a orchfygasai, ac a'i gwelsai gwedi, yn *dyheuad* am ychydig anadl, ac yn ymdrybaeddu yn ei waed ei hun?—*Gr. Wynn:* Ystyriaethau, 52.

Annedwydd weithian fod oof o'r cyfan
Yn glynu'n f'anian egwan i;
A bod fy enaid yn brwd *ddyheuad*
Eto â chariad atoch chwi.
Cawrdaf: Meudwy Cymreig (1830), 74.

Dyheb, -ion, *sm.* [heb, eb, ebu] an expression; a response, an answer.

Dyhebgor, *v.* [hebgor] to dispense with; to suffer or allow to go.

Llwyt gwarthaf mynyd breu blaen onn
O ebyr *dyhepkyr* tonn
Peuyr pell chwerthin om kalloa.
Llywarch Hen: A.B. ii. 257 (M.A. i. 127).

Dyhepcyr alaf elyf doniau.—*Gwalchmai:* M.A. i. 195.

Dyhebiad, -au, *sm.* a responding or answering.

Dyhebol, *a.* respondent, responsive.

Dyhebu, *v.* to express; to answer or respond.

Beth a ddywedwn wrth fy arglwydd? beth a *ddyhebwn?* neu pa wedd y glanhäwn ein hunain?
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xli.

Dyhedeg, *v.* [hedeg] to fly about, to hover.

Dyhediad, -au, *sm.* a hovering, a fluttering.

Dyhedol, *a.* hovering, flying, fluttering.

Dyhedd, *sm.* [hedd] tranquillity, peace, calm.

A gwedy *dyhed* anhed ym pop mehyn.
Taliesin: A.B. ii. 202 (M.A. i. 71; cf. 157).

Oian a pharchellan a pharchell *dyhed*
Rym dyweid chwimbleian chwedel anrhyfed.
Myrddin: M.A. i. 135 (cf. 82, 89, 105).

Dragon dreic Wyned Dragon o uonhed
Ar hed ar *dyhed* Nyth gomedaf.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 359.

Ef digawn *dyhet* a hetwch
Ef dwyre dewrueirt uireinwch.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 279 (cf. 296, 303).

Llwydd i chwi, eur-weilch, llaw Dduw i'ch arwedd,
Dilyth eginau, da lwythau Gwynedd;
I ydd-weis Deheu urddas a *dyhedd,*
Rhad a erfyniwn i'r hydr-wiw fonedd.
Gronwy Owain, 101.

¶ In some instances in the older writers *dyhedd* seems to be erroneously written for *dihedd* (di-+hedd); the noun and the adjective.

a. as a substantive: discord, strife, contention, war; 'dissidum, bellum.'—*D.*

Nid eiddun dedwydd *dyhedd.*
Llywarch Hen: M.A. i. 128 (cf. 57, 195; iii. 170).

b. as an adjective: peaceless; discordant; strange, unusual.

Torreist Gaer Uyrtin toruoet ar Freinc
Llawer Franc ar adwet
Ac Aber Tawy tref *dyhed.*
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 292 (cf. 321, 328, 343).

Ys *dyhed* a beth gadu dan wynt a glaw y kyfryw dyn a dywedy di.—*Mabinogion,* 104.

Dyhed a beth bot gwr kystal a thi heb gedymdeith. Oi a wrda y mae ymi gedymdeith.—*Mabinogion,* 127.

Dyhedd, *v.* to enjoy peace or tranquillity.—*P.*

Oed tramawr trameirw yn *dyhed.*—*Cynddelw:* M.A. i. 207.

Dyheddiad, *sm.* [dyhedd] pacification, tranquillisation.

Dyheddol, *a.* pacificatory, tranquillising; peaceable.

Dyheddu, *v.* to pacify, to calm, to tranquillise.

Dyheiddio, *v.* [haedd]=*Dyhaeddu.*—*P.*

Dyheinio, *v.* [dy-+haint] to become contaminated, diseased, tainted, defiled, or infected; to swarm.

Kam syberwyt ysyd aruthyr drwc. balch syw ac a gollassant yr egylyon a oedynt yn y nef ac egluraf. ac adwynnaf o achos y kam syberwyt llewenyd nef. a *dheinyaw* yn gythreulic gofutdron yn vffernn.—*Llyfr Ancr,* 134.

Dyheiren, -od, [dyhair, dyheirio] one who loiters or delays, a loiterer.

Digitized by Google

Dyheirio, *v.* [hair] to delay, stay, linger, or loiter; to postpone.

Dyheiryn, -od, *sm.* [dyheirio] a loiterer, an idler.

Dyhenydd, *sm.* [hanu] that gives existence.—*P.* See *Dihenydd*, the more accurate form.

Dyheu, } *v.* [im.] to pant, to gasp, to breathe
Dyheuo, } with difficulty; to be almost out of breath; to puff; to palpitate; to totter.

Megys y *dyheua* gwas am gysgod.
Iob vii. 2 (cf. Amos ii. 7).

Agorais fy ngeneu, a *dyheais:* o blegid awyddus oeddwn i'th orchymmynion di.—*Salm.* cxix. 131.

Llawer sydd . . . yn *dyheu* yn eu gyrfa tu â'u gwlad tragywyddol.—*Elis Lewis:* Drexelius, 100.

Am glod y *dyheua* efe, a llawenhâ fal gyrfëydd i redeg ei yrfa.—*W. O. Pughe:* E.D. i. 4.

Mae yn dyheu ar ei draed, he is tottering on his legs.—*C.S.*

Dyhĕu, *v.* [hĕu, hau] to scatter, to spread or shed about.

Ae gledyf flamdur ay glot dyre
Mab medel vtkyrn heyyrn *dyhe.*
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 288.

Dyheuad, -au, *sm.* = *Dyhead.*

Dyheuadu, *v.* = *Dyhead, Dyheu.*

Dyheuadasant uwch ben y tlodion yn llwch y ddaiar.
Eegob Morgan: Amos ii. 7.

Dyheuddyd, *v.* See *Dyhaeddu, Dyhaeddyd*, &c.

Dyheueb, -ion, -au, *sf.* [dyheu] a hiatus.

Er mwyn ymagadw, hyd y gellir, rhag *dyheueb* neu ddrygsain, cymmeradwyir troi y terfyniadau perwyddol *-o* ac *-io* yn *-aw* ac *-iaw*, os dygwydd y gair nesaf ddechreu ag *o.*
D. Silvan Evans: Llythyraeth, 191.

Dyheued, *v.* to pant, to gasp, to breathe hard. See *Dyheu, Dyhead.*

Dyheueg, -au, *sf.* [dyheu] a sigh; a wish.

Deheuec [*al.* deudec] Gwenabwy vab Gwen.
Aneurin: God. 405 (M.A. i. 75).

Dothyw y Dewi yn *deheuec*
Gan borth Duw porth dyn yn diatrec.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 272.

Dyheuo, *v.* [dyheu] to pant, gasp, or puff; to sigh.—*P.*

Dyheuol, *a.* panting, gasping, puffing.

Dyheuriad, -au, *sm.* affirmation, assertion.

Dyheuro, *v.* [dy- + haer]. See *Dyhaeru*, &c.

Dyheurol, *a.* affirmative, asserting.

Dyheurwr, wyr, *sm.* an affirmant, an assertor.

Dyhewyd, -ion, *sm.* [hewyd] the affection, inclination, or desire; devotion; meditation; resolution.

Ac wrth hynny ydoed ef yn damunaw gwir ffyd o *dihewyt* y vryt.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 100 (cf. 179, 223, 226).

I'm rhwyf y rodded rhan fawr o'r byd
Ef rhoddai i Dduw ei *ddihewyd.*
Dafydd Benfras: M.A. i. 312.

Ac ena kyffroy a llydyaw a oruc y that wrthy. a thebygu mae o *dyhewyt* i challon y dywedassey hy yr amadrodyon hynny.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 129.

A'r llyfr hwnw a ymchwelais innau â'm *dyhewyd*, hyd na thebygais ei fod fwy na llai yn amgen no ffurf ac achos a gweithred, yn herwydd y gellid ei weled yn y llyfr hwnw.
Ystori Dared, Rhag.

Ac wrth hynny ny allws ef dwyn y *dyhewyt* ar weythret.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 179.

A chanu eu kyrn a wnaethant. a ffustaw tabyrdeu a gewri mawr gantunt. Ymrodi yr urwydyr o *dihewyt* eu bryt.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 454.

Tro'th *ddyhewyd* ar bob daioni.—*M.A.* iii. 58 (cf. 12, 13).

Anhywaith fy *nyhewyd*,
I mi fyw am fy myd!
Dafydd ab Gwilym, xiv. 55 (cf. xxxvii. 8).

Hwn yw'r diweddaf a'r gwaethaf o'r holl rwystrau a ddangoswyd o'r blaen, ac yn cynnwys ynddo bob math ar ddrygioni ag sydd yn yr un o'r lleill, ac sy gyda hyny yn ymroi'n gwbl o wir *ddyhewyd* calon i bechu.
Dr. Davies: Llyfr y Res. ii. vi. 18.

Molwn ef â'n holl *ddyhewyd.*
Iolo Morganwg: Salm. ii. cxxviii. 4 (cf. lxxxi. 3.

Y mae pob dafn o *ddyhewyd* o blaid rhyddid yn cynnorthwyo i wneyd i fyny y diluw sydd o hyd yn chwyddo ac yn llenwi.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 557 (cf. 11).

Dyhewyd y trueiniaid a glywaist, O Iehofah.
Dr. Th. Briscoe: Llyfr y Salmau, x. 17.

Dyled i ti yw, am hyny, O fab yr adfyd! gadarnhau mewn pryd dy feddwl gan ddewrineb ac amynedd, mal y cynnaliot, trwy *ddyhewyd* addas, dy gyfran osodedig o drueni dynawl.—*W. O. Pughe:* Einioes Dyn, i. 6.

Oddi wrth anobaith pa *ddyhewyd* sydd.
W. O. Pughe: C.G. i. 209 (cf. vii. 599; x. 1020).

Hael roddiad o rad yr Ion yw Awen,
A *dyhewyd* dynion.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 107 (cf. 32, 242).

Gair yw'n ein harwain i bob iawn,
Rhown arno'n llawn *ddyhewyd.*
Iolo Morganwg: Salm. ii. xix. 5 (cf. xxx. 2).

Dyhewyd y Cristion, the Christian's Resolution.—*Enw Llyfr* (1802).

Dyhewyd, *a.* resolute, determined; earnest.

Yn diannot kyweiraw eu bydinoed . . . ac yn *dihewyt* ac o vn vryt eu kyrchu.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 175.

Dyhewydiad, -au, *sm.* a setting the inclination or affection (upon); a devoting, devotion.—*P.*

Dyhewydio, *v.* to fix or set the affection, inclination, or desire.

Dyhewydiwr, wyr, *sm.* 'one fixed in his resolution;' a devotee.

Dyhewydol, } *a.* devout, devotional; earnest;
Dyhewydus, } zealous; desirous.

At y Parchedicaf Dad yng Nghrist, yr Arglwydd Ioan. . . . Ei ostyngedig a'i *ddyhewydus* fab Llywelyn, Tywysog Cymru ac Arglwydd Eryri, yn anfon annerch.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 157.

Gweddiau dyhewydus, devout prayers.

Gwr dyhewydus, a devout man.

Gweddiaw o ddyhewydus fryd, to pray with a devout or earnest mind.—*D.*

Dyhewydd, *sm.* [hewydd, haw] maturity; autumn, harvest.

Megys yr oeddwn yn nyddiau fy *nyhewydd* [°tymmor ffrwythau] gyda chynghor Duw uwch ben fy mhabell.
Dr. Th. Briscoe: Llyfr Iob, xxix. 4.

Dyhewyn, *sm.* what is ripe or mature; a thing that is mature.

Angeu anghen *dyhewyn* dir.—*Diareb.* (M.A. iii. 147.)

Dyhidlad, -au, *sm.* a dropping; a shedding; a distilling.

Dyhidlaidd, *a.* of a dropping nature.—*P.*

Dyhidlion, *s.pl.* drips, drippings, drops; sheddings; refuse.—*P.*

Dyhidlo, *v.* [hidlo] to shed; to drop; to drip; to distil.

Ef *dihytyl* y eur yn arfed frawt veirt
Ual frwyth coed llawn adued.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 293.

Dyhidlaist wlaw graslawn, O Dduw, ar dy etifeddiaeth.
Salm. lxviii. 9.

Efe a *ddyhidla* ei rawn anaddfed fel gwinwydden.
Iob xv. 33.

Digitized by Google

Dyhinedd, *sm.* [hin] a storm, a tempest; boisterous weather.

Allan dan y *dyhinedd.*—*Dafydd ab Gwilym.* (*D.*)
Gwrdd anadl gyrodd ennyd
Dyhinedd drwy berfedd byd.—*Rhys Jones:* Gwaith, 70.

Dyhir, *a.* [hir: cf. *dyheirio*] loitering, idling; worthless, base, vile, bad, wicked.

Dyhir na welir waladr nawn cerddau
Dihau iw anghau dagrau digrawn.
Gwilym Ddu Arfon: M.A. i. 411 (cf. 519).

Ni'm doeth llewenydd eithr dydd *dyhir.*
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 455.

Dyhirach, afrwyddach fry,
Dihuno wedi hyny.—*Dafydd ab Gwilym,* cxi. 27.

Gwrth'nebwyr, herwyr, rhai *dyhirion.*
W. Midleton: Salm. xviii. 47.

A rhywogaethau ereill *dyhirach* a ffieiddiach, y rhai ni ddylid cymmaint a'u henwi ym mhlith Crist'nogion.
R. Smith: Eglurhâd, 189.

Rhag y gwr twyllgar gwared fi,
A rhag drygioni 'r *dyhir.*
Edm. Prys: Salm. xliii. 1 (cf. lxxiii. 3).

Nid yw'n cyfiwr yma cyn *ddyhired* ag y dylem anfodloni neu ddigaloni neu rwgnach o'i blegyd.
Ed. Samuel: Pregeth, 20.

Troir y *dyhir,* hyrddir hwy,
I le is ei law aswy.—*Gronwy Owain,* 96.

Eglwys Dduw a ry gloes ddu
I'r diawl a'i *ddyhir* deulu.—*I. B. Hir:* Gwaith, 116.

Dyhirdod, } *sm.* worthlessness; vileness, wicked-
Dyhirdra, } ness, knavery, rascality.

Tri thincwd a dybiant eu hunain yn bencwd: cyfoethawg o ledrad a chribddail; gwybodus ar ddichellion *dyhirdawd;* a mab a gredwys y cyfan a ddywed ei fam am dano.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 241.

Fe gaiff y rhai damnedig yn dragwyddol eu gwaradwyddo â chywilyddus *ddyhirdra* eu troseddau.
Gr. Wynn: Ystyriaethau, 172.

Bydded gas gan y Brython enw noeth y bradwriaethol Afarwy, a benywaidd *ddyhirdra* ac anffyddlondeb Aregwedd Foeddig.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 36.

Dyhirddyn, -ion, *sm.* a vile fellow, a villain, a wretch, a scoundrel.

Ysgeler-waith nesaf y *dyhirddyn* twyllodrus oedd gwahodd Cyprian i alw yng nghyd ei brif offeiriaid.
Gwyliedydd, v. 106.

Dyhiren, -od, } *sf.* a worthless or disreputable
Dyhires, -au, } woman; a jade, a minx.

Heriaf y goeg *ddyhiren,*
Anwadal, gwammal ei gwên.
Roberth Owen: Gweith. 292.

A pha un debycaf i'r diawl, debygwch chwi, yw parlyraid o ddyhirod dan ddylanwad meddwdod, ai y dyhiryn neu y *ddyhires,* y diewlyn neu y ddiawles, sydd yn gweinyddu i'w lladrad!—*Dewi Wyn:* Blodau Arfon, 339.

Dyhiriad, iaid, *sm.* a worthless one, a base fellow, an evil-doer.

Tri phriv geinmyged teyrnedd: nawdd cywiriaid; cosp a gwared *dyhiriaid;* a gwared anwybodaeth rwng cywir a chywir.—*C. C.* ii. 484.

Dyhiriant, *sm.* prolongation.

Dyhirio, *v.* to loiter, delay, or tarry.

Ny att dy *ddihiryaw* ac eureit barableu y gredu vy nghyghoreu i. am ddihenyddyaw dy vab.
Doethion Rhufain, § 23.

Yn y pummed [tŵr], *Dyhirio* y pryd heb wneuthur daioni.—*Marchog Crwydrad,* i. 10.

Dyhiriol, *a.* apt to linger, loiter, or delay; loitering, delaying.

Dyhiro, } *v.* 1. to revile, villify, malign, or
Dyhirio, } defame; to make vile.

Bydded felly iddo ef, fel y bu i Grist ein Harglwydd, pan gywilyddiwyd, pan *ddyhirwyd,* a phan groeshoeliwyd ef drwy greulondeb y byd.—*Morgan Llwyd:* Ymroddiad, 71.

2. to grow or become worse, to deteriorate, to degenerate; to become worthless.

Mae y defaid yn *dyhiro* o eisieu porfa.—*N, W.*

Dyhirod, *s.pl.* vile or wicked fellows; villains, rascals, scamps.

Clywir am ryw nifer ym mhob ardal o'r *dyhirod* a elwir dewiniaid.—*Cylchgrawn,* i. 13 (cf. 7).

A lafurio ei dir a orddigonir o fara, ond a redo ar ei *dyhirod* a orddigonir o dlodi.
Dr. Th. Briscoe: Diarebion, xxviii. 19.

Dyhirog, *a.* worthless, base, depraved, vile, disreputable, lewd.

Trechaf a gorwychaf gwraig
Na brenin, na gwin o gawg;
Trech un Elen, seren saig,
Na dau Harri *dyhirawg.*—*G. Mechain:* Gwaith, i. 12.

Dyhirog, -od, *sf.* a lewd, loose, or disreputable woman, a harlot.

Am fod y rhai hyn yn ymddidoli gyd â phuteiniaid, ac aberthasant gyd â *dyhirogod.*—*Hos.* iv. 14.

Dyhirwaith, *sm.* 'an unprofitable work or occupation;' a vile deed or act; mischief.

Dyfydd *dyhirwaith* aros.—*Diareb.* (M.A. iii. 154, 182.)

Ai tybied fod yn rhaid i ni gaeglu oddi wrth ei distawrwydd ei bod yn cefnogi y fath *ddyhirwaith* dieflig?
Llan, Chwef. 28, 1896.

Dyhirwch, *sm.* 'worthlessness; roguishness, knavery;' vileness, rascality, villainy.

Ac yna adnabot a wnaeth Gwydyon arnaw y uot yn kymryt *dihirwch* o eisseu meirch ac arueu.—*Mab.* 71.

Nyt digrif heb y gwarandawr y gware hwnn. namyn *dihirwch* a chollet a vac y vonhedigyon. a digrifheynt o hely.—*Ystoria Charles,* 12.

Tri pheth a welir amlaf ar feddwyn: ymfydiaw yn fochyn; ymfucheddu yn gythraul; ac ymorfoleddu yn ei *ddyhirwch.*—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 250.

Yr ydych . . . yn ymroi i bob *dyhirwch* a drygioni.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 277.

Mor wrthun ac anghynhes ydyw eu gweled yn gwadu sail eu crefydd, yn esgeuluso eu iechawdwriaeth, ac yn ymdroi mewn pob *dyhirwch!*
Huw Owen: Dilyniad, i. xxv. 5.

O chwant y ddraig, penaig poeth,
Neithiorwyd noeth *ddyhirwch.*
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 13 (cf. 19).

Dyhirwr, wyr, *sm.* a base or worthless person; a scamp, a scoundrel, a rascal.

Yr Iuddaeon a'r nid oeddent yn credu, yn gwynfydu, a gymmeresont atwynt ryw grwydr-ddynion o *ddyhirwyr.*
W. Salesbury: Act. xvii. 5.

Yn gymmaint a bod yn rhaid iddo gael ei farnu gan ereill yn *ddyhirwr* drygionus.—*Edward Samuel:* Grotius, iv. 12.

Rhoddes hyny o drychineb fantais i'r *dyhirwyr* i oresgyn llawer o'r ynys.—*Ch. Edwards:* H. y Ffydd, 178 (cf. 164).

Ti a elwit yn *ddyhirwr* bradwraidd y sawl a frathai ddyn yn ddirgel tra byddai yn cymmeryd arno ei gofleidio.
Ed. Samuel: Holl Ddyledswydd Dyn, 207.

Pa fodd y gwnaeth y *dyhirwyr* cyndyn yma a'u cyfeillion?
Taith y Pererin (1771), 165 (cf. 166).

Y tanau dinystriol hyny a ennynwyd o bryd bwygilydd, naill ai gan haid o *ddyhirwyr,* neu ynte trwy ddioalwch rhyw blaid neillduol o'r grefydd Fahometanaidd.
Gwyliedydd, xi. 146.

Dyhiryn, -od, *sm.* a vile fellow, a rascal, rogue, scoundrel, scamp, or villain.

O chyrch dyrfa, deca' dyn,
Daw i'w harail *dyhiryn!*—*Dafydd ab Gwilym,* lxxxix. 9.

Heria bob coeg *ddyhiryn.*—*Gronwy Owain,* 27.

Dyhiryn o ddyn creulonfawr oedd y rhaglaw.
Gwyliedydd, v. 105.

Ni ddymunwn orfoleddu mewn anffawd neb, ond ni wn am aflwyddiant nemor o *ddyhiryn,* o gydradd drosedd, a glywn ei hyspysiad gyda llai o gyd-deimlad nag eiddo y rhagddywededig.—*Carnhuanawc:* Hanes Cymru, 35.

Pe gwybuasai y ddau *ddyhiryn* a enwyd, am y dynged oedd yn eu haros, buasent yn llunio rhyw lwybr i'w gochelyd.—*Cylchgrawn,* i. 14.

Dyhiryn o'i galon, a rogue in grain.

Digitized by Google

Dyhoddiad, -au, *sm.* facilitation, a rendering easy.

Dyhoddio, *v.* [hoddio, hawdd] to facilitate, to forward; to dignify.—*P.*

Dyhoddiol, *a.* facilitating; exalting.

Dyholi, *v.* [holi] to examine; to investigate.

Dyholiad, -au, *sm.* examination; investigation.

Dyhor, } *v.* [see *Deor*, *Dyawr*] to prevent, to
Dyhoryd, } stop; to obstruct, to frustrate.

Dyhorawl, *a.* preventive, obstructive, frustrating.—*P.*

Dyhoriad, -au, *sm.* prevention, obstruction, frustration.

Dyhudd, *a.* [hudd] covered over, hidden, concealed; appeased; comforted.

Trwy arwyrein treidyaw Owein dihein *duhud*
Trwy hir bara y Duw donya y datannud.
Casnodyn: M.A. i. 426.

Dyhudd, -ion, *sm.* that which appeases or pacifies; comfort, solace.

Maredydd, *dyhudd* pob dyn,
Amharedydd ym Mhrydyn.—*L. G. Cothi*, VIII. ii. 3.

Dyhuddai, eion, *sc.* one who or that which covers over; an appeaser, pacifier, or expiator; a comforter, a consoler.

Dyhudded, *sm.* consolation, comfort, solace.

Nym byd bun nym beidd dyn *dyhuded*.
Gwalchmai: M.A. i. 201.

Poed kanhorthwy Duw ym *dyhuted* annyan.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 360.

Dyhuddedig, *pt.* covered over; concealed; pacified, appeased.

Dyhuddedigol, *a.* pacificatory; conciliatory; expiatory, atoning.

Dyhuddgar, *a.* pacific, peaceful, placable.

Dyhuddgarwch, *sm.* placableness, appeasableness.

Dyhuddgloch, glych, *sf.* [dyhudd + cloch] curfew-bell.

Dacw ddolef y *ddyhuddgloch*,
Yn oer ganu cnull y dydd.
D. Davis: Telyn Dewi (1876), 29.

Pan ganai y fwyalch *ddyhuddgloch*,
Hwy aent i noswylio bob un.—*Cymru*, x. 276.

Dyhuddiad, -au, } *sm.* a coveriug over; an
Dyhuddiant, } appeasing or pacifying; pacification; appeasement, satisfaction; expiation; propitiation; assuagement; consolation.

Nid llai da a haeddai *dyhuddiad* pellgerdd
Y gwnaf i fawrgerdd gynnif aergâd.
Madog Dwygraig: M.A. i. 483.

Nid oedd ym' o ddiddanwch,
Na *dyhuddiant*, trachwant trwch!
D. ab Gwilym, cxiv. 25 (cf. xxxiii. 1; lxxviii. 27).

Mil fwy elwch ydyw heddwch a *dyhuddiant*.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 21.

Daw heddwch, a *dyhuddiant*, a lleisiau
Y cerbydau diwecry a beidiant.
Rhisiart Powel: Tymmorau, 18.

Gwyddoch mai ystyr y geiriau a gyfleithir iawn yn y Testament Newydd yw cymmod, neu *ddyhuddiant*.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duw. 33.

Nid hawdd yw gwneyd *dyhuddiant*
I wr blin am farw ei blant.—*Robert Davies.*

Mae 'i wraig brudd heb *ddyhuddiant*,
A hyll yw bloedd ei holl blant.—*Rhys Jones:* Gwaith, 73.

Dyhuddiant Elphin, the consolation of Elphin.—*M.A.* i. 20.

Dyhuddo, *v.* [dy- + huddo] 1. to cover over, to cover; to hide.

Dyhuddo y tân, to cover the fire (over night).

2. to appease, pacify, quiet, expiate, atone, or reconcile; to assuage; to console or comfort.

Rhyfedd yw yn fyw feirdd ni'n *dyhudd*.
G. Ddu Arfon: M.A. i. 409 (cf. 280, 313).

Ar Arglwyd eissoes a garei Padric yn vawr. ac a anuones angel attaw y *duhudaw*.—*Llyfr Ancr*, 105.

Neud rai am Ruffudd a *ddyhuddir*.
D. Benfras: M.A. i. 320.

Trig a *dyhudd*, Forfudd, fi!
D. ab Gwilym, xci. 10 (cf. lxxvii. 33).

Golwg dyn ar a'i *dyhudd*.—*Diareb.* (M.A. iii. 157.)

Rhoi aur rhudd i'm *dyhuddaw*,
Er llyn yng ngheuedd fy llaw.
Dafydd ab Gwilym, clxvii. 11 (cf. cxi. 15).

Dy fâr drwy ddaiar ydd ai,
Dy heddwch a'm *dyhuddai*.—*Iewan Deulwyn:* G.B.C. 132.

A thrist fy swydd er's blwyddyn,
Eithr Morfudd ni'm *dyhudd* dyn!
Dafydd ab Gwilym, xxvii. 29.

Dyhudda [*llona] fy emysgaroedd yn yr Arglwydd.
W. Salesbury: Philem. 20.

Pan *ddyhudder* fi tu ag atat, am yr hyn oll a wnaethost.
Esec. xvi. 63.

Tydi, O Arglwydd, yr hwn wyt yn *dyhuddo* terfysg y môr, gwrando, gwrando ni.—*Llyfr Gweddi Gyffredin.*

Hawdd fodd i'w *ddyhuddo* fu
O waith beirdd, a thabyrddu.—*Gro. Owain*, 83 (cf. 324).

Gwell *dyhuddo* na rhysedda.—*M.A.* iii. 159 (cf. 139, 157).

Os aflonyddaist ar dy frawd, *dyhudda* a llonydda ef yn awr.—*Ed. James:* Hom. iii. 100.

Y mae y naill deimlad yn gofyn cael ei *ddyhuddo* trwy iawn; mae'r llall yn gofyn ei dawelu â chyflawnder cyfrifol.
Adolygydd, iii. 183.

A phan flinwyd Saul gan yspryd drwg, *dyhuddodd* cerddoriaeth ef dros amser.—*Ch. Edwards:* H. y Ffydd, 279.

Arferwyd moddion lawer i *ddyhuddo* ei ddolur, eithr ni thyciai dim.—*Gwyliedydd*, v. 312.

Hezeciah . . . a anfonodd anrhegion mawrion i Sennacherib, gan feddwl ei *ddyhuddo* ef.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 120.

Dyhuddo digofaint, } to appease, pacify, assuage,
Dyhuddo llid, } or allay anger.

Heb law hyn i gyd . . . ni ellid *dyhuddo* a bodloni *digofaint* a chyflawnder Duw.
Dr. Davies: Llyfr y Res. I. vi. 6.

Gobeithiai, er hyny, y trueiniaid, y gallent, trwy gynnyg yr hyn oedd ganddynt yn ol o'u meddiannau, attal ffyrnigrwydd y rhaglaw, a *dyhuddo* angerdd ei *lid*.
Gwyliedydd, v. 106.

Dyhuddol, *a.* appeasing, pacifying, expiatory, propitiative, atoning.

Ef . . . yw'r *dyhuddol* bridwerth.
Robert Owen: Gweith. 92.

Drwy rinwedd fy ngwaed, a fy angeu *dyhuddol*.
I. G Geirionydd, Geir. 237.

Aberth dyhuddol, an expiatory or atoning sacrifice.

Yr oedd amryw bethau ym mysg y cenedloedd paganaidd, yn neillduol eu *hebyrth dyhuddol*, ag oedd yn argraffu ar eu meddyliau olygiadau perffaith gysson â natur cyfryngwriaeth Crist.—*Sam. Bowen:* Athr. yr Iawn, 19 (cf. 13).

Dyhuddoldeb, } *sm.* 'a pacified or comforted
Dyhuddolder, } state;' the quality of expiating or appeasing.

Dyhuddwr, wyr, *sm.* an appeaser, pacifier, or expiator; a comforter.

Dyhynt, -iau, *sf.* [hynt] a journey; a course; an expedition.

Dymgodau dehau *dyhynt* breidioed.
Gwalchmai: M.A. i. 199.

Dyhyntiad, -au, *sm.* a taking a course.

Digitized by Google

Dyhyntio, *v.* to take a course; to make an expedition.

Dyhyspydd, *a.* [hysp] dry, dried up, emptied, drained, exhausted, depleted; without water or liquid.

Fel y mae dyfroedd yn pallu o'r môr, a'r afon yn myned yn *ddyhyspydd*, ac yn sychu.—*Iob* xiv. 11.

Dyhyspyddadwy, *a.* that may be emptied, dried, or exhausted; exhaustible.

Dyhyspyddedig, *pt.a.* emptied out; drained off; exhausted; depleted.

Dyhyspyddiad, -au, *sm.* an exhausting or draining; exhaustion; depletion; voidance, evacuation.

Dyhyspyddol, *a.* exhausting, exhaustive, emptying, depletive.

Dyhyspyddu, *v.* to exhaust, to empty; to empty or bale out; to evacuate; to drain; to dry up.

Efe a gerydda y môr, ac a'i sych; yr holl ffrydau a *ddyhyspydda* efe.—*Esgob Morgan:* Nah. i. 4 (cf. ii. 2).

Efe a'th gywilyddia di â'i fwyd, nes iddo dy *ddyhyspyddu* di ddwywaith neu dair.—*Eccl.* xiii. 7.

Ti a *ddyhyspyddaist* afonydd cryflon.—*Salm.* lxxiv. 15.

Ni a welwn, ac a wyddom am y llong a fo yn gillwng dwr, mai hawa ei *dyhyspyddu* yn y dechreu, na chwedi hyny.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. ii. v. 8.

Ar gryfhâd yr haul, difiannai y tarth; a phe *dyhyspyddid* dyfroedd y Tawelfor, canfyddid yr eangder dirfawr hwnw yn un cyfandir.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 565.

Dyhyspyddwr, wyr, *sm.* an emptier, an exhauster; a drainer.

Y *dyhyspyddwyr* a'u dyhyspyddodd hwynt, ac a lygrasant eu cangau gwinwydd.—*Nah.* ii. 2.

Dyl (*ȳ*), -ion, *sm.* 1. what is one's own or right; due; duty.

Dyl ar bob dyn, dychryn daith,
A'r aned, yw marw unwaith.—*Sion Tudur.*

Dyled ethol, *dyl* weithian,
Lliwio ag aur ei holl gân.—*Rhys Jones* (Y Greal, 307).

O *ddyl* yr Ion addolynt,
Am ei ddawn o ddwyn eu hynt.
W. O. Pughe: H.G. 64 (cf. 6, 21, 62, 77).

Ond am y cysgawd mawr oedd hyn
O *ddyl* i syn ddynolion.—*Seren Gomer*, iv. 246.

Ac o hyn y *dyl* i ddynion iawn o rwysg.
W. O. Pughe: C.G. iv. 328 (cf. iii. 123, 270).

Cael fy nyl, to obtain my due.

2. duty, tax, impost.

Lleihau y *dyl* ar win tramor i'w ddiogwyl o fod dan sylw yn y senedd-dy eleni.—Porthladdoedd gogledd y deyrnas yn parotoi eirchiaid i leihau *dyl* y glo a gludir yn arfordirawl.—*Eurgrawn Mon*, 1825, 21.

Dylachar, *a.* [llachar]=*Dilachar.*

Dylad, -au, *sm.* [dy-+llad] a fluxion, a flowing; a stream; the bed of a stream.

Ae chert ae chedwyr ae llyr ae llad
Ae llann ger dylan ger glan *dylad* heuyd.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 361 (cf. 261).

Teruysc tonn dilysc dyleinw aber
Dylad anwastad ny osteker.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 322.

Dylad anwastad ni ostegir.—*Diareb.*

Dylad, -au, *sf.* [dy-+llad] benediction, blessing.

Dyladol, *a.* tending to flow, fluent, flowing.—*P.*

Dyladol, *a.* tending to bless, blessing, benedictive.

Dyladu, *v.* to flow on; to proceed.—*P.*

Dyladu, *v.* [dylad] to bless.

Iä, *dyladai* hi y lloer
Ogiläwg nerth y Cristion.—*W. O. Pughe:* Palestina, 34.

Dyladwy, *a.* [dyl, dylyu] due; proper, meet, fit, befitting; becoming; seasonable; suitable.

Danfon i ni y cyfryw dywydd a hinon, fel y derbynion ffrwythau'r ddaiar mewn amser *dyladwy*.—*Ll. G. Gyfredin.*

I'r beilchion a'r trahäus dod
Y tâl a fo *dyladwy*.
Edm. Prys: Salm. xciv. 2 (cf. lxxxix. 7).

Y sawl a ddanfonid i fugeilio defaid y gorlan yn *ddyladwy* ac yn gyfreithlawn.—*Theo. Evans:* D.P.O. 292.

Nes bôm wedi parotoi yn *ddyladwy* ac yn gyfangwbl tu ag at hyny.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 185.

Dylafwch, *sm.* the itch, prurigo.

Cainc o *ddylafwch*, yr ymgrafu.—*D.* (Arch. Brit. 216).

Dylain, *sm.* See *Dilain.*

Dylaith, leithiau, *sm.* [llaith] 1. dissolution; death.

Dial Duw arnaf heb ef nos galanmei yw heno ony wybydaf i pä *dileith* yssyd yn dwyn yr ebolyon.
Mabinogion, 20.

Nyd wyf uart dylaw wyf *dyleith* ar gert
Wyf diluth ym pob yeith.
Cynddelw: M.A. i. 215 (cf. 212, 255).

Llew prudd ced ddiludd cad *ddylaith* Caeaw.
Trahaiarn: M.A. i. 499 (cf. 288).

Crist sydd yn cyfodi pawb o'r eiddo, yn gystal o farwolaeth ysprydawl ag o *ddylaith* corfforawl.
H. Perri: Egluryn Fraethineb, iv.

Dylaith i bawb lle delo,
Llawen i bawb lle na bo.—*Gronwy Owain*, 76.

Ni ochir, ni wylir ef,
Ei *ddylaith* ni phair ddolef.
G. Mechain: Gwaith, i. 9 (cf. 6, 88, 147; ii. 365).

2. a corpse, a carcase.

Dylaith, eithiau, *sm.* [?] a bow or ring; a staple.—*D.*

Ampron, dolen, neu *ddylaith* iau.—*Davies*, s.v.

Dylamiad, -au, *sm.* a bounding, skipping, or rebounding.

Dylamol, *a.* bounding, skipping.

Dylamu, *v.* [llamu] to bound, skip, or leap.

Dylama yna fal o dori rhwym,
Yn rhonta yr ysgytia ei grych fwng.
W. O. Pughe: C.G. vii. 542.

A'r bryniau megys ŵyn ar hynt,
Dylamynt wrth ei lef.—*R. Owen:* Gwaithiau, 142.

Dylan, -au, *sm.* [à *dy* & *glann*, quia ripas petit; vel à *dy* & *llanw*, à fluxu & refluxu.—*D.*] the sea, the ocean.

Ie heb y Math mab Mathonwy mi a baraf uedydyaw hwnn wrth y mab brasuelyn. Sef enw a baraf arnaw. *Dylan.* Bedydyaw a wnaethpwyt y mab. ac ual y bedydywyt y mor a gyrchwys. Ac yn y lle y gyt ac y doeth yr mor. anyan y mor a gauas a chystal y nouyei ar pysc goreu yn y mor. Ac o achaws hynny y gelwit ef. *Dylan* Eilton.
Mabinogion, 68.

Emys llaw llamhir a dan lluman . . .
Eiliw pysgawd glas gleisiad *dylan*.
Cynddelw: M.A. i. 211 (cf. 299, 322, 329).

Dewisseis uyghert yghynuaran kynnif
O dv llanw a llif a llef *dylann*.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 362 (cf. 360, 361).

Lleuver ebyr myr morveyd *dylan*
Pan llewych huan ar vann vynyd.
Iorwerth Fychan: M.A. i. 415.

Y edryt Llywy lliw tonn *dylann*.
H. ab O. Gwynedd: M.A. i. 275 (cf. 428).

Llid anian *dylan* tarian teiriaith.
Trahaiarn: M.A. i. 499 (cf. 19, 460)

Dylanw, *v.*=*Dylenwi.*

Dylanw, *sm.* influx, influence.—*W.*

Digitized by Google

Dylanwad, -au, *sm.* [dylanw] 1. influence.

Bwrw di ymaith gan hyny, yr hwn wyt Arglwydd y gallu a'r gogoniant, bob anian ac ansawdd afiach a dinystriol oddi wrth ein hymborth, a pha *ddylanwad* niweidiol bynnag a all weithio ynom.—*Theo. Evans:* D.P.O. (1740), 318.

Y mae yma *ddylanwad* neu effeithiolaeth oddi uchod. . . Pa beth a ddichon gynnal yr yspryd namyn anadl Duw, trwy *ddylanwad* gyssonol, ac effeithiolaeth ddibaid a bythol yr hyn yw bywyd yr enaid?—*Ier Owen,* 50 (cf. 49).

Y 'stori hon a chwanegais i ddangos mor ofalus a diwyd oedd y prif Grist'nogion gynt yng nghylch eneidiau dynion, ac i ddangos hefyd pa gymmaint o *ddylanwad* sydd gan wr duwiol ym mysg y dynion gwaethaf.
Theo. Evans: D.P.O. 354.

Y mae'r naill yn profi eu dirgel *ddylanwadau* hwynt, mae'r llall yn gwbl ddieithr i'w grym a'u rhinwedd hwynt.—*Ios. Rees:* Hunan-adnabyddiaeth (1771), 101 (cf. 43, 120, 127, 128).

Egni natur a *dylanwadau* 'r nef a ddwg yr effaith hyn oddi amgylch.—*D. Davis:* Bywyd Duw, 62 (cf. 59).

Un o'r moddion a effeithiodd fwyaf er gwareiddio y byd yw *dylanwad* y rhyw fenywaidd; a'r hyn a roddodd iddynt y *dylanwad* hwn, ac a'u dyrchafodd i'w lle priodol mewn cymdeithas, yw y grefydd Gristionogol.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 337.

Cynnyddasant mewn nifer, aethant yn fwy dysgedig na neb, a'u *dylanwad* yn gyffredinol drwy yr holl deyrnasoedd.—*Brutus:* Brutusiana, 388.

Y diben sy genyf mewn golwg yw profi fod y prophwydoliaethau hyn hefyd, fel prophwydoliaethau y dosparth cyntaf, wedi cael eu llefaru dan *ddylanwad* ysprydoliaeth ddwyfol.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 150 (cf. 54, 58, 66, 80, 249).

Nid oeddynt yn cael ond ychydig iawn o *ddylanwad* ar y wlad.—*Traethodydd,* v. 504.

O fewn addfedol *ddylanwadau* iawnder,
Y mae yr had yn tyfu i gyflawnder.
Islwyn: Caniadau, 57 (cf. 64).

2. a filling, completion; repletion.

Rhedent, ergydient i'r gad
Hyd liniau waed *dylanwad!*—*G. Meichain:* Gwaith, i. 147.

Dylanwadol, *a.* influential.—*W.*

Trwy Dduw, trwy'r Yspryd, trwy'r Gair, yr effeithir Bedydd yn *ddylanwadol,* a thrwy Fedydd fel moddion offerynol.—*Nicander:* Ecclesia Defensa, 25.

Casglodd o'i amgylch, a gosododd yn y lleoedd mwyaf cyhoeddus a *dylanwadol* yn athrofa fawr Berlin . . . wŷr penderfynol ar yr ochr efengylaidd.—*Traethodydd,* v. 512.

Yr oedd . . . Lewis Morys yn dra chydnabyddus â gweithiau y cynfeirdd, ac yn troi mewn cylch eang a *dylanwadol.*—*Beirniad,* x. 371.

Dylanwadu, *v.* to influence; to have influence on or with; to produce effect.

Rhy debyg iddi, i feddwl mai ar antur y cafwyd y pethau hyn allan ganddynt; rhy debyg iddi, i feddwl nad oedd Yspryd Duw trwy ryw foddion yn arwain ac yn *dylanwadu* eu hymbalfaliadau tywyll am y gwirionedd.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 28.

Yr Iwddewon anghrediniol a gyffroisant ac a ddrwg *ddylanwadasant* feddyliau'r cenedloedd yn erbyn y brodyr.
Dr. Th. Briscoe: Act. xiv. 2.

Casglai y byddai ysgogiad y belen honno yn cael ei *ddylanwadu* ganddo.—*Dosparth Hevlog,* i. 185.

Dylanwadu ar, to have or exercise influence on; to influence.

Oddi yma y bu Calfin yn *dylanwadu ar* holl deyrnasoedd Cred.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 327 (cf. 213).

Bydd y dewisiad hwn yn sicr o *ddylanwadu ar* ei gyfundrefn.—*Adolygydd,* iii. 149 (cf. 153).

Dylanwol, *a.* 'tending to fill;' influent.

Dylath, -au, *sf.* 'a side beam;' apparently the same as *tylath.*—*Iolo Glossary.*

Dylathr, *a.* [llathr] polished; shining.

Dylathrad, } -au, *sm.* a polishing or shining;
Dylathriad, } a planing, a smoothing.

Dylathrol, *a.* shining, polishing; polished.

Dylathru, *v.* to polish, brighten, or furbish; to make to shine; to glitter; to plane, to smooth.

Banieri a phenseli, deg mil ynt
O filoedd yn *dylathru* wybr rhwng blaen ac ol.
W. O. Pughe: C.G. v. 638.

Dylaw, *sm.* [dyl] that which is owed; due; obligation; interest.

Dylaw, *v.* to own; to have duty; to be obliged; to be interested.

Gnawd y dyn *dylaw* dylif ny gwe.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 292 (cf. 215, 231).

Gwr an pryn prynhawn ddiflau
Gwir i ddal o *ddylaw* afflau.
Dafydd Benfras: M.A. i. 313 (cf. 351).

Dylawch, *sm.* [llawch] protection, shelter; reception.

Dylawd, *sm.* [dyl] obligation; due.—*P.*

Dylawg, *a.* having a due, or right to.—*P.*

Dyldra, *sm.* [dwl] dullness, stupidity.

Pan ystyriwyf ranau fy nghorff, a grym a gallu fy enaid, yr wyf yn synu o herwydd *dyldra* fy nghalon.
Lewis Anwyl: Nefawl Ganllaw, 42.

Dyleb, -ion, *sf.* [dyl] a bill; a note; an invoice.

Bu hefyd ryw amser fod achos gan y gwr hwn i newid *dyleb* o swm bed fawr, mewn ariandy; rhoddodd swyddog y newid iddo, fel y tybiodd, yn *ddylebion* pum punnoedd.
W. Jones: Nodweddiad y Cymry, 59.

Cymmer dy *ddyleb* yn ol, meddai y goruchwyliwr, eistedd i lawr yn unlawn, ac ysgrifena ddeg a deugain.
J. Williams: Oraclau Bywiol (Luc xvi. 6).

Dylechiad, *sm.* a skulking, a hiding.

Dylechol, *a.* apt to hide or skulk; skulking, hiding.

Dylechu, *v.* [llechu] to skulk, to hide.

Dyled, } *pl.* dyledion, *sf.* [dyl: Br. *dléout;* Ir.
Dyléd, } *dliged*] 1. debt; that which is owed or due; obligation; right.

Eu *deletdyon* talent en deu haner.
Cyfreithiau Cymru, i. 82.

Ni thawdd *dyled* er ei haros.—*Diareb.* (M.A. iii. 168.)

Pa faint sydd arnat ti o *ddyled* i'm harglwydd?
Luc xvi. 5, 7.

O hir *ddyled* ni ddylir dim.—*Diareb.* (M.A. iii. 174.)

'Mi a glywais Rywun,' medd y llall, 'yn cyfrif naw cant o bunnau o *ddyléd* ar yr ystâd honno.'
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 58.

Y mae Duw i'n deol ni o'n ganedig le, a'n gwir *ddyled.*
Hanes Cenedloedd Ynys Prydain. (*P.*)

Yn awr, Ai rhoi mawr im' yw?
Na, *dyléd,* neu dâl ydyw.—*Dewi Wyn:* Blodau Arfon, 80.

Dyled y wlad,
Y ddyled wladol, } the national debt.

Gwedasom fod *dyled y wlad,* rhwng soddedig a disoddedig, yn naw can myrddiwn.
Seren Gomer, xvi. 34 (cf. 33, 35, 36).

Pe rhoddid dyn ar waith i gyfrif y *ddyled wladol,* a chaniatäu iddo gyfrif can nryll bob mynyd am ddeuddeng awr o'r dydd, cymmerai 30 mlynedd i'w cyfrif yn benadurau.—*Gwyliedydd,* ix. 222.

Mae y *ddyled wladol* dros wyth gan miliwn o bunnau.
Cwmwl, ii. 39 (cf. 38).

Mân ddyledion, small or dribbling debts.

Mewn dyled,
Dan ddyled, } in debt; indebted.

Ymgynnullodd hefyd ato ef bob gwr helbulus, a phob gwr a'r a oedd *mewn dyled.*—*Esgob Morgan:* 1 Sam. xxii. 2.

Bod (*o un*) *mewn dyled hyd ei lygaid,* to be up to one's eyes in debt; to be deeply involved in debt.—*C.S.*

Digitized by Google

2. (fig. and Biblical) debt; sin.

Maddeu i ni ein *dyledion*, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.—*Matt.* vi. 12 (cf. Luc xi. 4).

Y mae'n perthyn i ni fod yn fanwl ac yn gywrain iawn i holi ein cyfrifon, i weled a oes dim o'r *dyledion* hyn eto heb eu croesi, dim o'r ffrwythau drwg hyn o'n pechod eto yn aros . . . fel y bo i bob *dyledion* gael eu gwneuthur i fyny a'u dibenu rhwng Barnwr mawr y Byd a ninnau.
Ios. Tomas: Buchedd Grist. 308.

3. that which one ought to do; duty.

Ei ryfeddodau rhof ar led,
Ac mae'n *ddylêd* eu canmawl.—*Edm. Prys:* Salm. ix. 1.

Tair cainc swyddogaeth bardd: *dyled;* ymgais; ac amcan.—*Barddas*, ii. 58.

Tripheth anhawdd i wir Gristion eu gwneuthur: caru drwg; balchïaw yn ei dda; ac esgeulusaw ei *ddyled* i Dduw a dyn.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 72 (cf. 154, 201).

Yr ydwyf yn dysgu dau beth: fy *nyled* tu ag at Dduw, a'm *dyled* tu ag at fy nghymmydog.
Llyfr Gweddi Gyffredin 1664.

Cyfun a chyfarddun ydynt parth *dyled*, ac ymgais, ac amcan.—*Barddas*, ii. 58.

Holl ddyled dyn, the whole duty of man.—*Preg.* xii. 13.

¶ *Dylêd* (with the stress on the last syllable) is peculiar to North Wales. See *Dled*, &c.

Dyledach, Dyletach, Dylediach, *s.pl.* [dyled] small, trifling, or dribbling debts.

Dyledai, eion, *sc.* a debtee, a creditor.—*Dicts.*

Dyledgar, *a.* [dyled 3] dutiful, duteous; obedient.

Tri brodyr cymmyrred: cyweithas; telediw; a *dyledgar*.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 274.

Dyledgarwch, *sm.* dutifulness, duteousness.

Dyledog, *a.* [dyled 1] 1. being in debt, indebted.

Elisæus trwy rad penllad yn amlhau olew y wraig weddw *ddyledog*.—2 *Bren.* iv. (Cynn.)

Y gwan a wneir yn wanach, y tlawd
Dyledog yn dlotach.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 411.

2. [dyled 3] 'having a title; entitled to property; titled; noble;' high-born. See *Dyledog*.

Ar gwyrda *dyledogion* bonedigion ar rydeholassei e Saeson ac a dygeasynt trev eu tat. ef a rodes i pawb onadunt tref eu tat. ac eu dylyet.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 311.

Ar e kyfreyth y dodaf uy ue mot y en *dyledogach* y gadu ue priodolder am guarchadu gennyf nogyt yt ty cadu er hyn nyt oes yth warchadu.—*C.C.* ii. 186 (cf. 138).

Ynghedoedd Cymry nad oedd a delyn
Y sydd wr *dyledawg* a lefeis hyn.
Golyddan: M.A. i. 156 (cf. 458, 461, 494).

Dyweded ei fod yn fab i alltud o Gymraes *ddyledawg*.
Leges Wallicae, v. i. 82.

Ac wrth henny ef a kynnullws un vyl ar dec o verchet *dyledogyon* trwy holl teyrnassoed ynys Prydeyn.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 222.

Trywyr a golleis tri *dyledogyon*
Brodoryon haelon o hil Rodri.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 363.

Dilidia, 'r dyn *dyledawg!*—*D. ab Gwilym*, lxi. 54.

A'i darian lydan, *ddyledog* dreftad;
A'i dai o'r winwlad hyd ar Wenlog.—*L. G. Cothi*, i. xv. 59.

Tri bardd cyfunbwys y sydd; sef ydynt y tri phrifardd *dyledogion;* nid amgen, bardd trwyddedog cynnwynawl neu brydydd, wrth fraint a defod; bardd ofydd wrth ddysg awenbwyll; a derwyddfardd wrth bwyll dwyfolaeth a chynneddfoldeb.—*Barddas*, ii. 56.

A chyntaf oedd ef a ddodes esgyb *dyledogyon* yn Ynys Prydain, a thiroedd a chyfoethau iddynt.—*Iolo Mss.* 138.

Y rhai a'i dygasai oedd etifeddiaeth *ddyledog* iddo ei hun.
Ed. Samuel: Buch. yr Apost. 242.

Dyledog, -ion, *sc.* 1. one entitled to a heritage or to property; a proprietor; one of noble birth, a nobleman, a noble.

Pwybynhac a gynhalo tir teir oes yn un wlat ar dynyon kyn boent *dyledogyon*, oes tat a hendat a gorhendat heb hawl a heb arhawl heb losc heb tor aradyr ny wrthebir am tir y hwnnw can ry caywys kyfreith y rydunt.—*C.C.* i. 756.

Guedy e gaffael o hanaut yth uuryt ty odema ual e buru *dyledauc* andyledauc.—*C.C.* ii. 144 (cf. 138, 164, 300).

A llw trichannyn o wyr cyvraith, sev *dyledogion* o dirogion, a gadarnaa a wnelawr gan raith gwlad.—*C.C.* ii. 496.

Wrth hynny rey or kyghorwyr a vynnynt rody e vorwyn honno y un o *dyledogyon* enys Prydeyn.
Brut. Gr. ab Arthur: M.A. ii. 210 (cf. 216, 376).

Chwi *ddyledogion* a goreugwyr y wlad, rhowch glust i ddychymmyg.—*Theo. Evans:* D.P.O. 54.

Mae ein prif *ddyledogion*, ïe, ein brenin, yn ddarostyngedig i ganlyn y gyfraith.
G. Mechain: Gwaith, ii. 55 (cf 398).

2. one to whom something is due; one who has a claim; a claimant.

Tri *dyledogion* addwynder: tlawd; gwan; a benyw.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 279.

3. a superior; one of higher rank.

Dyledogion ac adlawiaid, superiors and inferiors.

Yr *adlawiaid* a ddawant oll o golofnau'r Naw Gorchan; ac am hyny y gelwir y gorchanau yn *ddyledogion* gogyfyrdd; ain fod yr *adlawiaid* fal gweision dyled iddynt.
Cyfrinach y Beirdd, 72.

Dyledogaeth, -au, *sf.* proprietorship; nobleness, nobility.

A gweled ei fod herwydd cyfraith a *dyledogaeth*, ac ym mraint gwlad.—*Iolo Mss.* 224.

Dyledoges, -au, *sf.* one who has a legal right to land; a woman of noble birth or descent; a peeress, a lady.

Dyledogrwydd, *sm.* [dyledog 2] nobleness; illustriousness; honourableness.

Tri *dyledogrwydd* cerddor: grymusder athrylith; cyflawnder dysg; a glendid ei gampau.—*Cyfrinach y Beirdd*, 46.

Digon o *dyledogrwydd*
A bonedd, oedd rinwedd rwydd.
Huw Morus: E.C. i. 107.

Dyledogryw, *a.* of noble birth or descent, high-born, noble.

Dyledogryw, *sm.* a noble race, noble descent.

Dyledol, *a.* due; incumbent; obligatory; right.

A mynnu arnaw na ddoded ar neb o'r Cymry na swydd na gwaith na chymmhorth heb i bob gwr a ddodid hynny arnaw ei dir yn rhydd ai fraint yn *ddyledawl* modd ac oedd gyfiawn i genedl y Cymry.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 540.

Dyledor, -ion, -iaid, *sm.* a debtor.

Dyledswydd, -au, *sf.* [dyled+swydd] duty; obligation.

Tair priv *ddyledswydd* teyrnedd.—*C.C.* ii. 484.

Tair *dyledswydd* bardd: iawn ganu; iawn ddysgu; ac iawn farnu.—*Cyfrinach y Beirdd*, 43.

Tair prif *ddyledswydd* dyn parth gwlad a theulu: ynnill meddiant drwy ddiwydrwydd a chywirdeb; lleisiu ei wlad a'i genedl ym mhob gorchwyl a wnelo; a gyru addysg deddfoldeb ar bob un lle ydd elo.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 85 (cf. 68, 86, 276).

Tair prif *ddyledswydd* Cristion: cred yng Nghrist; gobaith yn Nuw; a chariad at ddyn.—*Barddas*, i. 290.

Beth yw dy *ddyledswydd* tu ag at Dduw?
Llyfr Gweddi Gyffredin.

Dyledswydd a swydd hoew sant
Yw gwiw gân a gogoniant.—*Gronwy Owain*, 82.

Y *ddyledswydd* sydd yn gorwedd arnom ydyw, gweddio dros deyrnas ein Harglwydd a'n Pryniaswdwr.
Jeremi Owen, 81.

Dyna, yn fyr, yw ein *dyledswydd* at Dduw a dyn.
Theo. Evans: Pwyll y Pader, 113.

Dadebrodd ein dysgedigion at eu *dyledswydd*.
Blackwell: Ceinion Alun, 84.

Holl ddyledswydd dyn, the whole duty of [illegible]

Dyledswyddau crefydd, the duties of re[illegible]

Digitized by Google

Dyledswyddol, *a.* relating to duty or duties; practical.

Gellid casglu allan o'u dychymmygion a gwahanol gyfundrefnau eu philosophi a'u syniadau mwyaf difrifol, Gorff o dduwinyddiaeth athrawiaethol a *dyledswyddol* nid hollol annhebyg i gyfundrefn y Bibl.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 28.

Dyledu, *v.* to make due; to debit; to be due.

Dyledus, *a.* due; owing; incumbent; obligatory; right, proper.

Lle nid oedd llywodraeth *ddyledus* wedi bod er yn hir o amser.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 497.

Mal y gwypid teilyngdod a bonedd pencenedloedd, ac o hyny braint iddynt a fai *dyledus.*—*Iolo Mss.* 87 (cf. 280, 283).

Y mae ef yn dadymchwelyd . . . gan argan *ddyledus* ganmoliant iddi.—*H. Perri:* Egl. Ffraethineb, xxxvi. 2.

Un yw cosp *ddyledus* gan raith gwlad a chyfraith am ddrwg argyweddus.—*Barddas,* i. 350.

Yno ym mhen talm (ar ol derbyn y wobr *dyledus* idd eu pechodau yn y byd hwn) y gwelodd yr Arglwydd yn dda i gyffwrdd â'u calonau.—*Theo. Evans:* D.P.O. 90.

Am yr arian oedd *ddyledus* ar Ionathan dy frawd i drysor y brenin.—1 *Macc.* xiii. 15.

Tâl i mi yr hyn sy *ddyledus* arnat.—*Matt.* xviii. 28.

Mi dybiais nad anghymhwys i mi, neu'n hytrach fod yn *ddyledus* arnaf, gymmeryd cennad teg genych oll cyn fy nghychwyn.—*Gronwy Owain,* 329.

Dyledwr, wyr, *sm.* [dyled+gwr] 1. a debtor; one who owes an obligation or duty.

Dau *ddyledwr* oedd i'r un echwynwr.
Luc vii. 41 (cf. xvi. 5).

Dyledwr a gofynwr, debtor and creditor.

2 (fig.) a debtor.—*Matt.* vi. 7.

Dyledwr ydwyf i'r Groegiaid, ac i'r barbariaid hefyd.
Rhuf. i. 14 (cf. viii. 12; xv. 27).

Dyledydd, -ion, *sm.*=*Dyledwr.*

O *ddyledyddion* yn ddeiliaid iddo
Draw bydd cenedloedd dra bo y Ganges,
Yr hen Euphrades, a'r Rhin yn ffrydio.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 156 (cf. 111).

Dyleddfiad, *pl.* dyleddfiaid, *sm.* [lleddf] a supine (in grammar).

¶ Dr. Owen Pughe (*Welsh Grammar,* 1803; *Cadwedigaeth yr Iaith Gymraeg,* 1803), and others who copy him, call such forms as *ceritor* a supine, and *carator* a gerund; and accordingly he translates *adeilitor* 'to be building;' and *adeiliator* 'in building.' The Welsh verb has neither a supine nor a gerund, as these terms are understood in Latin Grammar. The forms so called are finite verbs, and apparently imitations of the Latin passive voice. These endings are present or future, singular or plural, according to the connection, and are used only in the third person. In treating of the Welsh passive conjugation, Zeuss gives the present (and future) indicative ending in *-ir;* to which, in the second edition, the less frequent *-awr* is added. No mention is made in either edition of the very important forms in *-ator, -etor, -itor* (sometimes *-otor, -iator, -etawr, -itior, -itiawr*); compare Irish *-ithir, -ither,* in passives, and *-adar, -edar, -idir,* in deponents; also Latin *-atur, -etur, -itur.* These passive endings (occasionally depressed in our copies to *-ador, -idiawr,* &c.) occur frequently in the old poets, and sometimes in the earlier poets of the Middle-Welsh period (*A.B.* ii. 75, 165, 166, 199, 200, 302, 305; *M.A.* i. 7, 33, 39, 70, 154, 197, 205; iii. 151, 177).

Dylefain, *v.* [llefain] to cry out; to cry; to clamour.

Dylefiad, -au, *sm.* a crying, a clamouring.

Dylefol, *a.* crying, clamouring; clamorous.

Dyleithio, *v.* [L. *delecto*] to please, to delight, to gratify.

Perfectus perffaith, lacte laeth, delecto, *dyleithio.*
Dr. Gr. Roberts: Gram. 193.

Dyleithus, *a.* [L. *delecto*] pleasing, delightful, gratifying.

Yn wir yr oedd mor *ddyleithus* genyf wrth wneuthur y llyfr hwn ag yr ysgubai ymaith holl flinder henaint.
Dr. Gr. Roberts: Gram. 388.

Dylenwad, -au, *sm.* the action of filling or replenishing; repletion.

Dylenwi, } *v.* [llenwi, llanw] 1. to fill, to re-
Dylanw, } plenish; to fill up.

Awen a ganaf. o dwfyn ys dygaf.
Auon kyt beryt. gogwn y gwrhyt.
Gogwn pan dyuoinw. gogwn pan *dyleinw.*
Gogwn pan dillyd. gogwn pan weecryd.
Taliesin: A.B. ii. 134 (cf. 4, 198; M.A. i. 36).

Teruysc tonn dilysc *dyleinw* aber.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 322.

Dylenwi 'r anfeidroldeb maith,
O Dduw! mae gwaith dy gariad.
Iolo Morganwg: Salmau, i. cciii. 1.

Yr hyn a dawelai y tonnau trochionog a *ddylenwent* yn ei fynwes.—*Brutus:* Brut. 387 (cf. 246, 256).

Y bywynion chweg bwytânt
Ac yn y cib *dylanwant* odd y ffrwd
Fal y sychedynt.—*W. O. Pughe:* C.G. iv. 371 (cf. iii. 150).

Dylenwir croth pob dwyfol dant
Ag uwch gogoniant iddo.
R. ab Gwilym Ddu: Gardd Eiflon, 14.

Pe cait dy *ddylenwi* â chyfoeth a golud.
Gwyliedydd, vii. 384.

Pan barthodd y Crëwr yr oesoesol leni,
Gylch-ogylch *dylanwodd* pur lif o oleuni.
Eben Fardd: Gweith. 413.

Ni chanfuesynt hwy ddim effaith bennodol yn y dwr a *ddylanwed* o ysplennydd y goleu.—*W. O. Pughe:* C.P. 35.

Dylanwodd Duw, eleni,
A golud nef, ein gwlad ni.
Robert Owen: Gweith. 101 (cf. 118).

Dylenwodd ei llygaid mor uniongyrchol o ddagrau fel na welai hi bellach y mur peryglus.—*Y Bryniau Pell,* 26.

2. to influence, to have an influence on.—*W.*

Dylenwol, *a.* tending to fill, replenishing; influential.

Dyleu, *v.* [dyl]=*Dylu.*

Dyli, *pl.* dyliau, *sm.* [dyl] 1. constitution, temperament, habit of body, condition; impulse; 'a good or bad habit of body, a good or bad constitution;' plight; fashion.

Hyn a wnaiff dyn pan y disgwylio ef ar ei weithredoedd oddi allan, fal y maent hwy yn deilliaw oddi wrth ddiogel weithrediad ei feddwl, megys yn deilliaw oddi wrth *ddyliau* o ddawn ynddo, ac ar y *dyliau* o ddawn ynddo megys yn deilliaw oddi wrth ei gyflawnhâd.—*Sion Trefredyn.* (*P.*)

Duw biau *dyli* hoewdeb diloes,
Ai rhwyddeb hir, ai rhoddi byr-oes.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 206.

2. *sf.* (=dylif) the warp (in weaving); texture. See *Dylif* 2.

Un *ddyli,* dan newydd len,
Yw dy liw â dail ywen.—*Dafydd Naumor.*

Dyli, ïau, *sm.* [dy-+lli=llif] a flood, deluge, or inundation.

Deuliw barf dwfr llafarfas,
Delw glaer ar len *dyli* glas.—*Dafydd ab Gwilym,* xviii. 9.

Dy gyfa wir argofion
Am y *dyli* du ei don,
A foddai, er anfuddiant,
Gynfyd, blaid ynfyd o blant.—*W. O. Pughe:* H.G. 7.

Digitized by Google

Ar y draethell hell aeth hi heb obaith
Ei chodi eilwaith uwch y *dyli*.—*Gwaith G. Mechain*, i. 489.

Diffeith woleith o wael *dyli* a gai
A chyn tervyn Mei mawr egrygi.—*Gro. Owain*, 129.

Mal hyn y dywedant yn yr India i Budha ddifa y cynfil a berai y *dyli*; ac yn yr Aipht yr afanc ac y gwyfarch a oeddynt gynarwyddion am y *dyli*.
W. O. Pughe: H.G. 13 (cf. 1).

Lle bu tref dolef *dyli* 'r Llyn heddyw,
Llon haddef ni welir.—*Tegid:* Gwaith, 78.

Dyli braisg, ar dal y bryn,
Yw'r mur dwr am war Derwyn.
R. ab G. Ddu: Gardd Eifion, 132 (cf. 134).

Dyli (*ў*), *sm.* [dwl]=*Dyldra*, *Dylni*.—*C.S.*

Dyliad, *sm.* [dyli] a rendering constitutional; a becoming habituated.—*P.*

Dyliaid, } *s.pl.* [dwl] dull or stupid ones,
Dylion, } dunces, fools, dolts.

Y mae dywediadau . . . ag sydd yn llawn camgymmeriadau, ac yn deilyngach o gael eu taflu i'r tân, na'u traddodi i gamarwain y rhai ag ydynt yn ddigon o *ddyliaid* yn barod.—*Brutus:* Brutusiana, 47.

Pe cawsai y *dwliaid* y gaib yn eu dwylo,
Yr wyf yn ystyried y bu'sai llai 'stwrio.—*Daniel Ddu*, 280.

Gyru manna grym einioes,
Ac iawn ffydd grefydd y Groes,
I *ddylion* gau addoliant—
Eu Brahma a'u Siva sant.
G. Mechain: Gwaith, i. 200 (cf. 202, 258).

Dylion ynt trwy hudoliaeth y bwystfil
Bostfawr, a'i Babyddiaeth.—*Gwyliedydd*, ii. 319.

Dyliaw, *v.* to render constitutional.—*P.*

Dyliawl, *a.* temperamental; habitual.—*P.*

Dylif, -au, -ion, *sm.* [dy-+llif: L. *diluvium*] a flood, a deluge, an inundation; a land-flood.

Llywyawdyr amerawdyr mor a lleuver
Y *dylif* kynnif kynebyker.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 322 (cf. 39, 199).

Drwg fu'r daran ymannos,
Dwyn *dylif*, ofni dyn dlos.—*D. ab Gwilym*, xliv. 59.

Yr Arglwydd a eistedd ar y *dylif* [°llif, llifddwr, llifeiriant].—*Ll. G. Gyffredin* 1567 (Salm. xxix. 10).

Trwy *ddylif* mawr y boddodd Duw holl drigolion yr hen fyd, am eu pechodau, oddigerth Noah a'i deulu.
Th. Charles, s.v.

Y cymylau a ffoasent gan y llym
Ogleddwynt, hwn a grychai *ddylif* wedd.
W. O. Pughe: C.G. xi. 847.

Dros *ddylif* crych-ewynog hen Gonwy.
D. Ddu Eryri: Corff y Gainc, 443.

Dylif cad, the pouring in of battle; the torrent of battle.

Tra vu ddyt Davyt difefyl *ddylif cad*
Oet cadarn y gynnif.—*Bleddyn Fardd:* M.A. i. 371.

Dylif Noah, } the Noachian flood or deluge.
Dylif No, }

Ni fu *ddylif* yn llifo
Ei elfydd yn nydd hen *No*.—*Gronwy Owain*, 91.

Dylif, -au, *sf.* [cf. C. *dele*; Br. *delez*] 1. the warp (in weaving); texture. Also called *ystof*.

Y mae Nennius yn aros yn yr un gywair a *dylif* ag yr oedd genyf.—*I. B. Hir:* Gwaith, 203.

Y *ddylif* a blethwyd. Gorphenwyd y gwaith.
D. Ddu Eryri: Corff y Gainc, 449.

2. a comb (as in honey-comb).

Dylifau mêl (=diliau mêl), honey-combs.

Eiddun ynt yn fwy nag aur nac emmau
A pherach ynt no mel a'i *ddilyfau*.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 561 (Salm. xix. 10).

Dylifad, -au, } *sm.* 1. a flowing, a fluxion, a
Dylifiad, -au, } flow; an overflowing; a flood, an inundation.

Suddion niweidiol a yrir allan trwy nawn *ddylifiad*.
Gwyliedydd, xiv. 49.

Boddiant, *dylifiant* di-lan
A foddodd yr elfyddan.—*Robert Owen:* Gweith. 153.

2. effluence, emanation.

Yna ynot ti yr oedd
Y cain *ddylifiad* o ên gain digread.
W. O. Pughe: C.G. iii. 6.

3. [dylif, *f.*] a warping (in weaving).

Dylifedd, *sm.* a flow of water, a flood.

Dylifedd yn dolefain,
Lle chwery pysg ym mysg main.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 6.

Dylifiannol, *a.* [dylifiant] flowing; defluent; inundating, flooding.

Dylifiannu, *v.* to flow; to be flowing; to flood.

Dylifiant, *sm.* 1. a flowing; a flooding or inundating; an inundation; floating or flooding (in husbandry).

Am yr ennilliadau oddi wrth *ddylifiant*, gobeithio nad oes bellach mo'r eisieu helaethu.—*W. O. Pughe:* C.P. 128.

2. a flowing (from), emanation, effluence.

Dylifo, *v.* to flow; to flow together; to glide, move, or run on; to flood, inundate, or deluge; to overwhelm.

Kawc pwy ae *dylifas*. pwy gwawr gorffennas.
Taliesin: A.B. ii. 134 (M.A. i. 36).

Ywein aer dilein a *dylif* yg gawr
A llafnawr llat heb rif.
Cynddelw: M.A. i. 214 (cf. 261, 580).

Mae'r amser yn *dylifo* fel pellen ymaith.
Morgan Llwyd: Tri Aderyn, 94.

Ystyriwn, os gallwn, pa fath gyfoeth rhyfeddol o oleuni sy'n wastadol yn *dylifo* oddi wrth yr haul, ac eto heb ddarfod.—*Dafydd Lewys:* Golwg, xxviii. 8.

A'r holl genedloedd a *ddylifant* ato.
Esa. ii. 2 (cf. Mic. iv. 1).

O ba le y mae yn *dylifo* i'r holl greadigaeth rhesymol.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 16 (cf. 340).

Gweled daioni Duw a'i haelioni, a phrawf o'r llesol a'r odiaethol ffrydiau a *ddylifant* beunydd oddi wrtho.
Elis Wynn: Rh.B.S. 184.

Heb ludd *dylifa* nodd y gwiniant hael.
W. O. Pughe: Palestina, 10.

Cyn gynted gan hyny ag yr aeth holl fyddin yr Aipht-iaid i'w fewn, y môr a *ddylifodd* i'w le ei hun.
Hugh Jones: Iosephus, 71.

Duw Awdwr, Fi sy'n d'wedyd,
Dylifwch, boddwch y byd.—*Dafydd Ionawr*, 179 (cf. 301).

Ond er hyn, da yw y rhodd
O'i lafur a *ddylifodd*.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 60 (cf. 17).

Dylifo, *v.* to arrange the warp in the loom: also called *ystofi*.

Dylifwn, gweuwn gywydd,
Wiw rywiog we, ar y gwŷdd.—*Sion Pywel*.

Ar y llaw aswy yr oedd henddyn a elwid Amser, yn *dylifo* aneirif o edafedd aur, ac edafedd arian, a chopr, a haiarn lawer iawn.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 60.

Cyhyder yr anwe, a *dylifer*
Y we, sef amdo hiliogaeth Iorwerth.
D. Ddu Eryri: Corff y Gainc, 445.

Dylifog, *a.* flooded, inundated, overflowed; torrent, overwhelming.

Oer ydyw tafod Cadwallon, yr hwn
A dawelai y cefnfor *dylifog* brigwyn.
Dafydd Ddu Eryri: Corff y Gainc, 444.

Dylifol, *a.* flowing; flooding, torrent, inundating; overwhelming; diluvial, diluvian.

Cyn i ni allu dianc o gyrhaedd y môr, dymchwelodd arnom yn rhyferthwy *dylifol*.
Cawrdaf: Meudwy Cymreig, 26.

Edrychodd Duw ar drochion
Dylifol dyfn-fol y don.—*Gutyn Padarn:* Gwaith, 42.

Dylig, *a.* [dyl] having obligation or duty.—*P.*

Digitized by Google

Dyliniad, -au, *sm.* the act of kneeling.—*P.*

Dylinio, *v.* [glin, glinio] to 'go on the knees;' to kneel.—*P.*

Dyliniol, *a.* kneeling, on the knees.—*P.*

Dylith, -iau, *sm.* [dy-+llith] that which allures; example, model, pattern.

Athraw doeth pwyll, athraw annoeth *dylith*.—*Diareb.*

Dylithio, *v.* [llithio] to allure, entice, or seduce.

Gwnaeth heddiw dy liw *dylithiaw* brain yng ngwyar,
Oes obaith i'r mab a'th gâr!—*Gr. ab Addaf ab Dafydd.*

Dyliw, -iau, -ion, *sm.* [dy-+lliw] a shade, shadow, or colour.—*P.*

Ar deulu Brenneych be ych barnaswn
Dilyw dyn en vyw nys adawaswn.—*Aneurin:* God. 78.

Dylni, *sm.* [dwl] dullness, stupidity.

Heriwch Wgan, arw chwiwgi, sy'n anfon
Swn ynfyd o *ddylni*.—*Seren Gomer*, v. 246.

Dylo, *v.* [dyl]=*Dylaw*, *Dylu*.

Dylochawl, *a.* protecting, guarding.

Dylochi, *v.* [dy-+llochi] to protect, to guard; to give an asylum to; to shelter.

Oed gyr ban brofed cyfred cyfor
Greid goluch dyluch *dilochitor*.
Cynddelw: M.A. i. 205 (cf. 268).

A dwy dreic feleic faw gyman
Ual deulew uyn *dylochansan*.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 298.

Dylochiad, -au, *sm.* a protecting or guarding; a hiding; a sheltering.

Dylod, *sm.* a clear or shrill utterance.—*P.*

Dylod gywair, 'the key of *D* in music; called also *Dylor gywair*; so called from its confined and shrill nature.'—*P.*

Dyloddi, *v.* [lloddi] to soothe, calm, ease, or allay.

Tra'r wylai seddodd; ac â thirion law
Ei rudd *dyloddai*, ac annerchai ef.
R. M. Lewis: Ilad, i. 470.

Dyloesi, *v.* [lloesi: cf. *arloesi*] to absorb; to empty; to drain.

Heb ei dori yn fân byddant hirach yn *dyloesi* eu hawyr.
W. O. Pughe: C.P. 14.

Dyloewi, *v.* [gloewi] to polish, to brighten; to refine.

Er dyddiau Pedr I. y mae dysgeidiaeth ym mysg mawrion Russia yn cael ei *ddyloewi*.
R. Roberts: Dacaryddiaeth, 39.

Dylofedig, *pt.a.* [dylofi] stroked with the hand; assuaged, appeased.

Dylofedigaeth, -au, *sf.* the act of stroking (with the hand), handling, or appeasing.

Dylofi, *v.* [dy-+llawf=llaw] to stroke or feel with the hand; to handle gently; to pat; to dandle; to assuage, appease, or allay.

Di-hagr wair, da y gŵyr hon
Dylofi ar dal afon.—*Dafydd ab Gwilym*, cciv. 23.

Y llew a lamai a *dylofai* yn
Ei balf y myn.—*W. O. Pughe:* C.G. iv. 380.

Wedi eu dofi y maent mor fwynaidd a hawdd eu trin, fel y gadawant i ddieithriaid eu *dylofi*, a derbyniant fwyd o'u dwylaw.—*Gwyliedydd*, i. 426.

Dylofiad, -au, *sm.* a stroking, a handling gently; the act of allaying or soothing.

Dylofyn -au, *sm.* [llawf] a handful; a grasp; a curl, a lock.

Duw a lifodd *dylofyn*
Dy wallt aur, i dwyllo dyn.—*Dafydd ab Gwilym*, lvi. 9.

Dylofyn o wlan, a handful of wool; a lock of wool.

Dyloni, *v.* [lloni] to cheer or gladden.

Dylona fiodawl anian.—*R. Owen:* Gweith. 285.

Dylor, *sm.* 'extreme or exerted utterance.'—*P.* See *Dylod*.

Dylor gywair=*Dylod gywair*.

Dylorni, *v.* [contr. of *dyfeiliorni*] to disparage, traduce, or censure; to run down; to abuse; to backbite.—*N. W.*

Ei ystyr gyda ni yw beio a chondemnio dyn yn ei gefn, neu, fel y dywedwn ni, rhedeg arno. Y mae *dylorni* mawr ar Owen Dafydd yng nghylch y defaid a laddwyd yn ddiweddar ar ei dir. . . Ond ni wn i ar y ddaiar beth yw ei darddiad.—*Nicander* (Cronicl Cymru, Chwef. 6, 1869).

Fel hyn, wrth *ddilorni*'r offeiriadaeth a chrefydd, y mae anghrediniaeth ac annuwioldeb yn cynnyddu ar frys.
Lewis Anwyl: Nefawl Ganllaw, 123.

Ni *ddilornia* neb ond y didduw a'r gwaethaf o ddynion gydymaith mor hawddgar a charuaidd.
Lewis Anwyl: Nefawl Ganllaw, 120.

Y mae genyf yn awr o'm blaen argraffiad o'r gwaith cyssefin . . . yn y rhagymadrodd i'r hwn y mae yr awdwr yn *dylorni* y gwr hwn yn bur ddiddefod.
Llyfryddiaeth y Cymry, 117.

Pa ham y meiddiodd *ddylorni* gwr mor fawr ei glod a'r gwladgarwr?—*Y Genniuen*, xiv. 113.

Dylosg, *sm.* [llosg] that which is burnt or calcined; char; charcoal.

Troir pob haiarn yn ddur trwy ei boethi i raddau pennodol am amser pennodol gyda swm o *ddylosg*.
Gwyddoniadur Cymreig, iii. 703.

Dylosgadwy, *a.* calcinable; ignitable.

Dylosgawl, *a.* tending to calcine.

Dylosgi, *v.* to calcine; to char; to ignite.

Dylosgiad, -au, *sm.* calcination.

Dylu, **Dylyu**, *v.* [dyl: C. *dely;* Br. *dléout*] to have a right to; to be incumbent, due, or proper; to behove; to be bound in duty; to be indebted to; to owe; to ought; to deserve, to merit; to have a claim or right.

Ef a *dele* keuanedu e neuat heb e brenyn ar suydguyr a *delcant* guasanaythu arnau ef ual ar e brenyn.—*C. C.* i. 14.

Mi a dangossaf ytt y fford y *dylyych* vynet. . . Wrth hynny llaewnha oll y *dylyut* titheu geissyaw y daryan ef heb y marchawc.—*St. Greal*, § 91 (cf. 95).

Gwybydwch pwy a *dylyy* bot yn wyr y mi. Arglwyd heb y gwyrda pawb ae *dylyy*.—*Mab.* 5 (cf. 199, 228, 232, 236).

A duw Sulgwyn y *dyly* yr Eistedua honn gaffael y meistyr.—*St. Greal*, § 2 (cf. 98).

Ny *dylyei* neb kyffroi marchawc urdawl y ar y medwl y bei arnaw yn agkyfuartal.—*Mab.* 212 (cf. 16, 25, 221).

Mab Duw *dylyaf* dy bwyllaw.
Dafydd Benfras: M.A. i. 310 (cf. 202, 203).

O dawn mawr Mab Duw *dylyaf* ardelw.
Cynddelw: M.A. i. 257 (cf. 286).

A gwedy eu dyuot yno wynt a disgynnassant . . . ac a wediassant Duw ual y *dylyei* gristonogyon da y wneuthur.
St. Greal, § 35 (cf. 230).

Nynhev a *dylyhem* haeddu y vodyant ef val y caffem buched tragywyawl yn teyrnas. gwlat nef.
Llyfr Ancr, 156 (cf. 81, 142, 143).

Llyma glo cariad taladwy,
Ni *ddyly* hi i mi mwy!—*D. ab Gwilym*, cxviii. 39.

A wnel mad mad a *ddyly*.—*Diareb.* (M.A. iii. 149.)

Efe a wel a *ddylai* fod, ac a *ddylai* ddyfod, ac a *ddylai* adfod, ac a *ddylai* ddarfod, ac a *ddylai* gydfod, ac a *ddylai* orfod; ac o weled a *ddylai*, efe a wybydd a *ddylai* fod; ac o wybod a *ddylai* fod, a'r amser y *dylai* fod, a'r modd y *dylai* fod, a'r achos y *dylai* fod, efe a wybydd a wna Duw.
Iolo Mss. 195 (cf. 196).

Am hyny y *dylesit* ti roddi fy arian at y cyfnewidwyr.
Matt. xxv. 27.

Ni *ddylai* fardd fyfyrio ar unpeth gwael o'r byd.
Cyfrinach y Beirdd, 20.

Nis gŵyr . . . hwn o'r ddysg hanner a *ddyl*.
Thomas Prys.

Digitized by Google

Nid ydym ni yn caru Duw yn gymmaint ag y *dylyem*.
Ed. Iames: Hom. i. 19.

Rhown dâl i'r hwn a'i *dyly*.—*Guto'r Glyn*.

Tri pheth ni *ddyly* cerddawr eu celu.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 137.

Nyni a adawsom heb wneuthur y pethau a *ddylesym* eu gwneuthur; ac a wnaethom y pethau ni *ddylesym* eu gwneuthur.—*Llyfr Gweddi Gyffredin* (Cyffes).

Y rhai a ddylent farwolaeth, those who deserve death; those who deserve to die.

Mor ystyriol y cystuddiaist ti elynion dy blant, *y rhai a ddylent farwolaeth*.—*Doeth.* xii. 20.

Dylwn, } I ought; I should; it is my
Mi a ddylwn, } duty.

Dylwn dalu iddo, I ought to pay him.

Dyly barch, } he deserves reverence; he ought
Dyl barch, } to be respected.

Dylasent wneuthur hyn, they ought to have done this.

¶ On this irregular verb Dr. Davies (*Rudimenta*, 89) makes this remark: 'Dicimus tamen *Dyly*, pro *Dylai*.' The case appears to be otherwise: we use the imperfect form (*dylai*) with a present meaning.

Dylu (*ŷ*), *v.* [dwl] to make or become dull; to be gloomy; to grow dim or dark; to become stupid, foolish, senseless, or infatuated.

Pa beth yw hyn sy'n *dylu* 'r wawr!
Mae'n gwasgu f' yspryd lleeg i lawr.
D. Ddu Eryri: Corff y Gainc, 315.

Pa ryw gymmysg, neud dysg teg,
A *ddylodd* y Wyddeleg!—*G. Mechain:* Gwaith, i. 105.

Dechreuai y ganwyll *ddylu* wrth losgi ger fy mron; yr oedd hi yn tynu yn brysur at hanner nos.
Gwyliedydd, ix. 230.

Mae ef bron dŷlu am dani, he is almost infatuated for her.—*C.S.*

Dyluch, *sm.* [lluch, lluchio] a throw or cast; an impulse.—*P.*

Dyluchiad, -au, *sm.* a throwing, a hurling.

Dyluchio, *v.* to throw about; to throw, to cast, to fling.

Dylud, *v.* [glud: cf. *erlid*] to adhere to; to follow, to pursue. See *Dyludo*.

Dilit y gyuedach a wnaethant. ac ymdidan. A phan welssant bot yn well udunt kymrut hun no *dilit* kyuedach y gyscu yd aethant.—*Mabinogion*, 28.

A wnel ddrwg, drwg a'i *dylud*.—*Iolo Mss.* 252.

Y bardd a fo perchen awen o Dduw, a esyd ei fryd bob amser ar *ddylud* cyflawn fyfyrdod.
Cyfrinach y Beirdd, 31 (cf. 26, 134).

Gwae ni chretto bob peth o'r pregethau
Gwae ni *ddylyd* rif prif weddiau.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 517 (cf. 302, 356).

Nid hawdd i mi *ddylud* hwn
I'w dŷ annedd hyd annwn.
D. ab Gwilym, clxxxii. 43 (cf. cxlviii. 22).

Oer yw *dylud* oriau dolur,
A thrwm echur, uthr yw'm achwyn.
Dafydd Llwyd Mathew.

Cyd bai petrus ganto gyhwrdd â'r eryr, eto er hyny oll, hi a'i *dylud* dan ehedeg a chrëu.—*Ystên Sionet*, 70.

Dyludiad, -au, *sm.* adhesion; a following or pursuing.

Dyludo, *v.* [dylud] to adhere to; to follow or pursue; to continue diligently at; to harass, to tease; to chase; to press, to tread.

Taryf tacruar trydar vawr yndaw
Tarw bytin dylin *dyludaw*.—*Cynddelw:* M.A. i. 259.

Yny dygwydawd ynteu yr llawr. ar march yna ae *dyludawd* yn gadarngryf y rygdaw ar dayar.
Bown o Hamtwn, i 32.

Yr hyn olwg echrysion a ai yn erchyllach erchyllach fel yr oeddem yn nesäu at y ffrwd, a'r lludw yn *dyludo* arnom yn waeth.—*Trysorfa Gwybodaeth* (1770), 39.

Dyludo yd, to tread out corn.

Na phenrhwyma eneu yr ych a fo yn *dyludo* 'r yd.
Wiliam Salesbury: 1 Cor. ix. 9.

Dyludol, *a.* pursuing; teasing; harassing.

Dyludwr, wyr, *sm.* a pursuer, a chaser, a harasser.

Awdwr blinderoedd ydwyd,
Heuwr, *dyludwr* dail wyd.—*D. ab Gwilym*, lxix. 41.

Dyluniad, -au, *sm.* [llunio] delineation; formation.

Dyluniedig, *pt.a.* delineated; formed.

Dylunio, *v.* to delineate; to form; to fashion; to formulate.

Dylunid hefyd Anubis gan yr Aiphtiaid ag iddo ben huad, neu huadgi; ac efelly y *dylunir* Amida gan drigolion Iapan.—*W. O. Pughe:* Hu Gadarn, 2.

Yr oedd y defnyddiau yn hyddwyn, ac yn barod i'w *dylunio* yn ol ewyllys y oelfyddwr.—*Gwyliedydd*, iii. 331.

Hwn a amdaenodd y nefoedd gan ei law, hwn ag ei fysedd a *ddyluniodd* hwylion y ser.
W. O. Pughe: Einioes Dyn, vii.

Y rhai darluniadol ydynt fath o oreiriau a weddant yn gynnorthwyon i *ddylunio* ymadrodd.
Isaac Jones: Gram. Cym. iii. vii.

Dyluniol, *a.* formative; delineating.

Banyn dyluniol, a formative particle (in grammar). See *Banyn*.

Y *banynau dyluniawl* ynt fath o eiriau a weddant yn gyfnerth i ddyluniaw ymadrawdd, heb ddangaws ynddynt eu hunain yr un ystyr amlwg, chweithach i hyweddu y sain.—*W. O. Pughe:* Cad. Iaith Gym. iii. iii. 1 (cf. i. 8).

Dyluniwr, wyr, *sm.* a delineator; a former.

Dylusg, *sm.* [dy- + llusg (*D.* and *P.*)] 1. a drawing or haling; what is cast ashore by floods, the wreck on the shore.

Dylusg arnad i'r deil-lwyn.—*D. ab Gwilym.* (*D.*)

Dylusg y môr, sea-weeds.—*P.*

2. [cf. Ga. *duleasg*, *duileisg*, *duliosg*, from *duille*, leaf, and *uisg*, water] dulse, a kind of edible alga, palmated sea-weed (*Fucus palmatus*).—*H. Davies:* Llysieuaeth Gymreig, 118, 185.

Ac yn y lle y gwelas *delysc* a morwyal hudaw long a wnaeth. ac or gwynnon ar *delysc* hudaw cordwal a wnaeth.
Mabinogion, 69.

Ac yna diffiannu y gweith yn *delysc* ac yn wimon.
Mabinogion, 71.

¶ According to Dr. Prior (*Popular Names of Plants*, 69), the name *dulse* is 'given to several species of rose-spored algæ, and more especially to Rhodomenia palmata, and Iridæa edulis.'

Dylusgiad, } -au, *sm.* a dragging, haling, trail-
Dylusgad, } ing, or pulling.

Dylusgo, *v.* to drag, to trail; to draw, to pull.

Lle rhedent weithion yr
Afonydd yn *dylusgaw* eu llwst llaith.
W. O. Pughe: C.G. vii. 352.

Cafodd y dyhiryn afael ynom ryw fodd; *dylusgodd* ni i ganol y pwll.—*Brython*, iii. 62.

Dylusgol, *a.* dragging, haling, trailing.

Dylw, *sm.* [dyl] obligation; duty; right.

Dylwch, *sm.* [llwch] a flood or deluge.

Dylwed, *sm.* [dylw] obligation; duty; right.

Dylwed ffosawd, the right of the sword.—*P.*

Pei achwir volawt y *dylwet ffossawt*
Dyrllydwn i wirawt kyn bydwn i ermit.
Phylip Brydydd: M.A. i. 377.

Digitized by Google

Dylwf, dylyfion, *sm.* [=dylwyf: cf. *dylofyn, dylofi*] a wisp, a small bundle.

Dylwr, *sm.* [?] the hinder part, the back.

Dylwr, *a.* back; hind, hinder, hindmost.

Chwarthor dilwr, the hind quarter.—*C.C.* i. 286. See *Chwarthor.*

Dylwyf, *sm.* [llwyf?] fuel, fire-wood; 'small dry sticks, chips, or any matter which is easily set on fire, and wherewith fire is kindled;' tinder.

O naw affeith tan. . . Whechet yw keissaw *dilwyf.*
C.C. i. 412.

Dyly, *v.* [dyl]=*Dylu, Dylyu.*

Dylyad, -au, *sm.* a rendering obligatory; a becoming due.

Dylyaw, *v.* [dyl]=*Dyly, dylyu, dylu.*

Dylyawd, *sm.* [dyly] obligation, duty.

Dylyawdr, odron, *sm.* one who owns; one to whom anything is due; a creditor.—*C.C.* ii. 342.

Or bydd rhwng y talawdr a'r *dylyawdr* ddydd gosodedig i dalu y dylyed, ef a ddylyir aros y dydd.
Leges Wallicæ, II. iv. 9.

Dyledwr a dylyawdr, debtor and creditor.

Dylyddu, *v.* to owe; to deserve; to be bound or incumbent. See *Dylu.*

Fal y dylyddai, as it ought to be; as it should be.

Er diweddu *fal y dylyddai* er anrhydedd a gobr i bob iawn, a gwaradwydd a cholled a chosp i bob amgen na iawn.—*Iolo Mss.* 85.

Dylyed, -ion, *sf.* [dyly] debt; duty, obligation; behoof; claim, demand; right; that to which one is entitled; title; dues. See *Dyled,* now the more usual form.

Nyt archaf i heb y Gereint rodi idaw. namyn y *dylyet* ehun ae amrygoll yr pan golles y gyuoeth hyt hediw.
Mabinogion, 257 (cf. 5).

Yna y deuth meibon anundeb y deruysgu y rygtunt. ac y waradwydaw Bran am y uot yn darestwg oe vrawt. ac wynt yn vn uam vn dat. ac yn vn *dylyet* . . . ac erchi idaw kymryt yn wreic idaw merch brenhin Llychlyn hyt pan uei drwy borth hwnnw y kaffei y gyuoeth ae *dylyet.*
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 72.

Dylyet y kyghellawr yw kynhal dadleu y brenhin yn y wyd ac yn y awssen.—*C.C.* i. 674 (cf. 432, 770).

Yna Paredur a erchis udunt wediaw Duw drostaw ar adel idaw ennill yr hynn a dylyei vot yn eidaw drwy wir *dylyet.*—*St. Greal,* § 194 (cf. 39, 221).

Ac nyt oes *dylyet* y neb ar yr ynys hon namyn y genedl Gymry ei hun.—*Trioedd:* M.A. ii. 3.

Dyro *dylyet* y tir y gadw y vab ny anet etwo.
Llyfr Ancr, 105.

Onny byd plant yr alltut y holl da a geiff y brenhin eithyr kymeint ae *dylyet* pan vo marw.
C.C. i. 492 (cf. 772).

Kyvoethawc dwywes y koedyd . . . y ty y mae kanhya ty kerdet trwy awyrawl ffyrd ac uffernolyon teg. a threyglaw dayarolyon *dylyet.*—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 102.

Gwarvart wyf iti o *dylyed.*
Cynddelw: M.A. i. 217 (cf. 158, 191, 294, 342, 360).

Am y pethau ydynt, yn yr Ysgrythyr, yn hawdd eu deall ac anghenrhaid i iechydwriaeth, *dylyed* pob dyn yw eu dysgu hwy.—*Ed. Iames:* Hom. i. 11.

Y mae yn ddylyed arnaf, it is incumbent on me; it is my duty; I ought.

Dylyedig, *pt.a.* that is appropriated; ennobled; become ennobled.—*P.*

Dylyedigaeth, -au, *sf.* the state of being entitled to; ennoblement.—*P.* See *Dylyedogaeth, Dyledogaeth.*

Dylyedog, *a.* having or possessing a title; entitled to property; noble, high-born; titled.

Gwr da aduwyn ae pedwar arderchogyon veibon gyt ac ef a hanhoedynt o *dylyedawc* voned.
Brut y Tywysogion, 260.

A phan edrychassant tu ar twryf. nachaf was melyngoch ieuanc heb varyf a heb drawsswch arnaw. a gosged *dylyedawc* arnaw y ar varch mawr.—*Mab.* 148 (cf. 87, 254).

Yno yd oedynt kyfrwng rif teir mil o vonhedigyon yn gyn hardet o wisgoed mawrweirthawc. val kyt bei brenhin vei bob un o nadunt neu teyrn *deledawc.*—*Ystoria Charles,* 6.

Ony chyuyt *dylyedawc* tir a dayar a chyuoeth a senghi ae deu troet y bwyt yn y got.—*Mab.* 15 (cf. 8, 14).

Gwell ei gyflwr na dau wladwr *dylyedawg.*
Tegid: Gwaith, 30.

Dylyedog, -ion, *sc.* a person entitled to property or a heritage; a proprietor; one of noble or high birth; a nobleman, a noble.

Sef gwreic a vynnawd Kicua verch Wynn Gohoyw uab Gloyw Wallt lydan . . . o *dylyedogyon* yr ynys hon.
Mabinogion, 25.

Heb perchenogyon na *dylyedogyon* arnadunt.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 169.

Ac i Kei i pen swydwr er rodes Angiw a Feitw. a llawer o wladoed ereill yr *dylyedogion* ereill. a oedynt en i wasanaeth.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 318.

Ac vn ryw wiscoed ymdanunt ual y dylyei am *dylyedogyon.*—*Mabinogion,* 221.

A hin arglwit ed oetud duhun en i damunaw nid amgen no cheisaw *deliedawc* en wra ith verch o *deliedogion* Ruvein.
Brut Gr. ab Arthur (A): M.A. ii. 216 (cf. 217).

Kyghorwr y *dylyedogyon,* ymladgar yn erbyn kedyrn.
Brut y Tywysogion, 244.

Honno a roes ym lawer o eur ac aryant. a rodyon ereill y rei a roeys ynnheu y uarchogyon urdolyon tlawt. ac y *dylyedogyon* ereill.—*St. Greal,* § 19.

Dylyedogaeth, -au, *sf.* proprietorship; title; a right to nobility; nobleness, nobility.—*C.C.* ii. 316, 442.

Dylyedoges, -au, *sf.* one who has a legal right to land; a woman of noble birth or descent; a peeress.

Dylyedogi, *v.* to render entitled; to ennoble; to become ennobled or titled.

Dylyedol, *a.*=*Dylyedus.*

Dylyedus, *a.* incumbent; due, proper; appropriate; obligatory; privileged.

Wrth hynny ny dyly y brenhin atteb dros y brawdwr am yr hynn a wnel y maes oe wassanaeth *dylyedus.*
C.C. i. 476 (cf. 348, 372, 480, 594, 772).

Ac wrth hynny iawnach a *dylyedussach* oed eu kywarsagu ac eu darestwg y genhym ni noc eu hardyrchafel.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 241 (cf. 41, 87, 223).

Ac vrth hynny *dylyedus* uu poeni pechadur.
Lucidar: Ll.A. 16.

Pei *dylyedus* diuetha kennat. nyt aut dracheuyn yn vyw att dy arglwyd.—*Mabinogion,* 227 (cf. 33).

A gwedy daruot llunyaethu y gwladoed hynny yn *dylyedus.* pan yttoed y gwanwyn yn dyuot. y deuth Arthur tracheuen y ynys Prydein.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 318.

Gwedy gwneuthur offrymeu *dylyedus.* a gwassanaeth Duw yn gyntaf. herwyd gorchymun yr euengyl. yn herwyd *dylyedus* wassanaeth. ac urdas.—*Campau Charlymaen,* § 3.

Lleider oedd ynteu . . . a *dylyedus* oedd iddaw ddioddef angheu am y ledrat.—*Ipotis,* § 10.

Dylyf, *sm.* [llyf, llyfu] a lick; a yawn or gape.

Dylyf gên, a yawn, a gaping.

Dylyfiad, -au, *sm.* [dylyfu] a licking; a passing or drawing the tongue over; oscitancy.

Dylyfiad gên, a yawning, a gaping; a yawn.

Dylyfol, *a.* yawning, gaping, oscitant; licking with the tongue.

Digitized by Google

Dylyfu, *v.* [dy- + llyfu] to lick; to pass the tongue over; to pass over with the tongue.

Dylyfu gên, to yawn, to gape.

Pan fych di'n *dylyfu gên*,
A'th rudd yn brudd heb gynnydd gwên,
Deall nad elli fyn'd yn hen,
Ond nesu at ddiben d' oes!—*Huw Morus:* E.C. ii. 24.

Llythyr neu ddau oddi wrth y gwely sydd yn peri i mi *ddylyfu gên* yn awr ac eilwaith.—*Blackwell:* C.A. 270.

Yn lle bod ar y maes yn tori'r yd,
Dylyfu gên a phlethu dwylaw 'ng nghyd,
A ffurflo llu o esgusodion wna,
Gan feio ffyrdd Rhagluniaeth ddoeth a da.
Gwynionydd: Caniadau, 69.

Dylyfwr, wyr, *sm.* a licker; a yawner.

Dylyfwr gên, a yawner, a gaper.—*W.*

Dylymiad, -au, *sm.* [llym] a sharpening, acuation.

Dylymiad, -au, *sm.* [llwm] a making bare.

Dylymol, *a.* tending to sharpen, sharpening.

Dylymu, *v.* [llym] to make sharp, to sharpen.—*P.*

Dylymu, *v.* [llwm] to make bare; to impoverish.—*P.*

Dylyn, *v.* [dy- + glŷn, glynu]. See *Dilyn*, &c.

Dylyniad, -au, *sm.* a cleaving or adhering; adhesion.

Dylynu, *v.* to adhere, to cleave to.

Dylyriad, iaid, *sm.* [dylwr] the hindmost one; one in the rear.

Dylys, *a.* [llys, llysu] cast or thrown away; cast-off.

Ef a dely e capaneu glau e brenyn ay hen kefruyeu llyu eu pren ay fruyneu *dulys* ay hen esparduneu *dulys*.
Cyfreithiau Cymru, i. 30.

Dylysu, *v.* [llysu] to send off or away; to put away; to chase; to get off or away.

A mynnu kadw y geir a oruc y iarll racdaw a *dilyssu* y deu vab.—*Mabinogion*, 189.

Dylysu anifeiliaid, to drive away or chase cattle.—*S.W.*

Dylyu, *v.* [dyl]. See *Dylu*, &c.

Mawr a beth y *dylywn* i dy garu di Bown.
Bown o Hamtwn, ‖ 11.

Dylla, **Dyllia**, **Dyllu**, *v.* [dwll] to pour over, to overwhelm; to overshadow, to cast a gloom over.

Ac am diredd Enlli Dyfi *dylles*
Dyrchawr llongawr ar glawr aches.—*Taliesin:* M.A. i. 66.

Dyllest, -au, *sf.* [dwll] an overwhelmed state; submergence.

Drudlwyr y drafwyr y ar drafun veirch
Oe draferth rac Fordun
Saeson sag *dyllest* yg Gweatun.
Cynddelw: M.A. i. 223 (cf. 262, 272, 303).

Pan vynno Duw dy divuryau
O *dyllest* present a phresuyl vrau.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 328.

Dylliad, -au, *sm.* an overwhelming; an overshadowing.—*P.*

Dylliog, *a.* overwhelmed; shadowed over; gloomy.

Dylluan, -od, *sf.* ['vid. an à *dall* & *huan*, quia ad solem cæcutit' (*D.*). *Dylluan*=*tylluan* [twll + hwan], the hooter from holes or crevices? Cf. Lat. *ulula* with *ululo*] an owl.

Mae brân i frân, a gwalch i walches,
A *dylluan* i'w chymhares.—*Diarch.* (M.A. iii. 186.)

Goreu gan hyny ... imi ymholi ac ymofyn gan y rhai ydynt hŷn na mi, am oedran y *ddylluan*.
Iolo Mss. 189 (cf. 188, 190, 200).

Chwithau ar gylchau yw'r gwalchod gwylltion,
Y Seison a'u llinon sy *ddylluanod*.
L. G. Cothi, i. xvi. 23.

'Hw hu,' medd y *ddylluan*,
Annedwydd gywydd a gân.—*Lewis Menai.*

Ydwyf fel *dylluan* mewn diffeithwch.
Esgob Morgan: Salm. cii. 6.

A fyddwn ninnau fel *dylluanod* yn hoffach genym y tywyllwch?—*Ch. Edwards:* H. y Ffydd, 225.

Y llwybrau gynt lle bu'r gân
Yw lleoedd y *ddylluan*.—*Ieuan Brydydd Hir:* Gwaith, 51.

Tebyg iawn wyt i'r *ddylluan*;
O bren i bren bydd honno ei hunan.
Hen Bennill (Ystên Sioned, 89).

Dyma iaith y cybydd afian ...
Sydd yn byw fel hen *ddylluan*.—*Daniel Ddu*, 275.

Dylluanod ydynt adar nos ysglyfaethus.
Aniansyddiaeth Ysgrythyrol, 65.

Dedwydd a fyddent pe baent *ddylluanod*.
G. Mechain: Gwaith, ii. 65.

Y *ddylluan* â'r big gam
Yn chwerthin am eu penau.
Hen Ganu (Ystên Sioned, 60).

Dylluan Cwm Cawlwyd, the Owl of Cwm Cawlwyd (in North Britain) was, according to the tale, one of the six ancients of the world.

O garwriaeth yr hen Eryr y cafwyd gwybod pwy'r hynaf o greaduriaid y byd: sef ydynt, Eryr Gwernabwy, a Hydd Rhedynfre, a Gleisiad Llyn Llifon, a Mwyalch Cilgwri, a Llyffan Cors Fochno, a *Dylluan Cwm Cawlwyd*; ac nid oes namyn y grwn tir yn hŷn nag wynt o bethau a gawsant ddechreuad yn oes y byd hwn.
Iolo Mss. 190 (cf Mab. 129—131).

Dylluan fawr, *Dylluan fwyaf*, the great-horned owl.

Dylluan wen, the white owl, the snow owl, the screech-owl.

Dylluan frech, the tawny owl.

Dylluan rudd, the brown owl.

Dylluan gorniog, *Dylluan gyrnig*, the long-eared or horned owl.

Dylluan glustiog, the short-eared owl.

Coeg ddylluan, the little owl.

Dylluan fig, a hooting owl.

Dylluan hirglustiog, long-eared owl.

Dylluan y graig, the rock-owl.

Dylluan fach, a little or young owl, an owlet.

Dylluan las, the grey owl.

Y mae amryw fath o ddylluanod; megys y *ddylluan wen; dylluan frech; dylluan rudd*, yn cael ei galw hefyd, aderyn y corff; *dylluan gorniog; dylluan glustiog;* a'r *coeg ddylluan*.
Th. Charles, s.v. 'Dylluan.'

Dylluan yr ysgubor, the barn-owl=*Dylluan wen*.

Y mae y ddylluan gyffredin, neu *ddylluan yr ysgubor*, yn cael ei hystyried yn gysegredig yn Asia Ogleddol.
Gwyddoniadur Cymreig, iv. 72 (cf. 71).

¶ The word occurs also as *tylluan*, and that probably is the earlier and more accurate form. Cf. *D. ab Gwilym*, clix. 27, 36; clxxxiii. 1; clxxxiv. 1, 14, 43; *Iolo Mss.* 172, 173.

Sef yw Blodeuwed *tylluan* or ieith yr awr honn. ac o achaws hynny y mae digassawc yr adar yr *tylluan*. ac ef a elwir ettwa y *tylluan* yn Vlodeuwed.—*Mabinogion*, 80.

Twyllhuan is another form.

Mis Rhagfyr tomlyd archan ...
Llwm gwyd llonyd llywethan
Llon ceiliog a *thwyllhuan*.
Englynion y Misoedd: M.A. i. 16.

Owl ... dylluan, tylluan, *twylluan*.—*Walters*, s.v.

Digitized by Google

In Bp. Morgan's version of the Bible (1588), the word is *dylluan* in all the passages in which the word occurs; but his reviser, Bp. Parry (1620), and all subsequent editors have changed *dylluan* into *tylluan* (except in Ps. cii. 6); or, what is less probable, they assumed that the word was a masculine, and treated it accordingly as such; as, *y dylluan, a'r dylluan*. So Edmund Prys (1624):

Fel un o'r anialwch, lle trig
Y pelig, neu'r *dylluan*.—*Salm.* cii. 6.

The Prayer Book of 1567 had previously adopted the same reading:

Cyffelyb wyf i'r pelican o'r diffeithwch: mal *tylluan* wyf yn yr anialwch.

Cylluan and *cyrlluan*, used in some parts for this bird, appear to be nothing but dialectal corruptions of *dylluan* or *tylluan*.

Dylluanaidd, *a.* owlish, owl-like.

Dyllwng, Dyllyngio, *v.* [dy-+gollwng]. See *Dillwng*, &c.

Dyllyr, *sm.* [dwll] what overwhelms; the deep, the abyss.

Dy ffynhawn lydan dyleinw *dyllyr*
Dy saeth dychyrch draeth diwg dybyr.
Taliesin: M.A. i. 169.

Dym, *s.* and *a.*=*Dim*. Seldom used, except occasionally by the poets instead of *dim*, for the sake of rhyme, where *dim* would not serve the purpose.

Ry uneuthym o *dym* o drye ueithred.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 325.

Gwylan Lewis ab Gwilym,
A channaid yw uwch no *dym*.
L. G. Cothi, IV. xiii. 31 (cf. III. ii. 12).

Daiar a dwfr d'ai o'r *dym*,
Wrth y gair nerthog wiw-rym.
Robert Owen: Gweith. 274 (cf. 269, 270).

Dym, *px.* [dy-+ym]. 'It implies the iteration of a reflective and mutual action.'—*P.* The prefix *ym-* usually confines the action of the verb to the subject from which it issues; but *dym-* may often have a transitive sense. The former is sometimes improperly used for *am-*; as *ymddiffyn, ymgeleddu, ymddifadu*, for *amddiffyn, amgeleddu, amddifadu*. In some words *dym* may perhaps represent *dy-+am-*.

Dym, *prep. pron.* [dy+ym=ydd ym=i mi, imi; C. *dym*] to me.

Duw ren *dym* ryt kymwynas
Detyf dyfyndawn kyuyawn kyweithas.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 300 (cf. 290, 297).

Dym kywarwydyat Unhwch
Dywal baran yg kyolwch.—*A.B.* ii. 267.

Dyma, *adv.* [dy-+yma] here, here is (*pl.* here are), see here, lo here; this is (*pl.* these are). It has the force of a demonstrative pronoun with the copula, and governs the object following it like a transitive verb.

A *dyma* y gorchymmynion, y deddfau, a'r barnedigaethau a orchymmynodd yr Arglwydd eich Duw eu dysgu i chwi.—*Deut.* vi. 1.

Dyma fy anwylyd, *dyma* fy nghyfaill.
Caniad Salomon, v. 16.

Dyma 'r dydd a wnaeth yr Arglwydd.
Esgob Morgan: Salm. cxviii. 24.

Dyma 'r ffordd oreu i ddyn i orfod ei wrthwynebwr.
Ed. Iames: Hom. i. 191 (cf. 31, 46, 47).

Dyma 'r ddinas sydd i ymweled â hi.—*Ier.* vi. 6.

Wele'r awron, *dyma* 'r felltith a'r fendith. Wele *dyma* fynydd Ebal a mynydd Gerizim. *Dyma* angeu a *dyma* fywyd.—*Morgan Llwyd:* Tri Aderyn, 75.

Dyma i chwi waedoliaeth ac ach yr hen Gymry.
Theo. Evans: D.P.O. 7.

Dyma amynedd a ffydd y saint.—*Dad.* xiii. 10.

Dyma 'r Byd yr ych chwi yn ei fawrhau.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 40.

Dyma 'r dydd y cododd Iesu,
Gan chwilfriwio barau'r bedd;
Dyma 'r dydd i orfoleddu,
Ac i gadw sanctaidd wledd.—*Daniel Ddu*, 345.

Dyma hi, here she is; she is here; this is she; here it is.

Dyma fi, here am I; I am here.

Dyma y dyn, here is the man; this is the man.

Dyma 'r dyn sy'n treulio ei fywyd
Mewn hyfrydwch a dedwyddyd.—*I. B. Hir:* Gwaith, 31.

Nid dyma y dyn, this is not the man.

Dyma'm gweddi, this is my prayer.—*Gronwy Owain*, 62.

¶ Before the 16th century, *dyma* and *dyna* seldom occur (in literature), their equivalents being *llyma* and *llyna*. Cf. *Matt.* xxiv. 23; and W. Salesbury, *l.c.* *Dyma* is not found in Davies's Dictionary (1632), though *dyna* is; but Salesbury's (1547) has neither.

Dymbi, *v.* [dym+bi (=bydd), 3rd pers. sing. fut. of bod] it will be to me; there shall be to me.

Yn wir *dymbi* teithiawc Mon.
Taliesin: A.B. ii. 212 (cf. 211).

Dymborthawl, *a.* tending to give mutual support or assistance.—*P.*

Dymborthi, *v.* [dym+porthi] to be aiding mutually; to be supporting one's self; to support, to bear.

Dymborthai ar adenydd Cherub uch yr wybr
Grisiannawl, gorseddedig mewn glas ter.
W. O. Pughe: C.G. vi. 856 (cf. ii. 635).

Dymborthiad, *sm.* a being mutually helping or supporting; a helping one's self.—*P.*

Dymbwyll, *sm.* reason; sense; judgment; consideration.

Tri pheth y dylai bob dyn ymostwng iddynt: ei allu corfforawl; ei *ddymbwyll* deall; a'i gydwybod ei hunan.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 222.

Dymchwalu, *v.* [chwalu] to be mutually spreading or dispersing.—*P.*

Dymchwel, -ion, *sm.* a return; an overthrow.

Tair clud gymhorth y sydd: beirdd yn eu cylch clera; *dymchwel* o ryvel; ac eillion yn nawdd cenedl y Cymry.
Cyfreithiau Cymru, ii. 476.

Dymchwel, *v.*=*Dymchwelyd*.

Dymchwelawl, Dymchwelawdl, *sm.* a kind of peculiar tentative Welsh metre, which, apparently has seldom ever been used.

Y mae Robert Vychan . . . yn ei ysgrif o Ramadeg Simwnt Vychan, ac ar ol y Ddosparth hon, yn rhoi mesur newydd a ddychymmygwyd gan Simwnt Vychan dan enw *Dymchwelawl* [*gwell enw byddai *Dymchwelawdl*], ac yn ei ddosparthu fel hyn: *Dychwelawl* a fesurir o ugain silltaf, pump pennill byrion o bedair silltaf bob un, &c.
Cyfrinach y Beirdd, 181.

Dymchweledig, *pt.a.* overturned, subverted, upset, overthrown.

Dodir y talm *dymchweledig* o gaws ac y llian dano yn y cawsellt.—*W. O. Pughe:* C.P. 97.

Dymchweledigaeth, -au, *sf.* the action of overturning or upsetting; subversion, overthrow.

Dymchweliad, -au, *sm.* subversion; overthrow.

Dymchwelyd, *v.* [dym-+chwel] to overthrow, subvert, upset, or overturn; to turn or throw down.

Digitized by Google

Nis *dymchwel* awel ewybr
O'u pill dyllau ebill wybr.—*D. ab Gwilym*, ccviii. 65.

Y rhai sy yn *dymchwelyd* tai cyfan.
Eegob Morgan: Tit. i. 11.

Y mae efe yn *dymchwelyd* mynyddoedd o'r gwraidd.
Iob xxviii. 9 (cf. ix. 5; xix. 6).

Annuwioldeb a *ddymchwel* y pechadur.
Diar. xiii. 6 (cf. xviii. 5).

A'r Iesu . . . a *ddymchwelodd* i lawr fyrddau y newidwyr arian.—*W. Salesbury:* Matt. xxi. 12.

Yr un ystyr mae ganwaith yn haws *dymchwelyd* cerbyd ar ei rediad, na phan safo yn llonydd.
W. O. Pughe: C.P. 43 (cf. 26, 29, 40, 84, 86).

¶ In *M.A.* ii. 5 and 570, *dymchwelyd* appears to be erroneously written or printed for *dychwelyd*.

Dymchwelydr, -au, *sm.* the mould-board or earth-board of a plough.

Trwy hon yr amlygir, pa yr un a roddir y dewis o blaid haiarn rhedeg, ai i *ddymchwelydr* pren ar yr un llun.
W. O. Pughe: C.P. 42 (cf. 41).

Y *dymchwelydr* a wneir o ystyllen, neu ddarn o bren, wedi ei hoelio wrth y gwadn.
Aneurin Owen: Amaethyddiaeth, 21.

Dymchwelydr dyblyg, a double mould-board.

Mae genyf yma hefyd aradr â *dymchwelydr dyblyg*.
W. O. Pughe: C.P. 46.

Dymchwydd, *sm.* [chwydd] intumescence, a swelling, a tumour.—*P.*

Dymchwyddiad, -au, *sm.* tumefaction, tumescence; a swelling or puffing up.—*P.*

Dymchwyddol, *a.* apt to swell, tumefying; tumescent.—*P.*

Dymdaenu, **Dymdanu**, *v.* to be mutually spreading; to be about spreading one's self.—*P.*

Dymdarddu, *v.* to be breaking out; to be springing up.—*P.*

Dymddadlu, *v.* to be mutually disputing, debating, or contending.—*P.*

Dymddenu, *v.* to be alluring.—*P.*

Dymddwyn, *v.* to bear with; to bear, to go with young, to conceive.—*D.*

Dymddyfod, *v.* [dyfod] to be coming; to approach or come mutually.

Dymeilio, *v.* [eilio] to plait together.—*P.*

Dymestyn, *v.* [estyn] to be extending.—*P.*

Dymfod, *v.* [bod] to be existing. See *Dymbi*.

Dymfoddio, *v.* [boddio] to please mutually; 'to be pleasing or enjoying one's self.'—*P.*

Dymgadw, *v.* [cadw] to keep one's self.—*P.*

Dymgais, geisiau, *sf.* [cais] exertion; attempt.

Dymgais â'm gwlad o'i hamgylch,
Damred a cherdded ei chylch.—*D. ab Gwilym*, cclx. 31.

Dymgaru, *v.* to love mutually; to be mutually loving.—*P.*

Dymgeisiad, -au, *sm.* self-exertion.—*P.*

Dymgeisio, *v.* to exert one's self.—*P.*

Dymgeisiol, *a.* apt to exert one's self.—*P.*

Dymgelu, *v.* to conceal one's self.—*P.*

Dymgiliad, -au, *sm.* a receding; a mutually retreating; deviation.—*P.*

Dymgilio, *v.* to be receding; to deviate.—*P.*

Dymgodi, *v.* to raise or lift one's self.—*P.*

Dymgoddi, *v.* to be vexing one's self; to be mutually vexing.—*M.A.* i. 199.

Dymgofio, *v.* to be remembering; to bear record.

Deuddeg meib Israel *dymgofu* o ganhad Iesu.
Taliesin: M.A. i. 46.

Dymgofydd, -ion, *sm.* a remembrancer or recorder.

Atwyn lloer llewychawt yn eluyd
Arall atwyn pan vyd da *dymgofyd*.
Taliesin: A.B. ii. 117 (M.A. i. 28).

Dymgrafu, *v.* to be scratching, scraping, or rubbing one's self.—*P.*

Dymgredu, *v.* to confide mutually.—*P.*

Dymgroesi, *v.* to cross one's self.—*P.*

Dymgrwydro, *v.* to be wandering, straying, or strolling.—*P.*

Dymguddio, *v.* to be hiding, secluding, or concealing one's self.—*P.*

Dymguro, *v.* to beat one's self; to beat mutually.—*P.*

Dymgwyddo, *v.* [cwyddo] 1. to be falling; to be falling mutually.—*P.*

2. to cause to fall, to trip up, to upset.

Or saul *dymgwytat* ar lleith dimgorbit.
Llyfr Du: A.B. ii. 9 (M.A. i. 184; cf. 182).

Sôb yn *dymgwyddaw* pobun,
Siol arth, rhy adgas ei lun.—*D. ab Gwilym*, ccliii. 43.

Dymgyfarch, *v.* to congratulate or greet mutually; to congratulate one another; to greet; to ask.

Dymcyfcirch pawb ym mhob lleoed.
Pwy gorau gwledig yn y gwladoed.
Gwalchmai: M.A. i. 199.

Dymgyfarchiad, -au, *sm.* mutual congratulation or greeting.

Dymgyrch, *sm.* [cyrch] gravity, gravitation.—*P.*

Dymgyrchiad, -au, **Dymgyrchiant**, *sm.* a mutually approaching, drawing, or tending together; a gravitating; gravitation.

Dymgyrchol, *a.* having a tendency to approximate; gravitating.

Dymgyrchu, *v.* to be approaching; to be mutually drawing together; to gravitate.

Dymheddu, *v.* [hedd] to be tranquillising; to appease.

Ae emys tryweturys hywet
A minheu om donyeu *dymhet*.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 233.

Dymhuno, *v.* [hun, huno] to be hushing or lulling one's self to sleep; to doze; to sleep.

Dymhunio tôn wyrd wrth Aberfraw
Dychyrch tir tremud dychlud anaw
Diyssig [*al.* diessig] yd gân ednan arnaw.
Gwalchmai: M.A. i. 195.

Dymladaeth, *sf.* a self-blessing, self-benediction.

Dymladu, *v.* [lladu] to bless one's self.—*P.*

Dymnawdd, *sm.* [nawdd] a taking refuge.

Dymnoddi, *v.* to take refuge or shelter.

Dymoddef, *v.* [goddef] to bear or suffer mutually.

Dymoddeu, *v.* to be intending, to purpose.

Dymgodau dehau dyhynt breidioed
Dechrymynt fy nghlod y'nghlud fandoed.
Gwalchmai: M.A. i. 199.

Digitized by Google

Dymolwch, } *v.* to be praying or entreating;
Dymgolwch, } to pray or beg.

Dymgoluch gogled gweglyd lucod.
Gwalchmai: M.A. i. 199.

Dymollwng, *v.* [gollwng] to let one's self drop down; to precipitate one's self.—*P.*

Dymollyngiad, -au, *sm.* a letting one's self down; precipitation.

Dymollyngol, *a.* apt to be loosening or precipitating; precipitate.—*P.*

Dymorllwydd, *v.* [gorllwydd] to be flourishing; to be successful or prosperous.

Dymgorllwyd arglwyd argrain wyr Grufud
Dadanhud anghud angerd Owain.
Gwalchmai: M.A. i. 200.

Dymostwng, *v.* [gostwng] to lower, debase, or submit one's self; to be subject.—*P.*

Dymostyngiad, -au, *sm.* self-debasement; a submitting one's self.—*P.*

Dymranu, *v.* [rhanu] to be separating or dividing.—*P.*

Dymroddawl, *a.* [rhoddi] ready to give up; resigning.

Dymroddi, *v.* to give one's self up; to resign one's self; to resign.

Dymroddiad, -au, *sm.* a giving up of one's self; resignation.—*P.*

Dymruthro, *v.* [rhuthro] to be running headlong or precipitately.—*P.*

Dymrwymiad, -au, *sm.* a binding one's self; mutual obligation.

Dymrwymo, *v.* [rhwymo] to bind one's self; to be mutually binding.—*P.*

Dymrwystro, *v.* [rhwystro] to be hindering or preventing; to be loitering.—*P.*

Dymun, -ion, *sm.* [dym- + un] wish, desire, or intreaty.

Rhoed iti, wrth dy fodd dy hun,
Dy *ddymun* a'th adduned:
Dy fwriad iach a'th arfaeth tau,
A'th weddïau gwrandawed.—*Edmund Prys:* Salm. xx. 4.

Dymunadwy, } *a.* that may be wished or
Damunadwy, } desired; desirable; optative.

Y modd damunadwy, the optative mood (in grammar).

Y modd damunadwy a fynegir yn fynych yn null y modd archadwy.—*W. O. Pughe:* Cad. Iaith Gym. III. i. 4 (cf. 3).

Dymundeb, *sm.* wish, desire; pleasantness.

Dymuneb, } *sf.* a wish, a desire; entreaty,
Damuneb, } supplication.

Y drydedd ddull sydd, pan fo i'r areithiwr ddamuno rhyw beth ar ei ymadrodd areithiawl. Hi a elwir *Damuneb.*
H. Perri: Egluryn Ffraethineb (1595), xxxii.

Dymuned, } -au, *sf.* a wish, a desire; en-
Damuned, } treaty.

Weldyma Walchmei dy *damunet* ti.—*St. Greal,* ‡ 109.

Dyfu Grist ynghnawd priawd prifaed
Dyfu ym mru Mair mab *dymuned.*
Cynddelw: M.A. i. 264 (cf. 320).

Or byd kyn ysgaualhet itt ac yd oed dy *damunet* y geissaw ysgaualwch am y neb y medylyut ymdanaw.
Mabinogion, 269 (cf. 43).

Neur eilenwis Duw vyn *damunet* ti.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 162 (cf. 166).

Bendigedic vo yr Arglwyd a gwpplaawd vynn *damunet.* i.
Llyfr Ancr, 79 (cf. 77).

Ar athro a gytsynniawdh a *damunet* y discipl.—*Lucidar,* ‡ 1.

Am dri pheth y dylid rhoddion i fardd herwydd ei radd: am y gerdd dafawd a gano wrth arch a *damuned* a'i caffo; ac am yr ach a'r cyfarwyddyd y rhotho efe ym mhob hawl tir; ac ym mhob hawl bonedd a braint cenedl a gwlad.
Barddas, ii. 108.

Y mwynwr, er *dymuned,*
Rhowch im' gryn gosyn o ged.—*Gronwy Owain,* 48.

Dymuned, } *v.* to wish, to desire; to beseech, to
Damuned, } entreat. See *Dymuno.*

Y doeth hwnn a rodir pann gynnvllo bryt ehun yn hollawl o vlas ysprydawl velyster trwy *damunet* pethau nefawl.—*Pwyll y Pader:* Ll.A. 150.

Dymunedig, } *pt.a.* 1. wished, desired, be-
Damunedig, } sought; wished-for.

A gwedy kaffel *damunedic* wynt. drychauel eu hwyleu a wnaethant.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 84.

A Sagamor *damunedic* a doeth o nerth traet y varch.
St. Greal, ‡ 222.

Ar trydyd nef a lewycha val kristal yn llawn o velyster llewenyd *damunedic.*—*Llyfr Ancr,* 129 (cf. 136).

A phan wybu y llu hynny llawenhau a orugant . . . a chymryt eu hynt parth ac eu *damunedic* Ffreinc.
Yst. de Carolo Magno, col. 475 (cf. 452).

Pwy bynnag a wnel penyt . . . trwy ewyllys *damunedig.*
Ipotis, ‡ 18.

Y lle ydoed Vran y mab a oed *damunedic* genti y welet.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 74 (cf. 84, 179, 226).

Pa forwr na lawenycha o herwydd fordwyo o hono yn ddiogel trwy fôr uchel temhestlog, a'i gyfrwyddo i'w borth *dymunedig?*—*Thos. Williams:* Ymadr. Bucheddol, 347.

2. optative; expressing desire.

Y modd damunedig, the optative mood.

Pum modd peirwyddiad y sydd; nid amgen, managedig pan faneger peth. . . Ac archedig, pan archer peth. A *damunedig,* pan ddamuner peth. . . Ac ammodedig, pan ammoder peth. . . Ac annherfynedig, pan na bo na rhif na dynweddiad ynddaw.—*Edeyrn:* Dosparth, 23.

Dymunedigaeth, } -au, *sf.* the action of wish-
Damunedigaeth, } ing, desiring, or entreating; optation.

Dymunedigol, } *a.* optative; desiderative;
Damunedigol, } wishful.

Y modd dymunedigol, the optative mood.

Dymuniad, } -au, *sm.* wish, desire; entreaty;
Damuniad, } request.

Efe a gladdwyd yn ol ei *ddymuniad* ym medd yr Hen Feudwy.—*Iolo Mss.* 181.

A'r daionïau hyn a farner ac a freinier gan Dduw yn ol maint y gallu, a'r serch, a'r hawsder, a'r *dymuniad,* a'r gwirfodd, yn ogyfuwch â'r daionïau gweithredol.
Barddas, i. 314.

Atat ti hefyd y mae ei *ddymuniad* ef.
Esgob Morgan: Gen. iv. 7.

Ar *ddymuniad* ein Cymdeithas o Gymmrodorion.
Gronwy Owain, 242 (cf. 47).

Dymuniadol, } *a.* desirable; wishful; opta-
Damuniadol, } tive.

Tri banogion daioni *dymuniadol:* serchu gwir a chyflawn; serchu tangnef a chariad; a serchu a dymuno gwynfyd yn gyfoll a pharth y cyfoll.—*Barddas,* i. 312.

Modd *dymuniadol* a arwyddocâ ddymuniad neu ddeisyfiad am unrhyw beth.—*Robert Davies:* Ieithadur Cymraeg, 46.

Dymuniannol, } *a.* [dymuniant] desirable;
Damuniannol, } desiderative; optative.

Dymuniant, } -iannau, *sm.* desire, wish; de-
Damuniant, } lectation; an object of desire.

Ae holl gedymdeithas or wlat a elwit Damasgwn. a chyflawn oed holl uorynyon agcret or ae gwelynt oe garyat ae *damunyant.*—*Yst. de Carolo Magno,* col. 455.

Llathr ben cun y *dymuniant*
A llath blawdd holl lwyth Bleddynt.
Dafydd y Coed: M.A. i. 493.

Os yw pob peth yn ol eich *dymuniant.*—2 *Macc.* ix. 20.

Digitized by Google

Fe ysgrifenodd [St. Ioan] ei Efangyl ar *ddymuniant* Esgobion Asia.
Ed. Samuel: Buch. yr Apost. 180 (cf. 185, 217).

Gyd â chymhorthion cyffelyb ereill . . . fe a ddichon gwblhau dy *ddymuniant*.—*Elis Wynn:* Rh.B.S. 198.

Dymuniant yr holl genedloedd, the desire of all nations.—*Hag.* ii. 7.

Dymuno, } *v.* [dymun] to wish, to desire; to
Damuno, } request, to entreat, to beseech.

Yr ystyryaw karyat ar wr arall drostaw ef. a *damunaw* yscaualwch hebdaw ef.—*Mabinogion*, 269.

Llyma vi gwedy kaffael yr hynn y bum yny *damunaw* yr ystalym.—*St. Greal*, ‡ 66 (cf. 68, 107, 137, 176, 202).

Yna y *damvna* y gwar digynhennus dyuot pawb ygyt ac ef.—*Llyfr Ancr*, 148 (cf. 106, 149, 164).

Ar marchawg a *ddymunawdd* iddi pa achaws oedd hynny.
Doethion Rhufain, ‡ 26.

A Gwalmei yn *damunaw* oe holl dihewyt ymgaffel a lles amherawdyr y gymell arnaw peth a digonei ym milwryaeth.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 226 (cf. 33, 48, 89, 114, 217).

Ac yn diannot ymfflemychu oe charyat. a *damvnaw* yn y vryt ac vedwl y bot y gyt ac ef yn Freinc.
Ystoria Charles, 9.

Gwna erddo a *ddymunit* y gantaw erddot ti dy hun.
Barddas, i. 318.

Os dy borth a'th gynnorthwy
A gaf, ni *ddymunaf* mwy.—*Guto'r Glyn.*

A'r ni roddo a garo, ni chaiff a *ddamuno.*
Diareb. (M.A. iii. 148.)

¶ In this word and those connected with it, the first vowel, in the older language, is usually *a*.

Dymunol, } *a.* 1. desirable; pleasant, delect-
Damunol, } able, eligible, goodly, wished-for.

Gwnaeth yr Arglwydd Dduw i bob pren *dymunol* i'r golwg . . . dyfu allan o'r ddaear.
Esgob Morgan: Gen. ii. 9 (cf. iii. 6).

Mwy *dymunol* ynt nag aur.—*Salm.* xix. 10.

Tu â'r un porthladd *dymunol* y mae'r cyfoethog a'r tlawd grasol yn hwylio ar draws tonnau'r byd hwn.
Charles Edwards: H: y Ffydd, 320.

Diau i'r rhai'n, o daer hawl,
Addaw maen oedd *ddymunawl.*—*Gro. Owain*, 32 (cf. 120).

Rho'i dda *ddymunolion.*—*Tegid:* Gwaith, 50.

Tir dymunol, pleasant land.
Diystyrasant hefyd y *tir dymunol.*—*Salm.* cvi. 24.

Gwlad ddymunol, a pleasant country or land.—*Sech.* vii. 14.

2. optative (in grammar).

Pa nifer foddion sydd i air? Pump: y mynegawl, y gorchymmynawl, y cyssylltiol, y *damunawl*, a'r aunherfynawl. . . . Y *damunawl* fodd a ddeisyf neu a adolwg.
Pum Llyfr Cerddwriaeth, 108.

Dymunolder, } *sm.* desirableness, pleasant-
Dymunoldeb, } ness, delectableness, eligi-
Dymunolrwydd, } bleness.

Tri thrigiannoldeb y ceugant: Duw; cyflawnder; a *dymunoldeb.*—*Barddas*, i. 202.

Nid yw *dymunoldeb* brawdgarwch yn cael ei egluro mewn un dull yn unig.—*Gwyliedydd*, ii. 49.

Dymunwr, wyr, } *sm.* one who desires or
Dymunydd, -ion, } wishes; a desirer, a
Dymuniedydd, -ion, } wisher.—*W.*

Dymwadiad, -au, *sm.* a denying of one's self, a self-denying, self-denial.

Dymwadol, *a.* self-denying; refraining.

Dymwadu, *v.* [dym- + gwadu] to deny one's self.—*P.*

Dymwaddoli, *v.* [dym- + gwaddoli] to endow one's self; to be self-endowing; to be endowed with; to endow.

Dymgwadoles Duw dyfyn bwylladoed
Dymgwallofles bod bud ar gyhoed.
Gwalchmai: M.A. i. 199.

Dymwallofi, } *v.* [gwallofi, gwallaw] to supply;
Dymwallaw, } give or bestow; to pour.

Dymgwallaw gwledic dal
Oe brid brennyal.—*Aneurin:* God. 687.

Yn llys Owain hir hwyr dilidau
Dymgwallofied ei win o'i wen adaf ud.
Gwalchmai: M.A. i. 195.

Dymgwallowcy Duw diheudawn awen
Awdyl urten amgen amgall digawn
Yn ardunyaw gwr gwrtuar eigyawn.
Cynddelw: M.A. i. 218 (cf. 199).

Dymwared, *v.* [gwared] to be delivered; to deliver.—*P.*

Atuyn rin rypenyt i ryret [*al.* ryed]
Arall atwyn pan vyd Duw *dymgwaret.*
Taliesin: A.B. ii. 116 (M.A. i. 28).

Dymwarediad, -au, *sm.* a being delivered; a freeing of one's self; extrication.—*P.*

Dymwaredol, *a.* self-extricating; delivering.

Dymweled, *v.* [gweled] to be visiting; to visit.—*P.*

Dymwellâd, *sm.* a mending or improving of one's self.

Dymwellaol, *a.* apt to mend or improve one's self.

Dymwelläu, *v.* [gwelläu] to mend, better, or improve one's self.—*P.*

Dyn, -ion, *sc.* [C. *dên;* Br. *dên;* Ir. and Ga. *duine;* Mx. *dooinney*] man; a human being (without respect to age or to sex); a man, a person.

Llawer o keuryv *dennion* ni deleant menet en vach na rody mach . . . nyt amgen na manach ac hermiduir a *din* aghefieth ac scoleic escol a fop *din* ni hallo deuot heb cannat arall.—*C.C.* i. 128.

A gueleiste *dinion* din gowri.
In myned hebod heb drossi.—*Llyfr Du:* A.B. ii. 16.

A chyn dristet oed bop *dyn* yno a chyn bei agheu ym pop *dyn* onadunt.—*Mabinogion*, 188.

Ny adawd neb yn y chedymdeithas namyn gwraged a meibon. a *dynyon* didraha.—*Mabinogion*, 193.

Kanys *dynyon* ywch gwnewch megys y dyly *dynyon.*
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 122.

Llywelyn llary *dyn* llwyr dias galon.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 300 (cf. 167).

Yr oderyn a ellir y gyffelybu y Iachwyawdyr y byt. yr hwnn a ffuruawd *dyn* ar y eilun ehun.—*St. Greal*, ‡ 43.

Nachaf vorwyn ieuanc wedy disgynnu y ar y march yn deckaf un *dyn* pettei esmwythdra arnei.
St. Greal, ‡ 152 (cf. 174).

Gwnawn *ddyn* ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain. . . . Felly Duw a greodd y *dyn* ar ei ddelw ei hun, ar ddelw Duw y creodd efe ef: yn wryw ac yn fenyw y creodd efe hwynt.—*Gen.* i. 26, 27.

A phob enaid *dyn*, o fenywod . . . oeddynt ddeuddeng mil cnaid ar hugain.—*Esgob Morgan:* Num. xxxi. 35.

Tri *dyn* y sydd: *dyn* i *ddyn;* *dyn* i Dduw; a *dyn* i ddiawl: *dyn* i *ddyn* a wna dda dros dda, a drwg dros ddrwg; *dyn* i Dduw a wna dda dros ddrwg; *dyn* i ddiawl a wna ddrwg dros dda.—*Doeth. y Cymry:* M.A. iii. 70 (cf. 83).

Tri *dyn* a wedant yn wahanol herwydd eu hanian a'u hathrylith: *dyn* i Dduw, a wed y goreu o'r gwir, er heddwch a lles a chydfod; *dyn* i *ddyn*, a wed y cyfan o'r gwir, bid o dda, bid o ddrwg, deled a ddêl, heb yn waeth i beth bynnag a dderfydd o'r achos; *dyn* i ddiawl, a wed y gwaethaf o'r gwir, er drygu a pheri anffod; a diawl parod a wed gelwydd ystig er mwyn drwg a dinystr.
Barddas, i. 300.

Casddynion Catwg Ddoeth. *Dyn* na wypo dda ei hun, ac na chais addysg gan arall.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 35 (cf. 36—39).

Tri hela ryd ysseyd y bop *dyn* ar tir *dyn* arall.—*C.C.* i. 456.

Tri anghenorfod *dyn:* dioddef; newid; a dewis.
Barddas, i. 186.

Tri gwahaniaeth angheneddyl rhwng *dyn* a Duw: maintioli a medrolaeth ar *ddyn*, ac nis gellir ar Dduw; dechreu ar *ddyn*, ac nis gellir ar Dduw; newid cyflwr ar *ddyn*, ac nis gellir ar Dduw.—*Barddas*, i. 180.

Digitized by Google

Dyn a aned o wraig sydd fyr o ddyddiau.—*Iob* xiv. 1.

Nid yw hi yn cofio ei gofid mwyach, gan lawenydd geni *dyn* i'r byd.—*Ioan* xvi. 21.

Gwell yw Duw na gallu *dyn*.—*Owain Gwynedd*.

Anhawdd dwyn *dyn* oddi ar ei dylwyth.
Diareb. (M.A. iii. 179.)

A ddêl â lles i'w ddilyn
O wyllys Duw yw lles *dyn*.—*Simwnt Fychan*.

Yspys y dengys y *dyn*
O ba radd y bo'i wreiddyn.—*Tudur Aled*.

Noeth, bychan, a gwan y genir *dyn* byw,
Dyna beth sydd eirwir.—*W. Lleyn*.

Galwodd Ion i'r goleu ddydd
Ddynion o ddiddym ddeunydd.—*Dafydd Ionawr*, 234.

A thost uu gantaw welet lluossogrwyd o ouut. ar *dyn* kyn uonedigeidet a hi.—*Mabinogion*, 283.

Drwg fu'r daran ymannos,
Dwyn dylif, ofni *dyn* dlos.
D. ab Gwilym, xliv. 59 (cf. xii. 6, 37, 38, 60; xix. 42).

Sef oed enw y vorwyn honno Essyllt. ac nyd ydoed hawd kaffael *dyn* kyn deket na chymryt a hy yn yr hollvyt.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 117.

Dyn bur wych natur . . .
Dyn lanwaith berffaith bur-ffawd,
Dyn dlos, ond ei bod yn dlawd.—*W. Lleyn*.

Rhoddi a wnaeth rhyw *ddyn* wen
Am ganuau im' gneuen.—*Llawdden*.

Mi a welais, mau alar,
Ddyn fwyn, mawr yw cwyn a'i câr.—*Dafydd Nanmor*.

Nid cae euraid, nod cywrain,
Ond cusan *dyn* fechan fain.—*Llawdden*.

Deled, lle nis didolir,
Dyn fain dlos dan fanadl ir!—*D. ab Gwilym*, xlvii. 67.

Ac i'r *ddyn* o gaerau'r ddôl
Osper adar ysprydol.—*Ieuan Deulwyn:* G.B.C. 129.

Gwisg angel o wallt melyn
Yn wŷdd aur am war y *ddyn*.
D. ab Gwilym, vii. 5 (cf. 18; lix. 3, 16; lxxi. 10).

Y *ddyn* fwyn addwyn feinael,
Andaw fi.—*Ieuan Deulwyn*.

Y *ddyn* fegys Gwen o'r Ddôl,
Rywiog, araf, ragorol.
D. ab Gwilym, cxci. 1 (cf. cx. 47; clvii. 12).

Da, *ddyn* fain, y'th gywreiniwyd,
Hygar ei ffurf, hoew-gorff wyd.—*Gronwy Owain*, 6.

Natur dyn, man's nature, human nature; humanity.

Dyn Duw, a man of God; the man of God.—2 *Tim*. iii. 17.

Dyn bach: see *Bach*.

Gwraig wrth espor *dyn bach* fydd mewn tristyd can ddyfod ei hawr: eithr gwedy geni iddi'r *dyn bach*, ni chofia hi mwyach o'r gofid, gan lawenydd geni *dyn* i'r byd.
W. Salesbury: Ioan xvi. 21.

Dyn (as distinguished from a child), a man, a grown-up person.

Unwaith yn *ddyn*, a dwywaith yn blentyn.—*Diareb*.

Pan ddaethym yn *ddyn*, diddymais bethau plentyn.
Dr. Th. Briscoe: T.N. (1 Cor. xiii. 11).

Pob dyn, every man, every person, everybody, every one; all men.

Gwedy gwelet o Beleas urenhin Iason yn garedic y gan *bob dyn* ofyn a gymerth Pelleas wneuthur y vrat ohonaw ef.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 1.

Rhyw ddyn, some man, a certain man, a certain person, some one, somebody.

Yr hen ddyn, the old man.—*Rhuf*. vi. 6; *Eph*. iv. 22.

Y dyn newydd, the new man.—*Eph*. ii. 15; iv. 24; *Col*. iii. 10.

Dyn pechod, the man of sin.—2 *Thess*. ii. 3.

Dyn (as distinguished from God, from higher beings, or from the lower animals), man, a man.

Nid *dyn* yw Duw, i ddywedyd celwydd.—*Num*. xxiii. 19.

Mi a wnaethym hyn rhag gosod o honof ogoniant *dyn* goruwch gogoniant Duw.—*Esth*. xiii. 14.

Cyfod; *dyn* wyf finnau hefyd.—*Act*. x. 26 (cf. xiv. 15).

Dynion, nid rhith, fel chwithau,
O anian *dyn*, ŷm ni'n dau.—*Nicander:* Sant Paul, viii.

Dyn ac anifail, man and beast.

Dyn ac anifail a gedwi di.—*Salm*. xxxvi. 6.

Llafurwr yn aru daiar er ymborth *dyn ac anifail*.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 227.

Natur dyn, } the nature of man, human nature;
Anian dyn, } humanity.

b. Interjectional uses. In some of these expressions *dyn* is probably substituted for *Duw*, in order to avoid profaning the Divine Name.

Dyn byw! man alive! goodness me!

Dyn, dyn! man, man! dear, dear!

Dyn anwyl: see *Anwyl*.

Myn dyn! by man! by heavens! to be sure.

Myn dyn! pan oeddem ein dau
Lawenaf, ddyn ael-winau,
Taro a wnaeth, terwyn oedd,
Trwst taran tros y tiroedd.—*Dafydd ab Gwilym*, xliv. 9.

Dyn a'i gŵyr! man knows! heaven knows! goodness knows!

Dyn gatwo bawb! heaven protect (us) all!

Gwaed dyn! man's blood! zounds!

Dyna, *adv*. [dy- + yna] there; there is or are; see, lo, or behold there; that is (*pl*. those are); in that way; that is the way; so.

Wel *dyna* weled anhawdd,
I roi ar tal, o aur tawdd!
Dafydd ab Gwilym, xxvi. 7 (cf. xcii. 49).

Dyna [*wele], y mae ef yn dyfod gyda'r niwl, a phob llygad a'i gwŷl ef.—*Th. Huet:* Dad. i. 7.

Os gwr mawr, *dyna* weniaith a chenfigen ar ei ladd. . . Os byddi duwiol, yn cyrchu i'r eglwys a'r allor, gelwir di yn rhagrithiwr; os peidi, *dyna* di yn anghrist. . . Os llyfn dy lcferydd, *dyna* di yn ffals.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 40.

Dyna fel y mae ei wrthwynebwyr yn adrodd.
Theo. Evans: D.P.O. 223.

Dyna 'th bortreiad anwiw.—*Gronwy Owain*, 75 (cf. 100).

Dyna y diwrnod y cafwyd yr hon a gollwyd er ys cymmaint o oesoedd.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 40.

Dyna 'r lle mae mam addfwynder,
Dyna 'r lle mae chwaer hynawsder,
Dyna 'r lle caf wel'd y lili,
Ar lan dwr isel rhwng y d'rysi.—*Daniel Ddu*, 231.

Dyna y peth, that is the thing; such it is.

Dyna fel y mae, in that way it is; so it is; it is so; such is the case.

Dyna ben! that is an end; that settles it; done!

Dyna ben am dani, there is an end of it; that settles the matter.

Dyna ddigon, that is enough; that will do.

Dyna fe (1), there he is, that is he. (2) so, or such it is; that is the way; such is the case.

Dyna hi (1), there she is; that is she. (2) so it is, such is the case; there it is.

Dyna, dyna! there, there! hold, hold!

Dyna hi allan yn deg! there it is out fairly; that is very surprising indeed.

Daliaf â thi rywbeth mai dyna fo, I will lay thee something that there it is.

¶ *Dyna*, like *dyma*, has the same governing force as a finite transitive verb. See note s.v. *Dyma*.

Digitized by Google

Dynad } (*sg.* dynaden, *f.*), *s.pl.* [danadl]. See
Dynaid } *Danadl.*

Y gelein veinwenn a oloir hediw
A dan brid a *dynat.*—*Llywarch Hen:* A.B. ii. 269 (cf. 272).

Yr aelwyd hon neu's cudd *dynad*
Tra vu vyw ei gwarcheidwad.
Llywarch Hen: M.A. i. 106 (cf. 104).

Yn y dydyeu hynny yd ymhoelir eur or lliliwn ar *dynhaden.*—*Ystt. Bren. Bryt.:* LL.C.H. ii. 146.

Pwya ddyrnaid o'r *dynaid*, a dod mewn lliain wrth dy ffroenau.—*Meddygon Myddfai*, ii. 313 (cf. 242, 471, 679).

Cais *ddynaden*, wraidd a chwbl, golch y gwraidd, a phwya'r *ddynaden* yn dda.
Meddygon Myddfai, ii. 611 (cf. 658, 757).

Dynad coch, } red nettle; red nettles.
Dynad cochion, }

Rac y cryt: kymryt y ganwreid lwyt. ar *dynat coch.* ar henllydan. ar unyeit.—*Meddygon Myddfai*, i. 51 (cf. 12).

Cais fioneg moch, a gwraidd y *dynad cochon*, a'u pwyo'n dda, a dod wrtho nawpryd.
Meddygon Myddfai, ii. 782 (cf. 191, 476, 658).

Dynad poethion, stinging nettles.

Aelodau a darawyd â'r parlys, a iachawyd gan eu cyhwrdd, neu eu curo â *dynad poethion.*
H. Davies: Llysieuaeth Gymreig, 181.

Dynaidd, *a.* like man, resembling man; mannish; relating to man; manly, manlike.

Dynan, *sc.* [dim. of *dyn*] a little person; a manikin.

(*f.*) as a term of endearment: a little woman, a maiden, a girl, a lass.

Ni bu *ddynan* fechan fach,
Os mul hi, ysmalhaeach.—*Dafydd ab Gwilym*, xlii. 9.

Brwd er f' aur *ddynan* yw bryd ar farddoniaeth.
Morgan Gruffydd: Cyfr. y Beirdd, 100.

(*m.*) as a term of pity: a poor fellow.

Pan ofyno rhyw *ddynan* tlawd sydd yn perthyn i Grist ryw beth genyt, a thithau yn ei nacäu yn ei anghen, dyna di wedi nacäu Crist ei hunan.
Morgan Llwyd: Dysgybl a'i Athraw (1765), 106.

Ar hyn, dyma bedwar o rai moelion ereill yn llusgo *dynan* at y cyffeswr; ac yntau yn dyfod mor wyllysgar ag at grogbren.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 37.

Os bydd dyn â'i lygaid yn ddeillion, ni a dosturiwn wrtho, ac a ddywedwn: Dyna *ddynan* dall.
Robert Llwyd: Llwybr Hyffordd, 369 (cf. 253, 293).

Eto yr oedd ei ddrwg ewyllys i'r *dynan* tlawd yn ddiystyr.
Edward Samuel: Holl Ddyl. Dyn, xvi. 16.

Minnau ym mysg rhimynwyr,
Ddynan o fath ddawn yn fyr.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 186.

O athraw, bu i hwna *ddynan* gwâr
Ryw niwed mawr, ei aberth oedd mor glau.
W. O. Pughe: C.G. xi. 449.

Dyndeb, *sm.* humanity, manhood, human nature. See s.v. *Duwdeb.*

Dyndid, *sm.* manhood; manliness, manfulness; humanity.

Mab ir Dwydid Mab ir *Dyndid.*—*Taliesin:* M.A. i. 44.

Yn *dyndit* ympryt ymru pan aeth.
Cynddelw: M.A. i. 248.

Mab Llywarch dihauarth [dihauarch] *dyndid*
Mab Duw nef boed nerth wy rydid.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 287.

Gwedy kygauawc keigyeu y *dyndid*
Gwedy llid ymlid yn ymlateu.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 331.

Mewn trefn i ochel hyny, rhaid i chwi feithrin *dyndid* yn eich nodweddiad.—*J. Mills* (I. G. Alarch): Hyfforddwr, 32.

Dyndidog, *a.* manful, manly, becoming a man.

Dyndod, *sm.* 1. humanity, manhood.

Tri chyflwr hanfod bywedigion: cyflwr abred yn annwn; cyflwr rhyddyd yn *nyndod;* a chyflwr cariad, sef gwynfyd, yn y nef.—*Barddas*, i. 172 (cf. 174, 186, 202, 210).

Nid *dyndawd* ond o fodd Duw.—*M.A.* iii. 17.

Oni bai i ewyllys cariad Duw gyfarfod ag *ef*, a myned i mewn eilwaith i'r *dyndod* mewn gwir drugaredd, ni allasai fyth fod ewyllys da mewn dyn.
Morgan Llwyd: Ymroddiad, vi. 9 (cf. 16).

A bost tlawd mewn braich o gnawd
Mawrygu *dyndawd* dall.
G. Mechain: Gwaith, i. 333 (cf. 266, 337, 363).

Pan farna'r Goruchaf y *dyndod* a Satan.
Eben Fardd: Gweith. 418 (cf. 416).

Dyndod Crist, the humanity or manhood of Christ.

Gogyfuwch â'r Tad, o blegid ei Dduwdod, a llai na'r Tad, o blegid ei *Ddyndod.* Yr hwn er ei fod yn Dduw ac yn Ddyn; er hyny nid yw efe ddau, ond un Crist. Un; nid trwy ymchwelyd y Duwdod yn gnawd; ond gan gymmeryd y *Dyndod* at Dduw.—*Credo S. Athanasius.*

Y Duwdod a'r *Dyndod*, wedi eu cyssylltu yng nghyd yn un Person.—*Ll. G. Gyffredin* (Erth. 2).

Gwirionedd mawr yw hyn yng Nghrist, ac ynot ti, sef i'r Gair anfarwol gymmeryd ato *Ddyndod Crist.*
Morgan Llwyd: Gair o'r Gair, vi. 6.

Adroddwyd ei *Ddyndod* ef a'i enedigaeth, yn amser Hesecïah.—*Ch. Edwards:* H. y Ffydd, 56.

Ei Efangyl ef yw sylfaen y gwirionedd am *Ddyndod Crist.*
Edward Samuel: Buch. yr Apostolion, 198.

Dywedir amryw bethau perthynol i berson Dwyfol Crist, ac yn anghyttunol â dynoliaeth yn unig, mewn testunau ag na soniant am ei *Ddyndod;* ond pwy a feddyliai wadu trugaredd Duw a *Dyndod* y Messïa ar y cyfrif hyny!
Ioseph Harris: Gweith. 410.

Cyfododd plaid o grefyddwyr yn yr ail ganrif a elwid Saturniaid, y rhai a wadent wir *Ddyndod Crist.*
Ioseph Harris: Gweith. 405.

Trwy ffydd y mae'n edrych i fyny ar Dduwdod Crist, a thrwy fuchedd rinweddol y mae'n ymarfer rhinweddau *Dyndod Crist.*—*Nicander:* Dysga Fyw, 79.

Y casgliad naturiol sydd yn deilliaw oddi wrthynt yw yr anwybyddiaeth o wir *Ddyndod Crist.*
J. Pryce: Eglwys Foreuol, 379 (cf. 344, 378).

2. person, personality.

Sef yw rhagenw, pob peth ag a arwyddocao ddynweddiad, na *dyndod*, na hanfod, na dirprwy y bo, a phob peth a arwyddocao feddiant, neu ymofyn; *dyndod*, neu ddynoldeb.
Edeyrn: Dosparth, 23 (cf. 24, 25).

Dyndodaidd, } *a.* [dyndod] relating to the
Dyndodawl, } Humanitarians or their creed; Humanitarian.

Yn yr ystyr yma (isel) y cymhwysais i ef at y farn *Ddyndodaidd* am Berson Crist.—*Seren Gomer*, xv. 294.

A chymmeryd y Bibl, a Christ yn wyneb y Bibl, ar y dyb *Ddyndodaidd* am dano, yn unig, yr oedd a fynwyf fi.
Seren Gomer, xv. 296 (cf. 325, 326, 327).

Dyndodiad, iaid, } *sm.* [dyndod] a Humani-
Dyndodwr, wyr, } tarian, one who believes that Jesus Christ was only man.

Dyndodiaid: plaid o grefyddwyr yn dal nad oedd Crist yn ddim amgen na dyn cyffredin—ei fod wedi ei eni fel dynion ereill, a'i fod wedi byw a marw yn gymhwys yr un fath â hwythau.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iv. 113.

Dyndodiaid, yn fy marn i, yw yr enw ag sydd yn dynodi eu golygiad neilluol hwy am Berson Crist oreu, ac o herwydd hyny yn dynodi y gwahaniaeth rhyngddynt hwy a phleidiau ereill oreu. . . Ni fydd i ddynion mor rhesymol a hwy dramgwyddo, os cyfarfyddant â Dyndodiaeth, *Dyndodiaid*, &c., yn y llythyr hwn.—*Seren Gomer*, xv. 294.

Dyndodiaeth, *sf.* Humanitarianism, the creed or doctrine of the Humanitarians.

Meddyliau gwaelion (isel), trwy drugaredd, sydd gan y rhan amlaf o lawer o hil Gomer am *Ddyndodiaeth.*
Seren Gomer, xv. 294 (cf. 296).

Dyne, *sm.* See *Dine, Dinead, Dineu*, &c.

Dynedon, *s.pl.*=*Dyniadon*, men.

Duw a vynnawd bot dyn yn gyffelyb idaw ehun. a hynny yr geni yr holl *dynedon* y gann Adaf.—*Lucidar:* LL.A. 11.

Dy teyrn veibon haelaf *dynedon.*
Wy kanan eu hyscyrron yn tired eu galon.
Taliesin: A.B. ii. 196 (M.A. i. 59).

Digitized by Google

Dyneidio, *v.* [neidio] to rebound; to spring, leap, or jump.

Yn y dull diweddaf yr had a daenellir yn anwastad; a thrwy droion damweiniol . . . yn *dyneidio* i bell oddi ar y fan yr amcanid iddo aros.—*W. O. Pughe:* C.P. 61.

Dynes, -au, *sf.* [dyn] a woman, a female.

Cefais, dywedaf, rhag gofid,
Ddynes fwyn i'r llwyn rhag llid.—*D. ab Gwilym,* lxxxi. 18.

Dynes sad dan we sidan,
Dwyn aur lliw, daioni'r llan.—*Sion Tudur.*

Crist, heb help na sant na santes,
Crist, heb gymhorth dyn na *dynes,*
Crist, heb neb ond Crist ei hun,
Yw unig Geidwad enaid dyn.
Rhys Prichard: C. y C. viii. 8.

Elsbeth Llwyd yw hon i'w henwi,
Mwyn angyles o lun *dynes,* lawn daioni.
Huw Morus: E.C. ii. 241 (cf. i. 138, 141).

Rhuthro a wnaethant ar y trigolion, megys cynnifer o gigyddion annhrugarog yn ymbesgu ar waed, heb arbed na dyn na *dynes,* na boneddig na gwreng, nac hen nac iefanc.—*Theo. Evans:* D.P.O. 102.

Yr ydoedd [Mariamne] ar ystyriaethau ereill yn *ddynes* ddiwair, ac yn ffyddlon iddo ef.
Hugh Jones: Iosephus (1819), 534 (cf. 6).

Mae y byd wedi ei ddadgymmalu, ac y mae yn agos i bob dyn a *dynes* yn ystyried eu bod hwy wedi eu galw a'u haddasu i osod pob cymmal yn ei le.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 9.

Peth cyffredin . . . mewn gwledydd dwyreiniol, yw galw dyn, *dynes,* a phethau difywyd, yn dad neu fam yr hyn ag y byddant yn hynod o'i herwydd.
Ioseph Harris: Gweith. 319.

Ioan, yr hon oedd o achau Seisnig . . . a gafodd y Pabaeth trwy ddichellion anghyfreithlawn; canys tadodd ei hun ar y byd mal dyn, pan yr un pryd, mewn gwirionedd, *dynes* oedd hi.—*Gwyliedydd,* iv. 88 (cf. vii. 310).

A'r troion cyntaf y dechreuodd chware am symiau bychain o arian, a cheisio ennill ei ffortun oddi ar law y *ddynes* a weli acw, bu yn lled lwyddiannus.
Cawrdaf: Meudwy Cymreig, 163.

Dynes ieuanc a theg o bryd oedd hi.—*Gwyliedydd,* ii. 77.

¶ In the spoken language *dynes* is peculiar to North Wales. The word does not occur in the older literature, the reason apparently being that, as *dyn* is of common gender, a distinct feminine form was not found necessary. It is registered in no dictionary previous to that of Dr. Owen Pughe (1803).

Dynesâd, **Dynesiad,** -au, *sm.* [dynesäu, dynesu] approximation; an approaching, a drawing near; accession; an accosting; approach.

Ar ddydd yr Arglwydd chwi a ddylech ddisgwyl o ddifrif am *ddynesiad* a phresennoldeb Brenin y Gogoniant.
Sam. Williams: Amser, 12.

Byddai hyfryd genym . . . wedi chwe' mis o dywyllwch, hirnos o fferdod anoddefol, weled toriad y wawr, a'r wybren yn sirioli wrth *ddynesiad* y tanllyd gerbydydd.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 85.

Efe a gyfyd wrth glywed ein *dynesiad.*
Brutus: Ninefeh, 296.

Dynesaol, *a.* approximative, approximating; drawing nigh, coming near.

Dynesäu, **Dynesu,** *v.* [nesäu, nesu] to approach, to approximate, to draw nigh, to come near; to cause to draw or come near; to assemble.

A phan y gweleis i euo. *dynessau* a wneuthum attaw. a chyfarch gwell a wneuthum idaw.
Mabinogion, 164 (cf. 133).

Eil yw pan *ddynessao* dyn ar yneit yn barnu.
Cyfreithiau Cymru, ii. 614.

Pan *dynessao* cristawn attaw y pericla.
Yst. de Carolo Magno, col. 384.

A phan *dynessawd* ef parth ac att y bed. ef a glywei ryw gynnwryf mawr. a thrwy hwnnw cri vu yn dywedut. . . Ha Galaath gwas Iessu Grist na *dynessa* attaf yn nes no hynny. kanys or *dynessey* di ny bydafi yma.
St. Greal, ‖ 11 (cf. 124).

Dynessa hep ef at y corff a chussana yr elor.
Llyfr Ancr, 83.

Dynesäu a wnaeth yr hebog ati.—*Iolo Mss.* 176.

Yr hwn y mae rhaid attal ei ên â genfa ac â ffrwyn, rhag ei *ddynesau* atat.—*Salm.* xxxii. 9.

Ac yn y ol y *dynessawd* Roger y vab.
Brut y Tywysogion, 66.

Ac y uenegi ytti y uot ef yn amdrymmu ac yn llescu ac yn *dynessau* ar heneint.—*Mabinogion,* 264.

Dynessa henaint ar lled arfedd.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 394.

Dyneswch, atolwg, ataf fi. Hwythau a *ddynesasant.*
Gen. xlv. 4.

Ar ol cwympo cannoedd o bob parth . . . *dynesäu* a wnaethont yn dra llidiog i ymladd law law.
Theo. Evans: D.P.O. 116.

Dyneswch yn awr, chwi blant Adda, *dyneswch* o flaen y frawdle.—*Gwyliedydd,* vii. 336.

Dyneswch yma holl benaethiaid y bobl.—1 *Sam.* xiv. 38.

Y gwarchaewyr a dorent y palmwydd, er mwyn agor ffordd i *ddynesu* at y caerau.
Brutus: Ninefeh, 324 (cf. 141).

Dynesiadol, **Dynesol,** *a.* approximative, approximating; approaching; drawing or coming near.

Rhoddaf yr atebion yn gyntaf, a'r gweithrediad, wrth reolau *dynesiadol* tra hyrwydd, ac agos i'r gwir.
Seren Gomer, xv. 274.

Y mae y Canolfor, yr Iorddonen, ac hyd yn oed côr chwibianog gwigoedd Carmel, yn cael eu gosod dan waharddiad, tra byddai efe yn darlunio erchylldod dialedd *dynesol* y nef ar ddinas a phobl wedi eu diofrydu i ddinystr.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 537.

Dynesiant, *sm.* approach, approximation.

O brysia, enwog breswyl, i'r meddiant,
Cu y *dynesiant,* min cadw noswyl.
Gwaith G. Mechain, ii. 488.

Dynesiant y gauaf, the approach of winter.

Dynesu, *v.*=*Dynesäu.*

Dynesed at y fan yn barchus brudd.—*Tegid:* Gwaith, 144.

Dyngâr **Dyngarol** (*n-g*), *a.* [dyn+câr] philanthropic, loving mankind; humane.

Gyda chymhwysder y gellir priodoli yr holl gymdeithasau elusengar a *dyngarol* a sefydlwyd erioed i frawdgarwch.—*Gwyliedydd,* ii. 49.

Dioddefodd Prometheus o blegid ei dueddfryd *dyngarol* at ddynolryw. Dioddefodd Crist o blegid ei dueddfryd *dyngarol* at ddynolryw.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 36 (cf. 31).

Ystyriant . . . ei bod yn rhy gynnar yn amser y byd, i Abraham gael y fath beth *dyngarol* a chyffredinol allan.
Adolygydd, i. 170.

Dyngarwch, *sm.* philanthropy, love of man or mankind.

Gwedy i addfwynder a *dyngarwch* Duw ein Iachawdur ymddangos.—*W. Salesbury:* Tit. iii. 4.

Cymmaint oedd ei sel a'i hyfdra i wneyd daioni, fal na'i attelid gan bla, haint, nac un rhyw rwystr arall, i fyned ym mlaen â'r gorchwyl a gymmerai arno . . . ac ymorchestu ag anhawsderau a pheryglon, digon i ddofi dewrdra llew; sydd yn sicr brofi'r *dyngarwch* mwyaf neilldual a glywyd son am dano.—*Cylchgrawn Cymraeg* (1793), i. 23.

Gwelodd *Ddyngarwch* yn wylo uwch ben Ffrainc, wrth weled heolydd ei phrif ddinas yn gochion gan waed ei phlant: ofer oedd sibrwd fod y Chwyldroad yn anghenrheidiol; ni wnai hyny ond peri i *Ddyngarwch* wylo mwy.
Blackwell: Ceinion Alun, 297.

A ellwch chwi edrych ar y gwan a'r diamgeledd yn cael eu gwneyd yn wrthddrychau gwawd, heb i deimladau o *ddyngarwch* eich meddiannu?—*Gwyliedydd,* ii. 49.

Boed i *ddyngarwch* danio meddyliau, a thrydanu cynneddfau meibion athrylith.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 343.

Dyngarwr, wyr, *sm.* a philanthropist.

Yn groes i *ddyngarwyr* y byd, efe a eilw ar ei gydgenedl i anghofio eu iaith eu hunain os mynant wybodaeth.
Ioseph Harris: Gweith. 347.

Yr oedd calon *dyngarwr* yn curo ym mynwes y Samariad.
Brutus: Brutusiana, 226.

Dyngarwyr, gwladgarwyr o glod gorau.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 106 (cf. 338).

Digitized by Google

Dyngas (*n-g*), *a.* [dyn+cas] misanthropic, hating mankind.

Dyngasedd, *sm.* misanthropy, hatred or dislike to mankind.

Dyngasol (*n-g*), *a.* hating or disliking mankind, misanthropic.

Dyngasäwr, wyr, *sm.* a misanthrope, a misanthropist.

Dyniad, -on, *sm.* a human being, a man, a person. The singular does not appear to occur, but the plural is used synonymously with *dynion* (sg. *dyn*), men, persons.

Newyd anaw ny mawr glywant *dynyadon.*
Taliesin: A.B. ii. 174.

Ac gwedy na welsant nep or *dynyadon* yn y chyvanhedu kyvlawn hagen oed o amravael kenedloed anyveylyeyt.
Brut. Gr. ab Arthur: M.A. ii. 101 (cf. 137, 228).

Er lleas Duw ny llas dyn
Dynyadon ocegawt as gwtant oe uarw
Gwr oe uar am peidyant.
Cynddelw: M.A. i. 216 (cf. 247, 283, 285).

Tri a ddug Duw or *dyniaddon.*
Dafydd Benfras: M.A. i. 315 (cf. 330, 349).

Pam na chredwchwi Dduw *dyniadon* ynfyd.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 397 (cf. 334).

Duw mawr amerawdyr *dynyadon*
Dillwg dy walch terrwynualch tirion
Dewr Ewein deurutliw flon.—*Hywel Foel:* M.A. i. 392.

Efe a ddodes ddangaws gyntaf yn weledig ac yn ddechreuedig ar dyniadau *dyniadon.*—*Bardd as,* i. 258.

Cerdd hud a lledrith a fydd honno lle bo ymrysonau a chyfariaith nifer o *ddyniadon* ynddi dan ledrithoedd amgen o fraint a gradd a chyflwr nag y byddant herwydd gwirionedd.—*Iolo Mss.* 85.

Sef y dylid y *dyniadon* yn anghynnifer er barn gorfodrif, sef y rhif a fo dros yr hanner; ac nis gellir hyny o gadernyd aneagorol ond ar anghynnifer *dyniadon* wrth eu deuranu: ereill a ddywedant o'r hen athrawon y gellir gorfod ar gynnifer *dyniadon* o ddodi hyny yn fraint ar yr un gyntaf y rhifer o'r ddeuhanner.—*Barddas,* i. 90.

Tra dedwydd Ddynion a *Dyniadon,* sawl
Fal hyn a ddercha'i Duw.
W. O. Pughe: C.G. vii. 727 (cf. xi. 776).

Coelion y dirion iechydwriaeth,
O Dduw nef odiaeth i *ddyniadon.*
G. Mechain: Gwaith, i. 206.

Hyd yno y nesäwn
Er sylwi mwy ar le o wedd mor lwys
Nas medra iaith *dyniadon* amlycäu.
W. O. Pughe: Dadeni (Cein. Awen, 145; cf. 146, 150).

Dyniadol, *a.* relating to humanity; human; humanising.

Esponia im' eilwaith, pa ham, wedi hyny,
Y gorfydd ar Angeu roi'i yspail i fyny,
Ac adfer pob llwchyn o sylwedd *dyniadol*
I dreulio ail einioes mewn buchedd dragwyddol.
I. G. Geirionydd: Geir. 232.

Dyniadu, *v.* to humanise.—*P.*

Dyniawed, *pl.* dyniewyd, } *sc.* [deunawiad, from
Dynawed, *pl.* dynewyd, } deunaw (mis), in reference to the animal's age?] a steer, a young ox.

Dynaguet guru vn ardec ac vn kerdhed yu a *dynauet* vanu.
C.C. i. 272 (cf. 88, 274, 568).

Pan gollo dyn y anreith o gyfreith maer a chyghellawr bieu yr anneired ar enderiged ar *dinewyt.*
C.C. i. 490 (cf. 674, 792).

Yna Lawnslot a beris dryllyaw y *dinewyt* yr rei yr oedynt wy yn credu udunt.—*St. Greal,* i 236 (cf. 247).

Medylyaw a oruc bot yn llei boen idaw mynet ar groen y *dinawet* melyn yr parth y gysgu.
Mabinogion, 146 (cf. 145, 161).

Ni châr hen fuwch *ddyniawed.*—*Diareb.* (M.A. iii. 186).

A ddeuaf fi ger ei fron ef â phoeth offrymau, ac â *dyniewid?*—*Esgob Morgan:* Mic. vi. 6.

A ddeuaf fi ger ei fron ef â phoeth-offrymau, ac â *dyniewaid?*—*Mic.* vi. 6.

Dyniedigaeth, -au, *sf.* personification; personality; a personified object.

Henw priawd yw'r hwn a berthyn, neu a gydweddo i un peth, neu ddyn, neu *ddyniedigaeth,* drwy alwedigaeth neilldnawl; fal y mae Pyll, Nudd, Madawg, Ieuan, neu Llywelyn; a hefyd Nonn, Angharad, Nest, Gwenlliant.
Edeyrn: Doeparth, 21.

Dyniol, *a.* [dyn]=*Dynol.*

Dynioldeth, } *sf.*=*Dynoliaeth,* the form in
Dynioliaeth, } current use.

Dynion, *s.pl.* [*sg.* dyn] men; persons; mankind. See *Dyn.*

Dynionach, *s.pl.* mean, pitiful, or contemptible fellows; paltry, frail, or contemptible persons; sorry fellows; the rabble.

Ef a allai y cyferfydd y llyfr yma ar brydiau â rhyw fath o *ddynionach* anneallus; y rhai'n ni cheisiant well swydd nog ymroi i chwilio am y bai yma a'r bai acw, ar hyd corff y llyfr yma.—*Dr. I. D. Rhys:* Gramadeg, Rhag. 7 (cf. 6).

A raid i ni, ebe hwy, fentro ein hoedlau am ffiloreg ac ambell geiniog gwta i'ch cadw chwi yn ddiogel a difraw mewn tafarnau, *ddynionach* musgrell segur ag ydych!
Theo. Evans: D.P.O. 101 (cf. 124, 204, 340).

Fe'u gollyngodd ymaith yn ddigerydd, gan ddeall eu diniweidrwydd, a gwybod nad allai'r cyfryw *ddynionach* truain byth beryglu mo'i freiniaeth.
Edw. Samuel: Buch. yr Apost. 230.

Dyma fardd goleu, yn y 19fed ganrif, yn dyfalu ei hun megys gwedi syrthio o'r awyr ym mhlith *dynionach* afiathr, afiafar, aflerw, na wyddai pwy, nac ym mha le!
G. Mechain: Gwaith, ii. 477.

Bereaid oll o bryd iach
Daw'n union—pob *dynionach.*
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 213.

Dowch, y prydron *ddynionach,*
Yng nghyd, feirw byd, fawr a bach.
Gronwy Owain, 93 (cf. 242).

Dynionach eu gilydd a grafant am grefydd.
Daniel Ddu, 269 (cf. 313).

Y mae gan *ddynionach* gymmaint o hawl arnaf, os bydd dyn yn galw ei hun yn brydydd, er na fedrai ddarllen llyfr corn, y mae yn un o'm haddolwyr.—*I' Greal,* i 170.

Dyma y fath bregethu a wna rhyw *ddynionach;* dyma y pethau ag y mae yr Yspryd Glân yn eu dysgu i ryw *ddynionach,* meddant hwy.—*Brutus:* Brut. 48.

Mae yn amlwg nad oes neb yn ymhoffi mewn tyngu ond rhyw *ddynionach* gwael ac afresymol.
Iosep h Harris: Gweith. 19.

Nid i'r cyfryw *ddynionach* ag yw dewiniaid a chonsurwyr yr ymddiriedai ei benarglwyddiaeth ar bob byw.
Gwyliedydd, ii. 19.

Dynionau, *s.pl.* [dynion] a double plural of *dyn.*

Arglwydd pendefig rhyfyg rhifieu
Arglwydd cyflawn iawn dawn *dynionau.*
Dafydd y Coed: M.A. i. 532.

Cyfaill *dynionau* ieuainc,
Er na bych mawr, cerddawr cainc.
Dafydd ab Gwilym, clxxxix. 13.

Dynionawl, *a.* relating to men or mankind; human.

Am dri achos dwyfawl y dylid gadw gwylau'r Nadolig: cyntaf, er cof cael geni Iesu Grist yn Iachawdr y byd *dynionawl;* ail, er rhoddi clusen i Dduw a thlawd anghenus o'r holl feddiant, sef rhodd i dlawd, rhodd i Dduw; trydydd, er llawenydd dwyfawl caffael rhad Duw a'i fendithion i ddynion.—*Barddas,* i. 336.

Dynionos, *s.pl.* [dim. of *dynion*] little insignificant men; little men, little folk, little people; manikins; little fellows.

Oni bai fod yn rhwystr iddynt, ac yn eu plith ar brydiau, ryw fath ansyber o *ddynionos* drewlyd, dwfn eu ceudawd o ffolineb afrifed, a brwnt eu hanian a'u naws.
Dr. I. D. Rhys: Gramadeg, Rhag. 7.

Neu ail son y *dynionos*
Am fun eirian lun, fain, dlos.—*Seren Gomer,* v. 246.

O *ddynionos* amled gynt,
Hwynt mewn un bychan gafn a nofient oll.
W. O. Pughe: C.G. xi. 758.

Digitized by Google

Dynionyn, *pl.* dynionach, *sm.* a paltry fellow.

Yfasant iechyd da i ryw un unwaith, ac yna dechreuodd *dynionyn* uchel-groch ganu cân lafar.
Gwyliedydd, ii. 77 (cf. 118).

Dyniorn, *sm.* [dyn+orn] the putting in personal fear; a being intimidated.—*P.*

Dynladdwr, wyr, *sm.* one who kills men; a slayer of men, a man-killer, a man-slayer.

Yn fuan hi gyrhaeddodd i mewn i boblog dŷ
Y dewr *ddynladdwr* Hector, a chafodd yno lu
O ferched oedd yn gweini.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 503.

Dynnill, *v.* [dy-+ynnill] to gain or win; to get possession of.

Yn y flwyddyn oed Crist MCCCC, daeth Owain Glyn Dwr i Forganwg, ac a *ddynnilles* gastell a thref Caer Dydd, a llawer castell arall.—*Iolo Mss.* 98 (cf. 122).

Dyno, *sc.* [dim. of *dyn*] 'a little delicate person;' a little person, a manikin.

Mae dy fâr am lafaru
Er dwyn cof y *dyno* cu,
Heb fedru, yn ei fydriad,
Son dim ond am dŷ ei dad.—*Seren Gomer*, v. 246.

Dynodi, *v.* [dy-+nodi: L. *denoto*] to denote; to indicate; to signify; to point out; to characterise; to discriminate; to remark; to describe.

Awn ym mlaen yn hwn, i *ddynodi* y ffrydiau penaf yn y swyddi ereill.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 341 (cf. 177, 236, 239, 281, 297, 335, 543).

Am fod dau arwydd dyblyg yn cael eu defnyddio i *ddynodi* un sain.—*Ioseph Harris:* Gweith. 13 (cf. 12, 394).

Pob ol bys y Crëwr ar entyrch yr wybren
Ddynodwyd â boglyn ysplennydd o seren.
Eben Fardd: Gweith. 414.

Oni buasai bod y gweddillion hyn yn *dynodi* natur yr adfail, gallesid ei gymmeryd yn lle crugyn naturiol.
Brutus: Ninefeh, 7.

Dynodent hi allan i'r crwydriaid ieuainc megys cymhares dra dewisol.—*Gwyliedydd*, vi. 242.

Amser sydd hanfod anhawdd ei *ddynodi*.
R. Roberts: Seryddiaeth, 39.

Dynodiad, -au, *sm.* the action of denoting, remarking, or characterising; discrimination; denotation, indication.

Dynodiad eon ydoedd
O'r llwybr, trwy well aberth,
A phurach, rhagorach gwerth.—*R. Owen:* Gweith. 138.

Yn ol ei olygiad ef, nid oedd yr enwau, y Tad, y Gair, a'r Yspryd Glân, onid *dynodiadau* o dri arweddiad neillduol.
J. Pryce: Eglwys Foreuol, 385.

Dynodiadol, } *a.* denotative, characteristic,
Dynodol, } designative; discriminative.

Adfyd yr Aipht anghraifft oedd,
Neud *dynodawl* tân ydoedd.
Pedr Fardd: Mêl Awen, 154.

Mae rhanau o honi yn dra difyrus a *dynodiadol* o'r genedl.—*Cymru*, vii. 279.

Dywedwyd eisoes mai enw cyffredinol a *dynodol* aelodau y sefydliad barddonol oedd Beirdd.
Gwyddoniadur Cymreig, i. 536.

Dynodiant, *sm.* denotation, characterisation; discrimination; distinction.

Tair rhagorgamp ar gerddor: cyflawn *ddynodiant* ar bob peth; cyflwyr fanegiant; a chyflwys ganiadaeth.
Cyfrinach y Beirdd, 46.

Mae y geiriau anghyflaith a gynnwysir yn y gwaith . . . gwedi eu hargraffu mewn llythyrenau amrywiol, er mwyn *dynodiant*.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 587.

Ansoddeiriau o ystyr anghyflawn, heb *ddynodiant* o wrthddrych, a ddilynir gan y gwrthddrych.
D. E. Jones: Ieithadur Seisoneg, 95.

Dynodion, *s.pl.* indications; signs.

Hyn cysgodai bod
Y blwyddau trifed mil yn amlycäu
Dynodion ar gynnyddu cnwd o fad
Wybodaeth am yr Ion.
W. O. Pughe: Dadeni (Ceinion Awen, 147).

Dynodus, *a.* conspicuous, remarkable, distinguished.

Hi a wydyat y vot yn oreu marchawc urdawl or holl vyt. ae vot yn *dynodus* o bop gwyt.—*St. Greal*, ‡ 146.

Dynoddawl, *a.* [noddawl] tending to transpire, transpiring; oozing.—*P.*

Dynoddi, *v.* [noddi, nodd] to transpire; to ooze.—*P.*

Dynoddiad, } *sm.* transpiration; an oozing.
Dynoddiant, } —*P.*

Dynoethedig, *pt.a.* [dynoethi] exposed, denuded.

Disgleirdeb tanllyd yn pelydru, mellt yn saethu, ac y bydyssawd yn *ddynoethedig* gan ogoniant ei ymddangosiad.
Robert Owen: Gweith. 124.

Dynoethi, *v.* [noethi] to expose; to make bare or naked; to denude, to denudate; to uncover; to strip; to disclose.

Nyt oes ymi rydit y *dinoethi* dirgeledigaetheu Duw.
St. Greal, ‡ 124.

Ac wrth heny *dynoethi* Kaledvwlch. a galw enw er arglwydes Veir. ac o ebrwyd ruthyr kyrchu a oruc eny vyd em perved i elynion.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 306.

Yna y *dinoethwyt* un or seith gweli a oed ym Meliot.
St. Greal, ‡ 233.

Noethwch, *dynoethwch* (meddai rhai'n)
Ei mur a'i main i'r ddaiar.
Edmund Prys: Salm. cxxxvii. 7.

Y rhai a ddywedent, *Dynoethwch, dynoethwch* hi, hyd ei sylfaen.—*Salm.* cxxxvii. 7.

Ac yna *dinoethi* y phenn. ae dangos yn burllwyt heb un blewyn arnaw.—*St. Greal*, ‡ 88.

Mae yn ddyfnach briw i falchder hunanol dyn gael *dynoethi* ei ynfydrwydd, na phe dywedid iddo ei fod wedi troseddu y deg gorchymmyn.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 576 (cf. 299).

Dynoethais y mur gogleddol, a'r dwyreiniol hyd at yr ail gyntedd.—*Brutus:* Ninefeh, 95.

Eu celloedd dirgelaf yn awr a *ddynoethir*.
I. G. Geirionydd: Geir. 262.

Nodweddir yr amser hwn fel cyfnod a fu yn foddion effeithiol, i raddau, er *dynoethi* y gau a'r twyllodrus.
Beirniad, x. 309.

Dynoethiad, -au, } *sm.* denudation; a making
Dynoethiant, } bare; a stripping; an exposing, exposure.

Dynoethol, *a.* denudative; exposing.

Dynoethwr, wyr, } *sm.* one who denudes,
Dynoethydd, -ion, } strips, or exposes; an exposer.

Dynoethydd diwenieithawl
Twyllebion pylion, heb hawl.
Robert Owen: Gweithiau, 120.

Dynofio, *v.* [nofio] to swim, to float.

Iawn dy waith, ac, yn dy wawl,
Dynofiwn i fyd nefawl.—*Iolo Morganwg:* Salmau, ii. 225.

Pa wrthddrych mor drefnwych draw
Dan nefoedd sy'n *dynofiaw*
Goruwch bloedd dyfroedd y don,
Ar ogwydd hyd yr eigion!—*Dafydd Ionawr*, 83.

Dynofyddiaeth, *sf.* [dyn+ofyddiaeth] anthropology, the science of man or mankind.

Dynofyddiaeth. . . Gellir cyfeirio y wyddor hon naill ai i esponio egwyddorion a gwneuthuriad ein cyrff—ac os felly yr enw priodol arni fyddai *dynofyddiaeth* anianyddol; neu ynte gellid ei defnyddio i goethi a diwyllio ein galluoedd deallawl a moesol, a'n gwybodaeth am ddyn fel bod unigol, ac am ddynolryw yn gyffredinol, pryd y dylid ei galw yn *ddynofyddiaeth* achosyddol.
Gwyddoniadur Cymreig, iv. 114.

Dynofyddol, *a.* anthropological.

Nodweddau *dynofyddol*, neu y dull i wahaniaethu y mewnol oddi wrth yr allanol.
Gwyddoniadur Cymreig, iv. 114.

Dynog, *a.* [dyn] 'abounding with virility;' manly.—*Gwent.*

Digitized by Google

Dynol, } *a.* [dyn] human; relating to man
Dyniol, } or mankind.

Tri pheth y daw angeu iddaw or a perthyn y *ddynyawl* arfer ymwassnaethu o honaw: anifeil; a phryf a goradain.
Cyfreithiau Cymru, ii. 590.

Yr adar a weleist ditheu a ellir eu kyffelybu yr bobyl *dynawl* a oedynt yna yn y byt.—*St. Greal*, ‡ 43.

Dynyaul bobyl ny borthant iauned.
Cynddelw: M.A. i. 244 (cf. 247, 328, 519).

Ef a wydyat panyw gelyn *dynyawl* oed.—*St. Greal*, ‡ 11.

Ysgaelus yw gennyf bob peth *dynawl* bellach.
Ystt. de Carolo Magno, col. 488 (cf. 498, 499).

Boed agored pyrth Pedyr a Phawl
Yth erbyn arbennic *dynyawl*.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 281 (cf. 323).

A pha beth bynnac avo reit y *dynawl* aruer o andyffygedic ffrwythlonder hi ae gwassanaetha.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 40 (cf. 149, 153).

Ni dy vot ti yn varwawl. a darestwng o honat ti y *dynawl* lygredigaeth.—*Llyfr Ancr*, 164 (cf. 83).

Yna y dugant Iessu ar yr athro y dyscu ganthaw *dynyawl* geluydyt.—*Buchedd Mair*, ‡ 34 (cf. 26).

Odhyna y lhetas drwy yr holh *dhynawl* genedl gariat y rhyngtunt.—*Lucidar*, ‡ 78 (cf. 110).

Yn ol dull *dynol* yr ydwyf yn dywedyd.—*Rhuf.* vi. 19.

Dywedyd yr wyf ar wedd *ddynol*.—*Gal.* iii. 15 (cf. i. 11).

Bydded yr Alcoran yn ddychymmyg *dynol*.
G. Mechain: Gwaith, ii. 40.

Dynol anian, } human nature; humanity.
Anian ddynol, }

Ae yr hynny y tebygewch chwi fo *dynawl anyan* y wrthych a geni dynyon yggwrthwyneb anyan.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 122 (cf. 143, 212).

Yr henny ny thebygaf golly o nep *dynyawl anyan* yr henny.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 228.

Ny mynnawdh ef hagen symutaw *dynawl anian*.
Lucidar, ‡ 31.

Wynteu a heduanant yg kerbydeu awyrawl. ac yn diruawr leuer yn y lle ny eill *dynyawl anyan* gerdet.
Y Groglith, ‡ 22.

Yr hwn ni bu ddirmygus ganddo gymmeryd arno *ddynawl anian*.—*Rowland Vaughan:* Ym. Duwioldeb, 33.

Credu yr ydym ddarfod i Iesu Grist . . . gymmeryd arno gnawd, a phob *anian ddynol*.—*Morus Cyffin:* Diff. ii. 2.

A ffodd *dynol anian* o wrthych?
Theo. Evans: D.P.O. 84.

O herwydd gwendid ein *dynol anian*.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Ystwyll, 4).

Natur ddynol, human nature; humanity.

Holl natur gwylltfilod, ac adar, ac ymlusgiaid, a'r pethau yn y môr, a ddofir ac a ddofwyd gan *natur ddynol* [*ddynol ryw].—*Iago* iii. 7.

Naturiaeth ddynol, human nature.

Yng nghylch y cyfryw bethau a fo yn gyfatebol i fraint a pherffeithrwydd y *naturiaeth ddynol*.
Th. Williams: Ymadr. Bucheddol, 175.

Dynol gorff, human body; human form.

Kannys o honaw ef drwy y drugared y kymyrth y Mab y *dynyawl gorff*.—*Cyssegrlan Fuchedd:* Llyfr Ancr, 87.

Dynol gnawd, human flesh.

Esgydieu or cordwal purdhu yn arwydhochau y *dynawl gnawt* a gymerth Ef or dhaear dywylh.
Ymborth yr Enaid, ‡ 24.

Perffaith Dduw, a pherffaith Ddyn: o enaid rhesymol, a *dynol gnawd* yn hanfod.—*Credo S. Athanasius.*

Kannys Ef yw y gwir doethineb. a gwybot; a gymerth *dynyawl gnawt*. ac a wyr pob ryw beth.
Cyssegrlan Fuchedd: Llyfr Ancr, 86.

Dynol ryw, the human race, mankind, the human species.

Sanctaidd air Duw, un o'r daionus roddion dewisaf a breintusaf a hyspysswyd ac a roddwyd i *ddynawl ryw*, yma ar y ddaiar.—*Ed. James:* Hom. i. 11.

Yno yr ymddengys cyfiawnder ei farnedigaethau tuag at *ddynol ryw*.—*Theo. Evans:* Pwyll y Pader, 90.

Bu *dynol ryw*, tra gresyn oedd,
Hir oesoedd yn annedwydd.
Iolo Morganwg: Salm. ii. clxvi. 1.

Ceisient bob achlysur i ddangos eu mileindra a'u creulonder tuag at *ddynol ryw*.
Gwalltar Mechain: Gwaith, ii. 10 (cf. 22, 60).

Dyn dynol, a human being; a humane person.

Guerth ym rodeist *dyn dynyaul* andau.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 328.

Nam gossod om gosseb fydawl
Yn goseon *dyniaddon dyniawl*.—*Elidir Sais:* M.A. i. 349.

Pelhaf yn elyn o ywrth pob *dyn dynawl* anaf.
Ymborth yr Enaid, ‡ 38.

Anwydau dynol, human passions.

Agweddiad dynol: see *Agweddiad.*

Dynoldeb, } *sm.* humanity; benevolence.
Dynolder, }

Wrth hyn y gwelir mai cyflwr prawf ac addysg yw cyflwr *dynoldeb*, lle mae cydbwys y da a'r drwg.
Barddas, i. 210 (cf. 188).

A fferodd gwythenau anianol fywioldeb,
Oddi eithr fod uwchafiaeth crëedig *ddynoldeb*
Yn dal rhyw ohiriol a gwydnaidd oroesiad?
Eben Fardd: Gweith. 437 (cf. 442).

Dynolder, mwynder pob modd,
Yn Silin a noswyliodd.
Robert Davies: Diliau Barddas (1883), 122.

Dynoldeb, -au, } *sm.* a person (in grammar).
Dynoliad, iaid, }

Tri *dynoldeb* (*dynoliad*) perwyddiad: cyntaf, mi; ail, ti; trydydd, efe neu hi: neu'r *dynoliad* cyntaf; yr ail *ddynoliad;* a'r trydydd *dynoliad*.—*Llanover Ms.*

Pob henw, a phob rhagenw, y sydd drydydd *dynoldeb*, eithr y pedwar rhagenw.
Edeyrn: Dosparth, 24 (cf. 23, 25).

Dynoleiddio, *v.* to humanise.

Dynoli, *v.* to make human, to humanise.

Dynoliad, -au, *sm.* a humanising.

Dynoliad, iaid, *sm.* a person (in grammar). See *Dynoldeb.*

Dynoliaeth, } *sf.* humanity; manhood; hu-
Dynioliaeth, } man nature.

Y pymhet nef yw. hirveith a llydan o *dynyolyaeth* dwywawl. a phei na bei y diodeifeint ef ae *dynyolyaeth* neur athoed y byt ygkyfyrgoll.—*Llyfr Ancr*, 129.

Wrth henny e tebygwch chwy ffo *dynolyaeth* y genhwch.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 228 (cf. 146, 363).

Ysaid gan vnbynn vnbarch *dynyolaeth*
Ysaid vnbennaeth vnbennesseu.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 273.

Gwell *dynoliaeth* da na drych.
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 550 (cf. iii. 159).

Felly gwnaeth *dynoliaeth* dad,
Da i'm cur, do, a'm cariad.
D. ab Gwilym, clxxxvi. 17 (cf. xxi. 19; xlix. 7).

Sef yw hynny *dynoliaeth* ynn gorphwys y męwn duwuolder.—*Lucidar*, ‡ 117.

A *dynolyaeth* a beit a godineb.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 148 (cf. 146).

Mal cornwyd y nwyd hwn aeth
I anhwyliaw *dynoliaeth*.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 24.

Dygodd pechod farn a malldod,
Yn ei waelod ar *ddynoliaeth*.
Caledfryn: Caniadau, 79 (cf. 85).

Dynoliaeth Crist (=Dyndod Crist), the humanity or manhood of Christ.

Gogyfueint ae Dat obleit dwyolyaeth. a llei noe Tat. obleit *dynyolyaeth* . . . nyt er mynet deutroi y dwyyolyaeth yg knawt. namyn o achoe kymryt o Vab Duw attaw ef y *dynyolyaeth* yn un person ag ef.
Credo S. Athanasius (Peniarth Ms.).

Digitized by Google

Ony bei ei *ddynolyaeth* ef ai ddioddefeint. neur athoedd y byt ar gyfyrgoll y gyt.—*Ipotis*, ‡3.

Gan fod Trindodiaid yn credu mewn dwyfol undod â *dynoliaeth Crist* . . . ni ddichon tyrru lluaws o Ysgrythyrau ag ydynt yn profi y gwirioneddau hyn, i'r diben i'w hargyhoeddi o'u cyfeiliornad tybiedig, o un gwasanaeth.
Ioseph Harris: Gweith. 366.

Ac felly mae *dynoliaeth* ein Harglwydd (sef ei gnawd a'i enaid) yn y Dduwfol orseddfainc, ac ar ddeheulaw Duw'r Tad.—*R. Smith:* Eglurhâd, 53.

Er teced ar yr olwg gyntaf, yr oedd yr eglurhâd yn myned o dan wraidd gwir *ddynoliaeth Crist*.
J. Pryce: Eglwys Foreuol, 379.

Dynoliant, *sm.* human nature.—*P.*

Dynolion, *s.pl.* human beings, men; mankind.

Tri chyfiwr bywydolion. . . Cyfiwr *dynolion*, lle cydbwys drwg a da.—*Barddas*, i. 352.

Tri anghen *dynolion* y sydd: rhyddid . . . gallu . . . a barn.—*Barddas*, i. 354.

Yr holl bell ynysoedd, o ymyl i ymyl,
Arllwysent *ddynolion* o burdeb glân engyl.
Eben Fardd: Gweith. 442 (cf. 397).

Cymmaint oedd effaith llygredigaeth y cwymp wedi menu ar *ddynolion* yn y chwe chanfed flwydd i Noah, fel ag y llygrasai pob cnawd ei ffordd ar y ddaiar.
G. Mechain: Gwaith, ii. 406 (cf. i. 539).

Cyntaf fu'n nheulu *dynolion*.—*Caledfryn:* Caniadau, 81.

Maent yn peri aruthredd nid bychan ym mysg *dynolion*.
Gwyliedydd, vii. 376.

Dynolrwydd, *sm.*=*Dynoldeb*.

Dynolryw, *s.pl.* mankind, humankind, the human race or species.

Gweddus a Christionogawl iawn eich gwaith; boddlawn gan Dduw . . . a chlodfawr yng ngolwg holl *ddynolryw*.
Gronwy Owain, 330.

Mynych y rhua, ac wrth hyny a rybuddia *ddynolryw*.
Ier. Owen, 44 (cf. 119).

Dyger achau brudiau, a phob twyll ac hudoliaeth, at eu gwir rieni, *sef* tywyllwch y meddwl, ac hygoeledd *dynolryw*.
G. Mechain: Gwaith, ii. 276; i. 514.

Yr un y waith hon a fydd agwedd *dynolryw*
Ag oedd yn yr amser rhagflaenol i'r diluw.
I. G. Geirionydd: Geir. 250 (232, 235, 257).

Prophwydwyd yn y Bibl yr ymddangosai Crist yn Brophwyd i hyfforddi *dynolryw*.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 57 (cf. 36, 38, 42).

Dynos, *s.pl.* [*pl.* dim. of *dyn*] little people; frail men; insignificant persons; the rabble.

Edrych lle gwelych y gwaelion *ddynos*,
Yt' o gas agos dygasogion.—*W. Midleton:* Salm. ix. 13.

Heb aeth, heb ofid, heb weled galar,
A chynghan lef uwch *dynos* a daiar.—*Seren Gomer*, v. 55.

Dynsawd, *pl.* dynsodion, dynsodau, *sc.* [dyn +sawd] a person; that which is personified.

Weithiau arall fo wrthymchwelir yr araith at ryw beth ansynsodawl mal pei yn *ddynsawd*.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xxxvi. 3.

Efe a ddywed am y môr yn y *dynsawd* anwyddfodawl.
G. Mechain: Gwaith, i. 478 (cf. 513; ii. 177).

Yma mae'r prophwyd yn areithio wrth longau Tyrus, mal pei baent yn *ddynsodion* rhesymol, ac hwynt yn fudiaid dieneidiawg.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xxxvi. 3 (cf. 1).

Y mae i ferf ddau rif, unigol a lluosog; ac i bob rhif y mae tri *dynsawd* neu berson.
D. E. Jones: Ieithadur Seisoneg, 32.

Pe amgen, byddai adenedigaeth yn distrywio unoliaeth y *dynsawd*.—*Ioseph Harris:* Gweith. 298.

Yma terfynwn fywgraffiad un o'r *dynsodion* disgleiriaf yn ei ddosparth a gynnyrchodd ein Tywysogaeth ni.
Gwyliedydd, viii. 260.

Cyffelyb yw rhai *dynsodau* i'r creadur hwn.
Diwygiwr, iv. 353.

Gwyddir, o thremir, ei thro,
Gwen *ddynsawd*, y gwnai ddawnsio.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 252 (cf. 180).

Dyna yw rhanau *dynsodion* yn y byd profedigaethus hwn.
Cwmwl, i. 122.

Nid anfynych y cawn yr un *dynsawd* yn cael ei alw yn alarch, eryr, gwalch, hydd, llew, oen, a phaun; a hyny yn yr un cywydd—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 363.

Cymmeryd dynsawd, to accept the person.

Adolwyn na *chymmerwch ddynsawd* nebun.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xxxii. 9.

Dynsawdwedd, -au, *sf.*=*Dynsodwedd*.

Dynserch, *sm.* love of mankind, philanthropy.

Pan ymddangosodd daioni a chariad [**dynserch*] Duw ein Hachubwr tu ag at ddyn.—*Titus* iii. 4.

Dynsodach, *s.pl.* ignoble persons, paltry fellows; the rabble.

Dynsodawl, *a.* personal; that personifies.

Rhagenwau dynsodawl, personal pronouns.

Anhebgorolrwydd â a ddynodir gan rai *rhagenwau dynsodawl*, y rhai a'i mynant i arwain y gair nesaf, os bydd y gair hwnw yn dechreu â llafariad.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 177.

Dynsodechyn, *sm.* a paltry fellow.

Dynsodi, *v.* [dynsawd] to personify.

Os ein cred yw, na welwyd mo Samwel, ond yn unig rhyw yspryd drwg yn ei *ddynsodi*, yn ganlynol, y mae yn rhaid i ni ammheu naill ai medr neu onestrwydd yr ysgrifenydd sanctaidd.—*Seren Gomer*, v. 10.

Dynsodiad, -au, *sm.* a personifying; personification.

Dynsodiad a fydd, pan ddyweder fod yn llefaru y neb nid yw, neu pan ddynweddir yn ddychymmygol bethau difywyd, gan olygu pethau mud yn dafodiog.
Isaac Jones: Gram. Cymreig, 166.

Dynsodiad yw, pan briodolir bywyd a gweithrediad i bethau difywyd.—*D. E. Jones:* Ieithadur Seisoneg, 130.

Dynsodiant, *sm.* personification, prosopopœia.

Dynsodlun, -iau, *sm.* [dynsawd+llun] the figure prosopopœia.

Perffaith *ddynsodlun* sydd, pan fo'r areithiwr mal pei yn dwyn i mewn, ar araith, gwbl o ymadrodd dynsawd arall; neu ynte wyddsodi [gwyddfodi?] yn adgynnyrchiawl, meis pei ymddiddan rhyw beth arall.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xxxvii. 2.

Dynsodwedd, **Dynsawdwedd**, -au, *sf.* [dynsawd+gwedd] prosopopœia, personification (of abstract ideas, &c.).

Dynsawdwedd yw ffugr, pan fo'r areithiwr ar ansawdlun yn dwyn i mewn ar ymadrodd, mal pei rhyw un arall yn ymddiddan.—*H. Perri:* Egluryn Ffraethineb, xxxvii. 1.

Dynu (*ȳ*), *v.* [dyfnu]. See *Dyfnu*.

Dynwared, *v.* [dan+gwared ?] 1. to imitate.

Ac o wydyn *danwaret* y kyweirdabei a welsei ar y meir[ch] ac ar boppeth a oruc Peredur.—*Mabinogion*, 195.

Y mae efe yn ymryson â gofaint aur ac arian, ac yn *dynwared* y gofaint pres.—*Doeth.* xv. 9.

Mwy no chler y dom pan geisiont *ddynwared* neu ddilyn â rhyw athrawiaeth y pencerddiaid, ar eu cerdd hwy.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, ii. (cf. xiii.).

Ni ellir am hyny yn uniawn ddywedyd ei fod ef yn dywedyd, yr hwn nid yw yn deall y llaferydd y mae ei dafod yn ei draethu, ond yn *dynwared* dywedyd fal y gwna'r perot, neu'r fath adar, sydd yn *dynwared* llaferydd dynion.
Ed. James: Hom. ii. 281.

Yr wyf, heb law hyn, yn eu hannog i ochel *dynwared* y cenedloedd digred.—*Edward Samuel:* Grotius, vi. 11.

Y mae yn naturiol i dybied, y bydd y gwanaf yn benthycio gan y trechaf; a bod y gweision yn *dynwared* iaith y meistraid.—*Theo. Evans:* D.P.O. 9.

Er mwyn dilyn yn hyny a *dynwared* ein Iachawdwr bendigedig.—*Allwydd Paradwys*, 148 (cf. 353, 365, 371).

Trwy *ddynwared* dy fuchedd, a chydymwageddu â'th ddioddefaint.
Elis Wynn: Rh.B.S. 299 (cf. 186, 223, 249, 255).

Y mae yn eu hannog i fod o'r meddwl hwn, ac i'w *ddynwared* ef.—*Phil.* iii. (Cynn.)

Digitized by Google

Dynwared gweithred y gwir
Yn ei wŷn a wnai anwir.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 263 (cf. 454).

Hoff oedd gantho, yn ei gerddi, *ddynwared* Taliesin, ac ereill o'r hen feirdd.—*Iolo Mss.* 271.

Ei dewiniaeth hi a fuasai gosod cydweithredydd i *ddynwared* Samuel.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 255.

2. to imitate (for sport or in derision); to mimic; to deride; to mock.

Na wnelont weithredoedd anneddfolion . . . a senu, a goganu, a gwatwar, a *dynwared*, a meddwdawd.
Barddas, ii. 110.

Oddi yno ni aethom i ysgubor, lle yr oedd un yn ceisio *dynwared* pregethu ar ei dafodleferydd.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 38 (cf. 61).

Tair cainc a berthynant ar glerwriaeth: ymsenu; dyfalu gair tra gair; a *danwared*.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 135.

Hwynt a'u *dynwaredasant* ac a'u gwatwarasant hwy.
Esgob Morgan: 2 Cron. xxx. 10 (cf. xxxvi. 16).

Dynwared, -ion, *sm.* imitation.

Coeg ddynwared, mimicry.

Oni bydd mewn arfer enyfedus, ac yn gymhwys i arwyddocäu yr achosedig, *coeg ddynwared* a fydd.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, ii.

Dynwaredadwy, *a.* imitable; that may be imitated or copied.

Dynwaredgar, *a.* apt to imitate or to mimic; mimical, mimetic.

Dynwarediad, -au, *sm.* imitation; imitating a character; a copying; a mimicking.

Nid ydyw onid ffydd y diawl, ffydd yr annuwiol, llun neu *ddynwarediad* ffydd, ac nid y wir a'r Gristionogawl ffydd.—*Ed. Iames:* Hom. i. 56.

Dynwaredig, *pt.a.* imitated, copied.

Dynwaredigol, *a.* imitative; mimetic.

Dynwaredol, *a.* 1. imitative, imitating; mimical, mimetic; dramatic.

Fe ddywedir mai dynion ydyw y creaduriaid mwyaf *dynwaredol* yn y byd.—*Llan*, Meh. 14, 1895.

Barddoniaeth ddynwaredol, dramatic poetry.

Y mae *barddoniaeth ddynwaredol* yn cael ei rhanu yn ddwy gangen.—*Gutyn Padarn:* Gwaith, 124 (cf. 114, 126).

2. mocking; that is done in mimicry or mockery; imitating in contempt or ridicule.

Trwy y dirmyg creulon a'r cernodiau a roddasid arno pan wisgasant ef â'r fantell freninol *ddynwaredol*.
Gwyliedydd, v. 298.

Dynwaredoldeb, **Dynwaredolrwydd**, *sm.* the quality of being imitative; mimicry.

Dynwaredwr, wyr, **Dynwaredydd**, -ion, *sm.* an imitator, a copyist; a mimic.—*W.*

Ac oni fedrwn ddeall ystyr a rheswn yr ymadrodd, eto na fyddwn watwarwyr, senwyr, a *dynwaredwyr*.
Ed. Iames: Hom. ii. 303.

Dynwedydd, -ion, *sm.* [dyn + gwedyd] one who 'treats of man generally;' one that describes man or mankind; an anthropologist.

Dispwyllawt sywedyd
Am wyth am odrywyth
Am doleu *dynwedyd*
Am gwyr gwawt geluyd.
Taliesin: A.B. ii. 131 (cf. M.A. i. 35).

Dynweddiad, -au, *sm.* [dyn + gwedd] a person (in grammar); personality; personification.

Tri *dynweddiad* y sydd i beirwyddiad: y cyntaf, yr ail, a'r trydydd. . . Henw a pheirwyddiad a ddylynt fod yng nghyd yn unrhyw rif, ac yn unrhyw *ddynweddiad;* ac oni byddant felly, cam ymadrawdd fydd.
Edeyrn: Dosparth, 23 (cf. 24, 25).

Rhaid i berwyddiaid, oddigerth y rhai cyssefin, gydunaw â gosail, o barth rhif a *dynweddiad*.
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gymraeg, III. i. 8 (cf. 1).

Ym mhob rhif y mae tri *dynweddiad*.
Isaac Jones: Gram. Cymr. 61.

Dynweddiadol, *a.* personal (in grammar).

Rhagenw dynweddiadol, a personal pronoun.

Y *rhagenwau dynweddiadawl*, sef a arwyddocao ddyndawd, neu ddynoldeb, ynt y rhai canlynawl.
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gymr. II. ii. 1 (cf. 2).

Rhagenw dynweddiadol a ragflaena ei berthynol enw cadarn mewn rhif a chenedl, os na chyfrynga un gair arall.
Isaac Jones: Gram. Cymr. 113.

Pan ddylyo *ragenw dynweddiadawl* roddi pwys neu rym iddo, yna gosodir y rhagenw meddiannawl o flaen yr enw y byddo meddiant iddo arno, ac y *rhagenw dynweddiadol* ar ol hyny.—*W. O. Pughe:* Cad. Iaith Gymr. II. ii. 3.

Dynweddu, *v.* to personify.

Pan *ddynweddir* yn ddychymmygol bethau difywyd.
Isaac Jones: Gram. Cymr. 166.

Dynyddiad, -au, *sm.* [nyddu] a twisting, a winding, a writhing.

Dynyddol, *a.* twisting, spiral, writhing.

Dynyddu, *v.* to twist, wring, or writhe; to wind round, to intort.

Elyffant mor amrosgo ceisiai eu
Dywenu, a *dynyddai* ei rynswch blydd.
W. O. Pughe: C.G. iv. 383.

Dynygiad, *sm.* a thriving, a prospering; a getting on.—*P.*

Dynygol, *a.* thriving, prospering.

Dynygu, *v.* [contr. of *dywynygu*] to come or get on; to thrive; to make effort; to try to reach.

Mae yn dynygu wrtho, it agrees with him; it is wholesome for him.—*S.E.W.*

Nid yw ef yn dynygu fawr wrtho, it does not agree with him; he thrives not upon it.—*S.E.W.*

Dynyn, *sm.* [dim. of *dyn*] a little man or person; a little one; a manikin, a manling, a little fellow; a frail mortal.

Llychwinodd llwch o'i enau
Lliw'r *dynyn* mireinwyn mau.
D. ab Gwilym, lxxvi. 43 (cf. xcviii. 24; ccvii. 32).

Ni fyn y *dynyn* dawn-syth
Ymoralw am arall fyth.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 249.

Ar hyny yr ymddangosodd iddo ddau *ddynyn* bach prin cufydd o hyd. . . Ac efe yn awr ar y trothwy, dyma ddau *ddynyn* bach o'r byd isod yn ei oddiwes.
Theo. Evans: D.P.O. 273, 274.

Dynyn wyf, a adwaenoch er ennyd,
A yr annerch atoch.—*Gronwy Owain*, 48 (cf. 306).

Edrych a gwel fel y mae efe yn dwyn oddi arnat yr hen nerth, ac yn rhoddi i *ddynyn* truan nerth newydd.
Morgan Llwyd: Tri Aderyn, 64.

Llawer *dynyn* llwyr dinam
Aeth i'w fedd o groth ei fam.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 389.

Hyspysaf y modd y byddai debygol o ddyfod yn *ddynyn* go ystwyth a gwyliadwrus.—*Seren Gomer*, xv. 209.

Pob *dynyn* mewn dychryn du!—*Gwladgarwr*, v. 186.

Dyochri, *v.* [ochri, ochr] to make sides to; to square.

Dyochri gwŷdd, to square timber.

Dechreu gwawd, *dyochri gwŷdd*,
Eto 'dd wyf iti, Ddafydd.—*Guto'r Glyn:* Iolo Mss. 317.

Dyochriad, **Dyochrad**, -au, *sm.* a squaring; a making square or angular.

Dyodor, *sm.* [godor] a tumult or confusion.

Aer rag dinas Caer cadr *dyodor*
Cadarn gyfarfod gwrthod gwarthfor.
Gynddelw: M.A. i. 205.

Digitized by Google

Dyodrefn, -au, *s.cl.* and *pl.* =*Dodrefn.*

Dyodrig, *sm.* [godrig] a loitering or delaying; a delay.

Dyodwf, *sm.* [dy-+go+twf] increase or augmentation in part.

Ariant dyodwf, 'a term in the Laws for money advanced with any chattel below the current value, to bring it to the maximum. Thus it was necessary to advance eight pence with a cow which had calved the second time, as the *arian dyodwf*, or equalizing increase money. It was also called *ariant mydywydd*.'—*Leges Wallicae*, III. v. 2, §7, 29, 30, 31 (cf. *Glossarium*, 567).

Dyoddef, *v.* & *s.* [dy-+goddef]. See *Dioddef*, &c.

Dyoddeu, *sm.* [goddeu] intent, purpose.

Dyoddoli, *v.* [goddoli] to enrich, to endow.

O winveith a medweith
Dygodolyn gwnlleith
Mam hwrreith Eidol enyal.—*Aneurin:* God. 561.

Dyoedi, *v.* [oedi] to delay, to put off.

Dyoerain, *v.* [oeri, oeriain] to cool; to refresh one's self.

Dyofalu, *v.* [gofalu] to take care of; to care after; to be careful.—*P.*

Dyofrysio, *v.* [gofrysio] to hasten, to speed; to be hastening.

Dygogan awen *dygobryssyn*
Maranhed a meuued a hed genhyn.
Taliesin: A.B. ii. 202 (cf. 123; M.A. i. 71).

Dyofrysiol, *a.* apt to hasten.—*P.*

Dyogan, } *v.* [gogan] to relate, to report; to
Dyoganu, } predict or prognosticate; to promise; to threaten. See s.v. *Dyofrysio.*

Pell *dygoganher* amser dybydyn.—*Taliesin:* A.B. ii. 124.

Dyoganiad, -au, *sm.* a reporting or relating; prediction, prognostication.

Dyoganol, *a.* reporting, relating; prognosticating, predictive.

Dyogladdu, *v.* [claddu] to cover over; to bury.

Dygoglawd ton bevyr beryerin
Men yd ynt eilyassaf elein.—*Aneurin:* God. 534.

Dygoglad gwenyg gwyn gyngreawdyr fynyd
Morfa Rianed Maelgwn nebyd [rebyd].
Gwalchmai: M.A. i. 195.

Dyogwyddiad, *sm.* inclination.

Dyogwyddo, *v.* to incline, to bend; to be inclining or leaning.—*P.*

Dyogwyddol, *a.* inclining, leaning.

Dyol, -ion, *sm.* [ol] a track; a footstep.

Hela *dyol* haul deau.—*Dafydd ab Gwilym.* (*D.*)

Dyolaeth, *sf.* the action of tracing.—*P.*

Dyolchi, *v.* [golchi] to rinse, to wash over.

Dyolchiad, -au, *sm.* a rinsing, a washing.

Dyoli, *v.* [dyol] to trace, to follow a track.

Dyolwg, *sm.* a looking towards.—*P.*

Dyollwng, *v.* [gollwng] to let go a hold, to let loose, to loosen.—*P.*

Dyollyngiad, *sm.* a loosening, liberation.

Dyollyngol, *a.* loosening, liberating.

Dyoralw, } *v.* [galw] to call aloud; to call
Dyorelwain, } out or often.—*P.*

Dyoralwad, *sm.* a calling aloud or often.

Dyoresgyn, } *v.* [goresgyn] to overcome, to
Dyoresgynu, } subjugate.—*P.*

Llwyth lliaws anuaws eu henwerys
Dygorescynnan Prydein prif van ynys.
Taliesin: A.B. ii. 213 (M.A. i. 76).

Dyoresgyniad, *sm.* subjugation.

Dyorfod, *v.* [gorfod] to conquer, vanquish, or overcome.

Dygorfu Kymry trwy kyfergyr
Yn gyweir gyteir gytson gytffyd
Dygorfu Kymry y peri kat
A llwyth lliaws gwlat a gynnullant
A lluman glan Dewi a drychafant.
Taliesin: A.B. ii. 127 (M.A. i. 158).

Llyuelin y env o eissillit
Gwinet gur *digorbit.*
Myrddin: A.B. ii. 21 (M.A. i. 135; cf. 72).

Dyorfodawl, *a.* apt to be victorious.—*P.*

Dyorgrawd, *v.* [gorgrawd] to regulate; to amend.—*P.*

Gwerin diwerin [daiaren, daierin?] ny *dyorgrawd*
Gwae ef Arglwyt nef ny uo parawd.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 332.

Dyorlad, -au, *sm.* [gorlad] a blessing.—*P.*

Dyorladol, *a.* tending to bless, benedictory.

Dyorladu, *v.* to bless.

Dyorlawd, *sm.* [gorlawd] a fondling or caressing greatly.—*P.*

Dyorlota, *v.* to fondle much; to caress.

Dyorllwyddo, *v.* [gorllwydd] to be fortunate; to prosper.

Aduwyn [*al.* addwyn] pob gorllwyn pan *dyorllwyt*
Aduwyn arall pall pwyllaw eilwyt.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 333.

Dyormes, -au, *sm.* molestation, vexation, oppression, tribulation.

Ni ddodes na maes na choedydd tud achles,
Dyormes pan ddyfydd.—*Taliesin.* (*P.*)

Dyormesol, *a.* molesting, vexing.—*P.*

Dyormesu, *v.* to molest, to oppress.

Dyorphen, *v.* [gorphen] to make an end of; to complete.—*P.*

Atporyon uyd Brython pan *dyorfyn.*
Pell dygoganher amser dybydyn.
Golyddan: A.B. ii. 124 (M.A. i. 156).

Dyosel, *sm.* [gosel] a lying in wait, a waylaying; an ambush.

Dyosg, *v.*=*Diosg.*

Dyphlan, *a.* [plan] splendid, luminous.—*P.*

Dyphlaniad, -au, *sm.* a shining; illumination.

Dyphlanol, *a.* productive of light; illuminative.

Dyphlanu (*ā*), *v.* to cast a splendour; to illuminate.

Dyphorthi, *v.* [dy-+porthi] to sustain, support, or uphold; to aid or assist; to bring; to carry. See *Dyborthi.*

A meibyon Godebawc gwerin enwir
Dyforthynt lynwyssawr gelorawr hir.
Aneurin: God. 134 (cf. 650, 725, 766).

Dyphorthynt i seirch meirch rygyngawc.
Meilir: M.A. i. 190 (cf. 11, 12).

Digitized by Google

Tri pheth a *ddyphorthant* gof: ymgais â gwraidd gwybodau; cyflawnder gwybodau; a'r achos coño gwybodau, parth y rhaid wrthynt.—*Cyfrinach y Beirdd*, 44.

Dyporthey a chymell y elynyon a wnaey ar dyledus dar-estyghedygaeth.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 156.

Dyr (*ȳ*), *sm.* [dy-+gyr] 'a tendency to rise or move;' an impetus or impulse.

Dyrag, *prep.* [dy-+rhag: C. *dyrag*] before; in front or presence of.

Dyrag, *sm.* a progress; a moving or going forward.

Dyragiad, *sm.* a going before, a preceding.—*P.*

Dyragol, *a.* going before, preceding.—*P.*

Dyragu, *v.* to precede, to go before.—*P.*

Dyrain (*ȳ*), *v.* [dyr? cf. *dyre*] to act wantonly; to be, grow, or become wanton; to frisk about.

Yn myw Rhun reawdyr dihedd
Dyrain enwir enbydedd
Heiyrn ar veirch enwiredd.
Llywarch Hen: M.A. i. 105 (A.B. ii. 270).

Gwawr deheu goreu gwyr yn *dyrein*
Gwenwyn a gwanar y deu gar gein.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 321.

Dyrain, *sm.* wantonness; friskiness; excitement.

Gwelais dyrf dygyn gwelais *dyrain*
Gwelais dyrawr awr arwyd dadsain.
Cynddelw: M.A. i. 204.

Dywasgar cynnygyn rag *dyrain*.
Gwalchmai: M.A. i. 199 (cf. 468).

Digrif, be gatai 'r dagrau
A red, oedd glywed yn glau
Dyrain mawr aderyn Mai,
Dan ir-fedw, y dyn erfai!—*D. ab Gwilym*, xlvi. 23.

Dyraith, *a.* [di+rhaith?] feeble, weak; fruitless.—*D.* This may be the word intended in the subjoined quotation:

Finis ejus, or nant dylicat nant y reguic, o nant i reguic cehit i nant *dirheith*.—*Liber Landavensis*, 69.

Dyraith, reithiau, *sf.* [dy-+rhaith] a fixed or established law.

Gorug Bran ab Llyr Lledïaith,
Rhag drwg o dranc yn niffaith,
Ffydd yng Nghrist yng nghrair *dyraith*.—*Iolo Mss.* 263.

Dyraniad, -au, *sm.* a dividing or partitioning; a division; an allotment.

Nid ydyw yn ymddangos bod ei dylwyth ef wedi dala eu treftadaeth, o herwydd y *dyraniad* parhäus rhwng brodyr o oes i oes.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 218.

Dyranol, *a.* dividing, partitioning.

Dyransawdd, soddion, *sm.* [dy-+rhan+sawdd] a dividend.

Dymunwn wybod pa faint yw y rhifranydd hwnw, yr hwn, pe y rhifranid unrhyw *ddyransawdd* wrtho, e fyddai y cynniferiant yn gyfartal i ddaill y cyfryw *ddyransawdd* wedi ei liosi wrth 625.—*Seren Gomer*, xvi. 148.

Dyranu, *v.* [rhanu] to partition, to divide; to distribute.

A dyryd ei fud i feird proestlawn
A *dyran* atan ataw yd awn.
Cynddelw: M.A. i. 206 (cf. 360).

Dyranwyd rhadau'r wiw-nef
I'n bro o'i nawdd ddibrin Ef.—*Robert Owen:* Gweith. 102.

Eu caniadau yn *dyranu* nos.—*W. O. Pughe:* C.G. iv. 752.

Dyrathiad, -au, *sm.* a rubbing, burnishing, or smoothing; a chafing.

Dyrathol, *a.* rubbing, burnishing, smoothing.

Dyrathu, *v.* [rhathu] to smooth; to burnish; to rub; to chafe.

Mae yr hydd yn dyrathu ei ben, the stag is burnishing his head.—*W.*

Dyrawl, *a.* [dyr] tending to move or impel—*P.*

Dyrawr, *a.* [dyr?] impelling, impellent, impulsive, urgent.

Ry dirwy *dyrawr* y hollyon
Ry dylaweh eirchyad ac eirchyon.
Cynddelw: M.A. i. 261 (cf. 204, 225, 240).

Ath breityawr yn *dyrawr* dyuod
Ath preitin ath braf dy osod.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 294 (cf. 350).

A llafnawr *dyrawr* diruawr y dyrn
Arwynawl gwrawl nyd gwr anchwyrn.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 330.

Bleit blaengawr bar *dyrawr* dur.
Cynddelw: M.A. i. 225 (cf. 247).

Dyrawr, *sm.* impulse, impetus.

Neum duc meirch mygyruawr *dyrawr*.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 292.

Dyrys dwyn oe lys lwys gyvanned llynn
Dyrawr gwawr gwaywryn kyn kannmlyned.
Casnodyn: M.A. i. 427 (cf. 458).

Fel ewch . . . yr hwn, wedi y derbyno *ddyrawr* unwaith oddi wrth y rhwyf, sydd yn parhau i fyned ym mlaen ar ol i'r morwr roi heibio y gorchwyl o'i yru.
J. Mills: Hyfforddwr, 50.

Dyrch, -au, *sm.* a rising, elevation; 'a rising upon, a mounting up; an assault.'

Dyrch a gosod, assault and onset.

Dyvod or dywededig Domas dyw Merchyr . . . ac yn y lle dydd ar amser gwneuthur *dyrch a gosawd* ar y dywededig Ieuan ai daraw yn ei vraich aswy oni dores grnea chig a gweliau.—*C.C.* ii. 474.

Dyrch, *a.* elevated, exalted; preferred; dignified. See *Derch*.

Ef aer *dyrch* awch kyrch nys kyrchwch hyd urawd
Chwi oe fawd yd fowch.—*Llyw. ab Llywelyn:* M.A. i. 280.

Dyrchaf, -ion, *sm.* an assault, an attack; a stroke.

Petwryd yw diffryt dyn rac un gwth gwayw, neu rac *drychaf* aryf a drychauer oduchdaw ar odef y lad.
C.C. ii. 312.

Dyrchaf a gosod (=dyrch a gosod), an attack and onset.

Y neb a gnithyo dyn talet y sarhaet yn gyntaf; canys *dyrchaf a gossot* yw sarhaet pop dyn.
C.C. i. 700 (cf. 220, 508).

Tri gwarthrud kelein: un onadunt yw pan ladher y gelein *drychaf a gossot* arnei.—*C.C.* ii. 40 (cf. 190, 466; ii. 40).

Dyrchafad, -au, *sm.* a raising or lifting; elevation; advancement; preferment.
Derchafad,

Ked orllwyt arglwyt argleidrad Kymru
Kymreis clod *dyrchauad*.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 279.

Dor dyrchafud: see *Dor*.

Dyrchafadwy, *a.* that may be raised, lifted,
Derchafadwy, advanced, or preferred; that is to be exalted or extolled.

Molant enw yr Arglwydd: o herwydd ei enw ef yn unig sy *ddyrchafadwy*.—*Salm.* cxlviii. 13.

Dyrchafael, -ion, -au, *sm.* [C. *drehevel*] 1.
Derchafael, exaltation; ascension.

Gwyrthau golau gwelhator *dyrchafael* mor hyd awyr.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 362.

Y Dyrchafael, the Ascension.

Ni ddiosg dy bais cyn *y Derchafael*.
Diareb. (Meddygon Myddfai, Rhag. 20.)

Nid ydyw arfer ymprydio yn rhai o leoedd rhwng Dydd Pasc a'r *Dyrchafael;* hyny yw, tra fo'r Priodfab gyda ni.
Allwydd Paradwys, 3.

Dydd Iou y Dyrchafael, Ascension Thursday,
Dydd Iau y Derchafael, Ascension Day, Holy
Dyw Iau Derchafael, Thursday.—*Ll. G. Gyffredin.*

Digitized by Google

Y dydd Llun a'r dydd Mercher o flaen *Dydd Iou Dyrchafael.*—*Allwydd Paradwys*, 3 (*cf.* 2).

Dyw Iau Derchafael yr esgynawdd ein Harglwydd ni Iesu Grist i'r nefoedd yn ei gorff a'i enaid.—*Ystori Silfestr.*

Dydd y Dyrchafael, Ascension Day.

Y Sul ar ol *Dydd y Dyrchafael.*—*Ll. G. Gyffredin.*

Offrwm dyrchafael (*pl.* offrymau dyrchafael), heave offering.

Ac offrymed o hyn un dorth o'r holl offrwm, yn *offrwm dyrchafael* i'r Arglwydd.
Lef. vii. 14 (*cf.* 32; Num. v. 9; Deut. xii. 6).

Pont ddyrchafael, a draw-bridge.

Yr oedd mot rhyfeddfawr, ofnus i edrych arno, o amgylch i'r llys, a *phont ddrychafael* drosto.
Marchog Crwydrad, i. 11.

2. augmentation; advancement. See *Arddyrchafael.*

Galanas alltut brenhin yw teir bu a thriugein mu heb *dyrchauel.*—*C. C.* i. 510.

Y naw vgeint ariant yssyd ynno ynn lle *drychyfaelon* y alanas a delir o naw mu a naw ygein mu gan dri *drychafael.* Val hvn yd ymlykeir y *drychyfaelon:* y *drychafael* kyntaf yw trigein mu; yr eil yw pedwar ygeint mu; trydyd yw chwebu a chan mu a thrayan dwy vu.—*C. C.* i. 510.

Y chwevgeynnvw gan tri ar *drychavel* yw yr alanas ar chwebvw yw y saraet kelayn ac wrth na byd *dyrchavel* yn y saraet kelayn na henwyr y chwevgayn aryan.
C. C. ii. 264 (*cf.* 316).

Dyrchafael, } *v.* 1. to raise or lift; to lift, take,
Derchafael, } or raise up; to elevate; to exalt; to ascend; to rise; to heave. See *Dyrchafu*, now the more usual infinitive.

Dyrchauel y wyneb a oruc ynteu ac edrych arnei yn llidiawc.—*Mab.* 271 (*cf.* 112, 118, 155, 283).

A *dyrchauel* y llen a oruc y gwr llwyt y ar yr eistedua.
St. Greal, § 8 (*cf.* 21, 26, 27, 42, 46, 60, 64, 70, 74).

Gwedy *drychauel* Brutus yn dywyssawc. galw a oruc attaw wyr Troea o bop man.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 43.

A *dyrchavel* y law a wnaeth ae groessi.
Yst. de Carolo Magno, col. 417 (*cf.* 389, 391, 405).

Drychafael yscolyon wrth y muroed o pop parth a wnaethsant.—*Brut y Tywysogion*, 170 (*cf.* 292).

A *dyrchavel* y maen ar ei hysgwydd a wnaeth. ae vwrw ir llyn.—*Doethion Rhufain*, § 17 (*cf.* 28).

Enachaf Arthur en kyvodi en kyflym wychyr. ac en *derchavael* i darian ac en kyrchu Frollo. . . Enynnu o lit a gwychyr erlloned a oruc. a *derchavel* Kaletvwlch.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 316.

Lle'r arferai'r bobl o ddewis brenin arnynt o fysg y rhai tlotaf o'r bobl, a'i *ddyrchafael* i anrhydedd mawr.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. iii. 60.

Megys ag yr ŷm ni yn credu ddarfod i'th unig-anedig Fab ein Harglwydd Iesu Grist *ddyrchafael* i'r nefoedd.
Ll. G. Gyffredin (Iou y Dyrchafael).

Dyrchafael hwyl, } to hoist sail; to set sail.
Dyrchafu hwyl, }

Hwyl a dyrcheuit ar y llong. ac ar vor a gweilgi y kerdit a hi.—*Mabinogion*, 83.

Dyrchafael hwyliau, to hoist sails.

Yn y vlwydyn rac wyneb gwedy *dyrchauel.* o Vagnus vrenhin Germania *hwyleu* ar ychydic o logeu, a diffeithaw a oruc tervyneu Prydein.—*Brut y Tywysogion*, 74.

Drychauel eu *hwyleu* a wnaethant a dyuot y aber Temys yr tir.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 84.

Dyrchafel byrddau, to raise tables; to set up tables.

Dioec y arueu a oruc. a *dyrchafel byrdeu* a wnaethpwyt a mynet y vwyta.—*St. Greal*, § 21.

2. to augment, to increase. See *Dyrchafu* (3).

Dyrchafawd, *sm.* a raising or lifting; elevation, exaltation; advancement.

Dyrchafedig, } *pt.a.* 1. raised or set up; ele-
Derchafedig, } vated; exalted; lofty; extolled.

A weleist. neu a glyweisti neb un *derchauedic* ar lywodraeth teyrnas mor wedus cledyf ar y ystlys ar meu i.
Campau Charlymaen, § 1.

Dydd Arglwydd y llucedd fydd ar bob balch ac uchel, ac ar bob *dyrchafedig* . . . ac ar holl uchel a *dyrchafedig* gedrwydd Libanus . . . ac ar yr holl fynyddoedd uchel, ac ar yr holl fryniau *dyrchafedig.*
Esa. ii. 12, 13, 14 (*cf.* 2; xxx. 25).

Cofiwch mai *dyrchafedig* yw ei enw ef.—*Esa.* xii. 4.

Y Goruchel a'r Dyrchafedig, the high and lofty One.—*Esa.* lvii. 15.

Llef uchel ddyrchafedig, an exceedingly loud voice.—2 *Cron.* xx. 19.

Acen ddyrchafediq: see *Acen.*

Cynghanedd gymmysg dda, fo'n tyfu o'r unodl groes gydbwys, ac yn *ddyrchafedig* neu'n unig ei hacen a'i hawdl.
Cyfrinach y Beirdd, 26 (*cf.* 51).

2. raised up, hung up.

Cig dyrchafedig, hung meat.

Ar gwr bieu y *kic* ar caws *drychauedic* oll.
C. C. i. 752 (*cf.* 524).

Dyrchafedigaeth, } -au, *sf.* the action of rais-
Derchafedigaeth, } ing or lifting up; elevation; exaltation; advancement, preferment.

Dyrchafedigol, } *a.* tending to raise, elevate, or
Derchafedigol, } exalt; elevatory, elevating.

Dyrchafedigrwydd, } *sm.* exaltedness; an ele-
Derchafedigrwydd, } vated or exalted state; elevation; eminence; advancement.

Hwy a ddeisyfant uchelder mawr, a swyddau, a *derchafedigrwydd.*—*Meddygon Myddfai*, ii. 801.

Dyrchafedd, } *sm.* elevation; advancement;
Derchafedd, } loftiness.

Dyrchafhau, } *v.* to raise; to elevate; to
Derchafhau, } erect.

Pell amgen hwynt y sawl a *ddderchafhëynt*
Y greirfa eirian draw.
W. O. Pughe: Pal. 28 (*cf.* C.G. ii. 307).

Dyrchafiad, } -au, *sm.* the action of lifting up
Derchafiad, } or raising; elevation; exaltation; advancement; promotion, preferment; ascension.

Mae S. Awstin yn ei galw hi *derchafiad* y meddwl at Dduw.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 229 (*cf.* 268).

Ei ostyngiad ef yw ein *derchafiad* ni.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 436.

Dyrchafiad fy nwylaw fel yr offrwm prydnawnol.
Salm. cxli. 2. (*cf.* 2 Cron. xxxii. 26; Esa. xiii. 3).

Gwarth fydd *dyrchafiad* ffyliaid.—*Diar.* iii. 35.

O herwydd nid o'r dwyrain draw
I ddyn y daw *dyrchafiad.*—*Edm. Prys:* Salm. lxxv. 6.

Golygle a gwawl eglur,
Derchafiad offeiriad ffur.—*Gronwy Owain*, 55.

Dyrchafiad y Grog, } Exaltation of the Cross
Dyrchafiad y Groes, } =a festival observed on the 14th of September.

Ar Ddydgwyl *Dyrchafiad y Grog* Sanctaidd . . . Duw, yr hwn ar y diwrnod yma, wyt yn ein llawenychu ni â blynyddol Uchelwyl *Dyrchafiad y Groes* Sanctaidd, dyro i ni, atolygwn arnat, haeddu cael gwobrwyon ei rybryniaeth ef yn y nef.—*Allwydd Paradwys*, 369.

Dyrchafiad Mair, the Assumption of the Virgin Mary=a festival observed (in the Roman Church) on the 15th of August.

Y mae chwech Gwyl Fair yn dygwydd yng nghorff y flwyddyn. . . Y bummed, *Dyrchafiad Mair*, Awst 15fed.
Ystên Sioned, 64.

Dyrchafiad Crist, the ascension of Christ; the exaltation of Christ.

Crist, er mwyn parotoi ei apostolion i weled ei *ddyrchafiad*, yn eu casglu hwy yng nghyd i fynydd yr Olewwydd.
Act. i. (Cynn.)

Digitized by Google

Felly yr arferai 'r Apostolion o ymprydio yn ol *dyrchafiad Christ.*—*Ed. Iames:* Hom. ii. 177 (cf. 180).

Gwedi hyny o amser Moses hyd *ddyrchafiad Crist* bu rhifedi mawr o ffigyrau a defodau gweledig i arwyddo swyddau Crist.—*Ch. Edwards:* H. y Ffydd, 56.

Dyrchafiad, *sm.* = *Dyrchafael.*

O hon [y Nadolig] y tardd yr Ystwyll, neu Dduwymddangosiad, fel y geilw efe hi, y Pasc, y *Dyrchafiad*, a'r Pentecost.—*Gwyliedydd*, vi. 332.

Dyrchafiadau eglwysig, ecclesiastical promotions or preferments.

Ni ymddygodd mor annynol a gwrthod y *dyrchafiadau eglwysig* a gynnygiwyd iddo yn ebrwydd wedi cyhoeddiad ei Fibl.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 221 (cf. 421).

Gwnaed ef yn gaplan breninol, a gwobrwywyd ef gyda *derchafiadau eglwysig* ereill.—*Cylchgrawn*, i. 66.

Dyrchafiaeth, } -au, *sf.* elevation; promotion,
Derchafiaeth, } preferment; ascension.

Y mae efe yn llwyrymwrthod â'r cyfryw *ddyrchafiaeth*.
Ieremi Owen, 8.

Gwaed, dysgeidiaeth, a *dyrchafiaeth*,
Ni wna uno ddim gwahaniaeth.
W. Williams: Gweithiau, i. 242.

Dim i mi fai pob *dyrchafiaeth*,
Maes o wlad fy ngenedigaeth.—*Daniel Ddu*, 238.

Dyrchafiawdr, iodron, *sm.* one who elevates, exalts, or promotes; a promoter; an exalter.

Bendigwch mo'lwch Dduw moliannus hael
Bendigwn drychafwn *dyrchafiawdr* bŷd.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 565.

Dyrchafiedydd, -ion, *sm.* he who or that which elevates; an advancer, a promoter; an elevator.

Dyrchafog, *a.* elevated, exalted; sublime.

Yng nghanol yr holl ehediaith *ddyrchafog* yng Ngholl Gwynfa gan Milton, nid oes yr un, ef allai, mor ofnadwy a'r felltith yn Llyfr Iob.
Y Cyfaill o'r Hen Wlad, rh. 47, 421.

Dyrchafol, *a.* elevating; raising, exalting.

Amcan yr urdd yw llenwi'r plant â gwladgarwch goleuedig, pur, a *dyrchafol*.—*Cymru*, xi. 146.

Dyrchafu, } *v.* 1. to raise, to lift up; to ele-
Derchafu, } vate; to advance; to promote, to prefer; to exalt; to dignify, to ennoble. Cf. *Dyrchafael, v.*

Ac yna gwedy marw Bleiddut. y *drychafwyt* Llyr y vab ynteu yn vrenhin.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 64 (cf. 82, 146, 233).

Ar brenhin a *derchafawd* y llenn a oed y dan y mackwy.
St. Greal, ¼ 4.

Dyrchafwys brynn gwynn breinyawl y vreint
Yg gwyt seith mil mawr a seith vgeint.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 270.

Tri pheth a *dderchaif* awen: dysg; ymgais; a pharch.
Cyfrinach y Beirdd, 44.

O byrth, *dyrchefwch* eich penau; ac ymddyrchefwch, ddrysau tragywyddol.—*Salm.* xxiv. 7, 9.

Y rhai a ddylasent fwyaf *dderchafu* gorchymmynion Duw.
Ed. Iames: Hom. i. 71 (cf. ii. 72).

Dyrchefaist dy araith ar esgyll gweniaith.
G. Mechain: Gwaith, ii. 61.

Y llifeiriaint, O Arglwydd, a *ddyrchafasant*, y llifeiriaint a *ddyrchafasant* eu twrf; y llifeiriaint a *ddyrchafasant* eu tonnau.—*Salm.* xciii. 3.

A hyn . . . sy'n gwneuthur y Bibl yn anhawdd a dirgeledig, ac yn ei *ddyrchafu* i safle uwch na llyfrau ereill.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 69.

Ac yna'r anialwch a *ddyrchaif* y gân.—*Daniel Ddu*, 188.

Dyrchafu llef, to lift up the voice.

Esau a *ddyrchafodd ei lef*, ac a wylodd.
Gen. xxvii. 38 (cf. xxi. 16).

2. to ascend; to go or come up; to rise.

Dyrchefaist i'r uchelder.—*Salm.* lxviii. 18 (cf. xlvii. 5).

Ni *ddyrchafodd* Dafydd i'r nefoedd.
Act. ii. 34 (cf. Ioan vi. 62).

3. to augment; to increase; to compensate.

Tri anifeil ni *ddyrcheif* eu gwerth er daet breint eu perchennogyon: costoc tom; a gafyr a dafat.
C.C. ii. 640 (cf. 40, 644; i. 230).

Dyrchafwr, wyr, } *sm.* one who raises, lifts
Derchafwr, wyr, } up, elevates, or exalts; a
Dyrchafydd, -ion, } lifter up; an exalter; a
Derchafydd, -ion, } promoter; an advancer; one who ascends; a riser.

Fy ngogoniant a *dyrchafydd* fy mhen.—*Salm.* iii. 3.

Na watwar y dyn a fyddo yn chwerwder ei enaid: o herwydd y mae gostyngydd a *dyrchafydd*.—*Eccl.* vii. 11.

Fy *nyrchafydd* o byrth angeu.—*Salm.* ix. 13.

Fy ngwaredydd, a'm *dyrchafydd*,
O chyfyd rhai i'm herbyn.—*Edm. Prys:* Salm. xviii. 48.

Barnydd, *Dyrchafydd* dirfawr a chyflon.
Dafydd Ionawr, 265.

Dyrchawd, *sm.* the action of elevating or exalting; elevation.—*P.*

Dyrchiad, -au, *sm.* a lifting or raising up; elevation.

Dyrchog, *a.* having an elevation; elevated, exalted.

Dyrchol, *a.* tending to rise up; rising; surging, surgent; tending to raise.

Dyrchu, *v.* to lift up; to elevate; to exalt; to rise, to ascend. See *Dyrchafu, Dyrchafael.*

Yn awr y *dyrcha* efe fy mhen goruwch fy ngelynion o'm hamgylch.—*Salm.* xxvii. 6.

Llywia hwy, a *dyrcha* hwy yn dragywydd.
Ll. G. Gyffredin (Te Deum).

Dyrcha arnom lewyrch dy wyneb.—*Salm.* iv. 6.

Dyrcha ni i'r un fan lle yr aeth ein Hiachawdwr Crist o'r blaen.—*Ll. G. Gyffredin* (Sul ar ol y Dyrchafael).

Dyrcha 'n uchel ei helynt,
A gwân adenydd y gwynt.—*Gronwy Owain*, 88.

Ymddibridda, a *dyrcha* ar esgyll ffydd.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 92.

Dyre, *sm.* [dy- + rhe? cf. *dyrain*] emotion, excitement; wantonness, lust; sexual excitement.

Gnawd march o feirch rabire
Yn farch dewr yn farch *dyre*.
Gwalchmai: M.A. i. 203 (cf. 126, 212).

Neum duc meirch mygyruawr dyrawr
Dyre ar hwyl ganmawl hawl ar heul orne.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 292 (cf. 115).

Gweryru y bu heb wedd
Gan *ddyre*, neu gynddaredd.—*Tudur Aled*, i Farch.

Bid besgitor *dyre*
Bid drud glew a bid rew bre.
Llywarch Hen: M.A. i. 126.

Dyre, *v.* [dy- + rhe] come (thou), come (hither), come, come along. Used only in the 3rd. pers. sing. imperative. The more usual form in South Wales is *dere* (q.v.).

O chlywi, wenferch Lewys,
Dyre i'r Llan draw o'r llys.—*Gronwy Owain*, 43.

Dyre, edyn crwydradwy,
'Groesaw i'n mysg,' yw'r son mwy.
Robert Owen: Gweith. 175.

Dyre mewn am dri mynyd.—*G. Mechain:* Gweith. i. 184.

Dyre yma, come hither, come here.

Dyred, *v.* [dy- + rhed] come (thou), come (hither), come. This verb, like the preceding, appears to occur only in the imperative; but Pughe makes them both infinitives as well. See *Tyred*, now the more usual form; and cf. *Dyredeg.*

Os tydi a gynhely y llamhystaen yn eidi hi *dyred* ragot y ymwan a miui.—*Mab.* 254 (cf. 173, 178, 199, 276, 289).

Digitized by Google

Parota de lynghes a *deret* y gyt a my.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 232.

Wrth hynny *dyret* tithau attaw ef ar dy drugeinuet marchawc.—*Ystt. de Carolo Magno*, col. 388.

Dyret yspryt. sant kreawdyr byt. bydoed eurnaf.
Yn calonnev. an dwyuronnev vreinyawl hynaf.
Cyssegrlan Fuchedd: Ll.A. 99.

Dyred i'th weled, wiw-lun.—*D. ab Gwilym*, liii. 3.

Dyred o wlad y Dwyrain,
Darw mawr, a bwrw dyrau main.
Iolo Goch: G.B.C. 82 (cf. 84).

Dywedaf wrth un, Dos, ac ef a aiff; ac wrth arall, *Dyred*, ac ef a ddaw.—*W. Salesbury:* Luc vii. 8.

Y titheu vt deheu *dyred*.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 293.

Dyred, fy nhraed a oerais,
Dyro dy ben drwy dy bais.—*D. ab Gwilym*, lv. 39.

Dyred dithau gyda mi adref heno.
Dammegion (Y Greal, 368).

Cofia (O Dduw) fy mod yn wan,
Ac yn druan, a *dyred*.—*Edm. Prys:* Salm. xl. 17.

Dyred, er dïed arian,
Ac os gwnai, ti a gai gân.—*Gronwy Owain*, 60.

Dyred, Arglwydd, brysia'r amser,
Mawr yw'm hiraeth am y wlad.
Iolo Morganwg: Salmau, i. xlii. 5.

Ir yw'n serch i'r ynys hon,
O *dyred!* brysia'n dirion.
Iolo Morganwg: Salmau, ii. 225.

Ar ol y cudd, yr haul cain,
Dyred o borth y Dwyrain.
G. Mechain: Gwaith, i. 45 (cf. 404).

Dyred, eb Addaf dirion,
Fy myd, i'r hyfryd fan hon.—*Dafydd Ionawr*, 59.

Dyredeg, *v.* [rhedeg] 'to run to and fro;' to hasten; to run or move on; to glide on.

Dy ddewredd di a *ddyryd*
I'r tân gwyllt a'r tannau gyd.—*Rhys Brychan.*

Gwtam pob anwar daear *dyred*.
Gotef grwn ysgwn anysgoged.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 307 (cf. 293).

Draw, yma, *dyreda* 'i rawd
Idd ei oris ddaiarawd.—*Gwyliedydd*, iii. 221.

Dyredeg wnai dwr wedyn
O afrwydd graig fawr ddigryn.
Robert Owen: Gweith. 127 (cf. 276).

Dyrediad, *sm.* [dyredeg] a running onward, a hastening.—*P.*

Dyreidiad, -au, *sm.* [rhaid] a necessitating; a becoming necessary.—*P.*

Dyreidio, *v.* [rhaid] to necessitate; to become of necessity; to take one's fate.—*P.*

A llid boethfan dân yn eu deiflaw
A llys afraid gwrys na gwrysiaw oi plaid
A lliaws enaid yn *direidiaw*.
Dafydd Benfras: M.A. i. 310.

Dyres, -i, -au, *sf.* [rhes] a flight of steps.

Dyrewi, *v.* [rhewi] to freeze.

Nas dêl o'r awyr oni *ddyrewo*,
Tra fo na bys nac ewin heb ei weisgïo.—*L. Morganwg.*

Dyrfol, -iau, *sm.* [dwr+bol?] a mill-pond; a reservoir.—*Gwent.*

Y clawdd neu yr afon yn arwain i'r *dyrfol*.—*Iolo Glossary.*

Dyrgi, gwn, *sm.* [dwr (=dwfr) +ci] the otter. See *Dyfrgi* and *Dwrgi*.

Dyrgist, -iau, *sf.* [dwr+cist] a cistern; the wheel-pool of a mill.

Dyrglawdd, gloddiau, *sm.* [dwr+clawdd] the canal or channel which conveys the water into the mill-pond; a leat. Also called *pyn-farch*.—*Gwent.*

Dyrglwyd, -au, -i, *sf.* [dwr+clwyd] a flood-gate.

Dyrglwyf, -au, *sm.* [dwr+clwyf] dropsy. See *Dyfrglwyf*.

Hwnw a'th geidw, ac a etteil y *dyrglwyf;* profedig yw.
Meddygon Myddfai, ii. 513 (cf. 532, 795, 796, 811).

O bydd y *dyrglwyf* arnat, cymmer wysgell gwaed y gwŷr, neu sug y porlys, sef cennin.—*Llanover Ms.*

Dyri, *pl.* dyrïau, *sf.* [dyrif] =*Dyrif*.

Dyrïaidd, *a.* =*Dyrifaidd*.

Dyrif, *pl.* dyrifau, } *sf.* [dy-+rhif] 'a free and
Dyri, *pl.* dyrïau, } flowing kind of metre, adapted for lyric compositions;' a lyric, a carol, a ballad; a song (adapted for music).

Milwr bu ysgwr ysgwyt dryllyei ygnif
Mawl *ddyrrif* kynnif kynnyd Gwalchmei.
Hillyn: M.A. i. 413.

Dyrif, neu Garol, yw'r podwerydd ansawdd ar hugain ar gerdd dafod; a'i hanghen yw acen wastad ar y banau a'r pennillion; sef y dylai bob pennill fod yn gyfacen, gyfunllais, gydred, gydbwys â'u gilydd.
Cyfrinach y Beirdd, 159 (cf. 160—171).

Dyrif, neu Garol, neu Gerdd arwest, fal a'i gelwid gan yr hen feirdd; ac ereill a'i galwaint Cân Deuluaidd.
Sion Bradfford (Cyfr. y Beirdd, 159).

Mesur er cyn cof yw *dyrif*, er ei bod ar gamddeall yn hirfod oesoedd.—*Edward Dafydd.*

O hyn o anghelfydd brydyddu ac arfer ar *ddyri*, y daeth ar y rhyw hyn o gerdd ammharch ac anarfer. . . Goreu o'r holl fesurau yw *dyrif* gyda thôn oslef, ym mraint ei llithrigrwydd; ac o gyffelyb gelfydd a chyfiawn ganu a barddoniaethu, y ceir y *dyrifau* ym mhlith y goreuon o'r mesurau.
Cyfrinach y Beirdd, 170.

Aneirif yw rhywiau pennillion *dyrif*.
Cyfrinach y Beirdd, 161.

Yn bymthegfed, *Dyri*, neu Garol, neu Gân Arwest.
Cyfrinach y Beirdd, 49.

A lle byddo llancesau
Fe fydd canu *dyrifau*.—*Sion Tudur.*

Os medr un glytio rhyw fath ar *ddyri*, dyna fe'n gadeirfardd.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 57.

Llewelyn Ddu o Geredigion, yr hwn yr ydwyf yn ei gyfrif yn fwy na myrdd o'r mân glytwyr *dyrïau* naw ugain yn y cant, sydd hyd Gymru yn gwybeta, ac yn gwneuthur neu'n gwerthu ambell resynus garol, neu *ddyri* fol clawdd.
Gronwy Owain, 170 (cf. 242).

Y rhai a ganant Salmau sanctaidd yng nghymmysg â *dyrifau* halogedig.—*R. Vaughan:* Ym. Duwioldeb, 190.

Cerdd tôn a goslef (*dyrif*) nid yw mor gaeth ei rheolau a phryddest gadwynawdl. . . Yr oedd Dafydd ab Gwilym, o gylch y fl. 1400, mewn cywyddau y fath un ag oedd Huw Morus yn 1700 mewn *dyrifau*. . . Yr oedd Eos Ceiriog yn pyncio mor beraidd yn ei gywyddau ag yn ei *ddyrifau*.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 586.

Ym mhlith y dyrifyddion, barnwyd bod pedwar o'r naw *dyri* yn rhagori.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, i. 502 (cf. 34).

Yn addas iawn rhoddodd Bardd Glan Dyfroedd le i'r *dyrifau* hyn yn ei gasgliad diweddar o Flodau Dyfed.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 303.

Carolau y rhai oeddynt yn fwy sylweddol ac efengylaidd, a'u *dyrïau*, yn gyffredin, yn dangos mwy o synwyr a challineb, na'r eiddo ereill.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 499.

Wrth fugeilio o ddeutu yr oedran hyny, dechreuodd y llanc gyfansoddi *dyrifau* prydyddol.—*Adolygydd*, iii. 70.

Dyrifaidd, } *a.* after the manner of a lyric, song,
Dyrïaidd, } or carol; lyrical.

Triban Morganwg a genir yn *ddyrifaidd* drwy gynnal gwastadrwydd acen a ban arno, a chadw yr holl bennillion yn gydwastad, gyfunwedd, gyfunbwys. . . A thrwy gynnal yr unrhyw wastadrwydd ar acen, ban, a phennill, y cenir Hupynt yn *ddyrifaidd* fal hyn.—*Cyfrinach y Beirdd*, 169.

Dyrifo, *v.* [rhifo] to compute, number, count, or reckon.

A hyny a elwir Amser Brut, sef y *dyrifid* blynyddau oof a chyfrif yn yr hen amseroedd dan amcan o amser Brut.
Barddas, i. 406.

Dyrifol, } *a.* [dyrif, dyri] lyric, lyrical; relating
Dyrïol, } to lyric verse.

Dyrifau o gyfiawn ansawdd a fyddant fyth; sef drwy ymddal ar acen wastad *ddyrifawl*.—*Cyfrinach y Beirdd*, 164.

Digitized by Google

Dyrifydd, } -ion, *sm.* a writer of lyrics; a lyric
Dyrlydd, } poet or writer; one who writes in free or lyric metres.

Didoler yn ddwy ran—un i'r awdlyddion, a'r llall i'r *dyrifyddion*.
G. Mechain: Gwaith, i. 499 (cf. 500, 501, 502, 506, 514).

Yn yr oes honno esgorodd swydd Ddinbych ar ddau *ddyrlydd* llawer rhagorach na'u cyfoeswyr.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 498.

Dyrladd, *v.* [dwrn+llad] to beat with the fist; to buffet.—*Gwent.*

Dyrladd, *sm.* a beating with the fist; a box; a buffet.—*Gwent.*

Dyrllid, *v.* [dyr+llid (*P.*)?] to cause to effuse; to produce.

Ny wtant cwt ant rwy cotes
Yn *dyrlid* molyant mal yt es
Yn moli milwr uaranres.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 284.

Dyrllyd, *a.* [dwr=dwfr] waterish, watery.

Dyrllydrwydd, *sm.* waterishness; thinness; insipidity.

Ar y rhan fwyaf o'r mesurau, bai yw gormod banau cyfacen, gan eu difiased a'u mawr *ddyrllydrwydd*.
Cyfrinach y Beirdd, 171.

Dyrllydd, *a.* [?] deserving, meriting.

Llewelyn ay blant blayngar vrodoryon
Ay haylyon wyryon oer eu galar
Diwethaf ym bu buduawr wasgar
Dafyd glot *derllyt* ar llwybyr casnar.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 365 (cf. 256, 268, 361).

Dyrllyddol, *a.* meritorious, deserving.

Dyrllyddiad, *sm.* a meriting or deserving.

Dyrllyddu, *v.* to deserve, to merit.

Rys Derllys *dyrllytwn* y ged
Rys rebyt ef *dyrllyt* Dyued.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 294 (cf. 11, 12, 268).

Derllydid fy nedf fy newisaw
Y' Nghadelling fro Dysiliaw.
Gwalchmai: M.A. i. 195 (cf. 6, 268).

Wynt a *dyrllytant* yn lle honneid.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 266.

Pedwaret welygort pedweryt molawd
Molafy ly ac *dyrllyt*.—*Cynddelw:* M.A. i. 256 (cf. 261).

Molawd a *dyrllyt* kedwidyt cad
Yawn yw moli ri a uo rotyad.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 361 (cf. 164).

Dyrllydwn i wirawt kyn bydwn i ermit.
Phylip Brydydd: M.A. i. 377.

Ni *ddyrllydd* hael ar ni bo.—*Diareb.* (M.A. iii. 167.)

Dyrnaid, *pl.* dyrneidiau, *sm.* [dwrn] 1. a handful; as much as the closed hand will contain.

A gwedy yr ymadrawd hwnnw ysgynnv a orue Peredur ar y uarch. a *dyrneit* o afiacheu blaenllym yn y law.
Mabinogion, 195.

Y rei a oedynt ym maedu a *dyrneidyeu* o drein.
St. Greal, § 44 (cf. 40, 186).

Ac offrymaw hefyt a wnaeth *dyrneit* o aryant amgylch dec swllt.—*Brut y Tywysogion*, 214.

Dyfodiad yn wir y deuant mewn gorfoledd
Yn dwyn eu *dyrneidiau* drwy dangnefedd.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 570.

Cais *ddyrnaid* o rosmari, a *dyrnaid* o'r geidwad, a *dyrnaid* o'r tryw, a *dyrnaid* o'r wendon, a *dyrnaid* o isob, dail a brig pob un o'r rhai'n.
Meddygon Myddfai, ii. 325 (cf. 237, 274, 336, 339).

Rhai a dafiasant *ddyrneidiau* o'r llwch oedd ger llaw at Lysimachus.—2 *Macc.* iv. 41.

Ei oreu-dduw oedd ruddaur,
A'i enaid oedd *dyrnaid* aur.—*Gronwy Owain*, 77.

Dygant *ddyrneidiau* lloffa y rhai newynog.
Iob xxiv. 10 (cf. Ier. ix. 22; Esec. xiii. 19).

Dyrnaid o yd, a handful of corn.

Bydd *dyrnaid o yd* ar y ddaiar ym mhen y mynyddoedd.
Salm. lxxii. 16.

2. a small number or quantity, a handful.

Dyrnaid o saethau, a sheaf of arrows.—*S.*
Dyrneidiau saethau, rifedi'r ser.—*L. G. Cothi*, 1. xix. 31.

Dyrnaid o bobl, a handful of people.

Pa beth ydoedd *dyrnaid* bychan *o bobl* i wynebu y fath lu mor ddirfawr, ag ydoedd yn gorchuddio yr holl wledydd!
Brutus: Brutusiana, 384.

Dyrnawd, *sm.*=*Dyrnod.*

Dyrnchwith, *a.* [dwrn+chwith] left-handed.

Dyrnddol, } -au, -ion, *sm.* [dwrn+dôl] the
Dyrntol, } ring, ear, or handle of a vessel; a ring to be taken hold of by the hand. Commonly, but less correctly, *dryntol* and *tryntol.*

Dyrnddolawg, *a.* having handles or rings.

Dyrneidio, *v.* [dyrnaid] to take up in handfuls; to handle.

Tywysenau, addfed ffrwythau,
Am ddiwrnodiau, mwy *ddyrneidiant.*
Hwfa Mon: Gwaith, 112.

Dyrneidyn, *sm.* a small handful.—*W.*

Yn lle dywedyd mawaid, llonaid llaw, *dyrneidyn* (yr hyn nid yw ddim amgenach nag ar amcan) o wraidd neu ddail, y rhai a fyddant annilys a siomgar, dywedir pwys gronyn, &c.—*H. Davies:* Llysieuaeth Gymreig, Rhag, 13.

Dyrnfedd, -i, *sf.* [dwrn+bedd? cf. *modfedd, troedfedd*] a hand-breadth, a hand=a measure of four inches. It is called *dyrnfedd foel, moel ddyrnfedd* or *moelddyrnfedd*, to distinguish it from a measure of six inches with the thumb erect, which is called *dyrnfedd bica, dyrnfedd gorniog*, or *dyrnfedd â bawd yn syth.*

Kynnedyf arall oed arnaw. pan uei uwyaf y glaw. *dyrnued* uch y law. ac arall is y law y bydei yn sych.
Mabinogion, 113 (cf. 180).

O pob maynaul ryd y brenhyn a dyly keruyn ued nau *dyrnued* yn y hyt yn amryscoyw.—*C.C.* i. 196 (cf. 198).

Y veint oed deudec cufyd yn y hyt. a chufyd yn hyt y wyneb. a *dyrnued* idaw ehun yn hyt y drwyn. pedair cufyd yn hyt y vreicheu. ae ysgeired. a their *dyrnued* yn hyt y vyssed.—*Campau Charlymaen*, § 43 (cf. 53).

Gwyndal gwastatlyfn cyuartal changlathr mereritliw ydaw, a *dyrnved* amyl yr gwr mwyaf yn y byt.
Ymborth yr Enaid, § 23.

Ei dewder hefyd oedd *ddyrnfedd*.
1 *Bren.* vii. 26 (cf. 2 Cron. iv. 5).

Gwnaethost fy nyddiau fel *dyrnfedd.*—*Salm.* xxxix. 5.

Mannat emenyn cywlet ar dysgyl letaw a uo yn y trew a chyn dewet ac y bo deu *uoeldyrnuet.*—*C.C.* i. 198.

A mannad ymenyn cyfled a'r ddysgl letaf a fo yn y dref, a chyn dewed ag y bo dau *foel ddyrnfedd* ynddaw.
Leges Wallicae, ii. xxix. 6.

Sef yw mannad ymenyn, naw dyrnfedd led a dyrnfedd dewedd, *d'i fawd yn sefyll.—Leges Wallicae*, ii. xxix. 6.

Y mae *dyrnfedd foel*, a *dyrnfedd bica* neu *gorniog. Dyrnfedd bica* yw dyrnfedd â'r fawd yn syth, ac yn mesur chwe modfedd.—*Th. Charles*, s.v. 'Dyrnfedd.'

Dyrnflaidd, *pl.* dyrnfleiddiau, *sm.* [dwrn+blaidd] 'a kind of iron club having spikes on the striking end; a halbert.'

Chwarren, teg ei ben, nyw baidd, na bwa,
Na bwyall na *dyrnflaidd*,
Gwaew, nac isarn haiarnaidd,
Geneu blwng, neu gi, na blaidd.
Dafydd Nanmor (Iolo Mss. 313).

Dyrnfol, *pl.* dyrnfolau, dyrnfyl, *sf.* 1. a gauntlet.

Punt yw y werth a deudec keinnawc yn lle y sarhaet whecheinnawc dros teir llath o vrethyn gwyn y wnneuthur peis idaw a their keinnawc dros y lawdyr a cheinnawc dros guaraneu idaw a *dyrnuolen.*
Cyfreithiau Cymru, i. 510 (cf. 696).

Dreigiau'n chwarterau o'r tân,
Dyrnfolau 'r drin o felan.—*L. G. Cothi*, v. i. 53.

Dilwch yw dy degwch di,
Darn fal haul, *dyrnfol* heli.—*D. ab Gwilym*, xxviii. 3.

Digitized by Google

2. a mitten; a glove; a hedging mitten or glove. Usually pronounced *dyrnol* in N.W.

Nid oes dim yn tycio genym, yn gymmaint, ond odid, a bod yr hwn sydd yn ymhoewi yn ei sabl a'i ŵn ffwr hardd, ei esgidiau corc, ei socysau gwychion, ei *ddyrnfolau* clydion, yn barotach i fferu gan annwyd, na'r llafurwr tlawd.
Ed. Iames: Hom. ii. 209.

Dyrnfolawg, *a.* gauntleted, wearing gauntlets; wearing mittens.—*P.*

Dyrnhwrdd, hyrddod, *sm.* [dwrn (dyrnu) +hwrdd] a battering-ram.

Yr oedd y *dyrnhwrdd* yn ymddangos, megys pe buasai wedi cael ei lusgo at y mur ar orwaered. . . Nid oedd tyrau i rai o'r *dyrnhyrddod* i wŷr arfog.—*Brutus:* Ninefeh, 248.

Dyrniad, -au, *sm.* a thrashing; a sound beating or drubbing.

Dyrniedydd, -ion, *sm.* a thrasher.—*W.*

Dyrnod, } *pl.* dyrnodiau, dyrnodau, dyrnodion,
Dyrnawd, } *sm.* [dwrn] 1. a stroke, a blow; a box; a cuff.

Erbynyeit y *dyrnawt* a oruc ar y daryan. a chymeint uu y *dyrnawt* ac yny lynwys y cledyf yn y daryan.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 85.

Ar march a drewis yn deu hanner ar un *dyrnawt.*
Campau Charlymaen, ¶ 44.

Dyrnawt a gaffo dyn o anuod nyt sarhaet hwnnw.
C.C. i. 508 (cf. 516).

A *dyrnodeu* calet tost a rodei bawp o nadunt y gilyd yny golles y taryaneu eu holl liw. ac amprytuerth oed y Ereint ymwan ac ef rac y vychanet. ac anhawsset craffu arnaw. a chalettet y *dyrnodeu* a rodei yntau.—*Mab.* 282 (cf. 15, 19).

Ac eissoes mawr yawn oed y *dyrnawt.* . . Sef a wnaeth llawer o'r Ffreinc yna gwediaw a hoffi y *dyrnawt.* . . Mab Galien vrenhin a neidwys y vyny yn amysgawn y dial y *dyrnawt.* a phei na wyppei Rolond ymoglyt rac y *dyrnawt* hwnnw. ny trawhei *dyrnawt* vyth ar varchawc wedy hynny.
Campau Charlymaen, ¶ 67 (cf. 65, 66, 68).

A phan yttoedynt wy yn newidyaw kaledyon *dyrnodeu.* . . nachaf y Rufeinwyr ynn ympentyryaw yn eu kylch.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 227.

A Briadan ynteu yna o vynych *dyrnodeu* yn kuraw Bwrt.
St. Greal, ¶ 40.

A gotef paluawd *dyrnawd* trameint
Y gan vorwyn difwyn diwyl y deint.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 270.

Llwyraf *dyrnawd dyrnawd* Duw.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 67 (cf. 147, 164, 179).

Dyrnod ffrewyll a wna glais; a *dyrnod* tafod a dyr yr esgyrn.—*Eccl.* xxviii. 17 (cf. xxv. 13).

Yma y bydd rhaid i ni gael clywed *dyrnod* y morthwyl.
Dr. Davies: Llyfr y Res. II. ii. 25.

A'r cyffelyb naturiaeth ar y ddull hon, sydd yn debyg, mewn gogan, i fynych *ddyrnodau* mewn rhyfel.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xxxv.

Dyrnod gwas hir yw ei gas.
Diareb. (M.A. iii. 155; cf. 160).

Nid parawd *dyrnawd* heb fawd, heb fys.
L. G. Cothi, v. ix. 20.

Mi a'i ceryddaf â gwialen ddynol, ac â *dyrnodiau* meibion dynion.—2 *Sam.* vii. 14 (cf. Salm. xxxix. 10).

A dodaist arnaf y llaw dau,
A rhoist *ddyrnodiau* trymion.
Edm. Prys: Salm. xxxviii. 2.

Pan oedd ei ofid yn pwyso arno drymaf, a'i holl deimladau yn ddrylliau dan *ddyrnodion* adfyd ac anesmwythdra.
Cawrdaf: Meudwy Cymreig, 51.

Dyrnod angeuol, a deadly blow.

Yny vyd Hafgan hyt y vreich ae paladyr dros pedrein y varch yr llawr. ac *agheuawi dyrnawt* yndaw ynteu.—*Mab.* 5.

Ynteu hevyt yn rodi *dyrnodeu agheuawl* ae gledyf.
Yst. de Carolo Magno, col. 434.

Nys gohiryassant neb oe wyr namyn mynet y mywn ar tor y kysgaduryeit a rodi *dyrnodeu agheuawl* udunt.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 48.

Dyrnod marwol, a mortal blow, a death-blow.

Cythruddedig pob enaid Cymro a glywo grybwyll dy enw, yr hwn a roddaist y *dyrnod marwol* i ryddid Brytaniaid.
G. Mechain: Gwaith, ii. 163.

Dyrnod cleddyf, the stroke of a sword.

Yr Iuddewon a darawsant eu holl elynion â *dyrnod y cleddyf.*—*Esth.* ix. 5.

Taro dau aderyn â'r un dyrnod (=lladd dau aderyn â'r un garreg), to strike or hit two birds with one blow; to kill two birds with one stone.—*N. W.*

Dyrnod ym mon clust, a box on the ear.

2. a wound; the effect of a blow.

Ac uelly y bu ef yn hyt y dyd yn ymovidyaw. heb allel kychwyn or lle yd oed o achaws y *dyrnawt* a oed yn y vordwyt. ac ynteu yn kolli y waet.—*St. Greal,* ¶ 28.

Dyrnod marwol, a deadly or mortal wound.

Dyrnodfa, faoedd, fëydd, *sf.* [dyrnod] a boxing-match.

Dyrnodiol, *a.* beating, striking, dealing blows, thrashing.

Dacw y dymmestl yn cryfhau; y twrf yn cynnyddu; a swn y peiriannau *dyrnodiol* yn myned yn fwy dychrynllyd.
Brutus: Brustusiana, 138.

Dyrnogyn, *pl.* dyrnogiaid, *sm.* [corr. of *draenogyn?* cf. *draenog*=bass] the perch (*Perca*).

Dyrnogyn, Dyrnogiaid yn y rhif luosog, yw'r gair o gylch Llyn Tegid am *perch.*—*Cymru,* x. 244.

Dyrnu, *v.* [dwrn] to thrash; to beat, to drub, to cudgel.

Par *ddyrnu* gwellt ceirch yn dda, a hyny a fydd da i'r defaid.—*Cato Cymraeg* (Y Greal, 206).

Gedeon ei fab ef oedd yn *dyrnu* gwenith mewn gwinwryf.
Esgob Morgan: Barn. vi. 11.

Ar ol cael ei ryddyd ni wnaeth ef nemor iawn o beth ond rhodio'r wlad fal cardotyn, a *dyrnu* rhyw ychydig weithiau. . . Un pryd arall ydd oedd ef mewn ysgubor yn *dyrnu.*
Iolo Mss. 202.

Ornan oedd yn *dyrnu* gwenith.—1 *Cron.* xxi. 20.

Dyrnu yd, to thrash corn.

Ni fynai yn y byd o dda namyn a roddid o fodd iddo am waith a wnelai, a hyny *dyrnu yd* gan mwyaf.—*Iolo Mss.* 203.

A'r un ffust y curir y cyrs a'r tywys ag y *dyrnir* yr *yd.*
Huw Lewys: Perl, 55 (cf. 56, 124).

Y llwch du a welir yn y codau yw yr hadau, ac wrth *ddyrnu* yr *yd* mae y llwch yn glynu wrth y grawn.
Aneurin Owen: Amaethyddiaeth, 31.

Llawr dyrnu (*pl.* lloriau dyrnu), a thrashing-floor.

A hwy a ddaethant hyd *lawr dyrnu* Atad.
Esgob Morgan: Gen. l. 10 (cf. 11; 1 Cron. xxi. 21, 22).

Yna'r haiarn, y pridd, y pres, yr arian, a'r aur, a gyd-faluriasant, ac oeddynt fel manus yn dyfod o'r *lloriau dyrnu* haf.—*Esgob Parry:* Dan. ii. 35.

Ermig ddyrnu, }
Peiriant dyrnu, } a thrashing-machine.

Yr wyf yn credu nad oes un peiriant mor llesol yn yr holl swydd ag *ermig ddyrnu.*
W. O. Pughe: C.P. 53 (cf. 105).

Cei dy ddyrnu, thou shalt be thrashed.—*P.*

Heb ben nac iad gwastad gu,
Ond ei ddwrn yn dy *ddyrnu.*—*I. B. Hir:* Gwaith, 108.

¶ *Dyrnu* and *ffusto* seem to have interchanged meanings. *Dyrnu* (from *dwrn*) usually signifies to thrash (corn and the like); and *ffusto* (from *ffust*, a flail), to beat with the fist, a stick, a hammer, or some other implement, seldom with a flail; but it is sometimes used for *thrashing* in the sense of beating or drubbing. In 1 *Cor.* ix. 9, *dyrnu* is used for the treading out of corn by oxen.

Dyrnwr, wyr, *sm.* a thrasher.

Pan ddêl yr yd i'r ysgubor, cais wr ffyddlawn cywir i gyfrifo rhwng y *dyrnwr* a'r cernorwyr.
Cato Cymraeg (Y Greal, 200).

Digitized by Google

Yd bara a felir; ond gan ddyrnu ni ddyrn y *dyrnwr* ef yn wastadol.—*Esa.* xxviii. 28 (cf. 1 Cor. ix. 10).

Dyrnwr a'i try, dwrn hwyr trwm.—*Gronwy Owain*, 21.

Dyrnwyn, *m.* } *pl.* dyrnwynion, *a.* [dwrn **Dyrnwen**, *f.* } +gwyn] having a white hilt or handle; white-hilted. *Dyrnwyn* was the name of the sword of Rhydderch Hael, one of the 13 rarities of the Isle of Britain.

Dyrnwyn gleddyf Rhydderch Hael, os tynnai ddyn namyn ef i hyn, ef a ennynai yn fflam oi groes hyd i flaen.
Mabinogion, ii. 353.*

Dyrnydd, -ion, *sm.* a thrasher.—*W.*

Dyroad, } -au, *sm.* [dyroi, dyroddi] a giv- **Dyroddiad**, } ing, conceding, bestowing, or granting.

Dyroawl, } *a.* conceding, giving, bestowing, **Dyroddawl**, } yielding; granting.

Dyroddi, } *v.* [rhoddi, rhoi] to give; to bestow; **Dyroi**, } to grant.

Dyro im vy eneit.—*Mab.* 192 (cf. 61, 119, 128, 214).

Ac am teruyn Prydein kein y threfi
Keint rac teyrned uch med lestri
Yg keinyon deon im ae *dyrodi*.
Taliesin: A.B. ii. 155 (M.A. i. 67).

Oger heb ef *dyro* ymi dy gledyf.
Ystl. de Carolo Magno, col. 434.

Or *dyry* brawdwr cam vrawt yn erbyn dyn ny allo trwy gyureith ymwystlaw ac ef am y gam vrawt.
C.C. i. 474 (cf. 368).

Arglwyd heb y uorwyn *dyro* nawd yr mackwy.—*Mab.* 217.

Dyro ym y gaer honn yr enryded dy enw.
Ystoria de Carolo Magno, col. 382.

Kymry ae *dyry* roc dir.—*Prydydd Bychan:* M.A. i. 381.

A *dyro* udunt y gwladoed ysyd y rwg Deifyr ar Mur.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 136.

Durendard oed y enw. sef oed hynny *dyro* dyrnawt calet.
Ystoria de Carolo Magno, col. 486.

Tri lle y *dyry* dyn y arddelw yn y benn ehun.
C.C. ii. 650 (cf. 664).

Cyvraith a ddywed, iawn iddo ei dir, a'r ynad a *ddyrydd*, dros hyny, y gwrthbrid.—*C.C.* ii. 518.

Pan gymmerech dy fwyd, meddwl am a'i *dyrydd*, sef Duw.—*Barddas*, i. 358.

Pan *ddyroir* enwau beiau sarhadlon a gwydau anhyfad dros yr hanfod neu'r ansawd y bônt ynddynt.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb (1595), vi. 3 (2).

Na *ddyro* dy hun i fyny i neb.—*Eccl.* xxxiii. 20.

Ar ffyrdd y byd ni cheir ei draed,
Ei law mewn gwaed ni *ddyrydd*.
Iolo Morganwg: Saim. II. iv. 2.

Namyn Duw pwy a'm *dyry* pwyll.
Llywarch Hen: M.A. i. 108.

Dyro hedwch. ynn drwy elwch. o dro alaf . . .
Dyro wybot. y tat drwot. dro dwywolaf.
Cyssegrlan Fuchedd: Ll.A. 99.

Dyro hwn, y gwr dewr hir.
Gutyn Owain: G.B.C. 210 (cf. 211).

Ac yn ei lawnoed ef a *ddyrydd*
I bawb o'r holl fyd gred a bedydd.
Ionas Mynyw: Iolo Mss. 267.

Na *ddyro* dy roddion i hen gybydd anghor.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 8.

Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol.—*Y Pader.*

Dyro i'th was galon ddeallus.—1 *Bren.* iii. 9.

Dyroddaist i'r Derwyddon
Enw mawr, a chlod, ym Mon.—*Tegid:* Gwaith, 6 (cf. 7).

Y *dyroddi* yr addewid wreiddiawl,
Arbedu Noah o'r byd annuwiawl.
Caledfryn: Caniadau, 108.

Iddynt, yn arwydd o ddawn tynerwch,
Dyroai golofn fawr ei dirgelwch.
Robert Owen: Gweith. 127 (cf. 279).

Os gofyn efe bysgodyn, a *ddyry* efe sarff iddo?
Matt. vii. 10.

Dyro nef i dëyrn Ial.—*Tudur Aled:* G.B.C. 236.

Dafydd, megys dwy afon,
A'i *dyry* fyth hyd ar Fon.—*L. G. Cothi*, I. xxxvi. 2.

Dyrraith, *pl.* dyrreithiau, *sf.* [dyr *or* dir +rhaith?] 'law of impulse or necessity; fate; jeopardy;' destiny; death.

Ardyledawc canu claer orchyrdon [*al.* orchorddion]
A gwedy *dyrreith* dyleinw Aeron.—*Aneurin:* God. 632.

Adoerlleith *dyrreith* anaw barawt
O heyrn erchwyrn Edyrn dyrnawt.
Taliesin: A.B. ii. 150 (M.A. i. 64).

Ry gelwir gelyn agkyfyeith
Celeu rut geloreu *dyrreith*.—*Cynddelw:* M.A. i. 215.

Dyrraith, } *v.* to be destined or fated; to be **Dyrreithio**, } sent back; to return.

Namyn saith ni *ddyrraith* or cymmanfa.
Myrddin: M.A. i. 153.

Nam seith ny *dyrreith* o Gaer Sidi . . .
Namyn seith ny *dyrreith* o Gaer Vedwit.
Taliesin: A.B. ii. 181 (cf. 182 fq.).

Dyrras, *a.* [di- + gras] a common form of *diras* in writers of the 17th and 18th centuries.

Dyrru, *v.* [dy- + gyru] to drive on, to impel; to drive; to push.

Ac *dyrrassant* yr ysgraff yr mor.—*St. Greal*, ¶ 59.

Ac felly am na chafas y pagan y da bydol wrth ei ewyllys, *dyrru* ei felltigedig weison a orug ef, a gorchymmyn iddynt ddwyn Selvestr geir ei fron ef yn rhwym.—*Ystori Silfestr.*

Dyrru o'th flaen deirw aflonydd.—*Bedo Phylip Bach.*

Cariad a *ddyr* ymaith y pechodau.
Marchog Crwydrad, iii. 6.

A'i ddau fraich hyd ar Ddofr wen,
A'i ddyrnau a *ddyr* onen.—*L. G. Cothi*, III. x. 47.

Gwna eli drwy hufen tew da, a thafol y cwn, a dynaid, a phlastera i *ddyrru* hwnw i'r croen.
Meddygon Myddfai, ii. 242.

Dyrru ymaith, to drive away.

Yr goreu a vo yn y twrneimant hwnnw drwy gytsynnedigaeth y kyffredin y rodir idaw geitwadaeth y castell hwnn hyt ym penn un dyd a blwydyn. ac yth *dyrrir* ditheu *ymeith*.—*St. Greal*, ¶ 100.

A gwedy nath uynnwyf mi ath *dyrraf ymeith*.
Mabinogion, 278.

Yn fy enw i y bwriant allan gythrculiaid, ac a ymadroddant â thafodau newyddion, ac a *ddyrrant ymaith* seirff.
W. Salesbury: Marc xvi. 18.

Pwy pynnag a *ddyr ymaith* ei wraig, a phriodi un arall, ef a wna odineb yn ei herbyn hi. Ac os gwraig a *ddyr ymaith* hei gwr, a phriodi un arall, y mae hi [yn] gwneuthur godineb.—*W. Salesbury:* Marc x. 11, 12.

Y rhai a *ddyrrawdd* Duw *ymaith* rhag wyneb ein tadau.
W. Salesbury: Act. vii. 45.

Dyrru ffo ar, to put to flight.

Achelarwy a *dyrrawd ffo ar* y llu hwnw ac ae brathawd ynteu.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 16.

¶ By doubling the *r* in this word, its different modifications will be better distinguished from those of *Dyroi* (ȳ) =*Dyroddi*.

Dyrton, *sf.*=*Deirton*, *Deirthon*, *Teirthon*.

A'r ychydig sydd yn aros yn ol ydynt mewn perygl o gael y dwymyn a elwir Malaria, sef math o *ddyrton* ddyspeidiol.—*Cylchgrawn*, i. 153.

Dyrwellt, *sc.* [dwr+gwellt]=*Dyfrllys*.

Dyrwn, *sm.* [grŵn] a hollow noise, a murmuring sound.

Dyrwn, *a.* deep-sounding, clattering, deep-murmuring.

Ny hwyrgyrch cludlann clod adwn
Ny fy rac teruysc rac taryf yg gosgort
Tarw tewdor dor *dyrwn*.—*Cynddelw:* M.A. i. 223.

Bleit blaengar bar dyar *dyrwn*
Beirt ganllaw bart itaw oetwn.—*Cynddelw:* M.A. i. 233.

Dyrwyddiad, -au, *sm.* acceleration, facilitation.

Dyrwyddo, *v.* [rhwyddo] to accelerate, to facilitate; to make easy.

Dyrwyddol, *a.* accelerative, facilitative.

Digitized by Google

Dyrwyfo, *v.* [rhwyfo] to row; to impel.

A throai'n arw dwrw, a tharan ar daran,
Fel pe *dyrwyfid* holl fol Pedryfan!
Eben Fardd: Gweith. 87.

Dyrwygo, *v.* [rhwygo] to force asunder, to rend, to sever, to burst, to tear, to lacerate.

Er galwad Albion, mwth i adweddhau
Balch grib, *dyrwygwch* feinin hun y bedd!
W. O. Pughe: Palestina, 33.

Dyrwygent yn dwr rhygerth,
Mal aerawd mewn caethrawd certh.
Robert Owen: Gweith. 278.

Fe ranodd ddwfn fôr yn ddau,
A *dyrwygodd* y dreigiau.—*Pedr Fardd:* Mêl Awen, 168.

Wrth deimlo y wisg wenwynig, gan ei boen
Dyrwygai goed Thessalia yn llwyr o'r gwraidd.
I. D. Ffraid: Coll Gwynfa, ii. 669 (cf. xii. 207).

Bloeddiai dau canmil â chrechwen-lef lawen,
Nes crynu'r creigiau a *dyrwygo* 'r wybren.
Nicander: Brennus, ii.

Dyrwymo, *v.* [rhwymo] to bind fast; to tie, fasten, or bind.

Drwy ammod deg *dyrwymwyd* dau yng nghyd
Yng nghadwen serchiadau.—*Robert Owen:* Gweith. 81.

Dyrwyn, *v.* See *Dirwyn*, &c.

Dyrynu, *v.*=*Dirynu.*

Dyrys, *a.* [rhys] 1. intricate, entangled, twisted together; complicated, involved; puzzling, obscure, difficult, perplexing.

Amaeth a amaetho y tir hwnnw nac ae digonho mor *dyrys* yw nyt oes. namyn Amaethon uab Don.
Mabinogion, 120 (cf. 121).

Mynet a wnaethant ar hyt y glynneu ar fforestyd *dyrys* o vieri. a drein.—*St. Greal*, 137 (cf. 63).

Dywet wrthaw yn gall ry dwyn Antigonus o honat o garchar Brutus ae rydhau o honat ae adaw o honat y mywn glyn *dyrys* koedawc.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 47 (cf. 76, 91, 205).

Lle anhyspys *dyrys* dir.
D. ab Gwilym, xix. 37 (cf. xcv. 49; clviii. 51).

Y ffrydau 'n *ddyrys* dir a wnai;
Fe sychai ddwfr lle tarddo.—*Edm. Prys:* Salm. cvii. 33.

Afrwydd pob *dyrys.*—*Diareb.* (M.A. iii. 146.)

Mae'r manna gwedi ei gael
Mewn *dyrys* anial dir.—*W. Williams:* Hymnau, xcvi. 3.

Dyrys gudynau, tangled locks.

2. unmanageable; mischievous; unlucky, luckless.

Yn yr amser hwnnw yr oedd un mab i Wyddno a elwid Elphin yn un or rhai *dyrysaf* or ieuainge a mwyaf o eisiau arno.—*Hanes Taliesin:* M.A. i. 18.

Dyrys fu ei gâr ei daraw,
Dewr o lid, â dur i'w law!
D. ab Gwilym, ccxxxvi. 39 (cf. clxiii. 37).

Y *dyrys* bechaduriaid
Er hyn, yn gyndyn a gaid.—*Dafydd Ionawr*, 107.

Dyn dyrys, a mischievous person.

Bachgen dyrys, a naughty or mischievous boy.

Eidion dyrys, a vicious ox.

Dyrys, -ion, *sm.* an intricacy, a maze.

Ond cododd arnynt chwant a blys
Yn *nyrys* yr anialwch.—*Edm. Prys:* Salm. cvi. 14.

Ac efe, y cadawl wyddon, bryd ffraw hwn
Heb ludd a grwydrai drwy *ddyrysion* nawd.
W. O. Pughe: Palestina, 17.

Dyrysberth, -i, *sf.* a tangled bush, a brake, a thicket.

Mab dyrysberth, a son of the brake; a bastard. Cf. '*mab llwyn a pherth*' (*C.C.* fq.).

Fab diras-barch, *fab dyrysberth*,
Fab rhy daer, fab rhad o werth.—*Huw Arwystli.*

Dyrysbleth, -au, *sf.* a tangle; a knot of things interwoven or made intricate.

Ond i adael y philosophyddion hyn yng nghrwydriadau *dyrysbleth* eu mympwyon eu hunain . . . y mae ein ffydd Gristionogol ni (diolch i Dduw) yn ein dysgu i esgyn yn uwch.—*Nicander:* Dysga Fyw, 49.

Dyrysblyg, -ion, *sm.* an intricate doubling; the doublings of a hare.

Rhediad *dyrysblyg* (*dyrysbleth*) ysgyfarnog yn cilio rhag y cwn.—*Walters*, s.v. 'Doubling.'

Dyrysedig, *pt.a.* tangled, entangled, perplexed, made intricate.

Dyrysedd, *sm.*=*Dyryswch*, *Dyrysrwydd.*

Dyrysfa, fëydd, faoedd, *sf.* an intricate place; a maze, a labyrinth.

Ond o'r cwbl, y *Ddyrysfa* ar lan yr afon Nilus oedd yr hynotaf.—*Gwyliedydd*, viii. 278.

Yr ydym yng nghanol nythaid o ystafelloedd; ac heb fod yn gydnabyddus â drysau y lle, collwn ein ffordd yn y *ddyrysfa.*—*Brutus:* Ninefeh, 300 (cf. 297).

Dyrysgar, *a.* apt to entangle; tangling, entangling, intricate.

Dyrysglwm, glymau, *sm.* a tangled knot; a tangle.

Dyrysglwm, dyrysbleth.—*Walters*, s.v. 'Tangle.'

Myned neu redeg yn ddyrysglwm, to become entangled, to tangle.

Dyrysgoed, -ydd, *s.cl.* thick or entangled trees; a thicket of trees.

Hynod oedd gwr, fel y codasai fwyill mewn *dyrysgoed.*
Salm. lxxiv. 5.

Dyrysi, *sm.*=*Dyrysni*, *Dyryswch.*

Dyrysiad, -au, *sm.* an entangling, entanglement.

Dyrysi, } *s.pl.* [dyrys: C. *dreis* (C.V.); Br.
Drysi, } *drez*, *dreiz;* Ir. *dris;* Ga. *dreas*, *dris*] brambles, briers, briars; prickly and entangling shrubs.

Ar draws aerwyau *drysi*,
Loew ddyn, mal ydd awn i!—*D. ab Gwilym*, lx. 31.

Cymmer ddail ysgaw, a dail gwinwydd, a'r geidwad, a rhosmari, a dail *drysi*, a berw yn dda mewn dwr a'u cudd.
Meddygon Myddfai, ii. 101.

Can nad o ysgall y casglant ffigys, nac o *ddyrysi* [*fleri*] y claegant rawnwin.—*W. Salesbury:* Luc vi. 44.

Llwyn dyrysi, a bramble-bush, a brier-bush.

Drain a dyrysi, thorns and briers.

Dyrysiad, -au, *sm.* an entangling, entanglement; derangement.

Yn ffwl y ffair i hogiau;
O *ddyrysiad* dy synwyrau,
Mae'n syn arwydd!—*G. Mechain:* Gwaith, i. 366.

Dyrysien, *pl.* dyrysi, } *sf.* [dyrysi] a brier, briar,
Drysien, *pl.* drysi, } or bramble (*Rubus*).

Sef y harchaf itt na mynnych wreic. hyt pan welych *drysiern* deu peinawc ar vym bed i. . . . A gwelet y *dryssien* a oruc.—*Mabinogion*, 100, 101.

Dyrysïen ber (*pl.* dyrysi per), sweet briar, eglantine (*Rosa rubiginosa*).

Dyrysle, -oedd, *sm.* 1. an intricate place; a maze, a labyrinth. 2. a place full of brambles.

Dyryslwyn, -i, *sm.* a bramble-brake; a thicket; an intricate or tangled bush; a maze.—*W.*

Dyryslyd, *a.* of an intricate, entangling, or perplexing kind; puzzling, embarrassing.

Godidogrwydd yr iaith, felly, ydyw gallu adrodd y meddyliddrychau yn y dreſn yr ymgodant yn y bryd, yn eglur a rheolaidd, fel na byddo yr ymadrodd yn fwyseiddra *dyryslyd.*—*Blackwell:* Ceinion Alun, 223.

Digitized by Google

Hyfryd yw meddwl fod y rhai oeddynt fwyaf anwyl genym, fe allai, yn edrych i lawr o'u heisteddfaau gwynfydedig ar bererinion sy'n teithio yn gyflym trwy anialwch *dyrysllyd*.—*Gwyliedydd*, vii. 370.

Dyrysllydrwydd, *sm.* perplexedness, embarrassment, confusedness.

Dyrysni, *sm.* 1. intricacy, perplexity, maziness; abstruseness; confusion; difficulty; embarrassment; derangement.

Onid yw wedi dygwydd i chwi oddi wrth boen llafurus y gwŷr dysgedig a gymmeraasant arnynt, ac a orphenasant, amryw gyfleithadau, trwy wir orchest a dirfawr *ddyrysni*?
Ieremi Owen, 95.

Mewn cyfyngder blin a *dyrysni* meddwl.
Allwydd Paradwys, 154.

I Ganaan ymdeithiwch, trwy *ddyrysni*'r anialwch,
Eich einioes na chollwch, ewch allan!
Huw Morus: E.C. ii. 307.

Rhedeg a wnei yn y modd yma yn wysg dy ben i *ddyrysni* pechod.—*Elis Lewis*: Drexellus, 193.

2. a place full of brambles; a brake, a thicket; a desert.

Wele o'i ol ef hwrdd, wedi ei ddal erbyn ei gyrn mewn *dyrysni*.—*Gen.* xxii. 13.

Dygwyddodd i mi, mewn syn fyfyrdod, grwydro i goedwig faith anhygyrch, llawn o *ddyrysni* a chorsydd.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 288.

Hwy a ânt i'r *dyrysni*, ac a ddringant ar y creigiau.
Ier. iv. 29 (cf. Eea. ix. 18).

Pe dewisai yr olaf, oefai ei lawn ddigonedd o ddrain a *dyrysni* ar ei hynt.—*Gwyliedydd*, iv. 13.

Dyrysol, *a.* entangling, perplexing, embarrassing; distracting; intricate.

Iddo draw y serawl rod
O fflau blanedau ac o wadal ser
Yn eu holwynion oll tebycaf dull,
Dyrysawl wibion, echdreigliadawl a
Chyfymdro, eto yn drefnusaf.—*W. O. Pughe*: C.G. v. 673.

Dyrysrwydd, *sm.* intricacy, perplexity; entanglement; abstruseness; difficulty; embarrassment; confusion.

Dyrysu, *v.* to entangle, to make intricate; to perplex; to embarrass; to confound; to derange, to distract; to be entangled, perplexed, deranged, confused, or confounded; to be foul (as a rope).

Dyrysuys y garthen.—*Diareb.* (M.A. iii. 155.)

'O, Syr,' ebr un diawl, 'cymmerwch yn araf, rhag *dyrysu* eich cudyn crych.'—*Elis Wynn*: Bardd Cwsg, 73.

Mae balchder gwresog natur,
Am *ddyrysu*'r byd yn brysur.
G. Mechain: Gwaith, i. 289 (cf. 108, 290, 513).

Hawdd oedd deall, nad oedd y cwbl ond effeithiau gwallgofrwydd ar feddyliau gwedi eu *dyrysu* gan glefyd a gofid.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 392.

Dyrysid eu hamgyffredion gan yr amrywiaeth a'r manylder, a nifer annifeiriol y cyssylltiadau.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 6.

Y mae ei synwyrau wedi dyrysu, he is mentally deranged.

Y mae ef ym mron dyrysu, he is almost distracted.

Y mae y rhaff wedi dyrysu am yr angor, the rope is foul of the anchor.

Dyryswch, *sm.* intricacy, perplexity, entanglement, embarrassment; confusion; derangement; difficulty.

Ar dayar a oed emelldigedic gynt yn dwyn yspadat a *dryswch*.—*Ll. Ancr*, 65 (cf. 57).

A dywedut vot yn ei lusgaw nos a dydh ar draws lheoedh anyfrwys a *dryswch*.—*Lucidar*, ‖108 (cf. 123).

Dyuot uelly a oruc Rolant. drwy *dryswch* a llwyneu. hyt y penn issaf y byrth Cysar.
Yst. de Carolo Magno, col. 485.

O blegid mai trwy ei ‖gynghor annoeth ef y dygasid hwynt i'r *dryswch* hwn.—*Tuith y Pererin* (1771), 145.

Yr oedd dau beth yn peri *dryswch* anniesgyuiadwy.
Gwyliedydd, ii. 34.

Nid oedd y perygl lleiaf o un *dryswch* ar yr achos.
G. Mechain: Gwaith, ii. 241 (cf. 238, 278).

Dyryswr, wyr, *sm.* one who causes perplexity, embarrassment, or derangement; an entangler.

Dyrysydd, -ion, *sm.* he who or that which entangles, perplexes, or confuses.

Dyrywiad, *sm.* a making or becoming congenial; a harmonizing.—*P.*

Dyrywio, *v.* [dy- + rhyw] to become or make congenial; to assimilate, to harmonize.—*P.*

Dyrywiol, *a.* tending to assimilate or harmonize; harmonizing.—*P.*

Dys-, *px.* a prefix of intensity, enhancement, augmentation, or iteration. It bears the same relation to *dis-* as *dy-* does to *di-*; and as in the case of those prefixes, the negative (*dis-*) has, in some instances, displaced the affirmative (*dys-*). See *Di-*, *Dis-*, *Dy-*.

Dysaethiad, -au, *sm.* jaculation, ejaculation.—*P.*

Dysaethol, *a.* jaculatory, darting out suddenly; shooting.—*P.*

Dysaethu, *v.* [saethu] to ejaculate; to throw or dart out suddenly; to shoot.—*P.*

Dysail, *pl.* dyseiliau, *sf.* [sail] a foundation; a base.

Ac yn ddisyfyd y bu daiargryn mawr, hyd yny ysgytwyd *dyseiliau*'r carchar.—*W. Salesbury*: Act. xvi. 26.

Dewiswyd eithaf *dysail*
Tan y bont, do, un heb ail.—*R. Owen*: Gweith. 115.

Dysathriad, *sm.* [sathr] a trampling.—*P.*

Dysathrol, *a.* apt to trample; trampling.—*P.*

Dysathru, *v.* to trample; to be trampling.—*P.*

Dysbrychu, *v.* [brychu] to become rusty or spotted.

Cyllell wedi dysbrychu, a knife become rusty.

Dysb-: see *Dysp-*.

Dyseiliad, -au, *sm.* [dysail] a founding, foundation.—*P.*

Dyseilio, *v.* to lay a foundation; to found.—*P.*

Dysel, *sm.* [sel] a kenning or beholding.—*P.*

Dyseniad, -au, *sm.* vituperation.—*P.*

Dysenol, *a.* [sen] apt to be chiding; vituperative.—*P.*

Dysenu, *v.* [sen, senu] to vituperate; to chide, reprove, or scold.—*P.*

Dyssereniad, -au, *sm.* a bespangling, a glittering.

Dyserenol, *a.* glittering, glistening; spangled.

Dyserenu, *v.* [serenu] to glitter, glisten, or sparkle; to bespangle.

A Pharedur a doeth attaw ae gledyf noeth yn y law. ae daryan am y vynwgyl. ac a ossodes arnaw. ar wastat y benn. ac ae trewis yny oed y lygeit yn *disserennu* gan angerd y dyrnawt.—*St. Greal*, ‖149 (cf. 80, 100, 140, 144).

Dyserth, } -au, *sm-f.* [à *dy* & *serth* (D.): L. *de-*
Diserth, } *sertum*, *deserta*] a desert, a wilderness.

Drylliaist di ben (nid gorchwyl gwan)
Y Lefiathan anferth:
I'th bobl yn fwyd dodaist efo,
Wrth dreiglo yn y *ddyserth*.—*Edm. Prys*: Salm. lxxiv. 14.

Digitized by Google

Dyserthiad, -au, *sm.* abruption; a becoming abrupt or declivous.—*P.*

Dyserthol, *a.* tending to be abrupt.—*P.*

Dysg, *sm-f.* 1. learning, erudition, scholarship; literature.

A Dunawt yn abat arnadunt gwr enryfed y *dysc* oed hwnnw yn y keluydodeu.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 237.

Pedeir allwed egnedaeth yssyd vn yw mynnych ofyn dy *dysk;* eil yw kadw genyd y *dysk* a geffych. . . Ac wrth hynny deu beth yssyd deuthineb o gyfreith yghyd nid amgen *dysk* a deuthineb natyryol ac wrth hynny y dwedir ny byd ynad neb er *dysk,* ac ni byd ynad neb heb *dysk.*
C.C. ii. 418.

Ac val hynn y rannei ef y amser. wyth awr a rodei ef yng ngwedieu a *dysc* ac ygruthyr. wyth ereill y lywodraeth y kor ac dadleuoed. ac wyth ereill yn y negesseu ehun a rei y deyrnas.—*Brut y Saeson:* Ll.C.H. ii. 386.

Ac or un ryw *dysc* hunnu e mynnws Coryneus galw y rann enteu or enys Kernyw.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 112.

Nyt kudyaw *dysc* a dylyir. namyn y dangos yn amlwc.
Buchedd Mair, ‖ 1.

Nid *dysg dysg* heb ei ddilyn.—*M.A.* iii. 98.

A *dysg* yr hen Gymry da.—*Dafydd ab Gwilym,* cxxxix. 6.

Tegid ab Baran a fu frenin call a bardd da; efe a wnaeth drefn dda ar *ddysg* a gwybodaeth, ac a barodd adferiant o'r hen *ddysg* a gwybodaeth oedd wedi myned ar ledgoll.
Iolo Mss. 7 (cf. 9, 10, 170).

Tair colofn *dysg:* gweled llawer; dioddef llawer; ac ystyried llawer.—*Cyfrinach y Beirdd,* 46 (cf. 47).

Trech natur na *dysg.*—*Diareb.*

Llawer o *ddysg* [γράμματα] sydd yn dy yru di yn ynfyd.—*Act.* xxvi. 24.

Gwelwch, yn ol eich galwad,
Les *dysg* gan ofalus dad.—*Gronwy Owain,* 84.

Gwr o ddysg, a man of learning, a learned man.

Gwr wrth ddysg, a man of letters, a literary man.

Cyn nog amser Prydain ab Aedd Mawr nid oedd namyn Gwyddoniaid yn *wyr wrth ddysg,* ac athrawiaeth gwlad a chenedl.—*Iolo Mss.* 49.

2. that which is taught; a teaching, instruction; doctrine; discipline; education.

Pei kaffwn *dysc* tebic oed gennyf y gwydwn heb y Peredur.—*Mabinogion,* 202 (cf. 201).

Ac ufudhau a wnaethant oc *dysc* ef.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 175 (cf. 101, 225).

Bu farw Sulyen . . . wedy clotuorussaf dysgedigaeth y disgyblon a chraffaf *dysc* y plwyfeu.
Brut y Tywysogion, 54.

Ac vfudhau a oruc y brenhin y *dysc* yr ysgymyn vradwr hwnnw.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 172 (cf. 100, 227).

A allwn ni gael gwybod beth yw y *ddysg* [διδαχή] newydd hon a draethir genyt?—*Act.* xvii. 19.

Ni wyddom o iawn addysg,
Nes ei ddwyn, eisieu ei *ddysg.*—*Gr. ab I. ab Ll. Fychan.*

Bod yn ddysg i un, to be an instruction to a person.—*Esec.* v. 15.

Cymmeryd dysg, to be instructed or taught; to take advice.—*Salm.* ii. 10.

Dwyn ar ddysg, to instruct, to teach.

Dysgad, -au, *sm.* [C. *descus*] a teaching; doctrine; instruction. See *Dysgiad.*

A bu pan orphenodd yr Iesu y geiriau hyn, bu aruthr gan y torfeydd o herwydd ei *ddysgad.*
Dr. Th. Briscoe: T.N. (Matt. vii. 28; cf. Ioan vii. 16, 17).

Aruthr fu ganddynt o herwydd ei *ddysgad.*
Dr. Th. Briscoe: T.N. (Luc iv. 32; cf. Heb. vi. 2).

Dysgadur, -iaid, *sm.* a learner; a pupil; an apprentice.

Dysgadwy, *a.* that may be learned or acquired; capable of being taught; teachable; docile; disciplinable.

Dysgaeth, *sf.* [dysg] 'endowment; tuition;' a teaching; instruction.

Dysgaid, eidion, *a.* learned; instructed; literate.

Tariannogion torv tervysc *dysgeid*
Trinheion vaon traws ardwyeid.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 266.

Yr hwn os gwelir ef yn ymresymu yn *ddysgeidiach* nag oedd ef arfer yn ei lyfrau, diolcher hyn i'r tafod Groeg.
Dr. Gr. Roberts: Gramadeg, 389.

Gwŷr dysgaid, learned men, literati.

Dysgamar, *a.*=*Disgamar.*

Dysganiad, -au, *sm.* [canu] recitation; recital, rehearsal.

Dysganol, *a.* recitative; reciting.

Dysganu, *v.* to recite; to relate.

Dysgarthiad, -au, *sm.* [carthu] purgation; a cleansing or clearing.

Dysgarthol, *a.* cathartic, purgative.

Dysgarthu, *v.* to purge; to cleanse.

Dysgawd, *sm.* [dysg] the action of learning; a teaching.—*P.*

Dysgawdr, *pl.* dysgodron, } *sm.* a teacher,
Dysgiawdr, *pl.* dysgiodron, } an instructor; a learned man; a doctor.

Kanys y korr yssyd wassanaethwr arnam ni. ac yn *dysgyawdyr.*—*St. Greal,* ‖ 121.

Ufudhau a oruc y Pab hwnnw. ac anvon a oruc deu *dyskyawdwyr* credyvus.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 196.

Yn nawdd hon y mae pob arglwyddi gwlad a chyfoeth, a phob gwr wrth raith gwlad, a phob ynad, a phob *dysgawdr,* a phob golychwydwr.—*Iolo Mss.* 56.

Sef y danuones attaw deu wr grefydus fydlawn *dysgodron* a seiledic yn y lan gatholic fyd y bregethu idaw ac y bobyl dyuodedigaeth yr Arglwyd Iessu Grist yg cnawt dyn.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 100.

Tri chynteligion beirdd gorseddawg Ynys Prydain: Plennydd; Alawn; a Gwron; ac nid oedd beirdd cyn wynt, ond y gwyddoniaid yn brydyddion ac yn *ddysgodron* gwlad a chenedl.—*Barddas,* ii. 40.

Enw *dysgawdr,* llywiawdr pob llên,
Un mesur ag enw Moesen.—*Guto'r Glyn:* Iolo Mss. 325.

Dysgawdr mawl rhwng gwawl a gwyll,
Disgyn; nawdd Duw ar d'esgyll!—*D. ab Gwilym,* xcv. 25.

Un *dysgyawdr* y sydd i chwi, sef yw Christ. . . Ac na'ch galwer yn *ddysgodron* [*doctoriaid]: can ys un yw eich *dysgyawdr* [*doctor] chwi.—*W. Salesbury:* Matt. xxiii. 7.

Ac fe wasgarwyd y camsynaeth hyny cyfled, fel y llygrwyd nid yn unig y cyffredin annysgedig bobl, ond yr offeiriaid a'r *dysgawdwyr* hefyd. . . Yn gymmaint a phan nad oedd gan frenin Ahab ond un Elïas yn wir *ddysgawdr* a gweinidawg Duw, yr oedd wythcant a deg a deugain o brophwydi yn ei annog ef i addoli Baal.
Edward James: Hom. i. 66.

Pa ham y bwyty eich *dysgyawdr* [*athro] gyd â'r publicanod a phechaduriaid?—*W. Salesbury:* Matt. ix. 11.

E ddaeth y *Dysgiawdur,* ac y mae yn galw am danat ti.
W. Salesbury: Ioan xi. 28.

Dysgybl wyf, ef a'm dysgawdd,
Dysgawdr cywydd heawdr hawdd.
Gr. Gryg (D. ab Gwilym, Rhag. 35).

Wyt yn coelio dy fod . . . yn *ddysgiawdr* i'r rhai annysgedig.—*W. Salesbury:* Rhuf. ii. 19, 20 (cf. Ioan iii. 10).

A darfu . . . bod o'r Pharisaieid a *dysgiawdron* [*doctoriaid] y ddeddf yn eistedd yno.—*W. Salesbury:* Luc v. 17.

Beirdd Gwlad Forgan a gynneiliant fyth yr hen ddoeparth, fal y mae yn llyfrau yr hen *ddysgodron* godidawg.
Meurig Dafydd (Y Greal, 209).

Wela y *dysgodrion* a enwyd, yma yn wyddfodol yn y cyntedd.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 176.

Dysgawdres, -au, *sf.*=*Dysgodres.*

Er mai hunan *ddysgawdres* ydoedd yn benaf.
J. Mills: Iuddewon Prydain, 137.

Digitized by Google

Dysgawdwr, wyr, } *sm.* a teacher, an instructor;
Dysgawdur, -iaid, } a learned man; a doctor.

A wyt ti yn *ddysgawdwr* yn Israel, ac ni wyddost y pethau hyn?—*Ioan* iii. 10 (cf. 2).

Nyni a wyddom mai *dysgawdur* ydwyt ti wedi dyfod oddi wrth Dduw.
Esgob Morgan: Ioan iii. 2 (cf. 10; 2 Cron. xv. 3).

Dall yw'r *dysgawdwr* sydd yn dywedyd fod Duw yn casàu eneidiau rhai, fel eneidiau.
Morgan Llwyd: Gair o'r Gair, xii. 12.

Y rhai a addysger, ydynt mewn mesur mawr yn gorphwys ar farn ac awdurdod eu *dysgawdwyr:* ac am hyny rhaid iddynt gael sicrwydd rhesymol fod eu *dysgawdwyr* yn credu eu hunain.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 206.

Dysgawdwr Duwinyddiaeth (*D.D.*), Doctor of Divinity (D.D.).

Cafodd William Morgan ei wreiddio mewn dysgeidiaeth yn ei febyd; a graddiwyd ef yn D.D. (*Dysgawdwr Duwinyddiaeth*) yng Ngholeg St. Ioan yng Nghaer Grawnt.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 218.

Pan ddychwelodd adref, gwnaethpwyd ef yn Athraw neu *Ddysgawdwr Duwinyddiaeth* yn y Brifysgol.
Gwyliedydd, i. 195.

Dysgedig, *a.* learned, erudite, scholarly; instructed, taught.

Mi a ymwnaf yn vynach crefydus reolawdyr ac yn *dyskedic* o bop dysc.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 171.

Tri thlws gwladoldeb: ysgolaig *dysgedig;* feryllt celvydd; ac ynad cyvlawn.—*C.C.* ii. 484 (cf. 486; i. 374).

Yr rei hynn oed gyfrwys a *dysgedic* ym pob kyfryw arueu. ac yn bennaf vwaeu a saetheu.
Yst. de Carolo Magno, col. 391.

Haws yw gwneuthur hebawc or barcut no gwneuthur bilaen yn *diagedic* ar vrwydyr.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 122.

Ateb araf gan *ddysgedig.*—*Diareb.* (M.A. iii. 148.)

Moses oedd *ddysgedig* yn holl ddoethineb yr Aiphtiaid.
Act. vii. 22.

Tri pheth a wnânt wr yn *ddysgedig:* addysg ar lyfr; pwyll yn ystyriaw; a deall craff.
Doeth. y Cymry: M.A. iii. 120 (cf. 116).

Wrth hyn y gellir gweled rheswm am lawer o bethau . . . y mae athrawon *dysgedig* yn eu dysgu.
Dr. Davies: Llyfr y Res. i. vi. 6.

Ac ef a'i ceir y Ddosparth yma yn gyflawn-ryw, herwydd yr hen Feirdd a'r *Dysgedigion* Awduron gynt, a herwydd hanfod, a natur, a phwyll.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 580.

Y dysgedig, the learned, the erudite; learned men or persons.

Ac anwired hyn o ystori, herwydd ei hawdurdod . . . barned *y dysgedig.*—*Iolo Mss.* 4.

Llwyni Academus, cynorsaf dy lwyddiant,
Lle gwridaist wrth glod *y dysgedig* a'r gwâr.
Blackwell: Ceinion Alun, 188.

Yr ieithoedd dysgedig, the learned languages.

Rhaid i'r neb a gychwyno hyn o orchwyl cyssegr, ddeall amryw *ieithoedd dysgedig.*—*M. Cyffin:* Diffyniad, Rhag. 12.

Dyn dysgedig, } a learned man, a learned
Gwr dysgedig, } person.

Beth a ddywedaf am *ddyn dysgedig* yn myfyrio'r Bibl gyd â'r fath yspryd!—*Nicander:* Dwyfol Oraclau, 259.

Dysgedigaeth, -au, *sf.* instruction; a teaching; doctrine; learning.

Ar chwedyl hwnnw a aeth yn gyn bellet ac yny wybu Moradrins brenhin Sarras hynny. yr hwnn a dathoed y gret drwy *dysgedigaeth* Ioseph.—*St. Greal*, ¶ 22 (cf. 11).

Yna y bu uarw Susyen escob Mynyw . . . wedy clotuorussaf *dysgedigaeth* y disgyblon a chraffaf dysc y plwyfeu.
Brut y Tywysogion: Ll.C.H. ii. 270.

Ac heb gredu idaw wynt a varnassant arnaw ac ae crogassant drwy *dysgedigaeth* y gwas drwc.—*St. Greal*, ¶ 11.

Ac yn ol y parabyl hwnw y rodes y Rueinyeit gadarnyon *dysgedigaetheu* ar ymladeu yr ergrynedic bobyl honno.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 122.

Myui Turpin archesgob Remys a ellygwn y bobyl o deilwg *dysgedigaetheu* oc eu pechodeu.
Yst. de Carolo Magno, col. 390.

Gwedy kymryt dysc ohonei y gan werydon oed hyn a mwy no hi. yn diruawr garyat daeoni y llauuryawd yny vei gyntaf hi yn y gwyluaeu. a *dyscedigaeth* yn doethineb kyureith.—*Buchedd Mair*, ¶ 6.

Na bot dim or euengyl nac oe oleuni. na *dysgedigaethyr* Iessu Grist ynoch.—*St. Greal*, ¶ 38.

Erbyn hyny yr oedd anwybodaeth, tarddedig o ddigalondeb, wedi magu a dwfn-wreiddio y fath ddifräweb yn serchiadau y cyffredin bobl, fal ag yr esgeulusasant bob achlysur o addurno eu tafodiaith, nac i fywhau *dysgedigaeth* a myfyrdod.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 2.

Dysgedigion, *s.pl.* the learned, learned ones, learned men; literati.

O varn a dangaws cyvreithawl *dysgedigion* a doethion o athrawon gwarantedig yn ngorsedd gyvallwy beirdd ynys Prydain yn ngwlad a chywlad.—*C.C.* ii. 500.

Y chwilgar a gaiff ei hun ym mhlith *dysgedigion.*
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 10.

Ym marn y dosparthau a wnaed gan y Morgan hwnw wrth bwyll a chynghor Ceraint ei frawd, a barn a bodd a gorchymmyn dygynnull gwlad ac arlwydd, gan farn doethion a *dysgedigion.*—*Iolo Mss.* 214.

Y mae holl *ddysgedigion* Cred (gan mwyaf yn awr) megys o un geneu yn maentumio hyny.—*Theo. Evans:* D.P.O. 7.

Y mae yn hawdd casglu oddi yma na fedrai na phendefigion na *dysgedigion* Cymru ddim Saesoneg yn yr oes honno.—*Theo. Evans:* D.P.O. 164.

Dysgediglawn, *a.* full of learning or erudition; erudite.

Nachaf yn dyuot attaw kennadeu doethprud. *dyscedic-lawn* ymadrawdlym ac yn kyuarch gwell y Arthur.
Mabinogion, 263.

Dysgedigol, *a.* instructive; teaching; eruditional.

Dysgedydd, -ion, *sm.* 1. an instructor or teacher.

Dysgedydd crefyddol, a religious teacher or instructor.

2. a learner, a tyro, a pupil.

Gorwyn blaen corsyd. gnawt meryd
Yn drwm. a ieuanc *dysgedyd*
Ny thyrr namyn ffol y ffyd.
Llywarch Hen: A.B. ii. 253 (M.A. i. 123).

Dysgedyddiaeth, -au, *sf.* instruction; information; tuition; tutorage, tutorship.

Yn nawdd *dysgedyddiaeth* pencerdd o athraw cadeiriog gwaranredig o gadair a swydd.—*Iolo Mss.* 214.

Dysgedyddol, *a.* pupilary; docile; instructive.

Dysgegu, *v.* [ceg] to choke, to throttle; to muffle.—*Ms.*

Dysgeidiaeth, -au, *sf.* 1. learning, erudition, scholarship; literature.

Enwocaf a'r goreu o'r byd ydoedd [Bangor Illtyd] am ddwyfoldeb a phob *dysgeidiaeth*, a dwyfil o saint yno.
Iolo Mss. 149.

Hardd ar athraw *dysgeidiaeth.*
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 93 (cf. 35).

Plennydd a Gwron planant
I'w plith *ddysgeidiaeth* i'w plant.—*Syr W. Glynn.*

Pa fodd y medr hwn *ddysgeidiaeth*, ac yntau heb ddysgu?
Ioan vii. 15.

Os deuwn ni yn nes eto tu ag at barthau'r Gorllewin i Europa, eisteddfod *dysgeidiaeth.*—*Ieremi Owen*, 23.

O'i helaeth *ddysgeidiaeth* gynt,
Gwyddai mor nerthog oeddynt.—*Gronwy Owain*, 106.

Er helaethu ei wybodaeth, efe a ymwelodd â phob Prifysgol oedd yn rhagori o ran *dysgeidiaeth* ei hysgolheigion.
Gwyliedydd, i. 133 (cf. 129, 130).

Dwys godod mewn *dysgeidiaeth*, do, lawer,
Da lywydd gwybodaeth.—*Daniel Ddu*, 204.

2. a teaching; instruction, doctrine; information conveyed by teaching.

Tair ffynnon gwybodaeth: crebwyll; ystyriaeth; a *dysgeidiaeth.*—*Cyfrinach y Beirdd*, 47.

Digitized by Google

Fy *nysgeidiaeth*, nid eiddof fi yw, ond eiddo yr hwn a'm hanfonodd i. Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef, efe a gaiff wybod am y *ddysgeidiaeth*.
Ioan vii. 16, 17 (cf. Matt. vii. 28).

Caniatâ i ni fod felly wedi ein cyssylltu yng nghyd yn undeb yspryd gan eu *dysgeidiaeth* hwy.—*Ll. G. Gyffredin.*

Nid oedd pechodau hyny yr Iuddewon ond cynlluniau . . . o bechodau y cyfryw Gristianogion . . . sy'n credu ac yn proffesu *dysgeidiaethau* ffeilsion.—*Allwydd Paradwys*, 135 (cf. 136, 137, 141, 148, 211, 212, 354, 360).

Mae *dysgeidiaeth* Crist yn rhagori ar holl *ddysgeidiaethau* y sainct.—*Huw Owen:* Dilyniad, I. i. 2.

O'i ddwys gadarn *ddysgeidiaeth*
Wir gall, i'm deall y daeth,
Na chaf is law ffurfafen
Ddedwyddyd ym myd, em wen!—*Gronwy Owain*, 33.

Ti a lwyr adwaenost fy *nysgeidiaeth*.—2 *Tim.* iii. 10.

Dysgeidiaeth Crist, the doctrine or teaching of Christ.—2 *Ioan* 9 (cf. 10; Act. xiii. 12).

Awel dysgeidiaeth, the wind of doctrine.—*Eph.* iv. 14.

Dysgeidiaethol, *a.* relating to learning; instructive; educational; teaching.

Trwy wrandaw darlleadau y cadair-athrawon *dysgeidiaethol* goreu, gwnaeth y fath gynnydd mewn dysgeidiaeth, mal, ar ei thiriad yn Rhufain, nid oedd iddi ond ychydig o gydraddolion . . . mewn pob math o wybodaeth duwiniaethol.—*Gwyliedydd*, iv. 88.

Dysgeidion, *s.pl.* [dysgaid] the learned, learned men.

I'r adwedd daeth pendefigion, a goreuon boneddigion, a *dysgeidion*, a doethion Morganwg a Gwent, a Dyfed a Cheredigion.—*Iolo Mss.* 63.

Y mae'n troi o ddeutu yn wastad, yn ol tyb y *dysgeidion* yn awr, er mwyn gwneuthur dydd a nos, haf a gauaf.
Dafydd Lewys: Golwg, xvii. 11.

Dysgeidion Caldea, y doethaf o wŷr!
Yr ysgrif pa ham na ddarllenwch?
D. Silvan Evans: Telyn Dyfi, 17.

Dysgeidion Cymru, the learned ones of Wales. —*P.*

Dysgeidrwydd, *sm.* [dysgaid] learning, scholarship, erudition.

Mi . . . a glywaf ddwyn o honot o ddinas Athen adref, nid yn unig dy gyfhenw, eithr hefyd *ddysgeidrwydd*, a phruddeiddrwydd wiw.—*Dr. Gr. Roberts:* Gramadeg, 387.

Dysgethrain, *v.* [cethrain] to importune.—*P.*

Dysgethrin, *v.* [cethrin] =*Disgethrin.*

Dysgeulo, *v.* [ceulo] =*Disgeulo.*

Dysgiad, -au, *sm.* a learning; a teaching, instruction; tuition. See *Dysgad.*

Mesur cawdd anawdd i ynad eglur
Adrodd fy nolur ddwysgur *ddysgiad.*
Hywel ab Einion Lygliw: M.A. i. 513.

Dysgais ryw baradwys-gainc,
A'r dwylaw mau ar dal mainc;
A'r *dysgiad*, diwygiad dyn,
Eurai dalm, ar y delyn.—*Dafydd ab Gwilym*, cxxxvii. 1.

Dysgiaid, **Dysgaid**, *sm.* instruction, education.

Nachaf gorr yn dyuot y mywn. ac ysgors yn y law. ac yn roi dyrnodeu yr merchet ae ysgors. ac yn dywedut wrthunt. kyuodwch y vyny drwo eu *dysgyeit.*
St. Greal, ‖ 121.

Dysglar, -au, *sf.* [cf. *ysgïo, ysgiell, ysgïen*] a spear; a lance.

Dysglawr, *sm.* [cf. *ysgïo*] a cutting level, a levelling; a slicing.—*P.*

Disgiawr breint vu e lad ar gangen . . .
Dysgiawr pan vei bun barn benn.—*Aneurin:* A.B. ii. 84.

Dysgiolin, *a.* [dysgol] learning; pupillary; disciplinary.

Dysgl, -au, *sf.* [L. *disculus; discus;* Gr. δίσκος] 1. a dish, a platter; a plate.

Y dotrefyn a rennir mal hynn y llaethlestri oll yr wreic onnyt vn paeol ar *dysgleu* oll eithyr vn *dysgyl* ar vn paeol ar vn *dysgyl* a geiff y gwr.
C.C. i. 522 (cf. 300, 534, 582, 668, 752).

Llyma heb ef y *dysgyl* y bwyttaawd Iessu Grist ohonei yr oen ygyt ae disgyblon. Honn yw y *dysgyl* a wnaeth pawb wrth y ewyllys or rei a geueis i yn vy ngwassanaeth.
St. Greal, ‖ 68 (cf. 58, 59).

Ar hynny llyma dwy vorwyn yn dyuot. a *dysgyl* vawr y ryngtunt. a phen gwr yn y *dysgyl.*
Mabinogion, 203 (cf. 210, 242).

Amgen na honno nid oedd yn y *ddysgl* ronyn o ddim yn y byd.—*Iolo Mss.* 161 (cf. 160).

A'i offrwm ef ydoedd un *ddysgl* arian o ddeg ar hugain a chant o siclau ei phwys.—*Num.* vii. 13 (cf. 19—85).

Ein Harglwydd a fwytaodd o *ddysgl* gyffredin.
Theo. Evans: D.P.O. 332.

Yr hwn a wlych ei law gyd â mi yn y *ddysgl*, hwnw a'm bradycha i.—*Matt.* xxvi. 23 (cf. xiv. 8, 11; xxiii. 25).

Nid gwaeth gan y newynog fwyd mewn *dysgl* bren, nag mewn *dysgl* arian.—*M. Cyffin:* Diffyniad, Rhag. 10.

Beth a delit tithau, Mammon, heb Falchder i'th wastraffu ar dai teg, dillad gwychion, cyfreithiau afraid, gerddi, a meirch, perthynasau drudfawr, *dysglau* aml.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 108 (cf. 42).

Dysgl drom sy i'm diegwyl draw.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 56.

Dal y ddysgl yn wastad, to hold the dish evenly; to please.

Mae genyf yma yn fy ymyl brophwydoliaeth a ysgrifenwyd cyn gweled o honof Lundain erioed, sy'n dywedyd, mai os fi (pan ddeuwn yna) a fethwn yn yr hyn lleiaf *ddal y ddysgl yn wastad* i'r Llew, na wnai ond fy nirmygu, a'm cablu, a'm coegi, ar air a gweithred byth.—*Gro. Owain*, 321.

2. a disc, a discus, a quoit.

Mynet allan a wnaethant odieithyr y dinas. rei y chware pedyt. ereill i torri pelydyr. ereill y tafiu *dysceu* plwm yr awyr.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. (B) 324.

Dysglaer, *a.* See *Disglaer*, *Disgleirio*, &c.

Dysglaid, *pl.* dysgleidiau, *sf.* [dysgl] a dishful, a dish.

Yna gosod bord . . . ac ym mhlith y *dysgleidiau* un dysgl gwarcharedig. Ebe'r gwr boneddig wrth y gwr. . . . Nid oennadedig iti gyffwrdd â'r *ddysglaid* honno.—*Iolo Mss.* 160.

Y mae pob peth a dâl ei adrodd yn y Gwyliedydd; a phob *dysglaid* i'w chael genych ar ei phen ei hun. . . Da genyf gael gorphen un *ddysglaid* cyn dechreu ar y llall.
Gwyliedydd, ii. 18.

Dysglaid o fwyd, a dish of meat or food.

Dywedir fod ambell *ddysglaid o fwyd* wedi ei threthu ugain o weithiau, cyn iddi ddyfod i'r bwrdd.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 12.

Dysglaid o de (N.W.) =*Cwpanaid o de* (S.W.), a cup of tea.

Dysglaidd, *a.* like a dish, discous; disciform.

Dysglain, *s.* & *a.* See *Disglain*, *Disgleinio*, &c.

Dysglan, -au, *sf.* a little dish, a plate.—*W.*

Dysgleidiad, *sm.* a setting or placing into a dish.

Dysgleidio, *v.* to put into a dish; to set or place in a dish.

Dysgleirio, *v.* See *Disgleirio*, &c.

Dysglen, -au, *sf.* [dysgl] the pelvis.

Mewn dyn cyflawn oed, nid oes ond tri o esgyrn yn gwneuthur i fyny y *ddysglen.*—*Gwyliedydd*, ix. 369.

Dysglöen, -au, *sf.* [clöen] a splinter, a spliut.

Dwys glaf awdl tafawd-lyw,
Dysglöen o awen yw.—*Madog Benfras.*

Dysgloffi, *v.* [cloffi] to make lame or halting. —*P.*

Digitized by Google

Dysglu, } *v.* [dysgl] to put into a dish, to dish.
Dysglo, } —*W.*

Dysgodawl, *a.* rising up; raising, elevating.

Dysgodi, *v.* [codi] to rise; to raise or elevate.

Gwr a leueir yn y bed
A *dysgwyt* kynn seith mlyned.—*Myrddin:* A.B. ii. 234.

Dysgodiad, *sm.* a rising, elevation.

Dysgodres, -au, *sf.* [dysgawdr] a female teacher, an instructress, a tutoress, a governess, a schoolmistress.

Dysgogan, -au, *sf.* [gogan] a prediction, a prophecy; prognostication, divination; instruction.

Dysgogan delwat o agarat dyhed.
Taliesin: A.B. ii. 212 (cf. 211).

Ym mhob cadair gyfaenad dylid dadgan *dysgogan* beirdd Ynys Prydain; sef hyny, y cof a'r cadw ar wybodau a chelfyddydau, a dosparthau, a threfnau, a breiniau, a defodau beirdd Ynys Prydain.—*Iolo Mss.* 213.

Gwedi dadgan y *dysgoganau* a'r cofanon, galw am ddangos.—*Iolo Mss.* 213.

Mal Llallogan, medd *dysgogan,*
Mur diogan mawr y dygir.—*L. G. Cothi,* n. i. 97.

Dysgogan, } *v.* to predict; to prognosticate;
Dysgoganu, } to prophesy; to divine.

Disgogan hwimleian hwetil a diwit.
Llyfr Du: A.B. ii. 20 (cf. 23, 25, 26, 28).

Dysgogan Derwyddon tra mor tra Brython.
Taliesin: M.A. i. 75 (cf. 153, 158, 181).

Oian a parchellan neud blodeu drain
Gorlas can fynydd elfydd neud cain
A mi *ddisgoganaf* cad Coed Llwyfain
A gelorawr rhuddion rhac rhuthr Owain.
Myrddin: M.A. i. 137.

A mi *discoganaue* kin diguet
Brithon dros Saesson Brithuir ae met.
Llyfr Ddu: A.B. ii. 26 (cf. 18, 21, 22).

Dysgogan awen dyddaw y dydd
Pan ddyffo i wys i un gyssull.—*Golyddan:* M.A. i. 157.

Dysgogan derwyton dewrwlad y esgar
Y wysgwyd weiniuyad.—*Cynddelw:* M.A. i. 221 (cf. 147).

Dysgoganiad, -au, *sm.* a predicting; prediction; a divining.

Dysgogant, *sm.* prediction, prognostication; instruction.

Dysgoganol, *a.* predictive, prognostic.

Dysgoganu, *v.* =*Dysgogan.*

Dysgoganwr, wyr, *sm.* a predictor, a prognosticator; a diviner; an instructor.

Dysgogawl, *a.* agitating; trembling.

Dysgogi, *v.* [ysgogi] to agitate, to move; to tremble.

Cyn Ymarwar Lludd a Lefelis
Dysgogettawr perchen y Wen Ynys
Rac pennaeth o Rufein cain ei echrys.
Taliesin: M.A. i. 76 (A.B. ii. 214).

Dysgogiad, -au, *sm.* agitation; motion.

Dysgor, -au, *sm.* [côr] 'any building for a shelter; a hut or cot;' a tent.

Gwydyon ab Don dygynuertheu
A hudwys gwreic a vlodeu
A dydwc moch o deheu
Kan bu idaw *disgoreu*
Drut ymyt a gwryt pletheu
A rithwys gorwydawt y ar plagawt.
Taliesin: A.B. ii. 156 (M.A. i. 66).

Dysgorawl, *a.* tending to enclose.—*P.*

Dysgori, *v.* to enclose, encircle, or surround.

Keinnhyeid glew dew doryf
Am dy goryf *dysgorwyd.*—*Cynddelw:* M.A. i. 261.

Dysgoriad, *sm.* an encircling or surrounding.

Dysgrain, *sm.* [crain] a creeping alone, a crawling.

Dysgrain, *a.* low, humble; crawling.

Kaeawc Kynhorawc bleid e maran . . .
Ef gwrthodes gwrys gwyar [*al.* gwyr] *disgreia*
Ket dyffei Wyned a Gogled e rann.—*Aneurin:* God. 39.

Dysgrawling, *sm.* [ysgrawling] glue, cement.

Ar corph hwnnw gyssylhtir ygyt yn un *dysgrawling* cariat am gorph Christ.—*Lucidar,* § 42.

Dysgrawlingo, *v.* to glue or cement.

Dysgreiniad, *sm.* 'a glancing along;' a skimming; a crawling.

Dysgreinio, *v.* 'to sweep or glance along;' to crawl; to welter.

Mawr *ddysgreiniawr* llafnawr am iad.—*Taliesin.* (*P.*)

Yno ei gymdeithion yn ei gwymp, is cymmlawdd o
Lifeiriaint a chorwyntoedd tân, efe
A wela toc, ac yn *dysgreiniaw* ger
Ei ystlys un oedd nesaf idd ei hun.
W. O. Pughe: C.G. i. 83.

Dysgreiniol, *a.* 'skimming along;' weltering.

Dysgreth, -au, *sf.* [creth] a broken or trembling cry; a groan; lamentation, wailing.—*P.*

Dysgrethain, } *v.* 'to utter broken moans;' to
Dysgrethu, } wail, moan, or bemoan; to groan.

Ac velly e buant en emfustiaw eny ettoed e rei byw en kolli eu synywyr o dostur klywet e rei meirw en *dysgrethein* ac en dilwyn eneit o pop parth.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 356.

Dysgrethiad, -au, *sm.* a groaning, moaning, or wailing.

Dysgrethol, *a.* moaning, wailing, groaning; dolorous.

Dysgri, *pl.* dysgrïau, dysgrïon, *sm.* [cri] an outcry, a shout, a clamour.

Traf y crych-ddwr, twrf croch-ddwys
Yn boddi en *dysgri* dwys.—*Robert Owen:* Gweith. 279.

Dysgrïad, *sm.* a clamouring; a shouting.

Dysgriad, -au, *sm.* =*Dysgrifiad.*

Dysgrifiad, -au, *sm.* a describing; description; delineation.

Yn ail, wrth *ddysgrifiad;* sef pan fo i'r areithiwr ddyweddu rhyw beth ag argoelion nodadwy.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xxxix. 2.

Moeswch weled *dysgreifiad* troselfeniad.
Dr. Gr. Roberts: Gram. 72.

Rhaid i hyn ei chanmawl a'i gwneuthur yn anwyl i'n serchiadau a'n meddyliau yn fwy effeithiol o lawer na'r pregethau mwyaf taer, neu'r *dysgrifiadau* mwyaf bywiol o honi.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 207 (cf. 206).

Ni buassi neb arall yn rhoddi *dysgrifiad* mor fanwl o'r amgylchiadau cydfynedol, nac yn debyg o holi na meddwl am danynt.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Duwin. 234 (cf. 298).

Ofer i ni geisio *dysgrifiad* gwirioneddol o ddaliadau Derwyddon Prydain ym mhlith awdwyr y Cyfandir.
Carnhuanawc: Hanes Cymru, 17.

Y mae y golygïedydd ar lan afon o'r *dysgrifiad* mwyaf hardd a difyrus.—*Gwyliedydd,* xiv. 211.

Bwriadwn roddi ychydig o hanes a *dysgrifiad* y peiriant agerdd o flaen ein darllenwyr yn fuan.—*Cylchgrawn,* i. 32.

Dysgrifiadol, *a.* descriptive; delineatory, delineative.

Y mae yr hwn a ysgrifeno yr hyn a welodd ei hun yn sicr o roddi yr hanes yn fwy manwl a *dysgrifiadol.*
Dr. L. Edwards: Traeth. Duwin. 232.

Yr ydoedd yr enw yn *ddysgrifiadol,* gan gymmeryd i fynyryw nodwedd neillduol.—*Brython,* iii. 52.

Digitized by Google

Dysgrifiaeth, -au, *sf.* description; delineation, depiction.

Clobyniaeth yw ffugr, pan fo yr areithiwr yn dwyn i mewn, ar ei ymadrodd, amryfal *ddysgrifiaeth* i'r un peth.
H. Perri: Eglurym Ffraethineb, xl.

Dysgrifio, *v.* [L. *describo*] to describe; to delineate, to depict.

Wrth ymofyn hefyd pa beth yw iaith y gorchymmynion dwyfol, afresymol fyddai disgwyl fod un drefn yn cael ei *dysgrifio* wrth ei henw yn yr Ysgrythyrau.
Dr. L. Edwards: Traeth. Duwin. 273.

Ni wnai un o honynt *ddysgrifio* cylchoedd cyfain uwch y terfyngylch.—*Dosparth Heulawg*, i. 34.

Dysgrifio arfau, to blazon arms.

Dysgrifiwr, wyr, } *sm.* a describer; a delin-
Dysgrifydd, -ion, } eator, a depicter.

Dysgrïo, *v.* [crio] to cry aloud; to clamour; to complain noisily.

Dysgrio, *v.* [=dysgrifio] to describe.

Or pwynt vyth y gwedha *diecrio* pob aruse. . . Ae val hynn y *diecrir* yr aruse hynn.—*Cyfraith Arfau.*

¶ Such is the usual form of the word (without *f*) in the Hengwrt Ms. called 'Cyfraith ac Ysceythriat Aruse ai Discriat ai Dosparth.'

Dysgrïol, *a.* clamorous; noisy (in words).

Dysgrydio, *v.* [cryd] to shiver, to quake.

Dysgrynu, *v.* [crynu] to tremble, to quake.

Dysgrynent is gerwinedd
Dychrynllyd y danllyd wedd.
Robert Owen: Gweith. 131 (cf. 280).

Dysgu, *v.* [dysg: C. *dyscy, desca;* Br. *deski, diski;* L. *disco*] 1. to teach, to instruct.

Myvi a *dysgeis* ytti y petheu a dywedy di.
Buchedd Mair, ¶ 28 (cf. 23, 25).

Teir keluydyt ny eill tayawc eu *dysgu* y vab heb ganyat y arglwyd.—*C. C.* i. 436 (cf. 372; ii. 586).

Yna Agamemnon o lef mawr a *dysgwys* y nifer pa wed yd ymledynt.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 19 (cf. 20, 26, 28, 32).

A gwedy eu *dysgu* o archescob Keint ac esgyb Lloegyr a ieirll ae barwneit a gofyn idaw a rodei yr hen gyfreithieu da yr teyrnas.—*Brut y Tywysogion*, 282.

Ac yna ef a dywawt y parabyl a *dysgassei* Iosep idaw.
St. Greal, ¶ 9 (cf. 19, 27, 34, 53).

Ac eissoes ydoed Hengyst yn gossot y wyr ynteu yn vydinoed. ac yn *dysgu* py wed yd ymledynt. Ac yn kerdet drwy bawb onadunt gan *dysgu* pob un ar neilltu.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 160 (cf. 56, 108, 159, 161, 220).

Honno a *dysg* dywedut yr ymadrawd yn gyuyawn. ac yn llwybreid. . . Honno a *dysc* messuraw y dayar.
Campau Charlymaen, ¶ 118.

Yn y lle y *dysgwyt* Dewi yndaw a elwit. Vetus Rubus. yng Kymraec yw. yr Henllwynn. yno y *dysgwyt* idaw ef seilym yr holl vlwydyn . . . yno y gwelas y gytdisgyblon ef colomen a gyluin eur idi yn *dysgu* Dewi.
Buchedd Dewi: Ll.A. 107 (cf. 78).

Tripheth anhebgor ar fardd y sydd; nid amgen, iawn ganu, iawn *ddysgu*, ac iawn farnu.—*Barddas*, ii. 104.

Dysg ddedwydd á gair; *dysg* ddiriaid á gwiail.
Diareb. (M.A. iii. 155.)

Ithel ab Llarian a fu frenin lleol iawn, ac a *ddysgwys* gyntaf y ffordd o heiniaru gwenith.—*Iolo Mss.* 4.

Anghen a *ddysg* hen i redeg.—*Diareb.* (M.A. iii. 147.)

Tair dyledswydd arbenig y sydd ar deulŵr yn y lle y bo: *dysgu* darllen ac ysgrifenu'r iaith Gymraeg; *dysgu* syberwyd teuluaidd a defodau daionus . . . a chadw cof am a berthyn i'r teuluoedd y bo efe athraw ynddynt.
Barddas, ii. 138.

Cas dyn a *ddysgwyd* ar yr iawn ac nis gwna.—*Diareb.*

Fe roir iddynt archiad gaeth i orchymmyn, yn gystal a *dysgu*, y lle y byddo'r achos yn gofyn.
Ieremi Owen, 110 (cf. 111).

Doethineb, yr hon a wnaeth y cwbl, a'm *dysgodd* i.
Doeth. vii. 22.

Llythyr ac *dysgawd* vun llathraid oged.
Rhiserdyn: M.A. i. 433.

Dysgu i, to teach (one) to (do something).

Ac megys y *dysgawd* Lleuelis *idaw*. briwaw y pryuet a oruc ym plith y dwfyr.—*Mabinogion*, 97.

Dysg i mi dy ffordd.—*Salm.* xxvii. 11.

Dysg i ni weddïo, megys ag y *dysgodd* Ioan *i'w* ddysgyblion.—*Luc* xi. 1.

Pwy a *dysgawd ytti* vy enw i?—*St. Greal*, ¶ 27.

Pwy *ddysg im'*, pa dduwies gain,
Wir araith i arwyrain?—*Gronwy Owain*, 35.

Dysgu gwers i un, to teach one a lesson.

Ond *dysgu gwers i* berson,
Ofer swydd, annifyr son.—*Gwallter Mechain*, i. 405.

2. to learn.

Pwy bynnac a vynno bot yn ygnat *dysget* yn graff, gouynnet yn vuyd, gwarandawet yn llwyr, katwet yn gofyawdyr, datkanet yn war, barnet yn drugarawc.
C. C. ii. 96 (cf. 348, 428, 506, 508, 586; i. 370, 486).

Mi a *dysceis* heb ef ieith y Brytanyeit ac eu deuawt mi ae gwn.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 171.

Yn gyntaf ef a *dyscawd* llen a berthynei idaw y *dyscu* ar y dechreu. a gwedy hynny ef a *dyscawd* y gennyf ynhev yr yscrythur lan.—*Llyfr Ancr*, 112 (cf. 107, 119, 146, 147).

Tri sylfaen doethineb: ieuenctid mabawl i *ddysgu;* ceudawd i gadw a *ddysger:* a synwyr call yn ymarfer á gwybodau.—*Doethineb y Cymry:* M.A. iii. 72.

Tri rhagoroldeb celfyddyd; sef hawsder ei *dysgu;* y diddanwch o'i *dysgu;* a lles a buddioldeb o'i *dysgu*.
Barddas, ii. 146.

Yn ei fabolaeth yr aeth i Orllawns yn Ffrainc i *ddysgu;* ac yno y bu y gwynfydedig Collen wyth mlynedd a chwe mis yn *dysgu*.—*Buchedd Collen* (Y Greal, 337).

Dysg yn graff a welych; cadw yn graff a *ddysgych*.
Diareb.

Cas dyn a *ddysgo* lawer ac ni wypo ddim yn gyflawn.
Diareb.

Dysgwch wneuthur daioni.—*Esa.* i. 17 (cf. xxvi. 9).

Dysgasant hefyd y iaith Ladin.
Theophilus Evans: D.P.O. 54.

Dysgwn y fad gariad gu,
Ar fyr awn i'w harferu.—*Gronwy Owain*, 82.

Dysg gan ynfyd ymogelyd, a chan y doeth *dysg* wneuthyd.
Diareb. (M.A. iii. 145.)

Nid oedd ganddo ddim achos i *ddysgu* dim gan neb.
Theo. Evans: Pwyll y Pader, 17.

Dysgwch genyf, learn of me.—*Matt.* xi. 29.

Dysgu gwers, to learn a lesson.

Dysgubell, -i, -au, *sf.* 1. a besom, a broom.

2. a slattern, slut, or malkin.

Dysgubo, *v.* [ysgubo] to sweep away; to sweep.

A phan yw dynion wedi eu *dysgubo* ymaith oddi ar ei hwyneb hi, hi ddichon wasanaethu rhywogaeth arall o fodau.—*Ieremi Owen*, 42.

Ac yn gofyn dy *ddysgubo* oddi arni.
Rhys Prichard: C. y C. cx. 4.

Dysgubed pawb ei aelwyd ei hun cyn beio ar aelwyd arall.
Diareb.

Dysgwedol, *a.* recitative; vocal.

Dysgwedyd, } *v.* [gwedyd, gweyd] to say, to
Dysgwëyd, } speak; to recite.

Dysgweyd keinyeid kyua enad eu rwyf
Eu rwytuot yn amhad.—*Cynddelw:* M.A. i. 221 (cf. 200).

Dysgweini, *v.* [gweini] to administer; to serve; to perform.

Dysgweinid kyrt kydneid kydnad
Kyd uolyant gwr gormant gormeissyad.
Cynddelw: M.A. i. 221.

Dysgweiniol, *a.* administrative.

Dysgweiniad, *sm.* ministration; service.

Dysgweled, *v.* [gweled] to see, to perceive.—*S.E.W.*

Digitized by Google

Dysgwr, wyr, *sm.* 1. a teacher, an instructor.

Dywet ti ymi *dysgwr* y kyureith y llythyren gyntaf o Alpha.—*Buchedd Mair*, ¶ 28.

Yna y kynnullawd Herot hyneif y Ffarisewydon a *dyscwyr* y bobyl.—*Buchedd Mair*, ¶ 17.

2. a learner; a pupil.

Dysgwr da, a good learner.

Dysgwriaeth, -au, *sf.* learning; instruction.

Arwain, eryr! o'r henwriaeth,
Deulüwriaeth hyd elorau . . .
A chanwriaeth, a cherddwriaeth,
A *dysgwriaeth* dewis gorau.—*L. G. Cothi*, III. xix. 57.

Gŵyr filwriaeth, gŵyr *ddysgwriaeth*,
Gŵyr fradwriaeth Lloegr fro diredd.—*Dafydd Nanmor.*

Dysgwrtheb, -ion, *sm.* [gwrtheb] a response, an answer.

Dysgwrtheb, *v.* to reply, respond, or answer.

Dysgwrtheb gwrthrawd gwrthrod i honni
Hwnnw yw Rodri rwyd ar oloed.
Gwalchmai: M.A. i. 199.

Dysgwrthebol, *a.* responsive, answering.

Dysgwrthol, *a.* [gwrth] adversative, opposing.

Dysgwrthu, *v.* to come adversely.—*P.*

Dysgwybodaeth, -au, *sf.* [dysg+gwybodaeth] literary knowledge.

Ni farnwn neb yn gymhryd â thri a'th iesinwych deulu; ac adwaen i'm hoes dy gyfal am lèn a *dysgwybodaeth*.
Iolo Mss. 173.

Dysgwydd, *sm.* [dysg+gŵydd] discovery; revelation; demonstration.—*Llanover Ms.*

Dysgwyddo, *v.* to discover; to demonstrate.—*Llanover Ms.*

Dysgwyl, *v.* & *s.* See *Disgwyl*, &c.

Dysgybl, } -ion, -on, *sm.* [L. *discipulus*; C. **Disgybl**, } *discebel*, *disgibl*, *desgibl* (pl. *dyscyblon*, *dyscyblyon*); Br. *diskibl*] a disciple.

Ti ath *disgyblon* ae medeginyaetho.—*Mab.* 261 (cf. 286).

Canaf yn esgud yd gwn pa hon
Ás gwtant yn dysc yn *discyblon*.—*Cynddelw:* M.A. i. 220.

Pan wascarwyt yr ebystyl a *disgyblon* yr Arglwyd y bedryuannoed byt y bregethu.
Yst. de Carolo Magno, col. 381 (cf. 391).

A chyt bych ysgolheic di a *disgybyl*. athro wyf ynheu.
Yst. de Carolo Magno, col. 42.

Ar athro a gytsynniawdh a damunet y *discipl*.
Lucidar, ¶ 1.

Pan dybyeis gael *dysgybyl*. scf y kefeis yn athro.
Buchedd Mair, ¶ 29 (cf. 35).

Y enw Iosep oed. a hwnnw a oed *dysgybyl* y Iesu.
Y Groglith, ¶ 12 (cf. 3).

A gwedy daruot yr gennat menegi idaw ef o gwbyl ansawd Aedan y *dysgybyl*, galw a oruc Scuthyn Dewi attaw ar neilltu.—*Buchedd Dewi:* C.B. Saints, 109 (cf. 108).

Ynteu a gyuodes y trydydyd o veirw. ac a ymdangosses yn amlwc y *dysgyblon*.—*Y Groglith*, ¶ 20.

Da lluniwyd Iesu lwyd lon,
O ddysg abl, a'i *ddysgyblion*.
D. ab Gwilym, ccxxxix. 9 (cf. lxiv. 7; ccxxxv. 22).

Tair deddf y sydd ar fardd o athraw Cadeiriawg abarth ei *ddysgyblion*. Cyntaf, nas cymmero ato amgen nag un o bot gradd ar unwaith. Ail yw, nas gadawo efe iddynt gymmeryd atynt *ddysgyblion*, na gwneuthur o honynt *ddysgyblion*, can ni wedd i *ddysgybl* wneuthur *dysgybl* arall.
Barddas, ii. 110.

Am eu bod nhwy yn cadw eu celfyddid yn ddirgel, heb ei damlewychu i neb, oddi eithr i ryw *ddyscybl* . . . rhaid i ryw ddyn arall ei honni, a'i gosod allan.
Dr. Gr. Roberts: Gramadeg, 206.

A ewyllysiwch chwi hefyd fod yn *ddiscipulon* iddaw ef? . . . Bydd ai *ddiscipul* iddo: ydd ŷm ni yn *ddiscipulon* i Voysen.
W. Salesbury: Ioan ix. 27, 28.

Mae ein Iachawdwr yn taro ar hyny yn fynych, wrth siarad â'i *ddysgyblion*.—*Elis Lewis:* Drexelius, 183.

Yn ei ymddiddanion cyfeillgar rhyngtho a'i *ddisgyblon*.
Dr. Davies: Llyfr y Res. I. v. 6 (cf. 7).

Nid yw'r *discybl* yn uwch na'i athro. . . Digon i'r *discybl* fod fel ei athro.—*Esgob Morgan:* Matt. x. 24, 25.

Ef a wyddai ym mlaen llaw, ac a ragddywedodd i'w *ddysgyblion*, fod yr Idhewon yn ceisio ei hoedl ef.
R. Smith: Eglurhâd (1618), 34.

Hwy a fwriasant goelbrenau, cylch yn erbyn cylch, bychan a mawr, athro a *discybl*.—*Esgob Parry:* 1 Cron. xxv. 8.

Trannoeth drachefn y safodd Ioan, a dau o'i *ddisgyblion* . . . A'r ddau *ddisgybl* a'i clywsant ef yn llefaru.
Ioan i. 35, 37.

Ymddengys nad oedd ganddi y pryd hynny ond ychydig o *ddysgyblion* yng Nghymru.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 541.

Y deuddeg dysgybl, the twelve disciples.—*Matt.* x. 1; xi. 1; *Luc* ix. 1.

Dysgybl yspas, a probationary disciple, a probationer.

Dysgybl dysgyblaidd, a pupil disciple.

Dysgybl pencerddaidd, a master disciple.

Tair gradd dysgyblaeth y sydd ar gerdd dafawd a barddoniaeth; nid amgen: cyntaf yw *dysgybl yspas*; ail yw *dysgybl dysgyblaidd*; trydydd yw *dysgybl pencerddaidd*.
Barddas, ii. 104.

Dysgybl yspas a ddylai wybod dosparth y silltau a'r ymadroddion herwydd llyfrau dosparth y cyhyddeddau, a dosparthu ar fesurau cerdd deuluaidd. . . *Dysgybl dysgyblaidd* a ddylai wybod, heb law a ŵyr *dysgybl yspas*, dosparth y mesurau a'r cymmeriadau, a chanu ar y naw mesur cyffredinion. . . *Dysgybl pencerddaidd* a ddylai wybod y cyfan a ddylai'r *dysgybl dysgyblaidd* ei wybod, a chyda hyny canu'n ddysgyblaidd ar yr holl fesurau cadeiriawg, a medru dosparth eu hansawdd a'u rhywiau.
Barddas, ii. 104, 106 (cf. 108–120).

¶ See note s.v. *Disgybl*.

Dysgybladwy, } *a.* disciplinable; capable of **Disgybladwy**, } instruction.

Dysgyblaeth, } -au, *sf.* discipline; pupilage, **Disgyblaeth**, } discipleship.

A chwbwl or holl vyt a dylyei gymryt exawmpyl a *disgybylaeth* y wneuthur da y wrthyt ti gynt.
St. Greal, ¶ 79.

Beth a dhywedi di am . . . y rhai a werthont. neu a brynnont ecclwyseu neu anrhydedh ecclwysic. ac a ladho pobul Dduw yn y modh hwnnw o dhybryt *dhisciplaeth*.
Lucidar, ¶ 46.

Canys *dysgyblaeth* cerdd dafawd yw honno. . . Efe a ddylai wybod y deddfau a'r defodau y sydd ar ei *ddysgyblaeth*.—*Barddas*, ii. 104.

Am dripheth y syrth bardd o athraw cadeiriawg i radd *dysgyblaeth* gyssefin, ac a'i gweddo herwydd ei annysg a'i anneddfoldeb.—*Barddas*, ii. 118.

Yn y Brif Eglwys gynt, yr oedd *dysgyblaeth* dduwiol.
Llyfr Gweddi Gyffredin.

Hynn a vynnaf y wneuthur yr *disgyblaeth* ym deudec disgybyl i.—*St. Greal*, ¶ 68.

Hyn oedd *disgybliaeth* yr hen Eglwys Apostolaidd.
Ed. Samuel: Mynych Gymmuno, 23.

Fe fydd yn erbyn tuedd natur wyllt aflywodraethus, gael ei chadw rhag crwydro yn benrhydd trwy gaeth rwymau *dysgyblaeth* grefyddol.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 267.

Od oes a gabl *ddysgyblaeth*,
Nid yw er gwell, ond er gwaeth.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 415.

Er bod y *ddysgyblaeth* hon yn galed; eto, barnodd yr Eglwys ei bod yn deilwng o'i chadw yn yr oesoedd nesaf. . . Ond yn nyddiau y tywyllwch, a llygredigaeth Eglwys Rhufain, aeth y *ddysgyblaeth* hon yn ddim amgen na chyfaddefiad ffurfiol ar ddechreu y Grawys.
Gwyliedydd, v. 80 (cf. 81, 306).

Yr oedd yn rhagori yn ei ddawn yn trin *dysgyblaeth*.
Seren Gomer, i. 353.

Dysgyblaeth eglwys, } ecclesiastical discipline, *Dysgyblaeth eglwysig*, } church discipline.

Digitized by Google

Er nad ydym ni dan doster llym y fath *ddysgyblaeth eglwysig*, eto yr ydym dan gymmaint o rwymau a'r rhai edifeiriol hyny gynt.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 181.

Athrawiaeth a *Dysgyblaeth Eglwys* Loegr sydd yr awr hon yn sefydledig.—*Ll. G. Gyfreidin* (Erthyglau, Rhag.).

Yr unig ffordd i gyflawni y diffyg hwn, yw gosod yma hanes am *ddysgyblaeth yr Eglwys* Gatholig, o blegid hyny a ddengys hefyd *ddisgyblaeth* y brif *Eglwys* ym Mhrydain.
Theo. Evans: D.P.O. 285 (cf. 284, 295).

A ydyw yn rheolaidd ac yn ddidrosedd yng ngwyneb *dysgyblaeth eglwysig* . . . i un aelod ddannod neu edliw i arall ei droseddau?—*Seren Gomer*, vi. 374.

Dysgyblaethgar, *a.* strict in discipline; disciplinarian.

Un dysgyblaethgar, a disciplinarian.—*W.*

Dysgyblaethol, *a.* pertaining to discipline, disciplinary, disciplinatory, disciplinal.

Yr ydych chwi a'r Pabyddion . . . yn cyduno â'ch gilydd i erlid a chamddarlunio'r Eglwys, yr hon, yn unol â gair y Goruchaf, sy wedi parhau i gadw'r undeb hwnw i fyny yn ei hathrawiaeth a'i threfniadau *dysgyblaethol*.
Nicander: Ecclesia Defensa, 49 (cf. 17).

Rhaid oedd hefyd iddynt dros ddyddiau lawer o'r blaen gydymffurfio ag amryw reolau *dysgyblaethol*.
Gwyliedydd, v. 39.

Y maent yn dra thebyg o ran eu daliadau a'u rheolau *dysgyblaethol* i'r Bedyddwyr Sandemanaidd.
Gwyddoniadur Cymreig, iv. 121.

Dysgyblaethu, *v.* to discipline.—*W.*

Dysgyblaethwr, wyr, *sm.* a disciplinarian.

Dysgyblaidd, *a.* pupilary; that is in a state of pupilage or discipline; disciplinal, discipular.

Tri braint y sydd i bennill o gywydd: pencerddaidd; *dysgyblaidd;* ac iselradd, neu dincerddaidd.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 138.

Rhodd dysgybl *dysgyblaidd* am ei gerdd, o bydd gwarantedig, yw deugain, sef yw hyny, triswllt a grod.
Barddas, ii. 108 (cf. 104, 106).

Dysgybl dysgyblaidd: see *Dysgybl.*

Dysgybles, -au, *sf.* a female disciple, a disciple (who is a woman).

Ac yn Ioppa yr oedd rhyw *ddysgybles* â'i henw Tabitha.
Act. ix. 36.

Dysgyblu, **Disgyblu,** **Dysgyblo,** *v.* 1. to become a disciple or as a disciple or follower; to copy, to imitate.

Dysgyblu wrth, to follow as a model or example; to imitate.

A cheissaw a wnaei bawp kyffelybu a *discyblu ywrth* lys Arthur.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 195.

Ac uelly ymlawenhau ac ymgadarnhau o achaws Gwalchmei a *disgyblu wrthaw* a orugant.—*St. Greal*, ¶ 100 (cf. 71).

Ny orffowyssei neb or Freinc yn llad y paganyeit. ual y gellynt oreu *disgyblu wrth* Rolant.
Yst. de Carolo Magno, col. 481.

Nit oed na brenin nac arglwyd gallys na bai yn caissio *dysgyblo wrth* voes ac arver gwyr Arthyr.
Brut Tysilio: M.A. ii. 314.

Disgyblu y bu mor bur
Ieuan *wrtho* hen Arthur.—*L. G. Cothi*, iv. xxviii. 29.

O achos rhy uychan yna y *discyplynt wrthaw*.
Lucidar, ¶ 30.

2. to discipline; to correct or chastise. (The current sense.)

Pwy sydd i *ddysgyblu*, neu i arfer y ddysgyblaeth a osododd yr Arglwydd yn ei Eglwys.
Dr. Geo. Lewis: Drych Ysgr. 492.

Fel y byddai i ddynion, yn clywed hyn, *ddysgyblu* eu hunain rhag ofn ei farnedigaethau ef.—*Gwyliedydd*, v. 81.

E *ddysgyblir* y ddwys gabl-iaith,
A gwŷn hirfaith a gynhyrfir.
Pedr Fardd: Mêl Awen, 37.

Dangosasant eu gofid, fod pethau o herwydd y dull anweddaidd a llygredig o rith *ddysgyblu* yn yr Eglwys yn nyddiau y tywyllwch, wedi myned i'r cyfryw gyflwr fel nad ellid adferyd y pryd hwnw y brif ddysgybliaeth dduwiol.
Gwyliedydd, v. 81.

Dysgyblwr, wyr, **Dysgyblydd,** -ion, *sm.* one who disciplines; a strict disciplinarian, a discipliner; a corrector, a chastiser.—*C.S.*

Dysgyfrith, *sm.*=*Disgyfrith.*

Dysgymmod, -au, *sm.* [cymmod] agreement, covenant, arrangement, reconciliation; concurrence.

Dysgymmodi, *v.* to agree; to concur.

Dysgymmodiad, *sm.* a concurring or agreeing; agreement.

Dysgymon, *sm.*=*Disgymon.*

Dysgyr, *sm.*=*Disgyr.*

Dysgyrch, *sm.* [cyrch] tendency to a point or centre; gravity.

Dysgyrchiant, **Dysgyrchiad,** -au, *sm.* [cyrch, cyrchu] gravitation.

Wrth ystyried y crëedigaeth, rhai o'r anianolion a graffa y meddwl arnynt gyntaf yw y rhai hyn; sef, defnydd, corff, estyniad, sych, gwlyb, ymmod, diymmodrwydd, *dysgyrchiant*, cyfymgyrchiad, cyfymlyniad . . . ac ereill bethau.
Cylchgrawn Cymraeg (1793), 204.

Yn 1666 hefyd, wrth weled afal yn syrthio, tra yr oedd yn eistedd yng ngardd ei fam, daeth i'w feddwl gyntaf am ddeddf y *dysgyrchiant*, neu y tuedd sydd ym mhob peth i dynu at y canolbwynt.—*Cylchgrawn*, i. 97 (cf. ii. 190).

Nid oes anghen mwyach am ddarganfod deddf y *dysgyrchiant*.—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 30.

Nid oedd ganddo un drychfeddwl am ddeddf y *dysgyrchiad*.—*Adolygydd*, ii. 471.

Tynir y casgliadau hyn oddi wrth ddeddfau *dysgyrchiant*.
Dosparth Heulawg, i. 96 (cf. 50).

Attyniad a dysgyrchiant, attraction and gravitation.

Dysgyrchol, *a.* apt to gravitate, gravitating.

Attyniad dysgyrchol, attraction of gravitation.

Dysgyrchu, *v.* to gravitate; to tend towards the centre of attraction.

Dysgyrio, **Dysgyrian,** *v.* See *Disgyrio, Disgyrian*, &c.

Dysgyrnu, *v.* See *Disgyrnu.*

Dysgywen, *a.*=*Disgywen.*

Dyshwyliad, *sm.* [hwylio] a performing or accomplishing.—*P.*

Dyshwylio, *v.* to perform, to accomplish.—*P.*

Dyslynciad, *sm.* [llyncu] a gulping, a swallowing.—*P.*

Dyslyncu, *v.* [C. *dislonca*] to gulp, to swallow.—*P.*

Dysmal, *a.* [dy-+ysmal: cf. *ysmala*] fickle, light, trivial; indifferent.—*W.*

Bûm rhy *ddysmal*, ac yn rhy lawen,
Hyn beth nid yw yn gweddu ar fachgen.
Tegid: Gwaith, 216.

Dysmalhâd, *sm.* a becoming fickle.—*P.*

Dysmalhâwch, **Dysmalrwydd,** *sm.* fickleness, levity; drollery; indifference.—*P.*

Dysmegiad, -au, *sm.* [cf. *dammeg*] enunciation, utterance.

Dysmegol, *a.* enunciative, uttering.

Dysmegu, *v.* [C. *dysmegy*] to enunciate, to utter, to speak.—*P.*

Dysmelog, *a.* [dwsmel] having the characteristics of a dulcimer; melodious.

A'r pig cwrel *dysmelog*.—*Gr. Hiraethog*, i'r Fwyalch.

Digitized by Google

Dysmythu, *v.*=*Dismythu.*

Dysoddi, *v.* [soddi] to sink, to submerge; to plunge; to drop.

Dysoddiad, -au, *sm.* a sinking, submersion; a dropping.

Argyfenw sydd ddull, pan ddygwyddo (wrth newidiad, arddodiad, neu *ddysoddiad*, ai llythyren, ynte sillaf) gyfnewidio'r arwyddocâd.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb (1595), xxx.

Dyspaddedig, *pt.a.* [dyspaddu] castrated, emasculated, gelt.

Na ddyweded y *dyspaddedig*, Wele fi yn bren crin. Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd wrth y rhai *dyspaddedig*.
Esa. lvi. 3, 4.

Y mae gan y rhai *dyspaddedig* a gadwant Sabbothau Duw addewid am enw yn ei dŷ ef yn dragywydd.
Sam. Williams: Amser (1724), 13.

Dyspaddiad, -au, *sm.* castration, emasculation, gelding.

Dyspaddol, *a.* emasculative, emasculatory.

Dyspaddu, *v.* [yspaddu, from L. *spado*] to castrate, to emasculate, to eunuchize; to geld; to spay.

Kemeynt eu guert e baet a guert teyr or moch o *dyspedyr* ae uarw duy hych a tal y duy keyll.—*C.C.* i. 276 (cf. 278).

Oed Crist 1151, y tynnes Owain Gwynedd lygaid Cunedda fab Cadwallawn, ei nai fab ei frawd, ac ai *dyspaddawd*.
Brut y Tywysogion: M.A. ii. 565.

A phwy bynnag a droseddai ei gyfraith hely, un ai fe'i *dyspaddid*, tori ei ddwylaw a'i draed ymaith, neu dynu ei lygaid.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 38.

Os amgen, nid yw ystâd morwyndod amgen na chyflwr yr eunuchiaid a *ddyspaddwyd* o'u hanfodd.
Elis Wynn: Rh.B.S. 75.

Dyspaddwr, wyr, *sm.* a castrator, a gelder.

Dyspaid, peidiau, *sm.* [paid] cessation, intermission, desistance, respite, discontinuation; a pause; a breaking off.

Tri chynoriaid doethineb: *dispaid;* dispwyll; a dosparth.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 271.

Pa beth a feddyliwch chwi o ymddygiad Andromache? . . . Gwedi *dyspaid* arall, Brwydr dynion.
Cylchgrawn, ii. 126.

Dyspaid arfau, suspension of arms.—*W.*

Dyspaidd, *pl.* dyspeiddiaid, *sm.* [dyspaddu] a eunuch; one that is castrated; a gelding.

Na ddeued neb wedi yssigo ei eirin, na *dyspaidd*, i gynnulleidfa yr Arglwydd.—*Deut.* xxiii. 1.

Fe ddenfyn Duw ryw athro duwiol, i'w ddysgu ef, megys y danfonodd i ddangos i'r *dyspaidd* [*eunuch] pendefig o Ethiopia.—*Ed. Iames:* Hom. i. 10.

Dedwydd yw y *dyspaidd* yr hwn ni wnaeth anwiredd â'i ddwylaw.—*Doeth.* iii. 14 (cf. Eccl. xx. 4; xxx. 20).

A'r diweirdeb hwn a ddylai fod gan wyryfon a gweddwon, gan yr hen yn enwedig, a'r *dyspaidd*.
Elis Wynn: Rh.B.S. 74.

Y mae trigolion Georgia . . . yn gorfod ymadael â'u plant oddi ar fronau eu mamau; y benywod i fod yn buteiniaid i'r Sultan, a'r gwrywiaid naill ai yn *ddyspeiddiaid* yn eu cyffodendai, neu yn filwyr yn eu byddinoedd.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 11 (cf. 8).

Dyspaidd, *a.* castrated; emasculated; gelt.—*W.*

Dyn dyspaidd, a eunuch.—*W.*

Ceffyl dyspaidd, *March dyspaidd*, } a castrated horse, a gelding.

Hwch ddyspaidd, a spayed sow.

Rhesinau dyspaidd, stoned raisins.

Cymmerwch gwart o hufen . . . dau ddyrnaid o gwraint, a dau ddyrnaid o *resinau dyspaidd*.
Hen Lyfr Coginiaeth (Y Taliesin, i. 214).

Dysparthu, *v.* [dys-+parthu] to distribute, to arrange. See *Dosparthu.*

Dull arall ar Ddadymchweliad y sydd, pan *ddysperthir* y rhanau cyn eu dadgan.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xxix. 4.

Dyspeidiad, -au, } *sm.* cessation, desistance, dis-
Dyspeidiant, } continuation; intermission; a ceasing, a pausing, a desisting.

Yr awr hon, fel na ddarfu i *ddyspeidiad* o'r ceremoniau cyssylltedig at 1, 5, a'r 6 gorchymmynion, ac at briodas, mo diddymu y gorchymmynion hyny na phriodas.
R. Vaughan: Ymarfer Duwioldeb, 228.

Yn y *dyspeidiad* pwysig rhwng nwydau gwrthwynebol y meddwl. . . . y mae yn deisyf ar wrthddrychau penaf anian i ymddistewi.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 537.

Ar y gair, ebrwydd y rhwygai'r wybren,
Creigiau,—a chwedi pob crug a choeden
Yn y *dyspeidiad* oedd yn d'aspeden.—*Blackwell:* C.A. 117.

Dyspeidio, *v.* to cease, desist, or discontinue; to leave off; to intermit.

Dyspeidiai efe, a llawen iawn y ddau.
W. O. Pughe: C.G. ii. 889 (cf. 43; xii. 2).

Dyspeidiai gweryriad y cadfarch a'i ffroch,
Ei wddf mwy ni wiegid â tharan a broch.
D. Silvan Evans: Blodau Ieuainc, 9.

Dyspeidiol, *a.* 'tending to cease;' intermittent.

Dyspeidiawl ddial pe arfogai ei
Ddeheulaw ynte idd ein nychu.
W. O. Pughe: C.G. ii. 177.

Cryd dyspeidiol, intermittent ague.

Y mae iddi hefyd yr enw o iachâu y *cryd dyspeidiawl* a'r mwyth.—*H. Davies:* Llysieuaeth Gymreig, 229 (cf. 182, 183, 213, 215, 243).

Sefyllfa y dref sydd boethlyd ac aflachus iawn, a *chrydau dyspeidiawl* ydynt gyffredin ym mhlith y trigolion.
Gwyliedydd, iii. 73.

Twymyn ddyspeidiol, an intermittent fever.

Os dygwydd i aflechyd go anarferol, megys *twymyn ddyspeidiol*, ymaflyd ynddynt, dychrynant yn ddirfawr.
Gwyliedydd, xi. 343.

Dyspeilio, *v.* [yspeilio] to rob, to pillage; to deprive. Cf. *Dispeilio.*

Ychydic wedy hynny y *dyspeilwyt* Llywelyn uab Owein oe lygeit.—*Brut y Tywysogion*, 154 (cf. 156).

Dyspeiniad, -au, *sm.* a stripping, divesting, or shelling.

Dyspeinio, *v.* [peinio] to divest of; to make naked; to pillage, to spoil; to shell, to unhusk; to take out.

Dispiniant hwy does peinioel,
Rhwy maint chwant rhamant a choel.—*Gro. Owain*, 44.

Dyspeinio rhwyd, to take fish out of a net.

Dyspeinio ffa, to shell beans.

Dyspleinio, *v.*=*Displeinio.*

Dyspoeri, *v.* [poeri] to bespatter; to spit.

Oddi eithr i sanctaidd Dduw'r nefoedd roi cennad i'r cyfeillion hyn i sathru gwaed ei Fab tan eu traed, a chyda'r Iddewon i *ddyspoeri* yn ei wyneb, a difenwi Yspryd y gras.
Galwad i'r Annychweledig (1751), 148.

Dyspwyad, -au, *sm.* [pwyo] verberation.—*P.*

Dyspwyll, -ion, *sm.* [pwyll] discretion, prudence; consideration; reason; soundness of mind.

Ef yw . . . canwyll *dyspwyll* a dosparth.—*Guto'r Glyn.*

O *ddyspwyll* barn y tardd y gwybodau.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 110 (cf. 271).

Gorug Einigan Gawr hen
Llythyru llafar addien,
A dosparth *dyspwyll* awen.—*Iolo Mss.* 262.

Yr oedd efe yn hynod, nid yn unig o barth hewyd Cristionogol, ond o ran *dyspwyll*, ac iawn ddeall, a challineb yn gymmysgedig â'r hewyd hwnw.
Gwyliedydd, iv. 290 (cf. 291).

Digitized by Google

Pa wedd y cynghoraist y diffygiol o ddoethineb, ac yr hyspysaist *ddyspwyll* yn ehelaeth!
Dr. Th. Briscoe: Llyfr Iob, xxvi. 3.

Ym myag y Rhufeiniaid ni chyfyngid mo'r nifer, ond amrywiai yn ol mawredd y trosedd, neu *ddyspwyll* y barnwr.—*Gwyliedydd*, iv. 241.

A bugeiliodd efe hwynt yn ol symlrwydd ei galon, ac â *dyspwyll* ei ddwylaw yr arweiniodd hwynt.
Dr. T. Briscoe: Salmau, lxxviii. 72.

Dyspwyll, Dyspwyllo, *v.* to use, exert, or exercise the reason; to reason, to consider; to make discreet, considerate, or prudent; to bring to reason; to convince; to remember; to think of; to persuade; to cure of weakness of intellect.

Tair gorsedd anghyfarch y sydd. Swyddawg gwarantedig o gyvraith yn dafar lluniaeth yn nghyvoeth ei arglwydd, er *dyspwyllaw* barn, neu gynhenau, neu anmrawd. . . Trydydd vydd er *dyspwyll* teilyngdawd dwy gyvraith, neu vwy.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 498.

Nid hawdd *dyspwyll* ar annoeth.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 66 (cf. 63).

Os gofyn Deheubarth na Gwynedd o un parth,
Pwy ganodd y dosparth i'ch *dyspwyll* rhag ing.
Rhys Prichard: C. y C. i. 26.

Y mae yn hawdd hefyd, drwy rybuddion a chynghorion prydlawn ei *ddyspwyllo* i ymachub.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 337.

Dyspwyllawd, *sm.* ratiocination, reasoning, argumentation; discretion.

Doethwr prif gelfydd
Dispwyllawd sywedydd
Am wyth am edrwyth.—*Taliesin:* M.A. i. 35.

Dyspwylledd, *sm.* discretion, prudence.

Dyspwylliad, -au, *sm.* 'the exertion of reason;' reasoning, argumentation; persuasion; a making rational or reasonable.

Dyspwyllog, *a.* considerate; rational; discretionary, discretional.

Yr oedd gan geidwaid carchardai gynt, megys y mae ganddynt eto yn y dwyrain, awdurdod *dyspwyllog* i wneuthur â'u carcharwyr fel ag y mynont.
Gwyliedydd, iv. 242.

Dyspwyo, *v.* [pwyo] to beat, to strike.—*P.*

Dyspydd, *a.* =*Dyhyspydd*, q.v.

Guarchedid eluyd *dyspyd* dispur.—*Cynddelw:* M.A. i. 248.

Dyspyddiad, -au, *sm.* an emptying, depletion.

Dyspyddol, *a.* emptying, depletive, depletory.

Dyspyddu, *v.* [contr. of *dyhyspyddu*] =*Dyhyspyddu.*

Arglwyd heb ef par di *disbydu* y llynn honn. . . A pheri *dispydu* y llyn. kan dywedassei wir am y llyn kyn no hynny.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 143.

A gwedy y *dispydu* y llyn. y mein megys y dywawt Myrdin a gahat.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 261.

Tri pheth a fyddant hir cyn a'u gorphener: *dyspyddu* y Morwerydd; tringo ar hyd ysgwl i'r haul; a dadfileinio Sais.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 254.

Mor bell oddi wrth chwennych *dyspyddu*, pe byddai bosibl *ddyspyddu* 'r testun, fy ewyllys ydyw eich arwain chwi eich hunain i ymroddi yn ddiwyd i ymgynghori â'r oracl sanctaidd.—*Gwallter Mechain:* Eglur Olygiad, 257.

Nid hawdd rhifo'r ser sy ddisperod . . .
Na *dyspyddu* 'r môr du hyd ei dywod.
L. G. Cothi, i. xvi. 31.

Wedi *dyspyddu* y maidd gan mwyaf, y caws a gasgler i naill ochr y llestr.—*W. O. Pughe:* C.P. 95 (cf. 86, 96, 103).

Dystain, einiaid, *sm.* =*Distain.*

Dystaw, *a.* See *Distaw*, &c.

Dystlyd, *a.* [dwst] dusty, covered with dust.

A phan edrychwyt y dyle nyt oed arnei namyn byrwellt *dysdlyt* chweinllyd.—*Mabinogion*, 146.

Dystraw, *sm.* =*Distraw.*

Dystrawiaeth, *sf.* [ystrawiaeth] instruction, education.

Y Groes sydd obaith i'r Cristionog, adgyfodiad i'r meirw, tywysydd i'r deillion, a ffon i'r cloff, cysur i'r tlawd, genfa i'r cyfoethog, *dystrawiaeth* i'r trahäus.
M. Clynog: Athrawaeth Grist. 4.

Dystreulio, *v.* =*Distreulio.*

Dystrew, *sm.* [ystrew] a sneeze or sneezing.

Dystrewi, *v.* to sneeze; to snort.

Wrth yr un a fytho yn entrewi [**dystrewi*, tisio] y dywedir Duw a Saint Ioan.—*Ed. James:* Homiliau, ii. 95.

Llwch o'r dail, i'w gymmeryd i'r ffroenau, a bair *ddystrewi*, ac a goetha ac a gartha y pen.
H. Davies: Llysieuaeth Gymreig, 185.

Dystrewiad, -au, *sm.* a sneezing, sternutation.

Dystrewlys, -iau, *sm.* sneezewort, sneezewort yarrow, goose-tongue (*Achillea ptarmica*): also called *ystrewlys*, *trewlys*, *dail y trew*, and *tafod yr ŵydd.*—*H. Davies:* Welsh Bot. 81, 185.

Dystroad, -au, *sm.* a whirling; a turning round.

Dystroawl, *a.* whirling, going in eddies.

Dystroi, *v.* [troi] to whirl; to turn in eddies; to turn round rapidly.—*P.*

Dystru, *sm.* [tru] pity or concern for.—*P.*

Dystrych, *sm.* See *Distrych*, &c.

Dystryw, *sm.* See *Distryw*, *Distrywio*, &c.

Dystwyth, *a.* [twyth, ystwyth] pliant, supple, elastic, flexible; springing.

Dystwythiad, -au, *sm.* a rendering or making pliant or elastic; a becoming pliant.—*P.*

Dystwytho, *v.* to make pliant or supple; to become pliant, supple, or elastic.

Mi dy ddystwythaf di, I will belabour you.—*S.E.W.*

Dystwythol, *a* tending to make pliant or elastic; pliant, elastic.

Dystyr, *sm.* [L. *destruo*] destruction, devastation, ravage.—*Arch. Brit.* 216.

Dystyr gwall awyr a llif.—*Dafydd ab Gwilym.*

Dysuddiad, -au, *sm.* immersion.

Dysuddo, *v.* to immerse, to plunge; to sink.

Dysudd, *a.* [sudd, suddo] immersed, submerged, plunged.—*P.*

Dysuddol, *a.* tending to immerse; immersing, plunging.

Dysweddu, *v.* [gwedd] to describe, to characterise; to qualify.

Pan fo i'r areithiwr *ddysweddu* rhyw beth ag argoelion nodadwy.—*H. Perri:* Egluryn Ffraethineb, xxxix. 2.

Dysychedig, *pt.a.* [dysychu] desiccated, desiccate, dried up.

Wedi talm o amser gellir tynu allan yr ymysgaroedd, y rhai a fyddent *ddysychedig*, ac heb bydru un tipyn.
Gwyliedydd, v. 47.

Dysychiad, -au, *sm.* desiccation, exsiccation.

Dysychol, *a.* desiccative, desiccatory, exsiccant, exsiccative.

Wedi cymmeryd allan yr ymysgaroedd, llenwi eu lle hwynt â phoeth-wlybion *dysychawl* a pherlysiau.
Gwyliedydd, v. 47.

Dysychu, *v.* [sychu] 1. to desiccate, to exsiccate, to dry, to dry up; to absorb.

Digitized by Google

Y ulwydyn rac wyneb y bu gymeint gwres yr heul ac y *diesychawd* yr holl ddayar gantho hyt na thyfawd dim frwyth ar y coet na maes, ac na chahat pysgawt mor nac auonyd.—*Brut y Tywysogion*, 336.

Ti a doraist ffynnon ac afon: *dysychaist* afonedd cedyrn. *Llyfr Gweddi Gyffredin* 1567 (Salm. lxxiv. 15).

Gwellt ac yd yn amser eu tyfiad a *ddysychant* o gylch hanner eu pwys o ddwr beunydd.—*W. O. Pughe:* C.P. 28.

Llanwent y corff â myrr, cassia, a pherlysiau ereill (oddi gerth thus) i *ddysychu* yr irder.—*Gwyliedydd*, v. 47.

2. to become dry, dried up, or withered.

Ac ydd oedd yno ddyn A'i law ddeheu wedy *dysychu*. *W. Salesbury:* Luc vi. 6 (cf. Matt. xii. 10).

Dysyliad, -au, *sm.* [sylu] a substantiating.

Dysylog, *a.* compact, substantial; having a basis or foundation.—*P.*

Dysylu, *v.* 1. to make substantial; to substantiate.—*P.*

2. to found; to lay the basis of.

A phan ddaeth rhyferthwy, y curawdd y llifddwr ar y ty, ac ni allai ei ysgydwyd: o bleid ei seiliaw [*sylfaenu, *ddysylu*] ar y graig.—*W. Salesbury:* Luc vi. 48.

Dysyllgar, *a.* of quick observation.—*P.*

Dysylliad, -au, *sm.* a gazing; observation.

Dysyllog, *a.* having quick or keen sight, keen-sighted.—*P.*

Dysyllu, *v.* [syllu] to gaze; to observe.

Dysyllei trech tra manon
Disgleiryawr ac archawr tal achon.—*Taliesin:* A.B. ii. 98.

Dysyml, *a.* [syml] simple; plain; artless; unaffected.

Disemylaf gwreic a bonhedigeidaf y hannwyt ae hymdidan oed.—*Mabinogion*, 4.

Heb lygad *dysyml*, pur fwriad, a meddwl da, nid oes dim cymmeradwy ger bron Duw.
Ed. Iames: Hom. i. 6 (cf. ii. 142, 262, 289; iii. 288).

Iacob oedd wr *dysyml* yn cyfanneddu mewn pebyll.
Gen. xxv. 27.

Traddododd yr Aiphtiaid hefyd fod dyn yn y dechreuad yn byw yn *ddysyml* ac yn ddiniwaid.
Ed. Samuel: Grotius, i. 16.

Y mae yn gwisgo y wisg *ddysyml* o ostyngeiddrwydd.
Gwyliedydd, vii. 56.

Dysymlder, Dysymlrwydd, Dysymldra, Dysymledd, *sm.* simplicity, simpleness, plainness, artlessness, unaffectedness.

O *ddysymlrwydd* swydd gyfansoddwr, hardd
Enaid beirdd a'u clydwr.—*D. ab Gwilym*, v. 29.

Mae rhai pan glywant yr Ysgrythyrau yn peri ini fyw yn ddiofal heb fyfyrio na rhagfwriadu, yn gwatwaru eu *dysymldra* hwy. . . Yn gyntaf mi a adroddaf rai o'r lleoedd a dramgwyddir wrthynt o blegid *dysymlder* ac anghymhendod yr ymadrodd.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 290.

Mae hi 'n fodlon i'w harddwch naturiol ei hun, heb ammheu nad trwy y fath wir *ddysymldra* y boddlonai hi ef oreu.—*Ed. Iames:* Hom. ii. 142.

Yn y rhai y dywedir bod cymmaint o *ddysymlrwydd* a diniweidrwydd.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. i. iv. 7.

Dysymlwedd, *a.* of a simple, plain, or unaffected appearance.

Pedwaredd *disymlwedd* serch,
Y gain eglur-fain glaer-ferch.
Dafydd ab Gwilym, xxix. 15.

Dysymmwth, *a.*=*Disymmwth.*

Dyt, *int.* hold! stop! avast! stay! tut! See *Dyd*, a slight modification of the same word.

Ond *dyt! dyt!* ebai Robin Ddu, ac ef ar ei giniaw yn Llwydiarth, fe syrthiodd y maen addwyn.—*P.*

Dyt, dyt, ddyn! hold, hold, man! stop, stop, man!

Dyt! dyt! fachgen! stop! stop! boy!

Dythwn, *sm.*=*Dwthwn.*

Ac ni etyb y pencerdd iddynt y *dythwn* hyny.
Y Greal, i 332.

Dyun, *a.* [dy-+un] united, agreeing, accordant, concordant, harmonious.

Ac yna ymoralw yn *dukun* a orugant ar Uynyd Llewenyd.
Yst. de Carolo Magno, col. 481.

Ni bydd *dyun* dau Gymro.—Ni bydd *dyun* hun a haint.
Diareb. (M.A. iii. 166.)

Beth ygyt a hynny pei bydei bawp mor *dukun* a thi!
Llyfr Ancr, 67 (cf. 72).

Tri pheth a arddyrchafael gwr: gwraig *ddyun* ddiwair; arglwydd diwyd diwith; a difflais heddwch.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 258.

Dyundeb, *sm.* unity, union, concord, accord, agreement; consent; confederacy; compact. See *Dundeb.*

Ac ar hynny y dothyw y niueroed yr ty. ac y doeth gwyr o ynys Iwerdon yr ty or neill parth. a gwyr o ynys y kedyrn or parth arall. ac yngyn ebrwydet ac yd eistedassant y bu *duundeb* y ryngtunt.—*Mabinogion*, 38.

A hwnnw a duc y bobyl oc eu teruyse ar *duundeb*.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 64.

Doethant y erchy tagheved a *dyunndep* y ganthunt.
Brut. G. ab Arthur: M.A. ii. 151 (cf. 344).

Y mae ef tan gêl yn keissiaw *duundeb* y gwyrda yth ddistryw di.—*Doethion Rhufain*, § 6 (cf. 44).

Ny dichaun neb o gyureith dilyssu tir yn erbyn y etiuedyonn y arall onnyt ar eu kytles neu o *duundeb* neu o aghen kyureithawl.—*C.C.* i. 548 (cf. 176, 574).

Ac nyt lles gwrthot y neb a vynno tagneued a *dyundeb*.
Campau Charlymaen, § 85.

O *duundeb* y seint. *duhundeb* Lesius a Sipio. angkyssondeb vydei hynny gantunt wy.—*Llyfr Ancr*, 72 (cf. 67, 68, 75).

Nis dylai arglwydd a'i wlad hyny, ond o wybod a *dyundeb* ei gywlad, yn ddevodawl.
C.C. ii. 498 (cf. 122, 384, 500).

Y mae S. Paul, gwedy iddo annerch y broder, yn eu hannog i gyfundeb [*ddyundeb, gyttundeb].
W. Salesbury: Rhufeiniaid, Rhag.

Dyuniad, -au, *sm.* a uniting or agreeing; a confederating or joining together; uniou.

Dyuniant, *sm.* agreement, accord, concord; consent; union; confederation.

Dyuno, *v.* [uno] to agree; to unite; to confederate.

Yny *duunassant* ar geissaw eu llad.
Mabinogion, 48 (cf. 47, 49, 52).

Kannys y eneit oed gysselledic y Duw. a phann aeth ef ygkytemeithas y diawl. gann tremegv Duw. y kolles ef getymeithas Duw. am *duunaw* o honaw ac estron.
Llyfr Ancr, 14.

Pob cof llys, a phob deturyt gwlat gan tygu trwydaw berued y cofuaduryonn a thwg yssawl a *dunko* ac wynt o herwyd eu kytwybot.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 588.

Ny *dyunawd* neb or Ffreinc. ac nyt anuuawd namyn Gwenwlyd.—*Campau Charlymaen*, § 85.

A Phalamides a dywawt bot yn reit kyrchu Troea liw dyd y dangos eu gallu yn erbyn eu galon. ac ar hynny y *duunwys* pawb.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 18 (cf. 234).

Naw affeith tan. . . Eil yw *duunaw* ar neb a losco.
C.C. i. 412 (cf. 416, 588, 688).

A fan gicleu Gwinwas a Melwas rilat Gratian. sev a orugant winteu ena *dvhvnaw* ac wint e Gwitil ar Esgotieid ar Llichlinwir.
Brut Gr. ab Arthur (A): M.A. ii. 225 (cf. 254, 270).

A dywedyd iddynt . . . nad oedd iawn dioddef y sawl beryglau hyny o achaws un wraig, a'u bod yn alltudedd yn colli eu rhyddid, ac yn *dyunaw* breninedd cyhyd a hyny o amser.—*Ystori Dared*, § 76.

Dyunol, *a.* tending to agree; accordant; united.

O Lun Dain, len *dyunawl*,
Lledai, emynai ei mawl.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 102.

Dyurddo, *v.* [urddo] to ordain, appoint, or institute.

Derwyddon, brifon boreu-fyd, dewr-ddysg,
Dyurddent ei mawryd.—*Robert Owen:* Gweith. 229.

Digitized by Google

Dyw, -iau, *sm.* [L. *dies*; Ir. *dia, die, de*; Ga. *de, di, dia*] a day.

Os *dyw* Nydolig y cyffry hawl, ni chaiff ateb hyd drannoeth gwedy *dyw* Calan. Os *dyw* Pasc fydd, *dyw* Mawrth gwedy *dyw* Pasc Bychan. Os *dyw* Sulgwyn fydd, *dyw* Mawrth gwedy y Sul nesaf i'r Sulgwyn.
Leges Wallicae, II. iv. 54.

Dyw merchir gueleisse guir yg cvinowant
Dyw iev bv ir guarth it adcorssant.—*Llyfr Du:* A.B. 16.

Cyntaf y goruc ef engylyon nef. ac archengylyon. a hynny a oru ef ar *ddyw* Sul. *Dyw* Llun y goruc ef yr wybren. ar lleuat. ar heul. ar syr. y roddi goleuni o honunt. a *dyw* Mawrth y gwnaeth Iessu y moroedd. ar tiredd ar ffynhoneu. ar dyfroedd hallt a chroew. . . *Dyw* Mercher y goruc ef y pysgot yn y dyfroedd. ar ednot yn yr awyr y ehedec. . . *Dyw* Ieu y gorug Crist yr holl ysgrubyl y tir gwyllt a dof. . . *Dyw* Gwener y goruc ef Adda. . . . A *dyw* Sadwrn. wedy meddylyaw o honaw bob peth. y bendicodd ef y weithredoedd trwy ewyllys da. . . *Dyw* Sul rac wyneb y gorffwysawdd Duw. brenhin nef a daear.—*Ipotis*, ¶ 5.

Dyw Sul, Sunday. See *Dywsul*.

Ny dyly twg ar tir *dyw Sul* na *dyw Llun duw Sul* dyd gwediaw; *dyw Llun* dyd y lauuryaw.
C.C. i. 772 (cf. ii. 128, 470).

Dyw Sul dyd detholedic yw.
Llyfr Ancr, 152 (cf. 130, 142, 155, 156, 157, 158).

Doe, *ddyw Sul*, gweithredoedd Sion
A draethais hyd ar Ieithon.
L. G. Cothi, I. xxvii. 27 (cf. I. vii. 9).

Dyw Llun, Monday.

A chadw dyd Sul o bryt nawn dyw Sadwrnn hyt pann gyuotto yr heul *dyw llun.*—*Llyfr Ancr*, 158 (cf. 129, 156).

Dyw Mawrth, Tuesday.

Dyw mawrth y gwnaeth Iessu y moroed. ar tired.
Llyfr Ancr, 129.

Dyw Mercher, *Dyw Merchyr*, } Wednesday.

O dyw sul hyt *dyw merchyr* gwedy marw Dewi. ny lawssant na bwyt na diawt.—*Buchedd Dewi:* Ll.A. 117 (cf. 130).

A hwnnw a elwir yn Kymraec *duw merchyr.*—*M.A.* ii. 244.

Dyw Iau, Thursday.

A *dyw ieu* y goruc Crist. yscrybyl ym mynyded ac ymro.
Llyfr Ancr, 130.

Trydedd yn tori edau,
Er lladd iarll a'r llu *Ddyw Iau.*—*Guto'r Glyn.*

Dyw Gwener, Friday.

Dyw gwener y gwnaeth Duw Adaf . . . *dyw gwener* y deuth Gabriel angel yn gynnat at Veir . . . *dyw gwener* y beddydywyt Iessu Grist . . . *dyw gwener* y merthyrwyt Ystyphan verthyr . . . *dyw gwener* y lladwyt penn Ieuan vedydwr . . . *dyw gwener* y diodefuawd Iessu ym prenn y croc . . . *dyw gwener* y diodefuawd Meir angheu . . . *dyw gwener* y diodefuawd Onndras ar y groc . . . *dyw gwener* y kauas Elen Luydyawc y groc. . . *Dyw gwener* y merthyrywyt Peder a Phawl Ebostol. . . *Dyw gwener* y ryd Duw varnnedigaeth oe draet ae dwylaw ae ystlysseu yn waedlyt. ac am hynny kymeret pawb *dyw gwener* yn y gof y wneuthur molyant y Duw yndaw trwy vnprydyeu a gwedieu.—*Llyfr Ancr*, 136—137.

Sef yw hynny *duw gwener.*—M.A. ii. 244.

Be *Dyw Gwener*
No Iau sy well dan y ser:
Ys ydyw well *Ddyw Sadwrn*
No *Dyw Sul* yng ngwindai swrn.
L. G. Cothi, III. xxi. 13.

Lle llawen pob rhai pob *Dyw Gwener.*
L. G. Cothi, I. xix. 41.

Dyw Sadwrn, Saturday.

Ac yr vyn dayoni vy hun orffwys vdunt o awr nawn *dyw Sadwrnn* hyt awr prim *dyw llun.*
Llyfr Ancr, 156 (cf. 137, 158).

Coronhawyt Gwilym Bastart yn Llundein y gan Archesgob Iork *Duw Sadwrn* amgylch diwed mis Hydref.
Brut y Saeson: Ll.C.H. ii. 397.

Dyw Sadyrnwaith, a Saturday; a certain Saturday; on a Saturday.

Ac yd oedynt yno *dyw Satyrngweith* yd aeth Iessu y ware gyt a meibon ereill ar llofft.—*Buchedd Mair*, ¶ 30.

Dyw Awst, Lammas Day, the first day of August.

Dyw Awst, dwy keinawc kyfreith a tal.—*C.C.* i. 718.

Dyw Pasc, Easter Day.—*C.C.* i. 130.

Erbyn hanner dyd *dyw Pasc* yr oed ef ygyt ac athro.
Llyfr Ancr, 11.

Deugeinfed, yn nhai Beredur,
Yr oedd *Ddyw Pasc* am dda pur.—*L. G. Cothi*, VI. iii. 19.

Dyw Ynyd, the first day of Lent.

A dwy-noe cyn *dyw Ynyd*
Cael S ar ŵn Niclas Ryd.—*L. G. Cothi*, IV. xviii. 59.

Dyw Sul Ynyd, *Dywsul Ynyd*, } Quinquagesima Sunday.

Dyw gwyl, a holiday, a festival. See *Dygwyl*.

A *duw gwyl* Dewi rac wyneb yd eistedawd yn y gadeir yn eglwys Vynyw.—*Brut y Tywysogion*, 372.

Dyw Nadolig, Christmas Day.

Tri Phasc, tri Sulgwyn, fal pwynt o'r ffydd,
Tri *Dyw Nadalig* yw'r trydydd anwyl.
L. G. Cothi, III. i. 37.

¶ *Dyw* is sometimes found prefixed to the qualifying term, forming an improper compound; as *Dywsul* for *Dyw Sul*, &c. *Dyw Iau* in such cases usually becomes *Difiau* or *Dyfiau*.

Hi a wnaeth, im' ei hun,
Im' ryw dwyll mawr er *Dywllun;*
Doedyd, megys i hudol,
Dywmawrth y deuai i'm hol:
Dywmercher, wrth dy eirian,
Y gwnai oed, loer gannaid lân!
Difiau y gosodai oed,
A *Dywgwener* deugein-oed;
Os oed a wnai *Ddywsadwrn*,
Dywsul y gosodai swrn.
D. ab Gwilym, xxxiv. 5 (cf. xl. 2, 4; cxxix. 1—38).

Dyw, -iau, *sm.* =*Duw*. As *Dyw* is occasionally in the older language written for *Duw*, God; so *duw* is frequently used for *dyw*, day. Both forms are used almost indifferently in Salesbury's Testament (1567).

Dyw, dy nerth, ac yn dy nerth, dioddef . . .
Ac yng ngharlad *Dyw*, ac yn Nuw pob daioni.
Barddas, i. 360 (cf. 180, 362).

Tebygu gwneuthur dial ar yr rei y dygwydassei eu *dywyeu* oe hachaws. Yr temyl y mewn y doeth. ac yna y gweles yr holl eu *dywyeu*. . . Panebei duw hwnn ny dygwydassei yn *dywyeu* ny gar y vronn . . . peth a welwn ni yn *dywyeu* nyni yn wneuthur. ony wnawn ni yn gallach.
Buchedd Mair, ¶ 21.

Madfa oedd dda *dduw calan*
Lle y bai llanw ei dai o dan.—*M.A.* i. 500.

Duw sul un eiddun addef y creawdd
Creawdr rhad a thangnef . . .
Ynglân a'u engylion nef.
Gruff. ab Maredudd: M.A. i. 459 (cf. 53).

A *duw Sulgwyn* y dyly yr eistedua honn gaffael y meistyr.
St. Greal, ¶ 2.

A heb wneuthur dim o honaw namyn pan vydit ar yr aberth *duw Sul.*—*Mabinogion*, 76.

Pwy bynnac a gattwo *duw sul* santeid mi agoraf udunt fenestri nefoed.—*Ebostol y Sul.*

E borc *Duw Sadwrn* kat uawr a uu.
Taliesin: A.B. ii. 189 (M.A. i. 53).

Ac yn y templheu hynny amravaelyon kenveynnyoed urdassedyc y talu kynnevodyc wassanaeth dyledus y *Dyw* a ossodassant.—*Brut G. ab Arthur:* M.A. ii. 196.

Dywad, *sm.* [gwad, gwadu] a denial, a renouncing, a renunciation.

Sef yw mesur *dywad* coed a maes, rhandir gyfleithawl rhwng rhwydd a dyrys, a choed a maes, a gwlyb a sych.
Leges Wallicae, III. ii. 44.

Ny ddlyir rhoddi croes difwyn neu *ddiwat* heb greir yn y neill law.—*C.C.* ii. 718 (cf. 346, 712, 716; i. 700).

Dywad, *v.* [dywedyd]=*Dywawd* (=*dywedodd*).

Yna y *dywat* ef wrth y brenhin bot yn reit iddaw gael lle dirgeledic y vyddylyaw yg kylch swydd.
Doethion Rhufain, ¶ 33.

Yr hynny ny *dywat* ef y Beredur yr ystyr.—*Mab.* 203.

Digitized by Google

Hitheu a *dywat* vot yn da genti hi hynny.
Dares Phrygius: Ll.C.H. ii. 26.

Y Iessu a *dywat* yna wrth y niver val hynn.
Buchedd Mair, ‡ 32 (cf. 28, 30).

Y mab a *dywat* y mae Adaf a rodes Duw idaw vywyt ym paradwys. . . Y mab a *dywat* y mae seith defnyd.
Llyfr Ancr, 130 (cf. 80, 82, 83, 84, 85, 105, 106, 136).

Ac yna y *dywat* y vrenines wrth y niuer hwnnw.
Y Groglith, ‡ 17.

Hithau a *ddywad,* 'Fy ngweithredoedd y sydd anghyfrifus.'—*Marchog Crwydrad,* i. 5.

Dywad, *v.* [corr. of *dyfod:* see *Dwad*] to come.

Cennad i *ddywad* yn nes,
I fynegi fy neges.—*Dafydd ab Gwilym,* clii. 41.

Dywadiad, -au, *sm.* a denying; a refusing.

Dywadniad, *sm.* a taking to the heels; a running away.—*P.*

Dywadnol, *a.* using the feet; running away.

Dywadnu, *v.* [gwadn, gwadnu] to use the feet; to take to the heels; to run away.

Dywadol, *a.* denying; renouncing.

Dywadu, } *v.* [gwadu] to deny; to renounce;
Dywad, } to refuse.

Y neb a *diwatto* anreithaw arall rodet y kyffelyp iddaw.
C.C. i. 692 (cf. 416, 432, 688).

Llyna ual y mae am hynny. nac y adef llad awch tat chwi nac y *dywat* ny deuthum i.—*Mabinogion,* 235.

Y neb a *diwatto* coet a maes rodet lw degwyr a deugeint heb gaeth a heb alltut a thry wyr o honunt yn diouredawc o uarchogaeth a lliein a gwreic.
C.C. i. 688 (cf. 690, 692, 700, 706, 728; L.W. III. ii. 44).

Dyn wyf a ä dan ei wad,
Er nad ä 'r un a'i *dywad.*—*Hywel Cilan.*

Dywadwr, wyr, *sm.* one who denies, a denier; a refuser.

Dywaes, -au, *sf.* [gwaes] a warrant; an assertion.

Dywaesiad, -au, *sm.* an asserting, assertion.

Dywaesol, *a.* assertive, assertory.

Dywaesu, *v.* to warrant; to assert; to insist.

Ef yn atteb ny *dywaes* nac
Nac vchel na hanes.—*Llywarch ab Llywelyn:* M.A. i. 284.

Dywahanu, *v.* [gwahanu] to separate, to divide.

Dwy hynod, *dywahanent*
Drwy Syllwg, Morganwg, Gwent.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 433.

Dywaid, *v.* [dywedyd] =*dywed, dyweda* (*dicit; dic*). See *Dywedyd.*

A hynny a *dyweit* y kyfarwydyt eu kyfranc hwy.
Mabinogion, 42.

Paham y *dyweit* yr euengyl y mae y Veir Vagdalen yd ymdangosses ef yn gynntaf.—*Llyfr Ancr,* 21.

Dywaid! na phaid â'th dewi,
Od wyt wr, pwy ydwyt ti?—*D. ab Gwilym,* clxxi. 11.

Pa ddeall, pwy a *ddywaid,*
Beth o'i naws, mor boeth ei naid.—*W. Lleyn.*

Dywaid i mi, pa ddyn a drig
I'th lys barchedig, Arglwydd.—*Edm. Prys:* Salm. xv. 1.

Yr hwn ni *ddywaid,* ac ni wna
Ddim ond o'r da bwygilydd.—*Edm. Prys:* Salm. xv. 3.

Llyma Pwyll y Pader ae ddyall val y *dyweit* Hu Sant. Hu Sant o Seint Victor ym Paris a *ddyweit* o weddi y Pader val hyn.—*Pwyll y Pader,* ‡ 1.

Dywaid wrthyf ai er cymmaint y gwerthasoch y tir?
Dr. Th. Briscoe: T. N. (Act. v. 8).

Dywain, *v.* [gwain, gweini] =*Dyweinio.*

Dywal, *a.* [gwâl: cf. *gâl, galon*] fierce, ferocious, furious, raging.

Ac ymdangos mal llew *dywal* yn y arglwydiaeth yr rei drwc. a megys-oen ufyd yr rei da fydlawn.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 109.

A mynet a oruc yn eu plith megys llew *dywal* a vei yn hir heb vwyt.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 491.

A phan welas y mawrurydus Rys hynny ymwisgaw a wnaeth megys llew *dyfal* o galon a llaw gadarn a chyrchu y elynyon'yn wrawl.—*Brut y Tywysogion,* 242.

Ny diengis en trwm e lwrw Mynawc
Dywal dywalach no mab Ferawc.
Aneurin: Gododin, 356.

Pan allassant wy gyntaf talu drwc dros da wynt ae dangossassant eu twyll ac eu brat. ac a ladassant an kenedyl o *dywal* aerua.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 241.

Gweleis'y gleis a threis a thrallawd
Cletyual *dywal* diwyrnawd.—*Cynddelw:* M.A. i. 226.

Bleiddiau *dywal* a gyrchant am ben dy ddefaid di.
Sion Tr'efor: Buchedd Marthin.

Ond *dywal* ddial a ddaw
Ar Iorwerth, i'w hir wyraw.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 7.

Ni chydfydd doeth a *dywal.*—*Diareb.*

Hwn sydd o drawd
A *dywal* arwedd fal por uffern gerth.
W. O. Pughe: C.G. iv. 945.

Dywalder, -au, }
Dywaledd, }
Dywalrwydd, } *sm.* fierceness, ferocity, furiousness; fury; cruelty.

A gwedy peito ef ae *dywalder.* y llwngc ef eu kig. ac eu heskyrn.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 151 (cf. 144, 153, 154).

Da a ryd y leu *dywaled* y vedyd.
Taliesin: A.B. ii. 162 (M.A. i. 36).

Distrywa ditheu arglwyd gedernit y gaer honn . . . ac oth vreich anorchvygedic. yny adnapo y genedyl paganyeit yssyd yn ymdiret yn eu *dywalder* ehun gan dy dremygu ditheu dyuot yn Duw buw Brenhin holl vrenhined holl gyuoethawc kanhorthwywr Cristonogyon ac eu hamdiffynnwr.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 498.

Gwedy gwelet o nadunt nat oed un wlat a alley gwrthwynebu dym y *dywalder* a chreulonder Bely a Bran o kytsynhedygaeth Senedwyr Ruveyn y doethant y erchy tagheved a dyunndep y ganthunt.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 151 (cf. 219).

Ac y ganthaw ef y dysgawd y Saesson kreulonder a *dywalrwydd* eu bryt ae medwl.
Brut y Saeson: Ll.C.H. ii. 391.

Gwedy klybot o bawb *dywalder* a chreulonder e Brytanyeyt a lladedigaeth er aerva ry ledessyt ffo wnaey a pawb onadunt.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 219.

Dywalgath, -od, -au, *sf.* [dywal+cath] a tiger-cat.—*Dicts.*

Dywalgi, gwn, *sm.* [dywal+ci] a tiger.

Y *Dywalgi* sydd ychydig fwy a chryfach yn ei wneuthuriad na'r llew. . . Ei anorchfygol ffyrnigrwydd sy gyfryw, fel nad oes un creadur, bid gryfed ag y bo, nad ydyw y *dywalgi* yn ddigon eon i ymosod yn ei erbyn. . . Mae cryfder y *dywalgi* yn fawr iawn, wrth ei gymharu â'i faintioli.
Gwyliedydd, ii. 106.

Hwyrach mai yr anwybodaeth hyn a barodd i ryw ddyhirod Gwyddelig deithio drwy ranau o Gymru yn yr haf diweddaf, gan ddangos *dywalgi* yn lle llew.
Cylchgrawn, i. 7 (cf. 19, 351).

Mal anwar *ddywalgwn,* i'r frwydr ymruthrent,
Gan amled a'r tywod, yn lluoedd dirif.
Robert Owen: Gweith. 245.

Cynnwysent lewod, *dywalgwn,* beidd gwylltion, antelopiaid, ac adar amrywiaethog.—*Brutus:* Ninefeh, 91.

Yr oen a'r blaidd creulawn gydborant yn heini,
A llon-dorf fachgenaidd dywysa'r *dywalgi.*
Gwyliedydd, v. 379.

Mae ei syched fel *dywalgi,*
Dim ond gwaed a ddofa'i lid.—*Caledfryn:* Caniadau, 234.

Gwyddys yn dda fod ynys Ceylon yn yr India yn heiniaw o elephantiaid, *dywalgwn,* a nadredd.—*Llevad yr Oes,* ii. 65.

¶ The tiger belongs to the feline family, and not to the *canidae,* as the word *dywalgi* would suggest. See note s.v. *Dyfrgi.*

Dywalgïaidd, *a.* tigrish, like a tiger.

Dywalgïes, -au, *sf.* the female tiger, a tigress.

Newydd i ni wthio y cwch oddi wrth y lan, daeth y *ddywalgïes* ar ein hol yr ail waith mewn cynddaredd ofnadwy.—*Gwyliedydd,* ii. 106.

Digitized by Google

Dywalhâd, *sm.* [dywal] a becoming fierce; a making fierce or furious.

Dywalhaol, *a.* tending to make fierce.

Dywalhau, *v.* 1. to become fierce or furious.

Ac yndi ehun y llafurya y *dywalhau*.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. ii. 145.

Ac val yd oed Nynnyaw ar wed honno yn *dywalhau* yn erbyn y elynyon y nachaf Labienus tywysawc yn kyvarvot ac ef ac yn y lle ar y kyvranc kyntaf Nynnyaw ae lladawd.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 176.

2. to make fierce; to harass or annoy.

Yn wychyr y kyrchassant hwnt ac yman. vn o bop parth yn gyffredin yn *dywalhau* ac yn blinaw bydin yr amherawdyr.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 226.

Dywaliad, *sm.* a becoming fierce or enraged; a making fierce or furious.

Dywalrwydd, *sm.* =*Dywalder*.

Dywalu, *v.* to become fierce; to make furious.

Megys baed neu lew yn ruthraw uelly y *dywalei* y greulonder yn y elynyon.—*Brut y Tywysogion*, 246.

Dywall, *a.* [gwall] 'apt to shed or pour; prodigal;' vacant, empty.

Ny dyly yr arglwyd adaw y orsset pan el yr ynat allan y varnv os gedy gorsed *dywall* vyd.—*C.C.* ii. 250.

Dywallaw *v.* [dywall (gwallaw): cf. *tywall*, *tywallt*] to pour out; to empty; to shed.

Dywallaw di y corn argynvelyn
Anrydedus vetw o vet gorewyn.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 265 (cf. 266 fq.).

Duw dewin gwertheuin gwyrtheu
Dywallaw atan rann oth radeu
Dynyaton defnytyeist yth oteu
Dynyawl dyn donyawc wyf uinnheu.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 330.

Dywalledig, *pt.a.* poured or shed abroad.

Dywalliad, -au, *sm.* a pouring out, a shedding.

Dywalltrain, *v.* =*Difalltrain*.

Dywan, *sm.* [gwân, gwanu] a parting off; severance.—*P.*

Dywanfa, fäu, *sf.* 'a digression, a wandering or straying;' a rapid movement.

Ar y ddywanfa wyllt, in great haste, at full speed.—*S.E.W.*

Dywaniad, -au, *sm.* 'a digressing, a wandering, or coming by chance;' a lighting or coming (upon).

Dywanol, *a.* 'tending to part off;' moving hastily; lighting on.

Dywanu (ā), *v.* 1. to go or come by chance; to light or come (upon); to happen to find; to go by chance or accident; to hasten (to).

A *dywan* attaf ac attep ked
Ac yrofi na chel vy ryweled.—*Cynddelw:* M.A. i. 217.

Dygychwyn gennad gadyr ardal teulu
Teilwg met o vual
A *dywan* Dyno Bydwal
A dywed am dyuod Yal.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 268 (cf. 267, 424).

Ar hynny dydgweith nachaf Efnyssyn . . . yn *dywannu* y letty meirch Matholwch.—*Mabinogion*, 28.

Ac yna y *dywanawd* Bawtwin y urawt at Rolant yn y lle ydoed yn ymgreinyaw.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 487.

Dywanu ar, to light on; come to by chance; to fall on; to see or espy accidentally; to come by.

A bot defnyd y chwedyl hwnn yg kyfoeth yr amherawdyr Arthur heb *dywanu* neb *arnaw*. Ha wyr heb yr Owein ponyt oed da myuet y geisaw *dywanu ar* y lle hwnnw . . . ac yn y diwed y *dywanawd ar* y glynn.—*Mabinogion*, 170.

Ac yn y diwed *dywannu* a wneuthum *ar* y glynn teckaf yn y byt.—*Mabinogion*, 163.

Am derfynu rhwng cantrefoedd neu gymydeu, neu le y *dywano* dyn *ar* ladd celain.—*C.C.* ii. 664.

O deruyd y deudyn colli yr vn ryw beth, a *dywanu* or neill *arnaw* . . . bit berchennawc ef.—*C.C.* ii. 72.

Marchogaeth a oruc ef yny vu bryt gosper. Ac yna ef a *dywanawd ar* gyuanned yn y fforest gwedy y damgylchynu o dwfyr tec redegawc.—*St. Greal*, ‡ 101.

Wy a welynt. ac a *dywanassant ar* weirglawd diruawr.
Campau Charlymaen, ‡ 5.

2. to hasten, to hurry; to scamper.

Mi a ddywanaf cyn gynted ag y gallaf, I will scamper as fast as I can.—*Gwent*.

Dywanu ffwrdd fel lleidr, to skulk away like a thief.—*Gwent*.

Dywarnod, -au, *sm.* =*Diwarnod*.

Dywarth, -au, *sm.* [gwarth] a covering, a veil, an envelope.

Gorwyn blaen redyn melyn
Kadawarth. mor vyd *diwarth* deillon:
Redegawc manawc meibon.—*Llywarch Hen:* A.B. ii. 253.

Dywarthiad, -au, *sm.* a covering over or enveloping; a being uppermost; a being conveyed; a carrying or conveying.—*P.*

Dywarthu, *v.* to cover over; to be uppermost; to be borne; to carry, to bear.—*P.*

Da genyf ei digonedd
Dywarthu ei byd wrth ei bodd.—*Lewys Mon.*

Dywarthu dyn i'r bedd, to carry a person to the grave.

Dywasg, *sm.* [gwasg] a constriction, a compression.—*P.*

Dywasgar, *sm.* [gwasgar] a dispersion.

Dywasgariad, -au, *sm.* a scattering, dispersion.

Dywasgarol, *a.* scattering, dispersive.

Dywasgaru, *v.* to scatter about; to disperse, to scatter.

Dywasgar cynnygyn rag dyrain.
Gwalchmai: M.A. i. 199.

Dywasgiad, -au, *sm.* constriction, compression.

Dywasgodawl, *a.* [gwasgodi] sheltering.

Dywasgodfa, fëydd, fäu, *sf.* [gwasgodfa] a place of shelter, a shelter.

Afallen beren bren eil wyddfa
Cwn coed cylch ei gwraidd *digwascotwa*
A mi ddysgoganaf dyddaw etwa
Medrawd ac Arthur modur tyrfa.—*Myrddin:* M.A. i. 153.

Dywasgodi, *v.* to shelter; to protect.

Dywasgodiad, *sm.* a sheltering, a protecting.

Dywasgryn, *sm.* [gwasgryn] agitation; a trembling; tremor.

Dywasgryniad, *sm.* an agitating, agitation.

Dywasgrynu, **Dywesgrynu**, *v.* to cause to tremble; to agitate; to tremble.

Dygwesgryn drudwyn drudwyr Llundain.
Gwalchmai: M.A. i. 200.

Dywasgu, *v.* [gwasgu] to press hard.

Mae fel oen distaw, dan drwm flin dostur,
Er a *ddywasga* ei arw ddwys-gur.
Caledfryn: Caniadau, 90.

Dywawd, *v.* [dyweyd, dywedyd] 3rd pers. sing. pret. of *Dywedyd*, the same as *dywedodd* (*dixit*), now archaic.

Marchawc a gyuodes y vynyd. ac a *dywawt* val hynn.
Mab. 5 (cf. 6, 7, 10, 24, 39, 212, 213).

Digitized by Google

Yno i *dywawd* Eleri
O chredir llyfr Genesi.—*M.A.* i. 182.

Bwrt a *dywawt* na welas eiryoet dyn debygach y Lawnslot noc ef.—*St. Greal*, ‡ 2 (cf. 3, 5, 6, 9, 11, 12, 13).

Ac yna y *dywawt* rei wrthlaw a oedynt yn trigyaw y gyt ac ef drwy ewyllys da.—*Brut y Tywysogion*, 120.

Arthur a *dywawt* ual hynn wrthunt.
Yst. Bren. Bryt.: Ll.C.H. 205 (cf. 112, 113, 178).

Ac yna y *dywawt* Hu trwy y lit bot yn iawnach y Chyarlys pan uei vedw kysgu.—*Ystoria Charles*, 13.

Ny *dywawt* y philosofwyr eiryoet dim amgen.
Meddygon Myddfai, i. 175.

Minnau atebais i'r Brawd
Am bob gair a'r a *ddywawd*.—*D. ab Gwilym*, cxlix. 35.

Crist ffyddlon, ffynnon y ffawd,
I'w ddiwarth bobl a *ddywawd*.—*Rhys Goch Eryri.*

Am feirdd Seth y *dywawd* eu dysgybl.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 554.

Dywawl, } **Dywyawl,** } *a.* [Dyw=Duw] =*Dwyfol.*

Yna drwy wir garyat a chwbyl ewyllys dy gallonn glut uedylya am brif degwch y karueid uab *dywywawl* a dywetpwyt vchot.—*Cyssegrlan Fuchedd:* Ll.A. 98.

Yna yd aeth y *dywawl* oleurwyd ymywn yn arderchawc. hyt na diffodei goleuat yndi nac yn nos. nac yn dyd.
Buchedd Mair, ‡ 13.

Dywedadwy, *a.* [dywedyd] that may be said, spoken, or related; about to be said, spoken, or related; speakable, effable, utterable.

Bellach *dywedadwy* yw o rann Walchmei. ac o anturyeu y milwyr ual y kyfaruu ac wynt.—*St. Greal*, ‡ 70.

Dywedadwy yw rac llaw o achwannec kyureith dylyedus y chynnal.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 594 (cf. 588).

Dywedadwy yw rac llaw o beth o uuched Veuno ae wyrtheu.—*Buchedd Dewi:* Llyfr Ancr, 118.

Dywedawdr, odron, *sm.* a speaker.

Pob ymadrawd amrafael dyall y *dywedawdyr* bieu dyallu.
Cyfreithiau Cymru, ii. 398.

Dywededig, *pt.a.* [dywedyd] said; spoken, uttered, mentioned.

Dywededic yw hyt hynn o gyureith Hywel Da.
C.C. i. 594 (cf. 588; ii. 450, 452, 456, 470).

Yn y ulwydyn honno y diegis Meuruc uab Gruffud nei y *dywededic* Uadawc oe garchar.
Brut y Tywysogion, 184 (cf. 82, 118, 122, 244).

Kymryt hynt a oruc tu ar *dywededic* gastell. A gwedy y aruoll yn enrydedus or *dywededigyon* uarwneit yno pebyllyaw a wnaeth.—*Brut y Tywysogion*, 174 (cf. 238, 348, 364).

Lle ynt adnepit gallu oe awdurdawtwyr ef wneuthur teruyn teilwg dylyedus herwyd y kyfreith ef yn y lleoed *dywededigion* tragywedolyon.
C.C. ii. 358 (cf. 386, 452, 464, 466).

Gwedy ydh aruerych or *dywededicion* gampau uchot . . . rait yw yt, ymrodhi o gwbyl o galon ac enait a medhwl yr *dywededic* anwylserch.—*Ymborth yr Enaid*, ‡ 18.

Or pan losges y *dywededic* dan Degannwy hyt varw Meruyn Vrych.—*Ll.C.H.* ii. 404 (cf. 166, 254).

Reit yw ytt ymrodi yn gwbyl o galonn. ac eneit a medwl yr *dywededic* annwylserch dwywawl garyat a dywetpwyt vry.—*Llyfr Ancr*, 90.

Ac yny bydynt *dywededigyon* y petheu ef a tynnawd y mab ofyn oe calloneu.—*Buchedd Mair*, ‡ 19.

Hyd onid adnewydder y *ddywededig* ddysgyblaeth.
Llyfr Gweddi Gyffredin.

Pa un gymhwysaf ai ffurf ysgrifenedig ai ffurf *ddywededig* ddibyfyr?—*Gwyliedydd*, i. 174.

Dywedgar, *a.* loquacious, talkative, garrulous; fond of speaking or talking; given to much speaking.—*W.*

Loquax, siaradus, llafar, *dywedgar*, rhuadus.—*D.*

Dywedgarwch, *sm.* loquacity, loquaciousness, talkativeness, garrulity.—*W.*

Loquacitas, llafarder, gormodd siarad, *dywedgarwch.*—*D.*

Dywediad, -au, *sm.* a saying; an expression; utterance; diction.

Tri pheth rhyfedd a sydd yn y byd gan gymmaint o wahaniaeth y sy rhyngddynt: wynebau dynion; *dywediad* dynion; ac ysgrifenadau dynion.
Triodd Mors: M.A. iii. 193.

Yn gymmaint nad ynt y llythyrenau yn un *ddywediad* nac yn un draethiad yn Sasneg ag yng Nghymraeg.
W. Salesbury: Geiriadur (1547), Rhag.

Er nad yw hyn ond *dywediad* lleddfol.
Morus Cyffin: Diff. iv. 22.

Nid oes yn y *dywediad* hwn ddim heb law anwybodaeth.
Gwyliedydd, v. 81.

I brofi mai gwirionedd oedd ei *ddywediadau*, daeth allan gyda ni.—*Cawrdaf:* Meudwy Cymreig, 138.

Hen ddywediad, an old saying.

Dywediadau y doethion, the sayings of the wise.

Dywediad cyffredin, a common saying.

Y mae hyn yn *ddywediad cyffredin;* Ni wnel gynghor ei fam, gwnaed gynghor ei lysfam.
H. Perri: Egluryn Ffraethineb, xv. 3.

Dywedig, *a.* [=dywededig] said; spoken, uttered, expressed.

Dywedic yw hyt hynn o dalym o uuched Dewi ae wyrtheu.
Buchedd Dewi: Llyfr Ancr, 118.

Hywel da . . . a ossodes yn y gyfreith ef goruót a pherthynu erbynyaw dyall canhonwyr y dosparth perigl a pheturuster amryssoneu *dywedigion*.—*C.C.* ii. 358 (368, 470).

Gwedy aruerych or *dywedigyon* campeu vchot drwy ochel y gwydyeu. ac ymwrthot ac wynt. ac o syrthy yndunt vedyginaetheu y brathev drwy y medyginaethev a dywetpwyt vry.—*Cyssegrlan Fuchedd:* Ll.A. 90.

Dywedol, } **Dywediol,** } *a.* speaking; saying; talking; talkative.

Eneas, gwr ooch pedrogl, *dywediawl*, a chadarn, á gwir; cynghor hynaws oedd ganthaw; a llygaid duon llon oedd iddaw.—*Ystori Dared*, ‡ 36.

Cressida, gwraig deg oedd a bechan . . . hyar, a *dywediawl*, a goful, a chywilyddus oedd.—*Ystori Dared*, ‡ 54.

Dywedwst, *sf.* [dywed+gwst: cf. *gwedwst*] taciturnity; the mumps or dumps.

Y mae ef yn y ddywedwst, } he is in the mumps;
Y mae y ddywedwst arno, } he is very taciturn.

Dywedwst, *a.* taciturn; mumpish, dumpish.

Nathan, pan glybu'r newydd o aflwyddiant ei garedigol Fessïah, fe a ddechreuodd fyned yn *ddywedwst* ac yn afrywiog.—*W. Lewes:* Dwy Daith, 150.

Y mae ef yn *ddywedwst* iawn pan fyddo yn agos i fl.
Haul, C.C. vii. 231.

Dyn dywedwst, a taciturn person.

Dywedwyd, *v.* [=dywedyd] to say, to speak, to utter.

A *dywedwyt* a oruc ry dyhol ae ry wrthlad o tervyneu er Hespaen.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 157 (cf. 168, 236, 240, 314).

Dywedwydiad, -au, *sm.* a saying; speech.

Pryderi heb ef mi a vydaf wrth a dywedeisti. Pa *dywedwydat* oed hwnnw heb y Riannon.—*Mabinogion*, 45.

Ef a glywei y drablud yn y capel. ac a glywei barth yn dywedut yn issel ar llall yn dywedut yn uchel. ac a adnabu ar eu *dywedwydyat*. bot rei onadunt yn engylyon. ar lleill yn dieuyl.—*St. Greal*, ‡ 76.

A phan trymaf y heint yn y chwechettyd colli o honaw y bwyll. a chan orthrymet vu y heint ac y colles y *dywedwytat*.—*Llyfr Gwyn Rhydderch*, 86.

Dywedwydiad, iaid, *sm.* a talker, a babbler.

A phob camp da a oed arnaw heb neb ryw uileindra. y gyt a hynny heuyt nyt oed *dywedwydyat*.—*St. Greal*, ‡ 71.

Dywedwydol, *a.* talking; talkative, loquacious.

Diomedes, gwr cadarn pedrogl, á chorff gweddus iddaw; a gwychr yn ymladd; a *dywedwydawl*, ac ymenydd gwreiawg, a drycianus oedd a glew.—*Ystori Dared*, ‡ 47.

Dywedwydawl nid ydwyd,
Distaw yn addaw in' wyd.—*Dafydd Llwyd Gorlech.*

Digitized by Google

Dywedwyddiad, -au, *m.* } *s.* utterance; dic-
Dywedwyddiaeth, -au, *f.* } tion; pronunciation. See *Dywedwydiad*.

Sef yw hyny, *dywedwyddiad* y gair. . . Deallir wrth hyn *dywedwyddiaeth* sillafau.—*Edeyrn:* Dosparth, 20.

Dywedyd, *v.* [gwedyd] to say; to speak; to tell; to utter.

Dywedyd is a regular verb, but it has in addition a few irregular forms; as *dywad* (q.v.) =*dywedodd; dywaid* (q.v.) =*dywed, dyweda; dywawd* (q.v.) =*dywedodd.*

Yna y *dywawt* Gwalchmei wrth Gei. Ti a allut *dywedut* a uei hygarach pei as mynhut. . . Yna y *dywawt* Arthur wrth Walchmei. mal doeth a phwyllic y *dywedy* di. . . Dyuot a wnaeth Gwalchmei attaw heb arwyd creulonder gantaw. a *dywedut* wrthaw.—*Mab.* 213.

Dywedwch idaw nyt a y mi y rei hynn heb hi. ef a *dywetpwyt* idaw hynny. Ie heb ynteu. ny lunyaf i esgydyeu idi yny welwyf y throet. a hynny a *dywetpwyt* idi.—*Mab.* 70.

Yn y amser ef y gnotaei henafyeit y teyrnas *dywedut* bot y gyfoeth ef or mor py gilyd.—*Brut y Tywysogion*, 36.

Yr ymdidan yssyd yn *dywedut* gwedy ymwahanu Gwalchmei y wrth y gedymdeithyon uarchogaeth o honaw heb gyfaruot chweith antur. . . Arglwyd heb y Gwalchmei. ef a welir ymi yn herwyd a *dywedy* di. . . Titheu a elly *dywedut* ym ym pa Gas ydwyfi yn gyndrwc ac y *dywedy* di. Nys *dywedaf* ytti heb ef. ac eissyoes ti a geffy yn ehegyr ae *dywettio* ytt.—*St. Greal*, ¶ 15.

Am eireu gwarthredus a *dywetto* dyn wrth arall kyn gwnel y diwetha erbyn *dywedut* yn kynta ny daw cosp arnaw y arglwyd er *dywedut* y kyfryw eireu a *dywetter* wrthaw ynteu.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 382.

Hitheu a *dywat* vot yn da genti hi hynny. . . A Priaf a *dywawt* na ellit uelly.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 26.

Y kyntaf amgen a gospir o gamlwrw val y *dwespwyt* fry. *C.C.* ii. 362.

Ac y *dwespwyt* yr amherawdyr o welet y llu yn disgynnv yn ymyl y lu ynteu.—*Mab.* 90.

Ac yna ef a *dwespwyt* y Elen ry dyuot Alexander uab Priaf vrenhin.—*Dares Phrygius:* Ll.C.H. ii. 10 (cf. 63, 252).

Y march da a uuassei eidaw Carmel o Tabari ual y *dywetpwyt* vchot.
Yst. de Carolo Magno, col. 433 (cf. 404, 470, 496).

Guastrawt auwyn galannas a sarhaet ysyd idaw mal y *dywetpwyt* vry.—*C.C.* i. 384 (cf. 356, 402, 406, 434, 540, 778).

Ef bieiuyd deu le hyt dydbrawt y rei a *dywetpwyt* vchot. *Ll.A.* 105 (cf. 90, 91, 100, 128, 147).

Ni ellir am hyny yn uniawn *dywedyd* ei fod ef yn *dywedyd.*—*Ed. Iames:* Hom. ii. 187.

Efe a orchymmynodd hefyd am bwy bynnag a droseddai ddim a'r a *ddywedpwyd* neu a'r a ysgrifenwyd uchod . . . gymmeryd pren o'i dy ef ei hun, a'i grogi ef arno.
1 *Esd.* vi. 32.

Y popul a atebawdd, ac a *ddyfawt*, Y mae cythraul genyt. . . Yr Iesu a atebawdd ac a *ddyfod* wrthynt.
W. Salesbury: Ioan vii. 20, 21.

Dyn a ymrotho ei hun gan hawl cyflawnder a fo arno parth ei gydwybod i ddienydd am ddrwg argyweddus cospedig a *ddyweto* ef iddo ei wneuthur.—*Barddas*, i. 350.

Keluyd ny dygret a *ddywetto.*
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 326.

Dywedais o'r blaen, ac yr wyf yn *dywedyd*, ac a'i *dywedaf* hefyd rhag llaw, fod mwy o'r rhai colledig nag o'r rhai cadwedig.—2 *Esd.* ix. 15.

O ran ei fod yn hanfod (fel y *dywedpwyd*) o hono ei hun.
Ed. Samuel: Grotius, i. 5.

A'r ail a gedwir yn yr Ysgrythyr Lân, fel y *dywespwyd* eiswys.—*Cyfrinach y Beirdd*, 30.

Er ised y *dywedai*
Hywel, rhoi'n uchel a wnai.—*Huw Cae Llwyd.*

Ac o wir awenbwyll y deallir fwy o'r pethau hyn nag a *ddywespwyt* yma.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 580.

Dywedir, it is said; they say; it will be said.

Ac ef a *dywedir* dyuot arwydon y angeu ef deir blyned kynn y uarw.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 496.

Dywedyd y gwir, to tell or speak the truth.

Ac val yd oed rei onadunt yn amheu beth a *dywedai* ae *gwir* ae geu.—*Yst. Bren. Bryt.:* Ll.C.H. ii. 47.

Dywedwch y gwir bob un wrth ei gymmydog.
Eph. iv. 25 (cf. Sech. viii. 16).

Dywed i mi (*pl.* dywedwch i mi), tell me.—*Act.* v. 8.

Gan ddywedyd, saying.

Yna yr atebais, *gan daywedyd.*—2 *Esd.* ix. 14.

Yna y cyflawnwyd yr hyn a *ddywedasid* gan Ieremïas y prophwyd, *gan ddywedyd.*—*Matt.* ii. 17.

Dywedydiad, -au, *sm.* [dywedyd] a saying; an expression.

Am yr hyn y dinystrodd ef yn gyflon lawer o genedlaethau, yn ol *dywedydiad* S. Pawl.
Edward Iames: Hom. ii. 263.

Dyweddedig, *pt.a.* joined, united together.—*P.*

Dyweddi, ïau, ïon, *sf.* [gwedd] 1. betrothal, betrothment, espousals, affiance, nuptials.

Kannyt cwbyl y *dywedi* yny daler y hamobyr.
Cyfreithiau Cymru, ii. 78.

Ecuba a anfones gennadwri at Achel i fynegu iddaw ddarfod i Briaf ganiadu y *ddyweddi* y rhyngthaw a Pholicsena.—*Ystori Dared*, ¶ 84.

Daw byd ac amser yn yr hwn y gwneir *dyweddïon* a phriodasau rhwng yr etifeddion dan eu hysnodenau.
B.M. Ms.

Edrychwch ar y brenin Salomon yn y goron â'r hon y coronodd ei fam ef yn ei ddydd *dyweddi* ef.
Can. Sal. iii. 11.

Cofiais di, caredigrwydd dy ieuenctid, a serch dy *ddyweddi.*—*Ier.* ii. 2.

Cân ddyweddi, a nuptial song.

A chôr nefolaidd canai *gan ddyweddi.*
W. O. Pughe: C.G. iv. 777.

2. (*sc.*) an espoused or betrothed person (husband or wife), a spouse; a bride.

Galanas o bell, *dyweddi* o agos.
Diareb. (M.A. iii. 156; cf. 155.)

Yna efe a weddïa am ei dda, am *ddyweddi* iddo ei hun, ac am blant.—*Doeth.* xiii. 17 (cf. viii. 2).

Er eu bod hwy yn eu tybio eu hunain yn addas *ddyweddi* i'r tair tywysoges fry, eto nid yw eu gallu a'u dichell ddim wrth y rhai hyny.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 25.

Daethym i'm gardd, fy chwaer a'm *dyweddi.*
Can Sal. v. 1 (cf. iv. 9, 10, 11, 12).

Hardda a thrwsiada hi, fel yr ymfodlonech ynddi megys priodfab yn ei *ddyweddi.*
Robert Llwyd: Llwybr Hyffordd, 454.

Aed eich eneidiau nefol-anedig ym mhob dyledswydd, gyd â'r *ddyweddi* glaf o gariad.
Sam. Williams: Amser (1724), 27 (cf. 28).

Os hapia yn hen boen neu haint,
Ac anhunedd gan henaint,
Y hi, y *ddyweddi* dda,
I'th ddydd ing a'th ddiddana.—*Sion Phylip.*

Yn awr y gwelir y *ddyweddi* bur,
Yn llu banerawg mewn ofnadwy wedd.
Robert Owen: Gweith. 90.

Dyweddïad, -au, *sm.* a betrothing; an affiancing; betrothment; espousals.

Cyflawnid y *dyweddïad* ddeuddeg mis neu ragor cyn y briodas.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iv. 122.

Dyweddïedig, *pt.a.* betrothed, espoused, affianced.

Dyweddïo, *v.* to betroth, to espouse, to affiance.

Wedi *dyweddïo* Mair ei fam ef â Ioseph.
Matt. i. 18 (cf. Luc i. 27; ii. 5).

O bydd llances o forwyn wedi ei *dyweddïo* i wr.
Deut. xxii. 23 (cf. 25, 27, 28).

Rhad Yspryd Duw, yr hwn y mae dyn pan y gwnaed wedi ei *ddyweddïo* ag ef.—*Dr. Davies:* Llyfr y Res. ii. i. 22.

Y mae gwir Eglwys Dduw megys gwraig ddiwair, gwedy ei *dyweddïo* ag un gwr.—*Edward Iames:* Hom. ii. 142.

Dilynir y weithred o *ddyweddïo* ym mysg Iuddewon yr oesoedd diweddar gan ammodrwym ysgrifenedig tra ffurfiol.—*Gwyddoniadur Cymreig*, iv. 122.

Digitized by Google

Dyweddïol, *a.* relating to betrothal; espoused; nuptial; conjugal.

Nid cyflawn i neb droi serch *dyweddïol* oddi wrth a'i dylai.—*Barddas*, i. 280.

Ti olaf, *dyweddïawl* fwd, yn hardd
O bob melusion genyf wyt, pa fodd
Y gadaf di?—*W. O. Pughe:* C.G. xi. 283 (cf. iv. 544).

Dyweddïwr, wyr, *sm.* one who makes a contract of marriage between two persons.—*P.*

Dyweiniad, -au, *sm.* [dyweinio] a bringing onward; conveyance.

Dyweinio, *v.* [gwain (gweini): cf. *arwain, cywain*] to bring onward, to convey, to convene, to bring, to introduce.

Dywain ef, ni ad yn ol
Anrhydedd fwy na'r hudol.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 286.

Trwy *ddywain* priv ddoethion cenedloedd y Cymry, yn wyr llys a barn yn ngorsedd ddygynnull Cymru benbaladr. *C.C.* ii. 538.

A'r pryd hyny y derbyniasant ein cenedl ni o Gymry y Ffydd yng Nghrist drwy Bregeth yr Abostolion Santaidd; yr hon Ffydd a *ddygweiniwyd* gyntaf i Ynys Prydain gan Sioseb o Arimathia.—*Llywelyn Sion:* Cyfrinach y Beirdd, 7.

Dyweiniol, *a.* forwarding, conveying; helping.

Dyweiniwr, wyr, } *sm.* one who brings for-
Dyweinydd, -ion, } ward or promotes; a forwarder, a promoter.

Dyweled, *v.* [gweled] to see, to look, to observe, to notice, to perceive.

Dywel, fy nghâr a'm cyfaill, y dderwen hon a orweddaf wrthi.—*Iolo Mss.* 189.

Dywelwi, *v.* [gwelwi] to grow, become, or turn pale; to pale.

Y dwylaw, ow! *dywelwynt*,
Ym merwawg awch môr a gwynt.
Robert Owen: Gweith. 147.

Dywellâd, *sm.* [gwellâd] improvement.

Dywelldd tir drwy ddyfriad sydd o bwys cyntaf.
W. O. Pughe: C.P. 27.

Dywellyg, *a.* [dywall] fallacious, failing.

Dywellygiad, -au, *sm.* a failing, a lapsing.

Dywellygio, *v.* to cause to lapse; to fail.—*P.*

Dywellygiol, *a.* apt to fail or lapse.

Dywen, -au, *sf.* [gwên] a smile; glad mien.

Dyweniad, -au, *sm.* [dywen] a smiling.

Dywenol, *a.* smiling; looking joyous or propitious.

Dywenu, *v.* to smile; to be glad; to make glad, to amuse.

Mein uchel medel y alon
Dyuen ar Uarchan Adebon.
Taliesin: M.A. i. 60 (cf. A.B. ii. 94).

Yr elyffant mor amrosgo ceisiai eu
Dywenu, a dynyddai ei rynswch blydd.
W. O. Pughe: C.G. iv. 383.

Dywenu sydd dan y ser,
Llaw ein Llyw'n lloni llawer.
Robert Owen: Gweithiau, 102.

Dywenydd, *sm.* [dywen: cf. *llawenydd*] joy, pleasure, delight, gladness, happiness.

Ny thawn pei bytwn keluyt
O uoli Mab Duw *dywenyt*.
Daniel ab Llosgwrn Mew: M.A. i. 268.

Ae harglwyt gwladlwyt gwlad lewenyt
A wna y notua yn da *diwenyt*.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 360.

Y mae chwarëyddion . . . a chwaraewyr hud a lledrith yn fwy *dywenydd* ganthaw na gwŷr o ddysg.
I. B. Hir: Gweith. 247.

Duw anwyl, er *dywenydd*,
A'm codo, a'm rhoddo'n rhydd.
G. Mechain: Gwaith, i. 378 (cf. 195, 229, 460, 463).

Yna, er mawr *ddywenydd*,
Athrylith yn fendith fydd.—*Caledfryn:* Caniadau, 93.

Rhoddasant i mi *ddywenydd* nid bychan.
G. Mechain: Gwaith, ii. 247 (cf. 388, 484, 485).

Cymmaint oedd parch prydyddion yr oes i Huw Morus fel ag y byddai *ddywenydd* ganddynt ei grybwyll ef yn eu caniadau.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 589 (cf. 550, 554).

Dywenydd hefyd fyddai genyf weled weithiau ddarlun o wŷr enwog, sef dysgedigion a choleddwyr ein hiaith.
Gwyliedydd, ii. 19 (cf. 43, 77, 254).

Dyweyd, *v.* [gweyd=gwedyd] to say, to speak, to tell, to utter. See *Dweyd*.

Haws *dyweyd* na gwneyd.—*Diareb.*

Y mae rhyw beth oddi mewn yn *dyweyd*, 'Nid myfi yw hwn yna.'—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Duwin. 131.

Dywgwener, *sm.* [=dyw Gwener] Friday. See *Dyw*.

Dywgwyl, -iau, *sm.* =*Dygwyl*.—*S.*

Y gleisiad, *ddywgwyl* Oswallt,
Ydyw yr hydd, o'r dwr hallt.—*L. G. Cothi*, v. v. 41.

Dywiau, *sm.* [=dyw Iau, Difiau, Dyfiau, dydd Iau] Thursday.—*S.*

Dywibio, *v.* [gwibio] to wander, to rove.

Hedodd, ymgasglodd pob gwynt,
Dywibiodd i'r deheu-bwynt.—*Dafydd Ionawr*, 177.

Dywiriad, -au, } *sm.* a verifying, verification;
Dywiriant, } assertion.

Dywirio, *v.* [gwirio] to verify; to assert; to confirm.

Diareb yw hon, *dywirir* ym mro,
'A laddo a leddir.'—*Dafydd ab Gwilym*, ccxxxii. 53.

Dywirio mai tad arab,
Haeddol o'i ryfeddol fab,
Ydoedd.—*Dafydd Ionawr*, 226.

Dywiriol, *a.* verifying; assertive.

Dywiriwr, wyr, *sm.* a verifier; an assertor.

Dywisgad, } -au, *sm.* [gwisgo] a dressing,
Dywisgiad, } clothing, or arraying.

Dywisgo, *v.* to dress, clothe, or array.—*P.*

Dywisgol, *a.* arraying, dressing.

Dywllun, *sm.* [=dyw Llun] Monday.—*S.*

Deg nithiad, doe y gwnaethum
Dywllun oed â bun lle bûm.
Dafydd ab Gwilym, xl. 1 (cf. cxxix. 9).

Hi a wisg *Ddwllun* Ddamasc ddillad.
L. G. Cothi, i. ix. 19.

Dywllun y mudais o'm delli i Gaer,
Gwell oedd im' fy nghrogi.—*L. G. Cothi*, v. vi. 17.

Dywmawrth, *sm.* [=dyw Mawrth] Tuesday.

D. fydd cyfnewid o Fawrth,
A D. yma yw *Dywmawrth*.—*L. G. Cothi*, iv. xiii. 1.

Dywmercher, } *sm.* [=dyw Mercher, dyw
Dywmerchyr, } Merchyr] Wednesday.—*S.*

Dywod, *v.* =*Dywawd, Dywad, Dyfod=dywedodd* (*dixit*).

Iessu a *dywot* wrthaw yn ymdidangar.
Buchedd Mair, § 33 (cf. 27, 28).

Ac val hynny y *dywot* pawb or dyscyblon.
Y Groglith, § 3 (cf. 14).

A Dewi a *dywot* vrthaw. angel yr Arglwyd a *dywot* ymi.
Buchedd Dewi: Ll.A. 108 (cf. 4).

Wrth wyr Rufein y *dywot* Sibli.
Prophwydoliaeth Sibli, § 7.

Oni ddaw'r man a *ddywod*,
Claf o'm ais y clyw fy mod.—*H. D. Llwyd.*

Digitized by Google

Dywod, *v.* =*Dyfod* (*venire*).

Ni bu hir cyn *dywod* o berchenog y ddolfaes gyda'i arthgwn a'i waedgwn . . . a'i ddal a'i ffrwynaw.—*Iolo Mss.* 175.

A chan Dduw na chawn *ddywod*
Mewn tŷ fry er maint fai 'r ôd.—*Tudur Aled.*

Dywolder, *sm.* =*Duwiolder, Dwyfolder.*

Yno beunyd y doent y wneuthur aberth y Duw herwyd anryded *dywolder.*—*Buchedd Mair,* ‖ 21.

Dŷwrtheb, -ion, *sm.* [gwrtheb] a response, answer, or reply.—*P.*

Dŷwrthebiad, -au, *sm.* responsion; altercation; contradiction.—*P.*

Dŷwrthebu, *v.* to reply, answer, or respond.

Dŷwrthred, -ion, *sf.* [gwrthred] adversity; distraction.

A hetiw ym daw *dywrthred* oe dwyn
Handwyf dirrwyn urwyn oe uraw golled.
Cynddelw: M.A. i. 220.

Dŷwrthrediad, -au, *sm.* a going in opposition; a distracting; distraction.—*P.*

Dŷwrthredol, *a.* going adversely; opposing.

Dywsadwrn, sadyrnau, *sm.* [=dyw Sadwrn] Saturday.—*S.*

Dywsul, -iau, *sm.* [=dyw Sul=dydd Sul] Sunday.

Daethym *Ddywsul* diwethaf . . .
I dref ddwbl, gaer gwbl gwyrgam.—*L. G. Cothi,* v. vii. 1.

O achaws na chedwch *dwwsul* santeid bendigedic yd amylhaant yn awch plith cribdeiledigyon vleideu a chwn kandeiriawc.—*Ebostol y Sul.*

Gorwedd mewn caled-fedd cul
A ddewissaist fed *Ddywsul.*—*Sion Cent.*

Dywsul Ynyd, *Dywsul* hefyd, *Dywsul* a ddaw, *Dywsul* gar llaw, *Dywsul* y Blodau. . . *Dywsul* y Sulgwyn.
W. Salesbury, s.v.

Dywsul y Blodau, Palm Sunday.—*S.*

Dywsul y Sulgwyn, Whitsunday.—*S.*

Dywsul y Pys, } Sunday come never; the
Dydd Sul y Pys, } Greek Calends.—*M.A.* iii. 182.

Dydd Sul y Pys yw Sul na ddaw byth; gan nad oes Sul o'r enw yn holl gorff y flwyddyn.—*Ystên Sioned,* 98.

Nid oes un wreichionen o dân yn y peth a welwch chwi yna yn goleuo; a phe chwythech arno hyd *ddydd Sul y Pys,* ni chynneuid byth mo'r dail a'r briwwydd.
Brython, iii. 118.

¶ Sometimes the redundant or tautological expression *Dydd Dywsul* occurs.

Ac odyna gwawr *dyd dywssul* y doethant Meir Vagdalen. a Meir arall y edrych y bed.—*Y Groglith,* ‖ 14.

Dywsulgwaith, *sm.* a Sunday; a certain Sunday; on a Sunday.

Dywsulgwaith, dewis wyl-gamp . . .
Fal yr oeddwn ar weddfyd
Mewn eglwys, baradwys bryd.
Dafydd ab Gwilym, ccxxxviii. 1.

Dŷwthiad, *sm.* propulsion, protrusion.—*P.*

Dŷwthio, *v.* [gwthio] to propel, to protrude.

Dŷwthiol, *a.* protrusive, propelling.

Dywy, -on, *sm.* [gwy] vapour, fog.—*P.*

Dywydd, *sm.* [dy-+chwydd?] 'a being made conspicuous;' the swelling of the milk vessels in animals near the time of bringing forth their young.'—*P.*

Buwch ddywydd, a cow near calving.

Dywyddiad, -au, *sm.* the springing of the milk-vessels.—*P.*

Dywyddlawn, *a.* fully conspicuous; full of springing; teeming with tears.—*P.*

Neum dotyw defnyt dyt *dyuytlawn*
Dyuod y gyfnod y Gadwallawn.—*Cynddelw:* M.A. i. 218.

Dywyddol, *a.* tending to fill out.—*P.*

Dywyddu, *v.* 1. to swell with milk before having young; to spring as the udder of a cow, and some other domestic animals.—*C.S.*

2. to make apparent; to fill or fill out.—*P.*

Stauell Gyndylan ys tywyll y nenn
Gwedy Gwen gyweithyd
Gwae ny wna da ae *dyuyd.*
Llywarch Hen: A.B. ii. 281 (M.A. i. 106).

Dywyll, *a.* [gwyll] of a dark colour; of a gloomy hue; blackish.

Os gwartheg *dywyllion* fyddant, tarw *dywyll* wrth bob can muw o naddynt.
Leges Wallicæ, iii. ii. 1 (cf. C.C. i. 234).

Dywylliad, *sm.* a darkening; a blackening.

Dywyllio, }
Dywyllu, } *v.* [dywyll] to darken; to blacken.

Dywyn, }
Dywyno, } *v.* [gwyn, gwynu: cf. *tywynu*] to make fair, bright, or white; to whiten; to shine or glister; to make blessed, to bless; to consecrate.
Dywynu, }

Arthur yssyd geuynderw itt. dos att Arthur y *diwyn* dy wallt. ac erchych hynny idaw yn gyuarws itt.
Mabinogion, 102.

Diwyn vyg gwallt a uynnaf. Ti a geffy hynny. Kymryt crip o Arthur. a gwelleu a doleu aryant idaw. a chribaw y benn a oruc. a gouyn pwy oed a oruc Arthur.
Mabinogion, 106.

Dywyn dy wynfyd
Dy gangau genyd.—*Gwalchmai:* M.A. i. 199.

Dywyndeb, *sm.* [dywyn] brightness; splendour; blessedness.

Dywyneb, -ion, *sm.* 'that makes fair, bright, or pure; a blessing.'—*P.* See *Diwyneb,* and the note thereon.

Dywynedig, *pt.a.* brightened; blessed.

Dywynedigaeth, -au, *sf.* a making fair or bright; the act of blessing.—*P.*

Dywynfaddeu, *v.* [dywyn+maddeu] to send to blessedness; to sentence to death.—*P.*

Dywynfaddeu, *a.* being condemned or sentenced to death.—*P.*

Dywyni, *sm.* [dywyn] a brightening; a making fair; expiation; a blessing.

A chymryt y gan Duu *diwynhi.*
A Chymro divro divrat wedi.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 324.

Dywyniad, -au, }
Dywyniant, } *sm.* a brightening, a making fair or clear; a blessing; beatification.—*P.*

Dywynid, *sm.* [dywyn] splendour; apparency.

Dywynig, *a.* splendid, shining, bright; illustrious; beatific.

A dlyedawg a diwladaidd lyw
A *dywynnig* yw a dewiniaidd.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494.

Dywynu, *v.* =*Dywyn, Dywyno.*

Dywynwr, wyr, }
Dywynydd, -ion, } *sm.* one who blesses.

O flaen aflonydd oedd *dywynydd,*
Ef a wnai lonydd ofn ei linon.—*Hywel Dafydd ab Ieuan.*

Digitized by Google

Dywynyg, } *v.* [dywyn] to make clear, ap-
Dywynygu, } parent, or glittering; to appear; to show; to shine; to glitter.

Dywynnyc dy wir dy wynnyas.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 239.

Mae yn *dywynyg* arno ei faeth.—*Dr. I. D. Rhys.*

Dywynygiad, -au, *sm.* a shining, a brightening, a glittering.

Dywynygol, *a.* brightening, shining.

Dywyrnod, } *pl.* dywyrnodau, *sm.* =*Diwrnod,*
Dywyrnawd, } *Diwarnod.*

Dywystliad, } *sm.* a pledging; a giving se-
Dywystlad, } curity; a doing homage.

Dywystlo, *v.* [gwystlo] to pledge, to give a pledge; to do homage.

Dychlud clod Brydain bedrydanau
Dygwystlir idaw o Din Alclud gogled
Draig yw yn dyhed drawen yn dehau.
Gwalchmai: M.A. i. 195.

Dywystlog, *a.* holding a pledge.—*P.*

Dywywiad, *sm.* a fading away; a withering.

Dywywiol, } *a.* [gwyw] fading; withering;
Dywywol, } evanescent.

Dywywo, } *v.* [gwywo] to fade; to wither;
Dywywio, } to grow dim.

Glas sy benaf lliw canolig . . . yn dechreu o wyn, ac yn *dywywiaw* mewn du.—*Traethawd Arwyddoni.* (*P.*)

Dÿyrthryn, *sm.* [gwrthryn] repulsion; resistance.

Dÿyrthryniad, -au, *sm.* a coming in opposition; repulsion.

Dÿyrthrynol, *a.* repulsive, repelling, repellent.

Dÿyrthrynu, *v.* to repulse, to repel; to beat or drive back.

Dyvrys gwanec *dygwrthryn* gro
Gwst eidyl moch detwyn.
Llefoed: A.B. ii. 306 (M.A. i. 155).

DD

DD, *sf.* the sixth letter and the fifth consonant of the Welsh alphabet, is a soft mutation of *d*, and begins no word in its primary state. Its power is the same as that of the English *th* in *the, that, father.* It is one of the latest digraphs adopted to represent a simple sound, and the combination cannot be considered a happy expedient. A few instances of it occur as early as the later part of the *Llyfr Du*, or Black Book of Carmarthen (folio 35); but it was some centuries later before the use of it became general.

Y *Beddeu* yny morua
Ys bychan ay haelewy . . .
Bed einyawn ab *cunedda*
Cwl ym prydein y *ddiua.*—*Llyfr Du:* A.B. ii. 35.

It is found also in two or three passages in *Llyfr Ancr Llanddewi Brefi*, written in A.D. 1346. Other early examples are given by Zeuss (*G.C.* 139, 140); but most of them are probably the errors of transcribers.

In the earlier literature, more especially in the prose, *dd* is usually represented by a single *d;* but in some of the poetry, as it has come down to our time, *t* is sometimes used for *dd*, while the single *d* retains its own value. Somewhat later *dh*, đ, and *dd* were introduced, and were used almost indiscriminately; but gradually the use of *dd* prevailed; and before the end of the 16th century, it had, with some important exceptions, become general. W. Salesbury (1547, 1567) usually, but not consistently, employs *dd.* Dr. Gr. Roberts, whose *Gramadeg* was printed at Milan in 1567, uses *d* with a dot underneath in all his writings. Dr. I. D. Rhys (1592) represents the sound regularly by *dh;* and so does Henri Perri in *Egluryn Ffraethineb*, printed in 1595; and the same orthography is adopted by Roger Smith in his *Eglvrhad Helaethlawn o'r Athrawaeth Gristnogavvl*, printed on the Continent in 1618. Bishop Morgan's Bible has *dd* throughout; and the appearance of this noble work, which was printed in 1588, tended to establish the use of it. The same orthography was adopted in the *Homiliau* (1606), in Bishop Parry's revision of Morgan's Bible (1620); and by Dr. John Davies in his Grammar (1621) and Dictionary (1632); and ever since, with very rare exceptions, the digraph *dd* has been acknowledged as the representative of this sound. Edward Lhwyd, in his great work, the *Archæologia Britannica*, published in 1707, reintroduced *dh*, and with it he used an Irish character resembling the Greek δ; and Dr. W. Owen Pughe, in the first edition of his Welsh Dictionary (1803) used *z*, as in Breton, for *dd;* but in the second edition (1832) he abandoned it, and adopted, as in all his subsequent writings, the usual character *dd.*

Dd, like its primary *d*, lengthens the vowel that immediately precedes it; as, *gradd, bedd, pridd, bodd, prudd, dydd; naddu, heddwch, iddo, toddi, suddo, nyddu.* See *Llythyraeth yr Iaith Gymraeg*, §§ 35—88.

In some words *dd* and *f* are apt to be interchanged, especially in the spoken language; as *addanc* and *afanc; cuddigl* and *cufigl; eddain* and *efain; gwyddon* and *gwyfon; gwyryf* and *gwyrydd* or *gweryd; hwyddell* and *hwyfell; nwyddau* and *nwyfau; plwyf* and *plwydd; twrdd* and *twrf; ufudd* and *uddyf* or *udduf. Creddyf* and *tangneddyf* were commonly used for *crefydd* and *tangnefedd*, as late as the end of the 18th century. *Eiddionydd* and *Eifionydd* are the same name, and both forms are of early occurrence.

Digitized by Google

CHIEF ABBREVIATIONS.

(*Continued.*)

Ll.A. Llyfr Aner, 1894.
Ll.C.H. ii. Llyfr Coch o Hergest, ii., 1890.
M. Esgob Morgan, Beibl, 1588.
M.A. *or* Myv. Arch. Myvyrian Archaiology (1801—7).
M.W. Middle or Medieval Welsh.
Mab. Mabinogion. Lady Charlotte Guest's edition (1849) is referred to by *volume* and page, the Oxford edition (1887) by *page only*.
Mod. Modern.
Mx. Manx.
N. Anonymous.
N.E.W. North East Wales.
N.W. North Wales.
N.W.W. North West Wales.
O.E. Old English.
O.Ir. Old Irish.
O.V. Old Vocabulary.
O.W. Old Welsh.
P. Dr. W. Owen Pughe, Welsh Dictionary, 1803 and 1832.
R. Thomas Richards, Welsh-English Dictionary, 1753.
R.V. Revised Version of the English Bible, 1881.
Rh.B.S. Rheol Buchedd Sanctaidd (Elis Wynn).
S. W. Salesbury, Welsh Dictionary, 1547.
S.E.W. South East Wales.
S.W. South Wales.
T.N. Testament Newydd (Dr. T. Briscoe, 1894).
W. Rev. John Walters, English-Welsh Dictionary, 1794.
W. Welsh.

* marginal reading.
† obsolete form.

ERRATA.

Addoliad. *Tŷ addoliad* and the quotation should be under *Addoliad* (1).

Asedd. For Gododin, *Aneurin*, read *Aneurin:* Gododin,

Brychan. For *Llywarch ab Llywarch*, read *Llywarch ab Llywelyn.*

Byrhoedlog. Read
Byrhoedlawg dygasawg saint.

Clyr (Hawd y). Read
Rheitia' cledd, gŵyr *Rhawt y Clyr.*
D. ab Gwilym, cxxxiv. 43.

Cyfrwy, for *sf.* read *sm.*

Cymmun. For L. *cymmunio*, read L. *communio.*

Dinas, for *sm.* read *sf.*

Dyheiren. Read **Dyheiren,** -od, *sf.*

Awgrym. *Dict. Phil. Soc.*, now called '*The Oxford English Dictionary.*'

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

This book should be returned to the Library on or before the last date stamped below.

A fine of five cents a day is incurred by retaining it beyond the specified time.

Please return promptly.

Digitized by Google